




3 1761 06980525 7



Presented to
The Library
of the
University of Toronto
by
Mrs. S. Collins

HANDBOUND
AT THE



UNIVERSITY OF
TORONTO PRESS



Digitized by the Internet Archive
in 2010 with funding from
University of Toronto



(3)

8071

1

William Griffiths
Bowchytap
& Book
1858



Y

DEONGLYDD BERNIADOL,

NEU


EGLURHAD MANWL AR BOB ADNOD

YN YR

HEN DESTAMENT A'R NEWYDD,

ER GWASANAETH

Dr Dsgolion Sabbothol.



GAN Y PARCH. JOHN JONES, (IDRISYN,)

FICER LLANDYSILIO, CEREDIGION.

CYFROL I.

O GENESIS HYD DEUTERONOMIUM.

MACHYNLLETH :

CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN ADAM EVANS.

AR WERTH HEFYD

GAN HUGHES A BUTLER, LLUNDAIN.

A'R HOLL LYFRWERTHWYR.

1858.

B5
30F
1858
v.1

ADAM EVANS, ARGRÄFFYDD, MACHYNLLETH.

609294
27.5.55

I'R

GWIR BARCHEDIG CONNOP THIRLWALL, D.D.

ARGLWYDD ESGOB TYDDEWI,

Y CYFLWYNIR YN OSTYNGEDIG Y GWAITH HWN,

FEL ARWYDD O ANRHYDEDD

I'W SWYDD UCHEL YN EGLWYS CRIST,

A'I DDEFNYDDIOLDEB YNDDI;

FEL CYDNABYDDIAD

O'I DALENTAU UCHEL, EI DDYSGEIDIAETH HELAETH,

A'i wybodaeth eang o'r Gymraeg;

AC FEL AMLYGIAD

O'R PARCH A DEIMLIR IDDO YN BERSONOL, AR GYFRIF

EI YMOSTYNGIAD, A'I DIRIONDEB ARFEROL

AT EI ANNHEILYNGAF WASANAETHYDD,

YR AWDWR.

R H A G Y M A D R O D D . *

WELE Y DEONGLYDD BERNIADOL ar BUM LLYFR MOSES o'r diwedd wedi ei orphen, a hyny yn y modd goraf ag y medrwn i gyda chymhorth Esbonwyr hen a diweddar. Yr achos o ddygiad allan y Gwaith hwn oedd y galwadau mynych a wneid arnaf o bob cwr o'r Dywysogaeth, gan Athrawon yr Ysgolion Sabbothol ac ereill, i gyhoeddi rhywbeth o'r fath er gwasanaeth i'r Ieuenctid; ac yr oeddwn yn teimlo fod eisiau rhywbeth o'r fath, yn neillduol yn y dyddiau hyn, pan y mae y fath ysbyrd darllen a chwilio yn y wlad.

Nid wyf yn proffesu fod y Gwaith hwn oll yn wreiddiol oddiwrth y fi, eithr yr wyf yn addef yn hyf fy mod wedi lloffa iddo o holl faesydd llenyddiaeth o fewn fy nghyraedd, gan ddethol iddo yr holl bethau a farnwn yn addas er ei wneyd yn deilwng o *dderbyniad cyffredinol gan ein cenedl, o ba enwad bynag*. Bum unwaith yn meddwl rhoddi enwau y gwahanol awduron wrth eu sylwadau yn y Gwaith hwn, fel y gwnaethym yn yr *ESBONIAD BERNIADOL* a gasglwyd genyf er's dros ugain mlynedd yn ol; ond gwelais fod hyny yn hollol annichonadwy, trwy fy mod yn aml yn codi o bump neu ddeg o awduron i wneuthur un sylwad, gan roddi darn o eiddo y naill yn nghanol darn o eiddo y llall, neu ffurfio o eiddo y cwbl un meddwl o'r eiddoffy hun: ond pa bryd bynag y barnwn fod yn angenrheidiol profi yr awdurdod, enwid yr awdwr. Hefyd, nid oeddwn yn ystyried fod yn briodol bob amser roddi enwau yr Esbonwyr wrth bethau a godid o'u gwaith, am fy mod mewn miloedd o anghreiffitiau yn gallu olrhain eu pethau hwy i awduron a ymddangosasant o'u blaen, a phethau y rhai hyny drachefu i awduron a ymddangosasant o'u blaen hwythau; i.e. yr oeddwn yn gweled yn eglur mai yr un drefn yn hollol a'r eiddoffinau a fu gan hawb o'r Esbonwyr er dyddiau y tadau. Ar yr un pryd dichon y bydd i'r cyfarwydd ganfod yn y Gwaith hwn gymaint o *wreiddiolrwydd* ag a geir mewn unrhyw Esboniad o'i faint a gyhoeddwyd yn y tri chanrif diweddar.

Y mae holl genhedloedd y ddaear, y rhai a dderbyniasant yr Ysgrhythrau Sentaidd fel dwyfol ddatguddiad, yn cytuno gyda gwlwg ar y priodoldeb a'r angenrheidiolrwydd o'u hegluro hwynt trwy *Esboniadau*; ac mewn cyfartalwch i bellder yr amser oddiwrth y cyfnod yn yr hwn yr oedd y profiwyd i'r apostolion sentaidd yn eu hysgrifenu, deuai yr angenrheidiolrwydd am *Esboniadau* yn fwy amlwg; oblegid gan i gyflwr gwladwriaethol y bobl i'r rhai y rhoddwyd yr Ysgrhythrau ar y cyntaf, yn gystal ag eiddo y genhedloedd amgylchynol, gael yn mhen amser ei hanfodol gyfnewid, o ganlyniad gwelid yr angenrheidiolrwydd am *sylwadau hanesiol ac amseryddol* i egluro y ffeithiau adroddedig yn y llyfrau sentaidd. Ar y cyntaf ymddengys mai gosodiad *gair* neu *fraudddeg* ar ymyl y ddalen, i egluro rhyw ran neillduol o'r testyn, a gyfansoddi ar oll o'r Esboniad. Wedi hyny cafodd y rhai hyn eu cymysgu gyda'r testyn, gyda llinell *ddi* danynt i'w gwahaniaethu oddiwrth y geiriau ag y bwriedid iddynt eu hegluro; a'r rhai hyn a roddasant gyfodiad i luoedd o'r *amryw ddarlleniadau* a geir mewn hen ysgriflyfrau. Eithr weithiau ysgrifened yr Esboniad bob yn ail llinell a'r testyn; a thro arall rhoddid ef yn ngwaelod y ddalen, fel ei ceir yn y Gwaith hwn.

Trwy fy mod yn amcanu y Gwaith hwn yn benaf i'r YSGOLION SUL, bernais yn angenrheidiol, ar ol derbyn amrai gymhelliadau oddiwrth Offeiriadau a Phregethwyr, yn gystal ag Athrawon y sefydliadau daionus hyny, gyhoeddi yr *Ysgrhythrau* yn mhen y ddalen, yn gystal ag *Esboniad* ar bob adnod yn ei gwaelod hi; yr hyn, er yn chwyrddo y pris ychydig yn fwy, sydd yn gwneuthur y llyfr yn llawer mwy gwerthfawr a hylaw at wasanaeth gyffredin.

Bellach, gan obeithio y bydd i'r darllynydd gael yr un hyfrydwch wrth ei ddarllen ag a gefais i wrth ei ysgrifenu; a chan weddio am i Dduw ei wneyd yn fendith i'r oesau a ddal, pan fyddaf fi yn huno gyda'm tadau yn llwch angau, y gorphwysaf, yr eiddoch yn ffyddlon,

JOHN JONES.

LLANDYSILLO, *Ceredigion, Mawrth, 1858.*

* Am Ddwyfol Ysbyrdoliaeth yr Ysgrhythrau Sentaidd, a hanes yr Ysgriflyfrau gwreiddiol, yn nghyda'r gwahanol Gyfeithiadau, &c., gwel yr *ATODIAD* yn niwedd Llyfr *Malachi*.

LLYFR CYNTAF MOSES,

A ELWIR

GENESIS.

GENESIS sydd air a fenthycewag o'r Roeg, yn arwyddo *cenhedliad* neu *gymyrciad*. Yn nghyfieithiad y LXX gelwir y llyfr hwn *Biblos Geneosós*, 'Llyfr y Cenhedliad,' am ei fod yn rhoddi hanes cread y nef-oedd a'r ddaear, a'r holl betahan a welir; ond yn yr Hebraeg gelwir ef *Beresith*, 'Yn y Dechread,' oddiwrth y gair cyntaf, ac yn yr Arabaeg, 'Llyfr Duw.' Yn chwaneog at hanes y cread, danghosa i ni gwmp dyn, yr addewid o Waredwr, llygriad a dinestr y cynddyliadaid, cadwraeth Noa, a galwad Abram; ac y mae yn dwyn hanes y byd, neu yn lytrach yr eglwys, i lawr at farwolaeth Joseph, yn cynwys yr oll o'r Oruchwyliaeth Batriarchaidd, gan gyraedd yn ol y cyfrif lleiaf i y flwyddyn 2369 o oed y byd, a chyn Crist 1635 o flynyddan. Barna rhai mai pan yr oedd Moses yn Midian, yn bugeilio defaid Jethro, Exod. iii. 1, yr ysgrifennodd efe llyfr Genesis. Nid oes mewn hen awdwyr ddim crybwylliad am neb yn gwadu dilysrwydd ac awdurdod llyfrau Moses y gwaith diweddar, yn benaf wedi y flwyddyn o. c. 1805, yw hyny; a gwaith a ddanghoswyd i fod yn ddisail ac afresymol. Yr oedd yn hawdd i Moses gael ei foddloni am wirionedd y cwbl ag y mae yn ei adrodd yn llyfr Genesis, a chaniatáu mai trwy DRADDODIAD y derbyniasai efe yr hanes. Gallwn feddwl fod Adda, yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd, wedi cael hysbysrwydd gan ei Greadwr am gread y nefoedd a'r ddaear, am mai fel CREAWDWR yr oedd efe y pryd hyny yn ei addoli. O *Adda* hyd *Noa* nid oedd ond un dyn yn angenrheidiol i drosglywddo yr hanes am yr yspaid hwn o 1656 o flynyddau; ac yr oedd yr hanes yma yn ddiamau yn hysbys i *Methusela*, yr hwn a fu byw i'w gwelod hwy ill dau. Bu hwn byw oddeutu 243 o flynyddau ar yr un pryd ag *Adda*, a 599 o flynyddau ar yr un pryd a *Noa*. Yr un moid darfu i *Sen* gysylltu *Noa* ac *Abraham*, trwy fyw i ymddyddan â'r ddau; megys y gwnaeth *Isaac* ag *Abraham* a *Joseph*, oddiwrth yr hwn y gallasai y pethau hyn gael eu cyfiebu yn hawdd i *Moses* gan ei dad *Anram*, yr hwn oedd yn gydoesawl â *Joseph*. A thbyg gan hyny nad oes i'r holl feithiau rhyfedd a goffeir yn llyfr Genesis un awdurdod amgen na'r TRADDODIAD ag y cyfeiriwyd ato eisioes, hwy a safant ar sail o hygoeldd rhagorach na dim ag y gall y mwyaf cyfrifol o'r heu hanes-wyr Groegaidd a Lladinaidd ymfroffio ynddo. Eto, i gau allan bob posibilrwydd o gamgymeriad, yr oedd YSBRYDOLIAETH ddigyfeiliorn Duw yn cyfarwyddo Moses yn ei holl adroddiad. Yn wir y mae yr hanes mor ddiaddur, mor debyg i wir, mor gyson â'i gilydd yn mhob rhan, mor ddiduedd yn ei bywgraffiadau, mor fanwl yn ei hadroddiadau athroniaethol, mor bur yn ei moesoldeb, ac mor haelionus yn ei hamcan, fel ag i brofi yn gyflawn nas gallasai fod wedi cael gwreiddyn *daearol*. Yn yr achos hwn hefyd gwnaeth Moses bob peth 'yn ol y portoriaid a ddanghosodd Duw iddo ar y myndd.' Y mae cryn oleuni wedi ei dafu ar y llyfr hwn trwy y datguddiadau diweddar yn *Ninefe* a'r *Aiff*. Tystion claddedig am oesau a wysiwyd o'u beddau i gadarnhau gwirionedd yr Ysgrhythrau, a hyny pan yr oedd y cadarnhad hwn yn fwyaf angenrheidiol. Ac nid yw cynydd gwir wyddiannaeth yn anewillysgar i gadarnhau gwirionedd ysbrydoledig.

PENNOD I.

YN y dechread y creodd Duw y nef-oedd a'r ddaear.

PEN. I. Adn. 1. *Yn y dechread*] Y mae y gair hwn yn fynych yn meddwl TRAGWYDDOLDEB, Ioan i. 1; Eph. i. 4. Tybia rhai ei fod yma yn arwyddo dechread amser: ond nis gellir ystyried amser yn dechreu yn briodol hyd y dydd cyntaf, adn. 5; tra y mae yn dehygol y gall fod y cyfnod hwn, megys y lled ddanghosa daeareg, yn cyfeiro at bwynt boreach o amrai filoedd o flynyddoedd, fel yr adeg hōno yn nhragwyddoldeb yn mhau un y crewyd mater, ac y dygwyd y tryblith i fodolaeth. Nid ydym i feddwl gyda'r hen athronyddion fod mater yn dragwyddol, na chyda rhai ddwynyddion mai ar y dydd cyntaf o'r chwech y crewyd y cymysgodd o'r hwn y gwnaed y ddaear. Ymddengys i mi mai yr ystyr yma yw, mai ar yr un pryd ag y creodd Duw y nefoedd, neu yr amlygodd efe gyntaf ei allu creadigol, y ffurhodd efe hefyd y tryblith 'afluniaidd a gwâg' hwnw o ba un, yn mhen yspaid maith wedi hyny, y gwnaeth efe mewn chwe diwrnod yr oll a welir. *Y creodd Duw*—trwy fod y gair ELOHIM, a gyfieithir yma *Duw*, yn y rhif lluosog, ac yn cael ei gysylltu â'r ferf *bara*, 'creodd,' yn y rhif unigol, dysgir i ni fod y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, y DRINDOD Mewn USOD, yn crydweithredu yn ngwaith y cread, adn. 26; ac yn gyson â hyny priodola yr ysgrhythrau gread pob peth weithiau i'r Tad, bryd arall i'r Mab, a phryd arall i'r Ysbryd Glân. *Y nefoedd*—yr holl fydoedd

2 A'r ddaear oedd afluniaidd a gwâg, a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder, ac Ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd.

creadigol ar wahan i'n byd ni; a'r ddaear—y tryblith materiol o ba un y ffurfiwyd y ddaear i'w dull presenol ar y trydydd dydd, adn. 9, 10. Fel hyn gwelwn nad yw datguddiadau diweddar daeareg (*geology*), a'u cymeryd yn eu heithafon gwyllt, yn milwrio dim yn erbyn yr hanesiaeth ysbrydoledig fel ei hysgrifennwyd gan Moses.

Adn. 2. *A'r ddaear oedd afluniaidd a gwâg*] Yn grynsudd cymysgled ac anhrefnus, heb arni hydyfiant na bywyd o un math. *A thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder*—dros holl wyneb y crynsudd cymysgled hwn, trwy nad oedd goleuni eto wedi ei lefaru i fodolaeth; ac *Ysbryd Duw*—y trydydd person yn y Drindod santaidd. Tybiodd rhai mai *gwynt* angerddol a feddylir, am fod y gair Hebreig *ruach* yn aml yn arwyddo gwynt yn gystal ag ysbryd, megys y gwna *pneuma* y Roeg; ond y mae yn eglur oddiwrt ddefnyddiad y gair mewn lleoedd ereill, fel y sylwa Clarke, mai Ysbryd Santaidd Duw sydd yn cael ei olygu, yr hwn y mae ein Harglwydd bendigedig yn ei osod allan dan y dybiaeth o *wynt*, Ioan iii. 8, a'r hwn 'megys gwynt nerthol yn rhuthro,' ar ddydd y pentecost, a lanwodd yr holl dŷ, Act. ii. 2—4. *Yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd*—ag oeddynt yn gorchuddio y ddaear, 2 Petr. iii. 5, i'w maethu, eu bywhau, a'u haddasu er cynyrciad y pethau a grybwyllir ar ol hyn. Y gair Hebreig

3 A Duw a ddywedodd, Bydded goleuni, a goleuni a fu.

4 A Duw a welodd y goleuni mai da oedd: a Duw a wahanodd rhwng y goleuni a'r tywyllwch.

5 A Duw a alwodd y goleuni yn Ddydd, a'r tywyllwch a alwodd efe yn Nos: a'r hwyr a fu, a'r bore a fu, y dydd cyntaf.

6 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Bydded ffurfafen yn nghanol y dyfroedd, a bydded hi yn gwahanu rhwng y dyfroedd a'r dyfroedd.

7 A Duw a wnaeth y ffurfafen, ac

a wahanodd rhwng y dyfroedd oddi tan y ffurfafen, a'r dyfroedd oddiar y ffurfafen: ac felly y bu.

8 A'r ffurfafen a alwodd Duw yn Nefoedd: a'r hwyr a fu, a'r bore a fu, yr ail ddydd.

9 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Casgl-er y dyfroedd odditan y nefoedd i'r un lle, ac ymddanghosed y sychdir: ac felly y bu.

10 A'r sychdir a alwodd Duw yn Ddaear, a chasgliad y dyfroedd a alwodd efe yn Foroedd: a Duw a welodd mai da oedd.

a gyfieithir yma 'ymsymud,' a ddefnyddir, Deut. xxxii. 11, am yr cryr yn castellu dros ei gywion, ac am ebediaid yn eistedd ar eu hwyau i'w cythesu a'n deor.

Y DYDD CYNTAF.

Adn. 3. *A Duw a ddywedodd*] Nid trwy lais llefariadol; canys writh bwy y llefarai? ond yn ei feddwl tragwyddol ei hun. Efe a ewyllysiai, a'r peth a gynyrchwyd. *Bydded goleuni*—sonir yma am gread goleuni cyn bod haul, yr hyn a wawdiwyd gynt gan anffyddwyr yn eu hanwybodaeth: modd bynag cytuna yr athronyddion yn awr fod yr haul ynddo ei hun yn gorff tywyll, ac nad yw ef a'r llenad ddim ond 'eludecion' neu 'offcrynan goleuni,' yr hwn sydd ynddo ei hun yn annibynol ar, ac yn wahanol i'r ddau. Pe na buasai Moses yn ysgrifenu dan ddwyfod ysbrydoliaeth, nid aethai efe mor bell ar draws y dyb gyffredin, gan nad oes un arwydd croes i'r dybiaeth mai yr haul yw ffynonell wreiddiol goleuni yn ymddangos i olwg gyffredin. Felly ni a welwn fod athroniaeth a daeareg, yn lle gwrthwynebu adroddiad Moses, yn ei gadarn- haul, gan brofi hefyd ei ddwyfod ysbrydoliaeth ef: gwel ar adn. 14—16.

Adn. 4. *A Duw a welodd y goleuni mai da oedd*] Efe a edrychai arno gyda beddlon- rwydd, fel yn berffaith gyfaddas i ateb ei ddy- ben bwriadol: gwel ar adn. 10. *A Duw a wahanodd rhwng y goleuni a'r tywyllwch*—nid o ran eu natur, canys yr oedd y gwaban- iaeth hwnw yn bodoli o angenrheidrwydd; ond o ran eu henwan, trwy alw y cyntaf yn *Ddydd*, a'r olaf yn *Nos*, adn. 5. Neu gall mai yr ystyr yw, ddarfol iddo beri i'r naill ddy- lyn y llall yn rheolaidd, yr hyn a achosir trwy droed y ddaear ar ei hechel, neu o amgylch ei phegyn ei hun, bob 23 o oriau, 56 o fynyddau, a 4 eiliad, yr hyn yw yr achos o ddydd a nos, trwy ddwyn gwahanol ranau gwyneb y ddaear yn olynol dan ac odditan belydr yr haul; a bernir mai y pryd hyn y rhoddes Duw y chwyldroad hwn i'r ddaear, i beri y ddarpar- iaeth rasol hon o ddydd a nos.

Adn. 5. *A'r hwyr a fu a'r bore a fu y dydd cyntaf*] Y mae yr hwyr yn cael ei enwi yn gyntaf, am fod tywyllwch o flaen goleuni, adn. 2, 3, ac am fod yr Iuddewon yn dechreu eu dydd hwy o bedair awr ar hugain yn yr hwyr: gwel ar Lef. xliii. 32, a'r adfeddyliadau yn niwedd y beuned.

YR AIL DDYDD.

Adn. 6. *Bydded ffurfafen yn nghanol y dyfroedd*] Ystyr y gair *rakia*, 'ffurfafen,' yw ESTYNIAD neu BANGIAD; ac fel yr oedd yr estyniad hwn i fod yn 'nghanol y dyfroedd,' neu i 'wahanu rhwng y dyfroedd a'r dyfr- oedd,' y mae yn benaf, os nid yn gwbl, yn meddwl yr awyr neu y nwyfre, pa un sydd yn gwahanu y dwfr sydd yn y cymylau oddi- wrth yr hwn sydd yn ac ar y ddaear.

Adn. 7. *Dyfroedd oddiar y ffurfafen*] Pe buasai y ffurfafen hon yn eynwys yr holl *gyf- undrefn heulog*, fel y dywed Clarke, neu yn cyraedd at y *ser sefydlog*, fel y dywed Scott, y mae yn eglur y buasai raid i'r dyfroedd ag y sonir am danynt yma fod uwelilaw yr haul a'r ser! Eithr at y dyfroedd yn y *cymylau* y cyfeirir; ac y mae yn debyg fod cryn gorff o honyt yn nghyd ar y cyntaf.

Adn. 8. *Nefoedd*] Nid nefoedd y gogon- iant, na'r nef serenog; eithr y nef awyrol, bro yr ebediaid, y rhai a elwir 'adar y nefoedd,' Mat. vi. 26. Gwel ar 2 Cor. xii. 2. Y mae y LXX yn chwaneu yn niwedd yr adnod hon, 'A Duw a welodd mai da oedd;' ond nid yw y darlleniad hwn yn cael ei gydnabod gan o ysgriflyfrau gwreiddiol Kennicott na De Rossi, na chan un cyfieithiad arall. Gwel ar adn. 10.

Y TRYDYDD DYDD.

Adn. 9. *Casgl-er y dyfroedd odditan y nef- oedd i'r un lle*] Fel yn bellad ag y cyrhaedda ein gwybodaeth ni, yr unig sffordd i wneyd hyn oedd trwy beri i'r rai hwan o arwyneb y ddaear ddyrchafu, neu i ereill snaddo, os nid pob un o'r ddau, fel ag i ffurfio moroedd, llynoedd, ac afonydd.

Adn. 10. *A Duw a welodd mai da oedd*] Hyn yw, fod y gweithredoedd dyfrol a gry- bwyllir yn adn. 6, 7, 8, 9, megys holl weith- redoedd ereill Duw, yn ardderchog a pherffaith yn eu rhyw, fel yr arwydda y gair Hebreig *lob*. Trwy fod y cyhoeddiad hwn yn cael ei wneyd nychben gwaith pob dydd ond yr *eil- fed*, a'i fod yn dygwydd ddwywaith ar y *tryd- ydd* dydd, barnodd amrai mai lle yr adran hon yn wreiddiol oedd adn. 8, yn gyson â'r LXX. Ond dichen mai yr achos o'i gosodiad yma yw, am mai ar y trydydd dydd y gor- phenwyd gweithredoedd Duw gyda golwg ar gyfstead y dyfroedd, a'i bod yn cael ei dodi nid yn niwedd gwaith pob dydd, ond yn niwedd pob dosbarth penodol o waith.

11 A Duw a ddywedodd, Egined y ddaear egin, *sef* llyisiau yn hadu had, a phrenau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth, wrth eu rhywogaeth, y rhai y mae eu had ynddynt ar y ddaear: ac felly y bu.

12 A'r ddaear a ddyg egin, *sef* llyisiau yn hadu had wrth eu rhywogaeth, a phrenau yn dwyn ffrwyth, y rhai y mae eu had ynddynt wrth eu rhywogaeth: a Duw a welodd mai da oedd.

Adn. 11. *Egined y ddaear egin, &c.*] Yma cawn hanes cread y deyrnas hydyfol neu lysieuol; ac felly, cyn i Dduw lunio unrhyw creadur byw i breswyllo ar y ddaear, efe a ddarparodd yn ddoeth ar ei gyfer. *Y rhai y mae eu had ynddynt*—yn y gwreiddyn, y gangen, neu y ffrwyth. Cawn siampl o'r gallu rhyfeddol â pha un y cynysgaethodd Duw y deyrnas lysieuol i luosogi ei gwahanol rywogaethau, yn had y *llwyffen*. Y mae y pren hwn yn dwyn mewn un hiliad un fil pum cant a phedwar a phedwar ugain o filynau (1,584,000,000) o hadau; ac y mae gan bob un o'r hadau hyn allu i gynyrchu yr un nifer!

Adn. 12. *A'r ddaear a ddyg egin, &c.*] Dygwyd y deyrnas hydyfol i fod, yn union fel y mae llyisiau a phrenau yn dyfod yn awr i fod; hyny yw, tyfasant allan o'r ddaear. Ond os wrth y *dyddiau* yn y bennod hon y deallwn gyfnodau o bedair awr ar hugain, rhaid i ni dybio ddarfod iddynt dyfu i'w maintoli megys mewn un awr, a blodeuo a ffrwytho yr awr nesaf, i fod yn ymborth i ddyn ac anifel y cheched dydd. *Wrth eu rhywogaeth*—*sef* pob eginyn a phren i ddwyn ei rywogaeth ei hun holl ddyddiau y ddaear.

Adn. 13. *A'r hwy'r a fu*] Gwel ar adn. 5.

Y PEDWARYDD DYDD.

Adn. 14. *Bydded goleuadau yn ffurfafen y nefoedd*] Hyny yw, byddent yn ganfyddau yw trwy y ffurfafen megys 'cludeion' neu 'offerynnau' goleuni. Crewyd yr haul, y lleuad, a'r ser, ar yr un pryd ag y crewyd tryblith materiol y ddaear, *sef* 'yn y dechread,' adn. 1; ond nid oedd goleuni oddiwrthynt eto yn gwasgaru y 'tywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder,' adn. 2. Ei thr ar y *dydd cyntaf* crewyd goleuni, neu rhoddwyd i'r haul a'r lloer yr un deddfa ag a feddant yn awr i drosglwyddo goleuni, ond fod hwn yn wanaidd ei lewyrch ar y ddaear gan y dyfroedd a'r tARTH 'oddier y ffurfafen,' adn. 7, fel ar ddirnodd niwlog, er ei fod yn ddigon cryf i wahanu rhwng dydd a nos, adn. 5. A'r pryd hyny ond odid y dechreuodd y ddaear ei chwyldroad dyddiol a blynyddol. Ond ar y *pedwarydd dydd* cliriwyd y niwl a'r tARTH, nes yr oedd goleuni a gwres yn cael eu cludo yn ddirwystr i'r ddaear megys y gwelir heddyw. Nis gall anfyddiaeth byth wrthbrofi hyn, ac nid oes dim yn y ddamcaniaeth hon yn groes i reswm, ysgrythyr, nac athrouaeth. *I wahanu rhwng y dydd a'r nos*—trwy i'r naill oleuo y ddaear yn y dydd, a'r llall yn y nos. *A byddant yn arwyddion*—o'r tywydd, ac hefyd o ofal tyner Duw am dlyn, ac yn broffion sefydlog o'i wyrthioli gyfryngiad ef; canys felly yr arferir y gair *oth*

13 A'r hwy'r a fu, a'r bore a fu, y trydydd dydd.

14 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Bydded goleuadau yn ffurfafen y nefoedd, i wahanu rhwng y dydd a'r nos; a byddant yn arwyddion, ac yn dymhorau, ac yn ddyddiau, a blynyddoedd.

15 A byddant yn oleuadau yn ffurfafen y nefoedd, i oleuo ar y ddaear: ac felly y bu.

16 A Duw a wnaeth ddau oleuad

yn fynych. *Yn dymhorau*—yn cynyrchu gwahanol dymhorau y flwyddyn, pen. viii. 22. Ond tybia rhai mai misoedd a olygir, y rhai a fesurir trwy glychdroad y lleuad. *Yn ddyddiau*—trwy chwyldroad y ddaear ar ei hechel bob oddeutu pedair awr ar hugain: gwel ar adn. 4. *A blynyddoedd*—trwy rediad y ddaear o amgylch yr haul bob 365 o ddyddiau, 5 awr, 48 mynyd, a 48 eiliad. Er mai y ddaear sydd yn gwneyd y chwyldroad a'r cylchrediad yma, eto nis gellir ei benderfynu ond trwy y cyrff nefol.

Adn. 15. *I oleuo ar y ddaear*] Fel y gallo dyn ac anifel gyflawni eu gwahanol swyddau, ac i gynyrchu hydyfiant, yn gystal a maeth a sirioldeb i bob peth byw.

Adn. 16. *Ddau oleuad mawrion*] Yr haul a'r lleuad. Gelwir hwynt yma yn fawrion, nid am eu bod yn gyrrif mawrion, er fod hyny yn wir; ond am eu bod yn rhoddi goleuni mawr i'n daer ni. *A'r ser hefyd a wnaeth efe*—i lywodraethu y nos, neu i adlewyrchu gyda'r lleuad yn absenoldeb yr haul. Nid dangos y mae efe mai yn awr y crewyd y ser; ond, mai yn awr, ar y pedwarydd dydd, y gwnaed eu hadlewyrchiad yn ganfyddadwy gyntaf: gwel ar adn. 14.

AM YR HAUL.—Buwyd yn hir yn meddwl mai pelen fawr o dân, 1,384,462 o weithiau yn fwy na'r ddaear, oedd yr haul, a'i fod yn barhaus yn bwrw allan o'i gorff aneirif fillynau o ronynau *tânaudd*, y rhai, wedi eu mawnwahanu, a atebent y perwyl o *oleuni a gwres*, heb achlysuero unrhyw *gyneued* neu *losgiad* oddieithr pan yn gynlledig mewn floc crwm-wydr neu wydr llosgawl. Yn erbyn y dyb hon, modd bynag, gwnaed llawer o wrthbaddl-euon pwysig; ac yr oedd mor lawn o anhwasderau fel ag y bu raid i'r athronyddion edrych am ddamcaniaeth lai gwrthwynebol i anian a thebygolrwydd. Y mae datguddiadau Dr. Herschel trwy ei chwyddwydrâu mawrion, yn ol cydsyniad cyffredinol yr athronyddion, wedi chiwanegu byd newydd preswyladwy at ein deseb, yr hwn yw yr HAUL. Heb aros i fanylu, yr hyn a fyddai yn amhriodol mewn lle mor gyfyng, digon yw dywedyd fod y datguddiadau hyn yn gweinyddu i brofi nad yw yr hyn a alwn ni yn *haul* ddim ond *nwyfre* y goleuad hwnw; 'fod y nwyfre hon yn gynwysedig o wahanol hylifau hydwyth ag sydd fwy neu lai dysglæa a thryloyw; ac megys y mae yn debygol fod y cymylau perthynol i'n daer ni yn ddadgyfansoddiadau o rai o'r hylifau hydwyth perthynol i'r nwyfre ei hun, felly gallwn dybio y dicheon fod yn nwyfre eang yr haul y cyhielyb ddadgyfansoddiadau yn cy-

mawrion; y goleuad mwyaf i lywodraethu y dydd, a'r goleuad lleiaf i lywodraethu y nos: a'r sêr hefyd a wnaeth efe.

17 Ac yn ffurfafen y nefoedd y rhoddes Duw hwynt, i oleuo ar y ddaear;

18 Ac i lywodraethu y dydd a'r nos, ac i wahanu rhwng y goleuni a'r ty-

meryd lle, ond gyda'r gwahaniaeth hwn, fod dadgyfansoddiadau hylifau hydwyth yr haul o natur gyneuoel, ac yn cael eu dylun âg ymddangosiadau dysgleiriol, trwy roddi allan oleuni. Efe a ystyria gorff yr haul fel yn guddiedig yn gyffredin oddiwythm ni gan y nwyfre lewyrchel hon; ond fod yr hyn a elwir *maculae*, neu *frychau* ar yr haul, yn wir *agoriadau* yn y nwyfre hon, trwy y rhai y mae *corff tywyll* yr haul yn dyfod yn weladwy; nad yw y nwyfre hon ei hun yn *danlyd* neu *boeth*, ond ei bod yn offeryn ag y bwriadodd Duw iddo weithredu ar y defnydd gwres cuddiedig; a bod gwres yn cael ei gynrychu yn unig trwy fod goleuni yr haul yn gweithredu ar, ac yn ymgynysgu â'r defnydd tân cynwysedig yn yr awyr, a'r sylweddu ereill a wresogir ganddo. Danghoswyd trwy amrai brawfau fod goleuni yn teithio yn y cyflymdra rhyfeddol o 194,188 o filldroedd mewn un eiliad o amser; a'i fod yn dyfod oddiwyth yr haul i'r ddaear mewn wyth mynyd ac oddeutu deuddeg eiliad, pell-der o 95,513,794 o'n milldroedd ni!

AM Y LLEUAD.—Nid oes braidd un amhen-aeth yn aros yn awr yn y byd athronyddol fod y lleuad yn *belen breswyladwy*. Y mae y sylwadau manylaf a wnaed gyda'r chwyddwydrau mwyaf grymus wedi cadarnhau y dyb. Ymdengys fod y lleuad, braidd yn mhob ystyr, yn gorff tebyg i'n daear ni; fod ei gwyneb yn amrywiedig gan fynyddau a dyffrynoedd, brynau a dolydd, afonydd, llynoedd, a moroedd. Ac y mae y sierwydd mwyaf fod ein daear ni yn gwasanaethu fel lleuad i'r lleuad ei hun, gan wabaniaethu yn unig yn hyn, fel y mae gwyneb y ddaear yn fwy *dair gwaith ar ddeg* nag eiddo y lleuad, felly fod y lleuad yn derbyn oddiwyth y ddaear oleuni dysgleiriach *dair gwaith ar ddeg* na'r hwn ag y mae hi yn ei gyfrannu i ni: a thrwy gyfatebiaeth dra chywir arweinir ni i gasglu fod yr holl *blanedau* a'u *lleuadau* yn breswyliedig; canys ymdengys mai er mwyn bodau deallgar yn unig y mae mater yn bodoli.

AM Y SER.—Ystyrir yn gyffredin fod y ser yn *heuliau* cyffelyb i'r un yn ein deseib ni, a phob un yn meddu nifer priodol o *blanedau* yn ymysmud o'i amgylch; a chan fod y ser hyn yn aneirif, o ganlyniad y mae aneirif fyd-oeidd, oll yn ddibynol ar allu, nawdd, a rhagluniaeth Duw. Lle y mae y ser mewn amledd mawr, tybia Dr. Herschel eu bod yn ffurfio *cyntefigion* ac *eligion*, hynny yw, heuliau yn troi o amgylch heuliau, fel y mae planedau yn troi o amgylch yr haul yn ein deseib ni. Efe a ystyria mai fel hyn y rhaid ei bod yn yr hyn a elwir y *Uweyr llathog*, trwy fod y ser yno mewn amledd dirfawr. O hyn efe a ddyt y prawf canlynol: Awst 22, 1792, cafodd ddarfod i ddim llai na 258,000 o ser basio

wyllwch: a gwelodd Duw mai da oedd.

19 A'r hwy'r a fu, a'r bore a fu, y pedwarydd dydd.

20 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Heigied y dyfroedd ymlusgiaid byw, ac cheded ehediaid uwch y ddaear, yn wyneb ffurfafen y nefoedd.

21 A Duw a greodd y morfeirch mawrion, a phob ymlusgiad byw, y

trwy faes golygfa ei chwydd-wydr ef mewn un mynyd a deugain. Pa beth a raid i Dduw fod, yr hwn a wnaeth, sydd yn llywodraethu, ac yn cynnal cynifer o fydoedd!

Adn. 17. *Ac yn ffurfafen y nefoedd y rhoddes Duw hwynt* } Yr haul, a'r lloer, a'r ser. Felly y mae i'r ffurfafen yma ystyr eang-ach nag yn adn. 6, 7, a chynwysa holl ofod y nef serenog.

Adn. 18. *I wahanu rhwng y goleuni a'r tywyllwch* } Neu i beri i'r tywyllwch droi yn oleuni: gwel ar adn. 4.

Adn. 19. *A'r hwy'r a fu* } Gwel ar adn. 5.

Y PUMED DYDD.

Adn. 20. *Heigied y dyfroedd ymlusgiaid byw* } Gan gyfeirio at y creaduriaid dyfrol lleiaf, megys y gwneir yn adn. 21 at y rhai mwyaf. Ceir aneirif filiynau o fân greaduriaid mewn dwfr. Y mae naturiaethwr enwog wedi canfod nid llai na 30,000 mewn un dyferyn! Pa mor annirnadwy fach y rhaid i bob un fod, ac eto pob un yn filyn perffaith, wedi ei gynysgaethu â'r holl ddarpariaeth o esgyrn, llywath, gwynau, rhedweliâu, gwythenau, calon, vsygfaint, perffedion yn gyffredinol, ysbyrdoedd anifeilaidd, &c., &c.! Y fath brawf yw hyn o fawr amryw ddoethineb Duw! Ond y mae *ffrwythlondeb* pysgod yn bwnc arall yn cael ei fwriadu yn y testyn: nid oes unrhyw greaduriaid mor epilgar a'r rhai hyn. Y mae y WRACHEN yn bwrw 1,000 o wŷau, CARP 20,000, a chyfrifodd Leuwenhoek mewn COD o faintioli canolig 9,334,000! Fel hyn, yn ol bwriad Duw, y mae y dyfroedd yn *heigio*. A'r fath ddarpariaeth drugarog yw hon gogyfre âg angenrheidiâu dyn! Y mae amrai gannoedd o filoedd o drigolion y ddaear yn byw am ran fawr o'r flwyddyn ar bysg yn unig, y rhai yn gyffredin a arweinir yn lloedd mawrion i'n glanau pan yn eu perffieithrwydd mwaf. *Ac cheded ehediaid uwch y ddaear*—tybia Benson ac ereill fod yr ehediaid yn gystal a'r pysg wedi cael en ffurfio o'r dwfr, a gellid meddwl fod y cyfieithiad Saesonig yn pleidio y dyb; ond nid yw y wreiddiol mewn un modd yn gofyn i ni ddeall hynny, mwy na'n cyfieithiad Cymreig: ac y mae yn debyrach mai amcan Moses yw nodi, trwy gyferbyniad, briodol elfenau ehediaid a physg; a dywedir yn bendant, pen. ii. 19, mai o'r *ddaear* y gwnaed hwynt.

Adn. 21. *A Duw a greodd y morfeirch mawrion* } Y mae y gair gwreiddiol yn cael ei ddeall yn enw cyffredin am yr holl greaduriaid dyfrol mawrion, megys y gwahanol rwyogaethau o forfilod, y llamidydd, y morfochyn, a'r morgi. Y mae Duw yn ymhyfrydu ymddangos mewn pethau brechain yn gystal a phethau mawrion; am hynny efe a ffurfiodd filod mor fychain fel y gellir cynwys 30,000

rhai a heigiodd y dyfroedd yn eu rhywogaeth, a phob echediad asgellog yn ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai da oedd.

22 A Duw a'u bendigodd hwynt, gan ddyweddyd, Ffrwythlwech, ac anllhewch, a llenwch y dyfroedd yn y moroedd, a lluosoged yr echediaid ar y ddaear.

23 A'r hwyr a fu, a'r bore a fu, y pummed dydd.

24 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Dyged y ddaear bob peth byw wrth ei rywogaeth, yr anifel, a'r ymlusgiad, a bwystfil y ddaear wrth ei rywogaeth: ac felly y bu.

o honynt mewn un dyferyn o ddwfr, ac ereill mor fawr fel ag i ofyn braidd fôr cyfan i nosio ynddo.

Adn. 22. *A Duw a'u bendigodd hwynt*] A gallu a thueddiad i barhau a lluosogi, a gofalu am eu rhai bychain. Yma y gwelwn yr achos na ddarfu i braidd un rywogaeth o honynt gollu, er i filoedd o flynyddau dweiglo ymaith.

Adn. 23. *A'r hwyr a fu*] Gwel ar adn. 5.

Y CHWCHED DYDD.

Adn. 24. *Yr anifel*] Megys meirch, gwartheg, defaid, cŵn. *A'r ymlusgiad*—yr holl wahanol rywogaethau o seirff, pryfed, a'r cyfryw filod na feddant draed. *A bwystfil y ddaear*—pob anifel gwyllt, megys llewod, dywalgwn, eirth, &c., yn enwedig rhai yn byw ar gig.

Adn. 25. *A Duw a wnaeth fwyystfil y ddaear, &c.*] Fel prawf na ddarfu i'r ddaear genhedlu yr anifeiliaid a'r ymlusgiaid o homi ei hun, trwy unrhyw allu epillog ynddi, priodolir eu furiad hwynt yma i Dduw.

Adn. 26 *Gwnawn ddyn*] Hebraeg, ADAM, oddiwrtu *adamah*, daear neu bridd coch. Ar ol parotri trigfan addas i ddyn, a'i darparu a'r holl bethau angentheidol er ei wasanaeth a'i gysur, y mae Duw yn myned i'w greu. Ond hyn a wna efe gydag ystyriaeth ac ymgynghoriad, gan arfer geiradaeth nad arferwyd ganddo gyda golwg ar unrhyw creadur arall, a thrwy hyn danghosir ardderchogwydd dyn uwchlaw pob hanfod arall a'r a wnaeth efe. Y testyn a ddywed ei fod yn waith ELOHIM, y Lluosogwydd Dwyfol, a nodir ym yn fwy amlwg trwy y rhagenwau lluosog NI ac EIN. I ddangos fod dyn yn benigamp creadigaeth Duw, gosodir allan fod yr holl Bersonau yn y Duwodd fel yn nnedig mewn cyngor ac ymdrech i wneuthur y creadur rhyfedd hwn: gwel ar adn. 1. Dywed y Sosiniaid mai llefaru y mae Duw yma yn y rhif lluosog yn ol dull brenhinoedd, y rhai a arferant ddyweddyd, 'Yr ydym yn gorchymyn,' neu, 'Yr ydym yn cyhoeddi.' Ond dylid cofio mai trefnu ddiweddar ydyw hon, ac nad yw mewn un modd yn eiddwedd â symledd oesoedd cyntaf y byd, nag a'r arddull Hebreig. Arferai brenhinoedd Israel lefaru am danant eu hunain yn y rhif unigol; ac felly y gwnai holl brenhinoedd y dwyrain: 'Genyf fi y gosodwyd cyfraith,' ebai Darius, Dan. vi. 26. 'A minau ydwyf

25 A Duw a wnaeth fwyystfil y ddaear wrth ei rywogaeth, a'r anifel wrth ei rywogaeth, a phob ymlusgiad y ddaear wrth ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai da oedd.

26 ¶ Duw hefyd a ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain: ac arglwyddiaethant ar bysg y môr, ac ar echediad y nefoedd, ac ar yr anifel, ac ar yr holl ddaear, ac ar bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear.

27 Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddwfr ei hun, ar ddwfr Duw y creodd efe ef: yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt.

yn gosod gorchymyn,' ebai Artaxerxes, Ezra vii. 21. Ac nid oes cymaint ag un siampl yn yr ysgrhythyr i'r gwrthwyneb. Gan hyn rhyfgy disail yw ceisio gwrtho arddull diweddar i eiriadaeth henafol yr ysgrhythyrau. Nid yw Brenin y nefoedd chwaith yn llefaru yn y rhif lluosog am danu ei hun, ond pan y mae yn bwriadu cyfeirio at athrawiaeth y Drindod. *Ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain*—danu air o'r un arwyddocâd, yn grymuso yr ymadrodd. Yr hyn a ddywedwyd uchod a gyfeiria at gorrff Adda; yr hyn a ddywedir yma a gyfeiria at ei enaid ef. Gwnaed hwn ar lun a delw Duw. Yn awr, gan fod y Bôd Dwyfol yn anfeidrol, nid yw yn derfynedig gan ranau, ac nis gall fod ganddo ddwfr gorrff-oral, yn ol yr hon y gwnai efe gorrff dyn. Rhaid i'r ddwfr a'r llun fod o angenrheidrwydd yn ddealliedigol: ei feddwl, ei enaid, a raid fod yn fflurfedig yn ol anian a pherffeithderau ei Dduw. Y mae y meddwl dynol yn barhaus yn gynysgaethedig a'r galluoedd mwyaf rhyfeddol, ac yr oedd yn fwy felly pan yn dyfod allan o ddwyylaw ei Greadwyr. Yr oedd Duw yn awr yn gwneuthur ysbryd, yr hwn oedd flurfedig yn ol perffeithderau ei natur ei hun. Y mae Duw yn santaidd, cyf-iawn, doeth, da, a pherffaith; ac felly y rhaid fod yr enaid a ddeillia oddiwrtu; nis allai fod dim ynddo yn anmhur, drwg, gwael, na difiaith. Crewyd ef yn ol delw Duw, ac yr oedd y ddwfr hono yn gynwysedig mewn cyf-iawnder, gwir santeiddrwydd, a gwybodaeth, Eph. iv. 24, Col. iii. 10. O ganlyniad yr oedd dyn yn gyfiawn yn ei weithredoedd, yn santeidd yn ei galon, ac yn ddoeth yn ei feddwl. *Ac arglwyddiaethant*—yma y gwelwn nad yr arglwyddiaeth oedd y ddwfr, fel y tybiai Basil, Chrysostom, ac ereill. *Ar bysg y môr, &c.*—y mae pob creadur gwyllt a gwâr yn cael eu cynwys yma, dros y rhai yr oedd gan ein rhieni cyntaf, yn eu cyflwr o ddiwiedrwydd, gyflawn a pherffaith allu ac awdurdod, megys yr oedd ganddynt hefyd dros gynrych y ddaear a thros y ddaear ei hun, i'w hamaethu a'i threfnu fel y gwelent hwy yn oraf er eu cysur a'u llesâd.

Adn. 27. *Yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt*] Nid ar unwaith, neu y ddau nghyd, fel y darfu i rai yn anysgrhythrol ddydgu; eithr yn gyntaf y dyn allan o'r ddaear, ac yna y wraig allan o'r dyn, pen. ii. 22. Ymddengys modd bynag ddarfu i'r ddau gael eu

28 Duw hefyd a'u bendigodd hwynt, a Duw a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch, ac amilhewch, a llenwch y ddaear, a darostyngwch hi, ac arglwyddiaethwch ar bysg y môr, ac ar ehediad y nefoedd, ac ar bob peth byw a ymsymudo ar y ddaear.

29 A Duw a ddywedodd, Wele, mi a roddais i chwi bob llysiuyn yn hadu had, yr hwn sydd ar wyneb yr holl ddaear, a phob pren yr hwn y mae

gwneuthur ar y chweched dydd, fel yr adroddir yma: eithr yr hanes fanylaidd am greadigaeth y wraig a ddygir i mewn yn y beunod nesaf, mewn ffordd o eglurhad pellach, ac i ddechreu yr hanes am sefydliad priodas.

Adn. 28. *Duw hefyd a'u bendigodd hwynt*] A gallu i epilio a lloosogi eu rhywogaeth eu hunain ar y ddaear. *Ffrwythwch, ac amilhewch, a llenwch y ddaear*—rhoddwyd etifeddiaeth helaeth iddynt, ac y maent i'w llenwi â thrioliu yn deilliaw oddiwrthynt eu hunain, i'w hamaethu a mwynhau ei ffrwythau. Eithr y geiriau hyn a gynwysant fendithiad ac addewid, yn hytrach na gorchymyn, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 22, lle y mae yr un geiriau yn cael eu llefaru wrth y creaduriaid direswm, y rhai nad oeddnt yn alluog i ddeall nac i ufyddhau i orchymyn.

Adn. 29. *Wele, mi a roddais i chwi bob llysiuyn, &c.*] Dywed yr Iuddewon nad oedd rhyddid gan ddyinion i fwyta cig cyn y dylif. Modd bynag, ymddengys nad oedd cynaint o angen am dano, am fod ffrwythau y ddaear cyn y dylif, ac yn enwedig cyn ei mellidithio am bechod dyn, nid yn unig yn cael eu cynrchu mewn mwy o helaethrwydd, ond hefyd yn fwy dymunol i'r archwaeth, ac yn fwy cryfhaol a maethlon i'r corff, nag yr oeddnt wedi y dygwyddiadau hyny: gwel ar pen. ix. 3.

Adn. 30. *Hefyd i bob bwystfil, &c.*] Casglarhai oddiyma na fwriadwyd yn wreiddiol i unrhyw anifel pa bynag ysglyfaethu ereill, am na ddywedir fod dim i gael ei roddi yn fwyd i unrhyw bwystfil ond *gwyrdillysiau*. Ond oddiwrth drefniad neillduol dannedd bwystfilod casglant ddarfod i Dduw eu parotio hwynt at y math hwnw o luniaeth ag yr oeddnt i ymborthi arno ar ol y cwmp. Eithr gwel y sylw ar Rhuf. v. 12.

Adn. 31. *Ac wele da iawn ydoedd*] Yr oedd gwahanol gynyrchiadau pob dydd yn cael eu cyhoeddi yn dda; ond wedi i'r oll gael eu gorphen, a'u hardremio gan y Creawdwr, y mae y gorair uwchraddol yn cael ei chwaneu, a'r oll yn cael eu cyhoeddi yn dda iawn, wedi eu cyfaddasu yn berffaith i ateb y dyben bwriadol, yn gystal ag yn ardderchog a phrydferth ynddynt eu hunain. *Felly yr hwyr a fu, a'r bore a fu, y chweched dydd*—diau y gallasai Duw wneyd yr holl waith a nodwyd mewn un eiliad yn gystal ag mewn chwe diwrnod; ond dewisodd ei wneuthur yn y ffordd raddol hon, fel y byddai i'w allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni, trwy fod yn amlygedig yn mhob rhan, gael eu golygu a'u hystyried yn eglurach; ac fel y gallai d dangos i ni pa mor fawron bethau

ynddo ffrwyth pren yn hadu had, i fod yn fwyd i chwi.

30 Hefyd i bob bwystfil y ddaear, ac i bob ehediad y nefoedd, ac i bob peth a ymsymudo ar y ddaear yr hwn y mae einioes ynddo, y bydd pob llysiuyn gwyrdd yn fwyd: ac felly y bu.

31 A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd: felly yr hwyr a fu, a'r bore a fu, y chweched dydd.

a allent godi o ddechreadau bychain, a chael yn raddol eu gorphen; ac hefyd fel y gallai osod i ni sianpl o weithio chwe diwrnod, a gorphwys ar y seithfed.

ADFFEDYLIADAU.—Y mae yn hysbys i'r darlennydd fod y darganfyddiadau diweddar a wnaed mewn ddaear yn ein harwain i feddwl fod y ddaear yn llawer benach na chread Adda, yr hyn a ddygwyddodd oddeutu chwe mil o flynyddau yn ol. I gysoni y wyddiannaeth hon â'r hanes a ddyry Moses yn y bennod flaenorol, tybiodd rhai fod y *dyddiau* a enwir yn cynwys nid yr yspaid o bedair awr ar hugain, ond cyfnodau o gannoedd neu filoedd o flynyddau, yn ystod pa rai y darfu i'r holl gyfnewidiadau a danghosir yn haenau creigaidd y ddaear gymeryd lle; a meddyliant eu bod yn derbyn cadarnhad i hyn yn y dyb na chrewyd yr haul, i benu hyd y dyddiau, ac i wahanu rhwng dydd a nos, hyd y pedwar-ydd dydd, ac felly fod yn rhaid edrych am ryw ystyr gwahanol i'r dyb gyffredin yn yr ymadrodd *hwyr a bore* yn adn. 5, &c. Tybiodd ereill, gan ddeall y chwe diwrnod yn ddyddiau o bedair awr ar hugain, nad oedd yr hyn a wnaed ynddynt yn cyraedd ond dros ryw ran fechan o'r belen ddaearol lle yr oedd ein rhieni cyntaf i gyfaneddu; a bod hydyfiant, bwystfilod, a physg, yn bodoli yn mhell cyn hyny mewn parthau ereill o'r ddaear, llawer o ba rai, er's miloedd o flynyddau cyn hyn, oeddnt wedi trengu, cymysgu a'r clai, ac ymfurho yn greigiau, &c., fel eu danghosir beddyw gan ddaearog. Y mae ein gofod yn rhy gyfyng mewn gwaith fel hwn i olrhain y pwnc yma gyda manylwch, ac felly rhaid cyfeirio y darlennydd at awduron professedig ar ddaearog. Modd bynag, dylid crybwyll nad oes braidd neb o houynt, pa mor wyllt bynag yn eu dychmygion, yn meddwl fod dim yn y datgwyddiadau newyddion hyn yn groes i'r hanes ysbrydoledig, ond yn hytrach deallant eiriau Moses fel yn cadarnhau, yn hytrach na chroesi, eu gwahanol opiniynau. Yr ydym eisioes wedi awgrymu y gallai fod miloedd o flynyddau rhwng y *dechread* yn adn. 1, a'r *dydd cyntaf* yn adn. 3, yn y rhai, trwy 'ymsymudiad Ysbryd Duw ar wyneb y dyfnod,' y gallasai yr holl bethau hyny gael eu ffurfio ag y tybir eu bod yn llawer hyn nag Adda; a bydd i'r ddamcaniaeth hon, cyn belled a hyny, ddiddymu yr annglysondeb tybidig rhwng Moses a ddaearog. Wedi y cyfan, dichon fod yr holl ffurfiadau hyny wedi cymeryd lle yn yr yspaid rhwng cread Adda a'r dylif, neu trwy offerynliaeth y dylif; neu ynte fod y cwbl wedi eu creu ar y cyntaf yn y cyflwr

PENNOD II.

FELLY y gorphenwyd y nefoedd a'r ddaear, a'u holl lu hwynt.

2 Ac ar y seithfed dydd y gorphenodd Duw ei waith, yr hwn a wnaethai efe, ac a orphwysodd ar y seithfed dydd, oddiwrth ei holl waith, yr hwn a wnaethai efe.

3 A Duw a fendigodd y seithfed dydd, ac a'i santeiddiodd ef: oblegid ynddo y gorphwysasai oddiwrth ei

hwnw. Nis gellir byth yn llwyddianus wrthbrofi hyn. Gan i Dduw greu Adâ ac Efa yn eu perffaith faintioli, a phreanau firwythlon yn eu perffaith addfwrwydd i fod yn ymorth iddynt, paham nas gallai efe hefyd ffurfio gwahanol haenau y ddaear, neu o leiaf y rhai hynaf o honynt, mewn cyflwr o berffeithrwydd yn debyg i'r hyn eu gwelir yn awr? Neu, pe caniateid mai yn raddol eu ffurfiwyd, pwy a fedr brofi nad oedd y ffurfiad graddol hwnw yn cymeryd lle yn llawer cyflymch yn nghyflwr cyntefig y ddaear, nag y gwna yn awr? Ond pe rhoddem y golygiad hwn i fyny, eto byddai i'r ddamcaniaeth flaenaf ein galluogi nid yn unig i dderbyn y dyb o henafiaeth honedig y ddaear, ond hefyd i edrych ar y *chwe diwrnod* creadigol fel dyddian o bedair awr ar hugain, trwy y byddai digon o yspaid i'r holl ffurfiadau tybiedig gan ddaeargwyr gymeryd lle yn flaenorol i'r dydd cyntaf, heb wrthddywedyd dim a adroddir gan Moses. Yn wir y mae gorphwysiad Duw ar y seithfed dydd, fel sefydliad cyntaf un ran o *saith* o'n hamser i'w gadw yn SABBOTH, yn ddanghosiad, gellid meddwl, fod pob dydd o'r chwech blaenorol o'r un hyd a'r sabbath cyntaf hwnw. Ar y llaw arall, pe tybiem fod pob un o'r dyddian creadigol yn cynwys rhyw gyfnod o fil o flynyddoedd neu fwy, yn y rhai yr oedd Duw natur yn dwyn yr holl gynrychion a enwir yn mlaen trwy ffurfiad a thwyfod *araf*, yn ol trefn gyffredin natur, byddai raid i ni dybied dan beth fel yn canlyn yn anocheladwy: 1. Fod gweithredoedd y dyddiau blaenorol yn cael eu cario yn mlaen trwy bob un o'r dyddiau dyllynol; ac, 2. Na ddarfu i Dduw ar y sabbath cyntaf, na chwaith hyd y dydd hwn, *orphwys* oddiwrth ei waith; canys y mae efe, yn yr ystyr hwnw, 'yn gweithio hyd yn hyn,' Ioan v. 17. Ond y mae yr ystyriaeth o ddyddian naturiol o bedair awr ar hugain, yn y rhai yr oedd Duw, mewn ffordd greadigol, yn rhoddi *perffeithrwydd* i waith pob dydd yn ei ddydd, yn rhoddi ystyr esmwyth a naturiol i'r holl hanes, ac yn ein galluogi i edrych ar ddaear a'r Beibl mewn cysondeb perffaith.

PEN. II. Adn. 1. *A'u holl lu hwynt*] Yn ol y LXX, 'a'u holl addurniadau hwynt;' yn cynwys yr holl greaduriaid bywydol a difywyd ar y ddaear, fel yr adroddwyd yn y bennod flaenorol; a'r holl ser a'r bodau deallol yn y nefoedd, Deut. iv. 19, 1 Bren. xxii. 19. Nid dangos y mae Moses mai yn nghorff y chwe diwrnod cyntaf y crewyd yr angylion, yr hyn a ymddanghosai yn groes i Job xxxviii. 6, 7;

holl waith, yr hwn a greasai Duw i'w wneuthur.

4 ¶ Dyma genhedlaethau y nefoedd a'r ddaear, gan grewyd hwynt, yn y dydd y gwnaeth yr Arglwydd Dduw ddaear a nefoedd:

5 A phob planhigyn y maes cyn ei fod yn y ddaear, a phob llysieuyn y maes cyn tarddu allan: oblegid ni pharasai yr Arglwydd Dduw wlawio ar y ddaear, ac nid ydoedd dyn i lafurio y ddaear.

ond datgan y mae fod holl waith y *cread* yn awr ar ben, sef gwaith y chwe diwrnod, yn gystal a'r hyn a wnaed yn flaenorol iddynt, pen. i. 1.

Adn. 2. *Ac ar y seithfed dydd y gorphenodd Duw ei waith*] Y mae y LXX, y Syriaeg, a'r Samaritanaeg, yn darllen y *chweched* dydd, ac nid y *seithfed*; ac ymddengys oddiwrth y cyfieithiadau boreol hyn ei fod yn wreiddiol felly yn yr Hebraeg. *Ac a orphwysodd ar y seithfed dydd*—nid fel pe buasai yn flinedig fel nyri ar ol llafur, yr hyn o'i dybio a fyddai yn anghyson â'i berffeithrwydd anfeidrol ef, Esay xl. 28; eithr fel siampl i ni orphwyso ar y dydd hwnw, a'i gadw yn santeidd.

Adn. 3. *A Duw a fendigodd y seithfed dydd*] A roddes iddo anrhydedd neillndol, ac a gysylltodd wrtho freintiau arbenig uwchlaw eiddo pob diwrnod arall. *Ac a'i santeiddiodd ef*—hyn yw, a'i neillduodd oddiwrth arferiadau cyffredin, ac a'i cysegrodd i'w wasanaeth santeidd ei hun, fel y byddai iddo gael ei ystyried yn santeidd, a'i dreulio yn ei addoliad ef, ac mewn dyledswyddau santeidd a chrefyddol ereill. *Oblegid ynddo y gorphwysasai*—Heb. *shabbath*, 'efe a orphwysodd:' oddi-rna y deillia i gair SABBOTH, enw y seithfed dydd, yn arwyddoedd *orphwysdra*; gorphwysdra i'r corff oddiwrth lafur a llndded, a gorphwysdra i'r enaid oddiwrth bob gofal a phryder bydol.

Adn. 4. *Dyma genhedlaethau y nefoedd a'r ddaear*] Sef hanes gyflawn a chywir am eu gweiddyn neu eu dechread, a'r drefn y ffurfiwyd yr amrywol ranau o'r creaduriaid ynddynt. *Yn y dydd*—ar y pryd neu yr adeg a ddefnyddiwyd at waith y cread. *Yr Arglwydd Dduw*—dyma y waith gyntaf i'r gair JEHOFA ymddangos yn y Beibl. Meddylir fod yr enw cyfansawdd, ARGLWYDD DDUW, yn cael ei ddefnyddio fel gwrthbrawf i'r dyb mai Duw yr Inddewion yn unig oedd Jehofa. Gwel ar Exod. iii. 14, a vi. 3.

Adn. 5 *A phob planhigyn y maes cyn ei fod yn y ddaear*] Fywy yw, pryd nad oedd un planhigyn, na chymaint ag un hedyn oddiwrth yr hwn y gallai unrhyw un darddu. Felly ymddengys ddarfod i Dduw greu pob peth nid yn unig yn berffaith o ran ei natur, ond hefyd mewn cyflwr o ADDFWRWYDD, nes yr oedd yr holl gynrych llysieuol yn ymddangos ar unwaith mewn llawn dyfiant; ac yr oedd hyn yn angenrheidiol, fel y gallai dyn ac anifael gael pob peth yn barod at eu gwasanaeth. *Wlawio ar y ddaear*—trwy nad oedd tymor gwlawog yr hinsawdd wedi dyfod eto, Deut. xi. 14.

6 Onid tarth a esgynodd o'r ddaear, ac a ddyfrhaodd holl wyneb y ddaear.

7 A'r Arglwydd Dduw a luniasai y dyn o bridd y ddaear, ac a anadlasai yn ei ffrocenau ef anadl einioes : a'r dyn a aeth yn enaid byw.

8 ¶ Hefyd yr Arglwydd Dduw a blannodd ardd yn Eden o du y dwyrain, ac a osododd yno y dyn a luniasai efe.

9 A gwnaeth yr Arglwydd Dduw i bob pren dymunol i'r golwg, a daionus yn fwyd, ac i bren y bywyd yn nghanol yr ardd, ac i bren gwy-

bodaeth da a drwg, dyfu allan o'r ddaear.

10 Ac afon a aeth allan o Eden, i ddyfrhau yr ardd, ac oddiyno hi a ranwyd, ac a aeth yn bedwar pen.

11 Enw y gyntaf yw Pison; hon sydd yn amgylchu holl wlad Hafila, lle y mae yr aur.

12 Ac aur y wlad hòno sydd dda : yno mae Bdeliwm a'r maen Onix.

13 Ac enw yr ail afon yw Gihon : hòno sydd yn amgylchu holl wlad Ethiopia.

14 Ac enw y drydedd afon yw Hi-

Adn. 6. *Tarth a esgynodd o'r ddaear*] Yr ager dyfrllyd, ar ol ymgodi o'r ddaear trwy wres yr haul, a thewchua a thrymhaau yn ngororau oerach yr awrygylch, a syrthiodd yn ol ar y ddaear yn *wlith*, ac fel hyn cyflewyrdd cyfran gyfartal o wlybedd at wraidd y planhigion a'r gwellt.

Adn. 7. *A'r Arglwydd Dduw a luniasai y dyn*] Gan mai dyn yw y penaf o weithredoedd Duw ar y ddaear, a'i fod yn arglwydd ar bob creadur arall, cawn yma hanes fanylach am ei gread. Ni arferir y gair *jitz'er*, a gyfieithir yma 'lluniasai,' am un creadur arall; ac y mae yn arwyddoedd mynediad graddol yn mlaen yn y gwaith, gyda chwyirdeb a manylrywydd mawr. Arferir ef yn briodol am y crochenydd yn llunio llestri ar y droell; a dywed Rabbi D. Kimchi ei fod, pan yn cael ei arfer am gread dyn, yn arwyddoedd llunaid ei aelodau ef. *O bridd y ddaear*—Heb. 'yn bridd o'r ddaear.' Dylem gofio yn barhaus, pa nor gywraint a rhyfedd bynag y gwnaed ein corff, nad yw ar y goraf ddim ond pridd neu lwch wedi ei gymeryd o'r ddaear! *Ac a anadlasai yn ei ffrocenau ef anadl einioes*—Heb. 'anadl y BYWYDAU,' sef y bywyd anifeilaidd neu naturiol, a'r bywyd deallol neu ysbrydol. Tra yr oedd yr anadliad yma o eiddo Duw yn eangu yr ysgyfaint, ac yn eu gosod mewn gweithrediad, yr oedd ei ysbrydoliaeth yn rhoddi ysbryd a deall. Fel hyn ni a ddysgwn fod dyn yn fod cyfansawdd, yn meddu corff ac enaid wedi eu creu ar wahan : y corff wedi ei lunio o bridd y ddaear, a'r enaid wedi ei anadlu yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw ei hun. *Yn enaid byw*—yn fôd neu berson byw, yn meddu bywyd anifeilaidd ac ysbrydol.

Adn. 8. *A'r Arglwydd Dduw a blannodd*] Ar y trydydd dydd, pryd y creodd efe 'y prenau ffrywlhau yn dwyn ffrywth,' pen. i. 11. *Ardd*—lle amguedig oddiwrth bob man arall, a thra eang yn ddiamau. Yn yr hen gyfieithiadau gelwir hi PARADWYS, 'gardd hyfrydych.' *Yn Eden*—er fod y gair Eden yn arwyddoedd boddineb neu hyfrydych, y mae yn sier ei fod yma yn enw *LÊ*: gwel ar adn. 10. *O du y dwyrain*—yn ddwyreiniol i'r fan lle yr oedd Moses yn ysgrifennu, ac i'r fan lle y bu yr Israeliaid wedi hyn yn preswylu. *Ac a osododd yno y dyn*—felly ni a welwn mai nid yn ngardd Eden y crewyd ein rhieni cyntaf.

Adn. 9. *I bob pren dymunol i'r golwg*] O ran llun, a lliw eu blodau; a *daionus yn fwyd*—pob math ar ffrywth-brenau, yn dwyn

afalau, aeron, a chnau; ac i bren y *bywyd*—Heb. 'pren y BYWYDAU.' Tybiodd thai mai am fod ffrywth y pren hwn, wrth ei fwyta, yn eadw marwolaeth naturiol draw, y gelwir ef yn bren y bywyd. Ond dylid cofio nad oedd dyn yn agored i farwolaeth naturiol yn ei gyflwr gwreiddiol; a phe buasai, galleid galw pob pren 'daionus yn fwyd' yn bren y bywyd, yn yr ystyr yma, yn gystal ag yntau. Felly y mae yn debycach ei fod yn cael ei alw yn *BREN Y BYWYDAU*, am ei fod yn arwydd o'r bywyd *ysbrydol* ag yr oedd Adda yn awr yn ei fwynhau, ac yn wystl sacramentaidd o'r bywyd *tragyddol* a roddid iddo am byth wedi hyn fel gwobr ufydd-dod. Dywed y rabbiniaid mai y winwydden oedd y pren hwn; ac os felly, yr oedd yr elfenau yr un yn sacrament y cyfammod gweithredoedd ag a ddefnyddir dan y cyfammod gras. *Ac i bren gwybodaeth da a drwg*—a elwid felly, nid am fod yn ei ffrywth ef yn rhinwedd i ghenhedlu gwybodaeth fuddiol, ond am y mynai Duw trwyddod ef brofi ufydd-dod Adda; ac am y byddai i ddyd, trwy fwyta o hono, wybod y DA a gollasai, a'r *drwg* i'r hwn y syrthiasai. Cai ddyd felly wybodaeth chwervw o'r gwahaniaeth dirfawr a fyddai rhwng da a drwg naturiol a moesol, neu rhwng ufyddhau i Dduw a gwneyd da, ac anufyddhau iddo a gwneyd drwg.

Adn. 10—14. *Ac afon a aeth allan o Eden*, &c.] Yr oedd yr afon hon, wrth ymganghenu yn bedair ffrwd, yn cyfranu yn fawr at hyfrydych a ffrywlthlondeb yr ardd. Synai darlennydd cyffredin, yr hwn a fyddai dan rwymanu i ymgyngori â gwahanol esbonwyr ar *safte* y barddwys ddaearol, wrth weled y mawr wahan-iaeth tybiau trwy y rhai yr ymrannuont. Rhai a'i gosodant hi yn y drydedd nef, ereill yn y bedwaredd; rhai o fewn cylchwybr y llœr, ereill yn y llœr ei hun; rhai yn nghanolbarth yr awyr, neu tuhwnt i attyniad y ddaear; rhai ar y ddaear, ereill dan y ddaear, ac ereill yn y ddaear; gosododd rhai hi yn y pegwn gogleddol, ereill yn y deheuol; rhai yn Tartary, ereill yn China; rhai ar gyffiniau y Ganges, ereill yn ynys Ceylon; rhai yn Armenia, ereill yn Affrica dan y cyhydedd; rhai yn Mesopotamia, ereill yn Syria, Persia, Arabia, Babilon, Assyria, a Phalestina; ymostyngodd rhai i'w gosod hi yn Ewrop, ac ereill a fynaant naill ai nad yw yn bodoli, neu ei bod yn anweledig, neu o natur ysbrydol yn unig, a bod yr holl hanes i'w deall yn ysbrydol! Fod y fath le unwaitb, nid oes un rheswm i amau :

decel: hōno sydd yn myned o du y dwyrain i Assyria; a'r bedwaredd afon *yw* Euphrates.

15 A'r Arglwydd Dduw a gymerodd y dyn, ac a'i gosododd ef yn ngardd Eden, i'w llafurio ac i'w chadw hi.

16 A'r Arglwydd Dduw a orchymynodd i'r dyn, gan ddywedyd, O bob pren o'r ardd gan fwyta y gelli fwyta:

17 Ond o bren gwybodaeth da da drwg, na fwyta o hono; oblegid yn y

dydd y bwyta'i di o hono, gan farw y byddi farw.

18 ¶ Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd, Nid da bod y dyn ei hunan; gwnaf iddo amgeledd cymhwys iddo.

19 A'r Arglwydd Dduw a luniodd o'r ddaear holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd, ac a'u dygodd at Adda, i weled pa enw a roddai efe iddynt hwy; a pha fodd bynag yr enwodd y dyn bob peth byw, hyny *fu* ei enw ef.

y mae y dysgrifiad a ddyry Moses yn rhy neillduol a manwl i gael ei ddeall yn ysbrydol neu allegol. *Crystal* y gallwn ddatlu fod *personau* Adda ac Efa yn allegol, a *bod lle* eu preswylfod felly. Yr hanes debycaf am ei safle yw yr un a roddwyd gan Mr. KÉLAND. Tybia ef ei bod yn ARMENIA, yn agos i darddleoedd yr afonydd mawrion *Euphrates*, *Tigris*, *Phasis*, ac *Arazes*. Barna ef mai y PISON, adn. 11, yw y *Phasis*, afon yn Colchis, yn ymarllwys i'r Môr Dŷ, lle y mae dinas a elwir *Chabala*, cynaniad yr hon sydd agos yr un a *Hafila*, neu *Chavilah*, fel y mae yn y wreiddiol. Yr oedd y wlad hon yn enwog am *aur*, o'r llyn y tarddodd y chwedl am y *Onu Aur* ag yr ymdrechwyd ei ddwyn ymaith o'r wlad hōno gan wroniaid Groeg. Y mae ef yn meddwl mai y GIBON, adn. 13, yw yr *Arazes*, yr hon sydd yn rhedeg i'r Môr Caspian, trwy fod i'r ddau air yr un arwyddocâd, sef *treiglidd chwyrn*. Efe a dybia hefyd mai gwlad *Cush*, yr hon a gyfieithir Ethiopia, ac a amgylchir gan yr afon hon, yw gwlad *Cusaei* yr henafiaid. Y mae pawb yn cyduno mai yr HIDECEL, adn. 14, yw y *Tigris*; ac mai yr EUPHRATES yw *Phrat*. Y mae yr holl afonydd hyn yn codi yn yr un ardal fynyddig, er nad ydynt yn tarddu o'r un fynydd. Ond y mae yr holl gyfnewidiadau mawrion a wnaed yn arwyneby y ddaear trwy ddaeargrynfâau yn gystal a thirwy y dyliff cyffredinol, yn ei gwneuthur yn dra anhawdd i neb yn awr olrhain rhediaid na chodiad yr afonydd cynddylifol i berffeithrwydd.

Adn. 15. *I'w llafurio ac i'w chadw hi*] Er y gellir tybio fod yr ardd yn cynrchu pob peth megys o honi ei hun yw naturiol, fel holl wyneb y ddaear ar y cread; eto yr oedd llafurio a diwyllio wedi hyny yn angenrheidiol, i gadw y gwahanol rywogaethau o blantbigion a llysiau yn eu perffeithrwydd, ac i atal bras-dyfiant.

Adn. 16. *O bob pren o'r ardd gan fwyta y gelli fwyta*] Yn gyfotog yn ei radlonrwydd, ac yn hael yn ei roddion, y mae Creawdwr haelionus pob peth yn rhoddi yma ganiatâd helaeth i'w greadur, gan adael iddo ryddid i ddefnyddio yr holl wahanol ragorolion hyny â pha rai y cyfoethogodd efe yr ardd hon.

Adn. 17. *Ond o bren gwybodaeth da da drwg na fwyta*] Hyd yn hyn danghoswyd Duw fel Creawdwr galluog a Chymwynaswr haelionus dyn: yn awr y mae yn ymddangos fel ei Lywodraethwra i Ddeddfroddwr, ac, fel y cyfryw, yn myned i gyfamued âg ef. Ni roddes efe

iddo ond un gorchymyn pendant i brofi ei uffyddod, yr hyn, fel ei Benarglwydd, yr oedd ganddo hawl i'w wneuthur, gan gysylltu marwolaeth wrth y toriad o hono, a bywyd ac anllygredigaeth wrth ei gyflawniad. Y mae yn eglur, modd bynag, nad hyn oedd yr oll a ofynai Duw gan ddyn, ond fod cyfraith yn ysgrifenedig ar ei galon yn gofyn iddo garn Duw hyd eithaf ei allu, ac ymdebygoli iddo yn mhob cyfiawnder a santeiddrwydd. *Oblegid yn y dydd y bwyta'i di o hono*—hyny yw, y dydd nwnw, cyn tranoeth. Ac felly y buasai yn bod o ran ei gorff, oni buasai i'r Cyfryngwr gymeryd ei achos cyn i'r bygythiad gael ei roddi mewn gweithrediad. *Gan farw y byddi farw*—y mae yn amlwg fod y farwolaeth a fygythir yma yn wrthgyferbyniol i'r BYWYD—AU a roddes Duw iddo, adn. 7. Hwn ydoedd nid yn unig fywyd *naturiol* ei gorff yn ei undeb a'r enaid, ond hefyd bywyd *ysbrydol* ei enaid yn ei undeb â Duw, a bywyd *tragwyddol* y ddau. Y mae y bygythiad gan hyny yn cynwys: Tydi nid yn unig a gollu bob dedwyddwch ag sydd genyt mewn meddiant neu oibaith, gan ddyfod yn agored i farwolaeth dy gorff, a'r holl drueni cysylltedig; ond ti a gollu hefyd dy fywyd ysbrydol, ac a fyddi yn farw i Dduw a phethau dwyfol, ac a fforfeti dy hawl i anfarwoldeb, ac a syrthi i farwolaeth dragwyddol; a hyn oll yn y dydd y bwyta'i di o hono.

Adn. 18. *Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd*] A ddywedasai ar y chweched dydd, pryd y gwnaed y wraig, pen. i. 26. *Nid da bod y dyn ei hunan*—er fod byd uwch o anyghion, a byd is o anifeiliaid, eto, gan nad oedd neb o'r un rhestr o fodau ag ef, gellid yn gywir ddywedyd ei fod ei HUNAN. *Nid da*—nid oedd er cysur i'r dyn, yr hwn a luniwyd i gymdeithas; nac er cyflawniad bwriad Duw yn nghynydd dynolrwy. *Gwnaf iddo*—neu fel y mae y LXX a'r *Vulgate* yn ei ddarllen, 'GWNAWN iddo.' *Amgeledd cymhwys—ezer, kenegdo*, cymhorth, gwrthran o hono ei hun, un wedi ei llunio o hono, ac fel efe mewn llun, ansawdd, a thuedd; un i ymddyddan yn gyfeillgar âg ef, ac i fod bob amser yn barod i'w amgeleddu a'i gysuro.

Adn. 19. *A luniodd o'r ddaear holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd*] Ac felly y mae tyb Henry, Benson, ac ereill, y rhai a ddywedant i'r ehediaid yn gystal a'r pysg gael eu ffurfio o'r dwfr, yn gamsyniol: gwel ar pen. i. 20. *Ac a'u dygodd at Adda*—

20 Ac Adda a enwodd enwau ar yr holl anifeiliaid, ac ar ehediaid y nef-oedd, ac ar holl fwystfilod y maes: ond ni chafodd efe i Adda angeledd cymhwys iddo.

21 A'r Arglwydd Dduw a wnaeth i drymgwsg syrthio ar Adda, ac efe a gysgodd: ac efe a gymerodd un o'i asenau ef, ac a ganodd gig yn ei lle hi.

22 A'r Arglwydd Dduw a wnaeth yr asen a gymerasai efe o'r dyn, yn wraig, ac a'i dyg at y dyn.

naill ai trwy weinidogaeth angylion, neu trwy reddf neillduol, fel y gallai efe eu henwi hwynt, ac felly roddi prawf o'i wybodaeth, trwy fod yr enwau a roddes efe iddynt yn berffiaith ddarluniai o'u hanian ddirgelaf. Gwel ar yr adnod nesaf.

Adn. 20. *Onid ni chafodd efe i Adda angeledd cymhwys iddo*] Yn mhilth yr holl anifeiliaid a'r ehediaid. Felly ni a welwn fod gan Dduw ddau ddyben yn nygiad y creaduriaid hyn at Adda: 1. I ddangos iddo gyda pha fath alluoedd meddyliol cyrhaeddgar y cynysgaethwyd ef gan ei Wneuthurwr; ac, 2. I ddangos iddo nas gallai un creadur a luniwyd eto wneyd eydymaith addas iddo; ac felly fod yn rhaid iddo barhau yn y cyflwr *nad oedd dda*, neu fod yn ddyledwr pellach i haelioni ei Greawdwr.

Adn. 21. *I drymgwsg syrthio ar Adda*] Fel na byddai i egoriad ei ochr a chymeriad ymaith ei asen fod yn un gofid iddo. Tra nad oedd ef yn adnabod pechod, cymerodd Duw ofal na chai deimlo poen. *Ac efe a gymerodd un o'i asenau ef*—nid yw o bwys pa un a gyfieithwn ni *tsela* yn *asen*, ynte yn rhan o'i ochr, am y gall feddwl y naill neu y llall. Yr oedd rhyw ran o'r dyn i'w ddefnyddio ar yr achlysur; ni waeth pa un ai asgrwn ai cnawd; ac ymddengys oddiwrth adn. 23 ddarfod cymeryd rhan o'r ddau. Gwnaed y wraig nid o *ben* Adda, i lywodraethu arno; nac o'i *droed* ef, i gael ei sathru ganddo; ond o'i *ochr* ef, i fod yn gyfartal iddo, dan ei fraich i gael ei hamddiffyn ganddo, ac yn agos at ei galon i gael ei charu ganddo.

Adn. 22. *Ac a'i dyg at y dyn*] I fod yn wraig iddo. Felly hi a briododd nid yn unig trwy gydsyniad ei Thad nefol, ond hefyd trwy ei roddiad ef. Aurhdeddodd yr Arglwydd y briodas gyntaf a'i bresenoldeb.

Adn. 23. *Hon weithian*] *Zoth happyaam*, 'hon y tro hwn'; yr un ag sydd yn pasio o fy mlaen yn awr. Pan ddygwyd y gwahanol rywogaethau o' creaduriaid at Adda, y mae yn debyg eu bod yn pasio yn gymheiriaid heibio iddo, ac ar y pryd yn cael eu heuwau ganddo. Y creaduriaid ag oeddynt wedi pasio o'i ffaen ef eisioes nid oeddynt gyfaddas iddo, ac am hyny dywedwyd, 'Ni chafodd efe i Adda angeledd cymhwys iddo,' adn. 20. Ond pan ddaeth y wraig ger ei fron, wedi ei llunio o hono ef ac ar ei ddolw, efe a deimlodd, yr holl atyniad a allai cydwaedoliaeth ei gynyrru, ac ar yr un pryd a welodd ei bod yn ei pherson a'i meddwl bob ffordd yn addas i fod yn gywmares iddo. *Sydd asgrwn o'm hesgryn i, a*

23 Ac Adda a ddywedodd, Hon weithian *sydd* asgrwn o'm hesgryn i, a chnawd o'm cnawd i: hon a elwir gwraig, oblegid o wr y cymerwyd hi.

24 O herwydd hyn yr ymedy gwr a'i dad, ac a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig: a hwy a fyddant yn un cnawd.

25 Ac yr oeddynt ill dau yn noethion, Adda a'i wraig, ac nid oedd arnynt gywilydd.

chnawd o'm cnawd i—nid breuddwydio hyn a wnaeth Adda, fel y tybia Benson; canys nid yw dynion yn breuddwydio mewn trymgwsg; ond efe a'i deallai trwy yr un galluoedd ag yr enwai y creaduriaid. *Hon a elwir gwraig*—Heb, *ishshah*. Y mae *ish* yn arwyddo *dyn*, a'r gair a arferir am wraig sydd yr un, gyda therfyniad benywaidd, *ishshah*, ac yn llythyreol yn meddwl *dynes*. Y mae llawer wedi darlunio y gair Saesong *woman* fel yn gyfansoddedig o *woe* a *man*, fel pe'i gelwid *man's woe*, 'gwae dyn,' o herwydd iddi ei demtio i fwyta y flrwyth gwaharddedig; ond nid hyn yw ystyr y gair gwreiddiol, ac nis gallai gael ei fwrriadu, am nad oedd y trosedd y pryd hyny wedi ei gyflawni. *Woman* sydd dalfyrriad o'r gair Anglo-Saxonaid *womban*, ystyr pa un yw y 'dyn â'r groth;' ac y mae y gair Cymreig *gwraig* yn cyfeir yr un meddwl, oddiwrth *gwr* neu ddyn, ac *aig*, yr hyn sydd yn epilio, y groth. Y rheswm paham y gelwid hi yn wraig yma yw, am mai o wr yr heigiodd hi yn deilliodd hi.

Adn. 24. *O herwydd hyn yr ymedy gwr a'i dad ac a'i fam*] Ymddengys oddiwrth Mat. xix. 4, 5, mai Duw ei hun a ddywed yma y byddai raid i ddyn ymadael â'i holl berthynasau i lynu wrth ei wraig; ond pa un ai trwy Moses ai trwy Adda sydd ansicr. *A hwy a fyddant yn un cnawd*—hwy a ystyrir fel un corff, heb ganddynt hawliau, breintiau, na gofalon gwahanol neu annibynol, ond yn gygyfranogol yn nhib peth a berthyn i'r cyflwr priodasol. Y mae ein Harglwydd yn dyfynio y geiriau hyn, Mat. xix. 5, gyda pheth gwahaniaeth: 'A'r ddau fyddant yn un cnawd.' Felly hefyd y gwneir yn Marc x. 8, i Cor. vi. 16, Eph. v. 31. Oddiwrth y gair *hwy*, haerodd rhai y gall dyn gael cynifer o wragedd ag a fynd; ond gyda'r gair *dau*, y mae priodas yn gyfyngedig. Y mae y LXX, y Vulgate, y Samaritanaeg, yr Arabaeg, a'r Syriaeg, yn meddi y gair *dau* yn y testyn.

Adn. 25. *Yr oeddynt ill dau yn noethion*] Heb angen am ddilad i'w hamddiffyn rhag oerui na gwres, y rhai ni allent eu niweidio yn eu cyflwr o ddiniweidrwydd. *Ac nid oedd arnynt gywilydd*—Cald. 'ni wyddent pa beth oedd cywilydd.' Da y gallai y rhai na feddynt enogrwydd yn eu cydwybodau, fod heb gywilydd yn eu gwynebau, er eu bod heb ddilad am eu efnau.

PEN. III. Adu. 1. *A'r sarff oedd gyfrwysach na holl fwystfilod y maes*] Y mae Dr. A. CLARKE yn ei gyfieithu, 'A'r epa

PENNOD III.

A'R sarff oedd gyfrwysach na holl *A*fwystfilod y maes, y rhai a wnaethai yr Arglwydd Dduw; a hi a ddywedodd wrth y wraig, Ai diau ddywedyd o Dduw, Ni chewch chwi fwyta o bob pren o'r ardd?

2 A'r wraig a ddywedodd wrth y sarff, O ffrwyth prenau yr ardd y cawn ni fwyta:

3 Ond am ffrwyth y pren *sydd* yn nghanol yr ardd, Duw a ddywedodd,

oedd fwy *deallgar* na holl fwystfilod y maes; ac efe a chwanea, 'Y mae yn ymddangos i mi mai creadur o rywogaeth yr *epa* neu yr *ouran-oufentang* a feddylir yma; a darfod i Satan ddefnyddio y creadur hwn fel yr offeryn addasaf er cyflawniad ei ameanion llofruddiog yn erbyn bywyd ac enaid dyn.' Ond, fel y sylwa BENSON, gellir profi oddiwrth amrai ranau ereill o'r Hen Destament, lle yr arferir yr un geiriau, ac oddiwrth wahanol ranau o'r Newydd, lle y cyfeirir atynt, fod ein cyfieithwyr ni yn iawn wrth droi y gair *nachash* yn SARFF, a'r gair *arum* yn GYFRWYSACH. Y mae y gair blaenaf yn cael ei arfer am y seirff tanlyd a frathent y bobl yn yr awialwch, y rhai yn ddiau nad oeddynt yn epaod: ac am y sarff bres, trwy edrych ar ba un yr iacheid hwynt: gwel y wreiddiol yn Num. xxi. 6—9. Arferir ef hefyd yn Esay lxxv. 25, yn mha le, mewn cyfeiriad at adn. 14 o'r bennod hon, y dywedir, 'A'r sarff, *llwch* fydd ei bywd hi: ond yn sicr nid llwch yw bywd yr epa. Hefyd, y mae y gair yn cael ei gyfieithu *ophis* yn mhob man gan y LXX, a dyna ydyw yn y Testament Newydd, yr hwn sydd yn meddwl *sarff* ac nid dim arall. Hefyd y mae y gair arall *arum* wedi ei gyfieithu yn iawn, gan feddwl yn wreiddiol *cyfrwys* neu *ddiechllgar*; ac y mae wedi ei gyfieithu felly yn Job v. 12, a'i ddeongli felly yn 2 Cor. xi. 3, lle y mae y gair *panourgia* yn cael ei ddefnyddio, yr hwn yn ddiau nad yw byth yn meddwl *deallwriaeth*, ond bob amser *dichell* neu *gyfrwysdra*. *A hi a ddywedodd wrth y wraig*—yr hon yn debygol a gafodd hi ar ei phen ei hun yn ymyl y pren gwaharddedig. Y mae yn sicr mai Satan oedd yn llefaru trwy y sarff, megys y llefarai efe yn nyddiau Crist trwy y rhai a feddiennid ganddo, Marc i. 24. *Ai diau ddywedyd o Dduw, Ni chewch chwi fwyta o bob pren o'r ardd?*—nis gellir casglu oddiyma fod dim dyddymddyddan wedi bod rhyngddynt o'r blaen; ond cyfeirio y mae y gelyn at y gwaharddiad a roddwyd yn pen. ii. 17. Fel pe dywedasai, *A ydyw yn bosibl ddarfod i Dduw, yr hwn a blannodd yr ardd hon, a'r holl brenau ffrwythlon a phrydferth ynddi, ac a'ch gosododd chwi ynddi er eich cysur, omedd i chwi ei ffrwyth hi? Diau y rhaid naili ai eich bod chwi yn camgymeryd, neu fod Duw yn genfigenus ac annhirion, ac felly yn annheilwng o gael ymddiried ynddo na'i garu.*

Adn. 2. *A'r wraig a ddywedodd wrth y sarff*] Mewn trefn i amddifyn ymddygiad eu

Na fwytewch o hono, ac na chyffyrddwch âg ef, rhag eich marw.

4 A'r sarff a ddywedodd wrth y wraig, Ni byddwch feirw ddim.

5 Canys gwybod y mae Duw, mai yn y dydd y bwytaoch o hono ef, yr agorir eich llygaid, ac y byddwch megys duwiau, yn gwybod da a drwg.

6 A phan welodd y wraig mai da oedd *ffrwyth* y pren yn fwyd, ac mai tég mewn golwg ydoedd, a'i fod yn bren dymunol i beri deall, hi a gy-

Gwneuthurwr tuag atynt. *O ffrwyth prenau yr ardd y cawn ni fwyta*—o'r holl brenau oddieithr un: am un y unig y dywedasai Duw, na chaem fwyta o hono. Ond pan y mae hi yn chwanea, adn. 3, *rhag eich marw*, y mae yn amlwg fod ei ffydd yn dechreu siglo, a'i bod fel yn meddwl nad oedd y gwaharddiad a roddwyd iddi ddim ond rhybydd tirion rhag bwyta gwenwyn marwol; a gallwn feddwl fod y temtiwr ar y pryd yn bwyta y ffrwyth ei hun, i ddangos nad oedd ynddo berygl.

Adn. 3. *Na chyffyrddwch âg ef*] Ymddengys mai y wraig a chwaneodd hyn at y gwaharddiad, megys y darfu iddi hefyd newid ei eiriad; canys nid 'Rhag eich marw' oedd y bygythiad, ond, 'Gan farw y byddi farw;' hyny yw, 'Byddi farw yn ddiau.' Dywed rhai o'r ysgrifenyddwyr Iuddeveg ddarfod i'r sarff, mor gynted ag y dywedodd y wraig hyn, ei gwthio hi yn erbyn y pren, gan ddywedyd, 'Gwel, tydi a *gyffyrddais* âg ef, ac yr wyt eto yn fyw; gan hyny ti a eili yn ddiogel fwyta o'r ffrwyth, canys yn ddiau ni byddi farw.'

Adn. 4. *Ni byddwch feirw ddim*] Yma cawn 'dad y celwydd' yn gwrthddywedyd ar unwaith haerid pendant Duw; fel pe dywedasai, Creodd Duw di yn anfarwol, ac o ganlyniad y mae dy farwolaeth yn annichonadwy; ac y mae Duw yn gwybod hyn: canys fel yr wyt yn *byw* trwy bren y bywyd, felly cai chwanea o *ddoethineb* trwy bren gwybodaeth.

Adn. 5. *Canys gwybod y mae Duw, &c.*] Y mae y temtiwr yma yn cymhwys y demtasiwn at gyflwr pur ein rhieni cyntaf, gan gynyg iddynt nid pleserau cnawd, ond hyfrydych deallol. 1. *Agorir eich llygaid*—eich golygiadau deallol a eangir, a chwi a welwch yn mhellach i bethau ag y gwnechwch yn awr. 2. *Byddwch megys duwiau*—bodau o uwch gradd; neu, fel y mae mewn rhai o'r hen gyfieithiadau, 'megys angylion.' Ond myn rhai gyfieithu *kelohim*, 'megys Duw;' hyny yw, yn ddoeth a galluog megys Duw, yn medru byw byth yn annibynol arno ef. 3. *Yn gwybod da a drwg*—sef pob peth ag sydd ddymunol ei wybod. 4. *A hyn oll yn ddoedi: Yn y dydd y bwytaoch o hono*—chwi a deimlwch gyfnewidiad sydyn a diattreg er gwel.

Adn. 6. *A phan welodd y wraig*] Yn yr olwg arno, neu oddiwrth dystiolaeth y temtiwr am dano yn yr adnod faenorol; *mai da oedd ffrwyth y pren yn fwyd*—i gynyrcu yr effeithiau a nodwyd; *ac mai tég mewn golwg ydoedd*—yn edrych yn iachus a diwenwyn,

merth o'i ffrwyth ef, ac a fwyaodd, ac a roddes i'w gw'r hefyd gyda hi, ac efe a fwyaodd.

7 A'u llygaid hwy ill dau a agorwyd, a hwy a wybuant eu bod yn noethion, ac a wnaasant ddail y ffygysbren, ac a wnaethant iddynt arfedogau.

8 A hwy a glywsant lais yr Arglwydd Dduw yn rhodio yn yr ardd, gydag awel y dydd; ac ymguddiodd Adda a'i wraig o olwg yr Arglwydd Dduw, yn mysg prenau yr ardd.

9 A'r Arglwydd Dduw a alwodd ar

gwel ar adn. 2; *a'i fod yn bren dymunol i beri deall*—i eangu y cyneddfau. Yn briodol y sylwyd mai o'r tair ffynnonell hyn y mae pob drwg naturiol a moesol yn tarddu; a'u bod yn cyfateb yn gymhwys i'r hyn a eilw yr apostol, 1 Ioan ii. 16, yn *chwant y cnawd*—da oedd ffrwyth y pren yn fywd; *chwant y llygaid*—têg mewn golwg ydoedd; *a bacheider y bywyd*—yn bren dymunol i beri deall. *Hi a gymerth o'i ffrwyth ef*—ac felly y wraig oedd 'gyntaf' yn y camwedd: gwel ar 1 Tim. ii. 14, a'r nŏd yno yn ngwaelod y ddalen. *Ac a roddes i'w gw'r hefyd gyda hi*—gan ei ddarbwyllio ond odid gyda'r un rhesymau ag a ddwyddiasai y temtiwr gyda hi; a chan chwanaegu, ddarford iddi hi ei hunan fwyta o hono, a'i gael mor bell oddiwrth fod yn angeuol, nes yr oedd yn dra byfryd a dymunol. Ymddengys nad oedd Adda gyda'i wraig pan yr oedd hi yn cael ei themtio. *Ac efe a fwyaodd*—gan farnu ond odid nad oedd y gwarhaddai a gawsai o rwymedigaeth barhaus, a bod ei amser peudol wedi dyfod i ben; yr hyn a ymddanghosai yn debycach fyth wrth ystyried fod Efa eisioes wedi bwyta, ac yn cael byw. Nad oedd gan Adda yn y weithred hon fwrriad i bechu a ymddengys oddiwrth hyn, y buasai raid iddo ef felly fod yn llygredig cyn bwyta, yr hyn a briodolai ei halogrywydd ef i'w Grewawdwr. Wrth wneuthur pechod, efe a fwrriadai wneyd cyfiawnder: gwel ar 1 Tim. ii. 14.

Adn. 7. *A'u llygaid hwy ill dau*] Llygaid en meddyliau a'u cydwybodau, y rhai hyd yma oeddnt wedi eu cau a'u dallu trwy ddi-chell y diafol; *a agorwyd*—megys yr addawsai Satan iddynt, er mewn ystyr tra gwahanol. Yn awr, pan yr oedd yn rhy ddiweddar, gwel-sant y dedwyddwch ag y syrthiasant o hono, a'r trueni ag y syrthiasant iddo! Gwelsant fod Duw wedi ei ddigio, ei ffafr wedi ei fforffetto, a'i ddwlw wedi ei cholli! Teimlasant anhreftia yn eu hysbrydoedd eu hunain, yr hwn na buont erioed o'r blaen yn ymwybodol o hono! Gwelsant fod deddf yn en haclodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf eu meddyliau, ac yn eu caethiwo i ddeddf pechod a digofaint! *A hwy a wybuant eu bod yn noethion*—ddarford eu dyosg o holl anrhydedd a dedwyddwch eu cyflwr paradwysaidd, a'u dynoethi i'r holl drueni a ellid ei ddysgwyl yn gyfiawn oddiwrth Dduw digllon; ddarford eu gosod yn agored i ddirmyg a gwarthrudd nefoedd, daear, ac uffern, yn gystal a'u cydwybodau eu hunain! *Ac a wnaasant*—neu yn hytrach a blet-

Adda, ac a ddywedodd wrtho, Pa le yr wyt ti?

10 Yntau a ddywedodd, Dy lais a glywais yn yr ardd; a mi a ofnais, oblegid noeth *oeddw'n*, ac a ymguddiais.

11 A dywedodd *DUW*, Pwy a fynegodd i ti dy fod yn noeth! ai o'r pren y gorchymynaswn i ti na fwytâit o hono, y bwytaist?

12 Ac Adda a ddywedodd, Y wraig a roddaist gyda mi, hi a roddodd i mi o'r pren, a mi a fwyteais.

asant, *ddail y ffygysbren*—fel y rhai mwyafr, neu nesaf at law, i guddio o leiaf ran o'u cywilydd oddiwrth y naill y llall. Y mae dail y ffygysbren Indiaidd yn dra mawrion, ac yn addas at arfedogau.

Adn. 8. *A hwy a glywsant lais yr Arglwydd Dduw*] Y mae Deongliadur Onkelos a Jonathan yn alleirio yr adran hon fel hyn: 'A hwy a glywsant lais GAIR yr Arglwydd Dduw;' ond odid tragwyddol Air Duw, yr hwn wedi hyn y wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni. Dichon ddarford iddo hefyd ymddangos i Adda mewn ffurf ddydol, fel gwystl o'i gnawdoliad yn nghyflawnder yr amser; canys dywedir yma ei fod yn *rhodio* yn yr ardd. *Gydag awel y dydd*—Heb. *leruach haiyom*, 'yr awel hwyrol;' a dichon mai dyma yr adeg a dreulid gan ein rhieni cyntaf yn eu haddoliad hwyrol, cyn myned i orphwys, pryd y byddai Duw bob amser yn bresenol. Yr awr addoli a ddaeth drachefn, ac y mae Duw yn ei le: ond yr oedd Adda ac Efa wedi pechu; ac am hyn, yn hytrach nag ymddangos yn eu lle, y maent yn ymguddio yn mhllith prenau yr ardd!

Adn. 9. *Pa le yr wyt ti?*] Nid ydym i feddwl na wyddai yr Hollwybodol yn mha le yr oedd Adda, neu fod arno eisiau hysbysrwydd am yr hyn a wnaethent pan yn eu holi yn adn. 11; eithr y gofnaiadau hyn a arferir i arwain i mewn yr hanes ddylydol, ac i ddangos i ni ganlyniad arswyddu eu trosedd. Dylid cofio y sylw yma, am y dygwydda amrai anghreiffitiau cyffilyb.

Adn. 10. *Mi a ofnais, oblegid noeth oeddw'n*] Y mae efe yn crybwyll ei noethni, yr hyn nid oedd ynddo ei hun yn bechadurus; ond yn cuddio ei bechod, yr hwn oedd yr achos o'i ofn a'i gywilydd.

Adn. 11. *Pwy a fynegodd i ti dy fod yn noeth?*] Hyn yw, pa fodd y daethost i fod yn deimladwy o'th noethni fel dy gywilydd? *Ai o'r pren y gorchymynaswn i ti na fwytâit*—myfi dy Grewawdwr, dy Noddwr, a'th Benarglwydd! Yn nrych y GORCHMYN yr ymddengys pechod yn fwyaf eglur a phechadurus. Er fod Duw yn gwybod am ein holl bechodau, eto efe a fyn eu gwybod oddiwrthym ni; ac y mae yn gofyn genym gyffesiad didwyll o honwyt, nid fel y gallo ef gael hysbysrwydd, ond fel y byddo i ni gael ein darostwng.

Adn. 12. *Y wraig a roddaist gyda mi*] Heb. *imadi*, 'yn gymhares i mi;' *hi a roddodd i mi*—nid myfi a dynais y ffrwyth, ond hi a'i

13 A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth y wraig, Paham y gwnaethost ti hyn? A'r wraig a ddywedodd, Y sarff a'm twyllodd, a bwyta a wnaethym.

14 A'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth y sarff, Am wneuthur o honot hyn, mellidigicach *wyt ti na'r holl anifeiliaid*, ac na holl fwystfilod y maes : ar dy dor y cerddi, a phridd a fwytai holl ddyddiau dy einioes.

15 Gelyniaeth hefyd a osodaf rhyng-

tygnodd, ac a'i rhoddodd i mi. Fel hyn, yn lle cyfaddef ei drosedd yn rhydd gyda gofid a dagrau, y mae efe yn ceisio ei egsusodi ei hun, a rhoddi y bai ar Efa, ac yn y pen draw ar Dduw ei hun yr hwn a roddasai y wraig hon iddo. *A mi a fwyteais*—neu, 'a ni a fwytasom,' fel y mae gan y LXX.

Adn. 13. *Paham y gwnaethost ti hyn?* Paham y bwyteist ti? neu, paham y rhodd-aist y firwyth gwaharddedig i Adda? Ond ymddengys oddiwrth atebiad y wraig, ddarfod iddi hi ei ddeall yn yr ystyr blaenaf. *Y sarff a'm twyllodd, a bwyta a wnaethym*—ti a'i gwnaethost hi yn llawer doethach nag y gwnaethost fi, a chan hyny trechwyd fy niniweidrwydd a'm hanwybodaeth i trwy ei huwch ddoethineb a'i chyfrwysdra hi : y bai sydd eiddo hi, a'r hwn a'i gwnaeth hi mor gyfrwys, a minau mor anwybodus. Fel hyn y mae Adda yn rhoddi y bai ar Efa, ac Efa ar y sarff, a'r ddau yn y pen draw ar Dduw!

Adn. 14. *A ddywedodd wrth y sarff*] Wrth gyhoeddi y ddedfryd, y mae Duw yn dechreu lle y dechreuodd y pechod, sef gyda'r sarff. Ni ofynir i'r temtiwr paham y twyllodd efe y wraig; ni all ef dreiglo y bai ar neb arall: yn hunan-demtiedig y syrthiodd efe; a'r fath yw ei elyniaeth, fel y mae yn naturiol iddo dwyllo a dyfetha pawb a allo. Y mae y ddedfryd yn cael ei chyhoeddi nuchben y temtiwr a'i offeryn: uwchben y sarff yn yr adnod hon, ac uwchben y diafol yn adn. 15. Os gofynir pa fodd y mae y sarff, creadur afresymol, yr hon nad oedd yn ddeiliad deddf, nac yn allnog o bechod nac euogrwydd, yn cael ei chospi gyda'r diafol? yr wyf yn ateb, mai ar yr un tir ag y cospir y corff gyda'r enaid, fel offeryn ei bechodau. Yn Lef. xx. 15, cawn fod y gwŷr a ymgydiai âg anifel i gael ei ladd, a'r anifel hefyd, am ei fod yn offeryn ei bechod; ac yr oedd yr ŷch a gorniaid ddyn i farwolaeth, i gael ei labyddio yn farw, Exod. xxi. 28, er nad oedd yn creadur moesol. *Mellidigicach wyt ti na'r holl anifeiliaid*—byddi o honyf dirmygus ac arswydus o honynt oll. *Ar dy dor y cerddi*—y mae yr esbonwyr yn gyffredin yn meddwl fod y rhywogaeth hon o seirff, pa un bynag ydoedd, yn cerdded yn rhyw hanner syth yn flaenorol i hyn, a'i bod gynt mor brydferth a dymnol yn ngolwg dyn ag ydyw yn awr yn ddirmygus. Ond myn rhai o'r hen ysgrifenywyr Iuddewig mai ystyr y rhan yma o'r gosp yw, y byddai y sarff yn hir yn ymddwyn ar ei rhai bychain, yr hyn a gyfrifant lwy y saith mlynedd. A

ot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had lithau: efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawld ef.

16 Wrth y wraig y dywedodd, Gan amlhau yr amlhaf dy boenau di a'th feichiogi: mewn poen y dygi blant, a'th ddymuniaid fydd at dy ŵr, ac efe a lywodraetha arnat ti.

17 Hefyd wrth Adda y dywedodd, Am wrando o honot ar lais dy wraig, a bwyta o'r pren am yr hwn y gorchymynaswn i ti, gan ddywedyd, Na

phridd a fwytai—fel canlyniad i'th ymgreiniaid yn y pridd, bydd i'th fwyd yn wastadol gael ei halogi a'i gymysgu âg ef. Ond dywed Dr. Delaney, a naturiaethwyr ereill, fod rhai math ar seirff i'w cael, mewn rhai parthau o'r byd, ag sydd mewn gwirionedd yn bwyta llwch y ddaear.

Adn. 15. *Gelyniaeth hefyd a osodaf rhyngot ti a'r wraig*] Yma y mae efe yn troi oddiwrth yr offeryn at y diafol yr hwn a'i defnyddiai. Y mae Duw yn ei drugaredd wedi gosod gelyniaeth rhwng dynion a diafol, fel, er fod pawb yn caru ei wasanaeth ef, nad oes neb yn ei garu ef ei hun; ac oni buasai hyn, pwya allasai fod yn gadwedig? *A rhwng dy had di*—dynion ac ysbrydion dieffig a drygonus, Mat. iii. 7, a xxiii. 33, 1 Ioan iii. 10; *a'i had lithau*—yn benaf Crist, yr hwn a elwir yn had y wraig, ond odid am y byddai iddo gael ei enwi o forwyn; ac hefyd dylunwyr Crist, y rhai yn mhob oes a gaseir gan y byd, Ioan xv. 19. *Efe a ysiga dy ben di*—dy awdurdod uwchaf: gair yn arwyddo cyflawn fuddugoliaeth ar Satan a'i deymas, yr hyn a enillwyd trwy farwolaeth aberthol ein Ceidwad: *a thithau a ysigi ci sawld ef*—niwed llai, yn cyfeirio ond odid at yr hyn a dyddoddefai ein Cyfryngwr yn ei natur ddynol wrth faeddu galluoedd uffern. Ond y mae rhai yn deall hyn am amrywiol ddyddoddefadau plant Duw oddiwrth eu gelyn ysbrydol.

Adn. 16. *Wrth y wraig y dywedodd*] Gan ei bod hi yr ail yn y camwedd, dygir hi yn ail i dderbyn ei chondemniad. *Gan amlhau yr amlhaf*—hyny yw, mai amlhaf dy boenan di, ac amlhaf y poenau hyny trwy boenan eraill, a hyny yn ystod dy feichiogiad, ac yn enwedig felly yn dy esgoriad. Ac y mae y felldith hon, meddai naturiaethwyr, wedi syrthio yn drymach ar *wraig* nag ar unrhyw fenyw arall; a chan nad oes un rheswm naturiol dros hyn, rhaid i ni edrych arno o hyd fel rhan o'r gosp wreiddiol. *A'th ddymuniaid fydd at dy ŵr*—fel, er maint dy boen wrth ddwyn plant, nad ymgweddi rhag y boen hono. Y mae y *Sam.* a'r *Ar.* a'r LXX yn ei gyfieithu, 'a'th droad fydd at dy ŵr.' *Ac efe a lywodraetha arnat ti*—fel dy arglwydd a'th lywydd, er dy fod wedi dy wneuthur ar y cyntaf o'r un awdurdod ag yntau.

Adn. 17. *Hefyd, wrth Adda y dywedodd*] Yr hwn, gan ei fod yr olaf yn y camwedd, a ddygir yn olaf i dderbyn ei ddedfryd. *Am wrandaw o honot ar lais dy wraig*—am uffyddhau o honot i'w chynghor hi, yn groes

fwyta o hono; melldigedig fydd y ddaear o'th achos di: trwy lafur y bwyta'i o honi holl ddyddiau dy cinioes.

18 Drain hefyd ac ysgall a ddwg hi i ti; a llysiaw y maes a fwyta'i di.

19 Trwy chwys dy wyneb y bwyta'i fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear; oblegid o honi y'th gymerwyd: canys pridd *wyt* ti, ac i'r pridd y dychweli.

i'm gorchymyn pendant i. *Melldigedig fydd y ddaear o'th achos di*—bydd iddi yn awr roddi llai o ffrwythau, a rhai gwaeth; ac ni chai hyd yn nod y rhai hyny heb fwy o ofal a gofid i'th feddwl, a mwy o lafur i'th gorff, nag a fuasai amgen yn angenrheidiol. Ar y cyntaf, *ffrwythlonder* oedd bendith y ddaear er gwasanaeth dyn; ond yn awr *diffwrwthder* yw ei melldith hi er cospedigaeth dyn.

Adn. 18. *Drain hefyd ac ysgall a ddwg hi i ti*] Megys o honi ei hun, y rhai a ddyrgant y tir, a dagant yr had da, ac a siomant obeithion y llafurwr. *A llysiaw y maes a fwyta'i di*—ni chai mwyach fwythau cynrych yr ardd hyfryd hon, ond rhaid i ti droi allan i'r byd llydan, ac ymborthi ar y cyfryw llysiaw ag a elli eu cael, nes trwy lafur a diwydrwydd y bydd i ti godi ereill mwy cyfaddas a dymunol. Y mae ffrwythlondeb rhyfeddol rhai o'r *drain* a'r *ysgall* cyffredin yn eu gwneuthur yn oferynnau tra addas er cyflawniad o'r ddedfryd hon yn erbyn dyn. Y mae y rhywogaeth a elwir *acanthum vulgare* yn cynrychgu uwchlaw 100 o benau, a phob pen yn cynwys o 300 i 400 o hadau. Pe tybiem nad yw yr ysgall hyn yn dwyn yn y cyfartaledd ond 80 o benau, na phob pen ond 300 o hadau, byddai i'r cnwd cyntaf oddiwrth y rhai hyn fod yn 24,000. Haer y rhai hyn, a'u cnwd a gyraedd i 576,000,000. Gwneleir hyn drachefn, a thrachefn, a byddai i'r cnwd oddiwrthyn yn y bedwaredd flwyddyn fod yn 7,962,624,000,000,000,000,000, mwy na digon i lenwi gwyneb yr holl ddaear, a'r holl blanedau yn neseb yr haul, a chaniatau ond troedfedd ysgwâr o le i bob un!

Adn. 19. *Trwy chwys dy wyneb y bwyta'i fara*] Ei orchwyl cyn iddo bechu oedd yn hyfrydwch iddo; ond yn awr ei lafur fydd yn flinderus iddo. Er y gellir tafu yr holl gorff i chwys mawr trwy lafur parhaus, eto y gwyneb neu y talcen yw y rhan a chwysa yn gyntaf. Y mae hyn yn cael ei achlysuor trwy fod y gwaed yn cael ei dafu yn gryf i'r ymennydd, mewn rhan trwy ymgrynu, ond yn benaf trwy weithrediad grymys y gewynau; ac o ganlyniad y gwaedistri oddeutu y pen a chwyddant trwy orlifad mawr o'r gwaed, y mân-wythenau a laceir, y chwys-dyllau a eangir, a'r chwys neu y dyfrwae a ffrydia allan, i gofio i ddyn ei bechod a'i ganlyniadau. *Canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli*—bydd i'th gorff gael ei adael gan dy enaid, a dyfod ei hun yn dalp o bridd; ac wedi hyny fe'i rhoddir yn y bedd, lle yr ymgymysga â phridd y ddaear. Y mae yn amlwg y buasai dyn yn anfarwol pe na phechasai, nid yn unig oddiwrth eiriau yr apostol, Rhuf. v. 12, lle y

20 A'r dyn a alwodd enw ei wraig Efa; oblegid hi oedd fam pob *dyn* byw.

21 A'r Arglwydd Dduw a wnaeth i Adda ac i'w wraig beisiau crwyn, ac a'u gwisgodd am danynt hwy.

22 ¶ Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd, Wele y dyn sydd megys un o honom ni, i wybod da a drwg. Ac weithian rhag iddo estyn ei law,

dywed efe mai trwy bechod y daeth marwolaeth i'r byd, ond hefyd oddiwrth fod y dychweiliad hwn i'r pridd yn cael ei roddi ar Adda fel *cosp* am ei bechod: gwel ar 1 Cor. xv. 22. Pe nad anufyddhasai efe i Dduw, efe a gawsai fyw am byth ar y ddaear, neu symudesid ef yn y diwedd i'r nef heb deimlo marwolaeth.

Adn. 20. *A'r dyn a alwodd enw ei wraig Efa*] Heb. CHAVVAH, 'Bywyd'; *oblegid hi oedd fam pob dyn byw*—yn pen. ii. 23, galwodd Adda hi *ishshah*, 'dynes,' fel GWRAIG; ond yma efe a'i geilw hi *chavvah*, 'bywyd,' fel MAM. Yn awr, 1. Os rhoddwyd yr enw hwn iddi trwy gyfarwyddyd Duw, yr oedd yn anghraifft o'i ffafwr ddwyfol, ac fel enwau newyddion Abraham a Sara, yr oedd yn sêl y cyffammod, ac yn sicrwydd iddynt y byddai iddynt 'ffrwytho ac amhlau.' Yr oedd hefyd yn gadarnhad o'r addewid a wnaed yn awr, y byddai i 'had y wraig,' sef y wraig hon, 'ysigo pen y sarff.' 2. Ond os Adda a'i rhoddodd o hono ei hun, yr oedd yn anghraifft o'i ffydd ef yn ngair Duw.

Adn. 21. *A'r Arglwydd Dduw a wnaeth*] A'i air, neu trwy weinidogaeth angylion, *beisiau crwyn*—sef crwyn anifeiliaid a laddwyd yn ebyrth i Dduw. Gan fod Abel yn aberthu yn gymeradwy gan Dduw, pen. iv. 4, y mae yn rhesymol meddwl eu bod wedi cael cyfarwyddiadau dwyfol ar y pen hwn, am nad yw yn debyg y gallasai y dychymyg o ABERTH byth ddyfod i feddwl dyn heb ddatguddiad pendant oddiwrth Dduw. Fel hyn, yr anifel cyntaf a fu farw, ehai HENRY, ydoedd aberth, neu Grist mewn cysgod; ac yr oedd hyn yn can allan y fuddugoliaeth oddiwrth Satan ac angau, trwy fod y farwolaeth *gyntaf* a gymerth le yn y byd, yn arwydd ac yn gysgod o'r farwolaeth hon a orchfygai Satan, a ddinystriai ei amherodraeth, a gymodai Dduw â dyn, a droai ddynt at Dduw, a santeiddiai y natur ddyfol, ac a'i cymhwysai i'r nef. *Ac a'u gwisgodd am danynt hwy*—1. I'w hamddiffyn rhag oerni a gwres, a drygan ereill ag yr oeddnt yn awr yn agored iddynt. 2. I adgoïo iddynt eu cwmp, yr hwn a wnaethai eu noethni yn gywilydd iddynt, tra yr ydoedd o'r blaen yn anrhydedd iddynt. 3. I ddangos ei ofal am ddynt syrthiedig, fel y byddai i hyny gefnogi ei obeithion am drugaredd trwy Gyfringwr, a'i gryflau yn ei ffydd.

Adn. 22. *Wele y dyn sydd*] Heb. 'OEDD megys un o honom ni;' a dyma fel ei cyfieithir hefyd yn y Samaritanaeg, y Syriaeg, a'r LXX. Ymddengys mai yr ystyr yw, Wele y dyn, yr hwn OEDD ar y cyntaf megys un o honom ni mewn santeiddrwydd a *daioni*, wedi dyfod yn

a chymeryd hefyd o bren y hywyd, a bwyta, a byw yn dragwyddol :

23 Am hyny yr Arglwydd Dduw a'i hanfonodd ef allan o ardd Eden, i

awr i wybodaeth chweryd o'r *drwg* hefyd. Prin y gallwn feddwl gyda'r esboniwr yn gyffredinol mai gwawdio Adda y mae Duw, neu edliw iddo ddywediad y temtiwr, adn. 5. *Megys un o honom ni*—cawn yma brawf amlwg arall o luosogrwydd personau yn y Dnw-dod. Os haerir mai dywydd hyn y mae Duw am dano ei hun a'r angylion, yr wyf yn ateb, na wnaed un crybwylliad eto am yr angylion, a bod yn afresymol meddwl y byddai i'r Duw anfeidol ymrestru fel hyn gyda'r cyfryw rai. *Ac weithian rhag iddo esym ei law, a chymeryd hefyd o bren y bywyd*—megys ag y cymerodd o bren gwybodaeth, ac felly halogi y pren sacramentaidd hwnw, a'i berswadio ei hun y caiff efe 'fyw yn dragwydd' ar sail yr hen gyffammod; i attal hyn, Duw a'i hanfonodd ef allan: neu, fel y mae yn cael ei chwanegeu yn niwedd yr adnod hon yn yr Arabaeg, 'gweddus oedd iddo fyned allan o'r ardd.'

Adn. 23. *Am hyny yr Arglwydd Dduw a'i hanfonodd ef allan*] Yr oedd ef ond odid yn anffoddlon i fyned, a Duw a'i gyrodd ef, adn. 24. Ond i ba le y gyrodd Duw ef pan yn ei droi allan o Eden? Gallasai yn gyfiawn ei ymled ef allan o'r byd, Job xviii. 18; ond ni ddarfu iddo ond ei ymled allan o'r ardd: gallasai yn gyfiawn ei dafu ef i *uffern*, fel yr angylion syrthiedig pan y trowyd hwynt allan o'r baradwys nefol, 2 Pedr ii. 4; eithr ni anfonwyd dyn ond i *lafurio y ddaear, yr hon y cymerasid ef allan o honi*. Ni anfonwyd ef ond i le o *lafur*, nid lle o *boen*. Anfonwyd ef i'r byd, nid i'r heddi; i'r gweithdy, nid i'r carchardy; i ddal yr arad, nid i lusgo y gadwyn. Hefyd, ei *lafurio y ddaear* a wobrwyd â bwyta o'i firwythau hi; a'i gyweithas â'r ddaear a wasanaethai i ddybenion daionus, i'w gadw ef yn isel, ac i adgofio iddo ei ddiwedd. Felly, er i'n rhieni cyntaf gael eu cau allan oddiwrth freintiau eu cyflwr o ddiniweidrwydd, eto ni adawyd hwynt i anobaith: yr oedd Duw, yn ei 'feddyliau o heddi,' yn eu bwriadu hwynt i ail sefyllfa o brawf ar amodau newyddion.

Adn. 24. *Ac a osododd o'r tu dwyrain i ardd Eden*] Heb. *mikkedem*, 'o flaen gardd Eden,' sef o flaen yr hyn y gellir ei ystyried yn borth neu fynedfa iddi. *Y cerubiad â chleddyf tanllyd ysgwydedig*—neu, fel y gellir cyfieithu *hamithapechet*, â fflam dân, neu dân fflamlyd, yn *ysgwyd* fel y gwna fflam wrth gynebu, mewn gwrthgyferbyniad i farworyn *marw* o dân. *I gadw sffordd pren y bywyd*—gellir deall y gair *shamar*, a gyfieithir yma 'cadw,' fel yn arwyddo *dangos* y sffordd, yn gystal a *chau i fyny* y sffordd: ac felly tueddri fi i feddwl mai yr ystyr yw, fod y cerubiad hyn yn dylgu y sffordd i'n rhieni cyntaf at BREN Y BYWYD; nid at y pren naturiol hwnw yn yr ardd, oddiwrth yr hwn y gyrwyd hwynt allan, a'r hwn o'i fwyta a fusasai yn awr yn *bren marwolaeth* iddynt; ond at y PREN YSBRYDOL hwnw ag sydd yn nghanol paradwys

lafurio y ddaear, yr hon y cymerasid ef o honi.

24 Felly efe a yrodd allan y dyn, ac a osododd o'r tu dwyrain i ardd Eden,

Duw, Dat. ii. 7, a xxii. 2. Yn ol y golygiad hwn, y mae y cerubiad hyn, fel y rhai hyn ar y drugareddfa, Exod. xxv. 18, &c., yn cyfeirio dyn at drefn rasol Duw o gadw pechadur dan y cyffammod gras. Am natur, llun, ac arwyddocâd y CERUBIAID, y rhai a grybwyllir mor fynych yn yr ysgrifthyrau, y mae llawer o wahanol dybiau; ac wrth eu cyfyngu i ryw *un ystyr*, neu *un llun*, y syrthiodd duw-inyddion i'r fath ddyrswch. Yr wyf fi yn meddwl eu bod weithiau yn yr ysgrifthyrau yn arwyddo graddau uchel o *angylion*, ac weithiau yn cynrychioli rhai o *brïodoliaethau* yr Hollalluog, a thro arall yn arddangos *dynion gwaredigol*; a dichen eu bod weithiau yn meddu ystyr gwahanol i'r tri, fel y cawn sylwi yn y manau lle y dygwyddant. Yr wyf yn meddwl yn mhellach, mai y SECINA, neu y Dwyfol Bresenoldeb, a osodir allan trwy y *tân sffamlyd* yn y testyn, yn cyfateb i'r hyn ag ydoedd mewn oesoedd dyfodol yn aros rhwng y cerubiad, ar y drugareddfa, yn y cysegr santeiddiol. Y mae yn nodedig mai y gair Hebreig a gyfieithir yn y testyn, *a osododd*, yw *ishchon*, oddiwrth yr hwn y deillia yr euw SECINA. Felly y mae yn debyg fod yr hyn a osodwyd o flaen gardd Eden yn cyfateb, o ran llun a dyben, i'r hyn a welid ar gauad yr arch wedi hyn, sef yr angylion yn edrych i lawr ar ddeddf doredig, ac ar bechadur ar yr pryd yn gallu nasâu at y Presenoldeb Dwyfol trwy Gyfryngwr. Y mae yn nodedig fod awdwr llyfr Doethineb, pen. ix. 8, gan lefaru yn mherson Solomon, yn cyfeirio at dabernacl wedi ei ddarparu gan Dduw o'r 'dechread,' o'r hwn yr oedd yr un a wnaed ganddo ef yn bortreiaid: ac y mae yn amlwg oddiwrth Exod. xxxiii. 7—9, fod pabell neu dabernacl gan yr Israeliaid o flaen yr un a adeiladwyd gan Moses. Ac os oedd addol-iaid crefyddol cyfaddas i ddyn syrthiedig yn angenrheidiol er pan drowyd ein rhieni cyntaf allan o Eden, fel yn ddiambeuol yr oedd, ai nid yw yn rhesymol casglu ddarfod i Dduw sefydlu y fath addolad ar y pryd? Os felly, ymddengys i mi fod yn rhesymol casglu mai yr hyn a osodwyd gan Dduw o flaen gardd Eden, oedd yr Eglwys, y Babell, y Drugareddfa, y Secina, neu ba beth bynag arall ei gelwid, lle yr oedd Adda, Abel, a'r patrieirech yn arferol o addoli. Yn gyson â hyn y mae Deongliad Jerusalem yn darllen yma, 'Efe a wnaeth i ogoniant ei Secina, neu ei Fawrhydi gogoneddus, drigo gynt o du y dwyrain i ardd Eden, uwchben y ddau gerub.'

ADFEDDYLIAU.—Ar ol sylly yn yr ail bennod ar ein rhieni cyntaf yn ngogoniaut eu diniweidrwydd gwreiddiol, yn amgylchedig â cheinion paradwys, yr ydym yn y bennod hon yn eu canfod wedi eu dyosg o bob ardderchog-rwydd yn nydd y brofedigaeth, yr un modd a natur ar ol tymhestloedd llymaf y gauaf. Os na syrthiasant y dydd y crewyd hwynt, prin y cadwasant yr ail sabboth cyn i'r temtiwr effeithio eu dynstr! Oddiwrth hanes athrist eu cwmpw,

y cerubiaid, â chleddyf tanlyd ysgwydedig, i gadw ffordd pren y bywyd.

PENNOD IV.

AC Adda a adnabu Efa ei wraig : a hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar Cain ; ac a ddywedodd, Cefais ŵr gan yr Arglwydd.

2 A hi a esgorodd eilwaith ar ei frawd ef Abel ; ac Abel oedd fugail

gallwn ddyseu ei ystrywian a'i ddichellion ef. Efe a wadodd y gosp fygythiol—*ni byddwch feiwr ddim*. Efe a fawrygodd y rhyddid a'r budd a geid oddiwrth fwythfoddhad—*byddwch megys duwiau, yn gwybod da a drwg*. Och ! fel hyn y mae efe yn hudo pechaduriaid yn barhaus. Efe a wad y bydd i gopedigaeth byth ddyfod ; ac a sierha, yn ngwyneb Duw, y bydd i hyfrydych pechod chwanegu dedwyddwch ! Ond pa beth a fu canlyniad y pechod cyntaf ? Y *sarff* a ddiraddiwyd ; y *wraig* a fellidithiwyd â phoen, trueni, ac ymostyngiad i ewyllys ei gŵr, yr hyn na fwrriadwyd ar y cyntaf ; y *dyn*, arglwydd y byd isod hwn, a ddedfrydwyd i safur, poen, a marwolaeth, efe a'i holl hiliogaeth ; a'r *ddaeac* ei hun a fellidithiwyd â graddau helaeth o ddfirwythder ! I goroni y cwbl, y mae *gardd paradwys* yn cael ei chau rhagddo, a'r dyn, yr hwn a wnaed ar ddelw Duw, ac a fynai fod yn debyg iddo, yn cael ei yru mewn gwarth o'r fan lle na allai neb ond ysbrydion pur yn unig gartrefu. Eto, yn nghanol barn, darfu i Dduw gofio tjugaredd ; ac y mae addewid o waredigaeth o'r cyflwr diraddiol a mellidithiol hwn yn cael ei gwneuthur iddynt trwyddo EF, yr hwn, yn nghyflawnder yr amser, oedd i gael ei wneuthur yn gnawd, a'r hwn, trwy farw dros bechod y byd, a ddinystriai awdurdod Satan, ac a waredai babw a ymddiriedent yn haeddiant ei aberth oddiwrth allu, euogrydd, a natur pechod, gan eu paratoi fel hyn i'r baradwys nefol ar ddeheulaw Duw. Bydded i'r darlennydd a'r ysgrifenydd gael eu paratoi i'r lle dedwydd hwn.

PEN. IV. Adn. 1. *Cefais ŵr gan yr Arglwydd*] Y mae CAIN yn arwyddo *caffaeliad* ; am hynny y dywed Efa, *Kanūhi eth Yehovah*, 'cefaiss ŵr, yr Arglwydd.' Y mae llawer o esbonwyr yn meddwl fod Efa yn tybied yma mai Cain oedd yr *had addawedig* ag ydoedd i ysgio pen y sarff ; ond barna ereill nad oedd hi yn meddwl dim mwy na chydnabod mai trwy fendith neillduol Duw y galluogwyd hi i feichiogi ac esgor ar fab, a bod ganddi yn awr obaith cryf y parheid hiliogaeth dyn ar y ddaear.

Adn. 2. *A hi a esgorodd eilwaith*] Heb. *vatiaseph laledeth*, 'hi a chwanegodd esgor ar ei frawd ef Abel.' Trwy na ddywedir ddarfod iddi feichiogi ac esgor, fel y gwneir yn achos Cain, ac yn gyffredin felly yn yr ysgrythrau mewn achosion o'r fath, casglodd llawer fod Cain ac Abel yn *efelliaid*. Ystyr y gair ABEL yw *gwagedd* ; ac y mae yr enw hwn yn cael ei roddi i'r holl hil yn Salm xxxix. 5. Tybia Awstin fod Cain yn gysgod

defaid, ond Cain oedd yn llafurio y ddaear.

3 A bu wedi talm o ddyddiau i Cain ddwyn o ffrwyth y ddaear offrwm i'r Arglwydd.

4 Ac Abel yntau a ddyg o flaenffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt. A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm :

5 Ond nid edrychodd efe ar Cain,

o blant y byd hwn, y rhai sydd am *gaffael* eu rhan yn y bywyd yma ; a bod Abel yn gysgod o blant Duw, y rhai a edrychant ar y pethau a welir fel gwagedd. *Abel oedd fugail defaid*—yn edrych ar ol y praidd, a Chain ydoedd *amaethwr*, a'u tad yn *arddur*.

Adn. 3. *Wedi talm o ddyddiau*] *Mikkets yamim*, 'yn niwedd y dyddiau.' Tybia rhai mai un o gylchwyliau y greadigaeth a feddylir yma, ar ol i Cain ac Abel dyfu i gyflwr dyn ; tra y barna ereill mai rhyw sabboth a olygir, pryd yr arferai Adda a'i deulu offrwm i Dduw, ond odid o flaen gardd Eden, fel y nodwyd ar pen. iii. 24. *I Cain ddwyn o ffrwyth y ddaear offrwm*—Heb. *minchah*. Y mae y gair *minchah* yn cael ei egluro yn Lef. ii. 1, megys 'offrwm o beillied, yn nghydag olew a thus ;' a'r ddefnyddiau hyn oeddynt 'ffrwyth y ddaear,' y rhai a offrwyd Cain yn DDIOLCHOFFRWM i'r Arglwydd fel Duw rhagluniaeth, neu gyfranydd bendithion tymhorol.

Adn. 4. *Ac Abel yntau a ddyg*] Myn Dr. Kennicott y dylai *hebi gan hu*, 'yntau a ddyg,' gael eu cyfieithu, 'Ac Abel a'i ddyg yntau hefyd'—sef y *ninchah*, neu yr offrwm diolchgarwch ; ac yn chwanegol at hyn, efe a ddyg o *flaenffrwyth ei ddefaid*—sef OEN, yn BECH-ABERTH ; trwy yr hyn y cydnabyddai efe ei hun yn bechadur, y profesai ffydd yn y Messia addawedig, ac yr edrychai ar Dduw fel Duw gras, yn gystal a Duw rhagluniaeth. At hyn y cyfeiria yr apostol yn Heb. xi. 4 : *Trwy ffydd yr offrwmodd Abel i Dduw aberth rhagorach*—(*pleiona thusian*.) aberth mwy, neu lusocach. A'r hyn a gadarnha yr esboniad hwn yn fwy yw sylw yr apostol yn niwedd yr adnod hōno, *Gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef*, yr hyn yn sier a ddengys ddarfod iddo ddwyn mwy nag un. *Ac o'u brasder hwynt*—hynny yw, yr oen brasaf a goraf o honynt, i fod yn gysgod o 'Oen Duw, yr hwn oedd i dynu ymaith bechodau y byd,' Ioan i. 29. *A edrychodd ar Abel ac ar ei offrwm*—a ddianghosodd ei gymeradwyaeth o hōno, yn debygol trwy dân o'r nef yn ysu ei aberth, fel yn achos Elias, 1 Bren. xviii. 38 ; neu trwy filam oddiwrth y SECINA, pen. iii. 24.

Adn. 5. *Ond nid edrychodd efe ar Cain nac ar ei offrwm*] Paham ? 1. Am fod Cain yn ddyw drwg, tra yr oedd Abel yn ŵr cyfiawn, Mat. xxiii. 35, 1 Ioan iii. 12. 2. Am fod gwahaniaeth yn eu hoffrymau, adn. 4 : fel Sosiniad, efe a feiddiodd nesau at Dduw heb aberth. 3. Am nad oedd Cain yn offrwmu trwy ffydd, fel y gwnai Abel, Heb. xi. 4. Felly nis gallai Duw, yn gyson â'i santeiddrwydd a'i gyfiawnder, gymeradwyo Cain na

nae ar ei offrwm ef. A digllonodd Cain yn ddirfawr, fel y syrthiodd ei wyneb-
pryd ef.

6 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Cain, Paham y llidiaist? a phaham y syrthiodd dy wynebpryd?

7 Os da y gwnai, oni chai oruchafiaeth? ac oni wnai yn dda, pechod a orwedd wrth y drws: atat ti hefyd y mae ei ddymuniad ef, a thi a lywodraethi arno ef.

8 A Chain a ddywedodd wrth Abel ei frawd: ac fel yr oeddynt hwy yn y

derbyn ei offrwm. *A digllonodd Cain yn ddirfawr*—wrth Dduw a'i frawd; *fel y syrthiodd ei wynebpryd ef*—aeth i edrych yn bruddaidd, sarug, a digofus.

Adn. 6. *A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Cain* I'w argyhoeddi o'i bechod, a'i ddwyn i edifeirwech; *Paham y llidiaist?*—pa achos i hyn y gefaist geny fi neu dy frawd?

Adn. 7. *Os da y gwnai* Naill ai, 1. *Pe gwnaethit dda*—fel y gwnaeth dy frawd, tydi a gawsit oruchafiaeth megys yntau. 'Nid yw Duw dderbyniwr wyneb;' ac felly, os deuw yn fyr o dderbyniad gydag ef, bydd y bai yn gwbl wrth ein drws ein hunain. Bydd i hyn gyfiawnhau Duw yn nannedigaeith pechaduriaid, a chwanegu eu dynstr. 'Nid oes pechadur damnedig yn uffern,' ebai HENRY, 'yr hwn pe gwnaethai dda, megys y gallasai wneuthur, na fwasai yn sant gogoneddus yn y nef.' Neu, 2. *Os da y gwnai yn awr*—os edifarhai am dy bechod, os diwygi mewn calon a buchedd, ac os deui ger fy mron i gydag aberth; *oni chai oruchafiaeth*—neu dderbyniad, megys y cafodd dy frawd? Gwelwn mor fore y pregethwyd yr efengyl, a hyn gan Dduw ei hun, i un o'r pechaduriaid penaf! *Ac oni wnai yn dda*—os bydd i ti barhau yn dy lidiogrywyd a'th anuffydd-dod, *pechod a orwedd wrth y drws*—hyny yw, 1. Pechod *chwanegol*: ti a chwanegu lofruddiaeth at dy lid. Neu, 2. *Cospedigaeth* pechod: y mae y fath gysylltiad rhwng pechod a'i gosp, fel mai yr un gair sydd yn yr Hebraeg am y dda. Neu, 3. *Pech-aberth*: y mae oen addas i'w offrwm fel iawn dros dy bechod yn gorwedd yn awr with ddrws dy gorlan. 'Y mae y geiriau *chattath a chattaah* yn fynych yn arwyddo *pechod*,' ebai DR. A. CLARKE; 'eithr mi a sylwais ar fwy na chant o fanau yn yr Hen Testament lle y maent yn cael eu harfer am BECH-ABERTH, a'u gyfieithu yn *hamartia* gan y LXX, yr hwn yw y gair a ddefnyddia yr apostol yn 2 Cor. v. 21: 'Yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod (*hamartian*, yn BECH-ABERTH) drosom ni!' Gwel y sylw ar y geiriau hyn. *Atat ti hefyd y mae ei ddymuniad ef*—efe a barha i'th barchu di fel y brawd hynaf, a thithau, megys y cyntafanedig, a lywodraethi arno ef gymaint ag erioed.

Adn. 8. *A Chain a ddywedodd wrth Abel ei frawd* I hyny yw, a ddywedodd yr hyn a ddywedasai yr Arglwydd wrtho ef yn oed. 6, 7. Ond myn rhai mai ei ddywediad oedd, *Awn allan i'r maes*; ac felly y mae y testyn

maes, Cain a gododd yn erbyn Abel ei frawd, ac a'i lladdodd ef.

9 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Cain, Mae Abel dy frawd di? Yntau a ddywedodd, Nis gwn; ai ceidwad fy mrawd *ydwys* fi?

10 A dywedodd *DUW*, Beth a wnaethost? llef gwaed dy frawd sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaear.

11 Ac yr awr hon mellidgedig wyt ti o'r ddaear, yr hon a agorodd ei safn i dderbyn gwaed dy frawd o'th law di.

12 Pan lafariech y ddaear, ni chwa-

Samaritanaidd, a llawer o'r prif hen gyfieithiadau, yn ei ddarllen. *Ac fel yr oeddynt hwy yn y maes*—yn debygol yn llafurio y ddaear, ac yn ymddyddan am bechod crefydd. Dywed yr alleiriad Caldeaid ddarfod i Cain, tra yr oeddynt yn ymddyddan yn y maes, haeru nad oedd un farn i ddyfod, nac un cyflwr ar ol hwn, na gwobrwyon na chospedigaethau mewn byd arall; a phan ddarfu i Abel lefaru mewn amddiffyniad i'r gwirionedd, ddarfod i Cain gymeryd achlysur i syrthio arno, a'i ladd. Bernir fod y brodyr y pryd hyn oddeutu 128 mlwydd oed, ac ill dau yn dadau teuluoedd.

Adn. 9. *Mae Abel dy frawd di?* Nid fod Duw heb wybod pa le yr oedd efe, eithr y mae yn gofyn iddo, fel y gallai ei argyhoeddi o'i drosedd, a'i ddwyn i gyfaddefiad o hono. *Yntau a ddywedodd, Nis gwn*—fel hyn, yn Nghain, yr oedd diafol yn lleiddiad ac yn gelwyddwr o'r dechread. *Ai ceidwad fy mrawd ydwys fi?*—a ydyw ef mor ieuanc fel y mae arno eisiau un i edrych ar ei ol? neu a benodaist ti y swydd hono i mi?

Adn. 10. *Llef gwaed dy frawd sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaear* Y mae yn debyg ddarfod i Cain, ar ol lladd ei frawd, gloddio bedd iddo yn y ddaear, gan obeithio trwy hyny gelu y llofruddiaeth. Ond y mae rhai yn meddwl, wrth *lef gwaed dy frawd*, mai llefiadau gweddw a phlant Abel a olygir, y rhai a waedent am gopsi y llofrudd.

Adn. 11. *Mellidgedig wyt ti o'r ddaear* oddiyno y daeth y llef at Dduw, ac oddiyno y deuai y fellidith at Cain. Gallasai Duw ddial trwy ddyrnod uniongyrchol o'r nef; eithr y mae efe yn dewis gwneuthur y ddaear yn ddialydd y gwaed; adael iddo barhau ar y ddaear, ac nid ei dori ef ymaith yn y fan, a gwneuthur hyd yn nod hyny yn fellidith iddo.

Adn. 12. *Pan lafariech y ddaear, ni chwanega hi roddi ei ffrwyth i ti* Yr oedd y ddaear wedi ei mellidithio o'r blaen i Adda, ond y mae yn awr dan fellidith ddeublyg i Cain. *Gwibiad a chwydrad fyddi ar y ddaear*—tydi a yrir oddiwrt yr arwydd gweledig o bresenoldeb Duw, pen. iii. 24, ac o blith dy deulu, ac ni chai gartref sefydlog a diogel mewn un lle. Y mae y LXX yn ei gyfieithu, 'Ti a riddfeni ac a ddychryni ar y ddaear;' bydd i arswydolrwydd dy drosedd bob amser dy aflonyddu, ac ni chai byth obaith sier y bydd i Dduw symud y gosp a haeddaist.

nega hi roddi ei ffrwyth i ti; gwibiad a chrwydrad fyddi ar y ddaear.

13 Yna y dywedodd Cain wrth yr Arglwydd, Mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu.

14 Wele gyraist fi heddyw oddiar wyneb y ddaear, ac o'th wydd di y'm cuddir: gwibiad hefyd a chrwydrad fyddaf ar y ddaear; a phwy bynag a'm caffo a'm lladd.

Adn. 13. *Mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu*] Gellir cyfieithu y wreiddiol, 'A ydyw fy nbrosedd yn ormod i'w faddeu!' geiriau ag y gallwn feddwl ddarfod iddo eu traethu ar fin anobaith ddi.

Adn. 14. *O'th wydd di y'm cuddir*] Y mae rhai o'r hen gyfieithiadau yn darlleu hyn yn holiadol: 'Os gyrrir fi heddyw oddiar wyneb y ddaear, a guddir fi o'th wydd di?' Y mae Deongliad Onkelos yn ei ddarllen: 'O'th wydd di y mae yn amhosibl fy nghuddio.' *A phwy bynag a'm caffo a'm lladd*—yr oedd holl drigolion y ddaear y pryd hyny o'r un teulu, a phob un yn meddu hawl i ddial gwaed ei berthynas.

Adn. 15. *A'r Arglwydd a osododd nod ar Cain*] Bu llawer o ddychymygon gwag a digrif yn nghylch y nod hwn. Dywed rhai ei fod yn *erynu* yn barlysaidd, gan gasglu hyny ond odid oddiwrth gyfieithiad y LXX. Dywed Deongliad Jonathan ben Uzziel mai llythyren o'r enw **JEHOFA** oedd yn argraffedig ar ei dalecn. Awdwr *Catena Arabaidd* yn llyfrgell Bodleian a ddywed, 'Ni allai cleddyf ei ffrwyaru, ni allai tân ei losgi, ni allai dwfr ei droddi, ni allai yr awyr ei ddrygu, ac ni allai taran na melltneu ei daraw.' Awdwr *Bereshith Rabba*, esboniad ar Genesis, a ddywed mai y nod ydoedd *gyleh* o'r haul yn codi arno. Abravanel a ddywed mai y nod ydoedd *ei Abel*, yr hwn yn barhaus a'i dylunai ef. Rhai o'r doctoriaid yn y Talmud a ddywedant mai y llythyren *tau* ydoedd wedi ei nodi ar ei dalecn, yr hon a arwyddai ei edifeirwch ef, am mai hi yw y llythyren gyntaf yn y gair *teshubah*, edifeirwch. Rabbi Joseph, gan ddymunio bod yn ddoethach na'r lleill oll, a ddywed mai *corn hir* ydoedd, yn tyfu allan o'i dalecn ef! Eithr y mae y gair *oth*, yr hwn a gyfieithu ni *nod*, fel y Sylwa Dr. Shuckford, yn arwyddocâu *arwydd* neu *argoel*. Fel hyn, Gen. ix. 13, y bwa oedd i fod, *leoth*, yn *argoel* neu *arwydd* na ddyfethid y byd: gan hyny dylai y testyn gael ei gyfieithu, 'A'r Arglwydd a osododd i Cain *argoel* neu *arwydd*, i'w argyhoeddi na chai neb ei ladd ef.' Ei *nodi* a ffnasai y ffordd debycaf i ddwyn arno yr holl ddyrgau a ofnai efe; am hyny yr Arglwydd a roddes iddo ryw *argoel* neu arwydd gwyrthiol na leddid ef, fel na byddai addo anobeithig, ond, trwy fod ganddo amser i edifarhau, allu o hono droi at ei Greawdwr tosturiol, a chael tregaredd. *Rhag i neb a'i caffai ei ladd ef*—y mae llawer yn rhyfeddu pabam yr oedd yn rhaid i Cain ofnai cael ei ladd, pan nad yw yn ymddangos iddynt lwyf fod dim trigolion ar y ddaear yn y cyf-anser ond efe a'i rieni. I ddiwygio y cau-

15 A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Am hyny y dielir yn saith ddyblyg ar bwy bynag a laddo Cain. A'r Arglwydd a osododd nod ar Cain, rhag i neb a'i caffai ei ladd ef.

16 ¶ A Chain a aeth allan o wydd yr Arglwydd, ac a drigodd yn nhir Nod, o'r tu dwyrain i Eden.

17 Cain hefyd a adnabu ei wraig; a hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar

gymeriad hwn sylwer ddarfod i farwolaeth Abel gymeryd lle oddentu y fiwyddyn 129 o oed y bym. Yn awr, a thybio nad oedd gan Adda ac Efa dim *meibion* ond Cain ac Abel yn y fiwyddyn 129 o oed y byd, eto, trwy fod ganddynt ferched wedi priodi a'r meibion hyn, byddai i hiliogaeth Cain ac Abel yn unig wneuthur crynnifer ar y ddaear. A thybio ddarfod iddynt briodi yn y fiwyddyn 19 o oed y byd, gallasai yn hawdd fod ganddynt 8 o blant bob un, rhai gwrywod a rhai benwyd, yn y fiwyddyn o. b. 25. Yn o. b. 50, gallai fod wedi deilliaw oddiwrthyn hwy, mewn llinell uniongyrchol, 64 o bersonau; yn o. b. 74, byddai 572; yn o. b. 98, byddai 4,096; yn o. b. 122, cyrhaeddent i 32,768. Os bydd i ni at y rhai hyn chwangue y plant ereill a ddisgynasent oddiwrth Cain ac Abel, eu plant hwythau, a phlant eu plant, nynt a gawn, yn y rhagddywedig 129 o flynyddau, 421,164 o wŷr epiladwy, heb gyfrif y merched hen nae ieuainc, na'r gwrywod dan 17 oed. Gwel Dr. DODD. Ond gellir amau y cyfrif hwn, meddai CLARKE, am nad oes un sierwydd fod y patrieirch cyn y dylif yn dechreu cael plant cyn bod yn 65 mlwydd oed. Yn awr, a thybio fod gan Adda, pau yn 130 mlwydd oed, 130 o blant, yr hyn sydd yn hollol ddiplomadwy, a bod pob un o'r rhai hyn yn cael plentyn pan yn 65 oed, ac un yn mbob blwyddyn ddylynol; byddai i'r cwbl, yn o. b. 130, gyraedd i 1,219 o bersonau; nifer digonol i sefydlu amrai bentrefi, ac i gynhyrfu yr ofnau dan y rhai yr oedd Cain y pryd hyn yn ymddangos i lafurio.

Adn. 16. *A Chain a aeth allan o wydd yr Arglwydd*] Oddiwrth allor Duw, neu y fan neillduol lle yr addolid ef, pen. iii. 24; *ac a drigodd yn nhir Nod*—y mae Huet yn gosod y lle hwn yn Susiana, Grotius yn Arabia, Michaelis yn yr India, Hassse yn mynyddoedd Caucasus, a Buttman yn agos i Cashmere. Ond trwy fod *nod* yn arwyddo yr un peth yn yr Hebraeg a *nad*, 'CRWYDRAD,' y mae ereill yn meddwl y dylai yr adnod hon gael ei chyfieithu, *A Chain a aeth allan o wydd yr Arglwydd o'r tu dwyrain i Eden, ac a drigodd yn grydrad ar y ddaear*. Fel hyn y fell-dith a gyhoeddwyd arno ef, adu. 12, a gyflawnwyd.

Adn. 17. *Ac a esgorodd ar Enoc*] Gan fod Enoc yn arwyddo *addysgedig, cyflwynedig, neu egyptyddedig*, ac yn enwedig mewn pethau santaidd, gellir ei ystyried yn rhyw brawf o edifeirwch Cain, ei fod yn ymddangos fel wedi cyflwyno y mab hwn i Dduw, yr hwn, yn lle ei dad, a allai weinyddu yn y swydd offeiriadol, o'r hon trwy ei drosedd, y cauwyd Cain allan am byth. *Yna yr ydoedd efe yn*

Enoc; yna yr ydoedd efe yn adeiladu dinas, ac efe a atwodd enw y ddinas yn ol enw ei fab Enoc.

18 Ac i Enoc y ganwyd Irad: ac Irad a genhedlodd Methuïael, a Methuïael a genhedlodd Methusael, a Methusael a genhedlodd Lamec.

19 ¶ A Lamec a gymerodd iddo ddwy o wragedd: enw y gyntaf *oedd* Ada, ac enw yr ail Silla.

20 Ac Ada a esgorodd ar Jabal;

hwn ydoedd dad pob preswlydd pabell, a *pherchen* anifel.

21 Ac enw ei frawd ef oedd Jubal; ac efe oedd dad pob teimlydd telyn ac organ.

22 Silla hithau a esgorodd ar Tubal-Cain, gweithydd pob cywreinuwaith pres a haiarn: a chwaer Tubal-Cain *ydoedd* Naama,

23 A Lamec a ddywedodd wrth ei wragedd, Ada a Silla, Clywch fy

adeiladu dinas—y mae Hasse yn meddwl mai HENOCHI yn y Caucasus yw hon; a Huet yn meddwl mai ANUCHTA yn Susiana ydyw; tra y barna Schulthess mai HENOCHIA, o du y dwyrain i Libanus, ydyw; a Bohlen a dybia mai CHANOGE, yn yr India Ogleddol, a raid ei bod. *Yn ol enw ei fab Enoc*—y mae Cain yn dewis ei galw ar enw ei fab yn hytrach nag ar ei enw ei hun, yn debyg obleg i gwarth dan yr hon y gorweddai.

Adn. 18. *Enoc*] Nid hwn yw yr Enoc a symudwyd heb veled marwolaeth: hwnw ydoedd fab Jered, a thad Methusela, pen. v. 18, 21.

Adn. 19. *A Lamec a gymerodd iddo ddwy o wragedd*] Fel hyn un o hiliogaeth ddwyriol Cain oedd y cyntaf a droseddodd ddeddf wreiddiol priodas; ond darfu i Grist gyflawn egluro drygioni yr arferiad hwn, ac adfer priodas i'w ffurf gyntefig, Mat. xix. 8.

Adn. 20. *Jabal—ydoedd dad*] Sef dyfeisydd neu addysgydd, canys felly y deallir y gair, 1 Sam. x. 12. Jabal oedd y cyntaf a ddyfeisiodd wneyd pebyll, a magu a thrin anifeiliaid; neu efe oedd, yn y pethau hyn, yr enwocaf yn yr amser hwnw. Er fod Abel yn fugail, nid yw yn debyg ei fod ef felly mewn ystyr helaeth.

Adn. 21. *Jubal—oedd dad pob teimlydd telyn ac organ*] Sef dyfeisydd offerynu cerdd. Y mae yn debyg fod y gair *kinnor*, telyn, yn cynwys pob offeryn llinynol; a'r gair *ugab*, organ, bob offeryn gwynol.

Adn. 22. *Tubal-Cain, gweithydd pob cywreinuwaith pres a haiarn*] Y gŏf cyntaf mewn cofiadwriaeth, yr hwn a ddygwyddd pa fodd i i wneyd dodrefn *teuluaid* o bres a haiarn. Y mae yn rhaid fod offerynuau *amaethyddol* mewn arferiad yn hir cyn hyn, am nas gallai Adda a'i blant lasurio y ddaear heb rawiau, crymanau, &c. *Naama*—ni sonir dim yn chwaneg am hon yn yr ysgrhythrau; ond y mae Deongliad Jonathan ben Uzziel yn ei gwneyd hi yn awdures marwnadau a galarnadau; a dywed Rabbi Solomon Jarchi ei bod yn wraig i Noa.

Adn. 23. *A Lamec a ddywedodd wrth ei wragedd*] Gan fod araeth Lamec wrth ei wragedd yn hanner-odlog yn y wreiddiol, fel y sylwa CLARKE, ac na ddygwyddodd dim o'r fath cyn hyn, y mae yn dra thebyg mai dynia y daru hynaf o farddoniaeth yn y byd. A ganlyn sydd, mor agos ag y gellir, yn gyfieithiad llythrenol o adn. 23, 24:

‘A Lamec a ddywedodd wrth ei wragedd, Ada a Silla, clywch fy llais; Gwragedd Lamec, gwrandewch fy lleferydd;

Canys lleddais ŵr am iddo fy archolli, A llanc am iddo fy nghleisio i. Os Cain a ddielir seithwaith, Yna Lamec saith ddengwaith a seithwaith.’

Meddylia rhai ddarfod i Lamec ladd dyn mewn hunan-amddiffyniad, a bod ei wragedd yn ofni rhag i berthynasau y tresgedig ei ladd yntau am hyny; ac i dawelu eu bosnau, ei fod yn gwneuthur yr araeth hon, yn mha un y ceisia brofi nad oedd dim achos ofni ar y pen hwn; canys os byddai i'r neb a laddai y llofrudd gwirfoddol Cain ddyoddef cosp saith ddyblyg, diannau y gallai yr hwn a laddai Lamec am ladd dyn mewn hunan-amddiffyniad, ddysgwyl cosp saith ddengwaith a seithwaith trymawch. Y mae yr araeth hon yn bur dywyll, a rhoddodd godiad i lawer o ddychymyngion dyeithir. Tybia Dr. Shuckford fod yma ddiffyg o ryw madrodd neu angylebiad blaenorol, yr hwn, pe ei gywybyddid, a dafiai oleuni ar y cyfan. Yn yr amseroedd cyn y dylif yr oedd gan berthlynasau agosaf y lladdedig hawl i ddial ei farwolaeth trwy gymeryd ymaith fywyd y llofrudd; ac ymddengys fod hyn, fel y gwelwn eisioes, yn cyfranu nid ychydig at ddychbryn Cain, adn. 14. Yn awr gallwn feddwl fod hiliogaeth Cain mewn ofnau parhaus, rhag i rai o deulu Abel gynyg dial ei waed ef arnynt *hwy*, gan na chaniateid iddynt wneuthur hyny ar Cain; ac i'r dyben i symud yr ofnau hyny ddarfod i Lamec, y seithfed disgynydd o Adda, lefaru i'r effaith yma wrth ei wragedd: ‘Paham y bydd i chiwi eich gwneuthur eich hunain yn druenus gyda'r fath ofnau disail? Ni laddasom ni neb; ni wnaethom ni y niwed lleiaf i'n brodyr o'r teulu arall: yn sicr ynte dylai rheswm ddangos i chiwi nad oes ganddynt hawl i'n niwiedion ni. Y mae yn wir i Cain, un o'n henafiaid, ladd ei fiawd Abel; eithr Duw, gan ewyllysio maddeu ei bechod, a rhoddi iddo amser i edifarhau, a fygythiodd goshi yn saith ddyblyg y rhai a feiddent ei ladd ef. Ac os felly, gall y rhai a ryfygant ladd neb o honom ni y rhai ydym ddiniwed, ddysgwyl cosp lawer trymawch. Canys os byddai i Cain gael ei ddial seithwaith ar y neb a'u niwiedent hwy.’ Y mae y Deongliadau, neu y *Targums*, yn rhoddi agos yr un ystyr, ac y mae yn gwneuthur synwyr da; ond pwy a fedr ddywydd mai yr iawn synwyr ydyw? Ond os darllenir y geiriau yn holiadol, fel yn ddiannau y gellir, bydd y synwyr yn llawer eglurach, a symudir rhai o'r anhawserau:

lais, gwagedd Lamec, gwrandedwch fy llefyrydd; canys mi a leddais wr i'm harcholl, a llanc i'm clais.

24 Os Cain a ddielir seithwaith, yna Lamec saith ddengwaith a seithwaith.

25 ¶ Ac Adda a adnabu ei wraig drachefn; a hi a esgorodd ar fab, ac a alwodd ei enw ef Seth: O herwydd Duw (*eb hi*) a osododd i mi had arall yn lle Abel, am ladd o Cain ef.

26 I'r Seth hwn hefyd y ganwyd mab; ac efe a alwodd ei enw ef Enos: yna y dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd.

'A leddais i wr fel y'm harchollid?
Neu lanc fel y'm cleisid?'

Ond y mae hyn hefyd yn tybio rhyw reswm neu gydymddyddan blaenorol.

Adn. 24. *Os Cain a ddielir seithwaith*] Os ymrwymodd Duw i'w amddiffyn ef, er iddo ladd ei frawd ddiwed; mwy o lawer y bydd iddo fy amddiffyn i, yr hwn ni wnaethyn y fath erchylldra.

Adn. 25. *O herwydd Duw (eb hi) a osododd i mi had arall yn lle Abel*] I wneyd y rhif i fyny; neu, fel y meddylir yn gyffredin, i barhau y llinell santiaid hōno, trwy yr hon yr oedd y Messia i ddyfod. Y mae yn deilwng o sylw mai hiliogaeth SETH yn unig oedd yn y byd ar ol y dylif, trwy fod Noa y degfed disgynydd oddiwrth Adda trwy Seth, fel y gwelir yn y beunod nesaf: 1. Adda; 2. Seth; 3. Enos; 4. Cenan; 5. Mahalaleel; 6. Jered; 7. Enoc; 8. Methusela; 9. Lamec (yr ail); 10. Noa. Mewn trefn i gadw y llinell hon yn eglur, yr ydym yn cael, lle yr oedd dau neu fwy o feibion mewn teulu, fod gofal neillduol yn cael ei gymeryd i nodi allan, trwy ryw ragluniaeth arbenig, yr un ag yr oedd Duw wedi bwriadu trwyddo ddwyn ei Fab i'r byd. Fel hyn, yn nheulu Adda, Seth a ddewiswyd; yn nheulu Noa, Sem; yn nheulu Abraham, Isaac; ac yn nheulu Dafydd, Solomon.

Adn. 26. *Yna y dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd*] Neu, fel y mae ar ymyl y ddalen, 'Yna y dechreuwyd ymgysfenu' ar enw yr Arglwydd; geiriau ag y tybir eu bod yn arwyddo mai yn nyddiau Enos y darfu i wir ddylynwyr Duw dechreu ymwahaniaethu, a chael eu gwahaniaethu gan ereill, trwy yr enw *meibion Duw*; tra yr oedd y gangen arall o'r hil ddydol, yn mhlfir y rhai ni chedwid yr addoliad dwyfol, yn cael eu gwahaniaethu a'r enw *plant dynion*. Ond ni ddylid celu y myn amrai wŷr enwog y dylai *huchal*, yr hwn a gyfieithwn ni *dechreuwyd*, gael ei gyfieithu y *dechreuwyd yn halogedig*, neu *yna y dechreuodd halogedig*; a thybiant mai yr ystyr yw, mai y pryd hyn y dechreuodd EILUNADDOLIAETH. Felly y Bersiaeg, 'yna y dechreuodd dynion *esgeuluso* galw ar enw yr Arglwydd.' Ond y mae y Samaritanaeg a'r Vulgate yn ei ddarllen, 'dechreuodd *hwn* alw ar enw yr Arglwydd.'

PENNOD V.

DYMA lyfr cenedlaethau Adda; yn y dydd y creodd Duw ddyn, ar lun Duw y gwnaeth efe ef.

2 Yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt; ac efe a'u bendithiodd hwynt, ac a alwodd eu henw hwynt Adda, ar y dydd y crewyd hwynt.

3 ¶ Ac Adda a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain a chant, ac a genhedlodd *fab* ar ei lun a'i ddelw ei hun, ac a alwodd ei enw ef Seth.

4 A dyddiau Adda, wedi iddo genhedlu Seth, oedd wyth gan mlynedd,

Adda] Sef rhifres neu gofrestr o'i hiliogaeth; nid o'r cwbl, ond o'r had santiaid yn unig, fel y sylwa Henry, 'o'r rhai yr hanodd Crist yn ol y cnawd; 'o enwau, oedran, a marwolaeth y rhai hynny ag yr oeddynt olafiaid yr Adda cyntaf yn nghadwraeth yr addewid, a blaenafiaid yr ail Adda, ar ddyfodiad yr hwn y cyflawnwyd yr addewid. *Ar lun Duw y gwnaeth efe ef*—y mae yr haues hon yn cael ei dwyn yn mlaen drachefn, i gadw dyn mewn coffadwriaeth o uwchderau y gogoniant o'r hwn y syrthiasai; ac i brofi iddo fod y trueni a'r farwolaeth ag sydd yn dilyn ei sefyllfa bresenol wedi eu dwyn iddo trwy ei drosedd, ac nid wedi deilliau o'i gyflwr gwreiddiol. Oblegid gan iddo gael ei greu ar ddelw Duw, fe'i erewyd yn rhydd oddiwrth ddrwg moesol a naturiol. Trwy fod *marwolaethu* y patrieirch i gael eu crybwyll yn awr, yr oedd yn angenrheidiol eu dwyn i mewn trwy y sylw hwn, mewn trefn i gyfiawnhau ffyrdd Duw gyda dyn.

Adn. 2. *Ac a alwodd eu henw hwynt Adda*] Efe a roddodd yr enw hwn i'r dyn a'r wraig. Gan eu bod ar y cyntaf yn un wrth natur, ac wedi hynny yn un trwy briodas, yr oedd yn gynhwys fod iddynt ill dau gael yr un enw fel arwydd o'u hundeib.

Adn. 3. *Ac Adda a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain a chant*] Dyma y dyddiad cyntaf gyda'r hwn y dechreuau yr amseryddiaeth ysgrythyrol: gwel yr adfeddyliadau. *Ac a genhedlodd fab*—ganed amrai feibion a merch-ed ereill i Adda cyn hyn, heblaw Cain ac Abel; ond ni chymerir unsylw o honnynt hwy, am mai o hono ef yn unig y rhaid gwneuthur crybwylliad anrhydeddus, yn lwyngau yr hwn yr oedd Crist a'r eglwys. *Ar ei lun a'i ddelw ei hun*—gwnaed Adda ar ddelw Duw, pen. i. 26; ond wedi iddo syrthio ac ymlygru, efe a genhedlodd fab ar ei ddelw ei hun, yn bechadurus a halogedig, brau a marwol, a thruenus fel ef ei hunan; nid yn unig mab fel ef ei hun, yn gynwysedig o gorff ac enaid; ond pechadur fel ef ei hun, euog, dirywiedig, a llygredig. Hon oedd *delw Adda ei hun*, yn wrthwyneb i'r ddelw ddwyfol ar yr hon y gwnaed ef, a'r hon, wedi iddo ei cholli ei hunan, nis gallai ei throsglwyddo i'w hiliogaeth.

Adn. 4. *Wedi iddo genhedlu Seth*] Gelwir hwn yn y Samaritanaeg, 'Chalephta,' hynny yw, ei raglaw neu ei ddirprwy; a meddylir

ac efe a genhedlodd feibion a merched.

5 A holl ddyddiau Adda, y rhai y bu efe fyw, oedd naw can mlynedd a deg mlynedd ar hugain; ac efe a fu farw.

6 ¶ Seth hefyd a fu fyw bum mlynedd a chan mlynedd, ac a genhedlodd Enos.

7 A Seth a fu fyw wedi iddo genhedlu Enos, saith mlynedd ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched

8 A holl ddyddiau Seth oedd ddeuddeg mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

9 ¶ Ac Enos a fu fyw ddeng mlynedd a phedwar ugain, ac a genhedlodd Cenan.

10 Ac Enos a fu fyw wedi iddo genhedlu Cenan, bymtheng mlynedd ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

11 A holl ddyddiau Enos oedd bum mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

12 ¶ Cenan hefyd a fu fyw ddeng mlynedd a thriugain, ac a genhedlodd Mahalaleel.

13 A bu Cenan fyw wedi iddo genhedlu Mahalaleel ddeugain mlynedd

ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

14 A holl ddyddiau Cenan oedd ddeng mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

15 ¶ A Mahalaleel a fu fyw bum mlynedd a thriugain mlynedd, ac a genhedlodd Jered.

16 A Mahalaleel a fu fyw wedi iddo genhedlu Jered, ddeng mlynedd ar hugain ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

17 A holl ddyddiau Mahalaleel oedd bymtheng mlynedd a phedwar ugain ac wyth gan mlynedd; ac efe a fu farw.

18 ¶ A Jered a fu fyw ddwy flynedd a thriugain a chan mlynedd, ac a genhedlodd Enoc.

19 A Jered a fu fyw wedi iddo genhedlu Enoc wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

20 A holl ddyddiau Jered oedd ddwy flynedd a thriugain a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

21 ¶ Enoc hefyd a fu fyw bum mlynedd a thriugain, ac a genhedlodd Methusela.

22 Ac Enoc a rodiodd gyda Duw wedi iddo genhedlu Methusela, dri

mai oddiwrth hwn y deillia y teitl Mahomet-aidd 'caliph.'

Adn. 5. *A holl ddyddiau Adda—oedd naw can mlynedd a deg mlynedd ar hugain*] Y mae hir oesau dynion yn y cyn-anseroedd, y rhai a goffeir yma, yn cael eu crybwyll hefyd gan awduron pagauaidd, megys haneswyr yr Aifft, Phœnicia, Babilon, a Groeg, at y rhai y cyfeiria Josephus, ac hefyd yn y cofion Chineaidd. A threfnwyd yn ddoeth iddynt fyw cyhyd, er cynydd mwy ar ddynolryw, a chyflenwad cyflymach y ddaear yn oesoedd cyntaf y byd, ac er cadwraeth a lledaeniad mwy effeithiol gwir grefydd a gwybodaeth ddefnyddiol arall, yr hyn, cyn y dyfeisiad o lythyrenau, na ellid ei gyflen ond trwy draddodiad.

Adn. 6—20. *Seth hefyd, &c.*] Y mae genym yma y cwbl ag y meddylid yr Ysbyrd Glân yn addas ei goffau am bump o'r patricirch cyn y dylif, Seth, Enos, Cenan, Mahalaleel, a Jered. Nid oes dim wedi cael ei nodi yn nghylch un o honynt yn neillduol, er fod genym reswm i feddwl eu bod oll yn wŷr o enwogrwydd am synwyr a dwiwldeb. Dywedir i ni *pa hyd* y buont hwy byw ag a fuont byw yn ofn Duw, a *pha bryd* y buont hwy feirw ag a fuont feirw yn ei fiafr ef; ond am y lleill nid yw o un gwahaniaeth: 'coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig, ond enw y drygionus a bydra.' Yr hyn sydd fwyaf hynod yw, ddarfod iddynt oll fyw yn dra hir: ni bu un o honynt farw nes iddo weled ei 895 flyyddyn, a gwelodd y lleill lawer mwy; yspaid mawr i enaid anfarwol gael ei garcharu

mewn tŷ o glai! Nid oedd y bywyd presenol yn ddiaw y fath faich iddynt hwy ag ydyw yn gyffredin yn awr, onidê buasent wedi blino arno; ac nid oedd y bywyd dyfodol wedi ei ddatguddio mor eglur y pryd hyn ag y mae yn awr, onidê buasent yn ddiarnymedd am symud iddo. Gellir dwyn rhai achosion naturiol fel rheswm dros eu hir fywyd yn yr oesoedd cyntaf hyn. Y mae yn dra thebyg fod y ddaear yn fwy ffurwythlon, ei chynrych yn fwy cryfhaol, a'r awyr yn fwy iachus cyn y dylif, nag y maent wedi hyn. Er fod dyn wedi ei yru allan o baradwys, eto yr oedd y ddaear ei hun y pryd hyn yn baradwysaidd, yn ardd o'i chymharu â'i chyflwr presenol. Eu byw cyhyd, modd bynag, a raid ei briodoli yn benaf i allu a rhagluniaeth Duw. Cafodd yr holl batrieirch hyn, oddieithr Noa, eu geni cyn marw Adda, ac felly gallent dderbyn oddiwrtho ef hanes gyflawn am y cread, am baradwys, am y cwymp a'r adnewid, ac am y gorchymynion dwyfol hyn a berthynent i addoliad dwyfol a buchedd grefyddol; a phe buasai unrhyw gangymeriad yn codi, gallasent gyrcu ato ef tra yn fyw, fel at orael, i'w uniawn; ac ar ol ei farwolaeth, at Methusela ac ereill ag oeddynt wedi bod yn ynddyddan âg ef. Gwel y rhagarweiniad i'r llyfr hwn.

Adn. 21. *Enoc*] Mab Jered. Yr oedd gan Cain hefyd fab o'r enw hwn, pen. iv. 17.

Adn. 22. *Ac Enoc a rodiodd gyda Duw*] Geiriadaeth ysgrythrol am dduwioldeb nodedig. Efe a osodai Dduw bob amser ger ei

chant o flynyddoedd, ac genhedlodd feibion a merched.

23 A holl ddyddiau Enoc oedd bum mlynedd a thriugain a thri chant o flynyddoedd.

24 A rhodiodd Enoc gyda Duw, ac ni *welwyd* ef: canys Duw a'i cymerodd ef.

25 ¶ Methusela hefyd a fu fyw saith mlynedd a phedwar ugain a chant, ac a genhedlodd Lamec.

26 A Methusela a fu fyw wedi iddo genhedlu Lamec, ddwy flynedd a phedwar ugain a saith gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

27 A holl ddyddiau Methusela oedd naw mlynedd a thriugain a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

fron, ac a ymddygai fel un yn ystyried ei fod yn wastadol dan ei sylw ef. Efe a wnai ewylls Duw yn rheol iddo, a gogoniant Duw ei ddyben yn ei holl weithrediadau. Ei ofal parhaus oedd i foddio Duw yn mhob peth, heb ei ddigio mewn dim; ac yr oedd yn byw bywyd o gymundeb a chymdeithas wastadol â'i Wneuthurwr. *Wedi iddo genhedlu Methusela*—tybia rhai fod hyn yn arwyddo na ddechreuodd Enoc fod yn enwog am ei dduwioldeb hyd oddeutu y pryd hyn. *Ac a genhedlodd feibion a merched*—felly nid yw y sefyllfa briodasol, a'r gofalon a'r dyledswyddau perthynol i benteulu, yn anghyson â'r sant-eiddrwydd manylaf, nac â swydd proffwyd neu bregethwr cyfiawnder, yr hyn oedd Enoc, Judas 14.

Adn. 23. *A holl ddyddiau Enoc*] Y mae yr allieiriol Caldeaid yn chwaneu yma, 'gyda thriugain y ddaear.'

Adn. 24. *Ac ni welwyd ef*] Mwyach ar y ddaear, *canys Duw a'i cymerodd ef*—gorff ac enaid allan o'r byd pechadurus a thruenus hwn ato ei hun; acarei fynediad i'r nefefe a 'newid- iwyd,' fel y gwneir â'r saint a geir yn fyw ar ail ddyfodiad Crist. Ond pabam y darfu i Dduw ei gymeryd ef mor fuan? Am fod y byd, yr hwn oedd yn awr wedi ymlygru, yn annheilwng o hono; ac am fod ei waith wedi ei orphen, a'i orphen yn gynt trwy ei fod yn glynu wrtho mor ddyfal. Ac y mae yn debygol fod Duw, trwy ei symndiad ef, yn bwriadu rhoddi i ddynolryw, y rhai oeddynt yn gyffredin wedi myned yn anffyddiaid gyda golwg ar gyflwr dyfodol, arddanghosiad o wiredd byd arall, ac o'i ddedwyddwch gyda golwg ar y cyfiawntion.

Adn. 25. *Methusela*] Meddyliodd rhai fod prawf o ysbryd proffwydol Enoc yn yr enw Methusela, yr hwn a roddodd efe i'w fab; canys y mae y rhan gyntaf o hono, *Methu*, meddai Bochart, yn cario yn awlyg ynddo yr enw marwolaeth, gan mai ei ystyr yw, *y mae yn marw*; ac y mae *sela* yn arwyddo *anfon- iad dyfroedd*, fel yn Job v. 10. Felly y mae yr enw Methusela yn arwyddo, 'pan y byddai iddo ef farw, y byddai i lifeiriant dyfroedd gan- lyn,' i ddyfetha yr holl ddaear. Gwel ar adn.

28 ¶ Lamec hefyd a fu fyw ddwy flynedd a phedwar ugain a chan mlynedd, ac a genhedlodd fab.

29 Ac a alwodd ei enw ef Noa: gan ddywedyd, Hwn a'n cysura ni am ein gwaith, a llafur ein dwylaw, o herwydd y ddaear yr hon a felldigodd yr Arglwydd.

30 A Lamec a fu fyw wedi iddo genhedlu Noa, bymtheng mlynedd a phedwar ugain a phum can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merch- ed.

31 A holl ddyddiau Lamec oedd ddwy flynedd ar bymtheg a thriugain a saith gan mlynedd; ac efe a fu farw.

32 A Noa ydoedd fab pum can

27. Os bwriadwyd ei enw ef felly, yr oedd yn rhybydd tēg i fyrd diofal am yn agos i fil o flynyddau cyn i'r farn ddyfod. Modd bynag, y mae hyn yn nodadwy, fod yr hwn a fu byw hwyaf o bawb yn cario *marw* yn ei enw, fel y gallai gofio ei fod yn dyfod yn sicr, er yn araf.

Adn. 26. *Lamec*] Nid y Lamec yn llinell Cain, ond patriarch mwy teilwng yn hiliog- aeth Seth.

Adn. 27. *Naw mlynedd a thriugain a naw can mlynedd*] Hwn yw y bywyd hiraf a gry- bwyllir yn yr ysgrifthyrr, ac yn debygol y bywyd hiraf a fu erioed. Trwy fod ei enw yn arwyddo fod barn i ddisgyn ar ei farwolaeth, y mae ei fywyd yn cael ei estyn yn hwy na bywyd neb, i gadw y farn draw. *Ac efe a fu farw*—nis gall henaent nac ieuencid ein diogelu rhag dyrnod angau! Tybir yn yn gyffredin i Methusela farw ychydig cyn y dylif; a'r ysgrifenywyr Iuddewig a ddywed- ant mai o fewn saith niwrnod iddo. Gwel isod.

Adn. 28. *Lamec hefyd a fu fyw, &c.*] Trwy fod Lamec yn 182 mlwydd oed pan y cenedl- wyd Noa, a bod Noa, yn 600 mlwydd oed pan ddaeth y dylif, gwna hyn y cyfnod rhwng genedigaeth Lamec a'r dylif yn 782 o flynyddoedd, yr yspaid ag y dŷwedir i Methusela fyw ar ol cenedlu Lamec, adn. 26.

Adn. 29. *Ac a alwodd ei enw ef Noa*] Yr hyn a arwydda 'gorphwysdra,' gan *ddywed- yd*—yn ddiamau trwy ysbryd proffwydoliaeth, *Hwn a'n cysura ni am ein gwaith*—set y llafur caled a'r blinderau aml i'r rhai y ded- frydwyd hwy. Hlyn a wnaeth efe, fel y sylwa Benson, 1. Trwy ddyfeisio offerynau amaeth- yddiaeth, trwy yr hyn y gwnaed diwylliaeth yn hawddach; 2. Trwy synud rhan o'r fellldith a roddwyd ar y ddaear; ac yn enwedig, 3. Trwy gadw gweddill o ddynolryw rhag y dylif hwnw ag y rhagddywedasai Enoc am dano, a'r hwn y rhagwelai ef y deuai, a thrwy ad- boblogi y ddaear wâg â chenhediaeth newydd o ddynion.

Adn. 31. *A holl ddyddiau Lamec, &c.*] Trwy mai holl ddyddiau Lamec oedd 777 o flynyddau, efe a fu farw bum mlynedd o flaen

mlwydd; a Noa a genhedlodd Sem, Cam, a Japheth.

PENNOD VI.

YNA y bu pan ddechreuodd dynion amlhau ar wyneb y ddaear, a geni merched iddynt,

y dylif, ac o flaen ei dad Methusela, adn. 26, 28.

Adn. 32. *A Noa ydoedd fab pum can mhwydd* Pan y genhedlwyd y cyntaf o'i feibion. *A Noa a genhedlodd Sem, Cam, a Japheth*—ymddengys oddiwrth pen. x. 21, mai Japheth oedd yr hynaf; ond Sem a enwir yn mlaenaf, am mai wrtho ef y rhwygwyd y cyfammod, fel yr ymddengys oddiwrth pen. ix. 26, lle y gelwir Duw yn, 'Arglwydd Ddau Sem.' Iddo ef ond odid y rhoddwyd yr enedigaeath-fraint; ac y mae yn sicr mai oddiwrtho ef yr oedd Crist y pen, a'r eglwys y corff, i ddisgyn; am hyny gelwir ef SEM, yr hyn a arwydda eme, am y byddai i enw Duw darhau yn ei hiliogaeth ef hyd nes y byddai iddo Ef ddyfod o'i Iwynaau yr hwn y

2 Weled o feibion Duw ferched dynion mai teg oeddynt hwy; a hwy a gymerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant.

3 A dywedodd yr Arglwydd, Nid ymrysona fy Ysbyrd i â dyn yn dragywydd, oblegid mai cnauld yw efe :

mae ei enw goruwch pob enw. Felly wrth roddi Sem yn mlaenaf, yr oedd Crist mewn effaith yn cael ei roddi yn mlaenaf, yr hwn a raid 'flaenori yn mhob peth.' Col. i. 18.

ADFFEDYLIADAU.—Y mae yr *amseryddiaeth ysgrythyrol*, yn enwedig yn oedran rhai o'r patriarchiaid cyn ac ar ol y dylif, wedi drysu amseryddwyr, berniaid, a duwinyddion yn fawr. Y mae y testyn Hebreig argraffedig, y Samaritanaeg, y Deg-a-thriugain, a Josephus, oll yn wahanol, a phob un yn meddu ei briodol auddiffynwyr. Y taflenau canlynol o achau y patrieirch cyn ac ar ol y dylif, yn ol yr Hebraeg, y Samaritanaeg, a'r Deg-a-thriugain, a ddanghosant ar unwaith y gwahaniaeth rhyngddynt.

OED Y PATRIEIRCH CYNDYLIFAWL PAN ANED EU MEIBION.				
		Heb.	Sam.	Deg.
Adda,	Gen. v. 3.	130	130	230
Seth,	— 6.	105	105	205
Enos,	— 9.	90	90	190
Cenan,	— 12.	70	70	170
Mahalafeel,	— 15.	65	65	165
Jered,	— 18.	162	62	162
Enoc,	— 21.	65	65	165
Methusela,	— 25.	187	67	167
Lamec,	— 28.	182	53	188
Noa, amser y dylif,	Gen. vii. 6.	600	600	600
Oll cyn y dylif,		1656	1307	2242
Yn y cyfnod cyntaf hwn y swm gan Josephus yw 2256, yr hwn hefyd a dderbyniau gan Dr. Hales yn ei <i>Ddosraniad Newydd o Amseryddiaeth</i> .				

OED Y PATRIEIRCH OLDDYLIFAWL PAN ANED EU MEIBION.				
		Heb.	Sam.	Deg.
Sem a genhedlodd	Arphaxad ar ol y dylif, Gen. xi. 10.	2	2	2
Arphaxad, Gen. xi. 12.				
Cainan, a grybwyllir yn unig gan y LXX, a Luc iii. 36.	}	35	135	135
Sela, Gen. xi. 14.				
Heber,	— 16.	34	134	134
Peleg,	— 18.	30	130	130
Reu,	— 20.	32	132	132
Serug,	— 22.	30	130	130
Nacor,	— 24.	29	79	179
Tera,	— 26.	70	70	70
Oll hyd fl. 70 i Tera,		292	942	1172
Yn yr ail gyfnod hwn y swm gan Josephus yw 1002.				

Cyfrif y Deg-a-thriugain o oedran y patrieirch *cyn ac ar ol* y dylif yn y taflenau uchod a gymerwyd o'r ailun VATICANAIDD; ond os dylwyn yr ysgrif ALEXANDRIAIDD, cawn yn y cyfnod *cyntaf* y cyfanswm o 2262 yn lle 2242; ac yn yr *ail* gyfnod, 1072 yn lle 1172. Ar y pen hwn y mae y gwahanol ysgrifystyfrau o eiddo y Deg-a-thriugain yn llawn o wahanol ddarlleniadau. Am lawer o hysbysrwydd boddhaol ar y pen hwn cyfeirir y darlennydd at *Ddosraniad Newydd o Amseryddiaeth*, gan y PARCH. DR. MALES.

PEN. VI. Adn. 1. *Pan ddechreuodd dynion amlhau* Neu pan yr oeddynt wedi cyraedd i amledd dirfawr. Bernir fod poblogaeth y ddaear y pryd hyn uwchlaw can mil o filiynau: gwel *Universal Hist*.

Adn. 2. *Weled o feibion Duw* Sef y rhai a elwid ar enw yr Arglwydd, ac a brofiesent o leiaf eu bod yn feibion duwiol; *ferched dynion*—rhai anianol a halogedig, a dweithriaid i

addoliad Duw. Nid *angylion* a feddylir yma wrth 'feibion Duw,' fel y tybiodd Justin, Tertullian, a Philo; na *chythreuliaid*, fel y breuddwydiodd Francisus Georgius, Psellus, ac ereill; eithr y rhai blaenaf ond odid oeddynt hiliogaeth Seth, a'r rhai olaf oeddynt 'ferched Cain,' fel y mae yr Arabaeg yn eu galw. *A hwy a gymerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant*—nid oeddynt yn

a'i ddyddiau fyddant ugain mlynedd a chant.

4 Cawri oedd ar y ddaear y dyddiau hyny: ac wedi hyny hefyd, pan ddaeth meibion Duw at ferched dynion, a phlanta o'r rhai hyny iddynt: dyma y cedyrn *a fu* wŷr enwog gynt.

5 ¶ A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear, a bod holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygonus bob amser.

6 Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd

devis ond wrth yr olwg; ac yr oedd tegwch naturiol yn fwy cymeradwy ganddynt na thegwch moesol. Ond fe allai mai wrth 'feibion Duw' yr ydym i ddeall 'meibion tywysogion,' fel y mae yn y Samaritanaeg a rhai cyfieithiadau ereill; ac mai yr ystyr yw, fod y dosbeirth uwchaf yn halogi merched y tylodion, nes yr oedd trais a phuteindra yn lleawi y byd.

Adn. 3. *Nid ymrysona fy Ysbryd i â dyn yn dragywydd*] Yr oedd yr Ysbryd y pryd hyny yn ymryson â hwy trwy bregethiad Noa, a thrwy geryddon mewnol, I Pedr iii. 19; ond ni wnai efe hyny yn barhaus, *oblegid mai cnawd yw efe*—oblegid ei fod yn gnawdol ac anianol ac yn diffodd argyhoeddiadau yr Ysbryd. *A'i ddyddiau fyddant ugain mlynedd a chant*—rhoddaf iddynt gyhad a hyny o ddienoediad cyn tywallt arnynt y farn ag y maent yn ei haeddu, 1. I edrych y fydd iddynt hwy edifarhau; ac, 2. I edrych a fydd plant y priodasau hyn yn well dynion na'u rhieni.

Adn. 4. *Cawri oedd ar y ddaear*] Heb. *nephilim*, oddiwrth *naphal*, 'efe a syrthiodd'; sef rhai wedi gwrthgilio neu syrthio oddiwrth y wir grefydd. Y mae y LXX yn cyfieithu y wreiddiol yn *gigantes*, pa air yn llythrenol a arwydda *daear-anedig*, er fod y Sais yn ei ddeongli yn *giants*, a niman yn *gawri*. *Dyma y cedyrn*—Heb. *gibborim*, y gwrolion, y gorchfygwyr, y rhai a'u henwogasant eu hunain trwy eu campan a'u gorchestion anturiaethus. Gwel CLARKE. Ond y mae yn ddiamau eu bod yn gawri mewn *drygioni* hefyd, ac at hyn yn benaf y cyfeirir, fel yr achos o anffoddlonrwydd Duw; ac oddiwrth yr *esgyrn* dynol a ddarganfyddwyd gan ddaearagwyr, gelwir meddwl eu bod yn gawri mewn *maintioli* hefyd.

Adn. 5. *A'r Arglwydd*] Pan edrychodd efe eilwaith ar y ddaear, tua diwedd yr ugain mlynedd a chant, adn. 3; *a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear—rabbah*, ei fod yn 'amhlau,' neu yn cynyddu yn barhaus, nes yr oedd pob rhith duwioldeb wedi diflanu. *A bod holl fwriad meddylfryd ei galon*—y ffurfiad cyntaf o bob meddylfryd, neu y defnydd o ba un y llunid angyffriediad, dirnadaeth, a drychfeddyliau; *yn unig yn ddrygonus bob amser*—heb un cyfrwng o ddaioni, na mynyd yn cael ei gauiaith i ddwys ystyriaeth. Yr oedd dyn yn *drygonus*; yr oedd y drygioni hwnaw yn *amhlau*; yr oedd *bwriad meddylfryd ei galon* yn ddrygonus; yr oedd

wneuthur o hono ef ddyr ar y ddaear, ac efe a ymfodiodd yn ei galon.

7 A'r Arglwydd a ddywedodd, Dileaf ddyr yr hwn a greais oddiar wyneb y ddaear, o ddyr hyd anifel, hyd yr ymlusgiad, a hyd ehediad y nefoedd: canys y mae yn edifar genyf eu gwneuthur hwynt.

8 ¶ Ond Noa a gafodd ffafr yn ngolwg yr Arglwydd.

9 ¶ Dyma genhedlaethau Noa: Noa oedd wŷr cyfiawn, perffaith yn ei oes: gyda Duw y rhodiodd Noa.

holl fwriad meddylfryd ei galon yn ddrygonus; yr oedd holl fwriad meddylfryd ei galon *yn unig* yn ddrygonus; ac yr oedd felly yn ddrygonus *bob amser!* Dyma gyflwr holl ddynolrwy gydag ychydig eithriadau, megys Methusela, Noa, &c.

Adn. 6. *Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd, &c.*] A llefaru yn briodol, ni all Duw edifarhau, Num. xxiii. 19, I Sam. xv. 11, 29; canys y mae efe yn berffaith ddoeth a digyflwrid yn ei natur a'i gynghoran, Mal. iii. 6, Iago i. 17. Nid yw efe chwaith yn agored i ofid neu siomedigaeth, gan ei fod yn barhaus yn anfeidrol ddeddydd. Gan hyny, pan ddywedir fod Duw yn *edifarhau* ac yn *ymfodio*, y meddwl yw, ei fod yn penderfynu newid ei ymddygiad; ac fel y mae dynion, pan yn edifarhau am rywbeth, yn *ofidus* o'i herwydd, ac yn ymdrechgu i'w ddadwneyd, felly yr oedd yr Iloalluog yn penderfynu dileu dyn yr hwn a greasai. Felly nid yw edifeirwch Duw yn gyfnewidiad yn ei *cyfllys*, ond yn ei *waith*; a rhaid i ni gofio mai mewn ffordd o gyffelybrwydd neu gymbariaeth yn unig y priodolir natur a nwydau dynol i Dduw.

Adn. 7. *Dileaf ddyr*] Y mae y wreiddiol yn dra grymus: '*Ysgubaf* ddyr, yr hwn a greais, oddiar wyneb y ddaear,' fel yr ysgubir llaid o le a ddylai fod yn lân, ac y tefir ef i'r domen. *O ddyr hyd anifel*—gwnaed y rhai hyn er mwyn dyn, ac am hyny dyfethir hwynt gyda dyn. *Canys y mae yn edifar genyf eu gwneuthur hwynt*—am fod dyben eu cread hwythau wedi myned yn ofer; canys gwnaed hwy fel y gallai dyn wasanaethu ac anrhydeddu Duw â hwynt.

Adn. 8. *Ōd Noa a gafodd ffafr yn ngolwg yr Arglwydd*] Paham? Y mae yr adnod nesaf yn ateb: 1. Am ei fod yn wŷr cyfiawn; 2. Yn berffaith yn ei oes; ac, 3. Yn rhodio gyda Duw. Pe buasai y lleill fel hyn, cawsent yr un ffafr ag yntau: gwel pen. vii. 1.

Adn. 9. *Noa oedd wŷr cyfiawn*] Nid yn nnig yn ei ymddygiadau, ond yr oedd hefyd wedi ei *gyfiawenhu* gerbron Duw trwy fydd yn yr Ifad addawedig, ac felly yn 'etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd,' Heb. xi. 7. *Perffaith yn ei oes*—yr oedd yn mhob peth yn byw bywyd o santeiddrwydd, heb byth gilio oddiwrth y gwirionedd mewn egyptddor nac ymarferiad. *Gyda Duw y rhodiodd Noa*—yr oedd yn meddu cymundeb parhaus gyda'i Wneuthurwr, megys Enoc, pen. v. 22.

Adn. 10. *A Noa a genhedlodd*] Neu a gen-

10 A Noa a genhedlodd dri o feibion, Sem, Cam, a Japheth.

11 A'r ddaear a lygresid ger bron Duw; llanwasid y ddaear hefyd â thrawsedd.

12 A Duw a edrychodd ar y ddaear, ac wele hi a lygresid; canys pob cnawd a lygrasai ei ffordd ar y ddaear.

13 A Duw a ddywedodd wrth Noa, Diwedd pob cnawd a ddaeth ger fy mron: oblegid llanwyd y ddaear â thrawsedd trwyddynt hwy: ac wele myfi a'u dyfethaf hwynt gyda'r ddaear.

14 ¶ Gwna it' arch o goed gopher,

bedlasai erbyn hyn dri o feibion: gwel ar pen. v. 32.

Adn. 11. *A'r ddaear*] Yn cael ei rhoddi am ei thrigolion, a *lygresid gerbron Duw*—yr oeddnt fe allai yn meddu 'duwiau ereill gerbron Duw,' neu yn ei addoli ef trwy ddelwau; neu ynte pechent yn rhyfygus o flaen llygad Duw, mewn diystyrwch o'i bresenoldeb a'i gyfiawnder. *Llanwasid y ddaear hefyd â thrawsedd*—neu anghyfiawnder tuag at ddynion. Nid oedd neb yn ddiogel yn y moddiant o'i eiddo; ac yr oedd llofruddiaethau, gormes, a thrais yn ffynu yn mhob man.

Adn. 12. *A Duw a edrychodd ar y ddaear*] Y drydedd waith, gwel adn. 3, 5; *ac wele hi a lygresid*—yn fwy fyth, trwy fod yr annwiliol yn cynyddu mewn rhif a thrawsedd, a'r ychydig dduwiliol yn lleihau trwy farwolaeth Lamec ac ereill, pen. v. 31, os nid hefyd trwy wrthgiliaidau; *canys pob cnawd*—oddieithr Noa a Methusela, er dim a ddysgw'n i'r gwrthwyneb, a *lygrasai ei ffordd ar y ddaear*—gwel ar adn. 5.

Adn. 13. *Diwedd pob cnawd a ddaeth ger fy mron*] Y mae yr ugain mlynedd a chant yn awr bron â therfynu, a dynion, yn lle gwellân, yn addfedu yn fwy i ddynistr. *Ac wele mi a'u dyfethaf hwynt gyda'r ddaear*—yr oedd efe o'r blaen wedi bygwth dyfetha dyn ac anifel, adn. 7, ac y mae yn awr yn egluro ei fwriad i ddyfetha y ddaear hefyd; ac yn yr adnoddau dylynol efe a hysbasa ei gynlluniau.

Adn. 14. *Gwna it' arch*] Heb. *tebath*, gair a arferir yn unig am y llestr hwn, a'r un y cadwyd Moses ynddo, Exod. ii. 3, 5. Arwydda lestr ceuol, cyfaddas i gynnwys personau, nwyddau, &c., heb un cyfeiriad at lun neu ffurf. Yr oedd yr arch hon fel corff llong, yn addas i nofio ar y dyfroedd, nid i hwylio. Gallasai Dnw ddiogelu Noa trwy weinidogaeth angylion, neu trwy flaf o ftyrdd ereill, heb ei roddi ef i unrhyw ddiarthr na gofal; eithr y mae yn dewis ei roddi ef ar waith i wneuthur yr hyn oedd yn foddion ei gadwrtaeth, er profi ei ffydd a'i ufydd-dod, ac i ddysgu i ni na achubir neb trwy Grist, fel y sylwa HENRY, ond y rhai hyny yn unig ag sydd yn 'gweithio allan eu hiachawdwriaeth eu hunain.' *O goed gopher*—barna rhai mai y gedrwydden a feddyllir, ereill mai y cypres-

yn gellau y gwnai yr arch, a phyga hi oddifewn ac oddiallan â phyg.

15 Ac fel hyn y gwnai di hi: tri chan cufydd *fydd* hyd yr arch, deg cufydd a dengain ei lled, a deg cufydd ar hugain ei uchder.

16 Gwna ffenestr i'r arch, a gorphen hi yn gufydd oddiarnodd; a gosod ddrws yr arch yn ei hystlys: o dri uchder y gwnai di hi.

17 Ac wele myfi, i'e myfi, yn dwyn dyfroedd dylif ar y ddaear, i ddyfetha pob cnawd, yr hwn y mae anadl einioes ynddo, odditan y nefoedd: yr hyn oll *sydd* ar y ddaear a drenga.

wydd, ac ereill mai y ffynidwydd neu y ffawydd. Defnyddid y cypreswydden yn fynych gynt i adeiladu llongau, am nad oedd mor agored i bydrn, nac i gael ei niweidio gan bryfed; ac yr oedd amled mawr o'r pren hwn yn Assyria, lle y tybir fod Noa yn adeiladu. O'r cypreswydden yr adeiladodd Alexander ei lynges. Y mae y LXX yn cyfieithu y wreiddiol, 'o goed ysgwâr,' a'r Vulgate, 'o goed llyfnedig'; ac felly y mae yn amlwg na wyddai y cyfieithwyr hyn pa ryw goed a fwriedid gan y wreiddiol. *Yn gellau y gwnai yr arch*—neu wahanol ystafelloedd; *a phyga hi*—diogela hi â charth a phyg (*pitch*), rhag i'r dwfr weithio i mewn rhwng yr estyll.

Adn. 15. *Tri chan cufydd fydd hyd yr arch*] A chaniatau fod cufydd, yr hyn yw yr hyd o'r elin i flaen y bys canol, yn 18 modfedd, rhaid fod yr arch yn 450 o droedfeddi o hyd, 75 o led, a 45 o uchder. Ond os deallwn hwn am gufydd yr henafiaid, yr hwn oedd agos i 22 modfedd, yr oedd yr arch yn 547 o droedfeddi o hyd, 91 o led, ac yn agos i 55 o uchder; a barna Dr. Arbuthnot y cariai hi 81,062 o dunelli, yr hyn oedd yn fwy na phwysau yr holl greaduriaid ag y dywedir eu bod ynddi, a'r ymborth angenrheidiol iddynt am ffwyddyn. Gwel yr adfeddyliadau.

Adn. 16. *Gwna ffenestr i'r arch*] Neu egoriad i ollwng iddi oleuni ac awyr; *yn gufydd oddiarnodd*—hyny yw, yn gufydd o led ar ei phen, neu gufydd yn uwch na gwneb yr arch, i ddiogelu rhag y tonau. *A gosod ddrws yr arch yn ei hystlys*—er gwell cyfeusdra i ftyned i mewn a dyfod allau. *O dri uchder y gwnai di hi*—i'r auifeiliaid ond odid fod yn yr isaf, yr ystôr a'r ymborth yn yr ail, a Noa a'i deulu a'r adar yn y trydydd.

Adn. 17. *Ac wele myfi, i'e myfi*] Myfi, yr hwn wyf anfeidrol mewn gallu, ac am hyny a fedraf ei wneyd; ac anfeidrol mewn cyfiawnder, ac am hyny a'i gwnafl. Fel pe dywedasai, Na ryfedda fy mod i, i'e MYFI, Duw y cariad, yn myned i foddï byd; canys y mae yn eithaf cyson â'm holl briodoliaethau fod i'r fath bechaduriaid gael eu cospi fel hyn. *Yn dwyn dyfroedd dylif ar y ddaear*—Heb. *mabbul*, gair a arferir yn unig i ddynodi y dylif cyffredinol, heb erioed gael ei ddefnyddio am un math arall o lifeiriant. *Yr hyn oll sydd ar y ddaear a drenga*—dynion, anifeil-

18 Ond â thi y cadarnhaff fy nghyff-
ammod; ac i'r arch yr âi di, tydi a'th
feibion, a'th wraig, a gwragedd dy
feibion gyda thi.

19 Ac o bob *peth* byw, o bob cnawd,
y dygi ddau o bob *rhyw* i'r arch i'w
cadw yn fyw gyda thi; gwryw a ben-
yw fyddant.

20 O'r ehediaid wrth eu rhywog-
aeth, ac o'r anifeiliaid wrth eu rhyw-

ogaeth, o bob ymlusgiad y ddaear
wrth ei rywogaeth; dau o bob *rhyw-
ogaeth* a ddaw atat i'w cadw yn
fyw.

21 A chymer i ti o bob bwyd a
fwytâir, a chasgl atat; a bydd yn
ymborth i ti ac iddynt hwythau.

22 Felly y gwnaeth Noa; yn ol yr
hyn oll a orchymynasai Duw iddo,
felly y gwnaeth efe.

iaid, ac ehediad: ni arberid neb na dim, ond
yr hyn a fydd yn y môr ac ar y môr.

Adn. 18. *Ond â thi y cadarnhaff fy nghyff-
ammod*] 1. Cyfammod RHAGLUNIAETH, y
byddai i drefn naturiaeth gael ei pharhau hyd
ddiwedd amser, er i'r dylif beri attaliad am
flwyddyn. Y mae yr addewid hon yn cael
ei gwneuthur wedi hyn i Noa a'i feibion, pen.
ix. 8, &c., y rhai oeddynt i fod megys gwar-
cheidwaid y greadigaeth. 2. Cyfammod GRAS,
y byddai Duw yn Dduw iddo ef, ac y byddai
iddo o'i had ef godi pobl iddo ei hun. 3. Yr
oedd y cyfammod hwn, fel pob cyfammod
arall, yn cynwys PLEIDIAU. Yr oedd yn
cynwys, o du *Dduw*, fod iddo ef gadw Noa
a'i deulu rhag marwolaeth trwy yr arch; ac
o du *Noa*, fod iddo yntau, mewn ffydd ac
nydd-dod, wneyd yr arch a myned iddi, ac
felly ei roddi ei hun i gadwraeth Duw. Gwel
ar pen. xv. 10, &c. *Ac i'r arch yr âi di,
tydi a'th feibion, a'th wraig, a gwragedd dy
feibion*—er fod Duw wedi bwriadu dyfetha
dynolryw 120 o flynyddau cyn y dylif, adn. 3,
eto ni soniodd efe am ddyfetha y ddaear trwy
ddylyf, nac am gadw Noa a'i deulu yn fyw
trwy *arch*, hyd yn awr, adn. 13, 14, pryd
y gallwn feddwl fod yr ugain mlynedd a
chaat hyny bron ar ben, fe allai o fewn llai na
phum mlynedd. Yr wyf yn gwybod mai y
dyb gyffredin yw, fod Noa 120 o flynyddau
yn adeiladu yr arch, ond tybiwyf y bydd i
ychydig o ystyriaeth uwchben y mater d dangos
yn wahanol. Yn pen. v. 32, cawn hanes fod
Noa yn fab pum can mlwydd pan genhedlodd
efe Sem, Cam, a Japheth; ac yn pen. vii. 11,
cawn mai 600 oedd oed Noa pan ddaeth y dy-
liff: felly nid oedd yr hynaf o feibion Noa ond
prin 100 mlwydd oedd pan ddisgynodd y farn
hono ar y ddaear. Wel, a roddwyd gorchymyn
i Noa adeiladu yr arch *uagain* mlynedd cyn
geni ei feibion? Naddo, er dim a ddisgwn
oddiwrth yr hanes ysgrhythrol. Yn y gwrth-
wyneb, yr oedd Sem, Cam, a Japheth, nid yn
unig wedi eu geni, ond hefyd wedi tyfu i fyny
yr yr oes annyben hono, ac wedi *priddi*, pan
gafodd Noa orchymyn i'w hadeiladu: 'Gwna
it' arch—ac i'r arch yr âi di, tydi a'th
feibion, a'th wraig, a gwragedd dy feibion
gyda thi,' adn. 14—18. Felly ymddengys
ddarfod i Dduw edrych fwy nag unwaith ar y
ddaear; y tro *cyntaf*, yn amser y priodasau
annuwiol hyny, pryd y penderfynodd ddyfetha
dynolryw yn mhen 120 o flynyddoedd os na
ddiwygient, adn. 3; a'r tro *diweddar*, adn. 12,
pryd y gwelodd nad oedd ffyrth y priodasau
hyny ddim gwel na'u rhieni gan mlynedd yn
oll, a phryd y soniodd efe *cyntaf* am i Noa ad-
eiladu yr arch.

Adn. 19. *I'w cadw yn fyw*] Gallasai Duw
ddyfetha yr holl greadigaeth anifeiliaidd, a
chreu ereill i feddiannu y byd newydd, eithr
dewisa yn hytrach *gadw* y rhai a grewyd
eisioes: ac er fod mwy o drafferth yn ofynol i
gadw yr hen rai, nag a fuasai i greu rhai
newyddion, eto y mae y fath barch gan Dduw
i waith ei ddywylaw, fel na fydd i ddim ond yr
hyn sydd yn hanfodol er anrhydedd ei gyf-
iawnder a'i santeiddrwydd byth ei dueddu ef i
ddystrywio dim a'r a wnaeth.

Adn. 20. *Dau o bob rhywogaeth a ddaw
atat*] Yn yr adnod flaenorol y mae Duw yn
gorchymyn i Noa *ddwyn* dau o bob rhyw i'r
arch; ond rhag iddo ddigalonni, dywedir yma
y *deuant* hwy ato, trwy dylanwad Duw, yr
hwn a'u tueddai hwynt i hyn.

Adn. 21. *O bob bwyd a fywteir*] Hyny yw,
o'r bwyd addas i bob rhywogaeth o gread-
uriaid.

Adn. 22. *Felly y gwnaeth Noa*] Efe a
baratôodd yr arch, ac ar yr un pryd efe a
'bregethai gyfiawnder' i'r genhedlaeth bech-
adurus hiono, 2 Pedr ii. 5: gwel hefyd ar
1 Pedr iii. 19. *Yn ol yr hyn oll a orchymyn-
asai Duw iddo*—o ran defnydd a dull. A
phau yr ystyriom waith mor lafurus, poenus,
a pheryglus ydoedd adeiladu yr arch, a'r fath
wawd ydoedd ganddo i'w ddyoddef oddiwrth
yr annuwiol a'r halogedig, ni fydd i ni ryfeddu
fod y ffydd trwy yr hon y gorchfygodd efe yr
holl anhawsderau hyn mor glafawr yn yr ys-
grythyllau, Heb xi. 7. Y mae gan y Ma-
hometaniaid draddodiad, pan ddechreuodd Noa
weithio ar yr arch, fod pawb a'i gwelent yn ei
watwar gan ddyweddy, 'Yr wyt ti yn adeilad-
u llong; os gelli ddywyn dwf' ati, yr wyt yn
broffwyd yn gystal ag yn saer!' a'i fod yntau
yn ateb, 'Yr ydych chiwi yn chwertthin am fy
mheu i yn awr, ond fe ddaw fy nro inan i
chwertthin am eich pen chwithau; oblegid
chwi a ddisgwel, i'ch niwed eich hun, fod
Duw yn y nef yr hwn a gopsa y rhai dryg-
ionus.'

ADFEDDYLIADAU.—Yr ydym eisioes wedi
awgrymu na threuliodd Noa ddim ond rhyw
ychydig o flynyddau i adeiladu yr arch; a
phe buasai ef wrthi cyhyd ag y myn rhai,
gallsedid dysgwyl i'r naill ran o honi fod wedi
pydru gan henaint cyn i'r rhan arall gael ei
gorphen. Diamau fod ganddo lawer o weith-
wyr dan gyflog yn ei gynorthwyo, am nas gall-
wn feddwl y gallasai efe hec hyny ddyfod i
ben a'r fath waith mewn modd yn y byd: nis
gallasai ei hunan lifio y coed, na chyfleu y
trawstiau trymiol ag oeddynt yn ofynol at
y fath adeilad.

Gan i lawer dybio fod maintioli yr arch yn

PENNOD VII.

YNA y dywedodd yr Arglwydd wrth Noa, Dos di, a'th holl dŷ i'r

llawer rhyfachi'r pethau ag y dywedir eu bod ynddi, y mae yn angenrheidiol chwilio hyn trwyddo, fel y byddo i bob anifael glân, yn nghyda digon o luniaeth iddynt oll am flwyddyn. Ar yr olwg gyntaf gall nifer y creaduriaid hyn ymddangos mor fawr fel ag i ofyn llawer mwy o le na'r arch hon i'w cynwys; ond wrth wneuthur cyfrif, ceir fod y gwahanol rywogaethau o greaduriaid yn llawer llai nag y tybir yn gyffredin. Y mae yn amheus pa un a ddylid cynwys yn y cyfrif hwn ddim ond y gwahanol rywogaethau o greaduriaid ag yr oedd yn angenrheidiol eu cymeryd i'r arch. Y mae naturiaethwyr wedi rhanu yr holl deyrnas anifeilaidd i RESTRAU A GRABDAU, yn cynwys rhywogaethau a bathau. Y mae chwech o restrau yn cael eu henwi fel hyn: 1. *Mammalia*; 2. *Aves*; 3. *Amphibia*; 4. *Pisces*; 5. *Insectæ*; 6. *Vermes*. Gyda'r tri olaf o'r rhai hyn, sef ysgod, trychfilod, a phryfed, ni all fod gan y ddad ond ychydig i'w wneuthur. 1. Y mae y RHESTR cyntaf, *Mammalia*, neu anifeiliaid â thethau, yn cynwys saith o raddau, a dim ond *tair-a-deugain* o rywogaethau, os eithriwn y seithfed radd, *cete*, h. y. holl rywogaeth y *morfil*, y rhai yn ddiuau na ddyfent ddyfod i'r cyfrif hwn. Y mae y gwahanol fathau yn y rhestr hwn, heb son am y *cete*, yn cyraedd i *bum cant a thri-a-deugain*. 2. Y mae yr ail RESTR, *Aves*, adar, yn cynwys *chwech* o raddau, a dim ond *pedair-ar-dddeg a thriugain* o rywogaethau, os cauwn allan y drydedd radd, *anseret*, neu yr adar *cyfandroed*, yr oll o ba rai a fedrent fyw yn eithaf da yn yr dwfr. Y mae y gwahanol fathau yn y rhestr hwn, heb son am yr *anseret*, yn cyraedd i *ddwy fil tri chant a deuddeg-a-thriugain*. 3. Nid yw y trydydd RESTR, *Amphibia*, yn cynwys ond *dwy* radd, *ymlusgiaid a seirff*: y mae y rhai hyn y cynwys *deg* rhywogaeth, a *thri chant a chwech-a-thriugain* o fathau; eithr o'r ymlusgiaid gallai llawer fyw yn y dwfr, megys y *crwbau* (*tortoise*), llyffiant, &c. O'r cyntaf y mae *triarddeg-ar-hugain* o fathau, o'r olaf *ddau-ar-bymtheg*, y rhai, os canir hwynt allan, sydd yn tynnu y rhif i lawr i *dri chant ac un-ar-bymtheg*. Ni fyddai i'r holl rai hyn gadw ond ychydig le yn yr arch, am y byddai i ychydig *bridd* yn ei gwaelod fod yn ddiagon o lety iddynt hwy.

Y mae yr ESGOB WILKINS, yr hwn a ysgrifennodd yn helaeth a chyda'i gywteirwydd arferol ar yn pen hwn, yn harmu nad yw y pedwar-carnolion yn cyraedd i *un cant* o wahanol rywogaethau, na'r adar na allant fyw yn y dwfr, i *ddau cant*. O'r pedwar-carnolion efe a ddengys nad oedd ond *deuddeg-a-thriugain* o fathau mewn angen am le yn yr arch; a'r adar a ddsbartha efe i *naw* o restrau, yn cynwys yn y cwbl *gant a phymtheg a phedwar ugain* o rywogaethau, o'r rhai y dydid tynu allan yr holl rai cyfandroed, am y gallai y rhai hyn fyw yn y dwfr.

arch; canys tydi a welais i yn gyfiawn ger fy mron i yn yr oes hon.

2 O bob anifael glân y cymeri gyda

Y mae ef yn cyfrif yr holl anifeiliaid cigysawl (*carnivorosus*) yn gyfartal, o ran swm eu cyfrif a'u hymborth, i *saith-ar-hugain* o fleiddiaid; a'r holl weddill, i *gant a phedwar ugain* o ychain. I'r rhai cyntaf efe a ganiatâ *un fil wyth gant a phump-ar-hugain* o ddefaid i'w traul flynyddol; ac i'r rhai olaf, *gant a naw o filoedd a phum cant* o gufyddau o wair; yr anifeiliaid hyn a'u hymborth a gynnwysid yn hawdd yn y ddau *uchder cyntaf*, adn. 16, a llawer o le dros ben; ac am y *trydydd uchder*, ni all neb amau ei fod yn ddiagonol i'r *chediaid*, yn nghyda *Noa a'i deulu*.

Efe a farna fod un ddaaf bob dydd yn ddiagon i *chwech* o fleiddiaid; a bod cufydd ysgwâr o wair, yr hyn a gynnwysa *un pwyys a deugain* fel y mae yn cael ei wasgu yn gyffredin yn ein *deisi* ni, yn llawn ddiagon i *un ŷch* mewn diwrnod. Pan y bydd i'r dognedd o le ag y mae yr anifeiliaid hyn a'u portiant yn ei ofyn am un flwyddyn gael ei gymharu â *helaethder* yr arch, fel y sylwa CLARKE, arweinir ni i gasglu gyda'r Esgob dysgedig, 'o'r ddau fod yn fwy anhawdd penu nifer a swm o bethau angenrheidiol i gyfateb i helaethder yr arch, nag ydyw cael digon o le i'r gwahanol rywogaethau o anifeiliaid a'u hymboth ag y gwyddys eisioes eu bod yno.' Ilyn a briodola efe i amherffeithrwydd ein rhifrestr ni o anifeiliaid, yn enwedig y rhai hyn o barthau anadnabyddus y ddaear; ac efe a chwanea, 'na allai y meintonyr mwyaf llyfedyr dydd hwn,' ac yr oedd ef yn un o'r rhai goraf yn Ewrop, 'ddim penu cymesuriad llestr wedi ei gyfaddasu yn well i'r perwyl nag a wneir yma;' ac efe a ddybena fel hyn: 'Dylai helaethder yr arch, yr hyn a wnaed yn wrthddadl yn erbyn yr ysgrythyr, gael ei ystyried yn gadarnhad o'i dwyfol awdurdod hi; trwy fod dynion yn yr oesoedd twyll hyn, gan eu bod yn llai hyddysg mewn celfyddydau ac athroniaeth, yn fwy agored i ragfarnau isel nag yn awr, fel, pe buasai hi o ddyfais ddynol, y buasai yr arch wedi cael ei threfnu, yn ol y dychymygion gwylltion hynny ag sydd yn codi oddiar olwg ddyrys a chyffredin ar bethau, gymaint yn *rhyfawr* ag y caffodd ei darlunio yn *rhyfach*.' Gwel BISHOP WILKIN'S *Essay towards a Philosophical Character and Language*.

PEN. VII. Adn. 1. *Yna y dywedodd yr Arglwydd*] Ar ol i Noa orphen yr arch; *Dos di a'th holl dŷ i'r arch*—nid oedd ei deulu yn cynwys ond wyth enaid, 1 Pedr iii. 20, sef Noa a'i dri mab, a'u pedair gwraig, pen. vi. 18. Felly nid oedd gan bob dyn ond un wraig. Pe buasai aml-wreigaeth wedi bod rywbryd yn ganiataol, rhaidd y buasai yn awr, er adbblogi y ddaear. *Canys tydi a welais i yn gyfiawn*—rhoddir hyn fel rheswm dros ei gadw ef yn fyw, pen. vi. 8, 9; ac y mae yn debyg mai er mwyn ei gyfiawnder yr estynwyd gwaredigaeth i'w deulu.

Adn. 2. *O bob anifael glân*] Felly ni a wellwn fod y gwahaniaeth rhwng anifeiliaid glân ac aflan yn bodoli yn hir cyn y gyfraith Foes-

thi bob yn saith, y gwryw a'i fenyw : a dau o'r anifeiliaid y rhai nid ydynt lân, y gwryw a'i fenyw.

3 O ehediaid y nefoedd hefyd, bob yn saith, yn wryw ac yn fenyw, i gadw had yn fyw ar wyneb yr holl ddaear.

4 Oblegid wedi saith niwrnod eto, mi a wlawiaf ar y ddaear ddeugain niwrnod a deugain nos : a mi a ddileaf oddiar wyneb y ddaear bob peth byw a'r a wnaethum i.

5 A Noa a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd iddo.

6 Noa hefyd oedd fab chwe chan mlwydd pan fu y dyfroedd dylif ar y ddaear.

enaidd. Ymddengys ddarfod bwriadu y gwahaniaeth hwn yn wreiddiol er hynodi yr anifeiliaid hyn ag oeddynt addas yn aberth a lluniaeth, oddiwrth y rhai nad oeddynt felly : gwel Lef. xi. *Y cymeri gyda thi bob yn saith, y gwryw a'i fenyw*—tybia Clarke, Coke, ac ereill, mai saith *pâr*, neu bedwar-ar-dddeg, o bob anifel glân a feddylir : gwel ar adn. 9. Ond barna Henry, Benson, Sutcliffe, ac ereill, mai *tri* pâr a olygir, y rhai oeddynt i epilio, a'r seithfed od yn aberth, pen. viii. 20. *A dau o'r anifeiliaid y rhai nid ydynt lân*—cadwyd mwy o'r rhai glân, 1. Am mai y rhai glân oeddynt fwyaf er gwasanaeth dyn. Diolch i Dduw, nid oes gyfroedd o lewod fel y mae o ychain, na deadellau o ddywalgwn fel y mae o ddefaid. 2. Am fod y rhai glân i fod yn aberth i Dduw.

Adn. 3. *I gadw had*] I barhaw y gwahanol rywogaethau ar y ddaear.

Adn. 4. *Oblegid wedi saith niwrnod eto*] Y mae yn debyg ddarfod i Dduw lefaru y geiriau hyn ar y seithfed dydd, neu y Sabboth, ac ddarfod treulio dyddiau yr wythnos ganlynol i lwytho yr arch a'r creaduriaid a'u hymborth. *Mi a wlawiaf ar y ddaear ddeugain niwrnod*—daeth y cyfnod hwn wedi hyn yn gysegredig, ac ystyriwyd ef yn yspaid addas i ymddarostyngiad. Ymrydiodd *Moses* ddeugain niwrnod, Deut. ix. 9, 11; felly y gwnaeth *Elias*, 1 Bren. xix. 8; ac felly y gwnaeth ein *Harglwydd*, Mat. iv. 2. Rhoddwyd deugain niwrnod o seibiant i'r Ninefaid, fel y gallent edifarhau, Jona iii. 4; a rhoddwyd tri deugain (cant ac ugain) o flynyddoedd i'r hen fyd i'r un perwyll grasol, pen. vi. 3. Dywedir fod gau y deugain nydd Grawys, er cofiadwriaeth am ymryd ein Harglwydd, gyfeiriad at yr un peth; gan yr ymddengys fod pob un o'r rhai hyn wedi ei gasglu oddiwrth y farn gyntefig hon.

Adn. 5. *A Noa a wnaeth*] Yn y saith niwrnod olaf hyn, wrth gasglu i'r arch, megys y gwnaethai wrth adeiladu yr arch, pen. vi. 22. Efe a ymgadwai yn fanwl at lythyren y gorchymyn dwyfol.

Adn. 6. *Chwe chan mlwydd*] Gwel ar adn. 11.

Adn. 7. *Rhag y dwfr dylif*] Neu, fel y mae

7 ¶ *A Noa a aeth i mewn, a'i feibion, a'i wraig, a gwragedd ei feibion gydag ef, i'r arch, rhag y dwfr dylif*

8 O anifeiliaid glân, ac o anifeiliaid y rhai nid oeddynt lân, o ehediaid hefyd, ac o'r hyn oll a ymlusgai ar y ddaear,

9 Yr aeth i mewn at Noa i'r arch bob yn ddau, yn wryw ac yn fenyw, fel y gorchymynasai Duw i Noa.

10 Ac wedi saith niwrnod y dwfr dylif a ddaeth ar y ddaear.

11 ¶ *Yn y chwe chanfed flwyddyn o fywyd Noa, yn yr ail mis, ar yr ail dydd ar bymtheg o'r mis, ar y dydd hwnw y rhwygwyd holl ffynnonau*

rhai yn ei gyfieithu, 'cyn dyfroedd y dylif,' sef cyn iddynt ddechreu disgyn.

Adn. 8. *O'r hyn oll*] Na fedrnt fyw yn y dwfr : gwel yr adfeddyliadau ar pen. vi.

Adn. 9. *Yr aeth i mewn at Noa i'r arch bob yn ddau*] Onid yw hyn yn profi mai saith *pâr* o bob rhywogaeth o'r anifeiliaid glân a aethant i'r arch? Onidê buasai raid iddynt fyncod bob yn un bob pedwarydd tro : gwel ar adn. 2.

Adn. 10. *Ac wedi saith niwrnod*] Gwel ar adn. 4.

Adn. 11. *Yn y chwe chanfed flwyddyn o fywyd Noa*] Rhaid fod hyn yn nechre y chwe chanfed flwyddyn o'i fywyd; canys efe a fu flwyddyn yn yr arch, pen. viii. 13, ac a fu fyw 350 o flynyddau ar ol y dylif, ac a fu farw yn 950 mlwydd oed, pen. ix. 29; oddieithr y tybiwn mai ystyr pen. ix. 28 yw, ddarfod iddo fyw 350 mlwydd ar ol i'r dylif ddechreu. *Yn yr ail mis*—o'r flwyddyn wladol, sef *Marchesvan*, yr hwn sydd yn cyfateb i ran o Hydref a rhan o Dachwedd gyda ni. Nid oedd y flwyddyn gysegredig, yr hon a ddechreu yn y gwanwyn, wedi ei sefydlu hyd ar ol y symudiad o'r Aifft. *Ar yr ail dydd ar bymtheg o'r mis*—yn cyfateb, Meddai Locke, i'r chweched dydd o fis Tachwedd. *Rhwygwyd holl ffynnonau y dyfnder mawr*—ymddengys fod mesur dirfawr o ddyfroedd yn gynwysedig yn nghanoalbarth y ddaear gynddylifaw; ac fel yr oedd y rhai hyn yn ymrwygo allan wrth orchymyn Duw, rhaid fod yr haenau cylchynol yn ymsuddo, i lenwi y gwagle a achosid trwy gyfodiad y dyfroedd; ac y mae yn debygol mai hyn a feddylir wrth *RWYGLD* ffynnonau y dyfnder mawr. Yr oedd Duw wedi rhoddi y 'dyfnderoedd mewn trysorau,' Salm xxxiii. 7; ac yn awr efe a rwygodd y trysorau hyn. *A ffenestri y nefoedd a agorwyd*—nes yr oedd y gwlaw, yr hwn yn gyffredin sydd yn disgyn yn ddafnau, yn dyfod i lawr yn ffrydiâu! Yr ydym yn darllen, Job xxvi. 8, fod Duw 'yn rhwymo y dyfroedd yn ei gwmwlau, ac nad ydyw y cwmwl yn hollti danant hwy;' eithr yn awr y rhwymyn a dorwyd, a'r cwmwl a holltwyd, a'r fath wlaw a ddisgynodd na welwyd ei gyffilyb gynt nac wedi. Mewn gair, cafordd y *dyfroedd oddiar*

y dyfuder mawr, a ffenestri y nefoedd a agorwyd.

12 A'r gwlaw fu ar y ddacar ddeugain niwrnod a dengain nos.

13 O fewn corff y dydd hwnw y daeth Noa, a Sem, a Cam, a Japheth, meibion Noa, a gwraig Noa, a thair gwragedd ei feibion ef gyda hwynt, i'r arch.

14 Hwynt, a phob bwystfil wrth ei rywogaeth, a phob anifel wrth ei rywogaeth, a phob ymlusgiad a ymlusgai ar y ddacar wrth ei rywogaeth, a phob echediad wrth ei rywogaeth, pob aderyn o bob rhyw.

15 A daethant at Noa i'r arch bob

yn ddau, o bob cnawd a'r oedd ynddo anadl einioes.

16 A'r rhai a ddaethant, yn wryw a benyw y daethant o bob cnawd, fel y gorchymynasai Duw iddo. A'r Arglywydd a gauodd arno ef.

17 A'r dylif fu ddeugain niwrnod ar y ddaear; a'r dyfroedd a gynyddasant, ac a godasant yr arch, a hi a godwyd oddiar y ddaear.

18 A'r dyfroedd a ymgryphasant, ac a gynyddasant yn ddirfawr ar y ddaear; a'r arch a rodiodd ar wyneb y dyfroedd.

19 A'r dyfroedd a ymgryphasant yn ddirfawr iawn ar y ddaear, a gor-

y ffurfafen eu huno drachefu â'r dyfroedd oddiant y ffurfafen, oddiwrth ba rai y gwanhwyd hwy ar yr ail ddydd o'r cread, pen. i. 7, nes yr oedd yr holl ddaear eilwaith yn fyd o fôr! Darfu i luaws o ffeithiau brofi fod dwfr ei hun, fel y sylwa Clarke, yn gyfansoddedig o ddau aw, ufelai (*oxygen*) a dwfrbair (*hydrogen*); ac y bydd i 85 o ranau o'r naill, a 15 o'r llall, yn gwneyd 100 yn y cwbl, wneuthur yn gymhwys 100 o ranau o ddwfr. Ac fel hyn yr ydys yn cael mai y ddau aw hyn sydd yn fuffio rhanau cyfansoddawl dwfr yn y cyfartaledd uchod. Y mae y wreichionen drydan-aidd, yr hon sydd yr un peth a melltlen, gan dreiddio trwy yr awau hyn, yn eu dadgyfansoddi, ac yn eu troi yn ddwfr; ac i'r achos hwn y rhaid i ni briodoli y gwlaw ag sydd yn ebrwydd yn dilyn mellt a tharanau. Gan hyn yr oedd yn hawdd i Dduw, trwy gyfrwng mellt, droi yr holl nwyfre yn ddwfr i fodd y byd, pe na buasai digon o ager dyfrllyd wedi ei roddi yn yr wybren yr ail ddydd o'r cread. Ac os cafodd y trydan ei ddefnyddio ar yr achlysur hwn er cynyrchu dwfr, rhaid fod llewyrchiadau dibaid y mellt, a thryfau parhans y taranau, yn chwaneu dychrynfydd annarluniadwy at yr olygfa!

Adn. 12. A'r gwlaw a fu] Hyny yw, a barhaodd i ymydwallt yn frydiau dychrynllyd felly ar y ddaear am ddeugain niwrnod a deugain nos! Wrth fyned yn mlaen yn y v ffordd raddol hon, gallwn feddwl ddarfydd i Dduw ddeffro llaver o honant i edifeirwch, ac iddynt geisio trugaredd, a chael achubiaeth i'w heneidiau. O! y dychryn ydoedd yn awr wedi dal y mwyaf anystyriol ohonynt! Gwel gawri ac anghenfilod, y ddaear yn cael eu gorchlygu gan fraich hollalluog! Gwel y genhedlaeth wrthffyddiog,—ha! nid gwrthffyddiog yn awr,—yn ymddyrsu wrth weled Noa a'i deulu yn yr arch yn ddiogel! Clyw y plant yn edliw i'w rhieni am ddyysgu iddynt ddystyru crefydd, ymdroi mewn camweddu, a gwawdio rhybyddion Noa! Gwel hwynt, cyn iddynt hanner traethu y cam a gawsant, yn cael eu bysgubo ymaith gan y don ymgreiniawl nesaf, a'u heneidiau yn cael eu hyrddio i garchar uffern, fel y tystia St. Pedr, i adnewyddu yno eu hedliwiadau olynol!

Adn. 13. O fewn corff y dydd hwnw] Yr cilfed ar bymtheg o'r mis, pryd y dechreuodd

wlawio. Tybia Lyranus ac Oleaster mai yn gywir ar hanner dydd yr aethant i'r arch.

Adn. 14. Pob echediad] Y rhywogaeth fwyaf o adar; pob aderyn—y rhywogaeth leiaf; o bob rhyw—Heb. 'o bob aden;' pa un bynag ai pluog, fel eiddo y rhan fwyaf o adar; ynte croeniog, fel aden yr ystumod.

Adn. 15. A daethant at Noa i'r arch] O fewn corff y dydd olaf, fel y meddylia rhai, ar ol iddo ef dreulio y saith niwrnod blaenorol i grynhoi eu hymborth. Yr hwn ar y cyntaf a'u dygasai hwynt yn wyrthiol at Adda, fel y gallai ef roddi iddynt en henwau, sydd yn awr yn eu dwyn yr un modd at Noa, fel y gallai yntau gadw eu bywydau. Gallwn feddwl yn rhesymol fod eu gelyniaeth reddfol wedi ei symud neu ei rhwymo mor bell fel y gallai y llew drigo gyda'r oen, a'r blaidd orwedd gyda'r mŷn. Ni allai hyn fod yn anhawdd i Dduw, heb gyfrwyngod yr hwn nis gallasai y dylif na'r amgylchiadau cydfynedol gymeryd lle.

Adn. 16. A'r Arglywydd a gauodd arno ef] Ac wrth gan Noa a'i deulu i mewn, yr oedd efe yn cau pawb ereill allan. Y mae yn debyg mai trwy weinidogaeth anyglion y cauwyd arno ef; neu, fel y dywed yr Inddewon, gwnaed hynt trwy 'Air yr Arglywydd,' y MESSIA.

Adn. 17. A godasant yr arch] Yr hon ond oddid a adeiladesid yn mhell oddiwrth y môr, lle yr oedd mwyaf o goed gopher.

Adn. 18. A'r arch a rodiodd ar wyneb y dyfroedd] Fel llestr hyfrydwch, yn mha un yr oedd Noa yn gallu addoli ei Waredwr heb neb yn ei watwar! Yr oedd ei deimladau rywbeth yn debyg, gallwn feddwl, i'r hyn a deimla y gwaredigion yn niogelwch eu Harch ysbrydol ddydd y farn.

Adn. 19. Gorchuddwyd yr holl symyddoedd uchel oedd dan yr holl nefoedd] Felly yr oedd mynyddau uchel yn bodoli cyn y dylif; ac y mae yn debyg mai y pryd hyn y dygwyd y cregin a'r pysg i benau y mynyddau canol-dirawl, ysgerbydau y rhai a geir yno yn awr gan ddaeargywyr. Gwel yr adfeddyliaidau ar pen. i. Y mae mor eglur ag y gall geiriau ei wneuthur, oddiwrth yr adnodau hyn, fod y dylif yn gyffredinol dros yr holl ddaear, ac nid wedi ei gyfyngu, yn ol barn rhai, i ran benodol o'r byd yn unig. Ac er

chuddiwyd yr holl fynyddoedd uchel oedd dan yr holl nefoedd.

20 Pymtheg cufydd yr ymgyrphaodd y dyfroedd tuag i fywy: a'r mynyddoedd a orchuddiwyd.

21 A bu farw pob cnawd a ymlusgai ar y ddaear, yn ehedaiad, ac yn anifeiliaid, ac yn fwystfilod, ac yn bob *rhyw* ymlusgiad a ymlusgai ar y ddaear, a phob dyn *hefyd*,

22 Yr hyn oll yr oedd ffun anadl einioes yn ei ffiroenan, o'r hyn oll oedd ar y sychdir, a fuant feirw.

23 Ac efe a ddileodd bob sylwedd byw a'r oedd ar wyneb y ddaear, yn ddyd ac yn anifel, yn ymlusgiad, ac yn ehedaiad y nefoedd; ie, dilewyd

fod dynion doethion a da yn barnu yn wahanol, eto y mae rhai mor ddoethion a da i'w cael o'r ochr arall.

Adn. 20. *Pymtheg cufydd*] Yr hyn, yn ol y mesur lleiaf, a wna saith lath a hanner: Gwel ar pen. vi. 15. *Yr ymgyrphaodd y dyfroedd*—y codasant uwchlaw y mynyddau uwchaf. Os oedd y mynyddau y pryd hyn mor uchel ag y maent yn awr, rhaid fod y dyfroedd, trwy iddynt eu gorcuddio mewn deugain niwrnod a deugain nos, yn codi yn y cyfartaledd o wyth lath a hanner bob awr; ac felly rhaid eu bod yn y dyffrnoedd rhwng y brynau, lle yr oedd dynion yn preswyllo, yn codi yn ddywywaith cyflymach.

Adn. 21. *A bu farw pob cnawd*] Os gofynir, paham y dinystriwyd y creaduriaid dreswm? gellir ateb, I. Na wnaeth Duw ddim cam â hwynt. Efe yw Penarglwydd pob bywyd, gan ei fod yn Adwr iddo. Yr hwn a'u gwnaeth hwynt fel y mynai, a allai eu dadwneyd pryd y mynai; a phwy a ddywed wrth Duw, 'Pa beth yr wyt yn ei wneuthur?' Job ix. 12. 2. Y mae yn dra thebyg fod yr holl greadigaeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i farwolaeth yn nghyflwr dibechod y byd, fel y danghosais yn y sylw ar Rhuf. v. 12; llawer mwy felly pan y mae y ddaear a phob peth ynddi dan fellidith. 3. Yr oedd Duw yn gwasanaethu dybenion ei gyfiawnder ei hun trwy eu dinystr yn gystal a thrwy eu cread. Trwy hyn y mawrygid ei santeiddrwydd a'i gyfiawnder yn ddifawr. Trwy hyn ymddanghosai ei fod ef yn casâu pechod, ac wedi ei anffodloni yn fawr gan bechaduriaid, gan fod hyd yn nod y creaduriaid israddol, am eu bod yn gweini i ddyd, ac yn rhan o'i etifeddiath, ac wedi eu darostwng i fod yn weision pechod, yn cael eu dyfetha gydag ef. Yr oedd hyn hefyd yn anghraifft o ddoethineb Duw. Gan ddarfod gwneyd y creaduriaid er mwyn dyn pryd y gwnaed yntau, felly lluosogwyd hwynt er ei fwyn ef pan y lluosogwyd yntau; ac am hyn, trwy fod dynolryw yn awr yn cael eu lleihau i'r fath rif bychan, yr oedd yn iawn fod i'r creaduriaid gael eu lleihau yn gyfartal, rhag iddynt gael y llywodraeth dros ddyd a'i orchfygu, a llenwi y ddaear.

Adn. 22, 23. *O'r hyn oll oedd ar y sychdir*,

a hwynt o'r ddaear: a Noa a'r rhai oedd gydag ef yn yr arch, yn unig, a adawyd yn fyw.

24 A'r dyfroedd a ymgyrphasant ar y ddaear ddeng niwrnod a deugain a chant.

PENNOD VIII.

A DUW a gofiodd Noa, a phob peth byw, a phob anifel a'r *a oedd* gydag ef yn yr arch: a Duw a wnaeth i wynt dramwy ar y ddaear, a'r dyfroedd a lonyddasant.

2 Cauwyd hefyd ffynnonau a dyfnder a ffenestri y nefoedd; a lluddiwyd y gwlaw o'r nefoedd.

3 A'r dyfroedd a ddychwelasant

a fuant feirw] Oddiwrth hyn gallwn gasglu mai y cyfryw greaduriaid yn unig a'r na allent fyw yn y dwfr, a gadwyd yn yr arch.

Adn. 24. *A'r dyfroedd a ymgyrphasant ar y ddaear ddeng niwrnod a deugain a chant*] Darfu i rwygiad ffynnonau y dyfnder mawr, a'r gwlawio am ddeugain niwrnod a deugain nos, godi y dyfroedd bymtheg cufydd uwchlaw y mynyddau uwchaf; ac ar ol y cyfryw ddeugain niwrnod tybia Clarke iddynt barhau yn yr uwchder hwan am gant a hanner o ddyddiau yn chwaneg. Eithr barna ereill mai wrth fod y dyfroedd yn *ymgyrshau* yr ydym i ddeall, dyrchafiad graddol y dyfroedd a'u yr yspaid chwanegol hwn o amser. Gwel ar pen. viii. 2.

PEN. VIII. Adn. 1. *A Duw a gofiodd Noa*] Hwn sydd ymadrodd yn ol dull dynion; canys nid oes un o'i greaduriaid ef, llawer llai un o'i bobl, wedi ei annghofio gan Dduw. Yr oedd yr holl hil ddynol yn awr wedi eu dileu, a myned i dir annghof, ac yr oedd Noa ei hun fel pe buasai wedi ei annghofio yn yr arch; ond o'r diwedd dychwelodd Duw ato ef mewn trugaredd, a hyny a feddylir wrth ei *gofio* ef a'r anifeiliaid. *A Duw a wnaeth i wynt dramwy ar y ddaear*—y cyfryw wynt ag a barai anweddai cryfa sydyn. Y mae effeithiau y gwyntoedd hyn, y rhai sydd yn fynych yn y dwyrain, yn wir ryfeddol. 'Fel yr oedd cyfaill i mi,' ebai Clarke, 'yr hwn a fu yn yndrochi yn y Tigris, yn meddu am danu bâr o lodrau Tyrciaidd, un o'r gwyntoedd poethion hyn, a elwid *samiel*, gan basio yn gyflym dros yr afon newydd iddo ef ddyfod allau o'r dwfr, a'i sychodd ef mor effeithiol mewn moment fel nad oedd un gronyn o wlybedd wedi ei adael ar ei gorff nac yn ei wisg yndrochi! Gyda'r fath wynt trydanaid a hwn mor fuan y gallasai Duw sychu holl wyneb y ddaear!—gweithrediad ryw beth yn debyg i ddychweliad dwfr i'w ddau aw cyfansoddawl, *ufelai a dwfrbair*.' Gwel ar pen. vii. 11.

Adn. 2. *A lluddiwyd y gwlaw*] Felly gallwn foddwl fod y gwlaw yn dysgyn, a'r dwfr yn bwrlymu o ffynnonau y dyfnder, am gant a hanner o ddyddiau ar ol y deugain niwrnod cyntaf, nes yr oedd y dyfroedd yn parhau i

oddiar y ddaear, gan fyned a dychwelyd: ac yn mhen y deng niwrnod a deugain a chant, y dyfroedd a dreiasai.

4 ¶ Ac yn y seithfed mis, ar yr ail dydd ar bymtheg o'r mis, y gorphwysodd yr arch ar fynyddoedd Ararat.

5 A'r dyfroedd fuant yn myned ac yn treio, hyd y degfed mis; yn y degfed mis, ar y dydd cyntaf o'r mis, y gwelwyd penau y mynyddoedd.

6 ¶ Ac yn mhen deugain niwrnod yr agorodd Noa ffenestr yr arch a a wnaethai efe.

7 Ac efe a anfonodd allan gigfran; a hi a aeth, gan fyned allan a dychwelyd, hyd oni sychodd y dyfroedd oddiar y ddaear.

8 Ac efe a anfonodd golomen oddi

wrtho, i weled a dreiasai y dyfroedd oddiar wyneb y ddaear.

9 Ac ni chafodd y golomen orphwysfa i wadn ei throed: a hi a ddychwelodd ato ef i'r arch, am fod y dyfroedd ar wyneb yr holl dir: ac efe a estynodd ei law, ac a'i cymerodd hi, ac a'i derbyniodd hi ato i'r arch.

10 Ac efe a arhosodd eto saith niwrnod ereill, ac a anfonodd eilwaith y golomen allan o'r arch.

11 A'r golomen a ddaeth ato ef ar brydnawn; ac wele ddeilen olewydden yn ei gylfin hi, wedi ei thynu: yna y gwybu Noa dreio o'r dyfroedd oddiar y ddaear.

12 Ac efe a arhosodd eto saith niwrnod ereill, ac a anfonodd y golomen; ac ni ddychwelodd hi eilwaith ato ef mwyr.

ymgodi am fwy na chwe mis: gwel pen. vii. 24.

Adn. 3. *Gan fyned a dychwelyd*] *Chaloveck ve-shov*. Y mae y gair yn cael ei arferyd, adn. 7, am fynediad a dychweliad y gigfran; ac yn Esay xl. 8, am ehediad a dychweliad colomenod i'w ffenestr. Yr hyn a feddylir yma yw llifiad a gwrthlifiad y dyfroedd.

Adn. 4. *Gorphwysodd yr arch ar fynyddoedd Ararat*] Cydunir bron yn gyffredinol yn awr mai un o fynyddoedd *Armenia* oedd Ararat. Am hir amser difyrwyd y byd a chwedlau fod gweddillion yr arch i'w gwelwedd yno eto; eithr y mae Tournefort, naturiaethwr Ffrancaidd enwog, yr hwn a ymwelodd â'r lle, yn sicrhau nad oes dim o'r fath i'w weled yno. Gan fod yno gadwen fawr o fynyddau yn cael eu galw wrth yr enw hwn, y mae yn anhawdd penderfynu ar ba ran o honynt y gorphwysodd yr arch; eithr y parth uwchaf, a elwir gan rai y *bys-fynydd*, a nodwyd fel y lle mwyaf tebygol. Y mae yno ddau gopa, oddeutu dwy filltir oddiwrth eu gilydd; ac y mae yr uwchaf, yn ol mesuriad celfyddydol Dr. Parrot, yn 17,325 o droedfeddi, a'r isaf yn 13,093. Y mae yno hefyd amrai fynachlogydd.

Adn. 5. *Yn y degfed mis—y gwelwyd penau y mynyddoedd*] Fel ymysoedd bychain yn ymddangos uwchlaw y dwfr. Nid yw hyn yn gwrthddywedyd yr adnod flaenorol, lle y dyweddd ddarfod i'r arch orphwys ar fynyddoedd Ararat ar yr 17eg o'r seithfed mis; canys gallwn yn hawdd ddeall ddarfod i lestr mor lwythog a'r arch orphwys ar y mynydd tra yr oedd amrai guffyddau o ddwfr yn eiorchuddio.

Adn. 6. *Ac yn mhen deugain niwrnod*] Wedi y dydd cyntaf o'r degfed mis, pryd y dechreuodd penau y mynyddoedd ymddangos.

Adn. 7. *Efe a anfonodd allan gigfran*] Yr hon a wnaeth lawer gwib-ymdaith, gan barhau ar ei haden cyhyd ag y gallai, a chodi y cyfryw abwyd ag a gai yn nofio ar y dyfroedd; ac yna deuai drachefn i orphwys ar yr arch, lle y gallai ddisgyn, er na dderbynwyd hi i fewn.

Adn. 8. *Ac efe a anfonodd golomen oddiwrtho*] Anfonwyd y golomen ymaith deir-

gwaith. Y tro *cyntaf* hi a ddychwelodd yn ebrwydd, am nad aethai, yn ol pob tebygolrwydd, ond ychydig flordd oddiwrth yr arch, gan y rhaid ei bod yn naturiol wedi dychrynu wrth yr olwg ar y dyfroedd. Ar ol iddo ei hanfon hi allan *eilwaith* yn mhen y saith niwrnod, hi a ddychwelodd gyda deilen olewydden wedi ei thynu, adn. 11, yn arwydd o adferiad heddwch rhwng Duw a'r ddaear; ac oddiwrth yr amgylchiad hwn cafodd yr *olewydden* ei hystyried yn arwydd o heddwch yn mhlith pob cenedl wareiddiedig. Yn niwedd y saith niwrnod ereill, ar ol ei hanfon allan y *drydedd* waith, ni ddychwelodd y golomen mwyach, oddiwrth yr hyn y casglodd Noa fod y ddaear yn awr wedi sychu yn ddigonol; ac am hynny efe a symudodd gauad yr arch, yr hyn yn debygol a roddes ryddid i laver o'r adar ereill ehedeg ymaith, yr hyn a roddai iddo yntau fwy o rwyddineb i wneuthur darpariadau er dadlwytho yr anifeiliaid a'r ymlogsiad, a'r ehediad cartrefol trymion, y rhai yr ymddengys eu bod eto ar ol, adn. 17.

Adn. 9. *Ac ni chafodd y golomen orphwysfa i wadn ei throed*] Am nad aeth hi mor bell oddiwrth yr arch a phenan y mynyddoedd ag oeddynt eisioes wedi dechreu ymddangos, adn. 5.

Adn. 10. *Ac efe a arhosodd eto saith niwrnod ereill*] Ymddengys oddiwrth yr adnod hon fod yspaid o saith niwrnod rhwng anfoniad y gigfran a'r golomen, am y gelwir hwynt yn saith niwrnod *ereill*; a bod Noa yn cadw cyfrif amseryddol, ac felly yn cadw y sabboth yn greyddol, yn y modd goraf ag y medrai, yn ystod y dyflif.

Adn. 11. *Wele ddeilen olewydden yn ei gylfin hi*] Dywed Pliny a Theophrastus y y gwna dail yr olewydden barhau yn ddiwaethygiad am hir amser mewn dwfr. Y mae y pren hwn i'w gael eto yn y dyffirnoedd o du y deau i Ararat. Y mae Symmachus a'r Vulgate yn darllen, 'cangen olewydden.'

Adn. 12. *Ni ddychwelodd hi eilwaith*] Am fod y ddaear wedi sychu yn ddigonol erbyn hyn, fel y gallai y golomen ymdaro drosti ei hun.

13 ¶ Ac yn yr unfed flwyddyn a chwe chant, yn y *mis* cyntaf, ar y *dydd* cyntaf o'r *mis*, y darfu i'r dyfr-oedd sychu oddiar y tir : a Noa a sychmodd gauad yr arch, ac a edrychodd, ac wele sychasai wyneb y ddaear.

14 Ac yn yr ail *mis*, ar y seithfed dydd ar hugain o'r *mis*, y ddaear a sychasai.

15 ¶ A llesarodd Duw wrth Noa, gan ddywedyd,

16 Dos allan o'r arch, ti, a'th wraig, a'th feibion, a gwragedd dy feibion, gyda thi.

17 Pob peth byw a'r *sydd* gyda thi, o bob enawd, yn adar, ac yn anifeiliaid, ac yn bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear, a ddygi allan gyda thi; hepihant hwythau yn y ddaear, a

ffrwythant ac amlhant ar y ddaear.

18 A Noa a aeth allan, a'i feibion, a'i wraig, a gwragedd ei feibion, gyd-ag ef.

19 Pob bwystfil, pob ymlusgiad, a phob chediad, pob peth a ymlusgai ar y ddaear, wrth eu rhywogaethau, a ddaethant allan o'r arch.

20 ¶ A Noa a adeiladodd allor i'r Arglwydd, ac a gymerodd o bob anifel glân, ac o bob chediad glân, ac a offrymodd boeth-offrymau ar yr allor.

21 A'r Arglwydd a aroglodd arogl esmwyth; a dywedodd yr Arglwydd yn ei galon, Ni chwanegef felddithio y ddaear mwy er mwyn dyn : o herwydd bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuentid: ac ni chwanegef mwy

Adn. 13. *Ac yn yr unfed flwyddyn a chwe chant*] O fywyd Noa.

Adn. 14. *Ac yn yr ail fis, ar y seithfed dydd ar hugain*] Ymddengys oddiwrth hyn fod Noa yn yr arch flwyddyn *heulaidd* gyflawn, neu 365 o ddyddiau; canys efe a aeth i'r arch ar yr 17eg o'r ail fis yn y chwe chanfed flwyddyn o'i fywyd, pen. vii. 11, ac a arhosodd ynddi hyd y 27ain o'r ail fis yn yr unfed flwyddyn a chwe chant o'i fywyd, fel y gwelwn yma. Misoedd yr hen Hebraid oedd-ynt *leuadaidd*; y chwech cyntaf a gynwysent 30 niwrnod bob un, a'r chwech olaf 29; yr holl ddeuddeg *mis* yn gwneyd 354: chwanegef at hyn 11 o ddyddiau, (canys er iddo fyned i'r arch ar yr 17eg, ni ddaeth allan hyd y 27ain,) a ni a gawn yn gynhwys 365 o ddyddiau.

Adn. 15—19. *A llesarodd Duw wrth Noa.—Dos allan o'r arch, &c.*] Yr oedd hyn yn nechre y ganaf, fel y gwelom pen. vii. 11; ac y mae yn siampl arall o ofal rhagluniaeth; canys y ddaear ar ol bod cyhyd dan ddwfr hallt, fel y sylwa SUTCLIFFE, ni fyddai yn barod at hydyfiant hyd oni effeithiai y rhew a'r gwlawogydd ar ei gwyneb.

Adn. 20. *A Noa a adeiladodd allor*] Yr allor gyntaf ag y darlennwn am dani, ond nid y gyntaf a adeiladwyd; canys y mae yr aberthau a offrymwyd o'r blaen (Gen. iv. 3, 4.) yn rhagydybio allor neu allorau. Y mae yn deilwng o sylw, megys y dechreuodd yr hen fyd gydag aberth, ddarod i'r newydd hefyd ddechreu felly. Crefydd, neu yr iawn fodd o addoli Duw, sydd ddyfais neu sefydliad o'i eiddo Ef ei hun; ac ABERTH, fel y sylwa Clarke, ydyw *syllwedd* crefydd. Heb aberth yn cael ei weithredol offrymu neu ei gynwys, ni fu erioed, ac ni all fod byth, un grefydd i ddyn syrtiedig; ac hyd yn nod yn y nefoedd, y mae Oen yn cael ei arddangos gerbron gorseddfaic Duw megys newydd ei ladd, Dat. v. 6, 12, 13. Y mae dyben aberthu yn ddeublyg; y mae *Uaudd* yr aberth yn nodi allan fod *hwyad* y pechadur wedi ei storffetio i ddwyfol gyfiawnder; ac y mae ei *losgi* yn arwyddo fod ei enaid yn haeddu *lân* uffern.

Y mae gan yr Iuddewon draddodiad, mai y lle ag yr adeiladodd Noa ei allor oedd y fan lle y safai yr allor a adeiladwyd gan Adda, ac a ddefnyddiwyd gan Cain ac Abel, a'r fan lle y offrymodd Abraham wedi hyny ei fab Isaac. *Boeth-offrymau*—gwel yr adfeddyliadau ar Lef. vii.

Adn. 21. *A'r Arglwydd a aroglodd arogl esmwyth*] Neu, fel y mae y LXX, y Vulgate, a'r Saesonaeg yn ei ddarlenn, 'arogl *peraidd*.' Hyn yw, efe a dderbyniodd berson, ffydd, ac offrymau Noa; ac yr oedd wedi ei foddhau gymaint â hwy, a chyda'r dechreadau gobethiol hyn o'r byd newydd, ag y boddheir dionion âg aroglau dymunol a pheraidd. Fod yr aberth hwn yn rhag-gysgodi yr un a offrymwyd gan ein Harglwydd bendigedig dros y byd, sydd ddigon amlwg oddiwrth Eph. v. 2, lle y mae yr apostol yn arfer yr un geiriau ag a ddefnyddir gan y LXX yn y lle hwn. Yn yr Hebraeg, 'arogl *gorphwysdra*' ydyw, yn arwydd iddo orphwys oddiwrth ei ddigofaint. *A dywedodd yr Arglwydd yn ei galon*—o'i galon, yn wirioneddol; neu efe a feddyliodd hyny yn ei galon; neu efe a ddywedodd yn nghalon Noa, trwy roddi iddo sicrwydd mewnol. *Ni chwanegef felddithio y ddaear mwy*—yr oedd efe wedi melfdithio y ddaear yn amser Adda, a chwanegeu ei melfdithio hi trwy y dylif; ond ni chwanegei mwyach; ni fyddai dylif arall i ddyfetha yr holl ddaear. *O herwydd bod bryd calon dyn yn ddrwg*—*hi*, ER I bryd calon dyn fod yn ddrwg; hyn yw, pe fyddent wedi hyn mor ddrwg ag y buont o'r blaen, ni fyddai i mi ddyfetha y ddaear trwy DDYLIF. Y tro nesaf yr ymwel Duw â'r ddaear trwy fam gyffredinol, *lân* fydd yr offeryn, 2 Pedr. iii. 7. Yr un rheswm sydd gan Dduw yma dros arbed y byd, ag a oedd ganddo, pen. vi. 5, dros ddyfetha y byd. *O'i ieuentid*—gan ei fod wedi dyfod â'i lygredd gydag ef i'r byd, ni fydd i ni mwyach ymddwyn tuag ato gyda'r gerwindeb blaenorol; o hyn allan caiff fod yn wrthddrych tosturi yn wytrach na chosp.

Adn. 22. *Pryd hau a chymaaf*] Amser cyfaddas i ddodi yr amrywiol rawn yn y

daro pob *peth* byw, fel y gwnaethum.

22 Pryd hau a chynauaf, ac oerni, a gwres, a haf, a gauaf, a dydd, a nos, ni phaid mwy holl ddyddiau y ddaear.

PENNOD IX.

DUW hefyd a fendithiodd Noa a'i feibion, ac a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch a lluosogwch, a llenwch y ddaear.

2 Eich ofn hefyd a'ch arswyd fydd

ddaear, ac i fedd cynyrch yr hadau hyn. *Oerni a gwres*—gall fod gwahaniaeth yn y tymorau, ond ni fydd i un tymor gwir angenrheidiol i hydyfiant ballu mwyach yn llwyr a chyffredinol. *Haf a gauaf*—ac nid un gauaf parhaus megys y bu y fwyddyn ddiweddar hon. *Dydd a nos*—ac nid un nos dywell, fel yn ddi-iamau yr oedd yn bod yn ystod disgyniad y gwlawogydd: gwel ar adn. 2. *Ni phaidmwy*—mewn ystyr cyffredinol dros yr holl ddaear; er iddynt beidio mewn ystyr rhanol, fel vn yr Aifft, ac yn nyddiau Ahab. *Holl ddyddiau y ddaear*—awgrymir yn eglur yma nad yw y ddaear i barhau byth; eithr cyhyd ag y pery, addawa Duw na fydd i rediad natur ballu, ond y bydd i'w ragluniaeth ddaionus gadw yn ofalus olyniad rheolaidd yr amserau a'r tymorau.

PEN. IX. Adn. 1. *Duw hefyd a fendithiodd Noa a'i feibion*] Y mae y fendith a gyhoeddwyd uwchben Adda, pen. i. 28, yn cael ei chyhoeddi yma uwchben Noa a'i feibion, a'i hailadrodd adn. 7; canys yr oedd yr hiliogaeth ddynol, fel pe buasai, i gael ei dechreu o'r newydd. Trwy effaith y fendith hon yr oedd dynolryw i barhau ac ymluosogi ar y ddaear, nes llenwi pob goror; ac er i un genedlaeth fyned heibio, eto cenedlaeth arall a ddeuai, fel ag y byddai i firwd yr hil ddynol gael ei chyflenwi âg olyniad parhaus, a rhedeg yn gyfochrog â threiglaid amser, hyd nes y llyncid y ddau yn nghefnfor tragwyddoldeb.

Adn. 2. *Eich ofn hefyd a'ch arswyd fydd ar holl fwystfilod y ddaear*] Cyn y cwmp, yr oedd dyn yn llywodraethu y creaduriaid israddol trwy gariad a thiriondeb, canys y pryd hyny mwynedd-dra a hyddysgedd oedd eu prif nodau: ond ar ol y cwmp, anhydrinedd a ffyrnigrwydd creulon a fflinai braidd yn mysg pob gradd o'r greadigaeth anifeilaidd. Ymddengys yn neillduol fod gelyniaeth i ddyn yn ffyuu; ac oni buasai i Dduw yn ei drugaredd argraffu ar eu meddyliau ofn ac arswyd dyn, buasai yr hil ddynol yn hir cyn llyn wedi ei llwyr ddyfetha gan fwystfilod y maes! Pe gwyddai y march ei gryfder ei hun, a gwendid yr adyn truenus ag sydd yn ddirugaredd yn ei yru, ei fllangellu, ei symylu, a'i orthrymu, fel y sylwa Clarke, oni ddyfetha efe ei feddiannydd creulon âg un carniad? Ond tra y mae Duw yn cuddio y pethau hyn oddiwrtho, y mae yn argraffu ar ei feddwl ofn ei berchenog, nes y mae yn cael ei ddyngu i'r perwyllion mwyaf pwysig a defnyddiol. Dwyalgwn, bleiddiaid, a llewod, gelyniwn penderfynol dyn, a ffoant mewn arswyd oddiwrth ei breswylfa, gan ei adael ef yn rhagluniaethol ddiogel.

ar holl fwystfilod y ddaear, ac ar holl ehediaid y nefoedd, a'r hyn oll a ymsymudo ar y ddaear, ac ar holl bysgod y môr; yn eich llaw chwi y rhoddwyd hwynt.

3 Pob ymsymudydd yr hwn sydd fyw, fydd i chwi yn fwyd; fel y gwyrdd llysieuyn y rhoddais i chwi bob dim.

4 ¶ Er hyny na fwytwch gig yn nghyd a'i einioes, sef ei waed.

Fel hyn, trwy ofn ac arswyd, y mae dyn yn llywodraethu holl fwystfilod y ddaear, holl ehediaid y nefoedd, a holl bysgod y môr!

Adn. 3. *Pob ymsymudydd*] Ag sydd iachus yn ymborth; yr hwn sydd fyw—gall fod hyn wedi ei chwaneu i wahardd y defnyddiad o'r creaduriaid hyny a fuont feirw o honyt eu hunain, neu a laddwyd gan fwystfilod; *fydd i chwi yn fwyd*—nid oes un prawf pendant ddarfod bwytia cig erioed cyn y dylif. Noa a gafodd y goddefiad cyntaf o'r fath yma, ac fe'i parlawyd i'w holl hiliogaeth byth wedi hyny. Nid yw yn debyg y cawsai y goddefiad yma ei wneyd yn awr, meddai Clarke, oni buasai fod rhyw gyfnawidiad annghyffredin wedi cymeryd lle yn y byd hydyfol, fel ag i wneyd ei gynyrch yn llai maethlon nag o'r blaen; a dichon fod rhyw gyfnawidiad wedi cymeryd lle yn nghyfansoddiad dyn, fel ag i wneyd ymborth uwch a brasach yn angenrheidiol iddo. Nychodod heintus, yn cael ei beri trwy ansawdd niweidiol yr awrygylch yn fynych, yn nghyda llafur hir a phoenus, a ofynai o angenrheidrwydd ymborth brasach nag a fedrai hydyfiant ei roddi.

Adn. 4. *Er hyny na fwytwch gig yn nghyda'i einioes, sef ei waed*] Un meddwl i hyn a all fod, Na thorwch ymait, na rwygwch i ffwrdd, ac na chymerwch un aelod neu ran o unrhyw greadur yn fwyd i chwi, tra y byddo efe eto yn ffyw; eithr boed i chwi yn gyntaf dywallt ei waed, a thrwy hyny ei roddi i farwolaeth yn y ffordd esmwythaf iddo. Llwn yw yr ystyr a ddryr yr Iuddeuon i'r geiriau; ac o'u deall fel hyn cynwysant waharddiad o bob creulondeb tuag at yr anifeiliaid hyny a leddid yn ymborth. Ac nid oedd y gwaharddiad yn yr ystyr hwn yn ddiangenrhaidd, trwy fod yr arferiad a gon-demnir yma yn beth tra chyffredin yn yr amser gynt, ac hyd yn nod mewn amseroedd diweddar, mewn amrai barthau o'r dwyrain. Y mae yr arferiad hwn yn bodoli eto yn mhlith yr Abyssiniaid, y rhai sydd yn tori golwythi, pan y mae arnynt eu heisiau, oddiar eu gwartleg tra yu fyw! Modd bynag, prif ystyr yr ymadrodd, fel y sylwa Benson, ydwy gwahardd bwytia *gwaed* mewn unrhyw ffordd, yr hyn yr ymddengys ddarfod ei wahardd yn neillduol am ddau reswm: 1. I fod yn arwydd i ddynolryw yn mhob oes, na fuasai ganddynt hwy lawl i ladd un anifel yn fwyd, oni buasai i Dduw ei roddi iddynt. 2. Er anrhydedd i waed y cymod, Lef. xvii. 11, 12. Yr oedd bywyd yr aberth yn cael ei dderbyn yn lle bywyd y pechadur, a'r gwaed a wna 'gymod dros yr enaid'; ac am hyny rhaid peidio

5 Ac yn ddiau gwaed eich einioes chwithau hefyd a ofynaf fi: o law pob bwystfil y gofynaf ef; ac o law dyn, o law pob brawd iddo y gofynaf einioes dyn.

6 A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau, o herwydd ar ddelw Duw y gwnaeth efe ddyn.

7 Ond chwychiw, ffrwythwch ac amlhewch epilwch ar y ddaear, a lluosogwch ynddi.

8 ¶ A Duw a lefarodd wrth Noa, ac wrth ei feibion gydag ef, gan ddywedyd,

edrych arno fel peth cyffredin, eithr rhaid ei ddiod-offrymu ef i'r Arglwydd,' 2 Sam. xxiii. 16. A dylid sylwi, na chafodd y gwaharddiad hwn i fwyta gwaed, a roddwyd i Noa a'i holl hiliogaeth, ac a adnewyddwyd i'r Israëliaid yn y modd dwysaf dan yr oruchwyliaeth Foesenaidd, erioed ei ddirymu; eithr, yn y gwrthwyneb, efe a gadarnhawyd dan y Testament Newydd, Act. xv. a thrwy hyny a wnaed yn rhwymedigwch fythol. Ni fwytëid dim gwaed dan y *gyfraith*, ebai Clarke, am ei fod yn nodi allan a gwaed ag ydoedd i'w dywallt dros bechod y byd; ac ni ddylid ei fwyta dan yr *efengyl*, am y dylid ei ystyried bob amser fel yu arddangos y gwaed a dywalltwyd er maddeuant pechodau. Y mae y gorchymyn hwn yn cael ei gadw o hyd yn fanwl gan y Cristionogion dwyreiniol, a chan yr holl eglwys Roegaid, a dylai gael ei gadw trwy yr holl fyd. Pe gwyddai bywtawyr gwaed yn gyffredinol ei fod yn ymborth tra annhwr ac afiachus, a braidd yn annhrenliadwy, dian na byddai iddynt am y rhesymau *aniamyddl* hyn, heb son am ystyriaethau *moesol*, fod mor ymlynedig wrth dreuliad yr hyn na allant ddsyrgwyl un maeth iachus oddi-wrtho, a'r hyn, i'w wneyd hyd yn nod yn fodhaol i'r archwaeth, sydd yn gofyn holl fedruswydd y cogydd. Gwel yn neillduol ar Act. xv. 20.

Adn. 5. *Ac yn ddiau gwaed eich einioes chwithau hefyd a ofynaf fi* Fel pe dywedasai, Os wyf fi fel hyn yn ofalus am waed anifeiliaid, diau y byddaf yn llawer mwy pryderns am waed dynion, pan ei tywelltir trwy ddwyllaw anghyfiawn a threisli. Nid yw ein beinioes ein hunain yn eiddo i ni yn y fath fodd fel y gallwn ei rhoddi ymaith wrth ein hewyllys; eithr eiddo Duw ydyw, a rhaid i ni ei roddi i fyny wrth ei cwyllys ef. Os ydym ni mewn un modd yn prysuro ein marwolaeth ein hunain, yr ydym yn gyfrifol i Dduw am hyny. *O law pob bwystfil y gofynaf ef*—i ddangos mor ddyner yw Duw o einioes dyn, efe a fyn roddi i farwolaeth y bwystfil a laddai ddyn. Cadarnhawyd hyn trwy gyfraith Moses, Exod. xxi. 28, a dylai fod mewn grym yn barhaus. *Ac o law dyn*—mi a ddialaf waed y llofruddiedig ar y llofrudd.

Adn. 6. *A dywallto waed dyn* Yn fwiadol, oddiar falais neu elyniaeth, ac nid mewn *anwybod*, fel y mae yr ysgrhythyr yn ei fynegu, Jos. xx. 3, 5; *trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau*—sef trwy yr ynad, neu bwy bynag a

9 Ac wele myfi, ie myfi, ydwyf yn cadarnhau fy nghyfammmod â chwi, ac â'ch had ar eich ol chwi;

10 Ac â phob peth byw yr hwn sydd gyda chwi, â'r ehediaid, a'r anifeiliaid, ac â phob bwystfil y tir gyda chwi, o'r rhai oll sydd yn myned allan o'r arch, hyd holl fwystfilod y ddaear.

11 A mi a gadarnhaf fy nghyfammmod â chwi, ac ni thorir ymaith bob cnawd mwy gan y dwfr dylif, ac ni bydd dylif mwy i ddyfetha y ddaear.

12 A Duw a ddywedodd, Dyma arwydd y cyfammmod, yr hwn yr ydwyf

benodid gan y gyfraith yn ddialydd gwaed. Cyn y dylif, fel yr ymddengys oddiwrth hanes Cain, yr oedd Duw yn cymeryd cospi llofruddiaeth i'w ddwyllaw ei hun; eithr yn awr efe a roddes y farn hon i ddynion; i benau teulu-oedd yn gyntaf, ac yna i benaethiaid gwledydd. *O herwydd ar ddelw Duw y gwnaeth efe ddyn*—felly y mae y ddeddf hon yn seiliedig ar greadigaeth dyn, ac yn aros yn ddi-gyfiawid dan bob goruchwyliaeth. Y mae y fath wedd-illion o ddelw Duw yn aros yn barhaus hyd yn nod ar ddyn syrtlhedig, fel y mae yr hwn sydd yn anghyfiawn yn liadd dyn, yn anferthu delw Duw, ac yn dianrhuddedu ei Greawdwr ef. Y mae bywyd dyn yn anwyl yn ngolwg Duw, a dylai fod felly yn ein golwg ninaw.

Adn. 7. *Ond chwychiw* Yn hytrach na chymeryd ymaith fywyd dyn, *ffrwythwch ac amlhewch*—gwel ar adn. 1.

Adn. 8—10. *Ac wele myfi, ie myfi, ydwyf yn cadarnhau fy nghyfammmod â chwi* Cyn i Noa fyned i'r arch, pen. vi. 18, hysbysodd Duw ei fwriad o gadarnhau ei gyfammmod ag ef; yr hyn y mae efe yma yn ei gyflawni, gan gymeryd i mewn iddo ei had ar ei ol, yn gystal a phob peth byw.

Adn. 11. *Ni bydd dylif mwy i ddyfetha y ddaear* Boddodd Duw y byd unwaith, ac y mae yn barhaus mor gythrudol ag erioed; eto ni bydd iddo byth ei *foddi* ef mwyach. Yr addewid hon o eiddo Duw sydd yn cadw y môr a'r cymylau yn eu lleoedd arfaethedig gan osod 'trosolion a dorau,' Job xxxviii. 10, 11. Pe cai y môr ymlenwi ond am ychydig ddyddian, fel y mae yn gwneyd ddwywaith yn y dydd am ychydig oriau, y fath ddifrod a wna! Felly hefyd y gwna i cymylau, pe byddai i'r fath gawodydd ag a welsom weithiau barhau yn hir.

Adn. 12. *Dyma arwydd y cyfammmod* Sef yr enfys, yr hon a elwir yn *swa* oddiwrth ei ffurf hanner crwn. Y mae yn ddiannau ddarfod gweled yr enfys yn y cymylau o'r blaen, ond ni bu erioed yn arwydd neu sêl cyfammmod hyd yn awr. Ar wreiddyn a natur yr enfys bu amrywiaeth mawr o ddychymygion, hyd oni ddarfu i *Anthony de Dominis*, esgob Spalarto, yn y flwyddyn 1611, gael allan mewn rhan wir achos yr ymddanghosiad hwn, yr hyn wedi hyn a lawn eglurwyd ac a brofwyd gan *Syr Isaac Newton*. Nid yw yr enfys ond *esfath* naturiol achos naturiol. 1. Ni welir hi byth ond ar dywydd cawodol. 2. Na'r pryd hyny oddieithr fod yr haul yn

fi yn ei roddi rhyngof fi a chwi, ac â phob peth byw ar y sydd gyda chwi, dros oesoedd tragwyddol.

13 Fy mwa a roddais yn y cwmwl, ac efe a fydd yn arwydd cyfammod rhyngof fi a'r ddaear.

14 A bydd pan godwyf gwmwl ar y ddaear, yr ymddengys y bwa yn y cwmwl.

15 A mi a gofias fy nghyfammodd, yr hwn sydd rhyngof fi a chwi, ac â phob peth byw o bob cnawd: ac ni bydd y dyfroedd yn ddylif mwy, i ddyfetha pob cnawd.

16 A'r bwa a fydd yn y cwmwl; a mi a edrychaf arno ef, i gofio y cyfammod tragwyddol rhwng Duw a

phob peth byw, o bob cnawd a'r y sydd ar y ddaear.

17 A Duw a ddywedodd wrth Noa, Dyma arwydd y cyfammod, yr hwn a gadarnheais rhyngof fi a phob cnawd a'r y sydd ar y ddaear.

18 ¶ A meibion Noa y rhai a ddaeth allan o'r arch, oedd Sem, Cam, a Japheth; a Cham oedd dad Canaan.

19 Y tri hyn oedd feibion Noa: ac o'r rhai hyn yr hiliwyd yr holl ddaear.

20 A Noa a ddechreuodd fod yn llafurwr, ac a blannodd winllan:

21 Ac a yfodd o'r gwin, ac a feddwodd, ac a ymnoethodd yn nghanol ei babell.

tywynu. 3. Nid yw byth yn ymddangos mewn un ran o'r nefoedd ond gyferbyn â'r haul. 4. Nid yw byth yn ymddangos yn fwy na hannergyloch, ac yn aml yn llawer llai.

5. Y mae bob amser yn ddwbl, am y cynwysa yr hyn a elwir yr enfys uwchaf a'r isaf, neu y gyntefig a'r eilig. 6. Y mae y bwiau hyn yn dangos y saith lliw cynhenid, coch, eurliw, melyn, gwyrdd, glâs, dulas, a rhuddlas. 7. Y mae yr holl ymddangosiad hwn yn ymddi-bynu ar ddisgyniad pelydr yr haul ar ddafnau cyfrwrn o ddwfr, gan wrthdroi a gwrth-lewyrchu ar eu mynediad trwyddynt. Yn yr ail enfys y mae y lliwiau yn ymddangos yn y gwrthwyneb i'r gyntaf; ac felly hefyd yn y drydedd a'r bedwaredd, y rhai ni welir ond anfyfnych. Am yr un rheswm gwelir yr enfys weithiau yn yr agerau a ddyrchafant o'r môr ar ystomydd, yn y dafnau a wthir i fyny trwy bibelli mewn gerddi, a gwelwyd yn achlysurol ryw ddelw wanaidd o honi oddi-wrth oleuni y lleuad ar noson wlyb.

Adn. 13. *Fy mwa a roddais yn y cwmwl*] *Kashi nathuti*, 'fy mwa ag y darfu i mi ei roddi yn y cwmwl.' Fel pe dywedasai, Mor sicr a bod y bwa yn effaith naturiol tywyniad haul ar wlaw, a bod yn rhaid iddo barhau felly cyhyd ag y pery yr haul a'r nwyfre, mor sicr a hyny bydd i'r ddaear hon gael ei chadw rhag cael ei dyfetha gan ddwfr; a bydd i'w chadwraeth fod yn effaith mor angenrheidiol o fy addewid ag ydyw y bwa o dywyniad yr haul ar gawod o wlaw. Gwel CLARKE.

Adn. 14. *A bydd pan godwyf gwmwl ar y ddaear*] Ni feddylir y bydd i'r bwa gael ei weled yn barhaus, ond ar rai amserau, yn ddigon aml i ddwyn ar gog i ddyinion yr addewid, ac i aunoeg eu crediniaeth ynddi. Y mae yr enfys yn ymddangos pan fyddo y cymylau yn fwyaf tueddol i wlaw: ac felly, pan y mae genym fwyaf o reswm i ofni dylif, y mae Duw yn dangos ei arwydd na fydd dylif.

Adn. 15. *A mi a gofias fy nghyfammodd*] Fel pe dywedasai, Caiff yr enfys fod fel cofyfr i ddwyn ar gog i mi fy addewid o attal y gwlawogydd rhag iddynt gynyddu yn ddylif mwyach.

Adn. 16. *A mi a edrychaf arno ef*] Megys y mae Duw yn edrych ar y bwa, i gofio ei

gyfammod; felly y dylem ninaw edrych arno, fel y byddom bob amser yn gofus o'r cyfammod hwn gyda fydd a ddiolbgarweh.

Adn. 17. *Dyma arwydd y cyfammod*] *Oth*, y sêl, y nôd, neu yr argeol dwvol. Yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid bob amser, yn gystal a'r Hebreaid, yn ystyried yr enfys fel arwydd neu argeol dwyfol; a darfu i bob un o'r cenhedloedd hyn ei haddoli, gan ei hystyrjed fel cenad y dawiau.

Adn. 18. *Sem, Cam, a Japheth*] Japheth, er yn cael ei enwi yn olaf, ydoedd yr hynaf o feibion Noa, fel y sylvasom o'r blaen, ac fel yr ymddengys oddiwrth pen. x. 21. Yr oedd Sem ddwy flynedd yn ieuangach na Japheth. Yr oedd Noa, pan genheddlwyd Japheth, yn 500 mlwydd oed, pen. v. 32, ac yn amser y dylif yn 600, pen. vii. 6; ond nid oedd Sem yn 100 mlwydd oed hyd ddwy flynedd wedi y dylif, pen. xi. 10.

Adn. 19. *O'r rhai hyn yr hiliwyd yr holl ddaear*] Y mae dau beth yn eglur oddiwrth hyn: 1. Er i Noa fyw 350 o flynyddau ar ol y dylif, na chenhedlodd efe un plentyn chwaneog; nen os darfu iddo, na buont hwy byw i ennill hiliogaeth. 2. Fod y dylif mor gyffredinol a theulu dyn, am mai hiliogaeth Sem, Cam, a Japheth oedd o hyn allan yn llenwi yr holl ddaear.

Adn. 20. *A Noa a ddechreuodd fod yn llafurwr*] *Ish haadamah*, yn ddyw y ddaear, yn amaethwr. Wrth ei waith yn dechreu bod yn llafurwr yr ydym i ddeall ei ail gychwyniad gyda'i orchwyllion amaethyddol, y rhai yn ddiamau y bu ef yn eu cario yn mlaen am gannoedd o flynyddau cyn hyn, nes ei luddio gan y dylif. Ymddengys i'r cyflawniadau a grybwyllir yma ddygwedd yn mhen llawer o flynyddau ar ol y dylif, pan yr oedd Canaan, mab Cam, wedi ei eni a thyfu i fyny. *Ac a blannodd winllan*—ac wedi iddo gasglu ei gynauaf gwin, y mae yn debyg ddarford iddo benodi diwrnod o lawenydd a gwledd yn ei deulu, a galw yn nghyd ei feibion a'u plant i gydlawenhaus ar yr achlysur.

Adn. 21. *Ac a yfodd o'r gwin, ac a feddwodd*] Y mae yn dra thebygol mai hwn oedd y tro cyntaf i'r winwydden gael ei diwyllio; ac y mae yr un mor debygol na wybuwyd nerth neu gryfder meddwol y sudd erioed o'r blaen.

22 A Cham tad Canaan a welodd noethni ei dad, ac a fynegodd i'w ddau frodyr allan.

23 A chymerodd Sem a Japheth ddilledyn, ac a'i gosodasant ar eu hysgwyddau ill dau, ac a gerddasant yn wysg eu cefn, ac a orchuddiasant noethni eu tad; a'u hwynebau yn ol, fel na welent noethni eu tad.

Gallasai Noa gan hyny ei yfed ef y pryd hyn heb y bai lleiaf, am na wyddai ef hyd yn hyn yr effeithiau a achosai. *Ac a ymnoethodd*—a dynodd ei ddillad oddiam dano yn nghanol ei babel.

Adn. 22. *A Cham tad Canaan a welodd noethni ei dad*] Ei weled yn ddamweiniol ac annewisol ni fuasai yn drosedd; eithr efe a ymfoddlhaodd â'r olwg. *Ac a fynegodd i'w ddau frodyr allan*—ar yr heol yn gyhoeddus, ac mewn modd diystyrllyd a gwatwarus.

Adn. 23. *A chymerodd Sem a Japheth ddilledyn, &c.*] Nid yn unig ni fynent ei weled eu hunain, trwy fyned ato yn wysg eu cefn; ond ni chaf neb arall ei weled, trwy iddynt ei orchuddio â ddilledyn: a rhoddasant yn hyn siampl o gariad gyda golwg ar bechod a gwarth dynion ereill.

Adn. 24. *A Noa a ddeffrôodd o'i win, ac a wybu*] Naill ai trwy hysbysiad oddiwrth ei feibion, neu ynte trwy ddwyfodl ysbrydoliaeth; *beth a wnaethai ei fab ieuangaf iddo*—Heb. 'yr ieuangaf,' neu 'yr un bychan.' Tybia llawer mai CANAAN a feddylir yn benaf, 1. Am fod y fellldith ddylynol yn cael ei chyboeddi uwch ei ben ef, adn. 27; ac, 2. Am nad yw yr enw *ieuangaf*, neu 'fab bychan,' yn ymddangos wedi ei chwangneu mor briodol, os CAM a feddylir, gan nad yw yn debyg mai efe oedd yr ieuangaf o feibion Noa; canys pan y maent yn cael eu cydgybwyll, ni enwir ef byth yn olaf, ond bob amser yn ail. Beth bynag am hyn, y mae yn dra thebygol ddarod i Canaan ymgyfranogi o bechod ei dad, ac mai efe a welodd gyntaf y sefyllfa ag yr oedd ei daid ynddi, ac a'i hysbysodd i'w dad, yr hwn wedi hyny a'i mynegodd i'w frodyr.

Adn. 25. *Melldigedig fyddo Canaan*] Neu, fel y mae yn yr Arabaeg, 'Cam tad Canaan.' Neu gall Canaan gael ei enwi, am mai yn ei hiliogaeth ef yr oedd y fellldith yn fwyaf sefydlog ac arswydus, yn cyraedd i hollol ddiwreiddiad ei had; tra, mewn oesoedd ddylynol, y cafodd amrai o'r cenbedloedd a ddisgynasant oddiwrth Cam trwy ei feibion ereill, eu bendithio â gwybodaeth o'r gwir Dduw, ac efengyl ei Fab. *Gwas gweision i'w frodyr fydd*—Cam, sef yn ei hiliogaeth, cyflwr pa rai yn mhob oes a gyfatebai yn nodedig i'r rhagddywediad. 'Holl gyfandir Affrica a boblogwyd yn benaf gau hiliogaeth Cam; ac am ba nifer o oesau y bu rhanau goraf y wlad hŏno yn gorwedd dan lywodraeth y Rhufeiniaid, ac wedi hyny y Saraceniaid, fel y maent yn awr dan eiddo y Tyrciaid! Yn mha ddrygioni, anwybodaeth, creulondeb, caethiwed, a thrueni, y mae y rhan fwyaf o'r trigolion yn byw! Ac o'r negroid truaïn, pa nifer o gannoedd,

24 A Noa a ddeffrôodd o'i win, ac a wybu beth a wnaethai ei fab ieuangaf iddo.

25 Ac efe a ddywedodd, Melldigedig fyddo Canaan, gwas gweision i'w frodyr fydd.

26 Ac efe a ddywedodd, Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Sem; a Chanaan fydd was iddo ef.

27 Duw a helaetha ar Japheth, ac

ie o filoedd, a werthwyd ac a brynwyd yn flynyddol, fel anifeiliaid yn y farchnad, ac a drosglwyddwyd o un chwarter i'r byd i wneyd gwaith anifeiliaid mewn chwarter arall!—NEWTON ar y *Profwydoliaethau*. 'Ni bu erioed fab i Cam yn ysgwyd teyrnwialen uwchben Japheth. Darfu i Sem oresgyn Japheth, a Japheth oresgyn Sem; ond ni oresgynodd Cam y naill na'r llall erioed.'—MEDE. Y mae y fellldith, modd bynag, yn perthyn yn benaf i hiliogaeth CANAAN, y cenbedloedd diofrydedig a ddyfethwyd gan Dduw o flaen Israel; ac y mae yn cael ei choffa i'w er calonidd i'r Israeiliaid, y rhai yn debygol, pan ysgrifennodd Moses y geiriau hyn, oeddynt yn nghylch myned allan yn en herbyn hwy, a chymeryd meddiant o'u gwlad, oddentu 800 o flynyddau ar ol llefaru y geiriau gan Noa. Yr oedd y Pheniciaid a'r Carthaginaid hefyd yn cael eu cynwys yn y fellldith a gyhoeddwyd ar Canaan; canys yr oeddynt lhwyrth yn disgyn oddiwrtho ef, a gorclfygwyd lhwyrth o'r diwedd trwy ddiwystr arswydus gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, ac fe'u gwnaed yn drethol i'r naill a'r llall. Y mae yr enw CAM, meddai DR. HALES, yn arwyddo *llosgedig* neu *dddi*; ac yr oedd yr enw hwn yn dra arwyddocaol o'r pethau a benodwyd i rai o'i deulu ef.

Adn. 26. *Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Sem*] Nid yw yr hen batriarch yn dywedyd, 'Bendigedig fyddo Sem,' megys y dywedodd, 'Melldigedig fyddo Canaan;' canys y mae drygioni dynion yn tarddu o honynt eu hunain, ond eu daioni o Dduw; ac felly y mae efe yn bendithio Duw fel yr awdwr o bob daioni i ddynion. Y mae SEM yn arwyddo *enw neu fri*; a'r eiddo ef yn wir ydoedd fawr mewn ystyr tymorol ac ysbrydol. Cafodd parthau tecaf Asia Uwchaf a'r Ganol eu penodi i'w deulu ef, Armenia, Mesopotamia, Assyria, Media, Persia, &c., hyd at yr *Indus* a'r *Ganges*, ac fe allai i *China* yn ddwyreiniol. Ond bri penaf Sem oedd o natur YSBRYDOL. Yr oedd Abraham a'i holl had yn gynnwysedig yn hiliogaeth Sem, fel y dysgwyr oddiwrth y bennod nesaf; a darfu i'n Harglwydd Iesu Grist, 'yn yr hwn y bendithir holl genhedloedd y ddaear,' ddisgyn o ran y cnaud oddiwrtho ef, at yr hwn, fel y barna rhai, y cyfeiria Noa yn y geiriau uchod.

Adn. 27. *Duw a helaetha ar Japheth*] Y mae JAPHETH yn arwyddo *helaethiad*; ac mor ryfeddol y darfu i Ragluniaeth helaethu terfynau Japheth! Y mae y rhan fwyaf o breswylwyr Ewrop, a elwir yn y bennod nesaf yn 'ynysocdd y cenbedloedd,' adn. 5, a phreswylwyr parthau gogleddol Asia, wedi disgyn

efe a breswylia yn mhebyll Sem; a Chanaan fydd was iddo ef.

28 ¶ A Noa a fu fyw wedi y dylif dri chan mlynedd a deng mlynedd a deugain.

29 Felly holl ddyddiau Noa oedd

oddiwrth Japheth; ac os poblogwyd America, fel y bernir yn gyffredin, o ogledd-ddwyrain Asia, y mae trigolion gwreiddiol y wlad hōno hefyd o'i hiliogaeth ef. Ac y mae y rhai mwyaf anturiaethol o 'ynysoedd y cenedloedd,' sef PRYDAIN FAWR a'r IWERDDON, wedi taenu eu trefedigaethau, eu celfyddydau, eu hiaith, ac mewn rhyw fesur eu crefydd a'u Beiblau, o godiad hyd fachlud haul. *Ac efe a breswylia yn mhebyll Sem*—pwy? ai Duw, ynte Japheth? Dywed Coke ac ereill fod yn fwy cyson a'r wreiddiol i ni ddeall mai Duw a breswyliaf yno; ac alleiriad Caldeaid Onkelos yw, 'Efe a wna i'w ogoniant breswylia yn mhebyll Sem.' Eithr eiddad a dybiant mai Japheth a olygir. 'Ei had ef a fyddant mor aml ac mor fuddugoliaethus, nes y byddant yn feistriadau ar bebyll Sem.' Cyflawnwyd hyn, meddai Benson, pryd y darostyngwyd yr Iuddewon, y rhai enwocaf o hiliogaeth Sem, ac y gwnaed hwynt yn drethol, yn gyntaf i'r Groegiaid, ac wedi hyny i'r Rhufeiniaid, ill dau o hiliogaeth Japheth. Ond y mae rhai yn meddwl fod yr adnod hon yn cyfeirio at ddychweliad y Cenedloedd, a'u dygiad i eglwys Dduw; ac felly yn ei chyfieithlu, fel y mae ar ymyl y ddalen, 'Duw a ddarbwylia Japheth;' ac ar ol ei ddarbwyllo felly, efe a breswylia yn mhebyll Sem, neu a unir a'r Iuddewon yn eglwys Dduw. *A Chanaan fydd was iddo ef*—gwas i Japheth, ac hefyd i Sem, adn. 26: ac ychydig iawn o adnabyddiaeth â hanesiaeth hen neu ddiweddar a fydd yn ddigonol i argyhoeddi unrhyw ymofynnydd difrifol o wir gyflawniad y rhagfynegiad hwn; canys bu hiliogaeth Canaan yn ddarostyngedig i eiddo Sem a Japheth dros lawer o genedlaethau. Yn y broffwydoliaeth ryfeddol hon gan hyny, yr hon sydd yn cynwys braslun o hanes pob cenedl ac oes, cawn brawf o ddwyfol ysbrydoliaeth yr hwn a'i traethodd, yn gystal a'r hwn a'i coffaodd, fel y danghosodd yr Es-gob Newton yn ei Esboniad tra rhagorol ar y Proffwydoliaethau.

Adn. 28. *A Noa a fu fyw wedi y dylif*] Hyny yw, fel y gellir meddwl, wedi iddo *ddechreu*: canys yn y chwe chanfed flwyddyn o fywyd Noa y rhywygwyd ffynonau y dyfnder mawr, pen. vii. 11; ac efe a ddaeth allan o'r arch yn mhen y flwyddyn, sef yn yr unfed flwyddyn a chwe chant o'i fywyd, pen. viii. 13; a fu farw yn 950 oed, pen. ix. 29: felly ymddengys na bu ef byw ond 349 o flynyddau wedi i'r dylif ddiweddu, neu 350 wedi iddo ddechreu. *Dri chan mlynedd a deng mlynedd a deugain*—yr hyn, fel y sylwa yr Iuddewon, sydd yn cyraedd i'r ddeunawfed flwyddyn a deugain o fywyd Abraham. Felly ni raid i ni fod dan un anhawsder i roddi cyfrif am drosglwyddiad y datguddiad gwreiddiol a wnaed i Adda, a changhenau ereill o ddwyfol wriouedd, o ddechreu y byd hyd amser Abraham Derbyniodd Noa y rhai hyn gan ei rieni, y rhai

naŵ can mlynedd a deng mlynedd a deugain; ac efe a fu farw.

PENNOD X.

A DYMA genedlaethau meibion Noa: Sem, Cam, a Japheth;

a gawsent yr hanes o enau Adda, ac yntau a'i trosglwyddodd i Abraham: gwel y rhagorol weiniad i'r llyfr hwn.

Adn. 29. *Felly holl ddyddiau Noa, &c.*] Efe yw y patriarch hynaf mewn coffadwriaeth, oddieithr Jared a Methusala; a bu farw, yn ol cyfrif cyffredin, yn y flwyddyn o. b. 2006; eithr yn ol Dr. Hales, 3505.

PEN. X. Adn. 1. *A dyma genedlaethau meibion Noa*] Er y gall y bennod hon ymddangos i rai yn anffuddiol, eto y mae o ddefnydd mawr. 1. Y mae yn rhoddi i ni hanes gywir, a'r unig un gywir, am ddechred gwahanol genhedloedd y byd, yr hyn ni allodd haneswyr cyffredin erioed ei roddi. 2. Y mae yn datguddio, ac yn gwahaniaethu oddiwrth bob cenedl arall, y bobl ag yr oedd eglwys Dduw i'w chadw yn eu plith, ac o ba rai yr oedd Crist i hanu. 3. Y mae yn egluro ac yn cadarnhau proffwydoliaeth Noa yn nghylch ei dri mab, ac yn gwneyd y cyflawniad o honi yn amlwg. 4. Y mae yn ein galluogi i ddeall amrai ranau ereill o'r ysgrythyrau, ac am hyny y mae yn werth ein sylw. Dylem sylwi yn mhellach, 1. Nad yw Moses bob amser yn rhoddi enw y sefydlydd cyntaf mewn gwlad, ond yn hytrach enw y bobl oddiwrth y rhai y cafodd y wlad wedi hyny ei henw. Fel hyn *Misraim* yw y lluosog o *Meser*, ac ni allai byth fod yn enw un. Yr un modd y gellir dywydedd am *Cittim*, *Dodanum*, *Ludim*, *Ananiam*, *Lchabim*, *Naphthum*, *Pathrusim*, *Casluhim*, *Philistim*, a *Chapthorim*, (adn. 4, 6, 13, 14,) y rhai ydynt oll yn lluosogion, ac yn amlwg heb fod yn enwau uigolion, eithr teuluoedd neu lwythan. 2. Yn hiliogaeth Canaan yr ydym yn cael cenedloedd cyfain yn cael eu cyfrif yn yr achyddiaeth, yn lle y personau ag y deilliasent oddiwrthynt: fel hyn y *Jebusiad*, *Amorad*, *Girgasiad*, *Hefiad*, *Arctiad*, *Siniad*, *Arfadiad*, *Semariad*, a'r *Hamathiad*, (adn. 16—18,) oeddynt yn amlwg yn genhedloedd neu lwythan a breswylent wlad yr addewid, ac a elwid *Canaanaid* oddiwrth *Canaan*, mab *Cum*, yr hwn a ymsefydlodd yno. 3. Ymddengys i Moses hefyd, yn yr achyddiaeth hon, gymeryd i mewn enwau rhai *lleoedd* ag oeddynt nodedig yn yr hanesiaeth santaidd, yn lle yr ymsefydlwyr gwreiddiol yno; megys *Hasarmafeth*, (adn. 26,) ac yn debyg *Ophir* a *Hafila*, (adn. 29.) Ond nid yw hyn yn beth anfyfnych yn yr ysgrythyrau, fel y gellir gwled yn I Cron. ii. 51, lle y mae *Salma* yn cael ei alw *tad Beth-lehem*, yr hwn yn sicr na fu erioed yn enw i *ddyn*, ond i le tra chlodfawr yn yr hanesiaeth santaidd; ac yn I Cron. iv. 14, lle y gelwir Joab yn *dad glyn y crefftwyr*, yr hyn nas gallai neb byth feddwl ddarof ei fwiadu i arwyddo un *dyn*, eithr y *gymdeithas* o grefftwyr neu gelfyddydwr a breswylent yno. 4. Dywed Eusebius ac ereill ddarof i Dduw

ganwyd meibion hefyd i'r rhai hyn wedi y dylif.

2 Meibion Japheth oedd Gomer, a Magog, a Madai, a Jafan, a Thubal, a Mesec, a Thiras.

3 Meibion Gomer hefyd; Ascenas, a Riphath, a Togarna.

4 A meibion Jafan; Elisa, a Tharsis, Cittim, a Dodanim.

orchymyn i Noa wneuthur *ewyllys*, a gadael yr holl ddaear i'w dri mab a'u hiliogaeth yn y modd a ganlyn: I SEM, y dwyrain oll; i CAM, Affrica oll; i JAPHETH, cyfandir Ewrop a'i llynsoedd, a pharthau gogleddol Asia. Gwel ar adn. 25—27, o'r bennod flaenorol.

MEIBION JAPHETH.

Adn. 2. *Meibion Japheth*] Y mae Moses yn dechreu gyda theulu Japheth, naill ai am mai efe oedd yr hynaf, adn. 21, neu am mai efe oedd yn gorwedd bellaf oddiwrth Israel, ac yn meddu leiaf i'w wneyd â hwy pryd yr oedd efe yn ysgrifenu; ac am hyn ydych chi eiddoedd yn dra byr am yr hiliogaeth hōno, gan frysio i roddi hanes am hiliogaeth CAM, y rhai oeddnt *elymion* Israel, ac epil SEM, y rhai oeddnt *henafiaid* Israel; canys yn hanesiaeth o'r EGLWYS yr amcanwyd i'r ysgrythyf fod, ac o genhedloedd y byd yn unig fel yr oedd ganddynt i ymwneyd mewn rhyw ffordd âg achosion Israel. *Gomer*—mab hynaf i fab hynaf Noa. Y mae yr haneswyr yn gyffredinol, hien a diweddar, yn profi haniad ein cenedl ni y CYMRU oddiwrth y gŵr hwn: gwel Bochart, Eustatius, Mela, Zonaras, Josephus, Strabo, Isidore, Pliny, &c. Dywed Ptolemy mai hiliogaeth Gomer oedd y Galatiaid, a'r Phrygiaid hefyd yn ol Bochart; a dywed Neumann mai y Gomeriaid oeddnt breswylwyr y Crimea, Cymru, a Cumberland. *Magog*—tad y Scythiaid a'r Tartariaid. *Madai*—a dybir yn gyffredina yn dad y Mediaid. *Jafan*—tad yr Ionaiad yn Asia Leiaf; ac ymddengys fod yr euf hwn yn cael ei roddi gynt i'r Macedoniaid, Acaiaid, a'r Beotiaid. *Thubal*—tybia rhai mai efe oedd tad yr Iberiaid, a darfod i ran o'r Hispaen gael ei phoblogi ganddo ef a'i hiliogaeth. *Mesec*—tad y Cappadociaid a'r Mnscafaid. *Tiras*—oddiwrth yr hwn y deilliodd y Thraciaid.

Adn. 3. *A meibion Gomer hefyd, Ascenas*] Hwn yn debygol a roddes enw i Sacagena, talaeth dra enwog yn Armenia; a barna rhai mai oddiwrtho ef y cafodd yr Ellmyn eu dechread. *Riphath*—syllfaenydd y Paphlagoniaid. *Togarna*—tad y Tygrameniaid neu y Tyrciaid, a'r Armeniaid yn ol en tystiolaeth hwy eu hunain.

Adn. 4. *A meibion Jafan*] Gau i Jafan boblogi rhan helaeth o dir Groeg, rhaid i ni edrych am sefydliadau ei hiliogaeth yn y parth hwnw. *Elisa*—hwn yn debygol oedd y cyntaf a ymsefydlodd yn Elis, yn Peloponnesus. *Tarsis*—efe oedd y cyntaf i breswyllo Cilicia, prifddinas yr hon gynt ydoedd Tarsus, lle y ganed yr apostol Paul. *Cittim*—yr hwn y gwelwom eisoes ei fod yn enw pobl yn hytrach nag un dyn: ond barna rhai mai

5 O'r rhai hyn y rhanwyd ynysoedd y cenhedloedd yn eu gwledydd, pawb wrth eu haith eu hun, trwy eu teuluoedd, yn eu cenhedloedd.

6 ¶ A meibion Cam oedd Cus, a Mizraim, a Phut, a Chanaan.

7 A meibion Cus; Seba, a Hafila, a Sabta, a Raama, a Sabteca: a meibion Raama; Seba, a Dedan.

Cyprus a feddylir wrth Cittim, ereill ynys Cois, ereill y Rhufeiniaid, ac ereill y Macedoniaid. *Dodanim*—neu Rodanim, fel y meddylia rhai, a ymsefydlasant yn Dodona yn Epirus; tybia ereill mai yn ynys Rhodes; ac ereill, yn Rhone yn Ffrainc, enw cyntefig yr hon oedd Rhodanus, oddiwrth Rhodanim yr ysgrythyf.

Adn. 5. *O'r rhai hyn y rhanwyd ynysoedd y cenhedloedd*] Bernir yn gyffredinol mai EWROP a olygir yma; a dywed Calmet eu bod yn cynwys yr holl wledydd hyn ag y gorfu i'r Hebraeid fyped iddynt ar hyd y môr, megys yr Hispaen, Gaul, yr Eidal, tir Groeg, ac Asia Leiaf. Y mae yr holl loeodd dros y môr o Judea yn cael eu galw yn ynysoedd, Jer. xxv. 22, Esey xlii. 4. *Pawb wrth eu haith eu hun*—y mae hyn yn cyfeirio i'r armer ar ol cymysgiad yr ieithoedd a'r gwasgariad o Babel.

MEIBION CAM.

Adn. 6. *A meibion Cam oedd Cus*] Yr hwn a boblogodd y dalaeth Arabaidd gerllaw y Môr Coch yn yr Aifft Isaf: a barna rhai i'r Ethiopiaid ddisgyn oddiwrtho ef. *Mizraim*—y teulu hwn yn ddiua a boblogodd yr Aifft; ac yn yr Aifft Ddwyreiniol a Gorllewinol fe'u gelwir Mezr a Mezraim. *Put*—yr hwn a boblogodd gyntaf y dalaeth Aifftiaidd ag sydd yn terfynu ar Libya. *Canaan*—yr hwn a boblogodd gyntaf y wlad a elwir felly, ac a adwaenir hefyd wrth yr enw Gwlad yr Addewid.

Adn. 7. *Seba*] Tad y Sabeaid, y rhai a ddygasant ychian Job, ac a breswylent yn neheudir Arabia, neu yr aualwch. Ymddengys fod tri gwahanol bobl o'r enw hwn yn cael eu crybwyll yn y bennod hon, a'r pedwarydd yn pen. xxv. 3. *Hafila*—a dybiwyd gan rai i feddwl trigolion y wlad gynwysedig o fewn y gangen hōno o afon Pison a redai allan o'r Euphrates i Forgilfach Persia, ac a derfynai Arabia Ffelig o du y dwyrain. *Sabta*—yr hwn a boblogodd gyntaf ynys Saphta, yn y Forgaine Bersiaidd. *Raama*—neu Ragma, oddiwrth yr hwn yn debygol y cafodd Regma ei henw, dinas yn agos i'r Forgaine Bersiaidd. *Sabteca*—oddiwrth yr afon a elwid Sanidochus, yn Caramania; a thybia Bochart i'r person yn y testyn ymsefydlu yn y parth hwnw. *Seba*—yr hwn y tybir ei fod yn preswyllo tuhwnt i'r Euphrates, yn nghyffiniau Carran, Eden, &c. *Dedan*—yr hwn y tybir iddo boblogi rhan o Arabia, ar gyffiniau Idumea.

Adn. 8. *Nimrod*] Ychydig a wyddys am y dyn hwn, gan na chrybwyllir am dano oddieith yma ac yn 1 Cron. i. 10. Gelwir ef yn 'helwyr cadarn gerbron yr Arglwydd,' adn. 9; ac

8 Cus hefyd a genhedlodd Nimrod : efe a ddechreuodd fod yn gadarn ar y ddaear

9 Efe oedd heliwr cadarn gerbron yr Arglwydd: am hyny y dywedir, Fel Nimrod, heliwr cadarn gerbron yr Arglwydd.

10 A dechread ei frenhiniaeth ef ydoedd Babel, ac Erec, ac Accad, a Chalne, yn ngwlad Sinar.

11 O'r wlad hōno yr aeth Assur allan, ac a adeiladodd Nīnēfe, a dinas Rehoboth, a Chala,

12 A Resen, rhwng Nīnēfe a Chala, hōno sydd ddinas fawr.

ni a ddysgwn oddiwrth adn. 10, ddarfod iddo sylfaenu brenhiniaeth, yn cynwys dinasoedd Babel, Erec, Accad, a Chalne, yn ngwlad Sinar. Er nad yw y geiriau yn benderfynol, y mae yn dra thebyg ei fod ef yn ddyn drwg iawn. Y mae ei enw Nimrod yn deilliaŵ oddiwrth *marad*, 'efe a wrthryfelodd;' a'r Targum ar 1 Cron. i. 10 a ddywed, 'Nimrod a ddechreuodd fod yn ŵr cadarn mewn pechod, yn llofrudd dynion diniwed, ac yn wrthryfelwr gerbron yr Arglwydd.' Y mae y gair *tsayid*, yr hwn a gyfieithwn ni *heliwr*, yn arwyddo *ysglyfaeth*; a chymhwysir ef yn yr ysgrythrau at *hela dynion* trwy erledigaeth, gorthrech, a gormes. Felly y mae yn debyg ddarfod i Nimrod, ar ol cyraedd gallu, ei ddefnyddio ef mewn gormes a gorthrech, a thryw arhaith a thrais sylfaenu y llywodraeth hōno a wahaniaethwyd gyntaf a'r enw *brenhiniaeth* ar wyneb y ddaear.

Adn. 9. *Efe oedd heliwr cadarn*] Neu, fel y mae gan y LXX, 'heliwr cawraidd;' Arabaeg, 'efe oedd gawr dychrynlyd gerbron yr Arglwydd;' Syriaeg, 'efe oedd ryfelwr mawr.' Gwel ar adn. 8. *Gerbron yr Arglwydd*—mewn her neu wrthwynebiad i'r Arglwydd.

Adn. 10. *A dechread ei frenhiniaeth ef ydoedd Babel*] Ystyr y gair Babel yw *cymysg-odd*; ac ymddengys ei fod yn enw tra phriodol i ddechread brenhiniaeth ag yr ymddengys ddarfod ei sylfaenu mewn gwrthgiliaid oddiwrth Ddau, a'i bod yn cael ei chynnal trwy ormes, trais, a gorthrech. *Yn ngwlad Sinar*—gwel ar pen. xi. 2.

Adn. 11. *O'r wlad hōno yr aeth Assur allan*] Efe ydoedd fab i Sem, adn. 22; ac ymddengys, gan na allai efe oddef gormes Nimrod, yr hwn a gymerasai feddiant o diriogaethau gwyr ereill, ddarfod iddo fyned tlwnt i'r Tigris, lle y sylfaenodd efe amherodraeth Assyria, prifddinas pa un ydoedd NINEFE, Esay xxiii. 13. Ond dywed Clarke ac ereill fod y darlenniad ar ymlyd y ddalen yn fwy dewisol yma: '*O'r wlad hōno yr aeth ef* (Nimrod) *allan i Assyria, ac a adeiladodd Nīnēfe*; ac am hyny y gelwir Assyria yn *dir Nimrod*, Mica v. 6. Fel hyn y darfu i'r 'heliwr cadarn' hwn eangu ei lywodraeth yn mhob modd dichenadwy. Tybir i ddinas Nīnēfe gael ei henw oddiwrth *Ninus*, mab Nimrod; ond y mae yn debycach mai yr un person oedd *Ninus*, *Belus*, a *Nimrod*. Y ddinas hon, yr

13 Mizraim hefyd a genhedlodd Ludim, ac Anamim, a Lehabim, a Naphtuhim.

14 Pathrusim hefyd a Chasluhim, o'r rhai y daeth Philistim a Chaph-torim.

15 ¶ Canaan hefyd a genhedlodd Sidon ei gyntafanedig, a Heth,

16 A'r Jebusiad, a'r Amoriad, a'r Girgasiad,

17 A'r Hefiad, a'r Arciad, a'r Siniad,

18 A'r Arfadiad, a'r Semariad, a'r Hamathiad: ac wedi hyny yr ymwargarodd teuluoedd y Canaanaid.

19 Terfyn y Canaanaid oedd hefyd

hon a wnaeth y fath arlun hynod yn hanes y byd, a elwir yn awr *Mossul*: lle digyfrif ydyw, wedi ei adeiladu o adfeilion yr hen Nīnēfe. Y mae adfeilion Nīnēfe wedi creu dyddordeb rhyfeddol yn meddyliau darllenwyr y Beibl o fewn yr ychydig flynyddau diweddaf, yn ganlynol i ddarganfyddiadau M. BOTTA a MR. LAYARD. Pan yr oedd gwrthfyddiaeth yn dechreu gwadu fod y fath le a Nīnēfe yr ysgrythyr erioed wedi bod, gwyswyd tystion claddedig am oesau allan o'u beddau i gadarnhau yr hanes ysgrythryrol, llawer o ba rai a welir heddyw yn yr Angu-eddfa Frutanaidd yn Llundain. Cynghorem ein darllenwyr i ddarllen 'NINEFE A'IGWEDDILLION,' gan Layard, pa un a ghoeddwyd yn ddiweddar yn y Gymraeg gan MR. REES, Llanddyfri. *Dinas Rehoboth*—y mae lle o'r enw hwn i'w gael eto ar lan ddeheuol yr Euphrates, dair milldir a hanner i'r de-orllewin o Mayadin. *Cala*—prifddinas Calachine, neu Kala Shergat.

Adn. 12. *Resen*] Meddylir mai hon yw Larissa, yr hon y dywed Xenophon ei bod yn ddinas fawr.

Adn. 13. *Mizraim hefyd a genhedlodd Ludim*] A dybir i feddwl trigolion Mareotis, rhandir o'r Aiffit; canys amilwg yw mai enw pobl yw Ludim. *Anamim*—yn ol Bochart, y bobl a breswylent y dalaeth oddeutu teml Jupiter Ammon. *Lehabim*—y Libyaid, neu y bobl a drigent yn orllewinol i'r Thebaid, ac a elwid yr. Aiffitiaid Libyaid. *Naphtuhim*—tybia Bochart en bod yn preswlyw yn Marmarica, neu yn mhlith y Triogloodytiaid.

Adn. 14. *Pathrusim*] Preswylwyr y Delta yn yr Aiffit, yn ol yr alleiriad Caldeaid; ond yn ol Bochart, y bobl a breswylent y Thebaid, a elwir Pathros yn yr ysgrythyr. *Castuhim*—preswylwyr Colchis. *Philistim*—y bobl a elwir Philistiaid, y rhai oeddynt yn bla gwas-tadol i'r Israeliaid. *Caphdorim*—trigolion Cyprus, yn ol Calmet.

Adn. 15. *Sidon*] Yr hwn yn debygol a adeiladodd y ddinas a elwid felly, a thad y Sidoniaid. *Heth*—oddiwrth yr hwn y deilliodd yr Hethiaid, mor nodedig yn mhlith y cenedloedd Canaanaid.

Adn. 16—18. *A'r Jebusiad, a'r Amoriad, &c.*] Y mae y rhai hyn yn dra hysbys fel cwbreswylwyr Canaan, y rhai a yrwyd allan gan plant Israel.

o Sidon, ffordd yr elych i Gerar, hyd Gaza: y ffordd yr elych i Sodom a Gomorra, ac Adma, a Seboim, hyd Lesa.

20 Dyma feibion Cam, yn ol eu teuluoedd, wrth eu heithoedd, yn eu gwledydd, ac yn eu cenedloedd.

21 ¶ I Sem hefyd y ganwyd plant: yntau oedd dad holl feibion Heber, a brawd Japheth yr hynaf.

22 Meibion Sem oedd Elam, ac Assur, ac Arphaxad, a Lud, ac Aram.

23 A meibion Aram: Us, a Hul, a Gether, a Mas.

24 Ac Arphaxad a genhedlodd Sela, a Sela a genhedlodd Heber.

25 Ac i Heber y ganwyd dau o feibion: enw un oedd Peleg; o herwydd yn ei ddyddiau ef y rhanwyd

y ddaear; ac enw ei frawd, Joctan.

26 A Joctan a genhedlodd Almodad, a Saleph, a Hasarmafeth, a Jera.

27 Hadoram hefyd, ac Usal, a Dicla, 28 Obal hefyd, ac Abimael, a Seba.

29 Ophir hefyd, a Hafila, a Jobab: yr holl rai hyn oedd feibion Joctan.

30 A'u preswylfa oedd o Mesa, ffordd yr elych i Sephar, mynydd y dwyrain.

31 Dyma feibion Sem, wrth eu teuluoedd, yn ol eu hieithoedd, yn eu gwledydd, trwy eu cenedloedd.

32 Dyma deuluoedd meibion Noa, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu cenedloedd: ac o'r rhai hyn yr ymranodd y cenedloedd ar y ddaear wedi y dyllif.

Adn. 19. *Lesai*] Yr un a Calirrhoe, lle enwog am ei faddonau poethion. Y mae Moses yn fanwl yn nodi terfynau gwlad Canaan, am ddarvoud ei haddaw gan yr Arglwydd i'r Israeliaid. Y mae yn hynod nad oes un crybyylliad yn cael ei wneuthur yma am hiliogaeth *Pul*, trydydd mab Cam, adn. 6.

Adn. 20. *Dyma feibion Cam yn ol eu teuluoedd*] Diau fod y rhai hyn oll yn dra adnabyddus yn nyddiau Moses, ac am hir amser wedi hynny: ond yn y pellter hwn, pan yr ystyrir fod sefyllfa wladwriaethol y byd wedi dyoddef chwyldroadau dibaid bron trwy yr holl oesau, rhaid i'r anmhosibilrwydd o sierchu eu trigleoedd neu nodi eu disgynyddion fod yn amlwg, gan i *enwau* y bobl a *lloedd* eu preswylfod gael eu cyfnewid tuhwnt i'r posibilrwydd o gael eu hadnabod yn ein dyddiau ni.

MEIBION SEM.

Adn. 21. *I Sem hefyd y ganwyd plant*] Y mae y gair SEM, fel y gwelwom, yn arwyddo *enw*, pen. ix. 26; ond y mae dau deitl ereill yn cael eu chwaneu i'w wahaniaethu ef: 1. Yr oedd ef yn *dad holl feibion Heber*. Heber oedd ei orwyr ef, adn. 24: ond paliam y gelwid Sem yn dad holl feibion Heber, yn hytrach nag yn dad meibion Arphaxad neu Sela? Yn debygol, meddai Henry, am mai oddiwrth Heber y cafodd Abraham a'i had eu galw yn *Hebraid*. Gallwn feddwl fod Heber ei hun yn ŵr enwog am grefydd mewn anser o wrthgiliad cyffredinol: a'r iaith santaidd, a elwir yn gyffredin oddiwrth ef yn *Hebraeg*, a gadwyd yn ei deulu ef yn nghymysgedd Babel, fel arwydd neillduol o ffafir Duw iddo. 2. Gelwir ef yn *frawd Japheth yr hynaf*, fe allai, i arwyddo uniant y cenedloedd a'r Inddewon yn yr eglwys: gwel Henry a Benson. Ond tybia Clarke ac ereill fod yn llawer tebycach ddarvoud i'r Hebraid gael eu henw oddiwrth waith Abram yn *croesi* yr afon Euphrates i ddyfod i wlad Canaan: gwel ar pen. xiv. 13.

Adn. 22. *Elam*] Oddiwrth yr hwn y daeth yr Elamitiaid, yn agos i'r Mediaid, prifddinas pa rai oedd Elymais. *Assur*—oddiwrth yr hwn y dywedir i Assyria gael ei henw, adn. 11. *Arphaxad*—tad y Caldeaid, oddiwrth yr

hwn y cafodd Arrapachitis yn Assyria ei henw, yn ol rhai; neu Artaxata yn Armenia, yn ol ereill. *Lud*—tad y Lydiaid yn Asia Leiaf. *Aram*—tad yr Arameaid, a alwyd wedi hynny Syriaid.

Adn. 23. *Us*] Yr hwn a boblogodd Coelestria, ac a sylfaenodd Ddamascus fel y tybir. *Hul*—yr hwn a boblogodd ran o Armenia. *Gether*—y mae Calmet yn meddwl mai efe oedd tad yr Itureaid, y rhai a drigent tuhwnt i'r Iorddonen. *Mas*—yr hwn a breswyliai fynydd Masius yn Mesopotamia, ac oddiwrth yr hwn y cafodd yr afon Mazeca, yr hon a dardda o'r mynydd hwnw, ei henw.

Adn. 24. *Selai*] Tad pobl Susiana. *Heber*—gwel ar adn. 21. Y mae y LXX yn chwaneu *Cainan* yma yn nghyda 130 o flynyddoedd at yr amserdyddiaeth.

Adn. 25. *Peleg*] oddiwrth *palag*, 'rhanu;' o herwydd yn ei ddyddiau ef—yr hyn y tybir ei fod yn nghylch can mlynedd wedi y dyllif, y rhanwyd y ddaear—rhwyng meibion Noa. Y mae rhai o'r farn mai rhaniad *anianyddol*, ac nid *gwladwriaethol*, a feddylir yma, sef ysgariad cyttiroedd ac ynsoedd oddiwrth y cyfandir, trwy fod y parthau daearol yn unedig mewn un cyfandir mawr yn flaenorol i ddyddiau Peleg. 'Y dyb hon,' meddai Clarke, 'a ymddengys i mi yn fywaf tebygol, canys yr hyn a grybwyllir adn. 5 a ddywedir mewn ffordd o ragolygiad.' Dywed y rabbiniaid fod y 'rhaniad' hwn yn cyfeirio at raniad y ddaear wrth goelbren rhwyng hiliogaeth Noa, wrth ben y rhai yr oedd patriarch yn dywysog.

Adn. 26—30. *A Joctan a genhedlodd Almodad, &c.*] Yr oedd gan Joctan, brawd Peleg, driarddeg o feibion; a'u preswylfa oedd o Mesa i Sephar; lynny yw, fel y tybia Calmet, o fynydd Masius yn rhan orllewinol Mesopotamia, hyd fynyddoedd *Saphir* yn rhan ddwyreiniol Armenia.

Adn. 31. *Dyma feibion Sem*] Gwel ar adn. 20, a pen. ix. 26.

Adn. 32. *Dyma deuluoedd meibion Noa*] Gwel ar adn. 1.

ADFFEDYLIADAU.—Er cadarnhad chwaneu-

PENNOD XI.

A'R holl ddaear ydoedd o un iaith, ac o un ymadrodd.

2 A bu, a hwy yn ymdaith o'r dwy-

ol ddarfod i holl ddynolryw ddeilliaw o un teulu, sylwfer fod amrai ddefodau ac arferiadau, *crefyddol* a *gwladol*, yn ffynau yn mhob parth o'r byd; ac na allasai y rhai hyn darddu oddiwrth ddim ond sefydliad cyffredinol, yr hwn na allasai byth fodoli oni buasai fod dynolryw yn wreiddiol o'r un gwaed, ac wedi eu haddysgu yn yr un tybiau cyn eu gwasgaru. Yn mhilith yr arferiadau hyn gellir nodi, 1. Y rhifo wrth *ddegau*. 2. Eu gwaith yn cyfrif amser wrth gylch o *sait* niwrnod. 3. Eu neillduad o'r *seithfed* dydd i ddybenion crefyddol. 4. Eu defnyddiad o *aberthau* yn gymodol a sacramentaidd. 5. Eu cysegriad o *demlau* ac *allorau*. 6. Eu sefydliad o *gysgreffeidd* neu nawdd loeodd, a'u breintiau. 7. Eu gwaith yn rhoddi y *ddegfed* ran o gynrych eu maesydd, &c., at wasanaeth yr allor. 8. Eu defod o addoli y Duwod yn *droednoeth*. 9. Ymataliad y dynion oddiwrth bob *boddineb anianol* yn flaenorol i offrymiad eu helyrth. 10. Yr urdd *offeiriadol* a'i chynaliaeth. 11. Y dychymyg o *ddeddfod* lygriadau, halogiadau, &c. 12. Y traddodiad cyffredin am *ddylyfeyffredinol*. 13. Y dyb gyffredin fod yr *enys* yn arwydd neu argeol dwyfol, &c., &c. Y mae doethineb a daioni Duw yn cael eu hamlygu yn neillduol yn ei waith yn adbblogi y ddaear trwy *dri dyn*, oll o'r un teulu, a'r rhai a fuont dystion o'r darleniad arswydus hwnw o ddwyfol gyfiawnder yn nyfethiad y byd trwy y dylif, tra yr oeddynt hwy eu hunain yn ddiangol yn yr areh. Trwy y moddion hwn taenwyd gwir grefydd dros y ddaear; canys diau y byddai i feibion Noa ddyngu i'w plant nid yn unig y gorchymynion a roddwyd i'w tad gan Dduw ei hun, ond hefyd pa fodd yn ei gyfiawnder y dygodd efe y dylif ar fyd y rhai anwir, a thrwy ei ragluniaeth drugarog y cadwodd efe *hwynt* rhag y dinystre cyffredinol. Ar y tir hwn yn unig y gallwn gyfrif am unweddiad a chyffredinolrwydd y traddodiadau uchod, ac am y brasluniadau arbenig o wirionedd crefyddol ag sydd i'w cael yn mhob parth o'r ddaear.

PEN. XI. Adn. 1. *A'r holl ddaear*] Sef holl drigolion y ddaear, *ydoedd o un iaith*—yr hon oedd yr HEBRAEG, fel y bernir yn gyffredinol, ac o *un ymadrodd*—yn parhau yr un geiriau yn yr un ffordd. Tybir y cyffredin, meddai Clarke, ar ol y cymysgiad a grybwyllir yn y bennod hon, ddarfod i'r iaith Hebreig aros yn rheulu HEBER. Ymddengys yr enwau priodol, a'u bystyr a roddir yn yr ysgrythyry, yn brawfau diamheulol mai yr Hebraeg oedd iaith wreiddiol y ddaear—yr iaith yn yr hon y lefarai Duw wrth ddyd, ac yn yr hon y rhoddes efe ddatguddiad o'i ewyllys i Moses a'r proffwydi. Arferwyd hi, meddai Mr. Ainsworth, yn yr holl fyd am 1757 o ffynnyddau, nes i Peleg mab Heber gael ei eni, ac i dŵr Babel ddechreu cael ei adeiladu, yn mhen can mlynedd wedi y dylif, Gen. x. 25, a xi. 9. Wedi hyn arferwyd hi yn mhilith

rain, gael o honynt wastadedd yn uhir Sinar; ac yno y trigasant.

3 A hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Deuweh, gwnawn briddfeini,

yr Hebreaid neu yr Iuddewon, yn cael ei galw am hyny *iaith yr Iuddewon*, Esay xxxvi. 11, nes y caethgludwyd hwynt i Babilon, lle y peidiwyd âg arferyd yr iaith santaidd yn gyffredinol, ac y daeth yr Hebraeg *gymysg* (neu y Galdeae) yn ei lle. Nis gellir meddwl yn rhesymol ddarfod i'r Iuddewon lwyrr gollu yr Hebraeg yn y deng mlynedd a thriugain o'u caethiwyd yn Mabilon; eto, gan eu bod yn cymysgu â'r Caldeaid, eu plant yn naturiol a ddysgent y brodiaith hono, ac iddynt hwy byddai yr Hebraeg bur yn annealladwy; a hyn yn debygol a roddes gyfodiad i'r angentheidrwydd o egluro yr ysgrythyrau Hebreig yn y safodiaith Galdeaid, fel y gallai y plant ddeall yn gystal a'u tadau. Megys y gallwn dybio yn ddiogel na allai y rhieni fod wedi anghofio yr Hebraeg, felly y gallwn gasglu na allai y plant yn gyffredin fod wedi ei dysgu hi, trwy nad oeddynt yn byw ar eu penau eu hunain, eithr yn gymysg â'r Babiloniaid. Y mae y dyb hon yn symud yr anhawdder â pha un y dyrwydded llawer; un blaid yn meddwl fod y wybodaeth o'r Hebraeg wedi ei cholli yn ystod y caethiwyd Babiloniaidd, yr hyn oedd yn gosod angentheidrwydd am y Deongliadau Caldeaid i egluro yr ysgrythyrau; plaid arall yn dadlun fod hyn yn annhosibl mewn yspaid mor fyr a deng mlynedd a thriugain.

Adn. 2. *A bu, a hwy yn ymdaith o'r dwyrain*] Gelwir Assyria, Mesopotamia, a'r wlad ar derfynau a thuhwnt i'r Euphrates, yn *ddywyrain* yn yr ysgrythyrau. Dywedodd Balaam i Frenin Moab ei gyrrchu ef o fywddoedd y *ddywyrain*, Num. xxiii. 7. Yn awr ymddengys oddiwrth Num. xxii. 5, fod Balaam yn trigo yn Pethor, wrth yr afon Euphrates. Ac y mae yn dra thebyg mai o'r wlad hon y daeth y doethion i addoli Crist; canys dywedir iddynt ddyfod o'r *ddywyrain* i Jerusalem, Mat. ii. 1. Dywedir i Abraham ddyfod o'r *ddywyrain* i Ganaan, Esay xli. 2; eithr gwyddys yn dda iddo ef ddyfod o Mesopotamia a Chaldea. Noa a'i deulu, gan dirio ar ol y dylif ar un o ffynyddoedd Armenia, yn ddiamau a ddisgynasant i ddiwyllio y dyffrynnoedd; ac fel yr oeddynt yn lluosogi, ymddengys iddynt fyned yn mlaen ar hyd glanau yr Euphrates, nes, ar yr amser a nodir yma, iddynt ddyfod i wastadedd Sinar, yr hon yr addofir ei bod y wlad ffrwythlonaf yn y dwyrain; gwel *Calnet*. Y mae genym awdurdod y testyn santaidd i brofi ddarfod adeiladu BABEL yn uhir Sinar; ac y mae genym dystiolaeth Eusebius a Josephus ddarfod adeiladu BABILON yn yr un wlad.

Adn. 3 *A hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Deuweh, gwnawn briddfeini*] Nid oedd y wlad hono, trwy ei bod yn wastadedd, yn cynwys cerig na calch; eto ni ddarfai i hyny eu digalonni hwynt; ond gwnaethant briddfeini i wasanaethu yn lle cerig, a chlai yn lle calch. Y clai hwn oedd fath ar bŷg a elwir *bitumen*, yr hwn, fel y dywed Pliny, sydd wlyb a gludiog, ac addas i'w ddefnyddio

a llosgwn yn boeth: ac yr ydoedd ganddynt briddfeini yn lle ceryg, a chlai oedd ganddynt yn lle calch.

4 A dywedasant, Moeswch, adeiladwn i ni ddinas, a thŵr, a'i nen hyd y nefoedd, a gwnawn i ni enw, rhag ein gwasgaru ar hyd wnech yr holl ddaear.

5 A'r Arglwydd a ddisgynodd i

mewn adeiladau o briddfeini, fel y sylwa Strabo, Dion, ac ereill. A darfod i Babilon gael ei hadeiladu â hwn ac â phriddfeini, fel y dywedir yma, a brofydd gan Berosus, Etesius, Dion, Curtius, ac amrai ymdeithwyr diweddar.

Adn. 4. *Adeiladwn i ni ddinas, a thŵr, a'i nen hyd y nefoedd*] Meddylhodd rhai eu bod trwy hyn yn bwriadu eu diogelu eu hunain rhag dylif arall; ond pe mai hyn fuasai eu hamecan, diamau y dewisasant adeiladu ar fynydd yn hytrach nag ar wastadedd. Ymddengys eu bod yn cyfeirio at ddan beth wrth adeiladu: 1. Gwneuthur iddynt eu hunain enw—enw mawr; o folelder a gwag-ogoniant adeiladu cofgolofn a barhâti i bob enbedlaeth. 2. Attal eu gwasgariad: *rhag ein gwasgaru ar hyd wnech yr holl ddaear*. Ac fel yr unid hwy yn un amherodraeth ogoneddus, y maent yn penderfynu adeiladu y ddinas a'r tŵr hyn i fod yn ben caer eu teyrnas a chanolbarth eu hundeb. Tybia Mr. Hutchinson mai bwriad yr adeiladwyr oedd codi tenil i *lu y nefoedd*—yr haul, y lloer, a'r planedau; ac i gynol y deongliad hwn efe a ddywed y dylai *verosh bushshamayim* gael ei gyfieithu, nid, *a'i nen hyd y nefoedd*, canys nid oes dim am *hyd* yn yr Hebraeg, ond, *a'i ben* neu ei grib *êr nefoedd*, h. y. i'r cyrff nefol: ac i wneyd y deongliad hwn yn debycach, efe a ddywed fod holl hiliogaeth Noa, yn flaenorol i'r amser hwn, yn cyduno mewn un *ffurf* o addoliad crefyddol, (canys felly y dealla ef *vesaphah achath*, 'o un wefus,') h. y. meddai ef, yr oedd ganddynt un *weddi gyffredin*; a chan i Dduw gymysgu eu gweddi, dechreuasant anghytuno yn eu barnau crefyddol, a thoi allan yn ganghenau a phleidiau, pob un yn ymgymdeithasu â'r rhai o'i farn ei hun; ac fel hyn eu tŵr neu' eu teul a adawyd yn anorphenedig. Y mae Deongliadau Jonathan a Jerusalem yn haueru fod y tŵr yn cael ei godi i eilunaddoliad, a'u bod yn bwriadu gosod delw ar ei ben ef, a chleddyf yn ei llaw, i weithredu y mae yn debyg felfswyn-eitun yn erbyn eu gelynyon. Ond beth bynag a allasai eu hamecan hwy fod, y mae yn sicr ddarfod cysegru y deml neu y tŵr hwn wedi hyni i ddybenion eilunaddolgar. Darfu i Nebuchodonosor adgyweirio a phrydferthu y tŵr hwn, a chysegrwyd ef i *Bel* neu yr haul. Dywedir fod uchder y tŵr yn 5164 o gamrau, a bod ei amgylchedd yn gyfartal i'w uchder. Gwnaed ffordd amgylehol y tuallan iddo, mor lydan fel y gallai cerbydau basio eu gilydd ar hyd'ddi; a dywed Jerome fod y ffordd hon ag oedd yn dyrwyn o amgyleh y tŵr yn bedair milldir o hyd o'r gwaelod i'r pen.

Adn. 5. *A'r Arglwydd a ddisgynodd i weled y ddinas a'r tŵr*] Hwn sydd ymadrodd yn ol dull dynion; y meddwl yw, ei fod ef yn

weled y ddinas a'r tŵr a adeiladai meibion dynion.

6 A dywedodd yr Arglwydd, Wele y bobl yn un, ac un iaith iddynt oll, a dyma eu dechread hwynt ar weithio: ac yr awr hon nid oes rwystr arnynt am ddim oll a'r a amcanasant ei wneuthur.

7 Deuwch, disgynwn, a chymysgwn

ei wybod mor eglur ag y gwyr dynion yr hyn y maent yn dyfod i'r lle i'w edrych.

Adn. 6. *Wele y bobl yn un*] Ac os parhant yn un, gadewir llawer o'r ddaear heb ei phoblogi; a dyma eu dechread hwynt ar weithio—nid yw hyn ond rhan o'u cynllun i gael amherodraeth gyffredinol, ac i sefydlu eilunaddoliaeth; ac os na osodir rhyw atalfa, ni fydd rhystr arnynt am ddim oll a'r a amcanasant ei wneuthur.

Adn. 7. *Deuwch, disgynwn, a chymysgwn yo eu hiaith hwynt*] Y mae y gair *habah* yn arwyddo, *deuwch, ymbarotown*, fel pe buasai i daith, i gyflawni bwriad, &c. Cawn yma brawf arall o wahanol beronau yn y Duw-dod: gwel ar pen. i. 26. *Fel na ddeallont iaith eu gilydd*—gallwn sylwi yma ar dri pheth: 1. *Eu hiaith a gymysgwyd*. Gwnaed hyn yn ddiwyfrwng gan Dduw ei hun, yr hwn, trwy fil o wahanol ffyrdd, a allasai ei effeithio, a hyny mor hawdd ag y galluogodd efe yr apostolion anlythyrenog wedi hyn i sefaru mewn gwahanol ieithoedd, Act. ii. 4. Megys y darfu i gymysgwyd yr ieithoedd wahanu plant dynion, a'u gwasgaru ar led; felly darfu i'r dawn o ieithoedd â pha un y cynysgaethwyd yr apostolion, gynorthwyo yn fawr tuag at 'gasglu yn nglwyd yn un blant Duw y rhai a wasgaresid,' a'u huno yn Nghrist, fel y gallent 'yn unfryd, o un genau, ogoneddu Duw,' Rhuf. xv. 6. 2. *Eu hadeilad a attaliwyd*. Darfu i gymysgiad eu hiaith nid yn unig eu hanalluogi i helpu eu gilydd, eithr yn debygol dafu llwfrdra ar eu hysbrydoedd, gan eu bod yn gweled i law yr Arglwydd fynd allan yn eu herbyn hwy. 3. *Yr adeiladwyd a wasgarwyd*. Hwy a ymadawsant yn gymdeithasau, 'yn ol eu teuluoedd, wrth eu hieithoedd,' pen. x. 5, 20, 31, i fynydd i'r gwledydd a'r lleoedd a benodwyd iddynt yn y rhaniad a wnaethpwyd, y rhai yr ymddengys eu bod yn gwybod am danynt o'r blaen, ond nid aent i gymeryd meddiant o honynt nes iddynt yn awr gael eu gorfodi i hyn. Fel hyn, yr unig beth ag yr oeddynt hwy yn ei ofni a ddaeth arnynt, sef y gwasgariad hwnw ag y ceisiant ei ochelyd: a gadawsant o'u hol goffadwriaeth fythol o'u gwarth yn yr enw a roddwyd i'r lle, sef BABEL, neu *gymysgedd*. Plant dynion yn awr o'r diwedd a wasgarwyd, ac ni ddeuant yn nghyd oll byth drachefu hyd y dydd mawr pryd y bydd i Fab y dyn eistedd ar orseddfainc ei ogoniant, ac y 'cyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd,' Mat. xxv. 32. Y mae yn dra thebyg, meddai Clarke, fod yr iaith wreiddiol wedi ei chyfansoddi o eiriau unsill; fod gan bob un o honynt feddwl amgyffredol eglur, a dim ond un meddwl; ac y byddai amrywiol ystiriaethau i'r un gair yn ddiamau godi, naill ai oddiwrth

yno eu hiaith hwynt, fel na ddeallont iaith eu gilydd.

8 Felly yr Arglwydd a'u gwasgarodd hwynt oddiyno ar hyd wyneb yr holl ddaear: a pheidiasant ag adeiladu y ddinas.

9 Am hyny y gelwir ei henw hi Babel; oblegid yno y cymysgodd yr Arglwydd iaith yr holl ddaear, ac oddiyno y gwasgarodd yr Arglwydd hwynt ar hyd wyneb yr holl ddaear.

10 ¶ Dyma genedlaethau Sem: Sem ydoedd fab can mlwydd, ac a genhedlodd Arphaxad ddwy flynedd wedi y dylif.

11 A Sem a fu fyw wedi iddo gen-

hedlu Arphaxad, bum can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

12 Arphaxad hefyd a fu fyw hymtheng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Sela.

13 Ac Arphaxad a fu fyw gwedi iddo genhedlu Sela, dair o flynyddoedd a phedwar can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

14 Sela hefyd a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Heber.

15 A Sela a fu fyw wedi iddo genhedlu Heber, dair o flynyddoedd a phedwar can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

16 Heber hefyd a fu fyw bedair

ymadroddion cyfansawdd, neu ynte, pan nad oedd ond ychydig eiriau mewn iaith, o'u harfer trwy wahanol fodd o gymaniad i fynegu amrywiol Bethau. Lle y ffynai yr iaith unsillawg syml hon, (a rhaid ddarford iddi ffynu yn oesoedd cyntaf y byd,) byddai gan ddyonion o angenheidrwydd ddrychfeddyliau syml, a symledd arferiadau cyfatebol. Y mae y Chineag yn gymhwys fel hyn; a byddai i'r Hebraeg, ar ol ei dyosg o'i nodau llafariadawl, ac i'w blaendodiaid, eu bol-ddodiaid, a'i hystlen-nodan gael eu hysgaru o'u cysylltiadau, fel y gallont sefyll wrthgar o hunain, gyfateb yn agos i'r gweddnod hwn yn ei chyflwr presenol. Mewn trefn gan hyny i symud yr undeb barn a bwriad hwn, yr hwn yr wyf fi (clhwanega Clarke) yn tybio ei fod yn ganlyniad angenheidiol i'r gyfryw iaith, Duw a gymysgodd eu hiaith, neu a wnaeth iddynt lefaru yr un gair yn amrywiol, a rhoddi gwahanol ddrychfeddyliau i'r un ymadrodd, nes yr oedd meddwl y llesfarydd yn cael ei ddeall gan y gwrandawydd mewn ystyr gwrthwyneb i'r hwn a fwriedid. Nid yw y ddrychfeddl hwn wedi ei fynegu yn wael gan hen fardd Ffinc-aidd, *Du Bartas*, na'i gyfeithu yn ddrwg i'r Saesonaeg gan Mr. Sylvester:

Some speak between the teeth, some in the nose,
Some in the throat their words do ill dispose:
'Bring me,' quoth one, 'a trowel, quickly, quick!'
One brings him up a hammer. 'Hew this brick,'
Another bids; and then they cleave a tree.
'Make fast this rope,' and then they let it flee.
One calls for planks, another mortar lacks;
They bear the first a stone, the last an axe.
One would have spikes, and him a spade they give;
Another asks a saw, and gets a sieve.
Thus crossly crost, they prate and point in vain;
What one hath made, another mars again!
These masons then, seeing the storm arrived
Of God's just wrath, all weak and heart-deprived,
Forsake their purpose; and, like frantic fools,
Scatter their stuff, and tumble down their tools.

Neu yn debyg i hyn yn y Gynraeg:

Llefara rhai rhwng deint, rhai yn y trwyn,
Yn ngwddf y lleill staredd iaith an-fwyn:
Yn ebrwydd, ebrwydd, theyrn un a fyn,
Ond dygir mortwyl. 'Nadd y priddfaen hyn,'
Medd arall; ac i hollti pren yr a.
'Rhwymhaer y rhaff,' ac ei rhyddhau a wna.
Un eilw am bleine, i arall clai sy'n mhall;
Maen roir i'r cyntaf, bwyll idd y llall.
Un gais gethri, ac iddo rhoddir rhaw;
Ac arall lif, ond gogyr ato ddaw.

Mal hyn yn groes *baldorddiant* yn ddball;
A wnaed gan un, *dbyfethir* gan y llall!
Y seiri hyn, wrth we'd ystorom lawn,
Dig cyfiawn Duw, yn wan a llwfraid iawn,
Eu gwaith adawant; ac, fel ffyliaid 'nawr,
Eu heirf a'u defnydd daflant oll i lawr.

Ni fydd i mi, meddai Clarke, chwilio pa fodd y ffurfiwyd gwahanol ieithoedd y byd. Diau nad gwaith *moment* ydoedd: rhaid fod gan y gwahanol hinsoddau ran fawr yn ffurfiad ieithoedd, trwy eu dylanwad ar beiriannau yr ymadrodd. Rhaid i ddyfeisiad celfyddydau a chrefftau newyddion roddi bodaeith i amrywiaeth o enwau ac ymadroddion. Darfu i fael-eriaeth, newidwriaeth, a meithriadau y gwyddiannau gynyrchu eu rhan; a gwahanol ffurfiadau llywodraeth, arferion bywyd, a moddion addysg, a gyfranasant hefyd eu dogm. Y mae yr Arabaeg, y Galdeae, y Syriaeg, a'r Ethiopiaeg, yn dwyn yn barhaus y tebygolrwydd mwyaf nodedig i'w rbiant yr Hebraeg. Gellid dwyn amrai ereill yn ol i wreiddyn cyffredin; eto y mae yn mhob man brawf digonol o'r cymysgiad hwn. Y mae yr anghyffwrddiaid hyd yn nod yn yr ieithoedd mwyaf rheolaidd yn profi hyn yn ddiogon.

Adn. 8. *A pheidiasant ag adeiladu y ddinas*] Y mae y Samaritanaeg a'r LXX yn clhwanegu, 'a'r tur.'

Adn. 9. *Babel, oblegid yno y cymysgodd, &c.*] Y mae *Babel* yn deilliaw oddiwrth *bal*, cymysgu, dyrys, dyfetha. Nid oedd y cymysgiad hwn yn cynwys dygiad i mewn ieithoedd newyddion, yn gymaint a rhoddi i hiliogaeth Noa drefn wahanol o gynanu yr uu geiriau, a'u harwain i gysylltu wrthyn wahanol ddrychfeddyliau. Dywed rhai ddarford rhau yr adeiladwyr hyn yn ddeuddeg-athriugain o genhedloedd, gyda deuddeg-athriugain o wahanol ieithoedd; ond hon sydd chwedl ofer a disail.

Adn. 10—25. *Dyma genedlaethau Sem, &c.*] Gallwn nodi yma, 1. Nad oes dim wedi ei adael mewn cofadwriaeth yn nyhylech y rhai o'r llinell hon, ond eu henwau a'u boedran, trwy fod yr Ysbryd Glân yn ymddangos i ffysio trwyddynt hwy at lhanes Abraham. Leied a wyddom ni am y rhai a fuont o'n blaen yn y byd hwn, hyd yn nod am y rhai a fuont byw lle yr ydym ni yn byw; nac yn wir am y rhai sydd yn gydoeswyr â ni, ond mewn

blynedd ar ddeg ar hugain, ac a genhedlodd Peleg.

17 A Heber a fu fyw wedi iddo genhedlu Peleg, ddeng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

18 Peleg hefyd a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Reu.

19 A Pheleg a fu fyw gwedi iddo genhedlu Reu, naw o flynyddoedd a dau can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

20 Reu hefyd a fu fyw ddeuddeng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Serug.

21 A Reu a fu fyw wedi iddo genhedlu Serug, saith o flynyddoedd a dau can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

22 Serug hefyd a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Nacor.

23 A Serug a fu fyw wedi iddo genhedlu Nacor, ddau can mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

24 Nacor hefyd a fu fyw naw mlynedd ar hugain, ac a genhedlodd Tera.

25 A Nacor a fu fyw wedi iddo genhedlu Tera, onid un flwyddyn chwecch ugain mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

26 Tera hefyd a fu fyw ddeng mlynedd a thriugain, ac a genhedlodd Abram, Nacor, a Haran.

27 ¶ A dyma genedlaethau Tera: Tera a genhedlodd Abram, Nacor, a Haran; a Haran a genhedlodd Lot.

28 A Haran a fu farw o flaen Tera ei dad, yn ngwlad ei enedigaeth, o fewn Ur y Caldeaid.

29 Yna y cymerodd Abram a Nacor iddynt wragedd: enw gwraig Abram oedd Sarai; ac enw gwraig Nacor, Milca, merch Haran, tad Milca, a thad Isca.

30 A Sarai oedd amhlantadwy, heb blentyn iddi.

31 A Thera a gymerodd Abram ei fab, a Lot fab Haran, mab ei fab, a Sarai ei waudd, gwraig Abram ei

lleoedd pellenig! 2. Fod lleihad graddol canfyddadwy yn mlynnyddau eu heinioes. Cyrhaeddodd Sem 600 o flynyddau, yr hyn eto oedd yn fyr o oedran y patrieirch cyn y dylif. Y tri nesaf a ddaethant yn fyr o 500; a'r tri nesaf ni chyrrhaeddasant 300; ac ar eu hól hwy nid ydym yn darllen am neb yn cyraedd 200, oddieithr Tera; ac yn mhien ychydig oesau wedi hyn cawn Moses yn cyfrif 70 neu 80 mlynedd fel yr oed hwyaf i ddynion yn gyffredin ei gyraedd. Pau ddechreuodd y ddaear ymlenwi, dechreuodd einioes dynion fyrhau, fel ag y mae y byrhad i'w gyfrif i drefn ddoeth Rhagluniaeth yn hytrach nag i unrhyw ddioboeniad natur. 3. Mai Heber a fu fyw hwyaf o bawb a anod ar ol y dylif, sef 464 o flynyddau, yr hyn fe allai ydoedd wobri ei ymlyniad manwl ef wrth fyfyrdd Dnw.

Adn. 26. *Tera—a genhedlodd Abram, Nacor, a Haran*] Haran yn sicr ydoedd fab hynaf Tera, ac ymddengys iddo gael ei eni pan oedd Tera o gylych 70 mlwydd oed; ac ar ei ol ef y ganed Nacor, ail fab Tera, ac Abram ei fab *ieuangaf*. Dyryswyd llawer trwy feddwl, am fod Abram yn cael ei grybwyll gyntaf, mai efe gan hyny oedd fab *hynaf* Tera; ond nid yw efe ond yn cael ei roddi yn gyntaf mewn ffordd o urddas. Gwelson anghraifft o hyn eisioes yn meibion Noa, pen. v. 32. Pan y mae rhyw achos o urddas neu ragoriaeth i'w nodi, y mae hyd yn nod y *mab ieuangaf* yn cael ei enwi o flaen y lleill oll, er fod hyny yn groes i arferiad yr ysgrythyrau mewn achosion ereill. Am hyny cawn *Sem*, mab *ieuangaf* Noa, yn cael ei enwi bwl amser yn gyntaf; a chrybwyllir *Moses* o flaen ei frawd hynach *Aaron*, ac *Abram* o flaen ei frodyr hyn *Haran* a *Nacor*. Bu farw Tera yn Haran yn 205 mlwydd oed, adn. 32; aeth Abram o Haran

pan yn 75 mlwydd oed, pen. xii. 4; gan hyny ganed Abram nid pan oedd ei dad yn 70, ond pan yr oedd efe yn 130.

Adn. 27. *Haran a genhedlodd Lot*] Felly yr oedd Lot yn nai fab brawd i Abram.

Adn. 28. *A Haran a fu farw*] Dywed St. Jerome i Abram osod tân yn nhŷ yr eilunod, ac i Haran ei frawd drengu yn y ffllamau wrth geisio achub ei ddauwan.

Adn. 29. *Enw gwraig Abram oedd Sarai*] Y mae llawer yn meddwl mai yr un oedd Sarai ac Isca, dan ddan wahanol enw; ond y mae hyny yn annlebygol, am y dywedir yn bendant mai merch Haran oedd Isca, tra yr oedd Sarai yn ferch i Tera, ac yn hanner chwaer i Abram, pen. xx. 12.

Adn. 30. *A Sarai aedd amhlantadwy*] Crybwyllir hyn i nodi yn anlyceach allu Daw wrth roddi mab iddi yn ei henaint.

Adn. 31. *A hwy a aethant allan yn nghyd o Ur y Caldeaid*] Y mae *Caldea* yn cael ei deall weithiau fel yn cynwys holl Babilonia; bryd arall, y dalaeth hōno tng Anialweh Arabia, a elwir yn yr ysgrythy Gwlad y Caldeaid. Prifddinas y lle hwn oedd *Babilon*, a elwir yn yr ysgrythy 'prydfertwhch y teyrnasoedd, gogoniant godidogrydd y Caldeaid,' Esay xiii. 19. Ymddengys fod Ur yn ddinas neu wlad o bwys mawr y pryd hyny yn Caldea, ond ni wyddys yn iawn yn mhia le yr oedd yn sefyll. Y mae yn debyg iddi gael ei henw *Ur*, yr hwn a arwydda *tân*, oddiwrth yr addoliad a arferid yno. Y mae y dysgedigion bron yn gyffredinol o'r farn fod cyndrigolion y wlad hon yn addolwyr *tân*, ac yn y lle hwn yn debygol y dechreuodd y math yma o addoliad; ac o arhwydded i'r elfen hon, cysgod y Bōd Goruchaf, gallai yr holl wlad, neu ddinas neillduol yuddi, fod wedi cael ei galw

fab; a hwy a aethant allan yn nghyd o Ur y Caldeaid, i fyned i dir Canaan; ac a ddaethant hyd yn Haran, ac a drigasant yno.

32 A dyddiau Tera oedd bum mlynedd a dau can mlynedd; a bu farw Tera yn Haran.

yn *Ur*. Dywed Bochart fod lle o'r enw *ouri* yn ddeheuol i'r Euphrates, ar y ffordd o Nisibis at yr afon Tigris; ond dywed Delitzsch mai yr un yw *Ur* ag *Urfa*. Nid oed y bobl a grybwyllir yma yn cael eu galw yn Galdeaid yn yr amser am yr hwy a mae Moses yn *llefaru*, ond gelwid hwynt felly pryd yr oedd Moses yn *ysgrifenu*.

Adn. 32. *A bu farw Tera yn Haran*] Dinas a elwid felly oddiwrth fab hynaf Tera. Gelwir hi Carran, Act. vii. 2.

ADFEDDYLIADAU.—Y mae adeiladu Babel, cymysgiad yr iaith, a galwad gyntaf Abram, yn dri amgylchiad hynod yn y bennod hon: ac y mae y rhai hyn yn arwain i gyflawniad tri o ddybenion mawrion a phwysig: 1. Poblogiad yr holl ddaear; 2. Cadwraeth y wir grefydd trwy un teulu; ac, 3. Cadwraeth y llinell hōno yn ddilwr trwy yr hon yr oedd y Messia i ddyfod. Pan y mae Duw yn gwneyd amlygiad o hono ei hun trwy ddatguddiad neillduol, rhaid i hyny ddechreu mewn *amser* neillduol, a chael ei roddi i ryw *berson* neillduol, ac mewn rhyw le neillduol. Pa le, pa bryd, ac i *bwyl*, ydynt mewn cynhariaeth yn bethau o rhyddid bwys. Rhodd Duw yw hyn; a rhaid i'w ddoethineb ei hun benderfynn yr *amser*, y *person*, a'r *lle*. Ond os fel hyn y mae, onid oes gan ereill achos i gwyno am na freintwyd hwy fel hyn? Nac oes, mewn un modd, oddieithr fod breintio un fel hyn *dros amser* o angenrheidrwydd yn tori y lleill ymaith yn *dragrwydd*. Ond nid fel hyn y mae. Abram a freintwyd gyntaf: yr *amser* hwnw, y *wlad* hōno, a'r *person* hwnw a ddewiswyd trwy anfeidrol ddoethineb; canys *yno*, a'r *pryd* *hyny*, y dewisodd Duw ddechreu y gweithrediadau nerthol hyn o ddaioni dwyfol. Derbyniodd Isaac a Jacob hefyd yr addewidion, y deuddeg patriarch trwy en tad, a'r holl Iuddewon trwyddynt hwythau. Wedi hwn cafodd briadau trugaredd ddi-ddiwedd Duw eu hegluro yn fwy neillduol; a'r gair, yr hwn a ymddangosai i fod wedi ei gyfyngu am ddwy fil o flynyddau i hiliogaeth teulu unigol, sydd yn tori allan ar bob llaw; y mae iachawdwriaeth yn cael ei phregethu i'r Cenhedloedd; ac fel hyn yn had Abram y mae holl dylwythau y ddaear yn cael eu bendithio. Fel hyn ni all neb feid, na neb gael achos i gwyno; gan fod yr iachawdwriaeth ag ydoedd am *amser* yn *ymddangos* i fod wedi ei chyfyngu i rhyddid, yn cael yn awr, ar awurdod Duw, ei chynyg yn haelionus i'r holl hili ddydol!

PEN. XII. Adn. 1. *Dos allan o'th wlad*] Y mae anghytundeb mawr yn mhlith esbonwyr yn nghylch galwad Abram; rhai yn barnu iddo gael *dau* alwad gwahanol, ac ereill na chafodd ef ond *un*. Yn niwedd y bennod

PENNOD XII.

A'R Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, Dos allan o'th wlad, ac oddiwrth dy genedl, ac o ddy dy dad, i'r wlad a ddanghoswyf i ti.

2 A mi a'th wnaif yn genhedlaeth fawr, ac a'th fendithiaf, mawrygaf

flaenorol, adn. 31, cawn Tera a'i holl deulu yn gadael Ur y Caldeaid mewn trefn i fyned i wlad Canaan. Hyn oedd yn ddiamau mewn canlyniad i ryw rybydd dwyfol. Tra yn gorphwys yn Haran, ar eu ffordd i Ganaan, bu farw Tera, pen. xi. 32; ac yma y mae Duw yn ail alw Abram, ac yn gorchymyn iddo fyned allan o'i wlad. Y mae yn amlwg oddiwrth Act. vii. 2—4, fod Abram wedi cael yr alwad gyntaf yn Ur y Caldeaid, cyn iddo ddyfod i Haran neu Carran, ac felly fod hon yn ail alwad iddo. *Ac oddiwrth dy genedl*—ddarfod i Nacor fyned gyda Tera ac Abram cyn belled a Padan-Aram, yn Mesopotamia, ac ymsefydlu yno, fel y galwyd hi wedi hyny yn 'ddinas Nacor,' sydd ddiagon amlwg oddiwrth yr hanes ddylynol, gwel pen. xxiv. 10, 15; ac mai yr un wlad oedd *Haran*, gwel pen. xxviii. 2, 10; ac *yno* yr oedd *gwlad a chenedl* Abram ag y sonir am danynt yma, pen. xxiv. 4. *Ac o ddy dy dad*—trwy fod Tera yn awr wedi marw, y mae yn dra thebyg fod y teulu yn penderfynu peidio myned yn mhellach, eithr ymsefydlu yn Haran; a chlan y gallai fod Abram yn teimlo tuedd i aros gyda hwy yn y lle hwn, dyma y sail a'r angenrheidrwydd o'r *ail alwad* a goffeir yma, yr hon a ddygir yn mlaen mewn modd tra nodedig: *lech lecha*, DOS DROSOT DY HUN. Os na fydd i neb o'r teulu dy ddylyn, eto dos di drosot dy hun. *I'r wlad a ddanghoswyf i ti*—nid yw Duw yn dywedyd *pa* wlad ydyw, fel y gallai ef yn barhaus beri iddo rodio wrth fydd, ac nid wrth olwg, Heb. xi. 8. Yn awr, trwy y gorchymyn hwn profwyd ef a oedd efe yn eam Duw yn *fwyl* na gwlad ei enedigaeath a'i gyfeillion anwyllaf; ac a allai ef yn ewyllysgar adael y cwbl i fyned gyda Duw. Yr oedd ei wlad wedi myned yn eilunaddolgar, yr oedd ei genedl a thŷ ei dad yn demtasiwn wastadol iddo, ac ni allai ef barhau gyda hwy yn ddi-berygl o gael ei lygru ganddynt; am hyny dywedodd Duw, *Dos allan*. Trwy hyn fe'i profwyd hefyd a allai efe ymddiried yn Nuw yn mhellach nag yr ydoedd yn ei weled ef; canys rhaid iddo adael ei wlad ei hun i fyned i wlad a ddangosai Duw iddo. Nid yw ef yn dywedyd Gwlad ydyw *roddaf* i ti, ond, a *ddanghosaf* i ti; ac nid yw yn dywedyd *pa* wlad ydoedd, na pha fath ar wlad; eithr rhaid iddo ddylynu Duw gyda fydd ymddibynol, a chymeryd gair Dnw am dani yn gyffredinol, na chaiff ef fod yn golledwr wrth adael ei wlad i ddylyn Duw.

Adn. 2. *A mi a'th wnaif yn genhedlaeth fawr*] Yn dad i wahanol bobloedd, megys yr Iuddewon, yr Edomiaid, &c. Yr oedd yr addewid hon yn ysgafnbad mawr i faich Abram, canys ni feddai ef yn awr un plentyn; ac yn brofedigaeth fawr i fydd Abram, canys yr oedd ei wraig wedi bod yn hir yn anmhlant-

hefyd dy enw; a thi a fyddi yn fendith.

3 Bendithiaf hefyd dy fendithwyr, a'th fellidithwyr a fellidigaf: a holl deuluoedd y ddaear a fendithir ynot ti.

4 Yna yr aeth Abram, fel y llefarasai yr Arglwydd wrtho: a Lot a aeth gydag ef: ac Abram oedd fab pymtheng mlwydd a thruigain pan aeth efe allan o Haran.

5 Ac Abram a gymerodd Sarai ei wraig, a Lot mab ei frawd, a'u holl olud a gasglant hwy, a'r eneidiau a enmillant yn Haran, ac a aethant

allan i fyned i wlad Canaan; ac a ddaethant i wlad Canaan.

6 ¶ Ac Abram a dramwyodd trwy y tir hyd le Sichem, hyd wastadedd More: a'r Canaancaid oedd yn y wlad y pryd hwnw.

7 A'r Arglwydd a ymddanghosodd i Abram, ac a ddywedodd, I'th had di y rhoddaf y tir hwn: yntau a adeiladodd yno allor i'r Arglwydd, yr hwn a ymddangosasai iddo.

8 Ac efe a dynodd oddiyno i'r mynydd, o du dwyrain Bethel, ac a estynodd ei habell, gan adael Bethel tua'r

adwy, pen. xi. 30; fel, os bydd iddo gredu, y rhaid i hyny fod yn erbyn gobaiith, a rhaid i'w ffydd adeiladu yn unig ar y gallu hwnw yr hwn a 'ddichon o'r meini hyn gyfodi plant i Abraham.' *Ac a'th fendithiaf*—naill ai yn neillduol â'r fendith o ffrwythlondeb, megys y bendithiasai efe Adda a Noa; neu yn gyffredinol â phob math ar fendith ysbrydol a thymhorol. *Mawrygaf hefyd dy enw*—trwy i Abram adael ei wlad, efe a golodd ei enw yno. Na ofala am hyny, meddai Duw, eithr ymddiried yno fi, a mi a vnaf i ti enw mwy nag a allesit byth ei gael yno. Ond tybia rhai ei fod ef yn cyfeirio yma at newidai ei enw o Abram, tad uchel, i Abraham, tad llu, pen. xvii. 5. *A thi a fyddi yn fendith*—dy dystiolaeth dros Dduw, dy siampl dda, dy weddiau, a'th allu gyda Duw, dy ddoethineb a'th synwyr, dy dueddfryd a'th ymddygiad heddychlon a haelionus, a'th wnant di yn fendith yn mhob man lle yr ymdeithi.

Adn. 3. *Bendithiaf hefyd dy fendithwyr, &c.*] Byddaf yn gyfaill i'th gyfeillion, ac yn elyn i'th elynion; gan wneuthur fel hyn, fel pe byddai, fath ar gynghair ymosodol a diffynol gydag Abram. *A holl deuluoedd y ddaear a fendithir ynot ti*—yn dy hiliogaeth, sef y MESSIA, yr hwn a ddeillia o ran y cnawd oddiwrthyt ti: bydd i holl ddydolryw gael aneirif fendithion tymborol ac ysbrydol trwy ei angau a'i eiriolaeth ef.

Adn. 4. *Yna yr aeth Abram, fel y llefarasai yr Arglwydd wrtho*] Ni bu efe yn anfydd i'r weledigaeth nefol, ond cyhyrnodd yn ddi-oedi ar daith o fwy na tiri chwant o filldroedd o Haran i Ganaan, a hyny trwy anialwch pergylus Palmyrena, a thros fynyddau uchel Libanus, Hermon, neu Gilead. *Pymtheg mlwydd a thruigain*—gwel ar pen. xi. 26.

Adn. 5. *A'r eneidiau a enmillant yn Haran*] Gall hyn gyfeirio at y personau ag oeddnt yn ngwasanaeth Abram, neu at y rhai ag y bu ef yn offeryn i'w hennill i wybodaeth o'r gwir Dduw; ac yn yr ystyr olaf hwn y mae yr alleirwyr Caldeaid yn deall yr ymadrodd, gan ei gyfieithu, 'Eneidiau y rhai a ddychwelwyd ganddynt yn Haran.' *Ac a aethant allan i fyned i wlad Canaan*—gwlad dda yn cael ei meddiannu gan bobl ddrwg, y rhai am eu drygionai oeddnt i gael eu bwrw allan, Lef. xviii. 25. A gwnaed y wlad hon yn gysgod o deyrnas Dduw. Y mae yn debyg y gall fod gan hyn oll feddwl pellach nag a ymddengys

yn y llythren. Megys y darfu i Abram adael ei wlad ei hun, ei genedl, a thŷ ei dad, ac ar orchymyn Duw gymeryd taith i'r wlad addawedig hon, heb orphwys nes cyraedd iddi; felly y dylem ninau roddi heibio bob pwys, ddyfod allan o blith gweithredwyr anwiredd, a chlychwyn tua theyrnas Dduw, heb byth orphwysio nes cyraedd y wlad nefol. Gwel CLARKE.

Adn. 6. *Hyd wastadedd More*] Dylai elon gael ei gyfieithu yn dderwen, nid gwastadedd. Y mae y LXX yn ei gyfieithu y 'dderwen uchel;' ac y mae yn debyg fod y lle yn nodedig am lwyn o'r prenau hyn, neu am dderwen o uchder a phraffidur rhyfeddol. *A'r Canaancaid oedd yn y wlad y pryd hyn*—y rhai oeddnt yn debyg o fod yn gymydogion anymunol iddo.

Adn. 7. *A'r Arglwydd a ymddanghosodd i Abram*] Yn mba fiordd yr ymddanghosodd, ni wyddom; y mae yn debyg mai trwy Abram mawr y cyfammod, Iesu Grist. Darfu i'r ymddanghosiad hwn berfaith foddhau Abram, a phrofi ei fod yn ornwechnaturiol a dwyfol. Ni all un lle na sefyllfa ein can ni oddiwrth ymweliadau grasol Duw. Y mae Abram yn ymdeithydd ansefydlog yn mhilith y Canaancaid; eto y mae efe yma hefyd yn cyfarfod â'r hwn sydd 'yn byw ac yn ei weled ef.' Gall gelyniou ysgaru rhyngom ni a'n pebyll, rhyngom ni a'n ballorau, ond nid rhyngom ni a'n Duw. Y mae yn deilwng o sylw mai Abram yw y dyn cyntaf ag y dywedir i Dduw ymddangos neu ymrithio iddo: 1. Yn Ur y Caldeaid, Act. vii. 2; ac, 2. Wrth dderwen More, fel y dywedir yma. Gan fod *More* yn arwyddo *dysgawdwr*, y mae yn debyg fod hon yn cael ei galw yn DDERWEN Y DYSGAWDWR, am ddarford i Dduw ymddangos yma i *ddyysgu* Abram yn nghylch y meddiant dyfodol o'r wlad hono gan ei hiliogaeth ef, a goruchwyliaeth trugaredd Duw i holl deuluoedd y ddaear trwy y Messia addawedig. *Yntau a adeiladodd yno allor i'r Arglwydd*—ymddengys mai hyn oedd ei arferiad gwastadol lle bynag y symudai. Cyn gynted ag y daeth efe i Ganaan, er nad oedd ond ymdeithydd dyeithr yno, efe a osododd i fynu addolai Duw yn ei deulu. Pa le bynag y cai ef *babell*, cai Duw yno ALLOR, a hono wedi ei santeiddio trwy weddi.

Adn. 8. *Ac efe a dynodd oddiyno i'r mynydd, o du dwyrain Bethel*] Y lle a alwyd

gorllewin,* a Hai tua'r dwyrain; ac a adeiladodd yno allor i'r Arglwydd, ac a alwodd ar enw yr Arglwydd.

9 Ac Abram a ymdeithiodd, gan fyned ac ymdaith tua'r deau.

10 Ac yr oedd newyn yn y tir; ac Abram a aeth i waered i'r Aifft, i ymdeithio yno, am drymbau o'r newyn yn y wlad

11 A bu, ac efe yn nesáu i fyned i mewn i'r Aifft, ddywedyd o hono wrth Sarai ei wraig, Wele yn awr mi

wedi hyn yn *Bethel* gan Jacob, canys ei enw cyntaf oedd *Luz*, pe. xxviii. 19. Y mae *Bethel* yn llythrenol yn arwyddo TY DDUW. *Ac a adeiladodd yno allor*—gwel ar adn. 7; canys efe a wyddai yn dda nad oes dim diogelwch ond dan yr amddiffyniad dwyfol. Leied o adeiladwyr tai yn ein dyddiau ni sydd byth yn meddwl am yr addasrwydd a'r angenrheidrwydd o adeiladu allorau i'w Gwneuthurwr! *Ac a alwodd ar enw yr Arglwydd*—y mae Dr. Shuckford yn haeru yn gadarn nad yw *kara beshem* yn arwyddo galw ar enw yr Arglwydd, ond ymbil yn ei enw. Felly Abram a ymbiliodd â Jehofa yn neu trwy enw Jehofa, yr hwn a ymddangosai iddo. Efe a ddygwyd hyd yn nod yn yr amseroedd boreol hyn i nesáu at Dduw trwy Gyfryngwr; a'r Gyfryngwr yw hwn, yr hwn wedi hyn y ymddangosodd yn y cnawd, a adwaenid wrth yr enw JENOFA. Ai nid yw ein Harglwydd yn cyfeirio at y fath amlgyd a hwn pan y dywed, 'Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i: ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychoedd?' Ioan viii. 56. Y mae yn amlwg oddiwrth hyn ddarfod hysbysu iddo y genid Crist o'i had ef, y cai cenhedloedd y byd eu bendithio trwyddo ef; a chan hyn nid yw yn rhyfedd ddarfod iddo ymbil â Duw yn enw y Gyfryngwr mawr hwn.

Adn. 9. *Gan fyned ac ymdaith*] Yr oedd ef yn ei deimlo ei hyn yn ddyeirth a phererin, a thrwy ei gyflwr ansefydlog efe a gedwid mewn cof am y 'ddinas âg iddi sylfaeni, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw,' Heb. xi. 8—10.

Adn. 10. *Ac yr oedd newyn yn y tir*] Yn Nghanaan. Hwn yw y newyn cyntaf mewn cofadwriaeth, ac yr oedd yn y tir ffrwythlonaf y pryd hyn dan yr haul; a phaham? Duw a'i mellidithiodd o herwydd drygioni y preswylwyr. A dichon i hyn gael ei wneuthur nid yn unig i gopsi y Canaanecid, ond hefyd i broffiffydd Abram, a allai ef ymddiried yn y Duw a'i dygodd i Ganaan am ei gynaliaeth yno, ac ymlawenychu ynddo ef fel 'Duw ei iachawdwriaeth,' pan na byddai y 'figsbyren yn blodeuo.' *Ac Abram a aeth i waered i'r Aifft*—gwelw'n mor ddoeth y mae Duw yn darparu fod digonedd mewn un lle pan y mae prinder yn y llall; fel na byddo i ni, megys aelodau o'r corff mawr, ddywedyd wrth ein gilydd, 'Ni raid i mi wrthych!' 'Diau ddarfod ei anfon i'r Aifft i fod yn dyst dros Dduw yno hefyd; ond och! trwy ymollwng i anghrediniaeth, er mor enwog ydoedd ef yn gyffredin am ffydd, efe a ddaeth yn faen tram-

a wn mai gwraig lân yr olwg wyt ti:

12 A phan welo yr Aifftiaid dydi, hwy a ddywedant, Dyma ei wraig ef; a hwy a'm laddant i, a thi a adawant yn fyw.

13 Dywed, atolwg, *mai fy chwaer wyt ti*: fel y byddo da i mi er dy fwyndi, ac y byddwyf fyw o'th blegid di.

14 ¶ A bu, pan ddaeth Abram i'r Aifft, i'r Aifftiaid edrych ar y wraig, mai glân odiaeth oedd hi.

15 A thywysogion Pharao a'i gwel-

gwydd yn ffordd y rhai a ofnent y gwir Dduw, yn hytrach nag yn siampliddynt er efelychiad.

Adn. 11, 12. *Gwraig lân yr olwg wyt ti*] Yr oedd Sarai yn gwahaniaethu yn fawr yn ei gwedd oddiwrth yr Aifftiaid melynndu, ac o ganlyniad yn fwy tebyg i gael ei thrachwantu ganddynt. Yr oedd Abram yn meddwl na phetrusent hwy gymeryd ymaith ei einioes ef, mewn trefni i gael meddiant tawel o'i wraig. Nyni a ddygwn oddiwrth pen. xvii. 17, fod Sarai ddeng mlynedd yn ieuangach nag Abram; ac oddiwrth adn. 4, o'r bennod hon, yr ydym yn cael fod Abram yn 75 mlwydd oed pan ei galwyd i adael Haran a myned i Ganaan, pryd na allai Sarai fod ond 65; ac os darfu i'r hyn a goffeir yma gymeryd lle yn ystod y flwyddyn hono, fel y mae yn ddichonadwy, yr oedd Sarai yn awr yn tytu at 66 mlwydd oed. Ond gan fod pobl yn byw lawer yn hwy yn yr amseroedd hynny, ac afiechyd heb gael ond ychydig rwyg, byddai i wragedd a gwŷr o angenrheidrwydd gyraedd yn arafach i gyflwr o berffeithrwydd, a chadw eu nerth a'u gwedd yn llawer hwy nag mewn amseroedd diweddarach. Gallwn chwaneu at yr ystyriaethau hyn, fod *dyeithriaid* yn cael eu trachwantu yn fwy gan y penrhydd na'r rhai bodorol. Cafodd hyn ei egluro yn helaeth yn yr India Orllewinol ac yn America, fel y sylwa ymdeithwyr.

Adn. 13. *Dywed, atolwg, mai fy chwaer wyt ti*] Y gras ag yr oedd Abram yn swyaf nodedig am dano oedd *ffydd*; ac eto efe a syrthiodd fel hyn trwy anghrediniaeth mewn dwyfol raglunnaeth, hyd yn nod ar ol i Dduw ymddangos iddo ddywywaith! Nid oedd Abram yn chwennych i'w wraig ddywedyd *anwiredd*, ond yr oedd am iddi gael rhan o'r *gwir*. Oddiwrth pen. xx. 12, y mae yn amlwg ei bod yn *hanner chwaer* iddo, sef o'r un tad, ond o fam wabanol: gwel ar pen. xi. 29.

Adn. 14. *Glân odiaeth oedd hi*] Yr oedd merched Asia yn gyffredinol yn llawer mwy pryd-weddol na merched yr Aifft, ac arddangosir hwynt felly ar y cofgolofnau: gwel *Osburn*.

Adn. 15. *Pharao*] Hwn oedd enw cyffredin brenhinoedd yr Aifft; ac yr oedd yn enw o urddas, megys *Cesar* yn mhlith amherawdwyr Rhufain, a *Ptolemy* wedi hyn yn mhlith yr Aifftiaid. Meddylir fod y gair yn arwyddo *brenin* yn yr hen Aifftaeg. Os ceisir am yr ystyr yn yr Hebraeg, y mae y gwreiddyn *para* yn arwyddo bod yn *rhydd*, enw ag y gallai y cyfryw yspeliwyr a brenhinoedd yr Aifft ei gymeryd yn naturiol. *A'r wraig a*

sant hi, ac a'i canmolasant hi wrth Pharao: a'r wraig a gymerwyd i dŷ Pharao.

16 Ac efe a fu dda wrth Abram er ei mwyn hi: ac yr oedd ganddo ef ddefaid, a gwartheg, ac asynod, a gweision, a morwynion, ac asenod, a chamelod.

17 A'r Arglwydd a darawodd Pharao a'i dŷ â phlâu mawrion, o achos Sarai gwraig Abram.

18 A Pharao a alwodd Abram, ac a ddywedodd, Paham y gwnaethost hyn i mi? Paham na fynegaist i mi mai dy wraig oedd hi?

19 Paham y dywedaist, Fy chwaer yw hi? fel y cymerwn hi yn wraig i mi: ond yr awr hon wele dy wraig, cymer hi, a dos ymaith.

20 A Pharao a roddes orchymyn

i'w ddyinion o'i blegid ef: a hwy a'i gollyngasant ef ymaith, a'i wraig, a'r hyn oll oedd eiddo ef.

PENNOD XIII.

AC Abram a aeth i fyny o'r Aifft, efe a'i wraig, a'r hyn oll oedd eiddo; a Lot gydag ef i'r deau.

2 Ac Abram oedd gyfoethog iawn o anifeiliaid, ac o arian, ac aur.

3 Ac efe a aeth ar ei deithiau, o'r deau hyd Bethel, hyd y lle y buasai ei babell ef ynddo yn y dechread, rhwng Bethel a Hai;

4 I le yr allor a wnaethai efe yno o'r cyntaf: ac yno y galwodd Abram ar enw yr Arglwydd.

5 ¶ Ac i Lot hefyd, yr hwn a aethai gydag Abram, yr oedd defaid, a gwartheg, a phebyll.

gymerwyd i dŷ Pharao—sef tŷ ei wragedd ef, lle yr oeddynt yn treulio cryn amser dan buredigathau penodedig cyn cael eu dwyn i wyddfod a chymdeithas y brenin, Esther ii. 8, 9. Yn yr amser hwn y tarawodd yr Arglwydd Pharao a'i dŷ â phlâu, fel ag yr adferwyd Sarai cyn y gallasai gael ei dwyn i wely brenin yr Aifft.

Adn. 16. *Ac efe a fu dda wrth Abram er ei mwyn hi*] Gan feddwl mai brawd Sarai oedd Abram, tebl parch mawr iddo gan Pharao er ei mwyn hi, a gwneid anrhegion lluosog iddo. *Ac yr oedd ganddo ef ddefaid a gwartheg, &c.*—wedi eu cael oll ond odid gan Pharao.

Adn. 17. *A'r Arglwydd a darawodd Pharao a'i dŷ â phlâu mawrion*] Pa beth oedd y plâu hyn ni wyddom. Yn yr achos cyfatebol, pen. xx. 18, cafodd yr holl fenywod yn nheulu Abimelech eu gwneid yn anmlantadwy. Dichon eu bod felly yma; ac eto ymddengys fod llawer mwy yn cael ei arwyddo trwy yr ymadrodd 'plâu mawrion.' Beth bynag oeddynt, y mae yn amlwg ddarfod eu deall gan Pharao fel prawfiadau o anffodlonrwydd Duw; ac o ganlyniad yr oedd hyd y nod y pryd hyn beth gwybodaeth o'r wir grefydd wreiddiol yn yr Aifft.

Adn. 18, 19. *Paham na fynegaist i mi mai dy wraig oedd hi?*] Gan arwyddo, pe gwybusai hynny, na fusai yn ei chymeryd hi. Bai rhy gyffredin yn mhlieth pobl dda, fel y sylwa Henry, yw lletra drwydgybiau am ereill yn fwy nag y mae achos. Mynych y cawsom fwy o rinwedd, anrhydedd, a chydwybod mewn rhai pobl nag y meddylasom fod; a dylai fod yn hyfrydwch genym gael ein siomi fel hyn, megys Abram yna, yr hwn a gafodd Pharao yn well dyn nag y dysgwylodd.

Adn. 20. *A Pharao a roddes orchymyn i'w ddyinion o'i blegid ef*] I weini i Abram a'i deulu bob diwalliant gogyfer â'u taith. Gan iddo gynyddu yn fawr yn ei anifeiliaid a'i weinidogion, yr oedd yn angenrheidiol iddo gael ffair y brenin, a'i ganiatad i symud o'r Aifft gyda'r fath eiddo mawr; ac am hynny y mae gorchymyn caeth yn cael ei roddi i

swyddogion Pharao ei barchu ef, a'i gynorthwyo yn ei ymadawiad bwriadol.

PEN. XIII. Adn. 1. *Ac Abram a aeth i fyny o'r Aifft—i'r deau*] Hynny yw, i barth deheuol Canaan, o ba le y daethai ef, pen. xii. 9, yr hwn modd bynag oedd yn ogledd-ddwyrain i'r Aifft. Gau i'r vsgrhythyrau gael eu hysgrifenu yn benaf i'r Iuddewon, y mae eu hiaith, gyda golwg ar sefyllfa lleoedd, wedi ei chyfaddasu i'w dull hwy o lefaru.

Adn. 2. *Ac Abram oedd gyfoethog iawn*] Nid oedd meddiannau yr anseroedd patriarchaidd hyn yn gwynysedig o ddeudellau yn unig, ond hefyd o arian ac aur; ac yn yr holl bethau hyn yr oedd Abram, *cabed meod*, 'yn dra chyfoethog.' Dywed Josephus ddarfod iddo gyraedd rhan o'r golud hwn trwy ddyngu i'r Aifftiaid y celfyddydau a'r gwyddiannau. Fel hyn y cyflawnodd Duw ei addewidion iddo ef, trwy ei amddiffyn, a rhoddi iddo amledd mawr o fendithion tymborol, y rhai oeddynt iddo ef yn arwyddion ac yn wystlon o fendithion ysbrydol.

Adn. 3, 4. *Ac efe a aeth ar ei deithiau o'r deau hyd Bethel*] Am fod ganddo gynt allor yno: ac er y gallai yr allor fod wedi malurio i lawr, gan ei bod yn debygl wedi ei hadeilladu o bridd; neu wedi cael ei thynu i lawr gan Abram, rhag ei llygru gan y Canaanaid cilunadolgar; eto efe a ddaeth i le yr allor—naill ai i adfywio y goffadwriaeth o'r eymundeab a gawsai efe gyda Duw yn y lle hwnw, neu fe allai i dalu yr addunedau a wnaethai efe yno i Dduw pan yn cychwyn ar ei daith i'r Aifft. *Ac yno*—heb gael ei attal gan unrhyw rwystrau cyfreithlon, na'i luddias gan gopau, penydian, na gwrthryfel y trigolion, er eu bod yn eilunadollwyr, y galwodd Abram ar enw yr Arglwydd—yr addolodd efe Dduw trwy weddi a diollegarwch, trwy offrymu aberthau, ac addysgu ei deulu, pen. xviii. 19.

Adn. 5. *I Lot hefyd, &c.*] Bendithiasai Duw yntau hefyd â defaid, gwartheg, a phebyll, fel cyfranogydd o'r un ffydd ag Abram.

6 A'r wlad nid oedd abl i'w cynal hwynt i drigo yn nghyd; am fod eu cyfoeth hwynt yn helaeth, fel na allent drigo yn nghyd.

7 Cynhen hefyd oedd rhwng bugeiliaid anifeiliaid Abram a bugeilydd anifeiliaid Lot: y Canaancaid hefyd a'r Phereziaid oedd yna yn trigo yn y wlad.

8 Ac Abram a ddywedodd wrth Lot, Na fydded cynhen, atolwg, rhyngof fi a thi, na rhwng fy mugeiliaid i a' th fugeiliaid di; o herwydd brodyr ydym ni.

9 Ond yw yr holl dir o' th flaen di? Ymneilldua, atolwg, oddiwrthyf: os ar y llaw aswy y troi di, minau a

droaf ar y ddeau; ac os ar y llaw ddeau, minau a droaf ar yr aswy.

10 A Lot a gyfododd ei olwg, ac a welodd holl wastadedd yr Iorddonen, mai dyfradwy ydoedd oll, cyn i'r Arglwydd ddyfetha Sodom a Gomorra, fel gardd yr Arglwydd, fel tir yr Aiff, ffordd yr elych i Soar.

11 A Lot a ddewisodd iddo holl wastadedd yr Iorddonen, a Lot a aeth tua'r dwyrain: felly yr ymneillduasant bob un oddiwrth eu gilydd.

12 Abram a drigodd yn nhir Canaan: a Lot a drigodd yn ninasoedd y gwastadedd, ac a luestodd hyd Sodom.

13 A dynion Sodom oedd ddryg-

Adn. 6. *A'r wlad nid oedd abl i'w cynal hwynt*] Diamau fod y Canaancaid a chynfrodorion ereill y wlad yn perchenogi goreuon y tir; a'r hyn ydoedd weddill nid oedd ddigonol i ddiwallu eu praidd a'u deadellau â phorthiant. *Am fod eu cyfoeth hwynt yn helaeth*—trwy fod eu teuluoedd yn cynyddu; yr oedd yn angenrheidiol i'w praidd gynyddu hefyd, am mai oddiwrth y praidd hyny yr oeddnt hwy yn cael eu dillad, eu bwyd, eu diod, a'u haberthau. *Fel na allent drigo yn nghyd*—1. Am fod eu praidd yn lluosog; 2. Am fod y Canaancaid a'r Phereziaid eisioes yn meddiannu rhan helaeth o'r tir; 3. Am yr ymddengys fod cenfigen yn dechreu codi rhwng bugeiliaid Abram a Lot. I attal ymyrsonau rhyngddynt a allent yn y diwedd aflonyddu heddwch y ddau deulu, yr oedd yn angenrheidiol i ysgariad gymeryd lle.

Adn. 7. *Cynhen hefyd*] Ond odid yn nghylich y borfa a'r dwfr. *Y Canaancaid hefyd a'r Phereziaid oedd yna yn trigo yn y wlad*—ac felly yr oedd yn beryglus i Abram a Lot gweryla, rhag i'r gelyniau hyn ddisgyn arnynt, a'u dyfetha ill dau. Hefyd, gan fod llygaid eu holl gymydogion arnynt, o herwydd hynodrwydd eu crefydd, a'r santeiddrwydd anghyffredin a broffesent, buan y sylvesid ar yr ymyrson hwn, ac y gwnaethid defnydd o hono i'w gwarthruddo gan y Canaancaid a'r Phereziaid.

Adn. 8. *Ac Abram a ddywedodd wrth Lot*] Er fod Abram yn hŷn, yn ddoethach, ac yn mhob ffordd yn fwy haeddol na Lot, eto y mae efe yn ddibetrus yn rhoddi i fyny ei hawl ei hun i un is nag ef, er mwyn heddwch, ac fel na ddygid gwarth ar y wir grefydd, gan adael yn hyn siampl odidog i ni ei ddylun. *Na fydded cynhen, atolwg, rhyngof fi a thi*—y mae yn gweddu yn ddrwg i ni fel perthynasau agos, ac yn waeth fel gweision i Dduw. *O herwydd brodyr ydym ni*—yr ydym o'r un teulu, yn addoli yr un Dduw yn yr un ffordd, yn meddu yr un addewidion, ac yn edrych am yr un dyben; a phabam gan hyny y byddai cynhen rhyngom? Os ymddengys fod hyny yn anocheladwy oddiwrth ein sefyllfa bresenol, boed i'r sefyllfa hono yn ebrwydd gael ei newid; canys ni ddichon i ddim elw bydol wrthbwyo y gollod o heddwch.

Adn. 9. *Ond yw yr holl dir o' th flaen di?*] Megys patriarch, neu ben y teulu, gallasai Abram, trwy hawl osodidg, ddewis ei ran ei hun yn gyntaf, a phenodi i Lot yr eiddo; eithr gan ei fod â'i fryd ar heddwch, ac yn teimlo serch par a thadol at ei nai, efe a ganiatâi iddo ef wneyd ei ddewisid yn gyntaf.

Adn. 10. *A Lot—a welodd holl wastadedd yr Iorddonen, mai dyfradwy ydoedd oll*] Ymddengys nad oedd gan Lot ddim mewngolg ond ei gyfleusdra a'i les tymhorol. Yr oedd ei ddefaid a'i wartheg ef eisioes yn rhy lubsog, a'i gyfoeth yn rhy helaeth; ac eto y mae yn ewyllysio iddynt gynyddu yn fwy fyth, ac am hyny yn dewis y lle ffurwythlon a hyfryd yna. *Fel tir yr Aiff, ffordd yr elych i Soar*—y mae yr aneglurder ag sydd yn yr adnod hon yn cael ei symud gan *Houbigant* trwy y cyfieithiad canlynol: 'Eithr cyn i'r Arglwydd ddyfetha Sodom a Gomorra, yr oedd y ffordd yr elych i Soar yn cael ei dyfrhau yn dda, fel gardd yr Arglwydd, ac fel tir yr Aiff.' Fel yr oedd paradwys yn cael ei dyfrhau gan y pedair afon, a'r Aiff gan orllifiad y Nilus; felly yr oedd holl wastadedd yr Iorddonen, a'r holl wlad ar y ffordd i Soar, yn cael eu dyfrhau a'u ffurwythloni yn dda trwy orllifiad yr Iorddonen.

Adn. 11. *A Lot a ddewisodd iddo holl wastadedd yr Iorddonen*] Efe a ddewisodd y tir, heb ystyried gwednodd y trigolion, na pha lesiant neu aflasiat a allai y lle hwnw ei roddi iddo mewn pethau ysbrydol; a bu agos i'r dewisid hwnw, fel y cawn weled yn y diwedd, brofi yn ddinystri i'w gorff a'i enaid ef a'i deulu. *Felly yr ymneillduasant*—neu yr ymadawodd Lot â theulu Abram, heb amlygu dim gofid wrth gollu y budd o'i gyfeillach, ei gynghorion, a'i gyfarwyddiadau doethion.

Adn. 12. *Ac a luestodd hyd Sodom*] Hyny yw, a symudodd ei luest neu ei babbell o le i le wrth fyned i Sodom.

Adn. 13. *A dynion Sodom oedd ddrygonius*] Y mae *Onkelos* yn alleirio yr adnod fel hyn: 'Eithr gwyr Sodom oeddnt ddrygonius a'u cyfoeth, ac yn enog a'u cyrff gerbron yr Arglwydd.' Yr oeddnt yn bechaduriaid o weddnod anghyffredin: blaenorent mewn anghyfiawdrwch, a buan y cyflawnasant fesur eu hanwiredd: gwel pen. xix. Drnan oedd Lot! Efe a syrthiodd i gwmi drwg, ac ni

ionus, ac yn pechu yn erbyn yr Arglwydd yn ddirfawr.

14 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, wedi ymceillduo o Lot oddiwrtho ef, Cyfod dy lygaid, ac edrych o'r lle yr wyt ynddo, tua'r gogledd, a'r deau, a'r dwyrain, a'r gorllewin.

15 Canys yr holl dir a weli, i ti y rhoddaf ef, ac i'th had byth.

16 Gwnaf hefyd dy had di fel llwch y ddaear; megys os dichon gw'r rifo llwch y ddaear, yna y rhifir dy had dithau.

fydd i brydfwrthwch a ffrwythlondeb y wlad ond ad-dalu yn ddrwg am y gofid beunyddiol a gaiff efe oddiwrth eu drygoni a'u heddiw-iaidau!

Adn. 14. *A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Abram*] I'w gysuro ef ar ol i Lot ymceillduo oddiwrtho ef, a'i adael mewn tir llai dymunol a ffrwythlon nag a ddewisasai ei nai. *Cyfod dy lygaid ac edrych*—y mae yn dra thebyg i Angel y cyfammod ymddangos i Abram liw dydd, pryd y gallai ef gymeryd golwg eglur ar hyd a lled y wlad addawedig iddo. Y datguddiad a wnaed pen. xv. 5, a wnaed y mae yn amlwg yn y nos; canys y pryd hyn y gwelir ef i rifo y ser, y rhai nas gellid eu gweld ond yn y nos.

Adn. 15. *Canys yr holl dir a weli, i ti y rhoddaf ef*] Ond pa fodd y rhoddwyd y tir hwn i Abram, pan y dywedir yn benodol gan Stephan, Act. vii. 5, 'Ac ni roes (Duw) iddo etifeddiacth ynddo, naddo led troed?' Yr ateb yw, rhoddodd Duw iddo hawl ynddo, er na roddodd ef feddiant gweithredol hyd nes y darfu i'r trigolion brofi yn anniwygiadwy, a chyflawni mesur eu hanwiredd. Y mae Duw yn ei egluro, *i ti ac i'th had*—hyn yw, i ti 'yn dy had.' Ond pa fodd y dywedir ei fod yn cael ei roddi iddynt *byth*, pan yn mhen yehydig gaurifau y trowyd hwynt allan o hono? Yr wyf yn ateb, fod yr addewid wedi ei gwneuthur iddynt ar yr ammod o'u hufydd-dod, fel y dywedir yn aml mewn lleoedd ereill. Ac nid yw yr ymadrodd *ad olam*, a gyfieithir yma *byth*, yn meddwl dim mwy yn fynych na HIR BARHAD, fel y mae yn amlwg oddiwrth amrai ranau o'r ysgrythyf, lle nad yw y gwrth-ddrychau at y rhai ei cymhwyssir yn caniatáu, o ran eu natur, dragwyddol barhad. Yn wir pan y mae y gair yn cael ei gymhwyso at y defodan a'r seremonïau Iuddewig, fel y gwneir yn fynych, nid yw yn meddwl dim mwy na thra y parhau yr oruchwyliacth hōno, neu hyd ddyfodol y Messia. Ystyr priodol *olam* yw TRAGWYDDOLDEB; ond ei ystyr *cyfaddasol*, megys yma, yw cyfnod cuddiedig, neu hyd ddiwedd rhyw oruchwyliacth benodol.

Adn. 16. *Gwnaf hefyd dy had di fel llwch y ddaear*] I'ny yw, hwy a gynyddant yn anghredadwy, ac a fyddant, a'u cymered oill yn nghyd, yn dyrfa na ddichon neb ei rhifo. Yr oedd y rhagfynegiadau hyn wedi cael eu cyflawni mewn rhyw fesur pan yr oedd Moses yn ysgrifenu. Eithr nid oedd cynydd had

17 Cyfod, rhodia trwy y wlad, ar ei hyd, ac ar ei lled; canys i ti y rhoddaf hi.

18 Ac Abram a symudodd ei luest, ac a ddaeth, ac a drigodd yn ngwas-tadedd Mamre, yr hwn sydd yn Hebron, ac a adeiladodd yno allor i'r Arglwydd.

PENNOD XIV.

A BU yn nyddiau Amraphel brenin Sinar, Arioc brenin Elasar, Cedortaomer brenin Elam, a Thidal brenin y ceunedloedd;

Abram y pryd hyn yn dal yn cyfartalwch i'r hyn ydoedd yn nyddiau Solomon, pryd yr oedd Israel a Juda (heb son am hiliogaeth Abram trwy Ismael, Esau, a'i blant o Cetura) 'fel y tywod sydd gerllaw y môr o amldra,' 1 Bren. iv. 20.

Adn. 17. *Cyfod, rhodia trwy y wlad*] Dos, a chymer feddiant i'th hiliogaeth; arolyga ei rhanau, a hi a ymddengys yn amgenach nag y gwna o bell. Nid oedd Abram ei hun, modd bynag, i feddwl ymsefydlu ynddi; ond yr oedd i ddysgwyl bod yn ansefydlog bob amser, a rhodio trwyddi i Ganaan well.

Adn. 18. *Ac Abram a symudodd ei luest*] A barhaodd i deithio a phabellu mewn gwahanol leoedd, nes o'r diwedd yr estynodd efe ei babbell yn ngwastadedd Mamre—neu wrth dderwen Mamre, gwel ar pen. xii. 6; *yr hwn sydd yn Hebron*—hyn yw, Hebron oedd enw y dalaeth yn yr hon yr oedd Mamre yn trigianu. Mamre ydoedd Amoriad yn fyw y pryd hyn, a'r hwn y gwnaeth Abram gynghair, pen. xiv. 13; ac yr oedd y dderwen ond odid yn myned wrth ei cnw ef, am mai efe oedd berchenog y tir. Gelwir Hebron yn *Gaer-arba*, pen. xxiii. 2; gwel y sylw yno. *Ac a adeiladodd yno allor*—yn arwydd o'i ddiolchgarwch i Dduw am yr ymweliad tirion a wnaethai efe iddo; ac efe a offrymodd arni ABERTH, fel y mae y gair *mizbeach*, oddiwrth *zabach*, LLADD, yn arwyddocau.

PEN. XIV. Adn. 1. *A bu yn nyddiau Amraphel*] Pwy oedd y brenin hwn nid yw hysbys; ac eto, oddiwrth y modd y sonir am dano yn y testyn, ymddengys ei fod yn dra adnabyddus hyd yn nod pan yr oedd Moses yn ysgrifenu yr hanes hon. Y mae y *Vulgate* yn rhoddi troad gwahanol i'r lle, trwy ei gyfieithu fel hyn: 'A bu yn y dyddiau hyn y Amraphel brenin Sinar,' &c. Y mae Deongliad Caldeaid Onkelos yn ei wneuthur ef yn frenin BABYLON, ac ereill a'i gwnant yn frenin ASSYRIA: rhai a ddywedant mai NIMROD ydoedd; ac ereill, un o'i hiliogaeth ef. *Arioc brenin Elasar*—tybia rhai mai SVRIA a feddylir; eithr dychymyg sydd ddiwedd lle na ellir sicrhau ffeithiau. *Cedortaomer brenin Elam*—tybia Dr. Shuckford mai yr un oedd hwn a NINVAS, mab Ninus a Semiramis; ac y mae rhai yn barnu mai yr un oedd ef a KEEURBAS, mab Doolaved, fab Arphaxad, fab Sem, fab Noa; a bod *Elam* yn meddwl PER-

2 Wneuthur o honynt ryfel â Bera brenin Sodom, ac â Birsâ brenin Gomorra, a Sinab brenin Admah, ac â Semebar brenin Seboim, ac â brenin Bela, hon *yw* Soar.

3 Y rhai hyn oll a ymgyfarfuant yn nyffryn Sidim: hwnw *yw* y môr heli.

4 Deuddeg mlynedd y gwasan-aethasant Cedorlaomer, a'r drydedd flwyddyn ar ddeg y gwrthryfelasant.

5 A'r bedwaredd flwyddyn ar ddeg y daeth Cedorlaomer, a'r brenhinoedd y rhai *oedd* gydag ef, ac a darawsant y Rephaimiaid yn Asteroth-Carnaim, a'r Zuziaid yn Ham, a'r Emiaid yn Safe-Ciriathaim,

6 A'r Horiaid yn eu mynydd Seir, hyd wastadedd Paran, yr hwn *sydd* wrth yr anialweh.

7 Yna y dychwelasant, ac y daethant i Enmispat, hōno *yw* Cades, ac a darawsant holl wlad yr Amaleciaid,

a'r Amoriaid hefyd, y rhai oedd yn trigo yn Hazezon-tamar.

8 Allan hefyd yr aeth brenin Sodom, a brenin Gomorra, a brenin Admah, a brenin Seboim, a brenin Bela, hōno *yw* Soar: ac yn nyffryn Sidim y lluniaethiasant ryfel â hwynt;

9 A Chedorlaomer brenin Elam, a Thidal brenin y cenhedloedd, ac Amraphel brenin Sinar, ac Arioc brenin Elasar: pedwar brenin yn erbyn pump.

10 A dyffryn Sidim *oedd* lawn o byllau clai; a brenhinoedd Sodom a Gomorra a ffoisant, ac a syrthiasant yno: a'r lleill a ffoisant i'r mynydd

11 A hwy a gymerasant holl gyfoeth Sodom a Gomorra, a'u holl luniaeth hwynt, ac a acthant ymaith.

12 Cymerasant hefyd Lot *nai* fab brawd Abram, a'i gyfoeth, ac a acthant ymaith; o herwydd yn Sodom yr ydoedd efe yn trigo.

SIA. *Tidal brenin y cenhedloedd*—gwahanol bobloedd neu dylwythau. Rhyw ddydd antur- iol y mae yn debyg, deiliaid yr hwn oeddynt wedi eu gwneyd i fyny o ymnoddwyr o wahanol wledydd.

Adn. 2—4. *Wneuthur o honynt ryfel â Bera brenin Sodom, &c.*] Ymddengys oddi-wrth adn. 4, ddarfod i Cedorlaomer orchfygu y pum brenin Canaaneiaid hyn, a'u bod yn gorffod talu teyrnged iddo; a darfod iddynt hwythau, ar ol bod yn gaeth ganddo am ddeuddeg mlynedd, ac yn ewyllysio cael eu rhyddid yn ol, wrthryfela yn y drydedd flwyddyn ar ddeg; yr hyn a barodd i Cedorlaomer, y flwyddyn ganlynol, alw am dri o'i gaethfrenhinoedd i'w gynorthwyo, ac ymosodasant ar Ganaan, a gorchfygasant frenhinoedd y pum dinas—Sodom, Gomorra, Admah, Seboim, a Bela, y rhai oeddynt yn sefyll yn ngwastadedd ffirwythlon Sidim—ar ol iddynt ddirodi yr holl wlad yn gyntaf.

Adn. 5. *Rephaimiaid*] Pobl o Ganaan, pen. xv. 20. *Asteroth*—dinas yn Basan, lle y bu Og wedi hyn yn teyrnasu, Jos. xiii. 31. *Zuziaid*—y rhai ni sonir am danynt mewn un lle arall, oddieithr eu bod yr un a'r Zamzummiaid, Deut. ii. 20, fel y mae rhai yn dychymygu. *Emiaid*—'pobl fawr ac aml' yn nyddiau Moses, 'ac uchel fel yr Anaciaid:' hwy a drigent yn mhlith y Moabiaid, gan y rhai eu cyfrifid yn GAWRI, Deut. ii. 10, 11. *Safe-Ciriathaim*—yn hytrach, fel y mae ar ymyl y ddalen, 'Gwastadedd Ciriathaim,' yr hon ydoedd wedi hyn yn ddinas yn perthyn i Shehon brenin Hesbon, Jos. xiii. 19.

Adn. 6. *A'r Horiaid*] Pobl a breswylent yn mynydd Seir, nes y darfu i Esan a'i feibion eu gyru allan, Deut. ii. 22. *Hyd wastadedd Paran*—neu 'dderwen Paran,' enw dinas yn anialweh Paran, pen. xxi. 21.

Adn. 7. *Enmispat*] Neu 'fynnon y farn,' a elwid felly, y mae yn debyg, oddiwrth y

farn a gyhoeddwyd gan Dduw ar Moses ac Aaron am eu hanufydd-dod yn y lle hwnw, Num. xx. 1—10. *Amaleciaid*—a alwyd felly WEDI HYN, oddiwrth Amalec mab Esau, pen. xxxvi. 12; neu CYN HYN, oddiwrth Amlik ŵyr Sem. *Hazezon-tamar*—a elwir yn y Galdeaege Engedi; dinas yn ngwlad Canaan a syrthiodd i ran Juda, Jos. xv. 62: gwel hefyd 2 Cron. xx. 2. Ymddengys oddiwrth Can. i. 14, ei bod yn le tra ffirwythlon.

Adn. 8. *Bela, hōno yw Soar*] Hyn yw, gelwid hi SOAR ar ol dinstyr Sodom, a grybwyllir pen. xix.

Adn. 9. *Cedorlaomer, &c.*] gwel ar adn. 1.
Adn. 10. *A dyffryn Sidim oedd lawn o byllau clai*] Manau lle y tarddai *asphaltus* neu *bitumen* allan o'r ddaear: math ar bŷg ydoedd, yr hwn oedd yn aml yn y wlad hōno: gwel ar pen. xi. 3. *A brenhinoedd Sodom a Gomorra a ffoisant, ac a syrthiasant yno*—yr hyn a rwyddda naill ai ddarfod iddynt hwy a'u milwyr gael eu gorchfygu yno, ac i lawer o honynt gael eu lladd; neu ddarfod i luodd o honynt drengu yn y pyllau clai, y rhai oeddynt aml yno. Fod y lle yn llawn o byllau a ddysgwn oddiwrth yr Hebraeg, *beeroth, beeroth*, 'pyllau, pyllau,' h. y. luodd o byllau. Lle drwg i rffela, neu orfod thedeg trwyddo mewn ffordd i ddianc! Y mae yn debyg i frenin Sodom gael ei achub, am y darllenwn am dano ef drachefn, adn. 17, os nid ei ddylynydd ydoedd.

Adn. 11. *A hwy a gymerasant holl gyfoeth Sodom a Gomorra*] Yr oedd hon yn rhyfel ysglyfaethus, y fath ag y mae yr Arabiaid yn ei chario yn mlaen hyd heddyw: y maent yn yspeilio dinas, trwy neu fintai, ac yn ffoi gyda'r ysglyfaeth i'r anialweh, lle y mae bob amser yn beryglus, ac yn fynych yn anhosibl, eu herlyn hwynt.

Adn. 12. *Cymerasant hefyd Lot*] Yr oedd y bobl, trwy eu bod yn ddyrgionus iawn, wedi annog Dduw i'w cospi trwy y brenhinoedd ys-

13 A daeth un a ddiangasai, ac a fynegodd i Abram yr Hebreadd, ac efe yn trigo yn ngwastadedd Mamre yr Amoriaid, brawd Escol, a brawd Aner; a'r rhai hyn oedd mewn cyngyrair âg Abram.

14 A phan glybu Abram gaethgludo ei frawd, efe a arfogodd o'i hyfforddus weision a anesid yn ei dŷ ef, ddeunaw a thri chant, ac a ymlidiodd hyd Dan.

15 Ac efe a ymranodd yn eu herbyn hwy liw nos, efe a'i weision, ac a'u tarawodd hwynt, ac a'u hymldiodd

hyd Hobab, yr hon sydd o'r tu aswy i Ddamascus.

16 Ac efe a ddyg drachefn yr holl gyfoeth, a'i frawd Lot hefyd, a'i gyfoeth a ddyg efe drachefn, a'r gwragedd hefyd, a'r bobl.

17 ¶ A brenin Sodom a aeth allan i'w gyfarfod ef (wedi ei ddychwelyd o daro Cedorlaomer, a'r brenhinoedd oedd gydag ef) i ddyffryn Safe, hwn yw dyffryn y brenin.

18 Melchisedec hefyd, brenin Salem, a ddyg allan fara a gwin; ac

peilgar hyny; a chafodd Lot hefyd ddyoddef, trwy ei fod yn mhlith gweithredwyr anwiredd.

Adn. 13. *Abram yr Hebreadd*] Gwel ar pen. x. 21. Y mae yn dra thebyg i Abram gael yr enw hwn, meddai Clarke, oddiwrth ei ddyfodiad i Ganaan o'r *tuhunt* i'r afon Euphrates; canys y mae *hübri*, yr hwn a gyfieithwn ni yr Hebreadd, yn deilliaw o *abar*, 'croesi drosodd,' neu 'ddyfod o'r tuhunt,' Y mae llawer yn meddwl iddo gael yr enw hwn oddiwrth *Heber*, mab Sela, pen. xi. 15. 'Ond paham y cai ef enw oddiwrth Heber, yn hytrach nag oddiwrth ei dad ei hun, neu rywun arall o'i henafiaid, ni allodd neb eto ei gael allan. Gan hyny gallwn benderfynu yn ddiogel, ei fod yn dwyn yr enw *Hebreadd* oddiwrth yr angylchriad uchod, ac nid oddiwrth un o'r henafiaid, yr hwn na wyddom ddim am dano ond yr enw, a'r hwn a chyflaenodd Abram chwech o genedlaethau: ac yn ystod yr holl amser hwnw hyd y pryd a nodir yma, ni chafodd neb o'i hiliogaeth erioed enw galw yn *Hebreadd*: ac y mae hyn yn brawf eglur na chafodd Abram ei alw yn Hebreadd oddiwrth Heber: gwel pen. xi. 15—27.' CLARKE. *A'r rhai hyn oedd mewn cyngyrair âg Abram*—ymddengys fod math ar gyfammod wedi ei wneuthur rhwng Abram a'r tri brawd Mamre, Escol, ac Aner, y rhai yn debygol oeddynt oll yn benaethiaid yn nghymydogiaeth preswylfod Abram; pob un yn is-dwyysog tebyg i'r naw brenin a rag-grybwyllwyd.

Adn. 14. *Pan glybu Abram gaethgludo ei frawd*] Sef Lot mab ei frawd: felly y galwai y dwyreinwyr berthynasau agos. *Efe a arfogodd o'i hyfforddus weision*—yr oeddynt wedi eu hyfforddi nid yn unig yn y gelfyddyd o ryfela, eithr hefyd yn egwyddorion crefydd; canys gorchymynai Abram i'w dylwyth, 'gadw o honynt ffordd yr Arglwydd,' pen. xviii. 19. *Ddeunaw a thri chant*—gan fod yn ei deulu ef gynifer a 318 o wŷr ieuainc galluog i ddwyn arfan, rhaid fod nifer holl denlu Abram o leiaf yr 2,000. Ni ddywedir i ni rifedi y milwyr perthynol i Mamre, Escol, ac Aner; ond diamau iddynt hwythau a'u gwŷr ei ddylyn ef yn y rhyfelgyrch hwn, adn. 24.

Adn. 15. *Ac efe a ymranodd yn eu herbyn hwy*] Yr oedd yn gofyn llawer o wroldeb a medrusrwydd yn Abram i'w arwain i ymosod ar fyddinoedd buddugol y pedwar brenin hyn gyda'r fath rhyfychan o filwyr; ac ar yr achlysur hwn y mae ei fedrusrwydd a'i wrol-

deb yn cael eu harferyd. Ymddengys mai ei gariad at Lot oedd ei brif gymhelliaid: y mae efe yn peryglu ei fywyd yn llawen dros y nai hwnw, yr hwn yn ddiweddar a ddewisasai y rhan oraf o'r wlad, gan adael ei ewythr i fyw fel y gallai ar yr hyn nad oedd ef yn ei faru yn werth ei dderbyn iddo ei hun. Eithr y mae yn pertlyn i feddwl mawr a haelionus nid yn unig faddeu, ond hefyd anghofio troseddau, a phob amser dalu da am ddrwg. Ei ffydd yn rhiagluniaeth ac addeuidion Duw a'i cynaliai ef yn y gorchwyl anhawdd a pheryglus hwn, ac a'i dygodd trwyddoer mawr arllydiedd iddo ei hun, ac er cysur i'w nai ac amrai ereill.

Adn. 16. *Ac efe a ddyg drachefn yr holl gyfoeth—a'r gwragedd hefyd*] Y mae hyn yn cael ei ddwyn i mewn gan yr hanesydd santiaidd gyda dyddordeb a thynnerwch neillduol. Rhaid i bawb ag sydd yn darllen yr hanes fod mewn poen o herwydd a'wrydd y *gwragedd* a'r *merched* yn syrtbio i ddwylaw milwyr creulon, penrhydd, a buddugol. Modd bynag, darfu i Abram drefnau ei ymosodiad mor gall, a chyflawni ei fesurau mor fedrus, fel ag yr adgafwyd nid yn unig yr holl glud, eithr hefyd yr holl fenywod.

Adn. 17. *A brenin Sodom a aeth allan i'w gyfarfod ef*] Felly ymddengys i hwn ddianc yn fyw o'r pyllau clai i'r rhai y syrtiodd, adn. 10; canys prin y gallwn feddwl i frenin arall gael ei greu yn Sodom mewn cyn lleiedd amser. *Wedi ei ddychwelyd o daro Cedorlaomer*—yr hyn sydd yn brawf mai yr un brenin ydoedd ag a grybwyllwyd adn. 10.

Adn. 18. *Melchisedec hefyd brenin Salem*] Cafodd mil o chwedlau gweigion eu dywedid am y dyn hwn, a mil o ddychymygon ofer eu treulio ar yr hanes fer a roddir am dano ef yma ac yn Heb. vii. Yn bresenol ni raid ond dywedyd yr ymddengys ei fod yn berson mor wirioneddol a *Bera*, *Birsa*, neu *Sinab*, adn. 2, er nad oes genym fwy o'i achau ef nag sydd genym o'u haebau hwythau: gwel yr adfeddyliaidau. *A ddyg allan fara a gwin*—yn debygol i adfywio Abram a'i wŷr, y rhai oeddynt wedi llwyr ddisfygio gan y rhyfel ddiweddar a blinderan y daith: ond tybia rhai mai yn ei swydd offeiriadol y dygaf efe yr elfenau hyn iddynt. *Ac efe oedd offeiriad i Dduw goruchaf*—efe a gadwasai yn ei deulu ac yn mhlith ei ddeiliaid addoliad y gwir Dduw, a'r sefydliadau patriarchaidd gwreiddiol. Trwy y rhai hyn yr oedd tad

efe oedd offeiriad i Dduw goruchaf:

19 Ac a'i bendithiodd ef, ac a ddywedodd, Bendigedig fyddo Abram gan Dduw goruchaf, meddiannydd nef-oedd a daear:

20 A bendigedig fyddo Duw goruchaf, yr hwn a roddes dy elynion yn dy law. Ac efe a roddes iddo ddegwm o'r cwbl.

21 A dywedodd brenin Sodom wrth Abram, Dod i mi y dynion, a chymer i ti y cyfoeth.

pob teulu yn frenin ac yn offeriad. Felly Melchisedec, gan ei fod yn addolwr y gwir Dduw, ydoedd yn OFFEIRIAD yn mhlith ei bobl, yn gystal ag yn FRENIN arnynt hwy.

Adn. 19. *Ac a'i bendithiodd ef*] Hyn oedd ran o swydd yr offeiriad. Gwel ffurf y fendith hon, Num. xi. 23—26. *Bendigedig fyddo Abram gan Dduw goruchaf*—sylwch ar yr enwau a ddyry efe yma i Dduw: 1. *Duw goruchaf*—yr hyn sydd yn dangos ei hollol berffeithrwydd ef ynddo ei hun, a'i lywodraeth benadurod dros ei holl greaduriaid. 2. *Meddiannydd nefoedd a daear*—hwn yw, Perchennog cyfiawn a Phenarglwydd pob creadur, am mai efe a'u gwnaeth hwynt.

Adn. 20. *A bendigedig fyddo Duw goruchaf*] Sylwch, 1. Yn ein holl weddian rhaid i ni foliannu Duw, a chysylltu *haleluwia* gyda'n holl *hosanna*. Y rhai hyn yw yr aberthau ysbrydol ag y rhaid i ni eu hoffrymu yn feunyddiol yn gystal ag ar achlysuron neillduol. 2. Rhaid i Dduw, fel y Duw goruchaf, gael y gogoniant oddiwrth ein holl fuddugoliaethau. Ynddynt hwy y mae efe yn ymddangos yn gryfach na'n gelynyon, ac yn uwch na ninau; canys hebddo ef ni allem ni wneuthur dim. *Ac efe a roddes iddo ddegwm o'r cwbl*—y ddegfed ran o'r holl anrhaith a gymerasai efe oddiar y brenhinoedd cyngheiriol. Y rhai hyn a roddes Abram fel *teyrnged* i'r Duw goruchaf, yr hwn, gan ei fod yn 'Fediannydd nefoedd a daear,' sydd yn cyfranu pob bendith ysbrydol a thymhorol, ac yn gofyn diolchgarwch ac ufydd-dod gostyngedig a serchus oddiwrth ei holl ddeiliaid. 'Darfu agos i bob cenedl ar y ddaear,' meddai Clarke, 'gyduno i roddi y ddegfed ran o'u heiddo at wasanaeth grefyddol. Caniatwyd y *degyrnau* wedi hyn i'r Llesiaid at wasanaeth y cysegr, a'u cynaliaeth eu hunain a'u teulnoedd, am nad oedd ganddynt etifeddiaeth arall yn Israel.'

Adn. 21. *Dod i mi y dynion, a chymer i ti y cyfoeth*] Yma y mae brenin Sodom yn erfyn yn awyddus am ei ddyinion a waredwyd o law y cyngheiriwyr, ond yr un mor rwydd yn caniatâu i Abram gael y cyfoeth. Y mae diolchgarwch yn ein dysgu i wobrwyo hyd eithaf ein gallu y rhai hyn a ddyoddefasant ludded neu a fuont mewn costau i'u gwasanaethu ni.

Adn. 22. *Dyrchefais fy llaw*] Y ffordd wreiddiol o apelio at Dduw, a'i alw ef yn dyst i ryw gyflawniad neillduol. Diamau fod hyn yn beth cyffredin yn mhlith y ffyddloniaid cyn i'r *enwaidd*, arwydd y cyfammod, gael ei

22 Ac Abram a ddywedodd wrth frenin Sodom, Dyrchefais fy llaw at yr Arglwydd Dduw goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear.

23 Na chymerwn o edau hyd garai esgid, nac o'r hyn oll *sydd* eiddo ti; rhag dywedyd o honot, Myfi a gyfoethogais Abram:

24 Ond yn unig yr hyn a fwytaodd y llanciau, a rhan y gwyr a aethant gyda mi, Aner, Escol, a Mamre: cymmerant hwy eu rhan.

sefydlu. Ar ol hyn, wrth dyngu, dodid y llaw yn fynch ar y man enwaeddig: gwel pen. xxiv. 2, 9. *At yr Arglwydd Dduw goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear*—sylwn yma, fod Abram yn rhoddi i Dduw yr un enwau ag yr oedd Melchisedec newydd eu harferyd. Da yw dysgu gan ereill pa fodd i drefnu ein hymadrodd yn nghylch Duw, ac efelychu y rhai hyn ag sydd yn ymadroddi yn dda mewn pethau dyfodol.

Adn. 23. *Na chymerwn o edau hyd garai esgid*] Hwn yn sicr ydoedd ymadrodd diarebol, cyflawn ystyr pa'n sydd o bosibl yn anhybys. Yn mhlith yr ysgrifenyddwyr rabinaidd y mae *chut neu ehati* yn arwyddo *rhwymyn* a wisgid gan ferchbed ieuainc i gylmu i fyny eu gwallt: a'i gymeryd yn yr ystyr hwn ddyr feddwl da yma. Gan i Abram waredu y gwyr a'r gwragedd a ddygwyd ymaith gan y brenhinoedd cyngheiriol, a bod brenin Sodom yn cynyg iddo yr holl gyfoeth, heb arddelwi ond y dynion yn unig, y mae yntau yn ateb trwy ardstyio yn erbyn cymeryd dim o'u heiddo: 'Mi a addunedais i'r Arglwydd, meddiannydd nefoedd a daear, na dderbyniwn y mymryn lleiaf o eiddo y *gwragedd* na'r *gwyr*, o rwymyn merch hyd garai esgid dyn.' *Rhag dywedyd o honot, Myfi a gyfoethogais Abram*—y mae yn debyg y gwyydai Abram fod brenin Sodom yn ddyn balch ac ysgornllyd, ac yn un a fyddai yn dueddol i ddannod y fath beth a hyn iddo drachefn; a phan fyddo genym rywbeth i'w wneyd a'r fath ddyinion, dylem ymddwyn gyda gocheliad neillduol.

Adn. 24. *Ond yn unig yr hyn a fwytaodd y llanciau*] Yr oedd ei weision ei hun wedi cyfranogi o'r *lluniaeth* a ddygasai y brenhinoedd cyngheiriol ymaith, adn. 11, yr hyn oedd yn anocheladwy; a dyma y cwbl ag y mae Abram yn ei arddelwi. Ond gan na feddai ef hawl i benodi yr unrhyw ymddygiad boneddigaidd i'w gynorthwyr, Aner, Escol, a Mamre, gadawodd iddynt hwy arddelwi y rhan ag ydoedd trwy *hawl buddugoliaeth* yn perthyn iddynt hwy o'r anrhaith adgymeredig. A fuont hwy mor haelionus ag Abram ni ddywedir i ni.

ADFFEDDYLIADAU.—Yn adn. 18, gelwir MELCHISEDEC yn frenin *Salem*; ac y mae y deonglwyr mynyaf medrus yn addef mai JERUSALEM a feddylir wrth Salem. Ei bod gynt yn dwyn yr enw hwn sydd amlwg oddiwrth Salm lxxvi. 1, 2: 'Hynod yw Duw yn *Juda*, mawr yw ei enw ef yn *Israel*: ei *ubell* hefyd sydd yn SALEM, a'i driga yn *Seion*.' Oddiwrth y defnydd a wnaed o'r rhan yma o'r

PENNOD XV.

WEDI y pethau hyn, y daeth gair yr Arglwydd at Abram mewn

hanesiaeth santaidd gan Dafydd, Salm cx. 4, a chan St. Paul, Heb. vii. 1—10, nyri a ddysgwn fod rhywbeth tra dirgelaid, ac ar yr un pryd yn gysgodol, yn mherson, euw, swydd, trigfa, a llywodraeth y tywysog Canaanaidd hwn. 1. Yn ei *berson*, yr oedd yn gynrychiolydd ac yn gysgod o Grist, Heb. vii. 1, &c. 2. Y mae ei *enw* MELCHISEDEC, oddiwrth *maliki tsedek*, yn arwyddo 'fy mrenin cyfiawn,' neu 'frenin cyfiawnder.' Yr onw hwn yn debygol a gafodd efe oddiwrth weinyddiad pur a chyfiawn ei lywodraeth; a da y gwyddys fod hwn yn un o weddnodau ein Harglwydd bendigedig. 3. Ei *swydd*: yr oedd yn 'offeriad i Dduw goruchaf;' ac yn hyn yr oedd yn gysgod arbenig o'n Harchoffeiriad mawr ni, yr hwn sydd yn 'Offeriad yn dragwydd yn ol urdd Melchisedec,' Heb. vii. 21. 4. Ei *drigfa*: brenin Salem ydoedd. Y mae *shalan* yn arwyddo cyfanu, cyflawni, neu berffeithio; ac felly y mae yn meddwl hedd-wch, yr hyn a gynwys *cyfanu* y *rhwylgiadau* a wnaed mewn undeb gwladwriaethol, crefol, a theuluaid, gan ddybenu anghydfod a sefydlu cyfeillgarwch. Felly y mae Crist yn cael ei alw yn *Dywysog tangnefedd*, am ei fod, trwy ei aberth a'i gyfyngdod, yn caffael ac yn sefydlu tangnefedd rhwng Duw a dyn; yn iachâu y rhwylgiadau a'r anghydfodau rhwng nef a daear, gan gymodi y ddwy; ac yn dwyn 'gonianant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddyinion ewyllys da.' Y mae ei drigfa yn 'beddwch, llonyddwch, a diogelwch hyd byth.' 5. Y mae Crist yn *llywodraethu* fel Tywysog ac Offeriad y Daw goruchaf, gan lywodraethu mewn cyfiawnder, ac yn gadarn i iachâu; ac y mae yn byw bob amser i eiriol dros, a chwbl iachâu, pawb trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw. Ond pwy oedd y MELCHISEDEC hwn? Y mae y rabbi-iaid Iuddeuwig yn dywedyd mai SEM ydoedd, mab Noa, yr hwn oedd yn *frenin* ac yn *offeiriad* i'r rhai a ddisgynasant oddiwrtho ef, yn ol y drefn batriarchaidd. A rhaid addef ei bod yn debygol fod Sem yn fyw yr amser hwn, a'i fod yn dywysog mawr. Ond gan fod âch a genedigaeith Sem yn cael eu coffâu yn yr ysgythyry, ac yn dra adnabyddus, ni allesid gyda phriodoldeb ddywedyd am dano ef megys ag y dywed yr apostol am Melchisedec, ei fod 'heb dad, heb fam, heb achau, heb fod iddo ddechre dyddiau na diwedd einioes,' h. v. yn *grybwylledig* yn yr hanesiaeth santaidd; ac nid yw mewn un modd yn debygol y buasai i Moses ddwyn Sem i miewu dau yr enw MELCHISEDEC, heb unrhyw resw'n amlwg, na'r crybwylliad lleiaf o'i foddwl. Darfu i lawer o'r ysgrifenywyr Cristionogol dybio fod hwn yn ymrihiad o Fab Duw ei hun, ein Harglwydd Iesu, yn adnabyddus i Abram y pryd hyn wrth yr enw MELCHISEDEC. Ond nid yw y dyb hon yn gyson a'r hyn a gadarnha yr apostol yn yr un lle, Heb. vii. 3, yr hwn a ddywed, nid ei fod yn Fab Duw, eithr ddarfed ei wneuthur yn 'gyfllelyb iddo,' *aphômoioënônos*, yn 'gysgod' o hono; ac nid yw yn gyson

gweledigaeth, gan ddywedyd, Nac ofna, Abram; myfi *ydwy* dy darian, dy wobwr mawr iawn.

â'i ddywediad ddarfed i Grist gael ei 'wneuthur yn Offeriad yn ol urdd Melchisedec.' Heblaw hyn, dywedir fod Melchisedec yn *frenin Salem*; ond yr ydym yn sicr na ddarfu i Grist erioed deymasu ar unrhyw ddinas neillduol fel brenin tymhorol. Ymddengys yn ddigon amlwg ei fod ef yn *wir ddyn*; ond oddiwrth bwy y disgynodd, neu pwy oedd ei rieni neu ei olafiaid, ni welodd Duw yn addas fynegu i ni: 'ie, y mae yn debyg ddarfed iddo guddio y pethau hyn yn fwrtaol oddiwrthym, fel y gallai fod felly yn berffeithiach cysgod o'i dragwyddol Fab. Bu ereill yn meddwl mai yr Ysbyrd Glân ydoedd, neu angel, neu ddyn wedi eu ffurfio o flaen Adda, neu Enoc, Noa, Job, &c.; ond y dychymyngion hyn oedd-ynt offer ac anysgrythyrol. Gwel yn mhellach ar Heb. vii.

PEN. XV. Adn. 1. *Daeth gair yr Arglwydd at Abram mewn gweledigaeth*] Dyma y lle cyntaf yr arddanghosir Duw fel yn ei ddatguddio ei hun trwy ei *air*. Y mae rhai gwyr dysgedig yn barnu fod *debar Yehovah*, a gyfeithir yma *gair yr Arglwydd*, yn meddwl yr un peth a *logos tou Theou* St. Ioan, pen. i. 1; ac fe'i gelwir gan yr alleiriadau Caldeiaid yn yr adran nesaf, *meimeri*, 'fy ngair;' ac mewn lleoedd ereill *meimera daiya*, 'gair *Yeya*,' talfyriad am Jehofa, yr hwn yr ymddengys eu bod hwy bob amser yn ei ystyried fel *person*, a'r hwn a wabaniaethant oddiwrth *pathgama*, pa un a arwydda yn unig *air Ulefareidig*, neu unrhyw ran o ymadrodd. Bu amrai ddychymyngion yn nghylch y modd yr oedd Duw yn datguddio ei ewyllys, nid yn unig i'r patrieirch, eithr hefyd i'r profiwydi, yr efengylwyr, a'r apostolion. Ymddengys ei fod yn cael ei wneuthur wahanol ffyrdd: 1. Trwy *ymrihiad personol* yr Hwn wedi hyn y mngnawdolodd er iachawdwriaeth dynolryw. 2. Trwy *lais hyglyw*, yn cael ei ddylyn weithiau âg ymddangosiadau arwyddocaol. 3. Trwy *weledigaethau*, y rhai a gymerent le naill ai yn y nos mewn cwsg cyffredin, neu pan deffid y personau i lesmar dros ychydig amser llw dydd, neu tra o gylch eu gorchwylion arferol. 4. Trwy *weindogaeth angylion* yn ymddangos mewn cyrff dynol, ac yn cyflawri rhyw wyrthiau i wireddu eu cenadwri. 5. Trwy rymus weithrediad Ysbyrd Duw ar y *meddwl*, yn rhoddi iddo amgyffriediad cryf a darbwylliad goruchw-naturiol o wirionedd y pethau a ganfyddir gan y deall. Cawn weled siamplau o'r rhai hyn oll yn ystod y gwaith. Y mae Clarke ac ereill yn meddwl mai yn y trwydddi ystyr y rhoddwyd y datguddiad yn y testyn. *Nac ofna, Abram*—y mae yn debyg mai y cyfeiriad penaf sydd at ofnan Abram o farw yn *ddiblant*, fel y gellir barnu oddiwrth yr adnod ganlynol; er y gallai ei fod ef yn ofni hefyd rhag i'r pedwar brenin a orchfygasai efe ail syrthio arno. *Myfi ydwy dy darian*—yr wyf fi gyda thi, i'th amddiffyn rhag pob drwg oddiwrth dy gymydogion; *dy wobwr mawr*

2 A dywedodd Abram, Arglwydd Dduw, beth a roddi di i mi? gan fy mod yn myned yn ddiblant, a goruchwiliwr fy nhŷ yw Eleazer yma o Ddamascus.

3 Abram hefyd a ddywedodd, Wele, ni roddaist i mi had; ac wele, fy nghaethwas fydd fy etifedd.

4 Ac wele air yr Arglwydd ato ef, gan ddywedyd, Nid hwn fydd dy etifedd, onid un a ddaw allan o'th ymysgaroedd di fydd dy etifedd.

iawn—i'th fendithio â hiliogaeth, yn gystal a'th gadw rhag dy elynion. Y mae Duw yma yn addaw bod nid yn unig yn *wobruwyr* iddo, ond yn *wobr*: efe ei hun i'w dedwyddwch ei bobl, 'rhan eu hetifeddiaeth, a'u phiol.' Y mae pob peth arall i'r enaid credinol yn rhy fach o bwysau: nid all dim ei foddioni ond mwynhad o Dduw ei hun.

Adn. 2. *Beth a roddi di i mi, gan fy mod yn myned yn ddiblant?* Fel pe dywedasai, Pa hyfyrdwch a allaf fi ei gymeryd mewn bendithion tymhorol, gan fod yr had addawedig yn cael ei attal? gwel pen. xii. 3, a xiii. 15, 16. Y mae Abraham, gan ddeall yr addewid fel yn perthyn i'r person hwnw ag ydoedd i darddu o'i deulu ef, 'yn yr hwn y bendithid holl deuluoedd y ddaear,' yn amlygu ei syndod fod y fath addewid wedi cael ei rhoddi, ac eto ei fod ef yn nghylch marw yn ddiblant! Pa fodd gan hyn y dichon i'r addewid hon gael ei chyflawni, pan, yn mhell oddiwrth had ysbrydol, nad oes ganddo ef gymaint ag un yn ei deulu yn meddu hawl naturiol i'w eiddo? *A goruchwiliwr fy nhŷ yw Eleazer yma o Ddamascus*—nid yw yr esbonwyr yn cytuno pwy oedd hwn. Y mae cyfieithiad y lxx o leiaf yn gywrain: *Mab Masek fy nghartref-amedig forwyn, yr Eleazer yma o Ddamascus*, yw fy etifedd; yr hyn a arwydda eu bod hwy yn meddwl fod *meshek*, yr hwn a gyfieithwn ni yn *oruchwiliwr*, yn enw i gaethforwyn a anesid yn nheulu Abram, o'r hon y ganed yr Eleazer hwn, pa un, ar gyfrif gwlad ei henafiaid, a elwid yn *Ddamasciad*, neu yn un o Ddamascus. Pwy bynag ydoedd, y mae yn debyg fod Abram yn meddwl gadael ei holl eiddo iddo os na chai ef blentyn o Sarai.

Adn. 3. *Wele ni roddaist i mi had*] Nid yn unig ni roddaist *fab*, eithr ni roddaist *had*. Pe cawsai ef *ferch*, gallasai y Messia addawedig ddyfod o honi hi, yr hwn oedd i fod yn had y wraig; ond nid oedd ganddo ef *fab* na merch. *Fy nghaethwas fydd fy etifedd*—y mae yn arferiad eto yn yr India, pan nad oes blant, i'r penteulu fabwysiadu caethwas yn etifedd iddo.

Adn. 4. *Un a ddaw allan o'th ymysgaroedd di fydd dy etifedd*] Felly nid oedd Eleazer yn ordderch-fab i Abram, fel y meddyliodd rhai.

Adn. 5. *Golyga yn awr y nefoedd, a rhif y ser, o gelli eu cyfrif hwynt*] Ymddengys i'r holl orchwyliaeth yma gymeryd lle yn y cyfnos: gwel ar pen. xiii. 14. Naill ai cafodd Abram ddwy weledigaeth, meddai Clarke, yr un a goffeir yn adn. 1, a'r un yn adn. 12, &c.;

5 Ac efe a'i dyg ef allan, ac a ddywedodd, Golyga yn awr y nefoedd, a rhif y ser, o gelli eu cyfrif hwynt: dywedodd hefyd wrtho, Felly y bydd dy had di.

6 Yntau a gredodd yn yr Arglwydd, ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder.

7 Ac efe a ddywedodd wrtho, Myfi yw yr Arglwydd, yr hwn a'th ddygais di allan o Ur y Caldeaid, i roddi i ti y wlad hon i'w hetifeddu.

8 Yntau a ddywedodd, Arglwydd

neu y mae yr hyn a grybwyllir yn nechre y bennod hon yn rhan o'r dygwyddiadau a gymerasant le ar ol yr aberthiad a grybwyllir yn adn. 9, &c. Eithr y mae yn debycach fod *un* weledigaeth o'r fath ag a ddarlunwyd eisioes, ac wedi hyn yn *arall*, yn yr hon y derbyniodd efe y datguddiad a grybwyllir adn. 13—16. Ar ol y weledigaeth gyntaf, y mae efe yn cael ei ddwyn allan i edrych a fedr ef gyfrif y ser; a chan ei fod yn cael hyn yn amhosibl, sicrheir iddo, megys ag y maent hwy iddo ef yn aneirif, y byddai ei hiliogaeth ef felly; ac y byddai iddynt oll ddeilliaw oddiwrth un a ddeuai o'i ymysgaroedd ef—un a fyddai yn blentyn cyfreithlon iddo ef ei hunan.

Felly y bydd dy had di—1. *Mor aneirif*, canys felly y mae y ser yn ymddangos i olwg cyffredin. Yr oedd Abram yn ofni na chai ef un plentyn oll, eithr dywed Duw wrtho y cai ei hiliogaeth fod mor aml fel nas gellid eu cyfrif. 2. *Mor ardderchog* a ser y nef o ran gogoneddusrwydd; canys 'eiddo y rhai yw y gogoniant,' Rhuf. ix. 4. Yr oedd had Abram yn ol y cnawd fel *lwech y ddaear*, pen. xiii. 16; eithr ei had ysbrydol ydynt fel *ser y nef*.

Adn. 6. *Yntau a gredodd yn yr Arglwydd*] Hyn yw, a gredodd wirionedd yr addewid hōno a wnaethai Duw yn awr iddo ef, gan ymorrhyswys ar allu a fyddlondeb yr hwn a'i gwnaeth hi. Gwel fel y mae yr apostol yn mawrygu y fydd hon o eiddo Abram, ac yn ei gwnenthr hi yn anghraifft sefydlog, Rhuf. iv. 19—21. *Ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder*—hyn yw, ER cyfiawnder, neu yn *foddion* ei gyfiawnhad, Rhuf. iv. 3. Ar gyfrif y fydd hon, yr hon oedd yn coffeiddo yr Had addawedig, cymeradwywyd ef gan Dduw fel un cyfiawn. Y mae fydd eto yn cael ei chyfrif, yn gyfiawnder, neu ER *cyfiawnhad*, i bob credadyn yn Nghrist, sef fydd yn nghyfiawnder Crist; neu, mewn geiriau eglurach, y mae pob credadyn yn cael maddenant a chymeradwyeth gyda Duw yn unig er mwyn yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd yr Arglwydd Iesu.

Adn. 7. *Ur y Caldeaid*] Gwel ar pen. xi. 31. *I roddi i ti y wlad hon i'w hetifeddu*—gwel ar pen. xiii. 15, 17.

Adn. 8. *Yntau a ddywedodd, Arglwydd Dduw*] Heb. *Adonai Yehovah*, 'fy Arglwydd Jehofa.' *Adonai* yw y gair ag y mae yr Iuddewon bob amser wrth ddarlenn yn ei roddi am JEHOFA, gan y cyfrifant fod yn annwviol traethu yr enw hwn. *Trwy ba beth y caf wybod yr etifeddf hi?*—trwy ba ARWYNN y sicrheir i mi y caf etifeddu y wlad

Dduw, trwy ba beth y caf wybod yr etifeddaf hi?

9 Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer i mi anner dair blwydd, a gafr dair blwydd, a hwrdd tair blwydd, a thurtur, a chyw colomen.

10 Ac efe a gymerth iddo y rhai hyn oll, ac a'u holltodd hwynt ar hyd eu canol, ac a roddodd bob rhan ar gyfer eu gilydd; ond ni holltodd efe yr adar.

11 A phan ddisgynai yr adar ar y

celaneddau, yna Abram a'u tarfai hwynt.

12 A phan oedd yr haul ar fachludo, y syrthiodd trymgwsg ar Abram; ac wcle ddychryn, a thywyllni mawr, yn syrthio arno ef.

13 Ac efe a ddywedodd wrth Abram Gan wybod gwybydd, y bydd dy had di yn ddyceithr mewn gwlad nid yw eiddynt, ac a'u gwasanaethant, a hwythau a'u cystuddiant bedwar can mlynedd.

hon? Nid oedd y gofyniad hwn yn tarddu oddiar anhyder yn ngallu ac addewid Duw; ond yr oedd Abram yn ewyllsio cael arwydder cryfhad pellach i'w fydd ei hun, ac er sierbad o'r addewid i'w hiliogaeth ef, fel y gallent hwythau hefyd ei chredu.

Adn. 9. *Cymmer i mi anner, &c.*] Dichon fod Abram yn dysgwyl rhyw arwydd o'r nef; ond y mae Duw yn rhoddi iddo arwydd ac aberth. Rhaid i'r rhai sydd am gael sierwydd o ffaf Duw, ddylyn yr ordinhadan gosodedig, a dysgwyl cyfarfod â Duw ynddynt. Y mae yn deilwng o sylw, fod pob anifel a oddefid neu a orchymynid ei aberthu dan y gyfraith Foesenaidd i'w gael yn y gofrestr hon. Ac onid yw hyn yn brawf fod Duw yn awr yn rhoddi i Abram *grymodeb* o'r gyfraith hono a'i haberthau, yr hon yr oedd ef yn bwriadu ei datguddio yn llawnach i Moses, sylwedd yr hon oedd gynwysedig yn ei haberthau, y rhai a gygodent 'Oen Duw yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd?' Ioan i. 29.

Adn. 10. *Ac a'u holltodd hwynt ar hyd eu canol.*] Yr hon oedd yr hen drefn o wneuthur cyfammodau, Jer. xxxiv. 18, 19. Y mae y gair *cyfammod*, neu *gyd-ammod*, yn arwyddo dryw neu fwy o bleidiau wedi dyfod yn nghyd, a phob un yn gwneuthur *ammod*. Rabbi Solomon Jarchi a ddwyed, 'Yr oedd yn arferiad i'r rhai a fyddent yn myned i gyfammod â'u gilydd gymeryd anner, a'i hollti yn ddwy, ac yn y pleidiau cyfammodol a aent rhwng y rhanau.' Y mae cyfammod bob amser yn meddwl un o'r pedwar peth hyn: 1. Fod y pleidiau cyfammodol hyd yn hyn yn *anadnabyddus* i'w gilydd, a darfod eu dwyn trwy y cyfammod i gyflwr o *adnabyddiaeth*. 2. Eu bod o'r blaen mewn cyflwr o *elyniacth*, a darfod eu dwyn trwy y cyfammod i gyflwr o *heddychiad*. 3. Neu, trwy fod yn adnabyddus i'w gilydd, eu bod yn awr yn cydsynio i'w cyghor, eu nerth, eu heiddo, &c.' i gyflawni bwriad neillduol, yr un mor llesol i'r ddwy blaidd. Neu, 4. Y mae yn cynwys cydsyniad i gynorthwyo ac amddiffyn y *drydedd blaidd*, mewn achosion o wasgfa a chyfyngder. I ba ddyben hynag y gwneid cyfammod, cadarnheid ef bod amser trwy aberth yn cael ei offrwng i Dduw; ac ymddengys fod myned rhwng rhanau gwahanedig yr aberth yn arwyddo fod pob un yn cydsynio, os torent eu hyrwyddiaid, i ymostwng i'r gosg o gael eu *gwahanu*; yr hyn y dysgwyr oddiwrth Mat. xxiv. 51, Luc xii. 46, ei fod yn hen ddull o gopsi. Yr oedd hyn yn arferiad yn mysge y Rhufeiniaid, y Caldeaid, a'r Pers-

iaid: gwel Dan. ii. 5, a iii. 29; 2 Sam. xii. 31. *Ond ni holltodd efe yr adar*—hynny yw, ni *wahanodd* efe yr adar. Yn ol y gyfraith wedi hyn, Ief. i. 17, nid oedd yr adar i gael eu *gwahanu*, ond yn unig eu hagog, i'r dyben i gael y perffedion allan.

Adn. 11. *A phan ddisgynai yr adar*] *Haayit*, 'adar ysglyfaethus,' ar y *celaneddau*—i'w difa hwynt; *yna Abram*—yr hwn a safai wrth ei aberth yn dysgwyl am yr amlygiad o Dduw, yr hwn a orchymynasai iddo barotoi erbyn cadarnhad y cyfammod, *a'u tarfai hwynt*—neu a'u gyrai ymaith, rhag iddynt halogi na difa yr hyn a gysegresid fel yna i Dduw.

Adn. 12. *A phan oedd yr haul ar fachludo*] Neu ar *godi*, fel y mae Montanus yn ei gyfieithu, a Coke ac ereill yn ei ddeall; hynny yw, ar ol i Abraham fod trwy y nos yn parotoi yr ebyrth, ar ol iddo fod yn golygu y ser, adn. 5. *Syrthiodd trymgwsg ar Abram*—*tardemah*, yr un gair ag arferir am y cwsg i'r hwn y bwriadwyd Adda yn flaenorol i ffurfiad Efa, pen. ii. 21. Nid cwsg gyffredin trwy flinder neu ddiofalwch ydoedd, ond perlewgy goruwelnaturol; fel y byddai iddo ef, ar ol cael ei gymeryd ymaith yn hollol oddiwrth bethau teimladwy, gael ei lyncu i fyny yn gwbl gyda'r myfyrdod am bethau ysbrydol. *Ac wcle ddychryn a thywyllni mawr yn syrthio arno ef*—yr hyn a fwriadai Duw i fod yn ddarluniadol o'r cystudd a'r trueni ag y dygid ei hiliogaeth ef iddynt yn ystod y pedwar can mlynedd o'u caethiwed yn yr Aifit, fel y mae yr adnod nesaf yn nodi yn neillduol.

Adn. 13. *Bydd dy had di yn ddyceithr*] Felly yr oedd yntaf yn Nghanaan, Salm cv. 12, ac wedi hynny yn yr Aifit: cyn eu bod yn arglwyddi ar eu gwlad eu hunain, yr oedd ynt yn ddyceithriaid mewn gwlad estronol. *Ac a'u gwasanaethant*—felly y gwasanaethasant yr Aiffitiaid, Exod. i. 13. Gwelwng fel y mae yr hyn oedd yn gosg i'r Canaanaid, pen. ix. 25, yn profi yn gyfyngder i had Abram; ond gyda hyn o wahaniaeth, fod y Canaanaid yn gwasanaethu dan feiddith, y Hebraid dan fendith. *A hwythau a'u cystuddiant*—gwel Exod. i. 11. Y mae y rhai sydd fendigedig ac anwyl gan Dduw yn cael eu cystuddio yn fynych gan ddynion drygonus. *Bedwar can mlynedd*—y rhai a ddechreasant, meddai Ainsworth, pan y darfu i Ismael, mab Agar yr Aiffites, watwar ac erlid Isaac, pen. xxi. 9, Gal. iv. 29; yr hyn a ddygweddodd 30 mlynedd ar ol yr addewid, Gen. xii. 3; pa addewid oedd 430 o flynyddoedd

14 A'r genhedlaeth hefyd yr hon a wasanaethant, a farnaf fi: ac wedi hynny y deuant allan â chyfoeth mawr.

15 A thi a âi at dy dadau mewn heddwch: ti a gloddir mewn henaint teg.

16 Ac yn y bedwaredd oes y dychwelant yma; canys ni chyflawnwyd eto anwiredd yr Amoriaid.

17 A bu pan fachludodd yr haul, a hi yn dywyll, wele ffwrn yn mygu, a lamp danllyd yn tramwyo rhwng y darnau hynny.

18 Yn y dydd hwnw y gwnaeth yr Arglwydd gyfammod âg Abram, gan

ddywedyd, I'th had di y rhoddais y wlad hon, o afon yr Aifft hyd yr afon fawr, afon Euphrates:

19 Y Ceneaid, a'r Ceneziaid, a'r Cadmoniaid,

20 Yr Hethiaid hefyd, a'r Phereziaid, a'r Rephaimiaid,

21 Yr Amoriaid hefyd, a'r Canaancaid, a'r Girgasiaid, a'r Jebusiaid.

PENNOD XVI.

SARAI hefyd, gwraig Abram, ni phlantasai iddo; ac yr ydoedd iddi forwyn o Aiffes, a'i henw Agar.

2 A Sarai a ddywedodd wrth Ab-

cyn y ddeddf, Gal. iii. 17: ac yn mhen 430 o flynyddoedd ar ol yr addewid hono y daeth Israel allan o'r Aifft, Exod. xii. 41.

Adn. 14. *A'r genhedlaeth hefyd yr hon a wasanaethant, a farnaf fi, &c.*] Mor hynod y cyflawnwyd y bygythiad hwn yn mhlâu a dinstyr yr Aiffiaid, ac yn y *cyfoeth mawr* a ddygodd yr Israëliaid allan o'r Aifft! Nid oes un bygythiad wedi ei gyflawni yn fwy llythyrenol i'w gael yn yr holl ysgrythrau.

Adn. 15. *A thi a âi at dy dadau mewn heddwch*] Y mae yr adnod hon yn gosod allan yn gryf anfarwoldeb yr enaid, a chyflwr o fod-aeth ysgaredig. Efe a gasglwyd at ei dadau, neu a ddygwyd i'r fan lle y mae ysbrydion ysgaredig y saint yn cael eu cadw, yn dysgwyl am yr adgyfodiad cyffredinol. *Ti a gloddir mewn henaint teg*—yn 175 mlwydd oed, pen. xxv. 8. Y mae mynediad Abram at ei dadau yn cael ei wahaniaethu yma oddiwrth ei gladdedigaeth; a chan na cafodd ei gorff ei gladdu yn meddrod ei dadau, rhaid fod y testyn yn cynwys y cai ei enaid gymdeithasu gyda hwy yn mharadwys. Dyma gan hynny addewid o fywyd ac anlygredigaeth, yr hyn wedi hynny a gyflawn eglurwyd trwy adgyfodiad ein Harglwydd oddiwrth y meirw, a'i esgyniad i ogoniant. Gwel ar pen. xxv. 8.

Adn. 16. *Ac yn y bedwaredd oes y dychwelant yma*] I wlad Canaan, lle yr oedd Abram yn awr. Y mae yn debyg fod y 'bedwaredd oes' yma yn meddwl yr un peth a'r 'pedwar can mlwydd' yn yr adnod flaenorol. Y mae rhai yn meddwl eu bod yn cyfeirio at yr amser pryd y daeth Eleazar, mab Aaron, fab Amram, fab Cohath, allan o'r Aifft, ac y rhanodd efe wlad Canaan i Israel, Jos. xiv. 1; a thybia ereill mai pedwaredd oes yr Amoriaid a feddylir. *Canys ni chyflawnwyd eto anwiredd yr Amoriaid*—y mae yr Amoriaid yn cael eu rhoddi yma am holl drigolion Canaan, am mai hwynt-hwy ond odid oeddynt y rhai cryfaf. Oddiwrth y geiriau hyn ni a ddysgwn fod mesur penodol o auwired at yr hwn y gall cenhedloedd gyraedd, a thuhwnt i'r hwn nid yw dwyfol gyfiawnder yn goddef iddynt fyned. Dywedodd ein Harglwydd wrth yr Iuddeon, 'Cyflawnweh chwithau hefyd fesur eich tadau,' Mat. xxiii. 32. Yr anherodraeth Assyriaid a bwyswyd yn y clorianau, rliwyd ei blynyddoedd, a'i gallu a orphenwyd, Dan. v. 27. Y mae dwyfol gyfiawnder yn

cael ei weinyddu wrth reol, wrth bwys, ac wrth fesur; ac y mae cosp y rhai drygionus yn sicr o gymeryd lle.

Adn. 17. *Wele ffwrn yn mygu, a lamp danllyd yn tramwyo rhwng y darnau*] Y mae yn debyg y gallai y ffwrn yn mygu fod yn arwyddlun o gystuddiau chwervon yr Israëliaid yn yr Aifft; ond y lamp danllyd ydoedd yn ddau yn gysgod o'r presenoldeb dwyfol, pa un, gan dramwyo rhwng y darnau, oedd yn cadarnhau y cyfammod âg Abram, fel y nodir yn yr adnod ddylynol. Y mae yn dra thebyg, meddai Coke, ddarford i'r lân ag ydoedd yn tramwyo rhwng y darnau ysu yr aberth.

Adn. 18. *Yn y dydd hwnw y gwnaeth yr Arglwydd gyfammod âg Abram*] Y mae carath berith yn arwyddo tori cyfammod, neu yn hytrach yr aberth cyfammodol; canys megys nad oedd un cyfammod yn cael ei wneuthur heb aberth, a bod y creadur yn cael ei dori yn ddau fel y gallai y pleidiau cyfammodol fynes rhwng y darnau, am hynny yr oedd tori cyfammod yn arwyddo gwneuthur cyfammod. *O afon yr Aifft*—tybia Clarke mai nid y Nilus a olygir, ond yr afon a elwir *Sihor*, yr hon oedd o flaen neu ar *derfyn* yr Aifft, yn agos i gyfngdir Suez; gwel Jos. xiii. 3; er y tybia rhai mai cangen o'r Nilus a feddylir. Cafodd yr addewid hon ei chwbl gyflawni yn nyddiau Dafydd a Solomon: gwel 2 Sam. viii. 3, &c., a 2 Cron. ix. 26.

Adn. 19—21. *Y Ceneaid, &c.*] Y mae yma ddeg cenedl yn cael eu crybwyll, er na chyfrifir hwynt wedi hyn ond *saith*, Deut. vii. 1, Act. xiii. 19: Y mae yn debyg ddarford i rai o honyng ag oeddynt yn bodoli yn amser Abram gael eu cymysgu âg ereill cyn amser Moses, fel nad oedd ond *saith* yn unig o'r *deg* yn aros y pryd hynny. Gwel rai o honyng dan sylw, pen. x.

PEN. XVI. Adn. 1. *Yr ydoedd iddi forwyn o Aiffes, a'i henw Agar*] Gan mai Aiffes oedd Agar, y mae dychymyrg Chryssoston yn dra thebygol, ei bod hi yn un o'r caethorwynion hynny a roddwyd gan Pharao i Abram pan yr oedd ef yn ymdaith yn yr Aifft, pen. xii. 16. Y mae ei henw Agar yn arwyddo *estrones*; ac y mae yn debyg iddi gael yr enw hwn yn nbeulu Abram, gan fod y gair yn Hebraeg bur.

Adu. 2. *Dos, atolwg, at fy llawforwyn*] Ni

ram, Wele yn awr, yr Arglwydd a luddiodd i mi blanta : dos, atolwg, at fy llawforwyn; fe allai y cair i mi blant o honi hi : ac Abram a wrandawodd ar lais Sarai.

3 A Sarai gwraig Abram, a gymerodd ei morwyn Agar yr Aiffes, wedi trigo o Abram ddeng mlynedd yn nhir Canaan, a hi a'i rhoddes i Abram ei gwŕ yn wraig iddo.

4 ¶ Ac efe a aeth i mewn at Agar, a hi a feichiogodd : a phan welodd hithau feichiogi o honi, yr oedd ei meistres yn wael yn ei golwg hi.

ddyldid anghofio fod caethforwynion yn cyfansoddi rhan o etifeddiaeth y wraig, a bod ganddi hawl, yn ol arferiad yr amseroedd hyny, i'w llywodraethu hwy fel y mynai, heb fod gan y gwŕ yn awdurdod yn yr achos. *Fe allai y cair i mi blant o honi hi*—trwy fod y gaethes yn gwbl yn eiddo ei meistres, yr oedd nid yn unig ei pherson, ond ffrwyth ei llafur, yn nghyda'i holl blant, yn eiddo iddi hefyd: felly, yr oedd y plant a aned o honi yn cael eu hystyried megys plant y feistres. Ar y tir hwn y rhoddes Sarai ei chaethes i Abram; ac yr ydym yn cael ddarfod i gynhenau ac ymrysonau gymeryd lle, yr hyn a raid fod y canlyniad yn mhob achos o amlwreigaeth. *Ac Abram a wrandawodd ar lais Sarai*—yr hyn, er y gellir ei esgusodi, nis gellir ei gyfiawnhau. Sarai, trwy ei bod yn awr yn 75 mlwydd oed, ac wedi bod ddeng mlynedd yn ngwlad yr addewid, a ddechreuodd amau y byddai iddi hi gael hiliogaeth; a chan hyny, yn dra awyddus am yr *had addawedig*, y mae yn erchi i'w gwŕ gymeryd ei llawforwyn Agar, fel y gallai gael plant o honi hi. Abram, gan ei fod yn ddiamau yn llawn mor awyddus am hiliogaeth, a gydsyniodd â chais ei wraig, ac a gymerodd yr is-wraig hon; yr hyn, er ei fod yn groes i sefydliad gwreiddiol priodas a phurdeb yr efengyl, a ymddengys i fod yn cael ei oddef yn yr amseroedd hyny. Y mae yn addas sylwi, nas gellir meddwl ddarfod i Abram, ar ol parhau yn flyddlon i'w wraig Sarai hyd onid oedd ef yn 85 mlwydd oed, weithredu oddiar unrhyw chwantuan anaddas, ond gyda'r unig ddymunniad i fod yn *dad* i'r had addawedig : a chan nad oedd no datgunddiad neillduol wedi ei roddi iddo eto mai Sarai a gai fod yn *fam* i'r had hwn, hwyrach y gallai ef feddwl y byddai i Dduw gyflawni ei fwriad trwy Agar, ac am hyu ei fod yn fwy parod i gydsynio â chynnygiad Sarai.

Adn. 3. *A Sarai—'a'i rhoddes i Abram ei gwŕ yn wraig iddo*] Trwy ei bod yn gyfraith arferedig fod yn rhaid i BATHRARCH gael plant, rhoddi caethforwynion yn fynych gyda'r briodferch, fel, os na cheid had o honi hi, y gallai y forwyn ddwyn plant i'w meistres. Y mae hyn yn arferiad hyd heddyw yn mhlith yr Hindŵaid: gwel *Ward*.

Adn. 4. *Yr oedd ei meistres yn wael yn ei golwg hi*] Mor gynted ag y mae Agar yn canfod ei bod yn feichiogi, y mae yn dechren edrych yn ysgornllyd ar ei meistres; ac fe

5 Yna y dywedodd Sarai wrth Abram, *Bydded fy ngham i arnat ti*: mi a roddais fy morwyn i'th fynwes, a hithau a welodd feichiogi o honi, a gwael ydwyf yn ei golwg hi: barned yr Arglwydd rhyngof fi a thi.

6 Ac Abram a ddywedodd wrth Sarai, Wele dy forwyn yn dy law di: gwna iddi yr hyn a fyddo da yn dy olwg dy hun: yna Sarai a'i cystuddiodd hi, a hithau a fodd rhagddi hi.

7 ¶ Ac angel yr Arglwydd a'i cafodd hi wrth ffynnon ddwfr, yn yr anialwch, wrth y ffynnon yn ffordd Sur:

allai yn dannod iddi ei hanffrwythlondeb, gan ei difrio. Yr oedd yn meddwl y cai hi bellach nid yn unig ddwyn etifedd i holl feddianau Abram, ond hefyd sefyll yn mlaenaf yn ei serch ef.

Adn. 5. *Yna y dywedodd Sarai wrth Abram, Bydded fy ngham i arnat ti*] Neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, *y mae fy ngham i arnat ti*—y mae y niwed ag yr wyf yn ei dderbyn yn deilliaw oddiwrthyt ti; neu, fel y mae ereill yn ei ddeongli, 'y mae genyf destyn achwyniad yn dy erbyn di, yr hwn y medri di ei wella: dy serch gormodol at Agar yw y rheswm fy mod i yn cael fy niystyrw a'm difrio ganddi.' *Barned yr Arglwydd rhyngof fi a thi*—yr wyf yn apelio at Dduw am gyfiawnder fy achos, ac yr wyf yn gofyn diwygiad oddiwrthyt tithau, gan y byddi yn atebol i'n Barnydd cyffredin. Nid yw y rhai hyny ag sydd barotaf i apelio at Dduw bob anser yn yr iawn; ac y mae melldithiadau byrbwyll a hyf yn brofion yn gyffredin o enogrwydd ac achos drwg.

Adn. 6. *Wele dy forwyn yn dy law di*] I symud pob amheuaeth o'r fath yma, y mae Abram yn rhoddi Agar i fyny i law Sarai, yr hon yn ddiaw oedd dan ei nawdd ef tra yn ordderch-wraig neu yn is-wraig iddo: eithr yr hawl yma a roddwyd iddo gan Sarai a adfer efe, i attal ei drwgdybbian a'i hanesmwythder. Er fod Agar yn wraig iddo, ni chefogai efe hi mewn dim ag ydoedd yn anmharchus i Sarai. Rhaid i'r rhai a fyanat gadw i fyny heddwch a chariad ddychwelyd atebion tyner i gyhuddiadau celyd: yn enwedig dylai gwŕ a gwragedd ymdrechu i beidio bod yn ddig ar unwaith. *Yna Sarai a'i cystuddiodd hi*—y mae y gair Hebreig, *teanneha*, yn arwyddo *gwialenodiadau a thriniaeth galed*, i ddarostwng y corff ac iselu y meddwl. Os yw y forwyn i'w beio yn yr achos hwn, nid yw y feistres yn llai agored i gerydd; canys hi yn unig a ddygasai Agar i'r amgylchiadau hyny, yn y rhai yr oedd yn naturiol iddi ei phrisio ei hun uwchlaw ei meistres. *A hithau a fodd rhagddi hi*—nid yn unig gochelodd ei llid am yr anser, ond llwyr encillodd o'i gwasanaeth.

Adn. 7. *Ac angel yr Arglwydd a'i cafodd hi*] Ddarfod i IESU GRIST, mewn corff cyfatebol i nrdaraswydd ei natur, ymddangos yn fynych i'r patricierch, a awgrynwyd eisioes; a bod y person a grybwyllir yma yn fwy nag unrhyw fod credeig sydd ddigon am-

8 Ac efe a ddywedodd, Agar, morwyn Sarai, o ba le y daethost? ac i ba le yr ai di? A hi a ddywedodd, Ffoi yr ydwyf fi rhag wyneb fy meistres Sarai.

9 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrthi, Dychwel at dy feistres, ac ymddarostwng tan ei dwylaw hi.

10 Angel yr Arglwydd a ddywedodd hefyd wrthi hi, Gan amlhau yr amlhaf dy had di, fel na rifir ef o luosogrwydd.

lwg oddiwrth yr adnodau canlynol: gwel yr adfeddyliadur. *Wrth y ffynnon yn ffordd Sar*—ymddengys fod Agar yn awr yn myned tua'i gwlad ei hun, canys yr oedd hi yn ffordd Sar, yr hon oedd rhwng Hebron a'r Aifft. Byddai yn dda pe byddai i'n cystuddiau ninaw wneyd i ni feddlw mwy am ein cartref nefol, y wlad well. Ond yr oedd Agar yn awr allau o ffordd ei dyledswydd, ac yn myned yn mbellach ar gyfeiliorn pan y cafodd yr angel hi. Trugaredd fawr ydyw cael ein hattal mewn ffordd bechadurus, naill ai gan gydwyt-bod neu ragluniaeth.

Adn. 8. *Ac efe a ddywedodd, Agar, morwyn Sarai*] Cyferchir hi fel hyn, 1. I ddangos iddi ei bod yn *adnabyddus*. 2. I geryddu ei balchder: er ei bod yn wraig i Abram, eto y mae ef yn ei galw yn *forwyn Sarai*, i'w darostwng hi. 3. I fod yn sen i'w ffiodigaeth: dylai *morwyn Sarai* fod yn *mhabel Sarai*, ac nid yn crwydro yr yn anialwch. *I ba le yr ai di?*—ystyria dy fod yn rhedeg ymaith oddiwrth y dyledswydd ag yr oeddit yn rhwym ynddi, a'r breintiau ag y bendithiwyd di â hwynt yn mhabel Abram. *Ffoi yr ydwyf fi rhag wyneb fy meistres*—y mae yn cydnabod ei bai yn ffoi oddiwrth ei meistres; ac eto yn ei esgusodi, trwy ddywedyd mai ffoi yr ydoedd *rhag wyneb*—neu anfoddlonrwydd, ei meistres.

Adn. 9. *Dychwel at dy feistres*] Dos adref, ac ymostwng am yr hyn a wnaethost o'i le, ac o hyn allan penderfyna ymddwyn yn well.

Adn. 10. *Gan amlhau yr amlhaf dy had di*] Y mae yr angel yn llefaru yma gyda'r holl awdurdod hwnw ag sydd yn briodol i Dduw, ac nid fel un yn cario cenadwri dros arall: 'Gan amlhau yr amlhaf fi.' *Fel na rifir ef o luosogrwydd*—darfu i'r Hagareniaid, y Saraceniaid, ac amrai lwythau ereill o Arabiaid, ddisgyn oddiwrth Ismael; ac y maent oll wedi bod, ac eto yn parhau yn bobl fawr.

Adn. 11. *Ac a elwi ei enw ef Ismael*] *Yishmael*, oddiwrth *shama*, efe a glybu, ac *El*, Duw; canys, ebai yr angel, YR ARGLWYDD A GLYBU DY GYSTUDD DI. Fel hyn rhaid i enw y plentyn gadw y *fam* bob amser mewn cofiadwriaeth o gyfngiad trugarog Duw ar ei rhan, ac adgofio i'r *plentyn* a'r *dyn* ei fod yntau yn wrthdridych daioni grasol a rhagluniaethol Duw. Dylai y prawf a gawsom o diriondeb prydlon Duw mewn cyfyngder, ein cefnogi i obeithio am help cyffelyb mewn cyfyngderau cyffelyb. Hyd yn nod lle nad oes fawr o lef gweddi, y mae y Duw tosturiol yn fynych yn gwraudaw llef cystudd; canys

11 Dywedodd angel yr Arglwydd hefyd wrthi hi, Wele di yn feichiog, a thi a esgori ar fab, ac a elwi ei enw ef Ismael: canys yr Arglwydd a glybu dy gystudd di.

12 Ac efe a fydd ddyn gwyllt, a'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau; ac efe a drig gerbron ei holl frodyr.

13 A hi a alwodd enw yr Arglwydd, yr hwn oedd yn llefaru wrthi, *Ti, O Dduw*, wyt yn edrych arnaf fi: canys

y mae dagrau yn llefaru weithiau yn gystal a gweddian.

Adn. 12. *Ac efe a fydd ddyn gwyllt*] Neu, fel y mae Bochart yn ei gyfieithu, 'efe a fydd cyn wyllted a'r *asyn gwyllt*.' Ond pa beth yw natur yr anifel i'r hwn y cydmerir Ismael mor neillduol? Nis gellir ei ddarlunio yn well nag yn ngeiriau Job, xxxix. 5—8: 'Pwy a ollyngodd yr asyn gwyllt yn rhydd? neu pwy a ddattododd rywman yr asyn gwyllt? Yr hwn y gosodais yr anialwch yn ddyddo, a'r diffaethwch yn drigfaiddo. Efe a chwarrd am ben lluwys tref: ni wrendy ar lais y geilwad. Cilfachau y mynyddoedd yw ei borfa ef, ac efe a chwilia am bob glaswelltyn.' Ni all dim fod yn fwy darluniadol o fywyd *crwydredig, digyfraith, ac yspeilgar* yr Arabiaid na hyn; a phwy bynag a ddarllenodd neu a wybu ddim am y bobl hyn, a w'r mai dyma eu gwir gymeriad. Y mae y wlad ag y gellir dywedyd yn briodol fod hiliogaeth Ismael yu ei meddianu, yn cyraedd o Aleppo i fôr Arabia, ac o'r Aifft i forgainc Persia; rhan o dir nid llai na 1800 o filldroedd o hyd, wrth 900 o led. *A'i law yn erbyn pawb*—dyma ei bechod; a *llaw pawb yn ei erbyn yntau*—dyma ei goshp. Darfu i amrai benaduriaid yn mhlith yr Abyssiniaid, y Persiaid, yr Aifftiaid, a'r Tyrciaid, ymdrechu i oresgyn yr Arabiaid crwydredig neu wylltion; ond er iddynt gael buddugoliaethau o fyr barhad, buont o'r diwedd yn aflwyddiannus. Sesostri, Cyrus, Pompey, a Trajan, a geisiasant oll orchfygu Arabia, ond yn ofer. O'r dechre hyd heddyw hwy a gadwasant eu hannibyniaeth; ac y mae Duw yn eu cadw fel cofgolofn barhaus o'i ofal rhagluniaethol, ac fel rheswm anwadadwy dros wirionedd y datguddiad dyfodol. Pe na buasai gan Bumillyr Moses un rheswm arall dros ei ddywyfoll wreiddyn, fel y sylwa Clarke, byddai i hanes Ismael, a'r broffwydoliaeth am ei hiliogaeth ef, wrth eu cymharu gyda'u hanes a'u dull o fyw am yn agos i bedair mil o flnyddau, fod yn ddiogol. *Ac efe a drig gerbron ei holl frodyr*—er ei fygwth a'i ddirmygu gan ei holl gymydogion, efe a saif ei dir; ac, er mwyn Abram yn fwy nag er ei fywn ei hun, bydd yn alluog i'w gwrthsefyll: gwel ar pen. xxv. 18.

Adn. 13. *A hi a alwodd enw yr Arglwydd*] 'Hi a ymbiliodd (*vattikra*) âg enw Jehofa yr hwn a lefarai wrthi,' fel hyn: *Ti, O Dduw, wyt yn edrych arnaf fi!* Hi a ddeallodd i lygad y Duw trugarog fod arni yn ei holl grwydriadau a'i chystuddiat; ac ymddengys fod ei geiriau yn llefarwyddo, meddai Clarke,

dywedodd, Oni edrychais yma hefyd ar ol yr hwn sydd yn edrych arnaf?

14 Am hyny y galwyd y ffynnon Beer-lahai-roi: wele, rhwng Cades a Bered y mae hi.

15 ¶ Ac Agar a ymddyg fab i Ab-

ddarfod iddi hithau fod yn ceisio y cymhorth a'r amddiffyniad dwyfol; canys hi a ddywed, *Oni edrychais yma hefyd ar ol yr hwn sydd yn edrych arnaf?* Y mae y rhan ddiweddaf yma o'r adnod yn dra thywyll, ac yn cael ei chyfieithu yn wahanol yn yr holl gyfieithiadau, a'i deall yn wahanol gan yr holl esbonwyr. 'Y mae yn debyg na wyddai hi pwy oedd yr hwn a ymddyddanai â hi hyd nes yr oedd yn ymadael, ac yna ddarfod iddi edrych ar ei ol ef gydag adfyfriad tebyg i eiddo y ddau ddysgybl, Luc xxiv. 31, 32. *Yma hefyd*—nid yn unig yn mhabel Abram, ac wrth ei allor ef; ond *yma hefyd*, yn yr anialwch hwn; yma, lle na ddarfu i mi erioed ei ddysgwyl, a lle yr oeddwn allan o lwybr fy nyledswydd.'—BENSON. 'A gefais i Dduw yma hefyd yn yr anialwch, megys ag y ceifais ef yn fynych cyn hyn yn nhŷ fy meistr?'—TRAPP. 'Gellid darllen y geiriau, A welais i y tu cefn i'r hwn sydd yn fy ngweld i?'—HENRY. 'Darfu i Dduw nid yn unig ofalu am danaf yn nhŷ fy meistr, eithr dylynodd fi â'i gymwngasgarwch hyd yn nod yma.'—CLAPHAM. 'Tydi wyt Dduw gweliedigaeth; canys dywedodd, A edrychais i yma hefyd am weledigaeth?'—LIGHTFOOT. 'A ydwyf fi hyd yn nod yma yn *gwelied* (hyny yw, yn fyw, ac yn defnyddio fy synwrau) *ar ol fy ngweliedigaeth*—ar ol gwelied y Duw a ymddanghosodd i mi? Hwn yw deongliad NOLDIUS, ac fel hyn y dylai y geiriau gael eu cyfieithu.'—COKE. 'Yr ystyr cyffredin a gymerir allan o honi yw hyn; fod Agar yn awr wedi ei hargyhoeddi ddarfod i Dduw ei hun ymddangos iddi, ac yn rhyfeddu yn ngwynneb hyn ei bod yn barhaus yn cael ei goddef i fyw; canys tylir yn gyffredin, os bydd i Dduw ymddangos i neb, y rhaid iddynt gael eu dyfetha gan ei ogoniant. Cyfeirir at hyn yn fynych yn yr ysgrifthyrau santaidd. Gan fod y gair *acharey*, yr hwn a gyfieithwn ni ar ol, yn arwyddo mewn lleoedd ereill y *dyddiau diweddf*, neu *amseroedd ar ol*, (gwel ar Exod. xxxiii. 18, 23,) gall ond odid fod yn meddu ystyr cyffelyb yma; ac yn wir gwna hyn synwyr cyson: *A welais i yma hefyd* FWRIADAU DIWEDDAF *yr hwn sydd yn fy ngweld i?* Ymadrodd ag y gellir ei gyfeirio at y dadleniad hwnw a wnaethai Duw yn yr adnod flaenorol o *gyflwr dyfodol* ei hiliogaeth.'—CLARKE.

Adn. 14. *Am hyny y galwyd y ffynnon Beer-lahai-roi* Ymddengys oddiwrth adn. 7, ddarfod i Agar eistedd wrth ffynnon ddwfr yn anialwch Sur, wrth yr hon y cafodd angel yr Arglwydd hi; ac i gofia y datguddiad rhyfeddol a wnaethai Duw o hono ei hun, hi a alwodd enw y ffynnon *Beer-lahai-roi*, 'Ffynnon i'r Un Byw sydd yn fy ngweld i.' Ymddengys fod dau beth yn cael eu cynwys yma: 1. Cysegriad y ffynnon i'r Hwn a ymddangosasai iddi; ac, 2. Ffydd yn yr addewid; canys rhaid i'r Un Byw, yr hwn sydd yn bodoli yn

ram: ac Abram a alwodd enw ei fab a ymddygasai Agar, Ismael.

16 Ac Abram oedd fab pedwar ugain mlwydd a chwech o flynnyddoedd, pan ymddyg Agar Ismael i Abram.

mbob cenhedlaeth, feddu galla bob amser i gyflawni addewidion ag sydd i'w cwblhau trwy holl dreigliad amser. Enw presenol y ffynnon hon yw *Moi-láhhí*: y mae yn gorwedd oddeutu deuddeg milldir o Cades. Gerllaw iddi y mae adfeilion a elwir *Beit Haagar*, neu Dŷ Agar.

Adn. 15. *Ac Agar a ymddyg fab i Abram*] Ymddengys gan hyny ddarfod i Agar ddychwelyd wrth orchymyn yr angel, gan gredu yr addewid a wnaethai Duw iddi. *Ac Abram a alwodd enw ei fab a ymddygasai Agar, Ismael*—gan ddeall oddiwrth adroddiad Agar fod Duw wedi bwriadu iddo gael ei alw felly. Ismael yw y dyn cyntaf a gafodd ei enw gan Dduw cyn ei eni: gwel ar adn. 11.

Adn. 16. *Pan ymddyg Agar*] Hyny yw, pan yr esgorodd hi ar Ismael.

ADEFDDTLIADAU.—Mai nid angel crëedig oedd yr hwn a ymddanghosodd i Agar yn yr anialwch, adn. 7, sydd ddigon amlwg oddiwrth yr ystyriaethau canlynol: (1.) Ei addewid i *gyflawni* yr hyn na allai neb ond Duw ei wneuthur, a'i *ragffynegiad* o'r hyn na allai neb ond Duw ei wybod: 'Gan amlhau yr amlhaf dy had di,' adn. 10; 'wele di yn feichlog, a thi a esgori ar fab,' adn. 11; 'ac efe a fydd ddyn gwyllt,' adn. 12. Y mae hyn oll yn dangos *rhagwybodaeth*, yr hon sydd briodol i Dduw yn unig. (2.) Y mae Agar yn ystyried y person a lefarai wrthi megys *Dduw*, yn ei alw ef *El*, ac yn ei gyfarch mewn fiordol i *addoliad*; yr hyn, pe mai angel crëedig ydoedd, a wrthodasai efe: gwel Dat. xix. 10, a xxii. 9. (3.) Y mae Moses, yr hwn sydd yn adrodd yr amgylchiad, yn galw yr angel hwn yn bendant yn JEHOPA; canys, meddai efe, 'Hi a alwodd *shem Yehovah*, ENW YR ARGWYDD yr hwn oedd yn llefaru wrthi,' adn. 13. Yn awr y mae hwn yn enw na roddwyd erioed i un bôd crëedig. (4.) Y person a elwir yma *Malach Yehovah*, 'Angel yr Arglwydd,' yw yr un a elwir *Hammalach haggioel*, 'yr Angel gwaredigol,' neu 'yr Angel y Gwaredwr,' Gen. xlviii. 16; *Malach panau*, 'Angel cydrycholdeb Duw,' Esay lxiii. 9; a *Malach habberith*, 'Angel y cyfammod,' Mal. iii. 1: a'r person ydyw ag a eilw y LXX, Esay ix. 6, *megalês boulês angelos*, 'Angel y Cynghor neu y Bwriad mawr,' sefi i bryn dyn, a llenwi y ddaear â chyfiawnder. (5.) Nis gellir dywedyd y pethau hyn am unrhyw fôd *dymol* neu *greadigol*; oblegid y *wybobodaeth*, y *gweliedredoedd*, &c., a briodolir i'r person hwn, sydd gyfryw, ag a berthynant i Dduw yn unig; a chan fod yn yr holl achosion hyn *ymrithiad personol* tra anlwg, IESU GRIST yn unig a all gael ei feddwl; canys am Dduw y Tad y mae wedi bod bob amser yn wirionedd, *na welodd neb ei lun ef erioed*, ac na ddarfu iddo un amser ymgfyngu i unrhyw ymrithiad personol.

PENNOD XVII.

A PHAN oedd Abram onid un mlwydd cant, yr ymddanghosodd yr Arglwydd i Abram, ac a ddywedodd wrtho, Myfi yw Duw hollalluog, rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith.

2 A mi a wnaf fy nghyfammod rhyngof a thi, ac a'th anlhaf di yn aml iawn.

3 Yna y syrthiodd Abram ar ei wyneb; a llefarodd Duw wrtho ef, gan ddywedyd,

4 Myfi, wele, mi a wnaf fy nghyf-

ammod â thi, a thi a fyddi yn dad llawer o genhedloedd.

5 A'th enw ni elwir mwy Abram, onid dy enw fydd Abraham; canys yn dad llawer o genhedloedd y'th wneuthyn.

6 A mi a'th wnaf yn ffrwythlawn iawn, ac a wnaf genhedloedd o honot ti, a brenhinoedd a ddaw allan o honot ti.

7 Cadarnhaf hefyd fy nghyfammod rhyngof a thi, ac â'th had ar dy ol di, trwy eu hoesoedd, yn gyfammod

PEN. XVII. Adn. 1. *A phan oedd Abram onid un mbyydd eant*] Sef yn mhen tair blynedd ar ddeg ar ol geni Ismael. Oedwyd yr adawid o Isaac cyhyd a hyny, 1. Fe allai i geryddu Abram am briodi mor fyrbywyll âg Agar. 2. Fel, trwy fod Abram a Sarai mor hen, y byddai i allu Duw yn yr achos hwn gael ei fawrygu yn fwy. *Yr ymddanghosodd yr Arglwydd i Abram*—mewn rhyw ddatleniad gwledig o'i ogoniant: gwel ar pen. xv. 1. *Myfi yw Duw hollalluog*—Heb. *ami El shaddai*, 'myfi yw Duw OLLDDIGONOL,' oddiwrth *shadah*, dyhidlo, tywallt allan. Fel pe dywedasai, Myfi yw y Duw hwnwsydd yn tywallt allan fendithion; sydd yn eu rhodi yn helaeth, yn haelionus, yn barhaus. *Rhodia ger fy mron i*—Heb. *hithhaleeh lephanai*, 'ymosod i rodio;' bwriada yn gadarn, penderfyna yn drwyddadl ufyddhau, *ger fy mron i*—canys y mae fy llygad i bob amser arnat ti. Rhodio gerbron Duw yw gosod Duw bob amser ger ein bron ni, a meddwl, dweyded, a gwneyd pob peth fel rhai yn wastadol yn ei olwg: bod â golwg barhaus ar ei air fel ein rheol, ac ar ei ogoniant fel ein dyben, yn ein holl weithredoedd. Rhaid i ni gofio mai rhodio fel hyn gerbron Duw yw ammod ein hawl yn ei ollddigonoldeb. *A bydd berffaith*—Heb. *vehayeh thamim*, 'a thi a fyddi yn berffeithderau,' h. y. i gyd yn berffaith; byddi yn gyfryw ag y mynai y Duw *santaidd* i ti fod, ag y gall y Duw *hollalluog* dy wneuthur, a byddi byw fel y cynorthwya y Duw *ollddigonol* di; canys efe yn unig ag sydd yn gwneyd yr enaid yn santaidd, a ddichon ei gadw mewn santeiddrwydd. Ymddengys fod ein Iaraglwydd bendigedig yn cyfeirio yn benodol at y geiriau hyn yn Mat. v. 8: gwel y sylwadau yno.

Adn. 2. *A mi a wnaf fy nghyfammod*] Hyny yw, a'i sicrhaf ac a'i cyflawnaf; canys yr oedd ef wedi ei wneuthur eisioes, pen. xv. 18.

Adn. 3. *Yna y syrthiodd Abram ar ei wyneb*] Naill ai, yn 1. Fel un wedi ei orchfygu gan ddysgleirdeb y gogoniant dwyfol, megys Daniel ac Ioan wedi hyn; neu, yn 2. Fel un â chywilydd ganddo o hono ei huan, ac yn yswilio wrth feddwl am yr anrhydedd a wnaed i un mor annheilwng. Y mae yn edrych arno ei hun gyda gostyngeddrwydd, ac ar Dduw gyda pharch; ac, fel arwydd o'r naill ar llall, yn syrthio ar ei wyneb.

Adn. 4. *Myfi, wele, mi*] Rhyfedda wrtho, a

bydd sicr o hono, *a wnaf fy nghyfammod â thi*—gwel ar adn. 2; *a thi a fyddi yn dad llawer o genhedloedd*—y mae hyn yn cynwys, yn 1. Y byddai ei had yn ol y cnaud yn dra lluosog, yn Isaac, yn Ismael, ac yn meibion Cetura. Ac felly y bu; canys y mae mwy o blant dynion wedi disgynn oddiwrth Abram nag oddiwrth neb yn yr un pellder ag ef oddiwrth Noa, y gwreiddyn cyffredin. 2. Yr edrychid ar yr holl gredinwyr yn mhob oes fel ei had ysbrydol ef. Gwel ar Rhuf. iv. 16, lle y mae yr apostol yn ein dysgu i edrych ar yr adawid hon yn yr ystyr yma.

Adn. 5. *A'th enw ni elwir mwy Abram*] 'Tad uchel, neu ddyrchafedig,' *onid dy enw fydd Abraham*—'tad llw.' Hyn oedd i gadarnhau fydd Abram pan yr oedd yn ddblant. Fe allai fod ei enw ei hun weithiau yn achos o ofid iddo: paham y gelwid ef yn 'dad uchel,' yr hwn nad oedd yn dad mewn modd yn y byd? Ond yn awr, ar ol i Dduw addaw iddo hiliogaeth luosog, a rhoddi iddo enw yn arwyddo hyny, yr oedd yr enw hwn yn llawenydd iddo. Yr oedd yn arferiad gan y dwyreinwyr nid yn unig roddi enwau o argoel da i'w plant ar ol eu geni, ond newid yr enwau hyny ar unrhyw amlychiad neillduol, dedwydd neu annedwydd, a ddygwylldai iddynt. Fel hyn newidiwyd enw Jacob i *Israel*, pen. xxxii. 28; enw Naomi i *Mara*, Ruth i. 20; enw Simon i *Petr*, Mat. x. 2, a xvi. 18: ac felly, yn yr un modd, y gwneir yma i Abram.

Adn. 6. *A brenhinoedd a ddaw allan o honot ti*] Nid yn unig yn mhlith yr Israeliaid, eithr hefyd yn mysg yr Ismaeliaid, yr Edomiaid, y Saraceniaid, ac ereilli; ac uwchlaw y lleill oll, oddiwrtho ef y disgynnodd y MESSIA, yr hwn yw Brenin y brenhinoedd ac Arglwydd yr arglwyddi.

Adn. 7. *Cadarnhaf hefyd fy nghyfammod rhyngof a thi*] Nid i'w gyfneuid na'i ddiryngu; ac nid â thi yn unig, am y byddai iddo felly farw gyda thi, ond *a'th had ar dy ol di*—yn enwedig dy had ysbrydol. *Yn gyfammod tragwyddol*—o dragwyddoldeb yn y bwriad o hono, i dragwyddoldeb yn y canlyniadau o hono. *I fod yn Dduw i ti, ac i'th had ar dy ol di*—y mae holl ragorfreintiau y cyfammod, ei holl lawenydd a'i holl obeithion, yn cael eu crynhoi i fyny yn hyn. Ni all neb ddymuno mwy na hyn i'w wneyd yn ddedwydd. Yr hyn yw Duw ynddo ei hun, hyny a fydd efe i'w bobl: *doethneb i'w harwain a'u*

tragwyddol i fod yn Dduw i ti, ac i'th had ar dy ol di.

8 A mi a roddaf i ti, ac i'th had ar dy ol di, wlad dy ymdeith, *sef* holl wlad Canaan, yn etifeddiath dragwyddol; a mi a fyddaf yn Dduw iddynt.

9 ¶ A Duw a ddywedodd wrth Abraham, Cadw dithau fy nghyfammod i, ti a'th had ar dy ol, trwy eu hoesoedd.

10 Dyma fy nghyfammod a gedwch rhyngof fi a chwi, a'th had ar dy ol di: enwaedir pob gwryw o honoch chwi.

11 A chwi a enwaedwch gnawd

cynghori, *nerth* i'w hamddiffyn a'u cynal, *daioni* i'w diwallu a'u cysuro. Y mae y cyfammodau ysbrydol a thymhorol yn cael eu cydgymsygu yma, a hyny yn briodol, gan fod yr olaf yn gysgod arbenig o'r blaenaf.

Adn. 8. *A mi a roddaf i ti—holl wlad Canaan yn etifeddiath dragwyddol* Yn yr adnod flaenorol y mae *olam*, 'tragwyddol,' yn cael ei gymeryd yn ei ystyr *priodol*, am fod yr enaid yn parhau byth, ac felly yn sefyll yn dragwyddol mewn angen am nerth cynaliol Duw; ond yma ymddengys ei fod yn cael ei arfer yn ei ystyr *cyfaddasedig*, ac yn cyfeirio at holl yspaid yr oruchwyliaeth Foesenaidd. Ac y mae yn llythyrenol wir ddarfod i'r Israeliaid etifeddu gwlad Canaan hyd nes y terfynodd yr hen oruchwyliaeth, ac y dygwyd i mewn yr oruchwyliaeth efengylaidd. Ond gan fod y cyfammodau ysbrydol a thymhorol yn cael eu cydgymsygu yma, gellir cymeryd y gair *olam* hyd yn nod yma yn ei ystyr priodol ei hun, am *fyth-barhuol* neu *dragwyddol*; oblegid i'r bendithion ysbrydol a nodir allan trwy y cyfammod tymhorol, ni bydd diwedd. Ac am hyny chwanegir yn ebrwydd, *A mi a fyddaf yn Dduw iddynt*—nid am amser yn unig yn ddiâu, ond am byth bythoedd. Gwel ar pen. xxi. 33.

Adn. 9. *Cadw dithau fy nghyfanmod i*] Ar ol i'r Arglwydd fynegu pa beth a gyflawnai *efe*, y mae yn myned rhagddo i hysbysu pa beth a ddysgwyliai oddiwrth Abraham, ac i benodi *arwydd* o'i gyfammod âg ef.

Adn. 10. *Enwaedir pob gwryw o honoch chwi*] Defod ag yr ymddengys, mor eglur ag y gall geiriau ei hegluro, mai yn awr ei sefydlwyd gyntaf; ac o ganlyniad y mae barn y rhai a dybiant ddarfod ei bordeinio er y cwmp, ac eiddo ereill a feddylant ddarfod i'r Iuddeon ei chael oddiwrth yr Aiffiaid, yn ddisail. Pe buasai yn arferedig, neu yn adnabyddus i Abraham cyn yr amser hwn, a ydyw yn debyg y buasai yn cael son am dani yn y fath fodd ag y darllenwn yn yr adnodau hyn? Y mae yn wir y gallai y ddefod hon fod yn yr Aiffit mor fore a dyddiau Joseph; ac yn mhllith yr Ethiopiaid, y Phenciaid, yr Arabiaid, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid, er dyddiau y proffwydi; eto gallwn yn hawdd olrhain iddynt hwy ei derbyn oddiwrth Abraham a'i hiliogaeth, ac yntau oddiwrth Dduw.

Adn. 11. *A bydd yn arwydd cyfammod*

eich dienwaediad: a bydd yn arwydd cyfammod rhyngof fi a chwithau.

12 Pob gwryw yn wyth niwrnod oed a enwaedir i chwi trwy eich cenedlaethau: yr hwn a aner yn ty, ac a bryner am arian gan neb dyeithr, yr hwn nid yw o'th had di.

13 Gan enwaedu enwaeder yr hwn a aner yn dy dŷ di, ac a bryner am dy arian di: a bydd fy nghyfammod yn eich enawd chwi, yn gyfammod tragwyddol.

14 A'r gwryw dienwaededig, yr hwn ni enwaeder enawd eiddienwaediad, torir ymaith yr enaid hwnw o fysgei bobl:

rhyngof fi a chwithau] Heb. *leoth*, yn arwydd o bethau ysbrydol; canys enwaediad y enawd a fwyadwyd i arwyddo pureiddiad y galon oddiwrth bob annghyfiawnder, fel y danghosoedd Duw yn neillduol yn y gyfraith ei hun, Deut. x. 16: gwel hefyd Rhuf. ii. 25—29, Col. ii. 11. Ac yr oedd yn *insel y cyfiawnder*, neu yn sêl y cyfiawnder hwnw ag sydd yn dyfod trwy *fydd*, Rhuf. iv. 11. Fod gan rai o'r Iuddeon dyb gywir am ei amcan *ysbrydol*, sydd amlwg oddiwrth amrai ranau o'r alleiriadau Caldeiaidd a'r ysgrifenywyr Iuddeuig.

Adn. 12. *Pob gwryw yn wyth niwrnod oed a enwaedir*] Oblegid cyn hyny hwy a ystyrir yn arian, Lef. xii. 2, 3; ac yr oedd enwaediad yn cael ei ddeall bob amser yn *gysegrïad y plentyn i Dduw*. Am yr un rheswm ni offrymid llo, oen, na myn i Dduw nes y byddai yn wythnos oed, Lef. xxii. 27.

Adn. 13. *Gan enwaedu enwaeder yr hwn a aner yn dy dŷ di*] Mab i was neu forwyn; ac a bryner am dy arian di—caethwas ar ei ddyfodiad i'r teulu. Yn ol yr ysgrifenywyr Iuddeuig, y tad oedd i enwaedu ei fab; a'r meist, y gwas a aned yn ei dŷ, neu y caethwas a bryned am arian. Os byddai i'r tad neu y meistr esgeulusu gwneuthur hyn, yna yr oedd yr ynadon yn rhwym o weled ei gyflawni; ac os byddai esgeulusiad yr ordinhad hon yn anhysbys i'r ynadon, yna yr oedd y person ei hun, pan y deuai mewn oedran, yn rhwym i'w wneuthur.

Adn. 14. *A'r gwryw dienwaededig—torir ymaith yr enaid hwnw o fysgei bobl*] 'Dychymygodd rhai mai marwolaeth dymhorol sydyn a olygir wrth 'dori ymaith;' ond ymddengys mai yr unig foddwl yw, na chai y cyfryw un hawl na chyfran yn mendithion y cyfammod, y rhai y gwelwom eisioes eu bod o fath dymhorol ac ysbrydol; ac os felly, yna yr oedd marwolaeth dragwyddol yn gynwysedig, canys yr oedd yn annuhoesibl i un na dderbyniodd *bureiddiad ysbrydol* fyned i ogoniant tragwyddol. Y mae *ysbryd* y ddeddf hon yn ymestyn at bob oes, goruchwyliaeth, a phobl: ni ddichon i'r hwn y mae ei galon heb ei phuro oddiwrth bechod, fyned i mewn i deyrnas Dduw.—CLARKE. Diamau mai at wrywod *oedranus* yn esgeulusu cymeryd eu henwaedu y cyfeirir, am mai bai y *rhieni* oedd bod y plant yn ddienwaededig.

oblegid efe a dorodd fy nghyfammod i.

15 ¶ Duw hefyd a ddywedodd wrth Abraham, Sarai dy wraig ni elwi ei henw Sarai, onid Sarah *fydd* ei henw hi.

16 Bendithiaf hi hefyd, a rhoddaf i ti fab o honi: 'ie bendithiaf hi, fel y byddo yn genhedloedd; brenhinoedd pobloedd fydd o honi hi.

17 Ac Abraham a syrthiodd ar ei wyneb, ac a chwaddodd, ac a ddywedodd yn ei galon, A blentir i fab can mlwydd? ac a blanta Sarah yn ferch ddeng mlwydd a phedwar ugain?

18 Ac Abraham a ddywedodd wrth Dduw, O na byddai fyw Ismael ger dy fron di!

Adn. 15. *Ni elwi ei henw Sarai*] Y mae ystyr yr enw *Sarai* yn amheus. EWALD, tyb yr hwn a gymeradwyir gan GEsenius, a ddywed mai ei ystyr yw *ymrysongar, cwer-yllus*; a FURST a'i cyfieitha *creulon*. Gall fod y newidiad i enw anrhydeddus yn arwyddo rhyweth yn wrthebu ynddo. *Onid Sarah fydd ei henw hi*—hyny yw, *tywysoges*: SARAH yw y flurf fenywaidd o SAR, *tywysog*. Yr holl wahaniaeth rhwng y ddau ar yr yw, fod *h* yn cael ei rhoddi yn lle *i*. Tybia CLARICUS fod yr *h* yn cael ei chwaneu at enwau Abram a Sarai mewn ffordd o *urddas*, fel un olythyr-enanu yr enw *Yehovah*; neu gall fod yr *h* yn sefyll am *hamon, lluwans*, canys addewir ar yr un pryd y cai hi fod yn fam cenhedloedd.

Adn. 16. *Bendithiaf hi hefyd, &c.*] Y mae Sarah yn ddian yr sefyll wrth ben holl wragedd yr Hen Destament, ar gyfrif ei breintiau anghyffredin. Yr wyf fi yn hollol o farn Calmet, fod Sarah yn gysgod o'r *Forwyn* fendigaidd. Y mae St. Paul yn ei hystyried hi yn gysgod o'r Testament Newydd a'r Jerusalem nefol; ac megys y mae yr holl *wir gredinwyr* yn cael eu hystyried yn *blant i Abraham*, felly y mae yr holl *wragedd ffyddlon a santiaidd* yn cael eu hystyried yn *ferched i Sarah*, Gal. iv. 22, 24, 26: gwel hefyd I Pedr iii. 6.—CLARKE. *Fel y byddo yn genhedloedd*—Saes. 'yn *fam* cenhedloedd.' Fel hyn y mae Duw yn datguddio bwriadu ei ewylllys i'w bobl yn raddol. Efe a fynegasi i Abraham yn hir cyn hyn y cai efe fab, ond nid cyn yn awr y cai ef fab o Sarah.

Adn. 17. *Ac Abraham a syrthiodd ar ei wyneb, ac a chwaddodd*] Chwarddiad o hyfrdywch ydoedd, nid o anhyder. Yn awr y 'gorfoleddodd Abraham wrth weled dydd Crist.' yn awr y 'gwelodd efe ef, ac y llawenychodd,' Ioan viii. 56; canys fel yr oedd efe yn gweled y nef yn yr addewid o Ganaan, felly yr oedd yn gweled Crist yn yr addewid o Isaac. *A blentir i fab can mlwydd?*—nid yw efe yma yn llefaru am dano yn betrusol mewn un modd, canys yr ydym yn sier 'nad ambeuodd efe addewid Duw trwy *amghrediniaeth*,' Rhuf. iv. 20; eithr fel yn *rhyfeddol*, ac yn beth nas gellid ei effeithio ond trwy nerth hollalluog Duw.

Adn. 18. *O na byddai fyw Ismael ger dy*

19 A Duw a ddywedodd, Sarah dy wraig a ymddwg i ti fab yn ddiau; a thi a elwi ei enw ef Isaac: a mi a gadarnhaf fy nghyfammod âg ef yn gyfammod tragwyddol, *ac a'i had ar ei ol* ef.

20 Am Ismael hefyd y'th wrandewais: wele mi a'i bendithiais ef, a mi a'i ffrwythlonaf ef, ac a'i lluosogaf yn aml iawn: deuddeg tywysog a genhedla efe, a mi a'i gwnaf ef yn genhedlaeth fawr.

21 Eithr fy nghyfammod a gadarnhaf âg Isaac, yr hwn a ymddwg Sarah i ti y pryd hwn, y flwyddyn nesaf.

22 Yna y peidiodd a llefaru wrtho; a Duw a aeth i fynu oddiwrth Abraham.

fron di!] Hyn a ddywed efe, nid fel yn dymuno fod i Ismael gael ei ddewis o flaen Isaac, ond fel yn ofni y byddai i Ismael bellach gael ei adael gan Dduw. Wrth iddo weled fod y cyfammod i gael ei gadarnhaf mewn cangen *arall* o'i deulu, efe a deimlai yn bryderus dros ei fab Ismael, yr hwn a ystyriai efe fel yn cael ei gau allan o angenrheidrwydd; ar ba achlysur y mae Duw yn traethu y broffwydoliaeth dra nodedig hōno ag sydd yn dilyn yn adn. 20, yr hon sydd yn cynwys atebiad i weddi a deisyfiad Abraham: *Am Ismael hefyd y'th wrandewais*. Felly, yr hyn oedd mewn golwg yn ngweddi Abraham ydoedd, fod i'w fab Ismael hefyd gael bod yn ben ar bobl lwyddiannus a nerthol.

Adn. 19. *Sarah dy wraig a ymddwg i ti fab yn ddiau*] Ac ynddo ef, nid yn Ismael, y cyflawnir yr addewid a roddwyd gyda golwg ar holl deuluoedd y ddaear. *A thi a elwi ei enw ef Isaac*—er cofadwriaeth am chwaddiad llawen Abraham, adn. 17: canys y mae y gair *yitschak*, yr hwn a newidiwn ni i *Isaac*, yn arwyddo CHWARDDIAD.

Adn. 20. *Am Ismael hefyd y'th wrandewais*] Y mae genyf laver o fendithion yn nghadw iddo yntau hefyd. 1. Bydd ei hiliogaeth yn lluosog: *ac a'i lluosogaf yn aml iawn*. 2. Byddant yn enwog: *deuddeg tywysog a genhedla efe*—gwel enwau y rhai hyn, pen. xxv. 12—16. 3. Gallwn obeithio hefyd i fendithion *ysbrydol* gael eu hestyn iddo, er na ddygwyd yr eglwys weledig o'i lwynau ef.

Adn. 21. *Eithr fy nghyfammod a gadarnhaf âg Isaac*] Y mae pob rhyw ddaioni *ty-mhorol* yn cael eu haddaw i Ismael a'i hiliogaeth, eithr cadarnhad cyfammod yr Arglwydd a wneir âg Isaac. Am hyny y mae yn gwbl eglur fod y cyfammod hwn yn cyfeirio yn benaf at bethau *ysbrydol*—at y MESSIA, a'r iachawdwr iaeth a ddygid i Iuddeon a Chenhedloedd trwy ei gnawdoliaeth, ei farwolaeth, a'i adgyfodiad ef.

Adn. 22. *A Duw a aeth i fynu oddiwrth Abraham*] A esgynodd yn amlwg yn ei wydd ef, megys y gwnaeth yr Arglwydd Iesu wedi hyn yn ngwydd ei ddygybllion, Luc xxiv. 51. Trwy hyn efe a gafodd y prawf llawnaf nad bôd dynol a ymddyddanai âg ef; a'r addewid am fab yn mhyn y flwyddyn, adn. 21, yr hon

23 ¶ Ac Abraham a gymerodd Ismael ei fab, a'r rhai oll a anesid yn ei dŷ ef, a'r rhai oll a brynasai efe â'i arian, pob gwryw o ddyinion tŷ Abraham, ac efe a enwaeddodd gnawd eu dienwaediad hwynt o fewn corff y dydd hwnw, fel y llefarasai Duw wrtho ef.

24 Ac Abraham oedd fab onid un mlwydd cant, pan enwaedwyd enawd ei ddiennaediad ef.

25 Ac Ismael ei fab ef yn fab tair blwydd ar ddeg, pan enwaedwyd enawd ei ddiennaediad ef.

26 O fewn corff y dydd hwnw yr enwaedwyd Abraham, ac Ismael ei fab;

27 A holl ddyinion ei dŷ ef, y rhai a anesid yn tŷ, ac a brynesid âg arian gan neb dycieithr, a enwaedwyd gydag ef.

yr oedd pob tebygolrwydd dynol yn ei herbyn, ydoedd i fod yn arwydd sicr o wirionedd y cwbl a gymerasai le hyd yn llyn, ac yn brawf y cai yr hyn oll a addawyd yn mbellach ei gyflawni yn ei amser dyladwy.

Adn. 23, 24. *Ac Abraham a gymerodd Ismael, &c.*] Oni buasai fod Abraham a'i deulu wedi eu llawn argyhoeddi fod enwaediad yn beth o Dduw, ni allasant byth ymostwng iddo. Ni allasai defod mor boenus, mor wrthwynebol i bob teimlad o weddeidd-dra, ac yn mhob ffordd mor groes i natur, byth darddu o ddychymyg dyn. Y mae yr Iuddewon hyd heddyw yn ei barfer hi fel ordinhad ddwyfol, ac y mae yr holl Arabiaid yn gwneyd yr un modd. Ni allasai erioed gael ei bwriadu fel nôd o wahaniaeth rhyngddynt hwy a phobl ereill, am ei bod yn *arwydd* nad oedd byth i *ymddangos*. Y dyn ei hun yn unig a wyddai ei fod yn dwyn yn ei gnawd yr arwydd hwn o'r cyfammod, ac efe a'i dygai trwy orchymyn Duw; a gwyyddai ei fod yn *arwydd* ac yn *sef* o fendithion ysbyrdol, ac nid y bendithion eu hunain, er yn brawf ddarfod addaw y bendithion hyn, a bod ganddo hawl ynddynt. Y rhai nad oeddynt yn ei ystyried ef yn y cyfeiriad ysbyrdol hwn, a elwir gan yr apostol yn *gyddoriaid*, Phil. iii. 2, h. y. dynion ag oeddynt â'u enawd wedi ei *dori*, ond â'u calonau heb eu puro.

Adn. 25. *Ac Ismael ei fab ef yn dair blwydd ar ddeg*] Dyma yr oedran yn yr hwn y mae hiliogaeth Ismael yn cael eu henwaedu hyd heddyw.

Adn. 26. *A holl ddyinion ei dŷ ef*] Neu ei holl deulu, y rhai a ymostyngasant i'w resymau, nid i'w awdurdod.

PEN. XVIII. Adn. 1. *A'r Arglwydd a ymddanghosodd iddo*] Y mae yn debyg fod yn yr ymddanghosiad hwn o eiddo yr Arglwydd i Abraham fwy o iselder a chydraddoldeb, a llai o rwyng a mawrhydi gogoneddus, nag yn y rhai ag y darllenasom am danynth yd yn hyn; ac am hynny ei fod yn fwy tebyg i'r ymddanghosiad mawr hwnw ag yr oedd Mab Duw yn nghyflawnder yr amser i'w wneuthur yn y

PENNOD XVIII.

A'R Arglwydd a ymddanghosodd iddo ef yn ngwastadedd Mamre, ac efe yn eistedd *urth* ddrws y babell, yn ngwres y dydd.

2 Ac efe a gododd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele driwyr yn sefyll ger ei fron: a phan eu gwelodd, efe a redodd o ddrws y babell i'w cyfarfod hwynt, ac a ymgrymodd tua'r ddaear,

3 Ac a ddywedodd, Fy Arglwydd, os cefais yn awr ffafwr yn dy olwg di, na ddos heibio, atolwg, oddiwrth dy was.

4 Cymerer, atolwg, ychydig ddwfr, a golchwch eich traed, a gorphwyswch dan y pren;

byd. *Ac efe yn eistedd wrth ddrws y babell yn ngwres y dydd*—i'w fwynt pan awel adfywiol pan oedd yr haul yn pelydru gryfaf. A diction fod ganddo ddyben arall mewn golwg, sef gwahodd ymdeithwyr i mewn, y rhai a aent y ffordd hŏno; canys pan nad oedd gwesttai, lle y gallai dweithriaid ddadflino neu letya, yr oedd yn beth cyffredin i bersonau haelionus wahodd y cyfryw ganol dydd, neu yn yr hwy, i'w tai neu eu pebyll.

Adn. 2. *Wele driwyr yn sefyll ger ei fron*] Encyd oddiwrth ei babell; a *phan eu gwelodd, efe a redodd o ddrws y babell i'w cyfarfod hwynt*—i'w gwahodd i mewn; canys nid oedd yn arferiad y pryd hynny i ddyeithriaid guro wrth y drws, neu ofyn am dderbyn-iaid, eithr sefyll gerllaw y tŷ hyd nes y canfyddid hwy. Ymddangosai y rhai hyn i Abraham ar y cyntaf fel *gwŷr*; eithr efe a 'letyodd angylion yn ddiarwybod,' Heb. xiii. 2. Y rhai hyn oeddynt dri o fodau ysbyrdol a nefol, wedi cymeryd arnynt agwedd ddynol, fel y gallent fod yn weledig i Abraham, ac ymddyddan âg ef. Y mae rhai yn meddwl mai tri angel creëdig oeddynt; ac ereill, yr hyn sydd fwy tebygol, fod un o honynt yn FAW Duw: gwel ar adn. 13. *Ac a ymgrymodd tua'r ddaear*—nid yw crefydd yn dyfetha moesan da, ond yn eu diwygio, ac yn dysgu i ni barchu pawb.

Adn. 3. *Ac a ddywedodd, Fy Arglwydd, &c.*] Y gai yma yw *Adonai*, nid *Ychovah*; canys ni wyddai efe eto pwy oedd ei westeion: gwel ar adn. 13. Ond trwy i Abraham gyfarch un o'r tri yn unig, y mae yn debyg ei fod yn ymddangos fel yn meddu mwy o uwch-afiaeth, naill ai oddiwrth ryw fawredd a welid yn ei wedd, neu oddiwrth y parch a dalai y ddau arall iddo.

Adn. 4. *Cymerer, atolwg, ychydig ddwfr, a golchwch eich traed*] Yn yr adnodau hyn cawn ddarlun dymunol o letygarwech cyntefig. Yn yr hen amseroedd nid oedd esgidian fel yr eiddom ni yn cael en gwisgo, a'r traed a ddiogelid yn unig gan *sandalau* neu *wadnau*, y rhai a rwyndid wrthyn â chareiau. Gan hynny yr oedd yn ddadffiniad mawr, mewn

5 Ac mi a ddygaf damaid o fara, a chryfhewch eich calon; wedi hyny y cewch fyned ymaith: o herwydd i hyny y daethoch at eich gwas. A hwy a ddywedasant, gwna felly fel y dywedaist.

6 Ac Abraham a frysiodd i'r babell at Sarah, ac a ddywedodd, Parotoa ar frys dair phiolaid o flawd peillied, tylina, a gwna yn deisenau.

7 Ac Abraham a redodd at y gwartheg, ac a gymerodd lo tyner a da, ac a'i rhoddodd at y llanc, yr hwn a frysiodd i'w barotai ef.

8 Ac efe a gymerodd ymenyn, a laeth, a'r llo a barotoisai efe, ac a'i rhoddes o'u blaen hwynt: ac efe a

safodd gyda hwynt dan y pren; a hwy a fwyasant.

9 ¶ A hwy a ddywedasant wrtho ef, Mae Sarah dy wraig? Ac efe a ddywedodd, Wele hi yn y babell.

10 Ac un a ddywedodd, Gan ddychwelyd y dychwelaf atat yn nghylch amser bywiolaeth; ac wele fab i Sarah dy wraig. A Sarah oedd yn clywed wrth ddrws y babell, yr hwn oedd o'i ol ef.

11 Abraham hefyd a Sarah oedd hen, wedi myned mewn oedran; a pheidiasai fod i Sarah yn ol arfer gwagedd.

12 Am hyny y chwarddodd Sarah rhyngddi a hi ei hun, gan ddywedyd,

gwlad mor boeth, gael golchi y traed yn niwedd taith diwrnod; a hyn yw y peth cyntaf ag y mae Abraham yn ei gynyg. *A gorphwyswech dan y pren*—nyni a glywsom eisioes am *dderlwyn* Mamre, pen. xiii. 18; a hyn oedd yr ail beth angenrheidiol er daddfyniad ymdeithydd lludddig, sef gorphwys yn y cysgod.

Adn. 5. *A mi a ddygaf damaid o fara*] Hyn oedd y trydydd cyfrif, ac y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen yn ei drefn briodol, gan fod bwyta yn ebrwydd ar ol llafur neu ludded yn dra afiachus. Dylai gweithrediad grymus yr ysgyfaiut a'r galon gael amser i arafu cyn i ddim bwyd gael ei dderbyn i'r cylla, am fod y treulaid os amgen yn cael ei attal, a thwymyn i ryw raddau yn cael ei hachosi. *O herwydd i hyny y daethoch at eich gwas*—yn y dyddiau boreol hyny yr oedd pob ymdeithydd yn meddwl fod ganddo hawl i luniaeth, os byddai arno ei eisiau, yn y babell gyntaf a gai ar ei daith. *Gwna felly fel y dywedaist*—pa mor hynod o ddiadurn yw hyn oll! Nid oes o un ochr unihyw *foesgyfarchiad* ond y fath a addysgir gan galon haelionus a synwyr da.

Adn. 6. *Parotoa ar frys dair phiolaid o flawd peillied*] Yr oedd y *seah*, yr hwn a gyfieithir yna *phiolaid*, yn cynwys, yn ol Esgob Cumberland, oddeutu dwy alwyn a hanner; ac y mae Mr. Ainsworth yn cyfieithu y gair yn *becaid*; a dywed Fleury fod y tair phiolaid oddeutu 56 o'n pwysau ni. *Tylina, a gwna yn deisenau*—Saes. 'gwna deisenau ar yr aelwyd.' Y mae y dull hwn yn cael ei arferyd yn y dwyrain hyd heddyw. Pan fyddo yr aelwyd wedi ei chynhesu yn dda, y maent yn symud y marwor, yn ysgubo ymaith y lludw, yn gosod y bara arni, ac yna yn ei orchuddio a'r marwydos poethion.

Adn. 7. *Ac Abraham a redodd at y gwartheg, ac a gymerodd lo tyner a da*] Y mae genym anghraifft o westeiaeth fawrwych y patrieirch, obai Fleury, yn yr hyn a wnaeth Abraham i'r tri angel. Efo a rodde lo cyfan o'n blaen hwynt, oddeutu 56 pwys o fara, yn nghyda *llach* ac *ymenyn*, adn. 8. Y mae yn ddiamau fod Abraham yn bwriadu nid yn unig ddiwallu angen ei westeion ar y pryd, ond hefyd eu cynysgaethu â darpariaeth at

weddiill eu taith, yn ol arferiad y cynamseroedd.

Adn. 8. *Ac efe a safodd gyda hwynt dan y pren*] I weini iddynt ei hunan. Er fod gan Abraham lawer o weision, a'i fod agos yn gant oed; eto efe a gyrechodd y dwfr ei hun i olchi traed ei westeion, parodd i'w wraig wneyd y bara ar frys, rheddodd i ddeuwis llo o blith y gwartheg, a daeth drachefn i weini iddynt yn ei sefyll! Dywed Dr. Shaw nad yw y gwyr mwyaf yn y gwledydd dwyreiniol yn ei chyfrif yn ddiarhydedd fod yn rhwym mewn gorchwylion teuluaid. Bydd i'r tywysog mwyaf gynorthwyo mewn amaethyddiaeth; efe a ladd oen, a bydd i'w dywysoges ei barotai; a phan ddaw gwstai i mewn, y meistr yw y cyntaf i olchi ei draed: ac y mae yn ei chyfrif yn droseddai ar foeggarwch iddo eistedd gyda'i westeion, eitr efo a *saif* i'w gwasanaethu hwy. *A hwy a fwyasant*—dywed rhai mai rhith-fwyta a wnaethant; ond gan iddynt gymeryd am danynt wir gyrrif, galluog i gerdded ac ymddyddan, paham nad allent fwyta hefyd? Nid oes dim yn fwy cyffredin yn Hindostan nag weled ymdeithwyr a gwsteion yn bwyta dan gysgod coeden: nid yw gwleddoedd braidd byth yn cael eu cynnal yno mewn tai.

Adn. 9. *Mae Sarah dy wraig?*] Wrth ei henwi hi, yr oeddynt yn awgrymu i Abraham, er yn ymddangos yn ddeyriariaid, eto eu bod yn ei adnabod e'i deulu yn dda; with *holi* am dani, yr oeddynt yn dangos gofal tyner am deulu eu cymwynaswr; ac wrth son am dani yn ei *chlypedigaeth*, tynasant hi i wrandaw ar yr hyn ag oedd i gael ei ddywedyd yn mhellach.

Adn. 10. *Gan ddychwelyd y dychwelaf atat yn nghylch amser bywiolaeth*] Deallir hyn yn gyffredin fel yn arwddo 'yn mhen naw mis,' yspaid cyffredin beichiogiad. *Ac wele fab i Sarah*—yn ol fy addewid dri mis yn ol, pen. xvii. 21. Y mae addewid gyffelyb yn cael ei gwneyd i'r Sunamees, 2 Bren. iv. 16.

Adn. 11. *A pheidiasai fod i Sarah yn ol arfer gwagedd*] Ac o ganlyniad, a siared yn naturiol, ni allai beichiogiad gymeryd lle: felly, os caiff hi fab, rhaid i hyny fod mewn fiordd oruwchnaturiol neu wyrthiol.

Ai gwedi fy heneiddio y bydd i mi drythyllwch, a'm harglwydd yn hen hefyd?

13 A dywedodd yr Arglwydd wrth Abraham, Paham y chwarddodd Sarah fel hyn, gan ddywedyd, A blantaf inau yn wir, wedi fy heneiddio?

14 A fydd dim yn anhawdd i'r Arglwydd? Ar yr amser nodedig y dychwclaf atat, yn nghylch amser bywioliaeth, a mab fydd i Sarah.

15 A Sarah a wadodd, gan ddywedyd, Ni chwerddais i, o herwydd hi a ofnodd. Yntau a ddywedodd, Nage, oblegid ti a chwerddais.

Adn. 12. *An hyny y chwarddodd Sarah rhyngddi a hi ei hun*] 'Addeffir yn gyffredin nad oedd chwarddiad Sarah yn chwarddiad o lawenydd yn tarddu oddiwrt h yr addewid ddwyfol, ond chwarddiad yn tarddu oddiar anghrediniaeth.'—COKE. Ond ereill a wahaniaethant: 'Chwarddodd Sarah mewn rhan trwy hyfrydwrth wrth y meddylddrych noeth o'r *possibilitreydd* o'r peth, ac mewn rhan oddiar argyhoeddiad ei fod yn eithaf *annhebygol*. Y mddengys ei bod yn yr un ysbryd, ac yn meddu yr un teimladau, a'r rhai hyny ag sydd, wrth glywed yn annysgwyladwy am rywbeth o bwys mawr iddynt eu hunain, yn *gwenu* ac yn dywedyd, 'Y mae y newydd yn rhy dda i fod yn wir.' gwel ar pen. xxi. 6. 'Y mae achos tra thebyg i hwn yn cael ei grybwyll Salm cxxvi. 1, 2.'—CLARKE. *A'm harglwydd yn hen hefyd*—gwelwn yma fod Sarah yn galw Abraham yn arglwydd iddi; ac y mae yr Ysbryd Glân yn cymeryd sylw o hyn er ei hanrhydedd, ac yn ei gymhell i efelychiad pob gwraig Cristionogol, I Pedr iii. 6.

Adn. 13. *A dywedodd yr Arglwydd*] Y gair yma yw *Yehovah*, nid *Adonai*. Felly y mddengys mai *JEHOVA* oedd un o'r tri pherson hyn; a chaw nad yw yr enw hwn byth yn cael ei roddi i unrhyw fôd creëdig, o ganlyniad y byth-fendigedig Ddrw a feddylir; a chan na welwyd y Tad erioed mewn unrhyw ddull corfforol, rhaid mai *IESU CRIST*, Angel mawr y cyfammod, a olygir: gwel ar pen. xvi. 7, a'r adfeddyliadau yno. *Paham y chwarddodd Sarah, &c.*?—trwy ddangos ei fod yn gwybod yr hyn a wnaeth Sarah yn ddirgelaidd mewn rhan arall o'r babell, efe a amlygai y gallai efe gyflawni ei air, pa mor groes bynag i drefu gyffredin natur.

Adn. 14. *A fydd dim yn anhawdd i'r Arglwydd?*] Neu yn ormod gwrth iddo ef ei gwneuthur? I geryddu anghrediniaeth Sarah, ac i gryfhau ei fydd, y llefarodd Duw y geiriau pwysig hyn; geiriau ag sydd yn dangos, lle y mae doethineb, synwyr, a gallu dynol yn methu, a natur ei hun yn pallu, fod gan Dduw yno hefyd berffaith awdurdod a gallu i ddwyn i ben ei holl amcanion. Ond y mae rhai yn darllen y geiriau hyn yn wahanol: 'A fydd dim yn gyfuddiedd oddiwrt h yr Arglwydd?' gan gyfeirio at chwerthiniad Sarah.

Adn. 15. *A Sarah a wadodd*] I gelu un

16 ¶ A'r gwŷr a godasant oddiyno, ac a edrychasant tua Sodom: ac Abraham a aeth gyda hwynt, i'w hanfon hwynt.

17 A'r Arglwydd a ddywedodd, A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaaf?

18 Canys Abraham yn ddian a fydd yn genhedlaeth fawr a chref, ac ynddo ef y bendithr holl genhedloedd y ddaear.

19 Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn; fel y dygo yr Ar-

bai, y mae hi yn gwneyd un arall; canys anfynech y mae pechod yn dyfod yn unigol. *Nage, oblegid ti a chwerddais*—eife a fynai iddi gredu ei hollwybodaeth ef, fel y gallai trwy hyny gredu ei hollalluogrwydd: gwel ar adn. 13.

Adn. 16. *A'r gwŷr a godasant oddiyno, ac a edrychasant tua Sodom*] Hyny yw, a ddangasant fwriad i fyned tuag yno; ac *Abraham a aeth gyda hwynt*—yr oedd hyn yn rhan arall o groesawrth y cynamseroedd, sef cyfarwyddo dylethriaid yn y ffordd. Nid oedd prif-flyrd y pryd hyny mewn bod; ac yr oedd arweinyddion yn anheborogol angenrheidiol mewn gwledydd lle yr oedd pentrefi yn anaml, a lle nad oedd tai anedd i'w cael ar hyd y wlad.

Adn. 17. *A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaaf?*] Hyny yw, NI CHELAF. Dull o ymadrodd cyffredin yn yr ysgrythyr—cwestiwn yn cael ei ofyn, pan y mae cadarnhad yn cael fwriadu; megys, 'A gasgl rhai rawnwin oddiar ddrain?' h. y. ni chasgl rhai rawnwin oddiar ddrain. Fel hyn y mae Duw yn ei gynghorau yn ei amlygu ei hun yn ol dull dynion, gyda phwyll. 'Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda'r rhai a'i hofnant ef.' Y mae ganddynt well golwg i mewn i'r hyn sydd bresenol, a gwel rhagolwg i'r hyn sydd ddyfodol.

Adn. 18. *Canys Abraham yn ddian fydd yn genhedlaeth fawr a chref*] A'r datguddiad a wnaaf fi iddo ef a gedwir yn mblith ei hiliogaeth; a bydd i gyflawniad cywir o'm haddewidion, a wnaed cybyd o'r blaen, eu barhain hwythau i gredu yn fy enw ac ymddiried yn fy naioni.

Adn. 19. *Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol*] Gwyddai Duw ei fod ofnid yn unig yn *gweddio* gyda'i deulu, ond hefyd yn eu *dysgu* hwynt, fel gwŷr o wybodaeth; i.e. eife a *orchymynai* iddynt, fel gwŷr mewn awdurdod; canys yr oedd ef yn broffwyd ac yn frenin yn ei dŷ ei hun, yn gystal ag yn offeiriad. Efe a ofalai nid yn unig am ei blant, ond hefyd am ei *dylwyth*: yr oedd ei weinidogion yn rhai a egwyddorid yn dda yn mbethau crefydd. Y mae Abraham yn hyn yn siampul i benau teulu-oedd yn mhob oes, y rhai a ddylent hyfforddi pawb dan eu cronglwyd, ac edrych ar ol eu moesau. Y mae hyn yn cael ei roddi fel

glwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am dano.

20 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd, Am fod gwaedd Sodom a Gomorra yn ddirfawr, a'u pechod hwynt yn drwm iawn;

21 Disgynaf yn awr, ac edrychaf, ai yn ol eu gwaedd a ddaeth ata fi, y gwnaethant yn hollol: ac onide, myn-af wybod.

22 A'r gwŷr a droisant oddiyno, ac a aethant tua Sodom: ac Abraham yn sefyll eto gerbron yr Arglwydd.

23 ¶ Abraham hefyd a nesaodd, ac a ddywedodd, A ddyfethi di y cyfiawn hefyd yn nghyd â'r annuwiol?

24 Ond odid y mae deg a deugain o rai cyfiawn yn y ddinas: a ddyfethi di hwynt hefyd, ac nid arbedi y lle er mwyn y deg a deugain cyfiawn sydd o'i mewn hi?

rheswim pabam yr hysbysai Duw iddo ef ei friwad yn nghylch Sodom, ei fod yn cyfranu ei wybodaeth, ac yn ei defnyddio er lles y rhai oeddynt dan ei ofal. *Gadw o honnynt ffordd yr Arglwydd*—y wir grefydd, sef y ffordd ag y mae yr Arglwydd yn ei rhodio ei hun, a'r hon y mae ei ganlyniwyf er hefyd yn ei rhodio. *Gan wneuthur cyfiawnder a barn*—nid yn unig gadw y gwiionedd yn eu credo, ond ei amlygu ef mewn ymarferiad.

Adn. 20. *Am fod gwaedd Sodom a Gomorra yn ddirfawr*] Felly ni a welwn fod pechodau gwaeddfawr yn cael eu clywed yn y nef, pa mor ddisylw bynag o honnynt y bo dynion ar y ddaer. *A'u pechod hwynt yn drwm iawn*—ymddengys mai eu prif bechodau hwy oedd balchder, gloddest, trais, afenddi annatiol, a'u lluo o ganlyniadau angenrheidiol. Yr oedd mesur eu hanwiredd yn awr yn llawn, a phenderfynodd yr Arglwydd eu dyfetha. Er mai yn anfyngel y mae Duw yn anfon ei farnedigaethau, eto rhaid gwneuthur hyn weithiau, rhag i ddynion feddwl fod camwedd ac unioned, drygioni a rhinwedd, yn gyffelyb yn ngolwg Duw.

Adn. 21. *Disgynaf yn awr ac edrychaf*] Nid fel pe buasai Duw mewn amheuaeth yn nghylch dim; ond dewisa ei amlygu ei hun fel hyn yn ol dull dynion, er dangos ei fod yn mynu sicrwydd o enogrwydd y troseddwr cyn cyhoeddi y ddeddfryd.

Adn. 22. *A'r gwŷr*] Sef y ddau angel ag oeddynt gyda'r Meistr, a anfonwyd yn awr tua Sodom; tra yr oedd y trydydd, yr hwn a elwir yr ARGLWYDD neu JEHOPA, yn aros gydag Abraham i ddysgu iddo ef fawr ddefnyddioldeb a phwysigrwydd ffydd a gweddi.

Adn. 23. *Abraham hefyd a nesaodd*] Trwy agweddiad allanol ei gorff, yn gystal a thrwy ymroddiad mewnol ei enaid. Yr oedd Duw wedi nesáu at Abraham i fynegu ei friwad gyda golwg ar Sodom, ac yn awr y mae Abraham yn nesáu at Dduw i EIRIOL drosti. *A ddyfethi di y cyfiawn hefyd yn nghyda'r annuwiol?*—y mae yn debyg mai wrth y 'cyf-

25 Na byddo i ti wneuthur y cyfryw beth, gau ladd y cyfiawn gyda'r annuwiol, fel y byddo y cyfiawn megys yr annuwiol; na byddo hynny i ti: oni wna barnydd yr holl ddaer farn?

26 A dywedodd yr Arglwydd, Os caf fi yn Sodom ddeg a deugain yn gyfiawn o fewn y ddinas, mi a arbedaf yr holl fangre er eu mwyn hwynt.

27 Ac Abraham a atebodd, ac a ddywedodd, Wele yn awr y dechreuais lefaru wrth fy Arglwydd, a mi yn llwch ac yn lludw.

28 Ond odid bydd pump yn eisieu o'r deg a deugain cyfiawn: a ddyfethi di yr holl ddinas er pump? Yntau a ddywedodd, Na ddyfethaf os caf yno bump a deugain.

29 Ac efe a chwaneogodd lefaru wrtho ef eto, ac a ddywedodd, Ond odid cair yno ddeugain. Yntau a

iawn' hwn y golygai efe yn benaf 'Lot gyfiawn,' 2 Pedr ii. 7, 8, yr hwn oedd yn trigo yn mhlith y Sodomiaid annuwiol. Yr oedd Abraham wedi llwyddo ar ei ran ef o'r blaen â'i glodd, ac y mae yn awr yn gwneyd hynny â'i weddian, pen. xix. 29.

Adn. 24. *Ond odid y mae deg-a-deugain o rai cyfiawn yn y ddinas*] Yma efe a gyfeiria ond odid at wasanaethwyr Lot, y rhai y gallai obeithio eu bod yn dylun llwybrau eu meistr. Neu os at y Sodomiaid eu hunain y cyfeiria, nid yw yn dechreu ei eiriolaeth gyda rhif mawr, am y gwyddai am eu hannuwioldeb cyffredinol.

Adn. 25. *Oni wna Barnydd yr holl ddaer farn?*] Diamau y gwna, Rhuf. iii. 5, 6. Y mae ei gyfiawnder, heb son am ei drugaredd, yn wystl digonol dros hynny. Y mae Abraham, wrth roddi iddo y teitl hwn, yn dangos y gwyddai efe yn awr â phwy yr oedd yn ymddyddan: 'canys y Tad nid yw yn barnu neb, eithr efe a roddes bob barn i'r Mab,' Ioan v. 22. Gwel ar adn. 13.

Adn. 26. *Mi a arbedaf yr holl fangre er eu mwyn hwynt*] Fel hyn y mae eiriolaeth Abraham yn llwyddo. 'Mor barod yw Duw i drugarhau, mor ewyllysgar i faddu!' Os caiff efe yn Sodom ddeg-a-deugain yn gyfiawn, efe a arbed yr holl ddinasoedd er eu mwyn! Dylai hyn ein cefnogi ninau yn ein gweddiau.

Adn. 27. *A mi yn llwch ac yn lludw*] Heb. *aphar vaepher*, geriau tra thebyg mewn sain, fel y maent hefyd mewn sylwedd. *Llwch*—gronynau ysgafnaf y ddaear; *lludw*—gweddillion sylweddau llosgedig. Trwy yr ymadroddion hyn y mae efe yn dangos pa mior ddwfn yr oedd ei enaid wedi ei ddarostwng yn mhresenoldeb Duw. Pa bryd bynag y byddom ninau yn nesáu at Dduw, y mae yn gweddu i ni gydnabod y gwahaniaeth mawr ag sydd rhyngom ni ac ef. Efe yw Arglwydd y gogoniant, a ninau ydym bryfed y llwch!

Adn. 28, 29. *Ond odid bydd pump yn eisieu, &c.*] Y mae Abraham yn adnewyddu ei eiriolaeth, ac y mae Duw yn caniatu ei ddeisi-

ddywedodd, Nis gwnaf er mwyn y deugain.

30 Ac efe a ddywedodd, O na ddigied fy Arglwydd os llefaraf: Cair yno ond odid ddeg ar hugain. Yntau a ddywedodd, Nis gwnaf os caf yno ddeg ar hugain.

31 Yna y dywedodd efe, Wele yn awr y dechreuais lefaru wrth fy Arglwydd: Ond odid cair yno ugain. Yntau a ddywedodd, Nis dyfethaf er mwyn ugain.

32 Yna y dywedodd, O na ddigied fy Arglwydd, a llefaraf y waith hon yn unig: Ond odid cair yno ddeg. Yntau a ddywedodd, Nis dyfethaf er mwyn deg.

33 A'r Arglwydd a aeth ymaith pan ddarfu iddo ymddyddan ág Abraham: ac Abraham a ddychwelodd i'w le ei hun.

PENNOD XIX.

A DAU angel a ddaeth i Sodom yn yr hwyr, a Lot yn eistedd yn

yfiad. O y fath Dduw yw ein Duw ni, byth yn diffygio caniatau, byth yn blino wrth daerineb! Ni all Abraham fod yn ddystaw drachefn, adn. 29; a thrachefn y mae yn cael ei ateb yn rasol!

Adn. 30, 31. *O na ddigied fy Arglwydd os llefaraf, &c.*] Y mae y taerineb a arfero y credinwyr yn eu gweddiau gerbron Duw yn gyfryw fel, pe buasant yn ymwneyd â dyn fel hwy eu hunain, na allasant lai nag ofni iddo *ddigio* wrthynt. Ond yr hwn ag y mae genym ni i ymwneyd ág ef sydd *Dduw*, ac nid *dyn*; ac y mae wrth ei fodd pan ei hamgylchynir â llefau taerion.

Adn. 32. *Llefaraf y waith hon yn unig: ond odid cair yno ddeg*] Gan wybod fod y wir grefydd yn cael ei phroffesu a'i harferyd yn rheulu ei nai, ni fedrai feddwl y gallai fod llai na deg o rai cyfiawn yn y ddinas; ac am hyny ni thybïai fod yn angenrheidiol iddo wasgu ei ymbiliadau yn mhellach. Modd bynag, ni ddarfu i Dduw roddi i fyny drugarhau, nes i Abraham roddi i fynu eiriol!

Adn. 33. *A'r Arglwydd a aeth ymaith*] A ddifianodd o'i olwg ef; neu fel y mae y Targum yn ei fynegu, 'gogoniant yr Arglwydd a gymerwyd i fyny.' Felly, er i dri o bersonau ddyfod at Abraham, adn. 2, nid aeth ond dau at Lot i Sodom, pen. xix. 1. *Ac Abraham a ddychwelodd i'w le ei hun*—i'w babel at Sarah, i ddysgwyl am y canlyniad.

PEN. XIX. Adn. 1. *A dau angel a ddaeth i Sodom yn yr hwyr*] Sef y ddau a grybwyllwyd pen. xviii. 22, y rhai oeddynt wedi bod gydag Abraham ganol dydd, adn. 1. *A Lot yn eistedd yn mhorth Sodom*—naill ai i dderbyn ymdeithwyr dyeithr, rhag iddynt gael eu maglu gan ei gydrefwyr drygonus; neu ynte, fel y barna rhai, efe a eisteddai yno fel *ymad*,

mhorth Sodom: a phan welodd Lot, efe a gyfododd i'w cyfarfod hwynt, ac a ymgrymodd a'i wyneb tua'r ddaear;

2 Ac efe a ddywedodd, Wele yn awr, fy Arglwyddi, trowch, atolwg, i dŷ eich gwas; lletywch heno hefyd, a golchwch eich traed: yna codwch yn fore ac ewch i'ch taith. A hwy a ddywedasant, Nage; o herwydd nyini a arhoswn heno yn yr heol.

3 Ac efe a fu daer iawn arnynt hwy: yna y troisant ato, ac y daethant i'w dŷ ef; ac efe a wnaeth iddynt wledd, ac a bobodd fara croyw, a hwy a fwytasant.

4 ¶ Eithr cyn gorwedd o honnynt, gwŷr y ddinas, *sef* gwŷr Sodom, a amgylchasant o angylch y tŷ, hen ac ieuanc, *sef* yr holl bobl o bob cwr;

5 Ac a alwasant ar Lot, ac a ddywedasant wrtho, Mae y gwŷr a ddaethant atat ti heno? dwg hwynt allan atom ni, fel yr adnabyddom hwynt.

6 Yna y daeth Lot atynt hwy allan

i wrandaw a phenderfynu dadleuon; canys yn y pwrth y gweinyddid barn. *Ac a ymgrymodd*—nid mewn parch crefyddol, ond yn ol ffurf arferol moesgarwch.

Adn. 2. *Trowch, atolwg, i dŷ eich gwas*] I dderbyn lletygarwch ac angeledd: gwel ar pen. xviii. 3—5. *Nyini a arhoswn heno yn yr heol*—gan eu bod yn gwybod tueddffyr y trigolion, dewisent yr heol agored o flaen unrhyw dŷ, fel y gallent ddangos i'r trigolion eu gallu a'u neges. Ond tybia rhai eu bod yn hyn yn ymddwyn fel y gwnaeth ein Harglwydd wedi hyny gyda'r dysgyblion yn Emmaus, pryd y *cymerai arno* ei fod yn myned yn mhellach, Luc xxiv. 28.

Adn. 3. *Ac efe a fu daer iawn arnynt*] Mewn rhan am na fynai ef mewn un modd iddynt eu gosod eu hunain yn agored i'r perygion a'r dirmyg ag y gwyyddai eu bod yn eu haros yn heolodd Sodom, ac mewn rhan am ei fod yn dymuno eu cymdeithas; a thrwy ei daerineb efe a lwyddodd.

Adn. 4. *Gwŷr Sodom a amgylchasant o angylch y tŷ*] Wedi iddynt glywed am ddyfodiad y dymethriaid hyn, y rhai yn debygol oeddynt o ymddangosiad prydwedol, hwy a ymdyrasant o bob cwr, ac o bob oedran, gyda'r dyben mwyaf gwarthus, rhy erchyll i'w adrodd, neu feddwl am dano!

Adn. 5. *Dwg hwynt allan atom ni, fel yr adnabyddom hwynt*] Y mae y pechod ffileiddiaf hwn, yr hwn wedi hyny a alwyd *Sodomiaeth*, neu wrywyrdiad, yn cael ei grybwyll mewn lleoedd eraill: gwel Lef. xviii. 22, Barn. xix. 22, Rluf. i. 24: ac y mae yn cael ei gospi yn gyfiawn yn mhob gwlad wareiddiedig a'r cospau trymaf.

Adn. 6, 7. *Yna y daeth Lot atynt*] I geisio eu darbwyllo i ymadael, a pheidio tori hawliau lletygarwch. Efe a geisiai hyn mewn rhan er

i'r drws, ac a gauodd y ddor ar ei ol ;
7 Ac a ddywedodd, Atolwg, fy mrodwr, na wnewch ddrwg.

8 Wele yn awr, y mae dwy ferched genyf fi, y rhai nid adnabuant wr; dygaf hwynt allan atoch chwi yn awr, a gwnewch iddynt fel y gweloch yn dda: yn unig na wnewch ddim i'r gwŷr hyn; o herwydd er mwyn hyny y daethiant dan gysgod fy nghronglwyd i.

9 A hwy a ddywedasant, Saf hwnt: dywedasant hefyd, Efe a ddaeth i ym-draith yn unig, ac yn awr ai gan farnu y barna efe? yn awr ny ni a wnawn fwy o niwed i ti nag iddynt hwy. A hwy a bwysasant yn drwm ar y gwŷr, sef ar Lot, a hwy a nasant i dori y ddor.

10 A'r gwŷr a estynasant eu llaw, ac a ddygasant Lot atynt i'r tŷ, ac a gauasant y ddor.

11 Tarawsant hefyd y dynion oedd wrth ddrws y tŷ â dallineb, o fychan i fawr, fel y blinasant yn ceisio y drws.

anrhydedd i'r dyeithriaid, ac mewn rhan oddiar ei deimlad poenus ei hun 'trwy eu hannghyfeithlon weithredoedd hwynt,' 2 Pedr ii. 8.

Adn. 8. *Wele yn awr, y mae dwy ferched genyf fi, &c.*] Hyn a gyngygiwyd yn fyrbwyll a beus, yn debygol trwy yr anhrefn a'r terfysg mawr ag yr oedd ei feddwl ynddo. Y mae yn wir, o ddau ddrwg, y dylem ddewis y lleiaf; ond o ddau bechod ni ddylem ddewis y naill na'r llall, na byth wneyd drwg fel y delo daioni: gwel ar Barn. xix. 23, 24.

Adn. 9. *Ai gan farnu y barna efe?*] A ydyw efe, yr hwn a ddaeth yma yn ddiweddar fel ymdeithydd dyeithr, yn myned i gymeryd arno ei hun swydd ynad? *Nyni a wnawn fwy o niwed i ti nag iddynt hwy*—hyny yw, a fynwn genit ti yr hyn a geisium ganddynt hwy; neu a ddialwn arnat ti os na chawn ein hewyllys arnynt hwy.

Adn. 10. *A'r gwŷr*] Sef y ddaun angel ar agwedd gwŷr, a estynasant eu llaw—yr oedd Lot yn bryderus am eu cadw hwy, ac y maent hwythau yn gofalu am ei gadw yntau. *Ac a ddygasant Lot atynt i'r tŷ*—fel hyn, yn angau, dygir y saint, megis Lot yma, i dŷ o berffaith ddiogelwch, a chaur y ddor am byth yn erbyn y rhai a fynant eu niweidio.

Adn. 11. *Tarawsant hefyd y dynion oedd wrth ddrws y tŷ â dallineb*] Bwriedid hyn i roddi terfyn ar eu hymngais, ac i fod yn ernes o'u hollol ddinystyr hwy dranoeth. Dechreuodd eu pechod gyda'u llygaid, y rhai oeddynt yn llawn godineb; a chydaf'r rhai hyn y dechreuodd eu cosp.

Adn. 12. *Mab-yn-nghyfraith*] Ymddengys nad oes yma ond un yn cael ei olygu, trwy fod y gair yn y rhif unigol; ond yn adn. 14, y mae y gair yn y rhif lluosog, ei ddawon. Y rhai hyn oeddynt ddaun, trwy nad oedd gan Lot ond dwy ferched: ac ymddengys nad oedd y

12 ¶ A'r gwŷr a ddywedasant wrth Lot, A oes genyt ti yma neb eto? mab-yn-nghyfraith, a'th feibion, a'th ferched, a'r hyn oll sydd i ti yn y ddinas, a ddygi di allan o'r fangre hon.

13 Oblegid ni a ddinystriwn y lle hwn; am fod tŷu gwaedd hwynt yn fawr ger bron yr Arglwydd: a'r Arglwydd a'n hanfonodd ni i'w ddiinystrio ef.

14 Yna yr aeth Lot allan, ac a lefarodd wrth ei ddawon, y rhai oedd yn priodi ei ferched ef, ac a ddywedodd, Cyfodwch, deuwch allan o'r fan yma; o herwydd y mae yr Arglwydd yn dyfetha y ddinas hon: ac yn ngolwg ei ddawon yr oedd efe fel un yn cellwair.

15 ¶ Ac ar godiad y wawr, yr angylion a fuant daer ar Lot, gan ddywedyd, Cyfod, cymer dy wraig, a'th ddwy ferched, y rhai sydd i'w cael; rhag dy ddyfetha di yn anwiredd y ddinas.

rhai hyn wedi gweithredol briodi, ond yn unig wedi eu *dyweddio*, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywed Lot, adn. 8.

Adn. 13. *Oblegid ni a ddinystriwn y lle hwn*] Felly ni a welwn fod yr angylion sant-aidd yn weinidogion digofaint Duw er dinystyr pechaduriaid, yn gystal a gweinidogion ei drugaredd er cadwraeth a gwaredigach ei bobl.

Adn. 14. *Ei ddawon y rhai oedd yn priodi ei ferched*] Hyny yw, wedi addau, neu 'yn nghylch eu priodi'—ONKELOS. *Cyfodwch, deuwch allan o'r fan yma*—y mae y cyfarchiad hwn yn daer a brawychus: nid oedd dim amser i ragymadroddi, pryd yr oedd dinystyr wrth y drws. Nid oedd ganddynt hwy ddeugain niwruod i edifarhau fel y Ninesaiaid; ond 'ar hanner nos y bu gwaedd,' Mat. xxv. 8. *Ac yn ngolwg ei ddawon yr oedd efe fel un yn cellwair*—yr oeddynt yn meddwl fod yr ymosodiad ag yr oedd y Sodomiaid wedi ei wneyd ar ei dŷ wedi dyrysu ei ben, a'i osod yn y fath ddychryn fel na wyddai pa beth yr oedd yn ei ddywedyd. Hwnt-hwy y rhai oeddynt yn gwneyd yn ysgafn o bob peth, a wnaethiant yn ysgafn o hyn hefyd. Ac fel hyn y mae llawer eto o'r rhai a rybyddir o'r perygl ag y maent ynddo trwy bechod, yn gwneyd yn ysgafn o hyny, gan chwerthin am ben eu rhybyddwyr! Nodwn, 1. Y mae llawer yn awr yn chwerthin am ben uffern, y rhai a fyddant yn fuan yn ŷylofaui yn dragwyddol yn uffern. 2. Cellwair gyda rhybyddion Duw yw y ffordd i brysuro ei farnedigaethau. 3. Nid peth anarferol ydyw i ddirmygwyr yr efengyl driu ei gweinidogion hi fel penboethiaid neu wallgofiaid.

Adn. 15. *Ac ar godiad y wawr*] Felly ymddengys ddarod i Lot dreulio gweddill y noson hono, ar ol i'r Sodomiaid gael eu taro â dallineb, i wneuthur parotoadau i fyned o'r

16 Yntau a oedd hwyrfrydig, a'r gwŷr a ymaffasant yn ei law ef, ac yn llaw ei wraig, ac yn llaw ei ddwy ferched; am dosturio o'r Arglwydd wrtho ef; ac a'i dygasant ef allan, ac a'i gosodasant o'r tu allan i'r ddinas.

17 Ac wedi iddynt eu dwyn hwynt allan, efe a ddywedodd, Diane am dy einioes; nac edrych ar dy ol, ac na saf yn yr holl wastadedd: diane i'r mynydd rhag dy ddyfetha.

18 A dywedodd Lot wrthynt, O nid felly, fy Arglwydd.

19 Wele yn awr, cafodd dy was ffafir yn dy olwg, a mawrhaist dy drugaredd a wnaethost â mi, gan gadw fy einioes; ac ni allaf fi ddiane

lle, ac i gymhell ei ddawon. *Yr angylion a fuant daer ar Lot*—i ffoi gyda'i deulu ei hun rhag y dinystr, gan nad allai berswadio ei gymydogion.

Adn. 16. *A'r gwŷr a ymaffasant yn ei law ef*] I'w lusgo ef ymaith fel pentewyn o'r gyneu dân, Amos iv. 11. *Ac yn llaw ei wraig*—felly cafodd gwraig Lot, yr hon a ddyfethwyd, yr un chwera tēg a'r lleill o'r teulu y rhai a gadwyd. *Am dosturio o'r Arglwydd wrtho ef*—a'i deulu, fel na ddyfethid hwy trwy eu hwyrfrydigrwydd, fel y dyfethid y lleill trwy eu hannuwioldeb.

Adn. 17. *Ac wedi iddynt eu dwyn hwynt allan*] I'r gwastadedd y tu allan i'r ddinas, *efe a ddywedodd*—sef un o'r angylion, yr hwn yn debygol oedd yn ymaffyd yn llaw Lot. *Diane am dy einioes*—cans y mae dy einioes a'ih enaid yn y perygl mywaf o gael eu dyfetha. *Nac edrych ar dy ol*—nid oes genyt ond prin ddigon o amser i ddiane rhag y farn sydd yn awr ar ddisgyn; gall un edrychiad yn ol brofi yn angeuol i ti, ac y mae Duw yn gorchymyn i ti ei ochelyd. *Ac na saf yn yr holl wastadedd*—cans dyfethir hwn yn ystgal a'r ddinas. *Diane i'r mynydd*—ar yr hwn ni chaiff y barnedigaethau hyn ddisgyn. *Rhag dy ddyfetha*—yr hyn yn sicr a wneir os na chydymffurfî â'r rheolau hyn: gwelir hyn yn achos gwraig Lot, adn. 26. Yn y gorchymynion hyn a roddwyd i Lot a'i deulu, cawn anghraifft o'r rhai a roddir mewn effaith i bob un a'wareddwyd trwy ras allan o gyflwr pechadurus: 1. Na thro eilwaith at bechod, cans hyn yw *edrych yn ol i Sodom*. 2. Na orphwys yn y byd, cans hyn yw *sefyll yn y gwastadedd*. 3. Ymestyn at Grist a'r nef, cans hyn yw *diane i'r mynydd*. Ddarllenwyd, y mae mynydd santaid Seion, sef eglwys y Daw byw, yn dy myl dithau: bryisia i ddiane yno mewn edifeirwech a ftydd, rhag dy ddyfetha!

Adn. 18. *O nid felly, fy Arglwydd*] Y gair yma yw *adonai*, nid *Yehovah*; a dylasai gael ei gyfieithu *fy arglwyddi*, fel y mae yn argraffiad Cymreig Caergrawnt, 1766.

Adn. 19. *Ni allaf fi ddiane i'r mynydd*] Naill ai am ei fod yn rhy serth a chreigiog; neu ynte am ei fod yn rhy bell iddo allu cludo

i'r mynydd, rhag i ddrwg fy ngoddi-weddyd, a marw o honof.

20 Wele yn awr, y ddinas hon yn agos i ffoi iddi, a bechan yw: O gad i mi ddiane yno: (Onid bechan yw hi?) a byw fydd fy enaid.

21 Yntau a ddywedodd wrtho, Wele mi a ganiateais dy ddymuniaid hefyd am y peth hyn, fel na ddinystriwŷf y ddinas am yr hon y dywedaist.

22 Bryisia, diane yno; o herwydd ni allaf wneuthur dim nes dy ddyfod yno: am hyn y galwodd efe enw y ddinas Soar.

23 ¶ Cyfodasai yr haul ar y ddaear, pan ddaeth Lot i Soar.

24 Yna yr Arglwydd a wlawiodd

ei ychydig gelfi iddo. Mai nid ofni yr ydoedd i'r farn ei gyraedd cyn iddo allu cyraedd yno, sydd eglur oddi wrth hyn, ei fod yn dewis lle ag ydoedd lawer yn nes i Sodom, adn. 20. Efe a wyddai, tra y cadwai efe y rheolau a roddwyd iddo adn. 17, y byddai ei einioes ef yn ddiogel rhag y farn.

Adn. 20. *O gad i mi ddiane yno*] Y mae Lot yn cynyg dau reswm dros ei gais: 1. Am fod Soar yn nes ato na'r mynydd; 2. Am ei bod yn fechan, a llai o drigolion ynddi nag a oedd yn Sodom a Gomorra, ac felly ond odid yn llai dirywiedig na'r dinasoedd hyn.

Adn. 21. *Wele, mi a ganiateais dy ddymuniaid*] Ym nhell oddiwrth ommedd caniatu erfyniad rhesymol, y mae yr angel fel pe byddai dan anhawsdra i wrthod unrhyw un: fel ei Feistr nefol, 'yn ei lid efe a gofiai drugaredd,' Hab. iii. 2. *Fel na ddinystriwŷf y ddinas*—felly ymdengys fod Soar hefyd wedi ei dedfrydu i ddinystyr, ac iddi gael ei harbed i'r dyben i fod yn noddfa i Lot. Oddiyma gwelwn fod presenoldeb dynion da mewn dinas yn foddion yn aml i gadw barnedig-aethau draw.

Adn. 22. *Ni allaf wneuthur dim nes dy ddyfod yno*] Felly yr oedd y cenhadon nefol hyn wedi cael y gorchymyn manylad i ofalu am Lot a'i deulu; ac ni allai hyd yn nod dybenion cyfiawnder dwyfol gael eu cyflawni ar bechaduriaid gwrthryfelgar nes i'r gwŷr cyfiaw hwn a'i deulu ddiane o'r lle. *Am hyn y galwodd efe enw y ddinas Soar*—gelwyd hi o'r blaen *Bela*, pen. xiv. 2; ond am iddi gael ei gwaredu drwy eiriolaeth Lot, o herwydd mai *bechan* oedd, galwyd hi Soar, neu *fechan*. Hi a safai yn nghwr pellaf gwastadedd yr Iorddonen, ac yr oedd yn un o'r pum dinas yn y parth hwnw lle y safai Soar.

Adn. 23. *Cyfodasai yr haul ar y ddaear*] Felly dechreuodd y dydd yn hafaid a thēg; ond buan y troes yn dymhestl o dân!

Adn. 24. *Yna yr Arglwydd a wlawiodd—oddiwrth yr Arglwydd*] Gan fod pob barn wedi ei rhoddi i Fab Daw, meddyliodd llawer o'r hen dadau, ac amrai dduwinyddion diweddar, fod y geiriau *vaihovah* a *meeth Yehovah* yn arwyddo, fod *Jehofa* y Mab yn gwlawio brwinstan a thân oddiwrth *Jehofa* y

ar Sodom a Gomorra frwmstan, a thán oddiwrth yr Arglwydd, allan o'r nefoedd.

25 Felly y dinystriodd efe y dinas-

TAD; a bod yr adnod hon yn brawf eglur o briodol Dduwdd ein Gwaredwr bendedig. Felly y mae Houbigant, Calmet, a'r holl hen ddau yn deall y lle. *Ar Sodom a Gomorra*—y rhai yn unig a enwir fel y dinasoedd mwyaf, er i'r lleill oll gael eu difa, Deut. xxix. 23. Dywed Strabo nad oedd yno ddim llai na thair-ar-ddeg o'r dinasoedd hyn, ar y rhai y disgynodd y fillamau brwmstanaidd fel dylif o'r nefoedd; neu, fel y mae Salviau yn ei eirio, 'ar y rhai y gwlawiodd Duw uffern o'r nef!' *Frwmstan a thán*—gallwn dybio yn ddiogel fod yn gwbl ddichonadwy ddarfod i gawd o ronynau brwmstanaidd syrthio o'r nef wybrenol, y rhai, trwy weithrediad trydan neu fellt, a enyid yn ebrwydd, ac felly ddarfod llosgi y dinasoedd. A chan fod yr holl wastadedd o amgylch Sodom a Gomorra yn llawn o byllau *asphaltus* neu *bitumen*, (gwel ar pen xiv. 10.) y mae yn debyg ddarfod i'r sylwedd pygldd a hylsog hwnw danio hefyd, fel ag i gynorthwyo y difnod cyffredinol. A bydd i hyn yn y modd mwyaf naturiol a llythyrenol roddi cyfrif am losgiad yr holl wastadedd, yn gystal a'r dinasoedd o'i fewn.

Adn. 25. *Felly y dinystriodd efe y dinasoedd hyny, a'r holl wastadedd*] Trwy yr ail achosion a nodwyd. Y gwastadedd hwnw a safai yn y fan lle yn awr y mae yr hyn a elwir *Llyn Asphaltites*, y *Môr Marw*, neu y *Môr Heli*. Yr Arabiaid a'i galwant *Birket Lut*, 'Môr Lot.' Yn ol yr hanesion cywiraf, meddai Clarke, y mae oddeutu 70 o filldroedd o hyd, a 18 o led; ond ereill a'i mesurant lawer yn llai. Trwy fod yr Iorddonen a nentydd ereill yn ymarllwys iddo ac yn ymgorllï ynddo, tybia Robinson ac ereill fod yma gryn llyn o'r blaen. Dywed Dr. Shaw fod yr Iorddonen ei hun yn arllwys i'r Môr Marw y cyfartaledd o 6,090,000 tunell o ddwfr bob dydd; a chan nad oes un fynedfa weledig i'r dwfr fyned allan o hono, rhaid naill ai fod yn ei waelod ryw drosgrlwyddfa danddaearol, neu fod eymaint a hyny o ddwfr yn ymgodi o hono bob dydd trwy ageriad neu darddiad. Y mae y chwedlau mwyaf rhyfedd ac anghbredadwy wedi eu dywydedd gan lawer o'r henaifaid, yn gystal ag awduron diweddar, yn nghylch y fan lle y safai y dinasoedd hyn. Dywedir yn gyffredin fod dyfroedd y môr hwn mor *dew*, fel na sudda cared ynddynt; mor *wydyn* a *gludiog*, fel na all y gwynt mwyaf tymhestlog eu crychu; mor *angeuol*, fel na all ynysgodyn fyw ynddynt; ac os dygwydda i aderyn hedeg uwchben y llyn, y bydd iddo gael ei ladd gan yr hedlif ag sydd yn codi oddiwrth y dyfroedd; na all unrhyw wyrddlesni braidd dyfu yn agos i'r lle; ac yn y gynyddogaeth lle y mae dim coed, eu bod yn dwyn y firwythau prydferthaf, ond pan eu hgorir na cheir dim ynddynt ond lludw; a bod y lle yn llosgi yn hir wedi amser yr apostolion. Gellir yn ddiogel gyhoeddi y rhai hyn, a phob chwedl gyffelyb, meddai Clarke, yn ddirtawr fwyhad ffieithian, neu ffueghwedlau mynachod anwy-

oedd hyny, a'r holl wastadedd, a holl drigolion y dinasoedd, a chnwd y ddacar.

26 ¶ Eithr ei wraig ef a edrychodd

bodus, syfrdan, ac ofergoelus; neu yn dwyll o eiddo ymdeithwyr diegwyddor, y rhai, gan wybod fod y werin yn hoffi *rhyfeddodau*, a lanwasant er traethodau â'r cyfryw hanesion, yn unig er cael gwbl gwerthiad i'w llyfrau! Y gwirionedd yw, fod y dyfroedd yn hynod o hallt, yn mhell tu hwnt i halltroydd arferol y môr, ac am hyny y gelwir ef *Môr Heli*. Trwy yr amgylchiad hwn nofia pethau ynddo, y rhai a suddent mewn dwfr hallt cyffredin; ac y mae yn debyg mai dyma un achos na all ond ychydig bysgod fyw ynddo. Eithr mynachod St. Saba a sierhasant i Dr. Shaw, iddynt hwy *welod* pysgod yn cael eu dal ynddo, yn debygol yn agos i geg yr Iorddonen. Ac am y chwedlau fod rhyw nawns niweidiol yn yr awyr uwch ei ben, y gwirionedd yw, fod talpiau o'r pŷg yn codi yn fynych o'r gwaelod i'r wyneb, ac yn ageru sawr drowedd, yr hwn yr ynddengys nad oes dim yn wenwynig ynddo. Bu Dr. Poeocke yn nofio yn y môr hwn am yn agos i chwarter awr, heb deimlo un math o annglyffensdra. Y mae y dwfr, meddai ef, yn *loyw iawn*; ac wedi iddo gymeryd ymaith gostrelad o hono, efe a fynodd ei *ddos-ranu*, a chafodd nad oedd ef yn eynwys unrhyw sylwedd ond halen ac ychydig allawg (*alum*). Trwy fod sylwedd pygldd yn crugdarddu yn fynych o waelod y llyn hwn, yr llyn a ymddengys fel yn profi fod yno dân isddaearol, dyma yr achos o'r hanesion fod y lle hwn yn llosgi hyd yn nod wedi dyddiau yr apostolion. Ac y mae yr ymddangosiadau hyn yn parhau eto; canys y mae clapiau hamnergrwn o'r pŷg, meddai Dr. Shaw, yn ymgodi weithiau o'r gwaelod, y rhai, eyn gynted ag y denant i'r wyneb, ac y gweithredir arnynt yno gan yr awyr allanol, sydd yn firwyddoer ar unwaith gyda thwrf a mwg mawr, gan ynwsgaru yn fil o ddarnau. Eithr nid yw hyn yn dygwydd ond yn agos i'r lan; canys mewn dyfnder mwy tybir fod y crugdarddiadau yn ymddangos yn y cyfryw golofnau mwg ag sydd yn awr ac eilwaith i'w gweled yn codi o'r llyn. Ac fe allai mai i'r fath crugdarddiadau a'r rhai hyn y gallwn briodoli yr amrai byllau a'r ceudyllau, nid annhebyg i weddillion ein hen galch-odynau ni, y rhai a geir yn nghyffiniau y llyn hwn. Yn ol pob tebygolrwydd y mae *brwmstan* yn codi o'r gwaelod gyda'r *pŷg*, trwy fod y ddau i'w cael yn gynydd ar y lan; ac y mae y cyntaf yn union yr un peth a'u brwmstan cyffredin ni, tra y mae y llall yn ddû a hawdd ei friwioni; ac, wrth ei rwbio, neu ei roddi yn y tân, y mae yn sawrio yn ddredwedig; ond ar ol iddo fod beth amser yn agored i'r awyr, y mae yn caledu fel cared. *A holl drigolion y dinasoedd*—y rhai yr oedd eu cosp yn cyfateb i'w pechod. Chwantau llosgedig *yn erbyn natur* oedd eu pechod, a llosgiad *goruwchnaturiol* oedd eu cosp gyfiawn am y pechod hwnw.

Adn. 26. *Eithr ei wraig ef a edrychodd drach ei chefn o'i du ol ef*] Yn hyn hi a anfyddhaodd i orchymyn pendant, adn. 17.

drach ei chefn o'i du ol ef, a hi a aeth yn golofn halen

27 ¶ Ac Abraham a aeth yn fore i'r lle y safasai efe ynddo gerbron yr Arglwydd.

28 Ac efe a edrychodd tua Sodom a Gomorra, a thua holl dir y gwastadedd; ac a edrychodd, ac wle cyfododd mwg y tir fel mwg ffwrn.

29 A phan ddyfethodd Duw ddi-naesoedd y gwastadedd, yna y cofiodd

Duw am Abraham, ac a yrodd Lot o ganol y dinystr, pan ddinystriodd efe y dinasoedd yr oedd Lot yn trigo ynddynt

30 ¶ A Lot a esgynodd o Soar, ac a drigodd yn y mynydd, a'i ddwy ferched gydag ef: o herwydd efe a ofnodd drigo yn Soar; ac a drigodd mewn ogof, efe a'i ddwy ferched.

31 A dywedodd yr hynaf wrth yr ieuangaf, Ein tad ni sydd hen, a gwr

Ymddengys ei bod yn hiraethu am ei thŷ a'i dodrefn yn Sodom, ac yn anewillysgar i'w gadael yn aberth i'r ffiamau. Y mae ein Harglwydd yn lledarwyddo mai hyn oedd ei phechod, (Luc xvii. 31, 32.) ac am hyn yn ei gosod yn rhybydd i ninau. *A hi a aeth yn golofn halen*—ar ol iddi yn gyntaf gael ei tharaw yn farw, ymddengys iddi gael ei throi yn sylwedd *nitraidd* neu *halenaidd* gan y defnydd ag oedd yn cael ei wlawio o'r nefoedd, neu a oedd yn codi o'r ddaear, yr hwn a dreiddiai drwy ei chorff, nes ei gadael ar y gwastadedd yn grawn halenaidd yn ei ffurf ddynol! Y mae Dr. Kitto yn egluro yr amgylchiad hwn trwy gyfeirio at dystiolaeth *Aventinus*, yr hwn a ddywed ddarfod i oddeutu hanner cant o ddynion a'u gwartheg yn ei amser ef, yn Carinthia, gael eu dinystrio trwy fygdarthiad halenaidd yn codi o'r ddaear yn naearyn 1348, y rhai a wnaed yn golofnau halenaidd yn yr un modd. Nynt a ddarllenwn yn fynych am gyrff yn cael eu claddu mewn daear galchiog, y rhai mewn rhydyg amser sydd yn caledu, neu yn *caregu*, fel ag i ymddangos yn debyceach i gareg ar lun dyn, nag i gorff o gnawd. Ymddengys i wraig Lot barhau yn y cyflwr hwn am o leiaf ddwy fil o fflynyddau, gan y dywed Josephus ei bod yn aros yn ei amser ef, ac iddo ef ei hun ei *gweled* hi, Ant. lib. i. c. xi. 3, 4. Y mae St. Clement, ac ereill o'r tadau, yn tystio yr un peth. Dichon iddi yn fuan ar ol dechreu y cyfnod Cristionogol falurio i lawr, neu gael ei chladdu yn y ddaear, gan y sicrhair i ni gan ymdeithwyr credadwy, y rhai a feont yn chwilio am dani, nad allent hwy gael dim o'i holion, oddieithr fod y darnau halenaidd a geid ar gyffiniau y Môr Marw yn weddillion o honi. Y mae yr olwg yma ar y mater yn hollol naturiol, er fod llawer o chwedlau gweigion am dani wedi cael eu taenu ar hyd y byd. Dywed yr hanesydd ysbrydoledig iddi gael ei throi yn *golofn halen*, a dywed rheswm ddarfod iddi *aros* am ryw amser yn y cyflwr hwnw; ac nis gwn i ar ba sail y gellir gwadu tystiolaeth Josephus ddarfod iddo yntau ei *gweled*, mwy na thystiolaeth ymdeithwyr diweddar ddarfod iddynt hwythau *fethu* cael dim o'i hol. Digon yw dywedyd bellach, ei bod hi yn aros yn yr ysgrythrau santaidd yn *gofgolofn dragwyddol* o anffodlonrwydd Duw i bechod yn gyffredinol, ac yn rhybydd i bawb rhag anuydd-dod, cybydd-dod, a gwithgiliad: 'COFIWCH WRAIG LOT!'

Adn. 27. *Ac Abraham a aeth yn fore i'r lle*] Yn awyddys i wybod beth oedd effeithiau y gweddiau a offrymasai efe at Dduw y dydd

o'r blaen. Ond O! pa beth a raid fod ei syndod wrth weled yr holl ddinasoedd hyn, yn nghyda'r gwastadedd ag ydoedd fel gardd yr Arglwydd, (pen. xiii. 10.) oll ar dân, a'r mwg yn esgyn fel *mwg ffwrn*, yn brawf dychrynllyd na allodd Duw ei hun gael *deg* o rai cyfiaw yn yr holl fangre!

Adn. 28. *Ac efe a edrychodd tua Sodom*] Nid fel y gwnaeth gwraig Lot, gan feio yn ddystaw ar y tosder dwyfol; eithr gan ei fawrygn yn ostrynedig, ac ymfoddloni ynddo. *Ac wle cyfododd mwg y tir fel mwg ffwrn*—y mae yn amlwg oddiyma ddarfod i byg hylsg dyffryn Sidim danio gan y mell o'r nef, ac iddo barhau i losgi am gryn amser. Y mae yn debyg hefyd i'r cyffosiad hwn gael ei ddylun gan egoriadau neu grugarddiadau tanllyd, o'r hyn y mae amrai arwyddion i'w gweld eto: a'r canlyniad fu i'r dyffryn ymsuddo, fel ag i ffurfio y môr hwn. Cafwyd ei fod mewn rhai manau yn fwy na 1,300 o droedfeddi o ddyfnder.

Adn. 29. *Yna y cofiodd Duw am Abraham*] Er na enwodd efe lai na *deg* o rai cyfiaw, pen. xviii. 32, eto yr oedd gan Dduw barch i ysbryd ei erfynion, fel ag yr arbedodd efe bob un a ellid ei alw yn *gyfiaw*, ac er mwy Abraham cynygiodd waredigaeth i holl deulu Lot. *Y dinasoedd yr oedd Lot yn trigo ynddynt*—hynny yw, yn un o ba rai yr oedd Lot yn trigo. Felly pen. viii. 4, 'gorphwysodd yr arch ar fynyddoedd Ararat,' h. y. ar un o ffynyddoedd Ararat.

Adn. 30. *A Lot a esgynodd o Soar*] Wrth weled y difrod cyffredinol a syrthiasai ar y wlad, a bod y tân yn parhau i ddifa, *efe a ofnodd drigo yn Soar*—rhag i hōno hefyd gael ei dyfethla; ac yna efe a aeth i'r mynyddoedd hynny ag y gorchymynasai yr angel iddo ar y cyntaf ddianc iddynt. Y mae dyn nyfyd bob amser yn dewis ei ffordd ei hun yn hytrach nag eiddo ei Wneuthurwr. Yr oedd yn feius iddo ar y cyntaf beidio myned i'r mynydd; ac yr oedd yn feius iddo yn y lle nesaf fyned yno ar ol i'r angel sicrhau iddo y cai Soar ei harbed er ei fwyn ef. Y mae y ddau amgylchiad yn profi diflyg ffydd nid yn unig yn ngwirionedd Duw, oud hefyd yn ei ragluniant ef. Ped arosasai efe yn barhaus yn Soar, y mae yn debyg na fuasai i'r amgylchiad cywilyddus a goffeir ar ol hyn gmycerd lle. *Ac a drigodd mewn ogof*—y rhai sydd yn dra aml yn y parthau hynny yn y creigiau calch. Y mae yn debyg ei fod yn rhy euog ei feddwl i ddychwelyd at ei ewythr Abraham.

Adn. 31. *Ein tad ni sydd hen*] Ac o ganlyniad yn anuhebyg o ail briodi; a *gwr nid*

nid oes yn y wlad i ddyfod atom ni, wrth ddefod yr holl ddaear.

32 Tyred, rhoddwn i'n tad win i'w yfed, a gorweddwn gydag ef, fel y cadwom had o'n tad.

33 A hwy a roddasant win i'w tad i yfed y noson hōno: a'r hynaf a ddaeth ac a orweddodd gyda'i thad; ac ni wybu efe pan orweddodd hi, na phan gyfododd hi.

34 A thranoeth y dywedodd yr hynaf wrth yr ieuangaf, Wele, myfi a orweddais neithiwr gyda'm tad; rhoddwn win iddo ef i'w yfed heno hefyd, a dos dithau a gorwedd gydag ef, fel y cadwom had o'n tad.

35 A hwy a roddasant win i'w tad i yfed y noson hōno hefyd; a'r ieu-

angaf a gododd, ac a orweddodd gydag ef; ac ni wybu efe pan orweddodd hi, na phan gyfododd hi.

36 Felly dwy ferched Lot a feichio-gwyd o'u tad.

37 A'r hynaf a esgorodd ar fab, ac a alwodd ei enw ef Moab: efe yw tad y Moabiad hyd heddyw.

38 A'r ieuangaf, hefyd, a esgorodd hithau ar fab, ac alwodd ei enw ef Benammi: efe yw tad meibion Ammon hyd heddyw.

PENNOD XX.

AC Abraham a aeth oddiyno i dir y deau, ac a gyfaneddodd rhwng Cades a Sur, ac a ymdeithiodd yn Gerar.

oes yn yr holl wlad—o'u tylwyth a'u cenedl eu hunain. Yr oeddynt yn meddwl fod yn anghyfreithlon iddynt briodi â thrigolion Soar, y rhai y gwyddent eu bod wedi eu diofrydu i ddinystyr yn gystal a thrigolion Sodom a Gomorra, ond eu bod wedi eu harbed am dro er mwyn eu tad.

Adn. 32. *Tyred, rhoddwn i'n tad win i'w yfed*] Wrth ffoi o Soar ymddengys iddynt gymeryd gyda hwy ryw arlywyadau, a'r gwin a grybwyllir yma yn mys g pethau ereill. *Fel y cadwom had o'n tad*—ymdrechent sant-eiddio y moddion anghyfreithlon trwy ddai-oni y dyben ag y cyfeirient ato; trefn yr hon, er ei bod yn cael ei chofleidio gan lawer, a ddylai gael ei gwrthod gan hawb.

Adn. 33. *Ac ni wybu efe pan orweddodd hi, na phan gyfododd hi*] Yr oedd mor bell dan ddylanwad y gwin fel na wyddai pa bryd y gorweddodd hi, na phwy a orweddodd; y cans y mae yn rhesymol i ni feddwl y gallai fod ganddo forwynion wedi dyfod gydag ef o Soar.

Adn. 34. *Rhoddwn win iddo i'w yfed heno hefyd*] Nid ymddengys mai oddiar chwantau pechadurus yn unig yr ewyllysiai merched Lot dwyllo eu tad; ond, fel y sylwyd eisoes, gallent feddwl y buasai yn feis iddynt briodi i unrhyw deulu dweithr; a gwyddent fod eu darpar-wyr wedi eu dyfetha yn nynystr Sodom; ac felly tybient ond odid nad oedd un ffordd wedi ei gadael i barhau y tenlu, ac i drosglwyddo eu crefydd i'r oesau dyfodol, ond y ffordd a gymerasant yn awr.

Adn. 35. *A hwy a roddasant win i'w tad*] Er fod Lot ond odid ar y cyfan yn w'r cyfiawn, ac yn meddu llawer o rinweddau hygar, eto y mae yn eglur fod ei egwyddor yntau hefyd, yn gystal ag eiddo ei ferched, wedi cael ei halogi i ryw raddau trwy gymdeithasu â gweithredwyr anwiredd, onid y buasai yn gwrthsefyll pob tentasiwn i ormoded mewn gwin, yn enwedig yr ail dro hwn! Nis gellir dadlu yn ei achos ef, fel yn achos Noa, pen. ix. 21, na wyddai efe yn awr nerth y gwin; y cans yr oedd wedi cael prawf alaethus o gryfder y gwin a'i wendid ei hunan y nos o'r blaen.

Adn. 36. *Felly dwy ferched Lot a feichio-*

wyd o'u tad] Yma y diwedda hanes Lot: ar ol hyn nid ydym yn clywed gair am dano ef na'i ferched. Ni allwn lai na theimlo yn ofidus wrth ei adael dan gymwl mor ddû! Y mae genym ryw reswm i greu ddarvoud iddo ef wedi hyn edifarhau am ei bechod, onid n a soniasai St. Pedr mor barchus am dano, 2 Pedr ii. 7, 8; ond nid oes genym brawf ddarvoud i'w ferched edifarhau am yr eiddynt hwy.

Adn. 37. *Ac a alwodd ei enw ef Moab*] Yr hwn a arwydda o'r tad, neu hiliogaeth y tad. Gwel isod.

Adn. 38. *Benammi*] Hyny yw, *mab fy mhobl*. Y mae y ddau enw hyn, meddai Clarke, yn ymddangos i gyfiawnhau y dyb mai er cadwraeth y tenlu yn unig y darfu i ferched Lot ddefnyddio y ddyfais uchod. Yr oedd y cenedloedd a ddeiliasant oddiwrth ferched Lot yn ddian yn rhai drygonus. Y MOABIAID, hiliogaeth y ferch hynaf, a syrthiasant yn fuan oddiwrth ffydd Duw, ac a aethant yn eilunaddolwyr, pobl Cemos a Baal-peor, Num. xxi. 29, a xxv. 1—3; ac yr oedd-ynt yn elynion i hiliogaeth Abraham: gwel Num. xxii., Barn. iii. 14, &c. A darfu i'r AMMONIAID, hiliogaeth y ferch ieuangaf, y rhai a breswylent yn agos i'r Moabiad, ymuno â hwynt mewn eilunaddoliaeth, a throi hefyd yn elynion i Israel: gwel Barn. xi. 4, 24; Deut. xxiii. 3, 4. Gan i'r ddau bobl yma wneuthur cryn hynodrwydd wedi hyn yn yr hanesiaeth santiaidd, darfu i'r ysgrifenydd ysbrydoledig ofalu am ddwyn i mewn yn yr amser bore hwn hanes eu dechread.

PEN. XX. Adn. 1. *Ac Abraham a aeth oddiyno*] Ni ddywedir i ni am ba achos y symudodd efe; pa un ai wedi ei ddychryn yr ydoedd trwy ddinystyr Sodom; ai ynt, fel y dywed rhai o'r ysgrifenywyr Iuddewig, am iddo gael ei flino trwy ymlogach Lot gyda'i ferched, a'r gwarth a fwriai y Canaaneid arno o achos ei gar. *Ac a ymdeithiodd yn Gerar*—yr hon oedd ddinas yn Arabia Petraea, dan frenin Philistiaidd a elwid ABIMELEC, 'fy nhad frenin,' yr hwn yr ymddengys ei fod nid yn unig yn dad i'w bobl ond hefyd yn w'r cyfiawn.

2 A dywedodd Abraham am Sarah ei wraig, Fy chwaer yw hi : ac Abimelec brenin Gerar a anfonodd ac a gymerth Sarah.

3 Yna y daeth Duw at Abimelec, noswaith, mewn breuddwyd, ac a ddywedodd wrtho, Wele dyn marw wyt ti am y wraig a gymerast, a hitiau yn berchen gwr.

4 Ond Abimelec ni nesasai ati hi : ac efe a ddywedodd, Arglwydd, a leddi di genedl gyfiawn hefyd ?

5 Oni ddywedodd efe wrthyf fi, Fy chwaer yw hi ? a hitiau hefyd ei hun a ddywedodd, Fy mrawd yw efe : yn mherffeithrwydd fy nghalon, ac yn nglendid fy uwylaw, y gwnaethym hyn.

Adn. 2. *Fy chwaer yw hi*] Gwel ar pen. xii. 13, &c. Yr oedd Sarah yn awr oddentu 90 mlwydd oed, ac yn debygol yr feichiog ar Isaac. Gan hyny rhaid fod ei heddwch wedi amharu yn fawr er pan y cymerwyd hi yn y cyffelyb fodd gan Pharao oddentu 24 mlwydd cyn hyn. Ond y mae yn debyg iddi gael ei dewis yn awr gan Abimelec yn twy er mwyn ffurfio *cyfathrach* âg Abraham, yr hwn oedd yn dra chyfeithog, a galluog, nag er mwyn unrhyw gyflawniadau personol : gwel ar pen. xiv. 14, &c.

Adn. 3. *Yna y daeth Duw at Abimelec*] Ymddengys oddiyma fod Duw yn ymddatguddio trwy freuddwydion, y rhai a brofent yn ddwyfol a goruwelnaturiol, nid yn unig i'w weision y profiwyd, ond hefyd i rai ag oedd-ynt tnaillan i derfynau yr eglwys : ond pan y gwnai hyny, dicheon ei fod holl anser gyda rhyw olwg ar ei bobl ei hun, megys yma. *Wele dyn marw wyt ti am y wraig a gymerast*—hyny yw, os na wnai yr hyn yr wyf yn ei erchi, os na adferi y wraig i'w gwr.

Adn. 4. *Arglwydd, a leddi di genedl gyfiawn hefyd?*] Y mae yn debyg fod Abimelec yn cyfeirio at ddinystr diweddar Sodom a Gomorra, yr hyn yn ddiamau a raid fod wedi achosi braw mawr, os nid rhyw radd o ddiwygiad hefyd, yn y gymydogaeith hono. Gan na wrthodwyd dadl Abimelec gan yr Arglwydd, y mae genym le i obeithio ei fod ef a'i ddeiliaid nid yn unig yn rhydd oddiwrth ffeidd-dra Sodom, ac oddiwrth eifunaddoliaeth cyffredinol Canaan, ond hefyd fod ofn Duw, a pheth o weddillion gwir grefydd, i'w cael yn eu plith : ac y mae hyny yn eglurach oddiwrth yr enw a ddyry efe i'w bobl, sef 'cenedl gyfiawn.'

Adn. 5. *Yn mherffeithrwydd fy nghalon, ac yn nglendid fy uwylaw y gwnaethym hyn*] Pe buasai gan Abimelec rwybeth armen na dybenion anrhydeddus mewn golwg wrth gymeryd Sarah, ni allasai efe ymgysfawnhau fel hyn gerbron ei Wneuthurwr : a bod y dybenion hyn o'r fath anrhydeddusaf a wirir gan Dduw ei hun, at yr hwn yr apeliodd : 'Minau a wn mai yn mherffeithrwydd dy galon y gwnaethost hyn,' adn. 6.

Adn. 6. *A mi a'th ateliais rhag pechu i'm*

6 Yna y dywedodd Duw wrtho ef, mewn breuddwyd, Minau a wn mai yn mherffeithrwydd dy galon y gwnaethost hyn : a mi a'th ateliais rhag pechu i'm herbyn : am hyny ni adewais i ti gyffwrdd â hi.

7 Yn awr gan hyny, dod y wraig drachefu i'r gwr ; o herwydd profiwyd yw efe, ac efe a weddia trosot, a byddi fyw : ond oni roddi hi drachefu, gwybydd y byddi farw yn ddiau, ti a'r rhai oll ydynt eiddot ti.

8 Yna y cododd Abimelec yn fore ac a alwodd am ei holl weision, ac a draethodd yr holl bethau hyn wrthynt hwy : a'r gwŷr a ofnasant yn ddirfawr.

9 Galwodd Abimelec, hefyd am Abraham, a dywedodd wrtho, Beth a

herbyn] Duw sydd yn cadw dynion rhag gwneuthur y drwg ag y mynent ei wneyd. Nid oddiwrtho ef y mae fod pechod, ond oddiwrtho ef y mae nad oes mwyr o bechod, naill ai trwy ei ddylanwad ef ar feddyliau dynion yn attal eu tueddaiad at bechod, neu trwy ei ragluniaeth yn cymeryd ymaith y cyffe i'w wneuthur. Trugaredd fawr yw cael ein rhwystro i bechu, am yr hyn y rhaid i Dduw gael y gogoniant, pwy bynag yw yr offeryn.

Adn. 7. *O herwydd profiwyd yw efe, ac efe a weddia drosot*] Hwn yw y man cyntaf yn yr ysgrifthyrr lle y dygwydda y gair *profiwyd*, ac Abraham yw y dyn cyntaf ag y rhoddir yr enw hwn iddo. Gan y chwaneir yma, 'ac efe a weddia drosot,' y mae yn eglur, fel y sylwa Houbigant, fod y gair *profiwyd* yn cynwys y drychfeddwl o berson cymeradwy gan Dduw, yr hwn a all ofyn a derbyn cymwynasau i ddynion. Yn Exod. vii. 1, *profiwyd* yw nn ag sydd yn llefaru dros arall fel ei ddeuglwr, fel ei enau. Nid ymddengys fod *rhagddyweddyd* pethan dyfodol yn gynwysedig eto yn y gair. Y mae y gair Hebreig, *nabi*, yn arwyddoedd nn ag sydd yn llefaru rhywbeth mewn modd enwog ac anghyffiedin. Gan y byddai *profiwyd*, neu rai a lefarent dros Dduw, yn rhagfynegu dygwyddiadau dyfodol yn ei enw ef, daeth y gair *profiwyd* i gynwys nid yn unig nn yn meddu cyweithas gyfeillgar â Duw, ac wedi ei awdrddodi i draethu ei ewylllys ef, a'r hwn trwy ei weddiau a allai dderbyn bendithion neillduol i ereill ; ond hefyd datguddiwr dygwyddiadau dyfodol. Gwel Salm xcix. 6, Jer. xiv. 11, a xv. 1, a xxvii. 18. Felly gwir ystyr y gair gwreiddiol, fel y sylwa Clarke, yw gweddio, erfyn, deisyfu, &c. Gwel yn achos Saul, 1 Sam. x., profiwyd Baal, 1 Bren. xviii., lle y mae *profiwyd* yn meddwl yn ddiamau *gweddio*, *deisyfu*, &c. Gwel hefyd 1 Cor. xiv. 3.

Adn. 8. *Yna y cododd Abimelec yn fore, ac a alwodd am ei holl weision*] Sef ei gynghoriaid, neu wŷr ei lys, ac a hysbysodd iddynt yr hyn a ddywedasai Duw wrtho mewn breuddwyd. *A'r gwŷr a ofnasant yn ddirfawr*—rhag dygwydd iddynt hwy fel i drigolion Sodom.

Adn. 9. *A phelth a bechais i'th erbyn?*] Fel

wnaethost i ni? a pheth a bechaist i'th erbyn, pan ddygit bechod *mor* fawr arnaf fi, ac ar fy nheyrnas? gwnaethost â mi weithredoedd ni ddylesit eu gwneuthur.

10 Abimelec, hefyd, a ddywedodd wrth Abraham, Beth a welaist, pan wnaethost y peth hyn?

11 A dywedodd Abraham, Am ddywedyd o honof fi, Yn ddiau nid oes ofn Duw yn y lle hwn: a hwy am lladdant i o achos fy ngwraig.

12 A hefyd yn wir fy chwaer *yw* hi: merch fy nhad yr wy hi, ond nid merch fy mam; ac y mae hi yn wraig i mi.

13 Ond pan barodd Duw i mi grwydro o dŷ fy nhad, yna y dywedais wrthi hi, Dyma dy garedigrwydd yr hwn a wnai â mi yn mhob lle y delom iddo; dywed am danaf fi, Fy mrawd yw efe.

14 Yna y cymerodd Abimelec ddefaid, a gwartheg, a gwceision, a morwynion, ac a'u rhoddes i Abraham: rhoddes hefyd iddo ef Sarah ei wraig drachefn.

15 A dywedodd Abimelec, Wele fy ngwlad ger dy fron di, trig lle y byddo da yn dy olwg.

16 Ac wrth Sarah y dywedodd, Wele y rhoddais i'th frawd fil o ddarn-

pe dywedasai, Pe buaswn y gelyn gwaethaf i ti, ni allesit wneuthur gwaeth tro â mi, na chymeryd ffordd fwy effeithiol i ddial arnaf fi a'm teyrnas. Y mae fel yn ei herio i ddangos un achos cyfiawn ag ydoedd ganddo i'w hamau hwy fel pobl beryglus i ddyngonest fyw yn eu mysg.

Adn. 10. *Beth a welaist, pan wnaethost y peth hyn?* Pa reswm oedd genyt i feddwl, pe gwybuasem ei bod yn wraig i ni, y buasit yn agored i unrhyw berygl trwy hyn?

Adn. 11. *Am ddywedyd o honof fi?* Ynof fy hun, *Yn ddiau nid oes ofn Duw yn y lle hwn*—neu, fel y mae yn y Syriaeg a'r Arabaeg, '*fe allai* nad oes yma ofn Duw,' ac o ganlyniad nad oes yma unrhyw barch i gyfiawnder a deddfau moesoldeb. Pe symudid ofn Duw o'n byd ni, buan y byddai terfyn ar bob ffyddlondeb, a dattodid ar unwaith rywmau cymdeithas ddynol. Parch i Dduw yw gwir sylfaen parch i ddyu. Ond y mae llawer o leoedd a phersonau ag y mae mwy o ofn Duw ynddynt nag a dybiwn ni yn fyny. Gan na elwir hwynt ar ein henw ni, ac nad ydynt yn gwisgo ein nodau ni, nac yn cofseidio yr hyn ag y mae genym ni feddwl uchel am dano; am hyn yr ydym yn casglu na feddant ofn Duw yn eu calonau!

Adn. 12. *A hefyd yn wir fy chwaer yw hi?* Ni ddywedais anwiredd; ni wnaethym ond celu rhan o'r gwir. Gall fod yn briodol gofyn yma, *Beth yw anwiredd?* Unrhyw weithred ydyw yn cael ei gwneyd, neu air yn cael ei lefara, pa un bynag ai gwir ai gau ynddo ei hun, yr hwn y mae y gwneuthurwr neu y llefarwr yn ewyllsio i'r edrychudd neu y gwrandawydd ei gymeryd mewn ystyr *croes* i'r hyn y gwyr ef ei fod yn wir. Mewn gair, unrhyw weithred ydyw yn cael ei gwneyd, neu ymadrodd yn cael ei draethu, gyda bwriad i *duwylo*, er y gall y naill a'r llall fod yn hollol wir ac iawn ynddynt eu hunain: gwel ar pen. xii. 13. *Merch fy nhad yw hi, ond nid merch fy mam*—yn ol yr hen draddodiadau, darfu i Tera yn gyntaf briodi Yona, o'r hon y cafodd efe Abraham; ac wedi hynny efe a briododd Tehavita, o'r hon y cafodd efe Sarah; ac yn yr amseroedd hynny caniateid i frawd briodi chwaer o'r un tad, ond nid o'r un fam.

Adn. 13. *Ond pan barodd Duw i mi*

grwydro o dy fy nhad] Yma efe a gyfeiria at ei alwad gyntaf o Ur y Caldeaid: gwel ar pen. xii. 1. Y mae yn nodadwy yma fod yr enw *Elohim* a'r parwydd *hithu* ill dau yn y rhif lluosog, '*Y Duwiau pan barasant i mi grwydro*;' yr hyn sydd yn brawf amlwg o athrawiaeth y Drindod, neu luosgrwydd y personau dwyfol.

Adn. 14. *Yna y cymerodd Abimelec ddefaid a gwartheg—ac a'u rhoddes i Abraham*] Fel cydnabyddiad gwirfoddol o'i drosedd anfrwadiol ef yn ei erbyn, ac o eiriolaeth Abraham gyda Duw ar ei ran yntau; ac fel 'gorchudd llygaid' iddo, adn. 16.

Adn. 15. *Wele fy ngwlad ger dy fron*] Cafodd Abraham roddion cyffelyb i hyn yn yr Aifft, pen. xii. 20; ond yno gorchymynwyd iddo ymadael o'r wlad, tra y mae efe yma yn cael caniatad i drigo lle y byddai da yn ei olwg.

Adn. 16. *Ac wrth Sarah y dywedodd*] Ond pa beth a ddywedodd efe? Yma nid oes braidd unrhyw grdsyniad yn mblith deongl-wyr. Y mae yr Hebraeg yn dra thywyll, a phob deonglydd yn ei gymeryd yn ei ystyr ei hun. *Wele rhoddais i'th frawd*—wrth alw Abraham ei *brwad*, ac nid ei *gwr* tybia rhai fod Abimelec yn edliw iddi ei mwysiaith a'i rhagrith. *Fil o ddarnau arian*—Heb. 'fil o arian.' Ond er nos dim yn y wreiddiol am *ddarnau*, y mae yn debyg mai *sicl* a feddylir, ac felly y mae y Targum yn ei ddeall. Os ystyriwn y sicl y pryd hyn yn werth 2s. 6c., yr oedd y cwbl yn cyvraedd i £125 o'n harian ni. *Wele ef yn orchudd llygaid i'*—wele y swm hwn yn ANRHEG GYMODOL i'th a'th deulu, i *orchuddio* fy mai oddiwth eich llygaid, neu i beri i chwi ei *faddu*. Yr wyf fi yn meddwl mai hyn yw ystyr y frawddeg; a gwyddom fod *cuddio* pechod yn arwyddo ei *faddu*. Salm xxxii. 1, a lxxxv. 2; Rhuf. iv. 7. Eithr y mae rhai yn meddwl fod Abimelec, wrth roddi yr arian hyn i Abraham, yn hwriadu iddo ef brynu gorchudd nid yn unig i Sarah, ond i bob gwraig briod ag ydoedd yn ei dilyn hi, i fod rhagillaw yn arwydd o wahan-iaeth rhwng gwraig a gwryf; ond nis gellir profi mai gwragedd priod oedd yr unig rai a wisgont orchudd yn yr amser bore llawn: gwel pen. xxxviii. 14—19. *Fel hyn y ceryddwyd hi*—neu yr *hufforddwyd* hi, fel y myn

au arian : wele ef yn orchudd llygaid i ti, i'r rhai oll *sydd* gyda thi, a chyda phawb *ereill*: fel hyn y ceryddwyd hi.

17 ¶ Yna Abraham a weddiodd ar Dduw : a Duw a iachaodd Abimelec, a'i wraig, a'i forwynion; a hwy a blantasant

18 O herwydd yr Arglwydd gan gau a gauasai ar bob croth yn nhŷ Abimelec, o achos Sarah gwraig Abraham.

PENNOD XXI.

A'R Arglwydd a ymwelodd â Sarah fel y dywedasai, a gwnaeth yr Arglwydd i Sarah fel y llefasai.

2 O herwydd Sarah a feichiogodd, ac a ymddyg i Abraham fab yn ei henaint, ar yr amser nodedig y dywedasai Duw wrtho ef.

rhai ei ddeall; neu, 'fel hyn y *gwnaed cyfiawnder* â hi:' felly y deallir ef gan De Wette, Tuch, Furst, Knobel, &c. Y mae y LXX yn ei gyfieithu, *Ac yn mhob peth dywed y gwir*—nid yn unig dywed *ran* o'r gwir, ond dywed yr *oll* o hono: na ddywed yn unig, *fy mrawd yw*; ond dywed gyda hyny, *fy ngŵr yw hefyd*.

Adn. 17. *Yna Abraham a weddiodd ar Dduw*] Dros Abimelec a'i bobl, a Duw a wrandawodd ei weddi, ac a'u hiachaodd hwynt: gwel ar adn. 7.

Adn. 18. *O herwydd yr Arglwydd gan gau a gauasai ar bob croth*] A'u cystuddiodd hwynt â rhyw anhwylddeb neu ddolur ag ydoedd yn eu hanalluogi i gael plant nes ei symud. Ymddengys oddiwrth adn. 17 fod y dolur hwn wedi dal Abimelec hefyd; a dichen, fel y sylwa *Willet*, mai trwy hyn yr ataliwyd ef rhag halogi gwely Abraham, adn. 6.

PEN. XXI. Adn. 1. *A'r Arglwydd a ymwelodd â Sarah*] A gyflawnodd ei addewid iddi, trwy ei galluogi yn yr oedran mawr o 90 i ymddwyn mab.

Adn. 2. *O herwydd Sarah a feichiogodd*] Yr hyn ni allai natur ei effeithio, a gyflawnwyd gan ffydd; oblegid yr apostol a ddywed, 'Trwy *ffydd* Sarah lithan yn annhiantadwy, a dderbyniodd nerth i ymddwyn had,' Heb. xi. 11.

Adn. 3. *Isaac*] Gwel ar pen. xvii. 19.

Adn. 4. *Ac Abraham a enwaeddodd ar Isaac ei fab*] Trwy fod y cyfammod i'w gadarnhau âg Isaac, cafodd sêl neu arwydd y cyfammod, yn ol gorchymyn Duw, ei gweinyddu arno ef: gwel ar pen. xvii. 10—21.

Adn. 5. *Ac Abraham oedd fab can mlwydd*] Ac felly yr oedd Ismael, pan aned Isaac, yn 14 mlwydd oed.

Adn. 6. *Gwnaeth Duw i mi chwerthin*] Y mae Sarah yn cyfeirio yma, meddai Clarke, at yr amgylchiad a grybwyllwyd pen. xviii. 12; a chan yr ymddengys ei bod yn defnyddio y gair *chwerthin* yn y lle hwn, nid yn yr

3 Ac Abraham a alwodd enw ei fab a anesid iddo (yr hwn a ymddygasai Sarah iddo) Isaac.

4 Ac Abraham a enwaeddodd ar Isaac ei fab, yn wyth niwrnod oed; fel y gorchlymynasai Duw iddo ef.

5 Ac Abraham oedd fab can mlwydd, pan anwyd iddo ef Isaac ei fab.

6 ¶ A Sarah a ddywedodd, Gwnaeth Duw i mi chwerthin; pob un a glywo a chwardd gyda mi.

7 Hi a ddywedodd hefyd, Pwy a ddywedasai i Abraham y rhoisai Sarah sugn i blant? canys mi a esgorais ar fab yn ei henaint ef.

8 A'r bachgen a gynyddodd, ac a ddiddyfnwyd; ac Abraham a wnaeth wledd fawr ar y dydd y diddyfnwyd Isaac.

9 ¶ A Sarah a welodd fab Agar yr

ystyr o fod yn *annghrediniol*, ond i osod allan y fath hyfrydwch neu ddedwyddwch ag sydd bron yn diswyddo y gnyeddf ymresmol am dro, y mae yn cyfiawban y sylw ar yr adnod hono. Gwel achos cyffelyb yn Luc xxiv. 41, lle yr oedd y dysgyblion wedi eu gorchfygu yn y fath fodd gan y newydd da o adgyfodiad ein Harglwydd, nes y dywedir, 'A hwy eto heb gredu gan *lawenydd*.' Ond y mae rhai yn meddwl fod yr adnod hon yn cyfeirio at amgylchiad gwahanol i'r un uchod yn pen. xviii., sef at ei theimlad ar ol iddi ddeall ei bod wedi beichiogi. *Pob un a glywo a chwardd gyda mi*—a lawenycha yn yr anghraifft hon o allu a daioni Duw, ac a gefnogir i ymddiried ynddo ef.

Adn. 7. *Pwy a ddywedasai i Abraham y rhoisai Sarah sugn i blant?*] Ili a ddywed *plant*, gan ddisgwyl, y mae yn debyg, ar ol iddi dderbyn nerth adnewyddol oddiwrth Dduw, y byddai iddi gael mwy nag un. Yma dysgir i bob mam, o ba radd hynag, ei dyledswydd, sef i boddi sugn i'w pliant os bydd yn gallu; ac y mae peidio gwnethur hyny, fel y sylwa un, yn bechod yn erbyn Duw natur.

Adn. 8. *A'r bachgen a gynyddodd, ac a ddiddyfnwyd*] Ymddengys yn debygol en bod yn diddyfnu plant yn mhllith yr Iuddewon pan yn dair oed; canys dywedir yn 2 Mac. vii. 27, 'Fy mab, trugarha wrthyf, yr hon a'th ddyg di naw mis yn fy nru, yr hon a'r roddais i ti laeth *dair blymedd*, yr hon a'th ddyg di i fyny hyd yn hyn.' Ymddengys i Samuel gael ei ddwyn i'r cysegr newydd iddo gael ei ddiddyfnu, ac yr oedd ef y pryd hyn yn alluogi i weinyddu gerbron yr Arglwydd, 1 Sam. i. 22—28; a diau nas gallai hyn gymeryd lle cyn ei fod yn *dair* blwydd oed. Gwel ar 2 Cron. xxxi. 16. *Ae Abraham a wnaeth wledd fawr*—yr hyn sydd yn arferiad eto yn y dwyrain ar yr achlysur o ddiddyfnu eu plant, yn enwedig en mab cyntafanedig.

Adn. 9. *A Sarah a welodd fab Agar—yn gwatwar*] Sef yn gwatwar Isaac yn diaman; canys dywedir mewn cyfeiriad at hyn, Gal. iv. 29, 'Yr hwn a anwyd yn ol y cnawd a

Aiffes, yr hwn a ddygasai hi i Abraham, yn gwatwar.

10 A hi a ddywedodd wrth Abraham, Bwrw allan y gaethforwyn hon a'i mab; o herwydd ni chaiff mab y gaethes hon gydetifeddu a'm mab i Isaac.

11 A'r peth hyn fu ddrwg iawn yn ngolwg Abraham, er mwyn ei fab.

12 ¶ A Duw a ddywedodd wrth Abraham, Na fydded drwg yn dy olwg am y llanc, nac am dy gaethforwyn; yr hyn oll a ddywedodd Sarah wrthyf, gwrando ar ei llais: o herwydd yn Isaac y gelwir i ti had.

13 Ac am fab y forwyn gaeth hefyd, mi a'i gwnaf ef yn genhedlaeth, o herwydd dy had di ydyw ef.

14 Yna y cododd Abraham yn fore, ac a gymerodd fara, a chostrel o

ddwfr, ac a'i rhoddes at Agar, (gan osod ar ei hysgwydd hi *hyny*) a'r bachgen hefyd, ac efe a'i gollyngodd hi ymaith: a hi a aeth, ac a grwyrdodd yn anialwch Beer-seba.

15 A darfu y dwfr yn y gostrel; a hi a fwrriodd y bachgen dan un o'r gwýdd.

16 A hi a aeth, ac a eisteddodd ei hunan yn mhell ar *ei gyfer*, megys ergyd bwa: canys dywedasai, Ni allaf fi edrych ar y bachgen yn marw. Felly hi a eisteddodd ar *ei gyfer*, ac a ddyrchafodd ei llef, ac a wylodd.

17 A Duw a wrandawodd ar lais y llanc; ac angel Duw a alwodd ar Agar o'r nefoedd, ac a ddywedodd wrthyf, Beth *a ddarfu* i ti, Agar? nac ofna, o herwydd Duw a wrandawodd ar lais y llanc lle y mae efe.

erlidiaf yr hwn a anwyd yn ol yr Yspryd. Y mae yn debyg ei fod yn cefnigenu wrth y parch a delid i Isaac yn y wledd, a'r cyfeiradau manych a wneid ato fel yr etifedd, a'r had addawedig; ac o herwydd hyny ei fod yn ei watwar yn ddirmygus ond odid gyda golwg ar ei enw, sef *chwarddiad*, ac oed ei fam pan ei ganed. Y mae llawer yn barnu fod y cystudd Aiffataidd o 400 mlynedd, a grybwyllir pen. xv. 13, yn dechreu gyda'r erledigaeth hon ar yr had cyfiawn gan fab yr *Aiffes*.

Adn. 10. *Bwrw allan y gaethforwyn hon a'i mab*] Y mae *garash* yn arwyddo nid yn unig *bwrw allan*, ond hefyd *ysgaru*, Lef. xxi. 7; ac yn yr ystyr olaf hwn, meddai Clarke, y dylai y gair gael ei ddeall yma. Gellid ystyried mab Abraham o Agar fel yn meddu hawl o leiaf i ran o'r etifeddiath; ac yr oedd Sarah yn ewyllysio i Abraham ysgaru Agar, fel ag i gau Ismael allan oddiwrth bob hawl yn ei eiddo. Yr oedd hyn yn gysgod o wrthodiad yr Iuddewon, y rhai, er eu bod yn had Abraham, a gawsant eu difreinio a'u troi o'r eglwys am nad ymostyngent i gyfammod yr efengyl. A'r hyn a annogodd Dduw yn fwy na dim i'w bwrw hwynt allan, meddai Henry, oedd eu gwaith yn gwatwar ac yn erlid yr eglwys efengylaidd, Isaac Duw, yn ei mabandod.

Adn. 11. *A'r peth hyn fu ddrwg iawn yn ngolwg Abraham*] O herwydd ei serch at ei fab Ismael, ac addevid Duw mewn perthynas iddo: ac y mae yn debyg y gwrthodasai efe ei chais, oni buasai i Dduw gyfringn.

Adn. 12, 13. *Na fydded drwg yn dy olwg, &c.*] Yma y mae Duw yn dangos i Abraham yr addasrwydd o wrandaw ar gynghor Sarah; a rhag iddo deimlo yn ofidus ar yr achos, y mae Duw yn adnewyddu ei addewidion i Ismael a'i hiliogaeth, pen. xvi. 10.

Adn. 14. *Yna y cododd Abraham yn fore*] Yn ebrwydd, fel yr ymddengys, ar ol iddo gael cyfarwyddyd dwyfol yn ngweledigaethau y nos i wneuthur hyny; ac a *gymerodd fara a chostrel o ddwfr*—wrth y bara yr ydym i ddeall yr ymborth neu yr arlywadau ag oedd-

ynt angenrheidiol i Agar a'i mab nes eu myned i'r lle arfaethedig, yr hwn yn ddiamau a nodwyd allan yn fanwl gan Abraham; a'r *gostrel*, yr hon a wneid yn gyffredin o groen gafr, a gynwysai ddigon o ddwfr iddynt nes eu dyfod at y fflynnion nesaf, yr hon hefyd yn debygol a nodasai Abraham iddynt yn fanwl, Felly yr oedd ganddyf ddigonedd o bob arlwyath nes cyraedd at eu cyfeillion i'r Aiff. oni buasai iddynt golli y ffordd. *Gan osod ar ei hysgwydd hi hyny*—sef y bara a'r dwfr; *a'r bachgen hefyd*—dan ei gogal. Na allai Ismael fod yn cael ei gario ar ysgwydd ei fam a fydd yn ddigon amlwg pan yr ystyrir ei oedran. Ganed Ismael pan oedd Abraham yn 86 mlwydd oed, pen. xvi. 16; a ganed Isaac pan yr oedd ef yn 100 mlwydd, adn. 5; gan hyn yr oedd Ismael yn 14 mlwydd oed pan aned Isaac. Chwaneger at hyn oedran Isaac pan ei diddyfnwyd, yr hyn yn debygol oedd *deirblwydd*, adn. 8, a ni a gawn nad allai Ismael yn awr fod dan 17; oedran yn yr hwn y gallai efe ennill ei fywioliaeth naill ai gyda'i fwa yn yr anialwch, neu trwy gadw praid megis Jacob.

Adn. 15. *A hi a fwrriodd y bachgen dan un o'r gwýdd*] I ymgysgodi rhag tanbeidwrydd y gwres, neu i farw yno dan effeithiau ei syched. Yr oedd ef yn dyoddef llawer mwy na'i fam, yn debygol trwy i'w dynwch tuag ati ei gymhell i roddi y dogn mwyaf o'r dwfr iddi hi tra y parhaodd.

Adn. 16. *A hi a aeth, ac a eisteddodd ei hunan yn mhell ar ei gyfer*] Heb ddysgwyl dim llai nag iddo fara, ac yn methu goddef yr olwg arno yn ymadael. Yr oedd ei chyflwr yn wir druenus, ac ni allwn lai na theimlo dros y fam annedwydd yn wýlo yn achos ei mab!

Adn. 17. *A Duw a wrandawodd ar lais y llanc*] Nid ym yn darllen am air a ddywedodd efe; ond yr oedd ei ocheneidiau a'i riddanau yn llefain yn uchel yn nglustian y Duw trugarog: ac anfonwyd angel i gysuro Agar, trwy sicrhau iddi fod Duw wedi gwrandaw ar lais y llanc.

18 Cyfod, cymer y llanc, ac ymafael ynddo â' th law; oblegid myfi a'i gwnaaf ef yn genhedlaeth fawr.

19 A Duw a agorodd ei llygaid hi, a hi a ganfu bydedw dwfr; a hi a aeth, ac a lanwodd y gostrel o'r dwfr, ac a ddiododd y llanc.

20 Ac yr oedd Duw gyda'r llanc; ac efe a gynyddodd, ac a drigodd yn yr anialwch, ac a aeth yn berchen bwa.

21 Ac yn anialwch Paran y trigodd efe: a'i fam a gymerodd iddo ef wraig o wlad yr Aiff.

22 ¶ Ac yn yr amser hwnw, Abimelec, a Phichol tywysog ei lu ef, a a ymddyddanasant âg Abraham, gan ddywedyd, Duw sydd gyda thi yn yr hyn oll yr ydwyt yn ei wneuthur.

23 Yn awr gan hyny, twng wrthyf fi yma i Dduw, na fyddi anffyddlaw'n i mi, nac i'm mab, nac i'm hŵyr: yn

ol y drugaredd a wnaethym â thi y gwnai di â minau, ac â'r wlad yr ymdeithiaist ynddi.

24 Ac Abraham a ddywedodd, Mi a dyngaf.

25 Ac Abraham a geryddodd Abimelec, o achos y pydedw dwfr a ddygasai gwëision Abimelec trwy drais.

26 Ac Abimelec a ddywedodd, Nis gwybum i pwy a wnaeth y peth hyn: tithau hefyd ni fynegaist i mi, a minau ni chlywais hyny hyd heddyw.

27 Yna y cymerodd Abraham dde-faid a gwartheg, ac a'i rhoddes i Abimelec; a hwy a wnaethant gynghrair ill dau.

28 Ac Abraham a osododd saith o hespinod o'r praidd wrthynt eu hunain.

29 Yna y dywedodd Abimelec wrth Abraham, Beth a wna y saith hespin

Adn. 18. *Cyfod, cymer y llanc, ac ymafael ynddo â' th law*] Heb. 'a chryfha dy law ynddo ef'; h. y. cred y cynhelir ac y cadarnbeir di trwyddo ef, yr hwn yn ddiâu a wnaaf fi yn genhedlaeth fawr. Neu *ymafael ynddo* i'w gynorthwyo i fyned at y pydedw. Y mae efe yn ailadrodd yr addewid y cai ei mab fod yn genhedlaeth fawr, i ddangos na byddai iddo ef farw, ac fel rheswm dros iddi ymosod ar ei gynorthwyo.

Adn. 19. *A hi a ganfu bydedw dwfr*] Yr hwn y rhaid ei fod gerllaw iddi o'r blaen, ond ei bod heb sylwi arno hyd yn hyn. Fel hyn hi a gafodd y cymborth ag yr oedd arni ei eisiau fwyaf.

Adn. 20. *Ac yr oedd Duw gyda'r llanc*] Yr hyn ydoedd yr achos o'i gadwraeth a'i gynaliaeth yn yr anialwch. *Ac a aeth yn berchen bwa*—a thrwy ei fedruswydd mewn helwriaeth, dan arolygiad parhaus rhaglun-iaeth Duw, efe a alluogwyd yn ddiamau i gyraedd cynorthwy digonol gogyfer â'i angenhion ei hun a'i fam.

Adn. 21. *Ac yn anialwch Paran y trigodd efe*] Addeffir yn gyffredin fod hwn yn rhan o'r diffaethwch perthynol i Arabia Petraea, yn nghymydogoeth mynydd Sinai. *A'i fam a gymerodd iddo ef wraig o wlad yr Aiff*—sef un o ferched ei gwlad ei hun, fel yr oedd yn fwyaf naturiol. Y mae yn dra thebygol fod cydygweithas rhwng Abraham ac Ismael wedi hyn; canys ni a ddarllenwn fod Ismael yn gystal ag Isaac yn gofalu am gladdu y patriarch, pen. xxv. 9.

Adn. 22. *Ac yn yr amser hwnw*] Gall hyn fod yn cyfeirio naill ai at yr amgylchiadau a goffeir yn y bennod flaenorol, neu at amser priodas Ismael; ond yn fwyaf tebygol at y cyntaf. *Duw sydd gyda thi*—Heb. *meimera daiya*, 'GAIR Jehofah'; gwel ar pen. xv. 1. Fod yr alleiriadau Caldeaid yn arfer yr ymadrodd hwn, nid am ar lleffaredig, ond yn yr un ystyr ag y mae St. Ioan yn defnyddio *logos tou Theou*, 'GAIR Duw,' pen. i., a raid fod yn eglur, meddai Clarke, i bob darlennydd

diragfarn. *Yn yr hyn oll yr ydwyt yn ei wneuthur*—yr oedd Abimelec wedi gweled tair anghraifft nodedig o gyfryngiad dwyfol yn mhlaid Abraham: 1. Gorchfygiad y pedwar brenin. 2. Gwaredigaeth Sarah o'i law ef a Pharao. 3. Genedigaeth wyrthiol Isaac. Y mae yn debyg y gwyddai efe hefyd am yr addewid dwyfol a wnaed i Abraham.

Adn. 23. *Yn awr gan hyny twng wrthyf fi yma i Dduw*] Y mae yn debyg nad oedd y llw ar y fath achosion yn meddwl dim mwy na chydaddewid y ddwyblaidd, pan yn lladd yr anifel, yn tywallt ei waed fel aberth i Dduw, ac yna yn myned rhwng y rhanau: gwel ar pen. xv. 10, &c.

Adn. 24. *Mi a dyngaf*] Y mae y parwydd Hebreig yn meddwl yn llythyrenol, *seithio*, h. y. ymrwymo trwy saith addewid neu wylt arbenig, neu trwy saith o hespinod, ast. 28—30.

Adn. 25. *Ac Abraham a geryddodd Abimelec*] Yr oedd Abraham yn dra pharod i fyned i gyfanmod cyfeillgar âg Abimelec, ond barnai fod yn angenrheidiol iddynt yn gyntaf gael iawn ddeallwriaeth rhyngddynt; ac am hyny efe a ymresymodd âg Abimelec yn nghylch *pydedw dwfr* a gloddiasai efe ar ei gost ei hun, yr hwn oedd o bwys mawr yn y wlad boeth a sych hŵno, yu enwedig lle yr oedd y praidd yn lluosog; a'r hwn a ddygasai gwëision Abimelec oddiarno ef trwy drais.

Adn. 26. *Nis gwybum i pwy a wnaeth y peth hyn*] Gwëision Abimelec a wnaethent hyn yn ddiarwybod i'w meist, yr hwn yr ymddengys ei fod yn ŵr tra serchus, yn ofni Duw, ac yn rheoleiddio ei holl ymddygiad wrth egwyddorion manwl gyfiawnder.

Adn. 27. *Yna y cymerodd Abraham dde-faid a gwartheg*] Tybia rhai mai dyma yr aberthau a offrymwyd ar yr achlysur, y rhai a ddarparodd Abraham ar ei gost ei hun; ac mewn trefn i anrhydeddu Abimelec yn fwy, rhoddodd hwynt iddo ef i'w hoffrymu gerbron yr Arglwydd. Neu gall mai y rhai

hyn a osodaist wrthynt eu hunain?

30 Ac yntau a ddywedodd, Canys ti a gymeri y saith hespin o'm llaw, i fod yn dystiolaeth mai myfi a gloddiais y pydew hwn.

31 Am hynny efe a alwodd enw y lle hwnw Beer-seba: oblegid yno y tyngasant ill dau.

32 Felly y gwnaethant gynghrair yn Beer-seba: a chyfododd Abimelec, a Phichol tywysog ei lu ef, ac a ddychwelasant i dir y Philistiaid.

33 ¶ Ac yntau a blannodd goed yn

hyn oedd yr *anrheg*, ac mai yr espinod oedd yr aberth: gwel ar adn. 28—30.

Adn. 28—30. *Ac Abraham a osododd saith o hespinod*] 'Rhoddwyd y rhai hyn iddo fel *anrheg*, neu yr oeddynt yn cael eu bwriadu fel *guerth* y pydew; ac ar ol eu derbyn gan Abimelec, yr oeddynt yn gwasanaethu fel *tystiolaeth* ddarvoud iddo ef gydnabod hawl Abraham i'r pydew mewn dadl.—CLARKE. Ond gwel isod.

Adn. 31. *Am hynny efe a alwodd enw y lle hwnw Beer-seba*] Yn llythyrenol, 'FFYNNON Y TYNGU,' neu 'Y LLW.' Neu gellir cyfieithu y wreiddiol 'FFYNNON Y SAITH,' gan gyfeirio at y *saith hespin*, y rhai a osodasai Abraham wrthynt eu hunain, ac a roddasai efe i Abimelec. Y mae yn debyg, pan y byddai cyfammod yn cael ei gadarnhau yn ddiifrifol trwy lw, fod *saith* o wŷn neu ddefaid yn aferol o gael eu hoffrymu. *Oblegid yno y tyngasant ill dau*—y cydgadarnhasant y cyfammod.

Adn. 32. *I dir y Philistiaid*] Sef i Gerar, yr hon oedd encyd oddiwrth Beer-seba lle y lluestai Abraham: gwel pen. xx. 1, 2.

Adn. 33. *Ac yntau a blannodd goed*] Cafodd y gair *eshel* ei gyfieithu yn amrywiol, *llwyn*, *planhigfa*, *perllan*, *maes diwylliedig*, a *derwen*. Y mae yn debyg mai *derwyn* a feddylir, lle y gallai efe adeiladu allor ac wasanaeth grefyddol, ac i fod yn gysgodfa i'r addolwyr wrth drin eu haberthau. Yr oedd y *dderwen* mewn bri mawr gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, ac yn enwedig yn mhlith y *DERWYDDON* Prydeinig. Felly, trwy i'r llwynau hyn gael eu camddefnyddio i ddybenion eilunaddolgar, cawsant o'r diwedd eu gwahardd yn gaeth, Exod. xxxiv. 13, Deut. xii. 3, a xvi. 21. *Ac a alwodd yno ar enw yr Arglwydd*—nid yw *kara beshem*, meddai Dr. Shuckford, byth yn arwyddo galw ar enw, ond ymbil i'r enw; ac ymddengys ei fod yn cael ei arfer lle yr oedd gwir addolwyr Dduw yn offrw m eu gweddïau yn enw y gwir Gyfyngwr, neu lle yr oedd yr eilunaddolwyr yn offrw yn eiddynt hwythau yn enw y rhai gau: gwel ar pen. xii. 8. *Dduw tragwyddol*—Heb. *Yehovah el olam*, 'Jehofa, y Dduw CADARN, yr UN TRAGWYDDOL.' Dyma y man cyntaf yn yr ysgriflythwr lle y mae *olam* yn dygwydd fel *pridoledd* i Dduw, ac y mae yn amlwg ei fod yn cael ei fwriadu yma i ddangos ei *dragwyddolbarhad*. Cafodd *olam* yr Hebraeg ac *aion* y Roeg eu defnyddio i osod allan

Beer-seba, ac a alwodd yno ar enw yr Arglwydd Dduw tragwyddol.

34 Ac Abraham a ymdeithiodd ddyddïau lawer yn nhir y Philistiaid.

PENNOD XXII.

AC wedi y pethau hyn y bu i Dduw brofi Abraham, a dywedwyd wrtho, Abraham. Yntau a ddywedodd, Wele fi.

2 Yna y dywedodd *DUW*, Cymer yr awr hon dy fab, sef dy unig *fab* Isaac, yr hwn a hoffaist, a dos rhagot

amser *terfynedig*, ond yn gyffredin amser ag y byddai ei derfyn yn *anhysbys*, felly yr oedd ei ystyr *guereiddiol* yn cael ei gadw i fynu neu ei gynwys yn barhaus. Rhaid i'r rhai a fynant ddwyn y geiriau hyn mewn ystyr *cyffadd-asedig* i bleidio unrhyw athrawiaeth neillduol, ymddibynu ar foegarwch eu gwrthwynebwyr am oddefiad i'w harfer yn y ffordd hono: canys gan mai ystyr gramadegol y ddau air yw TRAGWYDDOL, ac nad yw pob ystyr arall ond un *cyffaddasedig*, rhaid i iawn fermiadaeth, y mhob achos o ddaid yn nghylch arwyddocad gair, gael cyrchu at ei ystyr gramadegol, a'i ddefnydd yn mhlith yr ysgrifenywyr boreaf a chywiraf yn yr iaith. Gwel ar pen. xvii. 7, 8.

Adn. 34. *Ac Abraham a ymdeithiodd ddyddïau lawer yn nhir y Philistiaid*] Yr hyn a ddengys i'r cytundeb barhau yn ddi-lwgr rhyngddo ef ac Abimelec tra y buont byw. Dyma y pwynt agosaf o wlad yr addewid i'r Aifft, lle y gwyddai fod yn rhaid i'w hiliogaeth ymdaith.

PEN. XXII. Adn. 1. *Ac wedi y pethau hyn*] Wedi yr holl brofedigathaeth ereill a gawsai, a'r holl anhawsdrau ag yr aethai trwyddynt. Dichon ei fod yn awr yn meddwl fod yr holl ystorumydd drosodd; ond ar ol y cyfan dyma un eto yn ymosod arno, yr hon oedd yn arwach na'r lleill oll! *Bu i Dduw brofi Abraham*—neu ei ddwyn i'r fath amgylchiadau ag a *ddadlenent* ei ffydd, ei gariad, a'i uffyddod. Yr oedd Dduw o'r blaen wedi cael prawf ei fod yn ei garu ef yn fwy na'i *dad*, ac y mae yn awr am gael prawf a all efe ei garu ef yn fwy na'i *fab*: gwel ar pen. xii. 1. *Yntau a ddywedodd, Wele fi*—fel pe dywedasai, Beth y mae fy Arglwydd yn ei ddywedwyd wrth ei was? Y mae yn debyg ei fod ef yn dysgwyl cael ihyw addewid adnewyddol, fel yn pen. xv. 1, a xvii. 1; ond er ei fawr syndod, yr hyn sydd gan Dduw i'w ddywedwyd wrtho yw, 'Abraham, dos, ac abertha dy fab!'

Adn. 2. *Yna y dywedodd Dduw, Cymer yr awr hon dy fab*] Nid dy fustach a'th wŷn: mor ewyllsgar yr ymadawsai Abraham a'r rhai hyn wrth y miloedd i waredu Isaac! Nid dy was; nage, nid goruchwylwr dy dŷ. *Dy unig fab*—dy unig fab o Sarah. Cawsai Ismael yn ddiweddar ei fwrw allan er gofid i Abraham, ac yn awr nid oedd ond Isaac yn unig wedi ei adael; ac a raid iddo yntau hefyd fyned? Rhaid: cymer *Isaac*—efe wrth ei enw, dy 'chwarddiad,' y 'mab yn ddiâu'

i dir Moria, ac offryma ef yno yn boeth-offrwm ar un o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthyf.

3 ¶ Ac Abraham a fore-gododd, ac a gyfrwyodd ei asyn, ac a gymerodd ei ddau lanc gydag ef, ac Isaac ei fab; ac a holltodd goed y poeth-offrwm, ac a gyfododd, ac a aeth i'r lle a ddywedasai Duw wrtho.

4 Ac ar y trydydd dydd y dyrchafodd Abraham ei lygaid, ac efe a welai y lle o hirbell.

5 Ac Abraham a ddywedodd wrth

hwnw, pen. xvii. 19. Ie, y mab hwnw yr hwn a hoffaist—y prawf ydoedd o hoffedd Abraham at Dduw, ac am hynny rhaid iddo fod mewn hoffus fab. Yn yr Hebraeg mynegir ef yn fwy pwysig, a gellid yn dda ei gyfieithu, 'Cymer yr awrlon dy fab hwnw, dy unig fab hwnw, yr hwn a hoffaist, yr Isaac hwnw.' *A dos rhagot i dir Moria*—taith tridiau, fel y gallai gael amser i ystyried y weithred, ac, os gwnai hi, fel y gallai ei gwneyd yn bwyllig. *Ac offryma ef yno yn boeth-offrwm*—rhaid iddo nid yn unig ladd ei fab, ond ei ladd yn abertf, gyda'r holl arafwch a'r tawelwch meddwl hwnw â pha un yr arferai offrymu ei boeth-offrwm. *Ar un o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthyf*—yr hwn, fel y barna rhai, oedd mynydd Calfarina, lle wedi hynny yr abertfwyd Crist; neu fynydd Seion, lle yr adeiladwyd y deml, ac yr abertfwd y cysgodau: gwel ar adn. 13. Yr oedd o Beer-seba i Jerusalem oddeutu 42 o filldroedd. Yr oedd Abraham, fel y sylwa yr Esgob Warburton, yn taer ddymunio cael myned i mewn i ddirgelwch y PRYNDIGAETH; a Duw, i'r dyben i'w hyfforddi ef yn anfeidrol fawredd y daioni dwyfol i ddynolryw, 'yr hwn nid arbedodd ei *brïod Fab*, ond a'i traddododd ef drosom ni oll,' a adawodd i Abraham deimlo trwy brofiad beth oedd colli *anwyl fab*, y mab a aned yn wyrthiol pryd yr oedd Sarah dros amser planta, megys y ganed Iesu yn wyrthiol o forwyn.

Adn. 3. *Ac Abraham a fore-gododd* Felly y mae yn debyg i'r gorchymyn gael ei roddi iddo yn ngweledigaethau y nos; ac a *gymerodd ei ddau lanc*—Eleazar ac Ismael, yn ol y Targum; ac a *holltodd goed*—y ffygysbren a'r balmwydden, meddai yr Iuddeuon, y rhai oeddynt yn addas at boeth-offrwm.

Adn. 4. *Ac ar y trydydd dydd* Fel y mae y rhif SAITH, ehai Ainsworth, o ddefnydd arbenig yn yr ysgrythyf o herwydd y dydd *sabbath*, pen. ii. 2; felly y mae tri yn rhif cyfrinol oblegid adgyfodi Crist oddiwrth y meirw y *trydydd dydd*, Mat. xvii. 23, I Cor. xv. 4. Yr oedd Isaac yn gysgod o Grist mewn gwahanol amgylchiadau: Y *trydydd dydd* yr oedd Isaac i gael ei offrymu, a'r *trydydd dydd* yr oedd ein Harglwydd i gael ei berffeithio, Luc xiii. 32. Isaac a gariai *goed* y poeth-offrwm, adn. 6; felly Crist a gariai ei *groes*, Ioan xix. 17. Yr oedd *rhwymiad* Isaac, adn. 9, yn gysgod o *rhwymiad* Crist, Mat. xxvii. 2. *Ac efe a welai y lle o hirbell*—efe a adnabu y

ei lancian, Arhoswch chwi yma gyda'r asyn; a mi a'r llanc a awn hyd acw, ac a addolwn, ac a ddychelwnw atoch.

6 Yna y cymerth Abraham goed y poeth-offrwm, ac a'i gosododd ar Isaac ei fab; ac a gymerodd y tân, a'r gyllell yn ei law ei hun: a hwy a aethant ill dau yn nghyd.

7 A llefarodd Isaac wrth Abraham ei dad, ac a ddywedodd, Fy nhad. Yntau a ddywedodd, Wele fi, fy mab. Yna, eb efe, Wele dân a choed; ond nae oen y poeth-offrwm?

lle, meddai y Targum, wrth weled cwmwl y gogoniant yn mygu ar ben y mynydd.

Adn. 5. *Arhoswch chwi yma gyda'r asyn* Efe a ddywed hyn wrth ei weision, rhag i'w serch hwy at Isaac, wrth ei weled yn cael ei rwymo yn abertf, eu tueddu i geisio ei attal. *A mi a'r llanc a awn hyd acw, ac a addolwn*—a gyflawnwn weithred arbenig o ddyhewyd ag y mae Duw yn ei gorchymyn. *Ac a ddychelwnw atoch*—ond pa fodd y gallai Abraham yn gyson â'r gwirionedd ddyweddy hyn, pan y gwyddai ei fod yn myned i abertf ei fab yn *boeth-offrwm*? Y mae yr apostol yn ateb: 'Trwy ffydd yr offrymodd Abraham Isaac, pan ei profwyd—gan gyfrif fod Duw yn abl i'w *gyfodi ef o feirw*, o ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyfelybiaeth,' Heb. xi. 17, 19. Gwyddai Abraham ei fod ef a Sarah, yn flaenorol i enedigaeth Isaac, yn *feirw* i holl berwyllion cenhedliad; fod ei enedigaeth ef yn fath ar fywyd oddiwrth y meirw; fod addewid Duw, yn *Isaac y gelwir i ti had*, pen. xxi. 12, yn gwbl sicr; na allai ei addewid hon ballu; mai ei ddyledswydd oedd ufyddhau i orchymyn ei Wneuthurwr; a bod nior hawdd i Dduw ei adfer ef i fywyd ar ol ei boeth-offrymu, ag ydoedd iddo roddi bywyd iddo ar y cyntaf. Am hynny efe a aeth gyda llawn fwrriad i offrymu ei fab, ac eto yn dysgwyl yn hyderus yr adferid ef i fywyd drachefn.

Adn. 6. *Yna y cymerth Abraham goed y poeth-offrwm, ac a'i gosododd ar Isaac* Tybia rhai fod pen y mynydd lle yr oeddynt yn myned iddo, yn rhy serth i'r asyn ei ddringo; neu gallai fod hyn yn cael ei oruwchreoli fel ag i gysgodi Crist, yr hwn a gariai ei groes tua Chalfarina: gwel ar adn. 4. *Ac a cymerth y tân a'r gyllell yn ei law ei hun*—felly, tra yr oedd Isaac yn cario y coed ar y rhai y bwriedid iddo orwedd yn gorff difwydd, yr oedd Abraham ei hun yn cario y gyllell i'w ladd ef, a'r tân i'w ysu yn lludw! Yr oedd y gyllell yn llaw Abraham yn gysgod o gleddyf cyf-iawnder yn llaw Jehofa, Zec. xiii. 7.

Adn. 7. *A llefarodd Isaac* Wrth ddringo i ben y mynydd gyda'i dad. *Fy nhad!*—yr oedd hwn yn air effeithiol yn nglustian yr hen ŵr; a gellir meddwl ei fod yn treiddio yn ddyfaach i galon Abraham, nag y gallai ei gyllell ef wneyd i galon Isaac. Dichon ei fod yn ddyweddy ynddo ei hun, Na alw fi yn *DAD* i ti, yr hwn wyf yn awr i fod dy *LOFRUDD!* *Wele dân a choed; ond mae oen y poeth-offrwm?*—gwelwn mor gyfarwydd oedd Isaac yn

8 Ac Abraham a ddywedodd, Fy mab, Duw a edrych iddo ei hun am oen y poeth-offrwm. Felly yr aethant ill dau yn nghyd:

9 Ac a ddaethant i'r lle a ddywedasai Duw wrtho ef; ac yno yr adeiladodd Abraham allor, ac a osododd y coed mewn trefn, ac a rwymodd Isaac ei fab, ac a'i gosododd ef ar yr allor, ar uchaf y coed.

10 Ac Abraham a cstynnodd ei law, ac a gymerodd y gyllell i ladd ei fab;

11 Ac angel yr Arglwydd a alwodd

y drefn aberthol! Yn awr yr oedd hwn yn gwestiwn profedigaeithus i Abraham; canys pa fodd y gallai ef oddef meddwl mai Isaac ei hun oedd yr oen?

Adn. 8. *Fy mab, Duw a edrych iddo ei hun am oen y poeth-offrwm*] Hon oedd iaith o *ufydd-dod* yn unig: fel pe dywedasai, 'Rhaid i ni offrymu yr oen a benododd Duw yn awr i'w offrymu;' gan roddi iddo fel hyn y rheol gyffredinol hon o ymstyngiad i'r ewylllys ddyfol, i'w barotoi ef erbyn y cymhwysiad ebrwydol o boni ato ei hun. Yr wyf fi yn meddwl fod yr esbonwyr yn gyffredin yn camsynied yma wrth gymhwysio hyn at GRIST. Y mae yn wir y gwyddai Abraham fod Crist, 'Oen Duw,' i gael ei aberthu ar ol hyn fel y *sylwedd mawr*; ond yr oedd ef yn meddwl fod Isaac i gael hynny hefyd yn awr fel ei *gysgod* ef. Nis gallasai ef chiwaith fod yn cyferio at yr *hwrdd* a offrymwyd yn lle Isaac, adn. 13; canys ni wyddai Abraham eto ddim am hwnw, ac yr oedd o hyd yn llawn fwriadu aberthu ei fab. Felly, er fod ein Harglwydd bendigedig i fod yn 'Oen y poeth-offrwm,' a'i fod felly o drefniad Duw ei hun; eto golygu y mae Abraham yma fod Isaac felly hefyd, ac am hynny fod yn rhaid ei offrymu yntau yr un modd, a hynny yn ol trefniad Duw.

Adn. 9. *Ac a ddaethant i'r lle*] Ar ol llawer o gamrau blinedig, ac â chalon drom, y mae Abraham yn cyraedd gyda'i fab i'r lle penodig a ddywedasai Duw wrtho ef; *ac yno yr adeiladodd Abraham allor*—allor *bridd* ond odid, y fwyaf athrist a adeiladodd efe erioed; *ac a osododd y coed mewn trefn*—i fod yn grugfa anghladdol i Isaac; ac ar ol iddo fynegu i Isaac mai efe ei hun oedd i fod yn oen y poeth-offrwm, efe a'i *rhwymodd*—fel y byddai yr ebyrth yn cael eu rhwymo; *ac a'i gosododd ef ar yr allor, ar uchaf y coed*—lle yr oedd ef yn gyntaf i gael ei ladd, ac wedi hynny ei losgi yn boeth-offrwm! Rhyfeddych, nefoedd; syna dithau, ddaear! dyma weithred o ffydd ac ufydd-dod a haeddai fod yn ddrych i anglylion a dynion trwy'r ddaear a'r nef. Wele anwylyd Abraham, gobaiht yr eglwys a'r byd, etifedd yr addewid, yn gorwedd yn rhwym ar yr allor, ac yn batod i waedu a marw trwy ddywylaw ei dad ei hun! Y mae Isaac, er dim a ymddengys i'r gwrthwyneb, mor ewyllysgar i'r drefn ag Abraham ei hun, canys ni ddarllenwn iddo wneyd un gwrthwynebiad. Dywed Josephus ei fod ef yn awr yn 25 mlwydd oed, a rhai o'r rabbin-

arno ef o'r nefoedd, ac a ddywedodd, Abraham, Abraham. Yntau a ddywedodd, Wele fi.

12 Ac efe a ddywedodd, Na ddod dy law ar y llanc, ac na wna ddim iddo; o herwydd gwn weithian i ti ofni Duw, gan nad attaeiaist dy fab, dy unig *fab*, oddiwrthyf fi.

13 Yna y dyrchafodd Abraham ei lygaid, ac a edrychodd; ac wele o'i ol ef hwrdd, wedi ei ddal erbyn ei gyrn mewn dyrysi: ac Abraham a aeth ac a gymerth yr hwrdd, ac a'i hoff-

iaid ei fod yn 36; ond y mae yn debycach mai oddeutu 33 ydoedd, yr oed ag y cafodd ei Wrthysgod mawr ei offrymu. A chaniatau nad oedd ef ddim ond 25, buasai yn hawdd iddo wrthsefyll; canys a ellir meddwl y gallasai hen wr, ag oedd o leiaf yn 125 mlwydd oed, rwymo, heb ei gydsyniad, wr ieuanc yn mlodau a chryfder bywyd? Yn yr achos hwn ni allwn ddywedyd i nerth trechol y tad *orchfygu*; eithr dwiuldeb, serchogrydd, ac ufydd-dod y mab a *ymstyngodd*. Yr oedd Isaac yn hyn hefyd yn gysgod o Grist, yr hwn a 'ddodai ei einioes i lawr o hono ei hun,' Ioan x. 18.

Adn. 10. *Ac a gymerodd y gyllell*] A gallwn feddwl fod ei blaen ar suddo i wddf ei fab.

Adn. 11. *Ac angel yr Arglwydd*] Sef Angel mawr y cyfammod, yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn erioed oedd y Cyfryngwr mawr rhwng Duw a dyn: gwel ar adn. 15, 16, a'r adfeddyliaidau ar pen. xvi. *A alwodd arno ef o'r nefoedd*—canys yr oedd Duw a'i lygad arno trwy yr holl amser. Ac y mae ei waith yn ei enwi ddiwywaith er ei attal, yn dangos fod y gyllell ar gael ei gwtbio i gorff ei fab.

Adn. 12. *Na ddod dy law ar y llanc*] Gef mai *cynrychiolydd* gwir aberth IESU CRIST oedd Isaac i fod, yr oedd yn ddigon i'r perwyl hwnw fod y *fwriad o'r* aberthiad yn gyflawn yn ei ewylllys ei hun ac ewylllys ei dad. Darfu i Abraham roddi Isaac i fynu, a darfu i Isaac roddi ei fywyd i fynu, yn ewyllysgar, fel yr oedd Duw wedi gorchymyn; ac o bob ochr, mor bell ag y gallai *cwyllys a bwriad* fyned, yr oedd yr aberthiad wedi ei gyflawni. Ond ni chanlyn oddiwrth hyn y buasai ewyllysgarwch Crist i ddyoddef yn gwneyd y tro iddo ef, am fod y ddeddf yn gofyn *gwir farwolaeth* yn ei achos ef fel un yn neddfie pechaduriaid, yr hyn oedd 'cyflog pechod': ac hyd yn nod yma ni arbedwyd bywyd, canys ni wnaed ond trosglwyddo y farwolaeth gysgodol oddiwrth Isaac ar ben yr hwrdd, adn. 13. Gwel ar Mat. xxvii. 29. *O herwydd gwn weithian i ti ofni Duw*—yr oedd Duw yn gwybod hynny o'r blaen, ond yn awr rhoddodd Abraham brawf gweithredol o'r parch crefyddol ag oedd ganddo i Dduw a'i awdurdd.

Adn. 13. *Ac wele o'i ol ef hwrdd*] Yr oedd hwn, fel y sylwa PATRICK, yn gysgod nodedig o Grist, yr hwn oedd Aberth a ddarparwyd gan Dduw, nid gan ddyd, gan mai dwyfol ragluniaeth, nid Abraham, a ddygasai yr hwrdd yno at wasanaeth y patriarch. 'Ac y mae yn

rymodd yn boeth-offrwm yn lle ei fab.

14 Ac Abraham a alwodd enw y lle hwnw JEHOFA-jire; fel y dywedir heddyw, Yn mynydd yr Arglwydd y gwelir.

15 ¶ Ac angel yr Arglwydd a alwodd ar Abraham yr ail waith o'r nefoedd;

16 Ac a ddywedodd, I mi fy hun y tyngais, medd yr Arglwydd, o herwydd gwneuthur o honot y peth hyn, ac nad atteliaist dy fab, dy unig fab :

17 Mai gau fendithio y'th fendithiaf, a chan amlhau yr amlhaf dy had, fel ser y nefoedd, ac fel y tywod yr hwn sydd ar lan y môr; a'th had a feddianna borth ei elynion;

18 Ac yn dy had di y bendithir

nodadwy ddarfod i'r deml, y lle aberthu, gael ei hadeiladu wedi hyn ar y mynydd hwn Moria, 2 Cron. iii. 1; ac nid oedd mynydd Calafia, lle y croeshoeliwyd Crist, yn mhell oddiwrtho.—BENSON. Ond gwel ar adn. 14.

Adn. 14. *Ac Abraham a alwodd enw y lle hwnw Jehofa-jire*] Yr hyn a arwydda yn llythyrenol, fel ar ymyl y ddalen, 'yr Arglwydd a edrych neu a ddarpara;' hyn yw, gofala Duw fod i bob peth gael ei wneuthur ag sydd yn angenrheidiol er eysur a chynaliacth y rhai a ymddiriedant ynddo. Ond tybia rhai fod hyn wedi ei lefaru yn *broffwydol*; ac am hyn y mae Houbigant ac ereill yn ei gyfieithu fel hyn, *Domius ridebitur*, 'yr Arglwydd a welir;' ac ymddengys fod yr adran ddylynol yn gofyn y cyfieithiad hwn, *Fel y dywedir heddyw, (Sichur Jehovah yeraeh.)* Ar y mynydd hwn yr Arglwydd a welir. Oddiwrth hyn ymddengys fod yr abert a offrymwyd gan Abraham yn cael ei ddeall yn un *cynrychiol*, a chadwyd traddodiad y byddai i Jehofa gael ei weled ar ol hyn mewn ffordd aberthol ar y mynydd hwn. Ac y mae hyn yn gwneyd y dyb a nodwyd ar adn. 2 yn fwy na thebyg, sef ddarfod i Abraham offrymu Isaac ar y mynydd hwnw, lle, yn nghyflawnder yr amser, y dyoddefai yr Iesu. Gwel ESCOB WARBERTON.

Adn. 15, 16. *Ac angel yr Arglwydd—a ddywedodd, I mi fy hun y tyngais, medd yr Arglwydd*] Felly ni a welwn fod *angel yr Arglwydd* yn cael ei alw yma JEHOFA; gwel ar adn. 11. Fel y mae llw neu apeliad at Dduw, yn mhilith dynion, yn derfyn ar bob ymyrson; felly Duw, gan ymestwng at wendid dynion, 'oblegid na allai dyngu i neb oedd fwy, a *dyngodd iddo ei hun*,' Heb. vi. 13; hyn yw, efe a wystlodd ei dragwyddol wirionedd, yn nghyda holl berffeithderan ei natur, am gyflawniad ei addewid. Gwel ar Heb. vi. 13—18.

Adn. 17. *Mai gan fendithio y'th fendithiaf, a chan amlhau yr amlhaf dy had, &c.*] Y rhai a ymadawant ag unrhyw beth er mwyn Duw, a'i cânt ef wedi ei wneyd i fyny iddynt gydag elw annhraethol. Nid oedd gan Abraham ond un mab, ac yr oedd yn foddalon i ymadael â hwnw mewn uffydd-dod i Dduw. Wel, meddai Duw, tydi a ad-delir â miloedd a mil-

holl genhedloedd y ddaear: o achos gwranddo o honot ar fy llais i.

19 Yna Abraham a ddychwelodd at ei lanciau; a hwy a godasant, ac a aethant yn nghyd i Beer-seba: ac Abraham a drigodd yn Beer-seba.

20 ¶ Darfu hefyd, wedi y pethau hyn, fynegu i Abraham, gan ddywedyd, Wele, dyg Milca hithau hefyd blant i Nacor dy frawd;

21 Hus ei gyntafanedig, a Buz ei frawd; Cemuel hefyd tad Aram,

22 A Chesed, a Hazo, a Phildas, ac Idlaph, a Bethuel.

23 A Bethuel a genhedlodd Rebecca: yr wyth hyn a blantodd Mitca i Nacor brawd Abraham.

ynau. *A'th had a feddianna borth ei elynion*—wrth borth yma y gellir deall holl *rym* ei elynion, pa un bynag ai en byddionedd, eu cynghoran, ynte en dinasoedd caerog. Gwel ar Mat. xvi. 18.

Adn. 18. *Ac yn dy had di y bendithir holl genhedloedd y ddaear*] Y mae genym awdurdod St. Paul (Gal. iii. 8, 16, 18) i gyfyngu hyn at ein Harglwydd bendigedig, yr hwn oedd yr HAD trwy yr hwn yn unig y cai holl fendithion Duw o ragluniaeth, trugaredd, gras, a gogoniant, en trosglwyddo i genhedlaethau y ddaear.—CLARKE. Ond gwel y sylw ar Gal. iii. 16.

Adn. 19. *Yna Abraham a ddychwelodd at ei lanciau*] Yn ol ei addewid adn. 5.

Adn. 20. *Wele, dyg Milca hithau hefyd blant i Nacor dy frawd*] Ymddengys fod yr hanes fer hon yn cael ei dwyn i mewn yma i'r dyben o barotoi y darlennydd at yr hyn a adroddir pen. xxiv.; ac i ddangos fod ihagluniaeth Duw yn parotoi, yn un o ganghenau teulu Abraham, briod gyffadas i'w fab Isaac.

Adn. 21. *Hus*] Tybir mai efe a boblogodd wlad *Us* neu *Ausitis*, yn niffaethwch Arabia, gwlad Job. *Buz*—meddylir mai oddiwrth hwn y disgynodd Elihu y Buziad, un o gyfeillion Job, pen. xxxii. 2. *Cemuel hefyd tad Aram*—neu 'dad y Syriaid,' yn ol y LXX. Y mae yn debyg mai y Camiletiaid, llwyth Syriaidd yn orllewinol i'r Euphrates, a feddylir, y rhai a grybwyllir gan Strabo.

Adn. 22. *A Chesed, &c.*] Nid oes genym ddim o hanes y rhai hyn, amgen na'u bod yn blant i Nacor, ac yn gefnderoedd i Isaac.

Adn. 23. *A Bethuel a genhedlodd Rebecca*] Yr hon wedi hyn a ddaeth yn wraig i Isaac, ac a ydoedd yn ferch i'w gefnder ef.

Adn. 24. *Ei ordderchwaig*] Hon oedd fath ar is-wraig, yn cael ei hystyried yn gyfreithlon yn yr amseroedd patriarchaidd, er na allai ei phlant etifeddu, yn unedig lle y byddai plant ereill. Nid yw y gair yn cael ei arfer yn yr Hen Destament yn yr ystyr annymunol yn mha un yr ydym ni yn ei ddeall. Agar oedd ordderchwaig Abraham, a hynny drwy gydsyniad ei wraig, pen. xvi. 2, 3. Cetura, ei ail wraig, a elwir yn ordderchwaig, pen. xxv. 6, 1 Cron. i. 32; a Bilha a Zilpa oeddynt ordderchwragedd i Jacob, pen. xxxv. 22, 26.

24 Ei ordderchwraig hefyd, a'i lienw Reuma, a esgorodd hithau hefyd ar Teba, a Gaham, a Thahas, a Maacha.

PENNOD XXIII.

AC oes Sarah ydoedd gan mlynedd a saith mlynedd ar hugain; *dyma* flynnyddoedd oes Sarah.

2 A Sarah a fu farw yn Nghaer-Arba; hōno *yw* Hebron yn nhir Canaan: ac Abraham a aeth i alaru am Sarah, ac i wylfain *am dani* hi.

3 ¶ Yna y cyfododd Abraham i fyny oddi ger bron ei *gorff* marw, ac a lefar-

odd wrth feibion Heth, gan ddywedyd, 4 Dycithr ac alltud ydwyf fi gyda chwi: rhoddwch i mi feddiant beddrod gyda chwi, fel y claddwyf fy marw allan o'm golwg.

5 A meibion Heth a atebasant Abraham, gan ddywedyd wrtho,

6 Clyw ni, fy arglwydd: tywysog Duw *wyt* ti yn ein plith: cladd dy farw yn *dy* ddewis o'n beddau ni: ni rwystr neb o honom ni ei fedd i ti i gladdu dy farw.

7 Yna y cyfododd Abraham, ac a ymgyrmodd i bobl y tir, *sef* i feibion Heth:

Wedi yr oes batriarchaidd yr oedd gordderchwagedd gan amrai wŷr rhagorol, *sef* *Caleb*, 1 Cron. ii. 46, 48; *Manasse*, 1 Cron. vii. 14; *Gedeon*, Barn. viii. 31; *Saul*, 2 Sam. iii. 7; *Dafydd*, 2 Sam. v. 13; *Solomon*, 1 Bren. xi. 3; a *Rehoboam*, 2 Cron. xi. 21. Felly ni a welwn, pa mor groes bynag oedd hyn i sefydliad gwreiddiol priodas, fod gwahaniaeth mawr rhwng gordderchwraig a plutan yn yr amseroedd hyny. Ond yn awr y mae efengyl Crist wedi adfer priodas i'w gweddnod cyntefig, Gen. ii. 24, Mat. xix. 5, 1 Cor. vii. 2; a rhestrir gordderchwaeth gyda godineb a phuteindra.

PEN. XXIII. Adn. 1. *Dyma flynnyddoedd oes Sarah*] Neu eu hoed pan yn marw, *sef* 127. Yr oedd hi agos yn 91 oed pan aned Isaac, ac yr oedd yntau o gylch 36 pan y bn hi farw. Y mae yn deilwng o sylw mai Sarah yw yr unig wraig ag y mae ei hoedran, ei marwolaeth, a'i chladdediggaeth yn cael eu nodi yn yr ysgriflythrau; a barnwyd hi yn deilwng o uwch anrhydedd, am ei bod yn gysgod o eglwys Crist, Gal. iv. 22—26.

Adn. 2. *A Sarah a fu farw yn Nghaer-Arba*] Yn llythyrenol, 'YN SINAS Y PEDWAR.' Y mae rhai yn meddwl fod y lle hwn yn cael ei alw felly, am mai yna y claddwyd *Adda*, *Abraham*, *Isaac*, a *Jacob*; ac ereill, am ddarfod i *Efa*, yn ol tyb y rabbiniaid, gael ei chladdu yno, yn nghyda *Sarah*, *Rebecca*, a *Lea*. Ond ymddengys yn amlwg iddi gael ei henw oddiwrth Ganaanead, un o feibion Anac, yn debygol a elwid *Arba*, (cynysnid yw y testyn gwreiddiol, Jos. xiv. 15, yn dywedyd yn bendant mai dyma oedd ei enw,) yr hwn oedd y penaf o'r *pedwar* brawd a drigent yno; ac enw y lleill oedd *Sesai*, *Ahiman*, a *Thabmai*, Barn. i. 10. Y tri hyn a laddwyd gan wŷr Juda; y mae yn debyg fod y llall wedi marw cyn hyny. *Ac Abraham a aeth i alaru am Sarah*—ymddengys oddiwrth adn. 19 o'r bennod flaenorol, fod Abraham yn trigo yn Beer-seba; ac yma cawn i Sarah farw yn *Hebron*, oddeutu 24 o filldroedd o Beer-seba. Er cyfneustra i borthi ei braidd lluosog, y mae yn debyg fod gan Abraham amrai leoedd i breswyllo ynddynt am dro, ac yn neillduol un yn Beer-seba, ac un arall yn Hebron; ac y mae yn debyg tra yr oedd ef yn ymdaith yn Beer-seba, ddarfod i Sarah farw yn Hebron; ac y mae ei fynediad i 'alaru ac wylfain am dani hi,' yn arwyddo ei fynediad o'r lle blaenaf i'r lle olaf ar y newydd o'i

marwolaeth. *Ac i wylfain am dani hi*—nid yn unig efe a gyflawnodd y defodau o ALAR yn ol arferiad yr amseroedd hyny, ond yr oedd hefyd yn gwir WYLOFAIN o achos y golled fawr a oddefodd, ac felly yn rhoddi prawf o ddianwadalwch ei serch.

Adn. 3. *Yna y cyfododd Abraham i fyny oddi ger bron ei gorff marw*] Y mae yn debyg iddo eistedd ar y ddaear rai dyddiau yn arwydd o dristwch, fel yr oedd yr arfer y pryd hyny; ac yna efe a gododd i ymofyn am gladdfa.

Adn. 4. *Dycithr ac alltud ydwyf fi gyda chwi*] Ac felly heb gladdfa berthynol i'm teulu. Neu, fel yr ymddengys oddiwrth Ileb. xi. 13—16, a 1 Pedr ii. 11, gall fod y geirian hyn, fel y sylwa Clarke, yn cyfeirio yn fwy at sefyllfa ei *feddw* nag at eiddo ei *gorff*. Efe a deimlai nad oedd iddo gartref sicr, a thrwy ffydd efe a geisiai ddinas âg iddi sylfeini. Dylai marwolaeth ein perthynasau ddwyn ar gof i'ninau nad ydym gartref yn y byd hwn. *Rhoddwch i mi feddiant beddrod gyda chwi*—y mae yn debyg fod y dwyreinywyr, fel y sylwa Le Clerc, o'r un farn yn nghylch claddfeydd ag a letyid gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid wedi hyny, *sef* fod yn wartius i un gael ei gladdu yn nhir un arall; ac am hyny yr oedd pob teulu, oddieithr rhai tylodion iawn, yn meddu beddrod iddynt en hunain, ac ni oddefent i ereill gael eu claddu ynddynt. *Fel y claddwyf fy marw allan o'm golwg*—bydd i'ngau wneyd y rhai hyny yn annymunol i'n golwg, y rhai, tra yn fyw, oeddynt 'ddymuniad ein llygaid!' Y mae y gwynebryd ag ydoedd boyw a bywyog, yn myned yn welw a dychrynllwyd, ac yn anaddas i bob lle ond 'tir tywyllwch.'

Adn. 5. *Meibion Heth*] Y rhai a elwir Sheta neu Khetta yn rholith yr Assyriaid: gwel ar Jos. i. 4.

Adn. 6. *Tywysog Duw wyt ti yn ein plith*] Un y gwyddom dy fod wedi dy ddywyfol ffafrio, a'r hwn, o ganlyniad, a barchwn ac a anrhydeddwn yn fawr. Efe a'i galwasai ei hun yn 'dycithr ac alltud,' ac y maent hwythau yn ei alw yn dywysog mawr; a da y gallasant, wrth ystyried ei gyfoeth, ei osgordd, a'i lwyddiant.

Adn. 7. *Yna y cyfododd Abraham, ac a ymgyrmodd i bobl y tir*] Gan fel hyn dalu diolechgarwch iddynt am eu cynnygiad tirion, a

8 Ac a ymddyddanodd â hwynt, gan ddywedyd, Os yw eich ewyllys i mi gael claddu fy marw allan o'm golwg, gwrandewch fi, ac eiriolwch trosaf fi ar Ephron fab Sohar;

9 Ar roddi o hono ef i mi yr ogof Machpela, yr hon *sydd* eiddo ef, ac *sydd* yn nghwr ei faes: er ei llawn *werth* o arian rhoddod hi i mi, yn feddiant beddrod yn eich plith chwi.

10 Ac Ephron oedd yn aros yn mysg meibion Heth: ac Ephron yr Hethiad a atebodd Abraham, lle y clywodd meibion Heth, yn ngwydd pawb a ddeuent i borth ei ddinas ef, gan ddywedyd,

11 Nage, fy arglwydd, clyw fi: rhoddais y maes i ti, a'r ogof *sydd* ynddo, i ti y rhoddais hi: yn ngwydd meibion fy mhobl y rhoddais hi i ti: cladd di dy farw.

12 Ac Abraham a ymgrymodd o flaen pobl y tir.

13 Ac efe a lefarodd wrth Ephron lle y clybu pobl y tir; gan ddywedyd, Eto, os tydi *a'i rhoddi*, atolwg gwrando fi, rhoddaf werth y maes; cymer

genyf, a mi a gladdaf fy marw yno.

14 Ac Ephron a atebodd Abraham, gan ddywedyd wrtho,

15 Gwrando fi, fy arglwydd; y tir *a dâl* bedwar can siel o arian: beth yw hyn y rhyngof fi a thithau? am hyny cladd dy farw.

16 Felly Abraham a wrandawodd ar Ephron: a phwysodd Abraham i Ephron yr arian, a ddywedasai efe lle y clybu meibion Heth; pedwar can siel o arian cymeradwy yn mhlith marchnadwyr,

17 ¶ Felly y sicrhawyd maes Ephron, yr hwn *oedd* yn Machpela, yr hon *oedd* o flaen Mamre, y maes a'r ogof *oedd* ynddo, a phob pren a'r *a oedd* yn y maes, ac yn ei holl derfynau o amgylch,

18 Yn feddiant i Abraham, yn ngolwg meibion Heth, yn ngwydd pawb a ddelynt i borth ei ddinas ef.

19 Ac wedi hyny Abraham a gladdodd Sarah ei wraig yn ogof maes Machpela, o flaen Mamre; hōno *yw* Hebron, yn nhir Canaan.

20 A sicrhawyd y maes, a'r ogof yr hon *oedd* ynddo, i Abraham, yn

hyny gyda phob gweddusrwydd a pharch. Y mae crefydd nid yn unig yn goddef, ond yn gofyn hynawsedd a moesgarwch; a dylai ei holl broffeswyr ochelyd yn ofalus rhag taio-grwydd a delfni. 'Cariad nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd.'

Adn. 8. *Eiriolwch trosaf fi ar Ephron*] Yr oedd Abraham eisioes wedi gweilo y maes a'r ogof; a chan ddeall i bwy yr oeddynt yn perthyn, efe a aeth i borth Hebron, lle yr oedd henuriaid y bobl yn eistedd i weinyddu cyfiawnder, a lle yr oedd bargaenion a gwerthiadau yn cael eu gwneuthur a'u tystio; ac wedi iddo gyfarch yr henuriaid, yn mhlith y rhai yr oedd Ephron yn eistedd, yr hwn yr ymddengys nad oedd yn adnabyddus i Abraham, efe a ddeisyfai iddynt wneyd eu goraf i gael gan berchenog y maes a'r ogof eu gwerthu iddo, i fod yn gladdfa iddo ef a'i deulu.

Adn. 9. *Ar roddi o hono ef i mi yr ogof Machpela*] Gan fod *machpela* yn yr Hebraeg yn arwyddo *dyblyg*, dichon y gallai yr ogof gael ei galw felly naill ai am ei bod yn meddu dwy fynedfa, neu ynte yn cynwys ogof mewn ogof, fel yr oeddynt yn gyffredin. *Er ei llawn werth o arian rhoddod hi i mi*—felly y tir cyntaf ag y sonir am dano yn yr ysgrythyr wedi ei brynu, oedd lei i gladdu, nid i adeiladu.

Adn. 10. *Ac Ephron oedd yn aros*] Heb. *yosheb*, yn eistedd yn mhlith meibion Heth, ond, fel y tybiwyd o'r blaen, yr oedd yn anadnabyddus yn bersonol i Abraham: am hyny y mae ef yn ateb drosto ei hun, ac yn gwneuthur cynigiad o'r tir a'r ogof yn rhodd i Abraham yn ngwydd yr holl bobl, yr hyn oedd yn *gyflwyniad deddfol* o'r holl eiddo i'r patriarch.

Adn. 12. *Ac Abraham a ymgrymodd*] Gwel ar adn. 7.

Adn. 13. *Eto, os tydi a'i rhoddi*] Neu, fel y dylai gael ei ddarllen, os tydi a'i *gwerthi, rhoddaf werth y maes*—yr oedd Abraham yn gyfoethog mewn aur ac arian, ac am hyny yn meddwl fod yn anngyfiawn iddo gwymeryd maintai ar haelioni Ephron; neu gallai feddwl y buasai ei gael am ddim yn costio iddo yn ddrud, trwy y byddai dan rywmedigaethau mwy i Ephron.

Adn. 15. *Y tir a dâl bedwar can siel o arian*] Yr hyn, yn ol 2s. 6c. y siel, oedd gyfartal i £50 o'n harian ni. Y fath anghraifft odidog a charaidd o haelioni a gawn yma rhwng Abraham ac Ephron! Y mae y naill yn taer wasgu am gael rhoddi y tir yn anrheg, tra y mae y llall yr un mor haelionus yn gwrthod ei dderbyn, ac yn mynu talu am dano.

Adn. 16. *A phwysodd Abraham i Ephron yr arian*] Canys yn yr amseroedd hyny, pryd nad oedd arian bathol i'w cael, aur ac arian a delid wrth *bwysau*, pen. xliii. 21, Jer. xxxii. 10, yr hyn a barhaodd hyd y caethiwed Babilonaidd.

Adn. 17. *A phob pren a'r a oedd yn y maes*] Dichon fod yr holl rai hyn wedi eu henwi yn y cytundeb.

Adn. 18. *Yn ngolwg meibion Heth*] Y rhai oeddynt dystion o'r cyflwyniad, ac at y rhai o ganlyniad y gellid apelio os dygwyddai i ryw ddadl g. di.

Adn. 19. *Ac wedi hyny Abraham a gladdodd Sarah ei wraig yn ogof maes Machpela*] Ac y mae yno yn awr deml Fahometanaidd wedi ei hadeiladu uwchben yr ogof lle y dywedir i Sarah ac Abraham gael eu claddu, yr hon sydd yn adeilad wych, ac yn cael ei hystyried yn dra chysegredig: gwel ar pen. xxv. 10.

Adn. 20. *A sicrhawyd y maes, &c.*] Cafodd

feddiant beddrod, oddiwrth feibion Heth.

PENNOD XXIV.

AC Abraham oedd hen, wedi myned yn oedranus; a'r Arglwydd a fendithiasai Abraham yn mhob dim.

2 A dywedodd Abraham wrth ei was hynaf yn ei dy, yr hwn oedd yn llywodraethu ar yr hyn oll a'r *a oedd* ganddo, Gosod, atolwg, dy law dan fy morddwyd:

3 A mi a baraf i ti dyngu i Arglwydd Dduw y nefoedd, a Duw y ddaear, na chymerech wraig i'm mab i o ferched y Canaaneaid, y rhai yr idwyf yn trigo yn eu mysg:

4 Ond i'm gwlad i yr ai, ac at fy nghenedl i yr ai di, ac a gymeri wraig i'm mab Isaac.

yr holl orchwyliaeth ei threfn a'i chadarnhan yn ol y ffurfiau cyfreithiol ag oeddynt y pryd hyn mewn arferiad.

PEN. XXIV. Adn. 1. *Ac Abraham oedd hen*] Oddeutu 140 mlwydd oed, fel yr ymddengys wrth gydmarhu pen. xxi. 5 gyda pen. xxv. 20. Hyn oedd yr mhen oddeutu tair blynedd ar ol marwolaeth Sarah, pan yr oedd Isaac oddeutu 40 mlwydd oed. *A'r Arglwydd a fendithiasai Abraham*—â'r pedair bendith batriarchaidd, sef hir ddyddiau, hiliogaeth oethioliol, cyfoeth mawr, a buddugoliaeth ar ei ormeswyr.

Adn. 2. *A dywedodd Abraham wrth ei was hynaf*] Gan fod y gwas hynaf hwn yn llywodraethu ar yr hyn oll a'r oedd ganddo, y mae yn dra thebyg mai Eleazer o Ddamascus a feddylir. Soniasai Abraham am hwn oddeutu 54 mlynedd cyn hyn, pen. xv. 2: felly rhaid ei fod yn awr yn grynn hen, ac ymddengys ei fod hefyd yn nodedig am ei ddoethineb a'i dduwioldeb. *Gosod, atolwg, dy law dan fy morddwyd*—gwel ar adn. 9.

Adn. 3. *A mi a baraf i ti dyngu*] Am ffurf y llw gwel ar adn. 9. *Na chymerech wraig i'm mab i o ferched y Canaaneaid*—cans yr oedd y rhai hyn eisioes wedi eu diofrydu i gaethiwed, &c.; a buasai yn hollol annglyson a challineb, yn gystal ag â bwriad Duw, uno mab ac etifedd yr addewid ag un ag ydoedd dan *felldith*, er na byddai y felldith hono ond o natur wladwriaethol: gwel ar pen. ix. 25. Gwelwn mor ofalus yw Abraham rhag i'w fab briodi un o egwyddorion a moesau llygredig. Yr oedd ef yn y fath barch uchel yn mhllith y Canaaneaid, fel y gallasai yn ddiamau briodi Isaac â merch un o dywysogion y wlad: ond efe a welai fod y Canaaneaid yn ymlygru yn fawr, a gwyddai ddarfod anicau eu dyfetha; ac am hyn ni phriodai ef ei fab i'w plith hwy, rhag iddynt fod yn fagl i'w enaid. Mor wahanol yw hyn i ymddygiad llaweroedd yn ein dyddiau ni, y rhai y mae cyfoethogion y byd hwn yn fwy dewisol ganddynt na rhai cyfoethog mewn gweithredoedd da!

Adn. 4. *Ond i'm gwlad i yr ai*] Y mae Me-

5 A'r gwas a ddywedodd wrtho ef, Ond odid ni fyn y wraig ddyfod ar fy ol i i'r wlad hon: gan ddychwelyd a ddychwelaf dy fab di i'r tir y daethost allan o hono?

6 A dywedodd Abraham wrtho, Gwylia arnat rhag i ti ddychwelyd fy mab i yno.

7 ¶ Arglwydd Dduw y nefoedd, yr hwn a'm cymerodd i o dŷ fy nhad, ac o wlad fy nghenedl, yr hwn hefyd a ymddyddanodd â mi, ac a dyngodd wrthyf, gan ddywedyd, I'th had di y rhoddaf y tir hwn; efe a enfynd ei angel o'th flaen di, a thi a gymeri wraig i'm mab oddiyno.

8 Ac os y wraig ni fyn ddyfod ar dy ol di, yna glân fyddi oddiwrth fy llw hwn: yn unig na ddychwel di fy mab i yno.

sopotamia yn cael ei galw yma yn wlad Abraham, am mai dyma lle y sefydlodd tenlu Haran ei frawd, a lle y bu yntau ei hun yn aros gryn amser gyda'i dad Tera: gwel ar pen. xii.

1. *Ac a gymeri wraig i'm mab Isaac*—o blith fy nghenedl fy hun. Y mae y gwŷr ienaic yn Bengal yn gymhwys yn yr un amgylchiadau ag Isaac: nid oes ganddynt hwy ddim i'w wneyd yn y dewisiad o wraig; y mae y rhieni yn rhoddi ereill ar waith i chwilio am wragedd i'w meibion. Y rhai a adawnt eu cartrefleoedd i chwilio am waith, a briodant eu plant bob amser yn eu gwlad eu hunain, ac yn mhllith eu cydnabod gartref, ac nid byth yn mhllith y rhai ag y trigiannant yn eu mysg. Y mae hyn yn arferiad yn ngwledydd Asia er mabandod yr hil ddydol. Gwel *Ward's Hindoo Customs*.

Adn. 5. *Ond odid ni fyn y wraig ddyfod ar fy ol i'*] 'Cans nid oedd merched o edran Rebecca i'w gwithio ymaith hyd yn nod gan eu rhieni.'—*STURCLIFFE*. Yr oedd y gwas yn foddol i gymeryd y llw, a myned i'r daith, ar yr ammod hon, os na fyddai y llances yn ewyllysgar i ddyfod, ei fod ef yn rhydd oddiwrth y llw. Y mae llw yn beth pwysig iawn, ac nis gellir ei gymeryd yn rhy ochelgar.

Adn. 6. *Gwylia arnat rhag i ti ddychwelyd fy mab i yno*] Gwyddai Abraham am addewid sicr Duw o roddi gwlad Canaan i'w hiliogaeth; gan hyn y buasai ddychweliad y teulu i Mesopotamia yn fwrw ymaith yr addewid trwy anghrediniaeth, ac yn debyg i'r Israellaid yn yr anialwch, y rhai a fyndent osod cadben arnynt i ddychwelyd i'r Aipht.

Adn. 7. *Arglwydd Dduw y nefoedd, &c.*] Y mae efe yn amlygu yr hyder cryfaf yn Nuw, y byddai i'r bwriadau mawrion er mwyn y rhai y dygasai efe of oddiwrth ei genedl ei hun i daenu y wir grefydd ar y ddaear, gael eu cyflawni; ac am hyn, pan fyddai i offernyau daearol fethu, y byddai i rai nefol gael eu rhoddi ar waith. *Efe a enfynd ei angel o'th flaen di*—yr oedd yn dyb gyffredin yn mhllith y dwyreiniwyd fod Duw yn hyrwyddo pob peth trwy weinidogaeth angylion; a phan yr ystyrion pa mor aml yr oedd angylion wedi bod yn

9 A'r gwas a osododd ei law dan forddwyd Abraham ei feistr, ac a dyngodd iddo am y peth hyn.

10 ¶ A chymerodd y gwas ddeg camel, o gamelod ei feistr, ac a aeth ymaith: (canys holl ddâ ei feistr *oedd* dan ei law ef) ac efe a gododd, ac a aeth i Mesopotamia, i ddinas Nacor.

11 Ac efe a wnaeth i'r camelod orwedd o'r tu allan i'r ddinas, wrth bydew dwfr ar brydnawn, yn nghylch yr amser y byddai *merched* yn dyfod allan i dynu dwfr.

12 Ac efe a ddywedodd, O Arglwydd Dduw fy meistr Abraham, atolwg, pâr i mi lwyddiant heddyw; a gwna drugaredd â'm meistr Abraham.

13 Wele fi yn sefyll wrth y ffynnon ddwfr, a merched gwŷr y ddinas yn dyfod allan i dynu dwfr:

gweini i Abraham, i'e Angel mawr y cyfammod ei hun, nid yw ryfedd ei fod ef o'r dyb hon.

Adn. 8. *Ac os y wraig ni fyn ddyfod, &c.*] Gwel ar adn. 5, 6.

Adn. 9. *A'r gwas a osododd ei law dan forddwyd Abraham*] Sef ar y rhan ag ydoedd yn dwyn nôd yr enwaediad, arwydd cyfammod Duw; ac yr oedd hyn yn gyfystyr â'u gwaith ni yn cusanu y llyfr, ac yn doddi ein llaw ar *Destament* neu *Gyffammod Newydd* ein Harglwydd Iesu Grist. Fel hyn yr oedd yr Iuddewon eu hunain yn deall y ddefod hon: gwel Ddeonliadau Jonathan a Jerusalem. Gyda golwg ar FFURF Y LLW, yr oedd y person yn tyngu i *Jehofa, Duw y nefoedd a Duw y ddaear*, adn. 3. Y mae tair priodolodd hanfodol i DDUW yn cael eu crybwyll yma: 1. Ei *human-fodaeth* a'i *dragryddolaeth* yn yr enw JEHOFA. 2. Ei *lywodraeth* ogoneddus a gwynfydedig yn nheyrnas NEFOEDD. 3. Ei *ragluniaeth* haelionus ar y DDAEAR. Ymddengys mai ystyr y llw oedd hyn: 'Fel y mae Duw yn anghyfnawidiol yn ei natur a'i fwriadau, felly y byddaf ffinau yn yr ymrwymiad hwn, dan y penyd o ffurfiello pob gobaith am lwyddiant tymhorol, breintiau y cyfammod, a gogoniant dyfodol.' Nis gellir byth ystyried llw o'r fath yma, yn cael ei gymeryd ar y fath amser, ac ar y fath achlysur, yn anghrefyddol neu balogedig. Gall ein drychfeddyllian ni o hyfosedd beri i ni anghymeradwyo y ddefod a arferid ar y fath achos; ond pan yr ystyrir natur y cyfammod, o'r hwn yr oedd *enwaediad* yn arwydd, ny ni ganfyddwn ar unwaith nas gellid arferyd y ddefod hon heb iddi gynrychlu syniadau o barch ac ofn dauwl, gan y gwddai y neb a dyngai fel hyn fod Duw y cyfammod hwn yn dân ysol. Gwel CLARKE.

Adn. 10. *A chymerodd y gwas ddeg camel*] Ymddengys i Abraham adael holl drefniad y gorchwyl hwn i ddoethineb ei was, i gymeryd gydag ef yr osgodd a'r gwaddol a fynai; canys chwaneigr, *holl ddâ ei feistr oedd dan ei law ef*; ac yn yr amseroedd hyn yr arferiad

14 A bydded, mai y llanges y dywedwyf wrthi, Gogwydda, atolwg, dy ystên, fel yr yfwyf; os dywed hi, Yf, a mi a ddiodaf dy gamelod di hefyd; hōno a ddarperai i'th was Isaac: ac wrth hyn y caf wybod wneuthur o honot ti drugaredd â'm meistr.

15 ¶ A hu, cyn darfod iddo lefaru, wele Rebecca yn dyfod allan (yr hon a anesid i Bethuel fab Milca, gwraig Nacor, brawd Abraham) a'i hystên ar ei hysgwydd.

16 A'r llances *oedd* ddeg odiaeth yr olwg, yn forwyn, a heb i w'r ei hadnabod; a hi a aeth i waered i'r ffynnon, ac a lanwodd ei hystên, ac a ddaeth i fyny.

17 A'r gwas a redodd i'w chyfarfod, ac a ddywedodd, Atolwg, gad i mi yfed ychydig ddwfr o'th ystên.

18 A hi a ddywedodd, Yf, fy meistr:

oedd rhoddi gwaddol am wraig, ac nid ei dderbyn *gyda* hi. Gwel CLARKE. Ond ymddengys ei fod yn bwriadu i Rebecca a'i morwynion gael eu cario yn ol ar y camelod hyn, yn gystal a phethau ereill a allai fod ganddi, adn. 61.

Adn. 11. *Ac efe a wnaeth i'r camelod orwedd*] Yn debygol i ddaffino; yn *ngyhylch* yr amser y byddai *merched* yn dyfod allan i dynu dwfr—yn Bengal yr arfer gyffredin ydyw i ferched fyned i llynoedd ac afonydd i geisio dwfr. Gellir gwelod bod dydd gwmniau o bedair, chwech, deg, neu fwy, yn myned i geisio dwfr, â'u hystenau yn gorphwys ar eu hochrau.—WARD.

Adn. 12—14. *Ac efe a ddywedodd, O Arglwydd Dduw fy meistr Abraham, &c.*] Y mae ymddygiad y gwas hwn yn ymddangos yn llawn o fnydd a dauwldeb; ac eto, ar yr un pryd, nid yw yn llai rhesymol. Wrth ofyn am *arwydd*, y mae yn cydnabod mai Duw yw arolygydd a rheolydd mawr y bydysawd, a'r amgylchiad hwn yn neillduol ag ydoedd yn perthyn mor agos i'r patriarch saintaidd; ac wrth ofyn am *arwydd naturiol*, y cyfryw ag a ragddanghosai ddyngarwch, gostyngieddwridd, a chymhwysderau ereill yn addaw gwraig synwryol a rhinweddol, y mae yn rhoddi ei weddi ar y fath sail gall a rhesymol fel ag i fod yn siampul addas i bawb ei hefelychlu ar na fyent denio rhagluniaeth Duw, trwy ddysgwyl i arwyddion goruwelnaturiol gael eu rhoddi iddynt er penderfynu achosion ag y maent hwy eu hunain yn alluog i'w penderfynu trwy iawn arferiad o'u cynneddau rhesymol. Nodwn, 1. Yn ein holl amgylchiadau a'n negeseuon, dylem ddechreu gyda gwddi am gyfarwyddyd dwyfol. 2. Y mae yn arwydd mawr o gallineb ysbrydol fod i ni yn mhob peth ddylyn arweinuadau rhagluniaeth Duw. 3. Y merched a geir yn fwyaf diwyd a mwyn-aidd yn nhŷ eu tad, a brofiant yn fwyaf hygar a defnyddiol yn nhŷ eu gwŷr.

Adn. 15—18. *A hu cyn darfod iddo lefaru*] Cyn iddo orphen traethu y weddi hon yn ei fe-

a hi a frysiodd, ac a ddisgynodd ei hystên ar ei llaw, ac a'i diododd ef.

19 A phan ddarfu iddi ei ddiodi ef, hi a ddywedodd, Tynaf hefyd i'th gamelod, hyd oni ddarffo iddynt yfed.

20 A hi a frysiodd, ac a dywalltodd ei hystên i'r cafn, ac a redodd eilwaith i'r gamelod i dynu, ac a dynodd i'w holl gamelod ef.

21 A'r gŵr yn synu o'i phlegid hi, a dawodd, i wybod a lwyddasai yr Arglwydd ei daith ef, ai nad do.

22 A bu pan ddarfu i'r camelod yfed, gymeryd o'r gŵr glust-dlws aur, yn hanner siel ei bwys; a dwy freichled i'w dwylaw hi, yn ddeg siel o aur en pwys.

23 Ac efe a ddywedodd, Merch pwy ydychyt ti? mynega i mi, atolwg: a oes lle i ni i letya yn nhŷ dy dad?

24 A hi a ddywedodd wrtho, Myfi

ddwl, adn. 45; *welw Rebecca yn dyfod ullan*—yr hon yn mhob ystyr oedd yn ateb i'r gwedd-nodau ag yr ewyllysiaid ef eu bod yn yr ag oeddai i fod yn wraig i Isaac—yn landeg a heini, isel a diwyd, caruaidd a chymwynasgar i ddyethriaid; a threfnodd rhagluniaeth iddi wneyd pob peth ag ydoedd yn cyfateb yn gywir i'r arwydd a chwennychai efe.

Adn. 19, 20. *Tynaf hefyd i'th gamelod, &c.* Y fath rinweddau hygar a d dangosir gan Rebecca! y fath ymostyngiad, natur dda, a thiriondeb! Nid yw y gwas yn gofyn ond am gael yfed ychydig ddwfr ei hun o'i hystên; ac y mae lithau nid yn unig yn rhoddi hyn gyda'r hynawsedd mwyaf, ond yn prysuro i dynu dwfr i'w holl gamelod ef hefyd. Pe na wnaethai Rebecca *fwy* nag a ofynasai Eliezer am dano, gallasem feddwl nad oedd hi yn gweithredu yn rhyddfrydig; ond gan ei bod yn gwneuthur mwy nag a ofynwyd ganddi, ni a welwn ei fod yn deilliaw o'i haeliion naturiol, yr hyn sydd yn ei gosod allan yn y goleuni hawddgaraf.

Adn. 21. *A'r gŵr yn synu o'i phlegid hi*] Ac yr oedd ef wedi ymgolli gymaint mewn syndod a rhyfeddod wrth ei symledd, ei diniweidrwydd, a'i haeliion, fel ag y gadawodd efe i'r fenyw wanaidd hon dynu dwfr i ddeg o gamelod, heb erioed gynyg ei chynorthwyo! Nis gwn pa un i'w ryfeddu fwyaf, ebai Clarke, ai haeliion ac ymostyngiad Rebecca, ynte difaterwch oer a hurt gwas Abraham. Diau fod y ddan o wedd anghyffredin.

Adn. 22. *Gymeryd o'r gŵr glust-dlws aur*] Heb. *nezem zakah*. Na allai hwn fod yn *glust-dlws* sydd dra thebygol oddiwrth ei fod yn y rliif nnigol. Ar ymyl y ddalen *tal-dlws* yd-yw, sef tlws i'r talcen. Ond y mae yn debycach, fel y sylwa Clarke, ei fod yn meddwl *trwyn-dlws*, neu *ffroen-fodrwy*, pa un sydd mewn arferiad cyffredinol trwy holl Arabia a Phersia, yn enwedig yn mliithw merched ieuaine, ac yn cael ei gwisgo yn gyffredin yn y ffroen aswy. Dywed Syr John Chardin na welodd ef erioed eneth na merch ieuanc yn Arabia na Phersia oll, heb wisgo modrwy fel

ydwyff ferch i Bethuel fab Milca, yr hwn a ymddyg hi i Nacor.

25 A hi a ddywedodd wrtho ef, Y mae gwellt ae ebran ddigon genym ni, a lle i letya.

26 A'r gŵr a ymgyrmodd, ac a addolodd yr Arglwydd.

27 Ac a dywedodd, Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw fy meist'r Abraham, yr hwn ni adawodd fy meist'r heb ei drugaredd, a'i ffyddlondeb: yr *ydwyff* fi ar y ffordd; dyg yr Arglwydd fi i dŷ brodyr fy meist'r.

28 A'r llances a redodd, ac a fynegodd yn nhŷ ei mam y pethau hyn.

29 ¶ Ac i Rebecca yr *oedd* brawd, a'i enw Laban: a Laban a redodd at y gŵr allan i'r ffynnon.

30 A phan welodd efe y clust-dlws, a'r breichledau am ddwyllaw ei chwaer, a phau glywodd efe eiriau Rebecca

hyn yn ei ffroen. *Yn hanner siel ei bwys*—gwerth 18s. 3c., os oedd y siel aur, fel y dywedir, yn werth £1 16s. 6c. *A dwy freichled ŵw dwylaw hi*—y rhai oeddynt fodrwyau neu foglynuau addurniadol am yr arddyrnau, y rhai a wisgir oeto am y breichiau a'r coesau gan feynywod India a Phersia: gwel hanes y rhai hyn, Esay iii. 19, &c. *Yn ddeg siel o aur eu pwys*—gwerth £18 5s. o'n harian ni. Ond yn ol Prideaux, yr oedd y tlws a'r ddwy freichled yn werth oddeutu £25.

Adn. 23. *Merch pwy ydychyt ti?* Yr oedd ef yn casglu ei bod hi bob ffordd yn debyg o wneyd mab ei feistr yn ddedrwydd yn y sefyllfa briodasol; a'r unig heb a'i cadwai ef mewn ambeuaeth ydoedd, ei fod eto heb wybod a oedd hi o genedl Abraham.

Adn. 24. *Myfi ydwyff ferch i Bethuel fab Milca*] Felly yr oedd hi yn wŷres i Nacor brawd Abraham, ac yn ferch i Bethuel cefnder Isaac: gwel pen. xi. 26—29, a xxii. 23.

Adn. 25. *Y mae gwellt ae ebran ddigon genym ni*] Y gwellt ond odid oedd i'r camelod orwedd arno, a'r ebran oedd ymborth iddynt; *a lle i letya*—i tithau a'th wŷr hefyd.

Adn. 26. *A'r gŵr a ymgyrmodd*] Mewn ffordd o ddiolchgarwch i Rebecca am ei gwahoddiad tirion; *ac a addolodd yr Arglwydd*—yr hwn a'i llwyddasai ef ar ei daith hyd yma.

Adn. 27. *Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw fy meist'r Abraham*] Yr oedd Eleazer yn ystyried hyn oll yn drugaredd adnewyddol i'w feistr; a chan ei fod yn ystyried achos ei feistr fel ei achos ei hun, y mae yn bendithio Duw am dano. Y mae gweddi a mawl fel sain ac adsain; a'r rhai a weddiant yn gywir, a gânt folianu ar ol hyny. *Dyg yr Arglwydd fi i dŷ brodyr fy meist'r*—sef i dŷ ei berthynasan ef: gwel ar adn. 24. Ymddengys oddiwrth adn. 31, fod gwybodaeth o'r gwir Dduw yn aros fyth yn y teulu hwn.

Adn. 28—30. *A'r llances a redodd, ac a fynegodd yn nhŷ ei mam*] Dychymygodd rhai oddiwrth hyn fod Bethuel ei thad wedi marw, ac mai yr hwn a elwir *Bethuel*, adn. 50, yd-

ei chwaer yn dywedyd, Fel hyn y dywedodd y gŵr wrthyf fi; yna efe a aeth at y gŵr; ac wele efe yn sefyll gada'r camelod wrth y ffynnon.

31 Ac efe a ddywedodd, Tyred i mewn, ti fendigedig yr Arglwydd; paham y sefi di allan? canys mi a barotoais y tŷ, a lle i'r camelod.

32 ¶ A'r gŵr a aeth i'r tŷ: ac yntau a ryddhaodd y camelod, ac a roddodd wellt ac ebran i'r camelod; a dwfr i olchi ei draed ef, a thraed y dynion oedd gydag ef.

33 A gosodwyd bywyd o'i flaen ef i fwyta; ac efe a ddywedodd, Ni fwytaf hyd oni thraethwyf fy negesau. A dywedodd yntau, Traetha.

34 Ac efe a ddywedodd, Gwas Abraham ydwyf fi.

35 A'r Arglwydd a fendithiodd fy meistr yn ddirfawr, ac efe a gynyddodd: canys rhoddodd iddo ddefaid, a gwartheg, ac arian, ac aur, a gweision, a morwynion, a chamelod, ac asynod.

36 Sarah hefyd gwraig fy meistr a ymddyg fab i'm meistr, wedi ei hen-

eiddio hi; ac efe a roddodd i hwnw yr hyn oll oedd ganddo.

37 A'm meistr a'm tyngodd i, gan ddywedyd, Na chymer wraig i'm mab i o ferched y Canaanaid, y rhai yr ydwyf yn trigo yn eu tir.

38 Ond ti a âi i dŷ fy nhad, ac at fy nhylwyth, ac a gymeri wraig i'm mab.

39 A dywedais wrth fy meistr, Fe allai na ddaw y wraig ar fy ol i.

40 Ac efe a ddywedodd wrthyf, Yr Arglwydd yr hwn y rhodiais ger ei fron, a enfyn ei angel gyda thi, ac a lwydda dy daith di; a thi a gymeri wraig i'm mab i o'm tylwyth, ac o dŷ fy nhad.

41 Yna y byddi rydd oddiwrth fy llw, os ti a ddaw at fy nhylwyth; ac oni roddant i ti, yna y byddi rydd oddiwrth fy llw.

42 A heddyw y daethym at y ffynnon, ac a ddywedais, Arglwydd Dduw fy meistr Abraham, os ti sydd yr awr hon yn llwyddo fy nhraith, yr hon yr wyf fi yn myned arni:

43 Wele fi yn sefyll wrth y ffynnon ddwfr; a'r forwyn a ddelo allan i

oedd ei brawd. Y mae hyn yn bosibl; ond gallai tŷ y fam gael ei grybwyll er i'r tad fod yn fyf; canys yn ngwledydd Asia y mae gan y gwagedd ystafelloedd yn gwbl ar wahan oddiwrth eiddo y gwŷr, yn y rhai y mae eu plaut bychain a'u merched oedranus yn byw gyda hwy. Gall mai fel hyn yr ydoedd yma, er fod yn dra thebyg fod Bethuel wedi marw, gan yr ymddengys fod yr holl achos yn cael ei drin gan frodyr Rebecca.

Adn. 31. *Tyred i mewn, ti fendigedig yr Arglwydd*] Y gyfryw ydoedd iaith brydferth yr hen amseroedd llyny, trwy yr hon yr oedd y syniad o Dduw yn cael ei gadw yn barhaus yn eu meddyliau. Leied y mae yr iaith hon yn cael ei harfer yn ein dyddiau ni! Dichon mai am iddynt glywed gan Rebecca y geiriau grasol a ddeuent allan o'i enau ef, y casglasant ei fod yn ŵr da, ac am hyny yn fendigedig yr Arglwydd.

Adn. 32. *Ac a roddodd wellt ac ebran i'r camelod*] Y rhai hyn oeddnt wrthddrychau blaenaf ei ofal; canys y mae 'gŵr da yn drugarog wrth ei anifel.' *A dwfr i olchi ei draed ef, a thraed y dynion*—felly ymddengys fod ganddo weision gydag ef, y rhai oeddnt mewn cymaint angen am amgeledd ag yntau.

Adn. 33. *Ni fwytaf hyd oni thraethwyf fy negesau*] Y fath ddarlun dynunol o ddyfalwech a sel yn ngwasanaeth ei feistr a gawn yma! ac mor deilwng o efelychiad gan bob gwas! Er ei fod wedi gwneuthur taith hir a lluddedig, eto y fath yw ei awydd i gyflawni ewyllys ei feistr, fel na fydd iddo fwyta nes traethu ei neges. Tybia rhai fod ein Harglwydd bendigedig yn cyfeirio at ymddygiad gwas Abraham pan y dywedodd, Ioan iv.

34, 'Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith ef.'

Adn. 34, 35. *Gwas Abraham ydwyf fi*] Yr oedd enw Abraham yn ddiamau yn dra hysbys yn eu plith, ac yn barchus ganddynt; a gallwn feddwl naad oeddnt yn gwbl anwybodus o' sefyllfa ef, mwy nag yr oedd yntau o'r eiddynt hwythau, pen. xxii. 20.

Adn. 36—41. *Efe a roddodd i hwnw yr hyn oll oedd ganddo, &c.*] Efe a wnaeth Isaac yn etifedd o'r cwbl. Ymddengys ei fod yn dywedyd hyn i ddangos i berthynasau Rebecca fod mab ei feistr yn gymhar addas iddi hi; canys hyd yn nod yn yr amser bore hwnw yr oedd ganddynt olwg ar gyfaddasrwydd sefyllfa a gradd mewn bywyd, yn gystal ag ar ddygiad i fyfny, mewn trefn i wneuthur priodas yn gysurus. Nid yw personau o arferion anngyffelyb, mwy nag o egwyddorion crefyddol anngyffelyb, byth yn debyg o fod yn dra deddydd mewn bywyd priodasol. Gall hyd yn nod y tylawd a'r cyfoethog gydgyfarfod mewn cyfathrachau priodasol yn well na'r crefyddol a'r halogedig, y moesol a'r difoes. Gall un ieuo yn anngymharus mewn amrai fyrrd. *Dygwch feichiau eich gilydd* yw gorchymyn Duw: ond pan y mae anngyfadarsrwydd yn nhueddfryd, dygiad i fyfny, galluoedd meddyliol, &c., y personau, yna y mae un ochr yn gorfod dwyn yr holl faich, ac anfoddlonrwydd diddiwedd yw y canlyniad.

Adn. 42. *Arglwydd Dduw fy meistr Abraham*] Gan fod Abraham yn gyfaill i Ddaw, y mae Eleazer yn gwneyd defnydd o hyny i roddi pwys a dylanwad yn ei erfynion: gwel ar adn. 11.

Adn. 43. *A'r forwyn*] Nid yn unig ddiwair

dynn, ac y dywedwyf wrthi, Dod i mi, atolwg, ychydig ddwfr i'w yfed o'th ystên;

44 Ac a ddywedo wrthyf finau, Yf di, a thynaf hefyd i'th gamelod: bydded hono y wraig a ddarparodd yr Arglwydd i fab fy meistr.

45 A chyn darïod i mi ddywedyd yn fy nghalon, wele Rebecca yn dyfod allan, a'i hystên ar ei hysgwydd; a hi a aeth i waered i'r ffynnon, ac a dynodd: yna y dywedais wrthi, Dioda fi, atolwg.

46 Hithau a frysiodd, ac a ddisgynodd ei hystên oddiarni, ac a ddywedodd, Yf; a mi a ddyfrhaf dy gamelod hefyd. Felly yr yfais; a hi a ddyfrhaodd y camelod hefyd.

47 A mi a ofynais iddi, ac a ddywedais, Merch pwy ydwyf ti? Hithau a ddywedodd, Merch Bethuel mab Nacor, yr hwn a ymddyg Milea iddo ef. Yna y gosodais y clust-dlws wrth ei lwyneb, a'r breichledau am ei dwylaw hi:

48 Ac a ymgrymais, ac a addolais

mewn corff, ond bur mewn meddwl. Yr oedd y drychfeddyliau hyn o forwyn gan y paganïad; a hwy a droisant wryf allan o'u tenl am iddi adrodd y llinell hon: *Faelis nuptae! moriar, nisi nubere dulce est.*

Adn. 44. *Ac a ddywedo wrthyf finau, Yf di, &c.*] Gwel ar adn. 12—14.

Adn. 45. *A chyn darïod i mi ddywedyd yn fy nghalon*] Efe a grybwyllia hyn, rhag iddynt dybied i Rebecca glywed ei weddi, ac yn fwrïadol gydysno â hi. Na, meddai ef, dywedais hi yn fy nghalon, fel na chlybu neb hi ond Duw, i'r hwn y mae meddyliau yn eiriau, ac oddiwth yr hwn y daeth yr atebiad.

Adn. 46. *A mi a ddyfrhaf dy gamelod hefyd*] Ni ofynodd efe iddi hi wneuthur hyn; ond yr oedd wedi gofyn gan Dduw am i hyn gael ei wneuthur fel rhan o'r arwydd, adn. 14.

Adn. 47. *Yna y gosodais y clust-dlws*] Gwel ar adn. 22.

Adn. 48. *Merch brawd fy meistr*] Yr hyn sydd yn meddwl *wyres* Nacor brawd Abraham; canys Rebecca yn ddiau oedd ferch i Bethuel fab Nacor, pen. xxii. 23. Gwel ar adn. 24.

Adn. 49. *Od ydych chiwi yn gwneyd trugaredd a fyddlondeb â'm meistr*] Trwy roddi Rebecca yn ewyllisgar yn wraig i Isaac ei fab. *Fel y trôwyf ar y llaw ddeau neu ar y llaw aswy*—fel y gallwyf fyned i le arall i geisio cynhlares addas iddo. Y mae yn debyg fod Eleazer yn arwyddo yma, os na lwyddai ef i gael Rebecca, yr âi efe i geisio gwraig i Isaac yn mhllith liliogaeth Lot neu Ismael.

Adn. 50. *Yna yr atebodd Laban a Bethuel*] Ymddengys fod y rhai hyn yn frodyr i Rebecca, o ba rai Laban oedd yr hynaf a'r penaf; canys y mae yn debyg fod tyb Josephus yn gywir, fod Bethuel y tad wedi marw er's cryn amser: gwel ar adn. 28. *Oddiwth yr Ar-*

yr Arglwydd, ac a fendithiais Arglwydd Dduw fy meistr Abraham, yr hwn a'm harweiniodd ar hyd yr iawn ffordd, i gymeryd merch brawd fy meistr i'w fab ef.

49 Ac yn awr od ydych chiwi yn gwneuthur trugaredd a fyddlondeb â'm meistr, mynegwch i mi: ac onidê, mynegwch i mi; fel y trôwyf ar y llaw ddeau, neu ar y llaw aswy.

50 Yna yr atebodd Laban a Bethuel, ac a ddywedasant, Oddiwth yr Arglwydd y daeth y peth hyn: ni allwn ddywedyd wrthyt ddrwg na da.

51 Wele Rebecca o'th flaen: cymer hi, a dos, a bydded wraig i fab dy feistr, fel y llesarodd yr Arglwydd.

52 A phan glybu gwas Abraham eu geiriau hwynt, yna efe a ymgrymodd hyd lawr i'r Arglwydd.

53 A thynodd y gwas allan dlysau arian, a thlysau aur, a gwisgoedd, ac a'u rhoddodd i Rebecca: rhoddodd hefyd bethau gwerthfawr i'w brawd hi, ac i'w mam.

54 A hwy a fwyasant ac a yasant,

glwydd y daeth y peth hyn—yr oeddynt yn gweled yn eglur fod Duw yn ei raglunïaeth yn ei bleidïo, ac am hynny casglent yn briodol mai ei ewyllys ef ydoedd; yr hwn yw yr unig real ddiogel o ymddygiad yn mhob achos. *Ni allwn ddywedyd wrthyt ddrwg na da*—ni allwn ni ddywedyd dros nac yn *erbyn* y peth; hynny yw, nid oes genym ni lais yn y mater, am yr ymddengys fod Duw wedi ei benderfynn.

Adn. 51. *Wele Rebecca o'th flaen*] Ymgynghora â hi; ac os yw hi yn foddol, cymer hi gyda thi, a dos: gwel ar adn. 53.

Adn. 52. *Efe a ymgrymodd hyd lawr i'r Arglwydd*] Fel yr oedd yn parhau i lwyddo, efe a barhâai i fendithio Duw. Y rhai sydd yn 'gweddio yn ddbaid,' a gânt achos 'yn mhob dim i ddiolch.'

Adn. 53. *A thynodd y gwas allan*] Ar ol cael cydsyniad Rebecca ei hun yn ddianau; *dlysau arian a thlysau aur*—y mae y gair *keley*, yr hwn a gyfieithir yma yn *dlysau*, yn arwyddo yn briodol *lestri* neu *offer*; a gallai y rhai a gyflwynid gan Eleazer fod o wahanol fathau. Yr hyn a roddasai efe o'r blaen ydoedd arwydd o BARCH, adn. 22; yr hyn a roddodd yn awr ydoedd mewn ffordd o waddol. *A gwisgoedd*—felly rhaid i'r 'briodasferch, gwraig yr Oen,' gael ei dwyn ato yntau, nid yn yr adduniadau â pha rai y cynysgaethodd natur hi, ond yn y gwisgoedd a'r tlysau â pha rai y darfu iddo ef ei hun ei haddurno. *Rhoddodd hefyd bethau gwerthfawr i'w brawd hi ac i'w mam*—arferir y gair *migdanoth*, 'pethau gwerthfawr,' am ffirwyth ydd neu ddanteithion odiaeth, Deut. xxxiii. 13—16, a phlanhigion neu fiodau gwerthfawr, Can. iv. 16, a vii. 13. Ond dicheon ei fod yma yn meddwl *rhoddion* yn gyffredinol, er o fath waelach na'r rhai a grybwyllwyd uchod.

Adn. 54. *A hwy a fwyasant ac a yasant*]

efe a'r dynion oedd gydag ef, ac a leytasant dros nos: a chodasant yn fore; ac efe a ddywedodd, Gollyngwch fi at fy meist'r.

55 Yna y dywedodd ei brawd a'i mam, triged y llances gyda ni ddeg niwrnod o'r lleiaf; wedi hyny hi a gaiff fyned.

56 Yntau a ddywedodd wrthynt, Na rwystrwch fi, gan i'r Arglwydd lwyddo fy nhaith; gollyngwch fi, fel yr elwyf at fy meist'r.

57 Yna y dywedasant, Galwn ar y llances, a gofynwn iddi hi.

58 A hwy a alwasant ar Rebecca, a dywedasant wrthi, A ai di gyda'r gwŵr hwn? A hi a ddywedodd, Af.

59 A hwy a ollyngasant Rebecca

eu chwaer, a'i mammaeth; a gwas Abraham, a'i ddynion;

60 Ac a fendithiasant Rebecca, ac a ddywedasant wrthi, Ein chwaer wyt, bydd di fil myrddiwn; ac etiffedd dy had borth ei gaseion.

61 ¶ Yna y cododd Rebecca, a'i llancesau, ac a farchogasant ar y camelod, ac a aethant ar ol y gwŵr; a'r gwas a gymerodd Rebecca, ac a aeth ymaith.

62 Ac Isaac oedd yn dyfod o ffordd pydew Lahai-roi; ac efe oedd yn trigo yn nhir y deau.

63 Ac Isaac a aeth allan i fyfyrion yn y maes, yn min yr hwŵr; ac a ddyrchafodd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele y camelod yn dyfod.

Ar ol i Eleazer gael atebiad boddhaol, yna efe a'i weision a cisteddasant i lawr i fwyta, yr hyn y gommeddasai efe ei wneuthur nes traethu o hono ei negesau, adn. 33.

Adn. 55. *Triged y llances gyda ni ddeg niwrnod o'r lleiaf*] Y mae y wreiddiol yn dra byr a thywyll, *yanim o asor*, 'DYDDIAU neu DDEG;' a'r cyfieithiad ar ymyl y ddalen yw, 'flwyddyn gyfan neu ddeg o fisodd.' Ond nid yw yn debyg, ar ol iddynt gydsuio i'w gollwng hi ymaith, y byddai iddynt chwenych ei hattal hi cyhyd a hyny. Y LXX a'r Vulgate a'i cyfieithiant, 'yn nghylch deng niwrnod;' a'r Syriaeg, 'fis o ddyddiau;' a'r Samaritanaeg, 'yehydid ddyddiau neu fis.' Ond y mae y rhai fwyaf o'r esbonwyr diweddar, yn gystal a'r cyfieithiadau Cymreig a Saesonig, yn cyduno â'r LXX a'r Vulgate. Felly hefyd Rosenmuller, Tiele, Baumgarten, Gesenius, Tuch, a Knobel.

Adn. 56. *Gollyngwch fi, fel yr elwyf at fy meist'r*] Felly ymddengys eu bod am gadw Eleazer ynohyd nes y denai yr amser penodol i fyny.

Adn. 57. *Galen ar y llances, a gofynwn iddi hi*] A ydyw hi yn foddion i fyned yn ebrwydd, yn ol dymuniad Eleazer, ynte i aros yr amser a nodwyd gan ei brawd a'i mam.

Adn. 58. *A ai di gyda'r gwŵr hwn?*] Hyny yw, a ai di yn awr? ynte a fydd iddo ef ddychwelyd ei hunan, a dyfod yma eilwaith i'w gaeisio? Y mae yn fwy na thebyg ei bod hi o'r blaen wedi rhoddi pob boddlonrwydd iddynt yr ai hi gydag Eleazer ar yr amser penodol, cyn iddi dderbyn y tlysau a'r gwisgoedd, adn. 53, a chyn i Eleazer ymgyrnu hyd lawr i'r Arglwydd am ei lwyddiant, adn. 52, ac yn enwedig cyn iddo ef adrodd y geiriau hyn yn adn. 56, 'Na rwystrwch fi, gan i'r Arglwydd lwyddo fy nhaith;' ac am hyny ni all yr holiad yn y testyn fod yn cyfeirio at ei hewyllysgarwch i fod yn *wraig* i Isaac, ond at *amser* ei hymadawiad:—*A ai di yn ebrwydd?* A hithau a ddywedodd, *Af*: ac felly yr aeth.

Adn. 59. *A hwy a ollyngasant Rebecca ei chwaer, a'i mammaeth*] Enw yr hon oedd *Debora*, pen. xxxv. 8; a'r hon, fel ail fam, a farnwyd yn addas i ddylyn Rebecca. Yr oedd gan-

ddi hi lawforwynion ereill yn ei dilyn, adn. 61.

Adn. 60. *Ac a fendithiasant Rebecca*] Yr ystyr yw, ddarfod iddynt weddio ar i Dduw ei ffrwythloni yn ddirfawr, a gwuedy ei hiliogaeth yn fuddugoliaethus ar eu gelynyon. *Ein chwaer wyt*—ac am hyny ni fydd i bellder lle ddyethrio ein serchidan oddiwrthyt, ond bydd i ni dy arddel di yn barhaus fel ein chwaer, a bod yn barod i gyflawni holl ddyledswyddau brodyr i ti. *Borth ei gaseion*—gwel ar pen. xxii. 17. Yr oedd Eleazer ond odid wedi crybwyll yr addewid hon o eiddo Duw wrthynt.

Adn. 61. *Yna y cododd Rebecca a'i llancesau*] Y rhai a aethant gyda hi i'w chartref newydd. Ymddengys oddiyma, pan yr aeth Rebecca i'r ffynnon i dynu dwfr, nad oedd hyny am na feddai hi weinidogion wrth ei gorchymyn, ond am ei bod yn ymhyrfydu mewn llafar a diwydrwydd.

Adn. 62. *Ac Isaac oedd yn dyfod o ffordd pydew Lahai-roi*] Am y pydew hwn gwel ar pen. xvi. 14. Gan yr ymddengys oddiwrth pen. xxv. 11, fod Isaac yn trigo wrth ffynnon Lahai-roi, dychymygydd ei fod ef wedi dyfod yn awr ar ymweliad at ei dad oedranus i Beerseba, lle yr arhosai mewn dysgwyliad am ei briodferch. *Ac efe oedd yn trigo yn nhir y deau*—yn niharthr deheuol gwlad Canaan.

Adn. 63. *Ac Isaac a aeth allan i fyfyrion yn y maes, yn min yr hwŵr*] Y mae rhai yn meddwl ei fod ef yn dysgwyl ei weision o gylch y pryd hyn, ac iddo fyned allan i'w cyfarfod hwy; ond ymddengys mai i gymeryd wntais o'r hwyr dystaw a'r maes eang, er myfyrdod a gweddi, yr aethaf ef allan. Y mae ein rhodfeydd yn y maes yn wir hffryd, pan y byddwn yn ymroddi i fyfyrdod a gweddi. Cawn yno drem rydd ac agored ar y nefoedd uwchben a'r ddaear o'n hamgylch, a lluoedd a chyfoeth y ddwy, yn yr olwg ar bari ar arweinir ni i fyfyrion ar Wneuthurwr a Pherchenog yr oll. Y mae yn debyg fod Isaac yn awr yn gweddio am lwyddiant yn yr achos hwn, ac yn myfyrio ar yr hyn oedd briodol i gefnogi ei obaith yn Nuw mewn perthynas iddo; ac yn awr, pan y mae efe yn sefyll ar ei ddysgwylfa, i edrych beth a ddywedai Duw wrtho, wele y camelod yn dyfod.

64 Rebecca hefyd a ddyrchafodd ei llygaid; a phan welodd hi Isaac, hi a ddisgynodd oddiar y camel.

65 Canys hi a ddywedasai wrth y gwas, Pwy yw y gŵr hwn sydd yn rhodio yn y maes i'n cyfarfod ni? A'r gwas a ddywedasai, Fy meistr yw efe: a hi a gymerth orchudd, ac a ymwisgodd.

66 A'r gwas a fynesodd i Isaac yr hyn oll a wnaethai efe.

67 Ac Isaac a'i dyg hi i mewn i bawbell Sarah ei fam; ac efe a gymerth

Rebecca, a hi aeth yn wraig iddo, ac efe a'i hoffodd hi: ac Isaac a ymgysurodd ar ol ei fam.

PENNOD XXV.

AC Abraham a gymerodd cilwaith wraig, a'i henw Cetura

2 A hi a esgorodd iddo ef Zimran, a Jocsan, a Medan, a Midian, ac Isbac, a Suah.

3 A Jocsan a genhedlodd Seba, a Dedan: a meibion Dedan oedd Assurim, a Letusim, a Leummim.

Adn. 64. *A phan welodd hi Isaac, hi a ddisgynodd oddiar y camel*] Y mae y werched yn barhaus yn dangos y parch hwn i ddyinion yn ngwledydd y dwyrain.

Adn. 65. *A hi a gymerth orchudd*] Heb. *hatstsaaif*. Dyma y tro cyntaf i'r gair hwn ddygwedd, ac y mae o arwyddocad ambeus; ond y mae y rhan fwyaf yn cyduno i'w gyfieithu yn *orchudd* neu *gochl*. Y cyntaf yw y mwyaf tebygol, am y gwisgid ef yn gyffredin gan ferched yn y dwyrain, yn enwedig pan yn cael eu harwain i wyddfod en gwŷr, fel arwydd o ddiweirdeb, gŵylder, ac ymostyngiad.

Adn. 66. *A'r gwas a fynegodd i Isaac yr hyn oll a wnaethai efe*] Y modd y cyfarfyddodd â Rebecca, a'r holl amgylchiadau rhaglun-iaethol neillduol a ynodasant ei dait.

Adn. 67. *Ac Isaac a'i dyg hi i mewn i bawbell Sarah ei fam*] Gan fod Sarah yn awr wedi marw, cyfaddaswyd ei phabell hi at wasanaeth Rebecca. *Ac efe a gymerth Rebecca*—yn ol pa flurf y gwnaed hyn ni ddywedir i ni; na pha un a oedd unrhyw flurf yn cael ei harfer ar yr achlysur, amgen na'i derbyn hi yn edmygol fel yr un a ddewisasai Duw i fod yn wraig iddo. *Ac efe a'i hoffodd hi*—fel ei wrraig, wedi ei threfnu iddo yn neillduol gan ragluniau Duw; ac yr oedd ei theilyngod a'i harddwch personol yn hawlio llawn ddychweiliad serch. Megys Abraham, gadawsai hithau ei gwlad, ei rhieni, a'i theulu, i fod yn wraig iddo dros ei bywyd: hi a anturiodd ei chwbl yn ngobaith Isaac, ac a'i cymerodd ef 'er gwel ac er gwaeth.'

PEN. XXV. Adn. 1. *Ac Abraham a gymerodd cilwaith wraig, a'i henw Cetura*] 'Pa bryd y darfu i Abraham gymeryd Cetura ni ddywedir i ni; gall mai pan yr oedd Sarah yn fyw; ac ymddengys fod y wreiddiol, *wa-yoseph*, 'ac efe a *chwaneodd*,' &c., yn rhoddi peth cofnogiad i'r dyb hon. Yn wir nid yw yn dra thebyg ddarford iddo gael y plant a grybwyllir yma ar ol marwolaeth Sarah; ac oddiwrth yr amgylchiadau o'i oedran, ei wendid, &c., pan aned Isaac, y mae hyn yn anndebychach fyth. Ilyd yn nod yn yr oedran hwnw, ddeugain mlynedd cyn priodas Isaac, nid yw genedigaeth ei fab yn cael ei hystyried fel yn llai gwyrtiol ar ei ran ef nag ar ran Sarah; canys dywed yr apostol yn bendant, Rhuf. iv. 19, 'nad ystyriodd Abraham ei gorff ei hun, yr hwn oedd yr awrion wedi *marweiddio*, ac efe yn nghylch can mlwydd oed, na

marweiddio—dra bru Sarah.' Oddiyma dysgwne eu bod ill dau dros amser planta, gan fod genedigaeth Isaac yn cael ei darlunio bob amser fel, yn oruwchnaturiol. Gan hyn y mae yn dra annhebyg ddarford iddo ef gael un plentyn ar ol geni Isaac; ac am hynny da y gallwn dybio i Moses adrodd yr orchwyliaeth hon allan o'i threfn *amseryddol*, yr hyn nid yw yn beth ansfynych yn yr ysgrhythrau santaidd, pryd y bernir yn angenrheidiol i amrywiaeth o ffeithiau pwysig perthynol i gyflawniad rhyw fwriad mawr gael eu crybwyll mewn cyfres gysylltedig. Ar y cyflif hwn cyfeirir at faterion *cyfryngol* o fath wahanol mewn amser dyfodol. Fe allai y cyflawnheir ni wrth ddarllen yr adnod, 'Ac Abraham a *chwaneasai*, ac a *gymerasai* wraig (heblaw Agar) a'i henw Cetura.' Y mae yr amseryddiaeth ar ymyl y ddalen yn dyddio y briodas hon â Chetura o. b. 2154, naw mlynedd ar ol marwolaeth Sarah, o. b. 2145. Y mae *Jonathan ben Uzziel* a *Deonliad Jerusalem* yn haeru mai yr un oedd Cetura ag Agar; ac y mae rhai rabiniaid, a chyda hwy Dr. Hammond, o'r un farn; ond y mae Agar a Chetura mor wahaniaethedig yn yr ysgrhythrau, fel yr ymddengys y dyb yn amddifad o debygolrwydd.'

—CLARKE. Eithr rhaid addef fod llawer o eshonwyr cyfrifol yn gwahaniaethu oddiwrth y dyb uchod, gan farnu mai ar ol marwolaeth Sarah y priododd efe Cetura; ond os felly y bu, pahan y gelwir hi, I Crou. i. 32, yn *ordderch-wraig* Abraham? oni fuaasai hi felly yn wraig mor briodol iddo a Sarah? Ac os tybir mai yr un oedd Cetura ac Agar, pahan y sonir, adn. 6, am *ordderch-wragedd* Abraham?

Adn. 2. *A hi a esgorodd iddo ef Zimran*] Yn debygol tad y Zamareniaid. *Jocsan*—bu amrai wŷr dysgedig o'r farn mai yr un oedd hwn a Kachtan, tad yr Arabiaiaid: barna Calmet mai oddiwrth ef y deilliodd y Catanaid. *Medan a Midian*—tybir mai y rhai hyn a boblogasant y parth hwnw o Arabia Petraea ag sydd yn nglŷn â thir Moab yn ddwyreiniol i'r Môr Marw. *Isbac*—tybia Calmet mai oddiwrth hwn y cafodd yr afon Jabboc ei henw, yr hon sydd yn codi yn mynyddoedd Gilead, ac yn ymarllwys i fôr Tiberias. *Suah*—oddiwrth yr hwn, tybir, y disgynodd Bildad y Suhiad, un o gyfeillion Job.

Adn. 3. *A Jocsan a genhedlodd Seba*] Oddiwrth yr hwn y deilliodd y Sabeaid, y rhai a yspeiliasant Job o'i anifeiliaid. *Assurim, a*

4 A meibion Midian *oedd* Ephah, ac Epher, a Hanoeh, ac Abida, ac Eldaah: yr holl rai hyn *oedd* feibion Cetura.

5 ¶ Ac Abraham a roddodd yr hyn oll *oedd* ganddo i Isaac.

6 Ac i feibion gordderch-wragedd Abraham y rhoddodd Abraham roddion; ac efe a'u hanfonodd hwynt oddiwrth Isaac ei fab, tua'r dwyrain, i dir y dwyrain, ac efe eto yn fyw.

Letusim, a Leummim—y rhai hyn ydynt enwau lluosog, ac yn arwyddo tri llwyth grymys o hiliogaeth *Dedan*, y rhai y mae eu trigfanau yn cael eu dangos yn narluneni Kiepert, 1852.

Adn. 4. *A meibion Midian oedd Ephah*] Gwel ar Esay lx. 6. *Epher*—yn debygol y bann-Ghiphar. *Hanoeh*—neu Chanaka, y rhai sydd o du y gogledd i Medina. *Abida ac Eldaah*—yn debygol y ddau lwyth a elwir Abida a Wadaa yn nghymydogoethi Asyr. *Yr holl rai hyn oedd feibion Cetura*—neu bobl-*oedd* a ddisgynasant oddiwrth ei chwe mab hi o Abraham.

Adn. 5. *Ac Abraham a roddodd yr hyn oll oedd ganddo i Isaac*] Ei brif ddeadelau a'i olud, ac yn enwedig ei hawl i wlad Canaan, yn cynwys cadarnhad iddo e'i hiliogaeth o ba beth bynag a gynwysid yn addewidion Duw. Yr *oedd* ef yn rhwym o wneyd hyn, nid yn unig mewn cyfiawnder i Sarah, eithr hefyd i Rebecca, yr hon a briododd Isaac yn yr hyder yma, pen. xxiv. 36.

Adn. 6. *Ac i feibion gordderch-wragedd Abraham*] Sef Agar a Chetura, y rhoddodd Abraham roddion—megys anifeiliaid i fagu, had i'w roddi yn y ddaear, ac offer arddwr-iaeth. *Ac efe a'u hanfonodd hwynt oddiwrth Isaac ei fab*—trwy yr hyn y ddiamau y rhagflaenodd efe lawer o ddygasedd a chynhenaau rhwng brodyr. *I dir y dwyrain*—i ddiffaethwch Arabia, yr hwn *oedd* yn ddwy-*rein*ol i Beer-Seba lle yr *oedd* Abraham yn cartrefu.

Adn. 7. *Dyma ddyddiau blynyddoedd einioes Abraham*] Y mae prydferthwch yn yr ymadrodd hwn, fel y sylwa Clarke, nad yw yn cael ei ystyried yn ddiagonol. Nid yw dynion da yn fyw wrth y *canrifau*, er i lawer o honynt fyw amrai ganooedd o flynyddau; ac nid ydynt yn cyfrif eu heinioes hyd yn nod wrth *flynyddau*, ond wrth *ddyddiau*, gan fyw fel pe byddent greadoriaid diwksod, heb ganddynt ddim mwy o amser ag y gallant gydag unrhyw briodoldeb ei alw yn eiddynt eu hma-ain; ac y maent yn byw y diwrnod hww mewn cyfeiriad at dragwyddoldeb. *Can mlynedd a phymtheg mlynedd a thriugain*—felly efe a fu byw gan mlynedd cynhwys ar ol dyfod i Ganaan, pen. xii. 4: cyhyd a hyny y bu efe byw yn bererin mewn gwlad estronol!

Adn. 8. *Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw mewn oed tég*] Megys yr addawsai Duw iddo, pen. xv. 15; ac yr *oedd* yn *dég*, trwy ei fod yn rhydd oddiwrth lawer o wendidau a

7 A dyma ddyddiau blynyddoedd einioes Abraham, y rhai y bu efe fyw; can mlynedd a phymtheg mlynedd a thriugain.

8 Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw mewn oed tég, yn hen, ac yn gyflawn o *ddyddiau*; ac efe a gasglwyd at ei bobl.

9 Ac Isaac ac Ismael ei feibion a'i claddasant ef yn ogof Machpela, yn maes Ephron fab Soar yr Hethiad, yr hwn *sydd* o flaen Mamre;

thralodion henaint. *Yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau*—nid yw y gair *ddyddiau* yn y testyn gwreiddiol; ac y mae ei fod yn *hen*, fel y dywedir yma, yn cynwys hyny o angenrheidrwydd: ond gan fod ein cyfieithwyr yn meddwl fod rhyw air yn angenrheidiol i gyflenwi y testyn, chwanaganast hwn mewn llythyrenau *It-alaidd*. Yr Hebraeg yw, 'yn *hen* ac yn *llawn*,' neu wedi ei *ddigoni*. Efe a gyflawn-asai ewyllys Duw, ac a wasanathasai ei genhedlaeth, ac yr *oedd* wedi ei lawnd digoni ag einioes. Ymddengys fod yr ymadrodd wedi ei gymeryd oddiwrth wledd, lle y mae y gwesteion, ar ol ymboithi yn helaeth, yn codi oddiwrth y bwrdd wedi ei llawn digoni, ac yn ddiolcgar am y wledd. Arferwyd ef fel hyn gan y beird Groggaidd a Rhufeinaidd. Y mae gwr da, er nad yw yn marw yn hen, yn marw yn *gyflawn o ddyddiau*—wedi cael digon ar fyw yma, ac yn hiraethu am fyw mewn byd gwel. Er marw yn ieuanc, '*digonir* ef â hir ddyddiau,' Salm xci. 16. *Ac efe a gasgwyd at ei bobl*—nid at cyrff ei bobl, y rhai *oedd*nt wedi eu claddu yn Nghaldea, nid yn Nghanaan; ond i'r nef, at 's-bryddoedd y cyfiawnon y rhai a berfeithiwyd,' Heb. xii. 23. Y mae angau yn ein casglu ni at ein *pobl*, i'r un wlad a'r rhai *oedd*nt bobl i ni yn ein bywyd, pa un bynag ai pobl Dduw ynte plant diafol. Ddarllyddyd, at bwy yn angau y cesglir di! Ddwy sŵll, fod marwolaeth Abraham yn cael ei chrybwyll yma ychydig allan o amser, i'r dyben i'orphen ei hanes ef yn ddirwystr eyn dyfod at hanes ei hiliogaeth; canys ganed Esau a Jacob bymtheg mlynedd eyn ei farwolaeth ef. Ganed Isaac pan *oedd* Abraham ei dad yn gant oed, pen. xxi. 5; ac efe a briododd pan *oedd* ei dad yn gant a deugain, pen. xxv. 20; a bu ngain mlynedd eyn i'w wraig ddwyn plant iddo, adn. 26. Yr *oedd* Abraham felly yn 160 mlwydd *oed* pan aned hwynt; a thwy iddo farw yn 175 oed, adn. 7, bu fyw bymtheg mlynedd wedi geni Esau a Jacob.

Adn. 9. *Ac Isaac ac Ismael ei feibion a'i claddasant ef*] Er i Ismael a'i fam gael eu bwrw allan o deulu Abraham o achos Isaac, eto, gan ei fod ef dan yr un rhwymau a'i frawd Isaac i dad tra charaidd a serchus, os *oedd* unrhyw ddygasedd personol yn aros, hwy a gytunasant i'w gladdu ef, fel y gallai y ddau ddyledus nno yn nghyflawniad y wasaneth olaf i dad ag ydoedd yn anrhydedd iddynt hwy ac i'r natur ddyfol. A phan yr ystyriom i Ismael gael ei fwrw allan o'r eifedd-iaeth, y mae y weithred hon yn dangos ei

10 Y maes a brynasai Abraham gan feibion Heth: yno y claddwyd Abraham, a Sarah ei wraig.

11 ¶ Ac wedi marw Abraham, bu hefyd i Dduw fendithio Isaac ei fab ef: ac Isaac a drigodd wrth ffynnon Lahai-roi.

12 ¶ A dyma genhedlaethau Ismael, fab Abraham, yr hwn a ymddyg Agar yr Aiffes, morwyn Sarah, i Abraham.

13 A dyma enwau meibion Ismael, erbyn eu henwau, trwy eu cenhedlaethau: Nebaioth cyntafanedig Ismael, a Chedar, ac Adbeel, a Mibsam,

14 Misma hefyd, a Duma, a Massa,

15 Hadar, a Thema, Jetur, Naphis, a Chedema.

weddnod ef mewn goleuni hawddgar; canys er ei fod yn *ddyn gweyllt*, pen. xvi. 12, eto ymddengys fod yr enwad hwn yn nodi allan ei *ddull o fyw* yn fwy na'i *dymher*.

Adn. 10. *Yno y claddwyd Abraham a Sarah*] Sef yn ogof Machpela: gwel ar pen. xxiii. Yma y dybena hanes gysegredig Abraham. Y fath oedd parch rhan fawr o'r byd i goffadwriaeth y patriarch rhybarch hwn, fel ag y darfu i Iuddeuon, Arabiaid, ac Indiaid, ymuno yn ol eu dull hwy i addurno ei hanesiaeth ag aneirif flugchwedlau. Y mae gan y Mahometaniaid barch mor fawr i feddrod Abraham, fel ag y gwnant ymweliad â'r lle yn un o bedair taith eu pererindod: y tri lle arall yw Mecca, Medina, a Jerusalem. Darfu i'r Cristionogion adeiladu eglwys dros yr ogof, yr hon a drowyd wedi hyny gan y Tyrciaid yn denil Fahometanaidd.

Adn. 11. *Bu hefyd i Dduw fendithio Isaac ei fab ef*] Y bendithion a'r dylanwadau neillduol a hynodent Abraham, a orphwysasant yn awr ar Isaac; ond leied a glywn ynddo ef am waith ffydd, amynedd, gobaiath, a llafur cariad! Nid ymddanghosodd ond un Abraham ac un Crist erioed yn mhlith dynion: bu rhai *efelychuwyr* llwyddiannus, dylasai fod llawer.

Adn. 12. *Dyma genhedlaethau Ismael*] Ymddengys mai dyben yr ysgrifenydd ysprydol-edig yw dangos y modd y cyflawnwyd addewidion Duw i ddwy gangen teulu Abraham. Cyfeiriwyd eisoes at ISAAC; a bendithiodd Duw ef yn ol yr addewid. Efe a addawsai hefyd fendithio ISMAEL; ac y mae hanes ei genhedlaethau ef yn cael ei dwyn i mewn, i ddangos mor gywir y cyflawnesid yr addewid iddo yntau hefyd.

Adn. 13—15. *A dyma enwau meibion Ismael, &c.*] Efe a gafodd ddenddeg o feibion, enwau y rhai a goffeir yma; ac am ddan o honynt, *Nebaioth a Chedar*, nynia a ddarllenwn yn fnych yn yr ysgrhythyr. Gelwir hwynt yn *ddeuddeg o dypwysogion*, adn. 16, neu benau teuluoedd, y rhai, yn mhen amser, a ddaethant yn genhedloedd llnosog a thra phwysig. Ac yr oedd gan ei hiliogaeth ef nid yn unig bebyll mewn maesydd, yn y rhai yr ymglyf-othogent mewn amser o heddwch; ond yr oedd ganddynt drefydd a chestyll, yn y rhai

16 Dyma hwy meibion Ismael, a dyma eu henwau hwynt wrth eu trefydd, ac wrth eu cestyll; yn ddeuddeg o dywysogion yn ol eu cenhedloedd.

17 A dyma flynyddoedd einioes Ismael; can mlynedd a dwy ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd: yna y trengodd, ac y bu farw, ac y casglwyd ef at ei bobl.

18 Preswylasant hefyd o Hafila hyd Sur, yr hon *sydd* o flaen yr Aiff, ffordd yr ai di i Assyria: ac yn ngwydd ei holl frodyr y bu efe farw.

19 ¶ A dyma genhedlaethau Isaac fab Abraham: Abraham a genhedloedd Isaac.

20 Ac Isaac oedd fab dengain mlwydd pan gymerodd efe Rebecca

yr ymgaerent mewn amseroedd o ryfel. Eu rhif a'u cryfder oedd ffirwyt yr addewid a wnaed i Agar yn nghylch Ismael, pen. xvi. 10, ac i Abraham, pen. xvii. 20, a xxi. 13.

Adn. 16. *Wrth eu trefydd*] Maesdrefi neu wersylfeydd yn yr anialwch, y fath ag a rferir gan yr Arabiaid er yr amseroedd boreaf. *En cestyll*—lleoedd amddiffynol wedi eu hadeiladu ar benau mynyddoedd, creigiau, &c. Y mae y cyfryw gestyll yn eu plith hyd heddyw.

Adn. 17. *A dyma flynyddoedd einioes Ismael*] Bernir iddo ef farw yn ffydd Abraham, yn 137 mlwydd oed; canys dywedir iddo yntau hefyd gael ei 'gasglu at ei bobl.' gwel ar adn. 8.

Adn. 18. *Preswylasant hefyd o Hafila hyd Sur*] Hiliogaeth Ismael a feddiant yr holl wlad hōno ag sydd yn cyraedd o'r dwyrain i'r gorllewin; o *Hafila* ar yr Euphrates, yn agos i'w huniad â'r Tigris, hyd amalwch *Sar* yn ddwyreiniol i'r Aiff; a'r wlad sydd yn cyraedd ar hyd cyfyngdir *Suez*, yr hwn sydd yn ysgaru y Môr Coch oddiwrth Fôr-y-Canoldir. *Ac yn ngwydd ei holl frodyr y bu efe farw*—ni oddef y wreiddiol y cyfieithiad hwn yn dda. Dywedir yn adn. 17, 'Yna y tiengodd, ac y bu farw, ac y casglwyd ef at ei bobl.' Wedi hyny y mae hanes y dalaeth a feddiant gan yr Ismaelïaid yn dylyn, yn niwedd pa un y chwanaegir, *al peney col echaiv naphal*, 'Hi (y dalaeth) a syrthiodd (neu a ranwyd iddo ef) yn ngwydd ei holl frodyr;' ac yr oedd hyn yn gwbl gyson ag addewid Duw, pen. xvi. 12, 'Efe a dryg gerbron ei holl frodyr;' ac i ddangos fod yr addewid hon wedi ei manwl gyflawni, nodir yma fod ei ran neu ei etifeddiaeth ef wedi ei phenu iddo gan ddwyfol ragluniaeth yn ymyl eiddo canghenau ereüll y teulu: gwel yr ystyr yma i *naphal*, Jos. xxiii. 4.

Adn. 19. *Dyma genhedlaethau Isaac*] Neu hanes Isaac a'i deulu. Yma y dechreuca *chweched* dosbarth cyffredinol y gyfraith.

Adn. 20. *Ac Isaac oedd fab dengain mlwydd pan gymerodd efe Rebecca*] Ni ddywedir nenawr am Isaac ond yr hyn a feddai gyfeiriad at ei dad tra yr oedd Abraham yn fyw, ac wedi hyny at ei feibion; canys ymddengys nad oedd Isaac yn ddyn o weithgar-

ferch Bethuel y Syriad, o Mesopotamia, chwaer Laban y Syriad, yn wraig iddo.

21 Ac Isaac a weddiodd ar yr Arglwydd dros ei wraig, am ei bod hi yn annhlantadwy: a'r Arglwydd a wrandawodd arno ef, a Rebecca ei wraig ef a feichiogodd.

wch, ac na phrofwyd llawer arno, ond ddarfod iddo dreulio ei ddyddiau mewn tawelwch a llonyddwch.

Adn. 21. *Ac Isaac a weddiodd ar yr Arglwydd dros ei wraig*] Yr oedd Isaac a Rebecca wedi byw yn nghyd am bedair blynedd ar bymtheg heb gael un plentyn; canys yr oedd ef yn 40 oed yn priodi, adn. 20, ac yn 60 pan aned Esau a Jacob, adn. 26. Nodwn, er fod Duw wedi adduwl luosogi ei denlu ef, eto efe a weddiat am hwn; canys rhaid i addewidion Duw beidio rhwystro ond cefnogi ein gweddian, a chael eu defnyddio fel sail i'n fydd. Ac er i Isaac fod yn gweddio am y drugaredd hon dros lawer o flynyddau heb ei chael hi, eto ni pheiddiodd efe â gweddio am dani. Y mae flurf y wreiddiol yn y lle hwn yn deilwng o sylw: Isaac a ymbiliodd â Jehofa, *lenochaeh ishto*, yn gyfeiriol, yn fwriadol, yn neillduol, dros ei wraig. Tybia Ainsworth fod y geiriau yn cynwys eu bod yn *cydweddio* am y peth hwn; a dywed y rabiniaid 'i Isaac a Rebecca fynes yn fwriadol i fynydd Moria, lle y rhwymesid ef, ac iddynt yno gydweiddio am fab.' Gwelodd Duw yn dda brofi fydd Isaac yn flaenorol i enedigaeth Jacob, megys y profasai efe fydd Abraham yn flaenorol i'w enedigaeth yntau.

Adn. 22. *A'r plant a ymwthiasant a'u gilydd ei chroth hi*] Heb. *yithrosatsu*, 'hwy a darawsant yn erbyn neu a ffrisawsant eu gilydd': yr oedd yno gynhyrfiad ffyrnig, nes yr ofnodd y fam am ei bywyd ei hun a'i phlant. *Yna y dywedodd hi, Os felly, beth a wnaif fi fel hyn?*—fel pe dywedasai, Os rhaid i mi ddyoddef y cyfryw bethau, paham yr ewrllysiais i erioed gael plentyn? Iaitn nid anghyffredin i famau yn eu beichiogiad cyntaf. *A hi a aeth i ymofyn â'r Arglwydd*—fel yr â gwragedd yn ein dyddiau ni i yngyngbori â meddygon. Y mae gwahanol farnau yn nghylch y *modd* yr ymofynodd Rebecca â'r Arglwydd. Y mae rhai yn meddwl mai trwy fydd a gweddi yn unig; ereill, ddarfod iddi fynd at Sem neu Melchisedec; ond y mae yn debyg fod Sem wedi marw er's deng mlynedd cyn hyn: eithr gan fod Abraham eto yn fyw, gallasai yngyngbori â'r Arglwydd trwy ei gyfryngdod ef.

Adn. 23. *Dwy genedl sydd yn dy groth di*] Y mae genym yn y profiwydoliaethau a draddodwyd yn nghylch meibion Isaac, fel y sylwa Newton, bravf helaeth nad amcanwyd y profiwydoliaethau hyn yn gymaint am *bersonau unigol* ag am *genhedloedd cyfain* yn disgyn oddiwrtwynt hwy; canys ni chafodd yr hyn a ragfynegwyd yn nghylch Esau a Jacob ei wir-eddu ynddynt eu *hunain*, ond yn eu *hiliogaeth*. Yr EDOMIAID oeddant hiliogaeth *Esau*, megys yr oedd yr ISRAELIAID yn hiliogaeth *Jacob*;

22 A'r plant a ymwthiasant â'u gilydd yn ei chroth hi: yna y dywedodd hi, Os felly, beth y wnaif fi fel hyn? A hi a aeth i ymofyn â'r Arglwydd.

23 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthi hi, Dwy genedl sydd yn dy groth di, a dau *fath* a'r bobl a wahenir o'th

a phwy ond Awdwr a Rhoddwr bywyd a allai ragweled y byddai *ddau blentyn* yn y brw luosogi yn *ddwy genedl*? Cafodd Jacob *ddeddeg* o feibion, a'u hiliogaeth a unwyd ac a gorfforwyd oll i un genedl: a'r fath raglun-iaeth oruwchlywodraethol ydoedd fod i ddwy genedl godi oddiwrtth ddim ond dau fab i Isaac, a'u bod yn ddwy genedl mor wahanol! Y mae yr EDOMIAID a'r ISRAELIAID wedi bod o'r dechre yn ddau bobl mor wahanol yn eu moesaau, eu defodau, a'u crefydd, fel ag i fod mewn anghydfod parhaus yn mhllith eu gilydd. Y plant a *ywmthiasant a'u gilydd* yn y groth, yr hyn oedd yn argoel o'u hannghytundeb dyfodol; a phan dyfiasant yn wjr, amlygasant dueddiadau tra gwahanol, adn. 27. Y mae crefydd yr Iuddeuon yn dra adnabyddus; ond pa beth bynag oedd yr Edomiaid ar y cyntaf, daethant yn mhen amser yn *eilunaddolueyr*. Pan ddechwelwyd hwynt gan Amazia brenin Juda, efe a ddyg eu duwiau, ac a'u gosododd i fyny yn dduwiau iddo ei hun. Trwy i frenin Edom omedd i'r Israeliaid fyned trwy ei diriogaethau ef ar eu dychweliad o'r Aiff, nid yw hanes yr Edomiaid wedi hyn fawr fwy na hanes eu rhyfeloedd â'r Iuddeuon: gwel *ESGOG NEWTON. A'r naill bobl fydd cryfach na'r llall*—y mae yr Esgob dysgedig yn parhau i sylwi mai teulu Esau oedd y cryfaf o'r ddau am beth amser, trwy fod *DCUAIAD* a *BRENHOEDD* yn Edom cyn fod un brenin yn Israel: eithr Dafydd a'i gadbeniaid a gawsant gyflawn fuddugoliaeth ar yr Edomiaid, a laddasant anrari floedd o honynt, ac a orfodasant y lleill i ddyfod yn drethedig, ac a blanasant amddiffynfydd yn eu plith i sicrhau eu lufyddod. Parhawsant yn y cyflwr hwn o *gaethiwed* o gylich 150 o flynyddau, heb frenin o'r eiddynt eu hunain, ac yn cael eu llywodraethu gan ddirprwywyr neu raglafiaid a benodid gan frenhinoedd Juda: ond yn nyddian Jehoram hwy a wrthryfelasant, adennillasant en rhyddid, a gosodasant i fyny frenhin o'r eiddynt eu hunain. Wedi hyn Amazia, brenin Juda, a'u hollol ddyrchwelodd hwynt yn nyffryn yr halen; ac Azaria a gymerth *Elath*, portlladd cyfleus ar y Môr Coch, oddiwrtwynt. Judas Maccabeus hefyd a ymosododd arnynt, ac a'u gorchfygodd hwynt â cholled o fwy nag ngain mil ar ddau dro gwahanol, ac a gmerth *Hebron*. O'r diwedd Hyrcanus ei nai a gymerth ddinasoedd ereill oddiarnynt, ac a'u darostyngodd hwynt i'r angenheidrwydd o adael eu gwlad neu goffeidio y grefydd Iuddewig; pryd yr ymostyngasant i'w *henucaedu*, ac y daethant yn broselytiau i'r grefydd Iuddewig; ac y maent byth wedi hyn yn gorfforedig i'r eglwys a'r genedl Iuddewig. *A'r hynaf a wasanactha yr ieuangaf*—y mae yr ymadrodd hwn, fel y sylwa Dr.

fru di; a'r naill bobl fydd cryfach na'r llall, a'r hynaf a wasanaetha yr ieu-angaf.

24 ¶ A phan gyflawnwyd ei dyddiaid hi i esgor, wele gefelliaid *oedd* yn ei chroth hi.

25 A'r cyntaf a ddaeth allan yn goch drosto i gyd fel cochl flewog; a galwasant ei enw ef Esau.

26 Ac wedi hynny y daeth ei frawd

ef allan â'i law yn ymaflyd yn sawdl Esau: a galwyd ei enw ef Jacob. Ac Isaac oedd fab triugeinnlwydd pan anwyd hwynt.

27 A'r llanciau a gynyddasant: ac Esau oedd w'r yn medru hela, a gw'r o'r maes; a Jacob *oedd* w'r dysyml yn cyfaneddu mewn pebyll.

28 Isaac hefyd oedd hoff ganddo Esau, am ei fod yn bwyta o'i helwr-

Dodd, yn gwasanaethu fel allwedd i egluro y nawfed bennod o'r Rhufeiniaid, lle y mae y geiriau yn cael eu dyfynu; caws y mae yn profi i eglurdeb nas gellir deall hyn am ragarfaethiad tra-arglwyddiaethol Duw o bersonau neillduol i ddedwyddwch nen drueni tragwyddol, heb un olwg ar eu teilyngod na'u hannheilyngod—athrawiaeth ag y darfu i rai yn dra annuwiol ei thadogi ar Dduw, yr hwn yw y Bôd goraf, a'r hwn na ddichon iddo gasâu, llai o lawer ddedfrydu yn ddiannmodol i drueni, unrhyw greadur a'r a wnaeth efe: ond ei fod yn meddwl yn unig ei roddiad o gymwynasau allanol mwy, neu, os mynweh, gyflensderau uwch i wybod a gwneuthur eu dyledswydd, i rai cenedloedd nag a wna i ereill, a hynny yn unig yn ol ei fvyriad doeth ei hun, heb un olwg ar eu teilyngod na'u hannheilyngod hwy. Gwel y pwnc hwn yn cael ei egluro yn helaeth ar Rhuf ix. 12, &c. Nis gall yr athrawiaeth o ragarfaethiad *diammodol* i fywyd tragwyddol a marwolaeth dragwyddol, fel y sylwa Clarke, gael ei hamddiffyn trwy yr anghraifft o driniaethau Duw âg *Esau* a *Jacob*, neu â'r *Edomiaid* a'r *Israellaid*. Ar ol hir wrthodiad cafodd yr *Edomiaid* eu coffori yn nhlith yr *Juddewon*, a buont byth wedi hynny yn aelodau anwahaniaethol yn yr eglwys Juddewig. Yr *Juddewon*, yn y gwrthwyneb, *etholedigion Duw*, a dorwyd ymaith ac a wrthodwyd, ac y maent yn parhau felly hyd y dydd hwn. Os byth y daw amser pryd y bydd i'r *Juddewon* oll gredu yn Nghrist, yr hon sydd dylb gyffredin, yna yr *Edomiaid*, y rhai sydd yn awr wedi eu llyncu i'w plith hwy, a fyddant hefyd yn *etholedig*. Ac hyd yn nod yn awr y mae Isaac yn cael y *naill* a'r *llall* o'i blant tufewn i'r eglwys Juddewig, ac yn meddu cyfartal hawl i'r addewidion o iachawdwriaeth trwy Grist Iesu, o'r hwn yr oedd ef y cysgod mwyaf eglur a godidog; gwel ar pen. xxii.

Adn 24. *Wele gefelliaid* ¶ Heb. *thomin*, oddiw'rth yr hwn y deillia yr enw *Thomas*, a ddeonglir yn briodol yn y Roeg *didumos*, yr hwn a arwydda *gefell*, neu un o ddau: gwel ar Ioan xi. 16.

Adn. 25. *A'r cyntaf a ddaeth allan yn goch drosto i gyd fel cochl flewog* ¶ Hynny yw, wedi ei orchuddio drosto oll â blew neu wlanflew cochion; ac mai hyn a feddylir yma sydd ddiogon eglur oddiw'rth ran arall o'i hanes, (pen. xxvii. 16.) lle y mae Rebecca, mewn trefn i wneyd i'w hoff fab Jacob fyned am ei frawd Esau, yn rhoddi crwyn mynod geifr am ei ddwyllaw a'i wddf ef. Yr oedd hyn yn rag-ddanghosiad o gyfansoddiad tra chryf, ac yn rhoddi sail i ddyfngwyll y byddai ef yn ddyu pybyr, beiddgar, a gwisgi. Ond yr oedd Jacob

yn llyfn a thyner fel plant ereill. *A galwasant ei enw ef Esau*—y mae yn anhawdd, ehai Clarke, penu ystyr y gwreiddyn *esau* neu *esav*. Os cymerwn ef oddiw'rth *asah*, rhaid iddo arwyddo gwneuthuredig, cyflawnedig, ac, yn ol rhai, perffethiedig. Y mae *esa* yn yr Arabaeg yn arwyddo gwneyd yn gadarn neu galed, ac hefyd dyfod i ystâd gw'r, heiddio. Y mae yn debyg iddo gael yr enw hwn oddiw'rth ei fod yn ymddangos yn fwy perffaith, cryf, &c., na'i frawd.

Adn. 26. *Ac wedi hynny y daeth ei frawd ef allan â'i law yn ymaflyd yn sawdl Esau* ¶ Arwyddai hyn, meddai Henry, erlyniad Jacob am yr enedigaeth-fraint a'r fendith: o'r dechre efe a estynai i ymaflyd ynddi, ac, os oedd modd, i ragflaenu ei frawd. Ond rhaid i ni beidio priodoli i Jacob unrhyw *feriad* yn hyn. *A galwyd ei enw ef Jacob*—oddiw'rth *akab*, twyllo, siomi, dysodli: gwel Hos. xii. 3. *Ac Isaac oedd fab triugeinnlwydd pan anwyd hwynt*—ac yn briod er's ugain mlynedd, adn. 20. Gofynwyd, pahan y goddefodd Duw i Sarah a Rebecca barhau cyhyd yn annhlantadwy? I hyn yr atehir, nid yn unig i brofi ac arferdy ffydd y ddau, ond hefyd i wneuthur cenedliad yr Had bendigaid yn fwy nodedig. Yr oedd yn parotoi y ffordd i ddyfodiad Mab Dnuw yn y cnawd, ac, fel y mae Chrysostom yn ei fynegu, yn rhagarotoi y byd i'r grediniaeth o feichiogiad gwy'rthiol y Forwyn fendigedig.

Adn. 27. *Esau oedd w'r yn medru hela, a gw'r o'r maes* ¶ *Ish sudeh*, yn nn a'i cynaliai ei hun a'i deulu trwy hela a thrwy arddwriaeth; a *Jacob oedd w'r dysyml*—*ish tam*, gw'r perffaith neu uniawn; *yn cyfaneddu mewn pebyll*—yn ymgynal trwy fagu a thrin anifeiliaid, yr hyn a ystyrir yn yr amseroedd boreol hynny y gorchwyl *perffethiaf*; ac yn yr ystyr hwn y dylai y gair *tam* gael ei ddeall yma, trwy nad allai yn ddiau yn ei ystyr *moesol* gael ei gymhwyso at Jacob cyn newid ei enw, wedi yr hyn yn unig y mae ei gymeriad ef yn sefyll yn ddeg a difeius.—CLARKE. Gwel pen. xxxvi. 26—30.

Adn. 28. *Isaac hefyd oedd hoff ganddo Esau* ¶ Nid yn unig am mai efe oedd y cyntaf-anedig, ond am ei fod yn debyg o fod yn w'r mawr, trwy ddewder a bywiogrwydd ei dymher; ac hefyd am ei fod yn arlwygo ei fwrdd ef âg amrywiaeth o helpa, yr hyn a garai. *A Rebecca a hoffai Jacob*—am y gwyyddai mai efe oedd i etifeddu y fendith, adn. 23. Yr oedd ymddygiad y tad a'r fam yn hyn yn feius; a'r pleidgarwch anaddas hwn a fu yn achlysur o'r ymryson hwnw, yr hwn unwaith a fygythiodd eu hamddifadu o'r ddau. Dylai

iaeth ef: a Rebecca a hoffai Jacob.

29 ¶ A Jacob a ferwodd gawl: yna Esau a ddaeth o'r maes, ac efe yn ddiffygiol.

30 A dywedodd Esau wrth Jacob, Gad i mi yfed, atolwg, o'r cawl coch yma; o herwydd diffygiol wyf fi: am hyny y galwyd ei enw ef Edom.

31 A dywedodd Jacob, Gwerth di heddyw i mi dy enedigaeth-fraint.

32 A dywedodd Esau, Wele fi yn

myned i farw, a pha les a wna yr enedigaeth-fraint hon i mi?

33 A dywedodd Jacob, Twng i mi heddyw. Ac efe a dyngodd iddo; ac efe a werthodd ei enedigaeth-fraint i Jacob.

34 A Jacob a roddes i Esau fara a chawl ffachys; ac efe a fwytaodd, ac a yfodd, ac a gododd, ac a aeth ymaith: felly y dystyrodd Esau ei enedigaeth-fraint.

rhieni wlyio yn ofalus yn erbyn y fath bleidgarwch, gan ei fod yn bechadurns ynddo ei hun, ac o duedd beryglus. Y mae yn wir y gall rhai plant fod o yspryd ac ymddygiad hawddgarach nag ereill o'r un teulu; eto dylennt oll gael cyfran ddyldwy o sylw y rhieni, heb i un mewn modd yn y byd gael ei ddiystyru na'i esgeuluso.

Adn. 29. *A Jacob a ferwodd gawl*] Yr oedd y cawl hwn o wawr goch, ac wedi ei wneuthur o ffachys o'r Aifft, adn. 34; ymborth a werthfawrogiad yn fawr gan yr heusiaid. Y mae Dr. Shaw yn taffu peth goleuni ar y lle hwn, wrth son am drigolion Barbary: 'Ffa, ffachys, ffa freinig, a garvanços,' meddai ef, 'yw y rhai penaf o rywogaeth eu llydbys: ffa, wedi eu herwi gydag olew a garlleg, yw prif fwyd pawb; a pharotoir ffachys yr un modd a ffa, y rhai yn hawdd a ferwir yn swp, ac a wnant gawl o liw coch. Hwn oedd y cawl coch am ba un y gwerthodd Esau ei enedigaeth-fraint.'—*Shaw's Travels*, arg. 4plyg, dal. 140.

Adn. 30. *Gad i mi yfed, atolwg, o'r cawl coch yma*] Heb. 'dyro i mi y coch, coch, yna,' ac oddiwrth yr amgylchiad hwn y galwyd ef wedi hyny Edom, yr hyn a arwydda coch. *O herwydd diffygiol wyf fi*—ymddengys fod Esau wedi ei dreulio gymaint gan ludded fel ag y bnasai raid iddo drengu, meddai Clarke, pe na dderbynasai ryw luniaeth yn y fan. Yr oedd ef wedi bod naill ai yn hela ai yn llafurio yn y maes, ac yn awr yn dychwelyd i'r dyben i gael rhyw ymborth, ond wedi ei dreulio gymaint nes y llwy'r ddarfyddodd ei nerth cyn iddo gael amser i wneyd yr arlwyadau angenrheidiol.

Adn. 31. *A dywedodd Jacob, Gwerth di heddyw i mi dy enedigaeth-fraint*] Amrywiol yw y tybiau pa beth oedd yr enedigaeth-fraint hon a werthodd Esau; ond y debycaf yw, ei bod yn cynwys, yn (1.) Hawl i'r offeiriadaeth, Exod. xxii. 29. (2.) Deuparth o holl eiddo y tad, Deut. xxi. 17. (3.) Arglwyddiaeth ar ei frodyr, Gen. xxvii. 29, 37, a xlix. 3. (4.) Ac, yn nbeulu Abraham, y fendith neillduol o fod yn benafid i'r Messia, ac yn etifedd bendithion neillduol Duw mewn perthynas i deyrnas Crist. Yr oedd yn gysgod o freintiau ysbrydol y 'rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifenydwyd yn y nefoedd,' Heb. xii. 23. Y mae yr apostol, Heb. xii. 16, yn ei gyfrif yn *halogrydd* yn Esau ddarford iddo werthu ei enedigaeth-fraint; ac y mae Esau yn cael ei alw yn *halogedig*, am iddo mor bell ddirisrio y manteision ysbrydol cysylltedig â hawliau yr enedigaeth-fraint, fel ag i werthu y cwbl am un saig o gawl! Nid oes lle i'r cybuddiad hwn ar un

cyfrif arall; canys ni chyfrifwyd erioed yn halogrydd i neb werthu breintiau tymhorol yn unig; ac ni chauwyd Esau oddiwrth fendithion yr addewidion *tymhorol* trwy y gwerthiad gwaradwyddus hwn. Modd bynag, y mae dau beth i'w gweled yn eglur yma: 1. Fod yr enedigaeth-fraint hon yn un dra gwerthfawr a phwysig; ac, 2. ei bod yn *drosglyuddadwy*, fel y dygwyddodd yma oddiwrth Esau i Jacob.

Adn. 32. *Wele fi yn mynd i farw, a pha les a wna yr enedigaeth-fraint hon i mi?*] Os edrychwn ar enedigaeth-fraint Esau fel elw *tymhorol* yn unig, yr oedd yn yr hyn a ddywedai ryw wirionedd; canys ni fydd i'n petltau bydol fod o un defnydd i ni yn awr angau: ni throant draw ergyd angau, ni liniarant ei loesau, ni symudant ei golyu. Ond gan ei bod yn benaf o natur *ysbrydol*, ei ddirisrio oedd yr halogrydd mwyaf a ellir ei ddechymygu! Ei iaith oedd debyg i eiddo yr Epicuriaid, 'Bwytawn ac yfwn, canys y fory marw yr ydym.'

Adn. 33. *A dyngodd Jacob, Twng i mi heddyw*] Trosglywydda i mi dy enedigaeth-fraint trwy lw. *Ac efe a dyngodd iddo*—ar y cyfrif hwn y mae yr apostol yn galw Esau yn *halogedig*, am iddo, trwy y weithred hon, werthu oddiwrtho ei hun a'i lliogaeth y swyddau ysbrydol hyny ag oeddynt gysylltedig â breintiau cyntafanedigaeth. Ond tra yr ydym yn collfarnu Esau am y weithred ddrwg yma, (canys dylasai drengu yn hytrach na gwerthu y fraint hon), a thra yr ydym yn ei llystyried fel prawf nad oedd ei feddwl wedi ei effeithio ond ychydig â phethau dwyfol neu ysbrydol, pa beth a ddywedwn ni am ei frawd tra annaturiol Jacob, yr hwn a wrthododd iddo gael llymaid o gawl i'w gadw rhag marw, oddieithr iddo ioddi i fyny ei enedigaeth-fraint! Diamau fod yr hwn a'i *prymodd* hi dan y fath amgylchiadau, cyn *waethed* a'r hwn a'i *gwerthodd*. Fel hyn y gwiriodd Jacob ei hawl yn yr enw *dysodlur*.

Adn. 34. *A Jacob a roddes i Esau fara a chawl ffachys*] Gwel ar adn. 29; *ac efe a fwytaodd, ac a yfodd, ac a gododd, ac a aeth ymaith*—heb unrhyw adfyfyrdd difrifol ar y fargen ddrwg a wnaethai, nac un danghosiad o ofid! *Felly y dystyrodd Esau ei enedigaeth-fraint*—ni ddefnyddiodd efe un moddion i alw y fargen yn ol, ac ni wnaeth un apeliad at ei dad yn ei chylich hi; eithr y fargen ag y darfu i'w *angen* ei gwneuthur, darfu i'w *halogrydd* ei chadarnhau; a thrwy ei esgeulusdra a'i ddiystyrwch dylunol efe a wnaeth y mater yn anadferadwy: gwel ar pen. xxvii. 36, a Heb. xii. 17.

PENNOD XXVI.

ABU newyn yn y tir, heblaw y newyn cyntaf a fwasai yn nyddiau Abraham: ac Isaac a aeth at Abimelec brenin y Philistiaid i Gerar.

2 A'r Arglwydd a ymddangosasai iddo ef, ac a ddywedasai, Na ddos i waered i'r Aifft: aros yn y wlad a ddywedwyd fi wrthy.

3 Ymdeithia yn y wlad hon, a mi a fyddaf gyda thi, ac a'th fendithiaf: o herwydd i ti ac i'th had y rhoddaf yr holl wledydd hyn, a mi a gyflawnaf fy llw a dyngais wrth Abraham dy dad di.

4 A mi a amlhaf dy had di fel ser y nesoedd, a rhoddaf i'th had di yr holl wledydd hyn, a holl genhedlaethau y ddacar a fendithir yn dy had di:

PEN. XXVI. Adn. 1. *A bu newyn yn y tir*] Fel mai newyn oedd y brofedigaeth gyntaf a gyfarfyddodd âg Abraham yn ngwlad yr addewid, felly y bu gyda'i fab. Trwy ei holl hanes y mae Isaac yn cael ei arwain, ac yn ofalus yn dilyn, yn nghamrau ei dad. Y mae yr ysgrienydd ysbrydoledig yn crybwyll yn benodol am y tebygolrwydd allanol hon rhwng y ddau, tra ar yr un pryd y dadlena efe yn gryf eu nodau gwahaniaethol. Gan Abraham yr oedd oll-orchfygol nerth fydd; gan Isaac, yn enwedig tua'i ddiwedd, ei gallu tawel a llongydd. Yr oedd un yn addas i fod yn arweinydd a dysgawdwr; y llall, y canlynydd a'r ysgolor. *Ac Isaac a aeth at Abimelec*—yn debygol mab i'r Abimelec a grybwyllir pen. xx. 2, trwy fod o leiaf 70 mlynedd er hyn.

Adn. 2. *Na ddos i waered i'r Aifft*] Gan i Abraham ymnoddi yn yr Aifft, y mae yn debyg fod Isaac yn paratoi i fyned yno hefyd; ac y mae Duw, gan ragweled y byddai iddo ef yno gyfarfod â phrofedigaethau a allent brofi yn ddinstriol i'w heddwch a'i dduwioldeb, yn ei rybyddio i beidio cyflawni ei fwriad.

Adn. 3. *Ymdeithia yn y wlad hon*] Yn Gerar, i ba le yr aethai efe, adn. 1, a lle yr ydym yn cael iddo ymfyfydlu, adn. 6, er y gallai gwlad Canaan yn gyffredinol fod yn cael ei bwriadu yma.

Adn. 4. *A mi a amlhaf dy had di fel ser y nesoedd*] Addewid a adroddwyd yn fynych i Abraham, a'r hon a gyflawnwyd yn y modd helaethaf yn ei hystyr llythyrenol ac ysbrydol.

Adn. 5. *Am wrandaw o Abraham ar fy llais*] Meimeri, 'fy NGAIR:' gwel ar pen. xv. 1; a chadw fy nghadwriaeth, fy ngorchymynion, &c.—ymddengys ddarodf bwriadu yr amrywiaeth ymadrodd yma i ddangos cyffredinolrwydd a chywirdeb ufydd-dod Abraham, ei fod wedi cydymagwedu yn ewyllysgar â phob crybwylliad o'r dwyfol ewyllys. Efe a ufyddhaodd i ddeddfau gwreiddiol natur; a deddfau datguddiedig addoliad dwyfol, yn enwedig deddf yr enwaediad; a'r holl orchymynion annghyffredin a roddasai Duw iddo,

5 Am wrando o Abraham ar fy llais i, a chadw fy nghadwriaeth, fy ngorchymynion, fy neddfau, a'm cyfreithiau.

6 ¶ Ac Isaac a drigodd yn Gerar.

7 A gwŷr y lle hwnw a ymofynasant am ei wraig ef. Ac efe a ddywedodd, Fy chwaer yw hi: canys ofnodd ddywedyd, Fy ngwraig yw; rhag (eb efe) i ddynion y lle hwnw fy lladd i am Rebecca: canys yr ydoedd hi yn dŵg yr olwg.

8 A bu gwedi ei fod ef yno ddyddiau lawer, i Abimelec brenin y Philistiaid edrych trwy y ffenestr, a chanfod; ac wele Isaac yn chwareu â Rebecca ei wraig.

9 Ac Abimelec a alwodd ar Isaac, ac a ddywedodd, Wele, yn ddiau dy wraig yw hi: a phaham y dywedaist,

megys yr un o adael ei wlad, a'r un yn nghylch offrymiad ei fab, yr hwn yr oedd gan Isaac ei hun ddigon o reswm i'w gofio, a'r hwn y tybia rhai ei fod yn cael cyfeirio ato yn fwyaf enwedigol.

Adn. 6. *Ac Isaac a drigodd yn Gerar*] Lle y ganed ef, pen. xxi. 2.

Adn. 7. *Fy chwaer yw hi; canys ofnodd ddywedyd, Fy ngwraig yw*] Y mae yn bur hynod ddarodf i Isaac yn yr un lle, ac yn y cyffelyb amgylchiadau, wadu ei wraig, yn union fel y gwnaethai ei dad o'i flaen ef! Y mae yn naturiol gofyn, Ai ni ddarfu i Abraham erioed grybwyll yr amgylchiad hwn wrth ei fab? Y mae yn debyg na ddarfu iddo, gan fod arno yn gyfiawn gwylydd o'i wendid ar y pryd; gan hyny nid oedd y mab, trwy na ragrybuddwyd ef, wedi ymarfogi yn erbyn y demtasiwn. Ni allai Isaac ddywedyd am Rebecca, fel y gwnaethai Abraham am Sarah, *Fy chwaer yw*. Yn achos Abraham yr oedd hyny yn llythyrenol wir; ond nid oedd felly yn achos Isaac, canys nid oedd Rebecca ond nith iddo, merch ei gefndir. Ac heblaw hyny, er fod perthynasau, yn ol y dull Iuddewig o lefaru, yn fynych yn cael eu galw yn *frodwr a chworiydd*, ac y diehon i hyny fod yn hollol briodol pan fyddo y deffnydd hwn o'r enwau yn gyffredinol adnabyddus a chaniatool, eto ni all diin o'r fath yma gael ei ddadlu yn y lle hwn ar ran Isaac; canys yr oedd ef yn bwriadu i'r Gerariaid ei ddeall yn mhriodol ystyr y gair, ac o ganlyniad beidio meddwl ei bod yn *wraig* iddo. Gwelom eisioes mai yr iawn ddarnodiad o anwriedd yw unrhyw air a lefarir gyda bwriad i *dwyllto*: gwel ar pen. xxi. 12.

Adn. 8. *Ac wele Isaac yn chwareu â Rebecca ei wraig*] Pa beth bynag a all fod gwir ystyr y *chwareu* hwn, y mae yn amlwg y cynwysa fod rhyddid yn cael ei gymeryd a hyffra yn cael ei arfer nad oeddnt gyfreithlon ond rhwng gwŷr a gwraig.

Adn. 9. *Wele, yn ddiau dy wraig yw hi*] Efe a ddeallodd hyny oddiwrth eu 'chwaread.'

Adn. 10. *Iauodd y gallasai un o'r bobl o'r wedd gyda'th wraig di; felly y dygysit arnom*

Fy chwaer *yw* hi? Yna y dywedodd Isaac wrtho, am ddywedyd o honof, Rhag fy marw o'i phlegid hi.

10 A dywedodd Abimelec, Paham y gwnaethost hyn â ni? hawdd y gallasai un o'r bobl orwedd gyda th wraig di; felly dygasit arnom ni bechod.

11 A gorchymynodd Abimelec i'r holl bobl, gan ddywedyd, Yr hwn a gyffyrddo â'r gŵr hwn, neu â'i wraig, a leddir yn farw.

12 Ac Isaac a hauodd yn y tir hwnw, ac a gafodd y flwyddyn hōno, y can cymaint. A'r Arglywydd a'i bendithiodd ef.

13 A'r gŵr a gynyddodd, ac a aeth rhagddo, ac a dyfodd, hyd onid aeth yn fawr iawn.

14 Ac yr oedd ganddo ef gyfoeth o ddefaid, a chyfoeth o wartheg, a gweision lawer: a'r Philistiaid a genfigenasant wrtho ef.

15 A'r holl bydewau y rhai a gloddiasai gweision ei dad ef, yn nyddiau Abraham ei dad ef, y Philistiaid a'u caunasant hwy, ac a'u llanwasant a phridd.

ni bechod] Y mae yn debyg ei fod yn cofio yn dda mor drwm y darfu i Dduw gopsi ei ragflaenor a'i holl deulu yn nyddiau Abraham, pen. xx, yn unig am y bwriad o odineb; ac efe a gymerai yn ganiataol na fusai eu hanwybodaeth fod Rebecca yn wraig i Isaac yn esgus digonol am eu pechod. Ymddengys fod yr Abimelec hwn, fel y llall, yn ŵr da a chyflawn, a'i fod yn ystyried godineb yn drosedd trwm a dinstriol.

Adn. 11. *Yr hwn a gyffyrddo, &c.*] Hyny yw, yr hwn a niweidio Isaac, neu a halogo Rebecca, a leddir am hyny. Marwolaeth oedd y gomp am odineb yn mblith y Canaanaid, y Philistiaid, a'r Hebreaid: gwel pen. xxxviii. 24. Pa fodd y bydd i lawer o'r teyrnasodd tywyllach hyn godi yn y farn, a chondemnio rhai o lywodraethau efengylaidd Ewrop!

Adn. 12—14. *Ac Isaac a hauodd yn y tir hwnw*] Sef yn Gerar; ac a gafodd y flwyddyn hōno—sef yn amser y newyn, tra nau oedd ei gymydogion yn meddi braidd ddim; y can cymaint—ag a roddasai o had yn y tir. Gan ei fod yn awr yn berffaith rydd oddiwrth ofn drwg, y mae yn ymosod ar y gorchwylion amaethyddol a bugeiliol, yn y rhai y mae Duw yn ei fendithio yn neillduol, nes y mae ei eiddo yn cynyddu yn ddifawr: gwel yr adfeddyliaidau.

Adn. 15. *A'r holl bydewau—y Philistiaid a'u caunasant hwy*] Yn y cyfrwy wledydd yr oedd ydew da yn beth gwerthfawr iawn; a chan hyny, mewn rhyfeloedd ysglyfaethus, arferai y naill blaidd lenwi y bydewau â phridd neu dywod, i'r dyben i drallodi y gelyn. Yr oedd llenwi y bydewau yn yr achos hwn yn weithred dra diegwyddor, gan iddynt ymrwymo i Abraham, trwy lw difrifol, i beidio â

16 Ac Abimelec a ddywedodd wrth Isaac, Dos oddiwrthym ni: canys ti a aethost yn gryfach o lawer na nynti.

17 ¶ Ac Isaac a aeth oddiyno, ac a wersyllodd yn nyffryn Gerar, ac a breswylodd yno.

18 Ac Isaac eilwaith a gloddiodd y pydewau dwfr y rhai a gloddiasant yn nyddiau Abraham ei dad ef, ac a gauasai y Philistiaid, wedi marw Abraham; ac a enwodd enwau arnynt, yn ol yr enwau a enwasai ei dad ef arnynt hwy.

19 Gweision Isaac a gloddiasant hefyd yn y dyffryn, ac a gawsant yno ffynnon o ddwfr rhedegog.

20 A bugeiliaid Gerar a ymrysonasant â bugeiliaid Isaac, gan ddywedyd, Y dwfr sydd eiddom ni. Yna efe a alwodd enw y ffynnon, Esec, o herwydd ymgynhennu o honynt âg ef.

21 Cloddiasant hefyd bydew arall; ac ymrysonasant am hwnw: ac efe a alwodd ei enw ef Sitna.

22 Ac efe a fudodd oddiyno, ac a gloddiodd bydew arall; ac nid ymrysonasant am hwnw: ac efe a

niweidio eu gilydd yn hyn na dim arall: gwel pen. xxi. 25—31.

Adn. 16. *Dos oddiwrthym ni*] Ymddengys i gyfoeth a gallu cynyddol Isaac achosi cenfigen, eiddigedd, ac ofn, yn mblith deliaid Abimelec; ac yr oedd yntau yn ofni y gallai canlyniadau annymunol ddylyn os byddai i Isaac aros yn y gryfydogaeth hōno. *Canys ti a aethost yn gryfach o lawer na nynti*—nid yn unig mewn golud, ond hefyd mewn nerth, adn. 14, rhai ond odid wedi eu geni yn ei dŷ, ac ereill wedi eu prynu â'i arian.

Adn. 17. *Ac Isaac a aeth oddiyno*] Efe a gydsyniodd, ac a symudodd yn dawel yn mhellach draw i'r dyffryn. Yn y cyffredin, mewn achosion fel hyn, y mae yn ddoethach rhoddi i fyny er mwyn heddwch, nag ymryson.

Adn. 18. *Ac Isaac eilwaith a gloddiodd y pydewau dwfr y rhai a gloddiasant*] Hyny yw, y rhai a gloddiasai gweision Abraham yn ei ddyddiau ef. Gallai Isaac gael ei dueddu gan lawer o resymau i ail agor y bydewau hyn: 1. Am ei fod yn sier o gael dwfr yno. 2. Am y gallai eu hagog hwynt yn hawddach na chloddio rhai newyddion. 3. Am mai fel hyn y rhoddai efe leiaf o dramgwdd i'w gymydogion. 4. Am fod ganddo yr hawl o hen feddiant. 5. Am y byddai iddo fel hyn fytholi coffadwriaeth ei dad.

Adn. 19. *Ffynnon o ddwfr rhedegog*] Heb. *beer mayim chaiyim*, 'ffynnon o ddyfroedd byw,' mewn gwrthgyferbyniad i ddwfr marw neu lonydd mewn llyn neu bydew. Hwn sydd ymadrodd dwyreiniol am *darddiant*, a dyma ei feddwl yn yr Hen Destament a'r Newydd.

Adn. 20. *Yna efe a alwodd enw y ffynnon, Esec*] Hyny yw, CYNHEN.

alwodd ei enw ef Rehoboth; ac a ddywedodd, Canys yn awr yr changodd yr Arglwydd arnom, a ni a ffrwythwn yn y tir.

23 Ac efe a aeth i fyny oddiyno i Beer-seba.

24 A'r Arglwydd a ymddanghosodd iddo y noson hòno, ac a ddywedodd, Myfi yw Duw Abraham dy dad ti: nac ofna; canys byddaf gyda thi, ac a'th fendithiaf, ac a luosogaf dy had er mwyn Abraham fy ngwas.

25 Ac efe a adeiladodd yno allor, ac a alwodd ar enw yr Arglwydd; ac yno y gosododd efe ei babell: a gweision Isaac a gloddiasant yno bydew.

26 ¶ Yna y daeth Abimelec ato ef o Gerar, ac Ahuzzath ei gyfaill, a Phicol tywysog ei lu.

27 Ac Isaac a ddywedodd wrthynt, Paham y daethoch chiwi ataf fi; gan

i chiwi fy nghasâu, a'm gyru oddi-wrthyhch?

28 Yna y dywedasant, Gan weled ni a welsum fod yr Arglwydd gyda thi: a dywedasant, Bydded yn awr gynghrair rhyngom ni, *sef* rhyngom ni a thi; a gwnawn gyfammod â thi;

29 Na wnai i ni ddrwg, megys na chyffyrddasant ninaw â thi, a megys y gwnaethom ddaioni yn unig â thi, ac y'th anfonasant mewn heddweh; ti yn awr *wyt* fendigedig yr Arglwydd.

30 Ac efe a wnaeth iddynt wled; a hwy a fwytasant ac a yfasant.

31 Yna y codasant yn fore, a hwy a dŷngasant bob un i'w gilydd: ac Isaac a'u gollyngodd hwynt ymaith, a hwy a aethant oddiwrtho ef mewn heddweh.

32 A'r dydd hwnw y bu i weision Isaac ddyfod, a mynegi iddo ef o achos y pydew a gloddiasant; a dywedasant wrtho, Cawsom ddwfr.

Adn. 21. *Sitna*] Hyny yw, DYGASEDD.

Adn. 22. *Ac efe a fudodd oddiyno, ac a gloddiodd bydew arall*] Ni ddarfu i neb erioed ddylyn y gorchymyn dwyfol, *Na wrthwyneb-wch ddreg*, yn llwyrach nag Isaac. Bryd bynag y deallai fod ei waith yn debyg o fod yn destyn cynben ac ymyron, efe a roddai i fyny, ac a ddewisai oddef cam yn hytrach nag aflonyddu heddweh ei feddwl. Fel hyn efe a orchfygai ddrygioni trwy ddaioni. *Ac nid ymyrsonasant am hunw: ac efe a alwodd ei enw ef Rehoboth*—hyny yw, EANGDER, neu ddigon o le. Fel hyn, y rhai a ddylynant heddweh, a'i cânt ef o'r diwedd: ac os bydd i ddynion cildynus ymyron â hwynt yn y byd hwn, eto hwy a gânt *Rehoboth*, lle o eangder a heddweh, yn y nef.

Adn. 23. *Ac efe a aeth i fyny oddiyno i Beer-seba*] Lle y buasai farw ei dad.

Adn. 24. *A'r Arglwydd a ymddanghosodd iddo*] Yr oedd arno angen am gefnogrwydd neillduol ar ei cael ei ddirmygu a'i anmharchu gan y Philistiaid; canys wedi iddo ddychwelyd i'r fan lle y buasai farw ei dad yn ddiweddar, ni allai yr adgoftiad o'r cam a'r golled a gawsai lai na blino ei feddwl; ac y mae Duw yn ymddangos yn ebrwydd i'w gysuro a'i gynnal dan ei brofedigaethau, trwy adnewyddiad o'i holl addewidion. *Nac ofna, canys byddaf gyda thi, &c.*—gall y rhai hyny ymysmed gyda chysur ag sydd yn sicr o bresenoldeb Duw gyda hwynt i ba le bynag yr elont.

Adn. 25. *Ac efe a adeiladodd yno allor*] Fel y gallai gael lle i addoliad Duw, yn gystal a phreswylfod iddo ei hun a'i denlu. *Ac a alwodd ar enw yr Arglwydd*—neu a ymbiliodd yn enw Jehofa: gwel ar pen. xii. 8, a xxi. 33.

Adn. 26. *Yna y daeth Abimelec ato ef o Gerar*] 'Pan y mae ffyrdd gŵr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd, efe a bair i'w elynion fod yn hedychol âg ef,' Diar. xvi. 7; ac felly y profodd i Isaac ar yr achlysur hwn. Y mae yn debyg mai *Abimelec* oedd enw cyffredin

brenbinoedd y Gerariaid, ac mai *Phicol* oedd enw swydd. Y mae y Targum yn cyfeithu *Ahuzzath* yn yr adnod hon yn *llu*: 'Abimelec a Phicol a ddaethant gyda *llu* o'u cyfeillion?' gwel CLARKE.

Adn. 27. *Paham y daethoch chiwi ataf fi, gan i chiwi fy nghasâu?*] Yr oedd yn iawn iddo ddywedyd fel hyn; canys os na ddarfu iddynt *hwy* ei niweidio ef, goddefasant i'w gweision wneuthur hyny.

Adn. 28. *Gan weled ni a welsum fod yr Arglwydd gyda thi*] Fel pe dywedasant, Cymer dy ddarbwylllo i edrych dros y niwed a gynygiwyd i ti, canys y mae Duw wedi gwneyd i fyny yn helaeth i ti y golled a dderbyniaist. *Bydded yn awr gynghrair rhyngom ni*—bydded i ni wneuthur cyfammod trwy yr hwn y byddom yn rhwym bob ochr, a Chadarnhâer ef yn y modd mwyaf difrifol.

Adn. 29. *Na wnai i ni ddrwg*] Na fydd i ti trwy dy weision ymosod arnom mewn rhyfel; *megys na chyffyrddasant ninaw â thi*—y mae yn wir nad oeddynt wedi ei daraw, ddim ond cenfigenu wrtho, a'i gymbell allan o'u gwlad: gwel ar adn. 14—16. Dichon fod Abimelec wedi clywed trwy draddodiad am y rhybydd a roddasai Duw i'w ragflaenar i beidio niweidio Abraham, pen. xx. 7; ac mai hyny a barodd iddo arswydo gymaint rhag Isaac, yr hwn a ymddanghosai yn gymaint aawlyd y nef ag oedd yntau.

Adn. 30. *Ac efe a wnaeth iddynt wled*] Yn debygol ar yr *aberth* a offrymwyd wrth wneyd y cyfammod hwn, yr hyn oedd yn arferiad cyffredin: gwel CLARKE.

Adn. 31. *Yna y codasant yn fore*] Yr oedd bore-godiad yn beth cyffredin yn mhilith trigolion boreol y byd, a hyn oedd un achos o'u hiechyd a'u hir-hoedliad cyffredinol. *A hwy a dŷngasant*—a wnaethant gyfammod o heddweh i'w gilydd trwy aberth a llw.

Adn. 32. *Cawsom ddwfr*] Y dydd hwnw cafwyd pydew newydd a llawn, fel ag y bu i'r

33 Ac efe a'i galwodd ef Sheba: am hyny enw y ddinas *yw* Beer-Sheba hyd y dydd hwn.

34 ¶ Ac yr oedd Esau yn fab deugain mlwydd, ac efe a gymerodd yn wraig, Judith ferch Beeri yr Hethiad, a Basemath ferch Elon yr Hethiad.

35 A hwy oeddynt chwervder ysbryd i Isaac ac i Rebecca.

hyn oll a gollasai gael ei wneyd i fyny yn helaeth iddo.

Adn. 33. *Ac efe a'i galwodd ef Sheba*] Hwn yn debygol oedd yr un pydew ag a elwid *Beer-seba* yn amser Abraham, yr hwn a gauasai y Philistiaid i fyny, ac a ailagorwyd gan weision Isaac. Gan hyny rhoddir yr un enw iddo ag a feddai o'r blaen, gyda'r chwanegiad o'r llythyren bwysig *h*, trwy yr hon yr eangwyd ei arwyddocad, nes y mae yn awr yn arwyddo nid yn unig *llw* neu *llawen*, fel y sylwa Clarke, ond *bodddhad* a *helaethrwydd*. *Am hyny enw y ddinas yw Beer-sheba hyd y dydd hwn*—yr oedd yr enw hwn wedi ei roddi i'r lle er's yn agos i gan mlwydd cyn hyn, pen. xxi. 31; ond gan i'r pydew, oddiwrth yr hwn y caed yr enw yn wreiddiol, gael ei gau i fyny gan y Philistiaid, y mae yn debyg i enw y lle gael ei ddi-ddymu gyda'r pydew: gan hyny, pan ailagorodd Isaac y pydew, efe a adferodd enw cyntefig y lle.

Adn. 34. *Esau—a gymerodd yn wraig Judith ferch Beeri yr Hethiad, &c.*] Yn groes i orchymyn ei dad, ei fam, a'i daid, y mae efe yn priodi dwy o'r Canaaneaid, a hyny ar unwaith, y rhai oeddynt yn estroniaid i fendith Abraham, ac yn wrthddrychau mellidh Noa. Y mae yn dra thebyg fod y gwraedd a gymerth Esau yn ferched i benaethiaid yn mhilith yr Hethiaid, a thrwy yr undeb hwn ei fod yn ceisio cynyddu a chryfhau ei allu a'i ddylanwad bydol.

Adn. 35. *A hwy oeddynt chwervder ysbryd i Isaac ac i Rebecca*] Trwy eu fyrrd gwrthnysig a drygionus. Dywed Deongliadau Jonathan a Jerusalem eu bod yn chwannog i eilunaddoliaeth, ac yn gwrthryfela yn erbyn Isaac a Rebecca, heb wrandaw ar eu hyfforddiadau. Oddiwrth *Gcanaaneaid* ni ellid yn rhesymol ddysgwyl ymddygiad gwahanol. Yr oedd Esau ei hun yn mhell oddiwrth fod yn ysbrydol, a'i wragedd oeddynt hollol anianol.

ADFEDDYLIADAU.—Y mae gan ddyd na, fel y sylwa Clarke, hawl i ddysgwyl bendith Duw ar ei onest ddiwydrwydd. Hanodd Isaac, a derbyniodd y can cymaint; ac yr oedd ganddo gyfoeth o ddefaid a chlyfoeth o wartheig, canys yr Arglwydd a'i bendithiodd ef, adn. 12—14. Y mae dynion *bydol*, os yn gweddio mewn nu modd, yn gofyn am bethau *tyndhorol*: 'Pa beth a fwytawn? pa beth a fyfwn? ac â pha beth yr ymddilladwn?' Y mae llawer o bobl wr *grefyddol* yn myned i eithafion arall: y maent yn anghofio y corff, ac yn gofyn yn unig i'r *enaid*! ac eto y mae 'pethau cynhwys ac angenrheidiol, yn gystal ar les y corff a'r enaid,' y rhai sydd i'w rhoddi gan Dduw yn unig. Y mae y corff yn byw er mwyn yr enaid; y mae ei fywyd a'i gysur mewn llawer

PENNOD XXVII.

A BU wedi heneiddio o Isaac, a thywyllu ei lygaid fel na welai, alw o hono ef Esau ei fab hynaf, a dywedyd wrtho, Fy mab. Yntau a ddywedodd wrtho ef, Wele fi.

2 Ac efe a ddywedodd, Wele mi a heneiddiais yn awr, ac nis gwn ddydd fy marwolaeth.

o ystyriaethau yn anheborol augenrheidiol er iachawdwriaeth yr enaid; ac am hyny dylai y pethau angenrheidiol er ei gynaliaeth gael eu gofyn yn daer gan Dduw pob gras, Tad haelioni a rhagluniaeth. *Nid ydych yn derbyn am nad ydych yn gofyn*, a ellir ei ddywedyd wrth lawer o bobl grefyddol dyldion a chystuddiedig; ac y mae arnynt ofu gofyn, rhag i hyny ymddangos yn wobrwchwant, neu fel byddent yn ceisio eu rhan yn y bywyd yma. Dylid dysgu iddynt yn amgenach. Diamau na ddyry Duw i un o'r rhai hyn *gareg*, os gofyn efe *faru*: ni fydd i'r hwn sydd mor haelionus o'i fendithion nefol, attal y rhai daearol, y rhai sydd yn anfeidiol lai eu pwys. Ddarllenwyd, dysgwyl fendith Duw ar dy onest ddiwydrwydd: gweddia am dani, a chred nad yw Duw yn dy garu *di*, yr hwn a gymerast noddfa yn yr un gobaith, yn llai nag y carodd efe Isaac. Dadleua nid yn unig ei addewidion, ond yr anghreiffiau a osododd efe o'th flaen di: 'Arglwydd, ti a wnaethost fel hyn ac fel hyn i Abraham, Isaac, a Jacob, ac i ereill a ymddiriedasant ynot; bendithia fy maes *inau*, bendithia fy mlhraid *inau*, llwydda fy llafar *inau*, fel y gallwyf ddarparu *pethau onest* yn ngolwg pob dyn, a chael rhywbeth i'w gyfrannu i rai mewn eisiau.' Ac oni wrendy Duw y cyfrw weddian? Gwna, ac efe a'u hetyb hwynt hefyd, 'canys nid o'i fod y blina efe, nac y cystuddia blant dynion,' Galar. iii. 33. A gallwn fod yn sier fod mwy o gystudd a thylodi yn y byd nag y mae cyfiawnder neu ragluniaeth Duw yn ei ofyn. Y mae llawer, modd bynag, yn ddyledus am en tylddi i ddi-flyg diwydrwydd a threfn: y maent yn ym-suddo i ddiogi, ac yn anghofio y gair hwnw, 'Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th *holl egni*;' ac nid ydynt yn ystyried mai trwy ddiogi y gwisgir dyn â charpiau. Ddarllenwyd, na fydd 'ddiog mewn diwydrwydd,' ond 'yn wresog yn yr ysbryd,' ac 'ni etytl Duw oddiwrthyt ddim daioni.'

PEN. XXVII. Adn. 1. *A bu wedi heneiddio o Isaac*] Tybir ar seiliau da fod Isaac yn awr o gylch 117 mlwydd oed, a Jacob o gylch 57; er fod y dyb a dderbynir yn gyffredin yn gwneyd Isaac yn 137, a Jacob yn 77: ond gwel ar pen. xxxi. 38, &c. *A thywyllu ei lygaid fel na welai*—trwy yr hyn y darfu i Dduw ddwyn oddiamgylch ei fwriad ei hun o raddi y fendith i Jacob. *Alw o hono ef Esau ei fab hynaf*—i'r dyben i'w gyhoeddi ef yn etifedd iddo.

Adn. 2. *Nis gwn ddydd fy marwolaeth*] Oddiwrth ei wendid presenol yr oedd ganddo reswm i feddwl na allai ei farwolaeth fod yn mhell iawn, ac am hyny ni adawai un weith-

3 Ac yn awr cymer, atolwg, dy offer, dy gawell saethau, a'th fwa, a dos allan i'r maes, a hela i mi helfa.

4 A gwna i mi flasus-fwyd o'r fath a garaf, a dwg i mi, fel y bwytaf; fel y'th fendithio fy enaid cyn fy marw.

5 A Rebecca a glybu pan ddywedodd Isaac wrth Esau ei fab : ac Esau a aeth i'r maes, i hela helfa i'w dwyn.

6 ¶ A Rebecca a lefarodd wrth Jacob ei mab, gan ddywedyd, Wele, clywais dy dad yn llefaru wrth Esau dy frawd, gan ddywedyd,

7 Dwg i mi helfa, a gwna i mi flasus-fwyd, fel y bwytaf, ac y'th fendithiwyf ger bron yr Arglwydd cyn fy marw.

8 Ond yn awr, fy mab, gwrandao ar fy llais i, am yr hyn a orchymynaf i ti.

9 Dos yn awr i'r praidd, a chymer i mi oddiyno ddau fyn gafr da; a mi a'u gwna'f hwynt yn fwyd blasus i'th dad, o'r fath a gar ef.

10 A thi a'u dygi i'th dad, fel y bwytao, ac y'th fendithio cyn ei farw.

11 A dywedodd Jacob wrth Rebecca ei fam, Wele, Esau fy mrawd yn wr blewog, a minau yn wr llyfn.

12 Fy nhad, ond didid, a'm teimla; yna y byddaf yn ei olwg ef fel twyllwr; ac a ddygaf arnaf felldith, ac nid bendith.

13 A'i fam a ddywedodd wrtho, Arnaf fi y byddo dy felldith, fy mab, yn unig gwrandao ar fy llais; dos a dwg i mi.

14 Ac efe a aeth, ac a gymerth y *mynod*, ac a'u dygodd at ei fam: a'i fam a wnaeth fwyd blasus o'r fath a garaf ei dad ef.

15 Rebecca hefyd a gymerodd hoff-

red heb ei gwneyd ag y credai fod yn ddyled arno ei chyflawni. Ond y mae yn debyg ddarfod i Isaac wella o'i ddallineb a'i gystudd hwn, gan fod yn sicr ddarfod iddo fyw 43 o flynyddau wedi hyn, nes i Jacob ddychwelyd o Padanaram, pen. xxxv. 27—29.

Adn. 3. *Cymer, atolwg, dy offer*] Y mae y gair gwreiddiol *keley* yn arwyddo llestri a chelfi o unrhyw fath; ac y mae yn debyg ei fod yn cael ei arfer yma am helfion, picell, cleddyf, &c. *A hela i mi helfa*—Saes. *venison*, sef llwdn bŷdd.

Adn. 4. *A gwna i mi flasus-fwyd—fel y'th fendithio fy enaid cyn fy marw*] Fel y gallwyf dy gyhoeddi a'th osod yn etifedd yr holl fendithion cyfammodol a roddwyd gan Ddau i mi a'm tadau. Gan fod bwyta ac ym'ad yn arferedig yn mhlith y dwyreinwyr braidd ar bob achos crefyddol, ac yn enwedig wrth wneuthur a chadarnhau cyfammodau, y mae yn rhesymol meddwl fod rhywbeth o'r fath yma yn anheggorol angenrheidiol ar yr achlysur hwn, ac na allai Isaac gyflwyno y *fraint* nes iddo gydfwyta o'r bwyd arlwyodig i'r perwyl gan yr hwn ag oedd i dderbyn y fendith. A chan fod Isaac yn awr yn hen, ac mewn cyflwr egwan a methodig, yr oedd yn angenrheidiol i'r cig a ddefnyddid ar yr achlysur fod wedi ei barotol fel ag i enyn chwant, fel y byddai i ddigonedd o hono gael ei gymeryd i adfywio a diwallu ei nerth methodig, fel y gallai ef yn hawddach fyned trwy yr oll o'r ddefol yma. Ymddengys mai hyn yw yr unig reswm paham y mae *blasus-fwyd* yn cael ei grybwyll mor neillduol.

Adn. 5. 6. *A Rebecca a glybu pan ddywedodd Isaac wrth Esau ei fab*] A phenderfynodd, os oedd modd, siomi bwriad Isaac, a chael y fendith i'w hoff fab Jacob. Y mae rhai yn meddwl iddi dderbyn hysbysiad dwyfol i'r perwyl hwn; ond pe felly, ni fuasai raid iddi arfered *twyll* i gynorthwyo y cyflawniad. Buasai gan Isaac, ar ol hysbysu hyn iddo, o'r mod o dduwioldeb i beidio dewis ewyllys ei

Wneuthurwr o flaen ei bleidgarwch ei hun i'w fab hynaf; ond nid oedd gan Rebecca ddim o'r fath i'w ddadlu, ac am hyn cyrhhodd at y moddion mwyaf gwrthodadwy i gyflawni ei dybenion.

Adn. 7. *Y'th fendithiwyf gerbron yr Arglwydd*] Nid yn unig yn ei wyddod ef, ond hefyd dan ei nawdd a'i gymeradwyaeth.

Adn. 8. *Gwrandao ar fy llais i*] Gwna yn mhob peth yn ol y cynllun a osodwyf o'th flaen, a'r fendith fydd eiddot ti.

Adn. 9. *Ddau fyn gafr da*] Fel y gallai ddarparu y rhanau goraf o bob un at archwaeith Isaac. Cyfrifid cig *mynod* geifr yn ddanteith-fwyd blasus, ac ystyrir ef yn dra maethlon i bobl hen a gweiniaid.

Adn. 10. *A thi a'i dygi i'th dad*] Yn ngweddnod dy frawd Esau, fel y byddo i ti gael y fendith a fwriada efe i'th frawd.

Adn. 11. *Yn wr blewog*] Gwel ar pen. xxv. 25.

Adn. 12. *Ac a ddygaf arnaf felldith*] Canys hyd yn nod yn yr amseroedd boreol hyn yr oedd ysbryd y ddeddf hŏno yn ddealedig, Dent. xxvii. 18, 'Melldigedig yw yr hwn a baro i'r dall gyfeiliorni allan o'r ffordd; ac ymddengys fod Jacob yn meddu cydwybod lawer tynerach na'i fam yn yr achos hwn.

Adn. 13. *Arnaf fi y byddo dy felldith, fy mab*] Hyn yw, mi a warantaf y llwyddiant; neu, os try a canlyniad allan yn ddrwg, mi a safaf rhyngot ti a phob perygl. Hyn a ddywedodd hi mewn hyder o ganlyniad da, yn debygol trwy fydd yn addeud Duw, pen. xxv. 23, 'A'r hynaf a wasanaetha yr ienengaf;' y cyflawniad o ba un, modd bynag, a geisiai hi mewn ffordd annhŷg a gŵyrgam. Y mae Onkelos yn rhoddi i'r geiriau hyn droad hynod: 'Datguddiwyd i mi trwy broffwydoliaeth na ddaw y felldith arnat ti, fy mab.'

Adn. 14. *Ac efe a aeth*] A gyflawnodd bob peth megys y gorchymynwyd iddo gan ei fam.

Adn. 15. *Rebecca hefyd a gymerodd hoff-wisgoedd Esau ei mab hynaf*] Y mae gan Mr.

wisgoedd Esau ei mab hynaf, y rhai oedd gyda hi yn y tŷ, ac a wisgodd Jacob ei mab ieuangaf.

16 A gwisgodd hefyd grwyn y mynodd geifr am ei ddwyllaw ef, ac am lyfnadra ei wddf ef:

17 Ac a roddes y bwyd blasus, a'r bara a arlwyasai hi, yn llaw Jacob ei mab.

18 ¶ Ac efe a ddaeth at ei dad, ac a ddywedodd, Fy nhad. Yntau a ddywedodd, Wele fi: pwy wyt ti, fy mab?

19 A dywedodd Jacob wrth ei dad, Myfi yw Esau dy gyntafanedig: gwnaethym fel y dywedaist wrthyf: cyfod, atolwg, eistedd, a bwyta o'm helfa fel y'm bendithio dy enaid.

20 Ac Isaac a ddywedodd wrth ei fab, Pa fodd, fy mab, y cefaist mor fuan a hyn? Yntau a ddywedodd, Am i'r Arglwydd dy Dduw beri iddo ddygwyddo o'm blaen.

21 A dywedodd Isaac wrth Jacob,

Ainsworth sylw synwryol ar y lle hwn, meddai Clarke, yr hwn a gymeradwyir gan lawer o fferniaid: 'Yr oedd gan yr offeiriaid dan y gyfraith wisgoedd santiaid i weinyddu ynddynt, Exod. xxviii. 2—4. Nid yw yn sicr a oedd y cyfryw gan y cyntafanedig, cyn y gyfraith, i weinyddu ynddynt; ond y mae hyny yn debyg oddiwrth yr anghraifft can; canys os oeddynt yn wisgoedd cyffredin, paham na buasai Esau ei hun, neu ei wragedd, yn eu cadw hwynt? Ond gan eu bod, yn ol pob tebygolrwydd, yn wisgoedd santiaid, wedi eu derbyn oddiwrth eu henafiaid, yr oedd mam y teulu yn eu cadw hwynt mewn cistiau per rhag gwyfynd a'r cyffelyb, o herwydd paham y dywedir, adn. 27, i Isaac arogl i arogl ei wisgoedd ef.'—AINSWORTH.

Adn. 16. *A gwisgodd hefyd grwyn y mynodd geifr, &c.*] Dywed Bochart fod blew geifr y dwyrain yn dra thebyg i eiddo dynion.

Adn. 17. *Y bwyd blasus*] Gwel ar adn. 4.

Adn. 18. *Fy nhad*] Nid yw efe yn yngan ond un gair ar y cyntaf, i'r dyben i brofi a oedd ei dad yn adnabod ei lais: eithr nid felly Esau, adn. 31. *Pwy wyt ti fy mab?*—yr oedd ganddo beth amheuaeth ond oddi oddiwrth ei lais, ac yn enwedig oddiwrth ei ddychweliad rhy fuan, ai efo oedd Esau, adn. 20.

Adn. 19. *Myfi yw Esau, &c.*] Y mae Jacob yn twyllo ei dad mewn tair fiordd: 1. Trwy ei eiriau: 'Myfi yw Esau dy gyntafanedig.' 2. Trwy ei ymddygiadau: y mae yn rhoddi iddo gig mynod o'r praid, yn lle helfa o'r maes, ac yn dywydd iddo gyflawni ei orchymyn ef, a'i gael trwy hela. 3. Trwy ei wisgodd: y mae yn rhoddi am dano wisgoedd Esau, a chrwyu y mynod am ei ddwyllaw a'i wddf. Yn fyr, y mae yn arfer pob math ar dwyll a ellid ei ddefnyddio ar y fath achos, mewn trefni i gyflawni ei ddybenion.

Adn. 20. *Pa fodd, fy mab, y cefaist mor fuan a hyn?*] Fe wyddai Isaac fod cryn amser

Tyred yn nes yn awr, fel y'th deimlwyf, fy mab; ai tydi yw fy mab Esau, ai nad ê.

22 A nesaodd Jacob at Isaac ei dad: yntau a'i teimlodd; ac a ddywedodd, Y llais yw llais Jacob; a'r dwylaw, dwylaw Esau *dydynt*.

23 Ac nid adnabu efe ef, am fod ei ddwyllaw fel dwylaw ei frawd Esau, yn fiewog: felly efe a'i bendithiodd ef.

24 Dywedodd hefyd, Ai ti yw fy mab Esau? Yntau a ddywedodd, Myfi yw.

25 Ac efe a ddywedodd, Dwg yn nes ataf fi, a mi a fwytaf o helfa fy mab, fel y'th fendithio fy enaid. Yna y dyg ato ef, ac efe a fwytaodd: dyg iddo win hefyd, ac efe a yfodd.

26 Yna y dywedodd Isaac ei dad wrtho ef, Tyred yn nes yn awr, a chusana fi fy mab.

27 Yna y daeth efe yn nes, ac a'i

yn ofynol i ddal *llwân hŷdd* yn y maesydd; ac yr oedd Rebecca wedi gwneyd mwy o fyrd nag arferol i'r dyben i gario allan ei hamcanion cyn i Esau ddychweled o hela. *Am i'r Arglwydd dy Dduw beri iddo ddygwyddo o'm blaen*—cynorthwywyd fi gan ragluniaeth ddwyfol i'w ddal yn ebrwydd. Darfu i ddynion ymdrechu nid yn unig i esgusodi hyn oll yn Jacob a Rebecca, ond hefyd i ddangos fod y cwbl yn iawn, ac yn gyson â meddwl ac ewylllys Duw! Nid yw achos Duw a'r gwirionedd dan un rwymedigaeth i'r fath amddiffynwyr; y mae eu dwylaw, fel y sylwa Clarke, yn fwy halogedig na dwylaw *Uzza*, 2 Sam. vi. 6; a pha fodd hynag y gall yr ategau ysgwyd, nid yw arch Duw yn gofyn eu cymorth *hwy*. Amcan Duw oedd i'r *hynaf wasanaethu yr ieuangaf*, ac efe a ddygasai hyny oddiangylch yn fiordd ei ragluniaeth ddoeth a chyfiawn ei hun; ond moddion o'r fath ag a ddefnyddir yma nis gallai efo eu noddi na'u cymbell.

Adn. 21, 22. *Dyred yn nes yn awr, fel y'th deimlwyf*] Canys ei lygaid oeddynt wedi tywyllu fel na welai, adn. 1; ac oddiwrth ei lais efe a dybiai nad Esau oedd efe.

Adn. 23. *Ac nid adnabu efe ef*] Oddiwrth yr aungylchiad hwn gallwn ddyysgu fod *teimlad* Isaac, yn gystal a'i synwryau ereill, wedi amharu yn fawr trwy yr anhwylddeb presenol.

Adn. 24. *Ai ti yw fy mab Esau?*] Yr hyn sydd yn dangos fod rhyw amheuaeth yn aros o hyd yn ei feddwl. *Myfi yw*—fel hyn, ar ol iddo ymddyrysu mewn un celwydd, y mae yn cael ei arwain i lunio amrai ereill i'w gynal ei hun ynddo. Eithr y llais a dwyllodd Isaac, nid allai dwyllo Duw.

Adn. 25. *Ac efe a fwytaodd*] O'r mynod, ac efe a yfodd—o'r gwin, gan goelio o'r diwedd mai arlwyasaeth Esau oedd y seigiau.

Adn. 26. *Dyred yn nes yn awr, a chusana fi*] Tybia rhai fod hon yn fiordd arall yn mha un yr ewyllysiaid Isaac ei foddloni ei hun mai

cusanodd ef; ac a aroglodd arogl ei wisgoedd ef, ac a'i bendithiodd ef, ac a ddywedodd, Wele, arogl fy mab fel arogl maes, yr hwn a fendithiodd yr Arglwydd.

28 *À rhoddod Duw i ti o wllth y nefoedd, ac o fraser y ddaear, ac aml-dra o yd a gwin;*

29 Gwasanaethed pobloedd dydi, ac ymgyred cenhedloedd i ti: bydd di arglwydd ar dy frodyr, ac ymgyred meibion dy fam i ti: melldigedig fyddo a'th felldithio, a bendigedig a'th fendithio.

30 ¶ A bu, pan ddarfu i Isaac fen-

hwn oedd ei fab Esau; ond ymdengys nad oedd ond amlygiad naturiol o'r serch â pha un y cyflwynai efe y fendith iddo.

Adn. 27. *Ac a aroglodd arogl ei wisgoedd ef*] Y mae yn debyg fod arogl y gwisgoedd hyn, yr hoff-wisgoedd offeiriadol, (gwel ar adn. 15,) wedi ei achosi trwy ryw lysiau per-aroigladd, y rhai y gallwn feddlw yn naturiol eu bod yn cael eu cadw gyda'r gwisgoedd; arferiad ag sydd yn aros yn Nghymru ac mewn amrai wledydd ereill hyd y dydd hwn. *Ac a'i bendithiodd ef*—gwel ar adn. 28, 29. *Wele, arogl fy mab fel arogl maes*—fel pe dywedasai, 'Y mae hyfryd arogl gwisgoedd fy mab yn debyg i arogl maes wedi ei addurno gan Dduw âg amrywiaeth o ffrwythau a blodau; ac yr wyf yn ystyried hyn fel arwydd ac argeol y bydd iddo ef a'i hiliogaeth gael eu bendithio â phob math o fendithion, a bod yn fendithion i ereill.'

Adn. 28. *A rhoddod Duw i ti o wllth y nefoedd*] Gan nad oedd ond ychydig wlaw yn Judea heblaw yr hyn a elwid y *cynar-wlaw*, yr hwn a ddisgynai oddentu dechre y gwan-wrn, a'r *diweddar-wlaw*, yr hwn a ddisgynai oddentu diwedd Medi, Deut. xi. 14, yr oedd y diffyg o hono yn cael ei wneyd i fyny gan y gwllth helaethlawn a ddisgynai yn y nos. *Ac o fraser y ddaear*—boed i'r nef a'r ddaear gyduno i'th gyfoethogi âg aml-dra o yd a gwin. Rhagddywedir yma, ac yn adn. 30, y cai y ddau frawd hyn fod, o ran manteision ΤΥΜΗΡΟΛ, yn dra thebyg i'w gilydd. Dywedir yma wrth Jacob, *Rhoddod Duw i ti o wllth y nefoedd, ac o fraser y ddaear, ac aml-dra o yd a gwin;* a dywedir yn debyg wrth Esau, adn. 30, *Wele, yn nrasder y ddaear y bydd dy breswylfod, ac yn mysg gwllth y nefoedd oddiuchod.* Felly rhaid fod mwy yn gynwysedig yn y fendith hon i Jacob nag a ymdengys ar y cyntaf; rhaid fod rhywbeth VSBRÏDOL yn cael ei gynwys ynddi; megys, (1.) Mai oddi-wrtho ef y deuai y MESSIA, yr hwn a gai brif arglwyddiaeth ar y ddaear, Num. xxiv. 17—19. (2.) Mai oddiwrtho ef y disgynai yr EGLWYS, yr hon a fendithid yn neillduol gan y Nef. Ni ellid rhoddi y fendith VSBRÏDOL hon, neu yr addewid o'r Iaad bendigedig, ond i UN; ond gellid rhoddi pethau da ΤΥΜΗΡΟΛ i'r ddau. Ac yn hyn yn unig y mae y prif wahaniaeth rhwng y ddau frawd.

Adn. 29. *Gwasanaethed pobloedd dydi, ac*

dithio Jacob, ac i Jacob yn brin fyned allan o wydd Isaac ei dad, yna Esau ei frawd y ddaeth o'i hela.

31 Ac yntau hefyd a wnaeth fwyd blasus, ac a'i dyg at ei dad; ac a ddywedodd wrth ei dad, Cyfodod fy nhad, a bwytaed o hela ei fab, fel y m bendithio dy enaid.

32 Ac Isaac ei dad a ddywedodd wrtho, Pwy wyt ti? Yntau a ddywedodd, Myfi yw dy fab, dy gyntaf-anedig Esau.

33 Ac Isaac a ddychrynodd â dychryn mawr iawn, ac a ddywedodd, Pwy? pa le mae yr hwn a heliodd

ymgyred cenhedloedd i ti] Pan oresgynwyd y Canaaneid yn amseroedd Josua a'r Barn-wyr, ac y gwnaed hwy yn drethedig i'r Israeliaid, ac yn enwedig pan ddaeth y Philistiaid, y Moabiaid, yr Ammoniaid, a'r Edomiaid yn ddarostyngedig iddynt yn amser Dafydd, cyflawnwyd y broffwydoliaeth hon; ond, fel llawer o broffwydoliaethau ereill, hi a dderbyn ei phrif gyflawniad yn nyddiau diwedda teyrnasiad y Messia, pan y 'llywodraetha efe o för hyd för, ac o'r afon i derfynau y ddaear; pan fydd i'r 'holl frenhinoedd ymgyru iddo, a'r holl genhedloedd ei wasanaethu ef,' Salm lxxii. 8, 11. *Melldigedig fyddo a'th fell-dithio, a bendigedig a'th fendithio*—gwnaed yr un addewid i Abraham, pen. xii. 3; ac y mae yma yn cael ei hadnewyddu i Jacob, a'i halleirio fel hyn gan Ddeongliad Jerusalem: 'Y neb a'th felldigo di, a felldithir fel Balaam fab Beor; a'r neb a'th fendigo, a fendithir fel Moses y proffwyd, deddfroddwr Israel.'

Adn. 30—32. *Yna Esau ei frawd y ddaeth o'i hela, &c.*] Y mae Esau mewn llawn ddysgwiliad am y fendith, yn prysuro at ei dad gyda'r blasus-fwyd: ond mor synedig, mor frawychedig ydyw, wrth gael fod ei obeithion wedi ei siomi, a'r fendith eisioes wedi ei rhoddi! Y mae rhai o'r Iuddewon yn dychymygu fod Esau wedi bod yn afwyddiannus yn ei helwriaeth y waith hon, trwy i angel yr Arglwydd luddias i un creadur glân ddyfod yn ei ffordd ef; ac yna, wedi iddo fel hyn gael ei siomi, ddarhof iddo ladd ei, a'i barotai i'w dad.

Adn. 33. *Ac Isaac a ddychrynodd â dychryn mawr iawn*] Ac y mae hyn yn dangos y y gofid mawr a deimlai efe am ddarfod ei dwyllo, ac am ddrygedd y moddion a arferwyd i effeithio hyn. Er y rhaid fod Isaac wedi clywed am yr hyn a dywedasai Duw wrth Rebecca, *Yr hynaf a wasanaetha yr ieuangaf*, ac nas gallai byth ddymunio cyfnewid y bwriad gwyfol hwn; eto yn ddian gallai feddlw y byddai i'r rhan VSBRÏDOL o'r fendith gael ei throsglwyddo i Esau, a thrwyddo ef i holl genhedloedd y ddaear, er fod goruchafiaeth y llywodraeth DYMHOEOL i fod yr ochr arall. *Bendigedig hefyd fydd efe*—oddiwrth yr hyn a ddywedir yn yr adnod hon, o'i gymharu â Heb. xii. 17, nywi a welw mor *rwymedig* oedd trosglwyddiad yr enedigaeth-frant, pan yn cael ei chyflwyno gyda'r *defodau* crybwylledig adn. 4. Pan ddeallodd Isaac

helfa, ac a'i dyg i mi, a mi a fwyteais o'r cwbl cyn dy ddyfod, ac a'i bendithiais ef? bendigedig hefyd fydd efe.

34 Pan glybu Esau eiriau ei dad, efe a waeddodd â gwaedd fawr a chwerw iawn, ac a ddywedodd wrth ei dad, Bendithia fi, ie finau, fy nhad.

35 Ac efe a ddywedodd, Dy frawd a ddaeth mewn twyll, ac a ddyg dy fendith di.

36 Dywedodd yntau, Onid iawn y gelwir ei enw ef Jacob? canys efe a'm dysodlodd i ddwywaith bellach: dyg fy ngenedigaeith-fraint; ac wele, yn awr efe a ddygodd fy mendith: dywedodd hefyd, Oni chedwaist gyda thi fendith i minau?

ddarfod ei dwyllo gan Jacob, diau y galwasai efe y fendith yn ol pe gallasai; ond gan iddi gael ei throsglwyddo yn yr iawn ffordd *saerantaidd*, yr oedd hyn yn annhosibl. Am hyn y dywed yr apostol, 'Ni chafodd Esau le i edifeirwch,' (neu gyfaewid meddwl yn mynves ei dad,) 'er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi.' Ni allai ei dad ei galw yn ol, am fod y rhodd eisoes wedi ei gwneuthur a'i chadarnhau yn rheolaidd. Ond cofier nad oedd gan hyn ddim i'w wneyd â chyflwr trawyddol Esau na Jacob: gwel ar Heb. xii. 17. Y mae Dr. Shuckford o'r farn ddarfod i Ysbyrd proffwydoliaeth y mynyd hwnw oleuo meddwl Isaac, a dangos iddo ewyllys Duw.

Adn. 34. *Efe a waeddodd â gwaedd fawr a chwerw iawn*] Y mae yn rhy ddiweddar i ofidio am ganlyniadau pechod, ar ol esguluso fofidlo am yr achos o'r canlyniadau hyn. Ond tybia Chrysostom mai gwaeddi yn y digofaint a'r cynddaredd mwyaf yn erbyn ei frawd yr yd-oedd.

Adn. 35. *Ac a ddyg dy fendith di*] Yr hon oedd ddyledus i ti yn ol deddf natur, pe nas gosodesit dy hun yn anheilwng o honi.

Adn. 36. *Onid iawn y gelwir ei enw ef Jacob?*] Hyn yw, DYSODLWR, pen. xxv. 26. *Dyg fy ngenedigaeith-fraint*—yr oedd hyn yn gangyhuddiad, canys efe ei hun a'i gwerthodd hi; a dengys nad oedd eto wir edifeirwch yndo ef. *Ac wele, yn awr, efe a ddygodd fy mendith*—y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn barnu mai yr un peth oedd y fendith a'r enedigaeith-fraint: gwel ar adn. 28, a pen. xxv. 31: y mae ereill yn gwahaniaethu, ond heb allu penderfynu pa beth a allai ei gynnwys. Y mae yn debyg mai yr un peth oeddynt, gyda hyn o wahaniaeth, fod yr *enedigaeith-fraint* yn cynwys yr hawl gwreiddiol i'r breintiau hyn, a'r *fendith* yn cynwys y trosglwyddiad rheolaidd a defodol o honynt. Felly dichon fod Esau o byd yn meddwl, er iddo werthu ei fraint i'w frawd, y byddai i fendith olaf ei dad ei dychwelyd hi iddo, ac mai hyn a'i gwnaeth mor ddifater am dani dros gynyfer o flynyddau; a dichon mai yr ofn yma a gynhyrfodd Rebecca a Jacob i arferyd y twyll crybwyllledig.

Adn. 37. *Wele, mi a'i gwnaethym ef yn arglwydd i ti, &c.*] Gwel ar adn. 29.

Adn. 38. *Ai un fendith sydd genyt, fy*

37 Ac Isaac a atebodd, ac a ddywedodd wrth Esau, Wele, mi a'i gwnaethym ef yn arglwydd i ti, a rhoddais ei holl frodyr yn weision iddo ef; âg yd a gwin y cynhelais ef: a pheth a wnaf i tithau, fy mab, weithian?

38 Ac Esau a ddywedodd wrth ei dad, Ai un fendith sydd genyt, fy nhad? bendithia finau, finau hefyd, fy nhad. Felly Esau a ddyrchafodd ei lef, ac a wylodd.

39 Yna yr atebodd Isaac ei dad, ac a ddywedodd wrtho, Wele, yn mrasder y ddaear y bydd dy breswylfod, ac yn mysg gwllth y nefoedd oddiuchod; 40 Wrth dy gleddyf hefyd y byddi

nhad?] Fel pe dywedasai, Mi a gymeraf i fyny gydag unrhyw un: os na chaf fendith ysbrydol, gad i mi gael un dymborol. *Bendithia finau, finau hefyd*—yn gystal a Jacob: fi dy anwyllfab goraf, dy gyntafanedig, y mab ag y rhyngodd bodd i ti mor ddiweddar anfon am danaf, a gorchymyn i mi hela belfa i ti.

Adn. 39. *Wele, yn mrasder y ddaear y bydd dy breswylfod*] Yn mendith Jacob, adn. 28, y mae 'gwllth y nefoedd' yn cael ei roddi yn gyntaf, fel yr hyn a werthfawrogi ef yn fwyaf; ond yn mendith Esau, y mae 'brasder y ddaear' yn cael ei enwi yn gyntaf, am mai dyna yr hyn a garai ef yn benaf. Yr oedd *MYNYDD SEIR*, etifeddiaeth Esau, yn lle frwythlon, yn cael ei adfaethu â gwllthoedd a chwaboddydd. Yr oedd gan Esau wartheg ac anifeiliaid, a chyfoeth lawer, ac efe a aeth i breswyllo i Seir o'i ddeuwiaid ei hun; ond prin y symudasai efe yno gyda chynifer o anifeiliaid, meddai yr Esgob Newton, pe busai yn wlad mor ddiffwrth ag y myn rhai ei darlunio. Modd hynag, dywed Seetzen, Dr. Wilson, ac ereill, fod mynyddoedd Seir 'y rhai mwyaf gwyllt a diffwrth yn y byd;' ac y mae Kurts, Ewald, Knobel, ac ereill, yn cyfieithu yr adnod hon, 'Dy breswylfod fydd oddiwrth (h. y. tufaes i) fraser y ddaear,' &c. Addefir y bydd i'r wreiddiol oddef y cyfieithiad hwn; ac y mae yr adnod nesaf, lle y dywedir mai 'wrth ei *gleddyf* y byddai fyw,' fel pe byddai yn arwyddo diffwrthier amaethyddol.

Adn. 40. *Wrth dy gleddyf hefyd y byddi fyw*] Hyn yw, tydi a fyddi ryfelgar, ac yn byw yn benaf ar aurhaith a helwriaeth. Cylawnwyd hyn yn nodedig yn Esau ei hun a'i biliogaeth. 'Esau oedd wr yn medru hela, a gŵr o'r maes,' pen. xxv. 27; a chafodd ei biliogaeth feddiant o fynydd Seir trwy drais, trwy fwrw ymaith yr Horiaid, y cyndrigolion, Deut. ii. 22. Yr oeddynt agos yn barhaus mewn rhyfel â'r Iuddewon, cyn ac wedi y caethiwed Babilonaidd; a dywed Josephus eu bod mor hoff o derfysgoedd, nes yr aent i ryfel fel yr âi ereill i wled. *A' th frawd a wasanaethi*—gwel ar pen. xxv. 23. *Onid bydd anser pan feistrolech di*—pan y cegli gryfder, ac y deui yn nerthol, ac y penodi frenin o'r eiddot dy hun. *Ac y torech ei iau ef*

fyw, a'th frawd a wasanaethi: onid bydd *amser* pan feistrolech di, ac y torceh ei iau ef oddiam dy wddf.

41 ¶ Ac Esau a gasaodd Jacob, am y fendith â'r hon y bendithiasai ei dad ef: ac Esau a ddywedodd yn ei galon, Nesáu y mae dyddiau galar fy nhad; yna lladdaf Jacob fy mrawd.

42 A mynegwyd i Rebecca eiriau Esau ei mab hynaf. Hithau a anfonodd, ac a alwodd am Jacob ei mab ieuengaf, ac a ddywedodd wrtho, Wele, Esau dy frawd sydd yn ymgysuro o'th blegid di, *ar fedr* dy ladd di.

43 Ond yn awr, fy mab, gwranddo ar fy llais: yfanod, ffo at Laban fy mrawd, i Haran;

44 Ac aros gydag ef ychydig ddyddiau, hyd oni chilio llid dy frawd;

45 Hyd oni chilio digofaint dy frawd oddiwrthyt, ac anghofio o hono ef yr hyn a wnaethost iddo: yna yr anfonaf ac y'th gyrechaf oddiyno. Paham y byddwn yn amddifad o honoch eich dau *mewn* un dydd?

46 Dywedodd Rebecca hefyd wrth Isaac, Blinais ar fy einioes o herwydd merched Heth: os cymer Jacob wraig o ferched Heth, fel y rhai hyn o ferched y wlad, i ba beth y *chwennychnw* fy einioes.

PENNOD XXVIII.

YNA y galwodd Isaac ar Jacob, ac a'i bendithiodd ef: efe a orchy-

oddiam dy wddf—'pan y bydd i feibion Jacob,' meddai Deongliad Jerusalem ar y geiriau hyn, 'wraudaw ar y gyfraith a chadw y gorchymynion, hwy a osodant iau caethiwed am dy wddf di; ond pan y troant ymaith oddiwrth fyfyrion y gyfraith, ac yr esgenlusant y gorchymynion, yna ti a ysgydwi ymaith Iau y caethiwed.' Nid yw hwn yn esboniad drwg ar y lle; canys Dafydd a ddygodd yr Edomiaid dan yr iau; ac yn ei amser ef yr oedd yr Iuddewon, i fesur mawr, yn cadw y gyfraith. Ond yn nheyrnasiad Jehoram, pryd yr oedd-ynt yn dra llygredig, 'gwirthryfelodd yr Edomiaid odditan law Juda, a gosodasant frenin arnynt eu hun,' 2 Cron. xxi. 8, 10. Fel hyn cyflawnwyd y broffwydoliaeth hon yn mhén oddeutu 900 o flynyddoedd ar ol ei lefarau; a'r fath brawf a gawn yma o hollwybodaeth Duw, ac o ddwyfol ysbrydoliaeth llyfrau Moses!

Adn. 41. *Ac Esau a ddywedodd yn ei galon*] Yr hyn a draethodd efe wedi hyny mewn geiriau, *Nesáu y mae dyddiau galar fy nhad*—y fath oedd afiechyd Isaac y pryd hyny nes yr oedd Esau a phawb yn dysgwyl ei farwolaeth ebrwydd. Yn hyn modd bynag efe a gamgymerodd: canys bu Isaac byw uwchlaw 40 mlynedd wedi hyn, pen. xxxv. 28. *Yna y lladdaf Jacob fy mrawd*—yr oedd Esau yn meddwl y byddai hwnw yn amser cyfeus i ddial ar Jacob ei frawd, gan y byddai y meibion bob amser, yn ol arferiad yr anseroedd, yn bresenol yn anghladd eu tad. Daeth Ismael o'i wlad ei hun i gynorthwyo Isaac i gladdu Abraham, pen. xxv. 9; ac yr oedd Jacob ac Esau yn cynorthwyo yn anghladd Isaac eu tad: ond yr oedd yr elyniaeth rhyngddynt wedi darfog yn hir cyn hyny.

Adn. 42. *Esau dy frawd sydd yn ymgysuro o'th blegid di, &c.*] Gyda bwriadau o ddialedd, yr hyn sydd yn felys i feddwl lliodig, a chyda gobraith o adgaffael ei enedigaeth-fraint.

Adn. 43. *Ffo at Laban fy mrawd i Haran*] Taith o glych tri chant o filldroedd, pen. xii. 4.

Adn. 44. *Ac aros gydag ef ychydig ddyddiau*] Tybia rhai ei bod yn *dddegain* mlynedd cyn iddo ddychwelyd, ac na welodd Rebecca ef byth mwyach; canys dywed y rabiniaid

Iuddewig yn gyffredin ddarfod iddi hi farw cyn i Jacob ddychwelyd o Mesopotamia, pa un bynag ai ugain ai dengain mlynedd oedd cyfnod ei arhosiad yno: gwel ar pen. xxxi. 38.

Adn. 45. *Paham y byddwn yn amddifad o honoch eich dau mewn un dydd?*] O'r naill trwy lofruddiaeth, ac o'r llall trwy law cyfiawnder, pen. ix. 6, neu trwy ddyrnod nodedig dialedd dwyfol, Act. xxviii. 4.

Adn. 46. *Dywedodd Rebecca hefyd wrth Isaac, Blinais ar fy einioes o herwydd merched Heth*] Y mae yn dra thebyg ddarfod i Rebecca gelu amrai o'r amgylchiadau a adroddwyd uchod oddiwrth Isaac; ond gan na allai Jacob fyned i Mesopotamia yn ddarwybod iddo, y mae hi yn ymddangos yma yn hollol yn ei gweddnod ei hun, gan lunio *esgus* dros ei ymadawiad, a *chelu* y gwir achos. Yr oedd Abraham wedi bod yn brýderus i gael gwraig i'w fab Isaac o gangen o'i deulu ei hun; ac am hyny dygwyd *hi* o Syria. Y mae arni ofn yn awr, neu cymer arni ofn, y bydd i'w mab Jacob briodi yn mhilith yr *Hethiaid*, megys y gwnaethai Esau; ac am hyny y mae yn gwneuthur hyn wrth Isaac yn esgus paham y dylai Jacob fyned yn ebrwydd i Mesopotamia, fel y gallai gael gwraig yno. Y mae Isaac, heb wybod y gwir achos o'i anfoniad ef ymaith, yn cydsynio yn ewyllysgar â chynygriad Rebecca, ac yn ebrwydd yn galw am Jacob, yn rhoddi iddo ei fendith, a chyfarwyddiadau cyfaddas, ac yn ei anfon ymaith. Y mae yr olwg yma ar y mater yn gwneuthur y cwbl yn gyson a naturiol; ac yr ydym ar unwaith yn gwled y rheswm o'r araeth fyrbwyll gwnwysedig yn yr adnod hon.

PEN. XXVIII. Adn. I. *Yna y galwodd Isaac ar Jacob*] Gwel ar yr adnod flaenorol; *ac a'i bendithiodd ef*—a gadarnhaodd iddo yn awr, yn wirfodol a siriol, y fendith a gawsai efe o'r blaen trwy ystrwy. Yr oedd yn angenrheidiol iddo ef gael y cadarnhad hwn o'r fendith cyn ei ymadawiad; pe angen, wrth ystyried y ffordd yn yr hon y cawsai efe yr *enedigaeth-fraint* a'r *fendith*, gallai fod yn amheus, yn ol ei eiriau ei hun, pen. xxvii. 12, pa un a ddygai efe arno ei hun felldith yn lle

mynodd iddo hefyd, ac a ddywedodd wrtho, Na chymer wraig o ferched Canaan.

2 Cyfod, dos i Mesopotamia, i dŷ Bethuel tad dy fam; a chymer i ti wraig oddiyno, o ferched Laban brawd dy fam:

3 A Duw hollalluog a'th fendithio, ac a'th ffrwythlono, ac a'th luosogo, fel y byddech yn gynulleidfa pobl-oedd:

4 Ac a roddo i ti fendith Abraham, i ti ac i'th had gyda thi, i etifeddu o honot dir dy ymdaith, yr hwn a roddodd Duw i Abraham.

5 Felly Isaac a anfonodd ymaith Jacob: ac efe a aeth i Mesopotamia,

bendith. Gan fod y fendith a gyhoeddwyd yn awr ar Jacob wedi ei chael heb unrhyw dwyll o'i du ef, y mae yn debyg iddi beri effaith ddaionus ar ei feddwl, a'i arwain i gyflesu ei bechod, a pharotoi ei galon gogyfer â'r dadlenniadau hyny o ddaioni Duw â pha rai y bendithiwyd ef yn Lns.

Adn. 2. *Cyfod, dos i Mesopotamia*] Y mae yr anfonid hwn, yn ei ysbryd a'i ddyben, yn debyg i'r un yn pen. xxiv., yr hwn gwel. Yr hyn a elwir yma Mesopotamia, a elwir yn y Saesonag Padan-aram; eto yr un lle a olygir, gan fod Padan-aram, neu Haran, yn rhan o wlad Mesopotamia.

Adn. 3. *Fel y byddech yn gynulleidfa pobloedd*] Heb. *likhal amnim*, 'yn gymanfa neu eglwys o bobloedd;' gan gyfeirio yn ddi-aman at yr eglwys Inddewig, ond yn fwy neillduol at yr eglwys Gristionogol, gyfansoddedig o bob llwyth, a chenedl, a phobl, ac iaith. Dyma un ran hanfodol o 'fendith Abraham,' adn. 4.

Adn. 4. *Ac a roddo i ti fendith Abraham*] Boed i Dduw Hollalluog gadarnhau yr etifeddiaeth, yn nghyda'i holl fendithion cyd-fnedol, i ti, hyd wrthodiad Esau; megys y gwnaeth efe i mi, hyd wrthodiad Ismael. Eithr, yn ol St. Paul, y mae llawer mwy na hyn yn ddiau yn cael ei fwrriadu yma; oblegid ymddengys oddiwrth Galat. iii. 6—14, fod *bendith Abraham*, yr hon 'a ddelai ar y Cenedloedd trwy Grist Iesu,' yn cynwys yr holl athrawiaeth o gyfiawndad trwy ffydd, a'i breintiau cydfynedol, sef gwaredigaeth oddiwrth fellidith y ddeddf, maddenant pechodau, a'r addewid o'r Ysbryd Glân, yn nghyda chyfansoddiad a sefydliad yr eglwys Gristionogol.

Adn. 5. *Felly Isaac a anfonodd ymaith Jacob*] Tybia Coke ac ereill fod gan Jacob osgordl o weision a chamelod yn myned gydag ef, fel yr oedd gan Eleazar cyn hyn, pen. xxiv. 10, 32. Ond ni chrybwyllir dim am hyn yma, ebai Clarke, ac ymddengys fod y gwaithwyneb yn cael ei awgrymu mewn lle arall. Ymddengys oddiwrth adn. 11, ei fod ef yn cysgu allan, a chareg yn obenydd iddo; ac oddiwrth pen. xxxii. 10, ddarford iddo fyned ar ei draed, a'i fflon yn ei law; ac nid oes hyd yn nod y crybwylliad mwyaf anghyfeiriol

at Laban fab Bethuel y Syriad, brawd Rebecca, mam Jacob ac Esau.

6 ¶ Pan welodd Esau fendithio o Isaac Jacob, a'i anfon ef i Mesopotamia, i gymeryd iddo wraig oddiyno, a gorchymyn iddo wrth ei fendithio, gan ddywedyd, Na chymer wraig o ferched Canaan;

7 A gwrando o Jacob ar ei dad, ac ar ei fam, a'i fyned i Mesopotamia;

8 Ac Esau yn gwelod mai drwg oedd merched Canaan yn ngolwg Isaac ei dad:

9 Yna Esau a aeth at Ismael, ac a gymerodd Mahalath merch Ismael mab Abraham, chwaer Nebaioth, yn wraig iddo, at ei wragedd *ereill*.

am neb gydag ef, ac y mae yn debyg nad oedd neb. Diamau iddo gymeryd digon o luniaeth gydag ef i'w gario i'r wersyllfa neu y pentref nesaf ar y ffordd, lle y byddai iddo yn naturiol gymeryd chwangol o fara a dwfr i'w gario i'r lle nesaf, ac felly yn mlaen. Yr *olew* a dywalltodd efe ar y golfa a allai fod yn ychydig o'r hyn a ddygasai efe at ei wasan-aeth ei hun; ac ni all fod yn un rheswm fod ganddo lawnder o ymborth, gweision, camelod, &c. Yr oedd ganddo Dduw yn unig gydag ef.

Adn. 6—8. *Pan welodd Esau fendithio o Isaac Jacob, &c.*] Y mae hyn yn dyfod i mewn yn nghanol hanes Jacob, i ddangos dylanwad siampl dda. Y mae Esau yn awr yn dechreu meddwl mai Jacob oedd y dyn *goraf*, ac nid yw yn diystyru ei gymeryd ef yn gynllun iddo yn yr anghraifft neillduol hon o brodi merchi i Abraham.

Adn. 9. *Yna Esau a aeth at Ismael*] Tybia rhai fod Ismael wedi marw er's 14 mlynedd cyn hyn, pen. xxv. 17; ac mai yr ystyr yw, iddo fyned at *deulu* Ismael. Os dylwn yn cyfrif cyffredin, a chaniatau fod Isaac yn awr oddeutu 137 mlwydd oed, a Jacob yn 77, a chan i Ismael farw yn y flwyddyn 137 o'i oedran, pryd yr oedd Isaac oddeutu 123, yna rhaid fod Ismael wedi marw er's oddeutu 14 o flynyddau. Ond os dylwn ymresymiad cywrair Mr. Skinner a Dr. Kennicott, nad oedd Jacob y pryd hyn ond 57 mlwydd oed, nac Isaac o ganlyniad ond 117, ymddengys na bu farw Ismael hyd *chwe* blynedd wedi hyn; ac felly gellir dywedyd gyda phriodoldeb, 'Esau a aeth at Ismael.' *Ac a gymerodd Mahalath merch Ismael*—yr oedd *Mahalath*, yr hon a gymerth efe yn wraig, yn sefyll yn yr un berthynas âg Isaac ei dad, ag ydoedd *Rachel* â Rebecca ei fam. Priododd Esau nith ei *dud*; priododd Jacob nith ei *fam*. Gan hyn y mae yn dia amlwg mai i geisio boddhu ei rieni y cymerodd Esau y wraig chwangol hon. mewn dysgwylid am fendith arall, ac un well. Ond och! y mae ef yn ceisio gwella un bai trwy gyflawni un arall; ac yn gymeryd y drydedd wraig, pryd yr oedd ganddo un yn ormod o'r blaen.

Adn. 10. *A Jacob a aeth allan o Beer-sheba*] Y mae yr Iuddeuon yn son am llawer o wrythiau a gyflawnwyd ar y dydd yr aeth

10 ¶ A Jacob a aeth allan o Beer-sheba, ac a aeth tua Haran.

11 Ac a ddaeth ar ddamwain i fangre, ac a letyodd yno dros nos; oblegid machludo yr haul: ac efe a gymerth o gerig y lle hwnw, ac a osododd dan ei ben, ac a gysgodd yn y fan hono.

12 Ac efe a freuddwydiodd; ac wele ysgol yn sefyll ar y ddaear, a'i phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd: ac wele angylion Duw yn dringo ac yn disgyn ar hyd-ddi.

Jacob allan o Beer-sheba; megys, ddarfod i Dduw fyrhau yr oriau, a pheri i'r haul fachludo cyn ei anser; ddarfod i'r pedair careg a osodasai efe yn obenydd iddo gael eu gwneuthur yn un; a llawer o bethau cyffelyb.

Adn. 11. *Ac a ddaeth ar ddamwain i fangre, ac a letyodd yno dros nos*] Oddiwrth adn. 19 nyri a gawn mai y fangre hon oedd *Lus*, neu ryw ran o'r gymydogeaeth hono. Y mae yn debyg fod Jacob yn bwriadu cyraedd i *Lus*; ond trwy fod yr haul wedi machludo, a'r nos yn dyfod yn mlaen, naill ai ni allai ef gyraedd i'r ddinas, neu dichen ei fod yn ofni y trigolion, ac yn dewis yn hytraeh y maes agored, gan y rhaid ei fod wedi clywed am weddnod ac ymddygiad gwyr Sodom a Gomorra. Neu gallai fod y pyrth wedi eu cau erbyn iddo gyraedd at *Lus*, yr hyn a'i rhwystrai i fewn; canys y mae yn dygwydd yn fynych hyd hefyd, pan y mae ymdeithlwr heb gyraedd i ddinas yn y gwledydd dwyreiniol cyn cau y pyrth, eu bod yn gorfol dros tufaes i'r caeru trwy y nos, gan, ar ol unwaith eu cau, y gommeddant eu hagog hyd dranoeth. Y mae yn debyg mai fel hyn yr oedd yn bod gyda Jacob. *Ac efe a gymerth o gerig y lle hwnw*—hyn yw, a gymerth un o honynt, adn. 18. Yr oedd *Lus* oddeutu 48 o filldroedd o Beer-sheba; taith ormod i un diwrnod, trwy ffyrdd ag y gallwn eu tybied yn rhai drwg iawn.

Adn. 12. *Ac efe a freuddwydiodd*] A'r weledigaeth santiaid a ganfu a dalai yn dda am waeled ei wely. *Ac wele ysgol yn sefyll ar y ddaear, a'i phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd*—gallai hyn arddangos, (1.) RHAGLUNIAETH DUW, trwy yr hon y mae efe yn gwylio dros ac yn llywodraethu pob peth daearol; canys nid oes dim yn cael ei adael i achosion naturiol yn unig, eithr y mae offerynoiaeth ddywyfol yn treiddio ac yn cyfarwyddo y cwbl. Yr oedd yn dra angenrheidiol i Jacob yn ei amgylchiadau presenol, gael golwg eglur ar y pwnc hwn, fel y gallai ef fod yn fwy parod i gyfarfod â phob dygwddydd dan yr argyhoeddiad fod pob peth yn cydweithio er daioni iddo. (2.) Gallai fod yn cael ei fwriadu hefyd i nodi allan y gyweithas sydd rhwng nef a daear, a chysylltiad y ddau fyd trwy WEINDOGAETH ANGYLION. Fod hyn yn wirionedd a ddysgwn oddiwrth lawer o banesion yn yr Hen Destament; ac y mae yn athrawiaeth a ddysgir yn eglur yn y Newydd, Heb. i. 14. Y mae yr angylion yn ysbrydion gwasanaethgar, yn dringo ac yn disgyn yn barhaus. Y

13 Ac wele, yr Arglwydd yn sefyll arni: ac efe a ddywedodd, *Myfi yw Arglwydd Dduw Abraham dy dad, a Duw Isaac; y tir yr wyt ti yn gorwedd arno, i ti y rhoddaf ef, ac i'th had.*

14 A'th had di fydd fel llwch y ddaear; a thi a dori allan i'r gorllewin, ac i'r dwyrain, ac i'r gogledd, ac i'r deau: a holl deuluoedd y ddaear a fendithir ynot ti, ac yn dy had di.

15 Ac wele fi gyda thi; ac mi a'th gadwaf pa le bynag yr elych, ac a'th ddygaf drachefn i'r wlad hon: o her-

maent yn dringo, i roddi cyfiu o'r hyn a wnaethant, ac i dderbyn eirchion newydd; ac yn disgyn, i gyflawni yr eirchion hyn. (3.) Yr oedd yr ysgol hon ond odid yn gysgod o GYFRYNGODD CRIST, yn yr hwn y mae y ddau fyd yn cydgyfarfod, a'r natur ddwyfol a'r natur ddynol wedi eu huno. Yr oedd troed yr ysgol hon yn sefyll ar y ddaear, yn ei natur ddynol; a'i phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd, yn ei natur ddwyfol; ac felly yr oedd yn gysgod o DDUW wedi ymddangos yn y CNAWD. Nis gallai dim fod yn arwyddlun mwy priodol o'r enawdoliad a'i effeithiau; canys Crist, fel Cyfryngwr, sydd yn cysylltu nef â daear, a Duw â dyn. Trwyddo ef y mae Duw yn disgyn at ddyn, a dyn yn esgyn at Dduw. Ymddengys fod ein Harglwydd ei hun yn cymhwys y weledigaeth hon yn y ffordd yma, [1.] Yn y geiriau hynod hyn wrth Nathanael: 'Ar ol hyn y gwelwch y nef yn agored, ac angylion Duw yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn, Ioan i. 51. [2.] Yn ei ddywediad wrth Thomas, Ioan xiv. 6: 'Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwyof fi.' Y cymwynasau tirion ag y mae yr angylion yn eu gwneuthur i ni sydd oll trwy Grist, yr hwn a gymododd y pethau ar y ddaear a'r pethau yn y nefoedd, Col. i. 20.

Adn. 13. *Myfi yw Arglwydd Dduw Abraham dy dad, &c.*] Yma y mae yr Ail Person Dwyfol, yr hwn yn unig a ymddanghosai i'r patrieirch, (gwel pen. xvi. 7.) yn cadarnbau i Jacob fendith Abraham, am yr hon y gweddiasai Isaac, adn. 3, 4.

Adn. 14. *A'th had di fydd fel llwch y ddaear*] Y holl a ddisgynant oddiwrth ti fyddant dra lluosog; a thi a dori allan i'r gorllewin, ac i'r dwyrain, &c.—cyfeiria hyn, yn gyntaf, at feddiant gwlad eang Canaan, yr hon oedd yn gwynebu ar bedwar parth y byd; ac, yn ail, at hilogaeth ysbrydol Jacob, y rhai a ymlendant trwy yr holl ddaear. *A holl deuluoedd y ddaear*—nid yn unig y cwbl o'th hilogaeth di, ond hefyd yr holl deuluoedd neu y llwythau ereil o ddynolryw, y rhai ni ddeilliant oddiwrth un gangen o'r tenlu Abrahamaid; a fendithir ynot ti, ac yn dy had di—yr Arglwydd Iesu, yr hwn a ddisgyn oddiwrth ti yn ol y cnawd; canys Iesu Grist, 'trwy ras Duw, a brofai farwolaeth dros bob dyn,' Heb. ii. 9.

Adn. 15. *Ac wele fi gyda thi*] Pa le bynag y byddwn, yr ydym yn ddiogel, os cawn bre-

wydd ni'th adawaf, hyd oni wnelwyf yr hyn a leferais wrthyt.

16 ¶ A Jacob a ddeffrodd o'i gwsg; ac addwedodd, Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn, ac nis gwyddwn i.

17 Ac efe a ofnodd, ac a ddywedodd, Mor ofnadwy yw y lle hwn! nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nfoedd.

18 A Jacob a gyfododd yn fore, ac

a gymerth y gareg a osodasai efe dan ei ben, ac efe a'i gosododd hi yn golofn, ac a dywalltodd olew ar ei phen hi.

19 Ac efe a alwodd enw y lle hwnw, Bethel; ond Lus fuasai cnw y ddinas o'r cyntaf.

20 Yna yr addunodd Jacob adduned, gan ddywedyd, Os Duw fydd gyda myfi, ac a'm ceidw yn y ffordd

senoldeb grasol Duw gyda ni. Ni wyddai Jacob pa galedi a gai yn ngwasanaeth ei ewythr; ond gwyddai Duw am y cwbl, ac am hyn y mae yn addaw ei gadw *pa le bynag yr elai*. Yr oedd ef yn awr yn myned yn alltud i wlad bell; ond y mae Duw yn addaw ei ddwyn drachefn i'r wlad hon. Ymddanghosai fel wedi ei adael gan ei holl gyfeillion; ond y mae Duw yn rhoddi iddo y sicrwydd hwn, *Ni'th adawaf si di*.

Adn. 16. *Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn!* Ei fod wedi ei wneuthur yn breswylfa neillduol iddo ei hun; *ac nis gwyddwn i*—gwyddai Jacob yn dda fod yr Arglwydd yn mhob lle; ond gwyddai hefyd ei fod, yn yr amseroedd hyn, yn dewis rhyw leoedd neillduol i amlygu ei bresenoldeb gogoneddus vnddynt, at yr hyn y cyfeiria efe yma. Fel pe dywedasai, 'Lle wedi ei gysegru i'r Arglwydd ei amlygu ei hun i'w bobl ydwy hwn; ac ni wyddwn i ei fod yn ddim amgen na llanerch cyffredin.'

Adn. 17. *Ac efe a ofnodd!* Mor bell oedd ef oddiwrth ymchwyllo gyda'r weledigaeth ddwyfol hon! Pa fwyaf a welwn ni o Dduw, mwyaf o achos a gawn i ofni a chywilyddo yn santaidd ger ei fron ef. *Mor ofnadwy yw y lle hwn!*—rhaid fod ymddanghosiad yr ysgol, yr ANGYLION, a'r GOGONIANT DWYFOL yn mhen yr ysgol, wedi gadael argraffiadau dwys, pwysig, ac arswydus ar feddwl Jacob; a dyma yr achos o'r ddolef yn y testyn, 'Mor ofnadwy yw y lle hwn!' *Nid oes yma onid tŷ i Dduw*—preswylfa y Mawrhydi Dwyfol; *a dyma borth y nfoedd*—cyrchfa gyffredinol trigolion y byd uchod. Y mae rhai yn meddwl fod yn y geiriau hyn gyfeiriad at frenhinoedd a barnwyr yn cadw eu llysoedd yn mbyrth dinasoedd, lle yr eisteddent gyda'u gwylywyr a'u swyddogion: fel pe dywedasai Jacob, 'Yma y mae Duw yn cadw ei lys, ac yn cael gweini iddo gan ei angylion.' Y mae y Galdeaeg yn rhoddi i'r geiriau hyn droad cywrair: 'Nid yw y lle hwn yn le cyffredin, ond man ag y mae Duw yn ymlyfydu ynddo; a chyferbyn â'r lle hwn y mae porth y nef.' Ymddengys fod *Onkelos* o'r farn fod y porth neu y fynedfa i'r nef mewn gwirionedd *wechben* y lle hwn, a bod angylion Duw, pan yn disgyn i'r ddaear, yn dyfod trwy yr egoriad hwnw i'r lle yma, ac yn dychwelyd yr un ffordd; a gellir meddwl fod gan Jacob ei hun dyb gyffelyb.

Adn. 18. *A Jacob a gyfododd yn fore, ac a gymerth y gareg a osodasai efe dan ei ben, ac efe a'i gosododd hi yn golofn!* A'i gosododd hi ar ei phen yn y ddaear, neu ar ben twr o gerig creill, yn ol barn Patrick, fel y gallai sefyll

yn GORGOLOFN o'r weledigaeth annghyffredin a gawsai yn y lle hwn. Yr oedd adeiladu cofgolofnau o ddaioni Duw yn arferiad yn mhilith y patrieirch; ond trwy iddynt gael eu eamddefnyddio gan y cenedloedd, gwaharddwyd hwynt gan Dduw, *Lef. xxvi. 1. Ac a dywalltodd olew ar ei phen hi*—gan ei chysegro trwy hyn y Dduw, fel y byddai iddi gael ei hystyried yn *allor* ar yr hon y gellid tywallt diod-ofrymau, ac ofrymu ebyrth i Dduw; gwel ar pen. xxxv. 14. Yr oedd meini ac allorau cysegredig i addoliad dwyfol yn cael ei beneinio bob amser âg olew. Y mae traddodiad ffol yn aros eto, ddarfod i'r gareg a osodasai Jacob i fyny gael ei dwyn wedi hyn y Jerusalem, o ba le, yn mhen hir amser, y cymerwyd hi i'r Hispaen, o'r Hispaen i'r Iwerddon, o'r Iwerddon i'r Alban, ac arni yr eisteddai brenhinoedd yr Alban i'w coronu. Mynodd Edward I. ei dwyn i Westminster; ac yno yn awr y mae y gareg hon, a elwir COLOFN JACOB, a GOBENYDD JACOB, wedi ei gosod dan y gadair ar yr hon yr eistedd y brenin neu y frenhines with gael ei goroni!

Adn. 19. *Ac efe a alwodd enw y lle hwnw Bethel!* Hyn yw, Ty Dduw; oblegid yn ganlynol i'w waith yn *cneinio* y gareg, ac felly ei *chysgru* i Dduw, efe a'i hystyriai o hyn allan yn driga neillduol iddo ef. Dyld cynanu y gair hwn bob amser fel dwy sill ar wahan, ebai Clarke, ac acenu pob nn yn rymus, BETH EL. *Onid Lus fuasai enw y ddinas o'r cyntaf*—gan fod Lus yn arwyddo *almon*, *pren almon*, neu *gollen*, y mae yn debyg i'r ddinas gael ei henw cyntaf oddiwrth fod nifer o'r cyfryw brenau yn tyfu yn y parth hwnw. Eithr yr ymddanghosiad grasol hwn o eiddo Duw i Jacob a'i gwnaeth yn fwy nodedig na'r holl brenau almon a ffoeuent yn.

Adn. 20. *Yna yr addunodd Jacob adduned!* Adduned yw addewid ddiifrifol a santaidd, trwy yr hon y mae dyn yn ymrwymo i wneyd rhyw bethau penodol mewn ffordd ac ar amser neillduol, neu i beidio eu gwneuthur, a hyn mewn ymddibyniad ar Dduw am nerth i gyflawui y cyfryw; am hyn yr oedd pob adduned yn cael ei gwneuthur trwy apeliad neu weddi at Dduw. *Os Duw fydd gyda myfi, &c.*—ymddengys mai yr ystyr amlwg yw hyn: 'Os gwel Duw yn dda fy nghadw i, fel y gallwyf dychwelyd i'r lle hwn, yna mi a'i gogoneddaf ef yma mewn modd cyhoeddus a nodedig, trwy ymlynu yn ddiysgog wrth y wir grefydd yn nghanol yr cilunaddolwyr hyn; a'r man hwn, lle y gosodais i fyny golofn, a nodaf fel fy lle mwyaf diifrifol i addoliad cyhoeddus, pen. xxxv. 3; a'r ddeged o'r hyn oll a gaffwyf cyn dychwelyd, a gy-

yma, yr hon yr ydwyf yn ei cherdded, a rhoddi i mi fara i'w fwyta, a dillad i'w gwisgo,

21 A dychwelyd o honof mewn heddwech i dŷ fy nhad; yna y bydd yr Arglwydd yn Ddau i mi.

22 A'r gareg yma, yr hon a osodais yn golofn, a fydd yn dŷ Ddau; ac o'r hyn oll a roddech i mi, gan ddegymu mi a'i degymaf i ti.

PENNOD XXIX.

A JACOB a gymerth ei daith, ac a aeth i wlad meibion y dwyrain.

segraf i Ddnw.' Ond tybia Clarke ac ereill 'fod Jacob yn gwnethur yr adduned hon yn fwy dros ei *hiliogaeth* na throsto *ei hun*; a'i fod yn cyfeirio yn neillduol at yr addewidion a wnaethai Duw iddo gyda golwg ar *tuosogi ei had*, a'u *sefydlu* yn y wlad hono, adn. 13—15; ac os byddai i Ddau gyflawni yr addewidion hyn, y mae efe yn rhwymo ei *hiliogaeth* i adeiladu tŷ i Ddau, ac i gysegru y *ddegfed* o'u holl ddâ daearol at gynal ei achos ef.'

Adn. 21. *Yna y bydd yr Arglwydd yn Ddau i mi*] Yna bydd i mi gredu, caru, a llawenyachu ynddo fel fy Nuw i, ac ymrwymo yn gadarnach yn ei wasanaeth. Yr oedd Jacob yn ddiaw, er's hir amser cyn hyn, wedi dewis Jehofa yn Ddau iddo; a'r cwbl a feddylir yma, os yw yn llefaru drosto ei hun, yw ei benderfyniad i fod yn ffyddlonach yn ei wasanaeth ef.

Adn. 22. *A'r gareg yma, yr hon a osodais yn golofn, a fydd yn dŷ Duw*] Mi a adeiladaf allor yma er anrhydedd iddo, yr hyn a wnaeth yn ol ei addewid, pen. xxxv. 7. *Ac o'r hyn oll a roddech i mi, gan ddegymu mi a'i degymaf i ti*—at wasanaeth dy allor. Dyma yr ail le yn yr hwn y crybwyllir am *ddegum* yn cael ei gyflwyno i Ddau. Y mae Jacob yn ei addaw yma fel diolchgarwch am ei daith lwyddiannus, megys y rhoddasai Abraham ef yn ddiolchgarwch am ei fuddugoliaeth: gwel ar pen. xiv. 20. 'Sylwa Patrick yn dra synwrol,' ebai Coke, 'y gellir casglu yn lled sicr oddiyma fod Jacob yn cael ei dueddu i addunedu y ddegfed trwy yr arferiad ag yd-oedd y pryd hyny yn mysg pobl grefyddol. Pa fodd y daethant i benodi y gyfran hon mwy na'r *lummed*, yr *ugeinfed*, neu ryw un arall, nid yw yn hawdd penderfynu. Ond ymddengys eu bod hwy yn llefaru gyda llawer o reswm, y rhai a sylwiant mai yn y rhif *deg* y mae pob cenedl mewn ystyr yn dybenu eu cyfrif, ac yna yn dechreu eilwaith a rhifau cyfansawdd; neu, fel y mae ereill yn ei eirio, dyma ddiwedd y rhifau bychain, a dechread y rhai mawrion; nes yr oedd y rhif *deg* yn cael edrych arno fel y perffectiaf o bob un, ac o ganlyniad yn cael ei barchu yn fawr. (Gwel *Aristotle's Problems*, lib. iii. § 15.) Ond wedi y cwbl, ymddengys i mi yn debycach fod ganddynt ryw gyfarwyddyd dwyfol am dano, fel yr oedd ganddynt i aberthu.'—COKE.

PEN. XXIX. Adn. 1. *A Jacob a gymerth*

2 Ac efe a edrychodd, ac wele bydew yn y maes, ac wele dair deadell o ddefaid yn gorwedd wrtho; o herwydd o'r pydew hwnw y dyfrhaent y deadelloedd: a chareg fawr oedd ar enau y pydew.

3 Ac yno y cesglid yr holl ddeadelloedd: a hwy a dreiglent y gareg oddiar enau y pydew, ac a ddyfrhaent y praidd; yna rhoddent y gareg dra-chefn ar enau y pydew yn ei lle.

4 A dywedodd Jacob wrthynt, Fy mrodyr, o ba le yr ydych chiwi? A hwy a ddywedasant, O Haran yr ydym ni.

ei daith] Heb. 'a golodd ei draed.' Yr oedd y weledigaeth a'r addewid wedi rhoddi nerth ynddo, nes yr oedd ei galon wedi ei chodi, a'i draed yn teimlo yn ysgafn. *Ac a aeth i wlad meibion y dwyrain*—felly y gelwir trigolion Mesopotamia, a'r holl wlad tuhwnt i'r Euphrates, yn yr ysgrythyran santaidd.

Adn. 2. *Ac efe a edrychodd, ac wele bydew yn y maes*] Arweiniodd rhagluniath ef i'r maes hwnw lle yr oedd defaid ei ewythr i gael eu dyfrhau; ac yno y cyfarfyddodd efe â Rabel, yr hon oedd i fod yn wraig iddo. *Ac wele dair deadell o ddefaid yn gorwedd wrtho*—anaml y mae defaid, pan yn iach, yn yfed mewn gwledydd oerion; ond y mae yn debyg ei bod yn wahanol mewn gwledydd poethion. Nid oedd y tair deadell, (os *deadellau* ac nid *bugeiliaid* a feddylir,) y rhai a orweddent yn awr wrth y pydew, yn perthyn i Laban, ond i dri o benaethiaid ereill; canys yr oedd deadellau Laban i ddyfod eto, dan ofal Rabel, adn. 6. *A chareg fawr oedd ar enau y pydew*—gallai hon gael ei wriadiu i attal i'r ŵyn syrthio iddo; neu i ddiogelu y dwfr, yr hwn oedd ac sydd eto yn brin yn y wlad hono; neu ynte i gadw y pydew rhag y tywod a chwythid gan y gwyntoedd, yr hyn yn debygol a'i cauasai i fyny yn ebrwydd. Gwyddom mai yr olaf hwn yw y rheswm paham y maent yn gorchuddio eu pydewau yn Arabia, ac amrai barthau ereill o'r dwyrain.

Adn. 3. *Ac yno y cesglid yr holl ddeadelloedd*] Yn lle *haadarim*, 'deadelloedd,' y mae y Samaritanaeg yn darllen *haroim*, 'bugeiliaid;' dros ba ddarleniad y dadleua Houbigant yn gryf yn hon ac adn. 8. Diau nas gellir dywedyd i'r 'holl ddeadelloedd dreiglo y gareg oddiar enau y pydew, a dyfrhau y praidd;' ac eto felly yr ymddengys y darleniad os dewiswn y testyn Hebreig cyffredin o flaen y Samaritanaeg. Y mae yn debyg mai yr un darleniad oedd yn wreiddiol i'r ail adnod hefyd: gwel Clarke, Coke, &c.

Adn. 4. *Fy mrodyr, o ba le yr ydych chiwi?*] Iaithe Laban a'i deulu oedd y Galdeae, ac nid yr Hebraeg, pen. xxxi. 47; ond oddiwrth yr *enau* a roddes Lea i'w phlant, nyni a welwn fod yn y ddwy iaithe lawer o eiriau yr un fath, ac am hyny gallai Jacob a'r bugeiliaid ddeall eu gilydd gydag ychydig anhawsder. Dichon hefyd fod Jacob wedi dysgu y Galdeae neu yr Aramaeg oddiwrth

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, A adwaenoch chiwi Laban fab Nacor? A hwy a ddywedasant, Adwaenom.

6 Yntau a ddywedodd wrthynt hwy, A oes llwyddiant iddo ef? A hwy a ddywedasant, Oes, liwyddiant: ac wele Rahel ei ferch ef yn dyfod gyda'r defaid.

7 Yna y dywedodd efe, Wele eto y dydd yn gynar, nid yw bryd casglu yr anifeiliaid: dyfrhewch y praidd, ac ewch, a bugeiliwch.

8 A hwy a ddywedasant, Ni allwn ni, hyd oni chasgler yr holl ddeadell-oedd, a threiglo o honynt y gareg oddiar wyneb y pydew; yna y dyfrhawn y praidd.

9 ¶ Tra yr ydoedd efe eto yn llefaru wrthynt, daeth Rahel hefyd gyda'r praidd oedd eiddo ei thad; oblegid hi oedd yn bugeilio.

10 A phan welodd Jacob Rahel

ferch Laban brawd ei fam, a phraidd Laban brawd ei fam; yna y nesaodd Jacob, ac a dreiglodd y gareg oddiar enau y pydew, ac a ddyfrhaodd braidd Laban brawd ei fam

11 A Jacob a gusanodd Rahel, ac a ddyrchafodd ei lef, ac a wylodd.

12 A mynegodd Jacob i Rahel, mai brawd ei thad oedd efe, ac mai mab Rebecca oedd efe: hithau a redodd ac a fynegodd i'w thad.

13 A phan glybu Laban hanes Jacob mab ei chwaer, yna efe a redodd i'w gyfarfod ef, ac a'i cofleidiodd ef, ac a'i cusanodd, ac a'i dyg ef i'w dŷ: ac efe a fynegodd i Laban yr holl bethau hyn.

14 A dywedodd Laban wrtho ef, Yn ddiau fy asgwrn i a'm cnawd ydyt ti: ac efe a drigodd gydag ef fis o ddyddiau.

15 ¶ A Laban a ddywedodd wrth

ei fam, gan mai hon oedd ei liaith [hi. *O Haran yr ydym ni*—lle yr oedd ei ewythr Laban yn trigianu, pen. xxvii. 43.

Adn. 5. *A adwaenoch chiwi Laban fab Nacor?*] Y mae mab yn cael ei roddi yma am wŷyr, yn ol arferiad cyffredin y dwyreiniwyr, adn. 12; canys Laban oedd fab i Bethuel fab Nacor. Ac y mae Nacor yn cael ei enwi yn lle Bethuel, am mai efe oedd sylfaenydd y teulu, pen. xxxi. 53.

Adn. 6. *A oes llwyddiant iddo ef?*] A ydyw ef yn fyw ac yn iach? Ac ar hyn, *welw Rahel ei ferch ef yn dyfod gyda'r defaid*—y mae rachel yn arwyddo *dafod*, ac y mae yn debyg iddi hi gael ei henw oddiwrth ei hoffder o'r creaduriaid hyn.

Adn. 7. *Wele eto y dydd yn gynar*] Nid yw eto fawr dros hanner dydd; *nid yw bryd casglu yr anifeiliaid*—nid yw yn amser i'w corlanu eto: gan hyny rhoddwch iddynt ddwfr, a chymerwch hwynt drachefn i bori. Yna y mae Jacob yn dangos ei fedrusrwydd a'i brofiad yn ngwaith y bugail.

Adn. 8. *Ni allwn ni, hyd oni chasgler yr holl ddeadelloedd*] Y mae yn rheol na chaffi y gareg mo'i symud nes i'r holl fugeiliaid a'r deadelloedd ag sydd yn meddu hawl i'r pydew hwn fod wedi cydyngynnall. Y pryd hyny, ac nid cynt, y gallwn ni ddyfrhau y defaid.

Adn. 9. *Daeth Rahel hefyd gyda'r praidd oedd eiddo ei thad*] Dichon fod ganddi weiniogion dani, y rhai a gyflawnt y rhanau isaf a chaletaf o'r swydd. Modd bynag, nid oedd islaw urddas merched y penaethiaid cyfoethocaf fod iddynt gario dwfr o'r ffynnon, fel yn achos Rebecca; neu fugeilio defaid, fel yn achos Rahel. Yr oedd eu prif gyfoeth yn yr amseroedd hyny yn gynwysedig mewn *deadelloedd*; a phwy mor addas i ofalu am danynt ar'r rhai a deimlent ddyddordeb yn eu diogelwch a'u cynydd? Y mae llafur gonest, yn mhell oddiwrth fod yn warth, yn *anrhydedd* i uchel ac isel. 'Wrth dir llafur y mae y

brenin yn byw, Preg. v. 9; ac hebdo ef, a'r drafferth angenrheidiol i'w ddiwyllio, byddai raid i bob gradd drengu. Felly boed i bob mab a phob merch ddysgu nad yw yn un dianrhydedd cyflawni y swydd iselaf, trwy yr hon y gall lies y teulu gael ei ddwyn yn mlaen yn *onest*, pa bryd bynag y byddo hyny yn angenrheidiol.

Adn. 10. *A phan welodd Jacob Rahel, &c.*] Pan ddeallodd Jacob mai hon oedd Rahel ei gyfnither, a chan wybod pa beth oedd ei neges ef i'r wlad hono, gallwn dybio iddo feddwl yn ebrwydd mai hon fyddai ei wraig; ac wedi ei ennill gan yr olwg ar ei gynebrpryd diwair a phrydweddol, (er yn debygol yn felyn, a hithau yn ngwisg gyffredin bugeiles,) y mae efe yn gymwynasgar yn ei gwasanaethu, ac yn ei chyfarch â dagrau o lawenydd a chusanau o gariad, adn. 11. *Yna y nesaodd Jacob, ac a dreiglodd y gareg*—felly ymddengys mai praidd Laban oedd yr olaf o'r rhai a feddnt hawl i'r pydew, adn. 8; ac wedi i'r praidd hwnw yn awr dyfod, cynorthwyodd Jacob y bugeiliaid i dreiglo y gareg oddiar enau y pydew, canys nid yw yn debyg ddarford iddo wneyd hyny ei hun. *Ac a ddyfrhaodd braidd Laban*—i arbed Rahel.

Adn. 11. *A Jacob a gusanodd Rahel*] Oddiar gariad ati fel ei gyfnither, ac ond odid fel un a hoffai yn wraig, gwel ar adn. 10; *ac a ddyrchafodd ei lef*—fe allai mewn diolchgarwch i Dduw am y ffafir a ddangosasai efe iddo wrth ei dywys mor bell a hyn mewn heddwch a diogelwch; ac a wylodd—oddiar deimlad o ddaioni ei Dad nefol, a'i aunheilnyngdod ei hun o'r llwyddiant a gawsai.

Adn. 12. *A mynegodd Jacob i Rahel mai brawd ei thad oedd efe*] lluny yw, *nai* ei thad; oblegid y mae yr holl berthynasau agos yn cael eu galw yn *frodryr* yn yr Hebraeg, adn. 15.

Adn. 13. *Ac efe a fynegodd i Laban yr holl bethau hyn*] Yn nghylch ei daith, yr achos o honi, a'r hyn a welasai ar y ffordd.

Jacob, Ai o herwydd mai fy mrawd wyt ti, y'm gwasanaethi yn rhad? mynega i mi beth fydd dy gyflog?

16 Ac i Laban yr oedd dwy o ferched: enw yr hyaf oedd Lea, ac enw yr ieuangaf oedd Rahel.

17 A llygaid Lea oedd weiniaid; ond Rahel oedd dëg ei phryd, a glan-deg yr olwg.

18 A Jacob a hoffodd Rahel; ac a

ddywedodd, Mi a'th wasanaethaf di saith mlynedd am Rahel dy ferch ieuangaf.

19 A Laban a ddywedodd, Gwell yw ei rhoddi hi i ti, na'i rhoddi i wr arall: aros gyda mi.

20 Felly Jacob a wasanaethodd am Rahel saith mlynedd: ac yr oeddnyt yn ei olwg ef fel ychydig ddyddiau, am fod yn hoff ganddo efe hi.

Adn. 14. *Fy asgurn i a'm enawd ydwy't ti*] Un o'm perthynasau agosaf.

Adn. 15. *Ai o herwydd mai fy mrawd wyt ti y'm gwasanaethi yn rhad?*] Fel pe dywedasai, Er mai fy mherthynas agosaf ydwy't, eto nid oes genyf hawl i'th wasanaeth heb roddi i ti ad-daliad cyfartal. Yr oedd Jacob wedi bod fis cyfan yn rheulu Laban, lle y bu efe yn ddi-amau o gryn wasanaeth. *Mynega i mi beth fydd dy gyflog*—o hyn allan. Gan fod Laban, yr hwn oedd o duedd led *gymil*, os nid *cybydd-lyd*, yn gweled fod Jacob yn debyg o fod o ddefnydd mawr iddo ef yn ei orchwylion tymborol, efe a chwennychai sicrhau ei wasanaeth, ac am hyn y mae yn gofyn iddo pa gyflog a ewyllysiai ei gael.

Adn. 16. *Ae i Laban yr oedd dwy o ferched*] Y rhai y tybir eu bod yn llawer yn ieuangach na Jacob, yr hwn a raid fod yn awr o leiaf yn 57, os nid yn 77 mlwydd oed: gwel ar pen. xxviii. 1.

Adn. 17. *A llygaid Lea oedd weiniaid*] Heb. *raccoth*, 'tyner, tlws, cariadus.' Credwyf, meddai Clarke, fod y gair yn meddwl y *gwerthwyneb* yn gymhwys i'r ystyr a roddir iddo yn gyffredin. Amcan yr ysgrifenydd ysbrydoleiddig yw *cymharu* y ddiwy chwaer a'u gilydd, fel y gallo y fantol ymddangos yn fawr o blaid Rahel. Canmoliaeth benaf LEA oedd ei llygaid tyner a phrydferth; ond RAHEL oedd dëg ei phryd—*yephath toar*, brydferth yn ei llun, ei pherson, ei hagwedd, a'i cherddediad; a *glandeg yr olwg*—*yephath march*, brydferth yn ei gwynebryd. Y mae y geiriau yn amlwg yn arwyddo *llun* hardd a *gwyneb* hardd, sef pob peth a ellir ei rystyried fel yn hanfodol i harddwech personol.

Adn. 18. *A Jacob a hoffodd Rahel*] Ac yr oedd yn foddol i fod yn *gathwas* am saith mlynedd, fel y gallai ei chael hi yn wraig; canys yn ei sefyllfa anghenus ef ni allai roddi gwaddol; ac yr oedd yn arferiad yn yr amseroedd hyny i'r tad dderbyn cyfran am ei ferch, ac nid rhoddi peth *gyda* hi: gwel ar adn. 20.

Adn. 19. *Gwell yw ei rhoddi hi i ti, na'i rhoddi hi i wr arall*] Y mae atebiad Laban yn dywll a dicheiliagar; canys nid yw ef yn gyfeiriol yn caniatáu dymuniad Jacob, ond yn unig yn awgrymu ei gydsyniad i hyny, ac yn y fath eiriau ag sydd yn cuddio ei fwriad, fel y dengys y canlyniad.

Adn. 20. *Felly Jacob a wasanaethodd am Rahel saith mlynedd*] Ymddengys ei bod yn arferiad yn mllith pob cenedl yn yr hen amseroedd i ddynion roddi *gwaddol* am eu gwragedd, ac mewn llawer o wledydd y mae yr arferiad yma yn parhau eto. Pan ofynodd Sicem

am Dina yn wraig, efe a ddywedodd, 'Gosodwch arnaf fi ddifrawf *gynysgaeth a rhodd*, a mi a roddaf fel y dywedoch wrthyf,' pen. xxxiv. 12. Pan yr aeth Eleazer i geisio Rebecca i Isaac, efe a gymerth helaethrwydd o gyfoeth gydag ef, sef *arian, aur, tlysau a gwisgoedd*, yn nghyda *phethau gwerthfawr* ereill, y rhai, pan wnaed y cytundeb, a roddes efe i Rebecca, ei mam, a'i brawd, pen. xxiv. 10, 22, 53. Darfu i'r profiwyd Hosea *brymu* ei wraig 'er pymtheng o arian, a hoser a hanner o haidd,' pen. iii. 2. Yr oedd yr un arferiad yn bodoli yn mllith yr hen Roegiaid, yr Indiaid, a'r Ellmyn. Yr oedd gan y Rhufeiniaid hefyd fath ar briodas a elwid *per eoemptionem*, 'trwy bryniad.' Y mae y Tartariaid a'r Tyrciaid yn prynu eu gwragedd eto; ond yn mllith y rhai olaf prynir hwynt fel math ar *gaethforwynion*. Crybwylla *Herodotus* am arferiad tra hynod yn mllith y *Babiloniaid*, yr hwn a all dafu goleuni ar ymddygiad Laban tuag at Jacob. 'Yn mhob talaeth y maent yn ffynyddol yn cynull yr holl wryfion priodadwy ar ddydd penodol; ac wedi i'r dynion ddyfod yn nghyd, a sefyll o amgylch y lle, y mae y criwr yn sefyll i fyny, ac yn gwerthu y naill ar ol y llall, gan ddwyn yr *harddaf* yn nulaen bob anser yn gyntaf; ac wedi iddo ei gwerthi hi am swm mawr o aur, y mae yn gosod i fyny yr hon a fernir yn ail mewn harddwech. Ar yr achlysur hwn arferia y rhai cyfoethocaf o'r Babiloniaid ymryson am y wraig lanaf, a chynyg oddiar eu gilydd. Eithr y werin a foddlonant i gymeryd yr hagr a'r gloff *gydag arian*; canys wedi i'r holl wryfion heidd gael eu gwerthu, y mae y criwr yn gorchymyn i'r *fwyaf astuniaidd* sefyll i fyny; ac ar ol iddo ofyn yn gyhoeddus pwy a'i prioda hi *gyda swm bychan*, fe'i rhoddir o'r diwedd i'r dyn a foddlonna i'w phriodi gyda'r *leiaf*. Ac fel hyn y mae yr arian a godwyd oddiwrth werthiad y rhai *hardd*, yn cael eu rhoddi yn gynysgaeth gyda'r rhai hylly yr olwg, neu y rhai a feddant ryw amherffeithrwydd corfforol.' Gwel *lib. i. e. 196*. Fel hyn defnyddiodd Laban *harddwech* Rahel i'r dyben i gael ymaddael a'i ferch Lea, a hyny yn ysbryd yr arferiad Babilonaidd, er nad yn y llythren. *Ac yr oeddynt yn ei olwg ef fel ychydig ddyddiau*—pa fodd? neu paham? Y mae y geiriau nesaf yn ateb, *Am fod yn hoff ganddo efe hi*—yr oedd y rhagolwg weniethiol o fwynhau Rahel serchus yn mhien y saith mlynedd, a'r anwylddeb o'i chyfeillach hyfrydol yn y cyfanser, yn peri i'r yspaid hwn o ddysgwyliaid edrych yn fyr ac ysgafn. Tybiodd rhai ddardod i Jacob briodi yn *nechre* y saith mlynedd, am na buasai i'r anser heb hyny ym-

21 ¶ A dywedodd Jacob wrth Laban, Moes i mi fy ngwraig (canys cyflawnwyd fy nyddiau) fel yr elwyf ati hi.

22 A Laban a gasglodd holl ddynion y fan hōno, ac a wnaeth wledd.

23 Ond bu yn yr hwyr, iddo gymeryd Lea ei ferch, a'i dwyn hi ato ef; ac yntau a aeth ati hi.

24 A Laban a roddodd iddi Zilpa ei forwyn, yn forwyn i Lea ei ferch.

25 A bu, y bore wele Lea oedd hi: yna y dywedodd efe wrth Laban, Paham

y gwnaethost hyn i mi? onid am Rahel y'th wasanaethais? a phaham y'm twyllaist?

26 A dywedodd Laban, Ni wneir felly yn ein gwlad ni, gan roddi yr ieuangaf o flaen yr hynaf.

27 Cyflawna di wythnos hon, a ni a roddwn i ti hon hefyd, am y gwasanaeth a wasanaethi gyda mi eto saith mlynedd ereill.

28 A Jacob a wnaeth felly, ac a gyflawnodd ei hwythnos hi: ac efe a roddodd Rahel ei ferch yn wraig iddo.

ddangos yn fyr iddo ef: ond ymddengys fod y testyn yn hollol groes i'r dyb hon; a rhaid i ni gofio fod Rahel yn gydymaith barhaus iddo, yr hyn a wna'i i'r amser fyned heibio yn hyfrydol. Megys nad oedd gwasanaeth o saith mlynedd yn ymddangos i Jacob ond bychan mewn cymhariaeth i werth Rahel; felly ni fydd i oes o wasanaeth grefyddol ymddangos ond fel ychydig dyddian i'r rhai sydd yn caru Duw, ac yn hiraethu am ymddangosiad Crist.

Adn. 21. *Moes i mi fy ngwraig*] Gallai yn awr ei galw yn *wraig* iddo gyda phriodoldeb, gan iddo gyflawni ammodau yr ymrwymiad. *Canys cyflawnwyd fy nyddiau*—y mae y saith mlynedd yn awr ar ben, yn y rhai y'th wasanaethais fel gwaddol am dani.

Adn. 22. *A Laban a gasglodd holl ddynion y fan hōno*] Fel y byddai i'r briodas fod yn fwy pwysig a chyhoeddus, ac fel na fyddai i Jacob, wedi ei ddychrynu â'u presenoldeb a'u hawdurdod, gynyg diddymu y briodas a gwrthod Lea. *Ac a wnaeth wledd*—y mae *mishtek* yn arwyddo gwledd o *yfed*. Gan fod priodas yn ammod dra phwysig, y mae lle i greu, fel y sylwa Clarke, fod *aberthau* yn cael eu hoffrymu ar yr achlysur, a *diod-offrymau* yn cael eu tywallt; a gwyddom, ar achosion o wledd, fod cwpanaid o *win* yn cael ei roddi i bob gwestai; a chan yr yfïd hwn gyda defodau neillduol, gallai y wledd gael ei henw oddiwrth yr amgylchiad yma.

Adn. 23. *Ond bu yn yr hwyr iddo gymeryd Lea ei ferch*] Gan y byddai y briodferch bob amser yn gwisgo *gorchudd*, a'i hystafell yn gyffredin yn *dyneyll*, neu yn agos felly, a chan i Lea gael ei dwyn at Jacob yn yr *hwyr*, gallai y twyll a gyflawnwyd yma basio yn hawdd yn ddiarwybod i Jacob, nes i'r dydd dranoeth ei ddatguddio. Diamau i'r twyll hwn fflino Jacob yn ddifawr; a dichon iddo ddygwyl fel cosp arno am y twyll a arferasai efe yn nysodliad ei fraud.

Adn. 24. *A Laban a roddodd iddi Zilpa ei forwyn*] Ni fyddai neb yn y dwyrain ond pob dra thylodion yn priodi eu merch heb roddi iddi gaethforwyn yn ystafellyddes, trwy nad oedd yno weinidogion cyflog, fel yn Ewrop; ac yr oedd y caethesau hyn wedi hyn y gwbl yn eiddo y wraig, heb gan y gŵr un awdurdod drostynt. Gwel CHARDIN.

Adn. 25. *Paham y gwnaethost hyn i mi?*] Fel hyn Jacob, yr hwn a dwyllodd ei dad ei hun, a dwyllwyd yn awr gan ei dad-ynghyfraith.

Adn. 26. *Ni wneir felly yn ein gwlad ni, gan roddi yr ieuangaf o flaen yr hynaf*] Ond dylasai Laban ddywedyd hyn wrth Jacob ar y cyntaf, ac nid ei gelu, a gadael iddo wasanaethu saith mlynedd am yr ieuangaf. Yn mhlith yr Hindŵaid edrychir arno eto fel go-dineb, os bydd i ŵr roddi ei ferch *ieuangaf* mewn priodas, tra y byddo y chwaer *hynaf* yn aros heb briodi; ac y mae yn dra thebyg ei bod felly yn Haran.

Adn. 27. *Cyflawna di wythnos hon, a ni a roddwn i ti hon hefyd*] Ymddengys fod y wledd briodasol yn parhau *saith niwrnod*, meddai Clarke; gan hynny ni fuasai yn weddus tori i fyny yr arddedofau, i'r rhai y gwahoddesid holl ddynion y fan hōno, adn. 22; ac y mae yn debyg fod Laban yn ewyllysio cadw ei *dwyll* yn ddirgel: gan hynny efe a ddywed wrth Jacob, os byddai iddo gyflawni wythnos briodasol Lea, y rhoddai efe Rahel iddo yn ei diwedd hi, ar yr ammod iddo wasanaethu saith mlynedd ereill. I hyn yr oedd angenrheidrwydd yr achos yn peri i Jacob g dysynio; ac felly cafodd Laban wasanaeth pedair blynedd ar ddeg yn lle *saith*; canys nid yw yn debyg y gwasanaethasai Jacob hyd yn nod saith *niwrnod* am Lea, gan fod ei serch wedi ei osod yn gwbl ar Rahel, y wraig o'i ddewisiad ei hun. Trwy yr ystryw yma cafodd Laban ŵr i'w ddwy ferch.

Adn. 28. *Ac efe a roddodd Rahel ei ferch yn wraig iddo*] Y mae yn berffaith eglur na wasanaethodd Jacob saith mlynedd ereill *cyn* iddo gael Rahel yn wraig; eithr wedi iddo dreulio wythnos gyda Lea, ac i gadw y wledd briodas, yna efe a gafodd Rahel, ac a wasanaethodd wedi hynny saith mlynedd am dani *hithau*. Gelwir cysylltiadau o'r fath yma yn awr yn *ymlosgach*; ond ymddengys eu bod yn oddefol yn yr hen amseroedd hynny. Nid ymddengys fod un bai yn nglŷn a Jacob wrth gymeryd y ddwy chwaer, er iddo ef yn ganlynol i hynny gael ei fflino gan eu heiddigodd. Y mae yn debyg mai o achos hyn y gwnaed y gyfraith, 'Na chmyer wraig yn nghyd a'i chwaer, i'w chystuddio hi, gan noethi noethni hōno gyda'r llall, yn ei byw hi,' Lef. xviii. 18. Ar ol hyn cafodd pob cyfryw briodas ei chwbl wabardd.—CLARKE. Y mae *tri* math o bechodan—rhai yn erbyn deddf natur, yn erbyn gorchymyn pendant, ac yn erbyn defod y wlad. Yn erbyn deddf natur, diau na phechodd y dyn da hwn, gan nad oedd yn bwriadu yn hyn ond lluosogiad yn unig, ar

29 Laban hefyd a roddodd i Rahel ei ferch, Bilha ei forwyn, yn forwyn iddi hi.

30 Ac efe a aeth hefyd at Rahel, ac a hoffodd Rahel yn fwy na Lea, ac a wasanaethodd gydag ef eto saith mlynedd ereill.

31 ¶ A phan welodd yr Arglwydd mai cas oedd Lea, yna efe a agorodd ei chroth hi: a Rahel oedd amhlantadwy.

32 A Lea a feichiogodd, ac a esgorodd ar fab, ac a alwodd ei enw ef Reuben: o herwydd hi a ddywedodd, Diau edrych o'r Arglwydd ar fy nghystudd; canys yn awr fy ngŵr a'm hoffa i.

33 A hi a feichiogodd eilwaith, ac a esgorodd ar fab, ac a ddywedodd, Am glywed o'r Arglwydd mai cas ydwyf fi; am hyny y rhoddodd efe i mi lwn hefyd; a hi a alwodd ei enw ef Simeon.

34 A hi a feichiogodd drachefn, ac a esgorodd ar fab, ac a ddywedodd, Fy ngŵr weithian a lŷn yn awr wrthyf fi, canys plentais iddo dri mab: am hyny y galwyd ei enw ef Lefi.

35 A hi a feichiogodd drachefn, ac a esgorodd ar fab, ac a ddywedodd, Weithian y molianaf yr Arglwydd: am hyny y galwyd ei enw ef Juda. A hi a beidiodd a phlanta.

wahan oddiwrth bob nwyfiant neu anwedd-eidd-dra: yn erbyn gorchymyn pendant ni allai, gan nad oedd y pryd hyny un gwaharddiad o'r fath: ac am ddefod y wlad, yr oedd hōng yn gwbl o'i blaid.—AWSTIN. Ond dywed ein Harglwydd mai nid felly yr oedd o'r dechread, ac am hyny gallwn feddwl fod hyn yn groes i ddeddf natur yn gystal a deddf yr efengyl: gwel ar pen. ii. 24, a xvi. 2; Mat. xix. 4—8.

Adn. 29. *Bilha ei forwyn*] Gwel ar adn. 24.

Adn. 30. *Ac efe a aeth hefyd at Rahel*] Yn gystal ag at Lea, yn ystod yr ail saith mlynedd, &c.

Adn. 31. *A phan welodd yr Arglwydd mai cas oedd Lea*] Yn ngolwg Jacob; yna efe a agorodd ei chroth hi—*a'i* bendithiodd hi â phlant, tra yr oedd Rahel, yn hon a garai efe yn fwy, yn parhau yn amhlantadwy. Yr oedd hyn yn *sen* i Jacob am wneyd y fath wahaniaeth mawr rhwng rhai ag y perthynai efe yn gvfartal iddynt; yn *gerydd* i Rahel, yr hon fe allai a ddirmygai ei chwaer; ac yn *gy-sur* i Lea, fel na lethid hi gan y diystyrwch a ddangosid iddi. Oddiwrth hon a'r adnod flaenorol cawn wir ystyr y gair *sane*, 'casâu,' mewn rhai lleoedd dadleuedig yn yr ysgrythrau. Y mae y gair yn unig yn arwyddo *gradd lai o gariad*, fel yr eglurwyd ar Rhuf. ix. 13. Felly y dywedir yma yn adn. 30, i Jacob hoffi Rahel yn *fwy* na Lea; hyny yw, efe a garai Lea yn *llai* na Rahel; a hyn a elwir yn *gasâu* yn y testyn. Y mae mynych gyweithas Jacob â Lea, fel y dangosir yn yr adnodau dilynol, yn profi yn ddigonol na *chasaodd* efe hi yn yr ystyr ag sydd i'r gair yn ein plith ni; eithr efe a deimlai ac a ddangosai lai o serch ati hi nag at ei chwaer. Deisyfir i'r darlennydd droi at Rhuf. ix. 13, lle yr eglurwyd y pwnc hwn yn helaeth.

Adn. 32. *Ac a alwodd ei enw ef Reuben*] Yr hyn yn llythyrenol a arwydda, GWELWCH neu WELF FAB! *Diau edrych o'r Arglwydd ar fy nghystudd*—a'r canlyniad yw, welw genyf fab! Dichon ei bod yn meddwl mai efe oedd yr had addawedig.

Adn. 33. *Ii a alwodd ei enw ef Simeon*] Oddiwrth *shimon*, CLYWED; *am glywed o'r Arglwydd mai cas ydwyf fi*—hyny yw, ben-

dithiodd Duw fi â mab arall, am iddo *glywed* fy mod yn cael fy ngharu yn *llai* na Rahel.

Adn. 34. *Galwyd ei enw ef Lefi*] Yr hyn a arwydda GLYNEDIG; canys tybiodd y byddai i Jacob, ar ol cael yr holl blant hyn, *lynu* wrthi hi mewn serch mor gryfed o leiaf ag wrth Rahel. Oddiwrth Lefi y deilliodd llwyth y *Lefiaid*, y rhai, yn lle y cyntafanedigion, a *lynwyd* wrth yr offeiriad yn ngwasanaeth y cysegr, Num. xviii. 2, 4.

Adn. 35. *Galwyd ei enw ef Juda*] Oddiwrth *yehudah*, CYFFESWR; un yn cydnabod Duw, ac yn cyfaddef fod pob da yn dyfod o'i law ef, ac yn rhoddi iddo y *mawl* dyledus i'w ras a'i drugaredd. Oddiwrth y patriarch hwn y cafodd yr *Iuddeon* eu henw; a phe gellid yn awr ei gymhwyso yn briodol atynt hwy, arwyddai eu bod yn hōbl ag sydd yn *cyffesu* Duw, yn *cydnabod* ei haelioni, ac yn ei *foliannu* am ei ras. *A hi a beidiodd â phlanta*—am dro, nid am byth; canys cawn yn y benod nesaf iddi ymddwyn plant eilwaith i Jacob.

ADFEDDYLIADAU.—Y mae gofal deallol a duwiol trigolion gwreiddiol y byd i alw eu plant wrth enwau a ddarluniant ryw ddygwyddiad llynod mewn rhagluniaeth, amgylechiad eu genedigaeth, neu helynt teuluaid, yn deilwng nid yn unig o *barch*, ond o *efelychiad*. Gan y byddai i'r *enw* ei hun alw yn barhaus i gof y rhieni a'r plentyn yr *amgylechiad* oddiwrth ba un y gwreiddiodd, ni allai lai na bod yn fendith barhaus i'r naill a'r llall. Mor dra gwahanol yw ein harferiad ni! Yn ddi-feddwl ac yn annuwl, yr ydym yn rhoddi enwau ar ein hiliogaeth fel y gwnawn ar ein hanifeiliaid; ac yn aml y mae y ci, y march, yr epa, a'r aderyn, yn gydyfranog â'n plant o'r enwau a elwir yn *Gristionogol*! Y mae rhai o'n henwau Cristionogol, fel eu gelwir, yn *wrthun*, ereill yn *warthus*, a'r trydydd rhestr yn *anfud*, trwy fod y rhai olaf hyn wedi eu cymeryd oddiwrth dduwiau a duwiesau cythreullig paganiaeth. A allwn ni oethio y bydd i'r arferiad rhesymol a duwiol a gynhellir yn yr ysgrythrau gael byth ei adferyd hyd yn nod yn mllith y rhai ag sydd yn proffesu eu bod yn *credu*, *ofni*, a *charu* Duw! —CLARKE.

PENNOD XXX.

PAN welodd Rahel na phlantasai hithau i Jacob, yna Rahel a genfigenodd wrth ei chwaer, ac a ddywedodd wrth Jacob, Moes feibion i mi; ac onidè mi a fyddaf farw.

2 A chyneuodd lliid Jacob wrth Rahel; ac efe a ddywedodd, Ai myfi sydd yn lle Duw, yr hwn a attaliodd ffrwyth y groth oddiwrthyt ti?

3 A dywedodd hithau, Wele fy llawforwyn Bilha, dos i mewn ati hi: a hi a blanta ar fy ngliniau i, fel y caffer plant i minau hefyd o honi hi.

4 A hi a roddes ei llawforwyn Bil-

ha iddo ef yu wraig, a Jacob a aeth i mewn ati.

5 A Bilha a feichiogodd, ac a ymddyg fab i Jacob.

6 A Rahel a ddywedodd, Duw a'm barnodd i, ac a wrandawodd hefyd ar fy llais, ac a roddodd i mi fab: am hyny hi a alwodd ei enw ef Dan.

7 Hefyd Bilha, llawforwyn Rahel, a feichiogodd cilwaith, ac a ymddyg yr ail mab i Jacob.

8 A Rahel a ddywedodd, Ymdrechais ymdrechiau gorchestol a'm chwaer, a gorchfygais: a hi a alwodd ei enw ef Naphtali.

9 Pan welodd Lea beidio o honi a

PEN. XXX. Adn. 1. *Yna Rahel a genfigenodd wrth ei chwaer*] Yr oedd y gwragedd Hebraidd yn ystyried amhblantadrwydd yn un o'r drygau mwyaf a allai eu dal hwy, nid yn unig oddiwrth ddymuniad naturiol am blant, ond oddiwrth eu hawydd gwresog i fod yn foddion cyflawniad yr addewid i Abraham, ac ymddwyn yr had hwnw yn yr hwn y bendithid holl dylwythiau y ddaear. Ond nid ymddengys mai hyn a gynhyrfai Rahel yn unig i ddymano cael plant, ond cenfigen wrth ei chwaer; am hyny hi a ddywed, *Moes feibion i mi*—ni wnai un mab ei boddloni; ond am fod gan Lea fwy nag un, rhaid iddi lithau gael mwy hefyd. *Onidè mi a fyddaf farw*—mi a doraf fy nghalon; bydd i'r diffyg o hyny fythau fy nyddian. Sylwch ar y gwahaniaeth rhwng Rahel a Hanna yn gofyn am y drugaredd hon, i Sam. i. 10, 11. Rahel a genfigenodd; Hanna a wylodd. Cyfeiriai Rahel at Jacob; a Hanna at Dduw. Rhaid i Rahel gael meibion, a bu farw ar enedigaeth yr ail; gwelidodd Hanna am y plentyn hwn, a chafodd beddar yn chwaneig. Y mae Rahel yn haerllug a meistrolaidd; a Hanna yn ostyngedig a defosiynol: 'Os rhoddi i'th llawforwyn fab, yna y rhoddaf ef i'r Arglwydd holl ddyddiau ei einioes.' Efeilycher Hanna, ac nid Rahel; a boed ein deisyfiadan yn wastadol dan arweiniad a ffrwyniad rheswm a chrefydd.

Adn. 2. *A chyneuodd lliid Jacob wrth Rahel*] Yr oedd ef yn ddioglon wrth ei phechod, a danghosodd ei anffodlonrwydd trwy y gofyniad dwys a rhesymol, *Ai myfi sydd yn lle Duw?*—a allaf fi roddi i ti yr hyn y mae Duw yn ei ommedd? Y mae efe yn cydnabod llaw Duw yn y cystudd, a'i anallu ei hun i gyfnewid ei drefniadau ef. Gall Duw fod i ni yn lle unrhyw creadur, fel yr haul yn lle y lloer a'r ser; ond megys na all y lloer a'r holl ser fod i ni yn lle yr haul, felly ni all doethineb na gallu un creadur fod i ni yn lle Duw. *Yr hwn a attaliodd ffrwyth y groth oddiwrthyt ti*—'allweddu y cymylau, y galon, y bedd, a'r groth,' meddai y rabbiniaid, 'ydynt bedair o allweddu ag sydd gan Dduw yn ei law ei hun, y rhai nad yw yn eu hymddiried i angel na seraff.'

Adn. 3. *Wele fy llawforwyn Bilha, dos i mewn ati hi, a hi a blanta ar fy ngliniau i*] Yr oedd y llawforwyn yn gwbl yn ciddo ei

meistres, fel y sylwyd eisioes yn achos Agar, pen. xvi. 2; ac am hyny yr oedd nid yn unig ei holl lafur, ond hyd yn nod y plant a enid o honi, yn eiddo i'r feistes. Gan hyny y caethesau hyn a ddygent blant yn *ddirprwyol* i'w meistres; ac ymddengys mai hyn yw meddwl yr ymadrodd, *hi a blanta ar fy ngliniau i*; neu, fel y myn rhai ei gyfieithu, 'hi a blanta i fy ngliniau i,' i'w magu ar fy ngliniau. Fel hyn yr oedd yn well ganddi gael plant trwy gyfrifiad, na bod heb un; plant ag y gallai hi eu galw yn eiddo iddi ei hun, er nad oeddynt felly. Eithr oni buasai ei chenfgen at Lea, hi a gyfrifasai blant ei chwaer yn nes ati, ac yn meddu mwy o hawl i'w gofal, nag y gallai plant Bilha fod.

Adn. 4. *Bilha iddo ef yu wraig*] 'Er fod gordderchwraig yn cael ei galw weithian yn wraig, nid yw gwraig byth yn cael ei galw yn ordderchwraig.'—AWSTIN.

Adn. 5—7. *A Bilha a feichiogodd, &c.*] Fel prawf cynar o lywodraeth Rahel dros y plant a enid yn ei thŷ hi, y mae yn rhoddi enwau iddynt nad ydynt yn dwyn dim yddynt ond arwyddion o gydymgais â'i chwaer. Fel pe buasai wedi gorchfygu Lea, 1. Trwy *gyfraith*, y mae yn galw mab cyntaf ei llawforwyn *Dan*, BARN, gan ddywedyd, *Duw a'm barnodd i*—hyny yw, a roddes ddeddfyd o'm plaid. 2. Fel pe buasai wedi ei gorchfygu mewn *brwydr*, y mae yn galw y nesaf *Naphtali*, YMDRECHIAID, gan ddywedyd, *Ymdrechais a'm chwaer, a gorchfygais*. Gwelw y fath wraidd chwerwedd yw cenfigen a chynhen, a'r fath ddrwg a wrandaw yn mysy perthynasau!

Adn. 8. *Ymdrechais ymdrechiau gorchestol, &c.*] Heb. 'ymdrechiau Duw.' Y mae rhai yn barnu fod y gwreiddyn *pathal* yn arwyddo *nydd-droi* neu *gyfrodceddu*; ac am hyny cyfieithu Mr. Parkhurst yr adnod, *Trwy nydd-droadau* (offeryniolaeth neu weithrediaid) *Duw, yr wyf wedi fy nghyfrodeddu gyda'm chwaer*—hyny yw, y mae fy nbeulu yn awr wedi eu cyfrododedu neu eu cydwau â theulu fy chwaer, ac yn meddu gobaith o ddwyn yr Had addawedig.' Y mae y LXX, *Aquila*, a'r *Vulgata*, yn meddu agos yr un ystyr. Modd bynag, fel y sylwa Clarke, y mae yn anhawdd penderfynu gwir ystyr y wreiddiol.

Adn. 9. *Pan welodd Lea beidio o honi a*

phlanta, hi a gymerth ei llawforwyn Zilpa, ac a'i rhoddes hi yn wraig i Jacob.

10 A Zilpa, llawforwyn Lea, a ymddyg fab i Jacob.

11 A Lea a ddywedodd, Y mae tryfa yn dyfod: a hi a alwodd ei enw ef Gad.

12 A Zilpa, llawforwyn Lea, a ymddyg yr ail mab i Jacob.

13 A Lea a ddywedodd, Yr ydwyf yn ddedwydd; oblegid merched a'm galwant yn ddedwydd: a hi a alwodd ei enw ef Aser.

14 ¶ Reuben hefyd a aeth yn nyddiau cynhauaf gwenith, ac a gafodd

fandragorau yn y maes, ac a'u dyg hwynt at Lea ei fam: yna Rahel a ddywedodd wrth Lea, Dyro, atolwg, i mi o fandragorau dy fab.

15 Hithau a ddywedodd wrthi, Ai bychan yw dwyn o honot fy ngwr? a fynit ti hefyd ddwyn mandragorau fy mab? A Rahel a ddywedodd, Cysged gan hyny gyda thi heno am fandragorau dy fab.

16 A Jacob a ddaeth o'r maes yn yr hwyr; a Lea a aeth allan i'w gyfarfod ef, ac a ddywedodd, Ataf fi y deui: oblegid gan brynu y'th brynaais am fandragorau fy mab. Ac efe a gysgodd gyda hi y nos hōno.

phlanta, &c.] Darfu i Rahel yn afresymol ac annatoriol roddi ei morwyn yn ngwely ei gŵr; ac yn awr y mae Lea, gan iddi fethu am un flwyddyn âg ymddwyn plant, yn gwneyd yr un peth, i fod yn gydwastad â hi.

Adn. 10. *A Zilpa, llawforwyn Lea, a ymddyg fab i Jacob*] Y mae un o'r hen dadau yn sylwi yma: Fel y cafodd Jacob feibion o'i ddwy wraig, yn gysgod o feibion y ddau gyfammod; felly efe a gafodd feibion o'u dwy llawforwyn hwy, i arwyddo na fyddai i'r efenngyl wneyd yn gwabaniaeth, o ran breintiau ysprydol, rhwng gŵr rhydd a gŵr caeth.

Adn. 11—13. *A Lea a ddywedodd, &c.*] Dau fab a ymddyg Zilpa i Jacob, y rhai yr edrychrai Lea arnynt fel ei heiddo hi; yn arwydd o'r hyn galwodd un *Gad*, ΤΥΡΕΑ, gan addaw iddi ei hun fagad o blant. Y llall a alwodd hi *Aser*, ΔΕΔΩΥΔΔ, gan ei hystyried ei hun yn ddedwydd ynddo ef, ac addaw iddi ei hun yr ystyriai ei chymydogion hi felly hefyd.

Adn. 14. *Reuben—a gafodd fandragorau*] 'Y gair *dudaim*, wedi ei gyfieithu yn *fandragorau*, a geir yn unig yma ac yn Can. vii. 13; ac ni chydunir yn mhlith esbonwyr pa un ai firwyth ai blodegyn a arwydda. Tybia llawer mai afalau mandragoraid a feddylir yma, y rhai, yn ol Pliny, sydd o faintioli cneuan y gerddi. Yr oeddynt yn hyfryd i'r arogl, ac ond odid yn ddymunol yn fiwyd.'—BENSON.

'Rhai a gyfieithant y gair yn *lili*, ereill yn *jessamine*, ereill yn *afalau euraid*, ereill yn *faderich*, ereill yn *ffigys*, a thybia rhai fod y gair yn meddwl *blodau neu hardd-flodau* yn gyffredinol. Y mae *Hasselquist*, cyfaill mawr a dysgybl *Linné*, yr hwn a deithiodd i'r Wlad Santaidd i wneyd dadlenniadau mewn haesiaeth naturiol, yn meddwl mai y planhigyn a elwir yn gyffredin *mandragor* a olygir. Wrth son am Nazareth yn Galilea efe a ddywed, 'Y peth hynotaf a gefais yn y pentref hwn oedd y nifer mawr o *fandragorau* a dyfent yn y dyffryn islaw iddo. Ni chefais yr hyfrydwch o weled y planhigyn hwn yn ei fiodau, gan fod y firwyth yn awr [Mai 17eg] yn addfed wrth y wrsgen, yr hon a orweddi yn wywedig ar y ddaear. Oddiwrth y tymhor yn yr hwn y mae y *mandragorau* hyn yn blodeuo ac yn addfedu yn firwyth, gallai un feddwl mai dyma oedd *dudaim* Rahel. Dygwyd y rhai hyn iddi hi yn *nghynhauaf y gwenith*, yr

hwn yn Galilea sydd yn mis Mai, oddeutu yr amser yma; ac yr oedd y *mandragorau* yn awr yn addfed.' Yr oedd y planhigyn hwn mewn bri mawr yn mhlith y Groegiaid a'r dwyreinwyr, fel yn meddu rhinwedd epilgar, ac yn cynorthwyo beichiogiad; ac o hono gwneid *serch-swynion*. Y mae yn debyg mai ar y cyfrif hwn yr oedd Rahel yn eu chwennychu hwynt.'—CLARKE. '*Mandragorau* sydd fath ar blanhigyn, yr hwn y mae ei wreiddyn yn ymarau yn gyffredin yn ddwy gainc ychydig islaw ei ran uwchaf, yr hwn a'i gwna yn debyg i lun dyn. Dywedir ei fod weithiau yn peri syfrdandod a gwallgofrwydd. Rhai a'i galwant yn gynhyrfydd, ac am hyny defnyddid ef mewn serch-swynion; a meddylir mai dyma y rheswm pahan yr oedd Rahel mor awyddus am eu cael gan Lea, am ei bod yn chwennychu yn fawr gael plant. Y mae dau fath ar *fandragorau*; y *fenyw*, dail pa un sydd o arogl tra aunymunol; a'r *guryw*, yr hwn sydd yn arogl yn dra hyfryd a dynunol. Dywedir fod yn nhalaeth Pekin yn China fath ar *fandragorau* mor werthfawr, fel y mae pwys o'u gwraidd yn werth tri phwys o arian, o herwydd eu rhinwedd rhyfeddol i gynhyrfu ysbrydoedd isel dynion cleifion.'—CRUEN.

Adn. 15. *Ai bychan yw dwyn o honot fy ngwr?*] Ymdeingys yn debygol fod Rahel wedi cael ffordd i lwyrr feddiannu serch a chymdeithas Jacob; a'i bod yn awr yn cydsynio i adael iddo ef ymweled â phabell Lea am rai o'r *mandragorau* a gawsai Reuben yn y maes.

Adn. 16. *Ataf fi y deui, oblegid gan brynu y'th brynaais am fandragorau fy mab*] Nis gallaf feddwl, meddai yr Esgob Patrick, am un rheswm da dros yr ymrison rhwng gwraidd Jacob am ei gymdeithas ef, nac am eu gwaith yn rhoddi eu morwynion i fod yn wragedd iddo, nac am waiti Moses yn cymeryd y fath sylw manwl o hyn oll, ond yn unig yr awydd cryf ag oedd ynddynt am gyflawniad yr addewid a wnaed i Abraham, y byddai ei had ef fel ser y nefoedd mewn rhifedi, ac mai yn ei Had ef (y MESSIA) y bendithid holl genhedloedd y ddaear. Buasai adrodd y fath bethau islaw urddas y fath hanes santaidd a honni, oni buasai fod rhywbeth o bwys mawr ynddynt. A pha beth a all hwnw fod, ond yn benaf genedigaeth yr IAD BENDIGEDIG, yr

17 A Duw a wrandawodd ar Lea, a hi a feichiogodd, ac a ymddyg y pummed mab i Jacob.

18 A Lea a ddywedodd, Rhoddodd Duw fy ngwobr i mi, o herwydd rhoddi o honof fi fy llawforwyn i'm gwŕ: a hi a alwodd ei enw ef Issacar.

19 Lea hefyd a feichiogodd eto, ac a ymddyg y chweched mab i Jacob.

20 A Lea a ddywedodd, Cynysgaethodd Duw fyfi â chynysgaeth dda; fy ngwŕ a drig weithian gyda mi, oblegid chwech o feibion a ymddygais iddo ef: a hi a alwodd ei enw ef Zabulon.

21 Ac wedi hyny hi a esgorodd ar ferch, ac a alwodd ei henw hi Dina.

22 ¶ A Duw a gofiodd Rahel, a Duw a wrandawodd arni, ac a agorodd ei chroth hi.

23 A hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar fab, ac a ddywedodd, Duw a dynodd fy ngwarthrudd ymaith.

24 A hi alwodd ei enw ef Joseph, gan ddywedyd, Yr Arglwydd a ddyry yn chwanege i mi fab arall.

25 ¶ A bu wedi esgor o Rahel ar

Joseph, ddywedyd o Jacob wrth Laban, Gollwng fi ymaith, fel yr elwyf i'm bro, ac i'm gwlad fy hun.

26 Dyro fy ngwagedd i mi, a'm plant, y rhai y gwasanaethais am danynt gyda thi, fel yr elwyf ymaith: oblegid ti a wyddost fy ngwasanaeth a wnaethym i ti.

27 A Laban a ddywedodd wrtho, Os cefais ffafŕ yn dy olwg, na syfl: da y gwŕ i'r Arglwydd fy mendithio i o'th blegid di.

28 Hefyd efe a ddywedodd, Dognady gyflog arnaf, a mi a'i rhoddaf.

29 Yntau a ddywedodd wrtho, Ti a wyddost pa ddelw y gwasanaethais dydi; a pha fodd y bu dy anifeiliaid di gyda myfi.

30 Oblegid ychydig oedd yr hyn ydoedd genyt ti cyn fy nyfod i, ond yn lluosogrwyd y cynyddodd; o herwydd yr Arglwydd a'th fendithiodd di er pan ddaethym i: bellach gan hyny pa bryd y darparaf hefyd i'm tŷ fy hun?

31 Dywedodd yntau, Pa beth a roddaf i ti? A Jacob a atebodd, Ni

hwn oedd gwrthddrych gobeithion y duwiolion yn y dyddiau hyny? Canys y mae yn amlwg, gyda golwg ar Rahel a'i chwaer, mai chwennych plant yr oeddynt hwy.

Adn. 17—20. *A Duw a wrandawodd ar Lea, &c.*] A hi a fendithiwyd â dau o feibion yn chwanegeol; y cyntaf o ba rai a alwodd hi *Issacar*, cwoer, gan ei chyfrif ei hun wedi cael ad-daliad da am y mandragorau: i.e. wedi ei gwobneyo am roddi ei morwyn i'w gwŕ! Y llall a alwodd hi *Zabulon*, TRIGIAD, neu gydaneddiad, gan ei bod yn awr yn dysgwyl i Jacob *drigo* gyda hi, megys y trigasai o'r blaen gyda Rahel, adn. 15.

Adn. 21. *Wedi hyny hi a esgorodd ar ferch, ac a alwodd ei henw hi Dina*] Yr hyn sydd yn arwyddo BARN. Megys y darfu i Rahel alw ei mab o *Bilha* yn DAN, adn. 6; felly y galwodd Lea ei merch yn *DINA*, gan i Dduw *farnu* a phenderfynu drosti hithau, yn gystal a thros ei chwaer yn yr anghraifft flaenorol.

Adn. 22. *A Duw a wrandawodd arni*] Ar ol y cerydd llym a dderbyniasai Rahel oddiwrth ei gwŕ, adn. 2, ymddengys iddi geisio bendith Duw arni trwy weddi, ac iddi gael gwrandawiad; fel ag y derbyniodd ei gweddi a'i fydd yr hyn ag y darfu i'w hanoddefgarweh a'i hantghrediniaeth ei attal.

Adn. 23. *Duw a dynodd fy ngwarthrudd*] Canys felly yr ystyriid anmhlantadrwydd gan yr Iuddewon.

Adn. 24. *A hi a alwodd ei enw ef Joseph*] Oddiwrth *yoseph*, CHWANEGIAD, neu 'yr hwn sydd yn chwanegeu,' gan fynegu trwy hyny naill ai yn broffwydoliaethol, y *chwanegei* Duw iddi fab arall; neu yn ddymuniadol, fel y mae y LXX ac ereill yn ei gyfieithu, 'Boed i'r Arglwydd *chwanegeu* mab arall;' yr hyn a

gyflawnwyd yn ngenedigaeth *Benjamin*, pen. xxxv. 18.

Adn. 25, 26. *Ddywedyd o Jacob wrth Laban, Gollwng fi ymaith, &c.*] Y mae yn amlwg oddiwrth yr adnodau hyn fod y saith mlynedd olaf o'i wasanaeth am Rahel yn awr ar ben, yn union ar ol geni Joseph; ac am hyny y mae Jacob yn ewyllysio cael ei ryddhau, ar ol gwasanaethu Laban bedair blynedd ar ddeg am Lea a Rahel.

Adn. 27. *Da y gwŕ i'r Arglwydd fy mendithio i o'th blegid di*] Saes. 'dysgais trwy brofiad i'r Arglwydd,' &c.; a dywed rhai o'r Iuddewon iddo arfer dewiniaeth ar yr achlysur, yr hyn nid yw yn debyg. Y meddwl yw, 'Ystyriaſ yn ddyfal dy holl ymddygiad, a sylwais ar gynydd fy eiddo, a cheffais i'r Arglwydd fy mendithio i er dy fwyn di.'

Adn. 28. *Dogna dy gyflog*] Dywed pa faint y rhaid iddo fod, a thi a gai hyny.

Adn. 29. *Ti a wyddost pa ddelw y gwasanaethais dydi*] Yn ddiwyd, ffyddlon, gonest, a rhad.

Adn. 30. *Oblegid ychydig oedd yr hyn ydoedd genyt ti cyn fy nyfod i*] Y mae Jacob yn eymeryd mantais ar yr addefiad a wnaed gan ei dad-yn-ngyfraith, ac yn cadarnhau mai er ei fwyn ef y bendithiasai yr Arglwydd ef. *Er pan ddaethym*—Heb. *leragli*, 'wrthi fy nhroed,' hyny yw, er pan osodais fy nhroed tŷfwn i'th ddrws; neu, 'yn ol fy nghamrau;' pob cam a roddwn yn dy wasanaeth a lwyddid gan Dduw er lluosogiad dy ddeadellau a'th feddianau. *Pa bryd y darparaf hefyd i'm tŷ fy hun?*—yr oedd Jacob eisoes wedi penderfynu ar ei gynllun, ac oddiwrth yr hyn a grybwyllir ar ol hyn, ni a'i cawn ef yn atferyd ei holl fedd

roddi i mi ddim; os gwnai i mi y peth hyn, bugeiliaf a chadwaf dy braidd di drachefn.

32 *Tramwyaf trwy dy holl braidd di heddyw, gan neillduo oddiyno bob llwddn mân-frith a mawr-frith, a phob llwddn cochddu yn mhlith y defaid; y mawr-frith hefyd a'r mân-frith yn mhlith y geifr: ac o'r rhai hynny y bydd fy nghyflog.*

33 *A'm cyfiawnder a dystiolaetha gyda mi o hyn allan, pan ddel hynny yn gyflog i mi o flaen dy wyneb di: yr hyn oll ni byddo fân-frith neu fawr-frith yn mhlith y geifr, neu gochddu yn mhlith y defaid, lladrad a fydd hwnw gyda myfi.*

34 *A dywedodd Laban, Wele, O na byddai yn ol dy air di!*

35 *Ac yn y dydd hwnw y neilldu-*

odd efe y bychod cylch-frithion a mawr-frithion, a'r holl eifr mân-frithion a mawr-frithion, yr hyn oll yr oedd peth gwyn arno, a phob cochddu yn mhlith y defaid, ac a'u rhoddes dan law ei feibion ei hun.

36 *Ac a osododd daith tri niwrnod rhyngddo ei hun a Jacob: a Jacob a borthodd y rhan arall o braidd Laban.*

37 ¶ *A Jacob a gymerth iddo wiail gleision o boplys, a chyll, a ffawydd; ac a ddirisglodd ynddynt ddirisgliadau gwynion, gan ddatguddio y gwyn yr hwn ydoedd yn y gwaiail.*

38 *Ac efe a osododd y gwaiail y rhai a ddirisglasai efe, yn y cwterydd, o fewn y cafnau dyfroedd, lle y deuai y praidd i yfed, ar gyfer y praidd: fel y cyfebrent pan ddelent hwy i yfed.*

39 *A'r praidd a gyfebrasant wrth*

a'i brofiad i ddarparu i'w deulu trwy gyflym gynydd ei ddealltan.

Adn. 31. *Ni roddi i mi ddim*] Nid oes arnaf eisiau dim ag sydd genyt yn awr; *os gwnai i mi y peth hyn*—os caniatiai i mi yr w'n a lydnir gyda lliw gwabanol i liw eu mamau, mi a arbosaf yn dy wasanaeth yn hwy: gwel isod.

Adn. 32. *Tramwyaf trwy dy holl braidd di heddyw, gan neillduo oddiyno bob llwddn mân-frith a mawr-frith*] Y rhai y byddo cylchau neu ysmotiau bychain neu fawrion o wahanol liwiau arnynt, megys dŵ ar w'n, neu w'n neu goch ar ddŵ. *Ac o'r rhai hynny y bydd fy nghyflog*—nid yw yn meddwl y dylai y llydnod hyn, y rhai oeddnt eisioes yn fân-frith a mawr-frith, gael eu rhoddi iddo; canys nid yw hynny yn gyson a'r hyn a ddywedasai efe yn adn. 31, lle nad yw am gymeryd dim ag ydoedd yn awr yn eiddo iddo. Heblaw hyn, ni fuasai yn nn rhyfeddod i'r rhai ag oeddnt frithion eisioes llydnod ereill fel hwy eu hunain. Eithr yr ystyr yw, y byddai iddo ef neillduo yr holl ddefaid a'r geifr brithion, ac yna, allan o'r rhai unlliw, fod iddo gael pob nn a lydnid o hynny allan o'r amryliw crybwylledig. Yr oedd Jacob yn ewyllysio gwneyd bargaen dŵg, yn nghylch yr lion na fyddai dadl. Pe buasant yn cytuno am nifer penodol o greaduriaid bob blwyddyn, gallasai fod lle i geograeth a drwgdybiau; canys pe dygwyrddasai i rai o'r praidd gael eu colli, gallasant anghytuno pa un ai eiddo Jacob ynte eiddo Laban oedd y creaduriaid colledig. Ond i attal pob dadl ddichonadwy, 'Boed i mi,' meddai Jacob, 'gael pob llwddn mân-frith a mawr-frith, ac yna, pa bryd bynag yr ewyllysi edrych i'm praidd, fy nghywirdeb a ddaw o flaen dy wyneb,' neu a fydd amlwg, yr hyn yw meddwl adn. 33.

Adn. 33. *Lladrad a fydd hwnw*] Os bydd cymaint ag un yn mhlith y geifr neu y defaid heb ddwyn y nodau brithion hyn.

Adn. 34. *O na byddai yn ol dy air di!*] Yr oedd Laban yn foddlon i gysynio a'r cytundeb hwn, am ei fod yn meddwl, os byddai i'r

rhai ag oedd ganddo yn awr yn fân-frith ac yn fawr-frith gael eu neillduo oddiwrth y lleill, na fyddai i gorff i praidd, y rhai yr oedd Jacob i'w gwyllo, trwy eu bod yn unlliw, naill ai oll yn ddŵ neu oll yn w'n, lydnod ond ychydig neu ddim o liwiau cymysg, ac y cai ef felly wasanaeth Jacob am ddim, neu y nesaf peth i ddim.

Adn. 35, 36. *Ac yn y dydd hwnw y neillduodd efe y bychod cylch-frithion*] Y rhai oeddnt â chylchau o flew neu wlan dŵ, neu ryw liw arall, o amgylch eu coesau neu en cyrff; *ac a'u rhoddes dan law ei feibion ei hun*—i'w porthi ar wahan wrthynt eu hunain, rhag i Jacob gael rhai o honynt i'w cymysgu a'r rhai unlliw. Y mae Laban yn gosod taith tri diwrnod rhyngddo ei hun a Jacob, fel na allent gymaint a gweled eu gilydd. Rhwng adn. 36 ac adn. 37 y mae yr ailun Samaritan-aidd yn gosod gwahanran yn nghylch ymddangosiad angel i Jacob mewn breuddwyd, yr hon ni cheir mewn un cyfieithiad arall; ond fe'i hadroddir gan Jacob ei hun yn y benod nesaf, adn. 11, fel peth a gymerodd le, a pheth a gyfiawnha y llwybr a gymerth efe yn yr adnodaau dylunol.

Adn. 37. *A Jacob a gymerth iddo wiail gleision o boplys*] Heb. *libneh lach*. Y mae y *libneh* yn cael ei ddeall yn gyffredin i arwyddo y boplyswyddden neu yr aethnen wen; a'r gair *lach* a olyga *irder*, mewn gwrthyferbyniad i *grinder*. Pe na buasai y gwaiail yn *irion*, newydd eu tori, ni allesid yn hawdd eu dirisgllo. *A chyll*—Heb. *luz*, pren cnau, neu bren almon: pa un o'r ddau a feddylir yma nid yw yn gwbl eglur: gwel pen. xxviii. 19. *A ffawydd*—Heb. *armon*, y blânwydden, oddiwrth *aram*, 'noeth ydoedd.' Y mae y blânwydden yn cael ei galw yn briodol wrth yr enw hwn, am fod y rhisglyn uwchaf yn pilio ymaith yn naturiol, ac yn gadael y pren yn noeth mewn gwahanol ranau. *Ac a ddirisglodd ynddynt ddirisgliadau gwynion*—gan dori y rhisgl trwyodd yn rhesi o led penodol o amgylch yr holl wiail, fel y byddai i'r gwaiail ymddangos yn frithliw, trwy fod

y gwaiail; a'r praidd a ddyg rai cylch-frithion, a mân-frithion, a mawr-frithion.

40 A Jacob a ddiolodd yr ŵyn, ac a osododd wynebaw y praidd tuag at y cylch-frithion, ac at bob cochddu yn mblith praidd Laban; ac a osododd ddeadeillau iddo ei hun o'r neilldu, ac nid gyda phraidd Laban y gosododd hwynt.

41 A phob amser y cyfebrai y defaid cryfaf, Jacob a osodai y gwaiail o flaen y praidd yn y cwterydd, i gael o honynt gyfebru wrth y gwaiail;

42 Ond pan fyddai y praidd yn

gwyn y coed yn y golwg lle y tynid y rhisgl ymaith.

Adn. 38, 39. *Ac efe a osododd y gwaiail, y rhai a ddirisglasai efe, yn y cwterydd, &c.*] Neu y dyfleoedd, pryd y byddai y praidd yn arferol â chysylltu, fel y byddai i'w crebwyllion neu eu darfelyddion gael argraff o'r cyfryw wahanol liwiau ag a welent yn y gwaiail. Gan yr ymddengys oddiwrth pen. xxxi. 10—12, ddarfod i Dduw, mewn trefn i wobrwyo ffyddlondeb Jacob a chosbi anghyfiawnder Laban, benderfynu y cai y praidd yn gyffredin fod yn fân-frithion ac yn fawr-frithion, felly y mae yn debyg ddarfod iddo ei gyfarwyddo ef i gymeryd y drefn hon er cyraedd y dyben hwnw; nid fel pe buasai yn ddiagonol o honi ei hun i beri y gyfryw effaith, yr hyn y bydd i bwy bynag a wnelo y prawf gael nad yw; ond fel moddion a fendithiai Duw i'r dyben hwnw, a'r hyn yr oedd yn ofynol i Jacob ei ddefnyddio fel prawf o'i ymddibyniad ar Dduw, megys yr oedd yn ofynol i Naaman ymolchi yn yr Iorddonen mewn trefn i gael ei iachâu o'i wahanglwyf. Ni allai y gwaiail hon o honynt eu hunain, pa fodd bynag eu dirisglwyd, beri yr effeithiau yma ar y praidd; gan hynny Duw yn ei ragluniaeth oedd y gweithredydd. Modd bynag, dylid crybwyll fod llawer wedi cael ei ddywedyd gan awduron hen a diweddar yn nghylch yr effeithiau naturiol rhyfeddol ag y mae argraffiadau a wneir ar ddarfelyddion anifeiliaid cyfebrol yn eu peri ar lun a lliw eu llynod; a chyda golwg ar wragedd, y mae llawer o siamplau ar gael mewn hanesiaeth naturiol ag sydd yn cadarnhau yn fawr yr hyn a ddywedir yma am effeithiau y darfelydd, &c. *Vide Poli. syn. crit. in loc.* Arglwyddes Ethiopaid a gafodd unwaith blentyn *gwyn*, yr hyn a barodd lawer o siarad; ond gan allai neb gylhuddo yr arglwyddes o anniweirdeb, y meddygon o'r diwedd a briodolasant yr achos i ddariun *Andromache*, yr hwn a godesid yn ngwely-ystafell yr arglwyddes. Fel hyn hefyd y rhoddir cyfrif am lawer 'man-geni' a ganfyddir ar gyrff plant.

Adn. 40. *A Jacob a ddiolodd yr ŵyn, &c.*] Pan gymerodd Jacob arno ei hun ofal praidd Laban, yn ol y cytundeb crybwyllledig eisioes, nid oedd defaid na geifr brithliw yn eu mysg hwynt; gan hynny rhaid fod y *cylch-frithion*, &c., crybwyllledig yn yr adnod hon, wedi eu

weiniaid, ni osodai efe *ddim*: felly y gwanaf oedd eiddo Laban, a'r cryfaf eiddo Jacob.

43 A'r gŵr a gynyddodd yn dra rhagorol; ac yr ydoedd iddo ef braidd helaeth, a morwynion, a gweision, a chamelod, ac asynod.

PENNOD XXXI.

AC efe a glybu eiriau meibion Laban yn dywedyd, Jacob a ddyg yr hyn oll oedd i'n tad ni, ac o'r hyn ydoedd i'n tad ni y cafodd efe yr holl anrhydedd hyn.

2 Hefyd Jacob a welodd wyneb-

llydnu ar ol i'r cytundeb gael ei wneuthur: ac y mae Jacob yn gwneyd defnydd o honnt hwy yn union fel y defnyddiasai efe y *gwaiail ddirisgledig*, fel, wrth iddynt gael y rhai hyn o flaen eu llygaid yn ystod eu cyfebrad, y byddai i argraff gael ei wneuthur ar eu darfelydd ag a arweinai i'r effeithiau crybwyllledig.

Adn. 41. *A phob amser y cyfebrai y defaid cryfaf*] Wrth y defaid *cryfaf* yma y meddylir rhai wedi eu llydnu yn nechre y tymhor; ac wrth y rhai *gweiniaid*, adn. 42, rhai wedi eu llydnu tua diwedd y tymhor: canys y mae y rhai a lydnir yn nechre y gwanwyn, meddai Clarke, yn fwy gwerthfawr bob ffordd na'r rhai a lydnir yn niwedd y tymhor. Hefyd, yr oedd yr un defaid yn llydnu ddwywaith yn y flwyddyn yn y gwledydd hyn, sef yn y gwanwyn ac yn yr hydref.

Adn. 42. *Ōnd pan fyddai y praidd yn weiniaid ni osodai efe ddim*] Am y gwyyddai y byddai i'r rhai hynny ddwyn rhywogaeth ddirywiedig a gwanaidd tebyg iddynt hwy eu hunain.

Adn. 43. *A'r gŵr a gynyddodd yn dra rhagorol*] Gan fod Duw yn gwobrwyo ei ffyddlondeb ef, ac yn cosbi creulondeb a chybydd-dod Laban; trwy drosglwyddo ei gyfoeth ef i Jacob, megys y rhoddodd eiddo yr Aiffiaid wedi hyn i'r Israeliaid; canys 'eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder,' a gall yn gyfiawn wneyd fel y myno â phob peth ynddi. *A morwynion a gweision*—canys yr oedd yn gorfod amhau y rhai hyn fel yr oedd ei braidd yn lluosogi. *A chamelod ao asynod*—i drosglwyddo ei bebyll, ei gelfi, a'i deulu o le i le, trwy ei fod yn gorfod symud yn fynych er mwyn cael porfa.

PEN. XXXI. Adn. 1. *Ac efe a glybu eiriau meibion Laban*] Dechrenodd y bennod ddiweddar gyda chenfigen Rabel at Lea, a dechreuon hon gyda chenfigen meibion Laban at Jacob. *Jacob a ddyg yr hyn oll oedd i'n tad ni*—nid yr oll yn ddiar; pa beth a ddaethai o'r praidd a roddesid dau eu llaw hwy eu hunain? pen. xxx. 35, 36. *Yr holl anrhydedd hyn*—y cyfoeth neu y meddiannau hyn. Y mae y gair gwreiddiol, a gyfieithir yma yn 'anrhydedd,' yn arwyddo bod yn *gyfoethog* a bod yn *drom*; a hynny fe allai am yr unig reswm hwn, fod *cyfoeth* bob amser yn dwyn gydag ef *lwyth* trwm o ofalon a gofidiau.

pryd Laban, ac wele nid *ydoedd* tuag ato ef megys cynt.

3 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Jacob, Dychwel i wlad dy dadau, ac at dy genedl; a mi a fyddaf gyda thi.

4 A Jacob a anfonodd, ac a alwodd Rahel a Lea i'r maes, at ei braidd,

5 Ac a ddywedodd wrthynt, Myfi a welaf wynebpryd eich tad chwi, nad yw fel cynt tuag ataf fi: a Duw fy nhad a fu gyda myfi.

6 A chwi a wyddoch mai a'm holl allu y gwasaethais eich tad.

7 A'ch tad a'm twyllodd i, ac a newidodd fy nghyflog i ddengwaith; ond nis dyoddefodd Duw iddo wneuthur i mi ddrwg.

8 Os fel hyn y dywedai; Y mân-frithion a fydd dy gyflog di, yna yr

holl braidd a epilient fân-frithion: ond os fel hyn y dywedai; Y cych-frithion a fydd dy gyflog di, yna yr holl braidd a epilient *rai* cych-frithion.

9 Felly Duw a ddyg anifeiliaid eich tad chwi, ac a'u rhoddes i mi.

10 Bu hefyd yn amser cyfebru o'r praidd, ddyrchafu o honof fy llygaid, ac mewn breuddwyd y gwelais, ac wele yr hyrddod (y rhai oedd yn llamu y praidd) yn gyleh-frithion, yn fân-frithion, ac yn fawr-frithion.

11 Ac angel Duw a ddywedodd wrthyf mewn breuddwyd, Jacob. Minau a atebais, Wele fi

12 Yntau a ddywedodd, Dyrchafa weithian dy lygaid, a gwel yr holl hyrddod y rhai ydynt yn llamu y

Adn. 2. *Hefyd Jacob a welodd wynebpryd Laban*] Fod y tad yn gystal a'r meibion yn cefnigenu wrthi ei lwyddiant ef.

Adn. 3. *A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Jacob, Dychwel i wlad dy dadau*] Er i Jacob gyfarfod â thriniaeth galed, oed nid ymadawai efe nes i Dduw orchymyn iddo. Efe a ddaethai yma dan arweinid y nef, ac yma yr arhosai hyd nes y gelwid ef yn ol: gwel pen. xxviii. 15. *A mi a fyddaf gyda thi*—mi a gymeraf yr un gofal am danat yn dy ddychweliad, ac a gymerais o bonot wrth ddyfod i'r wlad hon. Y Targum a ddarllen, *Fy NGAIR a fydd yn gymhorth i ti*: gwel pen. xv. 1. Yr oedd addewid o'r fath yma yn anheborol angenrheidiol er cefnogiad i Jacob y pryd hyn, a diamau ei bod yn gynaliaeth rymus iddo trwy yr holl daith, ac yn enwedig pan glybu efe fod ei frawd yn dyfod i'w gyfarfod gyda byddin o 400 o wŷr, pen. xxxii. 6. A'r pryd hyny efe a ddadleuai wir eiriau yr addewid hon gyda Duw, adn. 9.

Adn. 4—6. *A Jacob a anfonodd, ac a alwodd Rahel a Lea i'r maes*] Y mae yn debyg ei fod ef gryn bellder gyda'r deaddlau; ac i'r dyben i fod yn fwy dirgel, gwell ganddo anfon am danynt i'r maes, i ymgynghori â hwynt ar yr achos tra phwysig hwn, nag ynwelod â hwy yn eu pebyll, lle yn debygol y gallai rhai o deulu Laban drawsglywed eu hymddyddan, er fod Laban ei hun yn y cyfamser daith tridiau o'r lle. Tybia rhai i Jacob gneifio ei ddefaid yr un pryd; a darfod iddo anfon am ei wragedd a'i ddodrefu i adeiladu pebyll ar y lle, fel y gallent ymgysfrugnoi o'r gwleddoedd arferol ar y cyfryw achlysuron. Fel hyn gallent oll ymadael heb gael eu drwgdybio.

Adn. 7. *A'ch tad a'm twyllodd i, ac a newidodd fy nghyflog i ddengwaith*] 'Ni safai byth at uu cytundeb a wnaethai âg ef; ond ar ol y flwyddu gyntaf, yn wastad fel y gwelai ragluniaeth yn ffafrio Jacob â'r lliw y cytundeb arno, efe a'i newidiai ef bob hanner blwyddyn o'r pump olaf am ryw litw arall, yr hyn a'i gwnaeth yn ddeg o weithiau; fel pe buasai yn meddwl nid yn unig twyllo Jacob, ond twyllo y ragluniaeth ddwyfol, yr hon oedd

yn amlyg yn gwenn arno.'—HENRY. 'Y mae gwahaniaeth hynod yn mhllth yr hen gyfieithiadau, a'r esbonwyr hen a diweddar, ar ystyr y geiriau hyn. Yr Hebraeg yw *aserech monim*, yr hyn a gyfieitha *Aquila dei rhif*; Symmachus, *ddengwaith mewn rhif*; y LXX, *deg oen*, â'r hyn yr ymddengys Origen yn cytuno. Y mae Awstin yn meddwl mai *cyflog deng mlymedd* a feddylir wrth y *deg oen*; ddarfod i Laban gadw oddiwrtho yr holl wŷn amryliw a lydnedid am bum mlynedd; a thrwy fod y defaid yn llydnu *ddwywaith* yn y flwyddyn, am hyny fod y rhif *deg* yn cael ei arfer, trwy fod Jacob wedi cael ei dwyllo o'i gyfran ef o ddeg llydriad. Wedi y cwbl, y mae yn fwy naturiol tybio fod Jacob yn arfer y gair *dengwaith* am rif amhenodol, yr hwn y galliem yn ddiogel ei gyfieithu yn *fynych*; a'i fod yn arwyddo rhif amhenodol mewn rhanau ereill o'r ysgythyrau santaidd sydd eglur oddiwrth Lef. xxvi. 26, Num. xiv. 22, Job xix. 3, Preg. vii. 19, Zec. viii. 23, Dat. ii. 10.'—CLARKE.

Adn. 8. *Yna yr holl braidd a epilient fân-frithion*] Felly rhaid mai Duw, fel y dywed Jacob yn yr adnod ganlynol, oedd yn trefnu y mater yma; canys ni allai unrhyw achos naturiol pa bynag, ar waban oddiwrth ei ragluniaeth neillduol ef, beri cynifer o wahanol gyfnewidiadau mewn peth o'r natur yma, heb unwaith fethu.

Adn. 9. *Felly Duw a ddyg anifeiliaid eich tad chwi, ac a'u rhoddes i mi*] Y Duw cyfiawn oedd yn talu i Jacob am ei wasanaeth galed, allan o feddiannau Laban; megys y talodd efe wedi hyn y had Jacob am eu gwasanaeth i'r Aiffitiaid, gydag yspail y bobl hyn: y gwel ar pen. xxx. 43.

Adn. 10, 11. *Ac mewn breuddwyd y gwelais, &c.*] Y mae yn hynod ein bod heb glywed am y breuddwyd hwn cyn hyn; ac eto ymddengys iddo gymeryd lle cyn i'r praidd lydnu, yn union ar ol y cytundeb rhyngddo ef a Laban. Ond os dyllynwn y Samaritan-aeg, y mae y dŷryswech ar unwaith yn cael ei symud: gwel ar pen. xxx. 35, 36.

Adn. 12. *Gwelais yr hyn oll y mae Laban yn ei wneuthur i ti*] Os craffwn ar y weledig-

praidd yn gyleh-frithion, yn fân-frithion, ac yn fawr-frithion; oblegid gwelais yr hyn oll y mae Laban yn ei wneuthur i ti.

13 Myfi yw Duw Bethel, lle yr eniniaist dy golofa, a lle yr addun- aist adduned i mi: cyfod bellach, dos allan o'r wlad hon, dychwel i wlad dy genedl dy hun.

14 A Rachel a Lea a atebasant, ac a ddywedasant wrtho, A oes eto i ni ran, neu etifeddiath yn nhŷ ein tad?

15 Onid yn estronesau y cyfrifodd efe nyu? oblegid efe a'n gwerthodd; a chan dreulio a dreuliodd hefyd ein harian ni.

aeth hon, ni allwn lai na chanfod rheswm i gasglu ddarfod dywedyd wrth Jacob yn awr am ddefnyddio y gwaiâl brithion; canys y mae yma awgrymiad eglur y byddai i Dduw effeithio y peth, a'r rheswm paham, am iddo weled ymddygiad crintaeh ac annhêg Laban tuag at Jacob; a chan hyny y mae yn penderfynu ei gosbi ef am dano, ac ar yr un pryd wobrwyo Jacob am ei fyddlondeb a'i dawelwch dan y niweidiau hyn.

Adn. 13. *Myfi yw Duw Bethel*] Hwn yn ddiamau oedd A'R neu F'AB Duw, yr hwn yn awr a ymostyngodd i fod yn *angel* (adn. 11) neu genad y Tad at Jacob; ac eto efe a'i geilw ei hun yn 'Dduw Bethel.' Fel hyn adgofwyd i Jacob am Bethel, ac am yr addewidion a wnaed iddo yno gan yr unrhyw Berson Dwyfol: gwel pen. xxviii. 13, &c.

Adn. 14. *A oes eto i ni ran neu etifeddiath yn nhŷ ein tad?*] Fel pe dywedasant, A oes i ni ryw oibaith am elw yno? Y mae Rachel a Lea yn cydgydnabod i ymddygiad eu tad fod yn eithaf crintaeh a brwnt, hyd yn nod atynt hwy ei blant ei hun!

Adn. 15. *Onid yn estronesau y cyfrifodd efe nyu?*] Efe a ymddygodd tuag atom fel pe buasem ei gaethforwynion, y rhai y gallasai eu gwerthu yn ol ei ewylllys, ac nid fel ei blant! *Oblegid efe a'n gwerthodd*—i ti am wasanaeth pedair blynedd ar ddeg; a *chan dreulio a dreuliodd hefyd ein harian ni*—efe a droes yn gwbl i'w wasanaeth ei hun yr hyn mewn cyfiawnder oedd deilwag i ni fel ein cyfran, ac am wasanaeth ein gw'r.

Adn. 16. *Nyui a'n plant a'i piau*] Fel hyn, tra yr oedd Jacob yn edrych ar y golud a drosglyfddasai Duw oddiwrth Laban iddo ef, fel ei *gyflog*; yr oeddnt hwythau yn edrych arno fel eu *cynysgaeth*: ac felly, yn y ddau ystyr hyn, gwnaeth Duw i Laban dalu ei ddyledion i'w was ac i'w ferehed.

Adn. 17, 18. *Yna Jacob a gyfododd, &c.*] Y mae yn eglur fod yn gyfreithlon i Jacob ymadael fel hyn, am fod Daw wedi gorchymyn iddo, adn. 3, 13; ac yr oedd yn gallneb iddo fyned ymaith yn ddiarwybod i Laban, rhag iddo ei rwystru a'i yspellio. *Ei anifeiliaid meddiannol*—neu ennilledig yn ffordd rhagluniaeth. Efe a ymddygodd yn y cwbl yn onest, canys ni chlymerodd gydag ef ond ei eiddo ei hun.

16 Canys yr holl olud yr hwn a ddyg Duw oddiar ein tad ni, nyui a'n plant a'i piau: ac yr awr hon yr hyn oll a ddywedodd Duw wrthyt, gwna.

17 ¶ Yna Jacob a gyfododd, ac a osododd ei feibion a'i wragedd ar gamelod;

18 Ac a ddyg ymaith ei holl anifeiliaid, a'i holl gyfoeth yr hwn a ennillasai, *sef* ei anifeiliaid meddiannol, y rhai a ennillasai efe yn Mesopotamia, i fyned at Isaac ei dad, i wlad Canaan.

19 Laban hefyd a aethai i gneifio ei ddefaid: a Rachel a ladratasai y delwau *oedd* gan ei thad hi.

Adn. 19. *Laban hefyd a aethai i gneifio ei ddefaid*] Sef y rhan hono o'i braidd ag ydoedd yn nwylaw ei feibion, daith tridiau o'r lle. *A Rachel a ladratasai y delwau oedd gan ei thad*—Heb. *teraphim*. Y mae rhai yn meddwl nad oedd y rhai hyn ddim ond cynrychiolion bychain o henafiaid y teulu, mewn cerflun neu ddarlun, y rhai yr oedd Rachel yn hoff neillduol o honynt, ac yn awyddus i'w cael gyda hi, gan ei bod yn awr yn myned i wlad arall. Ymddyngys yn hytrach mai DELWAU oeddnt i ddyben erefyddol, *penates*, 'dunwau teuluaid,' naill ai yn cael eu haddoli, neu ymgynghori â hwynt fel oraclau; ac yr ydym yn ewyllysgar i obeithio ddarfod iddi eu cymeryd hwy ymaith, nid o gybydd dod, llai o lawer i'w defnyddio ei hun, neu oddiar ofn ofergoelus rhag i Laban, trwy ymgynghori â hwynt, allu gwybod pa ffordd yr aethent; ond gyda bwriad i argyhoeddi ei thad o ynydrwydd ei bareh i'r rhai hyny fel duwiau, y rhai na allent eu diogelu eu hunain. Tybia Dr. Shuckford mai math ar *lechau* oedd y *teraphim* hyn, ar y rhai y cerfiedd enwau neu luniau eu henafiaid; ond y mae yn debycach eu bod o *lun dynol*, am y darllenwn, 1 Sam. xix. 13, ddarfod i Mical roddi un o honynt yn ngwely Dafydd, fel ei cymerid yn ei le ef. Modd bynag, rhaid fod *teraphim* Laban o faintioli lled fychan, gan i Rachel eu cuddio hwynt yn offer y camel, ac eistedd arnynt hwy, adu. 34. Casgla rhai mai yr addurniadau neu yr offer a wisg gan yr offeiriad wrth aberthu oeddnt, am y dywedir yn Hos. iii. 4, y byddai meibion Israel lawer o ddyddiau heb ephod a heb *deraphim*. Dywed rhai fod y *teraphim* yn cael eu gwneyd o benau y plant cyntafanedig, y rhai a bêreineid ac a gedwid, o ba rai, trwy offerynloliaeth y diafol, y derbynient atebion: gwel *Lyrans*. Ac y mae llawer o ddelwau teuluaid trigolion Tarsus wedi eu datguddio yn ddiweddar, y rhai vdynt *benglogau* yn gyffredin. Sylwa Mr. Parkhurst fod y *teraphim* mewn arferiad yn mhlith eredinwyr ac anghredinwyr. Yn mhlith y rhai blaenaf, gwel y bennod hon; canys gwada ef fod Laban yn eilunaddolwr: gwel hefyd Barn. xvii. 5, a xviii. 14, 18, 20; 1 Sam. xix. 13, 16. Yn mhlith y rhai olaf, gwel 2 Bren. xxiii. 24; Eze. xxi. 21; Zec. x. 2. Cymharer 1 Sam. xv. 23 â Hos. iii. 4.

20 A Jacob a aeth ymaith yn lladradaid, heb wybod i Laban y Syriad: canys ni fynegodd iddo mai ffoi yr oedd.

21 Felly y sfodd efe â'r hyn oll oedd ganddo, ac a gyfododd ac a aeth dros yr afon, ac a gyfeiriodd at fynydd Gilead.

22 A mynegwyd i Laban, ar y trydydd dydd, ffoi o Jacob.

23 Ac efe a gymerth ei frodyr gydag ef, ac a erlidiodd ar ei ol ef daith saith niwrnod; ac a'i goddiweddodd ef yn mynydd Gilead.

24 A Duw a ddaeth at Laban y Syriad, liw nos, mewn breuddwyd, ac a ddywedodd wrtho, Cadw arnat rhag yngan o honot wrth Jacob na da na drwg.

25 Yna Laban a oddiweddodd Ja-

cob: a Jacob a osododd ei babel yn y mynydd; Laban hefyd a wersyllodd yn nghyda'i frodyr yn mynydd Gilead.

26 A Laban a ddywedodd wrth Jacob, Pa beth a wnaethost? oblegid ti a aethost yn lladradaid oddiwrth y fi, ac a ddygaist fy merched fel caethion cleddyf.

27 Am ba beth y ffoaist yn ddirgel, ac y lladrateaist oddiwrth y fi, ac ni fynegaist i mi, fel yr hebryngasw dydi â llawenydd, ac â chaniadau, a thympan, ac â thelyn?

28 Ac na adewaist i mi gusanu fy meibion a'm merched? Gwnaethost yr awr hon yn ffol, gan wneuthur hyn.

29 Mae ar fy llaw i wneuthur i

Dyma yr holl fanau lle y mae y gair gwreiddiol i'w gael.

Adn. 20. *A Jacob a aeth ymaith yn lladradaid*] Hyny yw, yn ddiarwybod i Laban: gwel ar adn. 17, 18. Heb. 'a Jacob a ladrat-aodd galon Laban;' hyny yw, ei ferched a'i anifeiliaid, y rhai yr oedd ei galon yn fwyaf arnynt. Neu, gan fod *calon* yn fynych yn arwyddo *gwybodaeth*, gall mai yr ystyr yw, ddarfod i Jacob *ladrata* neu *gelu* oddiwrth Laban y *wybodaeth* o'i fwriad i ffoi.

Adn. 21. *Ac a aeth dros yr afon*] Sef yr *Euphrates*, fel y mae y Targum yn sylwi yn briodol. Ond pa fodd y gallai ef fyned dros y gyfryw afon gyda'i ddeaddellau? Nid ymddengys ddarfod i'r anhawser hwn daraw y berniaid yn gyffredin. Y rabbiniaid a'i teimlent, ac a haerant i Dduw wneuthur gywrth y pryd hyn, fel ag i alluogi Jacob i fyned drosodd yn droedsych. Gan na wyddom ni yn mha ffordd arall y gallai efe groesi, y mae yn rhesymol ei briodoli i allu Duw, yr hwn oedd yn ei ddylyn ef trwy ei holl daith. Ond gallai fod yn *rydau* adnabyddus i Jacob a Laban, trwy y rhai y gallent groesi yn hawdd. *Ac a gyfeiriodd at fynydd Gilead*—pa beth oedd enw cyntefig y mynydd hwn ni wyddom; oud y mae yn debyg na chafodd ef yr enw *Gilead* hyd ar ol yr angylchiad crybwyllledig yn adn. 47. Mynydd Gilead ydoedd yn ddwyreiniol i'r wlad a feddiannid gan lwythau Reuben a Gad, ac yn cyraedd o fynydd Hermon i fynyddoedd Moab. Y mae yn gysylltiedig â mynydd Libanus, ac yn cynwys y parth mynyddig a elwir yn y Testament Newydd *Trachonitis*.

Adn. 22. *Y trydydd dydd*] Ar ol i Jacob ffoi; canys ni ellid cyraedd i fynegu i Laban cyn hyny, adn. 19.

Adn. 23. *Ac efe a gymerth ei frodyr gydag ef*] Hyny yw, ei berthynasan; ac a erlidiodd ar ei ol ef daith saith niwrnod—i'w ddwyn yn ol i gaethiwed neu i'w yspello o'r hyn oedd ganddo; ac a'i goddiweddodd ef yn mynydd Gilead—yr hwn oedd oddeutu 250 o filldir-oedd o Ifaran: felly, wrth i Jacob gyraedd yno mewn deg niwrnod, rhaid ei fod wedi

teithio 25 o filldroedd bob dydd; ac wrth i Laban gyraedd yno mewn saith niwrnod, rhaid ei fod yn teithio o gylch 36 o filldroedd bob dydd.

Adn. 24. *A Duw a ddaeth at Laban—mewn breuddwyd*] Ni wnai Duw anrhydeddu Laban âg ymweliad personol; eithr mewn breuddwydion yr oedd y rhan fwyaf o'r cenedloedd yn cael ymweliadau dwyfol. *Cadw arnat rhag yngan o honot wrth Jacob na da na drwg*—Heb. *niltob ad ra*, 'o dda i ddwg.' Pe na ddywedasai efe wrth Jacob *dda na drwg*, ni allasant gyweithasu mewn un modd. Y mae y wreiddiol gan hyny yn briodol neillduol; canys pan y mae dynion yn ymgysfardod, yr iaith ar y cyntaf dydd iaith o gyfeillgarwch: y mae y gorchymyn gan hyny yn cynwys, 'Na ddechreu gyda *Iedduch fo i ti*, ac yna fyned yn mlaen at iaith niweidiol a *gweithredoedd* o drais.'

Adn. 25. *Yna Laban a oddiweddodd Jacob*] Gwel ar adn. 23.

Adn. 26. *Ac a ddygaist fy merched fel caethion cleddyf*] Neu garcharorion rhyfel. Yr oedd hyn yn gamgyhuddiad, canys yr oedd ei ferched hwn awyddus a Jacob am fyned ymaith, adn. 15, 16.

Adn. 27. *Fel yr hebryngaswn dydi â llawenydd*] Gan wneuthur gwledd neu westeiaeth ar yr achlysur; ac â *chaniadau*—odlau o fawl i Dduw, neu er cofiadwriaeth am weithredoedd enwog eu henafiaid; â *thympan*—Heb. *bethoph*, cylch o bren teneu, gyda chroen neu femrwn wedi ei estyn dros un wyneb iddo, wrth ba un y gosodir darnau bychain o efydd neu alean i dincian. Delir ef i fyny gydag un law, a churir ef â bysedd y llall, fel y gwelir ef yn cael ei chwareu yn fynyach ar ein heolydd. *Ac â thelyn*—Heb. *bekinnor*, math ar offeryn llynynaid, megys dwsmel neu delyn.

Adn. 28. *Ac ni adewaist i mi gusanu fy meibion a'm merched*] Sef ei blant a'i wryon. Y mae Laban yma yn proflesu serch mawr atynt, yr hyn ni ddanghoswyd erioed ganddo pan yr oeddynt gydag ef.

Adn. 29. *Mae ar fy llaw i wneuthur i chwri*

chwi ddrwg : ond Duw eich tad a lefarodd wrthyl neithiwr, gan ddywedyd, Cadw arnat rhag ygan wrth Jacob na da na drwg.

30 Weithian gan hyny, ti a fynit fyned ymaith, oblegid gan hiraethu yr hiraethaist am dy dy dad. *Ond* paham y lladrateaist fy nuwiau i?

31 A Jacob a atebodd ac a ddywedodd wrth Laban, Am ofni o honof: oblegid dywedais, Rhag dwyn o honot dy ferched oddiarnaf trwy drais.

32 Gyda'r hwn y ceffych dy dduwiau, na chaffed fyw: gerbron ein brodyr myn wybod pa beth o'r eiddot ti sydd gyda myfi, a chymar i ti: ac nis gwyddai Jacob mai Rahel a'u lladratasai hwynt.

33 A Laban a aeth i mewn i babell Jacob, ac i babell Lea, ac i babell y ddwy lawforwyn, ac nis cafodd hwynt: yna yr aeth allan o babell Lea, ac y daeth i babell Rahel.

34 A Rahel a gymerasai y delwau,

ddrwg] Yn llythrenol, *Y mae fy llaw at Dduw i wneulur i chwi ddrwg*—hyny yw, addunedais i Dduw y cospwn dydi am ffoi o honot, a lladrateaist fy nheraphim; ond Duw eich tad a'm hattaliodd rhag gyneuthur hyny. Wrth alw Jehofa yn 'Dduw eich tad,' y mae efe yn ei ddiarddel, gellid meddwl, fel ei Dduw ef.

Adn. 30. *Paham y lladrateaist fy nuwiau i?* Ddyn nyfyd, yn galw y rhai hyny yn DDGWIAU iddo, y rhai y gellid eu lladrateaist. A allai ef ddysgwyl amddiffyniad oddiwrthyt hwy, y rhai na allent eu hamddiffyn eu hunain! 'Gwyn eu byd y hobl y mae yr ARGLYDD yn Dduw iddynt.' Gall dynion ladrateaist ein heiddo, ond nid ein Duw.

Adn. 31. *A Jacob a atebodd, &c.*] Y mae Jacob yn ymgyfiawnhau trwy roddi y gwir reswm paham yr aeth efe ymaith yn ddiarwybod i Laban: efe a ofnai rhag i Laban ddwyn ei ferched oddiarno trwy drais, ac felly ei orfodi ef i aros yn ei wasanaeth.

Adn. 32. *Gyda'r hwn y ceffych dy dduwiau, na chaffed fyw*] Ymddengys fod lladrad gynt yn cael ei gopsi â marwolaeth, pen. xlv. 9, a gwyddom fod yr awdurdod o fywyd ac angau yn nwyllaw y patrieirech. Eithr yn flaenorol i'r gyfraith, nid oedd y gops o farwolaeth braidd byth yn cael ei gweinyddu ond am lofruddiaeth. Y mae y rabbiniaid yn ystyried hon yn rhêg o eiddo Jacob; fel pe dywedasai, 'Boed i Dduw gymeryd ymaith fywyd y neb a'u lladrateaist; a'i bod wedi cael ei hateb yn ebrwydd wedi hyn yn marwolaeth Rahel, pen. xxxv. 19.

Adn. 33. *A Laban a aeth i mewn*] Y mae y Samaritanaeg yn chwaneu yma, 'ac a chwiliodd i babell Jacob,' &c.

Adn. 34. *Offer y camel*] Yr hws ag oedd ganddynt i'w dasu dros y camel.

Adn. 35. *Arfer gwragedd a ddygwyddodd*

ac a'u gosodasai hwynt yn offer y camel, ac a eisteddasai arnynt; a Laban a chwiliodd yr holl babell, ac nis cafodd.

35 A hi a ddywedodd wrth ei thad, Na ddigid fy arglywydd, am nas gallaf gyfodi ger dy fron di; canys arfer gwragedd a ddygwyddodd i mi: ac efe a chwiliodd, ac ni chafodd y delwau.

36 ¶ A Jacob a ddigiodd, ac a roes sen i Laban: a Jacob a atebodd ac a ddywedodd wrth Laban, Pa beth yw fy nghamwedd i? pa beth yw fy mhechod, gan erlid o honot ar fy ol?

37 Gan i ti chwilio fy holl ddodrefn i, pa beth a gefaist o holl ddodrefn dy dy di? gosod ef yma gerbron fy mrodyr i a'th frodyr dithau, fel y barnant rhyngom ni ein dan.

38 Myfi bellach a film ugain mlynedd gyda thi; dy ddefaid a'th eifr ni erthylasant, ac ni fwyteais hyrddod dy braidd.

39 Ni ddygais ysglyfaeth atat ti:

i mi] Hi a wyddai y byddai hyn yn rheswm boddhaol i'w thad; canys ni allai ef feddwl y byddai i wraig yn y fath gyflwr, cyffyrddiad yr hon a ystyrid yn halogedig, eistedd ar bethau ag oeddynt naill ai yn wrthddrychau ei addoliad, neu yn cael eu defnyddio i ddybenion cysegredig. Darfu i'r ystraw lwyddo yn ol ei dymuniad, a Laban a ymadawodd heb ddrwgdybiaeth.

Adn. 36. *A Jacob a ddigiodd, ac a roes sen i Laban*] Daeth tro Jacob yn awr i geryddu, ar ol i Laban fetbu profi ei gybuddiadau, na chael dim a'allai ei arddelwi yn gyfiawn fel ei eiddo ei hun. Ond er fod ganddo reswm i siared, yr oedd yn feis iddo seau.

Adn. 37. *Pa beth a gefaist o holl ddodrefn dy dy di*] Hyn oedd gorfoledd Jacob pan yr oedd Laban yn ei gyhuddo, fod ei gydwibod ei hun yn ei gyfiawnhau; canys nid yn unig yr oedd ef yn ddiuog ei hun, ond tybiai fod pawb o'i deulu felly befyd.

Adn. 38. *Myfi bellach a film ugain mlynedd gyda thi*] Y mae rhai yn barnu fod yr ugain mlynedd hyn yn wahanol i'r ugain mlynedd crybwylledig yn adn. 41, yr hyn a wna Jacob yn ieuangach o ugain mlynedd na'r dyb gyffredin, sef yn 57 yn lle 77. Tybiant iddo ef fod yn nhŷ Laban 14 mlynedd yn was cyfammodol am ei wragedd; ac yn nghymydogoeth Laban 20 mlynedd fel cyfaill; ac yn ddiweddfaf oll, yn was cyfammodol dan Laban 6 blynedd am y praidd, yr hyn a wna ddeugain mlynedd yn y cwbl. Y neb a ewyllsio weled y pwnc hwn yn cael ei chwilio gyda manylwch, darlenned draethawd rhagorol Mr. Skinner, (4plyg, 1765,) a Dr. Kennicott ar y lle.

Adn. 39. *Ni ddygais ysglyfaeth atat ti*] Ilyny yw, y creadur a rwygid gan fystfollod nis dygan yn gelan i ti, ond myfi a roddwn i ti creadur byw yn ei le ef. *O'm llaw i y go-*

myfi a'i gwnawn ef yn dda; o'm llaw i y gofynit hyny, yr hyn a ladrated i dydd, a'r hyn a ladrated y nos.

40 Bwm y dydd, y gwres a'm treuliodd, a rhew y nos; a'm cwsg a giliodd oddiwrth fy llygaid.

41 Felly y bwm i ugain mlynedd yn dy dŷ di; pedair blynedd ar ddeg y gwasanaethais di am dy ddwy ferched, a chwe blynedd am dy braidd; a thi a newidiaist fy nghyflog ddeg o weithiau.

42 Oni buasai fod Duw fy nhad, Duw Abraham, ac arswyd Isaac gyda mi, diau yr awr hon y gollyngasit fi ymaith yn waglaw. Duw a welodd fy nghystudd a llafur fy nwyllaw, ac a th geryddodd di neithiwr.

43 ¶ Laban a atebodd ac a ddywedodd wrth Jacob, Y merched hyn ydynt fy merched i, a'r meibion hyn ynt fy meibion i, a'r praidd yw fy mhraidd i; a'r hyn oll a weli, eiddo fi yw: a heddyw pa beth a wnaf i'm

fyfynit hyny—byddai raid i mi wneuthur hyny pa bryd bynag y dygwyddai niwed iddynt. Dengys hyn duedd gybyddlyd a chaled Laban; canys cyfraith Duw a ofyna fod i'r bugail gael ei ryddhau rhag gwneuthur iawn am yr hyn a ysglyfaethir gan fwystfiod, Exod. xxii. 10—13; ac y mae yn dra thebyg fod y gyfraith hon mewn grym er yr amser boreaf.

Adn. 40. *Bwm y dydd, y gwres a'm treuliodd, a rhew y nos*] Sylwyddai yn fynych gan ymdeithwyr ar y gwabaniaeth rhyfeddol sydd rhwng ardymerher dydd a nos yn ngwledydd y dwyrain, yn enwedig yn misoedd Medi, Hydref, Tachwedd, Mawrth, Ebrill, a Mai. Ar ol i'r gwres fod yn anoddefol y dydd, bydd y nos yn fynych mor oer ag yn y gauaf gyda ni.

Adn. 41. *Felly y bwm i ugain mlynedd yn dy dŷ di*] Gwel ar adn. 38. *Ddeg o weithiau*—gwel ar adn. 7.

Adn. 42. *Duw Abraham ac arswyd Isaac*] Y mae yn hynod fod Jacob yn dywedyd Duw Abraham ac ARSWYD Isaac, pan y mae y ddau air yn meddwl yr un Bôd. Y rheswm fe allai oedd hyn: yr oedd Abraham wedi marw er's hir amser, a myned i'r nef lle nid oes ofn nac arswyd, ac yr oedd Duw yn rhan ddi-gyffnewid iddo ef yn dragyfuidd: yr oedd Isaac eto yn fyw mewn cyflwr o *brawf*, ac felly heb fod yn rhydd oddiwrth y perygl o *syrrthio*; am hyny dywedir fod Duw yn arswyd iddo—nid yn unig fel gwrthddrych ei addoliad crefyddol mewn ffordd gyffredin, ond fel y Duw cyfiawn a saintaidd gerbron yr hwn yr oedd ef yn barhaus yn 'gweithio allan ei iachawdriaeth ei hun trwy ofn a dychryn,' Phil. ii. 12.

Adn. 43. *A'r hyn oll a weli, eiddof fi yw*] Sydd wedi deilliaw oddiwrthef fi, neu oddiwrth fy meddiannau.

Adn. 44, 45. *Gwnawn gyfammod, &c.*] Yr

merched hyn, ac i'w meibion hwynt y rhai a esgorasant?

44 Tyred gan hyny yn awr, gwnawn gyfammod, mi a thi; a bydded yn dystiolaeth rhyngof fi a thithau.

45 A Jacob a gymerth gareg, ac a'i cododd hi yn golofn.

46 Hefyd Jacob a ddywedodd wrth ei frodyr, Cesglwch gerig: a hwy a gymerasant gerig, ac a wnaethant garnedd, ac a fwytasant yno ar y garnedd.

47 A Laban a'i galwodd hi Jegar-Sahadutha: a Jacob a'i galwodd hi Galeed.

48 A Laban a ddywedodd, Y garnedd hon sydd dyst rhyngof fi a thithau heddyw: am hyny y galwodd Jacob ei henw hi Galeed,

49 A Mispā; oblegid efe a ddywedodd, Gwilled yr Arglwydd rhyngof fi a thithau, pan fom ni bob un o olwg ein gilydd.

50 Os gorthrymi di fy merched,

hwn a wnaed ac a gadarnhawyd gyda difrifwch mawr, yn ol arferiad yr amseroedd hyny.

1. Adeiladwyd colofn, a chodwyd carnedd o gerig, i fytholi y goffawriaeth o'r peth, trwy nad oedd ysgrifen ond odid yn adnabyddus iddynt. 2. Offrymwyd aberth, sef aberth o hedd-offrymau. 3. Bwytasant fara gyda'u gilydd, gan gydgyfranogi o'r wledd ar yr aberth, yr hyn oedd yn arwydd o gymodiad diffuant.

Adn. 46. *Ac a wnaethant garnedd*] Y mae y gair *gal*, yr hwn a gyfieithir yma yn *garnedd*, yn arwyddo yn briodol *garnedd Gron*; ac y mae yn debyg i'r *garnedd hon gael ei gwneuthur i'r dyben deublyg o allor a burdd*; a chareg neu golofn Jacob a osodwyd arni i fod yn *gofeb*.

Adn. 47. *A Laban a'i galwodd hi Jegar-sahadutha*] Hyny yw, 'carnedd,' neu 'garnedd Gron y dystiolaeth;' a *Jacob a'i galwodd hi Galeed*—yr hyn a arwyddda yr un peth; ond fod yr enw gan Laban yn *Galdeaeg* bur, a'r enw gan Jacob yn *Hebraeg* bur. Ymddengys mai yr enw a roddes Jacob iddi a safodd, sef Galeed neu Gilead; ac nid yr enw *Caldeaid*.

Adn. 48. *Am hyny y galwodd Jacob ei henw hi Galeed*] Saes., 'am hyny y galwyd ei henw hi Galeed,' sef mewn gair Caldeaid o'r ystyr hwnw, gan *Laban*. Rhaid fod y cyfieithwyr Cymreig yn deall nad oedd enw Jacob yn y wreiddiol, pan y rhoddent ef mewn llythrenau *Italaidd*; ac ymddengys mai Laban, ac nid Jacob, a lefarodd gynwysiad yr adnod hon a'r rhai dyllynol.

Adn. 49. *A Mispā*] Y mae *mitspa* yn arwyddo *tŵr gwyltio*; ac y mae Laban yn meddwl, ar ol i'r lle gael ei gysegru, ac i'r cyfammod gael ei wneud a'i gadarnhau yn ddirifrol yn awr, y byddai i Dduw gymeryd meddiant o'r garnedd hon, a sefyll arni fel ar

neu os cymeri wragedd heblaw fy merched i; nid *oes neb gyda ni*; edrych, Duw *sydd* dyst rhyngof fi a thithau.

51 Dywedodd Laban hefyd wrth Jacob, Wele y garnedd hon, ac wele y golofn hon a osodais rhyngof fi a thi:

52 Tyst a *fydd* y garnedd hon, a thyst a *fydd* y golofn, na ddeuaf fi dros y garnedd hon atat fi, ac na ddoi dithau dros y garnedd hon na'r golofn hon atat fi, er niwed.

53 Duw Abraham, a Duw Nacor, a farno rhyngom ni, Duw eu tadau hwynt. A Jacob a dyngodd i ofn ei dad Isaac.

dŵr gwylio, i attal i'r naill na'r llall dori ammodau y cyfammod.

Adn. 50. *Nid oes neb gyda ni*] Er eu bod oll yn bresenol ar offrymiad yr aberth, eto ymddengys i Jacob a Laban ymneillduo wrth wneuthur y cyfammod, a chyflawni y gorchwyl yn ddirgel, gan alw Duw yn dyst iddo. Yr oedd gan Jacob eisioes bedair o wragedd; ond yr oedd Laban yn ofni rhag iddo gymeryd ereill, y rhai y deuai eu plant yn naturiol i ymgyfranogi o'i feddiannau, er colled i'w ferched a'i wryon ef.

Adn. 51. *Wele y golofn hon a osodais rhyngof fi a thi*] Y golofn hon yn ddiau a osodwyd i fyny gan Jacob; canys dywedir yn adn. 45, 'A Jacob a gymerth gareg, ac a'i cododd hi yn golofn.' Ond y mae un ysgriflyfr Hebreig yn darllen yma, *yaritha*, 'a osodaist ti rhyngof fi a thi:' a'r gair yn y testyn Samaritanaidd yw *yarata*, 'y golofn a weli rhyngof fi a thi.'

Adn. 52. *Er niwed*] Ond yr oedd rhyddid iddynt ymweled â'u gilydd fel cyfeillion, er dim ag ydoedd yn y cyfammod hwn i'r gwrthwnebu.

Adn. 53. *Duw eu tadau hwynt*] Trwy mai cyfeirio y mae Laban yma at y *gwir Dduw*, pa fodd y gallai ef ddywedyd fod y Duw hwn yn Dduw i *henafiaid* Abraham a Nacor? Y mae yn sicr mai eilunaddolwr oedd Tera: y mae genym brawf o hyn Jos. xxiv. 2. Gan nad yw y frawddeg hon yn nghyfieithiad y LXX, a'i bod yn eisiau mewn rhai ysgriflyfrau Hebreig, myn Dr. Kennicott nad oedd hi yn wreiddiol yn y testyn. Ond y mae rhai hen ysgriflyfrau yn darllen *abiehem*, 'Duw eich tad,' sef Duw Isaac, tad Jacob: gwel adn. 29. *A Jacob a dyngodd i ofn ei dad Isaac*—gan fod *ofn Duw* yn cael ei roddi yn aml am y cwbl o *grefydd*, tybia rhai mai yr ystyr yw, ddarfod i Jacob dyngu i *grefydd* ei dad Isaac; neu i'r *Duw* ag yr oedd ei dad Isaac yn ei *ofni*, yr hwn ni ddarfu iddo erioed wasanaethu dauiau ereill, fel y gwnaethai Abraham a Nacor yn Ur y Caldeaid. Ond gwel ar adn. 42.

Adn. 54. *Hefyd Jacob a aberthodd aberth yn y mynydd*] Y mae yn dra thebyg ddarfod i Laban ymuno yn y ddefod grefyddol bwysig hon, ac, ar ol offrymu y gwaed a'r brasder i Dduw, ddarfod iddynt gydwlleda ar yr aberth.

Adn. 55. *A Laban a gyfododd yn fore, ac a gusanodd ei feibion a'i ferched*] Sef ei

54 Hefyd Jacob a aberthodd aberth yn y mynydd, ac a alwodd ar ei frodyr i fwyta bara: a hwy a fwytasant fara, ac a drigasant dros nos yn y mynydd.

55 A Laban a gyfododd yn fore, ac a gusanodd ei feibion a'i ferched, ac a'u bendithiodd hwynt: felly Laban a aeth ymaith, ac a ddychwelodd i'w fro ei hun.

PENNOD XXXII.

A JACOB a gerddodd i'w daith yntau: ac angylion Duw a gyfarfu âg ef.

Wryon, y rhai oeddynt unarddeg o feibion i Jacob, yn nghyda *Dina* eu chwaer, a'u mamau *Rahel* a *Lea*. Y rhai hyn oll a elwir ganddo yn *blant* iddo ei hun, adn. 43. *Ac a'u bendithiodd hwynt*—a weddiodd yn wresog am eu llwyddiant, er iddo ddyfod atynt gydag adduned i Dduw i'w niweidio, adn. 29. Fel hyn troodd Duw ei felldith fwrriadol ef yn fendith.

ADFEDDYLIADAU.—Y mae y materion mwyaf pwysig yn y bennod hon wedi cael eu hystyried eisioes yn y sylwadau, at y rhai y cyfeirir y darllenwyd. Gwelsom o'r blaen weddnod JACOB, ac hyd yn hyn ychydig a gaem ynddo i'w hoffi: ond yn fuan cawn gyfnewidid dedwydd yn ei feddwl a'i ymddygiad. Y mae gweddnon LABAN yn ymddangos braidd yn mhob anghraifft yn aflewyrchus: nid ymddengys ei fod ef yr hyn a alwn yn gyffredin yn ddyw *drygionus*, ond yr oedd yn ddiamau yn *wan a chybyddlyd*; a darfu i gybydd-dod ddyfetha ynddo ef, fel y gwna yn mhawb ag sydd yn ei garu, yr egwyddorion dymunol o *gysfaender a haelion*. Os gallai ef gael chwaneg o gyfoeth, nid oedd waeth ganddo pwy a gai gam, na phwy a ddyoddefai. Yn yr achos hwn efe a ymguddiai rhag hyd yn nod ei ymgaroedd ei hun; ac nid oedd waeth ganddo hyd yn nod i'w *blant* fod mewn eisiau angenrheidiu bywyd, os gallai ef chwanegu ei ystôr ei hun! Mor wylidwrus y dylem ni fod yn erbyn y drwg annaturiol a dinystrïol hwn! Y mae yn annichonadwy i'r neb sydd yn *caru arian*, garu Duw na dyn; ac o ganlyniad rhaid ei fod, fel y sylwa Clarke, yn y ffordd lydan ag sydd yn arwain i ddystryw.

PEN. XXXII. Adn. 1. *A Jacob a gerddodd i'w daith yntau*] I fyned tua gwlad ei dadau, fel yr aethai Laban i'w fro ei hun. *Ac angylion Duw a gyfarfu âg ef*—mewn rhyw ddull gweledig a gogoneddus, megys yr ymddanghosent yn fynyeh i'r patieirch. Y mae yn debyg na welwyd hwynt gan neb ond Jacob. Cyfarfuasant âg ef i'w resawu i Ganaan drachefn, yr hyn oedd yn dderbyniad anhyseddusach nag a gafodd un tywysog ag y cyfarfuwyd âg ef erioed gan swyddogion dinas. Hwya a'i gyfarfuasant i gydlawnychu âg ef ar ei ddyfodiad, a'i ddiangfa oddiwrth Laban. Yr oeddynt yn ei ddylyn ef yn anweledig o hyd, ond yn awr ymddangosasant, am fod

2 A Jacob a ddywedodd, pan welodd hwynt, Dyma wersyll Duw; ac a alwodd enw y lle hwnw Mahanaim.

3 A Jacob a anfonodd genhadau o'i flaen at ei frawd Esau, i wlad Seir, i wlad Edom;

4 Ac a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, Fel hyn y dywedwch wrth fy arglwydd Esau; Fel hyn y dywed dy was di Jacob; Gyda Laban yr ymdeithiais, ac y trigais hyd yn hyn.

5 Ac y mae i mi eidoniau, ac asynod, defaid, a gweision, a morwynion: ac anfon a wnaethym i fynegi i'm harglwydd, i gael ffafwr yn dy olwg.

6 ¶ A'r cenhadau a ddychwelasant at Jacob, gan ddywedyd, Daethom at

dy frawd Esau; ac y mae efe yn dyfod i'th gyfarfod di, a phedwar cant o wŷr gydag ef.

7 Yna Jacob a ofnodd yn fawr, a chyfyng oedd arno: ac efe a ranodd y bobl oedd gydag ef, a'r defaid, a'r eidoniau, a'r camelod, yn ddwy fintai;

8 Ac a ddywedodd, Os daw Esau at y naill fintai, a tharaw hōno, yna y fintai arall a fydd ddiangol.

9 ¶ A dywedodd Jacob, O Dduw fy nhad Abraham, a Duw fy nhad Isaac, O Arglwydd, yr hwn a ddywedaist wrthyf, Dychwel i'th wlad, ac at dy genedl, a mi a wnaf ddaioni i ti.

10 Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di, nac o'r holl wirion-

ganddo fwy o beryglon o'i flaen. Pan y mae Duw yn amcau ei bobl i brofedigaethau anghyffredin, y mae efe yn eu paratoi hwynt trwy gysuron anghyffredin.

Adn. 2. *Dyma wersyll Duw*] Neu ei *fyddin*. Felly yn gyfawn y gelwir yr angylion, o herwydd eu rhifedl mawr, eu trefn ragorol, eu nerth galluog, a'r wasanaeth ag y maent yn ei chyflawni i Dduw a'i eglwys, er amddiffyniad pa un eu hanfonir. *Ac a alwodd enw y lle hwnw Mahanaim*—yr hyn a arwydda y *ddau lu*, os darllenir ef gyda'r nodau; neu, yn syml, *lluoedd* neu *gersylloedd* yn y lluosog. Adeiladwyd dinas yma wedi hyn, yr hon a gyfaneddidd gau y Lefiaid, Jos. xxi. 38. Y mae yn debyg fod yr angylion yn ymddangos i Jacob yn *ddau lu*; un o'i flaen, i'w amddiffyn rhag Esau; a'r llall o'i ol, i'w gadw rhag Laban. Neu, yr oedd teulu Jacob yn gwneyd un fyddin, yn arddangos yr eglwys *fibriaethus* a *theithiol* ar y ddaear; a'r angylion y fyddin arall, yn arddangos yr eglwys *orfoleddus* a *gorphwysedig* yn y nef.

Adn. 3. *A Jacob a anfonodd genhadau o'i flaen at ei frawd Esau*] Y mae yn dra thebyg ddarfod iddynt gael eu hanfon gryn amser cyn iddo ef gael y weledigaeth hon yn Mahanaim; canys ymddengys iddynt ddychwelyd tra yr oedd Jacob yn gwersyllu wrth afon Jabboc, lle y cafodd efe y weledigaeth o angylion: gwel adn. 6, 23. *I wlad Seir*—yr oedd gwlad Seir, yn nhir Edom, yn sefyll o du y deau i'r Môr Marw, ac yn cyraedd oddiyno hyd Fôrgainc Arabia, i Bren. ix. 26. Yr oedd oddeutu 120 o filldroedd o'r fan lle yr oedd Jacob i wlad Seir.

Adn. 4. *Fel hyn y dywed dy was di Jacob*] Y mae Jacob yma yn cydnabod Esau fel ei *arglwydd*, ac yntau ei hun fel ei *was*; canys nid oedd yr amser wedi dyfod eto pryd y gellid dywedyd, 'Yr hynaf a wasanaetha yr ieuangaf.'

Adn. 5. *Ac anfon a wnaethym i fynegi i'm harglwydd, &c.*] Y mae y genadwri hon o eiddo Jacob yn dangos callineb mawr ynddo; canys pe dychwelasai efe i Ganaan heb hysbysu i'w frawd y golud a ddygasai efe gydag ef o Harau, y mae yn debygol y buasai i Esau, yr hwn oedd yn byw yn mholl oddiwrth ei dad Isaac, feddwl, wrth ddyfod i gymeryd medd-

iant o eiddo Isaac ar ei farwolaeth, fod Jacob wedi cael yr holl gyfoeth hyn oddiwrth ei dad, er colled i Esau, yr hwn a allasai greu camgymeriad anghymodadwy rhyngddynt.

Adn. 6. *Y mae efe yn dyfod i'th gyfarfod di, a phedwar cant o wŷr gydag ef*] 'Y mae ef yn awr wedi bilino yn dysgwyl am 'ddyddiau galar ei dad;' (pen. xxvii. 41;) a chyn iddynt ddyfod, y mae yn penderfynu dy ladd di.—BENSON. Ond tybia Clarke ac ereill, nad yw yn ymddangos fod gan Esau, wrth ddyfod fel hyn i gyfarfod Jacob, unrhyw fwriad *gelpmiaethus* tuag ato; ond ei fod yn dyfod fel hyn, gyda rhan o'i weision neu ei lwyth, i *anrhydeddu* ei frawd.

Adn. 7. *Yna Jacob a ofnodd yn fawr*] Canys gall teimlad byw o berygl gyson yn dda gyda gradd o hyder yn ngallu a daioni Duw. Yr oedd Jacob yn ymwybodol ei fod wedi niweidio ei frawd, ac yr oedd yn awr yn ofni ei fod ef yn dyfod gyda bwriadau gelyniaethus, a gwyddai fod ganddo bob drwg i'w ofni oddiwrth ei anfodlonrwydd ef. Y *gydwylbod* sydd gyhuddes ddychrynlyd; ac yn fuan neu yn hwyr hi a ddywed y gwir, ac a wna i'w pherchenog welai ac arswydo hyd yn nod pan na fyddo ei heogurwydd yn adnabyddus i neb ond iddo ei hun a Duw.

Adn. 8. *Os daw Esau at y naill fintai, &c.*] Yr oedd Jacob wedi rhanu ei bobl a'i anifeiliaid yn ddwy fintai, fel, os dialai Esau, a tharaw o hono eiddo ei frawd, y gallai yr hanner arall ffoi yn ddiogel.

Adn. 9. *O Dduw fy nhad Abraham, a Duw fy nhad Isaac*] Efe a gyfarchai Dduw fel *Dduw ei dadau*, heb feiddio ei alw ei *Dduw ei hun*, o herwydd y teimlad ag ydoedd ganddo o'i annheilyngdod. Y mae y weddi hon yn nodedig am ei synledd a'i grymusder; ac y mae hefyd yn gynllun o weddi, ac yn cynwys ei bellfenua hanfodol: 1. Hunan-ddarostyngiad; 2. Mawrygiad trugaredd Duw; 3. Ymbiliad rhag y drwg ag yr oedd yn agored iddo; 4. Dadlu yr addewidion a wnaethai Duw iddo; ac, 5. Cymeryd defnydd oddiwrth yr hyn a wnaethai Duw eisioes.

Adn. 10. *Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di, &c.*] Dywedir fod y darlleniad ar ymyl i dalen yn fwy cyson a'r wreiddiol: *katonti miccol hachasadim umiccol hae-*

edd a wnaethost â'th was: oblegid â'm ffon y daethym dros yr Iorddonen hon; ond yn awr yr ydwyf yn ddyw fintai.

11 Achub fi, atolwg, o law fy mrawd, o law Esau: oblegid yr ydwyf fi yn ei ofni ef, rhag dyfod o hono a'm taraw, a'r fam gyda'r plant.

12 A thydi a ddywedaist, Gwnaf ddaioni i ti yn ddiâu; a'th had di a wnaff fel tywod y môr, yr hwn o aml-der ni ellir ei rifo.

13 ¶ Ac yno y lletyodd efe y noson hòno: ac o'r hyn a ddaeth i'w law ef y cymerth efe anrheg i'w frawd Esau;

14 Dau gant o eifr, ac ugain o fychod, dau gant o ddefaid, ac ugain o hyrddod.

15 Deg-ar-hugain o gamelod blithion a'u llydnod, deugain o wartheg, a deg o deirw, ugain o asenod, a deg o ebolion.

16 Ac efe a roddes yn llaw ei weision bob gŷr o'r neilldu; ac a ddywedodd wrth ei weision, Ewch tros-

odd o'm blaen i; a gosodwch encyd rhwng pob gŷr a'u gilydd.

17 Ac efe a orchymynodd i'r blaenaf, gan ddywedyd, Os Esau fy mrawd a'th gyferfydd di, ac a ymofyn â thydi, gan ddywedyd, I bwy y perthyni di? ac i ba le yr âi? ac eiddo pwy yw y rhai hyn o'th flaen di?

18 Yna y dywedi, Eiddo dy was Jacob; anrheg yw wedi ei hanfon i'm harglwydd Esau: ac wele yntau hefyd ar ein hol ni.

19 Felly y gorchymynodd hefyd i'r ail, ac i'r trydydd, ac i'r rhai oll oedd yn eanlyn y gŷroedd, gan ddywedyd, Yn y modd hwn y dywedwch wrth Esau, pan gaffoch afael arno.

20 A dywedwch hefyd, Wele dy was Jacob ar ein hol ni. Oblegid (eb efe) boddlonaf ei wyneb ef â'r anrheg sydd yn myned o'm blaen: ac wedi hyny edrychaf yn ei wyneb ef: ond antur efe a dderbyn fy wyneb inau.

21 Felly yr anrheg a aeth trosodd o'i flaen ef: ac efe a letyodd y noson hòno yn y gwrsyll.

meth, 'llai wyf na'r holl dosturiaethau, ac na'r holl ffyddlondeb, a ddanghosaist i'th was.' Y mae yn debyg fod St. Paul â'i lygad ar yr ymadrodd hwn pan yn ysgrifenu, 'I mi y llai na'r lleiaf o'r holl saint.' Bydd i'r dyn ag sydd yn ei weled ei hun yn ngoleuni Duw, deimlo yn wastadol nad oes ganddo ddim ddaioni ond a dderbyniodd, ac nad yw yn rhyglyddu dim o'r hyn oll sydd ganddo. Ni all archangylion Duw arferyd iaith wahanol; ac hyd yn nod ysbruoedd y cyfiawnon, y rhai a berffeithiwyd yn eu digonolrwydd llawenydd, ni allant wneuthur uwch ymfrost. *Oblegid a'm ffon y daethym dros yr Iorddonen hon*—hyny yw, *ei hunan yn unig*, heb neb gydag ef, fel y mae y Galdeaeag yn ei gyfieithu. Y mae traddodiad yn mhlith yr Iuddewon ddarfod i Jacob daraw yr Iorddonen â'i ffon, ac felly ei holli hi, wrth fyned at ei deulu i Haran. *Ond yn awr*—wrth ddychwelyd o Haran, *yr ydwyf yn ddyw fintai*—yn cael fy amgylchu gan osgordd luosog o wragedd a phlant, gweision a morwynion, yn nghyda defaid, eidionau, a chamelod, yn gwneud dwy fyddin helaeth, adn. 7, 8.

Adn. 11. *Achub fi, atolwg, o law fy mrawd, &c.*] Nid lleidr a ofnai efe, ond llofrudd; ac nid ei fywyd ei hun yn unig a olygai efe mewn perygl, ond eiddo y mamau a'i plant.

Adn. 12. *A thi a ddywedaist, Gwnaf ddaioni i ti yn ddiâu*] Gwel ar pen. xxviii. 13—15; *a'th had di a wnaff fel tywod y môr*—ar ol dyfod at yr *adlewid* trwy yr hon y cadarnhawyd y cyfammod i Abraham ac i Isaac, cryfhawyd ei ffydd yn fawr, a theimlai nas gallai ballu, gan y gwyddai ddarfod ei gwneuthur drosodd iddo *yntau* hefyd, megys ag y gwnaed hi i'w dad a'i daid.

Adn. 13. *Ac o'r hyn a ddaeth i'w law ef*]

Neu o'r eiddo a roddwyd yn ei feddiant gan raglunnaeth Duw. Nid unrhyw beth, neu y peth cyntaf a ddeuai i'w law, a feddylir; canys y mae yn eglur i'r anrheg gael ei dewis gyda gofal mawr. *Y cymerth efe anrheg i'w frawd Esau*—fel y mae yn gweddio ac yn ymddiried yn Nuw, felly y mae yn defnyddio y moddion; ac wedi iddo wneyd Duw yn gyfaill iddo trwy weddi, y mae yn gall yn ymdrechu gwneyd Esau yn gyfaill iddo trwy anrheg.

Adn. 14. *Dau gant o eifr, &c.*] Yr oedd hon yn anrheg dywysogaidd, ac yn ddigonol i wneyd iawn i Esau am unrhyw golled dymhorol a allai ef ei dyoddef wrth ei amddifadu o'i enedigaeth-fraint a'i fendith. Y mae ad-daliad am niweidiau a wnaed i ddyn yn anhebgorol angenrheidiol, os yn ein gallu. Ni all y neb a ommedda wneyd hyn, pan y mae yn ei allu, ddysgwyl cael trugaredd oddiar law Duw.

Adn. 15. *Deg-ar-hugain o gamelod blithion*] Neu laethog. Yr oedd y rhai hyn yn werthfawr neillduol, oblegid camelod blithion a gyfansoddant y rhan benaf o gyfoeth yr Arabiaid. Y maent yn rhoddi blaeth yn barhaus, heb beidio nes y maent bron â llydnu; ac y mae y blaeth hwn, ar ol ei gymysgu â thair rhan o ddwfr, meddai Pliny, yn gwneyd y ddioid fwyaf dymunol ac iachus.

Adn. 16. *Gosodwch encyd rhwng pob gŷr a'u gilydd*] I liniaru anffoddlonrwydd Esau yn raddol.

Adn. 17—21. *Ac efe a orchymynodd i'r blaenaf, &c.*] Yr oedd pob un o weision Jacob, ag oeddynt gyda'r gwahanol ŷroedd, i arferyd yr un geiriau, a galw Jacob yn *was*, ac Esau yn *arglwydd*, 1. Fel y byddai i fynych adroddiad o'r un geiriau, megys y sylwa un o'r

22 Ac efe a gyfododd y noson hòno, ac a gymerth ei ddwy wragedd, a'i ddwy lawforwyn, a'i un mab ar ddeg, ac a aeth dros ryd Jabboe.

23 Ac a'u cymerth hwynt, ac a'u trosglwyddodd trwy yr afon: felly efe a drosglwyddodd yr hyn oedd ganddo.

24 ¶ A Jacob a adawyd ei hunan: yna yr ymdrechodd gwr âg ef nes codi y wawr.

25 A phan welodd na byddai drech nag ef, efe a gyffyrddodd â

chyswllt ei forddwyd ef; fel y laesodd cyswllt morddwyd Jacob, wrth ymdrech o hono âg ef.

26 A'r *angel* a ddywedodd, Gollwng fi ymaith; oblegid y wawr a gyfododd. Yntau a atebodd, Ni'th ollyngaf oni'm bendithi.

27 Hefyd efe a ddywedodd wrtho, Beth *yw* dy enw? Ac efe a atebodd, Jacob.

28 Yntau a ddywedodd, Mwyach ni elwir dy enw di Jacob, ond Israel: oblegid cefaiest nerth gyda Duw fel

tadau, daraw yn gryfach, a gwneuthur argraff dyfnach; 2. Rhag, os gadewid iddynt arferyd eu geiriau eu hunain, na fyddai iddynt eirio mor fedrus a phriodol; ac, 3. Fel y gallai Esau wybod mai geiriau Jacob ei hun oedd y genadwri.

Adn. 22. *Ac a aeth dros ryd Jabboe*] Y mae y nant neu yr afonig hon yn codi yn mynyddoedd Gilead, ac yn ymarllwys i'r Iorddonen yn mhen deheuol llyn Geuneserat. Ew presenol yr afon hon yw *Serka*, ac y mae yn rhedeg mewn gwely dwfn a chreigiog.

Adn. 23. *Ac a'u cymerth hwynt, ac a'u trosglwyddodd trwy yr afon*] Wedi iddo ef ei hun gwneuthur prawf o'r rhyd yn gyntaf, efe a a ddychwelodd, ac a barodd i'w wragedd a'i blant groesi.

Adn. 24. *A Jacob a adawyd ei hunan*] Yr ochr arall i'r afon, fel y gallai yn fwy rhydd a gwresog dywallt ei enaid allan mewn gweddi, a thrachefu daenu ei ofalon a'i ofnau gerbron Duw. *Yna yr ymdrechodd gwr âg ef nes codi y wawr*—seg trafyddol AIR neu FAB Duw, yr hwn yn fynych a ymddangosai mewn agwedd neu ffurf ddynol cyn iddo wisgo y natur ddynol. Dywed Hosea, pen. xii. 4, pa fodd yr ymdrechai Jacob gydag ef: 'Wylodd, ac ymbiliodd âg ef:' felly dagrau a gweddian oedd ei arfau. Yr oedd nid yn unig yn ymdrech *gorfforol*, ond hefyd *ysbrydol*, trwy fydd gref ac awydd santaidd; ac y mae hyn yn dangos nad angel creëdig oedd yr hwn yr ymdrechai âg ef, ond Angel niawr y cyfammod; canys sier yw na weddiai efe am fendith gan greadur. Yn wir y mae Hosea yn ei alw ef yn 'ARGLWYDD DUW Y LLOEDD;' a dywed, 'Yr ARGLWYDD yw ei goffawriaeth,' pen. xii. 5. Y mae HUNTER yn meddwl mai *breuddwyd* oedd yr ymdrech hwn o eiddo Jacob; ond os felly, y mae yn hynod ddarod i freuddwyd ei *gloffi* ef! A thybja BOOTHROYD, os nad breuddwyd ydoedd, y rhaid ei fod yn *allegol* neu *ffugyrrol*, yn arwyddo taerineb ei weddi; ond os felly, rhaid mai *allegol* hefyd oedd cloffi ei glun ef! Na, 'nid breuddwyd neu weledigaeth oedd ymdrech Jacob gyda'r Arglwydd,' fel y sylwa KURTZ, 'ond dygwddiad gwirioneddol: yr oedd Angel yr Arglwydd yno yn wirioneddol, ac yr oedd Jacob mewn gwirionedd yn ymdrechu gydag ef.' 'Nid oes achos tybio,' meddai CLARKE, 'fod yr Angel hwn weddi cymeryd corff dynol, neu rywbeth cyfatebol iddo, mewn trefn i'w gwneuthur ei hun yn *gyffyrddadwy* i Jacob; canys fel y

mae yr enaid yn gweithredu ar y corff trwy drefniad Duw, felly y gallai yr Angel weithredu ar gorff Jacob trwy yr holl nos, a chynrychu yn ei *ddyghymyg* ef, trwy effaith ei allu, bob angenrheidiol ddrychfeddwl o *gorff-olaeth*, ac yn y *giaw* bob teimlad o *sylwedd*, ac eto heb fod dim sylweddolrwydd yn yr achos.'

Adn. 25. *A phan welodd na byddai drech nag ef*] Goddefodd yr Angel iddo ei hun gael ei orchfygu, i wrol fydd a gobaith Jacob yn erbyn y perygl nesol; i.e. efe ei hun oedd yn ei nerthu ef i ddal i fyny yr ymdrech, ac enill y frwydr. *Efe a gyffyrddodd â chyswllt ei forddwyd ef, fel y laesodd*—hyn ydoedd i'w iselu ef, a'i wneyd yn deimladwy o'i wendid ei hun, fel y byddai iddo briodoli ei orchfygiad nid i'w allu ei hun, ond i ras Duw, ac y cefnogid ef i ymddibynu ar y gras hwnw am y waredigaeth ag yr oedd efe yn ei chwenychu mor sawr. Y mae rhai yn meddwl ddarfod i Jacob ymiachâu yn ebrwydd o'i gloffi, a chasglant hynny oddiwrth pen. xxxiii. 18; tra y tybia ereill fod ei gloffi yn aros dros ei holl fywyd; ac y mae y dyb olaf hon yn debycaeth, gellid meddwl, oddiwrth yr hyn a adroddir adn. 32.

Adn. 26. *Gollwng fi ymaith*] Fel hyn y mae yr Angel, mewn ymstyngiad rhyfeddol, yn llefaru wrth Jacob fel y gwnaeth Duw wrth Moses, Exod. xxxii. 10, 'Gad im lenydd;' a hyny i ddangos llwyddiant ei weddi ef gyda Duw, ac hefyd i'w gefnogi ef i barhau yn yr ymdrech. *Oblegid y wawr a gyfododd*—ac am hyny ni fyuai efe gadw Jacob yn hwy, gan yr hwn yr oedd gwaith i'w gwneuthur, teulu i edrych ar eu hol, a thait i'w chyflawni. *Ni'th ollyngaf oni'm bendithi*—y mae efe yn penderfynu mynu bendith, a gwell ganddo i'w holl esgyrn gael eu datgysylltu nag iddo fyned ymaith hebbdi. Fel hyn rhaid i'r rhai a fyanant gael eu bendithio gan Dduw âg iachawdwriaeth, fod mewn difrifwech, taerineb, ac ymdrech mawr am dani. Ddarllen-ydd, a wyt ti yn 'gweddio, ac heb ddiffygio?'

Adn. 27. *Beth yw dy enw?*] Y mae yr holiad hwn yn cael ei gwneuthur, nid er mwyn cael hysbysrwydd, ond er mwyn rhoddi yr enw newydd ag sydd yn canlyn. *Ac efe a atebodd, Jacob*—hyny yw, DYSODLWR, fel yr arwydda y gair: gwel pen. xxv. 26.

Adn. 28. *Mwyach ni elwir dy enw di Jacob, ond Israel*] TYWYSGO GYDA DUW. Neu, fel y dylai y geiriau gael eu cyfieithu, 'ni

tywysog, a chyda dynion, ac a orchfygaist.

29 A Jacob a ymofynodd, ac a ddywedodd, Mynega atolwg dy enw. Ac yntau a atebodd, I ba beth y gofyni hyn am fy enw i? Ac yno efe a'i bendithiodd ef.

30 A Jacob a alwodd enw y fan Peniel: oblegid gwelais Dduw wyneb yn wyneb, a diangodd fy einioes.

31 A'r haul a gyfodasai arno fel yr

edwir dy enw di yn unig Jacob, ond Israel; neu 'Israel yn hytrach na Jacob;' sef tywysog gyda Duw yn hytrach na dysodlwr. Y mae yn awlwg iddo wedi hyn gael ei alw yn Jacob, yn gystal ag Israel; ond darfu i'r enw olaf agos lyncu y blaenaf yn ei hiliogaeth ef, y rhai yn gyffredin a elwid Israel ac Israeliaid. Ystyr y gair Israel, fel y gwelsom, yw tywysog gyda Duw; ac y mae efe yn dywysog yn wir, ag sydd yn dywysog gyda Duw; ac y mae y rhai hyn yn wir anrhydeddus, ag sydd yn nerthol mewn gweddï. Eto nid hyn yw y cwbl: trwy fod ganddo nerth gyda Duw, efe a gaiff nerth gyda dynion hefyd; gan iddo lwyddo i gael bendith o'r nef, bydd iddo lwyddo yn ddiamau i gael ffafr Esau. Yn ol hyn, cyfieithiad llythyrenol y darn olaf o'r adnodyn, *Oblegid i ti, fel tywysog, orchfygu gyda Duw, ti a orchfygi hefyd gyda dynion—im Elohim, 'gyda'r Duw cadarn; im anashim, 'gyda dynion eiddil a gweiniaid.* Y mae yma wrthgyferbyniad prydferth rhwng y ddau air: Gan i ti fod yn nerthol gyda'r *Hollalluog*, diau y gorchfygi *farwolion* trengawl.

Adn. 29. *Mynega atolwg dy enw*] Fel yr anrhydeddwyf ac yr addolwyf di dan yr enw a'r briodoledd neillduol ag sydd yn cyfateb i'r ymstyngiad a'r datguddiad hwn o honot dy hun i mi. *I ba beth y gofyni hyn am fy enw i?*—fel pe dywedasai, A eili di fod yn anwybodus *pwyl* ydwyf fi? Y datguddiad o'i enw a gadwyd oddiwrth Jacob hyd nes yr oedd ef ar ei wely angau, pryd y dysgwyd ef i'w alw yn *Silo*, pen. xlix. 10. *Ac yno efe a'i bendithiodd ef*—a roddodd iddo galon newydd ac *anian newydd*, yr hyn nad allai neb ond Duw yn unig ei roddi iddo; a thrwy y cyfnewidiad a weithiodd efe ynddo, danghosai yn ddigonol *pwyl* ydoedd. O'r pryd hyn daeth Jacob yn ddyn *newydd*; ond nid heb ymdrech galed y cafodd efe gyfnewid ei enw, ei galon, a'i gymeriad.

Adn. 30. *A Jacob a alwodd enw y fan Peniel*] Neu *Penuel*, GWYNEB DUW; *oblegid gwelais Dduw wyneb yn wyneb*—nid yn ei natur ddwyfol, canys ni welodd neb Dduw erioed yn yr ystyr hwn, Ioan i. 18; eithr wedi ei anlygu mewn modd mwy boddhaol, cynefin, a chyfeillgar nag y gwneid mewn breudrwydion neu weledigaethau.

Adn. 31. *A'r haul a gyfodasai arno*] Dedwydd fyddai ein bod ninaw fel Jacob, ar gyfodiad haul, nid yn gorwedd ar wely diogi, ond yn ymdrechu gyda Duw mewn gweddï. *Ac yr oedd efe yn gloff o'i glun*—y mae rhai yn

oedd yn myned dros Penuel, ac yr oedd efe yn gloff o'i glun.

32 Am hyn plant Israel ni fwytant y gewyn a giliodd, yr hwn sydd o fewn cyswllt y forddwyd, hyd y dydd hwn: oblegid cyffwrdd â chyswllt morddwyd Jacob ar y gewyn a giliodd.

PENNOD XXXIII.

A JACOB a ddyrchafodd ei lygaid, ac a edrychodd; ac wele Esau

meddwl mai yn awr y dechreuodd efe deimlo ei gloffi, ar ol i angherddolrwydd yr ymdrech fyned heibio. Gallwn feddwl nad oedd ef yn teimlo na duedd i rwgnach, am fod y fendith a'r dedwyddwch a gafodd efe yn yr ymdrech yn fwy na digon i wrthbwysu y niwed a dderbyniodd, er iddo hecian oddiyno hyd y bedd.

Adn. 32. *Am hyn plant Israel ni fwytant y gewyn a giliodd*] Hyn yw, ni fwytant y gewyn ag sydd yn dal asgwrn y glun yn ei fortais mewn unrhyw greadur, na'r cig a fyddo arno. Yn wir y mae rhai wedi bod mor betrusol fel na fwytaent ddim o'r chwarter ol i eiddion na dafad; ac erieir, llai amheus, a wrthodent y forddwyd yn unig. Y mae hyn, fel y dywed *Chrysostom*, yn brawf diamheul o wirionedd y ffaieth a droddir; canys y mae yn anhosibl fod prawf cryfach o ffaieth a gymerasai le er's hir amser, nag arferiad neu gyfraith gyhoeddus a gwladol wedi ei sylfaenu arni, ac yn parhau o genhedlaeth i genhedlaeth. *Olegid cyffwrdd â chyswllt morddwyd Jacob*—sef gau yr Angel. Gwnaed hyn, 1. Fel y gallai Jacob wybod nad trwy ei nerth ei hun y gorchfygasai efe, ond trwy nerth a thrugaredd ei Dduw. 2. Fel y gallai gael y prawf mwyaf teimladwy o wirionedd y cyfryngiad dwyfol ar ei ran. 3. Fel y gallai weled anfodlonrwydd Duw yn erbyn ei anghrediniaeth. Ac, 4. Fel y byddai i ddynion yn gyffredinol ddygus, y rhaid i'r rhai a fynant fod yn ddysgybllion i Grist ymwadu â hwy eu hunain, godi eu croes yn feunyddiol, a marweiddio eu haelodau y rhai sydd ar y ddaear. Nid yw y rhai na thorasant ym-aith law neu droed deau, neu na thynasant allan lygad deau, er mwyn teyrnas nefoedd, byth yn debyg o gael gweld Duw. Y grefydd nad yw yn *costio dim* i ni, nid yw yn *werth dim*.

PEN. XXXIII. Adn. 1. *A Jacob a ddyrchafodd ei lygaid*] Sef yn mhen rhai dyddiau ond odid ar ol bod yn ymdrechu gyda'r Angel, ac ar ol croesi rhyd Jabhoc, a goddiweddyd ei deulu. *Ac wele Esau yn dyfod, a phedwar cant o wŷr gydag ef*—'tyhiwyd yn gyffredin i Esau ddyfod gyda bwriad i ddyfetha ei frawd, ac i'r dyben hwnw ddarodd iddo ddwyn pedwar cant o wŷr *arfog* gydag ef. Eithr, 1. Nid oes un math ar brawf o'r elyniaeth hōniadol hon. 2. Nid oes un prawf fod y pedwar cant o wŷr a ddygasai Esau gydag ef mewn un modd yn *arfog*. 3. Ond y mae pob prawf ddarodd iddo ymddywn tuag at ei frawd Jacob gyda phob hynawsedd a thiriondeb, a chyda'r fath an-

yn dyfod, a phedwar cant o wŷr gyd-ag ef: ac efe a ranodd y plant at Lea, ac at Rahel, ac at y ddwy lawforwyn.

2 Ac yn mlaen y gosododd efe y ddwy lawforwyn, a'u plant hwy, a Lea a'i phlant hithau yn ol y rhai hyny, a Rahel a Joseph yn olaf.

3 Ac yntau a gerddodd o'u blaen hwynt, ac a ymostyngodd i lawr seithwaith, oni ddaeth efe yn agos at ei frawd.

4 Ac Esau a redodd i'w gyfarfod ef, ac a'i cofleidiodd ef, ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd ef: a hwy a wylasant.

5 Ac efe a ddrychafodd ei lygaid, ac a ganfu y gwragedd, a'r plant; ac a ddywedodd, Pwy yw y rhai hyn

genyt ti? Yntau a ddywedodd, Y plant a roddes Duw o'i ras i'th was di.

6 Yna y llawforwynion a nesasant, hwynt hwy a'u plant, ac a ymgrymasant.

7 A Lea a nesaodd a'i phlant hithau, ac a ymgrymasant: ac wedi hyny y nesaodd Joseph a Rahel, ac a ymgrymasant.

8 Ac efe a ddywedodd, Pa beth yw genyt yr holl fintai acw a gyfarfum i? Yntau a ddywedodd, *Anfonais hwynt i gael ffafr yn ngolwg fy arglwydd.*

9 Ac Esau a ddywedodd, Y mae genyf fi ddigon, fy mrawd; bydded i ti yr hyn sydd genyt.

10 A Jacob a ddywedodd, Nagê; atolwg, os cefais yn awr ffafr yn dy

nghof o hen gamweddu nad allai dim ond meddwl mawr fod yn alluog o hono. Paham ynte y ceblir cymeriad y dyn hwn yn barhaus? Yna y mae y dirgelwch. Gyda rhai pobl, ar y dyb fwyaf disail, y mae Esau yn *wrthod-edig*, ac yn ddarlun a chysgod o'r holl wrthod-edigion, ac am hyny rhaid ei fod yn bob peth a'r sydd ddrwg. Y mae hyn yn gwasanaethu cyfundraeth; ond pa un bynag ai gwir ai gau ynddi ei hun, nid oes iddi gefnogiad na chynaliath oddiwrth gymeriad nac ymddygiad Esau.—CLARKE.

Adn. 2. *Ac yn mlaen y gosododd efe y ddwy lawforwyn a'u plant, &c.*] Y mae rhywbeth mor *gelfydd* yn y trefniad hwn o deulu Jacob, fel y rhaid fod ganddo ryw *ddyben* neillduol. A oedd Jacob yn barhaus yn ofni perygl, ac yn rhoddi y rhai hyny yn mlaenaf a garai efe leiaf, fel, os byddai i'r rhai blaenaf gyfarfod âg unrhyw ddrwg, y gallai y rhai olaf ddianc ar eu hanifeiliaid buain? pen. xxxii. 8. Ynte ai bwriadu yr oedd ef gadw ei drysor penaf hyd y diwedd, a dangos ei *Rahel* brydferth a'i *Joseph* hoff ar ol i Esau weled y lleill oll, i'r dyben i wneyd argraff dwysach ar ei feddwl?

Adn. 3. *Ac a ymostyngodd i lawr*] Yna efe a gododd, ac a gerddodd ychydig yn mbellach, ac a ymgrymodd drachefn; ac felly y gwnaeth efe seithwaith, nes y daeth at ei frawd. Y mae ymostyngiad cyffelyb i hyn yn cael ei dalu eto i wŷr mawrion yn mhllith yr holl lwythau dwyreiniol.

Adn. 4. *Ac Esau a redodd i'w gyfarfod ef*] Nid mewn digofaint, ond mewn cariad; *ac a'i cofleidiodd ef*—fel ei frawd anwyf yr hwn ni welsai er's mwyr nag ugain mlynedd, os nid deugain, pen. xxxi 38; *ac a syrthiodd ar ei wddf ef*—pan y mae un o'r Hindwaid yn cyfarfod â chyfaill a fuasai oddicartref, efe a deifl ei freichiau am dano, a'i ben ar draws ei ysgwyddau, ddwywaith ar draws ei ysgwydd ddeau, ac unwaith ar draws ei ysgwydd aswy, gyda defodau ereill yn ol gradd y pleidiau. *Ac a'i cusanodd*—Heb. *vaiyishshakehu*. Yn y Beiblau Masoretic y mae pob llythren o'r gair hwn â nodyn uwch ei phen i'w wneuthur

yn *bwysig*; a thrwy y nodau hyn mynai y rabbinaid dynu sylw y darlennydd at y *cyfnewidiad* a gymerasai le yn Esau, a'r *cywirdeb* â pha un y derbyniodd efe ei frawd Jacob. *A hwy a wylasant*—wylai Jacob o lawenydd wrth gael ei dderbyn yn dirion fel hyn; ac wylai Esau, ond odid, o ofid a chywilydd wrth feddwl am y bwriad drygionus a letyasai efe gynt yn erbyn ei frawd.

Adn. 5. *Pwy yw y rhai hyn genyt ti?*] Anfonasai Jacob hanes i Esau am gynydd ei feddiannau, pen. xxxii. 5, ond ni somiasai am ei wragedd a'i blant, ond odid am na fynai eu gosod hwynt yn agored i'w gynddaredd os byddai iddo ei gyfarfod fel gelyn: gan hyny yr oedd gan Esau reswm i wneuthur yr ymholiad hwn, i'r hwn y dychwelodd Jacob atehiad priodol. *Y plant a roddes Duw o'i ras i'th was di*—y mae efe yn son am ei blant fel *rhoddion* Duw, ac wedi ei rhoddi yn *rasol* iddo ef. Er eu bod yn llawer, ac heb gael darparu ond yn brin ar eu cyfer, eto y mae efe yn eu cyfrif yn fendithion mawrion.

Adn. 6, 7. *Yna y llawforwynion a nesasant*] At Esau, yn nghyd a'u plant, ac a ymgrymasant ger ei fron ef megys y gwnaethai Jacob, adn. 3; ac wedi hyny gwnaeth ei wragedd a'u plant yr un modd.

Adn. 8. *Pa beth yw genyt yr holl fintai acw a gyfarfum i?*] Hyny yw, i bwy yr wyt yn eu danfon? Diamau iddo glwyd gan y bugeiliaid; ond y mae efe yn gofyn eilwaith, fel y gallai oddiwrth atebiad ei frawd gael achlysur i ddychwelyd yr anrheg.

Adn. 9. *Y mae genyf fi ddigon, fy mrawd*] Yr oedd ef am ddangos ei frawdgarwch i Jacob ar dir anrhydeddusach na thrwy bryniad. Pa ddylanwad bynag a gafodd anrheg Jacob ar Esau i'w heddychu, ni fynai efe iddo feddwl ei bod wedi cael dim, ac am hyny y mae yn ei gwrthod. Nid oedd arno eisiau yr anrheg hon i'w gyfoethogi, canys yr oedd ganddo *ddigon*; nac i'w heddychu, canys yr oedd sidocs yn *gymodlon*.

Adn. 10. *Cymer fy anrheg o'm llaw i*] Yn y gwledydd dwyreiniol, os derbynir anrheg gŵr gan ei uwchlrad, gall ymddybynu ar ei

olwg, cymer fy anrheg o'm llaw i: canys am hyny y gwelais dy wyneb, fel pe gwelwn wyneb Duw, a thi yn foddlawn i mi.

11 Cymer, atolwg, fy mendith, yr hon a ddygpwyd i ti; oblegid Duw a fu raslawn i mi, ac am fod genyf fi bob peth. Ac efe a fu daer arno: ac yntau a gymerodd;

12 Ac a ddywedodd, Cychwynwn, ac awn; a mi a âf o'th flaen di.

13 Yntau a ddywedodd wrtho, Fy arglwydd a wŷr mai tyner yw y plant, a bod y praidd a'r gwartheg blithion gyda myfi; os gyrrir hwynt un diwrnod yn rhy chwynn, marw a wna yr holl braidd.

14 Aed, atolwg, fy arglwydd o flaen ei was; a minau a ddenaf yn

gyfeillgarweb; ac os na dderbynir hi, y mae ganddo bob peth i'w ofni. Ar y cyntaf hwn yr oedd Jacob mor daer am i Esau dderbyn ei anrheg ef, am y gwyddai y byddai raid iddo wedi hyny ymddwyn ato fel cyfaill. *Cynys am hyny y gwelais dy wyneb, fel pe gwelwn wyneb Duw*—hyny yw, yr oedd Jacob yn gwled daioni Duw iddo ef yn ngwyneb Esau: yr oedd ei wedd heddychol ef yn arwydd iddo fod Duw wedi derbyn ei weddiau. Ond yn lle 'wyneb Duw,' y mae rhai o'r ben gyfieithiadau yn darllen yma 'wyneb angel;' ac felly gellir ei ddeall fel moesgyfarchiad anrhydeddus: gwel yr Apocrypha, Est. xv. 13.

Adn. 11. *Cymer, atolwg, fy mendith*] Sef yr anrheg a ddygasai efe iddo o Mesopotamia. *Am fod genyf fi bob peth*—gwelwn fel yr oedd Duw wedi bendithio y ddau frawd hyn! Yr oedd gan Esau *ddigon*, adn. 9; ond y mae gan Jacob *bob peth*. Yr oedd ganddo lawer mewn meddiant, a mwy mewn gobaith; a thrwy fod Duw yn eiddo iddo, yr oedd ganddo bob peth ynddo ef. 'Y mae pob peth yn eiddoch chi,' 1 Cor. iii. 22.

Adn. 12 *Cychwynwn ac awn*] Y mae Esau yn gwahodd Jacob i fyned gydag ef i'w gartref ei hun yn mynydd Seir, fel arwydd pellach o wir gymodiad. Nid ydym yn cael iddynt erioed o'i blaen fod mor garuaidd i'w gilydd ag yn awr. Gan hyny, na foed i ni byth anobeithio am neb, nac anhyderu yn Nuw, yn llaw yr hwn y mae pob calon.

Adn. 13. *Yntau a ddywedodd wrtho, &c.*] Y mae Jacob yn gwrthod cynygiad Esau, ar gyfrif analluogrwydd y plant a'r praidd i ymsymud ond yn araf; ac yn deisyf ar i Esau ddychwelyd hebdo, gan addaw dyfod mor fuaf ag y gallai ar ei ol ef.

Adn. 14. *Hyd oni ddelwyf at fy arglwydd i Seir*] Y mae yn dra thebyg fod Jacob yn gwir fwriadu ymweled âg Esau yn Seir; ond y mae mor debyced ddarfod i amgylchiadau ddygwedd wedi hyny, y rhai a'i gwnaethant naill ai yn amhriodol ai yn annichonadwy: ac yr ydym yn cael ddarfod i Esau wedi hyn

araf, fel y gallo yr anifeiliaid *sydd* o'm blaen i, ac y gallo y plant, hyd oni ddelwyf at fy arglwydd i Seir.

15 Ac Esau a ddywedodd, Gadawaf yn awr gyda thi *rai* o'r bobl *sydd* gyda mi. Yntau a ddywedodd, I ba beth y *gw nai* hyny? Caffwyf ffafr yn ngolwg fy arglwydd.

16 ¶ Felly Esau y dydd hwnw a ddychwelodd ar hyd ei ffordd ei hun i Seir.

17 A Jacob a gerddodd i Succoth, ac a adeiladodd iddo dŷ, ac a wnaeth fythod i'w anifeiliaid: am hyny efe a alwodd enw y lle Succoth.

18 ¶ Hefyd Jacob a ddaeth yn llwyddiannus i ddinas Sichem, yr hon *sydd* yn ngwlad Canaan (pan ddaeth efe o Mesopotamia) ac a wersyllodd o flaen y ddinas.

symud i Ganaan, ac iddo ef a Jacob gyd-drigo yno dros amrai flynyddau, pen. xxxvi. 6, 7.

Adn. 15. *I ba beth y gw nai hyny?*] Ar ol i Esau gynyg gadael rhai o'i wŷr i fod yn wylwyr ac arweinyddion iddo, y mae Jacob yn ostyngedig yn gwrthod ei gynygiad. Y mae efe dan yr amddiffyniad dwyfol, ac nid oes arno eisiau un arall. *Caffwyf ffafr yn ngolwg fy arglwydd*—gan fod dy ffafr genyf, y mae genyf bob peth ag sydd arnaf ei eisiau oddiwrthyt ti.

Adn. 16. *Felly Esau*] A'r pedwar cant o wŷr ag oeddynt gydag ef, a ddychwelasant i Seir.

Adn. 17. *A Jacob a gerddodd i Succoth*] I le a adwaenid ar ol hyny wrth yr enw hwn, yn llwyth Gad, o du y dwyrain i'r Iorddonen. Yma efe a arhosodd am dro, ac a adeiladodd *fythod* iddo ei hun a'i anifeiliaid. Tybia rhai iddo fyned oddiyma, yn fuan ar ol dyfod i'r lle, i ymweled â'i dad a'i frawd, gan adael ei braidd ar ol. *Efe a alwodd enw y lle Succoth*—hyny yw, ΒΥΤΘΟΘ, fel y gallai ei hiliog-aeth ef pan yn preswyllo wedi hyny mewn tai o feini, gofio mai 'Syriad ar ddarfod am dano oedd eu tad,' yr hwn yr oedd yn dda ganddo gael bythod, Deut. xxvi. 5.

Adn. 18. *Hefyd Jacob a ddaeth yn llwyddiannus i ddinas Sichem*] Saes. 'Jacob a ddaeth i Shalem, dinas o Sichem.' Y gair *shalem* (yn y Samaritanaeg *shalom*) a ddylai gael ei gyfieithu yma *mewn heddwch*, neu *mewn diogelwch*, fel y sylwa Clarke; ac y mae hyny yn gyfystyr â'r cyfieithiad Cymreig. Ar ol gorphwys beth amser yn Succoth, yr hyn oedd yn angenrheidiol er diogelwch ei braidd a chysur ei deulu, efe a ddaeth yn ddiogel i ddinas *Sichem*, mewn iechyd corfforol, heb gollu un o'i braidd na'i weinidogion, a'i wragedd a'i blant hefyd mewn diogelwch. Fel hyn y mae Coverdale, Matthews, Benson, Ainsworth, Wells, Poole, Sutcliffe, Coke, Boothroyd, Gesenius, Rosenmuller, Tuch, Baumgarten, Gerlach, Zuns, Kurtz, Knobel, ac amrai ereill o'r prif ferniaid, yn cyfieithu y gair, ac â hwynt y cytuna y Galdeaeag a'r

19 Ac a brynodd ran o'r maes y lledasai ei babel ynddo, o law meibion Hemor tad Sicheu, am gan darn o arian.

20 Ac a osododd yno allor, ac a'i henwodd El-Elohe-Israel.

PENNOD XXXIV.

A DINA merch Lea, yr hon a ymddygasai hi i Jacob, a aeth allan i weled merched y wlad.

2 A Sicheu mab Hemor yr Hefiad, tywysog y wlad, a'i canfu hi, ac a'i

Arabaeg. Nid yw yn debyg mai enw dinas ydoedd, gan na cheir hi mewn un man arall. Crybwyllir am *Sicheu* yn Act. vii. 16; ac yn Ioan iv. 5, gelwir hi *Sichar*. Yn yr *Arabaeg* gelwir hi *Nablous*, ac hyd heddyw *Neapolis*. Yr oedd yn agos i Samaria, ac o fewn oddeutu 40 milldir i Jerusalem.

Adn. 19. *Am gan darn o arian*] Y mae y wreiddiol, *bemeah kesitah*, wedi bod yn destyn ymchwilid hir a dysgedig yn mhlith y berniaid. Gan fod *kesitah* yn arwyddo oen, gall mai cant o *wyn* a roddodd Jacob i feibion Hamor (neu *Hemor*) am y maes; ond os yr un amgylchiad wdyw ag y cyfeiria Stephen ato, Act. vii. 16, *arian* a roddwyd ar yr achlysur. Tybiwyd fod llun *oen* yn argraffedig ar y darn *arian*, am ei fod yn gyfartal i werth oen; ac am hyny y gallai gael ei alw yn *kesitah*, neu *oen*, oddiwrth yr argraff a ddygai. Y mae yn sicr fod bathodau yn cael eu henwau mewn amrai wledydd oddiwrth y llun neu yr *argraff* a dydynt: felly, yn mhlith ein beuaiaid ni, gelwid bathodyn yn *angel*, am fod delw angel arno; ac yr oedd gan yr Atheniaid fathodyn a elwid *bous*, ŷch, am fod llun *ŷch* arno. Yr oedd gan ein beuaiaid hefyd ddarnau â llun *mochyn*, *march*, *gafr*, &c., arnynt. Y mae yn debyg i'r arferiad yma godi yn yr hen amseroedd oddiwrth yr amgylchiad hwn, mai y bathodyn hwnw ag yr oedd *llun* unrhyw greadur arno, a ystyrir fel *guerth* cyffredin y cyfryw greadur. Tybia Mr. Parkhurst fod y *kesitah* yn dwyn delw *oen*; a bod yr *oen-fathodau* hyn o eiddo yr hen Hebraid yn cysgodi *Oen Duw*, yr hwn yn i y meddwl dwyfol a ystyrir megys wedi ei ladd er seiliad y byd, a'r hwn a'n *prynodd* ni i Dduw a'i waed ei hun.

Adn. 20. *Ac a osododd yno allor*] 1. Er diolchgarwch i Dduw am ei ofal rhagiuniaethol am dano; 2. Fel y gallai efe gadw i fyny grefydd ac addoliad Duw yn ei deulu; ac, 3. Fel y gallai wneuthur profies gyhoeddus o Dduw yn nghanol ei elynion, a'u hennill hwythau i'r wir flydd. *Ac a'i henwodd El-Elohe-Israel*—hyny yw, efe a'i cysegrodd hi i Dduw, DUW ISRAEL; neu, gan fod *El* yn wreiddiol yn arwyddo *nerth*, myn rhai ei gyfieithu, *Y Duw cadarn* (yw) *Duw Israel*. Y mae Jacob yn cyfeirio yn neillduol yma at gyfnewidiad ei enw ei hun i *Israel*, a rhaid ei fod yn cofio am y trugareddau a dderbyniodd efe ar y pryd, a'r cyfammod a wnaed ág ef. Cawn

cymerth hi, ac a orweddodd gyda hi, ac a treisiodd hi.

3 A'i enaid ef a lynodd wrth Dina merch Jacob; ie efe a hoffodd y llances, ac a ddywedodd wrth *fodd* calon y llances.

4 Sicheu hefyd a lefarodd wrth Hemor ei dad, gan ddywedyd, Cymer y llances hon yu wraig i mi.

5 A Jacob a glybu i *Sicheu* halogi Dina ei ferch (a'i feibion ef oedd gyd-a'i anifeiliaid ef yn y maes) a Jacob a dawodd a son hyd oni ddaethant hwy *adref*.

hanes am godi allorau gydag enwau neillduol mewn manau ereill: felly yn Exod. xvii. 15, y mae Moses yn galw ei allor *Jehofa-nissi*, 'yr Arglwydd yw fy maner.' Nid ydym yn darlleu am un allor yn cael ei chodi gan y patrieirch allan o wlad yr addewid. Gyda'u beddau a'u ballorau, eu gobeithion a'u fydd, yr oeddynt yn glynu wrth y tir ar hyd yr hwn y crwydrent fel dyeithriaid a phererinion.

PEN. XXXIV. Adn. 1. *A Dina merch Lea*] Meddylir fod Jacob wedi bod yn awr saith neu wyth mlynedd yn y wlad, a bod Dina, yr hon oedd oddeutu saith mlwydd oed pan ddaeth Jacob i Ganaan, yn awr oddeutu pymtheg. *A aeth allan*—o dŷ ei thad i'r ddinas, o ran cywreintwydd, trwy fod yno y pryd hyny, fel y dywed Josephus, gynnuliad mawr o bobl ar un o'u luchel-wyliau. Nid ymddengys ddarfod iddi ofyn, llai o lawer dderbyn, cydsyniad ei thad yn hyn; ond, i foddio ei mympwyd ei hun, rhoddos ei hunan allan o'i amddiffyniad ef, a gosododd ei hun ac ereill yn agored i brofedigaeth. *I weled merched y wlad*—pa fodd yr oeddynt yn gwisgo, a pha fodd yr oeddynt yn dawnsio, a pha beth oedd yn arferedig yn eu mysg, Hi a aeth i *wled*; eto nid hyny oedd y cwbl, fel y sylwa Henry, ond hi a aeth i *gael* ei gwled hefyd. Hi a aeth i *wled merched* y wlad, ond fe allai gyda rhyw feddyliau am *feibion* y wlad hefyd.

Adn. 2. *Tywysog y wlad*] Hemor oedd y tywysog; a Sicheu oedd fab i'r tywysog neu y penaeth. *A'i treisiodd hi*—neu a'i *duroslyngodd*, fel y mae yn y wreiddiol.

Adn. 3. *Ac a ddywedodd wrth fodd calon y llances*] Yn llythyrenol, 'a ddywedodd wrth galon y llances'; hyny yw, efe a ymdrechai i ennill ei serchiadau, a'i chywodi a'i chywilydd. Ymddengys yn ddigon amlyg oddiwrth hon a'r adnodyn flaenorol nad oedd un *cydsyniad* o du Dina, ond fod y cwbl yn weithred o *dras*, a'i bod hi yn awr yn cael ei *chaethiwo* yn nhŷ Sicheu; canys yno y caed hi pan y darfu i Simeon a Levi ddifrodi y ddinas, adn. 26.

Adn. 4. *Cymer y llances hon yu wraig i mi*] Nid yw ef, fel llawer, yn cefnu ar y fenyw niweidiedig ar ol ei darostwng; eithr y mae yn gwneyd ei oraf i adgyweirio y trosedd trwy briodas, ac yn erfyn am gydsyniad ei dad.

6 ¶ A Hemor tad Sichem, a aeth allan at Jacob i ymddyddan ág ef.

7 A meibion Jacob a ddaethant o'r maes, wedi clywed o honynt; a'r gwŷr a ymofidiasant, a digiasant yn ddirfawr; oblegid gwneuthur o *Sichem* ffolineb yn Israel, gan orwedd gyda merch Jacob; canys ni ddylesid gwneuthur felly.

8 A Hemor a ymddyddauodd â hwynt, gan ddywedyd, Glynw a wnaeth enaid Sichem fy mab i wrth eich merch chwi: rhoddwch hi, atolwg, yn wraig iddo ef.

9 Ac ymgyfathrechwch â ni; rhoddwch eich merched chwi i ni, a chymerwch ein merched ni i chwithau.

10 A chwi a gewch breswyllo gyda ni, a'r wlad fydd o'ch blaen chwi: trigwch a negeseuwch ynddi, a cheiswch feddiannau ynddi.

11 Sichem hefyd a ddywedodd wrth ei thad hi, ac wrth ei brodyr, Caffwyf

ffafir yn eich golwg, a'r hyn a ddywedoch wrthyf a roddaf.

12 Gosodoch arnaf fi ddirfawr gynysgaeth a rhodd, a mi a roddaf fel y dywedoeh wrthyf: rhoddwch chwithau y llances i mi yn wraig.

13 A meibion Jacob a atebasant Sichem, a Hemor ei dad ef, yn dwyllodrus, ac a ddywedasant, O herwydd iddo ef halogi Dina ei chwaer hwynt;

14 Ac a ddywedasant wrthynt, Ni allwn wneuthur y peth hyn, gan roddi ein chwaer i w'r dienwaededig: oblegid gwarthrudd *gŵo* hyny i ni.

15 Ond yn hyn y cytunwn â chwi: Os byddwch fel nynt, gan enwaedu pob gwryw i chwi;

16 Yna y rhoddwn ein merched ni i chwi, ac y cymerwn eich merched chwithlau i ninaw, a ni a gyd-drigrwn â chwi, a ni a fyddwn yn un bobl.

17 Ond oni wrandewch arnom ni i'ch enwaedu; yna y cymerwn ein merch, ac a awn ymaith.

Adn. 5. *A Jacob a dawodd â son*] Wedi ei orthrechu â thristwch a chywilydd o achos gwarthrudd ei ferch, ac yn anallnog i ben-dersfynu ei hun pa gamrau oeddynt oraf i'w cymeryd, y mae ef yn ddystaw yn aros am ddyfodiad a chynghor ei feibion.

Adn. 6. *A Hemor, tad Sichem, a aeth allan at Jacob*] I ofyn am ei ferch ef i'w fab. Ymddengys y buasai yn ddoethach i Jacob ddylyn ei farn ei hun yn yr achos hwn, yn lle ymgyngori â'i feibion, y rhai oeddynt ieuaine, byrbwyl, a cheulon. Y mae yn amlwg eu bod wedi eunill dylanwad mawr arno ef; ac yn yr achos yma bwriasant ef i dralloed dirfawr, a'i holl deulu i warth a pherygl mawr.

Adn. 7. *Oblegid gwneuthur o Sichem ffolineb yn Israel*] Yn fwy llythyrenol, *yn erbyn Israel*—tywysog Duw; *gan orwedd gyda merch Jacob*—dywedasai yr Angel wrtho, na elwid mwyach ei enw ef *Jacob* yn unig, ond hefyd *Israel*, pen. xxxii. 28; ac yma y mae y ddau enw yn cael eu rhoddi iddo: *Jacob*, merch yr hwn a halogwyd; ac *Israel*, tywysog Duw, yn erbyn yr hwn y cyflawnwyd y trosedd.

Adn. 8, 9. *A Hemor a ymddyddauodd â hwynt*] Nid yn unig â Jacob, adn. 6, ond â'i feibion ef, at y rhai y darfu i Jacob yn anghall ei gyfeirio: ac yma y mae genym haues fanol am y cytundeb, yn yr hwn, fel y mae yn gywilydd dywedyd, y bu y Canaancaid yn fwy gonest na'r Israeliaid!

Adn. 10. *A'r wlad fydd o'ch blaen chwi*] I drigo ynddi lle y mynoch, a chwech yr un iawnderau a breintiau ynddi a ninaw. *A cheiswch feddiannau ynddi*—llafuriwch a phorwch hi fel y gweloch yn dda, a chymerwch yr elw i chwi eich hunain.

Adn. 11. *Sichem hefyd a ddywedodd*] Nid yn unig efe a gydsyniai yn ewyllysgar â'r hyn oll a addawsai Hemor ei dad, adn. 8—10;

ond y mae yn foddlon i brynu Dina yn wraig iddo am unrhyw bris.

Adn. 12. *Gosodoch arnaf fi ddirfawr gynysgaeth a rhodd*] Yr oedd y *gynysgaeth*, fel y barna rhai, yn wneyd i'r ferch; a'r *rhodd* i'r rhieni, naill ai yn iawn am y gosid a barwyd iddynt, neu yn arwydd o'i barch ef iddynt hwy, a'i awydd am eu merch. Gwel ar pen. xxix. 20, ac Exod. xxiii. 16, 17.

Adn. 13. *A meibion Jacob a atebasant—yn dwyllodrus*] Gan ledritrith, ac addaw priodi gyda hwynt ar yr amnod o enwaediad, yr hyn na fwriadasant erioed ei gyflawni. Wrth feibion Jacob y meddylir yma Simeon a Lefi, y rhai a gymerent y rhan benaf yn yr achos hwn, fel brodyr Dina o'r un fam, adn. 30.

Adn. 14. *Ni allwn—roddi ein chwaer i w'r dienwaededig*] Ni walerddid iddynt wneuthur hyn gan unrhyw ddeddf ag ydoedd eto mewn grym, fel y mae siamplau Isaac a Jacob yn dangos, y rhai ill dau a briodasant forched gwŷr dienwaededig; ac am hyny nid dynt yn gwrthod ei rhoddi fel peth *annglyfreithlon*, ond yn unig fel peth gwarthau a dianrhydeddus. Fel hyn y mae crefydd yn fynych eto yn cael ei gosod fel mantell dros yr ymarferion a'r dichellion gwaethaf!

Adn. 15, 16. *Os byddwch fel nynt, &c.*] Po buasant hwy yn gywir a gonest yn eu cynnygion hyn, buasant yn dra channmoladwy; canys 'y neb a ennillio oneidiau sydd ddoeth,' Diar. xi. 30: ond eu dyben hwy oedd proslolytio er mwyn dial, ac nid o gariad.

Adn. 17. *Oni wrandewch arnom, &c.*] Y mae yn naturiol meddwl fod llwyth Hemor yn lled fyelhan a dibwys, onid ni cheisiasent gyfathrach â theulu Jacob, ac nid ymstyngasant mor hawdd i'r ddeddf boenus o enwaediad, yr hon ni chymhellid arnynt fel gorchymyn Duw. A bygythlir hwynt yma, os na chyd-syniant i gael eu lienwaedu, y cymerir Dina

18 A'u geiriau hwynt oedd dda yn ngolwg Hemor, ac yn ngolwg Sichem mab Hemor.

19 Ac nid oedd y llanc wneuthur y peth, oblegid efe a roddasai serch ar ferch Jacob: ac yr oedd efe yn anrhydeddusach na holl dŷ ei dad.

20 ¶ A Hemor, a Sichem ei fab ef, a aethant i borth eu dinas, ac a lefarasant wrth eu dinasyddion, gan ddywedyd,

21 Y gwŷr hyn heddychol ynt hwy gyda ni; trigant lwythau yn y wlad, a gwnant eu negesau ynddi; a'r wlad, wele, sydd ddigon cang iddynt hwy: cymerwn eu merched hwynt i ni yn wragedd, a rhoddwn ein merched ninau iddynt hwy.

oddiwrthynt, ac yr adferir hi i'w theulu; ac y mae yn debyg fod llwyth Hemor yn gweled nad oedd ganddynt yn bresenol allu i'w hat-tal.

Adn. 18. *A'u geiriau hwynt oedd dda yn ngolwg Hemor*] Y TAB, o herwydd ei gariad at ei fab, a'i awydd i gaffael iddo wrthdrysych ei serch; ac yn ngolwg Sichem—y MAB, o herwydd y serch mawr ag oedd ganddo at Dina.

Adn. 19. *Ac yr oedd efe*] Sef Sichem, yn anrhydeddusach na holl dŷ ei dad—yn fwy parchus gan y bobl, yr hyn oedd un rheswm paham y llwyddodd efe mor fawr gyda hwy mewn cais mor hynod: gwel ar adn. 24.

Adn. 20. *I borth eu dinas*] Lle y byddent yn trin eu holl achosion cyhoeddus.

Adn. 21. *Y gwŷr hyn heddychol ynt hwy gyda ni*] Yr hyn ag y maent yn ei ddywedyd yma wrth eu pobl, a gredent eu hunain yn ddiysgog; ac felly, er eu bod wedi cael eu twyllo eu hunain, nid ymddengys eu bod yn bwriadu twyllo eu pobl, fel eu camdarlunir yn gyffredin.

Adn. 22. *Os enwaedir pob gwryw i ni*] Dadleuai Hemor a Sichem y byddai yn fantais dymhorol fawr i'w pobl, fod i Jacob a'i deulu breswyllo yn eu mysg. Yn awr, yn 1. Yr oedd yn ddigon drwg iddynt briodi ar yr egwyddor hon yn unig; ond, yn 2. Yr oedd yn waeth iddynt grefyddu i'r dyben yma. Cymhellent enwaediad i'r Sichemiaid er mwyn ymgyfranogi o gyfoeth meibion Jacob.

Adn. 23. *Onid eiddo ni fyddant hwy?*] Sef eu hanifeiliaid, eu cyfoeth, a'u holl ysgrubliaid; hyny yw, byddant er ein gwasanaeth a'n lles ni mewn ffordd o fasnach, neu disgynant i'n hillogaeth ni trwy ein priodasau â'u teulu hwy.

Adn. 24. *Ac ar Hemor, ac ar Sichem ei fab ef, y gwrandawodd pawb*] Cydsyniasant i gymeryd eu henwaedu, mewn rhan i foddhau y tywysog a'i fab, y rhai yr oeddynt yn eu hofni neu yn eu caru; ac mewn rhan er gwella eu hamgylchiadau tymhorol eu hunain. Ond dylid sylwi yma fod yr is-dywysogion yn ngwledydd Asia wedi bod bob amser

22 Ond yn hyn y cytuna y dynion â ni, i drigo gyda ni, ar fod yn a bobl, os enwaedir pob gwryw i ni, fel y maent hwy yn enwaededig.

23 Eu hanifeiliaid hwynt, a'u holl ysgrubliaid hwynt, onid eiddo ni fyddant hwy? yn unig cytunwn â hwynt, a hwy a drigant gyda ni.

24 Ac ar Hemor, ac ar Sichem ei fab ef, y gwrandawodd pawb a'r a oedd yn dyfod allan o borth ei ddinas ef: ac enwaedwyd pob gwryw, sef y rhai oll oedd yn dyfod allan o borth ei ddinas ef.

25 ¶ A bu ar y trydydd dydd, pan oeddynt hwy yn ddolurus, gymeryd o ddau o feibion Jacob, Simeon a Lefi,

yn tra-arghwyddiaethu ar eu deiliaid, y rhai yn wastadol a dalent iddynt yr ufydd-dod mwyaf parod. Yr anghreiffitiau canlynol a adroddir i ni gan Mr. Richardson. *Abu Thaher*, penaeth y *Carmathiaid*, oddeutu y flwyddyn 930, a anrheithiodd diriogaeth *Mecca*, a halogodd y deml, ac a ddyfethodd yn agos i 40,000 o bobl. Gyda 500 o wŷr meirch yn unig efe a aeth i warchae ar Bagdad; ac aeth cafridog y *caliph*, gyda 30,000 o wŷr, allan yn ei erbyn ef: ond cyn iddo ymosod arno, efe a anfonodd swyddog i'w rybyddio i roddi i fyny. 'Pa nifer o wŷr sydd gan gadfridog y *caliph*?' ebai *Abu Thaher*. 'Deng mil ar hugain,' atebai y swyddog. 'Yn eu plith hwynt oll,' ebai y penaeth *Carmathiaid*, 'a oes ganddo ef dri fel yr eiddof fi?' Yna, gan orchymyn i'w filwyr ddynesu, efe a barodd i un ei frathu ei hun, i'r llall ei dasu ei hun o ben clogwyn, ac i'r trydydd ymsuddo i'r Tigris; a'r tri a ufyddhasant yn y fan, ac a drengasant! Yna, gan droi at y swyddog, efe a ddywedodd, 'Yr hwn y mae ganddo y fath fyddinoedd, ni raid iddo ofni nifer ei elynion!' Hefyd *Hassan Sabbat*, un o'r crach-dywysogion hyny a adwaenid gynt yn Asia ac Ewrop wrth yr enw *Sheekh-ul-jibel*, neu 'yr hen ŵr o'r mynydd,' pan ofynnodd y teyrn-genedwr iddo ymostwng i'w feistr ef, sef yr amberawdwr *Malekshah Jelateddin*, efe, heb roddi iddo un atebiad, a orchymynodd i un o'i wŷr roddi bidawg ynddo ei hun, ac i arall neidio oddiar ganllaw y tŵr; ac ufyddhawyd iddo yn y fan! Yna, gan droi at y teyrn-genedwr, efe a ddywedodd, 'Y mae deng mil a thriugain yn ufydd fel hyn i fy ngalwad: boed hyn fy atebiad!' Os oedd llywodraeth fel yma gan Hemor dros ei bobl, gallwn yn hawdd roddi cyfrif am eu parodrwydd i gymeryd eu henwaedu.

Adn. 25. *A bu ar y trydydd dydd*] Ar ol eu henwaedu; pan oeddynt hwy yn ddolurus—pan yr oedd y fflameidd yn y man uwchaf, a thwymyn wedi dylun, yr hyn a'u gwnaeth hwy yn hollol ddiallu, a'u cyflwr yn beryglus; gymeryd o ddau o feibion Jacob—sef Simeon a Lefi, brodyr cyfain Dina; bob un ei gleddyf—yn cael eu cynorthwyo yn debygol gan eu

brodyr Dina, bob un ei gleddyf, a dyfod ar y ddinas yn hyderus, a lladd pob gwryw.

26 Lladdasant hefyd Hemor a Sicheim ei fab â min y cleddyf; a chymerasant Dina o dŷ Sicheim, ac a aethant allan.

27 Meibion Jacob a ddaethant ar y lladdedigion, ac a yspeiliasant y ddinas, am halogi o honynt eu chwaer hwynt.

28 Cymerasant eu defaid hwynt, a'u gwartheg, a'u hasynod hwynt, a'r hyn oedd yn y ddinas, a'r hyn oedd yn y maes,

29 A'u holl gyfoeth hwynt; a'u holl rai bychain, a'u gwragedd, a gaethgludasant hwy; ac yspeiliasant yr hyn oll oedd yn y tai.

gwseion, os nid hefyd gan rai o'u brodyr; a dyfod ar y ddinas yn hyderus—heb gael eu drwgdybio, ac felly heb fod mewn perygl o gyfarfod â gwrthwynebiad; a lladd pob gwryw—sef pob un oedranus, canys eu rhai bychain yn gystal a'u gwragedd a gaethgludasant hwy, adn. 29. Er cymaint oedd y cythruddiad, ac yr oedd yn ddiau yn fawr iawn, yr oedd hon yn weithred o frad a chreulondeb digyffelyb!

Adn. 26. *Lladdasant hefyd Hemor a Sicheim*] Felly bu eu henwaedid o fwy o niwed iddynt nag o les; ac nid rhyfedd hyn, fel y sylwa Cyril, gan mai nid crefydd oedd yr egwyddor a'u cymhelodd hwynt i ymstwg iddo. *A chymerasant Dina o dŷ Sicheim*—yr hon oedd yno er pan aethai i'r ddinas, adn. 3.

Adn. 27, 28. *Meibion Jacob a ddaethant ar y lladdedigion*] Sef y lleill o feibion Jacob; ac a yspeiliasant y ddinas—er y gallai Simeon a Lefi ladd y gwrywod diamddiffyn, nid yw yn debyg y gallent hwy eu hunain ddwyn ymaith yr holl yspail, yn nghyda'r gwragedd, y plant, a'r anifeiliaid; felly y mae yn fwy naturiol meddwl ddarfod i'r gweddill o feibion Jacob gynorthwyo o'r diwedd yn y gorchwyl hwn.

Adn. 29. *A'u holl rai bychain a'u gwragedd a gaethgludasant hwy*] Ni chrybyyllir am y caethion hyn mwyach, ac nid yw yn hawdd dychymygu pa beth a ddaeth o honynt. Dicheon mai y dyb debycaf yw, ddarfod i Jacob eu hadfer hwynt, yn nghyda'r eiddo a gymerwyd gan ei feibion, i'w perthynasau a'u cydwladwyr ag oeddynt eto yn fyw.

Adn. 30. *A Jacob a ddywedodd wrth Simeon a Lefi*] Y rhai oeddynt flaenaf yn y gyflafan hon; *Trallodasoch fi*—dygasoch fy meddwl i gyfyngder mawr, a'm diogelwch personol i berygl; *gan beri i mi fod yn ffridd*—yn atgas yn ngolwg y llwythau amgylchynol, y rhai, pan glywiant am y weithred hon, a ymgyngreiriant yn fy erbyn, ac a'm dyfethant i a'm teulu. Ac oni buasai ei fod ef dan amddiffyniad dwyfol, fel hyn yn ol pob tebygolrwydd y buasai: eithr efe a orchfyg-

30 A Jacob a ddywedodd wrth Simeon a Lefi, Trallodasoch fi, gan beri i mi fod yn ffridd gan breswylwyr y wlad, gan y Canaaneaid, a'r Phereziaid: a minau yn ychydig o nifer; a hwy a ymgasglant yn fy erbyn, a tharawant fi: felly y dyfethir fi, mi a'm tŷ.

31 Hwytthau a atebasant, Ai megys putan y gwnai efe ein chwaer ni?

PENNOD XXXV.

A DUW a ddywedodd wrth Jacob, Cyfod, esgyn i Bethel, a thrig yno; a gwna yno allor i Dduw, yr hwn a ymddanghosodd i ti pan ffoaist o wydd Esau dy frawd.

2 Yna Jacob a ddywedodd wrth ei deulu, ac wrth y rhai oll oedd gydag

asai gyda Duw, ac yr oedd hefyd i orchfygu gyda dynion. Y mae genym y prawf llawnaf nad oedd digter Jacob yn rhagrithiol, yn ei waith wedi hyn yn amddifadu y ddau fab yna o'u breintiau: gwel pen. xlix. 5, lle y mae rhai amgylchiadau chwanelog yn cael eu hadrodd.

Adn. 31. *Ai megys putan y gwnai efe ein chwaer ni?*] Oddiwrt hyn casglu rhai mai ei hudo a gafodd hi; ond dywedir yn adn. 2, i Sicheim ei threisio. Ar y trais hwn yn unig yr amddiffynent hwy eu hymddygiad ysgeler; ac y mae y dwyrainwyr hyd beddyw yn eu hystyried eu hunain dan rywmau neillduol i ddial treisiad chwaer. Dywedir i'r gair *harlot*, putan, deilliaw oddiwrt amgylchiad tra hynod. Robert, duc Normandy, wrth weled geneth wledig brydweddol yn dawnsio gyda'i chymdeithion ar y maes, a'i cymerth hi i'w wely. Merch i *grwynuer* ydoedd, a'i henw oedd *Arlotta*; ac o honi hi y ganed *William y Gorchfygwr*. Am hyny dywedir fod yr holl gyfryw fenywod yn cael ei galw oddiwrt hi yn *harlots*, megys yr arferid galw William ei hun *Y Bastardd*.

PEN. XXXV. Adn. 1. *Cyfod, esgyn i Bethel*] Yr oedd yr hyn ag ydoedd newydd gymeryd lle wedi ei gwneuthur yn anniogel i Jacob drigo yn hwy yn ninas Sicheim; ac ymddengys, tra yr ydoedd ef yn adfyfrio ar weithred echrudus ei blant, ac heb wybod pa beth i'w wneuthur, ddarfod i Dduw yn rasol ymddangos iddo, a gorchymyn iddo fyned i Bethel, ac adeiladu allor yno, ac felly gyflawni yr adduned a wnaethai pen. xxviii. 20. Yr oedd 28 o filldroedd o Sicheim i Bethel.

Adn. 2. *Bwrwch ymaith y duwiau dyleith sydd yn eich plith*] Heb. *elohey hannehar*, 'duwiau y dyleithriad,' y rhai oeddynt yn eu plith. Yr oedd gwmeiddigion Jacob oll yn *Syriaid*, a diamau eu bod i raddau mwy neu lai yn dueddol i eilunaddoliaeth a choelgrefydd. Gallai y duwiau hyn fod yn perthyn iddynt hwy; neu dicheon mai y *teraphim* oeddynt, y rhai a ladratasai Rahel oddiar ei thad, pen. xxxi. 19: ond y mae yn fwy

ef, Bwriwch ymaith y duwiau dycieithr sydd yn eich plith chwi, ac ymlanhewch, a newidwch eich dillad;

3 A chyfodwn, ac esgynwn i Bethel: ac yno y gwnafl allor i Dduw, yr hwn a'm gwrandaedd yn nydd fy nghyfyngder, ac a fu gyda myfi yn y ffordd a gerddais.

4 A hwy a roddasant at Jacob yr holl dduwiau dycieithr y rhai oedd yn eu llaw hwynt, a'r clust-dlysau oedd yn eu clustiau: a Jacob a'u cuddiodd hwynt dan y dderwen oedd yn ymyl Sichem.

5 A hwy a gychwynasant: ac ofn Duw oedd ar y dinasoedd y rhai oedd o'u hamgylch hwynt, ac nid erlidiasant ar ol meibion Jacob.

naturiol meddwl mai delwan oeddynt o aur, arian, neu gyweinwaith, y rhai a gaed yn mysg yspail dinas Sichem. Rhag i'r rhai hyn fod yn annogaeth i eilunaddoliaeth, y mae Jacob yn gorchymyn iddynt gael eu bwrw ymaith. *Ac ymlanhewch*—trwy ymolchi â dwfr, yn gysgod o bureiddiad newnol yr enaid, Heb. x. 22. *A newidwch eich dillad*—yn arwydd eich bod yn ymddiosg oddiwth bob afeindid, ac yn ymwisgo âg addurniadau gweddaiid yr enaid. Y mae yn dra amlwg oddiyma fod y ddefod o BUREDIGAETH mewn arferiad cyn cyfraith Moses. Yr oedd mewn arferiad yn mhlith yr hen Aiffiaid, yn ol Herodotus; ac fe'i defnyddid fel defod gysgodol yn mhlith pob cenedl braidd. Y mae yr Hindwaid yn ystyried eu dillad gwaith yn halogedig, a newidiant hwy bob amser cyn bwyta ac addoli.

Adn. 3. *Yr hwn a'm gwrandaedd yn nydd fy nghyfyngder*] Nid yn unig pan yn ffoi rhag gwyneb ei frawd, ond yn benaf pan yn ei gyfyngder mwyaf wrth ryd Jabboe.

Adn. 4. *A'r clust-dlysau oedd yn eu clustiau*] Pa un bynag ai yn nghlustiau y duwiau, ynte yn nghlustiau teulu Jacob yr oedd y rhai hyn, gallwn fod yn sicr nad addurniadau yn unig oeddynt, ond eu bod yn gwasanaethu i ddybenion coelgrefyddol. Yr oedd *clust-dlysau* yn cael eu gwisgo yn ddiamau fel cyfar-eddau a swynion, ar ol iddynt gael eu cysegru yn gyntaf i ryw dduw, a cherfio arwynt arwyddion a lluniau swynol. *A Jacob a'u cuddiodd hwynt dan y dderwen*—mewn lle adnabyddus yn unig iddo ei hun, ond odid ar ol iddo eu toddi neu eu darnio yn gyntaf.

Adn. 5. *Ac ofn Duw*] Arswyd goruchw-naturiol wedi ei effeithio gan yr Hollalluog, oedd ar y dinasoedd y rhai oedd o'u hamgylch hwynt—fel nad affonyddwyd hwy ar eu hymadawiad. Nis gallai dim llai na hyn eu cadw hwynt, wrth ystyried rhif, nerth, a chynddaredd eu gelynyon. Fel hyn y mae Duw yn llywodraethu y byd trwy arswyd dirgel ar feddyliau dynion, yn llawer amlach nag yr ydym ni yn ei feddwl.

Adn. 6. *A Jacob a ddaeth i Lus*] Gwel ar pen. xxviii. 19.

6 ¶ A Jacob a ddaeth i Lus, yn ngwlad Canaan, hon yw Bethel, efe a'r holl bobl y rhai oedd gydag ef;

7 Ac a adeiladodd yno allor, ac a enwodd y lle El-bethel, oblegid yno yr ymddangosasai Duw iddo ef, pan ffoisai efe o wýdd ei frawd.

8 A marw a wnaeth Debora mam-maeth Rebecca; a hi a gladdwyd islaw Bethel, dan dderwen: a galwyd enw hōno Alhon-bachuth.

9 ¶ Hefyd Duw a ymddanghosodd eilwaith i Jacob, pan ddaeth efe o Mesopotamia; ac a'i bendithiodd ef.

10 A Duw a ddywedodd wrtho, Dy enw di yw Jacob: ni elwir dy enw di Jacob mwy, ond Israel a fydd dy enw di: ac efe a alwodd ei enw ef Israel.

Adn. 7. *Ac a adeiladodd yno allor*] Ac yn ddiamau efe a aethrodd arni ebyrth, fe allai y ddegfed ran o'i anifeiliaid, megys yr addun-odd, 'O'r hyn oll a roddech i mi, gan ddegymu mi a'i degymaf i ti,' pen. xxviii. 22. *Ac a enwodd y lle El-bethel*—hyn yw, DUW BETHEL; neu, 'y Duw cadarn, tŷ y Duw cadarn.' Ond y mae yr *El cyntaf* yn eisiau mewn un o ysgrifffrauw De Rossi, megys y mae hefyd yn nghyfieithiad y LXX, y Vulgate, y Syriaeg, a rhai ailunau o'r Arabaeg. Y mae y frawddeg, fel y sylwa Clarke, yn darllen yn llawer gwell hebdo, ac yn llawer cysonach â'r lleoedd cyfredol.

Adn. 8. *A marw a wnaeth Debora*] Yr hon a anfonosid gyda Rebecca pan ei cymerwyd i fod yn wraig i Isaac, pen. xxiv. 59. Y mae yr esbonwyr mewn ffordd fawr i gael allan pa fodd y daeth hi i fod yn rheulu Jacob; ond ni ddywed y testyn ei bod hi yno. Y mae ei marwolaeth yn cael ei chrybwyll yn unig o herwydd i Jacob a'i denlu ddyfod yn awr i'r fan lle y claddwyd hi, ac ond odid ar amser ei chladdedaeth. *A galwyd enw hōno Alhon-bachuth*—neu 'dderwen yr wyl-afain,' am fod ei marwolaeth yn delygol wedi peri galar cyffredinol ac anarferol. Am farw-olaeth Rebecca ni wyddom ddim: ar ol ei chynghor i'w mab, pen. xxvii. 42—46, nid ydym yn clywed mwyach ddim o'i hanes, oddieithr am le ei chladdedaeth, pen. xlix. 31. Ei henw a ysgrifenyd yn y llwch: ac oni fwriadwyd hyn fel arwydd o anfoddlon-rydd Duw? Y mae yn hynod fod y fath un ddiabwys a'r *Ymmaeth* yn cael ei chryb- wyll, pan y mae y *dyuyssoges* a faethwyd ganddi yn cael ei gadael yn ddisylw!

Adn. 9. *Hefyd Duw a ymddanghosodd eilwaith i Jacob*] Ymddanghosodd iddo waith gyntaf yn Sichem, pan yn gorchymyn iddo fyned i Bethel; ac yn awr, ar ol iddo gyraedd yno, y mae Duw yn ymddangos iddo eilwaith, ac yn cadarnhau iddo y fendith Ab- rabamaidd. Dywed Coke fod hwn y seithfed ymddangosiad o Dduw i Jacob yn y cyfan.

Adn. 10. *Ac efe a alwodd ei enw ef Israel*] Felly yr enwosid ef o'r blaen gan yr Angel a ymdrechai âg ef, pen. xxxii. 28; ac y mae y

11 Hefyd Duw a ddywedodd wrtho, Myfi yw Duw Hollalluog: cynyddu, ac amlha: cenedl a chynulleidfa cenhedloedd a fydd o honot ti; a brenhinoedd a ddaw allan o'th lwynau di.

12 A'r wlad yr hon a roddais i Abraham, ac i Isaac, a roddaf i ti, ac i'th had ar dy ol di y rhoddaf y wlad.

13 A Duw a esgynodd oddiwrtho ef, yn y fan lle y llefarasai efe wrtho.

14 A Jacob a osododd golofn yn y fan lle yr ymddyddanasai efe ág ef, sef colofn faen: ac efe a dywalltodd arni ddiod-offrwm, ac a dywalltodd olew arni.

15 A Jacob a alwodd enw y fan lle yr ymddyddanodd Duw ág ef, Bethel.

16 ¶ A hwy a aethant ymaith o

Bethel; ac yr oedd eto megys milldir o dir i ddyfod i Ephrath: yno yr esgorodd Rahel, a bu galed arni wrth esgor.

17 A darfu pan oedd galed arni wrth esgor, i'r fydwraig ddywedyd wrthi hi, Nac ofna; oblegid dyma hefyd i ti fab.

18 Darfu hefyd, wrth ymadael o'i henaidd hi (oblegid marw a wnaeth hi) iddi alw ei enw ef Benjamin: ond ei dad a'i henwodd ef Benjamin.

19 A Rahel a fu farw, ac a gladdwyd yn y ffordd i Ephrath; hon yw Bethlehem.

20 A Jacob a osododd golofn ar ei bedd hi: hōno yw colofn bedd Rahel hyd heddyw.

newidiad a wnaed y pryd hyn yn ei enw, yn cael ei gadarnhau yma gan y Mawrhydi Dwyfol, i'w gefnogi ef rhag arswyd y Canaan-iaid, megys y gwnaed o'r blaen rhag arswyd Esau.

Adn. 11. *Myfi yw Duw hollalluog*] *EL SHADDAI*, 'y Duw ollddigonol:' gwel ar pen. xvii. 1. Yr oedd Duw yn hollalluog ac oll-ddigonol i gyflawni ei holl addewidion mewn amser dyladwy, ac i'w amddiffyn a darparu iddo yn yr amser presenol. *Cenedl a chynulleidfa cenhedloedd*—yr oedd pob llwyth o Israel yn genedl, a'r deuddeg yn nghyd yn gynulleidfa cenhedloedd. *A brenhinoedd a ddaw allan o'th lwynau di*—gwel ar pen. xvii. 6.

Adn. 12. *A'r wlad*] Sef Canaan, yr hon a roddwyd i Abraham ac Isaac, a rwyimir yma i Jacob a'i had: ac yr oedd yr addewidion tymhorol hyn yn gysgodau o fendithion ysbrydol.

Adn. 13. *A Duw a esgynodd oddiwrtho ef*] Felly nid gweledigaeth oedd hon, neu argraff cryf ar ei feddwl, ond amlygiad gwirioneddol o Dduw. *Gwelodd Jacob ef, clywodd ef yn llefaru*, ac o flaen ei lygaid efe a *esgynodd* i'r nef. Hwn yn ddiamau oedd Angel mawr y cyfammod, yr hwn wedi hyn y ymddanghosodd yn y cnaud: gwel ar pen. xvi. 7, a'r adfeddyliadau yno.

Adn. 14. *A Jacob a osododd golofn*] Y mae yn debyg mai yr un golofn ydoedd ag a osodasai efe yno o'r blaen, yr hon wedi hyn y a fwriadid i lawr, ac a gysegrwyd ganddo yn awr i Dduw o'r newydd. *Ac efe a dywalltodd arni ddiod-offrwm*—yr oedd *diod-offrwm* yn beth tra chyffredin yn mhob gwlad: yr oedd ar y cyntaf, fel y bernir, yn gynwysedig o DDWFER yn unig; wedi hyn y defnyddid GWIN. *Ac a dywalltodd olew arni*—yr oedd y *golofn* ei hun i fod yn goffadwriaeth o ymddangosiad Duw iddo; a'r *ddiod-offrwm* a'r *olew* a fwriedid i ddangos ei ddiolchgarwch a'i ddyhewyd i'w Noddwr.

Adn. 15. *Bethel*] Sef TR DDUW, fel y gwel-som o'r blaen. Er hyn y collodd y lle hwn wedi hyn anrhydedd ei enw, a daeth yn *Bethafen*, 'tŷ drygioni;' canys yma y gosododd Jeroboam i fyny un o'i loi, i Bren. xiii. 29, &c.

Adn. 16. *Ephrath*] A elwir hefyd *Bethlehem*, a *Bethlehem Ephrata*. Yma y ganed ein Gwaredwr bendigedig; gwel ar Mat. ii. 1.

Adn. 17. *A darfu pan oedd galed arni wrth esgor*, &c.] Dywedasai Rahel pan aned Joseph, 'Yr Arglywydd a ddyry yn chwanea i mi *fab arall*,' pen. xxx. 24; ac y mae y fyd-wraig yn awr yn cofio hyn, ac yn dywedyd wrthi am beidio ofni, am fod ei geiriau wedi dyfod i ben. Eto nid yw hyn yn tycio: oddieithr i Dduw fwrw ymaith ofn, nid oes neb arall a ddichon.

Adn. 18. *Wrth ymadael o'i henaidd hi*] Heb. *betseth naphshah*. Onid yw hyn yn brawf fod ysbryd anfarwol mewn dyn, yr hwn a all fodoli ar wahan oddiwrth, ac yn annibynol ar, y corff? Nid ymadawodd ei chorff hi, gan hyn rhaid fod ei henaidd a'i chorff yn wahanol. Pe mai ei hanadl yn unig a fwriadid, *neshamah* neu *ruach* yn hytrach a arferid, trwy fod y cyntaf yn meddwl *anadl*, a'r olaf *anadl* neu *ysbryd* nid dywahaniaeth. *Iddi alw ei enw ef Benoni*—hyn yw, MAE FY NGALAR DEN FY NGHYS-TUDD, oblegid y *caledi* a gawsai hi wrth ei eni ef i'r byd. *Ond ei dad a'i henwodd ef Benjamin*—MAE FY NEHEULAW, hyn yw, y mab ag sydd yn neillduol o anwyl genyf. *Felly gwr dy ddeheulaw*, Salm lxxx. 17, a arwydda un a gerid ac a berchid yn fawr gan Dduw. Yn y Samaritanaeg *Benjaminim* ydyw, sef MAE DYDDIAU, neu *plentyn ei henaint*, fel y mae Juda yn ei alw ef, pen. xlv. 20; a myn Houbigant mai hwn yw y gwir ddarlenniad, ac mai llygriad yw y terfyniad Caldeiaid *in yn lle im*.

Adn. 19. *A Rahel a fu farw, ac a gladdwyd yn y ffordd i Ephrath*] Nid yn y ddimas, ond gerllaw iddi; canys yn yr hen amseroedd nid oedd eu beddau mewn lleoedd o gyrchfa, ond mewn lleoedd neillduedig allan o'r dinas-odd: gwel ar Luc vii. 12. Os bydd yr enaid mewn gorphwysdra, ni waeth yn mha le y gorwedd y corff.

Adn. 20. *A Jacob a osododd golofn ar ei bedd hi*] I fod yn gofeb o'i bywyd a'i marwolaeth. Yn adn. 14, cawn Jacob yn gosod i fyny golofn er cof o'i *orfoledd*; ond yma er cof o'i *alar*. Yn yr hen amseroedd, ac yn

21 Yna Israel a gerddodd, ac a led-odd ei babell o'r tuhwnt i Migdal-Edar.

22 A phan ydoedd Israel yn trigo yn y wlad hōno, yna Reuben a aeth ac a orweddodd gyda Bilha gordderch-wraig ei dad; a chlybu Israel hynny. Yna meibion Jacob oeddynt ddeuddeg.

23 Meibion Lea; Reuben cyntaf-anedig Jacob, a Simeon, a Lefi, a Juda, ac Issachar, a Zabulon.

24 Meibion Rahel; Joseph, a Benjamin.

25 A meibion Bilha, llaw-forwyn Rahel; Dan, a Naphtali.

mhlith cenhedloedd anwaraid, yr oedd carnedd gerig yn dynodi beddrod penaeth; ac y mae llawer o'r rhai hyn yn aros eto mewn gwahanol wledydd. Y mae yn debyg mai careg unigol oedd y golofn hen, ar ba un ond odid yr oedd ei henw, neu ryw ddyfeiswaith batheiniol wedi ei gerfio. *Hōno yw colofn bedd Rahel hyd heddyw*—hyd yr amser ag yr oedd Moses yn ysgrifenu y llyfr hwn; ac yr oedd yn adnabyddus yn mhen mwy na 400 o flynyddau ar ol dyddiau Moses, i Sam. x. 2; a threfnodd rhagluniaeth i'r lle hwn ddisgyn i ranbarth Benjamin. Modd bynag, addefir gan y rhai a'i chwiliasant hi, mai adail ddiweddar mewn cymhariaeth yw yr hen a elwir yn awr yn 'golofn Rahel.'

Adn. 21. *Yna Israel a gerddodd, ac a led-odd ei babell* [Er ei fod yn 'dywysog gyda Duw,' eto efe a drigai mewn *pabell*: yr oedd ei *ddinas* yn nghadw iddo yn y nef. *O'r tuhwnt i Migdal-Edar*—yn llythyrenol *tŵr y praidl*, ac felly y cyfieithir ef Mic. iv. 8. Meddylir fod y tŵr hwn oddeutu miilldir o Bethlehem, ac mai yma yr ymddanghesodd yr angylion i'r bugeiliaid, Luc ii. 15. Wrth *dŵr y praidl* y gallwn ddeall lle wedi ei adeiladu gan y bugeiliaid yn agos i ryw *ffymon*, i ddyfrbau y praidl, a'u gwyllo liw nes.

Adn. 22. *A phan ydoedd Israel yn trigo yn y wlad hōno* [Er yn debygol oddicartref ar y pryd, yna Reuben a aeth ac a orweddodd gyda Bilha gordderch-wraig ei dad—er fo allai mai ar Bilha yr oedd y bai mwyaf, eto colodd Reuben ei enedigaeith-fraint o'r herwydd, pen. xlix. 4. Dywed Targum Jonathan na ddarfai i Reuben ddim ond dymchwelyd gwely Bilha, yr hwn a esodwyd i fynu gyferbyn â gwely ei fam Lea, a darfod cyfrif hyn iddo fel pe gorweddasai gyda hi; ei fod wedi digio wrth weled fod Bilha, ar ol marw Rahel, yn cael ei hoffi gan Jacob yn fwy na Lea ei fam ei hun; ac am hynny, yn ei ddigofaint, iddo ddimchwelyd ei gerweddle. Pe gellid presi fod yr olwg yma ar y testyn yn gywir, byddai i dduwiolder a hynawsedd orfoleddu. *A chlybu Israel hynny*—y mae cyfieithiad y LXX yn chwaneu yma, *a drwg oedd hynny yn ei olwg ef*—efe a deimlai ofid, a chywilydd, ac anffodlonrwydd dirfawr o'i herwydd, y fath nad allai iaith ei ddarlunio. *Yna meibion Jacob oeddynt ddeuddeg*—y

26 A meibion Zilpa, llaw-forwyn Lea; Gad, ac Aser. Dyma feibion Jacob, y rhai a anwyd iddo yn Mesopotamia.

27 ¶ A Jacob a ddaeth at Isaac ei dad i Mamre, i Gaer-Arba, hon yw Hebron, lle yr ymdeithiasai Abraham ac Isaac.

28 A dyddiau Isaac oedd gan mlynedd a phedwar ugain mlynedd.

29 Ac Isaac a drengodd, ac a fu farw, ac a gasglwyd at ei bobl, yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau: a'i feibion, Esau a Jacob, a'i claddasant ef.

mae Moses yn crybwyll hyn, am fed Benjamin yn awr wedi ei eni, ac na chafodd Jacob ddim meibion ar ei ol ef.

Adn. 23—26. *Meibion Lea, &c.*] Y mae y plant yn cael eu henwi yma dan y mamau priedol, ac nid yn mhreftu eu enedigaeith. *Y rhai a anwyd iddo yn Mesopotamia*—hynny yw, oll ond Benjamin, yr hwn a aned yn Nghanaan, adn. 16, 17. Y mae efe yn llefaru yma trwy gyfoddwyr, dull o ymadrodd a arferir yn aml yn yr ysgrhythyr, lle y mae yr hyn a berthyn i'r rhan fwyaf yn cael ei briodoli i'r oll.

Adn. 27. *A Jacob a ddaeth at Isaac ei dad i Mamre*] Yn debygol i breswyllo gydag ef, neu yn agos ato, gan ddwyn ei deulu gydag ef. Prin y gallwn feddwl mai dyma y tro cyntaf iddo ymweled âg ef er pan ddychwelodd o Mesopotamia, yn enwedig gan ei fod yn Nghanaan bellach er's rhai blynyddau: ond yn awr, fel yr oedd ef yn dynesu at ei ddiwedd, aeth Jacob i fyw ato, ac i'w gysuro yn ei hen ddyddiau. *I Gaer-Arba*—gwel ar pen. xxiii. 2.

Adn. 28. *A dyddiau Isaac oedd gan mlynedd a phedwar ugain mlynedd*] Efe yw yr hwn a fu byw hwyaf o'r holl batreirch, hyd yn nod bum mlynedd yn hwy nag Abraham. Yr oedd ef yn ŵr hynaws a thawel, ac y mae yn debyg ddarfod i hynny gyfrann nid ychydig at ei iechyd a'i hir einices. Bu Isaac byw uwelhlaw deugain mlynedd ar ol gwneyd ei cwylls, pen. xxvii. 1, &c. Ni fydd i neb farw awr yn gynt, ond yn llawer gwell, trwy drefnu ei galon a'i dŷ yn brydlon.

Adn. 29. *Ac Isaac a drengodd*] Addefir yn gyffredin fod marwolaeth Isaac yn cael ei chrybwyll yma allan o'i threfn amseryddol, gan y rhaid i amrai o'r helyntion crybwyll-edig yn y pennodau dilynol, yn enwedig pen. xxxvii. a xxxviii., fod wedi dygwyrdd yn ystod ei fywyd ef: ond fel na fyddai i *hanes Joseph* gael ei hafonyddu, y mae ei farwolaeth yn cael ei rhag-grybwyll yn y lle hwn. Meddylir iddo fyw ddeuddeg mlynedd o leiaf ar ol i Joseph gael ei werthu i'r Aifft. *Ac a gasglwyd at ei bobl*—gwel ar pen. xxv. 8. *A'i feibion Esau a Jacob a'i claddasant ef*—mewn modd anrhydeddus, trwy eu bod yn awr wedi eu perffaihu uno mewn cariad brawdol. Crybwyllir hyn i ddangos mor

PENNOD XXXVI.

A DYMA genedlaethau Esau : efe *yw* Edom.

2 Esau a gymerth ei wragedd o ferched Canaan; Ada, merch Elon yr Hethiad, ac Aholibama, merch Ana, merch Sibeon yr Hefiad :

3 Basemath hefyd, merch Ismael, chwacer Nebaioth.

4 Ac Ada a ymddyg Eliphaz i Esau : a Basemath a esgorodd ar Reuel.

5 Aholibama hefyd a esgorodd ar Jeus, a Jalam, a Chora : dyma feibion Esau, y rhai a anwyd iddo yn ngwlad Canaan.

6 Ac Esau a gymerodd ei wragedd, a'i feibion, a'i ferched, a holl ddyinion ei dŷ, a'i anifeiliaid, a'i holl ysgrubliaid, a'i holl gyfoeth a gasglasai efe yn ngwlad Canaan; ac a aeth ymaith i'r wlad, o wŷdd ei frawd Jacob.

7 Oblegid eu cyfoeth hwynt oedd fwy nag y gellynt gyd-drigo : ac nis

gallai gwlad eu hymdaith eu cynwys hwynt, gan eu hanifeiliaid.

8 Felly y trigodd Esau yn mynydd Seir : Esau *yw* Edom.

9 ¶ A dyma genedlaethau Esau tad yr Edomiaid yn mynydd Seir.

10 Dyma enwau meibion Esau : Eliphaz, mab Ada gwraig Esau; Reuel, mab Basemath gwraig Esau.

11 A meibion Eliphaz oedd Teman, Omar, Sepho, a Gatam, a Chenas.

12 A Thimna oedd ordderch-wraig i Eliphaz, mab Esau, ac a esgorodd Amalec i Eliphaz : dyma feibion Ada gwraig Esau.

13 A dyma feibion Reuel; Nahath a Zera, Samma a Mizza : y rhai hyn oedd feibion Basemath gwraig Esau.

14 ¶ Hefyd y rhai hyn oedd feibion Aholibama merch Ana, merch Sibeon gwraig Esau : a hi a ymddyg i Esau, Jeus, a Jalam, a Chora.

15 ¶ Dyma dduciaid o feibion Esau; meibion Eliphaz cyntafanedig Esau,

hynod y cyfnewidiasai Duw foddwl Esau er pan yr addunedodd ef ladd ei frawd ar farwolaeth ei dad, pen. xxvii. 41. Y mae gan Dduw laver o ffyrdd i attal i ddyinion drygonus wneyd y drwg a fwriadasant : gall rwymo eu dwylaw, neu droi eu calonau.

PEN. XXXVI. Adn. 1. *A dyma genedlaethau Esau*] Cawn yma hiliogaeth Esau yn ei feibion a'i wŷrion, ac hefyd hiliogaeth Seir yr Horiad. Y mae hiliogaeth meibion Esau, y rhai a aned yn Nghanaan, yn cael eu hadrodd yn adn. 1—8; eiddo ei wŷrion ganedig yr Seir, adn. 9—19; ac eiddo Seir yr Horiad, adn. 20—30. Y mae cenedlaethau Esau yn cael eu nodi yn neillduol, i ddangos mor gywir y cyflawnodd Duw yr addewidion a wnaethai efe iddo, pen. xxv. a xxvii.; a chwanegir eiddo Seir, am i'w deulu ef i ryw fesur gymysgu âg eiddo Esau. *Efe yw Edom*—yr oedd yr enw hwn yn bytholi y goffadwriaeth am y fargen ynyd a wnaeth efe wrth werthu ei enedigaeth-fraint am y cawl coch, pen. xxv. 34.

Adn. 2—5. *Esau a gymerth ei wragedd, &c.*] Ymddengys fod gwragedd Esau yn myned wrth enwau tra gwahanol. Y mae *Aholibama* yn cael ei galw *Judith*, pen. xxvi. 34, ac *Ada* yn cael ei galw *Basemath* yn yr un lle; a'r hon a elwir yma *Basemath*, a elwir *Mahalath*, pen. xxviii. 9. Y rhai hyn ydynt gyfnewidiadau nas gellir yn hawdd roddi cyfrif am danynt; ac nid ydynt o ddiagon o bwys i dreulio llawer o amser arnynt. Modd byn-ag, y mae yn dra hysbys fod yr un personau yn yr ysgrythyr yn cael eu galw yn aml wrth wahanol enwau, trwy eu bod yn cael eu newid ar wahanol achlysuron. *Ana, merch Sibeon yr Hefiad*—ond dywedir fod yr Ana yma yn *fab* Sibeon yn adn. 24; er y dywedir yn adn. 2, 14, mai *merch* Sibeon ydoedd. Eithr y

mae y Samaritanaeg, y LXX, a'r Syriaeg yn adn. 2, yn darllen *mab* yn lle *merch*, yr hwn y myn Houbigant a Kennicott ei fod yr iawn ddarlenniad. Dywed ereill y dylid ei darllen, 'Aholibama, yr hon oedd ferch i Ana ac wŷres i Sibeon.'

Adn. 6—8. *Ac Esau a gymerodd ei wragedd, &c.*] Felly ymddengys i Esau a Jacob gyd-drigo am ryw amser yn Nghanaan, i'r lle y symudasai y blaenaf o Seir yn fuan ar ol dychwelid Jacob o Mesopotamia. Y mae hyn yn profi yn ddigonol eu bod ar yr ammodau mwyaf cyfeillgar; ac y mae Esau yn dangos yr un ymddygiad urddasol ag ar achlysuron ereill, wrth ymadael o Ganaan, a dychwelyd drachefn i fynydd Seir, gwlad lawer llai ffyrthlon yn sicr na'r hon ag y darfu iddo yn awr ei gadael yn wirfoddol er mwyn ei frawd, yr hwn oedd yr etifedd o honi.

Adn. 10, 11. *Dyma enwau meibion Esau*] Nid oes yma ddim ond enwau meibion ac wŷrion Esau yn cael eu cofia, ac nid eu hanes; canys o'r eglwys y mae Moses yn cadw cofiadwriaeth hanesiol, ac nid o'r rhai oddi-allan.

Adn. 12 *A Thimna oedd ordderch-wraig i Eliphaz mab Esau*] Gan fod Timna yn chwacer i Lotan yr Horiad, adn. 22, nyni a welwn pa fodd y cymysgodd teulu Esau â'r Horiad. Gallai hyn roddi rhith esgus i feibion Esau ymaflyd yn y tir, a bwrw allan y cyndrigolion, fel y cawn iddynt wneuthur, Deut. ii. 12. *Ac a esgorodd Amalec*—tad yr Amaleciaid, gelynyon chwernwon wedi hyn i'r Israeliaid, y rhai y gorchymynnodd Duw eu llwyr ddyfetha, Deut. xxv. 19.

Adn. 13, 14. *A dyma feibion Reuel*] Gwel ar adn. 10, 11.

Adn. 15. *Dyma dduciaid o feibion Esau*] Y mae y gair *duc* yn dyfod oddiwrth *dug*, yr

duc Teman, duc Omar, duc Sepho, duc Cenas,

16 Duc Cora, duc Gatam, duc Amalec: dyma y duciaid o Eliphaz, yn ngwlad Edom: dyma feibion Ada.

17 ¶ A dyma feibion Reuel mab Esau; duc Nahath, duc Zerach, duc Samma, duc Mizza: dyma y duciaid o Reuel, yn ngwlad Edom: dyma feibion Basemath gwraig Esau.

18 ¶ Dyma hefyd feibion Aholibama gwraig Esau: duc Jous, duc Jalam, duc Cora: dyma y duciaid o Aholibama, merch Ana, gwraig Esau.

19 Dyma feibion Esau (hwn yw Edom) a dyma eu duciaid hwynt.

20 ¶ Dyma feibion Seir yr Horiaid, cyfaneddwyr y wlad; Lotan, a Sobal, a Sibeon, ac Ana,

21 A Dison, ac Esar, a Disan: a dyma dduciaid yr Horiaid, meibion Seir, yn ngwlad Edom.

22 A meibion Lotan oedd Hori, a Hemam: a chwaer Lotan oedd Timna.

23 A dyma feibion Sobal; Alfa, a Manahath, ac Ebal, Sepho, ac Onam.

24 A dyma feibion Sibeon; Aia, ac Ana: hwn yw Ana a gafodd y mulod yn yr anialwch wrth borthi asynod Sibeon ei dad.

25 A dyma feibion Ana; Dison, ac Aholibama merch Ana.

26 Dyma hefyd feibion Dison; Hemdan, ac Esban, ac Ithran, a Cheran.

27 Dyma feibion Eser; Bilhan, a Zaaan, ac Acan.

28 Dyma feibion Disan; Us, ac Aran.

29 Dyma dduciaid yr Horiaid; duc Lotan, duc Sobal, duc Sibeon, duc Ana,

30 Duc Dison, duc Eser, duc Disan. Dyma dduciaid yr Horiaid, yn mhlith eu duciaid yn ngwlad Seir.

31 ¶ Dyma hefyd y brenhinoedd a deyrnasasant yn ngwlad Edom, cyn teyrnasu brenin ar feibion Israel.

hyn sydd *ar*, neu *dros*; a gelwir meibion Esau felly, naill ai am eu bod yn llywodraethu *ar* daleithiau, adn. 40; neu ynte am eu bod yn swyddogion milwraidd, a chanddynt filwyr *danynt*; canys yr oedd Esau a'i deulu yn byw wrth eu *cleddif*, pen. xxvii. 40.

Adn. 16. *Duc Cora*] Cyhoedda Dr. Kennicott hwn yn flug-chwanegiad, am y cawn oddiwrth adn. 5, 14, 18, mai mab *Esau* oedd Cora, ac nid mab *Eliphaz*; ac na rifir *Cora*, yn adn. 11, 12, yn mhlith meibion Eliphaz.

Adn. 17—19. *Dyma feibion Basemath, &c.*] Y mae yma *bedwar-ar-ddeg* o dduciaid wedi disgyn oddiwrth Esau, *saith* o'i wraig Ada, *pedwar* o Basemath, a *thri* o Aholibama.

Adn. 20—23. *Dyma feibion Seir yr Horiaid, &c.*] Yn nghanol achau yr Edomiaid rhoddir i lawr achau yr Horiaid, y rhai oedd ynt drigolion gwreiddiol mynydd Seir, cyn i'r Edomiaid gymeryd meddiant o hono, Deut. ii. 12, 22. Crybwyllir y rhai hyn nid yn unig i dafu goleuni ar yr hanes, ond i fod yn warth sefydlog ar yr Edomiaid am gymysgu gyda hwynt mewn priodas, trwy yr hyn y dysgasant eu ffyrdd, ac yr ymlygrasant.

Adn. 24. *Hwn yw Ana a gafodd y mulod yn yr anialwch wrth borthi asynod*] Y mae y geiriau *rhodd haiyemim*, a gyfieithir yma *mulod*, wedi rhoddi cyfodiad i amrywiaeth mawr o wahanol ddychlymyngion. Dywed St. Jerome, yr hwn a gyfieitha y gair yn *ffynnonau twym* neu *frud-faddonau*, fod cynifer o dybiau yn ei gylch ag sydd o esbonwyr. Y LXX a'i cyfieithiant *ton Jamein*, yr hwn a ymddengys i fod yn enw *dyn*; a'r Syriaeg, *dyfroedd*. Y mae Onkelos yn cyfieithu y gair yn *gawri*, neu wŷr cedyrn a grymus; a'r Samaritanaeg, *Emim*, pobl ryfelgar yn terynu ar yr Horiaid; ac y mae Bochart yn dwyn ei resymau i brofi mai yr *Emim* neu yr *Emiaid* a feddylir. Buasai Wagenseil yn credu yr hyn a

haera Bochart, oni buasai ei fod yn cael ei arwain gan resymau cryfach i greu fod y gair yn meddwl math ar *blanhigyn*! Darfu i Gusset chwilio yr hyn a haerodd Bochart, a barna ef mai *mulod*, nid yr *Emim*, a gafodd Ana. Y mae Targum Jonathan yn alleirio y lle fel hyn: 'Hwn yw yr Ana a gysylltodd yr *onager* gyda'r *asen ddiŵf*, ac yn hwn amser a gafodd *fulod* wedi eu dwyn ganddynt.' Rabbi Kimchi a ddywed, 'Yr Ana hwn, â'i fryd ar amryfelyrw, a wnaeth i'r *asynod* a'r *cesig* gysylltu, ac felly a gynyrchodd *fulod*.' Y mae Rabbi Jarchi o'r un farn. O'r tybiau a'r cyfieithiadau uchod gall y darlennydd ddeuwys yr un a hoffa oraf, neu ddyfeisio un well iddo ei hun. 'Fy marn i ydyw,' meddai Clarke, 'nad oedd *mulod* yn adnabyddus yn amser Ana; ac mai efe ond odid oedd y cyntaf a gysylltodd y *gaseg* a'r *asyn* i epilio y cymysgryw hwn, neu efe oedd y cyntaf a gyfarfyddodd â chreaduriaid o'r hil yma mewn rhyw ran dra neillduedig o'r anialwch.'

Adn. 25—30. *A dyma feibion Ana, &c.*] Neu wŷrion Seir yr Horiaid: gwel ar adn. 1—5, 11, 12, 20.

Adn. 31—43. *Dyma hefyd y brenhinoedd a deyrnasasant yn ngwlad Edom*] Y mae yr esbonwyr yn gyffredin yn meddwl fod yr adnodau hyn wedi eu trosglwyddo i'r lle hwn o 1 Cron. i. 43—54, gan nad yw yn debygol y gallant fod wedi eu hysgrifenu gan Moses yn hanesyddol, oddieithr iddo wneyd hyn yn brofiwyddoliaethol. Dichon eu bod wedi cael eu hysgrifenu yn dra bore ar ymyl ysgriflyfr dilys a derbyniadwy, i wneyd allan yr olyniad brenhinol yn Edom yn flaenol i gysegriad Sant; pa eriaun, trwy ddarod eu cael wedi hynny ar ymyl ysgriflyfr gwerthfawr, oddiwrth yr hwn yr adysgrifenydd rhai ereill, a dybiwyd gan yr adysgrifenydd i fod yn rhan o'r testyn, y rhai, wedi eu gad-

32 A Bela, mab Beor, a deyrnasodd yn Edom: ac enw ei ddinas ef *oedd* Dinhaba.

33 A Bela a fu farw; a Jobab, mab Sera o Bosra, a deyrnasodd yn ei le ef.

34 Jobab hefyd a fu farw; a Husam, o wlad Temani, a deyrnasodd yn ei le ef.

35 A bu Husam farw; a Hadad, mab Bedad, yr hwn a darawodd Midian yn maes Moab, a deyrnasodd yn ei le ef: ac enw ei ddinas ef *oedd* Afith.

36 Marw hefyd a wnaeth Hadad; a Samla, o Masreca, a deyrnasodd yn ei le ef.

37 A bu Samla farw; a Saul, o Rehoboth wrth yr afon, a deyrnasodd yn ei le ef.

38 A bu Saul farw; a Baalhanan, mab Achbor, a deyrnasodd yn ei le ef.

39 A bu Baalhanan, mab Achbor, farw; a Hadar a deyrnasodd yn ei le

ef: ac enw ei ddinas ef *oedd* Pau; ac enw ei wraig Mehetabel, merch Matred, merch Mezahab.

40 A dyma enwau y duciaid o Esau, yn ol eu teuluoedd, wrth eu trigleoedd, erbyn eu henwau; duc Timna, duc Alfa, duc Jetheth,

41 Duc Aholibama, duc Ela, duc Pinon,

42 Duc Cenas, duc Teman, duc Mibsar,

43 Duc Magdiel, duc Iram. Dyma y duciaid o Edom, yn ol eu preswylfeydd, yn ngwlad eu perchenogacth: dyma Esau, tad yr Edomiaid.

PENNOD XXXVII.

A THRIGODD Jacob yn ngwlad ymdaith ei dad, yn ngwlad Canaan.

2 Dyma genedlaethau Jacob. Joseph, yn fab dwy flwydd ar bymtheg, oedd fugail gyda'i frodyr ar y praidd: a'r llanc oedd gyda meibion Bilha, a

ael allan trwy gamgymeriad yr ysgrifenydd gwreiddiol, a chwangewyd wedi hyny ar ymyl y ddalen i wneyd i fyny y diffyg; a dan yr argyhoeddiad hwn ni phetrusai efe eu hadysgrifenu o ganlyniad yn ei ailun. Yn y rhan fwyaf o'r ysgriflyfrau gadawyd brawddegau a gwahanranau allan gan yr adysgrifenywr, y rhai, pan eu canfyddwyd, a chwangewyd ar ymyl y ddalen, naill ai gan yr ysgrifenydd gwreiddiol, neu gan ryw law ddiweddarach. Y mae hyn i'w woled yn dra mynych yn y Lladin a'r Groeg; 'ac y mae Beibl Saesonig yn awr o'm blaen,' meddai Clarke, 'wedi ei ysgrifenu rywbryd yn y pedwarydd canrif ar ddeg, yn dangos llawer o brofion o'r egyddor yma.' *Cym teyrnasu brenin ar feibion Israel*—addawsai Duw yn ddiweddar i Jacob, y 'deuai brenhinoedd allan o'i lwynau yntau,' pen. xxxv. 11; ond daeth gwael Esau yn frenhinol yn lîr cyn yr eiddo Jacob. Y mae yn debyg ei bod yn brofedigaeth i ffydd yr Israehaid glywed o honant am rwyg brenhinoedd Edom, tra yr oeddynt hwy eu hunain yn *gaethion* yn yr Aifft: ond rhaid i'r rhai sydd yn dysgwyl am bethau mawrion oddiwrth Dduw fod yn foddlon i aros am danant; canys amser Duw yw yr amser goraf.

Adn. 33. *Jobab mab Sera*] Tybiodd llawer mai yr un yw y *Jobab* hwn a *Job*; ac mai yr *Eliphas* a grybwyllir yn adn. 10, &c., yw yr hwn a elwir yn llyfr *Job* yn un o'i gyfeillion ef: ond nid oes un prawf sier o hyn, ac y mae llawer o resymau i'r gwrthwyneb.

Adn. 35. *A darawodd Midian yn maes Moab*] Hyny yw, a'i lladdodd ef. Y mao Esgob Cumberland yn meddwl mai hwn oedd Midian mab Abraham o Cetura, a darfod ei ladd gan Hadad rywbryd cyn ei fod yn 109 mlwydd oed; a bod Moses yn cofiâu hyn ond oddid am ei fod yn adwyth i henafiad Jethro ei

dad-yn-nghyfraith. Gwel *Orig. of Nat.*, dal. 14.

Adn. 40. *Dyma enwau y duciaid o Esau*] Nid oedd y duciaid hyn yn llywodraethu holl genedl yr Edomiaid; eithr penaethiaid oeddynt ar eu *teuluoedd*—hyny yw, eu teuluoedd neillduol eu hunain, neu eu priodol fyddin-oedd, adn. 15; wrth eu *trigleoedd*—y taleithiau a lywodraethent, ac i'r rhai y rhoddent eu *henwau*. Y mae Calmet yn meddwl fod y rhai a grybwyllwyd uchod yn duciaid yn Edom neu Idumea, ar ymadawiad Israel o'r Aifft.

Adn. 43. *Dyma Esau, tad yr Edomiaid*] Hyny yw, y mae y gofres flaenorol yn cynwys hanes hiliogaeth Esau, y rhai a elwir yr Edomiaid. Nid oes genym ddim hanes am farwolaeth Esau: ond tybia rhai ddarfod iddo oroesi Jacob, ac i'w ddyddian olaf gael eu treulio yn well na'i fywyd blaenorol.

PEN. XXXVII. Adn. 1. *A thrigodd Jacob yn ngwlad ymdaith ei dad*] Sef yn *nyffryn Hebron*, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 14. Trwy fod achyddiaeth Esau yn awr wedi ei gorphen, (yr hon a ddygwyd yn mlaen mewn ffordd o ymsang,) y mae Moses yn awr yn troi yn ol at deulu Jacob, ac yn adrodd eu helyntion hwy.

Adn. 2. *Dyma genedlaethau Jacob*] Heb. *toledoth*, sef hanes bucheddau a gweithredoedd Jacob a'i feibion. Yn yr ystyr cyffredinol hwn y rhaid i ni ddeall y gair gwreiddiol, gan nad oes yn yr holl hanes ddylynlol ddim adroddiad neillduol am unrhyw olyniad ACU-AWL. *A'r llanc oedd gyda meibion Bilha a chyda meibion Zilpa*—ymddengys fod Jacob wedi gwahanu meibion Lea oddiwrth feibion ei orderehwragedd, y rhai a droisant allan yn blant drwg iawn; a dechreuodd gofidiau Joseph trwy eu cylhuddo hwy wrth ei dad, fel

chyda mcibion Zilpa, gwragedd ei dad; a Joseph a ddygodd eu drygair hwynt at eu tad.

3 Ac Israel oedd hoffach ganddo Joseph na'i holl feibion: oblegid efe oedd fab ei henaint ef: ac efe a wnaeth siaced fraith iddo ef.

4 A phan welodd ei frodyr fod eu tad yn ei garu ef yn fwy na'i holl frodyr, hwy a'i casasant ef, ac ni fedrent ymddyddan *âg* ef yn heddychol.

5 ¶ A Joseph a freuddwydiodd freuddwyd, ac a'i mynegodd i'w frodyr: a hwy a'i casasant ef eto yn chwanege.

6 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Gwraudewch, atolwg, y breuddwyd hwn a freuddwydiais i.

7 Ac wele, rhwymo ysgubau yr

y byddai iddo ef en ceryddu a'u battal. *Eu drygair hwynt*—dywed rhai mai Sodomaiaeth oedd eu pechod; ac ereill, mai gorwedd gyda merched y cenbedloedd; ac ereill, mai bywta cig amrwd, yn groes i gyfraith Noa: ond y mae yr ysgrythyr yn ddystaw.

Adn. 3. *Ac Israel oedd hoffach ganddo Joseph na'i holl feibion*] Paham? 1. Am ei fod yn fab ei henaint ef, wedi ei eni pan yr oedd Jacob yn 91 mlwydd oed. 2. Yn fab ei anwyl Rahel, ac yn awr yn amddifad o'i fam. Ac, 3. Yn blentyn duwiol, nffudd, a diwyd. *Oblegid efe oedd fab ei henaint ef*—y mae amrai o'r hen gyfieithiadau, megys y Caldeaid, y Persiaidd, yr Arabaidd, a'r Samaritanaidd, yn cyfieithu y geiriau yn *fab doeth* neu *synwryol*, trwy fod henaint yn arwydd o synwryd, ni wedi ei eni yn hen—hyny yw, yn synwryol uwchlaw ei flynyddau. Yn hyn hefyd y cytuna Josephus. *Ac efe a wnaeth siaced fraith iddo*—wedi ei chydweu âg odafedd o wahanol liwiau, neu ei gwneyd i fyny o ddarnau amryliw. Yr oedd hon ond odid yn arwyddo fod mwy o anrhydedd yn cael ei fwrriadu iddo ef; canys wedi iddo gymeryd yr enedigaeath-fraint oddiwrth Reuben o achos ei bechod, efe a'i rhoddde i Joseph oblegid ei dduwieldeb. Y mae rhai yn meddwl i Jacob wneyd siaced fraith iddo, fel y gallai ei gynorthwyo ef wrth yr allor. Y mae dillad brithion, neu wahaniaethol, yn cael eu gwisgo hyd heddyw trwy holl Bersia, India, a China.

Adn. 4. *Hwy a'i casasant ef*] Pleidgarwch eu tad, yr achwynion a roddwyd yn eu herbyn am eu beiau, y siaced fraith, yn nghyda natur ei freuddwydion, yn lle tynu serch ei frodyr, a gyffroisant eu casineb hwn, megys yn achos ein Harglwydd Iesu, o'r hwn yr oedd Joseph yn gysgod. *Ac ni fedrent ymddyddan âg ef yn heddychol*—ni chyfarfent ef mewn modd cyfeillgar, ac felly teimlent eu hunain yn rhydd i gymeryd y cyfso cyntaf i'w niweidio.

Adn. 5, 6. *A Joseph a freuddwydiodd freuddwyd*] Yr hwn yn debygol na ddallwyd ganddo ef ei hun ar v cyntaf, ac felly

oeddym ni yn nghanol y maes; ac wele, fy ysgub i a gyfododd, ac a safodd hefyd; ac wele, eich ysgubau chwi a safasant o amgylch, ac a ymgrymasant i'm hysgub i.

8 A'i frodyr a ddywedasant wrtho, Ai gan deyrnasu y teyrnesi arnom ni? ai gan arglwyddiaethu yr arglwyddiaethi arnom ni? A hwy a chwanegeasant eto ei gasâu ef, oblegid ei freuddwydion, ac oblegid ei ciriau.

9 ¶ Hefyd efe a freuddwydiodd eto freuddwyd arall, ac a'i mynegodd i'w frodyr, ac a ddywedodd, Wele, breuddwydiais freuddwyd eto; ac wele yr haul, a'r lleuad, a'r un seren ar ddeg, yn ymgyrnu i mi.

10 Ac efe a'i mynegodd i'w dad, ac i'w frodyr. A'i dad a feiodd arno,

mewn symledd mawr efe a'i mynegodd ef i'w frodyr. Ond yr oedd rhagluniaeth neillduol Duw i'w gweled yn rhoddiad y breuddwydion hyn iddo, ac wrth beri iddo eu datguddio iddynt hwy; canys trwy hyny yr amlygwyd, pan ddaeth yr hyn a arwyddent oddiangylch, nad o ddamwain y dygwddodd y pethau hyn, ond trwy drefniant Duw.

Adn. 7. *Rhwymo ysgubau yr oeddym ni yn nghanol y maes*] Er nad ydym yn darllen ond am ychydig o amaethyddiaeth yn yr amseroedd boreol hyn, eto y mae yn amlwg oddiwrth yr amgylchiad yma fod hyny yn cael ei arfer gan Jacob a'i feibion. *Eich ysgubau chwi—a ymgrymasant i'm hysgub i*—mor ryfeddol y cyflawnwyd hyn pan y daeth ei frodyr ato i'r Aifft i geisio yd, ac yr 'ymgrymasant i lawr iddo ef ar eu hwynebau' i pen. xlii. 6.

Adn. 8. *Ai gan deyrnasu y teyrnesi arnom ni?*] Gwelwch yma, 1. Mor gywir y deongliasant ei freuddwyd ef! Darfu i'r canlyniad ateb yn gywir i'r deongliad hwn. 2. Mor watwarus y cymerent ef! A fydd i ti, yr hwn nad wyt ond un deyrnasu arnom ni y rhai ydym *lawer?* tydi yr hwn wyt yr *ieu-angaf*, arnom ni y rhai ydym *hynach?* Fel hyn y mae teyrnasiad Iesu Grist, ein Joseff ni, yn cael ei ddiystyru a'i wrthwynebu gan fydd anghrediniol, y rhai ni allant oddef meddwl i 'hwn deyrnasu arnynt?' Luc xix. 14.

Adn. 9. *Hefyd efe a freuddwydiodd eto freuddwyd arall*] Gallai ail-adreddiad o'r un peth mewn agwedd arall ddyssu iddynt ei fod yn sicr o ddyfod i ben. *Ac wele yr haul a'r lleuad*—ei dad a'i fam, y rhai ni arddanghoswyd yn y breuddwyd cyntaf, am mai ei frodyr yn unig a aethant y tro cyntaf i'r Aifft, ac a ymgrymasant iddo.

Adn. 10. *Ac efe a'i mynegodd i'w dad*] Yr oedd y breuddwyd hwn wedi ei wasgu mor drwm ar ei feddwl, a hyny yn ddiamau gan Yspryd Duw, fel na allai orphwys nes gwneuthur ei dad yn adnabyddus o hono. *A'i dad a feiodd arno*—nid o ddigofaint, neu mewn diystyrwch o'i freuddwyd, oblegid dywedir, 'ei dad a ddaliodd ar v peth,' adn. 11; ond,

ac a ddywedodd wrtho, Pa freuddwyd yw hwn a freuddwydiaist ti? Ai gan ddyfod y deurn ni, mi, a'th fam, a'th frodyr, i ymgyrnu i lawr i ti?

11 A'i frodyr a genfigenasant wrtho ef; ond ei dad a ddaliodd ar y peth.

12 ¶ A'i frodyr a aethant i fugeilia praidd eu tad, yn Sichein.

13 Ac Israel a ddywedodd wrth Joseph, Ouid yw dy frodyr yn bugeilio yn Sichein? Tyred, a mi a'th anfonaf atynt. Yntau a ddywedodd wrtho, Wele fi.

14 A dywedodd wrtho, Dos weithian, edrych pa lwyddiant sydd i'th frodyr, a pha lwyddiant sydd i'r praidd; a dwg eilchwyl air i mi. Felly efe a'i hanfonodd ef o ddyffryn Hebron; ac efe a ddaeth i Sichein.

15 ¶ A chyfarfû gŵr ág ef; ac wele efe yn crwydro yn y maes: a'r gŵr a ymofynodd ág ef, gan ddywedyd, Pa beth yr wyt ti yn ei geisio?

16 Yntau a ddywedodd, Ceisio fy mrodyr yr ydwyf fi; mynega, atolwg, i mi, pa le y maent hwy yn bugeilio?

mewn rhan, rhag i Joseph ymchwyddo gyda'r drychfeddwl o oruchafiaeth ar ei frodyr, a rhoddi lle i falchder o achos ei freuddwydiou; ac, yn benaf, i liniaru centgen a dygasedd ei frodyr. *Ai gan ddyfod y deurn ni, mi a'th fam*—Lea ei lysfam, yr hon oedd yn llenwi lle ei fam, ac yn awr yn unig wraig i Jacob, ac yn fam y teulu. Neu gall mai yr ystyr yw, A fydd i Rachel yfam godi oddiwrth y meirw, i ddyfod gyda mi i'th addoli di! Os dyma yr ystyr, rhaid i ni edrych ar eiriau Jacob fel danghosiad o oferedd ei freuddwyd, gan fod y cyflawniad o hono yn annichonadwy.

Adn. 11. *Onid ei dad a ddaliodd ar y peth*] Gan wrbod yn dda fod Duw yn fynych wedi datguddio ei ewylllys, neu ragddywedwyd dygwyddiadau i ddyfod, trwy freuddwydion; a chan weled fod rhywbeth hynod ac anngyffredin yn y breuddwyd hwn, ac yn enwedig yn ei ail roddiad.

Adn. 12—17. *A'i frodyr a aethant i fugeilio praidd eu tad yn Sichein*] Gan fod meibion Jacob yn awr wedi myned i fugeilio eu praidd ar y tir a brynasant oddiwrth y Sicheiniaid, pen. xxxiii. 19, lle y cyflawnasant y fath gyflafan erchyll, gallai fod eu tad yn teimlo yn fwy pryderus yn nghylch eu llywyddiaut, rhag i'r llwythau cymydogeaethol godi yn eu herbryn, a dial llofruddiad y Sicheiniaid. Gan yr ymddengys fod Jacob y pryd hyn yn *nyffryn Hebron*, adn. 14, meddylir fod *Sichein* oddeutu triugain milldir oddiwrtho, a bod *Dothan*, adn. 17, oddeutu wyth milldir yn mbellach. Ond rhaid i ni dracheffn hysbysu i'n darllenwyr, fod yr holl gyfrifiadau hyn yn dra amheus; canys nid ydym yn sicr mai yr un Sichein a feddylir, gan fod amrai loeodd yn myned wrth yr un enwau: gwel Clarke.

17 A'r gŵr a ddywedodd, Hwy a aethant oddiyma; oblegid mi a'u clywais hwy yn dywedyd, Awn i Dothan. A Joseph a aeth ar ol ei frodyr, ac a'u cafodd hwynt yn Dothan.

18 Hwytiau a'i canfuant ef o bell; a chyn ei ddynesu ef atynt, hwy a gyd-fwriadasant yn ei *erbyn* ef, i'w ladd ef.

19 A dywedasant wrth eu gilydd, Wele y breuddwydiwr yn dyfod.

20 Deuwch gan hyny yn awr, a lladdwn ef, a thafllwn ef yn un o'r pydewau; a dywedwn, Bwystfil drwg a'i bwytaodd ef: yna y cawn weled beth a ddaw o'i freuddwydion ef.

21 A Reuben a glybu, ac a'i hachubodd ef o'u llaw hwynt; ac a ddywedodd, Na laddwn ef.

22 Reuben a ddywedodd hefyd wrthynt, Na thywlltwch waed; hwr-iwch ef i'r pydew hwn sydd yn yr anialwch, ac nac estynwch law arno: fel yr achubai ef o'u llaw hwynt, i'w ddwyn eilwaith at ei dad.

23 ¶ A bu, pan ddaeth Joseph at

Adn. 18. *Ilwy a gudfwriadasant yn ei erbyn ef, i'w ladd ef*] Nid mewn byrbwylltra, neu dan gythruddiad sydyn, yr oeddynt yn bwriadu ei ladd ef; eithr mewn malais rhagfwriadol, ac mewn gwaed oer!

Adn. 19. *Wele y breuddwydiwr yn dyfod*] Heb. *baal hachalomoth*, 'meistr' neu 'arglwydd y breuddwydion;' un a all freuddwydio pan y myno: dull o ymadrodd yn cyfleu dirmyg mawr.

Adn. 20. *Deuwch gan hyny yn awr, a lladdwn ef*] Y fath greuloniaid diegwyddor y rhaid fod y rhai hyn, pan y gallent son fel hyn yn oeraidd am drochi eu dwylaw yn ngwaed brawd diniwed! Creulondeb ffyrnig yw prif weddnod y cenhedloedd a'r llwythau y rhai nad ydynt yn derbyn y gyfraith o enau Duw.

Adn. 21, 22. *A Reuben a glybu, &c.*] Er yr ymddengys fod Reuben yn droseddwr anngyffredin, os deallwn pen. xxxv. 22 yn llythyrenol, eto nid oedd ei fynwes ef yn drigle creulondeb. Efe a benderfynai, os ydoedd bosibl, waredu ei frawd rhag angau, a'i draddodi yn ddiogel i'w dad, yr hwn y gwyddai am ei hoffer o Joseph; a dichen ei fod trwy hyny yn gobeithio adennill ffaf ei dad, yr hon a gollasai yn ddiweddar. Yr oedd gan Reuben fwy o achos na neb i fod yn eiddgeddus o Joseph; canys efe ydoedd y cyntafanedig, ac felly yr oedd yn meddu hawl yn yr holl freintiau ag yr oedd ei dad yn eu pentyru ar ben Joseph. Y mae Josephus, yr hanesydd Iuddegwig, yn ei ffordd arferol, yn adrodd araeth flodeuog a draddodwyd gan Reuben ar yr achos hwn; (gwel llyfr ii. pen. 3; ond gan ei bod yn hollol ddisail, nid yw yn deilwng o sylw.

Adn. 23. *Iddynt ddyosg ei siaced oddiam*

ei frodyr, iddynt ddyosg ei siaced oddiam Joseph, *sef* y siaced fraith *yoedd* am dano ef.

24 A chymerasant ef, a thafasant i bydew: a'r pydew *oedd* wâg heb ddwfr ynddo.

25 A hwy a cisteddasant i swyta bwyd; ac a ddyrchafasant eu llygaid, ac a edrychasant, ac wele fintai o Ismaeliad yn dyfod o Gilead, yn myned i waered i'r Aifft, a'u camelod yn dwyn llysiau, a balm, a myrr.

26 A dywedodd Juda wrth ei frodyr, Pa lesad a *fydd* os lladdwn ein brawd, a chelu ei waed ef?

27 Deuwch, a gwerthwn ef i'r Ismaeliad, ac na fydded ein llaw ni arno ef; oblegid ein brawd ni a'u cnawd ydyw efe. A'i frodyr a gytunasant.

28 A phan ddaeth y marchnadwyr

Joseph] Dichon fod ganddynt ddau ddyben yn hyn: 1. Fel os byth y ceid ef gau rywrai, na fyddai iddynt ddeall ei fod yn w'r o *ragoriaeth*, ac felly na wneid un ymboliad yn ei gylech ef; ac, 2. Fel y gallent dwyllo eu tad, megys yr adroddir adn. 31, &c.

Adn. 24. *A chymerasant ef, a thofasant i bydew*] I drengu yno gan newyn ac anwyd. Dywed Abarbanel, (*Poli. Synopsis.*) mai Simeon a Lefi oedd y ddau a gyniellasant eu brodyr i'r weithred greulon hon; ac mai Simeon a rwymodd Joseph, yr hyn a gopwyd trwy ei rwymidd yntau yn yr Aifft, pen. xlii. 24. *A'r pydew oedd wâg*—trwy mai pydew i dderbyn dwfr yn y tynhor gwlawog oedd efe.

Adn. 25. *A hwy a cisteddasant i swyta bwyd*] Nid oeddynt yn teimlo dim atgno cydwbod, onidê ni buasai ganddynt fawr o flas ar fwyd. Y mae cynefindra â phechod yn amddifadu y gydwbod dros amser o deimlad a lleferydd. *Ac wele fintai o Ismaeliad*—yn adn. 36, gelwir y rhai hyn *Midianiad*; ac y mae y Bersiaeg yn eu galw yn 'fintai o Arabiaid Ismaeliad.' Ymddengys fod y gwahanol lwythau hyn, y rhai a ddisgynasant oddiwrth Abraham trwy *Medan* a *Midian* plant Cetur, a thrwy *Ismael* mab Agar, wedi ymuno yn un cwmni o farsandwyr, fel y gallent deithio gyda mwy o ddiogelwch. *Yn dwyn llysiau*—a elwir *gum tragacanth*, yr hwn sydd mewn bri mawr yn y dwyrain o herwydd ei rinwedd meddyginiaethol. *Balm*—a elwir *opobalsam*, neu driagl Gilead. Dywed Rabbi Dafydd ei fod yn feddyginiaeth rhag y dolnriau mwyaf peryglus. *A myrr*—a elwir *gum ladanum*, yn benaf ffrwyth y *cistus ladanifera*, yr hwn a ddefnyddid fel p'arogrl a chifferi.

Adn. 26, 27. *A dywedodd Juda wrth ei frodyr, Pa lesad a fydd os lladdwn ein brawd, &c.*] Bydd yn llai o euogrwydd, ac yn fwy o elw, i ni ei werthu ef. A hwy oll a gytunasant i hyn. Ac megys y gwerthwyd Joseph trwy ddyfais Juda am ugain darn o

o Midian heibio, y tynasant ac y cyfodasant Joseph i fyny o'r pydew, ac a werthasant Joseph i'r Ismaeliad er ugain *darn* o arian: hwythau a ddygasant Joseph i'r Aifft.

29 ¶ A Reuben a ddaeth cilwaith at y pydew; ac wele nid *yoedd* Joseph yn y pydew: ac yntau a rwygodd ei ddillad;

30 Ac a ddychwelodd at ei frodyr, ac a ddywedodd, Y llange nid yw acw; a minau, i ba le yr âf fi.

31 A hwy a gymerasant siaced Joseph, ac a laddasant fyn gafr, ac a drochasant y siaced yn y gwaed.

32 Ac a anfonasant y siaced fraith, ac a'i dygasant at eu tad, ac a ddywedasant, Hon a gawsom: myn wybod yn awr, ai siaced dy fab *yw* hi, ai nad ê.

33 Yntau a'i hadnabu hi, ac a ddy-

ariau, felly y gwerthwyd ein Harglwydd Iesu am ddeg-ar-hugain, a chan un o'r un enw hefyd—*Judas*. Ymddengys fod Reuben wedi myned ymaith oddiwrth ei frodyr pan y gwerthasant Joseph, gan fwriadu myned oddi-amgylch ryw fiordd arall at y pydew i helpu Joseph allan o hono, adn. 29. Neu yr oedd ef yn edrych ar ol y praidd mewn rhyw ran arall o'r tir.

Adn. 28. *Er ugain darn o arian*] Hyny yw, fel y meddyllir, ugain *sicl* o arian; ac os *sicl* a fwriedir, a chymeryd pob un yn werth 2s. 6c., gwerthwyd Joseph am £2. 10s., yr hyn a roddai oddeutu 5s. 6½c. yn llaw pob un o'r *naw* brawd.

Adn. 29. *A Reuben a ddaeth cilwaith at y pydew*] I wardu ei frwad; yr hyn a brawd nad oedd ef gyda'i frodyr pan y gwerthasant Joseph. *A rwygodd ei ddillad*—yn arwydd o'i ofid dirfawr, gan feddwl ei fod wedi ei ladd: gwel ar adn. 34.

Adn. 30. *A minau, i ba le yr âf fi?*] Efe a wyddai, gan mai efe oedd y mab hynaf, y byddai i'w dad ddysgwyl iddo ef roddi cyfrif am dano.

Adn. 31. *A laddasant fyn gafr, ac a drochasant y siaced yn y gwaed*] Eu dyfais i guddio gwerthiad Joseph oedd trochi ei siaced fraith yn ngwaed y mŷn, a pherswadio eu tad mai gwaed Joseph ydoedd, a'i fod o ganlyniad wedi ei larpio yn ddamweiniol gan fwystilod rheibus, adn. 33. Fel hyn Jacob, yr hwn a dwyllasai ei dad Isaac gyda mŷn, pen. xxvii. 14, a dwyllir ei hunan â gwaed yr unrhyw greadur.

Adn. 32. *Ac a anfonasant y siaced fraith*] Yn llaw cenhadau, y rhai a'i dygasant at eu tad. Myn rhai o'r Iuddewon mai meibion Zilpa a Bilha oedd y cenhadau hyn; ond yn ol Targum Jerusalem, Juda a'i cyflwynodd hi i'w dad.

Adn. 33. *Gan larpio y llarpwyd Joseph!*] Y mae yn debyg iddo gasglu hyn oddiwrth gyflwr rhywygedig y siaced, yr hon, mewn trefn i guddio eu drygioni yn well, nid yn

wedodd, Siaced fy mab *yu hi*; bwystfil drwg a'i bwytaodd ef: gan larpio y llarpwyd Joseph.

34 A Jacob a rwygodd ei ddillad, ac a osododd sachlen am ei lwynau, ac a alarodd am ei fab ddyddiau lawer.

35 A'i holl feibion, a'i holl ferched, a godasant i'w gysuro ef; ond efe a wrthododd gymeryd cysur, ac a ddywedodd, Yn ddiâu disgynaf yn alarus

unig a ddwbiasant â gwaed y mŷn gafr, ond yn debygol a rwygasant hefyd yn garpiau. Bu Jacob am oddeutu ugain mlynedd wedi hyn yn meddwl fod yr hanes yma yn wir; ac yn ystod yr amser maith hwn diannau iddo lawer gwaith ddarlunio iddo ei hun erchyll gyflwr ei anwyl Joseph. Nid yn unig pan yn effro, ond hefyd yn mreuddwydion y nos, meddyliai ei fod yn gweled y bwystfil anhrugarog yn rhuthro aruo; dychymygai ei fod yn clywed ei ysgrechliadau galarus, tra yr oedd y llew yn crochruo uwch ei ben, ac â'i grafangau cryfion yn rhwygo ei ymysgaroedd; a theimlai ei waed fel yn fferu wrth feddwl am y modd yr oedd y bwystfil drwg yn sugno ei waed, ac yn rhwygo y nail aelod oddiwrth y llall, heb adael dim o hono yn weddill ond y siaced rwygedig i fod yn arwydd gwaedlyd o'r gyflafan ddychrynyllyd!

Adn. 34. *A Jacob a rwygodd ei ddillad*] Yr amlygiad heuafol hwn o dristwch a gofid, a wneid trwy rwygo oddeutu lled llaw yn ochr ddeau y wisg uwchaf.

Adn. 35. *A'i holl feibion a'i holl ferched a godasant i'w gysuro ef*] Nid oedd ganddo ond un ferch, sef *Dina*; ond gallai mai ei ferched-yn-nghyfraith a feddylir yma, neu ei wragedd a'i law-forwynion y rhai oeddynt yn ei dŷ. Eithr y fath ragrith yn ei feibion oedd ceisio ei gysuro ef am farwolaeth mab ag y gwyddent hwy ei fod yn fyw; a'r fath greulondeb oedd rhoddi eu tad oedranus yn y fath ofid, pan nad oedd un sail iddo!

Adn. 36. *A'r Midaniaid a'i gwerthasant ef i'r Aiff*] Canys i elwa arno yn unig y prynasant ef. *I Putiphar tywysog Pharao*—y mae y gair Hebreig *saris*, a gyfieithir yma *tywysog*, meddai Clarke, yn arwyddo *eunuch*; a rhag i neb ddychymygu, am fod gan Putiphar *wraig*, fod yn afresymol meddwl ei fod ef yn *eunuch*, gwybydder mai nid peth anghyffredin yn y dwyrain ydyw i eunuchiaid gael *guragedd*; na, y mae gan rai o honynt *harem* neu *seraglio*, lle y maent yn cadw llawer o wragedd, er nad ymddengys fod gauddynt *epil*: ac y mae yn debyg y gallai anfodlonrwydd ar y *tir hun* fod yn gymaint achos o anffyddlondeb gwraig Putiphar, ag a ydoedd y dyben llai egwyddorol hwnaw oddiar yr hwn y credir yn gyffredin iddi ymddwyn. *A'r distain*—Saes. 'cadben y gwarchawdlu;' neu, fel y mae rhai yn cyfieithu y wreiddiol, *penaeth y cigyddion*; enw tra chyfaddis i warchawdlu archdeyrn dwyreiniol. Os bydd i ddynd ddiogio un o'r tywysogion tra-arghwyddiaethol hyn, efe a orchymyn

at fy mab i'r beddrod: a'i dad a wylodd am *dano* ef.

36 A'r Midaniaid a'i gwerthasant ef i'r Aiff, i Putiphar tywysog Pharao, a'r distain.

PENNOD XXXVIII.

AC yn y cyfamser hwnw, y darfu i Juda fyned i waered oddiwrth ei frodyr, a throi at w'r o Adulam, a'i enw Hira.

i un o'i lys-filwyr, *Dos*, a *dwg ei ben ef i mi*; ac ufyddheir i'r gorchymyn hwn yn y fan, heb farnwr, rheithwyr, na ffurf o gyfraith! Gan hyny gallwn feddwl fod Putiphar yn gadben ar y milwyr hyny, gorchwyl y rhai oedd gofalu am y brenin, a chyflawni ei ewylllys penadurol ar holl wrtlddrychau ei anfodlonrwydd. Gwel CLARKE; a pen. xli. 45, Est. i. 10.

PEN. XXXVIII. Adn. 1. *Ac yn y cyfamser hwnw*] Y fleithiau crybwylledig yma ni allent fod wedi dygwydd yn yr amseroedd a grybwyllydd yn y bennod flaenorol, gan fod yr holl amseroedd hyny yn ddiadaid yn rhy ddiweddar; canys rhaid i'r cyntaf o'r dygwyddiadau a goffeir yma fod wedi cymryd lle yn hir cyn gwerthu Joseph. Sylwa Mr. Ainsworth, y rhaid fod Juda a'i feibion wedi priodi pan yn bar ieuainc, onidê na chysnoa yr amseryddiaeth: canys ganed Joseph *chwe* blynedd cyn i Jacob adael Laban a dyfod i Ganaan, pen. xxx. 25, a xxxi. 41. Yr oedd Joseph yn 17 mlwydd oed pan y gwerthwyd ef i'r Aiff, pen. xxxvii. 2, 25; yr oedd yn 30 pan yn deongli breuddwyd Pharao, pen. xli. 46. Ac yn mhen *naw* mlynedd wedi hyny, ar ol bod *saith* mlynedd o amldra a *dwg* o newyn, yr aeth Jacob a'i deulu i waered i'r Aiff, pen. xli. 53, 54, a xlv. 6, 11. Ac ar eu mynediad yno yr oedd gan Phares mab Juda, genedigaeith yr hwn a goffeir yn niwedd y bennod hon, ddau o feibion, sef Ihesron a Hamul, pen. xli. 12. Am hyny, gan nas gallai fod uwchlaw *tair* blynedd ar *hugain* rhwng gwerthiad Joseph a mynediad Israel i waered i'r Aiff, pa fodd y mae yn bosibl ddar-fod i Juda gymeryd gwraig, a chael o honi dri o feibion yn olynol, a bod Sela, yr ieuangaf o'r tri, mewn oed i briodi pan ghenhedlodd Juda *Phares* o Tamar, pen. xxxviii. 14, 26, a bod *Phares* wedi tyfu i fynu, a phriodi, a chael *dau* o blant, a'r ewbl mewn amser mor fyr? Ymddengys gan hyny fod y *cyfamser* ag y sonir am dano yma yn fuan ar ol dyfodiad Jacob i Sichein, pen. xxxiii. 18, cyn hanes Dina, pen. xxxiv., er fod Moses am achos neillduol yn ei adrodd yn y lle hwn. Gwel Ainsworth. Ond tybia Clarke fod y bennod hon yn sefyll yn wreiddiol ar ol pen. xxxiii., ac iddi ddyfod yn ddamweiniol i'r lle hwn. *Y darfu i Juda fyned i waered oddiwrth ei frodyr*—dywed Baumgarten i Juda ymneillduo oddiwrth ei frodyr am dro pan yn 30 mlwydd oed, yn mhen tair blynedd ar ol i Jacob ddychwelyd o Mesopotamia, pan yr oedd ef yn

2 Ac yno y canfu Juda fereh gwŕ o Canaan, a'i cnw ef *oedd* Sua; ac a'i cymerodd hi, ac a aeth at hi.

3 A hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar fab; ac efe a alwodd ei cnw ef Er.

4 A hi a feichiogodd cilwaith, ac a esgorodd ar fab; a hi a alwodd ei cnw ef Onan.

5 A thrachefn hi a esgorodd ar fab, ac a alwodd ei cnw ef Sela. Ac yn Cezib yr oedd efe pan esgorodd hi ar hwn.

6 A Juda a gymerth wraig i Er, ei gyntafanedig, a'i henw Tamar.

7 Ac yr oedd Er, cyntafanedig Juda, yn ddrygionus yn ngolwg yr Arglwydd; a'r Arglwydd a'i lladdodd ef.

8 A Juda a ddywedodd wrth Onan, Dos at wraig dy frawd, a phrioda hi, a chyfod had i'th frawd.

9 Ac Onan a wybu nad iddo ei

hun y byddai yr had: a phan elai efe at wraig ei frawd, yna y collai efe ei had ar y llawr, rhag rhoddi o hono had i'w frawd.

10 A drygionus oedd yr hyn a wnaethai efe yn ngolwg yr Arglwydd: am hyny efe a'i lladdodd yntau.

11 Yna Juda a ddywedodd wrth Tamar ei waudd, Trig yn weddw *yn* nhŷ dy dad, hyd oni chynyddo fy mab Sela: (oblegid efe a ddywedodd, Rhag ei farw yntan fel ei frodyr.) A Thamar a aeth, ac a drigodd *yn* nhŷ ei thad.

12 ¶ Ac efe llawer o ddyddiau, marw a wnaeth mereh Sua, gwraig Juda: a Juda a gymerth gysur, ac a aeth i fynu i Timnath, at gneifwyr ei ddefaid, efe a'i gyfaill Hira yr Adulamiad.

13 Mynegwyd hefyd i Tamar, gan

preswlyon yn Sichem, oddeutu wyth mlynedd cyn gwerthu Joseph i'r Aipht. *A throi at ŵr o Adulam*—dinas yn Nghanaan, a roddwyd wedi hyn yn etifeddiaeth i feibion Juda, Jos. xv. 1, 35. Ymddengys fod y gwŕ hwn yn cadw math ar *westy*; canys yr oedd Sua y Canaanead a'i deulu yn lletya gydag ef, ac yno y lletyai Juda hefyd. Fel hyn newidodd Juda gymdeithas had Israel am gymdeithas Canaaneaid.

Adn. 2—4. *Ac a'i cymerodd hi, &c.*] Ymddengys nad ymgynghorodd efe â'i dad, ond ddarod iddo weithredu yn ol cyngorei gyfaill newydd Hira. Pan y mae pobl ieuanc a ddygwyd i fynu yn dda yn dechren newid eu gymdeithion, bydd iddynt yn fuan newid eu moesau, a cholli eu haddysg dda.

Adn. 5. *Cezib*] Meddylir mai yr yw y dref hon ag *Aezib*, yr hon a ddisgynodd i lwyth Juda, Jos. xv. 44. Gwel ar Mic. i. 14.

Adn. 6. *Tamar*] Ni ddywedir i ni pwy oedd Tamar, ond y mae yn debygol mai un o'r Canaaneaid oedd hithan.

Adn. 7. *Ac yr oedd Er—yn ddrygionus*] Yn mha beth yr oedd ei ddrygioni yn gynnwysedig ni ddywedir; ond gan y chwaneigr, ei fod felly yn *ngolwg yr Arglwydd*, rhaid ei fod yn rhyw ddrwg mawr iawn. *Ar Arglwydd a'i lladdodd ef*—a'i torodd ymaith trwy farwolaeth anamserol cyn iddo gael plant o Tamar. Fel yr oedd hir einioes yn mhlith yr Iuddewon yn cael ei chyfrif yn fenth oddiwrth Ddaw, felly yr oedd marwolaeth anamserol yn cael ei chyfrif yn gosh oddiwrtho ef.

Adn. 8. *Dos at wraig dy frawd, a phrioda hi*] Y mae yn eglur oddiyma fod y ddefod a wnaed wedi hyn yn gyfraith gan Moses, Deut. xxv. 5, yn llawer hynach na'i ddyddian ef; ac yr oedd mewn arferiad yn mhlith yr Aiftiaid. *A chyfod had i'th frawd*—fel ag i gadw i fynw enw dy frawd ymadawedig, yr hwn a fu farw yn ddiablant.

Adn. 9. *Ac Onan a wybu nad iddo ei hun*

y byddai yr had] Hyny yw, y byddai i'r plentyn a ghenhedliod o wedd ei frawd gael ei gyfrif fel plentyn ei frawd ymadawedig, ac na chai ei cnw ef, er mai efe fyddai y gwir dad, ymddangos ar y tastenau achawl. *Yna y collai efe ei had ar y ddaear*—trwy halogiad aflan o'i gorff ei hun, yr hyn a'i hanalluogai i blanta. Yr oedd y weithred hon yn cael ei chyfrif bob amser yn drosedd mawr hyd y nod gan y moesolwyr cenedlig; ac yr oedd y doctoriaid Iuddegwyr yn edrych arni fel gradd o lofruddiaeth. Y mae y rhai sydd yn euog o'r pechod hwn nid yn unig yn anfoddloni yr Arglwydd, ond hefyd yn niweidio eu cyrff eu hunain yn fawr, fel y profa yr holl feddygon, yn gystal ag yn damnio eu heneidiau.

Adn. 10. *A drygionus oedd yr hyn a wnaethai efe yn ngolwg yr Arglwydd*] Er mor ddrwg oedd pechod Onan ynddo ei hun, ymddengys ei fod yn cael ei fwyhau trwy fod ganddo olwg, fel y meddylir, ar attal genedig-aeth y MESSIA, am na chái efe yr anrhydedd o gael ei gyfrif yn mhlith ei henafiaid ef; a dichon mai hyn a gymhellodd yr Arglwydd i'w dori ef ymaith.

Adn. 11. *Wrth Tamar ei waudd*] Neu ei fereh-yn-nghyfraith, *Trig yn weddw yn nhŷ dy dad, hyd oni chynyddo fy mab Sela*—ymddengys oddiyma fod Sela, y trydydd mab, yn cael ei fwriadu i Tamar, ond fod Juda yn penderfynu na chai ef briodi mor ieuanc ag y gwnaethai ei frodyr; canys ymddengys oddiwrth eirian Juda, *rhag ei farw yntau*, ei fod yn meddwl mai priodi yn thy ieuanc oedd yr achos o'u marwolaeth hwy.

Adn. 12. *Ac wedi llawer o ddyddiau*] Yr hyn a arwydda yma llawer o *stymyddau*, sef ar ol i Sela dyfu i fyny, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 26. *Marw a wnaeth merch Sua*—sef gwraig Juda, a mam Er, Onan, a Sela. *A Juda a gymerth gysur*—a ddaeth cyn hir i deimlo ei golled yn llai, ac yn fwy galluog i edrych ar ol ei orchwylion.

ddywedyd, Wele dy chwegrwn yn myned i fyny i Timnath, i gneifio ei ddefaid.

14 Hithau a ddyosgodd ddillad ei gweddwdod oddiam dani, ac a'i cuddiodd ei hun â gorchudd, ac a ymwisgodd, ac a eisteddodd yn nrws Enaim, yr hwn *sydd* ar y ffordd i Timnath: oblegid gwelwyd yr oedd hi fyned Sela yn fawr, ac na roddasid hi yn wraig iddo ef.

15 A Juda a'i canfu hi, ac a dybiodd mai putan ydoedd hi; oblegid gorchuddio o honi ei hwyneb.

16 Ac efe a drôdd ati hi i'r ffordd, ac a ddywedodd, Tyred, atolwg, gad i mi ddyfod atat: (oblegid nid oedd efe yn gwybod mai ei waundd ef *ydoedd* hi.) Hithau a ddywedodd, Beth a roddi i mi, os cai ddyfod atat?

17 Yntau a ddywedodd, Mi a hebryngef fŷn gafr o *blith* y praidd. Hithau a ddywedodd, a roddi di wystl hyd oni hebryngech?

Adn. 13. *Wele dy chwegrwn*] Tad dy wŷr ymadawedig.

Adn. 14. *Hithau a ddyosgodd ddillad ei gweddwdod*] Myn rhai esgusodi ei bymddygiad yn hyn, trwy grybwyll ei bod hi yn credu yr addewid a wnaed i Abraham a'i had, yn enwedig yr addewid o'r MESSIA; ac wedi iddi gollu dau o feibion Juda trwy farwolaeth, a chael ei siomi am y trydydd, ei bod yn awyddus i gael plentyn trwy un o'r teulu hwnw, y meibion neu eu tad, fel y gallai fod yn fam yn llinell y Messia. *Ac a'i cuddiodd ei hun â gorchudd*—arferai putanod guddio eu gwynebau y pryd hyny â gorchudd, fel, er nad oedd arnynt gwylydd, y gallent d dangos fod. Dywed Cajet fod y *theristrum* hwn nid yn unig yn orchudd i'r gwyneb, ond yn ddiagon mawr i guddio yr holl gorff.

Adn. 15. *A Juda a'i canfu hi*] Yn eistedd wrth borth dinas Enaim yn orchuddiedig; *ac a dybiodd mai putan ydoedd*—Heb. *zonah*, sef un yn ymwerthu er *hâl*. Ymddengys fod merched cyffredin o'r dysgrifiad hwn mewn amseroedd tra bore; ac er fod *godineb* yn cael ei ystyried bob amser yn drosedd tra gwarthus, eto ni chyfryfid yr ymwerthiad cyhoeddus hwn yn gymaint felly. Ond pa beth a ellid ei ddysgwyl oddiwrth oes yn yr hon nid oedd un datguddiad dwyfol yn ysgrifenedig, nac o ganlyniad derfynau iawnder a chamweddy yn cael eu nodi allan yn ddigon amlwg? Y diffyg hwn a wnaed i fyny i raddau helaeth gan y gyfraith a'r proffwyd, ac yn awr a berffeithiwyd gan efengyl Crist.

Adn. 16. *Ac efe a drôdd ati hi*] Barna rhai fod Juda y pryd hyn yn llawn o win, ar wledd cneifiad y defaid, yr hyn oedd y rhe-swmm nad adnabu efe ei ferch-yn-nghyfraith oddiwrth ei llais.

Adn. 17. *Mi a hebryngef fŷn gafr*] Pris da am ei diweirdeb a'i haurydedd! Yn wir, pe buasai y tâl yn filoedd o feheryn, a

18 Yntau a ddywedodd, Pa wystl a roddaf i ti? Hithau a ddywedodd, Dy sêl, a'th freichledau, a'th ffon *sydd* yn dy law. Ac efe a'u rhoddes iddi, ac a aeth ati; a hi a feichiogodd o hono ef.

19 Yna y cyfododd hi, ac a aeth ymaith, ac a ddyosgodd ei gorchudd oddiam dani, ac a wisgodd ddillad ei gweddwdod.

20 A Juda a hebrynodd fŷn gafr yn llaw yr Adulamiad ei gyfaill, i gymeryd y gwystl o law y wraig: ond ni chafodd *hwnw* hi.

21 Ac efe a ymofynnodd â gwŷr y fro hôno, gan ddywedyd, Pa le y mae y butan hôno a ydoedd yn Enaim wrth y ffordd? A hwythau a ddywedasant, Nid oedd yma un butan.

22 Ac efe a ddychwelodd at Juda, ac a ddywedodd, Ni chefais hi; a gwŷr y fro hôno hefyd a ddywedasant, Nid oedd yma un butan.

23 A Juda a ddywedodd, Cymered

myrddiwn o ffrydiau olew, ni buasai yn dâl digonol. Y mae ffafur Duw, purdeb yr enaid, heddwch cydwybod, a gobaiith am y nef, yn bethau rhy werthfawr i ymadael â hwynt am y fath fwyniant.

Adn. 18. *Dy sêl*] Hon yn gyffredin oedd faen gwerthfawr, â pha un y gwneid *argraffiadau* i sicrhau meddiannau. Y mae y rhai hyn yn bodoli yn mhob gwlad. *A'th freichledau*—gall y rhai hyn feddwl modrwyau am ei freichiau neu ei fysedd, neu gadwynau yn crogi am ei wddf yn dal y sêl grybwylliedig. *A'th ffon sydd yn dy law*—yr hon oedd naill ai yn llaw-ffon gyffredin, neu ynte yn arwydd o'i urddas a'i lwyth.

Adn. 19. *Ac a wisgodd ddillad ei gweddwdod*] Yr hyn a ddengys mai nid oddiar chwantau aflan y cymerasai hi y llwybr a enwyd: gwel ar adn. 14.

Adn. 20. *Yn llaw yr Adulamiad*] Sef Hira, yn nhŷ yr hwn y lleyasai efe gynt, adn. 1, ac a ydoedd felly yn hen gyfaill iddo er's mwy nag ngain mlynedd.

Adn. 21. *Pa le y mae y butan, &c.*] Yn adn. 15, y mae Tamar yn cael ei galw *zonah*, un yn ymwerthu am arian; ond yn yr adnod hon gelwir hi *kedeshah*, un santeidd neu gysegredig, oddiwrth *kadash*, santeiddio, neu gysegro i ddybenion crefyddol. Y mae yn debyg fod y gair yn y lle hwn yn arwyddo un gysegredig trwy ymwerthiad i addoliad rhyw dduwies aflan. Y mae Strabo yn galw y putanod cyffredin yn nheml Venus yn weinidogesau santeidd neu gysegredig; ac ymddengys oddiwrth yr enw hwn fod defodau aflan a phuteinllyd yn ffyn yn addoliad y Canaan-eaid yn amser Juda.

Adn. 22. *Nid oedd ymaun butan*] Hyny yw, ni wyddai gwŷr y fro hôno ddim am weithred Tamar, ac nid oedd yn yr holl ardal hôno un deml i addoliad aflan Astarte.

Adn. 23. *Cymered iddi hi*] Y mae Juda yn

iddi hi, rhag i ni gael cywilydd: wele, mi a hebr yngais y myn hwn, a thithau ni chefaist hi.

24 ¶ Ac yn nghylch pen tri mis y mynegwyd i Juda, gan ddywedyd, Tamar dy waudd di a buteiniodd: ac wele hi a feichiogodd hefyd mewn godineb. A dywedodd Juda, Dygwch hi allan, a llosger hi.

25 Yna hi (pan ddygwyd hi allan) a anfonodd at ei chwegrwn, gan ddywedyd, O'r gwr biau y rhai hyn yr ydwyf fi yn feichiog: hefyd hi a ddywedodd, Adnebydd, atolwg, eiddo pwy yw y sêl, a'r breichledau, a'r ffon yma.

26 A Juda a adnabu y pethau hyny, ac a ddywedodd, Cyfiawnach yw hi na myfi; o herwydd na roddais hi

boddloni i golli ei wystlon, ac yn gwahardd i'w gyfaill wneyd yn ymboliad pellach, rhag iddo syrthio yn wawd i'w gymdoethion a'i gymydogion am iddo gael ei dwyllo o'i sêl, ei freichledau, a'i ffon, gan butan. *Rhag i ni gael cywilydd*—fel hyn y mae y rhan fwyaf o ddynion yn gofalu mwy rhag cywilydd na rhag pechod: y mae 'rhag i ni gael cywilydd,' yn pwyso yn drymach gyda hwy na 'rhag ein damnio!' Ond y mae y dydd yn dyfod pryd y gwneir en hynfydrwydd yn eglur i bawb, ac y bydd i gywilydd tragwyddol doi gwyneb yr anniwair.

Adn. 24. *Dygwch hi allan, a llosger hi*] Gan i Juda orchymyn i Tamar fyw yn weddvn yn nhŷ ei thad ei hun hyd nes y byddai Sela mewn oed i briodi, y mae efe am hyny yn ei hystyried hi fel gwraig ei fab; a chan fod Sela eto heb ei roddi iddi, a'i bod hithau yn feichiog, cyfrifir hi ganddo ef fel *godineburwig*, ac ymddengys mai *llosgiad* oedd y gomp gynt am y trossedd hwn. Yr oedd gan Juda, meddai Clarke, trwy ei fod yn batriarch neu ben y teulu, yn ol arferiad yr amseroedd hyny, oruwchawdurdod dros holl gangbenau ei deulu ei hun; gan hyny nid yw efe yma ond yn gweithredu yn ol ei swydd fel barnwr y teulu. Mor hynod ydyw, lle yr oedd *godineb* yn cael ei gospi â'r farwolaeth erchyllaf, fod *puteiniad am arian*, ac i ddybenion *crefyddol*, heb gael ei ystyried yn drosedd! gwel ar adn. 21.

Adn. 25. *Yna hi, pan ddygwyd hi allan*] I'w llosgi. Ond myn rhai na feddylid diun mwy wrth ei llosgi na *serio* ei thalcen neu ei bochau â haiarn gwynias, i arwyddo ei bod yn odinebwraig. *O'r gwr biau y rhai hyn yr ydwyf fi yn feichiog*—felly ei gywilydd, yr hwn y ceisai efe ei gelu, adn. 23, a ddaeth yn eglur i bawb, ac a gofnodwyd yn yr ysgrhythrau fel ei warth bythol.

Adn. 26. *Cyfiawnach yw hi*] Yr hon a gyflawnodd y pechod hwn o awydd i gael plentyn, adn. 14; *na myfi*—yr hwn a aethym ati yn unig i foddhau fy chwant. Neu gall ei fod yn cyfeirio yn bonaf, fel y dywedir yma, at ei waith yn tori ei addewid iddi, trwy gadw Sela oddiwrthi. *Ac ni bu iddo ef a wnaeth â hi*

i'm mab Sela: ac ni bu iddo ef a wnaeth â hi mwy.

27 ¶ Ac yn amser ei hesgoredigaeth hi, wele efelliaid yn ei chroth hi.

28 Bu hefyd pan esgorodd hi, i un roddi *allan ei law*: a'r fydwraig a gymerth ac a rwymodd am ei law ef *edaf goch*, gan ddywedyd, Hwn a ddaeth yn gyntaf allan.

29 A phan dynodd efe ei law yn ei hol, yna wele ei frawd ef a ddaeth allan: a hithau a ddywedodd, Pa fodd y toraist allan? bid y toriad hwn arnat ti: am hyny y galwyd ei enw ef Phares.

30 Ac wedi hyny ei frawd ef a ddaeth allan, yr hwn *yr oedd yr edaf goch* am ei law: a galwyd ei enw ef Zara.

mwy—hyny yw, peidiodd â'i chospi â llosgiad, ac hefyd ni throeddodd gyda hi mwyach.

Adn. 27. *Wele efelliaid*] Gwel ar pen. xxv. 24.

Adn. 28. *A'r fydwraig a gymerth ac a rwymodd am ei law ef edaf goch*] Y mae rhwymiad yr edaf goch am arddwrn y plentyn ag yr ymddangosodd ei fraich gyntaf yn yr esgoriad, yn gwasanaethu i ddangos i ni mor ofalus yr oedd hawliau yr *enedigaeth-fraint* yn cael eu cadw. Fe na wnaethai y fydwraig hyn cawsai Phares yr hawl o gyntafanedigaeth, er niwed i'w frawd hynaf Zara. Ac eto cyfrifir Phares yn gyffroddin yn y taslenau achawl o flaen Zara; ac oddiwrtho ef, nid Zara, y deilliodd llinell ein Harglwydd: gwel ar Mat. i. 3. Tybia Clarke fod y ddau frawd, gan eu bod yn efelliaid, wedi eu cydgyfylltu yn yr hawliau a berthynent i'r enedigaeth-fraint; ond os felly, y mae yn rhyfedd nad oedd Esau a Jacob felly hefyd.

Adn. 29. *Am hyny y galwyd ei enw ef Phares*] Oddiwrth *parets*, hyny yw, yr un a wnaeth y toriad. Y mae y toriad a grybwyllir yma yn cyfeirio at amgylchiad penodol mewn esgoriad, yr hwn y mae yn atfreidiol ei egluro.

Adn. 30. *Galwyd ei enw ef Zara*] Oddiwrth *zarach*, cyfodedig neu darddedig, yn cael ei gymhwyso at yr haul yn codi ac yn gwasgaru ei oleuni. 'Efe a gafodd yr enw hwn,' meddai Ainsworth, 'am y buasai iddo godi, h. y. gael ei eni yn gyntaf, oni buasai y toriad a wnaeth ei frawd.'

ADFEDDYLIADAU.—Llusog yw y dirgeledigaethau ag y darfu i'r tadau ac ysgrifenywyr ereill eu tynn o'r bennod hon. Modd hynag, gall yr hanesydd santaidd gael ei gyfiawnhau yn dda am osod i mewn yr hanes yma, gan ei bod, yn 1. Yn rhoddi prawf cryf o'i anmhlidgarwch, yr hwn ni oddofai iddo gelu beiau sylfaenywyr mawrion ei genedl. 2. Dengys yn eglur mai nid gwobr eu haeddiant eu hunain oedd y cyfammod â'r hwn yr anrhydeddodd Duw y patrieirch. 3. Y mae yn goffadwriaeth dra phriodol i gadw i lawr falchder cenedl ag ydoedd yn ymfrostio gormod yn

PENNOD XXXIX.

A JOSEPH a ddygwyd i waered i'r Aiff: a Putiphar yr Aiffwr, ty-wysog Pharao a'i ddistain, a'i prynodd ef o law yr Ismaeliad, y rhai a'i dygasant ef i waered yno.

2 Ac yr oedd yr Arglwydd gyda Joseph, ac efe oedd wr llwyddiannus: ac yr oedd efe yn nhŷ ei feistr yr Aiffiad.

3 A'i feistr a welodd fod yr Arglwydd gydag ef, a bod yr Arglwydd yn llwyddo yn ei law ef yr hyn oll a wnelai efe.

4 A Joseph a gafodd ffافر yn ei olwg ef, ac a'i gwasanaethodd ef:

Abraham fel eu tad. Ac, 4. I dynu ymaith bob ymfrost oddiwrth enedigaeth gnawdol, disgynodd Crist yn uniongyrchol o ran y cnawd oddiwrth Juda a Tamar. Ac nid heb reswm da, meddai Calmet, y goddefodd yr Ysbyrd Glân i enwau Tamar, Rahab, a Bathseba, ymddangos yn achyddiaeth Iesu Grist.

PEN. XXXIX. Adn. 1. *A Joseph a ddygwyd i waered i'r Aiff* [Y mae hyn yn cael ei grybwyll drachefn, o herwydd y rhwystr yn hanes Joseph a achoswyd yn ngyfiad i mewn hanes Juda: gwel ar pen. xxxvii. 36.]

Adn. 2. *Ac yr oedd yr Arglwydd gyda Joseph* [Y rhai a allant ein gwasgaru ni oddiwrth ein holl gyfeillion, ni fedrant ein hamddifadu o bresenoldeb grasol ein Duw. Pan nad oedd gan Joseph neb o'i berthynasau gydag ef, yr oedd ganddo ei Dduw gydag ef, hyd yn nod yn nhŷ yr Aiffiad. *Ac efe oedd wr llwyddiannus*—am fod presenoldeb ei Dduw gydag ef. Y rhai a fynant fod yn llwyddiannus, rhaid iddynt gael Duw yn gyfaill iddynt; ac wedi llwyddo, rhaid iddynt roddi yr holl ogoniant iddo ef. *Yn nhŷ ei feistr*—ni cheisiodd efe ddianc at ei dad, fel y gallasid dysgwyl iddo wneuthur, ond ymddygodd yn amyneddgar a fyddlon yn y sefyllfa ag y dygasai rhagluniaeth Duw ef iddi. 'Yn agos i'r beraon a adeiladwyd yn nghymydog-aeth Memphis,' meddai Burder, 'danghosir bryn, ar yr hwn y dywedir fod tŷ Putiphar yn sefyll. Haera rhai ymdeithwyr fod y malunion a'r priddfeini i'w gwelod ef.'

Adn. 3. *A'i feistr a welodd fod yr Arglwydd gydag ef* [Yr oedd llawer o'r paganïad yn cydnabod un goruchaf Dduw, a'i ragluniaeth oruwchlywodraethol yn achosion dynion, er nad oeddynt yn ei ogoneddu ef megys Duw, ond yn rhoddi ei fawr i ddelwau cerfedig!]

Adn. 4. *Yntau a'i gwnaeth ef yn olygwr ar ei dŷ* [A roddes y cwbl dan ei ofal a'i driniaeth. Ond gofynwyd, Pa fodd y gallai hyn fod, gan nad oedd Joseph yn deall yr Aiffaeg? Mewn atebiad i hyn gellir sylwi, ddarfod i Joseph yn ddiamau, mor gyntod ag yr aeth yno, wneyd ei oraf i gyraedd gwybod-aeth o'r iaith hōno, a darfod iddo, trwy ei fod yn wr o gynneddfau da, yn fuan ei dysgu hi,

yntau a'i gwnaeth ef yn olygwr ar ei dŷ, ac a roddes yr hyn oll oedd eiddo dan ei law ef.

5 Ac er pan wnaethai efe ef yn olygwr ar ei dŷ, ac ar yr hyn oll oedd eiddo, bu i'r Arglwydd fendithio tŷ yr Aiffiad, er mwyn Joseph: ac yr oedd bendith yr Arglwydd ar yr hyn oll oedd eiddo ef, yn y tŷ, ac yn y maes.

6 Ac efe a adawodd yr hyn oll oedd ganddo dan law Joseph; ac ni wyddai oddiwrth ddim a'r oedd gydag ef, oddieithr y bwyd yr oedd efe yn ei fwyta: Joseph hefyd oedd dēg o bryd, a glân yr olwg.

yn enwedig gan fod tebygolrwydd mawr rhwng hōno a'i iaith ei hun. Heblaw hyn, nid ydys i feddlw ddarfod codi Joseph i'r uwchder yma ar unwaith, ond bob yn gam, ac ar ol cryn amser, sef ar ol i Putiphar gael cyflawn brawf o fyddlondeb Joseph, yn gystal ag o'i alluogrwydd i drin ymddiriedaeth mor fawr.

Adn. 5. *Bu i'r Arglwydd fendithio tŷ yr Aiffiad er mwyn Joseph* [Megys y bendithiasai efe dŷ Laban er mwyn Jacob. Y mae gan yr Iuddewon ddiareb, 'Pe gwyddai y byd werth dynion da, hwy a'u gwisgent hwy â pherlau.'

Adn. 6. *Ac ni wyddai oddiwrth ddim a'r oedd gydag ef* [Ni chymerai un ran yn nhrefniad ei achosion ei hun, ond gadawai hwynt yn gwbl i'r Hebreadd ieuanc ond ymddiriedol hwn. Gan y gwas yr oedd holl ofal a thrafterth yr etifeddiaeth, heb gan y meistr ddim ond y mwynhad o honi. *Joseph hefyd oedd dēg o bryd, a glân yr olwg*—neu hardd mewn corff a gwedd. Y mae prydfferthwch Joseph yn cael ei fawrygu dros y dwyrain oll, ac y mae y beirdd Persiaidd yn ymrainy â'u gilydd mewn dysgrifiadau o'i degwch. Y mae Mahomet yn trenlio y ddeuddegfed bennod o'r Coran yn gwbl ar Joseph, ac yn ei osod allan fel perffeithrwydd tegwch, a'r harddaf o farw-olion. Yn ol ei hanes ef, trwy fod nwydan *Zuleekha* (canyis felly y mae yr Asiaid yn galw gwraig Putiphar) yn hysbys i arglwyddesau y llys, hwy a daflent y bai mwyaf arni hi: ond i'r dyben i'w hesgusodi ei hun, gwa-hoddodd ddeugain o honynt i gniawa gyda hi, rhoddes gyllyll yn eu dwylaw, ac eur-afalau iddynt i'w tori, a pharodd i Joseph weini. Pan welsant ef, tarawyd hwy â synedd, a chwasant eu dyrysu yn y fath fodd, fel, yn lle tori eu henrafalau, y torasant ac yr haciasant eu dwylaw en hunain, gan lefain allan, *Haasha ulla ma hadha bashara in hadha ulla malakon kareemon*, 'O Dduw, nid bōd dynol yw hwn; nid yw hwn ddim angen nag angel gogoneddus!' *Surat* xii. adn. 32. Dywedir fod y ddau gywydd goraf yn y Bersiaeg wedi cael eu hysgrifenu gan y beirdd *Jamy* a *Nizamy* ar y testyn Joseph a'i feistres: gelwir y ddau *Yusuf we Zuleekha*. Y mae y cywyddau hyn yn gosod *Joseph* allan fel yr harddaf a'r duwiolaf o ddynion, a *Zu-*

7 ¶ A darfu wedi y pethau hyny, i wraig ei feistr ef ddyrchafu ei golwg ar Joseph, a dywedyd, Gorwedd gyda mi.

8 Yntau a wrthododd, ac a ddywedodd wrth wraig ei feistr, Wele, fy meistr ni wŷr pa beth sydd gyda mi yn y tŷ; rhoddes hefyd yr hyn oll sydd eiddo dan fy llaw i.

9 Nid oes neb fwy yn y tŷ hwn na myfi; ac ni waharddodd efe ddim rhagof onid tydi; oblegid ei wraig ef *wyt* ti: pa fodd, gan hyny, y gallaf wneuthur y mawr-ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw!

10 A bu, fel yr oedd hi yn dywedyd

wrth Joseph beunydd, ac yntau heb wrandaw arni hi, i orwedd yn ei hymyl hi, neu i fod gyda hi.

11 A bu, yn nghylch yr amser hwnw, i Joseph ddyfod i'r tŷ, i wneuthur ei orchwyl; ac nid oedd yr un o ddynion y tŷ yn ei tŷ.

12 Hithau a'i daliodd ef erbyn ei wisg, gan ddywedyd, Gorwedd gyda mi. Yntau a adawodd ei wisg yn ei llaw hi, ac a ffôdd, ac a aeth allan.

13 A phan welodd hi dael o hono ef ei wisg yn ei llaw hi, a ffoi o hono allan;

14 Yna hi a alwodd ar ddynion ei thŷ, ac a draethodd wrthynt, gan

leckha fel y fwyaf diwair, rhinweddol, ac ardderchog o wragedd, cyn iddi weled Joseph; ond dywedant, ar ôl iddi ei weled ef, iddi gael ei tharaw mor ddwys gan ei harddwch, nes y colodd bob human-lywodraeth, ac y daeth yn gaethes i'w nwydau.

Adn. 7. *A darfu wedi y pethau hyny, &c.* Ymddengys fod Joseph yn awr oddeutu 27 mlwydd oed, ac yn yr Aifft er's o gylch deng nlynedd. *Gorwedd gyda mi*—gwel ar pen. xxxvii. 36.

Adn. 8. *Yntau a wrthododd* O herwydd y parch oedd ganddo, a'r rhwymedigaeth oedd arno, i'w feistr a'i Dduw: gwel isod.

Adn. 9. *Pa fodd gan hyny y gallaf wneuthur y mawr-ddrwg hwn* Fel pe dywedasai, 1. Pa fodd y gallaf *fi*, i'r hwn y danghosodd fy meistr gymaint o diriondeb pan yr oeddwn yn estron tylawd a diamgeledd o wlad ddy-eithr, ac yn cael fy nghynyr iddo fel caethwas; i'r hwn y rhoddes efe gynnifer o freintiau, a rhai mor fawr, heb gadw oddiwrthyf un ran o'i eiddo, ond tydi, am dy fod yn wraig iddo, pa fodd y gallaf *fi* fod yn euog o'r fath anniolchgarwch a'i archolli ef fel hyn yn y rhan dyneraf? 2. Pa fodd y gallaf *fi*, yn yr hwn y gosododd efe y fath hyder, ac i'r hwn y rhoddes efe y fath ymddiriediad fel ag i'm gwneuthur yn orchwylwr ac yn llywydd ar yr hyn oll sydd ganddo, fel hyn yn gywilyddus dwyllo yr hyder hwnw, a bradychu yr ymddiriediad hwnw? 3. Pa fodd y gallaf *fi* fod mor annghyfiawn iddo ef fel ag i'w niw-eidion yn yr hyn o bob peth arall a roddai iddo y boen fwyaf, ac a'i hyspeliat ef o'i drysor penaf a gwerthfawrocaf, sef serchiadau a pharch ei wraig, a'i barch ei hun hefyd? 4. Pa fodd y gallaf *fi* fod mor annhirion a chreulon wrthyt tithau fel ag i'th gefnogi a'th rwydo mewn cymaint o enogrwydd a drygioni, gan dy osod yn agored i edliwiadau beunyddiol dy gydwybod dy hun, a gwneuthur rhwyg ac ysgariad tragwyddol rhyngot ti â'th wŷr, a pheri fod dy holl fywyd dyfodol yn olygfa o chwerverder a chyni? 5. Pa fodd y gallaf *fi* dy wneyd yn agored i anfodlonrwydd a digofaint Deddfroddwr uniawn a larnydd cyfiawn yr holl ddaear, yr hwn yw dialydd tragwyddol pob cyfryw drosedd? 6. A pha fodd y gallaf *fi*, yr hwn wyf yn proflesu bod yn addolwr ac yn wasanaethwr

Jehofa, Duw gwirionedd, cyfiawnder, a sant-eiddrwydd, wneuthur unrhyw ddrwg, yn enwedig y fath fawr-ddrwg a godinebu gyda gwraig fy nghymwynaswr haelionus a'm meistr tirion? 7. A pha fodd y gallaf *fi* bechu fel hyn, nid yn unig yn erbyn fy meistr, fy meistr, a'm corff a'm lienaid fy hun, ond yn erbyn Duw—yn erbyn ei natur a'i lywodraeth, yn erbyn ei gariad a'i fwriadu? Y mae pob dyn duwiol yn edrych ar hyn fel y peth gwaethaf mewn pechod, ei fod 'yn erbyn Duw;' ac y mae y neb sydd yn caru Duw, am y rheswm hwn yn casâu pechod.

Adn. 10—13. *A bu, fel yr oedd hi yn dywedyd wrth Joseph beunydd* Hyny yw, yn parhau i geisio ei berswadio ef bob dydd i orwedd gyda hi. Yr oedd Joseph y pryd hyn yn wŷr sengl, ac yn ngrym ieuentydd, ac yn ddyn o nwydau fel ninau, ac yn cael crefu arno yn daer o hyd i foddhau y nwydau hyny, a hyny mewn ffordd ag ydoedd yn addaw boddineb ac elw presenol iddo, a chlan un ag yr oedd yn ymddibynu arni, a'r hon yr oedd yn beryglus ei digio. *gwŷr* yr hon a allai gael ei ddylun gan ddyoddefiadau mawrion, a ffafr yr hon a allai ddyrchafu a sefydlu ei lwyddiant; ac yr oedd cyfse a dirgeledd hefyd wrth law, adn. 11. Ond yr oedd Joseph yn *ofni Duw*, ac yn credu mewn *barn* i ddyfod; ac am hyny efe a ymwadai âg ef ei hun, ac ni wnai, er mwyn mwyniant pechod yr hwn oedd dros amser, ei osod ei hun yn agored i ddialedd dwyfol, ac i drueni a dinystr sier a thragwyddol. *Ac yntau heb wrandaw arni hi*—gymaint ag *i fod gyda hi*. Gan ei fod yn ei chael yn farw i bob teimlad o gywilydd, ac yn fyddar i alwadau cydwybod, cyfiawnder, a chrefydd, efe a ymgadwai hyd y gallai o'i chymdeithas. A phan ymafodd hi ynddo, adn. 12, *yntau a adawodd ei wisg yn ei llaw hi*—gan ffoi oddiwrthi hi a'i ffyrdd fel un yr ffoi am ei einioes. 1. Ffoad yw y diogelwch goraf rhag temtasiwn i'r fath bechodau. 2. Gwell i ni beryglu ein cymeriad nag archolli ein cydwybod. 3. Teimlad dwfn o ddrwg pechod yw y moddion goraf i'n cadw rhagdo.

Adn. 14. *Yna hi a alwodd ar ddynion ei thŷ* Canys darfu i'w chariad yn awr, ar ol ei sionni, droi yn gasineb, fel yn achos Aunon a Tamar, 2 Sam. xiii. 15. *Gwelwch, efe a ddyg i ni Hebreuer i'n gwarabedydd*—y mae

ddywedyd, Gwelwch, efe a ddyg i ni Hebrewr i'n gwaradwyddo: daeth ataf fi i orwedd gyda myfi; minau a waeddais â llef uchel.

15 A phan glywodd efe ddyrchafu o honof fi fy llef, a gweiddi; yna efe a adawodd ei wisg yn fy ymyl i, ac a ffôdd, ac a aeth allan.

16 A hi a osododd ei wisg ef yn ei hymyl, hyd oni ddaeth ei feistr ef adref.

17 A hi a lefarodd wrtho yn y modd hwn, gan ddywedyd, Yr Hebrewas, yr hwn a ddygaist i ni, a ddaeth ataf i'm gwaradwyddo.

18 Ond pan ddyrchefais fy llef, a gweiddi, yna efe a adawodd ei wisg yn fy ymyl, ac a ffôdd allan.

19 A phan glybu ei feistr ef ciriau ei wraig, y rhai a lefarodd hi wrtho ef, gan ddywedyd, Yn y modd hwn y gwnaeth dy was di i mi; yna yr enuodd ei lid ef.

gwraig Putiphar yn ceisio taflu bai mawr ar ei gw'r, yr hwn y gallwn dybio yn rhesymol nad oedd hi yn ei garu yn ormodol fel *eunuch*, pen. xxxvii. 36. Fel pe dywedasai, Efe a ddyrchafodd y dyn hwn i'w holl urddas a'i anrhydedd, i roddi iddo fwy o gyffusdra i'n gwaradwyddo. Yr un gair (*letsachek*) a gyfieithir yma gwaradwyddo, ag a arferir yn pen. xxvi. 8, gyda golwg ar Isaac a Rebecca; ac y mae yn sicr ei fod yn cael ei arfer gan wraig Putiphar, yn adn. 17, i arwyddo rhyw fath ar gyweithas nad yw gyfreithlon ond rhwng gw'r a gwraig.

Adn. 15—19. *A phan glywodd efe ddyrchafu o honof fi fy llef, &c.* Mor naturiol y mae hi yn ei dieuogi ei hun! Y mae dynes o ysbryd gwraig Putiphar yn alluog i unrhyw fath ar ddyrgioni. Pan nas gallai ddwyn oddiamgylch ei dybenion drygionus, dechreuodd gyhuddo y ddiwedd wrth y gweision ereill, gan ddangos ei wisg fel prawf o'i enogrydd; a chyn gynted ag y daeth ei feistr adref, hi a'i perswadiodd yntau o'r ymosodiad treisiol ar ei hanrhydedd. Nodwch, 1. Nad oes yn y fuchedd hon ddim ddiogelwch sicr rhag tafod celwyddog. 2. Fod y rhai goraf o ddynion yn cael eu cyhuddo yn aml o'r beiau gwacthaf. 3. Fod dynion llygredig mor barod i gredu drwg am broffesiwn crefydd, nes y mae y chwedl mwyaf disail am danynt yn cael yn aml dderbyniad ebrwydd. 4. Fod yn gysur i ddiwiwedrydd niweiddieg fod dydd yn dyfod pryd y bydd i Dduw amddiffyn ein hachos.

Adn. 20. *A meistr Joseph*] Ar ol clywed yr holl bethau hyn am dano, a chan gredu eu bod yn wir; *a'i rhoddes yn y carchardy*—Heb. *beith sohar*, 'y tŷ crwn,' yr hwn a elwid felly ond odid am ei fod wedi ei adeiladu yn *grwn*. Y mae carchardai hyd heddyw yn cael eu galw yn *round-house*, neu 'dŷ crwn,' a hyn y fe allai oddiwrth yr amgylch-

20 A meistr Joseph a'i cymerth ef, ac a'i rhoddes yn y carchardy, yn y lle yr oedd carcharorion y brenin yn rhwym. Ac yno y bu efe yn y carchardy.

21 ¶ Ond yr Arglwydd oedd gyda Joseph, ac a ddanghosodd iddo ef drugaredd, ac a roddes ffafr iddo yn ngolwg penaeth y carchardy.

22 A phenaeth y carchardy a roddes dan law Joseph yr holl garcharorion y rhai oedd yn y carchardy; a pha beth bynag a wnaent yno, efe oedd yn ei wneuthur.

23 Nid oedd penaeth y carchardy yn edrych am ddim oll *a'r a oedd* dan ei law ef, am *fod* yr Arglwydd gydag ef; a'r hyn a wnaï efe, yr Arglwydd a'i llwyddai.

PENNOD XL.

A DARFU wedi y pethau hyny, i drulliad brenin yr Aifft, a'r pob-

iad hwn. *Lle yr oedd carcharorion y brenin yn rhwym*—y fath ag oeddynt enog o deyrnfradwriaeth. Y mae yn debyg ddarfod i Putiphar ddewis y lle hwn iddo, am ei fod y *gwaethaf*; canys yma 'cystuddiasant ei draed ef mewn *gefin*; ei enaid a aeth mewn *heiryn*,' Salm cv. 18. Ond yr oedd Duw yn bwriadu i hynw balmantu y ffordd i'w ryddhad.

Adn. 21. *Ond yr Arglwydd oedd gyda Joseph*] Ni ddarfu i Dduw byth gollu golwg ar y breuddwydion a roddasai efe i'w was; a rhaid nid yn unig i'r ysgubau a'r ser, ond i'r Aifft ei hun hefyd, ymgyrnu yn y man i'r dyn ag y mae Duw yn ei ddyrchafu.

Adn. 22, 23. *A phenaeth y carchardy*] Sef is-swyddog ag ydoedd dan Putiphar, pen. xl. 4; *a roddes o dan law Joseph, &c.*—ymddengys iddo yn fuan gael ei argyhoeddi o ddiwiwedrydd Joseph; ac wrth ganfod hawddgarwch ei dymher, a bod Duw gydag ef, efe a ysgafnaodd ei gacthiwed, a'i gwnaeth yn oruchwyliwr iddo ei hun, ac a ymddiriedodd ofal y carcharorion ereill dan ei law ef; ac yr oedd pob peth yma hefyd, fel yn nhŷ Putiphar, yn llwyddo dan ei law ef. Nodwch, 1. Na all un carchar gau allan bresenoldeb grasol ein Duw. 2. Gwelwn mor hynod yw ffyrdd Duw! Pwy a feddylasai mai carchardy y brenin oedd ffordd agosaf Joseph i balas y brenin! pen. xli. 40. Yn 3, Fel hyn y tementwyd, y cyhuddwyd, y condemnwyd, y rhwymwyd, ac y dyrchafwyd ein JOSEPH ninau, yr Arglwydd Iesu Grist.

PEN. XL. Adn. 1. *A darfu wedi y pethau hyny i drulliad*] Sef y swyddog ag ydoedd yn edrych ar ol diodydd y brenin, neu y gwirodydd; *a'r pobydd*—yr hwn oedd yn gwneuthur ei fara, ei deisenau, a'i basteiod; *bechu yn ebryn eu harghwydd, brenin yr Aifft*—y mae yn debyg iddynt gael eu cy-

ydd, bechu yn erbyn eu harglwydd, brenin yr Aifft.

2 A Pharao a lidiodd wrth ei ddau swyddwr, *sef* wrth y pen-trulliad, a'r pen-pobydd:

3 Ac a'u rhoddes hwynt mewn dalfa, yn nhŷ y distain, *sef* yn y carchardy, y lle yr oedd Joseph yn rhwym.

4 A'r distain a wnaeth Joseph yn olygwr arnynt hwy; ac efe a'u gwasanaethodd hwynt: a buont mewn dalfa dros amser.

5 ¶ A breuddwydiasant freuddwyd ill dau, pob un ei freuddwyd ei hun yn yr un nos, pob un ar ol deongliad ei freuddwyd ei hun, trulliad a phobydd brenin yr Aifft, y rhai oedd yn rhwym yn y carchardy.

6 A'r bore y daeth Joseph atynt, ac a edrychodd arnynt; ac wele hwynt yn athrist.

7 Ac efe a ymofynodd â swyddwyr Pharao, y rhai *oedd* gydag ef mewn dalfa yn nhŷ ei arglwydd, gan ddy-

huddo o geisio cymeryd ymaith fywyd y brenin, y naill trwy wenwyno ei *ddiod* ef, a'r llall trwy wenwyno ei *fwyd*. Dywed *Diodorus Siculus* fod yr holl swyddogion yn ngwasanaeth hen frenhinoedd yr Aifft wedi eu cymeryd o deuluoedd enwoaf yr offeiriadau yn yr y wlad; ac na oddefid i un caethwas, neu ddyn cyffredin, byth weini yn ngwydd y brenin.

Adn. 2. *A Pharao a lidiodd wrth ei ddau swyddwr*] Ac nid rhyfedd, os clywodd eu bod yn bwriadu ei wenwyno. Ond dywed rhai o'r Iuddeuon mai cael gwybedyn yn ei gwpan, a chareg fechan yn ei fara, oedd yr achos o'i lid.

Adn. 3. *Ac a'u rhoddes hwynt mewn dalfa yn nhŷ y distain*] *Sef* yn y carchar ag ydoedd dan arolygaeth Putiphar, dan yr hwn yr oedd swyddog arall a elwir 'penaeth y carchardy,' pen. xxxix. 22. *Lle yr oedd Joseph yn rhwym*—neu yn cael ei *gau i mewn*; canys diamau ei fod ef yn awr, ar ol cael ffafn yn ngolwg y penaeth, wedi ei ryddhan o'i *gadwynau*.

Adn. 4. *A'r distain a wnaeth Joseph yn olygwr arnynt hwy*] Trwy fod Putiphar wedi cael gair da i Joseph gan benaeth y carchardy, dechreuodd yntau feddwl yn well am dano, er iddo fyth ei adael ef yn y carchar, i gadw i fyny anrhydedd ei wraig. *A buont mewn dalfa dros amser*—gan i Pharao eu galw hwy i gyfrif ar ddydd ei enedigaeth, adn. 20, tybia Calmet iddynt drosoddu ar gyfer y diwrnod hwnw y flwyddyn o'r blaen, ac felly iddynt fod mewn dalfa flwyddyn gyfan.

Adn. 5. *A breuddwydiasant freuddwyd ill dau*] A hyny ar yr un noson, y rhai a wnaethant y fath argraff ar eu meddyliau nes yr oeddynt yn ymwybodol fod iddynt ystyr neillduol. *Pob un ar ol deongliad ei freuddwyd ei hun*—h. y. yr oedd i bob breuddwyd ei ddeongliad priodol a neillduol ei hun, fel y

wedyd, *Paham y mae eich wynebau yn ddrwg heddyw?* -

8 A dywedasant wrtho, Breuddwydiasom freuddwyd, ac nid *oes* a'i deonglo. A Joseph a ddywedodd wrthynt, Onid i Dduw y *perthyn* deongli? mynegwch, atolwg, i mi.

9 A'r pen-trulliad a fynegodd ei freuddwyd i Joseph; ac a ddywedodd wrtho, Yn fy mreuddwyd *yr oeddwn*, ac wele winwydden o'm blaen.

10 Ac yn y winwydden *yr oedd* tair cainc: ac *yr oedd* hi megys yn blaendarddu; ei blodenynd a dorasai allan, ei grawn-sypiau hi a ddyg rawnwin addfed.

11 Hefyd *yr oedd* cwpan Pharao yn fy llaw: a chymerais y grawnwin, a gwsgais hwynt i gwpan Pharao; a rhoddais y cwpan yn llaw Pharao.

12 A Joseph a ddywedodd wrtho, Dyma ei ddeongliad ef. Tri diwrnod yw y tair cainc.

danghosodd Joseph yn y diwedd. Nid oeddynt fel breuddwydion cyffredin, yn effaith afreoleiddiad y meddwl, neu ganlyniad afiechyd neu orlwythiad y cylla; ond yr oeddynt yr freuddwydion â deongliad iddynt, neu yn rhai proffwydol.

Adn. 6, 7. *Wele hwynt yn athrist*] Am y gwyddent fod eu breuddwydion yn darogan rhywbeth o fawr bwys, er na wyddent pa beth.

Adn. 8. *Breuddwydiasom freuddwyd, ac nid oes a'i deonglo*] Naill ai ni allent fyned at neb, neu ni fedrai y rhai y cyrchasant atynt roddi iddynt eglurhad cyson a boddhaol. *Onid i Dduw y perthyn deongli?*—Duw yn unig a wŷr beth sydd mewn dyfodiant; ac os anfonodd ef freuddwyd arwyddocaol, efe yn unig a ddichon roddi yr eglurhad, a hyny trwy y rhai a benoda efe; am hyny mynegwch y breuddwydion i mi.

Adn. 9, 10. *Ac wele winwydden o'm blaen*] Darfu i rai gwrthdadauwyrr arwynebol ddychymygu fod yr ysgrifenydd wedi camgymeryd wrth osod gwinwydd yn yr Aifft: ond gwyddai Moses yn dda am gynrych y wlad hono; ac y mae y cofgolofnau yn dangos fod y winwydden yn tyfu a gwin yn cael ei wneuthur yno yn yr amseroedd boreaf.

Adn. 11. *A chymerais y grawnwin, a gwsgais hwynt i gwpan Pharao*] 'Oddi-yma cawn mai sudd gwasgedig gwinrawn yn unig, heb *iliad*, oedd *gwin* ar y cyntaf. Yr oedd y gwirodydd yn cymeryd y swp, yn gwasgu y sudd i'r cwpan, ac yn y fan yn ei roddi yn nwyllaw ei feistr. Dyma gynt oedd *yayin* yr Hebreaid, *oinos* y Groegiaid, a *mustum* yr hen Ladinwyr.'—CLARKE.

Adn. 12. *Tri diwrnod yw y tair cainc*] Hyny yw, y mae y tair cainc yn arwyddo tri diwrnod: gwel hyn yn cael ei brofi yn eglur ar Mat. xxvi. 27.

13 O fewn tri diwrnod eto Pharao a ddyrchafa dy ben di, ac a'th rydd di eilwaith yn dy le; a rhoddi gwpan Pharao yn ei law ef, fel y buost arferol yn y cyntaf, pan oeddyt drulliaid iddo.

14 Eto cofia fi gyda thi, pan fo daioni i ti, a gwna, atolwg, â mi drugaredd, a chofia fi wrth Pharao, a dwg fi allan o'r ty hwn.

15 Oblegid yn lladrad y'm lladrat-awyd o wlad yr Hebraeid; ac yma hefyd ni wneuthum ddim, fel y bwr-ient fi yn ngharchar.

16 Pan welodd y pen-pobydd mai da oedd y deongliad, efe a ddywedodd wrth Joseph, Minau hefyd oeddwn yn fy mreuddwyd; ac we-

le, dri chawell rhwyd-dyllog ar fy mhen.

17 Ac yn y cawell uwchaf yr oedd peth o bob bwyd Pharao o waith pobydd; a'r chediaid yn eu bwyta hwynt o'r cawell oddiar fy mhen.

18 A Joseph a atebodd, ac a ddywedodd, Dyma ei ddeongliad ef. Tri diwrnod yw y tri chawell.

19 O fewn tri diwrnod eto y cymer Pharao dy ben di oddiarnat, ac a'th groga diar bren; a'r chediaid a fwy-ânt dy gnawd di oddiam danat.

20 ¶ Ac ar y trydydd dydd yr oedd dydd genedigaeath Pharao; ac efe a wnaethi wledd i'w holl weision: ac efe a ddyrchafodd ben y pen-trulliad, a'r pen-pobydd yn mysg ei weision.

Adn. 13. *O fewn tri diwrnod eto Pharao a ddyrchafa dy ben di*] Dyrchafu pen un a all feddwl, dangos iddo anrhydedd a pharch; ei godi ef o'r cyftwr isel yn yr hwn y mae, ac felly roddi iddo hyder a chefnogaeth. Gwel Parkhurst a Stockius. Arddanghosir gofid ac adfyd trwy *osteng* y pen; ac felly y mae y cyflwr gwrthygerbyniol yn cael ei osod allan yn dda trwy *ddyrchafu* y pen. Y mae gan Tremellius sylw hynod ar y lle hwn: yr oedd yr Iuddewon, meddai ef, yn cadw cyfrif o'r gweision trwy bren-binau wedi eu rhoddi mewn estyllen lawn o ŷyllau, y rhai a symudid ganddynt yn ol eu gwaith a'u dyledswyddau. Y pinau hyn a alwent yn *benau*. Gan hyny byddai i Pharao godi ei *ben* ef i'w ddarllen, a'i adfer i'w le. 'Ybia ereill fod yma gyfeiriad at arferiad a gedwid gan frenhiniaid yr Aifft, ac fe allai gan lywiawdwy'r ereill, o a'w drosodd euwan eu holl weision ar ddyddiau eu genedigaeath, ac ar amseroedd gosodedig ereill; pryd y cai y rhai a fernid yn euog o droseddau mawrion eu tynu allan o'r gofrestr a'u cospi, a'r rhai llai euog dderbyn maddeuant, ac, os carcharhaus hwynt, eu rhyddhau a'u hadfer i'w hymddiriedaeth a'u swyddau blaenorol.

Adn. 14. *A chofia fi wrth Pharao*] Gallasai un feddwl y buasai i'r amgylechiad o'i adferiad ef yn ol rhagfynegid Joseph attal iddo anghofio dyn mor anghyffredin; ond ei anghofio a wnaed! adn. 23. *A dwg fi allan o'r ty hwn*—arferia dy ddylanwad yn y llys er fy rhyddhau. Er fod y parch a delid i Joseph yn gwneyd y carchar mor esmwyth iddo ag y gallai carchar fod, eto nis gall neb ei feio ef am ddymunio rhyddhad.

Adn. 15. *Oblegid yn lladrad y'm lladrat-awyd, &c.*] Nid yw efe yn beio ar ei frodyr y rhai a'i gwerthasant, nae yn achwyn ar y cam a wnaed ag ef gan ei feistr a'i feistres wrth ei garcharu; ond yn dirion tystia ei ddiwiedd-rywyd ei hun, na wnaethai ddim yn haeddu carchariad. Felly, pan ein gelwir ninau i'n hamddiffyn ein hunain, dylem ocbelyd, mor bell ag y gellir, rhag dywedyd yn ddrwg am ereill, ac ymfoddloni yn unig ar brofi ein di-eogrywyd ein hunain.

Adn. 16. *Ac wele dri chawell rhwyd-dyllog*
152

ar fy mhen] Neu, fel y mae rhai yn ei gyfieithu, 'tair basgedaid o fara gwyn ar fy mhen.' Arferai yr henafiaid ddwyn eu bara i'r bwrdd mewn cawelli neu fasgedi; a dywed Herodotus fod y merched yn mhlith yr Aifftiaid yn cario eu beichiau ar eu hysgwyddau, a'r dynion ar eu penau.

Adn. 17. *O waith pobydd*] Megys pasteiod, teisenau, &c. *A'r chediaid yn eu bwyta*—i ddynodi fel y byddai iddynt wedi hyny fwyta ei gnawd ef oddiam ei esgyrn, adn. 19.

Adn. 18. *Tri diwrnod yw y tri chawell*] Gwel ar adn. 12, 13.

Adn. 19. *O fewn tri diwrnod eto y cymer Pharao dy ben di oddiarnat*] Cafodd y pen-trulliad a'r pen-pobydd ill dan *ddyrchafiad pen*, adn. 20, y naill i'w swydd, a'r llall i'r crogbren, a hyny yn mhien tri diwrnod. Fel hyn y mae cyfnewidiadau mawrion, er gwel neu er gwaeth, yn dygwyrdd yn fynych mewn ychydig amser, gan mor gyflym y chwyldroa olwyn natur! *Ac a'th groga di ar bren*—oddiyma nyni a ddysgwn fod TORI PEN a CROGO yn gospedigaethau yn mhlith yr hen Aifftiaid. Ymddengys fod y troseddwr yn cael tori ei ben cyn ei grogi, ac yna naill ai ei grogi ar fachau neu mewn cylchau, neu ynte gerfydd ei ddwyllaw: gwel Galar. v. 12. *A'r chediaid a fwyânt dy gnawd di oddiam danat*—tra y byddi yn nghrog wrth bren. Yr oedd hwn yn wirionedd caled i'w ddywydd wrth gydgarharor; ond rhaid i weinidogion Duw wneithur eu dyledswydd, a mynegu ei holl gynglor ef. Trwy weinidogaethi Joseph cafodd y pen-trulliad, am dri diwrnod cyfain, flaenbrofi melysder adferiad: a chaniatawyd i'r pen-pobydd dridiau i edifeirwech ac ymbarotoad. Pa un bynag ai oddiwrth ddy-chrynfeydd cydwytod, yute oddiwrth argyhoeddiadau yr Ysbryd Glân, y deillia breuddwydion brawychus pechaduriaid, dylem eu cymbell hwynt i wrandaw ar llais rhybyddiol, yr hwn sydd yn eu galw hwynt i edifeirwech a diwygial buchedd.

Adn. 20. *Ac efe a ddyrchafodd ben y pen-trulliad a'r pen-pobydd yn mysg ei weision*] Efe a'u dygodd hwynt i'w profi, ac a chwilioedd achos pob un; a'r canlyniad oedd, fod i'r trulliad gael ei ryddhau, a'i adfer i'w swydd;

21 Ac a osododd y pen-trulliad eilwaith yn ei swydd; ac yntau a roddes y cwpan i law Pharao.

22 A'r pen-pobydd a grogodd efe; fel y deonglasai Joseph iddynt hwy.

23 Ond y pen-trulliad ni chofiodd Joseph, cithr annghofiodd ef.

PENNOD XLI.

YNA yn mhen dwy flynedd lawn, y bu i Pharao freuddwydio; ac wele efe yn sefyll wrth yr afon.

2 Ac wele, yn esgyn o'r afon, saith o wartheg tég yr olwg, a thewion o gig; ac mewn gweirglodd-dir y parent.

3 Wele hefyd, saith o wartheg er-

a'r pobydd gael ei brofi yn euog, a'i grogi: gwel ar adn. 13.

Adn. 21, 22. *Ac a osododd y pen-trulliad eilwaith yn ei swydd*] Myn rhai fod Joseph yn y carchar yn arddangos Crist wedi ei ddal gan yr Iuddewon; fod y pen-trulliad a'r pen-pobydd yn arddangos y ddau leidr a groes-hoeliwyd gyda'n Harglwydd; ac megys ag yr achubwyd un lleidr, tra y bu y llall farw yn ei bechod, felly ddarfod gosod y pen-trulliad eilwaith yn ei swydd, a chrogi y pen-pobydd: gwel *Chais, Calmet*, &c.

Adn. 23. *Ond y pen-trulliad ni chofiodd Joseph*] Pe crybwyllasai efe am dano wrth Pharao, y mae yn debyg y chwiliasai y breunin i achos Joseph fel i achos y teyrn-garcharorion, ac yr adferesid yntau i'w ryddid; ond o herwydd anniolchgarwch y pen-trulliad, gadawyd ef yno ddwy flynedd yn hwy. Oddiyma nyri a ddysgwn, yn gystal ag oddiwrth fil o gyffelyb achosion, fod dynion diadgenhedledig, ar ol i gymylau duon adfyd gael eu chwahu gan heulwen anrhydedd, yn aml yn annghofio Duw a'i weision. Yr oedd y swyddog hwn yn brysyr yn nbrafferthion y llys; a pha bryd bynag yr ymwithai adgofiai am Joseph i'w feddwl, yr oedd yn rhaid iddo naill ai aros am well cyfeusdra, neu ynte beidio son am dano wrth Pharao rhag digio Putiphar, yr hwn hefyd oedd yn uchel mewn swydd. Boed i ni fod yn ddiolchgar am fod genym ni well Eiriolwr ar ddeheulaw y Tad, 'Iesu Grist y cyfiawn.'

PEN. XLI. Adn. 1. *Yna yn mhen dwy flynedd lawn*] Ar ol adferiad y pen-trulliad i'w le; y bu i Pharao freuddwydio—megys y bu breuddwydion Joseph yn achos o'i werthiad ef i'r Aifft, felly y bu breuddwydion ei gyd-garcharorion a Pharao yn achos o'i ddyrchafiad ef yn llywydd ar yr Aifft. PHARAO ydoedd enw holl frenhinoedd yr Aifft am 1400 o flynyddau: yr enw PTOLEMY oedd y nesaf mewn olyniad. *Ac wele efe yn sefyll wrth yr afon*—sef y Nilus, yr hon oedd yr achos o frwythlondeb yr Aifft.

Adn. 2. *Ac wele yn esgyn o'r afon saith o wartheg*] 'Rhaid yn ddiamau mai yr hippopotamus, neu yr afon-farch, a olygir, gan mai nodweddu yr anifell hwn yn unig y mae yr amgylchiadau o esgyn o'r afon a phori mewn

eill yn esgyn ar eu hol hwynt o'r afon, yn ddrwg yr olwg, ac yn gulion o gig; a hwy a safasant yn ymyl y gwartheg *ereill*, ar lan yr afon.

4 A'r gwartheg drwg yr olwg, a chulion o gig, a fwytasant y saith gwartheg tég yr olwg, a breision. Yna y dihunodd Pharao.

5 Ac efe a gysgodd, ac a freuddwydiodd eilwaith: ac wele, saith o dwysenau yn tyfu ar un gorsen, o *rai* breisgion a da.

6 Wele hefyd, saith o dwysenau teneuon, ac wedi deifio gan wynt y dwyrain, yn tarddu allan ar eu hol hwynt.

Yr *hippopotamus* sydd dra adnabyddus breswlydd y Nilus, ac yn fynych yn y nos y mae yn dyfod allan o'r afon i bori ar y maesydd, neu yn yr hesg ar lan yr afon.—CLARKE. Ond tybia JOLLIFFE mai y *buffalo*, sef yr ých gwyllt neu y bual, a wellwyd gan Pharao, yr hwn yn ngwres y dydd, pan na fyddo yn rhwym dan yr iau, a dreulia lawer o'i amser yn yr afon, heb ddim ond ei ben yn y golwg. *Tég yr olwg, a thewion o gig*—yr arwyddo llawnder o wellt, trwy yr hwn eu pesgwyd fel hyn, ac yn addaw llaeth a chig mewn helaethrwydd.

Adn. 3, 4. *Wele hefyd saith o wartheg ereill, &c.*] Gwel ar adn. 18, &c.

Adn. 5. *Ac wele saith o dwysenau yn tyfu ar un gorsen*] Yr oedd y rhai hyn hefyd yn gysgodau addas o'r peth a fwriedid, yn enwedig gan fod frwythlondeb y wlad hono yn gynwysedig yn benaf yn ei chynrychiad o amledd o ýd.

Adn. 6. *Wedi deifio gan wynt y dwyrain*] Sylwyd yn dra phriodol fod yr holl ddrwg a wneir i ýd neu frwythydd, trwy ddeifiad, parduad, cawodau, locustiaid, &c., yn cael ei briodoli i'r *dwyrainwynt*: gwel Exod. x. 13, a xiv. 21, Salm lxxviii. 26, Ezec. xvii. 10, Jona iv. 8. Yn yr Aifft y mae yn dra dinystriol, am ei fod yn dyfod trwy anialweli crasboeth Arabia, gan ddyfetha yn fynych luoedd mawrion o wýr a gwragedd. Dywed Thevenot i ddwy fil o wýr gael eu lladd mewn un noson, yn y flywyddyn 1658, gan un o'r gwyntoedd deifiawl hyn: gwel ei Deithiau, llyfr ii. d. 34. Y mae natur ddinystriol y *simoom* yn cael ei chrybwyll braidd gan bob ymdeithydd. Sonia Mr. Bruce am dano yn ei Deithiau yn yr Aifft. Ar eu ffordd i Syene, darfu i *Idris* eu harweinydd, wrth weled un o'r chwaon dinystriol hyn yn dyfod, lefain allan â llef uchel ar y cymdeithion, 'Syrthiwrch a eich wynebau, canys dyma y *simoom*!' 'Mi a welwn,' meddai Mr. Bruce, 'niwl yn dyfod o'r deau-ddwyrain, yn debyg yn ei liw i ran lasgoch yr enfys, ond nid mor dew. Nid oedd ef yn ugain llath o led, ac yr oedd oddeutu deuddeg troedfedd o uwchder oddiwrth y ddaear. Yr oedd yn fath ar gochni ar yr awyr, ac yn ymsymud yn dra chyflym, canys braidd y gellais droi i syrthio ar y ddaear, a'm pen tua'r gogledd, cyn i mi deimlo gwres

7 A'r twysenau tencuon a lyncasant y saith dwysen fraisg, a llawn. A deffrôdd Pharao; ac wele breuddwyd oedd.

8 A'r bore y bu i'w ysbryd ef gynhyrfu; ac efe a anfonodd, ac a alwodd am holl ddeiniaid yr Aifft a'i holl ddoethion hi: a Pharao a fynegodd iddynt hwy ei freuddwydion; ond nid oedd a'u deonglai hwynt i Pharao.

9 ¶ Yna y llefarodd y pen-trulliad wrth Pharao, gan ddywedyd, Yr wyf fi yn cofio fy meiau heddyw.

10 Llidio a wnaethai Pharao wrth ei weision; ac efe a'm rhoddes mewn carchar yn nhŷ y distain, myfi a'r pen-pobydd.

11 A ni a freuddwydiasom freuddwyd yn yr un nos, mi ac efe; breudd-

wydiasom bob un yn ol deongliad ei freuddwyd.

12 Ac yr oedd yno gyda nyini fab ieuanc o Hebreadd, gwas i'r dŷtain; a ni a fynegasom iddo ef: yntau a ddeonglodd i ni ein breuddwydion; i bob un yn ol ei freuddwyd y deonglodd efe.

13 A darfu, fel y deonglodd i ni, felly y bu: rhodd fi cilwaith i'm swydd; ac yntau a grogodd efe.

14 ¶ Pharao, gan hyny, a anfonodd ac a alwodd am Joseph: hwythau ar redeg a'i cyrchasant ef o'r carchar: yntau a cilliodd ei wallt, ac a newidiodd ei ddillad, ac a ddaeth at Pharao.

15 A Pharao a ddywedodd wrth Joseph, Breuddwydiais freuddwyd,

ei ffrwdlif yn eglur ar fy wyneb. Nyini oll a orweddassom yn lleddf ar y ddaear fel meirwon, nes i Idris fyngu ei fod wedi chwythu drosodd. Yr oruchionen, neu y niwl glasgoch a welswn, oedd yn wir wedi myned heibio; eithr yr awel ysgafn ag oedd eto yn chwythu, ydoedd mor boeth fel ag i fygwth mygiad. O'm rhan fy hun, cefais yn amllwg yn fy mynws ddarod i mi lyncu peth o hono; ac nid oeddwn yn rhydd oddiwrth deimlad o ddiffyg anadl nes i mi fod rai misoedd yn yr Eidal, yn maddonau Porretta, yn agos i ddwy flynedd wedi hyny.' 'Dro arall gwnaed yr holl gymdeithion mor afiach gan un o'r chwawon heintus hyn, fel mai braidd yr oedd ganddynt nerth i lwythio eu camelod: gwel ei Deithiau, cyf. vi. d. 462, 484. Cyfeirir at effeithiau y gwynt dinstriol hwn gan y prophwyd Hosea, pen. xiii. 15: 'Er ei fod yn ffrwythlon yn mysg ei frodyr, daw gwynt y dwyrain, gwynt yr Arglwydd o'r amalech a ddyrchafa, a'i ffynnonell a sych, a'i ffynnon a â yn hesp: efe a yspeilia drysor pob llestr dymunol.'

Adn. 7. Ac wele breuddwyd oedd] Efe a ddeallodd nad oedd ddim ond breuddwyd, er fod ei argraff yn aros yn amuleadwy ar ei feddwl.

Adn. 8. A'r bore y bu i'w ysbryd ef gynhyrfu] Am ei fod yn credu fod y breuddwydion yn oruwchnaturiol, a bod rhywbeth anghyffredin yn cael ei fwriadu trwyddynt; ac am nad oedd ef yn deall eu hystyr, a'i fod yn ofni y canlyniadau. Ac a alwodd am holl ddeiniaid yr Aifft—yn y wreiddiol, CHARTUMMIM. Dichon nad yw y gair hwn yn meddwl dim mwy na deonglwr materion dŷrys ac anhawdd, ac yn enwedig arwyddluniau neu fatheniau yr Aifft, celfyddyd ag sydd yn awr wedi ei chwbl gollu; er y tybia rhai mai math ar gonsurwyr oeddynt. A'i holl ddoethion hi—CHACAMEYHA, dynion ag oeddynt, yn ol Porphory, wedi ymroddi i addoli Duw a myfyrio ar ddoethineb, gan dreulio eu holl fywyd mewn efrfydiad o bethau dwyfol. Efrfydiad ar y ser, hunan-bureiddiad, rhifydd-eg, mesureg, a chanu emynau er anthydedd

i'w duwiau, oedd eu gwaith gwastadol: gwel Donn. Ond nid oedd a'u deonglai hwynt—gallwn gymeryd yn ganiataol ddarod i'r gwŷr hyn gyrchu at eu celfyddydau, eu llyfrau, a'u dyfeisiadau arferol; a myn yr Iuddewon i ni gredu, yn ol SHIPPEN, mai eu deongliad hwy ydoedd, y byddai i saith merch Pharao farw, ac y geuid saith ereill iddo yn eu lle. Ond nid oedd y deongliad hwn mewn un modd yn bobddau Pharao.

Adn. 9—12. Yna y llefarodd y pen-trulliad—Yr wyf fi yn cofio fy meiau heddyw] O anghofio ac esgeuluo Joseph; neu, yn ol rhai, ei feiau yn erbyn Pharao, am y rhai y carcharwyd ef. Ymddengys o'r diwedd mai amser Duw i ryddhau ei bobl yw yr addasaf. Pe buasai y pen-trulliad ar y cyntaf yn arferyd ei ddylanwad er rhyddiad Joseph, ac yn ei gael yn rhydd, y mae yn debyg y dychwelasai efe i wlad yr Hebreadd; ac yna ni buasai mor llesol iddo ei hun, nac o'r fath fendith i'r Aifftiaid a'i deulu. Ond wrth aros yn y carchar ddwy flynedd yn hwy, a dyfod allan ar yr achlysur yma i ddeongli breuddwydion y brenin, gwnaed ffordd i'w ddyrchafiad.

Adn. 13. Rhodd fi cilwaith i'm swydd, ac yntau a grogodd ef] Hyny yw, rhagfyngodd Joseph ei adferiad ef i'w swydd, a dienyddiad y llall. Fel hyn dywedir fod Jeremia yn tynu i lawr ac yn dyffetha y cenedloedd hyny, y rhai na ddarfu iddo ond rhagfynegu eu cwmp a'u dinstyr, Jer. i. 10.

Adn. 14. Pharao gan hyny a anfonodd, ac a alwodd am Joseph] Gyda'r brys mwyaf, i edrych a allai ef esmwythau ei feddwl trwy ddeongli ei freuddwydion. Yntau a cilliodd ei wallt, ac a newidiodd ei ddillad—efe a ddyosgodd ei alar-wisgodd, y rhai oeddynt yn cydweddu â'i gyflwr cystuddiedig, ac ymddanghosodd mewn gwisg addas gerbron y brenin. Nid oedd yr Aifftiaid byth yn eillio eu barfau nac yn tori eu gwallt mewn amseroedd o gyfyngder; ond ar brydiau ereill yr oeddynt yn hynod o lân a manwl yn eu gwisgoedd.

Adn. 15. A Pharao a ddywedodd wrth Joseph] Y mae y brenin yn ebrwydd, heb holi

ac nid oes a'i deonglo : a myfi a glywais ddywedyd am danat ti, y medri ddeall breuddwyd i'w ddeongli.

16 A Joseph a atebodd Pharao, gan ddywedyd, Nid myfi : Duw a etyb lwyddiant i Pharao.

17 A Pharao a ddywedodd wrth Joseph, Wele fi yn fy mreuddwyd yn sefyll ar fin yr afon.

18 Ac wele yn esgyn o'r afon saith o wartheg tewion o gig, a thêg yr olwg; ac mewn gweirglodd-dir y parent.

19 Wele hefyd saith o wartheg ercill yn esgyn ar eu hol hwynt, truin, a drwg iawn yr olwg, ac yn gulion o gig : ni welais rai cynddrwg a hwynt yn holl dir yr Aifft.

20 A'r gwartheg culion a drwg a fwytasant y saith muwch tewion cyntaf.

21 Ac er eu myned i'w boliau, ni wyddid iddynt fyned i'w boliau ; ond yr olwg arnynt oedd ddrwg, megys yn y dechread. Yna mi a ddeffroais.

22 Gwelais hefyd yn fy mreudd-

wyd, ac wele saith dwysen lawn a thêg, yn cyfodi o'r un gorsen.

23 Ac wele saith o dwys mân, teuceon, wedi deifio gan ddywreiuwynt, yn tyfu ar eu hol hwynt.

24 A'r twysenau teuceon a lyncasant y saith dwysen dda : a mi a ddywedais hyn wrth y dewiniaid ; ond nid oedd a'i deonglai i mi.

25 ¶ A dywedodd Joseph wrth Pharao, Breuddwyd Pharao sydd un : yr hyn y mae Duw yn ei wneuthur a fynegodd efe i Pharao.

26 Y saith o wartheg têt, saith mlynedd ydynt ; a'r saith dwysen dêt, saith mlynedd ydynt : y breuddwyd un yw.

27 Hefyd y saith muwch culion a drwg, y rhai oedd yn esgyn ar eu hol hwynt, saith mlynedd ydynt ; a'r saith dwysen wâg wedi deifio gan y dwyreiuwynt, a fyddant saith mlynedd o newyn.

28 Hyn yw y peth a ddywedais i wrth Pharao : Yr hyn a wna Duw, efe a'i danghosodd i Pharao.

29 Wele, y mae saith mlynedd yn

pwyr oedd efe, nac o ba le yr oedd yn dyfod, yn mynegu iddo ei neges, ei fod yn dysgwyl iddo ddeongli ei freuddwyd.

Adn. 16. *Nid myfi : Duw a etyb lwyddiant i Pharao*] Ni allaf fi wneuthur hyn trwy unrhyw rinwedd, gallu, na chelfyddyd o'r eiddod fy hun ; ond yn unig trwy ysbrydoliaeth y Duw mawr. Fel hyn y mae efe yn rhoddi yr anrhydedd i Dduw, i'r hwn yr oedd yn deifwng, ac yn arwain Pharao i'r wybodaeth o hono ef.

Adn. 17. *Wele fi yn fy mreuddwyd yn sefyll ar fin yr afon*] Sef y Nilus. Nid yw Pharao wedi anghofio ei freuddwyd, fel Nebuchodonosor, Dan. ii. 5 ; ond y mae yn ei adrodd yn rhydd, ac yn ymfodloni ar gael y deongliad yn unig.

Adn. 18—20. *Ac wele yn esgyn o'r afon saith o wartheg, &c.*] Gwel ar adn. 2. A sylwer yn mhellach, fod esgyniad y saith buwch *dew* a'r saith *gul* o'r un afon, yn dangos yn eglur ar unwaith yr *achos* o'r amltra a'r newyn. Gwyddys yn dda nad oes braidd ddim *gulaw* yn yr Aifft, a bod y wlad yn ymddibynu am ei ffrwythlondeb ar orlifiad y Nilus, a bod y ffrwythlondeb mewn cyfartalwch i *barhad* a *mesur* y gorlifiad. Am hynny gallwn gasglu yn ddiogel fod y saith mlynedd o *amltra* yn ddyledus mewn rhan i orlifiad anarferol y Nilus, a darfod i'r saith mlynedd o *newyn* gael en hachosi trwy hollol neu gryn lawer o ddiffyg yn yr anhebergerol angenrheidiol lleifariant hwn : gwel ar adn. 31.

Adn. 21. *Ac er eu myned i'w boliau, &c.*] Ni all dim yn fwy grymus ddangos mawredd a chaledi y newyn, na bod creaduriaid o rywogaeth yr ychain neu yr hippopotamus yn bwyta eu eilydd, ac eto yn ddieffiaith, gan aros

mor gul a thruenus ag o'r blaen. Y mae teimlad o angen yn cynyddu i'r chwant bywd, ac yn cynhyrfu y peiriannau treuliadol i weithrediad anarferol ; o ganlyniad y mae y bywd yn treulio yn dra chyflym, ac yn cael ei yru trwy yr ymysgaredd cyn i'w ranau maethlon gael eu sugno yn ddigonol ; ac fel hyn, er i lawer gael ei fwyta, ychydig iawn o faeth a geir oddiwrtho. 'Ac er eu myned i'w boliau, ni wyddid iddynt fyned i'w boliau ; ond yr olwg arnynt oedd ddrwg, megys yn y dechread.' Dysgrifiad tra grymus, ac anianyddol gywir.

Adn. 22—24. *Ac wele saith dwysen, &c.*] Gwel ar adn. 5, &c.

Adn. 25. *Breuddwyd Pharao sydd un*] Hyn yw, y mae y ddau yn cyfeirio at yr un peth, ac y mae y peth hwnw trwy y ddau freuddwyd yn ymddangos yn sierach : gwel isod. *Yr hyn y mae Duw yn ei wneuthur a fynegodd efe i Pharao*—y mae Joseph fel hyn yn dangos i'r Brenin, er mai yr afon Nilus yw yr achos cyffredin o amltra neu eisiau, eto fod ei llifeiriant dan gyfarwyddyd Duw ; fod y breuddwydion wedi en hanfon ganddo ef, nid yn unig i arwyddo yn mlaenllaw yr *amltra* a'r *eisiau*, ond hefyd i ddangos fod yr holl amgylchiadau hyn, pa mor ddamweiniol bynag y gallant ymddangos i ddyd, dan gyfarwyddyd rhagluniaeth oruwchlywodraethol.

Adn. 26, 27. *Y breuddwyd un yw*] Efo a esodwyd allan yn yr yd a'r gwartheg, i ddangos yr effeithia y newyn ar ddyd ac amisol.

Adn. 28. *Yr hyn a wna Duw*] Gwel ar adn. 25.

Adn. 29. *Wele, y mae saith mlynedd yn dyfod o amltra mawr*] Gwelwn ddaioni Duw

dyfod o amltra mawr, trwy holl wlad yr Aifft.

30 Ond ar eu holl hwynt y cyfyd saith mlynedd o newyn; ac anghofir yr holl amlder trwy wlad yr Aifft: a'r newyn a ddyfetha y wlad.

31 Ac ni wybyddir oddiwrt h yr amltra yn y wlad, o herwydd y newyn lwnw wedi hyny: oblegid trwm iawn fydd.

32 Hefyd am ddyblu y breuddwyd i Pharao ddwywaith, *hyny a fu* oblegid sicrhau y peth gan Dduw, a bod Duw yn brysiu i'w wneuthur.

yn anfon y saith mlynedd o amltra o flaen y rhai o newyn, fel y gellid darparu ar oi gyfer. Mor ryfeddol ddoeth y mae rhaglunnaeth wedi trefnu achosion ei theulu lluosog o'r dechread! Y mae amrywiaeth mawr o dymhorau wedi bod, a chynrych y ddaear weithiau yn fwy, ac weithiau yn llai; eto, a chymeryd y naill amser gyda'r llall, y mae yr hyn oedd wyrthiol mewn perthynas i'r manna yn cael ei wir-eddu yn gyffredin yn nhrefn arferol rhaglunnaeth: 'Nid oes gweddill i'r hwn a gasgl lawer, ac nid oes eisiau ar yr hwn a gasgl ychydig,' Exod. xvi. 18.

Adn. 30 *Ond ar eu holl hwynt y cyfyd saith mlynedd o newyn*] Gwelwn natur ddarfodedig ein mwyniannau daearol! Cynrych mawr y blynyddoedd o amltra a lyncwyd i fyny yn mlynnyddoedd y newyn; a'r hyn oedd dros ben o hono, er yn ymddangos yn llawer iawn, ni wasanaethodd ond prin i gadw dynion yn fyw.

Adn. 31. *Ac ni wybyddir oddiwrt h yr amltra yn y wlad, o herwydd y newyn*] Gan fod yr Aifft yn ymddybynu am ei ffrwythlondeb ar ddyllifad y Nilus, ac nad yw y dylifad hwn bob amser yn gyfartal, rhaid fod pwynt at yr hwn y rhaid iddi godi i ddiwallu y tir yn ddigonol, mewn trefni i gynrych digon o ŷd er cynaliad ei drigolion. Y mae Pliny wedi rhoddi i ni *safon* wrth ba un y gellir sicrhau amltra a phrinder; ac yn ol yr hyn ag y bwm yn alluog i'w gasglu o waith ymdeithwyr diweddar, meddai Clarke, gellir ysytied y safon hon eto fel yn berffaith gywir. 'Uwchder cyffredin y llifeiriaint,' meddai Pliny, 'yw 16 cufydd. Pan y mae y dyfroedd yn is na'r safon hon, nid ydynt yn llifo dros yr holl dir; pan yn uwch na'r safon hon, y maent yn rhy annyben yn rhedeg ymaith. Yn yr achos cyntaf, nid yw y ddaear yn cael ei diwallu; yn yr ail, y mae y dyfroedd yn cael eu cadw mor hir ar y ddaear nes y mae pryd han drosodd. Os na fydd iddi godi ond 12 cufydd, *newyn* yw y canlyniad; ac hyd yn nod pan yn 13, y mae *cisiau* yn flynu. Y mae 14 cufydd yn peri *llawenydd* cyffredinol; 15, perffaith *ddiogelwch*; a 16, holl *rysedd bynydd*.' Pan y mae y Nilus yn codi 18 cufydd, y mae yn attal iddynt han y tir yn ei dymhor, ac yn cynrych newyn mor effeithiol a phlan na byddo yn gorlifo dros ei glenydd. Yn ystod y saith mlynedd cyntaf, gan hyny, gallwn feddwl ei bod yn codi oddentu 16 o

33 Yn awr, gan hyny, edryched Pharao am wr deallgar a doeth, a gosoded ef ar wlad yr Aifft.

34 Gwnaed Pharao hyn, a gosoded olygwyr at y wlad, a chymered bum-med ran *cnwd* gwlad yr Aifft dros saith mlynedd yr amltra.

35 A chasglant holl ymborth y blynyddoedd daionus sydd ar ddyfod, a chasglant ŷd dan law Pharao, a chadwant ymborth yn y dinasoedd.

36 A bydded yr ymborth yn nghadw i'r wlad dros y saith mlynedd newyn, y rhai fyddant yn ngwlad yr

gufyddau bob blwyddyn; ac yn yr ail saith mlynedd, mai prin yr oedd yn codi nemawr neu ddim: gwel ar adn. 57.

Adn. 32. *Hefyd am ddyblu y breuddwyd i Pharao*] Gwel ar adn. 25, 27.

Adn. 33. *Edryched Pharao am wr deallgar a doeth*] Y mae yn ddiamau mai Ysbryd Duw, ac nid ei uchelgais ei hun, a barodd i Joseph roddi y cyngor hwn i Pharao; canys ni wyddai ef na byddai raid iddo fyned i'r carchar eilwaith, o'r hwn yr oedd newydd ddyfod allan.

Adn. 34. *A chymered bum-med ran cnwd gwlad yr Aifft*] Yr hyn eto a elwir y *meery*, neu y rhan bŵno o'r cnwd a arddelwir gan y brenin mewn ffordd o *dreth*. Y mae yn debyg nad oedd hi gymaint a'r *bummed* ran yn amser Joseph, yn fwy tebyg y *ddegfed*: ond gan fod hwn yn achos anghyffredin, a bod y ddaear yn chydio yn ddyrmeidiau, adn. 47, cyfiawnheid y brenin wrth ofyn y *bummed*; ac o'r fath amltra mawr gallai y bobl dalu y dreth chwangelon hon heb ei theimlo yn orthrymus.'

—CLARKE. Ond y mae ereill yn gwabaniaethu oddiwrt h y dyb yma. *Cymered bum-med ran*—nid trwy drais neu orthrech, ond trwy *bryniad* am y pris cyffredin, yr hwn yn debygol a fyddai yn dra isel yn ystod y blynyddau hyn o amltra. Eithr paham ddim ond y *bummed* ran, gan fod blynyddoedd y newyn i fod yn gymifer â blynyddoedd yr amltra? Yr wyf yn ateb, 1. Am y byddai i bobl fyw yn gynifach yn amser y newyn. 2. Y mae yn debyg y byddai i lawer o bobl, yn mhob rhan o'r wlad, heblaw y brenin, ystorio llawer o ŷd, am nad allent yn lawdd ei ddaifa ef oll, ac mewn dysgwyliad am amser o fawr brinder a drudaniaeth, pryd y gallent naill ai ei ddefnyddio ef eu hunain, neu ei werthu er eu mantais. Chwaneger at hyn, 3. Y gallai hyd yn nod y *bummed* ran o gynrych y blynyddau hyny o amltra fod yn fwy na hanner, i'e gymaint a chyflawn gnwd blynyddau cyffredin.

Adn. 35. *A chasglant ŷd dan law Pharao*] I fod yn gwbl dan lywodraeth y brenin trwy yr holl ddiinasoedd.

Adn. 36. *A bydded yr ymborth yn nghadw i'r wlad*] I'w wneuthur allan am bris tŷg yn yr ystod y saith mlynedd o ddiffyg cynrych. Y mae heiniardiad neu ystordai yn dra angenrheidiol yn mhob gwlad, yn cwnedig mewn gwledydd fel Affrica, lle y mae y tymhorau

Aiff, fel na ddyfether y wlad gan y newyn.

37 ¶ A'r peth oedd dda yn ngolwg Pharao, ac yn ngolwg ei holl weision.

38 A dywedodd Pharao wrth ei weision, A gaem ni wr fel hwn, yr hwn y mae Ysbyrd Duw ynddo?

39 Dywedodd Pharao hefyd wrth Joseph, Gan wneuthur o Dduw i ti wybod hyn oll, nid mor ddeallgar a doeth neb a thydi.

40 Tydi a fyddi ar fy nhŷ, ac wrth

dy air di y llywodraethir fy mhobl oll: yn y deyrn-gadair yn unig y byddaf fwy na thydi.

41 Yna y dywedodd Pharao wrth Joseph, Edrych, gosodais di ar holl wlad yr Aiff.

42 A thynodd Pharao ei fodrwy oddiar ei law, ac a'i rhoddes hi ar law Joseph, ac a'i gwisgodd ef mewn gwisgoedd sidan, ac a osododd gadwyn aur am ei wddf ef;

43 Ac a wnaeth iddo farchogaeth yn yr ail gerbyd oedd ganddo; a

mor gyfnewidiol. Pe buasai ystorio fel hyn yn arferiad cyffredinol, cadwesid myrddiynau o hiliogaeth Ham rhag trengu o newyn.

Adn. 37. *A'r peth oedd dda yn ngolwg Pharao*] Yn gystal ag yn ngolwg holl weinidogion ei lywodraeth ef. Diehon i rai ryfeddu fod y brenin a'i swyddogion mor barod i greu caethwas estronol fel Joseph, yr hwn a gyhuddesid yn ddiweddar o drosedd mawr. Ond gallasant gael eu boddhau wrth ystyried ddarfod i Joseph ei ddieuogi ei hun yn marn penaeth y carchardy, lle y gwybwyd eisioes ddarfod iddo ddeongli breuddwydion yn gywir mewn dau achos hynod, y rhai a adroddasai y pen-trulliad, adn. 12, 13. Ac heblaw hyny, yr oedd ei ddeongliad ef o'r cysgodau a welsai Pharao yn ei freuddwyd mor naturiol, nes yr oedd yn ddigon i genhedlu crediniaeth ynddo pe na buasai efe yn ddeonglydd breuddwydion o'r blaen. Ac yn benef oll, rhaid i ni ystyried fod Duw, yr hwn a anfonasai y breuddwydion, ac a wnaethai iddynt lynu yn meddyliau y brenin, wedi paratoi ei feddwl ef befyd i dderbyn y deongliad gyda theimlad dwys o'i wirionedd.

Adn. 38. *Yr hwn y mae Ysbyrd Duw ynddo?*] *Ruach Elohim*, yr un geiriau ag a arferir pen. i. 2; y rhai yn ddiâu sydd i'w deall yma, megys yno, am y trydydd person yn y Drindod santiaid. Os oedd yr Aiftiaid yn eilunaddolwyr, yr oeddynt yn cydnabod Duw Joseph; ac nid ydys i feddwl mai ar yr achlysur hwn yn unig y daethant yn adnabyddus ag ef. Yr oedd gwybodaeth o'r gwir Dduw yn hir cyn hyn yn yr Aiff. Ond y mae yn dra thebyg, er eu bod yn cydnabod ei ddyllanwad ef gyda Joseph tuhwnt i ddim a feddai eu dewiniaid hwy eu hunain, fod ganddynt eu 'duwiau lawer a'u harglwyddi lawer' y pryd hwn, canys nynt a wyddom eu bod yn dra llygredig mewn pethau crefyddol wedi hyn.

Adn. 39. *Nid mor ddeallgar a doeth*] Nid oes neb yn mblith dewiniaid a doethion yr Aiff mor gymhwys i'r swydd hon a thydi.

Adn. 40. *Tydi a fyddi ar fy nhŷ*] Hyny yw, yn brif weinidog y llys. *Wrth dy air di y llywodraethir fy mhobl oll*—yn llythyrenol, 'Wrth dy enau yr ymgusana fy mhobl oll.' Yn y gwledydd dwyreiniol arferir cansau unrhyw beth a fyddo yn dyfod oddiwrth un uwch, a hyn a wneir mewn ffordd o ddangos parch ac ymstyngiad. Yn yr ystyr yma y mae geiriau y testyn i'w deall: 'Yr holl bobl a dalant y parch a'r ufydd-dod mwyaf i'w holl

drefniadau a'w orchymynion di.' Dywedir y goddefa y wreiddiol y cyfieithiad hwn, 'O'w enau di y maethir fy mhobl oll;' hyny yw, derbyniant eu portiant trwy dy air neu dy orchymyn di. *Yn y deyrn-gadair yn unig y byddaf fwy na thydi*—y fi o hyd fydd y brenin, a chaf dithau danaf fi lywodraethu holl achosion y deyrnas.

Adn. 41. *Gosodais di ar holl wlad yr Aiff*] Y mae y Salmydd yn egluro hyn yn brydferth: 'Gosododd ef yn arglwydd ar ei dŷ, ac yn llywydd ar ei holl gyfoeth; i rwygo ei dywysogion ef wrth ei ewyllys, ac i ddysgu doethineb i'w holl henuriaid ef,' Salm cv. 21, 22.

Adn. 42. *A thynodd Pharao ei fodrwy*] Yr hon oedd yn arwydd o'r urddas uwchaf, ac yn offeryn o'r awdurdod mwyaf. *Ac a'i rhoddes hi ar law Joseph*—i selio yn enw y brenin pa ddeddfau bynag a farnai ef yn addas; canys diamau mai yn y fodrwy hon yr oedd *sel* fawr y llywodraeth. Fel hyn gwnaed Joseph yr hyn a alwn ni yn 'Arglwydd Ganghellwr,' neu 'Arglwydd Geidwad y Gyfrin Sel.' *Ac a'i gwisgodd ef mewn gwisgoedd sidan*—yn mreinol wisgoedd y llywodraeth, y rhai a wisgid yn unig gan dywysogion neu brif swyddogion. Pa un ai *sidan* ai *lian main* a olygir yma wrth *shesh*, neu yntw rwy ddefnydd arall, nid yw y dysgedigion yn cytuno; ond diamau ei fod yn ddefnydd drudfawr, ac yn gyfryw ag a wisgid yn unig gan wŷr o awdurdod brenhinol. *Ac a osododd gadwyn aur am ei wddf ef*—yn arwydd chwanelog o'i anrhydedd a'i awdurdod.

Adn. 43. *Ac a wnaeth iddo farchogaeth yn yr ail gerbyd*] Fel y gellid gwybod ei fod ef yn nesaf i'r brenin mewn urddas a gallu. *A llefwyd o'i flaen ef Abrec*—yr hyn a gyfieithir yn y Saesonaeg, *Plyger y glin*. Ar hyn sylwa Clarke: 'Abrech, yr hwn a gyfieithwn ni *plyger y glin*, a'r hwn a allem yn gystal ei gyfieithu yn unrhyw beth arall, sydd yn debygol yn yr *Aiffteig*, arwyddocad yr hwn sydd yn hollol anadnabyddus. Pe gallein dybio ei fod yn yr *llebreig*, gellid ei ystyried fel yn gyfansoddedig o *ab*, tad, a *rach*, tyner; canys gellid galw Joseph yn *DAD*, o herwydd ei ofal dros y bobl, a'r ddarpariaeth a wnae er eu cadwraeth; ac yn *DYNER*, oblegid ei ieu-entid. Neu gellir ei gyfansoddi o *ab*, tad, a *barech*, bendith, trwy y gallai y *b* olaf gael ei cholli yn hawdd yn yr un flaenaf; a gallai Joseph gael yr enw hwn yn gystal a'r llall, ar

llefydd o'i flaen ef, Abrec: felly y gosodwyd ef ar holl wlad yr Aifft.

44 Dywedodd Pharao hefyd wrth Joseph, Myfi yw Pharao, ac hebot ti ni chyfyd gŵr ei law na'i droed, trwy holl wlad yr Aifft.

45 A Pharao a alwodd enw Joseph, Zaphnath-Paaneah; ac a roddes iddo Asnath, merch Potipherah offeiriad On, yn wraig: yna yr aeth Joseph allan dros wlad yr Aifft.

46 ¶ A Joseph ydoedd fab deng mlwydd ar hugain pan safodd efe ger bron Pharao brenin yr Aifft: a Joseph a aeth allan o wydd Pharao,

gyrif y gofal a gymerai efe i droi ymaith feldith drom y saith mlynedd o newyn, trwy bentyru *bendithion* y saith mlynedd o amltra. Heblaw hyn, ymdengys fod *tad* yn enw swydd, ac y mae yn debyg y gallai *tad y brenin* neu *dad Pharao* arwyddo yr un peth a *gweinidog y brenin* yn ein plith ni: gwel ar pen. xlv. 8. Ond os gair Aifftig ydyw, ofer yw edrych am ei ystyr yn yr Hebraeg.—CLARKE. Y mae yn dra thebyg mai dolef neu fanleif *Aifftig* ydyw, yn cael ei harfer gan yr herodron o flaen cerbyd Joseph; a dywed BENFEEY mai ei hystyr yw 'a-bor-k,' hyny yw, ymostyngwch, ymgreiniwch, gwarogaethwch. Yn hyn hefyd y cytuna MEIER a KNobel.

Adn. 44. *Myfi yw Pharao*] Myfi sydd o hyd i ddal y frenhiniaeth, ac eistedd yn y deyrn-gadair, adn. 40. *Ac hebot ti ni chyfyd gŵr ei law na'i droed*—ymadrodd diarebol am gyflawniad achosion cyhoeddus. Fel pe dywedasai, Er mai fi yw y brenin, rhaid cael dy gydsyniad dithau yn mhob achos o bwys. Neu, ti a fyddi uwchlaw pawb, ac yn annibynol ar bawb, ond fy hunan.

Adn. 45. *A Pharao a alwodd enw Joseph, Zaphnath-Paaneah*] Y mae ystyr yr enw hwn mor anhysbys ag *abreeh* yn adn. 43. Y mae rhai yn ei gyfieithu, 'Datguddiwr dirgelledigaethau'; ereill, 'Trysorfa gogoneddus gyssur'; Jerome, 'Gwaredwr y byd'; yr Anglo-Saxonaeg, 'Iachawr y byd.' Y mae pob geirarddiad a roddwyd iddo hyd yn hyn, a dywedys y lleiaf am danynt, yn *anhucus*. Yr wyf fi, meddai Clarke, yn meddwl mai enw Aifftig ydyw, yn arwyddo y swydd ag y dyrchafwyd ef iddi yn awr; a'i fod yn debyg i'n henwau cyfansawdd ni, Prif-Weinidog, Arglwydd-Ganghellwr, Uchel-Drysorydd, Prif-Ynad, &c. *Ac a roddes iddo Asnath, merch Potipherah*—nid oes un tobygolrwydd mai y Potipherah a grybwyllir yma yw y Putiphar a brynasai Joseph, ac, ar gamgyhuddiad ei wraig, a'i bwriasaf o'i garchar. 1. Nid yw yr ysgrythyr yn rhoi unrhyw awgrymiad mai yr un oeddynt. 2. Yr oedd gan Potipherah blant, a Putiphar ydoedd *eunuch*; (gwel ar pen. xxxvii. 36;) canys er fod cennuchiaid yn aml yn cadw gwragedd, nid oes un prawf iddynt gael plant o honnynt. *Offeiriad On*—neu Helio-polis, dinas yn mbarth dwyreiniol yr Aifft, yn sefyll rhwng y Nilus a'r Fergaine Arab-

ac a dramwyodd trwy holl wlad yr Aifft.

47 A'r ddaear a gnydiodd dros saith mlynedd yr amltra yn ddyrn-eidiau.

48 Yntau a gasglodd holl ymborth y saith mlynedd a fu yn ngwlad yr Aifft, ac a roddes ymborth i gadw yn y dinasoedd: ymborth y maes yr hwn *fyddai* o amgylch pob dinas, a roddes efe i gadw ynddi.

49 A Joseph a gynulodd yd fel tywod y môr, yn dra llyuosog, hyd oni pheidiodd a'i rifo: oblegid yr ydoedd heb rifedi.

aidd, yn ngwlad Gosen. Yr oedd gŵyl flynyddol yn cael ei chynnal yma er anrhydedd i'r haul, oddiwrth yr hyn y cafodd yr enw HELIOPOLIS, neu 'ddinas yr haul.' Y mae y gair *cohen*, a gyfieithir yma yn OFFEIRIAD, yn arwyddo TYWYSGO hefyd, un ag sydd yn gweini neu yn llywyddu mewn pethau cysegredig neu wladol. Gynt yr oedd yr offeiriad yn benaethiaid ar yr holl Aifft, ac o'r urdd yma y cymerid y brenhinoedd eu hunain. *Yn wraig*—yr oedd Pharao, fel y sylwa yr Esgob Warburton, yn golygu lles Joseph trwy y briodas hon; oblegid trwy fod y weinyddiaeth yn nwyllaw yr offeiriad, prin y cyd-ddygasent â Joseph, yr hwn oedd ddy-eithrddyn, oni buasai ei fod wedi ymgyfath-rachu â hwynt fel hyn. *Yna yr aeth Joseph allan dros wlad yr Aifft*—hyny yw, cymerodd daith dros yr holl deyrnas, i orchymyn adeiladu heiniardiad neu ydtaï, ac i benodi swyddogion addas i dderbyn yr yd yn mhob dinas.

Adn. 46. *A Joseph ydoedd fab deng mlwydd ar hugain*] Gall fod ei oedran yn cael ei grybwyll yma, i arwyddo nad oedd ei lawr ddoethineb ef, pan yn sefyll gerbron Pharao, yn firwyth profiad hir a helaeth, ond mai dawn neillduol Dnw ydoedd. Gan mai 17 mlwydd oedd ydoedd Joseph pan ei gwerthwyd i'r Aifft, pen. xxxvii. 2, a'i fod yn awr yn 30, rhaid ei fod 13 mlynedd mewn caethiwed. *Pan safodd efe gerbron Pharao*—y mae yr ymadrodd hwn bob amser yn meddwl derbyniad i wyddfod digyfrwng y penadur, ac i fwynhad o'i hyder mwyaf annherfynol.

Adn. 47. *A'r ddaear a gnydiodd dros saith mlynedd yr amltra yn ddyrn-eidiau*] Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio yn benaf at *rcis*, yr hwn sydd yn tyfu yn siobyan, trwy fod nifer mawr o wellt yn tarddu oddiwrth yr un hedyn. Y mae yn debyg fod y Nilus yn mhob un o'r blynyddoedd hyny yn dyrchafu 16 cufydd: gwel ar adn. 31.

Adn. 48. *A roddes ymborth i gadw yn y dinasoedd*] Dywed Norden fod adeilad yn awr yn sefyll yn yr hen Gairo, a elwir 'Heiniardy Joseph:' gwel ei Deithiau, cyf. i. d. 72.

Adn. 49. *Hyd oni pheidiodd a'i rifo*] Wrth y bummedol ran, fel y bwriadid ar y cyntaf, adn. 34.

50 Ond cyn dyfod blwyddyn o newyn, y ganwyd i Joseph ddau fab, y rhai a ymddyg Asnath, merch Potipherah offeiriad On, iddo ef.

51 A Joseph a alwodd enw ei gyntafancdig, Manasse: Oblegid (*eb efe*) Duw a wnaeth i mi annghofio fy llafur oll, a thylwyth fy nhad oll.

52 Ac efe a alwodd enw yr ail, Ephraim: Oblegid (*eb efe*) Duw a'm ffwrwythlonodd i yn ngwlad fy ngorthrymder.

53 ¶ Darfu y saith mlynedd o amldra, y rhai a fu yn ngwlad yr Aifft.

54 A'r saith mlynedd newyn a ddechreusant ddyfod, fel y dywedasai Joseph: ac yr oedd newyn yn yr holl wledydd; ond yn holl wlad yr Aifft yr ydoedd bara.

55 A phan newynodd holl wlad yr Aifft, y bobl a waeddodd ar Pharao am fara: a Pharao a ddywedodd wrth yr holl Aifftiaid, Ewch at Joseph; yr hyn a ddywedo efe wrthyh, gwnewch.

56 Y newyn hefyd ydoedd ar holl wyneb y ddaear: a Joseph a agorodd yr holl loedd yr ydoedd yd ynddynt, ac a werthodd i'r Aifftiaid; oblegid y newyn oedd drwm yn ngwlad yr Aifft.

57 A daeth yr holl wledydd i'r Aifft at Joseph i brynu; o herwydd y newyn oedd drwm yn yr holl wledydd.

PENNOD XLII.

PAN welodd Jacob fod yd yn yr Aifft, dywedodd Jacob wrth ei feibion, Paham yr edrychwch ar eich gilydd?

2 Dywedodd hefyd, Wele, clywais fod yd yn yr Aifft: ewch i waered yno, a phrynwch i ni oddiyno: fel y bom fyw, ac na byddom feirw.

3 ¶ A deg brodyr Joseph a aethant i waered, i brynu yd i'r Aifft.

4 Ond ni ollyngai Jacob Benjamin, brawd Joseph, gyda'i frodyr: oblegid

Adn. 50—52. *Ganwyd i Joseph ddau fab*] Y rhai a alwodd efe ar enwau yn dynodi rhagluniaeth neillduol a haelionus Duw tuag ato. Y mae MANASSE yn arwyddo *annghof*, oddiwrth *nashah*, annghofio; ac EPHRAIM, *ffwrwythlondeb*, oddiwrth *parah*, bod yn ffwrwythlon: ac efe a alwodd ei feibion wrth yr enwau hyn, am i Ddau ei alluogi o'i *annghofio* ei galedi a'i gystudd oddiwrth ei frodyr yn nhŷ ei dad, a'i wneuthur yn *ffwrwythlon* yn y wlad hono lle y dyoddefasai efe yr anffawd a'r anffri mwyaf yn ei garehariaid.

Adn. 53. *Y rhai a fu yn ngwlad yr Aifft*] Hyn yw, yno yn unig yr oedd yr *amldra*, yn cael ei achosi trwy orlifaid y Nilus.

Adn. 54. *Yr oedd newyn yn yr holl wledydd*] Oblegid yr oedd y sychder cyffredinol hwnw a attaliai i'r Nilus godi, yn effeithio i beri prinder yn yr holl wledydd cymydog-aethol, megys Canaan, Syria, &c.: gwel ar adn. 57.

Ond yn holl wlad yr Aifft yr ydoedd bara—digonedd o ymborth o bob math am y flwyddyn neu y ddwy gyntaf.

Adn. 55. *Y bobl a waeddodd ar Pharao am fara*] Ymddengys i'r Aifftiaid cyn hir ddifa holl gynyrch eu tiroedd, trwy iddynt ond odid werthu llawer o'u hŷd i wledydd ereill, er mwyn elwa. *Ewch at Joseph*—'paham yr ydych yn dyfod ataf fi gyda'ch achlywynion a'ch deisebion? Myfi yn wir ydyw'f eich brenin, wedi fy ngwahaniaethu fel y cyfryw â holl nodau uwelaf fawrhydi: ond y mae Joseph yn fwy i chiwi. Efe a fu yr offeryn i'ch cadw; a boed iddo ef weinyddu cynaliaeth ac ymwared i chiwi.'—*CHRYSTOM.*

Adn. 56. *Y newyn hefyd ydoedd ar holl wyneb y ddaear*] Y geiriau gwreiddiol, *col peney haarets*, fel y sylwa Clarke, a ddylent gael eu cyfieithu, *holl wyneb y tir hwnw*, sef yr Aifft, fel ei heglurir yn niwedd yr adnod.

Adn. 57. *A daeth yr holl wledydd i'r Aifft*

at Joseph i brynu] Y mae yr Aifft yn sefyll yn nghanol y rhanbarth ddiwlaw helaeth ag sydd yn ymestyn dros y rhan fwyaf o Ogledd Affrica, Arabia, ac Iran. *O herwydd y newyn oedd drwm yn yr holl wledydd*—gan na bu digon o wlaw, tareth, &c., yn Ethiopia a manau ereill i chwyddo y Nilus fel ag i effeithio llifeiriant priodol yn yr Aifft, byddai i'r un achos beri sychder, ag o ganlyniad brinder, yn yr holl wledydd cymydog-aethol; a dichon mai hyn yw y cwbl a feddylir yn y testyn.

PEN. XLII. Adn. 1. *Pan welodd Jacob fod yd yn yr Aifft*] Hyn yw, pan *gilydd* ef fod yno ddigonedd. Y mae gweithrediadau un synwyr, yn yr Hebraeg, yn cael eu rhoddi yn aml am weithrediadau synwyr arall; yn debyg fel y dywedwn ninaw yn Nghymru *chlywed*, am deimlo, archwaethu, &c. Cyn bod amaethyddiaeth yn briodol adnabyddus ac arferedig, yr oedd newyn yn dygwydd yn fynych; ac ymddengys fod Canaan yn cael ei blino yn neillduol ag ef. Bu un yn y wlad hon yn amser Abraham, pen. xii. 10; un arall yn nyddiau Isaac, pen. xxvi. 1; ac yn awr y trydydd yn amser Jacob. At hwn y cyfeiria St. Stephan, Act. vii. 11. Gwel ar Act. xi. 28.

Adn. 2. *Ewch i waered yno*] Fel hyn rhaid i benau teuluoedd nid yn unig weddio am fara beunyddiol, ond hefyd trwy ragofal a diwydrwydd ymdrechu ei gyraedd ef.

Adn. 3. *A deg brodyr Joseph a aethant, &c.*] Gwnaeth Jacob i'r deg fyned gyda'u gilydd, 1. Fel y byddai iddynt allu amddiffyn eu gilydd yn well ar y ffordd; ac, 2. Rhag na werthai yr Aifftiaid ond rhyw fesur bychan i un ddeithrddyn.

Adn. 4. *Ond ni ollyngai Jacob Benjamin*] Am ei fod yn ewyllysio ei gadw ef i fod yn

efe a ddywedodd, Rhag dygwydd nid wedd iddo ef.

5 A Meibion Israel a ddaethant i brynu yn mhlith y rhai oedd yn dyfod; oblegid yr ydoedd y newyn yn ngwlad Canaan.

6 A Joseph oedd lywydd ar y wlad, ac oedd ei hun yn gwerthu i holl bobl y wlad: a brodyr Joseph a ddaethant, ac a ymgyrmasant i lawr iddo ef ar eu hwynbau.

7 A Joseph a ganfu ei frodyr, ac a'u hadnabu hwynt, ac a ymddyethiodd iddynt hwy, ac a lefarodd wrthynt yn yr arw, ac a ddywedodd wrthynt, O ba le y daethoch? Hwythau a atebasant, O wlad Canaan, i brynu llun-iaeth.

8 A Joseph oedd yn adnabod ei

frodyr; ond nid oeddynt hwy yn ei adnabod ef.

9 A Joseph a gofiodd ei freuddwydion a freuddwydiasai efe am danynt hwy; ac a ddywedodd wrthynt, Ysbiwyr ydych chiwi: i edrych noethder y wlad y daethoch.

10 Hwythau a ddywedasant wrtho ef, Nage, fy arglwydd; ond dy weision a ddaethant i brynu llun-iaeth.

11 Nyni oll ydym feibion un gŵr: gwŷr cywir ydym ni; nid yw dy weision di ysbiwyr.

12 Yntau a ddywedodd wrthynt hwy, Nage; ond i edrych noethder y wlad y daethoch.

13 Hwythau a ddywedasant, Dy weision di oedd ddeuddeng mrodyr, meibion un gŵr yn ngwlad Canaan:

etifedd y fendith yn lle Joseph, yr hwn y tybiai ef ei fod wedi marw.

Adn. 5. *Yn mhlith y rhai oedd yn dyfod*] Canys ymddengys fod yr holl wledydd oddi-amgylch yn dylfio erbyn hyn i'r Aifft i brynu ŷd.

Adn. 6. *A Joseph oedd lywydd ar y wlad*] Heb. *shallit*, un wedi ei benodi yn llywodraethwr neu reolydd; a dywedir fod y gair Arabig *sultan*, 'arglwydd, tywysog, neu frenin,' yn dyfod oddiwrtho. *A brodyr Joseph a ddaethant*—i wyddfod llywydd y wlad, ac a ymgyrmasant i lawr iddo ef ar eu hwynbau—gan gyflawni fel hyn y breuddwyd profwydoliaethol, pen. xxxvii. 7, 8, yr hwn yr oeddynt wedi cymeryd pob rhagocheliad i'w attal a'i ddirymu. Ond nid oes gallu na chynghor yn erbyn yr Arglwydd.

Adn. 7. *A Joseph a ganfu ei frodyr, &c.*] Y rhai na weisai efe o'r blaen er's oddentu dwy flynedd ar hugain: gwel ar pen. xxxviii. 1. Da y gallwn ryfeddu na ddarfu i Joseph yn ystod yr holl amser hwn, yn enwedig yn ystod y naw mlynedd diweddaf pryd yr oedd yn llywyddu ar yr Aifft, erioed anfon at ei dad i fynegu iddo ei amgylchiadau; i'e, y mae yn hynod na ddarfu iddo ef, yr hwn mor fynych 'a dramwyai trwy holl wlad yr Aifft,' erioed fyned i Ganaan i ymweled â'i dad oedranus. Pan ar gyffiniau yr Aifft y rhai a orveddent nesaf i Ganaan, dichen na buasai uwchlaw taith tri neu bedwar diwrnod iddo ef yn ei gerbyd. Ond diamau fod hyn oll dan gyfarwyddyd neilldnoel y Nef, fel y byddai i'wriad Duw yn nghylch Jacob a'i deulu gael ei gyflawni.

Adn. 8. *A Joseph oedd yn adnabod ei frodyr*] Trwy fod deg o honynt gyda'u gilydd, a bod rhyw argraff ar ei feddwl yn barhans o wynebryd rhai, os nid pob un o honynt. *Ond nid oeddynt hwy yn ei adnabod ef*—am ei fod wedi cyfnewid yn ei berson o fod yn llanc 17 oed, i fod yn ddy 39 oed; am ei fod wedi ymwisgo â theyrn-wisgoedd ceinwch, ac yn lefaru yr Aifftaeg; ac uwchlaw y cwbl, am nad oeddynt yn dysgwyl cyfarfod ag ef yno.

Adn. 9. *A Joseph a gofiodd ei freuddwyd-*

ion] Wrth weled ei ddeg brawd yn ymgrymu ar y ddaear; a gallwn feddwl fod ei enaid yn toddi gan gynhyrifiadan duwiol, a'i holl feddyliau yn cael eu cynull at yr un pwynt hwn, sef, Pa beth a wnaif i'w dwyn hwy i wir edifeirwch, a'u gwneyd yn ddyinion da? *Ysbiwyr ydych chiwi*—gwibiaid, crwydriaid, traed-ladron. *I edrych noethder y wlad y daethoch*—dan yr esgus o brynu ŷd; i edrych a ydwy y wlad mor ddiameddifyn fel ag y gall y *Hwythau* ag y perthynwch chiwi iddynt ymosod arni yn llwyddiannus, gyru allan y trigolion, ac ymsefydlu ynddi eu hunain, neu, ar ol ei hyspeilio, encilio i'r anialwch. Y mae hyn yn arferiad aml yn mhlith yr Arabiaid hyd heddyw. Fel hyn llefarai Joseph wrthynt *yn arw*, adn. 7, yn unig i guddio y serchogrydd gwresog a deimlai efe tuag atynt; ac fel y byddai i'w cydwybodau, ar ol eu dwyn fel hyn i amgylchiadau cyfyng a pheryglus, gael eu deffro i ystyried a ffeiddio eu drygioni eu hunain.

Adn. 10. *Nage, fy arglwydd*] Nid ysbiwyr ydym ni; ac nid i edrych noethder y wlad y daethom, eithr i brynu llun-iaeth.

Adn. 11. *Nyni oll ydym feibion un gŵr*] Ac nid yn perthyn i wahanol *Hwythau*; ac nid yw yn debyg y byddai i *un teulu* ymosod ar deyrnas gyfaa.

Adn. 12. *Nage; ond i edrych noethder y wlad y daethoch*] Mynai Joseph ddadlu eu bod yn rhy agos i'w gilydd mewn oedran i fod yn frodyr, ac yn edrych yn debycach i feistriaid nag i weision; ac o ganlyniad mai cynrychiolwyr deg o wahanol *Hwythau* rhyfelgar y rhaid eu bod.

Adn. 13. *Dy weision di oedd ddeuddeng mrodyr*] Yr oeddynt ni yn y cwbl yn ddeuddeg brawd, oll o'r un tad, ac yn llwyddiannus a dedwydd cyhyd ag yr oeddynt oll gyda'u gilydd; ond ar farwolaeth un o honom, enw yr hwn oedd *JOSEPH*, ein hachosion a'n hamgylchiadau a oddefasant gyfnewidiad hynod. Y mae gan yr Iuddewon draddodiad, na lwyddodd eu gorchwylion hwy byth ar ol gwerthu Joseph; ac iddynt gymeryd y daith hon mewn rhan i ymholi yn ei gylch ef.

ac wele, y mae yr ieuangaf heddyw gyda'n tad ni, a'r llall nid yw fyw.

14 A Joseph a ddywedodd wrth-ynt, Dyma yr hyn a adroddais wrthych, gan ddywedyd, Ysbiwyr *ydych* chwi.

15 Wrth hyn eich profir: Myn einioes Pharao, *nid* ewch allan oddiyma, ond trwy ddyfod o'ch brawd ieuangaf yma.

16 Hebryngwch un o honoch i gyrchu eich brawd, a rhwymer chwithau; fel y profer eich geiriau chwi, a oes gwirionedd ynoch: oblegid onidê (myn einioes Pharao) ysbiwyr yn ddiâu *ydych* chwi.

17 Ac efe a'u rhoddodd hwynt i gyd yn ngharchar dridiau.

18 Ac ar y trydydd dydd y dywedodd Joseph wrthynt, Gwnwch hyn, fel y byddoch fyw: ofni Duw yr wyf fi.

19 Os gwŷr cywir *ydych* chwi, rhwymer un o'ch brodyr chwi yn eich carchardy; ac ewch chwithau, dygwch yd *rhag* newyn i'ch tylwyth.

20 A dygwch eich brawd ieuangaf ataf fi: felly y cywirir eich geiriau chwi, ac ni byddwch feirw. Hwytthau a wnaethant felly.

21 ¶ Ac a ddywedasant wrth eu gilydd, Diau bechu o honom yn erbyn ein brawd; oblegid gwled a wnaethom gyfyngdra ei enaid ef, pan ymbiliodd efe â ni, ac ni wrandaw-som ef: am hyny y daeth y cyfyngdra hwn arnom ni.

22 A Reuben a'u hatebodd hwynt, gan ddywedyd, Oni ddywedais i wrthych, gan ddywedyd, Na phechwch yn erbyn yr herlod; ac ni wrandawech chwi? wele am hyny ynte y gofynir ei waed ef.

23 Ac nis gwyddent hwy fod Jo-

Y mae yr ieuangaf heddyw gyda'n tad ni— dyma y peth ag yr oedd Joseph yn awyddus i'w wybod; canys y mae yn debyg ei fod yn ofni ddarfod iddynt ymddywyu tuag at Benjamin megys ag yr ymddygasent tuag ato yntau.

Adn. 14. *Dyma yr hyn a adroddais wrthych*] Y mae hyn yn cadarnhau yr hyn a ddywedais, ac yn rhoddi i mi seiliau cyfiawn i dybio eich bod mewn gwirionedd yn *ysbiwyr*: yr *ydych* yn hōni fod genych frawd arall; paham gan hyny nad anfonasai eich tad y cwbl, yn gystal a'r deg?

Adn. 15. *Wrth hyn eich profir*] Pa un ai ysbiwyr *ydych* ai peidio, neu a ydyw eich geiriau yn wirionedd, trwy gael *gwled* eich brawd ieuangaf. *Myn einioes Pharao*—*Heb. chey Pharaoh*, 'BYW YW PHARAO.' Fel pe dywedasai, Cyn wired a bod brenin yr Aifft yn fyw, nid ewch chwi oddiyma os na ddaw eich brawd yma. Tybia Clarke ac ereill nad yw hyn yn *llw*: modd bynag, arferai y cenedloedd dyngu trwy fywyd neu iechyd eu brenhinoedd a'u hamherawdwyr, fel y gwnai yr Iuddewon trwy eu Duw byw; ac y mae yn debyg fod Joseph yn arfer yr eiriadaeth hon er ymguddio yn well oddiwrth ei frodyr, ac i wneyd iddynt feddwl mai Aifftwr oedd efe.

Adn. 16. *A rhwymer chwithau*] Ond yn fuan cawn iddo newid ei gynllun, trwy rywmo un yn unig, ac anfon ynaith y naw: gwel ar adn. 19.

Adn. 17. *Ac efe a'u rhoddodd hwynt i gyd*] Sef y deg brawd gyda'u gilydd, yn *ngharchar dridiau*—ni chadwai efe hwynt yn hwy, *rhag* i'w tad gael ei flino trwy eu hoediad. Yma cawsant amser i adgofio y modd y rhoddasant eu brawd yn y pydew, heb sylwi ar gyfyngdra ei enaid ef: ac yn awr yr oeddnt hwythau yn y pydew, heb neb i'w cysuro.

Adn. 18. *Ofni Duw yr wyf fi*] Fel pe dywedasai, Gallwch fod yn sicr na wnaf fi ddim cam â chwi; canys mi a wn, er mor uchel

ydwyf, fod un uwch na myfi yn y nefoedd, i'r hwn yr wyf yn gyfrifol. Fel hyn y mae genym bob rheswm i ddysgwyl tegwch oddiwrth y rhai sydd yn ofni Duw. Yr *ofn* hwn, ond odid, a gymhellodd Joseph i rywmo un yn unig, ac nid y naw, adn. 16.

Adn. 19. *Rhwymen un o'ch brodyr chwi yn eich carchardy*] Y mae ef yn gadael i *naw* ddychwelyd adref, 1. Am na fynai flino ond cyn lleied ag a allai ar ei dad. 2. Am fod llawer o ddwyllaw yn angenrheidiol i drosglwyddo yr yd i Ganaan. 3. Am fod yn fwy diogel iddynt deithio trwy fod llawer yn nghyd. 4. Am y byddai cynifer o honynt yn nghyd yn debyeach i lwyddo gyda'u tad i gael Benjamin.

Adn. 20. *Hwytthau a wnaethant felly*] A gydsyniasant i adael un o honynt ar ol yn wystl o ymddangosiad Benjamin.

Adn. 21. *Diau bechu o honom yn erbyn ein brawd*] Fel pe dywedasant, Hyn yw cosp gyfiawn y creulondeb hwnw a ddangosom tuag at ein brawd. Er i ni allu ei guddio oddiwrth ddynion, yr ydym yn awr yn gwled ac yn teimlo ei fod yn hysbys i Dduw, yr hwn sydd yn ein cosp am dano! Fel hyn y mae y dialedd dwyfol yn eu dal hwynt, a'u cydwybod yn eu poenydio, am bechod a wnaed ganddynt ddwy flynedd ar bugain yn ol; a darfu i'w tralloed, gallwn obeithio, eu dwyn hwynt i edifeirwch. *Oblegid gwled a wnaethom gyfyngdra ei enaid ef, pan ymbiliodd efe â ni*—ni chrybwyllir am yr ymbiliodd hwn yn yr banes fel ei hadroddir pen. xxxvii. 23, &c.; ac oddiyma y dysgw'n, nad yw dystawrwydd yr ysgrythyr yn nghylch unrhyw amgylchiadau yn brawf digonol na chymerasant le.

Adn. 22. *Oni ddywedais i wrthych, gan ddywedyd, Na phechwch yn erbyn yr herlod*] Neu y llanc. Rhaid fod y dywediad hwn yn effeithio yn fawr ar Joseph, yr hwn yn debygol ni wyddai o'r blaen am fynerwch Reuben tuag ato pryd yr oedd ei dywyd ef mewn perygl: gwel pen. xxxvii. 21, 22.

seph yn eu deall; am *fod* cyfieithydd rhyngddynt.

24 Yntau a dröodd oddiwrthynt, ac a wylodd; ac a ddaeth eilchwyl atynt, ac a lefarodd wrthynt hwy, ac a gymerth o'u mysg hwynt Simeon, ac a'i rhwymodd ef o flaen eu llygaid hwynt.

25 ¶ Joseph hefyd a orchymynodd lenwi eu sachau hwynt o yd, a rhoddi drachefn arian pob un o *honynt* yn ei sach, a rhoddi bwyd iddynt i'w fwyta ar y ffordd: ac felly y gwnaeth iddynt hwy.

26 Hwytiau a gyfodasant eu hŷd ar eu hasynod, ac a aethant oddiyno.

27 Ac un a agorodd ei sach, ar fedr rhoddi ebran i'w asyn yn y llety; ac a ganfu ei arian: canys wele hwynt yn ngenau ei ffetan ef.

Adn. 23. *Am fod cyfieithydd rhyngddynt*] Yr oedd gwaith Joseph yn cymeryd arno nad oedd yn deall eu hiaith yn gyfrwysdra mawr, trwy yr hyn y deallodd efe eu gwir feddyliau, gan yr ymddengys eu bod yn llefaru wrth eu gilydd yn eu hiaith eu hunain yn rhydd o'i flaen ef, ond odid ar ol i'r cyfieithydd fyned ymaith.

Adn. 24. *Yntau a dröodd oddiwrthynt, ac a wylodd*] Os yw ymddygiad brodyr Joseph yn rhoddi i ni brawf nodedig o allu cydwybod, y mae Joseph ei hun yn rhoddi i ni brawf nodedig o allu natur: wedi ei gynhyrfu gan eu tralod a'u cyfyngder, darfu i holl dynerwch brawd lenwi ei galon, a thynu dagrau o'i lygaid. Er mor greulon yr ymddanghosai efe tuag atynt yn ei ymddygiad allanol, yr oedd ei enaid a'i serchiadau yn llawn o dynerwch tuag atynt. Ei olwg, ei agwedd, ei lais, a'i wisg, oeddynt eiddo estron; eithr ei galon oedd galon brawd. *Ac a gymerth o'u mysg hwynt Simeon*—yr hwn, meddai y rabbiniaid, a rwyomasai Joseph, ac a'i taflasai ef i'r pydw. *Ac a'i rhwymodd ef o flaen eu llygaid hwy*—mewn flordd o ad-daliad. Os yw barn y rabbiniaid yn gywir, rhaid fod yr adgofiad o'r amgylchiad hwn yn chwaneu yn fawr at ei ofid presenol.

Adn. 25. *A Joseph hefyd a orchymynodd lenwi eu sachau*] Heb. *keleyhem*, eu llestri; yn debygol codau mawrion o frethyn, neu fasedgi wedi eu gwisgo oddifewn â lledr, y rhai, fel y dywed Syr John Chardin, sydd eto mewn arferiad trwy holl Asia, ac a elwir *tambellet*: y maent wedi eu gwisgo â lledr er cadw y gwlybanaeth allan yn well, ac i attal i'r llaid a'r tywod ymgymysgu â'r yd. Rhaid fod y *llestri* hyn, pa fath bynag oeddynt, yn wahanol i'r rhai a elwir yn yr Hebraeg *sak*, yn adn. 27, &c., ac a gyfieithwn ni yn *ffetan*, yr hon yn debyg nad oedd ond ysgrepan fechan i gadw digon o borthiant i'r asyn yn ystod y daith; a'r *llestri*, neu y sachau mwy, a wasanaethent i gario y reis neu y gwenith a ddygent i'w tad. *A rhoddi drachefn arian pob un o honynt yn ei sach*—oddiethr un,

28 Ac a ddywedodd wrth ei frodyr, Rhoddwyd adref fy arian; ac wele *hwynt* hefyd yn fy ffetan: yna y digalonasant hwy, ac a ofnasant, gan ddywedyd wrth eu gilydd, Paham y gwnaeth Duw i ni hyn?

29 ¶ A hwy a ddaethant at Jacob eu tad i wlad Canaan; ac a fynegasant iddo ef eu holl ddamweiniau, gan ddywedyd,

30 Dywedodd y gŵr *oedd* arglwydd y wlad yn arw wrthym ni, ac a'n cymerth ni fel ysbwiwr y wlad.

31 Ninau a ddywedasom wrtho ef, Gwŵr cywir *ydym* ni; nid ysbwiwr ydym.

32 Deuddeg o frodyr *oeddym* ni, meibion ein tad ni: un nid *yw fyw*, ac *y mae* yr ieuangaf heddyw gyda'n tad ni yn ngwlad Canaan.

arian yr hwn a roddwyd yn ei ffetan, adn. 27.

Adn. 26. *Hwytiau a gyfodasant eu hŷd ar eu hasynod*] Y rhai oeddynt yn cyraedd, fel y bernir, i amrai ugeiniau, os nid cannoedd; onidê ni allasant gludo digonedd o yd er cynaliaeth tenlu mor fawr ag eiddo Jacob.

Adn. 27. *Ac un a agorodd ei sach*] Neu ei ffetan, gwel ar adn. 25; *ar fedr rhoddi ebran i'w asyn yn y llety*—neu y fan lle yr arhosent i gael bwyd iddynt eu hunain a glaswellt i'w hasynod, yr hyn yn gyffredin fyddai wrth ryw ffynnon; canys nid oedd gwestdai neu dafarnau yn yr anialwch dros yr hwn yr oeddynt yn teithio, ac nid oes yno rai hyd heddyw. *Ac a ganfu ei arian*—yn ngenau ei ffetan, fel y dywedir yma. Yr oedd arian y lleill wedi eu rhoddi yn *nqraetod* eu ffetanau, fel y tybia rhai, yr hyn oedd yr achos paham na chanfuasant hwytiau hwy; neu, yr hyn sydd debycaf, rhoddesid hwynt yn y sachau neu y llestri yn y rhai y carient yd i'w cartref, fel y nodwyd ar adn. 25.

Adn. 28. *Yna y digalonasant hwy*] Heb. 'eu calon a aeth allan'; yr hyn a gyfeiria at y gwynegau a deimlir yn y fynwes ar nrrhwy fraw neu ddychryn sydyn. *Ac a ofnasant*—hwy a wyddent fod yr Aiffitiaid yn ffeiddio yr Hebreaid, pen. xliii. 32; ac am hyn, gan na allent ddysgwyl derbyn dim tiriondeb oddiwrthynt hwy, clasglasant fod yr arian wedi eu rhoddi yn y ffetan i'r dyben i dnyu eweryl â hwynt, ac yn fwy felly gan i lywydd y wlad eu cybuddo eisioes fel ysbwiwr. Fel hyn deonglent bob amgylchiad yn yr achos hwn fel bwriad *Duw* i ddwyn niwed iddynt, o herwydd eu triniaeth greulon ac annaturiol o'u brawd.

Adn. 29—31. *A hwy a ddaethant at Jacob eu tad i wlad Canaan*] Ac a fynegasant iddo y cwbl a ddygwyledd rhyngddynt hwy ac arglwydd y wlad, fel yr adroddwyd adn. 7, &c.

Adn. 32. *Meibion ein tad*] Tybia Boothroyd mai yr iawn ddarlleniad oedd 'meibion un tad,' fel yn adn. 11, 13.

33 A dywedodd y gŵr oedd arglwydd y wlad wrthym ni, Wrth hyn y caf wybod mai cywir ydych chi; gadewch gyda myfi un o'ch brodyr, a chymerwch *luniacth i dori* newyn eich teuluoedd, ac ewch ymaith.

34 A dygwch eich brawd ieuangaf ataf fi, fel y gwybyddwyf nad ysbwyr ydych chi, ond *eich bod yn gywir: yna y rhoddaf eich brawd i chi*, a chewch farchnata yn y wlad.

35 ¶ Fel yr oeddynt hwy yn tywallt eu sachau, yna wele godaidd arian pob un yn ei sach: a phan welasant y codau arian, hwynt-hwy a'u tad, ofni a wnaethant.

Adn. 33, 34. *Gadewch gyda myfi un o'ch brodyr*] Y maent yn cymeryd gofal da i beidio mynegu i'w tad oedranus fod Simeon yn ngharchar, rhag i hyny ddychrynu yr hen ŵr, ac attal iddo ollwng Benjamin, ac am hyny nid ydynt oud yn unig yn hysbysu fod arglwydd y wlad wedi peri iddynt ei adael gydag ef, hyd nes y dygent Benjamin i'r Aifft.

Adn. 35. *Fel yr oeddynt hwy yn tywallt eu sachau*] Gwel ar adn. 25, 27.

Adn. 36. *Diblantasoeh fi!*] Pwy a fedr ddarlenn yr alarnad hon o eiddo Jacob heb gael ei gynhyrfu ganddi! Y mae efe yn ystyried Simeon megys yn farw eisioes, gau ei fod dau awdurdod gŵr mor erwin ag y darlunient hwy arglwydd y wlad. Y mae yn adfyfyrio ar ei gollod flaenorol o Joseph, ac yn edrych ar Benjamin hefyd fel ar gael ei gymerodd oddiwrho; a'r hyn sydd yn ei wneuthur yn bruddach fyth yw, ei fod yn meddwl nad yw ei feibion yn cydymdeimlo âg ef, nac yn gofidio nemawr o herwydd y trallodion hyn: i.e. ymddengys fod y tad annedydd yn meddwl mai amcan ei feibion oedd ei amddifadu ef eto o Benjamin. Y mae rhai o'r farn fod Jacob, trwy i'w feibion ddyfod â'r arian adref heb Simeon, yn ofni ddarfod iddynt ei werthu ef am yr ŷd, a'u bod eto yn bwriadu gwerthu Benjamin hefyd. *In fy erbyn i—yn llythyrenol, arnaf fi y mae hyn oll!*—y maent yn gorwedd arnaf fel beichiau trymion, gan brysuro fy narwolfaeth. Mor barod y buom ninau oll i faddwla a dyweddyr yn peth yn nghanol siomedigaethau neu gystuddiau rhagluniaeth, hyd yn nod pan y byddai pob peth, er mewn ffordd ddirgelaid, yn cydweithio er daioni i ni!

Adn. 37. *A dywedodd Reuben wrth ei dad—Lladd fy nau fab i*] Yn lytrach, 'lladd ddau o'm meibion,' canys yr oedd ganddo bedwar, pen. xlvii. 9; *oni ddygaf ef drachefn ataf ti*—y fath gynygiad hynod oedd hwn! Pa awdurdod oedd gan Reuben i ofstrwm bywydau ei blant? a pha fodd y gallai llofruddiaeth dau ŵyr wneyd iawn i Jacob am y gollod o'i fab Benjamin? Heblaw hyn, pa fodd y gwyddai efe y byddai i Benjamin fod yn fyw i ddychwelyd, neu y gallai ef ei adferyd i'w dad? O leiaf dylasai ddyweddyd,

36 A Jacob, eu tad hwynt, a ddywedodd wrthynt hwy, Diblantasoeh fi: Joseph nid *yw fyw*, a Simeon yntau nid *yw fyw*, a Benjamin a ddygech ymaith: yn fy erbyn i y mae hyn oll.

37 A dywedodd Reuben wrth ei dad, gan ddyweddyd, Lladd fy nau fab i, oni ddygaf ef drachefn ataf ti: dyro ef yn fy llaw i, a mi a'i dygaf ef ataf ti eilwaith.

38 Yntau a ddywedodd, Nid â fy mab i waered gyda chi: oblegid bu farw ei frawd, ac yntau a adawyd ei hunan: pe dygwyddai iddo ef niwed ar y ffordd yr ewch ar hyd-ddi, yna chi a barech i'm penwyni ddisgyn i'r bedd mewn tristwch.

'Os yr Arglwydd a'i myn.' Modd bynag, y mae Reuben yn hyn yn dangos gonestrwydd a serchogrydd calon: yr oedd ef yn teimlo yn ddwys o herwydd cyfyngder ei dad, ac yn penderfynu anturio a pheryglu pob peth mewn trefn i'w gynal a'i gysuro ef.

Adn. 38. *Nid â fy mab i waered gyda chi*] Ni all dim fod yn fwy effeithiol na'r adnod hon: y mae yn ein toddi wrth ei darllen, ac mor ddarluniadol nes y mae yn gosod yr hen batriarch hybarch fel yn bersonol o flaen ein llygaid. *Bu farw ei frawd*—pan ollyngais Joseph bach atoch chiw flynyddau meithion yn ol, llarpiwyd ef gan fwystrfild, fel na welais ddim oddiwrho ond ei siaced waedlyd; ac yntau a adawyd ei hunan—hyny yw, Benjamin yw yr unig fab ag sydd ar ol o blant fy anwyl Rahel. *Pe dygwyddai iddo ef niwed ar y ffordd*—fel y dygwyddodd i'w frawd Joseph; yna chi a barech i'm penwyni ddisgyn i'r bedd mewn tristwch—yma efe a geidw i fyny y drychfeddwl o faich trwm, fel y crybwyllwyd adn. 36, at yr hwn yr oedd pob dygwyddiad yn chwlanegu mwy o bwys, nes y teimlai fod yn annichonadwy iddo ymgynal dano yn hwy. Fel hyn, yn llawn o serch at ei anwyl Rahel ymadawedig, ni all ef feddwl am ymadael â Benjamin, yr unig wylst arhosawl o'r serch hwnw, trwy fod Joseph ei mab arall, yn ol ei feddwl ef, wedi marw. Yr ydym fel yn gweled yr hybarch dad penwyn yn dadlu â'i feibion, a Benjamin hoff yn sefyll wrth ei ochr: yn eu gwynebryd hwy wele dristwch diamyoned; yn yr eiddo ef, holl bryder gwaedawl serchogrydd tad! Bydd yn anhawdd cael mewn un awdwr, hen na diweddar, ddarlun rhagorach.

ADFFEDDYLIAADAU.—(1) Y brodyr hyn, ar ol cael eu carcharu fel ysbwyr, a allent yn awr olrhain cysylltiad rhwng eu dyoddefiadau presenol a'u pechodau gynt. Ni ddylem ninau yr un modd byth fethu â gwneuthur hyn, fel y gallom gyfarfod â llaw geryddol Duw gyda chalon isel ac edifeiriol. Ei geryddon celyd a'i driniaeth chwerw a fwriadwyd yn raslawn er ein gwneuthur yn well dynion. (2) Ond a ddarfu i Joseph chwilio am le i ŷylo y foment y clybu ef ei brodyr yn dechreu eu cyhuddo eu hunan? O! y llawenydd sydd yn

PENNOD XLIII.

A'R newyn oedd drwm yn y wlad.

2 A bu wedi iddynt fwyta yr ŷd a ddygasent o'r Aifft, ddywedyd o'u tad wrthynt hwy, Ewch eilwaith, prynwch i ni ychydig luniaeth.

3 A Juda a atebodd, gan ddywedyd, Gan rybyddio y rhybyddiodd y gŵr nyuni, gan ddywedyd, Nac edrychwch yn fy wyneb, oni bydd eich brawd gyda chwi.

4 Os anfoni ein brawd gyda ni, a awn i waered, ac a brynwn i ti luniaeth.

5 Ond os ti nid anfoni, nid awn i waered; oblegid y gŵr a ddywedodd wrthym ni, Nac edrychwch yn fy wyneb, oni bydd eich brawd gyda chwi.

6 Ac Israel a ddywedodd, Paham

ngwydd angylion Duw yn y nef pan y mae pechadur yn edifarbau, ac yn dyfod yn ddu newydd! A phan y mae dynion da yn gallu wŷlo fel Joseph dan deimlad rhyfeddol o hir a mawrion drugareddau Duw, y mae yn arwydd sicr o galon rasol. Y mae yr enaid yn ymchwyllo gyda chynhyrfadau o hyder a llawenydd: y mae yn edrych yn uwch na phethau y byd, ac yn dysgwyl yr Arglwydd fel ei wobwr mawr iawn. (3) A ddarfu i Joseph hefyd, er ei ddagrau, barbau yn ei ddyledswydd trwy gareharu Simeon? Yr un modd Duw, y Barnydd a'r Deddfroddwr, ar ol iddo unwaith ymaflwyd yn y pechadur euog, ni fydd iddo ei ollwng nes ei ddwyn i gyflawn gyfaddefiad. Na foed i neb gan hyny ddiffodd argyhoeddiadau, a gwrthgynhyrfu fel yr ŷch anarferol â'r iau; yn hytrach boed iddo weddio am i'r Arglwydd daraw eto yn drymach, a rhoddi iddo ddyfnach gofid am ei bechodau. (4) Yn nghallineb Joseph y mae gan weinidogion yr efengyl gynllun rhagorol i drin pobl ddeffroedig. Buasai i'w galon deimladwy a'i lygaid wŷlofus yn llawen anfon y newyddion gorffoeddus am ei holl ogoniant yn yr Aifft i'w dad galarus; ond hyn ni allai ei vneuthur heb ddyfetha y gwaith o edifeirwch a ddechreuwyd mor lwyddiannus yn nghalonau ei frodyr; ac yr oedd eu hiachawdriaeth hwy yn fwy pwysig na'r newyddion mwya' o lawenydd tymhorol. Rhaid i ninau gau hyny beidio byth â gwneuthur gwaith yr Arglwydd mewn modd arwynebol. Rhaid i ni chwilio y gydwybod a'r galon, a phheidio anmharu y gwaith o edifeirwch trwy gysuron yn cael eu cymhwyso yn niweidiol. Megys y gadawai ef i'w frodyr amrai seiliau i ddisgwyl y driniaeth oraf, os cai efe hwynt yn onest yn eu hadroddiad; felly, yn ystod gorechwyliath argyhoeddiadol yr Ysbyrd Glân, dylai gobraith iachawdwriaeth gael ei ddal allan o flaen y pechadur; ond ni ddylem byth ddysgu iddo feddlw fod ei gyflwr yn ddiogel, hyd nes y delo i wir undeb ffyddiog âg Jesu Crist.

PEN. XLIII. Adn. 1. *A'r newyn oedd drwm yn y wlad*] Sef yn Nghanaan, tua

y drygasoch fi, gan fynegu i'r gŵr fod i chwi eto frawd.

7 Hwytbau a ddywedasant, Gan ymofyn yr ymofynodd y gŵr am danom ni, ac am ein cenedl, gan ddywedyd, Ai byw eich tad chwi eto? Oes frawd arall i chwi? Ninau a ddywedasant wrtho ef ar ol y geiriau hyny: a allem ni gan wybod wybod y dywedai efe, Dygwch eich brawd i waered?

8 Juda a ddywedodd hefyd wrth ei dad Israel, Gollwng y bachgen gyda mi, ninau a gyfodwn ac a awn ynaith; fel y byddom byw, ac na byddom feirw, nyuni, a thithau, a'n plant hefyd.

9 Myfi a fechniaf am dano ef; o'm llaw i y gofyni ef: onis dygaf ef atat

diwedd yr ail flwyddyn; ac yr oedd y gwlaw cynar a diweddard wedi pallu, fel nad oedd dim gobraith am gnwd yn y drydedd flwyddyn chwaith.

Adn. 2. *A bu wedi iddynt fwyta yr ŷd*] Oll o fewn ychydig. Oeddodd Jacob anfon ei feibion drachefn i'r Aifft cyhyd ag y gallai, gan obeithio yn y cyfamers na fyddai i'r newyn barbau yn hir. *Ewch eilwaith, prynwch i ni ychydig luniaeth*—ddigon i ateb angen y flwyddyn hon, canys ni wyddai efe fod pum mlynedd ereill o newyn i ddylyn.

Adn. 3. *Gan rybyddio y rhybyddiodd y gŵr nyuni*] Sef Joseph, 'y gŵr sydd arglwydd y wlad,' fel y mae y LXX yn chwaneu yma.

Adn. 4, 5. *Os anfoni ein brawd gyda ni*] Nyuni a awn, ac a gawn farchnata yn y wlad, fel y dywedodd y llywydd wrthym, pen. xlii. 34; ond os na anfoni ef, ofer yw i ni fyned, am y byddai i einy gadarnbau ei dyb mai ysbwy'r ydym, a'n gosod yn agored yn ddiffiael i garehar ac angau.

Adn. 6. *Paham y drygasoch fi*] Trwy fy narostwng i'r ofnau hyn, os nid yn y pen draw i'r amddifadurwydd o Benjamin?

Adn. 7. *Ymofynodd y gŵr*] A oedd i ni frawd arall; ac atebasom fod, am na wyddem y caulnydd.

Adn. 8. *Gollwng y bachgen gyda mi*] Yr oedd Benjamin y pryd hyn yn 24 mlwydd oed, os nid yn 30; ac yr oedd ganddo deulu ei hun, pen. xlii. 21. *Fel y byddom byw, ac na byddom feirw*—trwy dy fod yn cadw Benjamin, yr wyt yn ein battal ninau rhag myned i'r Aifft; ac os nad awn ni yno, ni chawn ŷd; ac os na chawn ŷd, nyuni a dregwn trwy newyn; a rhaid i Benjamin ei hun, yr hwn angen a allai fyw, yn nghyda thithau a' th holl deulu, farw yn ddiffiael!

Adn. 9. *Yna y byddaf euog o fai i' th erbyn byth*] Ac o gaulnydd yn agored i gosp am dori fy ymddiriediad. Y mae Juda yn awgrymu yma, nid yn unig na vnai efe gam â Benjamin, ond y gwnai yr oll a fedrai i'w amddiffyn a'i ddwyn yn ol i'w dad.

Adn. 10. *Ddwy waith bellach*] Buasem erbyn hyn yn ol yr ail waith. Ymddengys eu

ti, a'i osod ef ger dy from di, yna y byddaf euog o fai i'th erbyn byth.

10 Canys, pe na buasem hwyr-frydig, daethem eilchwyl yma ddywaith bellach.

11 Ac Israel eu tad a ddywedodd wrthyt, Os rhaid yn awr felly, gwnewch hyn; cymerwch o ddewis ffurwythau y wlad yn eich llestri, a dygwch yn arhelig i'r gŵr, ychydig falm, ac ychydig fêl, llysiau, a myrr, cnau, ac almonau.

12 Cymerwch hefyd ddau cymaint o arian gyda chwi; a dygwch eilwaith gyda chwi yr arian a roddwyd drachefn yn ngenau eich sachau: ond odid amryfusedd *fu* hyny.

13 Hefyd cymerwch eich brawd, a chyfodwch, ewch eilwaith at y gŵr.

14 A Duw hollalluog a roddo i chwi drugaredd gerbron y gŵr, fel

y gollyngo i chwi eich brawd arall, a Benjamin: minau fel y'm diblantwyd, a ddiblentir.

15 ¶ A'r gŵr a gymerasant yr arhelig hōno, a chymerasant arian yn ddwbl yn eu llaw, a Benjamin *hefyd*; a chyfodasant, ac a aethant i waered i'r Aifft, a safasant gerbron Joseph.

16 A Joseph a ganfu Benjamin gyda hwynt; ac a ddywedodd wrth yr hwn *oedd olygwr* ar ei dŷ, Dwg y gŵr hyn i'r tŷ, a lladd laddfa, ac arlwyta: oblegid y gŵr a gânt fwyta gyda myfi ar hanner dydd.

17 A'r gŵr a wnaeth fel y dywedodd Joseph: a'r gŵr a ddyg y dynion i dŷ Joseph.

18 A'r gŵr a ofnasant, pan ddygwyd hwynt i dŷ Joseph; ac a ddywedasant, Oblegid yr arian a rodd-

bod wedi bod yn crefu ar Jacob am ollwng Benjamin gyhyd o amser ag a gymerasai iddynt i fyned i'r Aifft a dychwelyd adref.

Adn. 11. *Os rhaid yn awr felly*] Os rhaid i mi ollwng Benjamin, *gwnewch hyn*—cymerwch arheligion gyda chwi. Fel pe dywedasai, Os na ellir cael ŷd ond ar y telerau hyny, ni waeth i mi ei anturio ef i beryglon y daib, na goddef i ni ein hunain a'n teulnoedd, a Benjamin yn mhllith y lleill, farw o eisiau bara. Fel hyn nid yw yn fai, ond yn ddoethineb ac yn ddyleddwydd, i ninau newid ein penderfyniadau pan y mae rheswm da dros wneuthur felly. Y mae dianwadallwch yn rhinwedd, ond nid yw ystyfnigrwydd: a rhagorfraint Duw yn unig ydyw gwneuthur penderfyniadau ddedifaru. *A dygwch yn arhelig i'r gŵr*—o'r amseroedd boreaf yr oedd arheligion yn cael eu defnyddio fel moddion arweiniad at y mawrion. Sylwir ar hyn yn neillduol gan Solomon: 'Rhodd dyn a eanga arno, ac a'i dwg ef gerbron penaethiaid,' Diar. xviii. 16. Ond pa beth oedd yr arhelig a ddygwyd i Joseph ar yr acblysur hwn? Ar ol holl lafur yr esbonwyr, yr ŷdym yn rhwym o foddlloni ar debygolrwydd a thybiadau. Yn ol ein cyfieithiad ni, y rhoddion oeddynt falm, mêl, llysiau, myrr, cnau, ac almonau.

Adn. 12. *Cymerwch hefyd ddau cymaint o arian gyda chwi*] Sef cymaint arall ag a gymerasant y tro o'r blaen, rhag fod pris yr ŷd wedi codi, neu fel y gallent, os byddai raid, dalu pridwerth dros Simeon. *A dygwch eilwaith gyda chwi yr arian a roddwyd drachefn yn ngenau eich sachau*—yn chwaneogol at y swm blaenorol, fel y galloch dalu am yr ŷd a gawsoch o'r blaen. *Onid odid amryfusedd fu hyny*—neu ddiolfalwch o du yr Aifftiaid.

Adn. 13. *Hefyd cymerwch eich brawd*] Nid yw ef eto yn ei roddi, ond yn unig yn caniatáu iddynt hwy ei gymeryd.

Adn. 14. *A Duw hollalluog a roddo i chwi drugaredd gerbron y gŵr*] Yr oedd Jacob cyn hyn wedi troi brawd digofus yn frawd caru-

aidd trwy arhelig a gweddi, ac yma efe a ddefnyddia yr un moddion. Y rhai a fynant gael trugaredd gan ddynton, rhaid iddynt ei cheisio gan Dduw. *Minau fel y'm diblantwyd, a ddiblentir*—fel pe dywedasai, Os rhaid i mi ymadael â hwynt fel hyn y naill ar ol y llall, mi a ymdawelaf gan ddywedyd, 'Ewyllys yr Arglwydd a wneler!' Ond tybia Clarke fod yr adnod hon wedi ei llefaru yn broffwyddol-iaethol, a darfod i Dduw roddi i Jacob y pryd hyn sicrwydd goruwchnatnriol yr adferid ei blant.

Adn. 15. *Arian yn ddwbl*] Yn chwaneogol at y symau a ddychwelasid yn eu sachau, adn. 12.

Adn. 16. *A Joseph a ganfu Benjamin gyda hwy*] Sef ei frawd cyfan ei hun, yr hwn ni welsai o'r blaen er's 22 o flynyddau, pan yr ydoedd o gylch dwy flywyd oed; a gallwn feddlwl i'r olwg arno effeithio yn ddwys ar ei deimladau. *Dwg y gŵr hyn i'r tŷ*—canys yr oedd prysurdeb y farchnad yn attal Joseph rhag myned atynt ei hun ar yr awr hōno. *Lladd laddfa, ac arlwyta*—hyny yw, gwna ddarpariadau helaeth ac amrywiol gogyfer â gwledd fawr. *Oblegid y gŵr a gânt fwyta gyda myfi ar hanner dydd*—y ciniaw oedd y pryd penaf gan yr Aifftiaid, fel yr oedd y swper yn mhllith y Rhufeiniaid.

Adn. 17. *A'r gŵr a wnaeth fel y dywedodd Joseph*] A laddodd anifeiliaid ac ehediaid, ac a arlywydd ddanteithion. Dywed yr Inddewon mai Manasse, mab hynaf Joseph oedd y gŵr hwn; ond nis gall hyny fod, am nad oedd efe y pryd hyn uwchlaw 6 neu 7 mlwydd oed, os oedd ef cyn hyned a hyny, pen. xli. 50, 51.

Adn. 18. *A'r gŵr a ofnasant*] Y mae pob peth yn eu brawychu hwy; canys ni raid i gydwybod euog wrth un cybuddwr. Y maent yn awr yn teimlo fod Duw yn gofyn ad-daliad, ac ni wyddant i ba raddau, na pha le y terfyna. *Ac i ruthro i ni*—Heb. 'i ymdreiglo arnom ni.' Cyffelybiaeth yn cael ei chymeryd oddiwrt h *ymafwyr*: wedi i un

wyd eilwaith yn ein sachau ni yr amser cyntaf, y dygwyd nyni i mew; i frwr hyn arnom ni, ac i rutilro i ni, ac i'n cymeryd ni yn gaethion, a'n hasynod hefyd.

19 A hwy a nasant at y gŵr oedd *olygwr* ar dŷ Joseph, ac a lefarasant wrtho, wrth ddrws y tŷ,

20 Ac a ddywedasant, Fy arglwydd, gan ddisgyn y disgynasom yr amser cyntaf, i brynu lluniaeth.

21 A bu, pan ddaethom i'r llety, ac agoryd ein sachau, yna wele arian pob un yn ngenau ei sach; ein harian ni, *meddaf*, yn ei bwys: ond ni a'i dygasom eilwaith yn ein llaw.

22 Dygasom hefyd arian arall i waered yn ein llaw, i brynu lluniaeth: nis gwyddom pwy a osododd ein harian ni yn ein ffetanau.

23 Yntau a ddywedodd, Heddwch iwch'; nac ofwch: eich Duw chwi, a Duw eich tad, a roddes i chwi drysor yn eich sachau; daeth eich arian chwi ataf fi. Ac efe a ddyg Simeon allan atynt hwy.

24 A'r gŵr a ddyg y dynion i dŷ Joseph, ac a roddes ddwfr, a hwy a olchasant eu traed; ac efe a roddes ebran i'w hasynod hwyt.

25 Hwytthau a barotoisant eu hanrheg erbyn dyfod Joseph ar hanner dydd: oblegid clywsent mai yno y bwytäent fara.

26 ¶ Pan ddaeth Joseph i'r tŷ, hwythau a ddygasant iddo ef yr anrheg oedd ganddynt i'r tŷ, ac a ymgrymasant iddo ef hyd lawr.

27 Yntau a ofynodd iddynt am eu hiechyd, ac a ddywedodd, Ai iach yr hen ŵr eich tad chwi, yr hwn y soniasoch *am dano*? ai byw efe eto?

28 Hwytthau a ddywedasant, Iach yw dy was, ein tad ni; byw yw efe eto. Yna yr ymgrymasant, ac yr ymostyngasant.

29 Yntau a ddyrchafodd ei lygaid, ac a ganfu ei fraud Benjamin, mab ei fam ei hun; ac a ddywedodd, Ai dyma eich brawd ieuangaf chwi, am yr hwn y dywedasoch wrthyf fi? Yna y dywedodd, Duw a roddo ras i ti, fy mab.

daflu ei wrthwynebwr i lawr, efe a ymdreigla arno, i'r dyben i'w gadw i lawr: gwel Job xxx. 14. *A'n hasynod hefyd*—o'r rhai yr oedd ganddynt ond odid nifer mawr: gwel pen. xlii. 26.

Adn. 19—22. *A hwy a nasant at y gŵr oedd olygwr ar dŷ Joseph, &c.*] Y mae rhydder yn awr yn ymddygiad brodyr Joseph na fodolodd o'r blaen: y maent yn syml a gonest yn adrodd yr holl amgylchiad o gael yr arian yn eu sachau ar eu dychweliad o'u taith ddiweddar: gwel yr adfeddyliadau. Fel hyn y mae gan *gystuddiau* oddiar law Duw, a than ei gyfarwyddyd ef, duedd ryfeddol i ddarostwng yr enaid. Pe gwyddai dynion mor rasol yw ei ffridiadau ef yn anfonid y cyfiaw, ni chlywid byth ddim grwgnachrwydd yn erbyn ffyrdd dwyfol ragluniaeth.

Adn. 23. *Yntau a ddywedodd, Heddwch iwch'*] Ni fydd dim niwed i chwi am hyn, *Eich Duw chwi, a Duw eich tad, a roddes i chwi drysor yn eich sachau*—trwy ei ragluniaeth ddaionus a'i oruwchlywodraeth ddoeth ef y bu hyn. Y mae efe yn llefaru fel hyn yn ddiamau am fod Joseph wedi ei hyfforddi ef a'r lleill o'r teulu yn y wybodaeth o'r gwir Dduw, a'r cyfammod y naethai efe âg Abraham, Isaac, a Jacob. *Daeth eich arian chwi ataf fi*—Heb. *caspechem ba clai*, 'y mae eich arian yn dyfod i mi.' Fel pe dywedasai, Gan mai myfi yw y golygwr, y mae yr arian am yr ŷd yn perthyn i mi. Nid oes genych achos i ofni dim drwg, canys rhyngof fi a chwi y mae yr holl orchwyliaeth: derbyniwch gan hyn yr arian fel anrheg oddiwrth *Dduw eich tad*, ni waeth trwy ddwyllaw pwy y cyflwyna efe hwy i chwi. Fel hyn yr oedd gan ymddygiad y golygwr, yn gystal a'i eiriau, duedd fawr i ysgafhau eu meddyliau

trymion hwy. Ond tybia rhai fod Joseph wedi talu i'r golygwr am yr ŷd a gawsai ei frodyr y tro o'r blaen, ac mai at hyn y cyferia efe pan ddywed, 'Daeth eich arian chwi ataf fi.'

Adn. 24. *Ac a roddes ddwfr, a hwy a olchasant eu traed*] Gwel ar pen. xviii. 4, a xxiv. 32.

Adn. 25. *Y bwytäent fara*] Dywedasai y golygwr wrthynt eu bod i giniawa yno gydag arglwydd y wlad.

Adn. 26. *Pan ddaeth Joseph i'r tŷ*] I giniawa gyda hwy ar hanner dydd, adn. 16; *ymgrymasant iddo ef hyd lawr*—yr oedd Benjamin yn awr gyda hwy, yr unfed seren ar ddeg yn mreuddwyd Joseph, pen. xxxvii. 9.

Adn. 27. *Ai iach yr hen ŵr eich tad chwi, yr hwn y soniasoch am dano?*] Y mae *Ephraim Syrus* yn chwaneu yma, 'Ac a ydyw ef heb aanhofio y mab arall hwnw o'i eiddo, yr hwn y dywedasoch chwi nad yw fyw?'

Adn. 28. *Iach yw dy was, ein tad ni*] Y mae yn debyg i Jacob eu dysgu hwy, os caent achos i son am dano ef wrth arglwydd y wlad, i'w alw ef yn was iddo. *Yna yr ymgrymasant*—fel hyn cyflawnwyd breuddwydion Joseph fwy-fwy; a darfu i hyd yn nod y tad, trwy y meibion, ymgyrnu iddo.

Adn. 29. *Yntau a ddyrchafodd ei lygaid, ac a ganfu Benjamin, mab ei fam ei hun*] Yn sefylli gyda'i ddeg brawd, at yr hwn y rhaid ei fod yn teimlo serch denblyg, adn. 30. *Duw a roddo ras i ti, fy mab*—cyfarchiad arferol yn y dwyrain oddiwrth rai hyn ac uwch, at rai ieuangach ac is. 'Gwyddai Joseph yn dda na fyddai i'w ffafr ef, er ei fod yn arglwydd ar y wlad, wneyd fawr o les i Benjamin heb i Dduw roddi gras iddo.

30 A Joseph a frysiodd (oblegid cynhesasai ei ymysgaroedd ef tuag at ei frawd) ac a geisiodd *le* i wŷlo, ac a aeth i mewn i'r ystafell, ac a wylodd yno.

31 Gwedi hyn *efe* a olchodd ei wyneb, ac a ddaeth allan, ac a ymattaliodd, ac a ddywedodd, Gosodwch fara.

32 Hwythau a osodasant *fwyd* iddo ef wrtho ei hun, ac iddynt hwy wrthynt eu hun, ac i'r Aifftiaid y rhai oedd yn bwyta gydag ef wrthynt eu hunain: oblegid ni allai yr Aifftiaid fwyta bara gyda'r Hebreaid; o herwydd ffeidd-dra oedd hyn gan yr Aifftiaid.

33 Yna yr eisteddasant ger ei fron ef, y cyntafanedig yn ol ei gyntaf-

Adn. 30. *Oblegid cynhesasai ei ymysgaroedd ef tuag at ei frawd*] Wrth gofio am ei fam, nes yr ymddanghosai ei deimlad mewn dagrau. *Ac efe a-aeth i mewn i'r ystafell*—enciliodd i ystafell arall, i wŷlo yno o'u golwg hwy.

Adn. 31. *Gosodwch fara*] Hyny yw, rhoddwch y ciniau ar y bwrdd.

Adn. 32. *Hwythau a osodasant fwyd iddo ef wrtho ei hun*] Ymddengys yn amlwg oddiwrth y testyn fod yno *dri* bwrdd, un i Joseph, un i'r Aifftiaid, ac un i'r unarddeg brodyr. *Oblegid ni allai yr Aifftiaid fwyta bara gyda'r Hebreaid*—nac unrhyw fath ar fwyd; o herwydd ffeidd-dra oedd hyn gan yr Aifftiaid—y mae y LXX yn cyfieithu y geiriau hyn, 'O herwydd ffeidd-dra yw pob *bugail* i'r Aifftiaid;' ac alleiriadau Onkelos a Jonathan, 'o herwydd fod yr Hebreaid yn bwyta yr anifeiliaid ag y mae yr Aifftiaid yn eu dal yn *gysegredig*;' gwel ar pen. xlv. 34, Exod. viii. 26. Yr olaf yw y dyb a dderbynyr yn fwyaf cyffredin, er y gallai y ddwy fod yn rheswm yn yr achos presenol. Yr oedd yr Aifftiaid mor ofergoelus fel na allent odddef eistedd wrth yr un bwrdd a phobl o genedl arall. Nid oedd eu gwrthwynebiad i'r Hebreaid yn neillduol, ond yr oeddynt yn gwrthwynebu y *Groegiaid* hefyd, meddai Herodotus, fel na wnaent gymaint a chusau Groegwr, na bwyta gyda'i gyllell ef, rhag ofn ei bod wedi ei halogi wrth dori neu gyffwrdd â chig un o'r anifeiliaid hyny a farnent hwy yn gysegredig. Y mae llawer, modd bynag, yn meddwl fod yr ofergoelion hyn yn ddiweddarach na dyddiau Joseph, ac am hyn yn tadogi y ffeidd-dra hwn rhwng y ddwy genedl i wahaniaeth yn eu moesau *gwladol*, yn hytrach nag mewn ystyr *crefyddol*. Tybia llawer o'r dysgedigion nid yn unig fod addoliad yr *ych Apis* yn ddiweddarach nag amser Joseph, ond mai Joseph ei hun a addolig gan yr Aifftiaid dan yr enw *Apis*, neu DAD EI WLAD.

Adn. 33. *Y cyntafanedig yn ol ei gyntafanedigaeth, &c.*] Rbaid fod y brodyr yma yn synu yn fawr wrth eu gwled eu hunain yn

anedigaeth, a'r ieuangaf yn ol ei ieuencyd: a rhyfeddodd y gwŷr bob un wrth eu gilydd.

34 Yntau a gymerodd seigiau oddi ger ei fron ei hun iddynt hwy: a mwy ydoedd saig Benjamin o bum rhan na seigiau yr un o honynt oll. Felly yr yfasant ac y gwleddasant gydag ef.

PENNOD XLIV.

AC *efe* a orchymynodd i'r hwn oedd *olgyrr* ar ei dŷ ef, gan ddywedyd, Llanw sachau y gwŷr o fwyd, cymaint ag a allant ei ddwyn, a dod arian pob un yn ngenau ei sach.

2 A dod fy nghwpan fy hun, *sef* y cwpan arian, yn ngenau sach yr ieuangaf, gydag arian ei ŷd ef. Yntau

cael eu trin gyda chymaint o rwysg, ac ar yr un pryd gyda chymaint o ddiadaeth o'u priodol oedran.

Adn. 34. *Yntau a gymerodd seigiau oddi ger ei fron ei hun iddynt hwy*] Canys dyna oedd yr heu arferiad, ar ol i'r holl fwyd gael ei osod ar y bwrdd, i benaeth y wledd roddi ei ran i bob un. *A mwy ydoedd saig Benjamin*—canys fel arwydd o'i ffafr neillduol a'i agosach perthynas, efe a anfonodd iddo ef gymaint bum waith ag i un o'r lleill. Ond tybia rhai iddo wneyd y gwahaniaeth hwn i brofi tymher ei frodyr, i weled a wnaent hwy edrych arno ef gyda'r un olwg genfigenus ag yr edrychent gynt ar Joseph ei hun. Modd bynag, y mae yn sicr iddynt gael eu parotoi fel hyn erbyn yr hyn oedd yn eu haros, ac y byddent yn fwr tueddol i greu ei eitian pan yr ymddatguddiai efe iddynt.

ADFEDDYLIAU.—Rhag i'r darlennydd dybied fod gwrthddyweddiad rhwng adn. 21 o'r bennod hon a'r hanes a gawn yn y bennod flaenorol, gall fod yn angenrheidiol dywedyd gair. Yn pen. xlii. 27, dywedir i un o'r brodyr agor ei ffetan yn y *Uley*; wedi hyny, adn. 35, dywedir mai ar ol cyraedd *adref* y cafodd pob un ei arian yn ei sach; ac yma, adn. 21, rhoddir ar ddeall i'r sachau gael eu hagar a'r arian gael eu canfod pan ddaethant i'r *Uley*. Ond nid yw hyn yn wrthddyweddiad. Y *datguddiad cyntaf* o'r arian yn ddiamau a wnaed yn y *Uley*; eithr y ffaith fod arian pob un yn ei sach a ddatguddiwyd iddynt ar ol myned adref, pryd y tywalltwyd yr *holl* sachau. Ond o flaen golygwyr tŷ Joseph yr oedd yn naturiol i'r brodyr gyfeirio at y *datguddiad boreaf* o'r arian, mewn cysylltiad â'r hwn, trwy nad oedd nodiad arall o amser yn angenrheidiol, y mae yr *holl* hanes am yr arian yn cael ei rhoddi.

PEN. XLIV. Adn. 1. *Llanw sachau y gwŷr o fwyd*] A dyro arian pob un yn ei sach, megys y gwnaed o'r blaen, pen. xlii. 25.

Adn. 2. *A dod fy nghwpan fy hun, sef y cwpan arian*] Yr hwn oedd o werth mawr, ac a ddefnyddid yn fynych gan Joseph i yfed o

a wnaeth yn ol gair Joseph, yr hwn a ddywedasai efe.

3 Y bore a oleuodd, a'r gwŷr a ollyngwyd ymaith, hwynt a'u hasynod.

4 Hwythau a aethant allan o'r ddi-nas. *Ac nid aethant nepell, pan ddywedodd Joseph wrth yr hwn oedd olygwr* ar ei dŷ, Cyfod, a dilyn ar ol y gwŷr: a phan oddiweddech hwynt, ddwyed wrthynt, Paham y talasoch ddrwg am dda?

5 Onid dyma y cwpan yr yfai fy arglwydd ynddo, ac yr arferai dde-winiiaeth wrtho? Drwg y gwnaethoch yr hyn a wnaethoch.

6 ¶ Yntau a'u goddiwedodd hwynt,

hono. *Yn ngenau sach yr ieuangaf*—vmdengys oddiwrth hyn fod Joseph yn meddwl profi serch ei frodyr at BENJAMIN, a fyddai iddynt hwy ei gynorthwyo ef yn ei gyfyngder; ac hefyd eu parch i'w TAD, a wnaent hwy yn ewyllysgar roddi i'fyny a gadael yn nghareclar ei hoff fab ef. Pe buasent hwy yn casâu Benjamin fel yr oeddynt yn casâu Joseph, a than dylanwad yr un duedd anheimladwy a chlynt tuag at eu tad, y mae yn sicr y buasai iddynt dđangos hyn ar yr achlysur hwn; a diamau y cymerasai Joseph ei fesurau ei hun i ymddwyn tuag atynt yn ol hyn.

Adn. 3. *A'r bore a oleuodd*] Ac felly ar doriad y dydd cychwynasant tuag adref mewn llawnder a llawenrdd, a Simeon yn rhydd o'r carchar, a Benjamin â'i wyneb tua'i dad.

Adn. 4. *Paham y talasoch ddrwg am dda?*] Paham y darfu i chiwi, ar ol derbyn y fath diriondeb oddiar law fy arglwydd, ladrata ei gwpan ef?

Adn. 5. *Onid dyma y cwpan yr yfai fy arglwydd ynddo, ac yr arferai dde-winiiaeth wrtho?*] Gellir cyfieithu y wreiddiol, 'am yr hwn y chwiliai yn drwyadl; neu, 'yn nghylch yr hwn y byddai iddo yn sicr dde-winio,' neu 'wneuthur prawf' i gael hyd iddo. Fel pe dywedasai, A oeddych chiwi yn meddwl y gallech dwyllo fy arglwydd? Ai ni wydddech y medrai ef dde-winio, a datguddio pethau dir-gel, oddiwrth yr hyn y cafodd efe ei euw a'i ddyrchafiad? A chan fod y cwpan hwn yn cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi yn fawr ganddo ef, gallech yn hawdd feddwl y byddai iddo arfer ei gelfyddyd i gael hyd iddo. Y mae traddodiad yn y dwyrain er eyn cof, fod CWPAN yn cael ei drosglwyddo o benadur i benadur trwy yr holl oesoedd, yn yr hwn y gellid gweled yr *holl fydd*, a phob peth a *wneid* ynddo. Y mae y beirdd Persiaidd yn llawn o gyfeiriadau at y cwpan hwn, yr hwn a alwant, *Jam Jehan nima*, 'y cwpan yn dangos y bydysawd;' ac i'r hysbysrwydd a dderbynid trwyddo y priodolant hwy lwyddiant mawr eu hen fhenhinoedd, gan y deallent trwyddo bob peth a fu, sydd, ac a ddaw. Y mae llawer o'r tywysogion a'r llywiawdwy'r Mahometanaidd yn cymerdyr arnynt yn barhaus gyraedd gwybodaeth o'r dyfodiant trwy

ac a ddywedodd y geiriau hyny wrthynt hwy.

7 Y rhai a ddywedasant wrtho yntau, Paham y dywed fy arglwydd y cyfryw eiriau? na atto Duwi'th weision di wneuthur y cyfryw beth.

8 Wele, ni a ddygasom atat ti eil-waith o wlad Canaan yr arian a gawsom yn ngenau ein sachau; pa fodd gan hyny y lladrataem ni arian neu aur o dŷ dy arglwydd di?

9 Yr hwn o'th weision di y ceffir y cwpan gydag ef, bydded hwnw farw; a ninaw hefyd a fyddwn gaethweision i'm harglwydd.

10 Yntau a ddywedodd, Bydded yn awr fel y dywedasoch chiwi: yr hwn

gwpan. Pan yr oedd Mr. Norden yn *Derri*, yn mharth pellaf yr Aifft, dywedodd Arab sarng, y gwyyddai ef pa fath ddyinion oedd yr ymdeithydd hwnw a'i gyfeillion, am ei fod wedi ymgynghori â'i *gwpan*. Oddiyma gwelwn fod traddodiad y *gwpan dewinol* yn bodoli eto, ac yn yr un wlad hefyd ag y llywodraethai Joseph yuddi gynt. Yn awr, er nad yw mewn un modd yn debyg fod Joseph yn arferdyr un math ar *dde-winiiaeth*, eto y mae yn debyg, yn ol ofergoel yr amseroedd hyny, y gallai fod dylanwad goruwchnaturiol yn cael ei briodoli i'w *gwpan yntau*; a chan nad oedd yr holl orchwyliaeth a adroddir yma ond wedi ei bwriadu i dwyllo ei frodyr am *fyr dro*, gallai gwymerdyr arno *dde-winio* trwy ei gwpan, yn gystal ag y cymerodd aruo gredu eu bod hwy wedi ei ladrata ef. *Drwg y gwnaethoch yr hyn a wnaethoch*—ymddy-gasoch yn anghyfiawn, anniolchgar, a fiol.

Adn. 6. *Yntau a'u goddiwedodd hwynt*] Ar ol iddynt fynes encyd allan o'r ddinas, ac a'u cyhuddodd hwy o ladrata cwpan Joseph fel yr hysbyswyd.

Adn. 7, 8. *Paham y dywed fy arglwydd y cyfryw eiriau?*] Nid yw yn debyg y byddai i ni, y rhai a ddychwelasant yr hyn y gallasem ei gadw a'i guddio yn ddiberygl, ladrata yr hyn fyddai yn debyg o gael ei ddatguddio gyda chymaint o warth a pherygl i ni ein hunain!

Adn. 9. *Yr hwn o'th weision di y ceffir y cwpan gydag ef, bydded hwnw farw*] Ni thybient ddim twyll yn y cyhuddiad; ac yr oeddyntoll mor ymwybodol o'u diniweddydd eu hunain, fel y cydsyniasent i ddyoddef y gosp drymaf os ceid y cwpan gyda hwy. Yr oedd eu cynygiad modd bynag yn fyrbwyl ac anystyriol; a dylasai yr hyn a ddygwyddodd gyda'r arian y tro o'r blaen, eu gwneyd yn llai hyderus.

Adn. 10. *Bydded yn awr fel y dywedasoch*] Ymddengys gwrthddywediad yn y cyfieithiad hwn; y golygwr yn cynyg derbyn eu telerau hwy, ac eto ar yr un pryd yn cymhell rhai gwahanol: cydharer adn. 9. Y mae Calmet am gyfieithu yr adnod fel hyn: 'Diau yn awr y byddai yn gyfiawn eich trin yn ol eich geiriau eich hunain: ond efe yn unig, yr

y cefir y cwpan gydag ef a fydd was i mi, a chwithau a fyddwch ddiuog.

11 Hwytthau a frysiasant, ac a ddisgynasant bob un ei sach i lawr, ac a agorasant bawb ei ffetan.

12 Yntau a chwiliodd; ar yr hynaf y dechreuodd, ac ar yr ieuangaf y diweddodd: a'r cwpan a gafwyd yn sach Benjamin.

13 Yna y rhwygasant eu dillad, ac a byniasant bawb ar ei asyn, ac a ddychwelasant i'r ddinas.

14 ¶ A daeth Juda a'i frodyr i dŷ Joseph, ac efe eto yno; ac a syrthiasant i lawr ger ei fron ef.

15 A dywedodd Joseph wrthynt, Pa waith yw hwn a wnaethoch chi? oni wyddech chi y medr gŵr fel myfi ddewiniaeth?

16 A dywedodd Juda, Pa beth a

ddywedwn wrth fy arglwydd? pa beth a lefarwn? pa fodd yr ymgysf-iawnhawn? cafodd Duw allan anwiredd dy weision: wele ni yn weision i'm harglwydd, ie nyini, a'r hwn y cafwyd y cwpan gydag ef hefyd.

17 Yntau a ddywedodd, Na ato Duw i mi wneuthur hyn: y gŵr y cafwyd y cwpan yn ei law, efe fydd was i mi; cweh chwithau i syny, mewn heddwch, at eich tad.

18 ¶ Yna yr aeth Juda ato ef, ac a ddywedodd, Fy arglwydd, caffed, at-olwg, dy was ddywedyd gair yn nglustiau fy arglwydd, ac na cynned dy lid wrth dy was: o herwydd yr wyt ti megys Pharao.

19 Fy arglwydd a ymofynodd â'i weision, gan ddywedyd, A oes i chi dad, neu frawd?

hwn a gyflawnodd y lladrad, a fydd gaeth-was i mi; y lleill o'honoch a fyddant ddiuog.'

Adn. 11. *Hwytthau a frysiasant*] Cans yr oeddynt yn ewyllysio cael eu diniweidrwydd wedi ei brofi yn ddiodei.

Adn. 12. *Ar yr hynaf y dechreuodd*] Er y gwyddai mai gan yr ieuangaf yr oedd: ond efe a wnaeth hyn, fel na sylwid ar y cynllun a gymerid i ddal Benjamin. *A'r cwpan a gafwyd yn sach Benjamin*—wrth yr hwn yr oedd Joseph wedi bod yn fwy caredig nag wrth neb. Yr oedd Benjamin yn ddiamau yn barod i wadu y cwpan ar ei lw; ond ofer gwrthwynebu y fath wirionedd anlwg, y cwpan a gafwyd yn ei sach ef!

Adn. 13. *Yna y rhwygasant eu dillad*] Heb ddywedyd gair; a thrwy y weithred hon danghosit eu gofid a'u haruthredd yn llawer cryfach na thrwy eiriau. Y mae dychymyg bellach yn dadlenu yr holl amgylchiadau i ni; ac yr ydym fel yn eu gwelod hwy o flaen ein llygaid yn dychwelyd i'r ddinas, gyda thristwch dystaw, dychryn arswydus, a'r dyryswech mwyaf, heb wybod yn y byd pa beth i'w ddywedyd na'i wneuthur! *Ac a byniasant bawb ar ei asyn*—hyny yw, cododd pob un ei sach ar ei asyn, ac aethant yn ol at Joseph.

Adn. 14. *A a syrthiasant i lawr ger ei fron ef*] Yma drachefan cafodd breuddwyd Joseph ei gyflawni: ond rhaid ei fod yn effeithio arno yntau yn fawr weled ei frodyr diuog wedi eu gordoi fel hyn â chywilydd a'u rhwygo â gofid.

Adn. 15. *Oni wyddech chi y medr gŵr fel myfi ddewiniaeth?*] Y mae efe yma yn ei osod ei hun allan fel Aifftwr o radd uchel, ac o alluoedd dewiniol, yn unol â'r dyb gyffredin yn y wlad hōno, fel y gwelsoam ar adn. 5. Buasai yn anghyson â chymeriad adnabyddus Joseph fod iddo ef arferyd dewiniaeth; ac felly nid yw ond yn sfuantu y cyfryw beth er profi ei frodyr. Y mae yn hynod nad oes dim yn cael ei ddywedyd yma am yr arian a roddesid yn ngenau sach pob un, adn. 1, y rhai yn ddiamau a ddatguddiwyd wrth chwilio am y cwpan. Ond gellir cynyg dau reswm am

hyn: 1. Am y buasai i sylw ar yr arian eu caethiwo hwynt *oll* yn yr Aifft, pan nad oedd Joseph yn bwriadu attal yno ond Benjamin yn unig. 2. Am fod y gŵr hwn wedi dangos o'r blaen fod caffaeliad yr arian yn eu sachau mor bell oddiwrth fod yn bechod i'w gospi, fel ag yr oedd i gael edrych arno fel trefniad grasol o eiddo Duw iddynt, pen. xliii. 23.

Adn. 16. *Pa beth a ddywedwn wrth fy arglwydd?*] Ni ddichon i eiriau osod allan *ddyryswech a therfysg meddwl* yn gadarnach. Diamau eu bod oll erbyn hyn yn meddwl fod Benjamin mewn gwirionedd wedi lladrata y cwpan; a gallai y tebygolrwydd o'r euog-rwydd hwn gael ei fwyhan wrth ystyried ei fod ef wedi bod yn yfed o'r cwpan hwnw ar giniaw; oblegid megys y cafodd efe y saig anrhydeddusaf, felly y mae yn debyg iddo gael y cwpan anrhydeddusaf i yfed o hono yn y wledd. *Pa fodd yr ymgysfawnhawn?*—er na chafwyd y cwpan ond yn sach Benjamin, eto y mae Juda yn llefaru am dano ei hun a'r lleill fel yn euog, trwy eu bod yn frodyr iddo, a chydag ef. *Cafodd Duw allan anwiredl dy weision*—efe a gyfeiria yma ond odid at eu pechodau yn gyffredinol, ac at y niwed a wnaethant i Joseph er's dwy flynedd ar hugain yn ol. Ymddengys fod y pechod hwnw ganddynt o hyd mewn golwg; pen. xlii. 21, 22. *Wele ni yn weision i'm harglwydd*—yn hyn y cyflawnasant yr ystyr a roddent hwy eu hunain i'w freuddwydion ef, pan y gofynent, 'Ai gan arglwyddiaethu yr arglwyddiaethi arnom ni?' pen. xxxvii. 8.

Adn. 17. *Eweh chwithau i syny mewn heddwch at eich tad*] Felly y mae yn ymddangos nad oedd Joseph yn meddwl attal neb ond Benjamin yn yr Aifft ar y cyntaf; ac y mae yn debyg na buasai iddo ymddatguddio i'w frodyr oll y tro hwn, oni buasai i araeth Juda ei orchfygu ef.

Adn. 18—34. *Yna yr aeth Juda ato ef*] Oblegid mai efe a fechniasai i'w dad am ddychweliad Benjamin, pen. xliii. 9. *Ac a ddywedodd*—yma y cawn yr araeth fwyaf effeithiol yn cael ei thraddodi gan Juda wrth Joseph

20 Ninau a ddywedasom wrth fy arglwydd, Y mae i ni dad, yn hen ŵr; a phlentyn ei henaint ef, un bychan: a'i frawd a fu farw, ac efe a adawyd ei hunan o'i fam ef; a'i dad sydd hoff ganddo ef.

21 Tithau a ddywedaist wrth dy weision, Dygwch ef i waered ataf fi, fel y gosodwyf fy llygaid arno.

22 A ni a ddywedasom wrth fy arglwydd, Y llanc ni ddichon ymadael â'i dad: oblegid os ymedy efe â'i dad, marw fydd ei dad.

23 Tithau a ddywedaist wrth dy weision, Oni ddaw eich brawd ieuangaf i waered gyda chwi, nac edrychwch yn fy wyneb mwy.

24 Bu hefyd wedi ein myned ni i fyny at dy was, fy nhad, mynegasom iddo ef eiriau fy arglwydd.

25 A dywedodd ein tad, Ewch eilwaith, prynwch i ni ychydig luniaeth.

26 Dywedasom ninau, Nis gallwn fyned i waered: os bydd ein brawd

ieuangaf gyda ni, ny ni a awn i waered; oblegid ni allwn edrych yn wyneb y gŵr, oni bydd ein brawd ieuangaf gyda ni.

27 A dywedodd dy was fy nhad wrthym ni, Chwi a wyddoch mai dau a blantodd fy ngwraig i mi:

28 Ac un a aeth allan oddiwrth y fi; minau a ddywedais, Yn ddiau gan larpio y llarpiwyd ef; ac nis gwelais ef hyd yn hyn.

29 Os cymerwch hefyd hwn ymaith o'm golwg, a dygwyddo niwed iddo ef; yna y gwneuch i'm penllwydni ddisgyn mewn gofid i fedd.

30 Bellach gan hyny, pan ddelwyf at dy was, fy nhad, heb fod y llanc gyda ni; (gan fod ei hoedl ef yn nglŷn wrth ei hoedl yntau)

31 Yna pan welo efe na ddaeth y llanc, marw fydd efe; a'th weision a baratn i beuwynedd dy was ein tad ni ddisgyn mewn gofid i fedd.

32 Oblegid dy was a aeth yn feich-

ar ran Benjamin. Ni all un alleiriad fwyhau ei heffaith. *Chwacngu* ati fyddai lleihau ei hardderchogrwydd; ceisio ei *hegluro* fyddai tywyllu ei phrydferthwch; a gwisgo y *drych-feddylliau* mewn rhyw iaith heblaw un Juda, a'i gyfieithwyr ef yn ein Beibl ni, a ddyfethai ei grym ac a ddinystriai ei heffaith. Y mae ysgafydd yn un o'r darnau tyneraf ac effeithiolaf o araethyddiaeth naturiol a'r a lefarwyd neu a ysgrifenydd erioed; ac ni ddylem ryfeddu fod Joseph, pan ei clybn, yn methu ymattal, ond ddarod iddo 'godi ei lef mewn ŵylofain.' Buasai raid i'w enaid fod yn ddi-deimlad tuhwnt i'r hyn sydd gyffredin i'r natur ddynol, pe na thoddasai efe yn y fan dan araeth mor brydferth a thayer, ac mor rymus a gafaelgar. (1) Y mae efe yn cyfarch Joseph gyda llawer o barch, gan ei alw ef yn *arglwydd*, ac yntau a'i frodyr yn *weision* iddo; y mae yn erfyn ei wrandawiad amyneddgar, ac yn rhoddi iddo anrhydedd uchel, *Yr wyt ti megys Pharao*—mor ddoeth, mor alluog, ac i'th ofni yn gymaint ag yntau, adn. 18. (2) Y mae yn arddangos Benjamin fel un yn haeddu yn dda ei ystyriaeth fwyaf tosturiol: yr oedd yn *un bychan* o'i gydmharu â'r lleill; yr ieuangaf, neu *blentyn henaint* ei dad, heb fod yn gynefn â'r byd, nac wedi arferyd â chaledi, trwy iddo gael ei ddwyn i fyny yn dyner gyda'i dad. A'r peth oedd yn gwneyd yr achos yn fwy gresynus fyth, efe oedd yr unig un a *adawyd o'i fam*, trwy fod Joseph ei frawd ef *wedi marw*, adn. 20. Ychydig a wyddai Juda â pha fath linynt tyner y cyffyrddai efe yn awr! Gwyddai Juda fod Joseph wedi cael ei werthu er's ddyflynedd ar hugain; a thrwy nad oeddynt erioed wedi clywed oddiwrtho, yr oedd ganddo reswm i feddwl nad oedd efe yn fyw. (3) Efe a wasga arno mai Joseph ei hun a'u gorfodasai hwynt i ddwyn Benjamin i'r Aifft, iddo am-

lygu dymuniad i'w weled ef, ac iddo wahardd iddynt ddyfod i'w olwg ef os na fyddai y bachgen gyda hwy, yr hyn oll a awgrymai ei fod ef yn bwriadu dangos rhyw ffafr iddo, adn. 23. Ac a oedd raid iddo ef gael ei ddwyn gyda chymaint o anhawsder, i'r dyben i gael bythol garchariad? Ai ni ddygwyd ef i'r Aifft mewn perffaith ufydd-dod i orchymyn Joseph; ac oni fydd iddo yntau ddangos rhyw drugaredd iddo? (4) Y ddad fawr ag y safai Juda arni oedd y gofid anoddefadwy a achosid i'w dad oedranus, os gadewid Benjamin ar ol yn garcharor: *Ei dad sydd hoff ganddo ef*, adn. 20. Hyn a ddadleuent y tro o'r blaen yn erbyn i Joseph eu gorfodi hwynt i'w ddwyn ef i waered: *Os ymedy efe â'i dad, marw fydd ei dad*, adn. 22; a mwy o lawer felly, os gadewir ef yn awr ar ol, byth i ddychwelyd. Hyn a ddadleuasai yr hen ŵr ei hun, am yr hwn y llefarent, yn erbyn ei fynediad ef i waered: *Os dygwyddo niwed iddo ef, yna y gwneuch i'm penllwydni ddisgyn mewn gofid i fedd*, adn. 29. Hyn hefyd a wasgai Juda gyda llawer o ddirifwch: *Fod ei hoedl ef yn nglŷn wrth hoedl y llanc*, adn. 30. Pan welo efe nad yw y llanc gyda ni, efe a lesmeiria ymaith, ac a drenga yn y fan; neu efe a ymollynga i'r fath raddau o ofid ag a fydd yn farwolaeth ebrwydd iddo. Ac, yn olaf, dadleua Juda nas gallai ef, o'i ran ei hun, oddef yr olygfa hon: *Rhag i mi weled y gofid a gaiff fy nhad*, adn. 34. Ac, (5) Y mae Juda, mewn anrhydedd i gyfiawnder deddf Joseph, ac i ddangos ei gywirdeb ei hun yn y ddadl hon, yn ei gynyg ei hun yn gaethwas yn lle Benjamin. Fel hyn boddlonid gofynion y ddeddf; ni byddai Joseph chwaith yn golledwr, am y gallwn dybio fod Juda yn gryfach dyn na Benjamin; a gallai Jacob oddef y golled o hono ef yn well na'r golled o Benjamin. Ac fel hyn yr oedd Juda mor bell o

iau am y llanc i'm tad, gan ddywed-
yd, Onis dygaf ef atat ti, yna byddaf
cuog o fai yn erbyn fy nhad byth.

33 Gan hyny weichian, atolwg,
arhosod dy was dros y llanc, yn was
i'm harglwydd; ac acd y llanc i fyny
gyda'i frodyr :

34 Oblegid pa fodd yr âf i fyny at
fy nhad, a'r llanc heb fod gyda mi?
rhag i mi weled y gofid a gaiff fy
nhad.

genfgenu wrth hoffder neillduol ei dad o Ben-
jamin, nes yr oedd yn ewyllysgar i fod ei hun
yn gaethwas er ei ddal i fyny.

Yn awr, pe buasai Joseph, fel y tybiai Juda
ei fod, yn hollol ddyeithr i'r teulu, eto nis
gallasai hyd yn nod dynoliaeth gyffredin lai
nag ymollwng dan y fath resymau cedyrn a'r
rhai hyn: yr oeddynt yn ddigon i ddryllio
calon gareg. Nodwn, I. Mor gall y peidiai
Juda â chrybwyll am y trosedd o'r hwn y cy-
huddid Benjamin! Pe dywedasai efe ryw-
beth mewn ffordd o'i *gyfaddef* ef, beasai ar
onestrwydd Benjamin; a phe dywedasai ryw-
beth mewn ffordd o'i *wadu* ef, beasai ar gyf-
iawnder Joseph; am hyny y mae efe yn ei
ysgoi, gan apelio yn unig at dosturi Joseph.
2. Y fath reswm da oedd gan Jacob i ddywed-
yd wrth farw, 'Tithau Juda, dy frodyr a'th
glodforat di,' pen. xlix. 8; canys efe a ragor-
odd arnynt oll mewn hyfder, doethineb, hy-
awldded, ac yn enwedig tynerwch at eu tad
a'i deulu. 3. Cafodd ymlyniad ffyddlon Juda
wrth Benjamin yn awr yn ei gyfyngder, ei dalu
yn ol yn mhen hir amser wedi hyn, trwy ym-
lyniad cyson llwyth Benjamin wrth lwyth
Juda, ar ol i'r deg llwyth ereill gefnu arno.

AFEDDYLIADAU.—1. Y mae y bennod hon
yn dechreu gyda thiriondeb mawr Joseph i'r
dyeithriad Hebraidd; ac ymadawsant o
Memphis gyda meddyliau uchel am ei unio-
deb a'i letygarwch ef. Y fath oedd eu tybiau
pan y darfu i'r osgordd eilynawel eu dal ar y
cyhuddiad o'r anniolchgarwch gyaeathaf. Fel
hyn, yn fuan neu yn hwyr, bydd i law Duw
ddal pob pechadur, a'i ddwyn i adfyfyriad, ac
at frawdle cyfiawnder. Dedwydd os bydd
genym y pryd hyny Gyfaill a Brawd ar yr
orsedd. 2. Y mae aræth Juda yn amlygu
holl ymdrechion meddwl mawr, wedi ei or-
lwytho yn ddisymwth â thralod, trwy yr hyn
y cynhyrfwyd yr holl nywduai i hyawldded.
Bnasai i droseddwr nwyd yn arngylchiadau
gael ei daraw yn fud a synedig; ond uniondeb
ymwybodol a roddes ddyrchafiad a pharabl
i'w enaid ef. Ei holl adroddiad sydd syml, a'r
amgylchiadau ydynt oll yn serch-gynhyrfiol;
y mae ei deimladau dros hir-gystuddiedig dad
yn deilwng o fab; ei ffyddlondeb i'w lw a
amlygai gywirdeb ei galon; ac yr oedd ei
gynygiad i wasanaethu yn lle Benjamin mor
lawrwyd ac ardderchog, fel na allai y barn-
ydd wrthsefyll yn hwy. Yr hir-golledig
frawd a ymddanghosai yn y fan yn ei holl
weddnodau dirgelaidd o faddeuant a chariad!
Cymaint a allai ei wneuthur oedd ymattal nes
i Juda ddiweddu ei aræth: ac oddiwrth y

PENNOD XLV.

YNA Joseph ni allodd ymattal ger
bron y rhai oll oedd yn sefyll
gydag ef: ac efe a lefodd, Perwch
allan bawb oddiwrthyf. Yna nid ar-
hosodd neb gydag ef, pan ymgynabu
Joseph â'i frodyr.

2 Ac efe a gododd ei lef mewn wyl-
ofain: a chlybu yr Aifftiaid, a chlybu
tŷ Pharao.

3 A Joseph a ddywedodd wrth ei

modd y dadleuai Juda gyda'r barnydd, oddi-
wrth y cyffyrddiadau tyner ac anwrthwynebol
o eiddo ei hyawldded ef, gall pob un edifeiriol
ddysgu pa fodd i ddaflu â Duw. Dos gan
hyny, tydi enaid brawychus a deffröedig, dos
at dy Archoffeiriad a'th Dywysog mawr ar
ddeheulaw y Tad. Dos gyda chalon lawm, a
mynega dy holl ofidiau: cydnebydd dy dros-
eddau, a dadleua iawn Calfaria! Nac ofna
grybwyll y wisg a drochwyd mewn gwaed:
er ei bod yn arwydd o'th euogruwydd, y mae
er hyny yn wstl o'th ryddhad. Dadleua fel
Juda nes i'r Barnydd, wrth weled fod dy holl
enaid wedi ei ddadlenu, fyned i mewn i'th
drallod, ac wŷlo yn dy ddagrau! Yna ni
fydd trugaredd yn alluog mwyach i guddio ei
phelydr yn nghymylau duon cyfiawnder, eithr
hi a egyr ei dwylaw mewn bendithion; a bydd
yr ystôr mor fawr fel ag i lenwi yr enaid â
dystawrwydd rhyfeddol, ac â holl ofn santeidd-
iol gariad!

PEN. XLV. Adn. 1. *Yna Joseph ni allodd
ymattal*] Ni allodd ymddwyn mewn flug yn
hwy, ond gorfodwyd ef i ildio'i gynhyrddau ei
enaid, gan adael i'r *brawd* a'r *mab* ymddangos
yn ei deimlad a'i wedd. Efe a deimlai dros
ei *dad*, gan ymgynfragoi o'i siomedigaeth a'i
ing; a theimlai hefyd dros ei *frodyr*, y rhai
oeddynt yn awr wedi eu darostwng mewn cyf-
yngder wrth ei draed ef; ac, fel y gallai roddi
gollyngodd rhywydd a chyflawn i'w deimladau,
a'r rhyddid mwyaf i weithrediadau ei galon
serchog, efe a orchymynodd i'w holl weinydd-
ion Aifftiaid encilio o'r ystafell, tra y byddai
ef yn ymhysbysu i'w frodyr. Ni fynai ef
iddynt hwy wybod am euogruwydd ei frodyr,
amrhydedd y rhai yr ewyllyisiai ei ddyrchafu.

Adn. 2. *Ac efe a gododd ei lef mewn
wyl-ofain*] Ei ddagrau a'i lef, y rhai hyd yn
hyn a firwynesid trwy nerth, a rwygasant
allan yn awr gyda mwy o rym; ac efe a fwr-
iodd ymaith y sarugrwydd hwnw a wisgasai
efe hyd yn hyn, am nas gallai ei ddangos yn
hwy. *A chlybu yr Aifftiaid*—y rhai oeddynt
newydd gael eu gyru allan o'r ystafell; *a
chlybu tŷ Pharao*—aeth y son am hyn hyd y
llys.

Adn. 3. *Myfi yw Joseph!*] O fel y darfu i'r
llysbysiad hwn synu Juda a'i frodyr, y rhai,
tra yn dysgwyl y ddedfryd o'i enau, a gaent
ynddo ef, yn lle dwysder barnwr, serchog-
rwydd naturiol tad new frawd! Sonid am
dano hyd yn hyn wrth ei enw Aifftieg, *Saph-
nath-Paaneah*, pen. xli. 45; fel, er ei fod yn
yr hanc yn cael ei enwi yn *Joseph*, na chlybu

frodyr, Myfi *yw* Joseph; ai byw fy nhad eto? A'i frodyr ni fedrent ateb iddo; oblegid brawychasant ger ei fron ef.

4 Joseph hefyd a ddywedodd wrth ei frodyr, Dyneswch, atolwg, ataf fi. Hwytthau a ddynesasant. Yntau a ddywedodd, Myfi *yw* Joseph eich brawd chwi, yr hwn a werthasoch i'r Aifft.

5 Weithian gan hyny na thristewch, ac na ddigiwch wrthych eich hunain, am werthu o honoch fyfi yma; oblegid i achub einioes yr hebryngodd Duw fyfi o'ch blaen chwi.

6 Oblegid dyma ddwy flynedd o'r newyn o fewn y wlad; ac *fe a fydd*

ei frodyr mohono erioed yn cael ei alw felly gan neb yn yr Aifft. *Ai byw fy nhad eto?*—y mae prydferthwch mawr yn yr holiad hwn: gesyd allan yn gryf serch pryderus Joseph, ac arweinir ef i mewn trwy y trosiad esmwythaf: *Myfi yw Joseph, a'i byw fy nhad eto?*—Ai gwir yw y newydd dymuol a fynegasoch i mi o'r blaen am fy nhad? Ond pwy a all ddyysgrifio yr hyn a deimlodd ei frodyr yn awr! Nid yw yr ysgrifenydd yn cynyg ei ddyysgrifio; nid yw ef ond yn hysbysu, *A'i frodyr ni fedrent ateb iddo, oblegid brawychasant ger ei fron ef*—oddiar deimlad disymwth a dwys o'u heuogrwydd yn ei werthu i'r Ismaeliad, a'u hofn cyfiawn o ryw gosp.

Adn. 4. *Dyneswch, atolwg, ataf fi*] Nac ymgedwch yn y pellder yna rhag fy ofn i, a chwithau yn awr yn gwybod mai Joseph eich brawd ydwyf fi. Neu, mae ef yfynai iddynt nesâu ato, fel y gallai ddywedyd mewn lleferydd isel wrthynt, heb i'r Aifftiaid glywed, mai eu brawd *a werthasant i'r Aifft* oedd efe.

Adn. 5. *Weithian gan hyny na thristewch*] O'r blaen, prif ddyben ei ymddygiadau dy-eithr a gerwin tuag atynt oedd effeithio y cyfryw dristwch duwiol; ond yn awr, ar ol i hyny ateb y dyben, efe a fyn i'w tristwch droi yn llawenydd. *Ac na ddigiwch wrthych eich hunain*—yn hwy. Y mae ef ei hun nid yn unig yn maddu ac yn anghofio, ond y mae yn ewyllsio iddynt hwytthau hefyd anghofio y niwed a wnaethent iddo ef, heb ymfino o'i herwydd; a chydawf dduwioldeb efe a briodola y cyfan i ragluniaeth Duw. *Oblegid i achub einioes yr hebryngodd Duw fyfi o'ch blaen chwi*—gellir gosod pwsylais cryf ar bob gair yma. Nid *chwychwi*, ond *Duw*; nid *chwychwi a'm gwerthasoch i*, ond *Duw a'm hebryngodd*; yr oeddych *chwi* i ddyfod i waered yma, a *Duw a'm hebryngodd i o'ch blaen chwi*; *marwolaeth* fusasi raid fod y caenydd o'r newyn hwn trwy yr Aifft a Chanaan, pe nid hebryngasai Duw fyfi yma i *achub einioes*.

Adn. 6. *Fe a fydd eto bum mlynedd, y rhai a fydd heb nac ar na medi*] Paham? Am y byddai hollol ddiffyg gwlaw mewn gwledydd ereill, ac na chodai y Nilus nemawr neu ddim yn yr Aifft: gwel ar pen. xli. 31.

eto bum mlynedd, y rhai *a fydd* heb nac ar na medi.

7 A Duw a'm hebryngodd i o'ch blaen chwi, i gadw i chwi hiliogaeth yn y wlad, ac i beri bywyd i chwi, trwy fawr ymwared.

8 Ac yr awr hon nid chwi a'm hebryngodd i yma, ond Duw: ac efe a'm gwnaeth i yn dad i Pharao, ac yn arglwydd ar ei holl ddyar, ac yn llywydd ar holl wlad yr Aifft.

9 Brysiwch, ac ewch i fyny at fy nhad, a dywedwch wrtho, Fel hyn y dywed dy fab Joseph; Duw a'm gosododd i yn arglwydd ar yr holl Aifft: tyred i waered ataf; nac oeda.

10 A chai drigo yn ngwlad Gosen, a bod yn agos ataf fi, ti a'th feibion, a

Adn. 7. *A Duw a'm hebryngodd i o'ch blaen chwi*] Nid yw fy nyfodiad i'r lle a'r anrhydedd hwn i'w briodoli i'ch bwriadau chwi, y rhai oeddynt yn gwbl o natur arall; ond i ragluniaeth oruwchlywodraethol Duw, pa un a drefnododd amgylchiadau eich gweibrediad chwi fel ag i'm dwyn i'r lle a'r sefyllfa yma. *I gadw i chwi hiliogaeth yn y wlad*—fel y gallech chwi a'ch plant gael eich cynal yn yr amser hwn o newyn, ac wedi hyny gael eich lluosogi yn ddirfawr megys yr addawodd Duw. Y mae Joseph yn cyfrif nad oedd ef wedi ei ddyrchafu i achub teyrnas gyfain o Aifftiaid, yn gymaint ag i gadw teulu bychan o Israeliaid; canys bydd i bobl Dduw, pa beth bynag a ddygwydd i ereill, gael eu diogel.

Adn. 8. *Nid chwi a'm hebryngodd i yma, ond Duw*] Dyma y drydedd waith i Joseph, yn y cyfarchiad byr hwn, briodoli y cyfan i Dduw. Y mae y manych adrodiad hwn yn dangos mor gryf yr oedd ef wedi ei argyhoeddi o hyn, a'i awydd dirfawr i dawelu cynhyrfaeau ofnus ei frodyr. *Efe a'm gwnaeth i yn dad i Pharao*—yn brif gyngorwr ei deyrnas, i wylie ei achosion gyda gonfald tadol, ac i gael awdurdod, parch, a gallu tad gydag ef.

Adn. 9. *Brysiwch, ac ewch i fyny at fy nhad*] Y mae yn chwynnyc i'w dad gael ei lawenyachu yn erbydd â'r newydd ei fod yn fyw, ac mewn anrhydedd mawr; a gwyddai y byddai hyny yn olew adfywiol i'w benwyni, ac yn gysur anhraethadwy i'w ysrbydoedd.

Adn. 10. *A chai drigo yn ngwlad Gosen*] Tybia Clarke fod y dalaeth hon wedi ei phenodi i Joseph gan frenin yr Aifft, am mai braidd y gellir meddwl yr addawsai efe hi mor bendant, heb yn gyntaf gael cydsyniad Pharao. Gosen oedd y dalaeth fwyaf dwyreiniol yn yr *Aifft Isaf*, nid yn mbell oddiwrth y Forgiaic Arabaidd, yn gorwedd yn nesaf i Ganaan, o ba le, fel y meddylir, yr oedd oddeutu 80 o filldroedd o ffordd, er fod *Hebron* oddeutu 300 o filldroedd o brifddinas yr Aifft. Yn Gosen yr arhosai Jacob nes i Joseph ymweld âg ef, pen. xlii. 29. Gelwir hi hefyd *Tir Ramces*, pen. xliii. 11, oddiwrtth ddinas o'r enw hwnw, yr hon oedd brif-ddinas y wlad. Y mae Josephus yn gwneuthur *Helicopolis*, dinas tad-yn-nghyfraith Jo-

meibion dy feibion, a'th ddefaid, a'th wartheg, a'r hyn oll *sydd* genyt:

11 Ac yno y'th borthaf (oblegid pum mlynedd o'r newyn a *fydd* eto) rhag dy fyned mewn tyfodi, ti a'th deulu, a'r hyn oll *sydd* genyt.

12 Ac wele eich llygaid chwi, a llygaid fy mrawd Benjamin yn gwelod, mai fy ngenau i *sydd* yn ymadrodd wrthyfch.

13 Mynegwch hefyd i'm tad fy holl anrhydedd i yn yr Aifft, a'r hyn oll a welsoch; brysiwch hefyd, a dygwch fy nhad i waered yma.

14 Ac efe a syrthiodd ar wddf ei frawd Benjamin, ac a wylodd; Benjamin hefyd a wylodd ar ei wddf yntau.

15 Ac efe a gusanodd ei holl frodyr, ac a wylodd arnynt: ac ar ol hyny ei frodyr a ymddyddanasant âg ef.

16 ¶ A'r gair a ddaeth i dŷ Pharao, gan ddywedyd, Brodyr Joseph a ddaethant: a da oedd *hyn* yn ngolwg Pharao, ac yn ngolwg ei weision.

17 A Pharao a ddywedodd wrth Joseph, Dywed wrth dy frodyr, Gwnewch hyn; Llwythwch eich ysgrubliaid, a cherddwch, *ac* ewch i wlad Canaan;

18 A chymerwch eich tad, a'ch teuluoedd, a deuwch ataf fi: a rhoddaf i chi ddaioni gwlad yr Aifft, a chewch fwyta brasder y wlad.

19 Gorchymyn yn awr a gefaist, gwnewch hyn: cymerwch i chi o wlad yr Aifft gerbydau i'ch rhai bach, ac i'ch gwragedd; a chymerwch eich tad, a deuwch.

20 Ac nac arbeded eich llygaid chwi *ddim* dodrefn; oblegid dá holl wlad yr Aifft sydd eiddoch chwi.

21 A meibion Israel a wnaethant felly: a rhoddodd Joseph iddynt hwy gerbydau, yn ol gorchymyn Pharao, a rhoddodd iddynt fwyd ar hyd y ffordd.

22 I bob un o honynt oll y rhoddes bâr o ddillad: ond i Benjamin y

seph, yn breswylfa yr Israeliaid. Gan fod *geshem* yn yr Hebraeg yn arwyddo *gwlaw*, meddylodd Jerome ac ereill fod *Gosen* yn dyfod oddiwrth yr un gwreiddyn, a bod y wlad hon yn cael ei galw felly am fod *gwlaw* ynddi, yr hyn nad oedd yn yr Aifft yn gyffredin: a chan ei bod ar gyffiniau y Fergainc Arabaidd, y mae yn dra thebyg ei bod yn cael ei dyfribau o'r nef; a dicheon mai o herwydd yr amgylchiad hwn yr ydoedd mor firwythlon, canys dywedir ei bod y *cwr goraf* o wlad yr Aifft, pen. xlvii. 6, 11.

Adn. 11. *Ac yno y'th borthaf*] A'r ddarpariaeth a drysorais gogyfer a'r blynyddoedd hyn o newyn.

Adn. 12. *Mai fy ngenau i sydd yn ymadrodd wrthyfch*] Nid trwy gyfeithydd, fel o'r blaen, pen. xlii. 23; ond yn ddigyrwng, ac yn yr Hebraeg.

Adn. 13. *Mynegwch hefyd i'm tad fy holl anrhydedd i yn yr Aifft*] Efe a ercha hyn, nid o falchder neu wâg-ogoniant, ond o gariad at ei dad oedranus, gan wybod y parai hyny hyfrydwch mawr iddo ef. *A dygwch fy nhad i waered yma*—fel y gwelo fy ngogoniant, ac yr ymgysfranago o'm hanrhydedd.

Adn. 14. *Ac efe a syrthiodd ar wddf ei frawd Benjamin*] Yr hwn oedd fab i RAHEL fel yntau; *ac a wylodd*—wrth feddlwl am ei anwyf fam, yr hon a fu farw ar enediggaeth Benjamin, ac am y gofod dwys a barasai efe iddo yn achos y cwpan. *Benjamin hefyd a wylodd ar ei wddf yntau*—yr oedd Rahel yn ddiweddar, yn mherson ei gŵr Jacob, wedi bod yn 'wŷlo am ei phlant,' am y tybiai ef 'nad oeddynt'—Joseph wedi myned, a Benjamin yn myned; ac yn awr y maent hwythau, fel y sylwa Henry, yn wŷlo am dani hithau, am nad ydoedd. Y mae cusanu y farf, y gwddf, a'r ysgwyddau, mewn arferiad yn mhllith y dwyreiniwyr hyd heddyw; ac y mae

yn debyg nad yw 'syrthio ar y gwddf' yn arwyddo dim mwy na *chusanu* y gwddf a'r ysgwyddau, ac ymgoffeiddo.

Adn. 15. *Ac efe a gusanodd ei holl frodyr*] Yr un modd ag y cusanasai efe Benjamin, am eu bod hwythau yn blant yr un tad. *Ac ar ol hyny ei frodyr a chwedleasant âg ef*—hyny yw, daethant atynt eu hunain, fel y dywedwn, a llefarasant yn rhydd a serchog am eu tad a'u cartref.

Adn. 16—19. *A da oedd hyn yn ngolwg Pharao, &c.*] Yr oedd gan Pharao a'i lys y fath feddlwl uchel am Joseph, a'r fath barch iddo, fel nad oedd dim yn ormod ganddynt ei wneuthur i'w deulu er ei fywn ef.

Adn. 20. *Ac nac arbeded eich llygaid chwi ddim dodrefn*] Y mae y gair gwreiddiol yn arwyddo dodrefn tŷ, celfi amaethyddol, neu offer o ryw fath. Nid oeddynt i ymoedi nac ymrwystro gyda phethau ag y gellid eu cael yn barod yn yr Aifft, ac nad oeddynt yn werth eu cario mor bell.

Adn. 21. *A rhoddodd Joseph iddynt hwy gerbydau*] Neu *olwyn-feni*, fel yr arwydda y gair *agaloth*. Dengys hyn fod y cyfryw gludeion mewn arferiad yn dra bore, ac y rhaid fod y ffordd o'r Aifft i Ganaan yn dra rhydd, onidê ni allasai y cyfryw gludeion fyned ar hyd'ddi. *Yn ol gorchymyn Pharao*—yr oedd y gorchymyn brenhinol hwn yn dra angenrheidiol, trwy fod gwabarddiad pendant yn bodoli yno i bedroffeni gael eu llusgo allan o'r Aifft: gwel *Rashbam*.

Adn. 22. *I bob un o honynt oll y rhoddes bâr o ddillad*] Y mae yn arferiad cyffredin gan holl benaduriaid Asia roddi *dillad* ac *arian* i deyrn-genadau a phersonau o ragoriaeth, y rhai yr ewyllysiant yn neillduol eu hanrhydeddu. O herwydd paham cadwant yn eu dilladfa amrai gannoedd, ac weithiau fil-oedd, o bârau o ddillad wedi eu paratoi yn

rhoddes drichant o *ddarnau arian*, a phum pâr o ddillad.

23 Hefyd i'w dad yr anfonodd fel hyn; deg o asynod yn llwythog o ddâ yr Aifft, a deg o asenod yn dwyn ffd, bara, a bwyd i'w dad ar hyd y ffordd.

24 Yna y gollyngodd ymaith ei frodyr; a hwy a aethant ymaith: ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Nac ymrysonwch ar y ffordd.

25 ¶ Felly yr aethant i fyny o'r Aifft, ac a ddaethant i wlad Canaan, at eu tad Jacob;

26 Ac a fynegasant iddo, gan ddy-

anrhegion o'r fath yma. Fod y cyfryw yn cael eu rhoddi mewn ffordd o wobr ac anrhydedd, gwel Barn. xiv. 12, 19, 1 Bren. v. 5, Luc xv. 22, a Dat. vi. 11. *Onid i Benjamin y rhoddes dri chant o ddarnau arian*—gwerth oddeutu £37. 10s. o'n harian ni; a *phum pâr o ddillad*—megys y cawsai o'r blaen saig bumwaith mwy nag eiddo ei frodyr, pen. xliii. 34.

Adn. 23. *A bwyd i'w dad ar hyd y ffordd*] Heb. *mazon*, oddiwrth *zan*, paratoi, arlwyio, &c.; o ganlyniad *bwyd arlwyiedd*, neu ddsygl-eidiau wedi eu paratoi o ddanteithfwyd, cyf-eithiau, &c. Dichon mai rhyw fflasus-fwyd cyffelyb i'r un a garai Isaac a feddylir yma; canys ni allai ef fod mewn angen am un math arall o gigfwyd, trwy fod ganddo ddeadelau lluosog, o'r rhai y gallai ladd oen, mŷn, dafad, neu afr, pryd y mynai.

Adn. 24. *Nac ymrysonwch ar y ffordd*] Y rhybydd synwyrol hwn a roddwyd gan Joseph i attal i'w frodyr gyhuddo eu gilydd am ei werthu ef, ac i attal iddynt genfigenu wrth Benjamin oblegid y rhagorach ffafir a ddang-hoswyd iddo gan ei frawd.

Adn. 25. *Felly yr aethant i fyny o'r Aifft*] Yn llawen eu calon wrth feddwl am y newydd da ag oedd ganddynt i'w fynegu i'w tad, a'r cerbydau a'r anrhegion yn eu dilyn.

Adn. 26. *Ac a fynegasant iddo*] Cyn gynted ag y gwelasant en tad, heb unrhyw ragym-adrodd, *Y mae Joseph eto yn fyw!*—daru i'r crybwylliad o enw JOSEPH adfywio ei drallod nes y *llesgaodd ei galon*, a bu gryn amser heb ddadebru. Yr oedd ef yn y fath ofal a dy-chrâd yn nghylch y lleill, fel ag y buasai yn awr yn ddigon o lawenydd ganddo glywed fod Simeon wedi ei ryddhau, a Benjamin wedi dyfod adref yn ddiogel; canys yr oedd yn barod i anobeithio yn eu cylch hwythau ill dau: ond clywed fod JOSEPH YN FYW! yd-oedd yn newydd rhy dda yn ei dyb ef i fod yn wir; y mae yn *llesgâu*—neu yn syrthio mewn llewyg, am nad yw yn ei gredu. Gwel achos cyffelyb, Luc xxiv. 41.

Adn. 27. *A phan ganfu efe y cerbydau a anfonasai Joseph i'w ddwyn ef, yna y bywiogodd ysbryd Jacob*] Yr oedd gweled y cerbydau yn brawf chwanelog o wirioedd yr hyn a glywsai gan ei feibion; a'r canlyniad oedd, ddarfod ei adferwyd ef i nerth o'r newydd. Nid yn unig adferwyd ef yn berffaith o'i le-

wedyd, Y mae Joseph eto yn fyw, ac y mae yn llywodraethu ar holl wlad yr Aifft. Yna y llesgaodd ei galon yntau; oblegid nid oedd yn eu credu.

27 Traethasant hefyd iddo ef holl eiriau Joseph, y rhai a ddywedasai efe wrthynt hwy. A phan ganfu efe y cerbydau a anfonasai Joseph i'w ddwyn ef, yna y bywiogodd ysbryd Jacob en tad hwynt.

28 A dywedodd Israel, Digion *yd-yw*; y mae Joseph fy mab eto yn fyw: âf, fel y gwelwyf ef cyn fy marw.

wyg, ond dyrchafwyd ef yn awr i fwy o fywyd a grym nag a deimlasai er pan gollodd efe Joseph. *Pristinio vigor restitutus est*, meddai Bochart, 'efe a adferwyd i'w rym cyntefig.' Yr oedd y newydd hwn yn effeithio yr un modd arno ef ag a wnai tywallt olew i lamp ar ddfioddi, neu enyn marworyn a fyddai bron â darfod.

Adn. 28. *A dywedodd Israel*] Yn awr y mae Jacob yn cael ei alw yn ISRAEL, canys y mae yn dechreu adennill ei nerth arferol. *Digion ydyw!* y mae Joseph fy mab eto yn fyw!—nid yw yn son dim am anrhydedd Joseph fel llywodraethwr ar holl wlad yr Aifft, yr hyn a fynegasant hwy iddo ef, adn. 26; yr oedd yn *ddigon* ganddo fod Joseph yn FYW. *Af, fel y gwelwyf ef cyn fy marw*—ni ddywedefe, 'Af i fyw gydag ef;' canys yr oedd Jacob yn hen, ac heb ddsygwyl byw yn hir; ond, 'Af fel y gwelwyf ef,' ac nid oedd arno eisiau chwanelog yn y byd hwn. Er ei fod ef yn hen, a'r daith yn hir, eto efe a âi i weled Joseph, am na oddesai galwedigaeth Joseph iddo ef ddyfod at ei dad.

ADPFEDDYLIADAU.—(1) Y fath olygfa gyn-hyrfod ac anwyl a ddanghosir i ni yma! Yr holl nwydau a gyffroir, a'r holl enaid a ddynerir ar unwaith. Ofn, cywilydd, tristwch, diolchgarwch, a chariad, a ddylynant eu gilydd fel y mae adfyfyriad yn taraw y meddwl. Wrth weled ei frodyr wedi eu gordoi â dyrswch, ac yn fud gan syndod, efe a ddywedodd wrthynt, 'Dyneswch, atolwg, ataf fi.' Yn gymhwsy felly y mae Iesu Grist yn edrych ar yr enaid isel a chrynedig, ac yn ei wahodd i gasanu ei deyrnwialen a choffeiddio ei drugaredd; yn gymhwsy felly y mae efe yn gwahodd y rhai a'i bradychasant ac a'i croeshoelasant, i breswlyio yn ei deyrnas ac i ymyfranogi o'i ogoniant. (2) A ydyw Joseph yn cynghori ei frodyr i beidio â thristiau ac yn eu cyrsuro â'r meddwl mai Duw a'i hebryngasai ef i'r Aifft? A ydyw ef yn eu coffeiddio yn dyner, ac yn eu llytho âg anrhegion tywysogaidd? Dysgwu oddiwrtho ef y dymher urddasol o faddeuant a brawdgarwch. Dysgwu oddiwrtho ef, neu yn hytrach oddiwrth Iesu Grist, orchfygu drygiouni trwy ddaionni; a dangos pob arwydd gweudus o serch a chariad i'r rhai sydd ddfefeiriol au eu beiau. Ni ddarfu i'r brodyr hyn gasâu Joseph mwyach, ond parchasant ei goffadwriaeth of byth. (3) A wahoddwyd Israel i drigo yn

PENNOD XLVI.

YNA y cychwynodd Israel, a'r hyn oll oedd ganddo, ac a ddaeth i Beer-seba, ac a aberthodd ebyrth i Dduw ei dad Isaac.

2 A llefarodd Duw wrth Israel mewn gweledigaethau nos, ac a ddywedodd, Jacob, Jacob. Yntau a ddywedodd, Welc fi.

3 Ac efe a ddywedodd, Myfi yw Duw, Duw dy dad: nac ofna fynd i

waered i'r Aifft; canys gwnaf di yno yn genhedlaeth fawr.

4 Myfi a âf i waered gyda thi i'r Aifft; a myfi gan ddwyn a'th ddygaf di i fyny drachefn: Joseph hefyd a esyd ei law ar dy lygaid di.

5 A chyfododd Jacob o Beer-seba: a meibion Israel a ddygasant Jacob eu tad, a'u rhai bach, a'u gwragedd, yn y cerbydau a anfonasai Pharao i'w ddwyn ef.

Gosen, tra yr oedd newyn erchyll yn ymdaenu dros y cenedloedd oddiamgylch? Yn union felly pan fyddo afiechyd a thrallodion yn drysu y rhai drygionus, pan fyddo eu heddwch yn cael ei aflonyddu a'u llawenydd yu gwywo, gall Israel ddywedyd, 'Y llinynau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfyd; i'e, y mae i mi etifeddiaeth dëg;' gwahoddodd yr Arglwydd fi i 'brynu gwin a llaeth, heb arian ac heb werth.' 'Pwy sydd debyg i ti, O bobl gadwedig gan yr Arglwydd!' Ar yr un pryd boed i ni ymlawenhaus mewn dychryn; oblegid tra yn y byd hwn, pa mor ddeddwydd bynag y gall ein hamgylchiadau fod, nid Canaan ydyw; nid ydym eto wedi cyraedd adref; a rhaid i ni ddysgwyl cyfnewidiadau a thrallodion hyd nes y byddo y nef yn gartref bythol i ni. (4) Eithr y fath ddiwrnod o ryfeddod a llawenydd oedd hwn i Jacob ar ol ei holl gystuddiau! Bu agos iddo gyfl farw o dristwch, ac yn awr y mae efe bron â marw o lawenydd. Yngysurwch gan hyny, chwi dadau, chwi famau, y rhai a bir alarasoeh o herwydd colli eich plaut; nid ydym feirw, eithr Duw a'u hebryngodd o'ch blaen chwi. Chwi a gewch eich Josephi eto, nid wedi eu malurio yn y bedd, ond wedi eu dyrchafu mewn gallu a gogoniant ar ddeheulaw y Tad. Er nad ydych yn awr yn eu gwled, er nad ydych yn gwybod am eu llwyddiant, eto y maent oll yn dysgwyl am danoch i drigfanau dedrwyd yr orphwysfa dragwyddol. Byddwch lawen mewn gobaith; bydd i'r cerbydau yn ebrwydd ddyfod, fel y galloch esgyn atynt, ac ymgoftioed a thrigo gyda hwynt byth. Y fath anogaeth i dduw-ïoldeb, y fath reswm i ymostyngiad, ydyw meddwl y bydd i gystuddiau a marwolaeth brysuro ein huniad a'r rhai a garem gynt mor anwyl!

PEN. XLVI. Adn. 1. *Ac a ddaeth i Beer-seba*] Ymddengys fod y lle hwn yn cael ei grybwyll, nid yn unig am ei fod ar y ffordd o Hebron, lle y trigai Jacob, i'r Aifft, lle yr oedd yn myned; ond am ei fod yn lle *cysegredig*, yn lle ag yr ymddangosasai Duw ynddo i Abraham, pen. xxi. 33, ac i Isaac, pen. xxvi. 24, a lle y ceffogir Jacob hefyd i ddysgwyl amlygiad o'r un daioni. Y mae efe gan hyny yn ewyllysio dechreu ei daith gydag ymweliad i *dŷ Dduw*; a chan ei fod yn myned i wlad ddyeythr, y mae yn teimlo fod yn iawn iddo adnewyddu ei gyfammod gyda Duw trwy aberth. Yr hwn a fyn deithio yn ddiogel, rhaid iddo gymeryd Duw gydag ef.

Adn. 2. *A Uefarodd Duw wrth Israel mewn gweledigaethau nos*] Yn debygol y

noson nesaf ar ol iddo aberthu ei ebyrth. *Jacob, Jacob!*—galwai Duw arno wrth ei *hen enw*, i adgofio iddo ei waelled a'i annheilngoddynt; ac y mae yntau, fel gŵr cynfin â gweledigaethau yr Hollalluog, yn ateb, *Welc fi*—yn barod i dderbyn dy eirchion.

Adn. 3. *Myfi yw Duw, Duw dy dad*] Yr hwn wyf ffyddlon i'r cyfammod a wnaethym âg ef. *Nac ofna fynd i waered i'r Aifft*—er i Jacob, pan fyngwyd iddo gyntaf am fywyd ac anrhydedd Joseph yn yr Aifft, benderfynu yn ddibetrus, 'Af, fel y gwelwyf ef cyn fy marw;' eto ymddengys, ar ol ail feddwl, ddarfod iddo ganfod rhyw anhawsderau yn hyny. 1. Yr oedd yn daith bell, ac yntau yn anghymwys i deithio, trwy ei fod bellach uwchlaw 130 mlwydd oed. 2. Yr oedd yn ofni rhag i'w feibion gael eu llygru âg eilun-addoliaeth yr Aifft, ac anghofio Duw eu tadau. 3. Y mae yn debyg iddo feddwl am yr hyn a ddywedasai Duw wrth Abraham am gaethiwd a chystudd ei had. Ac, 4. Ni allai feddwl am adael ei esgryn yn yr Aifft. Ond pa beth bynag oedd ei ddiagonalid a'i amheuan, yr oedd addewidion Duw iddo yn ddigon i'w hateb oll.

Adn. 4. *Myfi a âf i waered gyda thi i'r Aifft*] Y rhai a ânt i'r fan lle y mae Duw yn eu hanfon, a gânt Dduw yn ddiau gyda hwynt. *A myfi gan ddwyn a'th ddygaf di i fyny drachefn*—er i Jacob farw yn yr Aifft, eto cyflawnwyd yr addewid hon iddo, 1. Yn nygiad ei gorff i fyny i'w gladdu yn Nghanaan; ac, 2. Yn nygiad ei had i fyny i breswlyo yn ngwlad yr addewid. I ba ddyffryn isel a thywyll bynag y'n gelwir, gallwn fod yn hyderus, os â Duw i waered yno gyda ni, gan ddwyn y dyg efe ni i fyny drachefn: os â efe i waered gyda ni i angau, efe a'n dyg ni i fyny drachefn i ogoniant. *Joseph hefyd a esyd ei law ar dy lygaid di*—y mae hon yn addewid y cai Joseph fyw cyhyd ag yntau, y cai efe fod gydag ef ar ei farwolaeth, a chaw ei lygaid gyda phob tynerwch dichonadwy. Y mae yr arferiad o gau llygaid y meirw yn bur hen; a'r cyfeillion agosaf ac anwylaf a arferent gynt wneyd hyny.

Adn. 5. *A chyfododd Jacob o Beer-seba*] Yn llawen ei galon am fod yr addewid o gael gweled Joseph wedi ei gwneuthur iddo yn awr gan Dduw yn gystal a chan ei feibion, ac am fod Duw wedi addaw bod ei hun gydag ef.

Adn. 6. *Ac a ddaethant i'r Aifft*] Pan aeth Jacob i waered i'r Aifft, yr oedd ef yn 130 mlwydd oed; ac yr oedd hyn yn mhen 215 o flynyddau ar ol gwneuthur yr addewid i Ab-

6 Cymerasant hefyd eu hanifeiliaid, a'u golud a gasglasant yn nhir Canaan, ac a ddaethant i'r Aifft, Jacob, a'i holl had gydag ef:

7 Ei feibion, a meibion ei feibion gydag ef, ei ferched, a merched ei feibion, a'i holl had, a ddyg efe gydag ef i'r Aifft.

8 ¶ A dyma enwau plant Israel, y rhai a ddaethant i'r Aifft, Jacob a'i feibion: Reuben, cynfab Jacob.

9 A meibion Reuben; Hanoeh, a Phalu, Hesron hefyd, a Charni.

10 ¶ A meibion Simeon; Jemuel, a Jamin, ac Ohad, a Jachin, a Sohar, a Saul mab Canaanëes.

11 Meibion Lefi hefyd; Gerson, Cohath, a Merari.

12 A meibion Juda; Er, ac Onan, a Sela, Phares hefyd, a Zara: a busai farw Er ac Onan yn nhir Canaan. A meibion Phares oedd Hesron, a Hamul.

13 ¶ Meibion Issacar hefyd; Tola, a Phufa, a Job, a Simron.

14 ¶ A meibion Zabulon; Sered, ac Elon, a Jaleel.

15 Dyma feibion Lea, y rhai a blantodd hi i Jacob yn Mesopotamia,

a Dina ei ferch: ei feibion a'i ferched oeddynt oll dri dyn ar ddeg ar hugain.

16 ¶ A meibion Gad; Siphion, a Haggai, Suni, ac Esbon, Eri, ac Arodi, ac Areli.

17 ¶ A meibion Aser; Jimna, ac Isua, ac Isui, a Beria, a Sera eu chwaer hwynt. A meibion Beria; Heber, a Malchiel.

18 Dyma feibion Zilpa, yr hon a roddodd Laban i Lea ei ferch: a hi a blantodd y rhai hyn i Jacob, *sef* un dyn ar bymtheg.

19 ¶ Meibion Rahel, gwraig Jacob, oedd Joseph a Benjamin.

20 Ac i Joseph y ganwyd yn nhir yr Aifft, Manasse, ac Ephraim, y rhai a blantodd Asnath, merch Potipherah offeiriad On, iddo ef.

21 ¶ A meibion Benjamin; Bela, a Becher, ac Asbel, Gera, a Naaman, Eli, a Ros, Muppin, a Huppin, ac Ard.

22 Dyma feibion Rahel, y rhai a blantodd hi i Jacob; yn bedwar dyn ar ddeg oll.

23 ¶ A meibion Dan oedd Husim.

24 ¶ A meibion Naphtali; Jaseel, a Guni, a Jeser, a Silem.

raham, pen. xii. 1—4, *sef* yn y flwyddyn 2298 o oed y byd, a chyn Crist 1706.

Adn. 7. *Ei ferched*] Trwy nad oedd gan Jacob ond un ferch, rhaid i ni dybio mai ei ferched-yn-nghyfraith a feddylir yma, os nad yw y lluosog yn cael ei roddi am yr unigol: gwel ar pen. xxxvii. 35.

Adn. 8—11. *A dyma enwau plant Israel, &c.*] Gall fod yn angenrheidiol sylwi yma, meddai Clarke, 1. Pod amrai o'r enwau hyn yn cael eu mynegu yn wahanol mewn lleoedd ereill, *Jemuel* am *Nemuel*, *Jachin* am *Jarib*, *Gerson* am *Gersom*, &c. Cydmarher Num. xxiv. 12, 1 Cron. iv. 24. Ond nid peth anghyffredin ydyw i'r un person gael gwahanol enwau, neu i'r un enwau gael eu cynanu yn wahanol. 2. Pod yn debyg i rai o'r enwau yn y gofrestr hon gael eu dwyn i mewn trwy ragflaenid neu ragymddwyn, gan iddynt gael eu geni ond odid yn ystod y ddwy flynedd ar bymtheg ag y bu Jacob yn ymdaith yn yr Aifft: gwel ar adn. 12. 3. Pod teuluoedd rhai yn cael eu cofiaŷu yn fanylach nag ereill o herwydd eu cymeriad neillduol, megys yn achos Juda, Joseph, a Benjamin: ond gwel y taflen dan adn. 20.

Adn. 12. *A meibion Phares oedd Hesron a Hamul*] Nid yw yn debyg fod Phares uwchlaw 10 mlwydd oed pan y daeth i'r Aifft, ac os felly ni allai fod ganddo blant; gan hyny y mae yn angenrheidiol ystyried Hesron a Hamul fel wedi eu geni yn ystod y *ddwy flynedd ar bymtheg* ag y bu Jacob yn ymdaith yn yr Aifft: (gwel ar adn. 8:) ac ymddengys yn angenrheidiol, am amrai resymau, gymer-

yd y ddwy flynedd ar bymtheg hyn i'r cyfrif, gan fod yn dra thebygol fod yr hyn a elwir yn *fynd i waered i'r Aifft*, fel y sylwa Awstin, yn cynwys y ddwy flynedd ar bymtheg a dreuliasai Jacob yno.

Adn. 13—19. *Meibion Issacar, &c.*] Gwel ar adn. 8—11.

Adn. 20—27. *Ac i Joseph y ganwyd, yn nhir yr Aifft, Manasse ac Ephraim, &c.*] Y mae gan y LXX chwaneigiad nodedig yma, yr hwn y dyldd sylwi arno: 'Dyma feibion Manasse, y rhai a ymddyg ei ordderchwraig Syriaidd iddo ef, Macir; a Macir a gawddodd Galaad. Meibion Ephraim, brawd Manasse, oeddynt Sutalaam a Taam; a meibion Sutalaam, Edem.' Y mae y rhai hyn yn chwanegu *pump* o bersonau at y gofrestr, ac yn gwneyd i fyny y rhiif a roddir gan Stephan, Act. vii. 14, yr hwn yr ymddengys ddarford iddo ef ei gymeryd o destyn y LXX, oddietr i ni allu meddwl i destyn Stephan gael ei newid i gysoni â'r LXX, o'r hyn nid oes y prawf lleiaf o'r hen ysgrifffraua na'r cyfieithiadau. Nid yw chwaneigiad y LXX i'w gael yn awr yn yr Hebraeg na'r Samaritanaeg; ac y mae rhai yn meddwl ddarford ei gymeryd naill ai o Num. xxvi. 29, 35, neu 1 Cron. vii. 14—20; ond nid yw y chwaneigiad yn ymddangos mewn un o'r lleoedd hyn megys y saif yn y LXX, er fod rhai o'r enwau i'w cael yma a thraw. Cafodd llawer o foddau eu cynyg er cael hyd i'r *deg enaid a thriugain* yn adn. 27, ac i gysoni yr Hebraeg gyda'r LXX a'r Testament Newydd. Y mae taflen a roddir gan *Scheuchzer*, wedi ei thynu o *Memoires de*

25 Dyma feibion Bilha, yr hon a roddodd Laban i Rahel ei ferch: a hi a blantodd y rhai hyn i Jacob, yn saith nyn oll.

26 Yr holl eneidiau y rhai a ddaethant gyda Jacob i'r Aifft, yn dyfod allan o'i lwynau ef, heblaw gwragedd meibion Jacob, *oeddynt* oll chwe enaid a thriugain.

27 A meibion Joseph y rhai a an-

Trevoux, yn rhoddi yr olwg gyffredinol a ganlyn:

DEUDEG MAB JACOB GYDA'U PLANT A'U HŴYRION.

Reuben a'i bedwar mab	5
Simeon a'i chwe mab	7
Lefi a'i dri mab	4
Juda a'i saith o feibion ac ŵyrion ...	8
Issacar a'i bedwar mab	5
Zabulon a'i dri mab	4
Holl feibion Jacob o <i>Lea</i>	33
Gad a'i saith mab	8
Aser a'i saith o feibion ac ŵyrion ...	8
Holl feibion Jacob o <i>Zilpa</i>	16
Joseph a'i ddau fab	3
Benjamin a'i ddeg mab	11
Holl feibion Jacob o <i>Rahel</i>	14
Dan a'i fab	2
Naphtali a'i bedwar mab	5
Holl feibion Jacob o <i>Bilha</i>	7
Holl feibion Jacob o'i bedair gwraig ...	70

I gysoni hyn â'r LXX a St. Stephan, Act vii. 14, at y rhif 66 (sef yr holl eneidiau a ddaethant allan o lwynau Jacob, adn. 26) chwaneger *naw* o wragedd y patrieirch, trwy fod gwraig Juda wedi marw eisioes yn Nghanaan, (pen. xxxviii. 12) a bod Benjamin eto ond odid heb briodi, a bod gwraig Joseph eisioes yn yr Aifft, ac am hyny allan o'r cyfrif; a bydd i'r nifer gyraedd i 75, y rhif a geir yn yr Actau.—*Hanesiaeth Gyffredinol*.

Y mae trefn *Dr. Hales* yn fwy syml, ac, yn marn Clarke ac ereill, yn fwy boddhaol: 'Dywed Moses fod yr holl eneidiau a ddaethant gyda Jacob i'r Aifft, yn dyfod allan o'i lwynau ef, (heblaw gwragedd ei feibion ef,) yn chwe enaid a thriugain, adn. 26; a'r rhif hwn a gesglir fel hyn:

Plant Jacob, unarddeg o feibion ac un ferch ...	12
—Reuben...	4
—Simeon...	6
—Lefi	3
—Juda, tri mab a dau ŵyr...	5
—Issacar	4
—Zabulon	3
—Gad	7
—Aser, pedwar mab, un ferch, a dau ŵyr	7
—Dan	1
—Naphtali	4
—Benjamin	10
—	66

Os at y 66 hyn o blant, ŵyrion, a gorŵyrion, y chwanegwn *Jacob* ei hun, a *Joseph* a'i ddau fab, bydd y rhif yn 70, yr holl nifer o deulu Jacob a'r a ymsefydlasant yn yr Aifft, adn. 27. Yn y cyfrif hwn gadawyd allan wragedd meibion Jacob, y rhai a sffurient ran o'r teulu; ond yr oeddynt yn cyraedd *inaw*; canys o ddeuddeg

wyd iddo ef yn yr Aifft, *oedd* ddau enaid: holl eneidiau tŷ Jacob, y rhai a ddaethant i'r Aifft, *oeddynt* ddeg a thriugain.

28 ¶ Ac efe a anfonodd Juda o'i flaen at Joseph, i gyfarwyddo ei wyneb ef i Gosen: yna y dacthant i dir Gosen.

29 A Joseph a barotodd ei gerbyd, ac a aeth i fyny i gyfarfod Israel

gwraig deuddeg mab Jacob, yr oedd gwraig *Juda* wedi marw, pen. xxxviii. 12, a gwraig *Simeon* hefyd, fel y gallwn gasglu oddiwrth ei fab ieuangaf *Saul* o *Ganaanees*, adn. 10, ac yr oedd gwraig *Joseph* eisioes yn yr Aifft. Y mae y *naw* gwraig hyn gan hyny, wrth eu chwaneu at y 66, yn gwnethur *pymtheg enaid a thriugain*, yr holl nifer o deulu Jacob a'r a aethant i waered gydag ef i'r Aifft; yn cyfateb yn gywir i'r adroddiad yn y Testament Newydd, ddarford i 'Joseph anfon am ei dad Jacob, a'i holl *genedl*, *pymtheg enaid a thriugain*.' Y mae yr ymadrodd, *a'i holl genedl*, yn cynwys y gwragedd, y rhai *oeddynt* genedl *Joseph* nid yn unig trwy *bridad*, eithr hefyd trwy *waedoliaeth*, gan eu bod ond odid o deuluoedd *Esau*, *Ismael*, neu *Cetura*. Fel hyn y mae y Testament Newydd yn rhoddi eglurhad godidog ar yr Hen.—*Analysis*, cyf. ii. d. 159. 'Y mae yn angenrheidiol sylwi fod y cyfrif yma, yr hwn a ymddengys ar y cyfan y mwyaf cyson, yn tybio ddarford i *Juda* briodi pan oedd oddeutu 14 mlwydd oed, ei fab *Er* pan yr un oed, *Phares* pan yr un, *Aser* a'i bedwarydd mab *Beria* dan 20, *Benjamin* oddeutu 15, a meibion ac ŵyrion *Joseph* oddeutu 20. Ond nid yw hyn yn anrhebygol, gan y rhaid ddarford i holl blant Israel briodi yn bur ieuainc, i allu epilio mewn oddeutu 215 o flynyddau nid llai na 600,000 o wŷr uwchlau 20 mlwydd oed, heblaw gwragedd a phlant.'—CLARKE.

Adn. 28. *Ac efe a anfonodd Juda o'i flaen at Joseph*] I hysbysu iddo fod Jacob a'i deulu wedi cychwyn; *ac i gyfarwyddo ei wyneb ef i Gosen*—hyny yw, i gymhell *Joseph* i Gosen i dderbyn ei dad; neu, yn ol Onkelos, 'i barotoi preswylfod iddo yn Gosen;' hyny yw, i dderbyn hysbysrwydd gan *Joseph* yn mba ran o Gosen y caent drigianu.

Adn. 29. *A Joseph a barotodd ei gerbyd, &c.*] Yn *Joseph*, yr hwn a aeth i gyfarfod a'i dad, ac i'w goffoidio, y mae gan bobl ieuainc, y rhai a allant fod wedi eu dyrchafu yn y byd, gynllun prydferth o serchigrwydd a pharch mabaid. Y mae y tad fyth yn dad, a'r mab fyth yn fab, beth bynag yw y gwahaniaeth rhyngddynt mewn gradd a chyfoeth. Y rhai hyn ydynt ddyledswyddau ag y mae Duw yn gofyn i bob plentyn eu talu i'w rhieni. Ac os yw rhagluniaeth wedi dyrchafu rhyw frawd yn y byd, efe a gaiff siampl yn *Joseph* pa fodd y dylai lesâu ei deulu yn ol fel y byddo amgylchiadau yn galw. *Ac efe a syrthiodd ar ei wddf ef*—hyny yw, syrthiodd *Joseph* ar wddf ei dad, a'i dad yn ddiamau ar ei wddf yntau; canys yr oeddynt yn ymgoffoidio o bob ochr. *Ac a wylodd ar ei wddf*

ei dad i Gosen; ac a ymddanghosodd iddo: ac efe a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a wylodd ar ei wddf ef enyd.

30 A dywedodd Israel wrth Joseph, Byddwyf farw bellach, wedi i mi weled dy wyneb, gan dy fod di yn fyw eto.

31 A dywedodd Joseph wrth ei frodyr, ac wrth deulu ei dad, Mi a âf i fyny, ac a fynegaf i Pharao, ac a ddywedaf wrtho, Fy mrodyr, a theulu fy nhad, y rhai oedd yn nhir Canaan, a ddaethant ataf fi.

32 A'r gwŷr, bugeiliaid defaid ydynt: canys perchen anifeiliaid ydynt;

ef enyd—cyn y gallodd ddywedyd un gair. Nid oes dim llawenydd pur a digymysg i'w gael yma: ond pan yr ymgofeidwn yn y nef, gan y bydd ein llawenydd yn berffaith, sychir pob deigr yn oddiwrth ein llygaid am byth.

Adn. 30. *Byddwyf farw bellach*] Hynny yw, bydded i mi farw bellach. Efe a ddywed hyn, nid am nad oedd yn dymuno byw gyda Joseph, a gweled ei anrhydedd a'i ddefnyddioldeb ef; ond efe a gawsai gymaint o foddlonrwydd yn y cyfarfod cyntaf yma, nes y tybiai yn ormod iddo dymuno neu ddyssgwyl dim yn chwaneig yn y byd hwn. Tybia rhai fod geitriau Jacob mewn golwg gan yr hen Simeon, pan, wrth weled iachawdwriaeth Israel, y dywedodd, 'Yr awrhon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd,' &c., Luc. ii. 29.

Adn. 31—33. *Mi a âf i fyny, ac a fynegaf i Pharao, &c.*] Yr oedd yr ystyriaeth fod y brenin yn uwch nag ef, yn rhwymo Joseph i fynegu iddo y pethau hyn am ei dad a'i frodyr; a diau y gwyddai y byddai i'r newydd am eu dyfodiad Joni Pharao, gan mai efe a orchynnodd anfon cerbydan i'w ceisio, pen. xlv. 19.

Adn. 34. *Canys ffeidd-dra yr Aifftiaid yw pob bugail defaid?* Gan y tybia rhai fod gan yr Aifftiaid anifeiliaid a deadellau eu hunain, a darfod i Pharao hyd yn nod efllyn am i rai o frodyr Joseph gael eu gosod yn *ben-bugeiliaid ar yr eiddo ef*, pen. xlvii. 6, pa fodd y gellid dywedyd mai *ffeidd-dra yr Aifftiaid yw pob bugail defaid?* Gellir rhoddi tri rheswm am hyn: (1) Yr oedd bugeiliaid a phorthianwyr anifeiliaid yn gyffredin yn fath ar faintai o ladron ysglyfaethus a digyfraith, y rhai yn fynych a ymosodent ar bentrefi, &c., gan ddwyn ymaith anifeiliaid, a pha anrheithiau bynag a allent eu cael. Y mae yn debyg y gallai ei bod fel hyn gynt, canys y mae yn dra llysbys iddi fod yn aml felly wedi hynny. Ar y cyfrif hwn rhaid fod y cyfryw bersonan yn cael eu casâu yn gyffredinol. (2) Rhaid fod yr Aifftiaid yn ffeiddio *bugeiliaid*, os gellir credu hanes MANETHO am yr *hycsos*, neu y 'brenin-fugeiliaid.' Darfa i finteiodd o ladron dan yr enw hwn, o Arabia, Syria, ac Ethiopia, (prif orchwyl y rhai, megys yr *Arabiaid Bedowinaidd* y dydd hwn, ydoedd cadw deadellau,) wneithur rhuthr-gyrch grymus i'r Aifft, yr hon a oresgynasant, ac a reolasant gyda gormes mawr am 259 o flynyddau. Yn awr, er i 200,000 o honnynt

a dygasant *yma* eu praidd, a'u gwartheg, a'r hyn oll *oedd* ganddynt.

33 A phan alwo Pharao am danoch, a dywedyd, Beth *yw* eich gwaith?

34 Dywedwch, Dy weision fiant drinwyr anifeiliaid o'n hieuenctid hyd yr awr hon, nynt a'n tadau hefyd; er mwyn cael o honoch drigo yn nhir Gosen: canys ffeidd-dra yr Aifftiaid *yw* pob bugail defaid.

PENNOD XLVII.

YNA y daeth Joseph ac a fynegodd i Pharao, ac a ddywedodd, Fy nhad, a'm brodyr, a'u defaid, a'u

gael eu gyru allan o'r wlad hōno er's cryn anser cyn hyn gan y brenin Amasis, eto yr oedd eu henw lwy, a phawb o'r gyffelyb alwedigaeth, yn cael ei ffeiddio gan yr Aifftiaid ar gyfrif yr anrheithiadau a'r hir-barhaol ddifrodiadau a wnaethant yn y wlad. (3) Ond y rheswm olaf, ac yn debygol y goraf, paham y ffeiddiai yr Aifftiaid y cyfryw fugeiliaid a'r Israeliaid oedd, am eu bod yn *aberthu* yr anifeiliaid hynny, yn enwedig yr *ŷch* a'r *ddafad*, y rhai a farnai yr Aifftiaid yn gvsegredig. Am hynny yr hanesydd Rhufeinig TACITUS, wrth son am yr Iuddewon, a ddywed, 'Y maent yn aberthu yr *hwerdd*, i'r dyben i ddirmygu *Jupiter Ammon*; ac yn aberthu yr *ŷch*, yr hwn y mae yr Aifftiaid yn ei addoli dan yr enw *Apis*.' Gwel ar pen. xliii. 32, a xlvii. 6.

ADFEDDYLIADAU.—Cawn yn y bennod hon, (1) Gyfarfyddiad dedwydd Jacob â Joseph, adn. 29. Ar ol i Juda fynegu iddo am ddyfodiad ei dad, y mae cerbyd Joseph yn cael ei barotoi, ac yntau yn myned i gyfarfod âg ef. Y mae parch a chariad mabaid Joseph yn gymaint a gorffoedd tadol Jacob; y maent yn ymgofeidio, ac yn wlylo o lawenydd, tra yn awr y mae y patriarch oedraus yn meddwl ddarford iddo fyw yn ddigon hir, gan iddo gael gweled y dydd dedwydd hwn, ac y mae yn toddlon i farw. Nodwn, 1. Pa mor uchel bynag y gall y mab gael ei ddirychafu, y mae yn ddyledswydd aruo barchu ei rieni, a pheidio ymgodi oddiar ei dylwyth ei hun. 2. Efe sydd i'r dedwydd, yr hwn a all ddywedyd gyda chysur, 'Pan yr ewillysia Duw, boed i mi farw!' (2) Yr hyfforddiadau a ddyry Joseph i'w frodyr pa fodd i ymddwyn gerbron Pharao, adn. 34. Yr oedd yn ewillysio iddynt ymsefydlu yn agos i Ganaan, am fod yn rhaid iddynt ddychweled yno drachefn. Nid yw yn dymuno eu dwyn i'r llys, rhag iddynt gael eu llygru gydag eilunod yr Aifft, neu fod yn agored i gengein y brodorion: heblaw hyn, efe a fyn eu cadw yn *un* teulu, ac ar waith yn eu galwedigaeth eu hunain. Yr oedd *Gosen* yn mhob ystyr yn gyfaddas i'r bwriad hwn. Nodwn, 1. Uchel-leoedd ydynt lithrig: dylem ymgadw oddiwrth ddrachafiad, yn hytrach na'i garu. 2. Nid yw galwedigaeth onest yn un anfr i ni na'n teulu.

PEN. XLVII. Adn. 1. *Ac wele hwynt yn*

gwartheg, a'r hyn oll oedd ganddynt, a ddaethant o dir Canaan; ac wele hwynt yn nhir Gosen.

2 Ac efe a gymerth rai o'i frodyr, sef pum nyn, ac a'u gosododd hwynt o flaen Pharao.

3 A dywedodd Pharao wrth ei frodyr ef, Beth yw eich gwaith chwi? Hwytbau a ddywedasant wrth Pharao, Bugeiliaid defaid yw dy weision, nyui a'n tadau hefyd.

4 Dywedasant hefyd wrth Pharao, I orymdaith yn y wlad y daethom, am nad ocs borfa i'r defaid gan dy weision; canys trwm yw y newyn yn ngwlad Canaan: ac yr awr hon, atolwg, caed

dy weision drigo yn nhir Gosen. 5 A llefarodd Pharao wrth Joseph, gan ddywedyd, Dy dad a'th frodyr a ddaethant atat.

6 Tir yr Aifft sydd o'th flaen: cyflea dy dad a'th frodyr yn y man goraf yn y wlad; trigant yn nhir Gosen: ac os gwyddost fod yn eu mysg wŷr grymus, gosod hwynt yn ben-bugeiliaid ar yr eiddof si.

7 A dyg Joseph Jacob ei dad, ac a'i gosododd gerbron Pharao: a Jacob a fendithiodd Pharao.

8 A dywedodd Pharao wrth Jacob, Pa faint yw dyddiau blynyddoedd dy einioes di?

nhir Gosen] I breswyllo yno, neu i symud oddiyno i unrhyw le arall a benodi di iddynt.

Adn. 2. *Ac efe a gymerth rai o'i frodyr, sef pum nyn*] Y mae rhyweth yn dra hynod yn y wreiddiol; a'i chyfieithu yn llythyrenol y mae yn arwyddo, 'o derfyn neu eithafed (*miktseh*) ei frodyr efe a gymerth bum nyn.' Cafodd hyn ei ddeall *chwech* o wahanol ffordd. 1. Cymerth Joseph bum o'i frodyr y rhai a ddaethant *gyntaf i law*—ar antur, heb fwriad na dewisiad. 2. Cymerth bump o'r rhai *gwaelaf yr olwg* o'i frodyr i'w gosod o flaen Pharao, gan ofni, os cymerai efe y rhai *tecaf*, y byddai i Pharao eu cadw i'w wasanaeth, trwy yr hyn y gallai eu crefydd a'u moesau gael eu llygry. 3. Cymerth bump o'r rhai *harddaf a phrydferthaf* o'i frodyr, ac a'u gosododd o flaen Pharao, gan ewyllsio argraffu ar ei feddwl dyb bleidgar am y teulu a ddygasai efe yn awr i'r Aifft, a chael iddo ei hun barch. 4. Cymerth bump o'r rhai *ieuangaf* o'i frodyr. 5. Cymerth bump o'r rhai *hynaf* o'i frodyr. 6. Efe a gymerth o *eithafed* neu *derfyn* ei frodyr, hyny yw, rhai o'r rhai *hynaf*, a rhai o'r rhai *ieuangaf*, sef Reuben, Simeon, Lefi, Issacar, a Benjamin.—*Rab. Salomon*. Gwel ar Barn. xviii. 2. Ond dicheon nad yw y gair yn meddwl dim mwy na *rhai*; o'i holl frodyr na chymerth efe ond *pum* nyn, &c.

Adn. 3. *Beth yw eich gwaith chwi?*] Y mae Pharao yn cymeryd yn ganiataol fod ganddynt rywbeth i'w wneuthur. Dylai fod gan bawb ag sydd yn meddu lle yn y byd, waith ynddo yn ol eu gallu, sef rhyw orchwyl neu gilydd. Rhaid i'r rhai nad oes achos iddynt weithio am eu bara, er hyny gwel rhywbeth i'w wneyd i'w cadw rhag segrudd.

Adn. 4. *I orymdaith yn y wlad y daethom*] Nid i ymsefydlu yno dros byth, ond i orymdaith yn unig tra y parhâi y newyn yn Nghanaan. Eithr er nad oedd Jacob a'i feibion yn bwriadu gorymdaith yn Gosen ond tra y parhâi y newyn, eto yn gyntaf darfu i'r tiriondeb a dderbyniant eu cefnogi i barhau, ac o'r diwedd bu i'r Aifftiaid gaethiwo eu hiliogaeth, a'u gorfodi i aros.

Adn. 5. *Dy dad a'th frodyr*] Yn cynwys hefyd eu gwragedd a'u plant, fel y gwelwom yn y bennod flaenorol.

Adn. 6. *Cyfla dy dad a'th frodyr yn y man goraf yn y wlad, trigant yn nhir Gosen*] Felly ymdengys mai tir Gosen oedd y man goraf yn ngwlad yr Aifft: gwel ar pen. xlv. 10. *Ac os gwyddost fod yn eu mysg wŷr grymus*—mewn corff neu feddwl, addas i'r gorchwyl. Oddiwrth yr ymadrodd hwn ymdengys braidd yn debyg fod y 'pum nyn' a osodwyd o flaen Pharao o'r fath *gwaelaf* o honynt: gwel ar adn. 2. *Gosod hwynt yn ben-bugeiliaid ar yr eiddof si*—Saes. 'ar fy anifeiliaid i.' 'Y mae *mikneh* yn arwyddo nid yn unig *anifeiliaid*, ond *eiddo* o ryw fath; er y rhan fynychaf mai anifeiliaid a feddylir, am mai hwy yn yr hen amseroedd a gyfansoddent y rhan benaf o eiddo gwŷr. Gellir cymeryd y gair yn y lle hwn mewn ystyr hilaethach, ac ymdengys yn eglur fod amgylchiadau yr achos yn gofyn hyn. Os oedd pob *bugail* yn ffeidd-dra i'r Aifftiaid, pa fodd bynag y gallwn ddeall neu gymesuro yr ymadrodd, a ydyw i'w dybio y buasai i Pharao ewyllsio i *frodyr* ei BRIF-WEINIDOG, ei *gyfaill penaf*, gael eu rhoddi ar waith mewn rhai o'r swyddau *gwaelaf* yn y wlad? Gan hyny gallwn yn ddiogel ddeall Pharao fel yn mynegu ei ewylls i frodyr Joseph gael eu penodi fel *arolygwyr* neu *oruchwylwyr* ei achosion *teuluiaidd*, tra yr oedd Joseph yn arolygu achosion y *deyrnas*.—CLARKE.

Adn. 7. *A Jacob a fendithiodd Pharao*] Yr hyn a ail adroddir adn. 10, fel amgylchiad tra hynod: a pheth hynod yn wir oedd fod i'r mwyaif, (canys y cyfryw oedd Pharao mewn pethau allanol, megys cyfoeth, awdurdod, a gogoniant,) 'gael ei fendithio gan ei lai,' Heb. vii. 7. Eithr gerbron Duw, ac mewn gwirionedd, yr oedd Jacob yn llawer mwy na Pharao. Y mae yn debyg gan hyny ddarfed iddo nid yn unig ei gyfarch ef, weddio drosto, a diolch iddo am ei holl garedigrwydd iddo ef a'r eiddo; yr hyn oll y mae y gair gwreiddiol, a gyfieithir yma yn *fendithio*, yn amli yn ei feddwl; ond ddarfed iddo ei fendithio ef gydag awdurdod patriarch a phroffwyd: ac yr oedd bendith patriarch yn beth nad oedd i'w ddiystyru, hyd yn nod gan frenin galluog.

Adn. 8. *Pa faint yw dyddiau blynyddoedd dy einioes di?*] Yr oedd gwedd Jacob yn ddi-amau yn dangos ei fod ef yn hen, canys efe a fuasai yn ŵr o lafur a gofid. Nid oedd pobl

9 A Jacob a ddywedodd wrth Pharao, Dyddiau blynyddoedd fy ymdaith ydynt ddeg ar hugain a chan mlynedd: ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy einioes, ac ni chyrrhaeddasant ddyddiau blynyddoedd einioes fy nhadau yn nyddiau eu hymdaith hwynt.

10 A bendithiodd Jacob Pharao, ac a aeth allan o wydd Pharao.

11 ¶ A Joseph a gyffeodd ei dad a'i frodyr, ac a roddes iddynt feddiant yn ngwlad yr Aiff, yn nghwr goraf y wlad, yn nhir Rameses, fel y gorchymynasai Pharao.

12 Joseph hefyd a gynaliodd ei dad, a'i frodyr, a holl dylwyth ei dad, â bara, yn ol eu teuluoedd.

13 ¶ Ac nid oedd bara yn yr holl wlad: canys y newyn oedd drwm iawn; fel yr oedd gwlad yr Aiff, a

gwlad Canaan, yn dyddfu gan y newyn.

14 Joseph hefyd a gasglodd yr holl arian a gawsid yn nhir yr Aiff, ac yn nhir Canaan, am yr ymborth a brynasent hwy: a Joseph a ddyg yr arian i dy Pharao.

15 Pan ddarfu yr arian yn nhir yr Aiff, ac yn ngwlad Canaan, yr holl Aiffiaid a ddaethant at Joseph, gan ddywedyd, Moes i ni fara: canys pam y byddem ni feirw ger dy fron? o herwydd darfu yr arian.

16 A dywedodd Joseph, Moeswch eich anifeiliaid; a rhoddaf i chiw am eich anifeiliaid, os darfu yr arian.

17 A hwy a ddygasant eu hanifeiliaid at Joseph: a rhoddes Joseph iddynt fara am y meirch, ac am y deaddelloedd defaid, ac am y gŷroedd gwartheg, ac am yr asynod; ac a'u

yn byw cybyd yn yr Aiff ag y gwnaent yn Nghanaan, ac am hyn y mae Pharao yn edrych ar Jacob gyda syndod.

Adn. 9. *Dyddiau blynyddoedd fy ymdaith ydynt ddeg ar hugain a chan mlynedd*] Nodwn, 1. Fod Jacob yn galw ei einioes yn *ymdaith*, gan edrych arno ei hun fel estron yn y byd hwn, ac ymdeithydd tuag ni arall. Nid yn unig cyfrifai ei hun yn ymdeithydd yn awr tra yr ydoedd yn yr Aiff, gwlad estronol, yn yr hon na bu erioed o'r blaen; ond hefyd cyfrifai ei einioes, hyd yn nod yn ngwlad ei enedigaeath, megys *ymdaith*. 2. Cyfrifai ei einioes wrth *ddyddiau*; canys hyd yn nod felly buan ei cyfrifir; ac nid ydym yn sicr o'i pharhad am ddiwrnod hyd ei ddiwedd, ond gallwn gael ein troi allan o'r babel hon ar lai nag awr o rybydd. 3. Y gweddnod a roddai efe iddynt ydoedd, (1) Eu bod yn *ychydig*. Er ei fod bellach wedi byw 130 o flynyddoedd, nid oeddynt yn ymddangos iddo ef ond fel ychydig ddyddiau mewn cydmhariaeth i ddyddiau llawer o'i benafiaid, ac yn enwedig i ddyddiau tragwyddoldeb, yn y rhai nid yw 'mil o flynyddau ond megys un dydd.' (2) Eu bod yn *ddrwg*. Y mae hyn yn wir am ddyd yn gyffredinol, Job xiv. 1: y mae efe yn 'fŷr o ddyddiau, a llawn o helbul.' Yr oedd einioes Jacob yn enwedig wedi ei gwneyd i fyny o ddyddiau drwg: dyddiau hŷfydaf ei einioes oeddynt eto o'i flac ef. *Ni chyrraeddasant ddyddiau blynyddoedd einioes fy nhadau*—bu Jacob byw yn y cwbl 147 o flynyddoedd, Isaac ei dad 180, ac Abraham ei daid 175. Ac nid oedd hyd yn nod y rhai hyn ddim ond *dyddiau blynyddoedd* mewn cydmhariaeth i einioes y patieirch o'u blaen hwy, rhai o ba rai a ffont byw yn agos i *fil* o flynyddau!

Adn. 10. *A bendithiodd Jacob Pharao*] Wrth fyned o'i wydd ef, yn gystal ag wrth fyned ato: gwel ar adn. 7.

Adn. 11. *Yn nhir Rameses*] Sef yn Gosen: gwel ar pen. xlv. 10.

Adn. 12. *Joseph hefyd a gynaliodd ei dad*

a'i frodyr, a holl dylwyth ei dad, â bara yn ol eu teuluoedd] Yn llythrenol, 'â bara i enau yr un bychan'; neu, megys ar ymyl y ddalen, 'fel y maethir plentyn.' Yr oedd Joseph fel pe buasai yn rhoddi eu bywyd yu eu geneau: efe a ddydig atynt bell ddim mwy o drafferth iddynt hwy nag a gymer baban gyda'i ymborth.

Adn. 13. *Yr oedd gwlad yr Aiff, a gwlad Canaan, yn dyddfu gan y newyn*] Saes. *fainted by reason of the famine*. Hyn yw, yr oedd ysbryoedd y bobl yn cael eu llethu ac yn ymollwng ynddynt, a'u cnawd hefyd a guriai o eisiau ymborth. Ond y mae amrai ferniaid yn dewis cyfieithu y geiriau, 'Yr oedd y wlad yn ymgynydddeiriogi, nen yn ymwylltio.' Dyma fel y mae yn gyffredin, yn enwedig gyda'r gradd isaf o bobl, mewn amser o brinder a newyn. Yn lle ymstwyng dan geryddol law Duw, y maent yn ymlenwi o gynddaredd yn ei erbyn ef a'u llywodraethwyr, ac yn ymwylltio mewn flyrnigrwydd.

Adn. 14, 15. *Joseph hefyd a gasglodd yr holl arian a gawsid yn nhir yr Aiff*] Sef trwy werthu yd allan o'r ystordai cyffredin i'r bobl; a hyn a wnaeth efe nes y darfu yr arian—nes i'r holl arian gael eu cyfnewid am yd, a'u dwyn i drysorfa Pharao.

Adn. 16, 17. *Moeswch eich anifeiliaid, &c.*] Hwn oedd y mesur doethaf a ellid ei gymeryd er cadwraeth y bobl a'r anifeiliaid hefyd. Gan na feddai y bobl yd er eu cynaliaeth eu hunain, ni allent gael dim i'w hanifeiliaid; gan hyn yr oedd yr anifeiliaid yn y perygl mwyaf o newynu; ac yr oedd y bobl hefyd mewn cymaint perygl, trwy fod yu rhaid iddynt roddi rhan o'r llyn a brynent iddynt eu hunain, i'r anifeiliaid, y rhai, er mwyn llafuriaeth, &c., yr ewyllsient eu cadw hyd nes y byddai y saith mlynedd o newyn drosodd. Yr anifeiliaid, ar ol i Joseph eu prynu, a gynelid ar drawl y breniu, ac a ddŷchwelwyd ond odid i'r bobl yn niwedd y newyn; canys pa fodd amgen y gallent lafurio eu tir, trosglwyddo eu maelwriaeth, &c.? Gwel ar adn.

cynaliodd hwynt â bara, am eu holl anifeiliaid, dros y flwyddyn hòno.

18 A phan ddarfu y flwyddyn hòno, y daethant ato ef yr ail flwyddyn, ac a ddywedasant wrtho, Ni chelwn oddiwrth fy arglwydd ddarfed yr arian, a *myned ein hysgrubliaid a'n hanifeiliaid* at fy arglwydd; ni adawyd i ni gerbron fy arglwydd ond ein cyrff a'n tir.

19 Paham y byddwn feirw o flaen dy lygaid, nynt a'n tir? pryn ni a'n tir am fara; a nynt a'n tir a fyddwn gaethion i Pharao: dod dithau i ni had, fel y byddom fyw, ac na fyddom feirw, ac na byddo y tir yn anghyfanedd.

20 A Joseph a brynodd holl dir yr Aifft i Pharao: canys yr Aifftiaid a werthasant bob un ei faes; oblegid y newyn a gryfhasai arnynt: felly yr aeth y tir i Pharao.

21. Am y rhan yma o ymddygiad Joseph y mae efe yn ddiau yn haeddu uchel ganmoliaeth, ac nid cerydd.

Adn. 18. *A phan ddarfu y flwyddyn hòno*] Yr hon y tybir yn gyffwrdd ei bod y chweched o'r newyn, *daethant ato ef yr ail flwyddyn*—yr hon oedd y flwyddyn *olaf* neu y *seithfed* o'r newyn, yn yr hon yr oedd yn angenrheidiol hau y tir er mwyn cael enwd y flwyddyn ganlynol; oblegid Joseph, ar ragfynegiad yr lwn bellach yr ymorphwysent, a ragddywedasant na pharhâi y newyn ond *saith mlynedd*; ac o ganlyniad yr oeddynt yn dysgwyl i'r *wythfed* flwyddyn fod yn un ffrwythlon os byddai i'r tir gael ei *hau*, heb yr hyn, er i orlifaid y Nilus gyraedd i'r un cufydd ar bymtheg gofynol, ni allai fod dim enwd.

Adn. 19, 20. *Paham y byddwn feirw o flaen dy lygaid, nynt a'n tir?*] Gellir dywed-y fod y tir yn *marw*, pan y byddo yn anghyfanedd a diffwrth; neu pan y byddo ei flwythau yn marw, neu, yr hyn s'rdd yr un peth, yn peidio byw a blodeuo. *Pryn ni a'n tir am fara*—toster y newyn a'u dygodd hwynt i hyn. I gael *bara*, nid yn unig ymadawsant yn ewyllysgar â'u harian, a'u hanifeiliaid, a'u tiroedd, ond o'r diwedd gwerthasant eu hunain; ac yr oeddynt yn eu hystyried eu hunain dan fawr rwymau i Joseph am allu cyraedd bara hyd yn nod ar y telerau gwir galed hyn! Mor ddiolchgar y dylem ni fod yn y wlad hon, am na wyddom trwy brofiad pa beth y mae newyn neu wir brinder yn ei feddwl! Mewn amseroedd o newyn yn *Hindostan*, gwerthwyd miloedd o blant i attal iddynt drengu! Yn amherodraeth *Birmah*, y mae gwerthiad teuluoedd cyfain i dalu dyledion yn beth tra chyffredin.

Adn. 21. *Y bobl hefyd, efe a'u symudodd hwynt i ddinasoedd*] I ddangos awdurdod penadrol Pharao drostynt, ac fel y byddai iddynt mewn amser annghofio eu hawliau i'w tiroedd, a chael eu cynodi yn hawddach â'u cyflwr newydd o gaethiweid.—EENSON Ond

21 Y bobl hefyd, efe a'u symudodd hwynt i ddinasoedd, o'r naill gwr i derfyn yr Aifft hyd ei chwr arall.

22 Yn unig tir yr offeiriaid ni phrynnodd efe: canys rhan *oedd* i'r offeiriaid wedi ei phennu iddynt gan Pharao, a'u rhan a roddasai Pharao iddynt a fwyasant hwy; am hyny ni werthasant hwy eu tir.

23 Dywedodd Joseph hefyd wrth y bobl, Wele, prynais chwi heddyw, a'ch tir, i Pharao: wele i chwi had, heuwch chwithau y tir.

24 A bydded i chwi rodde i Pharao y bummed ran o'r enwd; a bydd y pedair rhan i chwi, yn had i'r maes, ac yn ymborth i chwi, ac i'r rhai *sydd* yn cich tai, ac yn fwyd i'ch rhai bach.

25 A dywedasant, Cedwaist ni yn fyw: gâd i ni gael ffafr yn ngolwg fy arglwydd, a byddwn weision i Pharao.

y mae yn debycach nad oedd dim mewn golwg gan Joseph wrth symud y bobl i'r dinasoedd, ond eu cael yn fwy cyfleus i'w porthi; canys yr oedd yn angenrheidiol iddynt fyned yn ol eilwaith i lafurio eu tiroedd ar ol i'r newyn fyned drosodd.

Adn. 22. *Yn unig tir yr offeiriaid ni phrynnodd efe*] 'Y mae yn naturiol casglu oddiwrth yr adnod hon, pa beth bynag oedd crefydd yr Aifft, ei bod wedi ei *sefydlu trwy gyfraith*, ac yn cael ei *chynnal gan y llywodraeth*. O ganlyniad, pan brynodd Joseph holl diroedd yr Aifftiaid i Pharao, ni phrynnodd efe dir yr offeiriaid, canys hòno oedd *ran wedi ei phennu iddynt gan Pharao*; a'r rhan hòno a *fwyasant hwy*—buont byw arni. Dyma yr hanes gyntaf ag sydd genym am *greffydd sefydledig* yn cael ei *chynnal gan y llywodraeth*.—CLARKE.

Adn. 23. *Wele, prynais chwi heddyw, a'ch tir, i Pharao*] Ymddengys yn eglur fod teyrnas yr Aifft, cyn amser Joseph, yn frenhiniaeth dra chyfyng. Yr oedd ei etifedd-iaethau gan y brenin, eu tiroedd gan yr offeiriaid, a'u trefdadaeth gan y bobl gyflwed yn annibynol ar y ddau. Ymddengys mai tir Rameses, neu Gosen, oedd tir y *brenin*, adn. 11; yr oedd gan yr *offeiriaid* eu tiroedd, y rhai ni werthasant i Joseph, adn. 22, 26; a bod gan y *bobl* diroedd yn annibynol ar y goron sydd anlwg oddiwrth y pryniadau a wnaeth Joseph, adn. 19, 20. Gwel *Diodorus Siculus*, llyfr i.

Adn. 24. *A bydded i chwi rodde i Pharao y bummed ran o'r enwd*] Yn cyfateb i bedwar swllt y bunt; yr hyn oedd yn ardreth dra esmwyth pan yr oedd y tai, y tiroedd, a'r anifeiliaid hefyd ond odid, yn cael eu darparu gan y brenin. Fel hyn yn gymhwys y mae yn Hindostan eto.

Adn. 25. *Cedwaist ni yn fyw—byddwn weision i Pharao*] Y mae y geiriau hyn o eiddo y bobl yn profi yn anlwg eu bodlonrwydd yn Joseph, ac yn ei ryddhau ef yn

26 A Joseph a osododd hyny yn ddeddf, hyd heddyw, ar dir yr Aifft, gael o Pharao y bummed ran; ond o dir yr offeriaid yn unig, yr hwn nid oedd eiddo Pharao.

27 ¶ Trigodd Israel hefyd yn ngwlad yr Aifft o fewn tir Gosen, ac a gawsant feddiannau ynddi; cynyddasant hefyd, ac amlhasant yn ddirfawr.

28 Jacob hefyd a fu fyw yn nhir yr Aifft ddwy flynedd ar bymtheg: felly yr oedd dyddiau Jacob, *sef* blynyddoedd ei einioes ef, yn saith mlynedd a deugain a chan mlynedd.

29 A dyddiau Israel a nesasant i farw: ac efe a alwodd am ei fab Joseph, ac a ddywedodd wrtho, O cheffais yn awr flafr yn dy olwg, gosod, atolwg, dy law dan fy morddwyd, a gwna â mi drugaredd a gwirionedd; na chladd fi, atolwg, yn yr Aifft.

30 Eithr mi a orweddaf gyda'm tadau; yna dwg fi allan o'r Aifft, a

ddigonol oddiwrth y bai hwnw â pha un y ceisiodd auffyddiaeth ddiweddar dduo ei gymeriad.

Adn. 26. *A Joseph a osododd hyny yn ddeddf*] Fod i'r bobl gymeryd eu tiroedd gan y brenin, a rhoddi iddo ef y bummed ran o'r cynyrch fel ardreth flynyddol. Y mae yn debyg nad oedd gan y brenin un hawl yn mbellach na hyn.

Adn. 27. *Cynyddasant hefyd*] Gwel ar pen. xli. 20—27, ac Exod. xii. 37.

Adn. 28. *Jacob hefyd a fu fyw yn ngwlad yr Aifft ddwy flynedd ar bymtheg*] Yr hyn oedd yn mbell tuhwnt i'w ddysgwyliad ei hun. Dwy flynedd ar bymtheg y meithrinasai *efe* Joseph, canys dyna oedd ei oed ef pan ei gwerthwyd oddiwrtho; ac yn awr dwy flynedd ar bymtheg y meithrinodd Joseph yntau. Gwelw'n mor dirion y trefnodd rhagluniaeth achosion Jacob, fel pan yn hen, ac yn lleiaf galluog i ddyoddef gofal a lludded, yr oedd arno leiaf o achos am danynt, trwy ei fod yn cael darparu yn dda ar ei gyfer gan ei fab, heb ei ragddarbodaeth ei hun.

Adn. 29. *A dyddiau Israel a nesasant i farw*] Er i Israel gael 'nerth gyda Duw, a gorchfygu,' eto bydd i angau ei orchfygu yntau. Ni chwythwyd ei ganwyll ef allan ar unwaith, eithr liosgai i lawr yn raddol, nes yr oedd ef oddidraw yn gwled yr amser yn nesáu. *Dy law dan fy morddwyd*—gwel ar pen. xxiv. 9.

Adn. 30. *Eithr mi a orweddaf gyda'm tadau*] Efe a fynai ei gladdu yn Nghanaan, nid am mai Canaan oedd gwlad ei enedigaeth, ond mewn Ffydd, am mai gwlad yr *addewid* ydoedd, yr hon yr ewyllysiai ef fel hyn gadw meddiant o honi hyd oni ddelai yr amser i'w hiliogaeth ei pherchenogi; ac am ei fod yn gysgod o'r nef, y wlad well hōno, yr hon yr oedd ef mewn dysgwyliad am dani. *A chladd fi yn eu beddrod hwynt*—gerllaw Hebron, yn yr un bedd a Sarah, Abraham, ac Isaac.

chladd fi yn eu beddrod hwynt. Yntau a ddywedodd, Mi a wnaaf yn ol dy air.

31 Ac efe a ddywedodd, Twng wrthyf. Ac efe a dyngodd wrtho. Yna Israel a ymgyrmodd ar ben y gwely.

PENNOD XLVIII.

ABU, wedi y pethau hyn, ddywedwyd o un wrth Joseph, Wele, y mae dy dad yn glaf. Ac efe a gymerth ei ddau fab gyd âg ef, Manasse ac Ephraim.

2 A myngodd un i Jacob, ac a ddywedodd, Wele dy fab Joseph yn dyfod atat. Ac Israel a ymgryfhaodd, ac a eisteddodd ar y gwely.

3 A dywedodd Jacob wrth Joseph, Duw Hollalluog a ymddanghosodd i mi yn Lus, yn ngwlad Canaan, ac a'm bendithiodd:

4 Dywedodd hefyd wrthyf, Wele,

Adn. 31. *Yna Israel a ymgyrmodd ar ben y gwely*] Yr oedd Jacob yn awr yn hen ac egwan, a gallwn feddwl ei fod yn gorwedd ar ei wely ar ddyfodiad Joseph; a darfod iddo wedi hyny eistedd i fyru yn syth (pen. xlviii. 2) tra yn ymddyddan â'i fab, ac yn derbyn ei lw a'i addewid ef; ac ar ol i hyny gael ei wneuthur, ddarfod iddo *ymgyrnu ar ben y gwely*—neu orwedd drachefn ar ei wely megys o'r blaen, trwy ei fod yn lluddedig wrth ymddyddan: gwel CLARKE. Neu dichon mai ystyr yr *ymgyriad* hwn yw, iddo blygu ei ben mewn ffordd o *addoliad* i Dduw, ar ol cael y sicrwydd angenrheidiol oddiwrth Joseph y ca'i ei gorff ei gladdu yn Nghanaan. Trwy fod *mittah*, GWELY, trwy newidiad y nodau yn unig, yn dyfod yn *matteh*, FFOF, tybiodd llawer mai at yr amgylchiad hwn y cyfeirio yr apostol pan y dywed, 'Ac a addolodd â'i bwys ar ben ei ffon,' Heb. xi. 21; ond, fel y sylwa DR. GILL, y mae yr apostol yn cyfeirio at amgylchiad arall ar amser arall, sef at pen. xlviii. 15, 16.

PEN. XLVIII. Adn. 1. *A bu wedi y pethau hyn ddywedwyd o un wrth Joseph, Wele, y mae dy dad yn glaf*] Yr oedd ef yn glaf o'r blaen, a gwyddai Joseph hyny; ond ymddengys ddarfod i genad yn awr gael ei anfon i fynegu i Joseph fod ei dad bron â marw.

Adn. 2. *Ac Israel a ymgryfhaodd, ac a eisteddodd ar y gwely*] Cyfyngesid ef i'w wely o'r blaen, pen. xlvii. 31; ac yn awr, wrth glywed fod Joseph yn dyfod i'w weled ef, efe a wnaeth yr holl ymdrech a ganiatâi ei rhydig nerth, i eistedd i fyru ar y gwely i dderbyn ei fab. Y mae yr adnod hon, fel y sylwa Clarke, yn profi mai *gwely*, ac nid *ffon*, a feddylir yn adn. 31 o'r bennod flaenorol.

Adn. 3. *Duw Hollalluog*] Gwel ar pen. xvii. 1; a *ymddanghosodd i mi yn Lus*—neu Bethel: gwel ar pen. xxviii. 19.

mi a'th wnaif yn ffrwythlawn, ac a'th amhâf, ac yn dyrfa o bobloedd y'th wnaif, a rhoddaf y tir hwn i'th had di ar dy ol di, yn etifeddiaeth dragwyddol.

5 ¶ Ac yr awr hon, dy ddau fab, y rhai a anwyd i ti yn nhir yr Aifft, cyn fy nyfod atat i'r Aifft, eiddof fi *fyddant* hwy; Ephraim a Manasse fyddant eiddof fi, fel Reuben a Simeon.

6 A'th epil, y rhai a genhedlych ar eu hol hwynt, fyddant eiddot ti dy hun; ar euw eu brodyr y gelwir hwynt yn eu hetifeddiaeth.

7 ¶ A phan ddaethum i o Mesopotamia, bu Rahel farw gyda mi yn nhir Canaan, ar y ffordd, pan oedd eto filldir o dir hyd Ephrath: a chleddais hi yno ar i'ffordd Ephrath: hono *yw* Bethlehem.

Adn. 4. *Yn etifeddiaeth dragwyddol*] Gwel ar pen. xvii. 8.

Adn. 5. *Ephraim a Manasse fyddant eiddof fi*] Yr wyf yn awr yn mabwysiadu dy ddau fab hyn i'm teulu fy hun, a chânt eu lle yn mhlith fy meibion, ac ymddwyn tuag atynt yn mhob ystyr fel hwynt-hwy, a meddu cyfartal hawl yn holl fendithion ysbrydol a thymbhorol y cyfammod : gwel ar adn. 11.

Adn. 6. *A'th epil, y rhai a genhedlych ar eu hol hwynt*] Ni chrybwyllir i Joseph gael chwaneg o blant na'r rhai hyn; ond y mae Jacob yn llefaru hyn ar y dybiaeth y gallai ef gael chwaneg, neu os byddai iddo gael. *Fyddant eiddot ti dy hun*—a gyfrifir fel dy blant di a'm hwyron inau. *Ar enwau eu brodyr y gelwir hwynt*—fel yn perthyn i lwythau Ephraim a Manasse, ac nid i lwythau ar eu benwau eu hunain.

Adn. 7. *Bu Rahel farw gyda mi yn nhir Canaan*] Efe a grybwyllia yma yr amgylechiad hwn, mewn rhan am i'r olwg ar Joseph a'i blant ddwyn ei *Rahel* hoff, mam Joseph, i'w gof; ac mewn rhan fel y gallai bennu rheswm am drosglwyddiad hawl y cyntafanedig i Joseph. Rahel oedd wraig ddewisiedig Jacob, a gwrthddrych ei anghyfnawdidiol serch : efe a'i carai hi mewn bywyd, ac y mae yn ei charu yn angau. 'Dyfroedd lawer ni allant ddi-ffodi cariad, ac afonydd nis boddant,' Can. viii. 7. Bydd i briodas o wneuthuriad dyn ei luo, pan yn cael ei arwain gan reswm a chrefydd, fod o angenrheidrwydd yn un ddedwydd: ond pan y mae tadau a mamau yn gwneuthur priodasau i'w plant, nid o gariad, ond er mwyn elw bydol, &c., y maent yn y cyffredin yn druenus; *Lea* yn lle *Rahel* ydyw hyd angau !

Adn. 8—10. *Pwy yw y rhai hyn?*] Yn adn. 10, dywedir fod llygaid Jacob yn drymion gan henaint, *fel na allai efe weled*—Syriaeg, 'fel na allai weled yn ddu;' hyn yw, fel na allai wahaniaethu rhwyng unryw wrthddrych-
au oddieithr eu bod yn agos ato; gan hyny, er ei fod yn gweled Ephraim a Manasse, ni

8 A gwelodd Israel feibion Joseph ac a ddywedodd, Pwy *yw* y rhai hyn?

9 A Joseph a ddywedodd wrth ei dad, Dyma fy meibion i, a roddodd Duw i mi yma. Yntau a ddywedodd, Dwg hwynt, atolwg, ataf fi, a mi a'u bendithiaf hwynt.

10 Llygaid Israel hefyd oedd drymion gan henaint, *fel na allai efe weled*: ac efe a'u dygodd hwynt ato ef; yntau a'u cusanodd hwynt, ac a'u cofleidiodd.

11 Dywedodd Israel hefyd wrth Joseph, Ni feddyliais weled dy wyneb; eto, wele, parodd Duw i mi weled dy had hefyd.

12 A Joseph a'u tynodd hwynt allan oddiwrth ei liniau ef, ac a ymgyrmodd i lawr ar ei wyneb.

allai wahaniaethu rhyngddynt nes eu dwyn i'w ymyl.

Adn. 11. *Ni feddyliais weled dy wyneb*] Y mae Jacob yn awr yn ei ystyried ei hun wedi ei ad-dalu yn helaeth am ei hier ofid a'i drallod ar gyfrif marwolaeth dybiedig Joseph, nid yn unig wrth gael gweled Joseph ei hun, ond hefyd ei ddau fab, y rhai y mae Duw, trwy ffafir neillduol, yn nghvlch eu chwanegu at uifer ei eiddo ef. Fel hyn ni a gawn, megys yr oedd Reuben a Simeon yn benaethiaid ar ddau lwyth gwahanol yn Israel, felly fod Ephraim a Manasse; canys darfu i Jacob, trwy fath ar lw, eu mabwysiadu hwy i gymaint breintiau a'i feibion ei hun, adn. 5.

Adn. 12. *A Joseph a'u tynodd hwynt ymaith oddiwrth ei liniau ef*] Nid ei liniau ei hun, ond gliniau Jacob, fel na fyddent yn faich i'w taid oedranus ac egwan, ac yn enwedig fel y gallai eu gosod mewn trefn addig i dderbyn y fendith ag yr oedd ef yn ei chwennychu mor fawr. Ymddengys fod Jacob yn awr yn eistedd ar erchwyn ei wely, a'i draed ar y llawr, (pen. xlix. 33), a'r plant yn sefyll rhwng ei liniau, tra yr oedd ef yn eu cofleidio. *Ac a ymgyrmodd i lawr ar ei wyneb*—i dystio ei barch i'w dad, a'i ddiolchgarwch am y ffafir a ddanghoswyd yn awr iddo ef a'i blant, a'i ddymuniaid gostyngedig am ei fendith ef arnynt. Yn ol cyfraith Duw a natur, yr oedd Joseph, er mor uchel ydoedd, dan gymaint rhwymau i dalu y parch mabaidd hwn i'w dad trengawl, ag a ydoedd i anrhydeddu ei frenin neu addoli ei Dduw. Ni ddarfu i Joseph yn hyn ddim ond dilyn arferiad yr Aifftiaid yn mhlith y rhai yr oedd yn byw, y rhai, yn ol Herodotus, oeddynt dra nodedig am y parch a dalent i benaint. 'Os byddai i un gyfarfod âg un hynach nag ef, efe yn y fan a droai o'r neilldu i roddi lle iddo; os âi un oedranus i mewn i ystafell, yr ieuencitid bob amser a godent oddiar eu seddau:' ac y mae *Mr. Savary* yn sylwi fod y parch a grybwyllai Herodotus yn cael ei dalu eto ar bob achlysur yn yr Aifft. Yn mhlith yr hen *Rufeiniaid* ystyrir yn drosedd haeddol o farwolaeth beidio â chodi

13 Cymerodd Joseph hefyd hwynt ill dau, Ephraim yn ei law ddeau tua llaw aswy Israel, a Manasse yn ei law aswy tua llaw ddeau Israel; ac a'u nesaodd hwynt ato ef.

14 Ac Israel a estynodd ei law ddeau, ac a'i gosododd ar ben Ephraim (a hwn oedd yr ieuangaf) a'i law aswy ar ben Manasse; gan gyfarwyddo ei ddwyllaw trwy wybod; canys Manasse oedd y cynfab.

yn ngwyddfod hen bobl; ac yn y gwledydd *Mahometanaidd* y mae y plant yn eistedd megys mudion yn ngwyddfod eu rhieni, heb byth osiaw siared oddieithr i'r rhieni siared â hwy.

Adn. 13. *Ephraim yn ei law ddeau*] I fod ar gyfer llaw aswy Jacob, fel y byddai i Manasse, ei gyntafanedig, gael bendith ei ddeheulaw ef.

Adn. 14. *Ac Israel a estynodd ei law ddeau*] Yr oedd gosodiad dwyllaw ar y pen yn cael ei arfer bob amser yn mhllith yr Iuddewon wrth fendithio, wrth roddi dynion mewn swydd, ac yn nghysegriad offrymau. Dyma y tro cyntaf ag yr ydym yn ei gael yn grybwylledig; ond darllenwn am dano yn aml ar ol hyn: gwel Num. xxvii. 18, 23; Deut. xxxiv. 9; Mat. xix. 13, 15; Act. vi. 6; 1 Tim. iv. 14. *Gan gyfarwyddo ei ddwyllaw trwy wybod*—neu yn fwiadol. Efe a wyddai y gosodai Joseph ei gynfab yn y fath drefn o'i flaen fel ag i roddi ei ddeheulaw yn naturiol arno ef; a'r ieuangaf yn y fath fodd ag a fyddai yn fywaf parod iddo ddodi ei law aswy arno yntau; ac am hyn, gan ei fod dan ddwyfol gynhyrfiad, ac ysbryd profiwyddiaeth, trwy yr hyn y deallai mai yr ieuangaf oedd i gael y fendith fywaf, efe a groesodd ei ddwyllaw, ac a roddes ei law ddeau ar Ephraim, a'i law aswy ar Manasse. Y mae yn hynod y modd y darfu i Dduw o'r dechre ddewis yr ieuangaf o flaen yr hynaf, megys *Abel* o flaen *Cain*; *Sen* o flaen *Japheth*; *Isaac* o flaen *Ismael*; *Jacob* o flaen *Esau*; *Juda* a *Joseph* o flaen *Reuben*; *Ephraim* o flaen *Manasse*; *Moses* o flaen *Aaron*; a *Da fydd* o flaen ei *frodyr*. Y mae hyn i'w briodoli yn hollol i gynghor doeth a dirgel Duw, cyn belled ag y perthyna i fendithion tymhorol a breintiau allanol: gwel ar pen. xxv. 23, a Rhuf. ix. 11. Y mae yn sicr fod y gras ag sydd yn aelub yr enaid yn dyfod o drugaredd Duw yn unig, heb ddim teilyngodod neu haeddiant o du y pechadur; ac y mae digonedd o hwn yn cael ei gynyg i *bob dyn*, Tit. ii. 11, 12: ond nid yw yn llai sicr mai y rhai hyn y gerir *fwyaf* gan Dduw, y rhai sydd *fwyaf ffyddlon* i'r gras hwn. 'Cydmharer Gen. iv. 7 gyda Heb. xi. 4, a gwelir mai gwahaniaeth yn eu cyflwr moesol oedd yr unig achos paham y cymeradwyodd Duw Abel ragor Cain.'—Donn.

Adn. 15. *Ac efe a fendithiodd Joseph*] Y tad yn gyntaf, ac yna y meibion. *Duw, yr hwn a'm porthodd er pan ydwyf*—y mae Jacob yn awr yn sefyll ar fin tragwyddoldeb, a'i ffydd yn gadarn yn Nuw: y mae yn gwel-

15 ¶ Ac efe a fendithiodd Joseph, ac a ddywedodd, Duw, yr hwn y rhodiodd fy nhadau Abraham ac Isaac ger ei fron, Duw, yr hwn a'm porthodd er pan ydwyf, hyd y dydd hwn,

16 Yr Angel yr hwn a'm gwaredodd i oddiwrth bob drwg, a fendithio y llanciau; fy enw hefyd, ac enw fy nhadau Abraham ac Isaac, a alwer arnynt: heigant hefyd yn lluaus yn nghanol y wlad.

ed ei fywyd yn gyfres o drugareddau, a'i fod yn ddyledus am bob taniaid o fwyd y dderbyniodd i drugaredd a thiriondeb Duw yn unig.

Adn. 16. *Yr Angel, yr hwn a'm gwaredodd i oddiwrth bob drwg*] Heb. *hammalac ha-goel*, y Cenadydd, y Gwaredwr, neu Gyfathrachwr, oblegid felly yr arwydda y gair *goel*; canys y mae yr enw hwn, yn nghyfraith Moses, yn cael ei gynhwysu at yr hwn a feddai hawl, trwy ei fod yn GYFESAFIAD, i achub neu brynu yn ol etifeddiaeth fforfietiedig. Ond am bwy y llefara Jacob? Mynych y gwelwom yn y pennodau blaenorol fod Angel Duw yn ymddangos i'r patrieirch; (gwel yn enwedig yr addefyddiadau yn niwedd pen. xvi.) ac y mae genyn brawf digonol nad angel *er'eddig* oedd hwn, ond 'Cenadydd y Dwyfol Gynghor,' yr ANGLWYDD IESU GRIST. Pwy gan hyn oedd yr Angel a *wardasai* Jacob, a'r hwn yr erfyniai efe am iddo fendithio Ephraim a Manasse? Ai nid IESU? Efe yn unig a ellir ei alw *Goel*, y *Cyfathrachwr gwaredol*; canys efe yn unig a fu gyfranog o'n cig a'n gwaed ni, fel y gallai yr *hawl* i waredu fod yn eiddo ef, ac fel y gallai y meddiant fforfietiedig o flaer a delw Duw gael ei brynu a'i ddwyn yn ol i bawb a gredant yn ei enw ef. Gweddio ar unrhyw angel neu genad arall, yn y fath achos, a fusai yn bechod. Nid yw *angylion* yn bendithio; i Dduw yn unig y perthyn y rhagofraint hon. A gall pob tad erefyddol arferdyr y geiriau hyn ar ran ei blant gyda hyder: 'IESU GRIST, yr hwn a'm gwaredodd i, a fendithio y llanciau, ac a'u gwaredo i fywyd tragwyddol!' *Fy enw hefyd*—cyfrifer hwynt bob amser fel rhan o'm teulu fy hun, a galwer hwynt nid yn *Aiffitiaid* yn ol eu mam, ond yn wir *Israelliaid*, yn rhai yn gorehfygu gyda Duw megys y gwnaethym inau. *Ac enw fy nhadau Abraham*—fel yn gyfranogion o'i ffydd ef; *ac Isaac*—bydded iddynt fod mor nodedig am eu hufydd-dod ymostyngawl ag ydoedd ef: boed i rinweddau Abraham, Isaac, a Jacob gael eu pentyru arnynt, a'u harddangos yn ddigyfnawid ganddynt. Dyma y *ffurf* a arferid ganddo wrth fabwysiadu; a thrwy *arddodiad dwyllaw, gweddio* ar y Gwaredwr, a'r *fendith* arbenig a gyhoeddwyd, ewllhawyd y mabwysiad. O'r mynyd hwn eafodd Ephraim a Manasse yr un hawliau a breintiau a meibion Jacob, y rhai nas gallasant byth fel meibion *Joseph* eu meddiannu. *Heigant hefyd yn lluaus yn nghanol y wlad*—megys pysg y môr. Pysg yw y rhai mwyaf epilgar o'r holl greaduriaid: gwel anghreifftiau ar pen. i. 20. Gwiredwyd y fendith broffwyddiaethol hon

17 Pan welodd Joseph osod o'i dad ei law ddeau ar ben Ephraim, bu anfoddllawn ganddo: ac efe a ddaliodd law ei dad, i'w symud hi oddi ar ben Ephraim, ar ben Manasse.

18 Dywedodd Joseph hefyd wrth ei dad, Nid felly, fy nhad: canys dyma y cyfnab; gosod dy law ddeau ar ei ben cf.

19 A'i dad a wneddodd, ac a ddywedodd, Mi a wn, fy mab, mi a wn: bydd hwn hefyd yn bobl, a mawr fydd hwn hefyd; ond yn wir ei frawd

ieuangaf fydd mwy nag ef, a'i had ef fydd yn lluaws o genhedloedd.

20 Ac efe a'u bendithiodd hwynt yn y dydd hwnw, gan ddywedyd, Yn ot ti y bendithia Israel, gan ddywedyd, Gwnaed Duw di fel Ephraim, ac fel Manasse. Ac efe a osododd Ephraim o flaen Manasse.

21 Dywedodd Israel hefyd wrth Joseph, Wele fi yn marw; a bydd Duw gyda chwi, ac efe a'ch dychwel chwi i dir eich tadau.

22 A mi a roddais i ti un rhan gor-

yn y modd hynotaf: gwel Num. i. 33, 35, a xxvi. 34, 37; Deut. xxxiii. 17; Jos. xvii. 17.

Adn. 17. *Pan welodd Joseph osod o'i dad ei law ddeau ar ben Ephraim, bu anfoddllawn ganddo*] Yr oedd Jacob yn cael ei arwain yn hyn gan ysbryd proffwydoliaeth, a Joseph yn unig gan gariad tadol. Er fod Joseph ei hun wedi ei gynysgaethu âg ysbryd proffwydoliaeth, nid oedd yn ei feddu yn awr; canys y proffwydi nid oeddynt bob amser yn ysbrydoledig, nac yn meddu gwyrbodaeth o bob peth.

Adn. 18. *Nid felly, fy nhad*] Tybiodd Joseph i'w dad wneuthur camgymeriad wrth osod ei law ddeau ar ben yr ieuangaf, am yr ystyried y llaw ddeau fel y fwyaf urddasol, a'r offeryn i gyflwyno y fendith uwchaf; ac fel hyn y cafodd ei hystyried bob amser yn mibllith pob cenedl ond y Persiaid. Ac hyd yn nod yn y *nes*, 'deheulaw Duw' yw y lle o'r urddas uwchaf.

Adn. 19. *Mi a wn, fy mab, mi a wn*] Nid oes camgymeriad na damwain yn yr hyn ag yr wyf yn awr yn ei wneuthur; y mae yn tarddu oddiwrth addysg a chyfarwyddyd y Nef ei hun. *Mawr fydd hwn hefyd, ond yn wir ei frawd ieuangaf fydd mwy nag ef*—cafodd y broffwydoliaeth hon ei chyflawni yn eglur yn hiliogaeth y ddau blentyn yma, yr hyn sydd yn brawf sicr fod Jacob yn llefaru trwy ysbrydoliaeth Duw. Yn mhen oddeutu 200 o flynyddau ar ol hyn, pan rifwyd yr Israeliaid gyntaf yn yr anialwch, yr oedd gan lwyth Ephraim 8,300 o wŷr yn fwy na llwyth Manasse, Num. i. 33, 35. Wrth wersyllu o amgylch y babel, gan Ephraim yr oedd y llumman, ac fo'i gosodwyd o flaen Manasse, Num. x. 22, 23. O hono ef y deilliodd Josua, gorchfygwr Canaan, a Jeroboam, brenin Israel; ac y mae enw Ephraim yn cael ei arfer yn fynych i arwyddo holl deyrnas y deg llwyth: gwel Esay vii. 2, 9, 17, a xi. 13, a xxviii. 1; Hos. v. 12, &c.

Adn. 20. *Yn ot ti y bendithia Israel*] Hyn yw, bydd i'r Israeliaid mewn oesoedd dyfodol gymeryd eu ffurf o ddymunno llwyddiant i unrhyw genedl neu deulu oddiwrth y daioni ag y gwybyddir ddarford i Dduw ei wneuthur i Ephraim a Manasse: *Gwnaed Duw di mor ffrwythlon ag Ephraim, a luosogedd di fel Manasse!* Felly yr arferai y gwagedd ludddevig ddywedyd wrth eu merch pan y priddi, *Gwnaed Duw di fel Sara a Rebecca!* Y mae y cyfryw ffurfiau mewn arferiad eto.

Adn. 21. *Wele fi yn marw!*] Gyda pha

dawelwch y traetha Jacob y gair tra arswydus hwn! Er na ddywedir ei fod ef yn 'gyflawn o ddyddiau,' fel yr oedd Abraham ac Isaac, eto y mae yn ferlaith ewyllysgar i ymadael â phethau daearol, ac i'w gorff fyned i'r bedd. A allai rhyw un ymddwyn megys y patrieirch yn eu mynyddau olaf, heb ganddo un goibaith am fywyd tragwyddol, un grediniaeth yn anfarwoldeb yr enaid? Annichionadwy! Gyda'r fath argyhoeddiad o fodolaeth Duw, y fath arddangosiadau o'i dnynerwch a'i ofal, y fath brofiad o'i gyfringiad rhagluniaethol a gwyrrthol ar eu rhan, a allent hwy feddwl nad oeddynt ond *creaduriaid diwrnod*; a darford i Dduw dreulio cymaint o ofal, sylw, rhagluniaeth, gras, a daioni, ar creaduriaid ag oeddynt i fod o'r diwedd unwedd a'r anifeiliaid a ddyfethir! Y mae y dychymyg na allent fod yn meddu iawn dyb am anfarwoldeb yr enaid mor ddi-anrhydeddus i Dduw ag iddynt eu hunain. Ond pa beth a gawn ni ei feddwl am y Cristionogion a ffurfiasant y dyb yma yn *gyffundraith* i brofi ddarford i'r patrieirch fyw a marw yn y tywyllwch! ac naill ai nad yw yr enaid yn anfarwol, neu na feddylloedd Duw yn addas ddatguddio hyn! Ymaith â'r gyfryw dyb! fel y sylwa Clarke; canys ni ellir dywedyd ei bod yn haeddu difrifol wrthbrofiad. *A bydd Duw gyda chwi*—er fy mod i yn eich gadael; *ac efe a'ch dychwel chwi i dir eich tadau*—sef Canaan, yr hon a roddodd efe i Abraham, Isaac, a Jacob. Efe a grybwyllai hyn, fel na fyddai iddynt garu yr Aifft yn ormodol pan fyddai yn gwenu arnynt, na'i hofni yn ormodol pan fyddai yn gwgu arnynt.

Adn. 22. *A mi a roddais i ti un rhan goruwch dy Frodyr*] Sef y rhandir hwnw gerllaw Sicheim neu Siehar, yr hwn a brynodd Jacob gan feibion Hemor, ac a roddodd efe i'w fab Joseph, Ioan, iv. 5; a'r hwn wedi hynny oedd yn etifeddiaeth i'w feibion ef, Jos. xvii. 1, a xx. 7. Yma y claddwyd esgyrn Joseph, Jos. xxiv. 32; a dychon mai at ei feddrod ef yno y cyfeiria Jacob yn y geiriau hyn. *Er hon a ddygais o law yr Amoriaid a'm cleddyf ac a'm bwa*—y mae llawer o wahanol farnau am ystyr y geiriau hyn. 1. Tybia rhai fod Jacob yn cyfeirio yma at brynriad y maes am gan darn o arian, (pen. xxxiii. 18, 19.) ar y rhai yr oedd *llun* cleddyf a bwa. 2. Tybia ereill ei fod yn cyfeirio at weithred Simeon a Lefi, (pen. xxxiv. 26, &c.) y rhai a roddasant wrwyd Sicheim i'r *cleddyf*. 3. Tybia ereill i'r maes hwn gael ei gymeryd oddiar Jacob ar ol

uwch dy frodyr, yr hon a ddygais o law yr Amoriaid â'm cleddyf ac â'm bwa.

PENNOD XLIX.

YNA y galwodd Jacob ar ei feibion, ac a ddywedodd, Ymgwsglwech, fel y mynegwyf i chwi yr hyn a ddygwydda i chwi yn y dyddiau diweddaf.

2 Ymgwsglwech, a chlywch, meibion Jacob; ie, gwrandewch ar Israel eich tad.

3 ¶ Reuben fy nghynfab, tydi oedd fy ngrym, a dechread fy nerth, rha-

iddo ei brynu yn gyfreithlon, ac iddo yntau wedi hyny ei ennill ef yn ol trwy nerth *arfau*. 4. A thylbia ereill ei fod ef yma yn llefaru yn broffwydoliaethol am beth a ddygwyddai ar ol hyn. Modd hynag, gallwn feddwl fod geiriau Jacob yn cael eu deall yn dda gan Joseph, ac y mae yn debyg ei fod yn cyfeirio at ryw amgylchiad nad yw yn awr mewn coffadwriaeth.

PEN. XLIX. Adn. 1. *Yna y galwodd Jacob ar ei feibion*] I weled eu tad yn marw, ac i glywed ei eiriau wrth farw. Efe a oebethiai y byddai o fendith iddynt fod gydag ef yn ei fynyddau olaf, i fod yn dystion o'i hyder a'i oibaith yn Nuw, a'i dawelwch meddwl wrth afael y byd a'i bethau, i fyned i'r sefyllfa anghyfnawdidiol a thragwyddol. *Yr hyn a ddygwydda i chwi yn y dyddiau diweddaf*—neu mewn amseroedd dyfodol, ar ol iddynt ymsefydlu yn Nghanaan. Y mae yn amlwg oddiyma mai am hiliogaeth ei feibion, yn fwy nag am danynt hwy eu hunain, y llefara efe yn y broffwydoliaeth ddylynol. Y mae yr holl fynegiadau proffwydoliaethol hyn wedi eu llefaru mewn iaith *allegorol* gref, ac yn wreiddiol mewn flur *farddonol*.

Adn. 2. *Gwrandewch ar Israel eich tad*] Ymddengys i'r hyn a ddywedai efe wrth bob un yn neillduol, gael ei ddywedyd yn nghlywedigaeth y brodyr oll; canys nyri a allwn ymlesâu oddiwrth y ceryddon, yr addysgiadau, a'r aunogaethau a fyddont yn cael eu bwriadu yn benaf i ereill.

Adn. 3. *Reuben fy nghynfab, tydi oedd fy ngrym*] Wedi dy genhedlu yn nerth fy nyddiau. *Rhagoriaeth braint, a rhagoriaeth cryfder*—meddylir fod y *FRAINT* hon yn cyfeirio at yr offeiriadaeth, a'r *CRYFDER* at y llywodraeth frenhinol. Y mae Targum Onkelos yn alleirio yr adnod fel hyn: 'Dylesit fod wedi derbyn tripharth, yr *enedigaeth-fraint*, yr *offeiriadaeth*, a'r *frenhiniaeth*.' ac at hyn y mae Targum Jonathan ben Uzziel a Thargum Jerusalem yn chwaganu: 'Ond o herwydd i ti bechu, rhoddwyd yr enedigaeth-fraint i *Joseph*, y frenhiniaeth i *Juda*, a'r offeiriadaeth i *Lefi*.' Ddarfod rhoddi yr enedigaeth-fraint i feibion *Joseph*, a ddysgwn oddiwrth 1 Cron. v. 1.

Adn. 4. *Ansafadwy oeddit fel dwfr*] Fel y mae dwfr yn dueddol i redeg i le is, felly syrthiai Reuben o'r rhagoriaeth a berthynai iddo trwy enedigaeth. Tybia Clarke fod i'r

goriaeth braint, a rhagoriaeth cryfder.

4 *Ansafadwy oeddit fel dwfr*: ni ragori di; canys dringait wely dy dad: yna yr halogaist ef: fy ngwely a ddringodd.

5 ¶ Simeon a Lefi sydd frodyr; offer creulondeb sydd yn eu haneddau.

6 Na ddede fy enaid i'w cyfrinach hwynt; fy ngogoniant, na fydd un â'u cynulleidfia hwynt: canys yn eu dig y lladdasant wr, ac o'u gwirfodd y difrodasant gaer.

7 Melldigedig fyddo eu dig, canys tost oedd; a'u lliid, canys creulawn

gair *pachaz*, a gyfieithir yma 'ansafadwy,' ystyr *drwg* mewn manau ereill o'r ysgrhythr, trwy ei fod yn cael ei gymhyso at ymddygiad *llygedig, aflan*, a *phenrhydd*: gwel Barn. ix. 4; Zeph. iii. 4, Jer. xxiii. 14, 32, a xxix. 23. *Ni ragori di*—nid ymgododd y llwyth hwn i unrhyw enwogwyd erioed yn Israel: nid oedd mor luosog o un ran o dair a Juda, Joseph, neu Dan, pan rifodd Moses hwynt yn yr anialwch, Num. i. 21; ac yr oedd yn mhllith y rhai cyntaf a gaethgludwyd, 1 Cron. v. 26. *Yna yr halogaist ef*—yn y fath fodd ag y gwaharddai byfoesedd i Jacob ymbelaethu arno: gwel ar pen. xxxv. 22.

Adn. 5. *Simeon a Lefi sydd frodyr*] Nid yn unig yn deilliaw o'r un rhieni, ond yn meddu yr un fath *duedd*—cyndyn, twyllodrus, dialeddgar, a chreulon. *Offer creulondeb sydd yn eu haneddau*—eu cleddyfan, y rhai y dylasant hwy eu defnyddio mewn amddiffyniad o'u personau, neu er nawdd anrhydeddus i'w teuluoedd, a roddasant ar waith i lofruddio pobl ddiwied; neu, fel y mae y LXX yn cyfieithu y frawddeg hon, 'cyflawnasant anwiredd eu bwriad,' sef eu cytundeb bradychus â'r Sicheimiaid, pen. xxxiv. 15, &c.

Adn. 6. *Nu ddede fy enaid i'w cyfrinach hwynt*] Y mae Jacob yma yn ymglyfnhau oddiwrth bob cydgyfranogiad o euogrydd Simeon a Lefi yn lofruddiad y Sicheimiaid, gan fynegu yn y modd ditrifolaf na wyddai efe ddim am y cynghrair trwy yr hwn ei gwnaed, nac am y dirgel gynghor yn yr hwn ei cydfwriadwyd. *Canys yn eu dig y lladdasant wr*—gwr urddasol ac anrhydeddus, sef Sicheim. *Ac o'u gwirfodd y difrodasant gaer*—y torasant i'w tai, i yspelio a lladd y trigolion. Y mae hyn yn dynodi y gradd uwchaf o ddrvgion: a malais sefydlog, eu bod yn *ymhyfrydu* yn eu gweithred. Ond yn lle 'difrodasant gaer,' y mae rhai yn ei gyfieithu *llofruddiasant dywysog*—sef llemor tad Sicheim.

Adn. 7. *Melldigedig fyddo eu dig*] Nid eu personau. Dylem-bob amser, wrth amlygu ein sel, wabaniaethu rhwng y pechadur a'r pechod, fel ag i beidio casau neu feiddithio y person pan y gelwir arnom i wneyd hyny â'i bechod. *A'ullid, canys creulon fu*—fel naallai erfyniau y gwrywod, nac ymbiliau, dagrau, a llefau y benywod, eu battal oddiwrth eu bwriadau llofruddio! *Rhanaf hwynt yn Jacob*

fu : rhanaf hwynt yn Jacob, a gwasgaraf hwynt yn Israel.

8 ¶ Tithau, Juda, dy frodyr a'th glodforant di : dy law *fydd* yn ngwar dy elyunion; meibion dy dad a ymgyrmyant i ti.

—gan roddi rhan i un llwyth, a rhan i lwyth arall. Fel hyn gwasgarwyd y *Lefaid* rhwng yr holl lwythau; ac am lwyth *Simeon*, dywed yr Iuddewon mai ysgol-feistriaid oeddynt i'r llwythau ereill; a phan aethant i Ganaan, nid oedd ganddynt oud rhan fechan iddynt eu hunain, sef ychydig drefi a phentrefi yn y rhan waelaf o etifeddiaeth Juda, Jos. xix. 1; ac wedi hyny, wrth eu cael yn rhy fychain, ffurfiasant wahanol drefedigaethau newn taleithiau a ddygasent oddiar yr Idumeaid a'r Amaleciaid, 1 Cron. iv. 39, &c. Fel hyn cafodd y ddau lwyth yma nid yn unig eu gwasgaru oddiwrth eu gilydd, ond eu rhanu oddiwrthynt eu hunain, yn ol y rhagfynegiad hwn o eiddo Jacob.

Adn. 8. *Tithau, Juda, dy frodyr a'th glodforant di*] Gan fod yr enw *Juda* yn arwyddo *glodforedd*, y mae Jacob yn cymeryd achlysur oddiwrth ei arwyddocad i d dangos y byddai y llwyth hwn mor enwog a gogoneddus, fel ag y byddai i'r llwythau ereill ei *glodfori* ef, hyny yw, byddai iddynt gydnabod ei oruwch-urddas, gan yr enwogid ef yn ei freintian tuhwnt i'r lleill oll. Llwyth Juda oedd yn arwain y lleill trwy yr anialwech, Num. x. 14; ac efe a benodwyd gau Dduw i fynyed yn mlaenaf yn erbyn y Cauaaneaid, ar ol marw Josua, Barn. i. 1, 2. I lwyth Juda y rhoddwyd y rhan gyntaf wrth ranu y wlad, yr hon oedd yn dra helaeth a ffrwythlon. O'r llwyth hwn yr oedd Othniel, y barnwr cyntaf, a Caleb, yr hwn yr oedd ei glod bron gymaint ag eiddo Josua: a'r holl frenhinoedd a roddodd Duw eriodd i'r genedl fuddewig yn ei drugaredd, oeddynt o lwyth Juda. Mewn gair, yr oedd y llwyth hwn yn mhob oes yn fwy arhydeddus na neb o'r lleill. *Dy law fydd yn ngwar dy elyunion*—ymadrodd yn arwyddo buddugoliaeth ar eu gelynydd, yr hyn a gyflawnwyd yn arbenig yn Dafydd, Salm xviii. 40. *Meibion dy dad a ymgyrmyant i ti*—gwiredwyd hyn yn newisiad llwyth Juda, a Dafydd o hono ef, i lywodraethu y genedl Hebreaid, ac yn sefydliad brenhiniaeth Israel yn ei hiliogaeth ef dros byth; ac yn enwedig yn ngenedigiaeth y *Messia* o'r llwyth hwn, yr hwn y mae ei 'frenhiniaeth yn dragwyddol,' ac 'i'r hwn y plyga pob gŵm,' Phil. ii. 10.

Adn. 9. *Cenaw llew wyt ti, Juda, &c.*] Y llew yw brenin y goedwig, a dychryn bwystfod pan y rhua. Pan yr ymaflo efe yn ei ysglyfaeth, nis gall dim ei wrthsefyll; a phan o'r *ysglyfaeth y daw ef i fyny*, nis feiddia neb ei ganlyn er dial arno. Trwy hyn rhagfynegid y byddai i Juda nid yn unig ennill buddugoliaethau mawrion, ond mwynhau mewn heddwch yr hyn a gyriaeddi trwy y buddugoliaethau hyny. Cydharhar Juda yma nid i lew yn rhuthr-neidio oddiamgylch, ond i lew yn *gorwedd*, yn mwynhau ei ysglyfaeth, heb beri blinder i ereill.

9 *Cenaw llew wyt ti, Juda; o'r ysglyfaeth y daethost i fyny, fy mab: ymgrymmodd, gorweddodd fel llew, ac fel hen lew: pwy a'i cyfyd ef?*

10 *Nid ymedy y deyrn-wialen o Juda, na deddfwr oddirhwng ei draed*

Adn. 10. *Nid ymedy y deyrn-wialen* o Juda*] Hyny yw, y llywodraeth. Gofynwyd, 'Pa fodd y gellid dywedyd gyda phriodoldeb nad ymadawai y llywodraeth neu yr awdurdod o Juda, pan nad oedd gan Juda un?' I hyn rhaid ateb, fod Jacob newydd fynegu, y byddai i feibion ei dad ymgrymu i Juda, ac y byddai iddo ef gan hyny gael yr awdurdod neu y llywodraeth yma; ac ar ol hyny dywedir, nad ymadawai hi byd oni ddelai Silo. *Na deddfwr oddirhwng ei draed ef*—sef allan o'i lwynau. Y mae y gair *mechokek*, a gyfieithir yma 'deddfwr,' yn meddwl hefyd rheolydd neu farnydd; ac y mae y broffwydoliaeth yn sicr yn cynwys, nid yn unig y byddai i lwyth Juda gael ei gadw yn gyfan hyd oni ddelai y Crist, tra y byddai i'r llwythau ereill gael eu caethiwo, eu gwasgaru, a'u cymysgu a'u gilydd; ond y byddai i lywodraethwyr ac ynadon yn disgyrn o Juda, neu yn cael eu galw ar ei enw ef, ddylyn eu gilydd, o leiaf am amser, ac y byddai i'r gallu gwladol ac eglwysig barhau hyd oni ddelai Silo; ac yna y byddai iddo gael ei gymeryd ymaith, neu yn hytrach dreiglo arno ef. Yn awr, megys yr addefir yn rhwydd fod yr awdurdod yn aros gyda Juda hyd y caethiwd, felly dylid sylwi yr ymddengys fod yr Iuddewon hyd yn nod yn Babilon dan fath ar lywodraeth fewnol yn cael ei harferyd gan deulu Dafydd. Ac ar ol eu dychweliad o Babilon, Zorobabel, o hiliogaeth Dafydd, oedd eu blaenor; ac yr oedd gan lwyth Juda, a'r rhai a gorffioedd gyda hwy, lywodraethwyr ac ynadon rheolaidd o'u plith eu hunain, dan frenhinoedd Persia a Syria, ac wedi hyny dan y Rhufeiniaid. Yr oedd gan gyngor mawr yr Iuddewon a elwid y Sanhedrim, pa un a wneid i fyny yn benaf o lwyth Juda, a'r llysoedd ereill dibynol arno ef, awdurdod mawr hyd ddyfodiad Crist, yn ol tystiolaeth unfyryd yr hen awduron. Hefyd, yr oedd llwyth Juda wedi ei gadw ar wahan, a gallai olrhain ei achau heb anhawsder. Felly, yn mhob ystyr, nid ymadawodd y 'deyrn-wialen' o Juda, er iddi gael ei gwan-

* 'Y mae gan yr Iuddewon fwsdro ar y gair *shebet*, yr hwn a gyfieithu ni yn *deyrn-wialen*: dywedant hwy ei fod yn arwyddo *ffon* neu *wialen*, ac mai ei ystyr yw, 'na fydd i *gystuddiau* ymadael a'r Iuddewon hyd oni ddol y *Messia*;' eu bod hwy fyth dan gystudd, ac am hyny nad yw y *Messia* wedi dyfod. *Dufais* druenus yw hon i achub *achos colledig*. Darfu i'w prif ddeunglydd hwy, *Onkelos*, ddeall a chyfieithu y gair agos fel y gwnawu ninaw; ac y mae yr un ystyr yn cael ei dderbyn gan Ddeongliad *Jerusalem*, a chan yr holl hen gyfieithiadau oddieithr yr Arabig, yn yr hwn *Kaseb*, 'gwialen,' ydyw; ond mewn ysgrifffyr [Arabig] tra henafol o'r Pumllyfr yn fy meddiant fy hun, y gair *sebet* a ddefnyddir, yr hwn a arwydda *lwyth*. Bydd i Juda barhau yn *lwyth* gwahaniaethol hyd oni ddol y *Messia*; ac efe a wnaeth felly; ac ar ol ei ddyfodiad ef fe'i cymysgwyd gyda'r lleill, nes y collwyd pob *gwahaniaethiad* byth ar ol hyny.—CLARKE.

ef, hyd oni ddel Silo; ac ato ef y bydd cynulliad pobloedd.

11 Yn rhwymo ei ebol wrth y winwydden, a llwddn ei asyn wrth y bêr winwydden: golchodd ei wisg mewn gwin, a'i ddillad yn ngwaed y grawnwin.

12 Coch fydd ei lygaid gan win, a gwyn fydd ei ddannedd gan laeth.

13 ¶ Zabulon a breswylia yn mhorthleoedd y môr; ac efe a fydd

yn borthladd llongau, a'i derfyn fydd hyd Sidon.

14 ¶ Issacar sydd asyn esgyrnog, yn gorwedd rhwng dau bwn.

15 Ac a wel lonyddwch mai da yw, a'r tir mai hyfryd: efe a ogwydda ei ysgwydd i ddwyn, ac a fydd yn gaeth dan deyrnged.

16 ¶ Dan a farn ei bobl fel un o lwythau Israel.

17 Dan fydd sarff ar y ffordd, a

haa yn raddol; ac ni chafodd yr arferiad rheolaidd o'r awdurdod deddfol a barnol ei lwyrdiddmyn, hyd wedi y dygwyddiad hwnw. *Hyd oni ddel Silo*—nid yw y dysgedigion yn cytuno yn hollol yn nghylch gwir ystyr y gair hwn; ond y mae yn lied sier oddiwrth ei wreiddyn, ei fod yn arwyddo naill ai *yr anfonedig*, neu *yr had*, neu *ynte yr un heddychol a llywyddianus*. Ac mai y MESSIA a feddylir, a addeffir yn gyffredinol gan Iuddewon yn gystal a Christianogion, yn enwedig gan y tri alleiriad Caldeiaidd, y Talmud Iuddewig, a llawer o Iuddewon diweddar. Hyd oni ddaeth efe, yr oedd Juda neu Judea yn meddu cryn awdurdod a gallu; ond oodent amser ei enedigaeth ef daeth yn dalaeth o'r amherodraeth Rufeinig, a chofrestriwyd a threthwyd hi fel y cyfryw, Luc ii. 1; ac yn amser ei farwolaeth, addefodd yr Iuddewon en hunain yn eglur, 'Nid oes i ni frenin ond Cesar.' Gan hyny y mae yn anlwg mai ein HARGLWYDD IESU yw yr 'Hwn oedd i ddyfod,' ac nad ydym i ddysgwyl neb arall; canys efe a ddaeth yn gywir ar yr amser penodedig. *Ac ato ef y bydd cynulliad pobloedd*—ar ol iddo ef ddyfod, ac i'r deyrn-wialen ymadael o Juda, ymgynullai Iuddewon a Chenbedloedd ato ef fel en Brenin a'u Gwaredwr: helaethwyd yr eglwys, dryllwyd canolfar y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenbedloedd, a daeth y dychwelledigion o blith y ddau yn addolwyr ac yn ddeiliaid iddo ef. Ac 'ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd;' canys 'holl derfynau y ddaear a gofiant, ac a droant at yr Arglwydd, a holl dylwythau y Cenhedloedd a addolant ger ei fron ef,' Esay ix. 7; Salm xxii. 27, a lxii. 11.

Adn. 11, 12. *Yn rhwymo ei ebol wrth y winwydden, &c.*] Rhagfynegir yma y byddai i lwyth Juda breswylho mewn tir frwythlon, lle y byddai llawnder o win a llaeth; y byddai y gwinwydd mor gyffredin ac mor gryfion fel y rhwyment en hasynod wrthynt, ac mor frwythlon nes y llwythent en hasynod oddiarnynt; ac y byddai gwyr y llwyth hwn yn dra iachus a chryfion, a'u llygaid yn fywiog gan win, a'u dannedd yn wynion gan laeth. Felly yn Nghrist y mae helaethrwydd o'r hyn sydd yn maethu ac yn adfywio yr enaid, neu yn cynal ac yn lloeni y bywyd ysbrydol o'i fewn. Ynddo ef gallwn gael 'gwin a llaeth,' bendithion ysbrydol breision llwyth Juda, 'heb arian ac heb werth,' Esay lv. 1. Ond dylid crybwyll fod y rhan fwyaf o'r tadau, ac amrai esbonwyr diweddar, yn deall y ddiwy adnod hyn fel yn cyfeirio at Grist, yr hwn a'i geilw ei hun y *winwydden*, ac a eisteddodd ar *asen*,

sef *ebol llwddn asen*, Mat. xxi. 5. Wrth *olchi ei wisg mewn gwin* y deallant hwy ei gorff wedi ei orchuddio â *gwaed*, yr hwn a arddangosir gan y *gwin* yn y sacrament. Ei lygaid, meddant hwy, oeddynt *gochach* na'r gwin yn amser ei *ddyoddefaint*; a'i ddannedd yn *wjn gan laeth*, a arwydda burdeb ei athrawiaeth ef, 'yr hwn ni chaed twyll yn ei enau,' 1 Petr ii. 22.

Adn. 13. *Zabulon a breswylia yn mhorthleoedd y môr*] Yr oedd rhandir neu gyfran Zabulon, yn rhaniad gwlad yr adewid, yn cyraedd o Fôr-y-canoldir yn orllewinol, hyd lŷn Gennesaret yn ddwyreiniol: gwel Jos. xix. 10, &c. Y mae Deongliad Jonathan ben Uzziel yn alleirio yr adnod fel hyn: 'Zabulon a fydd ar gyffiniau y môr, ac efe a lywodraetha dros y porthleoedd: efe a oresgyn daleithiau y môr â'i longau, a'i derfyn a gyraedd hyd Sidon.'

Adn. 14. *Issacar sydd asyn esgyrnog*] Heb. 'asyn cryf ei aelodau;' *yn gorwedd rhwng dau bwn*—fel asyn rhwng dau gawell; hyny yw, yn goddef yn amyneddgar flinderau *amaethyddiaeth*, ac yn ymestwng dan *drethi* trymion yn hytrach na cheisio gyru allan yr hen drigolion.

Adn. 15. *Ac a wel lonyddwch mai da yw*] 'Efe a gâr orphwys yn dawel yn y rhandir hyfryd a benodwyd iddo, gan ddewis llafurio yn galed, a thalu teyrnged, o flaen lludedd ihyfel a buddugoliaeth.' Ond y mae yr alleirydd Caldeiaidd yn rhoddi ystyr hollol wahanol: 'Efe a welodd ei ran mai da oedd, a'r tir mai frwythlon ydoedd: efe a ddarostwng daleithiau y bobl, ac a wthia allan en preswylwyr; a'r rhai a adewir a fyddant yn weision a than deyrnged iddo ef.' Y mae Grotius yn deall y lle hwn agos yr un modd. A diau nad yw y *lwyfdra* a briodolir yn gyffredin i'r llwyth hwn, yn gyson a'r olwg a roddir arnynt yn yr ysgrythyr: gwel Barn. v. 15, a x. 1, 2; 1 Cron. vii. 1—5.

Adn. 16. *Dan a farn ei bobl, fel un o lwythau Israel*] Oddiwrth chwe mab Lea, y mae Jacob yn myned at fab Bilha, llawforwyn Rachel. Efe a ddechreu trwy awgrymu y bydd i feibion y llawforwynion gael yr un fraint a phlant y meistresi, trwy fod yn benaethiaid a barnwyr en llwythau en hunain. Yn ol hyny, gan gyfeirio at enw DAN, *barn*, efe a fynega, y cai yntau farnu ei bobl, sef ei lwyth ei hun, fel y lleill o'r deuddeg. Ond y mae rhai ysgrifwyr Iuddewig a Christianogol yn deall y broffwyddoliaeth hon am *Samson*, yr hwn a ddeilliodd o'r llwyth yma, ac a *farnodd*, neu, fel y gellir cyfeithu y gair, a

neidr ar y llwybr; yn brathu sodlau y march, fel y syrthio ei farchog yn ol.

18 Am dy iachawdwriaeth di y dysgwyliais, Arglwydd.

19 ¶ Gad, llu a'i gorfydd; ac yntau a orfydd o'r diwedd.

ddialodd ar bobl Israel ugain mlynedd, Barn. xv. 20.

Adn. 17. *Dan fydd sarff*] Y gair gwreiddiol yw *nachash*, a gwelom ar pen. iii. ei fod yn arwyddo *sarff*, ond o ba fath nis gwyddom. *A neidr ar y llwybr*—y mae y gair *shephiphon*, yr hwn nas ceir mewn un lle arall yn y Beibl, yn cael ei gyfieithu yn *cerastes*, 'neidr gornig,' yn y Vulgate, ac y mae Bochart yn cymeradwyo y cyfieithiad. Cafodd ei henw oddiwrth ddau gorn bychan ar ei phen. Y mae y dysgrifiad a ddyr Nicander o'r neidr hon yn berffaiith gyson â'r hyn a ddywedir yma am y *shephiphon*: 'Gorwedda yn y tywod, neu yn y thidion a wneir mewn ffyrdd gan olwynion certi neu gerbydan.' *Yn brathu sodlau y march, fel y syrthio ei farchog yn ol*—da y gwyddys fod y math yma o neidr yn colynu pob math ar anifel. Arwyddir y byddai i'r llwyth hwn ennill y rhan benaf o'i fuddugoliaethau yn fwy trwy *ddichell* ac *ystryw* na thrwy *ddowredd*: ac y mae hyn i'w weled yn neillduol yn eu gwaith yn gorchfygu Lais, Barn. xviii., ac hyd yn nod mewn rhai o gyflawniadau *Samson*, megys llosgi ŷd y Philistiaid, tynu eu teml i lawr, a dyfetha tair mil ar unwaith: gwel Barn. xv. 5, a xvi. 26—30.

Adn. 18. *Am dy iachawdwriaeth di y dysgwyliais, Arglwydd!*] Hon sydd ochenaid neu saeth-weddi nodedig, ac ymddengys ei bod yn sefyll yn hollol annghysylltedig â'r oll o'i blaen ac ar ei hól; er fod yn debygol, fel y sylwa Clarke, mai rhyw olygfeydd profwydoliaeth a'r a gawsai Jacob yn awr, y rhai nad yw ef yn eu hegluro, a roddes gyfodiad iddi; a thrwy hyn efe a amlygai ar unwaith ei *ffydd* a'i *obaith* yn Nuw. Darfu i esbonwyr Iuddewig a Christionogol ymdrechu cael allan y eysylltiad yn yr hwn y bodolai y geiriau hyn yn meddwl y patriarch. Deongliad Jonathan a draetha y cyfan fel hyn: 'Pan welodd Jacob Gedeon mab Joas, a Samson mab Manoah, y rhai oeddynt i fod yn *waredwyr* mewn oes ddyfodol, efe a ddywedodd, Nid wyf yn aros am waredigaeth Gedeon, nid wyf yn dysgwyl am waredigaeth Samson, oblegid eu gwaredigaeth hwy sydd waredigaeth dymhorol; ond yr wyf yn aros ac yn dysgwyl am dy iachawdwriaeth di, O Arglwydd, am fod dy iachawdwriaeth di yn dragwyddol.' Ac y mae Deongliad Jerusalem yn lled debyg: 'Ein tad Jacob a ddywedodd, Na ddysgwyl, fy enaid, am ymwared Gedeon mab Joas yr hon sydd *dymhorol*, nac am ymwared Samson, yr hon sydd waredigaeth *grëedig*; ond am yr iachawdwriaeth ag y dywedaist ti trwy dy Air y deuai i'th bobl plant Israel: am dy iachawdwriaeth hon y dysgwyl fy enaid.' Yn wir y mae y Deongliadau hyn yn deall bron y cwbl o'r profwydoliaethau yma am y *MESSIA*, ac yn enwedig yr hyn a ddywedir yn nghylch *Juda*, pob gair o ba un a

20 ¶ O Aser bras *fydd* ei fwyd ef, ac efe a rydd ddanteithion brenhinol.

21 ¶ Naphtali *fydd* ewig wedi ei gollwng, yn rhoddi geiriau tég.

22 ¶ Joseph *fydd* gangen ffrwythlaw, cangen ffrwythlaw wrth ffyn-

gyfeiriant hwy ato ef. Fel hyn y mae yr *hen Iuddewon* yn euog-faru y rhai *diweddar* o gamddeongliadau ac ofer ddysgwyliadau. Ond gan yr ymddengys mai llwyth Dan yw y cyntaf a budwyd oddiwrth wir addoliad Duw, (gwel Barn. xviii. 30.) tybiodd rhai fod Jacob yn cyfeirio yn neillduol at hyn, ac yn gweled diwedd y gwrthgiliaid cyffredinol yn unig yn y waredigaeth trwy Iesu Grist, gan ystyried y *NACHASH* uchod fel yr *hudoilydd*, a'r *MESSIA* fel yr *had addawedig*.

Adn. 19. *Gad, llu a'i gorfydd*] Y mae Jacob, gan gyfeirio at enw *GAD*, yr hwn a arwydda *llu*, yn rhagfynegu y byddai i'r llwyth hwn gael llawer o elynion i ymdrechu â hwy, y rhai yn fynych a'u gorchfygent; ond y byddai iddynt hwythan o'r diwedd, trwy gymhorth Duw, fuddugoliaethu ar eu holl elynion. Cyflawnwyd y broffwydoliaeth hon pryd y darfu i'r llwyth hwn, mewn eysylltiad â llwyth Reuben a banner llwyth Manasse, gael buddugoliaeth fawr ar yr Hagariaid, gan gaethgludo 100,000 o wŷr, 2,000 o asynod, 50,000 o gamelod, a 250,000 o ddefaid: gwel 1 Cron. v. 18—22. Yn amser Saul a Dafydd hwy a gwbl ddarostyngasant y Moabiad i'r Ammoniaid. Ond y mae yr alleiwr yr Caldeaid yn cymhwyso hyn at fynediad y *Gad-iaid* yn arfogion o flaen eu brodyr dros yr Iorddonen, pryd y goresgynasant eu gelynnion, ac y dychwelasant gyda llawer o anrhaith: gwel Jos. iv. 12, 13, a xxii. 1, 2, 8.

Adn. 20. *O Aser bras fydd ei fwyd ef*] Cyfeiria hyn at ffrwythlondeb mawr y rhandir a ddisgynai i Aser, yr hwn yn ymddengys ei fod yn eysfateb i'w enw ef, yr hwn a arwydda *dedwydd* neu *fendithiol*. Y mae ei lwyddiant mawr yn cael ei ddyssgrifio gan Moses yn y modd ffugryol hwn: 'Bendithier Aser â philant, bydded gymeradwy gan ei frodyr, ac efe a wlych ei droed mewn olew,' Deut. xxxiii. 24. *Ac efe a rydd ddanteithion brenhinol*—ymddengys fod rhan fawr o ymborth beunyddiol Solomon yn dyfod o'i randir ef, 1 Bren. iv. 22—24.

Adn. 21. *Naphtali fydd ewig wedi ei gollwng, yn rhoddi geiriau tég*] Ystyrir hwn yn gyffredin yn gyfieithiad gwallus; canys y mae yn anhawdd cael allan un synwyr mewn 'ewig wedi ei gollwng,' yn 'rhoddi geiriau tég.' Y mae cyfieithiad Bochart yn cael ei gymeradwyo yn fwy: *Naphtali sydd dderwen ymdaenawl, yn dilyn canghenau prydferth*. Y mae Durell a Houbigant yn dilyn Bochart; a'r ystyr hwn hefyd a roddir gan y LXX a'r alleiwydd Caldeaid. Dichon mai ffrwythlondeb y llwyth hwn mewn liliogaeth a feddylir yma; canys darfu i'w bedwar mab, y rhai a gymerth efe i waered i'r Aiff, pen. xlvi. 24, gynyddu i 53,000 o wŷr grymus mewn 215 o flynyddau, Num. i. 43. Gwel ar Deut. xxxiii. 23.

Adn. 22. *Joseph fydd gangen ffrwythlaw*]

non, ceinciau yn cerdded ar hyd mur.

23 A'r saethyddion fuant chwerv wrtho ef, ac a saethasant, ac a'i casasant ef.

24 Er hyny arhodd ei fwa ef yn gryf, a breichiau ei ddwyllaw a gryfhasant, trwy ddwyllaw grymus *DDŪW* Jacob: oddiyno y mae y bugail, maen Israel.

25 Trwy Dduw dy dad, yr hwn a'th gynorthwya, a'r Hollalluog, yr hwn a'th fendithia â bendithion y nefoedd

oddiuchod, â bendithion y dyfnder yn gorwedd isod, â bendithion y bronau a'r groth.

26 Rhagorodd bendithion dy dad ar fendithion fy rhieni, hyd derfyn bryniau tragwyddoldeb: byddant ar ben Joseph, ac ar goryn yr hwn a neillduwyd oddiwrth ei frodyr.

27 ¶ Benjamin a ysglyfaetha *fel* blaidd: y bore y bwyty yr ysglyfaeth, a'r hwyry rhan yr yspail.

28 ¶ Dyma ddeuddeg llwyth Israel

Yn taflu allan ddwy gainc ffrwythlawn, sef y ddau lwyth lluosog a ddeiliasant oddiwrth ei feibion ef. *Wrth fflynonn*—neu ddwfr rhedegog, lle y mae planhigion yn tyfu gyflymaf. *Ceinciau yn cerdded ar hyd mur*—gwres yr hwn a gynyddai eu tyfiant yr un modd a'r gwlybyredd a geid oddiwrth y dwfr. Ond y mae rhai yn cyfieithu yr adnod hon, 'Mab gwinwydden ffrwythlon yw Joseph,' &c., gan gyfeirio at Jacob ei hun, hiliogaeth yr hwn a gyrhaeddai i oddentu tair miliwn o rifedi, yn mhen llai na 200 o flynyddan ar ol ei farwol-aeth ef.

Adn. 23. *A'r saethyddion fuant chwerv wrtho ef*] Sef ei frodyr, y rhai a'i casasant ef, a'i dyosgasant, ac a'i gwerthasant; a thybia rhai fod ymddygiad ei feistres wedi hyny yn cael ei gynwys.

Adn. 24. *Er hymy arhodd ei fwa ef yn gryf*] Pa fwyaf a erlidid arno gan ei frodyr a'i feistres, mwyaf cryf a dysglær y llewyrch-ai ei uniondeb a'i rinweddau. *A breichiau ei ddwyllaw a gryfhasant*—ei holl gnylluniau, ei fwrriadau, a gweithrediadau neillduol ei synwyr, ei farn, a'i ddyspwyll, a wnaed oll yn llwyddiannus. *Trwy ddwyllaw grymus Dduw Jacob*—trwy gynorthwy ac amddiffyniad cadarn y Duw cyfammodol hwnw a fendithiasai ac a lwyddasai gynghorion a chynlluniau Jacob ei dad. *Oddiyno*—oddiwrth y drefn llynod hon o eiddo rhagluniaeth, y daeth Joseph i fod yn *fugail, maen Israel*—yn borthwr ac yn gynalydd i Jacob a'i denlu. Ond tybia rhai mai *Josua*, un o hiliogaeth Joseph trwy Ephraim, a olygir yma yn benaf wrth y *bugail a'r maen*, yr hwn fel bugail da a ddyg braidd yr Arglwydd i borfeydd Canaan, ac a ydoedd yn gysgod o Grist, yr hwn yw Bugail a Chraig ei Israel ysbrydol.

Adn. 25. *Yr hwn a'th fendithia â bendithion y nefoedd odduchod*] Awyr clir, iachus, a siriol, yn dyferu i lawr gawodydd a gwllith-oedd maethlon er ffrwythloni y ddaear. *A bendithion y dyfnder yn gorwedd isod*—pa oludoedd bynag a ellid eu cael o'r môr neu o'r afonydd, neu o fôn-gloddian yn ymysgaroedd y ddaear, ac oddiwrth fflynonau am mewn gwahanol ranau o'i etifeddiath. *A bendithion y bronau a'r groth*—hiliogaeth lnosog, a hel-aethrwydd o anifeiliaid. *Yr oedd hiliogaeth Joseph*, trwy Ephraim a Manasse, yn cyraedd ar yr ail rifad (Num. xxvi.) i 85,200 o ryfel-wyr, yr hyn oedd yn fwy na rhifedi unrhyw un llwyth, gan nad oedd Juda, y mwyaf o'r lleill, yn cyraedd i fwy na 76,500. Yn wir

yr oedd Ephraim a Manasse wedi lluosogi mor fawr yn nyddiau Josua, fel nad oedd rhan gyffredin yn ddigon iddynt: gwel eu hachwyniad, Jos. xvii. 14.

Adn. 26. *Rhagorodd bendithion dy dad ar fendithion fy rhieni*] Nid oedd gan *Isaac* ei dad ef ond un fendith, ac wedi iddo roddi hōno i Jacob, nid oedd ganddo fendith i'w rhoddi i Esau; ond yr oedd gan *Jacob* fendith i bob un o'i ddeuddeg mab, ac yn awr yn y diwedd un helaeth i Joseph. *Hyd derfyn bryniau tragwyddoldeb*—yn cynwys holl gynghorion y bryniau ffrwythlonaf, ac yn parhau cyhyd a hwythau. Am y bendithion hyn dywedir yma, *Byddant*—felly y mae yn addewid; neu 'byddent'—felly y mae yn weddi. *Ar ben Joseph*—yn goron i'w addurno, ac yn helm i'w amddiffyn. Ond y mae rhai yn deall hyn oll am fendithion y *MESSIA*, y rhai a radorant yn eu *parhad* ar y mynyddoedd tragwyddol, ac yn eu *gwerth a'u natur ysbrydol* ar yr holl gysuron a'r danteithion ag y dichen i'r bryniau cyfoethocaf en cynyrchu: hwy a barhant pan na bydd nefoedd na ddaear mwyaich, ac a gyrhaeddant dros holl dragwyddoldeb.

Adn. 27. *Benjamin a ysglyfaetha fel blaidd*] Y mae yn amlwg fod Jacob yn cael ei arwain yn ei ymadroddion gan ysbryd proffwydoliaeth, ac nid gan serch naturiol, onidê efe a lefarasai gyda mwy o dnyrwrch am ei anwyl fab Benjamin. Y mae y llwyth hwn yn cael ei gydmharu yn dra chymhwys i *flaidd* gwancus, o herwydd y gwroldeb a'r fyrrnigrwydd creulon a ddangosent yn wastadol, yn enwedig yn eu rhyfeloedd â'r llwythau ereill, lle y laddasant fwy o wŷr nag a oeddynt eu hunain o rifedi; a bu agos iddynt hwy eu hunain o'r diwedd gael eu llwyr ddyfetha yn eu hymrysoniadan â'r llwythau ereill: gwel Bara. xix. a xx. *Y bore y bwyty yr ysglyfaeth*—a ddaliasai efe y nos o'r blaen; *a'r hwyry rhan yr yspail*—a fyddo yn weddill-edig. Ond y mae rhai, wrth y *bore* yma, yn deall amseroedd cyntaf y llwyth hwn, pryd yr oedd Elwd yn barnu, a Saul yn teyrnasu; ac wrth yr *hwyry*, yr amseroedd diweddfaf, pryd y darfu i Esther a Mordecai ddyfetha gelymion yr Iuddewon: gwel ANSWORTH, HENRY, &c. Tybia ereill fod yma gyfeiriad at lynciad y llwyth hwn i fyny yn eiddo Juda, ar ol y dychwelriad o'r caethiwed Babilonaidd: gwel HOUBIGANT.

Adn. 28. *Dyma ddeuddeg llwyth Israel oll*] Canys rhaid i ni edrych ar Ephraim a Manasse yn cael eu bendithio yn Joseph, adn. 22:

oll; a dyma yr hyn a lefarodd eu tad wrthynt, ac y bendithiodd efe hwynt: pob un yn ol ei fendith y bendithiodd efe hwynt.

29 Yna y gorchymynodd efe iddynt, ac a ddywedodd wrthynt, Myfi a gesglir at fy mhobl: cleddwch fi gyda'm tadau, yn yr ogof sydd yn maes Ephron yr Hethiad;

30 Yn yr ogof sydd yn maes Machpela, yr hon sydd o flaen Mamre, yn gwlad Canaan, yr hon a brynodd

Abraham gyda'r maes gan Ephron yr Hethiad, yn feddiant beddrod.

31 Yno y claddasant Abraham a Sarah ei wraig; yno y claddasant Isaac a Rebecca ei wraig; ac yno y cleddais i Lea.

32 Meddiant y maes, a'r ogof sydd ynddo, a gaed gan feibion Heth.

33 Pan orphenodd Jacob orchymyn i'w feibion, efe a dynodd ei draed i'r gwely, ac a fu farw; a chasglwyd ef at ei bobl.

gwel hefyd pen. xlvi. 20. *Pob un yn ol ei fendith*—hyny yw, darfu i Jacob yn awr, dan arweiniad dwyfol ysbrydoliaeth, ragfynegu i bob un o'i feibion yr holl ddygwyddiadau pwysig a gymerent le yn ystod eu cenedlaethau olynol, a phrif noddeb pob llwyth; ac ar yr un pryd gwnaeth rai cyfeiriadau at ddyfodiad y Messia, a phryndegaeth y byd trwyddo ef.

Adn. 29—31. *Myfi a gesglir at fy mhobl* Gwel ar pen. xv. 15; ac ar ol iddo ddywedyd hyn am ei ENAID, y mae yn rhoddi gorchymyn iddynt yn nghyfeir i GORFF: *Cleddwch fi gyda'm tadau*—ymddengys oddiwrth adn. 31, fod Abraham a Sarah, Isaac a Rebecca, yn nghyda Lea, wedi cael eu claddu yn ogof Machpela eisioes; ac yr oedd Jacob yn ewyllsio i'w esgryn yntau gael eu gosod yno gyda hwynt; ac felly y bu, pen. l. 13.

Adn. 32. *Gan feibion Heth*] Gwel ar pen. xxiii. 16—20.

Adn. 33. *Pan orphenodd Jacob orchymyn i'w feibion*] Yn nghyfeir lle a dull ei gladdiedigaeth; *efe a dynodd ei draed i'r gwely*—y mae yn debygol fod Jacob, tra yn traddodi y bendithion profwyddoliaethol hyn, yn eistedd ar erchwyn y gwely, gan bwysu ar ei ffon; ac wedi iddo orphen, efe a gododd ei draed i'r gwely, ymestynodd arno, a threngodd! *A chasglwyd ef at ei bobl*—yn yr un foment ag y dywedir i Jacob dynu ei draed i'r gwely, a marw, chwanager, 'A chasglwyd ef at ei bobl.' Y mae yn sicr na chafodd ei gorff ef y pryd byny ei gasglu at ei bobl, nac am saith wythnos wedi hyny; ac nid yw yn debyg y buasai i amgylchiad mor bell, o ran amser a lle, gael ei rag-grybwyll fel hyn, a'i gysylltu â ffeithiau a gymerasant le y foment hōno. Nis gallaf fi gan hyny, meddai Clarke, lai nag ystyried hyn yn brawf chwanagerol o *anfarwolddeb yr enaid*, a darfod ei fwriadu gan yr Ysbryd Glân i gyfleu y meddwl arderchog a chysurus hwn, pan y derfydd gŵr santiaid â byw yn mhlith ei gyfeillion, fod ei enaid yn myned yn breswlydd byd arall, ac yn ymuno âg ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd.

ADFFEDYLIADAU.—(1) Yr ydym yn awr yn dyfod at ddiwedd bywyd cymysgwyd Jacob, a diwedd dedwydd ydym! Y mae yn un o'r golygfeydd mwyaf addysgiadol yn yr ysgrythrau santiaid. Y patriarch hwn, yn gyflawn o ddyddian ac yn gyflawn o ras, a gafodd yn y ddwy flynedd ar bymtheg ddiweddfar weled pob cwmwl dŷ yn cael ei chwalo, a

haul y prydawn yn gwenu ar ei holl lafar, ac yn addaw y bendithion mwyaf i'w hiliogaeth. Efe a welsai Abraham ac Isaac yn cau eu llygaid, ac yn awr yr oedd yn ei welled ei hun yn cael ei amgylchu gan ddedddeg patriarch, yn addaw iddo hiliogaeth cyn luosoced a ser y nef, neu y tywod ar lan y môr. Ei enaid, wrth weled y Messia, a blaenbrofi pob daioni, wedi ei lenwi â pherlewgyon gwel-edigaeth, a ymadroddai yn nhywalltiadau melysber areithyddiaeth a chân; a'i holl feibion, y rhai a safent o'i amgylch, a syntent yn ddarfawr wrth glywed dyfodiad yn cael ei ddadlenn. (2) Gallwn ddygyn oddiyma ddwyfol weddnodau ysbrydoliaeth. Hfon yw rhodd uwelhaf y nef, ac am hyny yn gynil ei cyfrenir. Estynwyd hi i'r patrieirch, noddwyr a chyfeillion goraf eu hiliogaeth; ond nid oedd bob amser ganddynt hwythau. Yr oedd yr arddull yn mla un y dylifai yn mhell uwelhaw ofn dyn, a goruwch pleidgarwch tad. Gwelwch fel y mae yn gwarthruddo, ac eto gyda bendithion, Reuben, Simeon, a Levi!

Gwelwch fel y mae yn bendithio Juda uwelhaw Joseph, yr hwn a garai fywaf; canys beth oedd ef i allu gwrthsefyll Duw? Gwelwch yn mhellach mor bur y cadwyd yr ysgrifeniadau hyn rhag unrhyw lygiad. Yr offeiriad a'r Lefiaid oeddnt warcheidwaid y gyfraith; yr oedd gwŷr Simeon yn mhlith y prif ysgrifenyddion a'r dysgawdwy'r gwsgaredig yn Israel; eto y ddaun lwyth hyn, er eu bod yn cael eu gwaradwddo yn erwin yn yr ysgrifeniadau hyn, ni allent neu ni feiddient ddileu eu melldith o'r cofiannau cysegredig! Am hyny dylem ddarllen y gyfrol hon fel pe byddai Duw ei hun yn llefaru wrthym. (3) Y mae y modd y terfynodd Jacob ei bererindod, yn llewyrlus ac annogaethol i'r graddau uwelhaf. Ar ol hir ddysgwyl am iachawdwr iaeth Duw, a bendithio ei feibion dan ddylanwad cryfaf yr Ysbryd profwyddoliaethol, efe a orchymynodd i'w goff gael ei gladdu yn ogof Machpela, fel gwystl y byddai i'w had ef etifeddu y tir; ac yna ei ysbryd a ddychwelodd at Dduw, i gymdeithasu yn y presenoldeb dwyfol gydag Abraham ac Isaac ei dadau. Gan hyny, O fy enaid, nac ofna drallodion bywyd, canys hwy oll a gydweithiant er daioni. Hwy a'th ddysgant yn ffyrdd rhaglun-iaeth, a'th berffeithiant yn mhob rlinwedd goddefol, ac yn ddylynedig â nil o fendithion hwy a'th addfant i ddedwyddwch tra-gwyddol, a chymdeithas y gwynfydedigion a aethant yn mlaen.

PENNOD L.

YNA y syrthiodd Joseph ar wyneb ei dad, ac a wylodd arno ef, ac a'i cusanodd ef.

2 Gorchymynodd Joseph hefyd i'w weision, y meddygon, berarogli ei dad ef: felly y meddygon a beraroglasant Israel.

3 Pan gyflawnwyd iddo ddeugain niwrnod (canys felly y cyflawnir dyddiau y rhai a berarogllir) yna yr Aifftiaid a'i harwylasant ef ddeng niwrnod a thriugain.

4 Pan aeth dyddiau ei arwyl ef heibio, yna y llefarodd Joseph wrth

PEN. L. Adn. 1. *Yna y syrthiodd Joseph ar wyneb ei dad*] I gan ei lygaid ef, fel yr addawsai Duw, pen. xlii. 4; ac ar ol gwneuthur y swydd dyner ac olaf hon, efe mewn dagrau a ymadawodd a'r corff trwy ei gusanu. Y mae yn debyg i'r lleill o'i feibion wneyd yr un modd, trwy eu bod llywthetau yn ddiaman wedi eu cystroi yn fawr gyda'i eirian olaf.

Adn. 2. *Gorchymynodd Joseph hefyd i'w weision, y meddygon, berarogli ei dad*] Nid yn unig am iddo farw yn yr Aifft, a bod hyn yn arferiad gan yr Aifftiaid; ond am ei fod i'w gludo i Ganaan, yr hyn a fyddai yn waith amser. Perarogli, neu *bêr-eneinio*, yw agor corff marw, a thynu allan yr ymysgaroedd, a llenwi y lle â phêr-lysiau a chyfferi aroglaidd a dysychawl, er attal iddo lygru. Yr oedd yr Aifftiaid yn rhazori ar bob cenedl yn y gelfyddyd hon; canys y mae cyrff a bêr-eneiniwyd ganddynt lwyf er miloedd o flynyddoedd yn aros yn gyfain hyd heddyw, a mynych y dygir hwynt drosodd i Loegr a gwledydd ereill fel cyweinrwydd mawr. En dull o bêr-eneinio oedd hwn: Crafnest yr ymenydd allan trwy y firoenan â chrafell haiarn, a bwrient gyfleithi i mewn i lenwi y gwagle. Tynest allan y coluddion hefyd; ac ar ol llenwi y corff â myr, casia, a phêr-lysiau ereill cymhwys i sychu yr irnaws, cyffeithient ef mewn nitr, lle y byddai yn mwyoed am ddeng niwrnod a thriugain. Yna, ar ol golechi y corff yn lân, rhwymid ef mewn rhwymynau o lian main wedi ei ddwbio â math ar gwm, i wneyd iddo llynu fel ysglawring; ac felly rhoddid ef i berthynasau yr ymadawedig yn gyfan yn ei holl dreaniannau, gan fod hyd yn nod â blew ei amrantau wedi eu cadw. Y cyrff hyn a geidwid ganddynt yn fynych mewn tai bychain wedi eu haddurno yn fawrych; a chymerent hyfridwch mawr trwy eu cenedlaethau iedrych ar eu henafiaid fel pe nasent yn fyw, heb ddim cyfnewidial yn eu maint, eu treim, na'u gwynebpryd. Ymddengys fod yr arferiad hwn o bêr-eneinio yn beth cyffredin i dylawd a chyfoethog; ond yr oedd yn fwy neu lai costfawr yn ol gradd ac amgylchiadau y person. Gorchymynodd Joseph i'w weision y meddygon gyflawni y swydd hon; canys yr un person ag a weinyddent fel meddygon i'r byw, a roddid ar waith i berarogli y marw. Gan yr ymddengys fod yn arferiad cadw amrai o'r meddygon hyn dan gyflog, megys *gweision*,

deulu Pharao, gan ddywedyd, Os cefais yr awr hon ffafst yn eich golwg, lleferwch wrth Pharao, atolwg, gan ddywedyd,

5 Fy nhad a'm tyngodd, gan ddywedyd, Wele fi yn marw: yn fy medd yr hwn a gloddiais i mi yn ngwlad Canaan, yno y'm cleddi. Ac yr awr hon casswyf fyned i fyny, atolwg, fel y claddwyf fy nhad; yna mi a ddychwelaf.

6 A dywedodd Pharao *dos* i fyny, a chladd dy dad, fel *yt ddyg* oedd.

7 ¶ A Joseph a aeth i fyny i gladdu ei dad: a holl weision Pharao, *sef*

yn llysoedd tywysogion ac yn nhenluoedd y mawrion, gallwn gasglu fod gan Joseph, fel prif-weinidog yr Aifft, lawer o honynt yn ei deulu ef; ac os gallwn goelio Herodotus, yr oedd pob man yn yr Aifft yn llawn o honynt. Ac nid rhyfedd, 'canys y mae gan bob anhwylddeb unigol,' meddai ef, 'ei feddyg ei hun, yr hwn sydd yn ymglyfngi i fyfyrto a gofalu am hwnw yn unig, heb ymyraeth ag un arall.' Felly, trwy fod yn dosbarth o feddygon yn gofalu am y llygaid, un arall am y pen, un arall am y bol, &c., rhaid fod eu nifer yn dra lluosog.

Adn. 3. *Yna yr Aifftiaid a'i harwylasant ef ddeng niwrnod ar hugain*] Gorphenid y pêr-eneiniad mewn dengain niwrnod; cedwid y corff yn yr heli ddeng niwrnod ar hugain yn mbellach, nes y byddai wedi ei halltu trwyddo; a'r rhai hyn oeddnt ddyddiau arbenig yr arwyl. Yn ystod yr amser hwn, meddai *Diodorus*, arferent ddwbio eu penau â llaid, megys y taenai yr Inddewon ludw ar eu penau; ac aent oddiamgylch gan alaru hyd nes y byddai y corff wedi ei gladdu, neu ei gyfteu yn briodol ryw ffordd arall, gan ymatal oddiwrth ymolchi, oddiwrth win, ac oddiwrth bob danteithfswyd a hardd-wisgoedd. Yr oedd y perthynasau benywaidd yn enwedig yn myned oddiamgylch gan wneuthur mawrion alarnadau, a'u curo eu hunain: gwel ar adn. 11.

Adn. 4. *Llefarwch wrth Pharao*] Ond pam nad âi Joseph at Pharao ei hun? Am ei fod yn awr yn ei *alarwisgoedd*, ac na allai neb ymddangos yn y cyfryw yn ngwylodd penaduriaid y dwyrain: gwel Esther iv. 2.

Adn. 5. *Casswyf fyned i fyny, atolwg, fel y claddwyf fy nhad*] Yr oedd yn rhan o barch angenrheidiol i Pharao fod i Joseph beidio myned heb ei genad ef; oblegid gallwn feddwl, er fod ei ofal am yr yd wedi darfod er's hir amser, eto ei fod yn parhau yn brif-weinidog y llywodraeth, ac am hynny na fynai fod cyhyd yn absenol oddiwrth ei orchwyl heb ganiatad.

Adn. 6. *Dos i fyny*] Caniataodd Pharao ei ddymuniad i Joseph, a gorchymynodd hefyd i'w holl lyswyr fyned gydag ef i ardderchogi yr anghlad.

Adn. 7-9. *Sef henuriaid ei dŷ ef, &c.*] Dynion ag oeddnt, ar gyffid eu hoedran, wedi cyraedd *mawr brofiad*; a'r rhai, o herwydd hyn, a fernid yn addas i drin achosion

henuriaid ei dŷ ef, a holl henuriaid gwlad yr Aifft, a aethant i fyny gydag ef.

8 A holl dŷ Joseph, a'i frodyr, a thŷ ei dad; eu rhai bach yn unig, a'u defaid, a'u gwartheg, a adawsant yn nhir Gosen.

9 Ac aeth i fyny gydag ef gerbyd-

tŷ y brenin. Cyffelyb i'r rhai hyn oedd yr *henaduriaid* yn mhlith ein henafiaid Saxon-aidd, y *ghwibeddynt* seneiddwyr ac arglwyddi y deyrnod. Yr oedd anghladd Jacob yn wir fawrŵych; a rhaid fod Joseph a'i frodyr, a thŷ ei dad, a holl weision Pharao, a holl henuriaid gwlae yr Aifft, yn nghyda cherbydau a gwŷr meirch, yn ymddangos mewn gwirionedd yn 'llu mawr iawn.' Nyni a welsom *arglwyddi*, er mwyn o anrhydedd iddynt, yn cael eu claddu ar draul y deyrnas; a'r holl wrywod o'r teulu brenhinol, yn gystal ag enwogion penaf y genedl, yn ymuno yn yr anghladd, fel yn achos y diweddar *Nelson*, *Wellington*, ac ereill; ond beth oedd hyn oll, fel y sylwa Clarke, mewn cydmbariaeth i'r rhwygswfawredd anghladdol yn awr o'n blaen! Yma nid oedd un gorchfygwr, un gwŷr dewrgrŷf, un dyn o waedoliaeth uchel; nid oedd ym *gŵr dysym*, yr hwn bron trwy ei holl fywyd a gyfannedasai mewn pebyll, heb ddim deiliaid ond ei anifeiliaid, a brenhiniaeth pa un nid oedd o'r byd hwn. Gwelwch y dyn hwn yn cael ei anrhydeddu â galar gwladwriaethol, ac âg anghladd gwladwriaethol! Gellir dywedyd yn wir i 'hyn oll gael ei wneuthur o barch i Joseph.' Bydded felly; ond pamam yr oedd *Joseph* yn cael ei barchu fel hyn? Ai am iddo orchfygu cenhedloedd, meddwi ei glleddyf â gwaed; a buddugoliaethu ar elynion yr Aifft? NAGE! Eithr am iddo gadw dynion yn *fyw*; am ei fod yn ffyddlon weinidog i'r brenin, yn gyngorwr i'r cyfoethog, ac yn gyfaill i'r tylawd. Yr oedd Joseph yn fendith i'r wlad; ac y mae y wlad yn galaru yn ei gystudd yntau, ac yn ymuno i'w anrhydeddu ef ar farwolaeth ei dad.

Adn. 10. *A hwy a ddaethant hyd lawrdyrnu Atad*] Gan fod *atad* yn arwyddo *miaren* neu *draenen*, deallwyd ef gan yr Arabaeg nid fel enw *dyn*, ond fel enw *lle*; ond y mae yr holl gyfieithiadau ereill, a'r Deongliadau, yn ei ddeall fel enw *dyn*. Yr oedd y Horiau-dyrnu bob amser mewn maes, yn yr awyr agored; ac yr oedd *Atad* ond odid yr hyn a alwn ni yn *amaethur mawr*, neu *ben-aeth* ar ryw lwyth yn y lle hwnw. Meddylid Jerome fod y lle o gylch chwe milldir o *Jerico*; ond nid oes genym wybodolth sic ar y pen hwn. Arhosodd yr anghladd maw, ond odid, am fod yma *borfa* i'w hanifeiliaid tra y cadwent hwy y *saith niwrnod galar* ag oedd-ynt yn terfynu yr arwyl, ar ol yr hyn nid oedd dim yn aros ond claddu y corff. Nid oedd galar yr hen Hebreaid yn parhau yn gyffredin ond *saith niwrnod*, Num. xix. 19, 1 Sam. xxxi. 13; er y byddai ar rai achlysuron yn cyraedd i ddeng niwrnod ar hugain, Num. xx. 29, Deut. xxi. 13, a xxxiv. 8, ond nid byth yn hwy. Y deng niwrnod a thriugain o alar a

au, a gwŷr meirch hefyd: ae yr oedd yn llu mawr iawn.

10 A hwy a ddaethant hyd lawrdyrnu Atad, yr hwn sydd dros yr Iorddonen; ac a alarasant yno alar mawr, a thwrn iawn: canys gwnaeth alar dros ei dad saith niwrnod.

11 Pan welodd y Canaancaid, y

grybwyllwyd uchod oedd arferiad yr Aifftiaid, ac yr oedd hyn yn angenrheidiol i'r hir waith o *ber-eneinio*, yr hyn a'u gorfodai achysn i gadw y corff o'r bedd am ddeng niwrnod a thriugain, fel y dysgw'n oddiwrth *Herodotus* a *Diodorus*. Am *saith niwrnod* yr oedd dyn, yn ol gorchymyn Duw, i alaru am ei farw, am yr ystyried ef yn ystod yr amser hwnw fel yn *afsan*; ond wedi gorphen y rhai hyn yr oedd ef i ymlanhau, ac i ystyried y galar fel ar ben, Num. xix. 11, 19. Fel hyn rhoddes Duw *saith niwrnod*, ac mewn rhai achosion *ddeg-ar-hugain*, i alaru ynddynt: a dyn, bob amser yn ei feddwl ei hun yn ddoethbach na gair Duw, a chwaneodd *unarddeg o fisocedd cyfain* at yr amser, yr hyn y mae natur ei hun yn ei gyfrif yn wrthun, am ei bod yn ana'ug i ddal gofid am gymaint o amser; ac felly nid yw galar yn awr, oddieithr yn y saith neu y deg niwrnod ar hugain cyntaf, ddim ond *coegwaith dwys*, *dywarediad difrifol*, a *gwag-ymddanghosiad* ag sydd yn ei euog-brcfi ei hun o huanan *ragrith*! Pwy a gyfyd i fyny o du Duw a synwyr cyffredin, ac a adfer dristwch gweddaidd ar farwolaeth perthynas i weddus-rywyd gwisg a chymesuredd yn ei barhad? Tybier fod cyfnasafiaid yr ymadawedig yn cael saith niwrnod o ymneillduaeth oddiwrth gymdeithas, i'r dyben i adfyfrio ar farwol-aeth a thragwyddoldeb, ac wedi hyn yn ymddangos mewn galarwisg am ddeng niwrnod ar hugain; cai pob dyben pwysig ei gyflawni, a rhagrith, cydymaith rhy gyffredin dyn, ei alltudio, yn enwedig oddiwrth y rhan bôno o'i einioes yn mha un nid yw dwfn gywirdeb yn llai gweddus nag yn y weithred ddirifolaf o'i gyweithas grefyddol â Duw. Mewu math ar sefydliad crefyddol gwladol a ffurfiwyd gan ei ddiweddar fawrhydi FERDINAND IV, breuin Naples ac ynysoedd Sicily, yr wyf yn cael y gosodiad rhesymol a ganlyn mewn perthynas i'r pwnc hwn: 'Ni chaiff galarwisgoedd fod yn eich mys, ond yn unig ar farwolaeth *tud*, *mam*, *gŵr*, neu *wraig*. I dalu i'r rhai hyn y dyledion olaf o serch, *plant*, *gwraggedd*, a *gwŷr* yn unig a oddeir i wisgo *arwydd* neu *argoel* o dristwch. Gall *dyn* wisgo *erâp* wedi ei gylmu o amgylch ei fraich ddeau; a *dynes*, *gadach dd* am ei gwddf; a hyn yn y ddau achos am ddau fis yn unig y fan bellaf.' A oes dyben ag y dichen i grefydd, rheswm, neu weddeidd-dra ei ofyn, a'r na chai ei ateb trwy y fath *alar allanol* a hyn? Ni all neb alaru ond y cyfryw berthynasau a'r rhai uchod, a chynwys brodyr a chwiriwyd; nid yw pawb ereill ddim ond gwneuthur rhan o'r mud ragrithiol ymddangosiad.—CLARKE.

Adn. 11. *A dyma alar trwm gan yr Aifftiaid*] 'Dyma yn gywir,' meddai SYR JOHN CHARDIN, 'yw anian-duedd pob! Asia, yn en-

rhai oedd yn preswyllo yn y wlad, y galar yn llawr-dyrnu Atad; yna y dywedasant, Dyma alar trwm gan yr Aifftiaid: am hyny y galwasant ei enw Abel-Mizraim, yr hwn *sydd* dros yr Iorddonen.

12 A'i feibion a wnaethant iddo megys y orchymynasai efe iddynt.

13 Canys ei feibion a'i dygasant ef i wlad Canaan, ac a'i claddasant ef yn ogof maes Machpela; yr hon a brynasai Abraham gyda'r maes, yn feddiant beddrod, gan Ephron yr Hethiad, o flaen Mamre.

14 ¶ A dychwelodd Joseph i'r Aifft,

wedig y benywod. Pan y mae rhyw un yn dychwelyd o daith bell, neu yn marw, y mae ei deulu yn tori allan i lefiadau a ellir eu clywed ngain o ddrysau oddiwrth y tŷ; ac y mae hyn yn cael ei adnewyddu ar wahanol amserau, ac yn parhau amrai ddyddiau, yn ol grym y nwyd: yn enwedig mewn achos o *farwolaeth*, y mae y lefiadau hyn yn hir a dychrynlyd; canys y mae eu galar yn berffaith anobaith, ac yn arddelw o uffern. Yn y flwyddyn 1676, yr oeddwn yn llelya yn Ispahan, yn agos i'r ysgwâr frenhinol, a bu gwraig y tŷ nesaf i'r eiddof fi farw y pryd hyn. Y mynyd y trengodd hi, darfu i'r holl deulu, y nifer o 25 neu 30 o bobl, dori allan yn y fath grochlefau ethrywyllt nes y llwyr frawychwyd fi, a bŵm uwchlaw dwy awr cyn gallu dyfod ataf fy hun. Y mae y llefiadau hyn yn parhau am hir amser, yna yn darfod oll ar unwaith; dechreuant drachefu yr un mor sydyn ar doriad y dydd, ac mewn cydarawiad. Y sydynrwydd hwn yw yr hyn sydd mor ddychrynlyd, yn nglwyd ag uwch dolef nag a ddychymyngai neb yn hawdd. Darfu i'r math gorwyllt hwn o alaru, os gallaf ei alw felly, barhau am ddeugain niwrnod, nid mor angherddol, ond gyda thaliant o ddydd i ddydd. Y dolefau ueithaf a mwyaf angherddol a wneid pan yr oeddynt yn golchi y corff, pan yn ei bŵr-eneinio, pan yn ei gario allan i'w gladdu, wrth gymeryd i lawr gyfrif o'r eiddo, ac wrth ei ranu. Nid ydych i feddwl fod y rhai ag oeddynt yn barod i hollti eu gyddiau wrth grochloeddiu, yn ŷylo gymaint: ni ddarfu i'r rhan fwyaf o honynt dywallt un deigr yn trwy yr holl orchwyl. Y mae yn debyg, modd bynag, fod mwy o *gywirdeb* yn ngalar yr Aifftiaid am Jacob nag a ddarlunir gan Syr John; canys y mae yn amlwg eu bod lwy yn ei fawr barclau ef. A darfu i'w galar dwys am dano roddi enw i'r lle, *Abel-mizraim*, yr hwn yn yr Hebraeg a arwydda *Galar yr Aifftiaid*; yr hyn a wasanaethodd yn dystiolaeth yn erbyn cenbedlaeth nesaf yr Aifftiaid, y rhai a orthrymwr hiliogaeth y Jacob hwn, i'r hwn y danghosodd eu henafiaid y fath barch. Dywed SUTCLIFFE fod y Gwyddelod fyth yn cadw i'w grochloeddiadau anghladdol. Cyflogir benywod i'r perwyl llwau, y rhai a wnant oernad lem ar yr heol-ydd bob oddeutu deugain neu hanner cant o gamrau wrth i'r cynhobrwng ymrymud yn

efe, a'i frodyr, a'r rhai oll a aethant i fyny gydag ef i gladdu ei dad, wedi iddo gladdu ei dad.

15 ¶ Pan welodd brodyr Joseph farw o'u tad, hwy a ddywedasant, Joseph ond odid a'n casâ ni, a chan dalu a dâl i ni yr holl ddrwg a wnaethom ni iddo ef.

16 A hwy a anfonasant at Joseph, i ddywedyd, Dy dad a orchymynodd o flaen ei farw, gan ddywedyd,

17 Fel hyn y dywedwch wrth Joseph; Atolwg, maddeu yr awr hon gamwedd dy frodyr, a'u pechod lwynt; canys gwnaethant i ti ddrwg:

araf. Yn Moroedd-y-deau y mae y dynion yn dra anweddaidd yn eu llefiadau, ac yn archolli eu cyrff; a bydd i rai hyd yn nod yr un picell trwy gyhyrau eu breichiau pan fo tywysog farw. Yn Babilon, ac eto yn nghanol Affrica, llofruddir gweinidogion y mynyd y clywir ysgrechadau marwolaeth. Os tywysoges a fydd marw, y mae y merched yn ffoi am eu bywyd, tra y mae y gwarchawdwy'r yn erlyn, ac yn tori ymwaith eu penau, fel y gallu eu hysbrydion weini yn barhaus i'w harglwyddes!

Adn. 12, 13. *A'i feibion a wnaethant iddo, &c.*] Tybia Locke ac ereill fod yr adnodaau hyn yn perthyn i ddiwedd y bennod flaenorol, yn mha gysylltiad y maent yn ddiau yn darllen yn eithaf cyson.

Adn. 14. *A dychwelodd Joseph i'r Aifft*] Ar ol bod oddicartref ond odid am fwy na mis o amser.

Adn. 15. *Joseph ond odid a'n casâ ni*] Neu, a'n cospa am ein humddygiad anghyfiawn tuag ato 39 o flynyddau yn ol, pryd y gwerthwyd ef i'r Ismaeliaid. Tra yr oedd eu tad yn fyw, yr oeddynt yn en hystyried eu hunain yn ddiogel dan ei gysgod ef; ond yn awr, ar ol iddo farw, yr oeddynt yn ofni y gwaethaf. Y mae cydwbyd euog yn gosod dynion yn agored i ddychrynfeydd parhaus; a'r rhai a fynant fod yn ddiöfn, rhaid iddynt ymgadw yn ddiueog.

Adn. 16. *Dy dad a orchymynodd, &c.*] Pa un a orchymynodd efe ai peidio, nis gallwn ddywedyd yn sicr. Y mae rhai yn meddwl iddynt ffigio y chwedl hon; ond nid yw hyny mor debygol. Gallai fod Jacob yn ofni hefyd, ac yn meddwl mai y ffordd oraf i'w atal y drwg ydoedd ymestwng o flaen eu brawd, a chael sicrwydd o'r newydd o'i faddeuant.

Adn. 17. *Maddeu, atolwg, gamwedd gweision Duw dy dad*] Nid yn unig plant yr un JACOB, ond addolwyr yr un JENOFA. Yr oedd y cyfarchiad hwn wedi ei lunio yn gall, ac yn cael effaith rymus ar ddiuoldeb a serch mabaidd Joseph. Er y dylem ni fod yn barod i faddeu i bawb a *uenel niwed i ni*, eto dylem ofalu yn neillduol i'w dal lliad at y rhai ag sydd yn *weision i Dduw*: dylem ymdwyn bob amser at y rhai hyny gyda thynnerwch neillduol, am mai yr un MEISTR sydd genar ni a hwythau. *Ac wylodd Joseph pan lefarasant wrtho*—y rhai hyn oeddynt ddagrau o

ond yr awr hon, maddeu, atolwg, gamwedd gweision Duw dy dad. Ac wylodd Joseph pan lefarasant wrtho.

18 A'i frodyr a ddaethant hefyd, ac a syrthiasant ger ei fron ef; ac a ddywedasant, Wele ni yn weision i ti.

19 A dywedodd Joseph wrthynt, Nac ofnwch; canys a ydwyf fi yn lle Duw?

20 Chwi a fvrriadasoch ddrwg i'm herbyn; ond Duw a'i bwriadodd i ddaioni, i ddwyn i ben, fel y gwelir heddyw, i gadw yn fyw bobl lawer.

21 Am hyny, nac ofnwch yr awr hon: myfi a'ch cynhaliaf chwi, a'ch rhai bach. Ac efe a'u cysurodd hwynt, ac a lefarodd wrth fodd eu calon.

22 ¶ A Joseph a drigodd yn yr Aifft, efe, a theulu ei dad: a bu Joseph fyw gan mlynedd a deg.

23 Gwelodd Joseph hefyd o Ephraim, orwyrion: maethwyd hefyd blant Machir, mab Manasse, ar liniau Joseph.

24 A dywedodd Joseph wrth ei frodyr, Myfi sydd yn marw: a Duw gan ymweld a ymwel â chwi, ac a'ch dwg chwi i fynw o'r wlad hon, i'r wlad a dyngodd efe i Abraham, i Isaac, ac i Jacob.

25 A thyngodd Joseph feibion Israel, gan ddywedyd, Duw gan eich gofwyo a'ch gofweya chwi; dygwch chwithau fy esgyrn i fyny oddi yma.

dristwch oblegid eu drwgdybiaeth o hono, a dagrau o dnyerwch ar eu hymostyngiad hwy.

Adn. 18. *A'i frodyr a ddaethant hefyd*] Y mae yn debyg i'r genad a anfonasant hwy, adn. 16, ddychwelyd gyda newyddion cysurus oddiwrth Joseph, gan adrodd y modd yr effeithiodd eu hymostyngiad arno ef; ac fe allai fod iddynt waboddiad tirion hefyd ato ef.

Adn. 19. *A ydwyf fi yn lle Duw?*] Gellir deall y geiriau hyn, naill ai, 1. Fel *holiad*: Pa fodd y cymerwn i un sylw pellach o'ch camwedd? Yr wyf fi wedi ei drosglwyddo ef drosodd; y mae yr achos yn gorwedd yn awr rhwng Duw a chwithau. A feiddiaf fi drawsfeddiannu rhagorfraint Duw, yr hwn biai dial? neu a allaf fi wneyd yr hyn a fynwyf â chwi heb genad Duw? Ofnwch ef yn hytrach na myfi. Neu, 2. Fel *gosodiad cadarnhaol*: Yn nhrefn dwyfol ragluniaeth yr wyf fi yn awr yn lle Duw, neu yn y lle a drefnododd Duw: efe a'm cynysgaethodd i â moddion, ac a'm gwnaeth yn ddosbarthydd ei haelioni ef; gan hyny bydd i mi nid yn unig eich cynal chwi, ond hefyd eich rhai bach, adn. 21.

Adn. 20, 21. *Duw a'i bwriadodd i ddai- oni, &c.*] Gwel ar pen. xlv. 5, 8.

Adn. 22. *A Joseph a drigodd yn yr Aifft*] A barhaodd i fyw yn yr Aifft, ar ol bod yn claddu ei dad yn Nghanaan, hyd ei farwolaeth; efe a theulu ei dad—sef holl hiliogaeth Israel, hyd nes yr ymadawsant daa arweiniodd Moses ac Aaron, yr hyn a gymerodd le yn mhen 144 o flynyddau ar ol marw Joseph. *A bu Joseph fyw gan mlynedd a deg*—yr oedd ef yn 17 mlwydd oed pan ei gwerthwyd; bu 22 mlwydd heb weled ei dad; bu ei dad 17 mlwydd gydag ef yn yr Aifft; ac felly bu Joseph fyw ar ol claddu ei dad 54 o flynyddau.

Adn. 23. *Maethwyd hefyd blant Machir, mab Manasse, ar liniau Joseph*] Addysgwyd hwy ganddo ef, neu yn ol ei gyfarwyddyd; trwy fod ei feibion ef a'u plant yn parhau i'w gydnabod ef fel *patriarch*, neu ben y teulu, cyhyd ag y bu byw.

Adn. 24. *Myfi sydd yn marw*] Gwel ar pen. xlviii. 21; *a Duw gan ymweld a ymwel â chwi*—a ddyry i chwi y prawf llawnaf o'i ddiderfery gariad tuag at had Jacob, or na

byddaf fi gyda chwi. *Ac a'ch dwg chwi i fyny o'r wlad hon*—er fod genych yma bob peth a ddichon gysuro bywyd, eto nid hon yw y wlad gyfammodol ag sydd yn gysgod o'r ORPHWYSEA hōno ag sydd eto yn ol i bobl Dduw.

Adn. 25. *A thyngodd Joseph feibion Israel*] I ddwyn ei esgyrn ef o'r Aifft: a'r llw hwn, trwy ba un y rhwymodd Joseph ei frodyr y pryd hyny, a ystyrir gan eu hiliogaeth fel yn eu rhwymo hwythau hefyd; a gofalodd Moses, pan yn ymadael o'r Aifft, am gymeryd i fyny gorff Joseph gydag ef, Exod. xiii. 19, yr hwn a gladdwyd wedi hyny yn *Sichem*, Jos. xxiv. 32, sef yn y rbandir a brynasai Jacob gan feibion Hemor, yr hon a roddasai efe i'w fab Joseph: gwel pen. xlviii. 22, Act. vii. 16.

Duw gan eich gofwyo a'ch gofweya chwi—hyny yw, a ymwel â chwi yn sicr. *Dygwch chwithau fy esgyrn i fyny oddiyma*—fel y gorphwyswyf o'r diwedd gyda'm henafiaid yn y wlad a roddes Duw i Abraham, Isaac, a Jacob, yr hon sydd yn *wystrl* yn gystal ag yn *gysgod* o deyrnas nef. Felly y dywed Paul, Heb. xi. 22: 'Trwy ffrwyd Joseph, wrth farw, a goffaodd am ymadawiad plant Israel, ac a roddodd orchymyn am ei esgyrn.' Y mae yn amlwg oddiyma fod Joseph yn ystyried yr holl bethau hyn fel yn *gysgodol*, a'i fod trwy y gorchymyn hwn yn amlygu ei fydd yn anfarwoldeb yr enaid, ac adgyfodiad cyffredinol y meirw.

Adn. 26 *A Joseph a fu farw yn fab deng mlwydd a chant*] Felly, ar ol tair blynedd ar ddeg o gystudd yn yr Aifft, efe a fwyngodd yno bedwar ugain mlwydd o amrhydedd, a chymaint o ddedwyddwch ag a allai y ddaear ei roddi. Treuliodd yn y cwbl 93 o flynyddau yn yr Aifft: bu yn gaethwas a charcharor 13, ac yn dywysog a llywodraethwr 80, a hyny dan bedwar o wahanol frenhinoedd, sef *Memphramuthosis, Thmosis, Amenophis, ac Orus*: gwel yr Archegob Usher. *A hwy a'i peraroglasant ef*—gwel ar adn. 2. Yr oedd hyn yn dra angenrheidiol yn ei achos ef, am fod ei gorff i'w gario i Ganaan yn mhen 144 o flynyddau wedi hyn. *Ac efe a osodwyd meurn areh yn yr Aifft*—ymddengys fod hyn yn cael

26 A Joseph a fu farw yn fab deng mlwydd a chant: a hwy a'i

peraroglasant ef; ac efe a osodwyd mewn arch yn yr Aifft.

ei nodi fel arwydd o *barch* i Joseph, canys nid oedd *eirch* yn cael eu defnyddio yn gyffredin yn yr Aifft, mwy na lleoedd ereill. Gyda ni y mae y bobl *dylotaf* yn cael eirch; os na all y perthynasau eu rhoddi, y mae y plwyf yn myned i'r gost: ond yn y dwyrain ni roddir hwynt bob amser, hyd yn nod yn ein dyddiau ni. Ymddengys fod yr hen Iuddewon yn claddu eu meirw yr un modd. Ni roddwyd corff ein Harglwydd na Lazarus mewn arch, na chorff Eliseus, âg esgyrn yr hwn y *cyff-yrddodd* y corff a roddwyd wedi hyny yn ei feddrod ef, 2 Bren. xiii. 21. Yr oedd rhai o eirch yr Aifft yn cael eu gwneuthur o gellt-fynor, a'u gorchuddio drostynt âg arwyddluniau, cerfiad y rhai a raid fod wedi ei wneuthur trwy draul fawr ar amser ac arian, trwy fod y maen mor galed fel nad oes genym ni arfau a allant wneyd yn argraff arno. Y mae dwy o'r rhai hyn yn awr yn yr Amgueddfa Frut-

anaidd yn Llundain, y rhai yr ymddengys eu bod yn perthyn i rai o *bendefigion* yr Aifft. Y maent wedi eu naddu allan o faen cyfan, a'u haddurno bron âg aneirif fatbeiniau neu arwyddluniau. Y mae un o'r rhai hyn, yr hon a elwir yn gyffredin *Beddfaen Alexander*, yn ddeg troedfedd a thair modfedd a chwarter o hyd, deg modfedd o drwch yn yr ochrau, pum troedfedd a thair modfedd a hanner o led yn y pen, pedair troedfedd a dwy fodfedd a hanner o led yn y gwaelod, a thair troedfedd a deg modfedd o ddyfnder, ac yn pwyso oddeutu deg tunell. Tybia Clarke, yn ei sylw ar Heb. xi. 22, mai hon mewn gwirionedd oedd ARCH JOSEPH, ac y bydd i hyny gael ei brofi os bydd i'r amser ddyfod yn yr hwn y gellir deongli yr argraff ag sydd arni. Os felly, rhaid fod y drafferth o'i throsglwyddo o'r Aifft dros yr analwch i Ganaan, pellder o dri chant o fill-diroedd, bron yn anghredadwy.

TAFLEN AMSERYDDOL

O'R PRIF DDYGWYDDIADAU A GOFFEIR YN LLYFR GENESIS, YN OL CYFRIF YR ARCHESGOB USHER; YN DANGOS YN MHA FLWYDDYN O OED Y BYD, A PHA FLWYDDYN CYN CRIST, Y DYGWYDDODD POB UN.

O.B.	C.C.
1 Gwaith y chwe diwrnod, yn dechreu gyda chread goleuni, Gen. i. 3.	4004
1 Y seithfed dydd yn cael ei neillduo yn sabbath	4004
1 Y degfed dydd, pryd, yn ol y traddodiad, y trôwyd Adda o baradwys, iii. 22—24.	4004
2 Geni Cain ac Abel, iv. 1, 2.	4003
129 Cain yn lladd Abel ei frawd, iv. 8.	3875
235 Genedigaeth Enos, mab Seth, iv. 26.	3769
622 Genedigaeth Enoc, mab Jared, v. 18.	3382
687 Genedigaeth Methusela, mab Enoc, v. 21.	3317
930 Marwolaeth Adda, yn 930 mlwydd oed, v. 5.	3074
987 Cymeryd Enoc i'r nef, yn 365 mlwydd oed, v. 24.	3017
1056 Genedigaeth Noa, mab Lamec, v. 29.	2948
1536 Meibion Duw yn ymlygru â merched dynion, vi. 2.	2468
1556 Genedigaeth Japheth, mab hynaf Noa, v. 32.	2448
1650 Rhoddi gorchymyn i Noa adeiladu yr arch, vi. 14, 18.	2354
1651 Marwolaeth Lamec, yn 777 mlwydd oed, v. 31.	2353
1656 Marwolaeth Methusela, yn 969 mlwydd oed, v. 27.	2348
1656 Y DYLIFF CYFFREDINOL, vii. 11.	2348
1657 Noa a'i deulu yn myned allan o'r arch, viii. 18.	2347
1757 Adeiladu tŵr Babel, a chymysgu yr iaith, xi. 1—9.	2247
2006 Marwolaeth Noa, yn 950 mlwydd oed, 350 o flynyddau ar ol y dylif, ix. 29.	1998
2008 Genedigaeth ABRAM, mab Tera, xi. 26.	1996
2018 Genedigaeth SARAI, gwraig Abram, xvii. 17.	1986
2083 Galw Abram o'i wlad i Ganaan, xii. 4.	1921
2084 Abram yn myned i'r Aifft oblegid y newyn, xii. 10.	1920
2091 Melchisedec yn bendithio Abram, xiv. 19.	1913
2094 Genedigaeth Ismael, mab Abram o Agar, xvi. 15.	1910
2107 Ilosgi Sodom a Gomorra, a gwaredu Lot, xix. 24.	1897
2108 Meibion Lot o'i ferched, xix. 37, 38.	1896
2108 Genedigaeth Isaac, unig fab Abraham o Sarah, xxi. 2.	1896
2141 Galw Abraham i offrymu Isaac, xxii. 2.	1863
2145 Marwolaeth Sarah, yn 127 mlwydd oed, xxxiii. 1.	1859
2148 Abraham yn anfon ei was i geisio gwraig i Isaac, xxiv. 4.	1856
2154 Abraham yn priodi Cetura y pryd hyn, fel y tybir, xxv. 1.	1850
2158 Sem, mab Noa, yn marw, 502 mlynedd wedi y dylif, xi. 11.	1846
2168 Genedigaeth Esau a Jacob, meibion Isaac, xxv. 22.	1836
2183 Marwolaeth ABRAHAM, yn 175 mlwydd oed, xxv. 7.	1821
2200 Duw yn ymddangos i Isaac, ac yn rhoddi iddo addewidion gogoneddus; yntau yn trigo yn Gerar, xxvi. 1—6.	1804

TAFLEN AMSERYDDOL GENESIS.

O. B.	C. C.
2208 Esau yn priodi dwy wraig Ganaaneaid, xxvi. 34.	1796
2225 Jacob trwy gyfrwydsra yn cael bendith Esau, ac yn myned i Mesopotamia at Laban, xxvii—xxix.	1779
2232 Jacob yn priodi merched Laban, xxix.	1772
2233 Genedigaeth Reuben, cyntafanedig Jacob, xxix. 32.	1771
2259 Genedigaeth Joseph, yr ieuangaf o unardeg o feibion Jacob, xxx. 23.	1745
2265 Jacob a'i deulu, yn ddiarwybod i Laban, yn ffoi i Ganaan, xxxi. 38. (Y mae yr amseryddiaeth yma wedi ei chasglu yn ol y dyb fod Jacob 40 mlynedd yn Mesopotamia.).....	1739
2265 Jacob yn ymdrechu â'r Angel, ac yn cael yr enw <i>Israel</i> , xxxii. 24—29.	1739
2266 Dina yn cael ei threisio, a llofruddiad y Sichemiaid, xxxiv. 2, 25.	1738
2266 Benjamin yn cael ei eni, a Rahel yn marw, xxxv. 18.	1738
2276 Joseph, yn 17 mlwydd oed, yn cael ei werthu i'r Ismaeliad, xxxvii. 28.	1728
2285 Joseph, trwy gamgyhuddiad ei feistres, yn cael ei garcharu, xxxix. 20.	1719
2288 Isaac yn marw, yn 180 mlwydd oed, xxxv. 28.	1716
2289 Joseph yn deongli breuddwydion Pharao, xli. 25.	1715
2289 <i>Dechread y saith mlynedd o amdra</i>	1715
2290 Odddeutu yr amser yma y ganed Manasse, cyntafanedig Joseph.....	1714
2292 Odddeutu yr amser yma y ganed Ephraim, ail fab Joseph.....	1712
2292 <i>Dechread y saith mlynedd o newyn.</i>	1708
2297 Jacob yn anfon ei feibion i'r Aifft i brynu fyd, xlii. 1, &c.	1707
2298 Yn eu hanfon eilwaith, gyda Benjamin, xliii. 11.	1706
2298 Joseph yn ei hysbysu ei hun i'w frodyr, ac yn anfon am ei dad i Gosen, xlv. 3, &c.	1706
2300 Joseph yn gwerthu fyd i'r Aifftiaid, ac yn casglu yr arian i drysorfa y brenin, xlvii. 14.	1704
2301 Joseph yn prynu yr holl anifeiliaid, xlvii. 16.	1703
2302 Yr Aifftiaid yn eu gwerthu eu hunain, a'u tir, am fyd i'w fwyta ac i'w han, xlvii. 18, &c.	1702
2303 <i>Y saith mlynedd o newyn ar ben.</i>	1701
2315 Jacob, ar ol bendithio ei feibion, yn marw yn 147 mlwydd oed, xlix. 1, &c.	1689
2369 Joseph, ar ol bod yn llywydd ar yr Aifft 80 mlynedd, yn marw yn 110 mlwydd oed, l. 26.	1635

AIL LYFR MOSES,
A ELWIR
E X O D U S.

AR ol i Moses, yn y llyfr cyntaf o'i hanesiaeth, roddi i ni hanes fanol am yr EGLWYS fel yr oedd yn bodoli yn mhlith teuluoedd unigol, efe a â rhagddo, yn yr ail lyfr hwn, i roddi hanes ei chynyddiad yn genedl fawr a grymud. Yn nghyfieithiad y LXX gelwir y llyfr hwn EXODOS, yn arwyddo yr ymadawriad neu y mynediad allan, am mai ymadawriad yr Israellaid o'r Aifft yw y ffaith ryfeddaf a grybwyll yn yr holl lyfr; ac oddiwrth yr enw hwn y gelwir ei genym ni yn EXODUS. Yn y Beiblau Hebreig gelwir ei VE-ELLEH SHEMOTII, *dyma yr enwau*, oddiwrth y geiriau cyntaf yn y llyfr. Y mae yn cynwys hanes gorchywiliaethau 145 o flynyddau, sef o farwolaeth Joseph, lle y mae llyfr Genesis yn diweddau, hyd godiad y tabernacl yn yr anialwch wrth droed mynydd Sinai. Cynwysa y llyfr hwn, (1) Hanes lluosogiad rhyfeddol Israel yn yr Aifft, a'u caethiwed blin dan Pharao, pen. i. (2) Hanes Moses hyd ei alwad gan Dduw i waredu ei bobl o'u caethiwed, pen. ii. (3) Neillduad Moses, yn nghyda'i frawd Aaron, a'u hanfoniad at Pharao, pen. iii, iv. (4) Engwyrthiau gerbron Pharao, caledwch ei galon yntau, yn nghyda'r deg pla ar wlad yr Aifft, pen. v—xi. (5) Sefydliad y pasg, ac ymadawriad Israel o'r Aifft, pen. xii, xiii. (6) Eu mynediad gwyrthiol trwy y môr coch, dinystyr byddin yr Aifft, a'u diolchgarwch hwythau am eu gwaredigaeth, pen. xiv, xv. (7) Eu teithiau yn yr anialwch, eu cynaliad a'u harweiniad rhyfeddol, yn nghyda'u heilunaddoliaeth, a'u grwnach-rwydd yn erbyn yr Arglywydd, pen. xv—xviii. (8) Rhoddiaid y ddeddf ar fynydd Sinai, pen. xix—xxii. (9) Adeiladu y tabernacl, a chynllun addoliad Duw mewn aberthan a seremonïau, pen. xxiii—xl. Y mae mwy o gysgodau o Crist yn y llyfr hwn o eiddo Moses nag sydd, fe allai, mewn un llyfr arall yn yr Hen Testament; 'oblegid am Grist yr ysgrifennodd efe,' Ioan v. 46. Y mae y fiordd o gymod rhwng Duw a dyn, a'r drefn i bechadur ddyfod i gyfammod a chyfundeb â'i Wneuthurwr trwy Gyfringwr, yn cael ei gosod allan yn eglur a helaeth yma. Mewn gair, y mae yr oll o ddefnydd mawr i ni er egluro y Testament Newydd, megys y mae hwnw yn ein cynorthwyo i ddeongli yr Hen.

PENNOD I.

DYMA yn awr enwau meibion Israel, y rhai a ddaethant i'r Aifft:

gyda Jacob y daethant, bob un a'i deulu.
2 Reuben, Simeon, Lefi, a Juda,

PEN. 1. Adn. 1, 2. *Dyma yn awr enwau meibion Israel*] Y mae y gofrestr hon o enwau yn cael ei dodi i lawr eilwaith, fel, wrth gymharu y gwreiddyn bychan hwn gyda'r lluaus canghenau a dyfasant oddiarno, y gall-

om weled a chydnabod rhaglunnaeth ryfeddol Duw yn nghyflawniad ei addewidion. *Bob un a'i deulu*—hyn yw, ei blant a'i wryon. Adn. 3, 4. *Benjamin*] Yr hwn, er ei fod yr ieuangaf o holl blant Jacob, a osodir o flaen

3 Issacar, Zabulon, a Benjamin,
4 Dan, a Naphtali, Gad, ac Aser.

5 A'r holl eneidiau a ddaethant
allan o gorff Jacob oedd ddeng enaid
a thriugain: a Joseph oedd yn yr
Aifft.

6 A Joseph a fu farw, a'i holl
frodyr, a'r holl genhlaeth hōno.

7 ¶ A phlant Israel a hiliasant ac
a gynyddasant, amlhasant hefyd, a
chryfhasant yn ddirfawr odiaeth; a'r
wlad a lanwyd o honynt.

Dan, Naphtali, Gad, ac Aser, am mai plant y
llawforwynion oeddny hwy.

Adn. 5. *Ddeng enaid a thriugain*] Gwel ar
Gen. xli. 20—27.

Adn. 6. *A Joseph a fu farw, &c.*] Hyny
yw, a fuasai farw er's cryn amser, megys he-
fyd ei holl frodyr ef, a'r holl Aifftiaid ag oedd-
ynt yn adnabod Jacob a'i ddeuddeng mab; a
dyma un rheswm palm yr oedd y wasanaeth
bwysig a wnaed gan Joseph i'r Aifft wedi cael
ei lannghofio.

Adn. 7. *A phlant Israel a hiliasant, &c.*] Megys
pysg neu drychfilod, fel y mae un o'r
geiriau a arferir yma yn arwyddo; a chan eu
bod yn gyffredin yn iach a grymus, hwy a
gryfhasant yn ddirfawr odiaeth, nes y *llan-
wyd y wlad o honynt*—o leiaf Gosen, eu
rhandir eu hunain. Y cynydd rhyfeddol hwn
oedd ffrwyth yr addewid a wnaethpwyd er's
hir amser i'w tadau. O alwad Abraham,
pryd y dywedodd Duw wrtho gyntaf y byddai
iddo ei wneuthur ef yn 'geneud fawr,' hyd
waredigaeth ei had ef allan o'r Aifft, yr oedd
430 o flynyddau; ac yn ystod y 215 cyntaf o
honynt, ni chynyddasant ond i 70; eithr yn
yr hanner olaf darfu i'r 70 hyny lusogi i
600,000 o ryfelwyr, pryd nad allai eu holl
nifer fod yn llai na thair miliwn! Y cynydd
rhyfeddol hwn, dan ragluniaeth Duw, ydoedd
ddydedus yn benaf i ddau achos: 1. Yr oedd
yr Hebrëusau yn dra ffrwythlon, heb ddyoddef
nemawr wrth esgor, ac yn fynych ond didd yn
dwyn *gefelliad*. 2. Ymddengys nad oedd
marvoltaethau *amhrydlon* yn eu plith hwyt,
a bod pob merch yn fab i lawer o blant.

Adn. 8. *Yna y cyfododd brenin newydd*]
Un o deulu arall, yn ol Josephus; canys ym-
ddengys oddiwrth hen ysgrifenywyr fod bren-
hiniaeth yr Aifft yn myned yn fynych o'r naill
deulu i'r llall. *Yr hwn ni adnabuasai mo
Joseph*—y mae *adnabod*, yn yr ysgrhythrau,
yn fynych yn arwyddo *caru*, *paru*, *cydna-
bod*, neu *gymeradwyo*: gwel Barn. ii. 10;
Salm i. 6, a xxxi. 7; Hos. ii. 8; Amos iii. 2;
Mat. xxv. 12; 1 Ioan. iii. 1. Gallwn ddeall
gan hyny, wrth fod y brenin newydd heb
adnabod Joseph, ei *anghymeradwyad* ef o'r
drefn lywodraethol hōno a sefydlasai Joseph,
neu ei waith yn gommedd *cydnabod* y rhwym-
edigaethau dan y rhai y gosodwyd holl wlad
yr Aifft i'r enwog brif-weinidog hwn o eiddo
un o'i ragflaenoriaid. Y mae y dysgedigion
yn amrywio yn fawr yn nghylch enw y brenin
newydd hwn, trwy fod rhai yn meddwl mai
Rameses-Miamum ydoedd, ereill ei fab *Ame-
nophis*, ac ereill *Salatis*.

8 Yna y cyfododd brenin newydd
yn yr Aifft, yr hwn ni adnabuasai mo
Joseph.

9 Ac efe a ddywedodd wrth ei bobl,
Wele pobl plant Israel yn amlach, ac
yn gryfach, na nynti.

10 Deuwch, gwrawn yn gall â
hwynt; rhag amlhau o honynt, a
bod pan ddygwyddo rhyfel, ymgy-
sylltu o honynt â'n caseion, a rhyfela
i'n herbyn, a myned i fyny o'r wlad.

11 Am hyny y gosodasant arnynt

Adn. 9. *Ac efe a ddywedodd wrth ei bobl*]
Y mae yn debyg iddo alw cyngor o'i bende-
ffigion a'i henuriaid i ystyried y peth; a'r
penderfyniad oedd eu herlid a'u dyfetha
hwynt, fel yr adroddir ar ol hyn. Nid yd-
ym i feddwl y gallai yr Aifftiaid fod yn
anwybodus o fwrriad yr Israeliaid i ddech-
weld ac ymsefydlu yn Nghanaan; ac y mae
rhai yn barnu mai yn ymwybodol o'r lles a
ddeilliai i'r wladwriaeth oddiwrth y fath gorff
o bobl, ac eto yn ofnus rhag i'w mawr gynydd
eu gwneuthur yn rhy gryfion, y penderfynodd
Pharao yn gyfrwys attal y cynydd hwnw, ac
felly wanhau eu grym.

Adn. 10. *Deuwch, gwrawn yn gall â
hwynt*] Pan fyddo dynion yn gwneud yn
ddyrgionus, peth cyffredin ydyw iddynt feddwl
eu bod yn gwneuthur yn gall; ond *ffolneib*
pechod a amlygir yn y diwedd gerbron pawb.
A bod pan ddygwyddo rhyfel—tybia rhai fod
gan Pharao olwg ar y gorthrymderau a ddy-
oddefasai yr Aifft dan y brenin-fugeiliaid, y
rhai, yn ol *Manetho*, a fuont am lawer o flyn-
yddau yn llywodraethu y wlad gyda chreulon-
deb dirfawr; a chan fod yr Israeliaid yn dy-
lyn yr un gorchwyl bugeilaidd, yr oedd y
brenin eiddgeddus a chreulon hwn yn ei chael
yn hawdd priodoli iddynt hwythau yr un eg-
wyddorion, gan gymeryd yn ganiataol nad
oeddny ond yn dysgwyl am gyfle tēg i ym-
uno â gelynyon yr Aifft, ac felly arweithio yr
holl wlad: gwel ar Gen. xli. 34.

Adn. 11. *Am hyny y gosodasant arnynt
feistriaid gwaith*] Y mae lle i feddwl eu bod
nid yn unig yn eu gweithio hwy yn anbrur-
garog, ond hefyd yn eu gorfodi i dalu teyrnged
ddirfawr ar yr un pryd. Dywed Philo y
gwneid iddynt gario beichiau uwchlaw eu
gallu, a gweithio nos a dydd, ac y gorfodid
hwy i weithio a chludo; eu bod yn gwneuthur
prifdeifi, yn cloddio, ac yn adeiladu; ac os
byddai i rai o honynt syrtllio yu feirw dan eu
beichiau, na oddefid i'w cyfeillion eu claddu.
Y mae i'w ofni ddarod i'r gorthrymder ag yr
oeddnynt dano ddwyn llawer o honynt i ymuno
â'r Aifftiaid yn eu *heilwaddoliaeth*; canys
nynti a ddarllenwn, Jos. xxiv. 14, iddynt was-
anaethu duwiau ereill yn yr Aifft; ac yr
ydynt yn cael ddarod i Dduw fygwth eu
dyfetha o'r herwydd tra yr oeddnynt yn ngwlad
yr Aifft, Eze. xx. 8. *A hwy a adeiladasant
i Pharao ddinasoedd trysorau*—neu heimi-
ardai cyhoeddus, i gadw ŷd ac ystorau y brenin,
o'r rhai yr oedd rhan fawr o gyfoeth yr Aifft
yn gynwysedig. Ond tybia Calmet fod *mis-
cenoth*, yr hwn a gyfieithir yma yn *drysorau*,

feistriaid gwaith, i'w gorthrymu, â'u beichiau: a hwy a adeiladasant i Pharao ddinasoedd trysoran, *sef* Pithon a Raamses.

12 Ond fel y gorthryment hwynt, felly yr amhlhäent, ac y cynyddent: a drwg oedd gauddynt o herwydd plant Israel.

13 A'r Aifftiaid a wnaeth i blant Israel wasanaethu yn galed.

14 A gwnaethant eu heinioes hwynt yn chwerw trwy y gwasanaeth caled,

yn enw dinas; ac efe a gyfieitha yr adnod fel hyn: 'A hwy a adeiladasant i Pharao ddinasoedd, *sef* Miscenoth, Pithon, a Rameses.' Y mae y LXX yn chwangu yma, '*Ac On, yr hon yw Heliopolis,*' *sef* dinas yr haul; ac y mae yr un darlenniad i'w gael yn y cyfieithiad Coptig. Dywed rhai ddarfod i'r Israeliaid, heblaw y dinasoedd hyn, adeiladu beraon, neu y *pyramids*: gwel ar adn. 14.

Adn. 12. *Ond fel y gorthryment hwynt, felly yr amhlhäent, ac y cynyddent*] Er mawr ofid i'r Aifftiaid. Y mae y gair *jyphrots*, a gyfieithir 'cynyddent,' yn arwyddo eu bod yn 'tori allan' ac yn 'ymdaenu gyda ffyrnigrwydd,' megys afon wedi ei chodi gan y gwlawogydd, dyfroedd yr hon a gynyddant ac a emilliant nerth wrth gael eu hatal. Yma y gwelwn mor ofer yw dychynyngion dynion yn erbyn amcanion Duw! Fel hyn yn fyny ch y bu amseroedd o erledigaeth a chystudd yn amseroedd o gynydd i'r eglwys: pan yr oedd Cristionogaeth yn cael ei herlid fwyaf, y cynyddodd hi fwyaf.

Adn. 13. *A'r Aifftiaid a wnaeth i blant Israel wasanaethu yn galed*] Gyda chreulondeb a gormes; gyda geriau celyd a thriniaeth greulon, heb drugaredd na thosturi. Goddefodd Duw hyu i ddybenion doeth ac uniawn: 1. Fel cosp am eu heilunaddoliaeth, i ba un yr ymddengys fod llawer o honynt wedi syrthio. 2. I'w diddychu oddiwrth yr Aifft, yr hon oedd yn wlad ddymunol ar lawer o ystyriaethau, ac i beri iddynt hiraethu am Ganaan. 3. I barotai y ffordd i weithredoedd gogoneddus Duw a gwaredigaeth Israel.

Adn. 14. *A gwnaethant eu heinioes hwynt yn chwerw*] Nes yr oeddnt wedi blino ar eu bywyd o herwydd gerwindeb eu caethiwed. *Mewn clai ac mewn priddfaen*—yr oeddnt yn gyntaf yn codi y clai, ei dyllno, a'i barotai; ac wedi hyn yn ei lunio yn briddfeini, a'u sychu yn yr haul, &c. *Ac yn mhob gwasanaeth yn y maes*—dywed Josephus 'i'r Aifftiaid lunio llawer ffordd i gystuddio yr Israeliaid; canys parent iddynt gloddio nifer mawr o ffosydd i'r afon, ac adeiladu muriau i'w dinasoedd a'u caerau, fel y gallent attal yr afon, a rhwystro i'w dyfroedd giôni ar ei gorfliad dros ei glanau ei hun; gosodasant hwynt hefyd i adeiladu beraou (*pyramids te anoikodomountes*), a threuliasant hwynt allan, a gwnaethant iddynt ddysgu pob math ar lawgelfyddydau, ac ymgynëfno â chaledwaith.' Y mae Philo yn dwyn agos yr un dystiolaeth. Y mae llawer o awduron diweddar yn cyduno

mewn clai, ac mewn priddfaen, ac yn mhob gwasanaeth yn y maes; a'u holl wasanaeth y gwnaent iddynt wasanaethu ynddo, *oedd* galed.

15 A brenin yr Aifft a lefarodd wrth fydwragedd yr Hebrëesau; o ba rai enw un *oedd* Siphra, ac enw yr ail Puah:

16 Ac efe a ddywedodd, Pan fyddoch fydwragedd i'r Hebrëesau, a gwelwch o honoch hwynt yn esgor; os mab fydd, lleddwch ef; ond os merch, bydded fyw.

â'r dyb uchod, *sef* mai yr Israeliaid a adeiladasant feraon yr Aifft; eithr ereill a haerant yn gryf i'r gwrthwyneb, 1. Am fod y beraon hyu wedi eu gwneuthur o *gerig*; ac, 2. Am mai gwneuthur *priddfeini* oedd gorchwyl yr Israeliaid, pen. v. 7—15. Ar y pen cyntaf dywed *Scott*: 'Da y gwyddys fod y beraon wedi eu hadeiladu o gerig rãdd.' *Diodorus*: 'Y mae y bera mawr wedi ei orchuddio â cherig llathredig wedi eu cysylltu yn dda, y leiaf o ba rai sydd ddeg troedfedd ar hugain o hyd. Ddygwyd y mynor o gloddfeydd Arabia.' *Pliny*: 'Fe'i gwnaed o feini a ddygwyd o Arabia.' 'Felly ymddengys yn amlwg,' meddai *Benson*, 'nad oedd gan yr Israeliaid, y rhai a weithient mewn priddfaen a chlai, un law yn adeiladiad y beraon.' Ond y mae *Hales*, mewn trefn i' geisio cysoni y ddwyblaid, yn cyfyngu llafur yr Israeliaid at y beraon *priddfaenol* yn unig.

Adn. 15. *A brenin yr Aifft a lefarodd wrth fydwragedd yr Hebrëesau*] Tybia *Coke* fod deng mlynedd o leiaf wedi myned heibio er pan osodasai Pharao galedi ar yr Israeliaid; ac wrth weled nad oedd hyn yn attal eu lluosogiad, ddarfod iddo gymeryd y drefn a nodir ar ol hyn. Y mae *Henry* a *Benson* yn meddwl mai Aifftesau oedd y fydwragedd hyn, am nas gallai Pharao ddysgwyl i'r Hebrëesau fod mor greulon wrth eu cenedl eu hunain; ond y mae *Scott* ac ereill yn barnu, oddiwrth eu bod yn 'ofni Duw,' mai Hebrëesau oeddnt. *Siphra* a *Puah* ond odid oeddnt ddwy *benathes*, dan y rhai yr oedd y lleill oll yn gweithredu, a chan y rhai yr addysgid hwy yn y golwynyddiaeth neu y fydwreigiaeth. Tybia *Aben Ezra* nad allai fod dim llai na plwm cant o fydwragedd yn mhllth yr Hebrëesau y pryd hyn.

Adn. 16. *Ac efe a ddywedodd, &c.*] Y mao *Jonathan ben Uzziel* yn rhoddi rheswm hynod am y gorchymyn a roddwyd gan Pharao i'r fydwragedd: 'Pharao a gysgodd, ac yn ei gwsg efe a welodd glorian; ac wele, yr oedd holl wlad yr Aifft mewn un pen iddo, ac oen yn y llall; a'r pen yn yr hwn yr oedd yr oen a wrthbwysoedd y pen yn yr hwn yr oedd gwlad yr Aifft. Ac efe a anfonodd yn ebrwydd am yr holl brif swynyddion, ac a adroddodd iddynt ei freuddwyd. A *Jannes* a *Jambres*, (gwel 2 Tim. iii. 8.) y rhai oeddnt y prif swynyddion, a agorasant eu genau, ac a ddywedasant wrth Pharao, 'Y mae mab i gael ei eni yn fuan yn aghynulleidfa yr Israeliaid, llaw yr hwn a ddyfetha holl wlad yr

17 Er hyny y bydwragedd a ofnasant Dduw, ac ni wnaethant yn ol yr hyn a ddywedasai brenin yr Aifft wrthynt; eithr cadwasant y bechgyn yn fyw.

18 Am hyny brenin yr Aifft a alwodd am y bydwragedd, ac a ddywedodd wrthynt, Paham y gwnaefhoch y peth hyn, ac y cadwasoch y bechgyn yn fyw?

19 A'r bydwragedd a ddywedasant wrth Pharao, Am nad yw yr Hebrëesau fel yr Aifftesau; oblegid y maent hwy yn fywiog, ac yn esgor cyn dyfod bydwaig atynt.

Aifft.' Am hyny y llefarodd Pharao wrth y bydwragedd, Pan fyddoch fydwragedd i'r Hebrëesau,' &c.

Adn. 17. *Er hyny y bydwragedd a ofnasant Dduw*] Yr hwn a wahardasai lofruddiaeth o bob math, Gen. ix. 6. Ofnent ei lid ef yn fwy na llid Pharao, ac am hyny cadwasant y bechgyn yn fyw.

Adn. 18. *Am hyny brenin yr Aifft*] Neu, fel y mae yn y Samaritanaeg, 'am hyny Pharao brenin yr Aifft,' &c.

Adn. 19. *Am nad yw yr Hebrëesau fel yr Aifftesau*] Adroddiad syml yw hwn o'r hyn ag y gŵyr profiad cyffredin ei fod yn wirionedd, sef nad yw gwragedd ag sydd yn ystod eu holl feichiogrwydd yn gynefinol â llafur caled, yn enwedig yn yr awyr agored, yn cael mewn cymhariaeth ond ychydig boen wrth esgor. Y pryd hyn yr oedd yr holl genedl Hebreaid, gŵyr a gwragedd, mewn cyflwr o gaethiwed, ac yn gorffod gweithio mewn clai ac mewn priddfaen, ac yn mhob gwasanaeth yn y maes, adn. 14; ac y mae hyn ar unwaith yn rhoddi cyfrif am hawsder a chyflynder eu hesgoriad. Gyda'r gwirionedd manylaf y gallai y bydwragedd ddywedwyd nad oedd yr Hebrëesau fel yr Aifftesau: y rhai olaf oeddynt yn byw yn foethus, heb ymarferyd â llafur, ac yn cael eu cau i fyny gartref, ac am hyny yr oeddynt yn cael esgoriadau celyd, anhawdd, a pheryglus; eithr yr Hebrëesau oeddynt *fywiog—chayoth*, cryfion, iachus, a heiniſ, ac am hyny yn esgor cyn dyfod bydwaig atynt. Y mae hyn yn beth cyffredin yn mhob rhan o'r byd lle y mae y gwragedd yn gweithio yn galed, ac yn enwedig yn yr awyr agored. Yr wyf yn gwychod fy hun am lawer o anghreiffitiau o'r fath yn mhlith y tylodion llafurus.—CLARKE. Ond rhaid i ni beidio priodoli hyn oll i achosion naturiol; canys diammau fod yr un Rhagluniaeth Ddwyfol ag a gyfryngai er lluosogi y genedl, yn peri hefyd fod yr esgoriad yn rhywydd a diogel i'r Hebrëesau, fel nad oedd arnynt angen ond yn anfynech am gynorthwy y bydwragedd: a dichon mai wrth weled bys Duw yn hyn y cryfhawyd hwynt i anufyddhau i orchymyn y brenin, ac i roddi y rheswm hwn tros eu hymddygiad.

Adn. 20, 21. *Am hyny y bu Dduw dda wrth y bydwragedd, &c.*] Darfu i'w gwaroldeb yn gwrthsefyll bwriadau gwaeddyd Pharao ddyrchafu eu cymeriad yn y fath fodd nes y priod-

20 Am hyny y bu Dduw dda wrth y bydwragedd: a'r bobl a amlhaodd, ac a aeth yn gryf iawn.

21 Ac o herwydd i'r bydwragedd ofni Duw, yntau a wnaeth dai iddynt hwythau.

22 A Pharao a orchymynnydd i'w holl bobl, gan ddywedyd, Pob mab a'r a enir, bwriwch ef i'r afou; ond cedwch yn fyw bob merch.

PENNOD II.

YNA gŵr o dŷ Lefi a aeth, ac a briododd ferch i Lefi.

2 A'r wraig a feichiogodd, ac a es-

wyd hwynt i denlwoedd penaf Lefi; neu bendithiodd Duw hwynt â hiliogaeth luosog yn eu tai.—SUTCLIFFE. 'Megys y cadwasant hwy i fyny dai neu dylwythau Israel, felly Duw mewn ad-daliad a'u cododd hwythau yn denlwoedd, a fendithiodd eu plant, ac a'u gwnaeth yn llwyddiannus.'—BENSON. Y mae SHUCKFORD yn meddwl fod rhywbeth heb fod yn iawn yn ngwahannodiad a chyfieithiad yr adnodau hyn, ac yn eu darllen fel yma: 'A'r bobl a amlhasant, ac a aethant yn gryf iawn; a hyn a ddygwyddodd (*vayehi*) o herwydd i'r bydwragedd ofni Duw; ac yntau (*Pharao*) a wnaeth dai iddynt hwy (*yr Israeliaid*), ac a orchymynodd i'w holl bobl, gan ddywedyd, Pob mab a'r a enir,' &c. Tybia Shuckford nad oedd gan yr Israeliaid cyn y pryd hyn aneddau sefydlog, ond eu bod yn byw mewn pebyll, ac felly yn meddu gwell cyfeusdra i guddio eu plant; ond yn awr ddarfod i Pharao adeiladu tai iddynt, a gwneyd iddynt drigo ynddynt, a pheri i'r Aifftiaid wlyio drostynt, fel y byddai i'r holl fechgyn gael eu dyfetha; yr hyn na allesid yn hawdd ei wneuthur pe buasai yr Israeliaid yn parhau i fyw yn eu dull gwagaredd arferol mewn pebyll. 'Ymddengys yn lled amlwg,' meddai CLARKE, 'fod y testyn Hebreig yn arwyddo na chafodd y tai mewn dadl eu gwneuthur i'r bydwragedd, ond i'r Israeliaid yn gyffredin, am fod y rhagenw *lahem*, 'iddynt hwythau,' yn y rhyw *wrywaidd*: pe mai y bydwragedd a feddyliesid, y rhagenw benywaidd, *lahen*, a ddefnyddiesid.'

Adn. 22. *Pob mab a'r a enir, bwriwch ef i'r afon*] Gan fod y *Nilus*, yr hon a feddylir yma, yn afon gysegredig yn mhlith yr Aifftiaid y mae yn debyg fod Pharao yn bwriadu yr Hebreaid ieuainc fel offitwm i'w dduw, a hyny am ddau reswm: 1. Er cael gorlifad priodol a digonol o'i dyfroedd bob blwyddyn er firwythloni y tir; ac, 2. I attal cynydd yr Israeliaid. Y mae yn debyg na chyboeddwyd y gorchymyn hwn hyd ar ol geni Aaron, a darfod ei ddirymu yn fuan wedi geni Moses, gan nad yw mewn un modd yn debyg, pe parhausai yn ei rym yn ystod y pedwar ugain mlynedd ag ydoedd rhwng genedigaeith Moses a gwaredigaeth yr Israeliaid o'r Aifft, y buasai i'w gwrywod gyraedd i chwe chan mil, a'r rhai hyny oll yn wŷr grymus: gwel ar pen. li. 6.

gorodd ar fab: a phan welodd hi mai tlws ydoedd efe, hi a'i cuddiodd ef dri mis.

3 A phan na allai hi ei guddio ef yn hwy, hi a gymerodd gawell iddo ef o lafrwyn, ac a ddwbiodd hwnw â chlai ac â phyg; ac a osododd y bachgen ynddo, ac a'i rhoddodd yn mysg yr hesg ar fin yr afon.

4 A i' chwaer ef a safodd o bell, i gael gwybod beth a wnaid iddo ef.

5 ¶ A merch Pharao a ddaeth i waered i'r afon i ymolchi (a'i llancesau oedd yn rhodio ger llaw yr afon) a hi a ganfu y cawell yn nghanol yr

hesg, ac a anfonodd ei llaw-forwyn i'w gyrcu ef.

6 Ac wedi iddi ei agoryd, hi a ganfu y bachgen; ac wle y plentyn yn wlyo: a hi a dosturiodd wrtho, ac a ddywedodd, *Un* o blant yr Hebreaid yw hwn.

7 Yna ei chwaer ef a ddywedodd wrth ferch Pharao, A âf fi i' alw atat fammaeth o'r Hebrëcsau, fel y mago hi y bachgen i ti?

8 A merch Pharao a ddywedodd wrthi, *Dos*. A'r llances a aeth ac a alwodd fam y bachgen.

9 A dywedodd merch Pharao wrthi,

PEN. II. Adn. 1. *Yna gŵr o dŷ Lefi*] Sef Amram, yr hwn oedd fab i Cohath, ac wŷr i Lefi; a *brïododd ferch i Lefi*—sef Jochebed, yr hon oedd yn fodryb iddo chwaer ei dad, pen. vi. 16—20, Num. xxvi. 59. Yr oedd y cyfryw briodasau y pryd hyny yn gyfreithlon, er iddynt wedi hyny gael eu gwahardd, Lef. xviii. 12.

Adn. 2. *A'r wraig a feichiogodd, ac a esgorodd ac fab*] Nid hwn oedd ei phlentyn cyntaf, canys yr oedd Aaron dair blynedd yn hynach, pen. vii. 7; ac yr oedd Miriam yn hynach na'r ddau: gwel ar adn. 4. *A phan welodd hi mai tlws ydoedd efe*—ei fod yn blentyn neillduol o brydferth. Geilw Stephan ef yn 'dlws i Dduw,' neu un 'dwyfol brydferth;' ac ymddengys oddiwrth Heb. xi. 23, fod ei rieni yn credu fod Duw yn ei fwriadu ef yn waredwr i'w bobl. Ei brydferthwch a drefnwyd gan ragluniaeth i fod yn foddion ei gadwraeth ef. Nid oes braidd ddim yn effeithio yn fwy ar y teimlad dynol na gweled baban tlws mewn cyfyngder. Ei dlwsni a ddenai hyd yn nod ei rieni i ddyblu eu hymdrech i'w waredu ef; a hyn ond odid oedd yr unig achos a arweinicodd ferch Pharao i gymeryd y fath ofal neillduol am dano ef.

Adn. 3. *A phan na allai hi ei guddio ef yn hwy*] Am fod yr ymchwiliad yn myned yn fanylach, neu am fod ei enedigaeth wedi dyfod yn hysbys; *hi a gymerodd gawell iddo ef o lafrwyn*—sef o'r planhigyn *papyrus*, ar yr hwn yr oedd yr Aifitiaid yn ysgrifennu, ac oddiwrth yr hwn y mae y gair *popyr* yn deilliaw. Y mae y planhigyn hwn yn tarddu ar lanau y Nilus, ac mewn tiroedd corsïog: y mae yn tyfu chwech neu saith cyfudd uwchlaw y dwfr, yn deirongl, ac yn terynu yn siob o fan edafedd tebyg i wallt. Yr oedd y gorsen hon o'r defnydd mwyaf i drigolion yr Aifit, gan y byddai ei chalon yn fwyd iddynt, a'r rhanau coediog i wneuthur llestri â hwynt. Yr oeddynt gynt yn gweuthur llongau o honynt, yn ol tystiolaeth Pliny ac ereill; a dichen mai at y rhai hyn y cyfeirir, Esay xviii. 2, 'yr hwn a hebrwng genhadau hyd y môr, ac ar hyd wyneb y dyfroedd, mewn llestri brwyn.' Ac a'i rhoddodd yn mysg yr hesg ar fin yr afon—fel na fyddai i'r firwd ei gario ymaith, ac fel y gallai hi yn y nos roddi sugn iddo. Wrth wneuthur hyn yr oedd y fam mewn effaith yn ufyddhau i orchymyn y

brenin, trwy ei 'fwrwef i'r afon,' pen. i. 22; a'r drefn hon ond odid a gymerth hi i'w hamdoffyn ei hun ar ol i'w enedigaeth ddyfod i'r amlwg. Ac y mae yn debyg iddi ei roddi yn fwriadol yn y fan lle yr arferai merch Pharao ymolchi.

Adn. 4. *A'i chwaer ef a safodd o bell*] I edrych beth a wneid iddo pan y canfyddid ef gan ferch Pharao. Dywed Josephus fod *Miriam*, chwaer Moses, yn ddwy flwydd ar bymtheg oed y pryd hyn.

Adn. 5. *A merch Pharao*] Y mae Josephus yn ei galw *Thermutis*, ac yn dywedyd i'r cawell gael ei gario ymaith gyda'r firwd, ac iddi hithau anton un a allai nosio ar ei ol ef. *A daeth i waered i'r afon i ymolchi*—er difyrwch, yn ol rhai; er iechyd, yn ol ereill; ac er pureiddiad crefyddol, meddai y lleill. Jonathan, yn ei Ddeongliad, a ddywed 'ddarfod i Dduw daraw yr holl Aifit â *chornwydydd*, ac i ferch Pharao ddyfod i ymolchi yn yr afon er gwellâd; ac mor gynted ag y cyffyrddodd hi â chawell Moses, ddarfod iaclâu ei chornwydydd yn y fan.' Rhaid addef nad oedd hyn yn anhawdd i Dduw, os dyma y drefn a fwriadai efe er ei hennill i fagu Moses. Tybia Harmer fod y Nilus y pryd hyn yn dechreu codi; a chan fod yn arferiad yn awr i'r genethod Aifitaid ymsuddo i'r afon ar ei chodiad, mewn ffordd o ddiolchgarwch am y fendith amhrisiadyw o'i gorlifiad, felly y gallai merch Pharao y pryd hyny fyned i waered i'r afon i'r un dyben. Y cyfeithiad llythyrenol o'r wreiddiol yw, 'a ddaeth i waered i'r afon i *olchi*,' nid *ymolchi*; ac am hyny tybia rhai iddi fyned yn o'i olchi ei *dillad*, nid ei *pherson*, yr hyn oedd orchwyll nad oedd hyd yn nod merched brehinoedd yn ei ystyried islaw iddynt yn yr amseroedd boreol hyny: gwel *Homer, Odys. vi*.

Adn. 6. *Ac wle y plentyn yn wlyo, a hi a dosturiodd wrtho*] Canys ni allai yr olwg ar blentyn tlws mewn cyfyngder lai na gwneyd yr argraff yma. Dychymygydd eisioes na ddarfau i orchymyn creulon brenin yr Aifit barhau yn hir mewn grym, pen. i. 22; a dichen mai yr amgylchiad hwn a ddygodd ei ddirymiad oddiamgylch. Merch Pharao, wedi ei tharaw gan gylngder y plant Hebreaid trwy yr hyn a welsai yn achos Moses, a ddeisyfodd ond odid ar i'w thad ddiddymu y ddeddf waedlyd hon.

Dwg ymaith y bachgen hwn, a maga ef i mi, a minau a roddaf i ti dy gyflog. A'r wraig a gymerodd y bachgen, ac a'i magodd.

10 Pan aeth y bachgen yn sawr, hi a'i dyg ef i ferch Pharao; ac efe a fu iddi yn fab: a hi a alwodd ei enw ef Moses; o herwydd (eb hi) o'r dwfr y tynais ef.

11 ¶ A bu yn y dyddiau hyny, pan aeth Moses yn sawr, fyned o hono allan at ei frodyr, ac edrych ar eu beichiau hwynt, a gweled Aifftwr yn taro Hebrëwr, un o'i frodyr.

12 Ac efe a edrychodd yma ac acw; a phan welodd nad oedd yno neb, efe

a laddodd yr Aifftiad, ac a'i cuddiodd yn y tywod.

13 Ac efe a aeth allan yr ail dydd; ac wele ddau Hebrëwr yn ymryson: ac efe a ddywedodd wrth yr hwn oedd ar y cam, Paham y tarewi dy gyfaill?

14 A dywedodd yntau, Pwy a'th osododd di yn bennaeth ac yn frawdwr arnom ni? ai meddwl yr wyt ti fy lladd i, megys y lleddaist yr Aifftiad? A Moses a ofnodd, ac a ddywedodd, Diau y gwyddir y peth hyn.

15 Pan glybu Pharao y peth hyn, efe a geisiodd ladd Moses: ond Moses a ffoodd rhag Pharao, ac a arhosodd yn

Adn. 7—9. *Yna ei chwaer ef a ddywedodd* [c.] Pe na buasai y gwahalon amgylchiadau a nodir yma wedi cael eu gosod dan arolygiad rhagluniaeth neillduol, nid oes un tebygolrwydd y cawsent y fath ddiweddiad deddydd. Gwnaeth y rhieni bob peth i achub eu plentyn a'r fedrai duwioledd, serch, a synwyr feddwl am dano; ac wedi gwneuthur hyny, gadawsant y caulyniad i Dduw. 'Trwy ffydd,' meddai yr apostol, Heb. xi. 23, 'Moses, pan anwyd, a guddiwyd dri mis gan ei rieni, o achos eu bod yn ei weled yn fachgen tlws: ac nid ofnasant orchymyn y brenin.' Yr oedd-ynt yn ofni Duw, ac yn credu y gofalai efe am y plentyn.

Adn. 10. *Pan aeth y bachgen yn sawr* [Oddeutu saith mlwydd oed; yn ddigon mawr i fyned i'r ysgolion. *Ii a'i dyg ef i ferch Pharao*—diaman ei bod yn gweled y plentyn yn fynych pryd yr oedd ef gyda'i fam, wrth dalu iddi am ei fagn, adn. 9, ac ar achlysuron ereill; ond yn awr dygwyd ef ati i'r llys. *Ac efe a fu iddi yn fab*—dywed yr Iuddewon nad oedd gan ferch Pharao yr un plentyn o'i heiddo ei hun, ac mai hithau oedd unig blentyn ei thad, fel ag yr oedd y llanc, pan ei mabwysiadwyd yn fab iddi, yn sefyll yn dŵg am y goron. *A hi a alwodd ei enw ef Moses*—y mae *mashah* yn arwyddo *tynu allan* o'r dwfr, a *mosheh* yw y person a dynir allan. Arferir y gair yn yr un ystyr yn 2 Sam. xxii. 17, Salm xviii. 16. Dywed yr Iuddewon i'w dad, wrth ei enwaedu, ei alw *Joachim*; ond os yw hyn yn wir, fe'i collwyd byth wedi hyny yn yr enw a roddwyd iddo gan dywysoges yr Aifft. Dywed *Abul Farajius* i ferch Pharao ei anfon ef at *Jannes a Jambres* i'w addysgu yn noeth-ineb yr Aifft.

Adn. 11. *Pan aeth Moses yn sawr* [Pan yr oedd efe yn llawn deugain mlwydd oed, Act. vii. 23; *fyned o hono allan at ei frodyr*—yr Israeliaid, trwy iddo gael ei gymhell i hyny ond oddid gan ddwyfol ysbrydoliaeth; *ac edrych ar eu beichiau hwynt*—sef y caledi a ddyoddesent yn nghaethwasanaeth yr Aifft; *a gweled Aifftwr yn taro Hebrëwr*—hyny yw, yn ei ladd. Y mae yr ysgrifenyddwr Iuddewig yn cadarnhau mai un o feistrïad gwaith yr Israeliaid oedd yr Aifftwr hwn, yr hwn a laddodd yr Hebrëwr am fethn gwneyd y gwaith a ofnyd gaiddo; ac y mae rhai yn

meddwl fod yr Hebrëwr hwn yn berthynas agos i Moses, yn ŵr o'r un llwyth.

Adn. 12. *Efe a laddodd yr Aifftiad* [Ac os darfu i'r Aifftwr ladd yr Hebrëwr, yr oedd y gyfraith batriarchaidd yn cyfiawnhau Moses wrth ei ladd yntau, Gen. ix. 6. Ond dywed y traddodiad Iuddewig na ddarfu i Moses ei ladd ef âg erfyn, ond â gair ei enau, yr un modd ag y laddodd Pedr Ananias a Sapphira; a'i fod felly yn rhoddi iddynt *wyrth* i brofi ei ddwyfol anfonid.]

Adn. 13. *Wele ddau Hebrëwr yn ymryson* [Y mae Deongliad Jonathan yn dywedyd mai *Dathan* ac *Abiram* oedd y rhai hyn; ond y mae *Beruyer* ac ereill yn meddwl mai *Jannes* a *Jambres* oeddynt, y rhai a grybwylla yr apostol, 2 Tim. iii. 8, fel yn sefyll yn erbyn Moses, am na chydaabyddent ef yn farnwr addas ar eu cwerly. Eithr nid oes yma ddim ond un yn sefyll yn erbyn Moses, ac felly nid at *Jannes* a *Jambres* y cyfeirir.]

Adn. 14. *A Moses a ofnodd* [Efe a welai nad oedd yr Israeliaid eto wedi eu paratoi i adael eu caethiwd; ac er fod Duw yn ei alw ef i fod yn arweinydd iddynt, eto nad oedd ei ragluniaeth ef hyd yn hyn wedi agor y ffordd yn ddigonol; a phed arcessni yn yr Aifft, y buasai raid iddo beryglu ei fywyd. Darfu i'w synwyr gan hyny ei gymhell ef i ffoi am yr auser presenol i dir Midian.]

Adn. 15. *Pan glybu Pharao y peth hyn* [I Moses ladd yr Aifftwr, a chymeryd arno y swydd o fod yn waredydd i'w bobl; *efe a geisiodd ladd Moses*—yr hwn a ystyriai efe yn llofrudd ac yn deyrnfradwr. *Ond Moses a ffoodd rhag Pharao*—pa fodd y cysonir hyn â Heb. xi. 27, 'Trwy ffydd y gadawodd Moses yr Aifft, heb ofni lliid y brenin?' Yn bar hawdd. Y mae yr apostol yn son nid am yr ymadawiad hwn o'r Aifft, ond am ei ymadawiad diweddaf ef a'r Israeliaid o honi, a'r modd eoft a gwrol ag yr ymddygasai Moses tuag at Pharao a'r Aifftiad, gan ddiystyru ei fgythion ef a'i fiwyr. *Ac a arhosodd yn nhir Midian*—gwlad yn Arabia Petrea, ar gost dwyreiniol y môr coch, nid yn mhell oddiwrth fynydd Sinai. Y mae y lle hwn yn cael ei alw yn barhans gan yr Arabiaid yn *dir Midian*, neu *dir Jethro*. Meddylir i'r Midianiaid gael eu dechread oddiwrth Midian, pedwarydd mab Abraham o Cetura, Gen. xxv. 2; ond

nhir Midian; ac a eisteddodd wrth bydew.

16 Ac i offeiriad Midian yr ydoedd saith o ferched: a'r rhai hyn y ddaethant ac a dynasant *ddufr*, ac a lanwasant y casnau i ddyfrhau defaid eu tad.

17 Ond y bugeiliaid a ddaethant ac a'u gyrasant ymaith: yna y cododd Moses, ac a'u cynorthwyodd hwynt, ac a ddyfrhaodd eu praidd hwynt.

18 Yna y daethant at Reuel eu tad: ac efe a ddywedodd, Paham y daethoch heddyw cyn gynted?

19 A hwy a ddywedasant, Aifftwr a'u haclubodd ni o law y bugeiliaid; a chan dynu a dynodd ddwfr hefyd i ni, ac a ddyfrhaodd y praidd.

tybia Calmet eu bod o hiliogaeth Cus, mab Cam, Gen. x. 6.

Adn. 16. *Offeiriad Midian*] Neu *dywysog*, neu y ddau; canys y mae y ddau ystyr i'r gair gwreiddiol *cohen*. Y mae yr orchwyliath yna yn llelleddeg i'r un grybwylledig yn Gen. xxix, yn nghylch Jacob a Rahel: gwel y sylwadau yno.

Adn. 17. *Ond y bugeiliaid a ddaethant, ac a'u gyrasant ymaith*] Ymddengys, pan fyddai merched Reuel yn llenwi y casnau, ac yn dwyn eu praidd i yfed, fod y bugeiliaid yn gyru eu praidd hwy ymaith, ac yn dyfrhau eu haniifeiliaid eu hunain. *Yna y cododd Moses*—i wrthsefyll yr anghyfiawnder hwn, ac a'u cynorthwyodd hwynt i ddyfrhau eu praidd, trwy yr hyn y galluogwyd hwynt i ddychwelyd yn llawer cynt nag arferol.

Adn. 18. *Yna y daethant at Reuel eu tad*] Yn Num. x. 29, gelwir y gŵr hwn *Raguel*, er fod yr Hebraeg yr un yn y ddau le. Ymddengys fod ganddo amrai enwau: yma fe'i gelwir *Reuel*; yn Num. x. 29, *Raguel*; yn pen. iii. 1, *Jethro*; yn Barn. iv. 11, *Hobab*; ac yn Barn. i. 16, *Ceni*. Y mae rhai yn meddwl fod *Reuel* yn dad i *Hobab*, yr hwn hefyd a elwid *Jethro*; a thybia Clarke mai hyn sydd debycaf: gwel ar pen. iii. 1. Gallai, modd bynag, fod rhai o'r enwau hyn yn perthyn i'w swydd a'i urddas; canys, fel y gwelwch eisioes, yr oedd yn arferiad i ddy, yn gyflawniad rhyw orchest fawr, dderbyn enw newydd.

Adn. 19. *Aifftwr a'n haclubodd ni o law y bugeiliaid*] Meddylasant ei fod yn gyfryw oddiwrth ei wisg a'i iaith; neu fe allai iddo son wrthynt ei fod wedi dyfod o'r wlad hono.

Adn. 20. *Gelwch arno, a bwytaed fara*] Fel y cryfhäer ef gogyfer a'i daith. Dywed Dr. Shaw fod y dwyreinwyr yn fwytawyr mawr ar fara; a bod tri o bob pedwar yn byw yn gwbl arno ef, neu ar fwyd a wneid o beillied. Ond yr oedd *bara*, yn mhlith yr Hebraeid, yn cael ei arfer i arwyddo pob math o ymborth a fwyteid er cynal bywyd dyn.

Adn. 21. *Yntau a roddodd Saphora ei ferch i Moses*] Ymddengys i Moses gael Saphora yn wraig rywbeth yn debyg i'r modd y

20 Ac efe a ddywedodd wrth ei ferched, Pa le y mae efe? paham y gollyngasoch ymaith y gŵr? Gelwch arno, a bwytaed fara.

21 A hu Moses foddlawn i drigo gyda'r gŵr: ac yntau a roddodd Saphora ei ferch i Moses.

22 A hi a esgorodd ar fab; ac efe a alwodd ei enw ef Gershom: O herwydd dweithr (eb efe) a fŷm i mewn gwlad ddyweithr.

23 ¶ Ac yn ol dyddiau lawer, bu farw brenin yr Aifft; a phlant Israel a uchencidiasant oblegid y caethiwed, ac a waeddasant; a'u gwaedd hwynt a ddyrchafodd at Dduw oblegid y caethiwed.

24 A Dduw a glybu eu huchenaid

cafodd Jacob Rahel, sef am gyflawni rhyw orchwylion, megys bugeilio defaid, &c., pen. iii. 1. Y mae Abul Farajius yn ei galw hi *Saphura ddd*.

Adn. 22. *Efe a alwodd ei enw ef Gershom*] Yn llythrenol, *δρεσθηρ*; a'r rheswm am yr enw hwn a chwaneigr gan Moses yn ddiatreg, 'O herwydd dweithr a fŷm i mewn gwlad ddyweithr.' Y mae y Lladin, rhai allunan o'r LXX, y Syriaeg, y Goptaeg, a'r Arabaeg, yn chwanegu y geiriau canlynol at yr adnod hon: 'Ac enw yr ail a alwodd efe *Eliezer*, o herwydd Dduw fy nhad a fu gynorthwy i mi, ac a'm haclubodd o law Pharao.' Y mae y geiriau hyn i'w cael yn pen. xviii. 4, a diamau eu bod yn angenrheidiol yma; canys y mae yn debyg ddarfod geni y ddau fab hyn o fewn ychydig amser i'w gilydd; oblegid dywedir yn pen. iv. 20, i Moses gymyrd ei wraig a'i *FEIBION*, oddiwrth yr hyn y mae yn amlwg fod *Gershom* ac *Eliezer* ganddo y pryd hyn. Ond nid yw yr ymadrodd i'w gael mewn un argraffiad nac ysgrif o'r testyn Hebreig.

Adn. 23. *Ac yn ol dyddiau lawer, bu farw brenin yr Aifft*] Yn ol St. Stephan, (cymharer Act. vii. 30 ag Exod. vii. 7,) dygwylodd marwolaeth brenin yr Aifft o gylch *deugain* mlynedd ar ol ffedigaeth Moses i Midian; ond tybia rhai fod dau neu dri o frenhinoedd wedi marw yn ystod arhosiad Moses yn Midian, at yr olaf o ba rai y cyfeirir yma. Y mae rhai yn meddwl i Moses ysgrifenu llyfr Job yn ystod yr amser ag y bu ef yn ymaith yn Midian, ac hefyd llyfr GENESIS: gwel y rhagymadrodd i llyfr Job, lle yr ystyrir y pwnc hwn. *A phlant Israel a uchencidiasant oblegid y caethiwed*—yr hwn oedd fyth yn parhau yn ei erwindeb llafurus, er fod llofruddiad eu babanod ond didi ddarfod e'r yn agos i bedwar ugain mlynedd. Yr oedd yr Aifftiaid yn awr yn foddol i'w cynydd, wrth weled fod yr Aifft yn cael ei chyfoethogi trwy eu llafur. *Ac a waeddasant*—neu, yn ol y Syriaeg, a rhai hen gyfieithiadau ereill, *a weddiasant*. Yn awr o'r diwedd dechreuasant feddwl am Dduw dan eu blinderau, ac am ddychwelyd ato ef oddiwrth yr eilunod a wasanaethasant, *Exec. xx. 8*. Hyd yn hyn yr

hwyt; a Duw a gofiodd ei gyfammod âg Abraham, âg Isaac, ac â Jacob.

25 A Duw a edrychodd ar blant Israel; Duw hefyd a gydnabu a hwynt.

PENNOD III.

A MOSES oedd yn bugeilio defaid Jethro, ei chwegrwn, offeiriad Midian: ac efe a rodd y praidd o'r tu cefn i'r anialwch, ac a ddaeth i fynydd Duw, Horeb.

2 Ac Angel yr Arglwydd a ym-

oeddant yn ymchwerwi wrth offerynau eu trallod, ond nid oedd Duw yn eu holl feddyliau hwynt.

Adn. 24. *A Duw a glybu eu huchenaid hwynt*] Hyn yw, a amlygodd iddynt ei fod yn clywed eu cwyn. Y mae uchenaid y gorthrymedig yn llefain yn uchel yn barhaus yn nglustiau y Duw cyfianus, er nad yw ef bob amser yn ymddangos fel yn gwrando. *A Duw a gofiodd ei gyfammod*—a ddechreuodd roddi iddo ei effaith. Cyfammod Duw yw ei ymrwymiad: efe a addawsai i Abraham, Isaac, a Jacob, y rhoddai efe i'w biliogaeth hwynt fel eu bobl gyfammodol, neu a'u cymeradwyodd fel gwrthddrychau addas ei drugaredd a'i allu yn nghyflawniad ei addewid.

Adn. 25. *A Duw a edrychodd ar blant Israel*] Yr oedd Moses wedi edrych arnynt a thosturio wrthynt, ond yn awr y mae Duw yn edrych arnynt ac yn eu cynorthwyo hwynt. *Duw hefyd a gydnabu a hwynt*—a'u cydnabyddodd hwynt fel eu bobl gyfammodol, neu a'u cymeradwyodd fel gwrthddrychau addas ei drugaredd a'i ras.

PEN. III. Adn. 1. *A Moses oedd yn bugeilio defaid Jethro, ei chwegrwn*] Ei dad-ynghyfraith, neu dad ei wraig: gwel ar pen. ii. 18. Nid yw y dysgedigion yn cytuno ar arwyddocad y gair *chothen*, yr hwn a gyfieithwyd ni yma yn *chwegrwn*, ac yn Gen. xix. 12 yn *fab-yn-nghyfraith*. Ymddengys ei fod yn air cyffredin am *berthynas trwy briodas*, ac nas gall ond y cysylltiad yn yr hwn y saif benderfynu ei wir ystyr. Dichon fod *Reuel* yn awr wedi marw, trwy fod deugain mlynedd er pan ddaethai Moses i Midian; fod *Jethro* yn fab iddo, ac wedi ei ddylyn ef yn ei swydd o dywysog ac offeiriad Midian; fod *Sephora* yn chwaer i Jethro; ac o ganlyniad y dylai *chothen* gael ei gyfieithu yn *frawd-yn-nghyfraith* yn y lle hwn; gan y dysgwyr oddiwrth Gen. xxxiv. 9, Deut. vii. 3, Jos. xxiii. 12, a lleoedd ereill, ei fod yn unig yn arwyddo *gyfyngstrachu trwy briodas*. Os yw y dychwylg hwn yn gywir, gallwn feddwl, trwy fod *Reuel* wedi marw, ddarod cadw Moses gan ei frawd-yn-nghyfraith Jethro yn yr un swydd ag a ddaliai efe dan ei dad. *Offeiriad Midian*—gwel ar pen. ii. 16. *Ac a ddaeth i fynydd Duw*—a elwir weithiau HOREB, bryd arall SINAI. Yr oedd i'r mynydd ddau gopa, un o ba rai a elwid Horeb, a'r llall Sinai.

ddanghosodd iddo mewn filam dân o ganol perth: ac efe a edrychodd, ac wele y berth yn llosgi yn dân, a'r berth heb ei difa.

3 A dywedodd Moses, Mi a droaf yn awr, ac a edrychaf ar y weledigaeth fawr hon, paham nad yw y berth wedi llosgi.

4 Pan welodd yr Arglwydd ei fod ef yn troi i edrych, Duw a alwodd arno o ganol y berth, ac a ddywedodd, Moses, Moses! A dywedodd yntau, Wele fi.

Horeb, yn debygol, oedd enw gwreiddiol y mynydd, yr hwn wedi hyn y alwyd *mynydd Duw*, am i Dduw ymddangos arno i Moses; a *mynydd Sinai*, oddiwrth *seneh*, 'perth,' am mai mewn *perth*, mewn filam dân, y gwnaed yr ymddangosiad hwn.

Adn. 2. *Ac angel yr Arglwydd*] Nid angel crëedig yn ddiau; canys gelwir ef JЕНОФА, adn. 4, &c., a chymhwysir ato briodoliaethau y Duwdod, adn. 14, &c. Eto gelwir ef yn *angel*, 'cenad,' yn yr hwn yr oedd enw Duw, pen. xxiii. 21; ac yn yr hwn y preswyliai holl gyflawnder y Duwdod yn gorfforol, Col. ii. 9; a'r hwn, yn yr holl amseroedd cyntefig hyn, ydoedd Angel y Cyfammod, Mal. iii. 1. A phwy oedd hwn ond IESU GRIST, 'Iachawdwr y byd?' Ioan iv. 42. Gwel ar Gen. xvi. 7, &c. *A ymddangosodd iddo mewn filam dân*—yr hon oedd yn arddanghosiad o fawredd, purdeb, a gallu Duw; ac yn arwyddo ei fod ef yn nghylich dwyn dychryn a dinstyr ar ei elynion, a golenni a chysur i'w bobl. Yr oedd *tân*, nid yn unig yn mhlith yr Hebraid, ond yn mhlith amrai o'r hen genhedloedd, yn arwyddlun tra arddanghosawl o'r Duwdod. *Ac wele y berth yn llosgi yn dân, a'r berth heb ei difa!*—yr oedd hyn, 1. Yn gysgod o gyflwr Israel yn eu gwahanol gyfyngderau a'u herlidiaethau: yr oeddynt yn nhau adfyd, ond heb eu difa. 2. Yn gysgod o gyflwr eglwys Dduw yn yr anialwch: yn nghanol ei gelynydd, ond eto heb ei difa. 3. Yn gysgod hefyd o gyflwr pob un o wir ganlynywyr Crist: wedi ei fwrw i lawr, ond heb ei lwyrr adael; yn cael ei demtio yn fawr, ond heb ei ddyfetha; yn rhodio trwy y tân, ond heb ei ddifa! Paham y cedwir yr holl rai hyn yn nghanol y pethau ag sydd yn meddu tuedd naturiol i'w dyfetha? Yr ateb yw, am fod Duw yn eu canol hwynt. Hyn a gadwodd y berth rhag ei difa, a hyn a gadwodd yr Israeliaid; a hyn, a hyn yn unig, sydd wedi cadw yr eglwys, ac yn dal bywyd ysbrydol yn enaid pob gwir gredadyn.

Adn. 3. *Mi a droaf yn awr, ac a edrychaf, &c.*] Y mae Moses yn llefaru yma fel un ymofyngar ac eofn; ac fel un yn penderfynu, os oedd modd, gael deall yr ystyr a'r achos.

Adn. 4. *Duw a alwodd arno o ganol y berth, ac a ddywedodd, Moses, Moses!*] Y mae yn debyg nad ymddangosodd Duw i neb er pan aethai Jacob i waered i'r Aifft, uwchlaw 200 mlynedd yn ol; a rhaid fod Moses, wrth gael ei gyfarch fel hyn wrth ei

5 Ac efe a ddywedodd, Na nesâ yma: dyosg dy esgidiau oddiam dy draed; o herwydd y lle yr wyt ti yn sefyll arno sydd ddaear santaidd.

6 Ac efe a ddywedodd, Myfi yw Duw dy dad, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob. A Moses a guddiodd ei wyneb; oblegid ofni yr ydoedd edrych ar Dduw.

7 ¶ A dywedodd yr Arglwydd, Gan weled y gwelais gystudd fy mhobl sydd yn yr Aifft, a'u gwaedd o achos eu meistriaid gwaith a glywais; canys mi a wn oddiwrth eu doluriau.

enw, yn rhyfeddu yn llawer mwy wrth yr hyn a glywai, nag wrth yr hyn a welai. *A dywedodd yntau, Wele fi—yn barod nid yn unig i wrandaw yr hyn a lefarir, ond hefyd i wneyd yr hyn a orchymynir.*

Adn. 5. *Na nesâ yma!* Fel hyn y mae Duw yn ffrwyuo ei fanylgais ef, ac yn tueddu ei feddwl i fwy o barch ac ymstyngiad. *Dyosg dy esgidiau oddiam dy draed—*y mae hyn yn cael ei ofyn fel arwydd, 1. O'i barch ef i'r Dwyfol Fawrhydi ag ydoedd wedi disgynt yno; 2. O'i ymddarostyngiad am ei bechodau, y rhai a'i gwnaethant ef yn annheilwng o gael ymddangos o flaen Duw; 3. O'i fwriad ymaith bob pechod mewnol ac allanol; 4. Ac o'i ymstyngiad a'i barodrwydd i ufyddhau i ewyllys Duw. Cawn yr un cyfarwyddyd yn cael ei roddi i Josua, ac am yr un rheswm, Jos. v. 15. Ymddengys fod dyosg yr esgidiau, fel arwydd o ymstyngiad a pharch, yn ddefod a gedwid gan y patrieirch yn eu haddoliad crefyddol. Dywed BCXRXRF fod yr Iuddewon hyd heddyw yn myned i'w synagogan yn droednoeth ar ddydd y cymod; ac ymddengys fod yr offeiriad Iuddewg yn gweinyddu yn droednoeth yn y tabernacl a'r deml. Yr oedd sangu yn droednoeth mewn lleoedd cysegredig yn beth cyffredin yn yr Aifft; a dywedir i Pythagoras ddysgu y ddefod hon i'w ddysgyblion oddiwrthynt hwy. Y mae y Mahometaciaid yn cadw y ddefod hon hyd heddyw yn Nhwrci, a'r Cristionogion yn Abyssinia; ac ymddengys ei bod o'r un ystyr a thynu yr het oddiam y pen yn ein plith ni, yn arwydd o barch ac ymstyngiad. *O herwydd y lle yr wyt ti yn sefyll arno sydd ddaear santaidd—*wedi ei santeiddio yn neillduol yn awr gan y Presenoldeb Dwyfol. Os gallwn goelio Josephus, yr oedd yn dyb gyffrediu fod Duw yn preswyllo ar y mynydd hwn, yr hyn a attaliai y bugeiliaid rhag porfeu eu defaid yno. Modd bynag darfu i Moses, wrth gael fod yno borfa fras, ym eidddefaid yn hyf i bori yno.

Adn. 6. *Myfi yw Duw dy dad*] Y mae efe yn gadael iddo wybod mai JEOFA sydd yn llefaru wrtho, i rywmo ei barch, ei ffydd, a'i ufydd-dod. Y mae Stephan, wrth ddyfynu y lle hwn, Act. vii. 32, yn arfer y llusog, *Duw dy DADAU*; ac mai dyma yw yr ystyr a brofir oddiwrth y geiriau dylynol, *Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob—*y rhai oeddynt DADAU Moses mewn llinell gyfeiriol. Yr oedd

8 A mi a ddisgynais i'w gwaredu hwy o law yr Aifftiaid, ac i'w dwyn o'r wlad hōno, i wlad dda a helaeth, i wlad yn llifeirio o laeth a mêl; i le y Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Phereziaid, yr Hefiaid, hefyd, a'r Jebusiaid.

9 Ac yn awr wele, gwaedd meibion Israel a ddaeth ataf fi; a hefyd mi a welais y gorthrymder â'r hwn y gorthrymodd yr Aifftiaid hwynt.

10 Dyred gan hynny yn awr, a mi a'th anfonaf at Pharao; fel y dygech fy mhobl, plant Israel, allan o'r Aifft.

11 ¶ A dywedodd Moses wrth

Duw yn Dduw i'r rhai hyn a'u hiliogaeth mewn cyfammod edmygol, addewidion yr hwn yr oedd efe yn awr yn nghylch eu cyflawni. *A Moses a guddiodd ei wyneb—*yr oedd ef wedi ei orddychrynu gan bresenoldeb Duw, a'i ddalln gan ddysgleirdeb yr ymddangosiad; *oblegid ofni yr ydoedd edrych ar Dduw—*rhag yr hwn y cuddia serafellion ei hwynebau, Esay vi. 2. Pa fwyaf a welwn ni o Dduw, mwyaf o achos a gawn i'w addoli ef gyda gŵylder a pharchedig ofn.

Adn. 7. *Gan weled y gwelais gystudd fy mhobl*] Nid yn unig gwelais eu cystudd am fy mod yn hollwybodol, ond ystyriais eu trallodion, ac yr wyf yn penderfynu eu gwaredu. *A'u gwaedd o achos eu meistriaid gwaith—*y rhai oeddynt nid yn unig yn eu gorthrymni, ond hefyd yn eu dolurio; gwel ar pen. i. 11, 13, &c.

Adn. 8. *A mi a ddisgynais i'w gwaredu hwy*] Dyma fy unig ddyben yn dyfod i lawr yma, ac yn ymddangos i ti, fel y rhoddwn iddynt waredigaeth dymhorol yn gysgod o'r waredigaeth ysbrydol. *Ac i'w dwyn o'r wlad hōno i wlad dda a helaeth—*da y gellid galw Canaan, wrth ei chymlharu âg ardal fechan Gosen, yn wlad helaeth; ac yn wir yr oedd hi felly mewn ystyr priodol cyn ei chyfyngu oblegid eu hannghrediniaeth a'u hannuwioledeb hwy; gwel Gen. xv. 18. Yr oedd o Beer-seba hyd Dan o gylch 180 o filldroedd, ac yr oedd ei lled o'r môr i Gilead oddentu 100. *I wlad yn llifeirio o laeth a mêl—*ragorol yn borfa, am ei bod yn llawn o iachusol wellt a blodau; ac o'r rhai olaf casglai y gwenny helaeithrwydd o fel. Yr oedd hwn yn ymadrodd diarebol, yn arwyddo llawnder o'r ffrwythydd mwyaf devisol er angenheidian a hyfrydwb.

Adn. 9. *Gwaedd meibion Israel a ddaeth ataf fi*] Gwel ar pen. ii. 23—25.

Adn. 10. *Dyred gan hynny yn awr*] Yr nn llaw ag a gyrchodd fugal yn awr o'r anialwch i fod yn blannwr yr eglwys Iuddewig, a gyrchodd bysgodwyr wedi hynny o'u cychod i fod yn blannwyr yr eglwys Gristionogol, 'fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw.' *A mi a'th anfonaf at Pharao—*fel teyrn-genadwr i ymddrin âg ef, neu fel herodr i hawlio rhyddiad fy mhobl odditau.

Adn. 11. *Pwy ydwyf fi, &c.*] Pa addasaf y bo unrhyw ddyn i wasanaeth, lleiaf o dyb sydd ganddo am dano ei hun. Yr oedd Moses mor

Dduw, Pwy ydwyf fi, fel yr awn i at Pharao, ac y dygw'n blant Israel allan o'r Aifft?

12 Dywedodd yntau, Diau y byddaf gyda thi; a hyn a fydd arwydd i ti mai myfi a'th anfonodd: Wedi i ti ddwyn fy mhobl allan o'r Aifft, chwi a wasanaethwch Dduw ar y mynydd hwn.

13 A dywedodd Moses wrth Dduw, Wele, *pan* ddelwyf fi at feibion Israel, a dyweddy wrthynt, Duw eich tadau a'm hanfonodd atoch; os dywedant wrthyf, Beth *yw* ei enw ef? beth a ddywedaf fi wrthynt?

14 A Duw a ddywedodd wrth Moses, YDWYF YR HWN YDWYF: dywedodd hefyd, Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel; YDWYF a'm hanfonodd atoch.

ymwybodol fod hyn tuhwnt i'w allu ef, a'r holl foddion yn ei feddiant, nes y mae yn rhyfeddu fod hyd yn nod Duw ei hun yn ei benodi ef i'r gwaith hwn! Y fath yn wir oedd caethiwed plant Israel, a gallu y rhai a'u caethiwent, fel, pe na waredisid hwy trwy foddion goruechnaturiol, y buasai eu diangfa yn hollol annichonadwy.

Adn. 12. *Diau y byddaf gyda thi*] Ni addewir y dygwyddiad mawr hwn i'th ddoethineb a'th allu di: fy nghynghor i a'th gyfarwydda, a'm gallu i a ddyg yr holl bethau nerthol hyn oddiamgylch. *A hyn a fydd arwydd i'*—'yr amlygiad gwyrthiol hwn o'r *berth yn llosgi* a fydd yn brawf ddarfod i mi dy anfon; neu, Fy mod i *gyda thi* i wroli dy galon, i gryfhan dy ddwyllaw, ac i'th alluogi i wneuthur gwrthiaid, a gaiff fod i ti ac ereill yn brawf o'th ddiwyfolfonaf. —CLARKE. Ond ymddengys yn fwy naturiol mai eu gwaith yn gwasanaethu Duw ar y *mynydd hwn*, ar ol eu gwaredigaeth o'r Aifft, oedd i fod yn arwydd i Moses mai Duw a'i hanfonasai; a dichon fod yma gyfeiriad at roddiad y ddeddf ar fynydd Sinai, a'r addoliad a roddai Israel i Dduw yn ganlyniol i hyn.

Adn. 13. *Os dywedant wrthyf, Beth yw ei enw ef? beth a ddywedaf fi wrthynt?*] Pa enw a gaf fi ei roddi, trwy yr hwn y gellir dy wahaniaethu di oddiwrth y gandduwiau, ac y gall dy bobl gael eu cefnogi i ddysgwyl gwaredigaeth oddiwrthynt? Dengys hyn fod yr Israeliaid yr pryd yma mewn anwybodaeth dirfawr am y Bôd Gorchaf! Y mae yn debyg eu bod wedi yfed yn ddwfu i ofergoellion yr Aifft, a bod ganddynt 'dduwiau lawer ac arglwyddi lawer'; ac yr oedd Moses yn dychymygu y byddai iddynt, wrth glywed am waredigaeth oruechnaturiol, ofyn pwy oedd y Duw hwnw trwy yr hwn ei heffeithid.

Adn. 14. *YDWYF YR HWN YDWYF*] Heb. *ΕΠΕΥΗ ΑΣΗΕ ΕΠΕΥΗ*. Cafodd y geiriau hyn eu deall yn amrywiol. Y mae y LXX yn eu cyfieithu, *YDWYF YR HWN SYDD YN BODOLI*. Y mae y Syriaeg, y Bersiaeg, a'r Galdeae, yn cadw y geiriau gwreiddiol heb un eglurhad.

15 A Duw a ddywedodd drachefn wrth Moses, fel hyn y dywedi wrth feibion Israel; Arglwydd Dduw eich tadau, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob, a'm hanfonodd atoch: dyma fy enw byth, a dyma fy nghoffadwriaeth, o genhedlaeth i genhedlaeth.

16 Dos a chynull henuriaid Israel, a dywed wrthynt, Arglwydd Dduw eich tadau, Duw Abraham, Isaac, a Jacob, a ymddanghosodd i mi, gan ddyweddy, Gan ymweled yr ymwelais â chwi, a *gwelais* yr hyn a wnaed i chwi yn yr Aifft.

17 A dywedais, Mi a'ch dygaf chwi i fyny, o adfyd yr Aifft, i wlad y Canaancaid, a'r Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Phereziaid, yr Hefiaid hefyd, a'r Jebusiaid; i wlad yn llifeirio o laeth a mêl.

Y mae yr Arabaeg yn eu halleirio, Y TRAGWYDDOL, YR HWN NID YW YN MYNED HEIBIO; pa un sydd yr un deongliad ag a ddyry *Abul Farajius*, yr hwn befyd sydd yn cadw y geiriau gwreiddiol, ac yn rhoddi yr un uebod fel eu deongliad. Deongliadau *Jonathan a Jerusalem* a lleiciant y geiriau fel hyn: 'yr hwn a lefarodd, a'r yd a fu; yr hwn a ddywedodd, a bodolodd pob peth.' Gan fod y geiriau gwreiddiol yn arwyddo yn llythrenol, BYDDAF YR HWN A FYDDAF, meddyliodd rhai fod Duw yn bwriadu yn unig hysbysu i Moses y *byddai* ef iddo yntau a'r Israeliaid yr hyn a *fuasai* i'w tadau Abraham, Isaac, a Jacob; ac y cyflawnai efe yr addewidion a wnaethai i'w tadau, trwy roddi i'w hiliogaeth y wlad addawedig. Y mae yn anhawdd rhoddi ystyr i'r geiriau, fel y sylwa CLARKE; ond ymddengys eu bod yn cael eu bwriadu i nodi allan *dragwyddolaeth, annhyfnewidiolaeth a humanfodaeth* Duw.

Adn. 15. *A Duw a ddywedodd drachefn*] Rhag na ddeallent hwy yr enw YDWYF, gorchymynir i Moses ddefnyddio enw arall i Dduw ag ydoedd yn fwy cynefin iddynt: *Arglwydd Dduw eich tadau*. —YEHOWAH ELOHIM. Fel hyn y gwnai Duw ei hun yn adnabyddus, fel y gallai efe adfywio yn eu mysg grefydd eu tadau, yr hon oedd wedi dirywio yn fawr, ac agos wedi ei cholli. *Dyma fy enw byth*—wrth yr hwn yr oedd, y mae, ac y bydd ei addolwyr yn ei wahaniaethu ef oddiwrth bob gan dduw. Yr oedd hyd yn nod y paganiaid yn adnabod yr enw hwn o eiddo y gwir Dduw; ac oddiwrth ein JENOFA ni y ffurfiasant hwy eu *Jao, Jeve, a Jove*.

Adn. 16. *Dos a chynull henuriaid Israel, &c.*] Er nad yw yn debyg fod yr Hebreaid yn cael eu goddef i ddal un lywodraeth reolaidd yr pryd hyn, eto diamau eu bod yn meddu y fath lywodraeth yn amser Joseph, ac am gryn amser wedi hyn, pryd yr oedd henuriaid pob llwyth yn ffurfio math ar lys o ynadon, gan yr hwn y profid pob gweithred, ac y penderfynid pob dadl yn eu mysg. *Gan ymweled yr ymwelais â chwi*—cyflawniad cywir i llythrenol o ragfynegiad Joseph, Gen. 1. 24.

18 A hwy a wrandawant ar dy lais; a thi a ddeui, ti a henuriaid Israel, at frenin yr Aifft, a dywed-wch wrtho, Arglwydd Dduw yr Hebr-caid a gyfarfu â ni; ac yn awr gad i ni fyned, atolwg, daith tri diwrnod i'r anialwch, fel yr aberthom i'r Arglwydd ein Duw.

19 ¶ A mi a wn na edy brenin yr Aifft i chwi fyned, ond mewn llaw gadarn

20 Am hyny mi a estynaf fy llaw, ac a darawaf yr Aifft â'm holl ryfedd-

Adn. 17. *I wlad y Canaancaid, &c.*] Gwel ar Gen. xv. 18—21.

Adn. 18. *A hwy a wrandawant ar dy lais*] Yr oedd y sicrwydd hwn yn angenrheidiol i'w gefnogi ef mewn anturiaeth mor beryglus a phwysig. *Arglwydd Dduw yr Hebr-caid a gyfarfu â ni*—ac a orchymyuodd i ni fyned ac aberthu iddo. *Daith tri diwrnod i'r anialwch*—gan feddwl yn awlwg MYSYDD SINAI, yr hwn oedd daith tri diwrnod y ffordd agosaf o dir Gosen. Yn yr hen amseroedd cyfrifid pender wrth yr *amser* angenrheidiol i fyned drosto; ac felly y gwneir eto yn mhob gwlad lle nad oes ffordd rheolaidd.

Adn. 19. *A mi a wn na edy brenin yr Aifft i chwi fyned, ond mewn llaw gadarn*] Hyny yw, trwy y defnyddiad o wrthiau grymus, y rhai nas gall ef eu gwrthsefyll: gwel ar pen. vi. 1. Yn ol y Saesonaeg, 'ni adawai brenin yr Aifft iddynt fyned, na wna, trwy law gadarn;' yr hyn sydd yn wrthddywediad pendant i'r than olaf o'r adnod nesaf, lle y dywedir y byddai iddo eu gollwng hwynt ymaith. Y mae Becke, Houbigant, ac ereill, yn cyfieithu *velo* yn *ond, oddieithr, &c.*, fel yn y Gymraeg.

Adn. 20. *Am hyny mi a estynaf fy llaw*] Sef y 'llaw gadarn' angenrheidiol er eich rhyddhad; *ac a darawaf yr Aifft â'm holl ryfeddoddu*—y deg pla; *ac wedi hyny efe a'ch gollwng chwi ymaith*—ar ol i galedrwydd ei galon gael ei lwyrr orchfygu trwy y plâu.

Adn. 21. *A rhoddaf hawddgarwch i'r bobl hyn yn ngolwg yr Aifftiaid*] Y mae Duw weithiau yn peri i'w elynion ei bobl nid yn unig fod yn heddychlon â hwynt, ond bod yn dirion a hawddgar withynt; ac y mae ganddo ef lawer o ffordd i wastatáu cyfrifon rhwyg y niwediedig a'i niweidiwr. *Nad eloch yn waglaw*—yn hollol ddryflog. Rhagdywedaasai Duw mai fel hyn y byddai, Gen. xv. 14.

Adn. 22. *Pob gwraig a fenthyca*] Ystyr y gair *shual*, a gyfieithir yma 'benthyca' yw *gofyn, deisyf, ceisio, &c.* Yr oedd cyfieithu y gair yn *feuthyca*, yn gamgymeriad gwrthun, i'r hwn ni syrthiodd braidd un o'r cyfieithiadau, hen na diveddar, oddieithr y Saesonaeg a'r Gymraeg. Yr oedd yn arferiad i weinidoriaid dderbyn anrheg neu wobr yn niwedd eu gwasanaeth: a phe buasai y gair gwreiddiol yn cael ei gyfieithu yn briodol yn *ofyn* neu *geisio*, ac nid *benthyca*, hyny yw, yn ofyn *gwobr cyfiawn* am eu gwasanaeth galed, nid ymddangosasai

odau, y rhai a wnafl yn ei chanol; ac wedi hyny efe a'ch gollwng chwi ymaith.

21 A rhoddaf hawddgarwch i'r bobl hyn yn ngolwg yr Aifftiaid: a bydd, pan eloch, nad eloch yn waglaw;

22 Ond *pob* gwraig a fenthyca gan ei chymydoges, a chan yr hon fyddo yn cyttal â hi, ddodrefn arian a dodrefn aur, a gwisgoedd: a chwi a'u gosodwch *hwynt* am eich meibion, ac am eich merched; ac a yspeiliwch yr Aifftiaid.

un dryswch: gwel yr adfeddyliadau. *A chan yr hon fyddo yn cyttal â hi*—ueu yn trigianu yn yr un tŷ. Yr oedd yr Hebrëusan yn gweini gryn lawer yn nhai yr Aifftiaid; ac yr oedd y genedl hono yn addoli eu dauwiau â'u cyrff yn addunedig â genau. *Ddodrefn arian a dodrefn aur, a gwisgoedd*—gwelom eisioes fod y gair *keleph*, a gyfieithir yma 'dodrefn,' yn arwyddo *llestri, celfi, tlysau, &c.*; a'r ystyr yw, ddarfu i'r Israeliaid gael arian ac *aur* mewn darnau bathol, tlysau, a llestri o wahanol fathau, a'r cyfrwy *wisgoedd* ag oedd- ynt angenrheidiol i'w taith; a diamau fod yn dda gan yr Aifftiaid roddi iddynt yr anrhegion goraf, mewn gobait o allu achub eu hunain rhag dialedd pellach y Nef. *Ac a yspeiliwch yr Aifftiaid*—y mae yn deilwng o sylw fod y *terf natsal* yn arwyddo nid yn unig *yspeilio*, ond hefyd *myned ymaith, diane, gwaredu*, neu *adgaffael*. Y mae *yspail* yn arwyddo yr hyn a gymerir trwy ladrad neu drais; eithr ni all hyn fod yr ystyr yma, gan na ddarfu i'r Israeliaid ond *gofyn*; a'r Aifftiaid, heb ofn na gorfodaeth, a roddasant yn ewyllysgar. Arferir y gair yn I Sam. xxx. 22, *am achubiad eiddo a gymerasid trwy drais*; ac yn yr ystyr yma yr ydym i ddeall y gair yn y lle hwn. Achubodd yr Israeliaid o law yr Aifftiaid ran o'u heiddo neu eu cyflog, o'r hwn yr aunddifiedid hwynt yn dra anghyfiawn.

ADFEDDYLIADAU.—Gorchymynodd Duw i'r Israeliaid *ofyn* neu *geisio* rhyw ad-daliad gan yr Aifftiaid am eu gwasanaeth faith a chaled; ac yntau a addawodd roddi iddynt *hawddgarwch* yn ngholwg yr Aifftiaid, trwy dueddu eu calonau i *roddi* yn haelionus; a hyn, yn mhell oddiwrth fod yn *ormes ac yspail*, nac hyd yn nod yn *elusen*, nid oedd ddim mwy nag *ad-daliad bychan* am wasanaeth galed a phoenus a roddesid i'r Aifft gan o leiaf *chwechan mil* o Israeliaid am gryn nifer o flynyddau: a diamau, tra yr oedd eu caethiwed caletaf yn parhau, na oddfid iddynt gasglu un math ar eiddo, ond fod eu holl ennill yn unyded i'w gothrymwyrr. Yn ngoleuni y cyfieithiad cyffredin darfu i rai gwrthfyllddywyr waeddi yn orfoleddus, 'fod Moses yn gosod allan y Duw *cyfiawn* fel yn gorchymyn i'r Israeliaid *feuthyca* eiddo yr Aifftiaid dan yr esgus o'u *dychwelyd* hwynt, tra yr oedd efe yn bwriadu iddynt fyned ymaith am byth gyda'r yspail.' Ond gwybydded y gwŷf hyn nad oedd *benthyca* yn yr achos; a phe pwysid y cyfrifon yn ddeg, fel y sylwa Clarke, y ceid yr *Aifft* yn barhaus

PENNOD IV.

A MOSES a atebodd, ac a ddywedodd, Eto wele ni chredant i mi, ac ni wrandawant ar fy llais; ond dywedant, Nid ymddanghosodd yr Arglwydd i ti.

2 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Beth sydd yn dy law? Dywedodd yntau, Gwialen.

3 Ac efe a ddywedodd, Tafl hi ar y ddacar. Ac efe a'i taflodd hi ar y ddacar; a hi a aeth yn sarff: a Moses a giliodd rhagddi.

4 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Estyn dy law, ac ymfael yn ei llosgwrn hi. Ac efe a cstygnodd ei law, ac a ymafloodd ynddi; a hi a aeth yn wialen yn ei law ef.

5 Fel y credant ymddangos i ti o Arglwydd Dduw eu tadau, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob.

mewn cryn ddyled i'r *Israeliaid*. Ystyrier hefyd na fu gan yr Aifftiaid erioed *un hawl* i wasanaeth yr *Israeliaid*. Yr oedd yr Aifft yn ddyledus am ei hiawn-driniaeth, ei chyfoeth, ac hyd yn nod ei hanfodiad gwladwriaethol, i'r *Israeliaid*. Pa beth a gafodd *Joseph* am ei wasanaeth bwysig? DIM! Ni chafodd ef dalaeth, na dinas, nac arglwyddiaeth yn yr Aifft, ac ni thryserodd ddim i'w *blant*. Yr oedd ei holl wasanaeth ef yn *rhad*; a thrwy gael ei gynhyrfu gan well gobait nag a allai n meddiant daearol ei roddi, efe a ewyllysiai i hyd yn nod ei *esgyrn* gael eu dwyn o'r Aifft. Y mae y wirddarfon goddef i Jacob a'i deulu drigo yn Gosen, ond ni ddarparwyd ar eu cyfer yn y lle hwnw; canys hwy a gymerasant eu 'hanifeiliaid, a'u golud a gasglasant yn nhir Canaan,' gyda hwynt i'r Aifft, Gen. xli. 6, fel na chwasant ddim ond y tir noeth i fyw arno; a hwy a adeiladasant 'ddinasoedd trysoran' neu amddiffynfeydd, nas gwyddom pa nifer: ac am yr holl wasanaeth yma ni chwasant un *ad-daliad* o fath yn y byd: ond cawsant eu trin yn greulon, a bod dan orfod i weled, fel swm eu trallodion, lofruddiaid bennyddiol en bechgyn! Ar ol ystyried y pethau hyn, a feiddia anffyddiaeth byth ddwyn yr achos hwn i gynal ei hōniadau annheilwng?

PEN. IV. Adn. 1. *Ni chredant i mi*] Fel pe dywedasai, Oddieithr i mi gael fy ngalluogi i wneuthur gwyrtbiau, a rhoddi iddynt brofion trwy *weithredoedd* anghyffredin yn gystal a thrwy *eriau*, ni chredant i ti fy anfon i.

Adn. 2. *Gwialen*] Heb. *matteh*, 'ffon'; ei fugeilffon ond odid, canys yr oedd efe yn awr yn bugeilio defaid Jethro: gwel Lef. xxvii. 32. Gan ddarford ei gwneuthur yn offeryn i weithredu llawer o wyrthiau, galwyd hi wedi hyn yn 'wialen Duw' adn. 20.

Adn. 3. *A hi a aeth yn sarff*] O ba fath nis gwyddom, trwy fod y gair *nachash* yn enw cyffredin am seirff, gwiberod, &c. Ond yr oedd o fath na welsai efe o'r blaen, neu yn un ag y gwyddai ei bod yn beryglus; canys dywedir

6 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrtho drachefn, Dod yn awr dy law yn dy fynwes. Ac efe a roddodd ei law yn ei fynwes: a *phan* dynodd efe hi allan, wele ei law ef yn wahan-glywfol fel yr eira.

7 Ac efe a ddywedodd, Dod eil-waith dy law yn dy fynwes. Ac efe a roddodd eilwaith ei law yn ei fynwes, ac a'i tygnodd hi allan o'i fynwes; ac wele, hi a droisai fel ei gnawd *arall* ef.

8 A bydd, oni chredant i ti, ac oni wrandawant ar lais yr arwydd cyntaf, eto y credant i lais yr ail arwydd.

9 A bydd, oni chredant hefyd i'r ddau arwydd hyn, ac oni wrandawant ar dy lais, ti a gymeri o ddwfr yr afon ac a'i tywellti ar y sychdir; a bydd y dyfroedd a gymerech o'r afon yn waed ar y tir sych.

iddo *gilio rhagddi*. Yr oedd yn arwydd iddo ef o'i niwed i'r Aifftiaid. Y mae rhai yn meddwl i'r ffon gael ei throï yn *grocodil*: gwel ar pen. vii. 10.

Adn. 4. *Estyn dy law, ac ymfael yn ei llosgwrn hi*] neu ei chynffon. Ac efe a *estynodd ei law, ac a ymafloodd ynddi*—wrth ystyried y goleuni yn yr hwn yr edrychasai Moses ar y sarff hon, yr oedd yn gofyn cryn ffydd i'w gefnogi ef i ufyddhau fel hyn i orchymyn Duw; eithr efe a ufyddhaodd, a'r sarff adwythig a ddaeth yn y faw yn wialen wrthiol yn ei law ef!

Adn. 5. *Fel y credant*] Dyma anghraifft o'r hyn a elwir yn ymadrodd amherffaith neu anorphenol, llawer o ba rai a ddygwyddant yn yr ysgrythuran. Gellir ei gyflwyni fel hyn: '*Gwna hyn ger eu bron*, fel y credont i'r Arglwydd ymddangos i ti.'

Adn. 6. *Wele ei law ef yn wahan-glywfol fel yr eira*] Hyny yw, darfu i'r gwahanglywff ymdaenu dros ei law oll yn *gên gwyn*. Yr oedd hyn yn arwyddo y byddai i Moses, trwy allu Duw, ddwyn clefydau blin ar yr Aifft, a thrwy ei weddi ef y caent eu symud.

Adn. 7. *Ii a droesai fel ei gnawd arall ef*] Yn hollol iach. Yr oedd rhoddi y dolur hwn, a'i iachân drachefn mewn eiliad, o gymaint a hyny yn fwy gwyrtf, gan fod y gwahanglywff yn cael ei ystyried yn anffeddyginiaethol trwy gelfyddyd ddynol, yn enwedig y 'gwahanglywff gwyn,' yr hwn a elwid felly am ei fod yn ymdaenu dros y croen yn *gên gwyn* fel *eira*. Yn mhllth y paganiaid ystyrid mai oddiwrtf y duwiau yr oedd yn dyfod, ac nad allai neb ond hwy eu symud. Ac ymddengys fod tyb gyffelyb yn fyfyn yn mhllth yr *Israeliaid*; canys pan y darfu i frenin Syria anfon Naaman at frenin Israel i gael ei iachân o'i wahan-glywff, 'efe a rwygodd ei ddillad, ac a ddywedodd, *Ai Duw* ydwyf fi, i farwchau ac i fywchau, pan anfonai efe ataf fi i iachân gŵr o'i wahan-glywff? 2 Bren. v. 7.

Adn. 8. 9. *A bydd oni chredant i ti, ac oni wrandawant ar lais yr arwydd cyntaf, &c.*]

10 ¶ A dywedodd Moses wrth yr Arglwydd, O fy Arglwydd, ni bŵm wr ymadroddus, na chyn hyn, nac er pan leferaiſt wrth dy was; eithr safndrwm a thafodtrwm ydwyf.

11 A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Pwy a wnaeth enau i ddynd? neu pwy a ordeiniodd fudan, neu fyddar, neu y neb sydd yn gweled, neu y dall? onid myfi yr Arglwydd?

12 Am hyny dos yn awr; a mi a fyddaf gyda'th enau, ac a ddysgaf i ti yr hyn a ddywedych.

13 Dywedodd yntau, O fy Arglwydd, danfon, atolwg, gyda'r hwn a ddanfonych.

14 Ac enynnodd digofaint yr Ar-

Gan awgrymu ond odid y byddai rhai yn anhawddach i'w darbywlyo nag ereill; y byddai i rai ildio i dystiolaeth y wyrth *gyntaf*, y byddai i ereill betruso nes y gwelent yr *ail*, ac na chredai ereill nes gwelod dwfr y Nilus yn cael ei droi yn waed wrth ei dywallt ar y sychdir.

Adn. 10. *Ni bŵm wr ymadroddus*—*eithr safndrwm a thafodtrwm ydwyf*] Ond pa fodd y cysonir hyn â baerid St. Stephan, Act. vii. 22, ei fod ef yn *nerthol mewn geiriau* yn gystal ag mewn *gweithredoedd*? Y mae tair ffordd, meddai Clarke, i egluro yr anhawdder hwn: 1. Gallai fod Moses wedi cael rhyw lesgeidd naturiol yn ddiweddar, yr hwn y pryd hyn, a'i hanalluogai ef i lefaru yn rhwydd, ac o'r hwn wedi hyny y gwellaodd, fel ag i allu bod yn *nerthol mewn geiriau* yn gystal ag mewn *gweithredoedd*. Neu, 2. Dichon nad oedd ef yn gwbl adnabyddus â'r *Hebraeg*, fel ag i allu lefaru yn groyw ac eglur ynddi. Y deugain mlynedd cyntaf o'i fywyd a dreuliasai efe yn benaf yn llys yr Aifft, lle y llefarid yr Aifftaeg; a'r deugain diweddar yn Midian. Am hyny gallai fod Moses yn teimlo anhawdder i lefaru gyda'r parodrwydd a'r fraethineb darbywllawl hwnw ag a farnai efe yn angenrheidiol i genad Duw. Neu, 3. Er fod Moses yn *safndrwm*, oedd, pan yn gweithredu fel cenad i Dduw, yr eto ei *air yn nerthol*, canys wrth ei orchymyn ef y daeth y plâau ac y peidiasant: fel hyn yr oedd ef yn *nerthol mewn geiriau* yn gystal ag mewn *gweithredoedd*! a hyn yn debygol yw meddwl St. Stephan: gwel ar pen. vi. 12.

Adn. 11. *Pwy a wnaeth enau i ddynd?* Ac oni all yr hwn a furiodd y genau a'r holl beiriannau ymadrodd, ac a roddes y dawn o ymadrodd hefyd,—oni all ef roddi parabl neu iaith? Paid a'i gyffroi ef: yr hwn a greodd y llygad, y glust, a'r genau, a wnaeth hefyd y dall, y byddar, a'r mud.

Adn. 12. *A mi a fyddaf gyda'th enau*] Y mae y Galdeae yn ei gyfieithu, 'Fy NGAIR (*meimeri*) a fydd gyda'th enau:' ac y mae Jonathan ben Uzziel yn ei alleirio, 'Myfi a'm GAIR a fyddwn gydag ymadrodd dy enau.' Gwel ar Gen. xv. 1.

Adn. 13. *Danfon, atolwg, gyda'r hwn a*

glwydd yn erbyn Moses; ac efe a ddywedodd, Onid dy frawd *yw* Aaron y Lefiad? mi a wn y medr efe lefaru yn groyw: ac wele efe yn dyfod allan i'th gyfarfod; a phan y'th welo, efe a lawenycha yn ei galon.

15 Llefara dithau wrtho ef, a gosod y geiriau hyn yn ei enau; a minau a fyddaf gyda'th enau di, a chyda'i enau yntau, a dysgaf i chwi yr hyn a wneloch.

16 A llefared yntau trosot ti wrth y bobl: ac felly y bydd efe yn lle genau i ti, a thithau a fyddi yn lle Duw iddo yntau.

17 Cymer hefyd y wialen hon yn dy law, yr hon y gwnai wyrthiau â hi.

ddanfonych] Hyny yw, gyda rhyw nn addasach i'r gwaith na myfi. Darfu i lawer o esbonwyr, hen a diweddar, feddlw fod Moses yn erfyn yma am anwoldiaid Crist. *Gmid dy frawd yw Aaron y Lefiad?*—gan arwyddo, meddai Houbigant, fod yr offeiriadaeth *Lefiaidd* i flaenori yr un ag ydoedd i fod yn ol urdd Melchisedec. Ond y farn debycaf yw, i ddi-gofaint yr Arglwydd enyn yn ei erbyn ef am ei fod yn ymwrthod â'r swydd oddiar egwyddorion amhriodol; hyny yw, am ei fod, oddiar ffig ostyngeddwrwydd neu ofn, yn dymuno i ryw ddynd arall gael ei roddi yn y swydd, heb un cyfeiriad at y MESSIA. *Mi a wn y medr efe lefaru yn groyw*—yn rhwydd, fraeth, a bylithr. *Ac wele efe yn dyfod allan i'th gyfarfod*—myfi a baraf iddo gyfarfod â thi yn fy mynydd i, adn. 27. *A phan y'th welo, efe a lawenycha yn ei galon*—o herwydd dy anfoniad, ac a gydweithreda yn ewyllysgar â thi yn mhob peib. Yr oedd y dystiolaeth hon yn angenrheidiol er attal i Moses ofni y byddai i Aaron, yr hwn oedd y brawd hynaf, genfigenu wrth ei oruwch alwad a'i swydd ef.

Adn. 15. *A minau a fyddaf gyda'th enau di, a chyda'i enau yntau*] Chwi a gewch fod ill dan, yn mhob peib ag y penodaf chwi i'w wneuthur, dan *ysbrydoliaeth* barhaus. Hyd yn nod Aaron, yr hwn a fedrai lefaru yn *groyw*, eto ni allai lefaru i bwrpas heb i Dduw fod gyda'i enau ef. Heb wastadol gynorthwyo'n dwyfol ras, bydd i'r doniau goraf fethu.

Adn. 16. *Bydd efe yn lle genau i ti*] Yn cario pob cenadwri at y bobl; a thithau a fyddi yn lle Duw iddo yntau—yn traddodi iddo yr hyn a fynegaf i ti, adn. 30.

Adn. 17. *Cymer hefyd y wialen hon yn dy law*] Sef ei fugeillfon, fel na fyddai arno gwilydd o'r sefyllfa isel ag y galwasai Duw ef

18 ¶ A Moses a aeth, ac a ddychwelodd at Jethro ei chwegrwn, ac a ddywedodd wrtho, Gad i mi fyned, atolwg, a dychwelyd at fy mrodyr sydd yn yr Aifft, a gweled a ydynt eto yn fyw. A dywedodd Jethro wrth Moses, Dos mewn heddwch.

19 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses yn Midian, Dos, dychwel

i'r Aifft; o herwydd bu feirw yr holl wŷr oedd yn ceisio dy einioes.

20 A Moses a gymerth ei wraig, a'i feibion, ac a'u gosododd hwynt ar asyn, ac a ddychwelodd i wlad yr Aifft: cymerodd Moses hefyd wialen Duw yn ei law.

21 A Dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Pan elych i ddychwelyd i'r

o honi. Rhaid i'r wialen hon hefyd fod yn ffôn ei awdurdod, a bod iddo ef yn lle cleddyf a theyrnwialen. Oddiwrth hanes gwialen Moses y defeisiodd y paganiaid eu chwedlau am *thyrsus* Baecus, a *caduceus* Merchyr.

Adn. 18. *Gad i mi fyned, atolwg, a dychwelyd at fy mrodyr sydd yn yr Aifft*] Ar ol i Moses dderbyn gorchymyn gan Dduw, a chyfarwyddiadau pa fodd i'w wneuthur, efe a ddychwelodd at ei chwegrwn, ac a ofynodd am ganiatad i ymweld â'i deulu yn yr Aifft, heb grybwyll dim am y neges fawr ar ba un yr oedd yn myned. Cafodd ei waith yn cadw hyn yn ddirgel ei briodoli i'w *wyllder nodedig*: ond pa mor wir bynag ydyw fod Moses yn ŵr gwir ostyngedig a gŵyllaidd, eto yr oedd ei *synwyr* yn unig yn ddigon i'w dueddu ef i fod yn ddystaw ar y pen hwn; canys pe soniasai efe unwaith wrth deulu Jethro, gallasai y newydd gyraedd i'r Aifft cyn iddo ef fedru myned yno; a gwaedd *perylg* yn mlith yr Aifftiaid, yn ol pob tebygolrwydd, a fuasai y canlyniad, gan na byddai i'r chwedl lai na darlunio Moses fel yn dyfod i godi terfysg a gwrthryfel; a buasai i'r holl genedl felly ymarfogi yn eu herbyn hwy. Gan hyn yr oedd yn anheborlog angenrheidiol i'r gorchwyl gael ei gadw yn ddirgel.

Adn. 19. *A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses yn Midian*] Hwn ydoedd ddatguddiad newydd, ac ymddengys iddo gymeryd lle ar ol i Moses ddychwelyd at Jethro, yn flaenorol i'w ymadawiad i'r Aifft.

Adn. 20. *A Moses a gymerth ei wraig a'i feibion*] Gershom ac Eliezer, er nad yw genedigaeith yr olaf yn grybwylliedig eto yn y testyn Hebreig: gwel ar pen. ii. 22. *Ac a'u gosododd hwynt ar asyn*—yn ol y LXX, 'ar asynod,' gan fod mwy nag un yn ddiau yn ofynol i gario Sephora, Gershom, ac Eliezer. *Wialen Duw*—yr arwydd o'r gallu dwyfol, a'r offeryn trwy ba un y cyflawnai Moses yr holl ryfeddodau a hynodent ei weinidogaeth.

Adn. 21. *Onid mi a galedaf ei galon ef*] Caledasai Pharao ei galon ei hun yn erbyn ucheneidiau a gwaedd yr Israeliaid gorthrynedig, a chauasai ymysgaroedd ei dosturi oddiwrthynt; ac yn awr y mae Duw, mewn ffordd o farn gyflawn, yn caledu ei galon yntau rhag argyhoeddiad y gwyrtthiau ac arswyd y plâu.—HENRY. 'Y mae y geiriau Hebreig a arferir ar yr achlysur hwn,' meddai awdwr yr *Ilanesiaeth Gyffredinol*, 'yn arwyddo yn aml *oddefiad noeth*; a'r cyfieithiad a ddylasai fod, *Mi a oddefaf i'w galon ef gael ei chaledu*.' Dyma hefyd farn BOOTHROYD. 'Ar ol iddo ef yn fynych ei chaledu ei hun, gan gau ei lygaid yn wirfoddol yn erbyn y goleuni, minau o'r diwedd a oddefaf i Satan ei

chaledu yn effeithiol.'—BENSON. 'Pe byddai i ddyinion ond edrych ar yr holl hanes ar wahan oddiwrth eu credoau neillduol,' fel y sylwa CLARKE, 'ni chaent ond ychydig o anhawsder i ddirnad y gwirionedd. Os cymerwn y testyn i fyny mewn golygiad *dwinyddol*, bydd i bob Crïstion difrifol addef gwirionedd y gosodiad hwn o eiddo St. AWSTIN, pan mai y gwrthdrys mewn dadl yw un wedi caledu ei galon ei hun trwy fynych wrthwynebu gras ac Ysbryd Duw: 'Nid yw Duw yn caledu dnyion trwy roddi malais ynddynt, ond trwy beidio â chyfrannu trugaredd iddynt.' A hwn eto a gredir yr un mor barod: 'Nid yw Duw yn gweithio y caledwch calon hwn mewn dyn; ond gellir dywedyd ei fod ef yn caledu yr hwn y mae yn gomedd ei feddalu, yn dallu yr hwn y mae yn gomedd ei oleu, ac yn gyru yn ol yr hwn y mae yn gomedd ei alw.' Nid yw ond cyfiawn ac uniawn iddo ef attal y grasau hyn y rhai y darfu iddo eu mynychelgyng, a'r rhai y darfu i'r pechadur eu dystyru a'u gwrthod. Y mae y ferf *chazak*, yr hou a gyfieithwn ni *caledu*, yn llythyreol yn arwyddo *cryfhau*, *cadarnhau*, *hyflhau*, neu *wroli*; ac fe'i harferir yn fynych yn yr vsgrhythrau i annog i *ddyledswydd*, *dysfawch*, &c.; ac fe'i gosodir gau yr Iuddewon yn niwedd y rhan fwyaf o'r llyfrau yn y Beibl, fel cynghor i'r darllenydd *ymgyrsuro*, a myned yn mlaen gyda'i *ddarliten*, a chydar *ufydd-dod* ag y mae yn ei ofyn. Y mae yn cyfansoddi rhan hanfodol o gynglor Duw i Josua, pen. i. 7: *Yn unig YMGRYFFEA, rak chazak*; ac o gynglor Josua wrth farw i'r hobl, pen. xxiii. 6: *Am hyny ymwrolwch yn LEW, (vachazaktem,) i gadw ac i wneuthur y cwbl sydd ysgrifencid yn llyfr cyfraith Moses*. Yn awr byddai 'yn dra hynod cyfieithu y gair yn y lleoedd hyn yn *galedu*: 'Yn unig *ymgaledu*;' 'Am hyny *ymgaledwch* yn lew.' Y mae pawb ag sydd wedi darlleu yr vsgrhythrau gyda gofal ac ystyriaeth, yn gwybod yn dda fod Duw yn fynych yn cael ei arddangos ynddynt megys yn *gwneyd* yr hyn nad yw ef ond yn *goddef* iddo gael ei wneuthur. Felly, am i ddyng dristâu ei Yspryd a gwrthwynebu ei ras, y mae ef yn tynu yr Yspryd a'r gras hwnw oddiwrtho, ac fel hyn y mae efe yn dyfod yn hyfa rhyfysg mewn pechod. Gwnaeth Pharao ei galon ei hun yn gyndyn yn erbyn Duw, pen. ix. 34; a rhoddes Duw yntau i fyny i ddallineu barnol, nes y rhuthrodd yn mlaen yn ystyfnig i'w ddiynstr ei hun. Oddiwrth holl ymddygiad Pharao nyri a ddvsgwn ei fod ef yn *cofn*, *balch*, a *chreulon*; a ddeiwodd Duw *oddef* i'r tueddiadau hyn gael eu cyflawnu rwyng ym ei galon ef, heb un attaliad

Aifft, gwel i ti wneuthur gerbron Pharao yr holl ryfeddodau a roddais yn dy law: ond mi a galedaf ei galon ef, fel na ollyngo ymaith y bobl.

22 A dywed wrth Pharao, Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd; Fy mab

i, *sef* fy nghyntafanedig, *yw* Israel. 23 A dywedais wrthyt, Gollwng fy mab, fel y'm gwasanaetho: ond os gwrthodi ei ollwng ef, wele mi a laddaf dy fab di, *sef* dy gyntafanedig.

24 ¶ A bu, ar y ffordd yn y llety,

na rhwystr oddiwrth ddwyfod ddyllanwad: y canlyniad fu yr hyn yr oedd Duw yn ei fwrriadu; ni ddarfu iddo gydsynio yn *ebriwydd* i ollwng ymaith y bobl: a hyn a wnaed fel y byddai i Dduw gael gwell cyffe i ddangos ei allu trwy chwaneu arwyddion a gwrthliâu, ac fel hyn argraffu ar galonau yr Aifftiaid a'r Israeliadaid iawn deimlad o'i hollalluogrwydd a'i gyfiawnder. Yr oedd hyn oll yn cael ei amcanu yn rasol i wneyd daioni bythol i'r ddwy genedl. Yr oedd yu rhaid i'r *Israeliadaid* wybod fod y gwir Dduw ganddynt hwy yn Noddir iddynt, ac fel hyn eu stydd a gadarnheid. Yr oedd yn rhaid i'r *Aifftiaid* weled na allai eu *duwiau hwy* wneuthur dim yn erbyn Duw *Israel*, ac fel hyn eu dibyniad arnynt *hwy* o angenrheidrwydd a siglid. Nis gallasai y dybenion mawrion hyn gael eu hateb pe buasai i Pharao gydsynio ar unwaith i ollwng ymaith y bobl. Y mae yr ystyriaeth hon yu unig yn datddyrysu y dirgelwch, ac yn egluro y cwbl. Sylwer, nad oes dim yn cael ei ddywedyd yma am *gyflwr tragwyddol* brenin yr Aifft; ac nid oes dim yn yr holl hanes ddylynl yn ein hawdurdodi i gredu ddarfod i Dduw *galedu ei galon ef yn erbyn dylanwadau ei ras ei hun*, fel y byddai iddo ei *orfodi ef* i bechu fel y gallai ei gyfiawnder ei drosglwyddo ef i uffern! Byddai hon y fath weithred o anghyfiawnder gwarthuf nas gallwn braidd ei phriodoli i'r gwaethaf o ddyinion. Yr hwn a arweinia arall i gamwedd fel y gallo gael gwell esgus i'w *gosp* am dano, neu a'i dyg i'r fath amgylchiadau fel nas gall *beidio* gwneuthur trosedd angeuol, ac wedi hynny a'i *eroga* am dano, dian ei fod yr ysgeraf o farwolion! Pa beth gan hynny a wnaem ni o'r Duw cyfiawn a thrugarog pe priodole iddo ef arfaeth, dyddiad yr hon sydd yn ngboli yn nhragwyddoldeb, trwy ba un y penderfynodd efe dori ymaith oddiwrth y posibilrwydd o iachawdwriaeth fillynau o fillynau o eneidiau dienedig, a'u gadael dan yr angenrheidrwydd o bechu, trwy weithredol galedu eu calonau yn erbyn dylanwadau ei ras a'i Yspryd ei hun, fel y gallai, dan yr esgus o *gyfiawnder*, eu trosglwyddo i gollediggaeth dragwyddol! Pa beth bynag a ellir ei ffluantu o blaid y fath dybiau anaddas, rhaid fod yn amlwg i baw na ddallwyd â rhagfarn, na ddichon i *gyfiawnder* na *phenarglwyddiaeth* Duw gael eu mawrygu trwyddynt: gwel ar pen. ix. 13, 16.

Adn. 22. *Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd* [Dyma y waith gyntaf i'r ymadrodd hyn gael ei arfer gan neb, yr hwn a droddir mor fynych ar ol hyn gan yr holl broffwydi. *Fy mab i, sef fy nghyntafanedig, yw Israel* —yr hwn a ddewisais ac a fabwysiedais i fwynbau bendithion penaf fy mhilant, ac i'w trosglwyddo wedi hynny i holl ddyrolryw.

Adn. 23. *Gollwng fy mab* [Nid yn unig fy

ngwas, yr hwn nid oes genyt hawl i'w attal; ond *fy mab*, yr hwn yr wyf yn eiddigus dros ei ryddid a'i anrhydedd. *Fel y'm gwasanaetho*—yr hyn ni allent ei wneuthur yu Gosen yu unol â llywodraeth a chrefydd yr Aifft, am fod y rhan fwyaf anhebgol o'r addoliaid Israellaidd yn gynnwysedig mewn *aberthu*, yr hyn oedd fflieiddbeth yn ngolwg yr Aifftiaid: gwel ar pen. viii. 26. *Onid os gwrthodi ei ollwng ef, wele mi a laddaf dy fab di*—yr hyn a wnaed, pen xii. 29.

Adn. 24. *A bu ar y ffordd yn y llety* [Nid yw y wreiddiol yn arwyddo ond y fan lle y gorphwysasant y noson hono, yr hyn ond odid oedd mewn rhyw ogof, neu dan gysgod rhyw bren wrth ffrwd o ddwfr. *Gyfarfod o'r Arglwydd ag ef, a cheisio ei ladd ef*—y mae rhai yn meddwl nad yw adn. 23 yn rhan o'r genadwri at Pharao, ond ddarfod ei llefaru gan yr Arglwydd wrth *Moses*; ac y gellir alleirio yr oll fel hyn: *A dywedais wrthyt* [Moses], *Anfon allan (shallack) fy mab*, [Gershom, trwy ei enwaedu ef], *fel y'm gwasanaetho* [yr hyn nis gall ef ei wneuthur nes dyfod i'r cyfammod trwy enwaediad; ond tydi a wrthodaist ei anfon ef allan]: *wele* [gan hynny] *mi a laddaf dy fab di, sef dy gyntafanedig. A bu ar y ffordd yn y llety*, [pan yr oedd efe ar ei daith i'r Aifft] *gyfarfod o'r Arglwydd ag ef, a cheisio* [bygwth] *ei ladd ef* [Gershom]. *Yna Sephora a gymerth gylllell lem, ac a dorodd diennwaediad ei mab, ac a'i bwriodd i gyffwrdd â'i draed ef* [Jehofa, yr hwn yn debygol a ymrithiai mewn agwedd gorfforol], *ac a ddywedodd wrtho, Priod trwy waed wyt i mi. A'r Arglwydd a beidiodd ag ef* [Gershom]. *Yna y dywedodd hi, Priod trwy waed wyt* [i mi], *oblegid yr enwaediad* [hwn]. Fel pe dywedasai, *Myfi, yr hon wyf estrones, a ddaethym mor gyfiawn i gyfammod â thi trwy wneyd y weithred hon ag y daeth fy mab ar yr hwn ei cystawnydd. 'Ymddengys mai ystyr yr holl ymadrodd yw hyn', meddai CLARKE: 'Nid oedd mab Moses wedi ei enwaedu, er fod yn debyg ddarfod i Dduw orchymyn yr tad wneuthur hynny; ond gan iddo ef esgeuluso hyn, am hynny yr oedd Jehofa yn nghylch lladd y plentyn, am nad oedd mewn cyfammod ag ef trwy enwaediad; ac fel hyn efe a fwrriadai gospi anuffydd-dod y tad trwy farwolaeth naturiol ei fab. Sephora, ar ol dyfod yn adnabyddus â natur yr achos, a'r perygl ag yr oedd ei mab yn agored iddo, a gymerth gylllell lem, ac a dorodd diennwaediad ei mab. Trwy y weithred hon trowyd ymaith anffodlonrwydd yr Arglwydd, a Sephora a'i hystyriai ei hun yn awr fel mewn cyfathrach â Duw oblegid yr enwaediad hwn. Yn ol y gyfraith, (Gen. xvii. 14.) yr oedd y *gwrnyo diennwaeddig i'w dori ymaith o fysg ei bobl*, fel na byddai un etifeddiaeth i'r gangen hono*

gyfarfod o'r Arglwydd âg ef, a cheisio ei ladd ef.

25 Ond Sephora a gymerth gyllell lem, ac a dorodd ddiennaediad ei mab, ac a'i bwridd i gyffwrdd â'i draed ef; ac a ddywedodd, Diau dy fod yn briod gwaedlyd i mi.

26 A'r *ARGLWYDD* a beidiodd âg ef: yna y dywedodd hi, Priod gwaedlyd wyt, oblegid yr enwaediad.

27 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Aaron, Dos i gyfarfod â Moses i'r amalwch. Ac efe a aeth, ac a gy-

farfu âg ef yn mynydd Duw, ac a'i cusanodd ef.

28 A Moses a fynegodd i Aaron holl eiriau yr Arglwydd, yr hwn a'i hanfonasai ef, a'r holl arwyddion, a orchymynasai efe iddo.

29 ¶ A Moses ac Aaron a aethant, ac a gynullasant holl henuriaid meibion Israel.

30 Ac Aaron a dracthodd yr holl eiriau a lefarasai yr Arglwydd wrth Moses, ac a wnaeth yr arwyddion yn ngolwg y bobl.

31 A chredodd y bobl: a phan

o'r teulu yn Israel. Moses gan hyny, am esgeuluso enwaedu y plentyn, a'i gosododd ef yn agored i'r *toriad ymaith* hwn, ac ni chafodd ond braidd ei attal trwy ufydd-dod parod Sephora. Gan mai *enwaediad* oedd *insel* y cyflawnhad hwnw trwy fydd ag sydd yn dyfod trwy Grist, darfu i Moses, trwy ei esgeuluso ef, roddi siampl ddrwg iawn, ac yr oedd Duw yn nghylch myned yn ei erbyn ef gyda'r todsder hwnw ag yr oedd y gyfraith yn ei ofyn.'—CLARKE. Ereill a sylwant: 'Efe a geisiodd ladd, nid mab diennaedid Moses, fel yr haerodd rhai, ond *Moses ei hun*, yr hwn a esgeulusasai enwaedu ei fab.'—BURDER. 'Y mae y LXX, y Galdeag, a rhai hen gyfieithiadau ereill yn ei ddarllen, 'A bu, ar y ffordd yn y llety, gyfarfod o *Angel yr Arglwydd* âg ef.' Efe a ymddangosai mewn agwedd fygythiol, fe allai gyda cleddyf noeth yn ei law; neu ynte cospodd ef â rhyw afiechyd ag ydoedd yn ei fygwrth â marwolaeth. Yr oedd hyn yn gyfnewidiad mawr: yn ddiweddar iawn yr oedd Duw yn ymddyddan âg ef fel cyfaill, ond yn awr y mae yn dyfod i'w erbyn ef fel gelyn. Ymddengys mai yr achos oedd esgeulusiad Moses o enwaedu ei fab; yr hyn, fe allai, oedd effaith ei ieuad anghynharus ef âg un o'r Midaniaid, yr hon oedd yn rhy anwesog o'i phlentyn, fel yr oedd Moses o honi bithau. Yn awr yr oedd Duw yn ddig wrtho ef am yr esgeulusiad hwn o ddyledsyydd, nid yn unig am y gwyddai Moses na allai un plentyn gael ei dderbyn yn aelod o'r cyfundeb Israelaidd heb ei enwaedu, na chael hawl i fendithion cyffammed Duw â had Abraham; ond hefyd am fod siampl Moses o byws mawr; canys pwy a barchai y ddeddf, os byddai i'r deddfroddwr ei hun ei hoesgulusio hi? Gan fod Moses yn cael ei godi i fyny i wasanaeth anghyffredin, yr oedd yu dra phriodol fod iddo ef roddi siampl o ufydd-dod manwl yn ei ymddygiad ei hun. Am hyny y ceryddwv ef fel hyn.'—BENSON. Y mae BRYANT o'r farn i wraig Moses rwystro iddo ef gyflawni y ddefod o enwaediad; ond wrth weled fod ei gŵr mewn perygl, ddarford iddi hi ei hun ei chlyflawni ar frys, gan ddywedyd 'Diau dy fod yn briod gwaedlyd i mi!'

Adn. 25. Ond *Sephora a gymerth gyllell lem*] Saes. *gareg lem*. Hon yn debygol oedd gyllell wedi ei gwneuthur o *gareg gallestr*; canys y gyfryw a ddefnyddid gynt, hyd yn nod lle y gellid cael cylllell o fettel, at bob

math o egoriad ar y corff dynol. *Diau dy fod yn briod gwaedlyd i mi*—gwelwom uchod fod rhai yn meddwl fod y geiriau hyn o eiddo Sephora yn cael eu cyfeirio at *Jehofa*; ond y dyb fywaf cyffredin yw, mai *Moses* yw eu gwrthdrys. Y mae SUTCLIFFE a BRYANT yn meddwl fod hon yn iaith o cdlhiwad; fel pe dywedasai, 'Dyma a gaf am briodi Hebreadd!' Ond gellir deall y geiriau fel yn amlygu *serch mawr*, ac ar arwyddo ei bod hi yn awr wedi ymddyweddio âg ef o'r newydd trwy enwaedu ei mab, gan i waed y ddefod hōno fod yn foddion i'w adfer ef iddi dracth; neu fod ei phlentyn yn awr wedi ei ddyweddio i Dduw trwy gyffammed yr enwaediad, fel y mae rhai yn ei ddarllen. Y LXX a gyflhiant y lle: 'Sephora, ar ol cymeryd cylllell lem, a enwaeddodd ei mab, ac a syrthiodd i lawr wrth ei draed ef (Moses), ac a ddywedodd, Gwaed enwaediad fy mhlentyn a attaliwyd; a hi a aeth ymaith oddiwrtio.' hyny yw, aeth hi a'i phlant adref i Midian, pan ddeallodd fod y plentyn allan o berygl, ac yn alluog i daith. O leiaf y mae yn debygol ddarford iddi hi ar yr achlysur hwn ddychwelyd gyda'r plant at ei thad neu ei brawd, a darford i Moses gyd-synio â hyn, fel na byddai iddynt beri chwāneg o aflonyddwch iddo ef: gwel ar pen. xviii. 2.

Adn. 26. *Oblegid yr enwaediad*] Heb. 'Yr *enwaediad*!' hyny yw, enwaediad eu dau fab. Y mae yn debyg i'r ddau gael eu henwaedu yn awr, er na ddywedir hyny; canys yr oedd y gyfraith yn gofyn i bob gwryw gael ei enwaedu, Gen. xvii. 12.

Adn. 27. *A dywedodd yr Arglwydd wrth Aaron*] Trwy ryw gynhyrfiad ar feddwl Aaron, neu trwy ryw lais neu weinidogaeth angyllaidd, cyfarwyddwyd ef yn awr i fyned i gyfarfod â Moses ei frawd; a chafodd yr hysbysiad ei roddi mor gywir i'r ddau, fel y daethant ar yr *un pryd* i'r mynydd santaid: gwel ar adn. 14.

Adn. 28. *A Moses a fynegodd i Aaron holl eiriau, &c.*] Dylai y rhai sydd yn gydweiniogion i Dduw yn yr un gwaith, arfer rhyddid wrth eu gilydd, ac ymdreclu i ddeall eu gilydd yn gyflawn.

Adn. 29. *Henuriaid meibion Israel*] Gwel ar pen. iii. 16.

Adn. 30. *Ac a wnaeth yr arwyddion*] A drōodd y wialen yn sarff, a wnaeth ei law yn wahanglwyfol, ac a droes y dwfr yn waed: gwel ar adn. 8, 9.

gylwysant ymweled o'r Arglwydd â meibion Israel, ac iddo edrych ar eu gorthrymder, yna hwy a ymgrymasant, ac a addolasant.

PENNOD V.

AC wedi hyny, Moses ac Aaron a acthiant i mewn, ac a ddywedasant wrth Pharao, Fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Israel; Gollwng ymaith fy mhobl, fel y cadwont wyl i mi yn yr anialwch.

2 A dywedodd Pharao, Pwy yw yr Arglwydd, fel y gwrandawn i ar ei lais, i ollwng Israel ymaith? Yr Ar-

glwydd nid adwaen, ac Israel ni ollwngaf.

3 A dywedasant hwythau, Duw yr Hebreaid a gyfarfu â ni: gad i ni fyned, atolwg, daith tridiau yn yr anialwch, ac aberthu i'r Arglwydd ein Duw; rhag iddo ein rhuthro â haint, neu â chleddyf.

4 A dywedodd brenin yr Aifft wrthynf, Moses ac Aaron, paham y perweh i'r bobl beidio â'u gwaith? ewch at eich beichiau.

5 Pharao hefyd a ddywedodd, Wele pobl y wlad yn awr ydynt lawer, a pharasoch iddynt beidio â'u llwythau.

Adn. 31. *A chredodd y bobl*] Fod Moses ac Aaron wedi eu penodi gan Dduw i fod yn waredwyr iddynt o'u caethiwed, trwy fod y gwyrthiau a wneid ar yr achlysur yn cadarnhau y dystiolaeth a draddodid gan Aaron. *Yna hwy a ymgrymasant*—a ostyngasant eu pen tua'r llawr, i arwyddo nid yn unig eu diolchgarwch i Dduw am drefnu gwaredigaeth, ond hefyd eu parodrwyd i gydsynio âg ammodau y waredigaeth. *Ac a addolasant*—Jehofa fel y gwir Dduw, a Duw eu tadau. Y rhai sydd yn cymeryd arnynt addoli Duw trwy weddi neu ddiolchgarwch, ac ar yr un pryd yn *sefyll yn ddifaro* neu yn *cistedd yn ysmala*, diau nas gall fod ganddynt iawn deimlad o fawredd Duw, nac o'u pechadurus-rywydd a'u haunheilngdod eu hunain.

PEN. V. Adn. 1. *Arglwydd Dduw Israel*] Gorchymynir i Moses, wrth ymddyddan â henuriaid Israel, alw Duw yn *Dduw eu tadau*; ond wrth ymddyddan â Pharao, y mae ef ac Aaron yn ei alw yn *Dduw Israel*; a dyma y tro cyntaf y cawn ef yn cael ei alw felly yn yr ysgrhythr. Gelwir ef yn Dduw Israel y *dyn* yn Gen. xxxiii. 20; ond yma Duw Israel y *bobl*. Mor ddiaddurn, ac eto gyda'r fath awdurdod, y traddoda Moses ac Aaron eu cenadwri i frenin yr Aifft: *Fel hyn y dywedodd JEHOFA, DUW ISRAEL, gollwng ymaith fy mhobl!* Buasai yn dda pe cadwasai ein cyfeithwyr ni y gair gwreiddiol JEHOFA yn yr adnodau hyn, am nad yw y gair ARGWYDD yn ddiagon darluniadol, a'i fod yn aml yn gadael y synwyr ni dywyll. *Fel y cadwont wyl i mi yn yr anialwch*—lle y gallant arferyd eu crefydd heb roddi tramgwydd i, na chael tramgwydd gan, yr Aifftiaid.

Adn. 2. *Pwy yw yr Arglwydd?*] Pwy yw *Jehofa*, fel y gwrandawn i ar ei lais? Pa hawliau sydd ganddo ef arnaf fi? Yr oedd Pharao yn llefaru yma dan y dybiaeth gyffredin fod gan bob gwlad a phobl dduw amddiffynol iddynt eu hunain; ac yr oedd ef yn meddwl, er y gallai y Jehofa hwn fod yn dduw amddiffynol i'r Hebreaid, eto nas gallai ef, fel Aifftwr, fod dan un rwymedigaeth iddo. Felly nid yw Pharao yma yn llefaru fel *dildurwiad*, neu fel un heb gydnabod unrhyw dduw; ond dangos y mae nad oes a wnclo ef â Duw Israel. Felly yr amcan mawr yn yr holl wyrthiau a goffeir ar ol hyn, yw dysgu i Pharao a'i bobl

fod JEHOFA nid yn unig yn Dduw i'r Hebreaid, ond yn Arglwydd yr holl ddaear, ac yn meddu awdurdod penadrol dros bawb a phobpeth.

Adn. 3. *Gad i ni fyned, atolwg, daith tridiau*] Y pellter o Gosen i Sinai: gwel ar pen. iii. 18. *Ac aberthu i'r Arglwydd ein Duw*—ni allai yr Israeliaid aberthu yn yr Aifft, am fod yr anifeiliaid ag yr oeddynt i'w hoffrymu yn cael eu hystyried yn gysegredig gan yr Aifftiaid; ac ni allent osgoi y ddyledswydd hon, am ei bod yn hanfodol i grefydd hyd yn nod cyn rhuddiad y ddeddf. Fel hyn ni a gawn fod dwyfol gyfiawnder yn gofyn bywyd yr aniffl yn lle bywyd y troseddwr; a gwyddai y bobl, os na wneid hyn, y byddai i Dduw eu dyfetha hwy â haint neu gleddyf. Yr oedd y wir grefydd yn gofyn *aberth* er pan ddaeth pechod i'r byd; a than y gyfraith ystyrid hyn yn hanfodol er iachawdwriaeth; ac o dan yr oruchwyliaeth Gristionogol Iesu Grist yw 'Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd,' a chan ei fod yn barhaus yn 'Oen newydd ladd' gerbron yr orsedd, 'nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwyddo ef.' *Rhag iddo ein rhuthro â haint neu â chleddyf*—os esgluswn ei addoliad ef; ac hyd yn nod felly byddai i ti gael dy amddifadu o'n gwasanaeth. Er mai bwriad yr Israeliaid oedd gadael yr Aifft am byth, eto ni ofynasant ond am fyned daith tridiau i'r anialwch i aberthu, ond odid er gosod allan greulondeb Pharao mewn goleuni cryfach, yr hwn ni wnai eu rhyddhan am gyn lleied a hyny o amser, er mwyn gallu cyflawni eu defodau crefyddol! A chan mai trwy orchymyn penodol Duw y gofynasant hyn, (gwel pen. iii. 18.) yr hwn a wyddai na chaniatâi Pharao eu dymuniad, y mae pob rhith o ystryw o'u tu hwy i dwyllo Pharao yn difannu.

Adn. 4. *Moses ac Aaron, paham y perweh i'r bobl beidio â'u gwaith?*] Y mae Pharao yn awgrymu fod yr Hebreaid mewn cyflwr o wthryfel, ac efe a gyhudda Moses ac Aaron fel blaenoriaid y terfysg. Ymddengys fod henuriaid Israel yn wyddfodol ar y pryd, pen. iii. 18; a dichen fod amrai ereill wedi eu dylun, i edrych beth fyddai y canlyniad. *Ewch at eich beichiau*—gofalwch am eich gwaith, a gadewch lonydd i grefydd. Yr oedd hon yn iaith o anghrefyddolder yn gystal ag o ormes.

Adn. 5. *Wele pobl y wlad yn awr ydynt lawer*] Gan hynt y mae eich niwed i mi yn

6 A gorchymynodd Pharao, y dydd hwnw, i'r rhai oedd feistriaid gwaith ar y bobl, a'u swyddogion, gan ddywedyd,

7 Na roddwch mwyach wellt i'r bobl i wneuthur priddfeini, megys o'r blaen; elant a chasglant wellt iddynt eu hunain.

8 A rhifedi y priddfeini y rhai yr oeddynt hwy yn ei wneuthur o'r blaen a roddwch arnynt; na leihewch o hyny: canys segur ydynt; am hyny y maent yn gweiddi, gan ddywedyd, Gad i ni fyned ac aberthu i'n Duw.

9 Trymhäer y gwaith ar y gwŷr, a gweithiant ynddo; fel nad edrychant am ciriau ofer.

10 ¶ A meistriaid gwaith y bobl, a'u swyddogion, a aethant allan, ac a lefasasant wrth y bobl, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed Pharao; Ni roddaf wellt i chwi.

11 Ewch chwi, a cheisiwch i chwi wellt lle y caffoch; er hyny ni leiheir dim o'ch gwaith

12 A'r bobl a ymwasgarodd trwy holl wlad yr Aifft, i gasglu sofr yn lle gwellt.

13 A'r meistriaid gwaith oedd yn

fwy, wrth geisio gwneuthur iddynt orphwys ooddiwrth eu llafur.

Adn. 6. *Feistriaid gwaith*] Y rhai oeddynt Aifftiaid, pen. i. 11; *a'u swyddogion*—y rhai oeddynt Hebreaid, adn. 14, &c.

Adn. 7. *Na roddwch mwyach wellt i'r bobl*] I'w gymysgu â'r clai. Dywed SHAW yn ei Deithiau, dal. 136, 'nad oedd defnydd priddfeini yr Aifft ddim ond cymysgedd o glai, llaidd, a gwellt, wedi eu tyllino yn nghyd, a'u crasu yn ngwres yr haul. Y mddengys fod y gwellt, yr hwn sydd yn cadw y priddfeini hyn yn nghyd yn yr Aifft, a'r hwn sydd fyth yn dal ei liw gwreiddiol, yn brawf na chafodd y priddfeini hyn erioed eu llosgi, neu eu gwneuthur mewn odyrau.'

Adn. 8. *Canys segur ydynt*] Na, yr oedd y dinasoedd a adeiladasant hwy i Pharao, pen. i. 11, yn brawf nad oeddynt segur; eto efe a haera'i hyn, fel y gallai gael esgus i chwanoegu eu beichiau; gwel ar adn. 17.

Adn. 9—13. *Trymhäer y gwaith ar y gwyr*] Y modd y gwneid hyn oedd trwy orfodi yr Hebreaid i gasglu gwellt neu sofr iddynt eu hunain, ac eto ofyn yr un faint o waith ganddynt bob dydd a phan y cesglid ef yn barod at eu llaw ar gost y breuin! Yr oedd eu llafur o'r blaen mor fawr nes yr *ucheneidient* o'i blegid, pen. ii. 23; a gellir meddwl ei fod yn awr bron gymaint arall.

Adn. 14. *A churwyd swyddogion meibion Israel*] Y rhai oeddynt Hebreaid. Tybia Clarke mai eu *pedffustio* a gawsant, trwy fod hon yn gosp gyllredin yn yr Aifft hyd heddyw am îs-droseddau. Y modd ei cyflawnir yw

eu prysuro, gan ddywedyd, Gorphenwch eich gwaith, dogn dydd yn ei ddydd, megys pan oedd gwellt.

14 A churwyd swyddogion meibion Israel, y rhai a osodasai meistriaid gwaith Pharao arnynt hwy; a dywedwyd, Paham na orphenasoch eich tasg, ar wneuthur priddfeini, ddoe a heddyw, megys cyn hyny?

15 ¶ Yna swyddogion meibion Israel addaethant ac a lefasant ar Pharao, gan ddywedyd, paham y gwnai fel hyn â'th weision?

16 Gwellt ni roddir i'th weision; a Gwnewch briddfeini i ni, meddant: ac wele dy weision a gurwyd; a'th bobl di dy hun sydd ar y bai.

17 Ac efe a ddywedodd, Segur, segur ydych; am hyny yr ydych chwi yn dywedyd, Gad i ni fyned ac aberthu i'r Arglwydd.

18 Am hyny ewch yn awr, gweithiwech; ac ni roddir gwellt i chwi: eto chwi a roddwch yr *un* cyfrif o'r priddfeini.

19 A swyddogion meibion Israel a'u gwelent eu hun mewn *lle* drwg, pan ddywedid, Na leihewch *ddim* o'ch priddfeini, dogn dydd yn ei ddydd.

â'i goesau wedi eu plygu i fyny yn sythion o'i ol, pryd y wnae y dialydd yn rhoddi iddo ryw nifer o wialenodiau ar wadnau ei draed. Y mae hon yn gosp lem iawn, ac yn anallhugi y y dyoddefydd i gerdded am lawer o wythnosau; ac y mae rhai yn gloff o'i herwydd dros eu holl fywyd.

Adn. 15. *Paham y gwnai fel hyn â'th weision?*] Paham y goddest i ni dy weision, y rhai ydym yn foddol i'th wasanaethu, gael ein hattal fel hyn yn dy waith?

Adn. 16. *A'th bobl di dy hun*] Sef y meistriaid Aifftiaid, *sydd ar y bai*—y rhai, wrth ein hanfon ni i gasglu gwellt, sydd yn ein rhwystro i wneyd y priddfeini, ac yna yn ein cospi am beidio gwneuthur yr hyn nis gellir ei gyflawni!

Adn. 17. *Segur, segur ydych*] Y mae yn arferol i rai difol am eu heneidiau eu hunain briodoli difrifwch crefyddol y neb sydd yn teimlo pwysfawrogwydd pethau tragwyddol, i segurdd neu ddiolalwch am eu hachosion tymhorol; canys y maent yn anghofio mai yr hwn a orchymynodd i ni fod yn 'ddyfal mewn diwydrwydd,' a orchymynodd i ni hefyd fod 'yn wresog yn yr ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd.'

Adn. 18. *Eto chwi a roddwch yr un cyfrif o'r priddfeini*] Rhaid i chwi wneyd yr un nifer bob dydd ag a wnaech pan ddygid y gwellt i chwi; gwel ar adn. 9—13.

Adn. 19. *A swyddogion meibion Israel a'u gwelent eu hun mewn lle drwg*] Yr oeddynt yn gwelod na allent ddysgwyl cyfiawnder na thrugaredd; a bod eu gwaredigaeth yn dra

20 ¶ A chyfarfuant â Moses ac Aaron yn sefyll ar eu flordd, pan oeddnt yu dyfod allan oddiwrth Pharao:

21 A dywedasant wrthynt, Edryched yr Arglwydd arnoch chwi, a barned; am i chwi beri i'n sawyr ni ddrewi gerbron Pharao, a cherbron ei weision, gan roddi cleddyf yn eu llaw hwynt i'n lladd ni.

22 A dychwelodd Moses at yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O Arglwydd, paham y drygaist y bobl hyn? i ba beth y'm hianfonaist?

23 Canys er pan ddaethym at Pharao, i lefaru yn dy enw di, efe a

Adn. 20. *A chyfarfuant â Moses ac Aaron yn sefyll ar eu flordd*] Y rhai yn debygol a'u dysgwylent yno, i gael gwybod pa dderbyniad a gawsent gan Pharao.

Adn. 21. *Edryched yr Arglwydd arnoch chwi, a barned*] Y rhai hyn oeddnt eiriau byrbwyll ac annhirion; ond y mae yn hawdd eu hesgodi yn nghanau dynion dan y fath drallod. Fel hyn rhaid i'r rhai a elwir i wasanaeth gyhoeddus dros Dduw a'u cenedl, ddsywglu cael en profi nid yn unig gan fygythiadau gwylion beilchion, ond hefyd gan senau anghyfiawn ac anhilirion cyfeillion difeddwl. *Can roddi cleddyf yn eu llaw hwynt i'n lladd ni*—ymadrodd diarebol, yn arwyddo, 'gan roddi iddynt esgus na feddent o'r blaen i'n gorthrymu hyd farwolaeth.'

Adn. 22. *A dychwelodd Moses at yr Arglwydd*] Ond odid i ryw fan penodol lle yr aferai efe ymddyddan â Jehofa. *Paham y drygaist y bobl hyn?*—ni wyddai Moses pa fodd i gysoni rhagluniaeth gyda'r gorchymyn a'r addeiw a dderbyniasai efe. 'Ai dyma ddisgyniad Duw i waredu Israel? A raid i mi, yr hwn a oethiathais fod yn fendith iddynt, fod yn fflangell iddynt? Trwy yr yngais hon i'w dwyn allan o'r prdew, ni wnaethant ond suddo yn ddyfnach iddo.' *I ba beth y'm hanfonaist?*—nis gall lai nag eistedd yn bur drwm ar ysbrydoedd y rhai ag y mae Duw yn eu defnyddio drosto ef, weled o'honynt nad yw eu llafur yn gwneyd *dim lles*, a llawer mwy weled ei fod yn gwneuthur *niced* yn y pen draw. Diau fod Moses yn y cyfarchiad hwn yn arfer *hyfdra* mawr. Ni ddylai y cyfryw hyfdra gyda'r Goruchaf byth gael ei arfer ond ar achosion tra neillduol, a'r pryd hyn yn unig gan genhadon anghyffredin.

Adn. 23. *Canys er pan ddaethym at Pharao*] Yn ol dy orchymyn, ac i lefaru yn dy enw, *efe a ddrygodd y bobl hyn*—trwy gynyddu eu trueni yn lle ei leihau; *a chan waredu ni waredaist dy bobl*—ar ol i ti dy hun ddechreu y gwaith, trwy roddi i ni ynghorion a chyfarwyddiadan, ni ddygaist dy bobl allan o'u caethliwed.

PEN. VI. Adn. 1. *Yn awr y cai weled beth a wnaif i Pharao*] Y mae genym yma brawf nodedig o hir amynedd Duw. Yn lle ceryddu Moses yn llym am ei anoddefgarwch

ddrygodd y bobl hyn; a chan waredu ni waredaist dy bobl.

PENNOD VI.

YNA y dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Yn awr y cai weled beth a wnaif i Pharao: canys trwy law gadarn y gollwng efe hwynt, a thrwy law gadarn y gyr efe hwynt o'i wlad.

2 Duw hefyd a lefarodd wrth Moses, ac a ddywedodd wrtho, Myfi yw JEHOFA.

3 A mi a ymddanghosais i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, dan enw Duw

a'i achwynion sarhaus, fel eu hamlygir yn niwedd y bennod flaenorol, y mae efe yn ymlostwng i roddi iddo sicrwydd o'r newydd o'i allu a'i benderfyniad i waredu Israel. *Canys trwy law gadarn y gollwng efe hwynt*—Heb. *yad chazakah*, yr un feif ag a gyfieithwn ni yn *galedu*. Y mae 'llawgadarn,' yn y lle hwn, yn meddwl gallu penaduror, yn cael ei gymhywso yn sydyn a grymus. Yr oedd Duw yn bwriadu amlygu ei allu penaduror yn ngolwg Pharao a'r Aifitiaid; ac mewn canlyniad i hyn byddai i Pharao amlygu ei allu a'i awdurdod yntan, fel penllywydd yr Aifit, yn ngyriad allan y bobl: gwel pen. xii. 31—33.

Adn. 2. *Myfi yw JEHOFA*] Hyny yw, 1. Duw yn cyflawni yr hyn a addawsai, ac felly yn rhoddi bodaeth i'w addeuidion. 2. Duw yn perffeithio yr hyn a ddechreusai, ac yn gorphen ei waith ei hun. Yn hanes y cread nid yw Duw yn cael ei alw yn JEHOFA nes *gorphen* y nefoedd a'r ddaear, Gen. ii. 14; a phan berffeithir iachawdwriaeth y saint mewn bywyd trwyddodol, yna bydd yn adnabyddus mewn gwisgionedd wrth ei enw JEHOFA, Dat. xxii. 13. 3. Duw yn gwneuthur barnedig-aethau, pen. vii. 5, Salm ix. 16, a cv. 7.

Adn. 3. *A mi a ymddanghosais i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, dan enw Duw Hollallwog*] EL SHADDAI, 'Duw OLLDDIGONOL'; Duw yn cyfranu neu yn tywallt rhoddion: gwel ar Gen. xvii. 1. *Onid erbyn fy enw JEHOFA ni bŵm adnabyddus iddynt*—eithr gan fod yn sicr ddarfod i Dduw ei amlygu ei hun i'r patriciech hyn wrth yr enw JEHOFA, fel y gellir gweled yn Gen. xv. 6—8, a xxii. 14, 16, y mae rhai o'r ysgrifenywyr goraf a manylaf yn casglu y dylai y rhan olaf o'r adnod hon gael ei darllen yn holiadol, fel hyn: 'Ac erbyn fy enw Jehofa oni bŵm adnabyddus iddynt?' Gwna y geiriau gwreiddiol oddef y cyfieithiad hwn yn dda, a byddai iddo gwbl symud y gwrthddywedid ymddangosiadol a gynwysir yn ein cyfieithiad ni. Ond os na ddarllenwn ef yn y modd hwn, rhaid i ni beidio ei ddeall am yr enw ei hun, ond am y gallu a'r *rhincedd* ag y mae yr enw yn ei arwyddo. Er fod yr enw JEHOFA yn adnabyddus o'r dechre fel un o enwau y Eôd Goruchaf, eto yr hyn a gynwysai efe mewn gwirionedd ni wyddent: nid oedd yn adnabyddus iddynt yn ei *allu* a'i *arwyddocad* hyd nes y

Hollalluog; ond *erbyn* fy enw JEHOFA ni bŷm adnabyddus iddynt.

4 Hefyd mi a sicrheais fy nghyfammod â hwynt, am roddi iddynt wlad Canaan, sef gwlad eu hymdaith, yr hon yr ymdeithiasant ynddi.

5 A mi a glywais hefyd uchenaid plant Israel, y rhai y mae yr Aifftiaid yn eu caethiwo; a chofiais fy nghyfammod.

6 Am hyny dywed wrth feibion Israel, *Myfi yw yr Arglwydd*; a myfi a'ch dygaf chwi allan odditan lwythau yr Aifftiaid, ac a'ch rhyddhaf o'u caethiwed hwynt; ac a'ch gwaredaf â braich estynedig, ac â barnedig-aethau mawrion.

7 Hefyd mi a'ch cymeraf yn bobl i mi, ac a fyddaf yn Dduw i chwi; a chewch wybod mai myfi *yw* yr Ar-

glwydd eich Duw, yr hwn sydd yn eich dwyn chwi allan odditan lwythau yr Aifftiaid.

8 A mi a'ch dygaf chwi i'r wlad, am yr hon y tyngais y rhoddwn hi i Abraham, i Isaac, ac i Jacob; a mi a'i rhoddaf i chwi yn etifeddiaeth: myfi *yw* yr Arglwydd.

9 ¶ A Moses a lefarodd felly wrth feibion Israel: ond ni wrandawsant ar Moses, gan gyfyngdra ysbryd, a chan gaethiwed caled.

10 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

11 Dos i mewn; dywed wrth Pharao, brenin yr Aifft, am iddo ollwng meibion Israel allan o'i wlad.

12 A Moses a lefarodd gerbron yr Arglwydd, gan ddywedyd, Wele, plant Israel ni wrandawsant arnaf fi; a pha

gwareddwyd hwy o'r Aifft, ac y sefydlwyd hwy yn ngwlad yr addewid.

Adn. 4. *Hefyd mi a sicrheais fy nghyfammod â hwynt*] Yr wyf yn awr wedi llwyr benderfynu rhoddi cyflawniad diatreg i'm holl ymrwymadau gyda'ch tadau ar ran eu hiliogaeth.

Adn. 5. *A mi a glywais hefyd uchenaid plant Israel*] Gwel ar pen. ii. 23, 24.

Adn. 6. *Myfi yw yr Arglwydd*] Neu JEHOFA; a *myfi a'ch dygaf chwi allan*—hyny yw, mi a ddainghosaf mai JEHOFA ydwyf, sef un yn *cyflawni* fy addewidion: gwel ar adn. 3. *A braich estynedig*—sef â nerth hollalluog: cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth ddyn yn estyn ei fraich i roddi allan ei holl rym.

Adn. 7. *Hefyd mi a'ch cymeraf yn bobl i mi, &c.*] Dyma yn gywir y cyfammod a wnaethai efe âg Abraham: gwel ar Gen. xvii.

7. *A chewch wybod mai myfi yw yr Arglwydd eich Duw*—hyny yw, trwy gyflawni fy addewidion fel hyn, chwi a gewch wybod beth sydd gynwysedig yn fy enw: gwel ar adn. 3. Ond paham y cymerai Duw y fath bobl hurt, afrywiog, ac annheilwng yn bobl iddo ei hun? Gellir ateb, 1. Am iddo addaw gwneuthur hyny wrth eu hurddasol henafiaid, Abraham, Isaac, Jacob, Joseph, Juda, &c., dynion teilwng o bob clod, am eu bod yn y cyffredin yn gyfeillion i Dduw, ac wedi ymysegru i'w ewylllys ef er lles dynolryw. 2. Fel y gallai y rhagluniaeth anghyffredin trwy yr hon eu baamddiffynid, megys y sylwa yr Esgob Warburton yn briodol, fod yn fwy gwledig ac enwog; canys pe buasant wedi eu cynysgaethu â rhinweddau dysglaer cenhedloedd mwy hardd-foesawg, gallasai effeithiau y rhagluniaeth hŷno gael eu priodoli i'w doethineb eu hunain. Ac, 3. Fel y gallai Duw ddangos i'r holl oesau dylunol ei fod ef yn ymhyfrydu mewn hyfforddio yr anwybodus, cynorthwyo y gwan, ac achub y colledig; canys os darfu iddo ef hir-ymoddef âg Israel, a dangos iddynt hwy drugaredd neillduol, a'u derbyn yn rasol pa bryd bynag y ceisient ei

nodded ef, ni raid i neb anobeithio. Ymddengys i Dduw ddewis y bobl waethaf yn y byd, er rhoddi i ddynolryw trwyddynt hwy y prawfiadau uwchaf ac amlycaf nad yw ef yn ewyllsio marwolaeth pechadur, ond yn hytrach droi o hono oddiwrth ei anwiredd a byw.

Adn. 8. *Am yr hon y tyngais*] Heb. 'y dyrcheais fy llaw;' y dull arferol o apelio at Dduw, ac am hyny a ystyridd yn flurf *llw*. Fel hyn yr ydym i ddeall Esay lxii. 8, 'Tyngodd yr Arglwydd i'w ddeheulaw, ac i'w fraich nerthol.' *Myfi yw yr Arglwydd*—neu JEHOFA, yr hwn a gyflawnaf fy addewid: gwel ar adn. 3.

Adn. 9. *Oni ni wrandawsant ar Moses*] Yr oeddynt wedi eu meddiannu yn gymaint gan eu trallodion, fel na wnaent sylw o hono; neu, yr oedd eu caethiwed wedi dyfod mor dra gothrymus, nes y collasant bob gobaith am gael eu gwaredu byth oddiwrtho. *Gan gyfyngdra ysbryd*—neu *fyrdra anadl*, fel y gellir ei gyfieithu. Y mae y geriau yn arwyddo fod eu llafur mor barhaus, a'u caethiwed mor drwm a chreulon, fel nad oedd ganddynt braidd amser i anadlu.

Adn. 10, 11. *Dywed wrth Pharao, brenin yr Aifft, am iddo ollwng meibion Israel allan o'i wlad*] Y mae Duw yn ailadrodd ei orchymynion cyn dechreu ei gopedigaethau. Rhaid i'r rhai a fynych alwyd yn ofer i adael eu pechodau, gael eu galw eto drachefn a thrachefn!

Adn. 12. *Wele, plant Israel ni wrandawsant arnaf fi*] Nid ystyriasant yr hyn a ddywedais; a *pha fodd y'm gwarandawai Pharao?*—os yw cyfyngdra eu hysbryd yn eu gwneuthur hwy yn fyddar i'r hyn a'u llesâai, mwy o lawer y bydd i'w falchder a'i drahausder ef ei wneyd yn fyddar i'r hyn ni wna ond ei chwervu. *A minau yn ddiennwadedig o wefusau*—'ymddengys fod y gair *aral*, meddai Clarke, 'yr hwn a gyfieithwn ni yn *ddiennwadedig*, yn arwyddo unrhyw beth gormodol neu orlawu. Oni buasai fod Moses yn nodedig am ei ragorol brydferthwch, buaswn yn meddwl y gallasai yr ymadrodd gael ei gyfieithu

fodd y'm gwrandawai Pharao, a minau yn ddiennwadedig o wefusau ?

13 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses ac Aaron, ac a roddodd orchymyn iddynt at feibion Israel, ac at Pharao brenin yr Aifft, i ddwyn meibion Israel allan o wlad yr Aifft.

14 ¶ Dyma eu pencenedl hwynt: meibion Reuben, y cyntafanedig i Israel; Hanoch, a Phalu, Hesron, a Charmi: dyma deuluoedd Reuben.

15 A meibion Simeon; Jemuel a Jamin, Ohad, a Jachin, Solhar hefyd, a Saul mab y Ganaanees: dyma deuluoedd Simeon.

16 ¶ Dyma hefyd enwau meibion Lefi, yn ol eu cenedlaethau; Gerson, Cohath hefyd, a Merari: a blynyddoedd oes Lefi oedd gant ac onid tair blynedd deugain.

17 ¶ Meibion Gerson; Libni, a Simi, yn ol eu teuluoedd.

18 A meibion Cohath; Amram, ac Ishar, Hebron hefyd, ac Uzziel: a

blynyddoedd oes Cohath oedd dair ar ddeg ar hugain a chan mlynedd.

19 Meibion Merari oedd Mahali, a Musi: dyma deuluoedd Lefi, yn ol eu cenedlaethau.

20 Ac Amram a gymerodd Jochebed, ei fodryb chwaer ei dad, yn wraig iddo; a hi a ymddyg iddo Aaron a Moses: a blynyddoedd oes Amram oedd onid tair deugain a chan mlynedd.

21 ¶ A meibion Ishar; Cora, a Nepheg, a Sicri.

22 A meibion Uzziel; Misael, ac Elsaphan, a Sithri.

23 Ac Aaron a gymerodd Elisebah, merch Aminadab, chwaer Nahason, yn wraig iddo; a hi a ymddyg iddo Nadab ac Abihu, Eleazar ac Ithamar.

24 Meibion Cora hefyd; Asir, ac Elcana, ac Abiasaph: dyma deuluoedd y Coraiaid.

25 Ac Eleazar, mab Aaron, a gymerodd yn wraig iddo un o ferched

yn wefusau tewion; ond gan nas gellir caniatu yr ystyr yma am y rheswm uchod, rhaid fod y gair yn cyfeirio at ryw ataliad naturiol yn ei barabell, neu at wybodaeth amherfaiath o'r Aifftaeg ar ol bod ymaith *dleugain* wlynedd: gwel ar pen. iv. 10.'

Adn. 13. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses*] Y byddai Aaron yn lle gwefusau iddo ef; ac wrth Aaron—y byddai Moses yn lle Duw iddo yntau, pen. iv. 16, a vii. 1. *Ac a roddodd orchymyn iddynt at feibion Israel*—i'w cysuro yn ngwyneb cyfyngdra eu hysbryd, trwy sierhau iddynt am eu rhyddhad; ac at Pharao—i geisio ganddo eu gollwng hwy ymaith o'i wlad, pen. vii. 2.

Adn. 14. *Dyma eu pencenedl hwynt*] Sef eu penaethiaid neu eu caddeniaid. Yr achyddiaeth ganlynol a fwriddwyd yn unig i ddangos ddarvoud i Moses ac Aaron ddisgryn mewn llinell uniawn oddiwrth Abraham, ac i sierhau *amser* gwaredigaeth Israel. Y mae yr holl adroddiad, o'r adnod hon hyd adn. 26, yn fath ar ymadrodd ymsangawl, heb berthlyn i'r hanes; a'r hyn a ganlyn o adn. 28 i'r diwedd sydd ailadroddiad o'r hyn a ddywedaisid o'r blaen.

Adn. 15. *Dyma deuluoedd Simeon*] Y mae penau tri o'r llwythau yn cael eu henwi yma, sef Reuben, Simeon, a Lefi; a thybia Dr. Lightfoot eu bod yn cael eu hurddasu fel hyn, am eu bod wedi eu gadael dan nôd o warth gan eu tad,—Reuben am ymlogach, a Simeon a Lefi am lofruddiad y Sichemiaid; ac am hyn y mynai Moses roddi yr anrhydedd neillduol hwn arnynt hwy, i fawrygu trugaredd Duw yn eu hedifeirwch a'u maddeuant; ac fel 'siamp! i'r rhai a gredent rhagllaw.'

Adn. 16—19. *A blynyddoedd oes Lefi, &c.*] Y mae oedran Lefi, Cohath, ac Amram, sef tad, taid, a hendaidd Moses, yn cael ei goffa yma; a buont oll byw i oedran mawr,—Lefi i

137, Cohath i 133, ac Amram i 137. Ni chyrhaeddodd Moses ei bun i'r oed yma; ac efe a nododd 70 neu 80 fel hyd cyffredin y bywyd dynol, Salm xc. 10. Yr oedd Israel yn awr wedi lluosogi yn genedl fawr, ac yr oedd datguddiad dwyfol wedi ei roddi mewn ysgrifened trwy law Moses, ac heb gael ei ymddioid mwyach i draddodiad: gan hyn yr oedd y ddau reswm mawr dros hir oes y patrieirch wedi darford, ac o hynny allan gwna'i llai o flynyddoedd y tro i ddynion.

Adn. 20. *Ac Amram a gymerodd Jochebed, ei fodryb chwaer ei dad*] Neu ei gares, fel y mae y gair Hebreig yn meddwl yn fynych. Y mae y berniaid goraf yn meddwl mai *cyfnither* oedd Jochebed i Amram, ac nid ei *fodryb*: gwel ar pen. ii. 1. *A hi a ymddyg iddo Aaron a Moses*—y mae y Samaritanaeg, y LXX, y Syriaeg, ac un ysgrif Hebreig, yn chwaneu yma, a *Miriam eu chwaer*; ac y mae rhai o'r berniaid goraf yn meddwl fod y geiriau hyn yn wreiddiol yn y testyn Hebreig.

Adn. 21. *Cora*] Yr hwn oedd yn geinfder i Moses. Er iddo ef droi yn wrthryfelwr yn erbyn Duw a Moses, (Num. xvi. 1, &c.) eto y mae Moses, yn ei fawr amhleiddgarwch, yn gosod ei enw ef yn mhlith ei berthynasau.

Adn. 22. *Uzziel*] Ewythr Moses, brawd ei dad, adn. 18, Lef. x. 4.

Adn. 23. *Ac Aaron a gymerodd Elisebah*] Hynny yw, 'llw, neu gyfammod yr Arglwydd.' Yr un enw ydyw ag *Elizabeth*, yr hwn sydd mor gyffredin yn ein teuluoedd ni. Yr oedd hi o lwyth brenhinol Juda. Gallai y Lefiaid briodi i unrhyw lwyth, gan nad oedd perygl dyryswech neu golliant etifeddiaeth trwy hyn: gwel ar Luc i. 36. *Eleazar*—yr hwn a ddaeth i'r archeofferiadaeth ar farwolaeth Aaron, ei dad, Num. xx. 25.

Adn. 24. *Meibion Cora*] Gwel ar adn. 21.

Adn. 25. *Phineas*] Am weithred glodfawr

Putiel; a hi a ymddydd iddo ef Phineas: dyma benau cenedl y Lefiaid, yn ol eu teuluoedd.

26 Dyma Aaron a Moses, y rhai y dywedodd yr Arglwydd wrthynt, Dygwch feibion Israel allan o wlad yr Aifft, yn ol eu lluoedd.

27 Dyma y rhai a lefarasant wrth Pharao brenin yr Aifft, am ddwyn meibion Israel allan o'r Aifft: dyma'r Moses ac Aaron hwnw.

28 ¶ A bu, ar y dydd y llefarodd yr Arglwydd wrth Moses yn nhir yr Aifft,

29 Lefaru o'r Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd, Myfi yw yr Arglwydd: dywed wrth Pharao, brenin yr Aifft, yr hyn oll yr ydwyf fi yn ci ddywedyd wrthynt.

30 A dywedodd Moses ger bron yr Arglwydd, Wele fi yn ddiennaededig o wefusau; a pha fodd y gwrendy Pharao arnaf?

PENNOD VII.

A'R Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Gwel, mi a'th wnaethym

y dyn hwn, a'r rhodd dra anrhydeddus a wnaed iddo ef a'i hiliogaeth, gwel Num. xxv. 7—13.

Adn. 26. *Yn ol eu lluoedd*] Fel byddinoedd lluosog mewn trefn filwraidd, a chydau gallu mawr. Trwy fod y rhai hyn gan Dduw yn neillduol dan ei ofal a'i gyfarwyddyd, y cafodd efe yr enw *Arglwydd y Lluedd*.

Adn. 27. *Dyma'r Moses ac Aaron hwnw*] Hyn yw, dyma eu hachau, eu cenedl, a'u swydd.

Adn. 28. *A bu, &c.*] 'Yma y dylai y *seithfed* bennod ddechren, trwy fod cyflawn ddiweddiad i'r *chweched* gydag adn. 27; ac y mae adn. 30 o'r bennod hon yn hollol gysylltiedig â'r adnod gyntaf o'r bennod nesaf.—CLARKE.

Adn. 29. *Dywed wrth Pharao, brenin yr Aifft, yr hyn oll yr ydwyf fi yn ci ddywedyd wrthynt*] Megys cenad iyyddlon. Rhaid i'r rhai sydd yn myned ar neges dros Dduw, beidio ymattal rbag mynegu holl gynghor Dduw.

Adn. 30. *Wele fi yn ddiennaededig o wefusau*] Hyn sydd ailadroddiad er cysylltu yr hanes: gwel ar adn. 12, 14, ac ar pen. iv. 10.

PEN. VII. Adn. 1, 2. *Mi a'th wnaethym yn Dduw i Pharao*] Yn gynrychiolwr i mi yn yr achos hwn, fel mai ar dy air di y daw pob pla, ac wrth dy orchymyn di y symudir pob un. Fel hyn yr oedd yn rhaid fod Moses yn ymddangos i Pharao megys pe buasai yn dduw. *Ac Aaron dy frawd fydd yn broffwyd i tithau*—efe a lefara drosot ti wrth Pharao, fel y gwna proffwydi dros Dduw wrth ddyinion.

Adn. 3. *A minau a galedaf galon Pharao*] A oddefat i'w gydynrwydd a'i ystyfnigrwydd ef aros yn barhaus, fel y cafwyf well cyfleusdra i lusogi fy rhyfeddodau yn y wlad, fel y

yn Dduw i Pharao; ac Aaron dy frawd fydd yn broffwyd i tithau.

2 Ti a leferi yr hyn oll a orchymynwyf i ti; ac Aaron dy frawd a lefara wrth Pharao, ar iddo ollwng meibion Israel ymaith o'i wlad.

3 A minau a galedaf galon Pharao, ac a amlhaf fy arwyddion a'm rhyfeddodau yn ngwlad yr Aifft.

4 Ond ni wrendy Pharao arnoch: yna y rhoddaf fy llaw ar yr Aifft; ac y dygaf allan fy lluoedd, fy mhobl, meibion Israel, o wlad yr Aifft, trwy farnedigaethau mawrion.

5 A'r Aifftiaid a gânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd, pan estynwyf fy llaw ar yr Aifft, a dwyn meibion Israel allan o'u mysg hwynt.

6 A gwnaeth Moses ac Aaron fel y gorchymynodd yr Arglwydd iddynt; *ic*, felly y gwnaethant.

7 A Moses ydoedd fab pedwar ugain mlwydd, ac Aaron yn fab tair blwydd a phedwar ugain, pan lefarasant wrth Pharao.

8 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,

gwybyddo yr Aifftiaid mai myfi yn unig wyf JEHOFA, adn. 5: gwel ar pen. iv. 21.

Adn. 4. *Ond ni wrendy Pharao arnoch*] Yn y dechre; *Yna y rhoddaf fy llaw ar yr Aifft*—y caf gyfleusdra i amlygu fy ngalun mawr yn eu mysg; ac y *dygaf allan fy lluoedd*—yn y diwedd, er gwaethaf Pharao a'i swynwyr.

Adn. 5. *A'r Aifftiaid a gânt wybod*] Dyben mawr yr arddangosiad hwn o wyrthiau ydoedd profi i'r Aifftiaid, ac hefyd i'r holl fyd, fod JEHOFA, Gwaredwr hollallnog ei bobl Israel, nid yn unig yn fwy na'u duwiau hwy, ac na holl dduwiau y cenedloedd; ond hefyd mai efe oedd Prifreolydd a Llywydd pob peth cïeddig: ac os bydd i ni ystyried y gwyrtbiau yn yr olwg yma, nyni a gawn eu bod oll yn tneddu i egluro penarglwyddiaeth Jehofa dros holl natur.

Adn. 6. *Ic, felly y gwnaethant*] Yn gywir megys y gorchymynodd yr Arglwydd, heb ddaflu dim yn ei erbyn ar gyfrif ystyfnigrwydd Pharao, na'r diflyg yn mharabliad Moses.

Adn. 7. *A Moses ydoedd fab pedwar ugain mlwydd*] Joseph, yr hwn oedd i fod yn *was* i Pharao, a ddeviswyd yn 30 mlwydd oed; cithr Moses, yr hwn oedd i fod yn *dduw* i Pharao, ni urddaswyd felly nes ei fod yn 80 mlwydd oed. Yr oedd yn iawn iddo ef aros yn hir am y cyfryw anrhydedd, a bod yn hir yn ymbarotoi gogyfer i'r fath wasanaeth. A rhaid fod oedran a difrifwch Moses ac Aaron yn rhoddi iddynt bwys ac awdurdod mawr gerbron Pharao.

Adn. 9. *Pan lefaro Pharao wrthynt, gan ddywedyd, Danghoswech genych wyrthiau*] Y mae GWYRTN, *mopheth*, yn arwyddo effiaith

9 Pan lefaro Pharao wrthych, gan ddywedyd, Danghoswch genych wyrthiau; yna y dywedi wrth Aaron, Cymer dy wialen, a bwrw hi gerbron Pharao; a hi a f yn sarff.

10 ¶ A Moses ac Aaron a aethant i mewn at Pharao, ac a wnaethant felly, megys y gorchymynasai yr Arglwydd: ac Aaron a fwridd ei wialen gerbron Pharao, a cherbron ei weision; a hi a aeth yn sarff.

gynyrchedig mewn natur ag sydd yn wrthwyneb i'w deddfau, neu tnhwnt i'w galluoedd. Gau y profesai Moses ac Aaron fod ganddynt ddywfol genadwri, yr oedd yn naturiol meddwl, os rhoddi Pharao wrandawid iddynt, y byddai iddo ofyn ganddynt am ryw brawf fod eu hōniadau i'r fath ddywfol genadwri wedi eu seilio yn dda a diwrthdadau. Yna y dywedi wrth Aaron, cymer dy wialen—daliai Moses hon yn gyffredin yn ei law, a rhoddi hi i Aaron yn achlysurol i gyflawni ei orchymynion. Y wialen neu y 'fugeillfon' hon a gysegwyd yn awr i'r perwyl o wneuthur gwyrtiau; a gelwir hi yn ddiwahaniaeth yn wialen Duw, gwialen Moses, a gwialen Aaron.

Adn. 10. *A hi a aeth yn sarff*] Yn pen iv. 3, dywedir i'r wialen hon gael ei throï yn sarff; ond y gair gwreiddiol yno i'w *nachash*, ac yma *tannin*, yr un gair ag a gyfeithwn ni *morfarch*, Gen. i. 21. Tybia Lightfoot mai y *crocodil* a feddylir, i safn yr hwn y taflasai Pharao blant yr Hebreaid. Megys y mae *nachash* yn ymddangos i fod yn enw heb ei grfyngu i unrhyw un ystyr neillduol, felly arferir y gair *tannin* yn yr ysgrifthyrau i arwyddo gwahanol fathau o greaduriaid. Gan mai *gwialen* neu *ffon* a drowyd yn *tannin* yn yr achos dan sylw, tybiwyd mai *sarff* gyffredin a feddylir yma wrth y gair, am y galai maintoli y dŵy fod felly yn lled gyfartal: ond gan mai *gwyrt* a wneid ar yr achos, nid yw yr amgylchiad hwn o unrhyw; canys yr oedd mor hawdd i Dduw droi y wialen yn *grocodil*, neu rŵw greadur arall, a'i throï yn *wiber* neu *neidr* gyffredin. Y wyrth gyntaf hon, er nad oedd yn bla, eto oedd yr un peth a bygythiad o bla; os na wnaeth i Pharao deimlo, hi a wnaeth iddo ofni: a dyma fel y mae Duw yn ymddywyt at bechaduriaid; y mae yn dyfod arnynt yn raddol.

Adn. 11. *A Pharao hefyd a alwodd am y doethion*] Heb. *chacamim*, gwyr o ddysg; *a'r hudolion*—Heb. *cashshephim*, rhai yn datguddio pethan cuddiedig. Y rhai hyn oeddnt ddewiniaid, neu rai yn cymeryd arnynt *amlygu* pethau i ddyfod, *datguddio* pethau coll-odig, *a chael hyd* i drysorau cuddiedig, &c. *Swynwyr*—Heb. *chartummei*, deonglwyr ysgrifeniadau dyrys; gwel ar Gen. xli. 8. *A wnaethant felly trwy eu swymion—y mae y gair lahatim*, meddai CLARKE, yn dyfod oddiwrth *lahat*, llosgi, tanio; ac yn debygol yn arwyddo y fath gyfareddion ag a ofynent *dānau pur-eiddiol*, *ebyrth*, *mwgdarthau*, &c., fel moddion i godi sbrydion yniadawedig neu eylllon cynorthwylol, trwy weindogaeth pa rai ond oddi y darfu i'r swynwyr hyn wneuthur rhai

11 A Pharao hefyd a alwodd am y doethion, a'r hudolion: a hwythau hefyd, *sef* swynwyr yr Aiff, a wnaethant felly trwy eu swymion.

12 Canys bwriasant bob un ei wialen; a hwy a aethant yn seirff: ond gwialen Aaron a lyncodd eu gwaiail hwynt.

13 A chalon Pharao a galedodd, fel na wrandawai arnynt hwy: megys y llefarasai yr Arglwydd.

o'u gwyrtiau. Er yr addeir bron yn gyffredinol mai *gwir* seirff a gynyrchwyd gan y swynwyr hyn, eto y mae dwy dyb ar y pen hwn: 1. Fod y seirff hyn yn gyftw ag a ddygesid ganddynt hwy i'r lle, naill ai trwy chwidogaeth (*juggling*) neu law ysgafu, ac a guddiesid hyd yr amser i'w dangos, fel y gwna ein-consurwyr cyffredin ni ar hyd y wlad. 2. Ddarfod i'r seirff gael eu dwyn trwy weindogaeth ysbryd dewiniaeth, yr hwn, trwy y filamau swynol ag y cyfeiriwyd atynt eisioes, a godesid i'r perwyl. Y mae y ddyw dyb yma yn addef fod y seirff yn rhai *gwirioneddol*, ac nid yn dwyll-ymddanghosiad fel y tybiodd rhai. Y mae y dyb gyntaf yn ymddangos yn aungonol i roddi cyfrif tēg am y peth. Os darfu i'r swynwyr fwrw i lawr eu gwaiail, a hwythau fyned yn seirff ar ol eu bwrw i lawr, fel y dywedir yn bendaut yn adn. 12, yna nid oedd gan chwidogaeth neu law ysgafu ddim i'w wneuthur yn mhellaeth yn y gorchwyl, trwy fod y gwaiail y pryd hyn *allan* o'u dwyllaw. Os darfu i wialen Aaron lyncu eu gwaiail hwy, nid oedd gan eu llaw ysgafu ddim mwyach i'w wneuthur. Gall dyn, trwy law-fedrusrwydd, dwyllo ei edrychwyr mor bell fel ag i *ymddangos* yn bwytia gwialen; ond i waiail yn gorchwedd ar y ddaear fyned yn seirff, ac i un o'r rhai hyn lyncu y lleill oll, fel nad oedd ond ei hunan yn aros, a ofynai rywbeth mwy na chwidogaeth. Pa faint mwy rhesymol ydyw addef ar unwaith fod gan y swynwyr hyn ysbrydion dewiniaeth, y rhai a allent ymrithio yn mhob llun, a chyfnewid ymddanghosiad y gwrthdrysychau ar y rhai y gweithredent, neu yn ddisymwth gymeryd y naill beth ymaith a rhoddi peth arall yn ei le! Ni fedd natur y fath allu, na chelfyddyd y fath ddyllanwad, fel ag i gynyrchu yr effeithiau a briodolir yn y pennodau hyn i swynwyr yr Aiff: gwel yr adfeddyliaid yn niwedd y bennod.

Adn. 12. *Onid gwialen Aaron a lyncodd eu gwaiail hwynt*] Hyn yw, *sarff* Aaron a lyncodd eu seirff hwynt, *sef y gwaiail* y rhai a drowyd yn seirff. Trwy fod yr Aiff yn hynod o ymroddgar i swynyddiaeth, dewiniaeth, &c., yr oedd yn angenrheidiol i Dduw oddef i ddoethion Pharao weithredu hyd eithaf eu gallu mewn efelychiad i waith Duw, fel y byddai i'w oruchafiaeth ef gael ei weled yn eglur, a'i nerthol weithrediad gael ei sicrhau yn annadlenadwy; a gwnaed hyn yn gyflawn pan y darfu i wialen Aaron lyncu eu gwaiail hwy: gwel yr adfeddyliaid. Nyni a welom eisioes mai enwau dau o'r swynwyr hyn oeddnt *Jannes a Jambres*; (gwel ar pen. i.

14 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Caledodd calon Pharao; gwrthododd ollwng y bobl ymaith.

15 Dos at Pharao yn forc: wele efe a ddaw allan i'r dwfr; saf dithau ar lan yr afon erbyn ei ddyfod ef; a chymer yn dy law y wialen a dröodd yn sarff.

16 A dywed wrtho ef, Arglwydd Dduw yr Hebreaid a'm hanfonodd atat, i ddywedyd, Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont yn yr anialwch: ac wele, hyd yn hyn, ni wrandewit.

17 Fel hyn y dywedodd yr Ar-

glwydd; Wrth hyn y cai wybod mai myfi yw yr Arglwydd: wele myfi, a'r wialen sydd yn fy llaw, a darawaf y dyfroedd sydd yn yr afon, fel y tröer hwynt yn waed.

18 A'r pysg sydd yn yr afon a fyddant feirw, a'r afon a ddrewa; a bydd blin gan yr Aifftiaid yfed dwfr o'r afon.

19 ¶ Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Dywed wrth Aaron, Cymer dy wialen, ac estyn dy law ar ddyfroedd yr Aifft, ar eu ffrydiau, ar eu hafonydd, ac ar eu pyllau, ac ar eu holl lynau dyfroedd, fel y byddont

16, a 2 Tim. iii. 8;) a gellir gweled llawer o draddodiadau a chwedlau am danynt gan yr ysgrifenywyr dwyreiniol.

Adn. 13. *A calon Pharao a galedodd*] Yr hyn yn amlwg oedd effaith ei gyndynrwydd ef ei hun yn cau ei lygaid yn erbyn y gwirionedd: gwel ar pen. i. 7. 21.

Adn. 14. *Caledodd calon Pharao*] Heb. *cabad*, daeth yn drwm neu ystyfnig, fel nad yw fy ngeiriau na'm gwyrthiau y cael un argraff arno ef! Nyni a wyddom yn dda am rym *rhagfarn*. Lle y mae dynion yn penderfynu meddwl a gweithredu yn ol cynllun rhagfwiadol, y mae rhesymau, prawfiadau, ac hyd yn nod gwyrthiau eu hunain, yn rhy weiniaid i'w troi hwy, fel yn achos Pharao yma, a'r Iuddewon cildynus yn nyddiau Crist a'i apostolion.

Adn. 15. *Wele, efe a ddaw allan i'r dwfr*] Naili ai i ymrodchi, neu i gyflawni rhyw buredigaeth grefyddol. Ond tybia rhai mai myned allan yr ydoedd i dalu addoliad i'r afon Nilus, yr hon a addolid gan yr hen Aifftiaid; a dywed rhai o'r hen Iuddewon fod Pharao ei hun yn swynwr, ac y byddai ef yn rhodio ar lan yr afon yn fore bob dydd, i barotoi ei ddefodau swynyddol.

Adn. 16. *A dywed wrtho, &c.*] Dyro iddo gynyg unwaith eto oddiwrt hwy aurdurid i; ac os na wrendy, dywed wrtho am y barnedigaethau a ddyllynant.

Adn. 17. *Wrth hyn y cai wybod mai myfi yw yr Arglwydd*] Efe a ddywedasai mewn balchder, 'Pwy yw yr Arglwydd, fel y gwrandawn i ar ei lais?' pen. v. 2; ac yn awr y mae yr Arglwydd yn myned i ddyysgu iddo pwy ydyw trwy ei farnedigaethau. *Wele myfi, a'r wialen sydd yn fy llaw*—yr hon mor ddiweddar a fuddugoliaethodd ar wial y swynwr; a darawaf y dyfroedd sydd yn yr afon, fel y tröer hwynt yn waed—Yr oedd yr Aifftiaid wedi cochli dyfroedd yr afon â gwaed y babanod, ac yn awr troir hwy yn waed mewn rhan yn gosp am hyn, Doeth. xi. 5—7.

Adn. 18. *A bydd blin gan yr Aifftiaid yfed dwfr o'r afon*] 'Y mae dwfr y Nilus mor beraidd,' meddai yr *Abad Maserier*, llyth. i. d. 15, 16, 'fel na ddymunai neb i'r gwres fod yn llai, na chael ei waredu oddiwrt hwy y teimlad o syched. Y mae y Tyrciaid yn ei gael mor ragorol nes y maent yn eu cynhyrfu eu hunain i'w yfed trwy fwyta *halen*.

Y mae yn ddywediad cyffredin yn eu plith, pe yr yfasai Mahomet o hono, y buasai iddo erfyn gan Dduw am gael peidio marw byth, i'r dyben i gael y boddineb hwn yn barhaus. Pan y mae yr Aifftiaid yn myned ar bererindod i Mecca, neu yn myned o'u gwlad ar ryw achos arall, nid ydynt yn son am ddim ond yr hyfrydych a gânt ar eu dychweliad wrth yfed o ddyfroedd y Nilus. Nid oes un boddhad i'w gyffelyhu i hwn: y mae tuhwnt, yn eu cyfrif hwy, i'r un o weled eu perthynasau a'u teuluoedd. Y mae pawb ag sydd wedi profi y dwfr hwn yn cyfaddef na chyfarfuasant erioed â'i gyffelyb mewn un lle arall. Pan y mae un yn yfed o hono y waith gyntaf, braidd y gellir ei berswadio nad dwfr wedi ei barotoi trwy gelfyddyd ydyw; canys y mae ynddo rywbeth ag sydd yn annbraethadwy ddymunol a lyfrid i'r archwaeth. Ond ei rinwedd gwerthfawrocaf ydyw, ei fod yn hynod iachusol. Nid yw byth yn peri rhwystr, pa faint bynag a yfir o hono: y mae hyn mor wir fel nad yw yn beth anghyffredin gweled rhai dynion yn yfed tair ystenaid o hono mewn diwrnod, heb yr anghyfleusdra lleiaf! Tra yr wyf yn rhoddi y fath ganmoliaeth i ddwfr yr Aifft, y mae yn iawn sylwi nad wyf yn son ond am ddwfr y Nilus, yr hwn yn wir yw yr unig ddwfr yfadywy; canys y mae dwfr eu *pydewau* yn ffaidd ac afachus. Y mae *ffynnonau* mor anaml nes y maent yn fath ar ryfeddod yn y wlad hono; ac am *ddwfr gwlad*, y mae hwnw allan o'r cwestiwn, gan nad oes braidd ddim yn disgyn yn yr Aifft. Yn gysou â hyn y dywed *Harmer*, cyf. iii. d. 561: 'Bydd i'r hwn na chlybu erioed o'r blaen am bereidd-dra dwfr y Nilus, nac am y mesurau mawrion a yfir o hono ar y cyfrif hwnw, gael grym yn y geiriau hyn o'r eiddo Moses wrth Aaron, *A bydd blin gan yr Aifftiaid yfed dwfr o'r afon*, na sylwedd efe arno, yr wyf yn sicr, erioed o'r blaen. Bydd blin ganddynt yfed o'r dwfr hwnw ag yr aferent ei ddewis o flaen holl ddyfroedd y byd; bydd blin ganddynt yfed o hwnw ag yr aferent hiraethu am dano; a dewisant yn hytrach yfed o ddwfr pydew, yr hwn yn eu gwlad hwy sydd ffaidd!'

Adn. 19. *A bydd gwaed trwy holl wlad yr Aifft, yn eu llestri coed a cherig hefyd*] Nid yn unig y Nilus ei hun oedd i'w throï fel hyn yn waed yn ei holl ganghenau, a'r camlasau a

yn waed; a bydd gwaed trwy holl wlad yr Aifft, yn eu llestri coed a cherig hefyd.

20 A Moses ac Aaron a wnaethant fel y gorchymynodd yr Arglwydd: ac efe a gododd ei wialen, ac a darawodd y dyfroedd y rhai oeddynt yn yr afon, yn ngwydd Pharao, ac yn ngwydd ei weision; a'r holl ddyfroedd y rhai oeddynt yn yr afon a drowyd yn waed.

21 A'r pysgod, y rhai oeddynt yn yr afon, a fuant feirw; a'r afon a ddrewodd, ac ni allai yr Aifftiaid yfed

dwfr o'r afon; a gwaed oedd trwy holl wlad yr Aifft.

22 A swynwyr yr Aifft a wnaethant y cyffelyb trwy eu swynion: a chaledodd calon Pharao, ac ni wrandawodd arnynt: megys y llefarasai yr Arglwydd.

23 A Pharao a droodd ac a aeth i'w dŷ, ac ni osododd hyn at ei galon.

24 A'r holl Aifftiaid a gloddiasant oddiamgylch yr afon am ddwfr i'w yfed; canys ni allent yfed o ddwfr yr afon.

25 A chyflawnwyd saith o ddyddiau, wedi i'r Arglwydd daro yr afon.

ddeillient oddiwirhi; ond yr oedd holl ddwfr y llynoedd, y pyllau, a'r cronfeydd, i fyned dan gyffelyb gyfnewidiad: ac yr oedd hyn i ymestyn hyd yn nod at y dwfr a ddygesid eisioes i'w tai i ddybenion ceginiaid a theuluaid ereill.

I. Y pla cyntaf—Y DYFROEDD YN CAEL EU TROI YN WAED.

Adn. 20, 21. A'r holl ddyfroedd y rhai oeddynt yn yr afon a drowyd yn waed] Nid mewn ymddangosiad yn unig, eithr mewn gwirionedd; canys y dyfroedd a ddaethant yn llygreddig ac afiach, nes y darfu i'r pysgod yn yr afon feirw; a daeth eu harogl mor ffaidd fel nas gellid yfed y dyfroedd.

Adn. 22—24. A swynwyr yr Aifft] Trwy oddefiad Duw, a wnaethant y cyffelyb trwy eu swynion—ymddengys iddynt gyflawni gwyrthiau, canys y testyn a ddywed yn bendant iddynt wneuthur yr un peth a Moses, ac fe allai er syndod iddynt eu hunain yn gystal ag i ereill, heb wybod y byddai i un effaith o'r fath ganlyn eu defnyddiad hwy o'u swanion. Y mae yn sicr eu bod yn anwybodus o helaethder eu gallu eu hunain, neu yn hytrach o'r hyn a wna'i neu a allai Satan ei gyflawni trwyddynt hwy, onidê ni buasant yn eu gwarthruddo eu hunain trwy geisio dwyn llau, yr hyn ni allent ei wneuthur. Darfu i'r hyn a wnaethant wasanaethu yn esgus i Pharao i beidio gosod hyn at ei galon, adn. 23. Ac esgus tylawd ydoedd! Pe gallasant droi yr afon waed yn ddwfr drachefn, ac â gair buro y dyfroedd hyny a lygredid gan nerth hollalluog Duw, buasant yn gwneuthur i Pharao a'i bobl flafar hynodol, a chwasai yntau ryw esgus dros ei gyndynrwydd. Ond yr oedd rhagoriaeth gwyrtiahu Moses yn ddigon amlwg, fel ag y gorffodwyd hwy yn y diwedd i gydnabod mai trwy fys Duw yr oedd yr hyn a wna'i efe, pen. viii. 19. Ac yr oedd Duw, wrth oddef iddynt lwyddo mor bell a hyn yn eu gwrthwnebiad, fel y sylwa yr Esgob Kidder, yn gwneyd eu hyfydrwydd hwy yn fwy amlwg: canys wrth oddef iddynt droi y dyfroedd yn waed, a'i osod allan o'u gallu i'w hadferyd i'w purdeb blaenorol; ac wrth ganiatau iddynt ddwyn llyffaint, y rhai nid allent eu symud; ni wnaeth efe ddim ond rhoddi yn eu gallu i chwaneu y plâu hyny arnynt eu hunain a'u cydwladyr, ar yr un pryd ag yr arddangosent eu hanallu eu hunain. Ond

gofyna rhai, 'Os cafodd yr holl ddwfr yn yr Aifft ei droi yn waed gan Moses, yn mha le y cafodd y swynwyr ddwfr i'w droi yn waed? Y mae y cwestiwn hwn yn cael ei ateb yn adn. 24. Yr Aifftiaid a gloddiasant o amgylch yr afon am ddwfr; ac ymddengys nad oedd y dwfr a gaent fel hyn yn waedlyd; ac ar y dwfr hwn gan hyny, fel y sylwa Clarke, y gallai y swynwyr weithredu. Heblaw hyn, er i orchymyn cyffredinol gael ei roddi i Moses i droi nid yn unig ddyfroedd y Nilus yn waed, ond hefyd y ffrydiau, y pyllau, a'r llynoedd; eto ymddengys yn dra eglur oddiwirth adn. 20 nad aeth efe mor bell a hyn, o leiaf y waith gyntaf; canys dywedir yno na throywyd ond dyfroedd yr afon yn waed: ac wedi hyny diamau i'r pla fyned yn gyffredin. Yn uechre y pla hwn, gan hyny, yr oedd yn hawdd i'r swynwyr gael dwfr i efelychn y wyrth; ac nid oedd yn anhawdd iddynt hwy trwy gastiau chwidogarl, neu gyntrohw ysbryd dewiniaeth, roddi iddo ymddangosiad gwaedlyd, arogl drowedig, a blas drwg. Ar y naill dir neu y llall nid oes dim gwrthddywediad yn yr hanes santaidd, er i rai fod yn dra diwyd yn chwilio am y cyfryw. Gellir ystyried y pla hwn, fel y nodwyd ar adn. 17, yn arddangosiad o gyfiawnder ad-daledigol yn erbyn yr Aifftiaid am lofruddio plant yr Israeliaid yn yr afon hon; canys ei dyfroedd hi, y rhai oeddynt mor angenrheidiol er eu cynaliaeth a'u bywyd, a wnaed yn awr nid yn unig yn afiach ond yn angeuol, trwy gael eu troi yn waed. Heblaw hyn, gan fod y Nilus yn un o brif wrthddrychau addoliad yr Aifft, a'u bod yn ffynyddol yn offrymu geneth, neu fel y dywed rhai fachgen a geneth, i'r afon hon, mewn ffordd o ddiolchgarwch am y llesad a dderbyniwyd oddiwirth, gallai fod Duw yn bwriadu y pla hwn fel cosp am y fath greulondeb; a rhaid fod gan y dirmyg a dywalltwyd ar y gwrthddrych hwn o'u baddoliad trwy droi ei dyfroedd yn waed, a'u gwneuthur yn llygreddig a drowedig, duedd uniongyrchol i ddiwygio eu tybiau cilunaddolgar, a'u harwain i gydnabod gallu ac awdurdod y gwir Dduw. 'Wrth hyn y cai wybod mai *Mysi* yw yr *ARGLWYDD*,' adn. 17.

Adn. 25. A chyflawnwyd saith o ddyddiau] Felly ni a ddysgwn ddarod i'r pla hwn barhau o leiaf wythnos gyfan. Tybia yr Arch-egob Usher ddarod i'r *deg* pla gymeryd lle mewn yspaid un mis

PENNOD VIII.

A DYWEDODD yr Arglwydd wrth Moses, Dos at Pharao, a dywed wrtho, Fel hyn y dywed yr Arglwydd; Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

2 Ac os gwrthodi eu gollwng, wele,

ADFEDDYLIADAU.—Y mae yr ymryson rhwng Moses a swynwyr yr Aifft wedi dyfod yn hynod trwy yr holl fyd. Er nad yw eu henwau yn grybwyllledig yn y testyn santaidd, eto darfu i draddodiad eu cadw yn y cofiannau Iuddewig, o'r rhai yn ddiannau y dyfynai St. Paul, 2 Tim. iii. 8, lle y cydmarha efe elynion yr efengyl i 'Jannes a Jambres, y rhai a safasant yn erbyn Moses.' Mewn rhyw ystyr ymddengys yn hynod fod i Dduw fyned i unrhyw ymdrech gyda'r fath ddyinion a swynwyr yr Aifft; ond bydd i ychydig adfyriad d dangos angenrheidiwydd anheggorol am hyn. (1) Yr oedd yn angenrheidiol i'r swynwyr hyn gael eu goddef i arfer eithaf eu gallu yn erbyn Moses, i'r dyben i'w ryddhau ef oddiwrth y cyfrifiad o swyn neu gyfaredd; canys gan fod y dyb am y gyfryw gelfyddyd hynod yn beth tra chyffredin yn mhllith yr Aifftiaid a phob cenedl arall, y mae yn debyg, oni buasai iddynt fyned i'r cydymryson egniol hwn gydag ef, ac o'r diwedd gael eu gorchfygu ganddo, y buasai yr Hebreaid a'r Aifftiaid yn barotach i briodoli holl wyrthiau Moses i'w fedrusrwydd ei lun mewn swynyddiaeth, nag i'r gallu dwyfol. (2) Yr oedd yn angenrheidiol er cadarnhau fydd yr Israeliaid anwadad ac anobeithiol, trwy wneyd iddynt weled y gwahaniaeth rhwng Moses yn gweithredu trwy allu Duw, a'r hudolion trwy allu Satan. (3) Yr oedd yn angenrheidiol mewn trefn i'w cadw hwynt ar ol hyn rhag cael eu hudo gan ddim gau wyrthiau oddiwrth wir addoliad Duw. (4) Darfu i Dduw ganiatau hyn mewn trugaredd i'r Aifftiaid, fel y gallent hwy weled fod y dauw yn y rhai yr ymddiriedent, yn hollol analluog i'w gwaredu hwy; nas gallent hwy ddadwneuthur na gwrthsefyll un o'r pläau a ddanfonid arnynt trwy allu y Jehofa; nad oedd eu holl ddylanwad hwy yn cyraedd ond i ryw efelychiad arwynebol o'r gwir wyrthiau a wneid gan Moses yn enw y gwir Dduw. Yn ganlynol i hyn y mae yn naturiol casglu ddarfod i lawer o'r Aifftiaid, ac fe allai amrai o weision Pharao, gael eu gwaredu o'u heilumaddoliaeth, er i'r breinin ei hun galedu ei galon yn erbyn y prawfiadau a ddygai Duw yn y modd hwn gerbron ei lygaid! Fel hyn Duw a *adwaenir* wrth y fain a wna; canys yn holl waith ei ddwyllaw ei fwridd ef yw goleuo meddyliau dynion, i'w dwyn oddiwrth byder gau i ymddiried ynddo ei hun yn unig; fel, wedi eu gwaredu oddiwrth gyfeiliornad a phechod, y gallont fod yn ddoeth, santaidd, a deddydd. 'Preswylwyr y byd a ddysgant gyfiawnder, pan fyddo dy farnedigaethau ar y ddaear,' Esay xxv. 9. Gwel ar pen. iv. 21.

mi a darawaf dy holl dersynau di â llyffaint.

3 A'r a fon a heigia llyffaint, y rhai a ddringant, ac a ddeuant i'th dŷ, ac i ystafell dy orweddle, ac ar dy wely; ac i dŷ dy weision, ac ar dy bobl, ac i'th ffyrnau, ac ar dy fwyd gweddill.

4 A'r llyffaint a ddringant arnat ti,

mhobl] Y mae Duw, o'i fawr drugaredd i Pharao a'r Aifftiaid, yn eu rhybyddio o'r drygau ag y bwriadai efe eu dwyn arnynt yn mhellach os parhäent yn eu gwrthnysigrwydd; gan hynny, ar ol cael y cyfryw rybydd, gallasai y drwg gael ei atal trwy ymstyngiad a dychweliad prydlon at Dduw.

II.—PLA Y LLYFFAINT.

Adn. 2. *Ac os gwrthodi eu gollwng*] Ni all dim fod yn eglurach, fel y sylwa Clarke, na'i fod yn ngallu Pharao yn barhaus i ollwng ymaith y bobl, ac mai ei ommeddiad oedd effaith noeth ei gyndynrwydd gwirfoddol ef ei hun. *Wele, mi a darawaf dy holl dersynau di â llyffaint*—Heb. *tespardeim*. Y mae y gair hwn o darddiad amheus. Y mae braidd bob deongludd, hen a diweddar, yn cyduno i'w gyfieithu ef fel yr ydym ni yn gwneyd, er fod rhai yn meddwl mai y *crocodil* a olygir: ond ni all y rhai hyn, fel y sylwa Clarke, byth hwyso yn erbyn cyd-dystiolaeth yr hen gyfieithiadau. Y mae y *llyffaint* ynddo ei hun yn greadnr tra ddiwed; er ei fod, i'r rhai na ddefnyddiant ef yn fwyd, yn hynod atgas. Gallasai Duw yr un mor lawdd ddwyn *crocodiliaid*, *cirth*, neu *lewod*, i goshi y bobl hyn a'u breinin annuwiol, yn lle *llyffaint*, *llau*, &c.; ond pe defnyddiasai efe rai o'r bwystfod arswydol hynny, ymddangosasai yr effaith mor gymesur i'r achos, fel y gallasai llaw Duw gael ei hannghofio yn y gosh, a'r bobl a fuasant yn cael eu chweriw ac nid eu darostwng. Yn yr achos hwn y mae efe yn dangos mawredd ei allu, trwy wneuthur creadnr amddifad o bob cynydd ddrwg yn foddion o drallod dychrynlyd i'w elynion.

Adn. 3. *Y rhai a ddringant, ac a ddeuant i'th dŷ*, &c.] Yr oedd y pla hwn yn waeth na'r cyntaf, am ei fod yn fwy gwastadol a chyffredinol: canys nid oedd y cyntaf yn eu blino hwy ond pan yr elent i ddefnyddio y dwfr; ond yr oedd y llyffaint yn eu trallodi yn mhob lle a phob amser, ac yn blino eu holl synwyrâu gyda'u llun, en swn, a'u sylwedd ffaidd, gan ymgymysgu â'u bwydydd a'u diodydd, a dringo i'w gwelyau, fel nas gallent ymorphwys na bod yn rhydd oddiwrth mewn un man! *Ac i'th ffyrnau*—y rhai hyn oeddynt dwell yn y ddaear, yn mha un y gosodent lestr pridd, yn yr hwn, ar ol ei dwymo, y crasant eu teisenau yn olynol. Rhaid fod cael y fath leocdd yn llawn o llyffaint rhostiedig am ben eu bara, yn atgas a thrallodus i'r eithaf!

Adn. 4. *A'r llyffaint a ddringant arnat ti*, &c.] Yr oeddynt nid yn unig i ymosod ar eu meddiannau, ond hefyd ar eu personau, gan geisio ymwithio i mewn i'w clustiau, eu ffroenau, a'u gencuau!

ac ar dy bobl, ac ar dy holl weision.

5 ¶ Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Dywed wrth Aaron, Estyn dy law â'th wialen ar y ffrydiau, ar yr afonydd, ac ar y llynoedd; a gwna i llyffaint ddyfod i fyny ar hyd tir yr Aifft.

6 Ac Aaron a estynodd ei law ar ddyfroedd yr Aifft; a'r llyffaint a ddaethant i fyny, ac a orchuddiasant dir yr Aifft.

7 A'r swynwyr a wnaethant yr un modd, trwy eu swynion; ac a ddygasant i fyny llyffaint ar wlad yr Aifft.

8 ¶ Yna Pharao a alwodd am Moses ac Aaron, ac a ddywedodd, Gweddiwch ar yr Arglwydd, ar iddo dynu y llyffaint ymaith oddiwrth yf fi, ac oddiwrth fy mhobl; a mi a oll-yngaf ymaith y bobl, fel yr aberthont i'r Arglwydd.

Adn. 5. *Ar y ffrydiau, ar yr afonydd*] Gall y ffrydiau a'r afonydd yma gyfeirio at brif ramiadau y Nilus yn yr Aifft Isaf, y rhai o leiaf oeddynt *saitb*, ac at y camlasau â'r rhai y cysylltid y rhai hyn. *Ac ar y llynoedd*—gwel ar pen. vii. 19.

Adn. 6 *A'r llyffaint a ddaethant i fyny, ac a orchuddiasant dir yr Aifft*] Cawn anghreiffitiau o bla cyffelyb gan rai hen ysgrifenywyr. Gofu i'r *Aberiaid*, meddai Orosius, a thrigolion *Peonia a Dardania*, meddai Athenæus, adael eu gwlad o achos y niferoedd mawrion o lyffaint â'r rhai y blinid eu tir. A dywed Varro ddarfod i drigolion dinas yn Ffrainc gael eu gyru ymaith gan lyffaint.

Adn. 7. *A'r swynwyr a wnaethant yr un modd*] Ybyia Clarke y gallasai chwidogaeth neu law-fedrusrwydd fod yn eithaf digon er efelychiad y wrthi hon, am fod heiaethrwydd o lyffaint wedi eu cynyrchu eisoes. Ond y mae yn debycach ddarfod i Dduw ganiatau i'r swynwyr allu *gwneuthur* gwir lyffaint; canys os trwy chwidogaeth y dygasant hwy y llyffaint, pabam nad allasant ddwyn *llau* yr un modd? Gwel ar adn. 18.

Adn. 8. *Yna Pharao a alwodd am Moses*] Oblegid ei fod yn gwledu na ddaifu i'w swynwyr ef ddim ond chwaneu at y pla, heb allu ei symud. *Gweddiwch ar yr Arglwydd*—*dyma* y dyn a ddywedasai yn falch y dydd o'r blaen, 'Pwy yw yr Arglwydd?' yn awr yn dechren gwybod rhywbeth am allu a chyfiawnder yr Arglwydd; ac y mae yn dda ganddo gael Moses ac Aaron i fod yn eiriolwyr drosto ato ef!

Adn. 9. *Cymer ogoniant arnaf fi*] Heb. *hithpaer atai*. Y mae y geiriau hyn wedi mawr ddyrсу yr esbonwyr yn gyffredinol; ac lli yw yn hawdd penderfynu eu gwir ystyr. 'Ymddyga yn anilydeddus tuag ataf.—GEDDES. 'Ymfrostia yfel fi fel yn a ddichon, trwy allu Duw, wneyd yr hyn na fedr dy swynwyr di.'—POOLE. 'Cymer ogoniant arnaf fi, os gelli gymeryd pob maintais yn fy erbyn i leihau fy ngegoniant i, a chwaneu yr eiddot

9 A Moses a ddywedodd wrth Pharao, Cymer ogoniant arnaf fi: Pa amser y gweddiaf drosot, a thros dy weision, a thros dy bobl, am ddiffa y llyffaint oddiwrthyt, ac o'th dai, a'u gadael yn unig yn yr afon?

10 Ac efe a ddywedodd, Y fory. A dywedodd yntau, Yn ol dy air y bydd; fel y gwypech nad oes *neb* fel yr Arglwydd ein Duw ni.

11 A'r llyffaint a ymadawant â thi, ac â'th dai, ac â'th weision, ac â'th bobl; yn unig yn yr afon y gadewir hwynt.

12 A Moses ac Aaron a aethant allan oddiwrth Pharao. A Moses a lefodd ar yr Arglwydd, o achos y llyffaint y rhai a ddygasai efe ar Pharao.

13 A'r Arglwydd a wnaeth yn ol gair Moses: a'r llyffaint a fuant

dy hun.—BURDER. 'Cymer yr anrhydedd hwn i ti dy hun, o benodi i mi yr amser i eiriol drosot.'—COREE. Yn gyson â'r golygiad diweddaf y mae y LXX yn cyfieithu y geiriau fel hyn: *Penoda i mi pa bryd y gweddiaf, &c.*; ac yn yr ystyr yma, fel y sylwa CLARKE, y mae agos yr boll gyfieithiadau yn deall y lle. Gallwn feddwl fod Moses yn cyfarh Pharao yn y flordd hon: 'Fel y'th ddarbwyller mai Jehofa yn unig yw gweinyddydd y plâu hyn, penoda yr amser ag y myni i'r tralod presenol gael ei symud, a minau a weddiaf ar Dduw, a thi a gai weled yn eglur oddiwrth ei atebiad ef, nad yw hwn yn gystudd *damweiniol*; a'th fod ditbau, wrth galedu dy galon a gwrthsefyli, yn pechu yn erbyn Duw.' Ni allai dim fod yn brawf llawnach fod y pla hwn yn urwchnaturiol, na chaniatau i Pharao ei hun benu yr amser i'w symud, a'i symudiad ar eiriolaeth Moses yn ganlynol i hyn.

Adn. 10. *Ac efe a ddywedodd, Y fory*] Ond pabam nad heddyw? pabam nad yn ebrwydd, gan fod pob dyn yn ewyllsio yn naturiol gael ei waredu ar unwaith oddiwrth ddyoddefiadau? Y mae rhai yn meddwl ei fod yn gobeithio y byddai i'r llyffaint y nos hono llyned ymaith o honynt eu hunain, ac yna y cai efe ei waredu oddiwrth y pla heb fod yn rhwymedig i Dduw na Moses. Neu, wrth ystyried y fath dybiau amherffaith a raid fod ganddo ef am Dduw, gallwn feddwl ei fod yn ei barnu yn gwbl amhosibl symud y fath bla ar unwaith. Ond trwy fod ymyl y ddalen ei ddarllen *Erbyn y fory*, gall fod y wreiddiol yn awlygu ei ddymuniaid ef am waredigaeth ebrwydd.

Adn. 11. *Yn unig yn yr afon y gadewir hwynt*] Hyn yw, ni adewir un yn fyw ond y rhai sydd yn yr afon; a dywedir fod y Nilus yn nodedig am fagu llyffaint.

Adn. 12. *A Moses a lefodd, &c.*] Er fod Aaron yn dylyn Moses dros Dduw at Pharao, eto ymddygsys mai rhagorffaint Moses ei hun oedd myned dros Pharao at Dduw.

Adn. 13, 14. *A'r llyffaint a fuant*

feirw o'r tai, o'r pentrefydd, ac o'r meusydd.

14 A chasglasant hwynt yn bentryan; fel y drewodd y wlad.

15 Pan welodd Pharaon fod seibiant iddo, efe a galedodd ei galon, ac ni wrandawodd arnynt; megys y llefarasai yr Arglwydd.

16 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dywed wrth Aaron, Estyn dy wialen, a tharo lwch y ddaear, fel y byddo yn llau trwy holl wlad yr Aifft.

17 Ac felly y gwnaethant. Canys Aaron a estynnodd ei law a'i wialen, ac a darawodd lwch y ddaear; ac efe a aeth yn llau ar ddyn ac ar anifail: holl lwch y tir oedd yn llau trwy holl wlad yr Aifft.

chasglasant hwynt yn bentryau] Gallasai Duw yr un mor hawdd eu troi yn llwch; ond mynai ef iddynt orwedd yn feirwon o flaen eu llygaid, 1. I brofi eu bod yn wir lyffaint, ac nid twyll; 2. Fel arwydd fod anfoddlonrwydd yr Arglwydd yn aros yn barhaus.

Adn. 15. *Pan welodd Pharaon fod seibiant iddo, efe a galedodd ei galon*] Fel hyn y mae amynedd Duw yn cael ei gamarfer yn gywilydd gan bechaduriaid anedifeiriol: y maent yn ymgaledu trwy seibiant ag y mae efe yn ei roddi iddynt i'w tywys i edifeirwch! Yr oedd achos Pharaon yn debyg i edifeirwch gwely cystudd, yr hwn yn fynych sydd yn darfod fel y mae y nerth yn cryfhau. Ni fydd i amynedd Duw, na'i farnedigaeithau, achub y pechadur hwnw nad ymystyngio dan ddwyfol ras.

III.—PLA Y LLAU.

Adn. 16. *Estyn dy wialen, a tharo lwch y ddaear, fel y byddo yn llau*] Os y prif yn a ddeallir yn gyffredin wrth yr enw hwn a feddylir, rhaid ei fod yn bla tra arswydus a blin i'r Aifftiaid, ac yn enwedig i'w hoffieiriaid, y rhai, yn ol Herodotus, oeddynt yn gorfod eillio y blew oddiar bob rhan o'u cyrff bob tri diwrnod, a gwisgo hugen sengl, fel na fyddai i un pryf o'r fath yma gael ei oddef i lochesu o'u deutu. Ond nid yw y dysgedigion yn cytuno ar ystyr y gair *kinnim*, yr hwn a gyfieithir gan y LXX a'r Vulgate yn *ednigion*. Y mae Mr. Harmer yn meddwl mai y prifed a elwir *tarrentes* a olygir, y rhai sydd yn meddu colyn gwynnlyd yn peri chwydd a phoen ddirfawr yn y rhai a bigir ganddynt. Y mae Origen yn eu dysgrifio fel *trychfilod adeiniog*, ond mor fychain fel mai braidd y canfyddid hwy â llygaid noeth, y rhai a ymsefydlent ar y corff, gan ei golynu yn y modd mwyaf anoddefol. Eithr tybia Clarke mai yr *histeuen* neu y *dorogen* a feddylir; a dywed fod y creadur hwn yn claddu ei sugnedydd a'i ben yr un modd mewn dyn ac anifel, ac y goddef ef ei dynu yn ddarnau yn hytrach na gollwng ei fael.

Adn. 17. *Yn llau ar ddyn ac ar anifail*] Saes. 'mewn dyn ac mewn anifel;' ac felly y mae yn

18 A'r swynwyr a wnaethant felly, trwy eu swynion, i ddywyn llau allan; ond ni allasant; felly y bu y llau ar ddyn ac ar anifail.

19 Yna y swynwyr a ddywedasant wrth Pharaon, Bys Duw yw hyn: a chaledwyd calon Pharaon, ac ni wrandawai arnynt; megys y llefarasai yr Arglwydd.

20 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cyfod yn fore, a saf gerbron Pharaon; wele efe a ddaw allan i'r dwfr: yna dywed wrtho, Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd; Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

21 O herwydd, os ti ni ollyngi fy mhobl, wele fi yn gollwng arnat ti, ac ar dy weision, ac ar dy bobl, ac

y wreiddiol, gan gyfeirio at ei waith yn ymgladdu yn y croen.

Adn. 18. *A'r swynwyr a wnaethant felly*] Hyn yw, a geisiant hyd eithaf eu gallu i *gynrychu* y trychfilod hyn, neu, fel y mae rhai yn ei ddeall, i *symud* y pla. *Ond ni allasant*—wneyd y nail na'r llall. Yn awr, gan ei bod mor hawdd ddwyn llau a dwyn llyfiant, nyni a welwn trwy bā allu y gwnaethant hwy y ddyw wrth flaenorol, sef trwy allu goruwch-naturiol ag y darfu i Dduw oddef i Satan ei roddi iddynt, gweithrediad pellach yr hwn yr oedd ef yn awr yn barnu yn addas ei *attal*, i ddangos iddynt fod yr holl allu hwnw, i ba achos bynao y priodolent ef, yn derfynol yn ei natur, ac nad oedd i'w gydmharu â gallu Duw Israel: gwel ar adn. 7.

Adn. 19. *Yna y swynwyr a ddywedasant wrth Pharaon, Bys Duw yw hyn!*] Hyn yw, y mae gallu a medr Duw yma yn amlwg. Y mae yn debyg fod y swynwyr cyn hyn yn meddwl mai dewiniaid fel hwy eu hunain oedd Moses ac Aaron; ond yn awr argyhoeddwyd hwy na allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn a wneid gan y gwŷr santaid yma, oddieithr fod Duw gydag ef. Y mae Duw yn goddef i ysbrydion drygionus eu hanlygu eu hunain mewn rhyw flodd, fel y gallo dynion weled fod byd ysbrydol, a gwlyio rhag brudoliaeth: ar yr un pryd efe a ddengys fod yr holl oferynau hyn dan ei awdurdod ef, fel yr ymddiriedo dynion yn ei allu a'i ddaioni ei hun.

Adn. 20. *Wele efe a ddaw allan i'r dwfr*] Gwel ar wen. vii. 15.

IV.—Y CYMYSGBLA.

Adn. 21. *Wele fi yn gollwng arnat ti—gymysgbla*] Saes. 'heidiau o wybed.' Nid yw yn hawdd sicrhau gwir ystyr y gair gwreiddiol *hearob*. Gan fod y gair yn dyfod oddiwrth *arab*, efe a *gymysgodd*, fel y sylwa Clarke, gellir meddwl ei fod yn arwyddo lluaws o wahanol fathau o drychfilod, megys *gybed*, *cacuen*, *clyrnod*, &c. Y mae yr hen ddeonglwr Iuddeuwig yn meddwl fod pob math o fwystfilod ac ymlusgiaid yn cael eu bwriadu, megys *seirff*, *ysgorpionau*, *crocodil-*

i'th dai, gymysgbla; a thai yr Aifftiaid a lenwir o'r cymysgbla, a'r ddaear hefyd yr hon y maent arui.

22 A'r dydd hwnw y neillduaf fi wlad Gosen, yr hon y mae fy mhobl yn aros ynnddi, fel na byddo y cymysgbla yno; fel y gwypech mai myfi *yw* yr Arglwydd yn nghanol y ddaear.

23 A mi a osodaf wahan rhwng fy mhobl i a'th bobl di: y fory y bydd yr arwydd hwn.

24 A'r Arglwydd a wnaeth felly: a daeth cymysgbla drom i dŷ Pharao, ac i dai ei weision, ac i holl wlad yr Aifft; a llygrwyd y wlad gan y cymysgbla.

tai, eirth, llewod, &c. Y mae Bochart, gan ddylyn y LXX, yn meddwl mai y *ci-wybedyn* a olygir; a thybia Mr. Bate mai y *gūfran* a feddylir, am fod y gair gwreiddiol yn cael ei ddeall felly mewn lleoedd ereill. Barna Calmet mai *trychfilod* oeddynt, fel y nodwyd uchod, ac y gallasant fod wedi cael eu magu yn y llyfiant pydredig a gasglesid yn bentryan, adn. 14; ac felly fod moddion naturiol y pedwarydd pla hwn wedi ei ddarparu yn wyrthiol trwy yr ail; ac y mae amrai esbonwyr o'r un farn ag ef.

Adn. 22. *A'r dydd hwnw y neillduaf fi wlad Gosen*] Cafodd *hiphleythi* ei gyfieithu gan rai berniaid da, 'Mi a wyrthiol neillduaf;' a chan y LXX, 'Mi a enwogaf wlad Gosen.' Er fod yn debyg na chafodd yr Israhaeliaid eu blino gan un o'r plâu ereill; eto, trwy fod yn naturiol i ednogion gael eu cario i bob lle, sicrheir na byddai iddynt gyraedd i Gosen, fel y byddai i Jehofa ymddangos i Pharao fel Noddwr ei bobl, a Llywodraethwr mawr yr holl ddaear.

Adn. 23. *A mi a osodaf wahan*] Heb. *peduth*, 'ymwared,' neu fur gwahaniaeth rhwng fy mhobl i a'th bobl di.

Adn. 24. *A llygrwyd y wlad gan y cymysgbla*] Cafodd pob peth ei ddirodi, a llawer o'r trigolion eu dyfetha, trwy gael ond odid eu colynu i farwolaeth gan y trychfilod gwenwynig hyn. Ymddengys fod hyn yn cael ei awgrymu gan y Salmwydd, 'Anfonodd gymysgbla yn eu plith, yr hon a'u difaodd hwynt; a llyfiant i'w dyfetha,' Salm lxxviii.

45. Ymfrostia tywysog llywodraeth yr awyr yn ei enw Beelzebub 'duw y gwybed' ond yma profir nad yw ef ddim ond ymhonwr; canys y mae Duw yn ymladd yn erbyn ei deyrnas ef trwy heidiau o wybed, ac yn ei orchfygu. Gwel ar Mat. x. 25. Yn yr hen amseroedd, pryd na ofelid nemawr am lendid, ac y gadewid i bob math o furgunod lygru ar yr heolydd, a magu pryfed, yr oedd ednogion yn lluosogi yn ddirfawr, nes y darllenwn mewn hen awduron am daleithiau cyfain wedi eu gwneuthur yn anghyfanedd ganddynt; o ganlyniad yr oedd gan amrai bobloedd dduwiau, swydd pa rai oedd eu hamddiffyn hwy rhag ednogion; megys Baal-sebub, Hercules, Maugrus, Jupiter, &c.

Adn. 25. *Ewch, aberthwch i'ch Duw yn y*

25 ¶ A Pharao a alwodd am Moses ac Aaron, ac a ddywedodd, Ewch, aberthwch i'ch Duw yn y wlad.

26 A dywedodd Moses, Nid cymwys gwneuthur felly; oblegid ny ni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw ffeiddbeth yr Aifftiaid: wele, os aberthwn ffeiddbeth yr Aifftiaid yn ngwydd eu llygaid hwynt, oni labyddiant hwy ni?

27 Taith tridiau yr awn i'r anialwch, a ny ni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw, megys y dywedo efe wrthym ni.

28 A dywedodd Pharao, Mi a'ch gollyngaf chwi, fel yr aberthoch i'r

wlad] Ni chewch chwi adael yr Aifft, eithr mi a wnaf i'ch addoliad gael ei oddef yma.

Adn. 26. *Ny ni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw ffeiddbeth yr Aifftiaid*] Fel pe dywedasai, 'Yr anifeiliaid ag y maent hwy yn eu dal yn gysegredig, ac heb ganiatau iddynt gael eu lladd, ydyw y rhai ag y mae ein defodau ni yn gofyn i ni eu haberthu i'n Duw; a phe gwnaem hyny yn yr Aifft, codai y bobl i'n herbyn, a labyddiant ni i farwolaeth.' Fe allai nad oedd ond ychydig o bobl yn fwy coelgrefyddol na'r Aifftiaid. Yr oedd pob cynrych braidd o eiddo anian yn wrthddrych eu haddoliad: yr haul, y lloer, y planedau, y ser, yr afon Nilus; anifeiliaid o bob math, o ddyn hyd yr epa, y ci, y gath, a'r ibis; ac hyd yn nod y winwyn a'r cenin a dyfent yn eu gerddi. Jupiter a addolid ganddynt dan ffurf *hwrdd*, Apollo dan ffurf *brân*, Bacchus dan ffurf *gafr*, a Juo dan ffurf *anner*. Y rheswm paham yr oedd yr Aifftiaid yn addoli y creaduriaid hyny a roddir gan Eusebius, sef, pan yr oedd y cawri yn rhyfela yn erbyn y duwiau, eu bod yn gorfod ymnoddi yn yr Aifft, a chymeryd arnynt agweddau neu ffurfiau amrai fathau o anifeiliaid mewn trefn i ddianc. Ynguddiodd Jupiter, meddent, yn nghorff *hwrdd*, Apollo mewn *brân*, Bacchus mewn *gafr*, Diana mewn *cath*, Juno mewn *anner wen*, Venus mewn *pysgodyn*, a Mercury yn yr aderyn ibis. Yr oedd y creaduriaid hyn gan hyny yn gysegredig ganddynt, oblegid y duwiau y rhai a ymnodasant ynddynt, yn ol y chwedl. Ereill a dybant mai y rheswm paham na wna'i yr Aifftiaid aberthu na lladd y creaduriaid hyny oedd eu crediniaeth yn yr athrawiaeth o drawsneidiaid; canys ofnwyd, wrth ladd anifel, eu bod yn lladd perthynas neu gyfaill. Dywedir fod yr athrawiaeth hon yn cael ei dal yn barhaus gan yr Hindwaid.

Adn. 27. *Ny ni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw megys y dywedo efe wrthym*] Tybia rhai na wyddai Moses ac Aaron eto yn mha fodd yn gywir y mynai Duw gael ei addoli; a'u bod yn dysgwyl derbyn datguddiad uniongyrchol oddiwroth ef mewn perthynas i hyn pan y deuent i'r anialwch, pen. x. 26. Ond y mae y LXX yn ei ddarllen, 'Megys y dywedodd efe wrthym:' gwel pen. iii. 18.

Adn. 28. *Mi a'ch gollyngaf chwi—ond nac*

Arglwydd eich Duw yn yr anialwch; ond nac ewch yn mhell: gweddiwch trosof fi.

29 A dywedodd Moses, Wele, myfi a âf allan oddiwrthyt, ac a weddiaf ar yr Arglwydd, ar gilio y cymysgbla oddiwrth Pharao, oddiwrth ei weision, ac oddiwrth ei bobl, y fory: ond na thwyllled Pharao mwyach, heb ollwng ymaith y bobl i aberthu i'r Arglwydd.

30 A Moses a aeth allan oddiwrth Pharao, ac a weddiodd ar yr Arglwydd.

31 A gwnaeth yr Arglwydd yn ol gair Moses: a'r cymysgbla a dynodd efe ymaith oddiwrth Pharao, oddiwrth ei weision, ac oddiwrth ei bobl; ni adawyd un.

32 A Pharao a galedodd ei galon y waith hōno hefyd, ac ni ollyngodd ymaith y bobl.

ewch yn mhell] Yr oedd Pharao erbyn hyn wedd tyneru ychydig, am fod llaw Duw yn drom arno; ond nid oedd yn foddlon i roddi i fyny ei hawl ynddynt. Yr oedd yr Israeliaid yn gaethion i'r llywodraeth, ac yr oedd eu llafur caled yn dra chynrychiol: am hyny efe a broffesai ewyllysgarwch, yn gyntaf, i *oddef* eu crefydd hwy yn ei wlad, adn. 25; ac yn awr, i adael iddynt fyned i'r *anialwch*, ond iddynt beidio myned yn mhell, nac aros yn rhy hir. Y mae yn debyg ei fod yn ofni, os unwaith y gadawent yr Aifft, nad oeddynt yn bwriadu dychwelyd; ac am hyny efe a waharddai iddynt fyned yn mhell, fel y gallai efe, os byddai raid, eu cyrchu yn ol.

Adn. 29, 30. *Ac a weddiaf ar yr Arglwydd ar gilio y cymysgbla*] Fel y gallot weled mai amcan y pla hwn yw dy ddwyn i edifeirwch, nid i ddynstr.

Adn. 31. *A gwnaeth yr Arglwydd yn ol gair Moses*] Mor rymus yw gweddi! Goddefodd Duw i'w was hyd yn nod ddarlunio y dull a'r amser (adn. 29) yn y rhai y mynai efe iddo weithio; a gwnaeth yntau yn ol ei air ef. *A'r cymysgbla a dynodd efe ymaith*—trwy wynt cryf y mae yn debyg, yr hwn a ysgrubodd y trychfilod i'r môr, neu i anialwch Affrica: ac felly yr oedd llaw Duw i'w gwelied yn eu symudiad, mor amlwg ag yn eu hanfoniad.

Adn. 32. *A Pharao a galedodd ei galon y waith hōno hefyd*] Y caledwch hwn oedd yr effaith ei gyndynrwydd lunan-benderfynol ef: yr oedd yn dewis ei *chw* ei hun, o flaen ewyllys a gorchymyn Jehofa! O, gnyifer o anghreiffstiau arswydus o'r fath yma sydd i'w gwelied yn barhaus! Y mae dynion yn tywallt allan weddi pan y mae Duw yn eu ceryddu; ond pan symudir y wialen, dychwelant drachefn at eu hanwireddan!

PEN. IX. Adn. 1. *Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw yr Hebreaid*] Tybia Clarke fod

PENNOD IX.

YNA y dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dos i mewn at Pharao, a llefara wrtho ef, Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw yr Hebreaid; Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

2 Oblegid, os gwrthodi eu gollwng hwynt ymaith, ac attal o honot hwynt eto;

3 Wele llaw yr Arglwydd fydd ar dy anifeiliaid, y rhai *sydd* yn y maes; ar feirch, ar asynod, ar gamelod, ar y gwartheg, ac ar y defaid, y *daw* haint trwm iawn.

4 A'r Arglwydd a neilldua rhwng anifeiliaid Israel, ac anifeiliaid yr Aifftiaid; fel na byddo marw dim o gwbl *a'r sydd* ciddo meibion Israel.

5 A gosododd yr Arglwydd amser nodedig, gan ddywedyd, Y fory y

y gair ARGLWYDD (*Yehovah*) yn cael ei arfer yma i nodi allan ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod; a bod y gair Duw (*Elohey*) yn cael ei fwriadu i'w ddeall yn yr ystyr o Gynalydd, Diffynnydd, Noddwr, &c. Fel hyn y dywed y Bôd hunanfodol, hollalluog, a thragwyddol, Cynalydd a Diffynnydd yr Hebreaid, Gollwng ymaith fy mhobl fel y'm gwasanaethont.

V.—YR HAINT.

Adn. 3. *Wele llaw yr Arglwydd*] Yn ddi-gyfrwng, heb estyniad llaw Aaron; *fydd ar dy anifeiliaid*—fel hyn y mae llaw Duw i'w chydnaod yn afsechyd a marwoldeb anifeiliaid; ganys 'ni syrth un aderyn ar y ddaear heb eich tad chw'i. *Ar feirch*—tybir fod *sus* o'r un ystyr a *sas*, pa un a arwyddia bod yn *gyslym*, *heirif*, neu *fywiog*, fel y mae y meirch yn gyffredin, yn enwedig yn Arabia a'r Aifft. O herwydd ei fywiogrwydd a'i gyslymder, efe a aberthid ac a gysegrid i'r haul; ac fe allai mai ar y cyfrif hwn yn benaf y gwaharddodd Duw yr arferiad o honynt yn mhilith yr Israeliaid. *Y daw haint trwm iawn*—y mae y gair *deber* yn cael ei gyfieithu yn wahanol: gan y LXX, *marwolaeth* ydyw; gan y Vulgate, *pla* neu *haint*. Dywed Clarke mai y gair *marwoldeb* a fyddai y nesaf mewn ystyr i'r gwreiddiol, trwy nad oes un anhwylob neillduol yn cael ei nodi gan y gair Hebreig.

Adn. 4. *A'r Arglwydd a neilldua*] Gwel ar pen. viii. 22; *fel na byddo marw dim o gwbl a'r sydd ciddo meibion Israel*—yr oedd hon yn wyrth fwy, trwy fod yr Israeliaid a'r Aifftiaid yn gymysg ydyw; gan y Vulgate, *pla* neu *haint*. Dywed Clarke mai y gair *marwoldeb* a fyddai y nesaf mewn ystyr i'r gwreiddiol, ond yn deilliaw yn ddi-gyfrwng o law Duw.

Adn. 5. *Y fory y gwna yr Arglwydd y peth hyn yn y wlad*] Trwy ragfynegu y drwg fel hyn, efe a ddanghosai ei ragwrbodaeth a'i allu; ac oddiwrth hyn yr oedd yn rhaid i'r Aifftiaid

gwna yr Arglwydd y peth hyn yn y wlad.

6 A'r Arglwydd a wnaeth y peth hyn dranoeth : a bu feirw holl anifeiliaid yr Aifftiaid ; ond o anifeiliaid meibion Israel ni bu farw un.

7 A Pharao a anfonodd ; ac wele, ni buasai farw un o anifeiliaid Israel : a chalon Pharao a galedwyd, ac ni ollyngodd y bobl.

8 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses ac wrth Aaron, Cymwrwch i chwi lonaid eich llaw o ludw ffwrn, a thaedd Moses of tua'r nefoedd yn ngwydd Pharao :

a'r Hebraeid weled nad peth damweiniol oedd y marwoldeb, ond effaith bwriad penderfynol dwyfol gyfiawnder.

Adn. 6. *A bu feirw holl anifeiliaid yr Aifftiaid*] 'Sef yr holl rai ag oeddnt yn y maes, adn. 3, neu nifer mawr o bob math.'—BENSON. Y mae yn eglur na ddarfu i'r holl anifeiliaid perthynol i'r Aifftiaid feirw, canys yr oedd rhai yn cael eu lladd a'u cadw yn fyw yn y pla dylynol, adn. 19—25. Gan hynny, myn rhai ddarllen y geiriau fel hyn : 'Yr holl anifeiliaid a fuant feirw a'r berthynod i'r Aifftiaid ; ond o anifeiliaid meibion Israel ni bu farw un.' Trwy y farn hon yr oedd yn rhaid i'r Aifftiaid weled gwagedd eu haddoliad, wrth gael fod yr anifeiliaid a addolid ganddynt wedi eu lladd yn ddiwahaniaeth yn mhlith y praidd cyfiredin, trwy haint anfonedig o law Jehofa.

Adn. 7. *A Pharao a anfonodd, &c.*] Wrth weled fod cynifer o'i anifeiliaid ei bun ac eiddo ei ddeiliaid wedi eu lladd, efe a anfonodd i edrych a oedd y marwoldeb wedi cyraedd anifeiliaid yr Israeliaid, fel y gallai efe wybod a oedd hon yn farn wedi ei hanfon gan eu Duw hwy. *A chalon Pharao a galedwyd*—gwel ar pen. viii. 32 ; *ac ni ollyngodd y bobl*—hwy yn nod ar ol cael y prawf egluraf hwn o ffâf arbenig Duw iddynt, ac o'i allu anfeidrol o'u plaid.

VI.—Y CORNWYD LLINOROG.

Adn. 8. *Cymwrwch i chwi lonaid eich llaw o ludw ffwrn*] 'Y mae Duw rai gweithiau yn dangos iddynion eu pechod yn eu cosp. Gortbrymasant hwy Israel yn y ffyrnau, ac yn awr gwneir lludw y ffwrn yn gymaint arswyd iddynt hwy ag y bu eu meistrïadau gwaith erioed i'r Israeliaid.'—BENSON. Dywed Boothroyd ac ereill mai *odyn y priddfeini* a feddyr wrth y *ffwrn* yma ; ond ymddengys nad oedd yr Israeliaid yn *llwgi* y priddfeini wrth eu gwneuthur, (gwel ar pen. v. 7,) er fod eu caethiaded hwy yn cael ei osod allan weithiau yn gysgodol trwy y gair *ffwrn*, I Bren. viii. 51. Y mae yn debycach fod yma gyfeiriad at ddefod greulon yn mhlith yr Aifftiaid, o aberthu dynion â gwallt goleu, ac o liw gwahanol i'r eiddynt hwy ; a thrwy fod yr Israeliaid yn ddyfeichriaid, meddylir eu bod hwythau ar droion yn mysg y rhai a losgid i farwolaeth ar allor uchel, ac a aberthid fel hyn er lles tybiedig y bobl. Yn niwedd yr aberthiad yr

9 Ac efe fydd yn llwch ar holl dir yr Aifft ; ac a fydd ar ddyn ac ar anifel yn gornwyd llinorog, trwy holl wlad yr Aifft.

10 A hwy a gymerasant ludw y ffwrn, ac a safasant gerbron Pharao : a Moses a'i taenodd tua'r nefoedd ; ac efe a aeth yn gornwyd llinorog ar ddyn ac ar anifel.

11 A'r swynwyr ni allent sefyll gerbron Moses, gan y cornwyd ; oblegid yr oedd y cornwyd ar y swynwyr, ac ar yr holl Aifftiaid.

12 A'r Arglwydd a galedodd galon Pharao, fel na wrandawai arnynt ;

oedd yr offeiriaid yn gwasgaru lludw y llosgedigion yn yr awyr, i sierchau bendith ond odid lle bynag yr elai. Fel hyn gwasgarodd Moses ludw y ffwrn, fel lle bynag y disgynai y byddai iddo brofi yn feiddith i'r bobl ynfyd hyn. Gwel *Bryant* ar Blâau yr Aifft, d. 116.

Adn. 9. *Ar ddyn ac ar anifel yn gornwyd llinorog*] Neu fath ar benddwynod chwyddedig ac enynol dros yr holl gorff, yn cynrachu twymyn trwy yr holl gyfansoddiad. Ymddengys ei fod yn anhwylded o fath anghyffredin, ac am hynny gelwir ef mewn ffordd o wahaniaeth yn *gornwyd yr Aifft*, Deut. xxviii. 27, yr hwn nad adwaenydd erioed o'r blaen, fe allai, yn yr Aifft nac mewn un wlad arall. Dywed Orosius fod yr holl bobl wedi eu pothellu drostynt, a bod y pothellau yn ymrwygo gyda phoen artheithiol, a bod pryd yn dyfod allan o'r elwyfau ! Dichon fod cornwydydd Job yn dwyn rhyw debygolrwydd i'r cornwyd llinorog. Ystyr y gair *llinorog*, neu yn fwy priodol *llynorog*, yw llawn o lifyn neu grawn rhedegog.

Adn. 10. *A Moses a'i taenodd tua'r nefoedd*] Y mae yr Esgob Patrick yn sylwi, ddarhod i'r lludw a dafodd Moses i'r awyr ddisgyn fel eirwlaw mân neu lwydrew, yr hwn a laithlogai gnawd dyn ac anifel, ac a godai bothell ar bob rhan lle y disgynai. Di-amau fod Duw yn lluosogi y lludw, ac yn ei boethi, ac yna yn ei wasgaru dros y wlad.

Adn. 11. *A'r swynwyr ni allent sefyll gerbron Moses gan y cornwyd*] Nid ydym yn darllen am un ymdrech o'r eiddynt gyda Moses ar ol pla y *llau* : ond ymddengys oddiwrth yr ymadrodd hwn eu bod yn aros yn barhaus oddeutu Pharao, ac yn ymdrechu ond odid i'w gadarnhau ef yn ei benderfyniad o beidio gollwng Israel, gan ei berswadio yn debygol, er i Moses fuddugoliaethu arnynt hwy am y tro, eto y byddent hwythau o'r diwedd yn rhy galed iddo yntau. Ond trwy eu bod yn awr wedi eu taraw fel ereill gyda'r cornwydydd hyn yn ngolwg Pharao a'i weision, aethant mor ddirmygedig fel na feiddient wedi hynny edrych yn ngwyneb Moses na Pharao ; canys nid ydym yn clywed dim mwyrach am danynt ar ol y tro hwn. Y mae yn debyg fod gan yr apostol olwg ar hyn pan y dywed fod 'eu hynfydrwydd yn amlwg i bawb,' 2 Tim. iii. 9. Dichon iddynt feirw o'r cornwyd llinorog.

megys y llefarasai yr Arglwydd wrth Moses.

13 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Cyfod yn fore, a saf gerbron Pharao, a dywed wrtho, Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw yr Hebreaid; Gollwng fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

14 Canys y waith hon yr anfonaf fy holl blâau ar dy galon, ac ar dy weision, ac ar dy bobl; fel y gwypech nad oes gyffelyb i mi yn yr holl ddaear.

Adn. 12. *A'r Arglwydd a galedodd galon Pharao*] O'r blaen efe a galedasai ei galon ei hun, ac a wrthwynebasai ras Duw; ond yn awr rhoddodd Duw ef i fyny yn gyfiawn i chwantau ei galon ei hun, i amryfusedd cadarn, gan oddef i Satan ei ddallu a'i galedu ef. Fel hyn y mae caledwch *quirfodol* yn cael ei gospi yn aml â chaledwch barnol.

Adn. 13. *Arglwydd Dduw yr Hebreaid*] Gwel ar adn. 1.

Adn. 14. *Canys y waith hon*] Oni ollyngi ymaith fy mhobl, *anfonaf fy holl blâau ar dy galon*—hyn yw, ar ffynonell dy fywyd, y rhai a fyddant yn drymaech na'r rhai oll o'r blaen.

Adn. 15. *O herwydd yn awr mi a estynaf fy llaw, ac a'th darawaf di a'th bobl â haint y nodau, &c.*] 'Yn yr llebraeg y mae y berfaun yn yr amser *gorphenol*, ac nid yn y *dyfodol*, fel y mae ein cyfieithiad ni yn anmbriodol yn eu gosod allan, trwy yr hyn y mae anghysondeb yn ymddangos yn y testyn; canys ni tharawyd Pharao na'i bobl â haint y nodau, ac ni chafodd ef trwy unrhyw fath ar farwoldeb ei dori ymaith oddiar y ddaear. Y mae yn wir i'r rhai *cyntafanedig* gael eu lladd gan yr angel dinystrïol, ac i Pharao ei hun gael ei foddli yn y môr coch; ond nid ymddengys fod y barnedigaethau hyn yn cael cyfeirio atynt yn y lle yma. Pe cai y geirian eu cyfieithu, fel y dylent, yn y *modd cysylltedigol*, neu yn y *gorphenol* yn lle y *dyfodol*, cai yr anghysondeb ymddangosiad hwn â ffeithiau, yn gystal a phob tywyllni, ei ochelyd: *O herwydd yn awr* PEDESTYNASWY *Fy llaw, a'th darawaf di a'th bobl â haint y nodau, toresid di ymaith oddiar y ddaear, 16. Ond yn ddiau er mwyn hyn y cyncliais di, fel y gallwn beri i ti weled fy nerth, ac fel y MYNEGID fy enw trwy yr holl ddaear* (neu yn yr holl dir hwn). Gwel *Ainsworth a Houbigant*. Fel hyn gwnaeth Duw i'r breinin annuwiol hwn wybod mai ei ragluniaeth neillduol ef oedd yr achos ei fod ef a'i bobl heb gael ei dyfetha eisioes gan y plâau a'ethant heibio [na chan haint y nodau a allasai ddylyn]; eithr ddarfod i Dduw ei gadw ef i'r dŷben hwn, fel y gallai gael cyflensdra pellach i amlygu mai efe, JEHOFA, oedd yr unig wir Dduw, er llawn argyhoeddiad i'r Hebreaid a'r Aifftiaid, fel y gallai y rhai blaenaf ei ddylyn, a'r rhai olaf ofni ger ei fron. Y mae yr holl ferniaid doeth, agos o bob cred, yn cyduno i gyfieithu y wreiddiol megys uchod, cyfieithiad ag y mae nid yn unig yn gallu ei oddef ond yn ei ofyn, a'r hwn sydd yn gwbl gyson â'r LXX a'r Targum.—CLARKE.

15 O herwydd yn awr, mi a estynaf fy llaw, ac a'th darawaf di a'th bobl â haint y nodau; a thi a dorir ymaith oddiar y ddaear.

16 Ac yn ddiau er mwyn hyn y'th gyfodais di, i ddangos i ti fy nerth; ac fel y myneger fy enw trwy yr holl ddaear.

17 A wyt ti yn ymddyrchafu ar fy mhobl eto, heb eu gollwng hwynt ymaith?

18 Wele, mi a wlawiaf yn nghylech

Adn. 16. *Ac yn ddiau er mwyn hyn y'th gyfodais di*] Gwel uchod. 'Gorchymynir i Moses yma draddodi i Pharao genadwri dra dychrynlyd, pa un bynag a wnelo ai gwranddo ai peidio. Rhaid iddo ddywedyd wrtho ei fod wedi ei nodi i'w ddyfetha, ei fod yn awr yn sefyll fel y nôd at ba un y saetha Duw holl saethau ei ddigofaint. *Er mwyn hyn y'th gyfodais di*—i'r orsedd y pryd hwn, ac y gwneuthym i ti sefyll ergydion y plâau hyd yn hyn; i ddangos i ti fy nerth. Trefnodd rhagluniaeth i Moses gael dyn o'r fath ysbryd ffyrnig a chyndyn i ymwneyd âg ef, i'w gwneuthur yn anghraifft dra hynod a chofiadwy o'r gallu sydd gan Dduw i ddarostwng y balchaf o'i elynion. Dyldid sylwi nad yw y gair Hebreig a gyfieithir yma *cyfodi*, byth yn arwyddo codi neu ddwyn dyn neu beth i fodolaeth; eithr *cadw, cynnal, sefydlu, neu wneuthur i sefyll*, fel ar ymyl ein Beiblau, ac fel y gellir gwled yn I Bren. xv. 4, a Diar. xxix. 4. Ac am hyn y mae y LXX, y Galdeag, y Samaritanaeg, yr Arabaeg, a Junius a Tremellius, oll yn cyfieithu y lle, *Er mwyn hyn y'th gadwyd hyd yma*. Gan hyn meddwl y geirian ydyw, nid ddarfod i Dduw ddwyn Pharao y fodolaeth, neu ei wneuthur ef i'r perwyl fel y gallai fod yn anghraifft o'i doster a'i ddialedd ef; ond, er i Pharao hir haeddu eael ei ddyfetha, eto ddarfod i Dduw ei *arbed a'i gynnal* ef am gryn amser, i ddangos ei nerth—tiwy yr arwyddion a'r rhyfeddodau y rhai a wnaeth efe yn ngwlad yr Aifft, a thrwy waredu ei bobl o'r diwedd, er gwaethaf holl wrthwynebiad Pharao, 'â llaw gadarn a braich estynedig.' *Fel y myneger fy enw*—fy modoldeb, fy rhagluniaeth, a'm hamrywiol berffleithderau; fy amynedd yn cyd-ddwyn â thi cyhyd, fy nghyfiawnder yn dy gospi, fy ngallu yn dy orchfygu, fy noethineb yn goruwchreoli dy falchder, dy ormes, dy greulondeb, i'th ddinystri di dy hun a gwaredigaeth y mhobl orthrynedig, a'm flyddlondeb yn cyflawni fy addeuinion iddynt hwy a'm bygthlion i titbau. *Trwy yr holl ddaear*—nid yn unig yn mhob lle, ond trwy bob oes, tra y pery y ddaear. Ac fel hyn yn ddfifeth y dygwyrdd.—BENSON. Gwel ar Rhuf. ix. 17.

Adn. 17. *A wyt ti yn ymddyrchafu*] Hyn yw, yn *sathru*, ar fy mhobl eto, &c. Fel hyn ymddengys y gallasai efe y pryd hyn ymoswng, ac felly ragflaenn ei ddinystri ei hun.

VII.—Y CENLLUSG.

Adn. 18. *Wele, mi a wlawiaf yn nghylech yr anser yma y fory*] Y mae anser y plâ hwn

yr amser yma y fory genllusg trymion iawn; y rhai ni bu eu bath yn yr Aifft, o'r dydd y sylfaenwyd hi, hyd yr awr hon.

19 Anfon gan hyny yn awr, casgl dy anifeiliaid, a phob dim a'r y sydd i ti yn y maes: pob dyn ac anifel a gaffer yn y maes, ac nis dyger i dy, y disgyn y cenllusg arnynt, a byddant feirw.

20 Yr hwn a ofnodd air yr Arglwydd o weision Pharao, a yrodd ei weision a'i anifeiliaid i dai;

21 A'r hwn nid ystyriodd air yr Arglwydd, a adawodd ei weision a'i anifeiliaid yn y maes.

22 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Estyn dy law tua'r nefoedd; fel y byddo cenllusg yn holl wlad yr Aifft, ar ddyd ac ar anifel, ac ar holl lysiau y maes, o fewn tir yr Aifft.

yn cael ei nodi fel hyn yn fanwl, i ddangos i Pharao fod JEHOFA yn Arglwydd nef a daear, a bod *dufr, tân, daear*, ac *awyr*, y rhai oeddynt oll yn wrthdriachau eilunaddoliaeth yr Aifft, yn greaduriaid ei allu ef, ac yn wasanaethgar i'w ewylllys; ac, yn lle eu cynorthwyo hwy, en bod yn awr yn llaw Duw yn offerynau eu dinystr. A dylem gofio fod hyn yn fwy hynod, am nad yw cenllusg yn bethau cyffredin yn yr Aifft, trwy nad yw yr awyr yno yn ddigon oer i'w cynyrchu; ac nid oes fawr o wlaw yn ddisgyn yno chwaith, y diffyg o'r hwn a wneir i fyny gan wlithoedd a gorllifiad y Nilus. *Genllusg trymion iawn*—gall ' gwlawio cenllusg' ymddangos i rai yn fodd anathryddol o lefaru; ond ni all dim fod yn gywirach. Dyferion o wlaw yn syrthio trwy barth oer o'r nwyfre sydd yn rhewi ac yn cael eu troi yn genllusg; ac fel hyn y mae y *cenllusg* yn cael eu cynyrchu gan y *gwlaw*. Pan yn dechren syrthio y maent yn *wlaw*; wrth syrthio fe'u troir yn *genllusg*; ac fel hyn y mae yn llythyrenol wir ei bod yn *gwlawio cenllusg*, fel y dywedir yma. Pa bellaf y mae un o'r cenllusg yn syrthio, mwyaf yn y cyffredin ydyw, am ei bod yn ei disgyniad yn cyfarfod âg aneirif ronynau o ddwfr, y rhai, trwy lynu wrthi, sydd hefyd yn rhewi; ac fel hyn y mae yn cynyddu yn barhaus nes cyraedd y ddaear. Er fod hon yn ystwm oruwchnaturiol, bu amrai o fath naturiol, fel y sylwa Clarke, ag oeddynt yn dra arsydydus. Yn y flwyddyn 1795, bu ystwm o genllusg yn agos i Llynleifiad, yr hon a fawr niweidiodd blanhigion, a dorodd ffenestri, &c., ac yr oedd amrai o'r cesair yn mesur pum modfedd o amgylchedd. Crybwylla Dr. Halley am ystwm gyffelyb yn siroedd Caerwerydd, Caerlleon, &c., Ebrill 29, 1697, yr hon am drugain milldir o hyd, a dwy filldir o led, a wnaeth ddiufawr nived, trwy hollti coed, lladd adar a phob anifel bychan, tafu i lawr ddynion a meirch, &c. &c. Dywed Mezeray fod yn yr Eidal am beth amser, yn 1510, dywyllwch erchyll, tewach na thywyllwch y nos; ar ol yr hyn y torodd y cymylau yn felt a

23 A Moses a estynodd ei wialen tua'r nefoedd: a'r Arglwydd a roddodd daranau a chenllusg, a'r tân a gerddodd ar hyd y ddaear; a chafodd yr Arglwydd genllusg ar dir yr Aifft.

24 Felly yr ydoedd cenllusg, a thân yn ymgymeryd yn nghanol y cenllusg, yn flin iawn; yr hwn ni bu ei fath yn holl wlad yr Aifft, er pan ydoedd yn genhedlaeth.

25 A'r cenllusg a gurodd, trwy holl wlad yr Aifft, gwbl a'r a *oedd* yn y maes, yn ddyd ac yn anifel; y cenllusg hefyd a gurodd holl lysiau y maes, ac a ddrylliodd holl goed y maes;

26 Yn unig yn ngwlad Gosen, yr hon yr ydoedd meibion Israel ynddi, nid oedd dim cenllusg.

27 ¶ A Pharao a anfonodd ac a

tharanau, a syrthiodd cawod o genllusg yr hon a ddyfethodd holl anifeiliaid, adar, ac hyd yn nod bysgod y wlad. Yr oedd yn cael ei ddylyn gan arogl cryf o frwmstan, a'r cenllusg oeddynt o liw glas, a rhai o honnynt yn pwys *canpwys!* Y mae yr Hollalluog yn gofyn i Job 'A welaist ti drysorau y cenllusg, y rhai a gedwais i hyd amser cyfyngder, hyd ddydd ymladd a rhyfel?' Job xxxviii. 22, 23. Tra y mae gan Dduw y fath offerynau wrth ei orchymyn, mor fuan y gallai efe anghyfaneddu gwlad neu fyd! Gwel ar Jos. x. ii.

Adn. 19—22. *Anfon gan hyny yn awr, casgl dy anifeiliaid, &c.* Felly, yn nghanol barn, cofiodd Duw drugaredd. Cai y wyrth ei gwneuthur, fel y gwybyddent hwy mai yr Arglwydd oedd efe; ond gallasai bywydau yr holl ddynion a'r anifeiliaid gael eu haclbu, pe cymerasai Pharao a'i weision y rhybydd a roddwyd iddynt mor drugarog. Eithr tra yr oedd rhai heb ystyried gair yr Arglwydd, ereill a'i hofnent ef, a'u gweision a'u hanifeiliaid a achubwyd, adn. 20, 21.

Adn. 23. *Ar tân a gerddodd ar hyd y ddaear*] Nid fflam ddisymwth o fellten ydoedd, ond tân difaol yn cerdded trwy bob rhan, gan ddyfetha anifeiliaid a lysiau; ac yr oedd ei fynediad yn anwrthwynebadyw.

Adn. 24. *Felly yr ydoedd cenllusg, a thân yn ymgymeryd yn nghanol y cenllusg*] Addefir yn gyffredinol fod trydân yn hanfodol er ffurfiad cenllusg. Ar yr achlysur hwn yr oedd yn cael ei roddi mewn helaethrwydd goruwchnaturiol; canys ymddengys fod ffrydiau o dân yn dilyn y cenllusg disgynol, nes yr oedd lysiau a choed, anifeiliaid a dynion, yn cael eu dyfetha ganddynt.

Adn. 25. *Ac a ddrylliodd holl goed y maes*] Hyny yw, y rhan fwyaf o honnynt, nes lysiau a choed o bob math, fel yr ymddengys oddiwrth pen. x. 12, 15.

Adn. 26. *Yn unig yn ngwlad Gosen—nid oedd dim cenllusg*] Ymddengys i'r Aifftiaid a breswylent yno gael eu harbed er mwyn eu cymydogion yr Israeliaid; a diehon mai y

alwodd ar Moses ac Aaron, ac a ddywedodd wrthynt, Pechais y waith hon; yr Arglwydd sydd gyfiawn, a minau a'm pobl yn annuwiol.

28 Gweddiwch ar yr Arglwydd (cansys digon *yw hyn*) na byddo taranau Duw na chenllusg; a mi a'ch gollungaf, ac ni arhoswch yn hwy.

29 A dywedodd Moses wrtho, Pan elwyf allan o'r ddinas mi a ledaf fy nwyllaw at yr Arglwydd: *a'r* taranau a beidiant, a'r cenllusg ni bydd mwy: fel y gwypych mai yr Arglwydd biau y ddaear.

30 Ond mi a wn nad wyt ti eto, na'th weision, yn ofni wnech yr Arglwydd Dduw.

31 A'r llin a'r haidd a gurwyd; cansys yr haidd *oedd* wedi hedeg, a'r llin wedi hadu:

rhwymedigaeth fawr hon a'u gwnaeth hwy yn barotach i roddi iddynt eu tlysau, pen. xii. 35.

Adn. 27. *Pechais y waith hon*] Fel hyn ni a welwn beth oedd dyben Duw yn anfoniad y plâu, y rhai yn eu natur oeddynt yn llawer addasach i *feddalu* nag i *galedu* calon Pharao. *Yr Arglwydd sydd gyfiawn, a minau a'm pobl yn annuwiol*—pwy a allasai ddychymygu, ar ol y fath gyfaddefiad, y buasai i Pharao galedu ei galon drachefn!

Adn. 28. *Digon yw hyn*] Nid oes achos am un pla yn mbellach: yr wyf yn ymostwng i awurdod JENOFA, ac ni wrthryfelaf mwyach. *Taranau Duw*—rhai o'r fath uwchaf, fel y mae 'mynyddoedd Duw' yn arwyddo mynyddoedd tra chadarn neu uchel.

Adn. 29. *Mi a ledaf fy nwyllaw*] Hyn yw, mi a *weddi*af ar i Dduw symud y pla hwn. Yr oedd penlinio, lledu y dwyllaw, a'u dyrchafu i'r nef, yn arferiad mynych yn mhilith yr Hebraid ac ereill yn eu haddoliad crefyddol: gwel 2 Bren. vi. 13, Ezra ix. 5, Job xi. 13, 1 Tim. ii. 8.

Adn. 30. *Yn ofni wnech yr Arglwydd*] Yr oeddynt yn ofni plâu Duw, ond yn amddifad o ofn mabaidd, neu 'barchedig ofn,' Heb. xi. 7.

Adn. 31. *A'r llin a'r haidd a gurwyd*] Y rhai nid oeddynt mor anhegborol i'r bywyd dynol a'r gwenith a'r rhŷg. Fel hyn y mae Duw yn anfon y barnedigaethau lleiaf o flaen y rhai mwyaf.

Adn. 32. *O herwydd diweddar oeddynt hwy*] Neu *guddiedig*, fel y mae ar ymyl y ddalen. Y mae cynauaf yr haidd yn yr Aifft oddeutu y pasc, a chynauaf y gwenith chwech wrthnos yn ddiweddarach. Trwy fod y math yma o fyd yn ddiweddarach yn dyfod i fynd, yr oedd yn awr ond odid yn 'guddiedig' dan y ddaear, trwy yr hyn y diogwydd ef. Neu, trwy fod dau bryd hau a chynauaf yn yr Aifft, y mae rhai yn meddwl fod y *llin a'r haidd* yn cyfeirio at y cynyrch a fedid oddeutu yr Hydref, a'r *gwenith a'r rhŷg* at yr hyn a fedid yn y gwanwyn. Tybia rhai mai *reis* a feddylir wrth y *rhŷg*; ond y mae yn dra anhawdd dywydd

32 A'r gwenith a'r rhŷg ni churwyd; o herwydd diweddar *oeddynt* hwy.

33 A Moses a aeth oddiwrth Pharao allan o'r ddinas, ac a ledodd ei ddwyllaw at yr Arglwydd; a'r taranau a'r cenllusg a beidiasant, ac ni thywalltwyd gwlaw ar y ddaear.

34 A phan welodd Pharao beidio o'r gwlaw, a'r cenllusg, a'r taranau, efe a chwane-godd bechu; ac a galedodd ei galon, efe a'i weision.

35 A chaledwyd calon Pharao, ac ni ollyngai efe feibion Israel ymaith: megys y llefarasai yr Arglwydd trwy law Moses.

PENNOD X.

A DYWEDODD yr Arglwydd wrth Moses, Dos at Pharao: o her-

yn bendant, fel y sylwa Clarke, pa beth a feddylir wrth y geiriau yn y testyn Hebraig.

Adn. 33. *A Moses a aeth oddiwrth Pharao allan o'r ddinas*] Nid yn unig er mwyn dirgeledd wrth ymddyddan â Duw, ond i ddangos y gallai ef feiddio myned allan i'r maes er tryned y cenllusg a'r mell, gan wybod fod pob un o'r cenllusg yn gyfarwyddedig gan Dduw. Y mae heddwch â Duw yn tynu oddiwrth ddyinion arswyd y daran, an mai llais eu Tad ydyw. *Ac a ledodd ei ddwyllaw*—yn debygol gyda gwialen Duw ynddynt: gwel ar adu. 29. *A'r taranau a'r cenllusg a beidiasant*—efe a lwyddodd gyda Duw, er nas gallai lwyddo gyda Pharao.

Adn. 34. *Efe a chwane-godd bechu, ac a galedodd ei galon*] Y rhai hyn oeddynt weithredoedd o'i eiddo ei hun yn unig; 'cansys pwy a ddichon wadu, meddai awdwyr yr Haesiaeth Gyffredinol, 'fod yr hyn a wnaeth Duw ar Pharao yn llawer mwy priodol i *feddalu* na *chaledu* ei galon, yn enwedig pan y mae yn anlwg na ddywedir fod ei galon wedi ei chaledu hyd nes ar ol gweled pob gwrth, ac ar oi darfod pob pla?' Cyf. i. d. 49f.

Adn. 35. *A chaledwyd calon Pharao*] Yn gaulynol i'w waith ef yn 'chwane-gu pechu,' ac yn 'caledu ei galon' ei hun yn erbyn barnedigaethau a thrugareddau Duw, ni ddylem ryfeddu iddo gael ei adael o'r diwedd i galedwch a thywyllwch ei galon gyndyn ei hun, fel ag i gyflawni mesur ei auwired, a rhuthro ar ei ben i'w ddinystre ei hun. Ond eto y mae go-baith o'i flaen, fel y gwelwn yn y bennod nesaf.

PEN. X. Adn. 1. *Dos at Pharao, o herwydd mi a galedais ei galon ef*] Hyn yw, naill ai, 1. Dos a chyfarach ef o'r newydd, o herwydd ni wnaeth yr hyn a wnaethym eto ddim ond caledu ei galon ef; neu, 2. Dylai y gair a gyfieithir yma o *herwydd*, gael, fel y gwneir yn fynych, ei gyfieithu *er*. Dos a llefarai wrtho ef drachefn, *er* i mi oddef i'w galon gael ei chaledu, fel y danghoswn yn llawnach fy ngallu a'm rhagluniaeth, nid yn

wydd mi a galedais ei galon ef, a chalon ei weision; fel y dangoswn fy arwyddion hyn yn ei wydd ef:

2 Ac fel y mynegit wrth dy fab, a mab dy fab, yr hyn a wnaethm yn yr Aifft, a'm harwyddion a wnaethm yn eu plith hwynt; ac y gwypoch mai myfi yw yr Arglwydd.

3 A daeth Moses ac Aaron i mewn at Pharaou, a dywedasant wrtho, Fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw yr Hebraeid; Pa hyd y gwrthodi ymstwtng ger fy mron? gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont.

4 O herwydd os ti a wrthodi ollwng

fy mhobl, wele, y fory y dygaf locustiaid i'th fro;

5 A hwynt-hwy a orchuddiant wrych y ddacar, fel na allo un weled y ddacar: a hwy a ysant y gweddill a adawyd i chwi yn ddiangol gan y cennllusg; difant hefyd bob pren a fyddo yn blaguro i chwi yn y maes

6 Llanwant hefyd dy dai di, a thai dy holl weision, a thai yr holl Aifftiaid, y rhai ni welodd dy dadau, na thadau dy dadau, er y dydd y buont ar y ddacar hyd y dydd hwn. Yna efe a droodd, ac a aeth allan oddiwrth Pharaou.

unig i'r Aifft a'r gwledydd cyfagos, ond i genellaethau ag sydd eto heb eu geni, ac yn enwedig i hiliogaeth fy mhobl Israel.

Adn. 2. *Ac fel y mynegit wrth dy fab, a mab dy fab*] Fel y byddai y gwrthiaid a wneid y pryd hyn yn goffawriaeth er addysg i'r genhedlaeth ddiweddaraf, mai JEHOFA ei hun, Duw yr Hebraeid, oedd unig Greaawydd, Llywodraethydd, a Chynalydd neofedd a daear. Nid i lethu y praf tylawd Pharaou y gwnai efe y fath ryfeddodau nerthol, ond i argyhoeddi ei elynion, hyd ddiwedd y byd, na ddichon i un ddyfais na gallu lwyddo yn ei erbyn ef; ac i ddangos i'w ddilynwyr na waradwyddir byth i rhai a ymddiriedant ynddo ef. Ac y mae buddioldeb yr addysgiadau hyn i'r byd yn gorfantoli y draul yn ddiagonol.

Adn. 3. *Pa hyd y gwrthodi ymstwtng ger fy mron?*] Pe buasai yn *annichonadwy* i Pharaou, yn yr holl blâau blaenorol, ymstwtng ac edifarhan, a allwn ni feddwl y gallasai Dauw ei gyfarch ef yn y fath iaith a hon? Gallwn fod yn sicr fod yn wastadol adeg yn yr hon y gallasai efe ymstwtng, ac mai am ei fod ef yn caledu ei galon ar y cyfryw adegau y dywedir fod Duw yn ei galedu ef, hyn yw, yn ei roddi ef i'w galon gyndyn a gwrthnysig ei hun; yn ganlyniol i hyn efe a wrthodai ollwng ymaith y bobl, fel ag yr oedd gan Dduw gyfe o'r newydd i wenthur gwyrth arall, i'r dybenion grasol a grybwyllir adn. 2. Pe buasai Pharaou yn ymstwtng o'r blaen, cyflawnesid yr un dybenion grasol trwy foddion ereill.

VIII.—Y LOCUSTIAID.

Adn. 4. *Dygaf locustiaid i'th fro*] Y mae y locust yn perthyn i fath o drychfêlod a adwaenir yn mhlith naturiaethwyr wrth yr enw GRYLLE, ac yn cynwys tair rhywogaeth, sef criciaid, ceiliogod y rhedyn, a'r rhai a elwir yn gyffredin locustiaid; a chan eu bod yn lluosogi yn gyffymach nag un milyn arall yn y greadigaeth, gelwir hwynt yn briodol *arbeh*, yr hwn y gellid ei gyfieithu y *trychfêlyn lluosog*. Gwel Barn. vi. 5, a vii. 12, Salm. cv. 34, Jer. xlvi. 23, a li. 14, Joeli. 4—6, Nah. iii. 15, lle y mae y byddinoedd lluosocaf yn cael eu cymharu i'r *arbeh* neu y locust. Y mae gan y locust *geg* fawr, a phedwar dant llyn, y rhai sydd yn croesi eu gilydd fel gwellais, ac wedi eu cyfaddasu at dori.

Adn. 5. *A hwynt-hwy a orchuddiant wrych y ddacar*] Dywed haneswyr eu bod yn disgyn ar y ddacar yn un gaenen chwech neu wyth modfedd o drwch, ac mewn rhyddig amser yn bwyta pob glaswelltyn, nes y bydd yr holl wlad yn ymddangos fel tir wedi ei aredig; ac wrth frigbori y planhigion a'r coedydd, dywedir eu bod yn gwneyd swm ag y gellir ei glywed o bell ffordd. Wrth ehedeg, bydd swm cynifer o filiynau o adenydd yn debyg i drws ysgydwad coedwigoedd gan wyntoedd tymhestlog, neu i ddiagniad rhaiadr ffrochwyllt. Rai blynyddau yn ol bu cymaint êwmwl o honynt yn ehedeg uwchben Vienna, nes eu bod bedair awr yn myned dros le penodol, ac yn dair milldir o led; a dywedir iddynt y pryd hyn dywyllu yr awyr, fel nas gallai y naill ddyn weled y llall ugain llath oddiwrtho. Ymddengys fod ganddynt lywodraeth debyg i eiddo y morgrug, ac hefyd benneth i'r hwn y talant bob ufyddod; a phan fyddo hwn ar yr adeu, y lleill oll a'i dylinant i ba le bynag yr elo. Dywedir fod cymylau o honynt weithiau yn disgyn i'r môr, ac yn ffurfio math ar ynyssoedd. Eithr yr hanes ryfeddaf am danynt a roddir gan Mr. Barrow, wrth son am eu difrod yn neheubarth Affrica. 'Gellir dywedyd,' meddai ef, 'fod dwy fêl o filldroedd ysgwâr wedi eu llwyr orchuddio ganddynt. Pan eu gyrwyd i'r môr gan wynt gogledd-orllewinol, tafwyd tomenau o'u cyrif ar y traeth gan y tôuan, yn dair neu bedair troedfedd o drwch, ac uwchlaw banner can milldir o hyd; a phan droodd y gwynt i'r deau-ddwyrain, yr oedd eu sawr gwenwynig mor gryf nes y gellid ei arogl gant a hanner o filldroedd oddiyno!' Dywedir ddaroddi y heidiau o honynt ymweled â Chymryn yn y flwyddyn 1673. Gwel ar Joel. i. a ii.

Adn. 6. *Llanwant hefyd dy dai di*] Gellir gwled anghreiffitiau cyffelyb gan ymdeithwyr. Dywed *Dr. Shaw*, pan yr oedd ef yn *Barbary*, i'r locustiaid ddyfod i mewn i'w tai, ac i'w gwely-ystafelloedd, fel cynifer o ladron: ac yn *Nbeithiau Dillon* trwy yr *Hispaen*, cawn iddynt fyned i'r eglwys, a difa y gwisgoedd sidan ag oeddant am luniau y saint, a'r paent oddiar yr alloran.

Adn. 7. *Gweision Pharaou*] Ei bendefigion a'i gynghoriaid. *Pa hyd y bydd hwn yn jagt i mi?*—hyn yw, yn gosod o'n blaen achlysur ein syrthiad i'r naill drallod ar ol y llall.

7 A gweision Pharao a ddywedasant wrtho, Pa hyd y bydd hwn yn fagl i ni? gollwng ymaith y gwŷr, fel y gwasanaethont yr Arglwydd eu Duw: Oni wyddost ti eto ddyfetha yr Aifft?

8 A dychwelwyd Moses ac Aaron at Pharao: ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch, gwasanaethwch yr Arglwydd eich Duw: ond pa rai sydd yn myned?

9 A Moses a ddywedodd, A'n llanciau, ac a'n henafgwyr, yr awn ni; a'n meibion hefyd, ac a'n merched, a'n defaid, ac a'n gwartheg, yr awn ni: oblegid rhaid i ni gadw gwyl i'r Arglwydd.

10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Yr un modd y byddo yr Arglwydd gyda chwi, ag y gollyngaf chwi, a'ch rhai bach: gwelwch mai ar ddrwg y mae eich bryd.

11 Nid felly; ewch yn awr, y

Onid trwy nad oes un enw cadarn yn y testyn, gall y rhagenw *zeh* fod yn cyfeirio at yr Israellaid, at y pla a'r hwn eu cystuddid y pryd hyn, neu at Moses ac Aaron y rhai oeddynt yr offerynau. Y LXX a'i cyfieithant, 'Pa hyd y bydd *hym*,' &c.; a Houbigant, 'y *pethau hym*.'

Adn. 8. *Onid pa rai sydd yn myned?* Nid wyf yn foddlon i chwi *oll* fyned: iselir fi yn ngolwg fy neiliaid wrth orfod ymostwng i'r hwn sydd yn ei wneuthur ei hun fel hyn yn gyfaill i'm caethweision.

Adn. 9. *A dywedodd Moses, A'n llanciau, ac a'n henafgwyr, yr awn ni, &c.* Gan fod gwyl i'w chadw er arhydedd i JEHOFA, rhaid i'r rhai oll ag oeddynt gyfranogion o'i haelioni a'i diriondeb rhagluniaethol ef, fyned a gwneyd eu rhan yn yr uchel-wasanaeth. Rhaid i'r gwŷr a'r gwragedd wneyd y wledd, rhaid i'r plant fod yn dystion o boni, a rhaid i'r *anifeiliaid* gael eu cymeryd gyda hwy er mwyn cael yr aberthau angenrheidiol ar yr achlysur hwn. Rhaid fod hyn yn ymddangos yn rhesymol i'r Aifftiaid, am ei fod yn arferiad ganddynt hwy eu *human* yn eu cymantfaoedd crefyddol. Dywed Herodotus fod mewn un wyl flynyddol a gynaliwyd gan yr Aifftiaid yn ninas *Bubastis*, er arhydedd i Neith neu Diana, o gylch saith gan mil o wŷr a gwragedd, heb gyfrif y plant; ac iddynt aberthu nifer mawr o greaduriaid.

Adn. 10. *Yr un modd y byddo yr Arglwydd gyda chwi, ag y gollyngaf chwi* Y mae hon yn frawddeg dywell iawn. Tybia rhai fod Pharao yn ei bwriadu fel rheg; fel pe dywedasai, 'Boed i'ch Duw fod cyn sicred gyda chwi ag y bydd i mi eich gollwng!' Canys fel ag yr oedd efe yn bwriadu peidio caniatáu iddynt fyned, felly yr oedd yn ewyllsio iddynt gael cymaint o'r cymorth dwyfol ag a gaent o'i ganiatad ef. Neu, fel y mae rhai yn ei deall, 'Boed i'ch Duw Jehofa eich cynorthwyo i'm dyfetha i, os gadawaf i chwi

gwŷr, a gwasanaethwch yr Arglwydd: canys hyn yr oeddych yn ei geisio. felly hwy a yrwyd allan o wydd Pharao.

12 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Estyn dy law ar wlad yr Aifft, am locustiaid, fel y delont i fyny ar dir yr Aifft; ac y bwyaont holl lysiau y ddaear, *sef* y cwbl a'r a adawodd y cenllusg.

13 A Moses a estynnodd ei wialen ar dir yr Aifft: a'r Arglwydd a ddyg ddwyreinwynt ar y tir yr holl ddiwrnod hwnw, a'r holl nos hōno; a *phan* ddaeth y bore, gwynt y dwyrain a ddyg locustiaid.

14 A'r locustiaid a aethant i fyny dros holl wlad yr Aifft, ac a arosasant yn mhob ardal i'r Aifft: bliu iawn oeddynt; ni bu y fath locustiaid o'u blaen hwynt, ac ar eu hol ni bydd y cyffelyb.

15 Canys toisant wyneb yr holl dir,

fyned ar y telerau hyn.' *Gwelwch mai ar ddrwg y mae eich bryd*—eich bod yn bwriadu rhyw ddrvgion. Ond y mae rhai yn cyfieithu y wreiddiol, *fod drwg o flaen eich wymbau*—'os cyngwigh fyned oll gyda'ch gilydd, chwi a gyfarfyddwch a'r gosp baeddiannol.'

Adn. 11. *Ewch yn awr, y gwŷr* Yr oedd Pharao yn gwybod, os byddai i'r gwŷr fyned, a gadael eu *teuluoedd* ar ol, y dychwelent yn ddiffael; ond os goddefai efe iddynt gemyred eu teuluoedd gyda hwynt, y byddai iddynt ddianc yn ddiambheul. *Felly hwy*—sef Moses ac Aaron, a *yrwyd allan*—a wthiwyd o bresenoldeb Pharao.

Adn. 12. *Estyn dy law* A'r wialen ynddi, adn. 13.

Adn. 13. *A'r Arglwydd a ddyg ddwyreinwynt* Y mae y Vulgate a Houbigant yn ei gyfieithu yn *boethwynt*. Y mae Bochart yn meddwl mai y *deheuwynt* ydoedd, yr hwn a garai y locustiaid i'r Aifft o Ethiopia, lle y maent yn amlach nag mewn unrhyw wlad yn y byd, yn enwedig yn y gwanwyn. Y mae yn dra thebyg fod y wyrth hon yn gynnwysedig, nid mewn ereu heidiau o locustiaid o'r newydd, ond yn eu dygiad a'u gryiad ymaith ar ddeisyfiad Moses. Dywed y Salmydd fod lindys yn gymysg a'r locustiaid hyn, Salm lxxviii. 46, a cv. 34, 35.

Adn. 14. *Ni bu y fath locustiaid o'u blaen hwynt, ac ar eu hol ni bydd y cyffelyb* O ran *rhufedi a difrodiaid*. Dichon eu bod hefyd tuhwt i bob rhai ereill mewn *maintioli*. Dywed Sutcliffe fod rhai locustiaid yn ddiagon cryfion i ladd seirff, trwy eu brathu yn agos i'r gwddf; a bod un oddeutu pedair modfedd o hyd yn cael ei dangos yn Angueddfa Llyn-llleifiad: a dywed Pliny eu bod wedi gwelod locustiaid yn yr India yn llathen o hyd! Gwel ar adn. 4—6.

Adn. 15. *Toisant wyneb yr holl dir* Sef holl dir yr Aifft, oddieithr gwlad Gosen;

a thywyllodd y wlad; a hwy a ysasant holl lysiau y ddaear, a holl ffrwythau y coed, yr hyn a weddill-asai y cenllusg: ac ni adawyd dim gwyrddlesni ar goed, nac ar lysiau y maes, o fewn holl wlad yr Aiffit.

16 ¶ Yna Pharao a alwodd am Moses ac Aaron ar frys; ac a ddywedodd, Pechais yn erbyn yr Arglwydd eich Duw, ac yn eich erbyn chwithau.

17 Ac yn awr maddeu, atolwg, fy mhechod y waith hon yn unig, a gweddliwch ar yr Arglwydd eich Duw, ar iddo dynu oddiwrth y farwol-aeth hon yn unig.

18 A Moses a aeth allan oddiwrth

Pharao, ac a weddiodd ar yr Arglwydd.

19 A'r Arglwydd a droodd wynt gorllewin cryfi iawn, ac efe a gymcrodd ymaith y locustiaid, ac a'u bwriodd hwynt i'r môr coch: ni adawyd un locust o fewn holl derfynau yr Aiffit.

20 Er hyny caledodd yr Arglwydd galon Pharao, fel na ollngai efe feibion Israel ymaith.

21 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Estyn dy law tua'r nefoedd, fel y byddo tywyllwch ar dir yr Aiffit, tywyllwch a aller ei deimlo.

22 A Moses a estynnodd ei law tua'r nefoedd: a bu tywyllwch dudew trwy holl wlad yr Aiffit dri diwrnod.

canys gallwn feddwl fod yr Israeliaid wedi cael eu diogelu rhag y pla hwn hefyd.

Adn. 16. *Pechais yn erbyn yr Arglwydd*] Wrth atall i'r bobl fyned i'w wasanaethu; ac yn eich erbyn chwithau—wrth eich gwrthio o fy ngwyddfod, adn. 11.

Adn. 17. *Maddeu, atolwg, fy mhechod y waith hon yn unig*] Gan awgrymu na fyddai iddo droseddu felly niwyaich, fel ag i fod mewn angen am faddeuant. Y fath siamplau mynych o feddalu a chaledu, o bechu ac edifarbau, a gawn yn achos Pharao! Ac onid oedd ganddo ef yn awr gyfeusdra newrdd i droi at Dduw? *Ar iddo dynu oddiwrth y farwol-aeth hon*—nid y *pechod* hwn: efe a weddia rhag pla y locustiaid, nid pla ei galon.

Adn. 18. *A Moses a aeth allan*] Heb gael ei lusgo na'i wrthio allan, fel ar ei ymadawiad blaenorol, adn. 11.

Adn. 19. *Wynt gorllewin cryfi iawn*] Heb. *ruach yam*, 'gwynt y môr'; sef gwynt yn chwythu o Fôr-y-canoldir, yr hwn a orwedda i'w ogledd-orllewin i'r Aiffit, yr hon yr oedd y môr coch yn ddwyreiniol iddi. Yma dra-cheffu y mae Duw yn gweithio trwy foddion naturiol: efe a ddyg y locustiaid trwy ddwyreiniwynt, ac a'u cymerodd ymaith trwy wynt y gorllewin, neu ogledd-orllewin. *Ac a'u bwriodd hwynt i'r môr coch*—lle y boddwyd hwnt. *Ym suph*, 'y môr chwynog,' y gelwir hwn yn yr Hebraeg, oddiwrth y nifer mawr o *alga* neu wymon ag sydd, fel y tybia rhai, yn tyfu ynddo ac oddeutu ei lanau. Ond y mae Mr. Bruce, yr hwn a fu yn hwylio o'r naill ben i'r llall iddo, yn tystio na welodd ef ynddo erioed wymon o un math, ac yn meddwl ddarfod iddo gael yr enw *suph* oddiwrth y nifer mawr o'r *coral* sydd yn tyfu ynddo, fel y gwna coedydd a phlanhigion ar y tir. Gelwir ef gan y LXX *thalassa eruthra*, y môr coch, oddiwrth ba gyfieithiad y benthycasom ni yn enw; ac y mae llawer yn meddwl iddo gael yr enw hwn oddiwrth *Edom* neu Esau, tiriogaethau yr hwn a gyrrhaeddent i'w gyffiniau; canys ystyr y gair *Edom* yw *coch*. Y mae y môr coch, yr hwn a elwir hefyd y *Forgaic Arabaidd*, yn gwahanu Arabia oddiwrth Ethiopia Uwchaf a rhan o'r Aiffit. Dywedir ei fod o leiaf yn 1050 o filldroedd o hyd o Suez i Gyfyngor Babelmandel, ac

oddeutu 120 o led, er fod rhai yn ei wneyd yn 1400 wrth 150. Nid yw yn bur dynhestlog, ac y mae y gwyrtoedd yn arferol o chwythu o'r gogledd i'r deau, ac o'r deau i'r gogledd, chwe mis yn y flwyddyn. Yn ei ben gogleddol efe a ymwahana yn ddwy gainc, rhwng pa rai y gorweddai Sinai. Y mae y gainc ddwyreiniol oddeutu 112 o filldroedd o hyd, a 15 o led; a'r gainc orllewinol, yr hon a elwir Morgainc Suez, oddeutu 190 o filldroedd o hyd, ac yn y cyfartaledd o 20 o led; a thrwy yr olaf hon yr arweinwyd Israel o'r Aiffit.

Adn. 20. *Er hyny caledodd, &c.*] Goddefodd Duw i'w gyndyrwydd naturiol ef ffynu, fel y cai gyfeusdra pellach i ddangos ei dragwyddol allu ei hun a'i Dduwddod: gwel ar adn. 1—3, a pen. ix. 16.

IX.—Y TYWYLLWCH DUDEW.

Adn. 21. *Tywyllwch a aller ei deimlo*] Mewn perthynas i'r pla hwn gallwn sylwi, (1) Ei fod yn dywyllwch *hollol*. Y mae genym sail i feddwl nid yn unig fod goleuadau y nef wedi eu cymyldu, ond fod eu holl ddaiau a'u canwyllau wedi eu diffodd gan y teirth neu yr agerau gludiog y rhai oeddynt yr achos o'r tywyllwch hwn; canys dywedir, adn. 23, 'na welai neb eu gilydd.' (2) Ei fod yn dywyllwch a *ellid ei deimlo*; ei deimlo yn ei achosion â blaenau eu bysedd, gan mor dew oedd y niwl; neu ei deimlo yn ei *effeithiau* ar eu llygaid, fel y mae rhai yn ei ddeall, y rhai a boenid yn fawr ganddo, ac a wneid yn fwy dolurus wrth eu llwbio. (3) Ei fod yn *dra arswydus a dychrynllyd*. Y mae traddodiad gan yr Iuddewon eu bod yn y tywyllwch hwn yn cael eu dychrynu gan ymddangosiad ysbrydion drygionus, neu yn hytrach gan eu trwystr a'u tuchauan arswydus; ac mai at hyn y cyfeirir yn Salm lxxviii. 49, 'Anfonodd arnynt gynddaredd ei lid, lliidiogwydd, a digter, a chyfyngder, trwy anfon *angylion drwg*.' Gwel ddarluniad neillduol o'r tywyllwch hwn yn Doeth. xvii. 2—19.

Adn. 22. *Dri diwrnod*] Fel hyn cawsant chwe noson mewn un, fel y sylwa yr Esgob Hall: carcharwyd hwynt cyhyd a hyny yn y 'cadwynau tywyllwch' hyn.

23 Ni welai neb eu gilydd, ac ni chododd neb o'i le dri diwrnod : ond yr ydoedd goleuni i holl feibion Israel yn eu trigfanau.

24 ¶ A galwodd Pharao am Moses ac Aaron, ac a ddywedodd, Ewch, gwasanaethwch yr Arglwydd; arhoed eich defaid, a'ch gwartheg yn unig: aed eich rhai bach hefyd gyd â chwi.

25 A dywedodd Moses, Ti a roddi hefyd yn ein dwylaw ebyrth a phoeth-offryman, fel yr aberthom i'r Arglwydd ein Duw.

26 Aed ein hanifeiliaid hefyd gyda ni; ni adewir ewin yn ol : oblegid o honynt y cymerwn i wasanaethu yr

Arglwydd ein Duw : ac nis gwyddom â pha beth y gwasanaethwn yr Arglwydd, hyd oni ddelom yno.

27 ¶ Ond yr Arglwydd a galedodd galon Pharao, ac ni fynai eu gollwng hwynt.

28 A dywedodd Pharao wrtho, Dos oddiwrthyf, gwylia arnat rhag gweled fy wyneb mwy : oblegid y dydd y gwelych fy wyneb, y byddi farw.

29 A dywedodd Moses, Uniawn y dywedaist, ni welaf dy wyneb mwy.

PENNOD XI.

A'R ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Un bla eto a ddygaf

Adn. 23. *Ni welai neb eu gilydd*] Er eu bod yn ymyl eu gilydd; *ac ni chododd neb o'i le dri diwrnod*—tra y parhaodd y tywyllwch. Y fath oedd eu dychryn fel nad aeth neb, yn debygol, i ymbalfalu am fwyd i gynnal natur. *Ond yr ydoedd goleuni i holl feibion Israel*—nid yn unig yn Gosen, lle yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn byw, ond hefyd yn eu trigfanau neillduol yn mhilith yr Aifftiaid; canys ymddengys eu bod yn draphlith oddiwrth yr arwydd gwahaniaethol a orchymynwyd wedi hyn i'w osod ar eu drysau, pen. xii. 23. Yr oedd y gwahaniaeth lwn rhwng yr Israeliaid a'r Aifftiaid yn dangos, 1. Ddarfod dwyn y tywyllwch dudew hwn ar yr Aifftiaid trwy allu Duw, fel barn arnynt am eu creulondeb i'w bobl ef; 2. Mai am fod yr Israeliaid yn ymddiried yn Nuw y cadwyd hwy rhag y plâu hyn; 3. A bod gan ei elynion bob peth i'w ofni yn anffodlonrwydd y fath Fôd, a chan ei gyfeillion bob peth i'w obeithio oddiwrth ei foddlonrwydd.

Adn. 24. *Arhoed eich defaid a'ch gwartheg yn unig*] Ni all Pharao gael yr oll a ewyllysia; ac wrth weled mai ofer oedd ymyrson a JEHOFA, y mae yn awr yn cydsynio i roddi i fyny yr Israeliaid, eu gwragedd, a'u plant, os gall ef gadw eu defaid a'u gwartheg. Y mae rhai yn meddwl mai yn wystl o'u dychweliad yr ewyllysiaid efe gadw y rhai hyn, neu fel iawn am y golled o honynt os dygwyrddai iddynt ddianc; tra y tybia ereill ei fod wrth hyn yn bwriadu hollol ddinystr yr Hebraeid: canys pe yr aethai chwe chan mil o wir, heblaw gwragedd a phlant, daith tri diwrnod i'r *anibaech* heb eu hanifeiliaid, busai raid iddynt drengu yn anocheledwy, trwy y byddent yno felly heb laeth i'w plant, na chig er cynaliaeth iddynt eu hunain.

Adn. 25. *Ti a roddi hefyd yn eu dwylaw ebyrth*] Nid yw efe yn gofyn am fwyd, ond am ebyrth; canys wrth geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, efe a wyddai y rhoddi iddynt yr holl bethau hyn yn ychwaneg, Mat. vi. 33.

Adn. 26. *Nis gwyddom â pha beth y gwasanaethwn yr Arglwydd, hyd oni ddelom yno*] Nid oedd y gyfraith eto wedi ei rhoddi, na'r deddfau yn nghylch y gwahanol fathau o aberthau ac offrymau wedi eu hysbys; ac am hyn ni allai hyd yn nod Moses ei hun eto

ddyweddyd pa fath na pha nifer o anifeiliaid a ofynai Duw i'w haberthu. Gan hyn y mae efe yn dra phriodol yn sefyll am gael yr holl anifeiliaid i fyned gyda hwynt, heb adael ewin yn ol.

Adn. 27. *Ond yr Arglwydd a galedodd galon Pharao*] Yr oedd ganddo ef eto un wyrth arall i'w gwneuthur er cyflawn argyhoeddiad yr Aifftiaid a buddugoliaeth ei bobl; ac nes i hōno gael ei gwneuthur, efe a oddefodd i wrthysigrwydd naturiol calon falch Pharao gael ei lawr rwyg, ar ol pob gwrthsafiad yn erbyn ei ddylanwad grasol, pa un a fwrriedd i'w dynern a'i ddywyn i ediferwch.

Adn. 28. *Dos oddiwrthyf, gwylia arnat rhag gweled fy wyneb mwy*] Hyd yn hyn yr oedd Pharao wedi gadael y ffordd yn rhydd i gynadleddiad; ond yn awr, mewn digofaint yn erbyn JEHOFA, y mae efe yn gyru ymaith ei genad ef, ac yn ei fygwth â marwolaeth os meiddiai efe byth mwyach ddyfod i'w wyddfod ef.

Adn. 29. *Union y dywedaist, ni welaf dy wyneb mwy*] Y mae yn dra thebyg mai dyma y tro olaf i Moses a Pharao weled eu gilydd; canys gall yr hyn a adroddir yn pen. xi. 4—8 fod wedi cael ei lefaru ar yr achlysur hwn, gan fod yn dra phosibl ddarfod i Dduw roddi ar ddeall i Moses ei fwriad i ladd y cyntafanedigion pan o flaen Pharao y pryd hyn. Y mae yn wir y dywedir, pen. xii. 31, ddarfod i Pharao alw ar Moses ac Aaron liw nos, a gorchymyn iddynt ymadael o'r Aifft, a chymeryd eu holl eiddo gyda hwy, yr hyn a ymddengys i gynwys ddarfod iddynt weled eu gilydd drachefn; ond dichon nad yw y geiriau yn golygu dim mwy na darfod i Moses ac Aaron dderbyn y gyfryw genadwr oddiwrth Pharao. Modd bynag, os na fydd i'r dull yma o ddeongli yr ymadroddion hyn ymddangos yn foddliol i rywun, efe a all ddeall geiriau Moses fel hyn: *Ni welaf dy wyneb mwy*—ni cheisaf dy ffafyr yn rhagor ar ran fy mhobl, yr hyn oedd yn llythyrenol wir; canys os darfu i Moses ymddangos wedi hyn o flaen Pharao, nid oedd hyn fel *ymbiliwr*, ond yn unig fel *cenad* Duw, i ddatgan ei farnedigaethau, trwy fynegu iddo benderfyniad diweddfaf JEHOFA mewn perthynas i ddyfethiant y cyntafanedigion.

PEN. XI. Adn. 1. *A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses*] Yn hytrach, a ddywed-

ar Pharao, ac ar yr Aifft; wedi hyny efe a'ch gollwng chwi oddiyma: pan y'ch gollyngo, gan wthio efe a'ch gwthia chwi oddi yma yn gwbl.

2 Dywed yn awr lle y clywo y bobl; a benthyced pob gŵr gan ei gymydog, a phob gwraig gan ei chymydoges, ddodrefn arian, a dodrefn aur.

3 A'r Arglwydd a roddodd i'r bobl ffaf yr ngolwg yr Aifftiaid: ac yr oedd Moses yn ŵr mawr iawn yn ngwlad yr Aifft, yn ngolwg gweision Pharao, ac yn ngolwg y bobl.

4 Moses hefyd a ddywedodd, Fel hyn y llefarodd yr Arglwydd; Yn nghylch hanner nos yr âf fi allan i ganol yr Aifft.

5 A phob cyntafanedig yn ngwlad yr Aifft a fydd marw, o gyntafanedig

Pharao, yr hwn sydd yn eistedd ar ei deyrn-gadair, hyd gyntafanedig y wasanaethferch sydd ar ol y felin; a phob cyntafanedig o anifail.

6 A bydd gwaeddi mawr trwy holl wlad yr Aifft, yr hwn ni bu ei fath, ac ni bydd mwyach ei gyffelyb.

7 Ond yn erbyn neb o blant Israel ni symud ei ei dafod, ar ddydd, nac anifel; fel y gwypoch fod yr Arglwydd yn gwneuthur rhagor rhwng yr Aifftiaid ac Israel.

8 A'th holl weision hyn a ddeuant i waered ataf fi, ac a ymgyrmtant i mi, gan ddyweddy, Dos allan, a'r holl bobl sydd ar dy ol; ac wedi hyny yr âf fi allan. Felly efe a aeth allan oddi wrth Pharao mewn diglonedd lliidiog.

asai; canys y mae yn amlwg fod adn. 4. yn barhad o gynalleddiad Moses gyda Pharao, fel ei crybwyllwyd yn y bennod ddiweddaf; oblegid ar ol dyweddy yno, adn. 29, Ni welaf dy wyneb mwy, chwanegir yma, adn. 8, Felly efe a aeth allan oddiwrth Pharao mewn diglonedd lliidiog. Y tair adnod gyntaf, gan hyny, a ddylent gael eu darllen mewn ymsangau, yn gystal ag yn yr amser tragorphenol, trwy fod yr hyn a grybwyllir yn adn. 2 wedi cael ei ddatguddio i Moses yn y weledigaeth gyntaf a gawsai efe yn Horeb: gwel pen. iii. 20, 22, a iv. 23. Gan wthio efe a'ch gwthia chwi oddiyma yn gwbl—yn wŷr, gwragedd, plant, ac anifeiliaid.

Adn. 2. *Benthyced pob gŵr, &c.*] Gwel ystyr y gair *shaal*, yr hwn a gyfieithir yma *benthyced*, yn cael ei egluro ar pen. iii. 22.

Adn. 3. *Ac yr oedd Moses yn ŵr mawr iawn*] Y gwyrtbiau ag y darfu i Pharao a'i weision ei weled ef eisies yn eu gweithredu, a wnaethant iddynt yn ddiamau feddwl yn fawr am ei ddoethineb a'i allu ef. Oni buasai ei fod yn ymddangos yn eu golwg fel dyn tra anghyffredin, yr hwn y buasai yn dra pheryglus ei niweiddio, gallwn yn naturiol gasglu y buasai rhyw orthrais er's liir amser cyn hyn wedi cael ei gynyg i'w berson ef.

X.—LLADD POB CYNTAFANEDIG.

Adn. 4. *Yn nghylch hanner nos yr âf fi allan*] Trwy weinidogaeth angel dinystriol, pen. xii. 23. Pa un ai trwy weinidogaeth angel *du* ynte un *drug* y gwnaeth Duw hyn, sydd fater o ychydig bwys, er i rai esbonwyr ei chwyddo yn ddirfawr. Y mae yr anghlyon da a drwg dan ei awdurdod a'i lywodraeth ef, a gall eu defnyddio fel y myno. Dywedwyd fod y fath waith dinystriol a lladd y cyntafanedigion yn fwy priodol i angel *drug* nag i un *da*: ond nid yw gweithredoedd *gyfiawnder* Duw yn llai santaidd a phur na gweithredoedd ei *drugared* ef; a gall yr archangel uwchaf yn y nef fod ar waith yn y naill neu y llall gyda'r addasrwydd mwyaf.

Adn. 5. *O gyntafanedig Pharao, &c.*] Hyny yw, o etifedd gorsedd yr Aifft hyd fab y gaethes

fwyaf distadl; neu y *penaf* yn mhob teulu: gwel ar pen. xii. 29. *Y wasanaethferch sydd ar ol y felin*—y caethsau mwyaf diystyr a roddid at y gwaith hwn. Mewn amrai barthau o'r dwyrain y maent eto yn malu eu holl ŷd gyda math o felin-feini cludadwy, yr uwchaf o ba rai a droir oddiamgylch gyda math o wif wedi ei osod ar yr ymyl. Pan y mae y maen hwn yn fawr, neu frys yn angenrheidiol, meddai Dr. Shaw, gelwir un arall yn mlaen i gy-northwygo; a chan mai *benywod* yn unig sydd arferol o fod gyda'r gwaith hwn, y rhai a eisteddant gyferbyn â'u gilydd â'r meini rhyngddynt, gallwn weled nid yn unig briodoldeb yr ymadrodd o eistedd *ar ol y felin*, ond grym un arall, (Mat. xxiv. 41,) *dwyr a fydd yn malu mewn melin, &c.* Yr oedd y melinau cludadwy hyn, dan yr enw *breaunau*, yn arferedig gynt yn mhlith ein henafiaid ni yn y deyrnas hon; a gwelais un o honynt wedi ei chael yn y ddaear yn sir Drefaldwyn.

Adn. 6. *A bydd gwaeddi mawr*] Gan y rhai a fyddant yn meirw, a chan ereill am danynt hwy: gwel ar pen. xii. 30.

Adn. 7. *Ond yn erbyn neb o blant Israel ni symud ei ei dafod*] Dywed rhai mai ymadrodd diarebol yw hwn, yn arwyddo y cai y cwbl fod yn heddwch a llonyddwch yn mhlith yr Israeliaid; na chaent hwy, yn y noson gofiadwy hōno, gyfarfod â dim i'w trallodi na'u haflonyddu. Tybia ereill, trwy fod cŵn weithiau yn udo pan fo marw rhywun o'r teulu, y gallai yr ymadrodd hwn fod yn cynwys na byddai neb farw yn mhlith yr Israeliaid.

Adn. 8. *A'th holl weision hyn*] Dy lyswyr a'th swyddogion uchel, a ddeuant i waered ataf fi—yn y modd mwyaf gostyngedig, yr hyn a gymerth le: gwel ar pen. xii. 31—33. *Dos allan*—o'r wlad. *A'r holl bobl sydd ar dy ol*—yr holl Israeliaid ag sydd dan dy lywodraeth. *Felly efe a aeth allan mewn diglonedd lliidiog*—darfu i Moses, wrth weled nad ymstyngai calon falch Pharao hyn nod i achub holl gyntafanedigion ei deyrnas, gael ei gyffroi i ddiglonedd santaidd, gan *aristan*, fel ein Hiachawdwr wedi hyny, *am galedrwydd ei galon ef*, Marc iii. 5. Ond myn rhai ddarllen

9 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Ni wrendy Pharao arnoch; fel yr amlhâer fy rhyfeddodau yn ngwlad yr Aifft.

10 A Moses ac Aaron a wnaethant yr holl rhyfeddodau hyn ger bron Pharao: a'r Arglwydd a galedodd galon Pharao, fel na olyngai efe feibion Israel allan o'i wlad.

PENNOD XII.

YR ARGWLWYDD hefyd a lefarodd wrth Moses ac Aaron yn nhir yr Aifft, gan ddywedyd,

2 Y mis hwn fydd i chwi yn dde-

y geiriau, 'Efe a aeth allan oddiwrth Pharao, yr hwn oedd mewn digllonedd lliidiog.'

Adn. 9. *A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses*] 'Trwy fod yr adnodau hyn wedi eu chwaneu fel math ar ddiweddglô i'r pennodau blaenorol, diau y darllen, fel y mae y wreiddiol yn caniatáu, 'A dywedasai yr Arglwydd wrth Moses.'—COKE. *Ni wrendy Pharao arnoch*—er y gallai wrando; a minau a gymeraf fantais, oddiwrth ei gyndynrwydd gwirfoddol ef; i amhlau fy rhyfeddodau yn ngwlad yr Aifft.

Adn. 10. *A'r Arglwydd a galedodd galon Pharao*] Gwel ar pen. x. 27, a iv. 21. Y mae y Samaritanaeg yn chwaneu gwchec o adnodau rhwng adn. 3 a 4 o'r bennod hon, a meddylia rhai eu bod ar y cyntaf yn rhan o'r testyn Hebreig; eithr barua ereill nad ydynt ddim ond ailadroddiadau o frawddegau cynwysedig yn y pennodau blaenorol, wedi eu chwaneu i wneyd y cysylltiad yn eglurach.

PEN. XII. Adu. 1. *A'r Arglwydd hefyd a lefarodd wrth Moses*] 'Neu a lefarasai cyn yr hyn a adroddir yn y bennod flaenorol, os nad hefyd cyn y tri diwrnod o dywyllwch; eithr y crybwylliad o hono a roddwyd heibio hyd y lle hwn, fel na fyddai i hanes y plâau gael ei rhwystro.'—BENSON.

Adn. 2. *Y mis hwn fydd i chwi yn ddechread y misoedd*] Hyny yw, y mis cyntaf a'r penaf yn y flwyddyn. Gelwir ef *Abib*, pen. xiii. 4, a xxiii. 15, yr hyn a arwyddau *twysen yd*, am mai y pryd hyny yr oedd yr yd yn twyseu: y mae yn cyfateb i ran o'r Mawrth a'i Hebrill ni. Cyn hyn yr oedd yr Iuddewon, fel y rhan fwyaf o'r cenhedloedd ereill, yn dechreu eu blwyddyn oddeutu y cyhydedd hydrefol, yn mis *Tisri*, yr hwn sydd yn cyfateb i ran o'r Medi ni; am y barnent mai yn y mis hwn y creodd Duw y byd, pryd yr oedd y ddaear yn ymddangos ar unwaith gyda'i holl ffrwythau mewn perffeithrwydd. Oddiwrth yr amgylchiad hwn ffurfiodd yr Iuddewon ddau ddechread i'w blwyddyn, yr hyn a roddes fod-aeth i ddau *eww* ar y flwyddyn ei hun. Yr hon a ddechreuai gyda *Tisri* neu Fedi, a elwid eu blwyddyn *wladol*; a'r hon a ddechreuai gydag *Abib* neu Fawrth, a elwid y flwyddyn *gysegredig* neu *eghwysig*.

chread y misoedd: cyntaf fydd i chwi o fisoedd y flwyddyn.

3 ¶ Lleferwch wrth holl gynullidfa Israel, gan ddywedyd, Ar y degfed dydd o'r mis hwn cymerant iddynt bob un oen, yn ol teulu eu tadau, sef oen dros bob teulu.

4 Ond os y teulu fydd ry fychan i'r oen, efe a'i gymydog nesaf i'w dŷ a'i cymer, wrth y rhifedi o ddynion; pob un yn ol ei fwyta a gyfrifwch at yr oen.

5 Bydded yr oen genych yn berffeith-gwbl, yn wryw, ac yn llwddn blwydd: o'r defaid, neu o'r geifr, y cymerwch ef.

Adn. 3. *Y degfed dydd o'r mis hwn*] Yr oedd yn awr yn angenrheidiol iddynt ddechreu paratoi y pasc bedwar diwrnod yn blaenllaw, am y buasai yn anhwadd iddynt heb hyny gael cynifer o wŷn yn barod yn yr Aifft: heblaw hyn, trwy mai hwn oedd y tro cyntaf iddynt gyflawni yr orindban, yr oedd yn ofynol iddynt gael chwaneu o amser i ymbarotio gogyfer â defod hollol newydd. Ond mewn oesau dyfodol ni ddechreuant barotio hyd y trydydd-arddeg, sef y dydd cyn y pasc, yr hwn a gynelid ar y pedwerydd dydd ar ddeg, adn. 6. *Cymerant iddynt bob un oen*—y mae y gair *seh* yn arwyddo un ieuanc o'r defaid neu y geifr, a gellir yn ddiwahaniaeth ei gyfieithu yn *oen* neu *fyn*: gwel ar adn. 5. Ond yn y cyffredin dewisid *OEN*. *Sef oen dros bob teulu*—yr oedd holl lu Israel yn rhanedig i ddeuddeg *llwyth*, y llwythau hyn i *deuluoedd*, y teuluoedd i *dai*, a'r tai i *bersonau* neillduol, Num. i. 2, &c., Jos. vii. 14.

Adn. 4. *Ond os y teulu fydd ry fychan*] Os na fydd digon o bersonau mewn un teulu i fwyta oen cyfan, yna rhaid i ddau deulu gyduno. Dywed y rabbiniaid fod o leiaf ddeg o bersonau yn ofynol at un oen y pasc, ac nid mwy nag *ugain*.

Adn. 5. *Bydded yr oen genych yn berffeith-gwbl*] Yn berffaith yn ei holl ranau. Yr oedd hyn yn gymhwysder anheborol yn mhob aberth, Lef xxii. 20—22; ac yr oedd hyn yn nod y paganiaid yn ofalus am hyn yn addoliad eu gaudduwiau. Y rabbiniaid a gyfrifent 50 o aumberffeitherau ag oeddyt yn gwneyd unrhyw anifel yn anaddas i'w aberthu: pump yn y *glust*, tri yn yr *anran*, wyth yn y *llygad*, tri yn y *trwyn*, chwech yn y *genau*, &c., &c. *Yn wryw*—am y cyfrifid y rhai gwryw yn rhagorach, a'u cig yn well nag eiddo y rhai benyw. *Yn llwddn blwydd*—hyny yw, dan flwydd oed, nid uwchlaw; canys yr oedd yr oen, yn gystal a'r mŷn a'r llo, yn gymhwys i'w haberthu yn wyth niwrnod oed, ond nid cyn hyny, pen. xxii. 30. 'Nid oeddynt i gael eu haberthu cyn yr wythfed dydd, am na byddent hyd hyny braidd wedi cyraedd perffeithrwydd y bywyd anifeilaidd, uac wedi eu pureiddio yn ddiogol: ac nid oeddynt i gael eu hoffirnu ar ol y flwyddyn gyntaf, am eu bod y pryd hyny yn dechreu teimlo gwres trythyllwch, ac o ganlyniad heb fod yn gysgodau

6 A bydded yn nghadw genych hyd y pedwarydd dydd ar ddeg o'r mis hwn : a lladded holl dyrfa cynulleidfa Israel ef yn y cyfnos.

7 A chymerant o'r gwaed, a rhoddant ar y ddau ystlysbost, ac ar gapan drws y tai y bwytânt ef ynddynt.

8 A'r cig a fwyânt y nos hõno, wedi ei rostio wrth dân, a bara croyw, gyda *dail* surion y bwytânt ef.

9 Na fwytewch o hono yn amrwd,

cymhwys o burdeb a diniweidrwydd.'—BOCHART. *O'r defaid neu o'r geifr y cymerwch ef*—gwelmsod *fed seh* yn meddwl y naill neu y llall; ac yr oedd y naill neu y llall yr un mor addas, os yn berffeith-gwbl.

Adn. 6. *A bydded yn nghadw genych*] Yr oedd yr oen neu y mŷn i'w gymeryd o'r praidd ar y degfed dydd, a'i gadw a'i borthi wrtho ei hun hyd y pedwarydd dydd ar ddeg, pryd yr oedd i'w aberthu. Ni chafodd hyn ei orchymyn na'i arferyd byth wedi hyn. Y mae y rabbiniaid yn nodi *pedwar* o bethau ag oedd-ynt yn ofynol y pasc cyntaf, y rhai na ofynwyd byth mwyach : 1. Bwya yr oen yn eu tai ar wasgar trwy Gosen. 2. Cymeryd yr oen ar y degfed dydd. 3. Rhoddi ei waed ar yr ystlysbost a chapau y drws. 4. Ei fwyta ar ffwrst. *Lladded holl dyrfa cynulleidfa Israel ef*—gallai unrhyw un ei ladd ef, trwy nad oedd y weithred aberthol yn yr achos yma wedi ei chyfyngu i'r offeiriad. *Yn y cyfnos*—Heb. 'rhwyg y ddau hwyr.' Yr Iuddewon a ranent eu dydd i fore a hwyr : hyd nes y croesai yr haul linell y canolddydd, yr oll ydoedd fore neu *ragawn*; yna yr oll fyddai *brydnawn* neu *hwy*. Eu hwyr cyntaf gan hyny a ddechreuai cyn neu oddeutu tri o'r gloch, ac a barhâai hyd fachlud haul; eu *hail* hwyr a ddechreuai ar fachlud haul, ac a barhâai hyd nes y byddai y nos, sef yn ystod holl amser y llwyd-oleuni, yr hyn a elwir yn *gyfnos*. Felly, yn ol yr Hebraeg, yr oedd ynt i ladd yr oen tua machlud haul, rhwyg y ddau hwyr; ac yn ol ein cyfieithiad ni, rhwyg machlud haul a'r nos : gwel ar Mat. xiv. 15, a xxvii. 57.

Adn. 7. *A chymerant o'r gwaed*] Yr hwn oedd i'w daenellu cyn i'r cig gael ei fwyta; *a rhoddant ar y ddau ystlysbost*—trwy drochitws o isop yn y gwaed, a'i rwbio ar y pyst, adn. 22; *ac ar gapan drws y tai*—sef ar y ffenestr ag ydoedd uwchben eu drysau, meddai rhai. Pod y taenellid hwn o waed oen y pasc yn gysgod o'r aberth a'r iawn a wnaed trwy farwolaeth yr Arglwydd Iesu, sydd dra am!wg oddiwrth Heb. ix. 13, 14, 1 Pedr i. 2. Y mae yn nodedig nad oedd dim gwaed i'w roddi ar y *trothwy*, i ddyssu i ni, fel y sylwa Mr. Ainsworth yn briodol, barchu gwaed Crist, ac fel na fyddai i ddyinion '*fathru* Mab Duw, na barnu yn aflan waed y cyfammod trwy yr hwn y santeiddiwyd hwynt.' Heb. x. 29.

Adn. 8. *A'r cig a fwyânt y nos hõno, wedi ei rostio wrth dân*] 'Nid yn unig am y gellid ei rostio yn gynt na'i ferwi, a'u bod hwythau mewn brys i fynydd; ond am ei fod fel hyn yn gysgod gwel o hono Ef, yr hwn a ddyoddefodd angerdd y digofaint dwyfol drosion ni, Galar. i.

na chwaith wedi ei ferwi mewn dwfr, eithr wedi ei rostio wrth dân; ei ben gyd a'i draed a'i ymysgaroedd.

10 Ac na weddillwch *ddim* o hono hyd y bore : a'r hyn fydd yn ngwedillo o hono erbyn y bore, llosgwch yntân.

11 ¶ Ac fel hyn y bwytewch ef; wedi gwregysu eich lwynau, a'ch esgidiau am eich traed, a'ch ffyn yn eich dwylaw : a bwytewch ef ar ffwrst; Pasc yr Arglwydd *ydwy* efe.

23.—BENSON. Ond y mae rhai yn meddwl fod y gorchymyn a roddwyd yma mewn gwrthwynebiad i arferiad yr Afficiaid, y rhai a fwyânt gig *amrwd* er anrhydedd i Osiris. *A bara croyw*—neu fara *dilefain*; mewn rhan i goffa iddynt eu caledi yn yr Aift, trwy fod bara dilefain yn fwy trwm a diflas; ac mewn rhan i goffa eu prysur waredigaeth, yr hon ni chaniatâi iddynt amser i'w lefeino, adn. 39, Deut. xvi. 3. Ond gan fod lefain yn fath ar *lygriad*, meddylir i'r defnyddiad o fara dilefain gael ei orchymyn i ddangos iddynt yr angenrheidrwydd am burdeb a gwirionedd; at ba ansawdd o eiddo lefain y cyfeiria yr apostol yn 1 Cor. v. 8, Gal. v. 9. *Gyda dail surion*—i adgoffo iddynt eu caethiwd yn yr Aift, yr hwn a wna'i eu bywyd yn sur a chwerv iddynt. Pa fath ddai a feddylir wrth y gair *merorim*, yr hwn yn llythrenol a arwydda *chweerw*, nid yw yn dra lysbys. Tybia yr Iuddewon mai *dant y llew lleaf*, *gwylaeth gwylt*, *môr-ddanadl*, a'r cyffelyb a feddylir.

Adn. 9. *A'i ymysgaroedd*] Tybia Clarke ac ereill mai nid y perffedion a feddylir yma, eithr y galon, yr ysgyfaint, yr afu, yr arenau, &c. Yr oedd y cenedloedd yn cameddfenyddio y rhai hyn i ddewinio; ac ar ol eu rhostio fel y cyfarwyddir yma, ni ellid eu defnyddio fel hyn. Y mae y gorchymyn hefyd yn cynwys fod yr oen i'w rostio yn *gyfan*: nid oedd y pen na'r traed i'w hysgaru, na'r ymysgaroedd i'w symud.

Adn. 10. *Ac na weddillwch ddim o hono hyd y bore*] Yn unig i attal pyrdedd neu lygriad; canys nid oedd yn iawn i beth wedi ei offrw i Dduw fod yn agored i *lygredigaeth*, yr hyn yn y fath wledydd poethion a'i dalai yn ebrwydd. Fel hyn ni oddefwyd i gorff ein Iarglwydd bendigedig weled *lygredigaeth*, Salm xvi. 10, Act. ii. 27, am ei fod yntau, fel oen y pasc, yn aberth offrymedig i Dduw.

Adn. 11. *Ac fel hyn y bwytewch ef, wedi gwregysu eich lwynau*] Gan eu bod yn ngwledydd y dwyrain yn gwisgo gwigoedd llaesion, yr oedd ynt wrth deithio yn cwtogi rhanau blaen eu gwigoedd yn y gwregysu a wisgent o amgylch eu lwynau, i'bag iddynt eu maglu. *A'ch esgidiau am eich traed*—i fod yn barod i'r daith. Gorchymynir hyn am yr arferai y dwyreinwyr ddyosg eu hesgidiau wrth fwyta. *A'ch ffyn yn eich dwylaw*—canys y mae y dwyreinwyr yn gyffredin, meddai Syr J. Chardin, yn arferyd ffion wrth deithio ar draed. *Bwytewch ef ar ffwrst*—yr oedd yr angel dinystrïol gerllaw, a'u gelynyddion yn dyfod yn eu herbyn, ac ni feddent foment i'w cholli. *Pasc yr Arglwydd ydwy*

12 O herwydd mi a dramwyaf trwy wlad yr Aifft y nos hon, ac a darawaf bob cyntafanedig o fewn tir yr Aifft, yn ddyu, ac yn anifel; a mi a wnaf farn yn erbyn holl dduwiau yr Aifft: myfi yw yr Arglwydd.

13 A'r gwaed fydd i chwi yn arwydd ar y tai lle byddoch chwi: a phan welwyf y gwaed, yna yr âf heibio i chwi, ac ni bydd pla dinystriol arnoch chwi, pan darawaf dir yr Aifft.

14 A'r dydd hwn fydd yn goffadwriaeth iwch'; a chwi a'i cedwch ef yn wyl i'r Arglwydd trwy eich cenedlaethau: cedwch ef yn wyl trwy ddeddf dragwyddol.

15 Saith niwrnod y bwytewch fara croyw; y dydd cyntaf y bwriwch sur-

—Saes. *passover*; hyny yw, meddai Ciarke, 'y mae JEHOFA yn awr yn nghylch *pasio dros* y wlad; a'r tai byz yn unig lle y byddo y gwaed yn daenelledig, a fyddant yn ddiogel rhag dŷrnod marwolaeth.'

Adn. 12. *A mi a wnaf farn yn erbyn holl dduwiau yr Aifft*] Y mae yn debyg i'r delwau a wnaed o *fettel* gael eu toddi, i'r rhai *coed* gael eu llosgi, ac i'r rhai *meini* gael eu dryllio yn chwilfrîw; a meddylia rhai mai at hyn y cyfeirir yn Esay xix. 1, a Jer. xliii. 13. Gall hefyd arwyddo dŷstrywiad eu hanifeiliaid cysegredig. Dychymygodd rhai y dylasai y gair *duwiau* gael ei gyfieithu yma yn *dywysogion*, fel y mae ar yml y ddalen; ac y mae Houbigant yn meddwl fod *elohey*, duwiau, yn gangymeriad am *ahley*, pebyll neu drigfanau: ond y dyb gyntaf yw yr un a dderbynir yn fwyaf cyffredin.

Adn. 13. *A'r gwaed fydd i chwi yn arwydd*] Y bydd i'r Arglwydd gyflawni ei addewidion i chwi. Ac yr oedd i fod yn arwydd hefyd i'r angel dinystriol, nad oedd neb yn y tŷ hwnw i gael ei ddinystrio. Yr oedd gau yr Aifftiaid gynt arferiad hynod, pa nu a barhaodd hyd ar ol dyfodiad Crist. Arferent roddi *nôd coch* ar eu defaid, eu coed-ydd, eu tai, a'u tiroedd, y dydd cyn y pasc, fel y gellir gweld yn Epiphanius; pa arferiad ni allai ddeilliaw oddiwrth ddim ond eu hofnau rhag i'r un pla a marwoldeb ddyfod arnynt hwy ag a ddaethai ar eu cyndadau, ac oddiwrth obaith o'i attal trwy ddefnyddio math ar swyn, rywbeth yn debyg i daenelliad gwaed oen y pasc ar ddrwsau yr Israëliaid. Y mae hyn yn brawf arall o wirionedd yr hanes ysgrythyrol.

Adn. 14. *A'r dydd hwn fydd yn goffadwriaeth iwch'*] O doster a daioni Duw, o'i gyflawnder a'i drugaredd. *Chwi a'i cedwch ef yn wyl*—fe'i cynelir yn flynyddol, a hyny gyda llawenydd edmygol a chrefyddol. *Trwy eich cenedlaethau*—cyhyd ag y parhewch yn bobl wahaniaethol. *Trwy ddeddf dragwyddol*—trwy sefydliad o eiddo Duw ei hun, nid i'w gyfnewid na'i ddiddymu tra y byddo yr eglwys Iuddewig mewn bodolaeth; neu hyd nes y delo Crist, yr hwn yw gwir Oen y pasc.

Adn. 15. *Saith niwrnod y bwytewch fara*

does allan o'ch tai: o herwydd pwy bynag a fwytao fara lefeinlyd o'r dydd cyntaf hyd y seithfed dydd, yr enaid hwnw a dorir ymaith oddiwrth Israel.

16 Ar y dydd cyntaf hefyd y bydd i chwi gymanfa santaidd, a chymanfa santaidd ar y seithfed dydd: dim gwaith ni wneir ynddynt, onid yr hyn a fwyty pob dyn, hyny yn unig a ellwch ei wneuthur.

17 Cedwch hefyd *wyl* y bara croyw; o herwydd o fewn corff y dydd hwn y dygaf eich lluoedd chwi allan o wlad yr Aifft: am hyny cedwch y dydd hwn yn eich cenedlaethau, trwy ddeddf dragwyddol.

18 ¶ Yn y *mis* cyntaf, ar y pedwarydd dydd ar ddeg o'r mis yn yr hwyr, y

croyw] Ar ol y pasc, cafodd hon ei hystyried gan rai yn ordinhad wahanol, ac beb ddal cysylltiad anhegorol â'r pasc. Yr oedd y pasc i'w gadw ar y pedwarydd dydd ar ddeg o'r mis cyntaf; ac yr oedd *gwyl* y bara croyw yn dechreu ar y pymthegfed, ac yn parhau saith niwrnod, y cyntaf a'r diweddaf o ba rai oedd-ynt gymanfaodd santaidd. Gwel ar Mat. xxvi. 2. *Yr enaid hwnw a dorir ymaith oddiwrth Israel*—y mae 36 o leoedd; meddai Clarke, 'yn y rhai y mae y *toriad ymaith* hwn yn cael ei fygwth yn erbyn yr Iuddewon am esgeulusiad o ryw ddyledswydd neilldnol; a pha beth a gynwysir yn y peth ei hun nid yw dra hysbys. Tybia rhai ei fod yn meddwl marwolaeth dreisiol, ereill farwolaeth anamserol, ac ereill farwolaeth dragwyddol. Y mae yn dra thebyg nad yw yn meddwl dim mwy nag ysgariad oddiwrth hawliau a breintiaid Israëliaid; fod y person, ar ol y toriad hwn, yn cael ei ystyried fel yn gwbl estron, heb ganddo ran na chyfran yn Israel, nac un hawl i fendithion y cyfammod. Hyn yn debygol a feddylia St. Paul, Rhuf. ix. 3. Ond gallwn feddwl yn naturiol nad oedd y gosp hon yn cael ei rhoddi ond ar y rhai a fyddent wedi dangos dirmyg *nodedig ac ystyfnig* ar y dwyfol awdurdod. Ymddengys fod y gosp hon yn lled debyg i *esgymundod* yn mhllith y Cristionogion; ac mai oddiwrth y dyb gyffredin hon o *dori ymaith*, y benthycwyd yr esgymundod Cristionogol.'

Adn. 16. *Ar y dydd cyntaf hefyd y bydd i chwi gymanfa santaidd*] Dyma y lle cyntaf ag y cyfarfyddwn â hanes cynulleidfa yn ymgasglu i'r unig ddyben o addoliad crefyddol. Y mae *mikra*, 'cymanfa,' yn air o gyffelyb ystyr i *ekklēsia* y Roeg, yr hwn yr ydym yn gyffredin yn ei gyfieithu yn *eglwys*, a'r hwn yn briodol a arwydda gynulleidfa wedi ei chasglu trwy alwad gyhoeddus.

Adn. 17. *O fewn corff y dydd hwn*] Heb. *beetsem*, 'yn nerth y dydd hwn.' Y mae yn debyg iddynt ddechreu eu taith o gylch toriad y dydd, yr hyn a elwir yma yn *gorff* neu *nerth* y dydd; ac yn Deut. xvi. 1, o *hyd nos*, beth amser cyn i'r haul godi: gwel CLARKE.

Adn. 18. *Y pedwarydd dydd ar ddeg o'r mis yn yr hwyr*] Pryd yr oedd y pymthegfed

bwytwch fara croyw, hyd yr unfed dydd ar hugain o'r mis yn yr hwyr.

19 Na chaffer surdoes yn eich tai saith niwrnod : canys pwy bynag a fwytao fara lefeinllyd, yr enaid hwnw a dorir ymaith o gynulleidfa Israel, yn gystal y deithr a'r priodur.

20 Na fwytwch ddim lefeinllyd : bwytwch fara croyw yn eich holl drigfanau.

21 ¶ A galwodd Moses am holl henuriaid Israel, ac a ddywedodd wrthynt, Tynwch a chymerwch i chwi oen yn ol eich teuluoedd, a lleddwch y pasc.

22 A chymerwch dusw o isop, a throchwch ef yn y gwaed a fyddo yn y cawg, a rhoddwch ar gapan y drws, ac ar y ddau ystlysbot o'r gwaed a fyddo yn y cawg; ac nac aed neb o

honoch allan o ddrws ei dŷ hyd y bore.

23 O herwydd yr Arglwydd a dranwya i daro yr Aiffiaid : a phan welo efe y gwaed ar gapan y drws, ac ar y ddau ystlysbot; yna yr Arglwydd a â heibio i'r drws, ac ni âd i'r dinystrydd ddyfod i mewn i'ch tai chwi i ddinystrio.

24 A chwi a gedwch y peth hyn yn ddeddf i ti, ac i'th feibion yn dragywydd.

25 A phan ddeloch i'r wlad a rydd yr Arglwydd i chwi, megys yr addawodd; yna cedwch y gwasanaeth hwn.

26 A bydd pan ddywedo eich meibion wrthyhych, Pa wasanaeth yw hwn genych?

27 Yna y dywedwch, Aberth Pasc yr Arglwydd ydyw, yr hwn a aeth

dydd, neu wyl y bara croyw, yn dechreu : gwel ar Gen. i. 5, Lef. xvi. 29, a xxiii. 32.

Adn. 19, 20. *Na chaffer surdoes yn eich tai saith niwrnod*] I gyfarfod â llythyren y gorchymyn hwn yn y modd llawnaaf, yr Iuddewon yn necbre yr wyl hon a wnaent yr ymchwiliad manylaf trwy bob rhan o'u tai, gan nid yn unig symud pob bara lefeinllyd, ond ysgubo pob rhan yn lân, fel na adewid un briwsionyn o fara yn yr hwn y byddai lefain. Ac yr oeddnynt mor fanwl yn nghadwraeth llythyren y ddeddf hon, fel os gwelid hyd yn nod llygoden yn rhedeg ar draws y llawr gyda briwsionyn o fara yn ei safn, yr ystyrient yr holl dŷ yn halogedig, ac y dechreunt eu puredig-aeth o'r newydd. Gwelsom eisioes fod *lefain* yn gysgod o bechod, am ei fod yn tarddu oddiwrth *lygredid*; ac yr oedd rhoddi hwn ymaith yn cynwys dychwelyd at Dduw mewn symled ac uniondeb calon : gwel ar adn. 8, 27.

Adn. 21. *A lleddwch y pasc*] Sef yr oen, yr hwn a elwid ar enw yr ordinad ei hun. Ac felly y gelwir ein Hiachawdwr, 1 Cor. v. 7, 'Christ ein pasc ni,' hyny yw, oen neu aberth ein pasc. Yr un modd y mae yr enw *cyfammod* yn cael ei roddi yn fynych i'r aberth a offrymid ar wneuthuriad y cyfammod : gwel ar Mat. xxvi. 26.

Adn. 22. *A chymerwch dusw o isop*] Cafodd y gair gwreiddiol *esob* ei gyfieithu yn *fwsg*, *rhosmari*, *march-redym*, *mintys*, ac *isop*; ond ymddengys, fel y sylwa Clarke, mai yr olaf yw yr addasaf. Dywed Parkhurst iddo gael ei enw oddiwrth ei anian bureiddiol a glanhaol, am ba herwydd defnyddid ef yn nhaenelliad gwaed oen y pasc, yn nglanhad y gwahanglwyf, Lef. xiv. 4, 6, 51, 52, ac yn ngwneuthuriad a thaeinelliad dwfr puredigaeth, Num. xix. 6, 18. Yr oedd yn gysgod o rinwedd *pureiddiol* chwervon ddyoddefiadau Crist : ac y mae yn amlwg oddiwrth Salm li, 7, fod y Salmydd yn deall ei ystyr ef. *Ac nac aed neb o honoch allan o ddrws ei dŷ hyd y bore*—pryd y gelwid arnynt i fyned allan o'r Aifit. Gallasai yr angel dinystriol wahaniaethu Israeliad oddiwrth Aiffiaid ar yr heol; ond mynai Duw

awgrymu iddynt fod en diogelwch yn ddyledus i 'waed y taenelliad;' ac os rhoddent hwy en hunain allan o nawdd hwnw, ei fod ar eu perygl. Hefyd, yr oedd yn angenrheidiol iddynt aros yn y tŷ, rhag na byddent ar gael pan elwid arnynt i gychwyn.

Adn. 23. *A phan welo efe y gwaed ar gapan y drws, &c.*] Gwel ar adn. 7, 13.

Adn. 24. *A chwi a gedwch y peth hyn*] Gwel ar adn. 14.

Adn. 25. *Yr wlad*] Sef Canaan : gwel ar pen. xiii. 5.

Adn. 26. *Pa wasanaeth yw hwn genych?*] Yr oedd sefydliad y wasanaeth hon yn flynyddol yn ddarpariaeth dra doeth er cadw y waredigaeth ryfeddol hon mewn coffadwriaeth. O'r amseroedd boreaf y mae sefydliad gwyliau, campau, &c., wedi bod mewn arferiad er cadw coffadwriaeth o'r ffwr ddygywyddiadau mawrwych a aethent heibio. Felly y sefydlodd Duw y *sabbot*, i gadw coffadwriaeth o'r *cread*; a'r *pasc*, i gadw coffadwriaeth o'r *waredigaeth o'r Aiffit*. Yr holl wyliau ereill a sefydlwyd i ddybenion cyffelyb. Nid oedd yr Iuddewon byth yn cyneryd eu meibion i'r tabernacl na'r deml nes eu bod yn ddeuddeg mlwydd oed, nac yn goddef iddynt fwyta o gig unrhyw aberth nes eu bod en hunain wedi offwrw aberth yn y deml, yr hyn ni oddefid iddynt ei wneuthur cyn y ddeuddegfed flwyddyn o'u hoedran. Yn yr oedran hwn yr oedd ein Harglwydd bendigedig pan y cymerth Joseph a Mair ef i'r deml, am y waith gyntaf yn debygol, i offwrw ei aberth, Luc ii. 42.

Adn. 27. *Aberth pasc yr Arglwydd ydyw*] 'Awgrymasom eisioes fod oen y pasc yn gysgod ardderchog o Grist; a chlawn fod pob peth yn yr hanes yma yn gysgodol neu gynrychiol. Gellir ystyried caethiwed a chystudd pobl Israel fel arwyddion o'r caethiwed a'r trueni caled ag ydd yn dylun cyflwr o bechadurusrwydd. Y mae Satan yn teyrnasu ar y corff a'r enaid, gan ddwyn y cyfan yn ddarostyngedig i ddeddf pechod a marwolaeth; tra y mae amrywiol ddrwg dymherau, nwydan, chwantau, a blysiâu afreolaidd, yn gweithredu

heibio i dai meibion Israel yn yr Aifft, pan darawodd efe yr Aifftiaid, ac yr achubodd ein tai ni. Yna yr ymgrym-odd y bobl, ac yr addolasant.

28 A meibion Israel a aethant ymraith, ac a wnaethant megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses ac Aaron; felly y gwnaethant.

29 ¶ Ac ar hanner nos y tarawodd yr Arglwydd bob cyntafanedig yn

fel is-boenydyddion, gan wneuthur einioes caeth-ddeiliaid pechod yn chwervw, oblegid y gerwindeu trwy yr hwn y maent yn gorfod gwasanaethu. Ddarllenwyd, ai dyma dy gyflwr di? Y mae trugaredd Duw yn cynllunio gwaredigaeth i ddy'n o'r caethiwd a'r gorthrymder creulon yna; ac y mae *aberth* wedi ei drefnu ar yr achlysur gan Dduw ei hun, i'w offrymu gyda defodau a seremonïau neillduol ac arwyddocaol, yr oll o ba rai a arddanghosant *ddyoddefaint a marwolaeth* ein Harglwydd bendigedig, a'r *dyben* mawr i'r hwn y daeth efe yn *aberth*, sef prynedigraeth byd colledig oddiwrth allu, euogrwydd, a halogrwydd pechod, &c. Ac y mae yn deilwng o sylw, 1. Fod y *gylch-wyl* neu y goffadwriaeth flnyddol o'r pasc yn cael ei chadw yn fanwl a chrefyddol gan yr Iuddewon ar y *dydd*, a'r *awr* o'r dydd, ag y cymerodd yr ochwyliaeth wreiddiol le, trwy eu holl genedlaethau dylunol. 2. Mai ar un o'r cylch-wyliau, ac, fel y mae llawer yn meddwl, ar y dydd a'r awr ag yr offrymwyd oen y pasc yn wreiddiol, y darfu i'n Harglwydd bendigedig drengu ar y groes er iachlawdwriaeth y byd. 3. Ddarfod i'r Iuddewon, ar ol dinystr Jerusalem, roddi heibio offrymu oen y pasc trwy yr holl fyd, (er eu bod yn parhau i'n gynol cylch-wyl y pasc, eithr *heb un aberth*.) er maint eu gwrthwynebiad dwfn-wreiddiedig a greiddol i Awdwr a gras yr efengyl. 4. Fod *sacrament* swper yr Arglwydd wedi ei sefydlu i gadw y gwir aberth pasc hwn mewn coffadwriaeth, a bod hwn wedi cael ei gadw yn grefyddol gan yr holl fyd Cristionogol (oddi-eithr un dosbarth bychan, y Crynwyr) o seiliad Cristionogaeth hyd y dydd hwn! 5. Ddarfod gorchymyn i'r Iuddewon fwyta oen y pasc; a'n Harglwydd, wrth gadw y pasc, a orchymynodd i'w ddysgybllion, gan ddywedyd, 'Cymerwch, bwytwch; pwn yw fy nghorff yr hwn a dorir *trosoch*: gwnewch llyn er *coffa* am DANAF; 1 Cor. xi. 24. Yn ngwasanaeth cymun Eglwys Loegr y mae ysbryd ac amean y cysgod a'r gwrthgysgod yn cael eu crynhoi yn nghyd yn y modd amlycaf yn y cyfarchiad i'r cymunwr, 'Cymer a bwyta hwn er cof farw o Crist drosot ti; ac ymborth arno yn dy *galon* trwy *FFYDD*, gan roddi *DOLCH*.' Fel hyn y mae Duw yn parhau y goffadwriaeth o'r ochwyliaeth fawr hōno ag y dywedasai efe y cai fod yn ddeddf *dragwyddol*; gan feddwl yn amlwg trwy hyn, y cai *oen y pasc* fod yn arwydd *hyd* ddyoddefaint a marwolaeth Christ; ac wedi hyn y cai *bara a gwin* a gymerid yn sacramentaidd er cof am ei groesboeliad ef, fod yn *arddangosiadau parhaus* o'r aberth hwnw hyd ddiwedd y byd. Fel hyn y mae y pasc

ngwlad yr Aifft, o gyntafanedig Pharaod yr hwn a eisteddai ar ei frenhin-faine, hyd gyntafanedig y gaethes *oedd* yn y carchardŷ; a phob cyntafanedig i anifell.

30 A Pharaod a gyfododd liw nos, efe a'i holl weision, a'r holl Aifftiaid; ac yr oedd gwaeddi mawr yn yr Aifft: oblegid nid *oedd* dŷ a'r nad *ydoedd* un marw ynddo.

ynddo ei hun, ac yn ei *gyfeiriad*, yn *ddeddf dragwyddol*; ac fel hyn y mae geiriau yr Arglwydd yn cael eu cyflawni yn llythyrenol.' —CLARKE. *Yna yr ymgrymodd y bobl, ac yr addolasant*—gan arwyddo trwy hyn y hymostyngiad i'r sefydliad hwn fel deddf, a'u diolchgarwch am dano fel braint.

Adn. 28. *Felly y gwnaethant*] Megys y gorchymynasai Moses ac Aaron iddynt oddiwrth yr Arglwydd. Nid oedd yma ddim o'r anfodlonrwydd a'r grwgnachrwydd hwnw yn eu plith, ag y darlennasom am dano pen. v. 20, 21. Yr oedd plâu yr Aifft wedi gwneyd lles iddynt, a chodi ynddynt ddysgwyliadau am waredigraeth ogoneddus, yr hon o'r blaen yr anobeithiant am dani; ac yn awr aethant ymraith i'w chyfarfod yn y sfordd benodedig.

Adn. 29. *Ac ar hanner nos y tarawodd yr Arglwydd bob cyntafanedig*] Os cymerwn y gair *cyntafanedig* yn ei ystyr llythyrenol yn unig, arweinir ni i gasglu nad allai fod marwolaeth mewn nifer mawr o dai yr Aifftiaid, gan nad yw mewn un modd yn debygol fod plant yn mhob tŷ, na bod plentyn cyntafanedig pob teulu eto yn fyw, na bod holl rai cyntafanedig eu hanifeiliad fyth yn aros: ac eto dywedir, adn. 30, 'nad oedd dŷ a'r nad ydoedd un *marw* ynddo.' Oddiwrth hyn, yn gystal ag oddiwrth ei ystyr mewn amrai lleoedd ereill yn yr ysgrifysraen, meddylir ei fod yn y testyn yn meddwl y *penaf*, y *rhagoraf*, yr *amlycaf*, &c., yn gystal a'r nn *cyntafanedig*. Gwel pen. iv. 22, Salm lxxxix. 27, Jer. xxxi. 9, Mica vi. 7, Zec. xii. 10, Rhuf. viii. 29, Heb. xii. 23. Am fod y rhai cyntafanedig yn gyffredin yn nodedig o anwyl gan eu rhieni, a bod ganddynt yn mhilith yr Iuddewon freintiau enwedigol a neillduol, yr oedd pwy bynag neu ba beth bynag ag ydoedd fwyaf anwyl a gwerthfawr yn cael ei alw yn *gyntafanedig*. Felly cafodd yr un *enwocaf* yn mhob teulu yn yr Aifft, yn gystal a'r rhai ag oeddnt yn llythyrenol yn *gyntafanedigion*, eu lladd yn y pla hwn.

Adn. 30. *Ac yr oedd gwaeddi mawr yn yr Aifft*] Nid oedd neb yn fwy nodedig am eu galarnadan na'r Aifftiaid, yn enwedig mewn achosion crefyddol: flangellent, curent, a thorent en hunain, ac uudent yn holl ddi-fawredd gofid. Pan fyddai marw perthyaas, y bobl a adawent y tŷ, a redent i'r beoldd, ac a grochwaeddent yn y modd mwyaf galaethus a gorplhwllog. Herodotus, yr hwn a ddy-gwyddodd, fod yn yr Aifft ar un o'n huchel-wyliau, a welodd fyrdiynau o bobl yn eu flangellu ac yn eu curo en hunain yn y modd hwn. Mor arswydus gan hyn y rhaid fod yr olygfa o erchyllod a chyfyngder pan nad

31 ¶ Ac efe a alwodd ar Moses ac Aaron liv nos, ac a ddywedodd, Codwch, ewch allan o fysg fy mhobl, chwi a meibion Israel hefyd; ac ewch, a gwasanaethwch yr Arglwydd, fel y dywedasoeh.

32 Cymerwch eich defaid, a'ch gwartheg hefyd, fel y dywedasoeh, ac ewch ymaith, a bendithiwh finan.

33 A'r Aifftiaid a fuant daerion ar y bobl, gan eu gyru ar ffrwst allan o'r wlad: oblegid dywedasant, *Dynion meirw ydym ni oll.*

34 A'r bobl a gymerodd eu toes cyn ei lefeinio, a'u toes oedd wedi ei

rwymo yn eu dillad ar eu hysgwyddau.

35 A meibion Israel a wnaethant yn ol gair Moses; ac a fenthycasant gan yr Aifftiaid dlysan arian, a thlysau aur, a gwisgoeoh.

36 A'r Arglwydd a roddasai i'r bobl hawddgarwch yn ngolwg yr Aifftiaid, fel yr echwynasant iddynt: a hwy a yspeiliasant yr Aifftiaid.

37 ¶ A meibion Israel a aethant o Rameses i Succoth, yn nghylch chwe chan mil o wŷr traed, heblaw plant.

38 A phobl gymysg lawer a aethant i fyny hefyd gyda hwynt; defaid

oedd un tŷ neu deulu yn yr Aifft heb un marw ynddo, a phan yr oedd yr holl deulu, yn ol eu harferiad hwy, yn rhedeg allan i'r heolydd i wylofain awr y trychineb a ddygwyddasai! Gwel ar Gen. 1. 11.

Adn. 31. *Ac efe a alwodd ar Moses ac Aaron liv nos* Hyny yw, anfonodd Pharao y genadwri a grybwyllir yma atynt hwy; canys nid yw yn debyg iddo ef gaer un cydunweliad pellach â Moses ac Aaron ar ol yr hyn a grybwyllwyd pen. x. 28, 29, a xi. 8: gwel y nodau yne.

Adn. 32. *Cymerwch eich defaid a'ch gwartheg hefyd, fel y dywedasoeh* Gwel pen. x. 26; *ac ewch ymaith*—yr oedd ef mewn cymaint dychryn yn awr nes y rhoddodd orchymyn ganol nos i'w gollwg hwy ymaith, gan ofni, os oedai, mai efe ei hun a syrthiai nesaf. A darfod iddo eu gyru ymaith, nid fel dynion yn cael eu casáu, ond fel dynion yn cael eu hofni, sydd eglur oddiwrt ei ddeisyfiad ganddynt: *A bendithiwh finan*—gadewch i mi gael eich gweddiau ar fy rhan, fel na tharawer fi â phla am yr hyn a aeth heibio pan fyddoch chi wedi myned.

Adn. 33. *A'r Aifftiaid a fuant daerion ar y bobl* Teimlent lawer, ond ofnient fwy; ac am hyny ewyllsient gael gwared diatreg o'r bobl ag y deallent eu bod yn cael eu taraw â chynifer o blâu mor arswydus o'u hachos.

Adn. 34. *A'r bobl a gymerodd eu toes cyn ei lefeinio* Hyny yw, eu toes dilefain, yn ol gorchymyn Duw, adn. 15. *A'u toes oedd wedi ei rwymo yn eu dillad*—yn eu llaes-wisgoedd rhyddion, tebyg i *kykes* yr Arabiaid, sef math ar wrthban laes, yn yr hon y maent yn fnyuch yn cario eu lluniaueth, yn ymwisgo y dydd, ac yn cysgu y nos. Y maent yn gyffredin oddeutu chwe llath o hyd, a dwy o led.

Adn. 35, 36. *A fenthycasant gan yr Aifftiaid, &c.* Gwel ar pen. iii. 22, lle y mae hyn yn cael ei egluro yn helaeth.

Adn. 37. *A meibion Israel a aethant o Rameses* Sef o GOSEN, yr hon a elwir yn Gen. xlvii. 11 yn DIR RAMESSES; er y dichon fod yno ddinas o'r un enw, oddiwrt yr hon y cafodd y wlad ei henw. *I Succoth*—gan fod Succoth yn arwyddo bythod neu bebyll, y mae yn debyg i'r lle hwn gael ei enwi felly am mai yma y gwersylloedd yr Israeliaid gyntaf ar eu taith o'r Aifft. *Yn nghylch chwe chan mil o wŷr traed*—hyny yw, yr oedd yno

gynifer a hyny o wŷr grymus, ugain mlwydd oed ac uchod, galluog i fynyed allan i ryfel. Nid hyn oedd eu holl nifer, ac am hyny dywedir *yn nghylch* 600,000; canys pan rifwyd hwynt yn mhen oddeutu blwyddyn wedi hyn, cafwyd eu bod yn 603,550, heb gyfrif y rhai dan ugain mlwydd oed, na neb o lwyth Lefi: gwel Num. i. 45, 46. Ond heblaw y rhai ar *draed*, diamau fod yno lawer o rai *hen a methiedig* ar gamelod, meirch, ac asynod, heblaw rhifedi dirfawr o *wragedd a phlant*, y rhai oeddynt o leiaf na dri am un o'r lleill, *a'r bobl gymysg*, adn. 38. Ni welwyd erioed y fath dorf yn ymsymud ar unwaith allan o'u gwlad cyn nac wedi hyn: diamau eu bod yn y cwbl uwchlau dwy filiwn o eneidiau, heblaw defaid hefyd, a gwartheg, *sef dâ lawer iawn!* A pha beth ond rhagluniaeth Duw a allasai gynnal y fath lu mewn *aniadwch*, lle nad oes hyd heddyw ddim angonrheidiau bywyd i'w cael? A thybio ein bod yn eu cymeryd ar fras gyfrifiad fel hyn, ceir fod dwy filiwn yn nifer rhy fychan:

Gwŷr grymus, ugain mlwydd oed ac uchod.....	600,000
Gallwn dybio fod dwy ran o dair o'r rhai hyn yn briod, ac felly cyrhaedda eu gwragedd i.....	400,000
Gallasai fod gan y rhai hyn, yn y cyfartaledd, 5 o blant dan 20 mlwydd oed, rhif ag sydd yn syrthio yn llawer rhy fyr o'r nifer o blant ag y rhaid fod pob teulu yn ei gyfartalu mewn trefu i gael oddiwrt 75 o bersonau 600,000 o wŷr grymus mewn yspaid 215 o flynyddau.....	2,000,000
Y Lefaid, y rhai yn debygol na chynwysid yn mhilth y gwŷr grymus....	45,000
Eu gwragedd.....	33,000
Eu plant.....	165,000
Y bobl gymsysg, yn debyg nid llai na.....	20,000
Y cwbl.....	3,263,000

Heblaw lluwau o bersonau *hen a methiedig*, yn gorfod marchogaeth ar gamelod ac asynod; y rhai, oddiwrt y cyfartalarwydd ag y mae y cyfryw yn ei ddwyn i'r rhai ieuanc ac iach, a raid fod yn cyraedd i amrai filoedd yn chwaneog.

Adn. 38. *A phobl gymysg lawer* Y mae rhai yn meddwl mai Aifftiaid wedi ymbriodi i blith yr Israeliaid oedd y rhai hyn, neu broseltytiaid i'r grefydd Iuddewig; neu gall mai rhai o' cenhedloedd cymydogeaethol oeddynt,

hefyd a gwartheg, *sef* dá lawer iawn.

39 A hwy a bobasant y toes a ddygasent allan o'r Aifft yn deisenau croyw; o herwydd yr oedd heb ei lefeinio: canys gwthiasid hwynt o'r Aifft, ac ni allasant aros, ac ni pharotoisant iddynt eu hun luniaeth.

40 ¶ A phreswyliaid meibion Israel, tra y trigasant yn yr Aifft, *oedd* ddeng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd.

41 Ac yn mhen y deng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd, *ie*, o

fewn corff y dydd hwnw, yr aeth holl luoedd yr Arglwydd allan o wlad yr Aifft.

42 Nos yw hon i'w chadw i'r Arglwydd, ar yr hon y dygwyd hwynt allan o wlad yr Aifft: nos yr Arglwydd yw hon, i holl feibion Israel i'w chadw trwy eu hoesoedd.

43 ¶ Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses ac Aaron, Dyma ddeddf y Pasc: na fwytiad neb dy-eithr o hono.

44 Ond pob gwasanaethwr wedi ei

wedi dyfod i ymmoddi yn yr Aifft rhag newyn yn eu gwledydd eu htnain. Beth bynag oedd- ynt, wrth weled fod IEROFAN yn *erbyn* yr Aifftiaid a *chyda'r* Israeliaid, penderfynasant eu canlyn hwynt allau o'r Aifft.

Adn. 39. *Canys guthiasid hwynt o'r Aifft*] Trwy erfyniadau taerion, adn. 33; ac ni pharotoisant iddynt eu hun luniaeth—ni chwasant amser i grasu y toes a gymysg- asent.

Adn. 40. *A phreswyliaid meibion Israel, tra y trigasant yn yr Aifft, oedd ddeng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd*] Na ddarfu i hiliogaeth Israel breswylïo 430 o flynyddau yn yr Aifft, a ellir ei brofi yn hawdd, ac a eglurwyd yn fnych. Ond y mae y Pamllŷr *Samaritanaidd*, yn ei holl ysgrifysfrau a'i ailunau argraffedig, yn darllen yr adnod fel hyn: 'A phreswyliaid meibion Israel *a'u tadau*, tra y trigasant *yn ngwlad Canaan* ac yn yr Aifft, oedd 430 mlynedd.' Dyma y swm a roddir gan St. Paul, Gal. iii. 17, yr hwn sydd yn cyfrifo'r addeuid a wnaed i Abraham pan orchymynodd Duw iddo fyned i Ganaan, hyd roddiad y ddeddf, yr hyn yn ebrwydd a ddylynnodd yr ymadawiad o'r Aifft; ac y mae yr amseriad yma o eiddo yr apostol yn gyson â'r Pumilŷr *Samaritanaidd*, pa un, trwy gadw y ddau ymadrodd, hwy *a'u tadau*, ac *yn ngwlad Canaan*, y rhai a gollwyd o ailunau presenol y testyn Hebreig, sydd wedi gwaredu yr adnod hon oddiwrth bob tywyll- wech a gwrthddywediad. Y mae yr ailun Alexandriaidd o gyfieithiad y LXX yn meddu yr un darlleniad a'r Samaritanaidd. Addefir gan lawer o wŷr dysgedig mai y Samaritanaidd yw yr ailun cywiraf o bum llyfr Moses; a rhaid addef hefyd fod yr ailun Alexandriaidd o eiddo y LXX yn un o'r ailunau mwyaf awdurdodol a henafol o'r cyfieithiad hwn a'r a feddwn. Am St. Paul, ni fydd i neb amau awdurdod ei adroddiad ef: ac fel yma, yn ngenau y *tri thyst* tra chyfrifol hyn, y mae yr holl hanes yn cael ei chadarnhau yn ddi- amheul. Fod y *tri thyst* hyn yn meddu y gwirionedd, a brofir gan yr amseryddiaeth ei hun: canys o fynediad Abraham i Ganaan hyd enedigaeth Isaac, yr oedd 25 mlynedd, Gen. xii. 4, a xvii. 1—21; yr oedd Isaac yn 60 mlwydd oed pan aned Jacob, Gen. xxv. 26; ac yr oedd Jacob yn 130 pan yn myned i wared i'r Aifft, Gen. xlvii. 9; pa dri swm a waant 215 o flynyddau. Ac yna, trwy i Ja- cob a'i blant aros yn yr Aifft 215 o flynyddau

yn mhellach, y mae y cyfanswm o 430 o flynyddau yn cael ei wneyd i fyny yn rheolaidd. Gwel Draethawd *Kennicott* ar y Testyn Hebreig.

Adn. 41. *Ac yn mhen y deng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd*] Ar ol i Dduw addaw i Abraham y gwneid ef yn genhedlaeth fawr, Gen. xii. 2—4: gwel ar adn. 40. *O fewn corff y dydd hwnw*—hynny yw, fel y mae rhai yn ei ddeall, yn mhen 430 mlynedd *i'r diwrnod*, sef y 15fed o *Abib*, yn cyfateb y flynyddau hōno i'r pummed o'n *Mai* ni.

Adn. 42. *Nos yw hon i'w chadw i'r Arglwydd*] Yr oedd y nos base *gynlaf* hon yn nos i'w chadw i'r Arglwydd; eithr y nos base *ddiweddaf*, yn yr hon y bradychwyd Crist, ydoedd nos i'w chadw i'r Arglwydd yn lawer *mwy*; pryd y torwyd iau drymaech nag un yr Aifft oddiar ein gwarau, ac y gosodwyd gwlad well nag un Canaan o'n blaen. Gwardigaeth dymhorol oedd hōno i'w chofio *trwy eu hoesoedd*; pryndigaeth dragwyddol yw hon i'w chofio *byth bythoedd*.

Adn. 43. *Dyma ddeddf y pasc*] Ymddengys yn dra amlwg oddiwrth yr adnod olaf o'r ben- nod hon, meddai Clarke, fod adn. 43—50 yn cyfansoddi rhan o'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Moses mewn perthynas i iawn gadwrnaeth y pasc cyntaf, ac y dyld eu darllen mewn cysylltiad â'r hanes flaenorol ag sydd yn dechreu yn adn. 21. *Na fwytiad neb dyeithr o hono*— oddieithr iddo fod wedi cael ei enwaedu, adn. 48. Cyfrifid pawb a'r nad oeddynt wedi dis- gygn oddiwrth un o ddedddeg mab Jacob, neu oddiwrth Ephraim a Manasse meibion Joseph, yn *ddyethriaid* neu *broselytiaid* yn mhllith yr Iuddewon. Ond o'r rhai hyn yr oedd dau fath, *sef proselytiaid y porth*, a *phroselytiaid cyfiawnder* neu y *cyfammod*. Y rhai *cyntaf* oeddynt gyfrw ag a ewyllystent drigo yn mhllith yr Iuddewon, ond nad ymostyngent i'w henwaedu; yr oeddynt modd bynag yn cyf- flesu y gwir Dduw, yn gochelyd eilunaddol- iaeth, ac yn cadw saith gorchymyn Noa, ond heb otod cadw un o'r gosodiadau Moesenaidd. Y rhai *olaf* a ymostyngent i'w henwaedu, ac a ymrwyment i gadw holl ddedodau a seremoni- au y gyfraith, heb fod mewn dim yn wahanol i'r Iuddewon ond yn unig eu bod unwaith yn *baganiaid*. Ni allai *proseltytiaid y porth* fwyta o'r pasc, nac ymgysfrangi o un o'r gwleddoedd cysegredig; ond yr oedd *proselty- tiad y cyfammod* yn meddu yr un breintiau ysbrydol a thymhorol a'r Iuddewon eu hunain.

brynu am arian, gwedi yr enwaedych ef, a fwyty o hono.

45 Yr alltud, a'r gwas cyflog, ni chaiff fwyta o hono.

46 Mewn un tŷ y bwyteir ef: na ddwg *ddim* o'r cig allan o'r tŷ; ac na thorwch asgrwn o hono.

47 Holl gynulleidfa Israel a wnant hyny.

48 A phan arhoso dycieithr gyda thi, ac ewyllysio cadw Pasc i'r Arglwydd, enwaeder ei holl wrywaid ef, ac yna

Adn. 44. *Ond pob gwasanaethwr*] Neu gaethwas. Yr oedd hwn yn *rhwym* o gael ei enwaedu, Gen. xvii. 13, ac ar ol hyny yn *rhydd* i fwyta o'r pase.

Adn. 45. *Yr alltud*] Ymdeithydd yn eu plith o wlad arall, yr hwn a ddaethai atynt er mwyn niasnach neu faeleraeth; *a'r gwas cyflog*—yr hwn, er ei fod wedi ymrwymo am dymhor i'w gwasanaethu, eto nad oedd wedi dyfod yn broseltyr y cyfammod. Trwy nad oedd y rhai hyn dan rwyng y cyfammod a'r ddeddf, ni feddent hawl i'w breintiau a'u bendithion, mwy na rhai *difeddyd* i freintiau a bendithion yr eglwys Gristionogol.

Adn. 46. *Mewn un tŷ y bwyteir ef*] I'r hwn, os na bydd y teulu yn ddigon lluosog, y gellir gwahoddi tenlu cymydogol, adn. 4. *Na ddwg ddim o'r cig allan o'r tŷ*—i'w ranu gyda theulu arall: gwel ar adn. 22. *Ac na thorwch asgrwn o hono*—gan ei fod i'w fwyta ar *ffrwt*, adn. 11, nid oedd amser i wahanu yr esgyrn, nac i'w tori i gael y mēr allan: ac heblaw hyn, yr oedd ef felly yn gysgod llawnach o wir Oen Duw, yr hwn er ei groeshoelio, ac er yr arferent dori esgeiriau y cyfrywar y groes, eto a ddiogelwyd gan raglunioeth fel na thorwyd asgrwn o hono: gwel Ioan xix. 33, 36.

Adn. 47. *Holl gynulleidfa Israel a wnant hyn*] Er fod yr *wyn* yn cael eu lladd a'u bwyta mewn teuluoedd ar wahan, eto edrychid ar hyn fel gweithred yr holl gynulleidfa.

Adn. 48. *A phan arhoso dycieithr gyda thi, &c.*] Boed i bawb ag sydd yn ymdaith yn eich plith, ac yn ewyllysio ymgyfranogi o'r ordinhad santaidd hon, nid yn unig gael eu henwaedu eu hunain, ond dwyn holl wrywod eu teuluoedd yr un modd, fel y gallont oll gael cyfartal hawl i fendithion y cyfammod: gwel ar adn. 43.

Adn. 49. *Yr un gyfraith fydd i'r priodor ag i'r dycieithr*] Caiff y Cenedl-ddyn dycieithr, os bydd wedi ei enwaedu, sefyll ar yr un tir a'r Israeliad priodor. Yr oedd hyn yn dysgu i'r Iuddewon mai eu cysegriad hwy i Dduw, nid eu ddisgyniad oddiwrth Abraham, oedd yn rhoddi hawl iddynt yn eu breintiau.

Adn. 50. *Felly y gwnaethant*] Gwel ar adn. 28.

Adn. 51. *Yn ol eu lluoedd*] Gwel ar pen. vi. 26.

SYLWADAU CHWANEGOL AR BLAAU
YR AIFFT.

GALL fod yn angenrheidiol gwneuthur rhai sylwadau cyffredinol yma ar blaau yr Aiff, yn chwanegol at yr hyn a ddywedwyd eisieso

nesâed i wneuthur hyny; a bydded fel yr hwn a aned yn y wlad: ond na fwytaed neb dienwaededig o hono.

49 Yr un gyfraith fydd i'r priodor ag i'r dycieithr a arhoso yn eich mysg.

50 Yna holl feibion Israel a wnaethant fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses ac Aaron; felly y gwnaethant.

51 Ac o fewn corff y dydd hwnaw y dyg yr Arglwydd feibion Israel o wlad yr Aiff, yn ol eu lluoedd.

yn y nodau. Pan yr ystyriom natur eilun- addoliaeth yr Aiffitiaid, a'r plâu a anfonwyd arnynt, gallwn welad ar unwaith neillduol- rwydd y farn, a'r priodoldeb mawr o'i gweinyddiad yn y ffordd a adroddir gan Moses. Cafodd y plâu oll eu gweinyddu ar *wrth- ddrychau* eu haddoliad, neu trwy eu *cyfrwng* hwy.

I. Y DYFROEDD YN CAEL EU TROI YN WAED.—Gwelsom eisieso fod y *Nilus* yn wrthddrych addoliad yr Aiffitiaid, ac yn un o'u duwiau penaf. Yn y pla *cyntaf*, ei *dyfroedd* a drowyd yn waed; a'r *pysgod*, llawer o ba rai oeddynt hefyd yn wrthddrychau eu haddoliad, a fuant feirw. Yr oedd *gwael* yn hynod o atgas ganddynt, ac yr oedd cyffwrdd âg unrhyw anifel marw yn eu hafanhan. Gan hyny, pan drowyd eu duw mawr, yr afon, yn waed, ac y llygrwyd ei dyfroedd nes i'r holl bysgod, is- wrthddrychau eu haddoliad, feirw, yr ydym yn canfod barn ag ydoedd ar unwaith yn gyfaddas i'w cospi a'u diwygiu. A allent hwy byth ar ol hyn ymddiried mewn dauian na fedrent eu gwaredu eu hunain na'u haddolwyr twylledig?

II. Y LLYFFAINT.—Ymdrechodd Mr. Bryant brofi fod *lyffaint*, yr *ail bla*, yn greaduriaid *cysegredig* yn yr Aiff, ac yn gyffwynedig i *Ostris*. Y maent yn ddiâu i'w canfod ar lawer o hen gofologofnau yr Aiff, ac yn y fath amgylchiadau a chysylltiadau fel ag i ddangos eu bod yn cael eu dal mewn parch crefyddol. Daeth y rhai hyn gan hyny yn ffirwyll arswydus; yn gyntaf, trwy eu *rhifedi*, a'u hymwthiad i bob lle; ac, yn ail, trwy eu *marwolaeth*, a lygriad yr awyrgylch, yr hyn a gymerodd le yn ganlyniol i hyny.

III. Y LLAU.—Gwelsom hefyd fod yr Aiffitiaid, yn enwedig yr offeiriaid, yn caru *glendid* yn fawr, ac na wisgent ddillad gwlanen rhag i un math ar bryfed loches o'u hamgylch. Yr oedd y *trydydd* pla, trwy *lau* neu bryfed cyffelyb, wedi ei fwriadu yn ddoeth i'w darostwng a'u cwylyddio hwynt. Yn hwn gwelent yn ebrwydd allu trech na dim a fedrai eu duwiau na'u swynwyr hwy ei arferyd; a gorfu i'r rhai diweddaf gyfaddef, *Bys Duw yw hyn!*

IV. Y CYMYSGBLA.—Y mae genym y prawf cryfaf fod *gwybed* yn cael eu dal yn gysegredig yn mhllith yr Aiffitiaid ac amrai genhedloedd ereill. Y mae yn dra thebyg fod *Beel-zebub* ei hun yn cael ei addoli dan lun *gwybedyn* neu *gylionyn* mawr. Y rhai hyn gan hyny, neu ryw fath o drychfilod adeiniog niweidiol, a ddaethant yn brif offerynau yn y *pedwarydd*

pla; ac os oedd cymysgedd o wahanol fathau o dychfilod neu greaduriaid yn gwneyd i fyny y pla hwn, gwelom eisioes yn y nodau gyda pha briodoldeb ac effeithiolaeth y gweinyddid y faru hon.

V. YR HAINT.—Yr haint neu *farwoldeb* yn mhilth yr auifeiliaid oedd y *pummed* pla, a'r arwydd mwyaf penderfynol o allu ac anffoddlonrwydd JEHOFA. Y mae yr holl fyd yn gyfodlon fod *cân, cathod, epaod, hyrdod, aneirod, a theirw*, oll yn wrthdrysychau eu parch mwyaf crefyddol. Tarawyd y rhai hyn yn y modd hynaf gan law Duw, nes yr oedd yr Aifftiaid yn eu gwled eu hunain wedi eu hamddifadu ar unwaith o'u holl gynorthwion dychmygol. Y mae hyd yn nod *Apis*, eu hych-dduwl, yn yr hwn yr ymddiriedent yn neillduol, yn awr yn dyoddef, yn griddfan, ac yn trengu dan law JEHOFA. Fel hyn y gwnai efe 'farn yn erbyn holl dduwiau yr Aifft,' adn. 12.

VI. Y CORNWYD LLINCROE.—Yr oedd y *chwaeched* pla hwn mor gyfaddas ag un o'r rhai blaenorol; ac yr oedd *taeniad* y *ludw*, trwy yr hyn ei cynrychwyd, yn hynod o arwyddocaol. Dywed Mr. Bryant fod darparu meddyginiaethau mewn bri mawr yn mhilth yr Aifftiaid; ac yr oedd *Isis*, eu dduwies fwyaf clodfawr, yn cael ei hystyried fel yn gallu rhagflaenu neu iachau unrhyw afiechyd. Dywed Diodorus fod y dduwies hon yn arferol o ymddangos i ddynion yn eu cwsb pan mewn afiechyd, ac yn eu gwella; a bod nifer oedd o ddeillion ac anafusien wedi cael llygaid ac aelodau trwy gyfeirio ati hi. Trwy yr anhwylded hwn, gan hyny, yr hwn nis gallai eu *duwiau* ei iachau, a'r hwn oedd ar y *swynwyr* hefyd, y rhai y tybid eu bod yn meddu mwyaf o allu a dylanwad, darfu i Ddaw warthruddo eu balchder a dangos ynyfdrwydd eu haddoliad a gwagedd eu hymddibyniad. Gwelsom yn y nodau fod yr Aifftiaid ar rai achlysuron yn llosgi dynion, y rhai yn debygol a gymerid o blith yr Israeliaid, ac yn taenu eu lludw fel y byddai i *sendith* ddisgyn gyda phob liwehyn o hono. Cymerodd Moses gan hyny ludw *fellodith* ar y swynwyr a'r Aifftiaid yn gyffredinol. Fel hyn yr oedd gwrthdarwriad bwrriadol yn null y weithred hon, i'r dyben i wrthwynebu hygoedd yr amserau.

VII. Y CENLLUSG.—Rhaid fod *cenllusg blin*, sef y *seithfed* pla, yn cael eu dilyn â *gwlaw*, *melld*, a *tharawau*, a hyny mewn gwlad lle nad yw y rhai hyn braidd byth yn dygwydd, ac hefyd yn ol *rhagfynegiad* penodol Moses, yn nodi allan yn y modd egluraf allu a chyfiawnder Duw. Yr oedd *tân a dufr* yn ddau o brif wrthdrysychau addoliad yr Aifft; a dywed Porphyry eu bod yn ystyried *tân* yn *dduw mawr*. Gan hyny, yr oedd gwled fod yr elfenau hyn, gwrthdrysychau eu haddoliad, yn cael eu dwyn, wrth orchymyn *gwaw* Jehofa, yn felddith a strewyll ar yr holl diri, ac ar ddynion ac anifeiliaid hefyd, o angenrheidrwydd yn siglo eu crediniaeth hwy yn y duwiau tybiedig hyn, tra yr oedd yn profi i'r Hebreaid 'nad oedd neb megys Duw Israel.'

VIII. Y LOCUSTIAID.—Yn yr *wythfed* pla, sef *locustiaid* a *lindys*, y gwelwn trwy ba fath

greaduriaid eiddil y gall Duw ddwyn oddiam-gylch ddinystyr cyffredinol. Y *lindys* o bob creadur yw y mwyaf salw, ac, a'i ystyried ar ei ben ei hun, y lleiaf i'w ofni yn holl amberodraeth natur; ond yn llaw, dwyfol gyfiawnder y mae yn dyfod yn un o elynion mwyaf ofnadwy yr hil ddynol. Oddiwrth yr anghreiffiau yn y nodau y gwelwn leied a fedr gallu, diwydrwydd, a chefyddyd dyn ei woeuthur rhag y strewyll dra arswyddus hon. Ni ddylid dtych yn ddirmygus ar hyd yn nod y creadur distadlaaf, gan y dichen iddo ef ddyfod yn llaw Duw yn offeryn mwyaf arswyddus er cospi dyn drwg neu wlad euog. Yn y pla hwn hefyd ni allai *Isis, Seraphis*, na holl dduwiau ereill yr Aifft, ddangos un cymorth na gwaredigaeth er ennill parc² eu haddolwyr twylldeg.

IX. Y TYWYLLWCH DUDEW.—Yr oedd y *naufed* pla, sef y *tywyllwch* dychrynlyd a barhaodd dri diwrnod, yn rhoddi i'r Israeliaid a'r Aifftiaid y prawf amlycaaf o allu a llywodraeth gyffredinol JEHOFA; ac yr oedd yn neillduol i'r rhai olaf yn wers dra arswyddus, eto addysgiadol, yn erbyn math o eilunaddoliaeth a ffynasai yn hir yn yr Aifft a gwledydd ereill, sef addoliad y *goleuadau* nefol. Yr oedd yr *haul* a'r *lloer* yn cael eu haddoli fel duwiau goruchel, ac unig gyfranyddion goleuni a bywyd; a gweddiant ar yr haul fel cyfranydd anfarwoldeb a gwynfydedigrwydd tragwyddol. Dyry Porphyry i ni y ffurf a arferid gan offeiriad yr Aifft wrth gyfarch yr haul ar raa person ymadawedig, am iddo gael ei dderbyn i gymdeithas y duwiau: 'O benarglwydd yr *HAUL*, a chwithau yr holl dduwiau ereill ag sydd yn rhoddi bywyd i ddynolryw! derbyniwch fi, a gadewch i mi gael fy ngollwng i mewn yn gydymaith i'r duwiau anfarwol!' Danghosai JEHOFA trwy y pla hwn mai ei *greaduriaid* ef oedd y gwrthdrysychau hyn o'u haddoliad gau, yn cyfranu neu yn attal eu goleuni wrth ei ewylls ef; ac fel yr argyhoeddid y bobl fod hyn oll yn dyfod yn ol ei benodiad ef yn unig, efe a *ragfynegodd* am y tywyllwch arswyddus hwn; ac fel y galiai eu *seryddwyr* gael y prawf llawnaf mai nid dygwyddiad naturiol oedd hwn, ac nas gallai fod yn effaith un math o ddiffygiad ar yr haul, yr hwn hyd yn nod pan yn *gysllawn* ni allai barhau ond am oddeutu pedwar mlynedd, (ac nis gall hyn ddygwydd ond unwaith mewn mil o ffynyddau), efe a barodd i'r tywyllwch teimladwy hwn barhau *dri diwrnod!*

X. LLADD FOD CYNTAFANEDIG.—Gellir ystyried y *deafed* pla, a'r olaf, sef lliaddid y *cyntafanedig* neu y *penaf* yn mhob teulu, yn y goleuni o *ad-daliad* dwyfol: canys ar ol i'w cenedl hwy gael eu cadw trwy un o'r teulu Israelaidd, sef *Joseph*, darfu iddynt yn groes i bob iawnder, ac mewn gwrthwynebiad i'r ammodau gwreiddiol, gaethiwo y bobl i'r rhai yr oeddynt mor ddyledus; ac yn anffoddlon ar hyn, llofruddiansant eu plant, a gwnaethant gaethiwd y bobl yn noddefol trwy ormes. Dywedasad wrthynt fod teulu yr Israeliaid yn cael eu cyfrif fel *cyntafanedig* Jehofa, pen. iv. 22; am hyny dywedodd Duw, 'Gollwng fy mab, fel y'm gwasanaetho: ond os gwrthodi ei ollwng ef, wele mi a laddaf dy fab di, sef dy *gyntafanedig*,' adn. 23. Ond ni wnaethant gyfrif o'r rhybydd hwn, ac am hyny daeth barnau arnynt a derfynasant yn marwolaeth y

PENNOD XIII.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 *Cysegra* i mi bob cyntafanedig, *sef* beith bynag a agoro y groth yn mysq meibion Israel, o ddyn ac anifel: eiddof fi *yr*.

3 ¶ **A** dywedodd Moses wrth y bobl, Cofiwch y dydd hwn, *ar* yr hwn y daethoch allan o'r Aifft, o ddy y caethiwd: oblegid trwy law gadarn y dyg yr Arglwydd chwi oddiyno: am hyn na fwytaer bara sefeiniillyd.

4 Heddyw yr ydych chwi yn myned allan, a'r mis Abib.

5 ¶ **A** phan ddygo yr Arglwydd di i wlad y Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Amoriaid, yr Hefiaid hefyd, a'r Jebus-

cyntafanedig yn mbob teulu; ad-daliad cyfiawn am eu hanufydd-dod a'u creulondeb.

Ar y cyfan gallwn ddywedyd, 'Gwel ddaioni a thosder Duw!' *Tosder* yn gymysg â *daioni* hyd yn nod i'r un bobl. Efe a'u *cospai* ac a'u *diwygiai* ar yr un pryd; canys nid oedd un o'r barnedigaethau hyn a'r nad oedd ynddi, oddiwrth ei natur a'i hamgylchiadau neillduol, ryw ddyfanwad gwellaol. Ac nis gallai modd effeithiolach gael ei fabwysiadu er dangos i'r AIFFTIAID atresymoldeb eu heilunaddoliad, ac aneffeithioldeb eu dibyniad arno, na'r un a ddefnyddiwyd ar yr achlysur hwn gan y Duw doeth, cyfiawn, a thrugarog. Ar yr un pryd rhaid fod yr ISRAELFAID eu hunain wedi cael gwera dra plwysig ar oferedd a drygedd eilunaddoliaeth, i'r hyn yr oeddynt bob amser yn dra thueddol, ac o'r hyn yn ddiamau y rhoddasent lawer mwy o anghreiffitiau, oni buasai fod plâu yr Aifft ganddynt yn wastadol o flaen eu llygaid. Y mae yn debyg mai y dadleniadau hynod hyn o allu a chyfiawnder Duw, a'r rhai hyn yn *unig*, a'u tueddod hwy i aael yr Aifft wrth orchynyn Moses ac Aaron; pe amgen, gyda'r anialwch erchyll o'u blaen, ac yn hollol amharod i'r fath daith, yn yr hon a llefaru yn ddydol yr oedd yn annhosibl iddynt hwy a'r eiddynt fyw, deवासent y drygan a ddyoddyfent y pryd hyn yn hytrach na'r perygl o rai mwy trwy geisio diane o'u caethiwd presenol. Profir hyn trwy eu tuchanrwydd, pen. xvi., oddiwrth yr hyn y mae yn awlwg eu bod yn sefyll yr Aifft gvda'i holl fellldithion o flaen eu defnyllfa yn yr anialwch, ac nas gallesid byth eu tueddol i'w gadael hi oni buasai iddynt gael y prawf llawnaf mai hwy oed Lewylls Duw, i ba ewylls yr oeddynt yn rhwym o ufyddhau dan y penyd o lwy'r ddiynstr.

PEN. XIII. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses*] Ymddengys i'r gorchymynion yn y bennod hon gael eu rhoddi yn Succoth, ar yr un diwrnod ag y gadawsant hwy yr Aifft.

Adn. 2. *Cysegra i mi bob cyntafanedig*] Y mae *kadash*, 'cysegru,' yn arwyddo *neillduo* neu *ysgaru* dyn neu rywbeth oddiwrth bob

iaid, yr hon a dyngodd efe wrth dy dadau y rhoddai efe i ti, *sef* gwlad yn llifeirio o laeth a mêl; yna y gwnai y gwasauaeth yma ar y mis hwn.

6 Saith niwrnod y bwyta'i fara croyw; ac ar y seithfed dydd *y bydd* gwyl i'r Arglwydd.

7 Bara croyw a fwyteir saith niwrnod: ac na weler bara sefeiniillyd gyda thi; ac na weler genyt surdoes o fewn dy holl derfynau.

8 ¶ **A** mynega i'th fab y dydd hwnw, gan ddywedyd, O herwydd yr hyn a wnaeth yr Arglwydd i mi pan ddaeth yn allan o'r Aifft, *y gwneir hyn*.

9 A bydded it' yn arwydd ar dy law, ac yn goffadwriaeth rhwng dy lygaid; fel y byddo cyfraith yr Ar-

dyben tymborol at ryw wasanaeth grefyddol. Fel hyn yr oedd y personau a'r anifeiliaid a gysegrid i Dduw yn cael eu neillduo at wasanaeth y tabernacl a'r deml; a'r anifeiliaid ag oeddynt gymhwys a offtymid yn aberthau. Y mae yr Hindwaidd yn fynych yn gwneuthur adduned, ac yn cysegru cyntafanedig *gafr* neu *ddyn* i'w heilun. Goddefir i'r afr redeg ymaith yn wylt, fel anifel cysegredig. Y mae gan blentyn a gysegrir fel hyn gudyd o wallt neillduedig, yr hwn ar yr amser penodol a dorir ymaith, ac a osodir yn ymyl yr eilun. Bydd y gwagedd Hindwaidd yn gweddio weithiau ar yr afon *Ganges* am blant, ac yn addaw cysegru y cyntafanedig *iddi*. Y plant a gysegrir fel hyn a defir i'r *Ganges*, ond a waredir yn fynych gan law gymwynasol rhyw estron: gwel *WARD*. *Beith bynag a agoro y groth*—hyn yw, y *cyntafanedig*, os yn wryw, adn. 12; canys nid oedd y rhai *benyw* yn cael eu hoffrymu, na'r gwryw cyntaf eu byddai benyw wedi ei geni o'i flaen ef. Hefyd, os byddai gan ddyn amrai wragedd, yr oedd cyntafanedig pob un, os yn wryw, i gael ei offryw i Dduw. A hyn oll a wneid i goffa cadwraeth cyntafanedigion yr Israeliaid, pryd yr oedd eiddo yr Aifftiaid yn cael eu dinystrio.

Adn. 3. *Cofiwch y dydd hwn*] Fel y dydd hynotaf yn eich bywyd, dydd genedigaeth eich cenedl, neu ddydd eich dyfodiad i'ch oed, nid i fod mwyach dan y wialen: gwel ar pen. xii. 14.

Adn. 4. *Abib*] Gwel ar pen. xii. 2.

Adn. 5. *A phan ddygo yr Arglwydd di i wlad y Canaaneaid*] Y mae yn dra awlwg oddiwrth yr adnod hon nad oedd yr Israeliaid yn rhwym i gadw y pase, na gwyl y bara croyw, nes eu dwyn i wlad yr addewid.

Adn. 6, 7. *Saith niwrnod y bwyta'i fara croyw, &c.*] Gwel ar pen. xii. 15, 16.

Adn. 8. *A mynega i'th fab*] Gwel ar pen. xii. 26, 27.

Adn. 9. *A bydded it' yn arwydd ar dy law, ac yn goffadwriaeth rhwng dy lygaid*] Ymadroddion diarebol, yn arwyddo nad oedd y pethau hyn byth i fod allan o'u meddyliau. Modd bynag, darfu i'r Iuddewon yn mhen amser ddeall hyn yn llythyrenol; a dyma

glwydd yn dy enau : o herwydd â llaw gadarn y dyg yr Arglwydd dydi allan o'r Aifft.

10 Am hyny cadw y ddeddf hon, yn ei hamser nodedig, o flwyddyn i flwyddyn.

11 ¶ A phan ddygo yr Arglwydd di i wlad y Canaanaid, megys y tyngodd efe wrthyt, ac wrth dy dadau, a'i rhoddi i ti;

12 Yna y neilldui i'r Arglwydd bob cyntafanedig : a phob cyntaf i anifel a fyddo eiddot ti, y gwrywaid eiddo yr Arglwydd fyddant.

13 A phob cyntaf i asyn a bryni di âg oen; ac oni phryni di ef, yna torfynygla ef : a phob dyn cyntafanedig o'th feibion a bryni di hefyd.

14 ¶ A phan ofyno dy fab ar ol hyn, gan ddywedyd, Beth yw hyn?

yna dywed wrtho, A llaw gadarn y dyg yr Arglwydd ni allan o'r Aifft, o dy y caethiwd.

15 A phan oedd anhawdd gan Pharaon ein gollwng ni, y lladdodd yr Arglwydd bob cyntafanedig yn ngwlad yr Aifft, o gyntafanedig dyn hyd gyntafanedig anifel : am hyny yr ydywyf yn aberthu i'r Arglwydd bob gwryw a agoro y groth : ond pob cyntafanedig o'm meibion a brynaf.

16 A bydded hyny yn arwydd ar dy law, ac yn rhagtalau rhwng dy lygaid : canys â llaw gadarn y dyg yr Arglwydd ni allan o'r Aifft.

17 ¶ A phan ollyngodd Pharaon y bobl, ni arweiniodd yr Arglwydd hwynt trwy ffordd gwlad y Philistiaid, er ei bod yn agos : oblegid dywedodd Duw, Rhag i'r bobl edifar-

ddechread yr arferiad o *phylacterau* yn eu plith hwynt : gwel eu defnydd a'u dyben yn cael eu hegluro ar Mat. xxiii. 5.

Adn. 10. *Cadw y ddeddf hon yn ei hamser nodedig*] Sef ar y pedwarydd dydd ar ddeg o fls Abib, a'r saith niwrnod canlynol, bob blwyddyn.

Adn. 11. *I wlad Canaan*] Gwel ar adn. 5.

Adn. 12. *Yna y neilldui*] Gwel ar adn. 2.

Adn. 13. *A phob cyntaf i asyn a bryni di âg oen*] Neu â *mijn*, fel ar mynl y ddalen. Yn Num. xviii. 15 dywedir, 'Gan brynu y pryni bob cyntafanedig i ddyn, a phryn y cyntafanedig i'r anifel aflan.' O ganlyniad gallwn gasglu fod *asyn* yn cael ei roddi yma am *unrhyw* anifel aflan, neu am anifeiliaid aflan yn *gyffredinol*. Yr oedd yr *oen* i'w roddi i'r Arglwydd, sef i'w offeiriad ef, Num. xviii. 9, &c. Ac yna gallai perchenog yr asyn ei ddefnyddio ef i'w wasanaeth ei hun, yr hyn heb y pryndiad yma ni allai ei wneuthur. *Ac oni phryni di ef, yna torfynygla ef*—tor ei wddf ef; hyny yw, dyfetha ef : ni chai ei ddefnyddio. *A phob dyn cyntafanedig o'th feibion a bryni di hefyd*—dywed y dysgwadwyr Iuddewig, os byddai i dad esgeuluso prynu ei gynfab fel hyn, fod y mab ei hun yn rhwym o wneuthur hyny pan y deuai mewn oedran. Gan fod y pryndiad hwn wedi ei sefydlu yn ganlynol i arbediad cyntafanedigion yr Israeliaid, pryd yr oedd cyntafanedigion dyn ac anifel yn mhlith yr Aifftiaid yn cael eu dyfetha, ar y tir yma yr oedd pob cyntafanedig yn eiddo yr Arglwydd, a dylasant gael eu defnyddio yn ei wasanaeth ef. Ond efe a oddefodd i gyntafanedig anifel aflan defnyddio gael ei brynu âg anifel glân llawer llai ei werth; a dewisodd lwyth *Levi* yn lle holl gyntafanedigion y llwythau yn gyffredinol; a gorchymynwyd i *bum siel* gael eu talu yn lle y cyfryw feibion cyntafanedig ag oeddynt yn rhwym i wasanaethu yn y cysegr, a'r arian a roddid er cynal yr offeiriad a'r Lefiaid : gwel Num. iii. 12, &c. Ymddengys fod gan y paganiaid ryw wybodaeth o'r ddeddf hon; canys trigolion Tanguth, yn yr India, a brynent eu meibion â hwrdd, yr hwn a offryment yn ol

dull yr Hebraeid; a dywedir fod yn iaith y bobl hyny lawer o olion yr Hebraeg.

Adn. 14, 15. *A phan ofyno dy fab ar ol hyn, gan ddywedyd, Beth yw hyn?*] Beth yw yr arferiad yma o brynu pob cyntafanedig? Yr oedd hyn hefyd, yn gystal a deddf y pasc, yn cael ei friaradu ni doeth er hysbysiant i'r cenedlaethau dyfodol am waredigiaeth ryfeddol eu tadau o'r Aifft, a'r farn a ddisgynodd ar yr Aifftiaid yn y cyfamser.

Adn. 16. *Ac yn rhagtalau rhwng dy lygaid*] Mor amlwg ag unrhyw beth a osoder rhwng dy lygaid, neu ar dy dalcen. Hyny yw, yr oeddynt yn wastadol i gadw y fath deimlad o'u gwaredigaeth a phe buasai ganddynt o flaen eu llygaid : gwel ar adn. 9.

Adn. 17. *Ni arweiniodd yr Arglwydd hwynt trwy ffordd gwlad y Philistiaid*] Pahan? (1) Am fod yn rhaid boddi yr Aifftiaid yn y môr coch. (2) Am fod yn rhaid cystuddio a phrofi yr Israeliaid yn yr anialweh, Deut. viii. 2. (3) Am fod yn rhaid rhoddi cyfraith iddynt, a sefydlu ordinhadau, a selio cyfammodau rhyngddynt a'u Duw; ac i'r dybenion hyn yr oedd yn angenrheidiol iddynt neillduo i unigedd yr anialweh, yr unig ystafell ddîrgel i'r fath dorf; canys ni fuasai y ffordd fawr yn lle cyfaddas i drin y fath orchwylion. (4) Ac heblaw hyn, nid oeddynt eto yn gymhwys i *ryfel*, yn enwedig i ryfel â'r fath elynion cryfion a'r Philistiaid. Pe gorfuasai iddynt ddechreu eu taith i wlad yr addewid trwy *ryfel*, y mae yn debyg y buasent yn digaloni, yn gwrthryfela yn erbyn Moses ac Aaron, ac yn dychwelyd i'r Aifft. Yr oedd en hir gaethiwd wedi diraddio eu meddyliau yn y fath fodd nes yr oeddynt yn analluog i unrhyw ymdreoliadau mawreddog; ac ar sail y diraddiad meddyliol hwn yn unig, canlyniad naturiol *caethiwded*, y gallwn roddi cyfrif am eu haml ymddygiadau anwrol, eu grwgnachrwydd, a'u hiraeth, ar ol iddynt gael eu gwaredu o'r Aifft. Deisyfir i'r darlennydd gadw hyn yn ei feddwl, am y gwasanaetha i'w eguro amrai amgylchiadau yn yr hanesiaeth ddylynol. Hefyd yr oedd yr Israeliaid yn ol pob tebygolrwydd yn *ddiarfog*,

hau pan welant ryfel, a dychwelyd i'r Aifft.

18 Ond Duw a arweiniodd y bobl o amgylch, trwy anialwech y môr coch: ac yn arfogion yr aeth meibion Israel allan o wlad yr Aifft.

19 A Moses a gymerodd esgyrn Joseph gydag ef: o herwydd efe a

wnelsai i feibion Israel dyngu trwy lŵ, gan ddywedyd, Duw a ymwêl â chwî yn ddiâu; dygwch chwîthau fy esgyrn oddiyma gyda chwî.

20 ¶ A hwy a aethant o Succoth; ac a wersyllasant yn Etham, yn nghwr yr anialwech.

21 A'r Arglwydd oedd yn myned

ac felly yn gwbl amharod i ryfel; ac yr oeddynt wedi eu gorfvytho â'u hanifeiliaid, ac â rhai llestri ceginaid at barotol ymborth iddynt yn yr anialwech.

Adn. 18. *Ond Duw a arweiniodd y bobl o amgylch*] Danghosodd Dr. Shaw fod dwy ffordd o'r Aifft i Ganaan, un trwy ddyffryn-oedd Jendilly, Rumeleah, a Baideah, yn ffiniedig bob ochr gan fynyddau Thebais Isaf; a'r llall yn gorwedd yn uwch i fyny, â'r rhes ogleddol o fynyddau Mocatee yn rhedeg yn gyfochrog â hi ar y ddeau, ac anialwech Arabia Aifftaidd, pa un sydd yn gorwedd yr holl ffordd yn agored i dir y Philistiaid, ar yr aswy. *Yn arfogion yr aeth meibion Israel allan o wlad yr Aifft*—Heb. *chamushshim*.

'Y mae yn syddid mewn gwirionedd gynifer o ddybiau a goledid mewn perthynas i ystyr y gair hwn. Ar ol ystyried yn bwyllig yr oll a gyfarfyddais ar y pwnc, tybiwyf fod y gair yn cyfeirio yn unig at y modd trefnu a rheolaidd yn yr hwn y dechreuodd yr Israeliaid eu taith o'r Aifft; canys ymddengys mai rhestru, trefnu, neu reoleiddio, yw ystyr y gair *chamash*. Gan fod yn naturiol dysgwyl y rhaid fod yn y fath amgylchiadau lawer o frys ac anhrefn, y mae yr ysgrifenydd ysbrydol-edig yn fanwl yn nodi y gwrthwyneb, i ddangos fod Duw wedi trefnu pethau yn y fath fodd nes yr oedd y rheolaeth a'r drefn fwyaf yn eu plith; a phe buasai yn angen, buasai raid i filoedd o wŷr, gwragedd, a phlant, gael eu mathru i farwolaeth. Yn *bunpiâu* ydyw ar ymyl y ddalen: ond pe buasant yn ymdaith yn bumptian ochr-yn-ochr, a thybio nad oedd ond lathen i bob rhenc ymsymud ynddi, buasai yn gofyn dros *wyth mildir a thriugain* i ddim ond y 600,000 ymsymud yn rheolaidd yn y modd yma! Ond ni fydd i amgylchiadau yr hanes mewn n modd oddef hyn.' Gwel *Harmer, Clarke, &c.* Ond dylid sylwi fod y LXX yn cyfieithu y gair y *bumped genhedlaeth*, ac yn ei ddarllen, 'Yn y bummed genhedlaeth yr aeth meibion Israel allan o wlad yr Aifft.'

Adn. 19. *A Moses a gymerodd esgyrn Joseph gydag ef*] Gwel ar Gen. l. 25. Gellir casglu oddiwrth Act. vii. 15, 16, fod esgyrn yr holl batrieirch, yn gystal ag eiddo Joseph, yn cael eu symud yn awr o'r Aifft; ac y mae gan yr Iuddewon draddodiad ddarod i bob llwyth ddywn esgyrn eu pen-telant, sef deuddeg mab Jacob, gyda hwy. Dywedant hefyd i esgyrn Joseph gael eu dodi mewn elor-gerbyd newydd mawrwyh, pa un a arweinid dan ofal llwythau Ephraim a Manasse, yn ol cyfarwyddyd neillduol Moses.

Adn. 20. *A hwy a aethant o Succoth*] Gwel ar pen. xii. 37; ac a wersyllasant yn *Etham*—gan na wnai Duw, am y rhesynau a roddwyd ar adn. 17, arwain yr Israeliaid trwy

ffordd gwlad y Philistiaid, efe a'u cyfeiriodd hwy tuag anialwech Sur, pen. xv. 22, yn y cwr nesaf i'r Aifft o ba un, yn ngwaelod y Forgain Arabaidd, y gorweddai *Etham*, yr hon yw yr ail wersyllfa grybwylledig.

Adn. 21. *A'r Arglwydd oedd yn myned o'u blaen*] Y mae genym awdurdod St. Paul i greu mai wrth yr Arglwydd yn y lle hwn y meddylir yr ARGLWYDD IESU, 1 Cor. x. 9: ei Ysbryd yr a dentiasant hwy yn yr anialwech, canys efe, yn ei gyn-ydddanghosiad fel y SECINA, oedd yn eu harwain i'r orphwysau addawedig. Y fath foddlonrwydd i Moses a'r Israeliaid duwiol oedd cael sierwydd eu bod dan ddwyfol arweiniad! Nid oedd achos iddynt hwy ofni *methu* eu ffordd, y rhai fel hyn a arweinid; na myned ar *goll*, y rhai fel hyn a gyfarwyddid; na chael eu dal gan y *nos*, y rhai fel hyn a oleuid; na chael eu *hyspeilio*, y rhai fel hyn a amddiffynid. A gall y rhai sydd eto yn gwneuthur gogoniant Duw yn ddyben iddynt, a gair Duw yn rheol iddynt, ac Ysbryd Duw yn arweinydd eu serchiau, a rhaglunnaeth Duw yn gyfarwyddid i'w helyntion, fod yn hyderus fod yr Arglwydd yn myned o'u blaen *hwythau*, mor *wirioneddol* ag yr aeth efe o flaen Israel yn yr anialwech, er nad mor *weladwy*. *Mewn colofn o niwl*—y golofn hon, yr hon a ymddanghosai fel *niwl* y dydd a *thân* y nos, oedd yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol. A oedd mwy nag un golofn, nid yw yn cael ei benderfynu yn eglur gan y testyn. Os nad oedd ond *un*, dian ei bod yn cymeryd *tri* ymddanghosiad gwahanol, er cyflawni *tair* swydd dra phwysig. 1. Yn y *dydd*, i nodi allan y ffordd, colofn o *niwl* oedd y cwbl ag ydoedd yn angenrheidiol. 2. Yn y *nos*, i ragflaenu yr anhrefn ag a fuasai heb hyn yn rhwym o gymeryd lle, y golofn *niwl* a ddeuai yn golofn *dân*, nid i gyfarwyddo eu cerddediad, canys anfynych yr ymdeithient yn y nos, ond i oleno pob rhan o'r gwersyll Israelaidd. 3. Yn y fath anialwech crasboeth, diffwrth, a sych, yr oedd rhyweth mwy yn angenrheidiol na *goleuni* ac *arweinydd*. Buasai yn rhaid i wragedd, plant, a phersonau methiedig, wrth fod yn agored i'r fath haulbelydr hyllog, gael eu dyfetha heb *gysgod*; am hyny yr ydym yn cael fod *cwmwl yn eu cysgodi hwynt*: ac oddiwrth yr hyn a ddywed St. Paul, 1 Cor. x. 1, 2, fe'n harweiniad i gasglu fod y cwmwl cysgodol hwn yn gyfansoddedig o *romynau difrol*, er oeri y nwyfre, a'u hadfywio hwythau a'u banifeiliaid; canys y mae ef yn arddangos yr holl wersyll fel yn daenelledig neu yn drochedig yn lleithder ei agerau, ac yn galw hyny yn bendant yn fod *dan y cwmwl*, ac yn *feddyddio yn y cwmwl*. Y mae amrai gyfeiriadau yn yr ysgrifthyf at waith y cwmwl yn eu *cysgodi hwynt*: 'Efe a

o'u blaen hwynt y dydd mewn colofn o niwl, i'w harwain ar y ffordd; a'r nos mewn colofn o dân, i oleno iddynt: fel y gallent fyned ddydd a nos.

22 Ni thynodd efe ymaith y goifon niwl y dydd, na'r golofn dân y nos, o flaen y bobl.

PENNOD XIV.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Dywed wrth feibion Israel, am ddychwelyd a gwersyllu o flaen Pihahiroth, rhwng Migdol a'r môr, o flaen Baal-sephon: ar ei chyfer y gwersyllwch wrth y môr.

3 Canys dywed Pharaon am feibion Israel, Rhwystrowyd hwynt yn y tir; cauodd yr anialwch arnynt.

4 A mi a galedaf galon Pharaon, fel yr erlidio ar eu hol hwynt: felly y'm gogoneddir ar Pharaon, a'i holl fyddin; a'r Aiffiaid a gânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd. Ac felly y gwnaethant.

5 ¶ A mynegwyd i frenin yr Aiffit,

daenodd *gwmwl* yn *dô*, Salm cv. 39. 'A'r Arglwydd a grea ar bob trigfa o fynydd Seion, ac ar ei gymafoedd, *gwmwl a mwg* y dydd, a llewyrch *tân flamllyd* y nos; canys ar yr holl ogoniant y bydd *amddiffyn* (neu *dô*), Esay iv. 5; pa ymadroddion a gywysant y cyfeiriad amlycaf at swydd driphlyg y cwmwl yn yr anialwch: gwel Num. ix. 16, &c. *I'w harwain ar y ffordd*—y mae rhai yn meddwl mai yn Etham y gwnaeth y golofn hon ei hymddangosiad gyntaf. Yn y ddwy daith flaenaf, yr oedd yn ddigon i Dduw ddywedyd wrth Moses i ba le i fyned, trwy ei fod ef yn adnabod y wlad a'r ffordd: ond yn awr, ar ol iddynt wlyd at 'gw'r yr anialwch,' adn. 20, yr oedd ynt mewn angen am arweinydd; ac arweinydd rhagorol a gawsant, anfeidrol ddoeth, tirion, a fyddlon.

Adn. 22. *Ni thynodd efe ymaith y golofn niwl*] Nid yw y dysgredigion yn cytuno pa mor hir y parhaodd y golofn hon gyda'r Israeliaid. Y mae yn dra thebyg iddi aros gyda hwy nes eu dyfod at afon yr Iorddonen, i'fyned drosodd gyferbyn â Jerico; canys wedi hyn ymddengys mai yr *arch* yn unig oedd yn eu harwain, gan ei bod bob amser yn myned o'u blaen hwynt: gwel Jos. iii. 11, &c. Ond y mae rhai yn meddwl nad aeth y golofn hon ddim pellach gyda hwy na mynydd Hor, ac nad ymddangosodd hi byth wedi marwolaeth Aaron. Gallwn haera yn ddiogel iddi barhau gyda hwy tra yr oedd angen am dani, ac wedi hyn ddarfod ei symud, ac i *arch y cyfammod* ddyfod yn ei lle. Tra yr oedd gwynt yn angenrheidiol, caniateid gwynt; a phlan nad oedd hōno mwyach yn angenrheidiol, yna yr oedd *TYSTIOLAETH* yr Arglwydd wedi ei gosod yn yr *arch* yn cael ei chyflwyn yn ddigonol gan yr Hwn nas gall gyfeiliorni. Yr un modd, dan oruchwyliath yr efengyl, yr oedd *gywrthiau* yn angenrheidiol ar ei chyhoeddiad cyntaf; ond ar ol i ganon yr ysgrythyrr gael ei chwblhian, ac i'r cyfammod newydd gael ei wneuthur, a'i gadarnhau trwy waed yr Oen, a'i gyhoeddi gan yr Ysbryd Glân trwy oferynnoliaeth yr apostolion, yna darfu i Dduw dynu yn ol yr arwyddion allanol hyn yn y cyffredin, gan adael ei *AIR* yn *dystiolaeth* barhans, a'i selio ar encidiau y credinwyr trwy ysbryd y gwirionedd.

PEN. XIV. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd*] 'Neu yn hytrach a *lefarasai* cyn iddynt ddyfod i Succoth, pen. xii. 37. Canys yr hyn

a fynegwyd yno yn fyr a chyffredinol, a adroddir yma yn llawnach a manylach, yn nghyda'r achos o hono, sef gorchymyn Duw.'—BENSON. Ond ymddengys oddiwrth yr adnod nesaf mai yn *Etham* y gorchymynwyd hyn: gwel isod.

Adn. 2. *Dywed wrth feibion Israel am ddychwelyd*] Yr oedd ynt bellach wedi dyfod i *Etham*, 'yn nghwr yr anialwch,' pen. xiii. 20; a thait neu ddwy yn chwanea a'u dygasai hwynt i Horeb, y lle a benodwyd iddynt i addoli eu Duw; ond yn lle myned rhagddynt, gorchymynir iddynt *ddychwelyd*, neu droi ar y ddeau tua'r môr coch. *A gwersyllu o flaen Pihahiroth*—Heb. *pi haehiroth*, ceg, angorfa, neu forgilfach *Chiroth*. *Rhwng Migdol a'r môr*—trwy fod *migdol* yn arwyddo *tôr*, dichen mai *castell* er amddiffyn y forgilfach a feddylir. *O flaen Baal-sephon*—Heb. *baal tsephon*, 'arglwydd neu feistr y wylfa.' Tybia Clarke mai eilun-deml a feddylir, lle y cedwid gwaethawdln, gwyliadwriaeth, neu oleuni parhans er amddiffyniad i un ran o'r hafn, neu fel cyfarwyddyd i longau. Y mae Dr. Shaw yn meddwl fod *Chiroth* yn dynodi y dyffryn ag ydoedd yn ymestyn o anialwch Etham at y môr coch. A myn ereill mai dau fynydd mawr oedd *Pihahiroth*, rhwng y rhai yr ymdeithiai yr Israeliaid; ac mai dinasoedd milwraidd yn perthyn i'r Aiffit oedd *Migdol a Baal sephon*.

Adn. 3. *Rhwystrowyd hwynt yn y tir*] Darfu i Dduw ei hun eu dwyn i'r fath lle cyfyng, o'r hwn na ddichon i un gallu na medusrwydd dynol eu rhyddhau. Rhaid addef fod eu sefyllfa yn ymddangos yn gyfyng: yr oedd y môr coch o'u blaen, Pharaon a'i lu o'u hol, ac amddiffynfeydd yr Aiffiaid ar ddeau ac aswy i rywstro iddynt ddianc! Os gwaredir hwy yn awr, rhaid i fraich yr Arglwydd gael ei gweled, ac oheredd a gwagedd eilunod yr Aiffit ddyfod i'r golwg.

Adn. 4. *A mi a galedaf galon Pharaon*] Mi a oddefaf iddo ruthro yn ulaeu i'w hollol ddiystyr, am fod cwpan ei anwreidd yn awr yn *llawn*: gwel ar pen. iv. 21, a vii. 13, 14. Yr ystyr yw, y byddai i Pharaon gymeryd achlysur oddiwrth sefyllfa gyfyng yr Israeliaid, wedi eu cau i mewn rhwng y mynyddoedd, y milwyr, a'r môr, i ymgyrfbau yn eu herbyn; ac y mynai efe hwy yn ol i'w cyflwr cyntefig o gaethiwd. *Felly y'm gogoneddir ar Pharaon*—trwy yr amlygiad o'm gallu a'm cyflawnder.

Adn. 5. *A mynegwyd i frenin yr Aiffit* fod

fod y bobl yn ffoi: yna y trôdd calon Pharao a'i weision yn erbyn y bobl; a dywedasant, Beth yw hyn a wnaethom, pan ollyngasom Israel o'n gwasanaethu?

6 Ac efe a daelodd ei gerbyd, ac a gymerodd ei bobl gydag ef.

7 A chymerodd chwe chant o ddewis gerbydau, a holl gerbydau yr Aifft, a chapteniaid ar bob un o honynt.

8 A'r Arglwydd a galedasai galon Pharao brenin yr Aifft, ac efe a ymlidiodd ar ol meibion Israel: ond yr oedd meibion Israel yn myned allan â llaw uchel.

9 A'r Aifftiaid a ymlidiasant ar eu hol hwynt, sef holl feirch a cherbydau Pharao, a'i wŷr meirch, a'i fyddin, ac a'u goddiweddasant yn gwerysllu wrth y môr, gerllaw Pihahiroth, o flaen Baal-sephion.

10 ¶ A phan nesaodd Pharao, meibion Israel a godasant eu golwg; ac wele yr Aifftiaid yn dyfod ar eu

hol; a hwy a ofnasant yn ddirfawr: a meibion Israel a waeddasant ar yr Arglwydd.

11 A dywedasant wrth Moses, Ai am nad oedd beddau yn yr Aifft, y dygaist ni i farw yn yr anialwch? Paham y gwnaethost fel hyn â ni, gan ein dwyn allan o'r Aifft?

12 Onid dyma y peth a lefarasom wrthyt yn yr Aifft, gan ddywededyd, Paid â ni, fel y gwasanaethom yr Aifftiaid? canys gwell fuasai i ni wasanaethu yr Aifftiaid na marw yn yr anialwch.

13 ¶ A Moses a ddywedodd wrth y bobl, Nac ofnwch; sef wch, ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd, yr hwn a wna efe i chwi heddyw; oblegid yr Aifftiaid y rhai a welsoch chwi heddyw, ni chewch eu gweled byth ond hyny.

14 Yr Arglwydd a ymladd drosoch; am hyny tewch chwi a son.

15 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd

y bobl yn ffoi] Nis gallai ef fod yn anwybodus o'u hymadawiad, am mai efe ei hun a roddes iddynt ganiatad, pen. xii. 31, sef i fnyed daith tri diwrnod i'r anialwch i aberthu i ИЕРОСА. Ond oddiwrth amgylchiadau eu hymadawiad, a'r eiddo a gawsant oddiwrth yr Aifftiaid, a'u gwaith yn troi o'r ffordd ag ydoedd yn arwain i Horeb, adn. 2, cymerwyd yn ganiatol eu bod yn ffoi am byth, heb un bwriad i'r llywodraeth, ac yr oeddynt yn penderfynu peidio gollwng eu gafael o honynt. *Beth yw hyn a wnaethom!*—fel hyn y maent hwy, y rhai ni wnaethant erioed wir edifarhau am eu pechodau, yn awr yn edifarhau yn ddiffuant am eu hunig weithred dda!

Adn. 6. *Daelodd ei gerbyd*] A'i parotodd âg arfau ymosodol a diffynol.

Adn. 7. *Chwe chant o ddewis gerbydau, &c.*] Gwel ar adn. 9. Os gofynir yn mha le y gallent gael meirch ar ol y plâau, gellir ateb, mai y rhai hyn yn unig a laddwyd ag oeddynt yn y maes, pen. ix. 3, 19. Yn ol yr hanesion cywiraf ag sydd genym am *gerbydau rhyfel*, llusgid hwy yn fynych gan ddau neu bedwar march, a charient dri dyn: un yn gyru y meirch, yr ail yn benaf a ddiffynai y gyrrwr, a'r trydydd yn unig oedd yn briodol y rhyfelwr. Ymddengys i Pharao yn yr achos hwn gasglu holl farchfilwyr yr Aifft, adn. 9: ac er y dicheon nad oedd y rhai hyn yn dra luosog, eto, a llesaru yn ddynol, gallent yn hawdd orchfygu yr Israeliaid diarfog a gorlwythog, y rhai nas gellir tybio eu bod yn alluog i wneyd unrhyw wrthsafiad yn erbyn *marchfilwyr a cherbydau rhyfel*.

Adn. 8. *A llaw uchel*] Yn galonog a buddugoliaethus.

Adn. 9. *Holl feirch a cherbydau Pharao*]

Y rhai oeddynt 600 o ddewis gerbydau y llywodraeth, heblaw ereill ag oeddynt yn perthyn ond odid i foneddigion neillduol, adn. 7. *A'i wŷr meirch a'i fyddin*—dywed Josephus fod y rhai hyn yn gynwysedig o 50,000 o wŷr meirch, a 200,000 o wŷr traed.

Adn. 10—12. *A meibion Israel a waeddasant ar yr Arglwydd, &c.*] Pe huasai eu gweddi yn cael ei dilyn â ffydd, ni chawsem hwynt yn adn. 11, 12, yn grwngach yn erbyn Moses, neu yn hytrach yn erbyn yr Arglwydd, trwy ddaioni yr hwn yr oeddynt yn awr wedi eu dwyn o'r caethiwed hwnw ag y buont mor fynych yn llefain am waredigaeth o hono. Tybia Calmet fod y rhai duwiolaf a challaf o honynt yn gwaeiddi ar Dduw, tra yr oedd y rhai difeddwl ac anghrefyddol yn tuchan yn erbyn Moses.

Adn. 13. *A Moses a ddywedodd wrth y bobl, Nac ofnwch*] Na thralloder eich calon yn yr olwg ar eich sefyllfa, eithr gyda meddyhiau tawel edrychwch i fyny at Dduw. *Sefwch*—ymlynyddwch, ac na wnewch eich hunain yn druenus trwy eich ofnau a'ch dyrswch; *ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd*—ar y waredigaeth a ddryr Duw i chwi yn annibynol ar bob moddion neu gynorthwy dynol. *Oblegid yr Aifftiaid, y rhai a welsoch chwi heddyw*—i beri i chwi ofni mor fawr; *ni chewch eu gweled byth ond hyny*,—yn fyw. Yr oedd Duw wedi dangos i Moses yr hyn a wna'i efe, a chredai yntau yn ddiysgog y cyflawnid hyny, ac am hyny y llesarai yn y modd hyderus hwn.

Adn. 14. *Yr Arglwydd a ymladd drosoch*] Ni chewch chwi un ran yn arhydedd y dydd: Duw ei hun a'ch gwared chwi, ac a faedda eich gelynyon. *Am hyny tewch chwi a son*—peidiwch â'ch dadwrdi anghrediniol. Cawn anghraifft nodedig yma o dawelwch meddwl Moses, ac arafwch ei dymher, ac mor haeddol

wrth Moses, Paham y gweiddi arnaf? dywed wrth feibion Israel am gerdded rhagddynt.

16 A chyfod dithau dy wialen, ac estyn dy law ar y môr, a hollta ef: a meibion Israel a ânt trwy ganol y môr ar dir sych.

17 Wele fi, i'e myfi a galedaf galon yr Aifftiaid, fel y delont ar eu hol hwynt: a mi a ogoneddir ar Pharao, ac ar ei holl fyddin, ar ei gerbydauef, ac ar ei farchogion.

18 A'r Aifftiaid a gânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd, pan y'm gogoneddir ar Pharao, ar ei gerbydau ac ar ei farchogion.

oedd efe o'r cymeriad a roddir iddo, Num. xii. 3, fel y 'llareiddiaf o'r holl ddyinion.' Nid 'atebodd efe yr ynyfydion' hyn 'yn ol eu hynfydrwydd,' ond y mae yn eu cynghori'n bwyll-og i gymeryd calon, ac ymddiried yn Nuw.

Adn. 15. *Paham y gweiddi arnaf?* Er fod Moses yn sicr o ddiweddiad da, eto nid esgulusai efe weddi. Nid ydym yn darllen am un *gair* a ddywedodd efe mewn gweddi, ond dyrchafai ei *galon* at Dduw, a Duw a'i deallai yn dda. Llwyddodd gweddi ddystaw Moses yn fwy gyda Duw na gwaeddiadau uchel Israel. Ond a ydyw Duw yn ddiog wrth Moses am weddi? Nac ydyw: yr ystyr yw, 'Paham y dirgymbelli dy ddeisyfiad yn nibellaach, pan y mae eisioes wedi ei ganiatau?' Y mae gan Moses rywbeth arall i'w wneuthur hebllaw gweddi: y mae i lywodraethu lluoedd Israel. *Dywed wrth feibion Israel am gerdded rhagddynt*—meddylasiant hwy y buasai yn rhaid iddynt gael eu cyfarwyddo ar y ddeau neu yr aswy: na, meddai Duw, dywed wrthynt am *gerdded rhagddynt*—yn uniawn at lan y môr, fel pe buasai yno lnyngs yn barod i'w trosglwyddo drosodd. Boed i blant Israel fyned mor bell ag y gallant ar dir sych, ac yna Duw a hyllt y môr.

Adn. 16. *A chyfod dithau dy wialen, &c.* Ni allai Moses na'i wialen fod yn un offeryn effeithiol mewn gwaith nad ellid ei gyflawni ond gan hollalluogrwydd Duw; eithr yr oedd yn angenrheidiol iddo ef ymddangos ynddo, fel y gallai gael parch yn ngolwg yr Israeliaid, ac fel y gallent hwythau weled ddarfod i Dduw ei ddewis ef i fod yn offeryn eu gwaredigaeth.

Adn. 17. *Wele fi, i'e myfi* [Gwel ar Gen. vi. 17; *A galedaf galon yr Aifftiaid*—hyny yw, mi a *oddefaf* mewn barn i'w calonau gael eu caledu gan eu nwydau ffyrnig ac ynyfyd eu hunain: gwel ar pen. iv. 21, a ix. 34, 35.

Adn. 18. *A'r Aifftiaid a gânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd*] Hyny yw, a gânt *gydnabod*, neu wybod trwy brofiad chwerw, mai myfi yw *ЖЕНОФА*, y Duw hollalluog, hunanfodol, a thragwddol.

Adn. 19. *Ac angel Duw*] Darfu i rai dybio fod *angel* neu *genad* Duw, a'r *golofn niwl*, yn meddwl yma yr un peth. Y mae yn wir y gallai angel gymeryd arno rith *niwl* neu *gwmuwl*; ac y gallai cwmwl materiol, wedi ei benodi fel hyn, gael ei alw yn *angel* neu *genad* Duw, yr hyn

19 ¶ *Ac angel Duw*, yr hwn oedd yn myned o flaen hyddin Israel, a symudodd, ac a aeth o'u hol hwynt; a'r golofn niwl a aeth ymaith o'u tu blaen hwynt, ac a safodd o'u hol hwynt.

20 *Ac efe a ddaeth rhwng llu yr Aifftiaid a llu Israel*; ac yr ydoedd yn gwmwl ac yn dywyllwch *i'r Aifftiaid*, ac yn goleuo y nos *i Israel*: ac ni nesaodd y naill at y llall ar hyd y nos.

21 *A Moses a estynodd ei law ar y môr*: a'r Arglwydd a yrodd y mor *yn ei ol*, trwy ddwyrainwynt cryf ar hyd y nos, ac a wnaeth y môr yn sychdir, a holltwyd y dyfroedd.

yw ystyr llythyrenol y *gair malach*, 'angel.' Modd bynag y mae yn dra thebyg, meddai Clarke, mai Angel y Cyfanmod, yr Arglwydd Iesu, a ymddangosodd ar yr achlysur bwn ar ran y bobl; canys gan fod y waredigaeth hon i fod yn gysgod ardderehog o waredigaeth dyn oddiwrth allu ac euogrwydd pechod trwy ei gnawdoliaeth a'i angau ef, gallasai gwel ei gyfrif yn angenrheidiol, yn marn dywel ddoethineb, fod iddo ef ymddangos yn *brifofferyn* yn yr amgylchiad pwysicaf hwn: gwel ar Gen. xvi. 7, a xviii. 13, Exod. iii. 2. *A symudodd*—canys nid oedd arnynt eisiau arweinydd o'u blaen yn awr, am nad oedd perygl iddynt gollu eu ffordd rhwng mariau y môr; *ac a aeth o'u hol hwynt*—lle yr oedd arnynt eisiau gwarcheidwad i'w cadw rhag yr Aifftiaid. *A'r golofn niwl*—a symudodd hefyd: yr hyn a ymddengys fel yn arwyddo ei bod yn wahanol i'r angel, megys y nodwyd uchod.

Adn. 20. *Yr ydoedd yn gwmwl ac yn dywyllwch i'r Aifftiaid, &c.*] Fel na fyddai i'r Israeliaid frawychu wrth yr *oleu* ar eu gelynyon, na'r Aifftiaid ganfod gwrthdrrychau eu herlyniad, ymysmudodd y golofn niwl o du blaen y fyddin Israelaidd i fod y tu ol iddi, fel ag i ysgarn yn hollol rhyngddynt hwy a'r Aifftiaid. Ymddengys hefyd fod un ochr i'r cwmwl hwn yn *dywell*, a'r llall yn *oleu*: rhoddai yr ochr oleu lewyrch i holl fyddin yr Israeliaid yn ystod noson y dramwysa; a'r ochr dywell, wedi ei throï tuag at yr Aifftiaid, a'u hattaliai hwy rhag derbyn un budd oddiwrth y goleuni hwnaw. Mor hawdd y gal! Duw wneud yr un peth yn offeryn dilynstr neu waredigaeth, fel y gwelo efe yn oraf!

Adn. 21. *A'r Arglwydd a yrodd y môr yn ei ol*] Ymddengys, meddai Clarke, fod dau offeryn ar waith yn holltiad y môr, er nas gellid priodoli yr effaith a gynrychwyd i'r naill na'r llall. Trwy estyniad y *wialen* yn law Moses, y dyfroedd a holltwyd; a thrwy chwythad *dwyrainwynt* cryf ac angherddol, gwaelod y môr a sychwyd. Ond dyddid crybwyll fod yr ysgrifenywyr Iuddewig yn barnu mai y dwyrainwynt a fa yn foddion yn llaw Duw i *hollti* y môr, yr hwn hefyd a *rewodd* y dyfroedd yn *far* bob ochr; ac yna ddarfod i wynt arall gael ei orchymyn i feirioli y rhew, a gollwng y môr am ben yr Aifftiaid. Yn gyson â hyn dywedir yma i'r Arglwydd yiu

22 A meibion Israel a aethant trwy ganol y môr ar dir sych : a'r dyfroedd oedd yn fur iddynt o'r tu deau ac o'r tu aswy.

23 ¶ A'r Aifftiaid a erlidiasant, ac a ddaethant ar eu hol hwytant; sef holl feirch Pharao, a'i gerbydau, a'i farchogion, i ganol y môr.

24 Ac ar y wyladwriaeth fore yr Arglwydd a cdrychodd ar fyddin yr Aifftiaid trwy y golofn dân a'r cwmwl, ac a derfysgodd fyddin yr Aifftiaid.

25 Ac efe a dynodd ymaith olwynion eu cerbydau; ac yr oeddynt yn gyru yn drwm: fel y dywedodd yr Aifftiaid, Ffown oddiwrth Israel; o-blegid yr Arglwydd sydd yn ymladd drostynt hwy yn erbyn yr Aifftiaid.

26 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd

y môr yn ei ol *trwy ddwyreiniwynt cryf*; ac yn adn. 8 o'r bennod nesaf, 'Trwy chwythad dy ffroenau y casglwyd y dyfroedd yn nghyd.' Y mae yn amlwg hefyd mai gwynt oedd yr offer yn i ddwyn y dyfroedd yn ol; canys dywedir, pen. xv. 10, 'Ti a chwythaist â'th wynt, y môr a'u tōedd hwynt' Gwel ar pen. xv. 8, 10.

Adn. 22. *A meibion Israel a aethant trwy ganol y môr ar dir sych* Yr oedd y rhau hōao o'r môr lle yr aeth yr Israeliaid trwyodd, yn ol Mr. Bruce ac ymdeithwyr ereill, oddentu *deuddeg milldir* o led, ac *wyth loth ar hugain* o ddyfnder. *A'r dyfroedd oedd yn fur iddynt o'r tu deau ac o'r tu aswy*—tybiodd rhai ddar-fod i'r Israeliaid fyned trwyodd ar *drai* au-ferol, yr hwn a ddygwyddodd gael ei gy-nyrchu y pryd hynny gan wynt cryf, heb fod yn wyrth yn yr achos! Ond pe mai felly yr oedd yn bod, ni allasai fod dyfroedd yn sefyll ar y *ddeau* a'r *aswy*; a llawer llai y gallasai y dyfroedd hynny, yn groes i bob deddf hylf-iaid, sefyll fel *mur* bob ochr tra yr oedd y'r Israeliaid yn myned trwyodd, ac yna ddygwydd dyfod yn ufydd i ddeddfau ddystrychiad pan aeth yr Aifftiaid i mewn! Gall gwrthfyyddiaid wadu y datguddiad yn gwbl, ac oddiwrth y cyfryw nid ydym yn dysgwyl dim gwel; ond clywed rhai a broffesant eu bod yn credu fod y Beibl yn ddatguddiad dwyfol yn ceisio profi nad oedd gan y daith trwy y môr ochr ddim yn *wyrthiol* ynddi, sydd mewn gwirionedd yn anoddefol!

Adn. 23. *A'r Aifftiaid a erlidiasant, ac a ddaethant ar eu hol hwytant—i ganol y môr* Meddyliant, paham nas gallent hwythau an-turio lle y gwnaeth Israel?—eu bod hwy wedi eu diwallu yn fwy manteisiol â cherbydau a meirch, tra yr oedd yr Israeliaid ar eu traed.

Adn. 24. *Ac ar y wyladwriaeth fore* Yr hon a ddechreuai am *ddau* o'r gloch y bore, ac a barhâai hyd *chwech*: gwel ar Mat. xiv. 25. *Yr Arglwydd*—yr hwn a elwir yn *angel* yn adn. 19; *a cdrychodd ar fyddin yr Aifftiaid trwy y golofn dân a'r cwmwl*—tybia rhai mai yr ystyr yw, ddar-fod i'r cwmwl yn ddisymwth ymddangos yn danlyd lle yr oedd yn dywyll

wrth Moses, Estyn dyfoll ar y môr; fel y dychwelo y dyfroedd ar yr Aifftiaid, ar eu cerbydau, ac ar y marchogion.

27 A Moses a estynodd ei law ar y môr: a dychwelodd y môr cyn y bore i'w nerth; a'r Aifftiaid a ffoisant yn ei erbyn ef: a'r Arglwydd a ddychwelodd yr Aifftiaid yn nghanol y môr.

28 A'r dyfroedd a ddychwelasant, ac a orchuddiasant gerbydau a marchogion, a holl fyddin Pharao, y rhai a ddaethant ar eu hol hwytant i'r môr: ni adawyd o honynt gymaint ag un.

29 Ond meibion Israel a gerddasant ar dir sych yn nghanol y môr: a'r dyfroedd oedd yn fur iddynt, ar y llaw ddeau ac ar y llaw aswy.

30 Felly yr Arglwydd a achubodd

o'r blaen; ac a derfysgodd fyddin yr Aifftiaid —trwy ddangos iddynt eu bod yn nghanol peryglon y môr. Neu hwy a derfysgwyd, hynny yw, a frawychwyl, gan angherddol *dar-anau a mell*t, fel yr adroddir yn Salm lxxvii. 16—20, at ba amgylebiad y tybia Dr. Hammond ac ereill fod y Salm ydd yn cyfeirio.

Adn. 25. *A'r Arglwydd a dynodd ymaith olwynion eu cerbydau* Trwy beri i'r naill redeg ar draws y llall; ac yr oeddynt yn gyru yn drwm—neu yn *ddwfn*, fel y mae rhai yn ei gyfieithu; hynny yw, yr oedd traed eu meirch yn suddo i'r llaid, a'r cerbydau di-olwynion yn llusgo yn drymaidd ar hyd y gwaelodion ag oeddynt yn awr yn cael eu meddalu gan y gwlaw tywalltiedig, Salm lxxvii. 17: gwel ar pen. xv. 12. *Ffown oddiwrth Israel*—trown yn ol, canys y mae JEROFA, yr hwn sydd a'i lywodraeth dros yr elfenan, yn ymladd o blaid ei bobl yn ein herbyn ni.

Adn. 26. *Estyn dy law ar y môr*] I roddi arwydd iddo yn awr i gau, fel o'r blaen i agor, adn. 21. Ymddengys fod yr olaf o feibion Israel wedi cyraedd yn awr yn ddiogel trwyodd.

Adn. 27. *A'r Aifftiaid a ffoisant yn ei erbyn ef*] Felly ymddengys fod y môr yn cau arnynt o'r ochr nesaf i'r Aifft.

Adn. 28. *Ni adawyd o honynt gymaint ag un*] I gario y newydd athrist am eu boddiad yn ol i'r Aifft. Y mae yn draddodiad gan yr Iuddewon mai Pharao ei hun oedd yr olaf yn boddi, ac felly ei fod yn dyst gofidus o ddinystr ei holl lu: ac os oedd ef yn arwain ei fyddin, a'r dyfroedd yn cau o'u hol, nid yw hynny yn an-bebygol.

Adn. 29. *Ond meibion Israel a gerddasant ar dir sych*] Gwel ar adn. 22.

Adn. 30. *A gwelodd Israel yr Aifftiaid yn feirw ar fin y môr*] Trwy i'w cyrff gael eu cario yno gan nerth y dyfroedd ag oeddynt yn rhedeg yn y cyfeiriad oddiwrth yr Aifft, adn. 27. Gwelwch yr Aifftiaid, y rhai oeddynt yn ofalus i gyfieithio neu bŕ-eneinio cyrff eu meirwon, yn awr yn gorwedd yn bentryau fel dom ar wyneb y ddaear! Y mae yn debyg i'r Israeliaid gael llawer o gyfoeth, ddi-llad, ac ar-

Israel y dydd hwnw o law yr Aifftiaid: a gwelodd Israel yr Aifftiaid yn feirw ar fin y môr.

31 A gwelodd Israel y grymusder mawr a wnaeth yr Arglwydd yn erbyn yr Aifftiaid: a'r bobl a ofnasant yr Arglwydd, ac a gredasant i'r Arglwydd, ac i'w was ef Moses.

PENNOD XV.

YNA y canodd Moses a meibion Israel y gân hon i'r Arglwydd, ac a

fau eu gelynyon, fel y dywed Josephus, wedi eu tafu i'r lan gyda'r cyrff; ac yr oedd hyn yn ddarpariaeth angenrheidiol i'r Israeliaid erbyn eu rhyfeloedd a'r *Amaleciaid*, &c., ar eu ffordd i wlad yr addewid. Ond myn rhai ddarllen y geiriau, 'A gwelodd Israel yr Aifftiaid yn feirw oddiar fin y môr.' Diamau fod hyn hefyd yn wir gyda golwg ar lawer o gyrrif meirwon a deffid gan y tönau, neu a nofiant ar y dyfroedd.

Adn. 31. *A'r bobl a ofnasant yr Arglwydd*] Hwy a argyhoeddwyd, trwy gyfryngiad JENOFA, fod ei allu ef yn ddiderfyn, ac y medrai ef wneyd pa beth bynag a ewyllysiai mewn ffordd o farn yn gystal a thrugaredd. *Ac a gredasant i'r Arglwydd*—hwy a ganfyddasant yn eglur yn awr ddarfod i Dduw gyflawni ei holl addewidion, ac na phallodd dim o'r holl ddaioni a lefarasai efe am Israel. *Ac i'w was ef Moses*—cawsant yn awr y prawf llawnaf ei fod ef wedi ei ddwyfod benodi i wneyd yr holl wyrthiau hyn, a'u dwyn hwythau o'r Aifft i wlad yr addewid. Fel hyn y cafodd Duw ogoniant iddo ei hun ar Pharao a'r Aifftiaid, a pharch yn ngolwg Israel. Ar ol y dymchweliad hwn o'r brenin a'i fyddin, ni ddaru i'r Aifftiaid eu hafonyddu hwynt mwyach yn eu teithiau, gan eu bod wedi eu bargyhoeddi o hollalluogrwydd eu Hamdiddiynwr hwy: ac mor ryfedd ydyw, ar ol y fath arddangosiadau o gyflawnder a thrugaredd JENOFA, ddarfod i'r Israeliaid byth wedi hyn fod yn ddiffygol mewn fydd, neu roddi lle i rwgachrwydd

PEN. XV. Adn. 1. *Yna y canodd Moses a meibion Israel y gân hon*] Er nad dyma yr anghraifft gyntaf o farddoniaeth a gawsom yn y pumlyfr, (gwel Gen. iv. 23, a xlix. 2—27,) eto hon yw yr awdl reolaidd gyntaf o gryn hyd, heb ganddi ond *un* testyn; ac y mae wedi ei hysgrifenu oll yn hanner odlig, y fuffr arferol mewn barddoniaeth Hebrëig. Y mae yn llawn o feddyllian arddunawl a godidog, yn cael eu gosod allan mewn iaith gref a dyrchafedig. *Cân Moses* y gelwir hi yn Dat. xv. 2, 3; ac arddanghosir hi yn cael ei chanu gyda *chân yr oen* gau y rhai a gawsant y maes ar y bwystfil: gwel y sylwadau yno. Diamau i Moses ysgrifenu y gân hon trwy *ysbrydoliaeth*, ac iddo ef a phlant Israel ei chanu yn y fan y pryd hyn, tra yr oedd teinlad diolchgar o'u gwaredigaeth o'r Aifft, eu dyfodiad diogel trwy y môr coch, a'u buddugoliaeth ar Pharao a'i lu, yn newydd ar eu meddylliau. Trwy yr anghraifft hon ymddengys fod canu salmaw neu hymnau, fel gweithred o addoliad crefyddol,

lefarasant, gan ddywedyd, Canaf i'r Arglwydd; canys gwnaeth yn rhagorol iawn: tafodd y march a'i farchog i'r môr.

2 Fy nerth a'm cân *yw* yr Arglwydd; ac y mae efe yn iachawdwriaeth i mi: efe yw fy Nuw, efe a ogoneddaf fi; Duw fy nhad, a mi a'i dyrchafaf ef.

3 Yr Arglwydd *sydd* ryfclwr: yr Arglwydd *yw* ei enw.

4 Efe a dafodd gerbydau Pharao

yn arferedig yn yr eglwys cyn rhoddiad y ddeddf seremonïol, ac felly nad yw yn rhan o'r ddeddf hōno, nac yn ddiddymedig gyda hi: y mae *canu* yn iaith llawenydd santaidd, yn gymaint ag y mae *gweddio* yn iaith dymuniad santaidd. *Canaf i'r Arglwydd, &c.*—y mae Moses, yn dechreu y gân, ac yn y ddwy fraich gyntaf yn nodi ei *thesty* hi; a'r ddwy linell gyntaf hyn a ddaethant yn *brif gydgor* neu *ferdon* y gân, fel y gallwn ddyssu oddiwrth yr ail-droddiad yn adn. 21.

Adn. 2. *Fy nerth a'm cân yw yr Arglwydd*] Mor ddoeth y trefnuwyd aelodau y frawddeg hon! Yr hwn y mae Duw yn *nerth* iddo, a'i caiff ef yn *gân* iddo, a'r hwn y mae JENOFA yn *iachawdwriaeth* iddo, a *dyrchafaf* ei enw ef. Truenus ac afafar yn nghlustiau Duw y cana y dyn hwnw fawl, yr hwn nad yw wedi ei *achub* trwy ras Crist, na'i *nerthu* yn nghadernid ei allu ef. Y mae yn deilwng o sylw nad *Ychovah* yw gair gwreiddiol a gyfieithwn ni yma yn *Arglwydd*, ond JAH. 'Y mae *Jah* yn cael ei uno yn fynych â'r enw *Jehofa*, fel y gallwn fod yn sier,' meddai Clarke, 'nad yw ef yn dalfrydiad yn unig o'r gair hwnw—gwel Esay xiii. 2, a xxvi. 4. Y mae ein Harglwydd bendigedig yn arddelwi yn ddirifol iddo ei hun yr hyn a fwriedir yn yr euw dwyfol hwn *Jah*, Ioan viii. 85: *Cyn bod Abraham YR WYF FI*—nid yr *oedden*, ond yr *wyf*, gan arwyddo yn eglur ei ddwyfod a'i dragwyddol fodaeth.' *Efe a ogoneddaf fi*—hynny yw, mynegaf ei foliant a'i brydferthwch. Y Saesonaeg yw, 'Parotoaf drigfa iddo'; gan gyfeirio, fel y mae rhai yn ei ddeall, at y babel ag ydoedd cyn hir i'w hadeiladu. Ond y mae y rhan fwyaf o'r hen gyfieithiadau yn ei ddarllen fel y mae yn y cyfieithiad Cymreig. *Duw fy nhad*—creda Clarke fod Honbigan yn iawn wrth gyfieithu y wreiddiol, *Fy Nuw yw fy Nhad*. Ni all neb ond y rhai sydd *blant* mabwysiadol i Dduw trwy ras, ei alw ef yn *Dad* iddny, Gal. iv. 6.

Adn. 3. *Yr Arglwydd sydd ryfclwr*] Galluog i gyfarfod â'r rhai oll a ymrsonasant â'u Lluniwr. Amcan Moses yw dangos nad oedd gan *ddyn* un ran yn y fuddugoliaeth hon, ond ddarfod ei chyflawni yn gwbl trwy allu gwyrthiol Duw, ac am hynny mai efe yn unig a ddylai gael yr holl ogoniant. *Yr Arglwydd yw ei enw*—sef JENOFA: darfu iddo yn awr, fel yr arwddda yr enw, *gyflawni* ei holl addewidion: gwel ar pen. iii. 14, a vi. 3.

Adn. 4. *Efe a dafodd gerbydau Pharao a'i fyddin yn y môr*] Gyda nerth a chyflynder mawr, megys saeth oddiar fwa, fel yr arwydda

a'i fyddin yn y môr: ei gapteniaid dewisol a foddwyd yn y môr coch.

5 Y dyfnderau a'u 'toisant hwy: disgynasant i'r gwaelod fel careg].

6 Dy ddeheulaw, Arglwydd, sydd ardderchog o nerth; a'th ddeheulaw, Arglwydd, a ddrylliodd y gelyn.

7 Yn mawredd dy ardderchog-rwydd y tynaist i lawr y rhai a gyfodasant i'th erbyn: dy ddigofaint a anfonaist allan, ac efe a'u hysodd hwynt fel soff.

8 Trwy chwythad dy ffrocenau y casglwyd y dyfroedd yn nghyd: y ffrydiau a safasant fel pentwr; y dyfnderau a geulasant yn nghanol y môr.

y wreiddiol. Efe a'u dymchwelodd ac a'u boddodd hwynt oll, fel pe na buasant ond un march ac un marchog. *Ei gapteniaid dewisol a foddwyd yn y môr coch*—trwy fod holl fyddin a phendefigwr yr Aifft wedi eu dyfetha, mor hawdd y gallasai yr Israeliaid, pe buasant â'u bryd ar anrhaith, ddarostwng a meddiannu yr holl wlad!

Adn. 5. *Disgynasant i'r gwaelod fel careg]* Ymadrodd barddonol yn gosod allan eu hollol ddinystr disymwth: gwel Jer. li. 63, [Dat. xviii. 21.

Adn. 6. *Dy ddeheulaw]* Dy hollalluogrwydd, wedi ei amlygu yn y modd mwyaf anhgyffredin.

Adn. 7. *Dy ddigofaint a anfonaist allan, ac efe a'u hysodd hwynt fel soff]* Y mae digofaint Duw yn fynyeh, a chyda phriodoldeb, yn cael ei gymharu i *dân*, trwy ei fod yn ysu ac yn difa y rhai y disgyno arnynt.

Adn. 8. *Trwy chwythad dy ffrocenau]* Neu, 'dy ddigofaint,' fel y mae y gair Hebreig yn cael ei gyfieithu yn fynyeh. Y mae yn meddwl y dwyrainwyt cryf a godwyd gan ddigofaint Duw i ddyfetha ei elynion, pen. xiv. 21. *Y ffrydiau*—anian y rhai yw bod bob amser mewn symudiad, a safasant yn bentwr—y mae yr ymadrodd hwn yn brydfert h a mawreddog, megys yn wir y mae yr holl gân: y mae fel yn rhoddi bywyd i'r dyfroedd, trwy eu gwneuthur yn agored i ofn. *Y dyfnderau a geulasant*—a galedasant, a safasant yn llonydd, fel pe buasant wedi rhewi yn nghanol y môr.

Adn. 9. *Y gelyn a ddywedodd, &c.]* Gan i'r gân hon gael ei chyfansoddi trwy ddywyfol ysbrydoliaeth, gallwn fod yn sicr i'r geiriau hyn gael eu llefaru gan Pharao a'i gadbeniaid, ac i'r nwydau a ddarluniant gael eu teimlo yn eu rhwyg mwyaf yn eu calonau: ond mor ebrwydd y gwaradwyddwyd eu hymffrost!

Adn. 10. *Ti a chwythaist â'th wynt y môr a'th tôdd hwynt]* Y fath ddrwyfodol a ddyry hyn i ni o allu Duw! Nid yw ef ond yn chwythu, ac y mae ar unwaith yn gorehuddio lluaws aneirif o fyddinoedd. Dyma yw gwir ardduniant: y mae fel 'Bydded goleuni, a goleuni a fu!' *Y môr a'u tôdd hwynt!* Pa nifer o ddrwyfodol ylliau a gynwysir yn y geiriau hyn? Buasai i unrhyw ysgrifenydd heblaw un dwyfol ysbrydoledig osod ei ddychymyg ar

9 Y gelyn a ddywedodd, Mi a erlidiaf, mi a oddiweddaf, mi a ranaf yr yspail: caf fy ngwynfyd arnynt; tynaf fy nghleddyf, fy llaw a'u dyfetha hwynt.

10 Ti a chwythaist â'th wynt; y môr a'u tôdd hwynt: soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion.

11 Pwy sydd debyg i ti, O Arglwydd, yn mhlith y duwiau? pwy fel tydi yn ogoneddus mewn sant-eiddrwydd, yn ofnadwy mewn moliant, yn gwneuthur rhyfeddodau?

12 Estynaist dy ddeheulaw; llyncodd y ddaear hwynt.

13 Arweiniaist yn dy drugaredd y

waith, a rhoddi i ni faith adroddiad; bnasai yn dyhysbyddu y testyn, neu yn ei dyloidi ef, ac yn blino y darllynydd â rhes o ddarluniau—au difasa diddefydd. Ond yma y mae Duw yn chwythu, y môr yn *ufaddhau*, a'r Aifftiaid yn cael eu *llyncu i fyny!* A fu darluniad erioed yn fwy cyflawn, bywiog, a chryf na hwn?

Adn. 11. *Pwy sydd debyg i ti, O Arglwydd, yn mhlith y duwiau?* Cyfeirir yma yn benaf at dduwiau yr Aifft, ar y rhai yr oedd JEHOFA, trwy y deg pla, wedi ymorfoleddu yn ddiweddar mor ogoneddus; ac yn awr y mae pobl yr Arglwydd yn ymorfoleddu arnynt o'r newydd: 'Pwy yn mhlith y duwiau hyn sydd debyg i ti? Nis gallant hwy *waredu na dyfetha?* eithr *TYDI* wylt yn gwneyd y naill a'i llall yn y modd hynotaf.' *Yn ogoneddus mewn sant-eiddrwydd*—yn anfeidrol ysblynydd yn y briodolled hon hyd yn nod pan yn tywallt dy farnedigaeithau ar dy elynion. *Yn ofnadwy mewn moliant*—Bôd ag y dylid dy foliannu, gan angyliaid a dynion, gylfa'r parch dyfaaf a'r adoliad uwchaf. *Yn gwneuthur rhyfeddodau*—y mae pob rhan o waith Duw yn rhyfeddol; uid yn unig y *gwyrtiau*, y rhai a gynwysant wrthbroad neu attaiad deddfau natur, ond pob rhan o natur ei hun. Pwy all ddirnad pa fodd y ffurfir gwelltyn y maes; neu pa fodd y mae daear, awyr, a dwfr yn gyfrwyl medig yn nghorff y dderwen? A phwy all amgyffred pa fodd y mae y gwahanol rywogaethau o blanhigion a chreaduriaid yn cael eu cadw yn holl nodau gwahaniaethol eu priodol naturiaethau? A phwy a fedr ddeall pa fodd y mae dyn yn cael ei ffurfio, ei faethu, a'i wahanol ranau eu harddangos yn eu lle? Beth yw y gwir achos o gylchrediad y gwaed? neu pa fodd y mae gwahanol luniaeth yn cynrychu caledion a byllion y peiriant anifeiliaid? Beth yw bywyd, cwsig, angau? A pha fodd y mae enaid arian a halogedig yn cael ei adgenhedlu, ei buro, a'i wneyd yn debyg i'w Greawdwr mawr? Y rhai hyn, fel y sylwa Clarke, ydynt rhyfeddodau ag y mae Duw ei hun yn eu gweithredu, ac iddo ei hun yn unig y maent yn gwbl hysbys.

Adn. 12. *Llyncodd y ddaear hwynt]* Y mae yn dra thebyg fod daeagrtynt hefyd ar yr achlysur hwn, ac i holltiadau gael eu gwneuthur yn ngwaelod y môr, trwy yr hyn y

bobl y rhai a waredaist : yn dy nerth y tywysaist hwynt i aneddle dy sant-eiddrwydd.

14 Y bobloedd a glywsant, ac a ofnant : dolur a ddeil breswylwyr Palestina.

15 Yna y syna ar dduciaid Edom : cedyrn hyrddod Moab, dychryn a'u deil hwynt : holl breswylwyr Canaan a Doddant ymaith.

16 Ofn ac arswyd a syrth arnynt ; gan fawredd dy fraich y tawant fel careg, nes myned trwyodd o'th bobl di, Arglwydd, nes myned o'r bobl a enillaist ti trwyodd.

17 Ti a'u dygi hwynt i mewn, ac a'u pleni hwynt yn mynydd dy etiffediacth, y lle a wnaethost, O Ar-

glwydd, yn aneddle i ti ; y cysegr, Arglwydd, a gadarnhaodd dy ddwyllaw.

18 Yr Arglwydd a deyrnasa byth ac yn dragwydd.

19 O herwydd meirch Pharao, a'i gerbydau, a'i farchogion, a aethant i'r môr ; a'r Arglwydd a ddychwelodd ddyfroedd y môr arnynt : ond meibion Israel a aethant ar dir sych yn nghanol y môr.

20 A Miriam y broffwydes, chwaer Aaron, a gymerodd dympan yn ei llaw, a'r holl wragedd a aethant allan ar ei hol hi, â thympanau ac â dawnsiau.

21 A dywedodd Miriam wrthynt, Cenwch i'r Arglwydd ; canys gwnaeth

llyncwyd llawer o honynt. Y mae y salm-ydd yn arwyddo hyny yn gryf, Salm lxxvii. 18.

Adn. 13. *Yn dy nerth y tywysaist hwynt i aneddle dy sant-eiddrwydd*] Gall hyn fod yn meddwl naill ai gwlad Canaan, neu ynte y *babell* lle y preswyliai Duw yn eu plith yn yr anialwch. Gan fod yr awdl hon yn cael ei rhoddi yn ngeuan Moses gan Ysbryd Duw, y mae yn dra naturiol deall hon a'r adnodau dylunol hdy ddiwedd adu. 18, fel yn cynwys rhag-grybwylliad o'r hyn a wnai Duw i'r bobl hon a waredwyd ganddo mor wyrthiol. Llef-arir am dano fel *wedi* gwneyd yr hyn yr oedd *yn nghylch* ei wneyd.

Adn. 14. *Palestina*] Enw yn deilliaw oddi-wrth *Philistia*, gwlad y Philistiaid, rhwng Joppa a Gaza. Y mae yr enw hwn yn cael ei roddi yn awr i Canaan ôll.

Adn. 15. *Guciaid Edom*] Yr oedd Idumea yn cael ei llywodraethu y pryd hyn gan rai a elwid *aluphim*, penaethiaid neu gadbeniaid : gwel ar Gen. xxxvi. 15. *Cedyrn hyrddod Moab*—Saes. 'gwŷr cryfion Moab.' *Holl breswylwyr Canaan a Doddant ymaith*—ac felly yn gywir y bu, pan glywsant am ddynesiad Israel tuag at eu gwlad : gwel Jos. ii. 9—12.

Adn. 16. *Nes myned trwyodd o'th bobl di*] Nid trwy y môr coch, canys gwnaed hyny eisioes ; ond trwy yr anialwch a'r Iorddonen, mewn trefn i gael eu dwyn i wlad yr addewid.

Adn. 17. *Ti a'u dygi hwynt i mewn*] Trwy dy nerth a'th drngaredd di yn unig yr ânt i'r etiffediacth addawedig. *Ac a'u pleni hwynt*—a roddi iddynt breswylfa *sefydlog* yn Nghanaan, ar ol eu bywyd ansefydlog a chrwydr-edig yn yr anialwch. *Yn mynydd dy etiffediacth*—sef yn Nghanaan, yr hon oedd yn wlad fynyddig, Deut. xi. 11 ; neu yn hytrach *mynydd Seion*, ar yr hwn yr adeiladwyd y deml.

Adn. 18. *Yr Arglwydd a deyrnasa tyth ac yn dragwydd*] Dyma yn briodol gydgor cyffredinol y gân, yn yr hwn yr oedd yr holl bobl yn ymuno. Y mae y geiriau yn mynegu llywodraeth dragwyddol Duw, nid yn unig yn y *byd*, ond yn yr *eglwys* ; nid yn unig dan y *gyfraith*, ond hefyd dan yr *efengyl* ; nid yn unig mewn *amser*, eithr dros *dra-*

gywddoldeb. Gellir cyfieithu *leolam waed, am byth ac yn mlaen*—nid yn unig trwy amser, ond hefyd trwy bob *parhad*. Yr oeddynt yn awr wedi gwleud terfyn ar deyrnasiad Pharao ; ond ni ddyry amser ei hun derfyn ar deyrnasiad *Jehofa*, yr hwn, fel ef ei hun, sydd dragwyddol. Ymddengys fod y gân yn dybenu gyda'r adnod hon, trwy fod y llinellau odlig, yn y wreiddiol, yn terfynu gyda hi. Y mae adn. 19, 20, a'r rhan flaenaf o adn. 21, mewn rhyddiaeth eglur ; ond y mae y rhan ddiweddaf o adn. 21 yn hanner-odlig, gan ei bod yn cynwys y *gwrthatebiad* neu y *ferdon* a genid gan Miriam a'r wragedd Israelaidd ar wahanol amserau yn ystod y gân : gwel Kennicott.

Adn. 19. *O herwydd meirch Pharao, &c.*] Dywed Coke ac ereill fod yr adnod hon yn cynwys yr hyn a eilw y Groegiaid yn *epiphonema* i'r gân, neu *ddiweddiaith* yn cymeryd i mewn ei holl destyn hi.

Adn. 20. *A Miriam y broffwydes*] Am ystyr y gair 'proffwyd,' *nabi*, gwel ar Gen. xx. 7. Gwelsom eisioes (pen. ii. 2, 4.) fod Miriam yn hŷn na Moses ac Aaron. Y mae yn dra thebyg iddi hi gael ei hysbrydoli gan Ysbryd Duw i addysgu yr Hebrëesau, fel y cafodd Moses ac Aaron i addysgu y dynion : gwel ar Num. xii. 2, Mica vi. 4. Yr oedd Moses yn arwain y gân yn nhlith y dynion, a Miriam yn mhlith y merched. Yr oedd buddugoliaethau hynod yn arferol o gael eu clodfodi gan ferched Israel, i Sam. xviii. 6, 7. *A thympanau*—gwel ar Gen. xxxi. 27 ; a *dawnsiau*—y mae rhai yn cyfieithu y gair *mecholith* yn *chwibanoglan*, neu *ibelli*. Rhaid addef, modd bynag, fod dawnsiau crefyddol wedi bod mewn arferiad o'r amseroedd boreaf ; ac eto, yn y rhan fwyaf o'r manau lle y dygwyrdd y gair yn ein cyfieithiad ni, y mae *offeryn cerdd* mor debyg o fod yn ystyr iddo a *dawns* o unrhyw fath.—CLARKE.

Adn. 21. *A dywedodd Miriam wrthynt*] Sef wrth y gwagedd a aethant allan ar ei hol hi ; neu yn ol y Saesonag, *A Miriam a'u hatebodd hwynt*—a ganodd y *ferdon* ganlynol mewn atebiad i'r dynion. *Cenwch i'r Arglwydd*—gwel ar adn. 1, 20.

yn ardderchog : bwriodd y march a'r marchog i'r mor.

22 ¶ Yna Moses a ddyg Israel oddiwrth y môr coch; ac aethant allan i anialwch Sur: a hwy a gerddasant dri diwrnod yn yr anialwch, ac ni chwasant ddfwr.

23 ¶ A phan ddaethant i Mara, ni allent yfed dyfroedd Mara, am eu bod yn chwervon: o herwydd hyny y gelwir ei henw hi Mara.

24 A'r bobl a duchasant yn erbyn Moses, gan ddywedyd, Beth a yfwn ni?

Adn. 22. *I anialwch Sur*] Yr oedd hwn ar fin y môr coch, ar eu ffordd tua mynydd Sinai. *Ac ni chwasant ddfwr*—yma y gwelwn nad yw gwaredigaethau, pa môr fawrion byn-ag, yn ein ihyddhau ni oddiwrth anhwysderau a threialon dyfodol. Ond hyn oedd i brofi eu fydd a'u hamyuedd hwy.

Adn. 23. *Ni allent yfed dyfroedd Mara*] Am eu bod yn chwervon neu hallt. Y mae Dr. Shaw yn meddwl mai yr un lle yw hwn a'r un a elwir yn awr *Corondel*, lle y mae eto gornant fechan ag swydd yn profi yn hallt, os heb ei chymysgu a gwllith neu wlaw. Y mae amrai ysgrifenywyr paganaid yn cytuno fod *dyfroedd chwervon* yn y parthau hyny, yn tarddu oddiwrth natur heliaidd a nitraidd y wlad hono. Y mae yno eto ffynnon mewn lle a elwir *Howard*, yr hon y mae ei dyfroedd yn rhy chwervon o lawer i'w hyfed.

Adn. 24. *A'r bobl a duchasant yn erbyn Moses*] Yr hyn oedd mewn effaith yn duchan yn erbyn Duw, yr hwn oedd newydd ddangos y fath waredigaeth iddynt! Ond rhaid cofio eu bod mewn cyflwr o fawr ddiraddiad meddwl ar ol eu caethiwed blin: gwel ar pen. xiii. 17.

Adn. 25. *Ac efe a waeddodd ar yr Arglwydd*] Gwnaeth Moses yr hyn y dylasant hwy ei wneuthur. Ymddengys nad oedd gan y corff mawr o Israeliaid ond ychydig o wybodaeth am weddi ac ymddibyniad ar yr Hollallnog y pryd hyn; ac yr oedd gan Moses a Jehofa lawer i'w ddyoddef oddiwrth eu gwendid hwy. *A'r Arglwydd a ddanghosodd iddo ef bren*—dywed Deongliadur Jonathan a Jerusalem, pan weddiodd Moses, 'i Atir yr Arglwydd ddangos iddo ef y pren *ardiphney*, ar yr hwn yr ysgrifenedd yntau yr enw JEHOFA: ac yna ddarfod iddo ei dafu i'r dyfroedd, ac i'r dyfroedd trwy hyny bereiddio.' Ond pa bren oedd *ardiphney* ni ddywedir. Ymddengys na chlafod y dyfroedd hyn eu cadw yn beraidd ddim hwy nag yr oedd achos am danynt felly. Er i rai faru fod gan y pren hwn rinwedd neillduol ynddo i bereiddio dyfroedd chwervon, eto, gan ddarfod eu pereiddio yn ddiatreg ar friwad y pren iddynt, a hyny i'r fath raddau fel ag i bereiddio eu blas i amrai gannoedd o filoedd o bobl, heb son am yr aneirif ddefaid a gwartheg, ymddengys yn dra amlwg y rhaid fod yr effaith yma yn wyrthiol, ac nad oedd y pren ddim ond *arwydd*, nid y *moddion*, o'r gwelldad, yr un modd a'r sarff bres ar achos arall. Ac onid ellir ystyried y pren hwn fel cysgod o groes Crist, ac o'r bendithion a bwr-

25 Ac efe a waeddodd ar yr Arglwydd: a'r Arglwydd a ddangosodd iddo ef bren; ac efe a'i bwriodd i'r dyfroedd, a'r dyfroedd a bereiddiasant: yno y gwnaeth efe ddeddf a chyfraith.

26 Ac a ddywedodd, Os gan wrando y gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, ac os gwnai di yr hyn sydd uniawn yn ei olwg ef, a rhoddi clust i'w orchymynion ef, a chadw ei holl ddeddfau ef; ni roddaf arnat un o'r clefydau a roddais ar yr Aifitiaid: o

caswyd trwyddi, y rhai, pan yr ydym yn eu derbyn trwy fydd, sydd yn pereiddio ein profedigaethau chwervaf â thangnefedd a chariad Duw, heddwch cydwybod, a gobaith gorfoleddus am wynfydedigrwydd tragwyddol? *Yno y gwnaeth efe ddeddf a chyfraith*—y rhoddodd efe ryw grybwyllidau cyffredinol o'i ewyllys i Moses yn flaenorol i'r ghoeddiad y ddeddf ar Sinai: gwel ar adn. 26. *Ac yno y profodd efe hwynt*—neu, fel y dyldd cyfieithu *nissahu*, 'y profodd efe ef,' sef Moses. Trwy y tuchanrwydd hwn o eiddo y bobl, efe a brofodd *Moses*, i edrych, a siared yn ol dull dynion, a fyddai efe yn fyddlon; ac yn nghanol y profedigaethau i'r rhai yr oedd yn debyg o fod yn agored, a wnai efe barhau i ymddiried yn yr Arglwydd, a chleisio ei holl gynhorth oddiwrtho ef: gwel CLARKE.

Adn. 26. *Os gan wrando y gwrandewi, &c.*] Ymddengys mai yr hyn a gynnwysir yn yr adnod hon yw yr hyn a feddywir wrth y *ddeddf* a'r *gyfraith* yn yr adnod flaenorol. Yr oedd y ddeddf a'r gyfraith yn cynwys y tri phen canlynol: (1) Fod iddynt gydabod JEHOFA yn Dduw iddynt, ac felly ymgadw oddiwrth bob eilunaddoliaeth. (2) Fod iddynt dderbyn ei air a'i dystiolaeth ef fel datguddiad dwyfol yn rhwymo eu calonau a'u bucheddau, ac felly gael eu gwaredu oddiwrth bob math o anfarwydd, ac oddiwrth gydabod gosodiadau neu fabwysiadu arferion y cenedloedd cymydogathol. (3) Fod iddynt barhau i wneuthur felly, ac addurno eu profies â buchedd santaidd. Os cadwent hwy y pothau hyn, yna addewid Duw ydoedd, na chái un o glesydau yr Aifitiaid ei roddi arnynt; y caent eu cadw mewn cyflwr o iechyd corff a heddwch meddwl; ac os byddai iddynt yn amser gael eu cystuddio, y byddai i'r drwg gael eu symud ar eu mynediad at Dduw, am mai efe oedd eu *hiachawdwr* neu eu *meddyg* hwy. Y mae banes yr Israeliaid yn ein hawrdoddi i greu fod ganddynt yn y cyffredin iechyd da; a phan gystuddid hwy, fel yn achos y seirff tanlyd, wrth wynebu at Dduw hwy oll a iacheid. Dywed Jonathan ben Uzziel mai y deddfau a dderbyniodd Moses y pryd hyn oeddynt orchymynion yn nghylch cadwraeth y sabboth, dyledswydd i rieni, cyfreithiau yn nghylch clwyfau ac archollion, a'r cospau a ddygai pechaduriaid arnynt eu lunain trwy eu troseddau hwynt: ond y mae yn debyg, fel y sylwa Clarke, mai y cyfreithiau *cyffredinol* a grybwyllwyd eisioes yw y rhai a friwdir

herwydd dyfi *yw* yr Arglwydd dy iachawdwr di.

27 ¶ A daethant i Elim; ac yno yr oedd deuddeg ffynnon o ddwfr, a deg palmwydden a thriugain: a hwy a wersyllasant yno wrth y dyfroedd.

PENNOD XVI.

A HWY a symudasant o Elim; a holl gynulleidfa meibion Israel a ddaethant i anialwch Sin, yr hwn sydd rhwng Elim a Sinai, ar y pynthegfed dydd o'r ail mis, wedi iddynt fyned allan o wlad yr Aifft.

2 A holl gynulleidfa meibion Israel a duchasant yn erbyn Moses ac Aaron yn yr anialwch.

3 A meibion Israel a ddywedasant wrthynt, O na buasem feirw trwy

yma; ac ymddengys fod hyny yn cael ei brofi tubwnt i ddaul yn Jer. vii. 22, 23.

Adn. 27. *A daethant i Elim*] Yr oedd Elim yn ngodre anialwch Sin, ac, yn ol Dr. Shaw, oddeutu 6 milldir o *Tor*, a 90 o *Mara* neu *Corondel*. Meddylir nad arhosodd yr Israeliaid ond un diwrnod yn *Mara*, ac iddynt ddyfod i Elim ar y 25ain o fis Abib. *Ac yno yr oedd deuddeg ffynnon o ddwfr*—un i bob un o lwythan Israel; *a deg palmwydden a thriugain*—un i bob un o'r deg henniad a thriugain, yn ol Deongliadau Jonathan a Jerusalem. Cafodd Dr. Shaw hyd i *nav* o'r deuddeg ffynnon, yr oedd y tair ereill wedi eu cau i fyny â thywod; ac yr oedd y deg palmwydden a thriugain wedi lluosogi i fwy na dwy fil, ffrwyth y rhai a ddygent lawer o gyllid i'r mynachod Groegaidd yn *Tor*. Fel hyn y mae yn aros braff digonol o ddilysrwydd y rhan yma o'r hanesiaeth santaidd, ar ol yspaid o fwy na *thair mil* o flynyddau.

PEN. XVI. Adn. 1. *I anialwch Sin*] Yr hwn sydd yn gorwedd rhwng Elim a Sinai; ac o Elim, meddai Dr. Shaw, gellir gwelod mynydd Sinai yn eglur. Cyn iddynt ddyfod i anialwch Sin, yr oeddnt wedi gwersyllu wrth y *môr coch* ar ol gadael Elim, fel y crybwyllir yn Num. xxxiii. 10, lle y rhoddir i lawr eu holl wersyllfaoedd; ond ni chrybwyllir am hyny yma, trwy nad oedd diim hynod wedi dygwyyd yno. *Ar y pynthegfed dydd o'r ail mis*—yr oeddnt yn awr wedi gadael yr Aifft er's mis, yn ystod yr hwn yn debygol y buont byw ar y lluniaeth a ddygasant gyda hwy o *Rameses*, er y gallent fod wedi cael diwalliant ar lan y môr.

Adn. 2. *A holl gynulleidfa meibion Israel a duchasant*] O eisiau bara, trwy fod eu holl does wedi darfod, pen. xiii. 34. Gwelwn yma mor wan a gwrthlynsig yw y natur ddynol! Yr oeddnt newydd wedel dyfroedd chwervon *Mara* yn cael eu pereiddio i dori eu syched, ac ychydig cyn hyny wedi cael eu gwaredu yn wyrthiol wrth y môr coch; ac eto yr oeddnt mor bell oddiwrth ddysgu ymddiried yn rhagluniaeth hollalluog Duw, nes y darfu

law yr Arglwydd yn ngwlad yr Aifft, pan oeddym yn eistedd wrth y crochanau cig, ac yn bwyta bara ein gwala: ond chwi a'u dygasoch ni allan i'r anialwch hwn, i ladd yr holl dyrfia hon â newyn.

4 ¶ Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Wele, mi a wlawiaf arnoch fara o'r nefoedd: a'r bobl aânt allan, ac a gasglant ddogr dydd yn ei ddydd; fel y gallwyf eu profi, a rodiant yn fy nghyfraith, ai nas *gunant*.

5 Ond ar y chweched dydd y darparant yr hyn a ddygant i mewr; a *hyny* fydd dau cymaint ag a gasglant beunydd.

6 A dywedodd Moses ac Aaron wrth holl feibion Israel, Yn yr hwyr

iddynt, yn ngwyneb y cyfyngder cyntaf a ddaeth i'w cyfarfod, dori allan mewn tuchanrwydd cyffredinol! Gwel ar pen. xiii. 17.

Adn. 3. *O na buasem feirw trwy law yr Arglwydd*] Trwy rai o'r plâau ag oeddnt yn lladd yr Aifftiaid; *pan oeddym yn eistedd wrth y crochanau cig*—trwy fod yr Hebreaid mewn cyflwr o gaethiwed yn yr Aifft, meddylir eu bod yn cael en porthi yn wahanol gwmnïau gan eu meistriaid gwaith mewn lleoedd neillduol, lle yr oedd *crochanau* neu *beiriau* mawrion wedi eu gosod i barotoi eu bwyd. *Ac yn bwyta bara ein gwala*—nis gallwn feddwl fod ganddynt ryw lawnder mawr yn yr Aifft, er mor helaeth y llefarant am y crochanau cig a'u gwala o fara; ac nis gallent ofni marw o eisiau yn yr anialwch, tra yr oedd en defaid a'u gwartheg gyda hwy: ond y mae anffoddlonrwydd yn mwyaheu yr hyn a aeth beibio, ac yn bychanu yr hyn sydd bresenol, heb barch i wirionedd na rheswm. Nid oes neb yn siared yn fwy afresymol na thuchanwyr.

Adn. 4. *Wele, mi a wlawiaf arnoch fara o'r nefoedd*] Gan fod dyn wedi ei wneuthur o'r *ddaeur*, trefnodd ei Greawdwr yn ddoeth iddo gael *bara* allan o'r ddaear, Salm civ. 14: ond gan fod pobl Israel yn cysgodi 'cynulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifenydd yn y nefoedd,' ac yn derbyn eu braint-ysgrif, eu deuddfan, a'u gorchymynion o'r nefoedd, y maent o'r nefoedd hefyd yn derbyn eu lluniaeth. *Fel y gallwyf eu profi*—a wnaent hwy ymddiried yndo ef a'i wasanaethu, a bod byth yn fyddlon i Feistr mor dda.

Adn. 5. *Ond ar y chweched dydd*] Gwel ar adn. 22.

Adn. 6. *Yn yr hwyr y cerch wybod mai yr Arglwydd a'ch dyg chwi allan*] Ar ol yr holl wyrthiau a welsant, ymddengys eu bod yn meddwl yn barhaus mai gwaith Moses ac Aaron oedd en dwyn hwy allan o'r Aifft; canys er fod y gwyrthiau ag yr oeddnt wedi eu gwelod eisioes yn argyhoeddiadol am yr amser, eto, mor gynted ag yr aent heibio, hwy a gwympent yn ol i'w cyn-wrthffyddiaeth! Gan hyny yr oedd Duw yn gwelod fod yn

y cewch wybod mai yr Arglwydd a'ch dyg chwi allan o wlad yr Aifft.

7 Y bore hefyd y cewch weled gogoniant yr Arglwydd; am iddo glywed eich tuchan chwi yn erbyn yr Arglwydd: a pha beth ydym ni, i chwi i duchan i'n herbyn?

8 Moses hefyd a ddywedodd, *Hyn fydd* pan roddo yr Arglwydd i chwi yn yr hwyr gig i'w fwyta, a'r bore fara eich gwala: am glywed o'r Arglwydd eich tuchan chwi, yr hwn a wnaethoch yn ei erbyn ef: o herwydd beth ydym ni? nid yn ein herbyn ni y mae eich tuchan, ond yn erbyn yr Arglwydd.

9 ¶ A Moses a ddywedodd wrth Aaron, Dywed wrth holl gynulleidfa meibion Israel, Deuwch yn nes gerbron yr Arglwydd: o herwydd efe a glywodd eich tuchan chwi.

10 Ac fel yr oedd Aaron yn llefaru

wrth holl gynulleidfa meibion Israel, yna yr edrychasat tua'r anialwch; ac wele gogoniant yr Arglwydd a ymddanghosodd yn y cwmwl.

11 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

12 Clywais duchan meibion Israel: llefara wrthynt, gan ddywedyd, Yn yr hwyr y cewch fwyta cig, a'r bore y'ch diwellir o fara: cewch hefyd wybod mai myfi yw yr Arglwydd eich Dwv chwi.

13 Felly yn yr hwyr y soffieir a ddaethant, ac a orchuddiasant y wersyllfa; a'r bore yr oedd caenen o wllith o amgylch y gwersyll.

14 A phan gododd y gaenen wllith, wele ar hyd wyneb yr anialwch dipynau crynion cyn faned a'r llwydrew ar y ddaear.

15 Pan welodd meibion Israel hyny, hwy a ddywedasant wrth eu gilydd,

angenrheidiol rhoddi iddynt wyrth feunyddiol yn ngwlawiad y manna, fel y caent brawf o'i gyfryngiad dwyfol ef yn wastadol o flaen eu llygaid.

Adn. 7. *Y bore hefyd y cewch weled gogoniant yr Arglwydd*] Naill ai gweithred ogoneddus Dwv yn rhoddi iddynt fara o'r nef; neu yn hytrach, ymddanghosiad gogoniant Dwv yn y cwmwl, fel y crybwyllir yn adn. 10. *Am iddo—sef y GOGONIAnt, glywed eich tuchan chwi yn erbyn yr Arglwydd—* onid yw yn ymddangos fod GOGONIAnt yr Arglwydd yn cael son am dano yma fel rhywbeth gwahanol i'r ARGLWYDD? Gall yr ymadrodd hwn dderbyn peth goleuni oddiwrth Heb. i. 3: 'Yr hwn, ac efe yn ddysgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef.' A chan fod geiriau St. Paul yn cael eu llefaru am yr ARGLWYDD IESU, onid yw yn debyg fod geiriau Moses yn cyfeirio ato ef hefyd? 'Ni welodd neb Dduw erioed'; gan hyny gallwn gasglu mai CRIST oedd y dirprwy gweledig yn yr holl gyfryngiadau rhyfeddol a gwythiol a gymerent le yn yr amseroedd patriarchaidd a than y gyfraith.'—CLARKE. Gwel yr adfyddliadau ar Gen. xvi.

Adn. 8. *Yn yr hwyr gig i'w fwyta*] Sef y soffieir; a'r bore fara eich gwala—sef y manna. *O herwydd beth ydym ni?*—dim ond ei weision ef, yn ufyddhan i'w orchymynion. *Nid yn ein herbyn ni y mae eich tuchan—* canys nid nyri a'ch dygasom chwi i fyny o'r Aifft; *ond yn erbyn yr Arglwydd—* yr hwn, trwy ei wyrthiol allu a'i ddaionia ei lun, a'ch dyg chwi allan o'ch caethiwed.

Adn. 9. *Deuwch yn nes gerbron yr Arglwydd*] Sef gerbron y golofn gwmwl lle yr oedd GOGONIAnt Dwv yn neillduol bresenol: gwel ar Gen. iii. 24.

Adn. 10. *Ac fel yr oedd Aaron yn llefaru wrth holl gynulleidfa meibion Israel*] Felly yr oedd Aaron yn awr wedi dyfod yn llefarydd neu weimdog Moses at yr Israeliaid, megys ag y buasai o'r blaen at Pharao, fel y

mynegwyd pen. vii. 1, &c. *Gogoniant yr Arglwydd*—gwel ar adn. 7, 9.

Adn. 12. *Yn yr hwyr, &c.*] Gwel ar adn. 8. *Cewch hefyd wybod mai myfi yw yr Arglwydd eich Dwv chwi—* yr oedd rhoddi iddynt gig a bara fel hyn yn brawf o'i allu ef fel JEHOFA, a'i fafr neillduol iddynt fel eu Dwv. Pan darawodd Dwv yr Aifftiaid â phlâau, hyny oedd i wneyd iddynt wybod mai efe oedd yr Arglwydd; ond pan ddarparai efe ymorth i'r Israeliaid, hyny oedd i wneyd iddynt wybod mai efe oedd eu Dwv.

Adn. 13. *Felly yn yr hwyr y soffieir a ddaethant*] Mor ddof fel ag y gellid dal y nifer a fynyid. Er i *Ludolf, Patrick, a Scheuchzer* gynyg llawer o resymau i brofi y dylai y gair *selav* gael ei grifeithu yn *locustiaid*; eto ymddengys oddiwrth Salm lxxviii. 27, mai ADAR o ryw fath a feddylir: 'Gwlawiodd hefyd gig arnynt fel llwch, ac adur asgellog fel tywod y môr.' Y mae *Buxtorf, Parkhurst, a'r* prif fferniaid yn gyffredinol, yn cyfieithu y gair yn *soffieir*; ac y mae *Mr. Harmer* yn ateb yr holl wrthddadleuon, ac yn amddiffyn y cyfieithiad cyffredin. Dywed Josephus fod mwy o *soffieir* oddeutu y Fergaine Arabaidd nag o un math arall o adar: gwel ar Num. xi. 31, 32.

Adn. 14. *A phan gododd y gaenen wllith*] I'r awyr, neu y diflanodd ar godiad haul; *wle ar hyd wyneb yr anialwch dipynau crynion*—ymddengys oddiwrth Num. xi. 9, fod gwllith yn disgyn o flaen y manna, a'r 'manna yn disgyn arno ef'; ac yma dysgw'n fod gwllith hefyd yn gorwedd ar y manna, nes yr ydoedd yn angauedig i'hwng dwy gaenen wllith. Yr oedd y gaenen gyntaf yn cael ei bwriadu ond odid i oeri y ddaear, rhag i'r manna doddi; a'r llall, i'w gadw yn bur a glân. Y mae rhai yn meddwl mai at hyn y cyfeiria yr ymadrodd 'maana cuddiedig,' Da. ii. 7.

Adn. 15. *Manna yw*] Dylasai y geiriau gwreiddiol, *man hu*, gael eu cyfieithu yma

Manna yw: canys ni wyddent beth ydoedd. A dywedodd Moses wrthynt, Hwn yw y bara a roddodd yr Arglwydd i chwi i'w fwyta.

16 ¶ Hyn yw y peth a orchymynodd yr Arglwydd; Cesglwch o hono bob un yn ol ei fwyta; omer i bob un yn ol rhifedi eich eneidiau; cymerwch bob un i'r rhai fyddant yn ei bebyll.

17 A meibion Israel a wnaethant felly; ac a gasglasant, rhai fwy, a rhai lai.

18 A phan fesurasant wrth yr omer, nid oedd gweddill i'r hwn a gasglasai lawer, ac nid oedd cisiau ar

yr hwn a gasglasai ychydig; casglasant bob un yn ol ei fwyta.

19 A dywedodd Moses wrthynt, Na weddilled neb ddim o hono hyd y bore.

20 Er hynny ni wrandawsant ar Moses, onid gadaw a wnaeth rhai o hono hyd y bore; ac efe a fagodd bryfed, ac a ddrewodd: am hynny Moses a ddiogodd wrthynt.

21 A hwy a'i casglasant ef bob bore, pob un yn ol ei fwyta: a phan wresogai yr haul, efe a doddai.

22 ¶ Ac ar y chweched dydd y casglent ddau cymaint o fara, dau

Beth yw? fel yr arwyddant yn llythrenol; oblegid y mae yn amlwg oddiwrth y geiriau dylynol nas gallent roddi enw iddo, canys ni wyddent beth ydoedd. Nyni a ddysgwn oddiwrth adn. 31, ddarfod iddo gael yr enw man, neu manna, wedi hyn yn debygol er cofiadwriaeth am y cwestiwn a ofynasant ar ei ymddangosiad cyntaf. Nid oes neb yn gwybod pa sylwedd ydoedd: nid oedd yn ddim ag ydoedd gyffredin i'r anialwch. Y mae yn amlwg na welodd yr Israeliaid mohono erioed o'r blaen, canys dywed Moses, Deut. viii. 3, 16, *efe a'th fwydodd a' manna, yr hwn nid adwaenit, ac nid adwaenai dy dadau*; a thrwy fod crochanaid o hono yn ei gadw yn neu ger yr arch, y mae yn debygnad ymddanghodd dim o'r fath byth mwyach ar ol i'r diwalliant gwyrthiol hwn yn yr anialwch beidio. Bernir iddo gael ei greu i'r achos presenol, a'i fod, fel yr hwn a gysgodai, *yr unig beth o'r fath, yr unig fara o'r nef a roddwyd erioed gan Dduw i gadw bywyd dyn, megys mai Crist yw 'y gwir fara' a ddaeth i waered o'r nef, ac a roddwyd dros fywyd y byd, Ioan vi. 31—58.* Dywed yr Iuddeon ei fod yn flasu i chwaeth pawb, a'i fod yn fwyd iachus a hawdd ei dreulio. Wrth ei gadw rhag pelydr yr haul, efe a galedai, ac a ddeuai yn gymhwys i'w falu a'i bobi yn deisenau.

Adn. 16. *Omer i bob un*] Omer yw y ddegfed ran o epha, sef oddeutu chwe pheint, gwinfesur. Yr oedd hyn yn ddiau yn ddoen helaeth, yn gyfryw ag a allai lawu ddigoni dyn o'r nerth a'r chwant mwyaf: yn wir ymddanghosiad yn ormod, oni buasai ei fod yn fwyd tra ysgafn a hawdd ei dreulio. *Cymerwch bot un i'r rhai fyddant yn ei bebyll*—gallai fod rhai wedi eu cau yn eu pebyll trwy afiechyd neu wendid; canys er y dywed y salmydd, cv. 37, eu bod 'heb un llesg yn eu llwythan,' rhaidd fod hyn yn cyfeirio yn benaf at eu cyflwr iachus pan eu dygwyd allan o'r Aifft; canys ymdeugys fod llawer o rai afiach yn eu plith pan ymosodwyd arnynt gan yr Analeciaid, Deut. xxv. 18.

Adn. 17. *Rhai fwy a rhai lai*] Yn ol fel yr oedd eu teuluoedd yn fwy neu yn llai lluosog; neu fel yr oedd y rhai a'i casglent yn fwy neu yn llai diwyd i'w gasglu: gwel ar adn. 18.

Adn. 18. *Nid oedd gweddill i'r hwn a gasglasai lawer, ac nid oedd cisiau ar yr hwn a gasglasai ychydig*] Y mae yr ebonwyr yn

deongli hyn mewn gwahanol ffyrdd. (1) Tybia rhai fod Duw yn gwneyd *gwyrt* yn yr achos hwn, ac felly yn trefnu, pan y deuent i fesur yr hyn a gasglasant, fod ystôr yr hwn a gasglasai ormod yn cael ei lleihau yn wyrthiol i'r nifer o omerau ag y dylasai efe eu casglu, ac ystôr yr hwn na chasglasai ddigon yn cael ei chlynyddu yn wyrthiol i'r iawn fesur. Tybia Houbigant na chymerodd hyn le ond y tro cyntaf yn unig, er dysgu iddynt fod yn ofalus yn y mesur rhagllaw. (2) Barna ereill mai y cwbl a feddylir yw, fod yr hwn na chasglasai ddigon i wneyd omer i bob un yn ei deulu, yn cael ei ddiwallu o'r hyn a gasglasai ereill dros ben digon, a'u bod yn elusengar yn cynorthwyo eu gilydd: a meddylir fod yr ystyr yma i'r ymadrodd yn cael ei gefnogi gan St. Paul yn 2 Cor. viii. 13—15. (3) Tybia ereill mai y rheswm paham nad oedd gweddill nac eisiau yn bod oedd, am fod pob un wedi casglu yn gywir yn ol rhif ei deulu.

Adn. 19. *Na weddilled neb ddim o hono hyd y bore*] Canys ni fynai Duw iddynt ofalu dros dranoeth, ond ymddibynu yn wastadol arno ef am eu bara beunyddio! Nid ydym i feddwl fod pob dyn yn rhwym i fwyta yr hyn oll a gasglasai; ond yr oeddynt yn rhwym i'w doddi neu ei losgi ef, fel y gwnaent â gweddillion rhai aberthau, neu i'w ddifa ryw ffordd arall.

Adn. 20. *Gadaw a wnaeth rhai o hono hyd y bore*] Gan beidio ymddiried yn rhagluniaeth Duw am ddiwalliant dyfodol; neu o gywreinerwydd, i gael gwybod natur y manna hwn, a pha beth a allent ei wneuthur os byddai achos yn gofyn. *Ac efe a fagodd bryfed, ac a ddrewodd*—nid yn gymaint o'i natur ei hun, pa un ydoedd bur a pharhaol, meddai rhai; ond fel barn oddiwrth Dduw. Fel hyn y mae Duw yn barhaus yn gwneuthur anafydd-dod a throsedd yn *stin* i'r troseddwr, fel y byddo iddo ei adael.

Adn. 21. *Efe a doddai*] Sef cymaint o hono ag a adewid ar y ddaear, fel na fyddai iddo gael ei fathru dan draed na'i ddiystyru, ac fel y cymbhellid hwy i ymddibyniad llwyrach ar Dduw.

Adn. 22. *Ac ar y chweched dydd y casglent ddau cymaint*] Fel y caent luniaeth dros y sabboth; canys ar y dydd hwnw ni ddisgynai dim manna, adn. 26, 27. Y fath wyrth anwadadwy oedd hon! P'e buasai y manna yu

omer i un : a holl benaethiaid y gynulleidfa a ddaethant ac a fynegasant i Moses.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Hyn yw y peth a lefarodd yr Arglwydd; Y fory y mae gorphwysfa sabbath santiaid i'r Arglwydd: pob-wch heddyw yr hyn a boboch, a ber-wch yr hyn a ferwoch; a'r holl weddill, rhoddwch i gadw i chwi hyd y bore.

24 A hwy a'i cadwasant hyd y bore, fel y gorchymynasai Moses: ac ni ddrewodd, ac nid oedd pryf ynddo.

25 A dywedodd Moses, Bwyteu hwn heddyw; oblegid sabbath yw heddyw i'r Arglwydd: ni chewch hwn yn y maes heddyw.

26 Chwe diwrnod y cesglwch chwi ef; ond ar y seithfed dydd, yr hwn yw y sabbath, ni bydd efe.

gynyrch *naturiol*, disgynasai ar y sabbath fel ar ddyddiau ereill; a phe na buasai gweithrediad goruwelnaturiol i'w gadw yn ddilys, drewasai ond odid ar y sabbath yn gystal ag ar ddyddiau ereill. *Ac a fynegasant i Moses*—fod cymaint arall o fanna nad disgyn y dydd hwnw, gan ofyn beth oedd y dyben: neu mynegasant fod y bobl yn casglu dau omer bob un.

Adn. 23. *Y fory y mae gorphwysfa sabbath santiaid*] Nid oes dim yn y testyn yn arwyddo mai yn awr y rhoddwyd y sabbath *gynlâf* i'r Israeliaid, fel y tybiodd rhai. Y mae yn wir y gellir ystyried y gorchymyn fel yn cael ei *adnewyddu* yn awr, rhag iddynt hwy feddlw y gallent gael eu hesgusodi rhag ei gadw ef yn ystod eu cyflwr ansefydlog yn yr anialwch. Fel hyn yr ydym yn cael, (1) Pan orphenodd Duw ei greadigaeth, ddarodd iddo sefydlu y sabbath, Gen. ii. 3. (2) Pan ddyg efe ei bobl allan o'r Aifft, iddo sefydlu am fanwl gadwraeth o hono, Deut. v. 15. (3) A phan gyhoeddodd efe y gyfraith, iddo ei wneuthur y *ddeffed* ran o'r cyfan, gan mor bwysig oedd y gosodiad hwn yn ei olwg ef, pen. xx. 8—11. Gwel ar Dent. v. 15.

Adn. 24—27. *A hwy a'i cadwasant hyd y bore*, &c.] Gwel ar adn. 22.

Adn. 28. *A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses*] 'Ond pamam y dywedodd efe hyn wrth Moses? Nid oedd ef yn anuwydd.' Nac oedd: eithr efe oedd llywydd pobl anuwydd; ac y mae Duw yn ei roi yn ei erbyn ef, fel y byddai iddo yntau ei roi yn wresocach yn eu herbyn hwythau, ac y cymerai ofal na byddai eu hannuwydd-dod hwy trwy ddim o'i esgeulusdra na'i ddiffyg ef.

Adn. 29. *Nac aed un o'i le y seithfed dydd*] Sef o'i dŷ neu ei babel i'r maes i *gasglu manna*, fel yr ymddengys oddiwrth yr achlysur o'r gwaharddiad hwn, adn. 27. Gallasant a dylasant fyned o'u tai i'r cymantuoedd cyhoeddus, Lef. xxiii. 3, Act. xv. 21; ac i arwain eu hanifeiliaid i'w dyrbau, neu i'w codi o

27 ¶ Eto *rhai* o'r bobl a aethant allan ar y seithfed dydd, i gasglu; ond ni chawsant ddim.

28 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Pa hyd y gwrthodwch gadw fy ngorchymynion a'm cyfreithiau?

29 Gwelwch mai yr Arglwydd a roddodd i chwi y sabbath; am hyny efe a roddodd i chwi y chweched dydd fara dros ddau ddydd: arhoswch bawb gartref; nac aed un o'i le y seithfed dydd.

30 Felly y bobl a orphwysasant y seithfed dydd.

31 A thŷ Israel a alwasant ei enw ef Manna: ac yr oedd efe fel had coriander, yn wŷn; a'i flas fel afrllad o fêl.

32 ¶ A Moses a ddywedodd, Dyma y peth a orchymynodd yr Arglwydd; Llanw omer o hono, i'w gadw i'ch

bydew, Luc. xiii. 15; ac yr oedd taith diwrnod sabbath yn oddefol, Act. i. 12. Ond darfu i rai o'r Iuddeuon gario y gadwraeth fanol o lythyren y gyfraith hon mor bell, fel, yn mha agwedd bynag y caent eu hunain ar eu deffroad bore y sabbath, yr arhosent yn yr unrhyw trwy y dydd; neu os byddent i fyny, ac iddynt ddygwydd syrthio, gwrthodent godi nes y byddai y sabbath drosodd! Y mae Mr. Stapleton yn adrodd am un Rabbi Solomon, yr hwn a syrthiodd i gors ar y sabbath Iuddewig, *Sadwrn*, ac a wrthododd gymeryd ei dynu allan, gan roddi ei reswm yn y pennill canolodlig a ganlyn: *Sabbatha sancta colo, De stercore surgere nolo*. Yn y Gymraeg yn debyg i hyn:

O'r gors yma ni chyfodaf,
Y glân sabbath werthfawroga.

Y Cristionogion, wrth ei weled ef o'r duedd yma, a benderfynasant y cai ef barchu en sabbath bwythau yn yr un lle, ac felly cadwasant y dyn truenus yn y gors dros y *Sul*, gan roddi eu rheswm agos yr un modd: *Sabbatha nostra quidem, Solomon, celebrabis ibidem*.

Yn yr un gors, ti Iuddeu gwarthlyd,
Ein sabbath ninaw gedwi hefyd.

Gallasai hyn wasanaethu i'w argyhoeddi ef o'i ynfyrdwydd, ond diau nad dyma y ffordd debycaf i'w droi ef at Gristionogaeth.

Adn. 30. *Fel y y bobl a orphwysasant y seithfed dydd*] Rhai o barch i'w orphwysant Duw, a'r lleill ond odid am nad oedd manna i'w gael, adn. 27.

Adn. 31. *Manna*] Gwel ar adn. 15. *Fel had coriander*—mewn maint a llun, nid mewn lliw; canys y mae hwnw o liw tywyll, tra yr oedd hwn yn *wŷn*, megys y dywedir yma, neu fel bdeliwm neu berl, Num. xi. 7. *A'i flas fel afrllad*—neu deisenau bychain wedi eu gwneuthur â mêl.

Adn. 32. *Fel y gwelont y bara*] Fel y byddai i'r cenedlaethau a enid weled â pha fath fara y porthasai Duw eu tadan yn yr an-

cededlaethau; fel y gwelont y bara y porthais chwi âg ef yn yr anialwch, pan y'ch dygais allan o wlad yr Aiff.

33 A Moses a ddywedodd wrth Aaron, Cymer grochan, a dod ynddo lonaid omer o'r manna; a gosod ef gerbron yr Arglwydd yn nghadw i'ch cenedlaethau.

34 Megys y gorchymynodd yr Arglwydd i Moses, felly y gosododd Aaron ef i gadw gerbron y dystiolaeth.

35 A meibion Israel a fwytasant y manna ddeugain mlynedd, nes eu dyfod i dir cyfanneddol: manna a fwytasant nes eu dyfod i gwr gwlad Canaan.

ialwch, a pha faint oedd dogn pob un mewndiwrnod; ac fel y deallent nad oedd eu lluniaeth yn wael, na'u dogn yn fychan, ac nad oedd ganddynt un achos i duchan yn erbyn eu hymborth.

Adn. 33. *Cymer grochan*] Sef crochan aur, Heb. ix. 4; canys yr oedd holl lestri y cysegr yn aur; a *dod ynddo lonaid omer o'r manna*—yr hyn oedd cyfran un dyn mewndiwrnod; a *gosod ef gerbron yr Arglwydd*—sef yn y tabernacl, ac wrth yr arch pau eu hadeileid. Yr wyf fi yn meddwl ei fod tuhwnt i bob dadl nad oedd y crochan manna yn nghadw yn yr arch, eithr yn y babel yn ymyl yr arch: gwel 1 Bren viii. 9, a'r nodau ar Heb. ix. 4.

Adn. 34. *Gerbron y dystiolaeth*] Sef 'arch y dystiolaeth,' am mai ynddi hi yr oedd llechau y cyfammod, neu gyfraith Dduw, y rhai oeddnt yn dystiolaeth o awdurdod ac ewyllys Duw, ac o ymstyngiad a dyledswydd dyn, neu o'r cyfammod a wnaed rhwng Duw a dyn: gwel ar Heb. ix. 4. Yr oedd cadwraeth y manna hwn rhag llygriad yn wrthbarhaus, ac am hyny yn gofeb addasach o'r ymborth gywrthiol hwn. Gelwir y manna yn 'fwyd ysbrydol,' 1 Cor. x. 3, am ei fod yn gysgod o fendithion ysbrydol. Crist ei hun yw y gwir fanna, bara y bywyd, o'r hwn nid oedd hwnw ond cysgod, Ioan vi. 49—51. Gair Duw yw manna trwy yr hwn y maethir ein heneidiau, Mat. iv. 4. Cysuron yr Ysbrydynt 'fanna cuddiedig,' Dat. ii. 17, a chynalieth y bywyd dwyfol yn yr enaid tra yr ydym yn anialwch y byd hwn. Ymborth ydwy i *Israeliaid*, sef i'r rhai hyny yn unig ag sydd yn dylyn y golofn niwl a thân. Y mae i'w *gasglu*; hyny yw, rhaid i foddion gras gael eu harferyd gan bob un o honon yn bersool.

Adn. 35. *A meibion Israel a fwytasant y manna ddeugain mlynedd*] Onid un mis, fel yr ymddengys wrth gymharu adn. 1 o'r benod hon â Jos. v. 11, 12. Tybiodd rhai oddiwrth yr adnod hon na chafodd llyfr Exodus ei ysgrifenu nes i wrth y manna ddiweddu. Ond gallasai y geiriau hyn gael eu chwaneu gan Ezra, yr hwn dan gyfarwyddyd yr Ysbryd Dwyfol a gasglodd ac a drefnodd y gwahanol lyfrau ysbrydoledig, gan chwaneu y cyfryw

36 A'r omer ydoedd ddegfed ran epha.

PENNOD XVII.

A HOLL gynnulleidfa meibion Israel a aethant o anialwch Sin, wrth eu teithiau, yn ol gorchymyn yr Arglwydd; ac a wersyllasant yn Replidim: ac nid oedd ddwfr i'r bobl i yfed

2 Am hyny y bobl a ymgynhenasant â Moses, ac a ddywedasant, Rhoddwch i ni ddwfr i yfed. A dywedodd Moses wrthynt, Paham yr ymgynhenwch â mi? Paham y temtiwch yr Arglwydd?

3 A'r bobl a sychedodd yno am ddwfr; a thuchanodd y bobl yn erbyn Moses, ac a ddywedodd, Paham y

frawddegau *cyflawniadol*, *eglurhaol*, a *chysylltiadol* ag a fferm yn addas i gwblbau a threfnu yr oll o'r GANON SANTAIDD; canys yn flaenorol i'w amser ef, yn ol tystiolaeth gyffredinol yr Iuddeuon, yr oedd holl lyfrau yr Hen Destament mewu cyflwr anghysylltllai a gwsgaredig. Modd bynag, y mae rhai yn barnu y gallai Moses, yr hwn ni bu farw nes eu dyfod i gyffiniau Canaan, fod yn gwybod yn berffaith dda, oddiwrth natur y peth, a thrwy ddatguddiad oddiwrth Dduw, y byddai i'r manna beidio yn ebrwydd ar fynediad Israel i Ganaan, ac am hyny fod yn lawdd iddo ef ei hun ysgrifenu yn y modd yma.

Adn. 36. *A'r omer ydoedd ddegfed ran epha*] Oddeutu chwe pheint Saesonig: gwel ar adn. 16, ar ol yr bon y dylasai yr adnod yma fod. Y mae yn debyg fod nifer yr holl genedl yn yr anialwch o leiaf yn dair miliwn, fel y nodwyd ar pen. xii. 37; o ganlyniad, a chaniatau fod pob un yn difa omer yn y dydd, adn. 16, yr oedd felly 18,000,000 o beintiau o fanna yn cael eu bwyta bob dydd, 6,570,000,000 bob blwyddyn, ac yn y dengain mlynedd difawd y swm dirfawr o 262,800,000,000!

PEN. XVII. Adn. 1. *Ac a wersyllasant yn Replidim*] Dywedir yn Num. xxxiii. 12—14, wedi i'r Israeliaid ddyfod o Sin, iddynt wersyllu yn *Dophca*, ac yna yn *Alus*, cyn dyfod i *Replidim*. Yma gan hyny y mae *dau* sefydliad yn cael eu gadael allan, yn debygol am na ddarfa i ddim o bwys gymeryd lle ynddynt.

Adn. 2. *Paham yr ymgynhenwch â mi?*] Duw yw eich arweinydd, achwynwch wrtho ef. *Paham y temtiwch yr Arglwydd?*—gan mai efe yw eich arweinydd, y mae yn ystyried eich holl duchan yn fy erbyn i, fel yn gyfeiriedig yn ei erbyn ei hun. Oni roddes efe ddigon o brawf y dichen iddo ddyfetba ei elynion a chynal ei gyfeillion? Paham gan hyny yr amhenwch ei allu a'i ddaioni ef, ac y temtiwch ef i ymddwyn tuag atoch fel ei elynion?

Adn. 3. *A'r bobl a sychedodd yno am ddwfr*. Fel hyn gallwn fod yn ffjord ein dyledswydd, ac eto gyfarfod â thralldod, i'r rhai yr ar-

peraist i ni ddyfod i fyny o'r Aifft, i'n lladd ni, a'n plant, a'n hanifeiliaid, â syched?

4 A Moses a lefodd ar yr Arglwydd, gan ddywedyd, Beth a wnaf i'r bobl hyn? ar ben ychydig eto hwy a'm llabyddiant i.

5 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cerdda o flaen y bobl, a chymer gyda thi o henuriaid Israel: cymer hefyd dy wialen yn dy law, yr hon y tarewaist yr afon â hi, a cherdda.

weinia rhagluniaeth ni er profi ein ffydd a'n hamynedd.

Adn. 4. *Beth a wnaf i'r bobl hyn*] Fel na ddelont yn euog o'm gwaed?

Adn. 5. *Cerdda o flaen y bobl*] Cerdda yn eofn a diogel trwy eu holl lu hwynt: felly y *Galdeaeq.* Gosod dy hun o'u blaen hwynt, heb ofni eu bygythion; a gwel ai ni fydd i mi dy amddiffyn di. *Cymer hefyd dy wialen yn dy law*—nid i wysio rhyw bla arnynt i'w cospi, ond i gael dwfr iddynt i'w disychedu.

Adn. 6. *Wele, mi a safaf o'th flaen yno ar y graig yn Horeb*] Ymddengys fod Duw yn cyfeirio sylw Moses at ryw graig neillduol, â'r hon yr oedd efe yn dra adnabyddus pan yn cadw defaid Jethro yn y parthau hyn, pen. iii. 1. Y mae y LXX yn ei gyfieithu, 'Dos lle y sefais i o'th flaen ar y graig yn Horeb; gan gyfeirio at y fan lle y gwelodd efe Dduw gyntaf. *Taro dithau y graig*—yr hyn a wnaeth efe, ac yn ebrwydd dylifodd dwfr allan o honi mewn helaethrwydd mawr, yr hwn a redai trwy y gwerysll yn ffrydiau ac afonydd, Salm lxxviii. 15, 16. *Yn ngolwg henuriaid Israel*—y rhai oeddynt dystion cymhwys nad oedd yno ddwfr o'r blaen, ac iddo ddyflio yn awr trwy darawiad Moses. Bernir i'r dwfr barhau i ffyrdio allan cyhad y bunt hwy yn aros yn y gymydogaeith hōno, os nid yn hwy. Y mae y graig hon wedi cael ei gweled a'i darlunio gan amrai ymdeithwyr, megys Norden, Shaw, a Pocock. Clog mawr o *ronynfaen* neu *ithfaen* rhuddgoch ydyw, pymtheg troedfedd o hyd, deg o led, a deuddeg o uwchder, er fod rhai yn ei mesur yn chwaneig. Y mae Dr. E. D. Clarke, yr hwn a ymwelodd â'r graig hon yn 1823, yn cadarnhau hanes yr ymdeithwyr nchod; ac efe a ddaeth â darn o'r maen rhyfeddol hwn gydag ef i Loegr. 'Yma, yn ngwastadedd Rephidim,' meddai Dr. Shaw, 'y gwelwom y rhyfeddod henafol hwnw, *eraig Meriba*, yr hon sydd wedi parhau hyd heddyw heb y niwed lleiaf oddiwrth amser na dam-weiniau. Iawn y gelwir hon, oddiwrth ei chaledrwydd, yn *graig gallestr*, Deut. viii. 15; er, oddiwrth ei lliw cochhaidd, y gellir yn hytrach ei galw yn *graig amethyst* neu *ronynfaen*. Y mae yn gorwedd yn rhydd yn agos i ganol y dyffryn; ac ymddengys ei bod gynt yn rhan neu dalp o ffynyd *Sinai*, yr hwn sydd yn crogi mewn anrwyiaeth o glogwyni uwchben yr holl wastadedd hwn. Darfu i'r *dwfr a bistyllodd* a'r *afonydd a lifasant*,

6 Wele, mi a safaf o'th flaen yno ar y graig yn Horeb; taro dithau y graig, a daw dwfr allan o honi, fel y gallo y bobl yfed. A Moses a wnaeth felly, yn ngolwg henuriaid Israel.

7 Ac efe a alwodd enw y lle Massa, a Meriba; o achos cynhen meibion Israel, ac am iddynt demtio yr Arglwydd, gan ddywedyd, A ydyw yr Arglwydd yn ein plith, ai mid yw?

8 ¶ Yna y daeth Amalec, ac a ymladdodd âg Israel yn Rephidim.

9 A dywedodd Moses wrth Josua,

(Salm lxxviii. 20,) gafnio ffos ar draws un gongl i'r graig hon, oddeutu dwy fodfedd o ddyfnder ac ngain o led, yn ymddangos yn grawenedig drosti unwedd a thusefn i grochann tē wedi ei hir ddefnyddio. Heblaw amrai gynyrchion mwsyglaid ag sydd yn cael eu cadw yn barhaus gan y gwllth, yr ydym yn gweled dros yr holl ffos hon nifer mawr o dyllau, rhai o honynt yn bedair neu bum modfedd o ddyfnder, a modfedd neu ddwy o dryfesur, yn arwyddion bywiog ac eglur eu bod gynt yn gyfner o ffynonau. Ni allasai celfyddyd na damwain mewn un modd eu trefnu, trwy fod pob amgylchiad yn nodi allan i ni wyrth; a'r un modd a'r *holt* yn ngraig mynydd *Culfaria* yn Jerusalem, nid yw byth yn methu cynyrchu y difrifweh a'r dyhewyd mwyaf yn mhawb a'i gwelo. Yr oedd yr *Arabiaid*, y rhai oeddynt ein gwrchawdlu, yn barod i'm llabyddio i am gynyg tori ymaith gongl o honi.—*Shaw's Travels*, pp. 252, 253.

Adn. 7. *Ac efe a alwodd enw y lle Massa*] 'Profedigaeth,' neu 'demtasiwn,' am iddynt yno demtio Duw; a *Meriba*—'cynhen,' neu 'ymryson,' am iddynt ymgynhennu â Moses, adn. 2. Oddiwrth I Cor. x. 4, yni a ddysgwn fod y *graig* hon yn gysgod o GRIST, yr unig gysgod o hono ag sydd yn awr yn bodoli. *A ydyw yr Arglwydd yn ein plith, ai mid yw?*—i'n hamddiffyn, ac i ddarparu i ni yn ol ei air? a fydd ef eystal a'i air, ai ni fydd?—geiriau yn cynwys fod hyny iddynt hwy yn dra amheus.

Adn. 8. *Yna y daeth Amalec*] Yr Amaleciaid oeddynt hiliogaeth Amalec, un o'r duciaid o Eliphaz, mab Esau, brawd Israel, Gen. xxxvi. 15, 16. *Ac a ymladdodd âg Israel*—ymddengys i'r Amaleciaid ymosod ar y Israeliaid yn yr un modd, a thrwy yr un cymhelliadan, ag yr ymosoda yr Arabiaid crydredig ar y minteioedd ag sydd yn myned eto yn ffynyddol trwy yr un diffaethwch. Nid ydym yn darllen i'r Israeliaid roddi iddynt un math ar gynhyfiad; ac y mae yn debyg iddynt ymosod arnynt yn unig mewn gobraith o'u hyspilio. Ymladdasant âg Israel yn y modd mwyaf bradwus ac anhëog; canys aethant y tu ol i'r gwerysll, a lladdasant y rhai olaf o'r bobl, 'yr holl weiniaid o'u hol hwynt, a hwy yn *luddedig* ac yn *ddiffygiol*,' Deut. xxv. 18. Y celfi yn ddiarnau oedd gwrthddrych eu trachwant; ac wrth weled y gwragedd a'r plaut, a'r hen a'r methiedig, yn

Dewis i ni wŷr, a dos allan ac ymladd âg Amalec: y fory mi a safaf ar ben y bryn, â gwialen Duw yn fy llaw.

10 Felly Josua a wnaeth fel y dywedodd Moses wrtho; ac a ymladdodd âg Amalec: a Moses, Aaron, a Hur, a aethant i fyny i ben y bryn.

11 A phan godai Moses ei law, y byddai Israel yn drechaf; a phan oll-yngai ei law i lawr, Amalec a fyddai drechaf.

12 A dwylaw Moses oedd drymion;

ol wrth y celfi, hwy a'u lladdasant hwy, ac a gymerasant ymaith yr rŷpail.

Adn. 9. *A dywedodd Moses wrth Josua*] Dyma y lle cyntaf ag y crybwyllir am Josua mab Nun. Efe oedd cadfridog yr Hebraeid dan Moses; ac ar farwolaeth y dyn mawr hwn, efe a'i dilynodd ef yn y llywodraeth. Josua ar y cyntaf a elwid *Osea*, Num. xiii. 16, ac wedi hynny galwodd Moses ef yn *Josua*. Gelwir ef gan y LXX ac yn y Testament Newydd yn *Iesu*, GWARDEWR; ac addafir ei fod yn gysgod tra eglur o'n Harglwydd bendigedig. Ymladdodd yntan â gelynyon ei bobl, a gorchfygodd hwynt; dygodd hwy i'r wlad addawedig, a rhanodd hi iddynt wrth golbren. *Mi a safaf ar ben y bryn, â gwialen Duw yn fy llaw*—ar ryw ran o Horeb neu Sinai ond odid, yn nghyffiniau pa un yr oeddynt y pryd hyny. Gwelwn fel y mae Duw yn addasu ei bobl, ac yn eu galw i wahanol swyddau er lles ei eglwys: y mae Josua yn ymladd, Moses yn gweddio, a'r ddau yn gwneini i Israel. Daliai Moses y wialen i fyny, nid yn gymaint i Israel i'w calonogi hwy, ag i Dduw mewn ffordd o apeliad ato ef. Gwelom o'r blaen fod yn debygol ddarford i'r Israeliaid gael *arfau* i ryfela oddiwrth fyddin yr Aifft-iaid ar fin y môr, pen. xiv. 30.

Adn. 10. *Moses, Aaron, a Hur, a aethant i fyny i ben y bryn*] Y mae yn dra thebyg mai yr *Hur* hwn yw yr un a grybwyllir i Cron. ii. 19, yr hwn yr ymddengys oddiwrth y bennod hono ei fod yn fab i Caleb, fab Hebron, fab Phares, fab Juda. Dywed y rabbiniaid a Josephus ei fod yn frawd-yn-nghyfraith i Moses, wedi priodi *Miriam* ei chwaer ef. Yr oedd gan Moses hyder mawr yndo, canys gadawodd ef yn gydllywodraethwr âg Aaron ar y bobl, pan yn myned i'r mynydd i ymddyddan â Duw, pen. xxiv. 14. Ei wŷr ef oedd *Besalcel*, y prif gyfarwyddwr yn gwaith y tabernacl, pen. xxxi. 2—5.

Adn. 11. *A phan godai Moses ei law*] Ei *dwylaw*, yn ol y Samaritanaeg, sef mewn *gwedd*, fel y mao yn y Galdeag; *byddai Israel drechaf*—am fod ei weddi yn llwyddo gyda'r Arglwydd, 'eiddo yr hwn yw y thyfel,' 1 Sam. xvii. 47. *A phan oll-yngai ei law*—Sam. ei *dwylaw*, gan roddi heibio weddio; *Amalec a fyddai drechaf*—i argyhoeddi Israel fod dwylaw Moses, a'r hwn yr oeddynt newydd fod yn ymgynhennu, yn gwneuthur mwy tuag at eu diogelwch na'u dwylaw eu hunain. Fel hyn y mae achos yr eglwys eto yn fwy neu yn llai llwyddiannus, yn ol

a hwy a gymerasant faen, ac a'i gosodasant dano ef; ac efe a cisteddodd arno: ac Aaron a Hur a gynaliasant ei ddwylaw ef, un ar y nail du, a'r llall ar y tu arall; felly y bu ei ddwy-law ef sythion nes machludo haul.

13 A Josua a orchfygodd Amalec a'i bobl â min y cleddyf.

14 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Ysgrifena hyn mewn llyfr, yn goffadwriaeth; a mynega i Josua: canys gan ddileu y dileaf goffadwriaeth Amalec odditan y nefoedd.

fel y byddo cyfeillion yr eglwys yn fwy neu yn llai gwresog mewn gweddi.

Adn. 12. *Aaron a Hur a gynaliasant ei ddwylaw ef*] 'Bob yn ail; canys pe gwnaethent hyn ar unwaith, gallasant fod mor flinedig ag yntau.'—PATRICK. Ond y mae yn debyceach en bod yn cyd-ddal ei ddwylaw ef, am y dywedir yma fod un ar y nail du a'r llall ar y tu arall iddo. *Felly y bu ei ddwylaw ef—nid un law, yn sythion hyd yr hwyr*—neu ar led. Yr oedd amrai o'r tadau yn ystyried Moses, gyda'i ddwylaw estynedig, fel cysgod o Grist ar y groes yn buddugoliaethu ar bechod a Satan; a dichon fod Moses trwy ffydd yn gweled y fuddugoliaeth ysbrydol hono.

Adn. 13. *A Josua a orchfygodd Amalec a'i bobl*] Gallai fod *Amalec* yn enw i lywodraethwr y bobl hyn, yn parhau a lawr oddiwrth eu cyndad, (gwel ar adn. 8.) fel yr oedd *Pharao* yn enw i frenhinoedd olynol yr Aifft; a bod 'Amalec a'i bobl' yn meddwl y tywysog *a'i fyddin*. Ond os yw *Amalec* yn sefyll yma am *Amaleciaid*, yna rhaid fod *ei bobl* yn meddwl ei gynghreirwyr o blith cenedloedd ereill.

Adn. 14. *Ysgrifena hyn mewn llyfr*] Ond odid 'llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd,' Num. xxi. 14. Dyma y crybwyllid cyntaf am *ysgrifenu* ag sydd mewn cofiadwriaeth yn y Beibl: pa beth a arwyddai, neu pa fodd ei gwnaed, nis gallwn ddywedyd. Tybia Clarke, Bayley, ac ereill, mai yr ysgrifenn *wyddorol* reolaidd gyntaf yn y byd oedd yr hon a ysgrifenydd â bys Duw ei hun ar y ddwy lech faen, yr hyn ni chymerodd le beth amser ar ol hyn. Ond ymddengys nad oes sail gref i'r dyb hon, am fod genym yn awr, trwy lafur ein henafiaethwyr, brawfiadan yn un llythren ar bymtheg o'r wyddor yn bodoli cyn y gwasgariad yn Babel; ac y mae o'm blaen i yn awr y *wyddor* ag y dywedir ei bod mewn arferiad gan Adda: gwel Dafenau Dr. Morton, a'r sylw ar pen. xxxi. 18. Y mae yn dra thebyg fod Moses yn gallu ysgrifenu pan y cafodd ef y gorchymyn hwn; a barna rhai ei fod wedi ysgrifenu llyfran GENESIS a JOB pan yn nhir Midian, pen. ii. 23. *Dileaf goffadwriaeth Amalec odditan y nefoedd*—y bygythiad hwn a gyflawnwyd mewn rhan gan Saul (1 Sam. xv. 3, &c.) yn mhen 412 o flynyddoedd ar ol hyn; a chwbll orphenwyd ef yn marwolaeth Hanaan a'i ddeng mab, (Esther ix. 14.) trwy i enw a choffadwriaeth Amalec y pryd hyny gael eu dilen odditan y nefoedd.

Adn. 15. *A Moses a adeltadodd allor, ac a*

15 A Moses a adeiladodd allor, ac a llawdd ei henw hi JEHOFA-Nissi.

16 Canys efe a ddywedodd, O herwydd tyngu o'r Arglwydd, y bydd i'r Arglwydd ryfel yn erbyn Amalec o genhedlaeth i genhedlaeth.

PENNOD XVIII.

PAN glywodd Jethro, offeriad Midian, chwegrwn Moses, yr hyn oll a wnaethai Duw i Moses, ac i Israel ei bobl, a dwyn o'r Arglwydd Israel allan o'r Aifft;

2 Yna Jethro, chwegrwn Moses, a gymerodd Sephora gwraig Moses (wedi ei hebrwng hi yn ei hol,)

3 A'i dau fab hi; o ba rai enw un oedd Gershom: oblegid efe a ddywedasai, Dycithr fŷm mewn gwlad estronol.

abwodd ei henw hi JEHOFA-Nissi] Sef 'JEHOFA fy maner.' Presenoldeb a nerth JEHOFA oedd y faner dan ba un yr ymladdent, ac y gorchfygent eu gelynyon; ac yr oeddynt oll yn eu teimlo eu hunain yn filwyr i'r ARGLOWYDD, fel y mae y rhai a ryfelant dan fanerau Lloegr yn eu hystyried eu hunain yn filwyr i VICTORIA.

Adn. 16. *O herwydd tyngu o'r Arglwydd y bydd i'r Arglwydd ryfel yn erbyn Amalec*] Meddyli'r yn gyffredin fod rhyw wall neu ddiffyg yma yn yr ailunau Hebreig diweddar trwy esgeulusdra yr adysgrifenydd; canys y cyfieithiad llythyrenol o *ki yad al kes Yah, yw, O herwydd y llaw ar orsedd Jah, &c.* Tybir fod y geiriau hyn yn cynnwys llw neu apeliad at awurdod Jehofa. Ond llaw pwy a olygir? 1. Dywed ein cyfieithwyr ni mai llaw yr ARGLOWYDD, yr hwn a dyngai i'w orsedd ei hun y byddai iddo ryfel yn erbyn yr Amaleciaid nes eu llwyr ddiuystrio; ac felly y mae yr alleirydd Caldeaid yn ei ddeall. 2. Dywed ereill mai llaw Moses, yr hwn a dyngai i'r un perwyl. 3. Tra y mae ymyl y ddalen yn ei ddarllen, 'O herwydd fod llaw AMALEC yn erbyn gorsedd yr Arglwydd, am hyny bydd i'r Arglwydd ryfel yn erbyn Amalec o genhedlaeth i genhedlaeth.' Ystyrir yma fod Duw a'i orsedd yn mhliht yr Israeliad, i'r rhai yr oedd efe yn Frenin; ac wrth i'r Amaleciaid godi llaw yn erbyn Israel, en bod mewn effaith yn ei chodi yn erbyn gorsedd Jehofa.

PEN. XVIII. Adn. 1. *Pan glywodd Jethro*] Gwel ar pen. iii. 1.

Adn. 2. *Wedi ei hebrwng hi yn ei hol*] Paham y darfu i Sephora a'i dau fab ddychwelyd i Midian, nid yw yn gwbl hysbys. Oddiwrth yr hyn a goffer pen. iv. 20—25, ymddengys fel pe buasai wedi ei dychrynu wrth y perygl ag y bu bywyd un o'i theulu ynddo; a chian ofni gwaeth drygau, ddarford iddi adael ei gwŷr, a dychwelyd at ei thad. Neu darfu i Moses, wrth ragweld y trallod-

4 Ac enw y llall oedd Eliczer: o herwydd Duw fy nhad oedd gynorthwy i mi (*eb efe*) ac a'm hachubodd rhag cleddyf Pharao.

5 A Jethro, chwegrwn Moses, a ddaeth a'i feibion a'i wraig at Moses i'r anialwch, lle yr ydoedd efe yn gwersyllu *gerllaw* mynydd Duw.

6 Ac efe a ddywedodd wrth Moses, Myfi Jethro, dy chwegrwn di, sydd yn dyfod atat ti, a'th wraig a'i dau fab gyda hi.

7 ¶ A Moses a aeth allan i gyfarfod a'i chwegrwn; ac a ymgrymmodd, ac a'i cusanodd; a chyfarchasant well bob un i'w gilydd: a dacthant i'r babell.

8 A Moses a fynegodd i'w chwegrwn yr hyn oll a wnaethai yr Arglwydd i Pharao ac i'r Aifftiaid, er mwyn Israel; a'r holl flinder a gaw-

ion ag yr oedd ei wraig a'i blant yn debyg o fod yn agored iddynt yn yr Aifft, eu hanfon yn ol at ei chwegrwn nes y gwelai Duw yn dda waredu ei bobl. Jethro, wrth ddeall yn awr fod Duw wedi eu gwaredu hwynt a baeddu eu gelynyon, a farnodd yn addas ddwyn Sephora a'i meibion at Moses i gymydograth Horeb.

Adn. 3, 4. *Enw un oedd Gershom, &c.*] Gwel ar pen. ii. 22.

Adn. 5. *A Jethro, chwegrwn Moses, a ddaeth*] Y mae amrai resymau i'n tueddu i greu fod y ffaith a adroddir yma allan o'i hiawn drefn amseryddol, ac na ddaeth Jethro at Moses hyd ddechre yr ail flwyddyn ar ol yr ymadawiad o'r Aifft, (gwel Num. x. 11,) gryn amser ar ol i'r tabernacl gael ei adeiladu, ac i'r wladwriaeth Hebreaid gael ei sefydlu mewn pethau gwladol ac eglwysig. Gwel Clarke, Coke, &c.

Adn. 6. *Ac efe a ddywedodd wrth Moses*] Trwy GENADWR; yn ganlynol i'r hyn yr aeth Moses allan i'w gyfarfod ef, fel y dywedir yn yr adnod nesaf, canys nid oeddynt eto wedi gweld eu gilydd. Cefnogir hyn trwy ddarllen *hinneh, wele*, yn lle *ani, myfi*, yr hyn yw darlleniad y LXX, y Syriaeg, ac amrai ailunau Samaritanaidd. Felly yn lle *Myfi Jethro*, dylem ddarllen, *Wele Jethro, &c.*

Adn. 7. *A Moses a aeth allan i gyfarfod a'i chwegrwn, ac a ymgrymmodd*] Dyna yr arwydd cyffredin o barch; ac a'i cusanodd—yr arwydd o gyfeillgarwch; a *chyfarchasant well bob un i'w gilydd*—holasant yn nghylich heddwch a llwyddiant tymorol ac ysbrydol eu gilydd. Y tri pheth hyn a gyfansoddant foesgarwch, boneddigeiddrwydd, a chywirdeb. *A dacthant i'r babell*—y mae rhai yn meddwl mai y tabernacl a feddyli'r, yr hwn ond odid a adeiladesid cyn hyn: gwel ar adn. 5. Gallai Moses farnu yn ddoeth gymeryd ei berthynas yn gyntaf i dŷ Dduw, cyn ei arwain i'w babell ei hun.

Adn. 8. *A Moses a fynegodd i'w chwegrwn, &c.*] Adroddodd iddo ei helynt yn yr Aifft; y modd y danfonodd Duw y deg pla ar Pharao

sent ar y ffordd, ac achub o'r Arglwydd hwynt.

9 A llawenychodd Jethro o herwydd yr holl ddaioni a wnaethai yr Arglwydd i Israel; yr hwn a waredasai efe o law yr Aifftiaid.

10 A dywedodd Jethro, Bendigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn a'ch gwaredodd o law yr Aifftiaid, ac o law Pharaon; yr hwn a waredodd y bobl odraon law yr Aifftiaid.

11 Yn awr y gwn mai mwy ydyw yr Arglwydd na'r holl dduwiau: oblegid yn y peth yr oeddynt falch o hono, yr oedd efe yn uwch na hwynt.

12 A Jethro, chwegrwn Moses, a gymerodd boeth-offrwm ac cbyrth i Dduw: a daeth Aaron a holl henuriaid Israel, i fwyta bara gyda chwegrwn Moses, gerbron Duw.

a'i bobl; ddarfod iddo mewn trugaredd hollti y môr coch i'r Israeliaid, ac mewn barn fodd yr Aifftiaid; a Darluniodd y modd y gorchfygais Josua yr Amaleciaid â min y cleddyf. Adn. 9, 10. *A llawenychodd Jethro, &c.*] Y mae pob rhan o'r ymddygiad Jethro yn profi ei fod yn ddyn crefyddol ac yn yr gwredadyn. Y mae ei ddiolchgarwch i JEHOWA, adn. 10, yn brawf amlwg o hyn. Y mae efe yn gyntaf yn bendithio Duw am iddo gadw Moses a'i berthynasau, ac yn nesaf am waredigaeth y bobl o'u caethiwed.

Adn. 11. *Yn awr y gwn mai mwy ydyw yr Arglwydd na'r holl dduwiau*] Yn y rhai yr ymddirieda dynion; ac y mae yn fwy a chryfach na'r holl dywysogion a'r penaethiaid, y rhai hefyd a elwir yn *dduwiau*. Y mae rhai yn meddwl mai yn awr y dychwelwyd Jethro at y gwir Dduw; ond y mae yn debycach iddo fwynhau y fendith hon cyn gwybod dim am Moses, canys nid yw yn debyg y priodasai Moses i'r teulu hwn pe buasant yn baganiaid. Yr oedd Jethro yn ddiamau yn offeiriad o'r grefydd batriarchaidd, adn. 1. Felly, er y gwyddai efe o'r blaen am Dduw, y mae yn awr yn gwybod yn well, gan i'w ffydd gynyddu i lawn sicrwydd trwy y prawf adnewyddol hwn. *Oblegid yn y peth yr oeddynt falch o hono*—yn yr hyn y meddyliar yr *Aifftiaid* farnu Israel, yn hyn y barnodd efe hwynt: felly Houbigant, y Galdeae, a'r Arabae. *Yr oedd efe yn uwch na hwynt*—trwy y gwyrthiau a wna'i efe a faeddodd eu duwiau, a ddrysodd eu swynwyr, a ddarostyngodd Pharaon a'i dywysogion, a foddodd eu byddin, ac a waredodd ei bobl ei hun.

Adn. 12. *A Jethro—a gymerodd boeth-offrwm ac cbyrth i Dduw*] Ymddengys yn eglur oddiyma fod Jethro yn offeiriad i'r gwir Dduw; a bod *poeth-offrwm*, y rhai oeddynt i'w cwbl ddiifa ar yr allor, (Lef. i. 9,) ac *cbyrth hedd*, o'r rhai yr oedd y bobl yn gystal a'r offeiriad yn ymgysfranogi, (Lef. vii. 15. &c.) mewn arferiad cyffredin yn mhllith credinwyr cyn rhoddiad y ddeddf. Nyni a ddarllenwn am *boeth-offrwm* gan Abraham, Gen. xxii. 13;

13 ¶ A thranoeth Moses a eisteddodd i farnu y bobl: a safodd y bobl gerbron Moses, o'r bore hyd yr hwyr.

14 A phan welodd chwegrwn Moses yr hyn oll yr ydoedd efe yn ei wneuthur i'r bobl, efe a ddywedodd, Pa beth yw hyn yr wyt ti yn ei wneuthur i'r bobl? Paham yr eisteddi dy hun, ac y saif yr holl bobl ger dy fron di, o'r bore hyd yr hwyr?

15 A dywedodd Moses wrth ei chwegrwn, Am fod y bobl yn dyfod ataf i ymgynghori â Duw.

16 Pan fyddo iddynt achos, ataf fi y deuant; a myfi sydd yn barnu rhwng pawb a'u gilydd, ac yn hysbysu deddfau Duw a'i gyfreithiau.

17 A dywedodd chwegrwn Moses wrtho, Nid da y peth yr ydwyt ti yn ei wneuthur.

ac y mae yn debyg mai trwy *dân difaol* yr edrychodd Duw ar offrwm Abel, Gen. iv. 4. *A daeth Aaron a holl henuriaid Israel i fwyta bara*—yr oedd y *poeth-offrwm* wedi ei gwbl losgi a'i ddiifa, am fod pob than o hono yn cael ei hystyried fel cyfran yr Arglwydd; eithr yr *cbyrth* ereill a grybwyllir yma oeddynt gyfryw, ar ol i'r gwaed gael ei dywallt allan gerbron Duw, ag y gallai Aaron a henuriaid Israel wleda arnynt gyda Jethro. *Gerbron Duw*—gerbron y fan lle yr ymddanghosai y SECINA, Gen. iii. 24; neu os oedd y *tabernacl* yn awr wedi ei adeiladu, fel y tybiwyd ar adn. 5, gerbron y presenoldeb dwyfol yno.

Adn. 13. *Moses a eisteddodd i farnu y bobl*] I wrandaw a phenderfynu dadleuon rhwng gŵr a gŵr, ac i'w hyfforddi yn y pethau a berthynent i Dduw. Yr oedd Moses yn gorfod eistedd trwy y dydd, a'r bobl yn barhaus yn dyfod ato ac yn myned oddiwrtho: gwel ar Deut. i. 6—15.

Adn. 14. *Paham yr eisteddi dy hun, &c.*] Pe byddai genyt rai i'th gynorthwyo, ni fyddai raid i ti eistedd o'r bore hyd yr hwyr, a chai y bobl hefyd eu gollwng ymaith yn gynt.

Adn. 15. *Am fod y bobl yn dyfod ataf i ymgynghori â Duw*] I wybod meddwl ac ewylls Duw ar destynau eu hymofnyon. Fel hyn yr oedd Moses yn *gyfryngwr* i'hwng Duw a'r bobl.

Adn. 16. *Myfi sydd—yn hysbysu deddfau Duw a'i gyfreithiau*] Ei swydd ef, fel gwas, oedd hysbysu ac egluro cyfreithiau Duw, nid eu gwneuthur. Ceshlir yn gyffredin oddiyma mai ar ol rhoddiad y gyfraich ar Sinai y dygwyddodd hyn, yr hyn a ystyrir fel un o'r profion fod yr orchwyliath grybwyllidig yma yn sefyll o'i hiawn drefn amseryddol: gwel ar adn. 5. Ond dicheon, modd bynag, mai yr un peth a olygir wrth *ddeddfau a chyfreithiau* yn yr adnod hon, ag wrth *ddeddf a chyfraith* yn pen. xv. 25, 26, y rhai a fodolent yn ddiaw o flaen cyhoeddiad deddf Sinai.

Adn. 17. *Nid da*] Nid yw yn gyfleus i ti na hwythau.

18 Tydi a lwy'r ddiffygi, a'r bobl yma hefyd y rhai sydd gyda thi: canys rhy drwm yw y peth i ti; ni elli ei wneuthur ef dy hun.

19 Gwrando ar fy llais i yn awr; mi a'th gynghoraf di, a bydd Duw gyda thi: Bydd di dros y bobl gerbron Duw, a dwg eu hachosion at Dduw.

20 Dysg hefyd iddynt y deddfau a'r cyfreithiau; a hysbysa iddynt y ffordd a rodiant ynddi, a'r gweithredoedd a wnant.

21 Ac edrych dithau allan o'r holl bobl am wŷr nerthol, yn ofni Duw, gwŷr geirwir, yn casâu cybydd-dod; a gosod y rhai hyn arnynt hwy, yn dywysogion ar filoedd, yn dywysog-

ion ar gannoedd, ac yn dywysogion ar ddegau a deugain, ac yn dywysogion ar ddegau.

22 A barnant hwy y bobl bob amser; ond dygant bob peth mawr atat ti, a barnant eu hun bob peth bychan: felly yr ysgafnhäai arnat dy hun, a hwynt-hwy a ddygant y baich gyda thi.

23 Os y peth hyn a wnai, a'i orchymyn o Dduw i ti; yna ti a elli barhau, a'r holl bobl hyn a ddeuant i'w lle mewn heddwch.

24 A Moses a wrandawodd ar lais ei chwegrwn; ac a wnaeth yr hyn oll a ddywedodd efe.

25 A Moses a ddewisodd wŷr grymus allan o holl Israel, ac a'u

Adn. 18. *Tydi a lwy'r ddiffygi*] Wrth fod fel hyn ar waith yn barhaus; *a'r bobl yma hefyd*—y maent hwythau yn gorfod aros cybyd am benderfyniad o'u cynghaws, fel ag y bydd i'w hamynedd cyn hir lwy'r ddarford, trwy nad oes neb i wrandaw pob achos ond dy hunan.

Adn. 19. *Mi a'th gynghoraf di*] Ynddengys fod Jethro yn wŷr o ddeall a synwyr mawr. Yr oedd ei gynghor i Moses yn dra chyfaddas a rhagorol; ac y mae yn debyg ddarford ei roddi dan ysbrydoliaeth digyfrwng Duw: canys ar ol y cyfryw ddefodau aberthol, a'r fath gydabyddiad cyhoeddus o fawredd ИЕНОФА, adn. 11, 12, da y gellid dysgwyl i ysbrydoliaeth Duw orphwys arno ef. *Bydd di dros y bobl gerbron Duw*—yr hyn oedd amrhydedd nad oedd weddus i neb arall gydymgyfranogi äg ef o hono. Hefyd, yr oedd yu rhaid i ba beth bynag a berthynai i'r holl gynulleidfa fyned trwy ei law ef, adn. 20.

Adn. 20. *Dysg hefyd iddynt y deddfau*] Heb. *chukkim*, pob cyfryw orchymyn ag sydd yn perthyn i seremoniau crefydd a'r trefniant gwladyddol; *a'r cyfreithiau—halloroth*, yr hyfforddiadau perthynol i'r holl gyfundrefn o foesoldeb; *a hysbysa iddynt y ffordd—eth hadderech*, y ffordd hono, yr unig ffordd hono ag y darfu i Dduw ei hun ei datguddio, trwy yr hon y gallant ei foddhan ef, a chael achubiaeth dragwyddol i'w heineidiau; *a'r gweithredoedd a wnant—yaasun*, a wnant yn ddyfal, gwresog, ac effeithiol. Nid oedd yn ddigon iddynt wybod eu dyledswydd, ond yr oedd yn rhaid iddynt ei gwneuthur hefyd o ddifrif.

Adn. 21. *Ac edrych dithau allan o'r holl bobl am wŷr nerthol*] Hyny yw, gwŷr o ddoethineb, dirnadaeth, barn, a gwroldeb; *yn ofni Duw*—rhai gwir grofyddol, amgen ni theimlant nemawr dros gryff nac eneidiau y bobl; *gwŷr geirwir*—gonest a chywir yn eu calonau a'u bucheddau eu hunain, yn dywedyd y gwir, ac yn barnu yn ol y gwir; *yn casâu cybydd-dod*—heb byth wŷro barn er mwyn arian, neu i foddio dyn, ond yn ymdrechu i ddwyn yn niäen y lles cyffredin yn ddiuedd a diragrith. *A gosod y rhai hyn arnynt hwy*—yn farnwyr ar holl gynulleidfa meibion Is-

rael; *yn dywysogion ar filoedd, &c.*—yn lliwriaid, canwriaid, punnegwyr, a dengwriaid; pob un o ba rai, yn ol pob tebygolrwydd, ydoedd ddibynol ar y swyddog nesaf ato uwchlaw iddo. *Felly y dengwriaid*, neu y tywysog ar ddeg, os cai efe achos rhy galed iddo, a'i dygai at y punnegwyr, neu y tywysog ar ddeg-a-deugain; ac os cai yntau achos rhy ddryrs, efe a'i dygai at y canwriaid, neu y tywysog ar gant; yr un modd y cameriad a ddygai ei achos anhawdd at y milwriaid, neu y tywysog ar fil; a'r achos a fyddai yn rhy galed iddo yntau ei farnu, a ddygai efe at Moses; a'r achos a fyddai yn rhy galed i Moses, a ddygai efe yn ddigyfrwng at Dduw. Tybia Clarke fod gan bob un o'r dosberth hyn lys wedi'ei wneyd i fyny o'i aelodau ei hun, lle y gwrandawid ac y profid achosion. Dywed rhai o'r rabbiniaid fod yno 600 o dywysogion ar filoedd, 6,000 o dywysogion ar gannoedd, 12,000 o dywysogion ar ddegau-a-deugain, a 60,000 o dywysogion ar ddegau; yn gwneyd yn y cyfan 78,600 o swyddogion. Y mae yn amlwg y rhaid fod yno gynifer a hyny i lywodraethu dim ond 600,000; ond pan yr ystyriom fod eu nifer oll yn nes i 3,000,000, fel y nodwyd ar pen. xii. 37, rhaid fod eu rhif yn gymaint bedair gwaith, os oedd y gwragedd a'r plant yn cael eu llywodraethu fel hyn. Dywed Josephus fod yno, heblaw y swyddogion a nodwyd, dywysogion ar fyrddiynau, ar bum-cannoedd, ar ddegau-ar-hugain, ac ar ugeiniau.

Adn. 22. *OND DYGANT BOB PETH MAWR ATAT TI*] Gwel ar adn. 19, 21.

Adn. 23. *Os y peth hyn a wnai, a'i orchymyn o Dduw i ti*] Y mae gostyngieiddrwydd Jethro mor eglur a'i ddoethineb. Nid oedd ef mor humanol a meddwl y dylasai Moses ddyly yn ei gynghor ef heb gymeradwyaeth Duw; ac am hyny efe a ddywed 'Os gorchymyn Duw i ti wneyd fy nghyngor i, yna gelli ei ddylynt ef yn ddiogel, a medi y fantais o hono.'

Adn. 24. *A Moses a wrandawodd ar lais ei chwegrwn*] Ar ol ystyried y peth, efe a welodd y rhesymoldeb o hono; ac ar ol derbyn cyfarwyddiadau yn ddiamau oddiwrth Dduw, efe a'i rhoddodd mewn ymarferiad.

Adn. 25, 26. *A Moses a ddewisodd wŷr*

rhoddodd hwynt yn benaethiaid ar y bobl; yn dywysogion ar filoedd, yn dywysogion ar gannoedd, yn dywysogion ar ddegau a deugain, ac yn dywysogion ar ddegau.

26 A hwy a farnasant y bobl bob amser: y pethau caled a ddygent at Moses, a phob peth bychan a farnent hwy eu hunain.

27 ¶ A Moses a ollyngodd ymaith ei chwegrwn; ac efe a aeth adref i'w wlad.

PENNOD XIX.

YN y trydydd mis, wedi dyfod meibion Israel allan o wlad yr

grymus, &c.] Gwel ar adn. 21. Meddylir na pharhaodd y ffurf-lywodraeth hon ddim hwy na'u pererindod yn yr anialwch, ac felly ei bod yn wahanol i'r sefydliad o ddeng henuriad a thriugain a grybwyllir yn Num. xi. 16, pa un a barhaodd trwy holl gyfnewidiadau y llywiadaeth Iuddewig.

Adn. 27. *A Moses a ollyngodd ymaith ei chwegrwn*] Os yr un orchwyliaeth yw hon ag a grybwyllir Num. x. 29, &c., cawn mai gydag anwehlysgarwch mawr y goddefodd Moses i gyngorwr mor alluog ei adael ef: gwel y sylwadau yno. *Ac efe a aeth adref i'w wlad*—lle ond odid yr oedd ei denlu wedi ymsefydlu yn y fath amgylchiadau fel nad ellid yn hawdd eu synud; ac yr oedd arno fwy o ddyled i aros gyda hwy i'w cynghori a'u haddysgu, nag i ymdaith gyda'r Israellaid. Meddylir fod y *Ceniaid*, oddiwrth y rhai y deilliodd y *Rechabiad*, wedi hâu oddiwrth Jethro: gwel Barn. i. 16, 1 Sam. v. 6, 1 Cron. ii. 55. Nid ydym yn clywed dim ar ol hyn am *wraig* Moses, yr hyn sydd yn brawf o'i *anhunanotrwydd* ef fel hanesydd. Tra y mae amrai o deuluoedd Israel yn cael eu canmol a'u mawrygu, y mae ei denlu ei hun wedi eu hysgrifenu yn y llwch! Nid oedd ganddo ef ddim mewn golwg ond gogoniant Duw a llesâd ei bobl ef, ac nid ei faterion ei hun; ac i ddwyn hyn oddiamgylch y defnyddiai efe ei holl amser a'i dalentau anghyffredin. Ni wnaeth chwaith un ddarpariaeth ar gyfer ei feibion, eithr hwy a'u teuluoedd a gorfforwyd i lwyth Lefi, 1 Cron. xxiii. 14; ac ni feddnt uwch swydd na gofalu am y tabernacl a chario beichiau, Num. iii. 21—26, a iv. 24—28.

PEN. XIX. Adn. 1. *Yn y trydydd mis*] Ar ol iddynt ddyfod o'r Aifft. Hwn oedd mis *Sivan*, yn ateb i ddiwedd Mai a dechre Mehefin. *Y dydd hwno*—y mae Houbigant yn dangos yn eglur mai y dydd *cyntaf* o'r trydydd mis a feddylir. Y mae yr Iuddewon yn cadw gŵyl y *Pentecost* yn nihen 50 niwrnod wedi y *pase*. O'r ymadawiad o'r Aifft hyd eu dyfodiad i Sinai yr oedd 45 o ddyddiau; canys daethant allan ar y *pymthegfed* dydd o'r mis cyntaf, o ba ddiwrnod hyd y *cyntaf* o'r trydydd mis y cyflinir 45 o ddyddiau. Ar yr ail ddydd o'r trydydd mis hwn yr aeth Moses

Aifft, y dydd hwnw y daethant i anialwch Sinai.

2 Canys hwy a aethant o Rephidim, ac a ddaethant i anialwch Sinai; gwersyllasant hefyd yn yr anialwch: ac yno y gwersyllodd Israel ar gyfer y mynydd.

3 A Moses a aeth i fyny at Dduw: a'r Arglwydd a alwodd arno ef o'r mynydd, gan ddywedyd, Fel hyn y dywedi wrth dŷ Jacob, ac y mynegi wrth feibion Israel;

4 Chwi a welsoch yr hyn a wnaethym i'r Aifftiaid; y modd y codais chwi ar adenydd cryrod, ac y'ch dygais ataf fi fy hun.

i fyny i'r mynydd, pryd y rhoddwyd *tri* diwrnod i'r bobl i ymburo: dyry hyn y *pedwarydd* dydd o'r trydydd mis, neu y *nawfed-a-deugain* er pan ymadawsant o'r Aifft. Dranoeth, yr hwn oedd y *degfed-a-deugain* wedi y *pase*, gogoniant Duw a ymddanghosodd ar y mynydd, er cofladwriaeth am yr hyn y mae yr Iuddewon yn cadw gŵyl y *pentecost*. Dyma hefyd farn Awstin, ac amrai awduron diwedd-arach. *Y daethant i anialwch Sinai*—yr Arabiaid a alwant fynydd Sinai *Jibel Mousa*, 'Mynydd Moses'; neu, mewn flordd o enwog-rydd, *El Tor*, 'Y Mynydd.' Yn mynydd ydyw gyda dan gopa: y nail a elwir *Horeb*, y llall *Sinai*. Bernir mai *Horeb* oedd enw gwreiddiol yr holl fynydd; ond gan i Dduw ymddangos ar y mynydd hwn mewn *perth*, pen. iii. 1, 2, galwyd ef *Iar Sinai*, 'Mynydd y Berth.' Y mae y gair *perth* yn cael ei arfer yn fynych am *goedwigoedd* neu *fforestau*.

Adn. 2 *Gwersyllasant hefyd yn yr anialwch*] Sylwa yr Esgob KIDDER fod hwn yn fan ac amser tra addas i dderbyn y gyfraith. Yr oeddynt newydd dderbyn amrai brofion o allu Duw, a'i ofal am danynt, yr hyn a'u tueddai hwynt i yfuddhau iddi. Yr oeddynt yn yr anialwch, mewn lle oenciliaid a seibiant; ac yr oeddynt wedi eu rhyddhau o'u caethiwed, ac oddiwrth siamplau eilunaddolgar yr Aifftiaid. Ar y llaw arall, yr oeddynt heb ddyfod i Ganaan, ac felly heb ddechren ar eu rhyfel-oedd â'r bobl hyn, na dysgu eu ffaidd arferion, na'u gwneud yn swrth a syfrdan gan lawuder a braser y wlad hōno.

Adn. 3. *A Moses a aeth i fyny at Dduw*] Y mae yn debyg ddarford i'r cwmwl a arweiniai y gwersyll Israellaidd symud yn awr i ben Sinai; a chan mai hwn oedd yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol, aeth Moses i fyny i'r lle, i gyfarfod â'r Arglwydd yno. *A'r Arglwydd a alwodd arno ef o'r mynydd*—hwn, yn ol St. Stephan, oedd *Angel* yr Arglwydd, Act. vii. 38; ac oddiwrth amrai ysgrythrau gwelom mai yr *ARGLWYDD IESU* a feddylir: gwel ar Gen. xvi. 7, a xviii. 13, Exod. iii. 2. *Fel hyn y dywedi wrth dŷ Jacob, ac y mynegi wrth feibion Israel*—y mae y bobl yn cael eu galw wrth yr enwau *JACOB* ac *ISRAEL*, i adgoffa iddynt eu bod hwy, y rhai a fuaesent mor isel a *Jacob* pryd yr aeth efe i Mesopotamia, yn

5 Yn awr, gan hyny, os gan wrando y gwrandewch ar fy llais, a chadw fy nghyfammod; chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi o flaen yr holl bobloedd: canys eiddo fi yr holl ddaear.

6 A chwi a fyddwch i mi yn frenhiniaeth o offeiriad, ac yn genhedlaeth santaid. Dyma y geiriau a lefari di wrth feibion Israel.

7 ¶ A daeth Moses, ac a alwodd am henuriaid y bobl; ac a osododd ger eu bron hwynt yr holl ciriau hyn

a orchymynasai yr Arglwydd iddo.

8 A'r holl bobl a gyd-atebasant, ac a ddywedasant, Nyni a wnawn yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd. A Moses a ddyg drachefn eiriau y bobl at yr Arglwydd.

9 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Wele, mi a ddeuaf atat mewn cwmwl tew, fel y clywo y bobl pan ymddyddanwyf â thi, ac fel y credont i ti byth. A Moses a fynegodd ciriau y bobl i'r Arglwydd.

10 ¶ Yr Arglwydd hefyd a ddy-

awr wedi cynyddu mor fawr ac y gwnaethai Duw yntau pan ddaeth oddiyno ac y galwyd ef Israel.

Adn. 4. *Chwi a welsoch yr hyn a wnaethym i'r Aiffliaid*] Trwy y plâu ac yn y môr coch. *Y modd y codais chwi ar adenydd eryrod*—yn gyflym a diogel allan o gyraedd pob perygl, ac yn gryf yn erbyn pob gwrthwynebiad. Myn Mr. Bruce nad yw y gair *neshar* yn meddwl yr aderyn a alwn ni *eryr*; ond aderyn ag y mae yr Arabiaid, oddiwrth ei duedd dyner a thrugarog, yn ei alw *rachama*, yr hwn sydd nodedig am ei ofal am ei gywion, a'i waitli yn eu cario ar ei gefu. *Ac i'ch dygais atat fi fy hun*—nid yn unig i gyflwr o ryddid, ond i gyfammod ac undeb â Duw. Dyma yr hyn y mae Duw fyth yn cyfeirio ato yn holl drefnriad ei ragluniaeth a'i ras, sef ein dyn yn ol ato ei hun, oddiwrth yr hwn y gwrthgiliau; a'n dwyn *adref* ato ei hun, yn yr hwn yn unig y gallwn fod yn ddedwydd.

Adn. 5. *Os gan wrandaw y gwrandewch ar fy llais*] Cynwysai hyn dderbyn ddatguddiad oddiwrtho ef, a gweithredu yn ol y datguddiad hwnw, ac nid yn ol en rheswm a'u mympwy eu hunain. Yr oedd Duw wedi rhoddi iddynt hwy fendithion gwirioneddol, ac am hyny yr oedd yn gofyn nydd-dod gwirioneddol. *A chadw fy nghyfammod*—rhaid iddynt nid yn unig osod allan yn eu bucheddau y *deg gorchymyn*, ond hefyd dderbyn a chadw y *cytundeb* mawr a wnaed rhwng Duw a dyn trwy *aberth*, mewn cyfeiriad at gnawdoliaeth a marwolaeth CRIST; canys er seiliad y byd yr oedd cyfammod Duw, a gadarnheid trwy ebyrth, yn cyfeirio at hyn; ac yn awr yr oedd y gyfundrefn aberthol i'w hagar yn llawnach trwy roddiad y ddeddf. *Chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi*—yn bobl yn y rhai y byddai ef yn meddu pob hawl, a throis y rhai y cai efe gwbl awdurdod uwchlaf holl bobl y ddaear; canys er fod holl drigolion y byd yn *eiddo* ef trwy greadigaeth a rhagluniaeth, eto cai y rhai hyn fod yn eiddo priodol a neillduol iddo ef, yn derbyn ei ddatguddiad, ac yn dyfod i mewn i'w gyfammod. Nid ydym i feddwl fod Duw yn cael ei *gyfoethogi* trwyddynt, fel y cyfoethogir dyn trwy ei *drysor*; ond yr oedd yn gweled yn dda eu gwerthfawrogi hwy, fel y gwerthfawroga ac y prisia dyn ei drysor.

Adn. 6. *A chwi a fyddwch i mi yn frenhiniaeth o offeiriad*] Gyda golwg, 1. Ar eu neillduad oddiwrth y byd; 2. Eu cysegriad i wasanaeth Duw; 3. A'u hamrywiol freintiau.

Yr oedd pob un i fod mor rwymedig i'w wasanaethu ef a'r offeiriad eu hunain; a thirwy fod y Brenin tragwyddol yn *Dad* iddynt, ystyrir hwythau fel yn dal urddas brenhinol. Neu dichon fod yma gyfeiriad at eu *duw-hywiadaeth*, pryd yr oedd Duw ei hun yn Frenin yn Israel. Modd bynag, y mae yr holl gredinwyr eto wedi eu gwneuthur, trwy Grist, 'yn frenhinoedd ac yn offeiriad i Dduw,' Dat. i. 6: gwel ar 1. Pedr ii. 9. *Ac yn genhedlaeth santaid*—sef yn genedl neu bobl wedi eu neillduo oddiwrth ffeidd-dra y byd paganaidd i wasanaethu y gwir Dduw. Bwriadai Duw iddynt fod yn santaid mewn calon a buchedd, yn gystal ag mewn swydd.

Adn. 7. *A daeth Moses*] I lawr o'r mynydd; ac a alwodd am henuriaid y bobl—sef cynrychiolwyr yr holl genedl. Tybia Clarke fod y rhai hyn yn cynwys nid yn unig benau y gwahanol lwythau, ond pen pob teulu. *Ac a osododd ger eu bron*—nid yn unig eglurodd iddynt yr hyn a orchymynasai Duw, ond rhoddodd i'w dewisiad pa un a dderbyniad hwy yr addeiwion hys ar yr ammodau yma ai ni wnaent.

Adn. 8. *Nyni a wnawn yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd*] Yr holl bobl, ar ol i'r fath fanteision grasol gael eu rhoddi o'u blaenau, yn dra llawen a gydsyniasant i gymeryd Duw yn *rhan* iddynt hwy, megys yr addawsai yntau yn rasol eu cymeryd hwythau yn *bobl* iddo ef. Fel hyn gwnaed cyfammod, trwy fod y pleidiau yn cydymrwymo i'w gilydd. Ac ar ol i'r bobl o'u tu hwy gydsynio i'r cyfammod, dychwelodd Moses yn ebrwydd i'r mynydd, i adrodd wrth Dduw lwyddiant ei genadwri.

Adn. 9. *Wele, mi a ddeuaf atat mewn cwmwl tew*] Eglurir hwn yn adn. 18: 'A mynydd Sinai oedd i'gyd yn *mygu*—a'i *fwg* a ddyrchafodd fel *mug ffurn*.' *Fel y clywo y bobl pan ymddyddanwyf â thi*—heb iddynt allu gweled dim; ac fel y credont i' byth—yr luddewon a ystyriant hyn fel y prawf llawnaf a gawsai eu tadau o ddwyfol genadwri Moses, trwy eu bod hwy eu hunain yn cael eu goddef i glywed Duw yn llefaru o'r tywyllwch dudew; canys o'r blaen, fel y sylwa Rabbi *Maymon*, gallasant feddwl fod Moses yn gwneuthur ei wyrthiau trwy *ddewiniaeth* neu *swynyddiaeth*; ond yn awr, wrth glywed llais Duw ei hun, nis gallent mwyach annghredu nae hyd yn nod amau.

Adn. 10. *Dos at y bobl, a santeiddia hwynt*] 267

wedodd wrth Moses, Dos at y bobl, a santeiddia hwynt heddyw ac y fory; a golchant eu dillad,

11 A byddant barod erbyn y trydydd dydd: o herwydd y trydydd dydd y disgyn yr Arglwydd yn ngolwg yr holl bobl ar fynydd Sinai.

12 A gosod derfyn i'r bobl o amgylch, gan ddywedyd, Gwylwch arnoch, rhag myned i fyny i'r mynydd, neu gyffwrdd â'i gwr ef: pwy bynag a gyffyrddo â'r mynydd, a leddir yn farw.

13 Na chyffyrdded llaw âg ef, onid gan labyddio llabyddier ef, neu gan saethlu saether ef; pa un bynag ai dyn ai anifel fyddo, ni chaiff fyw: pan gano yr udgorn yn hirllaes, deuant i'r mynydd.

14 ¶ A Moses a ddisgynodd o'r mynydd at y bobl, ac a santeiddiodd y bobl; a hwy a olchasant eu dillad.

Hyn yw, galw hwynt oddiwrth eu gorchwylion bydol, heddyw ac y fory, i ymarferiadau crefyddol, sef myfyrdod a gweddi, fel y gallont dderbyn y gyfraith o enau Duw gyda pharch a dybevyd. *A golchant eu dillad*—ac o ganlyniad eu cyrff; canys yn ol tystiolaeth yr Iuddewon yr oedd hyn bob amser yn dylun. Gan eu bod yn nghylch ymddangos yn ngwyddfod Duw, yr oedd yn angenrheidiol i bob peth o'u hamgylch fod yn lân a phur, fel y gellid dwyn ar gof iddynt trwy hyn yr angenrheidrwydd am burdeb mewol, o'r hwn yr oedd y golchiad allanol yma yn gysgod.

Adn. 11. *O herwydd y trydydd dydd y disgyn yr Arglwydd yn ngolwg yr holl bobl*] Felly, er na chaent weled *llyn dim*, eto caent weled cymaint ag a'u hargyhoeddi fod Duw yn eu mysg mewn gwirionedd.

Adn. 12. *A gosod derfyn i'r bobl o amgylch*] Y mae rhai yn meddwl mai slos oedd hon wedi ei chloddio o amgylch troed y mynydd, dros yr hon nad oedd neb i fyned dan boen marwolaeth. Awgrymai hyn, 1. Y parch arswydus a ddylai feddiannu holl addolwyr Duw; 2. Y pellder yn mha un y cedwid yr addolwr dan yr hen oruchwyliaeth; 3. Ac mor ddiolchgar y dylem ni fod dan oruchwyliaeth yr efengyl, am 'fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cysegr trwy waed Iesu,' Heb. x. 19.

Adn. 13. *Na chyffyrdded llaw âg ef*] Nid â'r mynydd, ond â'r dyn a ryfygai gyffwrdd â'r mynydd. Efe a ystyrir fel yn aflan ac esgy mun, nid i gyffwrdd âg ef rhag ofn cael halogrwydd; ond llabyddid neu wendid ef yn ebrwydd â phicell, Heb. xii. 20. Gwel CLARKE. Ond y mae COKE yn meddwl fod y rhagenw ef yn y frawddeg hon yn sefyll am y mynydd, fel y darfu i'n cyfieithwyr Saes- onig ei ddeall.

Adn. 14. *A Moses a ddisgynodd, &c.*] Gwel ar adn. 10.

Adn. 15. *Nac ewch yn agos at eich gwrag-*
268

15 Ac efe a ddywedodd wrth y bobl, Byddwch barod erbyn y trydydd dydd; nac ewch yn agos at eich gwragedd.

16 A'r trydydd dydd, ar y boreddydd, yr oedd taranau, a melltt, a chwml tew ar y mynydd, a llais yr udgorn ydoedd gryf iawn; fel y dychrynodd yr holl bobl oedd yn y gwersyll.

17 A Moses a ddyg y bobl allan o'r gwersyll i gyfarfod â Duw; a hwy a safasant yn ngodre y mynydd.

18 A mynydd Sinai oedd i gyd yn mygu, o herwydd disgyn o'r Arglwydd arno mewn tân: a'i fwg a ddyrchafodd fel mwg fflwrn, a'r holl fynydd a grynodd yn ddirfawr.

19 Pan ydoedd llais yr udgorn yn hir, ac yn cryfhau fwy-fwy, Moses a lefarodd; a Duw a atebodd mewn llais.

edd] Yr oedd yr ymataliad hwn yn cael ei gadw yn gyffredin gan yr Israeliaid cyn aberthu, 1 Sam. xxi. 5, Preg. iii. 5; ac ymddengys hefyd oddiwrth eu beirdd ei fod yn cael ei gadw gan y paganiaid. *Vide Pôti Syn. in Loc.* Ond yn lle *ishshah*, 'gwragedd,' tybia Clarke, Kennicott, ac ereill, mai *ha-esh*, 'tân,' oedd yr ymadrodd gwreiddiol: 'nac ewch yn agos at y tân,' sef mynydd Sinai, yr hwn oedd yn llosgi â thân.

Adn. 16. *Yr oedd taranau a melltt*] Y rhai a gyhoeddent arderchogrwydd, gallu, ac arswdolerwydd Duw; a *chwml tew*—i'r hwn yr oedd Duw i ddisgyn, adn. 9, ac o'r hwn ond odid y deuai y melltt a'r taranau; a *llais yr udgorn ydoedd gryf iawn*—nes yr oedd yr holl bobl yn y gwersyll yn arswydo, a Moses ei hun yn gorfod dywedyd, 'Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu!' Heb. xii. 21. Y mae yn debyg fod udgarniaid yr udgorn yn cael ei wneuthur trwy weinidogaeth angylion; ac yr oedd ryweth yn debyg i'r nn a chwythir gan yr angel pan y tynga i'r hwn sydd yn byw yn oesoedd, 'na bydd amser mwych!' Dat. x. 6.

Adn. 17. *A Moses a ddyg y bobl allan o'r gwersyll*] Er nas gallent gyffwrdd â'r mynydd nes cael caniatad, eto, pan gana'i yr udgorn yn hirllaes, ymddengys y gallent ddyfod i odre y mynydd, adn. 13.

Adn. 18. *A'r holl fynydd a grynodd yn ddirfawr*] Nis gall fod darluniad mwy arswydus, arderchog, a mawreddog na hwn o ddisgyniad JEHOFA ar fynydd Sinai. Nis gallwn braidd ei ddarllen heb grynu; ac y mae holl arderchogrwydd aruthrol Duw yn ymddangos o flaen ein llygaid. Lluniodd y salmydd oddiwrth hyn y drychfeddyliau uwchaf am Dduw: 'Pan aesthos, O Dduw, o flaen dy bobl, pan gerdaist trwy yr anialwch; y ddaear a grynodd, a'r nefoedd a ddyferasant o flaen Duw: Sinai yntau a grynodd o flaen Duw, sef Duw Israel,' Salm lxxviii. 7, 8, Barn. v. 4, 5.

20 A'r Arglwydd a ddisgynodd ar fynydd Sinai, ar ben y mynydd: a galwodd yr Arglwydd Moses i ben y mynydd; a Moses a aeth i fyny.

21 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dos i waered, gorchymyn i'r bobl; rhag iddynt ruthro at yr Arglwydd i hylldremu, a chwmpo llawer o honynt.

22 Ac ymsanteiddied yr offeiriad hefyd, y rhai a nesânt at yr Arglwydd; rhag i'r Arglwydd ruthro arnynt.

23 A dywedodd Moses wrth yr Arglwydd, Ni ddichon y bobl ddyfod i fyny i fynydd Sinai: oblegid ti a

dystiolaethaist writhym, gan ddywed- yd, Gosod derfyn yn nghylch y myn- ydd, a santeiddia ef.

24 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Dos, cerdda i waered; a thy- red i fyny, ac Aaron gyda thi: ond na ruthred yr offeiriad a'r bobl, i ddyfod i fyny at yr Arglwydd; rhag iddo yntau ruthro arnynt hwy.

25 Yna yr aeth Moses i waered at y bobl, ac a ddywedodd wrthynt.

PENNOD XX.

A DUW a lefarodd yr holl eiriau hyn, gan ddywedyd,

2 Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw,

Adn. 19. *Moses a lefarodd*] Y mae yn dra thebyg mai y geiriau a lefarodd Moses y pryd hyn yw y rhai a goffeir gau yr apostol, 'Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu!' Heb. xii. 21. *A Duw a atebodd mewn llais*—i'w wroli a'i ddyddanu yn ngwynneb ei ofnan a'i gryndod, fel yn achos Elias, i Bren. xix. 12.

Adn. 20. *A'r Arglwydd a ddisgynodd ar fynydd Sinai*] Dywedwyd o'r blaen, adn. 18, i'r Arglwydd ddisgyn arno ef; gan hyny y meddwl yn y lle hwn ydwy, ddarfod i'r Dwyfol Fawrhydi ymsefydlu yno i lefaru wrth y bobl.

Adn. 21. *Rhag iddynt ruthro at yr Arglwydd i hylldremu*] I edrych a allant ganfod dim cyffelybrwydd neu ddelw o Dduw. Gwaharddwyd hyn am y gwyddai yr Arglwydd am ofereidd eu meddyliau hwynt, ac am nad hoffai efe i neb o honynt gwmpo dan farwedigaeth.

Adn. 22. *Ymsanteiddied yr offeiriad hefyd*] Fod offeiriad yn mhlith yr Hebraid cyn cysegriad Aaron a'i feibion, nis gellir ei amau; ac er y gallai eu swydd fod wedi ei throï heibio i fesur mawr tra dan erledigaeth a chaethiwed yr Aifft, eto yr oedd dynion yn bod, hawl a dyledswydd y rhai oedd aberthu i Dduw. Deisyfodd Moses ganiatad gan Pharao i fyned i'r anialwch i aberthu; a phe na busasai yn mhlith y bobl aberthau ac offeiriad, fel y sylwa Clarke, ymddangosasai y deisyfiad ei hun yn ffol a givthau. Yr oedd aberthau o'r dechread yn cyfansoddi rhan hanfodol o addoliad Duw; ac felly rhaid fod offeiriad, gwaith y rhai oedd eu hoffrymu hwynt i Dduw, yn bodoli cyn rhoddiad y ddeddf; er i hyn, am resymau neillduol, gael ei gyfyngu i Aaron a'i feibion wedi hyny. Trwy nad oedd aberthau wedi cael eu hoffrymu er's cryn amser, ystyried yr offeiriad eu hunain mewn cyflwr o *amhurdeb*; ac am hyny gofynai Duw iddynt lwythau hefyd gael eu puro, mewn trefn i nesáu at y mynydd i wrando ar yr Arglwydd y cyhoeddi ei ddeddfau.

Adn. 23. *Ni ddichon y bobl ddyfod i fyny i fynydd Sinai*] Y mae rhai yn meddwl mai annichonolrwydd naturiol a olygai Moses, trwy fod flos neu glawdd wedi ei vneuthur rhyngddynt a'r mynydd, dros ba un nas gallent gyrchu. Ond ymddengys yn debycach oddi-

wrth ofal a rhybyddion Duw, adn. 21, 24, mai annichonolrwydd neu rwystr *noesol* a olygai efe, neu hyder ynddynt y byddai iddynt ufyddbau yn hyn. Hefyd, oni fnasai i rwystr naturiol luddias Moses ac Aaron yn gystal a'r bobl? *A santeiddia ef*—neilldua y mynydd i ddybenion cysegredig.

Adn. 24. *Onid na ruthred yr offeiriad a'r bobl*] Gwyddai Duw eu bod yn anystyriol, rhyfygus, a chyndyn; ac am hyny yr oedd ei drugaredd yn gweled yn addas roddi iddynt orchymyn ar orchymyn, fel na throddent i'w dinystr eu huain.

Adn. 25. *Yna yr aeth Moses i waered at y bobl*] Yn ol gorchymyn Duw yn yr adnod flaenorol; ac a ddywedodd wrthynt—nad oedd rhyddid i'r offeiriad mwy na'r bobl ruthro i'r mynydd i hylldremu, nac i gyffwrdd âg ef. Ymddengys i'r Arglwydd lefaru y deg gorchymyn tra yr oedd Moses i waered gyda'r bobl, onidê ni allasant lefaru wrtho ef fel yr adroddir pen. xx. 19.

PEN. XX. Adn. 1. *A Duw a lefarodd yr holl eiriau hyn*] Yn nghlywedigaeth yr holl bobl, tra yr oedd Moses i waered gyda hwy, adn. 19. Dywed rhai berniad ddarfod traddodi y DEG GORCHYMYN ar y 30ain o Fai, yr hwn y pryd hyny ydoedd ddydd y *pentecost*. Yn mhlith duwinyddion rheinir hwynt yn gyffredin i'r hyn a elwir y *llech gyntaf* a'r *ail*. Y mae y llech GYNTAF yn cynwys y pedwar gorchymyn blaenaf, ac yn cymeryd i mewn yr holl gyfundrefn o *dduwinyddiaeth*, sef y gwir dybiadau ag y dylem eu furfio am y natur ddwyfol, y parch sydd ddyledus arnom i Dduw, a'r wasanaeth grefyddol ag y dylem ei rhoddi iddo ef. Y mae yr ALL lech yn cynwys y *chwe* gorchymyn olaf, ac yn cymeryd i mewn gyfundrefn gyflawn o *foesolaeth*, neu ddyledswydd dyn at ei gydgredaduriaid, ar yr iawn gyflawniad o'r hyn y mae trefn, heddwch, a dedwyddwch cymdeithas yn ymddibynu. Trwy y rhaniad hwn y mae y llech *gyntaf* yn cynwys ein dyledswydd i Dduw; yr *ail*, ein dyledswydd i'n cymydog; ac 'ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r proffwydi yn sefyll.' gwel ar Mat. xxii. 36—40.

yr hwn a'th ddyg di allan o wlad yr Aifft, o dŷ y caethiwed.

3 Na fydded it' dduwiau ereill ger fy mron i.

4 Na wna it' ddelw gerfiedig, na llun dim a'r y sydd yn y nefoedd uchod, nac a'r y sydd yn y ddaear

isod, nac a'r sydd yn y dwfr dan y ddaear.

5 Nac ymgyrma iddynt, ac na wasanaetha hwynt : oblegid myfi yr Arglwydd dy Dduw, wyf Dduw ciddigus ; yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwar-

I.—YN ERBYN EILUNADDOLIAID MEWN
MEDDWL NEU DDAMCANIAETH.

Adn. 2. *Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddyg di allan o wlad yr Aifft, o dŷ y caethiwed*] Ystyrir y geiriau hyn gan rai fel rhagymadrodd i'r gorchymyn cyntaf ; ond ymddengys yn hytrach mai arweiniad cyffredinol i mewn iddynt oll ydynt, yn enwedig gan y ceir hwynt yn Lef. xix. 25, 31, 34, &c., yn gysylltedig âg amrai orchymynion. Y mae yn deilwng o sylw fod pob un ar wahan yn cael ei gyfarch yma, ac nid y bobl yn nghyd, er eu bod oll o angenheidrwydd yn cael eu cynwys ; fel y gallai pob un deimlo ei fod yn rhwym drosto ei hun i wrandaw a gweuthur yr holl eiriau hyn. Ymdrecha Moses wasgu hyn ar feddyliau y bobl, Deut. v. 3, 4. Cymhellir hwynt i ufydd-dod, 1. Am mai efe yw yr ARGLWYDD, (*Jehofa*), yn hunanfodol, annibynol, a thragwyddol, fynnionell pob bôd a gallu, ac am hynny yn meddu hawl i orchymyn ufydd-dod. 2. Am mai efe oedd eu Dduw hwynt, Duw mewn cyfamod â hwynt, a hyny trwy eu eysdyniad eu hunain. 3. Am ei fod wedi eu dwyn hwynt o wlad yr Aifft—o gaethiwed blin i ryddid gogoneddus ; ac am hyny yr oeddynt yn rhwym mewn diolchgarwch i ufyddhau iddo. Ac fel hyn, ar ol i Grist ein gwaredu ninaw o gaethiwed pechod, y mae ganddo hawl i'r wasanaeth oraf a allwn ei rhoddi.

Adn. 3. *Na fydded it' dduwiau ereill*] Heb. *elohim ocherim*, 'dauwiau dŷeithr ;' rhai nad wyt *adnabyddus* â hwynt, rhai na roddasant i i ti y fath braffidiadau o'u gallu a'u duwdod ag a roddais i wrth dy waredu oddiwrth yr Aifft-iaid, wrth hollti y môr coch, wrth ddwyn dwfr o'r graig, soffleir i'r anialwch, manna o'r nef i'th borthi, a cholofni i'th arwain, i'th oleuo, a'th amddiffyn. Trwy y gwrthiau hyn gwnaethai Duw ei hun yn *adnabyddus* iddynt, nes yr oeddynt yn dra chynefin â gwaith ei ddwyllaw ; ac au hyny gyda phriodoldeb mawr y dywed efe, *Na fydded it' dduwiau dŷeithr ger fy mron i—al panai*, 'o flaen neu yn lle yr amlygiadau hyny a wnaethmyn i o honof fy hun.' Sylwer fod y gorchymynion hyn, er wedi eu rhoddi mewn geiriau *naeol*, yn eynwys dyledswyddau *gorchymynol* a *phendant*. Y mae y gorchymyn hwn yn gwahardd pob math ar eilunaddoliad meddyliol, a phob ymlyniad gormodol wrth bethau daearol a gweledig. Gan mai Duw yw fynnionell dedwyddwch, ac nas gall un creadur deallgar fod yn ddedwydd ond trwyddo ef, y mae pwy bynag ag sydd yn ceisio ei unig ddedwyddwch yn y creadur, o angenheidrwydd yn *cibun-addolwr*, gan ei fod yn rhoddi y creadur yn lle y Creawdwr : gwel ar adn. 23.

II.—YN ERBYN GWNEYD AC ADDOLI
DELWAU.

Adn. 4. *Na wna it' ddelw gerfiedig*] O bren, maen, neu fettel, wedi ei gwneyd â bwyell, cŷn, neu graffiedydd. *Na llun dim a'r y sydd yn y nefoedd uchod*—yn nef y gogoniant, megys y Duwdod a'r saint : nac yn y nef serenog, megis yr haul, y lloer, a'r ser. *Nac a'r y sydd yn y ddaear isod*—megys anifeiliaid, bwystilod, ymlusgiaid, ednagogion, tân, dwfr, &c. *Nac a'r sydd yn y dwfr dan y ddaear*—megys pysgod, erocodiliaid, &c. Gwaharddir yma bob math o eilunaddoliad ag y gwyyddid ei fod mewn arferiad yn mhlith yr Aifftiaid. Y mae y gorchymyn hwn yn gwahardd pob math ar eilunaddoliad *ullanol*, fel y gwna y *cyntaf* bob eilunaddoliad ag y gellir ei alw yn *fenwol neu feddyliol* : gwel ar Deut. iv. 15, &c. I gynnal ei *delw-addoliad* darfu i'r Eglwys Babaid adael allan yr oll o'r ail orchymyn hwn ac felly gollu i'r gorchymyn cyfan allan o'r *deg* ; ond i gadw i fyny y *rhif*, rhanasant y degfed yn *ddau*. Modd bynag, y mae yr adnod i'w ehael yn mhob *ysgriflyfr* o'r Pumlyfr Hebreig a welwyd erioed eto. Y mae yn yr holl *hen gyfieithiadau*, megys y Samaritanaidd, y Caldeaid, y Syriaidd, y LXX, y Vulgate, y Coptaidd, a'r Arabaidd ; y mae hefyd yn y Persiaidd, ac yn yr holl gyfieithiadau diweddar. Nid oes un gair o'r holl adnod yn ngholl yn yr amrai gannoedd o ysgriflyfrau a gasglwyd gan *Kennicott*, a *De Rossi*. Gan hyny y mae y llygriad hwn ar air Duw gan yr Eglwys Babaid, yn ei nodi hi â'r nodyn dyfnaf o warthusrwydd bythol, fel eglwys *gyfeiliornus* a *hereticaidd*.

Adn. 5. *Nac ymgyrma iddynt, ac na wasanaetha hwynt*] Y mae hyn yn egluro ystyr y gwaharddiad yn yr adnod flaenorol. Nid oeddynt i wneyd *llun dim* fel GWRTHDRYCH ADDOLIAID. Gan hyny nid oedd y sarff bres, y cerubiaid ar y drugareddfa, a'r deuddeg ychian dan y môr tawdd, yn dyfod dan y gwaharddiad hwn, am nad oeddynt yn wrthddrychau addoliad. *Wyf Dduw ciddigus*—efe a deimlai drostynt fel gŵr serchog dros ei briod ; canys ystyrir yr Arglwydd yn yr ysgrythyrau fel wedi *dyceddio* y genedl Iuddegiddo ei hun ; ac y mae eu heilunaddoliaeth hwythau yn cael ei osod allan yn fynyeh fel godineb a phuteindra, Deut. xxxi. 16, Barn. ii. 17, Jer. iii. 9, 20. *Yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant*—mewn barnedigaethau *gwladol* neu *gospau tymorol*. Rhaid mai hyu yw y meddwl ; canys mewn ystyr *ysbrydol* Duw a ddywed, 'Y *mab* ni ddwg anwiredd y *tad*, a'r *tad* ni ddwg anwiredd y *mab*,' Eze. xviii. 20 : gwel y sylwadau yno. *Hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth*—neu am gryn am-

edd *genhedlaeth* o'r rhai a'm casant;

6 Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

7 Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer: canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer.

8 Cofia y dydd sabbboth, i'w sant-ciddio ef.

ser yn olynol, fel y cawn brawf yn hanes yr eilunaddolwyr Iuddewig a'u hiliogaeth, yn enwedig yn llyfr y Barnwyr, Gwel ar adn. 6. *O'r rhai a'm casant*—deallir hyn yn gyffredin fel yn cyfeirio at y *plant* a fyddont yn casâu Duw fel y gwnai eu tadau; ond ymddengys i mi ei fod yn cyfeirio yn hytrach at y *tadau*, angen pabam y cysylltir â hwynt y *drydedd* a'r *bedwaredd* genhedlaeth? canys os at y *plant* y cyfeiria y bygythiad, ac at eu *plant hwythau* os byddai iddynt gasâu Duw fel y gwnaethai eu tadau, yna ni fygythir ond *cosp bersonol* am *drosedd personol*, yr hyn a gyr-aedd nid hyd y *bedwaredd* genhedlaeth yn unig, eithr hyd *byth*. Felly *cosp tadau* yn casâu Duw trwy garu eilunod a osodir allan yma fel yn disgyn ar eu *plant* hefyd, mewn ystyr tymorol, hyd y *drydedd* a'r *bedwaredd* genhedlaeth.

Adn. 6. *Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd* | O genedlaethau. Gwelwn y fath anghyffartalwch sydd yma rhwng gweithredoedd cyfiawnder a thrugaredd; neu yn hytrach, y fath arddanghosiad sydd yma o fawr ddaioni Duw yn ei hoffder o *drugaredd* rager *barn*! canys tra nad yw ef yn bygwth *cospi* y gwrthryfelgar yn ei hiliogaeth ond hyd y *bedwaredd* genhedlaeth, y mae efe yn addaw trugarhau wrth yr ufydd yn ei epil *hyd filoedd* o genedlaethau! *O'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion*—sylwer, nad yw hyd yn nod y rhai sydd yn caru Duw, ac yn cadw ei orchymynion, yn *haedd* dim oddiar ei law ef; ac am hyn y mae yr iachawdriaeth a'r gwynfydedigrwydd a fwynhant yn dyfod o drugaredd Duw yn unig.

III.—YN ERBYN ANUDON, CABLEDD, A HALOGIAD O ENW DUW.

Adn. 7. *Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer* | Os byddai iddynt, ar ol cymeryd Jehofa yn Dduw iddynt, grybwyll ei enw ef, rhybyddir hwynt yma i beidio ei grybwyll ef yn *ofer*; ac y mae y rhybydd hwn mor angenrheidiol heddyw ag erioed. Yr ydym yn cymeryd enw Duw yn ofer, 1. With *ragrithio*; wrth broffesu enw Duw, heb fyw i fyny i'n profes. 2. Wrth *dori cyfammod*; os bydd i ni wneuthur addewidion i Dduw, heb dalu i'r Arglwydd ein haddunedau. 3. Wrth *dyngu yn ddirbris*; pan yn crybwyll enw Duw, neu unrhyw un o'i briodolaethau, mewn ffurf llw, heb un achos cyfiawn neu ddyben da yn galw am hyn. 4. Wrth *dyngu anudon*; yr hyn y tybia rhai ei fod yn cael ei olygu yn benaf yn llythrennol y gorchymyn hwn. 5. Wrth arfer enw Duw yn *ysgafn* ac *anystyriol*, nid yn unig mewn ymddyddanion cyffredin, ond

9 Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith.

10 Ond y seithfed dydd *yw* sabbboth yr Arglwydd dy Dduw: na wna *ynddo* ddim gwaith, tydi na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifel, na'th ddy-eithr ddyn a fyddo o fewn dy byrth.

11 O herwydd *mewn* chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd

hefyd yn ein haddoliadau. Y mae yr halogiad o'r ffuif o addoliad yn cael ei wabardd yma, yn gystal a'r halogiad o ffuifau llw: a pha gyn lleied sydd a'r nad ydynt yn tori y gorchymyn hwn yn eu dybwydion cyhoedd a dirgelaidd! Mor isel yw duwioledd, pan yr ydym yn gorfod gweddio am i Dduw 'faddeu i ni anwiredd ein pethau santaidd!' Yr oedd hyd yn nod y paganiaid yn meddwl y dylai enwau eu duwiau gael eu trin gyda pharch. *Canys nid dieuog gan yr Arglwydd*—beth bynag a feddylia neu a oebethia y dyn ei hun, neu pa fodd bynag y gall ef ddadlu dresto ei hun nad yw yn meddwl dim drwg; os yw ef mewn un o'r ffyrdd uchod, neu mewn rhyw ffordd arall, yn *cymeryd enw Duw yn ofer*, nid yw *ddieuog gan yr Arglwydd*—efe a'i cyfrif yn *euog*, ac a'i *cospa* am dano. A ydym yn angenrheidiol dywyded wrth unrhyw ddarllenydd gwir ysbrydol, fod pob cyfyngair o'r fath hyn mewn ymddyddanion cyffredin, *O Dduw! Dduw da! Nefoedd fawr! &c.*, yn doriad ffurfiol a phendant o'r gorchymyn hwn? Ac eto pa nifer o'r rhai a elwir yn *Gristion-ogion* sydd dra euog o hyn!

IV.—YN ERBYN HALOGI Y SABBOTH, A SEGURA AR DDYDDIAU EREILL.

Adn. 8. *Cofia y dydd sabbboth, i'w sant-ciddio ef* | I'w neillduo oddiwrth arferiadau cyffredin, ac i'w dreulio yn hollol yn gwasanaeth Duw: gwel ar Gen. ii. 2, 3, Exod. xvi. 23. Gan mai hwn oedd y sefydliad henaf, y mae Duw yn galw arnynt i'w *gofio* ef: fel pe dywedasai, 'Nac *amghofia* ddarfod i mi, pan orphenais fy nghreadigaeth, sefydlu y SABBOTH; a *chofia* pabam y gwnaethym hyn, ac i ba ddybenion.' Y mae y gair SABBOTH yn arwyddo *gorphwysiad* neu *seibiant* oddiwrth *lafur*; ac y mae yn gysgod o'r *orphwysfa* hono ag sydd 'eto yn oi i bobl Dduw,' Heb. iv. 9. Gan hyn rhaid i rwymedigaeth foelol y sabbboth barhau dan bob gorchwyliaeth, hyd oni lyncir amser gan dragwyddoldeb.

Adn. 9. *Chwe diwrnod y gweithi* | Gan hyn y mae yr hwn sydd yn ofera ei amser ar un o'r chwe diwrnod gwaith, yn euog yr un modd, os nid i'r un graddau, a'r hwn sydd yn gweithio ar y sabbboth. *Ac y gwnai dy holl waith*—ni ddylai dim gwaith gael ei wneyd ar y sabbboth a'r a ellir ei gyflawni ar y dyddiau blaenorol, neu ei oedi hyd y rhai dilynol. Gweithredoedd o *angenrheidrwydd*, *trugaredd*, ac *addoliad* yn unig ydynt eithriedig. Y mae yr hwn sydd yn gweithio trwy ei weinidogion neu ei anifeiliaid yr un mor euog a phe byddai yn gweithio ei hun.

Adn. 10. *Na wna ynddo ddim gwaith, tydi,*

a'r ddaear, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt; ac a orphwysodd y seithfed dydd: am hyny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd sabboth, ac a'i sant-eiddiodd ef.

12 ¶ Anrhydedda dy dad a'th fam; fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddae-

ar, yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

13 Na ladd.

14 Na wna odineb.

15 Na ladrata.

16 Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymydog.

na'th fab, na'th fereh, &c.] Nid yw y *wraig* yn cael ei chrybwyll, am yr ystyrir hi yn un â'r gŵr; ac os bydd iddo ef santeiddio y sabboth, cymerir yn ganiataol y bydd iddi lithan gyduo âg ef.

Adn. 11. *O herwydd mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, &c.*] Y mae y nodadwy fod y rheswm a roddir yma am gadw y sabboth nid yn beth *neillduol* i'r Iuddewon, ond yn briodol i holl ddynolryw, y rhai y pertlyn yn gymaint iddynt oll goffa am waith y cread, a mawrhau y Creawdwr hollalluog.

V.—YN ERBYN ANMHARCH AC ANCFYDD-DOD I RIENI.

Adn. 12. *Anrhydedda dy dad a'th fam*] Yma y dechreu gorchymynion yr ail lech: gwel ar adn. 1. Y mae gradd o barch serchog yn ddyledus i rieni a'r na all neb arall yn briodol ei arddelwi. Am gryn amser y mae y rhieni yn sefyll megys yn lle Duw i'w plant, ac am hyny cafodd gwrthryfel yn erbyn eu gorchymynion cyfreithlon hwy ei ystyried fel gwrthryfel yn erbyn Duw. Y mae y gorchymyn hwn gan hyny nid yn uuig yn gwahardd pob gweithred niweidiol, ac iaith anmharehus ac annhiron wrth rieni, ond yn erchi pob gweithred angenrheidiol o dynerwch, parch, ac ufydd-dod. Braidid y gellir meddwl fod dyn yn anrhydeddu ei rieni, yr hwn, pan y maent yn dyfod yn wan, dall, neu glaf, nad yw yn ymdrech hŷd yr eithaf i'w cynal. Yn y cyfryw achosion y mae Duw mor wirioneddol yn gofyn i'r *plant* ddarparu i'w rhieni, ag y gofynai efe i'r *rhieni* borthi, meithrin, hyfforddi, ac amddiffyn y plant pan yn y sefyllfa isaf o fabandod analluog. Dywed y rabbiniaid, os na byddai gan blant gyfoeth i gynal eu rhieni oedranus, eu bod yn rhwym i gardota iddynt: gwel ar Gen. xlviii. 12. *Fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear*—yn Deut. xxi. 18—21, cawn fod anufydd-dod i rieni yn cael ei gospi â *marwolaeth*: 'Holl ddynion y ddinas a'i llabyddiant ef â meini, fel y byddo *farw*.' Felly y mae y gorchymyn hwn yn gwahardd anufydd-dod gyda golwg ar y gosp hon. Dywed yr apostol mai hwn yw y gorchymyn cyntaf ag y cysylltodd Duw *addewid* wrtho, Eph. vi. 2; ac am hyny gallwn ddsygu i ryw fesur mor bwysig yw y ddyledswydd yn ngolwg Duw. Yn Deut. v. 16, chwanegir, *Ac fel y byddo yn dda i ti*—gan hyny gallwn gasglu y bydd yn *ddreug* i'r anufydd; a diamau mai canlyniad barnol eu hanufydd-dod i'w rhieni, fel y sylwa Clarke, yw marwolaethau anamserol amrai wŷr ieuaine. Y mae y rhan fwyaf ag sydd yn dyfod i ddiwedd anamserol yn gorfod cyfaddef mai *hyn*, yn ngyda *halogiady sabboth*, oedd prif achos eu dinystr.

VI.—YN ERBYN LLOFRUDDIAETH A CHREULONDEB.

Adn. 13. *Na ladd*] Na wna niwed i'th iechyd na'th fywyd dy hun, nac i eiddo neb arall. Nid yw hyn yn gwahardd amddiffyniad angenrheidiol o honom ein hunain, na gwaith y swyddogion yn rhoddi llofrudd i farwolaeth: gwel ar Gen. ix. 6. Ond y mae yn gwahardd, 1. Pob *gweithred* trwy yr hon y gall einioes ein cydgreuduriaid diniwed gael ei byrhau. 2. Pob *rhwyfel* er eangu amberodraeth, masnach, &c. 3. Pob *cyfraith waedlyd* trwy yr hon y cymerir ymaith fywyd dynion am is-droseddau. 4. Pob *dreug-duedd* ag sydd yn arwain dynion i gynllunio niwed i'w gilydd; caeus 'pob un a'r sydd yn *casáu* ei frawd, lleiddiad dyn yw,' 1 Ioan iii. 15; Mat. v. 22. 5. Pob *anghariadoldeb* at y digynorthwy a'r un mewn cyfyngder; caeus yr hwn a fedr achub bywyd yn arall trwy gymhwysiaid prydlon o help, ymborth, dillad, &c., ac nid yw yn gwneuthur, a bod bywyd y cyfryw yn cael ei gollu neu ei fyrhau o achos hyny, y mae efe yn ngolwg cyfraith Duw a dyn yn *llofrudd*. 6. Pob *rhysedd, anghymedroldeb*, neu *ymattaliad* afreidiol, trwy yr hyn y dyfethir neu y byrthir bywyd; y rhai hyn oll, fel y sylwa Clarke, ydynt bechodau uniongyrchol yn erbyn y chweched gorchymyn.

VII.—YN ERBYN GODINEB AC AFLENDID.

Adn. 14. *Na wna odineb*] Godineb, fel ei heglurir gan ein cyfreithiau ni, sydd o ddau fath: *deiblyg*, pan rhwng dau o rai priod; *unigol*, pan y mae un o'r pleidiau yn briod, a'r llall yn weddw neu heb briod. Fod *puteindra* hefyd yn cael ei wahardd yn y gorchymyn hwn sydd eglur oddiwrth Mat. xv. 19, lle y mae ein Harglwydd yn arferyd dau air i osod allan ystyr y seithfed gorchymyn, sef *moicheiai, porneiai*, 'tor-priodasau, puteindra.' Y mae hunan-halogiad, yn ngyda phob math o affendid anianola a meddlyl, yn cael eu cynwys yn y gwaharddiad hwn, yn gystal a'r holl afan lyfrau, darluniau, caniadau, &c., y rhai sydd yn tueddu i enyn a llygru y meddwl; ac y mae 'pob un sydd yn edrych ar wraig i'w chwynychu hi, wedi gwneuthur eisioes odineb â hi yn ei galon,' Mat. v. 28.

VIII.—YN ERBYN LLADRAD AC ANONEST-RWYDD.

Adn. 15. *Na ladrata*] Y mae y gorchymyn hwn yn cyfeirio yn benaf at ddiregel ladrad ac yspeiliad pen ffordd; ond cynwysa hefyd waharddiad i gymeryd mantais ar anwybodaeth y gwerthwr neu y prynwr, trwy roddi i'r maill *lai*, a gwneud i'r llall dalu *mwyr*, am nwyddau na'u gwerth; peidio adferyd yr hyn a fenthycwyd, neu a gaed ar lawr; attal rhent,

17 Na chwenych dŷ dy gymydog, na chwenych wraig dy gymydog, na'i wasanaethwr, na'i wasanaethferch, na'i ŷeh, na'i asyn, na dim a'r sydd eiddo dy gymydog.

18 ¶ A'r holl bobl a welsant y taranau, a'r melt, a sain yr udgorn, a'r mynydd yn mygu: a phan welodd y bobl, ciliasant, a safasant o hirbell.

19 A dywedasant wrth Moses,

cyflog, neu ddyledion cyfreithlon; a chadw oddiwrth grefydd neu y llywodraeth ei chyllidion priodol. Gwahardda hefyd i ddyn ei yspeilio ei hun neu ei deulu o'i feddiannau, trwy *wastraff* pechadurus; neu o'r defnydd a'r cysur o honynt, trwy *gymildeb* pechadurus. Y mae pob dyn-ladrad a chaethfasnach hefyd yn waharddedig yma, pa un bynag ai gan bersonau unigol ynte gan lywodraeth wladol ei harferir; canys nid yw troseddau yn lleillau yn eu drygded gan rif neu bwysigrwydd y rhai a'u cyflawnntol.

IX.—YN ERBYN CAMDYSTIOLEAETH, ANUDONIAETH, &c.

Adn. 16. *Na ddwg gamdystiolaeth yn erbyn dy gymydog*] Y mae nid yn unig gaulwon, i amddifadu dyn o'i fywyd, ei feddiannau, neu ei hawliau, yn cael eu gwahardd yma; ond hefyd pob hustingiaeth, athrodiaeth, enllibiaeth, a gogan: mewn gair, beth bynag a dyngir neu a ddywedir fel gwirionedd, ag sydd *anwiredl*, ac yn tueddu i niweidio un arall yn ei berson, ei feddiannau, neu ei gymeriad, y mae ef yn groes i ysbryd a llythyren y gorchymyn hwn. *Celw* y gwirionedd pryd ei gwyddys, trwy yr hyn y gall dyn gael ei dwyllo o'i eiddo neu ei enw da, neu y gorfodir ef i ddyoddef niweidiau ag y buasai i ddadleniad o'r gwirionedd eu rhagflaenu, sydd hefyd yn drosedd o'r gorchymyn hwn.

X.—YN ERBYN TRACHWANT.

Adn. 17. *Na chwenych dŷ dy gymydog*, &c.] Y mae y gorchymynion blaenorol yn gwahardd pob chwennychiad am *uneid* yr hyn a fyddo yn niwed i'n cymydog, y mae hwn yn gwahardd pob trachwant am *gael* yr hyn a fyddo yu foddhaid i ni ein hunain. Y mae efe yn tori y gorchymyn yma, yr hwn sydd mewn rhyw fodd yn ymdrechu i amddifadu dyn o'i *dŷ* neu ei *dyddyn*, trwy geisio ei gymeryd uwch ei ben; yr hwn sydd yn trachwantu *guraig* ei gymydog, ac yn ceisio ymlusgo i'w serchiadau, a bychanu ei gŵr yn ei golwg; a'r hwn sydd yn ymdrechu i gael iddo ei hun *weinidogion*, *anifeiliaid*, &c., gŵr arall mewn rhyw fodd lladradaid neu anghyfiawn. Y mae yn amlwg oddiama nad yw y deg gorchymyn i'w hystyried fel rheolau gwladyddol yn unig, trwy fod hwn yn cyfeirio at ansawdd y *meddwl* yn benaf: gwel yr adfeddyliadau. Pwy na chyduna â gweddi yr Eglwys yn ngwasanaeth y cymun, gan ddywedyd, 'Arglwydd, trugarha wrthym, ac ysgrifena'r holl ddeddfau hyn yn ein calonau, ni a atolygwn i ti!'

Adn. 18. *A'r holl bobl a welsant y taranau,*

Llefara di wrthym ni, a nywi a wrandawu: ond na lefared Duw wrthym, rhag i ni farw.

20 A dywedodd Moses wrth y bobl, Nac ofnwch; o herwydd i'ch profi chwi y daeth Duw, ac i fod ei ofn ef ger eich bronau, fel na phechech.

21 A safodd y bobl o hirbell; a nesaodd Moses i'r tywyllwch, lle yr ydoedd Duw.

&c.] Hyn yw, a *ddirnadasant* y gwahauol bethau hyn, trwy glywed, gweled, neu deimlo. Buont yn dystion o'r holl bethau arswydus hyn o'r blaen, pen. xix. 16; ond *yma* ymddengys eu bod yn cael eu mynychu. Y mae yn debyg fod llewyrchiad meltlen, twrf taran, ac udganiad yr udgorn yn eymeryd lle ar ol pob un o'r deg gorchymyn, i wasgu yn ddyfnach ar eu calonau iawn deimlad o fawredd Duw, santeiddrwydd y gyfraith, ac arswydus ganlyniadau anufydd-dod!

Adn. 19. *A dywedasant wrth Moses*] Sef penaethiaid eu llwythau, a'u henuriaid, Deut. v. 23. Y mae yn eglur oddiyma fod Moses i lawr gyda'r bobl ar gyhoeddiad y ddeddf, ac nid yn y mynydd gyda Duw fel y tybiodd rhai; pe angen ni allasant ei gyfarch ef fel hyn. *Llefara di wrthym ni*—deisyfent i Moses fod yn gyfryngwr rhwng Duw a hwythau, trwy nad oeddynt hwy yn alluog i ddal y dadleniadau arswydol hyn o'r DWYFOL FAWRHYDI. Dysga hyn i ninau yr anhegorol angenbeidrwydd am y Cyfryngwr mawr rhwng Duw a dyn, CRIST IESC, gan nas gall neb ddyfod at y Tad ond trwyddo ef, Ioan xiv. 6.

Adn. 20. *Nac ofnwch*] Na feddyliwch fod lleferydd Duw, a'r taranau a'r melt hyn, wedi eu hwriadu i'ch dyfetha chwi; o herwydd i'ch profi chwi y daeth Duw—i brofi pa fodd yr hofent ymwneyd â Duw heb gyfryngwr, ac i'w bargyhoeddi mor dda y gofalsai efe am danynt trwy roddi Moses yn y swydd hōno; ac i fod ei ofn ef—sef ofn duwiol a mabaidd, *ger eich bronau fel na phechech*—fel y galloch oddiar gariad at eich Gwneuthurwr, a pharch iddo, ymgadw oddiwrth bob rhith drygioni trwy ufydd-dod gwastadol i'r gorchymynion santiaid hyn.

Adn. 21. *A safodd y bobl o hirbell*] Cyn i Dduw ddechreu llefara, yr oeddynt yn ddigon parod i'ruthro yn mlaen i hylldremu; ond yn awr, trwy iddynt glywed llais Duw, y taranau, a sain yr udgorn, a gweled y melt a'r mynydd yn mygu, hollol wareddywd hwynt oddiwrth eu rhyfeg, canys 'ciliasant a safasant o hirbell,' adn. 18. *A nesaodd Moses i'r tywyllwch lle yr ydoedd Duw*—wedi iddo gael ei alw yno gan Dduw ei hun, fel yr arwydda y wreiddiol; a dywed y rabbiniad i'r Arglwydd anfon angel i'w dywys ef yno gerfydd ei law. Y mae yma brawf arall nad oedd Moses gyda'r Arglwydd ar gyhoeddiad y gorchymynion: gwel ar adn. 19. Wedi i Moses fyned i'r *tywyllwch*, llefareddu Duw yno wrtho yr hyn oll a ganlyn oddiyma hyd ddiwedd pen. xxiii, yr hyn sydd fath ar esboniad ar y deg gorchymyn; ac yr oedd Moses i draethu yr oll i'r bobl.

22 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Fel hyn y dywedi wrth feibion Israel; Chwi a welsoch mai o'r nefoedd y lleferais wrthych.

23 Na wnwech gyda mi dduwiau arian, ac na wnwech i chwi dduwiau aur.

24 ¶ Gwna i mi allor bridd, ac abertha arni dy boeth-ebyrth, a'th offryman heddi, dy ddefaid, a'th eid-

Adn. 22. *Chwi a welsoch mai o'r nefoedd y lleferais wrthych*] Er i Dduw ei amlygu ei hun trwy y tân, y melt, y ddaeargryn, y tywyllwch dudew, &c., eto y mae yn debyg, fel y sylwa Clarke, i'r DEG GORCHYMYN gael eu traethu o *uwch ororau yr awyr*, yr hyn oedd yn brawf chwanegol i'r bobl nad oedd dim *twyll* yn yr achos: canys er y gallai ymddangosiadau a lleisiau dweithr gael eu ffurfio ar y ddaear, fel y gwnaed yn fynych yn ddi-amau gan swynwyr yr Aifft; eto yr oedd yn hollol annichonadwy ffugio llais, mewn hir-barhaol rifes o hyfforddiadau, fel yn dyfod o'r nef ei hun, neu y parthau uwchaf o'r nwyfre. Ond tybia rhai mai yr ystyr yr, iddo *ddisgyn o'r nefoedd* i lefaru wrthyn ar ben y myndid.

Adn. 23. *Na wnwech gyda mi dduwiau arian*] O'r blaen dywedais, 'Na fydded it' dduwiau ereill ger fy mron,' neu yn fy lle i, adn. 3; ac yma gorchymyna, 'Na wnwech gyda mi dduwiau arian neu aur,' fel *cysgodau neu gynrychiolion* o Dduw, dan yr esgus o gadw y dadleniadau hyn o'i ardderchogrwydd mewn cofiadwriaeth.

Adn. 24. *Gwna i mi allor bridd*] Neu *dyweirch* diaddurn, ar yr hon yr offryment yr aberthau hyny trwy y rhai y coffiaent eu heuogrwydd eu hunain, a'r angenrheidiwydd am IAWN i ymgynodi trwyddo â Duw. *Ac abertha arni dy boeth-ebyrth a'th offryman heddi*—y gyfraith yn nghylch pa rai oedd yn ebrwydd i gael ei rhoddi, er fod aberthau o'r fath yma mewn arferiad er dyddian Abel. *Yn mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw*—neu y byddo fy cnw yn cael ei gofian mewn ffordd o addoliad, pa un bynag ai yn yr anialwch agored, ynte yn y babell a'r deml, neu pa le bynag; *y deuaſ atat, ac y'th fendithiaſ*—y mae y geiriau hyn yn gywir o'r nwn ystyr a geiriau ein Harglwydd, Mat. xviii. 20, 'Lle mae dan neu dri wedi ymgynull yn fy cnw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt.' A chan mai Iesu oedd yr angel a lefarasai wrthyn yn y diffaethwch, Act. vii. 38, felly o'r un genau y daeth allan yr addewid hon yn y *gyfraith* a hōno yn yr *esengyl*.

Adn. 25. *Na wna hi o gerig nadd*] Am eu bod hwy yn awr mewn cyflwr crywdredig, heb ganddynt un cartref sefydlog; ac am hyny ni chaf dim amser ei gollu i godi alloran cost-fawr, y rhai nas gallent eu cario gyda hwynt, a'r rhai y gorfyddai iddynt yn fuan eu gadael ar ol. *Ian gotech dy forthwyl arni*—i'w naddu, *ti a'i halogaist hi*—ti a'i gwnaethost yn anaddas i'm gwasanaeth i, trwy iddi gael ei gwneuthur yn groes i'm cyfarwyddyd: gwel ar adn. 26.

Adn. 26. *Ac na ddos i fyny ar hyd grisiau i'm hallor*] Yr oedd y paganiaid, y rhai a

ionau: yn mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaſ atat, ac y'th fendithiaſ.

25 Ond os gwnai i mi allor gerig, na wna hi o gerig nadd: pan gotech dy forthwyl arni, ti a'i halogaist hi.

26 Ac na ddos i fyny ar hyd grisiau i'm hallor; felnad amlyger dy noethni wrthi.

efelychent ddefodau y gwir Dduw yn eu heilunaddoliad, yn gwneuthur eu halloran yn dra *uchel*, mewn rhan o falchder a gwag-ogoniant, ac mewn rhan fel y gallai eu dauwian eu clywed yn well. Gorchymyna Duw gan hyny i'w alloran ef gael eu gwneyd, 1. Naill ai o *dyweirch* yn unig, fel na fyddai arnynt un gost afreidiol, ac fel na fyddai iddynt fod yn y cynhelliaid i eilunaddoliath trwy eu gwneuthuriaid costfawr neu gywraint; neu, 2. O gerig *heb eu naddu*, fel na fyddai i lunian anifeiliaid neu y cyrif nefol gael eu cerfio arnynt, megys yr oedd yn mhlith eilunaddolwyr, ac yn enwedig yn mhlith yr Aifftiaid, fel y tystia amrai o'u hen alloran ag sydd yn aros hyd heddyw; pa alloran eu hunain, a'r delwau cerfedig arnynt, a ddaethant yn mhen amser yn wrthdiddychau addoliad! *Fel nad amlyger dy noethni wrthi*—yr oedd y dillad a wisgid yn y gwledydd hyny, trwy eu bod yn berffaith rydd, yn cael eu chwythu yn hawdd o'r neilldu, fel ag i ddynoleithi isranau y corff: i attal gan hyny yr anghyfleusdra hwn, ac fel na fyddai i ddim auwedd-eidd-dra fod yn gymysg â gwasanaeth Duw, yr oedd y rhagocheliad hwn yn angenrheidiol. Ac am yr un rheswm gorchymynwyd i'r offeiriaid wedi hyny wisgo llofrau llian, y rhai na wisgid gan neb ond hwy, pen. xxviii. 42.

ANFEDDYLIAIDAU.—1. Yn hon a'r bennod flaenorol cyfarfuasom â rhai o'r dadleniadau mwyaf arswydlawn o'r Dwyfol Fawrhydi, dadleniadau o gyfiawnder a santeiddrwydd nad oes gyffelyb iddynt, ac na all fod hyd y dydd yr ymddengys efe yn ei ogoniant i farnu y byw a'r meirw. Yr oedd y gogoniant yn wir arswydlawn, ac i feibion Israel yn auodd-efadwy; ac eto mor fawr oedd eu braint o gael JEHOWA ei hun i lefaru wrthyn o ganol y tân, gan roddi iddynt gyfreithiau a barned-igaethau mor gyfiawn, mor bur, mor santaidd, ac mor wir ardderchog yn eu gweithreded a'u dyben, nes y maent wedi bod yn rhyfeddod i'r holl rai doeth ac uniawn yn mhob gwlad ac oes lle y clybwyd eu llais!

2. I ddangos yn eglurach fyth ragoroldeb a defnyddioldeb y DEG GORCHYMYN, ac i gywiro rhai tybiadau cyfeiliornus mewn perthynas iddynt, gall fod yn angenrheidiol gwneuthur rhai sylwadau chwanegol. Ac, yn (1) Y mae yn deilwng o sylw nad oes un o'r gorchymynion hyn ag y gellir yn briodol ei ystyried yn *seremonïol*: y maent oll yn *foesol*, ac o ganlyniad o fythol rwymedigaeth. (2) Pan eu hystyrir yn unig o ran y *llythyren*, nid oes un anhawdsr yn yr uffydd-dod moesol a ofynir iddynt. Boed i'r darlennydd eu cymeryd i fyny bob yn un, a gofyn i'w gydwyl-bod gerbron Duw, pa un o honynt y mae ef

PENNOD XXI.

DYMA y barnedigaethau a osodi di ger eu bron hwynt.

2 Os pryni was o Hebreadd, gwas-naethed chwe blyned; a'r seithfed y caiff yn rhad fyned ymaith yn rhydd.

3 Os ar ei ben ei hun y daeth, ar ei ben ei hun y caiff fyned allan: os perchen gwraig fydd efe, aed ei wraig allan gydag ef.

dan angenrheidrwydd anocheladwy i'w dori? (3) Er fod yr holl gyfraith *seremonïol* a gyfeiriai at Grist a'i aberth wedi cael ei diddymu trwy ei gnawdoliaeth a'i farwolaeth ef, eto, trwy nad yw y gorchymynion hyn yn cyfeirio at ddim ag oedd yn briodol yn seremonïol, ni chawsant hwy eu diddymu. (4) Er i Grist ddyfod i'r byd i waredu y credinwyr oddiwrth feiddith y ddeddf, ni ddarfu iddo eu gwaredu oddiwrth yr angenrheidrwydd o rodio yn y *newydd-deb buchedd* hwnw ag y mae y gorchymynion hyn mor rymus yn ei gymhell. (5) Er y dywedir i Grist gyflawni y gyfraith drosom ni, eto ni awgrymir mewn un lle yn yr *ysgrifthyrr* ddarfod iddo gyflawni y *deu gorchymyn* hyn yn y fath fodd ag i'n rhyddhan ni oddiwrth yr angenrheidrwydd a'r *fraind* o beidio bod yn eilunaddolwyr, yn dyngwyr, yn dorwyr sabbothau, yn blant anufydd a chreulon, yn llofruddion, yn odinebwyr, yn lladron, gaudystion, a thrachwantwyr. Yr holl orchymynion hyn, yn wir, a gyflawnodd efe yn fanwl ei hun; a'r holl rai hyn a ysgrifena efe ar galon pob enaid a waredir trwy ei waed ef. (6) Onid yw y rhai a haerant fod cadwraeth y deddfau hyn yn *annichonadwy* yn y bywyd hwn, a bod pob dyn er y cwmp yn eu *tori* o angenrheidrwydd yn barhaus mewn meddwl, gair, a gweithred, yn dwyn camdystiolaeth yn erbyn Duw a'i wirionedd? ac onid ydynt hwy yn mawr gyfeiliorni, *heb weybod* yr *ysgrifthyrr*, yr hon sydd yn dysgu yr angenrheidrwydd o'r fath ufydd-dod, *na gallu Duw*, trwy yr hwn y mae egwyddor ddrygionus y galon yn cael ei dyfetha, a chyfraith purdeb yn cael ei hysgrifenu ar yr enaid? (7) Gan fod y gorchymynion hyn i'w deall nid yn unig yn y *llythyren*, ond hefyd yn yr *ysbryd*, am hyny gellir eu *tori* yn y *galon* tra y byddont *oddiallan* yn cael eu cadw yn ddi-halog. (8) Yn olaf gwelwn, nad all neb gadw y gorchymynion hyn heb gymorth a dylanwad *gras* ac *Ysbryd Crist*; a bod yn ofynol i ni weddio yn barhaus, 'Arglwydd, trugarha wrthym, a *gostwng* ein calonau i gadw'r gyfraith hon.'

PEN. XXI. Adn. 1. *Dyma y barnedigaethau* Y mae cymaint o synwyr, dynoliaeth, a chyflawnder yn y deddfau canlynol, fel nas gellir lai na'u rhyfeddu gan bob darlennydd deallgar; ac y maent mor eglur fel na ofyant ond ychydig o esboniad. Gelwir hwynt yn *farnedigaethau*, am fod yr ynadon i weinyddu *barn* yn gyson â lwy. Ymddengys iddynt gael eu traddodi i Moses allan o glywed-igaeth y bobl, yn ol eu deisyfdd penodol hwy

4 Os ei feistr a rydd wraig iddo, a hi yn planta iddo feibion, neu ferched; y wraig a'i phlant fydd eiddo ei meistr, ac aed efe allan ar ei ben ei hun.

5 Ac os gwas gan ddywedyd a ddywed, Hoff genyf fi fy meistr, fy ngwraig, a'm plant; nid âf fi allan yn rhydd:

6 Yna dyged ei feistr ef at y barnwyr; a dyged ef at y ddôr, neu at yr

eu hunain, pen. xx. 19; ac iddo yntau, fel eu cyfryngwr, yr traethu iddynt hwy ar ol disgyn o'r mynydd.

Adn. 2. *Os pryni was o Hebreadd* Y mae Calmet yn cyfrif chwech o wahanol ffyrdd yn y rhai y gallai Hebreadd gollu ei ryddid: (1) Mewn dirfawr *dytodi* gallent werthu eu rhyddid: 'A phan dyldo dy frawd gyda thi, a'i werthu ef i ti,' Lef. xxv. 39. (2) Gallai tad werthu ei blant: 'Os gwerth gw'r ei ferch yn forwyn gaeth,' adn. 7. (3) Yr oedd *dyledwyr methedig* yn dyfod yn gaethion i'w gofynwyr: 'Fy ngw'r a fu farw—a'r echwynwr a ddaeth i gymeryd fy nau fath i fod yn gaethion iddo,' 2 Bren. iv. 1. (4) *Lleidr*, os na fyddai ganddo arian i dalu y dirwy: 'Oni bydd dim ganddo, gwerther ef am ei ladrad,' pen. xxii. 3. (5) Yr oedd Hebreadd yn agored i gael ei gymeryd yn *garcharor rhyfel*, ac felly i'w werthu yn gaethwas. (6) Gallai caethwas Hebreadd a *brynesid* gan Hebreadd oddiwrth Genedl-ddyn, gael ei werthu drachefn i un o'i genedl ei hun. *Gwasanaethed chwe blyned*—yr oedd yn ddarpariaeth ragorol yn y cyfreithiau hyn na allai neb ei gwbl niweiddo i hun trwy unrhyw weithred fyrbwyl neu fol. Nid oedd raid i neb fod yn gaeth uwchlaw chwe blyned. gwel ar adn. 5, 6, a pen. xxiii. 11, &c.

Adn. 3. *Os ar ei ben ei hun y daeth, &c.* Hyny yw, yn ddihibrid, efe a âi allan felly; os yn briod, yr oedd ei wraig i fyned allan gydag ef.

Adn. 4. *Os ei feistr a rydd wraig iddo* O ferched Canaan, ar ol iddo ddyfod i'w wasanaeth ef yn ddihibrid; y wraig a'i phlant fydd eiddo ei meistr—am ei bod yn gyfraith yn mllith yr Hebreadd, os cai Hebreadd blant o wraig Ganaanaidd, fod y plant hyny i'w hystyried fel *Canaanaeid* yn unig, ac y gallent gael eu gwerthu a'u prynu, a gwasanaethu byth. *Ac aed efe allan ar ei ben ei hun*—am mai ar ei ben ei hun y daethai i fewn, adn. 3. Os dadl-enir, 'fod yr ysgariad hwn rhwng gw'r a gwraig yn anghyson â gosodiad cyntaf priodas, trwy ba un y gwneir y rhwymiad hwnw yn annatodadwy;' gellir ateb, nad oedd y rhwymiad hwnw yn cael ei ddatod o angenrheidrwydd trwy y gyfraith hon, am y gallai y gw'r aros gyda'i wraig os mynai; ac am y gallai gwahanol breswylfeydd gydsffyll â'r iawn ddefnydd o briodas, yr hyn y byddai i'r meistr yn ddiamau ei ganiatau er ei les ei hun.

Adn. 5. *Ac os y gwas gan ddywedyd a ddywed* Hyny yw, yn mhen ei dymhor, neu yn niwedd y chweched flwyddyn.

orsin : a thylled ei feistr ei glust ef â mynawyd; ac efe a'i gwasanaetha ef byth.

7 ¶ Ac os gwerth gŵr ei ferch yn forwyn gaeth, ni chaffi hi fyned allan fel yr el y gweision caeth allan.

8 Os heb ryglyddu bodd yn ngolwg ei meist'r y bydd hi, yr hwn a'i cymerodd hi yn ddyweddi; yna gadawed ei hadbrynu hi: ni bydd rhydd iddo ei gwerthu hi i bobl ddyceithr, wedi iddo ef ei thwylllo hi.

9 Ac os i'w fab y dyweddiodd efe hi, gwnaed iddi yn ol deddf y merched.

10 Ac os arall a brioda efe, na wnaed yn llai ei hymborth, ei dillad, na'i dyled priodas.

11 Ac os y tri hyn nis gwna efe

iddi; yna aed hi allan yn rhad heb arian.

12 ¶ Rhodder i farwolaeth y neb a darawo ŵr, fel y byddo marw.

13 Ond yr hwn ni chynllwynodd, onid rhoddi o Dduw ef yn ei law ef, mi a osodaf it' fan lle y caffio ffoi.

14 Ond os daw dyn yn rhyfygus ar ei gymydog, i'w ladd ef trwy dwyll; cymer ef i farwolaeth oddiwrth fy allor.

15 ¶ Y neb a darawo ei dad, neu ei fam, rhodder ef i farwolaeth.

16 ¶ Yr hwn a ladratao ddyn, ac a'i gwertho, neu os cair ef yn ei law ef, rhodder ef i farwolaeth.

17 ¶ Rhodder i farwolaeth yr hwn a felldithio ei dad, neu ei fam.

Adn. 6. *Yna dyged ei feistr ef at y barn-wyr*] Heb. *el haelohim*, 'at y duwiau'; canys felly y gelwir *ynadon* yn fynych, am eu bod yn cynrychioli Duw ar y ddaear: gwel Salm lxxxii. 1, &c., Ioan x. 31, Rhuf. xiii. 1. Y mae y LXX yn ei gyfieithu yn 'frawdle Daw,' gan feddlw ond odid y cysegr. *A dyged ef at y ddôr*—at ddrws tŷ ei feistr; a *thylled ei feistr ei glust ef â mynawyd*—yn arwydd ei fod wedi ei sicrhau yno, ac nad yw mwyach i fyned allan yn rhydd. Nyni a ddysgwn oddiwrth *Juvenal* a *Petronius* i hyn barhau yn arferiad yn Syria ac Arabia am lawer o oesau wedi hyn.

Adn. 7. *Ac os gwerth gŵr*] Sef Hebreadd, fel yr ymddengys oddiwrth y gwrthgyforbyniad i *bobl ddyceithr*, adn. 8; *ei ferch yn forwyn gaeth*—yr hyn a oddefid mewn achosion o ddirfawr angen; ni chaffi hi fyned allan fel yr el y gweision caeth allan—trwy ennill ei rhyddid ar ol chwe blynedd o wasanaeth galed; ond ar well ammodau, fel nn o'r ystlen wanaf a mwyaf digynorthwy.

Adn. 8. *Yr hwn a'i cymerodd hi yn ddyweddi*] Yn orderchlwraig neu ail wraig: ond nid oedd meist'riaid yn cymered eu holl gaethforwynion i'r dyben hwn. *Gadawed ei hadbrynu hi*—naill ai ganddi ei hun neu ei chyfeillion. *Ni bydd rhydd iddo ef ei gwerthu hi i bobl ddyceithr*—am y byddai i bagan ei chadw hi yn gaeth byth, yr hyn ni allai Israeliaid ei wneuthur. *Wedi iddo ef ei thwylllo hi*—trwy dori ei addewid priodas.

Adn. 9, 10. *Gwnaed iddi yn ol deddf y merched*] Rhodded iddi yr un gwaddol ag a roddai i'w ferched ei hun. Oddiwrth y deddfau hyn nyni a ddysgwn, os byddai i fab gŵr briodi ei forwyn ef trwy gydsyniad ei dad, fod y tad yn rhwym o ymddwyn ati yn mhob ystyr fel ei ferch; ac os priodai y mab wraig arall, fel yr ymddengys y gallai wneuthur, adn. 10, yr oedd yn rhwym i beidio gwneyd lleihad yn mreintiau y wraig *gyntaf*, mewn ymborth, dillad, na dyled priodas. Y mae y gair *onathak*, 'dyled priodas,' yma, o'r un ystyr a 'dyledus ewyllys da,' 1 Cor. vii. 3: gwel y sylw yno.

Adn. 11. *Y tri hyn*] 1. Ei hymborth—*shce-*

rah, 'ei chig,' canys ni chai hi, fel caethforwyn gyffredin, ymborthi yn unig ar lysiau. 2. Ei *dillad*—ei gwisgoedd neillduol, yn nghyda phob chwangodd angenrheidiol. 3. Ei *dyled priodas*—cyfran ddyledus o amser a chymdeithas ei gŵr.

Adn. 12. *Rhodder i farwolaeth y neb a darawo ŵr*] A'i lladdo ef yn fwriadol, fel yr ymddengys oddiwrth yr adnod nesaf.

Adn. 13. *Ond yr hwn ni chynllwynodd*] Ni fwriadodd yn mlaenllaw, gan chwilio am gyfleusdra; *onid rhoddi o Dduw ef yn ei law ef*—fel y mae yr ysgrythyrau yn eiu dysgu i gydnabod Duw yn mhob peth a ddygwydda, felly pan leddir dyn trwy yr hyn a alwn ni yn ddanwain, heb un bwriad o eiddo y gweithredydd, dywedir ddarfod ei roddi yn ei law ef gan Dduw, heb ddwyfol ragwelediad a goddefiad yr hwn ni allasai y dygwyddiad gymeryd lle. *Mi a osodaf it' fan lle y caffio ffoi*—ymddengys tra yr oedd yr Israeliaid yn yr anialwch, mai gwersyll y Lefiaid neu yr allor oedd y noddfa: wedi hyn y mae yn dra hysbys i chwech o ddinasoedd gael eu penodi i'r perwyl hwnw, Num. xxxv. 10, &c.

Adn. 14. *Cymer ef i farwolaeth oddiwrth fy allor*] Y mae Duw yn Dduw cyfiawnder, ac am hyn ni oddef efe byth i'w gysegr gysgodi a noddi yr euog.

Adn. 15. *Y neb a darawo ei dad neu ei fam*] Fel ag i dynu gwaed o honynt, neu beri craith, er na byddont farw o'r achos: felly Rabbi Solomon. *Rhodder ef i farwolaeth*—trwy fod y gyfryw weithred yn arwydd o neillduol ddirywiad, nid oedd un gragedd i gael ei dangos i'r euog: gwel ar adn. 17.

Adn. 16. *Yr hwn a ladratao ddyn, &c.*] Yn ol y gyfraith hon yr oedd pob dyn-leidr, a phob derbyniwr o ddyn wedi ei ladrata, i gollu ei fywyd: nid oedd gwahaniaeth pan un o eidd ef wedi ei ladrata ei hun, ynte talu i fasnachwr am ei ladrata ef iddo. Ac ymddengys oddiwrth 1 Tim. i. 10, fod y gyfraith hon o rym arhosol.

Adn. 17. *Rhodder i farwolaeth yr hwn a felldithio ei dad neu ei fam*] Nid am y trosedd cyntaf, fel yr ymddengys oddiwrth Deut. xxi. 18, ond ar ol ei fynych rybyddio. Nid

18 ¶ A phan ymrysono dynion, a tharo o'r naill y llall â chareg, neu â dwrn, ac efe heb farw, ond gorfod iddo orwedd;

19 Os cyfyd efe, a rhodio allan wrth ei flon; yna y tarawydd a fydd diangol: yn unig rhodded ei golled am ei waith, a chan feddyginiaethu meddyginiaethed ef.

20 ¶ Ac os tery un ei wasanaethwr, neu ei wasanaethferch, â gwialen, fel y byddo farw dan ei law ef; gan ddial dialer arno.

21 Ond os crys ddiwrnod, neu ddau ddiwrnod, na ddialer arno; canys gwerth ei arian ei hun ydoedd efe.

22 ¶ Ac os ymrafaelia dynion, a tharo o honynt wraig feichiog, fel yr el ei beichiogi oddiwrthi, ac heb fod

marwolaeth: gan gopsi cosper ef, fel y gosodo gwŕ yr wraig arno; a rhodded *hyny* trwy farwyr.

23 Ac os marwolaeth fydd; rhodder einioes am einioes,

24 Llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed,

25 Llosg am losg, archoll am archoll, a chlais am glais.

26 ¶ Os tery un lygad ei wasanaethwr, neu lygad ei wasanaethferch, fel y llygro ef; gollynged ef yn rhydd am ei lygad.

27 Ac os tyr efe ymaith ddant ei wasanaethwr, neu ddant ei wasanaethferch; gollynged ef yn rhydd am ei ddant.

28 ¶ Ac os ŷch a gornia ŵr neu wraig, fel y byddo farw: gan labyddio

yw Moses yn son am *riant-lofruddiaeth*, ond yn unig am *daraw* neu *felldithio* tad neu fam. Yr oedd hwnw yn drosedd mor anferth fel nad yw ef yn ei grybwyll, megys pe tybiais fod y natur ddynol yn analluog iddo. Fel hyn yr oedd yr hen Bersiaid yn dal nad oedd neb byth yn rhoddi ei dad neu ei fam i farwolaeth; ac y rhaid fod y rhai a nota hanesiaeth â'r enw o *dad-leiddiaid*, naill ai yn fastarddiaid neu yn blant maeth. Nid yw Herodotus, Solon, na deddf y deuddeg llech, yn gwneyd un crybwylliad o'r trosedd hwn am yr un rheswm. Y mae y Chineaid yn ei ffeiddio gymaint nes y maent, os byth y dygyddya yn eu plith hwy, yn defnyddu y llofrudd i'w rwygo yn ddeg mil o ddarnau, ac yna ei losgi; a dystrywiant y pentref lle y byddo wedi dygydd: gwel *Dr. Delaney*.

Adn. 18. *A tharo o'r naill y llall â chareg*] Neu â rhyw offeryn arall cyfaddas i'r fath fwrriad drygonus.

Adn. 19. *Rhodded ei golled am ei waith*] Rhodded iddo yr hyn a ennillasai pe buasai wrth ei waith; a chan feddyginiaethu meddyginiaethed ef—taled yr holl gostau am ei wella.

Adn. 20. *A gwialen*] Offeryn arferol ceredd; wrth yr hyn yr arwyddir, pe lladdasai efe ei weinidog â chleddyf, neu ryw arf o'r fath, y buasai i gael ei roddi i farwolaeth. *Fel y byddo farw dan ei law ef*—wrth i'r meist ei geryddu. *Gan ddial dialer arno*—fel y meddylio yr ynad neu y barnydd yn addas, yn ol yr amyglehiadau.

Adn. 21. *Gwerth ei arian ei hun ydoedd efe*] Ei ciddo ei hun, wedi ei brynu â'i arian; ac am hyny, 1. Yr oedd ganddo awdurdod i'w geryddu ef yn ol ei haeddiant, yr hyn a allai fod yn fawr; 2. Y mae y meist yn cael ei gopsi eisioes i raddau trwy ei golled ei hun; 3. Gellir tybio na wnaeth efe hyn yn fwrriadol a maeisus; 4. Ac wrth iddo fyw ddiwrnod neu ddau, gallai ei farwolaeth gael ei phriodoli i ryw achos arall.

Adn. 22. *A tharo o honynt wraig feichiog, fel yr el ei beichiogi oddiwrthi*] Gan fod *hiliogaeth* yn un o addewidion neillduol cyfam-

mod yr Iuddewon, a chan fod gan bob dyn ryw reswm i feddwl y byddai i'r Messia ddyfod o'i deulu ef, yr oedd unlyw niwed a wneid i wraig feichiog, trwy yr hyn y gallai frwyth ei brw gael ei ddyfetha, yn cael ei ystyried yn gamwedd trwm iawn; a chan fod y trosedd yn cael ei wneuthur yn benaf yn erbyn y gwŕ, gadawyd thradd y gospedigaeth, os na byddai marwolaeth yn yr achos, i'w ddyspwyll ef. *A rhodded hyny trwy farwyr*—gan y rhai yr oedd gallu i gymesuro y gops neu y dirwy os byddai yn rhy drwm.

Adn. 23. *Ac os marwolaeth fydd*] I'r fam, neu i'r plentyn a fyddo wedi ei ffurfio ac yn fyw yn ei throth hi; rhodder einioes am einioes—yr oedd y troseddwr i gael ei gopsi â marwolaeth.

Adn. 24, 25. *Llygad am lygad, &c.*] Gelwir hon yn 'gyfraith ad-daledigaeth'; ac oddiyma cymerwyd hi i ddeddfau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Nid oedd gweinyddiad y gyfraith hon yn cael ei ymddiried i'r dyoddefydd, eithr rhoddyd hi i reoleiddio penderfyniad y barnwyr, y rhai a allent gario y gops cyn belled a llygad am lygad, ond nid yn mhellach. Mewn rhai achosion gallent esmwythian y gops, am y byddai i gyflawniad llythyrenol o honi ymddangos yn aunghyfiawn, megys pan fyddai i ddydun âg un llygad neu un law niweidio dyn â dau ganddo; canys yn yr achos hwnw byddai i hollol ddallineb fod yn gops am dynu un llygad o ddau.

Adn. 26, 27. *Os tery un lygad ei wasanaethwr, &c.*] Y gyfraith hon a orfodai y meist annbrugarog i ryddhau y caethwas ag y darfu iddo daraw ei lygad neu ei ddant ef allan; ac os na wnai ddysgn *dyngarwch* iddo, hi a ddysgai *ocheliad*, am y gallai un dymod byrbwyll ei amddifadu ef o bob lawl i wasanaeth ddyfodol y caethwas; ac fel hyn gwai huan-les ei rwymo i fod yn ochelgar a gwyliadwrus.

Adn. 28. *Ac os ŷch*] Neu *durw*, canys y mae *shor* yn arwyddo y ddau. Darperid rhag niwed o'r fath yna gan bob cenedl braidd. Yr oedd y Rhufeiniaid yn rhoddi rhaff *wair* oddeutu cyrn eu hanifeiliaid peryglus hwy,

llabyddier yr ŷch, ac na fwytâer ei gig ef; ac aed perchen yr ŷch yn rhydd.

29 Ond os yr ŷch oedd yn cornio o'r blaen, a hyny trwy dystion wedi ei hysbysu i'w berchenog; ac efe heb ei gadw ef, ond lladd o hono wr neu wraig: yr ŷch a labyddir, a'i berchenog a roddir i farwolaeth hefyd.

30 Os iawn a roddir arno, rhodded werth am ei cinioes, yn ol yr hyn oll a osoder arno.

31 Os mab a gornia efe; neu ferch a gornia efe; gwnele iddo yn ol y farnedigaeth hon.

32 Ond os gwasanaethwr, neu wasanaethferch, a gornia yr ŷch; rhodded i'w perchenog ddeg siel ar hugain o arian, a llabyddier yr ŷch.

33 ¶ Ac os egyptwr gwyr bydew, neu os cloddia un bydew, ac heb gau arno; a syrthio yno ŷch, neu asyn;

34 Perchen y pydew a dâl am danynt: arian a dâl efe i'w perchenog; a'r anifel marw a fydd iddo yntau.

35 ¶ Ac os ŷch gwyr a dery ŷch ei

gymydog fel y byddo efe farw; yna gwerthant yr ŷch byw, a rhanant ei werth ef, a'r ŷch marw a ranant hefyd.

36 Neu os gwybuwyd ei fod ef yn ŷch hwyliog o'r blaen, a'i berchenog heb ei gadw ef; gan dalu taled ŷch am ŷch, a bydded y marw yn ciddo ef.

PENNOD XXII.

OS lladrata un ŷch neu ddafad, a'i ladd, neu ei werthu; taled bum ŷch am ŷch, a phedair dafad am ddafad.

2 ¶ Os cair lleidr yn tori tŷ, a'i daro fel y byddo farw; na choller gwaed am dano.

3 Os bydd yr haul wedi codi arno, coller gwaed am dano; efe a ddyly gwbl-dalu: oni bydd dim ganddo, gwerther ef am ei ladrad.

4 Os gan gael y cair yn ei law ef y lladrad yn fyw, o eidion neu asyn, neu ddafad; taled yn ddwbl.

5 ¶ Os pawr un faes, neu winllan, a gyru ei anifel i bori maes un arall;

fel y gallai y sawl a'i gwelent ymgadw rhag-ddynt. *Na fwytâer ei gig ef*—yr oedd hyn yn gwasanaethu i gadw i fyny iawn ffeiddiad o lofruddiaeth, pa un bynag ai dyn ai anifel a'i cyflawnai; ac ar yr un pryd yn cospi y perchenog mor bell ag yr oedd yn bosibl, trwy lwyrr golled o'i anifel.

Adn. 29. *Ond os yr ŷch oedd yn cornio o'r blaen, &c.*] Amcanwyd y gyfraith hon i wneyd dynion yn ofalus rhag i'w hanifeiliaid niweidio neb. Nid yw yn ddigon i ni beidio gwneuthur drwg ein hunain, eithr rhaid i ni ofalu na wnele ef gan y rhai y gallwn eu hattal, pa un bynag ai dynion ai anifeiliaid. Peidio attal y drwg sydd yn ein gallu ydyw ei gyflawni ef; ac yr ydym yn haeddu cael ein cospi am esgeulusdra yn gystal ag am ddrygioni.

Adn. 30, 31. *Os iawn a roddir arno*] Felly ymddengys, er iddo yn ol y gyfraith ffioffetio ei fywyd, y gellid ei brynu ef yn yr achos hwn, trwy dalu dirwy i berthynas agosaf y trefnedig.

Adn. 32. *Ddeg siel ar hugain*] Yr hyn oedd, yn ol 2s. 6c. y siel, yn £3 15s. o'n harian ni. Hyn a delid yn lle bywyd y perchenog i berthynas agosaf caethwas trefnedig; ond os gymydog a gornid i farwolaeth, neu ei fab neu ei ferch, yr oedd y barnwyr i enwi y swm, adn. 30, 31.

Adn. 33, 34. *Ac os egyptwr gwyr bydew*] A fuasai yn gauedig am hir amser; neu os cloddia un bydew—newydd, gan ei adael yn agored, ac i ŷch neu asyn ei gymydog gael ei ladd trwy syrthio iddo, yr oedd perchenog y pydew i dalu ei werth yn arian, a chai yntau yr anifel marw.

Adn. 35. *Ac os ŷch gwyr a dery ŷch ei*

gymydog] Ac i'r naill ladd y llall, caiff y perchenogion gyfranogi yr un faint a'u gilydd yn y golled.

Adn. 36. *Neu os gwybuwyd ei fod ef yn ŷch hwyliog o'r blaen*] Sef yn un diriaid, neu arferol o gornio; yna rhaid i'w berchenog ateb am y golled i'w gymydog, am y dylasai ei ladd neu ei gadw yn rhwym.

PEN. XXII. Adn. 1. *Taled bum ŷch am ŷch, a phedair dafad am ddafad*] Mwy am ŷch nag am ddafad, am fod y perchenog yn colli llafur beunyddiol ei ŷch. Os na fyddai ef yn alluog i wneuthur ad-daliad, yr oedd i gael ei werthu yn gaethwas am ei ladrad, adn. 3, ac y mae yn debyg mai yr hwn a yspeiliwyd a dderbyniai yr arian.

Adn. 2. *Os cair lleidr yn tori tŷ*] Sef yn y nos, nid oedd gwyr y tŷ i golli ei fywyd er iddo ladd y lleidr.

Adn. 3. *Os bydd yr haul wedi codi arno*] Pan dorai y lleidr i'r tŷ, nid allai gwyr y tŷ ei ladd ef heb ffioffetio ei fywyd ei hun; canys y pryd hyny gellid ei adnabod a'i ddal ef, a gwneuthur ag ef fel y cyfarwyddir yma.

Adn. 4. *Taled yn ddwbl*] Os byddai efe wedi lladd neu werthu y lladrad, yr oedd i dalu y pedwar neu y pum cymaint, adn. 1; ond os ceid yr anifel yn fyw yn ei feddiant, yr oedd i dalu yn ddwbl yn unig.

Adn. 5. *Os pawr un faes neu winllan, &c.*] Hyny yw, os byddai i ddyd ar ol troi ei anifeiliaid i'w faes neu ei winllan ei hun, eu gyru oddiyno i faes neu winllan ei gymydog, yr oedd i wneyd y golled i fyny a'r goreuon yn ei feddiant ei hun. Dywed Chandler, yn ei Deithiau yn Asia Leiaf, fod yr anifeiliaid

taled o'r hyn goreu yn ei faes ei hun, ac o'r hyn goreu yn ei winllan ei hun.

6 ¶ Os tân a dyr allan, ac a gaiff afael mewn drain, fel y difäer däs o fyd, neu fyd ar ei droed, neu faes; gwbl-daled yr hwn a gyneuodd y tân.

7 ¶ Os rhydd un i'w gymydog arian, neu ddodrefn i gadw, a'i ladrata o dy y gwr; os y lleidr a gair, taled yn ddwbl :

8 Os y lleidr ni chair, dyger perchenog y tyt at y swyddogion i *dyngu*, a estynodd efe ei law at ddä ei gymydog.

9 Am bob math ar gamwedd, am eidion, am asyn, am ddafad, am ddilledyn, ac am bob peth a gollo yr hwn a ddywedo *arall* ei fod yn eiddo: deued achos y ddau gerbron y barnwyr; a'r hwn y barno y swyddogion yn ei erbyn, taled i'w gymydog yn ddwbl.

10 Os rhydd un asyn, neu eidion, neu ddafad, neu un anifel, at ei gymydog i gadw, a marw o hono, neu

ei friwo, neu ei yru ymaith heb neb yn gweled :

11 Bydded llw yr Arglwydd rhyngddynt ill dau, na roddes efe ei law at ddä ei gymydog; a chymered ei berchenog *hyny*, ac na wnaed y *llall* iawn.

12 Ac os gan ladrata y lladrateir ef oddiwrtho; gwnaed iawn i'w berchenog.

13 Os gan ysglyfaethu yr ysglyfaethir ef; dyged ef yn dystiolaeth, ac na thaled am yr hwn a ysglyfaethwyd.

14 ¶ Ond os benthycä un gan ei gymydog *ddim*, a'i friwo, neu ei farw, heb *fod* ei berchenog gydag ef; gan dalu taled.

15 Os ei berchenog *fydd* gydag ef, na thaled: os llög *yw* efe, am ei lög y daeth.

16 ¶ Ac os huda un forwyn yr hon ni ddywediwyd, a gorwedd gyda hi; gan gynysgaeddu cynysgaeddedd hi yn wraig iddo ei hun.

17 Os ei thad a lwyrrwrthyd ei

dofion yn hofn yn fawr ddail y *winwydden*, y rhai a roddid iddynt yn yr hydref.

Adn. 6. *Os tân a dyr allan, &c.*] Sylwa Mr. Harmer ei bod yn arferiad cyffredin yn y dwyrain roddi y porfeydd sychion ar dân cyn y gwlawogydd hydrefol, pa dânau, o ddifffyg gofal, sydd yn fynych yn gwneyd niwed mawr: ac mewn gwledydd lle y mae sychder dirfawr, a'r porfeydd yn gyffredin yn grasedig, yr oedd mawr ocheliad yn neillduol angenheidiol; ac yr oedd cyfraith i wlyio yn erbyn y cyfrwy ddyrgan, ac i gospi diofalwch ac esgeulusdra, yn dra chyfaddas.

Adn. 7—10. *Os rhydd dyn i'w gymydog, &c.*] Os dryy dyn arian neu ryw eiddo i gar-iwr i'w drosglwyddo, neu i geidwad nwydd-dy i'w gadw, neu anifeiliaid i amaethwr i'w portli, am daliad da, a bod hyder neillduol yn cael ei roddi yn y person ag y byddont gydag ef; os bydd i'r eiddo yma gael ei ladrata neu ei golli, gael ei ddyfetha neu ei niweidio, a'i bod yn ymddangos na chymerodd hyn le trwy unrhyw fai o eiddo y gwarcheidwad, rhaid i'r perchenog sefyll yn y golled, amgen rhaid i'r hwn a fu yn dwyllodrus i'w ymddiriediad gael ei ofodi i wneyd iawn: gwel ar adn. 12.

Adn. 11. *Bydded llw yr Arglwydd rhyngddynt ill dau*] Yr oedd pob apeliad at Dduw yn cael ei ystyried mor bwysig ac arswydol yn yr hen aniseroedd hyn, nes y cymerid yn ganiataol fod y dyn yn ddiniwed, yr hwn a allai apelio trwy lw at yr hollwybodol Dduw na roddes efe ei law ar ddä ei gymydog. Er pan y mae llwon wedi lluosogi, ac yn cael eu gweinyddu ar yr achosion mwyaf dibwys, y mae eu pwysigrwydd yn ngolwg dynion wedi darfod i raddau helaeth. Os bydd i'w llwon byth adennill eu pwysigrwydd, rhaid i hyn y fod

pan eu gweinyddir yn unig mewn achosion o bwys ac anhawsder neillduol, ac mor anaml ag yn nyddiau Moses.

Adn. 12. *Gwnaed iawn i'w berchenog*] Dengys yr adnodau blaenorol yn amlwg mai pan y methai y gwarcheidwad brofi i'r eiddo gael ei ladrata yn *ddiarwybod* iddo, yr oedd efe i wneyd yr iawn iawn.

Adn. 13. *Os gan ysglyfaethu yr ysglyfaethir ef, dyged ef yn dystiolaeth*] Yn hytrach, 'dyged dystiolaeth o'r ysglyfaeth,' megys y *cyrn*, y *carneau*, &c. Y mae hon yn gyfraith eto mewn rhai gwledydd: gwel Amos iii. 12.

Adn. 14, 15. *Os benthycä un gan ei gymydog, &c.*] Os gwnaï dyn roddi benthyg ei wedd i'w gymydog, a bod y perchenog gyda hi, neu ei fod i dderbyn täl am ei benthyg, pa niwed bynag a ddygwyddai i'r anifeiliaid yr oedd yn rhaid i'r perchenog sefyll yn y golled: ond os byddai y perchenog mor dirion wrth y benthyewr a'i rhoddi iddo yn *rhad*, a dodi y fath hyder ynddo fel ag i'w hymddiried o'i olwg ei hun, yna, os dygwyddai dim niwed, yr oedd yn rhaid i'r benthyewr ei wneyd yn dda.

Adn. 16. *Ac os huda un forwyn, &c.*] Yr oedd hon yn gyfraith dra doeth a thlyner, a rhaid ei bod yn effeithio yn rymus yn erbyn hudaeth a phuteindra; canys gwyddai yr hwn a allai deimlo tuedd i gymeryd mantais ar ferch ieuac, fod yn rhaid iddo ei phriodi, a rhoddi gwaddol iddi, os cydsyniai ei rhieni; ac os na chydysyniet hwy i'w merch briodi ei thwyllwr, yr oedd ef yn rhwym i roddi iddi y llawn waddol ag a allesid ei ofyn pe buasai yn barhaus yn forwyn.

Adn. 17. *Os ei thad a lwyrrwrthyd ei rhoddi hi iddo*] Dengys hyn na ddylai plant briodi heb gydsyniad eu rhieni. Hyd yn nod

rhoddi hi iddo, taled arian yn ol gwaddol morwynion.

18 ¶ Na chaffed hudoles fyw.

19 ¶ Llwyrrodder i farwolaeth bob un a orweddo gydag anifel.

20 ¶ Lladder yn farw a abertho i dduwiau, onid i'r Arglwydd yn unig.

21 ¶ Na orthryma, ac na flina y dyeithr: canys dyeithriaid fuoch chwithau yn nhir yr Aifft.

22 ¶ Na chystuddiuch un weddw, nac amddifad.

yma, lle yr oedd cyfraith Duw yn penodi priodas, fel cosp i'r hwn a wnaethai gam, ac iawn i'r hon a gawsai gam, yr oedd gan y tad hawl i rwystro y briodas. *Taled arian yn ol gwaddol morwynion*—sef deg-a-deugain o sicl-arian, yn cyfateb i £6 5s. o'n harian ni: gwel Deut. xxii. 29.

Adn. 18. *Na chaffed hudoles fyw*] Saes. a *witch*, rheibwraig. 'Pe na buasai hudolesau,' fel y sylwa Clarke, 'ni chwasai y fath gyfraith a hon byth ei gwneuthur. Y mae bodoldeb y *gyfraith*, yr hon a roddwyd dan gyfarwyddyd Ysbryd Duw, yn profi bodoldeb y *peth*. Buwyd yn amau a ydyw *mechasshephah*, yr hwn a gyfieithwn ni *hudoles*, mewn gwirionedd yn meddwl un yn arferyd dewiniaeth neu swynyddiaeth trwy offeryndiaeth ysbrydol neu uffernol. Pa un a oedd y personau a elwir fel hyn yn unig yn *ffuantu* fod ganddynt gelfyddyd nad oedd yn bodoli, ynte a oeddynt yn *gwir* feddiannu y gallu a briodolir yn gyffredin iddynt, sydd holiadau ag y byddai yn anaddas ymbelaethu arnynt mewn gwaith o'r fath yma; ond fod *hudolesau*, *swynwyr*, *rhai yn ymofyn ag ysbryd dewiniaeth*, &c., yn cael eu harddangos yn yr ysgrthyrau santaidd fel yn meddu gallu i alw ar y meirw, i gyflawni gweithredoedd goruwchaturiol, ac i ddatguddio pethau cuddiedig neu ddirlgel trwy gyfareddau, swynion, dewiniaeth, &c., sydd amlyg i bob darlleydydd diragfan o'r Beibl: gwel ar 2 Cron. xxxiii. 6. Oddiwth doster y gyfraith hon yn erbyn hudolesau, &c., gallwn weled yn iuba oleuni yr edrychid ar y rhai hyn gan Ddwyfol Gyfiawnder. Yr oeddynt yn hudo y bobl oddiwrth eu ffyddlondeb i Dduw, ar farn yr hwn yn unig y dylasant ymddibynu; ac wrth chwiliota yn aunnwyl i ddyfodiant, hōnent briodoledd o eiddo Duw, *rhaufymegiad dygwylhidiadau dyfodol*, yr hyn a gynnwysai yuddo ei hun y cablled gwrthunaf, ac a dueddai i lygru meddyliu y bobl trwy eu harwain ymaith oddiwrth Dduw a'r datguddiad a wnaethai efo o hono ei hun. Darfu i lawer o'r Israeliaid yn ddiamau ddyysgu y celfyddydau cywrainhyn oddiwrth eu hir breswylad gyda'r Aifftiaid; a chlymiant oedd ymlyniad yr Israeliaid wrthynt nes yr ydym yn cael fod y cyfryw gelfyddydau mewn bri yn eu plith hwy, ac amrai arferion o'r fath yma yn ffynu trwy yr holl hauciaeth Iuddewig, er fod y trosedd yn mhob achos yn cael ei gospi â *marwolaeth*.' Gwel *Poole, Henry, Benson, Coke, Scott*, &c.

Adn. 19. *A orweddo gydag anifel*] Pe na

23 Os cystuddiuch hwynt mewn un modd, a gwaeddi o honynt ddim arnaf; mi a lwyr wrandawaf eu gwaedd hwynt;

24 A'm digofaint a enyn, a mi a'ch lladdaf â'r cleddyf; a bydd eich gwragedd yn weddwon, a'ch plant yn amddifad.

25 ¶ Os echwyni arian i'm pobl *sydd* dylawd yn dy myl, na fydd fel ocrwr iddynt; na ddod usuriaeth arnynt.

buasai y trosedd tra ffaidd hwn yn beth cyffredin, ni soniedd am dauo mewn deddflyfr cysegredig. Y mae yn dra thebyg mai arferiad Aifftiaidd ydoedd, canys dywed ymdeithwyr ei fod yn arferedig yn yr Aifft hyd heddyw.

Adn. 20. *Lladder yn farw*] Y mae y gair *cherem*, yr hwn a gyfieithir yma 'lladder yn farw,' yn arwyddo hollol ysgaru oddiwrth Dduw, a diofrydu i ddystrw heb y posibilrwydd o ymwared.

Adn. 21. *Na orthryma ac na flina y dyeithr*] Un o wlad neu genedl arall a fyddo yn preswylu yn eich mysg. Byddai peidio gwneyd hyn yn anogaeth i lawer ddyfod i ymmoddi atynt, ac felly chwangew neth eu gwlad; ac wrth gael triniaeth dyner, byddai iddynt ond odid gymeryd eu proselytio i'w crefydd, a chael manteision iachawdwriaeth. *Canys dyeithriaid fuoch chwithau yn nhir yr Aifft*—a gwyddoch trwy brofiad beth mor ofidus ydyw i un gael ei orthrymu a'i flino mewn gwlad ddyeithr.

Adn. 22. *Na chystuddiuch un weddw nac amddifad*] Eithr cysurwch a chynorthwyrwch hwynt ar bob achos. Na chymerwch un fantais arnynt, ac na roddwch un caledi iddynt, ag y buasai priod neu dad yn eu hamddiffyn rhagddo.

Adn. 23, 24. *Os cystuddiuch hwynt mewn un modd, &c.*] Y mae yn nodedig nad yw troseddau o'r gyfraith hon wedi ei adael i ddyspwyll y *barwyr* i'w gospi; y mae Duw yn cadw y gospedigaeth iddo ei hun, a thrwy hyn dengys yn gryf ei atgasrwydd at y trosedd. Nid yw efo yn drosedd cyffredin, ac ni chaiff ei gospi mewn ffordd gyffredin; bydd i ddigofaint Duw enyn yn erbyn yr hwn a wna mewn un modd gystuddio neu amharachu *gwedd* neu *amddifad*: a gallwn fod yn sier fod y neb a *gynorthwya* y nai! neu y llall yn gwneuthur gwasanaeth dra chymeradwy yn ngolwg Duw.

Adn. 25. *Na fydd fel ocrwr iddynt*] I neb o'r Israeliaid, canys goddefid cymeryd ocrwaeth gan y cenhedloedd, Deut. xxiii. 20. *Na ddod usuriaeth arnynt*—gair arall am ocrwaeth. Yr ystyr yw, llōg anghyfreithlon, neu dderbyn mwy am fenthyg arian na'r gwir werth, a mwy nag y mae y gyfraith yn ei ganiatau. Y mae yn drefniad doeth yn nghyfreithiau Lloegr, os profir dyn yn enog o *usuriaeth*, sef o gymeryd llōg anghyfreithlon, fod y *rwymysgrif* neu y *diogelwch* yn cael ei ddiwybu, ac yntau yn ffurfletio cymaint deirgwaith a'r swm a fenthyewyd. Yn erbyn y fath arfer-

26 Os cymeri ddilledyn dy gymydog ar wylstl, dyro ef adref iddo erbyn machludo haul:

27 O herwydd hyny yn unig sydd i'w roddi arno ef; hwnw yw ei ddilledyn am ei groen ef: mewn pa beth y gorwedd? A bydd, os gwaecda efe arnaf, i mi wrando: canys trugarog ydwyf fi.

28 ¶ Na chabla y swyddogion; ac na fell-dithia benaeth dy bobl.

29 ¶ Nac oeda *dalw* y cyntaf o' th ffwrwythau addfed, ac o' th bethau gwylybion: dod i mi y cyntafanedig o' th feibion.

iad gorthymus yr oedd doethineb Dnw yn gweled yn angenrheidiol wneuthur deddf, i attal pobl ag oeddnt yn naturiol yr hyn y geilw ein Harglwydd y Phariseaid, yn *arian-gar*, (Luc xvi. 14.) rhag gorthymu eu gilydd; a'r rhai, er gwaethaf y gyfraith yn y testyn, sydd hyd heddyw yn arferydd usuriaeth yn holl leocedd eu gwasgariad!

Adn. 26. *Os cymeri ddilledyn dy gymydog ar wylstl*] Y mae yn debyg mai ei *lyjke* a feddylir, sef math ar wrthban fras, oddeutu chwe llath o hyd a dwy o led, yr hon y mae yr Arabiaid bob amser yn ei chario gyda hwy yn y dydd, ac yn cysgu ynddi y nos yn lle gwely: gwel ar pen. xii. 34. *Dyro ef adref iddo erbyn machludo haul*—fel y gallu gysgu arno. Y mae yn debyg nad oedd y gwylstl yn cael ei ddychwelyd ond dros y nos yn unig, a bod yr hwn a'i gwystlodd yn ei ddwyn yn ol i'w ofynwr bore dranoeth. *Dywed y rabiniaid*, pa beth bynag a fyddai ar ddyn ei eisiau er cynal bywyd, y byddai efe yn cael y defnydd o hono pan yn anheborol angenrheidiol, er ei fod wedi ei wystlo. Fel hyn yr oedd yn cael y defnydd o'i arfau gweithio yn y dydd, ond yn eu dwyn i'w ofynwr yn yr hwyr. Yr oedd y dychweliad beunyddiol o'r cyfryw i'r gofynwr yn gydnabyddiad gwastadol o'r ddyled, ac yn gwasan-aethu yn lle rhwymiad ysgrifenedig.

Adn. 27. *Canys trugarog ydwyf fi*] Y mae hyn yn cael ei grybwyll nid yn unig fel *rheswm* i gymhell trugarogrwydd a thosturi yn yr Israeliaid, ond hefyd fel *rhybydd* i'r gorthymwyr y byddai i Dduw wrandaw pan waedda'i y dyoddefydd, ac felly ddial ar y gormeswr.

Adn. 28. *Na chabla y swyddogion*] Saes. 'na chabla y *duwiau*;' ond y mae Ainsworth, Benson, Dothroyd, Burder, Coke, Gill, Henry, Patrick, Poole, Sutcliffe, ac amrai ereill, yn cyfieithu y gair yn *swyddogion*, barnwyr, neu ynadon, fel yn y testyn Cymreig. Modd bynag y mae Clarke ac ereill yn gwahaniaethu:—'Y wreiddiol yw *Elohim*, a dylai gael ei ddeall am y gwir Dduw yn unig: *Na chabla* (neu na wna yn ysgafn o) *Dduw*—ffynnonell cyfiawnder a gallu; *ac na fell-dithia benaeth dy bobl*—yr hwn sydd yn derbyn ei awdurdod oddiwrth Dduw. Ni a gawn bob amser fod yr hwn sydd yn dirmygu llywodraeth wladod dda, ac yn anfodlon i'r hon y

30 Felly y gwnai am dy eidion, ac am dy ddfad; saith niwrnod y bydd gyda'i fam, a'r wythfed dydd y rhoddi ef i mi.

31 ¶ A byddwch yn ddyinion sant-aidd i mi: ac na fwytewh gig wedi ei ysglyfaethu yn y maes; teslweh ef i'r ci.

PENNOD XXIII.

NA chyfod enllib; na ddod dy law gyda'r annuwiol i fod yn dyst anwir.

2 ¶ Na ddylyn luaws i *wneuthur* drwg; ac nae ateb mewn ymrafael,

mae yn byw dani, yn un nad oes ond ychydig o ofn Duw gerbron ei lygaid. Y mae ysbryd anfodlonrwydd a therfysg yn groes bob amser i grefydd y Beibl.' Yr awdurdod uwchaf a ddywed, 'Ofnweh Dduw; anrhydeddwch y brenin.'

Adn. 29. *Nac oeda dalw y cyntaf o' th ffwrwythau addfed*] Yr offrmw hwn oedd gydnabyddiad cyhoeddus o radlonrwydd a daioni Duw, yr hwy a roddasai iddynt eu priodol bryd hau, y cynar a'r diweddar wlaw, a defodol wythnosau cynauaf. Oddiwrth arferiad pobl Dduw darfu i'r paganiaid fenthyca un cyffelyb, seiliedig ar yr un rheswm. Y llaw-enychiadau wrth ddwyn ein cynauaf ninaw adref ydynt weddillion gwyrddoedig o'r di-olechgarwch hwnw ag yr oedd ein henafiaid ni, yn nghyda holl gyndrigolion y ddaear, yn ei roddi i Dduw gyda phriodol arwyddion a defodau. *Ac o' th bethau gwylybion*—megys gwin, olew, &c. Dywed Pliny nad oedd yr hen Rufeiniaid byth yn profi en gwinoedd a'u ffwrwythau newyddion nes i'w hofeiriadid offrymu diod-offrmw i'w duwiau. *Dod i mi y cyntafanedig o' th feibion*—gwel ar pen. xiii. 2, 13.

Adn. 30. *Saith niwrnod y bydd gyda'i fam*] Yr oedd yn angenrheidiol i'r llwdn *sugno* cyhyd er iechyd y fam; a chyn yr amser yma braidd y gellir ystyried y gwaith o faethiant mewn anifel ieuant fel wedi ei gwbl berffeithio. Yn nhlith y Rufeiniaid nid ystyried *wyn* fel yn bur neu lân cyn yr wythfed dydd, na *lloi* cyn y degfed ar hugain. *A'r wythfed dydd y rhoddi ef i mi*—ond nid oedd yn cael ei rwymo i'r dydd hwnw, canys gellid ei offrymu unrhyw bryd nes ei fod yn flwydd oed: gwel ar pen. xii. 5, a Lef. xxii. 27.

Adn. 31. *A byddwch yn ddyinion santaidd i mi*] Yma y cawn y rheswm am yr holl orchymynion cynwysedig yn y bennod hon: nid oes un o honynt wedi ei roddi yn unig o *benarglwyddiaeth* Duw, ond fel attaliad ar nwydau afreolus, ac fel cymhelladau i sant-eiddrwydd. *Ac na fwytewh gig wedi ei ysglyfaethu yn y maes*—am nad oedd y *gwaed* wedi ei iawn gymeryd allan o hono, ac am fod yr anifel glân wedi ei *halogi* trwy gyffyrddiad yr un aflan ysglyfaethus. Gwel y rhesymau yn erbyn bwyta gwaed ar Gen. ix. 4.

gan bwyo yn ol llaweroedd i wro barn.

3 ¶ Na pharcha y tylawd chwaith yn ei ymrafael.

4 ¶ Os cyfarfyddi âg eidion dy elyn, neu a'i asyn, yn myned ar gyfngöll; dychwel ef adref iddo.

5 Os gweli asyn yr hwn a'th gasâ yn gorwedd dau ei bwn; a beidi a'i gynorthwyo? gan gynorthwyo cynorthwya gydag ef.

6 Na wŷra farn dy dylawd yn ei ymrafael.

7 Ymgadw'n mhell oddiwrth gamfater: na ladd chwaith na'r gwirion,

Y mae y gair *tissa* yn arwyddo *cyfodi* neu *dderbyn* enllib; ac ar rai prydiau y mae y *derbyniwr* cynddrwg a'r *enllibwr*; canys ni wnai tafod enllibus gymaint o niwed pe na chai dderbyniad. Nis gallwn weithiau lai na *chlywed* enllib, ond rhaid i ni beidio ei *dderbyn*; rhaid i ni beidio ei wrandaw gydag hyfrydwech, na'i goelio yn hawdd. *Ac na ddod dy law gyda'r annuwioel*—na *thynna* fod yr enllib a gyhoeddwyd yn wirionedd. Na *wrandaw* ar enllib; ac os dygwydd i ti ei glywed, na *chyhoedda* ef er niwed i neb.

Adn. 2. *Na ddyllyn lluaws i wncuthur drwg*] Y mae ffordd pechod mor warthus, fel, oni bae fod *lluaws* yn cerdded y ffordd hŏno, y byddai raid i bob pechadur *unig* guddio ei ben. Ond y mae *rabbim*, yr hwn a gyfieithir *lluaws*, yn arwyddo weithiau y *mawrion*; a deallir ef felly gan rai berniaid enwog yn y lle hwn: 'Na ddyllyn siamp y mawrion neu y cyfoethogion, y rhai allant mor bell warthruddo eu cymeriad eu hunain fel ag i fyw heb Dduw yn y byd, a mathru ei gyfreithiau ef.' Bernir fod y cyfarwyddiadau hyn yn cyfeirio yn benaf at achosion yn dyfod dan lygad yr *ymad gweladod*; fel pe dywedasai, 'Nac ymuna gyda gwŷr mawrion i gollfarnu dyn diniwed neu gyfiawn, yn erbyn yr hwn y dychymygasant hiwy niwed o achos ei grefydd, &c.' Y mae hwn yn ystyr tra phwysig i'r geiriau, am fod gan siamp gwŷr o gyfoeth, gallu, ac awdurdod, ddylanwad mawr.

Adn. 3. *Na pharcha y tylawd chwaith yn ei ymrafael*] Ymddengys fod y *tylawd* yma yn cael ei roddi mewn cyferbyniad i'r *mawrion* neu y *pendefigion* yn yr addud flaenorol; ac felly yr ystyr yw, 'Na ogwydder di gan y *mawr* i wneuthur barn anghyfiawn, na chan augen a chyfyngder y *tylawd* i roddi dy lais yn erbyn addysgiadau cyfiawnder a gwirionedd.'

Adn. 4. *Dychwel ef adref iddo*] A byddi felly yn debyg o orchfygu yr elyniaeth, ac ennill dy gymydog.

Adn. 5. *Cynorthwya gydag ef*] I godi ei asyn o dan ei bwn; ac os na fydd i hyny fod yn foddion i'w gymodi ef â thi, tydi o leiaf a ennilli heddwch i ti dy hun, ac anrhydedd i grefydd.

Adn. 6. *Na wŷra farn dy dylawd*] Na chefnoga ef yn ei foiau, ac na cholllfarna ef yn ei gyfiawnderau: gwel ar adn. 3.

na'r cyfiawn: canys ni chyfiawnhaf fi yr annuwioel.

8 ¶ Na dderbyn wobr: canys gwobr a ddalla y rhai sydd yn gweled, ac a wŷra eiriau y cyfiawn.

9 ¶ Na orthryma y dyeithr: chwi a wyddoch galon y dyeithr; o herwydd chwi a fuoch ddeyethriaid yn nhir yr Aiff.

10 Chwe blynedd yr heui dy dir, ac y cesgli ei firwyth:

11 A'r seithfed paid âg ef, a gâd ef yn llonydd; fel y casto tylodion dy bobl fwyta: a bwyaed bwystfilod y maes eu gweddill hwynt. Felly y

Adn. 7. *Ymgadw yn mhell oddiwrth gamfater*] Oddiwrth gynorthwyo neu gefnogi peth drwg. *Ni chyfiawnhaf fi yr annuwioel*—hyny yw, mi a euog-farnaf yr hwn sydd yn condemnio y gwirion a'r cyfiawn.

Adn. 8. *Na dderbyn wobr*] Gan y rhai ag y byddot yn barnu eu hachos; canys er na byddot yn gwerthu cyfiawnder am dano, ti a ymddanghosi fel yn gwneuthur hyny. *Canys gwobr a ddalla y rhai sydd yn gweled*—a fwrw gaddug dros eu llygaid, ac a ogwydda eu barn a'u serchiadau, *Prog. vii. 7. Ac a wŷra eiriau y cyfiawn*—sef *dedfyr* y rhai a fyddent pe amgen yn gyfiawn; neu *achos* y cyfiawn, a'r oll a allo efe ei ddywedyd er ei hunan-amddiffyniad.

Adn. 9. *Na orthryma y dyeithr*] Gwel ar pen. xxii. 21. *Chwi a wyddoch galon y dyeithr*—ar ol i chwi fod yn ddeyethriaid eich hunain, âc am hir amser dan orthrymder llymdost a chreulon, chwi a wyddoch am yr ofnau, y gofalon, a'r pryder ag y mae calon y dyeithr yn eu teimlo.

Adn. 10. *Chwe blynedd yr heui dy dir*] Gwel ar Lef. xxv. 3, &c.

Adn. 11. *A'r seithfed paid âg ef*] Megys yr oedd pob seithfed dydd yn dydd sabbthol, felly yr oedd pob seithfed flwyddyn yn flwyddyn sabbthol. *Fel y casto tylodion dy bobl fwyta*—yr oedd Duw yn rhoddi bendith neillduol i'r chweched flwyddyn, trwy yr hyn y dygai firwyth tair blynedd, Lef. xxv. 21; ac niwenn blynyddoedd o gymaint llawnder, y mae dynion yn gyffredin yn fwy esgeulus wrth fedi, ac felly y mae y gweddillion yn fwy: ac heblaw hyny, yr oedd yr hyn a dyfai o bono ei hun y seithfed flwyddyn i gael ei roddi yn ymorth i'r gwasanaethwr a'r alltud, Lef. xxv. 6; yr hyn oedd yn attalfa i drachwant, ac yn eu cynefino i'r ymarferiad o diriondeb i'w caethwoision a'u hanifeiliaid. *Felly y gwnai am dy winllan ac am dy olewrydden*—ni chai eu hysgythru na'u tinnu hwynt, na chasglu at dy wasanaeth dy hun yr hyn a gynyrebant, ond ti a'i gadewi ef i'r tylodion. Yn hyn oll danghosi Duw mai efe oedd unig Arglwydd y tir, ac nad oeddnt hwy ond deiliaid wrth ei ewyllys ef; dysgai iddynt hefyd ymddiried yn ei ragluniaeth ef, a byddai y tir trwy hyny yn fwy firwythlon.

Adn. 12. *Ac ar y seithfed dydd y gor-phwysi*] Y mae y gorchymyn hwn yn cael ei

gwnai am dy winllau, ac am dy olew-
wydden.

12 Chwe diwrnod y gwnai dy waith;
ac ar y seithfed dydd y gorphwysî:
fel y caffo dy ŷch a'th asyn lonydd-
wch, ac y cymero mab dy forwyn
gath, a'r dyeithr ddynd, ei anadl ato.

13 Ac ymgedweh yn mhob peth a
ddywedais wrthych: na chofiwch enw
duwiau ereill; na chlywer hyny o'th
cuanu.

14 ¶ Teirgwaith yn y flwyddyn y
cedwi ŵyl i mi.

15 Gŵyl y bara croyw a gedwi:
saith niwrnod y bytwai fara croyw,
fel y gorchymynais i ti, ar yr amser

aialdrodd yma, rhag i neb feddwl y gallai y
gorphwysiad wythnosol beidio wedi i'r holl
flwyddyn gael ei chysegru yn orphwysra.
Fel y caffo dy ŷch a'th asyn lonyddwch—
dengys hyn fod gweithio yr anifeiliaid llafur
ar y sabboth fel ar ddyddiau ereill yr wyth-
nos, yn feius yn ngolwg Daw. Dywedir fod
mwy o anifeiliaid yn cael eu dyfetha yn
Lloegr nag mewn un parth arall o'r byd trwy
ormodol lafur. Nid oes gan y march rhag-
orol, yn y cyffredin, un sabboth. A ydyw
Duw yn edrych ar hyn â golwg dïofal? Dïau
nad yw. 'Lloegr,' meddai un dyeithrddyn,
'yw *paradwys* merched, *purdan* gweision a
morwynion, ac *uffern* meirch.'

Adn. 13. *Na chofiwch enwau duwiau er-
eill*] Trwy fod eilunaddoliaeth yn bechod ag y
tuodent hwy yn fawr ato, rhaid iddynt ym-
drechu i ddileu y goffadwriaeth am dduwiau y
paganïau o'u plith, a pheidïo crybwyll eu
flurf-ymadroddion na'u henwau ond gyda
chasineb.

Adn. 14—16. *Teirgwaith yn y flwyddyn y
cedwi ŵyl i mi*] Y tair gŵyl hyn oeddynt,
1. Gŵyl y PASC; 2. Gŵyl y PENTECOST;
3. Gŵyl y PEBYLL. 1. Yr oedd gŵyl y
PASC yn cael ei chadw i goffa am waredigaeth
ryfeddol yr Israeliaid o'r Aifft. 2. Gŵyl y
PENTECOST, a elwid hefyd *gŵyl y cynauaf* a
gŵyl yr wythnosau, pen. xxxiv. 22, a gedwid
yn mhen y deg niwrnod a deugain wedi y
Pasc, i goffa am roddiad y ddeddf ar Sinai.
3. Gŵyl y PEBYLL, a elwid hefyd *gŵyl y
cynull*, a gedwid oddeutu y 15fed o fis *Tisri*,
i goffa am breswylïad yr Israeliaid mewn peb-
yfl ddengain mlynedd yn yr anialwch: gwel
ar Lef. xxiii. Darfu i Dduw yn ddoeth benodi
hyn, 1. I fytholi y goffadwriaeth o'r dygwydd-
iadau mawrin hyny. 2. I'w cadw hwy yn
ffyddlon i'w crefydd trwy seremonïau cyfadd-
as, a gwycheder y ddwyfod wasanaeth. 3. I
gaffael iddynt hyfrydwch cyfreithlon, a gor-
phwysdra angenrheidiol. 4. I roddi addysg
iddynt; canys yn eu cynullïadau crefyddol
yr oedd cyfraith Duw yn cael ei darllen a'i
hegluro bob amser. 5. I gyfrwmo eu hun-
deb cymdeithasol, trwy adnewyddu cydna-
byddiaeth eu llwythau a'u teuluoedd; canys
yr oeddynt yn dyfod yn nghyd i Jerusalem
ar yr achlysuron hyn o wahanol barthau y
wlad.

gosodedig o fis Abih: canys ynddo
y daethost allan o'r Aifft; ac nac
ymddanghosed *neb* ger fy'mron yn
waglaw:

16 A gŵyl cynhauaf blaenffrwyth
dy lafur, yr hwn a heuaist yn y maes;
a gŵyl y cynull yn niwedd y flwydd-
yn, pan gynullech dy lafur o'r maes.

17 Tair gwaith yn y flwyddyn yr
ymddengys dy holl wrywiaid gerbron
yr Arglwydd dy Dduw.

18 Nac abertha waed fy aberth
gyda bara lefeinllyd; ac nac arhoed
brasder fy aberth dros nos hyd y
bore.

19 Dwg i dŷ yr Arglwydd dy Dduw

Heblaw y gŵyliau uchod yr oedd gan yr
Iuddeuon, 1. Wyl y *Sabbath*, yr hon oedd
yn ŵyl wythnosol. 2. Gŵyl y *Flwyddyn
Sabbthol*, yr hon oedd yn ŵyl saith-flyn-
yddol. 3. Gŵyl yr *Udgyrn*, yr hon a gedwid
y dydd cyntaf o'u blwyddyn wladol, ac a
arweinid i mewn trwy ganiad udgyrn, Lef.
xxiii. 24, &c. 4. Gŵyl y *Newydd-loer*, yr
hon a gedwid y dydd cyntaf o ymddangosiad
y lloer ar ol iddi newid. 5. Gŵyl y *Cymod*,
yr hon a gedwid yn flnyyddol ar y degfed
dydd o fis *Tisri*, ar ba un y gwneid cymod
cyffredinol dros yr holl bechodau, yr esgeulus-
ïadau, a'r auwybodaethau trwy y flwyddyn.
6. Gŵyl y *Purim* neu y *Coelbreni*, i goffa
am gadwraeth yr Iuddeuon rhag y gyflafan
gyffredinol a gynlluniwyd gan Haman, Esth.
ix. 21, &c. 7. Gŵyl *Cysegrïad* neu yn
hytrach *Adferïad* y deml, yr hon a balogesid
gan Antiochus Epiphanes: gelwid hon hefyd
yn ŵyl y *Goleuadau*. Gwel ar Ioan x. 22.
Yr oedd gan yr Iuddeuon hefyd lawer o ŵyl-
ïau ereill, megys, 1. Gŵyl y *Canghenau*, i
goffa am gymeriad Jericho. 2. Gŵyl y *Casgl-
ïadau*, ar y 15fed o Fedi, ar yr hon y gwnaent
gyfraniadau at wasanaeth y deml a'r synagog.
3. Gŵyl marwolaeth *Nicanor*, 1 Mac. vii. 48,
&c. 4. Gŵyl datguddïad y *Tân Santaidd*,
2 Mac. i. 18, &c. 5. Gŵyl y cario *Coed* i'r
deml, a elwid *Alylophoria*, a grybwyllir gan
Josephus, RHYF. llyfr ii. pen. 17.

Adn. 17. *Yr ymddengys dy holl wrywiaid*]
Pawb ag oeddynt yn dair blwydd ar ddeg oed
ac uchod, ac yn meddu iechyd a nerth, ac yn
rhyddion. Y mae yn debyg fod y caethweis-
ion yn esgusodol; canys nid oedd neb i ym-
ddangos heb *offrw*m ganddo, Deut. xvi. 16;
ac nid oedd gan y rhan fwyaf o'r rhai hyn
ddim i'w offrywmu.

Adn. 18. *Nac abertha waed fy aberth gyda
bara lefeinllyd*] Yr aberth yma yw *oen y
pasc*, pen. xxxiv. 25; ac y mae Jehofa yn ei
alw ef yma, mewn ffordd o enwogrydd, *FY
aberth*, am mai efe a'i sefydlodd, pen. xii. 3,
&c., ac am ei fod yn cysgodi *Oen Duw*, yr
hwn sydd yn tyau ymaith bechodau y byd.
Gwelsom eisioes mor fanwl oedd y gwahardd-
ïad o *lefa*in yn ystod yr ŵyl hono, a pha beth
a arwyddid trwy hyny: gwel ar pen. xii.

Adn. 19. *Na ferwa fŷn yn llaeth ei fam*]
Trwy fod y gorchymyn hwn yn cael ei roddi

y cyntaf o flaenffrwyth dy dir. Na ferwa fŷn yn llaeth ei fam.

20 ¶ Wele fi yn anfon angel o'th flaen i'th gadw ar y ffordd, ac i'th arwain i'r man a barotoais.

21 Gwyllia rhagddo, a gwrando ar ei lais ef; na chyffroa ef: canys ni ddyoddef eich anwiredd: oblegid y mae fy enw ynddo ef.

22 Os gan wrando y gwrandewi ar ei lais ef, a gwneuthur y cwbl a lcfarwyf; mi a fyddaf elyn i'th elynion, ac a wrthwynebas dy wrthwynebwyr.

23 O herwydd fy angel a â o'th flaen di, ac a'th ddwy di i mewn at yr Amoriaid, a'r Hethiaid, a'r Phereziaid, a'r Canaaneaidd, yr Hefiaid, a'r Jebusiaid; a mi a'u dyfethaf hwynt.

24 Nac ymgryma i'w duwiau hwynt, ac na wasanaetha hwynt, ac na wna

yn ol eu gweithredoedd hwynt; ond llwyr-ddinystria hwynt, dryllia eu delwau hwynt yn gandryll.

25 A chwi a wasanaethwch yr Arglywydd eich Duw, ac efe a fendithia dy fara, a'th ddwfr; a mi a dynaf ymaith bob clefyd o'th fysg.

26 ¶ Ni bydd yn dy dir di ddim yn erthylu, na heb hilio: mi a gyflawnaf rifedi dy ddyddiau.

27 Mi a anfonaf fy arswyd o'th flaen, ac a ddyfethaf yr holl bobl y deui atynt, ac a wnafl i'th holl elynion droi eu gwarau atat.

28 A mi a anfonaf gacwn o'th flaen, a hwy a yrant yr Hefiaid, a'r Canaaneaidd, a'r Hethiaid, allan o'th flaen di.

29 Ni yraf hwynt allan o'th flaen di mewn un flwyddyn; rhag bod y

mewn cysylltiad âg offrymiad y blaenffrwythau, meddylia rhai fod ganddo gyfeiriad at daliad y frwythau hyn, ac at ryw arferion offer-gaelus o eiddo y paganiaid ar y cyfryw achlysuron; 'y rhai, ar ol iddynt gasglu i mewn eu holl frwythau, a gymereut fŷn, ac a'i berwent ef yn llaeth ei fam; ac yna, mewn ffordd o gyfaredd, taenellent âg ef eu holl goed, eu maesydd, a'u gerddi, gan feddlw trwy hyny eu gwneuthur yn fwy frwythlon, fel y byddai iddynt gnydio yn helaethach y flwyddyn ganlynol.' Gwel Dr. CUDWORTH ar 'Swper yr Arglywydd,' dal. 14. Tybia ereill mai gwaharddiad sydd yma i offrymu anifel yn aberth pan fyddo yn llaethog neu heb berffeithio, neu cyn ei fod yn wyth niwrnod oed, hyd ba amser yr oedd i'w adael gyda'i fam, pen. xxii. 30. A barna ereill fod y gorchymyn hwn yn cael ei fwrriadu yn benaf, fel llawer ereill o ddeddfau Duw, er attal creulondeb at y creaduriaid, ac i feithrin tymber hynaws a thyner. 'Na wna ddim a ddichon fod yn meddu unrhyw duedd i bylu dy deimladau moesol, neu ddyngu i ti galedwch calon.' Byddai yn greulondeb o'r mwyaf beri i'r fam roddi benthyg ei llaeth i ferwi cig ei llwddn ynddo!

Adn. 20. *Wele fi yn anfon angel o'th flaen*] Y mae rhai esbonwyr yn meddwl mai Moses a feddylir wrth yr 'angel' hwn, ereill Josua, ereill y cwmwl, ac ereill raghuniacth Duw; ond y mae y rhan fwyaf o lawer yn meddwl mai Angel mawr y Cyfammod, yr ARGWYDD IESU CRIST, a feddylir: gwel isod.

Adn. 21. *Canys ni ddyoddef eich anwiredd*] Saes. 'ni faddeu efe eich troseddiadan.' Nid yw efe megys dyn, gyda'r hwn y gallwch gellwair: pe buasai efe yn ddyn neu angel creëdig, ni fuasai raid dywedyd, 'Ni faddeu efe eich troseddiadan,' canys ni allai un creadur wneuthur hyny, Marc ii. 7, Luc v. 21, &c. *Oblegid y mae fy enw ynddo ef*—fy natur, fy mhriodoliaethau, a'm hawdurdod. 'Oblegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdd yn preswyllo yn gorfforol,' Col. ii. 9. Gwel yr adfeddyliaidau ar Gen. xvi.

Adn. 22. *Os gan wrandewi y gwrandewi ar*

ei lais ef] Yr hwn a glywir yn yr holl ddeddfau hyn, ac yn addysgiaidau cyfryngol Moses.

Adn. 23. *Ac a'th ddwy di i mewn at yr Amoriaid, &c.*] Nid oes yma ond *chwech* o'r saith genedl yn cael eu henwi; a thybia rhai mai yr achos yw, am fod y *Girgasiaid* wedi eu darostwng gan yr Amoriaid, ac yn debygol wedi ymgymysgu â hwynt. Modd bynag, y mae un ysgrifiyfr Hebreig, yn nghyda'r Samaritanaeg, y Goptaeg, a'r LXX, yn chwaneu yma y *Girgasiaid*, ac felly yn gwneyd *saith* genedl.

Adn. 24. *Dryllia eu delwau hwynt yn gandryll*] Rhag i ti gael dy demtio i'w haddoli, neu offrymu iddynt.

Adn. 25. *Efe a fendithia dy fara a'th ddwfr*] Dy fywd a'th ddiod, o ba fath bynag; a bydd yr ymborth gwaelfaf yn ddigon maethlon pan fo bendith Duw arno. *A mi a dynaf ymaith bob clefyd o'th fysg*—neu a'u hattiaf rhag ymwelw a'th drigfanau, Balm xci. 3, &c.

Adn. 26. *Ni bydd yn dy dir di ddim yn erthylu*] Ac felly rhaid y byddai yno gynydd mawr ar ddynion ac anifeiliaid. *Mi a gyflawnaf rifedi dy ddyddiau*—cewch oll fyw i oedran tŷg, heb neb yn marw cyn ei amser. Hon yw bendith y cyfiawnder; canys gwŷr drygionus 'ni byddant byw hanuwr eu dyddiau,' Salm lv. 23.

Adn. 27. *Mi a anfonaf fy arswyd o'th flaen*] Mi a darawaf drigolion Canaan âg arswyd, yr hyn a hwllysa y fuddugoliaeth arnynt, Jos. ii. 9, 10.

Adn. 28. *A mi a anfonaf gacwn o'th flaen*] Cyflawnwyd hyn yn llythyrenol, pryd y gyrwyd allan ddau frenin yr Amoriaid ganddynt, Jos. xxiv. 12: gwel hefyd Doeth. xii. 8. Dyry Bochart (*Hieroz.*, dal. 534,) amrai anghreiffitiau o genhedloedd yn gorff gadael eu gwlad o achos gwenyn, caewn, a chilŷr. Anfynych y mae cilŷr yn colynu dyn, fel y sylwa Pliny, heb ei dafu i gynddaredd twymyn. Ni allai un arfogaeth dycio yn erbyn y rhai hyn, a byddai ychydig filoedd o honynt yn alluog i dafu y fyddin fwyaf medrus i dlyryswech ac ar flo.

wlad yn annghyfanedd, ac i fwystfilod y maes amlhau yn dy erbyn di.

30 O fesur ychydig ac ychydig y gyraf hwynt allan o'th flaen di, nes i ti gynyddu ac etifeddu y tir.

31 A gosodaf dy derfyn o'r môr coch hyd fôr y Philistiaid, ac o'r diffachtwech hyd yr afon: canys mi a roddaf yn eich meddiant breswylwyr y tir; a thi a'u gyri hwynt allan o'th flaen.

32 Na wna ammod â hwynt, nac â'u duwiau.

33 Na âd iddynt drigo yn dy wlad; rhag iddynt beri i ti bechui'm herbyn: canys os gwasanaethi di eu duwiau hwynt, diau y bydd hyny yn dramgwydd i ti.

Adn. 29. *Ni yraf hwynt allan o'th flaen di mewn un swyddlyn, rhag bod y wlad yn annghyfanedd*] Trwy nad oedd yr Israeliaid yn ddigon lluosog i boblogi yr holl wlad yn ebrwydd. Yr oedd gan ragluniaeth befyd ddyben arall mewn golwg wrth oddef i rai o'r Canaanaeid aros yn y wlad; yr oeddynt 'i brofi Israel, i wybod a wrandawent hwy ar orchymynion yr Arglwydd, Barn. iii. 4. *Ac i fwystfilod y wlad amlhau yn dy erbyn di*—yr oedd bwystfilod o anialwech Arabia yn gwneyd ymgycbiadau mynych i Ganaan i chwilio am ysglyfaeth, ac ni ellid eu gyru allan ond trwy eu hela yn barhaus gan y Canaanaeid.

Adn. 30. *O fesur ychydig ac ychydig*] Yr hyn ni wnaed yn hollol am hwy na 400 o flynyddoedd, hyd amser Dafydd a Solomon.

Adn. 31. *A gosodaf dy derfyn o'r môr coch*] Yn y deau-ddwyrain, *hyd fôr y Philistiaid*—sef Môr-y-canoldir, yn y gogledd-orllewin; ac *o'r diffachtwech*—Arabaid, neu anialwech Sur, yn y gorllewin, *hyd yr afon*—yr Euphrates, yn y gogledd-ddwyrain. Neu, mewn geiriau cyffredin, o'r Euphrates yn ddwyreiniol, hyd Fôr-y-canoldir yn orllewinol; ac o fynydd Libanus yn ogleddol, hyd y môr coch a'r Nilus yn ddeheuol. Ni chafodd yr addewid hon ei chwbl gyflawni hyd ddyddiaid Dafydd a Solomon. Darfu i anuffydd-dod cyffredinol y bobl *cyn* yr amser yma attal cyflawniad cyflymach; a'u banuffyddod *ar ol hyny* a barodd iddynt goll i meddiant. *A thi a'u gyri*—Samaritanaeg, 'a mi a'u gyraf hwynt allan o'th flaen.'

Adn. 32. *Na wna ammod â hwynt*] Yr oeddynt yn eilunaddolwyr anfeddygriaethol, ac yr oedd ewpan eu hanwiredd yn llaw; a phe gwnaethai yr Israeliaid ryw gyfathrach â hwynt mewn ystyr crefyddol neu wladol, buasant yn debyg o gael eu denu i'w heilunaddoliaeth, i'r hyn yr oedd yr Iuddewon bob amser yn dueddol; a chan y mynai Duw iddynt hwy gadw y wir grefydd hyd ddyfodiad y MESSIA, am hyny efe a gaeth waliarddai iddynt oddef eilunaddoliaeth.

Adn. 33. *Na âd iddynt drigo yn dy wlad*] Oddeithr iddynt ynwithed â'u heilunaddol-

PENNOD XXIV.

AC efe a ddywedodd wrth Moses, Tyred i fyny at yr Arglwydd, ti, ac Aaron, Nadab ac Abihu, a'r deg a thriugain o henuriaid Israel; ac addolwch o hirbell.

2 Ac aed Moses ei hun at yr Arglwydd; ac na ddelont hwy, ac nac aed y bobl i fyny gydag ef.

3 ¶ A Moses a ddaeth, ac a fynegodd i'r bobl holl eiriau yr Arglwydd, a'r holl farnedigaethau. Ac atebodd yr holl bobl yn un-air, ac a ddywedasant, Ni a wnawn yr holl eiriau a lefarodd yr Arglwydd.

4 A Moses a ysgrifennodd holl eiriau yr Arglwydd; ac a gododd yn fore, ac a adeiladodd allor islaw y

iaeth, yr hyn a ddeallir yn eglur; canys ar eu dyfodiad yn broselytiaid i'r grefydd Iuddewig, gallent drigo yn eu plith. Gwlad yr Israeliaid yn briodol oedd Canaan, am ddarfod ei rhoddi i'w tatau Abraham, Isaac, a Jacob, gan Arglwydd yr holl ddaear. *Canys os gwasanaethi di eu duwiau hwynt*—yr hyn a wnei; canys dyma fydd ffrwyth dy breswyliaid gyda hwynt; *diau y bydd hyny yn dramgwydd i ti*—efe a'th fagla mewn drvgioni, ac a brofa yn ddinystri i ti; ac felly y dygwyddodd, Num. xxv. 1, &c., Barn. ii. 1, &c.

PEN. XXIV. Adn. 1. *Tyred i fyny at yr Arglwydd, &c.*] Trwy fod Moses eisioes ar y mynydd, yr ystyr yw, 'Ar ol i ti fyned i waered at y bobl, a bysbysu y barnedigaethau hyn iddynt fel eu hadroddir yn pen. xxi—xxiii, a derbyn eu hatebiad hwy mewn perthynas iddynt, yna tyred i fyny drachefu.' Yr oedd Moses i gymeryd gydag ef Aaron a'i ddau fab hynaf, Nadab ac Abihu, y rhai oeddynt i'r gael eu paratoi i'w swydd santaidd; ac yr oedd deg-a-thriugain o henuriaid Israel i esgyn befyd, fel y gallent fod yn dystion o'r gyweithas ddigyfrwg ag ydoedd rhwng Moses a Duw, ac felly dderbyn ei genadwri ef yn well. *Ac addolwch o hirbell*—cyn eu dyfod yn agos i'r presenoldeb dwyfol rhaid iddynt addoli; ac felly y dylem ninau nesâu at deml Dduw, mewn ysbryd addoli.

Adn. 2. *Ac aed Moses ei hun at yr Arglwydd*] I ben y mynydd, gan fod yn hyny yn gysgod o Grist, yr hwn, fel ein Harehoffieriaid mawr ni, a aeth ei hun i'r cysegr sant-eiddiolaf. *Ac na ddelont hwy*—Aaron a'i feibion a'r henuriaid: hyny yw, na ddelont yn hollol i ben y mynydd gyda Moses, er eu bod i fyned gryn ffordd. *Ac nac aed y bobl*—sef yr holl genedl: yr oeddynt hwy i aros i lawr wrth odre y mynydd.

Adn. 3. *A Moses a ddacth, ac a fynegodd i'r bobl*] Yr holl eiriau a'r gorchymynion cynwysedig yn y tair pennod flaenorol: yr oeddynt wedi clywed y deg gorchymyn o'r blaen gan Dduw ei hun. *Ac efe a ofynodd iddynt, a oeddynt hwy yn foddlon i ymostwng i'r deddfau*—hyn ai peidio, neu i gymeryd yr

mynydd, a deuddeg colofn, yn ol deuddeg llwyth Israel.

5 Ac efe a anfonodd lanciau meibion Israel; a hwy a offrymasant boeth-offrymau, ac a aberthasant fustych yn ebyrth hedd i'r Arglwydd.

6 A chymerodd Moses hanner y gwaed, ac a'i gosododd mewn cawgiau, a hanner y gwaed a daenellodd efe ar yr allor.

7 Ac efe a gymerth lyfr y cyfammod, ac a'i darllenodd lle y clywai y bobl. A dywedasant, Ni a wnawn, ac a wrandawn yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd.

Arglwydd yn Dduw iddynt ar yr ammod o'u cadw? A hwy oll âg uu llais a gydsyniasant.

Adn. 4. *A Moses a ysgrifennodd holl eiriau yr Arglwydd*] Fel eu gwelir yn pen. xxi—xxiii; canys Jehofa ei hun a ysgrifennodd y deg gorchymyn, adn. 12. *Ac a adeiladodd allor*—o bridd neu dyweirch ond odid, megys y gorchymynwyd, pen. xx. 24; *a deuddeg colofn*—sef deuddeg carreg heb eu naddu, y rhai a osododd efe o amgylch yr allor i arddangos deuddeg llwyth Israel, fel yr oedd yr allor ei hun yn cynrychioli Duw. Dyma y pleidiau ag oeddynt i ymgysfiamodi ar yr achlysur hwn.

Adn. 5. *Ac efe a anfonodd lanciau*] Gwŷr ieuainc cryfion, dewrion, a chymeradwy, wedi eu dewis allan o'r gwahanol lwythau, i'r dyben i ladd, blingo, ac aberthu y bustych a grybwyllir yma. Ond y mae y Galdeaeag yn ei gyfieithu, 'efe a anfonodd y *cyntafanedigion*;' canys yr oedd y rhai cyntafanedig yn *offeiriad* yn mhob teulu; eithr yn uhlith yr Israeliaid cawsant wedi hyn eu prynu, a rhoddwyd llwyth Lefi i Dduw yn eu lle hwynt. Modd byuag, y mae y gair *nagnairei* yn arwyddo *bywiog* yn gystal ag *ieuanc*; ac yr oedd nerth a bywiogrwydd yn angenrheidiol at y fath waith, er mai Moses ei hun oedd yn cyflawni prif swydd yr offeiriad, adn. 6. *Boeth-offrymau*—y rhai oeddynt yn gyffredin o'r defaid neu o'r geifr, Lef. i. 10, ac yn cael eu cwbl ddifa gan dân. *Ebyrth hedd*—o'r bustych neu o'r praidd, Lef. iii. 7, 12. Yr oedd gwaed y rhai hyn yn cael ei dywallt gerbron yr Arglwydd, ac wedi hynny gallai yr offeiriad a'r bobl gydwledda ar y cig.

Adn. 6. *Ac a'i gosododd mewn cawgiau*] I'w daenellu ar y bobl: gwel ar adn. 8.

Adn. 7. *Ac efe a gymerth lyfr y cyfammod*] Sef yr ysgrifen a gynnwysai y deddfau crybwylliedig yn y tair penod flaenorol. Trwy fod yr ysgrifen hon yn cynwys y cytundeb a wnaed rhwng Daw a hwythau, gelwid hi yn *lyfr y cyfammod*; a chan nad ystyrir un cyfammod wedi ei gadarnhau ac yn rhwymol hyd nes yr offrymid aberth ar yr achlysur, wele yma boeth-offrymau ac ebyrth hedd, adn. 5. Am yr hen drefn o wneuthur cyfammodau, gwel ar Gen. vi. 18, a xv. 18.

Adn. 8. *Ac a'i taenellodd ar y bobl*] Yr oedd fod hanner y gwaed yn cael ei daenellu

8 A chymerodd Moses y gwaed, ac a'i taenellodd ar y bobl; ac a ddywedodd, Wele, waed y cyfammod, yr hwn a wnaeth yr Arglwydd â chwi, yn ol yr holl eiriau hyn.

9 ¶ Yna yr aeth Moses i fyny, ac Aaron, Nadab ac Abihur, a deg a thriugain o henuriaid Israel.

10 A gwelsant Dduw Israel; a than ei draed megys gwaith o faen saphir, ac fel corff y nefoedd o ddysgleirder.

11 Ac ni roddes ei law ar bendefigion meibion Israel; ond gwelsant Dduw, a bwytsant ac yfasant.

ar yr allor, a'i hanner yn cael ei daenellu ar y bobl, yn dangos fod Duw a hwythau wedi eu cydrwymo trwy y cyfammod hwn. Yr oedd Duw yn rhwym i'r bobl, i'w cynal, eu hamddiffyn, a'u gwaredu hwy; yr oedd y bobl yn rhwym i Dduw, i'w ofni, ei garu, a'i wasanaethu yntau. Gan na allai hyn gael ei wneuthur â holl gorff y bobl, tybia rhai i'r gwaed gael ei daenellu ar y deuddeg colofn a grybwyllir adn. 4, y rhai a gynrychiolent ddeuddeg llwyth Israel; neu ar henuriaid Israel yn unig. Yr oedd taenellid y gwaed ar y ddwy blaidd yn dangos hefyd y byddai i farwolaeth Crist roddi i *gyfiawnder* ei ofynion, ac i *ddyinion* yr hyn yr oeddynt mewn angen am dano.

Adn. 9. *Yna yr aeth Moses i fyny*] A'r offeiriad a'r henuriaid gydag ef, fel y nodwyd ar adn. 1.

Adn. 10. *A gwelsant Dduw Israel*] Neu, fel y mae y Galdeaeag yn ei ddarlennu, 'gwelsant *ogoniant* Duw;' hynny yw, cawsant ryw gipolwg ar ei ogoniant, mewn goleuni a thân, er na welsant 'ddim llun,' Deut. iv. 15. Ond tybia rhai fod y geiriau hyn, yn Deut. iv. 15, yn cyfeirio yn hytrach at y gorchwylliaethau a grybwyllir yn pen. xix, xx; a darfod i Angel mawr y Cyfammod, yr hwn wedi hyn a wisgodd ein natur ni, ymddangos ar yr achlysur hwn mewn ffurf ddynol. Yr oedd yn angenrheidiol i'r cynrychiolwyr hyn o'r genedl fod yn dystion o'r amlygiad gogoneddus a dwyfol hwn, i'r dyben i gael prawf boddhaol o wirionedd y datguddiad a wnaethai efe o hono ei hun a'i ewyllys. *A than ei draed*—ond ni ddywedir iddynt weled ei draed; *megys gwaith o faen saphir*—llawr neu balmant tryloyw, fel pe buasai wedi ei weithio o'r gem hwn. *Saphir* sydd faen gweithfawr o liw glas prydfertth, yn ail mewn caledwch a gwerth i'r adamant. Y mae o'r un rywogaeth a'r *rubi* a'r *topaz*, y rhai a ystyrir yn *saphir* o liw gwahanol, megys coch, melyn, neu wyrdd. A thybho fod y tri math yma o *saphir* yn cael eu bwriadu yn y lle hwn, mor ogoneddus y rhaid fod palmant brith cyfansoddedig o feini llathraidd o'r fath yma, perffaith dryloyw, gydag arddysgleirdeb gogoniant dwyfol yn dywalltiedig arno! Trwy fod y gogoniant dwyfol yn ymddangos *goruwch* y mynydd, yr oedd yr henuriaid yn gweled y palmant saphir uwch eu penau; a chan ei fod yn *dryloyw*, rhaid fod

12 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dyred i fyny ataf i'r mynydd, a bydd yno : a mi a roddaf i't' lechau cerig, a chyfraith, a gorchymynion, y rhai a ysgrifennai, i'w dysgu hwynt.

13 A chododd Moses, a Josua ei weinidog; ac aeth Moses i fyny i fynydd Duw.

14 Ac wrth yr henuriaid y dywedodd, Arhoswch ni yma, hyd oni ddelom ni atoch drachefn : ac wele, Aaron a Hur gyda chwi; pwy bynag a fyddo âg achos iddo, deued atynt hwy.

llwyrchiad y gorddysgleirdeb gogoneddus arno yn mwybau yr effaith yn fawr. *Fel corff y nefoedd o ddysgleirder*—fel yr awyr glas yn ei glaerder mwyaf.

Adn. 11. *Ac ni roddes ei law ar bendefigion meibion Israel* [Hyny yw, fel y myn rhai ei ddeall, 'ni luddodd efe hwynt, ac ni dderbynasant ddim niwaid : gwel Neh. xiii. 21, Salm lv. 20. Eithr y mae yn debycach mai yr ystyr yw, nad ymguddiodd efe oddiwrihnt trwy eu gorchuddio a'i law, megys y gwnaeth â Moses, pen. xxxiii. 22; *onl gwelasant Dduw*—cawsant ryw arddanghosiad o'i ogoniant digrëedig trwy y llawr tryloyw ag oedd nwch eu penau; a *bwytsasant ac yfasant*—hyny yw, cadwyd hwy yn fyw, er iddynt gael y dadleniad hwn o'i favredd; (gwel ar Barn. xiii. 22, 23;) neu, ni thafwyd dim prudd-der ar eu llawenydd, ond yn hytrach chwaneuwyd ef, a gwleddasant ar ddarnau yr aberth gyda diolchgarwch.

Adn. 12. *A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dyred i fyny*] Yr oedd amrai saff-oeedd ar y mynydd. Yr oedd gogoniant yr Arglwydd ar y cwr uwchaf; ac i'r man hwn y gelwir Moses yn awr, gan adael yr henuriaid islaw ar ran arall o'r mynydd. *Mi a roddaf i't' lechau cerig*—fel y byddai i'r gorchymynion gael eu cadw mewn perfffeithrwydd i'r oesoedd a ddeuent. Dywed yr Iuddeuon mai *saphir* oedd y cerig hyn.

Adn. 13. *A chododd Moses a Josua*] Josua oedd i fod ei ganlynydd ef, ac am hyny anrhydeddwyd ef fel hyn gerbron y bobl, a pharotwyd ef fel hyn trwy gael ei ddwyn i fyny mewn cymundeb â Duw. Yr oedd Josua yn *gysgod o Grist*; ac, fel y sylwa yr Esgob Pearson yn dda, y mae Moses yn ei gymyred gydag ef i'r mynydd, oblegid heb Iesu, yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybod-aeth yn guddiedig, nad oes dim edrych i mewn i ddirgeleddigaethau y nef, na nesâu i bresenoldeb Duw.

Adn. 14. *Arhoswch ni yma*] Fe allai na wyddai Moses ei fod ef i aros cyhyd ar y mynydd, ac nid yw yn debyg i'r henuriaid aros yr holl ddegain niwrnod lle yr oeddnynt; gellir meddwl ddarfod iddynt, ar ol dysgwyl gryu amser, ddychwelyd i'r gwersyll; a thyb-ia rhai mai eu hachweliad hwy oedd y prif achos i'r Israeliaid wneyd y llo aur, trwy iddynt glywed ond odid fod Moses wedi ei goll. *Wele Aaron a Hur gyda chwi*—i

15 A Moses a aeth i fyny i'r mynydd; a chwml a orchuddiodd y mynydd.

16 A gogoniant yr Arglwydd a arhodd ar fynydd Sinai, a'r cwmwl a'i gorchuddiodd chwe diwrnod: ac efe a alwodd am Moses y seithfed dydd o ganol y cwmwl.

17 A'r golwg ar ogoniant yr Arglwydd oedd fel tân yn difa ar ben y mynydd, yn ngolwg meibion Israel.

18 A Moses a aeth i ganol y cwmwl, ac a aeth i fyny i'r mynydd: a bu Moses yn y mynydd ddegain niwrnod a deugain nos.

drefnu pa achos bynag a ddygwydda yn fy absenoldeb.

Adn. 15. *A Moses a aeth i fyny i'r mynydd*] At ymyl y cwmwl ag ydoedd yn gorchuddio pen y mynydd, ond nid iddo.

Adn. 16. *A'r cwmwl a'i gorchuddiodd chwe diwrnod*] Hyny yw, a orchuddiodd ben y mynydd cyhyd a hyn, gan orchuddio y gogoniant dwyfol hefyd ond odid o olwg Moses a Josua, os nid o olwg pawb. Yr oedd hwn yn arwydd gweledig o bresenoldeb neillduol Duw yno; canys y mae efe yn ei ddangos ei hun yn y fath fodd i ni, fel ag i ymguddio oddiwrihyn; y mae yn gadael i ni wybod digon fel ag i fod yn sicr o'i allu a'i ras, ond yn awgrymu ar yr un pryd nas gallwn ei gael ef 'hyd berffeithrwydd.' Yn ystod y chwe diwrnod hyn yr oedd Moses yn aros gyda Josua yn ymyl y cwmwl, yn dysgwyl am alwad i'r ystafell gyfarfod; ac yr oedd y ddau ond odid yn byw ar y manna. *Ac efe a alwodd am Moses y seithfed dydd*—sef ar y sabbath, fel y meddylir yn gyffredin; *o ganol y cwmwl*—felly yr oedd y cwmwl, y pryd hyn o leiaf, yn gorchuddio y gogoniant dwyfol hefyd. Y mae yn debyg i Josua aros ei hunan y tu allan i'r cwmwl yn ystod y deugain niwrnod ag y bu Moses i fewn, a'i fod yn cael ei borthi yno trwy ddisgymiad y manna; a dichen ei fod yn clywed rhan o'r hyn a gymerodd le rhwng Duw a Moses.

Adn. 17. *A'r golwg ar ogoniant yr Arglwydd oedd fel tân yn difa*] Meddylir i'r cwmwl ymagor ar fynediad Moses i fewn iddo, neu ddarfod i'r gogoniant ymddyrechafu uwchben y cwmwl, nes yr oedd yn ymddangos i feibion Israel fel *tân ysol*. Yr oedd yr olygfa yma wedi ei chyfaddasu yn dda i feddiannu y bobl 'gyda gwlyder a pharchedig ofn,' ac ymddengys fod yr apostol yn gwneyd y defnydd yma o honi, Heb. xii. 28, 29.

Adn. 18. *A Moses a aeth i ganol y cwmwl*] Ag ydoedd ar ben y mynydd, wedi cael ei neithu gan y Duw a'i galwodd i'w wyddfod. *Ddegain niwrnod a deugain nos*—yn ystod pa amser 'ni fwytaodd fara ac nid yfodd ddwfr,' pen. xxxiv. 28. Yr oedd ei gorff a'i enaid yn cael eu cynal yn y fath fodd gan bresenoldeb bywhaol Duw, fel nad oedd angen am y gynaliaeth ddaearol. Ymprydiodd Elias ddegain niwrnod a deugain nos, trwy gael ei gynali gan yr un gallu dwyfol, 1 Bren. xix. 8; megys hefyd y gwnaeth ein Harglwydd bendigedig, pryd yr oedd yn

PENNOD XXV.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Dywed wrth feibion Israel, am ddwyn o honynt i mi offrwm: gan bob gŵr ewyllysgar ei galon y cymerwch fy offrwm.

3 A dyma yr offrwm a gymerwch ganddynt; aur, ac arian, a phres,

4 A *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main, a *blew* geifr,

5 A chrwyn hyrddod yn gochion, a chrwyn daearfoch, a choed Sittim,

6 Olew i'r goleuni, llysenau i'r olew yr enait, ac i'r pêr-arogldarth,

7 Meini onix, a meini i'w gosod yn yr ephod, ac yn y ddwyfroneg.

8 A gwnant i mi gysegr; fel y gallwyf drigo yn eu mysg hwynt.

9 Yn ol holl waith y tabernacl, a gwaith ei holl ddoedrefn y rhai yr ydwyf yn eu dangos i ti, felly y gwnewch.

10 ¶ A gwnant arch o goed Sittim, o ddau guffydd a hanner ei hyd, a chuffydd a hanner ei lled, a chuffydd a hanner ei huchder.

11 A gwisg hi âg aur coeth; o fewn ac oddiallan y gwisgi hi: a gwna arni goron o aur o amgylch.

nghylch dechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus.

PEN. XXV. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses*] Diannau pan aeth Moses i ganol y cwmwl, ac yr arhosodd yno cyhyd, ddarford iddo weled a chlywed pethau gogoneddus; ond yr oeddynt yn bethau nad oedd yn gyfreithlon nac yn bosibl eu traethu oll, ac am hyn nid yw efe yn ysgrifenu dim i borthi cywreiniwydd, ond yn unig yr hyn ag yr ydoedd i'w draddodi i'r bobl trwy orchymyn Duw.

Adn. 2. *Am ddwyn o honynt i mi offrwm*] Yr offrwm crybwylledig yma yw y *terumah*, math ar offrwm *ewyllysgar*, yn gynnwysedig o unrhyw beth ag ydoedd angenrheidiol i'r achos. Y mae yn arwyddo yn briodol unrhyw beth a *goidid*, yr *offrwm dyrchafael*: gwel ar pen. xxix. 27. Y mae Duw yn gofyn iddynt adeiladu PABELL iddo ef, wedi ei chyfaddasu ryw fodd i'w urddas a'i ardderchogrwydd, am ei fod ef i fod yn Frenin iddynt, ac i breswlyio yn eu plith; ac yr oeddynt hwythau i'w llystyried eu hunain fel ei ddeiliaid ef, ac fel y cyfryw i ddwyn arnhegion iddo.

Adn. 3. *Aur, ac arian, a phres*] Neu *esydd*, i'w gweithio at wasanaeth y cysegr.

Adn. 4. *A sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad*] Nid yw y gair *sidan* yn y wreiddiol; a'r meddwl yw, rhyw ddefnyddiau gwerthfawr o'r lliwiau hyn. A *llian main*—nid yw y berniaid yn cytuno pa un ai llian, sidan, ai cotwm a feddylir yma. A *blew geifr*—mewn gwahanol barthau o Asia Leiaf, Syria, Cilicia, a Phrygia, y mae gan y geifr flew hirion a phrydferth, agos mor fain a sidan, yr hwn a weithiant yn ddiplad.

Adn. 5. *A chrwyn hyrddod yn gochion*] Neu 'grwyn hyrddod cochion, y rhai yn y dwyrain a geir yn fynych. A *chrwyn daearfoch*—Heb. *oroth techashim*. Addefir yn gyffredin nad oes un math penodol o anifel yn cael ei friadu yma, ond *lliw* yn unig, sef crwyn o liw *dysfnalas*: gwel Bochart, Pliny, &c. A *choed sittim*—neu *acacia*, sef math ar bren yn tyfu yn yr Aiffit ac anialwch Arabia, tra pharhaus a gwerthfawr.

Adn. 6. *Olew i'r goleuni*] I'r lamp ag ydoedd yn goleuo yn barhaus yn y cysegr. *Llysiuau*—i wneyd yr enait a'r aroglarth a ddefnyddid mor fynych yn ngwasanaeth y

tabernacl; megys myrr, calamus, cassia, cinnamou peraidd, &c.

Adn. 7. *Meini onix*] A elwir felly, meddai GILL, am eu bod yn debyg i ewin bys gŵr. *Ephod*—math ar hugan gwtta heb lewis, yr bon a wisg dros ddillad yr offeiriad i'w cadw yn dŷn ain ei gorff. Yr oedd yr ephod yn cael ei hystyried bob amser yn hanfodol i'r offeiriadaeth, ac nid oedd neb hebddi yn meiddio myfyn â Duw. Yr oedd yn cael ei sicrhau ar yr ysgwyddau â dau faen gwerthfawr, ar y rhai yr oedd enwau deuddeg llwyth Israel wedi eu cerfio, pen. xxviii. 6—8 Y *ddwyfroneg*—gwel ar pen. xxviii. 15—21.

Adn. 8. *A gwnant i mi gysegr*] Neu santeiddfa i mi drigo ynddi. Tybia Clarke fod hwn yn meddwl y rhan hōno o'r tabernacl a elwid y 'cysegr santeiddiolaf.' Yr oedd y tabernacl yn gysgod o *Grist*, yn yr hwn 'y mae holl gyflawnder y Duwdd yn preswlyio yn gorfforol'; o *eghws Dduw*, yr hon sydd 'dŷ ysbrydol'; o'r *gwir gredadyn*, yr hwn sydd 'breswylfod i Dduw trwy yr Ysbyrd'; ac o'r *nef*, lle y mae presenoldeb Duw yn cael ei ddadlenu, a lle y mae efe yn preswlyio yn mhlith yr anglyion a'r saint, ac yn derbyn eu haddoliadau.

Adn. 9. *Yn ol holl waith y tabernacl*] Tybir fod math ar babel neu dabernacl wedi cael ei adeiladu o'r blaen; ac yr oedd y tabernacl ag y gorchymynir yn awr i Moses ei wneyd, i gael ei flurfio yn gywir yn ol cynllun yr hen un, y portreid o'r hwn a ddanghosid iddo yn y mynydd, adn. 40. Gwel ar Gen. iii. 24.

Adn. 10. *A gwnant arch*] Sef cist neu goffr, yn nŷa un y dodwyd wedi hyny ddywy lech y cyfammod. Yr arch oedd y peth penaf o'r holl bethau santaidd a berthynent i'r trefnidedd Moesaenaid, ac er ei mwyn hi yr adeiladwyd y tabernacl a'r deml. Fe'i hystyried fel yn cyfranu santeiddrwydd lle bynag y dodid hi, 2 Sam. vi. 12, 2 Cron. viii. 11. *O goed sittim*—gwel ar adn. 5. *O ddau guffydd a hanner ei hyd*—oddeutu pedair troedfedd a phedair modfedd o hyd, a chymeryd cuffydd yn 21 modfedd; a dwy droedfedd a saith modfedd o led ac uchder.

Adn. 11. *Goron o aur o amgylch*] Sef eirionyn neu mymlwaith ychydig yu uwch, i fod er addurn, ac i sicrhau y caead wrthi.

12 Bwrw iddi hefyd bedair modrwy aur, a dod ar ei phedair congl; dwy fodrwy ar un ystlys iddi, a dwy fodrwy ar yr ystlys arall iddi.

13 A gwna drosolion o goed sittim, a gwisg hwynt âg aur

14 A gosod y trosolion trwy y modrwyau gan ystlys yr arch, i ddwyn yr arch arnynt.

15 Yn modrwyau yr arch y bydd y trosolion; na symuder hwynt oddiwrti.

16 A dod yn yr arch y dystiolaeth a roddaf i ti.

17 A gwna drugareddfa o aur coeth, o ddau guffydd a hanner ei hyd, a chuffydd a hanner ei lled.

18 A gwna ddau gerub o aur; o gyfanwaith morthwyl y gwna hwynt, yn nau gwr y drugareddfa.

19 Un cerub a wnai yn y naill ben, a'r cerub arall yn y pen arall: o'r drugareddfa ar ei dau ben hi y gwnewch y cerubiaid.

20 A bydded y cerubiaid yn lledu eu hesgyll i fyny, gan orchuddio y drugareddfa â'u hesgyll, a'u gwynebau bob un at eu gilydd: tua'r drugareddfa y bydd wynebau y cerubiaid.

21 A dod y drugareddfa i fyny ar yr arch, ac yn yr arch dod y dystiolaeth a roddaf i ti.

22 A mi a gyfarfyddaf â thi yno, ac a lefaraf wrthynt oddiar y drugareddfa, oddi rhwng y ddau gerub y rhai a fyddant ar arch y dystiolaeth, yr holl bethau a orchymywyf wrthynt i feibion Israel.

23 ¶ A gwna di fwrdd o goed sittim, o ddau guffydd ei hyd, a chuffydd ei

Adn. 12—14. *Bedair modrwy aur*] Trwy y rhai y rhoddid y trosolion i godi yr arch.

Adn. 15. *Na symuder hwy oddiwrti*] Am y dylai bob amser gael ei hystyried fel mewn parodrwydd i'w chario ymaith, gan nad oedd Duw wedi hysbysu pa awr y gorchymynai efe iddynt symud eu pebyll. Heblaw y trosolion hyn, yr oedd trosolion ereill, ar wedd elor neu ferfa ddwyllaw, ar y rhai y dodid yr arch mewn trefn i'w throsglyddo yn eu teithiau, y rhai a gymerid odditani tra y gwersyllent, Num. iv. 6.

Adn. 16. *Y dystiolaeth*] Sef llechau y ddeddf, y rhai a elwid felly am i Dduw yddant hwy dystiolaethu ei ewyllys, ac am eu bod yn dwyn tystiolaeth yn erbyn y troseddwr.

Adn. 17. *A gwna drugareddfa*] Heb. *cap-poreth*, oddiwrti *cap-har*, cuddio neu DAENU DBOS; am fod pechodau, trwy y weithred o faddeuant, yn cael eu darlunio megys wedi eu cuddio o olwg dwyfol gyfaawnder, heb alw mwyach am gosg; ac am fod y *pechadur* yn cael ei guddio a'i noddi rhag drynodd y gyfraith doredig. Yn nghyfieithiad y LXX defnyddir y gair *hilastêrion*, yr hwn sydd yn arwyddo CYMODFA neu DRUGAREDDFA; a dyma y gair a ddefnyddir gan yr apostol, Heb. ix. 5. Y DRUGAREDDFA hon a wnaed o aur coeth, a hi yn briodol oedd *caead* yr arch. Ar ddydd mawr y cymod yr oedd yr archoffeiriad i daenellu gwaed yr ebyrth dyhuddawl ar ac o *flaen* y DRUGAREDDFA hon; ac yn y lle hwn yr addawodd Duw gyfarfod â'i bobl, adn. 22; canys yno y preswyllai efe, ac yno yr oedd arwydd y presenoldeb dwyfol. Yr oedd cerub yn mhob pen i'r DRUGAREDDFA hon, rhwng y rhai yr oedd y gogoniant hwn yn ymddangos; ac am hyn y dywedir mor fynych yn yr ysgrthyrau ei fod ef yn 'aros rhwng y cerubiaid.' Gan fod y gair *hilastêrion* yn cael ei gymbwyso at Grist, (gwel ar Rhuf. iii. 25,) nyddi a ddysgwn mai Crist oedd y wir DRUGAREDDFA, neu y peth a arwyddid trwy y *cap-poreth*, i'r cyn-gredinwyr; a nyddi a ddysgwn yn mbellach mai trwy ei *waed ef* yr oedd iawn

i gael ei wneuthur dros bechodau y byd. Ac fel yr oedd Duw yn ymddangos rhwng y cerubiaid uwchben y DRUGAREDDFA hon, felly dywedir 'fod Duw yn Nghrist yn cymodi y byd âg efei hun,' 2 Cor. v. 19.

Adn. 18. *A gwna ddau gerub*] Nis gallwn ddywedyd yn benderfynol beth oedd y rhai hyn, ac nis gallai Josephus o'n blaen ni. Tybir yn gyffredin mai cerub oedd greadur â phedwar pen ar un corff; a'r anifeiliaid, o'r rhai yr oedd y lluniau cysgodol hyn yn gwnwysedig, oeddynt y rhai ardderchocaf o'u rhywogaeth; y *llew* yn nhlith yr anifeiliaid gwyllt, yr *gch* yn mhlith y rhai dofion, yr *eryr* yn mhlith yr adar, a *dyn* wrth ben y cwbl; fel ag y gallent, meddai Dr. Priestley, fod yn gynrychiolion holl natur. Y mae llawer yn meddwl ddarod eu bwriadu yma i arddangos y natur *angylaidd*, fel y byddai i'r Iuddewon gael eu cadarnhau yn y grediniaeth o fodaeth angylion, yr hyn yw all erthygl eu ffydd hwy. Tybia ereill eu bod yma yn gysgodau o *ddymion* wedi eu gwaredu trwy yr IAWN, ac yn gallu byw yn mhresenoldeb y gogoniant dwyfol. Oddiwrti yr hyn a ddywedir yn adn. 20, eu bod â'u gwynebau at eu gilydd, gellir meddwl eu bod yn debyceach i greadur âg un pen ganddo, nag i gerubiaid pedwarwynebog Ezeziel. Gwel ar Gen. iii. 24.

Adn. 19. *O'r drugareddfa*] Hyny yw, o'r un *darn* a hi, yn ol rhai; neu o'r un *defnydd*, yn ol ereill.

Adn. 20. *Tua'r drugareddfa y bydd wynebau y cerubiaid*] 'Tua CHRIST, y wir drugareddfa, i ba ddirgelwch y mae yr angylion yn chwennychu edrych, 1 Pêdr i. 12.'—POOLE.

Adn. 21. *Ar yr arch*] Yn gaed iddi; *ac yn yr arch dod y dystiolaeth*—Sam. 'y tystiolaethau,' sef y ddwy lech: gwel ar adn. 16.

Adn. 22. *A mi a gyfarfyddaf â thi yno*] Sef ar y drugareddfa, rhwng y cerubiaid. Yn y lle hwn yr oedd Duw yn ewyllsio rhoddi yr amlygiadau mwyaf neillduol o hono ei hun; yma yr oedd y gogoniant dwyfol i'w weled; ac yma yr oedd Moses i ddyfod i ym-

led, a chufydd a hanner ei uchder.

24 A gosod aur coeth drosto, a gwna iddo goron o aur o amgylch.

25 A gwna iddo wregys o led llaw o amgylch, a gwna goron aur ar ei wregys o amgylch.

26 A gwna iddo bedair modrwy o aur, a dod y modrwyau wrth y pedair congl y rhai a fyddant ar ei bedwar troed.

27 Ar gyfer y cylch y bydd y mod-

rwyau, yn lleoedd i'r trosolion i dddwyn y bwrdd.

28 A gwna y trosolion o goed sitim, a gwisg hwynt âg aur, fel y dyger y bwrdd arnynt.

29 A gwna ei ddysglau ef, a'i lwyau, a'i gaeadau, a'i phiolau, y rhai y tywelltir â hwynt: o aur coeth y gwnai hwynt.

30 A dod ar y bwrdd y bara dangos gerbron fy wyneb yn wastadol.

gynghori â JEHOFA mewn perthynas i lywiad-aeth y bobl.

Adn. 23—28. *A gwna di fwrdd o goed sitim* Y dodrefnyn nesaf oedd bwrdd y bara dangos, adn. 30, yr hwn, fel yr *arch*, oedd i gael ei wneyd o goed sitim, a'i wisgo âg aur coeth, gydag ymylwaith, modrwyau, a throsolion fel eiddo yr arch; ac yr oedd dysglau, llwyau, caeadau, a phiolau, i berthyn iddo, adn. 29. Y mae DR. CUDWORTH, yn ei Draethawd ar Swper yr Arglwydd, pen vi. yn llefaru fel hyn am y bwrdd a'i lestri: 'Ar ol i Dduw dddwyn plant Israel allan o'r Aifft, efe, gan benderfynu ei amlygu ei hun mewn modd neillduol yn bresenol yn en plith, a feddyliodd yn addas drigo yn eu mysg mewn modd gwledig ac allanol; ac am hyny, tra yr oeddynt hwy yn yr anialwech, ac yn trigo mewn pebyll, yntau hefyd a fynai adeiladu pabell neu dabernacl i drigo yn en plith hwynt. Yr oedd y dirgelwch yma o eiddo y tabernacl yn cael ei ddeall yn gyflawn gan y dysgedig *Nachmanides*, yr hwn, mewn ychydig eiriau, ond cynwysfawr, a'i hamlyga ei hun i'r perthyn yma: 'Dirgelwch y tabernacl oedd hyn, yr oedd i fod yn lle i'r SECINA, neu breswyliaid Dwyfoldeb, gael ei sefydlu ynddo;' a hyn yn ddiamau fel cysgod neillduol o breswyliaid dyfodol Duw yn natur ddydol Crist, pa un oedd y GWIR SECINA. Ond ar ol i'r Iuddewon ddyfod i'w gwlad, ac yno adeiladu tai iddynt, bwriadodd Duw gael tŷ sefydlog hefyd; ac am hyny yr oedd ei dabernacl symudadwy ef i gael ei droi yn deml sefydlog. Yn awr, trwy fod y tabernacl neu y deml fel hyn megys tŷ i Dduw drigo ynddo yn welodig, i wneyd i'fyny y dychymyg o drigfa neu breswylfa yn gyflawn, rhaid fod pob peth cyfaddas i dŷ yn perthyn iddo; o ganlyniad, yn y cysegr, rhaid fod bwrdd a chanwyllbren, canys dyma oedd ddodrefn cyffredin ystafell, fel y sylwa y rhag-ganmoledig *Nachmanides*. Rhaid fod gan y bwrdd ei ddysglau, ei lwyau, ei phiolau, a'i gaeadau yn perthyn iddo, er na fyddent byth yn cael eu defnyddio; a phob amser fod â bara arno. Rhaid i'r canwyllbren fod â'i lusernau yn wastadol yn llosgi. Am hyny hefyd rhaid cadw tân gwastadol yn y tŷ hwn i Dduw ar yr allor, megys ei aelwyd; at ba dybiaeth meddylwyf fod y profwyd Esay yn cyfeirio pen. xxxi. 9, 'Yr hwn y mae ei dân yn Seion, a'i ffwrn yn Jerusalem.' Ac heblaw hyn oll, i gario y dychymyg yn mhbellach fyth, rhaid fod rhyw fwyd a lluniaeth gwastadol yn cael ei dddwyn i'r tŷ hwn; yr hyn a wneid yn yr cbyrth ag oeddynt mewn rhan yn cael eu difa gan dân ar

allor Duw ei hun, ac mewn rhan yn cael eu bwyta gan yr offeiriad, y rhai oeddynt denlu Duw, ac am hyny i gael eu cyual ganddo ef. Yr hyn oedd yn cael ei ddiffa ar allor Duw a gyfrifid yn *saig Duw*, fel yr ymdeingys oddiwrth Mal. i. 12, lle y gelwir yr allor yn *fwrdd Duw*, a'r aberth arni yn *fywd Duw*. Ac yn fynych yn y gyfraith gelwir yr aberth yn '*lechem Duw*,' hyny yw, ei *fara* neu ei *fywd* ef. O herwydd pabam y mae yn nodadwy yn mhbellach, heblaw cig yr anifel a offrymid yn aberth, fod yno *minchah*, sef *bwyd-offrum*, neu yn hytrach *bara-offrum* wedi ei wneyd o beillied ac olew; a *libanen* neu *ddiod-offrum*, y rhai oeddynt bob amser yn gysylltedig â'r aberth dyddiol, fel y *bara* a'r *ddiod* ag oeddynt i fod gyda bwyd Duw. Gorchymynid yn gaeth hefyd i *halen* fod yn mhob aberth ac offrum, am fod pob bwyd yn ddiffas heb halen, fel y sylwodd *Nachmanides* yn dda yma hefyd; 'canys nid anrhydeddus oedd fod bwyd Duw yn ddiffas heb halen.' Yn olaf, yr oedd yr holl bethau hyn i gael eu difa ar yr allor yn unig gan y tân santaid a ddisgynai o'r nef, am mai rhan Duw oeddynt, ac am hyny i gael eu bwyta neu eu difa ganddo ef ei hun mewn modd anghyffredin.

Adn. 29. *A gwna ei ddysglau* Yn debygol y cawgiau dyfion yn y rhai y tylinent y toes o'r hwn y gwnaent y bara dangos. *A'i lwyau* —y thuserau yn debygol, yn y rhai y dodont yr aroglarth. *A'i gaeadau*—a dybir i fod yn gwpanau mawrin, yn y rhai y cedwid y gwin pur ar y bwrdd gyda'r bara dangos, yn *ddiod-offrymau*, y rhai a dywelltid allan gerbron yr Arglwydd bob sabbath, pryd yr oedd yr hen fara yn cael ei symud, a'r bara newydd yn cael ei osod ar y bwrdd. *A'i phiolau*—y rhai y tybia Calmet eu bod yn meddwl naill ai y *gograu* â'r rhai y glanhâai y Lefaid y gwenith a wneid ganddynt yn fara, (canys dywedir fod y grawn o'r hwn y gwneid y bara dangos yn cael ei hau, ei fedi, ei falu, ei ogryn, ei dyllino, ei grasu, &c., gan y Lefaid eu hunain,) neu y *ffyrnau* yn y rhai y credid y bara. Ond tybia ereill mai y llestri oeddynt â'r rhai y codent y gwin o'r ewpanau a elwir *caeadau*, i fod yn ddiod offrum.

Adn. 30. *A dod ar y bwrdd y bara dangos* Heb. *bara gwynneb*, a elwir felly naill ai am eu bod yn cael eu dodi gerbron *wyneb* Duw yn y cysegr; neu, fel y myn yr Iuddewon, am eu bod yn cael eu gwneid yn *ysgwâr*, neu o bedwar wyneb. Yr ydym ni yn eu galw hwynt yn 'fara dangos,' am eu bod yn cael eu dangos gerbron Duw ar y bwrdd cysegredig. Y toithau hyn oeddynt ddeuddeg, yn cynrychioli deu-

31 ¶ Gwna hefyd ganwyllbren: o aur pur yn gyfanwaith y gwnair y canwyllbren; ei baladr, ei gceinciau, ei bedyll, ei gnapiau, a'i flodau, a fyddant o'r un.

32 A bydd chwe chaine yn dyfod allan o'i ystlysau; tair caine o'r canwyllbren o un tu, a thair caine o'r canwyllbren o'r tu arall.

33 Tair padell o waith almonau, cnap a blodeuyn ar un gaine; a thair padell o waith almonau, cnap a blodeuyn ar gaine arall: felly ar y chwe chaine a fyddo yn dyfod allan o'r canwyllbren.

34 Ac yn y canwyllbren y bydd pedair padell ar waith almonau, a'u cnapiau a'u blodau.

35 A bydd cnap dan ddwy gaine o hono, a chnap dan ddwy gaine o

hono, a chnap dan ddwy gaine o hono, yn ol y chwe chaine a ddeuant o'r canwyllbren.

36 Eu cnapiau a'u ceinciau a fyddant o'r un: y cwbl fydd aur coeth o un cyfanwaith morthwyl.

37 A thi a wnai ei saith lusern ef, ac a oleui ei lusernau ef, fel y goleuo efe ar gyfer ei wyneb.

38 A bydded ei efciliau a'i gafnau o aur coeth.

39 O dalent o aur coeth y gwnai ef, a'r holl lestri hyn.

40 Ond gwel wneuthur yn ol eu portreiaid hwynt, a ddangoswyd i ti yn y mynydd.

PENNOD XXVI.

Y TABERNAACL hefyd a wnai di o ddeg llen o lian main cyfrodedd,

dddeg llwyth Israel. Yr oeddynt yn cael eu gosod ar y bwrdd yn ddwy res, chwech yn mhob un; a rhaid eu bod o gryn faintioli, pan yn cynwys oddeutu chwe chwart o beillied bob un: gwel ar Lef. xxiv. 5—9.

Adn. 31—38. *Gwna hefyd ganwyllbren o aur pur, &c.*] Yn hytrach canwyllyr, canys aur oedd ei ddefnydd, ac nid pren. Yr oedd hwn yn angenrheidiol i oleuo yn y tabernacl; ac yr oedd yn arddangos tywyllwch yr oruchwyliaeth ddeddfol, ac yn gysgod o'r eglwys dan oruchwyliaeth goleuni yr efengyl, Dat. i. 13, 20. Dywed Calmet fod ei flodau fel lili, ei gnapiau fel afalan, a rhai llai fel almonau. Darlunir y canwyllyr hwn fel yn meddu un paladr, a chwe chaine yn ymestyn oddiwrtho. Ar bob caine yr oedd lusern, ac un ar ben y paladr yn y canol; ac fel hyn yr oedd saith o lusernau yn y cwbl, adn. 37, y rhai a oleuid bob hwn, meddai rhai, (gwel pen. xxvii. 21,) ac a ddi-foddid bob bore. 'Titus, ar ol ennill Jerusalem yn y flwyddyn o. c. 70,' meddai Clarke, 'a gymerth y canwyllyr aur, bwrdd aur y bara dangos, yr udgyrn arian, a llyfr y gyfraith, allan o'r deml, ac a'u dyg yn fuddugoliaethus i Rufain; a Vespasian a'u llety-odd yn y deml a gysegrasai efe i'r dduwies Heddwch. Y mae gwleud y pethiau cysegr-edig hyn yn cael eu rhoddi i fyny gan y Duw hwnw a orchymynodd iddynt gael eu gwneuthur yn ol y portreiaid a ddangoswyd ganddo efe ei hun, ac yn addurno buddugoliaeth ar-herawdwr paganaid, ac o'r diwedd yn cael eu cysegru i eilun! yn achos o ystyriaethau athrist i feddwl duwio. Eithr yr oedd y pethau hyn wedi cyflawni eu dyben, ac yn awr heb fod o un defnydd pellach. Yr oedd y Person gogoneddus a gysgodid gan yr holl offer henafol hyn wedi gwneuthur ei ymddanghosiad oddeutu deng mlynedd a thri-ugain cyn hyn. Yr oedd y gwir Oleuni wedi dyfod, a'r Ysbryd Glân wedi ei dywallt oddi-uchod; ac am hyny y canwyllyr aur, trwy yr hwn eu cysgodid, a roddwyd i fyny. Yr oedd y byth-barhaol Fara wedi ei anfon o'r nef; ac am hyny nid oedd y bwrdd aur, yr

hwn a ddaliai ei gynrychiolydd ef, y bara dangos, mwyach yn angenrheidiol. Yr oedd llawen floedd yr efengyl dragwyddol yn cael ei chyhoeddi y pryd hyny yn y byd; ac o ganlyniad yr udgyrn arian, y rhai a gysgod-ent hyn, a gariwyd i gaethiweid, a'u sain ni chlywid mwy. Rhyfedd ragluniaeth, ond an-lliraethadwy drugaredd Duw! Yr Inddewon a gollasant yr arwydd, a'r pethau a arwyddid; a'r bobl hyny, y rhai a ddyfethasant y ddinas santaidd, ac a ddygasant ymaith yspail y deml, ac a'u cysegrasant i wrthdrysychau eu heitun-addoliad, oeddynt y rhai cyntaf yn y byd i dderbyn pregethiad yr efengyl, goleuni iach-awdwriaeth, a tara y bywyd! Y mae math ar gyd-darawiad neu gyd-ddygwyddiad yma, ag sydd deilwng o'r sylw difrifolaf. Cafodd yr INDDEWON y cysgodau arwyddocaol hyn i'w harwain at, a'u parotoi i, y pethau a arwyddoeddi: hwythau a ymddiriedasant yn y blaenaf, ac a wrthodasant yr olaf: gan hyny amddifadodd Duw hwy o'r ddau, a rhoddes i fyny eu teml i'r anrheithwyr, eu tir i an-ghyfanedd-dra, a hwythau eu hunain i gaethiweid ac i'r cleddyf! Yna y PAGANIAID a ddygasant ymaith gysgodau eu hiachawdwriaeth, a Duw ar fyrder a roddes i'r paganiaid hyny yr iachawdwriaeth ag yr oedd y pethau hyn yn gysgodau o honi! Fel hyn, oblegid eu hanghrediniaeth a'u gwrthryfel-garwch, ddygwyl teyrnas Dduw, yn ol rhag-fynegiad ein Harglywyd bendigedig, oddi-iar yr Inddewon, ac fe'i rhoddyd i genedl (y Cenhedloedd) a ddygai ei ffrwythau, Mat. xxi. 43. 'Gwel ddaioni a thoster Duw!'

Adn. 39. *O dalent o aur coeth y gwnai ef a'r holl lestri hyn*] O ganlyniad yr oedd y canwyllyr hwn a'i offer yn werth, yn ol rhai, £5475 o arian Lloegr; yn ol Esgob Cumberland, £5067 3s. 10c.; yn ol Prideaux, £7013.

Adn. 40. *Ond gwel wneuthur yn ol eu portreiaid hwynt*] Nid oedd dim yn cael ei adael i ewyllys, mympwy, a dychymyg dyn.

ac o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad: yn gerubiad o gywreinwaith y gwnai hwynt.

2 Hyd un llen *fydd* wyth guffydd ar hugain, a lled un llen *fydd* pedwar cufydd: yr un mesur a fydd i'r holl leni.

3 Pum llen a fyddant yn nglŷn bob un wrth eu gilydd; a phum llen *ereill* a fyddant yn nglŷn wrth eu gilydd.

4 A gwna ddolenau o *sidan* glas ar ymyl un llen, ar y cwr, yn y cydiad; ac felly y gwnei ar ymyl eithaf llen arall, yn yr ail gydiad.

5 Deg dolen a deugain a wnai di i un llen, a deg dolen a deugain a wnai ar gwr y llen a *fyddo* yn yr ail gydiad: y dolenau a dderbyniant bob un eu gilydd.

6 Gwna hefyd ddeg bach a deugain o aur, a chydia â'r bachau y lleri bob un wrth eu gilydd; fel y byddo yn un tabernacl.

7 ¶ A gwna leni o *flew* geifr, i fod yn babell-len ar y tabernacl: un llen ar ddeg a wnai.

8 Hyd un llen *fydd* deg cufydd ar hugain, a lled un llen *fydd* pedwar

cufydd; a'r un mesur *fydd* i'r un llen ar ddeg.

9 A chydia bum llen wrthynt eu hun, a chwe llen wrthynt eu hun; a dybla y chweched len ar gyfer wyneb y babell-len.

10 A gwna ddeg dolen a deugain ar ymyl y naill len, ar y cwr, yn y cydiad *cyntaf*; a deg dolen a deugain ar ymyl y llen *arall*, yn yr ail gydiad.

11 A gwna ddeg bach a deugain o bres; a dod y bachau yn y dolenau, a chylyma y babell-len, fel y byddo yn un

12 A'r gweddill a fyddo dros ben o leni y babell-len, *sef* yr hanner llen weddill, a fydd yn ngweddill ar du cefu y tabernacl;

13 Fel y *byddo* o'r gweddill guffydd o'r naill du, a chuffydd o'r tu arall, o hyd y babell-len: bydded hyny dros ddau ystlys y tabernacl, o'r tu yma ac o'r tu acw, i'w orchuddio.

14 A gwna dô i'r babell-len o grwyn hyrddod wedi eu lliwo yn gochion, a thô o grwyn daerfoch yn uchaf.

15 ¶ A gwna i'r tabernacl estyllod o goed sittim, yn eu sefyll.

wnai di] Y mae y gair *mischan*, 'tabernacl,' oddiwrth *shachan*, 'trigo,' yn meddwl yn unig drigfa neu breswylfa o ryw fath; ond yma y mae yn meddwl *trigfa* JEHOFA, yr hwn, fel brenin yn ei wersyll, a feddai ei *anedd* neu ei *babell* yn mhllith ei bobl, ei *fwdd* bob amser yn huliedig, ei *usernau* yn oleuedig, a'i weision yr *offeriaid* bob amser yn gweini: gwel ar pen. xxv. 23—28. In *gerubiad*—gwel ar adn. 2—6, a pen. xxv. 18. O *gywreinwaith*—y mae yn debyg fod *chozeb*, 'cywreinwaith,' yn meddwl yma fath ar *stodewee*, yn mha un y mae y lluniau yn ymddangos yr un mor berffaith bob ochr: hwn ond odid a weuid mewn gwŷdd. Crybwyllir am fath arall o gywreinwaith yn adn. 36, *sef rokem*, pa un a gyfeithwn ni yn 'wniadwaith:' yr oedd hwn ond odid yn debyg i'n brwydwaith ni, neu lian main wedi ei weithio â nodwydd. Y mae yr holl haues yma yn dangos fod nid yn unig y celfyddydau angenrheidiol, ond hefyd y rhai *addurnawl*, mewn cryn radd o berffeithrwydd yn mhllith yr Israeliaid, y rhai a addysgwyd ynddynt gan yr Aiffitaid.

Adn. 2—6. *Hyd un llen*, &c.] Yr oedd lleri mewnol y tabernacl yn *ddeg* mewn rhifedi, a phob un yn wyth guffydd ar hugain o hyd, a phedwar cufydd o led; *sef* odentu *un lath ar bymtheg* a *deuddeg modfedd* o hyd, a *dwyr lath a deuddeg modfedd* o led. Yr oedd y lleri i'w cydio yn nghyd, pump a phump gyferbyn â'u gilydd, gan ddeg dolen a deugain o *sidan* glas, a chynifer â hyny o fachau aur, fel y gallai pob un edrych fel un llen, a'r ddwy wneyd un tô cyfan, yr hwn oedd y *cyntaf*. Yr oedd y lleri hyn wedi eu gwneuthur o'r lliuau meinaf, eu lliwo â'r lliwiau gwychaf, eu nyddu a'u gweu yn y modd cywreinaf, a'u

prydfferth frodio drostynt oll â cherubiad, ar-ddangosiadau arwyddocaol o angylion.—BENSON. Os *angylion* a arwyddent, yr oedd y cerubiad hyn yn cael eu bwriadu i ddangos nid yn unig fod yr angylion yn cyduno yn addoliad Duw Israel, ond hefyd eu bod yn gweini yn barhaus iddo yn ei breswylfa sant-aidd, megys 'ei weision yn gwneuthur ei ewyllys ef,' Salm ciii. 21; eu bod yn castellu o amgylch ei eglwys ef, Salm xxiv. 7; a'u bod bob amser yn barod i wasanaethu i etifeddion iachawdwriaeth, Heb. i. 14.

Adn. 7—13. *A gwna leni o flew geifr*] O ystwff wedi ei wneuthur o flew geifr: gwel ar pen. xxv. 4. Hwn oedd yr *ail dô*.

Adn. 14. *A gwna dô i'r babell-len o grwyn hyrddod*] Ilwn oedd y *trdydd* tô; a'r hyn a elwir *crwyn daerfoch oed* y *pedwarydd* tô: gwel ar pen. xxv. 5. Y mae rhai yn meddwl mai rhyw fath o ledr cryf a feddyllir, am y darlennwn am yr esgriadu goraf wedi eu gwneuthur o hono, Ezech. xvi. 10. Paham yr oedd yno *bedwar* tô, nid yw yn ymddangos. Rhaid i ddychymyg y rhai a ddywedant eu bod 'wedi eu bwriadu i gadw y *gwlaw* ymaith yn well,' ymddangos yn ddisail i'r rhai a wyddant nad oedd gwlaw braidd byth yn cael ei weled yn yr anialwch. Gallasant fod wedi cael eu bwriadu mewn rhan o barch; ac mewn rhan i gadw ymaith y llwch a'r tywod mân ag sydd yn codi yn yr anialwch hwnw ar bob awel; ac mewn rhan i gadw ymaith wres angherddol yr haul, yr hwn amgeu a uiweidiai yr holl waith coed.

Adn. 15—28. *A gwna i'r tabernacl estyllod*, &c.] Yr oedd y rhai hyn oddeutu chwe lath o hyd, a gwnaent i fny yr hyn a alwn ni yn furiau y tabernacl. I wneuthur yr es-

16 Deg cufydd fydd hyd estyllen, a chufydd a hanner cufydd fydd lled pob estyllen.

17 Bydded dau dyno i un bwrdd, wedi eu gosod mewn trefu, bob un ar gyfer eu gilydd; felly y gwnai am holl fyrddau y tabernacl.

18 A gwna estyllod i'r tabernacl, ugain estyllen o'r tu deau, tua'r deau.

19 A gwna ddengain mortais arian dan yr ugain estyllen; dwy fortais dan un estyllen, i'w dau dyno, a dwy fortais dan estyllen arall i'w dau dyno.

20 A gwna i ail ystlys y tabernacl, o du y gogledd, ugain estyllen,

21 A deugain mortais o arian; dwy fortais dan un estyllen, a dwy fortais dan estyllen arall.

22 Hefyd i ystlys y tabernacl, o du y gorllewin, y gwnai chwech estyllen.

23 A dwy estyllen a wnai i gonglau y tabernacl, yn y ddau ystlys.

24 A byddant wedi eu cysyllta odditanodd; byddant hefyd wedi eu cyd-gydio oddiarnodd wrth un fodrwy: felly y bydd iddynt ill dan; i'r ddwy gongl y byddant.

25 A byddant yn wyth estyllen, a'u mortaisiau arian yn un fortais ar bymtheg; dwy fortais dan un estyllen, a dwy fortais dan estyllen arall.

26 ¶ Gwna hefyd farau o goed sitim, pump i estyllod un ystlys i'r tabernacl,

27 A phum bar i estyllod ail ystlys y tabernacl, a phum bar i estyllod ystlys y tabernacl i'r ddau ystlys tua'r gorllewin.

28 A'r bar canol yn nghanol yr estyllod, a gyraedd o gwr i gwr.

29 Gosod hefyd aur dros yr estyllod, a gwna eu modrwyau o aur, i osod y barau trwyddynt: gwisg y barau hefyd âg aur.

30 A chfyd y tabernacl wrth ei hortreiaid, yr hwn a ddanghoswyd i ti yn y mynydd.

31 ¶ A gwna wahanlen o sidan glas, porphor, ac ysgarlad, ac o lian main cyfrodedd: a cherubiaid o waith cywraint y gwnai hi.

32 A dod hi ar bedair colofn o goed sittim wedi eu gwisgo âg aur; a'u penau o aur, ar bedair mortais arian.

tyllod neu y planciau hyn, yr oedd yn rhaid fod ganddynt *lifwyr, seiri, &c.*, yn eu mysg; ond pa fodd y cawsant yr *arfau*, ni fynegir. Ond gan mai yr Israeliaid oeddynt weithwyr cyffredin yr Aifft, a'u bod wedi cael eu dwyn i fyfyr yn mhob math ar greffed yr gwasanaeth i'w gorthrymwr, gallwn yn naturiol feddwl i bob crefftwr gymeryd ymaith rai o'i arfau gydag ef, yr hyn a deifl ymaith bob dyrswch.

Adn. 29. *Gosod hefyd aur dros yr estyllod*] Meddyllir fod yr aur hwn yn bur deneu, ryw-beth yn debyg i'n haur-ddalenau ni, onidê y buasai yn gwneuthur yr estyllod a'r barau yn dra thrymion.

Adn. 30. *Wrth ei hortreiaid*] Gwel ar pen. xxv. 9, 40.

Adn. 31. *A gwna wahanlen o sidan glas*] Yr oedd yr holl adeilad yma oddifewn i'w gwahanu yn ddwy ystafell gan leni fawr a thew o'r defnydd meinaf, ac o amrai liwiau, wedi ei gweithio â lluniau cerubiaid; a dywed yr Iuddewon ei bod yn lled pedwar bys o drwch. Yr oedd i'w chrogi wrth fachau aur; ac, o herwydd ei thrwch a'i phwysy, yr oedd i orphwys yn erbyn pedair colofn oreutrog, wedi eu morteisio i gynyfer o wadnan arian. Y leiaf o'r ystafelloedd yma, wedi ei gwahanu fel hyn oddiwrth y llall fel nas gallai neb edrych iddi, oedd i gael ei galw 'y cysegr santeiddiolaf,' neu le o addoliad annghyffredin, i fynes iddo yn unig gan yr archeffeiriaid unwaith yn y flwyddyn. Y mae hwn yn cael ei ystyried yn fynych yn y Testament Newydd megys cysgod o'r nef, i'r man yr aeth Crist fel ein Rbagflaenor ni, a lle y mae ein gobaith ninau yn cyraedd, Heb. vi. 19, 20, a ix. 11—24, a x. 19. Yr oedd hefyd yn arwyddo fod

dwyfol ras dan yr oruchwyliaeth hŏno yn orchuddiedig, tra yr ydym ni yn awr yn ei weled e'f gwyneb agored. Dywed yr apostol fod y llen hon yn arwyddo na allai y gyfraith seremonïol *berffeithio* y rhai a ddeuent ati. Nid oedd y flordd i'r cysegr santeiddiolaf yn agored tra yr oedd y tabernacl cyntaf yn sefyll: yr oedd bywyd ac anlygredigaeth yn gorwedd yn guddiedig nes eu dwyn i *oleuni* trwy yr efengyl, yr hyn gan hyny a arwyddwyd trwy rwygiad y llen ar farwolaeth Crist. Y mae genym ni yn awr *ryddid* i fynes i mewn i'r cysegr, yn mhob gweithred o ddyhewyd, trwy waed Iesu; eto y cyfryw ag sydd yn ein rhwygo i barch sautaid, a theimlad gostyngedig o'n pellder. Yr oedd llen arall i ddrws allaul y tabernacl, trwy ba un yr âi yr offeiriaid i mewn bob dydd i weini yn y cysegr, ond nid y bobl, Heb. ix. 6. Y llen hon oedd yr holl amddiffyn ag ydoedd i'r tabernacl rhag lladron ac yspeliwyr, y rhai a allasant yn hawdd dori trwyodd, canys nis gellid ei *gloi* na'i *fario*; a gellid meddwl y buasai yr helaethrwydd cytoeth oddifewn yn brofedigaeth. Ond trwy ei adael fel hyn yn agored, l. Yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid o gymaint a hyny yn fwy rhwymedig i gadw gwyladwriaeth fanol arno; ac, 2. Danghosai Duw ei ofal am ei eglwys ar y ddaear, er ei bod yn wan a diamddiffyn, a phob amser mewn perygl. Caiff llen fod, os rhynga bodd i Dduw ei gwneud felly, cyn gadarniad amddiffyn a phyrth pres a barau beyrn.

Adn. 32. *A'u penau o aur*] Saes. 'a'u bachau o aur:' ond myn Calmet, Houbigant, ac ereill, mai *penau* neu *berglymau* y colofnau yw yr iawn gyfieithiad o'r gair gwreiddiol yn y lle hwn, trwy fod y *bachau* yn cael eu

33 ¶ A dod y wahanlen wrth y bachau, fel y gelych dddwyn yno, o fewn y wahanlen, arch y dystiolaeth: a'r wahanlen a wna wahan i chwi rhwng y cysegr a'r cysegr santeiddiolaf.

34 Dod hefyd y drugareddfa ac arch y dystiolaeth yn y cysegr santeiddiolaf.

35 A gosod y bwrdd o'r tu allan i'r wahanlen, a'r canwyllbren gyferbyn a'r bwrdd ar y tu deau i'r tabernacl: a dod y bwrdd ar du y gogledd.

36 A gwna gauadlen i ddrws y babel o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, ac o lian main cyfrodedd o wniadwaith.

37 A gwna i'r gaeadlen bum colofn o goed sittim, a gwisg hwynt ág aur; a'u penau fydd o aur: a bwrw iddynt bum mortais bres.

crybwyll, yn adn. 33, trwy air gwahanol. Y mae y Pumllyfr Samaritanaidd, ar el yr adnod hon, yn dwyn i mewn y deg adnod gyntaf o pen. xxx; ac ymddengys, meddai Clarke, mai dyma eu hiawlen. Nid yw y deg hyny yn cael eu hailadrodd yno, ond y mae y benod yn dechreu yn adn. 11.

Adn. 33. *Dod y wahanlen wrth y bachau*] Gwel ar adn. 31, 32.

Adn. 34. *Dod hefyd y drugareddfa, &c.*] Gwel ar pen. xxv. 16, 17.

Adn. 35. *A gosod y bwrdd o'r tuallan i'r wahanlen*] Y mae Ainsworth o'r farn yr arwydda hyn fod y deuddeg llwyth, y rhai a arwyddid gau y deuddeg torth ar y bwrdd, wedi eu cau allan oddiwrth ddirgelwch yr efengyl, Heb. ix. 8, 10.

Adn. 36. *A gwna gauadlen i ddrws y babel*] Y mae yn eglur oddiwrth y rhan gyntaf o'r dysgrifiad hwn, adn. 12—23, meddai Benson, fod yr arch a'r drugareddfa yn y pen gerllewinol i'r tabernacl; hyny yw, fod y drws neu y fynedfa yn gwynebu y dwyrain; fel ag yr oedd yr Israeiad, wrth addoli JEROHOFA, yn troi eu gwynebau tua'r gorllewin, lle yr oedd yr arch. Fe'i lluniwyd fel hyn, meddai Theodoret, fel y gallai yr haul dalu math o addoliad arwyddocaol i JEROFA, trwy dafu ei belydr cyntaf i'r cysegr; ac fel y gallai yr Israeiad fel hyn gael eu dysgu yn allegawl i droi oddiwrth addoliad y goleud hwn, eilun mawr y Cenedloedd, i addoli y Duw a'i gvnaeth ef. Gan hyny, o flaen mynedfa y tabernacl cyntaf, neu y cysegr, yr oedd y gaeadlen ag y sonir am dani yma i gael ei chregi, yr hon y gellir ei galw y *llen gyntaf*, gan fed yr un a grybwyllir adn. 31, yr hon a wahanai y cysegr oddiwrth y cysegr santeiddiolaf, yn cael ei galw yr *aill len*, Heb. ix. 2, 3.

Adn. 37. *A'u penau*] Neu eu 'penglymau;' gwel ar adn. 32.

PEN. XXVII. Adn. 1. *Gwna hefyd allor o goed sittim*] Gwel ar Gen. viii. 20. *Yn*

PENNOD XXVII.

GWNA hefyd allor o goed sittim, o bum cufydd o hyd, a phum cufydd o led: yn bedairongl y bydd yr allor, a'i huchder o dri chufydd.

2 A gwna ei chyrn ar ei phedair congl: o'r un y bydd ei chyrn: a gwisg hi â phres.

3 Gwna hefyd iddi bedyll i dderbyn ei lludw, a'i rhawiau, a'i chawgiau, a'i chigweiniau, a'i phedyll tân: ei holl lestri a wnai o bres.

4 A gwna iddi alch o bres, ar waith rhwyd; a gwna ar y rhwyd bedair modrwy o bres ar ei phedair congl.

5 A dod hi dan amgylchiad yr allor oddi tanodd, fel y byddo y rhwyd hyd hanner yr allor.

6 A gwna drosolion i'r allor, *sef* trosolion o goed sittim; a gwisg hwynt â phres.

bedairongl—trwy fed yr allor hen yn bum cufydd o hyd a phump o led, a bed cufydd yn cael ei gyfrif yn un fodfedd ar hugain, o ganlyniad rhaid ei bod yn *wyth troedfedd a naw modfedd* ysgwâr, ac yn *bum troedfedd a thair modfedd* o uchder.

Adn. 2. *A gwna ei chyrn ar ei phedair congl*] Gallai fod i'r cyrn hyn bedwar dyben: 1. Er addurn; 2. I attal i'r rhanau aberthel syrthio i lawr; 3. I droseddwr ffoi atynt am noddfa; ac 4. I rwymo yr aberth wrthynt cyn ei aberthu: gwel Salm cxviii. 27. Yr oedd *cyrn* yn bethau tra arferol yn yr holl hen allorau paganaidd, ac yr oedd rhai o honynt yn cael eu gwneyd yn gwbl o gyrn yr anifeiliaid a cyfrymesid yn ebyrth; ond ymddengys fod y osfyrw allorau yn cael eu hadeiladu yn hytrach fel arwyddion buddugeliath er anrhydedd i'w duwiau. *A gwisg hi â phres*—yr oedd i'w gwneuthur o goed yn hytrach nag o bres cyfan, rhag iddi fod yn rhy drwm. Ond er ei gwisgo â phres, llosgesid hi yn fuan yn lludw gan y gwres parhau, pe buasai o bren cyffredin; o ganlyniad tybia Le Clerc mai y larswydden oedd y coed sittim yma, 'pa un a ddeil dân fel cregi.'

Adn. 3. *Gwna hefyd iddi bedyll*] Math ar ddysglau pres mawron, y rhai a safent dan yr allor i dderbyn y lludw a syrthiai trwy yr alch. *A'i rhawiau*—y rhai a ddefnyddid i garie ymaith y lludw a syrthiai i'r pedyll uchod. *A'i chawgiau*—i dderbyn gwaed yr ebyrth, fel y gellid ei daenellu ar y bobl gerbron yr allor. *A'i chigweiniau*—math ar sferch dridant, gam, ond odid. Modd hynag, nid y fath ag a ddefnyddid i godi cig o'r crochan, 1 Sam. ii. 13; canys ni allai fod defnydd i'r rhai hyny wrth allor y poeth-offrwm; ond y cyfryw ag a frefnid i'r cig i'w droi ar y marwor, i brysuro ei losgiad. *A'i phedyll tân*—y mae yr Esgob Patrick ac ereill yn meddwl fod y rhai hyn yn llestri mwy, yn y rhai ond odid yr oedd y *tân santeidd* a ddaethai i lawr o'r nef (Lef. ix. 24) yn cael ei gadw i lesgi tra y byddent yn glanhau yr allor

7 A dod ei throsolion trwy y modrwyau; a bydded y trosolion ar ddau ystlys yr allor, i'w dwyn hi.

8 Gwna hi âg estyllod yn gau: fel y danghoswyd i ti yn y mynydd, felly y gwntan hi.

9 ¶ A gwna gynteddfa y tabernacl ar y tu deau, tu a'r deau: lleni y cynteddfa a fyddant lian main cyfrodedd, o gan cufydd o hyd, i un ystlys.

10 A'i hugain colofn, a'u hugain mortais, fydd o bres: penau y colofnau, a'u cylchau, fydd o arian.

11 Felly o du y gogledd ar hyd, y bydd lleni, o gan cufydd o hyd, a'u hugain colofn, a'u hugain mortais, o bres; a phenau y colofnau, a'u cylchau, o arian.

12 ¶ Ac i led y cynteddfa, o du y gorllewin, y bydd lleni o ddeg cufydd a deugain: eu colofnau fyddant ddeg, a'u mortaisiau yn ddeg.

13 A lled y cynteddfa, tu a'r dwyrain, o godiad haul, a fydd ddeg cufydd a deugain.

14 Y lleni o'r naill du a fyddant

a'r alch oddiwrth y marwor a'r lludw, a thra y byddai yr allor yn cael ei chario o'r naill le i'r llall, yr hyn a wneid yn fynych yn yr anialwch.

Adn. 4—8. *A gwna iddi alch o bres, ar waith rhwyd*] Y mae Ca'met yn meddwl fod yr allor hon yn fath ar gist wedi ei gorcluddio â llafnau pres, ar ben pa un yr oedd alch i gael gwynt i'r tân, ac i ollwng y lludw trwyodd i'r badell odditanodd. Yn mhedair congl yr alch yr oedd pedair modrwy a phedair cadwyn, trwy y rhai ei cysylltid wrth y pedwar corn; ac yn yr ochrau yr oedd modrwyau i'r trosolion o goed sittim, â'r rhai y cludid hi. Ond ar hyn y mae llawer o wahanol dybiau. Meddylir fod yr allor bres hon yn gysgod o Grist yn marw i wneuthur iawn dros ein pechodau ni. Santeiddiodd Crist ei hun dros ei eglwys, fel ei hallor, Ioan xvii. 19; ac y mae efe, trwy ei gyfryngod, yn santeiddio gwasanaeth feunyddiol ei bobl. At gym yr allor hon y mae pechaduriaid tylodion yn ffoi am noddfa, ac y maent yn ddiogel trwy rin yr aberth offrymedig yno.

Adn. 9—15. *A gwna gynteddfa y tabernacl, &c.*] Yr oedd y tabernacl yn sefyll mewn amgafu neu gwrnt, agored uwchben. Yr oedd y cwrnt hwn wedi ei wneuthur â cholofnau neu byst, gyda lleni. Yr oedd ef yn gan cufydd, neu oddeutu 58½ o latheni o hyd, 29½ o latheni o led, ac yn agos i dair llath o uchder, adn. 18. A chan nad oedd hyn ond oddeutu hanner uchder y tabernacl, pen. xxvi. 16, gallai y bobl weled yr adeilad santeidd hōno yn hawdd oddiallan. Tybia rhai fod y gynteddfa hon yn gysgod o'r eglwys wedi ei chau a'i neillduo oddiwrth y rhelyw o'r byd; a bod yr amgafu yn gynaliedig gan golofnau pres, yn dynodi

bymtheg cufydd; eu colofnau yn dair, a'u mortaisiau yn dair.

15 Ac i'r ail du y bydd pymtheg llen; eu tair colofn, a'u tair mortais.

16 ¶ Ac i borth y cynteddfa y gw'nair caeadlen o ugain cufydd, o sidan glas, porphor, ac ysgarlad, ac o lian main cyfrodedd o wniadwaith: eu pedair colofn, a'u pedair mortais.

17 Holl golofnau y cynteddfa o amgylch a gylchir âg arian; a'u penau yn arian, a'u mortaisiau yn bres.

18 ¶ Hyd y cynteddfa fydd gan cufydd, a'i led yn ddeg a deugain o bob tu; a phum cufydd o uchder o lian main cyfrodedd, a'u mortaisiau o bres.

19 Holl lestri y tabernacl yn eu holl wasanaeth, a'i holl hoelion hefyd, a holl hoelion y cynteddfa, fyddant o bres.

20 ¶ A gorchymyn dithau i feibion Israel, ddwyn o honynt atat bur olew yr olewyydden coethedig, yn oleuni, i beri i'r lamp losgi yn wastad.

21 Yn mhabell y cyfarfod, o'r tu

cadernid yr eglwys; a'i bod wedi ei chroglenu â lian main, er cysgodi *cysfiawnder y saint*, Dat. xix. 8.

Adn. 16. *Ac i borth y cynteddfa y gw'nair caeadlen*] Ymddengys fod caeadlen y porth hwn o'r un defnyddiau a gwaith a thō mewnlol y tabernacl, a'r llen fewnlol ac allanol: gwel pen. xxvi. 31, 36.

Adn. 17. *A gylchir âg arian*] Nid drostynt, ond ar waelod y colofnau pres, adn. 10.

Adn. 18. *Ilyd y cynteddfa, &c.*] Gwel ar adn. 9—15.

Adn. 19. *Holl lestri y tabernacl—fyddant o bres*] Sef yr holl lestri yn ngwasanaeth gyffredin y tabernacl, a'r cyfryw ag na chrybwyllwyd o'r blaen. Buasai yn anaddas defnyddio offerynau wedi eu gwneuthur o ddefnyddiau gwerthfawroceach oddeutu yr allor hon, am y buasai raid iddynt dreulio allan yn fuan gan lymder y wasanaeth.

Adn. 20. *Bur olew yr olewyydden*] Y fath olew ag a ellid yn hawdd ei wasgu o'r olifaidd ar ol eu hysigo gan y pwniadur, yr hwn sydd yn llawer purach na'r olew a geir ar ol i'r olifaidd gael eu rhoddi dan y gwryf. *I beri i'r lamp losgi yn wastad*—yr oedd i'w gadw i losgi trwy yr holl nos, ac y mae rhai yn meddwl yr holl ddydd hefyd: gwel ar adn. 21. Yr oedd yr olew a'r filam wastadol yma yn gysgod nid yn unig o eoneiniad a dylanwadau yr Ysbryd Glân, ond hefyd o'r ysbryd pur hwnw o ddyhwedd ag sydd bob amser yn bywhau calonau a meddyliau iawn addolwyr y gwir Dduw.

Adn. 21. *Yn mhabell y cyfarfod*] Lle yr oedd holl gynulleidfa y bobl i addoli, a lle yr oedd Duw y gynulleidfa hōno yn gweled yn dda drigo, ac i ba le, fel preswylfa eu Breuin

allan i'r wahanlen, yr hon fydd o flaen y dystiolaeth, y trefna Aaron a'i feibion hwnw, o'r hwy'r hyd y bore, gerbron yr Arglwydd: deddf dragwyddol fydd, trwy eu hoesoedd, gan feibion Israel.

PENNOD XXVIII.

A CHYMER Aaron dy frawd atat, a'i feibion gydag ef, o blith meibion Israel, i offeiriadu i mi; *sef* Aa-

a'u Noddwr, yr oeddynt yn wastadol i droi eu gwynebau yn eu holl addoliadau. *O flaen y dystiolaeth*—*sef* yr arch, lle yr oedd llechau y cyfammod wedi eu rhoddi, pen. xxv. 16. *Y trefna Aaron a'i feibion*—gan mai y rhai hyn a'u hiliogaeth oeddynt yr unig offeiriad cyfreithlon, trwy i Dduw sefydlu yr offeiriadaeth yn y teulu hwnw. *O'r hwy'r hyd y bore*—'ymddengys yn ddigon amlwg, oddiwrth I Sam. iii. 3, fod y lampau hyn yn cael eu diffodd yn y bore: 'A chyn i lamp Duw ddiffoddi yn nheml yr Arglwydd, lle yr oedd arch Duw, a Samuel oedd wedi gorwedd i gysgu.' Gwel hefyd pen. xxx. 8: 'A phan oleu Aaron y lampau yn y cyfnos.' Ymddengys gan hyny mai gorchwyl yr offeiriad oedd goleno y lampau yn yr hwy'r; ac naill ai eu diffodd yn y bore, neu adael iddynt losgi allan, ar ol rhoddi i mewn y nos o'r blaen gwyaint o olew ag ydoedd angenrheidiol i barhau hyd oleuni y dydd.—CLARKE. Ond ereill a haerant eu bod yn cael eu cadw yn oleu ddydd a nos yn barhaus: 'Ac yn wir nid oedd eu cadw i losgi y dydd yn gystal a'r nos yn fwy nag a ydoedd angenrheidiol; amgen buasai raid i'r offeiriad weini yn y tywyllwch wrth allor yr aroglarth, trwy nad oedd ffenestri yn y cysegr.'—BENSON. Ond ymddengys i mi fod JOSEPHUS yn taflu goleuni ar y ddadl rhwng y ddau esboniwr dysgedig hyn, yr hwn a ddywed, 'fod pob un o'r saith lamp yn llosgi trwy y nos; ac yn y bore fod pedwar yn cael eu diffodd, a thri yn cael eu cadw i losgi trwy y dydd.' Os felly, rhaid fod y *diffoddiaid* a'r *goleuad* crybwylledig yn y ddyw adnod uchod yn cyfeirio yn unig at y *pedwar* lamp hyny o'r saith, y rhai a ddiffoddid bob bore ac a oleuid bob hwy'r, fel y dywed Josephus. Rhaid addef fod gan Josephus fantasia fawr i wybod am drefniadau pethau o'r fath yma, trwy ei fod ef ei hun yn offeiriad Iuddewig. *Deddf dragwyddol fydd*—hyny yw, yr oedd y trefniad hwn o'r lampau hwy'r a bore, a gweinyddiad gwasaeth y tabernacl, yn ddeddf ag ydoedd i fod mewn llawn rym tra y byddai y tabernacl a'r deml yn sefyll, ac i gael ei hysbrydol gyflawniad yn yr eglwys Gristionogol hyd ddiwedd amser. Y mae y tabernacl a'r deml erbyn hyn wedi eu dinystrio, ac eglwys Crist wedi ei sefydlu yn eu lle. Yr oedd y *saith ganwyllbren aur* yn gysgod o'r eglwys hon, ac o'r goleuni gogoneddus ag y mae yn ei feddiannu, Dat. i. 12—20; ac y mae Iesu Crist, Pfyntonell a Chyfranwr y gwir oleuni hwn, yn rhodio yn eu canol hwynt.

ron, Nodab ac Abihu, Eleazar ac Ithamar, meibion Aaron.

2 Gwna hefyd wisgoedd santaidd i Aaron dy frawd, er gogoniant a harddwch.

3 A dywed wrth yr holl rai doeth o galon, y rhai a lenwais i ág ysbryd doethineb, am wneuthur o'honynt ddillad Aaron i'w santeiddio ef, i offeiriadu i mi.

4 A dyma y gwisgoedd a wnant.

dy frawd atat, a'i feibion] Yr oedd yr offeiriadaeth i gael ei chyfyngu i'r teulu hwn, am fod yr addoliad cyhoeddus i'w gyfyngu i un lle; eithr cyn hyn yr bynaf yn mliob teulu a wasanaethai fel offeiriad, gan nad oedd un lle sefydlog o addoliad yn bodoli: gwel ar pen. xix. 22.

Adn. 2. *Gwna hefyd wisgoedd santaidd*] Pa beth bynag a neillduid oddiwrth ddybenion cyffredin, ac a gysegrid i wasanaeth uniongyrchol Duw, a elwid yn SANTAIDD, pa un bynag ai dyn ai dâ. *Er gogoniant a harddwch*—yn arwydd o'r swydd yn yr hon y gweinyddent. Yr oedd y gwisgoedd hyn yn gysgod o *ogoniant* y Dwyfod Fawrhydi, ac o *harddwch* neu brydferthwch y santeiddrwydd hwnw, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. 'Y *wenwisg* yn Ngwasanaeth yr Eglwys,' meddai Dr. A. Clarke, 'yw braidd yr unig beth ag sydd yn aros o'r gwisgoedd benafol a *gweiddus* hyny, y rhai y gorchymynodd Duw eu gwneuthur er *gogoniant* a *harddwch*. Y mae gwisg, fel arwydd o *swydd*, o fwy o bwys nag a ddychymygrir yn gyffredin. Pe byddai i swyddogion mawrion y goron, a swyddogion mawrion cyflawnder, ymwisgo fel y bobl gyffredin pan yw ymddangos yn eu gweddnod cyhoeddus, byddai i'w personau a'u penderfyniadau gael yn fuan eu dibrisio. Os dywedir, 'Nid yw y rhai hyn ddim ond *cysgodau*, ac y maent yn ddiweddnydd am fod y *swydd* wedi dyfod;' gofynaf, 'Ai ni fyddai i'r un fath resymiad gwa allan *ddwfr* yn y bedydd, a *bara* a *gwin* yn Swper yr Arglwydd?'—CLARKE.

Adn. 3. *A dywed wrth yr holl rai doeth o galon, y rhai a lenwais i ág ysbryd doethineb*] Felly cawn fod *cywreintrwydd* mewn celfyddydau a gwyddiannau, hyd yn nod y rhai o'r fath *addurnol*, yn dyfod oddiwrth Dduw. Ni awgrymir yma fod y gwyr hyn wedi eu llenwi ág ysbryd doethineb i'r *perwyl* *hyn yn unig*; canys y gorchymyn i Moses ydyw, iddo ddewis y rhai a gai efe yn *grefftwyr celfydd*; a'r rhai ag oeddynt felly, dengys Duw trwy y geiriau hyn iddynt gael eu gwybodaeth oddiwrtho ef ei hun. Dylid caniatáu i bob dyn, mor bell ag y mae yn bosibl, ddylyn tuedd neu gyfarwyddyd ei athrylith ei hun, pan y mae yn amlwg yn ei arwain ef i ddyfeisiadau newyddion, a gwelliant hen gynlluniau. Pa faint a leihawyd ar lafur dynion ac anifeiliaid trwy welliannau mewn peirianwaith! Ac a allwn ni ddywedyd nad yw y *doethineb* a gafodd allan y gwelliannau hyn wedi dyfod oddiwrth Dduw? Ni ddarfu i neb, trwy ddarllen neu fyfyrto, erioed gyraedd *athrylith* o'r fath yma: yr ydym ni yn ei alw yn *na-*

Dwyfroneg, ac ephod, mantell hefyd, a phais o waith edcu a nodwydd, meitr, a gwregys: felly y gwnant wisgoedd santaidd i Aaron dy frawd, ac i'w feibion, i offeiriadu i mi.

5 Cymerant gan hyny aur, a *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lian main.

6 ¶ A gwnant yr ephod o aur, *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lian main cyfrodedd, o waith cywraint.

7 Dwy ysgwydd fydd iddi wedi eu cydio wrth ei dau gwr; ac felly y cydir hi yn nghyd.

8 A gwregys cywraint ei ephod ef

yr hwn fydd arni, fydd o'r un, yn un waith â hi; o aur, *sidan* glas, a phorphor, ysgarlad hefyd, a lian main cyfrodedd.

9 Cymer hefyd ddau faen onix, a nadd ynddynt enwau meibion Israel:

10 Chwch o'u henwau ar un maen, a'r chwe henw arall ar yr ail maen, yn ol eu genedigaeth.

11 A gwaith naddwr mewn maen, fel naddiadau sêl, y neddi di y ddau faen âg enwau meibion Israel: gwna hwynt â boglynau o aur o'u hamgylch.

12 A gosod y ddau faen ar ys-

turiol, ac yn dywedyd ddarod ei *eni gyda'r dyn*; ac y mae Moses yn dysgu i ni ei ystyr ied fel yn *ddwyfol*. Pŷy a ddysgodd i New-ros sicrhau y deddfau trwy y rhai y llywodraetha Duw y bydysawd, trwy ba ddatguddiad yr agorwyd ffynonell newydd o fudd ac hyfrydych i ddynolwr dros bob rhan o'r byd gwateiddiedig? Ni ddarfu i un darlenniad, myfyrodol, nac anghraifft, fel y sylwa Clarke, ffurfiol ei *athryllith* ef. Duw, yr hwn a'i gwnaeth, a roddes iddo y cyfryw gylch a go-gwyddiad meddwl trwy yr hyn y gwnaeth efe y datguddiadau hyny, ac am yr hyn y mae ei enw yn glodfawr ar y ddaear. Mor eglur y cyfeiria y proffwyd Esay at *hyfforddiad* Duw, hyd yn nod yn nghelfyddydau hawddaf a mwyaf cyffredin bywyd! 'A ydyw yr arddwr yn aredig ar hyd y dydd i hau?' ydyw efe yn agordd ac yn llyfnau ei dir? Onid wedi iddo lyfihau ei wyneb y taena efe y ffacbys, ac y gwasgar y cwmin, ac y bwrw y gwenith ar-dderchog, a'r haidd nodedig, a'r ihyg yn ei gyfle? Canys ei *Dduw* a'i *hyfforddia* ef mewn synwyr, ac a'i *dysg* ef; Esay xxviii. 24—26; gwel hefyd adn. 27—29, Exod. xxxi. 3—5. Ond boed i ni gymeryd gofal rhag rbedeg i eithaf-oedd yma: PEIRIANNAG sydd i *gynorthwyo* dyn, ac nid i'w wneuthur ef yn *ddi-ddesnydd*. Cadwer peiriannau fel cynorthwyo i'r llaw ddynol, ac i ysgafnhau llafur; ond na fydded iddynt byth ddiswyddo y naill na'r llall. Wrth ddiweddu gallwn sylwi fod ager, trydân, fferylliaeth, gallofyddiaeth, a'r mil o wahanol ganghenau gwyddiannaeth a ddaethant i olenni trwyddynt, nid yn unig wedi eu datguddio gan Dduw trwy offerynnoliaeth y rhai a lanwodd efe âg ysbryd doethineb, ond hefyd yn cynorthwyo i ddwyn holl genhedloedd y byd at eu gilydd fel un teulu mawr, fel y gallont gydnabod ac addoli yr unig wir Dduw, a mwyntau dedwyddwch ac iachawdwriaeth ar y ddaear ac yn y nef.

Adn. 4. *A dyma y gwisgoedd a wnant*] Pedwar dilledyn a orchymynid i'r offeiriad yn gyffredin, sef pais, llofrau, gwregys, a chap; a phedwar yn chwangoedd i'r archoffeiriad, sef mantell, ephod, dwyfroneg, a dalen o aur coeth ar ei dalcen. *Dwyfroneg ac ephod*—gwel ar pen. xxv. 7. *Mantell*—darlunir hi gan Josephus fel gwisg yn cyraedd i lawr at y traed, wedi ei gwne yn un cyfanwaith, â thwll yn ei chanol i'r pen fyned trwyddo.

Gwisgid hon dan yr ephod yn nesaf ati. *A phais o waith edcu a nodwydd*—neu wisg dden am y corff, â llewis wrthi. Yr oedd hon yn nesaf dan y fantell, ac yn ateb yr un dyben i'r offeiriad ag a wna ein crysau i niuanu. *Meitr*—y goruchudd hwnw am y pen ag sydd mor gyffredin yn y gwledydd dwyreiniol, yr hwn a alwn ni *turban*. *A gwregys*—ym-ddengys fod hwn yr un peth a'r rhwymyn hwnw, mor gyffredin yn ngwledydd y dwyrain, yr hwn a gadwai y gwisgoedd rhyddion yn dŷn am y wasg, ac yn yr hwn y cwtogid y godre wrth weithio neu ymdaith. Ar ol ei rwymo am y wasg, yr oedd ei ddau ben yn crogi i lawr y tu blaen, hyd odre eu mantelli.

Adn. 5. *A sidan glas*] Trwy nad yw y gair *sidan* yn y wreiddiol, gall mai *brethyn* o'r lliwiau hyn, o ba ddefnydd bynag, yw y cwbl a feddylir.

Adn. 6, 7. *A gwnant yr ephod o aur*] Hon oedd wisg uchaf yr archoffeiriad, fel y nodwyd eisoes. Ephod lian a wisgid gan yr offeiriad cyffredin; ond yr hon a wisgid gan yr archoffeiriad a elwid yn 'ephod aur,' am fod llawer o aur wedi ei weu trwyddi: gwel ar pen. xxv. 7.

Adn. 8. *A gwregys cywraint ei ephod ef*] Y mae y gair *chesheb*, a gyfieithir yma 'gwregys cywraint,' yn arwyddo yn unig fath ar ffodeuwe neu frwydwaith; ac y mae yn dra gwahanol i *abnet*, yr hwn yn briodol a gyfieithir 'gwregys,' adn. 4.

Adn. 9. *Cymer hefyd ddau faen onix*] Gwel ar pen. xxv. 7. 'Y mae yn anhawdd sicrhau pa beth a feddylir wrth y maen *shoam*,' meddai Clarke: 'y mae rhai yn meddwl mai yr *onix*, ereill mai y *sardis*, ac ereill mai yr *emerald*: nis gallwn ddywedyd yn gywir pa beth ydoedd.'

Adn. 10. *Yn ol eu genedigaeth*] Gan ddechreu gyda'r hynaf.

Adn. 11. *Fel naddiadau sêl*] Felly yr oedd cerfio ar feini gwerthfawr mewn arferiad y pryd hyny. Yr oedd y gelfyddyd yma, yr hon oedd yn un o'r rhai mwyaf dillynaidd ac addurnol, yn cael ei chario yn yr hen amseroedd i raddau uchel iawn o berffeithrwydd, yn enwedig yn mhllith ymhen Roegwyr; y fath a'r na ragorwyd arno erioed, ac nas gellir yn awr braidd ei efelychu. Tybia Clarke i'r Groegiaid gael y gelfyddyd hon oddiwrth yr hen Hebraid, gan y gwyddys ei bod yn blod-

gwyddau yr ephod, yn feini coffadwriaeth i feibion Israel. Ac Aaron a dddwg eu henwau hwynt gerbron yr Arglywydd ar ei ddwy ysgwydd, yn goffadwriaeth.

13 ¶ Gwna hefyd foglynau aur ;

14 A dwy gadwyn o aur coeth yn eu penau: o blethwaith y gwnai hwynt; a dod y cadwynau plethedig yn nglyn wrth y boglynau.

15 ¶ Gwna hefyd ddwyfroneg barnedigaeth o waith cywraith; ar waith yr ephod y gwnai hi: o aur, *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main cyfrodedd, y gwnai hi.

16 Pedairongl fydd hi yn ddau ddy-

blig; yn rhychwant ei hyd, ac yn rhychwant ei lled.

17 Llanw hi yn llawn o feini, *sef* pedair rhes o feini: un rhes fydd sardius, a thophas, a smaragdus: hyn fydd y rhes gyntaf.

18 A'r ail res *fydd* carbuncel, saphir, ac adamant.

19 A'r drydedd res *fydd* lygur, ac acat, ac amethyst.

20 Y bedwaredd res *fydd* beryl, ac onix, a jaspis: byddant wedi eu gosod mewn aur yn eu lleoedd.

21 A'r meini fyddant âg enwau meibion Israel, yn ddeuddeg, yn ol eu henwau hwynt; o naddiad sêl,

euo yn yr Aifft a Phalestina yn hir cyn ei bod yn adnabyddus yn nhir Groeg.

Adn. 12. *Ac Aaron a dddwg eu henwau hwynt gerbron yr Arglywydd ar ei ddwy ysgwydd, yn goffadwriaeth*] Tybia Le Clerc fod tri pheth yn cael eu dynodi trwy yr enwau hyn: 1. Undeb yr holl lwythau yn un wladwriaeth; 2. Eu bundeb mewn un grefydd ac offeiriadaeth; ac, 3. Yr oedd gwaith Aaron yn gwisgo yr enwau hyn ar ei ysgwyddau, ac yn agos at ei galon, yn adgofa i'r archeoffeiriad fod gofal y grefydd gyhoeddus yn gorhfwys fel pe buasai ar ei ysgwyddau ef, ac i fod o bob peth yn agosaf at ei galon. A gallwn chwaneu, yn 4. Fod Ddu, a llefaru yn ol dull dynion, i gael ei roddi mewn cof am blant Israel a'u banghenion, a'i addewidion yntau iddynt, mor aml ag yr ymddanghosai yr archeoffeiriad ger ei frou gyda'r ddwyfroneg a'r ephod: gwel ar adn. 29.

Adn. 13. *Gwna hefyd foglynau aur*] *Sef ymylau* bychain o aur yn cau am ochrau y meini hyn, i'w sierchau ar ysgwyddau yr ephod, yn debyg i'r modd y sierheir meini neu seliau mewn modrwyau.

Adn. 14. *A dwy gadwyn o aur coeth*] Nid o fodrwyau neu ddolennau, fel y sylwa Patrick, eithr o edafedd neu wyfrau ar wedi eu cydblethu fel rhaff: gwel ar adn. 22.

Adn. 15. *Gwna hefyd ddwyfroneg barnedigaeth*] Gelwir hi fel hyn, am fod yr archeoffeiriad yn ei gwisgo ar ei fynwys wrth fyned i ymgynghori â'r Arglywydd mewn trefn i roddi barn mewn unrhyw achos neilldaol, ac wrth eistedd fel *barnydd* i ddyngu y gyfraith a phenderfynu dadleuon, Lef. x. 11, Deut. xvii. 8, 9.

Adn. 16. *Pedairongl fydd hi yn ddau ddyblig*] Yn *ddyblig* yn lytrach, am fod 'dau ddyblig' yn arwyddo o leiaf *bedwar* plyg. Yn *rhychwant*—oddentu naw modfedd. Yr oedd yn thychwant o hyd a lled pan wedi ei dyblgu, ac o ganlyniad yn ddau rhychwant un ffordd cyn ei dyblgu yn ysgwar.

Adn. 17—21. *Pedair rhes o feini, &c.*] Gydag enw ar bob naen, yn gwneyd yn y cyfan ddeuddeg enw y ddeuddeg llwyth. A chan fod y rhai hyn wedi eu gosod yn ol eu genedigaeth, adn. 10, gallwn feddwl eu bod yn sefyll yn y drefn yma, a bod y meini yn cael eu gosod hefyd yn y drefn eu crybwyllir:

Y RES GYNTAF.

Ar Sardius	cerfwydd	Reuben
— Topas	————	Simeon
— Samaragdus	————	Lefi

YR AIL RES.

Ar Carbuncel	cerfwydd	Juda
— Saphir	————	Issacar
— Adamant	————	Zabulon

Y DRYDEDD RES.

Ar Lygur	cerfwydd	Dan
— Acat	————	Naphtali
— Amethyst	————	Gad

Y BEDWAREDD RES.

Ar Beryl	cerfwydd	Aser
— Onix	————	Joseph
— Jaspis	————	Benjamin

'Nis gallaf ddywedyd mai y meini uchod ydynt yn gwir y rhai a fwriedir wrth yr enwau yn y testyn Hebreig, ac ni allaf gymeryd arnaf wirio fod y *llwythau* wedi eu trefnu yn gymhwys yn y modd y bwriadai Moses; oblegid gan nad yw y pethau hyn wedi eu gosod i lawr yn y testyn yn y fath fodd ag i gan allau bob camgymeriad, rhaid gadael rhai pethau i *ddychymyg*.'—CLARKE. At hyn gallwn chwaneu, nad yw y meini uchod yn gwbl yn yr un drefn yn y cyfieithiadau Cymreig a Saesonig. Y *carbuncel*, y maen cyntaf o'r ail res yn y Beibl Cymreig, yw yr olaf o'r rhes gyntaf yn y Saesonig. Hefyd y mae y *smaragdus* yn cael ei adael allan yn gwbl yn y Saesonig; a'r *emerald*, yr hwn ni enwir yn y Gymraeg, yn dechreu yr ail res. Heblaw hyn, y mae y naturiaethwyr yn anghytuno yn fawr ar y gwahanol feini hyn: er anghraifft, cafodd *shoam*, yr hwn a gyfieithir uchod yn ONIX, ei gyfieithu gan rai yn *beryl*, gan eieill *smaragdus*, *emerald*, *prasius*, *saphir*, *sardius*, *rubi*, *cornelian*, a *sardonix*. Gyda golwg ar y JASPIS hefyd, yr olaf yn y bedwaredd res, y mae y mwinaethwyr yn cyfrif nid llai na *phymitheg* math o hono, a phob un yn amrywio mewn lliw. Felly nis gellir dysgwyl dysgrifiad cywir o'r meini hyn; ond diamau eu bod y rhai barddaf a gwerthfawrocaf. Gallen sylwi yn mhellach, fod rhai yn meddwl nad oedd un o'r deuddeg maen hyn yn cynwys enw *Lefi*, ac

bob un wrth ei enw y byddant, yn ol y deuddeg llwyth.

22 ¶ A gwna ar y ddwyfroneg gadwynau ar y cyrau, yn blethwaith, o aur coeth.

23 Gwna hefyd ar y ddwyfroneg ddwy fodrwy o aur, a dod y ddwy fodrwy wrth ddau gwr y ddwyfroneg.

24 A dod y ddwy gadwyn blethedig o aur trwy y ddwy fodrwy ar gyrau y ddwyfroneg.

25 A'r ddau ben arall i'r ddwy gadwyn blethedig, dod yn nglyn wrth y ddau foglyn, a dod ar ysgwyddau yr ephod o'r tu blaen.

26 ¶ Gwna hefyd ddwy fodrwy o aur, a gosod hwynt ar ddau ben y ddwyfroneg, ar yr ymyl *sydd* ar ystlys yr ephod o'r tu mewn.

27 A gwna ddwy fodrwy o aur, a dod hwynt ar ddau ystlys yr ephod oddi tanodd, tua'i thu blaen, ar gyfer ei chydiad, oddiar wregys yr ephod.

28 A'r ddwyfroneg a rwymannt â'u

modrwyau wrth fodrwyau yr ephod â llinyn o *sidan* glas, fel y byddo oddiar wregys yr ephod, fel na ddatodir y ddwyfroneg oddiwrth yr ephod.

29 A dyged Aaron, yn nwyfroneg y farnedigaeth, enwau meibion Israel ar ei galon, pan ddelo i'r cysegr, yn goffadwriaeth gerbron yr Arglwydd yn wastadol.

30 ¶ A dod ar ddwyfroneg y farnedigaeth, yr Urim a'r Thummim; a byddant ar galon Aaron pan elo i mewn gerbron yr Arglwydd: ac Aaron a ddwg farnedigaeth meibion Israel ar ei galon, gerbron yr Arglwydd, yn wastadol.

31 ¶ Gwna hefyd fantell yr ephod oll o *sidan* glas.

32 A bydd twll yn ei phen uchaf hi, ar ei chanol: gwrym o waith gwehydd o amgyleh y twll, megys twll llurig, fydd iddi, rhag rhwygo.

33 ¶ A gwna ar ei godre hi bomgranadau o *sidan* glas, a phorphor, ac

felly nad oedd dim yn y ddwyfroneg, nac yn y meini ar ysgwyddau yr ephod, yn cynrychioli y llwyth hwn; eithr mai enwau *Ephraim a Manasse* oedd ar y deuddegfed maen; a bod yr archoffeiriad ei hun, trwy ei fod yn ben ar lwyth Lefi, yn cynrychioli y llwyth hwnw yn ddigonol. Ond os oedd enw *Lefi* ar y meini, rhaid fod *Ephraim a Manasse* yn gynnwysedig yn maen *Joseph* eu tad.

Adn. 22—28. *A gwna ar y ddwyfroneg gadwynau, &c.* Ymddengys oddiwrth yr adnodau hyn mai i sicrhau y ddwyfroneg wrth y ddau faen oxia ar ysgwyddau yr ephod yr oedd y cadwynau a grybwyllir adn. 14. Heblaw y ddwy fodrwy wrth ddau gwr y ddwyfroneg, adn. 23, yr oedd dwy ereill i gael eu gwneuthur, a'u gosod yn y plygiad yn nesaf at yr ephod, adn. 26, yn yr hon yr oedd modrwyau cyfatebol i gael eu gwneuthur, adn. 27; a thrwy y rhai hyn yr oedd y ddwyfroneg i gael ei rhwymo â llinyn o *sidan* glas wrth yr ephod, adn. 28, heb byth gael ei thynu oddiwrthi.

Adn. 29. *A dyged Aaron, yn nwyfroneg y farnedigaeth, enwau meibion Israel ar ei galon.* Gwel ar adn. 12. Yr oedd ef yn hyn yn gysgod o'n Harchoffeiriad mawr ni, fel y sylwa Benson, yr hwn sydd bob amser yn ymddangos gerbron Duw drosom ni. Yr oedd enw pob llwyth wedi ei gerfio mewn maen *gwerthfawr*, i arwyddo mor werthfawr yn ngolwg Duw yw y credinwyr, ac mor ogoneddus, Esay xliii. 4. Yr oedd gan yr archoffeiriad enwau y llwythau ar ei ysgwyddau ac ar ei ddwyfron, i arwyddo y gallu a'r serch â pha rai yr eiriola yr Arglwydd Iesu drosom ni. Mor agos y dylai enw Crist orwedd at ein calon ni, gan ei fod ef yn gweled yn dda roddi ein henwau ni mor agos at ei galon ei hun! A'r fath gysur ydyw meddwl yn ein holl weddïau at Dduw, fod gan Archoffeiriad mawr ein cyffes ni enw-

au ei holl Israel ar ei galon gerbron yr Arglwydd yn *goffadwriaeth*, gan eu cyflwyno i Dduw!

Adn. 30. *A dod ar ddwyfroneg y farnedigaeth yr Urim a'r Thummim*] Neu y *Goleuadau a'r Perffeihtderau*, fel tyr arwydda y geiriau. Ond pa beth oedd y rhai hyn? Tybia *Christophorus de Castro*, ac ar ei ol ef *Dr. Spencer*, mai dwy ddelwfechan oeddnt, wedi eu cau yn nyblygiad y ddwyfroneg, y rhai a roddent atebiad mewn llais hygryw i bob gofyniad a ddenai oddiwrth yr archoffeiriad; ac y mae ereill yn meddwl mai yr enw *JEHOFA*, wedi ei ysgrifennu ar lafa aur, oeddnt. Y mae llawer o ddychymyngion ereill wedi eu ffurfio yn eu cych; ond nis gellir ymddybynu arnynt yn hollol, trwy fod yr ysgrythyr yn ddystaw ar y pen hwn. Modd bynag y mae un peth yn eglur, beth bynag oeddnt, a phwy bynag a'u gwnaeth, ac yn mha fodd bynag yr atebent, eu bod o *ddwyfol osodiad*, ac yn gwasanaethu i ddatguddio meddwl ac ewylllys Duw ar rai achlysuron. Er mwyn boddloni y cywrair rhoddir gwahanol farnau y dysgedigion ar y pwnc tywyll hwn yn yr *ADFEDELLADAU* yn niwedd y bennod.

Adn. 31, 32. *Fantell yr ephod oll o sidan*] Neu *frethyn* glas. Nid yw y gair *sidan* yn y wreiddiol, fel y gwelir trwy ei fod mewn llythyrenau *Italaidd*: gwel ar adn. 5. Oddiwrth y dysgrifiad hwn, ac oddiwrth yr hyn a ddywed *Josephus*, yr hwn a raid fod yn dra adnabyddus â'i ffurf hi, cawn fod y fantell hon yn un darn hir o ddefnydd glas, gyda thwll neu egorion yn y canol i'r pen fyned trwyddo, pa dwll oedd wedi ei wrymio oddi-amgylch rhag iddi rwygo wrth ei gwisgo neu ei thynu: gwel ar adu. 4.

Adn. 33. *A gwna ar ei godre hi bomgranadau*] Sef lluniau pomgranadau wedi eu brwydweithio. Pomgranad oedd ffirwy pren

ysgarlad, ar ei godre o amgylch; a chlych o aur rhyngddynt o amgylch.

34 Cloch aur â phomgranad, a chloch aur a phomgranad, ar odre y fantell o amgylch.

35 A hi a fydd am Aaron wrth weini: a cheir clywed ei sŵn ef pan ddelo i'r cysegr, gerbron yr Arglwydd, a phan clo allan; fel na byddo farw.

36 ¶ Gwna hefyd ddalen o aur coeth; a nadd arni, fel naddiadau sêl, SANTEIDDRWYDD I'R ARGWLWYDD.

37 A gosod hi wrth llyn o sidan glas, a bydded ar y meitr: o'r tu blaen i'r meitr y bydd.

tra chyffredin yn Palestina a pharthan ereill o'r dwyrain: y mae oddentu maint a llun wŷ iâr, ac yn meddu rhinweddau cyffredin ffirwythau ereill haf, sef oeri a thori syched.

Adn. 34. *Cloch aur a phomgranad*] Bob yn ail o amgylch godre y fantell. Tybia Hewlett mai llun cloch a feddylir, fel llun y bomgranad; ond y mae yn eglur oddiwrth yr adnod nesaf mai clychau gwirioneddol a olygir. Yr oedd y clychau yn ddiaman wedi en bwriadu i gadw i fyny sylw y bobl at y swydd ddwyys a phwysig ag yr oedd yr offeiriad y pryd hyny yn ei chyflawni, fel y gallent oll fod â'u calonau yn rhwym yn y gwaith; ac ar yr un pryd i goffa i Aaron ei hun ei fod yn gweinyddu gerbron Jehofa, ac na ddylai ddyfod i'w wyddfod heb ddyledus barch. Dichon hefyd fod y *clychau* yn eysgodi yr efengyl ag yr oedd Crist a'i weision i'w phregethu; a'r *pomgranadau*, ffirwythau peraid offeiriadaeth ef, yn nghyda'r ffirwyth santeiddrwydd ag sydd ofynol yn holl weinidogion a phroffeswyr crefydd.

Adn. 35. *A cheir clywed ei sŵn ef pan ddelo i'r cysegr*] Tybia rhai fod yma gyfeiriad at ddefod ag sydd yn bodoli eto mewn rhai o'r gwledydd dwyreiniol. Wrth ddrws palas pendeifig gosodir yn gyffredin ryw gorff soniarus, yr hwn a darewir i fynegu i'r rhai oddifevn fod un yn dymuno dyfod i wyddfod y brenin, &c. Yr oedd JEHOFA yn y tabernacl megys Brenin yn mlith ei bobl; a chan nad oedd i'r tabernacl un drws ond y *Uen*, nac o ganlyniad ddim i attal i neb fyned i mewn, gorchymynwyd i Aaron ddodi y clychau ar ei fantell, fel y ceid clywed ei sŵn pan elai i'r cysegr gerbron yr Arglwydd. *Fel na byddo farw*—yr oedd sain y clychian nid yn unig yn mynegu ei nesâd, ond hefyd yn profi ei fod ef wedi ymwisgo â'r gwisgoedd priodol; canys yr oedd gweinyddu hebddynt i'w gospi â marwolaeth, ond oddi trwy dân flamllyd, neu ddyrnod digyfrwng o'r nef.

Adn. 36. *Gwna hefyd ddalen o aur coeth*] Y mae y gair *tsits*, meddai Clarke, yn meddwl *blodeuyn* neu rywbeth o'r fath. Y mae v LXX, fel y Gymraeg, yn ei gyfieithu yn *ddalen*: felly gellir meddwl mai ihyw blât neu lasn ydoedd, ar waelod yr hwn yr oedd llun blodan neu ddaï. *A nadd arni fel naddiadau sêl*—dywed yr Iuddeuon fod y llythyrenau hyn

38 A hi a fydd ar dalcen Aaron, fel y dygo Aaron anwiredd y pethau santaidd a gysegro meibion Israel yn eu holl roddion santaidd: ac yn wastad y bydd ar ei dalcen ef, fel y byddo iddynt ffafr gerbron yr Arglwydd.

39 ¶ Gweithia âg edeu a nodwydd y bais o lian main: a gwna feitr o lian main; a'r gwregys a wnai o wniadwaith.

40 ¶ I feibion Aaron hefyd y gwnai beisiau, a gwna iddynt wregysau; gwna hefyd iddynt gapiau, er gogoniant a harddwch.

41 A gwaith hwynt am Aaron dy frawd, a'i feibion gydag ef: ae en-

wedi eu huchel-naddu ar yr anr, fel llythyrenau ar geiniog, ac nid wedi eu cerfio ynddo; a bod y ddalen neu y llafn ar ba un eu naddwyd o gylch lled dau fys, ac yn gorwedd ar y talcen rhwng y gwallt a'r aelian, ac yn cyraedd o glust i glust. *Santeiddrwydd i'r Arglwydd*—gallwn ystyried hwn fel arwydd mawr y swydd offeiriadol. Y mae yr Arglwydd yn santaidd, ac felly y rhaid i'w offeiriad ef fod. Rhaid i baub a weinyddant yn nhŷ Dduw gael 'santeiddrwydd i'r Arglwydd' yn gerfedig ar eu talcennau; hyny yw, rhaid iddynt fod yn santaidd en hunain, wedi ymysegru yn llwyr i'r Arglwydd, ac yn cyfeirio at ei ogoniant ef yn mhob peth a wnelont. Rhaid i hwn ymddangos ar eu *talcennau*, mewn profies gyhoeddus o'u perthynas â Duw, heb arnynt gywilydd ei arddel ef, a bod â'u hymarweddiad yn cyfateb i hyny. Rhaid iddo fod wedi ei *naddu*, nid ei baentio; hyny yw, rhaid iddo fod yn ddwfn a pharhaol, ac nid yn hawdd ei olchi ymaith.

Adn. 37. *A bydded ar y meitr*] Wedi ei rwympo wrth y meitr â llynyn glas, ac yn gorwedd ar y talcen, fel y nodwyd ar adn. 36.

Adn. 38. *Fel y dygo Aaron anwiredd y pethau santaidd*] Sef yr *offrymau* a'r *aberthau*. Yr oedd llawer o amherffeithrowdd yn nglŷn â gwasanaeth ac offrymau y bobl, ac am hyny y mae Aaron, fel cynrychiolydd neu gysgod o'n Harebffeiriad mawr ni, yn cael ei arddangos nid yn unig fel yn gwneuthur cymod yn gyffredinol dros *bêchodau* y bobl trwy yr ebyrth a ddygent, ond hefyd fel yn gwneuthur cymod dros *amherffeithrowdd* y cymod ei hun, a'r *modd* yn yr hwn ei dygid. *Ac yn wastad y bydd ar ei dalcen ef*—yr oedd y ddalen ar yr hon y cerfiwyd SANTEIDDRWYDD I'R ARGWLWYDD i fod yn wastadol ar ei dalcen ef, fel y byddai i'r bobl gael *ffafr*—neu faddeuant am yr hyn ag ydoedd o'i le yn eu gwasanaeth; ac hefyd i ddysgu iddynt fod y gyfraith yn gofyn *santeiddrwydd*, ac mai hyn oedd ei chyfeiriad, ei bwriad, a'i dyben. Y mae yr un peth yn cael ei ofyn gan yr efengyl; oblegid dan yr oruchwyliaeth hon dywedir yn bendant, 'Heb *santeiddrwydd*, ni chaff neb weled yr Arglwydd,' Heb. xii. 14.

Adn. 39. *Bais o lian main*] Gwel ar adu. 4.

cinia hwynt, cysegra hwynt hefyd, a santeiddia hwynt, i offeiriadu i mi.

42 Gwna hefyd iddynt lodrau llian i guddio eu cnawd noeth: o'r lwynau hyd y morddwydydd y byddant.

43 A byddant am Aaron, ac am ei

feibion, pan ddelont i mewn i habell y cyfarfod, neu pan ddelont yn agos at yr allor i weini yn y cysegr; fel na ddygont anwiredd, a marw. *Ilyn fydd ddeddf dragwyddol iddo ef, ac i'w had ar ei ol.*

Adn. 40. *Er gogoniant a harddwch*] Gwel ar adn. 2.

Adn. 41. *Ac eneinia hwynt*] Gwel ar pen. xxix. 7.

Adn. 42. *Gwna hefyd iddynt lodrau llian*] Golyga y gorchymyn hwn yr angenrheidiolrwydd o burdeb a gwedddeidd-dra yn mhob rhan o'r addoliad dwyfol, mewn gwrthgyferbyniad i anweddeidd-dra gwarthus yr addoliad pagan-aidd yn gyffredinol, lle yr oedd yr offeiriad yn gweinyddu yn noeth, megys wrth aberthu i Baucus, &c. Gwel ar pen. xx. 26.

Adn. 43. *Ilyn fydd ddeddf dragwyddol*] Cyhad ag y byddai i'r offeiriadaeth Aaron-aidd barhau; ac y mae i gael ei bytholi yn y sylwedd a gysgodid gan y pethau hyn.

ADPEDIADU.—Gan y dichon fod y darlennydd yn awr yr un mor awyddus i wybod cymaint ag a ellir am yr URIM a'r THUMMIM, ag a ydoedd yr Iuddewon gynt i ymofyn â Duw trwyddynt, maddeuir i ni am ddwyn i mewn yma dyb rhai o'r berniaid enwocaf mewn perthynas iddynt, a gall yntau gofseidio yr un a fyddo.

TYB DR. A. CLARKE.

'Pa beth oedd y rhai hyn ni ddatguddiwyd erioed eto, credwyf. 1. Ni ddarlunir hwynt mewn un man. 2. Nid oes unrhyw gyfarwyddyd yu cael ei roddi i Moses na neb arall pa fodd i'w gwneuthur. 3. Beth bynag oeddynt, nid ymddengys ddarfod eu gwneuthur ar yr achlysur hwn. 4. Os gwaith *dyn* oeddynt, rhaid mai y defnyddiau yr hen dabernacl oeddynt, pethau a ddefnyddid gan y *patri-eirch*, ac heb eu darlunio yn neillduol yma, am eu bod yn dra adnabyddus. 5. Y mae yn debyg nad oes dim *material* yn cael ei fwr-iadu. Dyma farn rhai o'r doctoriaid Iudde-wig. Rabbi Menachem ar y bennod hon a ddy-wed, 'Yr Urim a'r Thummim nid oeddynt waith crefftwr; ac nid oedd gan grefftwyr na chynulleidfa Israel ynddynt hwy un gwaith nac unrhyw offrm gwirfoddol; eithr *dirgel-vech* oeddynt a draddodwyd i Moses o enau Duw, neu yr oeddynt yn waith Duw ei hun, neu yn fesur o'r Ysbryd Glân.' 6. Fod Duw yn fynych yn cael ymgynghori âg ef trwy *Urim a Thummim* sydd ddigon amlwg oddi-wrth *amrai* ysgrythyrau; ond *pa sut* neu yn *mha fodd* yr ymgynghoriad âg ef fel hyn, nid yw yn ymddangos mewn un lle. 7. Nid ym-ddengys fod y modd yma o ymgynghori, pa beth bynag ydoedd, mewn arferiad o gysegr-iaid, teml Solomon hyd amser ei dinystriad; ac ar ol ei dinystriad nid yw byth yn cael ei grybwyll unwaith. Am hyny dywed yr Iudde-won fod y pum peth canlynol, y rhai oeddynt yn y deml gyntaf, yn esiaiu yn yr ail: (1) Yr *arch*, yn nghyda'r *drugareddfa* a'r *cerubiad*; (2) Y *tân* yr hwn a ddaethai i lawr o'r nef; (3) Y *Secina*, neu y presenol-

deb dwyfol; (4) Yr *Ysbryd Glân*, sef dawn proffwydoliaeth; ac, (5) Yr *Urim a'r Thum-mim*. 8. Gan fod y gair *Urim* yn arwyddo GOLEUADAU, a'r gair *Thummim* BERFFEITH-DERAU, y mae yn debyg eu bod wedi eu bwr-iadu i nodi allan y *goleuni*—yr helaeth hys-bysrwydd mewn pethau ysbrydol a roddid trwy y datguddiad rhyfeddol a wna'i Duw o hono ei hun trwy a thau y GYFRAITH; a'r *perffeiðder*—y cwbl santeiddrwydd a'r cyd-yunffuriaid manwl âg ef ei hun, y rhai yr oedd yr oruchwyliaeth hon yn eu gofyn, a'r rhai a ddygir i mewn ac a yflawnir gan yr oruchwyliaeth hono o *oleuni* a *gwirionedd*, yr EFENGYL, yr hon a rag-gysgodid ac a nodid allan gan y gyfraith a'i haberthau, &c.; ac yn y *goleuni* yma y golygwyd y pwnc gan y *Vulgate*, lle y cyfieithwyd y geriau *doctrina et veritas*, 'athrawiaeth a gwirionedd'—cyf-undraeth o addysg yn deilliaw o'r *gwirionedd* ei hun. Y mae y LXX yn cyfieithu y wreidd-iol *dēbōsis kai alētheia*, 'yr anlygiad a'r gwirionedd'; gan faddwl yn debygol yr *am-lygiad* a wnaethai Duw o hono ei hun i Moses a'r Israellaid, a'r *gwirionedd* a ddatguddiasai efe iddynt, o'r hyn y cai y ddwyfioneg yma fod yn goffadwriaeth barhaus.

'Y mae yr holl *gysfeithiadau* ereill yn traethu agos yr un pethau, a phob un yn cyferio at bynciau deallol ac ysbrydol, megys *goleuni*, *gwirionedd*, *amlygiad*, *athrawiaeth*, *perffeiðder*, &c., &c., heb un o honnynt yn meddwl fod dim *material* yn cael ei fwr-iadu. Y mae y testyn *Samaritanaidd* modd bynag yu wahanol; efe a chwangea yma frawddeg gyfan na cheir yu yr Hebraeg: *Veasitha eth haurim veeth hattummim*, 'Gwna yr Urim a'r Thummim.' Os derbynir y darlleniad hwn, cafo'dd yr *Urim a'r Thummim* eu *gwneyd* ar yr achlysur hwn yn gystal a'r pethau ereill. Modd bynag, y maent yn annysgiffiadwy ac aadnabyddus.

'Y modd yn yr hwn y tybia yr Iudde-won fod yr holiad yn cael ei wneyd trwy yr *Urim a'r Thummim* yw y canlynol: 'Pan yr ym-ofnyent, safai yr offeiriad â'i wyneb o flaen yr arch, a'r ymofynydd a safai tu ol iddo â'i wyneb at gefn yr offeiriad; a'r ymofynydd a ddy-wedai, *A âf fi i fyny?* neu, *Ai nid âf i fyny?* Ac yu y fan yr Ysbryd Glân a ddeuai ar yr offeiriad, ac efe a edrychai ar y ddwyfioneg, ac a ganfyddai yno trwy weledigaeth proffwyd-oliaeth, *Dos i fyny*, neu *Na ddos i fyny*, yn y *llythyrenau* y rhai a ymddangosent ar y ddwyfioneg o flaen ei wyneb.' Gwel Num. xxvii. 18, 21; Barn. i. 1, a xx. 18, 28; 1 Sam. xxiii. 9—12, a xxviii. 6; a gwel *Ainsworth*.

'Y llythyrenau ag oeddynt yn ffurfio enwau y deuddeg llwyth ar y ddwyfioneg oedd y rhai ag y tybiai yr Iudde-won eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd gwyrtliol i roddi ateb-ion i'r ymofynwyr. Fel hyn, pan ymgy-

nghorodd Dafydd â'r Arglwydd a gai efe fyned i ddinas yn Judea, darfu i dair llythren a gyfansoddent y gair *aloh*, DOS, godi neu sefyll i fyny yn yr enwau ar y ddwyfroneg; *ain* o enw SIMEON, *lamed* o enw LEVI, a *he* o enw JUDAH. Ond y mae y dyb yma heb brawf.

'Yr oedd dwyfroneg rywbeth yn debyg i eiddo yr archoffeiriad Iuddewig yn cael ei gwisgo gan llywydd y llysoedd cyffawnder yn mhllith yr Aiffiaid. 'Efe a wisgai am ei wddf gadwyn aur,' meddai *Diodorus Siculus*, 'wrth yr hon y crogai delw gyfansoddedig o feini gwerthfawr, yr hon a elwid GWIRION-EDD; ac ar ol i achos yr achwynwr a'r diffynwr gael ei wrandaw yn llawn a thêg, efe a droai *ddelew gwirionedd* tnuag at yr hwn y cafwyd fod ei achos yn gyfiawn;' trwy yr hyn yr ymddangosai i arwyddoedd fod y gwirionedd o'i du ef. Y mae *Abian a Peter du Val* yn rhoddi anghreiffitiau cyffelyb; ac y mae arferiad tra thebyg hefyd yn China, canys y mae gan yr holl ynadon yno ddwyfroneg o'r fath yma. Dichon eu bod wedi benthyca y dychymyg a'r arferiad o *ddwyfroneg bardedigaeth* oddiwrth yr *Hebreaid*, gan ei bod mewn arferiad yn eu plith hwy yn hir cyn fod genym un hanes am ei defnyddiad yn mhllith yr *Aiffiaid* na'r *Chineaid*.'

TYB DR. COKE.

'Sonir yma, ac yn Lef. viii. 8, am yr *Urim* a'r *Thummin* fel yn cael eu rhoddi yn *nwyfroneg* yr archoffeiriad. Fod y rhai hyn, mewn rhyw fodd neu gilydd, yn rhoddi atebion proffwydol neu oraclaidd oddiwrth JEHOFA, nid amheuir gan neb ag sydd yn cymeryd arnynt gredu dilysrwydd yr ysgrhythran, gan ei fod yn cael ei brofi yn amlwg oddiwrth Num. xxvii. 21, 1 Sam. xxviii. 6, a lleoedd ereill. Ond y ddau ofyniad mawr mewn perthynas iddynt ydynt, 1. O ba *surf* a *syhwedd* oedd yr *Urim* a'r *Thummin* hyn? 2. Pa *sut* neu yn mha *fodd* y rhoddi atebion proffwydol trwyddynt? Heb flino y darlennydd â breuddwydion rabinaidd, neu yr hyn a ymddengys yn amlwg yn dybian cyfeiliornus ar y pen hwn, nyai a ymdrechwn egluro y ddau bwnc yma o'r ysgrhythrau eu hunain.

'1. Gyda golwg ar eu *surf* a'u *syhwedd*, ymddengys yn dra thebyg nad oeddynt yn ddim amgen na'r *deuddeg maen gwerthfawr* a roddiwyd yn nwyfroneg yr archoffeiriad, adn. 17, &c., ar y rhai y cerfiwyd enwau denddeg llyth Israel; canys, (1) Y mae yn ysgrifenedig, adn. 29, 'A dyged Aaron, yn nwyfroneg y farnedigaeth, enwau meibion Israel [sef y rhai a gerfiwyd ar y meini] ar ei galon, pan ddelo i'r cysegr, yn goffadwriaeth gerbron yr Arglwydd yn wastadol.' Ac i erchi hyn yn rymusach, y mae yr un peth yn cael ei draethu yn adn. 30: 'A dod ar ddwyfroneg y farnedigaeth yr *Urim* a'r *Thummin*, a byddant ar galon Aaron pan elo i mewn gerbron yr Arglwydd: ac [neu *felly*] Aaron a ddwg farnedigaeth meibion Israel ar ei galon gerbron yr Arglwydd yn wastadol.' Pwy, wrth gymharu y ddwy adnod hyn yn fanwl â'u gilydd, a fedr lai na gweld mai y *defnydd* neu y *syhwedd* ag y cerfiwyd yr enwau arno yw yr *Urim* a'r *Thummin*? (2) Yn y dysgrifiad o ddwyfroneg yr archoffeiriad a roddir adn. 15,

nid yw yr *Urim* a'r *Thummin* yn cael eu crybwyll, ond y mae y *rhesi meini*; ac, i'r gwrthwyneb, yn y dysgrifiad yn Lef. viii. 8, y mae yr *Urim* a'r *Thummin* yn cael eu crybwyll wrth eu henwau, ond nid yw y *meini*: gan hyn y mae yn debyg nad yw yr *Urim* a'r *Thummin*, a'r *meini gwerthfawr*, ddim ond gwahanol enwau am yr un peth. (3) Os nad yw yr *Urim* a'r *Thummin* yr un peth a'r *meini gwerthfawr*, yna rhaid i ni ddwydedd na ddarfu i Moses, yr hwn mor fanwl a ddarluniodd y *pethau lleiaf* a berthynent i wisg yr archoffeiriad, roddi i ni unrhyw ddisgrifiad o'r *rhan ryfeddaf* yma o honi, yr hyn a ymddengys yn dra annhebyg.

'2. Gyda golwg ar yr ail ofyniad, 'Pa *sut* neu yn mha *fodd* y rhoddi atebion proffwydol trwy yr *Urim* a'r *Thummin*?' ymddengys ei fod yn cael ei benderfynu tubwnt i ambeuaeth, mai trwy *lais hyglyn* y gwneid (fel ar amseran ereill, Nuni. vii. 89); canys pan ymgynghorodd Dafydd â'r Arglwydd trwy ephod Abiathar, nyai a ddarlawn, 1 Sam. xxiii. 11, 'A'r Arglwydd a *ddywedodd*, Efe a ddaw i waered:' felly drachefu adn. 12. Gwel hefyd 1 Sam. xxx. 7, 8; 2 Sam. ii. 1; Barn. i. 1, 2, a xx. 18. Fel hyn, ynte, yr ARGWYDD ydoedd yn ateb trwy *lais hyglyn* pan yr ymddangosai yr offeiriad ger ei frou ef yn addurnedig â'r *Urim* a'r *Thummin*. Pwy a fedr amau fod gwaith yr archoffeiriad *cysgodol* yn ymddangos yn wastadol gerbron yr Arglwydd, gydag enwau plant Israel ar ei galon, yn rhag-gysgodi ymddangosiad y *gwir Archoffeiriad* yn ngwyddfod Duw fel Eiriolwr gwastadol ar ran y gwir Israel, sef 'y rhai oll sydd yn dyfod at Dduw trwyddo ef?' Sylwa Calmet na ddarfu i'r arferiad o ymgynghori â Duw trwy *Urim* a *Thummin* barhan yn hwy, yn ol y doctoriaid Iuddewig, na than y tabernacl. Y mae yn arwrebe yn eu plith hwy fod yr Ysbryd Glân yn llefaru wrth blant Israel trwy yr *Urim* a'r *Thummin* tra yr oedd y tabernacl yn aros; a than y deml gyntaf, sef teml Solomon, trwy y *proffwydi*; a than yr ail deml, neu ar ol caethiwd Babilon, trwy *Bathkol* neu y *lais-ferch*, wrth yr hyn y meddyliant *lais* yn cael ei anfon o'r nef, megys yr un a glybuwyd ar fedydd Crist, ac ar ei weddnewidau, Mat. iii. 17, a xvii. 5. Gair ysgrifenedig Duw yw ein *Hurim* a'n *Thummin* ni yn awr; a phan y byddom yno yn ymofyn am ei ewyllys ef, efe a ddichon, ac a wna fyth, trwy olenni dwyfol ar ein meddyliau, ein dysgu a'n cysuro dan bob cyfyngder.'

TYB BENSON.

'Y mae *Urim* a *Thummin* yn arwyddo 'goleuni' a chywirdeb, neu 'olenadau a pherffithderau.' Y mae llawer o ddychymygion yn mhllith y dysgedigion pa beth oeddynt: nid oes genym un rheswm i feddwl eu bod yn ddim ag yr oedd Moses i'w wneuthur, yn fwy nag a orchymydesid o'r blaen; fel ag y darfu i Dduw naill ai eu gwneuthur ei hun, a'u rhoddi i Moses fel y byddai iddo ef eu dodi yn y ddwyfroneg pan barotodd pethau ereill; neu, fel y mae debycaf, nid oes dim mwy yn cael ei feddwl na mynegiad o ddefnydd pellach yr hyn ag y gorchymydesid eisioes ei wneuthur. Gellir darllen adn. 30 fel hyn: 'A dod,' neu

chwanega, 'ar ddwyfroneg y farnedigaeth y *goleuadau* a'r *perffeithderau*; a byddant ar galon Aaron; hyny yw, cynysgaethir ef â gallu i wybod a hysbysu meddwl Duw yn mhob achos dyrys, perthynol i'r eglwys neu y wladwriaeth. Eu llywodraeth hwy oedd dduw-lywiadaeth. Duw oedd eu Brenin; yr archoffeiriad, dan Dduw, oedd eu rheolydd; a'r *Urim* a'r *Thummim* hyn oeddnt ei gyfringynghor ef. Y mae yn debyg ddarford i Moses ysgrifenu ar y ddwyfroneg, neu weu ynddi, y geiriau hyn, 'URIM A THUMMIM,' i arwyddo y cai yr archoffeiriad a fyddai yn gwisgo y ddwyfroneg hon, ac yn gofyn cynghor gan Dduw mewn unrhyw ddyryswech, ei gyfarwyddo at y mesurau hynny ag y byddai i Dduw eu haddell. Os byddai ef yn sefyll o flaen yr arch, y mae yn debyg ei fod yn derbyn hyfforddiadau oddiar y drugareddfa, fel y gwnaï Moses, pen. xxv. 22. Os byddai ef yn mhell oddiwrth yr arch, fel yr oedd Abiathar pan yr ymofynodd efe â'r Arglwydd dros Dafydd, 1 Sam. xxiii. 6, yna atebid naill ai trwy lais o'r nef, neu trwy gynhyrfiad ar feddwl yr archoffeiriad, yr hyn olaf fe allai a arwyddir yn yr ymadrodd hwnw, Efe 'a ddwg farnedigaeth meibion Israel ar ei galon.' Yr oedd yr orael yma o ddefnydd mawr i Israel: ymgyngorai Josua âg ef, Num. xxvii. 21, ac yn debygol y barauwr ar ei of ef. Collwyd ef yn y caethiwded, ac nid adferwyd ef byth wedi hynny.

'Yr *Urim* a'r *Thummim* hyn, beth bynag oeddnt, ac yn mhla flordd byuag yr hysbysid ewylllys Duw trwyddynt, nid oeddnt amgen na chysgod daionus bethau i ddyfod, a'r siylwedd yw Crist. Efe yw ein hiracl ni: trwyddo ef y mae Duw yn y dyddiau diweddfaf hyn yn ei hysbysu ei hun a'i feddwl i ni. Y mae pob datguddiad dwyfol yn cydgyfarwedd yuddo ef, ac yn dyfod i ni trwyddo. Efe yw y Goleuni, y gwir Oleuni, y Tyst Fyddlon; ac oddiwrtho ef yr ydym yn derbyn Ysbryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn ein tywys i bob gwirionedd. Y mae cysylltiad y ddwyfroneg wrth yr ephod yn arwyddo fod ei swydd broffwydol ef wedi ei seilio ar ei offeiriadaeth; a thrwy haeddiant ei farwolaeth y pwrceasodd efe yr anrhydedd hwn iddo ei hun, a'r ffiafr hon i ni.'

TYE STACKHOUSE.

'Y farn gyffredin yw, mai yr un peth oedd yr *Urim* a'r *Thummim* hyn. Ond y mae Mede yn meddwl eu bod yn ddau orael gwahanol, ac yn cael eu cymhysyo at ddybenion gwahanol: mai yr *Urim* oedd yr orael trwy ha un y rhoddaï Duw atebiad i'r rhai a ymofynent âg ef mewn achosion dyrys; a'r *Thummim* yr un trwy yr hwn y gwyddai yr archoffeiriad pa un a dderbyniodd Duw yr aberth ai peidid: fod y cyntaf gan hyny yn cael ei alw yn *oleuni*, megys yn rhoddi gwybodaeth ag sydd yn chwalo tywyllwech ein meddyliau; a'r llall yn *gywirdeb* neu *berffeithder*, am fod y rhai ag y derbynïai Duw eu hebyrth yn cael eu cyfrif yn *Thummim*, hyny yw, yn *gyfawen* ac *aiawn* yn ei olwg ef: yn fyr, mai ttwy y cyntaf y sicrheid i'r Iuddewon gynghor ac ewylllys Duw; trwy yr olaf, ei ffiafr a'i ddaionus gymeradwyaeth. Ond nid yw y gwa-

haniaeth hwn wedi cyfarfod â chymeradwyaeth gyffredinol, o herwydd pa fodd bynag y gall fod ymadroddion yn y rhai y crybwyllir y naill heb y llall, eto yn yr achos hwn gellir tybio yn ddigon da fod y naill (yr hwn yn gyffredin yw yr *Urim*) yn cynwys y ddan.

'Y mae y rhan fwyaf o'r doctoriaid Iuddewig o'r farn nad oedd yr *Urim* a'r *Thummim* ddim amgen na'r meini gwerthfawr a osodesid ar y ddwyfroneg; ac mai trwy lewrychiad neu chwyddiad y llythyrenau yn enwau y deuddeg maen, yr oedd yr archoffeiriad, pan y deuai i ymgynghoi â Duw, yn gallu darllen yr atebiad. Eithr yn y dyb yma y mae rhai pethau anhawdd myned drosynt: canys heblaw nad oedd yr holl lythyrenau yn y wyddor Hebreig i'w cael ar y ddwyfroneg, (gan fod pedair yn amlwg yn eisiau, sef yr *heth*, *teth zade*, a *koph*.) y gofyniad yw, trwy ba reolau y gallai yr archoffeiriad wneuthur cydgyssylltiad o'r llythyrenau hyn, (a thybio fod digon o honynt,) ac felly eu rhoddi yn nghyd fel ag i sillebu allan y cynghor dwyfol? canys ni h'ouir fod y llythyrenau hyn yn ymsymud allan o'u lleoedd, ond yn unig yn ymchwddo neu yn ymddyrchafu uwchlaw y lleill. Tybier, er anghraifft, fod rhyw chwech o'r llythyrenau hyn wedi ymchwddo, neu ymlewyrchu gyda dysgleirdeb mwy na chyffredin, eto pa fodd y gwyddai yr archoffeiriad pa sut i'w rhoddi yn yr iaen drefn, a pha un y ddyllai fod yn gyntaf, a pha un yn olaf? Os dywedir mai trwy *ysbryd proffwydoliaeth*, y mae hyny yn diddymu yr holl angenheidrwydd am yr *Urim* a'r *Thummim*; oblegid byddai i ysbryd proffwydoliaeth ddysgu iddo ef yr hyn yr ewyllysiai ei wybod, heb unrhyw gymhoith pellach.

'Eithr y dyb debycaf yw, nad oeddnt yn ddim corfforol, ond *rhinwedd penodol* (yr hwn y gwelodd Duw yn dda ei roddi i'r ddwyfroneg wrth ei chysegru) i gyraedd atebiad dwyfol oddiwrtho ef pa bryd bynag y gwisgai yr archoffeiriad hi i'r dyben i ofyn cynghor ganddo yn y modd a drefnasai efe; a bod yr enwau *Urim* a *Thummim* wedi eu rhoddi iddi yn unig i ddyndd yr *eglwdeu* a'r *amlygrydd* ag ydoedd yn perthyn i'r atebion hyn y o'eiddo Duw; hyny yw, nad oeddnt fel yr oraelau paganaidd yn ddamwogol a thywyll, eithr yn eglur ac amlwg, ac yn gyfryw na fyddai raid iddynt byth syrthio yn fyr o *berffeithder* yn nghyflawnder yr atebiad, nac yn sicrwydd ei wirionedd ef.

'Pa un a ymgyngorhoi â'r orael yma yn achosion mawrin a phwysig y llywodraeth yn unig, ynte a ellid ymofyn âg ef mewn pethau o natur isel, nid yw yn cael ei gwbl benderfynugau y dysgedigion; eithr y farn fwyaf cyffredin yw, nad oedd yr archoffeiriad (yr hwn nid oedd yr unig weinyddid yn y ddefod hon) yn cael ei oddef i'w gyfarch ef dros unrhyw berson neillduol, ond yn unig dros y brenin, llywydd y sanhedriem, cadfrid y fyddin, neu ryw lywodraethydd cyhoeddus arall yn Israel; a hyny nid ar unrhyw achosion neillduol, eithr y cyfryw yn unig ag a berthynent i les cyffredinol y genedl, pa un bynag ai yn yr eglwys ai yn y wladwriaeth.'—Gwel *Ilanes-iaeth y Bibl*, cyf. iii, dal. 122, &c.

PENNOD XXIX.

DYMA hefyd yr hyn a wnai di iddynt i'w cysegru hwynt, i offeiriadu i mi. Cymeru bustach ieuanc, a dau hwrdd perffeith-gwbl,

2 A bara croyw, a theisenau croyw wedi eu cymysgu âg olew, ac aflriad croyw wedi eu hiro ôg olew; o beillied gwenith y gwnai hwynt.

3 A dod hwynt mewn un cawell, a dwg hwynt yn y cawell, gyda'r bustach a'r ddau hwrdd.

4 Dwg hefyd Aaron a'i feibion i ddrws pabell y cyfarfod, a golch hwynt â dwfr.

5 A chymer y gwisgoedd, a gwisg am Aaron y bais, a mantell yr ephod, a'r ephod hefyd, a'r ddwyfroneg; a gwregysa ef â gwregys yr ephod.

6 A gosod y meitr ar ei ben ef, a dod y goron gysegredig ar y meitr.

PEN. XXIX. Adn. 1. *I'w cysegru hwynt i offeiriadu i mi*] Ond ni chymerodd y cysegriad hwn le hyd ar ol adeiladu y tabernacl: gwel Lef. viii. 1—10.

Adn. 2. *A bara croyw*] Y mae tri math ar fara o ran ei ffurf yn cael eu crybwyll yma, ond oll yn groyw, neu heb ei lefeiniu: 1. *Matstoth*, bara croyw, ni waeth o ba lun. 2. *Challoth*, teisenau wedi eu pigo neu eu tyllu, fel yr arwydda y gair gwreiddiol. 3. *Rekikey*, teisenau tra theneuon, oddiwrth rak teneuedig, a gyfieithir yn ddigon priodol yn *afrllad*. Yr oedd y bara hwn i fod yn *groyw*, i arwyddo eu bod hwy a'u gwasanaeth i fod yn bur, ac yn rhydd oddiwrth bob rhagrit h a drygioni; yr oedd y teisenau i gael eu *cymysgu âg olew*, i arwyddo fod yn rhaid i'w holl offrymau a'u gwasanaeth fod dan ddylanwad dwyfol ras; ac yr oedd yn rhaid iddynt gael eu gwneuthur o *beillied gwenith*, neu y rhan oraf o'r grawn penaf, i ddangos fod yn rhaid i Dduw gael ei wasanaethu â'r goreuon.

Adn. 3. *Mewn un cawell*] Am nad oedd y tri math hyn o fara ddion ond un offirm.

Adn. 4. *Dwg hefyd Aaron a'i feibion i ddrws pabell y cyfarfod*] Yr oedd Duw yn preswlyu y i'w babbell, a'r bobl yn ymgynull yn y cynteddau, fel ag yr oedd y drws rhwng y cyntedd a'r babbell y lle mwyaf addas i'w cysegru hwy, y rhai oeddynt i *gyfryngu* rhwng Duw a dynion. *A golch hwynt â dwfr*—yr oedd eu *holl gorff* ond odid i gael ei olchi ar eu mynediad i'w swydd, i arwyddo hollol burdeb oddiwrth bob halogrydd cnawd ac ysbryd, 2 Cor. vii. 1; wedi hyn, pan yn gweinyddu yn ngwasanaeth y cysegr, nid oeddynt yn golchi ond eu *dwylaw* a'u *traed*, pen. xxx. 19, i adgofio iddynt yr amherffeithrwydd beunyddiol hwnw, oddiwrth yr hwn y mae hyd yn nod y rhai a adgenhedlwyd ac a grewyd o'r newydd mewn angen am gael eu glanhau trwy gynhwyssiad dyddiol o drugaredd faddeuol trwy waed y cymod. Tybia rhai fod ein Harglwydd yn cyfeirio at hyn, Ioan

7 Yna y cymeri olew yr eneiniaid, ac y tywellti ar ei ben ef, ac yr eneinie ef.

8 A dwg ei feibion ef, a gwisg beisiau am daunynt.

9 A gwregysa hwynt â gwregysau, sef Aaron a'i feibion, a gwisg hwynt â chapiau: a bydd yr offeiriadaeth iddynt yn ddeddf dragwyddol: a thi a gysegri Aaron a'i feibion.

10 A phâr ddwyn y bustach ger bron pabell y cyfarfod: a rhodded Aaron a'i feibion eu dwylaw ar ben y bustach.

11 A lladd y bustach gerbron yr Arglwydd, wrth ddrws pabell y cyfarfod.

12 A chymer o waed y bustach, a dod ar gyrn yr allor â'th fys; a thywallt yr holl waed *arall* wrth droed yr allor.

xiii. 10: 'Yr hwn a *olchwyd*, nid rhaid iddo ond golchi ei *draed*.'

Adn. 5, 6. *A chymer y gwisgoedd, &c.*] I arwyddo nad oedd yn ddigon i Aaron roddi ymaith halogrydd pechod, ond fod yn rhaid iddo roddi am dano ddwyfol rinweddau, a chael ei wisgo â *chufiawnder*, Salm cxxxii. 9. Rhaid iddo hefyd gael ei *wregysu*, fel dyn wedi ei barotoi a'i nerthu i'w waith; a gwisgo y *fantell* a'r *goron*, fel dyn yn cyfrif ei waith a'i swydd yn wir aurhydedd iddo.

Adn. 7. *Olew yr eneiniaid*] Ymddengys oddiwrth Esay lxi. 1, fod eneinio âg olew, wrth gysegru un i swydd bwysig, wladol neu grefyddol, yn cael ei ystyried fel arwydd o gyfraniad doniau a grasau yr Ysbryd Glân. Yr oedd y ddefod hon yn arferedig wrth urddo brenin, profiwyd, ac offeiriad. Ond paham yr oedd y fath eneiniaid yn cael ei famu yn angenrheidiol? Am fod synwyr cyffredin dynion, heb son am orchymyn Duw, yn dysgu iddynt fod yn rhaid i bob cynhwysder i swydd, pa un bynag ai ysbrydol ai tymhorol, ddyfod oddiwrth Dduw, yr achos o hono: gwel ar Heb. i. 9.

Adn. 8. *Beisiau*] Gwel ar pen. xxviii. 4.

Adn. 9. *A thi a gysegri*] Heb. 'a thi a *lenwi law* Aaron a'i feibion.' Y mae yr ymadrodd hwn wedi ei gymeryd oddiwrth yr arferiad o roddi rhyw ranau o'r ebyrth yn nwyllaw yr offeiriad wrth eu cysegru, adn. 24, gan fel hyn roddi a chadarnhau iddynt yr bawl o offrymu rhoddion ac aberthau i Dduw: gwel BURDER.

Adn. 10. *Eu dwylaw ar ben y bustach*] Nid yn unig i *gysegru* y bustach yn offirm addas, ond yn benaf i arwyddo eu bod yn offrymu bywyd yr anifell hwn fel *iawn* dros eu pechodau eu hunain, i waredu eu bywydau rhag y farwolaeth a haeddasant; ac i ddangos eu bod yn edrych trwy ffydd at aberthiad *Crist*. 'canyis amhosibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechod,' Heb. x. 4.

Adn. 11. *Wrth ddrws*] Gwel ar adn. 4.

13 Cymer hefyd yr holl frasder a fydd yn gorchuddio y perfedd, a'r rhwyden a fyddo ar yr afu, a'r ddwy aren, a'r brasder a fyddo arnynt; a llog ar yr allor.

14 Ond cig y bustach, a'i groen, a'i fiswail, a losgi mewn tân, o'r tu allan i'r gwersyll: aberth dros bechod *yw*.

15 ¶ Cymer hefyd un hwrdd; a gosedo Aaron a'i feibion eu dwylaw ar ben yr hwrdd.

16 A lladd yr hwrdd; a chymer ei waed ef, a thaenella ar yr allor o amgylch.

17 A thor yr hwrdd yn ddarnau; a golch ei berfedd, a'i draed, a dod hwynt yn nghyd â'i ddarnau, ac â'i ben.

18 A llog yr hwrdd i gyd ar yr allor: poeth-offrwm i'r Arglwydd *yw*: arogl peraidd, aberth tanllyd i'r Arglwydd *yw*.

19 ¶ A chymer yr ail hwrdd; a

rhodded Aaron a'i feibion eu dwylaw ar ben yr hwrdd.

20 Yna lladd yr hwrdd, a chymer o'i waed, a dod ar gwr isaf clust ddeau Aaron, ac ar gwr isaf clust ddeau ei feibion, ac ar fawd eu llaw ddeau hwynt, ac ar fawd eu troed deau hwynt; a thaenella y gwaed *arall* ar yr allor o amgylch.

21 A chymer o'r gwaed a fyddo ar yr allor, ac o olew yr enciniad, a thaenella ar Aaron, ac ar ei wisgoedd, ar ei feibion hefyd, ac ar wisgoedd ei feibion gydag ef: felly santaidd fydd efe a'i wisgoedd, ei feibion hefyd, a gwisgoedd ei feibion gydag ef.

22 Cymer hefyd o'r hwrdd, y gwer a'r gloren, a'r gwer sydd yn gorchuddio y perfedd, a rhwyden yr afu, a'r ddwy aren, a'r gwer *sydd* arnynt, a'r ysgwyddog ddeau; canys hwrdd cysegriad *yw*:

Adn. 12. *Gyrn yr allor*] Nid allor yr arogl-darth, fel y mlyn rhai, ond allor y poeth-offrwm, Lef. iv. 7.

Adn. 13. *A'r rhwyden a fyddo ar yr afu*] Nid oedd yr hen Bersiaid yn offrwm dim ond hon i'w dwiau. Ond dywed Athenæus fod yr henafiaid yn bwyta yr afu wedi ei orchuddio â'r rhwyden; felly tybia Burder fod afu yr aberth hwn wedi ei amgau yr un modd yn y rhwyden. Ymddengys oddiwrth ddyfyniaeth, a'r doctoriaid Iuddewig, mai y *lliein-gig* oedd y rhwyden hon.

Adn. 14. *Aberth dros bechod yw*] Sef pechod yr *offeiriad*, fel y mae yn eglur yma, ac am hynny dylai gael ei *losgi*. Yr oedd, yn wir, gyfraith fod i'r pech-berth na ddygid ei waed i'r babell, yr hyn a wneid yma, gael ei *fwyta*, nid ei losgi, Lef. vi. 30, a x. 18; eithr hwnw a berthynai i'r *bobl*: gwel SCRCLIFFE.

Adn. 15—18. *Cymer hefyd un hwrdd, &c.*] Yr oedd hwn i gael ei aberthu yn *boeth-offrwm*, ac i gael ei losgi oll ar yr allor. Yr oedd ei boll waed ef i gael ei daenellu ar yr allor o amgylch, gan fod yn hyn a phethau ereill yn gwahaniaethu oddiwrth y pech-berth. Yr oedd y pech-berth i gael ei offrymu yn gyntaf, ac yna y poeth-offrwm; canys hyd nes y symudir yr euogrywydd, nis gellir cyslawni un weithred gymeradwy. *Arogl peraidd*—gwel ar Gen. viii. 21, Eph. v. 2, Phil. iv. 18.

Adn. 19. *A chymer yr ail hwrdd*] Yr aberth hedd, fel y gallai eu cysegriad hwy i'w swydd fod yn llwyddiannus iddynt eu hunain a'r bobl. Gelwir ef yn *hwrdd cysegriad*, am fod rhywbeth ynddo yn fwy neillduol i'r weithred hōno, nag yn y ddau arall. Yn y poeth-offrwm, Duw oedd yn cael gogoniant eu hofferiadaeth; yn hwn, caent hwythau y budd a'r cysur e honi. Ac fel arwydd o'r cyfammod rhwng Duw a hwythau, yr oedd gwaed yr aberth hwn yn cael ei ranu rhwng Duw a'r offeiriad, neu ei daenellu ar yr allor o amgylch, ac ar yr offeiriad a'u gwisgoedd.

Adn. 20. *A chymer o'i waed*] Yr oedd dodiad gwaed yr aberth ar gwr isaf y glust ddeau, ar fawd y llaw ddeau, a bawd y troed deau, yn cael ei fwriadu yn ddiarnau i arwyddo y dylent hwy gysegru eu holl gyneddffau a'u galluoedd i wasanaeth Duw; eu *clustiau* i wrandaw ei gyfraith ef, eu *dwylaw* i ddiwydrwydd yn y santaidd weinidogaeth, a'u *traed* i rodio yn ffordd gorchymynion Duw.

Adn. 21. *A chymer o'r gwaed, &c.*] Yr oedd y *gwaed* a'r *olew* yma yn arwyddocau gwaed Crist, trwy yr hwn y mae i ni ddyfodfa at Dduw; a grasau yr Ysbryd Glân, y rhai a wnant i fyny brydferthwch santeiddrwydd.

Adn. 22. *Y gwer a'r gloren*] Cloren neu *gynffon* rhai o ddefaid y dwyrain yw y rhan oraf o'r anifel, ac fe'i cyfrifir yn ddanteithfwd rhagorol. Y maent hefyd yn dra mawrion, trwy fod rhai e honnynt yn pwysu o 12 i 40 pwys! 'nes y mae y perchenog,' meddai *Ludolf*, 'yn gorfod rhwymu cart fechan tu ol iddynt, ar yr hon y rhoddant gynffon y ddefaid, er cynorthwyo y creadur truan i'w chario, yn gystal ag i gadw y gwlan rhag y llaid, a'r gynffon rhag cael ei rhywyo yn mhlith y perthi a'r cerig.' Gwel HANES ETHIOPIA. *Canys hwrdd cysegriad yw*—Heb. *eil millunim*, 'hwrdd y llenwi i fyny,' am fod dwylaw y dyn, wrth gael ei gysegru i Dduw, yn cael eu llenwi â rhyw offrwm neillduol priodol i'r achlysur, yr hwn a gyflwynai efe i Dduw. O ganlyniad y mae y gair *cysegriad* yn arwyddo *llenwi i fyny* neu *llenwi y dwylaw*, trwy fod rhyw ran o'r aberth yn cael ei roddi yn nwyllaw y cyfryw rai, i ddynddi trwy hynny fod ganddynt yn awr hawl i offrymu aberthau ac offrymau i Dduw. Ymddengys mai mewn cyfeiriad at yr hen drefn hon o gysegru yr ydys yn Eglwys Loegr, pan fyddo un yn cael ei ordeinio yn offeiriad, yn rhoddi Beibl yn ei law gyda'r geiriau hyn, 'Cymer di awurdod i bregethu gair Duw,' &c.—CLARKE.

Adn. 23. *Ac un dorth o fara, &c.*] Ym-

23 Ac un dorth o fara, ac un deisen o farw olewedig, ac un afrlladen o gawell y bara croyw, yr hwn *sydd* gerbron yr Arglwydd.

24 A dod y cwbl yn nwyllaw Aaron, ac yn nwyllaw ei feibion; a chyhwfana hwynt yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd.

25 A chymer hwynt o'u dwyllaw, a llosg ar yr allor yn boeth-offrwm, yn arogl peiraidd gerbron yr Arglwydd: aberth tanllyd i'r Arglwydd *yw*.

26 Cymer hefyd barwyden hwrdd y cysegriad yr hwn *fyddo* dros Aaron, a chyhwfana hi yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd; a'th ran di fydd.

27 A santeiddia barwyden yr offrwm cyhwfan, ac ysgwyddog yr offrwm dyrchafael, yr hon a gyhwfanwyd, a'r hon a ddyrchafwyd, o hwrdd y cysegriad, o'r hwn a *fyddo* dros Aaron, ac o'r hwn a *fyddo* dros ei feibion.

28 Ac eiddo Aaron a'i feibion fydd

ddengys fod y bara o wahanol fathau yn yr offrwm hwn, (gwel ar adn. 2,) yn cael eu bwriadu fel *minchah*, neu offrwm o *diolchgar* gydnabyddiad am fendithion rhagluniaethol. Yr oedd sylwedd addoliad yn gynnwysedig mewn cydnabyddiad o Dduw, 1. Fel Creawdydd, Llywodraethydd, a Chynalydd pob peth, a Chyfranydd pob rhoddiad daionus a pherffaith. 2. Fel Barnydd dynion, Cospydd pechod, a'r hwn yn unig allai ei faddeu ef. Yr oedd yr offrymau dyrchafael, yr offrymau cyhwfan, a'r offrymau diolchgarwech, yn cyfeirio at y pwnc *cyntaf*: y poeth-offrymau, y pech-offrymau, a'r ebyrth yn gyffredinol, a gyfeiriant at yr ail.

Adn. 24. *A dod y cwbl yn nwyllaw Aaron*] Gwel ar adn. 9, 22; a *chyhwfana hwynt*—gwel ar adn. 27.

Adn. 25, 26. *A chymer hwynt o'u dwyllaw*] 'Y mae Aaron a'i feibion yn cael eu hystyried yma yn unig fel dynion cyffredin yn dwyn offrwm i Dduw,' meddai Clarke, 'ac heb faddu eto un awdurdod i'w gwlwyno ef eu hunain, ond trwy gyfryngdod *offeiriad*. Gan hyn yr oedd Moses yn awr i Aaron a'i feibion y peth oeddynt bwythau wedi hyn i blant Israel; ac fel gweinidog Duw y mae efe yn awr yn eu *cysegru* hwy i'r swydd santaidd, ac yn cyflwyno eu hoffrymau i Jehofa. Y mae yn deilwng o sylw, er na chafodd Moses ei hun ei gysegru i'r swydd offeiriadol, eto ei fod ef yma yn gweithredu fel archeofficiad, yn cysegru archeofficiad, ac yn derbyn y barwyden a'r ysgwyddog y rhai oeddynt ran yr offeiriad! Ond yr oedd Moses yn genad *arwyllyfredin*, a chafodd ei awdurdod, heb ddefodau na seremonïan, yn ddi-gyfrwng oddiwrth Dduw ei hun. Nid ymddengys ddarford i Grist fedyddio y *deuddeg apostol*, na'u hordeinio trwy arddodiad dwyllaw; eto, oddiwrth ei anfeidrol ddigonolrwydd ei hun, efe a roddes awdurdod iddynt i fedyddio, ac arddodi dwyllaw wrth benodi ereill i waith santaidd y weinidogaeth.'

trwy ddeddf dragwyddol oddiwrth feibion Israel: canys offrwm dyrchafael *yw*; ac offrwm dyrchafael a fydd oddiwrth feibion Israel o'u haberthau hed, *sef* eu hoffrwm dyrchafael i'r Arglwydd.

29 ¶ A dillad santaidd Aaron a fyddant i'w feibion ar ei ol ef, i'w hencinio ynddynt, ac i'w cysegru ynddynt.

30 Yr hwn o'i feibion ef a fyddo offeiriad yn ei le ef, a'u gwisg hwynt saith niwrnod, pan ddelo i babel y cyfarfod i weini yn y cysegr.

31 ¶ A chymer hwrdd y cysegriad, a berwa ei gig yn y lle santaidd.

32 A bwytaed Aaron a'i feibion gig yr hwrdd, a'r bara yr hwn *fydd* yn y cawell, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod.

33 A hwy a fwytant y pethau hyn y gwnaed y cymod a hwynt, i'w cysegru hwynt ac i'w santeiddio: ond y

Adn. 27, 28. *Offrwm cyhwfan*—*offrwm dyrchafael*] Dywed y rabbiniaid mai y gwahaniaeth rhwng y rhai hyn oedd, fod y cyntaf yn cael ei chwyfio i fyny ac i lawr, yn ol ac yn mlaen, ar ddeau ac ar aswy, i arwyddo fod yr hwn yr offrymid ef iddo yn Arglwydd yr holl ddaear. Yr olaf a ddyrcheid yn unig tua'r nef, yn arwydd o'i gysegriad i Dduw. Gan fod yr offrwm cyhwfan yn cael ei symud *yma a thraw*, a'r offrwm dyrchafael i *fyny* ac i *lawr*, dychymygodd *Houbigant* fod ymuniad dyblyg yma yn arddanghosiad o *lun y groes*, ar yr hon yr oedd yr HEDD-ABERTH mawr rhwng Duw a dyn i gael ei offrymu.

Adn. 29. *A dillad santaidd Aaron a fyddant i'w feibion ar ei ol*] I ddisgyn oddiwrth y tad i'r mab hynaf, ac nid oedd dillad newyddion i gael eu gwneuthur.

Adn. 30. *Saith niwrnod*] Yr oedd yr offeiriad ar ei gysegriad i aros saith o ddyddiau a nosweithiau wrth ddrws y babel, yn cadw gwylidwriaeth yr Arglwydd, Lef. viii. 33. &c. Y rhif *saith* a elwir yn mblith yr Hebraeid yn rhif *perffethrwydd*, a defnyddir ef yn fynych i ddynddi *cwblhudd*, *cyflawniad*, neu *berffethriad* peth, gan fod y cyfnod hwn yn cynwys yr holl yspaid yn yr hwn y creodd Duw y byd, ac y penododd efe ddydd gorhwysiad. Yr oedd yr Esseniaid yn dal y rhif *saith* yn gysegredig, 'am ei fod yn deilliaw oddiwrth ochrau pedeirongl, neu ysgwâr, wedi eu chwangued at ochrau triongl.' Gan fod y weithred hon o gysegru yn parhau saith niwrnod, yr oedd yn arwyddo *perfffaith* gysegriad, ac yn awgrymu i'r offeiriad y dylai ei holl gorff a'i enaid ef, ei amser a'i dalentau, gael eu cyflwyno i wasanaeth Duw a'i bobl.

Adn. 31, 32. *Yn y lle santaidd*] Sef yn y gytudedfa wrth ddrws pabell y cyfarfod, lle y berwid ac y bwyteid ef, fel yr ymddengys oddiyma, ac oddiwrth Lef. viii. 31.

Adn. 33. *Onid y dweithr ni chaff eu bwyta*] Hyn yw, ni chai neb a'r nad oedd o *deulu*

dyeithr ni chaiff eu bwyta; canys cysegredig ydynt.

34 Ac os gweddillir o gig y cysegrïad, neu o'r bara, hyd y bore; yna ti a losgi y gweddill â thân: ni chair ei fwyta, oblegid cysegredig yw.

35 A gwna fel hyn i wneuthur feibion, yn ol yr hyn oll a orchymynais i ti: saith niwrnod y cysegri hwynt.

36 A phob dydd yr aberthi fustach yn aberth dros bechod, er cymod: a glanha yr allor, wedi i ti wneuthur cymod drosti, ac encinia hi, i'w chysegro.

37 Saith niwrnod y gwnai gymod dros yr allor, ac y santeiddi hi: felly yr allor fydd santaidd: pob peth a gyffyrddo â'r allor, a santeiddir.

38 ¶ A dyma yr hyn a offrymi ar yr allor. Dau oen blwyddiaid, bob dydd yn wastadol.

Aaron: ni chai un *Israeliad*, nac hyd yn nod *Lefiad*.

Adn. 34. *Ti a losgi y gweddill â thân*] Fel na fyddai iddo gael ei drin gyda dirmyg, na chael ei ddefnyddio i ddybenion coelgrefyddol. Ac hefyd, megys oen y pase, yr hwn a gysgodai yr iawn a wneid gan Grist, nid oedd dim o hono yntau i gael ei weddillio hyd y bore, rhag i *bydredd* ddechreu, yr hyn a fyddai yn dra anhriodol mewn aberth ag ydoedd i wneyd cymod dros bechod, ac i ddwyn yr enaid i gyflwr o santeiddrwydd a pherffeithrwydd gyda Duw: gwel ar pen. xii. 10.

Adn. 35. *Saith niwrnod y cysegri hwynt*] Gwel ar adn. 30.

Adn. 36. *A glanha yr allor*] Yr oedd yr allor, bob dydd o'r saith, i gael ei glanhau oddiwrth ludw y dydd blaenorol. *Wedi i'w wneuthur cymod drosti*—felly yr oedd yr aberth dros bechod yn golygu yr allor yn gystal a'r offeiriad. *Ac encinia hi i'w chysegro*—neu i'w santeiddio. Yr oedd yr allor nid yn unig i gael ei neillduo i ddybenion cysegredig, ond i gael ei gwneyd mor santaidd fel ag i santeiddio y rhodd a offrymid arni, pen. xxx. 29, Mat. xxiii. 19. Crist yw ein hallor ni: er ein mwyn ni efe a'i santeiddiodd ei hun, fel y gallem ni a'n cyflawniadau gael ein santeiddio a'n cymeradwyo gan Dduw, Ioan xvii. 19.

Adn. 37. *Pob peth a gyffyrddo â'r allor, a santeiddir*] Hyny yw, a fydd yn eiddo cymeradwy i'r Arglwydd; canys ni allai cyfrwy bethau mewn un ystyr arall gael eu santeiddio trwy gyffwrdd â'r allor.

Adn. 38, 39. *Dau oen blwyddiaid*] Cafodd y rhai hyn eu hoffrymu bob dydd o amser sefydliad Israel yn ngwlad Canaan hyd ddinystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid. Yr aberth *boreol* a wnai gymod dros y pechodau a gyflawnesid yn y nos, a'r aberth *hwyrol* dros y pechodau a gyflawnesid yn y dydd blaenorol.

Adn. 40, 41. *Ddegfed ran o beillied*] Gai-

39 Yr oen cyntaf a offrymi di y bore; a'r ail oen a offrymi di yn y cyfnos.

40 A chyda'r naill oen ddegfed ran o beillied wedi ei gymysgu â phedwaredd ran hin o olew coethedig; a phedwaredd ran hin o win, yn ddiod-offrwm.

41 A'r oen arall a offrymi di yn y cyfnos, ac a wnai iddo yr un modd ag i fwyd-offrwm y bore, ac i'w ddiod-offrwm, i fod yn arogl peraid, yn aberth tanllyd i'r Arglwydd:

42 Yn boeth-offrwm gwastadol trwy eich oesoedd, wrth ddrws pabell y cyfarfod, gerbron yr Arglwydd; lle y cyfarfyddaf â chwi, i lefaru wrthyt yno.

43 Ac yn y lle hwnw y cyfarfyddaf â meibion Israel; ac *efe* a santeiddir trwy fy ngogoniant.

44 A mi a santeiddiaf babbell y cyf-

wrth Num. xxviii. 5, nyai a ddysgw'n mai degfed ran *epha* a feddylir, yr hyn oedd *omer*, neu dri chwart o'n mesur ni, pen. xvi. 36. *A phedwaredd ran hin*—cynwysai hin bum chwart, a'r bedwaredd ran oedd ddau beint a hanner. *Yn ddiod-offrwm*—i'w thywallt allan gerbron yr Arglwydd: gwel yr adfedyliadau ar Lef. vii.

Adn. 42. *Lle y cyfarfyddaf â chwi*] Mi a wnaif y babbell hon yn sedd i gwmwl fy ngogoniant, yr hwn a fydd yn arwydd o'm dwyfol bresenoldeb; ac oddiyno mi a roddaf fynych ddatguddiadu o'm bewyllys, ac arwyddion o'm ffafir tuag atoch: gwel ar pen. xxv. 22.

Adn. 43. *Ac efe a santeiddir*] Bydd i'r lle hwnw, neu babbell y cyfarfod, gael ei santeiddio trwy y SECINA oddifeun.

Adn. 44. *Ac Aaron a'i feibion a santeiddiaf i offeiriadu i mi*] Felly ni a welwn nad oedd y santeiddiad o honyat gan Moses ddim ond *arwyddocaol*; a bod yn rhaid i Aaron a'i feibion gael eu santeiddio gan Dduw ei hun cyn y gallent weinyddu yn iawn mewn pethau santaidd. Oddiyma gan hyny, yn gystal ag oddiwrth amrai ranau ereill o'r ysgrythyr santaidd, gallwn gasglu nad yw unrhyw ordeiniad gan *ddyn* yn unig yn ddiagonol er cyfaddasu neb i lenwi swydd gweinidog y cysegr. Y mae gan gymeradwyad a chysegrïad dyn eu priodoldeb a'u defnydd, fel y sylwa Clarke; ond rhaid iddynt beidio byth a chadw lle *eneiniad* ac *ysbrydolïad* yr Hollalluog. Boed i ddynion santaidd Duw *ordeinio*, ond boed i Dduw ei hun *santeiddio*; yna gallwn ddysgwyl y bydd i'w eglwys ef gael ei hadeiladu ar ei santeiddiaf fydd.

Adn. 45. *A mi a breswyliaf yn mysg meibion Israel*] Yn y babbell rhwng y cerubiad ar y drugareddfa. Cyflawnwyd yr addewid hon i'r Iuddewon trwy y SECINA; a chyflawnir hi i'r Cristionogion trwy bresenoldeb ac arweiniad yr Ysbryd Glân: gwel ar Heb. viii. 10. *Ac a fyddaf yn Dduw iddynt*—mi a wyliaf drostynt fel cenedl trwy neillduol ragluniaeth, ac

arfed a'r allor; ac Aaron a'i feibion a santeiddiaf, i offeiriadu i mi.

45 ¶ A mi a breswyliaf yn mysq meibion Israel, ac a fyddaf yn Dduw iddynt.

46 A hwy a gânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd eu Duw, yr hwn a'u dygais hwynt allan o dir yr Aifft, fel y trigwn yn eu plith hwynt: myfi yw yr Arglwydd eu Duw.

PENNOD XXX.

GWNA hefyd allor i aroglarthu aroglarth: o goed sittim y gwnai di hi.

2 Yn gufydd ei hyd, ac yn gufydd ei lled, (pedairongl fydd hi) ac yn ddau gufydd ei huchder: ei chyrn fyddant o'r un.

3 A gwisg hi âg aur coeth, ei chieffn a'i hystlysau o amgylch, a'i chyrn: a gwna hefyd iddi goron o aur o amgylch.

4 A gwna iddi ddwy fodrwy aur odditan ei choron, wrth ei dwy gongl: ar ei dau ystlys y gwnai hwynt; fel y

a ddangosaf mai myfi mewu gwirionedd yw y Duw hollalluog a thrngarog hwnw a'n dygodd hwynt yn y fath fodd gwyrthiol o gaethiwd yr Aifft.

Adn. 46. *A hwy a gânt wybod*] Hyny yw, hwy a gânt *gydnabod* Duw, a'u dirfawr rwymedigaethau iddo ef. *Fel y trigwn yn eu plith*—canyis heb y cydnabyddiad hwn o Dduw, a'r ymddibyniad canlynol arno, ac ufydd-dod diolchgar iddo, nis gallent ddysgwyl iddo ef drigo yn eu plith: gwel CLARKE.

PEN. XXX. Adn. 1. *Gwna hefyd allor i aroglarthu*] Y mae y Samaritanaidd yn gadael allan y deg adnod gyntaf o'r bennod hon, ac yn eu rhoddi ar ol adn. 32 yn pen. xxvi: gwel y sylw yno. *O goed sittim*—yr un coed ag y gwnaed y pethau ereill o honynt, am eu bod yn aml yn y parthau hyny, ac yn dra pharhaol: am hyny y mae cyfieithiad y LXX, yr hwn a wnaed yn yr Aifft, yn cyfieithu y wreiddiol yn mhob man yn *goed anlygradwy*: gwel ar pen. xxvii. 1.

Adn. 2—5. *Yn gufydd ei hyd, &c.*] Yn un fodfedd ar hugain o hyd, a chymaint a hyny o led, a llathen a chwe modfedd o uwchder. Yr oedd i'w gwisgo âg aur coeth, adn. 3; ac am hyny gelwir hi yn *allor aur*, Num. iv. 11. Am y *goron*, y *cyrn*, y *trosolion*, &c., gwel ar allor y poeth-offrwm, pen. xxvi. Nid ymddengys fod un alech i'r allor hon, i'r lludw syrthio trwyddi; eithr pan y llosgid yr aroglarth, dygid thuser â marwor ynddi, a gosodid hi ar yr allor; ac yn y thuser hōno y llosgid yr aroglarth, a chydai hi cymerid yr holl farwor ymaith, fel na fyddai dim marwor na lludw yn syrthio ar yr allor.

Adn. 6. *A gosod hi o flaen y wahanlen*] Y tuallan iddi; o *flaen y drugareddfa*—yr hon

byddant i wisgo am drosolion, i'w dwyn hi arnynt.

5 A'r trosolion a wna'i di o goed sittim: a gwisg hwynt âg aur.

6 A gosod hi o flaen y wahanlen sydd wrth arch y dystiolaeth; o flaen y drugareddfa sydd ar y dystiolaeth, lle y cyfarfyddaf â thi.

7 Ac aroglarthed Aaron arni aroglarth llysiuog bob bore: pan dacio efe y lampau, yr aroglarthartha efe.

8 A phan oleuo Aaron y lampau yn y cyfnos, aroglarthed arni aroglarth gwastadol gerbron yr Arglwydd trwy eich cenedlaethau.

9 Nac offrymwch arni aroglarth dyeithr, na phoeth-offrwm, na bwyd-offrwm; ac na thywelltwch ddiod-offrwm arni.

10 A gwnaed Aaron gymod ar ei chyrn hi unwaith yn y flwyddyn, â gwaed pech-aberth y cymod: unwaith yn y flwyddyn y gwna efe gymod arni trwy eich cenedlaethau: santeiddiolaf i'r Arglwydd yw hi.

oedd tufewn i'r wahanlen. Gallai yr allor hon fod o *flaen* y drugareddfa, er fod y wahanlen rhyngddynt, crystal ag y gellid sefyll o flaen yr arch neu y drugareddfa yn achos yr *Urim a'r Thummim*. Er na allai yr hwn a weinyddai wrth yr allor hon weled y drugareddfa, trwy fod y wahanlen yn cyfryngu, eto rhaid iddo fod â'i wyneb tuag ati, a chyferio ei aroglarth y ffordd hōno; i ddyngu i ni, er nas gallu â'n llygaid corfforol weled gorsedd gras, y drugareddfa fendigedig hōno, eto fod yn rhaid i ni mewngweddi ffyddiog ein gosod ein hunain o'i blaen hi, gyferio ein gweddian ati, ac edrych i fyny.

Adn. 7. *Pan dacio efe y lampau*] Pan yn paratoi y llosgyr neu y wic yn y bore, ac yn rhoddi i mewn olew o'r newydd erbyn yr hwyr.

Adn. 8. *A phan oleuo Aaron y lampau yn y cyfnos*] Hyn wedi hyny a wneid gan offeiriad cyffredin, yr hwn a gai y wasanaeth yma wrth goelbren, fel y cawn yn amser Zacharias, Luc i. 9. *Aroglarthed arni*—lle yr oedd cynifer o aberthau yn cael eu hoffrymu yr oedd yn angenrheidiol cael rhyw arogl hyfryd i wrthweithio y drygsawr a raid fod yn codi oddiwraith laddiad cynifer o anifeiliaid, tywalltiad cymaint o waed, a llosgiad cymaint o gig, &c. Nid oedd gwaed byth yn cael ei dywallt ar yr allor hon, oddieithr ar ddydd y cymod cyffredinol, unwaith yn y flwyddyn, adn. 10.

Adn. 9. *Nac offrymwch arni aroglarth dyeithr*] Wedi ei wneuthur mewn rhyw ffordd arall heblaw yr un a nodir adu. 34, &c. *Na phoeth-offrwm*—trwy ei bod yn allor i aroglarthu yn unig.

Adn. 10. *Unwaith yn y flwyddyn y gwna efe gymod arni*] Sef ar y degfed dydd o'r seithfed mis: gwel ar Lef. xvi. 18, &c. Ar-

11 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

12 Pan rifech feibion Israel, dan eu rhifedi; yna rhoddant bob un iawn am ei einioes i'r Arglwydd, pan rifer hwynt: fel na byddo pla yn eu plith, pan rifer hwynt.

13 Hyn a ddyry pob un a elo dan rif. Hanner siel, yn ol siel y cysegr: ugain gerah *yw* y siel: hanner siel *fydd* yn offrwm i'r Arglwydd.

14 Pob un a elo dan rif, o fab ugein-mlwydd ac uchod, a rydd offrwm i'r Arglwydd.

15 Ni rydd y cyfoethog fwy, ac ni rydd y tylawd lai, na hanner siel, wrth roddi offrwm i'r Arglwydd, i wneuthur cymod dros eich eneidiau.

16 A chymer yr arian cymod gan feibion Israel, a dod hwynt i wasan-

aeth pabell y cyfarfod; fel y byddant yn goffadwriaeth i feibion Israel gerbron yr Arglwydd, i wneuthur cymod dros eich eneidiau.

17 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

18 Gwna noe bres, a'i throed o bres, i ymolchi: a dod hi rhwng pabell y cyfarfod a'r allor: a dod ynddi ddwfr.

19 A golched Aaron a'i feibion o honi eu dwylaw a'u traed.

20 Pan ddelont i habell y cyfarfod, ymolchant â dwfr, fel na byddont feirw; neu pan ddelont wrth yr allor i weini, gan aroglarthu aberth tanllyd i'r Arglwydd.

21 Golchant eu dwylaw a'u traed, fel na byddont feirw: a bydded *hyn* iddynt yn ddeddf dragwyddol, iddo ef, ac i'w had, trwy eu cenedlaethau.

wyddai hyn fod pechodau yr offeiriadau a weinyddent wrth yr allor hon, a phechodau y bobl dros y rhai y gweinyddent, yn rhoddi afendid seremonïol arni, oddiwrth yr hwn yr oedd yn rhaid ei gianhau trwy waed y cymod.

Adn. 11. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses*] Tybia rhai fod yr ailadroddiad o'r geiriau hyn yma, ac yn adn. 17, 22, 34, yn arwyddo na ddarfu i Dduw draddodi y gorchymynion hyn i Moses mewn un traethiad olynol, ond gyda llawer dyspeidiant, gan roddi iddo ef amser naill ai i ysgrifenu yr hyn a ddyweddied wrtho, neu i'w drysori yn ei gof.

Adn. 12. *Pan rifech feibion Israel dan eu rhifedi*] Heb. 'pan rifech feibion Israel *ag sydd i gael eu rhifo*'—sef rhai ugain mlwydd oed ac uchod, adn. 14; *yna rhoddant bob un iawn am ei einioes*—oddiwrth hyn gallwn ddyngu fod einioes pob un wedi cael ei fforffio i ddwyfod gyfiawnder. *Fel na byddo pla*—cans rhaid i bla neu fellidith Duw ddisyngyn ar yr eneidiau na wnaed iawn drostynt.

Adn. 13. *Hanner siel, yn ol siel y cysegr*] Ymddengys fod y safon trwy ba un y sicrhaid gwerth arian yn cael ei gadw yn y cysegr; a chan fod siel yn pwyso oddeutu hanner wns, ac yn werth oddeutu 2s. 6c. o'n hariau ni, yna yr oedd yr arian cymod oddeutu 1s. 3c.

Adn. 14. *A rydd offrwm i'r Arglwydd*] Yr oedd yr arian hyn i gael eu defnyddio yn ngwasanaeth y cysegr: â hwynt, meddai rhai, y prynent yr ebyrth, y peillied, yr olew, y gwin, yr aroglarth, yr halen, gwisgoedd yr offeiriadau, a'r holl bethau ereill a berthynent i'r holl gynulleidfa fel eu gilydd; ac o'r rhai hyn y gwuaed y morteisiau, pen. xxxviii. 27.

Adn. 15. *Ni rydd y cyfoethog fwy, ac ni rydd y tylawd lai*] I arwyddo fod pob enaid yr un mor werthfawr yn ngolwg Duw, ac nad allai gwahaniaeth mewn amgylchiadau *allanol* effeithio ar gyflwr yr enaid. Yr oedd y cyfoethog mewn cymaint o angen am Crist a'r tylawd, ac y mae i'r tylawd gymaint o groesaw ato ef a'r cyfoethog.

Adn. 16. *Fel y byddant yn goffadwriaeth i*

feibion Israel] O'r waredigaeth a aeth heibio, ac i gadw mewn golwg eu prynedigaeith ddyfodol, 1 Pedr i. 18, 19. Y mae rhai yn meddwl nad oedd y dreth hon yn cyfeirio ond at y rhifiad cyntaf o honynt pan osodwyd y tabernacl i fyny, a'i bod i wneyd i fyny yr hyn oedd ddiffygiol yn y cyfraniadau gwirfoddol. Tybia ereill ei bod i gymeryd lle bob amser ar rifaid y bobl; ac i Dafydd droseddu wrth beidio ei gwneuthur pan rifodd efe y bobl. Modd bynag, y mae llawer o'r ysgrifenywyr Iuddewig o'r farn mai teyrnged flynyddol ydoedd, wedi ei dechreu ar y rhifiad cyntaf hwn. Ymddengys mai hon oedd y deyrnged a dalodd ein Hiachawdwr rhag rhwystro ei wrthwynebwyr: gwel ar Mat. xvii. 24.

Adn. 18, 19. *Gwna noe bres, a'i throed o bres*] Y noe hon oedd ddyfrgyst fawr, yn yr hon y cedwid dwfr yn barhaus; a thybia rhai mai *troed* oedd gawg, i'r hwn y gollyngid y dwfr at eu gwasanaeth o'r ddyfrgyst trwy ddwsel. Yr oedd yr offeiriadau, er ddarfod eu golchi wrth eu cysegru, neu er pa mor lân bynag y gallent fod ar ol ymolchi gartref, i olchi eu dwylaw a'u traed bob tro y gweinyddent, ar been marwolaeth; yr hyn a arwyddai yr euogrydd gwastadol a ddygent arnynt eu hunain yn eu gorchwylion beunyddiol, a'u cyfeillach â'r byd. Ond tybia ereill mai *gwadn* y noe oedd y *troed* crybwyllidig.

Adn. 20. *Fel na byddont feirw*] Yr oedd y gorchymyn yn amlwg a hawdd, ac am hynny byddai yr anfydd-dod yn waeth—yn brawf o ryfyg, gwrthryfelgarwch, a dirmyg.

Adn. 21. *A bydded hyn iddynt yn ddeddf dragwyddol*] I barhau yn ei hystyr llythyrenol cyhyd ag y parläai yr oruchwyliath Iuddewig, ac yn ei hystyr ysbrydol hyd ddiwedd amser. Y fath wers bwysig a ddysg hyn i weinidogion efengyl Crist! Bob tro ag y gweinyddant yn gyhoeddus, pa un bynag ai yn cyfranu y *gair* ynte y *sacramenta*u, dylent ofaln am fod ganddynt gymhwysiad o'r newydd o ras ac Ysbryd Crist, i ddileu yr an-

22 ¶ Yr Arglwydd hefyd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

23 Cymer i ti ddewis lysiau o'r myrr pur, *bwys* pum can *sicl*, a hanner hyny o'r cinnamon peraidd, *sef pwys* deucant a deg a deugain o *siclau* ac o'r calamus peraidd *pwys* deucant a deg a deugain o *siclau*;

24 Ac o'r casia *pwys* pum cant o *siclau*, yn ol *sicl* y cysegr; a hin o olew olewyydden.

25 A gwna ef yn olew eneiniaid santaidd, yn enaint cymysgadwy o waith yr apothecari: olew eneiniaid santaidd fydd efe.

26 Ac eneinia âg ef babell y cyfarfod, ac arch y dystiolaeth,

27 Y bwrdd hefyd a'i holl lestri, a'r canwyllbren a'i holl lestri, ac allor yr arogl-darth,

28 Ac allor y poeth-offrwm a'i holl lestri, a'r noe a'i throed.

29 A chysegira hwynt, fel y byddant yn santeiddiolaf: pob peth a gyffyrddo â hwynt, a fydd santaidd.

30 Eneinia hefyd Aaron a'i feibion, a chysegira hwynt, i offeiriadu i mi.

31 A llefara wrth feibion Israel,

ffyddloudeb a aeth heibio, ac i'w galluogi i weinyddu gyda mwy o effaith, fel y byddo eu gweindogaeth yn ysbryd a bywyd i'r bobl: gwel ar pen. xxix. 20.

Adn. 23—31. *Cymer i'w ddewis lysiau, &c.* Nid yw yr esbonwyr yn cyduno yn nghylch y defnyddiau hyn. Bernir fod pwys 500 *sicl* o *fyrr*, 250 *sicl* o *cinnamon*, 250 *sicl* o *calamus*, a 500 *sicl* o *casia*, yn gwneddyd gyda'u gilydd oddeutu 72 o'n pwysau ni. Yr oedd sudd y rhai hyn i'w gymysgu â *hin*, neu bum chwart, o olew olewyydden, ac felly gadewid arogl hyfryd yn yr olew. Yr oedd pabell y cyfarfod a'i holl ddodrefn i gael eu heneinio â hwn; ac yr oedd i'w ddefnyddio hefyd yn nghysegriad yr offeiriad a'r brenhinoedd. Yr oedd yr eneiniaid hwn, fel y sylwyd eisioes, yn gysgod o ddoniaid a grasau yr Ysbryd Glân, heb ba rai nis gallwn gael budd mewn unrhyw ordinhad ddywyfol, na gweinyddu gyda chymeradwyaeth mewn unrhyw wasanaeth santaidd. Y mae yn draddodiad yn mhllith yr Iuddewon ddarfod i'r olew a wnaed gan Moses ar yr achlysur hwn barbau hyd yn agos i amser y caethiwd; ac y mae pawb bron yn cyduno nad oedd dim o hono yn yr ail deml, am y barnai yr Iuddewon, meddai rhai, nad oedd yn gyfreithlon ei wneuthur ef: ond gwel isod.

Adn. 32, 33. *Nac eneinier âg ef gnawd dyn* Ond pa fodd y cysonir hyn âg adn. 30, lle y gorchymynir eneinio Aaron a'i feibion âg ef? Yn ddigon hawdd. Yn adn. 33 danghosir pa ddyn sydd i'w ddeall yn y gwaharddiad hwn: 'A'r hwn a roddo o hono ef ar ddy'n *dyeithr*, a dorir ymaith oddiwrth ei bobl.' *Na wnewch*

gan ddywedyd, Olew eneiniaid santaidd a fydd hwn i mi, trwy eich cenedlaethau.

32 Nac eneinier âg ef gnawd dyn, ac ar ei waith ef na wnewch ei fath: santaidd *yw*, bydded santaidd genych.

33 Pwy bynag a gymysgo ei fath, a'r hwn a roddo o hono ef ar *ddy'n* dyeithr, a dorir ymaith oddiwrth ei bobl.

34 ¶ Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Cymer i ti lysiau peraidd, *sef*, stacte, ac onycha, a galbanum; y lysiau *hyn*, a thus pur; yr un faint o bob un.

35 A gwna ef yn arogl-darth aroglber o waith yr apothecari, wedi ei gyd-dymheru, yn bur ac yn santaidd.

36 Gan guro cur yn fân beth o hono, a dod o hono ef gerbron y dystiolaeth o fewn pabell y cyfarfod, lle y cyfarfyddaf â thi: santeiddiolaf fydd efe i chwi.

37 A'r arogl-darth a wnelech, na wnewch i chwi eich hunain ei fath ef: bydded genyt yn santaidd i'r Arglwydd.

38 Pwy bynag a wnel ei fath ef, i

ei fath—hyny yw, i'w roddi ar gnawd dyn dyeithr neu gyffredin, yr hyn oedd yn arferiad mewn gwleddoedd yn y gwleddydd dwyreiniol. Nid yw y gwaharddiad hwn i'w wneyd ef yn cyfeirio at *ddyben cysegredig*; eithr gellid ei ail wneuthur ef at eneiniaidau santaidd, fel y sylwa Patrick ac ereill, yn ol y cyfarwyddyd a roddir yma. Yn wir, os nad oedd yn gyfreithlon ei ail wneuthur ef, nid yw yn hawdd amgyffred pa fodd y gellid â *hin* neu bum chwart o olew eneinio cynifer o bethau ag a envir adn. 26—30, na pha fodd y gallent ei gadw yn olew eneiniaid *trwy eu cenedlaethau*, adn. 31; oblegid cawn i Solomon a rhai brenhinoedd ereill, yn nghyda'r holl archoffeiriad, gael eu heneinio âg ef; ac yr oedd y fath lawnder o hono yn cael ei dywallt weithiau ar yr achlysuron hyn, nes y byddai yn disgyrn ar hyd eu gwisgoedd. Ond ymddengys fod y pwnc hwn yn cael ei benderfynu yn 1 Cron. ix. 30, lle y dywedir fod 'rhai o feibion yr offeiriad yn *gweuthur enaint* o'r aroglau peraidd.'

Adn. 34—36. *Cymer i'w lysiau peraidd* Yr oedd yr AROGLDARTH, yr hwn a losgir ar yr allor aur, i gael ei wneuthur o *lysiau peraidd* hefyd, er nad oeddnt mor ragorol a gwerthfawr a'r rhai ag y cymysgid OLEW YR ENEINIAD â hwynt. Dywed yr Iuddewon fod hwn yn cael ei barotoi unwaith yn y flwyddyn, pwys am bob dydd o'r flwyddyn, a thri phwys dros ben erbyn dydd y cymod. Pan ei defnyddid, yr oedd i gael ei guro yn *fân*, adn. 36: felly, pan yr offrymodd ein Gwardwr ei hun yn 'offrwm ac yn aberth o arogl peraidd,' yr 'Arglwydd a fynai ei *ddryllio* ef.'

arogli o hono, a dorir ymaith oddi-wrth ei bobl.

PENNOD XXXI.

A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Gwel, mi a elwais wrth *ei enw* ar Besaleel fab Uri, fab Hur, o lwyth Juda;

3 Ac a'i llenwais ef âg ysbryd Duw, mewn doethineb, ac mewn deall, ac mewn gwybodaeth hefyd, ac yn mhob rhyw waith,

4 I ddychymygu cywreimrwydd, i weithio mewn aur, ac mewn arian, ac mewn pres,

5 Ac mewn cyfarwyddyd i osod meini, ac mewn sacrnïaeth pren, i weithio yn mhob gwaith.

6 Ac wele, mi a roddais gydag ef Aholiab fab Achisamach, o lwyth Dan: ac yn nghanol pob doeth o galon y rhoddais ddoethineb i wneuthur yr hyn oll a orchymynais wrthyt.

7 Pabell y cyfarfod, ac arch y dystiolaeth, a'r drugareddfa yr hon sydd arni, a holl lestri y babbell,

8 A'r bwrdd a'i lestri, a'r canwyllbren pur a'i holl lestri, ac allor yr arogl-darth,

9 Ac allor y poeth-offrwm a'i holl lestri, a'r noe a'i throed,

10 A gwisgoedd y weinidogaeth, a'r gwisgoedd santaidd i Aaron yr offeiriad, a gwisgoedd ei feibion ef, i offeiriadu *ynddynt*,

11 Ac olew yr eneinïad, a'r arogl-darth peraidd i'r cysegr; a wnant yn ol yr hyn oll a orchymynais wrthyt.

12 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

13 Llefara hefyd wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Diau y cedwch fy sabbothau: canys arwydd yw rhyngof fi a chwithau, trwy eich cenedlaethau; i wybod mai myfi *yw* yr Arglwydd, *sydd* yn eich santeiddio.

14 Am hyny cedwch y sabbath; oblegid santaidd *yw* i chi: llwyr-rodder i farwolaeth yr hwn a'i halogo ef; o herwydd pwy bynag a wnelo waith arno, torir ymaith yr enaid hwnw o bliith ei bobl.

15 Chwe diwrnod y gwnair gwaith, ac ar y seithfed dydd *y mae* sabbath gorphwysdra santaidd i'r Arglwydd: pwy bynag a wnelo waith y seithfed dydd, llwyr-rodder ef i farwolaeth.

16 Am hyny cadwed meibion Israel y sabbath, gan gynal sabbath trwy

Adn. 37, 38. *A'r arogl-darth a wnelech, na wneuch i chi eich hunain ei fath ef*] Rhoddir yma yr un gyfraith yn nghylch y ddau barot-oed hyn, fel na fyddai i'r fath gael ei wneuthur at unrhyw wasanaeth *guffredin*. Fel hyn mynai Duw gadw yn meddyliau y bobl barch i'w osodiadau ei hun, a dysgu i ninau beidio halogi na chamddefyddio unrhyw beth ag y mae efe yn ei hysbysu ei hun trwyddo.

PEN. XXXI. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd*] Gwel ar pen. xxx. 11.

Adn. 2. *Mi a elwais wrth ei enw ar Besaleel*] Hyny yw, mi a benodais y dyn hwn yn neillduol i fod yn brif arolygydd yr holl waith. Y mae ei enw yn arwyddo 'dan gysgod Duw,' i ddyndodi ei fod dan nawdd neillduol y Goruchaf. Yr oedd ef yn ŵyr i Hur: gwel ar pen. xvii. 10.

Adn. 3—5. *Ac a'i llenwais ef âg ysbryd Duw*] Nid yw hyn yn cyfeirio yn neillduol at ddylanwadau yr Ysbryd Glân fel Ysbryd santeiddiad, ond at y doniau hyny â pha rai yr addaswyd ef at y gwaith ag y penodwyd ef iddo. *Mewn doethineb*—gwel ar pen. xxviii. 3.

Adn. 6. *Ac wele, mi a roddais gydag ef Aholiab*] Y mae rhywbeth yn nodedig yn enw yr ail arolygydd hwn: arwydda 'dabernacl y tad,' neu, 'y tad yw fy nhabernacl.'

Adn. 7. *Pabell y cyfarfod, &c.*] Gwel ar pen. xxv, xxvi.

Adn. 8. *A'r canwyllbren pur*] A elwid felly naill ai o herwydd yr aur *pur* o'r hwn y

gwnaed ef; neu *ardderchogrwydd a gwychder* ei wneuthuriad; neu ar gyfrif y *goleuni* a roddai yn y tabernacl, trwy fod yr olew puraf bob amser yn llosgi ynddo.

Adn. 9. *Ac allor y poeth-offrwm*] Gwel ar pen. xxvii. 1, &c.

Adn. 10. *A gwisgoedd y weinidogaeth*] A'r rhai y gwisgid yr arch, y bwrdd, y canwyllyr, a'r allor aur, pan symudai y gwersyll, Num. iv. 5, &c.

Adn. 11. *Ac olew yr eneinïad*] Gwel ar pen. xxx. 23—31.

Adn. 13. *Diau y cedwch fy sabbothau*] Crybwyllwyd hyn deirgwaith o'r blaen, pen. xvi. 23, xx. 8, a xxiii. 12; ac ymddengys ddarfod ei adrodd drachefu yma, rhag iddynt hwy feddwl y byddai i'r gwaith santaidd a orchymynir yn y bennod hon eu hawdurdodi i dori ar orphwysiad santaidd y dydd hwnw.

Adn. 14. *Yr hwn a'i halogo ef*] Trwy weithio ar y tabernacl, neu ryw ffordd arall; *torir ymaith yr enaid hwnw*—canys yr hwn a allai mor bell ddirmygu y sabbath, pa un oedd yn arwydd iddynt o'r orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Dduw, ydoedd o ganlyniad yn *wrthffyddiad*, ac a ddylasai gael ei dori ymaith oddiwrth holl freintiau a dysgwyliadau Israelaid.

Adn. 15. *Llwyr-rodder ef i farwolaeth*] Saes. *llwyr-rodder*, &c. Bydd i'r ynadon chywilio i'r mater; ac os ceir y cyhuddedig yn euog, llabyddir ef i farwolaeth.

Adn. 16. *Yn gysfannod tragwyddol*] Gan ei fod yn arwydd o'r orphwysfa a'r gwynfyd-

eu cenedlaethau, yn gyfammed tragwyddol.

17 Rhyngof fi a meibion Israel, y mae yn arwydd tragwyddol, mai mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear; ac mai ar y seithfed dydd y peidiodd, ac y gorphwysodd efe.

18 ¶ Ac efe a roddodd i Moses, wedi iddo orphen llefaru wrtho yn mynydd Sinai, ddwy lech y dystiolaeth; sef llechau o gerig, wedi eu hysgrifenu â bys Duw.

edigrwydd sydd i ddyfod, rhaid i'r gadwraeth grefyddol o hono gael ei chynnal i fyny yn barhaus. Rhaid i'r cysgod barhau mewn grym byd nes y delo y gwrthysgod.

Adn. 17. *Mai mewn chwe diwrnod, &c.*] Yr oedd yr Iuddewon, wrth gadw un dydd mewn saith, ar ol chwe diwrnod o lafur, yn dangos eu bod yn addoli y Duw a wnaeth y byd mewn chwe diwrnod, ac a orphwysodd y seithfed; ac felly yr oeddnt yn ymwahaniaethu oddiwrth genhedloedd ereill, y rhai, ar ol yn gyntaf gollu y sabbath, y goffadwriaeth am y cread, a gollasant yn raddol y wybodaeth o'r Creawdwr, ac a roddasant i'r creadur yr anrhydedd dyledus iddo ef yn unig. *Ac mai ar y seithfed dydd y peidiodd ac y gorphwysodd efe*—Saes. 'y gorphwysodd ac yr ymadfywiodd.' Yma y mae Duw, mewn ymstyngiad at wendid dynol, yn cymhwysu ato ei hun yr hyn a berthyna i ddynt; neu, mewn geiriau ereill, dywedir fod Duw yn cael ei adfywio trwy ei orphwysiad, fel yr adfywir dyn mewn corff ac enaid trwy ei orphwysiad crefyddol ef ar y sabbath.

Adn. 18. *Ac efe a roddodd i Moses, wedi iddo orphen llefaru wrtho*] Yn niwedd y deugain niwrnod a'r deugain nos, pen. xxiv. 18. *Ddwy lech y dystiolaeth*—y rhai a dystient ewyllys Duw mewn perthynas iddynt, ac a fyddent yn dystiolaeth yn eu herbyn hwy os anufyddhäent. *Sef llechau o gerig*—sef cerig saphir, yn ol yr Iuddewon, wedi eu paratoi ond odid trwy weinidogaeth angylion. *Wedi eu hysgrifenu â bys Duw*—trwy ei ewyllys a'i allu digyfrwng ef, heb wasanaeth offeryn neu gŷn, i'w cadw yn yr arch. Dyldid sylw fod deddfau, yn yr amseroedd boreaf, yn cael eu hysgrifenu ar fyrrddau o bres, mynor, coed, &c. Nid hon, yn ddiaw, oedd yr ysgrifen gyntaf a wnaed erioed, fel y myn aurai esbonwyr i ni greu; canys cawn fod yr Arglwydd cyn hyn yn gorchymyn i Moses ysgrifenu, pen. xvii. 14; a darfod iddo yntau 'ysgrifenu holl eiriau yr Arglwydd' cyn myned i'r mynydd y tro hwn, pen. xxiv. 4: gwel ar pen. xvii. 14. Ysgrifennodd Duw yn awr ar lechau o gerig yr hyn a ysgrifenasai efe yn wreiddiol ar galon dyn, ac mewn trugaredd efe a osododd o flaen ei lygaid yr hyn trwy bechod a ddilësid o'i enaid ef; a thrwy hyn efe a ddengys i ninaw pa beth, trwy Ysbryd Crist, a raiad gael ei adysgrifenu yn ein meddwl, 2 Cor. iii. 3.

PEN. XXXII. Adn. 1. *Pan welodd y bobl*

312

PENNOD XXXII.

PAN welodd y bobl fod Moses yn oedi dyfod i waered o'r mynydd; yna yr ymgasglodd y bobl at Aaron, ac y dywedasant wrtho, Cyfod, gwna i ni dduwiau i fyned o'n blaen: canys y Moses hwn, y gŵr a'n dyg ni i fyny o wlad yr Aifft, ni wyddom beth a ddaeth o hono.

2 A dywedodd Aaron wrthynt, Tynwch y clust-dlysau aur sydd wrth glustiau eich gwragedd, a'ch meibion, a'ch merched, a dygwech ataf fi.

fod Moses yn oedi dyfod o'r mynydd] Pa faint oedd hyn cyn diwedd y deugain niwrnod, nis gallwn ddywedyd; ond y mae yn sicr ei fod gryn amser, gan fod yn rhaid i'r addurniadau gael eu casglu, a bod y llo, ar ol ei doddi, yn gofyn cryn amser i'w lunio â chŷn. *Yna yr ymgasglodd y bobl at Aaron*—Heb. 'yn erbyn Aaron,' sef mewn modd terfysgld i hawlio eu cais: gwel ar adn. 4. *Cyfod, gwna i ni dduwiau i fyned o'n blaen*—i Ganaau, neu yn hytrach yn ol i'r Aifft, Act. vii. 39, 40. *Canys y Moses hwn, y gŵr a'n dyg ni i fyny o wlad yr Aifft*—ymddengys fod hon yn iaith o ddirmyg mawr, a gallwn oddiwrthi weled gwirionedd y cymeriad a roddir iddynt gan Aaron, adn. 22, 'uai ar ddrwg yr oeddynt.' *Ni wyddom beth a ddaeth o hono*—y mae yn debyg y gallent feddlw ei fod wedi trengu yn y tân difaol ar ben y mynydd, pen. xxiv. 17. Yr oedd hwn yn gynygiad rhyfedd iawn. Os oeddynt yn meddwl fod Moses wedi ei gollu, buasai yn weddusach iddynt benodi dyddiau galar am dano dros ryw hyd: ond gwelwch mor fuan y darfu i gymwynaswr mor fawr gael ei anghofio ganddynt! Pe dywedasant, 'Collwyd Moses, gwna i ni lywodraethwr,' buasai rhyw synwyr ynddo, er y buasai hyn yn ddirmyg ar Aaron a Hur, y rhai a wnaed yn rhaglaviaid yn ei absenoldeb ef; ond yr oedd dywedyd, 'Collwyd Moses, gwna i ni dduw,' yr afresymoldeb mwyaf a allesid ei ddychymygu! Beth! ai Moses oedd eu duw hwy? A gymerasai efe erioed arno fod felly? Peth bynag a ddaethai o Moses, onid oedd yn amlwg fod JEHOFA eto gyda hwy, yr hwn a wlawiaid iddynt fanna bob dydd? Ac a allasant hwy gael rhyw dduw arall a fuasai yn arlywo cystal iddynt? *Gwna i ni dduwiau*, meddent. Pa sawl un a fyntent gael? ai nid oedd un yn ddi-gon? *Gwna i ni dduwiau*; a pha ddaoniai a wnaid duw o'u gwneuthuriaid eu hunain iddynt? Mynent gael duw i fyned o'u blaen, yr hwn ni allai fyned ei hunan heb ei gario! Mor resynol fflot a syfrdan yw eilunaddolwyr! Yn uniawn y dywedodd yr Arglwydd am daunynt, 'Mewn eilunod y maent yn ynfydu!' Jer. i. 38.

Adn. 2. *Tynwch y clust-dlysau aur*] Yr oedd y gŵyr a'r gwragedd yn gwisgo yr addurniadau hyn, a gallwn feddlw eu bod yn rhan o'r yspail a ddygasant hwy o'r Aifft, pen. iii. 22, a xii. 35. Os felly, mor hynod yw fod i'r pethau a ganiatawyd iddynt trwy ragluniaeth neillduol Duw, gael yn awr eu

3 A'r holl bobl a dynasant y clust-dlysau aur oedd wrth eu clustiau, ac a'u dygasant at Aaron.

4 Ac efe a'u cymerodd o'u dwylaw, ac a'i lluniodd â chŷn, ac a'i gwnaeth yn llo tawdd: a hwy a ddywedasant, Dyma dy dduwiau di, Israel, y rhai a'th ddyg di i fyny o wlad yr Aifft.

5 A phan ei gwelodd Aaron, efe a adeiladodd allor ger ei fron ef: ac Aaron a gyhoeddodd, ac a ddywedodd, *Y mae gwyl i'r Arglwydd y fory.*

6 A hwy a godasant yn fore dranoeth, ac a offrymasant boeth-offrymau, ac a ddygasant aberthau heddi: a'r

bobl a cisteddasant i fwyta ac i yfed ac a godasant i fyny i chwarent.

7 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cerdda, dos i waered: canys ymlygrodd dy bobl a ddygaist i fyny o dir yr Aifft.

8 Buan y ciliasant o'r ffordd a orchymynais iddynt: gwnaethant iddynt lo tawdd, ac addolasant ef, ac aberthasant iddo; dywedasant hefyd, Dyma dy dduwiau di, Israel, y rhai a'th ddygasant i fyny o wlad yr Aifft.

9 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Gwelais y bobl hyn; ac wele pobl war-galed ydynt.

camddefyddio i'r dybenion eilunaddolgar gwrthlunaf! Ond y mae doniau Duw yn llynych yn cael eu balogi wrth eu defnyddio yn ngwasanaeth pechod. Ytbia rhai i Aaron orchymyn hyn gyda bwriad i lethu y cynygiad, gan gredu, os na rwystrai eu *cybydd-dod* iddynt roddi i fyny eu clust-dlysau, y byddai i'w *balchder* o leiaf attal iddynt ymadael â hwynt.

Adn. 3. *A'r holl bobl*] Yr *oll* yn cael ei roddi am *lawer*; canys nid oedd gan feibion Lefi ran ynddo, adn. 26. Y mae dynion yn gyffredin yn hoffi *addurn*, er i hyn gael ei briodoli yn anaddas i'r rhyw fenywaidd yn unig; a'r rhai o'r galluoedd basaf sydd yn ei hoffi fwyaf: ond ar yr achlysur hwn yr oedd tuedd y bobl at eilunaddoliaeth yn gryfach na'u serch at addurn, fel ag yr ymddyosgant yn ewyllysgar o'u tlysau mewn trefn i gael duw tawdd!

Adn. 4. *Ac efe a'u cymerodd*] Hyny yw, a gymerodd y tlysau o'u dwylaw, ac a'u toddodd; a thrwy fod ganddo fold wedi ei pharotoi, efe a dywalltodd yr aur toddedig iddi, ac yna dygodd ef allan ar lun *gch neu lo*, ac a wnaeth y gwaith gorphenol arno â chŷn. 'Llo a wnaethant yn Horeb,' meddai Dafydd; 'ac ymgyrmasant i'r ddelw dawdd,' Salm cvi. 19. Fod yr Aifftiaid yn addoli anifeiliaid mor fore a'r dyddiau hyny a ymddengys oddiwrth pen. viii. 26; ac ŷch neu lo yn enwedig oedd eu heilun mawr: felly gallwn gasglu-ddarfod i Aaron, mewn cydymffurfiaid â rhagfarn y bobl, wneyd y llo hwn yn ol y cynllun a welsai yr Israeliadaid yn yr Aifft, gan ei gysegru ef i JEHOFA, fel y cysegrai yr Aifftiaid ddelwau cyffelyb i'w prif dduw *Osiris*. Yr oedd cydymffurfiaid Aaron â dadwrdd y bobl yn dra heus: dylasai eu gwrthwynebu â'i holl nerth, a dyoddef merthyrdod yn hytrach nag ymostwng i'w hewyllys. O ganlyniad cawn i'r Arglwydd 'ddigio yn fawr wrtho i'w ddyfetha ef,' oni buasai i Moses weddio drosto, Deut. ix. 20. Y mae yn draddodiad yn mhlith yr Iuddewon ddarfod i *Hur*, cydswyddog Aaron, eu gwrthwynebu; ac yna i'r bobl godi yn ei erbyn ef, a'i labyddio i farwolaeth, yr hyn yw y rheswm nad ydym mwyach yn clywed am dano; a darfod i hyny ddychebnu Aaron i gydymffurfio a'u cais trwy wneyd y llo.

Adn. 5. *Y mae gwyl i'r Arglwydd y fory*] Y mae yn amlwg oddiym fod Aaron yn

bwriadu i'r gwir Dduw fod yn *wrthddrych* eu haddoliad, er iddo oddef iddynt gyflwyno yr addoliad hwn trwy gyfrwng y *llo tawdd*: a chawn yn mbellach fod rhai o ddefodau priodol gwir addoliaid yn cael eu cadw ar yr achlysur hwn, canys codwyd allor, ac offrymwyd poeth-offrymau ac aberthau heddi, adn. 6. Ac eto ni wnai hyn eu hegusodi hwy oddiwrth y pechod o eilunaddoliaeth, mwy nag yr esgusodir y Pabyddion, y rhai a haerant nad ydynt hwy yn addoli y delwau a ddefnyddiant, eithr Duw neu Grist trwyddynt hwy: gwel ar adn. 7.

Adn. 6. *A'r bobl a cisteddasant i fwyta ac i yfed*] Y poeth-offrymau a ddfawyd yn gwbl; a'r aberthau heddi, ar ol i'r gwaeod gael ei dywallt, a ddaethant yn fwyd i'r offeiriad a'r bobl. Felly, ar ol i'r rhan grefyddol o'r seremonïau hyn gael ei gorphen, y bobl a cisteddasant i *fwyta* o'r aberthau heddi, a hyn a wnaethant yn unig fel *eilunaddolwyr*, gan fwyta ac yfed i ormodedd. Ac ymddengys iddynt fyned lawer yn mbellach, canys dywedir iddynt *godi i fyny i chwarent*—Heb. *letsachek*, gair yn arwyddo fod yno gyweithas buteinllyd a godinebus: gwel ar Gen. xxxix. 14; i Cor. x. 8.

Adn. 7. *Ymlygrodd dy bobl*] Yma y mae Duw yn eu *diarddel* fel ei eiddo ei hun, ac yn eu galw '*dy bobl*.' Yr oeddynt wedi tori ei gyfammod ef, ac nid oedd ganddynt mwyach hawl yn ei amddiffyniad na'i serch. Yn gyffelyb i Aaron y mae y pab, archeffiriad y Pabyddion, yn casglu addurniadau y bobl, ac â hwynt yn gwneuthur delwau, megys llun Crist ar y groes, &c. Y bobl a'i haddolant; eithr y pab a ddywed nad yw hyny ond i gadw Crist mewn coffadwriaeth. Ond am y cwbl Duw a ddywed, '*Ymlygrodd dy bobl!*' ac fel hyn, gan eu bod yn parhau yn eu heilunaddoliaeth, fforsfletasant fendithion y cyfammod; ac yn lle bod yn wir bobl i Dduw, pobl y *pab* ydynt, a galwant ef, 'Ein tad santaidd y pab.' Gwel CLARKE.

Adn. 8. *Buan y ciliasant o'r ffordd*] Buan ar ol rhoddi y gyfraith iddynt, yr hon yr addawsant hwythau ufyddhau iddi; buan ar ol i Dduw wneuthur y fath bethau mawrion iddynt, ac amlygu ei dirion fwriad i wneuthur pethau mwy.

Adn. 9. *Pobl war-galed ydynt*] Aflywodraethus, cyndyn, ac ystyfnig, anewyllysgar i

10 Am hyny yn awr gad i mi lonydd, fel yr enyno fy lliid yn eu herbyn, ac y dyfethwyf hwynt: a mi a'th wnaf di yn genhedlaeth fawr.

11 A Moses a ymbiliodd gerbron yr Arglwydd ei Dduw, ac a ddywedodd, Paham, Arglwydd, yr enyna dy ddigofaint yn erbyn dy bobl, y rhai a ddygaist allan o wlad yr Aifft, trwy nerth mawr, a llaw gadarn?

12 Paham y caiff yr Aifftiaid lefaru, gan ddywedyd, Mewn malais y dygodd efe hwynt allan i'w lladd yn y mynyddoedd, ac i'w dyfetha oddiar wyneb y ddaear? Tro oddiwrth angerdd dy ddigofaint, a bydded edifar genyt y drwg a amcenaist i'th bobl.

13 Cofia Abraham, Isaac, ac Israel, dy weision, y rhai y tyngaist wrthynt

i ti dy hun, ac y dywedaist wrthynt, Mi a amlhaf eich had chwi fel ser y nefoedd; a'r holl wlad yma yr hon a ddywedais, a roddaf i'ch had chwi, a hwy a'i hetifeddad byth.

14 Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd am y drwg a ddywedasai efe y gwnai i'w bobl.

15 ¶ A Moses a dródd, ac a ddaeth i waered o'r mynydd, a dwy lech y dystiolaeth yn ei law: y llechau a ysgrifenasid o'u dau du; hwy a ysgrifenasid o bob tu.

16 A'r llechau hyny oedd o waith Duw: yr ysgrifen hefyd oedd ysgrifen Duw yn ysgrifenedig ar y llechau.

17 A phan glywodd Josua swyn bobl yn bloeddio, efe a ddywedodd wrth Moses, Y mae swyn rhyfel yn y gwersyll.

ddyfod dan iau y gyfraith ddwyfol, chwannog i bob drwg, ac annwygiadwy trwy fendithion na barnedigaeithau. Meddyllir fod yma gyfeiriad at yr ŷch gwargaled, gwrthdrysych eu haddoliad: gwel Hos. iv. 16.

Adn. 10. *Am hyny yn awr gad im' lonydd, &c.* Meddyllir fod Moses eisioes wedi dechreu dadlu gyda Duw ar ran y bobl wrthryfelgar ac anniolchgar hyn; ac mor rymus oedd ei eiriolaeth fel ag y mae hyd yn nod yr Hollalluog yn ei arddangos ei hun fel yn analluog i wneuthur dim mewn sfordd o farn oddieithur i'w greadur ymatal rhag gweddio am drugaredd! Gwel anghraifft o lwyddiant taer eiriolaeth yn achos Abraham, Gen. xviii. 23—33, oddiwrth ba gynllun yr ymddengys i eiriolaeth Moses gael ei ffurio.

Adn. 11. *A Moses a ymbiliodd gerbron yr Arglwydd ei Dduw* Os na fynai Duw gael ei alw yn Dduw Israel, eto gobeithiai Moses y gallai ei gyfarch ef fel ei Dduw ei hun. Yn awr y mae Moses yn sefyll ar yr adwy, i droi ymaith lliogirwydd Duw, Salm cvi. 23. Efe a gymerth yr awgrym a roddai Duw iddo pan y dywedodd, *Gad im' lonydd*; pa un, er yn ymddangos i wahardd ei eiriolaeth, oedd mewn gwirionedd yn ei cheinogi hi, trwy ddangos y fath allu sydd gan weddi Tyddiog gyda Duw.

Adn. 12. *Paham y caiff yr Aifftiaid lefaru, Mewn malais y dygodd efe hwynt allan i'w llandd?* Er fod Israel yn anwyll gan Moses fel ei geraint a phobl ei ofal, eto anrhydedd Duw yw yr hyn ag y gofala efe yn benaf am dano. Pe gallai Israel drengu heb unrhyw warch i enw Duw, gallai Moses ymddarbwylio i eistedd i lawr yn davel; ond nis gall efe oddef clywed beio ar Dduw, ac am hyny efe a ddadleua, 'Arglwydd, beth a ddywed yr Aifftiaid?' Hwya a ddywedant dy fod naill ai yn rhy wan ac nas gellit, neu yn anwadal ac nas mynit, orphen y waredigaeth a ddechreuaist. *Tro oddiwrth angerdd dy ddigofaint*—nid fel pe meddylliai nad oedd Duw yn gyf-iawn yn ddiglon, ond erfyniai ar iddo beidio á bod mor ddigllon fel ag i'w dyfetha hwynt. *Bydded edifar genyt y drwg*—cyfnewid dded-

fryd dinystr i ddedfryd cerydd, a gorfoledded trugaredd yn erbyn barn; a amcenaist i'th bobl—y rhai a ddygaist allan o wlad yr Aifft, ac i'r rhai y gwnaethost bethau mor fawrion eisioes.

Adn. 13. *Cofia Abraham, Isaac, ac Israel* Y rhai oeddynt dy weision ffyddlon, ac i'r rhai y gwnaethost addewid trwy lw, i'w chyflawni yn eu had; ac os lleddi di y bobl hyn, pa beth a ddaw o'r addewid?

Adn. 14. *Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd am y drwg* Efe a newidiodd y ddedfryd ar ddeisiyfiad Moses, yr hwn yn hyn a gynrychiolai yr Arglwydd Iesu, y Cyfryngwr a'r Eiriolwr mawr dros bechaduriaid. Gwelwn yma, 1. Allu gweddi: y mae Duw yn goddef iddo ei hun gael ei orchfygu trwy daerineb gostyngedig a ffyddiog. 2. Tosturi Duw tuag at bechaduriaid tylodion, ac mor barod ydyw i fadd-eu! Ond dyliid sylwi, mai yn ol dull dynion y llefarir yma am *edifeirwech* yr Arglwydd: gwel ar Gen. vi. 6.

Adn. 15. *A Moses a dródd, ac a ddaeth i waered o'r mynydd* At Josua, yr hwn oedd naill ai yn ei ddysgwyl ef ar y mynydd, neu wedi dyfod i'w gyfarfod ef. *Y llechau a ysgrifenasid o'u dau du*—y mae gwahanol farnau ar hyn. Tybia rhai mai yr ystyr yw, 1. Iddynt gael en hysgrifenu ar yr ochr ddeau a'r aswy, fel llyfr agored; neu fod pob llech yn cynwys dwy golofn. 2. Iddynt gael eu hysgrifenu bob tu i'r ddwy lech, trwy nad oedd y wyneb yn gallu cynwys yr oll o'r deg gorchymyn. Neu, 3. Fod yr un geiriau wedi en hysgrifenu ar y ddwy ochr, wyneb a chefn, fel, pan eu delid i fyny, y gallai dwy blaidd ddarllen ar unwaith.

Adn. 16. *A'r llechau hyny oedd o waith Duw* Wedi eu naddu a'u llyfnhau, nid gan Moses, ond gan Dduw ei hun, ond odid trwy weinidogaeth angylion, neu ynte trwy ei ewyllys a'i allu digyfrwng ei hun. *Yr ysgrifen hefyd oedd ysgrifen Duw*—wedi ei gwneuthur yr un modd, heb wasanaeth cŷn: gwel ar pen. xxxi. 18, a xxxiv. 1, 27.

Adn. 17. *Y mae swyn rhyfel yn y gwersyll*

18 Yntau a ddywedodd, Nid llais bloeddio am oruchafiaeth, ac nid llais gwaeddi am gollu y maes; ond sw'n canu a glywaf fi.

19 ¶ A bu, wedi dyfod o hono yn agos i'r gwersyll, iddo weled y llo a'r dawnsiau: ac enynodd digofaint Moses; ac efe a daflodd y llechau o'i ddwyllaw, ac a'u torodd hwynt islaw y mynydd.

20 Ac efe a gymerodd y llo a wnaethent hwy, ac a'i llogodd â thân, ac a'i malodd yn llwch, ac a'i taenodd ar wyneb y dwfr, ac a'i rhoddes i'w yfed i feibion Israel.

21 A dywedodd Moses wrth Aaron, Beth a wnaeth y bobl hyn i ti, pan ddygaist arnynt bechod mor fawr?

Wrth glywed sw'n anhrefnus yn y dyffryn odditanodd, tybiai Josna fod rhai o'r llwythau cymydogathol wedi ymosod ar wersyll Israel.

Adn. 18. *Sw'n canu a glywaf fi*] Y mae y gair Hebreig, *anoth*, yn arwyddo *canu yn gylchynol*, neu bob yn ail, fel yr oedd yn arferiad mewn addoliadau santaidd a halogedig.

Adn. 19. *Iddo weled y llo a'r dawnsiau*] Dywed Ward fod dawnsio o flaen eilun yn eymeryd lle yn mhob gwyl eilunaddolgar Hindwaidd. *Ac enynodd digofaint Moses*—nid yw yn un troseddidd o ddeddf addfwynder i ni ddangos ein hanfoddlonrwydd at ddrwygion. Y rhai hyn sydd yn 'digio ac heb bechu,' ag sydd ddig wrth bechod yn unig. Danghosodd Moses ei hun yn ddigllon iawn trwy dori y llechau a llogi y llo, fel y gallai ef ddiuno y bobl i deimlad o fawredd eu pechod. *Ac efe a daflodd y llechau o'i ddwyllaw*—gallasai wneuthur hyn trwy gyfyngder a blinder ysbryd wrth weled eu ffaidd eilunaddoliad hwy; ond y mae yn debycach iddo ei wneuthur yn *arwyddocaol*, i ddangos, fel yr oedd ef trwy y weithred hon yn tori y llechau yn ddarnau, felly ddarfod iddynt hwythau, trwy eu hymddygiad hwn, wneuthur rhwyg yn y cyfammod, a thori deddfau eu Gwneuthurwr! Y mae yn dra thebyg nad oedd hyn yn effaith nwyd bechadurus yn Moses, ond ei fod yn gweithredu dan ddwyfol ddylanwad, gan nad ydym byth yn darllen iddo gael ei feio am y weithred hon.

Adn. 20. *Ac efe a gymerodd y llo a wnaethent hwy*] Yma y gwelwn mor fawr y rhagorai Moses ar Aaron mewn gwroldeb a sel dros ogoniant Daw, yn gystal ag mewn awdurdod yn mhlith y bobl, y rhai a ofnient ei wrthwynebu. *Ac a'i llogodd â thân, ac a'i malodd yn llwch*—bydd yn hawdd i fettelau, pan o gylch hanner toddi, gael eu malurio yn llwch: y mae y posibilrwydd o wneuthur hyn trwy *halen tartar a llogfaen* yn dra hysbys. Ond tybia rhai i'r llo hwn gael ei doddi yn llafnau, ac yna ei *guro* (Deut. ix. 21) nes ef fod mor deneu a'n *heurdadail* ni, y rhai y mae yn hawdd eu malu yn llwch rhwyg y bys a'r fawd. *Ac a'i taenodd ar wyneb y dwfr*—sef yr afon a

22 A dywedodd Aaron, Nac enyded digofaint fy arglwydd: ti a adwaenost y bobl, mai ar ddrwg y maent.

23 Canys dywedasant wrthyf, Gwna i ni dduwiau i fyned o'n blaen: canys y Moses hwn, y gw'r a'n dyg ni i fynny o wlad yr Aifft, ni wyddom beth a ddaeth o hono.

24 A dywedais wrthynt, I'r neb y mae aur, tynwch ef: a hwy a'i rhoddasant i mi; a mi a'i bwriais yn tân, a daeth y llo hwn allan.

25 ¶ A phan welodd Moses fod y bobl yn noeth, (canys Aaron a'u noethasai hwynt, i'w gwaradwyddo yn mysg eu gelynyon:)

26 Yna y safodd Moses yn mhorth y gwersyll, ac a ddywedodd, Pwy

ddisgynai o'r mynydd, Deut. ix. 21. *Ac a'i rhoddes i'w yfed i feibion Israel*—tybia Light-foot ac ereill, fod y dwfr hwn, ar ol i'r aur gael ei fwrw iddo, o'r un effaith a'r dwfr a goffeir yn Num. v, ei fod yn chwyddo ymysgaroedd pob un ag ydoedd euog; a darfod i'r Lefiaid ladd yr holl rai ag oeddynt dan yr arwydd hwn, adn. 23.

Adn. 21. *Beth a wnaeth y bobl hyn i ti*] A orchfygasant hwy di i'w wneuthur? neu a fygythient hwy dy labyddio os na chydsynit? ac oni allesit tithau eu cyfwynebu â bygythion Dau?

Adn. 22. *Ti a adwaenost y bobl*] Yma y mae Aaron yn cyfeirio at wybodaeth brofiadol Moses o'u hystyfnigrwydd, ac yn erfyn arno yn dra gostyngedig i'w wrandaw ef yn bwyllig ac ystyriol. *Mai ar ddrwg y maent*—eu bod o dueddiad drygionus ac aflywodraethus yn gyffredinol.

Adn. 23. *Gwna i ni dduwiau*] Gwel ar adn. 1.

Adn. 24. *Mi a'i bwriais yn tân, a daeth y llo hwn allan*] Y fath esgus ynyd a chywil-yddus! Y mae fel pe buasai yn arwyddo na ddarfu iddo ef ddim ond tafu y mettel i'r tân, a darfod i'r llo ddyfod allan yn ddamweiniol; neu trwy swynyddiaeth rhai o'r bobl gymysg, fel y breuddwydia rhai o'r ysgrifenywr Iuddewig. Deongliad Jonathan ben Uzziel a ddywed, 'Mi a'i bwriais i'r tân, ac aeth Satan i meun iddo, a daeth allan ar lun y llo hwn!' Dyma gymaint ag ydoedd gan Aaron i'w ddywedyd drosto ei hun; a buasai yn well iddo beidio dywedyd dim, canys ni wnaeth ei amddiffyniad ond mwyaheu ei droseidd.

Adn. 25. *A phan welodd Moses fod y bobl yn noeth*] Wedi eu darostwng i'r cyflwr mwyauf isel a thruenus, trwy gael eu gadael gan Dduw yn nghanol eu gelynyon. Yr oeddynt yn noeth mewn ystyr ysbrydol, wedi cael eu dyosg o nawdd ac amddiffyniad Jehofa: gwel ar pen. xxxiii. 5. Nad oeddynt wedi cael eu llwyr yspeilio o'u haddurniadau sydd eglur oddiwrth eu hoffrymau, pen. xxxv. 22.

Adn. 26. *Pwy sydd ar du yr Arglwydd?*] Hyny yw, pwy yn eich mysg sydd yn rhydd oddiwrth y trosedd hwn? *A holl feibion Lefi*

sydd ar du yr Arglwydd? *deued* ataf fi. A holl feibion Lefi a ymgasglasant ato ef.

27 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Israel; Gosodwch bob un ei gleddyf ar ei glun, ac ewch, cyniweiriwch o borth i borth trwy y gweryll, a lleddwch bob un ei frawd, a phob un ei gyfaill, a phob un ei gymydog.

28 A meibion Lefi a wnaethant yn ol gair Moses: a chwympodd o'r bobl y dydd hwnw yn nghylch tair mil o wŷr.

29 Canys dywedasai Moses, Cy-

a ymgasglasant ato ef—dengys hyn fod y llwythau wedi ymlygru yn yr eilunaddoliad hwn yn gyffredinol, pan nad allai neb ond meibion Lefi ymuno â Moses ar yr achlysur yma; a dichon nad oeddynt hwythau oll yn ddienuog mwy nag Aaron.

Adn. 27. *Gosodwch bob un ei gleddyf ar ei glun*] Yr oedd y gorchymyn hwn yn dyfod oddiwrth Dduw, yr hwn yn gyfiawn a allai ddedfrydu y troseddwy'r hyn i farwolaeth trwy y cleddyf, yn gystal a thrwy haint neu newyn. Wrth edrych arno yn y goleuni hwn, ni all neb gymeryd ymddygiad Moses y pryd hyn yn siampol, oddieithr y gall ddangos ei awdurdod oddiwrth Dduw fel y gwna Moses. *Lleddwch bob un ei frawd*—hyn yw, nac arbedwch na brawd, na chyfaill, na chymydog, os byddant yn euog, ac yn parhau yn gyadyd.

Adn. 28. *A chwympodd o'r bobl y dydd hwnw yn nghylch tair mil o wŷr*] Y rhai hyn yn ddiamau oeddynt y prif dioseddwy'r, y rhai yn hyf a digywilydd a rodient oddiam-gylch, heb gilio mewn edifeiriwch i'w pebyll, nac ymgasglu i borth y gweryll at Moses, adn. 26. Y mae yr Iuddeuon yn cadw gŷyl bob blwyddyn, ar yr IGeg o Orphenhaf, er cof am y gyflafan hon a thoriad y llechau.

Adn. 29. *Canys dywedasai Moses, Cysegrwch eich llaw heddyw, &c.*] Y darlleniad ar ymyl y ddalen yw, 'A dywedodd Moses, Ymgysgrwch heddyw i'r Arglwydd, am i bob un fod yn erbyn ei fab, ac yn erbyn ei frawd.' Y mae y darlleniad hwn nid yn unig yn nes i'r Hebraeg, ond hefyd yn fwy cyson â'r cyd-destynau: a chan i lwyth Lefi, ar gyfrif eu sel dros Dduw, gael eu *cysegru* i'r Arglwydd, neu *lenwi eu dwylaw* â'i offrymau ef, (gwel ar pen. xxix. 9.) meddyllir fod yr adnod hon yn cyfeirio at y *cysegriad* hwnw, fel y casgla rhai oddiwrth Deut. xxxiii. 9, 10.

Adu. 30. *Ond odid mi a wnaf gymod dros eich pechod chwi*] Fel na fyddo i Dduw lwy'r ddyfetha y genedl o'i herwydd.

Adn. 31. *A Moses a ddychwelodd at yr Arglwydd*] I ryw ran o'r mynydd ond odid, lle yr oedd ei ogoniant fyth yn ganfyddadwy. *Och! pechod y bobl hyn bechod mawr*—yr oedd Dduw yn gyntaf wedi mynegu hyn iddo ef, adn. 7, ac y mae yntau yn awr yn ei fynegu i Dduw mewn fiordd o alar. Nid yw efe yn eu galw yn *bobl Dduw*; gwyddai eu

segrwch eich llaw heddyw i'r Arglwydd, bob un ar ei fab, ac ar ei frawd; fel y rhodder heddyw i chwi fendith.

30 A thraoeth y dywedodd Moses wrth y bobl, Chwi a bechasoeh bechod mawr: ac yn awr mi a âf i fyny at yr Arglwydd; ond odid mi a wnaf gymod dros eich pechod chwi.

31 A Moses a ddychwelodd at yr Arglwydd, ac a ddywedodd, Och, pechodd y bobl hyn bechod mawr, ac a wnaethant iddynt dduwiau o aur.

32 Ac yn awr os maddeui eu pechod;

bod yn annheilwng o gael eu galw felly; ond *y bobl hyn*—y bobl fradwrus ac anniolchgar hyn.

Adn. 32. *Ac yn awr os maddeui eu pechod*] Fel y byddo iddynt eto gael yr etifeddiath addawedig. Tybia Clarke ac ereill mai un ran o waith Moses yn ystod y deugain niwrnod o'i arhosiad ar y mynydd gyda Duw, oedd trefnu *coflyfr* o holl lwythau a theluoedd Israel, gyda golwg ar y pethau ag yr oedd pob un i'w gwneuthur yn yr anialwch, gwlad yr addewid, &c.; a thrwy i hwn gael ei wneyd dan gyfarwyddyd digyfrwng Duw, ei fod yn cael ei alw yn 'llyfr Duw, yr hwn a ysgrifenasai efe.' Tybiant hefyd fod yn debygol ddarfod i Dduw ddywedyd wrth Moses, y byddai i'r rhai a dorent y cyfammod a wnaethai efe â hwynt y pryd hyn, gael eu '*dileu* o'r coflyfr hwnw,' ac na chaent byth fyned i Ganaan; ac mai at hyn y cyfeiria Moses yma. *Ac os amgen*—os na fadd-eui eu pechod, *dilea fi, atolwg, allan o'th lyfr a ysgrifenasist*—fel pe dywedasai, Os bydd i ti ddileu eu henwau hwy allan o'r coflyfr hwn, heb byth oddef iddynt fyned i Ganaan, dileu finau allan hefyd; canys nis gallaf oddef y meddwl o fwynhau y dedwyddwch hwnw tra y bydd fy mhobl a'u hiliogaeth wedi eu cau allan am byth. Yn unol â hyn darfu i Dduw, mewn tirondeb i Moses, arbed iddo y gofid o fyned i Ganaan heb y bobl. Yr oeddynt hwy wedi ffiofietio eu ffywydau, ac wedi cael eu dedfrydu i farw yn yr anialwch; a chafodd yntau, yn lle myned i Ganaan, ei gymeryd i'r nef. Eithr ni phallodd addewid Duw; canys er i'r rhai a bechasant gael eu dileu allan o'r llyfr, eto eu hiliogaeth a fwynt-hasant yr etifeddiath. Ymddengys mai yn y goleuni hwn y dylai y geiriau hyn gael eu deall; ac yn yr ystyr yma y mae St. Paul i'w ddeall, Rhuf. ix. 2, lle y dywed efe, 'Mi a ddy-munwn fy mod fy hun yn *anathema* oddiwrth Crist dros fy mrodyr, sef fy nghenedl yn ol y cnawd.' Gwel y sylw yno. Yr oedd y ddau ddyd enwog hyn yn rhwym yn yr un gwaith, yn cael eu cynhyrfu gan ysbryd o wladgarwch digyffelyb, ac yn foddion i ffiofietio pob bendith dymhorol, ac hyd yn nod farw dros les y bobl. Ond diau nad allai un o honynt ddymunno myned i golledigael dragwyddol i waredu eu cydwladwyr rhag eael eu tori ymaith, y naill gan gleddyf y *Philistiaid*, y lleill gan eiddo y

ac os amgen, dilea fi, atolwg, allan o'th lyfr a ysgrifenaist.

33 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Pwy bynag a bechodd i'm herbyn, hwnw a ddileaf allan o'm llyfr.

34 Am hyny dos yn awr, arwain y bobl i'r lle a ddywedais wrthyth: wele, fy angel a â o'th flaen di: a'r dydd yr ymwelwyf, yr ymwelaf â hwynt am eu pechod.

35 A'r Arglwydd a darawodd y bobl,

Rhufeiniaid. Y mae y rhai a ddeallant eu geiriau fel pe buasent yn dymuno cael eu cau allan o fywrd tragwyddol er mwyn eu brodyr, yn gwneyd iddynt lefaru iaith hollol annaturiol, ac anngbyson â'r dymuniad hwnw am hunan-ddeddyddwch, yr hyn yw deddf gyntaf natur. Heblaw hyn, dylid cofio fod cau allan o fywrd tragwyddol yn cynwys nid yn unig y golled o'r nef, a theimlad o dragwyddol drueni, ond hefyd dragwyddol ac angherddol *el-gymiaeth* yn erbyn Daw; a bod i neb feddwl y gall ewyllysgarwch i fod yn dragwyddol ddrigionus, ac yn angherddol gasawr Duw, darddu oddiar *gariad* at, a bod yn briodol amlygiad o sel dros, ei ogoniant ef, sydd ryfodd yn wir!—Yn ol y dull hwn o ddeongliad gallwn ar unwaith weled pa beth sydd i'w ddeall mewn amrai ranau o'r ysgrifthyrau wrth *lyfr y bywyd*, a bod yn *ysgrifenedig* yn neu yn *ddileddig* o y cyfrwy lyfr. Yn y coflyfrau cyhoeddus yr oedd yr holl rai a *enid* o lwyth neillduol yn cael eu rhoddi i lawr yn nghofrestr eu priodol deuluoedd dan y llwyth hwnw. Hwn oedd *lyfr y bywyd*. Ond pan fyddai i unrhyw un o'r rhai hyn *farw*, gellid ystyried ei enw fel wedi ei ddileu o'r gofrestr hon. Y mae ein 'coflyfrau genedigaeath' ni, yn y rhai yr ysgrifentir *genedigaeath* holl drigolion plwyf neu dalaeth, y rhai yn briodol yw ein *lyfrau bywyd* ni, a'n 'cofrestrau marwolaeth,' y rhai yn briodol yw ein *lyfrau marwolaeth*, yn weddillion tra eglurhaol o'r hen goflyfrau, neu *lyfrau bywyd* a *marwolaeth*, yn mhlith yr Iuddewon, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a'r rhan fwyaf o'r ben genhedl-oedd. Y mae yn deilwng o sylw fod enwau y rhai a brofwyd am drosoddau yn *China* yn cael eu hysgrifenu mewn dau lyfr gwahanol, y rhai a elwir *lyfr y bywyd* a *lyfr marwolaeth*: y rhai a *ryddhawyd*, neu na ddeddfrydwyd i farw, a ysgrifentir yn y cyntaf; y rhai a gaed yn *euog*, yn yr olaf. Y ddau lyfr hyn a gyflwynir i'r amherawdwr gan ei weinidogion, gan yr hwn, fel penadur, y mae hawl i ddileu unrhyw enw o'r naill neu y llall: i osod y *byw* yn mhlith y *meirw*, fel y byddo farw; neu y *marw*, sef yr hwn a gollfarwedyd i farw, yn mhlith y *byw*, fel y byddo iddo gael ei gadw. Fel hyn y mae ef yn *dileu* o lyfr y bywyd neu lyfr marwolaeth yn ol ei ewyllys benadurol ei hun, ar gynrchioliad ei weinidogion, neu eiriolaeth cyfeillion, &c. Gwel yn mhellach yn y sylw ar Luc x. 20.

Adn. 33. *Pwy bynag a bechodd i'm herbyn*] Fel pe dywedasai, Y mae fy holl ymddygiad yn cael ei reoli gan anfeidrol uniondeb a chyfiawnder: ni chaiff y *dinived*, mewn

am iddynt wneuthur y llo a wnaethai Aaron.

PENNOD XXXIII.

A'R Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Cerdda, dos i fyny oddi-yma, ti a'r bobl a ddygaist i fyny o wlad yr Aiff, i'r wlad *am* yr hon y tyngais wrth Abraham, Isaac, a Jacob, gan ddywedyd, I'th had di y rhoddaf hi.

un achos moesol neu ysbrydol, byth ddyoddef dros yr euog. (Gwel ar pen. xx. 5.) Fel na fyddai i neb droseddu trwy anwybodaeth, rhoddais fy nghyfraith i chwi, ac felly cyhoeddais fy nghlyfammod; a'r bobl eu hunain a gydnabyddasant ei chyfiawnder a'i huniondeb, ac a'i derbyniasant yn wirfoddol. Yr hwn gan hyny a droseddodd yr ail orchymyn, *hwnw a ddileaf allan o'm lyfr*—y mae yn nodedig ddarfod i Dduw ymllynu yn fanwl wrth yr ammodau hyn o eiddo y cyfammod, fel nad aeth un enaid o'r troseddwy'r hyn byth i'r orphwysfa addawedig! Yma yr oedd *cyfiawnder*. Ac eto, er iddynt haeddu gael eu lladd yn y fan, hwy a arbedwyd! Yma yr oedd *trugaredd*. Fel hyn, cyn belled ag y goddefai *cyfiawnder*, ymestynodd *trugaredd*; a chyp belled ag y goddefai *trugaredd*, aeth *cyfiawnder* yn mlaen. 'Gwel am hyny DDAIONIA a THROSTER DUW!' Rhuf xi. 22.

Adn. 34. *Arwain y bobl i'r lle*] Nid yw y gair *lle* yn y wreiddiol, ac y mae wedi ei adael allan gyda phriodoldeb mawr; canys ni ddarfa i Moses erioed arwain y bobl hyn i'r lle hwnw: buont oll feisw yn yr anialwch oddieithr Caleb a Josua. Ond arweiniodd Moses hwynt *tua'r lle*; ac fel hyn, meddai Clarke, y dylai y gair *el gael* ei ddeall yma, oddieithr i ni dybio fod Duw yn bwriadu iddo eu harwain *at* gyffiniau y wlad, ond nid eu cymeryd *iddi*, yr hyn a wnaeth. *Wele, fy angel a â o'th flaen di*—gwel ar pen. xxxiii. 2. Ni chaent eu dyfetha oll, ond yr oeddnt i gwlydro yn yr anialwch nes darfod o'r genhedlaeth hono. *A'r dydd yr ymwelwyf*—â hwynt mewn cosp am bechodau ereill, *yr ymwelaf â hwynt am eu pechod*—hwn, gyda'r lleill. Y mae gan yr Iuddewon ddywediad seiliedig ar yr adnod hon, na ddisgynodd un farn byth wedi hyn ar Israel, a'r nad oedd ynddi wns o lwch y llo aur.

Adn. 35. *A'r Arglwydd a darawodd y bobl*] Yn dybygol â haint, neu ryw ddolur adwythig arall. Fel hyn llwyddodd Moses i leihau y gomp, ond nis gallodd drci ymaith ddigofaint Duw yn hollol. *Am iddynt wneuthur y llo*—yr hwn y gorfodasant Aaren i'w wneuthur.

PEN. XXXIII. Adn. 1. *Dos i fyny oddi-yma—i'r wlad*] Sef tuag ati, neu at ei chyffiniau hi: gwel ar pen. xxxii. 34.

Adn. 2. *A mi a anfonaf angel o'th flaen di*] Yn pen. xxiii. 20, 21, addawsai Duw anfon Angel i'w harwain i Ganaan, yn yr hwn yr oedd ENW Duw: (gwel y sylw yno:) ond yma, trwy nad oes dim neillduol yn cael ei ddywedyd am dano, bernir mai angel cyff-

2 A mi a anfonaf angel o'th flaen di; ac a yraf allan y Canaanead, yr Amoriad, a'r Hethiad, y Phereziad, yr Hefiad, a'r Jebusiad:

3 I wlad yn llifeirio o laeth a mêl: o herwydd nid âf fi i fyny yn dy blith; oblegid pobl war-galed wyt: rhag i mi dy ddifa ar y ffordd.

4 ¶ A phan glywodd y bobl y drwg chwedl hwn, galaru a wnaethant: ac ni wisgodd neb ei harddwisg am dano.

5 Oblegid yr Arglwydd a ddywed-asai wrth Moses, Dywed wrth feibion Israel, Pobl war-galed *ydych* chwi; yn ddisymwth y deuaif i fyny i'th ganol di, ac y'th ddyfethaf: am hyny yn awr dyosg dy harddwisg oddiam

danat, fel y gwypwyf beth a wnelwyf i ti.

6 A meibion Israel a ddyosgasant eu harddwisg wrth fynydd Horeb.

7 A Moses a gymerodd y babell, ac a'i lledodd o'r tu allan i'r gwersyll, yn mhell oddiwrth y gwersyll; ac a'i galwodd, Pabell y cyfarfod: a phob un a geisiai yr Arglwydd, a âi allan i babell y cyfarfod, yr hon *dyoedd* o'r tu allan i'r gwersyll.

8 A phan aeth Moses i'r babell, yr holl bobl a godasant, ac a safasant bob un *ar* ddrws ei babell; ac a edrychasant ar ol Moses, nes ei ddyfod i'r babell.

9 A phan aeth Moses i'r babell, y

redin a feddylir, neu ryw genad arweinïol arall, megys Josua neu y cwmwl, ac nid Angel mawr y Cyfammod, yr hwn a addewsid o'r blaen; ac ymddengys fod y dyb yma yn cael ei chadarnhau yn yr adnodau dilynol.

Adn. 3. *O herwydd nid âf fi i fyny yn dy blith*] Trwy fy mhresenoldeb neillduol a grasol fy lun, fel y gwnaethyn hyd yn hyn, eithr mi a ymadawaf â thi. Yn ganlyniol i hyn y mae Duw yn symud ei babell i'r tu allan i'r gwersyll, adn. 7. Ni fydd i mi ond cyflawni fy addewid i'th dadau, a hyny trwy weinidogaeth angel, heb ddangos nu tirondeb neillduol pellach i ti fy hunan. *Rhag i mi dy ddifa ar y ffordd*—rhag i'th bechodau di fwyhau trwy fy mhresenoldeb a'm ffaf, ac i minau trwy hyny gael fy nghyffroi i'th lwy'r ddyfetha di. Fel hyn dengys Duw fod eu gwrthnysigrwydd hwy yn gwneuthur y toster hwn yn angenrheidiol iddynt, a'i fod ef hyd yn nod yn nghanol barn yn cofio trugaredd.

Adn. 4. *Galaru a wnaethant, ac ni wisgodd neb ei harddwisg*] Yr oedd yn arferiad roddi heibio eu gwisgoedd goraf mewn amser o alar, ac udo a griddfan fel dreigiau a chywion y dylluan, Mic. i. 8.

Adn. 5. *Yn ddisymwth y deuaif i fyny i'th ganol di, ac y'th ddyfethaf*] Hyny yw, oddi-eithr i ti edifarhau, fel yr awgrymir, yn ol barn rhai, yn niwedd yr adnod hon. *Am hyny yn awr dyosg dy harddwisg oddiam danat*—yr oedd yr hen esbonwyr Iuddewig o'r farn fod gan yr Israeliaid yr enw JEROFA yn ysgrifenedig arnynt yn y fath fodd fel ag i sierbau iddynt y dwyfol amddiffyniad; a bod hwn, wedi ei ysgrifenu ond odid ar blât o aur, yn cael ei ystyried eu haddurn mwyaf dewisol; a phan roddasant eu haddurniadau i wneuthur y llo aur, ddaerol i hwn gael ei roddi gan lawer, yn ganlyniol i'r hyn yr ystyrir hwynt yn *noethion a diamddiffyn*, pen. xxxiii. 25. Y mae Duw yma yn gorchymyn iddynt roddi heibio holl ranau *gweddill* eu haddurniadau, y rhai yn debygol oeddynt oll yn *arwyddion* o bethau ysbrydol; canys nis gallent hwy gyda phriodoldeb wisgo arwyddion y dwyfol amddiffyniad, a hwythau wedi florffetio yr amddiffyniad hwnw trwy eu trosedd. *Fel y gwypwyf beth a wnelwyf i ti*—o herwydd

ymdengys, meddai Clarke, tra yr oedd ganddynt yr addurniadau arwyddocaol hyn am danynt, eu bod fyth yn cael eu hystyried fel dan y dwyfol amddiffyniad. Y rhai hyn oeddynt *darian* iddynt, yr hon y mae Duw yn gorchymyn iddynt ei thafu o'r neilldu. Ond y mae Benson ac ereill yn meddwl mai ystyr y rhan ddiweddar o'r adnod yw, 'Fel y gwypwyf pa un ai gweiryddu fy marnedig-aethau ynte eu troi heibio a wnaif, yn ol dy edifeirwch neu dy anedifeirwch di.'

Adn. 6. *A meibion Israel a ddyosgasant eu harddwisg*] Yn arwydd o'u hedifeirwch, gan gydnabod fod yn gyflawn i Dduw eu dyfetha: gwel ar adn. 5. Pan y mae y coff wedi ei addurno â gemau a dillad costfawr, y mae yn mhell oddiwrth fod yn arwydd o edifeirwch ac ymostyngiad yn ngolwg Duw.

Adn. 7. *A Moses a gymerodd y babell*] Lle y gwrandawai efe achosion, ac yr ymofynai â Duw; *ac a'i lledodd o'r tu allan i'r gwersyll yn mhell*—ddwy fil o gufyddau oddiwrth y gwersyll, yn ol yr Iuddewon, i arwyddo iddynt hwy eu bod yn annheilwng o honi. Fe allai fod y *babell* hon yn gynllun o'r *tabernacl* ag ydoedd ar ol hyn i gael ei adeiladu, ac yn gynddelw frysiol oddiwrth y portreiaid a ddanghoswyd iddo ef yn y mynydd; a dichen ei bod wedi ei bwriadu yn gyfarwyddyd i'r gweithwyr, ac yn cael ei defnyddio yn y cyfanser fel *pabell gyfarfod* rhwng Duw a Moses yn nghylch achosion cyhoeddus. *A phob un a geisiai yr Arglwydd*—a geisiai ei ffaf, ei gynghor, a'i gyfarwyddyd, yr oedd yn rhaid iddo fyned yno.

Adn. 8. *A phan aeth Moses i'r babell*] I eiriol gyda Duw dros y bobl; *yr holl bobl a godasant, ac a safasant bob un ar ddrws ei babell*—gan eu cydnabod eu hunain yn annheilwng i ddyfod yn nes; *ac a edrychasant ar ol Moses*—i weled pa arwyddion o ffaf a dderbyniai efe oddiwrth Dduw mewn atebiad i'w weddian. Danghosen hefyd trwy hyn eu gofid am i Dduw ymadael, eu parch i Moses yr hwn yn ddiweddar a ddiystyrasant, a'u hymddibyniad awyddus ar ei gyfyngdod ef.

Adn. 9. *Disgynnodd colofn y cwmwl*] Yr arwydd hwn o'r presenoldeb dwyfol, ar ol iddo o'r blaen esgyn, a sefyll yn mhell oddi-

disgynodd colofn y cwmwl, ac a safodd wrth ddrws y babell: a'r *ARGLWYDD* a lefarodd wrth Moses.

10 A gwelodd yr holl bobl golofn y cwmwl yn sefyll wrth ddrws y babell: a'r holl bobl a gododd, ac a addolasant bob un wrth ddrws ei babell.

11 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses wyneb yn wyneb, fel y llefarai gŵr wrth ei gyfaill. Ac efe a ddychwelodd i'r gwersyll: ond y llanc Josua, mab Nun, ei weinidog ef, ni sylfodd o'r babell.

12 ¶ A Moses a ddywedodd wrth yr Arglwydd, Gwel, ti a ddywedi

wrthyf, Dwg y bobl yma i fyny; ac ni ddanghosaist i mi yr hwn a anfoni gyda mi: a thi a ddywedaist, Mi a'th adwaen wrth *dy* enw, a chefaist hefyd ffafir yn fy ngolwg.

13 Yn awr gan hyny, o chefais ffafir yn dy olwg, llysbysa i mi dy ffordd, atolwg, fel y'th adwaenwyf, ac fel y caffwyf ffafir yn dy olwg: gwel hefyd mai dy bobl di *yw* y genedl hon.

14 Yntau a ddywedodd, Fy wyneb a gaiff fyned *gyda* thi, a rhoddaf orphwysdra i ti.

15 Ac efe a ddywedodd wrtho, Onid â dy wyneb *gyda* ni, nac arwain ni i fyny oddiyma.

wrth y gwersyll halogedig, a ddisgynodd eil-waith ar symudiad y babell. *Ac a safodd wrth ddrws y babell*—i gadarnhau awdurdod Moses yn ngolwg y bobl, gyda'r hwn y cyfeillachai Duw er iddo gilio oddiwrthyt hwy.

Adn. 10. *A'r holl bobl a gododd*] Cyn gynted ag y gwelant golofn y cwmwl, yr arwydd hwnw o bresenoldeb Duw, yn cyfarfod â Moses; *ac a addolasant*—trwy hyn arwyddent eu parch dwyfol i Jehofa, a'u parodwydd difuant i gydymffurfio â phob peth a addawai Moses drostynt fel eu cyfryngwr.

Adn. 11. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses wyneb yn wyneb*] Nid fod gan Dduw wyneb, neu y gallai Moses ei weled ef, yr hwn a wedir adn. 20; ond yr ystyr yw, ei fod yn llefaru wrtho yn rhydd, cyfeillgar, a digyfrwng, ac nid fel y gwnai â phroffwydi ereill mewn breuddwydion, gweledigaethan, neu trwy angel: efe a lefarai wrtho nid fel tywysog wrth ddellaid, ond *fel gŵr wrth ei gyfaill*—yr hwn y mae yn ei garu, ac â'r hwn y mae yn felys ganddo gydymgyfrinachau. *Ac efe a ddychwelodd i'r gwersyll*—i fynegu i'r bobl pa obeithion oedd ganddo am ddwyn yr achos hwn i ddiweddiad da. *Ond y llanc Josua*—yr oedd Josua yn awr uwchlaw 50 mlwydd oed, fel y gellir casglu oddiwrth Jos. xxiv. 29; ond gelwir ef yn *llanc* naill ai am ei fod *heb briodi*, neu ynte gyda golwg ar ei *wasanaeth*; oblegid gan mai llanciau a arferent wasanaethu, gelwir yr holl *weision* yn llanciau, Gen. xiv. 24. *Ni sylfodd o'i babell*—y mae yn debyg i Josua aros yn y babell i gynorthwyo y sawl a grychent yno i geisio Duw yn absenoldeb Moses: ac ymddengys ddarfod ei benodi ef i'r gwaith hwn yn hytrach nag Aaron neu un o'r benuriaid, am iddynt hwy ryw ffordd neu gilydd fod yn euog o'r diweddar eilunaddoliad; a mynai Duw eu cospi hwy fel hyn â diarddeliad dros amser o'i wasanaeth ef.

Adn. 12. *A Moses a ddywedodd wrth yr Arglwydd*] Ymddengys i Moses, ar ol cael ei foddioni âg eifeirwch y bobl, ddychwelyd i'r babell, lle y cafodd efe y cydymddyddan hwn â Duw, yn mha un y mae yn ymbiliwr taer am ddwy ffafir, ac yn llwyddo am y ddwy. *Gwel, ti a ddywedi wrthyf, Dwg y bobl yma i fyny*—tydi dy hun sydd yn fy rhoddi ar

waith, ac oni fydd i ti fy arddel yn ffordd fy nyledswydd? *Ac ni ddanghosaist i mi yr hwn a anfoni gyda mi*—ni ddarfu i ti ond dywedyd yr anfonit angel o'm blaen, adn. 2; ac yr wyf yn fy nghadw mewn ambeuaeth pa un a fydd i ti ein harwain yn y golofn niwl megys y gwnaethost hyd yn hyn. Cans gadawsai yr Arglwydd ef mewn ansicrwydd pa beth a wnai os byddai i'r bobl edifarbau, adn. 5. *A thi a ddywedaist, Mi a'th adwaen wrth dy enw*—mewn modd arbenig a neillduol. Benthycwyd yr ymadrodd hwn oddiwrth ddull brenhinoedd, y rhai nad adwaenant ond ychydig o'u deiliad wrth eu benwau, oddieithr eu hoff-dynion ag sydd yn cael dyfodfa atynt.

Adn. 13. *O chefais ffafir yn dy olwg*] Yr oedd y bobl wedi fflofietio y ffafir a addawsai Duw iddynt *hwy*; ac am hyny y mae Moses yn gosod pwys ei ddadl ar yr hyn a ddywedasai Duw wrtho ef, adn. 12. Arglwydd, os gwnai ryw ffafir i mi, gwna bi i'r BOBL. Fel hyn y mae ein Harglwydd Iesu yn ei gyflwyno ei hun i'r Tad fel un yn yr hwn y mae efe bob amser yn foddlon; ac felly yn cael trugaredd i ni, wrth y rhai y mae yn gyfiawn yn ddi-gllon. *Hysbysa i mi dy ffordd*—pa lwybr yr ydwyf yn awr yn meddwl ei gymeryd gyda ni. *Fel y'th adwaenwyf*—fel y gallwyf wybod trwy brofiad pa mor dda ydwyf i'r rhai a'th geisiant, ac y caffwyf sicrwydd ddarfod i mi gael ffafir yn dy olwg. *Gwel mai dy bobl di yw y genedl hon*—y rhai a brynaist i ti dy hun, ac a gymeraist i gyfammod â thydi, er mor annehilwng ydynt.

Adn. 14. *Fy wyneb a gaiff fyned gyda thi*] *Panai yelechu*, 'fy wynebau a gânt fyned:' rhoddaf i ti *amlygiadau* o'm ffafir a'm daioni trwy dy holl daith, ac amrywiol fy *ymddangosiadau* i ti fel y byddo dy anghenion y gofyn. *A rhoddaf orphwysdra i't*—oddiwrth dy offidiau a'th amheuan presenol.

Adn. 15. *Onid â dy wyneb gyda ni*] Ar ol cael addewid o bresenoldeb Duw gydag ef ei hun yn adn. 14, y mae efe yma yn eiriol am hyny i'r bobl hefyd, achos y rhai oedd yn fwy yn ei olwg na'i achos ei hun. *Nac arwain ni i fyny oddiyma*—boed i ni fyw a marw yn yr anialwch gyda'th wyneb a'th ffafir, yn hytrach na myned i Ganaan hebddynt.

16 Canys pa fodd y gwyddir yma gael o honof fi ffaftr yn dy olwg, mi a'th bobl? onid trwy fyned o honot ti gyda ni? Felly myfi a'th bobl a ragorwn ar yr holl bobl sydd ar wyneb y ddaear.

17 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Gwnaf hefyd y peth hyn a lefaraist: oblegid ti a gefaist ffaftr yn fy ngolwg, a mi a'th adwaen wrth dy enw.

18 Yntau a ddywedodd, Dangos i mi, atolwg, dy ogoniant.

Adn 16. *Canys pa fodd y gwyddir*] Gan y cenhedloedd sydd â'u llygiaid arnom ni, a chan y cenedlaethau a dddei; *gael o honof fi ffaftr yn dy olwg, mi a'th bobl*—ein bod mewn gwirionedd yn bobl i ti, a than dy neillduol ofal a'th nawdd; *onid trwy fyned o honot ti gyda ni?*—a all rhywbeth llai na hyn eu hargyhoeddi hwy? *Felly myfi a'th bobl a ragorwn*—a wahaniaethir oddiwrth bawb ereill trwy dy neillduol diriondeb di, a'r breintiau a roddir i ni; neu, nyni a wneir yn rhyfeddol, enwog, a gogoneddus (fel y mae y gair *niphlinu* yn hytrach yn arwyddo) uwchlaw holl drigolion y ddaear. Dichon ei fod yn golygu hefyd mai yr unig ffordd i'w cadw rhag syrthio mwyach i eilunaddoliaeth, oedd cael y presenoldeb dwyfol yn barhaus gyda hwy.

Adn 17. *Gwnaf hefyd y peth hyn a lefaraist*] Fy wyneb a â gyda chwi, a chadwaf chwi yn bobl wahaniaethol oddiwrth holl bobloedd y ddaear. Gwelwn yma allu gweddi, a goldoedd daioni a thrugaredd Duw; a gwelwn ddarlun o lwyddiant eiriolaeth Crist dros y rhai oll sydd yn dyfod at Dduw trwyddo ef.

Adn 18. *Dangos i mi, atolwg, dy ogoniant*] 'Y mae yn debyg fod Moses yn ewyllysio gweled yr hyn a gyfansodda ogoniant neu ragoroldeb neillduol y natur ddwyfol fel y mae yn sefyll mewn pethynas i ddy. Tybia llawer fod hyn yn arwyddo ei dragwyddol drugaredd ef yu anfoniad Crist Iesu i'r byd. Canfyddai Moses fod gan yr hyn ag yr oedd Duw yn awr yn ei wneuthur y dybenion mwyaf pwysig a grasol, y rhai y pryd hyny nas gallai ef yn eglur eu gwled; gan hyny efe a ewyllysiai i Dduw ddangos iddo ei ogoniant. Y mae Duw yn rasol yn addaw ei foddhau ef yn y dymuniad hwn mor bell ag yr oedd yn ddichonadwy, trwy *gyhoeddi ei enw, a gwneyd i'w holl ddaioni fyned heibio o flaen ei wyneb, adn. 19.* Ond ar yr un pryd y mae yn sicrhau iddo na allai efe *welad ei wyneb*—cyflawnder ei berffeithderau ac ardderchogydd ei fwrriadau, a *byw*, gan na allai un dyn yn y cyflwr presenol ddal y llawn ddatguddiad hwn. Eithr y mae yn chwaneu, *A'm tu cefn a gai di ei weled—eth achorai*, gan feddlwr yn debygol yr *ymddangosiad* hwnw a gymera i efe arno ei hun ar ol hyn, pryd y dywedid, *Duw a ymddanghosodd yn y cnawd.* Yr ymddangosiad hwn a gymertl le, canys cawn Dduw yn ei roddi ef yn agen y graig, yn ei orchuddio â'i law, ac

19 Ac efe a ddywedodd, Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb, a chyhoeddaf enw yr Arglwydd o'th flaen di: a mi a drugarhaf wrth yr hwn y cymerwyf drugaredd arno, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf.

20 Ac efe a ddywedodd, Ni ellir weled fy wyneb: canys ni'm gwel dyn, a byw.

21 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd, Wele fan yn fy ymyl, lle y cai sefyll ar graig.

yn myned heibio yn y fath fodd ag i'm dwngos *cyffelybrwydd dynol.* Gallai fod hyn mewn golwg gan Ioan pryd y dywedodd, 'A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein *plith ni* yn llawn gras a gwirionedd, ac ni a *welsum ei ogoniant ef.* Pa beth oedd y gogoniant hwn, a pha beth a arwyddid wrth y gras a'r gwirionedd yma, cawn weled yn y bennod ganlynol.—CLARKE.

Adn. 19. *Gwnaf i'm holl ddaioni*] 'Ni chaf olwg ar fy *nghyflawnder*, canys ni ellir oddef anfeidrol ddsygleirder fy mhurdeb; eithr danghosaf fy hun i ti fel y Ffynnonell o *dosturi* anhyspyddadwy, *Cyfranydd* penadur fy nhrugaredd fy hun yn fy ffordd fy hun, gan drugarhau wrth y neb y cymerwyf drugaredd arno, a thosturio wrth yr hwn y tosturiwyf.—CLARKE. Y mae Moses yn deisyf cael gweled *gogoniant* Duw, ac y mae Duw yn ei ateb trwy addaw dangos iddo ei *ddaioni*; gan awgrymu, pa mor ogoneddus bynag ynddynt eu hunain yu holl briodoliaethau Duw, eto ei fod ef yn ymogoneddu yn benaf yn yr amlygiad o'i *ddaioni*, am fod ar ei creaduriaid fwy o angen am hwn. *Fyned heibio o flaen dy wyneb*—fel y gallot o leiaf gael rhyw gipolwg arno. *A chyhoeddaf enw yr Arglwydd*—gwel ar pen. xxxiv. 5, 6. *A mi a drugarhaf wrth yr hwn y cymerwyf drugaredd arno*—gwnaf y fath ddadleniad o'm perffeithderau ag a'ch argyhoeddol fod fy natur yn *dirion a daionus*; ond er hyny gwybyddwch nad wyf ddyledwr i neb o'm creaduriaid. Fy rhoddion a'm bendithion sydd yn unig o'm bewyllys da; ac nis gall unrhyw bobl, llawer llai pobl *wrthryfelgar*, hōni hawl cyfiawn ynddynt. *Ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf*—bydd i mi faddeu a dangos fy iachawdwriaeth i bawb a droant ataf mewn gwir edifeirwch; eithr y y rhai a fyddant byw a marw yn anedifeiriol, a gospaf yn dragwyddol.

Adn. 20. *Ni ellir weled fy wyneb*] Y llawn ddadleniad o'm gogoniant digrieddig fel ei canfyddir yn y nef, i Ioan iii. 2. *Canys ni'm gwel dyn, a byw*—am y byddai i'r olwg ar y fath danbeidrwydd a dysgleirdeb ei daraw yn farw yn y fan. Rhaid i'r hyn sydd farwol ynom gael ei lyncu gan fywyd, cyn y gallwn ddal dragwyddol bwys gogoniant. Y mae yn debyg mai oddiyma y flurfiwyd y chwedl am *Jupiter a Semele*, fel ei hadroddir gan Ovid yn ei *Metamorphoses*, llyfr iii. chwedl iii. 5.

Adn. 21. *Wele fan yn fy ymyl*] Gan gyficio ar ryw ran o fynydd Horeb, yn agos i'r

22 A thra yr elo fy ngogoniant heibio, mi a'th osodaf o fewn agen yn y graig; a mi a'th orchuddiaf â'm llaw, nes i mi fyned heibio.

23 Ynâ y tynaf ymaith fy llaw, a'm tu cefn a gai di ei weled: ond ni welir fy wyneb.

PENNOD XXXIV.

ADYWEDODD yr Arglwydd wrth Moses, Nadd i ti ddwy o lechau cerig, fel y rhai cyntaf: a mi a ysgrifenasaf ar y llechau y geiriau oedd ar y llechau cyntaf, y rhai a dorast.

babell, lle yr oedd cwmwl y gogoniant yn awr yn ganfyddedig. *Lle y cai sefyll ar graig*—yn yr hon yr oedd agen neu ogof i Moses sefyll ynddi tra y rhyngai bodd i'r Dwylf Fawrhydi ddangos iddo gymaint o hono ei hun ag yr oedd y natur ddynol yn alluog i'w ddal. Er fod y graig hon hefyd yn gysgod o Grist, 'Craig yr Oesoedd,' eto y mae yn eglur oddiwrth yr *agen* hon nad yr un ydoedd a'r hon ag y daethai y dwfr allan o honi: gwel ar pen. xvii. 6.

Adn. 22. *A thra yr elo fy ngogoniant heibio, mi a'th osodaf o fewn agen yn y graig*] Fel yr oedd y graig hon yn attal i Moses wel-ed y gogoniant dwyfol rhag iddo gael ei lethu ganddo, felly y mae pelydr ysplenydd gogoniant Duw yn cael eu cuddio gan ddynoliaeth Crist; a thrwy ffydd yr ydym ninaw yn cael ein cuddio ynddo ef, a'n diogelu rhag effeithiau digofaint a chyfiawnder gogoneddus Duw, y rhai angen a'n dyfether. *A mi a'th orchuddiaf â'm llaw*—fy ngallu anweledig a daena gwml o'th flaen, fel na byddo i ti gael dy orlethu a'th ladd gan ddirfawredd fy ngogoniant trwy dy orawydd dy hun.

Adn. 23. *Ynâ y tynaf ymaith fy llaw*] Gan lefaru yn ol dull dynion. Mor gnyted ag y pasio llewyrchiadau ardywynawl fy Mawrhydi, a elwir *fy wyneb*, yr hwn y mae yn annhosibl i ddyd ei weled a byw, adn. 20, myfi yn raddol a dynaf yn ol y cwmwl a gelai y llewyrchiadau gogoneddus hyny; *a'm tu cefn a gai di ei weled*—sef y pelydr hyny o'm gogoniant y rhai nad ydynt yn rhy ddysglauer a thanbaid i olygon marwol eu cynal. Y mae rhai yn cyfieithu y geiriau diweddf fel hyn, *A thi a gai weled yr hyn a fyddaf ar ol hyn*—fy natur ddynol, neu fy ymdanghosiad dyfodol yn y cnyd: ond ni welir *fy wyneb*—fy Nuwdod noeth ar wahan.

PEN. XXXIV. Adn. 1. *Nadd i't ddwy o lechau cerig fel y rhai cyntaf*] O'r blaen darfu i Dduw ei hun barotoi y llechau, ac ysgrifenu arnynt; yn awr rhaid i Moses barotoi y llechau, ac ni wnai Duw ddim ond ysgrifenu arnynt. Gallai hyn fod yn cael ei fwriadu mewn rhan fel arwydd o anfodlonrwydd Duw ar gyfrif ef pechod; canys er ei fod wedi maddeu iddynt, nid oedd yr archeoll wedi ei wella yn ddigraith: ac mewn rhan i ddangos, er i'r cyfammod gras gael ei wneuthur ar y cyntaf heb ofal a chynghor dyn, eto

2 A bydd barod erbyn y bore; a thyred i fyny yn fore i fynydd Sinai, a saf i mi yno ar ben y mynydd.

3 Ond na ddeued neb i fyny gyda thi, ac na weler neb ar yr holl fynydd: na phored hefyd na dafad, nac eidion, ar gyfer y mynydd hwn.

4 ¶ Ac efe a naddodd ddwy o lechau cerig, o fath y rhai cyntaf: a Moses a gyfododd yn fore, ac a aeth i fynydd Sinai, fel y gorchymynasai yr Arglwydd iddo; ac a gymerodd yn ei law y ddwy lech gareg.

5 A'r Arglwydd a ddisgynodd mewn

na chai efe ei adnewyddu heb edifeirwch dyn. Ac fel yr oedd y llechau cerig yn arwydd o galedwch eu calon hwy; felly gallai y naddiad o honnynt gan Moses, a'u hysgrifeniad gan Dduw, fod yn dynodi yr enwaediad a'r adnewyddiad hwnw o'u calonau trwy weinidogaeth gair Duw, a dylanwad ei Ysbrif ef, ag ydoedd yn angenrheidiol i'w parotoi hwy i dderbyn trugareddau Duw a chyflawni eu dyledswyddau. Gallwn sylwi hefyd, er i'r llechau cyntaf gael eu tori, i ddangos nad oedd un gobaith i ddynolryw gael eu hacub trwy eu diniwderwydd, eto y mae Duw i'r gyfraith fod fyth mewn grym fel rheol ufydd-dod; ac am hyry, mor fuan ag yr ymgymododd efe â hwynt, gorchymynodd i'r llechau gael eu hadnewyddu, ac ysgrifennodd ei gyfraith arnynt. Y mae hyn yn awgrymu yn eglur fod y ddeddf foesol hyd yn nod dau yr efengyl (o'r hon yr oedd eiriolaeth Moses yn gysgod) yn parhau i ofyn credinwyr; canys er i Grist ein prynu ni oddiwrth 'feldith y ddeddf,' eto ni wnaeth efe hyny oddiwrth ei *gorchymynion* hi, eithr yr ydym fyth dan y ddeddf i Grist. Pan y darfu i'n Harglwydd, yn ei bregeth ar y mynydd, egluro y ddeddf foesol, a'i hamddiffyn rhag y deongliadau llygredig a'r rhai yr oedd yr ysgrifenyddion a'r Phanseaid wedi ei dirymu a'i thori, darfu iddo mewn effaith adnewyddu y llechau, a'u gwneuthur fel y rhai cyntaf; hyny yw, dygodd y gyfraith i'w hystyr a'i bwriad gwreiddiol. Ac wrth iddo ef ei hysgrifenu trwy ei Ysbrif ar ein calonau, megys ag yr ysgrifennodd efe hi ar y llechau a'i fys neu trwy ei allu, galluogir ni i agwedu ein bucheddau wrthi.

Adn. 2. *A bydd barod erbyn y bore*] 'Y deunawfed dydd o Orphenhaf.'—**УПАМЪМ.** *A saf i mi yno*—hyny yw, saf o'm blaen i yno ar ben y mynydd. Er i hir arhosiad Moses ar y mynydd achosi iddynt yn ddiweddar wneuthur y llo aur, eto ni newidodd Duw ei drefn am hyny, ond rhaid iddo ef ddyfod i fyny, ac aros cyhyd ag o'r blaen, i edrych a oeddynt hwy wedi dysgu dysgwyl.

Adn. 3. *Ond na ddeued neb i fyny gyda thi*] I daraw y bobl âg arswyd santaidd, perir iddynt sefyll draw; ac megys na wyddent y tro o'r blaen beth a ddaethai o Moses, ni chânt wybod yn awr chwaith.

Adn. 4. *A Moses a gododd yn fore*] I ddangos mor barod oedd efe i sefyll gerbron Duw yn flordd ei dyledswydd.

cwmwl, ac a safodd gydag ef yno, ac a gyhoeddodd enw yr Arglwydd.

6 A'r Arglwydd a aeth heibio o'i flaen ef, ac a lefodd, JEHOFA, JEHOFA, y Duw trugarog, a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd;

7 Yr hwn sydd yn cadw trugaredd

Adn. 5. *A'r Arglwydd a ddisgynodd mewn cwmwl*] Yn debygol y golofn gwmlwl hōno, yr hon hyd yn hyn a aethai o flaen Israel, ac a gyfarfyddasai â Moses y dydd o'r blaen wrth ddwys y babbell.

Adn. 6. *A'r Arglwydd a aeth heibio o'i flaen ef, ac a lefodd, JEHOFA, JEHOFA*] Hyn yw, efe a ddanghosodd yn gyflawn i Moses pa beth a gynwysai yn yr enw mawreddog hwn. Atolygasai Moses ar i Dduw *ddangos iddo ef ei ogoniant*, pen. xxxiii. 18, ac addawsai Duw gyhoeddi neu gyflawn hysbysu yr enw JEHOFA, adn. 19; trwy ba gyhoeddiad neu ddeongliad y cai Moses weled *pa fodd y byddai i Dduw 'drugarhau wrth yr hwn y cymerai drugaredd arno,' a pha fodd y 'tosturiai wrth yr hwn y tosturiai.'* Yma gan hyn y mae Duw yn cyflawni yr addewid hōno trwy gyhoeddi yr enw hwn. Y priodol-iaethau a'r teitlau gogoneddus hyn dydent y *tu efn* i Dduw, fel y sylwa TRAPP. Ni all neb weled mwy na hyn o Dduw, a byw; ac ni raid i ni weled mwy na hyn mewn trefn i gael byw. Efe a'i gwnaethai ei hun o'r blaen yn adnabyddus i Moses yn ugonogiant ei hunan-fodaeth a'i hunan-ddigonolrwydd, pan y cyhoeddodd efe yr enw hwnw, YDWYF YR HWN YDWYF, pen. iii. 14; ond yn awr efe a'i gwna ei hun yn adnabyddus yn ugonogiant ei ras, ei ddaioni, a'i oll-ddigonolrwydd i ni fel JEHOFA. Myn rhai fod yr enw JEHOFA yn gosod allan athrawiaeth y Drindod mewn cysylltiad â'r enawdoliad; fod y llythren *iod* yn sefyll am y TAD, *he* am y MAB, a *vau* am yr YSBRYD GLAN; a chwaneगत fod yr *he*, wrth fod ddwywaith yn y gair, yn arwyddo y natur *ddynol* wedi ei huno â'r *ddwyfol* yn y cnawdoliad. Y mae yma amrai eiriau wedi eu pentru er ein bargyhoeddi ni o DDAIONI y BŌD Anfeidrol: (1) *Y Duw trugarog*—y mae hyn yn ei osod allan yn llawn o'r fath ymysgaredd tosturi na ddarfu i un tad daearol erioed eu hadnabod. (2) *A graslawn*—dengys hyn ei fod ef nid yn unig yn llawn tosturi tuag at ei greaduriaid, ond ei fod hefyd yn haelionus gyfrannu ei ras, er ei fwyd ei hun, i'r rhai mwyaf anhaeddiannol. (3) *Hwyrfrydig i ddig*—hon sydd gangen o ddaioni Duw a achlysurir gan ein drygioni ni. Er fod ein cyffroddau ni yn fynych, a'n pechodau yn fawrion ac aneirif, eto nid yw ei amynedd ef wedi blino, na'i gynygion o faddeuant wedi eu cadw draw. (4) *Ac aml o drugaredd a gwirionedd*—y mae ffynonau ei drugaredd bob amser yn llawn, ac y mae ffrydian ei drugaredd o hyd yn dylifo: y mae digon o drugaredd yn Nuw i bawb, digon i bob un, a digon am byth. Y mae y drugaredd hon wedi ei chysylltu â *gwirionedd*, i ddangos ei fod ef yn llawn o ffyddlondeb i gyflawni yr hyn a addawodd.

i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, a heb gyfrif yr *anwir* yn gyfiawn; yr hwn a ymwel âg anwiredd y tadau ar y plant, ac ar blant y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth.

8 A Moses a frysiodd, ac a ymgrymodd tua'r llawr, ac a addolodd;

Adn. 7. (5) *Yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd*] O genedlaethau. Y mae y ffynonell yn anhyspiedadwy, a'r ffwrdd yn ddiiddiwedd: nid yw nifer y rhai sydd yn ymgyfranogi yn lleihau dim ar gyfnewid trugaredd ynddo ef; a bydd yn gyfnewid â dyddiau tragwyddoldeb. (6) *Gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod*—neu bechodau o bob math. Y mae yr Iuddeuon weithiau yn gwahaniaethu y tri gair hyn. Y mae *anwiredd*, meddent hwy, yn arwyddo pechodau trwy falchder a rhyfgy; *camwedd*, gwrthryfel yn erbyn Duw, neu anafydd-dod i'w orchymynion ef; a *pechod*, yr hyn a gyflawnir trwy amryfusedd a chamgymeriad. (7) *A heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn*—y mae yr adran hon braidd yn dywll yn y wreiddiol: wrth ei chyfieithu yn llythrenol hi a arwydda, *Gan ryddhau ni ryddhu efe*—hyn yw, yn *ddigosp*; neu *heb aberth iawnol*, fel y mae STECHUS yn ei chyflenui. Yn ol hyn y synwyr yw: Er fod Duw yn maddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, eto ni ddianc y pechod yn ddigosp: bydd i Dduw yn sicr weinyddu ei uniawn ddialedd a'i gos pawl gyfiawnder, er nad ar y pechadur yr hwn a arbedodd, eto ar y Meichia'i yr hwn a ddarparodd. Y mae y Samaritanaeg yn ei chyfieithu, *Gyda'r hwn y caiff y dieuog fod yn ddieuog*—hyn yw, ni chafit dyn dieuog neu gyfiawn byth ei drin ganddo fel by byddai yn droseddwr. Y Gal-deaeg, *Yn arbed y rhai a ddychwelant at ei ddeddfau, ac heb gyfiawnhau y rhai annychweledig*—yr hyn a arwydda, pa mor drugarog a maddenger bynag yw Duw tuag at yr edifeiriol, eto na âd efe i'w anrhydedd a'i awdurdod gael eu mathru gan y rhai a gamddefnyddiant ei diriondeb a'i amynedd. Er nad yw y gair *anwir*, fel y gwelso'n, yn y wreiddiol, eto y mae y synwyr yn gofyn i hwn neu ryw air o'r fath gael ei ddiodi i mewn. (8) *Yr hwn a ymwel âg anwiredd y tadau ar y plant*—cans y mae ei gyfiawnder yn cospi pechod mewn perffaith gysondeb â'i drugaredd, ac fel lithau yn rhan o'i gariad a'i ddaioni ef. Mewn llawer achos y mae y plant, mewn ystyr tymhorol, yn dyoddef o herwydd ffolineb a drygioni eu rhieni; a gall rhieni yn aml ddarllen eu pechodau eu hunain, a'u cosp, yn afiechyd a thrueni eu hiliogaeth hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth: gwel ar pen. xx. 5, 6.

Adn. 8. *A Moses a frysiodd*] I ymgrymu ac addoli; ac fel hyn efe a amlygai ei ostyngedig barch a'i anrhydedd i ogoniant Duw, yn nghyda'i lawenydd yn y datguddiad hwn a wnaethai Duw o hono ei hun, a'i ddiolchgarwech am dano.

Adn. 9. *O Arglwydd, eled fy Arglwydd, atolwg, yn ein plith ni*] Y ddau air hyn yw *Adonai*, a chyfeiriant yn benodol at yr Ar-

9 Ac a ddywedodd, Os cefais yn awr ffafir yn dy olwg, O Arglwydd, eled fy Arglwydd, atolwg, yn ein plith ni (canyis pobl war-galed *yw*) a maddeu ein hanwiredd, a'n pechod, a chymer ni yn etifeddiaeth i ti.

10 ¶ Yntau a ddywedodd, Wele fi yn gwneuthur cyfammod yn ngwydd dy holl bobl: gwnaf ryfeddodau y rhai ni wnaed yn yr holl ddaear, nac yn yr holl genhedloedd; a'r holl bobl yr wyt ti yn eu mysg a gânt weled gwaith yr Arglwydd: canys ofnadwy *yw* yr hyn a wnaif â thi.

11 Cadw yr hyn a orchymynais i ti heddyw: wele, mi a yraf allan o'th flaen di yr Amoriad, a'r Canaanead, a'r Hethiad, a'r Phereziad, yr Hefiad hefyd, a'r Jebusiad.

12 A chadw arnat, rhag gwneuthur cyfammod â phreswylwyr y wlad yr wyt yn myned iddi; rhag eu bod yn fagl yn dy blich.

13 Eithr diynstriwch eu hallorau hwynt, drylliwch eu delwau hwynt, a thorwch i lawr eu llwynau hwynt.

14 Canys ni chai ymgyrnu i dduw

arall: oblegid yr Arglwydd, Eiddigus *yw* ei enw; Duw eiddigus *yw* efe:

15 Rhag i ti wneuthur cyfammod â phreswylwyr y tir; ac iddynt buteinio ar ol eu duwiau, ac aberthu i'w duwiau, a'th alw di, ac i titbau fwyta o'u haberth;

16 A chymeryd o honot o'u merch-ed i'th feibion; a phuteinio o'u merch-ed ar ol eu duwiau hwynt, a gwneuthur i'th feibion di buteinio ar ol eu duwiau hwynt.

17 Na wna i ti dduwiau tawdd.

18 ¶ Cadw wyl y bara croyw: saith niwrnod y bwytaf fara croyw, fel y gorchymynais i ti; ar yr amser yn mis Abib: oblegid yn mis Abib y daethost allan o'r Aifft.

19 Eiddof fi yw pob peth a agoro y groth; a phob *guryw* cyntaf o'th anifeiliaid, yn cidionau ac yn ddefaid.

20 Ond y cyntaf i asyn a bryni di ág oen; ac oni phryni, tor ei wddf: pryn hefyd bob cyntafanedig o'th feibion; ac nac ymddanghosed *neb* ger fy mron yn waglaw.

21 ¶ Chwe diwrnod y gweithi; ac

glwydd Iesu Grist, Angel mawr y Cyfammod: gwel ar Gen. xv. 8. Y mae Moses yma yn gweddio am yr hyn oedd eisioes wedi ei addaw, nid fel yn amau addewid Duw, ond fel yn awyddus am ei chyflawniad. *Canyis pobl war-galed yw*—yr oedd Duw wedi rhoddi hyn fel rheswm paham nad âi efe gyda hwy, pen. xxxiii. 3; ac yma y mae Moses yn ei roddi fel rheswm dros iddo fyned. Fel pe dywedasai, Pa waethaf a chaletaf ydynt, niwaf o angen sydd arnynt am dy bresenoldeb. *A maddeu ein hanwiredd a'n pechod*—yma efe a gyfeiria at y cyhoeddiad a wnaethai Duw o hono ei hun, adn. 7.

Adn. 10. *Wele fi yn gwneuthur cyfammod*] Pan y torwyd y cyfammod, Israel a'i torodd; a phan y mae i gael ei adnewyddu, Duw sydd yn gwneuthur hyn. Os bydd ewerylon, rhaid i ni dddwyn yr holl fai; os bydd beddwch, rhaid i Dduw gael yr holl ogoniant. *Gwnaf ryfeddodau y rhai ni wnaed yn yr holl ddaear*—y mae rhai o'r ysgrienwyr Iuddegig yn cymhwyso hyn at berion Moses, ac yn ei ddeongli am ddysgleiriad ei wyneb ef, a chyfrifer ei gyfansoddiad pryd y bu efe farw; ond y mae yn debycach mai cyfeiriad sydd yma at yr hyn a wnaid Duw wrth eu rhoddi mewn meddiant o wlad Canaan, megys troi yr Iorddonen yn ei hol, peri i gaerau Jericho syrthio, ac i'r baul a'r lleuad sefyll. *Ofnadwy yw yr hyn a wnaif â thi*—pethau ofnadwy a mawreddog ynddynt yn hunain, ac er dychryn i'th elynion, Jos. v. 1.

Adn. 11. *Cadw yr hyn a orchymynais i'th heddyw*] Canys nis gallwn ddysgwyl y budd o'r addewidion, oddieithr i ni gadw yn gydwytbodol y gorchymynion.

Adn. 12. *Rhag gwneuthur cyfammod â phreswylwyr y wlad*] Gwel ar pen. xxiii. 32, 33.

Adn. 13. *Eithr diynstriwch eu hallorau*] Gwel ar pen. xxiii. 24.

Adn. 14. *Duw eiddigus yw efe*] Yn teimlo cymaint yn achos ei addoliad ag y gwna gŵr gyda golwg ar anrhydedd ei wely priodas.

Adn. 15, 16. *Ac iddynt buteinio ar ol eu duwiau*] Yr oedd Israel fel cenedil wedi ymbriodi â'r Arglwydd, ac am hyny y mae eu heilunaddoliaeth hwy yn cael ei alw yn yr ysgrythrau yn odineb a phuteindra.

Adn. 17. *Na wna i'th dduwiau tawdd*] I'w haddoli hwy, nac i addoli y gwir Dduw trwyddynt. Hwn oedd y pechod ag yr oeddynt newydd syrthio iddo, ac am hyny rhybyddff hwynt yn fanwl yn ei erbyn.

Adn. 18. *Cadw wyl y bara croyw*] Gwel ar pen. xii. 15.

Adn. 19, 20. *Eiddof fi yw pob peth a agoro'r groth*] Gwel ar pen. xiii. 2, 13.

Adn. 21. *Yn amser aredig, ac yn y cynauaf, y gorphwysai*] Ar y seithfed dydd. Er mai dyma yr amserau prysuraf yn y flwyddyn, eto rhaid i bob gorchwyl bydol roddi lle i'r gorphwysdra santiaidd. Y mae llawer yn tori y sabbodh dan yr esgus o angenrheidrwydd; canys os bydd y sabbodh yn *dég* a *hufryd* yn nghanol cynauaf *golyb*, ystyriant fod yn gyfreithlon iddynt ddefnyddio y dydd santiaidd hwnaw i geisio aclub ffurwyllau y maes. Eithr onid yw y gorchymyn uchod wedi ei gyfeirio yn bendant yn erbyn hyn? 'Mynych y gwelais y gyfraith hon yn cael ei thori dan yr esgus yma,' meddai Clarke; 'ond ni ellais erioed ganfod un anghraifft o'r rhai a

ar y seithfed dydd y gorphwysi: yn amser aredig, ac yn y cynauaf y gorphwysi.

22 ¶ Cadw i ti hefyd ŵyl yr wythnosau, o flaen-ffrwyth y cynauaf gwenith; a gŵyl y cynull, ar ddiwedd y flwyddyn.

23 ¶ Tair gwaith yn y flwyddyn yr ymddengys dy holl wrywiaid gerbron yr Arglwydd Dduw, Duw Israel.

24 Canys mi a yraf y cenhedloedd allan o'th flaen di, ac a helaethaf dy derfynau di: ac ni chwennych neb dy dir di, pan elych i fyny i ymddangos gerbron yr Arglwydd dy Dduw, dair gwaith yn y flwyddyn.

25 Nac offryma waed fy aberth gyda bara lefeinllyd; ac nac arhoed aberth gŵyl y pasc dros nos hyd y bore.

26 Dwg y goreu o flaen-ffrwyth dy dir i dŷ yr Arglwydd dy Dduw. Na ferwa fy'n yn llaeth ei fam.

27 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, ysgrifena i ti y geiriau hyn: oblegid yn ol y geiriau hyn y gwneuthum gyfammod â thi, ac âg Israel.

28 Ac efe a fu yno gyda'r Arglwydd ddeugain niwrnod a deugain nos; ni fwyaodd fara, ac nid yfodd ddwfr: ac efe a ysgrifennodd ar y llechau eiriau y cyfammod, sef y deg gair.

29 ¶ A phan ddaeth Moses i waered o fynydd Sinai, â dwy lech y dystiolaeth yn llaw Moses, pan ddaeth efe i waered o'r mynydd, ni wyddai Moses i groen ei wyneb ddysgleirio wrth lefaru o hono ef wrtho.

30 A phan welodd Aaron a holl feibion Israel Moses, wele, yr oedd croen ei wyneb ef yn dysgleirio; a hwy a ofnasant nesáu ato ef.

31 A Moses a alwodd arnynt. Ac

ymddygent fel hyn yn llwyddo fymryn gwell na'u cymydegiog mwy cydwybodol.' A gwn inau am un man yn Nghymru, lle, ar ol i'r amaethwr fwydylu ei geirch ar y maes ar brydnawn sabbath tég, y llosgwyd y cyfryw gan fellten cyn machlud haul yr un diwrnod. Os nad allwn ystyried hyn fel barn, gobeithiwn iddo fod yn fendith i'r ardal.

Adn. 22, 23. *Cadw i't' hefyd ŵyl yr wythnosau*] Sef y pentecost, pa un oedd yn mhben saith wythnos ar ol y pasc: gwel ar pen. xxiii. 14—16.

Adn. 24. *Ac ni chwennych neb dy dir di pan elych i fyny*] I'r gŵyliach yn Jerusalem o bob rhan o'r wlad. Y fath brawf allyg oedd hyn o ofal rhagluniaetbol Duw! Mor hawdd fuasai i'r cenhedloedd amgylchynol gymeryd meddiant o'u tiroedd a'u trefi, pan nad oedd neb wedi eu gadael i'w hamddiffyn ond gwragedd a phlant! Fel hyn yr oedd Duw, dair gwaith bob blwyddyn, yn gwneuthur gwrth arbenig er amddiffyn ei bobl, gan oruwchreoli hyd yn nod *chwennychiad* eu gelynyon, fel na fyddai iddynt gymaint a dychmygu drwg yn eu herbyn hwynt.

Adn. 25. *Nac offryma waed fy aberth*] Sef gwaed oen y pasc: gwel ar pen. xxiii. 18.

Adn. 26. *Na ferwa fy'n yn llaeth ei fam*] Gwel ar pen. xxiii. 19.

Adn. 27. *Ysgrifena i't' y geiriau hyn*] Sef yr holl gyfraith ag ydoedd hyd yn hyn wedi cael ei thraddodi, neu y geiriau a gynwysir o adn. 11 hyd adn. 26 o'r bennod hon. Y mae yn sicr mai Duw ei hun a ysgrifennodd y DEB ГОРЦНУМХ ar y ddau bâr o lechan, adn. 1.

Adn. 28. *Ddeugain niwrnod a deugain nos*] Yr un faint o amser a'r tro cyntaf: gwel ar pen. xxiv. 18. *Ac efe a ysgrifennodd ar y llechau*—sef Duw ei hun, yn ol fel yr addawsai, adn. 1.

Adn. 29. *A phan ddaeth Moses i waered o fynydd Sinai*] Sef ar y 25ain o Awst, meddai rhai; ni wyddai Moses i groen ei wyneb ddysgleirio—y mae yn debyg na chlywodd Moses y tro hwn ar y mynydd ond yr hyn a glywsai o'r blaen; eithr gwelodd fwy o goniant Duw: ac ar ol edrych arno â gwyneb agored, efe, mewn rhyw radd, a newidiwyd i'r unrhyw ddelw. Yr oedd hyn yn arhrydedd mawr wedi ei wneuthur i Moses, fel na fyddai i'r bobl byth mwyach amau ei genadwri, na meddwl na dywedyd yn ysgafu am dano. Efe a gariai ei gredegau yn ei wynebryd. Y mae rhai yn meddwl iddo gadw rhyw weddillion o'r gogoniant hwn tra y bu efe byw, yr hyn ond odid oedd yr achos o ireidd-dra a chryfder ei henaint ef, Deut. xxxiv. 7. Ni allai y meddwl hwnw dywyllu ag ydoedd wedi gweld Duw, na'r gwyneb hwnw grychu a'r a ddysgleiriasai gan ei ogoniant ef. Ar ol iddo fod ddeugain niwrnod a deugain nos mewn cyweithas agos â'i Wneuthurwr, treiddiwyd ei gnawd yn gystal a'i enaid gan ar-ddysgleirdeb y dwyfol ogoniant, a'i wynebryd a ddanghosai y goleuni a'r bywyd a drigent oddifeu. Y mae yn debyg fod Moses yn ymddangos yn awr fel y gwnaeth pan ei gwelwyd gydag Elias ar fynydd y gweddnewidiad, Luc. ix. 31. Gan fod y gair *karan* yn arwyddo *llewyrchu allan, picellu i maes*, megys *cyrn* ar ben anifel, neu *belydr goleuni* yn adlewyrchu oddiar ddefnydd gloyw, gallwn feddwl fod y gogoniant nefol a lanwai enaid y dyn santaidd hwn yn ymsaethu allan o'i wyneb ef fel pelydr. Meddylir mai oddiwrth yr amgylchiad hwn y darfu i holl genhedloedd y byd a'r a glywsant am dano, gyduno i arddangos y dynion hyn ag y priodolent iddynt santeiddrwydd anghyffredin, a'r rhai y tybient iddynt gael cyweithas agos â Duw, fel â gogoniant neu belydr dysglær o amgylch eu penau. Y mae nid yn unig saint neu enwogion Groeg a Rhufain yn cael eu barddangos fel hyn, ond hefyd eiddo y Mahometaniaid, yr Hindŵaid, a'r Chineaid.

Adn. 30. *Ofnasant nesáu ato ef*] Am fod y

Aaron a holl benaethiaid y gynulleidfa a ddechwelasant ato ef: a Moses a lefarodd wrthynt hwy.

32 Ac wedi hyn nesaodd holl feibion Israel: ac efe a orchymynodd iddynt yr hyn oll a lefarasai yr Arglwydd yn mynydd Sinai.

33 Ac nes darfod i Moses lefaru wrthynt, efe a roddes len gudd ar ei wyneb.

34 A phan ddelai Moses gerbron yr Arglwydd i lefaru wrtho, efe a dynai ymaith y llen gudd nes ei ddyfod allan: a phan ddelai efe allan, y llefarai wrth feibion Israel yr hyn a orchymynid iddo.

35 A meibion Israel a welsant wyneb Moses, fod croen wyneb Moses yn dysgleirio: a Moses a roddodd drachefn y llen gudd ar ei wyneb, hyd oni ddelai i lefaru wrth Dduw.

PENNOD XXXV.

CASGLODD Moses hefyd holl gynulleidfa meibion Israel, a dywedodd wrthynt, Dyma y pethau a orchymynodd yr Arglwydd eu gwneuthur.

2 Chwe diwrnod y gwneir gwaith; ar y seithfed dydd y bydd i chwi ddydd santaidd, sabboth gorphwys i'r Arglwydd: llwyr-rodder i farwolaeth pwy bynag a wnelo waith arno.

3 Na chynewuch dân yn eich holl anneddau ar y dydd sabboth.

4 ¶ A Moses a lefarodd wrth holl gynulleidfa meibion Israel, gan ddy-

wedyd, Dyma y peth a orchymynodd yr Arglwydd, gan ddywedyd,

5 Cymerwch o'ch plith offrwm yr Arglwydd: pob un ewyllysgar ei galon dyged hyn yn offrwm i'r Arglwydd; aur, ac arian, a phres,

6 A *sidan* glas, a phorphor, ac ys-garlad, a lian main, a *blew* geifr,

7 A chrwyn hyrddod wedi eu lliwo yn gochion, a chrwyn dacarfoch, a choed sittim,

8 Ac olew i'r goleuni, a llyisiau i olew yr enaint, ac i'r arogl-darth per-aid,

9 A meini onix, a meini i'w gosod yn yr ephod, ac yn y ddwyfroneg.

10 A phob doeth ei galon yn eich plith, deuant a gweithiant yr hyn oll a orchymynodd yr Arglwydd;

11 Y tabernacl, ei babel-len a'i dô, ei fachau a'i ystyllod, ei farau, ei golofnau, a'i forteisiau,

12 Yr arch, a'i throsolion, y drugareddfa, a'r wahanlen, yr hon a'i gor-chuddia,

13 Y bwrdd, a'i drosolion, a'i holl lestri, a'r bara dangos,

14 A chanwyllbren y goleuni, a'i offer, a'i lampau, ac olew y golenni,

15 Ac allor yr arogl-darth, a'i throsolion, ac olew yr enceniad, a'r arogl-darth peraid, a chaeadlen y drws i fyned i'r tabernacl,

16 Allor y poeth-offrwm a'i halch bres, ei throsolion, a'i holl lestri, y noe a'i throed,

17 Leni y cynteddfa, ei golofnau,

pelydr hyn nid yn unig yn tywyllu eu llygaid, ond hefyd yn creu arswyd yn eu meddyliau. Ni wyddent eto pa un ai arwydd o ffafur Dduw iddynt, ynte o'i soriant ef wrthynt, oedd yr arddanghosiad bynod hwn.

Adn. 31. *A Moses a alwodd arnynt*] A'u gwahoddodd yn dirion i nesáu ato, heb ofni dim niwed.

Adn. 32. *Ac efe a orchymynodd iddynt*] Hyn yw, a adroddodd iddynt yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd ar y mynydd; nen efe a adroddodd y deddfau, ac a orchymynodd iddynt eu cadw.

Adn. 33—35. *Ac nes darfod i Moses lefaru wrthynt, &c.*] Ymddengys mai y meddwl yw hyn: Mor aml ag y llefarai Moses yn gohoeddus wrth y bobl, efe a roddai y llen gudd ar ei wyneb, am nas gallent hwy oddef edrych ar ddysgleirdeb ei wynebpryd ef; ond pan yr âi i'r babel i ymddyddan â'r Arglwydd, efe a dynai ymaith y llen, am nad oedd achos am dani yn ngwyddfod yr hwn ag y mae 'pob peth yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef,' Heb. iv. 13. Gwel y sylwadau ar 2 Cor. iii. 7—18, lle y mae yr apostol yn gwneuthur defnydd tra phwysig o'r hyn a goffeir yma.

PEN. XXXV. Adu. 1. *Casglodd Moses, &c.*] Y mae y prif bethau yn y bennod hon wedi cael eu hystyried yn helaeth yn y sylwadau ar pen. xxv—xxxii, ac at y rhai hyn deisyfir i'r darlennydd yn neillduol gyfeirio. Yno y mae Dduw yn dywedyd with *Moses* pa fodd i wneuthur; yma y mae Moses yn hysbysu hyn y'r bobl.

Adn. 2. *Chwe diwrnod y gwneir gwaith*] Ar y tabernacl: *ar y seithfed dydd*—rhaid gorphwys hyd yn nod oddiwrth adeiladu y tabernacl, trwy fod arhrydedd y sabboth yn fwy nag eiddo y cysegr.

Adn. 3. *Nu chynewuch dân yn eich holl anneddau ar y dydd sabboth*] Y mae yr Iuddewon yn deall y gorchymyn hwn fel yn gwahardd cyneuen tân i *weithio* neu *drin bryd* yn unig; eithr i *oleuo* a *chynhesu* barnant fod yn gyfreithlon cyneuen tân ar y dydd sabboth, er mai amfynych y cyneuent ef eu hunain, eithr ceisiant ereill i wneyd hyn iddynt.

Adn. 4—15. *A Moses a lefarodd, &c.*] Yn lle myned dros yr un pethau ddwygwaith, edryched y darlennydd ar y sylwadau ar pen. xxv. 1—39.

a'i forteisiau, caeadlen porth y cynteddfa,

18 Hoelion y tabernacl, a hoelion y cynteddfa, a'u rhaffau hwynt,

19 A gwisgoedd y weinidogaeth i weini yn y cysegr, santaidd wisgoedd Aaron yr offeriad, a gwisgoedd ei feibion ef, i offeiriadu *ynddynt*.

20 ¶ A holl gynulleidfa meibion Israel a aethant allan oddi gerbron Moses.

21 A phob un yr hwn y cynhyrfodd ei galon ef, a phob un yr hwn y gwnaeth ei ysbryd ef yn ewyllysgar, a ddaethant, *ac* a ddygasant offrwm i'r Arglwydd, tuag at waith pabell y cyfarfod, a thuag at ei holl wasanaeth hi, a thuag at y gwisgoedd santaidd.

22 A daethant yn wŷr ac yn wragedd; pob un a'r a oedd ewyllysgar ei galon a ddygasant freich-ledau, a chlust-dlysau, a modrwyau, a chadwynau, pob math ar dlysau aur; a phob gwŷr a'r a offrymodd offrwm, *a offrymodd* aur i'r Arglwydd.

23 A phob un a'r y caed gydag ef *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main, a *blew* geifr, a chrwyn hyrddod, wedi eu lliwo yn gochion, a chrwyn daearfoch, a'u dygasant.

24 Pob un a'r a offrymodd offrwm o arian a phres, a ddygasant offrwm i'r Arglwydd: a phob un a'r y caed gydag ef goed sittim i ddim o waith y gwasanaeth, *a'i* dygasant.

25 A phob gwraig ddoeth o galon

a nyddodd â'i dwylaw; ac a ddygasant yr edafedd *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main.

26 A'r holl wragedd y rhai y cynhyrfodd eu calonau hwynt mewn cyfarwyddyd, a nyddasant *flew* geifr.

27 A'r penaethiaid a ddygasant feini onix, a meini i'w gosod ar yr ephod, ac ar y ddwyfroneg;

28 A llysiau, ac olew i'r goleuni, ac i olew yr enaint, ac i'r aroglarth peraid.

29 Holl blant Israel, yn wŷr ac yn wragedd, y rhai a glywent ar eu calon offrymu tuag at yr holl waith a orchymynasai yr Arglwydd trwy law Moses ei wneuthur, a ddygasant i'r Arglwydd offrwm ewyllysgar.

30 ¶ A dywedodd Moses wrth feibion Israel, Gwelwch, galwodd yr Arglwydd erbyn ei enw, Besalcel, fab Uri, fab Hur, o lwyth Juda:

31 Ac a'i llanwodd ef âg ysbryd Duw, mewn cyfarwyddyd, mewn deall, ac mewn gwybodaeth, ac mewn pob gwaith;

32 I ddechymygu cywreinerwydd, i weithio mewn aur, ac mewn arian, ac mewn pres,

33 Ac mewn cyfarwyddyd i osod meini, ac mewn saerniaeth pren, i weithio yn mhob gwaith cywraint.

34 Ac efe a roddodd yn ei galon ef ddysgu *ereill*; efe, ac Aholiab, mab Achisamach, o lwyth Dan.

35 Efe a'u llanwodd hwynt â doeth-

Adn. 16, 17. *Allor y poeth-offrwm*] Sef yr allor bres: gwel ar pen. xxvii. 1—9.

Adn. 18. *Hoelion y tabernacl*] I'w sierhau wrth y ddaear.

Adn. 19. *A gwisgoedd y weinidogaeth i weini yn y cysegr*] Megys arfedogau, tyweli, a'r cyffelyb, y rhai a ddefnyddid yn y wasanaeth gyffredin, ac a oeddânt yn wahanol i santaidd wisgoedd Aaron a'i feibion, pen. xxviii. 2.

Adn. 20. *A aethant allan*] Hynny yw, a aethant o wyddfod Moses i'w lluestai, i geisio eu gwahanol offrymau.

Adn. 21. *A phob un yr hwn y cynhyrfodd ei galon ef*] Yn llythrenol, *yr hwn y codwyd ei galon*—yr hwn yr oedd ei serchiadau wedi eu gosod ar y gwaith, ac a ydoedd yn ewyllysgar a difuant yn ngwasanaeth ei Dduw.

Adn. 22. *Pob un a'r a oedd ewyllysgar ei galon*] Canys nid oedd neb yn cael ei orfodi i gynorthwyo yn y gwaith santaidd hwn; ac nid oedd achos gorffodi neb, am fod pawb yn ewyllysgar i wneyd ei ran. Yr oeddânt oll yn awyddus i godi tŷ i Dduw breswyllo yn eu mysg, er mwyn eu mantais eu hunain.

Adn. 23, 24. *Sidan glas, &c.*] Gwel ar pen. xxv. 4, 5.

Adn. 25, 26. *A phob gwraig ddoeth o galon*] Sef pob un ag oedd yn medru nyddu, *a nyddodd â'i dwylaw*—yr oedd y gwaith hwn yn pryd hynny yn hawdd, trwy nad oedd yn gofyn ond ychydig offer. Y cogel neu y troellbin diaddurn yn unig a ddefnyddid, yr hwn y gellid yn hawdd ei wneuthur o unrhyw bren a geid yn yr anialwch.

Adn. 27. *A'r penaethiaid a ddygasant feini onix*] Gellid dysgwyl yn naturiol i'r rhai hyn, gan eu bod yn wŷr galluog, ddwyn y defnyddiau miwyaf prin a chostfawr. Gwelwch fel yr oedd pawb yn cyduno yn y wasanaeth hon! Y gwŷr a weithiant, ac a ddygent offrymau; y gwragedd a nyddent, ac a ddygent eu haddurniadau; a'r penaethiaid a ymunent â hwy, ac a roddent i fyndu eu tlysau; a holl blant Israel a ddygent i'r Arglwydd offrwm ewyllysgar, adn. 29.

Adn. 28. *A llysiau, &c.*] Gwel ar pen. xxx. 23—38.

Adn. 29. *Holl blant Israel, yn wŷr ac yn wragedd*] Yr oedd y goffiadwriaeth o'u parodrwydd i dynu eu haddurniadau i wneyd y llo aur, pen. xxxii. 3, yn eu gwenthur yn awr yn barotach i offrymu y gweddill o'u tlysau at wasanaeth yr Arglwydd, trwy yr hyn y

ineb calon, i' wneuthur pob gwaith saer a chywreinwaith, a gwaith edaf a nodwydd, mewn *sidan* glas, ac mewn porphor, ac mewn ysgarlad, ac mewn llian main, ac i wau, gan wneuthur pob gwaith, a dychymygu cywreini-rwydd.

PENNOD XXXVI.

YNA y gweithiodd Besaleel ac Aholiab, a phob gŵr doeth o galon, y rhai y rhoddasai yr Arglwydd gyfarwyddyd a deall ynddynt, i fedru gwneuthur holl waith gwasanaeth y cysegr, yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd.

2 A Moses a alwodd Besaleel ac Aholiab, a phob gŵr celfydd, y rhoddasai yr Arglwydd gyfarwyddyd iddo; pob un yr hwn y dyg ei galon ei hun ef i nesáu at y gwaith i'w weithio ef.

3 A chymerasant gan Moses yr holl offrwm a ddygasai meibion Israel i waith gwasanaeth y cysegr, i'w weithio ef. A hwy a ddygasant ato ef ychwaneg o offrwm gwirfodd bob bore.

4 A'r holl rai celfydd, a'r oedd yn gweithio holl waith y cysegr, a ddaethant bob un oddiwrth ei waith, yr hwn yr oeddynt yn ei wneuthur.

5 ¶ A llefarasant wrth Moses, gan ddywedyd, Y mae y bobl yn dwyn mwy na digon er gwasanaeth i'r gwaith a orchymynodd yr Arglwydd ei wneuthur.

danghosent eu hedifeirwech am y weithred hono.

Adn. 30—35. *Galwodd yr Arglwydd erbyn ei enw Besaleel*] Gwel ar pen. xxviii. 3, a xxxi. 2, &c.

PEN. XXXVI. Adn. 1. *Yna y gweithiodd Besaleel, &c.*] Fel y mae yr adnod hon yn sefyll yma, gellid meddwl fod y gwŷr da hyn wedi ymosod ar y gwaith cyn i Moses ei roddi ef iddynt, adn. 2. Gan hyn y mae Junius yn ddoeth yn ei chysylltu â'r bennod ddweddaf, gan ei chyfieithu, *yna y gweithio Besaleel ac Aholiab, &c.* Ni all dim, meddai Junius, fod yn fwy gramadegol na'r cysylltiad hwn; ac yn ganlynel iddo bydd i'r bennod hon ddechreu yn adn. 2.

Adn. 2. *A Moses a alwodd Besaleel, &c.*] Fel hyn rhaid i'r rhai a gymhwyswyd ac a dueddwyd gan Dduw at waith y tabernacl, aros am alwad reolaidd iddo.

Adn. 3. *A hwy a ddygasant ato ef chwane-g o offrwm gwirfodd bob bore*] Trwy gael hyfrydwch wrth offrymu peth, tueddwyd hwy i offrymu chwane-g yn wirfoddol; ac yn mhell oddiwrth rwnach, dyblasant eu cyfranadau, a hyn yn gyntaf peth bob bore. Yr un modd,

6 A Moses a roes orchymyn; a hwy a barasant gyhoeddi trwy y gwerysll, gan ddywedyd, Na wnaed na gŵr na gwraig waith mwy tuag at offrwm y cysegr. Felly yr attaliwyd y bobl rhag dwyn mwy.

7 Cans yr ydoedd digon o ddefnydd i'r holl waith i'w wneuthur, a gweddill.

8 ¶ A'r holl rai celfydd, o'r rhai oedd yn gweithio gwaith y tabernacl, a wnaethant ddeg llen o lian main cyfrodedd, a *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad: â cherubiad o waith cywraint y gwnaethant hwynt.

9 Hyd un llen oedd wyth guffydd ar hugain; a lled un llen pedwar cuffydd: yr un mesur oedd i'r holl leni.

10 Ac efe a gydiodd bum llen wrth eu gilydd; ac a gydiodd y pum llen ereill wrth eu gilydd.

11 Ac efe a wnaeth ddolenau o *sidan* glas ar ymyl un llen, ar ei chwreithaf yn y cydiad: felly y gwnaeth efe ar ymyl llen arall, yn nghydiad yr ail.

12 Deg dolen a deugain a wnaeth efe ar un llen, a deg dolen a deugain a wnaeth efe yn y cwr eithaf i'r llen ydoedd yn nghydiad yr ail: y dolenau oedd yn dal y naill len wrth y llall.

13 Ac efe a wnaeth ddeg a deugain o fachau aur, ac a gydiodd y naill len wrth y llall â'r bachau; fel y byddai yn un tabernacl.

14 ¶ Efe a wnaeth hefyd leni o

ein gwaith cyntaf ninau bob bore a ddylai fod, offrymu i'r Arglwydd weddi a mawl.

Adn. 4. *A'r holl rai celfydd*] Y rhai a weithient yn mhob *cangen* o waith y tabernacl. Felly yr oedd arddigonedd o'r defnyddiau mwyaf costfawr yn cael eu dwyn, yn gystal a'r rhai hawddaf eu cyraedd.

Adn. 5—7. *Y mae y bobl yn dwyn mwy na digon*] Y fath ysbryd haelionus a welir yma! Y mae Moses yn gorfod cyhoeddi i attal iddynt ddwyn chwane-g, gan fod eisoes iwy na digon! Y mae llawer yn gofyn cymhellid i beir iddynt gyfranau, ond ychydig yn ein dyddian ni sydd yn gofyn eu ffrwyno er attal iddynt gyfranau. Pe buasai Moses â'i fryd ar elw, efe a'u hannogasai i barhau eu cyfranadau, gan y gallasai trwy hyny chwane-g iddo ei hun aur, arian, a meini gweithfawr: ond yr oedd ef yn gwneuthur gwaith yr Arglwydd dan ddwyfoll ysbrydoliaeth, ac am hyny ni cheisai un elw bydol iddo ei hun.

Adn. 8. *A cherubiad o waith cywraint*] Gwel ar pen. xxvi. 1. Y mae yn debyg nad yw y gair yn meddwl dim mwy yma na *luniau* o unrhyw fath wedi eu gweithio ar ddull blodeuwe yn y gwŷdd, neu â'r nodwydd

flew geifr, *i fod* yn babel-len ar y tabernacl: yn un llen ar ddeg y gwnaeth efe hwynt.

15 Hyd un llen oedd ddeg cufydd ar hugain, a lled un llen *oedd* bedwar cufydd: a'r un mesur oedd i'r un llen ar ddeg.

16 Ac efe a gydiodd bum llen wrth-ynt eu hunain, a chwe llen wrth-ynt eu hunain.

17 Efe a wnaeth hefyd ddeg dolen a deugain ar ymyl eithaf y llen yn y cydiad; a deg dolen a deugain a wnaeth efe ar ymyl y llen yn nghydiad yr ail.

18 Ac efe a wnaeth ddeg a deugain o fachau pres, i gydio y babel-len i fod yn un.

19 Ac efe a wnaeth dô i'r babel-len o grwyn hyrddod wedi eu lliwo yn gochion, a thô o grwyn daearfoch yn uchaf.

20 ¶ Ac efe a wnaeth estyllod i'r tabernacl o goed Sittim, yn eu sefyll.

21 Deg cufydd *oedd* hyd estyllen; a chufydd a hanner cufydd lled pob estyllen.

22 Dau dyno *oedd* i'r un estyllen, wedi eu gosod mewn trefn, y naill ar gyfer y llall: felly y gwnaeth efe i holl estyllod y tabernacl.

23 Ac efe a wnaeth estyllod i'r tabernacl; ugain estyllen i'r tua deau, tua'r deau.

24 A deugain mortais arian a wnaeth efe dan yr ugain estyllen: dwy fortais dan un estyllen i'w dau dyno, a dwy fortais dan estyllen arall i'w dau dyno.

25 Ac i ail ystlys y tabernacl, o du y gogledd, efe a wnaeth ugain estyllen,

26 A'u deugain mortais o arian; dwy fortais dan un estyllen, a dwy fortais dan estyllen arall.

27 Ac i ystlysau y tabernacl, tua'r gorllewin, y gwnaeth efe chwech estyllen.

28 A dwy estyllen a wnaeth efe yn nghonglau y tabernacl i'r ddau ystlys.

29 Ac yr oeddynt wedi eu cydio odditanodd; ac yr oeddynt hefyd wedi eu cydio oddiarnodd wrth un fodrwy:

felly y gwnaeth iddynt ill dwy yn y ddwy gongl.

30 Ac yr oedd wyth estyllen; a'u mortisiau oedd un ar bymtheg o fortisiau arian: dwy fortais dan bob estyllen.

31 ¶ Ac efe a wnaeth farau o goed sittim: pump i estyllod un ystlys i'r tabernacl,

32 A phum bar i estyllod ail ystlys y tabernacl, a phum bar i estyllod y tabernacl i'r ystlysau o du y gorllewin.

33 Ac efe a wnaeth y bar canol i gyrhaeddyd trwy yr estyllod o gwr i gwr.

34 Ac efe a osododd aur dros yr estyllod, ac a wnaeth eu modrwyau hwynt o aur, i fyned am y barau; ac a wisgodd y barau âg aur.

35 ¶ Ac efe a wnaeth wahanlen o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main cyfrodedd: â cherubiaid o waith cywraint y gwnaeth efe hi.

36 Ac efe a wnaeth iddi bedair colofn o goed sittim, ac a'u gwisgodd hwynt âg aur; a'u penau *oedd* o aur: ac efe a fwriodd iddynt bedair mortais o arian.

37 ¶ Ac efe a wnaeth gaeadlen i ddrws y tabernacl o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main cyfrodedd, o waith edaf a nodwydd:

38 A'i phum colofn, a'u penau; ac a oreurodd eu penau hwynt, a'u cylchau, âg aur: ond eu pum mortais *oedd* o bres.

PENNOD XXXVII.

A BESALEEL a wnaeth yr arch o goed sittim; o ddau gufydd a hanner ei hyd, a chufydd a hanner ei lled, a chufydd a hanner ei huchder.

2 Ac a'i gwisgodd hi âg aur pur o fewn ac oddiallan; ac a wnaeth iddi goron o aur o amgylch.

3 Ac a fwriodd iddi bedair modrwy o aur ar ei phedair congl; sef dwy fodrwy ar ei naill ystlys, a dwy fodrwy ar ei hystlys arall.

4 Efe a wnaeth hefyd drosolion o goed sittim, ac a'u gwisgodd hwynt âg aur.

mewn brwydwaith, neu â'r cŷn mewn pren, maen, neu fettel: gwel ar pen. xxv. 18. Y mae Houbigant a berniaid rhagorol ereill yn dadlu dros hyn. Ond mewn lleoedd ereill, fel y gwelsom, ymddengys fod y gair yn cael ei gyfyngu i osod allan lun neillduol, tra hysbys y pryd hyny: gwel ar Gen. iii. 24.

Adn. 9—38. *Hyd un llen oedd wyth gufydd ar hugain, &c.* Nid oes braidd ddim neillduol yn y bennod hon a'r na chyffyrddwyd âg ef yn pen. xxvi, at yr hon y deisyfir i'r darlennydd droi.

5 Ac a osododd y trosolion trwy y modrwyau ar ystlysau yr arch, i ddwyn yr arch.

6 ¶ Ac efe a wnaeth y drugareddfa o aur coeth; o ddau guffydd a hanner ei hyd, a chuffydd a hanner ei lled.

7 Ac efe a wnaeth ddau gerub aur: o un dryll cyfan y gwnaeth efe hwynt, ar ddau ben y drugareddfa;

8 Un cerub ar y pen o'r tu yma, a cherub arall ar y pen o'r tu arall: o'r drugareddfa y gwnaeth efe y cerubi-iaid, ar ei dau ben hi.

9 A'r cerubiaid oeddynt, gan ledu esgyll tuag i fyny, â'u hesgyll yn gorchuddio y drugareddfa, â'u hwyneb-
bau bob un at eu gilydd: wyneb-
bau y cerubi-iaid oedd tuag at y drugareddfa.

10 ¶ Ac efe a wnaeth fwrdd o goed sittim: dau guffydd ei hyd, a chuffydd ei led, a chuffydd a hanner ei uchder.

11 Ac a osododd aur pur drosto, ac a wnaeth iddo goron o aur o amgylch.

12 Gwnaeth hefyd iddo gylch o amgylch o led llaw; ac a wnaeth goron o aur ar ei gylch o amgylch.

13 Ac efe a fwriodd iddo bedair modrwy o aur; ac a roddodd y modrwyau wrth ei bedair congl, y rhai oedd yn ei bedwar troed.

14 Ar gyfer y cylch yr oedd y modrwyau, yn lle i'r trosolion i ddwyn y bwrdd.

15 Ac efe a wnaeth drosolion o goed sittim, ac a'u gwisgodd hwynt âg aur i ddwyn y bwrdd.

16 Efe a wnaeth hefyd y llestri fyddai ar y bwrdd, ei ddysglau ef, a'i lwyau, a'i phiolau, a'i gaeadau i gau â hwynt, o aur pur.

17 ¶ Ac efe a wnaeth ganwyllbren o aur coeth: o un dryll cyfan y gwnaeth efe y canwyllbren, ei baladr, ei geinciau, ei bedyll, ei gnapi-
au, a'i flodau, oedd o'r un.

18 A chwech o geinciau yn myned allan o'i ystlysau: tair cainc o'r canwyllbren o un ystlys, a thair cainc o'r canwyllbren o'r ystlys arall.

19 Tair padell ar waith almonau, cnap a blodeuyn oedd ar un gainc; a thair padell o waith almonau, cnap a blodeuyn ar gainc arall: yr un modd yr oedd ar y chwe chainc, y rhai oedd yn dyfod allan o'r canwyllbren.

20 Ac ar y canwyllbren yr oedd pedair padell o waith almonau, ei gnapi-
au, a'i flodau

21 A chnap dan ddwy gainc o hono, a chnap dan ddwy gainc o hono, a chnap dan ddwy gainc o hono; yn ol y chwe chainc oedd yn dyfod allan o hono.

22 Eu cnapi-
au a'u ceinciau oedd o'r un: y cwbl o hono ydoedd un dryll cyfan o aur coeth.

23 Ac efe a wnaeth ei saith lamp ef, a'i ofeiliau, a'i gafnau, o aur pur.

24 O dalent o aur coeth y gwnaeth efe ef, a'i holl lestri.

25 ¶ Gwnaeth hefyd allor yr arogl-darth o goed sittim: o guffydd ei hyd, a chuffydd ei lled, yn bedairongl; ac o ddau guffydd ei uchder: ei chyrn oedd o'r un.

26 Ac efe a'i gwisgodd hi âg aur coeth, ei chaead, a'i hystlysau o amgylch, a'i chyrn; ac efe a wnaeth iddi goron o aur o amgylch.

27 Ac efe a wnaeth iddi ddwy fodrwy

wnaeth yr arch] Am ddystrifiad o'r arch a'r drugareddfa, gwel ar pen. xxv. 10—17.

Adn. 10—16. *Ac efe a wnaeth fwrdd*] Gwel ar pen. xxv. 23—30. Gwelwn mor fawr y mae goruthwyliaeth yr efengyl yn rhagori ar eiddo y ddeddf! Er fod yno fwrdd wedi ei hulo, nid oedd ond gyda bara dangos yn unig, bara i edrych arno, ac nid i ym-borthi arno tra y byddai ar y bwrdd, nac wedi hynny ond gan yr offeiriad yn unig. Eithr at y bwrdd a huliodd Crist yn y cyfammod newydd gwahoddir pawb, a dywedir wrthynt, 'Bwytwch, gyfeillion, yfwech; ie, yfwech yn helaeth, fy rhai anwyl,' Can v. 1. Fel hyn dyry yr efengyl *fwynhad* o'r hyn na roddai y ddeddf ond *golwg* arno o bell.

Adn. 17—24. *Ac efe a wnaeth ganwyllbren o aur coeth*] Gwel ar pen. xxv. 31—38. Y canwyllyr hwn, yr hwn nid oedd o bren goreuredig, ond oll o un dryll o aur coeth yn unig, a arwyddai y goleuni hwnw o ddatguddiad dwyfol â pha un y cafodd eglwys Dduw

ar y ddaear (yr hon yw ei dabernacl ef yn mhlith dynion) ei goleuo yn wastadol, trwy gael ei diwallu yn barhaus âg olew adnewyddol oddiwrth Grist, yr olewyydden dda, Zec. iv. 2, 3. Y Beibl sydd ganwyllyr aur, o *aur coeth*: oddiwrtho ef y gwasgerir goleuni i bob rhan o dabernacl Duw, fel tuwyddo ef y gallo yr offeiriad ysbyrdod weled i wneyd gwasanaeth ei gysegr ef. Y mae i'r canwyll-
yr hwn nid yn unig ei *bedyll* at wasanaeth augeurheidiol, ond hefyd ei *gnapi-
au* a'i *flodau* er addurn; sef llawer o bethau â'r rhai y gwelodd Duw yn dda brydferthu ei air, y rhai nas gallwn ni roddi rheswm am danynt mwy nag am y cnapi-
au a'r blodau hyn, ac eto gallwn fod yn sier ddarfod eu chwane-
gu i ryw ddyben da. Boed i ni fendithio Duw am y canwyllyr hwn, fod â'n golwg arno yn wastadol, ac ofni rhag iddo gael ei symud allan o'i le.

Adn. 25—28. *Gwnaeth hefyd allor yr arogl-darth*] Gwel hon yn cael ei dysgrifio, pen.

o aur wrth ei dwy gongl, ar ei dau ystlys, oddi tan ei choron, i fyned am drosolion i'w dwyn arnynt.

28 Ac efe a wnaeth drosolion o goed sittim; ac a'u gwisgodd hwynt âg aur.

29 ¶ Ac efe a wnaeth olew yr eneiainiadaidd, a'r aroglarth llysiog pur, o waith yr apothecari.

PENNOD XXXVIII.

AC efe a wnaeth allor y poeth-offrwm o goed sittim: o bum cufydd ei hyd, a phum cufydd ei lled, yn bedairongl; ac yn dri chufydd ei huchder.

2 Gwnaeth hefyd ei chyrn hi ar ei phedair congl: ei chyrn hi oedd o'r un; ac efe a'i gwisgodd hi â phres.

3 Efe a wnaeth hefyd holl lestri yr allor, y crochanau, a'r rhawiau, a'r cawgiau, a'r cigweiniau, a'r pedyll tân: ei holl lestri hi a wnaeth efe o bres.

4 Ac efe a wnaeth i'r allor alch bres, ar waith rhwyd, dan ei chwmpas odditanodd hyd ei hanner hi.

5 Ac efe a fwriodd bedair modrwy i bedwar cwr yr alch bres, i fyned am drosolion.

6 Ac efe a wnaeth drosolion o goed sittim; ac a'u gwisgodd hwynt â phres.

xxx. 1, &c. Yr oedd yr aroglarth a losgid ar hon yn wastadol yn arwyddoedd gweiddiau y saint, ac eiriolaeth Crist trwy ba un yr oedd- ynt yn cael eu cymeradwyo.

Adn. 29. *Ac efe a wnaeth olew yr eneiainiadaidd*] Gwel hwn a'r aroglarth yn cael eu dysgrifio yn helaeth yn y sylwadau ar pen. xxx. 23—31, a 31—33. Gan fod y bennod hon hefyd yn ailadroddiad o'r hyn a grybwyllwyd yn y pennodau blaenorol, deisyfir i'r darlennydd gyfeirio yno.

PEN. XXXVIII. Adn. 1—7. *Ac efe a wnaeth allor y poeth-offrwm*] Gwel hon a'i hoffer wedi eu hegluro yn fanwl ar pen. xxvii. 1—8.

Adn. 8. *Ac efe a wnaeth noe bres*] I'r offeiriadaid ymolchi cyn myned i wasanaethu: gwel ar pen. xxx. 18. Yr oedd y noe hon yn arwydd o'r ddarpariaeth a wnaed yn yr efenngyl er glanhau ein heneidiau ni oddiwrth halogrywydd pechod trwy waed Crist ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân, fel y byddom yn addas i wasanaethu Duw mewn dyledswyddau santaidd. *O ddrychau gwagedd*—cyn dyfeisio gwydr yr oedd y drychau yn cael eu gwneuthur o bres caboledig. Dywed Pliny mai rhai wedi eu gwneuthur o bres ac alcan cymysgedig a gyfrifid oraf, cyn i rai arian gael eu defnyddio. Diamau fod y rhai a grybwyllir

7 Ac efe a dynodd y trosolion trwy y modrwyau ar ystlysau yr allor, i'w dwyn hi arnynt: yn gau y gwnaeth efe hi âg estyllod.

8 ¶ Ac efe a wnaeth noe bres, a'i throed o bres, o ddrychau gwagedd y rhai a ymgasglent yn finteioedd at ddrws pabell y cyfarfod.

9 ¶ Ac efe a wnaeth y cynteddfa: ar yr ystlys ddeau, tua'r deau, lleni y cynteddfa oedd o lian main cyfrodedd, o gan cufydd.

10 A'i hugain colofn, ac a'i hugain mortais, o bres: a phenau y colofnau a'u cylchau, o arian yr oedd- ynt.

11 Ac ar du y gogledd, y lleni oedd gan cufydd; eu hugain colofn, a'u hugain mortais, o bres: a phenau y colofnau a'u cylchau o arian.

12 Ac o du y gorllewin, lleni o ddeg cufydd a deugain: eu deg colofn, a'u deg mortais, a phenau y colofnau, a'u cylchau, o arian.

13 Ac i du y dwyrain, tua'r dwyrain, yr oedd lleni o ddeg cufydd a deugain.

14 Lleni o bymtheg cufydd a wnaeth efe o'r naill du i'r porth; eu tair colofn, a'u tair mortais.

15 Ac efe a wnaeth ar yr ail ystlys, oddeutu drws porth y cynteddfa, leni o bymtheg cufydd; eu tair colofn, a'u tair mortais.

yma wedi eu gwneuthur o'r pres tecaf; ac ymddengys fod y gwagedd a'u rhoddasant yn rhai enwog am eu dybwyd. Wedi iddynt roddi eu *ylsau* i fyny at wasanaeth y tabernacl, y maent yn awr yn rhoddi eu *drychau*, gan nad oedd arnynt eu heisiau mwyach ar ol ymadael â'u prif addurniadau. Pan âi y gwagedd Aiftaidd i'w temlau, carient eu drychau yn wastadol gyda hwynt; ac y mae yn debyg fod y gwagedd Israelaidd yn gwneuthur yr un modd; a dywed Dr. Shaw fod y gwagedd Arabaidd yn eu cario bob amser yn grogedig ar eu mynwesau. Y mae yn debyg fod y noe hon wedi ei chaboli mor ddysglaernes yr oedd eu hochrau yn gwasanaethu fyth fel drychau, fel y gallai yr offeiriadaid wrth ymolchi weled brychau os byddent ar eu gwynebau. *Y rhai a ymgasglent yn finteioedd at ddrws pabell y cyfarfod*—pa beth oedd gwaith y gwagedd hyn wrth ddrws y babell, nid yw yn hawdd gwybod, er y gellid meddwl, oddiwrth eu *nifer*, mai ymgasglu yr oedd- ynt i addoli: gwel ar 1 Sam. ii. 22. Ond tybia rhai mai cadw gwyliadwriaeth yr oedd- ynt; ac y mae yn eglur mai benwyd a ddefnyddid yn gyffredin yn mhllith yr henafiaid fel porthoresau neu ddrysoresau: gwel ar Ioan xviii. 17, lle y dywedir mai *llances* oedd *ddrysores*. Y mae Aristophanes, Homer, Euripides, a Plautus, yn dwyn anghreiff-

16 Holl leni y cynteddfa o amgylch a wnaeth efe o lian main cyfrodedd.

17 A morteisiau y colofnau, oedd o bres; penau y colofnau, a'u cylchau, o arian; a gwisg eu penau, o arian; a holl golofnau y cynteddfa oedd wedi eu cylchu âg arian.

18 A chaeadden drws y cynteddfa ydoedd waith edaf a nodwydd o *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lian main cyfrodedd; ac yn ugain cufydd o hyd, a'i huchder o'i lled yn bum cufydd, ar gyfer lleni y cynteddfa.

19 Eu pedair colofn hefyd, a'u pedair mortais, oedd o bres; a'u penau o arian; gwisg eu penau hefyd a'u cylchau oedd arian.

20 A holl hoelion y tabernacl, a'r cynteddfa oddiamgylch, oedd bres.

21 ¶ Dyma gyfrif *perthynasau* y tabernacl, sef tabernacl y dystiolaeth, y rhai a gyfrifwyd wrth orchymyn Moses, i wasanaeth y Lefiaid, trwy law Ithamar, mab Aaron yr offeiriad.

22 A Besaleel, mab Uri, mab Hur, o'r hwyth Juda, a wnaeth yr hyn oll a orchymynodd yr Arglwydd wrth Moses.

23 A chydag ef yr ydoedd Aholiab, mab Achisamach, o lwyth Dan; saer cywraint, a gwinedydd mewn *sidan* glas, ac mewn porphor, ac mewn ysgarlad, ac mewn lian main.

ia cyffelyb; a dywed Syr John Chardin mai benwyd sydd yn cadw porth palas brenhin-oedd Persia.

Adn. 9—20. *Ac efe a wnaeth y cynteddfa* [Gwel ar pen. xxvii. 9, &c.]

Adn. 21—23. *Dyma gyfrif perthynasau y tabernacl* [Hyn yw, y mae yr hanes flaenorol yn cynwys adroddiad manwl o'r holl bethau ag y gorchymynwyd i Besaleel ac Aholiab eu gwneuthur at y wasanaeth gysegredig; ac Ithamar, mab Aaron, a benodwyd i wneyd i fyny y cyfrif hwn.]

Adn. 24—31. *Yr holl aur a weithiwyd yn y gwaith, &c.* Yr oedd gwerth yr holl aur a ddefnyddiwyd yn ngwaith y cysegr, meddai Clarke, yn cyraedd i £198,347. 12s. 6c. Yr oedd gwerth yr arian a gyfrifwyd gan 603,550 o bersonau, yn ol hanner sicl neu 1s. 6c. yr un, yn cyraedd i £45,266. 5s. (Ond os ystyriwn y sicl yn 2s. 6c. yn unig, nid oedd gwerth yr arian ddim ond oddeutu £37,721.) Ac yr oedd gwerth y pres, yn ol 1s. y pwys, yn cyraedd i £513. 17s. Yr oedd yr aur yn pwysu 4245 o bwysi; yr arian, 14,602; a'r pres, 10,277. Bydd i gydwerth yr holl aur, yr arian, a'r pres, gyraedd o ganlyniad i £244,127. 14s. 6c.; a chydbwys yr oll o'r tri metel hyn gyraedd i 29,124 o bwysi. Wrth ystyried hyn oll, a'r mesur o aur a ddefnyddiwyd i wneyd y llo, yr hwn i gyd a dydfeth-

24 Yr holl aur a weithiwyd yn y gwaith, sef yn holl waith y cysegr, sef aur yr offiwrn, ydoedd naw talent ar hugain, a saith gan sicl a deg ar hugain, yn ol sicl y cysegr.

25 Ac arian y rhai a gyfrifwyd o'r gynulleidfa, oedd gan talent, a mil a saith gan t a phymtheg sicl a thriugain, yn ol sicl y cysegr.

26 Beca am bob pen; sef hanner sicl, yn ol sicl y cysegr, am bob un a clai heibio dan rif, o fab ugeinmlwydd ac uchod; sef am chwe chan mil a thair mil a phum cant a deg a deugain.

27 Ac o'r can talent arian y bwrwyd morteisiau y cysegr, a morteisiau y wahanlen; can mortais o'r can talent, talent i bob mortais.

28 Ac o'r mil a saith gan t a phymtheg sicl a thriugain, y gwnaeth efe benau y colofnau; ac y gwisgodd eu penau, ac y cylhodd hwynt.

29 A phres yr offiwrn oedd ddeg talent a thriugain, a dwy fil a phedwar cant o siclau.

30 Ac efe a wnaeth o hyny forteisiau drws pabell y cyfarfod, a'r allor bres, a'r alch bres yr hon oedd iddi, a holl lestri yr allor;

31 A morteisiau y cynteddfa o amgylch, a morteisiau porth y cynteddfa, a holl hoelion y tabernacl, a holl hoelion y cynteddfa o amgylch.

wyd, nid rhyfedd i'r hanesydd ddywedyd ddarfod i'r Hebreaid yspeilio yr Aiffitaid, yn enwedig gan nad oedd y metelau gwerthfawr hyn, yn yr amseroedd boreol hyn, yn dra helaethlawn yn yr Aiffit. Ymddengys fod tri rheswm neillduol pabam yr oedd llawer o gyfoeth i gael ei ddefnyddio yn ngwneuthuriad y tabernacl: (1) I wasgu ar feddyliau y bobl ogoniant ac urddas y Dwyfol Fawrhydi, a phwysigrwydd ei wasanaeth ef. (2) I gymeryd o'u dwylaw hwy achlysur cybydd-dod; oblegid gan iddynt ddwyn yspail lawer allan o'r Aiffit, ac nas gallent gael nemawr neu ddim defnydd i aur ac arian yn yr anialwch, lle yr oeddynt yn cael eu cynal yn wyrthiol, yr oedd yn iawn defnyddio hwnw yn addoliad Duw, yr hwn angen a allasai genhedlu y cariad hwnw ag sydd yn 'wreiddyn pob drwg.' (3) I attal balchder a gwâg-ogoniant, trwy eu harwain i roddi at y wasanaeth ddwyfol hyd yn nod addurniadau eu personau, y rhai a dueddent i dynu eu meddyliau oddiwrth bethau gwell. Fel hyn addoliad Duw a wnaed yn ardderchog a pharchus, cymbelliadau i bechod a gwagedd a symudwyd, a dysgwyd i'r bobl beidio ystyried dim yn werthfawr ond mor bell ag y gellid ei ddefnyddio er gogoniant ac yn ngwasanaeth Duw.

ADFEDDYLIAU.—Mor fawr oedd rhoddion y bobl dylodan a chystuddiedig hyn! Gy-

PENNOD XXXIX.

AC o'r *sidan* glas, a'r porphor, a'r ysgarlad, y gwnaethant wisgoedd gweinidogaeth, i weini yn y cysegr: gwnaethant y wisgoedd santaidd i Aaron; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

2 Ac efe a wnaeth yr ephod o aur, *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lian main cyfrodedd.

3 A gyrasant yr aur yn ddalenau teneuon, ac a'i torasant yn edafedd, i weithio yn y *sidan* glas, ac yn y porphor, ac yn yr ysgarlad, ac yn y lian main, yn waith cywraint.

4 Ysgwyddau a wnaethant iddi yn cydio: wrth ei dau gwr y cydiwyd hi.

5 A gwregys cywraint ei ephod ef, yr hwn oedd arni, *ydoedd* o'r un, yn un-waith â hi; o aur, *sidan* glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lian main cyfrodedd: megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

6 ¶ A hwy a weithiasant feini onix wedi eu gosod mewn boglynau aur, wedi eu naddu â naddiadau sêl, âg enwau meibion Israel *yddynt*.

7 A gosododd hwynt ar ysgwyddau yr ephod, yn feini coffadwriaeth i feibion Israel; megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses.

8 ¶ Efe a wnaeth hefyd y ddwyfroneg o waith cywraint, ar waith yr ephod; o aur, *sidan* glas, porphor hefyd, ac ysgarlad, a lian main cyfrodedd.

9 Pedairongl *ydoedd*; yn ddau ddyblyg y gwnaethant y ddwyfroneg: o rychwant ei hyd, a rychwant ei lled, yn ddau ddyblyg.

10 A gosodasant ynddi bedair rhes o feini: rhes o sardius, topas, a smaragdus, *ydoedd* y rhes gyntaf.

11 A'r ail res *oedd* carbuncel, saphir, ac adamant.

12 A'r drydedd res *ydoedd* lygur, acat, ac amethyst.

13 A'r bedwaredd res *ydoedd*, beryl, onix, a jaspis; wedi eu hamgylchu mewn boglynau aur yn eu lleoedd.

14 A'r meini *oedd* yn ol enwau meibion Israel, yn ddeuddeg, yn ol eu henwau hwynt; pob un wrth ei enw *oeddynt*, o naddiadau sêl, yn ol y deuddeg llwyth.

15 A hwy a wnaethant ar y ddwyfroneg gadwynau ar y cyrau, yn blethwaith o aur pur.

16 A gwnaethant ddau foglyn aur, a ddyw fodrwy o aur; ac a roddasant y ddwy fodrwy ar ddau gwr y ddwyfroneg.

17 A rhoddasant y ddwy gadwyn blethedig o aur trwy y ddwy fodrwy, ar gyrau y ddwyfroneg.

18 A deupen y ddwy gadwyn blethedig a roddasant yn nglŷn yn y ddau foglyn; ac a'u gosodasant ar ysgwyddau yr ephod, o'r tu blaen.

19 Gwnaethant hefyd ddwy fodrwy o aur, ac a'u gosodasant ar ddau ben y ddwyfroneg, ar yr ymyl sydd ar ystlys yr ephod, o'r tu mewn.

20 A hwy a wnaethant ddwy fodrwy aur, ac a'u gosodasant ar ddau ystlys yr ephod, odditanodd tua'i thu blaen, ar gyfer ei chydiad, oddiar wregys yr ephod.

21 Rhwymasant hefyd y ddwyfroneg, erbyn ei modrwyau, wrth fodrwyau yr ephod, â llinyn o *sidan* glas, i fod oddiar wregys yr ephod, fel na ddattodid y ddwyfroneg oddiwrth yr ephod; megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

22 ¶ Ac efe a wnaeth fantell yr ephod i gyd o *sidan* glas, yn wauad-waith.

23 A thwll y fantell *oedd* yn ei chanol, fel twll llurig, a gwrym o amgylch y twll, rhag ei rhywyo.

maint o aur, ac arian, a meini gwerthfawr; gymaint o bres, a lian, a chyfoeth, a roddasant hwy tuag at gysegr yr Arglwydd! ac eto yr oeddynt yn parhau i roddi nes eu hattal trwy wrthodiad o'u rhoddion. Ond pa beth oedd yr holl roddion darfodedig hyn wrth eu cymharu â'r rhodd o Grist a'i holl ras! Daw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, pan oeddym feirw mewn camweddau a phechodan, a'n cydfywhaodd ni gyda Christ, ac a'u gosododd i gydeistedd yn y nefolion leoedd. Ac a gawn ni feddwl fod rhywbeth yn rhy dda i'w roddi i Dduw, neu yn rhy galed i'w wneuthur tuag at ei wasanaeth ef? O na: pe byddai genym ddoethineb Besaleel, neu

fedrusrwydd Aholiab, dylem ddefnyddio y cwbl erddo ef, a'i fendithio am iddo ein cyfrif yn deilwng i gael lle ac enw yn ei dŷ.

PEN. XXXIX. Adn. 1. *Gwnaethant y gwisgoedd santaidd i Aaron*] Gwel ddystrigriad manwl o'r rhai hyn ar pen. xxviii. 2, &c.

Adn. 2. *Ac efe a wnaeth yr ephod*] Gwel sylw ar hon, pen. xxv. 7, a xxviii. 4, &c.

Adn. 3. *Ac a'i torasant yn edafedd*] Trwy nad oedd y drefn ag sydd genym ni yn awr o estyn neu dynu darn o aur yn edafedd o'r hyd a fynom, yn adnabyddus iddynt.

Adn. 4, 5. *Ysgwyddau a wnaethant iddi yn cydio*] Gwel ar pen. xxviii. 22, &c.

24 A gwnaethant ar odre y fantell bomgranadau, o *sidan* glas, porphor, ac ysgarlad, a llian cyfrodedd.

25 Gwnaethant hefyd glych o aur pur, ac a roddasant y clych rhwng y pomgranadau, ar odre y fantell, o amgylch, yn mysg y pomgranadau,

26 Cloch a phomgranad, a chloch a phomgranad, ar odre y fantell o amgylch, i weini *ynddynt*: megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

27 ¶ A hwy a wnaethant beisiau o lian main, o wauadwaith, i Aaron ac i'w feibion.

28 A meitr o lian main, a chapiau hardd o lian main, a llodrau lian o lian main cyfrodedd,

29 A gwregys o lian main cyfrodedd, ac o *sidan* glas, porphor, ac ysgarlad, o waith edaf a nodwydd; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

30 ¶ Gwnaethant hefyd dalaith y goron santaidd o aur pur; ac a ysgrifenasant arni ysgrifen, fel naddiad sêl: SANTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD.

31 A rhoddasant wrthi linyr o *sidan* glas, i'w dal hi i fyny ar y meitr; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

32 ¶ Felly y gorphenwyd holl waith y tabernacl, *sef* pabell y cyfarfod: a meibion Israel a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd wrth Moses; felly y gwnaethant.

33 ¶ Dygasant hefyd y tabernacl

at Moses, y babbell a'i holl ddodrefn, ei bachau, ei hestyllod, ei barau, a'i cholofnau, a'i morteisiau,

34 A'r tô o grwyn hyrddod wedi eu lliw yn gochion, a'r tô o grwyn daer-afoch, a'r llen wahan yr hon oedd yn gorchuddio;

35 Arch y dystiolaeth, a'i throsolion, a'r drugareddfa;

36 Y bwrdd hefyd, a'i holl lestri, a'r bara dangos;

37 Y canwyllbren pur, a'i lampau, a'r lampau i'w gosod mewn trefn, ei holl lestri, ac olew i'r goleuni;

38 A'r allor aur, ac olew yr enein-iaid, a'r arogldarth llysieuog, a chae-adlen drws y babbell;

39 Yr allor bres, a'r alch bres yr hon oedd iddi, ei throsolion, a'i holl lestri; y noe a'i throed;

40 Lleni y cynteddfa, ei golofnau, a'i forteisiau, a chaeadlen porth y cynteddfa, ei rhaffau a'i hoelion, a holl ddodrefn gwasanaeth y tabernacl, *sef* pabell y cyfarfod;

41 Gwisgoedd y weinidogaeth i weini yn y cysegr, santaidd wisgoedd Aaron yr offeiriad, a gwisgoedd ei feibion ef i offeiriadu.

42 Yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd wrth Moses, felly y gwnaeth meibion Israel yr holl waith.

43 A Moses a edrychodd ar yr holl waith; ac wela hwy a'i gwnaethent megys y gorchymynasai yr Arglwydd, felly y gwnaethant: a Moses a'u bendithiodd hwynt.

Adn. 6—29. *A hwy a weithiasant feini oniz, &c.*] Gwel ar pen. xxv. 7, a xxviii. 17—34.

Adn. 30, 31. *Gwnaethant hefyd dalaith y goron santaidd o aur pur*] Gwel ar pen. xxviii. 36, 37. Ar gogolofnau Asiaidd, yn enwedig y rhai a gaed yn nadfeilion Persepolis, yn gystal ag yn yr Aifft, arddanghosir yr offeiriad fel yn gwisgo coronau. Dywed *Cyper* fod yr offeiriad a'r offeiriadesau yn mhlith yr hen Roegiaid yn cael eu galw *stephanophoroi*, neu GORONIAID, am y gweinyddent weithiau â choronau aur, a phryd arall â choronau llawrwydd, ar eu penau.

Adn. 32—42. *Felly y gorphenwyd holl waith y tabernacl*] Mewn oddeutu chwe mis o amser, pen. xl. 2; *yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd*—yn pen. xxv.—xxxi. Gofalodd Moses am *auladrodd* pob peth yn y modd manylaf, i ddangos ddarvoud iddo ef yn gydwyddol wneuthur yn ol yr holl gyfarwyddiadau a dderbynasai gan Dduw.

Adn. 43. *A Moses a edrychodd ar yr holl waith*] Fel arolygydd cyffredinol y cyfan, dan yr hwn yr oedd Besaleel ac Aholiab yn

gweithio, megys yr oedd y gweithwyr ereill danynt hwythau. *Ac wela hwy a'i gwnaethent megys y gorchymynasai yr Arglwydd*—yn gywir yn ol y portreiaid a dderbyniodd Moses gan yr Arglwydd, yr hwn a osododd efe o flaen y gweithwyr i weithio wrtho. *A Moses a'u bendithiodd hwynt*—a roddes y clod hwny iddynt ag ydoedd deilwng i'w medrusrwydd, en diwydrwydd, a'u ffyddlondeb. Dicho'n hefyd ddarvoud iddo weddio drostynt, ar iddynt gael eu llwyddo yn eu holl orchwylion, gael eu gwaredu oddiwrth bob drwg, ac o'r diwedd gael eu dwyn i Ganaan. Y mae yn debyg i'r fendith hon gael ei rhoddi nid yn unig i'r gweithwyr, ond hefyd i'r holl bobl. Yr oedd y bobl wedi cyfranu yn haelionus, a'r gweithwyr wedi gweithio yn ffyddlon, a bendith Duw a gyhoeddwyd arnynt oll. Nid ydym yn darllen am ddim cyflog a dalodd Moses iddynt am eu gwaith; canys er yn gyffredin fod yn deilwng i'r gweithiwr ei gyflog, eto yn yr achos hwn yr oeddnt yn gweithio iddynt eu hunain. Byddai yr anrhydedd a'r cysur o gael tabernacl Duw yn eu plith, a'i breswyliaid ef gyda hwynt, yn ad daliad di-

PENNOD XL.

A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gau ddywedyd,

2 Yn y mis cyntaf, ar y dydd cyntaf o'r mis, y cyfodi y tabernacl, pabell y cyfarfod.

3 A gosod yno arch y dystiolaeth; a gorchuddia yr arch â'r wahanlen.

4 Dwg i mewn hefyd y bwrdd, a threfna ef yn drefnus: dwg i mewn hefyd y canwyllbren, a goleua ei lampau ef.

5 Gosod hefyd allor aur yr arogl-darth gerbron arch y dystiolaeth a gosod gaeadlen drws y tabernacl.

6 Dod hefyd allor y poeth-offrwm o flaen drws tabernacl pabell y cyfarfod.

7 Dod hefyd y noe rhwng pabell y cyfarfod a'r allor, a dod ynddi ddwfr.

8 A gosod hefyd y cynteddfa oddi-amgylch; a dod gaeadlen ar borth y cynteddfa.

9 A chymher olew yr eneniad, ac enenia y tabernacl, a'r hyn oll sydd

gonol: ac yr oeddynt yn cael eu bwyd o'r nef yn ddigost iddynt eu hunain a'u teuluoedd, a'u dillad ni heneiddient am danynt, fel nad oeddynt mewn angen am gyffog, nac yn meddu un rheswm i ddysgwyl dim.

PEN. XL. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses*] Yn niwedd y deuddegfed mis ar ol eu dyfod o'r Aifft.

Adn. 2. *Yn y mis cyntaf*] O'r eilfed flwyddyn iddynt yn yr anialwech, adn. 17, sef mis *Abib*: gwel ar pen. xii. 2. *Y cyfodi y tabernacl*—neu y gosodi ei wahanol ranau wrth eu gilydd, adn. 18. Meddylir yn gyffredin i'r Israeliaid ddechreu ar waith y tabernacl yn mhen tua *chwe* mis ar ol dyfod o'r Aifft, ac felly iddynt ei orphen mewn yspaid *chwe* mis. Buont oddentu dau fis yn dyfod at droed mynydd Sinai, pen. xix. 1; treuliodd Moses yn agos i dri mis ar y mynydd; ac nis gallwn ganiatáu llai na mis at yr amgylchiadau ereill a goffeir yn y llyfr hwn, cyn dechreu o honant ar waith y tabernacl. Y fath adeilad, gyda'r fath helaethrwydd o waith cywraint a chostfawr, ni chodwyd erioed mewn amser mor fyr. Ond yr oedd y gweithwyr yn galonog ac unfrydig, yn gweithio megys i'r Arglwydd; ac wrth ymosod arno yn ewyllysgar, yr oeddynt yn gallu gwneuthur llawer mewn ychydig amser. Diffyg unfrydedd yn mhllith yr adeiladwyr, a diffyg sel yn y llafurwyr, sydd yn peri i'w waith yr eglwys fod mor araf yn ein dyddiau ni!

Adn. 3. *A gorchuddia yr arch â'r wahanlen*] Yr hon a grogai o'i blaen, ac a guddiai y cysegr santeiddiolaf, lle yr oedd yr arch, o olwg y rhai a weinyddent yn y cysegr.

Adn. 4. *Dwg i mewn hefyd y bwrdd, a threfna ef yn drefnus*] Hyn yw, gosod y deuddeg torth ar y bwrdd yn y drefn reolaidd a grybwyllwyd pen. xxv. 30.

ynddo, a chysegra ef a'i holl lestri; a santaidd fydd.

10 Encinia hefyd allor y poeth-offrwm, a'i holl lestri; a'r allor a gysegri: a hi a fydd yn allor santeiddiolaf.

11 Encinia y noe a'i throed, a santeiddia hi.

12 A dwg Aaron a'i feibion i ddrws pabell y cyfarfod, a golch hwynt â dwfr.

13 A gwisg am Aaron y gwisgoedd santaidd; ac enenia ef, a santeiddia ef, i offeiriad i mi.

14 Dwg hefyd ei feibion ef, a gwisg hwynt â pheisiau.

15 Ac enenia hwynt, megys yr eneniaist eu tad hwynt, i offeiriad i mi: felly bydd eu heneiniad iddynt yn offeiriadaeth dragwyddol, trwy eu cenedlaethau.

16 Felly Moses a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynodd yr Arglwydd iddo; felly y gwnaeth efe.

17 ¶ Felly yn y mis cyntaf o'r ail

Adn. 5—14. *Gosod hefyd allor aur, &c.*] Gwel ar pen. xxx. 1, &c.

Adn. 15. *Felly bydd eu heneiniad iddynt yn offeiriadaeth dragwyddol*] Neu yn *sel* y bydd i'w hofferiadaeth hwy barhau cyhyd a'r llywiadaeth Iuddegw. Y mae yn arwyddo y cai yr eneniaid hwn fod yn ddigon i'r holl offeiriad dylunol, ac y cai pob un a enid o'r teulu hwn *haul* i'r offeiriadaeth gyffredin ar gyfrif eu disgyniad, heb gael eu heneinio. Ond nid yw hyn yn cyfeirio at yr *archoffeiriadaeth*; canys ymddengys fod yr *archoffeiriad*, wrth gael ei gysegru, yn derbyn yr *eneniad santaidd*: gwel ar pen. xxx. 32, 33; Lef. iv. 3, a vi. 22, a xxi. 10. A pharhaodd hyn hyd ddinystyr y deml gyntaf, a'r caethiwd Babilonaidd; ac yn ol Eusebius, Cyril, Calmet, ac ereill, parhaodd y ddefod hon yn mhllith yr Iuddeuon hyd ddyfodiad ein Harglwydd: ar ol hyn nid oes un prawf iddi byth gael ei harferyd. Yr oedd yr *archoffeiriad* Iuddegw yn gysgod o GRIST, yr hwn a elwir yn *Offeiriad mawr ar dŷ Dduw*, Heb. x. 21; a phan y daeth y sylwedd, darfu i swyddau y cysgod o angenrheidrwydd beidio. Y mae yr amgylchiad hwn yn deilwng o sylw. Nid ail ymaffwyd byth yn yr ebyrth Iuddegw ar ol dinystyr eu dinas a'u teml, canys barnant fod yn aungyfreithlon *aberthu* mewn un man allan o Jerusalem. A pheidiodd eneniad eu harchoffeiriad o'r pryd hyn hefyd. A phabam? Am fod y gwir *Archoffeiriad* a'r gwir *Aberth* wedi dyfod, fel nad oedd angen mwyach am y cysgodau hyn.

Adn. 16. *Felly y gwnaeth efe*] Ufyddhaodd yn fanwl i orchymyn Duw yn mhob peth, bychan a mawr.

Adn. 17, 18. *Felly yn y mis cyntaf o'r ail flwyddyn*] Gwel ar adn. 2.

flwyddyn, ar y dydd cyntaf o'r mis, y codwyd y tabernacl.

18 A Moses a gododd y tabernacl, ac a sicrhaodd ei forteisiau, ac a osododd i fyny ei estyllod, ac a roddes i mewn ei farau, ac a gododd ei golofnau;

19 Ac a ledodd y babel-len ar y tabernacl, ac a osododd dô y babel-len arni oddiarnodd; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

20 ¶ Cymerodd hefyd a rhoddodd y dystiolaeth yn yr arch, a gosododd y trosolion wrth yr arch, ac a roddodd y drugareddfa i fyny ar yr arch.

21 Ac efe a ddyg yr arch i'r tabernacl, ac a osododd y wahanlen orchudd, i orchuddio arch y dystiolaeth; megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

22 ¶ Ac efe a roddodd y bwrdd o fewn pabell y cyfarfod, ar ystlys y tabernacl, o du y gogledd, o'r tuallan i'r wahanlen.

23 Ac efe a drefnodd yn drefnus arno ef y bara, gerbron yr Arglwydd; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

24 ¶ Ac efe a osododd y canwyll-bren o fewn pabell y cyfarfod, ar gyfer y bwrdd, ar ystlys y tabernacl, o du y deau.

25 Ac efe a olenodd y lampau gerbron yr Arglwydd; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

Adn. 19. *Ac a ledodd y babel-len*] Yn dô ar y tabernacl: gwel ar pen. xxvi. 7—14.

Adn. 20—30. *Cymerodd hefyd a rhoddodd y dystiolaeth yn yr arch*] Sef y ddwy lech ar y rhai yr ysgnifesid y deg gorchymyn, pen. xxv. 16. Yr arch yn y cysegr sauteiddiolaf, y bwrdd aur â'r bara dangos, y canwyll yr aur, ac allor aur yr arogl-darth, oeddynt oll yn y tabernacl, *tufewn i'r gaeadlen*, (adn. 28,) yr hon a wasanaethai fel *drws*, adn. 21, 22, 24, 26. Yr oedd allor y poeth-offrwm wrth y *drws*, adn. 29. A'r noe bres rhwng pabell y cyfarfod a'r allor bres, adn. 30, yn nes *allan* fyth, fel y byddai iddi hi fod y *peth cyntaf* a welai yr offeiriad wrth fyned i'r cyntedd i weinyddu, gan fod yn rhaid i'w dwylawau traed gael eu golchi cyn y gallent gyflawni un ran o'r wasanaeth santaidd.

Adn. 31, 32. *A Moses, ac Aaron, a'i feibion, a olchasant yno eu dwylawau traed*] Dengys hyn, fel y sylwyd o'r blaen ar pen. xxix. 26, fod Moses yn awr yn gweithredu megys offeiriad: gwel ar pen. lviii.

Adn. 33. *Ac efe a gododd y cynteddfa o amgylch y tabernacl*] Gwel ar pen. xxvii. 9—15.

Adn. 34, 35. *Yna cwmwl a orchuddiodd babel y cyfarfod*] Fel hyn yr oedd Duw yn

26 ¶ Efe a osododd hefyd yr allor aur yn mhabel y cyfarfod, o flaen y wahanlen.

27 Ac a arogl-darthodd arni arogl-darth peraid; megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

28 ¶ Ac efe a osododd y gaeadlen ar ddrws y tabernacl.

29 Ac efe a osododd allor y poeth-offrwm wrth ddrws tabernacl pabell y cyfarfod; ac a offrymodd arni boeth-offrwm a bwyd-offrwm; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

30 ¶ Efe a osododd y noe hefyd rhwng pabell y cyfarfod a'r allor, ac a roddodd yno ddwfr i ymolchi.

31 A Moses, ac Aaron, a'i feibion, a olchasant yno eu dwylawau traed.

32 Pan elent i babel y cyfarfod, a phan nesäent at yr allor, yr ymolchent; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

33 Ac efe a gododd y cynteddfa o amgylch y tabernacl a'r allor, ac a roddodd gaeadlen ar borth y cynteddfa. Felly y gorphenodd Moses y gwaith.

34 ¶ Yna y cwmwl a orchuddiodd babel y cyfarfod; a gogoniant yr Arglwydd a lanwodd y tabernacl.

35 Ac ni allai Moses fyned i babel y cyfarfod; am fod y cwmwl yn aros arni, a gogoniant yr Arglwydd yn llenwi y tabernacl.

36 A phan gyfodai y cwmwl oddiar

dangos ei gymeradwyaeth o'r gwaith; a chan fod hwn yn weledig, yr oedd yn arwydd i'r holl bobl fod *JEHOFA* yn eu mysg. Yr oedd hefyd yn aumddifyn i'r tabernacl rhag gwres angherddol yr haul: gwel ar pen. xiii. 21. *A gogoniant yr Arglwydd a lanwodd y tabernacl*—y *SECINA* a ymddanghosai ynddo megys filam o oleuni a dysgleirdeb anoddefadwy i'r olwg, fel na allai Moses ei hun fyned i'r babel ar y cyntaf, o herwydd y cwmwl a'r gogoniant! Dygwyrddodd yr un peth yn gymhwys pan yr oedd Solomon yn cysegru y *dentl*; canys dywedir, 'Y cwmwl a lanwodd dy yr Arglwydd, fel na allai yr offeiriad sefyll i wasanaethu, o herwydd y cwmwl: canys gogoniant yr Arglwydd a lanwasai dy yr Arglwydd,' I Bren. viii. 10, 11. Cyn hyn yr oedd cwmwl y gogoniant dwyfol yn gorphwys ar y babel a ledasai Moses o'r *tu allan* i'r gwerysll, pen. xxxiii. 9; ond yn awr efe a symudodd oddiwrth y babel hono, ac a orphwysodd ar hon, yr hon a wnaed wrth orchymyn a than gyfarwyddyd Duw ei hun. Ac y mae genym le i feddwl fod y tabernacl hwn wedi ei godi yn *nghanol* y gwerysll, a bod pob un o'r deuddeg llwyth yn lledu eu gwahanol bebyll mewn trefn reolaidd o'i amgylch ef.

TAFLEN AMSERYDDOL.

y tabernacl, y cychwynai meibion Israel i'w holl deithiau.

37 Ac oni chyfodai y cwmwl, yna ni chychwynent hwy hyd y dydd y cyfodai

Adn. 36. *A phan gyfodai y cwmwl*] Gwel ar pen. xiii. 21, 22.

Adn. 37. *Ac oni chyfodai y cwmwl*] Yn arwydd iddynt i fyned yn mlaen ar eu taith, *yna ni chychwynent*—eithr arhosent yno hyd oni chodai. Yn eu teithiau, yr offeiriad a gariant y pethau hynny ag oeddynt yn fwyaf cysegredig, a'r Lefiaid holl wahanol ranau y tabernacl. Yr oedd rhan o'r llwythau yn myned o'r blaen, a'r gweddill yn dilyn ar ol, a chelvi y tabernacl yn cael eu cludo yn y canol. Dygwyd y tabernacl i wlad Canaan gan Josua, a gosodwyd ef i fyny yn GILGAL, Jos. iv. 19, lle yr arhosodd nes i'r wlad gael ei gorchfygu. Yna symudwyd ef i SILO, 1 Sam. i 3, lle y parhaodd uwchlaw 300 o flynyddoedd; ac wedi hynny i NOB, 1 Sam. xxi. 1. Ei safle nesaf oedd GIBEON, 1 Cron. xxi. 29; ac yma y parhaodd nes i'r arch gael ei symud i'r DEML.

Adn. 38. *Canys cwmwl yr Arglwydd ydoedd ar y tabernacl y dydd, a thân ydoedd arno y nos*] Gwel ar pen. xiii. 21. Yr oedd yr ymddangosiad dyddiol a nosol yma ar unwaith yn rhagluniaeth drugarog, ac yn brawf eglur o ddwyfoldeb eu crefydd: a pharhaodd yr arwydd hwn gyda hwy yn eu holl deithiau, er maint eu hanafydd-dod a'u gwrthryfelgarwch. Ar ol i'r tabernacl gael ei sefydlu yn ngwlad eu hetfeddiaeth, nid oedd yr arwydd hwn o'r preseuoldeb dwyfol yn weledig mwyach yn ngolwg holl Israel, eithr cyfyngid ef i'r cysegr santeiddiolaf, lle yr oedd ganddo ei arhosfa sefydlog ar y drugareddfa rhwng y cerubiadaid; ac yma y parhaodd nes dinystrio y deml gyntaf, ar ol yr hyn ni welwyd ef mwyach ar y ddaear hyd nes yr ymddanghosodd DUW YN Y CNAWD.

ADFFEDYLIADAU.—(1) Gyda'r fath barch a llawenydd yr edrychais Israel ar babel ardderchog, brydferth, a rhyfedd yr Arglwydd! Yma yr oedd y drugareddfa, neu orsedd y SECINA, yn amgylchedig â cherubiadaid; ac arch ei gyfammod ger ei fron, i ddangos ei fod bob amser yn gofus o'i addevidion. Yma yr oedd y wahanlen o sidan glas yn gwahannu rhwng y cysegr a'r cysegr santeiddiolaf, i arwyddo fod y cyflwr dyfodol a'r gogoniant nefol yn guddiedig o olwg dynion. Yma yr oedd y bwrdd a'r deuddeg torth, i arwyddo y gallai Israel gael lluniaeth bob bore yn nlyf Dduw. Gerllaw iddo y safai allor aur yr arogldarth, i ddangos fel y mae addoliad y saint yn esgyn yn wastadol megys cwmwl gerbron Duw, ac yn gymeradwy yn ei olwg ef. Yr oedd y cauwylyr a'i saith lamp bob amser yn llosgi,

38 Canys cwmwl yr Arglwydd ydoedd ar y tabernacl y dydd, a thân ydoedd arno y nos, yn ngolwg holl dyf Israel, yn eu holl deithiau hwynt.

i arwyddo fod goleuni a gogoniant Duw yn llewyrchlu yn wastadol trwy ei air a'i Ysbryd ar ei addolwyr. Ar y ffordd i'r breswylfa santeiddiolaf hon y safai allor bres fawr y poeth-offrwm, lle y gallai y troseddwr adael ei aberth, cyfaddef ei bechod, a chael ei daenellu â gwaed y cymod: yna, wedi ei buro yn ei gydwybod, gallai ymolchi yn y noe, a myned i mewn i gynteddoedd yr Arglwydd. Ac O! ai hon yw y ffordd, yr arswydawl ffordd ad Dduw? Ai nid oes un ffordd i nesau at y Cyfiawn a'r Santaidd ond trwy farwolaeth a gwaed! Mor arswydawl gau hynny yw natur pechod, ac mor ofnadwy ei ganlyniadau! Eithr mor annigonol y rhaid fod marwolaeth dafad er gwneuthur iawn dros fawrion ac aml bechodau dyn! Diau nad yw hyn oll ddim ond cysgod o'r gwir Iawn, ac o'r uu Cyfyngwr mawr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu. O! ar Galfaria, ar Galfaria yn unig, y gwneir y gwir Iawn. Yr ail Adda, yr Oen difrycheulyd yn marw yn y fath undeb â'r Duwodd fel na wnai natur ddywyfol a dynol Crist ond un person, sydd yn gwneuthur Iawn dros bechod dyn. Oddiar y groes, fel oddiar allor uchel, y llifa y gwaed ag sydd yn golchi ymaith eugrwydd y cenedloedd. Yno, O Dduw, gad i ni buro ein cydwybodau; yno gad i ni olchi ein dwylaw, ein calon, mewn diniweidrwydd, ac felly amgylchynu dyf allor di. Yno gad i ni ddechreu marw i bechod, nes i anwreidd oll ddarfod; ac yno gad i ni ddechreu byw i gyfiawnder, fel rhagllaw y'rh wasanaethom di mewn newydd-deb buchedd. (2) Nid cynt y darfu i Israel gyda'r mawr lafur a'r offrwm gwirfodd hwn barotoi cysegr i'r Arglwydd, a galw o'r galon am ei ddisgyniad ef, nag y darfu i JEHOWA lenwi y tabernacl â gogoniant a chwmwl, a'i wneuthur yn lle ei ophwysfa a'i llawenydd; a thrwy ymhyfyddu i breswyllo yn eu plith, efe a ddaeth yn arweinydd ac yn amddiffynnydd iddynt yn yr anialwch. Felly os yw teml ein benaid ninaw wedi ei pharotoi trwy edifeirwch, a thrwy ddysgwyliaid difrifol am ei bresenoldeb ef, efe a ymhyfydda i drigo yn ein calonau byth. (3) Darfu i'r llyfr santeidd hwn ddechreu gyda chaethiwd a chystudd Israel, a chyda genedigaeth Moses; ac yn awr y mae yn terynu gyda llawn olwg ar eu rhyddhad, gyda gogoniant eu cysegr, a chyda golwg ar Dduw Abraham yn trigo yn eu plith yn dragrwydd. Boed i holl ryfeddodau rhagluniaeth a gras, y rhai a ddanghosir er ein gwaredigaeth ninaw, ddyfod yr un modd i'r diwediad dedwydd hwn. Amen.

TAFLEN AMSERYDDOL

O'R PRIF DDYGWYDDIADAU A GOFFEIR YN LLYFR EXODUS, YN DANGOS PA FLWYDDYN O OED Y BYD, A CHYN CRIST, Y CYMERASANT LE.

O.B.

2365 Lefi, trydydd mab Jacob, yn marw yn 137 mlwydd oed, pen. vi. 16. (Gwel Dr. Kennicott ar Gen. xxxi. 38.)..... 1639

2375 Oddeutu y pryd hyn y dechreuodd Acenches, mab Orus, deyrnasu yn yr Aifft, yr hwn a deyrnasodd 12 mlynedd ac un mis..... 1629

C.C.

TAFLEN AMSERYDDOL.

O. B.	C. C.
2385 Yr Ethiopiad, o'r tuhwnt i'r Indus, yn ymsefydlu yn nghanol yr Aifft.....	1619
2387 Rathotis, brawd Acencheres, yn dechreu teyrnasu ar yr Aifftiaid, a theyrnasodd naw mlynedd	1617
2396 Acencheres, mab Rathotis, yn dilyn ei dad, ac yn teyrnasu 12 mlynedd a chwe mis	1608
2400 Yr Aifftiaid yn dechreu eiddigeddu wrth yr Hebreaid ar gyfrif eu lluosogiad	1604
2409 Acencheres yn dilyn Acencheres, ac yn teyrnasu 12 mlynedd a thri mis	1595
2421 Armais yn dilyn Acencheres, ac yn teyrnasu 4 blynedd a mis.....	1583
— Oddeutu y pryd hyn y bu farw Cōbath, mab Lefi, a thaid Moses, yn 133 mlwydd oed, Exod. vi. 18.....	—
2425 Rameses yn dilyn Armais, ac yn teyrnasu un flwyddyn a phedwar mis	1579
2427 Rameses Miamun yn dilyn Rameses, ac yn teyrnasu 67 o flynyddoedd.....	1577
2430 Aaron, brawd Moses, yn cael ei eni 83 o flynyddau cyn ymadawiad yr Israeliaid, pen. vi. 20, a vii. 7.....	1574
2431 Oddeutu y pryd hyn Pharao (a dybir yr un a Rameses Miamun) yn gorchymyn boddi meibion yr Hebreaid, pen. i. 22.....	1573
2433 Moses, y deddfroddwr Iuddewig, yn cael ei eni, pen. ii. 2.....	1571
2473 Moses, yn 40 mlwydd oed, yn ffoi o'r Aifft i Midian, ac yn priodi Sephora, pen. ii. 11—22.....	1531
2494 Rameses Miamun yn marw, ac yn cael ei ddylyn gan ei fab Amenophis, yr hwn a deyrnasodd 19 mlynedd a chwe mis.....	1510
2495 Amram, tad Moses, yn marw o gylch y pryd hyn fel y tybir	1509
2513 Angel yr Arglwydd yn ymddangos i Moses yn y berth, ac yn ei aufon ef at Pharao, pen. iii.....	1491
— Pharao yn gwrthod gollwng Israel, trwy yr hyn yr ymwelwyd â'r Aifft â'r deg pla, pen. iv—xi.....	—
— Ordeinio y pasc, marwolaeth y cyntafanedig, ac Israel yn cael eu gyru o'r Aifft, pen. xii, xiii.....	—
— Pharao yn erlid Israel trwy y môr coch, ac yn boddi, pen. xiv.....	—
— Cân Moses, pen. xv; disgyniad y manna, pen. xvi; yr Israeliaid yn cael dwfr o'r graig, ac yn gorchygu yr Amaleciaid, pen. xvii.....	—
— Jethro yn dwyn at Moses ei wraig a'i feibion, pen. xviii.....	—
— Israel yn dyfod i Sinai, a Duw yn cyhoeddi y deg gorchymyn, pen. xix, xx.....	—
— Gwahanol gyfreithiau a barnedigaethau yn cael eu traddodi i Moses, i'w cyhoeddi i'r bobl, pen. xxi—xxxii.....	—
— Y bobl yn peri i Aaron wneuthur llo aur, am yr hyn y mae o gylch 3000 yn cael eu lladd, pen. xxxiii.....	—
— Yr Arglwydd yn gwrthod myned gyda'r bobl, yn dangos ei ogoniant i Moses, ac yn cyhoeddi ei enw, pen. xxxiii, xxxiv.....	—
— Galw Besaleel ac Aholiab i adeiladu y tabernacl, wrth yr hwn y buont yn gweithio am oddeutu chwe mis, pen. xxxv—xxxix.....	—
2514 Ar y dydd cyntaf o'r eilfed flwyddyn ar ol yr ymadawiad o'r Aifft, y tabernacl yn cael ei godi, ei ddodrefn yn cael eu gosod yn eu lle, a gogoniant yr Arglwydd yn ei lenwi, pen. xl.....	1490

TRYDYDD LLYFR MOSES,

A ELWIR

LEFITICUS.

Y MAE Y LXX a'r Vulgate yn galw y llyfr hwn LEFITICUS, megys hefyd yr holl gyfeithiaidau diweddar; a gelwir ef felly an ei fod yn traethu yn benaf ar ddeddfau a rheolau y *Lefiaid*, a'r offeiriad yn gyffredinol. Yn yr Hebraeg gelwir ef VALYIKRA, 'A galwodd,' am mai dyma y gair cyntaf ynddo. Yn niwedd llyfr Exodus cawsom Moses yn codi y tabernacl, yr hwn oedd eu lle addoliad; a chan i hwnnw gael ei wneuthur yn ol y portreidau a ddanghoswyd i Moses yn y mnydd, Exod. xxv. 40, felly yr oedd yn rhaid i drefn yr addoliad fod hefyd, yn nghyda'i holl ddedfodau. O ganlyniad cynwysa y llyfr hwn hanes y seremonïau ag oeddnt i gael eu cadw yn effrymiad y gwahanol aberthau, cysegrïad yr offeiriad, a'r gŵyliau Iuddewig, yn nghyda llawer o drefniadau eglwysig ereill. Ni chynwysa fawr fwy na hanes yr hyn a ddygwyddodd yn ystod *wythnos* cysegrïad Aaron a'i feibion, er y tybia yr Archesgob Usher ei fod yn cymeryd i mewn hanes gweithrodiaidau mis cyfan, sef o Ebrill 21 hyd Mai 21, yn y flwyddyn o oed y byd 2514, yr hyn a gyfetyb i'r mis cyntaf o'r ail flwyddyn ar ol yr ymadawiad o'r Aifft. (1) Y mae y saith pennod gyntaf yn traethu ar natur ac amrywiaeth yr aberthau, pen. i—vii. (2) Y mae y pumtheg canlynol yn traethu ar yr offeiriad a'r Lefiaid, eu cysegrïad, a'u swyddau, &c., pen. viii—xxii. (3) Ac oddiyno hyd ddiwedd y llyfr nodir amserau yr aberthau, y gwahanol wyliau, a chynaliacth yr offeiriadaeth, pen. xxiii—xxvii. Gan mai y *deddf oedd ein hathraw ni at Grist*, yr oedd yr holl gyfundrefn aberthol yn cael ei bwrïadu i ddangos i ni OEN DUW, yr Arglwydd Iesu Grist, *yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd*. Heb ddeall y llyfr hwn y mae yn anghawd i ni amgyffred llawr o'r ymadroddion aberthol yn y Testament Newydd, a'r cyfeiriadau at Grist fel sylwedd mawr yr holl gysgodau, ac yn neillduol yr Epistol at yr Hebreaid, yr hwn sydd fel cadwyn ysbrydoledig yn cysylltu y ddwy oruchwyliacth â'u gilydd.

PENNOD I.

A'R Arglwydd a alwodd ar Moses, ac a lefarodd wrtho o babell y cyfarfod. gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddygo dyn o honoch offrwm i'r Arglwydd, o anifel, *sef* o'r eidionau, neu o'r praidd, yr offrymwch eich offrwm.

3 Os poeth offrwm o eidion *fydd* ei offrwm ef, offrymed ef yn wryw perffieith-gwbl; a dyged ef o'i ewyllys ei

hun i ddrws pabell y cyfarfod, gerbron yr Arglwydd.

4 A gosoded ei law ar ben y poeth-offrwm; ac fe a'i cymerir ef yn gymeradwy ganddo, i wneuthur cymod drosto.

5 Lladedd hefyd yr eidion gerbron yr Arglwydd; a dyged meibion Aaron, yr offeiriaid, y gwaed, a thaenellant y gwaed o amgylch ar yr allor, yr hon *sydd* wrth ddrws pabell y cyfarfod.

6 A blinged y poeth-offrwm, a thored ef yn ei ddarnau.

PEN. I. Adn. 1. *A'r Arglwydd a alwodd ar Moses*] Ymddengys yn amlwg oddiwrth y modd y dechreu a llyfr hwn, ei fod yn barhad o'r un blaenorol; ac yn wir nid yw y cwbl ddim ond *un gyfraith*, er yn rhanedig i *bun* rhan. Cyn adeiladu y tabernacl ni roddasai Duw ddim cyfarwyddiadau neillduol mewn perthynas i'r modd o offrymu y gwahanol fathau o ebyrth; eithr cyn gynted ag y cafodd yr adeilad ddywyl hon ei chodi a'i chysegru, cymerodd JEROFA hi fel ei breswylfa, a darluniodd y fedodau a'r seremonïau ag y mynai efe eu cadw yn ei addoliad, fel y gallai ei bobl wybod pa beth oedd fwyaf boddhaol yn ei olwg ef, ac y byddai iddynt, pan yn ei addoli felly, gael hyder eu bod yn rhyngyn ei fodd ef, trwy fod pob peth yn cael ei wneuthur yn ol ei gyfarwyddiadau ef ei hun.

Adn. 2. *Pan ddygo dyn o honoch offrwm*] Y mae y gair *korban*, odliwrth *karab*, *dynes* neu *agosau*, yn arwyddo offrwm neu rodd trwy ba un y cai dyn ddyfodfa at Dduw: ac y mae hyn yn derbyn golenni oddiwrth arferiad ag sydd yn ffynnu yn y dwyrain, lle na oddeir i neb nesáu i wyddfod un uwch heb *aurheg* neu *rodd*; a'r offrwm a ddygir fel hyn a elwir *korban*, yr hwn yn briodol a arwydda 'offrwm arweiniad,' neu 'offrwm nesad.' Cyfeiriwyd yn fynych at hyn yn y llyfrau blaenorol: gwel hefyd pen. vii. *O'r eidionau neu o'r praidd*—yr auifeiliaid crybwyllledig yn y bennod hon fel yn addas i'w habertlu, yw y rhai ag y gorchymynodd Duw i Abraham eu hoffrym, Gen. xv. 9. Felly y mae yn amlwg ddarvoud i Dduw roddi i'r patrieirch grynodeb o'r gyfraith hōno a roddwyd wedi hyn yn llawn i Moses, sylwedd yr hon oedd gvnwysedig yn ei *hebyrth*; a'r ebyrth hyn oeddnt o anifeiliaid glân, y rhai mwyaf perffiaith, defnyddiol, ac iachus, o'r holl rai a ddygir dan lywodraeth ac awdurdod dyn. Yn yr addoliad paganauidd yr oeddnt yr aberthlu *meirch* i'r *haul*, *bleiddiaid* i *MARS*, *asynod* i *PRIAPUS*, *moch* i *CERES*, *cŵn* i *HECATE*, &c.; ond yn addoliad JEROFA yr oedd yr holl rai hyn yn cael eu cyhoeddi yn *afan*, ac ni orchymynid ond i'r tri math hyn o *BEDWAR-CARNOLION* gael eu habertlu: 1. Y *tarw* neu yr *ŷeh*, y *fuech* neu yr *anner*, a'r *llo*. 2. Yr *afr*, y *bwch gafr*, a'r *myn*. 3. Yr *herdd*, y *ddafad*, a'r *oen*. Yn mhilith yr *ELEDIAID* ni orchymynid offrymu ond *comenod* a *durturod*, oddieithr yn achos y

glanhad y gwahanglwyfus: gwel ar pen. xiv. 4. Nid oedd PRSG yn cael eu hoffrymu, am nas gellid yn hawdd eu dal, na'u dwyn i'r tabernacl yn fyw.

Adn. 3. *Os poeth-offrwm*] Y mwyaf pwysig o'r holl offrymau; a gelwir ef yn *boeth-offrwm*, am ei fod yn cael ei *gwbl ddifa*, yr hwn ni wneid ag un offrwm arall. *Offrymed ef yn wryw*—am yr ystyr idd ei hwn berffieithach na'r fenyw, Mal. i. 14, ac yn cynrychioli Crist yn gywirach. *Dyged ef o'i ewyllys ei hun*—*Heb. lirtsono*, 'i eunill iddo ei hun gymeradwyaeth gerbron yr Arglwydd.' Ymddengys mai fel hyn y darlu i'r holl gyfieithiadau ddeall y geiriau gwreiddiol; ac y mae yn amlwg fod y cysylltiad yn yr hwn y safant, fel y sylwa Clarke, yn gofyn yr ystyr yma.

Adn. 4. *A gosoded ei law ar ben y poeth-offrwm*] Trwy osod ei law fel hyn ar ei ben, yr oedd yr hwn a ddygai yr offrwm yn cydnabod, 1. Yr aberth fel ei eiddo ei hun. 2. Ei fod yn ei offrymu fel iawn dros ei bechodau. 3. Ei fod yn haeddu marwolaeth am bechu o hono, gan iddo fforsfatio ei fywyd trwy dori y gyfraith. 4. Ei fod yn deisw i Dduw dderbyn *bywyd* yr anifel diwied yn lle yr eiddo ei hun. 5. Ac yr oedd yn rhaid i hyn oll, mewn trefn i'w wneyd yn fuddiol, fod yn cyfeirio ato EF, yr hwn yr oedd ei fywyd yn nghyflawnder yr amser i gael ei wneuthur yn aberth dros bechod: gwel ar Exod. xxix. 10.

Adn. 5. *A thaenellant y gwaed o amgylch ar yr allor*] I ddangos, 1. Fod yr offrymiedd yn haeddu cael tywallt ei waed felly. 2. Y byddai i waed Crist gael ei dywallt dros bechaduriaid, fel unig foddion eu cymod a Duw. Y mae yn dra hysbys fod braidd holl genhedloedd y ddaear yn meddu eu *poeth-offrymau*, ar y rhai y gosodant eu dibyniad mwyaf. Yr oedd yn gred gyffredin trwy y byd paganauidd nad oedd un ffordd arall i beddychu y duwiau digriedig; ac yr oeddnt weithian yn offrymu hyd yn nod ebyrth *dynol* oddiar y dyb fod *bywyd* yn angenrheidiol i brynu *bywyd*, ac na foddlonid y duwiau â dim llai.

Adn. 6. *A blinged y poeth-offrwm*] Gan feddwl ond odid y neb a ddygai yr aberth, yr hwn, yn ol rhai o'r rabbiuaid, a laddai, a flingai, a dorai i fyny, ac a olehai yr aberth, ac yna a gyflwynai y darnau a'r gwaed i'r offeiriad, fel y gallai ef losgi y naill a thaenellu y llall ar yr allor. Ond y mae yn sier fod yr offeiriad hefyd, a'r Lefaiad, yn blingo yr ebyrth, a chai yr offeiriad y croen iddo ei

7 A rhodded meibion Aaron yr offeiriad dân ar yr allor, a gosodant goed mewn trefn ar y tân.

8 A gosoded meibion Aaron, yr offeiriad, y darnau, y pen, a'r braser, mewn trefn ar y coed a fyddant ar y tân sydd ar yr allor.

9 Ond ei berfedd, a'i draed, a ylech efe mewn dwfr: a'r offeiriad a lysg y cwbl ar yr allor, yn boeth-offrwm, yn aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

10 ¶ Ac os o'r praidd, sef o'r defaid, neu o'r geifr, yr offrymu efe boeth-offrwm; offrymed ef yn wryw perffith-gwbl.

11 A lladded ef gerbron yr Arglwydd, o du y gogledd i'r allor; a thaelnelled meibion Aaron, yr offeiriad, ei waed ef ar yr allor o amgylch.

hun: gwel pen. vii. 8, a 2 Cron. xxix. 34. Yr anner goch yn unig ni flingid, eithr yr oedd i gael ei llosgi yn gyfan-gwbl, Num. xix. 5.

Adn. 7. *A rhodded meibion Aaron yr offeiriad dân ar yr allor*] Y tân a gyneuwyd yn wreiddiol o'r nef, pan offrymwyd yr ebyrth cyntaf, pen. ix. 24, ac yr oedd i gael ei gadw yn ofalus i losgi, pen. vi. 13; gan hyny y mae y gorchymyn hwn i'w ddeall nid am gyneu y tân, ond am ei borthi ef â chyud o'r newydd. Nid oedd yn gyfreithlon defnyddio un tân arall yn y wasanaeth hon: gwel achos Nadab ac Abihu, pen. x. 1, 2.

Adn. 8. *A gosoded meibion Aaron, yr offeiriad, y darnau, &c.*] Yr aberth a wabunid yn bedwar darn. 1. Ar ol i'r gwaed gael ei dywallt, a'r croen gael ei dynu, torid y pen. 2. Yna agorent ef, a chymerent ymaith y rhwyden sydd am y perfedd. 3. Tyntent allan y perfedd a'r cefadedyn, a golchent hwy yn lân, megys hefyd y braser. 4. Yna gosodent y pedwar chwarter ar yr allor, dodent y braser arnynt, a'r perfedd ar hyny, a'r pen ar y cwbl. 5. Wedi hyny dodid atynt y tân santaidd, a'r holl bentwr a ddfaid. Hwn oedd yr *holocaust*, neu y cyflawn boeth-offrwm.

Adn. 9. *Ond ei berfedd a'i draed a ylech efe mewn dwfr*] I arwyddo purdeb perffaith a chyffredinol y galon, a'r traed, sef y ffyrdd a'r gweithrediadau, ag ydoedd yn Nghrist, ac a ddylai fod yn mhob Cristion. *O arogl peraidd i'r Arglwydd*—nid ynddo ei hun, ond fel yr oedd yn arddangos Crist yn ei offrymu ei hun yn aberth i Dduw o arogl peraidd, Eph. v. 2.

Adn. 10. *Ac os o'r praidd*] Gwel ar adn. 2, 3.

Adn. 11. *A lladded ef—o du y gogledd i'r allor*] Trwy hyn cysgodid y byddai i Grist, ein pech-aberth ni, gael ei offrymu yn Jerusalem a mynydd Seion, yn 'ystlysau y gogledd,' Salm xlviii. 2; y byddai iddo gael ei groesbolio ar fynydd Calvaria, yr hwn oedd ar yr

12 A thored ef yn ei ddarnau, gyda'i ben a'i fraser; a gosoded yr offeiriad hwynt ar y coed a fyddant ar y tân sydd ar yr allor.

13 Ond golched y perfedd a'r traed mewn dwfr: a dyged yr offeiriad y cwbl, a llosged ar yr allor. Hwn sydd boeth-offrwm aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

14 ¶ Ac os poeth-offrwm o aderyn fydd ei offrwm ef i'r Arglwydd; yna dyged ei offrwm o durturau, neu o gywion colomenod.

15 A dyged yr offeiriad ef at yr allor, a thored ei ben ef, a llosged ef ar yr allor; a gwasger ei waed ef ar ystlys yr allor.

16 A thyned ymaith ei grombil ef yn nghyda'i blu, a bwried hwynt gerllaw yr allor, o du y dwyrain, i'r lle y byddo y lludw.

ochr *ogledd-orllewinol* i Jerusalem. Tybia Babington fod y cyfarwyddyd hwn wedi ei roddi i fod yn y gwrthwyneb i'r eilunaddolwyr, y rhai a aberthent i'r haul deirgwaith yn y dydd, gan ladd yr aberth yn y bore o du y *dwyrain*, ganllyd o du y *deau*, ac yn yr hwy'r o du y *gorllewin*.

Adn. 12. *A thored ef yn ei ddarnau*] Gwel ar adn. 8, a Gen. xv. 10.

Adn. 13. *Ond golched y perfedd a'r traed*] Gwel ar adn. 9. Tybia Le Clerc ac ereill fod y perfedd yma, ac yn adn. 9, yn meddwl yr holl gorff, y cwbl ag ydoedd dan y croen, fel yr arwydda *viscera* weithiau yn y Lladin.

Adn. 14. *Durturau, neu o gywion colomenod*] Dewisid yr adar hyn o flaen ereill, 1. Am y gellid eu cael yn hawdd; canys dywed Maimonides fod y fath amledd o honynt yn Nghanaan, ac felly eu bod mor rad, fel y gallai y tylotaf ddwyn yr offrwm hwn yn hawdd. 2. Am eu bod yn arddangos purdeb, addfwynder, a diniweidrwydd Crist, a'r purdeb meddwl a weddai i holl addolwyr Duw. Gan hyny nid oedd adar ysglyfaethus i gael eu hoffrymu. Yr oedd y colomenod i fod yn gywion ieuainc, am mai y pryd hyny y maent hwy oraf; ond gwell yw y durturod ar ol tyfu i fyny, ac am hyny nis cyfyngid hwy i'r oedran hwnw.

Adn. 15. *A thored ei ben ef*] Oddiwth ei gorff, canys yr oedd y pen i gael ei losgi wrtho ei hun, fel y dywedir yma, a'r corff wedi hyny, adn. 17. Felly pan y dywedir, pen. v. 8, 'a thored ei ben wrth ei wegil, ond na thored ef ymaith,' y mae hyny yn cael ei lefaru nid am y poeth-offrwm hwn, ond am yr offrwm dros gamwedd.

Adn. 16. *Ei grombil ef yn nghyda'u blu*] Neu ei 'astendid,' fel ar ymyl y ddalen; a *bwried hwynt gerllaw yr allor, o du y dwyrain*—yma yr oedd yr holl fudreddi yn cael ei fwrw, am mai dyma y lle pellaf oddiwth y cysegr santeiddiolaf, yr hwn oedd yn y pen gorllewinol; i ddysgu i ni na ddylai pethau a phersonau afian nesâu at Dduw, ond y dylent gael eu symud o'i wyddfod ef.

17 Hollted ef, â'i esgyll hefyd; *eto* na wahaned ef: a llosged yr offeiriad ef ar yr allor, ar y coed *a fyddant* ar y tân. Dyma boeth-offrwm, aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

PENNOD II.

PAN offrymo dyn fwyd-offrwm i'r Arglwydd, bydded ei offrwm ef o beillied; a thywallted olew arno, a rhodded thus arno.

2 A dyged ef at feibion Aaron, yr offeiriad: a chymered efe oddiyno lonaid ei law o'i beillied, ac o'i olew, yn nghyda'i holl thus; a llosged yr offeiriad ei goffiadwriaeth ar yr allor, yn offrwm tanllyd o arogl peraidd i'r Arglwydd.

3 A bydded gweddill y bwyd-offrwm i Aaron ac i'w feibion: santeiddbeth o danllyd offrymau yr Arglwydd *ydyw*.

4 ¶ Hefyd pan offrimech fwyd-offrwm, wedi ei bobî *mewn* ffwrn, teis-

en beillied groyw, wedi ei chymysgu trwy olew, neu afrillad croyw wedi ei heneinio âg olew, a fydd.

5 ¶ Ond os bwyd-offrwm ar radell fydd dy offrwm di, bydded o beillied, wedi ei gymysgu yn groyw trwy olew.

6 Tor ef yn ddarnau, a thywallt arno olew: bwyd-offrwm *yw*.

7 ¶ Ac os bwyd-offrwm padell *fydd* dy offrwm, gwueler o beillied trwy olew.

8 A dwg i'r Arglwydd y bwyd-offrwm, yr hwn a wnaïr o'r rhai hyn: ac wedi y dyger at yr offeiriad, dyged yntau ef at yr allor.

9 A choded yr offeiriad ei goffiadwriaeth o'r bwyd-offrwm, a llosged ef ar yr allor; yn offrwm tanllyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

10 A bydded i Aaron ac i'w feibion weddill y bwyd-offrwm: santeiddbeth o danllyd offrymau yr Arglwydd *ydyw*.

Adn. 17. *Eto na wahaned ef*] Er fod corff yr aderyn i gael ei hollti ar byd ei ganol, eto nid oedd i gael ei gwbl *wahanu*; ac yr oedd hyn yn arwydd o'r undeb a fodolai rhwng natur ddywyfol a natur ddynol Crist trwy ei holl ddyoddefiadau, yr hyn yn wir oedd yn rhinweddoli ei aberth ef: gwel ar Gen. xv. 10.

PEN. II. Adn. 1. *Pan offrymo dyn fwyd-offrwm*] Heb. *minchah*. Am ystyr y gair hwn gwel ar Gen. iv. 3, 4, a Lef. vii. Dywed Calmet fod pum math o'r *minchah* yn cael eu crybwyll yn y bennod hon: (1) *Peillied* neu *flawd* digymysg, adn. 1. (2) *Teisenau* ac *afrillad*, neu beth bynag a bobid mewn *ffwrn*, adn. 4. (3) *Teisenau* wedi eu pobi ar *radell*, adn. 5. (4) *Teisenau* wedi eu pobi mewn *padell*, adn. 7. (5) *Teisenau irion* o yd erasedig, adn. 14. Y rhai hyn oll a offrwm heb *fel* na *surdoes*, ond gyda *gwin*, *olew*, a *thus*. Y mae yn dra thebyg mai y *minchah*, mewn rhai neu yn yr oll o'r flurfiâu uchod, oedd yr offrwm boreaf a offrwm i'r Bôd Goruchaf, a'i fod mewn arferiad *cyn* i bechod ddyfod i'r byd, ac felly *cyn* i offrwm *gwacdllyd* neu *aberthau cynnodol* gael eu sefydlu. Y *minchah* o *dwysenau irion* wedi eu crasu wrth dân, &c., oedd yn briodol yr OFFRWM DIOLCHGARWCH am ddaionus *bryd hau*, a gobaith am doreithiog *gynnauf*. Ymddengys mai dyma yr offrwm a ddygwyd gan Cain: gwel ar Gen. iv. 3. Y mae yn eglur, ar sefydliad y *minchah*, nad oedd un *anifel* yn gyfnywedig, er yr ymddengys mewn lleoedd ereill ei fod yn cynwys y ddau fath; ond yn gyffwrdd nid oedd y *minchah* yn offrwm *gwacdllyd*, nae yn cael ei arferyd mewn flordd o *gymod* neu *ddylhuddiant*, eithr yn unig mewn flordd o *ddiolchgarwch* i Dduw am gynrych y tir. Yr oedd yn gyfryw ag y gellid dysgwyl yn rhesymol i'r hyn a elwir yn *grefydd natur* ei awgrymu. Ond och! y

mae dyn mor ddirywiadig, fel ag y rhaid i hyd yn nod *ddiolchgarwch* i Dduw am ffrwythau y ddaear gael ei ddyysgu iddo gan ddywyfol ddatguddiad!

Adn. 2, 3. *A chymered efe*] Sef yr offeiriad at yr hwn ei dygwyd i'w offrwm, *lonaid ei law o'i beillied*—hyn ydoedd yn GOFFADWRIAETH, i ddwyn ar gof i *Dduw* ei gyfammod â'u tadau, ac i adgoïo iddynt *hwythau* ei ymddygiadau grasol a rhagluniaethol ef atynt hwy â'u henaiaid. Yn yr achos hwn llonaid llaw yn unig a losgid, a'r gweddill a gedwid at wasanaeth Aaron a'i feibion, adn. 3, 10.

Adn. 4, 5. *Wedi ei bobî mewn ffwrn*] Gwel sylwadau helaeth ar fara a ffrmau y dwyrain yn *Harmer's Observations*, cyf. i. dal. 414, &c., argraff. 1808.

Adn. 6. *Tor ef yn ddarnau*] Am fod darn o hono yn cael ei offrwm i Dduw, a darn yn cael ei roddi i'r offeiriad.

Adn. 7. *Ac os bwyd-offrwm padell*] Neu *greiddell*, fel y myn rhai ei gyfieithu.

Adn. 8. *A dwg i'r Arglwydd y bwyd-offrwm*] Hyny yw, i'r offeiriad, yr hwn oedd i'w gyflwyno ef gebron yr Arglwydd.

Adn. 9. *A llosged ef ar yr allor*] Gallasai ei ddiifad trwy dân adgoïo iddynt eu bod wedi haeddu cael llosgi i'fyny holl ffrwythau y ddaear fel hyn, ac mai o drngaredd yr Arglwydd yr oedd nad ydoedd felly.

Adn. 10. *A bydded i Aaron ac i'w feibion weddill y bwyd-offrwm*] Nid oedd hwn i'w fwyta gan yr offrwmwyr, megys yr aberthau hiedd, ond yn unig gan yr offeiriad, a hyny yn y lle santaidd o fewn eynteddfa pabell y cyfarfod, pen. vi. 16.

Adn. 11. *Na wneler yn lefeinllyd ddim bwyd-offrwm*] Sef offrwm ewylllysgar; ond mewn offrwm ereill gellid defnyddio leffain, pen. vii. 13, a xxiii. 17. Gwaharddid hyn mewn rhan i adgoffa iddynt eu gwaredigath o'r Aifft, pryd eu gorfodwyd trwy firwst i

11 Na wneler yn lefeinllyd ddim bwyd-offrwm a offrymoch i'r Arglwydd: canys dim surdoes, na mêl, ni losgwech yn offrwm tanllyd i'r Arglwydd.

12 ¶ Offrymwch i'r Arglwydd offrwm y blaensfrwyth; ond na losger hwynt ar yr allor yn arogl peraidd.

13 Dy holl fwyd-offrwm hefyd a helli di â halen; ac na phalled halen cyfammod dy Dduw o fod ar dy fwyd-

offrwm: offryma halen ar bob offrwm i ti.

14 Ac os offrymi i'r Arglwydd fwyd-offrwm y firwythau cyntaf; twysenau irion wedi eu crasu wrth y tân, sef yd a gurir allan o'r dwysen lawn, a offrymi di yn fwyd-offrwm dy firwythau cyntaf.

15 A dod olew arno, a gosod thus arno: bwyd-offrwm yw.

16 A llosged yr offeiriad ei goffad-

ddwyn ymaith eu toes (yr hyn oedd defnydd yr offrwm yma) heb ei lefeinio; ac mewn rhan i arwyddo pa beth a fyddai Crist, a pha beth a ddylent hwythau fod, sef yn bur a rhydd oddiwrth bob cyfeiliornad yn fydd ac addoliad Duw, ac yn rhydd oddiwrth bob rhagrith, malais, a drygioni, y rhai oll a arwyddoedir trwy lefain. *Na mêl*—naill ai, 1. Am fod ganddo yr un effaith a lefain mewn toes, gan ei suro a'i godi. Neu, 2. Mewn gwrthgyferbyniad i offrymau y cenhedloedd, yn y rhai yr arferid llawer o fel. Neu, 3. I ddysgu i ni nad yw addoliad Duw i gael ei lywodraethlu gan serchiadau a chwantau dynion, ond gan ewylls Duw.

Adn. 12. *Offrymwch i'r Arglwydd offrwm y blaensfrwyth* Y mae yr esbonwyr yn gyffredinol yn deall yr adnod hon, yn y cyfieithiad Saesonig, fel yn cynwys y gallent hwy offrwmu lefain neu fel i'r Arglwydd yn offrwm y blaensfrwyth, ond iddynt beidio eu llosgi.

Adn. 13. *Dy holl fwyd-offrwm hefyd a helli di â halen* I arwyddo yr anlygredigaeth meddwl hwnw, a'r cywirdeb grasol, a osodir allan yn yr ysgrhythr trwy *halen*, Marc ix. 49, Col. iv. 6, yr hyn sydd yn angenrheidiol yn mhawb a fynent roddi offrwm cymeradwy gan Dduw. Yr oedd *halen* yn groes i lefain, am ei fod yn cadw rhag pydredd a llygredigaeth, ac yn arwyddo y *purdeb* angenrheidiol yn addoliad Duw. *Halen cyfammod dy Dduw*—a elwir felly naill ai, 1. Am ei fod yn gosod allan fytholrwydd neu ddianwadalarwydd y cyfammod a wnaed â'r patrieirch mewn peithynas i brynedigaeth y byd trwy gnawdoliad a marwolaeth yr Arglwydd Iesu; neu, 2. Am ei fod yn cael ei ofyn mor neillduol fel ammod eu cyfammod hwy â Duw. Fel yr oedd esgeulusiad o'r *aberthau* yn dorïad o'r cyfammod o'u tu hwy, felly hefyd yr oedd esgeulusiad o *halen* yn eu haberthau. Yr oedd *halen* yn beth cyffredin yn mhllith y paganiaid yn eu holl offrwmau.

Adn. 14. *Twysenau irion wedi eu crasu wrth y tân* Y mae twysenau irion, neu haner addfed, o wenith, wedi eu crasu wrth dân, yn ymborth arferedig gan dylodion Palestina a'r Aifft hyd heddyw. Megys yr arddangosir Duw fel yn cadw *bwrd* yn mhllith ei bobl, (canys y tabernacl oedd ei *dif* ef, lle yr oedd ganddo y *bwrd* aur, y bara dangos, &c.) felly y mae ef yn ei arddangos ei hun fel yn cydgyfranogi â hwynt o'r holl fwyd ag ydoedd mewn arferiad, ac hyd yn nod yn eistodd i lawr gyda'r *tylodion* i wleda ar yd crasedig! Gwelsom eisioes fod y twysenau irion hyn yn cael eu cyflwyno fel math ar offrwm diolch-

garwch am fendithion rhagluniaeth: gwel ar adn. 1.

Adn. 15. *A dod olew arno* I'w wneuthur yn flasus; a *gosod thus arno*—i gael pêrarogll yn nghynteddfa y bhallu.

Adn. 16. *Offrwm tanllyd i'r Arglwydd yw* Y mae y *tân* yma yn arwyddo y gwresogrwydd ysbryd a ddylai fod yn ein holl weinyddiadau crefyddol ni. Cariad santaidd yw y tân trwy yr hwn y rhaid i'n holl offrymau gael eu gwneyd, onidê nid dynt o arogl peraidd i Dduw.

ADFEYDLIADAU.—(1) Yn y bennod gyntaf gwelsom y pechadur yn cael ei buro â gwaed, a'i oddef i fyned i gynulleidfa yr Arglwydd; yma cawn ef yn *guledda*, fel un o gyfeillion y Brenin. Nid oes ar yr Arglwydd ei hun angen am fwyd-offrymau a diod-offrymau; a phe bae ef yn newynog, nid âi at ddyn: ond efe a ewyllsya yma ragarwyddo yr ymborth rhagorach a ddarparodd efe i'r enaid. Yma y mae gwin ac olew, môr a braser i'r newynog, heb arian ac heb werth. Gan ei fod yn gorchymyn yr offrymau hyn, darfu iddo ymrwymo yn flaenorol, fel Arglwydd natur, i gynysgaethu dyn â hwynt. Gan hyn gallai Israel, a holl bobl Dduw, welod yn y deddfau hyn gynyfer o addewidion na fyddai i gynauaf eu hŷd a'u gwin byth ballu. (2) Yr oedd y *bwyd-offrymau* i fod yn rhydd oddiwrth lefain neu surdoes; ac hyd yn nod mêl, er yn felys ynddo ei hun, ac yn cael ei gyffir gan yr henafiaid fel â thuedd ynddo i estyn einioes, ni allai gael ei dderbyn, am ei fod yn gyfranog o natur surdoes. Rhaid i minau ymbortli yn ngwyddodf Duw ar fara croyw purdeb a gwirionedd. Y mae surdoes cynhen a phleiddgarwch yn yr eglwys yn dyfetha undeb yr ysbryd, ac yn tori cwlwm tangefedd. Mewn athrawiaeth a dysgyblaeth, mewn buchedd a thymher, rhaid i ni fod yn syml a chywir gerbron yr Arglwydd; ac o'n cael fel plant bychain, ny ni a dderbyni i'w deyrnas ef. (3) Yr oedd yr holl fwyd-offrymau i gael eu halltu â *halen*. Os yw gras gan hyn i fod yn ein calonau ni fel halen yn y bwyd-offrymau, mor santaidd y dylem ni fod, mor wresog yn yr ysbryd, ac mor selog yn ngwasanaeth yr Arglwydd! (4) Yr oedd y teisenau i'w bwyta gydag *olew* i'w gwneyd yn ddanteithiol, a chyda *thus* i'w gwneyd yn bêrarogllaidd. Nid oes dim ymborth mor ddy-munol a'r hwn a fwytau yn ngwyddodf Duw; dim bwyd ag sydd yn rhoddi y fath iechyd i'r enaid a llawenydd i'r galon. O fel y dylem dosturio wrth y pechaduriaid tydion hyn, unig ymborth y rhai yw newyddion

wriaeth ef o'i ŷd wedi ei guro allan, ac o'i olew, yn nghyda'i holl thus: offrwm tanllyd i'r Arglwydd *yw*.

PENNOD III.

AC os aberth hedd *fyddl* ei offrwm ef, pan offrymo efe eidion, offrymed ef gerbron yr Arglwydd yn berffeith-gwbl; pa un bynag ai yn wrw ai yn fenyw.

2 A rhodded ei law ar ben ei offrwm, a lladded ef *wrth* ddrws pabell y cyfarfod: a thaenelled meibion Aaron, yr offeiriad, y gwaed ar yr allor o amgylch.

3 Ac offrymed o'r aberth hedd aberth tanllyd i'r Arglwydd; *sef* y weren fol, a'r holl wêr a fydd ar y perffedd;

4 A'r ddwy aren, a'r gwêr a *fyddo* arnynt hyd y tenewyn, a'r rhwyden hefyd a *fyddl* oddiar yr afu a dyn efe ymaith, yn nghyda'r arenau.

5 A llosged meibion Aaron hyny ar yr allor, yn nghyda'r offrwm poeth *sydd* ar y coed a *fyddant* ar y tân, yn

aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

6 ¶ Ac os o'r praidd y *bydd* yr hyn a offrymo efe yn hedd-aberth i'r Arglwydd, offrymed ef yn wrw neu yn fenyw perffeith-gwbl.

7 Os oen a offryma efe yn ei offrwm; yna dyged gerbron yr Arglwydd.

8 A gosoded ei law ar ben ei offrwm, a lladded ef o flaen pabell y cyfarfod; a thaenelled meibion Aaron ei waed ef ar yr allor oddiamgylch.

9 Ac offrymed o'r aberth hedd yn aberth tanllyd i'r Arglwydd; ei weren a'r gloren i gyd: tored hi ymaith wrth asgwrn y cefn, yn nghyda'r weren fol, a'r holl wêr a *fyddo* ar y perffedd;

10 A'r ddwy aren, a'r gwêr a *fyddo* arnynt, hyd y tenewyn, a'r rhwyden oddiar yr afu, yn nghyda'r arenau, a dyn efe ymaith.

11 A llosged yr offeiriad hyn ar yr allor: bwyd-aberth tanllyd i'r Arglwydd *ydwy*.

y dydd a gwagedd yr oes! (5) Eithr nid anghofiodd yr Arglwydd ei offeiriad, y rhai ni chaniateid iddynt winllanoedd na throedd: yr oeddynt yn gyfranogion o'r allor. Boed i'r rhai sydd yn rhwym yn y weinidogaeth, ac o achos hyny wedi eu hamddifadu o'u galwedigaethau a'u tiroedd, ddysgu ymddiried yn yr Arglwydd: efe a ddyry iddynt fwyd a dillad, ac mewn rhyw fodd a ddarpara i'w plant. Ac na foed iddynt duchan na diffygio mewn anser o gyfyngder, ond bod yn ddiolchgar am i Dduw eu cyfrif yn flyddlon, a'u rhoddi yn y weinidogaeth.

PEN. III. Adn. I. *Ac os aberth hedd*] *Shelamim*, aberth i wneuthur heddwch rhwng Duw a dyn, neu i gysgodi y cymod a gaed trwy ei farwolaeth Efr, yr hwn yw ein *tangnefedd* ni: gwel ar pen. vii. *Pa un bynag ai yn wrw ai yn fenyw*—yr oedd y rhai *benyw* yn cael eu goddef yma, er nad mewn poeth-offrymau, am fod y rhai hyny yn benaf yn golygu anrhydedd Duw, yr hwn sydd i gael ei wasanaethu â'r goraf; ond yr ebyrth hedd yn benaf a llosged lesâd yr offrymwr, ac am hyny gadewid y devisiad iddo ei hun. Drachefn, y *poeth-offrymau* a olygent Dduw fel yuddo ei hun y goraf o fodau, ac am hyny a losgid yn gwbl; ond yr *ebyrth hedd* a olygent Dduw fel cymwynasydd ei creaduriaid, ac am hyny a renid rhwng yr allor, yr offeiriad, a'r offrymwr.

Adn. 2. *A rhodded ei law ar ben ei offrwm*] Gwel ar Exod. xxix. 10, a pen. i. 4; a *lladded ef wrth ddrws pabell y cyfarfod*—nid o du y *gogledd* i'r allor, lle yr oedd y poeth-offrym yn cael ei ladd, megys hefyd y pech-offrym a'r offrwm dros gamwedd; ond yn mynedfa y cyntedd, lle yr oedd yr allor bres yn sefyll,

pa le nid oedd mor santaidd a'r llall, am ei fod yn mhellach oddiwrth y cysegr santeiddiolaf, ac am fod lludw yr aberthau i'w ddodi yma. Heblaw hyn, yr oedd rhan o'r aberth hwn i gael ei chyhwfanu trwy ddwyrlaw yr offrymwr, pen. vii. 30, yr hwn nis gallai ddyfod i'r cyntedd; ac nid oedd yr offrwm hwn mor santaidd a'r lleill, y rhai oeddynt i gael eu bwyta yn unig gan yr offeiriad, tra yr oedd rhan o hwn i'w bwyta gan yr offrymwr.

Adn. 3—5. *Y weren fol, &c.*] Gan mai y *braser* a gyfrifid y rhan werthfawrocaf o'r anifel, offrymid ef o flaen pob rhan arall; ac y mae yn debyg mai oddiwrth yr Iuddewon y benthycodd y paganiaid yr arferiad hwn, canys yr oeddynt hwythau yn llosgi y rhwyden er anrhydedd i'w duwian.

Adn. 6—8. *Yn wrw neu yn fenyw, &c.*] Gwel ar adn. 1, 2.

Adn. 9. *A'r gloren*] Neu y gynffon: gwel ar Exod. xxix. 22. Y mae cynffonau defaid Aleppo, meddai Dr. Russel, o sylwedd rhwng bloneg a mêr, y rhai nas bwyteir wrthynt eu hunain, ond a gymysgir â'r cyhyrgig, neu y cig tenen, mewn amrai o'u dysglau; a defnyddir hwynt yn fynych yn lle ymenyn. Ymddengys mai eu maintioli a'u braser yw y rheswm fod Moses, yr hwn ni sonia am y gloren yn offrymiad ychen neu eifr, yn neillduo i'r allor eiddo defaid.

Adn. 10. *A dyn efe ymaith*] I'w llosgi ar yr allor.

Adn. 11. *Bwyd-aberth tanllyd i'r Arglwydd ydwy*] Sylwasom eisioes fod Duw yn fynych yn cael ei arddangos fel yn *gwledda* gyda'i bobl ar yr ebyrth a offrymied; a thrwy fod yr ebyrth hyn yn cael eu difa â'r tân a gyneuwyd o'r nef, ystyridd hwynt fel bwyd y

12 ¶ Ac os gafr fydd ei offrwm ef; dyged hi gerbron yr Arglwydd.

13 A gosoded ei law ar ei phen, a lladded hi o flaen pabell y cyfarfod; a thaelled meibion Aaron ei gwaed hi ar yr allor o amgylch.

14 Ac offrymed o hyny ei offrwm o aberth tanllyd i'r Arglwydd; sef y weren fol, a'r holl wêr a fyddo ar y perffedd;

15 A'r ddwy aren, a'r gwêr a fyddo arnynt, hyd y tenewyn, a'r rhywden oddiar yr afu, yn nghyda'r arenau, a dyn efe ymaith.

16 A llosged yr offeiriad hwynt ar yr allor: bywd-aberth tanllyd o arogl peraidd ydyw. Yr holl wêr sydd eiddo yr Arglwydd.

17 Deddf dragwyddol trwy eich cenedlaethau, yn eich holl anneddu, yw; na fwytaoch ddim gwêr, na dim gwaed.

tân hwnw, neu yn hytrach bywd y Bôd Dwyfol a gynrychiolid ganddo.

Adn. 12. *Ac os gafr*] Yn cynwys yr holl rywogaeth, yr afr, y bwch, a'r mÿn, fel y gwel-som eisioes, pen. i. 2.

Adn. 13—15. *A gosoded ei law ar ei phen, &c.*] Gwel ar pen. i. 4, Exod. xxix. 10.

Adn. 16. *A llosged yr offeiriad hwynt*] Sef y rhanau crybwyllledig, yn mhllith y rhai ni enwir y gloren, fel gyda'r defaid, am fod eiddo y geifr yn rhan wrthodedig. *Yr holl wêr sydd eiddo yr Arglwydd*—y mae hyn i'w gyfyngu, 1. At yr anifeiliaid a ellid eu hoffrym yn aberth, fel yr eglurir pen. vii. 23, 25. 2. At y math hwnw o wêr neu fraser a grybwyllwyd uchod, yr hwn y gofynid iddo gael ei offrymu, ac a ellid ei ysgrau oddiwrth y cig; canys gallent fwyta y braser ag ydoedd yma a thraw yn gymysg â'r cig.

Adn. 17. *Na fwytaoch ddim gwêr, na dim gwaed*] Gwaberddid *gwêr* neu fraser, 1. I gadw parch i'r defodau a'r aberthau santiaid. 2. I ddsygu iddynt gydabod Jehofa fel Arglwydd pawb a phob peth, yr hwn a allai gadw yr hyn a fynai iddo ei hun. 3. I'w cynefino hwy mewn ufydd-dod i Dduw, a hunan-ymwadiad, a marweiddiad en chwantau, hyd yn uod yn y pethau hyny ag y gallent fod yn eu chwynychu yn fawr. Gwaberddid *gwaed*, 1. I gadw i fyny barch i Dduw a'i addoliad. 2. Yn y gwrthwyneb i'r einlunaddolwyr, y rhai, yn ol Maimonides, a aserent yfed gwaed en laberthan. 3. A chyda golwg ar *waed Crist*, yr hwn a arwyddid yn eglur trwyddo. Ni oddefai Duw i hyd yn nod gysgodau hwn gael en harfer fel pethau cyflledin: gwel ar Gen. ix. 4, Act. xv. 20.

PEN. IV. Adn. 1. *Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moses*] Bernir i'r deddfau cynwysedig yn y tair pennod flaenaf gael en traddodi i Moses yr un amser; ac yma dechreu deddfau dydd arall, y rhai a draddododd Duw oddi-rhwng y cerubiad.

PENNOD IV.

LLEFARODD yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pan becho dyn mewn anwybod yn erbyn yr un o orchymynion yr Arglwydd, a gwneuthur yn erbyn un o honynt y pethau ni ddylid eu gwneuthur:

3 Os offeiriad enciniog a becha yn ol pechod y bobl; offrymed dros ei bechod a wnaeth fustach ieuanc perffeieth-gwbl, yn aberth dros bechod i'r Arglwydd.

4 A dyged y bustach i ddrws pabell y cyfarfod, gerbron yr Arglwydd, a gosoded ei law ar ben y bustach, a lladded y bustach gerbron yr Arglwydd.

5 A chymered yr offeiriad enciniog o waed y bustach, a dyged ef i babell y cyfarfod

Adn. 2. *Pan becho dyn mewn anwybod*] Hyny yw, pan wnelo dyn yr hyn a wabarodd Duw, neu adael heb ei wneuthur yr hyn a orchymynodd Duw, mewn anwybodaeth o'r gyfraith berthynol i'r pncipia hyn; boed iddo, cyn gynted ag y gwybyddo am y troseddai neu y gommeddiad, offrymu yr aberth a benodir yma, ac na feddylid fod ei *anwybodaeth* yn esgus am ei bechod. Y mae y neb a wrthododd offrymu y cyfryw aberth ar ol dyfod i wybod am ei anwiredd, yn pechu yn *wirfoddol*, ac iddo ef nid oes aberth arall dros bechod wedi ei adael mwyach. Bernir fod yr apostol yn cyfeirio at hyn yn Heb. x. 26, &c.

Adn. 3. *Os offeiriad enciniog*] Sef yr arch-offeiriad, yr hwn yn unig a eneinid. Crybwyllir ei *eneiniad*, am nad oedd efe yn gyflawn archoffeiriad nes ei eneinio. A *becha*—mewn athrawiaeth neu ymddygiad, yr hyn y tybir yma y gallai ef ei wneuthur. *Yn ol pechod y bobl*—yn yr un modd ag y gwna rhywrai o'r bobl; yr hyn a gynwys fod Duw yn dysgwyl mwy o wylidwriaeth oddiwrtho ef nag oddiwrth y bobl. Ond gellir cyfieithu y geiriau, i *bechod y bobl*—hyny yw, fel ag i beri i'r bobl bechu, y rhai a lygrir trwy ei siampl ef. *Offrymed, dros ei bechod a wnaeth, fustach ieuanc*—yr un aberth ag a offrymid dros yr holl bobl, i ddangos mor fawr y gwnaed ei bechod ef trwy ei uwchraddoliaeth.

Adn. 4. *Gosoded ei law ar ben y bustach*] Gwel ar pen. i. 4.

Adn. 5—7. *A chymered yr offeiriad enciniog o waed y bustach*] Yr oedd gwaed yr aberth hwn yn cael ei gymhwyso mewn tair ffordd wahanol: 1. Yr oedd yr offeiriad yn rhoddi ei fys ynddo, ac yn ei daenellu seithwaith o flaen y wahanlen, adn. 6. 2. Yr oedd yn rhoddi peth o hono ar gyrn allor yr arogl-darth. 3. Efe a dywalltai y gweddill o hono wrth droed allor y poeth-offrwm, adn. 7. *Seithwaith*—gwel ar Exod. xxix. 30. Gorchymynir iddo wneyd hyn seithwaith, i ddan-

6 A throched yr offeiriad ei fys yn y gwaed, a thaenelled o'r gwaed gerbron yr Arglwydd seithwaith, o flaen gwahanlen y cysegr.

7 A gosoded yr offeiriad *beth* o'r gwaed gerbron yr Arglwydd ar gyrn allor yr arogldarth peraidd, yr hon *sydd* yn mhabell y cyfarfod; a thywahted holl waed *arall* y bustach wrth droed allor y poeth-offrwm, yr hon *sydd* wrth ddrws pabell y cyfarfod.

8 A thyned holl wêr bustach yr aberth dros bechod oddiwrtho; y weren fol, a'r holl wêr *fyddo* ar y perffedd;

9 A'r ddwy aren, a'r gwêr *a fyddo* arnynt, hyd y tenewyn, a'r rhwyden oddiar yr afu, a dyn efe ymaith, yn nghyda'r arenau;

10 Megys y tynodd o fustach yr aberth hedd: a llosged yr offeiriad hwynt ar allor y poeth-offrwm.

11 Ond croen y bustach, a'i holl gig, yn nghyda'i ben, a'i draed, a'i berffedd, a'i fiswail,

12 A'r holl fustach hefyd, a ddwg efe allan i'r tu allan i'r gwersyll, i le glân, wrth dywalltfa y lludw; ac a'i llysg ar goed yn tân: wrth dywalltfa y lludw y llosgir ef.

13 ¶ Ac os holl gynulleidfa Israel a becha mewn anwybod, a'r peth yn guddiedig o olwg y gynulleidfa, a gwneuthur o honynt yn erbyn yr un o orchymynion yr Arglwydd, ddim o'r hyn ni ddylid eu gwneuthur, a myned yn euog:

14 Pan wypir y pechod y pechasant ynddo; yna offrymed y gynull-

eidfa fustach ieuanc dros y pechod, a dygant ef o flaen pabell y cyfarfod.

15 A gosoded henuriaid y gynulleidfa eu dwylaw ar ben y bustach gerbron yr Arglwydd, a lladdant y bustach gerbron yr Arglwydd.

16 A dyged yr offeiriad eneiog o waed y bustach i habell y cyfarfod.

17 A throched yr offeiriad ei fys yn y gwaed, a thaenelled gerbron yr Arglwydd seithwaith, o flaen y wahanlen.

18 A gosoded o'r gwaed ar gyrn yr allor *sydd* gerbron yr Arglwydd, *sef* yr hon *sydd* yn mhabell y cyfarfod; a thywahted yr holl waed *arall* wrth waelod allor y poeth-offrwm, yr hon *sydd* wrth ddrws pabell y cyfarfod.

19 A thyned ei holl wêr allan o hono, a llosged ar yr allor.

20 A gwnaed i'r bustach hwn megys y gwnaeth i fustach y pechaberth; felly gwnaed iddo: a'r offeiriad a wna gymod drostynt; ac fe a faddeuir iddynt.

21 A dyged y bustach allan i'r tu allan i'r gwersyll, a llosged ef fel y llosgodd y bustach cyntaf. Dyma aberth dros bechod y gynulleidfa.

22 ¶ Os pecha penaeth, a gwneuthur mewn anwybod yn erbyn yr un o orchymynion yr Arglwydd ei Dduw, ddim o'r hyn ni ddylid eu gwneuthur, a bod yn euog;

23 Neu os daw i wybod ei fai yr hwn a wnaeth: dyged ei offrwm o lwdn gafr gwryw perffeith-gwbl.

24 A gosoded ei law ar ben y llwdn, a lladded ef yn y lle y *lleddir* y poeth-

gos fod ei bechodau ef yn gofyn mwy na phureiddiad cyffredin, ac ymarferiad mwy o'i edifeirweh a'i ffydd.

Adn. 8—10. *A thyned holl wêr, &c.*] Yr oedd y gwêr i'w losgi ar allor y poeth-offrwm er gogoniant i Dduw; a'r hwn a ddianrhydeddwyd trwy y pechod, a anrhydeddid fel hyn trwy yr aberth. Ac yr oedd hyn yn arwyddo dyoddefadau llymion ein Harglwydd Iesu pan wnaed ef yn hech-aberth drosom ni, yn euwedig gofidiau ei enaid a'i fewnol iug.

Adn. 11, 12. *Ond croen y bustach, a'i holl gig, &c.*] Felly nid oedd dim o hwn i gael ei fwyta gan yr offeiriad, fel yn y pech-offrymau ereill. *A ddwg efe allan*—nid ei hunan, yr hyn a'i halogasai ef, ond trwy arall yr hwn a benodai efe i'r gwaith hwnw. *I'r tuallan i'r gwersyll*—i arwyddo, 1. Natur ffaidd pechod, yn enwedig mewn dynion uchel a saintaidd. Neu, 2. Symudiad euogrwydd neu gosp y pechod hwnw. Neu, 3. Y dyoddefai Crist y tuallan i'r porth, Heb. xiii. 11—13. *Wrth dywalltfa y lludw*—gwel ar pen. i. 16.

Adn. 13. *Ac os holl gynulleidfa Israel a becha mewn anwybod*] Y mae yn debyg fod hyn yn cyfeirio at ryw amryfusedd mewn gweithredoedd o addolai crefyddol, neu at ryw drosedd o lythyren y gyfraith, yr hwn a darddai o'r amgylchiadau neillduol ag yr oeddynt hwy ynddynt y pryd hyny, megys yr achos crybwyllledig yn 1 Sam. xiv. 32, &c.

Adn. 14. *Fustach ieuanc*] Gwel ar Num. xv. 24.

Adn. 15. *A gosoded henuriaid y gynulleidfa eu dwylaw ar ben y bustach*] Y rhai a weithredent yma yn enw yr holl bobl, y rhai yr oedd yn annichonadwy iddynt gyflawni y weithred hon yn eu personau eu hunain. Dywed Maimonides mai *tri* o aelodan y Sanhedrim oedd yr henuriaid hyn.

Adn. 16—21. *A dyged yr offeiriad eneiog o waed y bustach, &c.*] Gwel ar adn. 5—12.

Adn. 22. *Os pecha penaeth*] Megys brenin, tywysog, neu ynad gwladol.

Adn. 23—26. *Dyged ei offrwm o lwdn gafr gwryw*] Hwn oedd yr aberth yn yr achos yma,

offrwm, gerbron yr Arglwydd. Dyma aberth dros bechod.

25 A chymered yr offeiriad o waed yr aberth dros bechod â'i fys, a gosoded ar gyrn allor y poeth-offrwm, a thywalled ei waed ef wrth waelod allor y poeth-offrwm.

26 A llosged ei holl wêr ar yr allor, fel gwêr yr aberth hedd: a gwnaed yr offeiriad gymod drosto am ei bechod; a maddenir iddo.

27 ¶ Ac os pecha neb o bobl y wlad mewn anwybod, gan wneuthur yn erbyn yr un o orchymynion yr Arglwydd, ddim o'r *pethau* ni ddylid eu gwneuthur, a bod yn euog;

28 Neu os ei bechod yr hwn a bechodd a ddaw i'w wybodaeth ef: yna dyged ei offrwm o lwdn gafr fenyw berffeith-gwbl dros ei bechod a bechodd efe.

29 A gosoded ei law ar ben yr aberth dros bechod, a lladded hi dros bechod yn y lle y *lleddir* y poeth-offrwm.

30 A chymered yr offeiriad o'i gwaged hi â'i fys, a rhodded ar gyrn allor y poeth-offrwm, a thywalled ei holl waed hi wrth waelod yr allor.

31 A thyned ei holl wêr hi, fel y tynir y gwêr oddiar yr aberth hedd; a llosged yr offeiriad *ef* ar yr allor, yn arogl peraidd i'r Arglwydd: a gwnaed yr offeiriad gymod drosto; a maddeuir iddo.

32 Ac os dwg efe ei offrwm dros

bechod o oen, dyged hi yn fenyw berffeith-gwbl.

33 A gosoded ei law ar ben yr aberth dros bechod, a lladded hi dros bechod yn y lle y *lleddir* y poeth-offrwm.

34 A chymered yr offeiriad â'i fys o waed yr aberth dros bechod, a gosoded ar gyrn allor y poeth-offrwm, a thywalled ei holl waed hi wrth waelod yr allor.

35 A thyned ei holl wêr hi, fel y tynir gwêr oen yr aberth hedd; a llosged yr offeiriad hwynt ar yr allor, fel aberth tanlyd i'r Arglwydd: a gwnaed yr offeiriad gymod drosto am ei bechod yr hwn a bechodd; a maddeuir iddo.

PENNOD V.

OS pecha dyn, a chlywed llais llw, ac yntau yn dyst, naill ai yn gwelod ai yn gwybod; oni fynega, yna efe a ddwg ei anwiredd.

2 Os dyn a gyfiwrdd â dim aflan, pa un bynag ai burgyn bwystfil aflan, ai burgyn anifel aflan, ai burgyn ymlusgiad aflan; er *bod y peth* yn guddiedig oddiwrtho ef, aflan ac euog yw efe.

3 Neu pan gyffyrddo âg aflendid dyn, pa aflendid bynag iddo, yr hwn y bydd efe aflan o'i blegid, a'r *peth* yn guddiedig rhagddo; pan gaffo wybod, yna euog yw.

4 Neu os dyn a dwng, gan draethu

ac yr oedd y defodau agos yr un ag yn yr achosion blaenorol.

Adn. 27. *Ac os pecha neb o bobl y wlad*] Sef unrhyw un a'r nad oedd yn offeiriad, brenin, na phenaeth yn mysg y bobl; unrhyw un o'r tylodion neu y werin.

Adn. 28—31. *Dyged ei offrwm o lwdn gafr fenyw*] Pa un oedd yma yn ddiagonol, am fod pechod un o'r rhai hyn yn llai na phechod penaeth, dros yr hwn yr oedd un gwryw yn ofynol, adn. 23.

Adn. 32—34 *Ac os dwg efe ei offrwm dros bechod o oen*] Gallai un o'r tylodion ddwyn offrwm o oen neu *syn* dros ei bechod, os byddai yn *fenyw berffeith-gwbl*; ac yr oedd yr aberth i gael ei ddiin yn gyffelyb i'r rhai blaenorol.

Adn. 35. *A maddeuir iddo*] Yn farnol, gyda golwg ar bob cerydd eglwysig neu gosp wladol; ac yn wirioneddol, ar yr ammod o edifeirwch, a fydd yn y Messia ag oedd i ddyfod.

PEN. V. Adn. 1. *Os pecha dyn, a chlywed llais llw*] Ymddengys mai y meddwl yw, Os pecha dyn trwy *gelu* llais llw, yr hwn y bu efe yn dyst iddo, neu yn bresenol pryd ei dywedwyd, neu yr hwn y mae efe yn ei wybod

trwy hysbysrwydd oddiwrth ereill. Ond dylid sylwi fod y gair *alah*, yr hwn a arferir yma, yn debygol yn meddwl *mellidithio, cablu*, neu *regu* Duw neu ei gymydog. Tbyria rhai ei fod hefyd yn meddwl *anudoniaeth*; canys y mae yn drosedd mor fawr fel ag yr oedd yr hwn a'i clywodd yn rhwym o'i ddatguddio, a chospi yr euog. *Oni fynega, yna efe a ddwg ei anwiredd*—a ystyrir yn ngolwg Duw tel yn euog o'r trossedd ag yr ymdrechodd i'w guddio; a rhaid iddo ddysgwyl cael ei gospi am gelu yr hyn, o'i ddatguddio, a arweiniasai i ryddhau y diniwed a chospi yr euog.

Adn. 2. *Er bod y peth yn guddiedig oddiwrtho ef*] Er iddo gyfiwrdd â'r peth aflan yn ddiairwybod, eto ni fyddai i hyny ei esgusodi ef, oblegid dylasai fod yn fwy gwyliadwrus i oehel pob peth aflan. *Aflan yw*—nid yn foesol, canys nid oedd y gydwybod yn uniongyrchol yn cael ei halogi trwy y pethau hyn, eithr yn seremonïol: gwel ar adn. 3.

Adn. 3. *Pan gaffo wybod, yna euog yw*] Er nad oedd cyfiwrdd ag aflendid yn peidi dim ond halogrwydd seremonïol; eto os byddai iddo esgeuluso cyffesu ac ymlanhau yn ol y gyfraith, yr oedd hyny yn fath ddiaterwch neu ddirmyg ag a barai euogrwydd moesol.

â'r gwefusau ar wneuthur drwg, neu wneuthur da; beth bynag a draetho dyn trwy lw, a'r *peith* yn guddiedig rhagddo; pan gaffo efe wybod, euog yw o un o hyn.

5 A phan fyddo efe euog o un o hyn; yna cyffesod yr hyn y pechodd ynddo:

6 A dyged i'r Arglwydd ei offwrn dros gamwedd am ei bechod yr hwn a bechodd; *sef* benyw o'r praidd, oen neu fŷn gafr, yn aberth dros bechod; a gwnaed yr offeiriad gymod drosto am ei bechod.

7 Ond os ei law ni chyraedd werth oen; dyged i'r Arglwydd am ei gamwedd yr hwn a bechodd, ddwy durtur, neu ddau gyw colomen; y naill yn aberth dros bechod, a'r llall yn boeth-offwrn.

8 A dyged hwynt at yr offeiriad; ac offrymed efe yr hwn *sydd* dros bechod yn gyntaf, a thored ei ben wrth ei wegil; ond na thored ef ymaith.

9 A thaenelled o waed yr aberth dros bechod ar ystlys yr allor; a

gwawger y rhan arall o'r gwaed wrth waelod yr allor. Dyma aberth dros bechod.

10 A'r ail a wna efe yn offwrn poeth, yn ol y ddefod: a'r offeiriad a wna gymod drosto am ei bechod yr hwn a bechodd; a maddeuir iddo.

11 ¶ Ac os ei law ni chyraedd ddwy durtur, neu ddau gyw colomen; yna dyged yr hwn a bechodd ei offwrn o ddegfed ran epha o beillied yn aberth dros bechod: na osoded olew ynddo, ac na rodded thus arno; canys aberth dros bechod *yw*.

12 A dyged hyny at yr offeiriad: a chymered yr offeiriad o hono Ionaid ei law yn goffadwriaeth, a llosged ar yr allor, fel ebyrth tanllyd i'r Arglwydd. Dyma aberth dros bechod.

13 A gwnaed yr offeiriad gymod drosto ef am ei bechod a bechodd efe yn un o'r rhai hyn; a maddeuir iddo: a bydded i'r offeiriad y gweddill, megys o'r bywyd-offwrn.

14 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

15 Os gwna dyn gamwedd, a phechu

Adn. 4. *Ar wneuthur drwg, neu wneuthur da*] Y mae yn debyg mai addewidion a bygythion byrbwyll a feddylir yma; canys os addunedu dyn wneyd gweithred *ddrug*, er y byddai yn feis cyflawni y gyfryw adduned, eto y mae efe yn euog am iddo ei gwneuthur, ac am hyny rhaid iddo offrymu yr offwrn dros gamwedd. Os esgeulusa efe wneuthur y *da* a ddawodd, y mae yn euog; a rhaid iddo yn y ddau achos gyffesu ei anwired, a dwyn ei offwrn dros gamwedd.

Adn. 5. *A phan fyddo efe euog o un o hyn*] O un o'r tri achos crybwylliedig, naill ai trwy ddwystawrwydd pechadurus, adn. 1; ai trwy gyffyrddiad aflan, adn. 2, 3; neu trwy dyngu yn fyrbwyll, adn. 4; *yna cyffesod yr hyn y pechodd ynddo*—gerbron yr Arglwydd mewn lle o addoliad cyhoeddus. Trwy fod gan y cyffesiad o bechod duedd uniongyrchol i ddarostwng yr enaid, am hyny y mae ef mor fynych yn cael ei ofyn yn yr ysgrhythrau, trwy nas gellir cyraedd iachawdwriaeth heb ymostyngiad.

Adn. 6. *A dyged i'r Arglwydd ei offwrn dros gamwedd*] Ond pa fodd yr oedd cyffesiad ac aberth yn angenrheidiol i'r neb a gyffyrddodd â pheth aflan, pan yr oedd y cyfryw yn cael ei labnau trwy olchiad yn unig, fel yr ymddengys oddiwrth en. xi. a Num. xix? Y mae y lle yma yn son am y neb a ddaethai yn aflan felly i'r tabernacl, fel y gellir casglu wrth gymharu y lle hwn â Num. xix. 13; yr hyn os gwnai neb. gan wybod ei fod yn aflan, fel y dygwyrddo yno, yr oedd efe i'w *dori ymaith* am dano; ac os gwnai efe hyny yn ddiarwybod, fel y dygwyrddo yma, yr oedd efe, ar ei wybodaeth o hono, i offrymu yr aberth hwn.

Adn. 7. *Ond os ei law ni chyraedd werth oen*] O herwydd ei dyloidi; *dyged*—*ddwy durtur, neu ddau gyw colomen*—gwel ar pen. i. 14; *y naill yn aberth dros bechod*—dros y pechod neillduol hwn; *a'r llall yn boeth-offwrn*—dros bechodau yn gyffredinol.

Adn. 8. *Ond na thored ef ymaith*] Gwel ar pen. i. 15.

Adn. 9. *Dyma aberth dros bechod*] Chwanegir hyn fel rheswm paham yr oedd ei waed ef yn cael ei daenellu a'i dywallt felly.

Adn. 10. *A'r ail a wna efe yn offwrn poeth*] Colomen y *poeth-offwrn* a losgid yn gwbl, am mai eiddo yr Arglwydd ydoedd; a cholomen y *pech-aberth* oedd eiddo yr offeiriad, ac i gael ei bwyta ganddo ef ar ol i ran o'i gwaed cael ei daenellu ar ystlys yr allor, a'r gweddill gael ei dywallt wrth waelod yr allor; gwel adn. 9, a pen. vi. 26. Rhaid i'r pech-aberth wneyd ffordd i'r poeth-offwrn. Ar ol y pech-aberth, yr hwn oedd yn gwneyd y cymod, deuai y poeth-offwrn fel cydnabyddiad o drugaredd fawr Duw yn trefnu ac yn cymeradwyo y cymod.

Adn. 11—14. *Ddegfed ran epha*] Oddeutu chwe pheint. *Na osoded olew ynddo, ac na rodded thus arno*—naill ai fel gwir ddanghosiad o'i dristwch am ei bechodau, dan y teimlad o ba rai yr oedd i ymgadw oddiwrth bethau dymunol; neu i arwyddo ei fod trwy ei bechodau yn haeddu cael ei hollol amddifadu o *olew llawenydd*, *sef* doniau, grasau, a chysuron yr Ysbryd Glân; ac o dderbyniad grasol Duw o'i weddiau a'i ebyrth, yr hyn a arwyddir trwy thus neu argloddarh, Salm cxli. 2. Fel hyn yr oedd cost yr aberth dros bechod yn is na chost un aberth arall, i ddyngu i ni na chaiff

trwy amryfusedd, yn y pethau a gysegrwyd i'r Arglwydd; yna dyged i'r Arglwydd dros ei gamwedd, hwrdd perffeith-gwbl o'r praidd, gyda'th bris di o sielau arian, yn ol siel y cysegr, yn aberth dros gamwedd.

16 A thaled am y niwedd a wnaeth yn y peth cysegredig, a rhodded ei bummed ran yn chwanege ato, a rhodded ef at yr offeiriad: a gwnaed yr offeiriad gymod drosto â hwrdd yr offrum dros gamwedd; a maddeuir iddo.

17 ¶ Ac os pecha enaid, a gwneuthur yn erbyn gorchymyuion yr Arglwydd, ddim o'r hyn ni ddylid eu gwneuthur; er na wyddai, eto euog fydd, a'i anwired a dddwg.

18 A dyged hwrdd perffeith-gwbl o'r praidd, gyda'th bris di, at yr offeiriad, yn offrum dros gamwedd: a

gwnaed yr offeiriad gymod drosto am ei amryfusedd a gamgymerodd efe, ac yntau heb wybod; a maddeuir iddo.

19 Aberth dros gamwedd *yw* hyn: camwedd a wnaeth yn ddiau yn erbyn yr Arglwydd.

PENNOD VI.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Os pecha dyn, a gwneuthur camwedd yn erbyn yr Arglwydd, a dywedyd celwydd wrth ei gymydog am yr hyn a rodded ato i'w gadw, neu am yr hyn y rhoddes efe ei law, neu yn yr hyn trwy drawsder a ddygodd efe, neu yn yr hyn y twyllodd ei gymydog;

3 Neu os cafodd beth gwedi ei golli, a dywedyd celwydd am dano, neu

tylodi neb fod yn rhwystr yn ffordd ei faddeuant. Gall y rhai tylotaf o bawb gael gwneuthur cymod drostynt, os na fydd y bai arnynt hwy eu hunain. Fel hyn pregethir yr efengyl i'r tylodion; ac ni chaiff neb ddywedyd nad oedd ganddo fodd i ddwyn traul taith i'r nef.

Adn. 15, 16. *Os gwna dyn gamwedd*] Yn erbyn yr Arglwydd a'i offeiriad; a *phechu trwy amryfusedd*—neu anwybodaeth; canys pe gwnaethai un hyn yn wybodol, yr oedd i gael ei dori ymaith, Num. xv. 30; *yn y pethau a gysegrwyd i'r Arglwydd*—neu i ddybenion santiaid. 'Ymddengys fod y ddeddf hon,' meddai Clarke, 'yn perthyn yn neillduol i *gysegr-ladrad*, a *twyll* mewn pethau ysbrydol; megys yr esgeulsiad o gysegru neu brynu y cyntafanedig, attal y blaenflwyth, y degwm, a'r cyffelyb; ac, yn ol y rabiniaid, gwneyd elw bydol o bechau dwyfol, cadw yn ol ran o werth pethau wedi eu cysegru i Dduw, neu attal yr hyn yr addunedasai dyn ei dalu. Gwel restr faith o'r pethau hyn gan Ainsworth.'—CLARKE. *Hwrdd perffeith-gwbl o'r praidd*—aberth mwy costfawr na'r un blaenorol, trwy fod y pechod o gysegr-ladrad yn fwy. *Gyda'th bris di*—fel y bydd i ti, yr offeiriad, ei brisio. Yr oedd y camwedd a wnaed neu y twyll a gyflwynwyd i'w brisio yn ol nifer y sielau ag ydoedd o werth. Yr oedd y twyllwr i dalu y rhai hyn i lawr, ac i chwanegeu y bummed ran atynt, a dwyn hwrdd yn bech-offrum heblaw hyny.

Adn. 17—19. *Ac os pecha enaid, &c.*] Y mae y gyfraith flaenorol yn perthyn i dros-glywyddiaid pethau cysegredig oddiwrth ddyben santiaid at un cyffredin; a gall hon fod yn perthyn i anffodiau ereill yn nghylch pethau a dyledswyddau santiaid, fel y gellir casglu oddiwrth adn. 19, lle y dywedir fod hyn yn *gamwedd yn erbyn yr Arglwydd*; nid mewn ystyr cyffredin, canys yr oedd pob pechod felly, ond mewn ystyr priodol a neillduol.

PEN. VI. Adn. 1. *A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses*] Dyma y rhan olaf o gyfraith yr

offrum dros gamwedd. Y rhan flaenorol, am gamweddau mewn pethau cysegredig, a gawsom yn niwedd y bennod flaenorol; hon sydd am gamweddau mewn pethau cyffredin.

Adn. 2. *Os pecha dyn*] Dywedir yn bendant fod y pechod hwn, er wedi ei gyflawni yn uniongyrchol yn erbyn dyn, wedi cael ei wneuthur yn erbyn yr Arglwydd—nid yn unig mewn ystyr cyffredinol, (canys felly y mae pob pechod ag sydd yn erbyn dyn, yn erbyn yr Arglwydd hefyd,) ond mewn ystyr neillduol, am fod hwn yn halogiad o *gymdeithas ddynol*, yr hon y mae Duw yn awdwr, yn llywydd, ac yn amddiffynydd iddi; ac am ei fod yn bechod *dirgelaidd*, yr hwn nad oedd neb ond Duw yn dyst ac yn farnydd iddo; ac am fod *enw* Duw yn cael ei annharchu ynddo trwy anudon. *A dywedyd celwydd wrth ei gymydog am yr hyn a rodded ato i'w gadw*—rhaid fod hyn yn cyfeirio at achos yn yr hwn y rhoddes dyn ei eiddo i'w gymydog i'w gadwiddo ef, ac heb gymeryd un tyst i wirio rhoddai yr eiddo: gallai y cyfryw un gan hynwadu iddo ef erioed dderbyn y cyfryw eiddo. Ar y llaw arall, gallai dyn gyhuddo ei gymydog o gadw eiddo nad ymddiriedwyd erioed iddo, neu, ar ol ei ymddiried, a adferedig drachefn: gwel ar Exod. xxii. 7, &c. *Neu am yr hyn y rhoddes efe ei law*—cyfeiriad at y ffurf o wneuthur cytundeb masnachol, trwy i'r pleidiau roddi eu dwylaw i'w gilydd. *Neu yn yr hyn trwy drawsder a ddygodd efe*—hyny yw, a ddygodd trwy drais neu ladrad. *Neu yn yr hyn y twyllodd ei gymydog*—o'i gyffog neu ei hawliau.

Adn. 3. *Neu os cafodd beth wedi ei golli*] Yr oedd yn ddeddf yn mhlith y Rhufeiniaid, 'fod i'r neb a ddatguddiai unrhyw eiddo, aca'i defnyddiai i'w wasanaeth ei hun, gael ei ystyried megys lleidr, pa un bynag a adwaenai efe y perchenog ai peidio.' Rhaid i bob dyn gonest gydnabod uniondeb y gyfraith hon. Dywedir am y Dyrbaeniaid, pobl a breswylient rhwng Bactria a'r India, os cyfarfyddent â dim eiddo colledig hyd yn nod na'rjy brif-

dyngu yn anudon; am ddim o'r holl bethau a wnelo dyn, gan bechu ynddynt:

4 Yna, am iddo bechu, a bod yn euog; bydded iddo roddi yn ei ol y trais a dreisiodd efe, neu y peth a gafodd trwy dwyll, neu y peth a adawyd i gadw gydag ef, neu y peth wedi ei golli a gafodd efe,

5 Neu beth bynag y tyngodd efe anudon am dano; taled hyny erbyn ei ben, a chwanegeg ei bummed ran ato: ar y dydd yr offirwm dros gamwedd, rhodded ef i'r neb a'i piat.

6 A dyged i'r Arglwydd ei offirwm dros gamwedd, hwrdd perffeith-gwbl o'r praidd, gyda'th bris di, yn offirwm dros gamwedd, at yr offeriad.

7 A gwnaed yr offeriad gymod

ffordd, na fyddai iddynt byth gymaint a chyffwrdd âg ef. A dyma fel yr oedd yn bod yn y deyrnas hon yn amser Alfred Fawr, oddeutu o. c. 888, fel ag y ceid breichledau aur wedi eu crogi ar y prif-fyrdd heb i fys anonest-rwydd gyflwrdd â hwy. Un o gyfreithiau Solon ydoedd, 'Na chymher i fyny yr hyn ni roddiaist i lawr.' Mor hawdd fyddai ymddwyn wrth yr egwyddor yma ar ddatguddiad eiddo colledig: 'Nid fy eiddo i ydyw hwn, a byddai yn drosedd i mi ei droi ef i'm gwasanaeth fy hun, oddieithr fod y perchenog wedi marw a'i deulu wedi darfod.' Ar ol gwneuthur pob ymboliad dyledus, os na ellir cael un perchenog, gellir yn gyfreithlon ystyried yr eiddo colledig yn eiddo i'r datguddiwr. *A dypwedyd celwydd am dano*—mai nid ar lawr y cafodd efe ef, ond ei fod wedi ei brynu yn onest.

Adn. 4. *Yna, am iddo bechu, a bod yn euog*] Neu fel y gellir ei gyfieithu, 'Am iddo bechu, a'i fod yn *cysfadddef* ei enogrwydd.'

Adn. 5. *Taled hyny erbyn ei ben*] Yr eiddo ei hun os fyth ar gael, neu ynte ei lawn werth ef, at yr hyn yr oedd y *bummed* ran yn ddellach i'w chwanegeu. *Ar y dydd yr offirwm dros gamwedd*—rhaid peidio ei oedi, eithr rhaid i edfrydiad i ddyn gydfyned âg edifeirwch tuag at Dduw. Lle bynag y gwnaed cam, rhaid gwneuthur ad-daliad; ac hyd oni wneler hyny hyd eithaf ein gallu, nis gallwn ddysgwyl maddaent.

Adn. 6. *Gyda'th bris di*] Gwel ar pen. v. 15.

Adn. 7. *A maddueir iddo*] Gwel ar pen. iv. 35.

Adn. 8. *Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moses*] Yn yr adnod hon y mae yr Iuddewon yn dechreu eu pummed dosbaith ar luggan o'r Gyfraith; ac yma yn ddiamau y dylai y chweched bennod ddechreu, trwy fod yr ysgrifenydd yn myned at destyn newydd, a bod yr adnodau blaenorol yn perthyn i'r *bummed* bennod. Y mae y Beiblau Hebreig goraf yn dechreu y chweched bennod yn yr adnod hon.

Adn. 9. *Gorchymyn i Aaron ac i'w feibion*] Ar ol dysgu y bobl mewn perthynas i'r

drostro gerbron yr Arglwydd: a maddueir iddo, am ba beth bynag a wnaeth, i fod yn euog o hono.

8 ¶ *Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,*

9 Gorchymyn i Aaron, ac i'w feibion, gan ddywedyd, Dyma gyfraith y poeth-offirwm: (poeth-offirwm *yw* o herwydd y llosgi ar yr allor ar hyd y nos hyd y bore, a than yr allor a gyneuir arni).

10 Gwisged yr offeriad hefyd ei liein-wisg am dano, a gwisged lodraulian am ei gnawd, a choded y lludw lle yr ysodd y tân y poeth-aberth ar yr allor, a gosoded ef gerllaw yr allor.

11 A dyosged ei wisgoedd, a gwisged ddiillad ereill, a dyged allan y

ebyrth ag yr oeddynt hwy i'w dwyn, y mae Moses yn awr yn myned i'rhagddo, wrth orchymyn Duw, i gyfarwyddo yr offeriaid gyda golwg ar amrai ranau o'u gwasanaeth hwythau. *Dyma gyfraith y poeth-offirwm*—y mae y gyfraith hon yn cyfeirio yn briodol at y poeth-offirwm hwnw a wneid yn ddyddiol yn yr hyn a elwid yr aberth *boreol* a *hwyrol*, fel y dengys y geiriau dylunol. *O herwydd y llosgi ar yr allor ar hyd y nos*—pe buasai y poeth-offirwm yn cael ei roddi *oll* ar y tân ar unwaith, ni allasai fod yn llosgi ar *hyd y nos*. Gan hyny gallwn gasglu yn rhesymol fod yr offeriaid yn sefyll i fyny bob yn ail trwy y nos, ac yn porthi y tân â rhanau o'r offirwm hwn nes i'r cwbl gael ei ddiffa, yr hwn y gofalent hwy am ei estyn allan hyd amser yr aberth boreol. Gallwn feddwl fod yr un peth yn cael ei wneyd â'r aberth boreol, ei fod yntau hefyd yn cael ei ddiffa *bob yn ddarn* ar hyd y dydd, hyd amser offirymiad yr aberth hwyrol. Fel hyn yr oedd yno offirymiad *parhaus* trwy dân i'r Arglwydd; ac am hyny dywedir, adn. 13, 'Cyneuer y tân bob amser ar yr allor; na ddiffodded.' Felly nid oedd un foment, nos na dydd, heb i aberth gael ei offirym i Dduw i wneyd cymod dros bechodau y bobl, neu yn hytrach i arddangos aberth parhaus a thra rhimweddol ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn 'sydd yn aros yn offeiriad yn dragywydd,' Heb. vii. 3, a'r hwn ei hun yw 'yr Oen yr hwn a laddwyd er dechreu y byd,' Dat. xiii. 8. Os byddai offirymau anghyffredin i gael eu gwneuthur ryw bryd, yr oedd yr aberth ddyddiol yn cael ei ddiffa yn gynt, i wneyd lle i'r cyfryw offirym. Dywed y doctoriaid Iuddewig nad oedd un aberth byth yn cael ei offirym yn y bore cyn yr aberth boreol; nac un byth yn cael ei offirym yn yr hwyr, oddieithr oen y pasc, wedi yr aberth hwyrol; canys yr holl aberthiadau a wneid wrth oleuni y dydd. Dywed Clarke fod y gwêr yn cael ei losgi yn benaf yn y nos, er cael gwel goleuni a chyfle i gadw y tân yn fyw.

Adn. 10. *Lle yr ysodd y tân y poeth-aberth*] Neu, fel y gellir cyfieithu y gair *asher* yma,

lludw i'r tu allan i'r gwersyll, i le glân.

12 A chyneuer y tân sydd ar yr allor arni; na ddiffodded: ond llosged yr offeiriad goed arni bob bore; a threfned y poeth-offrwm arni, a llosged wër yr aberth hedd arni.

13 Cyneuer y tân bob amser ar yr allor; na ddiffodded.

14 ¶ Dyma hefyd gyfraith y bwyd-offrwm. Dyged meibion Aaron ef gerbron yr Arglwydd, o flaen yr allor:

15 A chodod o hono yn ei law o beillied y bwyd-offrwm, ac o'i olew, a'r holl thus yr hwn sydd ar y bwyd-offrwm; a llosged ei goffadwriaeth ef ar yr allor, yn arogl peraidd i'r Arglwydd.

16 A'r gweddill o hono a fwyty Aaron a'i feibion: yn groyw y bwyteir

ef: yn y lle saintaidd o fewn cynteddfa pabell y cyfarfod y bwynt ef.

17 Na phober ef trwy lefain. Rhoddais ef yn rhan iddynt o'm haberbthau tanllyd: peth santeiddiolaf yw hyn, megys yr aberth dros bechod, a'r aberth dros gamwedd.

18 Pob gwryw o blant Aaron a fwynt hyn: deddf dragwyddol fydd yn eich cenedlaethau am aberthau tanllyd yr Arglwydd: pob un a gyfllyrddo â hwynt, fydd saintaidd.

19 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

20 Dyma offrwm Aaron a'i feibion, yr hwn a offrymant i'r Arglwydd, ar y dydd yr encinier ef. Degfed ran epha o beillied yn fwyd-offrwm gwas-tadol, ei hanner y bore, a'i hanner brydnawn.

21 Gwneler ef trwy olew mewn

'a chodod y lludw ar ol i'r tân ysu y poeth-aberth.'

Adn. 11. *A gwisged ddiillad ereill*] Yr oedd yr offeiriad yn myned at yr allor yn eu gwisgoedd santeiddiaf; ond pan yn cario y lludw oddiwth yr allor, yr oeddnt yn gwisgo dillad ereill, gan na wisgid y dillad saintaidd ond yn y cysegr. *I le glân*—lle na ddoedd budreddi o un math; canys yr oedd y lludw hwn yn saintaidd, fel gweddillion yr offrymau a wnaed trwy dân i'r Arglwydd. Yr offeiriad ei hun oedd i wneyd hyn oll; canys rhaid i weision Duw beidio â meddwl dim islaw iddynt ond pechod. Y mae rhai yn meddwl fod y gofal a gymerid am ludw yr aberth yn cysgodi cladd-edigaeth corff Crist, sef lludw neu weddillion ei aberth ef, yn medd newydd Joseph.

Adn. 12, 13. *Na ddiffodded*] Yr oedd y tân a ddaethai i lawr o'r nef i gael ei gadw yn barhaus, ac ni oddefid iddo ddiffodd, mewn rhan fel na fyddai un achlysur na phrofedigaeth i offrwm tân dyeithr; ac mewn rhan i ddysgu iddynt o ba le yr oeddnt i ddysgwyl derbyniad i'w holl ebyrth, sef o drugaredd Duw, trwy ddylanwad yr Ysyrdd Glân, yr hyn a arwyddid trwy y tân a ddaethai i lawr o'r nef, yr hyn oedd yn arwydd arferol o gymeradwriaeth rasol Duw. *Onid llosged yr offeiriad goed arni bob bore*—er fod yr hwy hefyd yn ddiamau yn cael ei feddwl, eto y bore yn unig a grybwyllir, am mai y pryd hyny y glanheid yr allor, y cymerid y lludw ymaith, ac y gwneid tân o'r newydd. Mewn efelychiad i'r tân gwastadol hwn yr oedd hen ddoethion Persia a'u hiliogaeth yn cadw i fyny dân parhaus, a chadwant ef felly hyd heddyw. Gorchymynir hyn yn fanwl yn y *Zend Avesta*, yr hwn sydd gasgliad o ddeddfau mor saintaidd yn eu plith hwy ag yw *Uyfrau Moses* yn mhllith yr Iuddewon.

Adn. 14. *Dyma hefyd gyfraith y bwyd-offrwm*] Gwel ar pen. ii. 1, &c.

Adn. 15. *A chodod o hono yn ei law o beillied, &c.*] Omer o beillied, yr hyn oedd ddegfed ran epha, ac yn gyfartal i oddeutu

tri chwart o'n mesur ni, oedd y dogn lleiaf a ellid ei offrwm hyd yn nod gan y fath dylotaf; a dylind hwn yn gyffredin â log o olew, yr hyn oedd ychydig yn fwy na hanner pint. Gallai un chwaneu at y mesur hwn o beillied ac olew wrth ei ewyllys, ond ni ellid offrymu llai.

Adn. 16, 17. *A'r gweddill o hono a fwyty Aaron a'i feibion*] Oddieithr fod rhyw afleidd deddf arnynt, pen. xxii. 4. Y gwrywod yn unig a allent fwyta y rhai hyn, tra y gallai merched Aaron fwyta pethau saintaidd ereill. *O fewn cynteddfa pabell y cyfarfod*—mewn rhyw ystafell neillduol a benodwyd i'r perwyl hwnw. Y rheswm palam yr oedd hwn i'w fwyta yn unig gan ddynion saintaidd, a hyny mewn lle saintaidd, a gawn yn adn. 17, am mai y 'peth santeiddiolaf yw.'

Adn. 18. *Pob un a gyfllyrddo â hwynt fydd saintaidd*] Hyny yw, ni chai neb gyflwrdd â hwy ond dynion saintaidd. Yr oedd hyn yn cadw i fyny urddas yr aberth, na chai efe ei fwyta gan neb ond yr offeiriad, na chanddynt hwythau ond mewn lle saintaidd.

Adn. 19. *A llefarodd yr Arglwydd*] Traddodwyd y gyfraith mewn perthynas i'r eneniad hwn o'r blaen, ac ailadroddir hi yma o herwydd rhyw chwaneigiadau a wnaed ati, neu eglurhad pellach a roddid arni.

Adn. 20. *Ar y dydd yr encinier ef*] Yn arechofferiad, canys efe yn unig, o'r holl offeiriad, oedd i gael ei encinio yn yr oesoedd dylunol. 'Nid yn unig ar y dydd hwnw, ond o'r dydd hwnw allan, canys yr oedd hyn iddynt hwy a'u holynwyr yn ddeddf dragwyddol.'—CLARKE. Dywed yr ysgrifenywyr Iuddewig hefyd fod yr arechofferiad yn rhwym o offrymu yr offrwm hwn bob dydd o'i fwyd, ac mai hyny sydd i'w ddeall wrth ei fod yn cael ei alw ynia yn *fwyd-offrwm gwastadol*. Ond dylid sylwi fod rhai esbonwyr yn ei gyfyngu ef at ddydd ei gysegriad yn unig; ac wrth ei fod yn 'ddeddf dragwyddol,' ein bod i olygu fod yr offrwm hwn i gael ei offrymu

padell: *yna* y dygi ef i mewn wedi ei grasu; ac offryma ddarnau y bwyd-offrwm wedi ei grasu, yn arogl per-aidd i'r Arglwydd.

22 A'r offeiriad o'i feibion ef, yr hwn a cneinir yn ei le ef, gwnaed hyn, *trwy* ddeddf dragwyddol: llosger y cwbl i'r Arglwydd.

23 A phob bwyd-offrwm dros yr offeiriad a fydd wedi ei losgi oll: na fwytäer ef.

24 ¶ Llefarrowd yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

25 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion, gan ddywedyd, Dyma gyfraith yr aberth dros bechod. Yn y lle y lleddir y poeth-offrwm, y lleddir yr aberth dros bechod gerbron yr Arglwydd: santeiddiolaf *yw* efe.

felly ar ddydd cysegriad yr archoffeiriad trwy yr holl oesau.

Adn. 21. *Gwneleu ef trwy olew mewn padell*] Dywed Josephus fod y bwyd-offrwm hwn yn cael ei wneuthur ar gost yr archoffeiriad ei hun; ac os oedd i gael ei wneuthur bob dydd o'i fywyd, yr oedd yn doll drom.

Adn. 22. *Trwy ddeddf dragwyddol*] Gwel ar adn. 20.

Adn. 23. *A phob bwyd-offrwm dros yr offeiriad a fydd wedi ei losgi oll*] Beth bynag a offrymai yr offeiriad, yr oedd yn gwbl yn eiddo yr Arglwydd, ac am hyny yr oedd yn rhaid ei ddifa yn llwyr. Yr oedd ebyrth y bobl gyffredin yn cael eu hoffrymu i'r Arglwydd, ond yr oedd yr offeiriad yn ymgyfranogi o honynt hwy; ac fel hyn y rhai a wasanaethent yr allor a borthid wrth yr allor. Pe goddefesid i'r offeiriad fyw ar eu hoffrymu eu hunain fel y gwnaent ar eiddo y bobl, busaif megys pe nad offrymaent *ddim*, am y busaent felly, fel y sylwa Maimonides, yn eymeryd drachefna iddynt eu hunain yr hyn yr ymddanghoseint fel yn ei roddi i'r Arglwydd. Dywed Theodoret fod hyn yn nodi allan y perffeithrwydd uchel ag yr oedd Duw yn ei ofyn yn ngweinidogion ei gysegr ef, gan fod ymattaliad yr offeiriad oddiwrth fwyta ei bech-offrwm ei hun yn ei dybio ef fel yn sefyll yn rhydd oddiwrth bob bechod. Ond tybia Clarke fod gwell rheswm yn cael ei roddi gan Mr. Ainsworth: 'Yr oedd bwyd-offrwm y bobl yn cael ei fwyta gan yr offeiriad a wnaent gymod drostynt, adn. 15, 16, pen. vii. 7; ond gan na allai nu offeiriad, trwy ei fod yn bechadur, wneyd cymod drosto ei hun, am hyny nis gellid bwyta ei fwyd-offrwm ef, ond y cwbl a losgid ar yr allor, i ddysgu iddo ddysgwyl iachawdwriaeth nid trwy ei weithredoedd neu ei wasanaeth gyfreithlon ef, ond trwy Grist; canys yr oedd bwyta y pech-offrwm yn cysgodi dygiad ymaith anwiredd y pechadur, pen. x. 17.'

Adn. 25. *Yn y lle y lleddir y poeth-offrwm, &c.*] Sef o du y gogledd i'r allor: gwel ar pen. i. 11.

Adn. 26. *Yr offeiriad a'i hoffrymo dros*

26 Yr offeiriad a'i hoffrymo dros bechod, a'i bwyty: yn y lle santeidd y bwyteir ef, yn nghynteddfa pabell y cyfarfod.

27 Beth bynag a gyffyrddo â'i gig ef, a fydd santeidd: a phan daeneller o'i waed ef ar ddilledyn, golch yn y lle santeidd yr hyn y taenellodd y *gwaed* arno.

28 A thorer y llestr pridd y berwer ef ynddo: ond os mewn llestr pres y berwir ef, ysgwrier a golcher ef mewn dwfr.

29 Bwytäed pob gwryw yn mysgr yr offeiriad ef: santeiddiolaf *yw* efe.

30 Ac na fwytäer un offrwm dros bechod, yr hwn y dyger o'i waed i babell y cyfarfod, i wneuthur cymod yn y lle santeidd; *ond* llosger mewn tân.

bechod, a'i bwyty] Sef dros bechod penaeth, neu un o'r bobl, ond nid dros bechod yr offeiriad; canys yn yr achos hwnw yr oedd ei waed yn cael ei ddwyn i'r *babell*, ac am hyny nis gellid ei fwyta, adn. 30.

Adn. 27. *A phan daeneller o'i waed ef ar ddilledyn*] Sef ar ddilledyn yr offeiriad, canys efe yn unig oedd yn ei daenellu, ac wrth wneuthur felly gallai yn hawdd ddisgyn ar ei wisg ef. *Golch yn y lle santeidd*—o barch mewn rhan i waed yr ebyrth, yr hwn felly a gedwid rhag cyffyrddiad halogedig neu gyffredin; ac mewn rhan fel y gallai y cyfryw ddillad fod yn weddus, ac yn addas i weinyddiadau santeidd. Sylwa yr Esgob Patrick, ar ol i'r deml gael ei hadeiladu, fod yno ystafell a elwid *ystafell y ffynnon*, o ba un y tyndid dwfr at wasanaeth y cysegr; ac yma yn debygol yr oedd y dillad hyn yn cael eu golchi.

Adn. 28. *A thorer y llestr pridd y berwer ef ynddo*] Cyfeiria hyn nid at lestri cysegredig y tabernacl, canys nid oedd un o'r rhai hyny o bridd, Exod. xxvii. 19; ond at y cyfryw lestri ag a ddefnyddid weithiau gan bersonau cyffredin wrth barotai cig en hebyrth, o'r hyn y mae genym anghraifft yn 1 Sam. ii. 13, 14. Y rhai hyn, ar ol i gig yr aberth gael ei ferwi ynddynt, oeddynt i gael eu tori, fel na fyddai i'r hyn a gadwai y naws lleiaf o'r pethau santeidd gael eu halogi trwy gael ei ddefnyddio wedi hyny mewn gwasanaeth gyffredin. *Onid os mewn llestr pres y berwir ef, ysgwrier a golcher ef*—llestri pres, gan eu bod yn fwy caled, ac am hyny nid oeddynt i gael eu tori. Heblaw hyny, trwy eu bod o gryn werth, ni fynai Duw eu dyfetha yn afreidiol.

Adn. 29. *Bwytäed pob gwryw*] Gwel ar adn. 16, 17.

Adn. 30 *Na fwytäer un offrwm dros bechod*] Hyny yw, dros bechod yr offeiriad, yr hwn y dygid ei waed i babell y cyfarfod: gwel adn. 26.

PEN. VII. Adn. 1. *Dyma hefyd gyfraith*

PENNOD VII.

DYMA hefyd gyfraith yr offrw m dros gamwedd: santeiddiolaf *yw*.

2 Yn y man lle y lladdant y poeth-offrw m, y lladdant yr aberth dros gamwedd; a'i waed a daenella efe ar yr allor o amgylch.

3 A'i holl wêr a offryma efe o hono; y gloren hefyd, a'r weren fol;

4 A'r ddwy aren, a'r gwêr *fyddo* arnynt, hyd y tenewyn, a'r rhwyden oddiar yr asu, yn nghyda'r arenau, a dÿn efe ymaith.

5 A llosged yr offeiriad hwynt ar yr allor, yn aberth tanllyd i'r Arglwydd: aberth dros gamwedd *yw*.

6 Pob gwryw yn msg yr offeiriad a'i bwyty: yn y lle santeidd y bwyteir ef: santeiddiolaf *yw*.

7 Fel y *mae* yr aberth dros bechod,

yr offrw m dros gamwedd] Yma y mae yr offeiriad yn cael eu haddysgu yn eu swydd yn nghylch yr offrymau dros gamwedd, megys yr addysgw yd y bobl o'r blaen.

Adn. 2. *Yn y man lle lladdant*] Sef o du y gogledd i'r allor, pen. i. 11. *A'i waed a daenella efe ar yr allor o amgylch*—dywed yr Esgob Patrick fod traddodiad yn mhllith yr Iuddewon, fod lliwyn coch yn amgylchynu yr allor yn gymhwys yn y canol; a bod gwaed y poeth-offrymau yn cael ei daenellu o amgylch oddiar y llinyn, ond gwaed yr aberthau dros gamwedd a'r aberthau hedd o amgylch *istlaw* y llinyn.

Adn. 3. *Y gloren*] Neu y gynffon: gwel ar pen. iii. 9, Exod. xxix. 22.

Adn. 4, 5. *A'r gwêr fyddo arnynt*] Yn benaf y gwêr yr hwn a geid mewn cyflwr neillduedig, megys oddeutu yr arenau, ac nid y brasder a fyddai yn gymysg â'r cig: gwel ar pen. iii. 16.

Adn. 6. *Pob gwryw*] Gwel ar pen. vi. 16—18.

Adn. 7. *Fel y mae yr aberth dros bechod, felly y bydd yr aberth dros gamwedd*] Yn yr hyn a ganlyn; eithr mewn pethau ereill yr oeddynt yn gwahaniaethu. *Yr offeiriad, yr hwn a wna gymod âg ef, a'i piat*—a biai y rhan hōno o hono a ganiateid gan Dduw i'r offeiriad.

Adn. 8. *Yr offeiriad a gaiff iddo ei hun groen y poeth-offrw m*] Tybia Patrick fod yr hawl yma o eiddo yr offeiriad i'r croen wedi dechreu gydag offrw m Adda; canys y mae yn debyg, meddai efe, mai Adda ei hun a offrymodd yr aberth cyntaf, a darfod iddo gael y croen gan Dduw i wneuthur dillad iddo ei hun a'i wraig: yn unol â hyn yr oedd yr offeiriad byth wedi hyn yn cael crwyn yr holl boeth-offrymau yn rhan iddynt, yr hyn oedd yn arferiad yn mhllith y Cenhedloedd yn gystal a'r Iuddewon, pan na fyddent yn cael eu llosgi gyda'r ebyrth, fel y gwneid mewn rhai poeth-offrymau yn mhllith yr Iuddewon, pen. iv. 11. Yr oedd y Cenhedloedd yn defnyddio y crwyn

felly y *bydd* yr aberth dros gamwedd; un gyfraith *sydd* iddynt: yr offeiriad, yr hwn a wna gymod âg ef, a'i piat.

8 A'r offeiriad a offrymo boeth-offrw m neb, yr offeiriad a gaiff iddo ei hun groen y poeth-offrw m a offrymodd efe.

9 A phob bwyd-offrw m a graser mewn ffwrn, a'r hyn oll a wneler mewn padell, neu ar radell, fydd eiddo yr offeiriad a'i hoffrymo.

10 A phob bwyd-offrw m wedi ei gymysgu trwy olew, neu yn sych, a fydd i holl feibion Aaron, bob un fel ei gilydd.

11 Dyma hefyd gyfraith yr ebyrth hedd a offryma efe i'r Arglwydd.

12 Os yn lle diolch yr offryma efe hyn; offrymed gyda'r aberth diolch deisenau croyw, wedi eu cymysgu

hyn i ddyben ofergoelus, trwy orwedd arnynt yn eu temlau mewn gobath y byddai i bethau dyfodol gael eu datguddio iddynt yn eu breuddwydion. Y mae genym brawf o hyn yn *Virgil*, *Æn.* llyfr vii. llin. 86—95. Y mae yr un ofergoel, yn cael eu harfer yn gymhwys yr un ffordd ac i'r un dybenion, yn ffyni hyd heddyw yn Ucheldiroedd yr Alban, fel y gall y darlennydd weled yn *Pennant's Scottish Tour*, a *Sir Walter Scott's Lady of the Lake*. Ond rhaid i'r darlennydd beidio meddwl mai i ddybenion felly y rhoddid crwyn y poeth-offrymau i'r offeiriad Iuddewig. Gan fod yr holl gig a'r gwêr yn cael ei gwbl losgi ar yr allor, nid oedd dim a allai ddisgyn i ran yr offeiriad ond y *croen*, yr hwn a roddid iddo am ei drafferth.

Adn. 9, 10. *A phob bwyd-offrw m a graser—fydd eiddo yr offeiriad*] Oddieithr y rhan a gedwid gan Dduw, pen. ii. 2, 9, gan fod hwn wedi ei barotoi, ac yn frwd, ac i'w fwyta yn y fan. Ac yr oedd yr offeiriad a'i hoffrymodd i ddysgwyl yn rhesymol rywbeth mwy na'i frodyr y rhai ni lasuriasant ddim yn ei gylch; a hyny a gai efe yn unig yn yr offrw m hwn; canys y lleill a renid yn gyfartal. Am bob bwyd-offrw m o beillied cri, adn. 10, pa un bynag ai wedi ei gymysgu trwy olew neu yn *sych*, hyny yw, heb olew na diod-offrw m, yr oedd holl feibion Aaron i'w ranu yn gyfartal rhyngddynt. Ac yr oedd rheswm amlwg dros y gwahaniaeth hwn, am fod y rhai hyn yn cael eu hoffrymu yn fesurau mwy na'r rhai blaenorol; a thrwy eu bod yn gri, gellid eu cadw yn hawddach i'r gwahanol offeiriad i'w trin yn y ffordd yr ewylllysiaid pob un.

Adn. 11, 12. *Dyma hefyd gyfraith yr ebyrth hedd*] Yr oedd amrai fathau o honynt, y rhai a ofyntent wahanol ddefodau. Y cyntaf oedd *aberth diolch*, yn cael ei alw felly am ei fod yn cael ei offrw m i Dduw am ryw gymwynas neillduol a dderbyniwyd, adn. 12. Yr oedd y cyfryw ebyrth yn cael eu dilyn â gwledd, ac weithiau âg arddangosiadau uchel o lawenydd, 1 Sam. xi. 15. Am y

trwy olew; ac afrllad croyw, wedi eu hiro âg olew; a pheillied wedi ei grasu yn deisenau, wedi eu cymysgu âg olew.

13 Heblaw y teisenau, offrmed fara lefeinllyd, yn ei offrwm, gyda'i hedd-aberth o ddiolch.

14 Ac offrmed o hyn un *dorth* o'r holl offrwm, yn offrwm dyrchafael i'r Arglwydd; a bydded *hwnw* eiddo yr offeiriad a daenello waed yr ebyrth hedd.

15 A chig ei hedd-aberth o ddiolch a fwyteir y dydd yr offrymir ef: na adawer *dim* o hono hyd y bore.

16 Ond os adduned, neu offrwm gwirfodd, fydd aberth ei offrwm ef; y dydd yr offrymo efe ei aberth bwytäer ef: a thranoeth bwytäer yr hyn fyddo yn weddill o hono.

17 Ond yr hyn a fyddo o gig yr

aberth yn weddill y trydydd dydd, llosgir yn tân.

18 Ac os bwyteir dim o gig offrwm ei ebyrth hedd ef o fewn y trydydd dydd, ni byddir boddlon i'r hwn a'i hoffrymo ef, ac nis cyfrifir iddo, ffeiddbeth fydd: a'r dyn a fwyty o hono, a ddwg ei anwiredd.

19 A'r cig a gyffwrddo â dim aflan, ni fwyteir; mewn tân y llosgir ef: a'r cig *arall*, pob glân a fwyty o hono.

20 A'r dyn a fwytao gig yr hedd-aberth, yr hwn a *berthyn* i'r Arglwydd, a'i aflendid arno; torir ymaith y dyn hwnw o fysg ei bobl.

21 Ac os dyn a gyffwrddo â dim aflan, *sef* âg aflendid dyn, neu âg anifel aflan, neu âg un ffeiddbeth aflan, a bwyta o gig yr hedd-aberth, yr hwn a *berthyn* i'r Arglwydd; yna y torir ymaith y dyn hwnw o fysg ei bobl.

rhai hyn y sonia y Salmwyd pan y dywed, 'Aberthant hefyd aberth moliant, a mynegant ei weithredoedd ef mewn gorfoledd,' Salm cvii. 22. Yr ail oedd *offrwm addunedol*, adn. 16, yr hwn hefyd oedd yr aberth diolch, ond yn cael ei offrïmu yn ganlynol i ryw adduned neu lw crefyddol, trwy ba un yr ymrwymasai y dyn i offrïmu i Dduw y cyfrwy aberth, os derbynai efe ryw gymwynas neillduol. Y trydydd oedd *offrwm gwirfodd*, yn cael ei wneyd yn rhydd yn mlaenllaw, mewn ffordd o weddi am ryw fendith ddyfodol, adn. 16; neu, fel y mae Le Clerc yn ei egluro, *offrwm gwirfodd* oedd aberth a offrïmid, nid am unrhyw gymwynas neillduol a dderbyniwyd nen a ddysgwyld, ond yn unig o'rllafad calon ddiolchgar i Dduw am ei ddioni yn gyffredinol. Cawn yr offrwm hwn yn cael ei wahaniaethu yn eglur oddiwrth yr offrwm adduned, pen. xxii. 23.

And. 13. *Offrmed fara lefeinllyd*] Yr oedd hwn yn offrwm gwahanol i'r rhai y gwaherddid lefain ynddynt, trwy ei fod yn offrwm o ddiolchgarwch am fendithion Duw, yn mhlith y rhai yr oedd bara lefeinllyd yn un. Yr oedd lefain yn wir yn cael ei wahardd yn gyffredinol yn pen. ii. 11; eithr nid oedd y gwaharddiad hwnw yn cyfeirio ond at bethau a offrïmid ac a losgid ar yr allor, yr hyn ni wneid â'r bara hwn.

Adn. 14. *Yn offrwm dyrchafael*] Gwel ar Exod. xxix. 27, 28.

Adn. 15. *A fwyteir y dydd yr offrymir ef*] Am ei fod yn y fath wlad boeth yn ddeddol i lygru; a chan ei fod yn cael ei ystyried yn *santaid*, buasai yn dra anaddas gosod yr hyn a gysegresid i'r Bôd Dwyfol yn agored i lygr-edigaeth. Tybia Mr. Harmer fod y gyfraith yma yn cyfeirio at yr aferiad o *sychu cig* a gysegresid i ddybenion crefyddol, yr hyn a fflna yn mhlith y Mahometaniaid hyd heddiw; ac mai hyn a roddodd gyfodiad i'r gwaharddiad, am y gallai cig cysegredig wedi ei gadw fel hyn gael ei gamddefnyddio i ddybenion coelgrefyddol.

Adn. 16. *On os adduned, neu offrwm gwirfodd, fydd ei aberth ef*] Gwel ar adn. 10, 11. *A thranoeth bwytäer yr hyn fyddo yn weddill*—yr hyn ni oddeffid yn achos yr offrwm diolch, adn. 15. Hyn yw gorchymyn Duw; ac y mae efe yn ddygwyl ufydd-dod oddiwrthym ni, er na byddom yn gwled y rheswm o'i osodiadau ef.

Adn. 17. *On yr hyn a fyddo o gig yr aberth yn weddill y trydydd dydd, llosgir yn tân*] Rhag iddo lygru, ac felly fod yn agored i ddirmyg; hefyd i'w tueddu i ymddiried yn rhagluniaeth Duw; ac i'w battal rhag anwesu tuedd gybyddlyd, trwy gadw at wasanaeth denluaidd yr hyn a ddylent ei roddi i'w cyfeillion nen i'r tylodion.

Adn. 18. *Ni byddir boddlon i'r hwn a'i hoffrymo ef*] Yn yr achos hwn nid yn unig yr oedd yr aberth yn myned yn ddiweith, ond yr oedd yr offrïmwr yn enog o drosedd newydd. *Ac nis cyfrifir iddo*—yn wasanaeth gymeradwy gan Dduw, ond fe'i hystyrir unweidd a phe nad offrïmesid dim.

Adn. 19. *Pob glân a fwyty o hono*] Pa un bynag ai offeiriad, ai offrïmwr, neu wahoddedigion. Rhaid i'r cig a'i fwytywyr fod yn lân.

Adn. 20. *A'r dyn a fwytao*] Yn wybodus; cays pe gwnai efe hyn mewn anwybodaeth, derbynid aberth drosto. *A'i aflendid arno*—heb ei lanhau yn ôl y gyfraith, pen xi. *Torir ymaith y dyn hwnw o fysg ei bobl*—hyn yw, cauir ef allan oddiwrth holl freintiau Israeliaid; gwel ar Gen. xvii. 14. Amcan yr holl orchymynion hyn oedd cadw mwy o barch ac anrhydedd i bethau cysegredig, ac arwyddo y bydd i bawb ag sydd yn byw mewn pechod nad edifarhawyd am dano, ac na farweiddiwyd ef, gael eu gwrthod pan y nesânt at Dduw mewn gweithredoedd allanol o addoliad.

Adn. 21. *Aflendid dyn*] Unrhyw grawn-friw, dolur, neu wahanglywyf, neu ryw fath o anhwylded yn y croen. *Neu âg anifel aflan*—y meddwl yw, nid cyffwrddo â'r *anifel*, me-

22 ¶ Llefaroedd yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

23 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Na fwyteuch ddim gwêr eidion, neu ddafad, neu afr.

24 E o gwêr burgyn, neu wêr ysglyfaeth, a ellir ei weithio mewn pob gwaith: ond gan fwyta na fwyteuch ef.

25 O herwydd pwy bynag a fwytao wêr yr anifel, o'r hwn yr offrymir aberth tanllyd i'r Arglwydd; torir ymaith yr enaid a'i bwytao o fysg ei bobl.

26 Na fwyteuch chwaith ddim gwaed o fewn eich cyfanneddan, o'r eiddo aderyn, nac o'r eiddo anifel.

27 Pob enaid a fwytao ddim gwaed, torir ymaith yr enaid hwnw o fysg ei bobl.

28 ¶ A'r Arglwydd a lefaroedd wrth Moses, gan ddywedyd,

29 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Y neb a offrymo ei aberth hedd i'r Arglwydd, dyged ei rodd o'i aberth hedd i'r Arglwydd.

30 Ei ddwyllaw a ddygant ebyrth tanllyd yr Arglwydd; y gwêr yu

nghyda'r barwyden a ddwg efe: y barwyden fydd i'w chyhwanu, yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd.

31 A llosged yr offeiriad y gwêr ar yr allor: a bydded y barwyden i Aaron ac i'w feibion.

32 Rhoddwch hefyd y balfais ddeau yn offrwm dyrchafael i'r offeiriad, o'ch ebyrth hedd.

33 Yr hwn o feibion Aaron a offrymo waed yr ebyrth hedd, a'r gwêr; bydded iddo ef yr ysgwyddog ddeau yn rhan.

34 O herwydd parwyden y cyhwfan, ac ysgwyddog y dyrchafael, a gymerais i gan feibion Israel o'u hebyrth hedd, ac a'u rhoddais hwynt i Aaron yr offeiriad, ac i'w feibion, trwy ddeddf dragwyddol, oddiwrth feibion Israel.

35 ¶ Hyn yw rhan eneiniad Aaron, ac eneiniad ei feibion, o ebyrth tanllyd yr Arglwydd, yn y dydd y nesaodd efe hwynt i offeiriadu i'r Arglwydd;

36 Yr hwn a orchymynodd yr Arglwydd ei roddi iddynt, y dydd yr eneiniodd efe hwynt allan o feibion

gys march neu asyn, canys hyn a wnaent bob dydd; ond â'i astendid ef: gwel gyfieithiad y LXX.

Adn. 23. *Na fwyteuch ddim gwêr eidion, neu ddafad, neu afr*] Yr oedd gwêr neu frader y rhai hyn yn santaid, am eu bod yn cael eu hoffrymu yn aberth. Y mae yn debyg fod y gwabarddiad yma i'w ddeall am yr anifeiliaid hyn pan eu hoffrymid yn aberth, a'r pryd hyn yn unig mewn cyfeiriad at y brasder *mewnol*, fel y crybwyllwyd ar adn. 4. Am y brasder mewn naryhw amgylchiad arall ni all gael ei feddwl, meddai Clarke, gan ei fod ef yn un o'r bendithion neillduol a roddai Duw i'w bobl, Deut. xxxii. 14.

Adn. 21. *Eto gwêr burgyn*] Sef anifel wedi trigo trwy aſeched; neu wêr ysglyfaeth— anifel wedi ei rwygo i farwolaeth gan fwystfilod; a ellir ei weithio mewn pob gwaith— megys iraid cyffredin: ond gan fwyta na fwyteuch ef—yr oedd bwyta cig y cyfryw yn anghyfreithlon, a bwyta eu gwêr yn llawer mwy felly.

Adn. 25. *Pwy bynag a fwytao wêr*] Gwel ar adn. 23.

Adn. 26, 27. *Na fwyteuch chwaith ddim gwaed*] Gwel ar pen. iii. 17, Gen. ix. 4, Act. xv. 20. *Torir ymaith yr enaid a'i bwytao*—efe a esgymunir oddiwrth bobl Dduw, ac felly a amddifadir o'n bendithion hwy.

Adn. 29. *Dyged ei rodd o'i aberth hedd*] Sef y rhanau hyn a berthynent i'r Arglwydd ac i'r offeiriad.

Adn. 30. *Ei ddwyllaw a ddygant*] Ar ol i'r anifel gael ei ladd, a'i ranau gael eu gwahanu, yr oedd yr offeiriad i roddi y darnau crybwyll-

edig yn nwyllaw yr offrymwr. *Ebyrth tanllyd yr Arglwydd*—gelwid hwynt felly am fod rhanau o honynt yn cael eu llosgi. Yr oeddynt yn wahanol i'r poeth-offrymau, trwy fod rhanau o honynt yn cael eu rhoddi i'r offeiriad. *Offrwm cyhwfan*—gwel ar Exod. xxix. 25—28.

Adn. 31. *A bydded y barwyden*] Sef y frest neu yr asenau; i Aaron ac i'w feibion—ar ol yn gyntaf ei chyhwanu gerbron yr Arglwydd.

Adn. 32, 33. *Y balfais ddeau*] Yr hon a elwir ysgwyddog ddeau yn adn. 33; yn offrwm dyrchafael—gwel ar Exod. xxix. 27, 28.

Adn. 34. *Parwyden y cyhwfan, ac ysgwyddog y dyrchafael, a gymerais i gan feibion Israel*] Sef y rhanau hyn a gysegrwyd i mi trwy eu cyhwfanau a'u dyrchafu tua'r nef. Y frest neu y galon yw sedd doethineb, a'r ysgwydd yw sedd nerth i weithredu; a gall y ddau hyn arwyddo y doethineb a'r nerth ag oeddynt yn Nghrist ein Harchoffeiriad ni, a'r rhai a ddylent fod yn ei holl weinidogion ef. Gallant hefyd arwyddo fod Duw i gael ei wasanaethu â'n holl galon, meddwl, a nerth. *Ac a'u rhoddais hwynt i Aaron yr offeiriad, ac i'w feibion, trwy ddeddf dragwyddol*—gosodiad i barhau cyhyd ag y parhâi cyfraith yr aberthau. Ac y mae yr uniondeb o hyn yn aros fyth: canys fel yr oedd y rhai a 'wasanaethent yr allor yn gydgyfranogion o'r allor; felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl, 1 Cor. ix. 13, 14.

Adn. 35. *Hyn yw rhan eneiniad, &c.*] Sef rhan Aaron a'i feibion yn ganlynol i'w heneiniad i'r offeiriadaeth.

Israel, trwy ddeddf dragwyddol, trwy eu cenedlaethau.

37 Dyma gyfraith y poeth-offrwm, y bwyd-offrwm, a'r aberth dros bechod, a'r aberth dros gamwedd, a'r cysegriadau, a'r aberth hedd ;

Adn. 36. *Y dydd yr eneiiodd efe hwynt*] Gwel ar y bennod nesaf, ac ar Exod. xl. 15.

Adn. 37. *Dyma gyfraith y—cysegriadau*] Hyn yw, cyfraith yr aberth a offrymid wrth gysegru yr offeiriad.

Adn. 38. *Yr hon a orchymynodd yr Arglwydd wrth Moses yn mynydd Sinai*] 'Yn hytrach, wrth fynydd Sinai; canys yr oedd Moses er's clym amsur wedi dyfod i waered o'r mynydd; a'r gorchymynion hyn a roddwyd iddo ef o'r *babell*, pen. i. 1. Yr oedd ef a'r bobl fyth, modd byna, yn *aniabwch Sinai*, neu yn y rhandir hwnw ag ydoedd mewn cysylltiad a'r mynydd, yr hwn, trwy ei fod yn wyllt ac heb fawr o drigolion, a elwir yn *aniabwch*.—BENSON. Ond tybia Clarke, Coke, ac ereill, i'r cyfreithiau hyn gael eu traddodi yn gyntaf i Moses tra yr oedd efe ar y mynydd gyda Duw, ac iddynt gael eu hailadrodd wrtho o'r *babell*.

YR ABERTHAU A'R OFFRYMAU IUDDEWIG.

'GAN fod y gwahanol fathau o ebyrth ag y gorchymynwyd eu hoffiwm yn dygwydd yn fynych yn y llyfr hwn, yr wyf yn meddwl mai gwel yw, unwaith am byth, iolddi hanes gyffredinol o honynt, ac eglurhad o'r geiriau gwreiddiol, yn gystal a'r holl rai ereill perthynol i'r pwnc hwn, y rhai a afeirir yn yr Hen Testament, a'r berthynas yn yr hon y safant oll i'r ABERTH mawr a offrymwyd gan Grist.

'1. ASHAM, *offrwm dros gamwedd*, oddiwrth *asham*, bod yn euog, neu yn agored i gosp; canys yn yr aberth hwn ystyrir y euogrwydd fel yn drosglwyddedig ar yr anfel a offrymid i Dduw, a'r offrymwr yn cael ei waredu oddiwrth gosp ei bechod, adn 37. Dywedir i Grist osod ei enaid yn aberth (*asham*) dros bechod, Essay liii. 10.

'2. ISHSEH, *aberth tanlyd*, yn debygol oddiwrth *ashash*, bod yn ôndus, digllawn, lliidiog; yn nodi allan naill ai natur ôfidus pechod, neu ei duedd i enyn dwyfol gyfiawnder yn ebyn y troseddwr, yr hwn o ganlyniad, gan haeddu cael ei losgi am ei drosedd, a wna'i ddefnydd o'r aberth hwn i gael bod yn rhydd oddiwrth y gosp ddyledus i'w drosedd. Y mae yn dygwydd yn Exod. xxix. 18, ac mewn amrai lleoedd yn Lefiticus.

'3. HABHABIM, *offrymau mynychedig*, oddiwrth *yahab*, diwallu. Nid yw y gair yn dygwydd ond yn Hos. viii. 13, nac yn meddwl ond odid ddim mwy na mynychiant parhaus o offrymau arferol y wasanaeth santaidd, neu barhad o bob rhan o'r cyfryw.

'4. ZEBACH, *aberth*, (yn y Galdeaeag *debach*, trwy fod y *zain* yn cael ei newid i *daleth*.) creadur yn cael ei ladd yn aberth, oddiwrth *zabach*, lladd; am hyny yr oedd yr allor ar yr hon yr offrymid y cyfryw ebyrth yn cael ei galw *mizbeach*, lle i aberthu: gwel ar Gen.

38 Yr hon a orchymynodd yr Arglwydd wrth Moses yn mynydd Sinai, yn y dydd y gorchymynodd efe i feibion Israel offrymu eu hoffrymau i'r Arglwydd, yn anialwch Sinai.

viii. 20. Y mae *zebach* yn enw arferedig am ebyrth yn gyffredinol.

'5. CHAG, *gŵyl*, yn enwedig y gyfryw ag a ddychwelai yn gylchynol, oddiwrth *chagag*, cadw gŵyl, dawnsio o amgylch-ogylich mewn cylchoedd: gwel Exod. v. 1, a xii. 14. Y mae yn debyg fod y ddawns gylchaid yn cael ei bwriadu i nodi allan chwyldroad y cyrff nefol, a dychwelai cywir y gwahanol dymboran. Gwel *Parkhurst*.

'6. CHATTATH a CHATAAH, *pech-aberth*, oddiwrth *chata*, methu y nôd; y mae hefyd yn arwyddo pechod yn gyffredinol, ac y mae yn air tra chynhwys i anlygu ei natur ef. Y mae pechadur yn barhaus yn cyfeirio at, ac yn ceisio am, ddedwyddwch; ond gan nad yw yn ei geisio yn Nuw, o ganlyniad y mae yr ysgrythyr yn ei arddangos ef fel yn methu ei gyfeiriad, neu yn methu y nôd. Hyn yn gywir yw ystyr y gair Groeg *hamarti*, yr hwn a gyfieithir yn *bechod* a *pech-aberth* yn ein Beiblau ni; a hwn yw y gair ag y cyfieithwyd y gair Hebreig iddo gan y LXX ac ysgrifenywr ysbrdydedig y Testament Newydd. Yr oedd y pech-aberth ar unwaith yn gydnabyddiaid o euogrwydd, trwy adael ffynnon y dyfroedd byw, a chloddio pydewau na allent ddal dim; ac hefyd o friwad diysgog yr offrymwr i ddychwyld at Dduw, gwir a phur ffynnonell dedwyddwch. Y mae y gair hwn yn dygwydd yn fynych: gwel ar Gen. iv. 7.

'7. COPHER, *dyhuddiant* neu *gymod*, oddiwrth *caphar*, cuddio, taentu dros, dileu, neu ddiryimu cytundeb. Y mae yn cael ei ddefnyddio yn fynych i arwyddo yr iawn neu y dyhuddiant a wnaed er maddeu neu ddileu anwiredd. Gwel chwang yn y sylw ar Exod. xxv. 17.

'8. MOED, *gŵyl flunyddol benodedig*, oddiwrth *yaad*, penodi neu osod; yn arwyddo y cyfryw wyliau ag a sefydlwyd er cof am ryw ddygwyddiaid neu waredigaeth fawr, megys y waredigaeth o'r Aifft, Exod. xiii. 10; ac fel hyn gwahaniaethai oddiwrth y *chag* a grybwyllwyd uchod: gwel ar Gen. i. 14.

'9. MILLUIM, *cysegriadau* neu *offrymau cysegriad*, oddiwrth *mala*, llenwi; yr offrymau hyn a wneid mewn cysegriadau, o'r rhai yr oedd yr offeiriad yn ymgysfranogi, neu, yn yr eiriadaeth Hebreig, yn bod â'u dwylaw wedi eu llenwi, neu y rhai a lanwasent ddwyllaw y neb a'u hoffryment: gwel ar Exod. xxix. 22, a 2 Cron. xiii. 9.

'10. MINCHAH, *bwyd-offrwm*, oddiwrth *nach*, gorphwys, ymsefydlu ar ol llafur. Yr oedd yn gyffredin yn ganvysedig o bethau difwydd, megys twysenau irion o fyd, peillied, olew, a thus; (gwel ar pen. ii. 1, &c. ;) a gellir ei ystyried fel yn cael ei enw oddiwrth y *gorphwysiad* hwnw oddiwrth lafur a lussed a gai dyn pan fyddai ffrythau y cynauaf wedi eu dwyn i mewn, neu pan, yn ganlyniol i gaff-

aeliad unrhyw orphwysiad, esmwythyd, &c., y byddai offrymiad neu aberthiad pwrsg yn cael ei wneuthur i Dduw. Y mae ef yn dygwyllyd yn fynych; gwel y sylw ar Gen. iv. 3. Yr offrwm eiddigedd (Num. v. 15) oedd *minchah* syml, yn gynywysedig o *flawd haidd* yn unig.

*11. MESECH a MIMSACH, *cymysg-offrwm* neu *gymysg ddiod-offrwm*, (Esay lxxv. 11.) oddiwrth *masach*, cymysgu. Ymddengys ei fod yn gyffredin yn meddwl hen win wedi ei gymysgu â'r gwaddod, yr hyn a'i gwnaei yn dra meddwol. Nid ymddengys fod gan yr offrwm hwn unrhyw le yn addoliat y *gwir* Dduw; ond oddiwrth Esay lxxv. 11, a Diar. xxiii. 30, ymddengys ei fod yn cael ei ddefnyddio i ddybenion eilunaddolgar, megys y *Bacchanalia* yn mhilieth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, lle yr oedd pawb yn meddwi er anrhydedd i'r duw.

*12. MASSETH, *rhodd*, pethau yn cael eu *cario* i'r deml i'w cyflwyno i Dduw, oddiwrth *nasa*, dwyn neu gario, dwyn pechod; yn *gysgodol*, Exod. xxviii. 38, pen. x. 17, a xvi. 21; yn *wirioneddol*, Esay liii. 4, 12. Dyoddefiadau ac angau Crist oedd y *gwir masseeth*, neu *ddygiad dirprwyol* pechodau dynolryw, fel y mae yr adnodau uchod yn Esay yn profi yn ddigonol. Gwel gyfeiriad at hyn gan yr efengylwr Ioan, pen. i. 29; a gwel y gwreiddair yn *Parkhurst*.

*13. NEDABAH, *offrwm gwirfodd* neu *ewyllysgar*, oddiwrth *nadab*, bod yn rhydd, hael, tywysogaidd. Offrwm heb ei orchymyn, ond yn cael ei roddi fel prawf neillduol o ddiolchgarwch anghyffredin i Dduw am drugareddau arbenig, neu ar gyfrif rhyw adduned neu ymrwymiad a wnaed yn *wirfoddol*, adn. 16.

*14. NESECH, *diod-offrwm*, oddiwrth *nasach*, taenu neu dywallt allan. Dwfr neu win a dywelltid allan ar orpheniad neu gadarnhad cytundeb neu gyfammod. Y mae cyfeiriad mynych at y math yma o offrwm yn y Testament Newydd, gan ei fod yn cysgodi gwaed Crist yn dywalltedig dros bechod y byd; ac at hwn y cyfeiria ein Harglwydd ei hun yn sefydliad y Cymun santaidd. Y mae holl drefnidedd yr efengyl yn cael ei arddangos fel cyfammod neu cytundeb rhwng Duw a dyn, a Iesu Crist nid yn unig y *Cyfringwr*, ond yr *Aberth cyfammodol*, yr hwn y tywalltwyd ei waed er sicrhau a chadarnhau y cyfammod neu y cytundeb hwn rhwng Duw a dyn.

*15. OLAH, *poeth-offrwm*, oddiwrth *alah*, esgyn; am fod yr offrwm hwn, trwy ei fod yn cael ei gwbl ddi'fa, yn *esgyn* megys at Dduw mewn mwg a tharth. Yr oedd ef yn gysgod tra grymus o aberth Crist, gan na allai dim llai na'i aberth cyflawn a pherffaith ef wneyd iawn dros bechod y byd. Yn y rhan fwyaf o'r aberthau ereill yr oedd yr offeiriad, ac yn fynych yr offrymwr, yn cael *rhan*; eithr yn yr holl boeth-offrwm yr oedd y cyfan yn cael ei roddi i Dduw.

*16. KETORETH, yr *arogldarth*, neu y *peraidd offrwm*, oddiwrth *katar*, llosgi, hyny yw, y thus a'r perlysiau ereill a ddefnyddid fel përarogl mewn gwahanol ranau o'r wasanaeth ddwyfol. I hwn y cymhara St. Paul fodduswydd aberth Crist i Dduw, Eph. v. 2:

'Crist—a'i rhoddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o *arogl peraidd*.' Oddiwrth Dat. v. 8 ni a ddysgwn ei fod yn cael ei fwriadu hefyd i gynrychioli *gwelldiau y saint*, y rhai, wrth gael eu hoffrymu ar yr allor hōno, Crist Iesu, pa eu sydd yn santeiddio pob rhodd, sydd dra chymeradwy yn ngolwg Duw.

*17. KORBAN, y *rhodd-offrwm*, oddiwrth *karab*, dynesu neu agosâu. Gwel hwn yn cael ei egluro, pen. i. 2. *Korban* oedd enw cyffredin ar unrhyw fath ar offrwm, am y tybid mai trwy y rhai hyn yr oedd dyn yn cael *dyfodfa* at ei Wneuthurwr.

*18. SHELAMIM, *hedd-berth*, oddiwrth *shalam*, cwblhau, cyfanu; cauys trwy yr aberthau yma yr oedd yr hyn ag ydoedd *ddiffygiol* yn cael ei ystyried yn awr fel wedi ei *wneyd i fyny*; a'r hyn a *dorwyd*, sef cyfammod Duw, trwy drosedd ei greaduriaid, a dybid wedi ei *gyfanu*; nes yr oedd gan y meddwl cywir a chydwylbodol, ar ol y fath aberth, hawl i ystyried fod y toriad wedi ei wneyd i fyny rhwng Duw ac yntau, ac y gallai ymaffyd yn hyderus yn y cyfammod hedd hwn. At hyn yn amlwg y cyfeiria yr apostol, Eph. ii. 14—19: 'Canys efe yw ein taugnefedd ni, (h y. ein *shalam* neu ein hedd-berth ni.) yr hwn a wnaeth y ddau yn un, ac a ddattododd ganolfur y gwahaniaeth rhyngom ni, ac a ddirydd trwy ei gnawd ei hun y gelyniaeth,' &c. Gwel yr holl frawddeg, a'r adfeddyliadau ar Gen. xiv.

*19. TODAH, *diolch-offrwm*, oddiwrth *yadah*, cyffesu; offrymau yn cael ei gwneyd i Dduw gyda chyffesiad cyhoeddus o'i allu, ei ddaioni, ei drugaredd, &c.

*20. TENUPHAB, *offrwm cyhwfan*, oddiwrth *naph*, estyn allan; offrwm o'r blaenffrwythau yn cael ei estyn gerbron Duw, yn gydnabyddiad o'i ddaioni rhagluniaethol. Yr offrwm hwn a symudid o'r llaw ddeu i'r aswy; gwel ar Exod. xxix. 27, 28.

*21. TERUMAH, *offrwm dyrchafael*, oddiwrth *ram*, dyrelafu; oblegid yr offrwm a *ddyrchefid* tua'r nef, megys yr offrwm cyhwfan, yn arwydd o diriondeb Duw yn caniatu gwlaw a frwythlon dymborau, ac yn llenwi y galon â lluniaueth ac â llaweydd. Fel yr oedd yr offrwm cyhwfan yn cael ei symud o'r ddeu i'r aswy, felly yr oedd yr offrwm dyrchafael yn cael ei symud i *fyfny* ac i *lawr*; ac yn y ddau achos gwneyd hyn amrai weithiau. Yr oedd gan yr offrymau hyn duedd fendithiol i gadw yn fyw yn mynwasau y bobl deimlad dyladwy o'u dibyniad ar y ragluniaeth a'r ihadloniwydd dwyfol, ac o'u rhywmedigaeth i Dduw am ei ddiwalliad parhaus a haelionus o'u holl eisiau; gwel ar Exod. xxix. 27, 28.

'Cynwysir yn y casgliad uchod, mor bell ag y gallaf fi gofio, eglurhad o'r holl eiriau a ddefnyddir yn yr Ysgrythyrau Hebreig i arwyddo aberth, offrwm, cymod, &c., &c., yn gystal a'r berthynas ag y maent yn ei dilyn â'r mawr a'r unig ddigonol aberth, offrwm, iawn, a bodloniwydd a wnaed gan Crist Iesu dros bechodau dynolryw. Rhaid i hysbysiadau helaethach gael eu ceisio mewn awduron ag sydd yn traethu yn broffesedig ar y pynciau hyn.'—CLARKE.

PENNOD VIII.

ALLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses; gan ddywedyd,

2 Cymer Aaron a'i feibion-gydag ef; a'r gwisgoedd, ac olew yr eneiniaid, a bustach yr aberth dros bechod, a dau hwrdd, a chawell y bara croyw:

3 A chasgl yr holl gynulleidfa yn nghyd i ddrws pabell y cyfarfod.

4 A gwnaeth Moses fel y gorchymynodd yr Arglwydd iddo: a chasglwyd y gynulleidfa i ddrws pabell y cyfarfod.

5 A dywedodd Moses wrth y gynulleidfa, Dyma y peth a orchymynodd yr Arglwydd ei wneuthur.

6 A Moses a ddyg Aaron a'i feibion, ac a'u golchodd hwynt â dwfr.

7 Ac efe a roddes am dano ef y bais, ac a'i gwregysodd ef â'r gwregys, ac a wisgodd y fantell am dano, ac a roddes yr ephod am dano, ac a'i gwregysodd â gwregys cywraint yr ephod, ac a'i canodd am dano ef.

8 Ac efe a osododd y ddwyfroneg arno, ac a roddes yr Urim a'r Thummim yu y ddwyfroneg.

9 Ac efe a osododd y meitr ar ei

ben ef; ac a osododd ar y meitr, ar ei dalcen ef, y dalaith aur, y goron santiaid; fel y gorchymynasai yr Arglwydd i Moses.

10 A Moses a gymerodd olew yr eneiniaid, ac a eneiniodd y tabernacl, a'r hyn oll oedd ynddo; ac a'u cysegrodd hwynt.

11 Ac a daenlodd o hono ar yr allor saith waith, ac a eneiniodd yr allor a'i holl lestri, a'r noe hefyd a'i throed, i'w cysegru.

12 Ac efe a dywalltodd o olew yr eneiniaid ar ben Aaron, ac a'i heneiniodd ef, i'w gysegru.

13 A Moses a ddyg feibion Aaron, ac a wisgodd beisiau am danynt, a gwregysodd hwynt â gwregysau, ac a osododd gapiau am eu penau; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

14 Ac efe a ddyg fustach yr aberth dros bechod: ac Aaron a'i feibion a roddasant eu dwylaw ar ben bustach yr aberth dros bechod;

15 Ac efe a'i lladdodd: a Moses a gymerth y gwaed, ac a'i rhoddes ar gyrn yr allor o amgylch â'i fys, ac a

PEN. VIII. Adn. 1. *A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses*] Dywedir hyn i d dangos na ddarfu i Moses roddi yr offeiriadaeth i'w frawd Aaron o herwydd ei berthlynas âg ef neu ei serch ato, ond trwy benodiad Daw.

Adn. 2. *Cymer Aaron a'i feibion*] Y mae mae holl destyn y bennod hon wedi ei egluro yn y sylwadau ar Exod. xxviii. 1, &c., a xxix. 1, &c., lle y cafodd yr holl aberthau, y defodau, a'r seremonïau en deongli yn dra manwl; ac at y sylwadau hyn y cyfeirir y darlennydd. Nid yw yn angenrheidiol ond yn unig sylwi, na chafodd Aaron a'i feibion eu heneinio hyd yn awr. O'r blaen y peth a orchymynwyd; yn awr y cyflawnwyd ef gyntaf.

Adn. 3—5. *A chasgl yr holl gynulleidfa*] Sef yr henuriaid, y rhai a gynrychiolent yr holl gynulleidfa; *i ddrws pabell y cyfarfod*—fel y gallont fod yn dystion o awdurdodiad Aaron oddiwrth Ddaew, ac o'i waith a'i orchwyll ef.

Adn. 6. *Ac a'u golchodd hwynt â dwfr*] Gwel ar Exod. xxix. 4.

Adn. 7. *Yr ephod*] Gwel ar Exod. xxv. 7, a xxviii. 6, &c.

Adn. 8. *Yr Urim a'r Thummim*] Gwel yr addefdyliadau ar Exod. xxviii.

Adn. 9. *Y goron santiaid*] Yr oedd y goron yn arwyddo ardduniant yr archoffeiriad; a'i bod yn cael ei galw yn *santiaid*, a arwyddai santeiddrwydd ei berson a'i swydd ef. Fel hyn yr oedd ef yn gyvsod o Grist, wedi ei goroni â gogoniant ac anhydedd; gwel ar Exod. xxviii. 36, &c.

Adn. 10. *Olew yr eneiniaid*] Gwel ar Exod. xxx. 23—33.

Adn. 11. *Ac a daenlodd o hono ar yr allor saith waith*] I arwyddo ei gwasanaeth a'i santeiddrwydd neillduol hi, yr hwn nid yn unig a geid ynddi ei hun, ond a gyfrendd ganddi i'r holl ebyrth a osodid arni. Ac fel hyn y mae gwaed Crist yn rhoddi effeithiolaeth i holl weinyddiaid y crediwyrr, ac yn eu gwneuthur yn y gweradwy gerbron Daw.

Adn. 12. *Ac efe a dywalltodd o olew yr eneiniaid ar ben Aaron*] Mewn modd helaeth, fel yr ymddengys oddiwrth Salm cxxxiii. 2, tra nad oedd personau a phethau ereill ond yn cael eu taenellu âg ef; canys yr oedd ei eneiniaid ef i gysgodi eneiniaid Crist â'r Ysbryd, yr hwn a roddid iddo nid wrth fesur, Ioan iii. 34. Y mae mesur o'r un eneiniaid yn cael ei roddi i'r holl wir gredinwyr, neu aelodau corff dirgeledig Crist, y rhai, trwy eu hundeb â'u bywiol Ben, sydd gyfranog o'r doniau a'r grasau hyn y eiddo yr Ysbryd Glâu ag oeddant ynddo ef; canys 'od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef; Rhaf. viii. 9.

Adn. 13. *A gwregysodd hwynt*] Gwel ar Exod. xxix. 5, &c.

Adn. 14. *Ac efe a ddyg fustach*] Yr oedd saith bustach i'w hoffrymu ar ei gysegriad ef, un bob dydd; eithr yma ni chrybwyllir ond un, am nad yw yn dysgrifio ond gwaith y dydd cyntaf yn unig.

Adn. 15. *Moses a gymerth y gwaed—ac a burodd yr allor*] Yr oedd y ddefod o roddi gwaed ar yr allor yn arwydd fod yr holl wasanaeth a offryment hwy i Ddaew yn gyfranog o'u haunhurdeb, a bod yr allor hono ag ydoedd yn santeiddio eu rhoddion yn cael

buodd yr allor; ac a dywalltodd y gwared wrth waelod yr allor, ac a'i cysegrodd hi, i wneuthur cymod arni.

16 Efe a gymerodd hefyd yr holl wêr oedd ar y perfedd, a'r rhwyden oddiar yr afu, a'r ddwy aren a'u gwêr; a Moses a'i llosgodd ar yr allor.

17 A'r bustach, a'i groen, a'i gig, a'i fiswail, a llosgodd efe mewn tân o'r tu allan i'r gwersyll; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

18 ¶ Ac efe a ddyg hwrdd y poeth-offrwm: ac Aaron a'i feibion a osodasant eu dwylaw ar ben yr hwrdd.

19 Ac efe a'i lladdodd; a Moses a dactnellodd y gwaed ar yr allor o amgylch.

20 Ac efe a dorodd yr hwrdd yn ei ddarnau; a llosgodd Moses y pen, y darnau, a'r gwêr.

21 Ond y perfedd a'r traed a olchodd efe mewn dwfr; a llosgodd Moses yr hwrdd oll ar yr allor. Poeth-offrwm *yw* hwn, i fod yn arogl peraidd ac yn aberth tanlyd i'r Arglwydd; fel y gorchymynodd yr Arglwydd i Moses.

ei halogi trwy eu cyffyrddiad afan hwy. Ond yr oedd ei thaeuelliad hi â gwaed yr aberth, yr hwn, trwy ddwyfod benodiad a osodid ac a dderbynid yn lle bywyd ffloftiedig y pechadur, yn gwneyd lle i edifeirwch, symudiad enogrwydd, a phureiddiad; ac ar y cyfrif hwn dywedir fod yr allor yn cael ei phuro a'i santeiddio trwy y weithred hon.

Adn. 16. *A'r rhwyden*] Gwel ar Exod. xxix. 13.

Adu. 17. *A'r bustach, a'i groen, a'i gig, a'i fiswail, a llosgodd efe*] Fel y gorchymynwyd, Exod. xxix. 14. Nid oedd yr offeiriad i fwyta o'u pech-offrwm eu hunain, (gwel pen. vi. 23,) i ddysgu iddynt na allent hwy wneyd cymod priodol dros eu pechodau eu hunain, llawer llai dros bechodau dynion ereill; er i Dduw weled yn dda benodi i'w bwyttad hwy o bech-offrwm rhai ereill fod yn arwydd i'r bobl fod Duw wedi derbyn eu haberthi; yr hyn gan hyn a elwir yn 'wneuthur cymod' drostynt, neu 'ddwyn eu hanwiredd,' pen. x. 17.

Adn. 18—21. *Ac efe a ddyg hwrdd y poeth-offrwm*] Gwel ar Exod. xxix. 15—18.

Adn. 22. *Ac efe a ddyg yr ail hwrdd, sef hwrdd y cysegriad*] Dygid hwn yn aberth hedd, Exod. xxix. 19. Yr oedd y drefn yn yr hon y dygid yr ebyrth hyn yn dra rhesymol; canys, yn gyntaf, offtrymid aberth dros bechod, adn. 14, fel cydnabyddiad o'u hanheilyngdod. Yna canlynai y poeth-offrwm, adn. 18, yr hwn a arwyddai eu bod yn ymgysgru yn llwyr o hynny allan i wasanaeth Duw. Ar ol hwn deuai aberth yr hedd-offrwm, yr hwn a argoelai eu bod mor bell mewn ffafr gyda Duw fel ag i ddal cymunedeb âg ef, ac ymgyfranogi o'i wledd santaidd, adn. 31.

22 ¶ Ac efe a ddyg yr ail hwrdd, sef hwrdd y cysegriad: ac Aaron a'i feibion a osodasant eu dwylaw ar ben yr hwrdd.

23 Ac efe a'i lladdodd; a Moses a gymerodd o'i waed, ac a'i rhoddes ar gwr isaf clust ddeau Aaron, ac ar fawd ei law ddeau, ac ar fawd ei droed deau.

24 Ac efe a ddyg feibion Aaron: a Moses a roes o'r gwaed ar gwr isaf eu clust ddeau, ac ar fawd eu llaw ddeau, ac ar fawd eu troed deau; a thaeuelliodd Moses y gwaed ar yr allor oddiamgylch.

25 Ac efe a gymerodd hefyd y gwêr, a'r gloren, a'r holl wêr oedd ar y perfedd, a'r rhwyden oddiar yr afu, a'r ddwy aren a'u brasder, a'r ysgwyddog ddeau.

26 A chymerodd o gawell y bara croyw, yr hwn oedd gerbron yr Arglwydd, un deisen croyw, ac un deisen o fara oleweddig, ac un aflraden; ac a'u gosododd ar y gwêr, ac ar yr ysgwyddog ddeau:

27 Ac a roddeis y cwbl ar ddwylaw

Adn. 23, 24. *A Moses a gymerodd o'i waed, &c.*] Yr oedd y gwaed hwn mewn rhan yn cael ei roddi ar ginstiau a bodian yr offeiriad, ac mewn rhan yn cael ei daenellu ar yr allor, i arwyddo eu bod hwy, a llefaru felly, wedi ymbriodi â'r allor, a bod yn rhaid iddynt dros eu holl ddyddiau ei gwasanaethu hi: gwel ar Exod. xxix. 20, 21. Sylwa Calmet fod cysegriad yr archoffeiriad Rhufeinig yn dwyn cryn debygolrwydd i gysegriad yr archoffeiriad Iuddewig. 'Yr offeiriad Rhufeinig wedi ei wigo mewn gwisg sidan, ac ar ei ben gorn o aur addurnedig âg ysnodenau cysegredig, a arweinwyd i le tanddaearol, dros yr hwn yr oedd llawr o estyllod wedi eu tyllu â llawer o dyllau. Ar y llawr hwn aberthasant fustach, gwaed yr hwn a dywelltid yn helaeth ar yr estyllod neu y llawr, pa un, gan redeg trwy y tyllau, a ddisgrynai ar yr offeiriad, yr hwn a safai tanodd i dderbyn y taenelliad santaidd yma; a'r hwn, mewn trefn i gael ei lwyrr orchuddio â'r gwaed, a gymerai ofal i osod yr oll o'i gorff, ei ddillad, ei wyneb, ei lygaid, ei drwyn, ei wesusau, ac hyd yn nod ei daod, i dderbyn y dyferion gwaed a ddisgrynent trwy y llawr tylledig uchod. Ar ol iddo gael ei lwyrr orchuddio â'r gawod waedlyd hon, efe a esgynodd o'r lle tanddaearol hwn, ac a gydnabyddwyd ac a sawrwygwyd gan y bobl negys *Pontifex Maximus*, neu y goruchaf archoffeiriad.' Y mae y defodau hyn, y rhai sydd dra thebyg i'r rbai a arferid yn nglysegriad Aaron, ac oddiwrth y rhai yn debygol y benthycwyd hwy, yn cael eu dysgrifio yn fawel gan *Aurelius Prudentius* yn ei bryddest a elwir *Romani Martyris Supplicium*. Ganed *Prudentius* tua chanol y pedwarydd canrif, a diamau ei fod yn dra

Aaron, ac ar ddwyllaw ei feibion, ac a'u cyhwfanodd hwynt yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd.

28 A Moses a'u cymerth oddiar eu dwyllaw hwynt, ac a'u llogodd ar yr allor, ar yr offrwm poeth. Dyma gysegriadau o arogl peraidd: dyma aberth tanllyd i'r Arglwydd.

29 Cymerodd Moses y barwyden hefyd, ac a'i cyhwfanodd yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd: rhan Moses o hwrdd y cysegriad oedd hi; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

30 A chymerodd Moses o olew yr enciniad, ac o'r gwaed *oedd* ar yr allor, ac a'i taenellodd ar Aaron, ar ei wisgoedd, ar ei feibion hefyd, ac ar wisgoedd ei feibion yn nghyda ef: ac efe a gysegrodd Aaron, a'i wisgoedd, a'i feibion hefyd, a gwisgoedd ei feibion yn nghyda ef.

31 ¶ A dywedodd Moses wrth Aaron, ac wrth ei feibion, Berwech y cig *wrth* ddrws pabell y cyfarfod: ac yno bwytech ef, a'r bara hefyd *sydd* yn nghawell y cysegriadau; megys y gorchymynais, gan ddywedyd, Aaron a'i feibion a'i bwyty ef.

adnabyddus o'r amgylchiadau a ddarluniai, sylwedd pa rai a roddwyd uchod.

Adn. 25—28. *Ac efe a gymerodd hefyd y gwēer a'r gloren, &c.*] Gwel ar Exod. xxix. 22, &c.

Adn. 29. *Rhan Moses*] Yr hwn, gan ei fod yn awr yn gweinyddu swydd yr offeiriad, oedd i gael cyflog yr offeiriad: gwel ar Exod. xxix. 25, 26.

Adn. 30. *A chymerodd Moses—o'r gwaed oedd ar yr allor, ac a'i taenellodd ar Aaron*] Fel hyn yr ydym yn cael fod yn rhaid i'r archoffeiriad ei hun gael ei daenellu â gwaed yr aberth; a'u Harglwydd bendigedig, o'r hwn yr oedd Aaron yn gysgod, a daenellwyd â'i waed ei hun, 1. Yn ei ing yn yr ardd; 2. Yn ei flangelliad; 3. Yn ei goroniad â drain; 4. Yn nhyllid ei ddwyllaw a'i draed; 5. Yn gwaniad ei ystlys â'r waewffon.

Adn. 31. *Wrth ddrws*] Y mae y LXX yn ei ddarllen, 'Berwech y cig *yn nghyntedd* pabell y cyfarfod.' Ymddengys mai hwn yw yr iawn ddarlenniad, gan na allai Aaron a'i feibion fyned allan o'r cyntedd dros saith niwrnod. Y mae yn debyg fod y crochan yn sefyll yn agos i'r drws. *Megys y gorchymynais*—'megys y gorchymynwyd i mi.'—HOUBIGANT.

Adn. 32. *A losgwech yn tân*] Fel na fyddai iddo gael ei drin gyda dirmyg, na'i ddefnyddio i ddybenion ereill.

Adn. 33—35. *Ac nac ewch dros saith niwrnod, &c.*] Gwel ar Exod. xxix. 30.

Adn. 36. *A gwnaeth Aaron a'i feibion yr holl bethau*] Y mae y bennod hon yn dangos cywir gyflawniad y gorchymynion a draddod-

32 A'r gweddill o'r cig, ac o'r bara, a losgwech yn tân.

33 Ac nac ewch dros saith niwrnod allan o ddrws pabell y cyfarfod, hyd y dydd y cyflawner dyddiau eich cysegriadau: o herwydd saith niwrnod y bydd efe yn eich cysegru chwi.

34 Megys y gwnaeth efe heddyw, y gorchymynodd yr Arglwydd wneuthur, i wneuthur cymod drosoch.

35 Ac arhoswch *wrth* ddrws pabell y cyfarfod saith niwrnod, ddydd a nos, a chedwch wyladwriaeth yr Arglwydd, fel na byddoch feirw: canys fel hyn y'm gorchymynwyd.

36 A gwnaeth Aaron a'i feibion yr holl bethau a orchymynodd yr Arglwydd trwy law Moses.

PENNOD IX.

YNA y bu, ar yr wythfed dydd, i Moses alw Aaron a'i feibion, a henuriaid Israel;

2 Ac efe a ddywedodd wrth Aaron, Cymer i ti lo ieuanc yn aberth dros bechod, a hwrdd yn boeth-offrwm, o rai perffeith-gwbl, a dwg *hwy* gerbron yr Arglwydd.

3 Lleiarodd hefyd wrth feibion

wyd gan Dduw i Moses, Exod. xxix., ac o ganlyniad gyflawn barotoad Aaron a'i feibion i lenwi swydd ofnadwy bwysig offeiriad a chyfyngwyr rhwng Duw ac Israel, i offrymu ebyrth a gwnentur cymod dros bechodau y bobl. Ond ar ol yr holl ddefodau a arferwyd ar eu cysegriad hwy, cadwyd un peth i anrhydeddu offeiriadaeth Crist: cawsant hwy 'eu gwnentur yn offeiriad *heb lw*; ond hwn *trwy lw*,' Heb. vii. 21, i ddangos na chai yr oruchwyliaeth efengylaidd byth ei newid na'i diddymu hyd oni lyncid amser gan dragwyddoldeb.

PEN. IX. Adn. 1. *Ar yr wythfed dydd*] Hwn oedd y dydd cyntaf ar ol eu cysegriad, cyn pa un y bernid hwy yn anaddas i weini mewn pethau santaidd, gan eu bod yn cael eu hystyried fel newn cyflwr o amherffeithrwydd. Yr *wythfed dydd* oedd yr amser a benodid yn benaf i symud ymaith atfendid. Y mab a enwaedid ar yr wythfed dydd, pen. xii. 2, 3. Yr oedd y llo, yr oen, a'r nŷn gyda'i fam hyd yr wythfed dydd, ac yna gellid ei aberthu, pen. xxii. 27. Yr oedd y gwahanglywysf, ar ol ei iachâu, yn cael ei gau i fyny hyd yr wythfed dydd yn barotoawl i'w lanhad, pen. xiv. 23; ac felly hefyd y dyferllyd, pen. xv. 13, 14.

Adn. 2. *Cymer i't lo ieuanc, &c.*] Trwy fod yr ebyrth hyn dros Aaron ei hun, dygir hwy ganddo ef ei hun, ac nid gan y bobl; canys bwriedid hwynt i wneuthur cymod dros ei bechod ef ei hun. Ac y mae yr Iuddewon yn meddwl fod y llo hwn yn cael ei fwrriadu i

Israel, gan ddywedyd, Cymerwech fyn gaft, yn aberth dros bechod; a llo, ac oen, blwyddiaid, perffieith-gwbl, yn boeth-offrwm;

4 Ac eidion, a hwrdd, yn aberth hedd, i aberth gerbron yr Arglwydd; a bwyd-offrwm wedi ei gymysgu trwy olew: o herwydd heddyw yr ymddengys yr Arglwydd i chwi.

5 ¶ A dygasant yr hyn a orchymynodd Moses gerbron pabell y cyfarfod: a'r holl gynulleidfa a ddaethant yn agos, ac a safasant gerbron yr Arglwydd.

6 A dywedodd Moses, Dyma y peth a orchymynodd yr Arglwydd i chwi ei wneuthur: ac ymddengys gogoniant yr Arglwydd i chwi.

7 Dywedodd Moses hefyd wrth Aaron, Dos at yr allor, ac abertha dy aberth dros bechod, a'th boeth-offrwm, a gwna gymod drosot dy hun, a thros y bobl; ac abertha offrwm y bobl, a gwna gymod drostynt; fel y gorchymynodd yr Arglwydd.

wneuthur cymod dros ei bechod ef yn achos y *llo aur*. Y mae hyn yn dra thebyg, meddai Clarke, gan na wnaed eto un cymod fwrfiol am y trosedd hwnw.

Adn. 3. *Llefarodd hefyd wrth feibion Israei, gan ddywedyd, Cymerwech fyn gaft* Yn pen. iv. 14, gorchymynir aberthu *bustach ieuanc* dros bechod y bobl; ond yma yr offrwm yw *myjn*, yr hwn oedd yr aberth a benodwyd dros bechod *penaeth*, pen. iv. 22, 23; ac am hyny y mae rhai yn meddwl fod darlleniad y Samaritanaeg a'r LXX yn fwy dewisol: 'Llefarodd hefyd wrth *henuriaid* Israel.' Y rhai hyn oeddynt unig *benathiaid* neu *dywyssogion* Israel yr pryd hyny; a dichen mai drostynt hwy y bwriedid yr aberth hwn. Tybir modd bynag mai dros bechod *neillduol* yr oedd yr aberth a benodid pen. iv. 14, ond hwn dros bechod yn *gyffredinol*; ac mai ar y cyfrif yma y mae yr ebyrth yn wahanol.

Adn. 4. *Heddyw yr ymddengys yr Arglwydd i chwi*] Heb. 'yr ymddanghosodd.' Y mae efe yn llefaru am y peth oedd i ddyfod fel pe buasai wedi pasio, yr hyn sydd beth mynych yn yr ysgrhythyr, i roddi iddynt fwy o sicrwydd y byddai iddo gymeryd lle. Gwel ar adn. 6.

Adn. 5. *A'r holl gynulleidfa a ddaethant yn agos*] Sef yr un rhai ag a elwir yn *feibion* Israel yn adn. 3, pa un bynag ai y bobl ynte eu cynrychiolwyr.

Adn. 6. *Ymddengys gogoniant yr Arglwydd i chwi*] Gall hyn fod yn cyfeirio at ddadleniad mwy na chyffredin o'r dwyfol ogoniant yn eu plith, ac yn enwedig at y *tân* a ddeuai oddigerbron yr Arglwydd i ysu yr aberth, adn. 23, 24.

Adn. 7. *Dos at yr allor, ac abertha*] Moses oedd yn aberthu hyd yn hyn; ond yn awr y mae efe yn rhoddi ei swydd i fyny i Aaron,

8 ¶ Yna y nesaodd Aaron at yr allor, ac a laddodd lo yr aberth dros bechod, yr hwn *oedd* drosto ef ei hun.

9 A meibion Aaron a ddygasant y gwaed ato: ac efe a wlychodd ei fys yn y gwaed, ac a'i gosododd ar gyrn yr allor, ac a dywalltodd yr gwaed *arall* wrth waelod yr allor.

10 Ond efe a losgodd ar yr allor o'r aberth dros bechod y gwêr a'r arenau, a'r rhwyden oddiar yr afu; fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

11 A'r cig a'r croen a losgodd efe yn tân, o'r tu allan i'r gwersyll.

12 Ac efe a laddodd y poeth-offrwm: a meibion Aaron a ddygasant y gwaed ato; ac efe a'i taenellodd ar yr allor o amgylch.

13 A dygasant y poeth-offrwm ato, gyda'i ddarnau, a'i ben hefyd; ac efe a'u losgodd hwynt ar yr allor.

14 Ac efe a olchodd y perffed a'r traed, ac a'u losgodd hwynt yn nghyda'r offrwm poeth ar yr allor.

gan roddi iddo yr awdurdod hwnw a dderbyniaisai efe iddo oddiwrth Dduw. *A gwna gymod drosot dy hun a thros y bobl*—y mae y drefn yn dra nodadwy: yn gyntaf, drosot dy hun, cnidê yr wyt yn anaddas i wneuthur hyn dros y bobl. Mynai Duw trwy hyn ddyngu i ni fyrdra yr offeiriadaeth hon, ac mor angenrheidiol ydyw i weinidogion Duw fod yn ffaf Duw eu hunain, fel y gallu eu gwasanaeth fod yn gymeradwy gan Dduw, ac yn fuddiol i'r bobl. *Fel y gorchymynodd yr Arglwydd*—gwelwn yma ryfedd ymstyngiad trugaredd Duw, ei fod ef nid yn unig yn caniatáu i gymod gael ei wneuthur, ond yn ei orchymyn; nid yn unig yn goddef, ond yn ceisio genym gymodi âg ef!

Adn. 8. *Yna y nesaodd Aaron at yr allor*] Fel y gallai fod yn barod i daenellu y gwaed; ac a laddodd—a orchymynodd i'r llo gael ei ladd, ac i'w waed gael ei ddwyn iddo ef.

Adn. 9. *Ac a'i gosododd ar gyrn yr allor*] Sef allor y poeth-offrwm, am yr hon yn unig y llefaru efe yn y geiriau blaenorol a dilynol; a'r gwaed a dywelltid wrth waelod hon yn unig, nid wrth allor yr argloddar, fel yr ymddengys oddiwrth pen. iv. 7; lle yn wir y mae crybwylliad am roddi peth o'r gwaed ar gyrn allor yr argloddar, wrth i'r offeiriad aberthu dros ei bechodau ei hun. Ond ymddengys fod hyn o wahaniaeth: 1. Yr aberth hwnw a offrymid dros ryw bechod neillduol, a hwn dros ei bechodau yn gyffredinol. 2. Yno tybir ei fod ef yn gyflawn yn ei swydd, ac yma nid yw ond yn niyded iddi; ac am hyny rhaid iddo ei barotai a'i santeiddio ei hun trwy yr offrwm hwn ar yr allor bres yn y cyntedd, cyn y gellir ei dderbyn i'r cysegr lle yr oedd allor yr argloddar.

Adn. 10—21. *Ond efe a losgodd ar yr allor*] Trwy dân cyffredin, yr hwn a ddefnyddid

15 ¶ Hefyd efe a ddyg offrwm y bobl; ac a gymerodd fŵch yr aberth dros bechod y bobl, ac a'i lladdodd, ac a'i hoffrymodd dros bechod, fel y cyntaf

16 Ac efe a ddyg y poeth-offrwm, ac a'i hoffrymodd yn ol y ddefod.

17 Ac efe a ddyg y bwyd-offrwm; ac a lanwodd ei law o hono, ac a'i llosgodd ar yr allor, heblaw poeth-offrwm y bore.

18 Ac efe a laddodd y bustach a'r hwrdd, yn aberth heddi, yr hwn oedd dros y bobl: a meibion Aaron a ddygasant y gwaed ato; ac efe a'i taenellodd ar yr allor o amgylch.

19 *Dygasant* hefyd wêr y bustach a'r hwrdd, y gloren, a'r weren fol, a'r arenau, a'r rhwyden oddiar yr afu.

20 A gosodasant y gwêr ar y parwydenau; ac efe a losgodd y gwêr ar yr allor.

21 Y parwydenau hefyd, a'r ys-

gwyddog ddeau, a gyhwfanodd Aaron yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd; fel y gorchymynodd Moses.

22 A chododd Aaron ei law tuag at y bobl, ac a'u bendithiodd; ac a ddaeth i waered o wneuthur yr aberth dros bechod, a'r poeth-offrwm, a'r ebyrth heddi.

23 A Moses ac Aaron a aethant i babbell y cyfarfod; a daethant allan, ac a fendithiasant y bobl: a gogoniant yr Arglwydd a ymddanghosodd i'r holl bobl.

24 A chododd tân allan oddigerbron yr Arglwydd, ac a ysodd y poeth-offrwm, a'r gwêr, ar yr allor: a gwelodd yr holl bobl; a gwaeddasant, a chwympasant ar eu hwynebau.

PENNOD X.

YNA Nadab ac Abihu, meibion Aaron, a gymerasant bob un ei thus-

hyd nes y daeth y tân santaidd allan oddigerbron yr Arglwydd, adn. 24.

Adn. 22. *A chododd Aaron ei law*] Yr hon oedd y ddefod arferol wrth fendithio; a thrwy yr agwedd yma efe a arwyddai o ba le yr oedd yn dysgwyl y fendith, a'i ddymuniad diffuant am dani iddynt hwy. *Ac a'u bendithiodd*—yn debyg i'r modd a adroddir Num. vi. 24, er nad yn yr un flurf; canys nid yw yn debyg ddarfod iddo ei harferyd hi cyn i Dduw ei thraddodi.

Adn. 23. *A Moses ac Aaron a aethant i babbell y cyfarfod*] Meddylir i Moses fyned i'r babbell gydag Aaron, i ddangos iddo pa fodd i offrwm yr aroglarth, i barotai y lampau a'r aroglarth, i drefnu y bara dangos, &c., &c. *A gogoniant yr Arglwydd a ymddanghosodd i'r holl bobl*—naill ai mewn dysgleirdeb gwyrtiol yn llewyrchu o'r golofn gwml, megys yn Exod. xvi. 10; neu ynte trwy ddadleniad gogoneddus a gweledig o'r SECINA, neu bresenoldeb grasol Duw, a'i gymeradwyaeth o'u gwasanaeth bresenol.

Adn. 24. *A daeth tân allan oddigerbron yr Arglwydd*] Yn debygol oddiwrth y gogoniant dysglæra a thanllai a ymddanghosai i'r holl bobl, adn. 23. Gan hyny nid awgrymir ddarfod i Moses ac Aaron ei ddwyn ef allan o'r babbell, gan broffesu i Dduw ei enyn ef iddynt *yno*; ond daeth y tân allan *oddigerbron* yr Arglwydd, a hyny yn *ngolwg* yr holl bobl! Dywed Josephus i'r 'tân ddeilliaw o hono ei hnn oddiwrth yr ebyrth eu hunain, yr hwn a ymddanghosai fel mellen; a darfod iddo ysu yr hyn oll oedd ar yr allor.' Yu y fath achos a hwn yr oedd yn angenrheidiol i'r tân ymddangos fel o *ddwyfol* anfoniad, a bod iddo ddyfod yn y fath fodd fel ag i gau allan y drb ddarfod i unrhyw gelfyddyd neu dwyll gael ei arfer ar yr achlysur. Darfu i'r paganiaid, i'r dyben i roddi bri i'w haddoliad hwy geisio efelychu y wyrth hon, a haeru ddarfod i Jupiter ddangos ei gymeradwyad o'r eb-

yrth a offrwm iddo yntau, trwy felt a tharanau. *Ac a ysodd y poeth-offrwm*—hwn oedd y prawf a roddai Duw ar achlysuron anghyffredin o'i gymeradwyad o'r aberth; megys, (1) Yn achos Abel, Gen. iv. 4. (2) Yn achos Gideon, Barn. vi. 21. (3) Yn achos Manoa a'i wraig, Barn. xiii. 19—23. (4) Yn achos Dafydd wrth gysegru llawr-dyrnu Ornan, 1 Cron. xxi. 26. (5) Yn achos Solomon wrth gysegru y deml, 2 Cron. vii. 1. (6) Yn achos Elias, 1 Bren. xviii. 38. O ganlyniad, wrth fynegu derbyniad offrwm neu aberth, defnyddir y ferf *dishshen*, yr hon a arwydda *troi yn lludw*, sef trwy dân o'r nef; gwel Salm xx. 3. *A gwelodd yr holl bobl*—h.y. cawsant yr argyhoeddiad llawnaf o wirionedd y wyrth hon; a *gwaeddasant*—gan ryfeddu wrth, a llawenyachu yn, a bendithio Duw am, y dadleniad grasol hwn o hono ei hun a'i flaff; *a chwympasant ar eu hwynebau*—i arwyddo trwy hyny y teimlad dwfn a feddent o'i ddaioni ef, eu hannheilyngdol eu hunain, a'r rwymedigaeth oedd arnynt i fyw mewn ym-ostyngiad i'w awdurdod ef ac ufydd-dod i'w ewylllys. Yr oedd y tân hwn i'w gadw i fyny yn ofalus, pen. vi. 12, 13, ac am hyny carient ef mewn llestr neillduol yn eu holl deithiau yn yr anialwch. Dywedir iddo barhau hyd amser Solomon, pryd y danfonodd Duw dân o'r newydd o'r nefoedd i ysu yr ebyrth offrwmedig ar gysegriad y deml; a dywedir i hwnw drachefn barhau hyd ddynistr y deml gyntaf hōno yn amser y caethiwed Babiloniaidd, sef am oddeutu 424 o flynyddau. Yr oedd y *tân dwyfol* hwn yn gysgod o'r YSBRYD GLAN. Ac megys nad allai un aberth fod yn gymeradwy gan Dduw oddieithr ei fod wedi ei *halltu*, sef ei dynheru a'i flasuso *ar tân hwn*, megys y dywed ein Harglwydd, Marc ix. 49; felly ni all un enaid offrwmu aberth cymeradwy i Dduw ond trwy dylanwadau yr Ysbyrd Glan. Yn unol â hyn rhoddwyd yr addewid o'r Ysbyrd dan yr ar-

er, ac a roddasant dân ynddynt, ac a osodasant aroglarth ar hyny; ac a offrymasant gerbron yr Arglwydd dân dyeithr, yr hwn ni orchymynasai efe iddynt.

2 A daeth tân allan oddigerbron yr Arglwydd, ac a'u difaodd hwynt; a buant feirw gerbron yr Arglwydd.

wyddlon o dân, Mat. iii. 11; ac efe a ddisgynodd dan y cyffelybrwydd yma ar ddydd y pentecost, Act. ii. 3, 4.

PEN. X. Adn. 1. *Yna Nadab ac Abihu, meibion Aaron*] Yr oedd gauddo ef feibion ereill; ond y rhai hyn oeddynt y ddau hynaf, Exod. vi. 23. *A gymerasant bob un ei thus-er*—sef llestr penodol yn yr hwn y rhoddent farwor oddiar yr allor i losgi yr aroglarth. Tybia rhai i hyn ddygwydd ar y dydd olaf o'u cysegriad, pryd y daeth tân i lawr o'r nef, pen. ix. 24; ond y mae yn debycach mai dranoeth y dygwyddodd. *Ac a offrymasant gerbron yr Arglwydd dân dyeithr*—hyny yw, tân cyfiredin, neu dân heb ei gymeryd oddiar yr allor. Fel hyn y mae yr aroglarth nad oedd yn gyfrywag a benodwyd, yn cael ei alw yn aroglarth dyeithr, Exod. xxx. 9. *Yr hwn ni orchymynasai efe iddynt*—cynwysa hyn nid yn unig iddynt wneyd hyny o bonynt eu hunain, heb unrhyw orchymyn nac awdurodd oddiwrth Dduw, ond ddarford iddynt ei wneuthur yn groes i'w orchymyn ef; canys yn yr ystyr hwn yr arferir yr ymadrodd yn Jer. xxxii. 35. Yn wir nid ydym i feddwl y cospesid hwynt â marwolaeth oni busasai eu bod wedi gwneuthur rhywbeth a waharddasai Duw yn bendant, neu esgeuluso yr hyn a orchymynasai efe yn bendant. Nid yw yn hawdd dywedyd pa fodd y gallai dau fath ddynt, y rhai a gawsent yr anrhydedd a'r dedwyddwch o fod gyda Duw ar y mynydd, (Exod. xxiv. 1, 9,) fod yn euog o'r trosedd marwol hwn. Casglia rhai, oddiwrth y gwaharddiad i yfed gwin na diod gadarn, yr hwn sydd yn dylun yr adroddiad o'r dygwyddiad hwn yn ddi-gyfrwng, adn. 9, eu bod wedi yfed yn ormodol yn ngwledd eu cysegriad, nes iddynt eu hannghofio eu hunain a'u gwaith.

Adn. 2. *A daeth tân allan oddigerbron yr Arglwydd*] Ond odid oddiar allor y poeth-offrwm; ac a'u difaodd hwynt—fel hyn y tân hwnw ag a fusasai, o'i iawn ddefnyddio, yn santeiddio ac yn ysau eu hoffrwm, a ddaeth yn awr yn offeryn eu dinystr hwy eu hunain! Mor wir yw y dywediad, 'Ein Duw ni sydd dân ysol!' Heb. xii. 29. Bydd iddo naill ai ein santeiddio ai ein difa ninaw: efe a bura ein beneidiau trwy ddylanwad ei Ysbryd, neu efe a'n dyfetha âg anadl ei enau. Y mae y pren ag sydd wedi ei blanu yn briodol mewn tir da, yn cael ei feithrin gan ddylanwadau tyfawr yr haul: diwreiddier ef, ac y mae yr haul ag ydoedd yn achos o'i fywyd hydyfawl, yn awr yn sychu i fyny ei nôdd, yn dadgyfansoddi ei ranau, ac yn peri iddo falurio yn llwch. Ac fel hyn y gwneir i'r rhai sydd yn tristan ac yn dirmygu Ysbryd Duw. Gan hyny 'na ddiffodwch yr Ysbryd.' *A buant*

3 A dywedodd Moses wrth Aaron, Dyma yr hyn a lefarodd yr Arglwydd, gan ddywedyd, Mi a santeiddir yn y rhai a nesant ataf, a cherbron yr holl bobl y'm gogoneddir. A thewi a wnaeth Aaron.

4 A galwodd Moses Misael ac El-saphan, meibion Uzziel, ewythr Aa-

feirw gerbron yr Arglwydd—ni ddarfu iddo eu troi yn lludw, fel yr arwydda y gair yn niwedd y bennod flaenorol; eithr tarawyd hwynt yn feirw mewn moment, a'u cyiff a'u dillad yn aros yn gyfain, adn. 5.

Adn. 3. *A dywedodd Moses wrth Aaron*] Yr hwn, fel y mae yn naturiol meddwl, a glwyfesid yn ddwfu trwy y farn ofnadwy hon. *Dyma yr hyn a lefarodd yr Arglwydd*—ond odid yn awr wrth Moses: ond y mae synwyr y geiriau i'w gael mewn amrai fanau: gwel Exod. xix. 22, a xxix. 44, Lef. viii. 35. *Mi a santeiddir yn y rhai a nesant ataf*—trwy eu lufydd-dod a'u parch i'm gorchymynion, neu trwy eu cosp. *A cherbron yr holl bobl y'm gogoneddir*—fel y darfu iddynt hwy bechu yn gyhoeddus a gwarthus, felly bydd i minau amddiffyn fy anrhydedd mewn modd cyhoeddus ac effeithiol, fel y dysgo pawb rodidi i mi ogoniant fy santeiddrwydd, trwy gydymffurfiaid manwl a'm deddfau. Y mae yr Esgob HALL yn meddwl i Aaron gael ei gyfarch gan Moses yn y geiriau cyffrous a ganlyn: 'Fy mrawd, y mae y dygwyddiad hwn yn ddychrynllyd, ond yn gyfiawn. Y rhai hyn oeddynt dy feibion di, ond hwy a bechasant ni nod oedd i Dduw, ac nid yw i tithau, edrych *pwyl* oeddynt, yn gymaint a *pha beth* a wnaethant. Eu hanrhydedd hwy a thithau oedd eu bod wedi eu dewis i weini gerbron yr Arglwydd; a'r hwn a'u galwodd hwynt a gyfiawn ofynai eu santeiddiad a'u lufydd-dod. Os darfu iddynt hwy amharchu Duw a'u hunain, a all dy serch naturiol dy ogwyddo di yn y fath fodd fel ag y gellit ddymino eu harbediad hwy a gwarthruddiad dy Feistr? Ein meibion nid ydynt eiddom ni, os anuffyddhant i'n Tad: Os wyt ti yn anfodloni i'w barnedigaeth hwy, gochel rhag i'r un tân o eiddo Duw ruthro ar y tân dyeithr hwn o eiddo natur. Dangos yn awr pa un ai Duw ai dy feibion a geri di fywaf; dangos pa un oraf ydwyf fel tad ynte fel MAE.' *A thewi a wnaeth Aaron*—Heb. 'ac Aaron oedd fud!' Y fath fynegiad prydfeithr yw hwn o'i serch tadol ef, ei ddwfn deimlad o ryfyg ei feibion, a'i ymostyngiad ei hun i gyfiawn farn Duw! Tra yr oedd efe yn teimlo yn ddwys fel tad, y mae yn ymostyng yn ddirwngnach i'r orchwyliath arswydawl hon o eiddo Dwyfol Gwfiawnder. Yn briodol y sylwa CLARKE, mai 'peth arswydus yw dwyn i mewn arferiadau newyddion i ddefodau a seremonïau, neu i wirioneddau, crefydd Crist; a'r hwn sydd yn gwneuthur byny, ni all sefyll yn ddiuog gerbron Duw.'

Adn. 4. *A galwodd Moses Misael ac El-saphan*] Canys yr oedd Aaron a'i feibion ereill i fod yn rhwym yn eu gwaith santaidd, oddiwrth yr hwn nid oeddynt i gael eu galw at

ron, a dywedodd wrthynt, Deuwch yn nes; dygwch eich brodyr oddigerbron y cysegr, allan o'r gwersyll.

5 A nesâu a wnaethant, a'u dwyn hwynt yn eu peisiau allan o'r gwersyll; fel y llefarasai Moses.

6 A dywedodd Moses wrth Aaron, ac wrth Eleazar ac wrth Ithamar ei feibion, Na ddysogwch oddiam eich penau, ac na rwygwch eich gwisgoedd; rhag i chwi farw, a dyfod digofaint ar yr holl gynulleidfâ: ond wyled eich brodyr chwi, holl dŷ Israel, am y llosgiad a losgodd yr Arglwydd.

weinyddiadau anghladdawl. *Dygwch eich brodyr*—hyny yw, eich perthynasau, fel y mae y gair hwn yn arwyddo yn fynych. Yr oedd y ddau ŵr hyn yn gefndyr i Aaron, fel plant y ddau frawd, Exod. vi. 18—22, ac felly yn ewythrod i'r meirwon. *Allan o'r gwersyll*—lle yr ydoedd claddfeydd yr Iuddewon, fel na fyddai i'r ihai byw gael eu blino gan sawyr afiaclus y meirw, na'u halogi trwy gyffwrdd â'u beddau.

Adn. 5. *Yn eu peisiau*] Sef yn y gwisgoedd santaid ag y gweinyddent ynddynt; yr hyn a allai gael ei wneuthur, naill ai, 1. Fel arwydd o barch teulung iddynt er maint eu ffaeledd; a darfod i Dduw yn nghanol barn gofio trugaredd, ac arbed eu heneidiau er iddo gymeryd ynaith eu bywydau. Neu, 2. O herwydd eu bod wedi eu halogi trwy eu pechod hwy, a thrwy gyffwrddiad â'u celain, ni fynai Dduw iddynt gael eu defnyddio mwyach yn ei wasanaeth ef.

Adn. 6. *Na ddysogwch oddiam eich penau, &c.*] Nid oedd Aaron a'i feibion i arferdy un arwydd o ofid na galar, 1. Am y dylai y rhai oeddynt yn rhwym yn ngwasanaeth y cysegr ocheled pob peth a allai eu hannghymlwyso i'r wasanaeth hōno; ac, 2. Am fod trosedd eu brodyr mor dra chyffroawl i Dduw, ac mor gyfiawn yn haeddu y gomp weinyddasai efe, fel y geillid ystyried eu galar hwy megys yn cyhuddo y Dwyfol Gyfawnder o doster anyladwy. *Onđ wyled eich brodyr chwi, holl dŷ Israel, am y llosgiad*—nid yn gymaint o dosturi atynt hwy, ag o dristwch am yr arwyddion hyn o ddwyfol anfodlonrwydd. Yr oedd Aaron a'i feibion mewn perygl o gael eu cynhyrfu yn *ormodol* gan yr amgylehiad, ac am hyny *gwaharddir* iddynt hwy alaru; yr oedd tŷ Israel mewn perygl o gael eu cynhyrfu yn *rhy fach* ganddo, ac am hyny *gorchymynir* iddynt hwy alaru. Fel hyn rhaid i natur bob amser gael ei llywodraethu gan ras, yn ol fel y byddo mewn angen am gael ei chymhell neu ei hattal.

Adn. 7. *O herwydd bod olew eneiniaid yr Arglwydd arnoch chwi*] Yr oeddynt hwy wedi eu cysegru i'r wasanaeth ddwyfol, ac yr oedd hon yn gofyn eu gweinyddiad gwastadol hwy, a'u hymroddiad mwyaf ewyllysgar.

Adn. 8. *Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Aaron*] Yr oedd Aaron wedi bod yn

7 Ac nac ewch allan o ddrws pabell y cyfarfod; rhag i chwi farw: o herwydd *bod* olew eneiniaid yr Arglwydd arnoch chwi. A gwnaethant fel y llefarodd Moses.

8 ¶ Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Aaron, gan ddywedyd,

9 Gwin a diod gadarn nac yf di, na'th feibion gyda thi, pan ddeloch i babell y cyfarfod; fel na byddoch feirw. Deddf dragwyddol trwy eich cenedlaethau *fydd hyn* :

10 A *hyny* er gwahanu rhwng cyssegredig a digysegredig, a rhwng aflan a glân;

11 Ac i ddsygu i feibion Israel yr

bur ofalus y gyflawni yr hyn a lefarasai Duw wrtho ef trwy *Moses*, ac yn awr y mae Duw yn ei amrhydeddu ef trwy lefaru wrtho ef ei hun yn ddigyfrwng. Dichon hefyd y baasai i Aaron gampgymeryd egwyddor Moses wrth iddo *ef* lefaru wrtho ar y pen hwn, trwy feddwl fod Moses yn ei ystyried ef yn ddyn glwth ac yn yfwr gwin; canys y mae tuedd mewn dyu i gampgymeryd rhybyddion am gyhuddiadau; ac am hyny y mae Duw ei hun yn ei ddwyded wrtho.

Adn. 9. *Gwin a diod gadarn nac yf di, na'th feibion gyda thi*] Wrth *ddiod gadarn* yma y meddylir y cyfryw wirowydd poethion yma meddwol ag a wneid i efelychu gwin, megys o figys, mêl, afalau, &c.; ac yn enwedig gwin y balmwyddion, yr hwn a yfdd yn fynych yn y gwledydd hyny, ac a gyfrifid y mwyaf meddwol o honnynt oll. *Pan ddeloch i babell y cyfarfod*—'ar amserau ereill,' meddai HENRY, 'caniateid ychydig o hono iddynt; ni ddsygwyld i bob offeiriad fod yn Nazaread: eithr tra y parhâai amser eu gweinidogaeth, gwaherddid ef iddynt.' Yr oedd yr Arglwydd trwy y gyfraith hon yn gofyn sobrwydd yn ei offeiriad ef, a gofal i weinyddu yn iawn, 'rhag iddynt yfed, ac ebargofi y ddeddf,' *Diar. xxxi. 5*; rhag iddynt 'gyfeiliorni trwy win, ac amryfuso trwy ddioid gadarn,' *Esay xxviii. 7*. Yn gyson â hyn rhaid i weinidogion yr efenngyl eto 'fod yn sobr, nid yn wingar,' 1 Tim. iii. 2, 3. *Fel na byddoch feirw*—y mae yn debyg, yn ol barn *Hatturim* ac esbonwyr ereill, eu bod wedi gwelod effeithiau niweidiol meddwod ar Nadab ac Abihu, ac am hyny rhaid iddynt gymeryd rhybydd oddiwrthynt hwy.

Adn. 10, 11. *A hyny er gwahanu rhwng cyssegredig a digysegredig, &c.*] Y mae hyn yn rheswm cryf paham na chaent yfed gwirod meddwol, fel, trwy fod â'u deall yn oleu a'u barn yn rhwng, y gallent wahaniaethu yn wastadol rhwyng y glân a'r aflan, a pob amser gyhoeddi barn gyfiawn. Cafwyd gorchymynion cyffelyb i hyn yn mhllith yr Aiffitiaid, y Cartbaginiaid, a'r Groegiaid. Yn wir y mae synwyr cyffredin ei hun yn dangos na ddylai *meddwyn* na *sotyn* byth gael ei oddef i weini mewn pethau santaid. Yr oedd yn gyfraith yn mhllith y Cartbaginiaid, na chai un heddynad yr holl flwyddyn ag y byddai

holl ddeddfau a lefarodd yr Arglwydd wrthyt trwy law Moses.

12 ¶ A lefarodd Moses wrth Aaron, ac wrth Eleazar ac wrth Ithamar, y rhai a adawsid o'i feibion ef, Cymerwch y bwyd-offrwm sydd yn ngweddill o ebyrth tanllyd yr Arglwydd, a bwytwelch yn groyw gerllaw yr allor: o herwydd santeiddiolaf *yw*.

13 A bwytwelch ef yn y lle santaidd; o herwydd dy ran di, a rhan dy feibion di, o ebyrth tanllyd yr Arglwydd, *yw* hyn: canys fel hyn y'm gorchymynwyd.

14 Y barwyden gyhwfan hefyd, a'r ysgwyddog ddyrchafael, a fwytwelch mewn lle glân; tydi, a'th feibion, a'th ferched, yn nghyda thi: o herwydd hwynt a roddwyd yn rhan i ti, ac yn rhan i'th feibion di, o ebyrth hedd meibion Israel.

15 Yr ysgwyddog ddyrchafael, a'r barwyden gyhwfan, a ddygant yn nghydag ebyrth tanllyd o'r gwêr, i gyhwfanu offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd: a bydded i ti, ac i'th

ef mewn swydd, nac un barnwr tra y byddai mewn gweithrediad, gymaint a phrofi dyferen o win, yr hyn sydd yn gyson âg ymadrodd mam Lemuel frenin, Diar. xxxi. 4, 5. Dywed Porphyrus nad oedd yr offeiriad Aiftaidd yn yfed diu gwin mewn un modd, neu yn dra chynil; gan sicrhau, fel rheswm am eu dirwedd, fod ynddo duedd i wanbau y gïau, i gurio y pen, i ddrygu y darfelydd, ac i enyn y nwydau anifeilaidd. Ond tra gwahanol yw yr hanes a ddyry *Scheuchzer* i ni am arferion y taleithiau Almaenaidd, lle nad oes un gyfraith wladol yn gwahardd meddwod. 'Yr ydym,' meddai efe, 'yn gweled offeiriad a gweinidogion yn dringo i'r pulpudau mewn cyflwr o feddwod; ac y mae barnwyr yn eistedd ar y meinciau, meddygon yn gweini i'w cleision, ac ereill yn ceisio cyflawni gwahanol orchwylion bywyd, yn yr un cyflwr cywilyddus!'—*Physic. Sacr.*, cyf. iii. dal. 64.

Adn. 12—15. *A lefarodd Moses wrth Aaron, &c.*] Gan fod Moses yn ofni y gallai Aaron, yn mawredd ei ofid am y golled o'i ddau fab, anghoffo neu adael hebio ryw ran o'i ddyledswydd, y mae efe yna yn ei roddi ef a'i feibion mewn cof o honi, gan ailadrodd iddynt y drefn yn nghylch bwyta y gwedd-illion o'r bwyd-offrwm, pen. vi. 16, 17, ac yn nghylch y barwyden a'r ysgwyddog, pen. vii. 31, &c.

Adn. 16. *Ac wele ef wedi ei losgi!*] Cyf-iawnhaodd hyn ddrwgdybiaeth Moses, y gallai rhyw gangymeriad gael ei wneuthur yn y pethau santaidd; canys wrth chwilio efe a gafodd fod yr offeiriad wedi *Uosgi* ar yr allor y rhanau hyny o bech-aberth y bobl ac a ddyl-asant gael eu *bwyta*, pen. vi. 26. *Ac efe a ddigiodd wrth Eleazar ac Ithamar*—nid yw Moses, trwy ei fod yn anfodlon i chwane-
 gofidiau ei frawd Aaron, yn dywedyd dim wrtho ef, ond y mae yn ymlw â'i feibion ef am eu besgeulusdra. Modd bynag efe a wyddai y byddai i'r cerydd, er yn cael ei gyfeirio atynt hwy, berthyn iddo yntau hefyd.

feibion gyda thi, yn rhan dragwyddol; fel y gorchymynodd yr Arglwydd.

16 ¶ A Moses a geisiodd yn ddyfal fwch yr aberth dros bechod; ac wele ef wedi ei losgi: ac efe a ddigiodd wrth Eleazar ac Ithamar, y rhai a adawsid o feibion Aaron, gan ddywedyd,

17 Paham na fwytasoch yr aberth dros bechod yn y lle santaidd; o herwydd santeiddiolaf *yw*, a *Duw* a'i rhoddodd i chwi, i ddwyn anwiredd y gynulleidfa, gan wneuthur cymod drostynt, gerbron yr Arglwydd?

18 Wele, ni ddygwyd ei waed ef i fewn y cysegr: ei fwyta a ddylasech yn y cysegr; fel y gorchymynais.

19 A dywedodd Aaron wrth Moses, Wele, heddyw yr offrymasant eu haberth dros bechod, a'u poeth-offrwm, gerbron yr Arglwydd; ac fel hyn y dygwyddodd i mi: am hyny os bwytauw aberth dros bechod heddyw, a fyddai hyny dda yn ngolwg yr Arglwydd?

20 A phan glybu Moses *hyny*, efe a fu foddlon.

Adn. 17. *Paham na fwytasoch yr aberth dros bechod yn y lle santaidd*] Yr hyn a ystyrid yn ddygiad ymaith anwiredd y gnyl-
 leidfa, trwy wneuthur cymod drostynt: gwel ar pen. vi. 23, 26.

Adn. 18. *Wele, ni ddygwyd ei waed ef i fewn y cysegr*] Ac o ganlyniad nid oedd ef yn un o'r offrymau hyny ag y gorchymynwyd eu *Uosgi*, ond dylesid ei *fwyta* ef yn nghynt-
 eddfa y babbell, pen. vi. 23—30.

Adn. 19. *A dywedodd Aaron wrth Moses, &c.*] Y mae yr esgus ag y mae Aaron yn ei wneuthur dros beidio gwledda ar y pech-
 aberth yn ol y gyfraith, ar unwaith yn briodol ac ardderchog: fel pe dywedasai, 'Diau ddar-
 fod i Dduw orchymyn i mi fwyta o'r pech-
 aberth; ond ar ol i'r cyfryw bethau a'r rhai hyn ddygwyd i mi, a allai hyny fod yn dda yn ngolwg yr Arglwydd? Onid yw efe yn dysgwyl i mi deimlo fel *tad* dan y fath am-
 gylchiadau trallodus? Y mae yn llais natur yn gystal a chrefydd, mai ar achlysuron o *lawenydd* y dylai dynion wledda, a hyny gyda chalon siriol, Deut. xii. 7, ac na ddylent fwyta pethau cysegredig yn eu *galar*,' Deut. xxvi. 14.

Adn. 20. *A phan glybu Moses hyny, efe a fu foddlon*] Gan weled fod Aaron yn y cwbl yn ameanu boddhau ei Wneuthurwr; a *Duw*, yr hwn a wyddai am ei sefyllfa, ni chymerodd sylw o'r *afreoleiddiwrch* a gymerasai le yn yr uchel wasanaeth. Rhoddes *Duw* y fraint i'r natur ddynol o gael *teimlo* mewn amseroedd o galedi a chyfyngder; ac yn ei

PENNOD XI.

ALLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd wrthynt,

2 Llefarchwrch wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Dyma yr anifeiliaid a

anfeidrol diriondeb efe a ordeiniodd yn y cyffredin i *ddagrau*, y rhai nad ydynt ond tystion allanol o'n tristwch, gael bod yn *ollyn-geydd* i'n gonfidiau, a thueddu i ddyhyspyddu yr achos o'r hwn y dylifant: gwel ar adn. 3.

PEN. XI. Adn. 1. *A lefarodd yr Arglwydd wrth Moses ac Aaron*] Y mae y gorchymynion hyn yn cael eu rhoddi iddynt yn nghyd; i Moses fel y priflywydd, ac i Aaron fel yr archoffeiriad, trwy fod y cyflawniad o'honynt yn dal perthynas â'r ddau. Yr offeiriad oedd i hyfforddi y bobl yn nghylch y pethau a waherddid neu a ganiateid, a'r llywydd oedd i edrych ar fod yr hyfforddiant yn cael ei ddylyn.

Adn. 2. *Llefarchwrch wrth feibion Israel*] Oddiwrth y deddfau yn nghylch yr offeiriad, y mae efe yn dyfod yn awr at y rhai a berthynant i'r holl bobl. *Dyma yr anifeiliaid a fwyteuach*—er fod pob creadur o eiddo Daw yn dda a phur ynddo ei hun, eto rhyngodd bodd i Dduw wneuthur gwahaniaeth rhwng y glân a'r aflan. Hyn yn wir a wnaethai efe mewn rhan cyn y dylif, fel yr ymddengys oddiwrth Gen. vii. 2; ac y mae yn debyg fod y gwahaniaeth yn cael ei gadw fwy neu lai, o leiaf yn mhllithi hiliogaeth Sem, o'r amser ag y caniatawyd i Noa fwyta cig. Modd bynag, gwelodd Daw yn dda yn awr roddi cyfarwyddiadau mwy neillduol i'w bobl ar y pen hwn, (1) I ddaogus ei benarglwyddiaeth arnynt hwy, ac ar yr holl greaduriaid, y rhai nas gallent hwy eu defnyddio ond trwy ei ganiatad ef. (2) I'w harfer hwynt i ffrwyno eu blysiad mewn pethau ag oeddynt ynddynt eu hunain yn gyfreithlon, a rhai o'honynt yn dra dymunol, fel y byddai iddynt gael eu paratoi a'u galluogi yn well i hunan-ymwadu mewn pethau hollol bechadurus. (3) Er cadwraeth eu hiechyd. Yr oedd Maimonides, yr enwog rabbi Luddewig, o'r fam fod y creaduriaid a elwir yma yn *aflan* yn cael eu gwahardd i'r Iddewon am eu bod, iddynt hwy o leiaf, yn fwyd *ajiaeh*. 'Gan mai y corff yw eisteddle yr enaid,' meddai un arall o'r rabbiniaid, 'mynai Daw ei gael ef yn offeryn addas i'w gydymaith, ac am hyn y mae efe yn gwahardd pob bwyd ag sydd yn magu gwaed drwg; ac os oes, yn nysg y cyfryw, rai nad yw eu niweidiolrwydd yn amlwg i ni na'r meddygon, na ryfeddwch wrth hyny, canys y mae y ffyddlon Feddyg ag sydd yn eu gwahardd yn ddoethach na neb o honom ni.' Yn gyson â hyn y mae dysgedig awdur y GERIADUR MEDDYGOL, Dr. James, dan y gair *Alkali*, ar ol rhai sylwadau cywrair yn nghylch natur bwydydd hâlaid, a'u heffeithiau ar y corff, gan newid yr hylifau fel ag i ddwyn yn mlaen glesfydau, ynsylwi: 'Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd bydd i un rheswm o leiaf ymddangos paham y rhyngodd bodd i Dduw wahardd i'r

fwyteuach, o'r holl anifeiliaid sydd ar y ddaear.

3 Beth bynag a hollto yr ewin, ac a fforchogo hollt yr ewinedd, ac a gno ei gil, o'r anifeiliaid; hwnw a fwyteuach.

Iddewon y defnyddiad o lawer math o anifeiliaid yn fwyd, a phaham y gorchymynwyd iddynt gymeryd ymaith y gwaed o'r rhai ag y goddefid iddynt eu bwyta. Pe byddai i ni, hyd yn nod yn ein parthau oerion ni, gydymffurfio â'r rheolau hyn, byddai bir-hoedliad yn fynychach yn ein plith, gan y byddem yn llawer llai agored i heintiau ymdaenawl a chlefydau llym o bob math, y rhai sydd yn cario ymaith o leiaf ddwy ran o dair o ddynolryw.' Dywedir hefyd fod rhai o'r anifeiliaid a waherddir yma yn dueddol i fagu y gwahanglwyf, afiechyd ag yr oedd yr Iddewon yn dra agored iddo. (4) Ond rheswm mwy pwysig fyth am y gwaharddiadau hyn oedd, i gadw i fyny, hyd ddyfodiad y Messia, fur gwahaniaeth rhwng yr Iddewon a chenedloedd ereill; yr hyn oedd yn dra angenrheidiol, megys i amrai ddybenion mawrion a doethion ereill, felly yn neillduol i attal iddynt efelychu ofergoelion a chael eu llygru gan eilundoliaeth y Cenedloedd, yr hyn yr oedd Daw yn rhagweld yr achlysurid ef trwy ormod cyweithas a chyfeillach â hwynt. Y mae y rheswm hwn am y gosodiad yn cael ei grybwyll yn neillduol yn pen. xx. 22—25; ac y mae yn debyg iddo effeithio yn fwy na dim arall i'w cadw hwy fel hyn yn wahanedig a didoledig; canys pan nas gall dynion gyd-fwyta, nid oes ganddynt ond ychydig o duedd i gyweithasu llawer â'u gilydd. (5) Gellir rhoddi un rheswm yn chwaneig, modd bynag, am y gwahaniaeth bwydydd yma, yr hwn hefyd a awgrymir yn yr adnodau ag y cyfeiriwyd atynt yn pen. xx: bwriedid ef i gymhell purdeb moesol, ac i ddysgu iddynt hwy ffeiddio yr affendid a'r holl gastiau drygionus hyn ag y mae rhai o'r creaduriaid a elwir yma yn *aflan* yn nodedig am danynt.

Adn. 3. *Beth bynag a hollto yr ewin*] Hyn yw, a'i gwabano hi yn ddwy ran yn unig, neu a *fforchogo hollt yr ewinedd*, fel ei mynegir yma. Nid yw y pethau hyn yn cael eu penodi fel rhesymau paham y mae y cyfryw anifeiliaid yn addas yn fwyd, ond yn unig fel *nodau* trwy y rhai eu gwahaniaethir. Gan rai anifeiliaid y mae y carnau yn gyfain, heb eu gwahanu mewn un modd, megys meirch, asynod, a mulod; gan ereill gwahenir hwynt i amrai ranau fel bysedd, megys llewod, bleiddiaid, cwn; gan ereill y maent yn fforchog neu wahanedig i ddwy ran, megys ychain, ewigod, defaid, geifr. Y rhai olaf hyn ydynt o ddau fath: canys gan rai y mae y carn yn holltlog, ond nid yn fforchog trwyddo yn gwbl, megys y camel; gan ereill y mae efe yn holltlog a fforchog, y rhai a addefir gan y gyfraith hon i fod yn greaduriaid glân. *Ac a gno ei gil*—ni all rhai creaduriaid, megys ychain, defaid, a geifr, gnoi eu bwyd yn berffaith ar unwaith o ddiffyg dammedd blaen uwchaf; ac nis gall y cylla wneuthur perffaith dreuliad nes ei falu

4 Ond y rhai hyn ni fwytewch; o'r rhai a gnoant eu cil, ac o'r rhai a holltant yr ewin; y camel, er ei fod yn cnoi ei gil, am nad yw yn hollti yr ewin; aflan *fydd* i chwi.

5 A'r cwningen, am ei bod yn cnoi ei chil, ac heb fforchogi yr ewin; aflan *yw* i chwi.

6 A'r vsygyfarnog, am ei bod yn cnoi ei chil, ac heb fforchogi yr ewin: aflan *yw* i chwi.

7 A'r llwdn hwch, am ei fod yn hollti yr ewin, ac yn fforchogi fforchogedd yr ewin, a heb gnoi ei gil; aflan *yw* i chwi.

ef eilwaith. Gan hyny darparwyd i'r cyfryw anifeiliaid ddau gylla; yr uwchaf, i'r hwn y mae y bwyd yn disgyn ar ol y cnoad cyntaf; ac un arall, i'r hwn ei hanfonir ar ol yr ail. Dywedir fod i'r ŷch bedwar cylla yn y cwbl, trwy bob un o ba rai y mae y bwyd yn myned cyn bod yn fagwraeth i'r creadur. Y creaduriaid ag sydd yn cnoi eu cil a gyffrifir yn fwyaf iachus, am eu bod yn malu ac yn treulio yn well y bwyd ag y maent yn ei fwya, ac o ganlyniad yn rhoddi ymborth mwy vsygfafu a maethlon nag ereill. Dan y gwaharddiad o fwya anifeiliaid nad ydynt yn ateb i'r dysgrifiad hwn, cynwysir pob creadur vsyglyfaethus a chigysawl; hylifau pa rai, fel y sylwa Dr. James, sydd dra hâlaid, a niweidiol i'r iechyd. Y mae pob anifel o rywogaeth y march a'r asyn yn cael ei wahardd yma hefyd; a da y gwyddys fod cig y rhai hyn yn anhawdd ei dreulio.

Adn. 4. *Y camel*] Bwyd arferol yn Arabia, ond yn rhoddi maeth drwg; canys er nad yw ei luniaeth ond llyisiau a dwfr, y mae mâneldafedd ei gig yn galed, ac i fesur mawr yn anbhrenliadwy, a'r haleni yn dra uchel, trwy ei olafur mawr a mynych. Y mae y gwaharddiad hwn yn tori ymaith bob cyweithas gyfeillgar rhwng yr Iuddewon a'r Arabiaid. Y mae yr ysgrifenywyr Arabaidd eu hunain yn addef fod gan yr Arabiaid duedd naturiol i ryfel, tywalltiad gwaed, a chreulondeb; a'u bod mor ymroddgar i ddiad, fel nad ydynt braidd byth yn madden; pa dymher ddialgar, fel y dywed rhai meddygon, sydd yn cael ei dirfawr chwaneagn trwy eu mynych ymborthiad ar gig camel.

Adn. 5. *A'r cwningen*] Heb. *shaphan*. Y mae yn amheus a ydym ni yn cyfieithu y gair hwn yn iawn. Tybia Bochart mai math ar lygoden fawr a feddylir, rywbeth rhwng cwningen a llygoden, yr hon oedd yn gyffredin yn yr Aiff a Phalestina. Ymddengys fod y creadur hwn yn cnoi ei gil, ond heb fforchogi yr ewin, ac felly yn cyfateb i'r darluniad a roddir yma. Y mae ef hefyd yn aml yn y gwledydd hyny, ac yn preswyllo mewn lleoedd creigiog, fel y dywedir yn Salm cv. 18, a Diar. xxx. 26; yr hyn ni wna y cwningen, eithr tylla i'r ddaear. Ac nid ymddengys fod cwningod yn adnabyddus gynt yn Judea, eithr perthyneant i'r Hispaen. Tybia rhai mai llygoden y mynydd, y twrla, y wiwer, a'r draenog, a feddylir

8 Na fwytewch o'u cig hwynt, ac na chyffyrddwch â'u burgun hwynt: aflan *dydynt* i chwi.

9 ¶ Hyn a fwytewch o bob dim a'r sydd yn y dyfroedd: pob peth *y mae* iddo esgyll a chen, yn y dyfroedd, yn y moroedd, ac yn yr afonydd; y rhai hyny a fwytewch.

10 A phob dim nid oes iddo esgyll a chen, yn y moroedd, ac yn yr afonydd, o bob dim a ymsynudo yn y dyfroedd, ac o bob peth byw, y rhai *fyddant* yn y dyfroedd; byddant fflaidd genych.

11 Byddant fflaidd genych: na

with y gair *shaphan* yn y testyn: gwel ar adn. 6.

Adn. 6. *A'r vsygyfarnog*] *Arnebeth*, fel y tybia Bochart ac ereil, oddiwrth *arah*, blaenbori, a *nib*, cynrych y ddaear, trwy fod y creaduriaid hyn yn nodedig am ddyfetha ffirwythau y ddaear. Eu bod yn hynod am ddystrywio egin tyner ŷd, sydd dra hysbys. Y mae yn dra thebyg fod gwahanol rywogaethau o'r creaduriaid hyn yn gnywysedig dan yr enwau *shaphan* ac *arnebeth*; canys sylwa rhai ymdeithwyr fod pedwar neu bum math o'r creaduriaid hyn yn cael eu bwya heddyw yn y gwledydd hyny. Y mae yr vsygyfarnog yn hynod o ofnus, ac am hyny yn arferyd golafur mawr mewn ffordd o ragocheliad wrth chwilio am ymborth, ac ar nesâd perygl gwirioneddol neu ddychymygl. Cyfrana hyn ond odid at ddyrchafiad yr haleni: o ganlyniad y mae ganddi flas uchel iawn hyd yn nod yn ein parthau oerion ni, yr hyn sydd yn brawf fod ei chig yn tueddu yn gryf at bydredd gwrthsurol.

Adn. 7. *A'r llwdn hwch*] Y mae y mochyn yn nodedig am aflendid, ac am ymborthi ar bob math o fudreddi, hyd yn nod burgun pe syrthiai yn ei ffordd; ac am hyny y mae 'hwch yn ymdreiglo yn y dom' yn cael ei osod allan fel arwyddlun o amhurdeb gan ysgrifenywyr cysegredig a chyffredin. Y mae Maimonides yn crybwyll ei aflendid fel y prif reswm fod ei gig yn cael ei wahardd. Y mae Vosius modd bynag yn chwaneagu un arall, sef fod ynddo duedd i fagu y gwahanglwyf, dolur perthynol i'r gwledydd hyny: ac yn ol awdwr y Geiriadur Meddygol, efe yw yr unig anifel yn y greadigaeth ag sydd yn agored i'r gwahanglwyf, ac i rywbeth tra thebyg i'r manwynau, a elwir yn y Lladin *scrofola*, oddiwrth *scrofa*, hwch. Gan hyny ni allai cig yr anifel hwn lai na bod yn ymborth tra anhriodol i bobl agored i wahanglwyfau, fel yr ymddengys fod yr Iuddewon, a phreswylwyr hinsoddan cynhes, lle y gwneir pob peth yn a fwy tueddol i bydredd.

Adn. 8. *Na chyffyrddwch â'u burgun*] I'r dyben i'w fwya. Ond yr oedd crwyn a gw'r rhai o'r creaduriaid gwaharddedig yn ddefnyddiol, a gallent hwythau wneuthur defnydd o honynt.

Adn. 9—11. *Pob peth y mae iddo esgyll a chen yn y dyfroedd—a fwytewch*] Am mai y

fwyteuch o'u cig hwynt, a ffeiddiwch eu burgan hwy.

12 Yr hyn oll yn y dyfroedd ni byddo esgyll a chen iddo, ffeiddbeth fydd i chwi.

13 ¶ A'r rhai hyn a ffeiddiwch chwi o'r adar; na fwyteuch hwynt, ffeidd-dra ydynt: sef yr eryr, a'r wýddwalch, a'r fôr-wenol;

rhai hyny, o'r holl rywogaeth o bysgod, sydd fwyaf maethlon; gan fod y lleill, y rhai sydd heb gen, neu y rhai y mae eu cyrff wedi eu gorchuddio â sylwedd tew a gludiog, yu gyffredin yn dra anhawdd eu treulio.

Adn. 12. *Ni byddo esgyll a chen iddo*] Meys geledod y merch, bwystfilod y môr, &c.

Adn. 13. *Yr eryr*] Yr hwn y mae ei gig yn galed, a'i anian yn dra ysglyfaethus. *A'r wýddwalch*—Saes. *ossifrage*, oddiwrth *ossifragus* y Lladin; math ar eryr a elwir felly oddiwrth ei waith yn tori *esgyrn* ei ysglyfaeth, yr hyn a wna efe trwy ei godi i'r awyr, ac yna ei ollwng i ddisgyn ar graig. *A'r fôr-wenol*—math arall o eryr, neu yr 'eryr dŷ,' yr hwn a grybwyllir gan Homer (Iiad, xxi. 252) fel y cryfaf a'r cyflymaf o'r adar. Y mae yr holl adar ag sydd reibus, neu yn byw ar ysglyfaeth, yn cael eu gwahardd yma am reswm moesol yn gystal a naturiol, trwy fod eu cig nid yn unig heb fod cystal ynddo ei hun ag eiddo y lleill, ond heb fod mor addas i gael ei ddefnyddio gan bobl ag oeddynt wedi eu cysegru i Dduw, ac yn professu mwy o ddiinweidrwydd, cyfiawnder, a phurdeb, na'r rhan arall o'r byd: canys gan eu bod oll naill ai yn rheibus a chreulon, neu yn gyfryw ag a ymhyfyrdant yn y nos a'r tywyllwch, ac yn ymborthi ar bethau aflun, ymddengys yn amrlwg fod y gwaharddiad o honynt yn cael ei fwrtaedu i ddsygu i dnyinion ffeiddio pob creulondu a gorthrynder, a holl weithredoedd aflun y tywyllwch.

Adn. 14. *A'r fulfur*] Aderyn ysglyfaethus mawr, rywbeth yn debyg i'r eryr. Y mae amrai adar o'r rhywogaeth fwltraidd, y rhai, er eu bod yn gwahaniaethu yn fawr o ran lliw a maintiol, eto sydd oll yn hawdd eu hadnabod wrth eu penau noethion, a'u pigau mewn rhan yn sythion, ac mewn rhan yn geimion: gwel HARRIS. *A'r barcut*—sef rhywogaeth o'r gwalch, fel yr adddef yn gyffredin.

Adn. 15. *Cigfran*] *Oreb*, enw cyffredin yn cynwys y fran, y gigfran, yr ýdfran, y gogfran, a'r biden.

Adn. 16. *A chyw yr estrys*] *Bath haiyaa-nah*, 'merch y grochfoedd,' yr estrys fenyw, a elwir felly ond odid oddiwrth y swm a wna. 'Yn mberfedd y nos,' meddai Dr. Shaw, 'y mae yr estrysod yn gwneyd swm tra alaethus ac erchyll, rai gweithiau yn debyg i ruad llew, ac waith arall fel llais crycach tarw neu ých.' Efe a chwanea, 'Clywais hwynt yn griddfan megys yn y loesion dyfnaf.'—Teithiau, 4plyg, dal. 455. Y mae yr estrys yn greadur tra aflun, ac yn bwyta ei dom ei hun mor gynted ag yr arloeso ef, gan ei hoffi yn fawr! Ac y mae hyn yn rheswm digonol, pe byddid yn fyr o rai ereill, paham y cyfrifid y cyfryw aderyn

14 A'r fwlur, a'r barcut yn ei ryw;

15 Pob cigfran yn ei rhyw;

16 A chyw yr estrys, a'r fran nos, a'r gog, a'r gwalch yn ei ryw;

17 Ac aderyn y cyrff, a'r fulfran, a'r dylluan,

18 A'r gogfran, a'r pelican, a'r biogen,

yn aflun, a'y gwaherddid ei fwyta ef. *A'r fran nos*—y mae Bochart a Scheuchzer yn meddwl mai yr estrys gwryw y feddylir; ond ereill a dybant mai yr aderyn a eilw Hasselquist yn 'ddylluan ddwyreiniol' a olygir. 'Y mae o faintiol y ddylluan gyffredin, ac yn byw yn murrddynod a thai didrigolon yr Aifft a Syria, ac weithiau mewn tai preswylidig. Yr Arabiaid yn yr Aifft a'i galwant *Massasu*, y Syriaid *Bana*. Y mae yn dra rheibus yn Syria; ac yn yr hwyr, os gadewir y ffenestri yn agored, hi a ehed i'r tai, ac a ladd *fabanod*, oddieithr iddynt gael eu gwyllo yn ofalus; am ba achos y mae y gwagedd yn ei hofni yn fawr.'—Teith., dal. 196. Os hwn yw yr aderyn a feddylir, y mae hyn yn rheswm digonol paham yr ystyrifed yn yr ffeidd-dra. *A'r gog*—a dybir yn hytrach i feddwl gŵylan y môr; yn cael ei galw *shachaph*, am fod ei chorff yn deneu, fel pe byddai yn atfach, ac felly yn anghymhwys yn fwyd. *A'r gwalch*—am ei fod yn aderyn ysglyfaethus y gwaherddid ef, a phob un arall o'i rywogaeth.

Adn. 17. *Ac aderyn y cyrff*] *Cos*, aderyn y bwn, cigfran y nos, neu ddylluan y nos, yn ol y rhan fwyaf o'r deonglwyr. Tybia rhai y gall yr *onocrotalus*, neu y pelican, fod yn cael ei feddwl; oblegid gan fod y gair *cos* yn arwyddo *cwpan* yn yr Hebraeg, a bod y pelican yn nodedig am gôd neu bwrs dan yr ên, gall ei fod wedi cael ei enw Hebreig oddiwrth yr amgylchiad hwn. Ond tybia rhai fod y *kaath* yn yr adnod ganlynol yn meddwl yr aderyn hwn, a'r *cos* ryw rywogaeth o'r *bubo* neu y ddylluan. *A'r fulfran*—a elwir hefyd môrfran: *shalach*, oddiwrth wreiddair ag sydd yn arwyddo 'bwrw i lawr': aderyn ag sydd yn disgyn i lawr yn syth ar ei ysglyfaeth yn y dwf. *A'r dylluan*—y mae *yansuph*, yn ol y LXX a'r Vulgate, yn arwyddo yr *ibis*, aderyn cysegredig tra adnabyddus yn yr Aifft. Y mae rhai berniaid, yn nghyda'n cyfieithwyr ni, yn tybio ei fod yn meddwl rhywogaeth o'r *dylluan*, neu aderyn y *nos*, am y gellir olrhain y gair o *neseph*, yr hwn sydd yn arwyddo y *cyfnos*, yr amser ag y mae y dylluanod yn beauf yn ehedeg oddiamgylch.

Adn. 18. *A'r gogfran*] Saes. 'yr alarch.' Y mae y LXX yn cyfieithu y gair *tinshemeth* yn *porphuriôna*, aderyn porphor neu ysgariad. Pe medrem ymddibynu ar y cyfieithiad hwn, gallom feddwl mai y *filamednog*, neu ryw aderyn cyffelyb, a feddylir. Tybia rhai mai yr *wýdd* a olygir; ond nid yw hyn yn debyg, gan nas gellir ei rhestru hi yn mhllith yr adar ysglyfaethus ac aflun. Tybia Bochart mai y ddylluan a feddylir: gwel ar adn. 30. *A'r pelican*—gan fod *kaath* yn arwyddo 'chwydu i fyny,' meddylir fod yr enw yn dra darlun-

19 A'r ciconia, a'r crêyr yn ei rhyw, a'r gornchwigl, a'r ystlum.

20 Pob ehediad a ymlusgo ac a gerddo ar bedwar troed, ffeidd-dra yw i chwi.

21 Ond hyn a fwytechw, o bob ehediad a ymlusgo, ac a gerddo ar bedwar troed, yr hwn y byddo coesau iddo oddiar ei draed, i neidio wrthynt ar hyd y ddaear;

22 O'r rhai hyny y rhai hyn a fwytechw: y locust yn ei ryw, a'r

selam yn ei ryw, a'r hargol yn ei ryw, a'r hagab yn ei ryw.

22 A phob ehediad arall a ymlusgo, yr hwn y mae pedwar troed iddo, ffeidd-dra fydd i chwi.

24 Ac am y rhai hyn y byddwch afan: pwy bynag a gyffyrddo â'u burgun hwynt, a fydd afan hyd yr hwyr.

25 A phwy bynag a ddygo ddim o'u burgun hwynt, golched ei ddillad; ac afan fydd hyd yr hwyr.

26 Am bob anifel fydd yn hollti yr

iadol o'r pelican, yr hon sydd yn derbyn ei hymborth i'r gôd dan ei gên, ac yna, trwy ei gwasgu â'i phig yn erbyn ei bron, sydd yn ei fwrw ef i fyny er maeth i'w chywion. Oddiwth hyn y daeth y chwedl fod y pelican yn archolli ei mynws, fel y gallo borthi ei chywion â'i gwael ei hun: flugchwedd heb sail ond yn yr amgylchiad uchod. Tybia Bochart mai *aderyn y bun* a feddylir. A'r *biogen*—Saes. *the gier eagle*, yr 'eryr fwlturaidd,' trwy fod *gier* yn hen air Saesonig am fwltur. Ond trwy fod y gair *racham* yn arwyddo tynerwch a serch, tybir ei fod yn cyfeirio at ryw aderyn nodedig am ei ymlyniad wrth ei gywion; ac felly meddylodd rhai mai y *pelican* a ddeallir. Eithr y mae Bochart yn ceisio profi ei fod yn meddwl y fwltur, yn debygol y rhywogaeth hōno a elwir 'y fwltur aur.'

Adn. 19. A'r *ciconia*] *Chasidah*, oddiwth *chasad*, yr hwn sydd yn arwyddo bod yn 'helcath mewn tynerwch a gweithredoedd o haelioni;' ac am hyn yn cael ei gymhwyso at y *ciconia*, o herwydd ei serch at ei chywion, a'i tynerwch yn gweini i'w rhieni ac yn eu porthi pan yn hen; ffeithiau a brofir gan y naturiaethwyr mwyaf cyfarwydd yn mhllith y Groegiaid a'r Lladinwyr. Y mae yn nodedig am ddyfetha a hwyta seiff, ac ar y cyfiif hwn gallai gael ei rhestru yn mhllith yr adar afan. A'r *crêyr*—*anaphah*. Cafodd y gair hwn ei ddeall yn amrywiol: darfu i rai ei gyfieithu yn farcut, ereill yn gyfflyg, ereill yn gylfin-lir; rhai yn baen, ereill yn barrot, ac ereill garan. Y mae y gwreiddair *anaph* yn arwyddo auadlu yn fyr trwy y ffroenau, neu ffroeni fel mewn digofaint; a meddylir fod y gair yn ddiagon darluniadol o'r *crêyr*, oddiwth ei natur dra diglon ef; canys efe a ymesyd ar ddyn mewn amddiffyniad i'w nyth. Ond tybia Bochart mai rhywogaeth o'r *eryr* a feddylir. A'r *gornchwigl*—*duchiphath*; aderyn cribog, gyda phlu prydfert, ond yn dra afan. Tybia Harris ei fod yn cael ei eaz oddiwth y swn neu y ddolef hynod a wna, pa un a glywir o bell flordd. Ond nid oes sawr o gytundeb yn mhllith esbonwyr yn nghylch ystyr y gair gwreiddiol. A'r *ystlum*—*atalleph*; a elwir felly, yn ol Parkhurst, oddiwth *at*, ehedeg, ac *alph*, tywyllwch, am ei bod yn ehedeg o amgylch yn ngwyll yr hwyr ac yn y nos. Gan fod hwn yn fath ar anghenfil cyfranog o natur aderyn a llygoden, da y gellid ei restru yn mhllith y creaduriaid afan. Fel hyn y mae y gofrestir o'r adar gwaharddedig yn dechreu gyda'r *eryr*, yr ardderchocaf o'r holl adar, adn. 13; ac

yn diweddu gyda'r *ystlum*, yr hwn yw y diffeithiaf o'r cwbl: gwel yr adfeddyliaidau.

Adn. 20. *Pob ehediad a ymlusgo*] Megys yr ystlum a grybwyllwyd eisioes, yr hon y mae iddi grafangau wrth ei hadenydd lledraidd, y rhai a wasanaethant yn lle traed i ymlusgo wrthynt, trwy fod y traed a'r coesau heb fod yn wahanredol. Ond gall hyn gynnwys hefyd yr holl wahanol fathau o *drych-filod*, gyda'r eithriadau yn yr adnod ddylynol. Ac a *gerddo ar bedwar troed*—neu chwane, megys gwybed, gwenyn, &c.

Adn. 21. *Yr hwn y byddo coesau iddo oddiar ei draed*] Ymddengys fod hyn yn cyfeirio at y gwahanol fathau o locustiaid a cheillogod rhedyn, y rhai y mae iddynt goesau ol tra hynod, yn hirion ac â chymalau uchel yn taflu i fyny uwchlaw eu cesiau, trwy y rhai eu galluogir i lamu i fyny oddiar y ddaear, ac i neidio yn uchel a phell.

Adn. 22. *Y locust*] Gwel hanes y rhai hyn yn y sylwadau ar Exod. x. 4—19. Rhywogaethau y locustiaid hefyd yw y *selam*, a'r *hargol*, a'r *hagab* a grybwyllir yma, y rhai, er nas gallwn ni yn lawdd eu gwahaniaethu, oeddynt yn dra adnabyddus gynt yn y gwledydd dwyreiniol: gwel yr adfeddyliaidau. Y mae yn dra amlwg fod y locustiaid yn cael eu hwyta nid yn unig yn yr hen amseroedd hyny, ac yn anser Ioan Feddydiwr, Mat. iii. 4, ond hefyd yn y dyddiau presenol. Bwytaodd Dr. Shaw rai o honynt yn Barbary, 'wedi eu ffrio a'u halltu, y rhai a brofent yn dra thebyg i geimwch.' Buwyd yn eu hwyta yn nhir Groeg, Syria, Persia, Affrica, a thros holl Asia; ac ymddengys fod llwythau cyfain yn byw arnynt, y rhai a elwid gan y Groegiaid *acridophagoi*, neu fwytawyr locustiaid: gwel *Strabo* a *Pliny*.

Adn. 23. *Pob ehediad arall a ymlusgo*] Yr hwn nad oes iddo y coesau hyny oddiar ac heblaw ei draed, fel y crybwyllwyd adn. 21.

Adn. 24. *Ac am y rhai hyn y byddwch afan*] Os gwnaet eu hwyta, neu gymaint a chyffwrdd â'u burgunod hwy, nid oeddynt am y diwrnod hwn i ddyfod i'r babbell i fwyta o ddim cysegredig; ac fel arwydd o'r afendid deddfol hwn, yr oeddynt i olchi eu dillad mewn dwfr, adn. 25, yr hon oedd y ddefod arferol o bureiddiaid yn y fath achosion.

Adn. 25. *Afan fydd hyd yr hwyr*] Nid oedd yr afendid yn parhau ond hyd yr hwyr, i arwyddo fod yr holl halogiadau seremonïol i ddyfod i ddiweddiad trwy farwolaeth Crist yn hwy y byd hwn, fel y sylwa Henry.

Adn. 26. *Afan yw y rhai hyny i chwi*]

ewin, ac heb ei fforchogi, ac heb gnoi ei gil, aflan yw y rhai hyny i chwi; aflan fydd pob un a gyffyrddo â hwynt.

27 Pob un hefyd a gerddo ar ei balfau, o bob anifel a gerddo ar bedwar troed, aflan ydynt i chwi: pob un a gyffyrddo â'u burgun, a fydd aflan hyd yr hwyr.

28 A'r hwn a ddygo eu burgun hwynt, golched ei ddillad; a bydded aflan hyd yr hwyr: aflan ydynt i chwi.

29 ¶ A'r rhai hyn sydd aflan i chwi o'r ymlusgiaid a ymlusgo ar y ddaear: y wenci, a'r llygoden, a'r llyffiant yn ei ryw;

30 A'r draenog, a'r lysard, a'r ystelio, a'r falwoden, a'r wâdd.

31 Y rhai hyn ydynt aflan i chwi o bob ymlusgiaid: pob dim a gyffyrddo â hwynt pan fyddant feirw, a fydd aflan hyd yr hwyr.

Gwaherddid iddynt gyffwrdd â'u burgunod, adn. 27, neu â hwynt pan fyddent feirw, adn. 31: eithr gallent ddefnyddio camelod, meirch, ac asynod i ddybenion angenheidiol.

Adn. 27. *Pob un hefyd a gerddo ar ei balfau*] *Cappau*, 'ar ei gledrau neu ei ddwyllaw'; gan gyfeirio ond odid at y creaduriaid hyny y rhai y mae eu traed yn debyg i ddwyllaw a thraed dyn, megys y gwahanol rywogaethau o epaod, eirth, gwâddod, &c. Neu yr hwn y mae ei draed yn fforchogi i wahanol ranan, fel bysedd, megys own, cathod, llewod, &c.

Adn. 28. *A'r hwn a ddygo*] Neu a gario eu burgun hwy o'r naill le i'r llall.

Adn. 29. *Y wenci*] *Choled*, oddiwrth *chalah* y Syriaeg, cropian i mewn. Tybia Bochart gyda llawer o briodoldeb mai y *wâdd*, nid y *wenci*, a feddylir wrth gair gwreiddiol; ac y mae ei banian hi i gloddio i'r ddaear, a chropian neu dyllu dan y donen, yn dra adnabyddus. *A'r llygoden*—addefir yn gyffredinol fod y gair *achbar* yn arwyddo llygoden, yn enwedig llygoden y maes: gwel ar Esay lxvi. 17. *A'r llyffiant*—yn ei holl rywogaethau; a barna rhai fod y crocodil hefyd yn cael ei fwrtaidau.

Adn. 30. *A'r draenog*] *Anakah*, oddiwrth *anak*, griddfan, llefain: rhywogaeth o'r genaangoeg, yr hon sydd yn cael ei henw oddiwrth ei llef dreiddiol ac alaethus. *A'r lysard*—myn Bochart mai hon yw y *waril* neu *guaril*, rhywogaeth arall o'r genaangoeg, yn cael ei henw oddiwrth ei nerth a'i grym nodedig yn nyfethiant seifff, trwy fod y gair Hebreig *cach* yn arwyddo bod yn gryf, cadarn, neithol. Tybia rhai mai yr ydyw a'r *mongoose*, creadur tra adnabyddus yn yr India, lle y cedwir ef yn fynych mewn tai, i'w diogelu rhag nadroedd, llygod, &c. *A'r ystelio*—*letaah*. Myn Bochart fod hon hefyd yn rywogaeth o'r genaangoeg, a elwir gan yr Arabiaid *wahara*, yr hon sydd yn cropian gyda'r ddaear, ac yn wenwyn-

32 A phob dim y cwympo un o honynt arno, wedi marw, a fydd aflan; pob llestr pren, neu wisg, neu groen, neu sach, pob llestr y gwnelir dim gwaith ynddo, rhodder mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr: felly y bydd glân.

33 A phob llestr pridd yr hwn y syrthio un o'r rhai hyn i'w fewn, aflan fydd yr hyn oll *fydd* o'i fewn; a thorweh yntau.

34 Aflan fydd pob bwyd a fwytair, o'r hwn y del dwfr *aflan* arno; ac aflan fydd pob diod a yfir mewn llestr *aflan*.

35 Ac aflan fydd pob dim y cwympo *dim* o'u burgun arno; y fflwr n'r badell a dorir: aflan ydynt, ac aflan fyddant i chwi.

36 Eto glân fydd y ffynnon a'r pydew, lle mae dyfroedd lawer: ond yr hyn a gyffyrddo â'u burgyn, a fydd aflan.

ig. A'r falwoden—*chomet*, rhywogaeth arall o'r genaangoeg, yn ol Bochart, a elwir *huluka* gan yr Arabiaid, yr hon sydd yn byw yn beauf yn y tywod. *A'r wâdd*—*tinshemet*, oddiwrth *nasham*, anadlu. Y gair hwn a gyfieithir, adn. 18, yn *gogfran*; ond y mae yn eglur ei fod yno yn meddwl math ar aderyn, ac yma fath ar enangoeg. Tybia Bochart mai y *cameleon* a feddylir yma, yr hwn a gafodd ei enw Hebreig oddiwrth ei safn rwth, ei ysgyfaint dirfawr, a'i waith yn ymborthi ar y creaduriaid bychain ag sydd yn nofio yn yr awyr, nes y meddyliodd rhai ei fod yn ymborthi ar yr awyr ei hun.

Adn. 31. *Pan fyddant feirw*] Gwel ar adn. 26.

Adn. 32. *Pob llestr pren*] Megys y meiliau neu y cawgiau coed ag sydd eto yn arferedig yn mhlith yr Arabiaid; *neu wisg*—yn perthyn i fab neu ferch; *neu groen*—unrhyw goffr neu fagedd wedi ei gwisgo â chroen, y rhai sydd am ym Arabia; a gall fod y crwyn geifr, yn y rhai y corddent en llaeth, yn cael eu bwriadu hefyd; *neu sach*—unrhyw garthenrawn a ddefnyddid i gario eiddo o le i le.

Adn. 33. *A phob llestr pridd*] Y cyfryw biseri ag a arferir gan yr Arabiaid crwydrol i yfed o honynt, ac i ddal gwlybedd, &c. Y mae yn debyg fod y rhai a arferid gan yr Israeliaid yn eu teithiau yn yr anialweh yn debyg iddynt, am nad yw arferion y bobl hyn yn cyfnewid.

Adn. 34. *O'r hwn y del dwfr aflan arno*] Sef pob cig, llysiaid, neu ryw fwyd arall a olcher mewn dwfi wedi ei gymeryd o'r cyfryw lestr pridd halogedig.

Adn. 35. *Y fflwr n'r badell a dorir*] Os bydd dim rhan o'r burgun wedi cyffwrdd â hi.

Adn. 36. *Eto glân fydd y ffynnon a'r pydew*] Nis gellir rhoddi un rheswm am hyn, meddai Benson, ond ewyllys y Ddedd froddur, a'i ymostyngiad trugarog ef at anghenion dyn,

37 Ac os syrth dim o'u burgun hwynt ar ddim had hauedig, yr hwn a heuir; glân yw efe.

38 Ond os rhoddir dwfr ar yr had, a syrthio dim o'u burgun hwynt arno ef; aflan fydd efe i chwi.

39 Ac os bydd marw un anifel a'r sydd i chwi yn fwyd; yr hwn a gyffyrddo â'i furgun ef, a fydd aflan hyd yr hwy.

40 A'r hwn a fwyty o'i furgun ef, golched ei ddillad; a bydded aflan hyd yr hwy: a'r hwn a ddygo ei furgun ef, golched ei ddillad; a bydded aflan hyd yr hwy.

41 A phob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear, fydd ffieidd-dra: na fwytäer ef.

42 Pob peth a gerddo ar ei dor, a phob peth a gerddo ar bedwar troed,

trwy fod dwfr yn brin yn y gwledydd hyny: ac am yr un rheswm mynai Duw i ddeddf seremonïol yr aberthau roddi lle i ddeddf trugaredd.

Adn. 37. *Had hauedig*] Neu had i'w hau; *glân yw efe*—mewn rhan am fod hwn yn arlwyath angenrheidiol i ddy; ac mewn rhan am ua fyddai i'r cyfrwy had gael ei ddefnyddio yn fwyd i ddy'n nes iddo dderbyn llawer o gyfnewidiadau yn y ddaear, trwy y rhai y tynd y cyfrwy halogwydd ymaith.

Adn. 38. *Ond os rhoddir dwfr ar yr had, &c.*] Tybia yr Esgob Kidder mai y meddwl yr, 'os rhoddir dwfr ar yr had i'w barotoi yn fwyd,' gan ei wahaniaethu fel hyn oddiwrth had a fwriedid i'w hau. Eithr tybia ereill mai y rheswm am y gwahaniaeth yw, mewn rhan am fod had gwlyb yn derbyn yn gynt ac yn cadw yn hwy unrhyw halogwydd nag un sych, ac mewn rhan am na byddai y cyfrwy had yn gymbwys i gael ei hau yn ebrwydd.

Adn. 39. *Os bydd marw un anifel a'r sydd i chwi yn fwyd*] Naill ai o hono ei hun, neu trwy gael ei ladd gan fwystfil; yn mha achos ni thywelltid y gwaeod allan fel y gwneid wrth ei ladd gan ddyonion i'w fwyta neu i'w abertlu.

Adn. 40. *A'r hwn a fwyta o'i furgun ef*] Yn ddiarwybod; canys os gwnai efe hyny yn wybodol, yr oedd yn bechod rhyfegus yn erbyn deddf bendant, Deut. xiv. 21, ac am hyny i gael ei gosi fel y cyfrwy.

Adn. 41. *A phob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear*] Megys pryfed, malwod, &c.

Adn. 42. *Pob peth a gerddo ar ei dor*] Megys seirff, nadroedd, &c.; *a phob peth a gerddo ar bedwar troed*—megys llyfaint, &c.; *a phob peth aml ei draed*—megys amrai fath ar bryfed, trychfilod, &c. Dywedir fod gan rai o'r rhai hyn *gant* o draed, ac am hyny gelwir hwy *cantroedogion*; ac ereill *fil*, y rhai a elwir *mildroedogion*.

Adn. 43. *Fel y byddech aflan*] Neu halogedig o'u herwydd.

Adn. 44. *Ymsanteiddiwch a byddwch santaidd*] Yma efe a ddyry ar ddeall iddynt pam y rhoddod efe y deddfau hyn yn nghylch

a phob peth aml ei draed, o bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear, na fwyteu hwynt: canys ffieidd-dra ydynt.

43 Na wnewch eich eneidiau yn ffiaidd oblegid un ymlusgiad a ymlusgo, ac na fyddwch aflan o'u plegid, fel y byddech aflan o'u herwydd.

44 O herwydd myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi: ymsanteiddiwch a byddwch santaidd; o herwydd santaidd ydwyf fi: ac nac aflanhewch eich eneidiau wrth un ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear.

45 Canys myfi yw yr Arglwydd, yr hwn a'ch dyg chwi o dir yr Aifft, i fod yn Dduw i chwi: byddwch chwithau santaidd; canys santaidd ydwyf fi.

46 Dyma gyfraith yr anifeiliaid, a'r chediaid, a phob peth byw a'r sydd yn

bwydydd a chyffyrddiadau iddynt, fel y gallent, trwy fanwl gadwraeth o'r pethau hyn, ddyngu yn well ochelud pob llygredd moesol, ac ymgadw oddiwrth bob halogwydd enawd ac ysbryd, a chyfeillach anweddaidd â phechaduriaid.

Adn. 45. *Yr hwn a'ch dyg chwi o dir yr Aifft*] Yr oedd hyn yn rheswm paham y dylent hwy ymstung yn llawen i ddeddfau hynod, y rhai a freintiesid â'r fath ffafrau hynod.

Adn. 46, 47. *Dyma gyfraith yr anifeiliaid, &c.*] Yr hon oedd i'r Israeiliaid yn ddeddf cyhyd ag y parhaodd yr oruchwyliaeth hono; ond dan yr efengyl yr ydym ni yn ei chael wedi ei diddymu yn bendant, trwy lef o'r nef wrth Pedr, Act. x. 15, megys yr oedd o'r blaen wedi cael ei gosod o'r neilldu trwy farwol-aeth Crist, yn nghydag ordeiniadau ereill ag oeddynt yn llygreddigaeth wrth eu harfer, 'Na chyffwrdd, na archwaetha, ac na themla,' Col. ii. 20—22. Yn awr yr ydym ni yn sicr 'nad yw bwyd yn ein gwneuthur ni yn gymeradwy gan Dduw,' 1 Cor. viii. 8; ac 'nad oes dim yn aflan o hono ei hun,' Rhuf. xiv. 14. 'Nid yr hyn sydd yn myned i mewn i'r genau sydd yn halogi dyn, ond yr hyn sydd yn dyfod allan o'r genau' neu y galon, Mat. xv. 11. Boed i ni gan hyny, (1) Ddiolch i Dduw am nad ydym ni dan yr iau hon, ond fod 'pob peth a greodd Duw' yn cael ei ganiatau i ni fel 'yn dda, ac nad oes dim i'w wrthod,' 1 Tim. iv. 4. (2) 'Safwn yn y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist ni,' a gochelwn yr athrawiaethau hyny ag sydd yn 'erchi ymattal oddiwrth fwydydd,' ac felly a fyndod godi Moses drachefn, Gal. v. 1, 1 Tim. iv. 3. (3) Byddwn fanwl a chydwybodol gymbedrol yn y defnyddiad o'r daionus creaduriaid a ganiatodd Duw i ni, heb byth yn ddiöfn besgi ein hunain, rhag i'n bwrdd fod yn fagl i ni. 'Gosod gylllell ar dy gég, os byddi ddy'n blysig,' ac 'na ddeisyf ddanteithion' neu amrywiaethau, Diar. xxiii. 2, 3. Y mae natur yr foddion gydag ychydig, a gras gyda llai, ond nid yw trachwant gyda dim.

ADFEDDLIAIDAU.—Gwelsom eisioes fod an-

ymsymud yn y dyfroedd, ac am bob peth byw a'r sydd yn ymlusgo ar y ddaear;

47 I wneuthur gwahan rhwng yr aflan a'r glân, a rhwng yr anifel a fwyteir a'r hwn nis bwyteir.

PENNOD XII.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Os gwraig a feichioga, ac a esgor ar wryw: yna bydded aflan saith niwrnod: fel dyddiau gwahaniaeth ei misglwfyf y bydd hi aflan.

sicrwydd mawr gyda golwg ar ystyr amrai o'r enwau Hebreig a arferir yn y bennod hon, ac y mae yr Iuddewon eu hunain yn cyfaddef fod ystyr llawer o bonnynt yn awr yn ngholl. Chwaneger at hyn, fod y creaduriaid yn y gwledydd dwyreiniol yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth y rhai sydd yn ein gwlad ni; ac o ddiffyg amgenach gwybodaeth am danynt, y mae yn debyg ein bod, wrth roddi iddynt enwau y cyfryw creaduriaid ag yr ydym ni yn adnabyddus â hwynt, yn fynych yn cyfeiliorni yn fawr. Gallai un feddwl y busasai i'r ystyriaeth yma argyhoeddi yr Iuddewon o'r ynyfdrwydd o gymeryd arnynt ymllyn fyth wrth gyfraith Moses, gan fod yn amlwg, mewn llawer o achosion, na wyddant hwy pa beth sydd waharddedig, na pha beth nad yw. Ie, diamau eu bod yn barhaus yn tori y gyfraith hon, fel y sylwa Clarke, wrth gyfwrdd yn eu gael eu cyfwrdd â'r creaduriaid eu hunain, neu â'u cynrych, megys blew, gwlan, plu, crwyn, perfedd, &c., wedi eu haurywiol weithio; ac felly ymddengys fod ganddynt cyn lleied o *ddeddf* ag sydd ganddynt o *efengyl*.

PEN. XII. Adn. 1. *A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses*] Y deddfau yn y bennod flaenorol a lefarwyd wrth Moses ac Aaron; yr hyn a gynwysir yn y bennod hon a draddodwyd i Moses yn unig, gan yr hwn yn debygol yr adroddwyd hwynt wrth Aaron, ac Aaron wrth feibion Israel, a'r rhai hyny wrth eu gwragedd. Oddiwrth afleidid yn cael ei achosi trwy swyta neu gyfwrdd â phethau allanol, y mae efe yn dyfod yn awr at yr afleidid a ddeilliai oddiwrthyn hwy eu hunain.

Adn. 2. *Os gwraig a feichioga, &c.*] Nid oes gan ddeddfau y bennod hon, fel y sylwa Clarke, fawr o berthynas â ni; ac ni allai ymofyn i'w rhesymau anianyddol, mor bellod ag y perthynent i'r Iuddewon, roddi ond ychydig o adeiladaeth; ac, i wneuthur y cyfryw bynciau yn ddigon eglur, gofynai y fath ddysgriafad na allai fod braidd yn addas i ddarllenwyr cyffredin.

Adn. 3. *A'r wythfed dydd yr enwaedir*] Cyn y pryd hyny braidd y gellid ystyried y plentyn yn ddigon cryf i'w enwaedu; ac ar ol y pryd hyny nid oedd yn briodol ei oedi, gan nad ystyrid y plentyn mewn cyfammod â Duw, nac o ganlyniad dan nawdd neillduol

3 A'r wythfed dydd yr enwaedir ar gnawd ei ddiennwaediad ef.

4 A thri diwrnod ar ddeg ar hugain yr erys yn ngwaed ei phuredigaeth: na chyffyrdded â dim santaidd, ac na ddeued i'r cysegr, nes cyflawni dyddiau ei phuredigaeth.

5 Ond os ar fenyw yr esgor hi; yna y bydd hi aflan bythefnos, megys yn ei gwahaniaeth: a chwe diwrnod a thriugain yr erys yn ngwaed ei phuredigaeth.

6 A phan gyflawner dyddiau ei phuredigaeth ar fab neu ferch; dyged oen blydd yn offrwm poeth, a chyw

rhagluniaeth a gras y nef, nes y cyflawnid y ddefod hon. Yr oedd yr enwaediad yn cael ei gyfyngu mor gaeth i'r *wythfed* dydd, fel nad oedd i'w adael heibio hyd yn nod er i hwnw fod yn *sabbath*, Ioan vii. 22. Yr oedd yr enwaediad yn arwydd *parhaus* ac *amlwg* i bob dyn o'r cyfammod ag yr aethai efe iddo gyda Duw, ac o'r rhwymedigaethau moesol ag y gosodwyd ef trwy hyny danynt. Yr oedd hefyd yn taeddu at *burdeb*, ac yn neillduol angenrheidiol yn mhlith pobl naturiol anwaer, ac mewn hinsawdd nad oedd yn dra ffiafriol i ddiweirdeb. Y mae hwn yn oleuni yn mha un y dylid edrych ar y pwnc hwn yn wastadol, meddai Clarke, ac yn yr hwn y canfyddwn resymoldeb, priodoldeb, cymbwysder, a thueddiad moesol y ddefod. Gwel ar Gen. xvii. 10—14.

Adn. 4. *Yn ngwaed ei phuredigaeth*] Neu yn ei chyflwr aflan a neillduedig. Nid yw y gair *puredigaeth* yn y lle hwn, fel y sylwa y meddygon goraf, yn cynwys fod dim amhurdedd yn y gwaed ei hun ar yr amserau hyn; ac y mae y chwedlau ofer a geir mewn rhai llyfrau mewn perthynas i anian lygrawl yr hylif hwn, ac ansawdd y fenyw ar y cyfryw bryd, mor anaf ag ydynt afresymol a gwrthun. *Na chyffyrdded â dim santaidd*—nid oedd i fwyta na ran o'r hedd-offrymau a wneid ganddi ei hun na'i gwŷr.

Adn. 5. *Ond os ar fenyw yr esgor hi, yna y bydd hi aflan bythefnos*] Nid yw yr Iuddewon yn awr yn cadw y gyfraith hon, nac yn gyffredin yn gwneyd un gwahaniaeth o ran hyd amser ei phuredigaeth, pa un bynag ai plentyn gwryw ai benyw a fyddo ganddi. *Chwe diwrnod a thriugain*—y mae yr amserau yn achos benyw cyhyd arall ag yn achos gwryw; am fod gwragedd, yn ol barn llawer, yn fwbureiddio yn gynt ar ol esgor ar fab nag ar feich; a pha mor amheus bynag y gall y dyb hon fod, dengys Grotius ei bod yn cael ei hamddiffyn gan ddim llai awdurdod nag eiddo Aristotle a Hippocrates. Ereill, modd bynag, a dybiant fod y gwahaniaeth hwn yn cael ei wneyd er arhwydedd i'r ordinhad o enwaediad, yr hon, trwy ei gweinyddu ar y gwrywod, a roddai derfyn ar yr halogrwydd esgorol yn gynt.

Adn. 6, 7 *Dyged oen blydd yn offrwm poeth, a chyw colomen neu durtur yn aberth dros bechod*] Y mae yn debyg fod yr holl os-

colomen, neu durtur, yn aberth dros bechod, at yr offeiriad, i ddrws pabell y cyfarfod:

7 Ac offrymed efe hyn gerbron yr Arglwydd, a gwnaed gymod drosti: a hi a lanheir oddiwrth gerddediad ei gwaed. Dyma gyfraith yr hon a esgor ar wryw neu ar fenyw.

8 Ac os ei llaw ni chyraedd werth oen, yna cymered ddwy durtur, neu

ddau gyw colomen; y naill yn offrwm poeth, a'r llall yn aberth dros bechod: a gwnaed yr offeiriad gymod drosti; a glân fydd.

PENNOD XIII.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,

2 Dyn (pan fyddo yn nghroen ei gnawd chwydd, neu gramen, neu ddis-

odiadu hyn yn cael eu hwiariad i ddangos annburdeb *naturiol* neu halogrydd *gwreiddiol* dyn trwy bechod, a'r angeurheidrydd am *iawn* i lanbau yr enaid oddiwrth anghyfiawnder: gwel yr adfeddyliadau.

Adn. 8. *Ac os ei llaw ni chyraedd werth oen, yna cymered ddwy durtur neu ddau gyw colomen*] Gan na ddarfu i'r Forwyn Fair ddwyn ond y rhai olaf, y mae yn eglur na 'chyrbaeddi ei llaw,' hyn yw, nad oedd hi yn ddigon *cyfoethog* i ddarparu oen; canys ni fuasai i'r fath wraig santaidd ddwyn yr offrwm *leiaf*, pe gallasai ddwyn y *myyaf*. Mor hynod yw hyn! Nid oedd unig etifedd gorsedd Dafydd yn alluog i ddwyn oeni'w offrymu yn aberth i Dduw! Ac mor ysgeler y rhaid fod *pechod*, pan yr oedd yn ofynol i'r hwn ag ydoedd yn ffurf Duw ymwacâu ac ymddarostwng fel hyn, ie hyd angau y groes, mewn trefn i wneyd iawn drosto, ac i buro yr enaid oddiwrth bob halogrydd! *A glân fydd*—hyd yn nod dan yr efengyl, 'y mae moesolder y gyfraith hon,' fel y sylwa HENRY, 'yn rhwymo y gwagedd hyn a dderbyniasant drugaredd gan Dduw ar esgoriad, i addef gyda phob diolchgarwch ddaioni Duw iddynt, a chydabod en hunain yn anneillwng o hono, ac hefyd (yr hyn yw y pureiddiad goraf i wragedd a 'gadwyd wrth ddwyn plant,' 1 Tim. ii. 15.) 'aros mewn ffydd, a chariad, a santeiddrwydd, yn nghyda sobrwydd;' canys bydd i hyn foddhau yr Arglwydd yn well na durturod neu gywion colomenol.'

ADFEDDYLIADAU.—Y mae pob gweithred o eiddo dyn yn bechadurus, oddieithr yr hon a dardda oddiwrth ddylanwad gras a thrugaredd Duw. Yr oedd ei thralod yn ei beichiogrwydd, a'i phoen wrth ddwyn plant, yn adgoffa i'r wraig ei throseedd gwreiddiol; troseedd ag ydoedd yn haeddu angau, troseedd nas gallai hi wneyd iawn am dano, a thros yr hwn yr oedd yn rhaid i aberth gael ei offrymu: ac mewn cyfeiriad at 'bethau gwell,' i'r oedd yn rhaid i fywyd anifel gael ei offrymu fel pridwerth dros ei bywyd hi. A thrwy iddi gael ei hachub wrth esgor, er ei bod yn haeddu marw, yr oedd yn ofynol iddi, mor gynted ag y deuai dyddiau ei gwahaniaeth i ben, ddwyn aberth yn ol ei gallu at yr offeiriad, fel y gallai efe ei offrymu i Dduw fel cymod drosti. Fel hyn, lle hynag y mae Duw yn cadw i fyny y goffadwriaeth o *bechod*, y mae efe hefyd yn cadw i fyny y gofeb o *aberth*, i ddangos nad yw cyflwr pechadur, pa mor resynus bynag, yn *anobeithiol*, am ddarfod iddo ef ei hun gael allau *iawn*. Yn mhob man, yn y *ddeddf* ac yn yr *efengyl*, yn mhob *ordinad* ac yn mhob *arddefod*, gallwn weled CYFIAWNDER A THRU-

GAREDD Duw. O ganlyniad, tra y mae genym wybodaeth o'n *pechod*, y mae genym hefyd wybodaeth o'n *hiachad*. Ddarllenwyd, pan yn cyffesu dy *drueni* dy lun, nac anghofia *drugaredd* yr Arglwydd; a chofia ei fod ef yn 'cwlbia iachau y rhai trwy Gaist sydd yn dyfod at Dduw,' Heb. vii. 25.

PEN. XIII. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses ac Aaron*] Y mae y gyfraith hon yn gyfeiriadig at Aaron yn gystal a Moses, am ei fod ef a'i feibion i fod yn farnwyr i benderfynu pa beth oedd lán a pha beth oedd aflan.

Adn. 2. *Chwydd, neu gramen, neu ddisglerid*] Yr oedd y gwahanglwyf yn ymddangos mewn un o'r tair ffurf hyn. Yn awr, gan y gallai y nodau hyn fod weithiau ar y croen pryd na byddai gwahanglwyf, rhoddir yma reolau trwy y rhai y gallai yr offeiriad wahaniaethu rhwng pla y gwahanglwyf a thebygolrwydd iddo, fel y gallent yn ol hyny gyhoeddi un yn lán neu yn aflan. *A bod yn nghroen ei gnawd ef megys pla y chwyf gwahanol*—y mae y gair Cymreig *gwahanglwyf* yn deilliaw oddiwrth y *gwahaniad* a wnai y dolur hwn rhwng y dyoddefydd a'i gyd-ddynion, fel y gwelir isod; a gelwir ef yn y Saesonaeg *leprosy*, oddiwrth *lepra* y Roeg, yr hwn a ddeillia oddiwrth *lepis*, cen, am fod y corff yn fynych yn yr anhwydeob ofnadwy hwn yn cael ei doi drosto â *chen gwynion* a *theneuon* tebyg i *eira*. O ganlyniad dywedir am law Moses, Exod. iv. 6, ei bod yn 'wahanglwyfol fel yr *eira*;' ac am Miriam, Num. xii. 10, ei bod yn 'wahanglwyfus fel yr *eira*;' ac am Gehazi, 2 Bren. v. 27, ddarfod iddo, ar ol ei daraw yn farnol â chlefyd Naaman, fyned ymaith o wýdd Eliseus 'yn wahanglwyfus cyn wýned a'r *eira*.' Bydd i'r hanes a ddyry Maundrell am ymddangosiad amrai bersonau a welodd efe yn y dolur hwn yn Mhalestina, ddangos yn y goleuni egluraf ei natur a'i duedd ddychrynllyd. 'Pan oeddwn yn y Tir Santaidd,' meddai efe yn ei lythyr at y Parch. Mr. Osborn, Cymrawd o Goleg Exeter, 'gwelais lawer ag oeddynt yn dyoddef dan glefyd Gehazi; yn enwedig yn *Sichem* (yn awr *Naplosu*), ni ddaeth dim llai na deg atom i gardota ar yr un pryd. Eu trefn yw dyfod gyda chryciau bychain yn eu dwylaw i dderbyn rhoddion yr elusengar, trwy fod eu *cyffryddiad* yn cael ei ystyried fyth yn *heintus*, neu o leiaf yn *afllan*. Yr oedd y clefyd, fel yr oeddwn yn ei weled arnynt hwy, yn gwbl wahanol i'r hyn y gwelwom ef yn Lloegr; canys y mae nid yn unig yn aflauhan yr holl groen gyda *chen* fflaidd, ond hefyd yn anffurfio *cymalau* y

gleirder, a bod yn nghroen ei gnawd ef *megys* pla y clwyf gwahanol] a ddygir at Aaron yr offeiriad, neu at un o'i feibion ef yr offeiriad.

3 A'r offeiriad a edrych ar y pla yn nghroen y cnawd: os y blewyn yn y pla fydd wedi troi yn wŷn, a gwelediad y pla yn ddyfnach na chroen ei gnawd ef; pla gwahanglwyf *yw* hwnw: a'r offeiriad a'i hedrych, ac a'i barn yn aflan.

4 Ond os y dysgleirdeb fydd gwŷn yn nghroen ei gnawd ef, ac heb fod yn is ei welediad na'r croen, a'i flewyn heb droi yn wŷn; yna caued yr offeiriad ar y clwyfus saith niwrnod.

5 A'r seithfed dydd edryched yr offeiriad ef: ac wele, os sefyll y bydd y pla yn ei olwg ef, heb ledw o'r pla

yn y croen; yna caued yr offeiriad arno saith niwrnod eilwaith.

6 Ac edryched yr offeiriad ef yr ail seithfed dydd: ac wele, os *bydd* y pla yn odywyll, heb ledw o'r pla yn y croen; yna barned yr offeiriad ef yn lân: cramen *yw* hōno: yna golched ei wisgoedd, a glân fydd.

7 Ac os y gramen gan ledw a leda yn y croen, wedi i'r offeiriad ei weled, i'w farnu yn lân; dangoser ef eilwaith i'r offeiriad.

8 Ac os gwel yr offeiriad, ac wele, ledw o'r gramen yn y croen; yna barned yr offeiriad ef yn aflan: gwahanglwyf *yw*.

9 ¶ Pan fyddo ar ddydd bla gwahanglwyf, dyger ef at yr offeiriad;

10 Ac edryched yr offeiriad: yna,

corff, yn enwedig yr arddyrnau a'r migyrnau, gan beri iddynt chwyddo gyda *syhoedd* *erachog* tra ffiadd i edrych arno. Yr oeddwn yn meddwl fod eu coesau fel eiddo hen gefylau wedi eu gorweithio, y fath ag a welir yn aml mewn ceiti yn Lloegr. Yn wir yr oedd yr holl ddolur, fel yr ymddangosai yno, mor ffiadd fel y gallai basio yn hawdd fel llygredd mwyaf y corff dynol tu yma i'r bedd: a diamau nas gallai yr ysgrifenwyr ysbyrdoledig gael addasach arwyddlun i osod allan trwyddo atfendic ac atgasrwydd drygioni.' Gwel ar Exod. iv. 6, 7.

Adn. 3. *A'r offeiriad a edrych ar y pla*] Mewn i'hai achosion amheus gallai yr offeiriad gymeryd barn meddygon, neu ddyinion ag oeddynt yn deall clefydau yn well nag ef ei hun; ond gan mai efe oedd i dderbyn i'r neu gau o'r cysegr, efe yn unig oedd i roddi barn, a chyhoeddi pwy oedd lân neu aflan, neu i gael ei dderbyn i mewn neu ei gau allan. *Os y blewyn yn y pla fydd wedi troi yn wŷn*—y mae efe yn dechreu gyda'r olaf o dri arwydd y gwahanglwyf, sef y *dysgleirder*. Y rheswm fod y blewyn yn troi yn wŷn a roddir fel hyn gan Calmet: 'Trwy fod y cnawd yn peidio derbyn ei briodol faeth oddiwrth y gwaed, yr hwn a roddai iddo ei liw bywiog blaenorol, y mae y blewyn, yr hwn sydd â'i wreiddyn yn y chwarenau llygredig a diffwrth, yn cael meithriniaid drwg yr un modd, ac felly yn tyfu yn wŷn ac egwan, fel planhigyn mewn tir caregog a chras.' *A'r offeiriad a'i hedrych, ac a'i barn yn aflan*—Heb. *velimme otho*, yn llythyrenol, *a'i llygra ef*, h. y. yn yr ieithwedd Hebreig, a'i *cyhoedda* ef yn llygredig; ac yn adn. 23 dywedir, *barned yr offeiriad ef yn lân*—Heb. *vetiharo haacohen*, 'yr offeiriad a'i *glanha ef*, h. v. a'i *cyhoedda* ef yn lân. Yn yr ymadrodd hwn cawn briodol ystyr Mat. xvi. 19: 'Beth bynag a rwymech ar y ddaear, a fydd rhwymedig yn y nefoedd; a pla beth bynag a ryddhaech ar y ddaear, a fydd wedi ei ryddhau yn y nefoedd.' Awgryma ein Marglwydd trwy hyn y byddai y dysgyblion, with feddu *agoriadau*, neu y *wir wybodaeth* o athrawiaeth teyrnas nefoedd, yn alluog yn

barhaus, oddiwrth dystiolaethau neillduol, i wahaniaethu rhwng y glân a'r aflan, y cywir a'r rhagritiwr; ac i gyhoeddi barn mor amffaeledig ag eiddo yr offeiriad yn achos y gwahanglwyf, trwy yr arwyddion a nodwyd eisioes. A chan y rhaid i'r *rhwymo* a'r *rhyddhau* hyn, neu gyhoeddi yn *gymhwys* neu *annglymwys* i gymdeithasu âg aelodau Crist, fod bob amser yn achos y dysgyblion yn ol athrawiaeth teyrnas nefoedd, dylid ystyried y ddedfryd fel yn deilliaw yn uniongyrheiol oddiyno, ac o ganlyniad fel wedi ei dwylf gadarnhau. Yr offeiriad oedd yn *lygru* neu yn *glanhau*, hyn yw, yn cyhoeddi y dyn yn lân neu yn aflan, yn ol arwyddion tra adnabyddus a difeth: felly dysgyblion neu weinidogion Crist sydd yn *rhwymo* neu yn *rhyddhau*, yn cyhoeddi un yn *gymhwys* neu *annglymwys* i gymdeithas eglwysig, yn ol tystiolaethau amllwg o *ddiniweidrwydd* neu *euogrwydd*. Yn yr achos blaenaf, yr oedd yr offeiriad yn cyhoeddi y dyn yn gymhwys neu annglymwys i gymdeithas *utadot*; yn yr olaf, y mae weinidogion Crist yn cyhoeddi y dyn ag y byddo tybiaeth o euogrwydd wedi ei osod yn ei erbyn, yn gymhwys neu annglymwys i gymdeithas barhaus âg *cglwys Dduw*. Y mae y swydd yr un yn y ddaun achos, yn *gyhoeddiad o'r gwirionedd*, nid oddiwrth unrhyw allu yn eu meddiant hwy i *lanhau* neu *lygru*, i *rwymo* neu *ryddhau*, ond trwy y wybodaeth a ennillasant oddiwrth yr arwyddion a'r tystiolaethau difeth a ddygwyd yn mlaen ar y gwahanol achosion.

Adn. 4, 5. *Caued yr offeiriad ar y chwyfus saith niwrnod*] Er mwyn o sicrwydd; i ddysgu i weinidogion beidio â bod yn rhy brysur yn eu barnau, ond dyfal chwilio a phroff pob peth yn mlaenllaw.

Adn. 6—8. *Os bydd y pla yn odywyll*] Yn y gwrthwyneb i liw gwŷn y gwahanglwyf. Ond gellir cyfieithu y geiriau, *wedi ymgyfyngu*, ac felly bydd mewn gwrthgyferbyniad i'r *ymledu* a grybwyllir yma. *Yna golched ei wisgoedd*—er nad oedd yn wahanglwyf; i ddysgu i ni nad oes un pechod mor fach fel nad oes arno angen am gael ei olchi trwy waed

os chwydd gwŷn a fydd yn y croen, a hwnw wedi troi y blewyn yn wŷn, a dim cig noeth byw yn y chwydd;

11 Hen wahanglwyf yw hwnw yn nghroen ei gnawd ef; a barned yr offeiriad ef yn aflan: na chawed arno; o herwydd y mae efe yn aflan.

12 Ond os y gwahanglwyf gan darddu a dardda yn y croen, a gorchuddio o'r gwahanglwyf holl groen y clwyfus, o'i ben hyd ei draed, pa le bynag yr edrycho yr offeiriad;

13 Yna edryched yr offeiriad: ac wele, os y gwahanglwyf fydd yn cuddio ei holl gnawd ef; yna barned yr offeiriad y clwyfus yn lân: trôdd yn wŷn i gyd; glân yw.

14 A'r dydd y gwelir ynddo gig byw, aflan fydd.

15 Yna edryched yr offeiriad ar y cig byw, a barned ef yn aflan: aflan yw y cig byw hwnw; gwahanglwyf yw.

16 Neu os dychwel y cig byw, a throï yn wŷn; yna deued at yr offeiriad:

17 Ac edryched yr offeiriad arno: ac wele, os trôdd y pla yn wŷn; yna barned yr offeiriad y clwyfus yn lân: glân yw efe.

18 ¶ Y cnawd hefyd y bu ynddo gornwyd yn ei groen, a'i iachâu;

19 A bod yn lle y cornwyd chwydd gwŷn, neu ddysgleirder gwŷn-goch, a'i ddangos i'r offeiriad:

20 Os, pan edrycho yr offeiriad arno, y gwelir ef yn is na'r croen, a'i flewyn wedi troi yn wŷn; yna barned yr offeiriad ef yn aflan: gwahanglwyf yw efe wedi tarddu o'r cornwyd.

21 Ond os yr offeiriad a'i hedrych; ac wele, ni bydd ynddo flewyn gwŷn, ac ni bydd is na'r croen, ond ei fod yn odywyll; yna caued yr offeiriad arno saith niwrnod.

22 Ac os gan ledu y lleda yn y croen; yna barned yr offeiriad ef yn aflan: pla yw efe.

23 Ond os y dysgleirder a saif yn ei le, heb ymledu, craith cornwyd yw efe; a barned yr offeiriad ef yn lân.

24 ¶ Os cnawd fydd â llosgiad yn y croen, a bod i'r cig byw sydd yn llosgi ddysgleirder gwŷn-goch, neu wŷn;

25 Yna edryched yr offeiriad ef: ac wele, os blewyn yn y dysgleirdeb fydd wedi troi yn wŷn, ac yn is i'w weled na'r croen; gwahanglwyf yw hwnw yn tarddu o'r llosgiad; a barned yr

Crist, yr hyn oedd y peth a amcenid trwy yr holl olchiadau hyn.

Adn. 9—11. *Pan fyddo ar ddyn bla gwahanglwyf*] Os yw yr offeiriad yn gweled yn eglur ei fod ef nid yn unig wedi cyraedd y croen, a newid lliw y blewyn, ond wedi bwyta i mewn i'r cnawd, edryched arno fel achos amlwg; ac heb ei gau efi fyny am brawf pellach, barned ef yn wahanglwyf wedi bod yn hen fagu, ac o'r fath waethaf; ac yn ol hyny symuded y dyn allan o'r gwersyll, fel y trigo wrtho ei hun, adn. 46. *A dim cig noeth byw yn y chwydd*—Saes. 'a bod cig noeth byw yn y chwydd,' yr hyn yn amlwg yw yr iawn ddarlleniad: gwel adn. 14.

Adn. 12, 13. *A gorchuddio o'r gwahanglwyf holl groen y clwyfus—yna barned yr offeiriad y clwyfus yn lân*] Gall ymddangos yn hynod fod i ddyn ag sydd drosto i gyd yn wahanglwyfus gael ei gyhoeddi yn lân, ac eto fod i un nad yw ond mewn rhan yn wahanglwyfus fod yn aflan. I egluro hyn dywedwyd, pan na fyddai yr afiechyd yn ymddangos ond mewn un ran, neu mewn ychydig ranau, ei fod yn dangos y drygnaws a lechai oddifewn, ac heblaw hyny analluogrwydd natur i'w symud; ond pan y byddai yn ymdaenu dros y cwbl, ei fod yn amlygu nerth natur yn gorchfygu yr afiechyd, ac yn carthu allan y drygnaws i'r rhanau arwynebol; fel ag yr oedd y fath yma o doriad allan yn waredigaeith i'r corff yn hytrach nag afiechyd, heb un perygl yn y toriad allan. Modd bynag, y rheswm goraf am hyn yw, nad oedd y fath yma o wahanglwyf yn

heintus, ac mai am y rheswm hwnw yr oedd y neb a ddelid ganddo yn cael ei gyhoeddi yma yn lân. Mewn cadarnhad i hyn dywedir nad yw y gwahanglwyf gwŷn neu gyffredinol hwn yn cael ei ddylun âg ysfa, fel yn y mathau ereill.

Adn. 14. *A'r dydd y gwelir ynddo gig byw*] Hyny yw, pan fo peth o'r cnawd yn ymddangos yn ei gyflwr iachus a naturiol, a'r rhan arall o'r croen yn wŷn. *Aflan fydd*—yr oedd hyny yn arwydd fod natur yn analluog i dafu allan holl naws y gwahanglwyf i'r croen, a'i fod yn gweithio i mewn; ac o ganlyniad yr oedd dyn yn y cyflwr hwnw i gael ei gyhoeddi yn aflan.

Adn. 15. *Yna edryched yr offeiriad ar y cig byw*] Y mae hyn yn cael ei adrodd drachefn a thrachefn, am y gallai cig byw neu lymrig ymddangos yn hytrach yn arwydd o iechyd; a gallai yr offeiriad yn hawdd gael ei dwyllo ganddo; ac am hyny yr oedd efe i edrych iddo yn fanylach.

Adn. 16, 17. *Neu os dychwel y cig byw, a throï yn wŷn*] Fel y mae yn arferol gyda doluriau pan yn dechreu gwella.

Adn. 18—28. *Y cnawd hefyd y bu ynddo gornwyd, &c.*] Cyfarwyddir yr offeiriad yma pa farn i'w chyhoeddi os byddai dim ymddangosiad o wahanglwyf, (1) Mewn hen gornwyd neu lynoryn a iachesid, adn. 18, &c. Y mae yn beryglus i hen wellau a iachawyd dori allan drachefn; a'r cyfryw ydyw perygl y rhai hyny ag sydd 'wedi dianc oddiwrth halogedigaeth y hyd trwy adnabyddiaeth yr Arglywydd a'r Achubwr Iesu Grist, o' gael en

offeiriad ef yn aflan : pla gwahanglwyf *yw* hwnw.

26 Ond os yr offeiriad a'i hedrych ; ac wele, ni *bydd* blewyn gwŷn yn y dysgleirder, ac ni *bydd* is na'r croen, ond ei fod yn odywyll ; yna caued yr offeiriad arno saith niwrnod.

27 Ac edryched yr offeiriad ef y seithfed dydd : os gan ledu y lledodd yn y croen ; yna barned yr offeiriad ef yn aflan : pla gwahanglwyf *yw* hwnw.

28 Ac os y dysgleirdeb a saif yn eile, heb ledu yn y croen, ond ei fod yn odywyll ; chwydd y llosgiad *yw* efe ; barned yr offeiriad ef yn lân : canys craith y llosgiad *yw* hwnw.

29 ¶ Os bydd gŵr neu wraig a phla arno mewn pen neu farf ;

30 Yna edryched yr offeiriad y pla : ac wele, os is y gwelir na'r croen, a blewyn melyn main ynddo ; yna barned yr offeiriad ef yn aflan : y ddufrech *yw* hwnw ; gwahanglwyf pen neu farf *yw*.

31 Ac os yr offeiriad a edrych ar bla y ddufrech ; ac wele, ni bydd yn is ei weled na'r croen, ac heb flewyn dŷ ynddo ; yna caued yr offeiriad ar *yr hwn y bo arno* y ddufrech, saith niwrnod.

32 Ac edryched yr offeiriad ar y pla y seithfed dydd : ac wele, *os* y ddufrech ni bydd wedi lledu, ac ni bydd

blewyn melyn ynddi, a heb fod yn is gweled y ddufrech na'r croen ;

33 Yna eillier ef, ac nac eillied *y fan y byddo* y ddufrech ; a chaud yr offeiriad ar *berchen* y ddufrech saith niwrnod eilwaith.

34 A'r seithfed dydd edryched yr offeiriad ar y ddufrech : ac wele, *os* y ddufrech ni ledodd yn y croen, ac ni bydd is ei gweled na'r croen ; yna barned yr offeiriad ef yn lân, a golched ei ddillad, a glân fydd.

35 Ond os y ddufrech gan ledu a ledau yn y croen, wedi ei lanhau ef ;

36 Yna edryched yr offeiriad ef : ac wele, os ledodd y ddufrech yn y croen, na chwiliad yr offeiriad am y blewyn melyn : *y mae* efe yn aflan.

37 Ond os sefyll y bydd y ddufrech yn ei olwg ef, a blewyn dŷ wedi tyfu ynddi ; aeth y ddufrech yn iach, glân *yw* hwnw ; a barned yr offeiriad ef yn lân.

38 ¶ Os bydd yn nghroen cnawd gŵr neu wraig lawer o ddysglaer fanau gwŷnion ;

39 Yna edryched yr offeiriad : ac wele, *os* bydd yn nghroen eu cnawd hwynt ddysgleiriadau gwŷnion wedi gordduo ; brychni *yw* hyn yn tarddu yn y croen : glân *yw* efe.

40 A gŵr pan syrthio gwallt ei ben, moel *yw* ; *eto* glân fydd.

41 Ac os o du ei wyneb y syrth

‘ rhwystro drachefn â'r pethau hyn, a'u gorchfygu,’ 2 Pedr ii. 20. (2) Mewn *llosgiad* trwy gyffyrddiad â than neu haiarn poeth, adn. 24, &c. Y mae llosgiad cynhen neu ymryson yn troi allan yn fynych yn achlysur o chwyddiad a tharddiad allan y llygredd hwnw ag sydd yn tystiolaethu yn ngwynebau dynion eu bod yn aflan.

Adn. 29. *A phla arno mewn pen neu farf*] Dywed Pliny i fath ar ddolur ddyfod i'r Eidal yn nghanol teyrnasiad Tiberius Cesar, yr hwn yn gyffredin a ddechreuai yn yr ên, ac am hyn a elwid *mentagra* ; ac yr ydoedd mor fflaidd nes yr oedd unrhyw farwolaeth yn fwy dewisol nag ef. Yr oedd yn fath ar gramen, crachen, neu glafr flaidd, nid annhebyg i'r dyfrwreiny, pa un o'r ên a redai yn fynych dros y gwyneb, y gwddf, y fywres, a'r dwylaw. Tybia yr Esgob Patrick fod hwn yn debyg i'r pla mewn pen neu farf a grybwyllir yma ; a dywed Maimonides fod y gwallt a'r farf yn y math hwn o wahanglwyf yn syrthio ymaith o'r gwraidd, gan adael y lle yn noeth.

Adn. 30. *Blewyn melyn main*] Yr oedd y gwahanglwyf yn y corff yn troi y blewyn yn wŷn, ond yn y pen neu y farf yr oedd yn ei droi ef yn felyn : ac os byddai gwallt dyn yn felyn o'r blaen, gellid yn hawdd waliaethu hwn oddiwrth y lleill, naill ai trwy ei feinder

a'i fychander, neu ynte trwy ei fath neillduol ef o felynder.

Adn. 31, 32. *Ac heb flewyn dŷ ynddo*] ‘ Canys ped ymddangosasai hwnw, buasai yn ben ar yr ambeuaeth, trwy fod y blewyn *dŷ* yn arwydd o iechyd a nerth natur, megys yr oedd y blewyn *melyn* hwn yn argoel o afiechyd.’—BENSON. Ond y mae y LXX yn ei ddarlenn, ‘ ac heb flewyn *melyn* ynddo,’ fel yn adn. 30, 32.

Adn. 33. *Yna eillier ef*] Er datguddiad sicrach o dyfiad neu arhosiad y pla ; *ac nac eillied y fan y byddo y ddufrech*—rhag i'r lle enyn a filamegu, ac ymddangos o ganlyniad yn wabanol i lwgr gwahanglwyfus ; yn mha achos ni allai yr offeiriad ffurfio barn gywir.

Adn. 34. *Yna barned yr offeiriad ef yn lân*] Nis gallai ef iacháu, ond yn unig roddi ei farn ar yr achos : ac os nad allai yr offeiriad Iuddewig wneuthur hyn, llai o lawer y gall yr offeiriad Pabaidd.

Adn. 35—37. *Os y ddufrech gan ledu a ledau—na chwiliad yr offeiriad am y blewyn melyn*] Hyn yw, nid oes achos iddo chwilio am y blewyn melyn, nac un arwydd arall, gan fod ei gwaith yn lledu yn arwydd sier o'r gwahanglwyf.

Adn. 38—41. *Os bydd yn nghroen, &c.*] Pan na fyddai un arddanghosiad ond gwŷnder

gwallt ei ben, efc a fydd tal-foel; *eto glân fydd* efc.

42 Ond pan fyddo anafod gwyn-goch yn y pen-foledd, neu yn y tal-foledd; gwahanglwyf *yw* efc yn tarddu yn ei ben-foledd, neu yn ei dal-foledd ef.

43 Ac edryched yr offeiriad arno : ac wele, *os* bydd chwydd yr anafod yn wŷn-goch, yn ei ben-foledd, neu yn ei dal-foledd ef, fel gwelediad gwahanglwyf yn nghroen y cnawd ;

44 Gŵr gwahanglwyfus *yw* hwnw, aflan *yw* ; a'r offeiriad a'i barna ef yn llwyr aflan : yn ei ben *y mae* ei bla.

45 A'r gwahanglwyfus yr hwn y byddo pla arno, bydded ei wisgoedd ef wedi rhwygo, a'i ben yn noeth, a rhodded gacod ar ei wefus uchaf, a lleied, Aflan, aflan.

46 Yr holl ddyddiau *y byddo* y pla arno, bernir ef yn aflan ; aflan *yw* efc : triged ei hunan ; *bydded* ei drigfa allan o'r gwersyll.

47 ¶ Ac os dilledyn fydd â phla gwahanglwyf ynddo, o ddilledyn gwlan, neu o ddilledyn llin,

48 Pa un bynag ai yn yr ystof, ai yn yr anwe, o lin, neu o wlan, neu mewn croen, neu mewn dim a wnaed o groen ;

yn y croen, yr oedd yr offeiriad i fod yn ochel-gar, a pheidio ei gyhoeddi yn wahanglwyf, oddieithr fod yr ysmotiau yn berffaith ddysglair ; canys os byddai dim tywyllni ynddynt, nid gwahanglwyf oedd. A mynegir iddo y rhaid i golliant dyn o'i wallt trwy afiechyd neu henaint, yr hyn a'i gwnaeth yn foel, beidio â chael ei gymeryd yn arwydd o wahanglwyf. Ond, adn. 42, *pan fyddai anafod gwyn-goch yn y penfoledd*—yr oedd yn arwydd nad oedd y cyfryw foelni wedi dyfod o henaint nac unrhyw ddamwain, ond oddiwrth y gwahanglwyf.

Adn. 45. *Bydded ei wisgoedd ef wedi rhwygo*] Yr oedd yn ofynol i'r gwahanglwyfus fod megys un yn galaru am y marw, neu am ryw drychineb mawr a chyhoeddus. (1) Yr oedd i fod â'i ddillad wedi eu *rhwygo*, yn arwydd o ddirfawr ofid ; (2) Yr oedd ei ben i'w *noethi*, heb ei gapan neu ei benwisg arferol ; (3) Yr oedd i roddi caud ar ei *wefus uchaf*, trwy gau i fyny ei enau â lliau, yn arwydd o dristwch a chywilydd, (Ezec. xxiv. 17, 22, Mica iii. 7.) ac i gadw ei anadl oddiwrth ereill ; ac, (4) Yr oedd i sefain, *Aflan, aflan*, i'r dyben i attal pawb rhag dyfod yn agos ato, rhag i'r haint ymdaenu, yn gystal ag i erfyn am desturi a gweddian ereill ar ei ran.

Adn. 46. *Triged ei hunan*] I'r dyben i'w ddarostwng ef, i ragflaenu llygriad ereill, ac i ddangos y perygl o gyfeillachn â gwahangleifion ysbrydol, neu bechaduriaid hynod. *Bydded ei drigfa allan o'r gwersyll*—gwel Num.

49 Os gwyreddlas neu goch fydd yr anafod yn y dilledyn, neu yn y croen, neu yn yr ystof, neu yn yr anwe, neu mewn dim o groen : pla y gwahanglwyf *yw* efc ; a dangoser ef i'r offeiriad.

50 Ac edryched yr offeiriad ar y pla ; a chaudi ar y peth y bo y pla arno, saith niwrnod.

51 A'r seithfed dydd edryched ar y pla : os y pla a ledodd yn y dilledyn, pa un bynag ai mewn ystof, ai mewn anwe, ai mewn croen, neu beth bynag a wnaed o groen ; gwahanglwyf ysol *yw* y pla ; aflan *yw*.

52 Am hyny llosged y dilledyn hwnw, pa un bynag ai ystof, ai anwe, o wlan, neu o lin, neu ddim o groen, yr hwn y byddo pla ynddo : canys gwahanglwyf ysol *yw* efc ; llosger yn tân.

53 Ac os edrych yr offeiriad ; ac wele ni ledodd y pla mewn dilledyn, mewn ystof, neu mewn anwe, neu ddim o groen ;

54 Yna gorchymyned yr offeiriad iddynt olchi *yr hyn y byddo* y pla ynddo, a chaudi arno saith niwrnod eilwaith.

55 Ac edryched yr offeiriad ar y pla wedi ei olchi : ac wele, *os* y pla

v. 2. Mewn amseroedd diweddarach yr oedd-ynt yn cael eu cau allan o'r dinasoedd, megys yn awr allan o'r gwersyll, 2 Bren. vii. 3, a xv. 5 ; ac felly yr oedd yn mhlith cenedloedd ereill.

Adn. 47—51. *Ac os dilledyn fydd â phla gwahanglwyf ynddo, &c.*] Y mae yr holl barnes yma fel yn arwyddo fod y dillad yn cael eu hysu gan yr haint hwn ; ac am hyny meddylia rhai ei fod yn cael ei achlysuero gan rywogaeth o *filod* bychain, y rhai y gwyddom eu bod yn achos o'r *ymgrafu* ; a rhaid i'r rhai hyn, trwy fagu yn y dillad, o angenrheidrwydd luosogi eu rhywogaeth, ac ysu y dillad, neu ddifa rhan o'r manau goraf, fel y gwna *gwyfymod*, er eu magwraeth.

Adn. 52. *Llosged y dilledyn hwnw*] Trwy nad oedd braidd un moddion yn adnabyddus i hollol wella y llygriad. Dywedir i ddillad a lygrwyd gan y *psora*, neu flyn ymgrafu, drosglwyddo yr haint yn mhen chwech neu saith mlynedd ar ol y llygriad cyntaf. Cafodd hyn ei brofi hefyd gan ddotharthwyr carpiâu mewn rhai melinau papyr.

Adn. 53. *Mewn ystof neu mewn anwe*] Myn rhai ei gyfieithu, 'yn y tuallan neu yn y tu-fewn.'

Adn. 54. *A chaudi arno saith niwrnod eilwaith*] I roddi amser i'r haint ymledu, os oedd yn bodoli yno ; fel y byddai y nodau a'r prawniau egluraf fod y dilledyn wedi llygru, neu nad oedd.

Adn. 55. *Os y pla ni thrôdd ei liw*] Os

ni thrôdd ei liw, ac ni ledodd y pla; efe a fydd aflan; llosg ef yn tân; ysiad yw, pa un bynag y bo yn llwm ai o'r tu mewn ai o'r tu allan.

56 Ac os edrych yr offeiriad; ac wele y pla yn odywyl, ar ol ei olchi; yna tored ef allan o'r dilledyn, neu o'r croen, neu o'r ystof, neu o'r anwe.

57 Ond os gwelir ef eto yn y dilledyn, yn yr ystof, neu yn yr anwe, neu mewn dim o groen; tarddu y mae efe: llosg yr hwn y mae y pla ynddo yn tân.

58 A'r dilledyn, neu yr ystof, neu yr anwe, neu pa beth bynag o groen, y rhai a olcher, os ymadawodd y pla â hwynt, a olchir eilwaith; a glân fydd.

59 Dyma gyfraith pla gwahanglwyf, mewn dilledyn gwlan, neu lin, mewn ystof, neu anwe, neu pa beth bynag

o groen, i'w farnu yn lân, neu i'w farnu yn aflan.

PENNOD XIV.

LEFARODD yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Dyma gyfraith y gwahanglwyfus, y dydd y glanheir ef. Dyger ef at yr offeiriad:

3 A'r offeiriad a ddaw allan o'r gwersyll; ac edryched yr offeiriad: ac wele, os pla y gwahanglwyf a iach-aodd ar y gwahanglwyfus;

4 Yna gorchymyned yr offeiriad i'r hwn a lanheir, gymeryd dau aderyn y tô byw a glân, a choed cedr, ac ysgarlad, ac isop.

5 A gorchymyned yr offeiriad ladd y naill aderyn y tô mewn llestr pridd, oddiar ddwfr rhedegog.

nad yw y golchiad wedi cymeryd ymaith y lliw drwg hwnw, a'i adfer ef i'w liw priodol ei hun.

Adn. 56, 57. *Yna tored ef allan o'r dilledyn*) Pe na byddai ond yr ysmoty'n lleiaf.

Adn. 58. *A olchir eilwaith*) Y golchiad cyntaf oedd i dynu ymaith y pla, a'r ail i lanhau y dilledyn.

Adn. 59. *Dyma gyfraith pla gwahanglwyf mewn dilledyn*) Tybia rhai fod y gwahanglwyf hwn mewn dilledyn yn arwydd ac yn wyrth yn Israel, ac yn goshp anngyffredin yn cael ei gweinyddu gan y dwyfol allu fel arwydd o anffodlonrwydd mawr yn erbyn dyn neu deulu. Ond barna Burder ac ereill, ond odid ar well sail, fod dillad y gwahangleifon yn naturiol yn cael eu llygru: gwel ar adn. 47—52.

PEN. XIV. Adn. 1. *Llefarodd yr Arglwydd*) Ar ol i'r offeiriad gael eu haddysgu yn y bennod flaenorol pa fodd i farnu am y gwahanglwyf, y maent yma yn cael eu cyfarwyddo yn nghylch yr ebyrth a'r defodau ag oeddylt ofynol er pureiddiad deddfol y gwahanglwyfus, fel y gallai gael ail dderbyniad i freintiau gwladol a chrefyddol y wladwriaeth Iuddewig.

Adn. 2. *Dyger ef at yr offeiriad*) Nid i'w ddy, ond i ryw le tuallan i'r gwersyll neu y ddinas, a benodai yr offeiriad i gyfarfod âg ef.

Adn. 3. *Os pla y gwahanglwyf a iach-aodd*) Hyny yw, a iachawd gan Dduw, canys Duw yn uig oedd yn iachâu, a gwaith yr offeiriad oedd ei gyhoeddi ef yn iach neu lân.

Adn. 4. *Gymeryd dau aderyn y tô byw a glân*) 'Y naill i arddangos Crist fel yn marw dros ei bechodau ef, y llall i'w arddangos yntau fel yn codi drachefn er ei buredigaeth neu ei gyfiawnhad.'—AINSWORTH. Y mae y Vulgate, fel y Gymraeg, yn nghydag ymylnod ein Beiblau Saesonig, yn cyfieithu y rhai hyn yn 'dau aderyn y tô;' ond y mae y gair gwreiddiol yn un cyffredin, ac yn meddwl dau aderyn bychan o unrhyw fath: ac yn wir, pe mai *adar y tô* a feddyliesid, buasai yn afreidiol chwanegu *glân*, a thybio fod yr holl rywog-

aeth felly; ac ar y llaw arall buasai yn afresymol gofyn aderyn y tô *glân*, os oedd yr holl rywogaeth yn cael ei barnu yn aflan. Felly ymdengens y gellid defnyddio unrhyw aderyn glân, neu aderyn addas i'w fwyta, ar yr achlysur hwn: eithr durturod a chywion colomenod oeddylt yr aberthau mwyaf cyffredin. *A choed cedr*—neu wialen o'r cedrwydd, wrth yr hon yr oedd yr isop ac nn o'r adar wedi eu cylymu â'r edaf ysgarlad. Ymdengens fod y cedr yn cael ei ddevis i arwyddo fod y gwahanglwyfus yn awr yn rhydd oddiwrth y llygredd a ddygasai ei wahanglwyf arno, trwy fod y pren hwn mewn ystyr yn aullygradwy. *Ac ysgarlad*—edaf wlan o liw ysgarlad neu goch, i arddangos pechadurusrwydd y gwahanglwyfus, a gwaed Crist, a chyfnewidiad dedwydd ei liw a'i wedd, pa un oedd o'r blaen yn welw a ffaidd, ond yn awr yn hoew a phrydferth. *Ac isop*—arogl peraid pa un a arwyddai iachâd y gwahanglwyfus o'i ddrygsawr.

Adn. 5. *A gorchymyned yr offeiriad ladd y naill aderyn*) Nid oedd yr offeiriad yn ei ladd ef ei hun, am nad oedd yn briodol yn aberth, trwy ei fod yn cael ei ladd y tuallan i'r gwersyll, ac nid yn y lle a benodwyd i'r aberthau. *Mewn llestr pridd oddiar ddwfr rhedegog*—neu uwchben dwfr rhedegog mewn llestr pridd. Fel hyn yr oedd gwaed yr aderyn a'r dwfr yn cael eu cydgymsgu, mewn rhan er cyfaddasrwydd i'w daenellu, ac mewn rhan er arddangos Crist, 'yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed,' 1 Ioan v. 6. Yr oedd y dwfr *rhedegog*, (hyny yw, dwfr fynnnon neu afon,) trwy ei fywiogrwydd, yn addas arwyddocau adferiad bywiogrwydd i'r gwahanglwyfus, yr hwn oedd mewn ystyr yn farw o'r blaen. Heblaw hyn, yr oedd dwfr byw neu redegog o fynnnon yn *burach* na dwfr pydewau, gan fod yr olaf yn fynych mewn cyflwr marw a llygredd; ac mewn arddedod lanhaol rhaid fod pob peth mor bur a pherffaiath ag y mae modd. Dywed y rabbiniaid mai chwarter *log* o ddwfr a ddefnyddid ar yr achlysur hwn, neu lonaid plisgyn w'y a hanner.

6 A chymered efe yr aderyn byw, a'r coed cedr, a'r ysgarlad, a'r isop, a throched hwynt a'r aderyn byw hefyd yn ngwaed yr aderyn a laddwyd oddi-ar y dwfr rhedegog.

7 A thaenelled seithwaith ar yr hwn a lanheir oddiwrth y gwahanglwyf, a barned ef yn lân; yna gollynged yr aderyn byw yn rhydd ar wyneb y maes.

8 A golched yr hwn a lanheir ei ddillad, ac eillied ei holl flew, ac ymoleched mewn dwfr; a glân fydd: a deued wedi hyny i'r gwersyll, a thriged o'r tu allan i'w babell saith niwrnod.

9 A'r seithfed dydd bydded iddo eillio ei holl flew, *sef* ei ben, a'i farf, ac aeliau ei lygaid; ie, eillied ei holl flew; a golched ei ddillad, a golched ei gnawd mewn dwfr; a glân fydd.

10 A'r wythfed dydd cymered ddau oen perffieith-gwbl, ac un hespin flwydd berffieith-gwbl, a thair degfed ran o beillied, yn fwyd-offrwm, wedi ei gymysgu trwy olew, ac un log o olew.

11 A gosoded yr offeiriad a lanhao, y gwr a lanheir, a hwynt hefyd gerbron yr Arglwydd, *wrth* ddrws pabell y cyfarfod.

12 A chymered yr offeiriad un hesprwn, ac offrymed ef yn aberth dros gamwedd, a'r log o olew, a chylwfaned hwynt yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd.

13 A lladed ef yr oen yn y lle y lladder y pech-aberth, a'r poeth-offrwm; *sef* yn y lle santaidd: o herwydd yr aberth dros gamwedd *sydd* eiddo yr offeiriad, yn gystal a'r pech-aberth: santeiddiolaf *yw*.

14 A chymered yr offeiriad o waed yr aberth dros gamwedd, a rhodded yr offeiriad ef ar gwr isaf clust ddeau yr hwn a lanheir, ac ar fawd ei law ddeau, ac ar fawd ei droed deau ef.

15 A chymered yr offeiriad o'r log olew, a thywalled ar gledd ei law aswy ei hun.

16 A gwlyched yr offeiriad ei fys deau yn yr olew *fyddo* ar ei law aswy, a thaenelled o'r olew a'i fys seithwaith gerbron yr Arglwydd.

17 Ac o weddill yr olew *fyddo* ar ei law, y dyd yr offeiriad ar gwr isaf clust ddeau yr hwn a lanheir, ac ar fawd ei law ddeau, ac ar fawd ei droed deau, ac ar waed yr offrwm dros gamwedd.

18 A'r rhan arall o'r olew *fyddo* ar law yr offeiriad, a rydd efe ar ben yr

Adn. 6. *A chymered efe yr aderyn byw*] Yr hwn oedd wedi ei rwyimo fel mop, a'r edaf goch, with goes o goed cedr. Yr oedd hwn yn cael ei drochi yn y dwfr a'r gwaed cymysgedig, a chydag ef taenellid seithwaith y neb ag ydoedd i'w lanhao.

Adn. 7. *Yna gollynged yr aderyn byw yn rhydd ar wyneb y maes*] Lle ei breswylfod gynt, yn arwydd o ddygiad ymaith yr attaliad hwnw a osoddes ar y gwahanglwyfus, a'i fod yn awr yn rhydd i gyweithasu a'i gymydogion. Y mae yr aderyn rhydd yn dwyn eyffelybrwydd agos i'r bwch diangol, pen. xvi. 20, &c.

Adn. 8. *Eillied ei holl flew*] I ddangos fod ei groen yn berffiaith iach, ac i attal dychwelid y pla trwy unrhyw weddillion a allent llynu yn ei flew, ei gnawd, neu ei ddillad. *A thriged o'r tuallan i'w babell saith niwrnod*—r'ag y gallai unrhyw lwgr yn llechu o'i amgylch beryglu iechyd ei deulu, os dychwelai efe yn ebrwydd atynt.

Adn. 9. *A'r seithfed dydd bydded iddo eillio ei holl flew*] Y rhai a ddechreuent dyfu eilwaith, a'r rhai yn awr, er mwy o ocheliad, a eillir ymaith drachefn. *A glân fydd*—cyhoeddri ef yn ddeddfol felly, fel ag i gael ei dderbyn eilwaith i'w deulu ac i'r addoliad cyhoeddus.

Adn. 10. *Ddau oen perffieith-gwbl, ac un hespin flwydd*] At dri math o aberthiau, *sef* aberth dros gamwedd, pech-aberth, a phoeth-offrwm, adn. 12, 19. *A thair degfed ran o*

beillied—*sef* tri omer, Exod. xvi. 36, i fod yn *minchah*, *sef* bwyd neu ddioid-offrwm. *Wedi ei gymysgu trwy olew*—chwanegir hyn fel arwydd addas o ras a thrugaredd Duw, ac o fod y gwahanglwyfus wedi ei iacháu. *Ac un log o olew*—*sef* mesur yn cynwys llonaid oddeutu chwe phligyn wy, neu oddeutu hanner pint.

Adn. 11. *Wrth ddrws pabell y cyfarfod*] Canys yr oedd efe i gydnabod y drugaredd fawr a dderbyniais yu y modd mwyaf cyloeddus.

Adn. 12. *Offrymed ef yn aberth dros gamwedd*] Oblegid canwedd yw yr achos o'r holl boenau a'r clefydau ag y mae cyiff ac eneidiau dynion yn agored iddynt. *Yn offrwm cyhwfan*—gwel ar Exod. xxix. 27, a'r adfeddyliadau ar pen. vii.

Adn. 13. *Yn y lle y lladder y pech-aberth*] *Sef* o du y gogledd i'r allor: gwel ar pen. i. 11, a vi 25.

Adn. 14. *Ar gwr isaf clust*] I arwyddo ei fod ef yn rhydd yn awr i wrandaw gair Duw yn y lleoedd gosodedig, o'r rhai yr oedd efe o'r blaen wedi ei gau allan. *Ac ar fawd ei law*—i arwyddo y gallai efe gyflwrdd ag unrhyw ddynd neu beth heb ei halogi. *Ac ar fawd ei droed*—i arwyddo y gallai ef fyned lle y mynai: gwel ar Exod. xxix. 20.

Adn. 15—18. *A chymered yr offeiriad o'r log olew*] Megys y cymerasai efe o'r blaen o'r gwaed, adn. 14. Megys yr oedd y *gwaed* yn arwyddo gwaed Crist, trwy yr hwn y mae dynion yn derbyn maddeuant pechodau; felly

hwn a lanheir; a gwnaed yr offeiriad gymod drosto gerbron yr Arglwydd.

19 Ie, offrymed yr offeiriad aberth dros bechod, a gwnaed gymod dros yr hwn a lanheir oddiwrth ei atfendid; ac wedi hyny lladded y poeth-offrwm.

20 Ac aberthed yr offeiriad y poeth-offrwm, a'r bwyd-offrwm, ar yr allor: a gwnaed yr offeiriad gymod drosto; a glân fydd.

21 Ond os tylawd *fydd*, a'i law heb gyrhaeddyd *hyn*; yna cymered un oen, yn aberth dros gamwedd, i'w gyhwfanu, i'w wneuthur cymod drosto, ac un ddeged ran o beillid wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm, a log o olew;

22 A dwy durtur, neu ddau gyw colomen, y rhai a gyrhaeddo ei law: a bydded un yn bech-aberth, a'r llall yn boeth-offrwm.

23 A dyged hwynt yr wythfed dydd i'w lanhau ef at yr offeiriad, wrth ddwys pabell y cyfarfod, gerbron yr Arglwydd.

24 A chymered yr offeiriad oen yr offrwm dros gamwedd, a'r log olew, a chyhwfaned yr offeiriad hwynt yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd.

25 A lladded oen yr offrwm dros gamwedd; a chymered yr offeiriad o waed yr offrwm dros gamwedd, a rhodded ar gwr isaf clust ddeau yr hwn a lanheir, ac ar fawd ei law ddeau, ac ar fawd ei droed deau.

26 A thywallted yr offeiriad o'r olew ar gleidr ei law aswy ei hun.

27 Ac a'i fys deau taenelled yr offeiriad, o'r olew *fyddo* ar gleidr ei law aswy, seithwaith gerbron yr Arglwydd.

28 A rhodded yr offeiriad o'r olew a *fyddo* ar gleidr ei law, ar gwr isaf clust ddeau yr hwn a lanheir, ac ar fawd ei law ddeau, ac ar fawd ei droed deau, ar y man y *byddo* gwaed yr offrwm dros gamwedd.

29 A'r rhan arall o'r olew *fyddo* ar gleidr llaw yr offeiriad, a rydd efe ar ben yr hwn a lanheir, i'w wneuthur cymod drosto gerbron yr Arglwydd.

30 Yna offrymed un o'r turturau, neu o'r cywion colomenod, *sef* o'r rhai a gyrhaeddo ei law ef;

31 Y rhai (*meddaf*) a gyrhaeddo ei law ef, un yn bech-aberth, ac un yn boeth-offrwm, yn nghyda'r bwyd-offrwm: a gwnaed yr offeiriad gymod dros yr hwn a lanheir gerbron yr Arglwydd.

32 Dyma gyfraith yr un y *byddo* pla y gwahanglwyf arno, yr hwn ni chyraedd ei law yr hyn a berthyn i'w lanhau.

33 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,

34 Pan ddeloch i dir Canaan, yr hwn yr ydwyf yn ei roddi i chi yn feddiant, os rhoddaf bla gwahanglwyf ar dŷ o fewn tir eich meddiant;

35 A dyfod o'r hwn biai y tŷ, a

yr oedd yr *olew* yn dynodi grasau yr Ysbryd Glân, trwy y rhai yr adnewyddir hwynt. *Gerbron yr Arglwydd*—*sef* o flaen yr ail len, yr hon a orchuddiai y cysegr santeiddiolaf. *Ar waed yr offrwm dros gamwedd*—*sef* ar y rhanau lle y dodwyd y gwaed hwnw. Fel hyn, pan eceinid y gwahanglwyfus, yr oedd yn rhaid i'r *olew gael gwaed* dano, i arwyddo fod holl rasan a chysuron yr Ysbryd Glân, ei holl ddylanwadau santeiddiol ef, yn ddyledus i farwolaeth Crist; canys 'gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod,' I Ioan i. 7. Pa le bynag y mae gwaed Crist yn cael ei gymhwysu er cyfiawnlhad, y mae olew yr Ysbryd yn cael ei gymhwysu er santeiddhad.

Adn. 19. *Offrymed yr offeiriad aberth dros bechod*] Yn mhllith yr Hebraeid yr oedd pob atfechyd ac atfendid yn cael eu cyfrif megys pechodau; ac yr oedd y gwahanglwyf yn cael ei roddi yn fynych megys cosp am bechod: gwel ar pen. xiii. 2.

Adn. 20. *Ac aberthed yr offeiriad y poeth-offrwm, &c.*] Nis gallai dim glanhau fod heb aberth; ac felly yn briodol y sylwodd yr apostol, mai 'gan niwyaf trwy waed y purir pob

peth wrth y gyfraith, ac heb ollwng gwaed nid oes *maddeuant*,' Heb. ix. 22.

Adn. 21. *Yna cymered un oen*] Os byddai y dyn yn *dylawd*, yr oedd yn rhaid iddo ddarparu un oen; nis gellid hebgor hwn. Felly rhaid i bob enaid ag y mae y dwyfol ddat-guddiad wedi dyfod ato, gymeryd 'Oen Daw, yr hwnsydd yn tynu ymaith bechodau y byd,' yn mreichiaw ei fflydd wrth geisio trugaredd gan Dduw.

Adn. 22—32. *A dwy durtur, &c.*] Gwel yr adnodaau hyn yn cael eu hegluro ar adn. 14, &c.

Adn. 34, 35. *Pan ddeloch i dir Canaan*] Yr oeddynt hwy yn awr yn yr anialweh, yn trigo mewn pebyll, ac heb dai ganddynt; ac am hyny gwnaed y ddeddf hon fel attodiad i'r deddfau blaenorol yn nghylch y gwahanglwyf, am nad oedd yn perthyn i'w cyflwr presenol hwy, eithr i'w sefydliad dyfodol yn Nghanaan. *Os rhoddaf bla gwahanglwyf ar dŷ*—y mae yn dra hysbys fod Daw yn cael ei arddangos yn yr ysgrifthyf fel yn *gwneyd* yr hyn, yn llwybr ei ragluniaeth, nad yw efe ond yn unig yn *goddef* iddo gael ei wneuthur. Tybir fod llygriad y tŷ, yn grystal a'r dyn a'r

dangos i'r offeiriad, gan ddywedyd, Gwelaf megys pla yn y tŷ :

36 Yna gorchymyned yr offeiriad iddynt arloesi y tŷ, cyn dyfod yr offeiriad i weled y pla; fel na halogier yr hyn oll a fyddo yn tŷ : ac wedi hyny deued yr offeiriad i edrych y tŷ.

37 Ac edryched ar y pla : ac wele, os y pla fydd yn mharwydydd y tŷ, yn agenau gwyrddeision, neu gochion, a'r olwg arnynt yn is na'r pared;

38 Yna aed yr offeiriad allan o'r tŷ, i ddrws y tŷ, a chaud y tŷ saith niwrnod.

39 A'r seithfed dydd deued yr offeiriad drachefn, ac edryched: ac os lledodd y pla yn mharwydydd y tŷ ;

40 Yna gorchymyned yr offeiriad iddynt dynu y cerig y byddo y pla arnynt, a bwriant hwynt allan o'r ddinas i le aflan.

41 A phared grafu y tŷ o'i fewn o amgylch; a thywalltant y llwch a

grafont, o'r tuallan i'r ddinas i le aflan.

42 A chymerant gerig creill, a gosodant yn lle y cerig hyny; a chymered bridd arall, a phridded y tŷ.

43 Ond os daw y pla drachefn, a tharddu yn y tŷ, wedi tynu y cerig, ac wedi crafu y tŷ, ac wedi priddo;

44 Yna doed yr offeiriad, ac edryched: ac wele, os lledodd y pla yn y tŷ, gwahanglwyf ysol yw hwn yn y tŷ: aflan yw efe.

45 Yna tyned y tŷ i lawr, ei gerig, a'i goed, a holl bridd y tŷ; a bwried i'r tu allan i'r ddinas i le aflan.

46 A'r hwn a ddel i'r tŷ yr holl ddyddiau y parodd efe ei gau, efe a fydd aflan hyd yr hwyr.

47 A'r hwn a gysgo yn y ty, golched ei ddillad: felly yr hwn a fwytao yn y tŷ, golched ei ddillad.

48 Ac os yr offeiriad gan ddyfod a ddaw, ac a edrych; ac wele ni ledodd

dillad, yn deilliau oddiwrth *filionos*: gwel ar pen. xiii. 47—52.—CLARKE. Ond y mae llawer yn meddwl mai cosp oedd y gwahanglwyf yn cael ei gweinyddu yn ddiwyfwrwg gan Dduw ei hun ar y rhai ag yr oedd eu pechodau wedi dianc yn ddisylw gan y llywodraeth wladol; a thybia Dr. Harris mai dyma y rheswm fod yr iachâd o hono yn cael ei gadw gan Dduw iddo ei hun trwy gyfrwng ei offeiriad.

Adn. 36. *Fel na halogier yr hyn oll a fyddo yn y tŷ*] Y mae yn nodedig nad oedd y bobl na'r dodrefn yn cael eu halogi nes i'r gwahanglwyf gael ei ddatguddio a'i fynegu gan yr offeiriad; i ddangos y fath wahaniaeth mawr y mae Duw yn ei wneuthur rhwng pechodau o anwybodaeth a phechodau yn erbyn gwybodaeth. Ond y mae rhai yn cyfeithu y frawddeg hon fel hyn: 'canyis ni fydd dim ag sydd yn y tŷ yn aflan.'

Adn. 37. *Yn agenau*] Megys y rhai a geid yn nghanawd y gwahangleision; *gwyrddeision neu gochion*—gwel ar adn. 45. *Yn is na'r pared*—neu, fel y mae y Lladin yn ei gyfeithu, 'yn is na *gwyneb* y pared.'

Adn. 38—44. *A chaud y tŷ saith niwrnod*] Ar y dybiaeth fod y tŷ wedi ei heintio, yr oedd yr offeiriad yn ei chwilio; ac ar ol cael arwyddion o'r pla ynddo, yr oedd yn ei gau saith niwrnod, ar ol yn gyntaf ei *fygdarthu*, fel y tybia rhai, er na chrybwyllir hyny; canys, pe amgen, pa fodd y gallai ei *gau* gyfranu at ei iachâd? Y seithfed dydd deuai yr offeiriad i'w edrych drachefn; ac os byddai y pla wedi lledu yn mharwydydd y tŷ, efe a orchymynai iddynt dynu y cerig a'r pridd llygreddig o'r tŷ, a'u bwrw hwynt allan o'r ddinas i le aflan, ac yna gyfanu y muriau â cherig ereill, a'u priddo o'r newydd. Ond os tarddai y pla yn y tŷ hwn wedi hyn, yr oedd hyny yn hawf fod gwahanglwyf ysol yn y tŷ; ac nid oedd dim i'w wneuthur wedi hyny ond ei

dynu oll i lawr, a'i gario i le aflan y tuallan i'r ddinas. Oddiwrth hyn oll ai nid allwn ni ddyysgu gwerau o addysg? Os yw y moddion a ddefnyddir gan Dduw a'i weinidogion er dychweliad pechadur yn cael eu gwneuthur yn ddiles trwy ei gyndynrwydd gwirfoddol ef; os yw efe, trwy ei ymarferion drygonus, yn mathru gwaged y cyfannod trwy yr hwn y gallasai gael ei santeiddio, ac yn difenwi Ysbryd y gras; yna Duw a dŷn i lawr ei dŷ ef, ac a yr allan ei enaid ef o'r babel ddaearol, gan drosglwyddo ei gorff i lygredigaeth y bedd, a'i ysbryd i ddystryw yr anwir ddynton.

Adn. 45. *Yna tyned y tŷ i lawr*] Am ei fod yn niweidiol i icheid y trigolion, yn enwedig os oedd chwŷs *nitraidd* neu *fitrilolaid*, fel y mae rhai yn meddwl, yn tori allan o'r cerig trwy y pridd-galchiad, adn. 37.

Adn. 46, 47. *A'r hwn a ddel i'r tŷ yr holl ddyddiau y parodd efe ei gau*] Hyny yw, y parodd yr offeiriad ei gau. Meddyliond rhai fod y gwahanglwyf yn y tŷ yn gysgod o'r eilunaddoliaeth ag ydoedd yn ymlwyn yn rhyfeddol wrth yr eglwys Iuddevig; ac er i rai o'r brenhinoedd diwygiol gymeryd ym-aith y cerig heintus, eto er hyny efe a ymdorodd allan drachefn, nes y darfu i Dduw, trwy y caethiwd yn Babilon, dynu y tŷ i lawr, a'i fwrw ef i dir aflan; a phrofodd hyny yn well-âd effeithiol i'w tueddai at eilunod a delwaddoliaeth.

Adn. 48—53. *Yna barned yr offeiriad y tŷ yn lân, &c.*] Hyny yw, yr oedd y tŷ i gael ei lanhau oddiwrth yr halogrwyd seremonïol yn debyg i'r modd y glanheid y dyn gwahanglwyfus ei hunan, adn. 4, &c. Arwyddai hyn fod y tŷ wedi ei daro o achos y dyn, fel y dywed yr Esgob Patrick; ac yr oedd yntau i edrych arno ei hun fel wedi ei gadw gan drugaredd Duw. Yr oedd tai yr Israeliaid yn gysegredig, Deut. xx. 5, canys yr oeddynt hwy yn genedl santaidd, ac an hyny dylent

y pla yn y tŷ, wedi priddo y tŷ : yna barned yr offeiriad y tŷ yn lân, o herwydd iachau y pla.

49 A chymered i lanhau y tŷ ddau aderyn y tŷ, a choed cedr, ac ysgarlad, ac isop.

50 A lladedd y naill aderyn mewn llestr pridd, oddiar ddwfr rhedegog.

51 A chymered y coed cedr, a'r isop, a'r ysgarlad, a'r aderyn byw, a throched hwyt yn ngwaed yr aderyn a laddwyd, ac yn y dwfr rhedegog, a thaenelled ar y tŷ seithwaith.

52 A glanhäed y tŷ â gwaed yr aderyn, ac â'r dwfr rhedegog, ac â'r aderyn byw, ac â'r coed cedr, ac â'r isop, ac â'r ysgarlad.

53 A gollynged yr aderyn byw allan o'r ddinas ar wyneb y maes, a gwnaed gymod dros y tŷ; a glân fydd.

54 Dyma gyfraith am bob pla y clywyf gwahanol, ac am y ddufrech,

55 Ac am wahanglwyf gwisg a thy,

gadw eu tai yn lân oddiwrth bob halogrwydd serenionol. Dylem ninaw gymeryd yr un gofal i ddiwygio pa beth bynag sydd o'i le yn ein teuluoedd, fel y gallom ni a'n teulu wasanaethu yr Arglwydd, Gen. xxxv. 2.

Adn. 54—57. *Dyma gyfraith am bob pla y clywyf gwahanol* | I gyfarwyddo yr offeiriad pa bryd i gyhoeddi dyu neu dŷ yn lân neu aflan. Ar y cyfan gallwn ninaw weled yn y deddfau hyn y gofal crefyddol a ddylem ni ei gymeryd o honom ein hunain, i gadw ein meddyliau a'n bucheddau yn lân oddiwrth halogrwydd moesol, fel y byddom yn adlas i wasanaeth ysbrydol. 'Ymddiolwch, medd yr Arglwydd, ac na chyffyrddwch â dim aflan, a mi a'ch derbyniat chiwi,' 2 Cor. vi. 17.

PEN. XV. Adn. 1. *A Llefaroedd yr Arglwydd* | Y mae y deddfau yn y bennod hon yn cael eu bwriadu yn neillduol fel ataliad ar anwesidau anghymedrol o'r enwad.

Adn. 2. *Pan fyddo dyfferlif yn rhedeg o'i gnawd* | Y mae yr ysgrythrau santaudd yn llefaru bob amser yn wylaidd am bethau aflan. Math ar badlif ydoedd, yn cael ei achosi yn y cyffredin trwy buteindra neu anllad-rwydd, fel y meddylir.

Adn. 3. *A hyn fydd ei ofendid yn ei ddyfferlif* | Pan fyddai yn ganlyniad pechod. 'Ond os byddai wedi deilliaw yn unig oddiwrth achosion danweiniol, megys trwy ysgedod yn y cefn, cario gormod baich, neu neidio yn rhy ffyrnig, nid oedd y dyn yn cael ei halogi âg ef, ac ni pherthynai y gyfraith hon iddo.' — MAIMONIDES. 'Yr anhwylder gwarthus ag y cyfeirir ato yma sydd ddunod aflan ag y darfu i gyfiawnder Duw, yn llwybr rhagluniaeth, ei wneyd yn y cyffredin yn ganlyniad anysgaradwy anwesiad enawdol a chyweithas anghyffroithlon a gormodol rhwyg yr ystleui, i wasanaetha mewn rhyw fesur i gopsi ac atal y drwg ei hun. Mewn gwledydd lle yr

56 Ac am chwydd, a chramen, a dysgleirdeb ;

57 I ddysgu pa bryd y bydd aflan, a pha bryd yn lân. Dyma gyfraith y gwahanglwyf.

PENNOD XV.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,

2 Llefarrowch wrth feibion Israel, a dywedwch wrthynt, Pob un pan fyddo dyfferlif yn rhedeg o'i gnawd, a fydd aflan oblegid ei ddyfferlif.

3 A hyn fydd ei ofendid yn ei ddyfferlif : os ei gnawd ac a ddyfera ei ddyfferlif, neu ymattal o'i gnawd ef oddiwrth ei ddyfferlif ; ei ofendid ef yw hyn.

4 Pob gwely y gorweddodd ynddo un dyfferlif, a fydd aflan ; ac aflan fydd pob peth yr eisteddo efe arno.

5 A'r neb a gyffyrddo â'i wely ef, golched ei ddillad, ac ymdroched

oedd puteindra cyhoeddus yn cael ei oddef, a lle yr oedd hyd yn nod yn arddedof grefyddol yn mhlith yr eilunaddolwyr, rhaid bod yr afiechyd hwn yn beth mynych a ffyniannus. Pan ystyrir halogrwydd a phenthyddid yr hen amseroedd, ymddengys braidd yn hynod ddarfod i feddygon goleddu y dyb, a threnlio cy-maint o amser i geisio ei phrofi, sef fod y clyfed yn un *diweddar*. Rhaid ddarfod iddo fodoli, mewn rhyw fesur, byth er pan ffynodd puteindra yn y byd ; ac y mae hwn wedi bod yn mhlith pob cenedl ar y ddaear o'i clyfnod boreaf. Y gallai yr Israeliaid fod wedi ei dderbyn ef oddiwrth yr Aiffitiaid, ac y rhaid, trwy arferion ffiaidd *Baal-peor* ac *Astaroth* y rhai a ddysgasant ac a ddylynasant, ei fod yn ffyn yn mhlith y Moabiadaid, &c., ni all fod fawr o reswm i'w amau. Ac os tybiwn fod y dolur hwn yn cael ei awgrymu yma, yr oedd y deddfau a'r ordinhadau gorchymynedig yn cael eu bwriadu ar unwaith yn ddoeth a grasol i'w symud a'i ragflaenu ef. Y mae pob math ar haint yn cael ei drosglwyddo yn lawdd trwy gydgyffyrddiad ; a rhaid fod cadw yr *iach* oddiwrth yr *afiech* yn beth anhogorol er attal a diwreiddio dolur heintus. Hyn oedd dyben doeth ac arbenig y Ddeddfodwr goleuaf hwn yn y trefnidau ag y mae efe yn ei gosod i lawr yn y bennod hon. Yr wyf yn caniatu, modd bynag, ei fod ond odid o fath dynerach yn yr hen amseroedd ; ddarfod iddo canuill gym a ffyrnigwydd trwy barhad ; a darfod iddo, trwy gyweithas â rhai achosion tramor, gael ei erwino yn fawr yn Ewrop oddeutu 1493, yr amser ag y tybiodd rhai iddo ddechreu bodoli gyntaf, er fod prawfiadau cryfion ei fod ef yn y wlad hon byth wedi yr unfed canrif ar ddeg. — CLARKE.

Adn. 4—12. *Pob gwely y gorweddodd ynddo un dyfferlif, a fydd aflan* | Yma cawn fod poer. eistedd ar yr un sedd, gorwedd yn yr un gwely, marchogaeth ar yr un cyfrwy, neu

mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

6 A'r hwn a cisteddo ar ddim yr cisteddodd y dyferllyd arno, golched ei ddillad ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

7 A'r hwn a gyffyrddo a chnawd y dyferllyd, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

8 A phan boero y dyferllyd ar un glân, golched *hwnw* ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

9 Ac aflan fydd pob cyfrow y marchogo y dyferllyd ynddo.

10 A phwy bynag a gyffyrddo â dim a fu dano, bydd aflan hyd yr hwyr: a'r hwn a'u dycco hwynt, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

11 A phwy bynag y cyffyrddo y dyferllyd âg ef, lieb olchi ei ddwylaw mewn dwfr, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

12 A'r llestr pridd y cyffyrddo y dyferllyd âg ef, a ddryllir: a phob llestr pren a olchir mewn dwfr.

13 A phan lanheir y dyferllyd oddiwrth ei ddyferlif; yna cyfrifed iddo saith niwrnod i'w lanhau, a golched ei ddillad, a golched ei gnawd mewn dwfr rhedegog, a glân fydd.

14 A'r wythfed dydd cymered iddo ddwy durtur, neu ddau gyw colomen, a deued gerbron yr Arglwydd, i ddrws pabell y cyfarfod, a rhodded hwynt i'r offeiriad.

15 Ac offrymed yr offeiriad hwynt,

un yn bech-aberth, a'r llall yn boeth-offrwm: a gwnaed yr offeiriad gy-mod drosto ef am ei ddyferlif, gerbron yr Arglwydd.

16 Ac os gw'r a ddaw oddiwrtho ddisgyniad had; yna golched ei holl gnawd mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

17 A phob dilledyn, a phob croen, y byddo disgyniad had arno, a olchir mewn dwfr, ac a fydd aflan hyd yr hwyr.

18 A'r wraig y cysgo gw'r *mewn* disgyniad had gyda hi; ymolchiant mewn dwfr, a byddant aflan hyd yr hwyr *ill dau*.

19 ¶ A phan fyddo gwraig â dyferlif arni, a bod ei dyferlif yn ei chnawd yn waed; bydded saith niwrnod yn ei gwahaniaeth: a phwy bynag a gyffyrddo â hi, bydd aflan hyd yr hwyr.

20 A'r hyn oll y gorweddo hi arno yn ei gwahaniaeth, fydd aflan; a'r hyn oll yr cisteddo hi arno, a fydd aflan.

21 A phwy bynag a gyffyrddo â'i gwely hi, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

22 A phwy bynag a gyffyrddo â dim yr cisteddodd hi arno, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr.

23 Ac os ar y gwely y bydd efe, neu ar ddim y byddo hi yn cistedd arno, wrth gyflwrdd âg ef; hyd yr hwyr y bydd efe aflan.

24 Ond os gw'r gan gysgu a gwsu

gyffyrddiad yn unig, yn ddigonol i wneuthur un yn *aflan*, gan feddwl o bosibl, mewn rhai achosion, drosglwyddo yr afiechyd; ac y mae yn dra hysbys y gellir trosglwyddo heintnaws y dolur hwn yn yr holl ffyrdd yma. Ond y mae y gair *aflan*, yn yr achosion hyn, yn cael ei ddeall yn gyffredin mewn ystyr *deddfol*, am anaddasu dyn at ordinhadau santeidd.

Adn. 13—15. *A phan lanheir y dyferllyd*] Ar ol ei iacháu o'i ddolur, nis gallai gael ei lanhau oddiwrth yr halogwrdd heb aberth, erbyn yr hyn yr oedd i ymbarotoi trwy saith niwrnod o benyd ar ol ei fod yn berffaith rydd oddiwrth ei afiechyd, a thrwy ymolchi mewn dwfr rhedegog. Yr oedd hyn oll yn dangos yr angenrheidrwydd sydd arnom ni am gynhwysiad o waed Crist at ein beneidiau, ac am edifeirwch a ffydd, mewn trefn i gael ein cyflawnhau a'b santeiddio.

Adn. 16—18. *A bydd aflan*] Fel na chaf feiddio nesáu at y cysegr y dydd hwnw; *hyd yr hwyr*—hyd oni fyddai i'r dydd nesaf ddechreu. Yr oedd y ddeddf hon yn gwasanaethu

i gadw dyledus barch i burdeb natur, ac i attal defnyddiad anaddas o'r gwely priodas.

Adn. 19. *Bydded saith niwrnod yn ei gwahaniaeth*] Nid y tuallan i'r gwersyll, ond heb gyfeillaehu â'i gw'r ac ereill, ac heb gael dyfod i dŷ Dduw. *A phwy bynag a gyffyrddo â hi*—o bersonau wedi tyfu i fyny; canys yr oedd y baban, i'r hwn yn y cyfamser y gallai hi roddi bron, yn rhydd oddiwrth yr halogiad hwn trwy ddeddf gryfach angenrheidrwydd, a thrwy y gyfraith flaenorol hono ag ydoedd yn gofyn i wragedd roddi sugn i'w plant eu hunain.

Adn. 20—23. *A fydd aflan*] Mewn ystyr seremonïol.

Adn. 24. *Aflan fydd efe saith niwrnod*] Os gwnaeth efe hyn yn ei anwybodaeth; ond os gwnaed ef yn *wybodus* iddo ei hun a'r wraig, yr oeddynt ill dau, ar ol eu profi yn euog, i gael eu tori o fysg eu pobl, pen. xx. 18; canys trwy fod drwg naturiol yn y weithred, byddai felly yn dra niweidiol i'r plentyn os cenhedlid ef yn y cyfamser, gan y gallai ond oddid fod yn

gyda hi, fel y byddo o'i misglwyf hi arno ef; aflan fydd efe saith niwrnod, ac aflan fydd yr holl wely y gorwedd efe arno.

25 A phan fyddo dyferlif ei gwaed yn rhedeg ar wraig lawer o ddyddiau, allan o amser ei anhwyf, neu pan redo dyferlif arni ar ol ei anhwyf; bydded holl ddyddiau dyferlif ei haflendid hi megys dyddiau ei gwahaniaeth: aflan *fydd* hi.

26 Pob gwely y gorwedd o hi arno holl ddyddiau ei dyferlif, *fydd* iddi fel gwely ei misglwyf; a phob dodrefhyn yr eisteddo li arno fydd aflan, megys aflendid ei misglwyf hi.

27 A phwy bynag a gyffyrddo â hwynt, aflan fydd; a golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyf.

28 Ac os glanhair hi o'i dyferlif; yna cyfrifed iddi saith niwrnod: ac wedi hyny glân fydd.

29 A'r wythfed dydd cymered iddi ddwy durtur, neu ddau gyw colomen, a dyged hwynt at yr offeiriad, i ddrws pabell y cyfarfod.

30 Ac offrymed yr offeiriad un yn bech-aberth, a'r llall yn boeth-offrwm; a gwnaed yr offeiriad gymod drosti gerbron yr Arglwydd, am ddyferlif ei haflendid.

31 Felly y neillduwch blant Israel oddiwrt h eu haflendid; fel na byddant feirw yn eu haflendid; pan halogant fy mhabel yr hon *sydd* yn eu mysg.

32 Dyma gyfraith yr hwn y byddo y dyferlif arno, a'r hwn y daw oddiwrt h ddisgyniad had, fel y byddo aflan o'u herwydd;

33 A'r glaf o'i misglwyf, a'r neb y byddo y diferlif arno, o wryw, ac o fenyw, ac i'r gŵr a orwedd o yn nghyda'r hon a fyddo aflan.

PENNOD XVI.

LLEFARODD yr Arglwydd hefyd wrth Moses, wedi marwolaeth dau fab Aaron, pan offrymasant gerbron yr Arglwydd, ac y buant feirw;

2 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Llefara wrth Aaron dy frawd, na ddelo bob amser i'r cysegr o fewn

egwan, clafrrlyd, neu wahanglwyfus. Yn unol â hyn dywed naturiaethwr enwog ddarfed rhoddi y gyfraith hon am y rheswm yma, i attal i'r Iuddewon fagu a thaenu rhyw anhwylddeb bliu. Fel hyn yr oedd Moses, neu yn hytrach Duw, trwy y gwaharddiad yma, fel mewn amrai anghrefistiaid ereill, yn golygu ieched y diogelwch ei bobl. At hyn gallwn chwaneu, y buasai yn tuedd o di-anrhydedd i wir grefydd, fod i'w phroffeswyr roddi y fath brawf cyhoedd o'u rhysedd.

Adn. 25—30. *Allan o amser ei anhwyf*] Sef allan o, neu tubwnt i, ddyddiau rheolaidd ei gwahaniaeth, adn. 19. Y cyfryw oedd anhwyldeb y wraig a iachawyd trwy gyffwrdd âg ymyl gwisg ein Hiachawdwr, Mat. ix. 20. Yr oedd hwn yn gwneyd y wraig, yn nghyda phob dim ag y cyffyrddai hi âg ef, yn aflan. Ac os iacheid hi, ac y ceid ei bod ar ol saith niwrnod o brawf yn berffaith rydd oddiwrt h ei dolur, yr oedd yr offeiriad i offrymu dwy durtur, neu ddau gyw colomen, un yn bech-aberth â'r llall yn boeth-offrwm, i wneyd cymod drosti. Trwy i'r cyfryw wendidau ddeilliaw oddiwrt h wrthgiliaid gwreiddiol dyn, yr oedd cysylltiad rhyngddynt a halogrydd *moesol*, ac felly yr oedd yn rhaid i *aberthau* gael eu hoffrymu drostynt.

Adn. 31. *Felly y neillduwch blant Israel oddiwrt h eu haflendid*] Trwy y neillduad hwn daeth yr *achos* yn anamlach, a'r heintnaws a attelid rhag ymdaenu. Ond y mae y Samaritanaeg a'r LXX yn ei ddarlenn, 'Felly y gwnewch blant Israel yn *ochelgar* yn nghylch eu haflendid.' Fel na byddant feirw—fel y byddo i einioes gael ei bestyn trwy y gofalon call hyn; neu fel na bo i'r hwn sydd yn foisol a deddfol aflan ryfygu myned i gysegr Duw

nes ei buro, rhag iddo gyffroi dwyfol gyfiawnder i'w ddyfetha tra yn ceisio addoli gyda meddwl halogedig a dwylaw aflan.

Adn. 32, 33. *Dyma gyfraith yr hwn y byddo y dyferlif, &c.*] Gwel ar adn. 2, &c. Yr oedd tueddiad rhyfeddol yn y deddfau hyn i attal pob rhyseid; canys byddai i'r *trafferthion* ag y gorfyddai i'r cyfryw rai eu cymeryd, y *gwahaniadau* ag y gorfyddai iddynt eu cadw, a'r *difuddiadau* ag y byddai raid iddynt o ganlyniad fod yn agored iddynt mewn ffordd o fasnach, addoliad, &c. y hatal i raddau pell rhag gwneuthur defnydd anghyfreithlon o bethau cyfreithlon.

PEN. XVI. Adn. 1. *Wedi marwolaeth dau fab Aaron*] Buasai i'r bennod hon yn naturiol ddylyn y ddeddf bennod, lle y crybwyllir am farwolaeth meibion Aaron, oni buasai i'r dygwyddiad hwn roddi achlysur i adrodd y deddfau crybwylliedig yn nghylch yr amrywiol aflendid ag ydoedd yn anghymhwyso Israeliad i nesau i'r cysegr.

Adn. 2. *Na ddelo bob amser i'r cysegr o fewn y wahanlen*] Pan y myno ei hun, ond pan y penodwyf fi. I'r cysegr tufaes i'r wahanlen hon, yr oedd yr archeoffeiriad, neu offeiriad cyffredin, yn myned bob bore a hwyr wrth aroglarthu, &c.; ond am y cysegr hwn o fewn y wahanlen, a elwir yn gyffredin y 'cysegr santeiddiolaf,' megys nad oedd neb ond yr archeoffeiriad i fyned iddo, felly nis gallai yntau fyned iddo bob amser fel lle cyffredin o addoliad, neu i gyflawni y wasanaeth ddwyfol wrth ei ewyllys. Nid oedd efe yn gyffredin i fyned iddo ond unwaith yn y flwyddyn, a hyny ar ddydd mawr y cymod dros bechodau yr holl genedl; ond ar achosion

y wahanlen, gerbron y drugareddfa sydd ar yr arch; fel na byddo efe farw: o herwydd mi a ymddanghosaf ar y drugareddfa yn y cwmwl.

3 A hyn y daw Aaron i'r cysegr: â bustach ieuanc yn bech-aberth, ac â hwrdd yn boeth-offrwm.

4 Gwisged bais lian santaidd, a bydded llodrau lian am ei gnawd, a gwregys ef â gwregys lian, a gwisged feitr lian: gwisgoedd santaidd yw y rhai hyn; golched yntau ei gnawd mewn dwfr, pan wisgo hwyt.

5 A chymered gan gynulleidfa

meibion Israel ddau lwdn gafr yn bech-aberth, ac un hwrdd yn boeth-offrwm.

6 Ac offrymed Aaron fustach y pech-aberth a fyddo drosto ei hun, a gwnaed gymod drosto ei hun, a thros ei dŷ.

7 A chymered y ddau fwch, a gosodod hwyt gerbron yr Arglwydd, wrth ddrws pabell y cyfarfod.

8 A rhodded Aaron goelbrenau ar y ddau fwch; un coelbren dros yr Arglwydd, a'r coelbren arall dros y bwch diangol.

annghyffredin gallai fyned iddo yn amlach; megys pan fyddai ganddo achos i ymgyngori â'g oracl Duw, neu pan yr oedd y tabernacl i'w dynu i lawr neu ei osod i'fyny yn eu teithian yn yr anialwch. *Fel na byddo efe farw*—wrth ruthro yn rhyfygus i wyddfod Duw. *O herwydd mi a ymddanghosaf ar y drugareddfa*—neu gaeaf yr arch: gwel ar Exod. xxv. 17, &c. *Yn y cwmwl*—dysglauer a gogoneddus, rhwng y cerubiad, fel y SEC-INA.

Adn. 3. *A bustach ieuanc yn bech-aberth*] Dros Aaron ei hun, ei deulu, yr holl offeiriad-aeth, ac ond odid dros y Lefiaid hefyd. *Ac â hwrdd yn boeth-offrwm*—i arwyddo ei fod ef a'i gydswyddogion wedi hollol ymgyflwyno i waith y weinidogaeth.

Adn. 4. *Gwisged bais lian santaidd*] Nid oedd Aaron i ymwisgo yn ei ddillad archeff-eiriadol, eithr yn y gwisgoedd offeiriadol cyffredin, neu y rhai hyn o eiddo y Lefiaid, am ei fod yn ddydd o ymostyngiad: a chan ei fod ef i aberthu dros ei bechodau ei hun, yr oedd yn angenrheidiol iddo ymddangos mewn gwisgoedd cyffaddas i'r achlysur. O ganlyniad nid yw yn wisgo y fantell, yr ephod aur, y ddwyfroneg, y meitr, &c.; y rhai hyn a wnaet i'fyny ei wisg urddasol fel archefferiad Duw, yn gweinyddu dros ereill, ac yn gynrychiolydd Crist: ond yn awr y mae efe yn ymddangos gerbron Duw fel *pechadur*, yn gwneuthur cymod dros ei gamweddau ei hun, a'i wisgoedd yw y rhai hyn o ostyngiddrwydd. *Golched yntau ei gnawd*—Sam. 'ei holl gnawd.' Heblaw golchi ei ddwyllaw a'i draed, fel ar ddyddiau ereill wrth ddechreu ei wasanaeth, yr oedd yr archefferiad ar y dydd hwn i olechi ei holl gorff cyn wisgo y dillad santaidd hyn at wasanaeth bwysig y dydd hwn.

Adn. 5. *Ddau lwdn gafr yn bech-aberth*] Y mae rhai yn meddwl fod geifr yn cael eu dewis yn bech-aberth, am fod atgasrwydd eu harogl yn arddangos atgasrwydd pechod: tybia ereill fod Duw yn gorchymyn i'w bobl ef aberthu geifr, rhag iddynt byth gael eu temtio i aberthu i eifft, gan y dywedid fod yr ellyllon, y rhai a addolai y cenhedloedd y pryd hyn, yn ymddangos yn fynych i'w haddolwyr ar lun geifr.

Adn. 6. *Gwnaed gymod drosto ei hun*] Gwel ar adn. 3, a ix. 7.

Adn. 7. *A chymered y ddau fwch*] Addefir yn gyffredinol fod yr arddesod hon, a'i chy-

meryd yn ei holl ranau, yn nodi allan yr Arglwydd Iesu yn *marw* dros ein pechodau ni, ac yn adgyfodi er ein cyfiawnhau; yn cael ei farwolaethu yn y enawd, eithr ei fywahu yn yr Ysbyrd. Y mae *ddau fwch* yn cael eu dwyn, y naill i gael ei ladd yn *aberth* dros bechod, y llall i gael camweddau y bobl yn gyffesedig uwch ei ben, ac yna i gael ei *anfon ymaith* i'r anialwch. Arddangosid yr anifel trwy y weithred hon fel yn dwyn ymaith bechodau y bobl. Nid oedd y ddau fwch yn gwneuthur ond *un aberth*, eto un yn unig a leddid. Nid allai un anifel nodi allan natur *ddwyfol* a *dynol* Crist, na dangos ei *farwolaeth* a'i *adgyfodiad* ef, canys y bwch a *leddid* ni ellid ei adfer yn *fyw*. Yr oedd natur *ddwyfol* a *dynol* Crist yn hanfodol i'r cymod mawr: eto y natur *ddynol* yn unig a *ddyddod-efodd*, canys ni allai y natur *ddwyfol* ddyddod-ef; ond yr oedd ei *phresenoldeb* yn y natur ddynol, tra yn dirboeni hyd angau, yn argraffu ar y dirboeniadau hyn, a'r farwolaeth ganlynol, anfeidrol *haeddiant*. Gan hyn y'r oedd y bwch a *laddwyd* yn cysgod ei natur ddynol ef a'i *angau*, a'r bwch *diangol* yn nodi allan ei *adgyfodiad*. Y mae y naill yn dangos yr iawn dros bechod, fel sail cyfiawnhad; y llall fuddugoliaeth Crist, a hollol symudiad pechod yn santeiddiad yr enaid. Cawn weled chwanaeg yn nghylch y seremonïau hyn wrth tyned yn mlaen. Yn ol Maimonides, yr oedd *pymtheg* o anifeiliaid yn cael eu hoffrymu y dydd hwn, gwasanaeth pa rai a gyflawnid gan yr archefferiad yn unig.

Adn. 8. 9. *A rhodded Aaron goelbrenau ar y ddau fwch*] Dywed yr Iuddewon fod y ddau *goelbren* neu *gwtws*, wedi eu gwneyd o bren, maen, neu ryw fettel. Ar un yr oedd yn ysgrifenedig LASHSEM, am yr ENW, (HY. JEHOF, yr hwn ni wna'i yr Iuddewon ei ysgrifenu na'i gyanu); ar y llall yr oedd yn ysgrifenedig LAZAZEL, am y BWCH DIANGOL: yna rhoddent y ddau gwtws mewn llestr a elwid *kalpey*, a'r bychod yn sefyll â'u gwyn-ebau tua'r gorllewin. Yna deuai yr offeiriad, a'r bychod yn sefyll o'i flaen ef, un ar y ddeau a'r llall ar yr aswy iddo; yna ysgwyddid y *kalpey*, a'r offeiriad a roddai ei ddwy law i feftn, ac a ddygai allan gwtws yn mhob un: yr un a fyddai yn ei law ddeau a osodai efe ar y bwch a fyddai ar ei ddeau, a'r un yn ei law aswy a osodai efe ar y bwch a fyddai ar ei aswy; ac yn ol yr hyn a ysgrifenedid ar y

9 A dyged Aaron y bwch a syrthiodd ioffr coelbren yr Arglwydd arno, ac offrymed ef yn bech-aberth.

10 A'r bwch y syrthiodd arno y coelbren i fod yn fwch diangol, a roddir i sefyll yn fyw gerbron yr Arglwydd, i wneuthur cymod âg ef, ac i'w ollwng i'r anialwch yn fwch diangol.

11 A dyged Aaron fustach y pech-aberth a fyddo drosto ei hun, a gwnaed gymod drosto ei hun, a thros ei dŷ; a lladedd fustach y pech-aberth a fyddo drosto ei hun.

12 A chymered ionaid thuser o farwor tanlyd oddiar yr allor, oddigerbron yr Arglwydd, a llonaid ei ddwy-law o aroglarth peraidd mân, a dyged o fewn y wahanlen.

13 A rhodded yr aroglarth ar y tân, gerbron yr Arglwydd; fel y

euddio mwg yr aroglarth y drugareddfa, yr hon sydd ar y dystiolaeth, ac na byddo efe farw.

14 A chymered o waed y bustach, a thaelledd â'i fys ar y drugareddfa tua'r dwyrain: a saith waith y taenella efe o'r gwaed â'i fys o flaen y drugareddfa.

15 ¶ Yna lladedd fwch y pech-aberth fydd dros y bobl, a dyged ei waed ef o fewn y wahanlen; a gwnaed â'i waed ef megys ag y gwnaeth â gwaed y bustach, a thaelledd ef ar y drugareddfa, ac o flaen y drugareddfa.

16 A glanhäed y cysegr oddiwth aflendid meibion Israel, ac oddiwth eu hanwiredan, yn eu holl bechodau: a gwnaed yr un modd i babel y cyfarfod, yr hon sydd yn aros gyda hwynt, yn mysg eu haflendid hwynt.

17 Ac na fydded un dyn yn mhabel

cwts y byddai y bwch diangol a'r bwch aberthol yn cael eu penodi. Y mae penderfyniad y gorchwyl pwysig hwn trwy goelbren, llywodraethiad yr hwn sydd oddiwth yr Arglwydd, Diar. xvi. 33, yn dangos mai Duw yn unig oedd i ethol a nodi allau y person trwy yr hwn yr oedd y cymod mawr yma i gael ei wneuthur; am hyny efe a ddywed, *Wêle, yr wyf yn gosod yn Seion ben-conglsfaen ethol-edig* (sef wedi ei ddewis ganddo ef ei hun) a gwerthfawr—o werth anfeidrol, 1 Pedr ii. 6.

Adn. 10. *I fod yn fwch diangol* [Heb. *az-azel*, oddiwth az, bwch, ac azal, gollwng; y bwch gollyngol neu ddiangol, i'w wahaniaethu oddiwth y bwch ag ydoedd i'w offrymu yn aberth. Yr oedd gan y rhan fwyaf o'r henn genbedloedd ebyrth dirprwyol, ar y rhai, trwy ddefodau a seremonïau penodol, y trosglwyddent euogrwydd yr holl wladwriaeth, yn yr un modd ag y defnyddid y bwch diangol gan yr Iuddeon. Y tarw gwyr yn aberthid gan yr Aiffiaid i'w duw *Apis* ydoedd o'r fath yma; ac offrymai rhai *dygnion* yn flynyddol er lles y cyffredin, ac ereill *feirch*, megys yr Ilin-dŵaid.

Adn. 11. *Drosto ei hun*] Gwel ar pen. ix. 7.

Adn. 12, 13. *A rhodded yr aroglarth ar y tân, &c.*] Ar ol i'r achoffeiriad ddechreu y wasanaeth arbenig trwy ladd y bustach yn bech-aberth o ddaolwch a chymod drosto ei hun a'r offeiriad ereill, efe a olenai ei thuser with allor fawr y poeth-offrwm; ac ar ei fyndiad i'r cysegr sauteiddiolaf efe a dalfai y mygarogl ar y tân, ac felly a lanwai y lle gyda chwml o dardh, i attal iddo weled yr arch, a chael ei daraw â'r gogoniant a ddeilliai oddirhwng y cerubiad, lle yr oedd y *Sacra*, neu yr arddanghesiad o'r dwyfol bresenoldeb, yn trigo; neu, fel y dywed ereill, rhag iddo bechu trwy syllu yn rhy fanwl ar yr arwyddion o'r dwyfol ogoniant. Os gallwn goelio yr Iuddeon, efe a âi i mewn yn wyseg ei ochr, fel heb feiddio edrych yn gyfeiriol ar ogoniant y lle; ac ar ol llenwi y cysegr â chwml o fwg, deuai allan y wyseg

ei gefn, â'i wyneb yn gyfeiriol tua'r drugareddfa, o barch i'r Dwyfol Fawrhydi yr hwn a gynrychioliodd yno.

Adn. 14. *A chymered o waed y bustach, a thaelledd â'i fys ar y drugareddfa*] I ddyngu i ni mai trwy ac er mwyn gwaed Crist yn unig y mae Duw yn drugarog wrth bechaduriaid. Trwy fod y gair a gyfneithir yma ar, yn arwydd yn fynych wrth, *tua'r*, neu o *flaen*, tybia Burder ac ereill nad oedd efe i daenellu y gwaed ar y drugareddfa, ond wrthi neu o'i *blaen* hi. *Tua'r dwyrain*—hyny yw, â'i wyneb ar y dwyrain, tua'r bobl, y rhai oeddynt yn y cyntedd, yr hwn a orweddai yn ddwyreiniol o'r cysegr sauteiddiolaf. Arwyddai hyn fod yr archoffeiriad yn y weithred hon yn cynrychioli y bobl, a bod Duw yn ei debyn hi ar eu rhan hwy. *O flaen y drugareddfa*—ar y llawr.

Adn. 15. *Yna lladedd fwch y pech-aberth*] Efe a âi allan o'r cysegr sauteiddiolaf i'w ladd, ac wedi hyny dychwelai yno drachefn gyda'i waed ef. A phan y dywedir na oddeidd i'r archoffeiriad fynes i'r lle hwnw ond *unwaith* yn y flwyddyn, (Heb. ix. 7,) y mae hyny i'w ddeall am un *diwrnod* mewu blwyddyn; canys yr oedd achos i fynes i mewn ac allan fwy nag unwaith ar y dydd hwnw.

Adn. 16. *A glanhäed y cysegr oddiwth aflendid meibion Israel*] Saes. *a gwnaed gymod dros y cysegr o herwydd aflendid meibion Israel.* Er nad aeth y bobl i'r lle hwnw, eto yr oedd eu pechodan wedi myned yno, a buasant yn attal effeithiau cyfryngdod yr archoffeiriad ar eu rhan, pe na buasai Duw wedi ei gymodi â hwynt. *Yn mysg eu haflendid hwy*—yn mysg pobl arian a phechadurus, y rhai sydd nid yn unig yn eu halogi eu hnnain, ond hefyd cysegr Duw! Ac yr oedd Duw trwy hyu yn dangos iddynt gymaint yr oedd eu calonau mewng angen am gael eu puro, pan yr oedd hyd yn nod y babel, yn unig trwy aros yn mysg eu haflendid hwy, mewng angen am y cymod yma!

Adn. 17. *Ac na fydded un dyn yn mhabel*

y cyfarfod, pan ddelo efe i mewn i wneuthur cymod yn y cysegr, hyd oni ddelo efe allan, a gwneuthur o hono ef gymod drosto ei hun, a thros ei dŷ, a thros holl gynulleidfa Israel.

18 Ac aed efe allan at yr allor *sydd* gerbron yr Arglwydd, a gwnaed gymod arni; a chymered o waed y bus-tach, ac o waed y bwch, a rhodded ar gyrn yr allor oddiamgylch.

19 A thaelledd arni o'r gwaed seithwaith â'i fys, a glanhâed hi, a santeiddied hi oddiwrth aflendid meibion Israel.

y cyfarfod] Lle yr oedd yr offeiriad a'r Lef-iaid yn gallu bod ar amserau ereill. Gorchy-nymid hwn er mwyn o barch i'r Dwyfol Fawr-lydi, yr hwn oedd y pryd hynny mewn modd mwy arbenig yn ymddangos, rhag i neb o honnyr hylldreim i'r cysegr santeiddiolaf wrth i'r archoffeiriad fyned i mewn neu ddyfod allan.

Adn. 18. *Ac aed efe allan*] O'r cysegr sante-iddiolaf; *at yr allor*—sef allor yr arogl'dath, lle yr oedd gwaed y pech-ebwrth a offrymid ar y dydd cymod hwn i gael ei ddodi; *sydd ger- bron yr Arglwydd*—gerbron y fan lle y trigai Duw mewn modd neillduol.

Adn. 19. *A thaelledd arni o'r gwaed seith- waith*] I arwyddo ei pherffaieth lanhad hi, a'n perffaieth gymodiad ninau trwy waed Crist: gwel ar Exod. xxix. 30.

Adn. 20. *A phan ddarffo iddo lanhau*] Yr un gair ag a gyfieithwyd o'r blaen yn 'wneuthur cymod,' ac arwyddo *cysgodi* neu *guddio*.

Adn. 21. *A chyffesed arno holl anwiredd meibion Israel*] Y mae Maimonides yn rhoddi i ni y cyffesiad yn y geiriau canlynol: 'O Arglwydd, dy bobl, tŷ Israel, a bechasant ac a wnaethant anwiredd, ac a gamweddasant o'th flaen di. O Arglwydd, gwna gymod yn awr dros yr anwireddau a'r camweddan, a'r pechodau ag y darfu i'th bobl, tŷ Israel, eu pechu a'u camweddu yn dy erbyn di; megys y mae yn ysgrifenedig yn nghyfraith Moses dy was, gan ddywedyd, Mai 'yn y dydd hwn y gwna efe gymod drosoch chiwi, i'ch glanhau chiwi oddiwrth eich holl bechodau gerbron yr Arglwydd, a chiwi a fyddwch lân.' Ar ol dybenau y cyffesiad hwn yr oedd y bwch yn cael ei anfon yn llaw gŵr cymhwys i'r anialwch, ac yno gollyngid ef yn rhydd, ac ni chlywid dim mwyach byth am dano. *A'u holl gam- weddau hwynt yn eu holl bechodau*—cry- bwyllir anwireddau, camweddan, a phechodau, i arwyddo pechodau o bob math; a bod cyffesiad rhydd a llawn o'r cwbl i gael ei wneuthur; a bod y pechodau lleiaf mewn angen am, ac nad oedd y pechodau mwyaf yn cael eu cau oddiwrth, y budd o farwolaeth ac adgyfodiad Crist a arddanghesir yma. *Ac anfoned ef ymaith yn llaw gŵr cymhwys i'r anialwch*—pa anialwch a feddylir nid yw sier. Y mae Dr. Lightfoot yn meddwl ei fod yn cael ei anfon yn y ffordd tua Beth-horon, o amgylch pa le yr oedd brynau tra uchel. Anfonid ef ymaith gyda *gŵr cymhwys*, un ag

20 ¶ A phan ddarffo iddo lanhau y cysegr, a phabell y cyfarfod, a'r allor; dyged y bwch byw:

21 A gosodedd Aaron ei ddwyylaw ar ben y bwch byw, a chyffesed arno holl anwiredd meibion Israel, a'u holl gamweddan hwynt yn eu holl bechodau; a rhodded hwynt ar ben y bwch, ac anfoned ef *ymaith* yn llaw gŵr cymhwys i'r anialwch.

22 A'r bwch a ddwg eu holl anwiredd hwynt arno, i dir neillduaeth: am hynny hebrynged efe y bwch i'r anialwch.

ynoedd yn gwybod y ffordd i'r anialwch; neu, fel yr arwyddo y wreiddiol, 'gŵr cyf- amser,' hynny yw, gŵr o oedran a deall, a hwnw o blith yr offeiriad, fel y dywed y rab- biniaid Sylwa Witsius, y gall *llaw gŵr cy- mhwys* fod yn dynodi y gallu a gododd yn er- byn Crist, sef y Cenhedloedd a phobl Israel; ac yn enwedig Pilat, yr hwn a ofalodd fod i Crist, â'i groes ar ei gefn, gael ei arwain y tuallan i'r porth, lle y cafodd ef ei frwydr olaf gyda'r diafol.

Adn. 22. *A'r bwch a ddwg eu holl anwir- edd hwynt i dir neillduaeth*] *Ercts gezra*. tir wedi ei dori ymaith, ei ysgaru, ac yn mhell oddiwrth gymdeithas ddynol. Y mae y LXX yn ei gyfieithu ef *abatan*, 'ansathredig, an- nhramwyadwy;' tir nad oedd neb yn teithio trwyddo. Arwyddai hyn fod eu pechodau yn cael eu symud yn mhell oddiwrth y bobl, i'eu dileu o wyddfod Duw. Ac yr oedd fod y bwch yn cael ei adael gan bawb, ac yn agored i lawer o beryglon oddiwrth anifeiliaid gwyllt- ion y rhai oeddynt aml yno, yn arwyddo yn mhellach y byddai i Crist gael ei adael gan Dduw a dynion, i'eu gan ei ddsygyblion ei hun, a'r peryglon a'r dyoddefiadau aml a ddeuent arno ef. Ar ben y bwch diangol cŷlymid llain o frethyn ysgarlad, a dywed traiddod- iad yr Iuddewon, os derbyniad Duw yr ab- erth, y byddai y brethyn *coch* hwn yn troi yn *wijn* wrth arwain y bwch i'r anialwch; ond os na dderbynid ef, y byddai y *cochni* yn par- hau, a gweddill y flwyddyn yn cael ei dreulio mewn galar. Ymddengys eu bod hefyd, mewn amser dyfodol, yn rhoddi brethyn *coch* nid yn unig ar ben y bwch, ond hefyd wrth borth y denl; a barnent, os troai efe yn *wijn*, fel y dywedir ei fod yn gwneyd yn gyffredin, y maddenid pechodau Israel; megys y mae yn ysgrifenedig, 'Pe byddai eich pechodau fel *ysgarlad*, ânt cyn wneyd a'r *eira*; pe coch- ent fel *porffor*, byddant fel *gwlan*.' Ond dywedir fod yr Iuddewon eu hunain yn cyf- addef na ddarfu i'r brethyn ysgarlad newid ei liw gymaint ag unwaith am fwy na dengain mlynedd cyn dinstyr Jerusalem gan y Rhuf- einiaid; ac nid yw yn rhyfedd, ar ol iddynt wrthod y sylwedd, fod y cysgod yn ddfudd iddynt.—Er seiliad eglwys Dduw yr oedd ei ganlynwyr ef yn credu bob amser fod rhyw arwyddion difeth trwy y rhai y datguddiai efe i wir gredinwyr ei gymradwyraeth o honnyr hwy a'u gwasanaeth. Hyn a wneid weithiau

23 Yna deued Aaron i gabell y cyfarfod, a dyosged y gwisgoedd llian a wysgodd efe wrth ddyfod i'r cysegr, a gadawed hwynt yno.

24 A golched ei gnawd mewn dwfr yn y lle santeidd, a gwisged ei ddillad, ac aed allan, ac offrymed ei boeth-offrwm ei hun, a phoeth-offrwm y bobl, a gwnaed gymod drosto ei hun, a thros y bobl.

25 A llosged wêr y pech-aberth ar yr allor.

26 A golched yr hwn a anfonodd y bwch i fod yn fwch diangol, ei ddillad, a golched ei gnawd mewn dwfr; ac yna deued i'r gwersyll.

27 A bustach y pech-aberth, a bwch y pech-aberth, y rhai y dygwyd eu gwacod i wneuthur cymod yn y cysegr, a ddwg un i'r tu allan i'r

gwersyll; a hwy a losgant eu crwyn hwynt, a'u cnawd, a'u biswail, yn tân.

28 A golched yr hwn a'u llosgo hwynt ei ddillad, golched hefyd ei gnawd mewn dwfr; wedi hyny deued i'r gwersyll.

29 ¶ A bydded hyn yn ddeddf dragwyddol i chwi: y seithfed mis, ar y degfed dydd o'r mis, y cystuddiwech eich encidiau, a dim gwaith nis gwnewch, y priodor a'r dycethr a fyddo yn ymdaith yn eich plith.

30 O herwydd y dydd hwnw y gwna yr *offeiriad* gymod drosoch, i'ch glauhau o'ch holl bechodau, fel y byddoch lân gerbron yr Arglwydd.

31 Sabboth gorphwysdra yw hwn i chwi; yna cystuddiwech eich encidiau, trwy ddeddf dragwyddol.

trwy dân o'r nef yn difa yr aberth; weithiau trwy ymddyddaniaid oraclaidd; a phrydiau ereill, yn ol yr hanes Iuddewig, trwy gyfnewid lliw y brethyn ar ben y bwch diangol o *goch i wyn*: ond yn fwyaf cyffredin, ac yn enwedig dan oruchwyliaeth yr efengyl, y mae efe yn rhoddi y sicrwydd hwn i wir gredinwyr trwy dystiolaeth ei Ysbryd yn en cydwybodau, ei fod wedi maddeu en hanwiredd a'u caniwedd a'u pechod, er ei fwyn EF, yr hwn a 'gymerth eu gwendid hwy, ac a ddyg eu doluriau:' gwel ar Rhuf. viii. 16.

Adn. 23. *Dyosged y gwisgoedd llian*] Dywed Maimonides ac ereill nad oeddynt byth i gael eu gwisgo mwyach ganddo ef na neb arall, a bod rhai newyddion yn cael eu paratoi bob blwyddyn at y wasanaeth hon.

Adn. 24—26. *A golched ei gnawd mewn dwfr yn y lle santeidd*] Sef yn nghyntedd y tabernacl, lle y safai allor y poeth-offrwm a'r noe gysgredig. Yma yr oedd efe i olchi neu daenellu ei holl gorff, fel y gallai ei buro ei hun ar ol cyffwrdd â'r bwch yr hwn a ddygai eu hanwireddau hwynt, yn union fel yr oedd y gŵr a'i hebryngodd ef i'r anialwch i ymolchi wedi hyny. Yr oedd yr ardddefod hon yn arwyddo fod y creadur wedi ei wneuthur mor halogedig a ffaidd trwy fod yn ddirprwy dros bechoduriaid, fel nad allai neb gyffwrdd âg ef heb gael ei halogi. *A gwisged ei ddillad*—y dillad archeffiriadol, yn y rhai y gweinyddai efe ar ddyddiau ereill. Ac nid oedd y newidiad yma o'i ddillad yn ddiachos: canys yr oedd y dillad offeiriadol cyffredin yn addasach iddo ef yn y rhan flaenaf o'i weinyddiad; oblegid y pryd hyny yr oedd ef i ymddangos gerbron yr Arglwydd yn y cysegr santeiddiolaf, i ymddarostwng, a gwneuthur cymod dros ei bechodau ei hun ac eiddo y bobl, ac am hyny ei ddillad gwaelaf oeddynt y rhai mwyaf addas: a'r gwisgoedd archeffiriadol oeddynt addasaf i'r rhan ddiweddaraf o'i waith, pa un oedd o natur wahanol.

Adn. 27, 28. *A hwy a losgant eu crwyn hwynt, a'u cnawd, &c.*] Nid ar yr allor, ond yn mhell y tuallan i'r gwersyll, i arwyddocau

ein gwaith ni yn bwrw ymaith bechod trwy wir edifeirwch, a gwaith Duw yn ei fwrw ef ymaith trwy faddauant llawn, fel na byddo iddo byth gyfodi i'n herbyn ni mewn barn. Edrychid hefyd ar yr hwn a'u llosgai hwynt fel yn aflan, a byddai raid iddo yntau, yn gystal a'r archeffiriad a hebryngodd y bwch diangol, olchi ei ddillad a'i gnawd mewn dwfr cyn y gallai ddyfod i'r gwersyll. Felly yr oedd yr ebyrth hyn mor bell oddiwrth dynu ymaith bechod, nes yr oeddynt yn gadael rhyw halogrwydd ar bob un a gyffyrddai â hwynt.

Adn. 29, 30. *A bydded hyn yn ddeddf dragwyddol i chwi*] Dros holl ystod eich gorchwyliaeth: gwel ar adn. 34. *Y seithfed mis*—hwn oedd *Tisri*, ac y mae yn cyfateb i ran o'n Medi a rhan o'n Hydref ni. *Y seithfed mis* oedd efe o'r flwyddyn gysgredig, a'r *cyntaf* o'r flwyddyn wladol: gwel ar Exod. xii. 2. *Ar y degfed dydd o'r mis*—y mae y gorchymyn i ymrydio, a santeiddio y *degfed* dydd hwn, yn cael ei adrodd drachefn pen. xxiii. 27—32; ond yno gelwir ef y *naufed dydd yn yr hwy*, am fod dydd yr Iuddewon yn dechreu gyda'r hwy'r. *Y cystuddiwech eich encidiau*—hyny yw, 'eich hunain;' eich cyrff, trwy ymattaliad oddiwrth fwyd a dymunolion ereill; a'ch meddyliau, trwy dristwch edifeiriol am eich pechodau. Tybiodd rhai mai ar gyfer y dydd hwn y syrthiodd Adda, a'i fod yn cael ei gadw yn ddydd ymryd er cofiadwriaeth am hyny. Eithr Maimonides a ddywed, 'Dyma y dydd ar yr hwn y disgynnodd Moses o'r mynydd gyda'r ail ddwy lech yn ei law, ac y cyhoeddodd efe i'r bobl faddauant o'u pechodau; ac ar y cyfrif hwn y dewisir ef fel dydd santeidd o edifeirwch a dyhewyd.' Os fel hyn yr oedd, gallai coffadwriaeth am waith Duw yn maddeu iddynt eu pechod yn achos y llo aur, eu calonogi i obeithio y gwnai efe, ar eu hedifeirwch, faddau iddynt bob camwedd arall.

Adn. 31. *Sabboth gorphwysdra yw hwn i chwi*] Neu ddydd o gyflawn oprhwsdra oddiwrth bob galwedigaeth fyddol, ac, fel y sabboth,

32 A'r offeiriad, yr hwn a eninio efe, a'r hwn a gysegro efe, i offeiriadu yn lle ei dad, a wna y cymod, ac a wisg y gwisgoedd llian, *sef* y gwisgoedd santaidd :

33 Ac a lanha y cysegr santaidd, ac a lanha babell y cyfarfod, a'r allor ; ac a wna gymod dros yr offeiriad, a thros holl bobl y gynulleidfa.

34 A bydded hyn yn ddeddf dra-gwyddol i chwi, i wneuthur cymod dros feibion Israel, am eu pechodau oll, unwaith yn y flwyddyn. Ac efe

a wnaeth megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses.

PENNOD XVII.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth Aaron, ac wrth ei feibion, ac wrth holl feibion Israel, a dywed wrthynt, Dyma y peth a orchymynodd yr Arglwydd, gan ddywedyd,

3 Pob un o dŷ Israel a laddo ŷeh, neu oen, neu afr, o fewn y gwersyll, neu a laddo allan o'r gwersyll,

i gael ei hollol gysegri i ddyledswyddau crefyddol.

Adn. 32. *A'r offeiriad*] *Sef* yr archoffeiriad, yr hwn yn unig a eninid; *yr hwn a eninio efe, a'r hwn a gysegro efe*—dylai y geiriâu hyn gael eu cyfieithu, 'yr hwn a eninir, a'r hwn a gysegrir,' fel y maent yn y *Vulgate*: canys yn yr ysgrthyir y mae berf weithredol, heb berson, i'w chymeryd yn fynych yn oddefol; ac wrth sylwi ar hyn symudir llawer o anhawsderau. Er anghraifft, y geiriâu hyn y eiddo *Esay*, a ddyfynir Ioan xii. 40, 'Efe a ddalodd eu llygaid, ac a galedodd eu calon,' ar arwyddant yn unig, 'eu llygaid a dywyllwyd, a'u calon a galedwyd:' gwel Mat. xiii. 14, 15. Felly, 'efe a galedodd galon Pharao,' sydd gyfystyr â 'chaledodd calon Pharao,' *Exod.* vii. 22. Hefyd, 'efe a annogodd Ddafydd,' 2 Sam. xxiv. 1, a ddylai gael ei gyfieithu, 'Annogwyd Dafydd,' gan ei galon ddrwg ei hun, neu gynhyrfiad Satau, 1 Cron. xxi. 1.

Adn. 33. *Ac a lanha y cysegr santaidd*] Gwel ar adn. 16.

Adn. 34. *A bydded hyn yn ddeddf dra-gwyddol*] I barhau mewn grym hyd oni ddatodid y ffurf-lywodraeth hono, ac hyd oni byddai i'r cysgod gael ei droi heibio gan y sylwedd: gwel isod.

ADFFEDDYLIADAU.—Gorchymynid i ddydd mawr y cymod, a'r aberthau, a'r defodau, a'r seremonïau penodedig iddo, gael eu cadw gan yr Iuddewon trwy yr oll o'u goruchwyliaeth, a chyhyd ag y cydnabyddai Duw hwynt fel ei bobl: eto nid oes y dydd heddyw braidd gysgod o'r pethau hyn yn aros; nid oes mwyach *fwech diangol*, na *bwech aberthol*, yn cael ei ddarparu ganddynt mewn un man. Y maent yn *bechaduriaid*, ac eto heb *gymod*! Mor hynod yw eu bod heb weled *fyd sylwedd* eu crefydd wedi *myned*, a bod Duw o ganlyniad wedi eu bwrw hwynt yn hollol o gyfammod âg ef ei hun! Y maent yn gwrthod derbyn y gwir gymod, *sef* y Crist croesoaeliedig, ac o ganlyniad y maent heb deml, allor, bwech diangol, iawn, nac unrhyw *foadion* o iachawd-wriaeth! Y mae cyflwr y byd paganaidd yn ddrwg, ond y mae cyflwr yr Iuddewon yn ddwbl resynus. Oddieithr eu hollol ddiwreiddiad, daeth digofaint arnynt hyd yr eithaf. Y fath brawf yw hyn o wirionedd y rhabfynegiadau yn eu cyfraith hwy eu hunain, ac yn efengyl Crist! Pwy, gyda'r *Iuddewon* a'r *Beibl* o flaen ei lygaid, a all amau

gwirionedd y Beibl hwn fel datguddiad dwyfol? Pe buasai y bobl hwn wedi darfod, gall-asm amau pa un a fu erioed bobl ar y ddaear yn cydnabod y fath gyfraith, neu yn cadw y fath ordinhadau; ond y mae y bobl, eu cyfraith, a'u proffwydi, fyth mewn bod, ac oll yn cyhoeddi yr hyn a wnaeth Duw, a'i fod ef yn awr wedi peidio gweithio yn eu mysg hwy, am iddynt wrthod derbyn ac ynlesâu trwy yr iawn mawr; ac eto y mae efe yn eu cadw yn fyw, ac mewn cyflwr o hollol yrneillduaeth oddiwrth holl bobl y ddaear yn holl leodd eu gwasgariad! Mor rymus y mae cadwraeth yr Iuddewon fel pobl wahanedig yn dwyn tystiolaeth ar unwaith i wirionedd eu *cyfraith* eu hunain yr hon y maent yn ei *chydabod*, ac *efengyl Crist* yr hon y maent yn ei gwrthod! Ond tra y mae yr IUDDEWON yn eistedd mewn tywyllwch dudew o herwydd y llen ag sydd ar eu calonau, er fod goleuni gogoniant Duw yn llewyrcheli o'u *hamgylch* hwynt, ond nid *iddynt* o herwydd eu hanghrediniaeth; yn mha gyflwr y mae y CENHEDLOEDD hyn ag sydd yn profesu eu bod yn gwleud eu hanghrediniaeth a'u cyndynrwydd hwy, ac yn cydnabod gwirionedd y Testament Newydd, ac eto yn byw heb gymhwysiad o'r cymod at eu beneidiau er symudiad eu hanwiredd, eu camwedd, a'u pechod eu hunain? Y mae y rhai hyn hefyd mewn bustl chwerverder a rhwymyn anwiredd. Ni all *Gwardwr holl-ddigonol* yn cael ei ddal allan yn y *Testament Newydd* wneyd dim mwy o les iddynt *hwy*, nag a fedr *bwech diangol* a *dydd cymod* darluniedig yn y *gyfraith* ei wneuthur i'r *Iuddewon*. Cystal y gall dyn ddechymygu y gall y gair *bara* faethu ei gorff, ag y gall yr enw *Crist* waredu ei enaid. Rhaid i'r ddau gael eu *derbyn*, a'u *cymhwysio*, mewn trefn i'r dyn allu byw.

PEN. XVII. Adn. 1—3. *A llefarodd yr Arglwydd—Pob un o dŷ Israel a laddo ŷeh*] 'Nid i ddefnydd cyfredin, canys gellid llâid y cyfryw anifeiliaid gan unrhyw un, neu mewn unrhyw le, Deut. xii. 5—27; ond i'w *haberthu*, fel y mae yr ystyr yn cael ei gyfyngu, adn. 5, 6, lle y mae y rheswm am y gorchymyn yn cael ei roddi.'—BENSON. Dyma hefyd farn Henry, Burder, Sutcliffe, ac ereill. Ond y mae Clarke, Coke, ac ereill, yn meddwl fod y gyfraith hon yn cyrnedd, tra yr oedd-ynt yn yr anialwch, at yr anifeiliaid a leddid yn *ymborth*, yn gystal a'r rhai a leddid yn

4 Ac heb ei ddwyn i ddrws pabell y cyfarfod, i offrymu offwrn i'r Arglwydd, o flaen tabernacl yr Arglwydd; gwaed a fwrir yn erbyn y gwr hwnw; gwaed a dywalltodd efe: a thorir y gwr hwnw ymaith o blith ei bobl.

5 O herwydd yr hwn beth, dyged meibion Israel eu haberthau y rhai y maent yn eu haberthu ar wyneb y maes; ie dygant hwynt i'r Arglwydd, i ddrws pabell y cyfarfod, at yr offeiriad, ac aberthant hwynt yn aberthau hedd i'r Arglwydd.

6 A thaelled yr offeiriad y gwaed ar allor yr Arglwydd, wrth ddrws pa-

bell y cyfarfod, a llosged y gwêr yn arogl peraid i'r Arglwydd.

7 Ac nac aberthant eu haberthau mwy i gythreuliaid, y rhai y buant yn puteinio ar eu hol. Deddf dragwyddol fydd hyn iddynt, trwy eu cenedlaethau.

8 ¶ Dywed gan hyn wrthynt, Pwy bynag o dŷ Israel, ac o'r dycethriaid a ymdeithio yn eich mysg, a offrymo boeth-offwrn, neu aberth;

9 Ac nis dwg ef i ddrws pabell y cyfarfod, i'w offrymu i'r Arglwydd; torir ymaith y gwr hwnw o blith ei bobl.

10 ¶ A phwy bynag o dŷ Israel, ac

ebyrth; ac os oedd pob anifel yn cael ei ladd yn y ffordd aberthol hon, yr oedd ymborth beunyddiol y bobl yn dwyn ar gof iddynt yr angenheidrwydd am aberth dros bechod. Eithr ereill a dybiant nad oedd yr Israeliaid, tra yr oeddynt yn yr auialweh, yn bwyta un anifel ond y rhai a offrymesid yn gyntaf i'r Arglwydd, i'r dyben i chwaneu eu hystôr erbyn yr aent i Ganaan; ac os felly, bydd yn hawdd cysoni ein gwahanol awdron.

Adn. 4. *Ac heb ei ddwyn i ddrws pabell y cyfarfod*] Penodwyd hyn, (1) Yn wrthgyferbyniol i'r paganiaid, y rhai a aberthent y mhob lle; (2) I dori ymaith achlysuron cilunaddoliaeth; (3) I attal i'r bobl drawsfeddiannu a swydd offeiriadol; (4) Ac i arwyddo na dderbyniad Duw un aberth ond trwy Crist ac yn ei eglwys, o'r hon yr oedd y labell yn gysgod. Ond er fod dynion yn cael eu rhwymo gan y gyfraith hon, yr oedd Duw yn rhydd i wneyd fel y mynai, fel y cawn siampl yn I Sam. vii. 9. a xi. 15. I Bren. xviii. 33. (*Gwaed a fwrir yn erbyn y gwr hwnw*—gan iddo ef dywallt y gwaed yn ambrhiadol, afe a ystyrir fel yn euog o lofruddiaeth, am y gallasai y gwaed hwnw, pe defnyddiesid ef yn aberthol, wneyd cymod dros einioes gŵr.

Adn. 5. *Y rhai y maent yn eu haberthu ar wyneb y maes*] Canys felly y gwnai yr Israeliaid cyn adeiladu y pabell, yr hyn yn awr a waherddir iddynt. *Yn aberthau hedd*—nid yw efe yn enwi y rhai hyn ar wahan oddiwrth aberthau ereill, fel yr ymddengys oddiwrth y rheswm am y gyfraith, yn gystal ag oddiwrth adn. 8, 9: ond yr oedd y brofedigaeth yn y rhai hyn yn fwy cyffredin, o herwydd eu hamledd; ac yn gryfach, am fod rhan o honnynt yn perthyn i'r offrymwyr; ac yr oedd yr esgus yn fwy golygus, trwy nad oedd y rhai hyn yn cael eu hystyried mor santaidd a'r lleill, y rhai a berthynent oll i Dduw neu i'r offeiriad.

Adn. 6. *A thaelled yr offeiriad y gwaed ar allor yr Arglwydd*] Y mae yr adnod hon yn cynwys y rheswm am y gyfraith flaenorol, o herwydd fod gan Dduw hawl yn y gwaed a'r gwêr, â'r rhai yr oedd ef yn cael ei foddioni, a'r bobl eu cymodi. Y ddwy ran yna yn unig a grybwyllir, fel y rhai mwyaf enwog a phriodol, er fod rhanau ereill hefyd yn cael eu cadw i Dduw.

Adn. 7. *Ac nac aberthant eu haberthau mwy i gythreuliaid*] Fel y gwnaent unwaith, nid fe allai yn uniongyrchinol neu fwrriadol, ond mewn effaith a chanlyniad, am rai y cythraul yw awdwr delwaddoliaeth, a'i fod ef yn cael ei wasanaethu a'i anrhydeddu yn arbenig trwy hyn. Ac fel yr oedd yr Aistiaid yn nodedig am eu heilunaddoliaeth, felly llygrwyd yr Israeliaid â'r un lefain, Jos. xxiv. 14. Eze. xx. 7, a xxiii. 2, 3; a pharhaodd rhai o honnynt i ddylyn yr unrhyw yn yr auialweh: cydmarher Amos v. 25, 26, â Deut. xii. 8. Gelwir eilunod yn *gythreuliaid*, Dent. xxxii. 17, 2 Cron. xi. 15, Salu. cvi. 37, I Cor. x. 20, Dat. ix. 20. Ond dywedir fod y gair gwreiddiol y gyfieithir yma *gythreuliaid*, yn briodol yn arwyddo *geifr*; ac y mae yn dra hysbys fod rhai o'r benafiaid yn addoli eu duwiau dan lun *geifr*. Dywed Herodotus fod pob math ar afr yn cael ei haddoli yn yr Aifft, ond yn enwedig *bwech geifr*. Ond er y dichen mai *geifr* neu ryw *eilunod* ereill a olygir yn yr adnod hon, eto y mae yn dra hysbys fod y *gythreuliaid* yn llythyrenol yn cael eu haddoli mewn gwahanol barthau o'r byd. Y maent yn *Cateut* a *Pego*, yn yr India Ddwvreniol, yn aberthu i'r cythraul; a phan y daifu i Columbus ddatguddio *Hispaniola*, efe a gafodd y trigolion yn addoli duwiau a alwent hwy *Zemes*, y rhai oeddynt lun cythreuliaid wedi eu paentio. Cawn hefyd anghreiffiaau lled gyffelyb mewn hanesion cenhadol o Affrica Orllewinol. *Y rhai y buant yn puteinio ar eu hol*—er fod y gair hwn yn cael ei arfer yn fynydd i esod allan *eilunaddoliaeth*, eto nid ydym i feddl nad yw efe i'w gymeryd mewn ystyr *llythyrenol* mewn amrai ranau o'r ysgrythyr, hyd yn nod lle yr arferir ef mewn cysylltiad âg eilunaddoliaid. Da y gwyddys fod *Baalpeor* ac *Astaroth* yn cael eu haddoli gyda defodau afian, a bod puteindra cyhoeddus yn ffurfio rhan arbenig o addoliad amrai dduwiau yn uhlith yr Aistiaid, y Moabiaid, y Canaan-iaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid: gwel ar pen. xx. 16, a Gen. xxxviii. 21.

Adn. 8, 9 *Pwy bynag o dŷ Israel ac o'r dycethriaid, &c.*] Nid yn unig rhaid i'r Israeliaid ddwyn eu poeth-offrymu a'u haberthau i ddrws pabell y cyfarfod, ond y mae y gyfraith hon yn cyraedd hefyd at y 'bobl gymysg' (Exod. xii. 38) a ymdeithent yn eu mysg.

o'r dyeithriaid a ymdeithio yn eich msg, a fwytao ddim gwaed; myfi a osodaf fy wyneb yn erbyn yr cnaid a fwytao waed, a thoraf ef ymaith o fysg ei bobl.

11 O herwydd einioes y cnawd sydd yn y gwaed; a mi a'i rhoddais i chwi ar yr allor, i wneuthur cymod dros eich eneidiau: o herwydd y gwaed hwn a wna gymod dros yr enaid.

12 Am hyny y dywedais wrth feibion Israel, Na fwytaed un enaid o honoch waed; a'r dyeithr a ymdeithio yn eich msg, na fwytaed waed.

13 A plwy bynag o feibion Israel, neu o'r dyeithriaid a ymdeithio yn eu msg, a helio helfa o fwystil, neu o aderyn a fwytaer; tywallted ymaith ei waed ef, a chuddied ef â llwch.

14 O herwydd einioes pob cnawd

Adn. 10. *Musi a osodaf fy wyneb yn erbyn yr enaid a fwytao waed*] Hyny yw, mi a fyddaf yn elyn iddo ef, ac a ddialaf arno yn ebrwydd. Y mae Duw yn cyneryd cosp y cyfryw i'w law ei hun. am y gallai y troseddwr wneyd hyny yn ddirgel, fel nas gallai y swyddog wybod am y trosedd na'i gopsi.

Adn. 11, 12. *O herwydd einioes y cnawd sydd yn y gwaed*] Sydd yn ymddibynu ar y gwaed, ac a gedwir ac a feithrinir ganddo. *O herwydd y gwaed hwn a wna gymod dros yr enaid*—yn gysgodol, a chydâ golwg ar waed Crist, yr hwn yr oedd ef yn ei gynrychioli, a thrwy yr hwn y mae y cymod yn wirioneddol yn cael ei wneuthur. Felly y mae y rheswm yn ddyblyg: 1. Am fod hyn yn fwyta pridwerth eu heinioes eu hunain, yr hyn oedd yr un peth a'n dyfetha eu hunain. 2. Am ei fod yn anniolegharwch ac yn anmharch i santiaid waed Crist, yr hwn a ddylasai fod ganddynt mewn bri gwastadol.

Adn. 13. *Tywallted ymaith ei waed ef, a chuddied ef â llwch*] Dywed Maimonides mai y rheswm am y gyfraith hon oedd, fel na fyddai i'r Israeliaid gydgysfarfod o amgylch y gwaed, a gwledda arno, fel y gwnai y Zabeaid; y rhai, pan laddent anifel, a roddent ei waed ef mewn llestr, a chan eistedd o'i amgylch a wleddent arno. Gall fod y gyfraith hon yn cael ei bwrriadu i'r Israeliaid erbyn y byddent yn wasgaredig yn Nghanaan, pryd y byddai yn rhy bell iddynt ddyfod â gwaed y creaduriaid a laddent i ddybenion teuluaidd at ddrws y deml i Jerusalem: ond os oedd hi mewn grym iddynt yn yr anialwch, gellir meddwl ei bod yn derbyn ar y ddadl yn adn. 1—3, ac yn profi mai gwaed yr ebyrth yn unig oedd i gael ei ddwyn at ddrws y babell, tra y byddid yn claddu gwaed yr holl anifeiliaid a leddid yn ymborth iddynt.

Adn. 14. *O herwydd einioes pob cnawd yn ei waed*] Darfu i'r frawddeg hon, pa un sydd yn cynwys gwirionedd tra phwysig, fodoli yn ysgrifau Moses uwchlaw tair mil o flynyddan cyn i sylw un athronydd gael ei dynu at y pwnc. Fod y gwaed mewn gwirionedd yn

yw ei waed; yn lle ei einioes ef y mae: am hyny y dywedais wrth feibion Israel, Na fwyteuach waed un cnawd; o herwydd einioes pob cnawd yw ei waed: pwy bynag a'i bwytao, a dorir ymaith.

15 A phob dyn a'r a fwytao y peth a fu farw o hono ei hun, neu ysglyfaeth, pa un bynag ai priodor, ai dyeithrddyn; golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a hydded aflan hyd yr hwyr: yna glân fydd.

16 Ond os efe nis gylch hwynt, ac ni gylch ei gnawd; yna y dwg efe ei anwiredd.

PENNOD XVIII.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a dy-

meddu egwyddor *fyfiol*, a bod bywyd yr holl gorff yn deiliaw oddiwrtho, sydd athrawiaeth o ddwyfod ddatguddiad, yr hon y darfu i sylwadau a phrawfiadau y difyniaethwyr cywiraf wasanaethu yn fawr i'w chadarnhau. Priodol *gylchrediol* yr hylif pwysig hwn trwy yr holl gorff dynol a ddysgwyd gyntaf gan Solomon mewn iaith allegawl, Preg. xii. 6; ac a ddatguddiwyd, tel ei gelwir, ac a eglurwyd, gan Dr. Harvey yn 1628; er fod rhai athronyddion Eidaliaid â'r un dyb ganddynt ychydig cyn hyny. Y difyniaethwr cywrair hwn oedd y cyntaf a gyflawn adfywiodd y dyb Poesenaidd am *fyndoliaeth* y gwaed; pa dyb a goleddwyd wedi hyny gan y gwir enwog Dr. John Hunter, profeswr difyniaeth yn Llundain, ac a gyflawn sefydlwyd ganddo ef trwy amrywiaeth unawr o resymau cryfion a phrawfiadau manwl. *Na fwyteuach waed un cnawd*—heblaw y rhesymau moesol yn erbyn bwyta gwaed a nodwyd uchod ar adn. 11, 12, gall y darlennydd weled rhesymau anianyddol yn y sylwadau ar Gen. ix. 4, ac yn enwedig ar Act. xv. 20.

Adn. 15. *A phob dyn a'r a fwytao y peth a fu farw o hono ei hun*] Trwy anwybodaeth; canys pe gwnaethai hyny yn wybodol, buasai y gorp yn drymach. *Neu ysglyfaeth*—canys yr oedd y gwaed yn y ddau achos yn cael ei gadw yn y corff. *Dyeithrddyn*—ag ydoedd yn broselyt i'r grefydd Iuddewig: yr oedd dyeithriaid ereill yn cael bwyta y cyfryw bethau, Deut. xiv. 21.

Adn. 16. *Yna y dwg efe ei anwiredd*] Sef y gorp am dano, ac am hyny rhaid iddo offwrwm aberth drosto.

PEN. XVIII. Adn. 1. *A Llefaraodd yr Arglwydd wrth Moses*] Gan mai un dyben neillduol o eiddo Duw oedd cadw ei bobl rhag arferion anfad ac eilunaddolgar cenedloedd ereill, y mae Moses yn awr yn derbyn gorchymyn neillduol i attal yr Israeliaid oddiwrth amrai o'r arferion annaturiol hyny ag oeddynt gyffredin yn mhllith yr hen eilunaddolwyr.

wed wrthynt, Myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw.

3 Na wnewch yn ol gweithredoedd gwlad yr Aifft, yr hon y trigasoch ynddi; ac na wnewch yn ol gweithredoedd gwlad Canaan, yr hon yr ydwyf yn eich dwyn chwi iddi; ac na rodiwch yn eu deddfau hwynt.

4 Fy marnedigaeithau i a wnewch, a'm deddfau a gedweh, i rodio ynddynt: myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw.

5 Ie, cedweh fy neddfau a'm barnedigaeithau: a'r dyn a'u cadwo, a fydd byw ynddynt: myfi *yw* yr Arglwydd.

6 ¶ Na nesäed neb at gyfnasaf ei

Adn. 2. *Myfi yw yr Arglwydd eich Duw*] Eich Penadur a'ch Deddfoddr. Y mae hyn yn cael ei ddywedyd yn fynych, i ddangos ei ddwyfol awdardod ef i orchymyn, a'u rhwymedigaeith hwythau i ufyddhau.

Adn. 3. *Gwlad yr Aifft—gwlad Canaan*] Crybwyllir i ddwy geneul yma, am fod eu preswiliad hwy yn eu plith yn gwneuthur eu siamplau drygionus yn y pethau canlynol yn fwy peryglus. Ond ynddynt hwy cynwysir pob cenedl halogedig arall.

Adn. 4. *Fy marnedigaeithau i a wnewch*] Er na byddoch yn gweled y rheswm neillduol am rai o honynt, ac er eu bod yn groes i ddeddfau ac arferion cenbedloedd ereill.

Adn. 5. *A'r dyn a'i cadwo, a fydd byw ynddynt*] Nid yn unig yn ddeddwyd yma, ond yn dragwyddol ar ol hyn. Chwanegir hyn fel rheswm cryf paham yr oeddynt i ddylyn gorchymynion Duw yn hytrach na siamplau dynion, am fod eu bywyd a'u deddwyddwch yn ymddibynu ar hyn. Ac er mewn manylrywydd, ac yn ol y cyfammod gweithredoedd, nas gallent hwy arddelwri bywyd am wneuthur felly, oddieithr fod eu hufydd-dod yn gyffredinol, perffaith, a pharhans; (ac felly ni all neb ar ol y cwymp gael ei gyfiawnhau trwy y ddeddf;) eto, trwy y cyfammod gras, y mae y bywyd hwn yn cael ei addaw i bawb ag sydd yn ufyddhau yn gywir i orchymynion Duw. *Myfi yw yr Arglwydd*—Heb. 'myfi yw JEHOFA,' yr hwn wyf fyddlon i gadw fy nghyfammod ac i gyflawni fy addewidion: gwel ar Exod. vi. 2, 3.

Adn. 6. *Na nesäed neb at gyfnasaf ei gnawd*] Heb. 'at wechbill ei gnawd,' ei berthynasau digyfrwng; rhai yn perthyn mor agos i ddynt nes, fel y dywedwn, mai ei gig a'i waed ei hun ydynt; megys ei chwaer, ei fam, ei ferch. Yn wir, pe caniatasid i berthynasau agos briodi eu gilydd, busasä raid i'r canlyniadau myaf drygionus ac andwyol ddeilliaw oddiwrth hyn: canys wrth fod yn fynych yn nghyd yn eu hieuenctyd, busasi hudoliaethau i anniweirdeb yn aml yn rhy gryfion i'w gwrthsefyll. Ond wrth gael eu dysgu trwy y fath attaliad a hwn i edrych ar bob cyfryw gyweithas fel yn waharddedig ac yn llosgach, cynorthwyid hwy i wrthsefyll hudoliaethau i

gnawd, i ddynoethi eu noethni: myfi *yw* yr Arglwydd.

7 Noethni dy dad, neu noethni dy fam, na ddynoetha: dy fam *yw* hi, na ddynoetha ei noethni.

8 Na ddynoetha noethni gwraig dy dad: noethni dy dad *yw*.

9 Noethni dy chwaer, merch dy dad, neu ferch dy fam, yr hon a anwyd gartref, neu a anwyd allan; na ddynoetha eu noethni hwynt.

10 Noethni merch dy fab, neu ferch dy ferch; na ddynoetha eu noethni hwynt: canys dy noethni di *ydyw*.

11 Noethni merch gwraig dy dad, plentyn dy dad, dy chwaer dithau *yw* hi; na ddynoetha ei noethni hi.

ddrwg. Modd bynag, yn mabandod y byd, rhaid fod yn gyfreithlon i frodyr briodi eu chwiorrydd eu hunain, megys yn rheulu Adda. Y pryd hyn yr oedd angenheidrwydd yn gofyn hyn; ond wedi i'r angenheidrwydd hwnw gael ei ddileu yn yr oesau canlynol, daeth y peth yn annglyfaddas ac anhriodol am ddau reswm: 1. Fel na fyddai i'r dyledswyddau dyledus wrth natur i berthynasau, gael eu cynmysgu gyda rhai o fath *gymdeithasol* neu *uladyddol*; canys allai dyn fod yn *frwd* ac yn *wr*, neu yn *fab* ac yn *wr*, ar yr un pryd, a chyflawni dyledswyddau y *ddau*? 2. Fel trwy gydbriodi ä theuluoedd ereill, y byddai i rywman y cyfammod cymdeithasol gael eu cadarnhau a'n hestyn, nes y byddai i gariad at ein cymydog, &c., gael ei deimlo i fod ar unwaith nid yn unig yn bethi doeth ynddo ei hun, ond belyd yn ddyledswydd dra hawdd; ac fel hyn fod i gynhennau, ymranïadau, ac ymladdau gael eu hattal. Dywed Diodorus Siculus fod yn ganiataol trwy gyfraith yn yr Aifft i *wr* briodi ei chwaer ei hun.

Adn. 7. *Noethni dy dad neu noethni dy fam*] Nid *yw* hyn ond un ffaith, er yn cael ei hamlygu ddrwg ffordd, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 8, 16, a pen. xx. 11. Arwydda y cyfryw ymadrodd fod y weithred yn ddianrhydedd o'r myaf i'r tad a'r fam. Yr oedd y cyfryw briodasau mewn arferiad yn mhlith yr Indiaid, yr Arabiaid, y Persiaid, ac ereill.

Adn. 8. *Gwraig dy dad*] Mam wen, neu lysfam.

Adn. 9. *Merch dy dad neu ferch dy fam*] Dy hanner chwaer; yr hon a anwyd gartref neu a anwyd allan—un wedi ei geni mewn priodas ä rhiant arall, neu allan o briodas. *Eu noethni hwynt*—ei noethni hi, yn ol y Sam. a'r LXX.

Adn. 10. *Merch dy fab neu ferch dy ferch*] Sef dy wyres. Nid oes un crybwylliad yn cael ei wneuthur am ferch dyn ei hun; oblegid, fel y dywed yr Iuddewon, gan fod priodas äg *wyrion* yn cael ei gwahardd, fod priodas ä *phlant* o angenheidrwydd yn gynyddedig.

Adn. 11. *Merch gwraig dy dad*] O'i gŵr cyntaf. Meddylir nad *yw* y gyfraith hon yn cyfeirio at achos yn yr hwn y byddai i fab

12 Na ddynnoetha noethni chwaer dy dad: cyfnesaf dy dad *yw* hi.

13 Na ddynnoetha noethni chwaer dy fam: canys cyfnesaf dy fam *yw* hi.

14 Na noetha noethni brawd dy dad; sef na nesâ at ei wraig ef: dy fodryb *yw* hi.

15 Na noetha noethni dy waudd: gwraig dy fab *yw* hi; na noetha ei noethni hi.

16 Na ddynnoetha noethni gwraig dy frawd: noethni dy frawd *yw*.

17 Na noetha noethni gwraig a'i merch; na chymer ferch ei mab hi, neu ferch ei merch hi, i noethi ei

noethni hi; ei chyfnesaf hi *yw* y rhai hyn: ysgelerder *yw* hyn.

18 Hefyd na chymer wraig yn nghyda'i chwaer, i'w chystuddio *hi*, gan noethi noethlmi hōno gyda'r lall, yn ei byw hi.

19 Ac na nesâ at wraig yn neilldu-aeth ei haflendid, i noethi ei noethni hi.

20 Ac na chydorwedd gyda gwraig dy gymydog, i fod yn aflan o'i phlegid.

21 Ac na ddod o'th had i fyned trwy *dân* i Moloch; ac na haloga enw dy Dduw: myfi *yw* yr Arglwydd.

gŵr briodi merch ei wraig ef, oddieithr fod tad y mab yn dad i'r ferch hefyd, ac felly ei bod hi yn hanuwr chwaer iddo ef. Ond os felly, y mae yr achos hwn wedi ei grybwyll eisioes, adn. 9.

Adn. 12, 13. *Chwaer dy dad—chwaer dy fam*] Sef dy fodryb.

Adn. 14. *Na noetha noethni brawd dy dad*] Trwy briodi ei wraig ef: *dy fodryb yw hi*—sef dy fodryb-yn-nghyfraith, neu wraig dy ewythr. 'Yn ol y gyfraith Iddewig, gallai ewythr briodi ei nith, er na allai modryb briodi ei nai; canys yn yr achos olaf byddai i uwch-afiaeth y gŵr ar y wraig ddyoddef, ac i drefn natur gael ei gwrthdroi, yr hyn ni ddygywydda yn y blaenaf.'—PRIDEAUX.

Adn. 15. *Dy waudd*] Neu dy ferch-yn-nghyfraith.

Adn. 16. *Gwraig dy frawd*] Yr oedd hon yn briodas annghyfreithlon, oddieithr fod y brawd wedi marw yn *ddiblant*. Yn yr achos hwnw nid yn unig yr oedd yn *gyfreithlon* iddo ef briodi ei chwaer-yn-nghyfraith, ond yr oedd efe mewn rhyw ystyr yn *rhwym* with y gyfraith i'w chymeryd hi yn wraig: gwel ar Deut. xxv. 5, &c.

Adn. 17. *Gwraig a'i merch*] Os byddai i ŵr briodi gweddw, i'r hon yr oedd merch, ni chaniateid iddo ef briodi y ferch hōno hyd yn nod ar ol i'w mam farw. *Na chymer ferch ei mab hi*—sef ŵyres dy wraig.

Adn. 18. *Na chymer wraig yn nghyda'i chwaer*] Hyn yw, na phrioda ddwy chwaer ar yr *pryd*, fel y gwnaeth Jacob â Rahel a Lea: ond nid ymdegnys fod dim yn y gyfraith hon yn gwahardd i ŵr briodi ei chwaer-yn-nghyfraith ar ol i'w wraig, sef ei chwaer hi, *farw*; am hynny chwaneigr, *Gan noethi noethni hōno gyda'r lall, yn ei byw hi*—sef tra y byddo hi byw. *I'w chystuddio hi*—neu i'w gofidio, with weled ei gŵr ei hun yn priodi ei chwaer hi hefyd. Y mae yma gyfeiriad amlwg at y gofid a'r eiddgedd a fodolai rhwng Lea a Rahel, trwy yr hyn yr oedd heddwch y teulu yn cael ei aflonyddu mor fynych, Gen. xxix. xxx. Fel ag y mae cyfraith Lloegr yn sefyll yn awr (1857), y mae yn annghyfreithlon priodi yr ail chwaer hyd yn nod wedi i'r gyntaf farw.

Adn. 19. *Ac na nesâ at wraig*] Hynny yw, at dy wraig dy hun; *yn neilldueth ei haflendid*—yr oedd hyn nid yn unig yn halog-

rwydd seremonïol, ond hefyd yn anfoesoldeb, am ba achos y mae yn cael ei enwi yn mhlith pechodau ysgeler, Eze. xviii. 6: ac am hynny y mae yn awr yn annghyfreithlon dan yr efenngyl: gwel ar pen. xv. 19—24.

Adn. 20. *Gwraig dy gymydog*] Gwel ar Exod. xx. 14.

Adn. 21. *Ac na ddod o'th had*] Sef o'th blant, Deut. xviii. 10, i *fyned trwy dân i Moloch*—Heb. 'i fyned trwydd i Moloch.' Ond er nad yw y gair *tân* yn y wreiddiol, y mae yn cael ei gyflwynol yn rhesymol o loeodd ereill, megys Deut. xviii. 10, a 2 Bren. xxiii. 10. *Moloch*, a elwir hefyd *Milcom*, ydoedd eilun yr Ammoniaid. Y mae yr enw yn arwyddo *breinin*, neu *lywodraeth frenhinol*; a meddylir ei fod yn dynodi yr *haul*, gwrth-ddrych uwchaf a blaenaf ond odid delwaddoliaeth. Yn awr, gan fod *tân* yn gysgod addas o'r haul, meddylir fod peri i'w had *fyned trwy dân* yn ddefod o briedigaeth, trwy yr hon y cysegrai rhieni eu plant i'r dau hwnw, naill ai trwy eu cyhwanu hwynt uwelben *tân*, neu trwy wneuthur iddynt gerdded rhwng dan *dân*, neu neidio dros *dân*. Dyma yw barn llawer o estonwyr galluog. Ond y mae SELDEN, yr hwn a roddes hanes helaeth am yr eilun yma, ac am y defodau â phia rai ei haddolid, yn dangos oddiwrth amrai dystiolaethau fod y Phenisiaid, a chenhedloedd ereill yn nghymydogoeth Judea, mewn gwirionedd yn aethu eu plant, mewn amseroedd o fawr adfyd, i'r ellyll gwaed-sychedig hwn. Dywed FAGIUS fod delw Moloch wedi ei gwneuthur o bres, yn yr hon yr oedd saith cell neu dderbyna, yn debygol yn cynrychioli y saith blaned: y gyntaf i dderbyn offwrn o beillied, yr ail o ddurturod, y drydedd o ddafad, y bedwaredd o hwrdd, y bumed o lo, y chweched o ŷch, y seithfed o blentyn; yr hwn, wedi ei gan yn y gell hon fel mewn ffwrn, a losgid ynddi i farwolaeth, tra y byddai y bobl yn dawnsio o amgylch yr eilun, ac yn euro tabyrddau i'haig i waeddiadau y baban arteithiedig gael eu clywed! Y mae genym awdurdod oddiwrth yr ysgrythrau i griedu fod y chenhedloedd hyn yn aberthu eu plant i'r eilun dychrynlyd hwnw mewn rhyw ffordd arswydus o'r fath: gwel 2 Cron. xxviii. 3, Salm ewi. 38, Jer. xix. 5, a xxxii. 35, Eze. xvi. 20, 21, a xxiii. 37—39. Yn yr holl loeodd hyn y mae 'tynu drwy dân,' yn arwyddo *difa* gan dân. Gallwn sylwi yn

22 Ac na orwedd gyda gwryw, fel gorwedd gyda benyw : ffeidd-dra *yw* hyny.

23 Ac na chydorwedd gydag un anifel, i fod yn arian gydag ef; ac na safed gwraig o flaen un anifel i orwedd dano : cymysgedd *yw* hyny.

24 Nac ymhalogwch yn yr un o'r pethau hyn : canys yn y rhai hyn oll yr halogwyd y cenhedloedd yr ydwyf yn eu gyru allan o'ch blaen chwi.

25 A'r wlad a halogwyd : am hyny yr ydwyf yn ymweled â'i hanwiredd yn ei herbyn, fel y chwydo y wlad ei thrigolion.

26 Ond cedwch chwi fy neddfau a'm barnedigaeithau i, ac na wneuch ddim o'r holl ffaidd bethau hyn; na'r priodor, na'r dyeithrddyn sydd yn ymdaith yn eich mysg :

27 (O herwydd yr holl ffaidd bethau hyn a wnaeth gwyr y wlad, y rhai a fu o'ch blaen, a'r wlad a halogwyd)

mbhellach, fod lle yn agos i Jerusalem yn yr hwn yr oedd y ddefod erchyll hon yn cael ei chyflawni. Gelynd ef *Dyffryn Ben-hinnom*, (2 Cron. xxviii. 3.) neu *Ddyffryn meibion Hinnom*, oddiwrth oernadau y babanod aberth-edig. Ac am yr un rheswm y cafodd efe yr enw *Tophet*, (2 Bren. xxiii. 10.) oddiwrth *toph*, 'tabwidd,' â phia un yr arferent foddli llefiadau alaeithus yr ebyrth annedwydd. *Ac na haloga enw dy Dduw*—byddai i'r arferiad yma gan yr Israellaid fod yr ymwrthodiad aflanaf a mwyaf halogedig o'r gwir Dduw; a rhoddai achlysur i ddyeithriaid gablu enw JERHOFA, fel pe buasai ef yn cefnogi y cyfryw greulonderau yn ei addolwyr.

Adn. 22. *Gyda gwryw*] Yr oedd y pechod ffaidd hwn yn beth cyfredin yn mhllith y Groegiaid yn gystal a'r Canaaneaid : gwel ar Gen. xix. 5, 2 Bren. xxiii. 7, a Rhuf. i. 27, &c.

Adn. 23. *Gydag un anifel*] Gwel ar pen. xx. 16.

Adn. 24. *Canys yn y rhai hyn oll*] Felly ymddengys fod anifel-gydiad, gwryw-gydiad, llosgi plant, a'r holl bechodau ereill a wa-herddir yma, yn cael eu chyflawni gan y Canaaneaid y pryd hyn, yr hyn oedd yr achos o'r fam a ddisgynodd arnynt.

Adn. 25. *Fel y chwydo y wlad ei thrigolion*] Hwn sydd *ddynsodwedd* tra grym, neu ddullymadrodd trwy ba un y gall unrhyw ran o natur ddifywyd gael ei harddangos fel yn meddu nwydau a rheswm dyn. Yr oedd y wlad ei hun, yr hon yr oeddynt yn sangu arfi, fel pe buasai yn ocheneidid danynt ac yn glaf arnynt, nes y mae yn eu chwydo allan fel gwenwyn.

Adn. 26. *Na'r priodor*] Sef un o'u cenedl hwy eu hunain; *na'r dyeithrddyn*—ag yd- oedd wedi ei broseltyio i'w crefydd hwy.

Adn. 27. *Yr holl ffaidd bethau hyn*] Gwel ar adn. 24.

Adn. 28. *Fel na chwydo y wlad chwithau*]

28 Fel na chwydo y wlad chwithau, pan halogoch hi, megys y chwydodd hi y genedl oedd o'ch blaen.

29 Canys pwy bynag a wnel ddim o'r holl ffaidd bethiau hyn; torir ym- aith yr eneidiau a'u gwnelo o blith eu pobl.

30 Am hyny cedwch fy neddf i, heb wneuthur yr un o'r deddfau ffaidd a wnaed o'ch blaen chwi, ac nac ymhalogwch ynddynt : myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw chwi.

PENNOD XIX.

ALLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth holl gynulleidfa meibion Israel, a dywed wrthynt, Byddwch santaidd : canys santaidd *ydwyf* fi, yr Arglwydd eich Duw chwi.

3 ¶ Onfwech bob un ei fam, a'i dad; a chedwch fy sabbothau : yr Arglwydd eich Duw *ydwyf* fi.

Er fod gwlad Canaan wedi ei rhwymo i'r Israellaid, eto rhaid iddynt ddysgwyl, os gwnaed hwy yr un pechodau a'r Canaaneaid, fod iddynt ddygoddef yr un gosp. 'Y mae Israellaid drygionus,' meddai Henry, 'mor ffaidd gan Dduw a Chanaaneaid drygionus, ac yn fwy felly; a chwydir hwy allan cyn gyntod, neu yn gynt.' Ac felly y gwnaed : gwel Jer. ix. 19, Ezech. xxxvi. 17—19.

Adn. 29. *Torir ymaith yr eneidiau a'u gwnelo o blith eu pobl*] Y mae yn debyg fod yr ymadrodd hwn i'w ddeall yn wahanol mewn gwahanol fanau; a'i fod yn arwyddo cosp eglwysol neu wladol, yn ol gwahanol natur y troseddau am ba rai ei gweinyddid.

Adn. 30. *Am hyny cedwch fy neddf i*] Yr hon yw yr unig flordd i osgoi cyfeiliornad mewn barn a buchedd. Nid yw yr hwn a allo ddywedyd yn mhob peth, *Felly yr ysgrifenydd*, byth yn debyg o dderbyn gau gredo, na dylun gau lwybr. *Heb wneuthur yr un o'r deddfau ffaidd*—neu yr arferion pechadurus, y rhai, wrth i'r Canaaneaid ymgynefino â hwynt, oeddynt wedi dyfod megys deddfau iddynt.

PEN. XIX. Adn. 1. *A llefarodd yr Arglwydd*] Yn y bennod hon cawn ailadroddiad o brif orchymynion y gyfraith, i roddi grym adnewyddol iddynt; a dygir i mewn lawer o chwaneigiadau ac egluriadau, fel y gellid eu deall yn well.

Adn. 2. *Byddwch santaidd*] Yn neillduedig oddiwrth yr holl halogiadau crybwyllledig, ac yn hollol gysegredig i Dduw. *Canys santaidd ydwyf* fi—yn fy anian a'm holl gyfreithiau, y rhai sydd yn santaidd, yn gyfiawn, ac yn dda.

Adn. 3. *Onfwech bob un ei fam a'i dad*] Y mae y fam yn cael ei henwi yn mlaenaf, am fod yr ymarferiad o'r ddyledswydd hon yn dechren gyda hi, trwy fod mamau yn dyfod yn adnabyddus i'r plant yn gynt na'u tadau ;

4 Na throwch at eilunod, ac na wneuch i chwi dduwiau tawdd: yr Arglwydd eich Duw *ydwyff* fi.

5 ¶ A phan aberthoch hedd-aberth i'r Arglwydd, yn ol eich ewyllys eich hun yr aberthwech hyny.

6 Ar y dydd yr offrymoch, a thranoeth, y bwyteir ef: a llosger yn tân yr hyn a weddillir hyd y trydydd dydd.

7 Ond os gan fwyta y bwyteir ef o fewn y trydydd dydd, fliaidd *fydd* efe; ni bydd gymeradwy.

8 A'r hwn a'i bwytao a ddwg ei anwredd, am iddo halogi cysegredig *beth* yr Arglwydd; a'r enaid hwnw a dorir ymaith o blith ei bobl.

9 ¶ A phan gynauafoch gynauaf eich tir, na fedo yn llwyr gonglau dy facs, ac na chynull loffion dy gynauaf.

10 Na loffa hefyd dy winllan, ac na chynullrawn gweddill dy winllan; gad hwynt i'r tylawd ac i'r dycethr: yr Arglwydd eich Duw *chw* *ydwyff* fi.

11 ¶ Na ladratewch, ac na ddywed-

wch gelwydd, ac na thwyllwch bob un ei gymydog

12 ¶ Ac na thyngwch i'm henw i yn anudon, ac na haloga enw dy Dduw: yr Arglwydd *ydwyff* fi.

13 ¶ Na chamattal oddiwrth dy gymydog, ac na yspeilia ef: na thriged cyflog y gweithiwr gyda thi hyd y bore.

14 ¶ Na felldiga y byddar, ac na ddod dramgwydd o flaen y dall; ond ofna dy Ddruw: yr Arglwydd *ydwyff* fi.

15 ¶ Na wneuch gam mewn barn; na dderbyn wyneb y tylawd, ac na phareha wyneb y cadarn: barna dy gymydog mewn cyfiawnder.

16 ¶ Ac na rodia yn athrodwr yn mys dy bobl; na saf yn erbyn gwaed dy gymydog: yr Arglwydd *ydwyff* fi.

17 ¶ Na chasâ dy frawd yn dy galon: gan geryddu cerydda dy gymydog, ac na ddyoddef bechod ynddo.

18 ¶ Na ddiala, ac na chadw lid i feibion dy bobl; ond câr dy gymydog

ac mewn rhan am fod plant yn gyffredin yn daedduol i fod yn hyfach ar eu man nag ar eu tud. A *chedwech fy sabbothau*—yn ol gorchymyn eich rhieni; neu, os ydynt hwy yn esgeuloso y sabbot hwy hunain, rhaid i chwi ei gadw yn ol gorchymyn Duw: gwel Exod. xx. 8.

Adn. 4. *Na throwch at eilunod*] Heb. *elilim*, yn llythrenol *dimiau*; ac ymddengys mai at hyn y cyfeiria St. Paul, I Cor. viii. 4, lle y dywed, 'Ni a wyddom nad yw eilun *ddim yn y byd*.'

Adn. 5. *Yn ol eich ewyllys eich hun yr aberthwech hyny*] Fel y barnoch yn addas; (gwel ar pen. vii. 11, 12, 16;) canys er fod yr aberth hwn yn gyffredin yn cael ei ofyn, gadewid i'w hewyllys hwy benderfynu y pethau. Ond gellir cyfeithu y wreiddiol, *er ewyllys da i chwi eich hun*—hyn yw, i'r dyben i gyraedd ffair neu ewyllys da Duw. Ac fel hyn y mae Le Clerc yn ei ddeall, yn gyson â'r LXX, y Vulgate, y Syriaeg, a'r Arabaeg.

Adn. 6—8. *Ar y dydd yr offrymoch, &c.*] Gwel ar pen. vii. 15—20.

Adn. 9. *A phan gynauafoch gynauaf*] Yr oedd rhyddid y tylawd i loffa yr ydâtesydd a'r gwinllanoedd yn osodiad dwyfol; canys yr oedd yr holl oruchwyliaeth Foesenaidd, fel y Gristionogol, yn anadlu cariad at Dduw, ac ewyllys da i ddyn.

Adn. 10. *Gad hwynt i'r tylawd ac i'r dycethr*] Y mae y dycethriaid yn cael eu cysylltu gyda'r tylodion, am nas gallent hwy etifeddu tir yn mhllith yr Hebreaid, a'u bod trwy hyn yn fynych yn dylodion. *I'r Arglwydd eich Duw chw* *ydwyff* *fi*—yr hwn wyf yn rhoddi i chwi yr holl bethau hyn, ond gyda chadwraeth o'm hawl ynddynt, a chyda gorchymyn i roddi rhan o honynt i'r tylawd.

Adn. 11, 12. *Na ladratewch, &c.*] Gwel ar Exod. xx. 7, 15.

Adn. 13. *Na thriged cyflog y gweithiwr gyda thi hyd y bore*] Pan y byddo arno ei eisiau i brynu lluniaeth iddo ei hun a'i deulu erbyn tranoeth.

Adn. 14. *Na felldiga y byddar*] Hyn yw, na ddywed *ddrug* am dano a foer *nived* iddo, ac yntau heb allu *clwyd*, fel ag i'w amuddiffyn ei hun. *Ac na ddod dramgwydd o flaen y dall*—fel ag i beri iddo syrthio ar ei draws. Amcan ac ysbryd y gorchymynion hyn ydyw attal dynion rhag cymeryd mantais mewn unrhyw achos ar anallu, anwybodaeth, diniweidrwydd, neu anhrofiad eu cymydogion.

Adn. 15. *Na dderbyn wyneb y tylawd*] Fel ag i roddi, o dosturi ato ef, farn anghyfiawn; *ac na phareha wyneb y cadarn*—fel ag i wro barn rhag ei ofn yntau.

Adn. 16. *Ac na rodia yn athrodwr*] Y mae *rachil* yn arwyddo *maelwr* neu *edwiewr teithiol*, a chymhwysir ef yma at un yn myned oddiangylch i faelira mewn athrod ac enllib, gan gasglu cyfrinach yn mhob teulu, a'i hadrodd lle bynag yr elo. *Na saf yn erbyn gwaed dy gymydog*—trwy ddwyn camdystiolaeth i beryglu ei fywyd, neu trwy barhau yn ddyystaw pan y gellit dystiolaethu fleithiau a'i rhyddhäent ef.

Adn. 17. *Na chasâ dy frawd*] Nid yn unig na wna iddo un math ar ddrwg, ond na lochesa ddygasedd yn dy galon ato ef. *Gan geryddu cerydda dy gymydog*—dywed wrtho mewn cariad am ei fai, a hyn yn ddirgel os bydd modd. *Ac na ddyoddef bechod ynddo*—os bydd i ti ei weled yn pechu, neu wybod ei fod yn ymroddgar i ryw beth a beryglai ei enaid, bydded i ti yn dirion a serchus ei argyhoeddi o'i fai, a cheisio ei ennill oddiwrtho.

Adn. 18. *Câr dy gymydog megys ti dy hun*]

megys ti dy hun: yr Arglwydd ydyf fi.

19 ¶ Cedwch fy neddfau: na âd i'th anifeiliaid gydio o amryw rywogaeth; ac na haua dy faes âg amryw had; ac nac aed am danat ddilledyn cymysg o lin a gwlan.

20 ¶ A phan fyddo i wr a wnelo â benyw, a hithau yn forwyn gaeth wedi ei dyweddio i wr, ac heb ei rhyddhau ddim, neu heb roddi rhyddid iddi; bydded *iddynt* gurfa; ac na ladder hwynt, am nad oedd hi rydd.

21 A dyged efe yn aberth dros ei gamwedd i'r Arglwydd, i ddrws pabell y cyfarfod, hwrdd dros gamwedd.

22 A gwnaed yr offeiriad gymod

Tybiodd rhai, trwy gamdeall geiriau ein Harglwydd, 'Gorchymyn *newydd* yr wyf yn ei roddi i chwi, Ar garu o honoch eich gilydd,' &c., mai dan yr efengyl y caffod 'caru ein cymydog *fel ni ein hunain*' ei sefydlu gyntaf: ond y mae yr adnod hon yn dangos fod y dyb yn ddisail. Eithr cau arall *FEL* y carodd Crist ni, trwy *ddodi ein heinioes dros ein gilydd*, sydd yn ddiau yn orchymyn *NEWYDD*, wedi ei roddi trwy awdurdod Crist ei hun: gwel ar Ioan xiii. 34.

Adn. 19. *Na âd i'th anifeiliaid gydio o amryw rywogaeth*] Gwaharddwyd hyn mewn rhan i attal cywneirwydd a hyfdra dynion, y rhai a allent feiddio diwygio neu gyfnewid gyweithredodd Duw; ac mewn rhan i ddysgu i'r Israeliaid ffeiddio chwantau annaturiol, a pheiddio ymgymysgu â chenedloedd ereill mewn priodas na chwyfydd. *Na haua dy faes âg amryw had*—am na fydd iddynt addfedu yr un amser, a byddai i'r uwchaf gysgodi yr isaf. Gall fod hyn hefyd wedi ei friadu i wahardd arferion paganauidd; canys arferai y Sabeiaid a'r Amoriaid hau gwirnawn sychion gyda'u gwenith, oddiar dyb ofergoelus y byddai iddynt heb hyny gael enydiau drwg. *Ac nac aed am danat ddilledyn cymysg o lin a gwlan*—dywed Josephus, ac ysgrifennwy'r Iuddewig ereill, na oddefid i neb ond yr offeiriad wisgo y fath ddilledyn. Dywed amrai ferniaid fod y gair Hebreig *shaatnez*, a gyfeithir yma *lin a gwlan*, yn arwyddo rhyw *glytwaith ysblynydd*; a sylwa Dr. Forster, yr ymdeithydd, ei fod yn cyfateb i'r gair Aifftaidd *shoutnes*, yr hwn a arwydda wisg goegwech a chostfawr o wlan neu gotwm amryliw, yr hon a neillduai yr Aiffitiaid i'w dau-ia. Os felly, y mae y rheswm am y gwaharddiad hwn yn gwbl eglur. Yr oedd balchder ynfyd mewn gwisgiad yn ffynnu gynt yn y wlad hon. Meddai Dr. Henry, 'Pa beth a allai osod allan ymddanghosiad mwy penchwilan na choegyn Saesong o'r pedwarydd canrif ar ddeg? Efe a wisgai esgidiau pigfain hirion, wedi eu sierbau wrth ei liniau â chadwynau aur neu arian; hosan o un lliw am un goes, ac o liw arall am y llall; clôs byr yn

drosto â'r hwrdd dros gamwedd, gerbron yr Arglwydd, am ei bechod a bechodd efe: a maddeuir iddo am ei bechod a wnaeth efe.

23 ¶ A phan ddeloch i'r tir, a phlanu o honoch bob pren ymborh; cyfrifwch yn ddiennaededig ei ffrwyth ef: tair blynedd y bydd efe megys dienwaededig i chwi: na fwytaer o hono.

24 A'r bedwaredd flwyddyn y bydd ei holl ffrwyth yn santiaid i foliannu yr Arglwydd *âg ef*.

25 A'r bummed flwyddyn y bwytewch ei ffrwyth, fel y chwanego efe ei gnwd i chwi: myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw.

26 ¶ Na fwytechw ddim yn nghyd-

cyraedd at hanner ei forddwydydd; huan, un banner yn wŷn, a'r hanner arall yn ddû neu lās; barf hir; hwf sidan wedi ei fotymu dan ei ên, a'i frodio â digrifftuniau anifeiliaid, dawnswyr, &c., ac weithiau yn addurnedig âg aur a meini gwerthfawr.' Y wisg hon oedd uwchder y dullwedd yn nheyrnasiad y Brenin Edward III. Ymddengys fod rhyweth tebyg yn bodoli yn yr amseroedd patriarchaidd, fel y dysgwn oddiwrth y *siaced fraith* a wnaed gan Jacob i'w fab Joseph, Gen. xxxvii. 3.

Adn. 20—22. *A hithau yn forwyn gaeth*] Pe buasai hi yn *rhydd*, yr oedd y gyfraith yn gofyn iddi gael ei rhoddi i farwolaeth, Deut. xxii. 24; ond gan ei bod yn *gaeth*, meddylir fod ganddi lai o hunan-lywodraeth, ac am hyny lai o euogrwydd: eithr gan y cymerir yn ganiataol na ddarfu iddi hi wrthsefyll, neu ddar-fod iddi gydsynio, y mae hi, meddai Clarke, i gael ei *churo*, a'r dyn i ddwyn hwrdd yn *aberth dros gamwedd*. Yn ol y cyfeithiad Saesong o'r adnod hon, y *gaethferch* yn unig oedd i gael ei *churo*; ond yn ol ein cyfeithiad ni, yr oedd y *dyn* hefyd i gael ei guro. Yr Hebraeg *yw*, *bydded cursa*—yr hyn a allai berthynu iddynt ill dau, am fod y ddau yn euog. Ond y mae y Samaritanaeg yn ei ddarllen, 'Bydded iddo *ef* gurfa, ac na ladder *ef*, am nad oedd hi rydd.'

Adn. 23. *Tair blynedd y bydd efe megys dienwaededig i chwi*] Hyny *yw*, megys yn *afan*, ac am hyny i gael ei dafu ymaith, ac nid ei fwyta. Nis gall ffrwyth pren ieuanc fod yn dda; canys trwy ei fod heb gyraedd i gyflwr o lawn dyfiad, nis gall y nodd fod yn ddigon perffaith i ddwyn ffrwyth iachusol, a rhagorol yn ei ryw.

Adn. 24. *A'r bedwaredd flwyddyn y bydd ei holl ffrwyth yn santiaid*] Yn gysegredig i'r Arglwydd fel y blaenffrwythau a'r degymau, ac felly i gael ei roddi i'r offeiriad a'r Lefiaid, Num. xviii. 12, 13, Deut. xviii. 4. *I foliannu yr Arglwydd âg ef*—trwy allu a dation yr hwn y mae prenau yn dwyn ffrwyth i berffeithrwydd.

Adn. 25. *A'r bummed flwyddyn y bwytewch*] Ac o hyny allan; *fel y chwanego efe ei*

a'i waed; nac arferwch na swynion, na choel ar frudiau.

27 Na thalgrynwch odre eich pen, ac na thor gyrau dy farf.

28 Ac na wnewch doriadau yn eich cnawd am un marw, ac na roddwch brint nôd arnoch: yr Arglwydd *ydwyf* fi.

29 ¶ Na haloga dy ferch, gan beri

gnod i chwi—fel y rhyngo bodd i Dduw roddi ei fendith, yr hon yn unig a allai ei wneuthur yn gnydiol.

Adn. 26. *Nac arferwch na swynion*] Yr oedd yn warth o'r mwyaſ i'r Israeliaid, y rhai yr 'ymddiriedwyd iddynt am ymadroddion Duw,' fyned i ymgynghori â'r diafol; ac y mae hyn yn waeth i'r Cristionogion, i'r rhai yr 'ymddanghosodd Mab Duw fel y datodai weithredoedd diafol.' Y mae fod i Gristionogion fyned ad ddeiniaid i gael gwybod eu ffawd neu eu tynged, neu arferyd swynion er gwella cleydon, yn warth iddynt eu hunain, ac i'r enw mawr ar yr hwn eu gelwir. *Na choel ar frudiau*—gan gyfrif rhai dyddiau yn ffodiog, ac ereill yn anffodiog, yn ol y planedau. Heb. *velo teonenu*, 'na ddewiniwch wrth y cymylan,' yr hyn oedd mewn arferiad mawr yn mhllith y paganiaid, yn gystal a dewinio wrth *chediad adar*.

Adn. 27. *Na thalgrynwch odre eich pen*] Y mae hon a'r adnod ganlynol yn cyferio yn amlwg at arferion a fodolent yn mhllith yr Aifftiaid pryd yr oedd yr Israeliaid yn ymdeith yn yr Aifft. Dywed Herodotus fod yr *Arabiaid* yn eillio eu penau o amgylch er anrhydedd i *Bacchus*, yr hwn meddaut hwy oedd â'i wallt wedi ei dori fel hyn; a bod y *Maciaid*, pobl yn Libya, yn tori eu gwallt o amgylch, fel ag i adael siob ar frig y pen. Yn y modd hwn y mae y *Chineaid* yn tori eu gwallt hyd heddyw. Gallasai hyn fod er anrhydedd i ryw eilun, ac am hyn y cael ei wahardd i'r Israeliaid. Yr oedd y *gwallt* yn cael ei ddefnyddio yn fynych wrth ddewinio yn mhllith yr henafiaid, ac i ddybenion coelgrefyddol yn mhllith y Groegiaid. Dywed Homer fod rhieni yn arferol o gysegru gwallt en plant i ryw dduw; yr hwn, pan ddenent hwy i oedran gwyr, a dorent ymaith ac a gyflwynent i'r duw. Darfu i *Achilles*, yn anghladd *Patroclus*, dori ymaith ei gudydau euraidd a gysegrasai ei dad i'r afon-dduw *Sperchius*, a'u tafu i'r llif. Nyni a ddysgwn oddiw'rth *Virgil* fod y cudyn uwchaf o wallt yn cael ei gysegru i'r duwiau uffernol: gwel ei hanes ef am farwolaeth *Dido*, *Æn.*, llyfr iv. llin. 698. Os oedd y gwallt yn cael ei dalgrynu a'i gysegru i ddybenion o'r fath yma, dyry hyn gyfrif ar unwaith am y gwaharddiad hwn. *Ac na thor gyrau dy farf*—gan feddwl ond odid y cernflew ag sydd yn cysylltu y gwallt â'r farf. Yr oedd y rhai hyn yn ddiamau yn cael eu tori mewn rhyw fodd neillduel i ddybenion coelgrefyddol. Ac y mae llawer o'n cydwladwyr ein hunain, fel y sylwa Clarke, yn gwisgo eu trawsych mewn dull hynod; i ba ddybenion, goraf y gwyddant hwy. Oddiw'rth y delwau a'r lluniau ag

iddi buteinio; rhag puteinio y tir, a llenwi y wlad o ysgelerder.

30 ¶ *Cedwch fy sabbothau, a pherchwch fy nghysegr*: yr Arglwydd *ydwyf* fi.

31 ¶ *Nac cwch ar ol dewiniaid, ac nac ymfynwch â'r brudwyr, i ymhalogi o'u plegid*: yr Arglwydd eich Duw *ydwyf* fi.

sydd yn aros o eiddo yr hen Aifftiaid, cawn eu bod yn arferol o eillio yr holl fflew oddiar eu gwyneb, oddieithr yr hyn ydoedd ar yr Æn, yr hwn ni thorent ond ar amseroedd o alar.

Adn. 28. *Ac na wnewch doriadau yn eich cnawd am un marw*] Fod yr henafiaid yn dra angherddol mewn achosion fel hyn, yn tynu eu gwallt, rhwygo eu gwyneb, curo eu mynnes, &c., sydd dra hysbys: gwel ar Gen. l. 11. *Ac na roddwch brint nôd arnoch*—yr oedd yn arferiad tra henafol a chyffredinol i ddyinion roddi nôd ar eu cyffwrdd er anrhydedd i wrthdrysych eu haddoliad. Y mae holl lwythau yr Hindwaid yn dwyn ar eu talceni neu ryw le arall yr hyn a elwir y *nodau sectariaid*, y rhai sydd yn eu gwahaniaethu hwy oddiw'rth eu gilydd mewn ystryl gwaelu a chrefyddol. Y mae yr hen ysgrifenyddwr yn llawn o banesion am nodau wedi eu gwneuthur ar y gwyneb, y breichiau, y fynnes, &c., er anrhydedd i wahanol dduwiau; a thybja rhai mai at hyn y cyfeirir yn Dat. xiii. 16, 17, xiv. 9, 11, xv. 2, xvi. 2, xix. 20, a xx. 4, lle y mae y gau-addolwyr yn derbyn nodau y bwystfil ar eu dwylaw neu ar eu talcenu. Y mae llawer o'r Pabyddion hyd heddyw yn meddu llun y groes, y Forwyn Fair, a'r cyffelyb, wedi eu nodi ar eu breichiau, eu mynnesau, &c., trwy i'r cnawd yn gyntaf gael ei bigo, ac yna ei rwbio â lliw glas, yr hwn a dreiddia i mewn yn annileadwy.

Adn. 29. *Na haloga dy ferch, gan beri iddi buteinio*] Fel y gwai y Cenedloedd yn fynych er anrhydedd i rai o'u duwiau. Yr oedd benywod *Cyprus*, yn ol Justin, wedi ennill y gwaddol a dderbyniau eu gwyr gyda hwy wrth briodi, trwy buteintra cyhoeddus yn mlaenllaw; a darfu i'r *Phenisiaid*, yn ol Awstin, wneuthur anrheg i *Venus* o'r ennill a gyrhaeddwyd trwy buteiniaid cyhoeddus eu merched cyn iddynt briodi.

Adn. 30. *Cedwch fy sabbothau, a pherchwch fy nghysegr*] Trwy fyned yno i addoli ar y sabbothau. Yr oedd rhai yn gyfeiliornus yn barnu fod yn anaddas i ddyinion fyned allan o'u tai ar y sabboth: gwel ar Exod. xvi. 29.

Adn. 31. *Nac cwch ar ol dewiniaid*] Y mae y gair Hebreig *oboth* yn arwyddo yn debygol fath ar *fol-lefarwyr*; rhai ag sydd, tra dan ddylanwad eu helyyll, yn *chwyo* ddiol yn fawr, fel yr arwyddo y gair Hebreig, ac yn rhoddi atebion mewn math ar orwylltedd: gwel achos o'r fath yma yn *Virgil*, *Æn.*, llyfr vi. llin. 46, &c. Meddylir fod cyfeiriad at y math yma yn Esay xxix. 4, a Job xxiii. 18, 19. *Ac nac ymfynwch â'r brudwyr*—gwel ar Exod. xxii. 18. Y mae ceisio gwybod yr hyn na welodd Duw yn addas ei ddatguddio, yn bechod yn

32 ¶ Cyfod gerbron penwyni, a pharcha wyneb henuriad: ac ofna dy Dduw: yr Arglwydd *ydwyff* fi.

33 ¶ A phan ymdeithio dyeithrddyn yn nghyda thi yn eich gwlad, na flinwch ef.

34 Bydded y dycithr i chwi, yr hwn a ymdeithio yn eich plith, fel yr un a hanffo o honoch, a châr ef fel ti dy hun; o herwydd dycethriaid fuoch yn ngwlad yr Aifft: yr Arglwydd eich Duw *ydwyff* fi.

35 ¶ Na wnewch gam ar farn, ar lathen, ar bwys, nac ar fesur.

36 Bydded i chwi gloriannau cyfiawn, gerig cyfiawn, epha gyfiawn, a hin gyfiawn: yr Arglwydd eich Duw *ydwyff* fi, yr hwn a'ch dygais allan o dir yr Aifft.

37 Cedwch chwritau fy holl ddeddfau, a'm holl farnedigaethau, a gwnewch hwynt: yr Arglwydd *ydwyff* fi.

erbyn ei ddoethineb, ei ragluniaeth, a'i ddaioni ef. Darfu i Dduw mewn trugaredd guddio y wybodaeth o *ddufodiant* oddiwrthym ni, gan roddi i ni *oibaith*, 'dysgwyliaid am ddaioni dyfodol,' yn ei lle.

Adn. 32. *Cyfod gerbron penwyni*] I ddangos parch iddynt wrth fyned heibio; a dywed yr Iuddewon eu bod yn gorfod eistedd yn ddiatreg ar ol iddynt basio, i amlygu mai o anrhydedd iddynt hwy y safasant ar eu traed. *Ac ofna dy Dduw*—yr hwn sydd yn gofyn i ti barchu fel hyn yr henuriad a'r penwyn: gwel ar Gen. xlviii. 12.

Adn. 33. *Na flinwch ef*] Trwy orthrymder na thrais. Yr oedd y gyfraith hon i aundiffyn a chysuro y *dyeithrddyn* ar unwaith yn hynaws a doeth. Nid oes neb mor amddifad a'r dyeithrddyn, na neb mewn mwy o angen am garedigrwydd a thosturi.

Adn. 34. *Fel yr un a hanffo o honoch*] Fel un o honoch chwi trwy enedigaeth. Yr oedd yn ddoeth cefnogi dyeithriaid, gan y byddai i hyny ennill llawer i ddyfod i ymsefydlu yn eu plith, yr hyn a chwaneagai eu north gwladwriaethol hwy, ac a barai i lawer broseltyo at eu crefydd. *O herwydd dycethriaid fuoch yn ngwlad yr Aifft*—ac felly gywddoch trwy brofiad am eu hofnau, eu cyfyngderau, a'u heisiau: gwel ar Exod. xxii. 21.

Adn. 35. *Na wnewch gam ar farn*] Mewn achos a ddelo o flaen y swyddog gwladol, yr hwn sydd i bendefynu pob peth yn ol y gyfraith. *Ar lathen*—mewn pethau a fesurir o ran hyd, wrth y cyfudd, y rhychwant, &c., megys tir, brethyn, &c. *Ar bwys*—mewn mettelau a phethau ereill a bwysir wrth y siel, y dalent, &c. *Nac ar fesur*—pethau a fesurir wrth yr omer, yr epha, y log, &c., megys olew, gwin, neu ŷd.

Adn. 36. *Gerig cyfiawn*] Dywed Maimonides nad oedd yr Iuddewon i gael gwneuthur eu pwysau o'n mettel, rhag iddynt rhyu ac

PENNOD XX.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywyded,

2 Dywed hefyd wrth feibion Israel, Pob un o feibion Israel, neu o'r dycithr a ymdeithio yn Israel, yr hwn a roddo o'i had i Moloch, a leddir yn farw; pobl y tir a'i llabyddiant ef a cherig.

3 A mi a osodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnw, ac a'i toraf o fysg ei bobl; am iddo roddi o'i had i Moloch, i aflanhau fy nghysegr, ac i halogi fy enw santaidd.

4 Ac os pobl y wlad gan guddio a guddiant eu llygaid oddiwrth y dyn hwnw (pan roddo efe ei had i Moloch) ac nis lladdant ef:

5 Yna y gosodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnw, ac yn erbyn ei dylwyth, a thoraf ymaith ef, a phawb a ddylunant ei buteindra ef, gan buteinio yn ol Moloch, o fysg eu pobl.

ysgafahau, eithr o gerig lathredig. *Epha gyfiawn a hin gyfiawn*—enwir y rhai hyn am mai hwy a ddefnyddid amlaf, yr epha at beithau sych, a'r hin at beithau gwlyb; ond y mae pob mesur arall yn cael ei gynwys danynt.

Adn. 37. *Cedwch chwritau fy holl ddeddfau*] Canys ni thâl i ni bigo a dewis ein dyledswyddau, ond rhaid i ni amcanu yn gydwyddol at sefyll yn berffaith yn holl ewyllys Duw.

PEN. XX. Adn. 1. *A llefarodd yr Arglwydd*] Yma y caulyn y cospedigaethau am y troseddau gwaharddedig yn y pennodau blaenorol.

Adn. 2. *Yr hwn a roddo o'i had i Moloch*] At yr hyn a ddywyded ar pen. xviii. 21, gallwn chwaneagu, fod y rabiniaid yn darlunio yr eilun hwn fel wedi ei wneyd o bres, ar lun dyn gyda phen eidon. Crybwylla Cesar am arferiad lled gyfelyb o eiddo y Derwyddon. Yr oeddynt hwythau yn gwneyd delw o wiaid plethbedig, ac yn cau ynddi y sawl ag oeddynt wedi eu deddfyru i farw; a chan osod hon ar dan, yr oedd y cwbl yn cael eu difa yn nghyd.

Adn. 3—5. *A mi a osodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnw*] Ymddygaf ato fel gelyn i'r natur ddynol, a gwnaf ef yn gogolofn o'm cyfiawnder. Fel hyn, os aberthid y *plant* i gynddaredd y diafol, rhaid aberthu y *rhieni* i gyfiawnder Duw; ac os byddai i'r swyddogion esgeuluso eu dyledswydd, cymerai Duw y gwaith i'w ddwyrlaw ei hun.

Adn. 6. *I buteinio ar eu hol hwynt*] I geisio cynghor neu help ganddynt.

Adn. 7. *Ymsanteiddiwch*] Ymneillduwch oddiwrth ffyrdd a chyndeithas pechaduriaid; *canys misfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi*—yr hwn y dylech nfyddhau iddo a'i wasan-aethu.

Adn. 8. *Eich santeiddwydd*] Yr hwn wyf yn eich neillduo oddiwrth athenid ac eilunaddol-

6 ¶ A'r dyn a dro ar ol dewiniaid, a brudwyr, i buteinio ar eu hol hwynt; gosodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnw hefyd, a thoraf ef ymaith o fysg ei bobl.

7 ¶ Ymsanteiddiwrch gan hyny, a byddwch santeidd: canys myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw chwi.

8 Cêdwch hefyd fy neddfau, a gwnewch hwynt: myfi *yw* yr Arglwydd eich santeiddydd.

9 ¶ Os bydd neb a felldigo ei dad neu ei fam, lladder ef yn farw: ei dad neu ei fam a felldigodd efe; ei waed *fydd* arno ei hun.

10 ¶ A'r gŵr a odinebo gyda gwraig gŵr *arall*, *sef yr hwn* a odinebo gyda gwraig ei gymydog, lladder yn farw y godinebwr a'r odinebwraig.

11 A'r gŵr a orweddo gyda gwraig ei dad, a noethodd noethni ei dad: lladder yn feirw hwynt ill dau; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.

12 Am y gŵr a orweddo yn nghyd-

a'i waudd, lladder yn feirw hwynt ill dau: cymysgedd a wnaethant; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.

13 A'r gŵr a orweddo gyda gŵr, fel gorwedd gyda gwraig, ffeidd-dra a wnaethant ill dau: lladder hwynt yn feirw; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.

14 Y gŵr a gymero wraig a'i mam, ysgelerder *yw* hyny: llosgant ef a hwythau yn tân; ac na fydded ysgelerder yn eich mysg.

15 A lladder yn farw y gŵr a ymgydio âg anifel: lladdant hefyd yr anifel.

16 A'r wraig a el at un anifel, i orwedd dano, lladd di y wraig a'r anifel hefyd: lladder hwynt yn feirw; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.

17 A'r gŵr a gymero ei chwaer, merch ei dad, neu ferch ei fam, ac a welo ei noethni hi, ac y gwelo hitbau ei noethni yntau; gwaradwydd *yw* hyny; torer hwythau ymaith yn

iaeth y cenedloedd, i fod yn bobl briodol i mi fy hun, gan roddi i chwi fy ngras i gadw fy neddfau.

Adn. 9. *Os bydd neb a felldigo ei dad neu ei fam*] Er fod y gair *yekalleh* yn arwyddo siared yn ddiystyryllyd ac ambarchus am rieni, eto eu rhegu neu eu mellidithio a olygir yma yn benaf. *Lladder ef yn farw*—gwel ar Exod. xx. 12, a xxi. 17. *Ei waed fydd arno ei hun*—efe ei hun *yw* yr achos o'i farwolaeth; efe a haedda farw am drosedd mor annaturiol.

Adn. 10. *Lladder yn farw y godinebwr a'r odinebwraig*] Cafodd godineb, pa mor ysgafu llyng y dichon iddo gael ei gyfrif gan ddynion ag sydd yn amddifod o bob teimlad o rinwedd ac anrhydedd, ei ystyried nid yn unig dan y trefnidied Moesenaidd, ond gan amrai genhedloedd gwareiddiedig ereill, yn drosedd marwol. Wrth ddeddfau henafol Solon awdar-dodid y gŵr i ladd y godinebwr a'r odinebwraig, os daliaf efe hwynt yn y weithred; neu os na ddewisai efe eu lladd, gallai dynu eu llyngaid hwy. Yn mhllith yr Aiffitiaid, os byddai gwraig wedi cael eu hudo i odineb, ei thrwyn a holltid, a'r dyn a dderbyniai fi o wialenodiau. Yn ol cyfreithiau Rhufain hefyd, gellid rhoddi y godinebwr i farwolaeth os delid ef yn y weithred. Wrth ystyried natur ysgeler a chanlyniadau andwyol y drwg hwn, nid rhyfedd ei fod yn cael ei gospi i'r eithaf mewn llywodraethau iawn-drefnedig.

Adn. 11. *A'r gŵr a orweddo gyda gwraig ei dad*] Hwn oedd pechod y Corinthiaid halogedig, yr hwn a 'draddodwyd i Satan, i ddinystyr y cnawd': gwel ar I Cor. v. 1—5.

Adn. 12. *Yn nghyda'i waudd*] Sef ei ferch yn nghyfraith: *cymysgedd a wnaethant*—trwy wrthdroi y drefn a benodwyd gan Dduw, a gwneuthur i'r un plentyn ymddangos fel ei *wŷr* ar yr un pryd ag y mae yn *fab* iddo.

Adn. 13. *Lladder hwynt yn feirw*] Ill dau, oddieithr fod y naill wedi ei orfodi gan y llall: gwel Deut. xxii. 25.

Adn. 14. *Y gŵr a gymero wraig a'i mam—llosgant ef â hwythau yn tân*] Tybia rhai mai y cwbl a feddylir yma *yw*, eu *serio* â haiarn poeth, trwy yr hyn y gwneid hwynt byth wedi hyny yn waradwyddus. Ond dywed yr Iuddewon fod y troseddwr yn cael ei roddi mewn dom hyd at ei liniau, ac yna fod llian yn cael ei glylymu am ei wddf, yr hwn a dynid gan y ddau dyst nes y gwnaent iddo agor ei safn, i'r hon y tywelltid plwm tododdedig, yr hwn a redai i lawr ei wddf ef, ac a losgai ei ymysgaroedd.

Adn. 15. *Lladdant hefyd yr anifel*] Mewn rhan er attal genedigaeth anghenfil, ac mewn rhan i ddilen y golladwriaeth o drosedd mor ffaidd.

Adn. 16. *A'r wraig a el at un anifel*] Y mae genym awdurdod un o'r haneswyr enwocaf yn y byd, sef *Herodotus*, i ddywedyd fod hwn yn drosedd adnabyddus yn yr Aiffit; 'ie, ddardod i achos o'r natur yma gymeryd lle pan yr oedd efe yno. Meddai ef, 'Yn y dal-aeth hon, o fewn cof genyf fi, cymerodd y weithred ddrwgargoelus hon le: yr oedd hwrdd yn ymgydio mor gyhoeddus gyda gwraig, nes yr oedd pawb yn ei wybod, &c.' Ar ol hyn, a oes achos i ni ryfeddu ddardod i Dduw wneuthur deddfau o'r natur yma, pan yr ymddengys fod y ffeidd-dra hwn nid yn unig yn arferedig yn mhllith yr Aiffitiaid, ond yn rhan o'u cyfundrefn goelgrefyddol! Bydd i'r sylw hwn roddi cyfrif am lawer o'r gwaharddiadau hynod a gawn yn y gyfraith Poesenaidd; a gwelwm cystal y priodoldeb o'r lleill, y rhai nad *yw* y rheswm am danynt mor eglur, pe byddai genym hanesion helaethach am y defodau a fodolent yn y gwledydd hyny.

ngolwg meibion eu pobl: noethni ei chwaer a noethodd efe; efe a ddwg ei anwiredd.

18 A'r gŵr a orweddo gyda gwraig glaf o'i misglwyf, ac a noetho ei noethni hi; ei dyferlif hi a ddatguddiodd efe, a hithau a ddatguddiodd ddyferlif ei gwaed ei hun: am hyn torer hwynt ill dau o fysg eu pobl.

19 Ac na noetha noethni chwaer dy fam, neu chwaer dy dad; o herwydd ei gyfnesaf ei hun y mae yn ei noethi: dygant eu hanwiredd.

20 A'r gŵr a orweddo gyda gwraig ei cwythr frawd ei dad, a noetha noethni ei cwythr: eu pechod a ddygant; byddant feirw yn ddiblant.

21 A'r gŵr a gymero wraig ei frawd (peth aflan *yw* hyny) efe a noethodd noethni ei frawd: diblant fyddant.

22 ¶ Am hyny cedwch fy holl ddeddfau, a'm holl farnedigaethau, a gwnewch hwynt; fel na chwydo y wlad chwi, yr hon yr ydwyf yn eich dwyn iddi i breswlyo ynddi.

23 Ac na rodiwch yn neddfau y genedl yr ydwyf yn eu burw allan o'ch blaen chwi: o herwydd yr holl bethau hyn a wnaethant; am hyny y ffieiddiais hwynt.

24 Ac wrthych y dywedais, Chwi a etiffeddwch eu tir hwynt; mi a'i rhoddaf i chwi i'w feddiannu; gwlad

yn liffeirio o laeth a mel: myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw chwi, yr hwn a'ch neillduais chwi oddiwrth bobloedd *ercill*.

25 Rhoddwch chwithau wahanïaeth rhwng yr anifel glân a'r aflan, a rhwng yr aderyn aflan a'r glân; ac na wnnewch eich eneidïau yn ffiaidd o herwydd anifel, neu o herwydd aderyn, neu o herwydd dim oll a ymlusgo ar y ddaear, yr hwn a neillduais i chwi i'w gyfrif yn aflan.

26 Byddwch chwithau santaidd i mi: o herwydd myfi yr Arglwydd *ydwyf* santaidd, ac a'ch neillduais chwi oddiwrth bobloedd *ercill*, i fod yn ciddof fi.

27 ¶ Gŵr neu wraig a fo ganddynt ysbryd dewiniaeth, neu frud, hwy a leddir yn farw: â cherig y llabyddiant hwynt; eu gwaed *fydd* arnynt eu hunain.

PENNOD XXI.

A DYWEDODD yr Arglwydd wrth Moses, Llefara wrth yr offeirïaid, meibion Aaron, a dywed wrthynt, Nac ymhaloged *neb* am y marw yn mysg ei bobl.

2 Ond am ei gyfnesaf agos iddo; am ei fam, am ei dad, ac am ei fab, ac am ei fereh, ac am ei frawd,

3 Ac am ei chwaer o forwyn, yr

Adn. 17. *Ac a welo ei noethni hi*] Yn yr adnod hon ac amrai o'r rhai canlynol bernir fod *noethi noethni* yn meddwl nid priodas, ond puteindra neu odineb.

Adn. 18. *Torer hwynt ill dau o fysg eu pobl*] Tybia rhai mai marwolaeth a olygir yma, ereill mai esgymuniad oddiwrth freintiau y cyfammod Israelaidd.

Adn. 19. *Dygant eu hanwiredd*] Sef y gomp briodol i'w trosedd.

Adn. 20. *Byddant feirw yn ddiblant*] Cyn i blentyn gael ei eni o'r ymlogzach hwnw; neu, bydd i'r plant hyny farw o'u blaen hwy, yr hyn a ystyrir yn ofid blin, Jer. xxii. 30. Ond yr ystyr tehycaf yw, meddai Poole, na fyddai eu plant hwy ddim ond *bastardïaid*, ac felly yn cael eu cau allan o gynulleidfa yr Arglwydd.

Adn. 21. *A'r gŵr a gymero wraig ei frawd*] Oddieithr yn yr achos a ganiateid gan Dduw, Deut. xxv. 5: gwel ar pen. xviii. 16.

Adn. 22. *Fel na chwydo y wlad chwi*] Gwel y dynsodwedd grymus hwn yn cael ei eglur ar pen. xviii. 25, 28.

Adn. 23. *Am hyny y ffieiddiais hwynt*] Oddiwrth hyu nyri a ddysgwn fod cwpan anwiredd y cenhedloedd Canaaneaidd yn awr yn llawn, ac nas gallent, yn gyson â dwyfol gyf-iawnder, gael eu harbed yn hwy.

Adn. 24. *Gwlad yn liffeirio o laeth a mel*] Gwel ar Exod. iii. 8.

Adn. 25. *Rhwng yr anifel glân a'r aflan*] Yn ol y rheol a osodwyd i lawr yn pen. xi.

Adn. 26. *Byddwch chwithau santaidd i mi*] Gwel ar adn. 7, 8.

Adn. 27. *Ysbryd dewiniaeth*] Sef ysbryd neu ellyll, yr hwn, trwy ddefodau swynawl, y tybir ei fod yn rhwym i weithredu wrth alwad y neb a fyddo yn ei roddi ar wait: gwel ar Gen. xli. 8, Exod. vii. 11, 22, Lef. xix. 31.

PEN. XXI. Adn. 1. *Nac ymhaloged neb am y marw*] Ni chai neb o'r offeirïaid gyffwrdd â chorff marw, na chynorthwyo yn ei anghladd ef, na bwytia yn y wledd anghladdol. Y mae y rheswm am y gyfraith hon yn amlyg, am y byddai iddynt, trwy y cyfryw halogiad, gael eu cau allan oddiwrth gymdeithasu â dynion, i'r rhai, trwy eu galwedigaeth, yr oeddynt i fod yn wasanaethgar ar bob achlysur, ac oddiwrth ymdrin â phethau santaidd.

Adn. 2. *Ond am ei gyfnesaf agos iddo*] Dan ba air cyffredinol ymddengys fod ei wraig yn gynwysedig, er nad yw yn cael ei henwi; ac am hyny y mae yn cael ei nodi fel achos *neillduol* ddarfod i Ezeziel, yr hwn oedd yn offeirïad yn gystal ag yn broffwyd, gael ei wahardd i alaru am ei wraig, Ezec. xxiv. 16, &c. Yr eithriadau hyn a wnaeth Duw mewn ymstyngiad at wendid dynol, am y byddai yn dra anhawdd yn y cyfryw achosion ffrwyno y

hon sydd agos iddo, yr hon ni fu eiddo gwŕ: am hŕno y gall ymhalogi.

4 Nac ymhaloged penaeth yn mysgr ei bobl, i'w aflanhau ei hun.

5 Na wnant foelni ar eu penau, ac nac cilliant gyrau eu barfau, ac na thorant doriadau ar eu enawd.

6 Santaidd fyddant i'w Duw, ac na halogant enw eu Duw: o herwydd offrymu y maent ebyrth tanlyd yr Arglwydd, a bara eu Duw; am hyny byddant santaidd.

7 Na chymerant buteinwraig, neu un halogedig, yn wraig: ac na chymerant wraig wedi ysgar oddiwrth ei gwŕ; o herwydd santaidd *yw* efe i'w Dduw.

8 A chyfrif di ef yn santaidd; o herwydd bara dy Dduw di y mae efe yn ei offrymu: bydded santaidd i ti; o herwydd santaidd *ydwyff* fi yr Arglwydd eich santeiddyd.

9 ¶ Ac os dechreu merch un offeir-

serchiadau. Eithr nid yw y goddefiad hwn yn perthyn ond yn unig i'r is-offeiriad, nid i'r archoffeiriad, adn. 4, 10.

Adn. 3. *Ac am ei chwaer o forwyn—yr hon ni fu eiddo gwŕ*] Na feddai wŕ i ofalu am ei hanghladd; yr hyn gan hyny oedd yn swydd angenrheidiol o elusen yn ei brawd, er yn offeiriad.

Adn. 4. *Nac ymhaloged penaeth*] Yn mhlith yr offeiriad, sef yr archoffeiriad; canys yr oedd ei swydd ef yn gysgod o offeiriadaeth *barhaus* ein Harchoffeiriad mawr, yr hwn sydd yn byw bob anser i eiriol drosom ni.

Adn. 5. *Na wnant foelni ar eu penau*] Gwel ar pen. xix. 27.

Adn. 6. *Bara eu Duw*] Sef yr holl offrymau, oddieithr y poeth offrymau, y rhai a elwir yma yn 'fara,' neu fwyd.

Adn. 7. *Na chymerant buteinwraig*] Rhaid i offeiriad beidio priodi gwraig â gair drwg iddi, un a fuasai yn euog, neu a dybid yn euog o afliend. Rhaid iddo nid yn unig beidio priodi *putan*, er mor edifeiriol y gallo fod; ond rhaid iddo beidio priodi un *halogedig*, neu un o ymddygiad ysgafu ac anweddaidd; na gwraig wedi ei *hysgar*, am fod achos i feddwl mai am ryw fai yr ysgarwd hi.

Adn. 8. *Bydded santaidd i'*] Heb ymhalogi trwy un o'r priodasau gwaharddedig hyn.

Adn. 9. *Os dechreu merch un offeiriad buteinio*] Cynwysir hefyd ei fab ef a'i wraig; canys y mae y rheswm am y gyfraith, yr hwn a chwanelir yma, yn perthyn iddynt o'i: ac nid oes dim yr fwy cyffredin nag enwi un am y lleill. *Halogi ei thad y mae*—gwneuthur ei berson ef a'i swydd, ac o ganlyniad crefydd hefyd, yn agored i ddirmyg. *Llosgwr hi yn tŕn*—o barch i urddas yr offeiriadaeth, ac i'w hattal hwynt rhag arferion yr offeiriad paganaid, y rhai a halogent felly eu gwragedd a'u merched. Y mae rhai yn meddwl mai ei *serio* a feddylir; ond y mae Maimonides yn

iad buteinio, halogi ei thad y mae: llosgwr hi yn tŕn.

10 A'r offeiriad penaf o'i frodyr, yr hwn y tywalltwyd olew yr enciniad ar ei ben, ac a gysegrwyd i wisgo y gwisgoedd, na ddyosged oddiam ei ben, ac na rwyged ei ddillad:

11 Ac na ddeued at gorff un marw, nac ymhaloged am ei dad, nac am ei fam:

12 Ac nac aed allan o'r cysegr, ac na haloged gysegr ei Dduw; am *fod* coron olew enciniad ei Dduw arno ef: myfi *yw* yr Arglwydd.

13 A chymered efe wraig yn ei morwyndod,

14 Gwraig weddw, na gwraig wedi ysgar, nac un halogedig, na phutain; y rhai hyn na chymered: ond cymered forwyn o'i bobl ei hun yn wraig.

15 Ac na haloged ei had yn mysgr ei bobl: canys myfi *yw* yr Arglwydd ei santeiddyd ef.

dyfynu rabbi, yr hwn a welodd ferch i offeiriad yn cael ei llosgi am buteinio.

Adn. 10. *A'r offeiriad penaf*] Sef yr archoffeiriad, yr hwn yn unig a eneinid; *na ddyosged oddiam ei ben*—yr hyn oedd arferiad galarwyr y pryd hyny, pen. x. 6; er wedi hyny i'r arddedol gael ei chyfnwid, i'r galarrwyr orcluddio eu penau, 2 Sam. xv. 30, Esther vi. 12. *Ac na rwyged ei ddillad*—arwydd arall o alar. Trwy fod yr archoffeiriad yn cynrychioli ein Harglwydd bendigedig, yr oedd yn ofynol ei fod ef yn neillduol santaidd; ac y mae ef yn cael ei arddangos fel *brenin* yn mhlith ei bobl, adn. 4.

Adn. 11. *Ac na ddeued at gorff un marw*] I'r ystafell neu y tŕ lle y gorweddi.

Adn. 12. *Ac nac aed allan o'r cysegr*] I anghladd neb; canys ar achlysuron ereill efe a allai fyned allan. *Ac na haloged gysegr ei Dduw*—trwy fyned o hono i anghladd perthynas, na thrwy fyned iddo cyn pen y saith niwrnod a benodwyd er ei lanhad, Num. xix.

11. *Am fod coron enciniad ei Dduw arno ef*—yr oedd yr archoffeiriad, trwy ei swydd, yn arddangos gweddnod *offeiriadol* Crist; trwy ei ENEINIAD, ei weddnod *profwydol*; a thrwy ei GORON, ei weddnod *brenhinol* ef.

Adn. 13. *A chymered efe wraig yn ei morwyndod*] Mewn rhan am fod ei wraig yn gysgod o'r eglwys, yr hon a gydmherir i 'forwyn bur,' 2 Cor. xi. 2, megys yr oedd yntau yn gysgod o Grist; ac mewn rhan er mw y sicrwydd nad oedd ei wraig yn butan neu un halogedig, adn. 7.

Adn. 14. *Gwraig weddw*] Oddieithr gweddwi ei ragflaenor, fel y mae rhai yn casglu oddiwrth Ezeq. xlv. 22: eithr tybia ereill mai at offeiriad cyffredin y cyfeirir yno.

Adn. 15. *Ac na haloged ei had*] Na fydded ei hiliogaeth o fam waharddedig.

Adn. 17. *Yr hwn y byddo anaf arno*] 'Ni ddylai fod gan ddyn ag sydd yn gweinyddu

16 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

17 Llefara wrth Aaron, gan ddywedyd, Na nesäed nn o'th had di trwy eu cenedlaethau, yr hwn y byddo anaf arno, i offrymu bara ei Dduw :

18 Canys ni chaiff un gŵr y byddo anaf arno nesâu ; y gŵr dall, neu y cloff, neu y trwyndwn, neu y neb y byddo dim gormod yddo ;

19 Neu y gŵr y byddo iddo droed twn, neu law don ;

20 Neu a fyddo yn gefngrwm, neu yn gor, neu â magl neu bysen ar

ei lygad, neu yn grachlyd, neu yn glafrrlyd, neu wedi ysigo ei cirin,

21 Na nesäed un gŵr o had Aaron yr offeiriad, yr hwn y byddo anaf arno, i offrymu ebyrth tanllyd yr Arglwydd : anaf sydd arno ; na nesäed i offrymu bara ei Dduw.

22 Bara ei Dduw, o'r *pethau* santeidd cysegredig, ac o'r *pethau* cysegredig, a gaiff efe ei fwyta.

23 Eto nac aed i mewn at y wahanlen, ac na nesäed at yr allor, am fod anaf arno ; ac na haloged fy nghysegroedd : canys myfi *yw* yr Arglwydd eu santeidddydd hwynt.

mewn pethan santeidd, ddim yn ei berson na'i ymddygiad a'r nas gall dueddu i'w wneuthur ef yn barchus yn ngolwg y rhai ag y gweinydda iddynt. Os bydd arno ryw *ddiffyg personol*, rywbeth a ddichon ei wneuthur yn ddirmygus neu ddiystyrlyd, bydd i'w ddefnyddioideb gael ei fawr niweidio, os nid ei gwbl attal. Modd bynag, os darfu i ddyn dderbyn rhyw nived yn ngwaith Duw, trwy erlidiaeth neu rywbeth arall, y mae ei greithian yn anrhydeddus, a bydd iddynt chwangu at ei barch. Ond os derbynir ef i'r weinidogaeth gydag unrhyw anaf a nodir yma, nis gall byth gael y parch hwn ag sydd yn anhegrol i ddiogelu ei ddefnyddioideb. Na ddywedeb neb mai rhan o'r gyfraith *Foesenaidd* yw hyn, ac nad ydym ni yn rhwym wrthi. Y mae yn ddeddf dragwyddol, seiliedig ar reswm, cyfaddasrwydd, synwyr cyffredin, ac anhegrol angenrheidrwydd.—CLARKE.

'Y rheswm am hyn sydd mewn rhan yn *gysgodol*, fel y gallai ef yn fwy llawn gynrychioli Crist, yr Arehoffeiriad mawr, yr hwn a gysgodid gan yr offeiriad a'r aberth, ac am hyn yr oedd y ddau i fod yn *ddianaf* ; ac mewn rhan yn *foesol*, i ddyysgu i bob Cristion, ac yn enwedig i weinidogion y cysegr, pa burdeb a pherffeithrwydd ealon a buchedd y dylent hwy lasurio am dano, a bod beiau hynod yn y meddwl neu yr ymarweddiad yn gwneuthur dyn yn anghymhwys i weinidogaeth yr efengyl ; ac mewn rhan yn *synwryol*, am fod y cyfryw anafau yn dueddol i fagu dirmyg ar y dyn, ac o ganlyniad ar ei swydd, ac ar y pethau santeidd yn y rhai y gweinydda. Am y rheswm hwn y mae y cyfryw ddynion ag y mae diffygion neu aflunieiddrwydd hynod arnynt yn anghymhwys eto i'r weinidogaeth, oddieithr *lle y mae doniau a grasusau rhagorol*, y rhai sydd yn amddiffyn dyn oddiswyr ddielwigrwydd ei brebrenoldeb corfforol.—BESSON. Gwel yr adfeddyliadau.

Adn. 18. *Y gŵr dall*] Mewn un llygad; canys yr oedd yn anniehonadwy i nn hollol ddall fod ar waith yn y fath wasanaeth. *Neu y cloff*—heb ganddo ond un goeth. *Neu y trwyndwn*—fel eiddo *epa* : felly y mae y cyfeithiadau goraf yn ei ddarllen. *Neu y neb y byddo dim gormod yddo*—megys *chwe* bys ar ei law neu ei droed.

Adn. 19. *Neu y gŵr y byddo iddo droed*

twn neu law don] Sef traed clwpa, coesau ceimion, &c. ; neu un a fyddo â'r migwrn, yr arddwrn, neu y bysedd wedi dadgymalu.

Adn. 20. *Neu a fyddo yn gefngrwm*] Yn gefnhrwng neu gefngrwba. *Neu yn gor*—yn rhy *fyr* neu yn rhy *denu*, megys yr arwyddia y gair *dak*, fel ag i fod yn neillduol o hynod, neu yn wawdus yr olwg arno. *Neu â magl neu bysen ar ei lygad*—un â lhwyrw neu ddyrchwydd ar y llygad, neu ysmotiau neu bilen nodadwy. *Neu yn grachlyd neu yn glafrrlyd*—o gorfinaws drwg, yn cael ei arddangos trwy graeb neu glafr. *Neu wedi ysigo ei cirin*—wedi tori ei lieingig, yr hwn a'i hanalluogai i ddyoddef lludded a chaledi ei swydd : gwel yr adfeddyliadau.

Adn. 21. *Na nesäed i offrymu bara ei Dduw*] Neu i gyflawni swydd yr offeiriad mewn aberthu, &c.

Adn. 22. *Bara ei Dduw—a gaiff efe ei fwyta*] Er na chai un anafus o had Aaron gynorthwyo yn ngwasanaeth yr allor, eto caent swyta o'r pethau cysegredig ; canys er nas gallent weithio, rhaid iddynt er hyn beidio newynu. Yr anafau hyn oeddynt gyfryw nas gallent hwy eu gochelyd, ac am hyn rhaid peidio eu difrio am danynt : rhaid hyd yn nod i'r plentynt afluniaidd yn y teulu gael rhan plentynt.

Adn. 23. *Eto nac aed i mewn at y wahanlen*] Yr hon oedd rhwng y cysegr a'r cysegr santeiddiolaf, i losgi yr aroglarth, i drefnu y bara dangos, ac i drin y lampau, y rhai oeddynt yn gyfagos i'r llen lônno, er y tuallan iddi. *Ac na nesäed at yr allor*—sef allor y poeth-offrwm, yr hon oedd y tuallan i'r cysegr. Yr ystyr yw, nad oedd efe i gael offeiriadu mewn un o'r ddau le hyny.

Adn. 24. *A llefarodd Moses hymn wrth Aaron, &c.*] Hyn yw, efe a arddodd y deddfau cynwysedig yn y bennod hon, yn ol gorchymyn Duw, adn. 1.

ADFEDDYLIADAU.—Dywed yr Iuddewon, meddai AINSWORTH, fod 120 o anafau yn analluogi yr offeiriad : 8 yn y pen, 2 yn y gwddf, 9 yn y clustiau, 5 yn yr aelau, 7 yn yr amrantau, 19 yn y llygaid, 9 yn y trwy, 9 yn y genau, 3 yn y bol, 3 yn y esof, 7 yn y dwylaw, 16 yn y dirgelloed, 8 mewn unrhyw ran o'r corff, 8 yn y croen, a 7 yn y nerth a'r anadl. Yn yr hen amseroedd, hyd yn nod yn

24 A llefarodd Moses hyny wrth Aaron, ac wrth ei feibion, ac wrth holl feibion Israel.

PENNOD XXII.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth Aaron, ac wrth ei feibion, am iddynt ymneillduo oddiwrth bethau cysegredig meibion Israel, ac na halogant fy enw santaidd, *yn y pethau* y maent yn eu cysegru i mi: *myfi yw* yr Arglwydd.

3 Dywed wrthynt, Pwy bynag o'ch holl hiliogaeth, trwy eich cenedlaethau, a nesao at y pethau cysegredig a gysegro meibion Israel i'r Arglwydd, a'i aflendid arno; torir ymaith yr enaid hwnw oddi ger fy mron: *myfi yw* yr Arglwydd.

4 Na fwytaed neb o hiliogaeth Aaron o'r pethau cysegredig, ac yntau yn wahanglwyfus, neu yn ddyferllyd, hyd oni lanhäer ef: na'r hwn a gyffyrddo â dim wedi ei halogi wrth y marw, na'r hwn yr el oddi wrtho ddisgyniad had;

mllith y paganiaid, dynion o'r ymddangosiad mwyaf parchus a benodid i'r offeiriadaeth. Dywedir am *Metellus*, ar ol iddo gollu in llygad wrth geisio achub y *palladium* o'r filamau, pan oedd teml *Vesta* ar dân, ddarfod gommedd yr offeiriadaeth iddo, er iddo wneuthur y fath gymwynas ragorol i'r cyffredin, trwy yr hyn yr ennillodd efe y fath anrhydedd mawr; eto y dyb gyffredin oedd, fod offeiriad ag ydoedd ddiffygiol mewn ihyw aelod i'w ochelyd fel peth drwg-argoelus. Yn nllir Groeg, y barnwyr a ddeiwent y dyn prydfeithaf i gario *Uestri* santaidd en duw; y nesaf ato mewn prydferthwch personol a arweinai yr *ijch*; a'r trydydd mewn prydferthwch a gariai y *taleithi*, yr *ysnodenau*, y *gwin*, a'r pethau ereill a ddefnyddid wrth aberthu. Wedi y cwbl, rhaid addef fod rhai dnwinyddion enwog, ysgolheigion mawrion, pregethwyr talentog, a gweinidogion defnyddiol a llwyddiannus, yn llenwi y weinidogaeth Grisionogol o hrd i bryd, yn mllith y gwabanol ganghenau, er eu bod yn llafurio dan rai o'r anafau a grybwyllir yn y bennod hon.

PEN. XXII. Adn. 1. *A llefarodd yr Arglwydd*] Y mae yr un pwnc yn cael ei barhau yn y bennod hon ag a drinir yn y flaenorol, gyda'r chwaneaidd hwn, fod yn angenrheidiol i'r *aberrthau* hefyd fod yn beiffaith, yn gystal a'r *offeiriad*. Yn ngwasanaeth Duw, o dan y gyfraith, nis gellid derbyn *offrwm* amherffraith, mwy nag *offrymwr* amherffraith.

Adn. 2. *Am iddynt ymneillduo*] Hyny yw, pan fyddo unrhyw aflendid arnynt, fel yr ymddengys oddiwrth yr adnodau dyllynol.

Adn. 3. *A nesao at y pethau cysegredig*]

5 Na'r un a gyffyrddo âg un ymlusgiad, trwy yr hwn y gallo fod yn aflan, neu â dyn y byddai aflan o'i blegid, pa aflendid bynag fyddo arno:

6 A'r dyn a gyffyrddo âg ef, a fydd aflan hyd yr hwyr; ac na fwytaed o'r pethau cysegredig, oddieithr iddo olchi ei gnawd mewn dwft.

7 A phan fachludo yr haul, glân fydd; ac wedi hyny bwytaed o'r pethau cysegredig: canys ei fwyd ef *yw* hwn.

8 Ac na fwytaed o ddim wedi marw ei hun, neu wedi ei ysglyfaethu, i fod yn aflan o'i blegid: *myfi yw* yr Arglwydd.

9 Ond cadwnt fy neddf i, ac na ddygant bechod *bob un* arnynt eu hunain, i farw o'i blegid, pan halogant hi: *myfi yw* yr Arglwydd eu santeiddyd hwynt.

10 Ac na fwytaed un alltud o'r peth cysegredig: dyeithrddyn yr offeiriad, a'r gwas cyflog, ni chaiff fwyta y peth cysegredig.

11 Ond pan bryno yr offeiriad ddyd am ei arian, hwnw a gaiff fwyta o

I'w bwyta hwynt, neu i gyffwrdd â hwynt; canys os oedd cyffyrddiad un o'r bobl, â'i aflendid arno, yn halogi yr hyn y cyffyrddai efe âg ef, llawer mwy felly eiddo yr offeiriad. *Torir ymaith yr enaid hwnw*—' oddiwrth fy ordinhadau i trwy esgymuniad: efe a gauri allan oddiwrth y gweinyddiad a'r cyfranogiad o honynt.—BENSON. Ond y mae Le Clerc yn ei ddeall am dori ymaith trwy fa'wolaeth; a gellir casglu oddiwrth adn. 9, mai marwolaeth a olygir.

Adn. 4—6. *Yn wahanglwyfus neu yn ddyferllyd*] Gwel ar pen. xiii—xv.

Adn. 7. *Canys ei fwyd ef yw hwn*] Neu foddion ei gynaliaeth. Dywedir hyn i arwyddo paham na weinyddid cosp drymach ar yr offeiriad nag ar y bobl yn yr un achos, am fod ei angen yn galw am ryw ysgafnhad.

Adn. 8. *Wedi marw ei hun*] Gwel ar pen. xvii. 15.

Adn. 9. *I farw o'i blegid*] Am esgeuluso neu droseddau fy neddf hon.

Adn. 10. *Ac na fwytaed un alltud, &c.*] Gwel ar Exod. xii. 43, &c. Dywed yr Iuddewon fod *alltud* yma yn meddwl un ag y tyllwyd ei glust, (gwel ar Exod. xxi. 6,) a bod *dyeithrddyn* yn meddwl gwas a ryddheid y ffwyddyn sabbothol. Ni chaniateid i un o'r rhai hyn fwyta o'r pethau cysegredig, am nad oeddynt yn briodol yn aelodau o deulu yr offeiriad, ac y gallent fyned allan ac ymhalogi gyda ffeidd-dra y cenhedloedd; ond gallai y caethwas a brynwyd am arian, adn. 11, fwyta o'r pethau hyn, am ei fod ef yn eiddo y meistr byth. Yr oedd y lleill yn cael bwyta bwyd cyffredin ar ei fwrdd ef, ond ni chaent ymgyfranogi o'r aberrthau.

Adn. 11. *Ond pan bryno yr offeiriad ddyd*

hono, a'r hwn a aner yn ei dŷ ef: y rhai hyn a gânt fwyta o'i fara ef.

12 A merch yr offeiriad, pan fyddo hi eiddo gŵr dweithr, ni chaiff hi fwyta o offirwm y pethau cysegredig.

13 Ond merch yr offeiriad, os gweddwy fydd hi, neu wedi ysgar, a heb blant iddi, ac wedi dychwelyd i dŷ ei thad, a gaiff fwyta o fara ei thad, megys yn ei hieuentid; ac ni chaiff neb dweithr fwyta o hono.

14 ¶ A phan fwytao un beth cysegredig mewn anwybod; yna chwangeded ei bummed ran ato, a rhodded gyfa'r peth cysegredig i'r offeiriad.

15 Ac na halogant gysegredig bethau meibion Israel, y rhai a offrymant i'r Arglwydd.

16 Ac na wnant iddynt ddwyn cosp camwedd, pan fwytaont eu cysegredig bethau hwynt: o herwydd myfi yw yr Arglwydd eu santeidddydd.

17 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

18 Llefara wrth Aaron, ac wrth ei

feibion, ac wrth holl feibion Israel, a dywed wrthynt, Pwy bynag o dŷ Israel, ac o ddeythr yu Israel, a offrymo ei offirwm yn ol ei holl addunedau, ac yn ol ei holl roddion gwirfodd, y rhai a offrymant i'r Arglwydd yn boeth-offirwm;

19 Offrymwch wrth eich ewyllys eich hun, un gwryw perffraith-gwbl, o'r eidonau, o'r defaid, neu o'r geifr.

20 Nac offrymwch ddim y byddo anaf arno; o herwydd ni bydd efe gymeradwy drosoch.

21 A phan offrymo gŵr aberth hedd i'r Arglwydd, gan neillduo ei adduned, neu rodd ewyllysgar o'r eidonau, neu o'r praidd, bydded berffraith-gwbl, fel y byddo gymeradwy: na fydded un anaf arno.

22 Y dall, neu yr ysig, neu yr anafus, neu y dafadenog, neu y crachlyd, neu y clafillyd, nac offrymwch hwy i'r Arglwydd, ac na roddwch aberth tanllyd o honyt ar allor yr Arglwydd.

am ei arian] O blith yr Hebreaid, Exod. xxi. 2, neu o blith y Cenhedloedd, a'i fod wedi ei broseltyio i'r grefydd Iuddegig, ac felly yn rhan o'i deulu ef. Yr oedd i'r rhai hyn, ac i'w plant a enid yn nhŷ yr offeiriad, hawl i fwyta o'r pethau cysegredig.

Adn. 12. *A merch yr offeiriad, pan fyddo hi eiddo gŵr dweithr*] Gŵr o deulu arall, heb fod yn offeiriad; ni chai hi fwyta: eto gallai gwraig yr offeiriad fwyta, er o deulu arall. Y rheswm am y gwabaniaeth hwn yw, am fod y wraig yn myned drosodd i enw, sefyllfa, a breintiau ei gŵr, oddiwrth yr hwn y mae y teulu yn cael ei gyfeui.

Adn. 13. *Os gweddwy fydd hi*] Os dychwelai hi i dŷ ei thad heb fod yn wraig nac yn fam, cai edrych arni drachefn fel merch ieuane, a bytta o'r pethau cysegredig.

Adn. 14. *A phan fwytao un beth cysegredig mewn anwybod*] Naill ai heb wybod ei fod yn beth cysegredig, neu yn anwybodus o'r gosp am y gyfryw weithred; *chwangeded ei bummed ran ato*—bydd i'r hyn a fwytaodd efe gael ei brisio yn dŷg, ac at y pris hwnw efe a chwangeded y bummed ran, heblaw yr hwrdd yn offirwm dros gamwedd, pen. v. 15.

Adn. 15. *Ac na halogant*] Naill ai y bobl trwy eu bwya, neu yr offeiriad trwy oddef hyn iddynt yn ddigosp.

Adn. 16. *Ac na wnant iddynt ddwyn cosp camwedd*] Na fydded i'r offeiriad beri i'r bobl gael eu cospi â marwolaeth uniongyrchol oddiwrth yr Arglwydd am eu camwedd, adn. 9, trwy oddef iddynt fwyta o'r pethau cysegredig heb wneuthur iawn, fel y nodir adn. 14. Y mae y LXX yn ei gyfieithu, 'Ac na ddigant arnynt eu hunain euogrydd camwedd,' &c.

Adn. 18. *Pwy bynag o dŷ Israel, ac o ddeythr yn Israel, &c.*] Y deddfau canlynol a

gyfeiriant at y cymbwysderau gofynol mewn unrhyw offirwm, a wneid naill ai gan yr Israeliaid ai gan y proselytiaid. Cans yr oedd y cyfryw broseltyiaid ag oeddynt wedi ymwrthod ag eilunaddoliaeth, ac yn 'broseltyiaid y porth,' y rhai a elwir yma yn *ddeythr yn Israel*, er heb eu benwaedu na gofod cadw holl gyfraith Moses, eto yn cael eu goddef, er tystiolaeth eu bod yn addoli y gwir Dduw, i offirwm rhoddion gwirfodd ar yr allor Iuddegig, cyu gystal a phroselytiaid i'r holl drefniant Moesaenaidd, y rhai a elwid yn 'broseltyiaid cyfiawnder.'

Adn. 19. *Offrymwch wrth eich ewyllys eich hun un gwryw*] Y mae y frawddeg hon, meddai Benson, yn cael ei chyfieithu yn well gan y LXX, yr Arabig, a chyfieithiadau ereill, 'Mewn trefn iddo fod yn gymeradwy offrymwch un gwryw.' Ac felly yr ydym ninaw yn cyfieithu yr un gair yn adn. 20. Yr oedd rhai gwryw yn ofynol mewn poeth-offrymau; ond yn yr hedd-ebyrth a'r pech-ebyrth derbynid rhai benyw: gwel ar pen. i. 3.

Adn. 20. *Nac offrymwch ddim y byddo anaf arno*] Yr oedd yr un gofal am berffeithrwydd eu hebyrth yn cael ei anlygu gan yr Aiffitiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid: nid offrymant hwythau un anifel cloff i'w duwiau, na dim ond a fyddai yn iach a pberffraith.

Adn. 21. *Gan neillduo ei adduned*] Saes. 'i gyflawni ei adduned.' Nid oedd yn beth anarferol ganddynt hwy wneuthur y fath adduned wrth gyfhywyn i dath, pan yn glaf, neu mewn rhyw berygl.

Adn. 22. *Y dall, neu yr ysig, &c.*] Amcan y gyfraith hon oedd adgoffa iddynt fyth y dylent hwy offirwm i Dduw y mwyaf rhagorol o bob peth yn ei ryw, a chadw addoliad Duw rhag syrthio i ddirmyg, fel y gallasai wneuthur pe goddefesid iddynt offrymu i'w Gwneuth-

23 A'r eidion, neu yr oen a fyddo gormod neu ry fychain ei aelodau, gellwch ei offrymu yn offrwm gwirfodd; ond dros adduned ni bydd gymeradwy.

24 Nac offrymwch i'r Arglwydd ddim wedi llethu, neu ysglo, neu ddryllo, neu dori; ac na wnewch yn eich tir y *fath beth*.

25 Ac nac offrymwch o law un dy-eithr fydd eich Duw o'r holl bethau hyn: canys *y mae* eu llygredigaeth ynddynt; anaf *sydd* arnynt: ni byddant gymeradwy drosoch.

26 ¶ A Llefarrowd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

27 Pan aner eidion, neu ddafad, neu afr, bydded saith niwrnod dan ei fam; o'r wythfed dydd ac o hyny allan y bydd cymeradwy yn offrwm o aberth tanlyd i'r Arglwydd.

28 Ac am fuweh neu ddafad, na leddwch hi a'i llwdn yn yr un dydd.

29 A phan aberthloch aberth diolch

urwr yr hyn yr oedd dynion yn ei ddiystyru, Mal. i. 8.

Adn. 23. *A'r eidion neu yr oen a fyddo gormod neu ry fychain ei aelodau*] Mewn maintioli i ateb i'w gorff, neu mewn rhif; *gellwch ei offrymu yn offrwm gwirfodd*—am fod yr offrwm hwnw, meddai rhai, heb ei benodi gan y gyfraith: gadawodd Duw i dduwioldeb a diolchgarwch dyn, meddent hwy, offrwm y cyfryw roddion chwangel ag a *allai* efe. *On dros adduned ni bydd cymeradwy*—am nad yw yn berffaith-gwbl, adn. 21. Ond myn rhai y dylid cyfieithu y rhan ddiweddar o'r adnod hon fel hyn: *Os offrymi ef yn offrwm gwirfodd, neu dros adduned, ni bydd cymeradwy*. Nid yn unig bydd i'r Hebraeg oddef y cyfieithiad hwn, ond ymddengys ei fod yn hollol angeurheidiol er cysoni âg adn. 21, lle y gofynir i'r *rhodd ewyllysgar* fod yn *berffaith-gwbl*. Dywed yr Iuddewon nad oedd un o'r anifeiliaid amherffaith hyn byth yn cael ei offrwm ar yr *allor*; ond fod y neb a wna'i yr offrwm gwirfodd o'r cyfryw bethau ag a fyddent ganddo, yn gwerthu yr anifel, ac yn rhoddi ei *bris* neu ei *werth* er cynaliaeth y cysegr.

Adn. 24. *Ddim wedi llethu, neu ysglo, &c.*] Gwel ar adn. 22.

Adn. 25. *Ac nac offrymwch o law un dy-eithr*] Sef o law proselytiada; canys ni fyddai y cyfryw yn gymeradwy hyd yn nod oddiwrth y rhai hyny, llawer llai oddiwrth Israeliaid. *Fwyd eich Duw*—hyny yw, yr ebyrth. *Canys y mae eu llygredigaeth ynddynt*—y maent wedi llethu, ysglo, &c.

Adn. 27. *Pan aner eidion, &c.*] Hyny yw, pan aner llo, oen, neu fŷn; *bydded saith niwrnod dan ei fam*—yn ei sugno; *o'r wythfed dydd*—cyn hyny nid oedd yn addas i'w ddefnyddio ar fyrdau dynion nac ar allor Duw. Dywed yr Iuddewon mai am fod y sabboth yn santeiddio pob peth y gorchymynid hyn, ac am hyny na ddyld offrymu dim i Dduw heb i

i'r Arglwydd, offrymwch wrth eich ewylllys eich hunain.

30 Y dydd hwnw y bwyteir ef; na weddillwch o hono hyd y bore: myfi *yw* yr Arglwydd.

31 Cedwch fehwthau fy ngorchymynion, a gwnewch hwynt: myfi *yw* yr Arglwydd.

32 Ac na halogwch fy enw santeidd, ond santeiddier fi yn mysq meibion Israel: myfi *yw* yr Arglwydd eich santeiddydd,

33 Yr hwn a'eh dygais chwi allan o dir yr Aifft, i fod yn Dduw i chwi: myfi *yw* yr Arglwydd.

PENNOD XXIII.

LLEFARODD yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Gŵyliau yr Arglwydd, y rhai a gyhoeddweh yn gymanfeydd santeidd, *ydyw* fy ngŵyliau hyn.

un sabboth o leiaf fyned drosto. Ond sylwyd eisioes fod cig anifeiliaid ienainc iawn, neu rai heb gyraedd perffethrwydd natur, yn anfaethlon ac afiach: gwel ar Exod. xii. 5, a xxii. 30.

Adn. 28. *Na leddwch hi a'i llwdn yn yr un dydd*] Am y byddai i hyny ymddangos yn greulon a dideimlad, wrth ddwyn y naill i'r lladdfa tra y byddai yn gofidio am y llall. A dichon fod y gwaharddai hwn yn cyfeirio hefyd at ryw arferiad eilunaddolgar.

Adn. 29, 30. *A phan aberthloch aberth diolch, &c.*] Gwel ar pen. vii. 11—15.

Adn. 31. *Cedwch chwthau fy ngorchymynion*] Gwel ar pen. xix. 37.

Adn. 32. *Ac na halogwch fy enw santeidd*] Trwy droseddu fy ngorchymynion; ond *santeiddier fi yn mysq meibion Israel*—trwy eu cadw hwynt. Y Saesonaeg yw, '*mynaf gael fy santeiddio,*' naill ai *genych chwi* yn nghadwraeth fy santeidd orchymynion, neu *ornoch chwi* yn nghyflawniad fy santeidd a'm cyfiawn farnedigaethau. *Myfi yw yr Arglwydd eich santeiddydd*—yr hwn a'ch neillduais chwi i mi fy hun yn bobl briodol.

Adn. 33. *Yr hwn a'ch dygais chwi allan o dir yr Aifft*—Trwy lawer o gyfyngiadau gwyrtiol; *i fod yn Dduw i chwi*—i'ch gwaredu oddiwrth bob gau addoliad, i ddsygu i chwi yr iawn ffordd, i'ch arwain a'ch cynal ynddi, a'ch cadw i'm tragwyddol deyrnas a'm gogoniant.

PEN. XXIII. Adn. 1. *Llefarrowd yr Arglwydd hefyd wrth Moses*] Y mae Duw yma yn gorchymyn i Moses roddi cyfarwyddiadau mwy neillduol i feibion Israel yn nghylch cadwraeth y gŵyliau hyny a sefydlesid o'r blaen: gwel ar Exod. xxiii. 14—16.

Adn. 2. *Yn gymanfeydd santeidd*] Saes. *convocations,* 'cydwysyadau,' am eu bod ar y dyddiau hyn yn cael eu *gweysio* neu eu *galw yn nghyd* i wrandaw y gyfraith, i aberthu, i addoli, a diolch i Dduw.

3 Chwe diwrnod y gwneir gwaith; a'r seithfed dydd y bydd sabboth gor-phwysdra; *sef* cymanfa santaidd; dim gwaith nis gwnewch: sabboth *yw* efe i'r Arglwydd yn eich holl drigfanau.

4 ¶ Dyma wyliau yr Arglwydd, y cymanfeydd santaidd, y rhai a gyhoeddwech yn eu tymor.

5 O fewn y mis cyntaf, ar y pedwerydd *dydd* ar ddeg o'r mis, yn y cyfnos, *y bydd* pasc yr Arglwydd.

6 A'r pymthegfed dydd o'r mis hwnw y bydd gŵyl y bara croyw i'r Arglwydd: saith niwrnod y bwytewch fara croyw.

7 Ar y dydd cyntaf y bydd i chwi gymanfa santaidd: dim caethwaith ni chewch ei wneuthur.

8 Ond offrymwch ebyrth tanllyd i'r Arglwydd saith niwrnod: ar y seithfed dydd *bydded* cymanfa santaidd; na wnewch ddim caethwaith.

9 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd, Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt,

10 Pan ddeloch i'r tir a roddaf i chwi, a medi o honoch ei gynauaf; yna dygwch ysgub blaenffrwyth eich cynauaf at yr offeiriad.

11 Cyhwaned yntau yr ysgub ger-

bron yr Arglwydd, i'ch gwneuthur yn gymeradwy: tranoeth wedi y sabboth y cyhwfana yr offeiriad hi.

12 Ac offrymwch ar y dydd y cyhwfaner yr ysgub, oen blwydd, perffraith-gwbl, yn boeth-offrwm i'r Arglwydd.

13 A'i fwyd-offrwm o ddwy ddegfed ran o beillied wedi ei gymysgu âg olew, yn aberth tanllyd i'r Arglwydd, yn arogl peraidd: a'i ddioid-offrwm *fydd* o win, pedwaredd *ran* hin.

14 Bara hefyd, nac yd wedi ei grasu, na thwysenau i'r, ni chewch eu bwyta hyd gorff y dydd hwnw, nes dwyn o honoch offrwm eich Duw. Deddf dragwyddol trwy eich cenedlaethau, yn eich holl drigfanau, *fydd* hyn.

15 ¶ A chyfrifwch i chwi o dranoeth wedi y sabboth, o'r dydd y dygloch ysgub y cyhwfan; saith sabboth cyflawn fyddant:

16 Hyd dranoeth wedi y seithfed sabboth, y cyfrifwch ddeng niwrnod a deugain; ac offrymwch fwyd-offrwm newydd i'r Arglwydd.

17 A dygwch o'ch trigfanau ddwy dorth gyhwfan, dwy ddegfed ran o beillied fyddant: yn lefeinllyd y pobir

Adn. 3. *A'r seithfed dydd y bydd sabboth*] Crybwyllir y *sabboth* yn mlaenaf, am mai dyma yr ŵyl gyntaf a mwyaf. Nid oedd yr hwn na chadwai hon yn y modd mwyaf crefyddol, yn addas i gadw un o'r lleill. Y mae cadwraeth grefyddol o'r sabboth yn sefyll ar drothwy pob crefydd: gwel ar Gen. ii. 3. *Yn eich holl drigfanau*—yr oedd y gŵyliau ereill i gael eu cadw yn Jerusalem yn unig; ond yr oedd y sabboth i gael ei gadw yn mhob lle, yn y synagogau ac yn eu tai.

Adn. 4. *Dyma wyliau yr Arglwydd*] Y rhai a benodwyd gan yr Arglwydd, ac a neillduwyd i'w anhydeddu ef.

Adn. 5—8. *Y bydd pasc*] Gwel hwn wedi ei egluro yn helaeth ar Exod. xii.

Adn. 10. *Yna dygwch ysgub*] Neu *ddyrraid*, fel y mae ar ymyl y ddalen; ond yn yr Hebraeg *omer* ydyw. Ac nid oeddynt yn offrwm hwn yn y dwysen; ond, fel y dywed Josephus, ac fel y gellir casglu oddiwrth pen. ii. 14—16, wedi ei sychu, ei guro allan, a'i lanhau oddiwrth y peiswyr. *Blaenffrwyth eich cynauaf*—*sef* cynauaf yr *haidd*, yr hwn a ddechreuai oddeutu y pasc: gwel ar Exod. ix. 32. Yr oedd cynauaf y *gwenith* yn dechreu tua'r pentecost, chwech wythnos yn ddiwle darach, adn. 17.

Adn. 11. *Cyhwaned yntau yr ysgub*] Neu yr *omer*. Yn enw yr holl gynulleidfa dyrchefid yr yd tua'r nef, fel cydnabyddiad i Dduw am ei ddaioni, a chydga weddi am ei fendith ef ar y gweddill o'u cynauaf: gwel ar Exod. xxix. 27, 28. *Tranoeth wedi y sabboth*—

wedi y dydd cyntaf o ŵyl y bara croyw, yr hwn oedd yn sabboth, neu ddydd o orphwysdra, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 7.

Adn. 12. *Ac offrymwch ar y dydd y cyhwfaner yr ysgub oen blwydd*] Fel yr oedd aberthiad ansifl yn cael ei ddylyn yn gyffredin â bwyd-offrymau, felly yr oedd yr offrwm hwn o yd yn cael ei ddylyn â phoeth-offrwm, fel y byddai bara a chig yn nghyd yn wastadol ar fwrdd Duw.

Adn. 13. *Ddwy ddegfed ran*] O *epha*, yr hyn yw *dwyr* *omer*, neu oddeutu chwe chwart.

Adn. 14. *Nes dwyn o honoch offrwm eich Duw*] Canys yr oedd yn iawn i Dduw, cyfrannwr bob bendith, gael ei gydnabod fel y cyfrwy; a bod i flaenffrwyth y maes gael ei gysegru iddo ef: gwel ar Exod. xxii. 29.

Adn. 15, 16. *A chyfrifwch i chwi—saith sabboth cyflawn*] Hyn yw, o'r 16eg o'r mis cyntaf hyd y 6ed o'r trydydd mis. Y saith wythnos hyn, y rhai a elwir yma yn *sabbothau*, oeddynt i fod yn *gyflawn*, h.y. rhaid i'r naw diwrnod a deugain gael eu gorphen; a'r dydd nesaf, y degfed a deugain, yw yr hyn ag yr ydym ni, oddiwrth y LXX, yn ei alw *pentecost*: gwel ar Luc vi. 1, Act. ii. 1.

Adn. 17. *A dygwch o'ch trigfanau ddwy dorth gyhwfan*] Wedi eu gwneuthur o chwe pheint o beillied gwenith bob un, y rhai oeddynt i gael eu cyflwyno yn 'fwyd-offrwm newydd i'r Arglwydd,' adn. 16, trwy en cyhwfan tua'r nef. *Yn lefeinllyd y pobir heyrnt*—yn y gwithwyneb i'r gyfraith sefydlog mewn offrymau ereill, pen. ii. 11, 12. Gall mai y

hwynt, yn flaenffwrth i'r Arglwydd.

18 Ac offrymwch gyda'r bara saith oen blwyddiaid, perffaith-gwbl, ac un bustach ieuauc, a dau hwrdd: poeth-offrwm i'r Arglwydd fyddant hwy, yn nghyda'u hwyd-offrwm a'u diod-offrwm; *sef* aberth tanllyd o arogl per-aidd i'r Arglwydd.

19 Yna aberthwch un bwch geifr yn bech-aberth, a dau oen blwyddiaid yn aberth hedd.

20 A chyhwfaned yr offeiriad hwynt, yn nghyda bara y blaenffwrth, yn offrwm cyhwfan gerbron yr Arglwydd, yn nghyda'r ddau oen: cysegredig i'r Arglwydd ac eiddo yr offeiriad fyddant.

21 A chyhoeddwch, o fewn corff y dydd hwnw, y bydd cymanfa santaidd i chwi: dim caethwaith nis gwnewch.

rheswm yw, am fod y blaenffwrth hwn yn gysgod o'r bara lefeinllyd a ddefnyddid gan yr Israeliaid yn gyffredin.

Adn. 18. *Un bustach ieuauc a dau hwrdd*] Yn Num. xxviii. 11, 19, 27, crybwyllir dau fustach ac un hwrdd; ac yma un bustach a dau hwrdd: gan hynny naill ai yr oedd yn cael ei adael i'w rhyddid hwy i ddewis pa un a offrym; neu yr oedd un o'r bustych yno, ac un o'r hwrddod yma, yn offrymau neillduol y dydd gŵyl, a'r lleill a ddylent y ddwy dorth, y rhai oeddynt y priodol offrwm y pryd hyn. A gall y naill gael ei grybwyll yno, a'r llall yma, i ddsygu i ni nad oedd y chwane-giad o'r aberth newydd ddim yn dinystrio yr un blaenorol, ond fod y ddau i gael eu hoffrymu, gan na fyddai aberthau anghyffredin pob gŵyl yn attal offrymiad yr aberth beunyddiol.

Adn. 19. *Yna aberthwch un bwch geifr*] Yn pen. iv. 14, y pech-aberth dros bechod y bobl yw *bustach*, ond yma *bwch*. Dichon mai y rheswm am y gwahaniaeth yw hyn, fod hwnw dros ryw bechod neillduol o eiddo y bobl, a hwn yn gyffredin dros eu holl bechodau.

Adn. 20. *A chylwfaned yr offeiriad hwynt*] *Sef* rhyw ran o bonynt, yn enw y cwbl; amgen buasant oll yn rhy drwm i'w cyhwfanu. *Eiddo yr offeiriad fyddant*—yr hwn a gai iddo ei hun nid yn unig y barwyden a'r ysgwyddog, y rhai a berthynent iddo; ond hefyd y gweddill, yr hyn a berthynai i'r offrymwyr: oblegid trwy fod yr holl gynulleidfa yn offrymwyr yma, nis gallai gael ei ranu rhyngddynt oll, na'i roddi i rai heb drangwyddo y lleill.

Adn. 21. *Y bydd cymanfa santaidd i chwi*] Neu ddydd o orphwysdra oddiwrth bob caethwaith, *sef y pentecost*.

Adn. 22. *Nu loffa loffion dy gynauaf*] Gwel ar pen. xix. 9, 10. Y mae efe yn llefaru yma yn y rhif *unigol*, i wasgu y ddyledswydd hon ar bob un a feddai faes i'w feddi. Ac y mae i'w nodi, ei fod ef, yn nghanol son am addoliad Duw, yn myned oddiwrth ei des-

Deddf dragwyddol, yn eich holl drig-fanau, trwy eich cenedlaethau, *fydd hyn*.

22 ¶ A phan fedoch gynauaf eich tir, na llywr-feda gyrau dy faes, ac na loffa loffion dy gynauaf; gad hwynt i'r tylawd a'r dycitr: myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw chwi.

23 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

24 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Ar y seithfed mis, ar *y dydd* cyntaf o'r mis, y bydd i chwi sabboth, yn goffadwriaeth caniad udgyrn, a chymanfa santaidd.

25 Dim caethwaith nis gwnewch; ond offrymwch ebyrth tanllyd i'r Arglwydd.

26 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

tyn i son am ddeddf a wnaed o'r blaen er darpariaeth i'r tylawd; i ddangos na fydd i'n haddoliad ni gael nemawr o gymeradwyaeth gan Dduw, os na fydd yn cael ei ddylun gyda thosturi at y tylawd.

Adn. 24, 25. *Ar y seithfed mis, ar y dydd cyntaf o'r mis*] *Sef Tisri*, yn cyfateb i ran o'n *Medi* ni, yr hwn oedd y *seithfed* mis o'r flwyddyn eglwysig, a'r *cyntaf* o'r flwyddyn wladol: gwel ar Exod. xii. 2. *Yn goffadwriaeth caniad udgyrn*—nid yw yr ysgrythyr yn mynegu yr achos o benodiad yr ŵyl hon. 1. Y mae Theodoret yn meddwl ei bod er coffadwriaeth am y taranau a'r mell, a sain yr *udgorn*, pryd y rhoddodd Duw ei gyfraith ar fynydd Sinai. 2. Dywed Maimonides ei bod wedi ei bwriadu i gyhoeddi y flwyddyn newydd, ac fel rhybydd ditrifol i edifarhau, ac ynibarotoi erbyn dyfodiad dydd mawr y cymod, yr hwn a gynelid ar y degfed o'r mis hwn. 3. Tybia rhai ei bod wedi ei bwriadu i gadw coffadwriaeth o waredigaeth Isaac, trwy roddi hwrdd yn aberth yn ei le ef; ac y mae yr Iuddewon yn ei galw weithian yn 'ŵyl rhwymiad Isaac.' 4. Barna ereill ddarfed ei bwriadu i ddirif-gadw dechread y flwyddyn newydd, ac i ddwyn ar gof iddynt ddechread y hyd, ac i ddiregymhell eu diolchgarwch am ffwrthau a bendithion y flwyddyn flaenorol. 5. A darfu i lawer feddwl ei bod yn gysgod o udganiad udgorn yr efengyl: gwel Esay lviii. 1, Hos. viii. 1, Zec. ix. 14. Yr oedd udganiad anghyffredin o'r udgyrn gan yr offeiriad y pryd hyn yn eu holl ddinasoedd, yn gystal ag yn Jerusalem, lle yr oedd hefyd ddau udgorn arian yn cael eu defnyddio yn y deml, yn gystal a rhai cyrn. Yr oedd yr ŵyl hon yn cael ei chadw gydag edmygedd mawr, a'r ndgyrn yn canu o godiad hyd fachluchid haul. Yr offeiriad, yr hwn a udganai yr udgorn, a ddechreuai gyda'r weddi arferol, *Bendigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn a'n santeiddiodd ni trwy ei orchymynion, &c.*; gan chwanegu y diolchgarwch hwn, *Bendigedig fyddo Duw, yr hwn a'n cadwodd ni yn fyw, ac a'n dygodd hyd yma*. Ar ol gorphen y cwbl, y bobl

27 Y degfed dydd o'r seithfed mis hwn, y bydd dydd cymod; cymanfa santiaid fydd i chwi: yna cystuddi-wch eich eneidiau, ac offrymwech ebyrth tanllyd i'r Arglwydd.

28 Ac na wnewch ddim gwaith o fewn corff y dydd hwnw: o herwydd dydd cymod yw, i wneuthur cymod drosoc gerbron yr Arglwydd eich Duw.

29 Canys pob enaid a'r ni chystuddier o fewn corff y dydd hwn, a dorir ymaith oddiwrth ei bobl.

30 A phob enaid a wnelo ddim gwaith o fewn corff y dydd hwnw, dyfethaf yr enaid hwnw hefyd o fysg ei bobl.

31 Na wnewch ddim gwaith. Deddf dragyddol, trwy eich cenedlaethau, yn eich holl drigfanau, yw hyn.

32 Sabboth gorphwysdra yw efe i chwi; cystuddi-wch chwithau eich eneidiau ar y nawfed dydd o'r mis, yn yr hwyr: o hwyr i hwyr y cedwch eich sabboth.

33 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

34 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis hwn y bydd gŵyl y pebyll saith niwrnod i'r Arglwydd.

35 Ar y dydd cyntaf y bydd cymanfa santiaid: dim caethwaith nis gwnewch.

36 Saith niwrnod yr offrymwech aberth tanllyd i'r Arglwydd: ar yr wythfed dydd y bydd cymanfa santiaid i chwi; a chwi a offrymwech aberth tanllyd i'r Arglwydd: uchel ŷyl yw hi; na wnewch ddim caethwaith.

37 Dyma ŷyliau yr Arglwydd, y rhai a gyhoeddwech yn gymanfeydd santiaid, i offrymu i'r Arglwydd aberth tanllyd, offrwm poeth, bwyd-offrwm, aberth, a diod-offrwm; pob peth yn ei ddydd:

38 Heblaw sabbothau yr Arglwydd, ac heblaw eich rhoddion clwi, ac heblaw eich holl addunedau, ac heblaw eich holl offrymu gwirfodd, a roddoch i'r Arglwydd.

39 Ac ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis, pan gynulloch ffrwyth

a adroddent yn uchel, *Gwyr eu byd y bobl a adwaenant yr hyfryd lais.*

Adn. 27. *Cystuddi-wch eich eneidiau*] Trwy ymryd, ac edifeirwech chwerau am eich holl bechodau.

Adn. 28. *Dydd cymod yw*] Gwel ar pen. xvi. 16, &c.

Adn. 29—31. *Canys pob enaid*] O'r genedl neu y grefydd Iuddeiw. Mynai Duw trwy hyn arwyddo yr angenheidrwydd anheborol oedd ar bob dyu am edifeirwech a maddenant pechodau, a chyflwr diobaith pob un anedifeiriol.

Adn. 32. *O hwyr i hwyr*] Yr oedd dydd y cymod yn dechreu ar y nawfed dydd yn yr hwyr, ac yn parhau hyd hwyr y degfed dydd, pen. xvi. 29. *Y cedwch eich sabboth*—y mae y sabboth neillduol hwn yn cael ei alw eich sabboth, i arwyddo y gwahaniaeth rhyngddo a'r sabboth wythnosol, yr hwn yn aml a elwir yn *sabboth yr Arglwydd*. Yr oedd yr Iuddeuon yn dechreu pob diwrnod, ac o ganlyniad eu sabbothau, yn yr hwyr, er cofiadwriaeth am orpheniad y cread; megys y mae y Cristionigion yn dechreu eu dyddiau a'u sabbothau gyda'r bore, er cofiadwriaeth am adgyfodiad Crist.

Adn. 34—39. *Ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis hwn y bydd gŵyl y pebyll*] Sef y 15fed o *Tisri*, neu oddeutu dechre mis Hydref. Cafodd yr ŷyl hon ei henw oddiwrth y *pebyll* a godid oddeutu y deml, mewn lleoedd cylhoeddus, mewn cynteddau a gerddi, ar nen eu tai, &c., yn y rhai y preswyliai yr Iuddeuon am wythnos gyfan er cof am y deugain mlynedd ag y bu eu tadau yn trigo mewn *pebyll* yn yr anialwech. Yr oedd hon yn un o'r tair uchel-ŷyl flynyddol, yn y rhai yr oedd yr holl wrywod yn rhiwym wrth y gyfraith o ym-

ddangos yn Jerusalem. Cedwid hi yn y modd canlynol: Yr holl bobl a dorent ganghenau palmwydd, helyg, myrtwydd, &c., y rhai a gylment yn nghyd â llynyddau aur ac arian, neu âg ysnodenau, ac a garient gyda hwy trwy y dydd, gan eu cymeryd i'w synagogau, a'u cadw wrth eu hymyl tra yn gweddio. Ar y dyddiau ereill o'r ŷyl yr oeddnt yn eu cario gyda hwy i'r deml, ac yn cerdded o amgylch yr allor unwaith, a'r rhai hyn yn eu dwylaw, gan gau *Hosanna*, a'r udgyrn yn canu ar bob tu. Ar y seithfed dydd o'r ŷyl yr oeddnt yn ymned seithwaith o amgylch yr allor, gan ganu, yr hyn a elwir yn *Hosanna mawr*. Eithr y ddefod ar yr hon y danghosef fwyaf o lawenydd oedd *tywalltiau y dwfr*, yr hyn a wneid ar yr wythfed dydd o'r ŷyl. Yr offeiriad a godai ddwfr o lyn Siloam mewn llestr aur, yr hwn a gymerai i'r deml; ac yn amser yr aberth boreol, tra yr oedd rhanau yr aberth ar yr allor, efe a âi i fyny, ac a dywalltai y dwfr hwn yn gymysg â gwin arno ef, a'r holl bobl mewn gotawen o lawenydd yn canu *Esay xii*, yn enwedig adn. 3. *Mewn lawenydd y tymwech ddwfr o ffynnonau iachawduriacth*. Ymddengys mai at y rhan hon o'r ddefod y cyfeiria ein Harglwydd yn Ioan vii. 37.—Yn ystod yr ŷyl hon yr oedd llawer o ebyrth yn cael eu hoffrymu. Ar y dydd cyntaf, heblaw yr ebyrth cyffredin, offrymt yn boeth-offrwm 13 o loi, 2 hwrdd, a 14 o ŷyn, gyda'r offrymau o heillied a gwin y rhai oeddnt i'w dilyn: offrymt hefyd afr yn bech-aberth. Ar yr holl dyddiau canlynol yr oeddnt yn offrymu yr un aberthau, ond eu bod yn lleihau un yn nifer y lloi bob dydd, fel, pan ddeuai y seithfed dydd, na fyddai gwyddant ond *sauth* llo i'w hoffrymu. Ar yr wythfed dydd, yr

eich tir, cedwch ŵyl i'r Arglwydd saith niwrnod: *bydded* gorplwysdra ar y dydd cyntaf, a gorphwysdra ar yr wythfed dydd.

40 A'r dydd cyntaf cymerwch i chwi ffrwyth pren prydfferth, canghenau palmwydd, a brig pren caeadfrig, a helyg afon; ac ymlanhewch gerbron yr Arglwydd eich Duw saith niwrnod.

41 A chedwch hon yn ŵyl i'r Arglwydd saith niwrnod yn y flwyddyn: deddf dragwyddol yn eich cenedlaethau *yw*; ar y seithfed mis y cedwch hi yn ŵyl.

42 Mewn bythod yr arhoswch saith niwrnod; pob priodor yn Israel a drigant mewn bythod:

43 Fel y gwypo eich cenedlaethau chwi mai mewn bythod y perais i feibion Israel drigo, pan ddygais hwynt allan o dir yr Aifft: myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw.

44 A thraethodd Moses ŵyliau yr Arglwydd wrth feibion Israel.

hwn a gedwid gyda mwy o edmygedd na'r lleill, nid offrymiodd *un* llo, *un* hwrdd, a *saith* oen yu boeth-offrwm, ac *un* afr yu bechaberth, gyda'r cyflwyn-roddion a'r diod-offrymau arferol. Ar y dydd hwn offrymiodd hefyd yn y deml *flaenffwyth* eu cnydiau diweddaraf, neu ffrwyth y prenau ag oeddynt ddiweddaraf yn addfedu. Yn ystod yr ŵyl enid saith o Salmu, sef y cxiix—cxix. Dywed *Leo* o *Modena*, er na ddarfu i Moses benodi dim ond *wyth* niwrnod, eto ddarford i arferiad a dybwyd y bobl chwaneu y *nauffed* atynt, yr hwn a elwid *llawenydd y ddeddf*, am mai arno y gorphenent ddarllen pum llyfr Moses: gwel *Cubnet a Lamy*. Bernir fod yr ŵyl hon yn gysgod o guawdoliad y Messia; canys dywedir yn benodol iddo ef yn ei natur ddynd *bellu* yn mhllith dynion, fel yr arwydda y wreiddiol, Ioan i. 14; a thybia rhai iddo gael ei eni ar yr ŵyl hon, ac nid ar y 25ain o Ragfyr: gwel ar Luc ii. 8.

Adn. 40. *A'r dydd cyntaf cymerwch i chwi ffrwyth pren prydfferth*] Sef *canghenau* pren prydfferth a'r ffrwyth arnynt. Ymddengys eu bod yn defnyddio y canghenau crybwylledig nid yn unig i'w cario gyda hwynt fel y nodwyd uchod, ond hefyd i wneuthur eu *pebyll* â hwynt, fel y dysgwyr oddiwrth Neh. viii. 15. Nid yw yr esbonwyr yn cyduno yn gwbl pa brenau a feddylir yma; ond tybir yn gyffredin mai y rhai mwyaf cysgodol, a goraf am gadw eu gwyrddni, a olygir: gwel ar Neh. viii. 15.

Adn. 41—43. *A chedwch hon yn ŵyl i'r Arglwydd*] Gwel ar adn. 34—39. Ar ol i draffethion cynauaf yr yd a'r gwin a ffrwythau er-eill ddybenu, yr oedd gan y bobl hamdden i ymlawenau gerbron yr Arglwydd am wythnos; a'r maesydd o amgylch Jerusalem a rddanghosent genedl yn gwersyllu mewn pebyll neu fythod, i fytholi y goffadwriaeth am

PENNOD XXIV.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Gorchymyn i feibion Israel ddwyn atat olew olewyydd pur, coethedig, i'r goleuni, i beri i'r lampau gyneu bob amser.

3 O'r tu allan i wahanlen y dystiol-aeth, yn mhabel y cyfarfod, y trefna Aaron ef o hwyr hyd fore, gerbron yr Arglwydd, bob amser. Deddf dragwyddol trwy eich cenedlaethau *fydd hyn*.

4 Ar y canwyllbren pur y trefna efe y lampau gerbron yr Arglwydd bob amser.

5 ¶ A chymer beillied, a phoba ef yn ddeuddeg teisen: dwy ddegfed ran fydd pob teisen.

6 A gosod hwynt yn ddwy res, chwech *yn* y rhes, ar y bwrdd pur, gerbron yr Arglwydd.

7 A dod thus pur ar bob rhes, fel y byddo ar y bara, yn goffiadwriaeth,

ddeng mil o drugareddau a dderbyniasai eu tadau tra yn gwersyllu ac yn crwydro yn yr aialwch. Dywed rhai fod 215 o aberthau yn mygu ar allor Duw y dydd *cyntaf* o'r ŵyl hon yn ol rhifedi y blynyddoedd ag y bu Israel yn trigo yn yr Aifft, heblaw lluoedd o offrymau a ddeuent oddiwrth addunedau a rhoddion: ond gwel ar adn. 34—39. Yr oedd gŵyl y pebyll, mewn efeylechiad o hon, yn cael ei chadw hefyd yn mhllith y paganiaid.

Adn. 44. *A thraethodd Moses ŵyliau yr Arglwydd*] Y mae genym ni lawer o achos i fod yn ddiollegar am nad yw gŵyliau yr Arglwydd yn awr yr un fath a'r rhai gynt, na'u cadwraeth mor drwm a hostfawr; ond eu bod yn fwy syml ac ysprydol, ac yn wystlon sicrach a melysach o'r ŵyl dragwyddol yn y nef.

PEN. XXIV. Adn. 1—4. *Olew olewyydden, &c.*] Am drefniad y lampau, gwel ar Exod. xxvii. 20, 21.

Adn. 5. *A phoba ef*] Trwy yr offeiriad neu y Lefiaid, gwaith y rhai oedd eu parotoi hwynt, 1 Cron. ix. 32. *Yn ddeuddeg teisen*—i gynrychioli deuddeg llwyth Israel. *Dwy ddegfed ran fydd pob teisen*—sef dwy omer, neu chwe chwart: gwel ar Exod. xxv. 30.

Adn. 6. *Yn ddwy res, chwech yn y rhes*] Wedi eu gosod y naill ar y llall yn ddau bentwr, ac nid wrth ochrau eu gilydd yn ddwy res, fel y tybiodd rhai; canys nid oedd digon o le ar fwrdd oddeutu llathen o hyd, a hanner llath o led, i gynwys deuddeg o dorthau wedi eu gwneuthur o chwe chwart o beillied bob un, heb son am y pethau ereill ag oeddynt arno: gwel Exod. xxv. 23, &c.

Adn. 7. *A dod thus pur ar bob rhes*] Mewn dysglau aur; ac y mae y LXX yn chwaneu *halen* ato. *Fel y byddo ar y bara yn goffiadwriaeth*—hyny yw, fel y gellid ei losgi ar yr allor yn niwedd yr wythnos, yn lle y bara, er

ac yn aberth tanllyd i'r Arglwydd.

8 Ar bob dydd sabboth y trefna efe hyn gerbron yr Arglwydd bob amser, yn gyfammod tragwyddol oddiwrth feibion Israel.

9 A bydd eiddo Aaron a'i feibion; a hwy a'i bwyty yn y lle santeidd: canys santeiddiolaf yw iddo ef o ebyrth tanllyd yr Arglwydd, trwy ddeddf dragwyddol.

10 ¶ A mab gwraig o Israel, a hwn yn fab gwŷr o'r Aifft, a aeth allan yn mysg meibion Israel; a mab yr Israeles a gwŷr o Israel a ymgyuhenasant yn y gwerysll.

11 A mab y wraig o Israel a gablodd enw yr *ARGLWYDD*, ac a felldigodd: yna y dygasant ef at Moses: ac enw ei fam oedd Selomith, merch Dibri, o lwyth Dan.

12 A gosodasant ef yn ngharchar,

anrhydedd i Dduw, neu i goffa ei enw ef.

Adn. 8. *Oddiwrth feibion Israel*] Ar gost pa rai enw daiperid, Neh. x. 32, 33. Ac yr oedd hyn yn *gyfammod tragwyddol*—yn ddeddf ag y cydsyniasant hwy oll i'w chadw dros holl yspaid eu goruchwyliath, Exod. xxiv. 3.

Adn. 9. *Santeiddiolaf yw iddo ef o ebyrth tanllyd*] Nid oedd y thus a'r bara ond *un offrwng*; a thrwy fod y thus yn cael ei losgi yn lle y bara, o ganlyniad cyfrifir y bara hefyd yn mysg yr ebyrth tanllyd.

Adn. 10. *A mab gwraig o Israel*] Enw yr hon oedd Selomith, merch Dibri, o lwyth Dan, adn. 11. *A hwn yn fab gwŷr o'r Aifft*—ymddengys i'r amgylchiad hwn gael ei grybwyll i ddangos y perygl o briodi â dynion o egwyddorion drwg, ac na adawai Duw i un pechod ddiauc yn ddiogosp, pwy bynag a'i cyflawnai. *A aeth allan*—hyn yw, yn ol rhai, a ddaethai allan gyda hwy o'r Aifft; neu, yr hyn sydd debycach, a aeth allan i ledn ei babell yn mysg meibion Israel. *A mab yr Israeles a gwŷr o Israel a ymgyuhenasant yn y gwerysll*—pa beth oedd yr achos o'r gynhen ni ddywedir; ond os gallwn goelio y rabiniaid, yr oedd ef yn fab i'r Aifftwr a laddesid gan Moses; ac wrth iddo geisio lledu ei babell yn mhliith lwyth Dan, i'r rhai y perthynai o ochr ei fam, attaliwyd ef gan un o'r llwyth hwnw fel heb feddu hawl i ymsefydlu yn eu plith hwy, y rhai oeddnt wir Israeliaid trwy dad a main; yn ganlyniol i'r hyn, meddent hwy, y cablodd efe enw JEHOFA.

Adn. 11. *A gablodd enw yr Arglwydd*] Nid yw yr *Arglwydd* yn y wreiddiol, fel y gellir deall trwy eu bod mewn llythyrenau Italaidd yn ein Beibla ni; ond er hyny y dyb fwyaf cyffredin yw, mai enw JEHOFA a feddylir, a'i fod wedi ei briodol gyflenwi o adn. 16. Yr Hebraeg yw, a *gablodd yr enw*—a elwir felly mewn ffordd o enwogrwydd; yr enw hwnw ag sydd goruwch pob enw; yr enw hwnw ag yr arswydid ei grybwyll. *Ac*

fel yr hysbysid iddynt o enau yr Arglwydd *beth a wnaent*.

13 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

14 Dwg y cablydd i'r tu allan i'r gwerysll; a rhodded pawb a'i clywsant ef eu dwylaw ar ei ben ef, a llabyddied yr holl gynulleidfa ef.

15 A llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pwy bynag a gablo ei Dduw, a ddwg ei bechod.

16 A lladder yn farw yr hwn a felldithio enw yr Arglwydd; yr holl gynulleidfa gan llabyddio a'i llabyddiant ef: lladder yn gystal y dycieithr, a'r priodor, pan gablo efe enw yr Arglwydd.

17 ¶ A'r neb a laddo ddyn, lladder yntau yn farw.

18 A'r hwn a laddo anifel, taled am dano; anifel am anifel.

a felldigodd—nid yr Israeliaid yn unig, ond ei Dduw hefyd, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 15, 16.

Adn. 12. *Fel yr hysbysid iddynt o enau yr Arglwydd*] Yn debygol trwy yr Urim a'r Thummim; *beth a wnaent*—canys ni ddywedasai Duw ond yn unig yn gyffredinol, *nad dieuog ganddo* y cyfryw, h.y. y byddai iddo eu cospi; eithr nid eglurasai pa fodd y mynai efe eu cospi hwy gan ddynion, Exod. xx. 7.

Adn. 14. *Rhodded pawb a'i clywsant eu dwylaw ar ei ben ef*] Yn dystiolaeth eu bod wedi ei glywed yn cablu, ac i arwyddo en bod yn hawlio i gyflawnder gael ei weinyddu arno, er troi oddiwrthnt lid Duw. Dywed yr Iuddewon fod eu dodiad dwylaw yn cael ei ddylyn â geiriau cyffelyb i hyn: 'Bydded dy waed ar dy ben dy hun, ac na chosper ni am dy farwolaeth, yr hon y buost ti dy hun yn achos o honi.' *A llabyddied yr holl gynulleidfa ef*—yr un gosp ag a benodesid i'r rhai a felldithient eu rhieni, pen. xx. 9, Deut. xxi. 21.

Adn. 15. *Pwy bynag a gablo ei Dduw*] Nen a lefaro am dano yn ddiystyryllyd ac ysgafu; *a ddwg ei bechod*—sef cospedigaeth ei bechod.

Adn. 16. *A lladder yn farw yr hwn a felldithio enw yr Arglwydd*] Ilyn sydd adroddiad o'r nn pechod mewn geirian ereill, yr hyn a ddygwyrdd yn fynych. Fel y mae y gyfraithe hon yn cael ei mynegu mewn geirian cyffredinol yn adn. 15, felly y mae y pechod a'i gosp yn cael eu datgan yn neilldnol yn yr adnod hon. Ond myn rhai mai *treiddio, deongli*, neu *gymanu* yr enw JEHOFA a feddylir yma wrth ei felldithio neu ei gablu. Gwelsom eisioes nad yw yr Iuddewon byth yn cynanu yr enw hwn, ond yn darllen *Adonai* yn ei le; ac y mae wedi bod mor hir heb gael ei arfer yn eu plith, nes y mae y gwir gynaniad yn awr wedi ei gwbl gollu. *Yr holl gynulleidfa*—i ddangos enw sel dros Dduw, ac i genhedlu ynddynt arswyd a chasineb mwy at y pechod hwn.

Adn. 17. *A'r neb a laddo ddyn, lladder yn-*

19 A phan wnelo un anaf ar ei gymydog; fel y gwnaeth, gwneler iddo:

20 Toriad am doriad, llygad am lygad, dant am ddant: megys y gwnaeth anaf ar ddyn, felly gwneler iddo yntau.

21 A'r hwn a laddo anifel, a dâl am dano: a laddo ddyn, a leddir.

22 Bydded un farn i chwi; bydded i'r dycieithr, fel i'r priodor: myfi *ydwyf* yr Arglwydd eich Duw.

23 ¶ A mynegodd Moses *hyn* i feibion Israel: a lwynt a ddygasant y cablydd i'r tuallan i'r gwersyll, ac a'i llabyddiasant ef â cherig. Felly meibion Israel a wnaethant megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses.

PENNOD XXV.

LLEFARODD yr Arglwydd hefyd wrth Moses yn mynydd Sinai, gan ddywedyd,

2 Liefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddeloch i'r tir yr

tau] Gwel ar Gen. ix. 6. Y mae y gyfraith hon yn cael ei hailadrodd yma i ragflaenu effeithiau drygionus yngynheniad dynion; yr hyn, megys ag y darfu iddo yma arwain i gabin Duw, a allai mewn achos arall arwain i ladd dyn.

Adn. 18—21. *Anifel am anifel, &c.*] Gwel ar Exod. xxi. 24, &c.

Adn. 22. *Bydded un farn i chwi*] Neu yr un fath gyfraith mewn materion gwladol, ond nid mewn breintiau eglwysig. *Bydded i'r dycieithr*—a fyddo yn preswyllo yn eich mysg, *fel i'r priodor*—un o'ch gwlad a'ch cenedl eich hunain. Y mae ufydd-dod cyffredinol i'r cyfreithiau yn ddyledswydd ar bob dinesydd: ni all neb wneyd mwy, ac ni ddylai neb wneyd llai: gan hynny dylai pob un gael hawliau a breintiau cyfartal yn mhob peth ag sydd yn perthyn i ddiogelwch ei berson a'i eiddo. Dyma oedd cyfraith MOSES, a dyma *yw* cyfraith VICTORIA.

Adn. 23. *Llabyddiasant ef â cherig*] Y cablwr hwn oedd y cyntaf a fu farw wrth gyfraith Moses. Nid ydym i feddwl ddarfedd gosod y cyhuddedig yn agored i gynddaredd penrhydd miloedd Israel: busasi hynny yn *greulonder*, ac nid *cyfiawnder*, am y gallasai y nwydau a'r tymherau gwaethaf gael eu cynrychu trwy y fath amgylchiad, fel y dygwddai weithiau yn mhllith yr Iuddewon. Yr Iuddewon eu hunain a ddywedant mai eu dull cyffredin a rheolaidd hwy o labyddio oedd hyn: dygent y troseddwr y tuallan i'r gwersyll, am fod ei drosedd wedi ei wneuthur ef yn *afm*. Pan y deuent o fewn pedwar enfydd i'r dienyddle, dyosgent y troseddwr, os dyn, heb adael dim ond llian am ei lwynau, ac yna rhwymet ei freichiau. Yr oedd y dienyddle yn lle uchel, rhwng pedair a phum

hwn a roddaf i chwi; yna gorphwysed y tir sabbath i'r Arglwydd.

3 Chwe blynedd yr heui dy faes, a chwe blynedd y tori dy winllan, ac y cesgli ei chnwd.

4 Ac ar y seithfed flwyddyn y bydd sabbath gorphwysdra i'r tir, *sef* sabbath i'r Arglwydd: na hana dy faes, ac na thor dy winllan.

5 Na chynauafa yr hyn a dyfo o hono ei hun, ac na chasgl rawnwin dy winwydden ni theclaisr: bydd yn flwyddyn orphwysdra i'r tir.

6 Ond bydded *ffrwyth* sabbath y tir yn ymborth i chwi; *sef* i ti, ac i'th wasanaethwr, ac i'th wasanaethferch, ac i'th weimidog cyflog, ac i'th alltud yr hwn a ymdeithio gyd â thi,

7 I'th anifel hefyd, ac i'r bwystfil *fydd* yn dy dir, y bydd ei holl gawd yn ymborth.

8 ¶ Cyfrif hefyd i ti saith sabbath o flynyddoedd, *sef* saith mlynedd seithwaith; dyddiau y saith sabbath o flynyddoedd fyddant i ti yn naw mlynedd a deugain.

llath, ac âi y tystion i fyny gydag ef, a gosodent eu dwylaw arno, (adn. 14,) a thafent ef i lawr. Yna uu o'r tystion a'i tarawai ef â chwareg ar ei lwynau; ac os na leddid ef a'r tarawai hwn, yna y tystion a godent gareg fawr, gymaint ag allai dau ddyn ei chario, ac a'i bwriet ar ei fynwes ef, yr hyn a orphenai yr erchyllwaiti.

PEN. XXV. Adn. 1. *Yn mynydd Sinai*] Sef yn anialwch Sinai, neu *gerllaw* mynydd Sinai, fel y mae *beth* yr Hebraeg yn arwyddo yn fynyeh.

Adn. 2. *Pan ddeloch i'r tir*] Sef i wlad Canaan; *gorphwysed y tir sabbath*—cuffed orphwysdra a llouydrdwech oddiwrth ei aredig a'i drin; *i'r Arglwydd*—mewn ufydd-dod ac anrhydedd iddo ef.

Adn. 3. *Chwe blynedd yr heui dy faes*] Yr oedd Duw yn rhoddi bendith neillduol i'r chewedd flwyddyn, trwy yr hyn y dygai ffrwyth i wasanaethu dros dair blynedd, adn. 21; gwel ar Exod. xxiii. 11.

Adn. 4. *Ac ar y seithfed flwyddyn, &c.*] Y flwyddyn hon yr oeddynt i ddiwyllio eu meddyliau yn hytrach na'u tir, aci ddyysgu ymddiried yn rhagluniaeth Duw, aci fyfyrto ar yr orphwysfa dragwyddol sydd eto yn ol i bobl Dduw.

Adn. 5—7. *Na chynauafa yr hyn a dyfo o hono ei hun*] I ti dy hun yn unig; ond cuffed dy gaethion, a'th weision cyflog, a'r alltud neu y dycieithrdyn, a'r anifeiliaid gyfranogi o hono yn gyfartal. Y mae yn wir nad allai y maesydd, heb eu llafurio, roddi rhyw gnwd mawr; ond byddai i'r gwinllanoedd a'r perllanoedd, er heb eu trin a'u taclu, roddi eu ffrwyth yn debyg fel arferol.

Adn. 8. *Cyfrif hefyd i' saith sabbath o*

9 Yna par ganu i ti udgorn y jubili ar y seithfed mis, ar y degfed dydd o'r mis; ar ddydd y cymod cenwch yr udgorn trwy eich holl wlad.

10 A santeiddwch y ddegfed flwyddyn a deugain, a chyhoeddwch ryddid yn y wlad i'w holl drigolion: jubili fydd hi i chwi; a dychwelwch bob un i'w etifeddiaeth, ie, dychwelwch bob un at ei deulu.

11 Y ddegfed flwyddyn a deugain hōno fydd jubili i chwi: na heuwch, ac na fedwch ei chnwd a dyfo o hono ei hun; ac na chynullwch ei gwinyddden ni thaclwyd.

12 Am ei bod yn jubili, bydded santaidd i chwi: o'r maes y bwytewch ei ffrwyth hi.

flwyddoedd, &c.] Nid y nawfed flwyddyn a deugain oedd blwyddyn y jubili, fel yn gyfeillionus y dychymygodd rhai esbonwyr, eithr y ddegfed-a-deugain, adn. 10. Y mae y sabboth wythnosol yn cael ei alw 'y seithfed dydd,' am ei fod felly mewn gwirionedd, sef y nesaf ar ol chwe diwrnod yr wythnos, ac yn wahanol iddynt oll: ac y mae y flwyddyn gorphwysdra yn cael ei galw 'y seithfed flwyddyn,' adn. 4, fel yn dilyn yn ddiatreg y 'chwe blynedd,' adn. 3, ac yn wahanol iddynt oll. A'r un modd y mae y jubili yn cael ei galw 'y ddegfed flwyddyn a deugain,' adn. 11, am ei bod yn dyfod yn nesaf ar ol 'saith mlynedd seith-waith,' neu 'naw mlynedd a deugain,' adn. 8, ac y mae hithau yn wahanol iddynt oll.

Adn. 9. *Ar y degfed dydd o'r mis*] Y mae yn deilwng o sylw nad oedd y jubili yn cael ei chyhoeddi hyd y degfed dydd o'r seithfed mis, sef y dydd ag yr oedd y cymod blyn-yddol yn cael ei wneuthur dros bechodau y bobl; ac onid yw hyn yn profi nad allai y rhyddid neu y waredigaeth fawr oddiwrth gaethiwed pechod, a gyhoeddir dan yr efengyl, gymeryd lle ond ar gyfrif aberth yr Arglwydd Iesu, yr hwn yw y cymod neu yr IAWN mawr dros ein pechodau ni?

Adn. 10. *Jubili fydd hi i chwi*] Tybia rhai fod y gair jubili yn deilliaw oddiwrth y gair Hebreig yobel neu jobel, yr hwn sydd yn arwydd yn gyntaf hurdd, ac yna gorn hurdd, trwy udganiad yr hwn ei cyhoeddi. Tybia ereill fod y gair yn deilliaw oddiwrth Jubal, dyfeisydd offerynau cerdd, Gen. iv. 21, am ei bod yn cael ei chadw grda cherdoriaeth a phob amlygiad o lawenydd. Dywed Josephus fod y gair yn arwyddo rhyddid; ond, fel y sylwa Clarke, y mae y gair rhyddid yn arwyddo amcan y sefydliad, yn hytrach nag ystyr y gair Hebreig. Ac efa a sylwa yn mhellach, mai y tarddiad mwyaf naturiol sydd oddiwrth hobil, 'peri dwyn yn ol,' neu 'with-alw,' am fod y meddiannau a drosglwyddesid yn cael eu dychwelyd y pryd hyny i'w cynfeddianwyr. Yr oedd hwn yn osodiad doeth a rhagorol; ond ymddengys na ofalwyd newawr am dano gan yr Iuddewon ar ol y caethiwed Babilonaidd: yn wir ni chrybwyllir am

13 O fewn y flwyddyn jubili hon y dychwelwch bob un i'w etifeddiaeth.

14 Pan werthech ddim i'w gymydog, neu brynu ar law dy gymydog, na orthrymwch bawb eich gilydd.

15 Pryn gan dy gymydog yn ol rhifedi y blynyddoedd ar ol y jubili; a gwerthed efe i tithau yn ol rhifedi blynyddoedd y cnydau.

16 Yn ol amlra y blynyddoedd y chwanegi ei brisa, ac yn ol anamlra y blynyddoedd y lleihai di ei bris: o herwydd rhifedi y cnydau y mae efe yn ei werthu i ti.

17 Ac na orthrymwch bob un ei gymydog; ond ofna dy Dduw: canys myfi ydwyf yr Arglwydd eich Duw chwi.

dano dan yr ail dem! a rhaid ddarford i'w gadwraeth ddybenu yn mhlith yr Iuddewon ar ol iddynt gael en dwyn dan iau estroull. Gellir nodi yma, (1) Mai un o ddybenion yr wyl fawr hon oedd dwyn ar gof i'r Iuddewon eu caethiwed yn yr Aifft, ac felly eu hattal rhag caethiwo eu brodyr. (2) Yr oedd hefyd yn gysgod o'r gollyngod mawr dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, pryd ag y mae pawb ag sydd yn credu yn Nghrist Iesu yn cael eu gwaredu nid yn unig oddiwrth gaethiwed y gyfraith Foesenaidd, ond hefyd oddiwrth gaethiwed pechod, gan ailfeddiannu ffafwr a delw Duw, a chael hawl i'r etifeddiaeth nefol ffietiedig: gwel ar Esay xxvi. 13, a lxi. 1—3. (3) 'Y mae heryd,' meddai Mr. Parkhurst, 'yn rhagdarluniat bywiog o fawrwyth ddiweddiad amser, yr hwn a ddygir i mewn yr un modd gydag udgorn Duw, 1 Cor. xv. 52, pryd y caiff plant ac etifedion Duw eu rhyddhau oddiwrth eu holl ffietion, a'n hadfer i'r etifeddiaeth dragwyddol a benodwyd iddynt gan y Tad, ac o hyny allan orphwys oddiwrth eu llafur, a chael eu cynnal mewn bywyd a dedwyddwch gan gynyrch maes Duw.'

Adn. 11. *Y ddegfed flwyddyn a deugain hōno*] Gwel ar adn. 8.

Adn. 12. *Bydded santaidd i chwi*] Yn rhydd oddiwrth orchwyllion amaethyddol, ac yn cael ei threulio mewn ymarferiadau o lawenydd santaidd a diolchgarwch i Dduw. *O'r maes y bwytewch*—bawb fel eu gilydd, adn. 5, 6, heb ei gynauafu i ysguborian.

Adn. 13. *Bob un i'w etifeddiaeth*] Yr hyn nid oedd yn anghyfiawnder a'r prynwr, am mai hyd flwyddyn y jubili y prynasai efe y gyfryw etifeddiaeth.

Adn. 14. *Na orthrymwch bawb eich gilydd*] Na wnaed y gwerthwr hyny trwy ofyn mwy, na'r prynwr trwy gymeryd mantais ar angen ei frawd i roddi llai, na'i werth ef. Y mae y Galdeag, y Syriaeg, a'r Arabaeg yn ei gyfieithu, 'na thwyllwch,' &c.

Adn. 15—17. *Pryn gan dy gymydog yn ol rhifedi y blynyddoedd*] Yr oedd pryniad yr holl diroedd, y tai, a'r meddiannau, i fod am bris cyfartal i'r rhifedi mwy neu lai o flynyddoedd ag oeddynt yn aros o amser y pryniad

18 ¶ Gwnewch chwithau fy neddfa, a chedwch fy marnedigathau, a gwnewch hwynt; a chewch drigo yn yr tir yn ddiogel.

19 Y tir hefyd a rydd ei ffrwyth; a chewch fwyta digon, a thrigo ynddo yn ddiogel.

20 Ac hefyd os dywedwch, Beth a fwytawn y seithfed flwyddyn? wele, ni chawn hau, ac ni chawn gynull ein cnwd:

21 Yna mi a archaf fy mendith arnoch y chweched flwyddyn; a hi a ddwg ei ffrwyth i wasanaethu dros dair blynedd.

22 A'r wythfed flwyddyn yr heuwch; ond bwytewch o'r hen gnwd hyd y nawfed flwyddyn: nes dyfod ei chnwd hi, y bwytewch o'r hen.

23 ¶ A'r tir ni cheir ei werthu yn llwyr: canys eiddof fi yw y tir; o herwydd dyeithriaid ac alltudion ydych gyda mi.

24 Ac yn holl dir eich etifeddiaeth rhoddwch ollngdod i'r tir.

25 ¶ Os tyloda dy frawd, a gwerthu dim o'i etifeddiaeth, a dyfod ei gyfnasaf i'w ollwng; yna efc a gaiff

ollwng yr hyn a werthodd ei frawd.

26 Ond os y gŵr ni bydd ganddo neb a'i gollyngo, a chyrrhaeddyd o'i law ef ei hun gael digon i'w ollwng:

27 Yna cyfrifed flynyddoedd ei werthiad, a rhodded drachefn yr hyn fyddo dros hen i'r gŵr yr hwn y gwerthodd ef iddo; felly aed eilwaith i'w etifeddiaeth.

28 Ac os ei law ni chaiff ddigon i dalu iddo; yna bydded yr hyn a werthodd efe yn llaw yr hwn a'i prynodd hyd flwyddyn y jubili; ac yn y jubili yr â yn rhydd, ac efe a ddychwel i'w etifeddiaeth.

29 A phan wertho gŵr dŷ anedd o fewn dinas gaerog; yna bydded ei ollngdod hyd ben blwyddyn gyflawn wedi ei werthu: dros flwyddyn y bydd rhydd ei ollwng ef.

30 Ac oni ollngir cyn cyflawni iddo flwyddyn gyfan; yna sicrhäer y tŷ, yr hwn fydd yn y ddinas gaerog, yn llwyr i'r neb a'i prynodd, ac i'w hiliogaeth: nid â yn rhydd yn y jubili.

31 Ond tai y trefi nid oes caerau o amgylch iddynt, a gyfrifir fel maes-

hyd y jubili nesaf. *In ol rhifedi blynyddoedd y cnydau*—yn y rhai, ar ol iddynt hau, yr oeddynt yn meddi ffrwythau y tir, mewn gwrthgyferbyniad i'r blynyddoedd hyny yn y rhai nas goddefid iddynt hau na medi, adn. 4.

Adn. 18, 19. *A chewch drigo yn y tir yn ddiogel*] Yn hyf, heb ofn; canys y mae y gair *Ihebreig betach* yn arwyddo yr *hyder* a feddiennir gan y rhai sydd yn ymddiried yn Nuw, ac yn rhodio yn ei ffyrdd ef, o'u mewn eu hunain; a'r *diogelwch* yn yr hwn y gesyd Duw hwynt oddiwrth ofn drwg.

Adn. 20. *Beth a fwytawn y seithfed flwyddyn?*] Gofyniad pur naturiol, yr hwn nas gellid ei foddloni ond trwy yr addewid benaduroi yn yr adnod nesaf: 'Mi a archaf fy mendith arnoch,' &c.

Adn. 21, 22. *Dros dair blynedd*] Nid yn gyflawn, ond mewn rhan fawr; hyny yw, dros y rhan hōno o'r chweched flwyddyn ag ydoedd rhwng dechre y cynauaf a dechre y seithfed flwyddyn, dros yr oll o'r seithfed flwyddyn, a thros y rhan hōno o'r wythfed flwyddyn ag ydoedd o flaen y cynauaf, yr hyn a gyrhaeddai agos hyd dechre y nawfed flwyddyn. Megys y mynai Duw trwy hyn brofi eu ffydd a'u hufydd-dod hwy, felly efe a roddai iddynt brawf amlwg o'i ragluniaeth fanol a'i ofal tyner am danynt.

Adn. 23, 24. *A'r tir ni cheir ei werthu yn llwyr*] Neu am byth; canys eiddof fi yw y tir—gan i Dduw mewn modd gwyrtliol roddi iddynt feddiant o dir Canaan, yr oeddynt am hyny i'w hystyried eu hunain fel *tir-ddeiliaid* iddo ef; ac ar y sail hon y mae ef, fel meistre neu arglwydd mawr y tir, yn penodi iddynt yr ammodau ar y rhai y cânt ei ddal ef. *Dy-*

eithriaid ac alltudion ydych gyda mi—pa fodd bynag y gellwch basio yn eich tyb eich hunain, neu yn marn ereill, fel arglwydd cartrefol y tir.

Adn. 25. *A dyfod ei gyfnasaf i'w ollwng*] Hyny yw, i'w brynu. Gallai tir a werthwyd gael ei brynu yn y cyfng rhwng jubili a jubili, gan y cyberchenog, neu gan un o'i gyfnasafid neu ei berthynasau. Y *cyfnasaf* hwn a elwir yn y testyn gwreiddiol yn *goel*, neu *brynowr*: ac onid oedd hyn yn arwyddlun bywiog o bryniad dyn gan Grist Iesu? Fel y gallai *yntau* gael hawl i brynu dyn, efe a gymerth arno y natur ddynol, ac fel hyn a ddaeth yn *gyfnasaf* neu *frawd* i deulu mawr dynolryw, a thrwy hyny meddiannodd *hawl* i waredu y natur syrthiedig hōno, ac i brynu yn ol i ddyn yr etifeddiaeth hōno a florffetiesid trwy gamwedd.

Adn. 26. *Gael digon i'w ollwng*] Neu ei brynu. Yr oedd yn rhaid ei fod wedi ennill digon i hyn â'i law ei hun, am na oddefid iddo fenthyca.

Adn. 27. *Yna cyfrifed flynyddoedd ei werthiad*] Hyny yw, y blynyddoedd ag oeddynt rhyngddo a'r jubili: gwel ar adn. 15.

Adn. 28. *Ac os ei law ni chaiff ddigon i dalu iddo*] Os na fydd ef ei hun yn berchen digon o arian i brynu yr etifeddiaeth yn ol, rhaid iddi aros yn nwyllaw y prynwr hyd y jubili ddyfodol, am nas gallai *echwynna*.

Adn. 29—31. *A phan wertho gŵr dŷ anedd o fewn dinas gaerog, &c.*] Y mae gwahaniaeth tra phriodol yn cael ei wneuthur rhwng tai mewn *dinas* a thai yn y *wlad*. Os gwerthai gŵr ei dŷ yn y *ddinas*, gallai ei brynu yn ol unrhyw amser o fewn corff *blwyddyn*; ond os

ydd: bid gollyngdod iddynt, ac yn y jubili yr ânt yn rhydd.

32 Ond dinasoedd y Lefiaid, a thai dinasoedd eu hetifeddiaeth hwynt, bid i'r Lefiaid eu gollwng bob amser.

33 Ac os pryn un gan y Lefiaid; yna aed y tŷ a werthwyd, a dinas ei etifeddiaeth ef, allan yn y jubili: canys tai dinasoedd y Lefiaid *ydynw* eu hetifeddiaeth hwynt yn mysg meibion Israel.

34 Ac ni chair gwerthu maes pentrefol un dinasoedd hwynt: canys etifeddiaeth dragwyddol *yw* efe iddynt.

35 ¶ A phan dylo do dy frawd gyda thi, a llesgâu o'i law; cynorthwya ef, fel y byddo byw gyda thi; *er ei fod* yn ddyceithrddyn, neu yn alltud.

36 Na chymer ganddo oeraeth,

na fyddai ef wedi ei brynu o fewn yr amser hwnw, nis gellid ei brynu mwyach, ac nid âi yn rhydd hyd yn nod yn y jubili. Nid felly yr oedd gyda thŷ yn y *wlad*: gellid prynu y cyfryw dŷ trwyth yn y cyfwng; ac os na phrynd ef, yr oedd yn rhaid ei ryddhau y jubili. Y mae y rheswm am y gwahaniaeth hwn yn ddigon amlwg: (1) Nid oedd un perygl o gymysgedd mewn llwythau neu deuluoedd trwy hollol bryniad tai mewn dinasoedd, gan nad oedd llwythau a thenluoedd yn cael eu gwahaniaethu trwyddynt hwy fel yr oeddnt trwy dai yn y wlad ag oeddnt yn gysylltedig â'u tiroedd, ac am hyny i gael eu hystyried fel rhan o'u hetifeddiaeth. (2) Yr oedd gan y gwerthwr fwy o feddiant mewn tai nag mewn tiroedd, trwy eu bod yn gyffwrdd wedi eu hadeiladu ar gost y perchenog, ac am hyny rhoddir mwy o awdurdod iddo i'w gwerthu hwy. (3) Mynai Duw trwy hyn gefnogi dynion i brynu a meddianu tai mewn dinasoedd, am y byddai eu llosgogrwydd a'u poblogrwydd hwy yn nerth, anrhydedd, a mantais fawr i'r holl wlad. (4) Gan y gallai tŷ mewn dinas fod wedi cael ei brynu i'r perwyl o faeloriaeth, llawweithyddiaeth, &c., a bod y prynwr wedi myned i drafferth a chost fawr i gymhwyso y lle i'w waith, a sefydlu ei fasnach, yn yr hon yr oedd ef ei hun, a'i blant, a phlant ei blant, i safurio ac ennill eu bara; o gaulyniad yr oedd yn angenrheidiol iddo yntau gael rhyw *sicrwydd* o feddiant parhaus, heb yr hyn ni fuasai y cyfryw byniad byth yn cael ei wneuthur. (5) Ond gan fod yn ddichonadwy y gallai y cyberchenog fod wedi gwerthu ei dŷ yn *fyrbwyll*, neu trwy ddirfawr *angen*, yr oedd blwyddyn yn cael ei chaniatáu iddo i ailystyried ei weithred fyrbwyll, neu ddyfod yn y fath fodd trwy ei gyfyngder fel ag i alu cael ei dŷ yn ol. Yr oedd yr amser hwn yn ddigon *hir* iddo yn y naill achos neu y llall; ac ni fyddai i'r prynwr cyn diwedd y flwyddyn gyntaf wneuthur y fath gyfnewidiadau costfawr fel ag i beri unrhyw annghyfleusdra iddo i symud.

Adn. 32—34. *Ond dinasoedd y Lefiaid, &c.* Yr oedd y gyfraith yn yr adnodaau hyn hefyd

na llôg: ond ofna dy Dduw; a gadi'th frawd fyw gyda thi.

37 Na ddod dy arian iddo ar usuriaeth, ac na ddod dy fwyd iddo ar lôg.

38 Myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw chwi, yr hwn a'ch dygais allan o dir yr Aifft, i roddi i chwi dir Canaan, ac i fod yn Dduw i chwi.

39 ¶ A phan dylo do dy frawd gyda thi, a'i werthu ef i ti; na wna iddo wasanaethu yn gaethwas.

40 Bydded gyda thi fel gweinidog cyflog, fel ymdeithydd; hyd flwyddyn y jubili y caiff wasanaethu gyda thi.

41 Yna aed oddiwrthyt ti, efe a'i blant gydag ef, a dychweled at ei dylwyth, ac aed drachefu i etifeddiaeth ei dadau.

yn un dra doeth. Nis gallai *Lefiad* lwyrr werthu ei dŷ: ond os gwerthid ef, gallai ei *brynu* rywbryd rhwng y ddwy jubili; ac os na phrynd ef, yr oedd yn rhaid ei ryddhau y jubili ganlydol. A phalam? ai am ddarfod i Moses safurio ei gyfreithiau yn y fath fodd yn ffafir yr *offeiriadaeth*, nes yr oedd ganddynt hwy freintiau neillduol? Yn hollol i'r gwrthwyneb: yr oeddnt mor bell oddiwth fod wedi eu neillduol ffafrio, fel nad oedd ganddynt un *etifeddiaeth* yn Israel ond eu dinasoedd i drigo ynddynt, a'u maesydd pentrefol i gadw eu hanifeiliaid; ac o herwydd mai hyn oedd y cwbl a allent ei alw yn eiddo iddynt eu hunain, am hyny ni allent eu llwyrr werthu. Yr hyn oll ag oedd ganddynt i fyw arno heblaw hyn oedd o'r ffynnonell dra ansicr hōno o gynaliaeth, sef offrymau gwirfodd y bobl, yr hyn a ddibynai ar ffyniant gwir grefydd yn y wlad.

Adn. 35. *Yn ddyceithrddyn neu yn alltud*] Ond eto yn broselyt, ac felly yn *frawd*, fel y dywedir yma: gwel isod.

Adn. 36. *Na chymer ganddo oeraeth*] Hynw yw, gan dy *frawd*, pa un bynag ai Israeliad ai proselytiad a fyddo: ond goddefid iddynt gymeryd oeraeth gan estroniaid cenhedlig: gwel ar Exod. xxii. 25, a Deut. xxiii. 20.

Adn. 37. *Na ddod dy fwyd iddo ar lôg*] Os bydd i ddynton roddi bentlyg arian mewn masnach, gallant gymeryd llôg gyfreithlon; ond cyfeirir yma at fenthyca bara i frawd tyllawd hyd nes y byddai ei gnwd ef yn addfed, yn mha achos gwaherddid llôg.

Adn. 38. *Myfi yw yr Arglwydd, &c.*] Gwel ar pen. xxii. 32, 33.

Adn. 39. *Na wna iddo wasanaethu yn gaethwas*] Fel un o'r paganiaid, yr hwn a brynasai efe, neu a gymerasid yn gaeth mewn rhyfel.

Adn. 40, 41. *Hyd flwyddyn y jubili y caiff wasanaethu gyda thi*] Yn Exod. xxi. 2, dywedir na chai gwas prynedig o'r Hebreaid wasanaethu ond *chwe* blynedd, a'r *seithfed* y cai efe yn rhad fynyd ynaith yn rhydd. Dichon mai yr achos o'r gwahaniaeth oedd hyn, fod cyfeiriad yn Exodus at y cyfryw gaethion

42 Canys fy ngweision i ydynt, y rhai a ddygais allan o dir yr Aifft: na werther hwynt fel caethweision.

43 Na feistrola arno ef yn galed; ond ofna dy Dduw.

44 A *chymer* dy wasanaethwr a'th wasanaethferch, y rhai fyddant i ti, o fysg y cenhedloedd y rhai *ydynt* o'ch amgylch: o honynt y prynwch wasanaethwr a gwasanaethferch.

45 A hefyd o blant yr alltudion y rhai a ymdeithiant gyda chwi, prynwch o'r rhai hyn, ac o'u tylwyth y rhai *ynt* gyda chwi, y rhai a genedlasant hwy yn cich tir chwi: byddant hwy i chwi yn feddiant.

46 Ac etifeddwch hwynt i'ch plant ar eich ol, i'w meddiannu *hwynt* yn etifeddiaeth; gwnewch iddynt eich gwasanaethu byth: ond eich brodyr, meibion Israel, na feistrolwch yn galed y naill ar y llall.

47 ¶ A phan gyrhaeddo llaw dyn dyeithr neu ymdeithydd *gyfoeth* gyda thi, ac i'th frawd dylodi yn ei ymyl ef, a'i werthu ei hun i'r dyeithr yr hwn *fydd* yn trigo gyda thi, neu i un o hiliogaeth tylwyth y dyeithrddyn:

48 Wedi ei werthu, cair ei ollwng yn rhydd; un o'i frodyr a gaiff ei ollwng yn rhydd;

49 Naill ai ei ewythr, ai mab ei ewythr, a'i gollwng ef yn rhydd; neu

un o'i gyfnasaf ef, o'i dylwyth ei hun, a'i gollwng yn rhydd; neu, os ei law a gyraedd, gollynged efe ef ei hun.

50 A chyfrifed â'i brynwyr, o'r flwyddyn y gwerthwyd ef, hyd flwyddyn y jubili: a bydded arian ei werthiad ef fel rhifedi y blynyddoedd; megys dyddiau gweinidog cyflog y bydd gydag ef.

51 Os llawer *fydd* o flynyddoedd yn ol; taled ei ollwngdod o arian ei brynedigaeth yn ol hyny.

52 Ac os ychydig flynyddoedd fydd yn ol hyd flwyddyn y jubili, pan gyfrifo âg ef; taled ei ollwngdod yn ol ei flynyddoedd.

53 Megys gwas cyflog o flwyddyn i flwyddyn y bydd efe gydag ef: ac na feistrolod arno yn galed yn dy olwng di.

54 Ac os efe ni ollwngir o fewn y *blynyddoedd* hyn; yna aed allan flwyddyn y jubili, efe a'i blant gydag ef.

55 Canys gweision i mi *yw* meibion Israel; fy ngweision ydynt, y rhai a ddygais o dir yr Aifft: myfi *ydwyf* yr Arglwydd eich Duw chwi.

PENNOD XXVI.

NA wnewch eilunod i chwi, ac na chodwch i chwi ddelw gerfiedig, na cholofn, ac na roddwch ddelw faen

ag a werthwyd gan ereill; tra y cyfeirir yma at y cyfryw ac a'u gwerthasant eu hunain, y rhai o ganlyniad a allent ymwerthu am hirach amser nag a fuasai yn gyfiawn ei benodi i'r rhai a werthid heb eu cydsyniad eu hunain.

Adn. 42. *Canys fy ngweision i ydynt*] Gan i Dduw waredu yr Israeliaid o gaethiwed yr Aifft, ystyrid hwynt fel ei eiddo ef; ac am hyny y mae ef yn arddelwi yr un hawl yn eu personau, ag a wna yn eu tiroedd, adn. 23.

Adn. 43. *Na feistrola arno ef yn galed*] Trwy wneyd iddo weithio yn rhy hir, neu mewn gwaith rhy drwm iddo, neu heb ymorth digonol; *ond ofna dy Dduw*—yr hwn a orchymynodd i ti fod yn dyner wrtho, ac a all ddial ei gam.

Adn. 44—46. *O fysg y cenhedloedd, &c.*] Gallai yr Israeliaid brynu gweision a morwynion o fysg y cenhedloedd ag oeddynt o'u hamgylch, a'u gadael yn gynysgaeth i'w plant ar eu hol byth: ac yr oedd eu bawdurdod hwn ar eu caethweision, meddai rhai, yn ganlyniad i fendith Jacob, 'Gwasanaethed pobloedd dydi,' Gen. xxvii. 29, ac yn cysgodi dygiad y Cenhedloedd i mewn i wasanaeth Crist a'i eglwys.

Adn. 47—53. *A phan gyrhaeddo llaw dyn dyeithr, &c.*] Y mae y Duw cyfiawn yn darparu i'r dyeithr yn Israel gael yr un breintiau gwladol a'r priodor; ac os byddai i Israeliaid

ei werthu ei hun i'r dyeithr hwn, cymerid gofal am iddo yntau gael yr un manteision a phed ymwerthasai i un o'i frodyr. Gallai y caethwas gael ei ollwng yn rhydd; ond yr oedd yn rhaid talu am ei ollwngdod, yn ol ei flynyddoedd, i'r dyeithrddyn fel i'r priodor. Er anghraifft, os werthwyd ef am ugain siel ugain mlynedd cyn y jubili, a'i fod yn cael ei brynu yn rhydd ddeng mlynedd cyn y jubili, yr oedd yn rhaid talu deg siel am ei ollwngdod.

Adn. 54. *Ac os efe ni ollwngir*] Trwy fod ei berthynasau yn rhy dyledion i'w brynu; eto ni chai y dyeithrddyn ei gadw yn hwy na'r jubili. Dywed yr Iuddewon fod ei berthynasau yn rhwym, os byddai yn eu gallu, i'w brynu ef, rhag iddo gael ei lyncu i fyny yn mhlith y cenhedloedd; ac oddiwrth Neb. v. 8, cawn ddarod i hyn gael ei wneuthur gan yr Iuddewon ar eu dychweliad o gaethiwed Babilon: 'Nyni yn ol ein gallu a brynasom ein brodyr yr Iuddewon, y rhai a werthasid i'r cenhedloedd.'

Adn. 55. *Canys gweision i mi*] Gwel ar adn. 42.

PEN. XXVI. Adn. 1. *Na wnewch eilunod*] Heb. *elilim*, 'pethau dyddim,' pen. xix. 4. *Ddelw gerfiedig—phesel*, unrhyw ddelw wedi ei naddu o bren neu faen. *Na cholofn*—y

yn eich tir i ymgrymu iddi: canys myfi yw yr Arglwydd eich Daw chwi.

2 Fy sabbothau i a gedwch, a'm cysegr i a berchwch: myfi ydwyf yr Arglwydd.

3 ¶ Os yn fy neddfau i y rhodiwch, a'm gorchymynion a gedwch, a'u gwneuthur hwynt;

4 Yna mi a roddaf eich gwlaw yn ei amser, a rhydd y ddaear ei chynryrch, a choed y maes a rydd eu ffwrth.

5 A'ch dyrnu a gyraedd hyd gynauaf y grawnwin, a chynauaf y grawnwin a gyraedd hyd amser hau; a'ch bara a fwytwch yn ddigonol, ac yn eich tir y trigwch yn ddiogel.

6 Rhoddaf heddwch hefyd yn y tir, a gorweddwech hefyd heb ddychrynydd: a gwnaf i'r bwystfil niweidiol

rhai hyn oeddynt fath ar feini geirwon, y rhai a godai y cenhedloedd i'w dwiau, ac i'r rhai y talent ddyfod arnydedd. *Ddelw faen*—ar yr hon y oedd lluniau neu botreidiau wedi eu cerio neu eu paentio, fel y rhai hyn yn mhlith yr Aiffitiaid. Yr hyn a waherddir yma yw codi colofnau i'w haddoli hwynt, neu ddefnyddio *coelgrefyddol* o bethau diniwed a chyfreithlon ynddynt eu hunain. Ymddengys i'r meini neu y colofnau a godid ac a eneidid ar y cyntaf gan ddynton santaid er cof am ryw gyfryngiadau hynod o eiddo Duw ar eu rhan hwy, gael wedi hyny eu camddefnyddio i ddybenion eilunaddolgar a choelgrefyddol, ac am hyny gwaharddwyd hwynt: nyui a wyddom mai fel hyn y bu gyda'r sarrif bres, 2 Bren. xviii. 4. Gwel ar Gen. xxviii. 18.

Adn. 2. *Fy sabbothau i a gedwch*] Gwel ar pen. xix. 30.

Adn. 3, 4. *Os yn fy neddfau i y rhodiwch, &c.*] Yn wobr am eu hufydd-dod addawa Duw iddynt lwyddiant tymorol yn mhob peth a allai wneuthur cenedl yn ddedwydd. Ac, yn gyntaf, y mae yn sicrhau iddynt y caent dymorau ffwrthlon, yr hyn a amlygir yma trwy roddi iddynt *wlaw yn ei amser*; o herwydd yn Nghanaan a Syria ni cheid braidd byth wlaw ond ar ddau dymor penodol; yn niwedd yr hydref, tua phryd hau; ac yn y gwanwyn, cyn y cynauaf; a gelwir y rhai hyn "y gwlaw cynar a'r diweddar," Jer. v. 24, heb ba rai byddai y fwyddyn yn gwbl ddiwrwyth. Ni osododd Duw ei bobl mewn tir lle yr oedd y fath afonydd a'r Nilus i'w ddyffhau a'i ffwrthloni, eithr mewn tir ag ydoedd yn ymddibynu yn hollol ar wlaw o'r nefoedd, allwedd pa un a gadwai Duw yn ei law ei hun, fel y gallai yn fwy effeithiol eu rhwymo hwy i ufydd-dod, yn yr hyn yr oedd eu dedwyddwch yn gynywysedig.

Adn. 5. *A'ch dyrnu a gyraedd hyd gynauaf y grawnwin*] Hyny yw, cewch y fath lawndor o yd, fel, cyn i chwi ei fedi a'i dyrnu ef allan, y bydd cynauaf y gwinrawn yn barod; a chyn i chwi wasgu allan eich gwin, bydd yn

ddarfod o'r tir; ac nid â cleddyf trwy eich tir.

7 Eich gelyuion hefyd a erlidiwch, a syrthiant o'ch blaen ar y cleddyf.

8 A phump o honoch a erlidia gant, a chant o honoch a erlidia ddengmil; a'ch gelyuion a syrth o'ch blaen ar y cleddyf.

9 A mi a edrychaf am danoch, ac a'ch gwnaf yn ffwrthlaw, ac a'ch amlhaf, ac a gadarnhaf fy nghlyfammod â chwi.

10 A'r hen ystôr a fwytwch, ie, yr hen a fwrwch chwi allan o achos y newydd.

11 Rhoddaf hefyd fy nhabernacl yn eich mysg; ac ni fleiddia fy enaid chwi.

12 A mi a rodiaf yn eich plith; a byddaf yn Dduw i chwi, a chwithau a fyddwch yn bobl i mi.

bryd hau drachef. Fel hyn prin y caent ddigon o amser i dderbyn un fendith cyn i un arall ddyfod iddynt. Gwneir addewid gyffelyb yn Amos ix. 13: 'Goddwies yr arddwr y medelwr, asathrydd y grawnwin yr hauwrhad.'

Adn. 6. *Rhoddaf heddwch hefyd yn y tir*] Fel y mae Duw yn addaw eu bendithio hwy â llawnder, felly hefyd addawa eu hamddiffyn yn y diogel fwynhad o hono. *Gorweddwech hefyd heb ddychrynydd*—chwi a gedwir rhag ymosodiadau gelynuion oddidraw, a rhag niwed gan ddyn na bwystfil gartref. Y mae hwn yn ddarlun tra phrydferth o dawelwch gwladol.

Adn. 7. *Eich gelyuion hefyd a erlidiwch*] Gyda buddugoliaeth hollol pan y cynygiant eich afonyddu.

Adn. 8. *A phump o honoch a erlidia gant*] Ymadrodd diarebol, yn arwyddo y byddai i ychydig o honynt hwy fod yn drech na llawer o'u gelyuion.

Adn. 9. *A gadarnhaf fy nghyfammod*] A wir gyflawnaf yr hyn oll a addewais i chwi a'ch tadau.

Adn. 10. *Yr hen a fwrwch chwi allan*] O'ch ysguboriau a'ch heiniardai; o achos y newydd—i wneyd lle i'r ystôr newydd. Caent fwy o gwnd nag a allent ei ddi.

Adn. 11. *Rhoddaf hefyd fy nhabernacl yn eich mysg*] I goroni eu holl fendithion, y mae Duw yn addaw y cai ei bresenoldeb neillduol ef aros gyda hwy yn y tabernacl a'r deul. Tybia rhai fod yma gyfeiriad hefyd at breswylid Duw yn y natur ddynol, Ioan i. 14, a'i drigiad grasol ef trwy ei Ysbryd yn eneidiau ei ganlynwyr dan oruchwyliaeth yr efenngyl: gwel ar 2 Cor. vi. 16—18.

Adn. 12. *A mi a rodiaf yn eich mysg*] I'ch amddiffyn, eich arwain, a'ch cysuro, megys y gwnaethym hyd yn hyn trwy y golofn niwl a than, a thrwy fy mhreswylid rhwng y cerubiad. *A byddaf yn Dduw i chwi*—yn wrthddrych eich addoliad, ac yn waredydd eich eneidiau. *A chwithau a fyddwch yn bobl i mi*—yn dwyn fy enw, ac yn gyfranog o'm hanian.

13 Myfi *yw* yr Arglwydd eich Duw, yr lwn a'ch dygais chwi allan o dir yr Aifft, rhag eich bod yn gaethweision iddynt; a thorais rwymau eich iau, a gwnaethym i chwi rodio yn sythion.

14 ¶ Ond os chwi ni wrandewch arnaf, ac ni wnewch yr holl orchymynion hyn;

15 Os fy neddfau hefyd a ddirmygwch, ac os eich enaid a fficiddia fy marnedigaeathau, heb wneuthur fy holl orchymynion, ond tori fy nghyffammod;

16 Minau hefyd a wnaf hyn i chwi: gosodaf yn oruchaf arnoch ddychryn, darfodedigaeth, a'r cryd poethl, y rhai a wna i'r llygaid ballu, ac a ofidiant eich enidiau: a heuwch eich had yn ofer; canys eich gelynon a'i bwty:

17 Ac a osodaf fy wyneb i'ch erbyn, a chwi a syrthiwch o flaen eich gelynon; a'ch caseion a feistrola arnoch; fflowch hefyd pan na byddo neb yn eich erlid.

18 Ac os er hyn ni wrandewch ar-

naf, yna y chwanegef eich cospi chwi saith mwy am eich pechodau.

19 A mi a doraf falchder eich nerth chwi; a gwnaf eich nefoedd chwi fel haiarn, a'ch tir chwi fel pres:

20 A'ch cryfder a dreulir yn ofer: canys eich tir ni rydd ei gynrych, a choed y tir ni roddant eu ffirwyth.

21 ¶ Ac os rhodiwch yn ngwrthwyneb i mi, ac ni fynwch wrando arnaf fi; mi a chwanegef bla saith mwy arnoch yn ol eich pechodau.

22 Ac anfonaf ffwrystfil y maes yn eich erbyn, ac efe a'ch gwna chwi yn ddblant, ac a ddyfetha eich anffiliaid, ac a'ch lleiha chwi; a'ch ffyrdd a wneir yn anialwch.

23 Ac os wrth hyn ni chymerwch ddysg genyf, ond rhodio yn y gwrthwyneb i mi;

24 Yna y rhodiaf finau yn y gwrthwyneb i chwithau, a mi a'ch cospaf chwi hefyd eto yn saith mwy am eich pechodau.

25 A dygaf arnoch gledddyf, yr hwn

Adn. 13. *Gwnaethym iwch' rodio yn sythion*] Gyda phenau dyrchafedig, heb eich gwasgu i lawr gan iau caethiwed. Arwydda hyn eu rhyddid, eu diogelwch, a'u gogoniant.

Adn. 14. *Ond os chwi ni wrandewch arnaf, &c.*] Os byddai iddynt hwy yn ngwyneb yr addewidion mawrion hyn, y rhai a fwriedid i weithio ar eu diolchgarwch a'u hufydd-dod, ddyfod yn droseddwy'r o'i ddeddfau ef, y mae Duw yn bygwth yr ymwelid â hwy â phlâau anarferol; gyda thylodi a blinder gartef, a chydag alarmau rhyfel a dinystr oddiwrth el-nion estronol, y fath ag a'u hyspeiliai o hob gwir gysur hyd yn nod yn ngwlad yr addewid.

Adn. 15. *Tori fy nghyffammod*] Sef eich rhan chwi o'r cyfammod a wnaed ihyngof fi a chwi, a thrwy hyn fy rhyddhai i oddiwrth roddi i chwi y bendithion addawedig o'm tu i.

Adn. 16. *Gosodaf yn oruchaf arnoch*] Yn gaddeniaid milwraidd i'ch maeddu; *ddy-chryn*—y mae y gair *behalah* yn arwyddo arswyd sydyn a blin, yn peri iddynt deimlo drygau annysgrifiadwy, ac ofni i'hai mwy. *Darfodedigaeth—shachepheth*, rhyw fath ar nychlod trwy yr hwn yr oedd y cnawd yn cael ei ddifa, a'r holl goiff ei sychu i fyny iel gan dwymyn ffyrinig. Y mae y LXX yn ei gyfieithu *pebran*, crachen, clastr, neu ryw darddiad croenaidd megys y frechwen. *A'r cryd poeth*—y rhiifwnt, neu y cryd melyn, yn ol y LXX; neu ryw dwymyn lem a achosai ddallineb a phoen ddirfawr, ac a suddai yr sbrdydoedd.

Adn. 17. *Fflowch hefyd pan na byddo neb yn eich erlid*] Gan ofni fod drygau lle na byddo dim.

Adn. 18. *Chwanegef eich cospi chwi saith mwy*] Ymadrodd diarebol am gosp ffylhaol. Y mae Duw yn dechreu gyda chosp ysgafn, i

ddangos fod ganddo amynedd, ac nad yw efe yn ymhyfyrdn yn marwolaeth pechaduriaid; ond os nad edifarhant hwy, efe a â rhagddo at y drymaf, i ddangos ei fod yn gyfiawn, ac na wiiw cellwair âg ef.

Adn. 19, 20. *A mi a doraf falchder eich nerth*] Sef eich nerth, o'r hwn yr ydych yn falch; eich byddinoedd lluosog ac unedig, eich teyrnas, a'ch cysegr. *Gwnaf eich nefoedd chwi fel haiarn*—fel na wlawio i chwi; *a'ch tir chwi fel pres*—fel na fydd i'w arwyneb cras ddebyrn had na rhoddi ffirwyth; *a'ch cryfder a dreulir yn ofer*—with aredig, hau, a llafurio y ddaear.

Adn. 21. *Os rhodiwch yn ngwrthwyneb i mi*] Gwel ar adn. 23, 24.

Adn. 22. *Anfonaf ffwrystfil y maes yn eich erbyn*] Cyflawnodd Duw y bygythion hyn amrai weithiau yn llythyrenol. Efe a anfonodd *seirff tanlyd* i'w plith, Num. xxi. 6; *eirth*, 2 Bren. ii. 24; *llewod*, 2 Bren. xvii. 25; a bygythiodd hwynt â chwbl anrhaith, nes llenwi eu tir â bwystfilod, Eze. v. 14, 17. Yn ysbtydol, meddai Mr. Ainsworth, y rhai hyn ydynt lywiawdwy'r a gomeswyr drygion, a gau-broffwydi yn dyfetha enidiau: gwel Mat. vii. 15, Jer. v. 6, Dan. vii. 3—6.

Adn. 23, 24. *Ond rhodio yn y gwrthwyneb i mi*] Y mae pob pechadur yn rhodio yn y gwrthwyneb i Dduw, i'w wirioneddau, ei gyf-reithiau, a'i gynghorion, ac yn enwedig y rhai sydd yn anniwgyiadwy dan ei geryddon. *Yna y rhodiaf finau yn y gwrthwyneb i chwithau*—mewn barn. Pan y mae Duw yn ei raglun-iaeth yn attal ameaniou dynion, yn croesi eu bwriadau, yn diddymu eu hymdrechiadau, ac yn siomi eu dysgwyliadau, yna y mae efe yn i'rhodio yn y gwrthwyneb iddynt hwy.

Adn. 25. *Yr hwn a ddial fy nghyffammod*]

a ddial fy nghyfammed: a phan ymgasgloch i'ch dinasoedd, yna yr anfonaf haint i'ch mysg; a chwi a roddir yn llaw y gelyn.

26 A phan dorwyf ffon eich bara, yna deg o wragedd a bobant eich bara mewn un fflwrn, ac a ddygant eich bara adref dan bwys: a chwi a fwytechw, ac nis digonir chwi.

27 Ac os er hyn ni wrandewch arnaf, ond rhodio yn ngwrthwyneb i mi;

28 Minau a rodiaf yn ngwrthwyneb i chwithau mewn llid; a myfi, ie, myfi, a'ch cospaf chwi eto saith mwy am eich pechodau.

29 A chwi a fwytechw gnawd eich meibion, a chnawd eich merched a fwytechw.

30 Eich uchelfeydd hefyd a ddinystriaif, ac a doraf eich delwau, ac a roddaf eich celaneddau chwi ar gelaneddau eich cilunod, a'm henaidd a'ch flieiddia chwi.

31 A gwnaif eich dinaſoedd yn anghyfanedd, ac a ddinystriaif eich

cysegroedd, ac ni aroglaf eich aroglau peraidd.

32 A mi a ddinystriaif y tir; fel y byddo aruthr gan eich gelynyon, y rhai a drigant ynddo, o'i herwydd.

33 Chwithau a wasgaraf yn mysg y cenedloedd, a gwnaif dynu cleddyf ar eich ol; a'ch tir fydd ddiffaethwch, a'ch dinasoedd yn anghyfanedd.

34 Yna y mwynha y tir ei sabbothau yr holl ddyddiau y byddo yn ddiffaethwch, a chwithau a fyddwch yn nhir eich gelynyon; yna y gorphwys y tir, ac y mwynha ei sabbothau.

35 Yr holl ddyddiau y byddo yn ddiffaethwch y gorphwys; o herwydd na orphwysodd ar eich sabbothau chwi, pan oeddych yn trigo ynddo.

36 A'r henn a weddillir o honoch, dygaf lesgeidd ar eu calonau yn nhir eu gelynyon; a thrwst deilen yn ysgwyd a'u herlid hwynt; a ffoant fel ffoi rhag cleddyf; a syrthiant hefyd heb neb yn eu herlid.

37 A syrthiant bawb ar eu gilydd,

Saes, 'a ddial gweryll fy nghyfammed;' sef eweryll Duw gyda hwy am dori o honynt y cyfammed â wnaethant âg ef.

Adn. 26. *A phan dorwyf ffon eich bara*] Pan anfonwyf newyn, neu brinder bara yr hwn yw ffon gynaliol y bywyd dynol; *yna deg o wragedd a bobant eich bara mewn un fflwrn*—bydd prinder bara mor fawr, nes y bydd un fflwrn yn ddigon i grasu cymaint o fara ag a all deg o deuluoedd ei gyraedd. *Dan bwys*—yn ddognauf bychain wedi eu rhanu yn y modd cynllaf.

Adn. 27, 28. *Ac os er hyn ni wrandewch*] Os na fydd i'r cleddyf, y bwystfil, a'r prinder bara eich dwyn i'ch lle; *cospaf chwi eto saith mwy*—eich diystyrwch cildynus o'm deddfau a gospir â phlâau newyddion binach; yr hyn a gyflawnwyd yn eu caethiwed hwy yn nyddiau Manasse, Jehoiacin, a Zedecia.

Adn. 29. *A chwi a fwytechw gnawd eich meibion*] Trwy na fydd genych ddim arall i'w fwyta. Dyma yr adfyd mwyaif a allai ddyfod ar bobl: gwel ef yn cael ei ddarlunio yn helaeth, ac yn y lliwiau cryfaf, Deut. xxviii. 53—57. Cyflawnwyd hyn, yn gyntaf, yn ngwarchae Samaria, 2 Bren. vi. 29; yn nesaf, yn ngwarchae Jerusalem cyn caethiwed Babilon, Galar. iv. 10; ac, yn olaf, yn ninystr diweddf Jerusalem gan y Rhufeiniaid: gwel Josephus, Rhyf., llyfr vii. pen. 2.

Adn. 30. *Eich uchelfeydd hefyd a ddinystriaif*] Lle yr abethwch ac yr addolwch yn ol dull y cenedloedd. Gan na wnaent hwy ddi-nystrio eu uchelfeydd a'u delwau, gwnaif Duw hyny. Y rhai na fynant gael eu gwahanu oddiwrth eu heilunod gan orchymynion Duw, a wahenir oddiwrthynt gan ei farnedig-athau ef.

Adn. 31. *Ac a ddinystriaif eich cysegroedd*] Y mae cysegr Duw, er nad oedd ond un, yn

cael ei enwi yn y rhif lluosog, fel y gwneir hefyd yn Jer. li. 51, Ezec. xxviii. 18, ond odid am fod amrai ystafelloedd ynddo, pob un o ba rai oedd *gysegr* neu le santiaidd. Neu gall fod yma gyfeiriad at y *ddwy deml*, y gyntaf o ba rai a adeiladwyd gan Solomon, ac a ddinystriwyd gan Nebuchodonosor; a'r ail a adeiladwyd gan Zorobabel, a addurnwyd gan Herod, ac a wnaed yn lludw gan Titus Vespasian. Ni ddywed Duw, yr nghysegroedd, ond 'eich cysegroedd,' i ddangos y byddai iddynt trwy eu drygion hwy gael eu halogi, a'u gwneuthur yn amheilwng o hono ef. *Ni aroglaf eich aroglau peraidd*—sef yr aroglarth, wedi ei gwneuthur o amrai bêr-lysiau, yr hwn a offrymid bob dydd yn y cysegr, Exod. xxx. 34. Yr ystyr yw, na dderbynid eu gweddiau na'u hebyrth.

Adn. 32, 33. *Fel y byddo aruthr*] Nen, fel y *rhyfedda* eich gelynyon. Hwn sydd ymadrodd cryf i arwyddo arswydolrwydd eu hadfyd, wrth yr hwn y byddai i byd yn nod eu gelynyon synu! *A gwnaif dynu cleddyf ar eich ol*—yr hwn a'ch dylyna i diroedd estronol, fel na chewch orphwysdra yno.

Adn. 34, 35. *Yna y mwynha y tir ei sabbothau, &c.*] Sylwa Houbigant fod hyn yn wirionedd hanesiol; canys o amser Saul hyd y caethiwed Babilonaidd cyfrifir o gylch 490 o flynyddau, yn ystod pa amser dygwyddai 70 o sabbothau saith-flynyddol, (pen. xxv. 4.) canys 70 yn lluosedig gan 7 a wnant 490. Yn awr, trwy i'r caethiwed Babilonaidd barhau 70 o flynyddau, cafodd y tir orphwys yn gywir gynyfer o flynyddau ag a gawsai pe cadwasai yr Iuddewon y gyfraith berthynol i sabbothau blynyddol y tir: gwel 2 Cron. xxxvi. 21.

Adn. 36, 37. *A thrwst deilen yn ysgwyd a'u herlid hwynt*] Ymadrodd tra chynwys-

megys o flaen cleddyf, heb neb yn eu herlid: ac ni ellwch sefyll o flaen eich gelyniun.

38 Dyfethir chwi hefyd yn mysg y cenhedloedd, a thir eich gelyniun a'ch bwty.

39 A'r rhai a weddillir o honoch, a doddant yn eu hanwireddau yn nhir eich gelyniun; ac yn anwireddau eu tadau gyda hwynt y toddant.

40 Os cyffesant eu hanwiredd, ac anwiredd eu tadau, yn nghyda'u camwedd yr hwn a wnaethant i'm herbyn, a hefyd rhodio o honynt yn y gwrthwyneb i mi;

41 A rhodio o honof finau yn eu gwrthwyneb hwythau, a'u dwyn hwynt i dir eu gelyniun; os yno yr ymostwng eu calon ddiennaededig, a'u bod yn foddllawn am eu cospedigaeth:

42 Minau a gofiat fy nghyfammod â Jacob, a'm cyfammod hefyd âg Isaac, a'm cyfammod hefyd âg Abraham a gofiat; ac a gofiat y tir hefyd.

43 A'r tir a adewir ganddynt, ac a fwynha ei sabbothau, tra fyddo yn ddifiaethwch hebddynt: a hwythau a

fawr, yn arwyddo y byddai iddynt suddo i gyflwr o'r ofn mwyaf caethiwus a'r llwfrdra mwyaf dielwig.

Adn. 38, 39. *A thir eich gelyniun a'ch bwty*] Cyfeiriad, fel y meddyllir, at golliant y deg llwyth, y rhai a lyncwyd mor gyflawn yn nhir rhyw elyuion, fel nad oes dim yn aros yn nghylch eu bodoldeb na'u trigfa ond dychymyg yn unig.

Adn. 40. *Os cyffesant eu hanwiredd*] Mai arnynt hwy eu hunain a'u tadau y mae yr holl fai, a bod yr holl drueni a ddyoddefasant yn ngwlad eu caethiwed wedi dyfod arnynt yn gosp gyflawn.

Adn. 41. *Os yno yr ymostwng eu calon ddiennaededig*] Neu eu calon galed, anufydd, a chlyndyn; *a'u bod yn foddllon am ei cospedigaeth*—yn cyfaddef eu bod wedi ei chyflawn haeddu, ac nad ydynt yn teilyngu gwaredigaeth.

Adn. 42. *Minau a gofiat fy nghyfammod*] I gyflawni fy addewidion ynddo. Er iddynt hwy rodio yn y gwrthwyneb i Dduw mewn ffordd o bechod, ac iddo yntau rodio yn y gwrthwyneb iddynt hwythau mewn ffordd o farn, eto, ar eu dychweliad hwy ato ef mewn edifeirwch, bydd iddo yntau ddychwelyd atynt hwythau mewn ffordd o drugaredd arbenig. Nid oes un pechadur mor barod i edifarhan, ag ydyw Duw i faddeu! *Ac a gofiat y tir hefyd*—yr hwn yn amser y caethiwed oedd fel pe buasai wedi ei anghosio gan Dduw fel lle ei ogoniant a'i fendith.

Adn. 43. *A'r tir a adewir ganddynt*] Ddeg mlynedd a thriugain; *ac a fwynha ei sabbothau*—gwel ar adn. 34, 35.

Adn. 44. *Nis gwrthodaf ac nis ffeiddiaf*

foddllonir am eu cospedigaeth; o achos ac o herwydd dirmygu o honynt fy marnedigaethau, a ffeiddio o'u heuaid fy neddfau.

44 Ac er hyn hefyd, pan fyddont yn nhir eu gelyniun, nis gwrthodaf ac ni ffeiddiaf hwynt i'w dyfetha, gan dori fy nghyfammod â hwynt: o herwydd myfi *ydyw* yr Arglwydd eu Duw hwynt

45 Ond cofiat er eu mwyn gyfammod y rhai gynt, y rhai a ddygais allan o dir yr Aifft, yn ngolwg y cenhedloedd, i fod iddynt yn Dduw: myfi *ydyw* yr Arglwydd.

46 Dyma y deddfau, a'r barnedigaethau, a'r cyfreithiau, y rhai a roddodd yr Arglwydd rhyngddo ei hun a meibion Israel, yn mynydd Sinai, trwy law Moses.

PENNOD XXVII.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan addunedo neb adduned neillduol, y dynion *fydd* eiddo yr Arglwydd, yn dy bris di.

hwy i'w dyfetha] Saes. 'i'w llwyf ddyfetha.' Y mae yr Iudewon yn cymeryd eysur mawr oddiwrt y geiriau hyn, ac yn sicrhau iddynt eu hunain waredigaeth rywbryd, o'u caethiwed a'u trueni presenol.

Adn. 45. *Ond cofiat er eu mwyn gyfammod y rhai gynt*] Sef eu tadau. Er i Dduw gyflawni yn llythyrenol ei holl fgythion ar y bobl hyn, wrth eu difeddiannu o'u tir, wrth dyfetha eu llywodraeth, wrth ddmchwelyd eu dinas, wrth ddinystrio eu teml, a'u gwsgaru hwythau ar hyd wyneb yr holl ddaear; eto darfu iddo yn ei ragluniaeth eu cadw hwy yn hynod fel pobl *wahaniaethol*, ac mewn rhifedi dirfawr hefyd. Y mae efe fyth yn cofio *cyfammod y rhai gynt*, ac yn ei ragluniaeth a'i ras y mae ganddo fwriadau tra phwysig yn eu ffair. Holl Israel eto a fyddant gadwedig, ac a adferir oll, gyda'r Cenhedloedd, i'w ffair ef; a than Grist Iesu, y Bugail mawr, denant gyda hwy i'r un gorlan efengylaidd.

Adn. 46. *Dyma y deddfau, a'r barnedigaethau, a'r cyfreithiau*] Yn foesol a seremonïol, fel eu hadroddir o Exod. xx. hyd yma. Y mae rhai yn meddwl mai yr adnod hon yw terfyniad priodol yr holl lyfr, a bod pen. xxvii, yn wreiddiol, y'n dilyn pen. xxv. Tybia ereill i pen. xxvii gael ei chwaneu ar ol i'r llyfr gael ei orphen: gwel CLARKE.

PEN. XXVII. Adn. 1. *A llefarodd yr Arglwydd*] Felly ni a welwn fod y bennod hon o ddwyfol awurdodol fel y lleill, pa bryd bynag yr ysgrifenydd hi: gwel uchod.

Adn. 2. *Pan addunedo neb adduned neillduol, y dynion fydd eiddo yr Arglwydd, yn dy bris di*] Y mae yr adnod hon yn fer ac yn

3 A bydd dy bris, am wryw o fab ugain mlwydd hyd fab triugain mlwydd, i.e., bydd dy bris ddeg siel a deugain o arian, yn ol siel y cysegr.

4 Ac os benyw fydd, bydded dy bris ddeg siel ar hugain.

5 Ac o fab pum mlwydd hyd fab ugain mlwydd, bydded dy bris am wryw ugain siel, ac am fenyw ddeg siel.

6 A bydded hefyd dy bris am wryw o fab misyriad hyd fab pum mlwydd, bum siel o arian; ac am fenyw dy bris fydd tri siel o arian.

7 Ac o fab tringeimlwydd ac uchod, os gwryw fydd, bydded dy bris bymtheg siel, ac am fenyw ddeg siel.

8 Ond os tylotach fydd efe na'th bris di; yna safed gerbron yr offeiriad, a phrisied yr offeiriad ef: yn ol yr hyn a gyrhaeddo llaw yr addunedydd, felly y prisia yr offeiriad ef.

9 ¶ Ond os anifel, yr hwn yr offeiriad,

rymir o hono offrwm i'r Arglwydd, fydd ei adduned; yr hyn oll a roddir o'r cyfryw i'r Arglwydd, santaidd fydd.

10 Na rodded un arall am dano, ac na newidied ef, y da am y drwg, neu y drwg am y da: ac os gan newidio y newidia anifel am anifel; bydded hwnw a bydded ei gyfnewid hefyd yn santaidd.

11 Ac os adduned a efe un anifel aflan, yr hwn ni ddylent offrwm o hono offrwm i'r Arglwydd; yna rhodded yr anifel i sefyll gerbron yr offeiriad:

12 A phrisied yr offeiriad ef, os da os drwg fydd: fel y prisiech di yr offeiriad ef, felly y bydd.

13 Ac os efe gan brynu a'i pryn; yna rhodded at dy bris di ei bummed ran yn chwaneag.

14 ¶ A phan santeiddio gŵr ei dŷ yn santaidd i'r Arglwydd; yna yr offeiriad a'i prisia, os da os drwg fydd:

dywell, a gellir ei chyfieithu, meddai Clarke, fel hyn: *Y dyn a fyddo wedi neillduo adduned, yn ol dy bris di, o eneidiau i'r Arglwydd*; yr hyn a ellir ei alleirio fel yma: Yr hwn a fyddo wedi addunedu neu gysegru enaid, h. y. creadur byw, pa un bynag ai *dyn* ai *anifel*, os ewyllysia efe brynu yr hyn a addunedodd neu a gysegrodd efe fel hyn, efe a'i pryn ef yn ol prisia yr offeiriad; canys bydd i'r offeiriad faru cyneddau, ansoddau, ac oedran y dyn neu yr anifel, ac amgylchiadau y neb a'i haddunedodd, a threfnu y pris yn ol hyny; a'r arian a roddir yn ei ddwylaw ef at wasanaeth y cysegr. Gallai dyn addunedu neu gysegru ei hun, ei blant, ei deulu, ei anifeiliaid, ei eiddo, &c.; ac yn y bennod hon cawa reolau i brynu yr holl bethau hyn. Ond os byddai iddo ef, ar ol eu cysegru, wrthod eu prynu, yna byddent yn eiddo yr Arglwydd byth. Y *dynion* a barhäent dros eu holl fywyd yn gysegredig i wasanaeth y cysegr; yr *eiddo* a werthid er budd y deml neu yr offeiriad; a'r *anifeiliaid*, os yn lân, a aberthid; neu os yn anaddas yn aberth, a werthid, a'r pris a roddid i ddybenion cysegredig.

Adn. 3. *A bydd dy bris am wryw, &c.*] Gellid prynu *dyn* o 20 i 60 mlwydd oed, os byddai wedi ei gysegru i'r Arglwydd trwy adduned, am ddeg siel a deugain, yr hyn, yn ol 2s. 6c. bob un, a gyrhaeddi i £6. 5s.

Adn. 4. *Ac os benyw fydd*] Gallai *dynes* o'r un oedran, wedi ei haddunedu i'r Arglwydd, gael ei phrynu am ddeg siel ar hugain, £3. 15s., ychydig mwy na hanner pris *dyn*; am nas gallai *dynes* fod o gymaint defnydd a *dyn* yn ngwasanaeth y cysegr.

Adn. 5. *Ac o fab pum mlwydd, &c.*] Gellid prynu mab, rhwng 5 ac 20 mlwydd oed, am ugain siel, neu £2. 10s.; a *merch* o'r un oedran am ddeg siel, sef yr hanner yn gymhwys.

Adn. 6. *O fab misyriad*] Neu fis oed, *hyd fab pum mlwydd*—pris y *gwryw* oedd pum

siel, sef 12s. 6c.; a'r *fenyw* dri siel, sef 7s. 6c. Nid oedd neb yn cael ei addunedu fel hyn dan fis oed.

Adn. 7. *Ac o fab triugain mlwydd ac uchod, &c.*] *Yr hen ŵr a'r hen wraig*, trwy eu bod bron yn rhy hen i weithio, a brisid y naill yn bymtheg siel, £1. 17s. 6c., a'r llall yn ddeg siel, £1. 5s.

Adn. 8. *Ond os tylotach fydd efe na'th bris di*] Os byddai yr addunedydd yn analluog i dalu pris gosodedig y pryniad, yr oedd i roddi ei achos o flaen yr offeiriad, yr hwn oedd i'w brisio ef yn ol yr hyn a allai ei dalu. Yr oedd yn rhaid iddynt dalu rhywfaint, fel na fyddent fyrbwyll yn eu haddunedau i Dduw, 'canys nid oes ganddo flas ar rai nyfyd,' *Preğ. v. 4*; eto nid uwchlaw aru gallu, rhag iddynt eu dyfetha eu hunain a'u teuluoedd trwy eu sel.

Adn. 9, 10. *Ond os anifel, &c.*] Beth bynag a gysegrid i Dduw trwy adduned, efe a ystyrir o'r pryd hyny yn eiddo i'r Arglwydd: *newid* y cyfryw beth fyddai yn annuwioldeb; ei *attal* fyddai yn gysegr-ladrad. Ddarllenwydd, ai ni chefaist ti dy gysegru i Dduw yn dy feddyd? A delai't ti yr addunedau a wnaed y pryd hyny? Cofia, os wyt ti yn yspellio Duw o'i hawliau, yr amddifada efe ditban o'i nef!

Adn. 11, 12. *Ac os adduned a efe un anifel aflan*] Megs march, camel, &c., yr hwn ni ellid ei offrwm yn aberth. Yr oedd hwn i gael ei brisio gan yr offeiriad, ac yna gallai yr addunedwr ei brynu, neu ei adael at wasanaeth y cysegr, fel y sylwyd ar adn. 2.

Adn. 13. *Ei bummed ran yn chwaneag*] Fel hyn, os byddai i'r offeiriad ei brisio ef yn *ddeugain siel*, yr oedd yn rhaid i'r cyberchenog roddi am dano *wyth-a-deugain*. Y mae yn debyg i hyn gael ei fwriadu i attal addunedau byrbwyll a phryniadau trachwantus.

Adn. 14. *A phan santeiddio gŵr ei dŷ*] Neu y neillduo efe ef trwy adduned i'r Arglwydd, canys am y dull a'r modd hwn o santeiddio y

megys y prisio yr offeiriad ef, felly y sail.

15 Ac os yr hwn a'i santeiddiodd a ollwng ei dŷ yn rhydd; yna rhodded bummed *ran* arian dy bris yn chwanege ato, a bydded eiddo ef.

16 ¶ Ac os o faes ei etifeddiaeth y santeiddia gwŷr i'r Arglwydd; yna bydded dy bris yn ol ei hauad: hauad homer o haidd *fydd* er deg siel a deugain o arian.

17 Os o flwyddyn y jubili y santeiddia efe ei faes, yn ol dy bris di y saif.

18 Ond os wedi y jubili y santeiddia efe ei faes; yna dogned yr offeiriad yr arian iddo, yn ol y blynyddoedd fyddant yn ol, hyd flwyddyn y jubili, a lleihäer ar dy bris di.

19 Ac os yr hwn a'i santeiddiodd gan brynu a bryn y maes; yna rhodded bummed *ran* arian dy bris di

yn chwanege ato, a bydded iddo ef.

20 Ac onis gollwng y maes, neu os gwerthodd y maes i wŷr arall; ni cheir ei ollwng mwy.

21 A'r maes fydd, pan elo efe allan yn y jubili, yn gysegredig i'r Arglwydd, fel maes diofryd: a bydded yn feddiant i'r offeiriad.

22 Ac os ei dir pryn, yr hwn ni bydd o dir ei etifeddiaeth, a santeiddia efe i'r Arglwydd;

23 Yna cyfrifed yr offeiriad iddo ddogndy dy bris di, hyd flwyddyn y jubili; a rhodded yntau dy bris di yn gysegredig i'r Arglwydd, y dydd hwnw.

24 Y maes a â yn ei ol, flwyddyn y jubili, i'r hwn y prynasid ef ganddo, *sef* yr hwn *oedd* eiddo etifeddiaeth y tir.

25 A phob pris i ti fydd wrth siel y cysegr: ugam gerah fydd y siel.

sonir yn yr holl bennod. Yr oedd rhent blynyddol y cyfryw dŷ, ar ol ei gysegru fel hyn, yn myned tuag at gyweirio tŷ yr Arglwydd.

Adn. 15. *A ollwng ei dŷ yn rhydd*] Neu a'i pryn ef yn ol; yr hyn a allai ei wneuthur am y pris a benodid gan yr offeiriad, a thrwy chwanege y bummed *ran* ato: gwel ar adn. 13.

Adn. 16. *Ac os o faes ei etifeddiaeth y santeiddia*] Neu y neilldua gwŷr *ryw ran* i'r Arglwydd. Nid oedd yn gyfeithlon i ddyn addunedu ei *holl etifeddiaeth*, ac felly yru ei deulu i gardota i'r dyben i gyfoethogi cysegr yr Arglwydd: ni oddefai Duw hyn. *Hauad homer o haidd a fydd er deg siel a deugain*—yr oedd *homer* yn wabanol i *omer*: yr olaf a gynnwsai oddeutu *chwe pheint*, Exod. xvi. 36; eithr *homer* a gynnwsai *dri pheint a phymtheg galwyn a thriugain*, neu *gant o omeri*, Ezeec. xlv. 11. Y mae rhai yn meddwl nad oedd y tir yn cael ei ardrethu am ddeg siel a deugain dros holl flynyddau y jubili, canys ni fyddai hyn ond o gylich 2s. 6c. y flwyddyn; ond ei fod yn cael ei ardrethu yn ol ei gynrych, *sef deg siel a deugain* am bob *homer* o haidd a gynrych: gwel isod.

Adn. 17, 18. *Os o flwyddyn y jubili y santeiddia efe ei faes*] Hyn yw, os gwnaed yr adduned yn ebrwydd ar ol y jubili, yna yr oedd y tir ag ydoedd yn gofyn homer o had haidd i gael ei brisio yn ddeg siel a deugain, fel y crybwyllwyd uchod. *Ond os wedi y jubili*—*sef gryn lawer o amser wedi*, yna yr oedd yr offeiriad i dynu o'r ardreth uchod o ddeg siel a deugain fwy neu lai, yn ol fel y byddai mwy neu lai o flynyddau yn aros hyd y jubili nesaf: canys ni allai un tir gael ei drosglwyddo am fwy o amser na naw mlynedd a deugain, *sef o'r naill jubili i'r llall*, oddieithr yn yr achos a grybwyllir isod.

Adn. 19. *Bummed ran*] Gwel ar adn. 13.

Adn. 20. *Ac onis gollwng y maes*] Oni fydd i'r cynerchenog *brynu* y maes; hyn yw, os dewisa efe ymadael a'i dir yn hytrach na'i

brynu am y pris a osododd yr offeiriad arno; a darfod i'r offeiriad, ar ei wrthodiad ef, ei werthu neu ei osod hyd y jubili nesaf i wŷr arall; yna bydd i'r hwn a'i haddunedodd gael ei gau allan oddiwth bob braint ddyfodol o bryniad; a phan ddolo y jubili, y tir a ddychwel i'r offeiriadaeth dros byth. *Neu os gwerthodd y maes i wŷr arall*—hyn yw, 'os gwerthodd yr offeiriad y maes,' fel y mae yr Arabaeg yn ei ddarllen; neu, 'os gwerthwyd y maes,' fel yn y Lladin. Nis gail y gwerthuwr yma gyfeirio at gynberchenog neu addunedwr y tir, fel yr arwydda ein cyfieithiad ni, gan nad oedd ganddo ef un gallu i werthu y tir ar ol iddo ei gysegru; eithr yr oedd i'w werthu neu ei osod gan yr offeiriad neu drosrydd y cysegr, yr hwn a droai ei bris ef i ddefnydd cysegredig.

Adn. 21. *Pan elo efe allan yn y jubili*] *Sef* allan o feddiant y gwŷr arall, i'r hwn y gwerthodd yr offeiriad ef. *Bydded yn feddiant i'r offeiriad*—er ei gynaliaeth ef byth. Nid yw hyn yn groes i'r gyfraith hōno, na chai yr offeiriad 'etifeddiaeth yn eu tir,' Num. xviii. 20; canys ni ddywedir hyn ond am lwyth Lefi yn gyffredinol, mewn cyfeiriad at raniad cyntaf y tir, pryd nad oeddnt hwy i gael rhan fel y llwythau ereill: eithr ni chynwysa nas gallai rhyw diredodd neillid gael eu haddunedu a'u rhoddi i'r offeiriad, naill ai er eu helw eu hunain, neu at wasanaeth y cysegr.

Adn. 22. *Ac os ei dir pryn*] Yr hwn ni bydd yn etifeddiaeth drefdadol iddo; os bydd iddo roddi hwnw trwy adduned i'r Arglwydd.

Adn. 23, 24. *Yna cyfrifed yr offeiriad iddo ddogndy dy bris di*] *Sef* y pris ag y darfu i ti, Moses, trwy fy nghyfarwyddyd i, ei osod yn y fath achosion. *Hyd flwyddyn y jubili*—gymaint ag ydyw o werth am yr yspaid ag ydoedd rhwng gwneuthuriad yr adduned a blyddyn y jubili; canys nid oedd ganddo ef hawl iddo am fwy o amser, trwy ei fod y pryd hyn yn myned yn ol i'w etifedd trefdadol, adn. 24. *Rhodded yntau dy bris di yn gy-*

26 ¶ Ond y cyntafanedig o anifel, yr hwn sydd flaenffrwyth i'r Arglwydd, na chysegred neb ef, pa un bynag ai eidion ai dafad *fyddo*: eiddo yr Arglwydd *yw* efe.

27 Ond os ei *adduned ef fydd* o anifel aflan; yna rhyddhaed ef yn dy bris di, a rhodded ei bummed *ran* yn chwanege ato: ac onis rhyddha, yna gwerther ef yn dy bris di.

28 ¶ Ond pob diofryd-beth a ddiodyfrydo un i'r Arglwydd, o'r hyn oll a *fyddo* eiddo ef, o ddyn neu o anifel, neu o faces ei etifeddiaeth, ni werthir, ac ni ryddheir: pob diofryd-beth *sydd* santeiddiolaf i'r Arglwydd.

29 Ni cheir gollwng yn rhydd un *anifel* diofrydog, yr hwn a ddiodyfryder gan ddyn: lladder yn farw.

segredig i'r Arglwydd—yn lle y tir a brynwyd ag ef.

Adn. 25. *Wrth siel y cysegr*] Sef y safon ag ydoedd yn cael ei gadw yno i brofi yr holl bwysau wrtho. Y mae rhai yn gwneyd y siel arian yn gyfartal i 3s. o'n harian ni, tra y mae ereill yn ei ddarostwng i 2s. 3½c. Eithr y mae llawer o esbonwyr cyfrifol yn ei ystyried yn gyfartal i 2s. 6c.; ac felly yr ystyrir ef yn y gwaith hwn.

Adn. 26. *Ond y cyntafanedig—na chysegred neb ef*] Trwy adduned, gan ei fod wedi ei gysegru eisioes trwy ddeddi flaenorol, Exod. xiii. 2.

Adn. 27. *Ond os ei adduned ef fydd o anifel aflan*] Gwel ar adn. 2, 11, 12.

Adn. 28. *Ond pob diofryd-beth*] Dyma y *cherem*, pa un a olyga bob amser rodd i Dduw nas gellid ei thynu yn ol, gan ei bod wedi ei gwneuthur trwy alw am fellidith Duw ar y neb a'i lluddiai: gwel yr adfeddyliadau. *Sydd santeiddiolaf i'r Arglwydd*—at wasanaeth yr offeiriad, a hwy yn unig.

Adn. 29. *Ni cheir gollwng yn rhydd un anifel diofrydog, &c.*] Y mae fod y gair *anifel* mewn llythrenau Italaidd yn ein Beiblau Cymreig, yn brawfnad yw efe yn y wreiddiol, a darfod i'n cyfieithwyr ei roddi i mewn er esmwythau yr ystyr, gan yr ymddengys nad oeddynt yn deall meddwl yr adnod: a chan dybied mai *anifel* diofrydog a feddylid, cyf-feithasant y rhan ganlynol, 'yr hwn a ddiodyfryder gan ddyn.' Ond yn y Saesonaeg y mae yr adnod yn darllen yn debyg i hyn: *Ni cheir gollwng yn rhydd un diofrydog, yr hwn a ddiodyfryder o ddyinion; eithr diau yr rhoddir ef i farwolaeth.* Yn ol yr ystyr yma cyfeirir at *ddyinion* wedi eu diofrydu nid i'r Arglwydd, ond i *ddinystr*, naill ai gan ddedfryd Duw, megys eilunaddolwyr, Exod. xxii. 20, Deut. xiii. 15; y Canaanegid, Deut. xx. 17; yr Amaleciaid, Deut. xxv. 19, 1 Sam. xv. 3, 20; Benhadad, 1 Bren. xx. 42; neu gan ddyinion yn ganlynol i ddedfryd Duw, megys Num. xxi. 2, 3, a xxxi. 17; neu am ryw drosedd o natur uchel, megys Barn. xxi. 5. Tybia rhai mai ystyr yr adnod hon yw, 'y

30 ¶ A holl ddegwm y tir, o had y tir, ac o ffirwyth y coed, yr Arglwydd a'u piat: cysegredig i'r Arglwydd *yw*.

31 Ac os gŵr gan brynu a bryn ddim o'i ddegwm, rhodded ei bummed *ran* yn chwanege ato.

32 A phob degwm eidion, neu dda-fad, yr hyn oll a elo dan y wialen; y degfed fydd cysegredig i'r Arglwydd.

33 Nac edryched pa un ai da ai drwg *fydd* efe, ac na newidied ef: ond os gan newidio y newidia efe hwnw, bydded hwnw a bydded ei gyfnewid ef hefyd yn gysegredig; ni ellir ei ollwng yn rhydd.

34 Dyma y gorchymynion a orchymynodd yr Arglwydd wrth Moses, i feibion Israel, yn mynydd Sinai.

byddai y cyfryw un yn eiddo i'r Arglwydd, neu yn ihwym yn ei wasanaeth ef, hyd angau; ond yr ystyr cyntaf yw y mwyaf naturiol. Yr oedd yr holl ghenhedloedd Canaanegid wedi eu diofrydu fel hyn i ddinystr, am fod cwpan eu hanwiredd yn llawn; ac am hynny dylid edrych arnynt fel *ebyrth i gyflawnder dialeddol*, ac nid fel *offrymau crefyddol*.

Adn. 30. *A holl ddegwm y tir, &c.*] Trwy nad oedd gan yr offeiriad a'r Lefiaid un ran o'r tir wedi ei benu iddynt yn y rhaniad cyntaf, oddieithr ychydig ddinasoedd a'u maesydd pentrefol, felly trefnwyd fod i'r llwythau ereill roddi y degwm iddynt at eu cynaliaeth, sef y *ddegfed ran* o gynyrch eu maesydd, eu gwinllanoedd, a'u hanifeiliaid. *Cysegredig i'r Arglwydd yw*—i gynal yr offeiriad a'r Lefiaid yn ngwasanaeth yr Arglwydd.

Adn. 31. *Ac os gŵr gan brynu a bryn ddim o'i ddegwm*] Felly nid oedd gan berchenog y tir hawl yn y degwm nes iddo ei brynu, trwy na roddodd Duw iddo ef *ond naw* rhan o bob *dego* o'r cynyrch. *Rhodded ei bummed ran*—felly os prynai yr amaethwr ei ddegwm am *bun ugain siel*, yr oedd yn rhaid iddo roddi *chwech ugain* am dano yn y cyfan.

Adn. 32, 33. *Yr hyn oll a elo dan y wialen*] Dywed y rabbiniaid, pan y byddai dyn yn rhoddi degwm o'i wŷn neu ei loi i Dduw, ei fod yn cau i fyny yr holl braidd mewn un gorlan, i'r hon yr oedd drws cul i'w gollwng hwy allan bob yn un. Y perchenog a safai wrth y drws â gwialen yn ei law, pen yr hon a drochid mewn lliw coch. Yr oedd mamogiaid yr wŷn a'r lloi yn sefyll o'r tuallan; ac ar ol agor y drws, rhedai y rhai bychain allan at eu mamogiaid; ac fel yr aent allan, safai y perchenog â'i wialen uwch eu penau, gan gyfrif 1, 2, 3, &c.; a phan ddeuai y *degfed*, efe â'i wialen a roddai nod coch arno, trwy yr hyn yr hyndodid ef fel llo neu oen y degwm; a pha un bynag ai bras ai teneu, perffaith ai amherffiaith fyddai, hwnw a dderbynid fel y degwm cyfreithlon. Ymddengys mai at hyn y cyfeiria y profwyd pan yn llefaru wrth Israel, Eze. xx. 37: *Gwnaf i chwi fymed dan y wialen, a dygaf chwi i rwym y cyffammod*—

hyny yw, chwi a arddelwir unwaith yn chwaneq fel *eiddo* yr Arglwydd, ac a *nodir* neu a gysegir i'w wasanaeth of.

Adn. 34. *Dyma y gorchymynion, &c.*] Y mae y terfyniad hwn yn dra thebyg i'r un yn niwed y bennod flaenorol, yr hwn gwel.

ADFEDYLIADAU.—Dichon fod yn angenrheidiol sylwi yn mbellaach, fod dau fath o addunedau yn cael eu crybwyll yn y bennod hon: (1) Y *nedder*, pa un a gynwysai yr holl bethau hyny ag y gellid, ar ol unwaith eu cysegru, eu prynu yn ol am bris penodol a oesodid gan yr offeiriad. (2) Y *cherem*, y pothan hyny a addunedid i Dduw, y rhai nas

gellid eu hadbrynu. Yr oedd y rhai hyn yn *santeiddiolaf*, hyny yw, wedi eu cysegru mor lwyf i Dduw fel nas gellid eu nevid, eu trosglwyddo, na'u hadbrynu. Ar y sail hon cafodd y gair wedi hyny ei gymhwysu at y math mwyaf difrifol ac arswydus o *csygmuniad*, gan feddlw dyn wedi ei *ddiofrydu* mor lwyf i ddyrnod cyfiawnder dialeddol, fel ag i fod am byth yn analluog i dderbyn maddeuant; ac o ganlyniad gellir cymhwysu y gair yn dda yn yr ystyr hwn at y *Canaanaid*, y rhai yr oedd cwpan eu hanwiredd yn llawn, a'r rhai a drosglwyddwyd yn ddiarbed i'w llwyf ddyfetha: gwel ar Rhuf. ix. 3.

PEDWARYDD LLYFR MOSES,

A ELWIR

NUMERI I.

CAFODD y llyfr yma, yr hwn yw y pedwarydd yn nhrefn pum llyfr Moses, ei alw yn NUMERI, neu *Rifedi*, oddiwrth yr enw ag y mae yn ei ddwyn yn y VULGATE, am ei fod yn cynwys hanes *rhifiad* a *threfniad* yr Israeliaid ar eu taith trwy yr anialwch i Ganaan; ac y mae yn gyfieithiad llythyrenol o'r gair Groeg *Arithmoi*, ei enw gan y LXX. Nid yw yr enw hwn modd bynag yn perthyn yn briodol i fwy na'r tair pennod gyntaf, yn nghyda pen. xxvi. Y mae y llyfr hwn, fel y rhai blaenorol, yn cael ei enw yn mhlith yr HEBREID oddiwrth air gwahaniaethol yn y dechre. Gelwir ef yn fynych VAIDABER, *Uefarodd*, oddiwrth ei air dechreol; ond yn y rhan fwyaf o'r Beibian Hebreig ei enw yw BEMIDBAR, yn yr *anialwch*, yr hwn yw y *pummed* gair yn yr adnod gyntaf. Y mae y llyfr hwn yn cynwys hanes eu gweithrediadau am yspaid o rhwng 38 a 39 o flynyddoedd, er i'r rhan fwyaf o'r rhai a goffeir yma gymeryd lle yn y gyntaf a'r olaf o'r blynyddoedd hyny. Cawn yma haues eglur am wahanol wersyllfeydd taith yr Israeliaid yn yr anialwch; y gwahanol ddygwyrddiadau ar y ffordd; eu profedigaethau, eu gwrthryfelgarwch, eu cospedigaethau, eu gwaredigaethau, eu buddugoliaethau, &c.; yn nghydag amrai ddeddfau ac orlinhadau na chrybwyllwyd o'r blaen, ac ailadroddiad ac eglurhad o rai ereill a adrodesid eisioes; y cwbl yn ffurfio haesiaeth dra phwysig o gyfiawnder, trugarodd, a rhagluniaeth Dduw.

PENNOD I.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, yn anialwch Sinai, yn mhabel a chysarfod, ar y *dydd* cyntaf o'r ail mis, yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwy allan o dir yr Aiffit, gan ddywedyd,

2 Cymerwch nifer holl gynulleidfa

PEN. I. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses yn anialwch Sinai*] Yr oedd yr Israeliaid yn awr wedi gadael yr Aiffit ei's oddeutu tri mis ar ddeg, ac wedi bod yn preswlyd gerllaw mynydd Sinai yn agos i flwyddyn. *Ar y dydd cyntaf o'r ail mis*—gan i'r tabernacl gael ei godi ar y dydd cyntaf o'r mis cyntaf yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwy allan o'r Aiffit, Exod. xl. 17; ac i'r bobl gael eu rhoi, fel y dywedir yma, ar y dydd cyntaf o'r ail mis, yn yr un flwyddyn; y mae yn eglur i'r oll a grybwyllir yn llyfr Lefiticus gymeryd lle o fewn corff un mis.

Adn. 2. *Cymerwch nifer holl gynulleidfa meibion Israel*] Ar ol i Dduw sefydlu gwladwriaeth Israel trwy ddeddfau cyfiawn ac un-iawn, ac ordeinio pob peth perthynol i iawn gyfiawniad ei addoliad ei hun, a chodi y tabernacl yr hwn oedd ei orsedd a'i drigfa yn mhlith ei bobl, a chysegro ei offeiriad y rhai oeddynt i weini ger ei fron ef, y mae efe yn awr yn gorchymyn i'w ddeiliaid gael eu rhoi,

meibion Israel, yn ol eu teuluoedd wrth dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, pob gwryw wrth eu penau;

3 O fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a allo fyned i ryfel yn Israel: ti ac Aaron a'u cyfrifwch hwynt yn ol eu lluoedd

4 A bydded gyda chwi ŵr o bob

I. Fel y gallent weled nad anghofiasai efe ei addewid i Abraham o luosogi ei had. 2. Fel y gallent gadw trefn addas yn eu taith tua gwlad yr addewid. 3. Fel y gallai y llwythau a'r teuluoedd gael eu hiawn wahaniaethu, a phob anghytundeb yn nghyfech eiddo ac eifeddiaethau mewn amseroedd dyfodol gael ei ragflaenu. 4. Fel y gellid gwyrbod ddarfod i'r addewid o'r Messia trwy dŷ Ddafydd gael ei gwir gyflawniad. Ac. 5. Fel y gallent wybod eu nerth i ryfel. Yr oeddynt wedi cael eu rhoi o'r blaen i'r dyben i roddi banner siel y pen tuag at gyfodi y tabernacl, Exod. xxxviii. 26; a rhifir hwynt eto, yn mben tua 38 o flynyddau, mewn trefn i ranu gwlad Canaan yn gyfartal rhyngddynt: gwel ar pen. xxvi.

Adn. 3. *O fab ugain mlwydd ac uchod*] Yn y rhifiad hwn nid oedd gwragedd, plant, henafgwyr, dyeithriaid, na'r Lefiaid, yn gyfrifedig, y rhai yn nghyd a flurfiasant luaws dirfawr; canys yr oedd y Lefiaid yn unig yn cyraedd i 22,000. Israeliaid o enedigaeth yn unig a

llwyth; sef y gwŕ penaf o dŷ ei dadau.

5 ¶ A dyma enwau y gwŕr a safant gyda chwi. O *lwyth* Reuben; Elisur mab Sedeur.

6 O *lwyth* Simeon; Selumiel mab Surisadai.

7 O *lwyth* Juda; Nahson mab Aminadab.

8 O *lwyth* Issacar; Nethaneel mab Suar.

9 O *lwyth* Zabulon; Eliab mab Helon.

10 O feibion Joseph: dros Ephraim, Elisama mab Ammihud; dros Manasseh, Gamaliel mab Pedasur.

11 O *lwyth* Benjamin; Abidan mab Gideoni.

12 O *lwyth* Dan; Abiezer mab Ammisadai.

13 O *lwyth* Aser; Pagiel mab Ocran.

14 O *lwyth* Gad; Eliasaph mab Deuel.

15 O *lwyth* Naphtali; Abira mab Enan.

16 Dyma rai enwog y gynulleidfa, tywysogion llwythau eu tadau, pen-aethiaid miloedd Israel *oeddynt* hwy.

17 ¶ A chymerodd Moses ac Aaron y gwŕr hyn a hysbysasid wrth *eu* henwau.

18 Ac a gasglasant yr holl gynulleidfa yn nghyd ar y *dydd* cyntaf o'r ail mis; a rhoddasant eu hachau, trwy eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, erbyn eu penau.

19 Megys y gorchymynodd yr Arglwydd i Moses, felly y rhifodd efe hwynt yn anialwch Sinai.

20 ¶ A meibion Reuben, cyntaf-

anedig Israel, wrth eu cenedl eu hun, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, erbyn eu penau, pob gwryw o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a allai fyned i ryfel;

21 Y rhai a rifwyd o honynt, *sef* o *lwyth* Reuben, *oedd* chwe mil a deugain a phum cant.

22 ¶ O feibion Simeon, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau eu rhifedigion *oedd*, dan rif *eu* henwau, erbyn eu penau, pob gwryw o fab ugain mlwydd ac uchod, *sef* pob un a'r a allai fyned i ryfel;

23 Eu rhifedigion hwynt, o *lwyth* Simeon, *oedd* onid un fil triugain mil a thri chant.

24 ¶ O feibion Gad, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu lluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a allai fyned i ryfel;

25 Eu rhifedigion hwynt, o *lwyth* Gad, *oeddynt* bum mil a deugain a chwe chant a deg a deugain.

26 ¶ O feibion Juda, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pawb a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

27 Eu rhifedigion hwynt, o *lwyth* Juda, *oedd* bedair mil ar ddeg a thriugain a chwe chant.

28 ¶ O feibion Issacar, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

29 Eu rhifedigion hwynt, o *lwyth* Issacar, *oedd* bedair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.

rifd, a'r rhai hyny yn alluog i ddwyn arfau, ac yn gyfarwydd i ryfel.

Adn. 4. *Y gwŕ penaf o du ei dadau*] Ymddengys i dywysogion y patrieirch trwy enedigaeith gadw urddas eu cyntafanedigaeth hyd wedi auser y brenin Saul, pryd y darfu i ddyrchafiadau llysol roddi terfyn arno.

Adn. 5, &c. *O lwyth Reuben, &c.*] Y mae y llwythau yn cael eu rhifo yma yn ol trefn neu radd eu genedigaeth: yn gyntaf, plant Lea, yna plant Rahel, ac wedi hyny eiddo y llawforwynion.

Adn. 14. *Eliasaph mab Deuel*] Gelwir hwn *Reuel*, pen. ii. 14. Gan fod y *daleth* yn dra thebyg i'r *resh*, yr oedd yn hawdd camgymeryd y naill am y llall. *Reuel* yw darllen- iad y lxx a'r Syriaeg yn y bennod hon; a *Deuel* yw darllen- iad y Samaritanaeg, yr Arabaeg, a'r Vulgate yn pen. ii. 14, yn nghyda nifer mawr o ysgriflyfrau, ac hefyd yn pen. x.

30: gan hyny casgla llawer mai *Deuel* yw yr iawn ddarllen- iad. Ceisia un o'r rabiniaid symud pob dyryswech trwy ddywedyd mai proselty oedd Eliasaph, a'i fod cyn cofleidio y wir fydd yn cael ei alw yn fab *Reuel*, 'tor- iad Duw;' ac wedi ei ddychweiliad ei fod yn cael ei gyfenwi yn fab *Deuel*, 'gwybodaeth o Dduw.' Ond nis gall hyny fod, am ei fod yn cael ei alw yn fab *Reuel*, pen. ii. 14, ar ol cael ei alw yma yn fab *Deuel*; ac heblaw hyny, yr oedd yr holl rai hyn yn benaethiaid o wreiddyn Israelaidd.

Adn. 16. *Dyma rai enwog*] Ilyny yw, rhai *enwedig* y gynulleidfa, y rhai a alwyd wrth eu *henwau* i ddyfod yn mlaen.

Adn. 18. *Rhoddasant eu hachau*] Dangos- asant yn gyntaf o ba deulu yr oeddynt, wedi hyny o ba dŷ yn y teulu hwnw, ac yna i bodd- wyd i lawr enw pob un yn y cyfiryw dŷ ag ydoedd yn addas i ryfel.

30 ¶ O feibion Zabulon, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel;

31 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Zabulon, *oedd* ddwy fil ar bymtheg a deugain a phedwar cant.

32 ¶ O feibion Joseph, *sef* o feibion Ephraim, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel;

33 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Ephraim, *oedd* ddeugain mil a phum cant.

34 ¶ O feibion Manasse, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

35 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Manasse, *oedd* ddeuddeng mil ar hugain a dau gant.

36 ¶ O feibion Benjamin, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

37 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Benjamin, *oedd* bymtheg mil ar hugain a phedwar cant.

38 ¶ O feibion Dan, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab

ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

39 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Dan, *oeddynt* ddwy fil a thringain a saith gant.

40 ¶ O feibion Aser, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

41 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Aser, *oeddynt* un fil a dengain a phum cant.

42 ¶ O feibion Naphtali, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif *eu* henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel;

43 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Naphtali, *oedd* dair mil a deg a deugain a phedwar cant.

44 Dyma y rhifedigion, y rhai a rifodd Moses, ac Aaron, a thywysogion Israel; *sef* y deuddeng-wr, *y rhai oedd* bob un dros dŷ eu tadau.

45 Felly yr ydoedd holl rifedigion meibion Israel, wrth dŷ eu tadau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel yn Israel:

46 A'r holl rifedigion *oedd* chwe chan mil a thair mil a phum cant a deg a deugain.

47 ¶ Ond y Lefiaid, trwy *holl* lwythau eu tadau, ni rifwyd yn eu mysg hwynt:

Adn. 19—46. *Felly y rhifodd efe hwynt*] Yn yr aduodau hyn cawn nifer pob gwryw yn neuddeg llwyth Israel, o fab ugain mlwydd ac uchod, fel yr oeddynt yn sefyll pan rifwyd hwynt yn anialwch Sinai. Y mae y daflen isod yn dechreu gyda'r llwyth lluosocaf, ac yn dybenu gyda'r lleiaf.

1.	Llwyth Juda.....	74,600.....	adn. 27.
2.	— Dan.....	62,700.....	39.
3.	— Simeon.....	59,300.....	23.
4.	— Zabulon.....	57,400.....	31.
5.	— Issacar.....	54,400.....	29.
6.	— Naphtali.....	53,400.....	43.
7.	— Reuben.....	46,500.....	21.
8.	— Gad.....	45,650.....	25.
9.	— Aser.....	41,500.....	41.
10.	— Ephraim.....	40,500.....	33.
11.	— Benjamin.....	35,400.....	37.
12.	— Manasse.....	32,200.....	35.

Y cwbl ...603,550.....—46.

Gallwn sylwi yma fod y niferoedd uchod yn diweddu oil gyda *channoedd*, oddieithr eiddo Gad, yr hwn a ddiwedda gyda *deg-a-deugain*. Y mae rhai yn meddwl mai rhagluniaeth arbenig oedd yu trefnu i'r holl lwythau fod y

pryd hyn yn grwn-rifau; eithr tybia ereill, gan i Moses o'r blaen (Exod. xviii. 21) osod tywysogion ar gannoedd a thywysogion ar ddegau-a-dengain, i'r bobl gael eu rhifo wrth eu tywysogion priodol, yr hyn a ddygai eu niferoedd yn gymhwys i gannoedd neu ddegau-a-deugain. Ond dylid sylwi nad oedd y rhifiad bhwn yn golygu oedran penodol fel y gwna hwn, yr hyn sydd yn gwneuthur gwahaniaeth dirfawr; canys allan o'r deg-a-deugain ag oeddynt dan ofal y tywysog yn ganlyuol i'r rhifiad cyffredinol yn Exod. xviii, gallai nad oedd dros ugain yn cael eu cymeryd i mewn i'r cyfrif presenol, am eu bod naill ai yn rhy ieuanc neu yn rhy hen.

Adn. 47—49. *Ond y Lefiaid—ni rifwyd*] Yn pen. iii. 15, &c., cawn fod y Lefiaid i gadw cofrestr wahanedig o'r eiddynt eu hunain; er, trwy eu bod wedi eu neillduo oddiwrth y lleill o'u brodyr i wasanaeth y tabernacl, ac am hyny yn cael eu hesgusodi o ryfel, nad ydynt yn cael eu rhifo yma gyda'r rhai ag oeddynt i fyned i ryfel, adu. 3. Yn mhob cenedl yr oedd gweindogion crefydd yn cael eu rhyddhau oddiwrth ryfel, fel peth anghytnol â'u proffes. Dywed Strabo fod yr arferiad yma cyn hyned ag amser Homer; a sylwa Cesar

48 Canys llefarasai yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

49 Ond na chyfrif lwyth Lefi, ac na chymymer eu nifer hwynt, yn mysy meibion Israel.

50 Ond dod i'r Lefiaid awdurdod ar babell y dystiolaeth, ac ar ei holl ddodrefn, ac ar yr hyn oll a *berthyn* iddi: hwynt-hwy a ddygant y babell, a'i holl ddodrefn, ac a'i gwasanaethant, ac a wersyllant o amgylch i'r babell.

51 A phan symudo y babell, y Lefiaid a'i tyn hi i lawr; a phan arhoso y babell, y Lefiaid a'i gesyd hi i fyny: lladder y dyeithr a ddelo yn agos.

52 A gwersyllod meibion Israel bob un yn ei wersyll ei hun, a phob un wrth ei lumman ei hun, trwy eu lluoedd.

53 A'r Lefiaid a wersyllant o amgylch babell y dystiolaeth, fel na byddo llid yn erbyn cynulleidfa meib-

ion Israel: a chadwed y Lefiaid wyl-iadwriaeth pabell y dystiolaeth.

54 A meibion Israel a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymyuasai yr Arglwydd wrth Moses; felly y gwnaethant.

PENNOD II.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, ac wrth Aaron gan ddywedyd,

2 Meibion Israel a wersyllant bob un wrth ei lumman ei hun, dan arwyddion tŷ eu tadau: o amgylch pabell y cyfarfod y gwersyllant o hirbell.

3 ¶ A'r rhai a wersyllant o du y dwyrain tua chodiad haul, *fydd gwŷr* llumman gwersyll Juda, yn ol eu lluoedd: a chapten meibion Juda *fydd* Nahson mab Aminadab.

4 A'i lu ef, a'u rhai rhifedig hwynt,

fod yr hen Dderwyddon yn Brydain yn rhyddion nid yn unig oddiwrth ryfeloedd, ond oddiwrth deyrnged hefyd. Pan fyddai yr offeiriaid yn ymladd, yr oedd hyny o angenrheidrwydd, neu o'u hewyllys eu hunain. Ni ddylai y rhai sydd yn gweini mewn pethau santaidd ymrwystro gydag achosion bydol. Y mae y weinidogaeth ei hun yn ddigon o waith i ddyn cyfan, a'r oll o hono yn ddigon bach i fod ar waith ynddi.

Adn. 50. *Babell y dystiolaeth*] Felly y gelwir y tabernacl, am ddarod ei wneuthur yn benaf er mwyn yr *arch*, yn yr hon yr oedd llechau y dystiolaeth, Exod. xxv. 16.

Adn. 51. *Lladder y dyeithr a ddelo yn agos*] I wneuthur y swyddau a grybwyllir yma ac yn adn. 50. Y mae y *dyeithr* yma yn arwyddo un o lwyth arall, yn gystal ag o genedl arall.

Adn. 52. *Gwersyllod meibion Israel*] Gwel ar pen. ii. 2, &c.

Adn. 53. *A'r Lefiaid a wersyllant o amgylch pabell y dystiolaeth*] Yn nesaf ati, tu-fewn i wersyll yr Israeliaid. Bwriedid hyn fel y byddent yn agos at eu gwaith, ac i wlyio y babell rhyng ei hyspeilio na'i halogi. *Fel na byddo llid*—oddiwrth Dduw, yr hwn sydd yn dyner iawn o'i gysegr, ac na oddef iddo gael ei halogi hyd yn nod gan ei bobl ei hun.

Adn. 54. *A meibion Israel a wnaethant*] A gysdyniasant â'r hyn a ofylid ganddynt, ac a ymddygasant yn ol hyny.

PEN. II. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd*] Yma rhoddir gorchymyn cyffredinol am eu trefnus wersylliad wrth orphwys ac wrth ymdaith. Dianaau eu bod wedi cadw rhyw drefn hyd yma, (gwel ar Exod. xiii. 18.) ond yn awr rhoddir hwynt mewn gwell trefn.

Adn. 2—32. *Meibion Israel a wersyllant bob un wrth ei lumman ei hun, &c.*] Darfu i esbonyr, berniaid, ac athronyddion gymeryd llawer iawn o drafferth i geisio egluro y ben-

nod hon, trwy ddangos y drefn oraf o wersylliad i'r fath nifer mawr o ddynion, a'r dull ag y tybient hwy i'r Israeliaid ffurfio eu gwersyll yn yr analwech. Gan i Dduw roddi iddynt y cynllun, diamau e'r fod yn mbob ystyr yn berffaith, ac yn cyflawn ateb y dyben deublyg o gyfleusdra a diogelwech. Ymosododd *Scheuchzer* ar hyn gyda'i fedrusrwydd arferol. Rhanwyd y fyddin Israelaidd, meddai efe, yn dri phrif ddoesbarth. Y *cynaf*, yr hwn oedd y lleiaf mewn maintio, ond y cryfaf a'r grymusaf, ydoedd yn nghanolbarth y fyddin: hwn oedd *GORSEDD DUW*, sef y *tabernacl*. Yr *ail* ddoesbarth, yr hwn a wneid i fyny o'r *offeiriaid* a'r *Lefiaid*, a amgylchynai y *cynaf*. Y *trydydd* doesbarth, a'r pellaf oddiwrth y canolbarth, a gymerai i mewn holl lwythau ereill Israel, y rhai oeddnt o leiaf oddeutu milldir oddiwrth y tabernacl; canys ymddengys oddiwrth Josephus mai y dynesiad agosaf a feiddient hwy ei wneuthur at yr *arch*, oddi-eithr ar amser addoliad, oedd o fewn *duy fil o gwyfddau*. Yr oedd y parch dyledus hwn i'r Dwyfol Fawrhydi, a byddin luosog yr Israeliaid o 603,550 o flwydr, yn nghyda'u teuluoedd, yr hyn a wna'i yn nghylch tair miliwn o eneidiau, yn gofyn yn naturiol gryn lawer o dir. Nid ydym i feddwl fod yr holl deuluoedd hyn yn lledu eu pebyll blith-draphllith heb drefn, megys anifeiliaid, neu fel milwyr *Tartary* a byddinoedd y dwyrain; yn y gwrthwyneb, eu gwersyll a ddoesbarthwyd yn ol y rheolau manylaf. A diamau fod eu gwersyll yn cael ei lunio, a lle pob doesbarth a llwyth yn cael ei gywir benu, gan ryw beirianwyr neu fesurwyr cyn i'r fyddin aros i wersyllu, fel y gallai pob un gael hyd ar un-waith i'w le ei hun, a'r ffordd a ddylai ei chymeryd i gyraedd y pebyll ereill. Yr oedd pedwar doesbarth, y rhai a wynebant bedwar chwarter y byd, pob un dan ei arwydd ei hun, yn ffurfio corff y fyddin. Gosodwyd *JUDA* o du y dwyrain, ac yr oedd ganddo *Issacar* a *Zabulon* dano, neu un bob tu iddo; *REUBEN*

fyddant bedair mil ar ddeg a thriugain a chwe chant.

5 A llwyth Issacar a wersyllant yn nesaf ato : a chadben meibion Issacar *fydd* Nethaneel mab Snar.

6 A'i lu ef, a'i rifedigion, *fyddant* bedair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.

7 Yna llwyth Zabulon : ac Eliab mab Helon *fydd* cadben meibion Zabulon.

8 A'i lu ef, a'i rifedigion, *fyddant* ddwy fil ar bymtheg a deugain a phedwar cant.

9 Holl rifedigion gwersyll Juda *fyddant*, yn ol eu lluoedd, yn gan mil a phedwar ugain mil a chwe mil a phedwar cant. Yn flaenaf y cychwyn y rhai hyn.

10 ¶ Llumman gwersyll Reuben *fydd* tua'r deau, yn ol eu lluoedd : a chadben meibion Reuben *fydd* Elisur mab Sedeur.

11 A'i lu ef, a'i rifedigion, *fyddant* chwe mil a deugain a phum cant.

12 A'r rhai a wersyllant yn ei ymyl ef *fydd* llwyth Simeon : a chadben meibion Simeon *fydd* Selumiel mab Surisadai.

13 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fydd* onid un triugain mil a thrichant.

14 Yna llwyth Gad : a chadben meibion Gad *fydd* Eliasaph mab Reuel.

15 A'i lu ef, a'u rhifedigion hwynt, *fyddant* bum mil a deugain a chwe chant a deg a deugain.

16 Holl rifedigion gwersyll Reuben *fyddant* gan mil ac un-ar-ddeg a deugain o filoedd, a phedwar cant a deg a deugain, yn ol eu lluoedd. Ac yn ail y cychwynant hwy.

17 ¶ A phabell y cyfarfod a gychwyn yn nghanol y gwersylloedd, *gyda* gwersyll y Lefiaid : fel y gwersyllant, felly y symudant, pob un yn ei le, wrth eu llummanau.

18 ¶ Llumman gwersyll Ephraim *fydd* tua'r gorllewin, yn ol eu lluoedd : a chadben meibion Ephraim *fydd* Elisama mab Ammihud.

19 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* ddeugain mil a phum cant.

20 Ac yn ei ymyl ef llwyth Manasse ; a chadben meibion Manasse *fydd* Gamaliel mab Pedasur.

21 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* ddeuddeg mil ar hugain a dau cant.

22 Yna llwyth Benjamin : a chadben meibion Benjamin *fydd* Abidan mab Gideoni.

23 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* bymtheg mil ar hugain a phedwar cant.

24 Holl rifedigion gwersyll Ephraim *fyddant* yn ol eu lluoedd, gan mil ac wyth mil a chant. Ac a gychwynant yn drydydd.

25 ¶ Llumman gwersyll Dan *fydd* tua'r gogledd, yn ol eu lluoedd : a chadben meibion Dan *fydd* Aliezer mab Ammisadai.

26 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* ddwy fil a thriugain a saith cant.

27 A'r rhai a wersyllant yn ei ymyl ef *fydd* llwyth Aser : a chadben meibion Aser *fydd* Pagiel mab Ocran.

28 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* un fil a deugain a phum cant.

29 Yna llwyth Naphtali : a chadben meibion Naphtali *fydd* Ahira mab Enan.

30 A'i lu ef, a'u rhifedigion, *fyddant* dair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.

31 Holl rifedigion gwersyll Dan *fyddant* gan mil ac onid tair mil triugain mil a chwe chant. Yn olaf y cychwynant a'u llummanau.

32 ¶ Dyma rifedigion meibion Israel, wrth dŷ eu tadau. Holl rifedigion y gwersylloedd, yn ol eu lluoedd, *oedd* chwe chan mil a thair mil a phum cant a deg a deugain.

o du y deau, a *Simeon* a *Gad* dano ; EPHRAIM o dn y gorllewin a *Manasse* a *Benjamin* dano ; a DAN o du y gogledd, ac *Aser* a *Naphtali* dano. Tybia rhai nid yn unig fod y pedwar dosbarth hyn yn cael eu gwabaniaethu gan bedwar llumman, ond hefyd fod gan bob llwyth neillduol ei faner neu ei arwydd. Yr oedd cyfanrif y dosbeirth hyn yn cynwys y niferi canlynol :

Juda186,400...adn. 9.

Reuben151,450... — 16.

Ephraim108,100... — 24.

Dan157,600... — 31.

Mewn gwersyll iawn-drefnedig ystyrir *glen-*

did yn anhebgorol angenrheidiol ; ac yr oedd hyn yn nodedig yr y fyddin Israeliaid, lle yr oedd y drefn fanylaf yn cael ei chadw. O ganlyniad gwaberddid i bob un ag yr oedd rhyw afecbyd arno, a'r rhai a gyfrifid yn aflan, fyned i mewn, pen. v. 2, 3, Deut. xxiii. 10. Hefyd, i luaws mor fawr o bobl, yr oedd yn ofynol fod holl *angenrheidiau bywyd* wedi eu darparu yn mlaenllaw, neu yn barod i'w prynu. Yn yr ystyr yma nid oedd dim yn ddiffygiol i'r Israeliaid. Eu bara a ddeuai i waered iddynt o'r nef; ac os gallwn goelio Josephus, yr oedd ganddynt yn eu plith farchnadoedd cyhoeddus ac amrai fasnachldai. Yn Exod. xxxii.

33 Ond y Lefiaid ni chyfrifwyd yn mysg meibion Israel; megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

34 A meibion Israel a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd wrth Moses: felly y gwersyllasant wrth eu llummanau, ac felly y cychwynasant, bob un yn ei deuluoedd, yn ol tŷ eu tadau.

27, crybwyllir am *byrth* y gwersyll; ac os oedd pyrth i'r gwersyll, gallwn gasglu hefyd fod ganddynt *wyliedyddion* i'w gwarchad; ac os gwir hyn, gallwn gredu hefyd eu bod yn cael eu hamgylchynu â *chloddiâu*, neu o leiaf fod eu pyrth yn cael eu handdifyn gan ryw *ragfuriau*. Os cymharwn wersyll Israel gydag eiddo ein byddinoedd llysofac ni, y rhai yn y dyddiau hyn a wneir i fyny o 100,000 neu 150,000 o wŷr, nis gallwn lai na'i ystyried o *faintiol* mavr. Dywed yr Iuddewon ei fod yn ddeuddeg milldir o amgylchedd, neu fod gwyneb pob aden o'r ysgwâr hon yn dair milldir o hyd; a thybia ereill ei fod yn llawer mwy. Nid ydym yn son yma ond am y tir a feddiennid gan y milwyr tra yn aros yn eu rhenciau; ond os cymerwn i mewn drefniant y milwyr, y pebyll, y cyfngau angenrheidiol, y teuluoedd, yr anifeiliaid, a'r ddefn, y mae llawer mwy o angae yn ofynol. Nid ydys hyd yn nod yn gobethio y dichon i chwiliadau o'r fath yma roddi dim mwy na meddylddrych cyffredinol o'r gwersyll; canys ffluanta cywirdeb manwl, yn y fath achos, fyddai yn afresymol. Dywedir yn y bennod hon fod gwŷr llumman gwersyll Juda yn gwersyllu tua'r *dwyrain*, ereill tua'r *gorllewin*, &c., &c.; ond pa fodd y trefnwyd hwynt yn bersonol nis gallwn gymeryd arnom benderfynu. Y mae yn sier fod cynllun gwersylliaid yr Israeliaid yn berffeithiach na dim ag y gallwn ni ei ddychyanu: gan mai Duw ei hun a'i trefnodd, rhaid ei fod yn mhob ystyr y peth y dylasai fod, er cysur a diogelwch y dorff luosog hon: gwel yr adfeddyliadau.

Adn. 33. *Ond y Lefiaid ni chyfrifwyd*] Hyny yw, nid oedd y Lefiaid, y rhai a gyrhaeddent i 22,000, (pen. iii. 39.) yn gyfrifedig yn y 603,550 a grybwyllwyd adn. 32: gwel ar pen. i. 47.

Adn. 34. *Felly y gwersyllasant wrth eu llummanau*] Ac yr oedd eu trefn mor brydferth nes y darfu i Balaam, pan y gwelodd wersyll Israel oddiar uchelfa, lefaid gyda syndod, 'Mor hyfyd yw dy bebyll di, O Jacob! dy gyfaneddau di, O Israel!' *Ac felly y cychwynasant*—yn y drefn reolaidd hon yr ymdeithiant trwy yr anialwch.

ADFEDDYLIADAU.—(1) Yr oedd meibion Israel yn trigo mewn pebyll, a phan deithiant dygent eu holl bebyll gyda hwynt, canys yr oeddynt eto 'heb gael dinas i aros ynddi'; Salm cvii. 4. Arddengys hyn i ninaw ein cyflwr symudadwy yn y byd hwn: heddyw yr ydym yma; ond erbyn y fory byddwn wedi myned! (2) Yr oedd y rhai o'r un llwyth i wersyllu yn nghyd, pob un wrth ei llumman ei hun. Dylai y rhai sydd yn geraint i'w gilydd fod yn gydnabyddus â'u gilydd; a dylid defn-

PENNOD III.

A DYMA genedlaethau Aaron a Moses, ar y dydd y lfeiarodd yr Arglwydd wrth Moses yn mynydd Sinai.

2 Dyma enwau meibion Aaron: Nadab y cyntafanedig, ac Abihu, Eleazar, ac Ithamar.

yddio rhwymau natur i gryfhau rhwymau cymunedb Cristionogol. (3) Darfu i Dduw ei hun benodi eu lleoedd iddynt, i ragflaenu cenfigen a chynhen yn eu plith. Pe gadeswid iddynt *hwy* benderfynu y flaenoriaeth yn eu mysg eu hunain, buasant mewn perygl o gweyryla â'u gilydd, fel y dysgyblion, yn nghylch 'pwy a fyddai *fwyaf* o honynt,' Luc ix. 46: buasai pob un yn awyddus am fod yn flaenaf, neu o leiaf am beidio bod yn olaf. Neu pe gadeswid i *Moses* benderfynu hyn, buasant yn cweyryla âg ef, ac yn ei gybuddo o bleidgarwch; am hyny y mae *Duw* ei hun yn gwneuthur hyn, a rhaid i baw ymdawelu yn ei benodiad ef. (4) Yr oedd y tabernacl yn *nghanol* y gwersyll, fel y byddai yr un mor agos at yr holl lwythau: ac y mae rhai yn meddwl fod drws pabell pob un yn cyfeirio tua'r tabernacl bob ochr; canys dylai pob Israeliaid fod â'i lygad tuag at yr Arglwydd yn wastadol. Eto yr oeddynt hwy i wersyllu o *hirbell*, o barch i'r cysegr, fel nad ymddanghosai wedi ei gyfyngu a'i wasgu yn eu plith, ac fel na fyddai i orchwyllion cyffredin y gwersyll fod yn aflonyddwch iddo, nac i ormod cynefindra fagu diystyrwch o hono. (5) Yr oedd llwyth *Juda* yn gorsaf benaf arnydded, yn gwersyllu tua chodiad haul, ac yn eu teithiau yn arwain y blaen, nid yn unig am mai efe oedd y llwyth llysofac, ond yn benaf am mai o'r llwyth hwnw yr oedd *CRIST* i hannu, yr hwn yw y *Llew* o *lwyth Juda*; ac nynt a ddysgwn oddiwrth Mat. i. 4, ddarod iddo ef ddisgyn o lwynau *Nason*, yr hwn a benodwyd yn awr yn gadden ar y llwyth hwnw, adn. 3. Felly, pan yr oedd *Juda* yn myned o'u blaen hwy, yr oedd *CRIST* ei hun mewn effaith yn myned o'u blaen fel eu Harweinydd.

PEN. III. Adn. 1. *A dyma genedlaethau Aaron a Moses*] Er fod Aaron a Moses ill dau yn cael eu crybwyll yma, eto teulu Aaron yn unig sydd yn ymddangos ar y gofrestr; o ganlyniad darfu i rai feddwl nad oedd enw *Moses* yn wreiddiol yn y testyn. Crybwyllir hiliogaeth Aaron, am mai y rhai hyn a berthynent i'r offeiriadaeth. Y mae Moses yn myned heibio i'w deulu ei hun mewn dystawrwydd. Daeth ei blant ef yn gydgorsfforedig â'r Lefiaid, oddiwrth y rhai nid ydynt byth yn cael eu gwahaniaethlu: ac y mae anhunanedd Moses gyda golwgr ar ei blant ei hun, yn brawf amlwg o ddwyfoldeb ei genadwri.

Adn. 2. *Nadab y cyntafanedig, ac Abihu*] Y rhai, er eu bod wedi marw, a grybwyllir yma yn y gofrestr o holl feibion cysegredig Aaron.

Adn. 3. *Y rhai a gysegrodd efc*] Sef Moses: gwel ar Exod. xxix. 25, 26, a Lef. viii. 12, &c.

3 Dyma enwan meibion Aaron, yr offeiriad eneniog, y rhai a gysegrodd efe i offeiriadu.

4 A marw a wnaeth Nadab ac Abihu gerbron yr Arglwydd, pan offyrmasant dân dycithr gerbron yr Arglwydd, yn anialwch Sinai; a meibion nid oedd iddynt: ac offeiriadodd Elcazar ac Ithamar yn ngwydd Aaron eu tad.

5 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

6 Nesâ llwyth Lefi, a gwna iddo sefyll gerbron Aaron yr offeiriad, fel y gwasanaethont ef.

7 A hwy a gadwant ei gadwraeth ef, a chadwraeth yr holl gynulleidfa, o flaen pabell y cyfarfod, i wneuthur gwasanaeth y tabernacl.

8 A chadwant holl ddodrefn pabell y cyfarfod, a chadwraeth meibion Israel, i wasanaethu gwasanaeth y tabernacl.

9 A thi a roddi y Lefiaid i Aaron, ac i'w feibion: y rhai hyn sydd wedi eu

rhoddi yn rhodd iddo efo feibion Israel.

10 Ac urdda di Aaron a'i feibion i gadw eu hofferiadaeth: a'r dycithrddyn a ddelo yn agos, a roddir i farw.

11 ¶ Llefarrowd yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

12 Ac wele, mi a gymerais y Lefiaid o blith meibion Israel, yn lle pob cyntafanedig, *sef pob cyntaf* a agoro y groth o feibion Israel; am hyny y Lefiaid a fyddant eiddof fi:

13 Canys eiddof fi yw pob cyntafanedig. Ar y dydd y tarewais y cyntafanedig yn nhir yr Aifft, cysegrais i mi fy hun bob cyntafanedig yn Israel o ddyd ac anifel: eiddof fi ydynt: myfi yw yr Arglwydd.

14 ¶ Yr Arglwydd hefyd a lefarodd wrth Moses yn anialwch Sinai, gan ddywedyd,

15 Cyfrif feibion Lefi yn ol tŷ eu tadau, trwy eu teuluoedd: cyfrif hwynt, bob gwryw, o fab misyriad ac uchod.

16 A Moses a'u cyfrifodd hwynt

Efe a lefara yma am dano ei hun yn y trydydd person, yn ol ei arferiad cyffredin.

Adn. 4. *A marw a wnaeth Nadab ac Abihu*] Hyny yw, yr oeddynt wedi marw: gwel ar Lef. x. 2. *A meibion nid oedd iddynt*—trefnodd rhagluniaeth hyn, fel na fyddai i neb o'u hiliogaeth fod yn yr offeiriadaeth, i gadw i fyny eu henwau hwy y rhai a balogasant enf Duw. *Yn ngwydd*—dan arolygiad neu gyfarwyddyd Aaron eu tad.

Adn. 6. *Nesâ llwyth Lefi*] Dywedir fod y gair *hakreb* yn briodol yn air abarthol, ac yn arwyddo y cyflwyniad o aberth neu offrwm i'r Arglwydd. Megys offrwm, rhoddwyd llwyth Lefi i fyny yn hollol i wasanaeth y cysegr, fel na byddent mwyach yn eiddo iddynt eu huain, ond i'r Arglwydd.

Adn. 7. *A chadwraeth yr holl gynulleidfa*] Bydd i'r Lefiaid weithio *dros* yr offeiriad a'r holl gynulleidfa, ac yn lle y rhai cyntafanedig. *O flaen pabell y cyfarfod*—nid o'i mewn hi; canys yr oedd gofal y pethau o fewn y cysegr wedi ei ymddiried i'r offeiriad, megys yr oedd gofal y cysegr santeiddiolaf i fod yn llaw yr archoffeiriad.

Adn. 8. *A chadwant holl ddodrefn*] Y babell ei hun, a chymaint ag ydoedd ynddi. Y Lefiaid oeddynt i wneuthur y swyddau mwyaf cyffredin a llafurus, megys tynu i lawr, codi i fyny, a chario y babell a'i dodrefn: mewn gair, yr oeddynt i fod yn *weision* i'r offeiriad.

Adn. 9. *Y rhai hyn sydd wedi eu rhoddi yn rhodd iddo ef*] I Aaron a'i feibion, i ufyddhau iddynt, ac i esmwythâu eu beichian.

Adn. 10. *Urdda di Aaron a'i feibion*] Felly y gorchlymynwyd gynt yn mynydd Sinai, adn. 1; neu felly y *penodir* eu gwaith iddynt o'r newydd yn awr. *I gadw eu hofferiadaeth*—sef i offrymu yr amrywiol ebyrth i Dduw, cysegru y bara dangos, tywallt y diod-offrymau,

llosgi yr aroglarth, taenellu gwaed yr ebyrth, a bendithio y bobl. Megys yr oedd y Lefiaid yn weision i'r *offeiriad*, felly yr oeddynt hwythau i Dduw. *A'r dycithrddyn*—pob un nad yw o deulu Aaron, i.e. er ei fod yn Lefiaid; *a ddelo yn agos*—i wneyd rhyw ran o'r gwaith a benodwyd i'r offeiriad; *a roddir i farw*—dan farn ddigywfrwng Duw ond odid, megys yn achos Uzzah, 2 Sam. vi. 7.

Adn. 12, 13. *Mi a gymerais y Lefiaid*] I wasanaeth y cysegr; *yn lle pob cyntafanedig*—yr oedd y cyntafanedig wedi cael eu cysegru i Dduw er cof am ei waith ef yn lladd cyntafanedigion yr Aiffiaid, ac yn cadw yn fyw eiddo yr Israeliaid, Exod. xiii. 2, 15. Yr oedd hyd yn nod *anifeiliaid* y Lefiaid yn cael eu cymeryd yn lle y cyntafanedig o anifeiliaid y llwythau ereill, adn. 41. Ond paham y rhoddodd Duw yr anrhydedd hwn i lwyth Lefi ragor y lleill? (1) O barch i Moses ac Aaron, y rhai oeddynt ganghenau o hono. (2) O herwydd eu sel yn dyfetha y rhai a lygrasant addoliad Duw yn achos y llo aur, Exod. xxxii. 28. (3) Ac am mai dyma y llwyth *leiaf*; canys buasai cael llwyth lluosocach y pryd hyn yn dra anghyfeus.

Adn. 15. *Cyfrif hwynt, bob gwryw, o fab misyriad ac uchod*] Cafodd gwrywod yr holl lwythau ereill o rhifo o fab *ugain mwydd ac uchod*; a phe rhifedig y Lefiaid yn y modd yma, ni fuaent yn agos gymaint o nifer a chyntafanedigion y deuddeg llwyth. Chwaneger at hyu, gan y rhaid fod cyntafanedigion o *bob oedran* yn y llwythau ereill, yr oedd yn angenrheidiol i'r Lefiaid, y rhai oeddynt eu *dirprwyon* hwy, fod hefyd o *bob oedran*; ac ymddengys mai ar y tir hwn, o leiaf mewn rhan, yr oedd y Lefiaid yn cael eu cyfrif o *ffs* oed ac uchod.

Adn. 16—21. *A Moses a'u cyfrifodd hwynt*]

wrth air yr Arglwydd, fel y gorchymynasid iddo.

17 A'r rhai hyn oedd feibion Lefi wrth eu henwau; Gerson, a Cohath, a Merari.

18 A dyma enwau meibion Gerson, yn ol eu teuluoedd; Libni, a Simeï.

19 A meibion Cohath, yn ol eu teuluoedd; Amram, Ishar, Hebron, ac Uzziel.

20 A meibion Merari, yn ol eu teuluoedd; Mahli, a Musi. Dyma deuluoedd Lefi, wrth dy eu tadau.

21 O Gerson y daeth tylwyth y Libniaid, a thylwyth y Simiaid: dyma deuluoedd y Gersoniaid.

22 Eu rhifedigion hwynt, dan rif pob gwryw o fab misyriad ac uchod, eu rhifedigion, meddaf, oedd saith mil a phun cant.

23 Teuluoedd y Gersoniaid a wersyllant ar y tu ol i'r tabernacl tua'r gorllewin.

24 A phenaeith tŷ tad y Gersoniaid fydd, Eliasaph mab Laef.

25 A chadwraeth meibion Gerson, yn mhabel y cyfarfod, fydd y tabernacl, a'r babell, ei thô hefyd, a chaeadlen drws pabell y cyfarfod.

26 A lleni y cynteddfa, a chaeadlen drws y cynteddfa, yr hwn sydd yn nghylch y tabernacl, a'r allor o am-

gylch, a'i rhaffau i'w holl wasanaeth.

27 ¶ Ac o Cohath y daeth tylwyth yr Amramiaid, a thylwyth yr Ishariaid, a thylwyth yr Hebroniaid, a thylwyth yr Uzzieliaid: dyma dy-
lwyth y Cohathiaid.

28 Rhifedi yr holl wrywiaid, o fab misyriad ac uchod, oedd wyth mil a chwe chant, yn cadw cadwraeth y cysegr.

29 Teuluoedd meibion Cohath a wersyllant ar ystlys y tabernacl tua'r deau.

30 A phenaeith tŷ tad tylwyth y Cohathiaid fydd Elisaphan mab Uzziel.

31 A'u cadwraeth hwynt fydd yr arch, a'r bwrdd, a'r canwyllbren, a'r allorau, a llestri y cysegr, y rhai y gwasanaethant â hwynt, a'r gaeadlen, a'i holl wasanaeth.

32 A phenaf ar benaeithiaid y Lefiaid fydd Eleazar mab Aaron yr offeiriad; a llywodraeth ar geidwad cadwraeth y cysegr fydd iddo ef.

33 ¶ O Merari y daeth tylwyth y Mahliaid, a thylwyth y Musiaid: dyma dylwyth Merari.

34 A'u rhifedigion hwynt, wrth gyfrif pob gwryw o fab misyriad ac uchod, oedd chwe mil a deucant.

35 A phenaeith tŷ tad tylwyth

Er i Moses ac Aaron yn nghyd rifo y deuddeg llwyth, eto Moses ei hun a rifai y Lefiaid; canys gan fod yr arian â'r rhai y prynid cyntafanedigion Israel, y rhai oeddynt dros ben nifer y Lefiaid, i gael eu rhoddi i Aaron a'i feibion, adn. 48, yr oedd yn weddus iddo ef, mantais yr hwn oedd fod nifer cyntafanedigion Israel yn ychwaneg, beidio â chael ei awdardodi i gymeryd y nifer hwnw ei hun.

Adn. 22. Saith mil a phumcant] Tybia rhai mai resh, 200, oedd yn wreiddiol yn lle caph, 500: gwel ar adn. 39.

Adn. 23. Teuluoedd y Gersoniaid a wersyllant ar y tu ol i'r tabernacl, tua'r gorllewin] Yn nesaf at y tabernacl yn yr ochr orllewinol iddo; a'r Cohathiaid ar yr ochr ddeheuol iddo, adn. 29; a'r Merariaid ar yr ochr ogleddol, adn. 35; ac yr oedd pebyll Moses a'r offeiriad ar yr ochr ddwyreiniol iddo, tua chodiad haul, adn. 38.

Adn. 24. Eliasaph] Y mae hwn yn wahanol i'r Eliasaph a grybwyllwyd pen. i. 14, trwy fod hwnw o lwyth Gad, a hwn o lwyth Lefi.

Adn. 25, 26. A chadwraeth meibion Gerson—fydd y tabernacl] Nid yr estyllod, y rhai a berthynent i feibion Merari, adn. 36, ond y deg llen. A'r babell—y lleni o fewn geifr. Ei thô—sef y tô o grwyn hyrddod a chrwyn daearfoc. A'i rhaffau—â'r rhai yr oedd y tabernacl yn cael ei sicrhau wrth yr hoelion, a'i ledau allan, Exod. xxxv. 18.

Adn. 27. Ac o Cohath] Yr oedd gan y tenlu hwn lawer o freintiau uwchlaw y lleill: o hono ef yr oedd Moses ac Aaron, a'r holl offeiriad. Cawsant y lle penaf o amgylch y tabernacl, a gofal y pethau santeiddiolaf ynddo, adn. 31; ac yn ngwlad Canaan cawsant dair-ar-hugain o ddinasoedd, yr hyn oedd agos gy-nifer ag a gafodd eu dau frawd.

Adn. 28. Yn cadw] Wedi eu penodi i'r gwaith hwnw mor fuan ag y byddent yn all-nog iddo. Cadwraeth y cysegr—sef y pethau santaidd a gynwysid yn, neu a berthynent i, y cysegr.

Adn. 29. Tua'r deau] Gwel ar adn. 23.

Adn. 31. A'r gaeadlen] Yr hon a guddiai y cysegr santeiddiolaf; canys yr oedd yr holl leni ereill yn perthyn i'r Gersoniaid, adn. 25, 26. A'i holl wasanaeth—sef yr holl gelfi ereill a berthynent iddo.

Adn. 32. A phenaf] Y nesaf dan yr arch-offeiriad, am ba achos y gelwir ef 'yr ail offeiriad;' ac os dygwyddai i'r archoffeiriad fod yn absenol trwy afiechyd neu achlysuron angenrheidiol ereill, yr oedd efe i g. flawni ei waith ef, ac yr oedd ganddo oruchafiaeth dros y lleill o'r offeiriad a'r Lefiaid. Ar benaeithiaid y Lefiaid—ar y tri gŵr hyny ag oeddynt yn benaeithiaid eu gwahanol deuluoedd, adn. 24, 30, 35.

Adn. 33—35. Tylwyth Merari—tua'r gogledd] Gwel ar adn. 23.

Adn. 36, 37. Ac yn nghadwraeth meibion

Merari fydd Suriel mab Abihael. Ar ystlys y tabernacl y gweryllant tua'r gogledd.

36 Ac yn nghanwraeth meibion Merari y bydd estyllod y tabernacl, a'i drosolion, a'i golofnau, a'i forteisiau, a'i holl offer, a'i holl wasanaeth,

37 A cholofnau y cynteddfa o amgylch, a'u mortesiau, a'u hoelion, a'u rhaffau.

38 ¶ A'r rhai a wersyllant o flaen y tabernacl tua'r dwyrain, o flaen pabell y cyfarfod tua chodiad haul, fydd Moses, ac Aaron a'i feibion, y rhai a gadwraeth meibion Israel: a'r dy-eithr a ddelo yn agos, a roddir i farwolaeth.

39 Holl rifedigion y Lefiaid, y rhai a rifodd Moses ac Aaron, yn ol gair yr Arglwydd, trwy eu teuluoedd, sef pob gwryw o fab misyriad ac uchod, oedd ddwy fil ar hugain.

40 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cyfrif bob cyntafanedig gwryw o feibion Israel, o fab misyriad ac uchod, a chymer rifedi eu henwau hwynt.

41 A chymer y Lefiaid i mi (myfi yw yr Arglwydd) yn lle holl gyntafanedig meibion Israel, ac anifeiliaid y Lefiaid yn lle pob cyntafanedig o anifeiliaid meibion Israel.

Merari y bydd estyllod, &c.] Felly y Merariaid a gawsant y pethau trymaf o'r tabernacl i'w cadwraeth, sef yr estyllod, y trosolion, y colofnau, &c.

Adn. 38. *Moses, ac Aaron a'i feibion*] Y rhai hyn a wersyllant tua'r dwyrain: gwel ar adn. 23. *A chadwraeth meibion Israel*—yr oeddynt nid yn unig i wneuthur yr holl swyddau offeiriadol, ond hefyd i gadw meibion Israel rhag cael eu lladd trwy ruthro at y swyddau santaidd, adn. 10.

Adn. 39. *Y rhai a rifodd Moses ac Aaron*] Y mae Aaron yn eisiau yn y Samaritanaeg, y Syriaeg, a'r Goptaeg; y mae ef yn eisiau hefyd mewn *wyth* o ysgrifystfau Dr. Kennicott, ac mewn *pedwar* o eiddo De Rossi. Moses yn unig, fel y sylwa Houbigant, a orchymynir i'r rhai hyn gael eu *prynu*, adn. 46; ac y mae pris y pryniad i fod yn *bum siel am bob pen*, adn. 47, sef oeddeutu 12s. 6c. A'r arian yma, yn cyraedd i 1,365 o siclau, ac yn gyfartal i £170. 12s. 6c. o'n harian ni, yn ol 2s. 6c. y siel, a gymerodd efe gan gyntafanedig meibion Israel, adn. 60. Ond pa fodd y casglwyd hyn yn mysg 22,273 o bersonau? *Rabbi Solomon Jarchi* a ddywed, 'I attal cynhen, cymerodd Moses 22,000 o docynau memrw, ac a ysgrifennodd ar bob un *Mab Lefi*, a 273 o rai ereill, ar ba rai yr ysgrifennodd efe *Pum Siel*; yna efe a'u cymysgodd hwynt mewn basged, a chymerodd pob dyn

42 A Moses a rifodd, megys y gorchymynodd yr Arglwydd iddo, bob cyntafanedig o feibion Israel.

43 A'r rhai cyntafanedig oll, o rai gwryw, dan rif *eu* henwau, o fab misyriad ac uchod, o'u rhifedigion hwynt, oedd ddwy fil ar hugain a dau cant a thri-ar-ddeg a thriugain.

44 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

45 Cymer y Lefiaid yn lle pob cyntafanedig o feibion Israel, ac anifeiliaid y Lefiaid yn lle eu hanifeiliaid hwynt; a bydded y Lefiaid i mi: myfi yw yr Arglwydd.

46 Ac am y rhai sydd i'w prynu o'r tri-ar-ddeg a thriugain a deucant, o gyntafanedig meibion Israel, y rhai sydd dros ben y Lefiaid;

47 Cymer bum siel am bob pen; yn ol siel y cysegr y cymeri. Ugain gera fydd y siel.

48 A dod yr arian, gwerth y rhai sydd yn ychwaneg o honynt, i Aaron ac i'w feibion.

49 A chymerodd Moses arian y prynedigaeth, y rhai oedd dros ben y rhai a brynwyd am y Lefiaid:

50 Gan gyntafanedig meibion Israel y cymerodd efe yr arian; pump a thriugain a thrichant a mil, o siclau y cysegr.

51 A Moses a roddodd arian y

gael eu camgymeryd y naill am y llall, gwall yn y nifer fyddai y canlyniad. Yn ol hyn tybir i gamgymeriad ymlusgo i nifer y Gersoniaid, adn. 22, lle y dylem ddarllen 7,200 yn lle 7,500, gan y gallasai *resh*, 200, gael ei chamgymeryd yn hawdd am *caph*, 500, yn enwedig os oedd coes y *resh* ychydig yn hirach na chyffredin, fel y dygwyrddia yn fynych mewn ysgrifau. Os cymerwn ymaith y 300 gormodol, bydd y cyfanswm yn gywir yn 22,000, fel y crybwyllir yn yr adnod hon.

Adn. 40—51. *Cyfrif bob cyntafanedig gwryw o feibion Israel*] Ac wedi gwneuthur o hono hyn, cawn fod eu nifer yn 22,273, adn. 43. Felly yr oedd yno 273 o *gyntafanedigion* Israel uwchlaw nifer y *Lefiaid*. Gorchymynir i'r rhai hyn gael eu *prynu*, adn. 46; ac y mae pris y pryniad i fod yn *bum siel am bob pen*, adn. 47, sef oeddeutu 12s. 6c. A'r arian yma, yn cyraedd i 1,365 o siclau, ac yn gyfartal i £170. 12s. 6c. o'n harian ni, yn ol 2s. 6c. y siel, a gymerodd efe gan gyntafanedig meibion Israel, adn. 60. Ond pa fodd y casglwyd hyn yn mysg 22,273 o bersonau? *Rabbi Solomon Jarchi* a ddywed, 'I attal cynhen, cymerodd Moses 22,000 o docynau memrw, ac a ysgrifennodd ar bob un *Mab Lefi*, a 273 o rai ereill, ar ba rai yr ysgrifennodd efe *Pum Siel*; yna efe a'u cymysgodd hwynt mewn basged, a chymerodd pob dyn

prynedigion i Aaron, ac i'w feibion, yn ol gair yr Arglwydd; megys y gorchymynasai yr Arglwydd i Moses.

PENNOD IV.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywedyd,

2 Cymer nifer meibion Cohath o blith meibion Lefi, wrth eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau;

3 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab deng mlwydd a deugain, pob un a elo i'r llu, i wneuthur gwasanaeth yn mhabel y cyfarfod.

4 Dyma weinidogaeth meibion Cohath, yn mhabel y cyfarfod, yn nghyflech y pethau santeiddiolaf.

5 ¶ A deued Aaron a'i feibion, pan gychwyno y gwersyll, a thynant i lawr y wahanlen orchudd, a gorchuddiant â hi arch y dystiolaeth:

6 A gosodant ar hyny dō o grwyn daearfoch, a thaenant arni wisg o sidan

glas i gyd, a gosodant ei throsolion wrthi.

7 Ac ar fwrdd y bara dangos y taenant frethyn glas, a gosodant ar hyny y dysglau, a'r cwpanau, a'r phiolau, a'r caeadau i gau: a bydded y bara bob amser arno.

8 A thaenant arnynt wisg o ysgarlad, a gorchuddiant hwnw â gorchudd o groen daearfoch, a gosodant ei drosolion wrtho.

9 Cymerant hefyd wisg o sidan glas a fgorchuddiant ganwyllbren y goleuni, a'i lampau, a'i efeiliau, a'i gasnau, a holl lestri yr olew, y rhai y gwasanaethant ef â hwynt.

10 A gosodant ef a'i holl ddodrefn mewn gorchudd o groen daearfoch, a gosodant ef ar drosol.

11 A thaenant frethyn glas ar yr allor aur, a gorchuddiant hi â gorchudd o groen daearfoch, a gosodant ei throsolion wrthi.

12 Cymerant hefyd holl ddodrefn

un allan: y rhai a godasant y to cynau ar y rhai yr ysgrifenesid *Pum Sael*, a dalasant yr arian; y lleill a aethant yn rhyddion.' Hon sydd chwedl dra disail; canys nid yw yn debyg y buasai i bobl ddeallus goffeidio y fath ddull o gytundeb. Tybia ereill mai y 273 ieuangaf o honynt oeddynt i dalu yr arian. Ond y mae yn fwy rhesymol i ni feddwl ddarfedu eu talu allan o ryw drysorfa gyffredinol.

PEN. IV. Adn. 1, 2. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, &c.*] Cawn yma ail rithiad llwyth Lefi. Fel yr oedd y llwyth hwnw wedi ei gymeryd o holl Israel i fod yn bobl briodol i Dduw, felly yr oedd y dynion canol oed o'r llwyth hwnw wedi eu cymeryd o blith y lleill i fod yn wirioneddol ar waith yn ngwasanaeth y tabernacl.

Adn. 3. *O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod*] Yn pen. viii. 24, gorchymynir i'r Lefiaid ymosod ar wasanaeth y tabernacl yn 25 mlwydd oed; ac yn 1 Cron. xxiii. 24, gorchymynir iddynt ddechreu ar y gwaith hwnw yn 20 mlwydd oed. Pa fodd y gellir cysoni y tri amser hyn? (1) Ar yr amser ag y sonia Moses am dano yma, yr oedd y wasanaeth Lefiaid yn dra *chaled*, ac o ganlyniad yn gofyn dynion grymus, ac o lawn dwf, i'w chyflawni; gan hyny penodwyd yr oedran o 30 mlwydd fel y cyfnod i ddechreu arni. (2) Yn pen. viii. 24, ymddengys fod Moses yn son am y wasanaeth mewn ffordd gyffredinol; y *galed*, yr hon oedd i gael ei chyflawni gan Lefiaid o lawn dwf; a'r gwaith *ysgafn*, yn mha un y gallai gwŷr ieuangach gynorthwyo; o ganlyniad y mae yr oedran o 25 yn cael ei nodi. (3) Yn amser Dafydd ac ar ol hyny, yn y habell a'r deml *sefydledig*, nid oedd *caled* uch y wasanaeth yn bodoli mwyach, ac am hyny 20 mlwydd oedd yr oedran ag y penderfynwyd i'r holl Lefiaid ddechreu ar waith y

eysegr. Dywed y rabiniaid fod y Lefiaid yn dechreu dysgu gwneyd y wasanaeth pan yn 25, ac ar ol cael eu haddysgu am bum mlynedd eu bod yn dechreu ar y wasanaeth gyhoeddus pan yn 30, ac felly y cysonant hwy y ddau gyfnod ag y cyfeiriwyd atynt uchod. Ni ddechreuodd ein Harglwydd nac Ioan ar eu gweinidogaeth gyhoeddus nes bod yn 30 mlwydd oed. *Hyd fab deng mlwydd a deugain*—yr oedd hyn yn rhoddi iddynt ugain mlynedd at wasanaeth *galed* y cysegr, wedi yr hyn rhyddheid hwynt oddiwrth gario beichiau, ond nid oddiwrth y gwaith esmwyth ac anrhydeddus o fewn y habell, pen. viii. 26.

Adn. 4. *Dyma weinidogaeth meibion Cohath*] Neu eu cadwraeth: gwel pen. iii. 31.

Adn. 5, 6. *A thynant i lawr y wahanlen orchudd*] Yr ail len, a'r hon y gorchuddiwyd yr arch pan fyddai y habell yn sefyll, Exod. xl. 3. *A gorchuddiant â hi arch y dystiolaeth*—canys ni allai y Lefiaid y rhai oeddynt i gario yr arch, ei gweled hi, na chyffwrdd â hi yn ddi-gyfrwng. *O grwyn daearfoch*—trwy ba rai y diogelid yr arch rhag cael ei niweidio gan y tywydd.

Adn. 7—15. *Ac ar fwrdd y bara dangos y taenant frethyn glas, &c.*] Yr oedd hwn dan y dysglau, a'r cwpanau, a'r phiolau, &c., ar ba rai yr oedd gwisg o ysgarlad, a gorchudd o groen daearfoch. Yr oedd yr holl orchuddiau hyn yn cael eu bwriadu, (1) Er *diogelwch*, fel na fyddai i'r pethau santeidd hyn gael eu gerwino gan y gwynt, na'u hacru gan y gwlaw, na cholli eu dysgleirdeb gan yr haul, ond fel y cedwid hwynt yn eu prydferthwch; canys 'ar yr holl ogoniant y bydd amddiffyn.' (2) Er *gweddeidd-dra* neu *addurn*; canys yr oedd gan y rhan fwyaf o'r pethau a berthynent i'r habell wisg o frethyn neu sidan glas, neu o borffor, yn nesaf allan; a thaenwyd ar yr arch 'wisg o sidan glas i gyd,' adn. 6;

y gwasanaeth, y rhai y gwasanaethant â hwynt yn y cysegr, a rhoddant mewn brêthyn glas, a gorchuddiant hwynt mewn gorchudd o groen daearfoch, a gosodant ar drosol.

13 A thynant allan ludw yr allor, a thacnant arni wisg borphor.

14 A rhoddant arni ei holl lestri, â'r rhai y gwasanaethant hi, *sef* y pedyll tân, y cigweiniau, a'r rhawiau, a'r cawgiau, *ïe*, holl lestri yr allor; a thacnant arni orchudd o groen daearfoch, a gosodant ei throsolion wrthi.

15 Pan ddarffo i Aaron ac i'w feibion orchuddio y cysegr, a holl ddodrefn y cysegr, pan gychwyno y gwersyll; wedi hyny deued meibion Cohath i'w dwyn *hwynt*: ond na chyffyrddant â'r hyn a fyddo cysegredig, rhag iddynt farw. Dyma faich meibion Cohath yn mhabel y cyfarfod.

16 ¶ Ac i swydd Eleazar mab Aaron yr offeiriad *y perthyn* olew y goleuni, a'r aroglarth peraid, a'r bwyd-offrwm gwastadol, ac olew yr enciniad, a goruchwyliaeth yr holl dabernacl, a'r hyn oll *fydd* ynddo, yn y cysegr, ac yn ei ddodrefn.

17 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses ac Aaron, gan ddywedyd,

18 Na thorwch ymaith lwyth tylwyth y Cohathiaid o blith y Lefaid:

19 Ond hyn a wnewch iddynt, fel

yr hyn, meddai rhai, oedd yn arwyddlun o'r awyr asuraidd, pa un a daenwyd fel llen rhyngom ni â gwyneb gorseddfaic Duw, Job xxvi. 9. Ac, (3) *Er celedigaeth*: yr oedd yn arwydd cymhwys o dywyllwch yr orchwyliaeth hŏno. Yr oedd yr hyn a ddygwyd i oleuni trwy yr efengyl, ac a ddatguddiwyd i rai bychain, y pryd hyny yn cael ei guddio rhag y doethion a'r rhai deallus. Nid oeddynt hwy yn gweled ond y gorchuddiadau yn unig; eithr yn awr y' mae Crist, yn yr ystyr hwn hefyd, wedi '*difa* y gorchudd,' Esay xxv. 7. Nid oes yma un crybwylliad yn cael ei wneuthur am y *noe*, er fod yn y cyfeithiadau Groegaidd a Samaritanaidd, adn. 14. Fe allai mai y rheswm paham na chrybwyllir hi ydyw, am nad oedd yn cael ei gorchuddio. Tybia Ainsworth fod hon yn arddanghosiad bywiog o ras Duw yn Nghrist, pa un sydd yn parhau yn agored fel ffynnon fyth-darddiadol, lle y gall pawb a gredant gael eu golchi oddiwrth afleidid pechod.

Adn. 16. *Eleazar mab Aaron*] Efe ei hun sydd i gario y pethau crybwyllidig yn yr adnod hon, a pheidio eu hymyddir i feibion Cohath. *A goruchwyliaeth yr holl dabernacl*—y gofal am fod i'r holl bethau a grybwyllwyd uchod gael eu cario gan y personau ac yn y modd a fynegwyd. Pan yr ystyriom fod cydbwys yr holl *fettel* a ddefnyddiwyd yn ngwaith y tabernacl yn cyraedd i 29,124 o

y byddont fyw, ac na fyddont feirw, pan nesânt at y pethau santeiddiolaf: Aaron a'i feibion a ânt i mewn, ac a'u gosodant hwy bob un ar ei wasanaeth ac ar ei glud.

20 Ond nac ânt i edrych pan fydder yn gorchuddio yr hyn sydd gysegredig, rhag marw o honynt.

21 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

22 Cymer nifer meibion Gerson hefyd, trwy dŷ eu tadau, wrth eu teuluoedd;

23 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab deng mlwydd a dengain, y rhifi hwynt; pob un a ddêl i ddwyn swydd, i wasanaethu gwasanaeth yn mhabel y cyfarfod.

24 Dyma weinidogaeth tylwyth y Gersoniaid, o wasanaeth ac o glud.

25 Sef dwyn o honynt leni y tabernacl, a phabell y cyfarfod, ei len dô ef, a'r tô o *grwyn* daearfoch, yr hwn *sydd* yn uchaf arno, a chuddlen drws pabell y cyfarfod,

26 A leni y cynteddfa, a chaeadlen drws porth y cynteddfa, yr hwn *sydd* yn nghylch y tabernacl, a'r allor o amgylch, a'i rhaffau, a holl offer eu gwasanaeth hwynt, a'r hyn oll a wnaed iddynt: felly y gwasanaethant hwy.

27 Wrth orchymyn Aaron a'i feibion y bydd holl wasanaeth meibion y

bwysi, heblaw y dirfawr bwysi o *grwyn*, *leni*, *rhaffau*, *ystyllod*, a *physt*, nyni a gawn nad peth hawid oedd trosglwyddo y babbell symudadwy hon o le i le: gwel ar Exod. xxxviii. 24—31.

Adn. 18, 19. *Na thorwch ymaith lwyth tylwyth y Cohathiaid*] Na fydded i chwî, trwy esgeulusdra, gyffroi Duw i'w tori hwynt ymaith am gyffwrdd â'r pethau santaidd. *Bob un ar ei wasanaeth ac ar ei glud*—ar yr hyn a benodwyd yn neillduol iddo, trwy fod y wasanaeth a'r clud, neu y beichiau, wedi eu dosbarthu yn gyfartal rhyngddynt.

Adn. 20. *Ond nac ânt i edrych*] Gallai y Cohathiaid fyned i'r cysegr santeiddiolaf ar ol i'r arch a'r drugaredifa gael eu gorchuddio gan yr offeiriad yn flaenrol i'w symudiad, trwy fod gogoniant yr Arglwydd wedi ei dynu yn ol; ond nis gallent fyned i mewn i weled yr offeiriad yn eu gorchuddio hwynt: gwneid hyn cyn iddynt ddyfod i mewn. *Pan fydder yn gorchuddio*—Heb. *keballâ*, 'pan fydder yn *llyncu i lawr* yr hyn sydd gysegredig;' yr hyn a arwydda y cyflwydder â pha un y byddai pob peth a berthynai i'r cysegr santeiddiolaf yn cael ei roddi o'r golwg. *Rhag marw o honynt*—fel y bu feirw 50,070 o wŷr Bethsemes am iddynt edrych i'r arch, 1 Sam. vi. 19; ac y bu farw Uzza am iddo gyffwrdd â hi, 2 Sam. vi. 6, 7.

Adn. 21—19. *A'r Arglwydd a lefarodd*

Gersoniaid, yn eu holl glud, ac yn eu holl wasanaeth : a dodwch atynt eu holl glud i'w cadw.

28 Dyma wasanaeth tylwyth meibion Gerson yn mhabel y cyfarfod; ac ar law Ithamar mab Aaron yr offeiriad *y bydd* eu llywodraethu hwynt.

29 ¶ A meibion Merari, trwy eu teuluoedd, wrth dŷ eu tadau, y cyfrif hwynt;

30 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab deng mlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai mewn swydd i wasanaethu yn mhabel y cyfarfod: i wasanaethu gwasanaeth pabell y cyfarfod.

31 A dyma oruchwyliacth eu clud hwynt, yn eu holl wasanaeth yn mhabel y cyfarfod; *sef* estyllod y tabernacl, a'i farau, a'i golofnau, a'i forteisiau,

32 A cholofnau y cynteddfa oddi-amgylch, a'u morteisiau, a'u hoelion, a'u rhaffau, yn nghyda'u holl offer, ac yn nghyda'u holl wasanaeth : rhifwch hefyd y dodrefn erbyn eu henwau y rhai a gadwant *ac* a gludant hwy.

33 Dyma wasanaeth tylwyth meibion Merari, yn eu holl weinidogaeth yn mhabel y cyfarfod, dan law Ithamar mab Aaron yr offeiriad.

34 ¶ A rhifodd Moses ac Aaron, a phenacthiaid y gynulleidfa, feibion Cohath, trwy eu teuluoedd, ac yn ol tŷ eu tadau;

35 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab deng mlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai mewn swydd i wasanaethu yn mhabel y cyfarfod:

36 A'u rhifedigion trwy eu teuluoedd, oedd ddwy fil saith cant a deg a deugain.

37 Dyma rifedigion tylwyth y Cohathiaid, *sef* pob gwasanaethydd yn mhabel y cyfarfod; y rhai a rifodd Moses ac Aaron, wrth orchymyn yr Arglwydd, trwy law Moses.

38 Rhifedigion meibion Gerson hefyd, trwy eu teuluoedd, ac yn ol tŷ eu tadau;

39 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab deng mlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai mewn swydd i wasanaethu yn mhabel y cyfarfod:

40 A'u rhifedigion hwynt trwy eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau, oeddynt ddwy fil a chwe chant a deg-ar-hugain.

41 Dyma rifedigion tylwyth meibion Gerson, *sef* pob gwasanaethydd yn mhabel y cyfarfod; y rhai a rifodd Moses ac Aaron, wrth orchymyn yr Arglwydd.

42 ¶ A rhifedigion tylwyth meibion Merari, trwy eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau;

43 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab deng mlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai mewn swydd i wasanaethu yn mhabel y cyfarfod:

44 A'u rhifedigion hwynt trwy eu teuluoedd, oeddynt dair mil a dau cant.

45 Dyma rifedigion tylwyth meibion Merari, y rhai a rifodd Moses ac Aaron, wrth orchymyn yr Arglwydd trwy law Moses.

46 Yr holl rifedigion, y rhai a rifodd Moses ac Aaron, a phenacthiaid Israel, o'r Lefiaid, trwy eu teuluoedd, ac yn ol tŷ eu tadau;

47 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod, hyd fab deng mlwydd a deugain, *sef* pob un a ddelai i wne-

wrth Moses, &c.] Yn pen. iii. 22, &c., cawn gyfrif o holl nifer y Lefiaid, ac yma o'r rhai hyn yn unig ag oeddynt yn *alluog* i wasanaethu yr Arglwydd yn y cysegr. Wrth gymharu y ddau le nyri a gawn fod y niferoedd yn sefyll fel hyn:

COHATHIAID	{ Gwŷr galluog	2750
	{ Analluog	5850
	Cyfanrif	8600
GERSONIAID.	{ Gwŷr galluog	2630
	{ Analluog	4870
	Cyfanrif	7500
MERARIAID.	{ Gwŷr galluog	3200
	{ Analluog	3000
	Cyfanrif	6200

Fel hyn cawn fod holl nifer y Lefiaid yn cyraedd i 22,300, (gwel ar pen. iii. 39.) o'r

rhai yr oedd 8,580 yn *alluog* i waith, a 13,720 yn *analluog*, trwy eu bod naill ai yn rhy hen neu yn rhy ieuanc. Y fath nifer rhyfeddol o wŷr, oll yn briodol yn 'glerigwyr,' fel y dywed Clarke, ac oll yn cyflawni rhyw wasanaeth trwy yr hon yr oedd Duw yn cael ei ogoneddu, a'r holl gynulleidfa eu llesân!

ADFEDDYLIAU.—(1) Ar ol i'r dynion, a'u hoedran pan yn dechreu ar eu gwasanaeth, gael eu penodi, wele dabernacl yr Arglwydd yn barod i ymsymud, a'r holl lwythau i'w ddylyn yn rheolaidd tua gwlad yr addewid. Yr oedd mab hynaf Aaron, wrth ofalu am y tân santaidd, yn cael ei anrhydeddu yn fawr; eithr yr oedd ei fywyd yn atebol am ei gadwraeth ef: ac yr oedd ei fab ieuangaf i arolygu symudiad y cysegr. Y mae meibion *Cohath*, yn freintiedig trwy enedigaeith, yn cludo yr arch a'r holl lestri santaidd; y mae meibion *Gerson* yn ymdaith yn nesaf, gyda'r holl leni harddwych; ac y mae gwŷr lluosog tŷ *Merari*

thur gwaith gwasanaeth, neu waith clud yn mhabell y cyfarfod :

48 A'u rhifedigion oeddynt wyth mil pum cant a phedwar ugain.

49 Wrth orchymyn yr Arglwydd, trwy law Moses yr rhifodd efe hwy, pob un wrth ei wasanaeth, ac wrth ei glud : fel hyn y rhifwyd hwynt, fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

PENNOD V.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Gorchymyn i feibion Israel, anfon allan o'r gwersyll bob gwahanglwyfus, a phob un y byddo dyferlif arno, a phob un a halogir wrth y marw.

yn dilyn gyda'r estyllod, y colofnau, a'r boelion. Nid ydym yn clywed am ddim grwgnachrwydd yn erbyn y penodiad dwyfol. Er fod un yn dwyn llestri aur, ac arall lestri pres; er fod rhai yn dwyn yr allor drom, ac ereill y lleni ysgafnach, eto nid oedd neb yn grwgnach yn erbyn ei frawd; eithr gan wybod eu bod yn gyfrifol hyd yn nod am yr hoel leiaf, hwy yn llawen a gyflawnt eu gwaith. Y fath siampl o gydundeb i weinidogion Cristionogol! Bydd i'r holl rai sydd yn gwasanaethu y swyddau isaf yn yr eglwys, yn gystal a'r rhai sydd yn llenwi y swyddau uwchaf, os yn ufydd i'w galwedigaeth, gael eu cyfiuif yn weision da a ffyddlon, a myned i mewn i lawenydd eu Harglwydd. (2) Yr oedd y tabernacl yn grynoded o'r deml; ac yr oedd y deml a'r tabernacl yn gysgodau o eglwys y Duw byw, ac o ddylnoliaeth ein Harglwydd bendigedig. Fel yr oedd Duw yn preswyllo yn y tabernacl a'r deml, felly yr oedd ei holl gyflawnder ef yn preswyllo yn y dyn Crist lesu. Yr oedd y rhai hyn drachefn yn gysgodau o'r eglwys Cristionogol, yr hon a elwir yn 'gorff Crist', Eph. i. 23, lle y mae ef yn trigo yn nghyflawnder gras ei Ysbryd. Y mae Mr. Ainsworth yn ystyried y babell a'r deml nid yn unig fel yn nodi allan yr *hen oruchwyliaeth*, diddymiad yr hon a gysgodidd trwy eu *dinystr* hwy; eithr y mae efe hefyd yn ystyried y flaenaf fel yn arwyddlun o *gorff* dyn : ac y mae yn amlwg fod yr apostol, wrth draethu am farwolaeth y saint, yn arfer y gyffelybiaeth yma : 'os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddatoddir,' &c. Gwel 2 Cor. v. 1, 4, a 2 Pedr i. 14.

PEN. V. Adn. 1, 2. A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses—gorchymyn i feibion Israel anfon allan o'r gwersyll bob gwahanglwyfus, &c.] Ymdengys fod gan bob gwersyll ryw le gerllaw iddo, i'r hwn y gallai yr heintiedig gael eu symud; canys nis gallwn feddwl eu bod yn cael eu gyru allan i'r anialwech noeth. Yr oedd yr anfoniad allan crybwylliedig yma yn seiliedig, 1. Ar reswm *anionddol* : gan fod y clefyd yn *heintus*, yr oedd

3 Yn wryw ac yn fenyw yr anfonweh hwynt, allan o'r gwersyll yr anfonweh hwynt; fel na halogont eu gwersylloedd, y rhai yr ydwyf fi yn preswyllo yn eu plith.

4 A meibion Israel a wnaethant felly, ac a'u hanfonasant hwynt i'r tu allan i'r gwersyll : megys y llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, felly y gwnaeth meibion Israel.

5 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

6 Llefaru wrth feibion Israel, Os gŵr neu wraig a wna un o holl bechodau dynol, gan wneuthur camwedd yn erbyn yr Arglwydd, a bod o'r enaid hwnw yn euog :

7 Yna cyffesant eu pechod a wnaethant; a rhodded yn ei ol yr

yn angenrheidiol neillduo y claf rhag i'r clefyd neu yr halogrwydd ymdaenu. 2. Ar reswm *moesol* : yr oedd y gwersyll yn breswylfod i Dduw, ac ni ddylai dim atfendig gael ei oddef i aros lle y triga efe.

Adn. 3. Fel na halogont eu gwersylloedd] Awgrymir yma y perygl o gael ein llygru trwy bechodau rhai ereill, a'r ddyledswydd o ochelyd cyfeillach dynion drygionus. Dylai pob pechadur anedifeiriol gael ei yru allan o'r amghefnant santiaid, ac ni ddylid gadael i neb o'r fath byth ddyfod i mewn.

Adn. 4. A meibion Israel a wnaethant felly, ac a'u hanfonasant hwynt i'r tuallan i'r gwersyll] Dyma yr hanes gyntaf a feddwn am y fath ysgariadau; a thybïa rhai mai y gosodiad yma a roddes y meddylddrych cyntaf o *ysbilyty*, lle y mae yr holl rai a gystuddir â chlefydau heintus yn cael eu rhoddi mewn gwardau neillduol dan driniaeth feddygol. Er na chrybwyllir yma am sefyllfa ac amgylchiadau y rhai a fwrwyd allan, gallwn gasglu eu bod yn cael eu trin gyda'r hynawsedd hwnw ag yr oedd eu cyflwr truenus yn ei ofyn. Felly, er y rhaid i bechaduriaid gael eu hysgaru o eglwys Dduw, eto dylent gael eu trin gyda gofal serchus, am y gallant gael eu hadferu. Pan y mae dyn yn gwrthgilio o ffordd y gwirionedd, y mae ef yn rhy fynyeh yn cael cefnu arno gan bawb; ac wrth gael ei gyflwr felly yn anobeithiol, mynych yr ymsudda yn ddyfnach i laid pechod.

Adn. 6. Os gŵr neu wraig a wna un o holl bechodau dynol] Hyn yw, pechodau yn erbyn dynion, megys twyll neu gam, trwy yr hyn y mae dynion ereill yn cael eu niweidio. *Gan wneuthur camwedd yn erbyn yr Arglwydd*—clhwaneagir hyn, i ddangos fod y cyfrwy niweidiau a wneir i ddynion, yn bechodau hefyd yn erbyn Duw, yr hwn a orchymyna gyflawnder i ddynion yn gystal a chrefydd tuag ato ei hun. *A bod o'r enaid hwnw yn euog*—yn deimladwy o'i euogrwydd, neu yn cael ei gyhuddo yn ei gydwybod.

Adn. 7. Yna cyffesant eu pechod] Na fydded iddynt barhau i waadu y ffaith, eithr bydded iddynt roddi y gogoniant i Dduw, a chymeryd

hyn a fyddo efe enog o hono erbyn ei ben, a chwanedeg ei bummed *ran* ato, a rhodded i'r *hwn* y gwnaeth efe gam âg ef.

8 Ac oni bydd i'r gŵr gyfnesaf i dalu *am* y camwedd iddo, *yr iawn am* y camwedd yr hwn a delir i'r Arglwydd, *fydd* eiddo yr offeiriad; heb-law yr hwrdd cymod yr hwn y gwnaefe gymod âg ef trosto.

9 A phob offrwm dyrchafael, o holl santaidd bethau meibion Israel, y rhai a offrymant at yr offeiriad, fydd eiddo ef.

10 A santeiddio gŵr, eiddo ef fyddant: hyn a roddo neb i'r offeiriad, eiddo ef fydd.

11 ¶ Llefarrowd yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

12 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pob gŵr pan ŵyro ei wraig ef, a gwneuthur bai yn ei erbyn ef;

13 A bod i ŵr a wnelo â hi, a bod yn guddiedig o olwg ei gŵr hi, ac yn gyfrinachol, a hithau wedi ei halogi,

ac heb dyst yn ei herbyn, a hithau heb ei dal *ar ei gweithred*;

14 A dyfod gwŷn eiddigedd arno, ac eiddigeddu o hono wrth ei wraig, a hithau wedi ei halogi; neu ddyfod ysbryd eiddigedd arno; ac eiddigeddu o hono wrth ei wraig, a hithau heb ei halogi:

15 Yna dyged y gŵr ei wraig at yr offeiriad, a dyged ei hoffrwm drosti hi, degfed *ran* epha o flawd haidd: na thywallted olew arno, ac na rodded thus arno; canys offrwm eiddigedd *yw*, offrwm cof yn coffau anwiredd.

16 A nesäed yr offeiriad hi, a phared iddi sefyll ger bron yr Arglwydd.

17 A chymered yr offeiriad ddwfr santaidd mewn llestr pridd, a chymered yr offeiriad o'r llwch fyddo ar lawr y tabernacl, a rhodded yn y dwfr.

18 A phared yr offeiriad i'r wraig sefyll gerbron yr Arglwydd, a dyosged oddiam ben y wraig, a rhodded yn ei dwylaw offrwm y coffa; offrwm

y cywilydd iddnt eu hunain trwy ei gyfaddef ef. *A rhodded yn ei ol*—yr hyn a gymerodd efe ymaith, neu ei gydwerth ef. *A chwanedeg ei bummed ran ato*—fel iawn i'r hwn a niweidiwyd trwy fod heb ei eiddo cyhyd, ac fel cosp ar y neb a wnaeth y niwed, er attal ereill rhag gwneuthur yn gyffelyb. Heb ad-daliad, neu edfrydiad eiddo, yn mhob achos dichenodwyr, ni faddeua Duw anwiredd pechod dyn. Pa fodd y dichen i neb mewn achos o dwyll, gydag eiddo ei gymydog yn ei feddiant, ddysgwyl trugaredd oddiar law y Duw cyfiawn a santaidd? Gwel ar Luc xix. 8.

Adn. 8. *Ac oni bydd i'r gŵr gyfnesaf*] Tybia hyn fod y gŵr a niweidiwyd wedi marw, neu fyned o'r wlad. Y mae yr Iuddewon yn meddwl fod y ddeddf hon yn golwyn y *dyeithr* neu yr *ymdeithydd* yn unig, am fod pob Israeliaid yn perthyn i'r lleill oll. *Fydd eiddo yr offeiriad*—yr hwn a benododd Duw fel ei gynrychiolwr, i dderbyn ei eiddo ef, a'i ddefnyddio i'w wasanaeth ei hun.

Adn. 9, 10. *Fydd eiddo ef*] Yn eiddo i'r offeiriad a'i hoffrwm, ac nid i'w ranu rhwng yr holl offeiriad.

Adn. 12, 13. *Pob gŵr pan ŵyro ei wraig*] O ffordd rhinwedd a duwioldeb, a hyny naill ai mewn gwirionedd, neu ynte yn maru ei gŵr. Rhoddwyd y gyfraith hon mewn rhan i gadw y gwragedd oddiwrth odineb, ac mewn rhan i'w diogelu hwy rhag cynyddaredd eu gwŷr caled-galon, y rhai amgen a allasant ar ddwrwybiaeth yn unig effeithio eu dynystr, neu o leiaf eu rhoddi hwynt ymaith.

Adn. 14. *A dyfod gwŷn eiddigedd arno*] *Ruach kinah*, naill ai dylanwad dieffig goruchnaturol yn ei gynhyrfu ef i eiddigedd, neu nwyd neu wŷn eiddigedd.

Adn. 15, 16. *Yna dyged y gŵr ei wraig at*

yr offeiriad] Dywed yr Iuddewon fod yr offeiriad yn gyntaf i geisio ei darbwyllo hi i gyfaddef y gwirionedd yn y geiriau hyn: 'Anwyl ferch, fe allai i ti gael dy orddiwes trwy yfed gwin, neu ddarfod i ti gael dy gario ymaith gan wres ieuencid, neu siamplau cymydogion drwg: tyred, cyfaddef y gwirionedd er mwyn ei enw mawr Efi, yr hwn a ddysgrifir yn yr arddedod santeiddiaf hon; ac na âd iddo gael ei olehi ymaith â'r dwfr chwerw.' Os cyfaddefai hi, gan ddywedyd, 'Yr wyf yn halogedig,' nid oedd i gael ei rhoddi i farwol-aeth, eithr ysgerid hi, a chollai ei gwaddol; ond os dywedai hi, 'Yr wyf yn lân,' yna aent yn mlaen. *A dyged ei hoffrwm drosti hi*—yr hwn oedd yn offrwm gwael o flawd haidd, heb olew na thus, yn gyfatebol i ansawdd gofidus presenol ei deulu; canys gofid mawr oedd cael achos i fod yn eiddigus, neu fod yn eiddigus heb achos. *Offrwm cof*—yn arwyddo fod yr hyn ag ydoedd i'w wneyd yn cael ei fwrriadu fel apeliad difrifol at hollwybodaeth a chyfiawnder Duw.

Adn. 17. *A chymered yr offeiriad ddwfr santaidd*] Sef dwfr o'r noe, yr hwn a elwir yn *santaidd* am ei fod wedi ei gysegru i ddybenion santaidd. *Mewn llestr pridd*—yr hwn y dywed yr Iuddewon na ddefnyddies ef erioed o'r blaen. *Llwch fyddo ar lawr*—yn cael ei fwrriadu ond odid i nodi allan frynti y trosedd ag y ehyddid hi o hono.

Adn. 18. *Dyosged oddiam ben y wraig*] Yr hyn a ystyrir yn ddiraddiad mawr yn y dwyrain, 1 Cor. xi. 5, 6. *Y dwfr chwerw*—tybia rhai fod hwn yn cael ei alw felly, am eu bod yn rhoddi wermod neu rywbeth o'r fath ynddo i'w chwerwi. Dywed ereill fod y llwch a roddid ynddo yn cynwys rhan o ludw gwasgareddig yr allor, yr hyn a roddai i'r dwfr flas

eiddigedd *yno* efe: ac yn llaw yr offeiriad y bydd y dwfr chwerw sydd yn peri y felldith.

19 A thynged yr offeiriad hi, a dywed wrth y wraig, Oni orweddodd gŵr gyda thi, ac oni wŷraist i aflenddi *gydag arall* yn lle dy ŵr, bydd di ddiwed oddiwrth y dwfr chwerw hwn sydd yn peri y felldith.

20 Ond os gŵyraigst ti oddiwrth dy ŵr, ac os halogwyd di, a chydio o neb â thi heblaw dy ŵr dy hun:

21 (Yna thyngeded yr offeiriad y wraig â llw melldith, a dywed wrth yr offeiriad wrth y wraig,) rhodded yr

Arglwydd dydi yn felldith ac yn llw yn mysg dy bobl, pan wnelo yr Arglwydd dy forddwyd yn bwdr, a'th groth yn chwyddedig;

22 Ac aed y dwfr melldigedig hwn i'th goluddion, i chwyddo dy groth, ac i bydru dy forddwyd. A dywed wrth y wraig, Amen, amen.

23 Ac ysgrifened yr offeiriad y melldithion hyn mewn llyfr, a golched *hwyt* ymaith â'r dwfr chwerw.

24 A phared i'r wraig yfed o'r dwfr chwerw sydd yn peri y felldith: ac aed y dwfr sydd yn peri y felldith i'w mewn hi, yn chwerw.

heliadd neu chwerw. Heblaw hyn, yr oedd y dwfr hwn wedi golchi ymaith y melldithion, y rhai a ysgrifenedis â bustl ac inc, adn. 23. Neu dichon ei fod yn cael ei alw yn 'ddwfr chwerw' ar gyfrif ei effeithiau chwerwon ar y wraig os byddai yn euog.

Adu. 19—23. *A thynged yr offeiriad hi, &c.*] Dywed y rabbiniaid, ar ol i'r barnwyr glywed y *cyhuaddiad* a'r *gwadiad*, fod y gŵr a'r wraig yn cael eu hanfon ill dau i Jerusalem, i ymddangos gerbron y Sanhedrim, y rhai oeddynt yr unig farnwyr yn y cyfryw achosion, yn enwedig yn yr amseroedd diweddaraf. Os byddai y wraig yn parhau i ddadlu ei diniweidrwydd, arweinid hi at borth dwyreiniol cyntedd y deml, i 'sefyll gerbron yr Arglwydd,' adn. 18, lle y dyosgid hi o'i dillad, ac y rhodded am dani wisg ddŷ, yn ngwydd amrai fenywod, fel y dysgid i wragedd ereill beidio gwnethur 'yn ol ei hysgerlder hi,' Eze. xxiii. 48. Dywed yr Iuddewon nad oedd ei morwyuon ei hun i fod yn wyddfodol yn y cyfamfer, rhag iddi ymddangos yn wael yn eu golwg hwy, y rhai oeddynt i'w haubrydeddu hi; a bod yn rhaid i'w gŵr hefyd encilio. Yna yr oedd yr offeiriad i'w thyngbedu hi i ddywed y gwir, ac i gyhoeddi melldith Duw yn ei herbyn os oedd yn euog, ac i fynegu beth fyddai effaith ei gwaith yn yfed dwfr y felldith: yr oedd yn rhaid iddo hefyd sicrhau iddi, os oedd hi yn *ddieuog*, na wnai y dwfr ddim niwed iddi; ond os oedd hi yn euog, y byddai ef yn wenwyn iddi, y gwnai ei *morddwyd yn bwdr* a'i *chroth yn chwyddedig*, adn. 21. Nis gellir yn hawdd sicrhau, ebai Clarke, pa beth a feddylir wrth yr ymadroddion hyn. Y mae *lanpel yarech* yn arwyddo, yn llythyrenol, ei *morddwyd yn syrthio*; a chan fod y *forddwyd, traed, &c.*, yn cael eu harfer yn ddestl yn mhilith yr Hebraid i osod allan y rhanau ag y mae natur yn eu celu, rhaid fod *syrthiad y forddwyd* yn meddlw yma rywbeth tebyg i'r *prolapsus uteri*, neu ddisgyniad y groth. Wrth hyn yr oedd yn rhaid i'r wraig ddywed yd, *Amen, amen*, adn. 22. Dyna y lle cyntaf y dygwyrdd y gair hwn yn y ffurf gyffredin o ddymnaiad terfynol mewn gweddi. Ei ystyr yw, *boed felly—cymered hynny* le. Tybia rhai fod yr *Amen*, wrth ei roddi yma ddygwaith, yn golygu dwy ran y llw, sef yr un ag oedd yn ei rhyddhau hi os yn ddiuog, a'r un a'i coll-

farnai os yn euog. Ni allai un wraig, os byddai yn euog, ddywed yd *Amen* wrth y llw hwn, ac yfed y dwfr, oddieithr ei bod yn anghredu gwirionedd Duw, neu yn arfeiddio ei gyfiawnder ef, ac wedi myned i'r fath raddau o haerllogrwydd a chalon-galedwch fel ag i herio y Duw hollalluog i wneyd ei waethaf iddi, a dewis anturio ar ei felldith yn hytrach na rhoddi iddo ogoniant trwy gyfaddef! Yr oedd yr offeiriad i'w *ysgrifenu yr holl felldithion hyn mewn llyfr*, adn. 23; ac yr oedd yr inc a ddefnyddid ar yr achlysur, meddai y rabbiniaid, heb ddim ynddo a'i gwnai yn annileadwy, fel y gallai yr ysgrifen gael ei *golchi ymaith* â'r dwfr chwerw; a dywedant yn mbellach, mai y geirian ysgrifenedig oedd y rhai a gaulyn: 'Os na ddaeth dweithyddyn yn agos ataf, a'th fod ditau heb dy halogi trwy ymadael â gwely dy ŵr, ni fydd i'r dyfr-oedd chwerwon hyn, y rhai a fellldithais i, dy niweiddio: ond os gŵyraigst oddiwrth dy ŵr, ac ymhalogi o hono trwy nesâu at ŵr arall, bydded dy fod yn fellldigedig gau yr Arglwydd, ac yn siampl i'w holl bobl ef; bydded i'th forddwyd bydru, ac i'th fol chwyddo nes i'hwgo o hono! aed y dyfroedd melldigedig hyn i'th fol,' a thrwy chwyddo â hwynt boed i'th forddwyd bydru!' Yna, ar ol i'r offeiriad dderbyn *Amen* y wraig, a chymeryd oddentu peint o ddwfr o'r noe bres ag ydoedd gerllaw allor y poeth-offrwm, a rhoddi y llwch ynddo fel y crybwyllwyd adn. 17, efe a olchai neu a grafa'i allan y melldithion oddiar y memwrn i'r llestriad dwfr, yr hyn a ymddangosai fel pe buasai y melldithion hyn yn nawseiddio y dwfr, ac yn rhoddi iddo yr effaith a fwriedid. Cyn i'r wraig yfed, cyhwfnid ac offrymid yr offrwm eiddigedd; a'r offeiriad a gymerai lonaid ei law o hono, ac a'i llosgai ar yr allor, adn. 25, 26; a dywed rhai fod y gweddill o hono yn cael ei fwyta gan yr offeiriad, oddieithr fod ei gŵr yn offeiriad, ac yna gwasgerid ef yn mysg y lludw. Yr oedd yr offrwm hwn, yn nghanol y gorechwyl, yn arwyddo fod y cwbl yn apeliat at Dduw fel Duw hollwybodol, oddiwrth yr hwn nid oes dim dirgel yn guddiedig. Ar ol cyflawni pob peth fel hyn yn ol y gyfraith, yr oeddynt i aros am y canlyniad. Nid oedd gan ddwfr yn yr hwn y dodesid ychydig lwch, a chrafion croen ysgrifenedig, un naws naturiol i wneuthur lies na niwed, yn enwedig o'r fath ag a

25 A chymered yr offeiriad o law y wraig offrwm yr eiddgedd; a chyhw-faned yr offrwm gerbron yr Arglwydd, ac offrymed ef ar yr allor.

26 A chymered yr offeiriad o'r offrwm lonaidei law, ei goffadwriaeth, a llosged ar yr allor; ac wedi *hyny* pared i'r wraig yfed y dwfr.

27 Ac wedi iddo beri iddi yfed y dwfr, bydd, os hi a halogwyd, ac a wnaeth fai yn erbyn ei gŵr; yr â y dwfrsydd yn peri y felldith yn chwercw ynddi, ac a chwydda ei chroth, ac a bydra ei morddwyd: a'r wraig a fydd yn felldith yn mysg ei phobl.

grybwyllir yma; eto wrth apelio fel hyn at Dduw yn ei drefn benoddig ei hun, efe a gyfrngai yn wyrthiol i egluro diniweidrwydd y dieuog, a phechod yr euog. Trwy y penderfyniad pwysig ac arswydus hwn o eiddo rhag-luniaeth attelid gwŵr eiddigus rhag creulonedd yn erbyn eu gwragedd, a chwedid y gwragedd at eu dyledswydd rhag ofn y gosp. Hefyd, yr oedd y drefn hon yn attal hiliogaeth estronol, gan y gallai gwraig, trwy wŵro oddiwrth ei gŵr, ddwyn mab Cenedl-ddyn i etifeddu meddianau ei gŵr. Os byddai y wraig yn wir euog, yr oedd y dwfr a yfai yn wenwyn iddi, adn. 27; chwyddai ei chroth a phydrai ei morddwyd gan ddolur diffaith, nes peri iddi 'ochain wedi i'w chnawd a'i chorff gurio,' Diar. v. 11. Dywed yr Esgob Patrick, oddiwrth rai o'r ysgrifenywyr Iuddewig, fod effeithiau y dyfroedd hyn yn ymddangos yn ebrwydd; fod y wraig yn gwelw, a'i llygaid yn barod i dasgu allan o'i phen, nes y gwaeddai y bobl, 'Dyger hi ymaith, rhag halogi o honi gyntedd y deml!' trwy farw yno. Eithr dywed Lightfoot, nad ymddanghosai yr effeithiau weithiau am ddwy neu dair blynedd: ond y mae yn debycach fod rhyw arwyddion yn ymddangos yn ddioced. Dywed y rabbiniaid fod y godinebwr hefyd yn marw yn yr un dydd ac awr a'r odinebwraig, ac yn yr *un modd*; fod ei fol yntau yn chwyddo, a'i ranau dirgel yn pydro; dolur nid annhebyg iawn, yn ol barn rhai, i'r hwn ag y mae llaw ddial-eddol y Duw cyfiawn wedi ei wneuthur yn ffrewyll atfendid yn yr oesoedd diweddar hyn, dan yr hwn y mae putanod a phuteinwyr yn heintio, yn dirboeni, ac yn dystrywio eu gil-ydd, gan eu bod yn diane yn ddigosp gan ddynion! Y mae y dysgawdwy'r Iuddewig yn chwaneu, nad oedd y dyfroedd hyn yn cael yr effaith yma ar yr odinebwraig ond yn unig pan fyddai y gŵr heb droseddu erioed yr un fath; ac y mae rhai yn meddwl mai at hyn y cyfeirir yn Hos. iv. 14: 'Nid ymwelaf â'ch merched pan buteiniont, nac â'ch gwragedd pan doront briedas, am fod y rhai hyn yn ymddidoli gyda phuteiniaid.' Ond os byddai y wraig hon yn **DIUEUOG**, yr oedd y dwfr a yfai yn *feddyginiath* iddi, adn. 28; canys, fel y dywed y rabbiniaid, hi a ddenai yn gryf, iachus, a strwythlon. Os oedd hi o'r blaen yn *amhllantadwy*, yn awr dechreuai ruddwyn *plant*; os nad oedd ganddi o'r blaen ond

28 Ond os y wraig ni halogwyd, eithr glân yw; yna hi a fydd ddiangol, ac a blanta.

29 Dyma gyfraith eiddgedd, pan wŵro gwraig *at arall* yn lle ei gŵr, ac ymhalogi:

30 Neu os daw ar ŵr wŵn eiddgedd, a dal o hono eiddgedd wrth ei wraig; yna gosoded y wraig i sefyll gerbron yr Arglwydd, a gwnaed yr offeiriad iddi yn ol y gyfraith hon.

31 A'r gŵr fydd dienog o'r anwir-edd, a'r wraig a ddwg ei hanwiredd ei hun.

merched, yn awr dechreuai gael *meibion*; os oedd o'r blaen yn cael esgoriad *caled*, cai yn awr un *esmwyth*: mewn gair, hi a fendithid yn ei chorff, ei benaid, a'i heiddo. Dywed Boothroyd nad oedd y prawf hwn gyda dwfr y felldith i gael ei wneuthur ond pan nas gellid gwybod y gwirionedd mewn un ffordd arall; ac, fel dywed Scott ac ereill, ar achos o *amhweueth* yn unig yr oedd i apelio fel hyn at Dduw, am fod y gyfraith yn gorchymyn yn bendant, mewn achos o *sierwydd*, fod i'r godinebwr a'r odinebwraig gael eu rhoddi i farwolaeth, Lef. xx. 10. Y mae Calmet ac ereill yn meddwl na wnaed cymaint ag un prawf fel hyn yn amseroedd *puraf* y werin-lywodraeth Hebreig, gan nad oes nn crybwylliad am hyn yn yr holl ysgrifthyry; a bod Duw wedi ei ddat-guddio ei hun mor ofnadwy yn ei farnedig-aethau, fel na feiddiai un wraig apelio at y fath brawf a hwn yn oes y gwyrthiau, os ydoedd yn ymwybodol o'i henogrwydd. Ond nid yw hyn yn ddigonol reswm na chymerodd anghreifftiau le; ac os oedd ymwybedolrwydd o euogrwydd yn gwneyd i'r euog gyfaddef yn lle dyfod yn nulaen, gallai fod y dieuog yn fynych yn cael ei phrofi, ac fel hyn ei rhydd-hau. Dywed yr Iuddewon i'r sturf yma o brofi beidio tuag amser diweddar yr ail deml.

Adn. 29. *Dyma gyfraith eiddgedd*] Yr hon yw yr hynotaf yn llyfrsan Moses; a'r hon yr ymddengys iddi gael ei befelychu gan agos holl genhedloedd y ddaear, pa un bynag ai gwâr ai anwâr; ac yn cawn fod cyffelyb foddau o brawf ar droseddau amheus yn cael eu harfer ganddynt pan fyddai cyfiawn dystiolaeth yn ddiffygiol i euog-brofi, a lle y gobeithid y byddai i wrtddrych eu haddoliad gyfrngu er mwyn cyfiawnder, i'r dyben i'r *euog* gael ei gopsi a'r *diniwed* gael ei ryddhan. *Pan wŵro gwraig*—pan fyddo mewn gwirionedd yn euog o odineb, ond fod y dystiolaeth yn aneglur.

Adn. 30. *Neu os daw ar ŵr wŵn eiddgedd*] Fel ag i *dybio* fod ei wraig yn euog o odineb, pan na fyddo ganddo sierwydd penderfynol.

Adn. 31. *A'r gŵr fydd dieuog o'r anwir-edd*] Trwy gymeryd y drefn hon i gael allan y gwirionedd, efe a'i rhyddhâi ei hun oddiwrth yr euogrwydd o letya eiddgedd anwarantadwy; ac ni fernid ef yn haeddu ei gopsi am erlyu a phrofi ei wraig fel hyn, yr hon a roddes iddo achlysur eiddgedd, pa un bynag a

PENNOD VI.

LEFARODD yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywydd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ymneillduo gŵr neu wraig i addaw adduned Nazaread, i ymneillduo i'r Arglwydd:

3 Ymneilldued oddiwrth win a diod gref; nac yfed finegr gwin, na finegr diod gref; nac yfed chwaith ddim sugn grawnwin, ac na fwytaied rawnwin irion, na sychion.

4 Holl ddyddiau ei Nazareath ni chaiff fwyta o ddim oll a wneir o win-

fyddai hi yn euog ai peidio. *A'r wraig*—os yn euog, a *ddwg ei hanwreidd ei hun*—sef cospedigaeth ei banwreidd; hyny yw, ei chroth a chwyddai, a'i morddwyd a bydrai, adu. 27. Er fod godinebwyr yn diane yn fynychn yn awr rhag pob barn neu gospedigaeth, eto 'puteinwyr a godinebwyr a farna Duw,' Heb. xiii. 4.

PEN. VI. Adn. 2. *Pan ymneillduo gŵr neu wraig*] Canys gallai y ddwy rstlen wneuthur yr adduned hon, os byddent yn rhyddion, ac wrth eu llywodraeth eu hunain; amgen gallai eu rhieni nen eu gwŵr ddiddymu yr adduned. *I addo adduned Nazaread*—trwy ba un yr oeddynt yn ymneillduo oddiwrth fwyaniannau a gorchwylion bydol, fel y gallent ymgyssegru yn hollol i wasanaeth Duw; a hyny dros eu holl fywyd, neu am amser byr yn unig: gwel ar Act. xviii. 18. Gallai mab tair blwydd ar ddeg oed, a merch unarddeg, addunedu adduned i'r Arglwydd, os nad atelid hwynt gan eu tad. Y mae y gair *nazir*, oddiwrth *nazar*, 'neillduo,' yn arwyddo yn unig berson *neillduedig* oddiwrth ryw arferion neu ddefodau, ac wedi ymgyssegru i wasanaeth Duw. Oddiwrth y *Nazaread* y deilliodd y *Rechabaiad*, ac oddiwrth y *Rechabaiad* yr *Esseniaid*, ac oddiwrth yr *Esseniaid* yr *Anchoritaiad* neu y *Meudwyod*, ac mewn efelychiad i'r rhai hyny y gwahanol raddau o *Fynachod*. Haerodd rhai fod y *Nazaread* yn gysgod o'n HARGLWYDD; ond ni allasat brofi hyny trwy gyfatebiad. Darfu i'n Harglwydd bendigedig yfed gwin a chyffwrdd â'r marw, yr hyn ni wnaai un Nazaread. Y mae yn wir y gelwid ef yn *Nazaread*, Mat. ii. 23; eithr gelwid ef felly mewn fiordd o *ddirmyg*, am ei fod yn trigo yn *Nazareth*, ac nid am fod nodau gwahanuethol Nazaread yn perthyn iddo: gwel ar Mat. ii. 23.

Adn. 3. *Ymneilldued oddiwrth win a diod gref*] Rhag iddo gael ei gynhyrfu i afendid, ac fel y byddo ei feddwl, trwy lwyrr ymattaliad, yn gymhwys at bob rhan o wasanaeth Duw. *Nac yfed finegr gwin*—y mae y gair *chomets* yn arwyddo gwin *iliedig*, ac ymddengys ei fod yn cael ei arfer yma am win cryf neu uchel feddwl. *Na finegr diod gref*—gwirod wedi ei wneuthur o firwthy y gobalwydd (*date-tree*), yr hwn a ystyrir y gwin cryfaf, neu o ryw firwthy arall. *Na fwytaied rawnwin*—yr hyn y gwaherddid iddo ei wneuthur er mwyn o ragocheliad, i'w gadw ef yn

wydden y gwin, o'r dincod hyd y bilionen.

5 Holl ddyddiau adduned ei Nazareath ni chaiff ellyn fyned ar ei ben: nes cyflawni y dyddiau yr ymneillduodd efe i'r Arglwydd, santiaidd fydd; gadawed i gudynau gwallt ei ben dyfu.

6 Holl ddyddiau ei ymneillduoeth i'r Arglwydd, na ddedued at gorff marw.

7 Nac ymhaloged wrth ei dad, neu wrth ei fam, wrth ei frwyd, neu wrth ei chwæer, pan fyddant feirw; am *fod* Nazareath ei Dduw ar ei ben ef.

mbhellach oddiwrth win: gwel ar Lef. x. 9. Dyma y rheol *gyntaf* ag yr oedd efe i'w chadw.

Adn. 4. *Holl ddyddiau ei Nazareath*] Yr oedd rhai yn Nazaread *bythol*, fel y gwelwom, trwy eu bod wedi eu cysegru i Dduw o'r groth, megys Samson ac Ioan Fedyddiwr; eithr sonir yma am rai wedi eu gwneuthur eu hunain yn Nazaread am amser *terfynol* yn unig, yr hwn a allai fod yn fyrach neu yn hirach. *Ni chaiff fwyta o ddim oll a wneir o winwydden y gwin*—tybia Lightfoot ac ereill fod y Nazaread yn gysgod o Adda yn mharadwys; a chan y dywed y rabiniaid mai y *winwydden* oedd pren y bywyd, Gen. ii. 9, dychymygant fod y winwyddau a'i firwythau yn cael eu gwahardd i'r Nazaread am yr un rheswm ag yr oedd firwyth pren y bywyd yn cael ei wahaidd i'n rhieni cyntaf.

Adn. 5. *Ni chaiff ellyn fyned ar ei ben*] I dori ymaith un ran o'i wallt. Dyma yr *ail* reol ag yr oedd efe i'w chadw; a phenodwyd hyn, (1) Fel arwydd o'i farweiddiad ef at bleserau bydol a phrydferthwch allanol. (2) Fel tystiolaeth o'r purdeb hwn ag yr oedd efe yn ei broffesu, am fod eilliad y gwallt yn arwydd o afterdid, adn. 9. Ac, (3) Fel y gallai efe trwy hyd ei wallt gofio yn wastadol am ei adduned. *Santiaidd fydd*—wedi ei lwyrr neillduo i wasanaeth Duw.

Adn. 6. *Na ddedued at gorff marw*] Dyma y *trydydd* peth gorchymynedig; canys yr oedd ymhalegi â'r meirw yn gwneyd dyn yn aflan saith niwrnod, fel nad allai fyned i'r addoliad dwyfol, pen. xix. 11—13. Am hyny, fel y gallai y Nazaread fod bob amser yn gymhwys i wasanaeth Duw, yr oeddynt i ymochelyd rhag yr halogrydd deddfol hwn, trwy beidio myned i anghladd hyd yn nod eu perthuyasau agosaf.

Adn. 7. *Am fod Nazareath ei Dduw ar ei ben ef*] Gan feddwl ei wallt, yr hwn oedd yn arwydd o'i *neilldued* ef i wasanaeth ei Dduw. Yn awr, fel yr oedd *gwallt* y Nazaread yn arwydd o'i *ddarostyngiad* ef i Dduw, felly y mae gwaraig briod yn cael ei hystyried fel *Nazaread* dros ei bywyd, neu wedi ei *neillduo* oddiwrth bawb ereill, a'i chysylltu âg un gŵr, yr hwn yw ei harglwydd. Meddylir fod St. Paul yn cyfeirio at hyn yn 1 Cor. xi. 10, lle y dywed, *Dylai y wraig fod ganddi awdurdod ar ei phen*—hyny yw, wisgo ei gwallt a'i gorchudd; canys y gwallt hwn sydd brawf o'i

8 Holl ddyddiau ei Nazareath, santaidd *fydd* efe i'r Arglwydd.

9 Ond os marw fydd un yn ei ymyl ef yn ddisymwth, a halogi pen ei Nazareath; yna eillied ei ben ar ddydd ei buredigaeth, ar y seithfed dydd yr eillia efe ef.

10 Ac ar yr wythfed dydd y dwg ddwy durtur, neu ddau gyw colomen, at yr offeiriad, i ddrws pabell y cyfarfod.

11 Ac offrymed yr offeiriad un yn bech-aberth, ac un yn boeth-offrwm, a gwnaed gymod drosto, am yr hyn a becho wrth y marw; a santeiddied ei ben ef y dydd hwnw.

12 A neilldued i'r Arglwydd ddyddiau ei Nazareath, a dyged oen blwydd yn offrwm dros gamwedd: ac aed y dyddiau cyntaf yn ofer, am halogi ei Nazareath ef.

13 ¶ A dyma gyfraith y Nazaread: pan gyflawner dyddiau ei Nazareath, dyger ef i ddrws pabell y cyfarfod.

14 A dyged yn offrwm drosto i'r Arglwydd, un hesprwm blwydd, per-

ffaith-gwbl, yn boeth-offrwm; ac un hespin flwydd, berffaith-gwbl, yn bech-aberth; ac un hwrdd perffaith-gwbl, yn aberth hedd;

15 Cawellaid o fara croyw hefyd, *sef* teisenau peillied wedi eu tylino trwy olew, ac afrllad croyw wedi eu heneinio ag olew, a'u bwyd-offrwm, a'u diod-offrwm hwy.

16 A dyged yn offeiriad *hwynt* ger bron yr Arglwydd, ac offrymed ei bech-aberth a'i boeth-offrwm ef.

17 Offrymed hefyd yr hwrdd yn aberth hedd i'r Arglwydd, yn nghyd â'r cawellaid bara croyw; ac offrymed yr offeiriad ei fwyd-offrwm a'i ddi-diod-offrwm ef.

18 Ac eillied y Nazaread *wrth* ddrws pabell y cyfarfod ben ei Nazareath, a chymered fiew pen ei Nazareath; a rhodded ar y tân a *fyddo* dan yr aberth hedd.

19 Cymered yr offeiriad hefyd balfais o'r hwrdd wedi ei berwi, ac un deisen croyw o'r cawell, ac un afrlladen croyw; a rhodded ar ddwy law

Nazareath hi, neu o'i darostyngiad i'w gwŕ, fel yr oedd y Nazaread yn ddarostyngedig i'r Arglwydd.

Adn. 8. *Holl ddyddiau ei Nazareath, santaidd fydd efe*] Yr oedd i fod yn rhywm yn ddibaid, yn ystod holl ddyddian ei neillduad, mewn gweithredoedd crefyddol.

Adn. 9. *Eillied ei ben ar ddydd ei buredigaeth*] Dengys hyn fod ei Nazareath wedi ei lluddias trwy halogiad, fel nas gallai fyned yn mlaen yn mhellach. Ond ar ol y buredigaeth arferol, yr oedd i gael ei dechreu drachefn, trwy eillio ymaith y gwallt halogedig, a gadael i un newydd dyfu i ei le ef.

Adn. 10. *Ddwy durtur, neu ddau gyw colomen*] Yr un fath offrwm ag a wneid gan yr hwn oedd â'r dyferlif arno, Lef. xv. 14.

Adn. 11. *A becho wrth y marw*] Hyn yw, a dyno arno ei hun affendid seremonïol, yr hyn a elwir yn *bechu*, am ei fod yn gysgod o bechod, ac yn drosoddiad o gyfraith, er trwy anwybodaeth a diolfalwch.

Adn. 12. *A neilldued i'r Arglwydd ddyddiau ei Nazareath*] Gynifer o ddyddiau ag a addunedasai efe o'r blaen i Dduw. Yr oedd y cwbl a aethent heibio cyn ei halogiad ef, na mor agos bynag oeddynt i ddiwedd yr amser gosodedig, wedi myned *yn ofer*, ac ni chyffuifid *hwynt* iddo; yr hyn a ddysga i ni, fel y sylwa Henry, 'os dychwel y cyfiawn oddiwrth ei gyfiawnder, ac ynhalogi â gweithredoedd meirwon, yr aiff ei holl gyfiawnder a wnaeth *yn ofer* iddo, Ezec. xxxiii. 13. Y mac y cwbl wedi ei gollu, y cwbl yn ofer, os na wna efe barhau, Gal. iii. 4. Rhaid iddo ddechren drachefn, a gwneyd ei weithredoedd cyntaf.'

Adn. 13—17. *Pan gyflawner dyddiau ei Nazareath, dyger ef i ddrws pabell y cyfarfod*] Fel y cymerai pawb sylw o orpheniad ei

adduned, ac na thramgywyddai neb os gwelent ef yn awr yn yfed gwin, neu yn gwneyd yr hyn ag yr ydoedd ef o'r blaen yn ymgadw rhagddo. *A dyged yn offrwm drosto*—gorchymynir iddo wneuthur hyn rhag iddo feddwl ei fod, trwy y weithred hon o ddyhewyd, wedi gwneuthur Duw yn ddyledwr iddo; ac hefyd mewn ffordd o ddiolchgarwch i Dduw, yr hwn a roddasai iddo ras i wneuthur, ac mewn rhyw fesur i gadw, y gyfryw adduned. Ar ol i ni wneyd ein goraf mewn ffordd o ddyledsdydd i Dduw, eto rhaid i ni gyfaddef mai gweision anffuddiol ydym.

Adn. 18. *A chymered fiew pen ei Nazareath, a rhodded ar y tân*] Goddefid i'r blew dyfa i'r perwyl hwn; a chan fod y Nazaread yn fath o aberth offrymedig i Dduw trwy holl yspaid ei Nazareath neu ei *neillduacth*, ac na ellid offrymu un enwad neu waed dynol ar allor yr Arglwydd, efe a offrymai ei *wallt*, yn niwedd ei neillduacth, megys aberth, sef y gwallt hwnw ag ydoedd yn arwydd o'i gyflawn darostyngiad ef i'r Arglwydd, a'r hwn yn awr a ystyrid fel yn *ciddo* i'r Arglwydd. Nid yw yr Ifindwaid, ar ol gwneyd adduned, yn tori en gwallt yn ystod amser yr adduned; ond wedi i'r amser hwnw ddyfod i fyny, eilliant ef yn y fan lle y gwnaed yr adduned. Fod gwallt y pen yn cael ei arfer yn goelgrefyddol yn mhllith gwahanol bobloedd, gwel ar Lef. xix. 27.

Adn. 19. *Cymered yr offeiriad hefyd balfais o'r hwrdd, &c.*] *Sef* y balfais *aswy*, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 20, lle y mae hon yn cael ei chysylltu â 'phalfais y dyrchafael,' yr hon oedd y balfais *ddeau*, a'r hon oedd ran yr offeiriad yn mhob aberth, Lef. vii. 32. Yr oedd y balfais, a theisen ac afrlladen croyw, i gael eu rhoddi ar ddwy law y Nazaread, fel y

y Nazaread, wedi eillio o hono ei Nazareacth.

20 A chyhwaned yr offeiriad hwynt yn offrwm cyhwan gerbron yr Arglwydd: santaidd yn hyn i'r offeiriad, heblaw parwyden y cyhwan, a phalfais y dyrchafael. Ac wedi hyn y caiff y Nazaread yfed gwin.

21 Dyma gyfraith y Nazaread a addunedodd, a'i offrwm i'r Arglwydd am ei Nazareacth, heblaw yr hyn a gyrhaeddodd ei law ef: fel y byddo ei adduned a addunedo, felly gwnaed, heblaw cyfraith ei Nazareacth.

gallai ef eu rhoddi i'r offeiriad i'w cyhwanu yn offrwm cyhwan gerbron yr Arglwydd; ac wedi hyn yr oeddynt hwy, yn nghyda pharwyden y cyhwan a phalfais y dyrchafael, yn dyfod yn santaidd i'r offeiriad—sef yn eiddo iddo ain ei wasanaeth, adn. 20.

Adn. 20. *Ac wedi hyn y caiff y Nazaread yfed gwin.* Hyn yw, ddychwelyd at ei ddull blaenorol o fyw.

Adn. 21. *Heblaw yr hyn a gyrhaeddodd ei law ef*] Heblaw yr hyn a roddo efe yn wirfoddol yn ol ei allu. Nyni a ddysgwu oddiwrth Maimonides y gallai dyn ddyfod yn Nazaread ar ran un arall; hyn yw, y gallai efe ei gynorthwyo ef i ddwyn traul yr ebyrth: gwel achos Paul, Act. xxi. 23—26.

Adn. 23. *Fel hyn y bendithiwech feibion Israel*] 'Yr ydym yn sier,' meddai Clarke, 'y rhaid i'r weddi a wna Duw i'w ganlynwyr, ac a ddyry efe yn eu genau hwy, fod yn iawn; a phan y byddo yn cael ei hoffwrm yn gywir, ffyddlon, a thær, gallwn yn hyderus ddysgwyl atebiad iddi. Os ymestngodd efe i roddi i ni ffurfio fendithion neu ffurfio weddi, gallwn fod yn sier y derbynfa efe yr hyn ag y darfu iddo ef ei hun ei wneuthur. Gall yr ystiriaeth yma gynrychu hyder mawr yn y rhai sydd yn dyfod gyda gweddi neu fawl at orsedd gras, pob un o ba rai a ddylai fod, mor bell ag y goddef amgylchiadan, yn ngwir eiriau yr ysgrifthyrr; canys gallwn yn hawdd gydio pwysigrwydd wrth eiriau Duw, yr hwn y cawn yn anhawdd ei gydio wrth y geiriau mwyaf trefnus o eiddo dyn. *Cymerwch eiriau gyda chwi, a dychwebech at yr Arglwydd.* Pa eiriau? Wel, y rhai hynny ag y mae Duw yn ddiatreg yn eu rhoddi yn eu geneuau: *Maddeu yr holl anwiredid, derbyn ni yn ddaionus, a thalwn i'f loi ein gwefusau*—yna nyni a roddwn yr ebyrth am y rhai y soniai ein gwefusau pan yn gwneyd ein haddunedau i ti: gwel Hos. xiv. 2.'—CLARKE. Dywed yr ESCOB PEARSON fod yn draddodiad gan yr Iuddewon, nad oedd yr offeiriad yn bendithio y bobl ond ar ddiwedd yr offrwm boreol; a'u bod yn peidio gwnethur hynny yn yr hwyr, meddai efe, i ddangos y byddai i fendith y gyfraith beidio yn y dyddiau diweddaf, sef dyddiau y Messia, ac y byddai i fendith Crist gwmeryd ei lle. Gwel hon yn 2 Cor. xiii. 13; Phil. iv. 7.

Adn. 24. *Bendithied yr Arglwydd di*] A phob math o fendithion, tymhorol ac ysbrydol;

22 ¶ Llefarrowd yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

23 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion, gan ddywedyd, Fel hyn y bendithiwech feibion Israel, gan ddywedyd wrthynt,

24 Bendithied yr Arglwydd di, a chadwed di:

25 A llewyrched yr Arglwydd ei wneb arnat, a thrugarhied wrthynt:

26 Dyrchafed yr Arglwydd ei wneb arnat, a rhodded i ti dangnefedd.

27 Felly y gosodant fy enw ar feibion Israel, a mi a'u bendithiaf hwynt.

a chadwed di—yn y meddiant o'r holl fendithion a fwynebi, a rhag yr holl ddrygag ag yr wyt yn agored iddynt.

Adn. 25. *A llewyrched yr Arglwydd ei wneb arnat*] Heb. 'Pared JEHOFA i'w wynnebau lewyrchu arnat,' gan oleuo dy galon, a rhoddi i ti wybodaeth o honot dy hun a'th Wneuthurwr. Y mae yma gyfeiriad at lewyrchiad yr haul ar y ddaear, i'w goleuo, ei chynesu, ac adnewyddu ei gwnebi hi. *A thrugarhied wrthynt*—danghosed i ti ei raslonrwydd yn maddeu dy bechodau ac yn cynal dy enaid.

Adn. 26. *Dyrchafed yr Arglwydd ei wynnebau arnat*] Gan edrych arnat gyda gofal diysgog, siriol, a thyner, ac arwyddion parhaus o'i gymradwyaeth. *A rhodded i't dangnefedd*—y fath nas gall neb na dim ei aflonyddu; tangnefedd yn dy gydywybod, a thangnefedd rhyngot a Duw a dynion; tangnefedd yn y byd hwn, a thangnefedd yn parhau dros dragwyddoldeb. Y mae yn nodedig fod enw JEHOFA yn cael ei adrodd dair gwaith yn y ffurf hon, a phob tro gydag acon wahanol yn y wreiddiol. Dywed Burder fod yr Iuddewon yn cynau yr enw JEHOFA yn y cysegr, ond yn eu synagogau eu bod yn arfer rhyw air arall yn ei le, megys *Adonai* neu *Elohim*. Pan gyhoeddid y fendith hon yn y cysegr, traddodid hi heb un gorphwysiad, a'r bobl yn hollol ddystaw; ond pan ef cyhoeddid yn y synagogau, dosberthid hi yn dair than, a'r offeiriad yn gorphwys yn niwedd pob adnod, a'r bobl yn dywedyd *Amen* wrth bob un. Y mae amrai wŷr doethion a dysgedig yn credu fod dirgelwch y Drindod Santaidd yn cael ei awgrymu yma: (1) Duw DAD yn bendithio ac yn cadw ei bobl; (2) Duw FAB yn drugarog wrth bechuriaid, gan faddu eu camweddau, y rhai y bu efe farw i'w dileu; ac, (3) Duw YSBRYD GLAN yn cymeryd o eiddo Crist, ac yn eu dangos i wir Gristionogion, gan dywallt tangnefedd Duw yn eu calonau. Y mae yr Iuddewon eu hunain yn meddwl fod rhyw ddirgelwch yn cael ei fwrriadu trwy hyn: ac onid eglurodd Duw yn y Testament Newydd pa beth ydyw, wrth ein cyfarwyddo ni i gael ein bedyddio 'yn enw y TAD, y MAB, a'r YSBRYD GLAN;' ac i ddysgwyl bendith oddiwrth 'ras ein Harglwydd Iesu Crist, cariad Duw, a chynedeithas yr Ysbryd Glan?' Gwel ar 2 Cor. xiii. 13.

Adn. 27. *Felly y gosodant fy enw ar feibion*

PENNOD VII.

AC ar y dydd y gorphenodd Moses godi y tabernacl, a'i encinio, a'i santeiddio ef, a'i holl ddodrefn, yr allor hefyd a'i holl ddodrefn, a'u hencinio a'u santeiddio hwynt;

2 Yr offrymodd tywysogion Israel, penaethiaid tŷ eu tadau (y rhai oedd dywysogion y llwythau, ac wedi eu gosod ar y rhifedigion:)

3 A'u hoffirwm a ddygasant hwy gerbron yr Arglwydd, chwec o feni diddos, a deuddeg o ychain; mèn dros bob dau dywysog, ac ŷch dros bob un: a cherbron y tabernacl y dygasant hwynt.

4 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

ion Israel] Gan eu galw ar fy enw i, a'u cyflwyno i mi fel fy mhobl fy hun; a mi a'u bendithiaf hwynt—mewn atebiad i'w gweddïau; neu, pan y byddo yr offeiriadau yn eu bendithio yn y ffurf hon, minau a'u bendithiaf hwynt a'r bendithion a deisyfir.

ADFFEDYLIADAU.—(1) Gweled gwŷr a gwragedd yn ymgysgru i Dduw mewn ffordd dduwio i doeth, wrth gydnabod rhyw drugarreddau hynodol, sydd ganmoladwy i'r graddau uchaf; ond darfu i lawer o'r hen dadau Cristionogol syrthio i'r dynwarediaid mwyaf dirmygus o'r hen Nazareaid, trwy eillio eu penau, pan ar yr un pryd na phetrusent yfed gwin! A phaham y darfu i'r fath dorf o fenywod eu cau eu hunain mewn gwyrtydai, pryd yr oedd achos crefydd mewn cymaint o angen am eu cymhorth mewn bywyd gweithgar? Pa ddadl-euon bynag a ellid eu dwyn dros yr arferiadau hyn tuag amseroedd yr erledigaeth baganaidd, y mae y rhesymau hyny yn bresenol wedi colli eu grym. Y mae Duw yn galw ei bobl ef i briodi, gofalu am en teuluoedd, ac ymdrechu yn erbyn drygau eu hoes yn holl rodfeydd cyhoeddus bywyd; a bydd i'r sawl a wnant felly gyraedd perffeithrwydd yn mhob rhinwedd yn llawer mwy boddhaol gan Dduw na'r rhai a geisiant uwch duwioledeb yn llwri-aidd mewn cyflwr o neillduedd. (2) Oddi-wrth y Nazareaid cysegredig i Dduw gall y Cristionogion ddydsu eu bod hwythau yn cael eu galw i neillduol burdeb calon ac uniondeb ymddygiad. Yn enwedig na fydded i ni ymhalegi trwy y defnyddiad anghymedrol lleiaf o win na diod gadarn. Bydd i anwesidau o'r fath yma genhedlu chwantaehrwydd a gwŷn-borthiant, y rhai a allant arwain i bob trythyllwch. Gall mai hyn yw y rheswm paham y eysylltodd Duw ddeddfau Nazareath gyda'r prawf o odineb yn y bennod flaenorol; a darfu i Solomon gysylltu y rhybydd yn erbyn gwin gyda'r rhybydd yn erbyn gwagedd dyceithr, Diar. xxiii. 31—33. Gochelwn niâu rhag ymhalegi trwy unrhyw gyweithas anaddas a'r byd. (3) Gorehymynodd Duw i'r offeiriad, cyn gollwng o honnynt y gynulleidfa ddefosiynol o gysegr yr Arglwydd, eu bendithio hwynt mewn ffurf dra rhagorol o ciriau,

5 Cymer ganddynt, a byddant i wasanaethu gwasanaeth pabell y cyfarfod; a dod hwynt i'r Lefiaid, i bob un yn ol ei wasanaeth.

6 A chymerodd Moses y mèn, a'r ychain, ac a'u rhoddodd hwynt i'r Lefiaid.

7 Dwy fèn a phedwar ŷch a roddes efe i feibion Gerson, yn ol eu gwasanaeth hwynt;

8 A phedair mèn ac wyth ychain a roddodd efe i feibion Merari, yn ol eu gwasanaeth hwynt, dan law Ithamar mab Aaron yr offeiriad.

9 Ond i feibion Cohath ni roddodd efe ddim, am fod gwasanaeth y cysegr arnynt: ar eu hysgwyddau y dygent hwnw.

a gweddio am i JHOFA lewyrchu ei wyneb arnynt, a dyrehu arnynt lewyrch ei wyneb-pryd. Mor ogoneddus, mor ddymunol eto ydyw gweled cynulleidfa gyfan yn gadael tŷ Dduw, wedi darostwng eu heneidiau yn ei wddod ef, a derbyn eu deisyfiadau, ac yn myned ymaith o'r cysegr gyda chalon laven, ac yn ddaethydd yn ffurthau goraf gwir dduwioledeb!

PEN. VII. Adn. 1. *Ac ar y dydd y gorphenodd Moses godi y tabernacl*] Hyny yw, mor fuan ag yr oedd yn gyflens ar ol ei orpheniad. Tybia Clarke mai dranoeth, sef yr ail ddydd o'r ail fis yn yr ail flwyddyn wedi eu hymadawyd o'r Aifft: gwel ar pen. i. 1.

Adn. 2. *Tywysogion Israel*] Penaethiaid y gwahanol lwythau, erybwyllidig pen. i. 5—16.

Adn. 3. *A'u hoffirwm a ddygasant hwy gerbron yr Arglwydd*] At ddrws pabell y cyfarfod. *Chwec o feni diddos*—sef mèn i thò arnynt, er cyfaddasrwydd i gario rhanau trymaf y tabernacl, a'u cadw rhag niweidiau oddi-wrth lwech na gwlaw. Ymddengys en bod yn rhai tra mawrwyeh a ehostus, trwy fod dau o'r gwŷr mawrion, neu ddau lwyth, yn gyfranog yn yr anrheg o un fèn: gwel ar adn. 10.

Adn. 5, 6. *I bob un yn ol ei wasanaeth*] Rhana hwynt rhwng y Lefiaid yn ol fel y byddo en hangen am danynt, gan roddi y rhan fwyaf i'r rhai a feddant y beichiau trymaf i'w dwyn.

Adn. 7. *Dwy fèn a phedwar ŷch a roddes efe i feibion Gerson*] Nid oedd y Gersoniaid yn cario dim ond y lleni, y toau, a'r euddeni, pen. iv. 25; ac er fod hwn yn glud traferthus, a'u bod hwythau mewn angen am y mèn, eto nid oedd yn un trwm.

Adn. 8. *A phedair mèn ac wyth o ychain a roddodd efe i feibion Merari*] Obledig ganddynt hwy yr oedd estyllod, barau, colofnau, a morteisiau y tabernacl i'w cario, pen. iv. 31, 32; gan hyny yr oedd ganddynt hwy gymaint arall o feni ac ychain a'r Gersoniaid.

Adn. 9. *Ond i feibion Cohath ni roddodd efe ddim*] Obledig ganddynt hwy yr oedd gofal yr areh, y bwrdd, y canwylllyr, yr alloran, &c., pen. iv. 5—15, y rhai oeddnt i gael eu

10 ¶ A'r tywysogion a offrymasant tuag at gysegru yr allor, ar y dydd yr enemiwyd hi; a cherbron yr allor y dyg y tywysogion eu rhoddion.

11 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Pob tywysog ar ei ddiwrnod a offrymant eu hoffrymau, tuag at gysegru yr allor.

12 ¶ Ac yr y dydd cyntaf yr oedd yn offrymu ei offrwm, Nason mab Aminadab, dros lwyth Juda.

13 A'i offrwm ef ydoedd un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o sielau ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol siel y cysegr, yn llawn ill dwoedd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm:

14 Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn aroglarth:

15 Un bustach ieuane, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth:

16 Un bwch geifr yn bech-aberth:

17 Ac yn aberth hedd, dau ŷeh, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Nason fab Aminadab.

18 ¶ Ac ar yr ail ddydd yr offrymodd Nethaneel mab Suar, tywysog Issacar.

19 Efe a offrymodd ei offrwm, sef un ddysgl arian o ddeg ar hugain a

chant o sielau ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaidd, yn llawn ill dwoedd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm:

20 Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn aroglarth:

21 Un bustach ieuane, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth:

22 Un bwch geifr yn bech-aberth:

23 Ac yn aberth hedd, dau ŷeh, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Nethaneel fab Suar.

24 ¶ Ar y trydydd dydd yr offrymodd Eliab mab Helon, tywysog meibion Zabulon.

25 Ei offrwm ef ydoedd un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o sielau ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaidd, yn llawn ill dwoedd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm:

26 Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn o aroglarth:

27 Un bustach ieuane, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth:

28 Un bwch geifr yn bech-aberth:

29 Ac yn hedd-aberth, dau ŷeh, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Eliab mab Helon.

cario ar eu hysgwyddau; canys yr oedd yn rhaid i'r pethau santaidd hyny beidio cael eu llusgo gan anifeiliaid.

Adn. 10. *A'r tywysogion a offrymasant*] Yr oedd pob tywysog neu bennaeth yn offrymu ar ran, ac yn ddiamau ar draul ei holl lwyth ef, at gysegru yr allor, yn gystal ag at wasanaeth y babell, adn. 3, 5.

Adn. 11. *Pob tywysog ar ei ddiwrnod*] Fel hyn yr oedd y cysegrïad yn parhau ddeuddeg niwrnod, yr hyn a'i gwnai yn dra mawreddog; ac a roddai i bob llwyth gyfnesdra, trwy ei gynrychiolydd, i fynegu eu dybwyd a'u parch i Dduw, ac i dderbyn arwyddion o'i rasol gymeradwyaeth ef. Ac yn yr offrwm hwn yr oeddnt yn dylyn trefn eu gwersylliad, ac nid eu genedigaeth: gwel ar adn. 18, &c.

Adn. 12. *Ac ar y dydd cyntaf yr oedd yn offrymu ei offrwm Nason*] Er mai Nason a offrymai yn gyntaf, yn ol y drefn a osodwyd i lawr pen. ii. 3, &c., ac y gallai efe ar y cyfrif hwnw gael cenfigenn wrtho oblegid y lle parchus a ddaliai; eto, fel y sylwa yr Esgob Kidder, yr oedd ef mor bell oddiwrth gael ei fawrygu am hyny, fel mai efe yw yr unig un yn mhlith y swyddogion hyny a'r nad yw yn cael ei alw yn *tywysog* ei lwyth; yr hyn ond odid a allai gael ei fwrïadu i ragflaenu cenfigenn ac ymyrson yn mhlith y blaenoriaid.

Adn. 13. *A'i offrwm ef ydoedd un ddysgl arian*] Ymdengys fod y ddysgl hon er gwas-

anaeth allor y poeth-offrwm yn nghyntedd y tabernacl; canys holl lestri y cysegr oeddnt o aur. Dywed rhai mai ei dyben oedd derbyn y cig a offrymid ar yr allor, neu y peillied i'r bwyd-offrwm. Yr oedd yn pwysu 130 o sielau, neu o gylch 75 wns. Y phiol dracheffn, fel y meddylir, oedd i dderbyn y gwaed; ac yr oedd yn pwysu 70 o sielau, neu o gylch 40 wns.

Adn. 14. *Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn aroglarth*] Y mae mettel y llwy hon, a'r hyn oedd ynddi, yn dangos mai at wasanaeth yr allor aur yr ydoedd. Yr oedd y llwy hon yn pwysu rhwng 5 a 6 wns.

Adn. 15. *Un bustach ieuane, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth*] I arwyddo eu bod yn ymgysgru yn hollol i wasanaeth Duw.

Adn. 16. *Un bwch geifr yn bech-aberth*] Fel cydnabyddiad o'u pechadurusrwydd hwy gerbron Duw, ac arwydd eu bod yn cyfeirio at ei drugaredd ef am faddeuant. Er fod y bech-aberth yn cael ei grybwyll yma ar ol yr offrwm poeth, eto yn y cyfiredia offrymid ef yn flaenaf, gan eu bod yn gymhwysach i ddynion ddechreu eu cyfarchiadau crefyddol at Dduw gyda gweithredoedd o ymostyngiad ac amlygiadau o edifeirwch: gwel ar Lef. viii. 22.

Adn. 17. *Ac yn aberth hedd*] Yr aberth hwn oedd yr olaf; ac yr oedd y bobl yn gwledda ar ran o hwn, yn arwydd o gymundeb a chymod â Duw: gwel ar Lef. iii. 1

Adn. 18—83. *Ac ar yr ail ddydd yr offrymodd Nethaneel, &c.*] Y mae hyn yn dangos

30 ¶ Ar y pedwerydd dydd yr offrymodd Elizur mab Sedeur, tywysog meibion Reuben.

31 Ei offrwm ef ydoedd un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o siclau ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaid, yn llawn ill dwoydd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :

32 Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn aroglarth :

33 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :

34 Un bwch geifr yn bech-aberth :

35 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Elizur mab Sedeur.

36 ¶ Ar y pummed dydd yr offrymodd Selumiel mab Surisadai, tywysog meibion Simeon.

37 Ei offrwm ef ydoedd un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o siclau ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaid, yn llawn ill dwoydd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm.

38 Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn aroglarth :

39 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :

40 Un bwch geifr yn bech-aberth :

41 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Selumiel mab Surisadai.

42 ¶ Ar y chweched dydd yr offrymodd Eliasaph mab Deuel, tywysog meibion Gad.

43 Ei offrwm ef ydoedd un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o siclau ei phwys, un phiol arian o ddeg siel

a thriugain, yn ol y siel santaid, yn llawn ill dwoydd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :

44 Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn aroglarth :

45 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :

46 Un bwch geifr yn bech-aberth :

47 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Eliasaph mab Deuel.

48 ¶ Ar y seithfed dydd yr offrymodd Elisama mab Ammihud, tywysog meibion Ephraim.

49 Ei offrwm ef ydoedd un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o siclau ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaid, yn llawn ill dwoydd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :

50 Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn aroglarth :

51 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :

52 Un bwch geifr yn bech-aberth :

53 Ac yn hedd-aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Elisama mab Ammihud.

54 ¶ Ar yr wythfed dydd yr offrymodd Gamaliel mab Pedasur, tywysog meibion Manasse.

55 Ei offrwm ef ydoedd un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o siclau ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaid, yn llawn ill dwoydd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :

56 Un llwy aur o ddeg siel, yn llawn aroglarth :

57 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :

sylw, fod y gwahanol lwythau yn cael eu harddangos yma yn dwyn eu hoffrymau yn yr un drefn yn gymhwys ag y hoffsyllent o amgyleh y tabernacl, pen. ii. a x.

1	Juda,	penaeth, <i>Nason,</i>	adn. 12	} Dwy'r Deau. Gor. Gog.
2	Issacar,	———— <i>Nethanceel,</i>	— 18	
3	Zabulon,	———— <i>Eliab,</i>	— 24	
4	Reuben,	———— <i>Elizur,</i>	— 30	
5	Simeon,	———— <i>Selumiel,</i>	— 36	
6	Gad,	———— <i>Eliasaph,</i>	— 42	
7	Ephraim,	———— <i>Elisama,</i>	— 48	
8	Manasse,	———— <i>Gamaliel,</i>	— 54	
9	Benjamin,	———— <i>Abidan,</i>	— 60	
10	Dan,	———— <i>Ahizer,</i>	— 66	
11	Aser,	———— <i>Pagiel,</i>	— 72	
12	Naphtali,	———— <i>Ahira,</i>	— 78	

yr un mesur, i arwyddo fod pob llwyth yr un mor ddyledus i Dduw am ei gynaliacth, ac y dylent ddangos teimlad cyfartal o rywmedigaeth. Heblaw hyn, yr oedd yr holl lestri yn llestri aberthol, a'r anifeiliaid yn anifeiliaid glân ac addas i'w haberthu; ac am hyny yr oedd pob peth yn cael ei fwriadu i arddangos fod y bobl i fod yn bobl santaid, wedi ymgylwyno yn gwbl i Dduw, a bod Duw i breswlio yn eu plith; o ganlyniad yr oedd yno beillied ac olew yn fwyd-offrwm, adn. 13; bustach, hwrdd, ac oen, yn offrwm poeth, adn. 15; un bwch yn bech-aberth, adn. 16; dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn, yn aberth hedd, adn. 17. Fel hyn, megys yr oedd yr offeiriaid, yr allor, &c., yn eneiniedig, a'r tabernacl yn gyflwynedig; felly daeth y bobl, trwy yr offrwm hwn, yn gysgreidig i Dduw. Gan hyny yr oedd pob gweithred yma yn

Y mae yn deilwng o sylw hefyd, fod pob llwyth yn offrymu yr un fath offrwm, ac yn 442

58 Un bwch geifr yn bech-aberth :
59 Ac yn hedd-aberth, dau ſch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Gamaliel mab Pedasur.

60 ¶ Ar y nawfed dydd *yr offrym-odd* Abidan mab Gideoni, tywysog meibion Benjamin.

61 Ei offrwm *ef ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o *siclau* ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaidd, yn llawn ill dwoedd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :

62 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn aroglarth :

63 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd yn offrwm poeth :

64 Un bwch geifr yn bech-aberth :

65 Ac yn hedd-aberth, dau ſch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Abidan mab Gideoni.

66 ¶ Ar y degfed dydd *yr offrym-odd* Ahiczer mab Amisadai, tywysog meibion Dan.

67 Ei offrwm *ef ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o *siclau* ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaidd, yn llawn ill dwoedd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :

68 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn aroglarth :

69 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :

70 Un bwch geifr yn bech-aberth :

71 Ac yn aberth hedd, dau ſch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Ahiczer, mab Ammisadai.

72 ¶ Ar yr unfed dydd ar ddeg *yr offrymodd* Pagiel mab Ocran, tywysog meibion Aser.

73 Ei offrwm *ef ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o *siclau* ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaidd,

yn llawn o beillied ill dwoedd wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :

74 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn aroglarth :

75 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth :

76 Un bwch geifr yn bech-aberth :

77 Ac yn hedd-aberth, dau ſch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Pagiel mab Ocran.

78 ¶ Ar y deuddegfed dydd *yr offrymodd* Ahira mab Enan, tywysog meibion Naphtali.

79 Ei offrwm *ef ydoedd* un ddysgl arian o ddeg ar hugain a chant o *siclau* ei phwys, un phiol arian o ddeg siel a thriugain, yn ol y siel santaidd, yn llawn ill dwoedd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm :

80 Un llwy aur o ddeg *sicl*, yn llawn aroglarth :

81 Un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth ;

82 Un bwch geifr yn bech-aberth :

83 Ac yn hedd-aberth, dau ſch, pum hwrdd, pum bwch, pum hesbwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Ahira mab Enan.

84 Dyma gysegriad yr allor, gan dywysogion Israel, ar y dydd yr eniniwyd hi : deuddeg dysgl arian, deuddeg phiol arian, deuddeg llwy aur :

85 Deg ar hugain a chant o *siclau* arian *ydoedd* pob dysgl, a deg a thriugain pob phiol : holl arian y llestri *oedd* ddwy fil a phedwar cant o *siclau*, yn ol y siel santaidd.

86 Y llwyau aur *oedd* ddeuddeg, yn llawn aroglarth, o ddeg *sicl* bob llwy, yn ol y siel santaidd : holl aur y llwyau *ydoedd* chwech ugain *sicl*.

87 Holl eidonau yr offrwm poeth *oedd* ddeuddeg bustach, deuddeg o hyrddod, deuddeg o wyn blwyddiaid, a'u bwyd-offrwm ; a deuddeg o fych-

weithred grefyddol. Darfu i ysgrifenywyr Iudewig a Chrionogol ryfeddu fod y gwaith hwn o offrymu yn cael ei gario yn mlaen ar y *seithfed dydd*, adn. 48, yr hwn y tybient hwy ei fod yn *sabbath*, yn gystal ag ar y dyddiau ereill. Ond, (1) Nid oes un prawf hollol fod y *seithfed dydd* hwn o offrymu yn *sabbath* : gall mai y seithfed o ddyddiau cyffredin yr *wythnos* ydoedd. Neu, (2) Pe buasai yn *sabbath*, a allai y bobl fod mewn gwel gwaith nag yn eu cysegru eu hunain a'u gwasanaeth i'r Arglwydd? Gwelsom eisioes fod pob

gweithred yma yn weithred grefyddol ; a gallwn fod yn sicr nad oedd un diwrnod yn *rhy santaidd* i gyflawni y fath weithredoedd ag a goffeir yma.

Adn. 84. *Ar y dydd*] Hyny yw, ar yr *amser* ; canys parhaodd y cysegriad ddeuddeg niwrnod.

Adn. 85, 86. *Holl arian y llestri*] Dywed Clarke fod y 2,400 sielau arian hyn, yn ol 5s. yr wns, yn werth £318. 7s. 9c. o'n harian ni ; a bod yr 120 siel o aur ag ydoedd yn y llwyau, yn ol £4. yr wns, yn werth £278. 14s. 2½c.

od geifr, yn offrw m dros bechod.

88 A holl ychain yr aberth hedd oedd bedwar ar hugain o fustych, triugain o hyrddod, triugain o fychod, triugain o hesbyrniaid. Dyma gysegriad yr allor wedi ei heneinio.

89 Ac fel yr oedd Moses yn mynd i babell y cyfarfod i lefaru wrth Dduw; yna efe a glywai lais yn llefaru wrtho oddiar y drugareddfa, yr hon oedd ar arch y dystiolaeth, oddirhwng y ddau gerub, ac efe a ddywedodd wrtho.

PENNOD VIII.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth Aaron, a dywed wrtho, Pan oleuech y lampau, llewyrched y saith lamp ar gyfer y canwyllbren.

Adn. 87, 88. *Holl eidionau, &c.*] Yr oedd nifer yr holl anifeiliaid a offrymwyd ar y cysegriad hwn o'r allor yn cyraedd i 252.

Adn. 89. *Ac fel yr oedd Moses yn mynd i babell y cyfarfod i lefaru wrth Dduw*] I arddod yr hyn a wnaethai y bobl yn eu cyfraniadau, ac i dderbyn datguddiadau pellach o'i ewyllys ef; *yna efe a glywai lais yn lefaru wrtho oddiar y drugareddfa*—gwel ar Exod. xxv. 17—22. Er na ddarfu i Moses weled llun dim, ond yn unig *glywed lais*, eto yr oedd ganddo y prawf llawaf o bresenoldeb Duw, yn gystal a'i *fodolaeth*. Yn y ffordd hon y dewisai Duw ei amlygu ei hun yn ystod yr oruchwyliaeth hono, hyd oni ddaeth cyflawnder yr amser, pryd y 'gwnaethpwyd y Gair yn gnawd, ac y trigodd yn ein plith ni, Ioan. i. 14. Yr oedd gwaith Duw yn lefaru fel hyn wrth Moses trwy lais hyglyw, fel pe busai wedi ei wisgo a chorff, yn ernes o gnawdoliad y Tragwyddol Air, pryd y byddai iddo lefaru yn iaith meibion dynion.

PEN. VIII. Adn. 2, 3. *Pan oleuech y lampau*] Trwy nad oedd ffenestri yn y cysegr, yr oedd y lampau yn anhegborol angenrheidiol i'r dyben i gael goleuni at eu gorchwylion. Yr oedd yr offeiriad yn goleuo y lamp canol oddiwrth dân yr allor, ar y lleill oddiwrth hwnw. *Llewyrched y saith lamp ar gyfer y canwyllbren*—y meddwl yw, fod i'r oil o'r saith lamp gael eu goleuo, chwech o ba rai a ganghenent allan bob tu i'r paladr. Gwel ar Exod. xxv. 31—38, a xxvii. 20, 21.

Adn. 4. *Cyfanwaith o aur fydd*] Nid yn wâg neu geuol, ond yn aur didnu, wedi ei guro allan o un darn, ac nid o wabanol ddarnau wedi eu sodro yn nghyd. Yr oedd y *canwyll-yr* ei hun yn arwyddluno eglwys Crist; yr *oleu*, o rasau a doniau Ysbryd Duw; a'r *goleuni*, o'r doniau a'r grasau hwy mewn gweithrediad yn niblith dynion: gwel Dat. i. 12—20.

Adn. 6. *Cymer y Lefaiad o fysg meibion Israel a glanha hwynt*] 'Rhaid i holl Israel wybod na cymerodd y Lefaiad yr anrhydedd

3 Ac felly y gwnaeth Aaron; ar gyfer y canwyllbren y golenodd efe ei lampau ef, megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses.

4 Dyma waith y canwyllbren: cyfanwaith o aur *fydd* hyd ei baladr, *ie*, hyd ei flodau cyfanwaith fydd; yn ol y dull a ddanghosodd yr Arglwydd i Moses, felly y gwnaeth efe y canwyllbren.

5 ¶ Llefardd yr Arglwydd hefyd wrth Moses, gan ddywedyd,

6 Cymer y Lefaiad o fysg meibion Israel, a glanha hwynt.

7 Ac fel hyn y gwnei iddynt i'w glanhau: taenella arnynt ddwfr puredigaeth, a gwnant i'r ellyn fyued dros eu holl gnawd, a golchant eu gwisgoedd, ac felly ymlanhant.

8 Yna y cymerant fustach ieuanc a'i fwyd-offrw m o beillied wedi ei

hwn iddynt eu hunain, ond ddarford eu galw iddo gan Dduw; ac nid oedd yn ddigon eu bod wedi eu gwahaniaethu oddiwrth eu cymydogion, ond rhaid eu cyflwyno yn ddirifol i Dduw. Nodwn, rhaid i bawb ag sydd ar waith dros Dduw fod wedi eu cysegru iddo ef, yn ol fel y bo gradd y wasanaeth. Rhaid i Gristionogion gael eu bedyddio, rhaid i weinidogion gael eu hurddo: rhaid i ni yn gyntaf ein rhoddi ein hunain i'r Arglwydd, ac yna ein gwasanaeth.'—HENRY.

Adn. 7. *Tuenella arnynt ddwfr puredigaeth*] *Mey chattath*, 'dwfr pechod,' sef dwfr puredigaeth oddiwrth bechod; neu 'ddwfr y pech-offrw m.' Gan fod y dwfr hwn yn cael ei wneuthur â lludw yr anner, coed cedr, isop, ac ysgarlad, a darford i'r anner ei huu gael ei haberthu, a'i gwaed gael ei daenllu seithwaith o flaen y babell, pen. xix. 3, &c., gellir ei hystyried hi fel addas *bech-aberth*, ac o ganlyniad gall y dwfr a barotowyd fel hyn gael ei alw yn *ddwfr y pech-offrw m*. Gan fod y *lludw* yn cael ei gadw yn barod wrth law er pureiddio oddiwrth bob halogrydd deddfol, gallai y ddarpariaeth gael ei hystyried megys *crynoad* o gyneddfau hanfodol y pech-offrw m, a gellid cyrchu ati bob amser gydag ychydig draul neu draferth, ac heb ddim coll amser. Gan fod yno gynifer o bethau trwy y rhai y gallent dynu arnynt eu hunain halogrydd deddfol, yr oedd yn angenrheidiol cael bob amser wrth law, yn eu holl aneddau, fodd i bureiddio ag ydoedd ar unwaith yn gyfteus a rhad: gwel ar pen. xix. 1—10. *A gwanant i'r ellyn fyued dros eu holl gnawd*—yr oedd yr arddedol allanol hon yn arwyddo toriad ymaith eu chwant anweddaidd am bethau daearol, a'r purdeb calon a bywyd nodedig hwnw ag sydd ofynol yn ngweinidogion Duw. *A golchant eu gwisgoedd*—arddedol arall yn arddangos purdeb moesol. Yr oedd offeiriad yr Aifft hefyd, megys y crybwyllwyd eisioes, yn eillio eu holl gorff bob tridiau, fel arwydd o burdeb a glanweithdra, yr hyn a barodd iddynt gael eu galw y *llwyrth moel*.

gymysgu trwy olew; a bustach ieuanc arall a gymeri di yn aberth dros bechod.

9 A phar i'r Lefiaid ddyfod o flaen pabell y cyfarfod; a chynull holl gynulleidfa meibion Israel yn nghyd.

10 A dwg y Lefiaid gerbron yr Arglwydd; a gosoded meibion Israel eu dwylaw ar y Lefiaid.

11 Ac offrymed Aaron y Lefiaid gerbron yr Arglwydd, yn offrwm gan feibion Israel, fel y byddont hwy i wasanaethu gwasanaeth yr Arglwydd.

12 A gosoded y Lefiaid eu dwylaw ar ben y bustych: ac offrwm dithan un yn bech-aberth, a'r llall yn offrwm poeth i'r Arglwydd, i wneuthur cymod dros y Lefiaid.

13 A gosod y Lefiaid gerbron Aaron, a cherbron ei feibion, ac offrwm hwynt yn offrwm i'r Arglwydd.

14 A neilldua y Lefiaid o blith meibion Israel, a bydded y Lefiaid yn eiddod fi.

15 Wedi hyny aed y Lefiaid i mewn

i wasanaethu pabell y cyfarfod: a glanha di hwynt, ac offryma hwynt yn offrwm.

16 Canys hwynt a roddwyd yn rhodd i mi o blith meibion Israel: yn lle agorydd pob croth, *sef*, pob cyntafanedig o feibion Israel, y cymerais hwynt i mi.

17 Canys i mi y *perthyn* pob cyntafanedig yn mhlith meibion Israel, o ddyn ac o anifell: er y dydd y tarewais bob cyntafanedig yn ngwlad yr Aiff, y santeiddiais hwynt i mi fy hun.

18 A chymerais y Lefiaid yn lle pob cyntafanedig o feibion Israel.

19 A rhoddais y Lefiaid yn rhodd i Aaron, ac i'w feibion, o blith meibion Israel, i wasanaethu gwasanaeth meibion Israel yn mhabel y cyfarfod, ac i wneuthur cymod dros feibion Israel; fel na byddo pla ar feibion Israel, pan ddelo meibion Israel yn agos at y cysegr.

20 A gwnaeth Moses ac Aaron, a holl gynulleidfa meibion Israel, i'r Lefiaid, yn ol yr hyn oll a orchymyn-

Adn. 8. *Bustach ieuanc*] Yr nn aberth ag a offrymid yn bech-offrwm dros yr holl gynulleidfa, o herwydd i'r Lefiaid ddyfod yn lle yr holl gyntafanedigion, y rhai mewn ystyr a gynrychiolent yr holl gynulleidfa.

Adn. 9. *Illoll gynulleidfa meibion Israel*] Sef holl henuriaid Israel, y rhai a gynrychiolent yr holl gynulleidfa, y rhai oeddynt i osod eu dwylaw ar ben y Lefiaid.

Adn. 10. *A gosoded meibion Israel eu dwylaw ar y Lefiaid*] Dadleuwyd oddiwrth hyn fod gan y gynulleidfa ran yn mhenediad neu nroddiad eu gweinidogion: ond, fel y sylwa CLARKE, nid oedd yr hyn a wnaed ar yr achlysur hwn yn meddwl dim mwy na bod y bobl yn rhoddi y llwyth cyfan hwn i fyny i Dduw yn lle eu cyntafanedigion; a'u bod trwy y weithred hon yn ymrwymo i *ddarparu* iddynt hwy, y rhai, o herwydd eu santaidd wasanaeth, na allent ddylyn un gwaith bydol. Y mae gweinidogion Duw yn cyflawni swyddau dros y bobl y rhai nas gall y bobl eu cyflawni drostynt eu hunain; ac nis gall dim fod yn fwy rhesymol na bod i'r bobl roddi iddynt hwythau angenrheidiau a chysuron bywyd, tra y maent fel hyn ar waith drostynt.

Adn. 11. *Ac offrymed Aaron y Lefiaid*, &c.] Heb. 'cyhwaned Aaron y Lefiaid yn offrwm cyhwfan.' Nis gallai Aaron eu *cyhwfanu* hwynt yn llythrenol; ond y mae yn debyg ddarfed iddo ddyrchafu ei ddwyllaw, a thro'i at bob chwarter o'r nefoedd, fel y gwnai wrth offrymu offrwm cyhwfan, Exod. xxix. 27, 28; a darfed iddo beri iddynt hwythau efelychu ei ysgogiadau ef, ac ymgylhwfanu tua gwahanol barthau y byd, i arwyddo en parodwydd i wasanaethu Duw, yn ol eu gallu, pa le bynag y byddent.

Adn. 12. *A gosoded y Lefiaid eu dwylaw ar*

ben y bustych] I arwyddo eu bod yn cael eu hoffrymu ganddynt a throstynt hwy.

Adn. 13, 14. *A gosod y Lefiaid gerbron Aaron a cherbron ei feibion*] I'w gwasanaethu hwy; ac *offrwm hwynt yn offrwm i'r Arglwydd*—canys iddo ef y cawsant yn gyntaf eu hoffrym yn briodol, a chanddo ef y rhoddwyd hwynt i'r offeiriad i'r dyben i gynorthwyo yn ei wasanaeth ef.

Adn. 15. *Wedi hyny aed y Lefiaid i mewn*] I'r cyntedd, lle yr oeddynt i weini i'r offeiriad wrth allor y poeth-offrwm; ac yn awr i'r babell, i'w thynu i lawr a'i gosod i fyny.

Adn. 16—18. *Yn lle agorydd pob croth*] Gwel ar pen. iii. 12, &c.

Adn. 19. *I wasanaethu gwasanaeth meibion Israel*] Yr oedd y gwaith mawr ac ofnadwy o ddyhuddiant neu gymod yn perthyn yn unig i'r offeiriad; ond yr oedd y Lefiaid, trwy eu bod yn rhydd oddiwrth y swydd filwraidd, yn gwneyd yr holl waith llafurus. Heblaw hyn, yr oeddynt yn cadw pyrth y cysegr, ac yn gwylio yn olynol trwy y nos. Yn y deml yr oedd swyddog yn myned o amgylch wrth ei bleser, i edrych a oedd pob Lefiaid yn eifro, ac yn gwneyd ei ddyledswydd. Os cai efe ddyn yn cysgu, efe a gorai ei lusern, ac a osodai dan yn ei ddillad ef, gan ei daraw ar yr un pryd yn llym â'i fflon, rhag iddo losgi i farwolaeth. Yr oedd cosp chwanegol yn dilyn oddiwrth wawd ei gymdeithion. Un a ofynai, 'Pa beth yw y cri yna?' ac arall a atebai, 'Cri Lefiaid curedig ydyw, hogan yr hwn a losgwyd.' Y mae yr arferiad yma yn rhoddi rheswm am yr ymadrodd hynod hwnw yn llyfr y Datguddiad: 'Gwŷn ei fyd yr hwn sydd yn gwylio, ac yn *cadw ei ddillad*?' gwel ar Dat. xvi. 15.

asai yr Arglwydd wrth Moses am y Lefiaid: felly y gwnaeth meibion Israel iddynt.

21 A'r Lefiaid a lanhawyd, ac a olchasant eu dillad: ac Aaron a'u hofrymmodd hwynt yn offrw m gerbron yr Arglwydd: a gwnaeth Aaron gymod drostynt i'w glanhau hwynt.

22 Ac wedi hyn y Lefiaid a ddaethant i wasanaethu gwasanaeth yn mhabell y cyfarfod, gerbron Aaron a'i feibion; megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses am y Lefiaid, felly y gwnaethant iddynt.

23 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

24 Dyma yr hyn a berthyn i'r Lefiaid: o fab pum mlwydd ar hugain ac uchod, y deuant i filwrio milwriaeth yn ngwasanaeth pabell y cyfarfod.

25 Ac o fab deng mlwydd a deugain y caiff un ddychwelyd yn ei ol o filwriaeth y gwasanaeth, fel na wasanaetho mwy.

26 Ond gwasanaethed gyda'i frodyr

yn mhabell y cyfarfod i oruchwyllo: ac na wasanaethed wasanaeth: fel hyn y gwai i'r Lefiaid yn eu goruchwyliaeth.

PENNOD IX.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses yn anialwch Sinai, yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwynt allan o dir yr Aifft, ar y mis cyntaf, gan ddywedyd,

2 Cadwed meibion Israel y pasc hefyd yn ei dymhor.

3 Ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis hwn, yn y cyfnos, y cedwch ef yn ei dymhor: yn ol ei holl ddeddfau, ac yn ol ei holl ddefodau, y cedwch ef.

4 A lefarodd Moses wrth feibion Israel am gadw y pasc.

5 A chadwasant y pasc ar y mis cyntaf, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, yn y cyfnos, yn anialwch Sinai: yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd wrth Moses, felly y gwnaeth meibion Israel.

Adn. 20. *Felly y gwnaeth*] Cadwasant yn ofalus yn y cwbl at y cynllun a roddwyd iddynt gan Dduw.

Adn. 21, 22. *A gwnaeth Aaron gymod drostynt*] Neu *iawn*. Er fod y Lefiaid wedi cael eu cysegru yn y modd mwyaf difrifol i wasanaeth yr Arglwydd, ac er fod yr holl olchiadau a'r puredigaethau deddfol wedi eu priodol gyflawni ar yr achlysur, eto nis gallent nesáu at Dduw nes i *iawn* gael ei wreuthur drostynt. Mor hynod ydyw, ar ol yr holl hysbysiadau arwyddocaol hyn o ewyllys a bwriad Duw mewn perthynas i ddydd, fod un gweinidog na phobl yn meiddio agosáu at Dduw heb *iawn*! Cyn wired a bod Daw wedi ei lefaru, nid oes un ffordd i'r cysegr ond trwy waed Iesu, Heb. x. 19, 20.

Adn. 24. *O fab pum mlwydd ar hugain*] Gwel ar pen. iv. 3; *y deuant i filwrio milwriaeth*—y mae gwasanaeth y Lefiaid yn ngwaith y babell yn cael ei galw yma yn wasanaeth *filwraidd*, i ddysgu iddynt yr ymdrechiaidau mawrion ag y dylent eu harfer yn erbyn pechod, a'r gwyliadwriaethau a'r sel ag y dylent eu dangos ddydd a nos er cynydd a gogoniant gwir grefydd. Yn yr ystyr yma y clywn St. Paul yn dywedyd wrth bob gweinidog, megys wrth Timotheus, 'Milwria filwriaeth dda; ymdrecha hardd-dêg ymdrech y ffydd; cymer afael ar y bywyd tragwyddol.' Oddieithr i ni ymdrechu allan o'r areithfa, yn gystal a phregethu ynddi, yn erbyn drygau yr oes, ni fydd i ni lwyddo yn y filwriaeth hon.

Adn. 25. *Ac o fab deng mlwydd a deugain y caiff un ddychwelyd yn ei ol*] Oddiwrth lafur caled y wasanaeth, megys cario beichiau neu ranau y tabernacl yn eu teithian. Ond nid oeddynt yn rhwym o encilio, os byddai i'w hiechyd a'u nerth barhau.

Adn. 26. *Ond gwasanaethed gyda'i frodyr yn mhabell y cyfarfod*] Gan ymddwyn fel cyfarwyddwr neu arlygwr cyffredinol. Yr oeddynt fyth i fod yn nghylch y babell, i ganu mawl i Dduw, ac i wyllo rhag i neb dyeithr neu aflan ftyed i mewn, rhag i bla oddiwrth yr Arglwydd syrthio arnynt, adn. 19.

PEN. IX. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd*] Neu 'a lefarasai'; canys y mae ef yn awr yn adrodd yr hyn a gymerodd le cyn cyfrif y bobl, cysegru y Lefiaid, a'r pethau ereill a goffawyd yn y pennodau blaenorol. Ond y mae amrai ddysgedigion o'r farn y dylai y pedair adnod ar ddeg cyntaf o'r bennod hon gael eu rhoddi yn nechre y llyfr, am y tybiant mai trwy *drawsoddiad* y daethant yma. Gan y byddid mewn amseroedd tra bore yn ysgrifenu ar ddail *papyrus* yr Aifft, neu ar lafnau teneuon o wahanol sylweddau, yr oedd ffeithiau a gorchwyliaethau wedi eu hysgrifenu fel hyn yn dra agored i gael eu hanhrefnu, neu eu traws-gyfleu, pan ddenid i'w gwneyd i fyny yn llyfr; canys dylid sylwi, nad yw y darnau gwahanedig hyn o ysgrifeniadau dwyreiniol bob amser a'u rhif arnynt, fel dalenau ein llyfrau argraffedig ni.

Adn. 2.—4. *Cadwed meibion Israel y pasc*] Gwel holl ddefodau y pasc wedi eu hegluro yn helaeth yn y sylwadau ar Exod. xii. Gan mai y gorchymyn oedd, fod iddynt 'gadw y gwasanaeth hwn pan ddenent i wlad yr addewid,' Exod. xii. 25, gallasant gasglu nad oedd rhwymau arnynt i'w gadw ef yn yr anialwch, oni bnasai y gorchymyn neillduol hwn.

Adn. 5. *A chadwasant y pasc—yn anialwch Sinai*] Lle y gorphwysasant agos i flwyddyn gyfan. Hwn oedd yr *ail* basc; a meddylir yn gyffredin na chafodd y pasc ei gadw y *drydedd* waith nes iddynt gyraedd i wlad Ca-

6 ¶ Ac yr oedd dynion y rhai oedd wedi eu halogi wrth gelain dyn, fel na allent gadw y pasc ar y dydd hwnw: a hwy a ddaethant gerbron Moses, a cherbron Aaron, ar y dydd hwnw.

7 A'r dynion hyny a ddywedasant wrtho, *Yr ydym ni wedi ein halogi wrth gorff dyn marw*: pahan y'n gwaherddir rhag offrymu offrrwm i'r Arglwydd yn ei dymhor yn mysgeu meibion Israel?

8 A dywedodd Moses wrthynt, Sefwech, a mi a wrandawaf beth a orchymyno yr Arglwydd o'ch plegid.

9 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

10 Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pan fyddo neb wedi ei halogi gan gorff marw, neu *neb* o honoch neu o'ch hiliogaeth mewn flordd bell, eto cadwed base i'r Arglwydd.

11 Ar y pedwarydd dydd ar ddeg o'r ail mis, yn y cyfnos, y cadwant ef: yn nghyda bara croyw a *dail* chwerwon y bwyfânt ef.

12 Na weddilliant *ddim* o hono hyd y bore, ac na thorant asgwrn o hono:

yn ol holl ddeddf y pasc y cadwant ef.

13 A'r gŵr a fyddo glân, ac heb fod mewn taith, ac a beidio a chadw y pasc, torir ymaith yr enaid hwnw o fysg ei bobl, am na offrymodd offrrwm yr Arglwydd yn ei dymhor: ei bechod a ddwg y gŵr hwnw.

14 A phan ymdeithio dycieithr gyda chwi, ac ewyllsio cadw pasc i'r Arglwydd; fel *y byddo* deddf y pasc a'i ddefod, felly y ceidw: yr un ddeddf fydd i chwi, *sef* i'r dycieithr ac i'r un fydd a'i enedigaeth o'r wlad.

15 ¶ Ac ar y dydd y codwyd y tabernacl, y cwmwl a gauodd am y tabernacl dros babel y dystiolaeth; a'r hwy'r yr ydoedd ar y tabernacl megys gweladiad tân hyd y bore.

16 Felly yr ydoedd yn wastadol: y cwmwl a gauai am dano *y dydd*, a'r gweladiad tân y nos.

17 A phan gyfodai y cwmwl oddiar y babel, wedi hyny y cychwynai meibion Israel: ac yn y lle yr arhosai y cwmwl ynddo, yno y gwersyllai meibion Israel.

18 Wrth orchymyn yr Arglwydd y

naan. Yr oeddynt yn y fath gyflwr ansefydlog fel na ddarfu iddynt hyd yn nod enwaedu eu plant, Jos. v. 5, y rhai o ganlyniad na allent fwyta y pasc, Exod. xii. 48. Tybiodd llawer iddynt y pryd hyn ddefnyddio manna yn lle bara croyw: ond gallasant gael peillied i'r perwyl hwn o Midian, lle yr oedd chwegrwn Moses yn trigianu, trwy nad oedd y lle hwnw yn mhell o Sinai. Hefyd yr oedd ganddynt beillied eisioes at y bwyd-offryman.

Adn. 6. *Ac yr oedd dynion y rhai oedd wedi eu halogi wrth gelain dyn*] Trwy gy-northwyo ond odid yn anghladd rhyw ddyn, yr hon oedd weithred o angenheidrwydd a thrugaredd. *A hwy a ddaethant gerbron Moses*—i gael eglurhad ar y mater; canys nid oedd y gyfraith grybwylledig pen. v. 2, yr hon a orchymynai i'r cyfryw rai gael eu hanfon allan o'r gwersyll, wedi ei chyhoeddi eto.

Adn. 7. *Pahan y'n gwaherddir*] Y maent fel hyn yn yherus yn ymresymu â Moses, am na wnaed un crybwylliad yn sefydliad cyntaf y pasc am gau y cyfryw bersonau halogedig oddiwrth yr ordinhad hono; ac wrth ystyried fod pob Israeliad wedi cael gorchymyn pendant i gadw y pasc, Exod. xii. 47, ac eto yn ofni ymgynfrangi o hono yn y cyflwr hwnw, daethant at Moses ac Aaron am gyfarwyddyd. *Rhag offrymu offrrwm*—am yr esgeulusiad o ba un y torir ni ymaith; ac os offrymwn ef dan yr amgylchiadau hyn, rhaid hefyd ein tori ni ymaith! Pa beth a wnaen?

Adn. 8. *Sefwech, a mi a wrandawaf beth a orchymyno yr Arglwydd o'ch plegid*] Ymddengys oddiyma fod Moses yn myned i'r cysegr i ymgynghori â Duw pa bryd bynag y byddai ganddo achos, a'i fod yn cael atebiad

trwy lais hyglyw oddiar y drugareddfa, pen. vii. 89.

Adn. 10. *Pan fyddo neb wedi ei halogi gan gorff marw*] Fel yn yr achos dan sylw; *neu neb o honoch neu o'ch hiliogaeth mewn ffordd bell*—oddicartref ar yr amser rheolaidd i gadw y pasc. Dywed yr Iuddeuon fod rhwystrau ereill yn cael eu cynwys yma, megys afiechyd, &c. *Eto cadwed base i'r Arglwydd*—ar amser arall: gwel isod.

Adn. 11. *Ar y pedwarydd dydd ar ddeg o'r ail mis*] Yn mhnen y mis yn gywir ar ol yr amser rheolaidd, Exod. xii. 2, 6. Cawn siampl o'r pasc gohiriedig hwn yn amser Hezacia, 2 Cron. xxx. 2, &c.

Adn. 12. *Na weddilliant dim o hono hyd y bore*] Gwel ar Exod. xii. 10.

Adn. 13. *A'r gŵr a fyddo glân, &c.*] A fyddo beb rwystr cyfreithlon i gadw y pasc ar y naill neu y llall o'r amserau hyn; *torir ymaith yr enaid hwnw o fysg ei bobl*—gwel ar Exod. xii. 15. Dywed St. Paul fod Crist ein Pasc ni wedi ei aberthu drosom ni; a bydd i'r rhai nad ydynt yn fuan neu yn hwy'r yn bwyta y gwir Basc hwn, ac yn ceisio yr iachawdwriaeth ag sydd trwy daenellid ei waed ef, gael eu *tori ymaith* o fysg y rhai a gânt fyned i'r orphwysfa a barotowyd i bobl Dduw, ac am yr un rheswm hefyd: 'Am nad offrymasant offrrwm yr Arglwydd yn ei dymhor, eu pechod a ddygant.'

Adn. 14. *A phan ymdeithio dycieithr gyda chwi*] A'i fod yn broselyst i'r grefydd Iuddeuig; canys ni chaf yr alltud dienwaededig fwyta o hono, Exod. xii. 45.

Adn. 15—20. *Y cwmwl a gauodd am y tabernacl*] Gwel yr holl hanes am y cwmwl

cychwynai meibion Israel, ac wrth orchymyn yr Arglwydd y gwersyllent: yr holl ddyddiau yr arhosai y cwmwl ar y tabernacl, yr arhosit yn y gwersyll.

19 A phan drigai y cwmwl yn hir ar y tabernacl lawer o ddyddiau, yna meibion Israel a gadwent wyliaeth yr Arglwydd, ac ni chychwynent.

20 Ac os byddai y cwmwl ychydig ddyddiau ar y tabernacl, wrth orchymyn yr Arglwydd y gwersyllent, ac wrth orchymyn yr Arglwydd y cychwynent.

21 Hefyd os byddai y cwmwl o hwyr hyd fore, a chyfodi o'r cwmwl y bore; hwythau a symudent: pa un bynag ai dydd ai nos fyddai pan gyfodai y cwmwl, yna y cychwynent.

22 Os deuddydd, os mis, os blwyddyn fyddai tra y trigai y cwmwl ar y tabernacl, gan aros arno, meibion Israel a arhosit yn eu pbyll, ac ni chychwynent: ond pan godai efe, y cychwynent.

goruchnaturol hwn yn y sylwadau ar Exod. xiii. 21, a xl. 34—38.

Adn. 21. *Pa un bynag ai dydd ai nos*] Trwy fod gwres y dydd yn dra angherddol yn yr anialwch hwnw, yr oedd y nos weithiau yn cael ei dewis i gychwyn eu taith.

Adn. 22. *Os deuddydd, os mis, os blwyddyn*] Amcan Moses yn yr adroddiad hwn oedd gwrthbrofi haeriadau eu gelyniad, y rhai a ddywedent mai y rheswm paham y darfu i'r Israellaid aros cyhyd yn yr anialwch oedd, eu bod wedi ymddyrysu a cholli y ffordd. Arferai yr Arabiaid ei alw ef yn *anialwch crywdrol*, mewn cyfeiriad at hyn. *Pan godai efe y cychwynent*—yr oeddynt yn cael eu llywodraethu yn hollol gan yr arweinydd dwyfol hwn yn eu holl deithiau: gwel isod.

Adn. 23. *Wrth air yr Arglwydd y gwersyllent, &c.*] Pan yr ystyriom dueddiadau cryfion y bobl hyn i ddylyn eu hewyllys eu hunain yn mhob peth yn wastadol, hawdd y gallwn ryfeddu wrth eu gweled hwy yn dylyn cyfarwyddyd Duw mor rhwydd yn y teithiau hyn. Ni allai dim twyll fod yma. Pe busai Moses y cyfrwysaf o ddynion, ni allasai efe byth efelychu yr ymddangosiad neu y cwmwl gogoneddus hwn. Yr oedd y cwmwl, a phob peth yn ei symudiad, mor eglur *oruchnaturol*, fel nad oedd gan y bobl un ambeuaeth ei fod yn arwydd o'r presenoldeb dwyfol. Ac yr oedd Duw yn dewis eadw y bobl hwn mor ymddibynol arno ei hunan, ac mor ymstyngol i benderfyniadau ei ewyllys ei hun, fel na wnai efe gymaint a rhoddi iddynt amserau rheolaidd i ymdaith na gorphwys: yr oeddynt i wneyd y naill a'r llall y pryd a'r lle ag y gwelai efe yn oraf. Felly ni wyddom ninau y pryd na'r lle y geilw efe ni i ymdaith i'r

23 Wrth air yr Arglwydd y gwersyllent, ac wrth air yr Arglwydd y cychwynent: *felly* y cadwent wyliaeth yr Arglwydd, yn ol gair yr Arglwydd trwy law Moses.

PENNOD X.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Gwna i ti ddau udgorn arian, yn gyfanwaith y gwnai hwynt: a byddant i ti i alw y gynulleidfa yn nghyd, ac i beri i'r gwersylloedd gychwyn.

3 A phan ganant â hwynt, yr ymgasgl yr holl gynulleidfa atat, wrth ddrws pabell y cyfarfod.

4 Ond os âg un y canant; yna y tywysogion, *sef* penaethiaid miloedd Israel, a ymgasglant.

5 Pan ganoch larwm; yna y gwersylloedd, y rhai a wersyllant tua'r dwyrain, a gychwynant.

6 Pan ganoch larwm yr ail waith; yna y gwersylloedd, y rhai a wersyllant tua'r deau, a gychwynant: larwm a ganant hwy wrth eu cychwyn.

byd tragwyddol! Ddarllenwyd, bydd barod i gyfarfod â'th Dduw!

PEN. X. Adn. 2. *Gwna i't ddau udgorn arian*] I ddau fab Aaron, adn. 8; *yn gyfanwaith y gwnai hwynt*—fel y byddo eu sain yn uwch ac yn eglurach; *a byddant i't i alw y gynulleidfa yn nghyd*—pa fodd y gallai sain dau udgorn eu cyraedd hwynt oll sydd hawdd ei amgyffred; ond gallwn feddwl y byddai i symudiad y rhai ag oeddynt o fewn cyraedd yr udgarn ddyysgu i'r lleill pa beth i'w wneuthur. Yn amser Josua yr oedd *saith* o udgyrn yn cael eu defnyddio gan yr offeiriaid, Jos. vi. 4; ac yn amser Solomon, pryd yr oedd yr offeiriaid wedi mawr gynyddu, yr oedd *chwech ugain* o offeiriaid yn udgau mewn udgyrn, 2 Cron. v. 12.

Adn. 3. *A phan ganant â hwynt*] *Sef* a'r ddau ar unwaith, yr oedd hyny yn arwydd fod yr holl gynulleidfa yn cael eu galw yn nghyd.

Adn. 4. *Ond os âg un y canant*] Yna nid oedd neb ond tywysogion neu benaethiaid Israel i ymgasglu. Dichon fod yr udgyrn hyn wedi eu gwneuthur o wahanol *faintioli*, fel âg i wahaniaethu yn eu *sain*, yr hyn a wnai y gwytsiad yn amlycach. Addefir fod yr udgyrn hyn yn arwyddocaol o sain yr efengyl; ac mewn perthynas i'w hanfawd gwel ar Exod. xxv. 31—38.

Adn. 5. *Pan ganoch larwm*] Y mae yn debyg fod *teruah*, 'larwm,' yn meddwl tōnau *byrion*, *toredig*, a *chras*, yn terfynu gyda sain *hur*, yna cael eu hudganu â'r ddau udgorn ar unwaith. *Yna y gwersylloedd, y rhai a wersyllant tua'r dwyrain*—*sef* Juda, Issacar, a Zabulon, a gychwynent.

Adn. 6. *Pan ganoch larwm yr ail waith*]

7 Ac wrth alw yn nghyd y gynull-eidfa, cenwech yr udgyrn; ond na chenwech larwm.

8 A meibion Aaron, yr offeiriad, a ganant ar yr udgyrn; a byddant i chwi yn ddeddf dragwyddol trwy eich cenedlaethau.

9 Hefyd pan cloch i ryfel yn eich gwlad yn erbyn y gorthrymwr a'ch gorthrymo chwi; cenwech larwm mewn udgyrn: yna y cofeir chwi gerbron yr Arglwydd eich Duw, ac yr achubir chwi rhag eich gelynyon.

10 Ar ddydd eich llawenydd hefyd, ac ar eich gŵyliau gosodedig, ac ar ddechre eich misoedd, y cenwech ar yr udgyrn uwch ben eich offrymau poeth, ac uwch ben eich aberthau hedd; a byddant i chwi yn goffadwriaeth gerbron eich Duw: myfi yw yr Arglwydd eich Duw.

11 ¶ A bu yn yr ail flwyddyn, ar yr ail mis, ar yr ugeinfed dydd o'r mis, gyfodi o'r cwmwl oddiar dabernacl y dystiolaeth.

12 A meibion Israel a gychwynasant i'w taith o anialwch Sinai; a'r

cwmwl a arhosodd yn anialwch Paran.

13 Felly y cychwynasant y waith gyntaf, wrth air yr Arglwydd trwy law Moses.

14 ¶ Ac yn gyntaf y cychwynodd llumman gwersyll meibion Juda yn ol eu lloedd: ac ar ei lu ef yr ydoedd Nason mab Aminadab.

15 Ac ar lu llwyth meibion Issacar, Nethancel mab Suar.

16 Ac ar lu llwyth meibion Zabulon, Eliab mab Helon.

17 Yna y tynwyd i lawr y tabernacl; a meibion Gerson a meibion Merari a gychwynasant, gan ddwyn y tabernacl.

18 ¶ Yna y cychwynodd llumman gwersyll Reuben yn ol eu lloedd: ac yr ydoedd ar ei lu ef Elisur mab Se-deur.

19 Ac ar lu llwyth meibion Simeon, Selumiel mab Surtisadai.

20 Ac ar lu llwyth meibion Gad, Eliasaph mab Deuel.

21 A'r Cohathiaid a gychwynasant, gan ddwyn y cysegr; a'r lleill a god-

Yr oedd hyn yn arwydd i'r dosbarth *deheuol* gychwyn, sef Reuben, Simeon, a Gad. Nid yw y dosbeith *gorllewinol* a *gogleddol* yn cael eu henwi, ac eto yr ydym yn sicr eu bod hwythau yn ymdaith yn ganlynol i'w adnabod: gan hynny meddylir fod diffyg yma yn y testyn Hebreig, yr hwn a gyflenwir fel hyn gan y LXX: 'A phan ganoch larwm y drydedd waith, yna y gwersylloedd, y rhai a weisyllant tua'r gorllewin, a gychwynant; a phan ganoch larwm y bedwaredd waith, y gwersylloedd y rhai a wersyllant tua'r gogledd a gychwynant.' Nid yw y chwanegiad hwn modd bynag yn cael ei gydnabod gan y *Samaritanaidd*, na chan un cyfieithiad arall ond y *Coptaidd*. Tybia rhai mai un larwm oedd yr arwydd i'r dosbarth dwyreiniol gychwyn; *dau* gyfryw larwm i'r dosbarth *deheuol*; *tri* i'r dosbarth *gorllewinol*; a *phedwar* i'r gogleddol; yn hytrach na bod larwm *unigol* yn gwasauaethu i bob dosbarth, gydag ychydig seibant ihyngddynt.

Adn. 7. *Ac wrth alw yn nghyd y gynull-eidfa*] I ryw ddyben arall amgen na chychwyn ar daith; *cenwech yr udgyrn*—â sain wahanol i sain larwm.

Adn. 8. *A meibion Aaron*] Yr offeiriad yn unig oeddnt i chwythu yn yr udgyrn hyn, sef Eleazar ac Ithamar; canys nid oedd ond dau is-offeiriad eto.

Adn. 9. *Hefyd pan cloch i ryfel, &c.*] Dyma ddefnydd arall o'r udgyrn hyn, 2 Cron. xiii. 12. Ond cyn yr aert allan i ryfel, galwent y bobl yn nghyd, trwy sain udgoir, i ymprydio a gweddio, Joel ii. 15.

Adn. 10. *Ar ddydd eich llawenydd hefyd*] Dyddiau neu ŵyliau gosodedig i lawenlau a

diolch i Dduw am drugareddau neu waredigaethau blaenorol; gwel 2 Cron. v. 12, a vii. 6; Ezra iii. 10; Neh. xiii. 27, 35. *Ac ar ddechre eich misoedd*—sef ar y newydd-loerau, y rhai a gadwai yr Iuddeuon gydag aberthau neillduol, pen. xxviii. 11—14. Yr oedd y dydd cyntaf o'r mis yn ddydd tra santiaid yn mhilith yr Atheniaid hefyd, a thrwy ddeddf neillduol offrymnet ebyrth arno.

Adn. 11. *A bu yn yr ail flwyddyn, ar yr ail mis, ar yr ugeinfed dydd o'r mis*] Yr oedd yr Israeliaid wedi bod yn gwersyllu yn anialwch Sinai oddeutu un mis ar ddeg ac ugain niwrnod: cymharer Exod. xix. 1 gyda'r adnod hon. Yn awr derbyniasant orchymyn Duw i ddadwersyllu, a chychwyn tua gwlad yr addewid; a chan byny y mae y *Samaritanaeg* yn dwyn i mewn yn y lle hwn y geiriau a gawn yn Deut. i. 6—8: 'Ar Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd, Digon i chwi drigo hyd yn hyn yn y mynydd hwn: dychwelwch, a chychwynwch i'w goch, ac ewch i fynydd yr Amoriaid,' &c.

Adn. 12. *Ar cwmwl a arhosodd yn anialwch Paran*] Yr oedd hwn daith tiri ddiwrnod o anialwch Sinai, adn. 33, a chafodd y bobl dri gorsaf neu sefvdliad cyn dyfod iddo; y cyntaf yn *Cibroth-Hattaafah*, yr ail yn *Haseroth*, pen. xi. 34, 35, a'r trydydd yn anialwch *Paran*, pen. xii. 16. Ond y mae yn dra anhawdd penderfynu y taithiau hyn gydag un gradd o gywirdeb.

Adn. 13. *Wrth air yr Arglwydd*] Yn eu cychwyniad o anialwch Sinai cyfarwyddwyd hwynt nid yn unig gan symudiad y cwmwl, ond hefyd gan orchymyn pendant Duw.

Adn. 14—28. *Ac yn gyntaf y cychwynodd*

ent y tabernacl, tra fyddent hwy yn dyfod.

22 ¶ Yna llumman gwersyll meibion Ephraim a gychwynodd yn ol eu lluoedd: ac yr oedd ar ei lu ef Elisama mab Ammihud.

23 Ac ar lu llwyth meibion Manasse, Gamaliel mab Pedasur.

24 Ac ar lu llwyth meibion Benjamin Abidan mab Gideoni.

25 ¶ Yna llumman gwersyll meibion Dan, yn olaf o'r holl wersylloedd, a gychwynodd yn ol eu lluoedd: ac yr ydoedd ar ei lu ef Abiezer mab Ammisadai.

26 Ac ar lu llwyth meibion Aser, Pagiél mab Ocran.

27 Ac ar lu llwyth meibion Naphtali, Ahira mab Enan.

28 Dyma gychwyniadau meibion Israel yn ol eu lluoedd, pan gychwynasant.

29 ¶ A dywedodd Moses wrth Hobab, mab Raguél y Midianiad, chwegrwn Moses, Myned yr ydym i'r lle am yr hwn y dywedodd yr Arglwydd, Rhoddaf hwnw i chwi: tyred gyda ni, a gwnawn ddaioni i ti; canys llefarodd yr Arglwydd ddaioni am Israel.

30 Dywedodd yntau wrtho, Nid af ddim; ond i'm gwlad fy hun, ac at fy nghenedl fy hun, yr af.

31 Ac efe a ddywedodd, Na âd ni, atolwg; canys ti a adwaenost ein gwersyllfaoedd yn yr anialwch, ac a fyddi yn lle llygaid i ni.

32 A phan ddelych gyda ni, a dyfod o'r daioni hwnw yr hwn a wna yr Arglwydd i ni, ninau a wnawn ddaioni i tithau.

33 ¶ A hwy a aethant oddiwrth fyndd yr Arglwydd daith tri diwrnod: ac arch cyfammod yr Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt daith tri

llumman gwersyll meibion Juda, &c.] Gwel eu trefn o ymdeith yn cael ei hegluro yn hel-aeth yn pen. ii a iii.

Adn. 29. *A dywedodd Moses wrth Hobab, mab Raguél y Midianiad*] Am hanes y gŵr hwn gwel ar Exod. ii. 15—18, a iii. 1, a xviii. 2—27. Ond y mae Boothroyd ac ereill yn meddwl mai *mab Jethro* oedd Hobab, ac *wyr Raguél* neu *Reuel*. *Myned yr ydym*—darfu i Dduw ein dwyn ni allan o gaethiwed, ac yr ydym mor bell a hyn ar ein taith trwy yr anialwch, yn myned tna'r orphwysfa a benododd efe i ni, gan ymddiried yn ei addewid ef, a chael ein harwain â'i bresenoldeb a'n cynnal â'i allu. *Tyred gyda ni, a gwnawn ddaioni i'*—gallai hyd yn nod Hobab yr Arabiad, yn ol tyb Moses, dderbyn yr un bendithion ag a addawsai Duw i Hobaél, ond iddo eu dylun hwy yn yr un ffordd. Y mae gwir grefydd bob amser yn gymwynasgar: a'r rhai a wyddant fwyaf am ddaioni Duw, sydd fwyaf parod i wahodd ereill i gyfranogi o'r daioni hwnw. Eithr rhaid i'r rhai a wyllysiant fwyntau yr etifeddiaeth nefol, rodio yn y ffordd sydd yn arwain fno, a chymdeithasu â'r bobl sydd yn myned y ffordd hōno. *Canys llefarodd yr Arglwydd ddaioni am Israel*—hyny yw, addawodd ddaioni iddynt, ac ni phalla un o'i addewidion ef.

Adn. 30. *Nid af ddim; ond i'm gwlad fy hun, ac at fy nghenedl fy hun, yr af*] Oddiwrth ymresymidiadau cryfion Moses yn adn. 31, 32, ac oddiwrth Barn. i. 16, a iv. 11, a I Sam. xv. 6, y mae yn debyg i Hobab newid ei feddwl; neu, os aeth efe yn ol i Midian, ddarhof iddo ddechweled drachefu at Israel, gan fod yr ysgrthyrau nehod yn dangos fod ei *hiliogaeth* ef yn trigo yn mhilth yr Israeliad yn Nghanaan.

Adn. 31. *Na âd ni, atolwg*] Efe a atolyga i Hobab aros gyda hwynt am ddau reswm: (1) Am y byddai iddo ef fod o ddefnydd i Israel yn eu gwersyllfaoedd; ac, (2) Am y byddai o faintais iddo yntau ei hun yn y diwedd, adn.

32. *Ac a fyddi yn lle llygaid i ni*—ymadredd yn arwyddo y byddai efe iddynt hwy fel tywysydd i'r dall. Os gofynir, pa angen oedd arnynt am Hobab, tra yr oedd y golofn niwl a thân yn barhaus ganddynt i ddangos iddynt eu ffordd? gellir ateb, fod y golofn hōno yn cyfarwyddo eu teithiau *cyffredinol*, ond nid eu symudiadau *neillduol*. Yr oedd pleidiau o honnynt yn cymeryd amrywiol deithiau, tra yr oedd y brif fyddin yn gorwedd yn ei hunman: gwel pen. xiii a xx. Gan hyny yr oeddnt mewn angen am gyfrwy gan a Hobab, yr hwn oedd yn dra adnabyddus â'r anialwch, i gyfarwyddo y symudiadau neillduol hyn, i ddangos iddynt y dwfr-leoedd, a'r manau lle y gallent gael tanwydd, &c. Ond dylid sylwi, fod rhai o'r hen gyfeithiadau yn rhoddi ystyr gwahanol i'r geiriau hyn, ond odid i'r dyben i'w cysoni hwynt â'r addewid o'r arweiniad dwyfol. Y mae yr lleiriad *Caldeaid* yn egluro y geiriau fel hyn: 'Ti a wyddost pa fodd y gwersyllasom yn yr anialwch, a'th lygaid a welsant y gwyrtiâu a wnaethpwyd eromi ni.' Y *Samaritanaeg* fel hyn: 'Ti a adwaenost ein gwersyllfaoedd, ac a fuost yn lle llygaid i ni.' Eithr nis gall un o'r rhai hyn fod yn gyfeithiad cywir, am nad oedd Hobab eto wedi dylun eu gwersyll hwy. Y *Syriac* fel hyn: 'Ac a fyddi yn *aweyl* genym fel ein llygaid.' Y Lxx: 'Ac a fyddi yn *heuriad* yn ein plith; gan y byddai cynghorwyr tywysogion yn cael eu galw weithiau yn 'llygaid' iddynt. Eithr ymddengys mai ein cyfeithiad ni sydd yn gosod allan ystyr yr Hebraeg yn gywiraf; ac y mae yn sier nad yw yn cynwys dim ag sydd yn anghyson â'r addewid o'r arweiniad dwyfol.

Adn. 32. *Ninau a wnawn ddaioni i tithau*] Gan arwyddo y cai yntau gyfranogi o ba beth bynaga fywnhäent hwy yn Nghanaan.

Adn. 33. *A hwy a aethant oddiwrth fymydd yr Arglwydd*] Sef oddiwrth Horeb yn anialwch Sinai, Exod. iii. 1. *Daith tri diwrnod*—ymddengys fod y cwmwl yn gwneyd rhai gor-

diwrnod, i chwilio am orphwysfa iddynt.

34 A chwml yr Arglwydd oedd arnynt y dydd, pan elent o'r gwersyll.

35 A hefyd pan gychwynai yr arch, Moses a ddywedai, Cyfod, Arglwydd, a gwasgarer dy elynion; a ffloed dy gaseion o'th flaen.

36 A phan orphwysai hi, y dywedai

efe, Dychwel, Arglwydd, at fyrdiwn miloedd Israel.

PENNOD XI.

A'R bobl, fel tuchanwyr, oeddynt sliu yn nghlustiau yr Arglwydd: a chlywodd yr Arglwydd hyn; a'i ddog a enynodd; a than yr Arglwydd a gyneodd yn eu mysg hwynt, ac a ysodd gw'r y gwersyll.

phwysiadau, fel y gallent hwy gael amser i gysgu ac i gymeryd lluniaeth: gwel ar adn. 12. *Ac arch cyfammod yr Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt*—tybia Benson ac ereill, er fod yr arch yn eu canol hwynt yn eu gwersylloedd sefydledig, eto ei bod yn cael ei chario o'u blaen hwynt yn eu teithiau; a gellid meddwl fod y dull y croesent y môr coch a'r Iorddonen, yn rhoddi sail i feddwl felly. Eto dywedir yn pen. ii. 17, 'Fel y gwersyllant, felly y symudant;' ac yn adn. 21 o'r benod hon cawn fod yr arch yn cael ei chario gan y Cophathiaid yn nghanol y fyddin. Dywed Coke fod *lipneith* yr Hebraeg, a gyfieithir yma o'u blaen hwynt, yn arwyddo yn eu gwylld hwynt, neu o flaen eu gwyrneb. Dywed haneswyr fod brehinioedd Persia, yn eu rhyfeleoedd, wrth wersyllu ac yn eu teithiau, yn aros bob amser yn nghanol eu byddin, er mw y ddiogelwch, ac i'r dyben i allu eu llywodraethu yn well. Y mae Moses yma yn darlunio yr arch fel eu cadfridog; a sylwa Patrick, wrth amddiffyn ein cyfieithiad ni, y gellir dywedyd fod cadfridog byddin yn *myned o'u blaen hwynt*, wrth eu cyfarwyddo, pa le bynag yn y fyddin y byddo yn aros. Yn unol â hyn y dywed Clarke: 'Yr oedd yr arch yn cael ei chario gan y Cophathiaid yn nghanol y fyddin; ond gan na fyddai y fyddin byth yn ymsymud nes i'r cwmwl ddyrchafu, dywedir ei bod yn myned o'u blaen hwynt, hyn yw, y flaeaf yn ymsymud, trwy y byddai yr Israeliaid, heb y symudiad hwn, yn aros yn eu gwersylloedd.' *I chwilio am orphwysfa iddynt*—ymadrodd allegor am benodi gorphwysfa iddynt; canys nid oedd ar Dduw, yr hwn a wyddai am bob lle a phob peth, angen am chwilio.

Adn. 34. *A chwml yr Arglwydd oedd arnynt y dydd* [A'i dân ef y nos, gallwn chwaneu, fel y crybwyllir pen. ix. 15, 16. Dylem gymharu y naill ran o'r ysgrthybir â'r rhan arall, a chyflenwi diffygion y naill allan o'r llall, fel y gwnawn yn mhob awdwr.

Adn. 35. *Cyfod, Arglwydd, a gwasgarer dy elynion* [Gwyddai Moses yn dda, os na fyddai i Dduw gyfodi yn y ffloedd hon, a gwasgarer ei elynion, na allai fod yn gobaiith i Israel fedru myned yn ddiogel trwy yr anialwch: o ganlyniad, ar gychwyniad pob taith, efe a roddai Israel dan ofal ac amddiffyniad JEHOPA.

Adn. 36. *Dychwel, Arglwydd, at fyrdiwn miloedd Israel* [Y rhai hyn oeddynt y geiriau a lefarid gan Moses y foment ag yr arhosai y dosbeirch i wersyllu. Fel hyn efe a ddechreuai ac a ddywedai ei holl deithiau mewn gweddi. Meddylir mai mewn cyfeiriad at

hyn, a'r hanes â pha un ei cysylltir, y cyfansoddwyd Salm lxviii, er iddi gael ei chymhwyso gan Dafydd at ddygiad yr arch o Ciriath-jearim i Jerusalem: gwel y sylwadau yno. Trwy nad yw at yn y wreiddiol, y mae rhai yn dewis yn hytrach gyfieithiad y LXX: *Dychwel, Arglwydd, fyrdiwn miloedd Israel*—i'w gorphwysfa; neu trua hwynt atat dy bun.

PEN. XI. Adn. 1. *A'r bobl fel tuchanwyr* [Y mae gwabanol farnau gan esbonwyr am yr achos o'u tuchan; ond y mae yn sicr na fu gan bobl ereidd lan o achos i tuchan: yr oedd Duw ganddynt yn eu plith, ac yr oedd gywrthiau o ddaion yn cael eu gwneuthur yn barhaus ar eu rhan. 'Gallwn gasglu,' meddai Henry, 'nad oedd y tuchanwyr oll yn gytn yn yr achos. Tuchanai rhai, se allai, oblegid eu bod wedi symud o fynydd Sinai, lle y buont yn gorphwys cyhyd; ereill, oblegid na symudasant yn gynt; tuchanai rhai oblegid y tywydd, ereill oblegid y ffyrdd; meddyliai rhai, ysgatfydd, fod taith tti diwrnod yn rhy bir, a meddyliai ereill nad oedd yn ddigon bir, oblegid na ddygodd hwynt i Ganaan.' Modd bynag, danghosir yn adn. 5, 6, mai y prif achos o'u tuchan oedd, eu bod wedi blino ar y manna, ar yr hwn y buont byw bellach am odeddau blwyddyn. *Oeddynt sliu yn nghlustiau yr Arglwydd*—er na ddarfu i'w hanfodlonrwydd dori allan ar y cyntaf i rwnnackrwydd cyhoeddus yn erbyn Moses, eto yr oedd Duw yn gweled tueddfryd terfysgled y gwrthryfelgar eu meddyliau. *A'i ddog a enynodd*—darfu i ddwyfol gyfiawnder o angenheidrwydd gael ei gynhyrfu yn erbyn y fath ymddygiad anegusodol. *A than yr Arglwydd a gyneodd yn eu mysg hwynt*—naill ai danfonwyd tân goruchnaturol ar yr achlysur hwn, neu gorchymynwyd mellen yn eu herbryn hwynt, neu ynte tarawodd Duw hwynt ag un o'r gwyntoedd poeth-fyglyd hyn ag ydynt dra chyffredin yn y cyfiw wledydd, neu â ffaglau oddiwrth y golofn dân. *Ac a ysodd gw'r y gwersyll*—naill ai am ddarfod i'r pechod ddechreu yno yn mysg y lluaws cymysg; neu ynte mewn trugaredd i'r bobl, y rhai yr ewyllysiai efe eu deffro edifeirwch yn hytrach na'u dyfetha; ac am hyny efe a'i danfonodd ef i gw'r, ac nid i ganol, y gwersyll.' —BENSON. Ond dywed BOCHART fod y gair gwreiddiol a gyfieithir yma yn *gw'r*, yn arwyddo trwy neu yn yr holl wersyll; ac y dylasai efe gael ei gyfieithu felly yma, i arwyddo fod y tân wedi ysu rhai yn mhob rhan o'r gwersyll. Yn unol â hyn y dywed CLARKE, 'Efe a dreiddiodd trwy yr holl wersyll, gan

2 A llefodd y bobl ar Moses: a gweddiodd Moses ar yr Arglwydd; a'r tân a ddiffoddodd.

3 Ac efe a alwodd enw y lle hwnw, Taberah: am gyneu o dân yr Arglwydd yn eu mysg hwy.

4 ¶ A'r lluwus cymysg yr hwn ydoedd yn eu mysg a fflsiasant yn ddirfawr: a meibion Israel hefyd a ddychwelasant, ac a wylasant, ac a ddywedasant, Pwy a rydd i ni gig i'w fwyta?

5 Cof yw genym y pysgod yr oeddym yn ei fwyta yn yr Aifft yn rhad, y cucumerau, a'r pompionau, a'r cenin, a'r wiawyn, a'r garlleg:

6 Ond yr awr hon y mae ein heneidiau ni yn gwywo, heb ddim ond y manna yn ein golwg.

7 A'r manna hwnw oedd fel had coriander, a'i liw fel lliw bdeliwm.

8 Y bobl a aethant o amgylch ac a'i casglasant, ac a'i malasant mewn

melinau, neu a'i curasant mewn mortar, ac a'i berwasant mewn peiriau, ac a'i gwnaethant yn deisenau: a'i flas ydoedd fel blas olew îr.

9 A phan ddisgynai y gwllith y nos ar y gwersyll, disgynai y manna arno ef.

10 ¶ A chlybu Moses y bobl yn wylu trwy eu tylwythau, bob un yn nrws ei babell: ac enynodd dig yr Arglwydd yn fawr; a drwg oedd gan Moses.

11 Dywedodd Moses hefyd wrth yr Arglwydd, Paham y drygaist dy was? a phaham na chawn ffiafr yn dy olwg, gan i ti roddi baich yr holl bobl hyn arnaf?

12 Ai myfi a feichiogais ar yr holl bobl hyn? ai myfi a'u cenhedlais, fel y dywedech wrthyf, Dwg hwynt yn dy fynwes (megys y dwg tadmaeth y plentyu sugno) i'r tir a addewaist trwy lw i'w tadan?

gario marwolaeth gydag ef at yr holl duchanwyr; canys nid ydym i feddwl ei fod yn cael ei gyfyngu i gŵr y gwersyll, oddieithr i ni allu dychymygu nad oedd neb yn euog mewn un man arall.'

Adn. 2. *A llefodd y bobl ar Moses* Fel hyn, 'pan laddai efe hwynt, hwy a'i ceisient ef,' Salm lxxviii. 34; a cheisient gan Moses eiriol drostynt. (1) Pan y mae dynion yn tuchan heb achos, y mae yu gyfiaw i Dduw rodli iddynt achos i duchan. (2) Y rlai a ddiystyraut gyfeillion Daw pan y maent mewn hawddfyd, a ddymunant eu cael hwy yu gyfeillion iddynt eu hunain pan mewn adfyd: 'O dad Abraham, trugaila wrthyf, a danfon Lazarus,' Luc xvi. 24.

Adn. 3. *Ac efe a alwodd enw y lle hwnw Taberah* Y theswm am yr enw *Taberah*, neu GYNEUAD, a roddir yn y geiriau nesaf, 'am gyneu o dân yr Arglwydd yn eu mysg hwy.' Gwel 1 Cor. x. 10—12, lle y mae yr apostol yn defnyddio y rhan yma o'r hanes santaidd er addysg i Gristionogion.

Adn. 4. *A'r lluwus cymysg* Y rhai a ddaethant allan o'r Aifft gyda'r Israeliaid, Exod. xii. 38. Y bobl *gymysgryu* yma, y rhai nad oedd ganddynt mewn cymhariaeth ond ychydig wybodaeth o Dduw, wrth deimlo anlwasder a lludded y daith, oeddynt y rhai cyntaf i duchan; ac yna cawn fod meibion Israel yn cyduno â hwynt yn eu tuchanrwydd, ac yn gwneuthur un achos cyffredin gyda'r hanner anfyddlwy'r hyn.

Adn. 5. *Cof yw genym y pysgod, &c.* Y danteithion ag yr achwynai y tuchanwyr hyn eu bod wedi eu colli trwy adael yr Aifft oeddynt bysgod, cucumerau, pompionau, cenin, wiawyn, a garlleg. Gall Cymro wenu wnt y fath ddateithion; ond yr oeddynt yn *ddanteithion* yn y wlad hono, fel y sylwa Clarke. Eu *pysgod* ydynt ragorol; y mae eu *cucumerau* a'u *dysfr-bompionau* yn dra iachus ac ad-

fywiol; a'u *wiawyn, garlleg, &c.*, sydd gwbl flasu, yn gwahaniaethu gymaint oddiwrt h yn un rywogaeth yn y parthau gogleddol hyn, ag a wna *meipen ddrwg* oddiwrt *afal da*. Mewn gair, y mae y pethau a enwir yma yn cynwys braidd bob danteithfwd a ellir ei gael yn gyffredin yn y gwledydd hyn.

Adn. 6. *Ond yr awr hon y mae ein heneidiau* Naill ai eu *heintoes*, fel yr arwydda y gair hwn weithiau; neu eu *corff*, yr hwn a feddylir yn fynych wrth y gair euaid. *Yn gwywo*—yn nychu ymaith, yr hyn o bosibl a allai fod yn wir, trwy eu cefnigen, eu hanfodlonrwydd, a'u blys gormodol. *Heb ddim ond y manna yn ein golwg*—y mae anffodlonrwydd yn arferol o arwain dyn i ddirbrisio y trugareddau a fyddout ganddo, ac i fawrygu y rhai nad ydynt yn ei feddiant, ac i chwilio bai lle na bo.

Adn. 7. *A'r manna hwnw oedd fel had coriander* Nid mewn lliw, canys y mae hwnw yn ddiu; ond mewn llun a maint: gwel ar Exod. xvi. 31. *A'i liw fel lliw bdeliwm*—hwn sydd naill ai nodd pien, o liw gwyn a dysglaer; neu yn hytrach gem neu faen gwerthfawr, fel y mae y doctoriaid fuddweh yn ei ddeall ef.

Adn. 8. *Ac a'i gwnaethant yn deisenau* Trwy yn gyntaf ei falu, ac wedi hyn ei ferwi neu ei grasu; *a'i flas ydoedd fel blas olew îr*—neu yr 'olew rhagorolaf.' Y mae natur a defnydd y manna yn cael ei ddarlunio fel hyn yn fanwl, i ddangos niawredd eu pechod wrth ddiystyru y fath ymorth rhagorol.

Adn. 9. *Disgynai y manna arno ef*] Sef ar y gwllith: gwel ar Exod. xvi. 14.

Adn. 10. *Bob un yn nrws ei babell*] Sef wrth ddrws pabell Moses, o amgylch pa un yr oedd penaethiaid y gwahanol deuluoedd wedi ymgynull, fel y gwna milwyr trefysgld o amgylch drws eu cadfridog.

Adn. 11. *Paham y drygaist dy was?*] Paham na wrandewisit ar fy ngweddi pan yr

13 O ba le y byddai genyf fi gig i'w roddi i'r holl bobl hyn? canys wylu y maent wrthyf, gan ddywedyd, Dod i ni gig i'w fwyta.

14 Ni allaf fi fy hunan arwain yr holl bobl hyn; canys rhy drwm ydyw i mi.

15 Ac os felly y gwnai i mi, atolwg, gan ladd lladd fi, os cefais flafr yn dy olwg di; fel na welwyf fy nrygyd.

16 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Casgl i mi ddengwr a thriugain o henuriaid Israel, y rhai a wyddost eu bod yn henuriaid y bobl, ac yn swyddogion arnynt; a dwg hwynt i baccell y cyfarfod, a safant yno gyda thi.

17 Canys disgynaf, a llefaraf wrthyt yno: a mi a gymeraf o'r ysbryd sydd arnat ti, ac a'i gosodaf arnynt hwy; felly y dygant gyda thi faich y bobl, fel na ddygech di ef yn unig.

18 Am hyny dywed wrth y bobl, Ymsanteiddiwch erbyn y fory, a chewch fwyta cig: canys wylasoch yn nghlustiau yr Arglwydd, gan ddywedyd, Pwy a ddyry i ni gig i'w fwyta? canys yr ydoedd yn dda arnom yn yr Aifft: am hyny y rhydd yr Arglwydd i chwi gig, a chwi a fwytewch.

19 Nid un dydd y bwytewch, ac nid dau, ac nid pump o ddyddiau, ac nid deg diwrnod, ac nid ugain diwrnod;

20 Ond hyd fis o ddyddiau, hyd oni ddel allan o'ch ffroenau, a'i fod yn fii-aid genych: am i chwi ddirmygu yr Arglwydd yr hwn sydd yn eich plith, ac wylu o honoch yn ei wydd ef, gan ddywedyd, Paham y daethom allan o'r Aifft?

21 A dywedodd Moses, Chwe chan mil o wŷr traed yw y bobl yr ydwyf fi yn eu plith; a thi a ddywedi, Rhodd-

oeddwn yn dymuno i ti fy ergusodi i, a rhoddi gofal y bobl afreolus hyn i rywun arall?

Adn. 12, 13. *Ai myfi a'u cecudlais?* Ai fy mhilant i ydynt, fel y byddwn i yn rhwym o ddarparu lluniaueth a phob peth arall gogyfer a'u hangen a'u blys hwy?

Adn. 14. *Ni allaf fi fy hunan arwain yr holl bobl hyn*] Nid oedd y tywysogion ereill ond cynorthwywyr iddo ef mewn materion llai; eithr yr achosion mwyafr a thrymaf, megys yr un hwn, a ddygid at Moses, ac a benderfynid ganddo ef ei bun: gwel ar Exod. xviii. 21.

Adn. 15. *Ac os felly y gwnai i mi, atolwg, gan ladd lladd fi*] Efe a erfynia ar i Dduw weled yn dda naill ai ei ryddhan ef oddiwrth y gofal trwm hwn, neu ynte ei gymeryd ef allan o'r byd, a'i waredu oddiwrth fywyd mor flinderog ac anoddefol. *Fel na welwyf fy nrygyd*—fy artaith, yn cyfodi oddiwrth anhawser fy swydd o reoli y bobl hyn, ac oddiwrth yr ofn o'u hollol ddinystr hwy, a'r anmharch a ddeillia oddiwrth hyny i ti ac i grefydd, fel pe buasai nid yn unig myfi, ond tithau hefyd, yn dwyllwr!

Adn. 16. *Casgl i mi dengwr a thriugain—y rhai a wyddost eu bod yn henuriaid*] Y rhai y canfyddaist trwy brofiad eu bod yn henuriaid, nid yn unig mewn blynyddau ac enw, ond hefyd mewn doethineb ac awurdod gyda'r bobl. Y mae y rabbiniaid yn ystyried y sefydliad hwn o'r dengwr a thriugain i gy-northwyo Moses, fel dechreud eu prif gynghor, yr hwn a elwid y *Sanhedrim*. Ond cawn fod cynghor o 70 o henuriaid Israel yn bodoli yn mysy y bobl flwyddyn cyn hyn: gwel Exod. xxiv. 9, a'r sylw ar Exod. xviii. 21, &c. Hefyd, yr oedd ganddynt ryw fath o henuriaid bob amser, Exod. iii. 16.

Adn. 17. *A mi a gymeraf o'r ysbryd sydd arnat ti*] Y mae yr ysbryd yma yn cael ei roddi am ddoniau yr Ysbryd, ac yn enwedig am ysbryd proffwydoliaeth, trwy yr hwn y

galluogid hwynt i benderfynu achosion amheus ac anhawdd, yr hyn a'u cyfaddasai i lywodraethu. *Ac a'i gosodaf arnynt hwy*—hyny yw, rhoddaf iddynt hwy yr un ysbryd ag a roddais i ti. Y mae Origen a Theodoret yn cymeryd achlysur oddiyma i gymharu Moses i Iamp, oddiwrth ba un y caiodd y deg-a-thriugain ereill eu goleo, heb iddo ef gollu dim o'i ddysgleirdeb. Y mae yn eglur oddiyma na wnai Duw, ac na ddylai dynion, alw neb i unrhyw swydd heb eu bod wedi eu cymhwyso yn ddiogol iddi.

Adn. 18. *Ymsanteiddiwch erbyn y fory*] Fel pe dywedasai, 'Bydd barod, Israel, i gyfarfod â'th Dduw' yn ffjord ei farnedigaethau! Ymbarotowch trwy wir edifeirwch, fel y caffoch naill ai esmwythlau ychydig ar y pla, neu ynte, tra y byddo eich cyff yn cael eu dyfetha trwy y cig a flysiasoch, y casto eich eneidiau eu gwaredu rhag digofaint Duw. Y mae *ymsanteiddio* yn cael ei arfer yn fynych am *ymbarotoi*.

Adn. 19, 20. *Nid un dydd y bwytewch*] Nid dros ychydig amser yn unig; ond *hyd oni ddel allan o'ch ffroenau, a'i fod yn fii-aid genych*—hyny yw, nes i'ch blysiu aflywodraethus gael eu diwallu, ac nes i chwithau, trwy anghraifft arall o ddwyfol allu, gael eich argyhoeddi er eich cywilydd mor annuwiol ac anniolchgar yr ymddygasoch tuag at Dduw yn nghanol ei holl ragluniaethau trugarog tuag atoch! Y mae yr ymadrodd yn arddangos meddylddrych tra chryf ac annymunol o ddiogedd ac alariad, pan y mae y cylla gorlwythedd yn chwydu ei gynwysiad allan trwy y genau a'r ffroenau. *Am i chwi ddirmygu yr Arglwydd*—fychanu ac anghredu ei addewidion a'i ragluniaeth ef, ar ol cael prawf mor hir a helaeth o'i haelioni a'i aml fendithion. *Yr hwn sydd yn eich plith*—yn trigianu gyda chwi yn yr anialwch. Y mae hyn yn cael ei chwaneu fel mwybad dirfawr ar eu trossedd, eu bod yn pechu yn ngwyddfod

af gig iddynt i'w fwyta fis o ddyddiau.

22 Ai y defaid a'r gwartheg a leddir iddynt, fel y byddo digon iddynt? ai holl bysg y môr a gesglir yn nghyd iddynt, fel y byddo digon iddynt?

23 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, A gwtogwyd llaw yr Arglwydd? yr awr hon y cai di weled a ddygwyyd fy ngair i ti, ai na ddygwyydd.

24 ¶ A Moses a aeth allan ac a draethodd eiriau yr Arglwydd wrth y bobl, ac a gasglodd y dengwr a thriugain o henuriaid y bobl, ac a'u gosododd hwynt o amgylch y babell.

25 Yna y disgynodd yr Arglwydd mewn cwmwl, ac a lefarodd wrtho; ac a gymerodd o'r ysbryd oedd arno, ac a'i rhoddes i'r deg henafgwyr a

thriugain. A thra y gorphwysai yr ysbryd arnynt, y proffwydent, ac ychwaneg ni wnaent.

26 A dau o'r gwŷr a drigasant yn y gwerysll (enw un ydoedd Eldad, ac enw y llall Medad) a gorphwysodd yr ysbryd arnynt hwy, am eu bod hwy o'r rhai a ysgrifenesid; ond nid aethant i'r babell, eto proffwydasant yn y gwerysll.

27 A rhedodd llanc, a mynegodd i Moses, ac a ddywedodd, Y mae Eldad a Medad yn proffwydo yn y gwerysll.

28 A Josua mab Nun, gweinidog Moses o'i ieuencid, a atebodd ac a ddywedodd, Moses, fy arglwydd, gwahardd iddynt.

29 A dywedodd Moses wrtho, Ai

y Barnydd! *Paham y daelhom allan o'r Aifft?*—paham y drygodd Duw nynt yn y fath fodd? neu, paham y darfu i ni fod mor ynyfod ac ufyddlau iddo ef trwy ddyfod allan?

Adn. 21. *Chwe chan mil o wŷr traed*] Cymhwys i ryfel, heblaw gwagedd a phlant, Exod. xii. 37.

Adn. 22. *Ai y defaid a'r gwartheg a leddir iddynt, &c.*] Y mae hon yn wrthdadaid gyffelyb i eiddo y dysgylion, Marc viii. 4: 'O ba le y gall neb ddigoni y rhai hyn â bara yma yn yr anialwch?' Y mae Moses yn sefyll ar nifer y bobl, fel pe nas gallai yr hwn a ddarparai fara iddynt oll, trwy yr un gallu diderfyn ddarparu cig iddynt hefyd! Fod Moses yn llefaru hyn heb ymddiried i air Duw, sydd eglur; a'i fod ef heb gael ei gosi am hyn megys y cafodd wedi hyn am yr un pechod, pen. xx, a ellir ei gyfrif i wahanol amgylchiadau y pechod hwn a hwnw. Hwn oedd y trosedd cyntaf o'r fath, ac am hyny yr oedd yn haws pasio heibio iddo; tra yr oedd hwnw ar ol ei rybyddio, ac yn erbyn mwy o oleuni a phrofiad. Ymddengys hefyd i hwn gael ei lefaru yn ddirgel, a hwnw yn gyhoeddus gerbron y bobl; ac am hyny yr oedd yn iawn ei gosi ef yn gyhoeddus a llym, i attal ymdaeniad y cyfrwy bechod.

Adn. 23. *A gwtogwyd llaw yr Arglwydd?*] A anghofiaist ti y gwyrtbiau a gyflawnais i eisioes? neu a wyt ti yn meddwl fod fy ngallu i wedi lleihau?

Adn. 24. *A Moses a aeth allan*] O'r cysegr, i'r hwn yr aetha: efe i dderbyn atebion Duw oddiar y drugareddfa. *Ac a gasglodd y dengwr a thriugain*—gelwir hwynt yn 'ddengwr a thriugain' oddiwrth y nifer penodedig, er fod dau o honnynt yn eisiau; megys y gelwir yr apostolion y 'deuddeg,' 1 Cor. xv. 4, pan yr oedd un o'r nifer yr pryd hwnw yn eisiau: gwel ar Marc xvi. 14. *Ac a'u gosododd hwynt o amgylch y babell*—mewn rhan fel y byddai i ofn Duw gael ei argraffu areu calonau; ond yn benaf am mai yno yr oedd Duw yn arferol o'i amlygu ei hun, ac mai yno y rhoddai efe ei Ysbryd arnynt.

Adn. 25. *A thra y gorphwysai yr ysbryd*

arnynt y proffwydent] Y traethent ar eiriau a gweithredoedd Duw mewn modd goruwchnaturiol, fel y gwnai y proffwydi. Wrth broffwydo yma y deallir yn gyffredin eu cyflawniad hwy o'r swyddau gwladol a chysegredig ag y cymhwyswyd hwynt iddynt; ac yr oedd cynghori y bobl i ymstyngiad llonydd a heddych, ac i ymddiried yn naioni a rhagluniaeth Duw, yn gwneuthur rhan fawr o ddyledswyddau eu galwedigaeth newydd. Ystyr y gair *naba* yw gweddio, erfyn, &c. Y mae y proffwyd yn cael ei alw yn *nabi*, am ei fod yn gweddio ac yn *erfyn* mewn cyfeiriad at Dduw, ac yn *cynghori* ac yn *darbwyll* mewn cyfeiriad at ddyns: gwel ar Gen. xx. 7. Modd bynag, tybia Burder ac ereill fod y proffwydi hyn yn mynegu pethau a dygwddiadau dyfodol. *Ac ychwaneg ni wnaent*—ni phroffwydent ond tra y gorphwysai yr ysbryd arnynt. Ond yr ystyr y darbaol.

Adn. 26. *A dau o'r gwŷr*] O'r dengwr a thriugain, a drigasant yn y gwerysll—heb fyned at y babell fel y gwnaeth y lleill, trwy eu bod naill ai heb gael rhybydd prydlon i fod yno, neu yn cael eu cadw yn y gwerysll trwy afiechyd, neu trwy ryw achos rhagluniaethol arall, fel y gallai y wyrth fod felly yn amlycach. *A gorphwysodd yr ysbryd arnynt hwy*—yn y fan lle yr oeddnynt, *am eu bod hwy o'r rhai a ysgrifenesid*—inewn llyfr neu ar bapwr gan Moses, yr hwn, trwy gyfarwydded Duw, a enwasai y dynion addasaf, adn. 16.

Adn. 27. *A rhedodd llanc, a mynegodd i Moses*] Gan ofni ond odid rhag i'w awdurdod ef gael ei leihau trwy eu bod hwy yn proffwydo yn y gwerysll.

Adn. 28. *A Josua mab Nun, gweinidog Moses o'i ieuencid*] Neu ei 'weinigod dewisedig ef,' fel y mae rhai yn ei gyfieithu, yr hwn oedd ei weinydd parhaus ef, ac a oedd i fod yn olonydd iddo. *Moses, fy arglwydd, gwahardd iddynt*—efe a ofnai y gallai awdurdod a dylawad Moses ei feistr gael eu lleihau trwy y rhan a gymerai Eldad a Medad yn llywodr-

cenfigenu yr ydwyt ti drosof fi? O na byddai holl bobl yr Arglwydd yn broffwydi, a rhoddi o'r Arglwydd ei ysbryd arnynt!

30 A Moses a aeth i'r gwersyll, efe a henuriaid Israel.

31 ¶ Ac fe aeth gwynt oddiwrth yr Arglwydd, aca ddyg soflicir oddiwrth y môr, ac a'u taenodd wrth y gwersyll, megys taith diwrnod ar y naill du, a thaith diwrnod ar y tu arall, o am-

aethiad y bobl, yr hyn o'r diwedd a allai greu rhygyiad neu wrthryfel yn eu mysg hwynt.

Adn. 29. *Ai cenfigenu yr ydwyt ti drosof fi?* A wyt ti yn gofidio am fod doniau a rhadau Ysbryd Duw yn cael eu rhoddi i ereill yn gystal a mi? neu, a wyt ti yn eiddigeddus o'u drylanwad hwy yn unig o'm hachos i? *O na byddai holl bobl yr Arglwydd yn broffwydi*—na byddent oll dan ysbrydoliaeth ei Ysbryd ef i'r fath raddau fel ag i allu llefaru er gogoniant iddo ef, ac er lles ac adeiladaeth i ereill! Ewyllysai Ioan hefyd attal un rhab bwriw allan gythreuliaid yn enw Iesu, am nad oedd efe yn dylun Crist yn nghymdeithas y dysgylion: ond dylai ymddygiad ein Harglwydd yn yr achos hwnw reoleiddio yr eiddom ninaw yn mhob achos cyffelyb: gwel ar Marc ix. 38—40. Fel y sylwa HENRY, 'nid oedd Moses yn ewyllysio i neb godi yn broffwydi heb gael eu cymhwyso yn ddyladwy, nac yn dysgwyl i ysbryd proffwydoliaeth gael ei wneuthur yn gyffredin felly; ond y mae effer fel hyn yn anlygu y cariad a'r parch ag oedd ganddo i holl bobl yr Arglwydd, a'r boddineb a gymerai yn noniau rhai ereill. Yr oedd Paul hefyd o'r un ysbryd rhagorol a hyn, yn llawenychu fod Crist yn cael ei bregethu, er fod hyn gan rai a frwaident trwy hyn 'ddwyn niwy o flander i'w rwyman ef,' Phil. i. 15—18'

Adn. 30. *A Moses a aeth i'r gwersyll* I fysg y bobl; *efe a henuriaid Israel*—i arferd y doniau a'r awdurdod a dderbyniasent yn awr.

Adn. 31. *Ac fe aeth gwynt oddiwrth yr Arglwydd* Gwynt anngyffredin a gwrththiol, ac nid effaith reolaidd achosion naturiol. *Ac a ddyg soflicir*—felly y mae y gair Hebreig *salvim* yn cael ei gyfieithu gan Josephus, ac yn yr holl hen gyfieithiadau; ac nid ymddengys fod un awdurdod digonol droc ei gyfieithu ef yn *locustiaid*, er maint a ddywedodd Ludolf ac ereill ar y pwnc. Dyma yr ail dro i Dduw roddi iddynt *soflicir* fel hyn. Efe a'u banfonasai hwynt y flwyddyn o'r blaen, ac oddeutu yr un amser, Exod. xvi. 13; ond nid yr un nifer na chydâ'r un bwriad ag yn awr. *Oddiwrth y môr*—yn benaf oddiwrth y Fergaine Arabaidd, neu y môr coch, a phob tn iddo, lle yr oeddynt y pryd hyn (oddeutu Ebrill) mewn amledd mawr; a diamau iddynt gael eu lluosogi yn rhyfeddol gan ragluniaeth neillduol Duw ar yr achos arbenig hwn. *Taith diwrnod*—oddeutu ugain milldir bob tu i'r gwersyll oddiwrtho. *Yn nghytle dau guffydd ar wyneb y ddaear*—nid ydym i feddwl fod y soflicir yn gorchuddio yr holl dir ddau guffydd o uwchder, neu lathen o drwch, am daith

gylech y gwersyll, a *hyny* yn nghytle dau guffydd, ar wyneb y ddaear.

32 Yna y cododd y bobl y ddydd hwnw oll, a'r nos oll, a'r holl ddydd dranoeth, ac a gasglasant y soflicir: yr hwn a gasglodd leiaf, a gasglodd ddeg homer: a chan daenu y taenasant *hwynt* iddynt eu hunain o amgylch y gwersyll.

33 A'r eig *oedd* eto rhwng eu danedd hwynt heb ei gnoi, pan enynodd

diwrnod bob ochr i'r gwersyll, canys felly ni buasai un man wedi ei adael lle y gallent eu 'taenu hwynt o amgylch y gwersyll,' adn. 32; eithr y meddwl yw, eu bod yn ehedeg o fewn dau guffydd i'r ddaear, fel y gallai yr Israeliaid yn hawdd eu dal; neu eu bod yn gorwedd yma a thraw ar yr holl wastadedd hwnw yn bentyrau mawrin, y rhai yn fynych oeddynt ddau guffydd o drwch.

Adn. 32. *Yna y cododd y bobl, &c.* Tra yr oedd yr heidiau dirfawr hyn yn ehedeg oddeutu llathen oddiwrth y ddaear, yn lluddedig gan y gwynt cryf a'r pellder o'r hwn y daethent, yr oeddynt yn cael eu dal yn hawdd gan y bobl; a thrwy fod amrai heidiau yn parhau i ddylyn eu gilydd am ddau ddiwrnod a noson, gallai digon am fis gael eu casglu yn yr amser hwnw. Pe buasai y soflicir wedi dysgyn o amgylch y pebyll, ni buasai achos i'r bobl sefyll i fyny ddau ddiwrnod a noson i'w casglu hwynt; ond os ebhedeg yr oeddynt, fel y mae yn debycaf, ac fel y mae y *Vulgate* yn ei ddarllen, yr oedd yn angenrheidiol iddynt hwy wneuthur brys, a dal cynifer ag a allent tra yr oeddynt yn parhau i basio. *Yr hwn a gasglodd leiaf, a gasglodd ddeg homer*—hyny yw, deg llwyth asyn; canys yr oedd un *homer* yn gyfartal i gan *omer*: gwel ar Lef. xxvii. 16. Nid ydym i feddwl fod gan bob Israeliaid gymaint a hyny ar ei gyfer; ond darfu i bob casglwr gasglu cymaint a hyny ar gyfer ei deuln. Y mae awduron cenhedlig yn sicrhau fod y soflicir yn y gwledydd hyn yn aneirif. Yr oedd mewn un ran o'r Eidal, o fewn cylich pum milldir, oddeutu can mil o honynt yn cael eu dal bob dydd am fis yn nghyd; a dywed Athenæus fod yn ngwlad boblogaidd yr Aifft y fath amledd o honynt, fel nas gallai y trigolion lluosog hyny eu difa hwynt, ond eu bod yn gorfod eu halltu a'u cadw at amser dyfodol. *Taenasant hwynt*—fel y gallent eu syrhu a'u halltu at eu gwasanaeth ddyfodol, fel y gwelent yr Aifftiaid yn gwneuthur.

Adn. 33. *A'r Arglwydd a darawodd y bobl â phla mawr iawn* Dywed rhai mai yr haint oedd y pla hyn; ereill, mai y dardfodedigaeth; ereill, mai tân, fel yn adn. 1, tyb ag y meddylia rhai ei fod yn cael ei chynnal gan Salm lxxviii. 21. Y mae Calmet yn meddwl y gallai y soflicir eu hunain brofi yn ddnvstr i'r Israeliaid glwth ac anghywedrol hyn, y rhai oeddynt er's talm heb arferd â chig. Ond y mae yn fwy rhesymol meddwl, ond oddid, mai cosp ddygyfrwng oddiwrth law ddaieiddol Duw oedd y pia hwn, ac na ddygyddodd nes iddynt fod wedi ymborthi ar y soflicir am yspaid

digofaint yr Arglwydd yn erbyn y bobl; a'r Arglwydd a darawodd y bobl â phla mawr iawn.

34 Ac efe a alwodd enw y lle hwnw Cibroth-Hattaafah; am iddynt gladdu yno y bobl a flysiasent.

35 O Feddau y Blys yr aeth y bobl i Hase-roth: ac arosasant yn Hase-roth.

PENNOD XII.

LLEFARODD Miriam hefyd ac Aaron yn erbyn Moses, o achos y wraig o Ethiopïa yr hon a briodasai

mis, fel yr addawyd, neu y bygythiwyd yn hytrach, yn adn. 20.

Adn. 34. *Ac efe a alwodd enw y lle hwnw Cibroth-Hattaafah*] Hyn yw, 'Beddau y Blys'; ac fel hyn cafodd eu trosedd gwarthus ei fytholi trwy enw newydd ar y lle, fel y galwsied ef o'r blaen *Taberah*, adn. 3; canys meddylir yn gyffredin mai yr un lle oeddylnt.

Adn. 35. *O Feddau y Blys yr aeth y bobl i Hase-roth*] Ar ol bod yno gryn lawer dros fis.

PEN. XII. Adn. 1. *Llefarodd Miriam ac Aaron hefyd yn erbyn Moses*] Ymddengys mai eiddgedd wrth ddyllanwad Moses oedd y gwir achos o'r gynhen, er mai ei briodas ef a fu yr achlysrn. Y mae Miriam yn cael ei henwi yn gyntaf, am mai hi a ddechreuodd y terfysg, a chan hyny y mae ei chosp hi yn fwy. *O achos y wraig o Ethiopïa yr hon a briodasai efe*—naill ai, (1) *Sephora*, yr hon sydd yma yn cael ei galw yn *Ethiopes*, ond yn yr Hebraeg *Cases*, am ei bod yn un o'r Midianiaid; canys y mae yr enw *Cus*, fel y sylwa Benson, yn cael ei arfer yn fynych yn yr ysgrythyr am *Arabia*. Os hi a feddylir, y mae yn debyg nad oeddylnt yn cweryla âg ef yn gymaint am iddo ei phriodi hi, trwy fod hyny wedi cymeryd lle er's hir amser; ond am ei fod yn cymeryd ei reoli ganddi hi a'i pherthynasau, gan y rhai, gallent feddwl, y darbyllwyd ef i ddewis deg-a thriugain o lywiaidwyr, trwy ba gydgyfranogaeth yn y llywodraeth yr oeddylnt yn meddwl y byddai i'w hawdurddo a'u parch hwy gael eu lleihau: a chan na feiddient gyhuddo Duw, y maent yn cylhuddo Moses ei oruchwyliwr ef. (2) Neu gall fod *Sephora* yn awr wedi marw, er na chafodd hyny, mwy na llawer o bethau ereill, ei goffâu; a bod Moses wedi ail briodi âg *Ethiopes* neu *Arabs*; yr hyn y gallai ef ei wneuthur, yn gystal a rhywun arall, os oedd hi wedi ei chlywir broseltyo. Yr oedd Miriam cyn dyfodiad *Sephora* i'r gwersyll, neu ar ol ei marwolaeth hi, fel *tywysoges* yn mhabeil Moses; ond pan y daeth ei wraig ato ef, hi a gollodd yr arhlydedd hwnw.

Adn. 2. *Ai yn unig trwy Moses y llefarodd yr Arglwydd?*] Ai nid ydym ninau yn broffwydi yn gystal ag yntau? (Felly y gwnaed Aaron, Exod. vii. 1, ac felly y gelwir Miriam, Exod. xv. 20.) Halogodd Moses yr had sant-aidd, yr hyn ni wnaethom ni. Paham gan hyny y mae efe yn cymeryd yr holl awdurdod

efe: canys efe a gymerasai *Ethiopes* yn wraig.

2 A dywedasant, Ai yn unig trwy Moses y llefarodd yr Arglwydd? oni lefarodd efe trwom ninau hefyd? A'r Arglwydd a glybu hyny.

3 A'r gŵr Moses ydoedd lareiddiaf o'r holl ddyunio *oedd* ar wyneb y ddaear.

4 A dywedodd yr Arglwydd yn ddisymwth wrth Moses, ac wrth Aaron, ac wrth Miriam, Deuwch allan eich trioedd i babel y cyfarfod. A hwy a aethant allan ill trioedd.

iddo ei hun, ac yn gwneuthur llywodraethwyr fel y myno, heb ymgynghori â ni? *A'r Arglwydd a glybu hyny*—a sylwodd ar en geiriau a'u hymddygiad tuag at Moses.

Adn. 3. *A'r gŵr Moses ydoedd lareiddiaf o'r holl ddyunio ydoedd ar wyneb y ddaear*] Tybia rhai fod Moses, yr hwn sydd yma yn gorfod llefaru er clod iddo ei hun, yn gwneuthur hyny yn y trydydd person, megys St. Ioan, yr hwn a ddywed am dano ei hun, 'Y dysgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu,' Ioan xxi. 7, 20; a thybia ereill i'r gamoliaeth yma gael ei chwanegu gan ryw broffwyd dyllynol. Ond pa fodd yr oedd Moses mor *lareidd*, pan yr ydym yn fynych yn darllen am ei *digofaint* ef? Heb grybwyll 'na *pherffethioedd* y gyfraith neb,' Heb. vii. 19, gallwn sylwi, nad yw gwir *lareidd-dra* yn cau allan bob *digofaint*, ond yn unig y cyfryw ddiogfaint ag sydd bechadurus. Nyni a ddylem fod yn *ddig* pan y mae Duw yn cael ei ddianrhydeddu, yr un modd ag yr oedd Crist pan yr 'edrychodd efe arnynt o amgylch yn *ddigllon*, gan dristâu am galedrwydd eu calon hwynt,' Marc iii. 5. Y mae *anfoddlonrwydd* neu *ddigter* ar gyfrif pechod un arall, os heb fod yn ormodol neu yn ddiagar, mor bell oddiwrth fod yn bechadurus, nes y mae yn gamoladwy: gwel ar Eph. iv. 26. Modd bynag, dywed rhai nad yw y wreiddiol yn cael ei hiauw ddeall yma; a bod *anar*, yr hwn a gyfieithiwn ni *llariaidd*, yn dyfod oddiwrth *anah*, 'darostwng, iselu, blino'; a'i fod yn cael ei gyfieithu felly mewn amrai leoedd yn yr Hen Destament; ac mai ystyr y testyn yw, 'A'r gŵr Moses a *iseliu* neu a *flinid* yn fwy nag un dyn, *haadamah*, o'r wlad bônô.' A phaham yr oedd ef felly? O achos y baich mawr ag oedd ganddo i'w ddwyn yn ngofal a llywodraethiad y bobl hyn, ac o achos en hanniolchgarwch a'u gwrthryfelgarwch hwy yn erbyn Duw ac yntau: gwel CLARKE.

Adn. 4. *A dywedodd yr Arglwydd yn ddisymwth*] I ddi-foddi y bradwrhiad hwn yn ei gychwyniad, rhiag iddo ymdaenu yn mllithi y bobl, y mae y llais dwyfol oddiwrth y *SEICSA* yn eu battal hwynt yn nghanol eu hymryson, gan orchlymyn i Aaron a'i chwaer ddyfod allan o'u pabell, i gyfarfod â Moses yn ddiatref wrth ddrws y tabernacl; yr hyn o ganlyniad a wnaethant.

Adn. 5. *Yna y ddisymodd yr Arglwydd yn ngholefn y cwmwl*] Neu a ddaeth i'r cwmwl

5 Yna y disgynodd yr Arglwydd yn nghlofn y cwmwl, ac a safodd wrth ddwrws y babel, ac a alwodd Aaron a Miriam. A hwy a aethant allan ill dau.

6 Ac efe a ddywedodd, Gwrandewch yr awr hon fy ngeiriau. Os bydd proffwyd yr Arglwydd yn eich mysg, mewn gweledigaeth yr ymhysbysaf iddo, *neu* mewn breuddwyd y llefaraf wrtho.

7 Nid felly y mae fy ngwas Moses, yr hwn sydd ffyddlawn yn fy holl dŷ.

8 Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho,

oddiar y drugareddfa; ac a safodd wrth ddwrws y babel—tra yr oeddynt hwy yn sefyll oddiallan; canys ni oddefid i Aaron, er ei fod yn archoffeiriad, nesâu i'r babel fel arferol, yn arwydd o anffodlonrwydd Duw.

Adn. 6. *Os bydd proffwyd yr Arglwydd yn eich mysg*] Os ydych chiwi yn broffwydi, eto gwybyddwch fod gwabaniaeth yn mhllith proffwydi, ac nad wyf fi yn rhoddi anrhydedd cyfartal i bob un o honant. *Mewn gweledigaeth yr ymhysbysaf iddo*—eclurid ewylls Duw i rai trwy argraffiadau cryfion ar eu darselyddiaid pan yn effro, ond mewn perlewyr, fel yn achos Abram, Gen. xv. 1; Jacob, Gen. xlii. 2; a Daniel, pen. viii. 1, 15. Eithr ni ddarllenasom erioed i Moses lesmeirio fel hyn mewn gweledigaeth broffwydol: yr oedd ef bob amser yn effro, ac yn gwbl feistr arno ei hun, pan yn ymddyddan â Duw, neu yn derbyn hysbysiadau oddiwrtho ef. *Neu mewn breuddwyd y llefaraf wrtho*—datguddiai Duw ei feddwl i ereill trwy arddangosiadau cysgodol neu allegol, yn cael eu gwneuthur iddynt yn eu cwsg, megys yr ysgol a ddanghoswyd i Jacob mewn breuddwyd, Gen. xxviii. 12.

Adn. 7. *Nid felly y mae fy ngwas Moses*] Y mae ef yn broffwyd o radd uwch, ac yr wyf fi yn hysbysu fy meddwl iddo ef mewn ffordd lawer ihaorach ac eglurach. *Yr hwn sydd ffyddlon yn fy holl dŷ*—gosodasai Duw Moses yn arolygwr dros holl Israel, y rhai oeddynt ei dŷ neu ei deulu ef; ac yr oedd Moses yn ffyddlon yn y cyflawniad o'i ymddiriediad a osodwyd ynddo, gan gadw yr holl orchymynion dwyfol, heb wneuthur dim yn bleidiol, neu o hono ei hun, fel yr oedd ef yn awr yn cael ei gamgybuddo: gwel ar Heb. iii. 1—6.

Adn. 8. *Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho*] Trwy lais hysgryw, fel y mae y naill gyfaill yn ymddyddan â'r llall, neu fel y mae dau gyfaill mewn cydymddyddan yn gwrandaw ac yn ateb eu gilydd bob yn ail. *Mewn gwelediad*—yn eglur ac yn sicr, heb un anhawdder i ddeall ei feddwl. *Nid mewn dammegion*—cyffelybiaethau neu luniau tywyll, megys trwy d dangos crochan berwedig a gwialen almon i Jeremia, pen. i. 11, 13; cawellaid o ffrwythydd haf i Amos, pen. viii. 1; ac olwynion i Ezeziel, pen. i. 16. *Ond caiff edrych ar wedd yr Arglwydd*—nid gwyneb neu y hōd o Dduw, yr hwn nas gall neb ei weled, a byw, Exod. xxxiii. 20; ond rhyw amlygiad

mewn gwelediad, nid mewn dammegion; ond caiff edrych ar wedd yr Arglwydd: paham gan hyny nad oeddych yn ofni dyweddy yn erbyn fy ngwas, sef yn erbyn Moses?

9 A digofaint yr Arglwydd a enynodd yn eu herbyn hwynt; ac efe a aeth ymaith.

10 A'r cwmwl a ymadawodd oddiar y babel: ac wele, Miriam ydoedd wahanglwyfus, fel yr eira. Ac edrychodd Aaron ar Miriam; ac wele hi yn wahanglwyfus.

11 Yna y dywedodd Aaron wrth

rhyfeddol o'i bresenoldeb gogoneddus, megys yr un y sonir am dano yn Exod. xxxiii. 11, 23. Ie, y mae yn debyg fod Mab Duw yn ymddangos i Moses weithian mewn agwedd ddydol, i roddi rhagarwydd iddo o'i gnawdoliaid dyfodol ef. *Paham gan hyny nad oeddych yn ofni dyweddy yn erbyn fy ngwas*—yr hwn sydd yn y fath arhydedd uchel gyda mi?

Adn. 9. *A digofaint yr Arglwydd a enynodd yn eu herbyn hwynt*] Yr hyn a arwyddid ond odid yn newidiad lliw y golofn gwml, neu trwy ymsaethiad tân allan o honi. *Ac efe a aeth ymaith*—oddiwrth ddwrws y babel, heb aros am eu hatebiad hwynt. Symudiad presenoldeb Duw oddiwrthym ni yw yr arwydd mwyaf athrist o'i anffodlonrwydd ef; ac nid yw ef byth yn ymadael nes i ni, trwy ein pechod a'n hynfydrwydd, ei yru ef oddiwrthym.

Adn. 10. *A'r cwmwl a ymadawodd oddiar y babel*] Hyny yw, a gwbl ddiflanodd, neu a safai mewn pellder mawr oddiwrth y babel, nes i Miriam gael ei symud allan o'r gweryll; er y tybia Poole ac ereill, heb nemawr o sail, mai y cwbl a feddylir yw, ddarfod iddo symud oddiwrth ddwrws y babel i'r rhan hono ag ydoedd yn union uwchben y drugareddfa, lle yr arhosai yn wastadol. *Ac wele Miriam ydoedd wahanglwyfus*—a hi yn unig, naill ai am mai hi oedd benaf yn y trosedd, fel yr ymddengys trwy ei bod yn cael ei henwi yn mlaenaf yn adn. 1; neu am na fynai Duw i'w addoliad ef gael ei rwystro a'i ddiarhydeddu, fel y gwnaethid pe buasai Aaron hefyd yn cael ei daraw yn wahanglwyfus. Pa nifer o weinidogion, y rhai a haeddasant gael eu gosod yn agored i wawd a gwardwydd, a arbedwyd er mwyn eu swydd santiaid, fel na feid ar y weinidogaeth! Eithr bydd i'r Duw cyfiawn a santiaid ymwelld â'u camweddau hwythau mewn rhyw ffordd arall, os na bydd iddynt edifarhau yn ddwys o'u berwydd, a chael trugaredd trwy Grist. *Fel yr eira*—y math hwn o wahanglwyf, meddai Benson, oedd y mwyaf gwenwynig ac anhawdd ei wella o'r cwbl. Y mae yn wir, pan fyddai y gwahanglwyf yn dechreu mewn rhan neillduol, ac oddiyno yn ymdaenu yn raddol dros yr holl gnawd, ac o'r diwedd yn ei droi yn *wjn* i gyd, fod hyny yn brawf o wellâd y y gwahanglwyf, Lef. xiii. 12, 13; ond yr oedd yn walianol pan darewid un yn ddisymwth â'r gwyni cyffredinol hwn.

Moses, O fy arglwydd, atolwg, na osod yn ein herbyn y pechod yr hwn yn ynyd a wnaethom, a thrwy yr hwn y pechasom.

12 Na fydded hi, atolwg, fel un marw, yr hwn y bydd hauner ei gnawd wedi ei ddifa pan ddel allan o groth ei fam.

13 A Moses a waeddodd ar yr Arglwydd, gan ddywedyd, O Dduw, atolwg, meddyginiaetha hi yr awr hon.

14 ¶ A dywedodd yr Arglwydd

wrth Moses, Os ei thad a boerau yn ei hwyneb, oni chywilyddiai hi saith niwrnod? cauer arni saith niwrnod o'r tu allan i'r gwersyll, ac wedi hyny derbynier hi.

15 A chauwydd ar Miriam o'r tu allan i'r gwersyll saith niwrnod: a'r bobl ni chychwynodd hyd oni ddaeth Miriam i mewn drachefn.

16 Ac wedi hyny yr aeth y bobl o Haseroth, ac a wersyllasant yn anialwch Paran.

Adn. 11. *O fy arglwydd, atolwg, na osod yn ein herbyn y pechod*] Na fydded i euogrwydd a chosp y pechod hwn orphwys arnom ni,—arni hi yn y modd yma, nac arnaf finau mewn unrhyw fodd arall,—ond gweddia ar i Dduw ei faddeu a'i symud ef.

Adn. 12. *Na fydded hi, atolwg, fel un marw*] Oblegid yr oedd rhan o'i chnawd wedi pydru a marw eisioes, ac yn anadferadwy ond trwy hollalluogrwydd Duw yn unig; megys plentyn ar ol bod gryn amser yn farw yn y groth, yr hwn pan esgorir arno sydd bydredig, a pheth o hono wedi ei ddifa.

Adn. 13. *A Moses a waeddodd ar yr Arglwydd*] Yr oedd Moses cyn belled oddiwrth ei chyhuddo hi wrth Dduw, ac o alw am gyfiawnder yn ei herbyn, fel, pan y darfu i Dduw mewn tynerwch at ei anrhydedd ef gospi ei thrahausder hi, mai efe oedd y cyntaf i weddio am i Dduwalw y farw yn ol. *O Dduw, atolwg, meddyginiaetha hi yr awr hon*—hyny yw, yn ddiatreg, rhag iddi farw; neu, y waith hon yn unig. Yma dysgir i ni weddio dros y rhai a wnel niwed i ni, a phleidio ymhyfrydu yn eu cospedigaeth hwy. Gallasai Moses sefyll draw, a dywedyd, Taler yn dda iddi yn awr, i ddygsu iddi lywodraethu ei thafod yn well y tro nesaf; y hon yn lle hyny y mae efe yn dywedyd mewn effaith, fel ei Feistr mawr, 'O Dad, maddeu iddynt!'

Adn. 14. *Os ei thad a boerau yn ei hwyneb*] Ymddengys nad oedd hyn yn cael ei wneuthur ond mewn achosion o gyffroad mawr o du y plentyn, ac o lidiogrwydd mawr o du y tad. Yr oedd *poeri yn y wyneb* yn arwydd o'r dirmyg mwyaf: gwel Job xxx. 10, Esay l. 6, Mat. xxvi. 67. Mewn achos lle yr oedd y tad yn rhwyng, trwy ymddygiad anuffydd ei blentyn, i'w dtrin ef yn y ffordd hon, ymddengys y byddai ef yn cael ei anfon o wyddfod ei dad am *saith niwrnod*. Os oedd hyn gan hyny yn beth goddefol a chyfiawn mewn achos o uchel gyffroad o du plentyn, oni ddylai y gosp fod yr un mor drom lle y darfu i'r *creadur* wrthryfela yn erbyn y CREAWDWR? Gan hyny canwyd Miriam o'r tuallan i'r gwersyll *saith niwrnod*, adn. 15, a rhwystrid iddi ddyfod i bresenoldeb ei Thad nefol, yr hwn a arddanghosir fel yn preswyllo yn mys y bobl.

Adn. 15. *A'r bobl ni chychwynodd hyd oni ddaeth Miriam i mewn drachefn*] Ni symudodd Duw y cwmwl, ac am hyny ni symudasant hwythau eu gwersyll. Bwriedid hyn, (1) Fel *cerydd i'r bobl*, y rhai oeddynt wedi pechu yn ol cyffelybiaeth camwedd Miriam, trwy

lefaru yn erbyn Moses; o herwydd pahan cânt hwythau cyn belled a hyny gyfranogi o'i chosp hi, trwy gael afrwyddo eu taith tua Chanaan. (2) Fel *tosturi tuag at Miriam*; canys pe symudasai y gwersyll yn ei habsenoldeb hi, buasai ei chosp a'i thrallod yn fwy.

Adn. 16. *Ac a wersyllasant yn anialwch Paran*] Yr ail waith, fel y casgla rhai wrth gymharu yr adnod hon â pen. x. 12. 'Nis gall hwn fod yr un *Paran* ag a grybwyllir Deut. i. 1,' meddai Clarke, 'canys yr oedd hwnw ar gyffiniau gwlad yr addewid; gwel y sylwadau ar Deut. i. 1, 2.' Ond gellir meddwl oddiwrth adn. 3 o'r bennod nesaf, fod y *Paran* hwn yn agos i Ganaan: gwel y sylw yno.

ADFEDDYLIAU.—(1) Nid oedd Moses ond newydd welled llosgi y tuchanwyd yn *Taberah*, a phrin wedi claddu y rhai hyny, gan ddeus yr Aifit yn hytrach na Chanaan, a fflaysiasant gig yn *Cibroth-Hattaafah*, cyn i Miriam ei aflonyddu ef yn chwerw! Hi a ymdrechai ddiraddio ei brawd fel *dyn*, am iddo briodi un o'r Cusiaid; a hi a geisai ei ddiraddio ef fel *proffwyd*, trwy ei chystadlu ei hunan âg ef; a pheth sydd waeth, hi a dynodd Aaron i'r fradwriaeth, ac ni phetrussasai dynu holl Israel i ddirmygu ei brawd a'i henwog gymwynaswr! Tymher meddwl hynod i ddynes yn y *ganfed* flwyddyn o'i hoedran, a dynes hefyd ag oedd yn dal uchel weddnod crefyddol! Bydded hyn yn addysgiadol i deuluoedd mewn ewerlyon. Boed i frodyr a chwirydd, os rhaid yw, geisio eu hawliau; ond na fydded iddynt byth, mewn mynydyn o ddigofaint, niweidio a diraddio eu gilydd o flaen y cyffredin, nac amlygu cyfrinach eu gilydd. (2) Nid oes achos i ddygnion da a llonydd, pan yn dyoddef enllib a gwaradwydd, fod yn bryderus yn nghyflech y canlyniad, canys bydd i Dduw ryw fodd neu gilydd en hamddyffyn. Darfu iddo yma wysio y pleidiau at ddrws y babell, y lle arferol o faru mewn uchel achosion. Yr oedd Miriam wedi diraddio ei brawd fel troseddwr, ac y mae Duw yn ei ddiuenogi; yr oedd hi wedi ei gystadlu ef gyda'r isaf o'r proffwydi, a dyrchafodd Duw ef uwchlaw iddynt oll: a chyn iddo ei gollwng hi ymaith oddiwrth ei faine, efe a'i tarawodd hi â gwahanglywyf, i'w hargyhoeddi o wahanglywyf centigen, yr hwn y golldefasai hi iddo vsu ei chalon. (3) Darfu i holl wersyll Israel aros tra yr oedd Miriam wedi ei chau allan. Yr un modd y mae centigen ac ymyrsonan eto yn rhwystro ein mynediad ninau tua'r Ganaan well; a pheth sydd waeth, y

PENNOD XIII.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Anfon i ti wŷr i edrych tir Canaan, yr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi i feibion Israel; gwŷr dros bob un o lwythau eu tadau a anfonwch; pob un yn benaeth yn eu mysg hwynt.

3 A Moses a'u hanfonodd hwynt o anialwch Paran, wrth orchymyn yr Arglwydd: penaethiaid meibion Israel oedd y gwŷr hyn y oll.

4 A dyma eu henwau hwynt. Dros lwyth Reuben, Sammau mab Zaccur.

5 Dros lwyth Simeon, Saphat mab Hori.

6 Dros lwyth Juda, Caleb mab Jephunneh.

7 Dros lwyth Issacar, Igal mab Joseph.

8 Dros lwyth Ephraim, Osea mab Nun.

9 Dros lwyth Benjamin, Palti mab Raphu.

10 Dros lwyth Zabulon, Gadiel mab Sodi.

maent yn fynych yn troi y cloff allan o'r ffordd. Boed i ni mewn 'parch flaenori ein gilydd,' Rhuf. xii. 10. Boed i ni fyw mewn heddwch a chariad, 'a Duw yr heddwch a fydd gyda ni,' Phil. iv. 9.

PEN. XIII. Adn. 2. *Anfon i't wŷr i edrych tir Canaan*] Trwy fod yr Israeliaid yn awr wedi dyfod i gyffiniau gwlad Canaan, fel y tybir yn gyffredin, y mae Moses yn gorchymyn iddynt, yn enw Duw, 'fyned i fyny a'i pherchenogi hi,' gan ddwyn ar gof iddynt ei addewid ef o'i rhoddi iddynt, a'u hannog i heidio ofni na llwfrhan, Deut. i. 21. Eithr y bobl anghrediniol, gan anghofio gallu a fyddlondeb Duw, a ofnent anturio ar hyn nes i rywrai gael eu hanfon i edrych pa fath wlad ydoedd, a pha fath bobl fyddai ganddynt-i ymwneyd â hwy, Deut. i. 22. Y mae Moses gan hyny, yn unol â'u dymuniad hwy, yn cael gorchymyn gan Dduw i anfon dynion cymbwys, wedi eu dewis o'r holl lwythau, i'r perwyl hwn. *Pob un yn benaeth yn eu mysg*—nid y rhai a elwir yn 'dywysogion y llwythau,' yn pen. i. 16; ond dynion o ddoethineb ac awdurodd, a phenaeithiaid neu swyddogion o is gradd.

Adn. 3. *A Moses a'u hanfonodd hwynt o anialwch Paran*] Yn mis *Ab*, yr hwn oedd y pummed mis o'r ail flwyddyn; yn nechre y mis, yn cyfateb i'r 19eg o'n Gorphenhaf ni: gwel *Jerome, Patrick, &c.* Gellir meddwl oddiyma fod y lle hwn ar gyffiniau gwlad yr addewid; ac os yr un *Paran* ydyw ag a grybwyllwyd pen. x. 12, rhaid i ni ei ystyried yn enw ar anialwch hirfaith, yn cyraedd bron o Horeb at gyffiniau Canaan.

Adn. 4—15. *A dyma eu henwau*] Ac y mae yn eglur oddiwrth eu henwau eu bod yn

11 O lwyth Joseph, dros lwyth Manasse, Gadi mab Susi.

12 Dros lwyth Dan, Amiel mab Gemali.

13 Dros lwyth Aser, Sether mab Michael.

14 Dros lwyth Naphtali, Nabbi mab Fophsi.

15 Dros lwyth Gad, Geuel mab Maci.

16 Dyma enwau y gwŷr a anfonodd Moses i edrych ansawdd y wlad. A Moses a enwodd Osea mab Nun, Josua.

17 ¶ A Moses a'u hanfonodd hwynt i edrych ansawdd gwlad Canaan; ac a ddywedodd wrthynt, Ewch yma tua'r deau, a dringwch i'r mynydd.

18 Ac edrychwch y wlad beth yw hi, a'r bobl sydd yn trigo ynddi, pa un ai cryf ai gwan, ai ychydig ai llawer ydynt;

19 A pheth yw y tir y maent yn trigo ynddo, ai da ai drwg; ac yn mha ddinasoedd y maent yn preswyllo, ai mewn pebyll, ai mewn amddiffynfeydd;

wahanol i'r penaethiaid a goffeir pen. i, fel y nodwyd uchod.

Adn. 16. *A Moses a enwodd Osea fab Nun, Josua*] Nen *Jehoshua*. Y mae *Osea* yn arwyddo *gweddi* am waredigaeth, 'Gwared, ni a atolygw i ti;' ond y mae *Josua* yn arwyddo *addewid* o waredigaeth, 'Efe a wared,' mewn atebiad i'r weddi hono. Felly yr oedd hyn yn arwydd y byddai i Josua ddylyn Moses yn y llywodraeth, ac y byddai ei arfan ef yn llwyddiannus. Y mae rhai yn meddwl fod Moses, wrth osod y sill gyntaf o enw *Jehofa* yn ei enw ef, a'i alw *Jehoshua*, yn amcanu ei anrhydeddu a'i wroli yn ei waith â'r sicrwydd o bresenoldeb Duw. Yr un yw yr enw *Josua* a *Iesu*, o'r hwn yr oedd Josua yn gysgod. Yr oedd Josua yn waredwr i bobl Dduw rhag galluoedd Canaan, a'r Iesu rhag galluoedd uffern. Y mae rhai yn meddwl iddo gael newid ei enw yn ganlyniol i'w fuddugoliaeth ar *Amalec*: gwel ar Exod. xvii. 9—14.

Adn. 17. *Ewch yma tua'r deau*] I'r rhan ddeheuol o Ganaan, yr hon oedd y rhan nesaf atynt, a'r waethaf hefyd, trwy ei bod yn sych ac anial, ac am hyny yn addas iddynt fyned iddi a thrwyddi gyda llai o sylw. *A dringwch i'r mynydd*—i'r wlad fynyddig, ac oddiyno i'r dyffirnoedd, ac felly cymerwch olwg ar yr holl dir.

Adn. 18. *Ac edrychwch y wlad beth yw hi*] O ran maint, natur, ac ansawdd. *A'r bobl*—pa un a ydynt yn ddynion iachus, cedyrn, a chelyd; ynte bychain, gweiniaid, ac annwyr; ac a oes yno lawer o honynt.

Adn. 19. *Ac yn mha ddinasoedd y maent yn preswyllo, ai mewn pebyll*] Fel y gwna i yr Arabiaid; neu bentrefi anghaerog, pa rai,

20 A pha dir, ai bras *yw* efe ai cul : a oes coed ynddo, ai nad oes. Ac ymwrwlwch, a dygwch o ffrwyth y tir. A'r dyddiau *oeddynt* ddyddiau blaenffrwyth grawnwin.

21 ¶ A hwy a aethant i fynu, ac a chwiliasant y tir, o anialwch Sin hyd Rehob, ffordd y deuir i Hamath.

22 Ac a aethant i fyny i'r deau, ac a ddaethant hyd Hebron : ac yno *yr oedd* Ahiman, Sesai, a Thalmi, meibion Anac : a Hebron a adeiladesid saith mlynedd o flaen Soan yn yr Aifft.

23 A daethant hyd ddyffryn Escol ; a thorasant oddiyno gangen âg un swp o rawnwin, ac a'i dygasant ar drosol rhwng dau : *dygasant rai* o'r pomgranadau hefyd, ac o'r sfigys.

24 A'r lle hwnw a alwasant Dyffryn

megys pebyll, sydd yn agored i'r gelyn. *Ai mewn amddiffynfeydd*—neu ddinasoedd caerog cedyrn.

Adn. 20. *A pha dir, ai bras yw efe ai cul*] Neu ddiffwrth ; yr hyn a ellid ei wybod oddiwth amledd y *coed* ynddo, a'r *ffrwyth-ydd* cyurchedig : ac am hyny deisyfid arnynt ei chwilio o ran ei goed, a dwyn rhai o'r ffrwythydd gyda hwynt. *A'r dyddiau oeddynt ddyddiau blaenffrwyth grawnwin*—os cychwynasant hwy ar y 19eg o Gorphenhaf, gwel ar adn. 3, yr oedd tua diwedd Awst arnynt yn dychwelyd, adn. 25 ; a dywed haneswyr fod gwinnaw, pomgranadau, a sfigys, yn addfed yn y gwledydd hyny tua'r pryd hwnw.

Adn. 21. *O anialwch Sin*] Y mae y lle a elwir *Sin* neu *Tsin*, yma, yn wahanol i'r hwn a elwir *Sin* yn Exod. xvi. 1 : yr oedd yr olaf yn agos i'r Aifft, eithr y blaenaf ydoedd yn agos i *Cades-Barnea*, nid yn mhell oddiwth gyfliniau gwlad yr addewid. *Hyd Rehob, ffordd y deuir i Hamath*—felly teithiant trwy yr holl wlad o'r deau hyd y parthau gogleddol.

Adn. 22. *A Hebron a adeiladesid saith mlynedd o flaen Soan yn yr Aifft*] Addefir mai *Soan* yr ysgrhythrau yw *Tanus* yr haneswyr cenhedlig, yr hou oedd brifddinas yr Aifft Isaf. Meddylia rhai mai i ddarostwng balchder yr Aiffiaid, y rhai a ymfrostient yn henafiaeth Soan, y cafodd y sylw hwn am nweh henafiaeth Hebron ei ddwyn i mewn gan Moses. Eithr tybia ereill mai *ymlynedd* ydoedd ar y cyntaf, pa un mewn amser a ymlusgodd i'r testyn ; ond y mae yr holl gyfieithiadau a'r ysgriflyfrau yn ei gydnabod.

Adn. 23. *Ac a'i dygasant ar drosol rhwng dau*] Naill ai oblegid pwysi y gangen, wrth ystyried hyd y ffordd ag yr oeddynt i'w chario ; neu er cadw y swp gwinnaw yn gyfan heb ei ysigo, fel y gallai, yr Israeliaid gael prawf tîg o'r ffrwyth. Y mae *Pliny* yn son am sypiau gwinnaw yn Affrica, pob un o ba rai oedd yn fwy na baban ; ac y mae *Paul Lucas* yn crybwyll am rai sypiau a welsai efe yn Damascus, yn pwysio uwchlaw 45 pwys yr un. Y mae gwinnaw yr Aifft yn dra *bychain* ; a

Escol ; o achos y swp grawnwin a dorodd meibion Israel oddiyno.

25 A hwy a ddychwelasant o chwilio y wlad ar ol deugain niwrnod.

26 ¶ A myned a wnaethant, a dyfod at Moses ac at Aaron, ac at holl gynulleidfa meibion Israel i Cades, yn anialwch Paran ; a dygasant yn eu hol air iddynt, ac i'r holl gynulleidfa, ac a ddangosasant iddynt ffrwyth y tir.

27 A mynegasant iddo, a dywedasant, Daethom i'r tir lle yr anfonast ni ; ac yn ddiau llifeirio y mae o laeth a mêl : a dyma ei ffrwyth ef.

28 Ond *y mae* y bobl sydd yn trigo yn y tir yn gryfion, a'r dinasoedd yn gaerog ac yn fawrion iawn ; a gwelsom yno hefyd feibion Anac.

29 Yr Amaleciaid sydd yn trigo yn

chan mai â'r rhai hyny yn unig yr oedd yr Israeliaid yn adnabyddus, byddai i ddirfawr faintioli gwinnaw Hebron ymddangos fyth yn fwy rhyfeddol. Gan mai Josua a Chaleb oedd yr unig ddyinion a roddasant hanes ffafriol am y wlad, y mae yn dra thebyg mai hwynt-hwy a gasglasant y ffrwythydd hyn, ac a'u dygasant i'r gwersyll Israelaidd. *Dygasant rai o'r pomgranadau hefyd, ac o'r sfigys*—y rhai oeddynt yn addfed yr un amser.

Adn. 24. *Dyffryn Escol*] Hyny yw, 'dyffryn y grawnswp,' fel y mae y gair yn arwyddo. Yn ol y Saesonaeg, *Nant Escol* ydyw ; ac y mae y gair gwreiddiol yn arwyddo *nant* neu *ddyffryn*. Y mae *dyffryn* yn ymddangos yn llawer mwy priodol yma, gan y byddai braidd yn chwithyg dywedyd iddynt dori i lawr gangen o *nant*.

Adn. 25. *Ar ol deugain niwrnod*] Sef tua diwedd Awst. Y mae yn syndod i'r bobl gael amynedd i wersyllu ddeugain niwrnod, pryd yr oeddynt bron yn barod i fyned i Ganaan, dan bob sierwydd o lwyddiant : eithr yr oeddynt hwy yn anghoelio Duw, ac yn dewis dylun eu cyngor eu hunain, yn hytrach nag ymorphwys ar addewid Duw !

Adn. 26. *I Cades*] Oddeutu pedair milldir ar hugain o Hebron.

Adn. 27. *A mynegasant iddo*] Sef i Moses, yn ngwydd Aaron a holl gynulleidfa meibion Israel. Ymddengys fod y deuddeg yn nghyd y pryd hyn. *Yn ddiau llifeirio y mae o laeth a mêl*—yr oedd Duw wedi dywedyd ei fod ef felly, ac y maent hwythau yn ffaelu gwadu hyn.

Adn. 28. *Ond y mae y bobl sydd yn trigo yn y tir yn gryfion*] Gwel ar adn. 33 ; *a'r dinasoedd yn gaerog*—gyda muriau tra uchel, y rhai nas gellir dringo drostyt ; a *gwelsom yno hefyd feibion Anac*—cewri mewn maint-oli a nerth.

Adn. 29. *A'r Amaleciaid sydd yn trigo yn nhir y deau*] Lle yr ydym ni i groesi trwy-odd ; a chan iddynt ddyfod i'r anialwch i ymladd â ni, Exod. xvii. 8, diamau y bydd iddynt ein gwrthwynebu pan y nesawn at eu

nhir y deau; a'r Hethiaid, a'r Jebusaid, a'r Amoriaid, yn gwladychu yn y mynydd-dir; ac y Canaanaid yn preswylwio wrth y môr, a cherllaw yr Iorddonen.

30 A gostogodd Caleb y bobl gerbron Moses, ac a ddywedodd, Gan fyned awn i fyny, a pherchenogwn hi: canys gan orchfygu y gorchfygwn hi.

31 Ond y gwŷr y rhai a aethant i fyny gydag ef a ddywedasant, Ni allwn ni fyned i fyny yn erbyn y bobl; canys cryfach ydynt na nynti.

32 A rhoddasant allan anghlod am y tir a chwiliasant, wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Y tir yr aethom drosto i'w chwilio, tir yn difa ei breswylwyr yw efe; a'r holl bobl a welsom ynddo ydynt wŷr corffiol:

gwlad, pe na byddai ond i ddial am eu colled o'r blaen. *A'r Iethiaid, a'r Jebusaid, a'r Amoriaid yn gwladychu yn y mynydd-dir*—yn y rhan ddeau-ddwyreiniol o'r wlad, fel nas gallwn fyned yuo heb anhawsder mawr, o herwydd nerth a gwroldeb y bobl hyny, a'r fantasia a feddant oddiwrth eu mynyddau. *A'r Canaanaid yn preswylwio wrth y môr*—dywed rhai mai Môr-y-canoldir a feddylir; ond y mae yn debycach mai'r Môr Marw, am mai hwnw oedd agosaf i'r Iorddonen, ac am mai yn y parthau hyny yr oedd y Canaanaid yn preswylwio yn benaf. Felly y mae y rhai hyn yn gwylio y fynedfa o du y dwyrain, fel y gwna y lleill o du y deau.

Adn. 30. *A gostogodd Caleb y bobl*] Ymddengys fod *Josua* yn cyduno âg ef, pen. xiv. 6, 7, 30, 38; ond *Caleb* yn unig a chwir, yn debygol am mai efe a lefarodd gyntaf a meithaf, yr hyn y medrai ef yn well ei wneuthur, rhag iddynt feddwl fod *Josua*, gweinidog *Moses*, yn llefaru i foddhau ei feistr. *Gan fyned awn i fyny, a pherchenogwn hi*—nid yw yn dywedyd, Awn i fyny a gorchfygwn hi; y mae efe yn ddyrch ar hyny cystal a phe buasai wedi ei wneuthur eisioes; ond, Awn i fyny a pherchenogwn hi! Fel pe dywedasai, 'Nid oes genym ddim i'w wneuthur ond myned i mewn, a chymeryd y meddiant ag y mae Duw yn awr yn barod i'w roddi i ni.' Yr un modd y bydd i'r anhawsderau a orweddant yn flordd iachawdwriaeth ddiffianu ymaith o flaen ffydd.

Adn. 31. *Ond y gwŷr y rhai a aethant i fyny gydag ef*] Yr oll o honynt oddieithr *Josua*. *Cryfach ydynt na nynti*—mewn corffiol aeth a rhifedi. Fel hyn y maent yn aman gallu, gwirionedd, a daioni Duw, o bob un o ba rai yr oeddynt wedi cael y fath brofion lluosog. Ond os oedd y bobl hyny yn gryfach nag *Israel*, a oeddynt hwy yn gryfach na *Duo Israel*?

Adn. 32. *Tir yn difa ei breswylwyr yw efe*] Trwy afiachusrwydd yr awyr a'r wlad, yr hyn a ddychymygent oddiwrth yr amrai anghladdau, y rhai, fel y dywed yr ysgrifenywyr Hebrëig, a welsant hwy yn eu taith trwy y tir; er

33 Ac yno y gwelsom y cawri, meibion *Anac*, y rhai a ddaethant o'r cawri; ac yr oeddynt yn ein golwg ein hunain fel ceiliogod rhedyn, ac felly yr oeddynt yn eu golwg hwythau.

PENNOD XIV.

YNA yr holl gynulleidfa a ddyrchafodd eu llef, ac a waeddodd, a'r bobl a wylasant y nos hòno.

2 A holl feibion *Israel* a duchanasant yn erbyn *Moses*, ac yn erbyn *Aaron*: a'r holl gynulleidfa a ddywedasant wrthynt, O na buasem feirw yn nhir yr Aiff! neu, O na buasem feirw yn y disfaethwch hwn!

3 A phaham y mae yr Arglwydd yn ein dwyn ni i'r tir hwn, i gwympo

i hyny ddygwydd oddiwrth achos arall, sef oddiwrth ragluniaeth neillduol Duw, pa nn, i rwyddhau buddgoliaeth yr *Israeiaid*, a dorai ymaith rifedi mawr o'r Canaanaid, naill ai trwy bla, neu yntw trwy gacwn wedi eu hanfon o'u blaen hwynt, *Jos. xxiv. 12.* Ond y mae llawer yn deall yr ymadrodd hwn fel yn dynodi lluosogrydd y trigolion; a chyfieithiant y geiriau gwreiddiol, *Y tir sydd fwyd i'w breswylwyr*—hyny yw, y mae y preswylwyr, gan mor aml ydynt, yn difa ac yn bwyta i fyny holl gynrych y tir. *A'r holl bobl a welsom ynddo ydynt wŷr corffiol—anshey middoth*, 'gwŷr o fesurau,' neu o uwcher dau ddyn; hyny yw, gwŷr tâl iawn.

Adn. 33. *Ac yno y gwelsom y cawri*] *Nephilim*. Y mae yn debyg iddynt weled yno hiliogaeth o ddynion cedyrn, celyd, rhyfelgar, ac o faintoli mawr; canys nid yw y ffaith haeredig yn cael ei gwadu gan *Caleb* na *Josua*. Y mae y chwedlau am *gawri* yn aml yn mboob gwlad. Yr oedd *Goliath* o leiaf yn naw troedfedd o uwchder; ac oddeutu can mlynedd yn ol cafwyd esgyrn dyn o'r maintoli hwnw mewn ogof yn swydd Derby. Y mae yr anghreiftiau hyn yn profi y gallai meibion *Anac* fod yn genedl o gyffelyb gorffolaeth. *Ac yr oeddynt yn ein golwg ein hunain fel ceiliogod rhedyn*—mewn cymhariaeth iddynt hwy; ac felly yr oeddynt yn eu golwg hwythau—yr oeddynt hwythau yn ein gwled ni yn yr un goleuni ag y gwleem ein hunain, sef yn bobl fychain, ddinerth, a distadl mewn cymhariaeth iddynt hwy.

PEN. XIV. Adn. 1. *Yna yr holl gynulleidfa a ddyrchafodd eu llef*] Wedi brawychu wrth dystiolaeth yr yspiwyr, y rhai a roddent anair i wlad yr addewid.

Adn. 2. *A holl feibion Israel a duchanasant yn erbyn Moses ac yn erbyn Aaron*] Megys yr offerynau neu yr achosion o'u hadfyd presenol. O na buasem feirw yn y disfaethwch hwn!—ond ni buont yn hir cyn iddynt gael eu dymuniad, a marw yn y disfaethwch, adn. 28—30.

Adn. 3. *A phaham y mae yr Arglwydd yn*

ar y cledddy? ein gwragedd a'n plant fyddant yn yspail Onid gwell i ni ddychwelyd i'r Aifft?

4 A dywedasant bawb wrth eu gil-ydd, Gosodwn ben *arnom*, a dychwel-wn i'r Aifft.

5 Yna y syrthiodd Moses ac Aaron ar eu hwynebau gerbron holl gynull-eidfâ tyrfa meibion Israel.

6 ¶ Josua hefyd mab Nun, a Chaleb mab Jephunneh, *deu* o ysbwyr y tir, a rwygasant eu dillad;

7 Ac a ddywedasant wrth holl dorf meibion Israel, gan ddywedyd, Y tir yr aethom drosto, i'w chwilio, *sydd* dir da odiaeth.

8 Os yr Arglwydd sydd foddlon i ni, efe a'n dwg ni i'r tir hwn, ac a'i

rhydd i ni; *sef* y tir sydd yn llifeirio o laeth a mêl.

9 Yn unig na wrthryfelwch yn erbyn yr Arglwydd, ac nac ofnwch bobl y tir; canys bara i ni ydynt: ciliodd eu hamddiffyn oddiwrthynt, a'r Arglwydd *sydd* gyda ni: nac ofnwch hwynt.

10 A'r holl dorf a ddywedasant am eu llabyddio hwynt â meini. A gogoniant yr Arglwydd a ymddanghos-odd yn mhabell y cyfarfod i holl feibion Israel.

11 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Pa hyd y digia y bobl yma fi? a pha hyd y byddant heb gredu i mi, am yr holl arwyddion a wnaethym yn eu plith?

ein dwyn, &c.] Oddiwrth yr offerynau y maent yn codi yn uwch; ac nid yn unig yn gollwng eu nwydau yn erbyn y gweision, ond yn taraw yn erbyn Duw ei hun fel yr achos o'u taith, gan ei gyhuddo ef yn dra annuwiol, megys pe buasai wedi ymddwyn yn dwyll-odrus tuag atynt. *Ein gwragedd a'n plant fyddant yn yspail*—i'r Canaanaeid, y rhai y gwnaed i ni gredu y caem feddiannu eu gwlad.

Adn. 4. *Gosodwn ben arnom*] Neu *gadben* yn lle Moses, un a fydd yn fyfoddlonach i'n lles nag efe. Ymddengys oddiwrth Nehem. ix. 17, ddarfod iddynt mewn gwirionedd benodi *ar-wemydd arall*, dan gyfarwyddyd yr hwn yr oeddynt yn nghyleb dychwelyd i'r Aifft! Mor hynod yw hyn! Gwnaed eu bywyd yn chwerv iddynt oblegid y caledi â'r hwn y gwneid iddynt wasanaethu yn yr Aifft; ac eto y maent yn ewyllysgar, ie yn *awyddus*, i fyned yn ol i'r un amgylchiadau drachefn! Y mae dryg-aw mawrion, wedi iddynt fyned heibio, yn effeithio yn llai ar y meddwl na drygau *presen-ol*, er eu bod lawer yn llai. *A dychwelwn i'r Aifft*—y fath ynyfdrwydd ac anniolchgarwch! Ai nid oedd Duw wedi eu gwaredu hwynt oddiyno trwy nifer o ryfeddadau digyffelyb, a'u dylun byth wedi hyni â gwyrthiau parhaus o drugaredd? Ond o ba le y caent nodd-ed rhag peryglon yr anialwch, ac arlwyadau gogyfer â'u holl anghenion? A allent hwy ddysgwyl cwmwl Duw i'w cysgodi a'u har-wain, neu fanna o'r nef i'w porthi? Pwy a'u harweiniai hwynt trwy y môr coch? neu os aent ffordd arall, pwy a'u hamddiffynai rhag y cenhedloedd ag y tramwyent trwy eu ter-fynau? Hefyd, pa dderbyniad a allent hwy ei ddysgwyl gan yr Aifftiaid, y rhai yr oedd-ynt wedi ffoi oddiwrthynt, a'u dwyn i'r fath ddystryw?

Adn. 5. *Yna y syrthiodd Moses ac Aaron ar eu hwynebau*] Fel ymbilvyr gostyngedig a thaer ar Dduw; *gerbron holl gynulleidfâ tyrfa meibion Israel*—fel y deffroid hwynt i ddeall eu pechod a'u perygl pan y gwelent Moses yn gweddio, yr hwn na phallodd Duw erioed ei amddiffyn, er hyd yn nod gyda din-yrstr ei elynion.

Adn. 6. *Josua—a Chaleb—a rwygasant eu*

dillad] I ddangos eu dwfn dristwch oblegid cabledd y bobl yn erbyn Duw, a'u wrthryfel yn erbyn Moses, a'r fam ofnadwy hōno yr hon yr oedd yn hawdd gweled y byddai raid i hyn ei dwyn ar y gynulleidfâ.

Adn. 7. *Y tir yr aethom drosto i'w chwilio, sydd dir da odiaeth*] Hollol wahanol i'r hyn a gylwsoch gan y deg ysbwyr ereill.

Adn. 8. *Os yr Arglwydd sydd foddlon i ni*] Os na fydd i ni, trwy ein gwrthryfel a'n hanniolchgarwch, gyffroi Duw i'n gadael a'n gwrthod.

Adn. 9. *Canys bara i ni ydynt*] Myn rhai mai yr ystyr yw, y byddai i'r Israeliaid ddy-fetha y Canaanaeid fel y dyfetha y bwytydd fara; ereill a dybiant mai cyfeiriad sydd yma at y gynaliaeth helaeth a gaent trwy gyfoeth y Canaanaeid. *Ciliodd eu hamddiffyn oddi-wrthynt*—y mae Duw, yr hwn a welai yn dda eu *cysgodi â'i aden* nes i gwpan eu han-wiredd fod yn llawn, wedi hollol gilio oddi-wrthynt, gan eu rhoddi i fyny megys ysglyf-aeth i ni. *A'r Arglwydd sydd gyda ni*—trwy ei ras a'i nerth hollallnug, i'n gwaredu ni oddiwrthynt hwy a'n holl elynion.

Adn. 10. *A'r holl dorf a ddywedasant am eu llabyddio hwynt â meini*] Sef Josua a Chaleb. A gogoniant yr Arglwydd a ym-ddanghosodd—i attal i'r gweision fyfddlon hyn i Dduw gael eu llabyddio i farwolaeth gan y dorf ddyhir a bradwraidd yma. Pan yr oeddynt yn beio Duw ei hun, nid ym-ddanghosodd ei ogoniant ef i ddystewi eu cableddau; ond pan yn bygwth Caleb a Josua, cyffyrddasant â chanwyll ei lygad ef, a'i ogoniant a ymddanghosodd yn y fan.

Adn. 11. *Pa hyd y digia y bobl yma fi*] Y mae Duw yn y nefoedd yn cadw cyfrif *pa hyd* y mae pechaduriaid yn parhau yn eu cyth-ruddiadau; a pha hwyaf y parhant, mwyaf y sora efe wrthynt. *A pha hyd y byddant heb gredu i mi?*—dyma oedd y gwreiddyn chwerv ag ydoedd yn dwyn gwenwyn a wermod: eu *hannghrediniacth* a'i gwnaeth yn 'ddydd cyff-road yn y diffaethwch.' Pa agosaf y bo un-rhyw bobl at Dduw mewn enw a phroffes, mwyaf y mae ef yn cael ei ddigio trwy eu pechodau hwynt, yn enwedig trwy eu han-

12 Tarawaf hwynt â haint, a gwasgaraf hwy, a gwnaf di yn genhedlaeth fyf, a chryfach na hwynt-hwy.

13 ¶ A dywedodd Moses wrth yr Arglwydd, Felly yr Aifftiaid a glyw (cansys o'u mysg hwynt y dygaist y bobl yma i fyny yn dy nerth)

14 Ac a ddywedant i breswylwyr y tir hwn (cansys clywsant dy fod di, Arglwydd, yn mysg y bobl yma, a'th fod di, Arglwydd, yn ymddangos *iddynt* wyneb yn wyneb, a bod dy gwmwl di yn aros arnynt, a'th fod di yn myned o'u blaen hwynt mewn colofn o gwmwl y dydd, ac mewn colofn dân y nos)

15 Os lleddi y bobl yma fel un gŵr; yna y dywed y cenhedloedd y rhai a glywsant son am danat, gan ddywedyd,

16 O eisiau gallu o'r Arglwydd ddwyn y bobl yma i'r tir y tyngodd efe iddynt, am hyny y lladdodd efe hwynt yn y diffaethwch.

nghrediniaeth. *Am yr holl arwyddion a wnaethym yn eu plith*—trwy y rhai, gallasai un feddwl, yr oedd efe wedi eu rhwymo hwynt yn effeithiol i'w garu ac ymddiried ynddo.

Adn. 12. *Tarawaf hwynt, &c.*] Nid oedd hyn yn hollol benderfyniad, eithr bygythiad ydoedd fel hwnw am ddiarys Ninefe, gydag addewid yn gynwysedig os byddai yno edifeirwch ebrwydd neu eiriolaeth rymus. *A gwnaf di yn genhedlaeth fwy*—cyslawnaf fy addewid i Abraham trwy dy wneuthur di yn dad pobl lluosocach a chryfach na hwynt-hwy.

Adn. 13. *A dywedodd Moses wrth yr Arglwydd, Felly yr Aifftiaid a glyw*] Ac a lawenychant. Y mae eiriolaethi Moses yma yn lled debyg i'r un o'r blaen yn achos y llo aur: gwel ar Exod. xxxii. 12, &c. Ei dddadleuon gyda Duw ydynt gyfeiriol, grymus, a pharchus; a thra y maent yn dangos calon lawn o hynawsedd, y maent yn amlygu y gofal mwyaf am ogoniant Duw.

Adn. 14. *Ac a ddywedant i breswylwyr y tir hwn*] I'r Canaanaeid, a'r rhai y mae ganddynt gyweithias fynyfych.

Adn. 15. *Os lleddi y bobl yma fel un gŵr*] Hyny yw, os lleddi hwynt oll, fel pe na bae ganddynt ond un bywyd.

Adn. 16. *O eisiau gallu*] Hwyl a dynant y casgliad yma, mai am fod yr hwn a elwir yn HOLLALLUOG yn ddiffygiol mewn gallu, y lladdodd efe hwynt cyn dyfod o honynt i'r tir a addawsai efe iddynt trwy lw. Nis gallant ddeall hyny fel gweithred o *gyfiawnder*; ac am hyny dywedant fod dy fraich wedi byrhau, a'th allu gwyrtiol wedi darfod.

Adn. 17. *Mawrhaer, atolwg, nerth yr Arglwydd*] Trwy ddangos i'r Aifftiaid a'r Canaanaeid fod genyt allu nid yn unig i gyflawni dy addewidion gynt, ond hefyd i faddu y pechodau presenol.

Adn. 18. *Yr Arglwydd sydd hwyrfrydig i*

17 Yr awr hon, gan hyny, mawrhaer, atolwg, nerth yr Arglwydd, fel y llecraist, gan ddywedyd,

18 Yr Arglwydd *sydd* hwyrfrydig i ddog, ac aml o drugaredd, yn maddeu anwiredd a chamwedd, a chan gyfiawnhau ni chlyfiawnha efc *yr euog*; ymweled y mae âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd *genhedlaeth*.

19 Maddeu, atolwg, anwiredd y bobl yma, yn ol dy fawr drugaredd, ac megys y maddeu aist i'r bobl hyn, o'r Aifft, hyd yma.

20 A dywedodd yr Arglwydd, Maddeuais, yn ol dy air:

21 Ond os byw fi, yr holl dir a lenwir o ogoniant yr Arglwydd.

22 Cansys yr holl ddyonion y rhai a welsant fy ngogoniant, a'm harwyddion a wnaethym yn yr Aifft, ac yn y diffaethwch, ac a'm tentiasant y dengwaith hyn, ac ni wrandawsant ar fy llais,

ddig, &c.] Yma y mae Moses yn cryfhau ei eiriolaeth trwy ddwyn yn mlaen yr hyn a lefarasai יהוה am dan o ei hun: gwel ar Exod. xxxiii. 6, 7.

Adn. 19. *Megys y maddeu aist i'r bobl hyn o'r Aifft hyd yma*] Galleid meddwl y buasai gwaith Duw yn maddeu iddynt gnyfer o weithiau, yn rheswm bellach i beidio â maddeu iddynt; ond y mae Moses yn edrych ar hyny fel dadl dda: 'Maddeu, atolwg, megys y maddeu aist.' Fel pe dywedasai, Ni fydd yn ddim mwy o warth i'th gyfiawnder, nac yn ddim llai o glod i'th drugaredd, faddu o honot yn awr, nag y bu o'r blaen o'r Aifft hyd yma.

Adn. 20. *Maddeuais, yn ol dy air*] Hyny yw, ni thoir hwynt ymaith yn awr, fel y maent yn haeddu, am i ti eiriol dros eu bywydau. Gwelw mor barod yw Duw i drugarhau. 'Maddeu,' ebai Moses; 'Maddeuais,' ebai Duw!

Adn. 21. *Ond os byw fi*] Neu, cyn wired a fy mod yn fyw, *yr holl dir a lenwir o ogoniant yr Arglwydd*—gyda'r adroddiad am weithred ogoneddus a chyfiawn Duw yn cospi y bobl wrthryfelgar hyn trwy eu cau allan o Ganaan. Tybia Clarke mai cyfeiriad sydd yma at bregethiad Crist a'i apostolion trwy holl ddinasoedd a phentrefi Judea; ond y mae rhediad a synwyr y cyd-destunau yn cyfiawnhau, dybygem, yr ystyr blaenaf.

Adn. 22. *Ac a'm tentiasant y dengwaith hyn*] Hyny yw, 'lawer gwaith,' ond odid; rhif penodol am un ambenodol. Modd bynag, y mae yr ysgrifenywr Iuddewig yn cyfrif mai dyma y degfed tro ar ei ben i gynulleidfa meibion Israel ddogio Duw. Yn gyntaf wrth y môr coch, Exod. xiv. 11; wedi hyny yn Mara, Exod. xv. 24; yn anialwch Sin, Exod. xvi. 2; ddwywaith yn nghylch y manna, Exod. xvi. 20, 27; yn Rephidim, Exod. xvii. 1, 2;

23 Ni welant y tir y tyngais wrth eu tadan hwynt; *sef* y rhai oll a'm digiasant, nis gwelant ef:

24 Ond fy ngwas Caleb, am fod ysbryd arall gydag ef, ac iddo fy nghyflawn ddylyn, dygaf ef i'r tir y daeth iddo: a'i had a'i hetifedda ef.

25 (Ond y mae yr Amaleciaid a'r Canaanaeid yn trigo yn y dyffryn) y fory trowch, ac ewch i'r diffaethwch, *ar hyd ffordd y môr coch*.

26 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywedyd,

27 Pa hyd y cyd-ddygaf â'r gynull-eidda ddrygionus hon sydd yn tuchan i'm herbyn? clywais duchan meibion Israel, y rhai sydd yn tuchan i'm herbyn.

28 Dywed wrthynt, *Felmai* byw fi, medd yr Arglwydd, fel y lfearasoch

yn fy nghlustiau, felly y gwnaaf i chwi.

29 Yn y diffaethwch hwn y cwmp eich celaneddau; a'ch holl rifedigion trwy eich holl rif, o fab ugain mlwydd ac uchod, y rhai a duchanasoch yn fy erbyn,

30 Diau ni ddeuwch chwi i'r tir am yr hwn y codais fy llaw, am wneuthur i chwi breswyllo ynddo, ond Caleb mab Jephunneh, a Josua mab Nun.

31 Ond eich plant chwi, y rhai y dywedasoch y byddent yn yspail, hwynt-hwy a ddygaf i'r wlad, a hwy a gânt adnabod y tir a ddirmygasoch chwi.

32 A'ch celaneddau chwi a gwmpant yn y diffaethwch hwn.

33 A'ch plant chwi a fugeilia yn y diffaethwch ddeugain mlynedd, ac a

yn achos y llo aur, Exod. xxxii. 1, &c.; yn Taberah, Num. xi. 1—3; wedi hyny yn Cibroth-Hattaafah, adn. 33; ac yn awr yma.

Adn. 23. *Ni welant y tir*] Er i Dduw, ar eiriolaeth Moses, arbed eu bywydau rhag cael eu dyfetha yn ebrwydd, eto efe a fynai ddangos cymaint o'i anfoddlonrwydd yn erbyn grwg-nachrwydd y genhedlaeth hōno fel ag i'w cau allan o wlad yr addevid.

Adn. 24. *Ond fy ngwas Caleb*] Nid yw Josua yn cael ei enwi, am nad oedd efe yn awr yn mhlith y bobl, ond yn gweini yn barhaus i Moses; ac nid oedd efe i gael ei gyfrif megys un o honynt hwy, ddim mwy na Moses ac Aaron, am mai efe oedd i fod eu prif lywydd: gwel ar pen. xiii. 30. *Am fod ysbryd arall gydag ef*—am ei fod yn ddyn o dymher arall, fyddlon a gwrol, heb gael ei gynhyrfu gan yr ysbrud drwg hwnw o annewredd, a nghrediniaeth, ac anuffydd-dod, yr hwn a lywodraethai yn ei frodyr, ond gan Ysbryd Duw. *Ac iddo fy nghyflawn ddylyn*—yn gyffredinol a chys-on, trwy anhawsderau a pheryglon, y rhai a barasant i'w gymdeithion gloffi. *Dygaf ef i'r tir y daeth iddo*—sef i Ganaan, yr hon y bu yn ei chwilio. *A'i had a'i hetifedda ef*—sef Hebron a'i hamgylchoedd, Jos. xiv. 9, 13, 14.

Adn. 25. *Ond y mae yr Amaleciaid a'r Canaanaeid yn trigo yn y dyffryn*] Tuhwnt i'r mynydd, wrth droed yr hwn yr oeddynt yn awr, adn. 40. Ac y mae yr ymadrodd hwn yn cael ei chwaneu, naill ai, (1) Fel mwyhad ar drueni a chosp Israel, eu bod yn gorffod dychwelyd i'r diffaethwch pan yr oeddynt yn barod i fyned a pherchenogi y wlad; neu, (2) Fel rhesmyn i'w gwneyd yn fwy ewyllysgari ufyddhau i'r gorchymyn dylynol i ddychwelyd i'r diffaethwch, am fod eu gelynyon yn dra agos atynt, heb ddiu rhyngddynt ond y mynydd Idumeaidd hwnw yn unig; ac onid ymadawent ar frys, y syrthiai eu gelynyon arnynt; ac felly y byddai i'r drwg, yr hwn o'r blaen a ofnent yn ddiachos, ddyfod arnynt; ac y byddai iddynt hwy, eu gwagedd, a'u plant, ddyfod yn yspail i'r Amaleciaid a'r Canaanaeid, trwy na fyddai i Dduw eu cynorthwyo na'u

hamddiffyn hwynt. *Ar hyd ffordd y môr coch*—ag sydd yn arwain tua'r môr coch a'r Aifft, lle yr ydych yn ewyllyso dychwelyd.

Adn. 27. *Sydd yn tuchan im' herbyn*] Am i mi orchymyn iddynt droi yn ol i'r diffaethwch, adn. 25.

Adn. 28, 29. *Fel y lfearasoch yn fy nghlustiau*] Pan yr oeddych yn ddrygionus yn dymuno cael marw yn y diffaethwch, adn. 2; *felly y gwnaaf i chwi*—chwi a gewch eich dymuniad: *yn y diffaethwch hwn y cwmp eich celaneddau*—pob un o honoch ag sydd wedi cyraedd ugain oed: nid oll ar unwaith, ond yn raddol.

Adn. 30—32. *Diau ni ddeuwch chwi i'r tir am yr hwn y codais fy llaw*] Neu y tyngais y caech breswyllo ynddo. Ond nid oedd y tir wedi ei addaw i'r dynion hyn yn neillduol, eithr i had Abraham yn gyffredinol; gan hyny nid oedd yn un toriad o'r cyfammod iddynt hwy gael eu cau allan. Darfu i ereill o liliogaeth Abraham mewn gwirionedd ei dderbyn a'i fwynhau ef, er na ddarfu i'r rhai hyn.

Adn. 33. *A'ch plant chwi a fugeilia yn y diffaethwch*] A gwrwydrant am eu lluniaeth o le i le, yn ol dull y bugeiliaid Arabaidd, y rhai sydd yn gorffod symud eu pebyll o'r naill le i'r llall er cael porfa i'w hanfelliad. *Ddeugain mlynedd*—gan gyfrif o'r amser ag y daethant gyntaf o'r Aifft i'r anialwch, lle yr oeddynt wedi bod yn crwydro eisioes flwyddyn a baner. *Ac a ddygant gomp eich puteindra chwi*—sef eich eilunaddoliaeth, neu eich gwrthgiliaid chwi oddiwrth yr Arglwydd, yr hwn oedd eich priod chwi, trwy iddo eich dyweddio iddo ei hun trwy gyfammod. Y mae eilunaddoliaeth, a gwrthgiliaid oddiwrth addoliad Duw, yn cael eu harddangos yn fynych yn yr ysgrythyr dan yr enw *puteindra*; ac ymddengys oddiwrth Amos v. 25, 26, fod yr Israellaid yn awr ac yn y man yn syrthio i'r pechod hwn yn ystod yr holl yspaid o'r deugain mlynedd hyn yn y diffaethwch.

Adn. 34. *Yn ol rhifedi y dyddiau y chwi-isasoch y tir*] Bu yr ysbwy'r ddeugain niwrnod

ddyfiant *gosp* eich puteindra chwi, nes darfod eich celaneddau chwi yn y diffaethwch.

34 Yn ol rhifedi y dyddiau y chwili-iasoch y tir, *sef* deugain niwrnod (pob diwrnod am flwyddyn) y dygwch eich hanwireddau, *sef* deugain mlynedd; a chewch wybod toriad fy ngair i.

35 Myfi yr Arglwydd a leferais, diau y gwnaf hyn i'r holl gynulleidfa ddrygionus yma, sydd wedi ymgynull i'm herbyn i; yn y diffaethwch hwn y darfyddant, ac yno y byddant feirw.

36 A'r dynion a anfonodd Moses i chwilio y tir, y rhai a ddychwelasant, ac a wnaethant i'r holl dorff duchan yn ei erbyn ef, gan roddi allan anair am y tir;

37 Y dynion (*meddaf*) y rhai a roddasant allan anair drwg i'r tir, a fuant feirw o'r pla, gerbron yr Arglwydd.

38 Ond Josua mab Nun, a Chaleb mab Jephunneh, a fuant fyw o'r gwŷr hyn a aethant i chwilio y tir.

39 A Moses a lefarodd y geiriau

yn chwilio y tir, pen. xiii. 25; ac y mae y bobl, y rhai a wrthryfelasant o herwydd eu hanair hwy, yn cael eu dedfrydu i grwydro ddeugain mlynedd yn yr anialwch, ond fod Duw yn drugarog yn derbyn yr yspaid a aethai heibio fel rhan o'r amser hwnw. Yn awr boed iddynt osod pen arnynt, a dychwelyd i'r Aifft *os gallant!* Yr oedd Duw wedi eu hamgylchynu yn y fath fodd â'i allu a'i rag-luniaeth, fel nas gallent droi yn ol i'r Aifft na myned yn mlaen i Ganaan! *A chewch wybod toriad fy ngair i*—megys ag y darfu i chwi yn gyntaf dori y cyfammod rhygoch chwi a mi, trwy dori yr ammodau o hono; felly y dirymaf fiau ef o'm tu inau, trwy ommedd i chwi y bendithion addawedig yn y cyfammod hwnw. Fel hyn y cewch weled fod y 'toriad gair,' neu addewid, â'r hwn y cyhuddwch fi, yn gorwedd wrth eich drws chwi, a darfod ei orfodi oddiwrthyf fi trwy eich bradwriaeth eich hunain. Ond y mae y rhan fwyaf o'r dysgedigion yn cydnno y dylai y geiriau *eth tenuathi* gael eu cyfieithu, 'a chewch wybod *fy uialedd i*,' yr hyn yw cyfieithiad y LXX, y Vulgate, y Goptaeg, a'r hen gyfieithiadau Saesonig.

Adn. 35. *Diau y gwnaf hyn i'r holl gymulleidfa ddrygionus yma!* O fab ugain mlwydd ac uchod, adn. 29.

Adn. 36—38. *A'r dynion a anfonodd Moses i chwilio y tir—a fuant feirw o'r pla!* Naill ai trwy haint, neu trwy ryw farn ddisymwth ac annghyffredin arall, wedi ei hanfon ond odid o'r cwmwl yn yr hwn y preswyliai Duw. Fel hyn cafodd *deg* o'r deuddeg eu taraw yn feirwon gan gyfiawnder Duw yn y fan! *Caleb* o lwyth Juda, a *Josua* o lwyth Ephraim, yn unig a ddiangasant, am iddynt gyflawn ddylyn Duw. 'Boed i bregethwyr

hyn wrth holl feibion Israel: a'r bobl a alarodd yn ddirfawr.

40 ¶ A chodasant yn fore i fyned i ben y mynydd, gan ddywedyd, Wcle ni, a ni a awn i fyny i'r lle *am* yr hwn y dywedodd yr Arglwydd: canys ni a bechasom.

41 A dywedodd Moses, Paham yr ydych fel hyn yn troseddu gair yr Arglwydd? a hyn ni lwydda.

42 Nac ewch i fyny; canys nid *yw* yr Arglwydd yn eich plith: rhag eich taro o flaen eich gelyniau.

43 Canys yr Amaleciaid a'r Canaanaid *ydylt* yno o'ch blaen chwi, a chwi a syrthiwech ar y cleddyf: canys am i chwi ddychwelyd oddiar ol yr Arglwydd, ni bydd yr Arglwydd gyda chwi.

44 Eto rhyfygasant fyned i ben y mynydd: ond arch cyfammod yr Arglwydd, a Moses, ni symudasant o ganol y gwersyll.

45 Yna y disgynodd yr Amaleciaid a'r Canaanaid, y rhai oedd yn preswyllo yn y mynydd hwnw, ac a'u tar-

gair Duw,' meddai Clarke, 'wyllo pa fodd y maent yn cyfyngu ffordd iachawdwriaeth, neu trwy ddarluniau anhŷg yn gwneyd y ffordd hŷno yn ddyrys ac anhawdd, yr hou a wnaeth Duw yn eglur a hawdd.'

Adn. 39. *A'r bobl a alarodd yn ddirfawr!* Eithr yr oedd yn awr yn rhy ddiweddar: nid oedd bellach ddim lle i edifeirwch! Y mae y cyfryw alar a hwn yn uffern; eithr ni fydd i'r dagrau ddiffodd y filamau!

Adn. 40—44. *Wele ni, a ni a awn i fyny!* I wlad Canaan. Yr oeddynt yn deall eu bod ar derfynau y wlad addawedig, a chlywsant Dduw yn dywedyd na chaent fyned iddi, ond y byddai iddynt gael eu dyfetha trwy ddeugain mlynedd o grwydriad yn yr anialwch; er hyn y maent yn penderfynu ceisio dirymu y bwriad hwn o eiddo Duw, gan feddwl ond odid y byddai i'r byr dristwch a deimlasant am eu diweddar wrthryfel gael ei dderbyn fel iawn digonol am eu troseddau! Yn ol hyn y rhyfygasant fyned i fyny i ben y mynydd, a thorwyd hwynt i lawr gan eu gelyniau; a phaham? Nid aeth Duw gyda hwynt. Yr oedd y bobl ynfyd hyn, ychydig amser yn ol, yn meddwl nas gallent orchfygu a pherchenogi y wlad er fod Hollalluogrwydd Duw gyda hwynt; ac yn awr y maent yn dychymygu eu bod yn alluog i yru allan y trigolion, a chymeryd meddiant o'u gwlad, er nad yw Duw gyda hwynt! *Onid arch cyfammod yr Arglwydd a Moses ni symudasant o ganol y gwersyll*—eithr yr oedd y Lefaid, a'r cwmwl gogoniant, yn aros fyth yn eu lle.

Adn. 45. *Ac a'u dyfhasant hyd Hormah!* Ystyr yr enw hwn yw *dinystyr*: gwel ar pen. xxi. 3. Y mae Hormah yn sefyll ar gyffiniau Canaan, yn agos i'r môr marw. Yn awr dechreuodd y ddedfryd hŷno gael ei chyflawni,

awsant, ac a'u dyfethasant hyd Hormah.

PENNOD XV.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddelych i dir eich preswylfod, yr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi i chwi,

3 Ac offrymu o honoch aberth tanllyd i'r Arglwydd, offrwm poeth, neu aberth wrth dalu adduned, neu mewn offrwm gwirfodd, neu ar eich gŵyliau gosodedig, gan wneuthur arogl peraidd i'r Arglwydd, o'r eidionau, neu o'r praidd:

4 Yna offrymed yr hwn a offrymo ei rodd i'r Arglwydd, o beillied ddegfed ran, wedi ei gymysgu trwy bedwaredd ran hin o olew, yn fwyd-offrwm.

5 Ac offrwm di gyda'r offrwm poeth, neu yr aberth, bedwaredd ran hin o win am bob oen yn ddiod-offrwm.

6 A thi a offrymi yn fwyd-offrwm gyda hwrdd, o beillied ddwy ddegfed ran, wedi ei gymysgu trwy drydedd ran hin o olew.

7 A thrydedd ran hin o win yn ddiod-offrwm, a offrymi yn arogl peraidd i'r Arglwydd.

8 A phan ddarperych lo buwch yn offrwm poeth, neu yn aberth yn talu adduned, neu aberth heddi i'r Arglwydd;

9 Yna offrymed yn fwyd-offrwm gyda llo y fuwch, o beillied dair deg-

fed ran wedi ei gymysgu trwy hanner hin o olew.

10 Ac offrwm hanner hin o win yn ddiod-offrwm, yn aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

11 Felly y gwna'r am bob ŷch, neu am bob hwrdd, neu am oen, neu am ŷyn.

12 Yn ol y rhifedi a ddarparoch, felly y gwnewch i bob un, yn ol eu rhifedi.

13 Pob priodor a wna y pethau hyn felly, wrth offrymu aberth tanllyd o arogl peraidd i'r Arglwydd.

14 A phan ymdeithio dyeithrddyn neu yr hwn sydd yn eich plith trwy eich cenedlaethau, a darparu aberth tanllyd o arogl peraidd i'r Arglwydd; fel y gwneloch chwi, felly gwnaed yntau.

15 Yr un ddeddf fydd i chwi o'r dyrfa ac i'r ymdeithydd dyeithr; deddf dragwyddol yw trwy eich cenedlaethau: megys yr ydych chiwi, felly y bydd y dyeithr gerbron yr Arglwydd.

16 Un cgfraith, ac un ddefod, fydd i chwi, ac i'r ymdeithydd a ymdeithio gyda chwi.

17 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

18 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddeloch i'r tir yr ydwyf yn eich dwyn chwi iddo;

19 Yna pan fwytaoch o fara y tir, y dyrchefwch offrwm dyrchafael i'r Arglwydd.

20 O flaenion eich toes yr offrymwech deisen yn offrwm dyrchafael: fel

y byddai i'w celaneddau gwmpo yn y diffaethwch, adn. 32.

PEN. XV. Adn. 1. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, &c.*] Nid yw yn eglur pa bryd y traddodwyd y deddfau hyn; ond casgla rhai, oddiwrth adn. 23, ei bod tua diwedd eu pererindod, ac nid yn hir cyn eu sefydliad yu Nghanaan, ac o ganlyniad pryd yr oedd rhan o'r genhedlaeth wrthryfelgar hono a grybwyllwyd yn y bennod flaenorol wedi eu tori ymaith trwy farwolaeth. Os yw y dyb hon yn gywir, gorchymynwyd y deddfau hyn i blant y tuchanwyr yn unig, y rhai nad oeddynt wedi ffurfio eu hawl i'r etifeddiaeth yn ngwlad yr addewid, fel y gwnaethai eu tadau. Modd bynag, y mae Le Clerc o'r farn ddarfod i'r deddfau a goffeir yma gael en traddodi cyn y gwrthryfel crybwylliedig yn y bennod flaenorol.

Adn. 2. *Pan ddeloch i dir eich preswylfod*] I Ganaan; canys nid oedd yn gyfleus iddynt yn yr anialwch gadw amrai o'r deddfau a roddid iddynt.

Adn. 3. *Ac offrymu o honoch aberth tan-*

llyd] Felly y gelwid yr ebyrth a losgid oll neu mewn rhan ar yr allor. *Neu aberth wrth dalu adduned*—gwel yr offrymau a'r aberthau Iuddewig yn cael eu hegluro yn yr adfeddyliadau ar Lef. vii.

Adn. 4—13. *Yna offrymed, &c.*] Yr oedd y mesur o olew, gwin, a pheillied yn cynyddu mewn cyfartalwch i faintioli yr aberth gyda'r hwn eu hoffrymid. Gydag oen neu ŷyn offrymid un ddegfed ran o beillied, (sef omer, y ddegfed ran o epha, gwel ar Exod. xxix. 40.) *pedwaredd* ran hin o olew, a *phedwaredd* ran hin o win, adn. 4, 5. Gyda hwrdd, *dwyr* ddegfed ran o beillied, *trydedd* ran hin o olew, a *thrydedd* ran hin o win, adn. 6, 7. Gydag rŷu neu lo, *tair* degfed ran o beillied, *hanner* hin o olew, a *hanner* hin o win, adn. 8—11.

Adn. 14—16. *A phan ymdeithio dyeithrddyn, &c.*] Y mae yn eglur fod hyn i'w ddeall am ddyeithriaid ag oeddynt wedi ymwrthod â g eilunaddoliaeth, a dyfod yn broselytiaid i addoliaid y gwir Dduw. Ac oni buasai fod y dyeithriaid, y rhai oeddynt yn ymgymysgu â'r Iuddewon, ac yn preswylfio yn eu gwlad, dan orfod i gydymffurfio â'r un defodau cref-

offrwm dyrchafael y llawr-dyrnu, felly y dyrchafwch hitbau.

21 O ddechre eich toes y rhoddwch i'r Arglwydd offrwm dyrchafael trwy eich cenedlaethau.

22 ¶ A phan eloch dros y ffordd, ac na wneloch yr holl orchymynion hyn, y rhai a lefarodd yr Arglwydd wrth Moses,

23 *Sef* yr hyn oll a orchymynodd yr Arglwydd i chwi trwy law Moses, o'r dydd y gorchymynodd yr Arglwydd, ac o hyny allan, trwy eich cenedlaethau;

24 Yna bydded, os allan o olwg y gynulleidfa y gwnaed *dim* trwy anwybod, i'r holl gynulleidfa ddarparu un bustach ieuanc yn offrwm poeth, i fod yn arogl peraidd i'r Arglwydd, a'i fwyd-offrwm, a'i ddioid-offrwm, wrth y ddefod, ac un bwch geifr yn bech-aberth.

25 A gwnaed yr offeiriad gymod dros holl gynulleidfa meibion Israel, a maddeuir iddynt; canys anwybodaeth *yw*: a dygant eu hoffrwm, aberth tanlyd i'r Arglwydd, a'u pech-aberth, gerbron yr Arglwydd, am eu hanwybodaeth.

26 A maddeuir i holl gynulleidfa

meibion Israel, ac i'r dycithr a ymdeithio yn eu mysg; canys *dygwyddodd* i'r holl bobl trwy anwybod.

27 ¶ Ond os un dyn a becha trwy amryfusedd; yna offrwyd afr flwydd yn offrwm dros bechod.

28 A gwnaed yr offeiriad gymod dros y dyn a becho yn amryfus, pan becho trwy amryfusedd gerbron yr Arglwydd, gan wneuthur cymod dros-to; a maddeuir iddo.

29 Yr hwn a aned o feibion Israel, a'r dycithr a ymdeithio yn eu mysg, un gyfraith fydd i chwi am wneuthur *pechod* trwy amryfusedd.

30 ¶ Ond y dyn a wnel bechod mewn rhyfyg, o briodor, neu o ddy-eithr; cablu yr Arglwydd y mae: torer ymaith y dyn hwnw o fysg ei bobl.

31 O herwydd iddo ddiystyru gair yr Arglwydd, a thori ei orchymyn ef; llwyr-dorer ymaith y dyn hwnw: ei anwiredd *fydd* arno.

32 ¶ Fel yr ydoedd meibion Israel yn y diffaethwch, cawsant ŵr yn cynuta ar y dydd sabboth.

33 A'r rhai a'i cawsant ef, a'i dygasant ef, *sef* y cynutwr, at Moses, ac at Aaron, ac at yr holl gynulleidfa.

yddol a'r Iuddewon, gallasai eu siamplau hwy yn raddol beri cyfnewidiad a llygriad yn y ffurf hŷo o adollai a sefydlwyd gan Dduw ei hun.

Adn. 17—21. *A lefarodd yr Arglwydd,— O flaenion eich toes yr offrwmwch deisen, &c.* Gwel ar Lef. ii. 1, &c.

Adn. 22—24. *A phan eloch dros y ffordd*] Hyn yw, pan gyfeiliornoch mewn anwybodaeth, trwy adael rhai o'r gorchymynion hyn heb eu cyflawni: gwel ar Lef. iv. 2, 13. Ymddengys mai at orchymynion perthynol i seremoniau cyhoeddus crefydd yn unig y cyfeirir yma.

Adn. 25. *A gwnaed yr offeiriad gymod*] Neu *iawn*. Yr oedd hyd yn nod y pechodau a gyflawnid trwy *anwybod* yn gofyn iawn drostynt; a darfu i Dduw yn drugarog drefau un ar eu cyfer.

Adn. 26. *A maddeuir—canys dygwyddodd i'r holl bobl trwy anwybod*] Yn tardu oddiar ryw gamgymeriad, ac nid oddiar ddirmyg ar Dduw a'i ddeddfau; canys mewn achos felly yr oedd yr euog i gael eu lwyr-dori ymaith, adn. 31.

Adn. 27—29. *Ond os un dyn*] O feibion Israel neu o'r dycithriaid, a becha trwy *amryfusedd*—trwy anwybodaeth neu gamgymeriad. Yr oedd yr offeiriad i wneuthur cymod dros hwn, a'r pechod i gael ei faddeu.

Adn. 30. *Ond y dyn a wnel bechod mewn rhyfyg*] Nid oedd troseddau hyfion a rhyfygus yn erbyn y goleuni llawnaf, ac mewn diystyrwch o'r dwyfol awdurdod, yn caniatáu un cymod. Ymddengys fod y rhyfyg yma yn cy-

nwys y dirmyg mwyaf ar air ac awdurdod Duw, yn deilliaw oddiar feddylion *eitunadaolgar* neu *ddidduwiaidd*. Yn y fath achos yr oedd pob edifeirwch yn cael ei gau allan. Meddylir fod hwn yn bechod cyffelyb i'r un a grybwyllir Heb. vi. 4—8, a x. 26—31.

Adn. 31. *Llwyr-dorer ymaith y dyn hwnw*] Er fod yr ymadrodd hwn mewn amrai lecoedd ereill yn arwyddo diarddeliad oddiwrth freintiau yr Iuddewon, eto ymddengys ei fod yma yn arwyddo *rhoddi i farwolaeth*. Nis gallai dynion a bechant yn rhyfygus fel hyn gael un budd trwy ebyrth cymodol y gyfraith, am iddynt gablu y Deddfroddwr, a gwadu awdurdod ei gyfraith. Fel hyn, 'yr un a ddirmygai gyfraith Moses, a fyddai *farw heb drugaredd*,' Heb. x. 28.

Adn. 32. *Cawsant ŵr yn cynuta ar y dydd sabboth*] Neu yn *casglu tanwydd*. Ymddengys fod hyn yn cael ei grybwyll yma fel anghraifft o bechod *rhyfygus*, ac felly ei deallir gan yr Iuddewon. Yr oedd cyfraith y sabboth yn eglur a phendant, a chan hyny rhaid fod y troseddaiad hwn o honi yn bechod gwybodol a gwirfoddol.

Adn. 33. *At yr holl gynulleidfa*] Sef at bennaethiaid y gynulleidfa.

Adn. 34. *Ac a'i dodasant ef mewn dalfau*] Hyn yw, dodwyd ef felly gan Moses, Aaron, a'r llywodraethwyr ereill, hyd nes yr hysbysid ewylllys yr Arglwydd mewn perthynas iddo. *Am nad oedd hysbys beth a wneid iddo*—yn mha fodd, neu trwy ba fath farwolaeth, yr oedd ef i farw, yr hyn gan hyny y

34 Ac a'i dodasant ef mewn dalfa, am nad oedd hysbys beth a wneid iddo.

35 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Lladder y gŵr yn farw: llabyddied yr holl gynulleidfa ef â meini o'r tu allan i'r gwrsyll.

36 A'r holl gynulleidfa a'i dygasant ef i'r tu allan i'r gwrsyll, ac a'i llabyddiasant ef â meini, fel y bu efe farw; megys y gorchlymynodd yr Arglwydd wrth Moses.

37 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

38 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, am wneuthur iddynt eddi ar odre eu dillad, trwy eu cenedlaethau, a rhoddant bleth o *sidan* glas ar eddi y godre.

39 A bydded i chwi yn rhidens, i edrych arno, ac i gofio holl orchymynion yr Arglwydd, ac i'w gwneuthur hwynt; ac na chwiliwch yn ol eich calonau eich hunain, nac yn ol eich

llygaid eich hunain, y rhai yr ydych yn puteinio ar eu hol:

40 Fel y cofioch ac y gwneloch fy holl orchymynion i, ac y byddoch santaidd i'ch Duw.

41 Myfi ydyw yr Arglwydd eich Duw, yr hwn a'ch dygais chwi allan o dir yr Aifft, i fod i chwi yn Dduw: myfi yw yr Arglwydd eich Duw.

PENNOD XVI.

YNA Corah, mab Isar, mab Co-hath, mab Lefi; a Dathan ac Abiram, meibion Eliab, ac On mab Peleth, meibion Reuben, a gymerasant *wŷr*:

2 A hwy a godasant o flaen Moses, yn nghyda dau gant a deg-a-deugain o *wŷr ereill* o feibion Israel, penaethiaid y gynulleidfa, pendefigion y gym-anfa, gwŷr enwog.

3 Ac ymgasglasant yn erbyn Moses, ac yn erbyn Aaron, ac a ddywedasant wrthynt, Gormod i chwi *hyn*: canys *y mae* yr holl gynulleidfa yn santaidd

nae Duw yma yn ei benderfynu yn fanwl. Gwyddent fod torwyf sabbothau i gael eu rhoddi i farwolaeth, ond nis gwyddent yn mha fodd, Exod. xxxi. 14, 15.

Adn. 35, 36. *Llabyddied yr holl gynulleidfa ef*] Neu bennaethiaid y gynulleidfa, trwy y tystion ag oeddnt yn ei erbyn ef, neu ryw rai ereill a benodid i hyny: gwel ar Lef. xxiv. 23.

Adn. 38. *Am wneuthur iddynt eddi*] Y rhai hyn oeddnt edafedd neu benau yn sefyll ychydig yn mbellach allan na'r rhelyw o'u dillad, wedi eu gadael yno i'r dyben hwnw. *Ar odre*—hyny yw, ar bedwar godre neu gŵr, rai y mae yn Deut. xxii. 12. *Eu dillad*—eu dillad uwchaf. Yr oedd hyn yn cael ei arfer gan y Phariseaid yn amser Crist, y rhai oeddnt nodedig am wneuthur ymylwaith eu gwisgoedd yn helaethach na chyffredin, Mat. xxiii. 5. *A rhoddant bleth o sidan glas ar eddi y godre*—i'w gwneuthur yn amlycach i'r golwg, ac o ganlyniad yn fwy gwasanaethgar i'r dyben crybwylledig yma. Yr oedd yr holl Iuddeuon yn gwisgo y rhai hyn, ac felly ond odid y gwnai ein Harglwydd: gwel ar Mat. ix. 20.

Adn. 39, 40. *A bydded i chwi yn rhidens*] Hyny yw, eddi neu ymylwaith; *i edrych arno*—i fod yn barhaus o flaen eich llygaid; *ac i gofio holl orchymynion yr Arglwydd*—bob tro y gweloch ef. Megys yr oedd yr enwaediad yn eu enawd, felly yr oedd yr addurn hwn yn eu gwisg, yn cael ei amcanu fel nôd i'w gwabanaethu hwy oddiwrth bob cenedl arall; fel y byddai iddynt, mor fynych ag yr edrychient ar y nôd hwn, gofio eu bod yn addolwyr y gwir Dduw, yn bobl santaidd, ac yn rhwym i wasanaethu eu Gwneuthurwr trwy ddeddfau a rhwymedigaethau neillduol. Byddai yn ffol haeru fod unrhyw debygolrwydd rhwng *eddi* a *gorchymyn*; eto, pau y gosodir un peth i ar-

ddangos peth arall, ni waeth pa mor wahanol y byddont, y mae y gwrthddrych cyntaf hwnw yn dŷfod yn arddanghosiad neu yn arwydd rheolaidd o'r llall: gwel ar Mat. xxiii. 5.

Adn. 41. *Myfi ydyw yr Arglwydd eich Duw*] Dyma y rheswm cryfaf dros eu manwl ufydd-dod i bob gorchymyn. Pan y byddom ninaw yn teimlo fod Duw yn Dduw i ni, nid yn unig bydd i ni ystyried ei holl orchymynion ef yn dda, eithr bydd ufydd-dod iddynt yn gymaint o hyfrydwch i ni ag o ddyledswydd.

PEN. XVI. Adn. 1. *Yna Corah, mab Isar, mab Cohath*] Isar, tad Corah, oedd ail fab Co-hath; ac Amram, tad Moses ac Aaron, ydoedd fab hynaf Cohath; o ganlyniad yr oedd Corah yn gefnder i Moses ac Aaron. Ymddengys i'r gwrthryfel hwn ddechreu gyda Corah, ac mai efe a berswadiodd Dathan, Abiram, ac On, i ymuno ynddo, adn. 22, Judas, adn. 11. *Meibion Reuben*—yr oedd Eliab tad Dathan ac Abiram, a Peleth tad On, ill dau yn feibion i Reuben, mab hynaf Israel; a thybient fod ganddynt hawl, yn ol y gyfraith batriarchaidd, i wasanaethu yr allor, o'r hyn yr amddifadwyd Reuben, Gen. xlix. 3, 4.

Adn. 2. *A hwy a godasant o flaen Moses*] Yn gyhoeddus a hyf, bled ofni na pharchu presenoldeb Moses.

Adn. 3. *Ac ymgasglasant yn erbyn Moses*] Yr hwn fel archeffiriad a gysegrasai Aaron i'r offeiriadaeth, Exod. xxix. 25, 26, a Lef. viii. 12; *ac yn erbyn Aaron*—i deulu yr hwn yr oedd yr offeiriadaeth yn awr wedi ei chyfyngu. *Gormod i chwi hyn*—fel pe dywedasant, 'Nid yw y swyddau santaidd wedi eu dosbarthu yn gyfartal: yr ydych yn eymeryd y rhai mwyaf pwysig i chwi eich hunain, fel pe byddai eich goruwch-santeiddrwydd chwi yn rhoddi hawl i chwi yn unig ynddynt; tra y mae yr holl gynulleidfa yn santaidd, ac yn meddu yr un

bob uno honynt, ac y mae yr Arglwydd yn eu mysg: paham yr ymgodwch goruwch cynulleidfa yr Arglwydd?

4 A phan glybu Moses, efe a syrthiodd ar ei wyneb.

5 Ac efe a lefarodd wrth Corah, ac wrth ei holl gynulleidfa ef, gan ddywedyd, Y bore y dengys yr Arglwydd yr hwn sydd eiddo ef, a'r santaidd; a phwy a ddylai nesâu ato ef: canys yr hwn a ddewisodd efe, a nesâ efe ato.

6 Hyn a wnewch: Cymerwch i chwi, sef Corah a'i holl gynulleidfa, thuserau;

7 A rhoddwch ynddynt dân, a gosodwch arnynt aroglarth y fory gerbron yr Arglwydd: yna bydd i'r gŵr hwnw fod yn santaidd, yr hwn a ddewisodd yr Arglwydd: gormod i chwi hyn, meibion Lefi.

8 A dywedodd Moses wrth Corah, Gwrandewch, atolwg, meibion Lefi.

9 Ai bychan genych neillduo o Dduw Israel chwi oddiwrth gynulleidfa Israel, gan eich nesâu chwi ato ei hun, i wasanaethu gwasanaeth tabernacl yr Arglwydd, ac i sefyll

hawl a chwithau i fod ar waith yn y gweinyddiaidau santeiddiolaf.' Y mae Moses yn tafu y dywediad hwn yn ol: gwel adn. 7.

Adn. 4. *A phan glybu Moses, efe a syrthiodd ar ei wyneb*] Gan erfyn yn ostyngedig ar i Dduw ei gyfarwyddo a'i amddiffyn ef: yn ol hyny y mae Duw yn ateb ei weddiau, ac yn ei gryfhau ef â gwrloedd adnewyddol, a hyder am lwyddiant.

Adn. 5. *Y bore y dengys yr Arglwydd yr hwn sydd eiddo ef*] Y bore oedd yr amser a benodid gan ddyinion i weinyddu cyfiawnder, ac a ddewisid gan Dduw i'r gwaith hwnw. Y mae peth amser yn cael ei ganiatau, mewn rhan fel y gallai Corah a'i gynulleidfa barotoi ei thuserau; ac mewn rhan fel y gallent gael hamdden i ystyriaeth ac edifeirwch. *Yr hwn a ddewisodd efe*—i'r swydd offeiriadol santaidd, a nesâ efe ato—bydd iddo, trwy ryw arwydd eglur, ddangos ei gymeradwyaeth o hono ef a'i weinidogaeth.

Adn. 6. *Hyn a wnewch*] Gosodwch eich hunain y fory fel pe byddech offeiriad, gan gymeryd thuserau a thân i aroglarthu ger bron yr Arglwydd.

Adn. 7. *Gormod i chwi hyn, meibion Lefi*] Y mae genych ormod o swyddau eisiois: yr ydych trwy eich ysbyrd a'ch tueddiad presenol yn profi eich bod yn gwbl annheilwng o unrhyw swydd ysbyrdol.

Adn. 8. *Gwrandewch, atolwg, meibion Lefi*] Canys un o hiliogaeth Lefi oedd Corah, ac felly yn debygol yr oedd y rhan fwyaf o'r ddau gant a deg a deugain o wŷr ag oeddynt gydag ef, adn. 2.

Adn. 9, 10. *Ai bychan genych, &c.*] Fel pe dywedasai, Ai nid ydych yn ei gyfrif yn ddim anrhydedd ddarfod i Dduw eich nesâu chwi

gerbron y gynulleidfa, i'w gwasanaethu hwynt?

10 Canys efe a' th nesaodd di, a' th holl frodyr, meibion Lefi, gyda thi: ac a geisiwch chwi yr offeiriadaeth hefyd?

11 Am hyny tydi a' th holl gynulleidfa ydych yn ymgynull yn erbyn yr Arglwydd: ond Aaron, beth yw efe, i chwi duchan yn ei erbyn?

12 ¶ A Moses a anfonodd i alw am Dathan ac Abiram, meibion Eliab. Hwytthau a ddywedasant, Ni ddeuwn ni ddim i fyny.

13 Ai bychan yw dwyn o honot ti ni i fynu o dir yn llifeirio o laeth a mêl, i'n lladd ni yn y diffacthwch, oddieithr hefyd arglwyddiaethu o honot yn dost arnom ni?

14 Eto ni ddygaist ni i dir yn llifeirio o laeth a mêl, ac ni roddaist i ni feddiant meun maes na gwinnlan: a dyni di lygaid y gwŷr hyn? ni ddeuwn ni i fyny ddim.

15 Yna y digiodd Moses yn ddirfawr, ac y dywedodd wrth yr Arglwydd, Nac edrych ar eu hoffrwm

ato ei hun yn nes na phawb yn y byd ond yr offeiriad, i fod yn weision iddo ei hun ac i'w eglwys? *Ac a geisiwch chwi yr offeiriadaeth hefyd*—yr hon a sefydlodd Duw ei hun yn nheulu Aaron?

Adn. 11. *Ydych yn ymgynull yn erbyn yr Arglwydd*] Yr hwn a osododd Aaron yn y swydd hon: yr ydych yn taraw at Dduw trwy ystlysau Aaron!

Adn. 12. *A Moses a anfonodd i alw am Dathan ac Abiram*] Y rhai oeddynt yn awr wedi encilio i'w pebyll, fel y gallai ymddyddan â hwy, a rhoddi iddynt hwythau rybydd prydlon, megys y rhoddasai efe i Corah a'i gynulleidfa. *Ni ddeuwn ni ddim i fyny*—i habell Moses, lle yr arferai y bobl fyned i fyny am farn. Dywedir yn iaith yr ysgrhythyr fod dynion yn myned i fyny i leoedd barn.

Adn. 13. *Ai bychan yw dwyn o honot ti ni i fyny o dir yn llifeirio o laeth a mêl*] Ni allai dim fod yn fwy trahaus ac anniolchgar na dysgrifio yr Aiff yn yr un iaith ac y llefarasai Duw yn fynych am wlad yr addewid, yn enwedig pryd yr anfonodd efe Moses i fynegu i'w bobl y dygai efe hwynt i fyny o adfydd yr Aiff, dan yr hwn y griddfanent, Exod. iii. 16, 17.

Adn. 14. *A dyni di lygaid y gwŷr hyn?*] A fydd i ti eu dallu hwynt, neu eu perswadio nad ydynt yn gweled yr hyn sydd eglur i bawb a feddant lygaid, sef ddarfod i ti eu twyllo hwynt, a thori yr addewid a roddaist iddynt?

Adn. 15. *Nac edrych ar eu hoffrwm hwy*] Na dderbyn eu harogldarth, yr hwn y maent yn awr yn myned i'w offrymu, eithr dangos ryw anffoddlonrwydd hynod iddo. *Ni chymerais un asyn oddiarnynt*—y fath ag a dder-

hwy; ni chymerais un asyn oddi arnynt, ac ni ddrygais un o honynt.

16 A dywedodd Moses wrth Corah, Bydd di a'th holl gynulleidfa gerbron yr Arglwydd, ti, a hwynt, ac Aaron, y fory.

17 A chymerwch bob un ei thuser, a rhoddwch arnynt arogldarth; a dyged pob un ei thuser gerbron yr Arglwydd, *sef* dau gant a deg-a-deugain o thuserau: *dwg* dithau hefyd, ac Aaron, bob un ei thuser.

18 A chymerasant bob un ei thuser, a rhoddasant dân ynddynt, a gosodasant arogldarth arnynt; a safasant wrth ddrws pabell y cyfarfod, yn nghyda Moses ac Aaron.

19 Yna Corah a gasglodd yr holl gynulleidfa yn eu herbyn hwynt, i ddrws pabell y cyfarfod; a gogoniant yr Arglwydd a ymddanghosodd i'r holl gynulleidfa.

20 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywed-yd,

21 Ymneillduwch o fysg y gynulleidfa hon, a mi a'u difaf hwynt ar unwaith.

22 A hwy a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a ddywedasant, O Dduw, Duw ysbrydion pob cnawd, um dyn a bechodd, ac a ddigi di wrth yr holl gynulleidfa?

23 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywed-yd,

24 Llefara wrth y gynulleidfa, gan ddywed-yd, Ewch ymaith o gylch pabell Corah, Dathan, ac Abiram.

25 A chyfododd Moses, ac a aeth at Dathan ac Abiram: a heuriaid Israel a aethant ar ei ol ef.

26 Ac efe a lefarodd wrth y gynulleidfa, gan ddywed-yd, Ciliwch, atolwg, oddiwrth bebyll y dynion drygionus

byniai tywysogion yn anrheg. *Ac ni ddrygais un o honynt*—trwy arfer fy awdurdod i'w niweidio na'u gorthymu, fel y gallaswn wneuthur: gwnaethym iddynt lawer o ddaion, ond nid dim drwg; gan hyny y mae eu trosedd heb un achos na chythruddiad.

Adn. 16. *Bydd di a'th holl gynulleidfa gerbron yr Arglwydd*] Nid yn y tabernacl, yr hwn ni allai gwynys cynifer o ddyinion, a phob un yn offrymu arogldarth; ond wrth ddrws y tabernacl, lle y gallent ei offrymu ef wrth gyfarwyddyd Moses ar yr achlysur anghyffredin hwn.

Adn. 17. *Dau gant a deg a deugain o thuserau*] Tybia rhai mai yr mhllith llestri gwerthfawr yr Aiffitiaid yr oeddynt hwy wedi cael nifer mor fawr o thuserau; neu dichon eu bod yn cael eu harfer yn y gwahanol deuluoedd cyn i drefn yr offeiriadaeth gael ei sefydlu yn nheulu Aaron.

Adn. 18. *A chymerasant bob un ei thuser*] *Sef* Aaron, Corah, a'i gynulleidfa; a *rhoddasant dân ynddynt*—wedi ei gymeryd oddiar yr allor a safai gerllaw, canys ni allai Aaron ddefnyddio tân arall; ac y mae yn debyg fod y goffadwriaeth am farwolaeth Nadab ac Abihu yn eu hantall hwythlau rhag offrymu unrhyw dân dyeithr.

Adn. 19. *Yna Corah a gasglodd yr holl gynulleidfa*] Groeg, 'ei holl gynulleidfa,' sef pawb ag oeddynt o blaid Corah, ac yn erbyn Moses ac Aaron. Ei ddyben oedd, fel y gallent fod yn dystion o'r dygwyddiad, ac fel y byddai iddynt ar eu llwyddiant, yr hwn nid ambeuent, syrthio ar Moses ac Aaron. Ymddengys oddiyma fod y bobl yn gyffredin yn lliidiog yn erbyn Moses, ac yn tueddu o ochr Corah. *A gogoniant yr Arglwydd a ymddanghosodd*—yn y cwmwl, yr hwn y pryd hyny a lewyrchai gyda mwy o ddysgleirdeb ac ardderchogrwydd, megys arwydd amlycach o ddynesiad a phresenoldeb *ЖЕНОФА*. Yr un gogoniant ag a ymddanghosodd i osod Aaron yn

ei swydd ar y cyntaf, Lef. ix. 23, a ymddanghosodd yn awr i'w gadarnhau ef yuddi.

Adn. 20, 21. *A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses ac wrth Aaron.—Ymneillduwch o fysg y gynulleidfa hon*] Y mae Patrick ac ereill yn meddwl mai Corah a'i gymdeithion yn unig a olygir; ond tybia Gill ac ereill mai cynulleidfa Israel a feddylir, y rhai a gasglasai Corah yn nghyd, adn. 19, heblaw y 250 o wŷr ag oeddynt gydag ef ar y cyntaf.

Adn. 22. *O Dduw, Duw ysbrydion pob cnawd*] Y mae y cyfarchiad hwn yn profi yn ddigonol fod Moses ac Aaron yn credu fod dyn yn fod cyfansoddedig o *gnawd* ac *ysbryd*, a bod y ddwy egwyddor yma yn berffaith wahanol: gwel ar Job xii. 10. *Un dyn a bechodd*—Corah, blaenor y gwrthryfel hwn. *Ac a ddigi di wrth yr holl gynulleidfa?*—llawer o ba rai a hudwyd trwy wendid neu anwybodaeth. Y mae yr enw a ddyry Moses i Dduw, fel *Duw ysbrydion pob cnawd*, yn gydnabyddiad o'i allu ef fel *Creawdwr* i achub neu ddystrywio; ac hefyd o'i wybodaeth ef fel *Chwiliwr yr ysbrydion* i fedru gwahaniaethu rhwng y rhai a godasant yn falseisus y gwrthryfel hwn, a'r rhai hyny ag y darfu i'w hanwybodaeth a'u hygoledd eu gwneuthur yn ysglyfaeth i'w hudolwyr dichellgar.

Adn. 24. *Llefara wrth y gynulleidfa*] Y rhai er eich mwyn chwi a arbedaf ar yr ammod a ganlyn. *Ewch ymaith o gylch*—hyuy yw, *oddiwrth* bebyll Corah, Dathan, ac Abiram.

Adn. 25. *A chyfododd Moses, ac a aeth at Dathan ac Abiram*] Er i Dathan ac Abiram wrthod yn ystyfnig ddyfod i fyny ato ef, adn. 12; eto y mae Moses yn ymostwng i fyned i lawr atynt hwy, i edrych a allai efe eu hargyhoeddi a'u hadferu hwynt. Rhaid i weinidogion fel hyn gydag 'addfwynder ddygys y rhai gwrthwynebus,' a pheiddio meddwl ei fod islaw iddynt blygu at y rhai mwyaf cyndyn er dationi iddynt. Y mae Duw ei hun 'ar hyd y

hyn, ac na chyffyrddwch â dim o'r eiddynt; rhag eich dyfetha yn eu holl bechodau hwynt.

27 Yna yr aethant oddiwrth babell Corah, Dathan, ac Abiram, o amgylch: a Dathan ac Abiram, eu gwragedd hefyd, a'u meibion, a'u plant, a ddaethant allan, gan sefyll wrth ddrws eu pebyll.

28 A dywedodd Moses, Wrth hyn y cewch wybod mai yr Arglwydd a'm hanfonodd i wneuthur yr holl weithredoedd hyn; ac nad o'm meddwl fy hun y gwnaethym hwynt.

29 Os bydd y rhai hyn feirw fel y bydd marw pob dyn, ac os ymwelir â hwynt âg ymwelediad pob dyn; nid yr Arglwydd a'm hanfonodd i.

dydd yn estyn ei ddwyllaw at bobl anufydd ac yn gwrthdwydedy; Rhnf. x. 21. *A hemur-iaid Israel a aethant ar ei ol ef*—oddiwrth babell Corah, gan ddangos felly i Dathan ac Abiram fod Moses yn cael ei barchu gan uwch gwŷr na hwy.

Adn. 26. *Ciliwch, atoleg, oddiwrth bebyll y dynion drygionus hyn*] Sef Dathan ac Abiram, megys y ciliasoch oddiwrth eiddo Corah; ac na chyffyrddwch â dim o'r eiddynt—am fod pob peth a feddant dan felldith; rhag eich dyfetha—fel hyn rhaid i'r rhai na fynant gael eu dyfetha gyda phechaduriaid 'ddyfod allan o'n canol hwynt, ac ymddidoli, 2 Cor. vi. 17.

Adn. 27. *Yna yr aethant oddiwrth babell Corah, &c.*] Darfu i bawb nad oeddynt yn rhwym yn y gwrthryfel, neu a edifarhasant am dane, encilio erbyn hyn oddiwrth bebyll y tri blaenor, gan sefyll encyd oddiwrthynt. Eithr Dathan ac Abiram, a'u gwragedd a'u plant, a ddaethant allan yn hyf, gan sefyll wrth ddrws eu pebyll—fel pe buasent yn herio Moses i wneyd ei waethaf iddynt. Yr oedd eu holl ymddygiad yn brawf o'n ffol hyder, eu cildynrwydd, a'u hanedfeirwch, trwy yr hyn y tystient nad ofnent Dduw ac na pharchent ddyn.

Adn. 28. *Yr holl weithredoedd hyn*] Megys dwyn y bobl allan o'r Aifft, eu harwain trwy yr anialwch, ymawdurdodi yn eu plith, a rhoddi deddfau iddynt yn nghylch yr offeiriadaeth.

Adn. 29. *Os bydd y rhai hyn feirw fel y bydd marw pob dyn*] Sef trwy farwolaeth naturiol; ac os ymwelir â hwynt âg ymwelediad pob dyn—â phla, neu gledddyf, neu ryw farn arferol; nid yr Arglwydd a'm hanfonodd i—yr wyf yn foddlon i chw'i fy ystyried i yn dwyllwr, yn cymeryd arnaf yn dwyllodrus fy mod wedi fy anfon gan Dduw.

Adn. 30. *Ond os yr Arglwydd a wna newydd-beth*] Heb. 'os creia Jehofa greadigaeth;' hyn yw, os gwna efe y fath beth a'r na wnaed erioed o'r blaen. *Fel y disgymont yn fyw i uffern*—y mae sheol yma yn arwyddo agen neu egoriad yn y ddaear, ac nid uffern, cartref ysbyrdion drwg; canys byddai yn afresymol meddwl i'w tai fyned i uffern; a byddai

30 Ond os yr Arglwydd a wna newydd-beth; fel yr agoro y ddaear ei safn, a'u llyncu hwynt, a'r hyn oll sydd eiddynt, fel y disgymont yn fyw i uffern; yna y cewch wybod ddiogio o'r gwŷr hyn yr Arglwydd.

31 ¶ A bu, wrth orphen o hono lefaru yr holl ciriau hyn, hollti o'r ddaear oedd danynt hwy.

32 Agorodd y ddaear hefyd ei safn, a llyncodd hwynt, a'u tai hefyd, a'r holl ddynion oedd gan Corah, a'u holl gyfoeth.

33 A hwynt, a'r rhai oll a'r o oedd gyda hwynt, a ddisgynasant yn fyw i uffern; a'r ddaear a gauodd arnynt: a dyfethwyd hwynt o blith y gynull-eidfa.

yn ddrygionus dychymygu i'w plant bychain diniwed fyned yno, er i Dduw weled yn dda ddyfetha eu bywyddau hwythau gydag eiddo eu tadau drygionus.

Adn. 31. *Hollti o'r ddaear oedd danynt hwy*] Nid oedd hyn yn *Sicily* na'r *Eidal*, nid oedd mewn gwlad wedi ei chloddio odditanodd gan dânau tanddaearol; ond dygweddodd yn niffaethwch tywodlyd Arabia, lle yn debygol y mae creigiau yn ffurfio yr haenau cyffredinol islaw, a'r tywod yr haenau uwchlaw; lle nad yw daeargrynfeydd braidd byth yn adnabyddus ond trwy hanes; a lle nad allai fawr o ofn i'r bygythliad gael ei gyflawni gyfodi yn meddyliau y gwrandawyr.

Adn. 32. *A'r holl ddynion oedd gan Corah*] Sef ei holl deulu ef ag oeddynt yno, y gwragedd, y plant, a'r gweision; eithr ei feibion ef, y rhai a arbedwyd, (gwel ar pen. xxvi. 10, 11, 1 Cron. vi. 22, 37,) oeddynt absenol, naill ai gyda rhyw wasanaeth berthynol i'r tabernacl, neu ryw achos cyfreithlon arall: yr oedd Duw yn ei threfnu felly trwy ei ragluniaeth, naill ai am eu bod hwy yn anghymeradwyo ymddygiad eu tad, neu ar eiriolaeth Moses drostynt. Y mae yn debyg nad oedd Corah ei hun yma, ond ei fod yn aros gyda'i ddaugant a deg-a-deugain o wŷr gerbron yr Arglwydd, lle yr oeddynt yn dysgwyl am benderfyniad Duw ar yr ymryson. 'In wir nid yw yn debyg y buasai i'w cadfridog encilio oddiwrthynt, a'u gadael i sefyll yno heb ben, yn enwedig tra yr oedd Aaron, ei wrthwynebydd mawr, yn aros yno yn barhaus, heb fyned gyda Moses at Dathan, adn. 25. Felly y mae yn debyg i Corah gael ei ddifa gan dân gyda'r ddau gant a deg-a-deugain hyn, fel yr ymddengys ei fod yn cael ei awgrymu adn. 40. Yn ol hyn, pan y mae y Salmydd yn adrodd yr hanes yma, Salm cvi, y mae y llynciad gan y ddaear yn cael ei gyfyngu i Dathan ac Abiram, adn. 17; ac am y lleill chwaneir, adn. 18, 'Cyneudd tân hefyd yn eu cynulleidfa hwynt, fflam a losgodd y rhai annuwiol.'

Adn. 33. *A hwynt*] Sef y dynion ag oeddynt gan Corah, ond nid efe ei hun; ac hefyd Dathan, Abiram, a'u teuluoedd, yn nghyda'u pebyll a'u hanifeiliaid; a ddisgynasant yn

34 A holl Israel, y rhai oedd o'u hamgylch hwynt, a ffoisiant wrth eu gwaedd hwynt: canys dywedasant, *Ciliwn*, rhag i'r ddaear ein llyncu ninau.

35 Tân hefyd a aeth allan oddi wrth yr Arglwydd, ac a ddiifaodd y dau cant a'r deg-a-deugain owŷr oedd yn offrynu yr arogl-darth.

36 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

37 Dywed wrth Eleazar, fab Aaron yr offeiriad, am godi o hono efe y thuserau o fysg y llosg; a gwasgara y tân oddiyno allan: canys santaidd ydynt.

38 *Sef* thuserau y rhai hyn a bechasant yn erbyn eu heneidiau eu hun; a gweithier hwynt yn ddalenau llydain, i fod yn gaed i'r allor: canys offrymasant hwynt gerbron yr Arglwydd; am hyny santaidd ydynt: a

fyw i uffern—i grombil y ddaear, adn. 30; a'r ddaear a gauodd arnynt—nes yr oedd mor gryf a chyfae ag o'r blaen, fel pe na busasai dim wedi dygwydd. Gan na chrybwyllir am On oddieithr yn adn. 1, y mae yn debyg iddo ef yn ebrwydd edifarhau, ac encilio o'r fradwriaeth.

Adn. 34. *A holl Israel, y rhai oedd o'u hamgylch hwynt*] Pan oedd y ddaear yn eu llyncu; a ffoisiant wrth eu gwaedd hwynt—felly, pan oedd y ddaear yn cleician ac yn ymrwyo dan eu traed, dechreusant waeddi am gymhorth; eithr eu hysgrechiadau alaethus, yn lle cyrchu eu cymydogion atynt i'w cy-northwyo, a'u gyrent yn mhellach oddiwrt-hynt; ac anngogent eu gilydd i ftoi, gan ddywedyd, *Ciliwn, rhag i'r ddaear ein llyncu ninau!*—canys gwyddent am eu heogrwydd eu hunain ac euogrwydd eu gilydd. Fel hyn dylai dinystr ein cymydogion fod yn rhybydd i ninau. Pe gallem ni glywed crochlefau y rhai a ddisgynasant i'r pwll diwaelod, byddem yn fwy diwyd i ddianc am ein heinioes, rhag i ninau hefyd syrthio i'r un ddamnedigaeth!

Adn. 35. *Tân hefyd a aeth allan oddiwrth yr Arglwydd*] O'r cwmwl, yn yr hwn yr oedd gogoniant yr Arglwydd yn ymddangos. Fel hyn yr oedd yno ddwy gosp wahanol, y *Hyn-ciad* a'r *llosg*, i'r ddau ddosbarth o'r gwrthryfelwyr hyn.

Adn. 37. *Am godi o hono ef y thuserau o fysg y llosg*] Fod iddo daflu y tân o'r llestri hyn; a gwasgara y tân oddiyno allan—yn mhellach fyth oddiwrth y cysegr, i'r fan lle y rhoddid y lludw, Lef. vi. 11; canys *santaidd ydynt*—am ddarfod eu defnyddio yn broffes-edig i'r Arglwydd, er mewn ffordd dra am-riodol; ac am i'r tân santaidd a fu ynddynt eu sainteiddio hwynt.

Adn. 38. *Sef thuserau y rhai hyn a bechasant yn erbyn eu heneidiau*] Neu eu heinioes eu hunain, trwy fod yn achos o'u dinystr eu hunain. *I fod yn gaed i'r allor*—sef allor y poeth-offrwm, yr hon a wnaed o goed, ond a

byddant yn arwydd i feibion Israel—39 A chymerodd Eleazar yr offeiriad y thuserau pres, a'r rhai yr offrymasai y *gwŷr* a losgasid; ac estynwyd hwynt yn gaed i'r allor:

40 Yn goffadwriaeth i feibion Israel; fel na nesao gwr dycithr (yr hwn ni byddo o had Aaron) i losgi arogl-darth gerbron yr Arglwydd; ac na byddo fel Corah a'i gynulleidfa: megys y llefarasai yr Arglwydd trwy law Moses wrtho ef.

41 ¶ A holl gynulleidfa meibion Israel a duchanasant dranoeth yn erbyn Moses, ac yn erbyn Aaron, gan ddywedyd, Chwi a laddasoch bobl yr Arglwydd.

42 A bu, wedi ymgasglu o'r gynulleidfa yn erbyn Moses ac Aaron, edrych o honynt ar babel y cyfarfod: ac wele, tōasai y cwmwl hi, ac ymddanghosodd gogoniant yr Arglwydd.

orchuddiwyd â phres cyn y pryd hyn, Exod. xxvii. 1, 2; at ba un y chwangewyd y caead arall hwn, er mwy o addurn, a diogelwch rhag y tân a losgai yn wastadol arni. *A byddant yn arwydd i feibion Israel*—hyny yw, yn *rhybydd* i bawb o feibion Israel a'r nad oeddynt o had Aaron, fel na fyddai iddynt ryfygu arogl-darth gerbron yr Arglwydd, adn. 40; ac i ddangos i'r holl lwythau fod cenfigen ac ymgais y flug-honwyr hyn i ddyfetha yr allor trwy osod yr offeiriadaeth yn gyffredin eilwaith, mor bell oddiwrth siglo swydd Aaron a dyfetha yr allor, fel y cafodd eu thuserau hwy fod yn ddiogelwch pellach iddi!

Adn. 39. *Yn gaed i'r allor*] Gwel ar adn. 38.

Adn. 40. *Ac na byddo fel Corah a'i gynulleidfa*] Y rhai a losgwyd am iddynt hwy ryfygu llosgi yr arogl-darth, a hwythau heb fod yn offeiriad: gwel ar adn. 32.

Adn. 41. *A holl gynulleidfa meibion Israel a duchanasant dranoeth*] Rhyfedd ddrygioni ac ynyfdrwydd, eu bod yn anghofo mor fuan y fath siampl ofnadwy o ddwyfol ddaledd! *Yn erbyn Moses ac yn erbyn Aaron*—tybia rhai i'r bobl greded fod Moses ac Aaron wedi arferyd rhyw *ystryw* yn y gorehwyl hwn, ac mai trwy geflyddyd yr achoswyd y *daegrwyn* a'r *tân*; onid, pe canfyddasent law Duw yn y gosp hon, a allasent hwy herio digofaint yr Arglwydd yn ngwynneb ei gyfiawnder? *Chwi a laddasoch bobl yr Arglwydd*—felly y galwant yr adnyod a'r gwrthryfelwyr drygionus hyny yn erbyn Duw! Er nad oeddynt ond newydd gael eu gwaredu rhag ymgyfranogi o'r un farn, eto y maent yn codi yn erbyn Moses ac Aaron, i eiriolaeth y rhai yr oeddynt yn ddyledus am eu cadwraeth!

Adn. 42. *Edrych o honynt*] Sef Moses ac Aaron, ar *babel y cyfarfod*—gan erbyn am help oddiwrth Dduw; ac ymddanghosodd gogoniant yr Arglwydd—i sierchau iddynt ei fod ef yn barod i'w cynorthwyo hwynt.

Adn. 43. *Yna y dacth Moses ac Aaron o flaen pabell y cyfarfod*] Naill ai am ddiogel-

43 Yna y daeth Moses ac Aaron o flaen pabell y cyfarfod.

44 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses, gan ddywedyd,

45 Ciliwch o blith y gynulleidfa hon, a mi a'u difaf hwynt yn ddisymwth. A hwy a syrthiasant ar eu hwynebau.

46 ¶ Dywedodd Moses hefyd wrth Aaron, Cymer thuser, a dod dân oddi ar yr allor ynddi, a gosod arogl-darth *arni*, a dos yn fuan at y gynulleidfa, a gwna gymod drostynt: canys digofaint a aeth allan oddi ger bron yr Arglwydd; dechreuodd y pla.

47 A chymerodd Aaron megys y llefarodd Moses, ac a redodd i ganol y gynulleidfa; ac wele, dechreuasai y pla ar y bobl: ac efe a rôdd arogl-darth, ac a wnaeth gymod dros y bobl.

48 Ac efe a safodd rhwng y meirw a'r byw; a'r pla a attaliwyd.

49 A'r rhai a fuant feirw o'r pla oedd bedair mil ar ddeg a saith gant, heblaw y rhai a fuant feirw yn achos Corah.

50 A dychwelodd Aaron at Moses i ddrws pabell y cyfarfod: a'r pla a attaliwyd.

web, neu ynte i wrandaw pa gyfarwyddiadau a roddai Duw iddynt.

Adn. 45. *A hwy a syrthiasant ar eu hwynebau*] I erfyn am drugaredd i'r bobl, gan fel hyn daln da dros ddrwg.

Adn. 46. *Dywedodd Moses hefyd wrth Aaron*] Yn ddiamau trwy gyfarwyddyd Duw, ar ol i'r pla ddechreu; *Cymer thuser, a dod dân oddiar yr allor ynddi, a gosod arogl-darth arni*—yr hwn oedd yn arwydd o eiriolaeth, ac i gael ei ddylyn â hi; *a dos yn fuan at y gynulleidfa*—i'w hannog i edifeirwch a gweddi, er attal eu cwbl ddinystyr. Gallai wneuthur hyn ar yr achlysur anghyffredin hwn, trwy fod ganddo orchymyn Duw yn ei awdurdodi, er yn gyffredin nad oedd arogl-darth i gael ei offrynu ond yn y pabell. *A gwna gymod drostynt*—yr oedd hyn yn gyffredin yn cael ei wneuthur trwy waed aberth; ond pan nad oedd yn awr amser i hyny, gwnaed ef trwy yr arogl-darth, â'r hwn yr oedd yr ebyrth boreol a hwyrol yn cael eu dybenn. *A dechreuodd y pla*—hyny yw, yr oedd ef wedi dechren yn ei holl fyrrigrwydd.

Adn. 47. *A chymerodd Aaron*] Ei thuser, a'r tân, a'r arogl-darth; *ac a redodd i ganol y gynulleidfa*—danghosodd Aaron trwy hyn bedwar peth: (1) Ei fod yn *ddyn da iawn*, ac yn meddu gwir gariad at y bobl, er eu bod hwy yn ei gasau ef. Er fod Duw yn awr yn dial ei gweryl ef, eto y mae efe yn cyfryngu i droi ymaith ddigofaint Duw; ac nid hyny yn unig, eithr, gan anghofio ei henaint, efe a *redodd* i ganol y gynulleidfa i'w cynorthwyo hwynt. Ni ddywedodd, 'Gadawer iddynt wynio am enyd, ac yna pan ddeuaf caf fwy o resaw;' eithr fel un yn teimlo dros fywyd pob Israeliad, y mae yn bryso i'r adwy trwy yr hon yr oedd angau yn dyfod i mewn. Gallasai Moses ac Aaron, y rhai a gyhuddwyd o 'ladd pobl yr Arglwydd,' adn. 41, edliw yn gyfiawn iddynt yn awr, a gofyn a allent hwy ddysgwyl i'r rhai hyny fod yn *achubwyr* iddynt, y rhai yr oeddnt hwy newydd eu galw eu *lofruddion*? Ond yn lle gwneyd felly dysgasant i ni, trwy eu siamp, beidio â bod yn sarug hyd yn nod wrth ein gelynyd, na nacau iddynt unrhyw gymwynas ag y gallwn ei gwneuthur iddynt.

(2) Ei fod yn *ddyn esfn iawn*: 1. Efe a anturiodd i ganol *tof lldiog* ag oeddnt wedi ymgasglu yn ei erbyn ef o achos dinystyr Corah a'i gynulleidfa, y rhai, er dim a wyddai efe, a

allent fod wedi digio eto yn fwy o achos y pla ag ydoedd wedi dechreu. 2. Efe a anturiodd i ganol yr *haint*, lle yr oedd saethau angau yn ehedeg amlaf, pan yr oedd canoedd a miloedd yn syrthio ar y ddean a'r aswy iddo. I achub eu bywydau hwy, efe a roddodd ei einioes ei hun yn ei law, heb ei chyfrif yn werthfawr ganddo os gallai ond cyflawni ei weinidogaeth. (3) Ei fod yn *ŵr Duw*, ac wedi ei osod dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Ddnw. Cadarnhawyd ei allwad ef i'r offeiriadaeth trwy hyn yn gyflawn, tubwnt i wrthdaddl: nid yn unig arbedodd Duw ei fywyd ef pan dorwyd ymaith y gwrthryfelwyr, ond yn awr gwnaeth ef yn offeryn i achub Israel. Cymharer thuser Aaron gyda thuserau y rhai a bechasant yn erbyn eu heneidiau eu hunain, adn. 38. Cyfrôdd y thuseran hyny ddigofaint Duw, heddychodd hon ef: dyfethodd y rhai hyny fywydau dynion, achubodd hon hwynt. (4) Ei fod yn *gyssod o Crist*, yr hwn a ddaeth i'r byd i wneuthur iawn dros bechod, ac i droi ymaith ddigofaint Duw oddi-wrthym ni; a'r hwn, trwy ei gyfringodod a'i eiriolaeth, sydd yn sefyll rhwng y meirw a'r byw, i gadw bywyd pechaduriaid, a'u dwyn o ganol byw heintiedig gan bechod a mellieth.

Adn. 48. *Ac efe a safodd rhwng y meirw a'r byw*] A'i thuser yn ei law; sef rhwng y rhai a dawsid gan y pla, a'r rhai ag oedd-ynt eto heb gael eu dal ganddo. Felly ymddengys fod y pla wedi dechreu yn nghwr y gweryll a'i fod yn taenu marwolaeth yn mhllith y bobl o'r naill gw'r i'r llall, fel med-elwyr mewn maes. *A'r pla a attaliwyd*—ond nid cyn i bedair mil ar ddeg a saith gant syrthio yn ysglyfaeth iddo!

Adn. 49. *Heblaw y rhai a fuant feirw yn achos Corah*] Sef y ddan gant a deg-a-dengain o wŷr a losgwyd gyda Corah, adn. 35; ac heblaw y rhai a lyncwyd yn fyw i uffern gyda Dathan ac Abiram, adn. 33. Fel hyn bu uchelgais Corah i gyraedd yr offeiriadaeth yn achos o ddyfetha oddentu pymtheg mil o eneidiau o leiaf!

Adn. 50. *A dychwelodd Aaron at Moses i ddrws pabell y cyfarfod*] I roddi ei thuser i'w chadw; *a'r pla a attaliwyd*—yn byrach, 'canys yr oedd y pla wedi ei attal,' a'i waith yntau wedi ei orphen. 'Os cafodd offiwm Aaron fel hyn ei dderbyn,' ebai yr Esgob Hall, 'pa faint mwy y bydd i Archoffeiriad

PENNOD XVII.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Israel, a chymer gan bob un o houynt wialen, yn ol tŷ eu tadau, *sef* gan bob un o'u penaethiaid, yn ol tŷ eu tadau, deuddeg gwialen: ysgrifena enw pob un ar ei wialen.

3 Ac ysgrifena enw Aaron ar wialen Lefi: canys un wialen *fydd* dros bob penaeth tŷ eu tadau.

4 A gad hwynt yn mhabel y cyfarfod, gerbron y dystiolaeth, lle y cyfarfyddaf â chiwi.

5 A gwialen y gŵr a ddewiswyf, a flodeua: a mi a wnaif i furmur meibion Israel, y rhai y maent yn ei furmur i'ch erbyn, beidio â mi.

6 ¶ A llefarodd Moses wrth feibion Israel: a'u holl benaethiaid a roddasant ato wialen dros bob penaeth, yn ol

tŷ eu tadau, *sef* deuddeg gwialen; a gwialen Aaron oedd yn mysg eu gwiail hwynt.

7 A Moses a adawodd y gwiail ger bron yr Arglwydd, yn mhabel y dystiolaeth.

8 A thranoeth y daeth Moses i babel y dystiolaeth: ac wele, gwialen Aaron dros dŷ Lefi a flagurasai, ac a fwriasai flagur, ac a flodeusai flodau, ac a ddygasai almonau.

9 A dyg Moses allan yr holl wiail oddi ger bron yr Arglwydd at holl feibion Israel. Hwythau a edrychasant, ac a gymerasant bob un ei wialen ei hun.

10 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dod wialen Aaron drachefu gerbron y dystiolaeth, i'w chadw yn arwydd i'r meibion gwrthryfelgar; fel y gwnelech i'w tuchan hwynt beidio â mi, ac na byddont feirw.

y Testament Newydd, trwy ei osod ei hun rhyngom ni a digofaint ei Dad, waredu troseddwy rhag angau? Y mae y pla wedi dyfod ar holl blant dynion. O Iachawdwr! tydi a sefaist rhwng y byw a'r meirw, fel na choller y rhai oll a gredant ynot. Offrymodd Aaron, ac nis tarawyd ef; ond tydi, O Wareduwr, a fynet offrymu a chael dy daraw, fel trwy dy gleisiau di yr iacheid ni! Sefaist ti yn y fath fodd rhwng y byw a'r meirw, nes dy fod yn fyw ac yn farw; a hyn oll fel y byddai i ni, pan oeddyn feirw, allu byw yn dragywydd!

PEN. XVII. Adn. 2. *A chymer gan bob un o houynt wialen*] Tybia Clarke ac ereill mai y *ffon* neu y *deyrnwialen* ag yr oedd *tywyssog* neu *benaeath* pob llwyth yn ei dwyn ydoedd hon, yr hon oedd yr arwydd o *swydd* neu *frenhiniaeth* yn mhlith braidd holl genhedloedd y ddaear; eithr y mae yr Esgob Patrick ac ereill yn meddwl fod y gwiail neu y ffyn hyn newydd gael eu tori oll oddiar yr un pren almon, fel na fyddai i neb dybio fod dim gwahaniaeth rhyngddynt, ac fel y byddai i'r wyrth ag ydoedd i ddylyn fod yn fwy amlwg. *Ysgrifena enw pob un*—*sef* pob tywysog neu benaeth, *ar ei wialen*—naill ai trwy gerfiad yn y pren, neu ynte gyda rhyw wlybedd neu inc a barai i'r llythrenau fod yn weladwy. Ymddegens oddiyma fod penaethiaid Israel yn gyffredinol, nen o leiaf rai o bob llwyth, yn ymryson gyda Moses ac Aaron yn nghylch yr offeiriadaeth, yn gystal a Corah a'r Lefiaid.

Adn. 3. *Ac ysgrifena enw Aaron ar wialen Lefi*] Yn hytrach nag enw Lefi; canys buasai i hyny adael y ddaid heb ei phenderfynu rhwng Aaron a'r Lefiaid ereill, tra y byddai i hyn gyfiawnhau y cymhwysiad o'r offeiriadaeth i deulu Aaron. Yr oedd enw Aaron yn ddigon i benderfynu y *llwyth*, a'r *teulu* hwnw o'r llwyth wrth ba un yr oedd yr anrhydedd hwn i gael ei gysylltu.

Adn. 4. *A gad hwynt yn mhabel y cyfarfod, gerbron y dystiolaeth*] *Sef* yn ymyl arch y dystiolaeth; *lle y cyfarfyddaf â chiwi*—i amlygu fy meddwl i chiwi, er terfynu yr ymryson hwn.

Adn. 5. *A gwialen y gŵr a ddewiswyf*] I weini i ni yn yr offeiriadaeth, a *flodeua*—yn arwydd o hyny, i roddi terfyn ar furmur meibion Israel am byth ar y pen hwn.

Adn. 6, 7. *A gwialen Aaron oedd yn mysg eu gwiail hwynt*] Oedd wedi ei rhoddi yn y cysegr gyda'r lleill, trwy ei bod naill ai yn un o'r deuddeg, fel y dywed yr Iuddewon; neu y drydedd-ar-ddeg, fel y tybia ereill.

Adn. 8. *Ac wele gwialen Aaron, dros dŷ Lefi, a flagurasai, &c.*] Caed arni *flagur, blodau*, ac *almonau addfed* ar unwaith! ac yr oedd y ffaith hon mor ddilys wyrthiol, fel ag i benderfynu yr achos am byth. Yr oedd pob peth yn y wyrth hon mor bell tuhwnt i allu natur, fel na allai un amheuaeth aros ar feddyliau y bobl, na'r penaethiaid cenfigenus, am ddwyfól benodiad Aaron, a chyfryngiad neillduol Duw yn yr achos hwn. Gweled darn o bren *syech*, heb *risgl* na *nódd* yn aros ynddo, ac wedi ei osod i ffyn mewn *lle syech* am un *noson*, gyda rhai ereill yn yr un amgylchiadau,—gweled y cyfryw bren yn ail ddangos perffeithrwydd bywyd hydyfol, gan *flaguro, blodewo*, a dwyn allan *ffrwyth addfed* ar yr un pryd, a raid fod yn fath brawf amlwg o gyfryngiad neillduol Duw, fel ag i ddystewi pob amheuaeth a boddioni pob petrusder!

Adn. 9. *Ac a gymerasant bob un ei wialen ei hun*] Gyda'u henwau arnynt heb un cyfnewidiad.

Adn. 10. *I'w chadw yn arwydd*] Felly rhaid fod y blagur, y blodau, a'r almonau yn parhau yn iraidd arni, trwy fod yr un gallu ag a'u cynrychodd mewn noson, yn eu cadw am oesoedd; canys heb hyny nis gallasai fod yn arwydd iddynt.

Adn. 11. *Felly y gwnaeth efe*] Efe a ddo-

11 A gwnaeth Moses fel y gorchymynodd yr Arglwydd iddo; felly y gwnaeth efe.

12 A meibion Israel a lefarasant wrth Moses, gan ddywedyd, Wele ni yn trengi; darfu am danom, darfu am danom ni oll.

13 Bydd farw pob un gan nesâu a nesao i dabernacl yr Arglwydd. A wncir pen am danom gan drengu?

PENNOD XVIII.

A DYWEDODD yr Arglwydd wrth Aaron, Tydi a'th feibion, a thy-lwyth dy dad gyda thi, a ddygwch anwiredd y cysegr : a thi a'th feibion gyda thi a ddygwch anwiredd eich offeiriadaeth.

2 A dwg hefyd gyda thi dy frodyr o lwyth Lefi, sef llwyth dy dad, i lynu wrthyt ti, ac i'th wasanaethu : tithau

odd y wialen eilwaith yn y cysegr santeiddiolaf, i arwydd iddynt fod yr offeiriadaeth i barhau yn nheulu Aaron.

Adn. 12. *Wele ni yn trengu; darfu am danom, darfu am danom ni yn oll!* Y meddwl yw, 'Darfu i rai o honon feirw o'r blaen, ac yn ddiweddar trengodd ychwaneg, ac yr ydym oll yn yr un perygl: diau na fydd i ni byth beidio marw nes ein difa oll.' Iaitb o frav ydyw, yn codi oddiar adgofiad o'r barnedigaethau â'r rhai yr ymwelwyd â hwynt eisioes; oddiar y bygythiad o farwolaeth yn erbyn pob tuchaniad rhagllaw; ac oddiar deimlad o'u heugrwydd a'u gwendid eu hunain, yr hyn a wna'i iddynt ofni rhag iddynt hwythau lithro i'r un anfodion, a thrwy hyuny dynu dialedd Duw arnynt eu hunain.

Adn. 13. *Bydd farw pob un gan nesâu a nesao i dabernacl yr Arglwydd!* Gwelwn yn-fyrdwydd ac anawadurwyd y bobl bechadurus hyn! *Gynt* gallai pob un nesâu at Dduw, canys yr oeddynt oll, yn ol eu meddwl hwy, yn ddigon *santaidd*, ac wedi eu cymhwyso yn mhob ffordd i weini mewn pethau cysegredig; *yn awr* ni all *neb*, yn ol eu tyb hwy, nesâu i'r tabernacl heb drengu! Yn y ddau achos yr oeddynt yn gyfeiliornus; yr oedd yno *rai* a allent offeiriadu, ac *ereill* nes gallent. Fel hyn y mae pechaduriaid bob amser yn rhedeg i eithafodded.

PEN. XVIII. Adn. 1. *A dywedodd yr Arglwydd wrth Aaron*] Yn debygol trwy Moses. Ar ol i Dduw trwy y gwyrtbiau lawenorol am-ddiffyn anrhydedd ac awurdod yr offeiriadaeth, y mae efe yn awr yn gadael i Aaron wybod pwysigrwydd ei swydd, yn yr hon yr oedd efe i ymddwyn gyda gofal a gocheliad mawr; ac heblaw hyn, y mae efe drachefn yn mynegu beth oedd dyledswydd neillduol y Lefiaid, adn. 1—8; ac yna â rhagddo i hysbysu pa gynaliacth a sefydlaasai efe i'r *maill* ar llall, er eu cefnogaeth wrth wneuthur eu dyledswydd. *Tydi a'th feibion, a thylywyth dy dad gyda thi*—sef y Lefiaid, adn. 2, a

a'th feibion gyda thi a wasanaethwch gerbron pabell y dystiolaeth.

3 A hwy a gadwant dy gadwraeth di, a chadwraeth yr holl babell: ond na ddeuant yn agos at ddoedrefn y cysegr, nac at yr allor, rhag eu marw hwynt, a chwithau hefyd.

4 Ond hwy a lynant wrthyt, ac a oruchwyliant babell y cyfarfod, yn holl wasanaeth y babell: ac na ddeued dycieith yn agos atoch.

5 Eithr cedwch chwi oruchwyliaeth y cysegr, a gorchwyliaeth yr allor; fel na byddo digofaint mwy yn erbyn meibion Israel.

6 Ac wele, mi a gymerais dy frodyr di, y Lefiaid, o fysg meibion Israel: i ti y rhoddwyd *hwynt*, *megys* rhodd i'r Arglwydd, i wasanaethu gwasanaeth pabell y cyfarfod.

7 Tithau a'th feibion gyda thi a

ddygwch anwiredd y cysegr—a gewch ddyoddef cosp pob halogiad o'r cysegr gan y bobl gyffredin, y rhai y mae genych awurdod oddiwrthyt fi i'w cadw oll o fewn eu terfynau, adn. 4. *A thi a'th feibion gyda thi*—i'r rhai yr ymddiriedwyd mwy nag i'r Lefiaid, a *ddygwch anwiredd eich offeiriadaeth*—yr holl gamweddau a gyflawnir genych yn eich swydd santaidd. Gall ei fod yn cynwys hefyd mai eu gwaith hwy, fel offeiriad, oedd gwneuthur cymod a dyhuddiant dros y cyfryw.

Adn. 2. *I lynu wrthyt ti*] Y mae yma gyfeiriad at arwyddocâd enw Lefi, sef *'glynedig'* gwel ar Gen. xxix. 34. *Ac i'th wasanaethu*—gyda golwg ar yr ebyrth, yr offrymau, a phethau ereill, yn ol y rheolau a benodais iddynt. Ni fydd iddynt ymryson â thi mwych am yr uwchafiaeth, ond byddant islaw i ti yn dy wasanaethu. *Tithau a'th feibion gyda thi a wasanaethwch gerbron pabell y dystiolaeth*—trwy nad yw y gair *wasanaethwch* yn y wreiddiol, myn rhai gyfieithu y frawddeg, 'Ac i'th wasanaethu di a'th feibion gyda thi gerbron pabell y dystiolaeth.' Ymddengys fod y cyfryw gyfieithiad yn gywir pan yr ystyriom mai *gerbron pabell y dystiolaeth* oedd y lle priodol i'r Lefiaid wasanaethu ynddo. Heblaw hyn, am wasanaeth y Lefiaid yn unig y sonir yn yr adnod hon a'r ddwy ganlynol; ac y mae gwasanaeth yr offeiriad yn cael son am dani ar wahan, adn. 5.

Adn. 3. *A hwy a gadwant dy gadwraeth di*] Yr hyn a orchymyni ac a ymddiriedi di iddynt, pen. iii. 25, &c.

Adn. 4. *Ond hwy a lynant wrthyt*] Gwel ar adn. 2. *Na ddeued dycieithr*—y mae y gair hwn yn arwyddo yma nid yn unig rai o blith cenhedloedd ereill, ond hefyd pawb o'r Israeliaid a'r nad oeddynt o lwyth Lefi.

Adn. 5. *Eithr cedwch chwi*] Yr offeiriad, *wasanaeth y cysegr*—megys trefnu y lampau, yr aroglarth, &c., Exod. xxvii. 21, a xxx. 7; a *gwasanaeth yr allor*—sef y gwabanol abertbau: gwel ar adn. 7.

Adn. 6. *I ti y rhoddwyd hwynt*] Yr ydym

gedwch eich offeiriadaeth; yn nghylch pob peth a *berthyn* i'r allor, ac o fewn y llen wahan, y gwasanaethwch: yn wasanaeth rhodd y rhoddais eich offeiriadaeth i chwi; a'r dyeithr a ddelo yn agos, a leddir.

8 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Aaron, Wele, mi a roddais i ti hefyd oruchwyliaeth fy offrymau dyrchafael, o holl gysegredig bethau meibion Israel; rhoddais hwynt i ti, o herwydd yr eneniad, ac i'th feibion, trwy ddeddf dragwyddol.

9 Hyn fydd i ti o'r pethau santeiddiolaf a *gedwir* *allan* o'r tân: eu holl offrymau hwynt, eu holl fwyd-offrwm, a'u holl aberthau dros bechod, a'u holl aberthau dros gamwedd, y rhai a dalant i mi, *fyddant* santeiddiolaf i ti, ac i'th feibion.

10 O fewn y cysegr santaidd y bwytei ef; pob gwrw a'i bwyty ef: cysegredig fydd efe i ti.

11 Hyn hefyd *fydd* i ti; offrwm dyrchafael eu rhoddion hwynt, yn nghyda holl offrymau cyhwfan meibion Israel: i ti y rhoddais hwynt, ac

i'th feibion, ac i'th ferched gyda thi, trwy ddeddf dragwyddol: pob un glân yn dy dŷ a gaiff fwyta o hono.

12 Holl oreuon yr olew, a holl oreuon y gwin a'r ŷd, *sef* eu blaenffrwyth hwynt yr hwn a roddant i'r Arglwydd, a roddais i ti.

13 Blaenffrwyth pob dim yn eu tir hwynt yr hwn a ddygant i'r Arglwydd, fydd eiddot ti: pob un glân yn dy dŷ a fwyty o hono.

14 Pob diofryd-beth yn Israel fydd eiddot ti.

15 Pob peth a agoro y groth o bob cuawd yr hwn a offrymir i'r Arglwydd, o ddyn ac o anifel, fydd eiddot ti; ond gan brynu y pryni bob cyntafanedig i ddyn; a phryn y cyntafanedig i'r anifel aflan.

16 A phair brynu y rhai a bryner o honynt, o fab misyriad, yn dy bris di, *er* pum siel o arian, wrth siel y cysegr: ugain gerah *yw* hyny.

17 Ond na phryn y cyntafanedig o eidion, neu gyntafanedig dafad, neu gyntafanedig gafr; santaidd *ydynt* hwy: eu gwaed a daenelli ar yr allor,

i'w phrisio megys rhodd fawr o eiddo Duw gael o honom y rhai hyny wedi eu *glynu* *wrthym* a'r a fyddant o gynorthwy a gwasanaeth i ni yn ngwaith Duw.

Adn. 7. *Tithau a'th feibion gyda thi a gedwch eich offeiriadaeth, yn nghylch pob peth a berthyn i'r allor*] Sef allor y poeth-offrwm; *ac o fewn y llen wahan*—y mae yr ymadrodd hwn yn cynwys y cysegr a'r cysegr santeiddiolaf; *yn wasanaeth rhodd*—yr hon a roddais i chwi, ac i chwi yn unig: ac am hyny na feiddied neb o hyn allan eich cyhuddo chwi o ryfgy yn cymeryd hon i chwi eich hunain, nac ymyraeth â'ch swydd.

Adn. 8. *Rhoddais hwynt i ti o herwydd yr eneniad*] O herwydd dy fod wedi cael dy eninio â'r olew santaidd, a thrwy hyny dy gysegro i'r swydd offeiriadol, Lef. viii. 12.

Adn. 9. *Hyn fydd i ti o'r pethau santeiddiolaf*] Y rhai oeddynt i gael en bwyta yn unig gan yr offeiriad, a hyny yn y cysegr; a *gedwir* *allan* *o'r tân*—y cyfryw aberthau, neu ranau o'r aberthau, a'r na ddfäid yn y tân; *y rhai a dalant i mi*—mewn ffordd o iawn am gamwedd a wnaed yn fy erbyn.

Adn. 10. *O fewn y cysegr santaidd*] Lle yr oedd man wedi ei neillduo i fwyta y pethau santaidd hyn yddo: gwel ar Lef. vi. 16, 17, &c.

Adn. 11. *Offrwm dyrchafael, &c.*] Gwel ar Exod. xxix. 27, 28.

Adn. 12, 13. *Holl oreuon yr olew, &c.*] Gwel ar Exod. xxii. 29.

Adn. 14. *Pob diofryd-beth yn Israel fydd eiddot ti*] Sef pob peth a fyddo wedi ei gyflwyno i Dduw trwy adduned neu ryw flodd arall, os byddai yn gyfrywag a ellid ei fwyta: canys nid oedd y llestri neu y trysorau aur ac arian a gyflwynwyd gan Josua, Dafydd, ac

ereill, yn eiddo i'r offeiriad, eithr yr oeddynt wedi eu neillduo at wasanaeth y deml.

Adn. 15. *Pob peth a agoro y groth*] Sef y cyntafanedig: gwel ar Exod. xiii. 2, 13. *I ddynt*—fel hyn yr oedd dyn gwâg yn cael ei restru gyda'r anifeiliaid a ddyfethir; a chyda'r fath waelaf o honynt, y rhai a fermid yn aflan.

Adn. 16. *A phair brynu y rhai a bryner o honynt, o fab misyriad*] Gwel ar Lef. xxvii. 6. Y mae pryniad y cyntafanedig yn un o'r defodau ag sydd mewn arferiad eto yn mblith yr Iuddewon. Dywed *Leo o Modena* ei fod yn cael ei gyflawni yn y dull canlynol: Pan y mae y plentyn yn fis oed, y mae y tad yn anfon am un o hiliogaeth Aaron, ac yn rhoddi mewn cwpan amrai ddarnau o aur ac arian bathedig. Yna yr offeiriad a gymer y plentyn i'w freichiau, a chan gyfarch y fam efe a ddywed, Ai dy fab di yw hwn? *Y fam*: Ie. *Yr offeiriad*: A fu i ti erioed blentyn arall, gwrw neu fenyw, neu esgoriad anamserol? *Y fam*: Naddo. *Yr offeiriad*: Gan mai felly y mae, perthyna y plentyn hwn, megys y cyntafanedig, i mi. Yna, gan droi at y tad, efe a ddywed, Os myni gael y plentyn hwn, rhaid i ti ei brynu ef. *Y tad*: Yr wyf yn cyflwyno i ti yr aur a'r arian hyn i'r perwyll yma. *Yr offeiriad*: Gan hyny yr wyt yn ewyllsio prynu y plentyn? *Y tad*: Dyna yw fy ewylls. Yna yr offeiriad, gan droi at y gynull-eidia, a ddywed, Purion; y plentyn hwn, fel y cyntafanedig, sydd eiddof fi, megys y mae yn ysgrifenedig yn Numeri xviii. 16. 'Tydi a bryni y cyntafanedig o fab misyriad er pum siel;' ond bydd i mi foddloni ar hyn yn gyfnewid. Yna efe a gymer ddwy goron aur, neu oddeutu hyny, ac a ddychwel y plentyn i'w rieni.

a'u gwêr a losgi yn aberth tanllyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

18 Ond en cig fydd eiddot ti; fel parwyrden y cyhwfan, ac fel yr ysgwyddog ddeau, y mae yn eiddot ti.

19 Holl offrymau dyrchafael y pethau santaidd, y rhai a offrymo meibion Israel i'r Arglwydd, a roddais i ti, ac i'th feibion, ac i'th ferched gyda thi, trwy ddeddf dragwyddol: cyfammod halen tragwyddol *fydd* hyn, gerbron yr Arglwydd, i ti, ac i'th had gyda thi.

20 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Aaron, Na fydded i ti etifeddiacth yn eu tir hwynt, ac na fydded i ti ran yn eu mysg hwynt: myfi *yw* dy ran di, a'th etifeddiacth, yn mysg meibion Israel.

21 Ac wele, mi a roddais i feibion

Adn. 17. *Ond na phryn y cyntafanedig o eidion, &c.*] Yr oedd y rhai hyn oll yn *santaidd*—sef wedi eu cysegru mewn modd neillduol i ddyben santaidd, sef i gael eu haberthu i Dduw, Deut. xv. 19.

Adn. 18. *Ond en cig fydd eiddot ti*] Sef eu holl gig, ac nid rhai rhauau yn unig, fel mewn aberthau ereill.

Adn. 19. *Cyfammod halen*] Hyny yw, cyfammod anllygrawdy a thragwyddol. Ac y mae y fraint hon a roddwyd i'r offeirïaid yn cael ei galw yn *gyfammod*, am ddarfod ei rhoddi iddynt yn ammodol, sef ar yr ammod o'u gwasanaeth, a'u gofal am addoliad Duw. Gan fod *halen* yn cael ei chwaneu at wahanol fathau o fwydydd, nid yn unig i'w gwneuthur yn flasus, ond i'w cadw rhag llygrïad a phydrëdd, daeth yn arwydd *o anllygredigaeth a pharhad*: o ganlyniad y mae 'cyfammod halen' yn arwyddo *cyfammod tragwyddol*: gwel ar Lef. ii. 13.

Adn. 20. *Na fydded i ti etifeddiacth yn eu tir hwynt*] Sef yn nhir meibion Israel: hyny yw, ni chaf di gyfran wahanedig o dir, fel y caiff y llwythau ereill. Y rheswm am y gyfraith hon oedd, 1. Am y mynai Duw eu cael hwy yn gwbl gysegredig i'w wasanaeth ef, ac felly yn rhydd oddiwrth wystrau bydol. 2. Am ddarfod iddo ddarparu yn helaeth iddynt hwy ffordd arall, sef trwy y degymau, y blaenffyrthau, a'r offrymau. 3. Ac fel y gallent, wrth fod yn wasgareid yn mysg y gwahanol lwythau, gael gwell cyfensdra i ddysgu a gwylio dros y bobl. *Myfi yw dy ran di a'th etifeddiacth*—yr oeddynt yn cael eu cynal yn ei dŷ, yn byw ar ei allor, ac yn cael eu porthi ar ei fwrdd ef, Jos. xiii. 14. Dywed y rabbinaid fod *pedair-ar-hugain* o roddion yn cael eu rhoddi at gynaliaeth yr offeirïaid, y rhai a grybwyllir oll yn y gyfraith: gwel *Ainsworth*. Ac heblaw hyn, yr oeddynt yn cael yr arian teyrnged a grybwyllir pen. xxxi. 28, 29.

Adn. 21. *Ac wele, mi a roddais i feibion Lefi bob degwm yn Israel*] 1. Yr oedd gan y Lefïaid y degfed o holl gynyrch y tir. 2. Yr

Lefi bob degwm yn Israel, yn etifeddiacth, am eu gwasanaeth y maent yn ei wasanaethu, *sef* gwasanaeth pabell y cyfarfod.

22 Ac na ddeued meibion Israel mwyach yn agos i babell y cyfarfod; rhag iddynt ddwyn pechod, a marw.

23 Ond gwasanaethed y Lefïaid wasanaeth pabell y cyfarfod, a dygant eu hanwiredd: deddf dragwyddol *fydd* hyn trwy eich cenedlaethau, nad etifeddant hwy etifeddiacth yn mysg meibion Israel.

24 Canys degwm meibion Israel, yr hwn a offrymant yn offrwm dyrchafael i'r Arglwydd, a roddais i'r Lefïaid yn etifeddiacth: am hyny y dywedais wrthynt, nad etifeddent etifeddiacth yn mysg meibion Israel.

25 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

oedd ganddynt wyth-a-deugain o ddinasoedd, pob un yn fuffio ysgwâr o 4,000 o guffyddau. 3. Yr oedd ganddynt 2,000 o guffyddau o dir o amgylch pob dinas, yn gwneyd yn y cyfan 53,000 o erwau. 4. Yr oedd ganddynt y blaenffyrthau, a rhyw ranau o'r holl anifeiliaid a leddid yn y tir. Gan fod Canaan yn cynwys o gylch 11,264,000 o erwau, yr oedd y gyfran a feddiennid gan y Lefïaid braidd yn llai na megys un i 212. Ond er mai cyfran dra bechan oedd hon i *lwyth cyfan* ag ydoedd wedi cydsynio i ddiddymu eu *bodolaeth wladwriaethol*, fel y gallent weini yn ngwasanaeth Duw, a llafurio dros eneidiau y bobl; eto yr hyn a feddiannent hwy ydoedd y *goraf o'r tir*: ac er mai gwobr bychan ydoedd am eu gwasanaeth, eto yr oedd eu dogn yn gyfryw ag a'u gwnai hwynt yn annibynol, ac a'u cadwai yn gysurus, fel ag i allu gwneuthur gwaith yr Arglwydd yn ddidrallo.

Adn. 22. *Ac na ddeued meibion Israel mwyach yn agos i babell y cyfarfod*] I wneuthur unrhyw weithred briodol i'r offeirïaid na'r Lefïaid. Ond gallent agosáu i ddwyn eu hanifeiliaid i'w haberthu.

Adn. 23. *A dygant eu hanwiredd*] Neu y gosp ddyledus nid yn unig am eu camyddygïad eu hunain, ond hefyd am eiddo y bobl, os wedi ei gyflawni trwy eu goddefiad neu eu hesgeulusdod hwy: gwel ar adn. 1. Dyma y rheswm paham y darfu i'r offeirïaid wrthsefyll y brenin Uzziab, pan y mynai efe aroglardarthu i'r Arglwydd, 2 Cron. xxvi. 18.

Adn. 24. *Yr hwn a offrymant yn offrwm dyrchafael i'r Arglwydd*] Yn gydnabyddiad ddarfod iddynt gael eu holl dir a'u ffyrthau o haelioni Duw. Y mae yr ymadrodd 'offrwm dyrchafael,' yr hwn yn gyffredin a ddeallir am fath neillduol o offrymau a ddyrchedd neu a goddi i fyny i'r Arglwydd, yn cael ei arfer yma am unrhyw offrwm.

Adn. 26. *Degwm o'r degwm*] O'r degwm a dderbyniai y Lefïaid gan feibion Israel, yr oeddynt hwythau i roddi degwm i'r offeirïaid: gwel ar adn. 28.

26 Llefara hefyd wrth y Lefiaid, a dywed wrthynt, Pan gymeroch gan feibion Israel y degwm a roddais i chwi yn etifeddiaeth oddiwrthynt; yna offrym-wch o hyny offrwm dyrchafael i'r Arglwydd, *sef* degwm o'r degwm.

27 A chyfrifir i chwi eich offrwm dyrchafael, fel yr *ŷd* o'r ysgubor, ac fel cyflawnder o'r gwin-wryf.

28 Felly yr offrym-wch chwithau hefyd offrwm dyrchafael i'r Arglwydd, o'ch holl ddegymau a gymeroch gan feibion Israel; a rhoddwch o hyny ddyrchafael offrwm yr Arglwydd i Aaron yr offeiriad.

29 O'ch holl roddion offrym-wch bob offrwm dyrchafael yr Arglwydd o bob goreu o hono, *sef* y rhan gysegr-edig, allan o hono ef.

30 A dywed wrthynt, Pan ddyrchafoch ei oreuon allan o hono, cyfrifir i'r Lefiaid fel toraeth yr ysgubor, a thoraeth y gwin-wryf.

Adn. 27. *Fel yr ŷd o'r ysgubor*] Fe'i derbynir oddiwrthynt yn un fath a phe buas-ech yn ei offrymu ef o'ch tiroedd a'ch llafur eich hunain.

Adn. 28. *I Aaron yr offeiriad*] A'i feibion, y rhai oeddynt oll ond odid i gael eu rhan o hyn; ac wrth ystyried bychander rhif yr offeiriad, yr oedd eu dogyn yn helaeth. Ond myn Patrick mai dogyn yr archeoffeiriad yn unig oedd y 'degwm o'r degwm' hwn.

Adn. 29. *O'ch holl roddion*] Nid yn unig o'ch degymau, ond o'r rhoddion ereill a dderbyniwch gan y bobl, ac o'r maesydd a berthynant i'ch dinasoedd. Yr oedd yn rhaid iddynt roddi y gyfran oraf o'r cwbl i Dduw, fel cydnabyddiad o'i ddaioni ef, a'u hymddi-byniad hwythau arno ef. *Y rhan gysegr-edig*—*sef* y ddegfed, yr hon a gysegrasai neu a neillduasai Duw iddo ei hun.

Adn. 30. *Fel toraeth yr ysgubor*] Gwel ar adn. 27.

Adn. 31. *Gwobr yw efe i chwi*] Gwel ar Mat. x. 10, Luc x. 7, i Cor. ix. 13.

Adn. 32. *Na halogwch chwithau bethau santuidd meibion Israel*] Trwy gadw yn gwbl i chwi eich hunain yr hyn ag y maent hwy yn ei offrymu i Dduw, i'w ranu yn ol ei benodiad ef rhyngoch chwi a'r offeiriad.

PEN. XIX. Adn. 1. *Llefarodd yr Arglwydd, &c.*] Yr oedd y bobl wedi bod yn cwyno o herwydd caethder y gyfraith, yr hon a waharddai iddynt nesâu i'r tabernacl, pen. xvii. 13; ac yr oedd marwolaeth ddisymwth cynifer trwy y pla diweddar wedi rhoddi y fath rifedi o'u perthynasau a'u cyfeillion mewn cyfiwr o afendid deddfol, yr hyn a'u hanalluogai i nesâu ato ef, ac a'u llanwai ag ofn y byddai iddynt drengu yn eu haflendid. Mewn atebiad gan hyny i'w cwynion, ac i'w rhyddhau oddiwrth yr ofn hwn, danghosir iddynt yma pa fodd y gallent gael eu puro

31 A bwytwch ef yn mhob lle, chwi a'ch tylwyth: canys gwobr *yw* efe i chwi, am eich gwasanaeth yn mhabel y cyfarfod.

32 Ac ni ddygwch bechod o'i herwydd, gwedi y dyrchafoch ei oreuon o hono: na halogwch chwithau bethau santuidd meibion Israel; fel na byddoch feirw.

PENNOD XIX.

LLEFARODD yr Arglwydd hefyd wrth Moses, ac wrth Aaron, gan ddywedyd,

2 Dyma ddeddf y gyfraith a orchymynodd yr Arglwydd, gan ddywedyd, Llefara wrth feibion Israel, am ddwyn o honynt atat, anner goch berffeith-gwbl, yr hon ni byddo anaf arni, ac nid aeth iau arni.

3 A rhoddwch hi at Eleazar yr offeiriad: a pharedd efe ei dwyn hi o'r tu

oddiwrth yr afendid deddfol mwyaf, fel ag i allu nesâu at Dduw yn ei ordinhadau, ac yn mhlith ei bobl, heb ofn na pherygl.

Adn. 2. *Llefara wrth feibion Israel, am ddwyn o honynt atat anner goch*] Yr oedd yr holl bobl i ymlesâu trwy yr anner goch, ac am hyny yr oedd yr holl bobl i ddarparu yr aberth. Yr oedd gan yr arddedof hon gyfeiriad yn ddiaid at bethau a wneid dan yr efengyl, ac felly yr oedd yn cysgodi aberth ein Harglwydd bendigedig: gwel ar Heb. ix. 13, 14. Gallwn sylwi yma, (1) Mai arnaid a benodid yn aberth, mewn gwrthgyferbyniad ond odid i goelgrefydd yr Aifftiaid, y rhai a ystyriant yr anner yn *santuidd*, ac a addolent eu duwies fawr *Isis* dan y ffurf yma: ac ymddengys hyn yn debycach, am mai y rhai *gwryw* yn gyffredin a ddewisid yn aberth, tra y mae y *fenyw* yn cael ei dewis yma. (2) Yr oedd i fod yn *anner goch*, am mai *teirw cochion* a aberthid i heddychu yr llyll drwg *Typhon*, yr hwn a addolid yn mhlith yr Aifftiaid: gwel *Spencer*. Yr oedd y lliw coch hefyd yn dangos *euogrydd pechod*, yr hwn sydd fel porfir ac ysgarlad; a *gwedd Crist*, oddiwrth ba un yr oedd yr holl gysgodau yn derbyn eu rhinwedd pureiddiol. (3) Yr oedd yr anner i fod yn *berffeith-gwbl* o ran ei chochni, heb gymysgedd o un lliw arall. Dywed Plutarch, os byddai un blewyn arni yn *wyn* nen *ddil*, ei fod yn anafu yr aberth. (4) Yr oedd i fod yn *dli-anaf*, heb un math o amherffeithrwydd yn ei chorff. (5) Yr oedd i fod yn ddyeithr i'r *iau*, am fod pob anifel ag y buwyd yn ei ddefnyddio i ryw berwyl cyffredin yn cael ei farnu yn anaddas i'w offrymu yn aberth i Dduw. Yr oedd y Cenedl-ddynion, y rhai yr ymddengys iddynt fenthyca llawer oddiwrth yr Iuddewon, yn dra gochelgar yn hyn: ni wnai y Groegiaid, y Rhufeiniaid, na'r Aifftiaid, offrymu un anifel yn aberth ag a fusai ar waith mewn gorchwylion amaethyddol.

allan i'r gwersyll; a lladded *un* hi ger ei fron ef.

4 A chymered Eleazar yr offeiriad *beth* o'i gwaed hi ar ei fys, a thaenelled o'i gwaed hi ar gyfer wyneb pabell y cyfarfod saith waith.

5 A llosged *un* yr anner yn ei olwg ef: ei chroen, a'i chig, a'i gwaed, yn nghyda'i biswail, a lysg efe.

6 A chymered yr offeiriad goed cedr, ac isop, ac ysgarlad; a bwried i ganol llosgfa yr anner.

7 A golched yr offeiriad ei wisgoedd, troched hefyd ei gnawd mewn dwfr, ac wedi hynny deued i'r gwersyll; ac aflan fydd yr offeiriad hyd yr hwyr.

8 Felly golched yr hwn a'i llosgo hi

Adn. 3. *A rhoddwch hi at Eleazar*] Yr hwn oedd yr ail offeiriad, ac mewn rhai achosion yn ddirprwywr yr archoffeiriad. Rhoddwyd y wasanaeth yma iddo ef, ac nid i Aaron, am nad oedd yn iawn i Aaron fod yn rhwym mewn dim a'i gwai ef yn ddefodol aflan, er na byddai ond 'hyd yr hwyr,' adn. 7; eto, gan fod hwn yn cysgodi dyoddefiadau a marwolaeth Crist, a'r buredigaeth trwy ei waed ef, yr oedd yn iawn i'r weithred gael ei chyflawni gan yr un nesaf i Aaron mewn urddas. Gan yr archoffeiriad, yn amser ein Harglwydd, yr oedd y llaw benaf yn ei farwolaeth yntau. *A phared efe ei dwyn hi o'r tuallan i'r gwersyll*—mewn rhan am fod yr anner hon yn cael ei chyfrif yn aflan a mellidgedig, trwy ei bod wedi ei llwytho â phechodau yr holl bobl; ac mewn rhan i arwyddo y byddai i Grist 'ddyoddef y tuallan i'r porth,' lle yr oedd y drwgweithredwyr yn dyoddef, Heb. xiii. 12.

Adn. 4. *A thacnelled o'i gwaed hi ar gyfer wyneb pabell y cyfarfod*] Yr oedd hwn yn ei wneuthur mewn rhyw ystyr yn ddyhuddiant pechod; canys taenellad y gwaed gerbron yr Arglwydd oedd y prif edmygedig yn yr holl ebyrth cymod: gan hynny, er na wneid hwn with yr allor, eto trwy ei fod yn cael ei wneuthur tua'r cysegr, neu 'ar gyfer gwyneb y pabell,' arwyddid trwy hynny fod ei rinwedd a'i rym yn ymddibynu ar y cysegr, ac yn deilliaw oddiwrtho.

Adn. 5, 6. *A llosged un yr anner yn ei olwg ef*] Yr oedd hwn yn cysgodi dirfawr ddyoddefiadau ein Harglwydd yn ei enaid a'i gorff, fel aberth tanllwyd. *Goed cedr, ac isop, ac ysgarlad*—defnyddid y rhai hyn yn nglanhad y gwahangleision, Lef. xiv. 6, 7; ac yr oedd yntau oll yma yn cael eu llosgi, ac fel pe busasai eu hoffrymu i Dduw, fel y byddai iddyn gael eu santeiddio i'r dyben hwn rhaglawn.

Adn. 7. *Ac aflan fydd yr offeiriad hyd yr hwyr*] Mewn rhan i ddyysu i ni annherfleithrwydd yr offeiriadaeth Lefaiidd, yn yr hon yr oedd yr offeiriad ei hun yn cael ei halogi trwy ryw ran o'i waith; ac mewn rhan i ddangos fod Crist ei hun, er nad oedd ganddo ef un pechod o'i eiddo ei hunan, eto yn cael ei gyfrif gan ddyonion a'i farnu gan Dduw megys un

ei ddillad mewn dwfr, a golched hefyd ei gnawd mewn dwfr; ac aflan fydd hyd yr hwyr.

9 A chasgled un glân ludw yr anner, a gosoded o'r tu allan i'r gwersyll mewn lle glân; a bydded yn nghadw i gynulleidfa meibion Israel, yn ddwfr neillduaeth: pech-aberth *yw*.

10 A golched yr hwn a gasglo ludw yr anner ei ddillad; aflan fydd hyd yr hwyr: a bydd hyn i feibion Israel, ac i'r dycieith a ymdeithio yn en mysg hwynt, yn ddeddf dragwyddol.

11 ¶ A gyfllyrddo â choroph marw dyn, aflan fydd saith niwrnod.

12 Ymlanhäed trwy y dwfr hwnw y trydydd dydd, a'r seithfed dydd glân

pechadurus, ar gyfrif ein pechodau ni y rhai a roddwyd arno ef.

Adn. 8. *Felly golched yr hwn a'i llosgo hi ei ddillad*] Yr oedd yr offeiriad yn aflan, yr hwn ni wnaeth ond taenellu ei gwaed, adn. 7; ac yntau yr hwn a'i llosgai hi; yn gystal a'r hwn a gasglai ei lludw, adn. 10. Felly hefyd yr oedd pawb a feddent law yn marwolaeth Crist yn tynu euogrywydd arnynt eu hunain trwy hynny; ei fradychwr, ei erlynywr, ei farnwr, a'i lofruddion; canys gwnaethant hynny 'trwy ddwylaw anwir,' Act. ii. 23.

Adn. 9. *A chasgled un glân ludw yr anner*] Yr oedd lludw yr anner yn cael ei neillduo cystal ag y gellid oddiwrth ludw y coed â phara ei llosgwyd, ac yn cael ei bwyo, ei ogryn, a'i gadw at wasanaeth y gynulleidfa fel y byddai achos, nid yn unig i'r oes lônno, ond i'r oesoedd a ddeuent; canys yr oedd lludw yr un anner hon, meddai yr Iuddewon, yn ddigon i nawsiannu cynifer llestraid o ddwfr ag a fyddai ar bobl Israel eu heisiau am lawer o oesoedd; 'ie, dywedant ddarfod i'r un hon wasanaethu hyd y caethiwd, yn agos i fil o flynyddau, ac na losgwyd un anner byth wedi hynny hyd amser Ezra. Ond gyda golwg ar y traddodiad hwn o'r eiddynt, seiliedig ond odid ar ddystawrwydd yr hen gofysfrau, nid ymddengys fod un rheswm da i'w gredw, gan eu bod yn oesoedd diweddaraf eu beglws, pryd yr oedd ganddynt gofiaethau llawnach, yn rhoddi hanes am wyth yn cael eu llosgi rhwng amser Ezra a dilynstr yr ail deml, yspaid o gylch pum cant o flynyddau yn unig. Modd bynag, yn aberthiad corff a gwaed Crist, yr hwn a offrymwyd unwaith yn unig am byth, cawn ystôr anhyspyddadwy o haeddiant, at ba un, trwy ffydd, y gall ei eglwys ef fynes o oes i oes er puro eu cydwylbodau oddiwrth weithredoedd meirwon; gwel ar pen. viii. 7.

Adn. 10. *A bydd hyn i feibion Israel, ac i'r dycieith, &c.*] Nid oedd angen aw ladd anner dros bob dyn neu deulu oedd â achos arnynt am lanhad, eithr yr oedd yr un hon yn ddigon i'r cwbl, hyd yn nod i'r dycieithiaid a ymdeithient yn en mysg. Felly y mae digon o rinwedd yn ngwaed Crist dros bawb ag sydd yn edifarhau ac yn credu yr efengyl; ac nid dros eu pechodau hwy yn unig, 'eithr dros bechodau yr holl fyd,' 1 Ioan ii. 2.

fydd: ac os y trydydd dydd nid ymlanhaf efe; yna ni bydd efe lân y seithfed dydd.

13 Pob un a gyffyrddo â chorff marw dyn fyddo wedi marw, ac nid ymlanhaf, sydd yn halogi tabernacl yr Arglwydd; a thorir ymaith yr enaid hwnw oddiwrth Israel: am na thaenellwyd dwfr neillduaeth arno, aflan fydd efe; ei aflendid *sydd* eto arno.

14 Dyma y gyfraith, pan fyddo marw dyn mewn pabell; pob un a ddelo i'r habell, a phob un a fyddo yn y habell, fydd aflan saith niwrnod.

15 A phob llestr agored ni byddo cadach wedi ei rwyno arno, aflan *yw* efe.

16 Pob un hefyd a gyffyrddo, ar wyneb y maes, âg un wedi ei ladd â chleddyf, neu âg un marw, neu âg asgwrn dyn, neu â bedd, a fydd aflan saith niwrnod.

Adn. 11. *A gyffyrddo â chorff marw dyn aflan fydd saith niwrnod*] Mor isel y mae hyn yn gosod dyn! Nid oedd yr hwn a gyffyrddai âg anifel marw, yn aflan ond un diwrnod, Lef. xi. 25, 27, 39; ond y mae yr hwn a gyffyrddo â dyn marw, yn aflan *saith* niwrnod! Bwriadwyd hyn yn ddian, fel y sylwa Clarke, i nodi allan amhurdeb neillduol dyn, ac i ddangos ei bechaduruswydd ef—*seithwaith* gwaeth na'r anifel aflanaf! Tydi fab y wawrddydd, pa fodd y syrthiaist!

Adn. 12. *Ymlanhâd trwy y dwfr hwnw*] *Yithchatta bo*, yn llythrenol, *ymbeched trwyddo*. Y mae y ffurf o ymadrodd Hebreig yma yn ddigon cyffredin yn ein plith ninaw mewn pethau ereill. Fel hyn, nid *yw* *eneifio*, *rhisglo*, &c., yn arwyddo *chwaneu* enaf neu risgl, ond ei *dynu ymaith*. Felly nid *chwaneu* pechod *yw ymbechu* yn yr ieithwedd Hebreig, ond ei *dynu* ef ymaith, *ymlanhau*. Y *trydydd dydd*—i arwyddo adgyfodiad Crist ar y dydd hwnw, trwy yr hyn yr ydym ni yn cael ein glanhau neu ein santeiddio.

Adn. 13. *Pob un a gyffyrddo â chorff marw*] Yn wybodol a rhyfygus; canys os gwnai efe hyn mewn amybodaeth, nid oedd raid iddo ond offrymu aberth. *Sydd yn halogi tabernacl yr Arglwydd*—trwy nesâu ato yn ei aflendid; canys yr oedd pethau neu le-oedd santeidd yn cael eu halogi yn seremonïol trwy gyffyrddiad unrhyw berson neu beth aflan. *Ei aflendid sydd eto arno*—y mae yn parhau yn ei euogrywydd, yr hwn nid *yw* yn awr i gael ei olchi ymaith â'r dwfr hwn, ond a gospr trwy 'doriad ymaith oddiwrth Israel.'

Adn. 14. *Pan fyddo marw dyn mewn pabell*] Yn y rhai yr oeddynt yn awr yn byw; ac, am yr un rheswm, yr oeddynt yn rhwym wrth yr un gyfraith pan y daethant i breswyllo mewn tai.

Adn. 15. *A phob llestr*] Mewn pabell lle y byddo marw dyn; *agored*—heb gaead arno neu orchudd drosto.

17 Cymerant dros yr aflan o ludw llosg yr offrw m dros bechod; a rhodder ato ddwfr rhedegog mewn llestr;

18 A chymered isop, a golched un dihalogedig ef mewn dwfr, a thaenelled ar y habell, ac ar yr holl lestri, ac ar yr holl ddynion oedd yno, ac ar yr hwn a gyffyrddodd âg asgwrn, neu un wedi ei ladd, neu un wedi marw, neu fedd:

19 A thaenelled y glân ar yr aflan y trydydd dydd, a'r seithfed dydd; ac ymlanhâd efe y seithfed dydd, a golched ei ddillad, ymolched mewn dwfr, a glân fydd yn yr hwy.

20 Ond y gw'r a haloger, ac nid ymlanhaf, torir ymaith yr enaid hwnw o fysg y gynulleidfa: canys efe a halogodd gysegr yr Arglwydd, ni thaenellwyd arno ddwfr y neillduaeth; aflan *yw* efe.

21 A bydd iddynt yn ddeddf dragwy-

Adn. 16. *Wedi ei ladd â chleddyf*] Neu mewn rhyw ffordd dreisio arall, pen. xxxi. 19.

Adn. 17. *Cymerant dros yr aflan o ludw llosg yr offrw m dros bechod*] Yr hwn yn debygol a gedwid yn holl ddinasoedd Judea er cyfleusdra; canys nid oedd yn ofynol cael offeiriad at y pureiddiad hwn, ond gallai unrhyw un glân ei ddefnyddio, adn. 19, ar ei iddo gael ei barotoi gan offeiriad, adn. 6. *A rhodder ato ddwfr rhedegog mewn llestr*—sef dwfr yn dylifo o fynyon neu afon, yr hwn sydd burach na dwfr marw llyn. Y mae hwn yn awlwg yn arwyddo Ysbryd Duw, yr hwn yn fynyng a gydmerir i ddwfr, trwy yr hwn yn unig, ar gyfrif aberth Crist, y mae gwir buredigaeth yn gyraeddadwy. Nid *yw* y rhai a addawant iddynt yn hunain lesâd trwy gyfiawnder Crist, tra heb ymostwng i ddflnwad ei Ysbryd ef, ond yn eu twyllo eu hunain; canys ni allant gael eu puro trwy y lludw amgen nag yn y dwfr rhedegog.

Adn. 18. *A chymered isop*] Mewn cyfeiriad at hyn y gweddïa Dafydd, 'Glanha fi âg isop,' Salm li. 7. *Ffydd yw y tusw isop*, â pha un y taenellir y gydwybod ac y purir y galon; ac y mae gwaed Crist, wedi ei gymhwyso trwy ffydd, yn cael ei alw yn 'waed y taenellid,' Heb. x. 22, a xii. 24.

Adn. 19. *A thaenelled y glân ar yr aflan*] Sef unrhyw un glân neu ddihalogedig o feibion Israel, er na byddo yn offeiriad: gwel ar adn. 17.

Adn. 20. *Ond y gw'r a haloger, ac nid ymlanhaf*] A wrthod yn ddirmygus ymostwng i'r ffordd hon o bureiddiad.

Adn. 21. *Bod i'r hwn a daenello ddwfr y neillduaeth olchi ei ddillad*] Am ei fod yn aflan. Y mae yn hynod fod yr un dwfr yn glanhau y naill ddyn, ac yn halogi y llall: ond mynai Duw iddi fod felly, i ddysgu i ni nad oedd y dwfr yn glanhau trwy unrhyw rinwedd ynddo ei hun, ond yn unig trwy rinwedd penodiad Duw; ac i ddangos, fel y

ddol, bod i'r hwn a daenello ddwfr y neillduaeth, olchi ei ddillad; a'r hwn a gyffyrddo â dwfr y neillduaeth, a fydd aflau hyd yr hwyr.

22 A'r hyn oll a gyffyrddo yr aflan âg ef, fydd aflan: a'r hyn a gyffyrddo a hyny, fydd aflan hyd yr hwyr.

PENNOD XX.

A MEIBION Israel, *sef* yr holl gynulleidfa, a ddaethant i anialwch Sin, yn y mis cyntaf; ac arhodd y bobl yn Cades: yno hefyd y bu farw Miriam; ac yno y claddwyd hi.

2 Ac nid oedd dwfr i'r gynulleidfa: a hwy a ymgasglasant yn erbyn Moses ac Aaron.

sylyw Benson, 'nad yw effeithiolaeth ordinhadau Duw yn ymddibynnu ar berson neu gymhwysder ei weinidogion ef, canys medrai a gwnai yr un person ag ydoedd yn halogedig i hun, yn y defnyddiad o foddion gosodedig Duw, lanbau ereill.' *A'r hwn a gyffyrddo*—i lanbau arall, neu i gael ei lanbau ei hun.

Adn. 22. *A'r hyn oll*, &c.] Gwel ar Lef. xv. 4—12.

PEN. XX. Adn. 1. *A meibion Israel—a ddaethant i anialwch Sin*] Lle yn agos i dir Edom, gwahanol i'r Sin a grybwyllir Exod. xvi. 1, a phell oddiwrtho: gwel ar pen. xiii. 21. Ond myn rhai mai yr un lle yw y ddau. *Yn y mis cyntaf*—hwn oedd y mis cyntaf o'r *ddeugeinfed* flwyddyn ar ol eu bymardawiad o'r Aifft, pen. xxxiii. 8, Deut. ii. 3. Y mae Moses yn pasio gorchywilaethau *duy flynedd ar byntheig ar hugain*, am ei fod yn ysgrifenu nid fel hanesydd, ond fel deddfroddwr; ac yn rhoddi i ni yn neillduol hanes am ddeddfau, ordinhadau, a dygwyddiadau ereill blynyddau cyntaf ac olaf eu pererindod. Y flwyddyn ag y sonir am dani yn awr oedd yr olaf o'n teithiau; canys o fynediad yr yspiwyr allan, pen. xiii, hyd y pryd hyn, yr oedd o gylch deunaw mlynedd ar hugain, Deut. ii. 14. *Yno hefyd y bu farw Miriam*—meddylir ei bod yn amser ei marwolaeth yn 130 nilwydd oed, gan ei bod o leiaf yn 10 oed, neu 17 yn ol Josephus, pan aned Moses. Y mae yr ysgrifenywyr Pabaidd yn ei gosod hi allan megys cysgod o'r Forwyn Fair, ac wedi cadw gwrytddod bythol; a dywedant ei bod yn deddfu dros y gwragedd Israelaidd, megys y gwnai Moses dros y gwyr; a'i bod yn meddu ihan helaeth o ysbryd profwydoliaeth. Dywed Eusebius fod ei beddrod i'w weled yn Cades, gerllaw dinas Petra, yn ei amser ef. Ymddengys iddi farw o gylch *pedwar mis* o flaen ei brawd Aaron, pen. xxxiii. 38, ac *ynarddeg* o flaen ei brawd Moses: felly bu y tri hyn, y rhai enwocaf o'r bodau dynol, farw mewn yspaid un flwyddyn!

Adn. 2. *Ac nid oedd dwfr i'r gynulleidfa*] Yr hwn, fel y meddylir yn gyffredin, wedi iddo eu dylun trwy eu holl deithiau blaenorol, a ddechrenai ballu iddynt yma, naill ai am eu bod yn awr wedi dyfod gerllaw gwledydd lle y gellid cael dwfr trwy foddion cyffredin,

3 Ac ymgynhenodd y bobl â Moses, a llefarasant, gan ddywedyd, O na buasem feirw pan fu feirw ein brodyr gerbron yr Arglwydd!

4 Paham y dygasoch gynulleidfa yr Arglwydd i'r anialwch hwn, i farw o honom ni a'n hanifeiliaid ynddo?

5 A phaham y dygasoch ni i fyny o'r Aifft, i'n dwyn ni i'r lle drwg yma? lle heb had, na ffygysbren, na gwinwydden, na phomgranadren, ac heb ddwfr i'w yfed?

6 A daeth Moses ac Aaron oddi gerbron y gynulleidfa, i ddrws pabell y cyfarfod; ac a syrthiasant ar eu hwynebau: a gogoniant yr Arglwydd a ymddanghosodd iddynt.

neu ynte i'w profi hwyt, fel y profesid eu tadau gynt: ac megys y tuchanodd y tadau yn *Rephidim*, Exod. xvii. 1, felly hefyd y gwnaeth y plant yn *Cades*.

Adn. 3. *O na buasem feirw pan fu feirw ein brodyr gerbron yr Arglwydd*] Yn *sydyn*, yn hytrach na marw o'r fath farwolaeth araf! Yr oedd eu pechod hwy yn llawer mwy nag eiddo eu rhieni, am y dylasant fod wedi cymeryd ihybydd oddiwrth eu camymddygiadau hwy, a'r effeithiau dychrynlyd a gaulnyasant, y rhai a welsau eu llygaid.

Adn. 4, 5. *Paham y dygasoch gynulleidfa yr Arglwydd i'r anialwch hwn*, &c.] Yr oeddynt yn cweryla â Moses ac Aaron am yr hyn y gwyddent ei fod wedi cael ei wneuthur gan yr Arglwydd. Y maent yr darlunio fel *sarhad* yr hyn oedd y *ffastr* fwyaf a wnaed erioed i unrhyw bobl, sef eu dwyn o gaethiwed i ryddid, ac o'r Aifft tua Chanaan; ac er mai diflyg dwfr yn unig oedd eu gofid presenol, eto yn awr, pan y maent yn tueddu i feio, edrychant arno fel caledi anoddefol eu bod heb had, na ffygysbren, na gwinwydden, na phomgranadren! Ni ddylasant hwy ymgynbennu yn anad neb, y rhai oeddynt wedi cael y fath brawf hir a dianwadal o ddaioni Duw, ac o dynerwch a fyddlondeb Moses ac Aaron, yn gystal ag o gyfiawn farn Duw yn erbyn tuchanrwydd eu tadau. Yr oedd Miriam newydd farw; ac ar ol iddynt gollu un o'u blaenoriaid, dylasant fod yn fwy parhaus o'r rhai a adawyd: ond fel pe bnasent wedi llwyr fwrriadu digio Duw, a'i annog i'w gadael fel defaid heb fugail, y maent yn ymfyrnigo yn erbyn Moses ac Aaron; i.e. yn lle cydymdeimlo â hwynt ar farwolaeth eu chwaer, y maent yn chwaneu blinder at eu tristwch!

Adn. 6. *A daeth Moses ac Aaron oddi gerbron y gynulleidfa i ddrws pabell y cyfarfod*] I wybod meddwl Duw yn yr achos hwn. *Ac a syrthiasant ar eu hwynebau*—fel o'r blaen ar achos cyffelyb, i eiriach digofaint Duw, ac i erfyn am ddiwallu eu hangen. Nid oes yma grybwylliad am ddim a ddywedasant: gwyddent i Dduw glywed tuchan y bobl; a cher ei fron ef y maent yn ymostwng yn isel, gan erfyn âg ocheneidiau annbraethadwy. *A gogoniant yr Arglwydd a ymddanghosodd iddynt*—ymddanghosodd Duw iddynt, nid ar orsedd

7 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

8 Cymer y wialen, a chasgl y gynulleidfa, ti ac Aaron dy frawd; ac yn eu gwydd hwynt llefarwch wrth y graig, a hi a rydd ei dwfr: a thyn di-thau iddynt ddwfr o'r graig, a dioda y gynulleidfa a'u hanifeiliaid.

9 A Moses a gymerodd y wialen oddigerbron yr Arglwydd, megys y gorchymynasai efe iddo.

10 A Moses ac Aaron a gynullasant y dyrfa yn nghyd o flaen y graig: ac efe a ddywedodd wrthynt; Gwrandedwch yn awr, chwi wrthryfelwyr; Ai o'r graig hon y tynwn i chwi ddwfr?

11 A Moses a gododd ei law, ac a darawodd y graig ddwywaith â'i wialen: a daeth dwfr lawer allan; a'r gynulleidfa a yfodd, a'u hanifeiliaid hefyd.

12 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, ac wrth Aaron, Am na

chredasoch i mi, i'm santeiddio yn ngwydd meibion Israel; am hyny ni ddygwch y dyrfa hon i'r tir a roddais iddynt.

13 Dyma ddyfroedd Meriba; lle yr ymgynhenodd meibion Israel â'r Arglwydd; ac y santeiddiwyd ef ynddynt.

14 ¶ A Moses a anfonodd genhadon o Cades at frenin Edom, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed Israel dy frawd; Ti a wyddost yr holl flinder a gawsom ni:

15 Pa wedd yr aeth ein tadau i waered i'r Aifft, ac yr arosom yn yr Aifft lawer o ddyddiau; ac ym drygodd yr Aifftiaid ni, a'n tadau.

16 A ni a waeddasom ar yr Arglwydd; ac efe a glybu ein llef ni, ac a anfonodd angel, ac a'n dyg ni allan o'r Aifft: ac wele ni yn Cades, dinas ar gwr dy ardal di.

17 Atolwg, gad i ni fyned trwy dy wlad: nid awn trwy faes, na gwinllan,

cyfiawnder, i farnu y gwrthryfelwyr yn ol eu haeddiant; ond ar orsedd ei *ogoniant*, i ddystewi eu tuchan anghyfiawn; ar orseddfainc ei *ras*, i foddloni eu dymuniadau cyfiawn. Yr oedd yn angenrheidiol iddynt gael dwfr; ac am hyny, er fod dull eu herfyniad am dano yn afreolus a therfysglyd, eto ni chymerodd Duw y fantais hōno yn eu herbyn i'w nacâu iddynt, eithr rhoddodd orchymyn yn ebrwydd am eu diwallu âg ef.

Adn. 8, 9. *Cymer y wialen*] Nid gwialen Aaron, yr hon a ddoddesid yn y cysegr, pen. xvii. 10, fel y meddylia rhai; eithr gwialen Moses, â'r hon y gwnaethai efe gynifer o wyrthiau gerbron Pharaon.

Adn. 10, 11. *Ai o'r graig hon y tynwn, &c.*] Gwel ar adn. 12.

Adn. 12. *Am na chredasoch i mi*] Pa beth oedd y trosedd am yr hwn y cauwyd Moses ac Aaron o wlad yr addewid? Ymddengys ei fod yn gynwysedig mewn rhai neu yn yr oll o'r pethau canlynol: (1) Gorchymynasai Duw iddo ef gymeryd y wialen yn ei law, ac yn eu gwydd hwynt *lefaru wrth y graig*, adn. 8, yr hon a roddai iddynt ddwfr. Ymddengys fod Moses yn meddwl na byddai *lefaru* yn ddigonol, gan hyny efe a *darawodd* y graig heb un gorchymyn i wneyd hyny. (2) Efe a'i tarawodd hi *ddwywaith*, yr hyn a ddanghosai ddifffyg amynedd, aunghrediniaeth, ac anystyriaeth o bresenoldeb a gallu Duw. (3) Efe a oddefodd i'w *ysbryd* gael ei gario ymaith gan deimlad o anuydd-dod y bobl, ac fel hyn, wedi ei gythruddo, arweiniwyd ef i 'gam-ddywedyd â'i wefusan,' (Salm cvi, 33.) *Gwrandedwch yn awr, chwi wrthryfelwyr*, adn. 10. (4) Ni chyduabyddai efe Duw yn y wyrth, eithr cymerai yr anrhydedd iddo ei hun ac Aaron. Ai o'r graig hon y tynwn i chwi ddwfr? adn. 10. Fel hyn ymddengys yn eglur nad oeddynt yn iawn *gredu* i Dduw, nac yn ei santeiddio ef yn ngwydd y bobl, eithr yr oeddynt fel pe

buasant yn amau a oedd yn ddichonadwy i'r peth gael ei wneuthur. A chan fod Aaron yn cydsynio yn y pethau hyn, cauwyd yntau befyd o wlad yr addewid.

Adn. 13. *Dyma ddyfroedd Meriba*] Nen 'ddyfroedd y gynhen:' gwel ar Exod. xvii. 7. *Ac y santeiddiwyd ef ynddynt*—sef yn meibion Israel, neu yn eu *mysg*, trwy amlygiad o'i hollalluogrwydd, ei eirwiredd, a'i hynawsedd tuag at yr Israeliaid, ac o'i lynder didnedd yn erbyn pechod hyd yn nod yn ei gyfeillion penaf.

Adn. 14. *A Moses a anfonodd genhadon o Cades at frenin Edom*] Tybia yr Archesgob Usher mai y brenin a deyrnasai yn awr yn Edom oedd *Hadar*, yr hwn a grybwyllir Gen. xxxvi. 39. *Fel hyn y dywed Israel dy frawd*—yr Edomiaid oeddynt hiliogaeth Esau, brawd Jacob neu Israel, oddiwrth yr hwn y disgynnasai yr Israeliaid. *Ti a wyddost yr holl flinder a gawsom ni*—am holl grwydriadau a chystuddiau ein tadau a ninaw, y rhai yn ddi-aniau a ddaethant i'ch glustian.

Adn. 15. *Lawer o ddyddiau*] Sef 215 o flynyddau: gwel ar Exod. xii. 40, a Gal. iii. 17.

Adn. 16. *Ac a anfonodd angel*] Angel y Cyfammod, yr hwn yn gyntaf a ymddanghosodd i Moses yn y berth, ac wedi hyny yn y golofn gwml, a'r hwn a arweiniodd Israel allan o'r Aifft, a thrwy yr anialwch. Er y gellir galw Moses yn angel neu genad, eto nid yw yn debygol mai efe a feddylir; mewn rhan am mai Moses oedd yr hwn a anfonai y genadwri hon; ac mewn rhan am mai angel arall uwch na Moses a'u harveiniai hwynt, a bod y crybwylliad o hyn wrth yr Edomiaid yn debyg o roddi mwy o awdurdod i'r genadwri bresenol. *Ac wele ni yn Cades*—neu gerllaw iddi, fel yr arwyddi y geiryn yn weithiau.

Adn. 17. *Ned yfwn ddaefr yn fyfnoni*] Neu bydew, ag y daifu i neb o honoch chwi ei

ac nid yfwn ddwfr un ffynnon: priffordd y brenin a gerddwn; ni thrown ar y llaw ddeau nac ar y llaw aswy, nes i ni fyned allan o'th derfynau di.

18 A dywedodd Edom wrtho, Na thyred heibio i mi, rhag i mi ddyfod â'r cleddyf i'th gyfarfod.

19 A meibion Israel a ddywedasant wrtho, Ar hyd y briffordd yr awn i fyny; ac os myfi neu fy anifeiliaid a yfwn o'th ddwfr di, rhoddaf ei werth ef; yn unig ar fy nhracd yr âf trwyodd yn ddiuiwed.

20 Yntau a ddywedodd, Ni chai ffyned trwyodd. A daeth Edom allan i gyfarfod âg ef, â phobl lawer, ac â llaw gref.

21 Felly Edom a nacaodd' roddi ffordd i Israel trwy ei fro: am hyny Israel a drôdd oddiwrtho ef.

22 ¶ A meibion Israel, sef yr holl gynulleidfa, a deithiasant o Cades, ac a ddaethant i fynydd Hor.

gloddio i'ch gwasanaeth neilldnol eich hunain, heb dalu am dano, adn. 19; ond yn unig dwfr yr afonydd cyffredin, yr hwn sydd rydd i bob ymdeithydd. *Priffordd y brenin a gerddwn*—heb fatru na drygu y maesydd. Dyma y lle cyntaf ag y sonir am briffordd: ymddengys ei bod yn ffordd gyffredin wedi ei gwneuthur trwy awdurdod y brenin ar gost y llywodraeth.

Adn. 18. *Na thyred heibio i mi*] Ni oddefaf i ti ddyfod trwy fy ngwlad i.

Adn. 19. *Os myfi neu fy anifeiliaid a yfwn o'th ddwfr di, rhoddaf ei werth ef*] Arferiad cyffredin gerllaw y môr coch, lle y mae y dwfr yn brin, ac yn cael ei gludo i'r prynwyr ar gamelod.

Adn. 20, 21. *Yntau a ddywedodd, Ni chai ffyned trwyodd*] Ac ar hyn cododd ei filwyr cartrefol i'w gwrthwynebu. Er fod gan bob brenin hawl i ommedd ffordd trwy ei diriogaethau i unrhyw ddyeithriaid; eto mewn achos fel hwn, ac hefyd mewn-anser pryd yr oedd ymfudiadau yn fynyh ac yn gyffredinol oddefedig, yr oedd yn greulondeb yn yr Edomiaid wrthod ffordd i dorf ddiuiwed, y rhai oeddynt hefyd yn berthynasau agos iddynt. Ymddengys modd bynag mai Edomiaid *Cades* yn unig oeddynt anghyfeillgar a chreulon fel hyn; canys darfu i'r Edomiaid a drigent yn mynydd *Seir* ymddwyn yn dirion tuag atynt, Deut. ii. 29. Y mae y creulondeb hwn yn Edomiaid *Cades* yn cael ei fygwth gan y proffwyd *Obadiah*, adn. 10, &c.

Adn. 22. *A meibion Israel—a ddaethant i fynydd Hor*] Yr hwn oedd ar y terfyn dwyrainol i dir Edom. Y mae Dr. Shaw yn meddwl fod yn dra thebyg mai mynydd *Hor* oedd y gadwyn o fynyddoedd a elwir yn awr *Ac-caba* gan yr Arabiaid.

Adn. 23. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses ac Aaron*] Felly rhaid i'r ddau frawd anwyl hyn ymadael! Rhaid i Aaron farw yn

23 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses ac Aaron yn mynydd *Hor*, wrth derfyn tir Edom, gan ddywedyd,

24 Aaron a gesglir at ei bobl: ac ni ddaw i'r tir a roddais i feibion Israel; am i chwi anufyddhau i'm gair, wrth ddwfr *Meriba*.

25 Cymer Aaron ac Eleazar ei fab, a dwg hwynt i fyny i fynydd *Hor*;

26 A dyosg ei wisgoedd oddiam Aaron, a gwisg hwynt am Eleazar ei fab ef: canys Aaron a gesglir at ei bobl, ac a fydd farw yno.

27 A gwnaeth Moses megys y gorchymynodd yr Arglwydd: a hwy a aethant i fyny i fynydd *Hor*, yn ngwydd yr holl gynulleidfa.

28 A dyosgodd Moses oddiam Aaron ei wisgoedd, ac a'u gwisgodd hwynt am Eleazar ei fab ef: a bu farw Aaron yno yn mhen y mynydd. A disgynodd Moses ac Eleazar o'r mynydd.

29 A'r holl gynulleidfa a welsant

gyntaf; ond nid yw Moses i fod yn hir ar ei ol ef: gwel ar adn. 1.

Adn. 24. *Am i chwi anufyddhau im' gair*] Dyma oedd un rheswm, ond nid yr unig un. Ni fynai Duw i Moses ac Aaron ddwyn y bobl i Ganaan am reswm arall hefyd: i arwyddo annigonolrwydd y gyfraith *Foesenaidd* a'r offeiriadaeth *Aronaidd* i'w gwneuthur hwynt yn berffaith ddedwydd, a'r angenrheidiol am oruchwyliaeth well; ac i gadw yr Israeliaid oddiwrth ymorphwys ynddynt hwy, fel ag i gael eu tynu oddiwrth eu dysgwyliaid am y *Messia*.

Adn. 26. *A dyosg ei wisgoedd oddiam Aaron*] Sef ei wisgoedd offeiriadol. Hyn mewn effaith oedd ei amddifadu of'i swydd; a'u gwisgo hwynt am Eleazar a arwyddai drosglwyddiad o'r swydd hōno iddo ef.

Adn. 27. *Yn ngwydd yr holl gynulleidfa*] Fel yr effeithid yn fwy ar eu calonau trwy eu colled o golofn mor fawr, ac fel y gallent oll fod yn dystion o drosglwyddiad yr offeiriadaeth oddiwrth Aaron i Eleazar.

Adn. 28. *A dyosgodd Moses oddiam Aaron*] Noeth y daethom i'r byd, a noeth y dychwelwn o hono. Ac os ystyriwn mor fuan y bydd i'ngan ein dyosg ni o'n holl ogoniant, a chymeryd y goron oddiam ein pen, ychydig o reswm a welwn i fod yn falch o'n dillad, o'n haddurniadau, neu e nodau ein hanrhydedd! *A bu farw Aaron yno*—yn ebrwydd ar ol ei ddyosg o'i wisgoedd offeiriadol, efe a orweddodd i lawr, ac a fu farw! Dymunai dyn da, pe mai ewyllys Duw fyddai, heidio byw yn hwy na'i ddefydddioldeb. Paham y chwenychem fyw yn hwy yn y byd hwn, na thra y gallom fod o ryw wasanaeth i Dduw a'n cenhedlaeth? *A disgynodd Moses ac Eleazar o'r mynydd*—ond nid cyn claddu Aaron yno, Deut. x. 6.

Adn. 29. *A'r holl gynulleidfa a welsant farw Aaron*] O ganlyniad, fel y sylwa Light-

farw Aaron; a holl dŷ Israel a wylasant am Aaron ddengniwrnod ar hugain

PENNOD XXI.

A BRENIW Arad y Canaanead, preswyllydd y deau, a glybu fod Israel yn dyfod ar hyd ffordd yr yspiwyr; ac a ryfelodd yn erbyn Israel, ac a ddaliodd rai o honynt yn garcharorion.

2 Ac addunodd Israel adduned i'r Arglwydd, ac a ddywedodd. Os gan roi y rhoddi y bobl yma yn fy llaw; yna mi a ddfrodaf eu dinasoedd hwynt.

3 A gwrandawodd yr Arglwydd ar

foot, y mae genym brawf anwadadwy nad y Ganaan ddaearol oedd y dedwyddwch penaf ag y cyferia addewidion Duw i'r Israeliaid ato, gan i'r dynion goraf yn eu plith hwy gael eu cau allan o honi. *A holl dŷ Israel a wylasant am Aaron ddengniwrnod ar hugain*—caws mis oedd yr amser arferol i wylu ar ol gwyr mawrion: gwel Deut. xxxiv. 8, a Gen. i. 10.

PEN. XXI. Adn. 1. *A brenin Arad y Canaanead*] Nid enw dyn oedd Arad, eithr enw dinas neu diriogaeth, Barn. i. 16; ac ymddengys fod brenin y lle hwn yn cael ei alw yn Ganaanead mewn ystyr cyffredinol, fel yr Amoriaid ac ereill. *A glybu fod Israel yn dyfod ar hyd ffordd yr yspiwyr*—y mae rhai yn meddwl fod hon yn arwyddo y ffordd a gymerodd yr yspiwyr pan yr aethant i chwilio y wlad ddeunaw mlynedd ar hugain yn ol, pen. xiii; ond tybia Kennicott ac ereill fod hon yn ffordd wahanol, yn troi o amgylch Edom tua'r deau-ddwyrain; ac am hyny. gyda'r LXX, ystyriant y gair fel enw lle: a darllenant ef, 'ar hyd ffordd Atharin.' Ond tybia Clapham mai ffordd yr yspiwyr a anfonasai brenin Arad yn awr i wylu symudiad yr Israeliaid a feddylir. *Ac a ddaliodd rai o honynt yn garcharorion*—goddefodd Duw hyny i ddarostwog Israel, ac i ddsygu iddynt beidio dysgwyl gorchfygu Ganaan trwy eu doethineb a'u nerth eu hunain.

Adn. 2. *Ac addunodd Israel adduned*] Gan eu bod yn amhrifadrol mewn rhyfel, ac yn deimladwy o'u gwendid eu hunain, yr oeddynt yn ofni y Canaaneid; ac am hyny y maent fel hyn yn ceisio rhwymo Duw i'w cynorthwyo yn y rhyfel ag y bwriadent ei hadnewyddu. *Yna mi a ddfrodaf eu dinasoedd hwynt*—ni chadwaf un dyn na dim i'ni gwasanaeth fy hun, eithr diofrydaf hwynt oll i hollol ddinyst. Gwyddai Israel fod dinyst raiith genedl Canaan wedi ei ragenberfynu yn nghyngorau y nef, ar gyfiif eu mawr ddygion; ac ymddengys eu bod yn credu fod cwpan eu hanwiredd yn awr yn llawn, a bod amser eu dinyst wedi dyfod i ben: gwel ar Gen. xv. 16, Lev. xviii. 24, &c.

Adn. 3. *Ac efe a'u difrododd hwynt a'u dinasoedd*] Sef cynifer o honynt ag a gymerasant hwy y pryd hyny: ond y mae yn eglur na ddfrodwyd yr holl Canaaneid hyn yn awr,

lais Israel; ac a roddodd y Canaaneid yn ei law ef: ac efe a'u difrododd hwynt, a'u dinasoedd; ac a alwodd enw y lle hwn Hormah.

4 ¶ A hwy a aethant o fynydd Hor, ar hyd ffordd y môr coch, i amgylchu tir Edom: a chyfyng ydoedd ar enaid y bobl, o herwydd y ffordd.

5 A llefarodd y bobl yn erbyn Duw, ac yn erbyn Moses, Paham y dygasoch ni o'r Aifft, i farw yn yr anialwch? canys nid oes na bara na dwfr; a ffiaidd yw gan ein henaid y bara gwael hwn.

6 A'r Arglwydd a anfonodd yn mysg y bobl seiriff tanllyd; a hwy a

cansy cawn fod brenin Arad a brenin Hormah yn cael eu crybwyll yn mblith y brenhinoedd a darwsai Josua gryn amser ar ol hyn, Jos. xii. 14; ac ni ddylfethwyd amrai o'u dinasoedd nes wedi marwolaeth Josua, Barn. i. 16, 17. Yn wir, y cwbl ag y mae *vaiyacharem* yn ei arwyddo yma yw, ddarfod iddynt yn awr eu *diofrydu* hwy a'u dinasoedd i ddinyst; a phan ddaeth y dinasoedd hyny i'w meddiant, cyflawnasant eu hadduned. Ond tybia Clarke fod yr oll o'r adnod hon wedi ei chwangu yma gan Josua neu Ezra, yn brawf o gyflawniad addewid Duw. *Ac a alwodd enw y lle hwn Hormah*—hyny yw, lle wedi ei 'ddiofrydu i ddinyst.'

Adn. 4. *A hwy a aethant o fynydd Hor ar hyd ffordd y môr coch*] Y ffordd a arweinai tua'r môr coch, yr hon yr oeddynt yn rhwymo o'i chymeryd fel y gallent amgylchu tir Edom. 'Ond gan iddynt ennill mantais dros frenin Arad, palam na buasant yn dylun eu buddugoliaeth yn mlaen, ac yn myned yn awr i Ganaan?' Am na oddefai Duw hyny, trwy fod llawer o waith eto i'w wneuthur. Rhaid i bobl ereill gael eu gorchfygu; rhaid i'r Israeliaid gael eu darostwng, eu profi, a'u puro yn mbeilach; rhaid i Moses farw; ac wedi hyny cânt fynd, a hyny mewn modd gogoneddusach, hyd yn nod trwy yr Iorddones, yr hon a holltir y wythioll i'wneyd ffordd iddynt. *A chyfyng ydoedd ar enaid y bobl o herwydd y ffordd*—hyny yw, daethant yn 'anfoddog a diamynedd,' fel yr arwyddo y geiriau. Ar ol iddynt gyfarfod â chynifer o anhawsderau ar eu ffordd eisioes, dechreasant feddwl na chaent byth ddyfod i wlad yr addewid; ac felly sythiasant i'w hen ysbryd o duclau yn erbyn Duw, a gwarthruddo Moses. Yr oeddynt yn cael eu tueddu yn fwy i hyn trwy ddarfod i'r Edomiaid ommedd ffordd iddynt trwy eu gwlad, yr hyn a'u gorfodai i gilio yn ol yn ddeheuol, ac oddiyno trachefn droi yn ddwyreiniol, a chymeryd dro heibio i diriogaethau y Moabiaid.

Adn. 5. *A llefarodd y bobl yn erbyn Duw*] Sef yn erbyn CRIST, eu prif Arweinydd, yr hwn a demtiant, 1 Cor. x. 9. *Ffiaidd yw gan ein henaid y bara gwael hwn*—fel hyn yn ddirmygus y llefarent am y manna, tra yr ymddengys ei fod yn rhoddi maeth rhagorol iddynt; canys yn ei nerth ef yr oeddynt wedi

frathasant y bobl: a bu feirw o Israel bobl lawer.

7 ¶ A daeth y bobl at Moses, a dywedasant, Pechasom; canys llefarasom yn erbyn yr Arglwydd, ac yn dyerbyn dithau: gweddia ar yr Arglwydd, ar yru o hono ef y seirff oddiwrthym. A gweddiodd Moses dros y bobl.

bod yn teithio am yn agos i ddeugain mlynedd.

Adn. 6. *A'r Arglwydd a anfonodd yn mysg y bobl seirff tanllyd*] Y mae yn debyg eu bod o liw tanllyd, neu yn cael eu galw felly ar gyfrif y gwres angherddol, y flamegiad tanbaid, a'r syched dirfawr a achosid trwy eu brathiad, yr hyn a barai enyniad trwy yr holl gorff, ac a wnai i'r wyneb ymddangos fel pe buasai yn llosgi. Daifu i'r bardd Lucan fynegu yn dda yr effaith ddychrynllyd yma o frathiad y prester a'r *dispas*, yn y nawfed llyfr o'i *Pharsalia*. Ond tybia Bochart mai yr *hydrus* neu y *chersydrus* a feddylir, sarff ag sydd yn byw mewn *leoedd coriog*, brathiad yr hon sydd yn peri y flamegiau mwyaf dychrynllyd, gwres angherddol, cyfogiad drevedig, a dadygfansoddiad pydredig yr holl gorff. Modd bynag, y mae yn debycach mai sarff o rywogaeth y prester neu y *dispas* a feddylir, gan nad oedd yn yr anialwch hwan afonydd na chorsydd. Ond tybia Clarke i'r seirff hyn 'gael eu hanfon yn ddiogyfrwng gan Dduw i geryddu y bobl wrthryfelgar hyny. Y mae yn sicr fod yr *iachâd* yn oruwechnatnriol, a phabam nas gallai offeryn yr *afiechyd* fod felly befyd?

Adn. 7. *A daeth y bobl at Moses, a dywedasant, Pechasom!*] Yma y cawn edifeirwch Israel dan y farn, a'u cyfaddfeid o'u pechodau; ac y maent yn ymbil-am weddiau Moses, am y gwyddent am y bri mawr oedd iddo ef yn y nefoedd, ac am eu hannheilyngdod eu hunain i gael eu gwrandaw. Mor fuan y newidiwyd eu hymddygiad hwy at Moses! Y mae cystuddian yn fynych yn cyfnewid barnau dynion am bobl Dduw, ac yn dysgu iddynt werthfawrogi gweddiau y rhai gynt a ddiystyrent. *A gweddiodd Moses dros y bobl*—yr oedd ef yn hyn yn gysgod o Grist, yr hwn a eiriolodd dros ei erlidwyr, yn gystal ag yn gynllun i ninau fyned a gwneyd yr un modd, ac fel hyn ddangos ein bod yn caru ein gelynyon.

Adn. 8. *A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses*] Mewn atebiad i'w weddi ef: *Gwna i'r sarff danllyd*—hyny yw, llun sarff o bres, yr hwn sydd o liw tanllyd; *a gosod ar drosten*—fel y gallai y bobl ei gweled o bob ewr o'r gwresylli; ac am hyny yr oedd yn rhaid i'r drosten fod yn uchel, a'r sarff yn fawr. Gofynai hyn grym amser: ni wnai Duw yn ebrwydd syfrud ymait y farn, canys gwelai nad oeddynt eto wedi eu darostwng yn drwyadl. Gwelwn yma fawr amryw ddoethineb a daioni Duw! Pe cydymffuifasai yr Arglwydd â dymuniad y bobl, trwy yru y seirff oddiwrthynt, ni fuasai un iachâd felly i'r rhai ag oeddynt eisioes wedi eu brathu; ond yr oedd trefniad y sarff bres yn ddiogelwch bywyd i'r rhai a frathesid yn gystal a'r rhai iach.

8 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Gwna i ti sarff danllyd, a gosod ar drosten: a phawb a frather, ac a edrycho ar hõno, fydd byw.

9 A gwnaeth Moses sarff bres, ac a'i gosododd ar drosten: yna os brathai sarff wr, ac edrych o hono ef ar y sarff bres, byw fyddai.

A phawb a frather, ac a edrycho ar hõno, a fydd byw—penodwyd y drefn yma fel y gallai yr iachâd ymddangos yn waith Duw ei hun, ac nid yn effaith natur neu gelfyddyd. Y mae yn amlwg fod y drefn hon o iachâu yn hollol wyrthiol; ac ymddengys yn fwy felly os gwir yw yr hyn a ddywedir gan rai naturiaethwyr, sef fod edrych ar bres dysglauer yn niweidiol i'r rhai a frathwyd gan seirff tanllyd; a bod i ddynton weled llun y creaduriaid gwenwynig a'u brathasent, yn tueddu yn hytrach i gynyddu yr adwyth. Ond gall Duw ddwyn ei amcanion mawrion ei hun oddiamgylch trwy foddion gwrthwynebol.

Adn. 9. *A gwnaeth Moses sarff bres*] Yr oedd y pres yn ddiamau wedi ei gaboli, fel y gallai fod yn debycach i sarff o liw tanllyd; a thrwy fod felly yn bur ddysglaer, fe'i gwelid yn hawddach o bell ac agos. Yr oedd y sarff hon yn gysgod o Grist, yr hwn, er ei fod 'yn nghyfflybiaeth cnawd pechadurus,' oedd eto heb bechod; yr un modd ag yr oedd y sarff bres hon yn meddu llun ac agwedd allanol y seirff ereill, ond nid eu gwenwyn mewnol. Yr oedd y drosten yn gyffelyb i'r groes, ar yr hon y dyrchafwyd Crist er ein hiachawdriaeth ninau; ac yr oedd edrych i fyny at y sarff bres, yn nodi allan ein crediniaeth ni yn Nghrist. Dywed *Tavernier* eu bod eto yn yr India yn gosod i fyny ddolwr ar weidd sarff ar drosten, yr hon a ddygant gyda hwy yn eu teithian, gan ei chodi bob bore i'w haddoli. Nid oes un sail oddiwrth y testyn i feddwl ddarfod i'r sarff bres hon erioed gwel ei bwrriadu fel gwrthdrrych addoliad: yn wir dywed yr Iuddeuon eu hunain eu bod, wrth edrych ar y sarff bres, yn edrych i fyny at Dduw fel eu Hiachawdwr, am nad oedd hi ynddi ei hun yn allnog i'w biachâi hwynt. *Yna os brathai sarff wr, ac edrych o hono ef ar y sarff bres, byw fyddai*—efe nid yn unig a waredid rhag angau, ond a iacheid' oddiwrth effeithian y brathiad. Felly ymddengys fod gwrsyll Israel yn cael ei afonyddu gan y seirff tanllyd am beth amser ar ol dyrchafu y sarff bres; ac y mae yn debyg iddynt ddwyn y sarff bres gyda hwy trwy y gweddill o'u teithian, a'i gosod i fyny pa le bynag y gweisyllent; ac wedi iddynt ymsefydlu yn Nganaan, gosodasant hi i fyny mewn rhyw le o fewn trefynau y wlad, canys nid yw yn debygol fod meibion Israel yn myned mor bell a hyn i'r anialwch i aroglidarthu iddi, fel y cawn eu bod yn gwneyd, 2 Bren. xviii. 4. Cadwyd y sarff bres hon yn mhllith yr Israeliaid hyd amser Hezecia, yr hwn, ar ol deall fod y bobl yn talu addoliad coelgrefyddol iddi, a'i maluriodd hi yn chwilfris, ac mewn ffordd o ddirmyg a'i galwodd hi *Nehustan*—y coegbeth neu y tegau pres: gwel ar 2 Bren. xviii. 4.

10 ¶ A meibion Israel a gychwynasant *oddiyno*, ac a wersyllasant yn Oboth.

11 A hwy a aethant o Oboth, ac a wersyllasant yn ngharneddau Abarim, yn yr anialwch, yr hwn *oedd* ar gyfer Moab, tua chodiad haul.

12 ¶ Cychwynasant *oddiyno*, a gwersyllasant wrth afon Zared.

13 Cychwynasant *oddiyno*, a gwersyllasant wrth ryd Arnon, yr hon *sydd* yn yr anialwch, yn dyfod allan o ardal yr Amoriaid: canys Arnon *oedd* derfyn Moab, rhwng Moab a'r Amoriaid.

Adn. 10. *Ac a wersyllasant yn Oboth*] Nid yn ddigyfrwng, ond ar ol dau wersylliad arall a grybwyllir pen. xxxiii. 41, 42.

Adn. 11. *Yn ngharneddau Abarim*] Yn agos i rydian yr Iorddonen: gwel ar pen. xxxiii. 44.

Adn. 12. *Wrth afon Zared*] Y mae y ffrwd hon yn codi yn y mynyddoedd yn ddwyreiniol i Moab, ac yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, ac yn ymarllwys i'r môr marw.

Adn. 13. *Wrth ryd Arnon*] Afon arall yn codi yn mynyddoedd Moab, ac, ar ol gwahanu hen diriogaethau y Moabiaid a'r Ammoniaid, y mae yn ymarllwys i'r môr marw yn agos i geg yr Iorddonen.

Adn. 14. *Llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd*] 'Ond odid llyfr wedi ei ysgrifenu gan y cenedl-ddynion, i goffa y buddugoliaethau a wnaed gan Sehon.'—ABARBINEL. 'Yn dra thebygol gwaith cenhedlig a ddyfynid gan Moses, megys y dyfynai St. Paul y beirdd Groegaidd.'—PATRICK. 'Hwyrach y llyfr hwnw yr hwn a ddechreuwyd â banes y rhyfel gyda'r Amaleciaid, Exod. xvii. 14.'—HENRY. 'Hanes rhyfeloedd yr Arglwydd, sef rhyfeloedd yr Israeliaid, y rhai a ymladdent hwy dan faner a chyfarwyddyd Jehofa.'—LE CLERC. 'Coffadwriaethau, ond odid wedi eu hysgrifenu gan Moses ei hun i gyfarwyddo Josua.'—LIGHTFOOT.

'Llyfr prydyddiaeth, yn cynwys yr odlau hedegol a glodforent y buddugoliaethau y rhai a roddasai yr Arglwydd i'w bobl. Meddylir fod rhai o'r caniaidau hyny i'w cael eto yn y Salmuau. Yr oedd y llyfr rhyfeloedd hwn mewn bri nawr yn mllith yr Hebraeid, ac yn hynach na'r Pumllyfr. Efe a gollwyd gan yr Iuddewon, megys hefyd llyfr Gad, Nathian, Ido, ac ereill. Oddiwrtb odlau o'r fath yma, yn gystal a hanesion, y darfu i Homer gyfansoddi ei *Iliad*.'—SUTCLIFFE. 'Y mae dychmygion ddiwedd yn ngyhele y llyfr hwn yn mllith awduron hen a diweddar. Tyb Dr. Lightfoot yw y fwyaf syml, ac a ymddengys i mi y debycaf o fod yn iawn:—'Ymddengys fod y llyfr hwn yn rhyw lyfr o *goffadwriaethau a chyfarwyddiaidau*, wedi ei ysgrifenu gan Moses er addysg neillduol i Josua i drefnu y rhyfeloedd ar ei ol ef: gwel Exod. xvii. 14—16. Dichon mai yr un llyfr yw hwn ag a elwir *llyfr Jaser*, h. y. *llyfr yr uniawn*, neu gyfarwyddiaidau i Josua oddiwrtb Moses pa beth i'w wneuthur a pha beth i'w ddysgwyl yn ei rhyfeloedd; ac yn y llyfr hwn ymddeng-

14 Am hyny dywedir yn llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd, Y peth a wnaeth efe yn y môr coch, ac yn afonydd Arnon,

15 Ac *wrth* raiadr yr afonydd, yr hwn a dreigla i bresywyla Ar, ac a bwysa at derfyn Moab.

16 Ac *oddiyno yr aethant* i Beer: hōno *yw* y ffynnon lle y dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Casgl y bobl yn nghyd, a mi a roddaf iddynt ddfwr.

17 ¶ Yna y canodd Israel y gân hon: Cyfod, ffynnon; cenwch iddi.

18 Ffynnon a gloddiodd y tywysogion, ac a gloddiodd penaethiaid y bobl,

ys fel pe buasai Moses yn gorchymyn gosod i fyny *saethyddiaeth*, (gwel 2 Sam. i 18), ac yn gwarantu Josua i orchymyn yr haul, a dysgwyl ei ufydd-dod, Jos. x. 13.'—CLARKE. *Y peth a wnaeth efe yn y môr coch*, ac yn *afonydd Arnon*—'y mae yr adran yma yn anhydraidd dywyll. Cafodd yr holl gyfieithiaidau, yr holl gyfieithwyr, a'r holl esbonwyr eu dyrysau ganddi: nid oes braidd ddau yn cyduno. Y wreiddiol yw *eth vaheb besuphah*, a gyfieithir gan ein cyfieithwyr ni, *y peth a wnaeth efe yn y môr coch*, gan ddylyn yma y Deongliad Caldeiaidd; ond heb gael eu boddloni â'r cyfieithiad hwn, rhoddasant y geiriau anhawddaf mewn llythyrenau cyffredin ar ymyl y ddalen, *Vaheb yn Suphah*. Y mae dychymyg *Calmet* yma yn gywraim, ac yn cael ei dderbyn gan *Houbigant*: yn lle *vaheb* y mae ef yn darllen *zared*: 'Gwersyllasant wrth afon *Zared*, a daethant i *Suphah*, ac *oddiyno* i afon *Arnon*.' Cymerwn yr ymadrodd fel y mynom, y mae yn awlwg yn ddi-ffgiol. Trwy fy mod yn barnu fod yr holl ymadrodd yn *ddiwareb gyffredin* yn y dyddiau hyny, a bod *Vaheb* yn enw priodol, yr wyf fi gan hyny yn cynyg y cyfieithiad canlynol, yr hwn yr wyf yn credu ei fod y goraf: *O Vaheb hyd Suph, a hyd afonydd Arnon*. Os caniatawn ei fod yn ymadrodd diarebol, yn cael ei arfer i nodi allan beiddir dirfawr, yna yr oedd yn gyffelyb i'r ymadrodd tra hysbys hwnw, *O Dan hyd Beerseba*.'—CLARKE.

Adn. 15. *Ar*] Prifddinas yn Moab.

Adn. 16. *Beer*] Nid yw y lle hwn, a Matanah, Nahaliel, a Bamoth, a grybwyllir adn. 19, yn cael eu henwi yn mllith y manau hyny lle y gwersyllent, pen. xxxiii. Y mae yn debyg na ddarfu iddynt luestu neu wersyllu yn y lleoedd hyn, ond yn unig fyned heibio iddynt neu trwyddynt. *A mi a roddaf iddynt ddfwr*—mewn modd gwyrtliol. Cyn iddynt weddio, caniatodd Duw, a rhagflaenodd hwynt â bendithion daioni. Ac megys yr oedd y *sarff bres* yn gysgod o GRIST, felly y mae y *ffynnon* hon yn gysgod o'r YSBRYD GLAN, yr hwn a dywelltir allan er ein lles a'r cysur.

Adn. 17. *Yna y canodd Israel y gân hon*, *Cyfod, ffynnon*] Hyny yw, 'boed i'th ddyfocedd, y rhai yn awr a orweddant yn guddiedig yn y ddaear, darddu er gwasanaeth i ni.' Y mae hyn naill ai yn rhagfynegiad y byddai iddi darddu i fyny, neu yn weddi am iddi

yn nghyda'r deddfwr, a'u ffyn. Ac o'r anialwch yr *aethant* i Mattanah:

19 Ac o Mattanah i Nahaliel; ac o Nahaliel i Bamoth:

20 Ac o Bamoth, yn y dyffryn sydd yn ngwlad Moab, i ben y bryn sydd yn edrych tua'r diffaethwch.

21 ¶ Yna yr anfonodd Israel genhadau at Sehon brenin yr Amoriaid, gan ddywedyd,

22 Gad i mi fyned trwy dy dir: ni thrown i faes, na gwinllan; nid yfwn ddwfr un ffynnon: ar hyd ffordd y brenin y cerddwn, hyd onid elom allan o'th derfynau di.

23 Ac ni roddodd Sehon i Israel

ffordd trwy ei wlad: ond casglodd Sehon ei holl bobl, ac a aeth allan yn erbyn Israel i'r anialwch: ac efe a ddaeth i Jahas, ac a ymladdodd yn erbyn Israel.

24 Ac Sehon a'i tarawodd ef â min y cleddyf; ac a oresgynodd ei dir ef, o Arnon hyd Jabboe, hyd at feibion Ammon: canys cadarn oedd terfyn meibion Ammon.

25 A chymerodd Israel yr holl ddinasoedd hyny: a thrigodd Israel yn holl ddinasoedd yr Amoriaid, yn Hesbon, ac yn ei holl bentrefydd.

26 Canys dinas Sehon, brenin yr Amoriaid, ydoedd Hesbon; ac yntau

wneuthur. Dyma un o'r caniadau rhyfel hynaf yn y byd; ond, fel y sylwa Clarke, nid yw yn hawdd ei deall, yr hyn sydd yn beth cyffredin gyda phob cyfansoddiad tra hen, yn enwedig un barddonol: gwel ar Exod. xv. 1, &c. *Cenwch iddi*—neu, fel y mae ar ymyl y ddalen, *atebwch iddi*, gan gyfeirio at yr hen ddull o gann, yr hyn oedd trwy wrthatebiadan.

Adn. 18. *Ffynnon a gloddiodd y twrysogion—â'u ffyn*] Megys y tarawsai Moses y graig â'i wialen, felly yn debygol y tarawsant hwythau y ddaear â'u ffyn, fel arwydd y byddai i Dduw beri i'r dwfr ddylifo o'r ddaear lle y tarawsant hi, fel y gwnaeth o'r blaen o'r graig. Neu, fe allai, gwnaethaot hwy dyllau â'u ffyn yn y ddaear dywodlyd, a pharodd Duw yn ebrwydd i'r dwfr darddu i fyny. (1) Addawodd Duw roddi iddynt ddwfr, ond thaid iddynt hwy agor y ddaear i'w dderbyn ef, a'i ollwng allan. Rhaid dysgwyl cymwyn-asaan Duw yn y defnyddiad o'r cyfryw foddion ag sydd o fewn ein gallu ni, ond eto y mae godidogrwydd y gallu o Dduw. (2) Yr oedd penaethiaid Israel yn awyddus i osod eu dwylaw ar y gwaith hwn, a defnyddiasent eu ffyn, yn debygol y thai hyny ag oeddynt arwyddion eu hanrhydedd a'u hawdurdod. A gallwn feddwl ei fod yn gadarnhad nawr iddynt yn eu swyddau, ac yn gysur mawr i'r bobl, eu bod hwy yn cael eu defnyddio gan y gallu dwyfol fel offerynau yn y diwalliad gwyrthiol hwn. Wrth hyn ymddanghosai ddarford i ysbryd Moses, yr hwn oedd i farw yn fuan, oiplhwys i ryw raddau ar benaethiaid Israel. Ni ddarfu i Moses ei hun daraw y ddaear, megys y tarawsai efe y graig gynt, ond *cyfarwyddodd hwynt* (felly y Saesonaeg) i wneuthur hyny, fel y byddai i'w ffyn hwy gyfraugoi o anrhydedd ei wialen ef, ac y gallent obeithio yn gyssur, pan adawai efe hwynt, eto na wna Duw hyny, ond y caent hwythau hefyd fod yn fendithion cyhoeddus yn eu cenhedlaeth, ac y gallent ddysgwyl y presenoldeb dwyfol gyda hwy cyhyd ag y gweithredent dan gyfarwyddyd y deddfwr: gwel HENRY. *Yn nghyda'r deddfwr*—Saes. 'wrth gyfarwyddyd y deddfwr,' sef Moses.

Adn. 19. *Ac o Mattanah*] Gwel ar adn. 16. Y mae Le Clerc yn cymeryd hwn i fod yr un lle ag a elwir *Vahab*, adn. 14; canys y mae *vahab* yn yr Arabaeg, meddai Ccke, yn ar-

wyddo rhodd, fel y gwna *matthan* yn yr Hebraeg.

Adn. 20. *I ben y bryn sydd yn edrych tua'r diffaethwch*] Yn ol y Saesonaeg, ac ymylod ein Beiblau Cymreig, 'i ben *Pisgah* sydd yn edrych tua *Jesimon*.'

Adn. 21. *Yna yr anfonodd Israel genhadau at Sehon*] Trwy oddefiad Duw, fel y byddai i falais Sehon felly fod yn fwy amlwg a diestig, a'u hawl hwythau i'w wlad ef fod yn fwy eglur yn marn pob dyu, fel wedi ei chaffael trwy ryfel gyfiawn, i ba un y gyrwyd hwynt er eu hunan-amddiffyniad.

Adn. 22. *Ni thrown i faes na gwinllan*] Yr oeddynt yn llefaru yr hyn a fwriadent yn ddi-ffrifol, ac a wnaethent, pe rhoddasai efe iddynt dramwyfa dawel.

Adn. 23. *Aeth allan yn erbyn Israel i'r anialwch*] Ymddygodd Sehon yn llawer gwaeth tuag atynt nag y gwnaethai Edom, pen. xx. 14—21; canys ni ddarfu iddo ef ond nacáu tramwyfa iddynt, a sefyll *ar ei dir ei hun* i'w cadw hwynt allan; ond aeth Sehon a'i holl fyddin yn erbyn Israel i'r anialwch, allan o'i deffynau ei hun, heb un heriad wedi ei roddi iddo.

Adn. 24. *Ac a oresgynodd ei dir ef o Arnon*] Hyny yw, yr hwn a gyrhaeddai o Arnon: ac felly darluniad yw hyn o fuddugoliaeth a chyfyngiad teyrnas Sehon, na chyrrhaeddai ond 'o Arnon hyd Jabboe, hyd at feibion Ammon'; ac yna y mae y geiriau canlynol, *canys cadarn oedd terfyn meibion Ammon*, yn dyfod i mewn yn dra chymhwys, nid fel rheswm paham na ddarfu i'r Israeliaid orchfygu yr Ammoniaid, ond yn hytrach fel rheswm paham nas gallai Sehon estyn ei fuddugoliaeth at yr Ammoniaid, megys y gwnaethai at y Moabiaid. *Jabboe*—aton gan yr hon yr oedd gwledydd Ammon a Moab mewn rhan yn cael eu gwahanu. *Cadarn*—naill ai trwy y fantais o'r aton, neu o herwydd eu hamddiffinydd cadarn hwy ar eu cyffiniau.

Adn. 25. *Yn Hesbon, ac yn ei holl bentrefydd*] Heb. 'ei holl *ferched*;' canys felly y mae pentrefydd a chastelli yn cael eu galw, y thai a ymddibynant ar y *fam-ddinas* fel metched ar eu mam.

Adn. 26. *Canys dinas Sehon, brenin yr Amoriaid, ydoedd Hesbon*] Chwanegir hyn fel rheswm paham y cymerodd Israel fedd-

a ryfelasai yn erbyn brenin Moab, yr hwn a fuasai o'r blaen, ac a ddyg ei dir ef oddiarno, hyd Arnon.

27 Am hyny y dywed y diarebwyr, Deuwch i Hesbon; adeilader a chadarnhâer dinas Sehon.

28 Canys tân a aeth allan o Hesbon, a fflam o ddinas Sehon: bwytaodd Ar yn Moab, a pherchenogion Bamoth Arnon

29 Gwac di, Moab; darfu am danat, bobl Cemos: rhoddodd ei feibion diangol, a'i ferched, mewn caethiwed i Sehon brenin yr Amoriaid.

30 Saethasom hwynt: darfu am Hesbon, hyd Ddibon; ac anrheithiasom hyd Nophah, yr hon sydd hyd Mediba.

iant o'r tir hwn, am nad oedd ef yn awr yn dir y Moabiad, eithr yn meddiant yr Amoriaid. *Brenin Moab, yr hwn a fuasai o'r blaen*—sef rhagflaenor Balac, yr hwn oedd y brenin presenol. Gwelwn ddoethineb rhagluniaeth Duw, yr hon sydd yn darparu yn hir yn mlaenllaw, er cyflawni ei ddybenion ef yn eu tymor! Trwy fod y wlad hon wedi ei bwriadu i Israel, rhoddir hi yn mlaenllaw yn nwyllaw yr Amoriaid, y rhai'n feddylent ond ychydig eu bod yn ei chael yn unig fel gwarcheidwaid, nes y delai Israel i'w oed. Nid ydym ni yn deall ffyrdd dyfnion rhagluniaeth; eithr 'hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed,' Act. xv. 18.

Adn. 27. *Am hyny y dywed y diarebwyr*] Y beirdd, neu wŷr ereill o athrylith yn mhllith yr Amoriaid neu y Canaanaeid, y rhai a wnaethant y gân ddylynol i'r Moabiad gorchfygedig; yr hon a ddygir i mewn yma fel prawf mai tir *Sehon* yw hwn yn awr, ac fel sicrwydd o gyfawn farn Duw yn yspellio yr yspellwyr, ac yn darostwng y rhai a orfoleddent ar eu gelynyon gorchfygedig. *Deuwch i Hesbon*—y rhai hyn ydynt eiriau Sehon wrth ei bobl, neu eiriau ei bobl wrth gynghori eu gilydd i fyned a meddiannu y ddinas a gymerasant. *Adeilader a chadarnhâer dinas Sehon*—yr hon unwaith oedd brifddinas brenin Moab, ond sydd yn awr yn meddiant Sehon. Gwnelel hi yn lle addas i'w orsedd ef.

Adn. 28. *Canys tân*] Cynddeiriogrwydd rhyfel, yr hwn yn briodol a gydmherir i dân; *a aeth allan o Hesbon*—y ddinas hōno ag ydoedd o'r blaen yn noddfa ac yn amddiffynfa i'r holl wlad. *Bwytaodd Ar*—hyny yw, difaodd bobl y ddinas fawr a breiniol hōno. *A pherchenogion Bamoth Arnon*—Saes. 'arglwyddi uchelfeydd Arnon,' sef tywysogion neu lywiaudwyr yr amddiffynfeydd, y rhai yn fynych oeddnt mewn uchel-leoedd, yn enwedig yn y wlad fynyddig hōno, a'r rhai oeddnt mewn gwahanol fanau ar hyd afon Arnon. Felly yr ymorfoleddodd yr Amoriaid ar y Moabiad gorchfygedig: ond 'byr yw gorfoledd yr anuwiliolion.'

Adn. 29. *Bobl Cemos*] Sef addolwyr Cemos,

31 ¶ A thrigodd Israel yn nhir yr Amoriaid.

32 A Moses a anfonodd i chwilio Jazer: a hwy a orchfygasant ei phen-trefydd hi, ac a yrasant ymaith yr Amoriaid, y rhai oedd yno.

33 ¶ Troisant hefyd ac aethant i fyny hyd ffordd Basan: ac Og brenin Basan a ddaeth allan yn eu herbyn hwynt i ryfel, hyd Edrei, efe a'i holl bobl.

34 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Nac ofna ef: canys yn dy law di y rhoddais ef, a'i holl bobl, a'i dir; a gwnai iddo ef megys y gwnaethost i Sehon brenin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon.

35 Am hyny y tarawsant ef, a'i

duw y Moabiad. *Rhoddodd ei feibion diangol*—neu ei eiddunwyr, i fyny i'w elwynion ef a hwythau; ac nis gallai ddiogelu hyd yn nod y rhai a ddiangasant rhag y cleddyf, ond goddefai iddynt gael eu dwyn i gaethiwed. Tybia BENSON fod yr adnod hon a'r un ganlynol yn cynwys gwatwaredd yr Israeliaid o analluogrwydd nid yn unig y Moabiad, ond eu dau hefyd, yr hwn nis gallai achub ei bobl rhag cleddyf Sehon a'r Amoriaid; a bod y gân fuddugol a wnaed gan ryw fardd Amoriaid wedi ei gorphen yn adn. 28: ond barna KenNICOTT ac ereill fod geiriau y gân yn cyraedd hyd ddiwedd adn. 30.

Adn. 30. *Saethasom hwynt*] 'Er nas galloch chwi, Foabiad egwan, na'ch duw chwaith, wrthsefyll Sehon; nynt Israeliaid, trwy help ein Duw, gyda llwyddiant a buddugoliaeth, a'u *saethasom hwynt*—sef Sehon a'i Amoriaid. *Darfu am Hesbon*—dinas frenhinol Sehon, yr hon yn ddiweddar a adgyweiriwyd ganddo, a gymerwyd oddiwtho ef; ac felly y cymerwyd ei holl wlad ef, hyd yn nod mor bell a Dibon.'—BENSON.

Adn. 32. *A Moses a anfonodd i chwilio Jazer*] Un o brif ddinasoedd Moab, yr hon a gymerwyd gynt oddiarnynt hwy gan Sehon, ac a gymerwyd yn awr oddiarno yntau gan yr Israeliaid.

Adn. 33. *Hyd ffordd Basan*] Gwlad fras, enwog am ei phorffeydd a'i gwartheg, yn gystal ag am ei derw. *Ac Og brenin Basan*—y mae yn debyg fod Sehon ac Og ar y cyntaf yn flaenoriaid neu gadbeniaid dwy drefedigaeth fawr, y rhai a ddaethant o Ganaan, ac a yrasant allan gyndrigolion y lleoedd hyn.

Adn. 34. *A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Nac ofna ef*] Y mae yn debyg fod Og yn ei ystyried ei hun yn fwy galluog na Sehon i ymddin âg Israel, ac yn debycach i orchfygu ar gyfrif ei nerth a'i faintioli cawraidd ei hun, yr hyn y sylwa Moses arno, Deut. iii. 11; eithr y mae Duw yn dyfod yn mlaen, ac yn peri i Israel beidio ofni y llu bygythiol hwn, ac yn addaw iddynt fuddugoliaeth gyflawn arno. *Yn dy law di y rhoddais ef*—y mae y peth cystal a phe byddai wedi ei wneuthur eisioes;

feibion, a'i holl bobl, fel na adawyd iddo ef weddill: a hwy a berchenogasant ei dir ef.

PENNOD XXII.

A MEIBION Israel a gychwynasant, ac a wersyllasant yn rhosydd Moab, am yr Iorddonen a Jericho.

2 ¶ A gwelodd Balac mab Sippor yr hyn oll a wnaethai Israel i'r Amoriaid.

3 Ac ofnodd Moab rhag y bobl yn fawr; canys llawer oedd: a bu gyfyng ar Moab o achos meibion Israel.

4 A dywedodd Moab wrth henuriaid Midian, Y gynulleidfa hon yn awr a lyfant ein holl amgylchoedd,

dy eiddo di yw y cwbl; dos i mewn, a chymer feddiant. Nid yw cawri ddim ond pryfed o flaen gallu Duw.

Adn. 35. *Am hynny y tarawsant ef a'i feibion* Y mae gan Dr. Lightfoot sylw cywrair yma, yr hwn y byddai yn gam â'r darlennydd ei amddifadu ef o hono. 'Sehon ac Og yn cael eu gorchfygu, o. b. 2553. Oedran Moses, 120. Er yr ymadawiad o'r Aifft, 40. Y mae yn awr *chwech-ar-hugain* o genedlaethau er y cread, neu o Adda hyd Moses; ac yn ol hyny y mae Salm cxxxvi yn adrodd parhad trugarodd Duw *chwech-ar-hugain* o weithiau drosodd, gan ddechreu yr hanes gyda'r cread, a'i diweddu yn ngorchfygiad Sehon ac Og. Y mae llythyrenau rhifyddol yr enw ИЕНОФА yn cyraedd i'r swm o *chwech-ar-hugain*.'

PEN. XXII. Adn. 1. *Ac a wersyllasant yn rhosydd Moab* Y rhai eto a gadwent eu hen enw, er ddarod iddynt gael eu cymeryd oddiar y Moabïad gan Sehon, ac oddiarno yntau gan yr Israeliaid. *Am yr Iorddonen*—o da y dwyrain iddi, gyferbyn â Jericho.

Adn. 2. *A gwelodd Balac* Yr hwn oedd frenin y Moabïad y pryd hyn.

Adn. 3. *Ac ofnodd Moab rhag y bobl yn fawr* Megys y rhagddywedasai Moses am Moab yn neillduol, Exod. xv. 15, ac megys yr addawsai yr Arglwydd ei hun yn nghylch yr holl genhedloedd yn gyffredinol. Yr oedd y Moabïad yn ofni rhag i'r Israeliaid eu dyfetha neu eu gyru hwynt allan o'u gwlad, megys y gwnaethant â'r Amoriaid; canys ni wyddent ddim am orchymyn Duw yn gwahardd iddynt atfuyddol y Moabïad yn eu meddiannau, Deut. ii. 9.

Adn. 4. *A dywedodd Moab wrth henuriaid Midian* Y rhai a elwir yn frenhinoedd Midian, pen. xxxi. 8; y rhai, er eu bod yn wahanedig i'w teyrnasoedd, eto a unwyd yn awr ar ddynesiad Israel eu gelyn cyffredin; a chan eu bod yn bobl nerthol a chyfrwys, ac yn gymydogion i'r Moabïad, chwennychai y rhai hyny ymgynghreirio â hwynt. Darllenwn am Fidiaiaid gerllaw mynydd Sinai, Exod. ii. 15, lle yr oedd trefedigaeth o'r bobl hyn, y rhai a aethent allan i geisio am breswylfa newydd, yn ol arfer yr amseroedd hyny; eithr yr oedd corff y bobl hyny yn trigo yn y parthau hyn.

fel y llyf yr fch wellt y maes. A Balac mab Sippor oedd frenin ar Moab yn yr amser hwnw.

5 Ac efe a anfonodd genhadau at Balaam fab Beor, i Pethor (yr hon sydd wrth afon tir meibion ei bobl) i'w gyrchu ef; gan ddywedyd, Wele, bobl a ddaeth allau o'r Aifft: wele, y maent yn cuddio wyneb y ddaear; ac y maent yn aros ar fy nghyfer i.

6 Yr awr hon, gan hyny, tyred, atolwg, melldithia i mi y bobl yma; canys cryfach ydynt na mi; ond odid mi allwn ei daro ef, a'u gyru hwynt o'r tir: canys mi a wu mai bendigedig fydd yr hwn a fendithiech di, a melldigedig fydd yr hwn a felldithiech.

Y *Midianaïd* oeddynt hiliogaeth Abraham o Cetura, Gen. xxv. 2; y *Moabïd* oeddynt hiliogaeth Lot, nai Abraham, o'i ferch henaf, Gen. xix. 37. Y *gynulleidfa hon yn awr a lyfant ein holl amgylchoedd*—a lwyd ddystrywiant ein holl bobl trwy yr holl wledydd hyn.

Adn. 5. *Ac efe a anfonodd genhadau* Yr oedd yn arferiad cyffredin yn mblith yr holl genhedloedd paganaudd, cyn myned i ryfel, iddynt ymgynghori â'u duwiau trwy ddewiniaeth; ac felly y mae brenin Moab, cyn dechreu ar y rhyfel hon, yn ewyllysio gwybod y canlyniad, a chael dylanwad y duwiau o'i blaidd ef yn erbyn ei elynion. *At Balaam fab Beor*—neu *Bosor*, 2 Pedr ii. 15, canys felly y cynanai y Caldeaid yr hyn a alwai yr Iuddeuon *Beor*. Gelwir ef yn *ddewin*, Jos. xiii. 22; a thyb gyffredin y rhan fwyaf o'r tadau ydoedd, megys y mae yn dych llawer o esbonwyr diweddar, nad oedd ef ddim ond swynwr, gaubroffwyd, ac eilunaddolwr yn unig. Eithr ei fod ef yn *wir broffwyd*, neu yn un a gawsai ddatguddiadau oddiwrth y gwir Dduw, fel y sylwa Benson, sydd amlwg oddiwrth 2 Pedr ii. 16, wrth ei gydmharu âg adn. 8—13 o'r bennod hon, a pen. xxiv. 1. Ac yn wir nid oedd un proffwyd yn Israel a allai lefaru am Dduw yn fwy parhaus, na chwaith mewn geiriau mwy cyfeillgar, nag y gwna efe, adn. 18. Dywed yr ysgriflenwyr Iuddeuwig ei fod ef yn *broffwyd mawr*, yr hwn, am gyflawniad ei ragddywediadau, ac atebion i'w weddiau, yr edrychid arno yn gyfiawn fel dyn yn meddu dylanwad mawr gyda Duw. Modd bynag, y mae ei hanes yn dangos ddarod i'w gyfyddod a'i uchelgais o'r diwedd drechu ei foesoldeb, a darod i Dduw ymadael oddiwrtho. *I Pethor, yr hon sydd wrth afon*—yr oedd Pethor yn Mesopotamia, Deut. xxiii. 4; a meddylir mai yr afon oedd yr *Euphrates*, neu un o'i cheinciau, pellder o 500 o fildiroedd o leiaf o Moab.

Adn. 6. *Melldithia i mi y bobl yma* Tybid fod gan broffwydi a swynwyr allu i felddithio dynion a lleoedd, fel ag i ddyrysu eu holl fwrïadau, rhwystro eu cynghorau, gwanychu eu nerth, a'u llenwi âg ofn a braw. Y mae gan *Macrobius* bennod gyfan ar y cyfaredau a ddefnyddid i ddenu y duwiau difynol i adael y dinasoedd dros y rhai y llywyddent, ac i

7 A henuriaid Moab a henuriaid Midian a aethant â gwobr dewiniaeth yn eu dwylaw: daethant hefyd at Balaam, a dywedasant iddo eiriau Balac.

8 A dywedodd yntau wrthynt, Lletywech yma heno; a rhoddaf i chwi ateb megys y llefaro yr Arglwydd wrthyf. A thywysogion Moab a arasant gyda Balaam.

9 A daeth Duw at Balaam, ac a ddywedodd, Pwy yw y dynion hyn sydd gyda thi?

10 A dywedodd Balaam wrth Dduw, Balac mab Sippor, brenin Moab, a ddanfonodd ataf, gan ddywedyd,

11 Wele, bobl wedi dyfod allan o'r Aifft, ac yn gorchuddio wyneb y ddaear: yr awr hon tyred, rhega

hwynt i mi: felly ond odid y gallaf ryfela â hwynt, a'u gyru allan.

12 A dywedodd Duw wrth Balaam, Na ddos gyda hwynt; na feldithia y bobl: canys bendigedig ydynt.

13 A Balaam a gododd y bore, ac a ddywedodd wrth dywysogion Balac, Ewch i'ch gwlad: oblegid yr Arglwydd a nacodd adael i mi fyned gyda chwi.

14 A thywysogion Moab a godasant, ac a ddaethant at Balac; ac a ddywedasant, Nacodd Balaam ddyfod gyda ni.

15 ¶ A Balac a anfonodd eilwaith fwy o dywysogion, anrhydeddusach na'r rhai hyn.

16 A hwy a ddaethant at Balaam;

ddiofrydu dinasoedd a byddinoedd cyfain i ddystruw: gwel *Saturnal*, lib. iii. cap. ix. Yr oedd y Rhufeiniaid yn dal nas gellid cymeryd un ddinas nes i'r duw diffynol ei gadael hi; neu os gellid ei chymeryd, y byddai hyny yn anghyfreithlon, gan y byddai yn gysegrladradd gaethiwo y duwiau. Y mae i'r *Virgil* yn awgrymu-ddarfod i Gaerdroia gael ei dyfetha yn unig am i'r duwiau diffynol ei gadael hi. Sylwa *Tacitus*, pan barotodd *Suetonius Paulinus* ei fyddin i groesi drosodd i Sir Fox, lle y gwuaeth y Cymry a'r Derwyddon eu gwrthsaifad olaf, ddarfod i'r *offeiriadesau*, gyda gwallt annhrefnus, dillad gwynion, a ffaglenau yn eu dwylaw, redeg oddiamgylch fel gorphwylliaid, gan ddiofrydu eu gelynyon i ddystruw; ac efe a chwanea, ddarfod i *olwg, ystum*, a *rhegfeydd* dychrynnyd yr offeiriadesau hyn gael y fath effaith ar y milwyr Rhufeinig, nes y darfu iddynt am enyd sefyll yn llonydd, a goddef iddynt eu hunain gael eu trywanu â gwaewffyn y Cymry, heb wneuthur un gwrthsaifad! *Tacit. Ann., lib. xiv. cap. xxix.* Y mae llawer o hanesion yn y *Pooran Hindwaidd* am frenhinoedd yn rhoddi doethion ar waith i feldithio eu gelynyon pan yn rhy gryfion iddynt: gwel *Ward's Customs*. Yr oedd gan yr Iuddewon hefyd y ffurf fwyaf erchyll o regiad, fel y gellir gwelod yn Ngeir-iadur Buxtorf.

Adn. 7. *Henuriaid Moab a henuriaid Midian a aethant â gwobr dewiniaeth yn eu dwylaw*] Yr oedd pwy bynag a âi i ymgynghori â phroffwyd yn cymeryd gydag ef anrheg, gan mai ar y cyfryw offrymau yr oedd y proffwyd yn hwy: gwel 1 Sam. ix. 7, 8.

Adn. 8. *Lletywech yma heno*] Canys yn y nos yn fynechi yr arferai Duw ddatguddio ei feddwl trwy freuddwydion. *A rhoddaf i chwi ateb megys y llefaro yr Arglwydd wrthyf*—Heb. *נעוּפָה*, y gwir Dduw. Felly ymddengys ei fod ef yn adnabod y gwir Dduw, ac yn arferol o ymgynghori âg ef, a derbyn ymaddodion o'i enau.

Adn. 9. *A daeth Duw at Balaam*] Y noson hono, yn ol ei ddysgwyliad. *Pwy yw y dynion hyn sydd gyda thi?*—y mae Duw yn gofyn hyn, fel y gallai Balaam, wrth adrodd

y peth yn ei bresenoldeb ef, gael ei argyhoeddi a chywilyddio o'i bechod a'i ynfydrwydd yn cynyg ei wasanaeth yn y fath achos, ac fel sail i'r atebiad yn adu. 12.

Adn. 10, 11. *Brenin Moab*] Felly yr oedd y genadwri wedi dyfod yn benodol oddiwrth Balac, ac nid oedd y Midianiaid ddim ond cynghreirwyr iddo ef.

Adn. 12. *A dywedodd Duw wrth Balaam*] Mewn breuddwyd, yn ol rhai; trwy ei angel, yn ol ereill. *Na ddos gyda hwynt*—hyny yw, na ddos gyda hwynt i *feldithio* y bobl. Gyda hwynt gallai fyned, fel y cawn iddo fyned wedi hyn wrth orchymyn Duw ei hun, adn. 20, ond nid i *feldithio* Israel: yr oedd hyny yn cael ei gwbl wahardd. Neu gall fod y gorchymyn, *Na ddos, yn cyfeirio at yr amser hwnw*, sef y gwahoddiad cyntaf: ac yn yr ystyr yma yfuddhaodd Balaam iddo yn y modd manylaf, adn. 13. *Canys bendigedig ydynt*—y maent yn cael eu harwain dan faner y nef, ac ni all un gyfaredd attal eu mynediad. Er na fusai gwaith Balaam yn melli-dithio y bobl o un pwys ynddo ei hun, eto ni oddefai Duw hyny, am y buasai i'r Moabiaid dalu cymaint o sylw iddo fel ag i ymosod ar yr Israeliaid mewn gobaith o'u gorchfygu, adn. 11.

Adn. 13. *Yr Arglwydd a nacodd adael i mi fyned gyda chwi*] Dylasai fynegu iddynt ddarfod i'r Arglwydd yn bendant wahardd iddo *feldithio* y bobl hyn, a sierchau iddo eu bod yn *fendigedig*. Y mae yn debyg y buasai i hyny attal unrhyw genadwri bellach oddiwrth Balac, a chadw Balaam rhag rhedeg i ychwaneg o bechod.

Adn. 14. *Nacodd Balaam ddyfod gyda ni*] Dywedodd Balaam lai wrth y tywysogion nag a ddywedasai Duw wrtho ef, ac y maent hwythau yn adrodd *lai* wrth Balac nag a ddywedasai Balaam wrthynt hwy; fel, pan ddaeth yr ateb at frenin Moab, nad gair *Dduw* ydoedd, ond gair *dyn*. Dyma yn unig ydoedd, *Nacodd Balaam ddyfod*, heb erioed arwyddo fod Duw wedi gwahardd iddo.

Adn. 15. *A Balac a anfonodd eilwaith fwy o dywysogion, anrhydeddusach na'r rhai hyn*] Yma cawn ail genadwri yn cael ei hanfon at

ac a ddywedasant wrtho, Fel hyn y dywed Balac mab Sippor; Atolwg, na luddier di rhag dyfod ataf:

17 Canys gan anrhydeddu y'th anrhydeddaf yn fawr; a'r hyn oll a ddywedech wrthyf, a wnaif: tyred dithau, atolwg, rhega i mi y bobl hyn.

18 A Balaam a atebodd ac a ddywedodd wrth weision Balac, Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn fyned dros air yr Arglwydd fy Nuw, i wneuthur na bychan na mawr.

19 Ond atolwg yn awr, arhoswch chwithau yma y nos hon; fel y caffwyf wybod beth a ddywedo yr Arglwydd wrthyf yn ychwaneg.

20 A daeth Duw at Balaam *liw* nos, a dywedodd wrtho, Os i'th gyrchu di y daeth y dynion hyn, cyfod, dos gyda

hwynt: ac er hyny y peth a lefarwyf wrthyf, hyny a wnai di.

21 Yna y cododd Balaam yn fore, ac a gyfrwyodd ei asen, ac a aeth gyda thywysogion Moab.

22 ¶ A dig Daw a enynodd am iddo ef fyned: ac angel yr Arglwydd a safodd ar y ffordd i'w wrthwynebu ef; ac efe yn marchogaeth ar ei asen, a'i ddau lanc gydag ef.

23 A'r asen a welodd angel yr Arglwydd yn sefyll ar y ffordd, a'i gleddyf yn noeth yn ei law: a chiliodd yr asen allan o'r ffordd, ac a aeth i'r maes: a tharawodd Balaam yr asen, i'w throï i'r ffordd.

24 Ac angel yr Arglwydd a safodd ar lwybr y gwinllanoedd, a magwyr o'r ddeutu.

25 Pan welodd yr asen angel yr Ar-

Balaam; a gwnaeth Balac yr ymosodiad hwn yn fwy egniol na'r un o'r blaen. Y mae yn debyg iddo anfon y dau cymaint o *aur ac arian* y pryd hyn yn nwyllaw ei genhadau: ac heblaw hyny, efe a'i profai yn awr âg *anrhydedd*, gan osod abwyd nid yn unig i'w gybyddod, ond hefyd i'w falebder, canys yr oedd y cenhadau hyn yn *lluosocach* ac yn *anrhydeddusach* na'r rhai o'r blaen: oblegid tybiai ond odid i Balaam feddwl ei fod yn cael ei fychanu a'i annilrchu gan anamledd ac israddoldeb y cenhadau blaenorol.

Adn. 16. *Atolwg, na luddier di*] Gan Dduw, na'th gydwibod, nac ofn peclu, na chywilydd ychwaith.

Adn. 17. *Gan anrhydeddu y'th anrhydeddaf yn fawr*] Yn mblith tywysogion Moab; *a'r hyn oll a ddywedech wrthyf, a wnaif*—rhoddaf i ti beth bynag a ewyllysi, a gwnaif beth bynag a geisi: caiff dy air di fod yn gyfraith i mi.

Adn. 18. *Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn fyned dros air yr Arglwydd fy Nuw*] Yr oedd Balaam yn adnabod Duw yn rhy dda i feddwl y gallai ef ddiddymu un o'i fwriadau; ac yr oedd ef yn ei barchu yn ormodol i gynyg gwneuthur dim heb ei ganiatâd. Er ei fod yn *gybyddlyd*, eto ni feiddiai, hyd yn nod pan yn cael ei demtio yn gryf gan *gyfoeth ac anrhydedd*, wneuthur dim yn groes i orchymyn ei Dduw.

Adn. 19. *Ond atolwg yn awr, arhoswch chwithau yma y nos hon*] Yma yr oedd y demtasiwn yn dechreu gafaelyd, a'i dueddiad naturiol yntau yn dechreu ymddangos. *Fel y caffwyf wybod beth a ddywedo yr Arglwydd wrthyf yn ychwaneg*—i edrych a fydd iddo ef newid ei feddwl, a chaniatâd i mi regi y bobl am wobr mor fawr.

Adn. 20. *Os i'th gyrchu di y daeth y dynion hyn, cyfod, dos gyda hwynt*] 'Gan fod genyt y fath feddwl am fyned, dylun dy dueddiadau.'—PATRICK. Neu, yn ol y cyfieithiad Saesonaig, 'os daw y dynion i'th alw di, cyfod,' &c. Ni chafodd efe ganiatâd i fyned mewn un modd, ebai Benson, oddieithr i'r cen-

hadau ddyfod ato drachefn yn y hore; ac fe allai, pe nad aethai efe atynt hwy ar ol addaw iddynt atebiad, y gallasant feddwl fod cynnygon mawrion eu meistyr yn cael eu dibrisio, ac y buasant yn myned ynaith hebdo ef: ond yr oedd ei ben a'i galon ef yn rhy lawn o ddysgwiliadau am y daith i anturio bod heb ei wahodd yn mbellach iddi; ac felly efe a gododd yn fore, ac a gyfrwyodd ei asen at y daith. *Er hyny, y peth a lefarwyf wrthyf, hyny a wnai di*—ni chai wneyd yr hyn a fynot ti, ond yr hyn a fynwyf fi: a chan dy fod yn myned yn groes i'm hewyllys i, ti a gai wneyd, yn groes i'th ewylllys dy hun, yr hyn ni fynit ei wneuthur: gwel ar adn. 35.

Adn. 21. *Ac a gyfrwyodd ei asen*] Neu a orchymynodd i'w weision ei chyfrwyo, adn. 22. Y mae yr asynod yn y dwyrain yn fwy na'n rhai ni; a'r fath fwyaf sydd yn cael eu cyfrwyo.

Adn. 22. *A dig Duw a enynodd am iddo ef fyned*] O'i ben ei hun, heb aros nes i dywysogion Moab ddyfod i'w alw ef, yr hyn oedd arwydd ac ammod goddefiad Duw: ond yn lle hyny darfu iddo ef ei hun godi a myned i'w galw hwy. *A'i ddau lanc gydag ef*—sef ei weision; ac y mae yn debyg eu bod wedi blaenu ychydig ar y cenhadau.

Adn. 23. *A'r asen a welodd angel*] Pan fyddai Duw yn caniatâu *gwledigaethau*, y rhai hyny yn unig ag y perthynai iddynt a gaent eu gwled, tra y byddai ereill yn yr un gyndeithas heb wled dim, Dan. x. 7, Act. ix. 7. Tybia rhai mai angel crëedig a feddylir yma; ond y mae Gill, Hunter, Ainsworth, ac ereill, yn meddwl mai Angel mawr y cyffwrdd, yr Arglwydd Iesu Grist, a olygir; ac y mae hyny yn fwy na thebyg oddiwrth adn. 35, lle y mae efe yn arferyd rhagorffaint y Duwdod, ac yn dywedyd, 'Y gair a lefarwyf wrthyf, hyny yn unig a leferi.'

Adn. 24—26. *Angel yr Arglwydd a safodd, &c.*] Yn yr ymddygiad hwn o eiddo yr angel, meddai Mr. Ainsworth, dengys yr Arglwydd erlyniadau ei farnedigathau yn erbyn pechaduriaid. (1) Y mae efe yn dyner yn *ysgwyl*

glwydd, yna hi a ymwasgodd at y fagwyr; ac a wasgodd droed Balaam wrth y fagwyr: ac efe a'i tarawodd hi eilwaith.

26 Ac angel yr Arglwydd a aeth yn mhellach; ac a safodd mewn lle cyfyng, lle nid oedd ffordd i gilio tua'r tu deau na'r tu aswy.

27 A gwelodd yr asen angel yr Arglwydd; ac a orwedodd dan Balaam: yna yr enyodd dig Balaam; ac efe a darawodd yr asen â ffon.

28 A'r Arglwydd a agorodd safn yr asen; a hi a ddywedodd wrth Balaam, Beth a wnaethym i ti, pan darewaist fi y tair gwaith hyn?

29 A dywedodd Balaam wrth yr asen, Am i ti fy siomi. O na byddai gleddyf yn fy llaw; canys yn awr y'th laddwn.

30 A dywedodd yr asen wrth Balaam, Onid myfi yw dy asen, yr hon y

marchogaist arnaf er pan ydwyf eiddot ti, hyd y dydd hwn? gan arfer a arferais i wneuthur i ti fel hyn? Ac efe a ddywedodd, Naddo.

31 A'r Arglwydd a agorodd lygaid Balaam; ac efe a welodd angel yr Arglwydd yn sefyll ar y ffordd, a'i gleddyf noeth yn ei law: ac efe a ogwyddodd ei ben, ac a ymgyrmodd ar ei wyneb.

32 A dywedodd angel yr Arglwydd wrtho, Paham y tarewaist dy asen y tair gwaith hyn? Wele, mi a ddaethym allan yn wrthwynebydd i ti: canys cyfeiliornus yw y ffordd hon yn fy ngolwg.

33 A'r asen a'm gwelodd; ac a giliodd rhagof y tair gwaith hyn: oni buasai iddi gilio rhagof, diau yn awr y lladdaswn di, ac a'i gadawswn hi yn fyw.

34 A Balaam a ddywedodd wrth angel yr Arglwydd, Pechais; oblegid

ei wialen arnynt, ond yn gadael iddynt fyned heb gyffwrdd â hwy. (2) Y mae yn dyfod yn nes, ac yn cyffwrdd â hwy â cherydd ysgafn, megys pe yn gwasgu eu troed wrth y fagwyr. (3) Pan y mae hyn oll yn ddi-effaith, y mae yn eu dwyn i'r fatb gyfyngderau fel nas gallant droi ar y llaw deau na'r aswy, ond rhaid iddynt syrthio o flaen ei farnedigaethau, os na chwbl ddychwelant ato.

Adn. 27. *Efe a darawodd yr asen â ffon*] Y mae rhai yn meddwl mai â gwialen dynyr y tarawsai efe hi y ddwy waith gyntaf; ond yn awr, wedi i'w ddig ef enyn yn fwy, ddarfod iddo ei tharaw â'i ffon ddewiniol, Hos. iv. 12.

Adn. 28. *A'r Arglwydd a agorodd safn yr asen*] A roddodd iddi allu i lefaru ac ymresymu am yr amser hwnaw. A pha achos o syndod sydd yn hyn oll? Pe buasai yr asen wedi agor ei safn *ei hun*, a cheryddu y proffwyd byrbwyll, da y gallasem syru; ond pan y mae Duw yn agor oi safn, gall asen lefaru yn gŷstal a dyn. Y mae gan y cenhedloedd lawer o siamplau ffugiol am anifeiliaid yn siared; megys march Achilles, hwerdd Phryxus, taru Ewrop, cawrfil Porus, &c.

Adn. 29. *A dywedodd Balaam wrth yr asen, &c.*] 'Nid oedd Balaam wedi dychrynu nemawr wrth lefydd yr asen, am ei fod fe allai yn arferol o ymddyddan gydag ysbrydion drwg, y rhai a ymddanghosent iddo, ac a ymddyddanent âg ef, ar lun gwabanol greaduriaid: neu fe allai ei fod wedi ei ddallu gymaint gan ei nwydan fel nad ystyriodd hynod-rwydd y peth.'—BENSON. 'Y mae yn deilwng o sylw yma, nad yw Balaam yn dangos un syndod wrth y wyrth bon, am ei fod yn gweled mai gwaith yr Arglwydd ydoedd.'—CLARKE. Ond y mae Josephus (Henaf. ll. iv. pen. 6) yn arddangos y proffwyd fel wedi synu yn fawr wrth y dygwyddiad hwn; ac y mae COKE ac ereill yn meddwl fod Moses, er mwyn bod yn fyr yn ei hanes, wedi gadael allan oddiyma rai amgylchiadau a fuasent yn profi hyny.

Adn. 30. *A dywedodd yr asen wrth Ba-*

laam, &c.] Y mae hi yn ymresymu âg ef oddiwrth dri pheth: (1) Ei berchenogaeth ynddi: *onid myfi yw dy asen?* Y mae yr arglwyddiaeth a roddodd Duw i ni ar y creaduriaid, yn rheswm da paham na ddylem eu camdrin hwynt. (2) Ei gwasanaethgarwch iddo: *yr hon y marchogaist arnaf er pan ydwyf eiddot ti.* Y mae yn dda i ni ystyried yn fynych pa mor ddefnyddiol yw yr is-greaduriaid i ni, fel y byddom yn ddiolchgar i Dduw am danynt, ac yn dirion wrthynt. (3) Nad oedd hi yn arferol o wneuthur fel hyn: *gan arfer a arferais i wneuthur i' fel hyn?* Ni ddarfai iddi wasgu ei droed na gorwedd dano erioed o'r blaen; ac am hyny gallasai gasglu fod rhywbeth mwy na chyffreidia yn peri iddi wneuthur felly yn awr.

Adn. 31. *A'r Arglwydd a agorodd lygaid Balaam*] A gyflwynodd yr angel i'w olwg, yr hwn hyd yn hyn a fuasai yn anweledig iddo. *Ymgyrmodd ar ei wyneb*—yn arwydd o barch ac ywostyngiad. Yn awr efe a ddeallodd yr achos o ymddyddiad yr asen.

Adn. 32 *Wele, mi a ddaethym allan yn wrthwynebydd i ti*] O herwydd dy fwriad drygionus i ddyfetha cenedl gyfan; *canys cyfeiliornus yw y ffordd hon yn fy ngolwg*—tra yn cymeryd arnat yffyddau i Dduw, y mae dy gybydd-dod yn dy gynhell i wasanaethu Balaam.

Adn. 33. *Oni buasai iddi gilio rhagof, diau yn awr y lladdaswn di*] Yr oedd ei gwaith yn tnoi o'r neilldu, ac yn syrthio i lawr, yn hollol er dy les di, ac nid er ei lles ei hun; ac felly yr oedd dy ddigofaint yn ei herbyn hi yn anghyfiawn ac afresymol. Mor fynych y mae yr anifeiliaid distadlaf, a'r dygwyddiadau mwyaf dibwys, yn offerynu i gadw ein bywydau ac achub ein heneidiau!

Adn. 34. *Pechais*] Y mae efe yn cyfaddef ei ddyrgnwyd a'i anystyriaeth yn ei gamdriniaeth o'r asen, ac yn ceisio ymesgusodi trwy ddywedyd na wyddai fod yr angel yn sefyll ar y ffordd i'w wrthwynebu: ond nid yw yn

ni wyddwn dy fod di yn sefyll ar y ffordd yn fy erbyn: ac yr awr hon, os drwg yw yn dy olwg, dychwelaf adref.

35 A dywedodd angel yr Arglwydd wrth Balaam, Dos gyda'r dynion; a'r gair a lefarwyf wrthyf, hyny yn unig a leferi. Felly Balaam a aeth gyda thywysogion Balac.

36 ¶ A chlybu Balac ddyfod Balaam: ac efe a aeth i'w gyfarfod ef i ddinas Moab; yr hon sydd ar ardal Arnon, yr hon sydd ar gwr eithaf y terfyn.

37 A dywedodd Balac wrth Balaam, Onid gan anfon yr anfonais atat i'rh gyrchu? Paham na ddeuit ti ataf? Oni allwn i dy wneuthur di yn anrhydeddus?

38 A dywedodd Balaam wrth Balac,

gwneyd un cyfaddefiad o'i gybydd-dod, yr hyn oedd yr egwyddor anonest ag ydoedd yn effeithio ar ei holl gamrau. *Os drwg yw yn dy olwg, dychwelaf adref*—'dyma brawf, er ei fod ef yn *caru gwobr amghyfiawnder*, eto ei fod yn barhaus yn *ofni Duw*; ac y mae yn awr yn foddlon i adael yr anturiaeth, os yw Duw yn anffoddlon i'w waith. Nid yw duwioledeb llawer a elwir yn Gristionogion yn cyraedd mor bell a hyn: y maent hwy yn gweled fod y peth yn anffoddloni Duw, ac eto yn myned yn mlaen.—CLARKE.

Adn. 35. *Dos gyda'r dynion*] Mi a ganiatâf i ti fyned ar y telerau a ganlyn. Rhaid ei fod yn tueddu i argyhoeddi y Moabidiaid gymaint ydoedd Israel dan yr amddiffyniad dwyfol, weled o honynt na feiddiaid Balaam, er mor gybyddlyd ydoedd, ac byd yn nod ar ol i'r fath wobrau mawrion gael eu gosod o'i flaen, felldithio y bobl hyny. *A'r gair a lefarwyf wrthyf, hyny yn unig a leferi*—gellir deall hyn fel rhaglynegiad yn gystal ag fel gorchymyn; yn arwyddo y cai efe ei hun yn analluog i gyhoeddi mwy na llai yn nghylch Israel nag a roddai Duw yn ei enau ef.

Adn. 36. *A chlybu Balac ddyfod Balaam*] Hyny yw, ei fod yn dyfod; *ac efe a aeth i'w gyfarfod*—mewn rhan o lawenydd, ac mewn rhan i ddangos parch i'r profwyd. *Ar gwr eithaf y terfyn*—nid yn mhell oddiwrth werysll yr Israeliaid, y rhai yr oedd efe yn ewyllsio iddo en mell-dithio.

Adn. 37. *Paham na ddeuit ti ataf*] Pan yr anfonais genhadau atat y waith gyntaf?

Adn. 38. *Gan allu a allaf fi lefaru dim yr awr hon?*] Y mae Balaam yma yn gadael i Balac wybod ei fod ef dan awurdod goruwchlywodraethol Duw, gorchymynion yr hwn nas gallai efe eu gwrthdwyddyd. *Y gair a osodo Duw yn fy ngenau, hwnw a lefaraf fi*—yr oedd yma benderfyniad ardderchob, a diau iddo ef fod yn ffyddlon iddo. Er ei fod yn ewyllsio boddhan y brenin, a chael cyfoeth ac anrhydedd, eto ni wna'i ddiogio Duw i gyr-aedd hyd yn nod y gwrthdrysychau dysglaer hyn. Ni fedd llawer ag sydd yn cablu y pro-

Wele, mi a ddaethym atat: gan allu a allaf fi lefaru dim yr awr hon? y gair a osodo Duw yn fy ngenau, hwnw a lefaraf fi.

39 A Balaam a aeth gyda Balac; a hwy a ddaethant i gaer Huzoth.

40 A lladodd Balac wartheg a defaid; ac a anfonodd ran i Balaam, ac i'r tywysogion oedd gydag ef.

41 A'r bore Balac a gymerodd Balaam, ac a aeth âg ef i fyny i uchelfeydd Baal; fel y gwelai oddiyno *gwr* eithaf y bobl.

PENNOD XXIII.

A DYWEDODD Balaam wrth Balac, Adeilada i mi yma saith allor; a darpara i mi yma saith o fustych, a saith o hyrddod.

ffwyd hanner-antinomaidd hwn, fel y sylwa Clarke, mo hanner ei dduwioledeb ef.

Adn. 39. *A hwy a ddaethant i gaer Huzoth*] Yn ol yr mysl-nod, *dinas o heolydd*, yr hon yn debygol oedd brifddinas y deyrnas, ac a elwid felly ar gyfrif ei balanger.

Adn. 40. *A lladodd Balac wartheg a defaid*] Gwnaeth hyn i ennill ffafir ei dduwiau ei hun, ac fe allai i ddyhuddo JENOFA, fel y gallai y dyben i'r hwn yr anfonasai efe am Balaam gael ei gyflawni.

Adn. 41. *A'r bore Balac a gymerodd Balaam*] Ond odid yn ei gerbyd ei hun; *i uchelfeydd Baal*—lleoedd cysegredig i addoliad Baal, sef *Baal Peor*, yr hwn oedd eu duw neu eu 'barglwydd' hwy, fel y mae y gair yn arwyddo; enw a roddid i amrai dduwiau a duwiesau. Ymddengys fod eu duw hwy, fel duwiau cenhedloedd ereill, yn cael ei addoli ar uchelfeydd, yn y rhai y gyffredin yr oedd llwyni wedi eu planu, tywyllni pa rai a wasanaethai i ysbrydoli yr addolwyr â meddyliau difrifol. Darfu i Balac gymeryd Balaam i amrai o'r uchelfeydd hyn, fel y gallai weled yn mha le y medrai gymeryd yr olwg lawnaf ar yr Israeliaid; canys bernid yn angenheidol cael y personau a ddiogyddid i fod yn ngolwg yr hwn a gyhoeddai y felldith.

PEN. XXIII. Adn. 1. *Adeilada i mi yma saith allor*] I aberthu arnynt i'r gwir Dduw; canys yr oedd yno alloran eisioes i Baal. Ymddengys yn amlwg mai i'r gwir Dduw yr oedd efe yn bwriadu y rhai hyn, onid ni chrybwyllasai am danynt wrth Dduw, fel rheswm iddo ef ganiatáu iddo ei ddywmniadu, adn. 4. Ac er fod Balac yn wrthwynebol i Dduw a'i addoliad, eto hawdd y goruwchreolied ef gan Balaam, yr hwn yn ddiamau a ddywedodd wrtho mai ofer oedd cyfarch neb ond Duw Israel, yr hwn yn unig a allai eu bendithio neu eu mell-dithio hwy fel y gwelai yn dda. Gan mai *saith* oedd y rhif arferol yn yr aberthiadau mwyaf edmygol a phwysig, hyd yn nod yn mysg yr addolwyr hyny o'r gwir Dduw a'r nad oedd-ynt o had Abraham, nac wedi eu breintio â

2 A gwnaeth Balac megys ag y dywedodd Balaam. Ac offrymodd Balac a Balaam fustach a hwrd ar *bob* allor.

3 A dywedodd Balaam wrth Balac, Saf di wrth dy boeth-offrwm; myfi a âf *oddyma*: ond odid daw yr Arglwydd i'm cyfarfod; a mynegaf i ti pa air a ddangluso efe i mi. Ac efe a aeth i le uchel.

4 A chyfarfu Duw a Balaam, a dywedodd *Balaam* wrtho, Darperais saith allor, ac aberthais fustach a hwrd ar *bob* allor.

5 A gosododd yr Arglwydd air yn

ngenau Balaam; ac a ddywedodd, Dy-chwel at Balac, a dywed fel hyn.

6 Ac efe a ddychwelodd ato. Ac wele, efe a holl dywysogion Moab yn sefyll wrth ei boeth-offrwm.

7 Ac efe a gymerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, O Siria y cyrhodd Balac brenin Moab fyfi, o fynyddoedd y dwyrain, *gan ddywedyd*, Tyred, mell-dithia i mi Jacob; tyred, a ffeiddia Israel.

8 Pa fodd y rhegaf yr hwn ni regodd Duw? a pha fodd y ffeiddiaf *yr hwn* ni ffeiddiodd yr Arglwydd?

9 Cans o ben y creigiau y gwelaf ef,

datguddiad ysgrifenedig, Job xlii. 8, hwyrach ei fod yn cael ei fwrriadu i ddangos eu bod yn ei addoli ef, yr hwn mewn ystyr a gysegrasai y rhif *saith*, trwy orphwys oddiwrth ei weithredoedd crëedigol ar y *seithfed* dydd. A *darpara i mi yma saith o fustych a saith o hyrddod*—yr oedd y *bustych* a'r *hyrddod* yn gyfryw ag y gorchymynai y gyfraith Foesenaidd eu hoffrymu yn ebyrth i Dduw; ond ni orchymynid adeiladu *saith* allor. Eithr gan fod Balaam yn bwriadu offrymu saith o fustych a saith o hyrddod yn aberth mawrwydych ar yr *un pryd*, yr hwn nis gellid yn gyfleus ei wneuthur ar *un* allor, gan hyny efe a orchymynodd i *saith* gael eu hadeiladu.

Adn. 2. *Ac offrymodd Balac a Balaam*] Tybia rhai fod Balac yn ymbil â *Baal* trwyddynt, a bod Balaam yn gweddio ar y *gwir Dduw*; ond y mae yn debycach fod Balac yn ymuno â Balaam yn ei addoliad o'r gwir Dduw: gwel ar adu. 1. Yr oedd brenhin-oedd yn yr hen amseroedd yn offeiriad hefyd, o'r hyn y mae genym anghraifft nodedig yn Melchisedec, Gen. xiv. 18. Felly gallai fod Balac yn offeiriad i'r Moabïaid yn gystal ag yn frenin, ac fel hyn weinyddu gyda Balaam yn y swyddau aberthol; er i rai feddwl na wnaeth efe ddim mwy na chyflwyno yr ebyrth i'w hoffrymu gan Balaam drosto ef a'i bobl.

Adn. 3. *Saf di wrth dy boeth-offrwm*] Fel yn uwgyddfod Duw, megys un yn ei offrymu ei hun, yn gystal a'i ebyrth, i gyraedd ffaf Duw. *Myfi a âf oddyma*—i ryw le unig a chyfleus, lle y gallaf lwyddo i gael gan Dduw ymddangos i mi. Casglu rhai oddyma fod yn arferiad i'r proffwydi a dynion duwiol ereill, ar ol gweinyddu eu santiaid ddefodan, encilio i ryw le unig i ddysgwyl atebiad oddiwrth Dduw. *Ac efe a aeth i le uchel*—i ran uwch o'r mynydd, neu i 'ben y creigiau,' adn. 9, er cael gwell cyfle o encilio, ac i welo Israel yn well.

Adn. 4. *A dywedodd Balaam wrtho*] Sef wrth Dduw, *Darperais saith allor, ac aberthais fustach a hwrd ar bob allor*—ymddengys fod Balaam yn crybwill hyn wrtho fel rheswm paham y dylasai Duw ei foddhau yntau yn ei ddymuniad i felldithio Israel. Y mae yn meddwl fod JERUSALEM gan ymaito o rwyntau iddo am yr aberthau hyn, fel mai y peth lleiaf a allai efe ei wneuthur mewn ffordd o

ad-daliad am danynt oedd aberthu Israel i genfigen brenin Moab.

Adn. 5. *A gosododd yr Arglwydd*] Sef JERUSALEM, fel y mae yn y wreiddiol; *air yn ngenau Balaam*—yr hyn sydd brawf eglur fod Balaam yn broffwyd i'r gwir Dduw: gwel ar adn. 7.

Adn. 6. *Ac efe a ddychwelodd ato*] Sef at Balac, yr hwn a safai ar yr uchelfa gyda'i boeth-offryman.

Adn. 7. *Ac efe a gymerodd ei ddammeg*] Hyny yw, a arferodd ymadrodd oralaidd a phroffwydol, yr hwn a elwir yn *ddammeg* ar gyrtif pwysigrwydd a bwigrwydd ei fater. Cafodd y broffwydoliaeth a draddododd Balaam yn nghylch Israel ar yr achlysur nodedig hwn ei rhyfeddu yn fawr gan y berniaid. Dywed yr Esgob Lowth nad yw ef yn gwybod am ddim yn yr holl farddoniaeth Hebreig yn fwy rliagorol a pherffaith. Y mae yr holl areithiau hyn o eiddo Balaam mewn mesur *hanner-odlig* yn y wreiddiol. Y maent yn dra arddunawl, a gellir eu hystyried megys cyfansoddiadau barddonol digyfrwng Ysbryd Duw; cans dywedir yn bendant, adn. 5, mai JERUSALEM a osododd y gair yn ngenau Balaam, ac i *Ysbryd Duw ddyfod arno ef*, pen. xxiv. 2.

Adn. 8. *Pa fodd y rhegaf yr hwn ni regodd Duw?*] Caniatêid ar bob llaw nad allai un swyn na rheg dycio, oddieithr i Dduw gyd-synio, a'i sicrhau hi. Yr oedd Balaam yn gweled fod Duw wedi penderfynu bendithio ac amddiffyn Israel, ac am hyny fod yn rhaid i bob ymdrech i'w niweidio hwynt fod yn ofer.

Adn. 9. *O'r brynau yr edrychaf arno*] Sef y brynau ar y rhai y safai efe y pryd hyny. Gall yr ymadrodd hwn a'r un blaenorol fod yn cyfeirio nid yn unig at yr olygfa bresenol a gai efe ar wersyll Israel, ond at eu sefydliad dyfodol hwy yn Nghanaan, lle yr arddanghosid hwy i lygad ei feddwl ef fel yn preswyllo yn ddiogel dan nodded yr Hollalluog. *Wle bobl yn preswyllo eu hun*—wedi eu gwahaniaethu oddiwrth dawb ereill trwy ddeddfau, crefydd, ac arferion neillduol; *ac heb eu cyfrif yn nghyda'r enheddoedd*—cafodd y broffwydoliaeth hon ei chyflawni yn llythyrenol hyd heddyw, dros yspaid o fwy na 3,300 o flynyddau; yr hyn sydd brawf fod Balaam mewn gwirionedd dan ddyllanwad yr Ysbryd huw, i'r hwn yn unig y mae pob peth yn adna-

ac o'r bryniau yr edrychaf arno: wele bobl yn preswyllo eu hun, ac heb eu cyfrif yn nghyda'r cenhedloedd.

10 Pwy a rif lwech Jacob, a rhifedi pedwaredd *ran Israel*? Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau.

11 A dywedodd Balac wrth Balaam, Beth a wnaethost i mi? I regi fy ngelynion y'th gymerais; ac wele, gan fendithio ti a'u bendithbiaist.

12 Ac efe a atebodd ac a ddywedodd, Onid yr hyn a osododd yr Arglwydd yn fy ngenau, sydd raid i mi edrych ar ei ddywedyd?

13 A dywedodd Balac wrtho ef, Tyred, atolwg, gyda myfi i le arall, lle y

gwelych hwynt: oddiyno y cai weled eu cwr eithaf hwynt yn unig, ac ni chai eu gweled hwynt i gyd: rhega dithau hwynt i mi oddiyno.

14 ¶ Ac efe a'i dyg ef i faes amlwg, i ben bryn; ac a adcilodd saith allor, ac a offrymodd fustach a hwrdd ar bob allor.

15 Ac a ddywedodd wrth Balac, Saf yma wrth dy boeth-offrwm, a mi a âf acw i gyfarfod *â'r ARGLWYDD*.

16 A chyfarfu yr Arglwydd â Balaam; ac a osododd air yn ei enau ef, ac a ddywedodd, Dychwel at Balac, a dywed fel hyn.

17 Ac efe a ddaeth ato. Ac wele, efe yn sefyll wrth ei boeth-offrwm, a

byddus o'r dechre i'r diwedd; canys pa fodd angen, fel y mae yr Esgob Newton yn ymresymu yn briodol, y gallai efe trwy olwg bell-enig yn unig ar bobl na welsai ac nad adnabasai efe erioed o'r blaen, gael allan asbri ac arferion nid yn unig y bobl ag oeddynt yn fyw y pryd hyny, ond eiddo eu hiliogaeth hyd yr oesoedd diweddaraf? Y mae yr Iuddewon wedi bod bob amser yn eu crefydd a'u cyfreithiau, eu defodau a'u serenoniau, eu moesaau a'u harferion, mor dra gwabanol i bob cenedl arall, fel nad oes ganddynt nemawr o gyweithas â neb. Y maent yn byw o hyd yn ysgaredig ac ar wahan oddiwrth bawb; yn masnachu yn unig âg ereill, ond yn bwyta, yn priodi, ac yn cyweithasu yn benaf yn eu plith eu hunain. Nyni a welwn gan hyny mor gywir a rhyfeddol y darfu i Balaam weddodi yr holl bil, yr eol cyntaf i'r diweddaf, pan y dywedodd, 'Wele bobl yn preswyllo eu hun, ac heb eu cyfrif yn nghyda'r cenhedloedd.'

Adn. 10. *Pwy a rif lwech Jacob?* Pwy a fedr rifo pobl ag sydd megys llwch y ddaear mewn nifer? Fel hyn cafodd addewid Duw i Abraham, 'Gwnaf dy had di fel *llwch y ddaear*,' Gen. xiii. 16, ei chyflawoi eisioes. *A rhifedi pedwaredd ran Israel?*—gan gyfeirio yn debygol at ddsbarthiad Israel yn bedwar gwersyll, y rhai a orweddent yn awr yn ei olwg: gwel ar pen. ii. 2, &c. *Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn*—ai nid oedd Ysbryd Duw yn awr yn ymryson âg ef, nid yn unig er mwyn Israel, ond hefyd er mwyn ei enaid ei hun. Meddylir yn gyffredin fod Balaam wedi cael rhyw argraff ar ei feddwl y byddai iddo gael ei gemyrtyd ymaith trwy farwolaeth anamserol, fel y dygwyddodd iddo trwy gleddyf Israel gyda phum brenin Midia, pen xxxi. 8; a'i fod yn anfon y weddi hon rhag hyny. Yr oedd *marwolaeth yr uniawn* yn yr amseroedd hyny yn cynwys nid yn unig fod iddo gael *ddwyddwch* ar ol marw, ond hefyd fod iddo gael ei gasglu at ei dadau mewn *henaint tég*, ar ol gweled ei blant, a phlant ei blant; ac at hyn, yn ol barn rhai, y mae y rhan ddiweddaraf o'r weddi hon yn cyfeirio, 'A bydded fy niwedd (*uthehi acharithi chamohu*, bydded fy hiliogaeth i) fel yr eiddo yntau.' 'Tybiwyd

yn gyffredin,' meddai Clarke, 'fod Balaam yma yn gweddio am farwolaeth ddedwydd, y fath ag y mae gwir Gristionogion yn ei marw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd; ac yn y ffordd hon y mae ei-eiriau yn gyffredin yn cael eu cyulwys; ond yr wyf fi wedi fy moddloni mai nid hyn yw eu hystyr. Y mae y weddi modd bynag, with ei deall yn y ffordd gyffredin, yn un dda, a gellir ei hoffrwm i Dduw yn llesol. Dyn *uniawn* yw un ag sydd wedi ei waredu oddiwrth ei bechodau, wedi ei *gyfiawnhau* a'i *santeiddio* trwy waed y cyfammod, ac yn byw nid yn unig fywyd *diwied*, ond hefyd fywyd *santaidd a defnyddiol*. Dylai yr hwn a fynai *farw* yn dda, *fyw* yn dda; canys rhaid i *farwolaeth ddrwg* fod yn ganlyniad i *fywyd drwg*.'

Adn. 11. *Gan fendithio ti a'u bendithiaist*] Saes. 'a'u bendithiaist yn gubl,' heb fod yn gymysg â chymaint ag yn *feldith*.

Adn. 12. *Onid yr hyn a osododd yr Arglwydd yn fy ngenau sydd raid i mi edrych ar ei ddywedyd?* Ilyn yw fy nyledswydd i, ac nis gallaf wneuthur dim ond byny: gwel ar pen. xxii. 35, 38.

Adn. 13. *Ac ni chai eu gweled hwynt i gyd*] Meddyliodd Balac fod yr olwg ar y fath wersyll difawr wedi brawychu Balaam, a gallai gasglu hyny oddiwrth yr hyn a ddywedasai efe adn. 10, 'Pwy a rif lwech Jacob,' &c.; gan hyny efe a dybiai y gallai gael gan Balaam eu melldithio hwynt yn *bleidiau didoledig*, nes i'r holl wersyll gael ei ddiogydu i ddystryw trwy regfeydd olynol.

Adn. 14. *Ac efe a'i dyg ef i faes amlwg, i ben bryn*] Saes. 'i faes *Zophim*, i ben *Pisgah*.'

Adn. 15. *Mi a âf acw i gyfarfod â'r Arglwydd*] I ymgynghori âg ef, ac i dderbyn atebiad oddiwrtho, i edrych a fydd i'r abertbau adnewyddol hyn lwyddo i gael ganddo gyd-synio â'n dymuniadau.

Adn. 16. *A dywed fel hyn*] Sef y ddammeq a adroddir yn adn. 18, &c.

Adn. 17. *Beth a ddywedodd yr Arglwydd?* Dealodd Balac ei hun yn awr fod Balaam yn gwbl dan-ddylanwad *JEHOFA*, ac na ddywedai efe ddim ond yr hyn a orchymynai Duw iddo; ond trwy nad oedd ef yn adnabod *JEHOFA* fel yr oedd Balaam, gobethiai y gallai ef gael ei

thywysogion Moab gydag ef. A dywedodd Balac wrtho, Beth a ddywedodd yr Arglwydd?

18 Yna y cymerodd efe ei ddammeg, ac a ddywedodd, Cyfod, Balac, a gwrando; mab Sippor, clust-ymwrando â mi.

19 Nid dyn yw Duw, i ddywedyd celwydd; na mab dyn, i edifarhau: a ddywedodd efe, ac nis cyflawna? a lefarodd efe, ac oni chywira?

dueddu i newid ei feddwl, a mellidithio pobl ag y penderfynasai efe hyd yn hyn eu bendithio.

Adn. 18. *Cyfod, Balac, a gurando*] Yn y geiriau hyn y mae Balaam yn galw ar y brenin i dderbyn cenadwri y Duw mawr gyda pharch a dyfal wrandawriad; fel pe dywedasai, Ymdeffro, a sylwta yn ofalus beth yr wyf yn ei ddywedyd.

Adn. 19. *Nid dyn yw Duw, i ddywedyd celwydd*] Ymddengys i hyn gael ei lefaru i ddiwygio tyb flaenorol Balac, y gallai Duw newid ei feddwl. *Na mab dyn, i edifarhau*—i newid ei fwriadau, fel y mae dynion yn newid yr eiddynt hwy, naill ai am nad allent eu dwyn i ben, neu ynte am eu bod wedi dyfod i wybod yn well, neu fod eu meddyliau wedi newid trwy ryw ddygwyddiad annysgwyladwy, neu trwy eu awydau, yr hyn ni all fod yn Nuw. Pan y sonia yr ysgrifenywyr ysbrydoledig am Dduw yn edifarhau, megys Jer. xviii. 8, Amos vii. 3, 6, y maent i'w deall fel yn lefaru yn ffugryol, ac yn cyfaddasu eu hiaith at ein hamgyffrediaidau ni. Eu meddwl yn unig yw, fod Duw yn newid trefn ei ragluniaeth neu ei ymddygiad tuag at ddynolryw, yn ol fel y byddo efe yn gweled cyfnewidiad yn eu tueddiadau a'u gweithrediaidau hwy: gwel ar Gen. vi. 6.

Adn. 20. *Wele, cymerais arnaf fendithio*] Saes. 'derhyniais orchymyn i fendithio;' a *bendithiodd efe*—ei bobl Israel; *ac ni throaf fi hynyn yn ei ol*—Saes. 'ni allaf ei droi yn ol;' hynyn yw, nis gallaf wrthdroi y fendithio hōno ag y gorchymynodd efe i mi ei chyhoeddi.

Adn. 21. *Ni wel efe anwiredd yn Jacob, ac ni wel drawsedd yn Israel*] 'Ni wel y fath ag sydd yn y Canaanaeid; y fath ag a gospa efe â mellidith, â chwbl ddinystr.'—Benson. Y mae Patrick ac ereill yn meddwl mai *eilun-addoliaeth* a olygir wrth yr *anwiredd* a'r *drawsedd* yma; a bod Balaam yn awgrymu nas gallai efe regi y bobl, am eu bod yn rhydd oddiwrth eilunaddoliaeth; ac am hynny ddar-fod iddo wedi hyn beri iddynt gael ei denu i'r pechod hwn, i enyn digofaint Duw yn eu herbyn. Yn gyson â hyn y mae y Vulgate yn darllen, 'Nid oes eilun yn Jacob, na *delw* yn Israel.' Y mae Dr. Kennicott yn dadlu dros ddarlenniad y Samaritanaeg, yr hwn yn lle *lo hbit*, 'ni wel efe,' sydd yn darllen *lo abbit*, 'ni welaf fi;' nid wyf *fi* yn medru gweled dim yn en plith i allu seilio fy rheg arno. Y mae y geiriau a gyfieithir yma *anwiredd* a *thrawsedd*, yn arwyddo yn llythyrenol *trallod*, *cyfyngder*, *cystudd*, &c.; gan hŷny gellir ystyried y frawddeg fel yn cynwys, 'na odd-efai Duw i'r bobl hyn gael eu dyfetha gan y cleddyf, na'u dwyn dan iau caethiwed;' gwel

20 Wele, cymerais *arnaf* fendithio; a bendithiodd efe, ac ni throaf fi hynyn yn ei ol.

21 Ni wel efe anwiredd yn Jacob, ac ni wel drawsedd yn Israel: yr Arglwydd ei Dduw *sydd* gydag ef, ac y *mae* udgorn-floedd brenin yn eu mysg hwynt.

22 Duw a'u dyg hwynt allan o'r Aifft: megys nerth unicorn *sydd* iddo.

23 Canys nid *oes* swyn yn erbyn

Clarke, Sutcliffe, Poole, Wall, Le Clerc, Waterland, a'r lxx. Y mae yn sicr fod Duw yn gweled anwiredd a chamwedd *lle bymag y maent*, ac nad yw efe yn 'cyfrif yr *anwir* yn *gyflawn*,' Exod. xxxiv. 7; gan hynny y mae y naill neu y llall o'r golygiadau uchod yn rhoddi synwyr da, tra nad yw ein cyfieithiad cyffredin ni, fel y sylwa Clarke, yn rhoddi dim. *Yr Arglwydd ei Dduw sydd gydag ef*—hynny yw, y maent yn addoli JENOFA yn unig, ac felly dan ei amddiffyniad neillduol ac arbenig ef; *ac y mae udgorn-floedd brenin yn eu mysg hwynt*—sef y fath floeddiadau buddngol ag a glywir pan fyddo pobl yn llon-gyfareb nesâd a phresenoldeb eu brenin ar ol trechu eu gelynyon.

Adn. 22. *Duw a'u dyg hwynt allan o'r Aifft*] Sef â llaw gadarn, ac er gwaethaf eu holl elynion; ac am hynny ofer yw ceisio neu obeithio eu gorchfygu hwynt. *Megys nerth unicorn sydd iddo*—sef i Israel. Nid yw Israel yn awr y peth oeddnt yn yr Aifft, yn bobl egwan, anarfog, a digalon; eithr y maent yn gadarn ac anorchfygadwy. Y mae Borchart, yr hwn a ddylynir gan Le Clerc, Patrick, ac ereill, yn meddwl mai math ar *afr fynyddig* dra gwyllt a feddylir yma wrth yr *unicorn*, yr hon sydd uchel iawn, a thra adnabyddus yn Arabia; ac y mae ereill, gyda'r dysgedig Scheuchzer, yn meddwl mai y *rhinoceros* a olygir. Dywed Mr. Campbell, yr hwn a ymwelodd â'r cenadaethau Africanaidd, iddo ef ei hun ladd dan *unicorn*, pan ydoedd oddeutu 800 o filldroedd yn ogledd-ddwyreiniol o Benrhyn-gobaith-da; a bod pob un o honnynt gymaint a phedwar ceffyl. 'Y mae yn anhawdd dywedyd,' ebai Clarke, 'pa anifel a feddylir wrth y gair gwreiddfōl. Nas gall unrhyw anifel *un-corniog* gael ei fwriadu wrth *reem* Moses sydd ddigon amlwg oddiwrth hyn, fod Moses, wrth son am Joseph, yn dywedyd, 'A'i gyrr ef sydd *gyrn unicorn*,' neu *reem*, lle y mae y *cyrr* yn cael son am danynt yn y *lluosog*, a'r *anifel* yn yr *unigol*: [gwel ar Deut. xxxiii. 17.] Y creadur ag y cyfeirir ato yw naill ai y *rhinoceros*, rhai o ba rai sydd â dau gorn iddynt ar y trwyn, neu ynte y *tarw gwyllt*, yr *urus*, neu y *buaf*: eithr y *rhinoceros* sydd yn ymddangos debycaf.'

Adn. 23. *Canys nid oes swyn yn erbyn Jacob, na dewiniaeth yn erbyn Israel*] Yma y mae y profwyd yn tori allan mewn gorawen ardderchog, gan dystio wrth Balac a'i bendeffigion fod eu holl gylluniau annuwiol hwy yn bethau ofer yn erbyn pobl ag y penderfynai yr Arglwydd eu bendithio. *Y pryd hwn y dywedir am Jacob, ac am Israel, Beth a*

Jacob, na dewiniaeth yn erbyn Israel: y pryd *hyn* y dywedir am Jacob, ac am Israel, Beth a wnaeth Duw!

24 Wele, y bobl a gyfyd fel llew mawr, ac fel llew ieuanc yr ymgyfyd: ni orwedd nes bwyta o'r ysglyfaeth, ac yfed gwaed y lladdedigion.

25 ¶ A dywedodd Balac wrth Balaam, Gan regi na rega ef mwy; gan fendithio na fendithia ef chwaith.

26 Yna yr atebodd Balaam, ac a ddywedodd wrth Balac, Oni fynegais i ti, gan ddywedyd, Yr hyn oll a lefaru yr Arglwydd, hyny a wnaif fi?

27 ¶ A dywedodd Balac wrth Balaam, Tyred, atolwg, mi a'th ddygaf i le arall: ond odid boddlaw'n fydd

gan Dduw i ti ei regi ef i mi oddi-yno.

28 A Balac a ddyg Balaam i ben Peor, yr hwn sydd yn edrych tua'r diffaethwch.

29 A dywedodd Balaam wrth Balac, Adeilada i mi yma saith allor; a darpara i mi yma saith bustach, a saith hwrdd.

30 A gwnaeth Balac megys y dywedodd Balaam; ac a offrymodd fustach a hwrdd ar *lob* allor.

PENNOD XXIV.

PAN welodd Balaam mai da oedd yn ngolwg yr Arglwydd fendithio Israel; nid aeth efe, megys o'r blaen,

wnaeth Duw—hyny yw, fel y mae rhai yn ei ddeall, 'bydd y gweithredodd ag y mae Duw yn awr yn nghylch eu gwneuthur i Israel, yn achos o ymddyddan a rhyfeddod i bob oes.' 'Yr ystyr yw, uid oes ar yr Israeliaid angen am swyn na dewiniaeth, trwy fod eu Duw yn ddywedyd wrthynt hwy o byd i bryd beth sydd i ddygwedd iddynt.—ROSENMULLER. 'Yr wyf fi yn meddwl,' ebai CLARKE, 'y dylai yr adran yma gael ei darllen fel hyn: *Gan y dywedir y pryd hyn i Jacob ac Israel beth y mae Duw yn ei wneuthur*—hyny yw, caiff y bobl hyn bob amser *hysbysrwydd prafwyddoliaethol* o'r hyn y byddo Duw yn nghylch ei wneuthur. Ac yn wir hwynt-hwy yw yr unig bobl dau y nef a freintwyd erioed fel hyn. Pan y byddai Duw ei hun yn bwriadu eu cospi hwy am eu pechodau, efe a'u rhagrybyddia'i bob amser trwy y profwyddi; ac hefyd gofalai am hysbysu iddynt holl ddirgel fwiadau eu gelynyon yn eu herbyn.

Adn. 24. *Wele y bobl a gyfyd fel llew mawr*] *Labi*, 'yr hen lew mawr a nerthol,' brenin y goedwig, yr hwn a ofnir ac a berchir gan holl anifeiliaid y maes. *Ac fel llew ieuanc—ari*, oddiw'rth *arak*, 'rhwyo ymaith,' *sef llew ysglyfathus*, neu lew yn y weithred o *ddal* a rhwygo ei ysglyfaeth. Ni fydd y cenhedloedd ag y mae Israel yn awr yn mynd i'w herbyn, yn alluog i'w hamddiffyn eu hunain rhag eu hymosodiadau, mwy nag y mae anifeiliaid gwanaf y goedwig rhag ymosodiadau y llew cryf; gwel ar pen. xxiv. 9. *Ni orwedd*—ni roddant eu harfau i lawr nes cwbl orchfygu eu gelynyon.

Adn. 25. *Gan regi na rega ef mwy, gan fendithio na fendithia ef chwaith*] Os na elli eu rhegi, yr wyf yn atolygu arnat beidio eu bendithio: os na elli gynorthwyo a chalonogi fy myddinoedd i, eto paid â'u gwrthwynebu a'u hanwroli hwynt.

Adn. 26. *Oni fynegais i'w &c.*] Gwel ar adn. 12, a pen. xxii. 35. 38.

Adn. 27—30. *Mi a'th ddygaf i le arall—i ben Peor*] Sef yr uchelfa euwoaf yn holl wlad Moab, lle y tybia Selden fod gan Baal deml a eiwid *Beth-Peor*, neu 'dŷ Peor,' Deut. iii. 29, ac am hyny a enwid *Baal-Peor*. Ymddengys i Balac ddeuis y lle hwn mewn gobaith (gan ei fod, fel y dychymygai efe, yn gartrefe Baal,

duw Moab) na fyddai i Dduw Israel, neu na fedrai efe, ddyfod yno i rwystro y weithred; neu ynte, gan ei fod yn lle cymeradwy gan ei dduw ef, fod yn rhaid iddo fod felly gan JEHOFA, ac y byddai iddo ef yno gael ei ddenu i bleidio eu bwriadau. Y fath yw y dychymygion ofer ag sydd gan ddynion ynfyd am y gwir a'r bywiol Dduw, ac mor ffol yw eu tybiau am dano ef! Fel hyn dychymygodd y Syriaid mai *Duw y mynyddoedd* oedd JEHOFA, ac nid *Duw y dyffrynnoedd*, 1 Bren. xx. 28, fel pe buasai efe yn gryfach yn y naill le nag y mae yn mhob lle! Yma y maent yn ail barotï eu haberth costfawr o saith bustach a saith hwrdd, ar saith allor, er na feddant un addewid i adaeladu arni eu gobethion am lwyddiant. Ac a fydd i ni, y rhai y mae genym addevidion aml a fyddollon oddiw'rtho Ef yr hwn nis gall ddywedyd celwydd, y bydd i'r weledigaeth o'r diwedd lefaru, beidio â pharhau i ofyn fel y byddo i ni dderbyn y ffafr a'r fendith ddwyfol, a cheisio fel y byddo i ni eu cael hwynt? Ai ni fydd i ni ddyfal-barhau mewn gweddi, heb ffino na diffygio, a thrwy barhau yn gwneuthur da gysio gogoniant, ac anrhydedd, ac anllygredigaeth?

PEN. XXIV. Adn. 1. *Nid aeth efe, megys o'r blaen, i gyrchu dewiniaeth*] Y mae y gair *nechashin*, a gyfieithir yma *dewiniaeth*, yn arwyddo 'dyfalu, chwilio, gwneuthur prawf, cael allan, gwybod yn dda, gwybod trwy brofiad.' Yn 1 Bren. xx. 33, fe'i cyfieithir 'dysgwyl yn ddyfal.' Diau, fel y sylwa Henner, nad yw yn angenrheidiol deall y gair am *ddewiniaeth*; ac nid oes un prawf ddarfod i Balaam arferyd unrhyw ddewiniaeth ar yr achosion blaenorol: yn y gwrthwyneb, y mae yr hanesydd santiaidd yn hysbysu ddarfod iddo encilio y ddau dro, nid i gyfarfod â *ystrydion drug*, ac i dderbyn hysbysiadau oddiw'rth hwy; ond i gyfarfod â JEHOFA, ac i dderbyn crybwyll- iadau o'i ewyllys ef, gan ddywedyd wrth Balac ar yr achlysur cyntaf, 'Mynegef i' pa air a ddanghoso efe i mi,' pen. xxiii. 3: a'r ddau dro yr ydym yn darllen i JEHOFA 'csol gair yn ngenau Balaam,' adn. 5, 16. Y cwbl gan hyny ag a allwn yn rhesymol ei gasglu oddi wrth y testyn yw, ddarfod i Balaam yn awr beidio â gwneuthur yr hyn a wnaethai efe o'r

i gyrchu dewiniaeth; ond gosododd ei wyneb tua'r anialwch.

2 A chododd Balaam ei lygaid: ac wele, Israel yn pebyllio yn ol ei lwythau: a daeth Ysbryd Duw arno ef.

3 Ac efe a gymerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, Balaam mab Beor a ddywed, a'r gwŵr a agorwyd ei lygaid, a ddywedodd;

4 Gwrandawydd geiriau Duw a

blaen. *Nid aeth efe*—nid encilliodd, megys y gwnaethai y ddau dro o'r blaen, i dderbyn *hysbrydydd* oddiwrth yr Arglwydd mewn perthynas i bethau dyfodol, nac i ymboli yn eu cychl hwynt. Ymdengys yn eglur fod *Saurin* o'r farn hon, ac yn ystyried yr ymadrodd fel heb arwyddo dim mwy na'r 'datguddiadau ag yr oedd Balaam yn eu dymuno gan Dduw yn nghylch tyngedfen yr Israeliaid.' Y mae *Houbigant* o'r un feddwl, ac yn sylwi fod y gair *dewiniaeth* i'w ddeall yma mewn ystyr da, 'am fod Balaam yn deongli trwyddo ewyllys y gwir Dduw, ac nid ewyllys Duw Moab.' Fel hyn hefyd y mae *Le Clerc* yn alleirio yr adnod, 'Efe a'i barnai yn afreidiol chwilio yn mhellach i feddwl Duw, gan ddarod i Dduw dystio yn ddigonol ei friaid i fendithio Israel.' Yn wir, gan y gwyddom nad oes gan Grist un cymundeb â Belial, y mae yn ymddangos yn hynod ddarodol i unihyw Gristion erioed ddechymygu y buasai i Dduw fel hyn hysbysu ei ewyllys, ac fel hyn egluro dirgelion dyfodiant, i ddyd ag ydoedd yn meddu neu yn chweunyechu cyweithas âg ysbrydion drwg! Yn unol â hyn y sylwas *Clarke*, 'Y mae yn debyg nad yw y gair *nechashim*, a gyfieithir yma *dewiniaeth*, yn meddwl dim mwy na'r *wybyodaeth* o ddygwyddiadau dyfodol. Pan ganfu Balaam fod Duw yn gweled yn dda fendithio Israel, efe gan hyny a dybiodd yn afreidiol gyrchu am unihyw *hysbysiadau* proffwydoliaethol pellach o ewyllys Duw, megys y gwnaethai o'r blaen; canys efe a'allai gasglu yn ddiogel y byddai pob daioni i'r bobl hyn, oddiwrth dueddiad amlwg Duw tuag atynt.' Ond gosododd ei wyneb tua'r anialwch—lle yr oedd Israel yn gweysyllu, gan ddydsgwyl pa beth a grybwyllai Duw o hono ei hun wrtho ef yn nghylch y peth hwn.

Adn. 2. *A daeth Ysbryd Duw arno ef*] Daeth dylanwad proffwydoliaethol oddiwrth Dduw arno ef, trwy yr hyn y galluogwyd ef i ragweled dygwyddiadau dyfodol, ac yr ysbrydolydd ef i draethu y geiriau dylynol. Ac a ydwy yn debyg y daethai Ysbryd Duw ar ddeuwin neu swynwr?

Adn. 3. *A'r gwŵr a agorwyd ei lygaid*] 'Yr wyf fi yn credu y dylai y gair gwreiddiol *she-thum* gael ei gyfieithu *cauwyd*, nid *agorwyd*; canys yn yr adnod nesaf, lle y mae agoriad ei lygaid yn cael ei grybwyll, arferir gair tra gwahanol, *galah*, yr hwn a arwyddda *agor* neu *dlatguddio*.'—CLARKE: gwel hefyd SCOTT, NEWTON, &c. Ond ereill a wahaniaethant: 'Myn rhai, gan fethu gwahaniaethu rhwng *she-thum* a *setum*, gyfieithu y geiriau, 'cauwyd ei lygaid'; yr hyn yr ymdengys nad oes awdurdod digonol drosto. Y mae y LXX yn eu

ddywedodd, yr hwn a welodd weledigaeth yr Hollalluog, yr hwn a syrthiodd, ac a agorwyd ei lygaid:

5 Mor hyfryd yw dy bebyll di, O Jacob! dy gyfaneddau di, O Israel!

6 Ymestynant fel dyffrynoedd, ac fel gerddi wrth afon, fel aloewydd a blanodd yr Arglwydd, fel y cedrwydd wrth ddyfroedd.

7 Efe a dywallt ddwfr o'i ystenu,

cyfieithu o *aléthinós orón*, 'yn gweled yn wirioneddol.' Yr oedd ei lygaid ef yn wir wedi bod yn gauedig, ac yntau wedi bod yn ddall a syfrdan, â llygaid ganddo, ond heb weled na deall; ond yr oedd Duw wedi eu hagog hwynt mewn modd neillduol a phroffwydol. Am hyny gelwid y proffwydi yn *weledyddion*, trwy fod Duw wedi agor eu llygaid.—BENSON.

Adn. 4. *Yr hwn a syrthiodd*] 'Fe allai mewn sffordd o ymgrymiad crefyddol.'—CLARKE. Y mae y cyfieithiad Saesong yn cyflenwi y geiriau i *lesmar*, gan farnu ei fod ef mewn llesmar neu bêrlewyg pan gafodd efe y weledigaeth, fel y mae yn debyg ei fod, ebai Benson; oblegid y mae yn canlyn, *ac a agorwyd ei lygaid*—yr hyn a gynwysa, pan yr oedd ei holl synwraur allanol ef wedi eu cloi i fyny, fod gan ei feddwl amgyffrediad eglur o'r pethau a ddatguddiai Duw iddo. Ond y mae yn debyg mai cyfeiriad sydd yma yn unig at waith Balaam yn cael agor ei lygaid i weled yr angel a safai o flaen ei asen, pryd yr ymgrymodd efe ar ei wyneb, pen. xxii. 31.

Adn. 5. *Mor hyfryd yw dy bebyll di, O Jacob!*] Ar ol iddo weled eu pebyll hwynt wedi eu lledu yn rhosydd Moab, adn. 2, y mae efe yn tori allan fel hyn mewn hoff-lyf-eddiad wrth eu trefn brydferth, fel y gorweddent yn rhesau dan eu gwahanol lummanau.

Adn. 6. *Ymestynant fel dyffrynoedd*] Y rhai yn fynych, o ddechread bychan, a ymestynant allan yn mhell a llydan. *Fel gerddi wrth afon*—y rhai sydd hyfryd a sffrythlon, ac wedi eu hangau â chlawdd. *Fel aloewydd*—pren Arabaidd ac Indiaidd o arogl hyfryd, yn rhoddi cysgod a diogelwch i ddyd ac anifel; y cyffelyb yw Israel, nid yn unig yn ddiogel eu hmain, ond yn diogel pawb a ymunant â hwy. *A blanodd yr Arglwydd*—sef natur, nid celfyddyd; neu y rhai sydd yn tyfu yn annibynol ar feithriad dyn. *Fel y cedrwydd wrth ddyfroedd*—lle mwy manteisiol na'r nynyddau. 'Y mae y cedrwydd ag sydd yn tyfu yn y rhan uwchaf o fynydd Libanus,' meddai *Gabriel Sionita*, yr hwn a fu yn eu mesur ei hun, 'yn dalach na'r *pinwydd*, ac mor breiffion fel nas gall pump o ddyinion yn nghyd braidd estyn eu breichiau o amgylch un.'

Adn. 7. *Efe a dywallt ddwfr o'i ystenu*] Bydd i Dduw helaeth ddyfrhau y dyffrynoedd, y gerddi, a'r prenau, y rhai a gynrychiolant yr Israeliaid; hwy yw, efe a'u bendithia â phob rhyw fendith. *A'i had fydd mewn dyffroedd lawer*—'a drigant mewn tir yn cael ei ddyfrhau yn dda, Deut. viii. 7.'—GILL. 'Gall fod y geiriau yn cael eu bwriadu yma i osod

a'i had fydd mewn dyfroedd lawer, a'i frenin a ddyrchefir yn uwch nag Agag, a'i frenhiniaeth a ymgyfyd.

8 Duw a'i dyg ef allan o'r Aiff; megys nerth unicorn sydd iddo: efe a fygyt y cenbedloedd ei elynion, ac a ddryllia eu hesgyrn, ac â'i saethau y gwâna efe hwynt.

9 Efe a gryma, ac a orwedd fel llew, ac fel llew mawr: pwy a'i cyfyd ef? Bendigedig fydd dy fendithwyr, a mældigedig dy felldithwyr.

10 ¶ Ac enynodd dig Balac yn erbyn Balaam; ac efe a darawodd ei ddwy-law yn nghyd. Dywedodd Balac hefyd wrth Balaam, I regi fy ngelynyon y'th gyrchais; ac wele, ti gan fendithio a'u bendithiaist y tair gwaith hyn.

11 Am hyny yn awr ffo i'th fangre dy hun: dywedais, gan anrhydeddu y'th anrhydeddwn; ac wele, attaliodd yr Arglwydd di oddiwrth anrhydedd.

12 A dywedodd Balaam wrth Balac,

Oni lefarais wrth dy genhadau a anfonais ataf, gan ddywedyd,

13 Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn drosoddu gair yr Arglwydd, i wneuthur da neu ddrwg o'm meddwl fy hun: yr hyn a lefaru yr Arglwydd, hyny a lefaraf fi?

14 Ond yr awr hon, wele, fi yn myned at fy mhobl: tyred, mi a fynegef i ti yr hyn a wna y pobl hyn i'th bobl di yn y dyddiau diweddfaf.

15 ¶ Ac efe a gymerth ei ddammeg, ac a ddywedodd, Balaam mab Beor a ddywed, a'r gŵr a agorwyd ei lygaid a ddywed;

16 Dywedodd gwranda wydd geiriau Duw, gwybedydd gwybodaeth y Goruchaf, a gweledydd gwelidigaeth yr Hollalluog, yr hwn a syrthiodd, ac yr agorwyd ei lygaid:

17 Gwelaf ef, ac nid yr awr hon; edrychaf arno, ond nid o agos: daw seren o Jacob, a chyfyd teyrnwialcn

allan, trwy drawsymddwyn, fawr gnydd Israel.—BENSON; felly CLARKE. 'Y mae y LXX ac ereill yn deongli hwn am un person, ac yn cyfieithu y geiriau, *Daw un allan o'i had ef, yr hwn a lywodraetha genhedloedd lawer*. Y mae gan hyny i'w ddeall am y Messia.—BURDER. Dyma hefyd yw cyfieithiad Onkelos, a Deongliad Jerusalem. *A'i frenin a ddyrchefir yn uwch nag Agag*—y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn meddwl fod Agag yn enw cyffredin i'w frenhinoedd yr Amaleciaid, megys yr oedd Pharao i'r Aiffitiaid; a chan mai yr Amaleciaid oeddynt y bobl fwyaf blodeuog ac arswydus yn y dwyrain y pryd hyn, meddylia rhai fod Balaam yn rhagfynegu y cai brenin Israel fod y brenin mwyaf o bawb. Y mae yr Iuddewon eu hunain, modd bynag, yn meddwl mai yn y MESSIA y caiff yr ymardd hwn ei lawngyflawniad. 'Ond y mae amrai ferniaid, gyda'r LXX,' ebai Clarke, 'yn meddwl ddarfod i gyfnewidid bychan gymeryd lle yma yn y gair gwreiddiol; ac yn lle *meagag*, 'nag Agag,' y dylem ddarllen *mig-gog*, 'na Gog:' a chan yr ymddengys fod *Gog* yn yr ysgrifthyrr yn meddwl gelynyon pobl Dduw, yna gall yr addewid yma gyanwys y bydd i wir addolwyr y Goruchaf o'r diwedd gael goruchafiaeth ar eu holl elynion.'

Adn. 8. *Duw a'i dyg ef, &c.*] Gwel ar pen. xxiii. 22.

Adn. 9. *Efe a gryma ac a orwedd fel llew, &c.*] Gwel ar pen. xxiii. 24. Y mae yr ymardd hyn yn broffwydoliaeth eglur am y buddugoliaethau a gai yr Israeliaid ar eu gelynyon, ac am eu mediant sicr o wlad yr addewid. Gallant fod yn cyfeirio hefyd at y buddugoliaethau mawrion a gai ein Harglwydd Iesu Grist, y 'Llew o lwyth Juda,' ar bechod, angau, a Satan, gelynyon mawrion yr hil ddynol; ac at yr hiliogaeth dra lluosog hōno o *blant ysbrydol*, y rhai a genhedlid trwy bregethiad yr efengyl.

Adn. 10. *Ac enynodd dig Balac yn erbyn Balaam*] Efe a anlygodd mewn geiriau ac ystum y gradd uwchaf o ofid oblegid ei siomedigaeth. *Ac efe a darawodd ei ddwy-law yn nghyd*—mewn anobaith digofus, wrth weled ei holl amcanion wedi eu dŷrysu. *I regi fy ngelynyon y'th gyrchais*—o Mesopotamia, pen. xxii. 5; *ac wele, ti gan fendithio a'u bendithiaist y tair gwaith hyn*—danghosaist o'r dechre dy fod mewn cynghrair â hwy, ac o'u plaid; er i ti, trwy beri i'r allorau gael eu hadeiladu, ac i'r aberthau gael eu hoffrymu, wneyd i mi gredu y gwnaethit eu rhegi hwynt yn ddfifeth! Ar hyn gwaharddodd iddo ddyfod i'w wyddfod, ymlidiodd ef ymaith o'i wlad, ac edliwiodd iddo yr anrhydedd ag y bwriadasai unwaith ei roddi iddo.

Adn. 11. *Ac wele, attaliodd yr Arglwydd di oddiwrth anrhydedd*] Gwawdiaith chwerw ac annuwiol. Fel pe dywedasai, 'Pe buasit yn rhegi y bobl hyn, dyrchafaswn di i anrhydedd mawr; eithr dewisaist ddylyn cyfarwyddiadau JERHOFA yn hytrach na'r eiddof fi, a pha beth a wna efe erot?'

Adn. 12—14. *A dywedodd Balaam wrth Balac, &c.*] Yma y mae Balaam yn ymgyfiawnbau gyda golwg ar ei ymddygiad, trwy haeru na ddarfuo iddo ef *dywyllo* Balac, gan iddo roddi hysbysrwydd yn mlaenllaw i'w genhadau am yr attaliad ag yr ydoedd dano: gwel pen. xxii. 18.

Adn. 15. *A'r gŵr a agorwyd ei lygaid*] Gwel ar adn. 3.

Adn. 16. *Yr hwn a syrthiodd*] Gwel ar adn. 4.

Adn. 17. *Gwelaf ef*] Yr wyf yn ei weled ef trwy ffydd, neu trwy ddatguddiad yr Ysbryd. adn. 2; *ond nid yr awr hon*—eithr i ddyfod mewn amser dyfodol. *Edrychaf arno, ond nid o agos*—yr un peth mewn geiriau ereill. Y mae efe yn llefaru yn gyntaf am *Dafydd*, ac yna am y *Messia*, o awlurdod a buddugol-

o Israel, ac a ddryllia gonglau Moab, ac a ddinystria holl feibion Seth.

18 Ac Edom a feddiennir, Seir hefyd a berchenogir gan ei elynion; ac Israel a wna rymusder.

19 Ac arglwyddiaetha un o Jacob, ac a ddinystria y gweddill o'r ddinas.

20 A phan edrychodd ar Amalec, efe a gymerodd ei ddammeg, ac a ddy-

wedodd, Dechre y cenedloedd yw Amalec; a'i ddiwedd fydd darfod am dano byth.

21 Edrychodd hefyd ar y Ceneaid; ac a gymerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, Cadarn yw dy anedd; gosod yr wyt dy nyth yn y graig.

22 Anrheithir y Ceneaid, hyd oni'th gaethiwo Assur.

23 Ac efe a gymerodd ei ddammeg,

iaethau brenhinol yr hwn yr oedd Dafydd yn gysgod nodedig. *Daw seren o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel*—tybia Clarke fod y seren yn arwydd o awdurdod brenhinol, a'r *deyrnwialen* yn cyfeirio at yr awdurdod brenhinol hwnw mewn gweithrediad. *Ac a ddryllia gonglau Moab*—neu y cyran allanol, gan feddwl ond odid y llywodraethau Moabaid bychain, fel ei gosodir allan yn y Galdeae. Gwnaed hyn gan Dafydd, 2 Sam. viii. 2; a'r 'Moabaid fuant i Dafydd yn weision, yn dwyn treth.' *Ac a ddinystria holl feibion Seth*—y mae Deougliad Jernsalem yn ei gyfieithu, 'holl feibion y dwyrain,' sef y Moabaid y rhai a orweddent o du y dwyrain i Judea. Dywed Rabbi Nathan mai enw *dinas* ar gyffiniau Moab oedd *Seth*; a thybia Grotius mai enw rhyw *frenin* envog yn mhlith y Moabaid ydoedd. Ond diaman fod y geiriau hyn yn broffwydoliaeth am rwyg cyffredinol teyrnas Crist yn y dyddian diweddfaf, pryd y bydd canolfwr y gwahaniaeth wedi ei lwyrdryllio, a'r Inddewon a'r Cenedloedd wedi dyfod yn un gorlan, dan un Bugail ac Esgob eu heneidiau. Tybia Clarke nad oes yma un cyfeiriad at y *seren oruchionawl* a dywysodd y doethlion o'r dwyrain i Bethleem. Ond, fel y sylwa yr Esgob Newton, 'y mae y tadau Cristionogol o un fryd yn cynulwysu y broffwydoliaeth hon at ein Hiachawdwr, ac at y seren a ymddanghosodd ar ei enedigaeith ef. Y mae Origen yn enwedig yn ei dwyn yn mlaen fel un o'r broffwydoliaethau amlycaf am y Messia; ac y mae Eusebius ac yntau yn sicrhau, mai yn ganlynol i broffwydoliaethau Balaam, y rhai a wyddid ac a gredid yn y dwyrain, y darfu i'r doethlion, ar ymddangosiad seren newydd, ddyfod i Jernsalem i addoli yr hwn a aned yn *Frenin yr Inddewon*, Mat. ii. 1, &c. Y mae y frwd o dduwinyddion ac esbonwyr diweddar yn cynulwysu y broffwydoliaeth hon yn benaf at ein Hiachawdwr; ac wrth Moab ac Edom y deallant elynion ac erlidwyr yr eglwys.'

Adn. 18. *Ac Edom a feddiennir*] Sef yn mlaenaf gan Dafydd; megys y dywedir, 'A bu holl Edom yn weision i Dafydd,' 2 Sam. viii. 14. *Seir hefyd a berchenogir*—sef mynyddoedd Edom, yr hyn a wnaed gan Dafydd: gwel uchod. *Ac Israel a wna rymusder*—a ymladdant yn ddeuwr dan lywodraeth Dafydd.

Adn. 19. *Ac arglwyddiaetha un o Jacob*] Sef Dafydd, ac yn enwedig Crist, y rhai a ddaethant o lwynau Jacob. *Ac a ddinystria y gweddill o'r ddinas*—nid yn unig y rhai a fyddant ar y maes, ond hefyd y rhai a fyddant yn y dinasoedd cryfaf.

Adn. 20. *Dechre y cenedloedd yw Amalec*]

Yr hynaf a'r grymusaf o'r holl genhedloedd neu y llywodraethau ag oeddnt y pryd hyn yn ngolwg Balaam; neu y rhai cyntaf a ymladdasant yn erbyn Israel, ac a orchfygwyd ganddynt, Exod. xvii. 8. *A'i ddiwedd fydd darfod am dano byth*—dechreuwyd cyflawni hyn gan *Saul*, 1 Sam. xv. 7, 8, yr hwn a ddyrchwelodd yr Amaleciaid, ac a gymerth eu brenin yn garcharor; wedi hyny cawsant agos eu difodi gan *Dafydd*, 1 Sam. xxvii. 8, 9; a llwyr ddiwreiddiwyd hwynt gan feibion Simeon yn nyddiau *Hezecia*, 1 Cron. iv. 41—43. Er y pryd hyny peidiasant â bodoli fel pobl, ac yn awr nid oes dim o'u hól yn aros ar wyneb y ddaear, gan mor gyflawn y torwyd en hiliogaeth ymaith, yn ol y broffwydoliaeth hon! Mor gryf y dengys hyn nid yn unig wirionedd broffwydoliaeth Balaam, ond y sicrwydd ag ydoedd gan Moses o'i gwirionedd hi, gan iddo ysgrifennu hyn pryd yr oedd Amalec yn genedl gref a lloosog, ac felly anturio ar ei gwirionedd a'i chyflawniad hi ei holl anrhydedd fel hanesydd, a'i awdurdod fel cenad Duw!

Adn. 21. *Edrychodd hefyd ar y Ceneaid*] Ond odid llwyth o'r Midaniaid; canys gelwir Jethro, tywysog Midian, yn *Ceni*, Barn. i. 16. *Cawlarn yw dy anedd*—canys creigiau uchel yn y gwledydd hyny oeddnt yn gyffredin eu hamddiffynfeydd hwynt. *Gosod yr wyt dy nyth yn y graig*—y mae yma chwaread cywrair ar y gair gwreiddiol, yr hwn a arwydda *Cenead* a *nyth*.

Adn. 22. *Anrheithir y Ceneaid, hyd oni'th gaethiwo Assur*] Yr oedd yr Amaleciaid i gael eu cwbl ddyfetha, a'r Ceneaid i gael eu caethgludo. Yn ol hyn, pan gafodd *Saul* orchymyn dwyfol i ddinystrio yr Amaleciaid, efe a barodd i'r Ceneaid gilio o'u mysg hwynt, o herwydd y drngaredd a ddangosasant hwy i Israel, 1 Sam. xv. 6. Dengys y testyn y byddai iddynt gael eu hanrheithio, a'u darostwng i gyflwr isel a gwan: a chan i frenhinoedd Assyria caethgludo nid yn unig yr Inddewon, ond hefyd y Syriaid ac amrai genhedloedd ereill, (2 Bren. xvi. 9, a xix. 12, 13,) y mae yn dra thebyg i'r Ceneaid gyfranogi o'r na ddynged a'u cymydogion, a chael eu cario ymaith gan yr un frwd; yn enwedig gan y crybwyllir am Gereaid yn mhlith yr Inddewon ar ol eu dychweliad o gaethiweid, 1 Cron. ii. 55.

Adn. 23. *Och! pwy fydd byw pan unelo Duw hyn!*] Y mae dan ystyr yn y rhai y deallir y geiriau hyn: (1) Fod y dygwddiad hwnw mor bell, fel nad allai neb ag oedd yn fyw y pryd hyny fod yn fyw i'w weled ef. (2) Y byddai i'r amseroedd hyny fod mor gyfyng ac anrheithiol, fel na fyddai neb braidd yn alluog i ddianc.

ac a ddywedodd, Och! pwy fydd byw pan wnelo Duw hyn!

24 Llongau hefyd o derfynau Cittim

Adn. 24. *Llongau hefyd o derfynau Cittim*] Y mae ihai yn meddwl mai y Rhufeiniaid, ereill mai y Macedoniaid dan Alexander Fawr, a feddylir yma wrth 'derfynau Cittim.' *A orthrymant Assur*—y mae yn wir ddarfod i'r Rhufeiniaid orchfygu yr Assyriaid, yn cynwys holl bobl Syria, Mesopotamia, &c.; ond haera Calmet yn gryf mai Macedoniaid a feddylir wrth Cittim, a bod y broffwydoliaeth yn cyfeirio at fuddugoliaethau Alexander. *Ac a orthrymant Eber*—hyny yw, hiliogaeth Eber, yr Hebreaid, y rhai oeddnt y blodeny'n a'r penaf o blant Eber. Er i Balaam gael ei orchymyn yn benaf i fendithio a phroffwydo daioni am Israel, eto y mae efe yma o'r diwedd yn rhag-ddwydedd y caent hwythau eu ffreyllu am eu pechodau.—BENSON. 'Cafodd yr Hebreaid eu cystuddio, er nad lawer gan Alexander ei hun, eto gan ei olynwyr ef, y Seleucideaid, ac yn enwedig gan Antiochus Epiphanes, I Mac. i. Cawsant eu cystuddio yn waeth gan y Rhufeiniaid, y rhai y darfu iddynt nid yn unig eu darostwng a'u gorthrymu hwynt, ond o'r diwedd gymeryd ymaith eu lle a'u cenedl, a'u gwerthu a'u gwasgaru hwythau dros wyneb y ddaear.'—NEWTON. Ond tybia Clarke mai nid yr Hebreaid a feddylir, ond y bobl yr ochr draw i'r Euphrates, oddiwrth *abar*, 'pasio drosodd, myned tudraw;' yr oll o ba rai a orchfygwyd, a'u hamherodraeth a ddyfethwyd, gan Alexander Fawr. *Ac yntau a dderfydd am dano byth*—'nid Eber, ond ei elynion ef.'—GILL. 'Nid yr Hebreaid; cânt hwy well diwedd, holl Israel a fydd cadwedig; ond y neb sydd yn gorthrymu neu yn ffreyllu Assur ac Eber, sef amherodraeth Groeg a Rhufain. Fel hyn y mae Balaam, yn lle rhegi yr eglwys, yn rhegi Amalec ei gelyn cyntaf hi, a Rhufain ei gelyn olaf.'—BENSON. Ymddengys gan hyny, fel y sylwa yr Esob Newton, fod Balaam yn broffwyd wedi ei ddwyfol ysbrydoli, ouidê ni allasai efe byth ragfynegu cynifer o ddygwyddiadau pellenig, rhai o ba rai sydd yn cael eu cyflawni yn y byd y dyddiau hyn. Gwel Newton on the *Prophecies*, vol. i. p. 130, &c.

Adn. 25. *Balaam—a ddychwelodd adref*] I Mesopotamia; o ba le wedi hyny y dychwelodd efe at y Midianiaid, ac y rhoddodd iddynt y cynghor drwg hwnw a arferwyd ganddynt, pen. xxv. Ac ymddengys oddiwrth pen. xxxi. 8, ddarfod iddo gael ei ladd yn mhllith y Midianiaid.

TYB DR. A. CLARKE AM BALAAM.

'1. Ymddengys yn ddigon amlwg oddiwrth yr hanes flaenorol fod Balaam yn adnabod ac yn addoli y gwir Dduw.

'2. Ei fod ef yn wir broffwyd, ac yn arferol, fel yr ymddengys, o dderbyn atebion oddiwrth Dduw.

'3. Ei fod yn arferyd rhai canghenau anghyfreithlon o wybodaeth, neu ynte yn cael ei gyffir gan y Moabiail fel dewin, ond odid o herwydd yr uchel fri ag ydoedd iddo am ddoethineb; a gwyddom hyd yn nod yn ein

a orthrymant Assur, ac a orthrymant Eber; ac yntau a dderfydd am dano byth.

gwlad ein hunain, yn y pymthegfed a'r unfed canrif ar bymtheg, fod dynion a ragorent ar eu cydoeswyr mewn doethineb yn cael eu cyfrif megys swynwyr.

'4. Er ei fod yn gredadyn yn y gwir Dduw, eto ei fod yn gybyddlyd: efe a garodd wobrr *annglyfawnder*.

'5. Nad yw yn ymddangos ddarfod iddo yn yr achos o'n blaen *ewylllysio* rhegi Israel pan y dealodd eu bod yn weision i'r gwir Dduw.

'6. Y dichon nad oedd efe yn gywbod hyn ar y cyntaf. Dywedodd Balac wrtho fod yno bobl lluosog wedi dyfod o'r Aiff; a chan fod yspail-filwyr, minteioedd crwydrol, lladron, &c., yn fynych yn y dyddiau hyny, gallai ef ar y cyntaf eu cymeryd hwythau am y cyfryw yspailwyr, a myned yn rhywyddach ar ddymuniaid Balac i ymgynghori â Duw yn eu cylech hwynt.

'7. Ddarfod iddo ymddwyn mor gydwytbodol yn yr holl orchwyl, fel, mor gynted ag y dealodd ei fod yn anfoddlon Duw, y darfu iddo yn llawen gynyg dychwelyd; a pheidiodd â myned yn mlaen nes iddo gael nid yn unig oddefiad, ond awurdodol Duw i gychwyn.

'8. Na ddarfu iddo, pan y daeth i olwg y gweryll Israelaidd, gynyg defnyddio unrhyw foddion o ddeiniaeth, galw ysbrydion, swyngyfareddau, &c., i gyflawni ewylllys Balac.

'9. Ddarfod iddo geisio cael allan ewylllys y gwir Dduw, trwy arfer y *moddion hyny* a benodasai Duw ei hun, sef deisyfiad a gweddi, ac a berthiaid anifeiliaid glân.

'10. Er y gwyddai y byddai i hyny ddirfawr anfoddloni Balac, eto ddarfod iddo ef yn dra ffyddlon a diysgog fynegu iddo yr hyn oll a ddywedodd Duw ar bob achlysur.

'11. Yn ngwyneb ei dueddiad cybyddlyd addefedig, eto ddarfod iddo ef wrthod gadael i'r holl anrhydedd addawedig a'r gwobrau cynygiedig, hyd yn nod o'r fath helaelthaf, ei ddenu ef i weithredu mewn unrhyw fodd yn groes i ewylllys ddatguddiedig Duw.

'12. Ddarfod i Dduw ar yr achos hwn gyfranu iddo ef rai o'r dylanwadau proffwydol hynotaf a roddwyd erioed i ddynt.

'13. Fod ei broffwydoliaethau ef ar y cyfan yn eglur a chyfeiriol, ac wedi eu cyflawni yn y modd mwyaf nodedig, ac yn rhoddi rheswm tra chryf er prawf o ddwyfol ddatguddiad.

'14. Er y cynghor drwg a roddwyd i'r Midianiaid, effeithiau yr hwn a grybwyllir yn y bennod ganlynol, am ba achos ond odid y collodd efe ei fywyd, (pen. xxxi. 8,) fod drygedd cymeriad y dyn hwn wedi cael ei fwyhau yn ormod o lawer; ac nad yw yn ymddangos ei fod ef yn *rhagrithiwr, gau-broffwyd*, na *dewin* yn ystyr cyffredin y gair; a darfod iddo ber-yglu hyd yn nod ei fywyd ei hun wrth ddylyn a chyflawni ewylllys yr Arglwydd!

'15. Er y dywedir yn bendant (pen. xxxi. 16, a Dat. ii. 14,) fod godinebiad Israel gyda merched Moab wedi ei roddwyd oddiamgylch trwy y cynghor drwg a roddwyd gan Balaam i fwrw y rhwystr hwn yn eu ffordd, eto nad

25 A chododd Balaam ac a aeth, ac a ddychwelodd adref: a Balac a aeth hefyd i'w ffordd yntau.

PENNOD XXV.

ATHRIGODD Israel yn Sittim; a dechreuodd y bobl odinebu gyda merched Moab.

2 A galwasant y bobl i aberthau eu duwiau hwynt: a bwytaodd y bobl, ac addolasant eu duwiau hwynt.

3 Ac ymgyfeillodd Israel â Baal-

yw yn ymddangos oddiwrth y testyn fod ganddo ef y bwriadau tra drygionus hyn a briodolir iddo yn gyffredin; canys gan ein bod eisioes wedi gweld cymaint o ddaioni yn nghymeriad y gŵr hwn, ac mai hyn a'i ariangarwch (a phwy a dybia hyn yn *bechod?*) ydynt braidd yr unig feiaun ynddo, rhaid ei fod yn ddiaun yn gyson â thegwch a chariadoldeb awgrymu rhyw drefn i symud o leiaf ryw ran o'r bai hwn.

'16. Myfi gan hyny a ddywedwn yn syml, y gallasai y cyngor a roddwyd gan Balaam i Balac fod yn unig, 'i ffurfio *cyfathrachau* â'r bobl hyn, yn enwedig trwy *gysylltiadau priodasol*; a chan nas gallent eu *gorchfygu* hwynt, i ymdrechu eu gwneuthur yn *gyfeillion* iddynt.' Yn awr, er y gallai nad oedd hyn yn cael ei fwriadu gan Balaam i'w maglu hwynt, eto yr oedd yn athrawiaeth ddrwg, gan iddi arwain i lygriad yr had santaidd, ac i ienad anghydluarus gyda'r rhai digred; yr hyn, er hyd yn nod mewn ffordd *briodasol*, sydd mor groes i gall-driniaeth iachus ag i air Duw: gwel ar pen. xxv. 3, &c.

'17. Mai y Moabesau, nid Balaam, a alwodd y bobl i aberthu i'w duwiau; ac yr oedd yn dangos mawr ddirywiad a drygioni yn nghalonau y bobl, eu bod ar wahoddiad mor ysgafn yn ymuno mor fyrbywll mewn addoliad cyn aflaned, ac mor ebrwydd yn bwrw ymaith holl flurf duwioldeb, yn nghyda phob mymryn o ofa yr Hollalluog; gan hyny y mae y bai mwyaf yn gorphwys yn y pendraw gyda hwy eu hunain.'

PEN. XXV. Adn. 1. *A thrigodd Israel yn Sittim*] A hwn oedd eu sefydliad olaf, o ba le y croesasant drosodd i Ganaan. Y mae hyn yn cael ei nodi fel mwyhad mawr ar eu pechod, ddarford iddynt ei gyflawni pan yr oedd Duw yn myned i'w rhoddi hwynt yn y meddiant o'u gwlad hir-ddysgwyliedig. *A dechreuodd y bobl*—lawer o honynt, *odinebu*—naill ai am ddarford i'r merched hyn eu rhoddi eu hunain iddynt ar yr ammod o addoli eu duw hwy, fel y sylwa Benson; neu ynte am fod eu duw aflan yn cael ei addoli trwy y fath weithredoedd aflan, megys yr oedd *Priapus* a *Venus*. *Gyda merched Moab*—a merched *Midian* hefyd; canys trwy fod y ddau bobl hyn mewn cynghair yn y bwriad drwg yma, y mae y naill yn cael ei roddi am y llall; a dichon fod merched Moab yn cael eu henwi, naill ai am mai hwy a ddechrenasant y trosedd, neu am mai hwy oeddynt y prif rai, ond

Peor: ac enynodd digofaint yr Arglwydd yn erbyn Israel.

4 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cymer holl bennaethiaid y bobl, a chrog hwynt i'r Arglwydd ar gyfer yr haul; fel y dychwelo lliid digofaint yr Arglwydd oddiwrth Israel.

5 A dywedodd Moses wrth farnwyr Israel, Lleddwch bob un ei ddyinion, y rhai a ymgyfeillasant â Baal-Peor.

6 ¶ Ac wely, gŵr o feibion Israel, a ddaeth, ac a dygodd Midianes at ei

odid perthynasau neu ferched llys Balac: gwel ar adn. 6.

Adn. 2. *A galwasant y bobl*] Hyny yw, merched Moab a alwasant yr Israeliaid, fel y gallent, gan na fedrent eu niwedio hwy trwy ryfel na rhaib, yn y modd hwn gyflawni eu bwriad.

Adn. 3. *Ac ymgyfeillodd Israel â Baal-Peor*] 'Yr un a *Priapus* y Rhufeiniaid, ac a addolid gyda'r unrhyw arddedodau trythyll ag y cawsom achlysur yn fynych i'w nodi. Yr *ymgyfeillach â Baal-Peor*, grybwyllidig yma, oedd ond odid yr hyn ag ydoedd gan St. Paul mewn golwg pan y dywedodd, 2 Cor. vi. 14, 'Na ieuwr chwï yn anghydluarus gyda'r rhai digred.' A'r ymgyfeillach yma, er iddi gael ei gwneuthur mewn ffordd briodasol, ydoedd er hyny yn *odineb*, (gwel Dat. ii. 14.) gan nas gallai un briodas rhwng Israeliaid a Midianes fod yn gyfreithlon yn ol deddf Duw: gwel y gosodiadau yn niwedd y bennod flaenorol.—CLARKE.

Adn. 4. *Cymer holl bennaethiaid y bobl*] Y cyfryw ag oeddynt benaf yn y trosedd hwn; a *chrog hwynt i'r Arglwydd*—er amddiffyniad i'w anrhydedd a'i gyflawnder ef; neu *gerbron* yr Arglwydd, fel y mae yn y Saesonaeg, sef o flaen ei gysegr ef, fel ddyinion wedi ymwrthod âg addoliad Duw. *Ar gyfer yr haul*—yn gyhoeddus, gan fod eu pechod hwy yn gyhoeddus a gwarthus, fel y gwelo yr holl bobl, ac yr ofont bechu; neu *tua'r haul*, yn y pen dwyreiniol i'r cysegr, a chyn i'r haul fachludo. Sylwa Dr. Kennicott fod yn rhaid i'r testynau Samaritanaidd a Hebreig gael eu cynmeryd yn nghyd i wneyd y synwyr yma yn gyflawn: 'A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Llefara wrth holl bennaethiaid y bobl, a lldant hwy y gwŷr a ymgyfeillasant â Baal-Peor, a chrogant hwynt i syny gerbron yr Arglwydd ar gyfer yr haul.' Ymddengys fod y cyfieithiad hwn yn cael ei gyflawnhau gan yr adnod nesaf, yn yr hon y mae Moses yn cyfarwyddo y barnwyr i wneyd eu dyledswydd trwy gospi y troseddwyr. Nid oedd neb yn cael eu crogi yn fyw yn mhllith yr Hebraeid; eithr yr oeddynt yn gyntaf yn cael eu llabyddio, ac yna eu crogi: gwel BURDER.

Adn. 5. *Lleddwch bob un ei ddyinion*] Yn y gwahanol gylychoedd lle yr ydych yn dywysogion ar filoedd, cannoedd, degau-a-deugain, a degau: lleddwch yr holl *droseddwyr* ag y cewch hwy iddynt. Ac ymddengys ddarford lladd o gylich mil yn awr: gwel ar adn. 9.

Adn. 6. *Gŵr o feibion Israel*] Sef *Zamri*,

frodyr, yn ngolwg Moses, ac yn ngolwg holl gynulleidfa meibion Israel, â hwynt yn wlylo wrth ddrws pabell y cyfarfod.

7 A gwelodd Phinees mab Eleazar, mab Aaron yr offeiriad; ac a gododd o ganol y gynulleidfa, ac a gymerodd waewffon yn ei law;

8 Ac a aeth ar ol y gŵr o Israel i'r babbell; ac a'u gwânodd hwynt ill dau, sef y gŵr o Israel, a'r wraig trwy ei cheudod. Ac attaliwyd y pla oddi wrth feibion Israel.

9 A bu feirw o'r pla bedair mil ar hugain.

mab Salu, penaeth tŷ ei dad, o lwyth Simeon, adn. 14; a ddygodd Midianes—sef Cozbi, merch Sur, pencenedl o dŷ mawr yn Midian, adn. 15. Y mae *cyftwr* y ddau hyn yn profi yn eglur, fel y sylwa Clarke, mai cyfathrach *bridosol* ydoedd. Yr oedd y naill yn *dywysog*, a'r llall yn *dywysoges*; gan hyny cesglir na chafodd godineb neu buteindra, yn ystyr cyffredin y gair, ei gyflawni ar yr achlysur hwn. Yr oedd yr achos yn ddigou drwg wrth fod y briodas yn groes i ddeddf bendant Duw; ac nid oes achos i ni ei wneyd yn waeth trwy arddangos y wraig fel putan gyffredin, megys y gwna y Vulgate ac amrai ereill. Dywed Josephus yn bendant ddarfod i Zimri *bridi* Cozbi; a phe buasai ef heb ddywedyd felly, y mae y peth bron yn hunan-brofedig: gwel ddiwed y bennod flaenorol. *At ei frodyr*—i wersyll yr Israeliaid; *yn ngolwg Moses*—prawf o haerllugrwydd anoddefadwy, ac o ddirmyg ar Dduw a Moses; *ac yn ngolwg holl gynulleidfa meibion Israel, â hwynt yn wlylo*—yn galaru oblegid drygioni y bobl, a barnedigaeithau arswydus Duw, ac yn ymbil am y drugaredd a'r flafr ddywyfol.

Adn. 7. *A gwelodd Phinees, &c.* Nyni a ddysgwn oddiwrth 1 Cron. ix. 20, ei fod ef yn dywysog ar y Coraliaid yn gystal ag yn offeiriad, ac felly yn meddu awdurdod gwladol; a diction ei fod yn un o'r *barnwyr* a osodwyd gan Moses i ladd y troseddwr. Dywed y Salmydd, 'Safodd Phinees, ac a iawn-farnodd,' Salm cvi. 30; yr hyn a ymddengys i arwyddo ei fod ef yn gweithredu fel *barnwr*. Mewn trosedd wedi ei gyflawni mor rhyfygus ac mor gyhoeddus, ni thybiodd fod yn angenrheidiol aros am gynghaws barnol yn erbyn y troseddwr, eithr torodd hwynt yniaith yn uniongyrchol â'i law ei hun. Diction fod urddasrwydd y troseddwr wedi brawychu y barnwyr ereill rhag cyflawni eu swydd; ac yr oedd Phinees yn gwelod, oni byddai iddo ef gynol awdurdod y cyfreithiau, y gwneid holl gorff y bobl yn agored i'r barnedigaeithau trynaif oddi wrth Dduw.

Adn. 8. *Ac a aeth ar ol y gŵr o Israel i'r babbell* Neu wely-ystafell. Y mae y gair yn arwyddo y cyfryw fwrth neu le o neillduedd ag a wnaed i fyny at anlladrwydd. *Ac a'u gwânodd hwynt ill dau*—yn ol y gorchymyn a roddwyd gan Moses i'r penaethiaid i ladd y troseddwr, a hyny ond odid yn ngolwg Moses ei

10 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

11 Phinees mab Eleazar, mab Aaron yr offeiriad, a drôdd fy nigter oddiwrth feibion Israel (pan eiddigeddodd efe dros of fi yn eu mysg) fel na ddyfethais feibion Israel yn fy eiddigedd.

12 Am hyny dywed, Wele fi yn rhoddi iddo fy nghyfammmod o heddwch.

13 A bydd iddo ef, ac i'w had ar ei ol ef, ammod o offeiriadaeth dragwyddol; am iddo eiddigeddu dros ei Dduw, a gwneuthur cymod dros feibion Israel.

bun, a thrwy gynhyrfiad neillduol Ysbryd Duw. Y mae yn flaith ddiweddar, wedi ei chyflawn wreiddu, ddarfod i'r Aifftiaid roddi llawer o fenywod i farwolaeth ag oeddynt wedi bod yn yngysylltu gyda byddin Ffrainc dan *Buonaparte*, ac wedi hyny gyda'r *Saes- on*. Pa beth gan hyny a gawn ni ei ddywedyd am Gristionogion, y rhai sydd mewn gwirionedd yn Paris ac Amsterdam yn trwydedu puteindai!

Adn. 9. *A bu feirw o'r pla bedair mil ar hugain* Nid yw St. Paul, 1 Cor. x. 8, yn cyfrif ond *tair mil ar hugain*, er fod rhai ysgriflyfrau a chyfeithiaid, yn enwedig yr Armenaidd a'r Syriaidd diweddar, yn darllen yno *bedair mil ar hugain*. A chaniatâu mai 24,000 yw y gwir ddarlleniad, (ac nid oes un o'r ysgriflyfrau Hebreig yn meddu unrhyw ddarlleniad gwahanol yma,) gellir cysoni y ddau fel hyn: Cafodd 1,000 o wŷr eu lladd yn ganlyniol i'r gorchymyn a roddwyd i farnwyr Israel yn adn. 4, 5; a'r 23,000 ereill a laddwyd trwy bla digyfrwng oddiwrth Dduw ei hun, at y rhai y cyfeiria yr apostol. Os felly yr oedd, diction mai llwfrdra penaethiaid Israel yn y cyflawniad o'u dyledswydd a barodd i'r Hollalluog gymeryd y farn i'w law ei hun; ac wrth ystyried ddarfod i'r pla gael ei *ottal* ar waith Phinees yn ail ynafflyd yn ei ddyledswydd, nid yw y dyb hon yn anhebygol. Neu, os oedd y rhif a fuont feirw yn fwy na 23,000, ac yn llai na 24,000, gellid ei fynegu mewn *uniawen filoedd* fel y gwna Moses neu yr apostol.

Adn. 11. *Fel na ddyfethais feibion Israel yn fy eiddigedd*] Pan y mae Duw yn priodoli iddo ei hun eiddigedd a nwydau yn yr ysgrythyr, y mae efe yn llefaru yn ol dull dynion, ac mewn cymhwysder at ein hamgyflidiau ni.

Adn. 12. *Wele fi yn rhoddi iddo*] Sef i Phinees, *fy nghyfammmod o heddwch*—gan fod y gair *heddwch* yn cynwys pob math o fendithion ysbrydol a thymhorol, diction ei fod yn meddwl yma addewid Duw i roddi iddo ef a'i deulu y llwyddiant mwyaf gyda golwg ar bethau y ddau fyf

Adn. 13 *Ammod o offeiriadaeth dragwyddol*] I bethau cyhyd a'r wladwriaeth Iuddegwig. Ond yr oedd yr addewid hon yn ammodol, a chan hyny gellid ei diddymu trwy gamymddygiad meibion Phinees, fel yr ymddengys

14 Ac enw y gŵr o Israel, yr hwn a laddwyd, *sef* yr hwn a laddwyd gyda'r Midianes, *oedd* Zimri, mab Salu, penaeth *tŷ ei* dad, o *lwyth* Simeon.

15 Ac enw y wraig o Midian a laddwyd, *oedd* Cozbi, merch Sur: pencenedl o dŷ mawr yn Midian *oedd* hwn.

16 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

17 Blina y Midianiaid, a lleddwch hwylt:

18 Canys blin ydynt arnoch trwy eu dichellion a ddychymygasant i'ch erbyn, yn achos Peor, ac yn achos Cozbi, merch tywysog Midian, eu chwaer hwylt, yr hon a laddwyd yn nydd y pla, o achos Peor.

PENNOD XXVI.

ABU, wedi y pla, lefaru o'r Arglwydd wrth Moses, ac wrth Eleazar fab Aaron yr offeiriad, gan ddywedyd,

2 Cymerwch nifer holl gynulleidfa meibion Israel, o fab ugain mlwydd ac uchod, trwy dŷ eu tadau, pob un a allo fyned i ryfel yn Israel.

ddarfor gwneuthur: gwel isod. Neu dichon nad yw y *kehunnath olam*, yr 'offeiriadaeth dragwyddol,' yn cyfeirio yn unig at uurihw weinyddiadau offeiriadol ag oeddynt i gael eu parhau yn nheulu Phinees yn ystod yr oruchwylieth Poesenaidd, fel y sylwa Clarke; ond at yr offeiriadaeth hōno o eiddo CRIST a gysgodid gan offeiriadaeth Aaron a'i ganlynwyr. Yr *offeiriadaeth* yn unig sydd *dragwyddol*, a'r *amnod* neu yr anrhegiad o honi a wnaed yn awr i Phinees a'i hiliogaeth. Y mae yr Iuddewon yn cyfrif deuddeg archoffeiriad o hil Phinees o'r pryd hyn hyd ddyddiau Solomon, naw yn rhagor o'r pryd hyn hyd y caethiwed, a phymtheg o'u dychweliad hyd amser *Antiochus Eupator*, yr olaf o ba rai oedd Onias, a laddwyd gan Lysias. Cafodd teulu Ithamar, ewythr Phinees, yr offeiriadaeth am oddeutu 150 o flynyddau; ond adferwyd hi i deulu Phinees yn mherson Zadoc yr offeiriad, lle y parhaodd yn y cyfan am oddeutu 950 o flynyddau: gwel ar 1 Cron. vi. 4, &c., a Gen. xxi. 33. *Am iddo eiddigeddu dros ei Dduw*—neu weithredu oddiar frwdfrydedd gwir dduwiol dros anrhydedd Duw, ac nid oddiar mwyaud llygreddig; a *gwneuthur cymod dros feibion Israel*—gaffael maddeuant a heddwch iddynt oddiwrth Dduw.

Adn. 14. *Zimri, mab Salu, penaeth tŷ ei dad*] Crybwyllir hyn er anrhydedd i Phinees, yr hwn, yn y weithred yma, nad ofnai urddasrwydd dyn o gymaint awdurdod yn ei lwyth.

Adn. 15. *Cozbi, merch Sur, pencenedl o dŷ mawr*] Y mae y rhan fwyaf o esbonwyr yn ystyried hon yn butan gyffredin o fonedd: ond gwel ar adn. 6.

3 A llefarodd Moses ac Eleazar yr offeiriad wrthynt yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, *ar gyfer* Jericho, gan ddywedyd,

4 *Rhifwch y bobl*, o fab ugain mlwydd ac uchod; megys y gorebymynodd yr Arglwydd wrth Moses, a meibion Israel, y rhai a ddaethant allan o dir yr Aifit.

5 Reuben, cyntafanedig Israel. Meibion Reuben; o Hanoch, tylwyth yr Hanochiaid: o Phalu, tylwyth y Phaliaid:

6 O Hesron, tyliwyth yr Hesroniaid: o Carmi, tylwyth y Carmiaid.

7 Dyma dylwyth y Reubeniaid: a'u rhifedigion *oedd* dair mil a deugain a saith gant a deg-ar-hugain.

8 A meibion Phalu *oedd* Eliab.

9 A meibion Eliab; Nemuel, a Dathan ac Abiram. Dyma y Dathan ac Abiram, rhai enwog yn y gynulleidfa, y rhai a ymgynbenasant yn erbyn Moses ac yn erbyn Aaron yn nghynulleidfa Corah, pan ymgynbenasant yn erbyn yr Arglwydd.

10 Ac agorodd y ddaciar ei safn, ac a'u llyncodd hwylt, a Chorah hefyd, pan fu farw y gynulleidfa, pan ddifa-

Adn. 17. *Blina y Midianiaid*] Y rhai oeddynt â'r llaw benaf yn hudoliaeth yr Israeliaid; a *lleddwch hwylt*—gwel y gorchymyn hwn yn cael ei gyflawni, pen. xxxi. 1—20.

Adn. 18. *Canys blin ydynt arnoch*] Dan y ffugesgus o briodasau, cyfathrachau, a chynghreiriau, y rhai a gynygient hwy iddynt yn lle y rhyfel a ofnai yr Israeliaid, ni cheisient ond cyfeusdra i gyflawni eu dichell uffernol o ddwyn y fellidith hōno ar yr Israeliaid, yr hon y ceisient yn ofer ei dwyn ffordd arall. Nyni a welwn yma fod genym fwy i'w ofni oddiwrth ein nwydau ein hunain nag oddiwrth falais ein gelynyd; a'i fod yn beth tra pheryglus i ni oddef i ni ein hunain gael ein hudo gan rysedd a chwantau y cnawd.

PEN. XXVI. Adn. 1. *A bu wedi y pla*] A grybwyllwyd yn y bennod flaenorol; *lefaru o'r Arglwydd wrth Moses ac wrth Eleazar*—trwy fod Aaron wedi marw, y mae yr Arglwydd yn cyswlltu Eleazar â Moses, i ddangos ei fod ef wedi dilyn nid yn unig i swydd, ond i awdurdod ei dad.

Adn. 2—4. *Cymerwch nifer holl gynulleidfa meibion Israel*] Rhifwyd hwylt ddywyaith o'r blaen, Exod. xxx. 11, 12, a pen. i. 1, 2: yn awr rhifer hwylt y drydedd waith, i ddangos ffyddlondeb Duw yn nhorid ymaith yr holl rai hyn ag y bygythiasai efe eu tori ymaith, pen. xiv. 29; ac yn nghynydd rhyfeddol y bobl, yn ol ei addewid ef, er amled eu pechodau, a'r barnedigathaau ysgubawl â'r rhai y cospid hwylt; ac i barotri y ffordd er cyfartal ddoesbarthiad y tir ag yr oeddynt yn awr yn myned i'w feddiannu.

odd y tân ddeng wr a deugain a dau gant : a hwy a aethant yn arwydd.

11 Ond meibion Corah ni buant feirw.

12 ¶ Meibion Simeon, wrth eu tylwythau. O Nemeuel, tylwyth y Nemeuchiaid : o Jamin, tylwyth y Jaminiaid :

13 O Zerah, tylwyth y Zerabaiad : o Saul, tylwyth y Sauliaid.

14 Dyma dylwyth y Simeoniaid ; dwy fil ar hugain a dau gant.

15 ¶ Meibion Gad, wrth eu tylwythau. O Sephon, tylwyth y Sephoniaid : o Haggi, tylwyth yr Haggiaid : o Suni, tylwyth y Suniaid :

16 O Ozni, tylwyth yr Ozniaid : o Eri, tylwyth yr Eriaid :

17 O Arod, tylwyth yr Arodiaid : o Areli, tylwyth yr Areliaid.

18 Dyma deuluoedd meibion Gad, dan eu rhif ; deugain mil a phum cant.

19 ¶ Meibion Juda *oedd*, Er ac Onan : a bu farw Er ac Onan yn nhir Canaan.

20 A meibion Juda, wrth eu teuluoedd. O Selah, tylwyth y Selaniaid : o Phares, tylwyth y Pharesiaid : o Zerah, tylwyth y Zerabaiad.

21 A meibion Phares *oedd* ; o Hesron, tylwyth yr Hesroniaid : o Hamul, tylwyth yr Hamuliaid.

22 Dyma dylwyth Juda, dan eu rhif ; onid pedair mil pedwar ugain mil a phum cant.

23 ¶ Meibion Issacar, wrth eu ty-

lwythau, *oedd* ; o Tola, tylwyth y Toliaid : o Puah, tylwyth y Puhiaid :

24 O Jasub, tylwyth y Jasubiaid : o Simron, tylwyth y Simroniaid.

25 Dyma deuluoedd Issacar, dan eu rhif ; pedair mil a thriugain mil a thri chant.

26 ¶ Meibion Zabulon, wrth eu teuluoedd, *oedd* ; o Sered, tylwyth y Sardiaid : o Elon, tylwyth yr Eloniaid : o Jahleel, tylwyth y Jahleeliaid.

27 Dyma deuluoedd y Zabuloniaid, dan eu rhif ; triugain mil a phum cant.

28 ¶ Meibion Joseph, wrth eu teuluoedd, *oedd* ; Manasse, ac Ephraim.

29 Meibion Manasse *oedd* ; o Machir, tylwyth y Machiriaid : a Machir a genhedlodd Gilead : o Gilead *y mae* tylwyth y Gileadiaid.

30 Dyma feibion Gilead. O Jeezer, tylwyth y Jeezeriaid : o Helec, tylwyth yr Heleciaid :

31 Ac o Asriel, tylwyth yr Asrieliaid : ac o Sechem, tylwyth y Sechemiaid :

32 Ac o Semida, tylwyth y Semidiaid : ac o Hepher, tylwyth yr Hephertiaid.

33 ¶ A Salphaad mab Hepher nid *oedd* iddo feibion, onid merched : ac enwau merched Salphaad *oedd*, Malah, a Noah, Hoglah, Milcah, a Thirsah.

34 Dyma dylwyth Manasse ; a'u rhifedigion *oedd* ddeuddeg mil a deugain a saith gant.

Adn. 5—9. *Dyma dylwyth y Reubeniaid* [ſc.] Rhaid peidio deall y gair hwn am yr hyn a alwn ni yn *dylwyth*, ſef rhai yn byw yn yr un tŷ â'u gilydd ; ond am hiliogaeth gwahanol feibion y patrieirch, ar enwau y rhai, o anrhydedd iddynt, yr *oedd* eu hepil yn ymgyfenwi.

Adn. 10. *Ac a'u llyncodd hwynt, a Chorah hefyd*, &c.] Gellid meddwl fod y geiriau hyn yn arwyddo ddarfod i Chorah hefyd gael ei lyncu gyda Dathan ac Abiram. Ond gan fod yn debycach, fel y sylwyd ar pen. xvi. 32, &c., ddarfod i Chorah gael ei ddifa gan *dân Duw* gyda'r rhai a offrynted yr aroglarth, gall y geiriau gael eu cyfieithu yn amgen, fel hyn : *Agorodd y ddŵear ei safn, ac a'u llyncodd hwynt* (Dathan ac Abiram) ; *a Chorah hefyd a fu farw gyda'r gynulleidfa pan ddifaodd y tân*, &c. I'r un peryll y llefara y testyn Samaritanaidd, a Josephus. Hefyd y mae genym dystiolaeth Clement o Rufain, Ignatius, ac Eusebius, fod cyfieithiad y LXX ar y cyntaf yn rhoddi yr un hanes. Y mae Whiston, Junius, a Tremellius yn cyfieithu yr adnod, *Y ddŵear a'u llyncodd hwynt, a'r pethau a berthynent i Chorah*—ſef ei babbell, ei ddodrefn, a'i gyfoeth. Ymddengys fod y Salmydd yn cadarnhau y

dyb mai ei *logi* a gafodd Corah gyda'i Lefiaid, trwy nafl yw yn crybwyll ond am Dathan ac Abiram fel wedi eu *llyncu*, Salm cvi. 17. *A hwy a aethant yn arwydd*—yn gofgofnol o ddwyfol ddialedd yn erbyn pechaduriaid rhyfygus, gan fod yn rhybydd iddynt i beidio gwrthryfela yn erbyn Duw, na'r ynadon y rhai ydynt ddiiprwywyr iddo, na thrawsfediannu y swydd offeiriadol.—BENSON.

Adn. 11. *Ond meibion Corah ni buant feirw*] Gwelodd Duw yn dda eu harbed hwy, ond odid am iddynt diarddel gweithred eu tad, ac encilio o'i babbell a'i gynulleidfa ef ; tra yr ymddengys ddarfod i blant Dathan ac Abiram drengu gyda'u tatau : gwel ar pen. xvi. 27, 32.

Adn. 12. *Jacin*] A elwir hefyd *Jarib*, I Cron. iv. 24. Gallai y cyfryw enwau gael eu chwaneu, neu eu newid, ar ryw achos neillduol na chofferi yn yr ysgrhythr.

Adn. 13—51. *Dyma rhifedigion meibion Israel, chwe chan mil, a mil saith gant a deg-arlugain*] Y daflen ganlynol a ddengys pa faint y datfu i rai o'r llwythau chwaneu, ac ereill leihau, er y cyfrifaid yn pen. i. 19—46, ddeunaw mlynedd ar hugain yn ol.

35 ¶ Dyma feibion Ephraim, wrth eu teuluoedd. O Suthelah, tylwyth y Sutheliaid: o Becher, tylwyth y Becheriaid: o Tahan, tylwyth y Tahanaiad.

36 A dyma feibion Sathelah: o Er-an, tylwyth yr Eranaiad.

37 Dyma dylwyth meibion Ephraim, trwy eu rhifedigion; deuddeng mil ar hugain a phum cant. Dyma feibion Joseph, wrth eu teuluoedd.

38 ¶ Meibion Benjamin, wrth eu teuluoedd, *oedd*; o Bela, tylwyth y Belaiad: o Asbel, tylwyth yr Asbeliaid: o Ahiram, tylwyth yr Ahiraniaid:

39 O Sephupham, tylwyth y Sephuphamiaid: o Hupham, tylwyth yr Huphamiaid.

40 A meibion Bela *oedd*, Ard, a Naaman: o *Ard yr ydoedd* tylwyth yr Ardiaid: o Naaman, tylwyth y Naamaniad.

41 Dyma feibion Benjamin, yn ol eu teuluoedd: dan eu rhif *yr oeddynt* yn bum mil a deugain a chwe chant.

42 ¶ Dyma feibion Dan, yn ol eu teuluoedd. O Suham, tylwyth y Suhamiaid. Dyma dylwyth Dan, yn ol eu teuluoedd.

43 A holl dylwyth y Suhamiaid *oedd*, yn ol eu rhifedigion, bedair mil a thriugain a phedwar cant.

44 ¶ Meibion Aser, wrth eu teuluoedd, *oedd*; o Jimnah, tylwyth y Jimniaid: o Jesui, tylwyth y Jesuiaid: o Beriah, tylwyth y Beriad.

45 O feibion Beriah, *yr oedd*; o Heber, tylwyth yr Heberiaid: o Malciel, tylwyth y Malcieliaid.

46 Ac enw merch Aser *ydoedd* Sarah.

47 Dyma deuluoedd meibion Aser, yn ol eu rhifedigion; tair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.

48 ¶ Meibion Naphtali, wrth eu teuluoedd, *oedd*; o Jaseel, tylwyth y Jaseeliaid: o Guni, tylwyth y Guniaid.

49 O Jeser, tylwyth y Jeseriaid: o Silem, tylwyth y Silemiaid.

50 Dyma dylwyth Naphtali, yn ol eu teuluoedd, dan eu rhif; pum mil a deugain a phedwar cant.

	YN AWR.	GYNT.	
1. Llwyth Reuben	43,730	46,500	2,770 <i>lleihad.</i>
2 — Simeon	22,200	59,300	37,100 <i>lleihad.</i>
3 — Gad	40,500	45,650	5,150 <i>lleihad.</i>
4 — Juda	76,500	74,600	1,900 mwyhad.
5 — Issacar	64,300	51,400	9,900 mwyhad.
6 — Zabulon	60,500	57,400	3,100 mwyhad.
7 — Manasse	52,700	32,200	20,500 mwyhad.
8 — Ephraim	32,500	40,500	8,000 <i>lleihad.</i>
9 — Benjamin	45,600	35,400	10,200 mwyhad.
10 — Dan	64,400	62,700	1,700 mwyhad.
11 — Aser	53,400	41,500	11,900 mwyhad.
12 — Naphtali	45,400	53,400	8,100 <i>lleihad.</i>
Y cwbl	601,730	603,550	1,820 <i>lleihad.</i>

Gallwn sylwi yma, (1) Nad *oedd* yn mysg y rhai hyn gymaint ag un dyn o'r rhifiad blaenorol, oddieithr Caleb a Josua, adn. 64, 65. (2) Er fod *mwyhad* mewn saith llwyth o ddim llai na 59,200 o wŷr, eto yr *oedd* y *lleihad* yn y pum llwyth ereill mor fawr, nes y mae y gwahaniaeth yn erbyn y cyfrif presenol yn 1,820, megys y gwelir uchod. Fel hyn cawn fod yno gynydd o 601,728 oddiwrth y 603,550 yn yr yspaid o 38 mlynedd! (3) Er fod rhyfeddol fwyhad mewn rhai llwythau, a lleihad mewn ereill, y mae yr un fath gyfartaledd yn cael ei gadw yn y dosbeirth *dwyreiniol, gorllewinol, gogleddol, a deheuol*, ag o'r blaen; fel ag i gadw dosbarth *JUDA*, yr hwn *oedd* bob amser y *rhenc fluenaf*, y mwyaf; a dosbarth *DAN*, yr hwn *oedd* bob amser y *rhenc olaf*, y nesaf mewn rhifiad. Ac y mae yn deilwng o sylw, megys yr oeddynt yn awr, a llefau yr un briodol, i ddechreu ar eu prif weithrediadau milwraidd, felly fod eu *dosbarth blaenaf* wedi cynyddu o 186,400 i 201,300; a'u *dosbarth olaf* o 157,600 i 163,200. Felly cryfhawyd eu

dosbarth *cyntaf* 14,900 o wŷr, a'u dosbarth *olaf* 5,600 o wŷr. Y mae y rheswm am hyn yn ddiagon amlwg. (4) Y mae gan Mr. Ainsworth sylw cywrair ar rif y *tylwythau* yn y deuddeg llwyth. Y mae yma,

1. Yn llwyth Manasse	8 tylwyth
2. — Benjamin	... 7	—
3. — Gad	7 —
4. — Simeon	5 —
5. — Juda	5 —
6. — Aser	5 —
7. — Reuben	4 —
8. — Issacar	4 —
9. — Ephraim	... 4	—
10. — Naphtali	... 4	—
11. — Zabulon	3 —
12. — Dan	1 —

Yn y cwbl 57; ac os chwangewn y 12 *patriarch* a *Jacob* eu tad atynt, bydd yr holl nifer yn 70, uniawn iif eneidiau tŷ *Jacob*, y rhai a aethant i waered i'r Aifft, Gen. xlii. 20—27. Y mae y *cyfartaledd* rhyfeddaf yn cael ei

51 Dyma rifedigion meihion Israel; chwe chan mil a mil saith gant a deg-ar-hugain.

52 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

53 I'r rhai hyn y rhenir y tir yn etifeddiaeth, yn ol rhifedi yr enwau.

54 I lawer y chwanegi yr etifeddiaeth, ac i ychydig prinha yr etifeddiaeth: rhodder i bob un ei etifeddiaeth yn ol ei rifedigion.

55 Eto wrth goelbren y rhenir y tir: wrth enwau llwythau eu tadau yr etifeddant.

56 Wrth farn y coelbren y rhenir ei etifeddiaeth, rhwng llawer ac ychydig.

57 ¶ A dyma rifedigion y Lefiaid, wrth eu teuluoedd. O Gerson, tylwyth y Gersoniaid: o Cohath, tylwyth y Cohathiaid: o Merari, tylwyth y Merariaid.

58 Dyma dylwythau y Lefiaid. Tylwyth y Libniaid, tylwyth yr Hebroniaid, tylwyth y Mahiaid, tylwyth y Musiaid, tylwyth y Corathiaid: Cohath hefyd a genhedlodd Amram.

59 Ac enw gwraig Amram oedd Jochebed, merch Lefi, yr hon a aned i Lefi yn yr Aifft: a hi a ddyg i Amram, Aaron a Moses, a Miriam eu chwaer hwynt.

60 A ganed i Aaron, Nadab ac Abihu, Eleazar ac Ithamar.

61 A bu farw Nadab ac Abihu, pan offrymasant dān dycieithr gerbron yr Arglwydd.

62 A'u rhifedigion oedd dair mil ar hugain; *sef* pob gwryw o fab misyriad ac uchod: canys ni chyfrifwyd hwynt yn mysg meibion Israel, am na roddwyd iddynt etifeddiaeth yn mhlith meibion Israel.

63 ¶ Dyma rifedigion Moses ac

gadw i fyny mewn amrywiol bethau yn y trefnidded henafol hwn, yr hyn nis gallasai byth fod yn effaith ddamweiniol achosion cyffredinol. Ond y mae *cyfartaledd*, *cysondeb*, a *rheoleidd-dra* yn nodi holl weithredoedd Duw, fel y sylwa Clarke, yn y byd naturiol a moesol.

Adn. 53. *Pr rhai hyn y rhenir y tir*] Y fath ffydd! rhanu y tir cyn iddynt ei orchfygu ef! *Yn ol rhifedi yr enwau*—*sef* enwau y personau yn y gwahanol lwythau, o ugain mlwydd oed ac uchod.

Adn. 54. *I lawer y chwanegi yr etifeddiaeth, ac i ychydig prinha*] Yr oedd cyfran pob llwyth yn cael ei rhanu yn mhlith y gwahanol dylwythau, i rai fwy, i ereill lai, yn ol nifer y personau yn mhob tylwyth. Ac heb law hyn, os byddai rhyw gyfran yn troi allan yn rhy fawr neu yn ihy fach i dylwythau a phersonau y llwyth hwnw, gallent roddi peth o'u rhan i lwyth arall, (megys y cafodd Simeon a Dan ran o gyfran Juda,) neu gymeryd ymaith ran o'r gyfran a berthynai i lwyth arall.

Adn. 55. *Eto wrth goelbren y rhenir y tir*] Ymddengys fod y *mesur* o dir i'w benu yn ol y nifer yn mhob llwyth, ond yr oedd y *sefyllfa* i'w phenderfynu wrth goelbren, gyda golwg ar y llwythau a'r personau neillduol. Er anghraifft, penderfynid wrth goelbren pa un o'r llwythau oedd i feddiannu yn y deau, pa un yn y gogledd, &c.; ond yn y parth hwnw lle y disgynai eu coelbren, yr oedd cyfran fwy neu lai o dir yn cael ei phenu iddynt yn ol dationi y tir, ac mewn cyfartalech i'w rhif hwythau. Trwy y drefn hon yr oedd pob sail eweryl yn mhlith y gwahanol lwythau yn cael ei symud, a phob un yn boddloni i'w ran fel wedi ei phenodi gan Dduw ei hun, at yr hwn yr apelwyd trwy goelbren. *Yr oedd Canaan yn cynwys oddeutu 14,976,000 o erwau [11,264,000, meddai ereill], yr hyn, wrth eu rhanu rhwng 600,000 o wŷr, a ganiatâ yn nghylch 2½ o erwau i bob un, gyda gweddill o 1,976,000 o er-

wan i dywysogion y llwythau, penaethiaid y tylwythau, dinasoedd y Lefiaid, a dybenion cyhoeddus ereill; a gallai pob dyn fyw cystal ag y gall dynion yn ein gwlad ni ar etifeddiaeth o £50 neu £60 yn y flwyddyn.—LOWMAN.

Adn. 56. *Wrth farn y coelbren*] Nid yw y gair *goral*, a gyfieithir yma *coelbren*, yn cyfeirio at *bren* mwy nag at ryw ddefnydd arall. Y modd y rhenid y tir wrth goelbren a ddysgrifir fel hyn gan Burder: Ar ol gosod dau wrn gerbron y tynwr, mewn un o ba rai yr oedd darnau o femrwn yn cynwys enwau y deuddeg llwyth, ac yn y llall y dognau tir; efe yn gyntaf a roddai ei law yn yr wrn a gynwysai yr enwau, ac a dynai un allan; ac yna, gan roddi ei law yn yr wrn arall, efe a dynai allan y dogn a s'rthiai i'w ran: gwel ar adn. 54, a Diar. xvi. 33.

Adn. 57—62. *A dyma rifedigion y Lefiaid, &c.*] Lefi ydoedd lwyth Duw, llwyth nad oedd i gael etifeddiaeth gyda'r lleill yn ngwlad Canaan, ac am hyny ni rifwyd ef gyda'r lleill, ond wrtho ei hun. Felly y rhifwyd ef yn neclire y llyfr hwn wrth fynydd Sinai, ac am hyny ni ddaeth ef dan y ddedfryd a roddwyd ar y cwbl a rifwyd y pryd hyny, na chai neb o honynt fyned i Ganaan ond Caleb a Josua; canys o'r Lefiaid na rifwyd gyda hwynt, ac nad oeddynt i fyned allan i ryfel, aeth Eleazar ac Ithamar, ac ereill ond odid y rhai oeddynt y pryd hyny uwchlau ugain mlwydd oed, (fel yr ymddengys oddiwrth eu bod mewn swyddau, pen. iii. 4, a iv. 16, 28,) i Ganaan. Nid oedd y llwyth hwn, erbyn ei ail rifiad, wedi cynyddu ond un fil, ac efe eto oedd y llwyth lleiaf. Crybwyllir yma am farwolaeth Nadab ac Abihu am offrymu tân dycieithr, fel y crybwyllwyd o'r blaen am bechod a chosp Corah, oblegid y 'pethau hyn a ddygwyddasant yn *siamplau* iddynt hwy.'

Adn. 63, 64. *Dyma rifedigion Moses ac Eleazar*] Gan gyfeirio at y deuddeg llwyth uchod, y rhai a rifwyd gan Moses ac Eleazar

Eleazar yr offeiriad, y rhai a rifasant feibion Israel yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, *ar gyfer* Jericho.

64 Ac yn y rhai hyn nid oedd un o rifedigion Moses ac Aaron yr offeiriad, pan rifasant feibion Israel yn anialwch Sinai.

65 Canys dywedasai yr Arglwydd am danynt, Gan farw y byddant feirw yn yr anialwch. Ac ni adawsid o honynt un, ond Caleb mab Jephunneh, a Josua mab Nun.

PENNOD XXVII.

YNA y daeth merched Salphaad, mab Hopher, mab Gilead, mab Machir, mab Manasse, o dylwyth Manasse mab Joseph (a dyna enwan ei ferched ef; Malah, Noah, Hoglah, Milcah, a Thirsah)

2 Ac a safasant gerbron Moses, a cherbron Eleazar yr offeiriad, a cherbron y penaethiaid, a'r holl gynulleidfa, wrth ddrws pabell y cyfarfod, gan ddywedyd,

3 Ein tad ni a fu farw yn yr anialwch; ac nid oedd efe yn mysy y gynulleidfa a ymgasglodd yn erbyn yr

yn nghyd; canys v mae yn debyg i lwyth Lefi gael ei rifo gan Moses ei hun, fel y tro o'r blaen, pen. iii. 16—21.

Adn. 65. *Ac ni adawsid o honynt un*] Hyny yw, o'r deuddeg llwyth uchod; ond Caleb mab Jephunneh—yr hwn oedd o lwyth Juda; a Josua mab Nun—o lwyth Ephraim. Addawsai Daw arbed y rhai hyn yn wobri i'w ffydd a'u duwioldeb diysgog, pen. xiv. 24. Y mae yn sicri amrai o'r Lefiaid ag oeddynt yn awr uwchlaw 60 mlwydd oed, gael eu cynmeryd i Ganaan, fel y nodwyd uchod; canys trwy nad oeddynt hwy yn enog o'r pechod, ni chwasant ymgysfranogi o'r gop.

PEN. XXVII. Adn. 1. *Yna y daeth merched Salphaad, &c.*] Yn y rhestriad diweddafo'r tylwythau Israelaidd cymerwyd sylw o Salphaad, mab Hopher, yn llwyth Manasse, yr hwn a fu farw heb feibion, ac a adawodd bump o ferched yn unig etifeddesau iddo, pen. xxvi. 33. Y merched hyn, ar ol clywed fod tir Canaan i'w ranu yn mysy penau teuluoedd y llwythau, crybwyllledig yn y gofrestr hōno, cynwysedig yn unig o wrywod, a feddylasant eu bod hwy, gan eu bod yn fenywod, i gael eu cau allan oddiwrth bob meddiant sefydlog yn y tiroedd a'r etifediaethau yn y wlad hōno, ac o ganlyniad y byddai i enw a thylwyth yr Hephariaid gael eu cwbl ddiileu; ac am hyny tynasant arddangosiad o'u hachos, a gosodasant ef gerbron Moses mewn llys llawn o'r barnwyr.

Adn. 2. *A cherbron y penaethiaid a'r holl gynulleidfa*] Wrth y 'penaethiaid' y meddylir tywysogion y llwythau, neu y rhai uwchaf o'r barnwyr penodedig, Exod. xviii. 25; ac wrth

Arglwydd yn nghynulleidfa Corah, ond yn ei bechod ei hun y bu farw; ac nid oedd meibion iddo.

4 Paham y tynir ymaith enw ein tad ni o fysy ei dylwyth, am nad oes iddo fab? Dod i ni feddiant yn mysy brodyr ein tad.

5 A dyg Moses eu hawl hwynt gerbron yr Arglwydd.

6 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

7 Y mae merched Salphaad yn dywedyd yn uniawn: gan roddi dyro iddynt feddiant etifediaeth yn mysy brodyr eu tad: trosa iddynt etifediaeth eu tad.

8 Llefara hefyd wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Pan fyddo marw un, ac heb fab iddo, trowsch ei etifediaeth ef i'w ferch.

9 Ac oni bydd merch iddo, rhoddwch ei etifediaeth ef i'w frodyr.

10 Ac oni bydd brodyr iddo; yna rhoddwch ei etifediaeth ef i frodyr ei dad.

11 Ac oni bydd brodyr i'w dad; yna rhoddwch ei etifediaeth ef i'w gâr nesaf iddo o'i dylwyth; a meddianned

yr 'holl gynulleidfa' y golygir y deg hennriad a thriugain, neu gynrychiolwyr y bobl, pen. xi. 24. Wrth ben yr holl rai hyn yr eisteddai Moses, ac yn nesaf ato ef yr archoffeiriad. Wrth ddrws pabell y cyfarfod—lle yr ymgynullent i drin achosion cyffredin. Yr oedd y lle hwn yn dra chyfleus, gan fod ganddynt achos yn fynych i fyned at Dduw am ei gyfarwyddyd.

Adn. 3. *Yn ei bechod ei hun y bu farw*] Hyny yw, ond odid, efe a fu farw o farwolaeth gyffredin, ac nid y fath farwolaeth a'r eiddynt hwy y rhai oeddynt gyfranogion o enogrwydd Corah a'i gynulleidfa. Ond tybia rhai fod y geirian yn golygu ei fod ef wedi marw am ryw drosedd o'i eiddo ei hun, gwahanol i eiddo Corah, yr hwn nid oedd i effeithio ar ei blant, pen. xiv. 31; a dywed yr Iuddewon mai Salphaad oedd y gŵr a labyddiwyd am gynnata ar y dydd sabboth, pen. xv. 32.

Adn. 4. *Paham y tynir ymaith enw ein tad ni*] Fel y gwneir, os na chedwir ef trwy etifediaeth wedi ei rhoddi i ni yn ei enw ac er ei fwyn ef? *Dod i ni feddiant yn mysy brodyr ein tad*—sef biliogaeth Manasse.

Adn. 5. *A dyg Moses eu hawl hwy gerbron yr Arglwydd*] Ni rhyfygodd Moses roddi barn ei hun; canys er fod eu gofnyion hwy yn ymddangos yn gyfiawn a rhesymol, eto y gorchymyn pendant a gawsai ef ydoedd rhanu y tir rhwng y meibion rhifedig.

Adn. 7. *Trosa iddynt etifediaeth eu tad*] Yr hyn a ddisgynasai i'w ran ef pe buasai yn fyw, ac felly cawsant feddiant o'r tir, Jos. xvii. 3, &c.

Adn. 8—11. *Pan fyddo marw un, ac heb fab iddo, &c.*] Darfu i achos hynod y merched

hwnw hi: a bydded *hyn* i feibion Israel yn ddeddf farnedig, megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses.

12 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dring i'r mynydd Abarim hwn, a gwel y tir a roddais i feibion Israel.

13 Ac wedi i ti ei weled, tithau a gesglir at dy bobl, fel y casglwyd Aaron dy frawd.

14 Canys yn anialwch Sin, wrth gynhen y gynulleidfa, y gwrthryfelasoch yn erbyn fy ngair, i'm santeiddio wrth y dwfr yn eu golwg hwynt: dyma ddwfr cynhen Cades, yn anialwch Sin.

15 ¶ A llefarodd Moses wrth yr Arglwydd, gan ddywedyd,

16 Gosoded yr Arglwydd, Duw ysbrydion pob cnawd, un ar y gynulleidfa,

hyn beri i gyfraith chwanelog gael ei gwneuthur at ddeddfau gwladol Israel, yr hon a sicrhâai yn foddhaol yr hawl o'lyniad mewn achosion etifeddol; ac y mae clymiant o resymoldeb ynddi ag sydd o gyfiawnder.

Adn. 12. *Dring i'r mynydd Abarim*] Yr oedd yr holl gadwyn o fynyddoedd hyny yn cael eu galw *Abarim*, un o'r rhai uwchaf o'ba rai a elwid *Nebo*, a phen *hwnw Pisga*. Dywed Dr. Shaw fod mynyddoedd *Abarim* yn grib hir o fryniau dychrynllud, creigiog, a diffwys, yn rhedeg ar hyd glan ddwyreiniol y Môr Marw cyn belled ag y gall y llygaid welled. Gan fod *abar* yn yr Hebraeg yn arwyddoedd *drosodd*, tybia rhai fod *Abarim* yma yn arwyddoedd *myndefydd*; a bod y lle hwn wedi cael ei enw oddiwrth *fynediad* yr Israeliaid, gan mai gyferbyn â'r rhai hyn y croesasant hwy yr Iorddonen i wlad yr addewid. *A gwel y tir*—gwel ar Deut. xxxiv. 4.

Adn. 13. *Tithau a gesglir at dy bobl*] Rhaid i Moses farw: ond nid yw marwolaeth yn ei 'dori ef ymaith;' nid yw ddim ond yn ei 'gasglu ef at ei bobl,' i gymdeithas y patrieirch santiaid a aethant adref o'i flaen. *Fel y casglwyd Aaron dy frawd*—gwel ar pen. xx. 23, &c.

Adn. 14. *Canys yn anialwch Sin, &c.*] Y mae Moses nid yn unig yn cael ei ragrybyddio o'i farwolaeth, ond yn cael dwyn ar gof iddo yr achos o honi, sef ei bechod; ac er na chaff ef fyned i Ganaan, eto caiff ei foddhau â'r olwg arni. *Y gwrthryfelasoch*—gwel ar pen. xx. 12.

Adn. 15. *A llefarodd Moses wrth yr Arglwydd*] Yn nghylch ei olynydd. Ni ddarfu i'r crybwyliliad am ei ymadawiad nesall frawychu Moses, canys yr oedd meddwl am fyned adref at ei bobl yn fwy na digon o gynaliaeth iddo.

Adn. 16. *Gosoded yr Arglwydd—un ar y gynulleidfa*] Dylem ninau ofalu yn ein gwedd-iaid dros y genedl sydd yn codi, fel y byddo i deyrnas Dduw fyned rhagddi yn llywyddianus pan fyddom ni yn ein beddau. *Duw ysbrydion pob cnawd*—yr hwn wyt yn chwilio yr ysbrydion, ac a wyddost pwy sydd addas i'r gwaith mawr hwn: gwel ar pen. xvi. 22.

17 Yr hwn a elo allan o'u blaen hwynt, ac a ddelo i mewn o'u blaen hwynt, a'r hwn a'u dygo hwynt allan, ac a'u dygo hwynt i mewn; fel na byddo cynulleidfa yr Arglwydd fel defaid ni *byddo* bugail arnynt.

18 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cymer atat Josua fab Nun, y gŵr y mae yr ysbryd ynddo, a gosod dy law arno;

19 A dod ef i sefyll gerbron Eleazar yr offeiriad, a cherbron yr holl gynulleidfa; a dod orchymyn iddo ef yn eu gwydd hwynt.

20 A dod o'ith ogoniant di arno ef, fel y gwrandawo holl gynulleidfa meibion Israel arno.

21 A safed gerbron Eleazar yr offeiriad, yr hwn a ofyn *gynghor* drosto ef,

Adn. 17. *Yr hwn a elo allan o'u blaen hwynt*] Hyny yw, yr hwn a'u harweinio yn ddoeth yn eu holl achosion, pan yr elont allan i ryfel neu ar achlysuron ereill, a phan y dychwelont adref i fyw mewn heddwch. *Fel na byddo cynulleidfa yr Arglwydd fel defaid ni byddo bugail arnynt*—dengys hyn yn mha oleuni yr edrychais Moses arno ei hun yn mhilith ei bobl. Efe oedd eu *bugail* hwynt, yn porthi ac yn arwain praidd Duw, heb geisio un lle uwch.

Adu. 18. *Y gŵr y mae yr ysbryd ynddo*] Sef donian ysbrydol oddiwrth yr Ysbryd Glân; canys trwy ddylanwad yr Ysbryd Glân y mae pob rhodd ddaionus yn cael ei chyfrannu i blant dynion. Y mae yn meddwl yn neillduol yma, ysbryd doethineb, gwroldeb, ac ofn yr Arglwydd, yn nghyda phob dawn angenrheidiol arall i lywodraethu y bobl. Am hyny dywedir fod Josua yn 'gyflawn o ysbryd doethineb,' Deut. xxxiv. 9. *A gosod dy law arno*—yr hon oedd ddefod arferedig wrth fendithio a chysegru i swydd; a thrwy ei weddiau, y rhai a ddylynt y ddefod hon, derbyniodd Josua yr holl doniau a'r grasau ysbrydol hyny ag oeddynt angenrheidiol i'w waith rhagllaw.

Adn. 19. *A cherbron yr holl gynulleidfa*] Fel y gallont fod yn dystion o'r holl weithrediad, ac y byddo iddynt ei gydnabod ef fel eu prif lywodraethwr. *A dod orchymyn iddo ef*—dod gynghorion a chyfarwyddiadau i iawn gyflawni ei swydd bwysig.

Adn. 20. *A dod o'ith ogoniant di arno ef*] Hyny yw, cyfrana beth o'ith awdurdod dy hun iddo ef yn bresenol: na ddefnyddia ef mwyach megys gwas, ond fel brawd, ac fel dy gydradd di yn y llywodraeth. Ond tybia y doctoriaid Iuddewig fod y gogoniant hwn yn cyfeirio at ddysgleirdeb gwyneb Moses, yr hwn y meddylhiant hwy ddarford ei gyfrannu i Josua. *Fel y gwrandawo*—fel y byddo i'r bobl, trwy arfer ufyddhau iddo tra yr oedd Moses yn fyw, wneuthur hyny yn fwy ewyllysgar wedi iddo farw.

Adn. 21. *A safed gerbron Eleazar yr offeiriad*] Yr oedd yma wabaniaeth nodedig

yn ol barn Urim, gerbron yr Arglwydd: wrth ei air ef yr ânt allan, ac wrth ei air ef y deuant i mewn, efe a holl feibion Israel gydag ef, a'r holl gynulleidfa.

22 A gwnaeth Moses megys y gorchymynodd yr Arglwydd iddo: ac a gymerodd Josua, ac a barodd iddo sefyll gerbron Eleazar yr offeiriad, a cherbron yr holl gynulleidfa.

23 Ac efe a osododd ei ddwyllaw arno, ac a roddodd orchymyn iddo; megys y llefarasai yr Arglwydd trwy law Moses.

PENNOD XXVIII.

ALLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Gorchymyn i feibion Israel, a dywed wrthynt, Gwylwch am offrymu i mi fy offrwm, a'm bara i'm hebyrth tanlyd, o arogl peraidd, yn eu tymhor.

3 A dywed wrthynt, Dyma yr aberth tanlyd a offrymwch i'r Arglwydd. Dau oen blwyddiaid, perffeith-gwbl, bob dydd, yn boeth-offrwm gwastadol.

4 Un oen a offrymi di y bore, a'r oen arall a offrymi di yn yr hwyr;

5 A degfed ran epha o beillied, yn fwyd-offrwm wedi ei gymysgu trwy bedwaredd ran hin o olew cochedig.

6 Dyma y poeth-offrwm gwastadol a wnaed yn mynydd Sinai, yn arogl peraidd, yn aberth tanlyd i'r Arglwydd.

7 A'i ddiod-offrwm fydd bedwaredd

ran hin gyda phob oen: pâr dywallt y ddiod gref yn ddiod-offrwm i'r Arglwydd, yn y cysegr.

8 Yr ail oen a offrymi yn yr hwyr: megys bwyd-offrwm y bore, a'i ddiod-offrwm, yr offrymi ef, yn aberth tanlyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

9 ¶ Ac ar y dydd sabboth, dau oen blwyddiaid, perffaith-gwbl, a dwy ddegfed ran o beillied yn fwyd-offrwm wedi ei gymysgu trwy olew, a'i ddiod-offrwm.

10 Dyma boeth-offrwm pob sabboth, heblaw y poeth-offrwm gwastadol, a'i ddiod-offrwm.

11 ¶ Ac ar ddechre eich misoedd yr offrymwch, yn boeth-offrwm i'r Arglwydd, ddau o fustych ieuainc, ac un hwrdd, a saith oen blwyddiaid, perffaith-gwbl;

12 A thair degfed ran o beillied, yn fwyd-offrwm, wedi ei gymysgu trwy olew, gyda phob bustach; a dwy ddegfed ran o beillied, yn fwyd-offrwm, wedi ei gymysgu trwy olew, gyda phob hwrdd;

13 A phob yn ddegfed ran o beillied, yn fwyd-offrwm, wedi ei gymysgu trwy olew, gyda phob oen, yn offrwm poeth o arogl peraidd, yn aberth tanlyd i'r Arglwydd.

14 A'u diod-offrwm fydd hanner bin gyda bustach, a thrydedd ran hin gyda hwrdd, a phedwaredd ran bin o win gydag oen. Dyma boeth-offrwm mis yn ei fis, trwy fisoedd y flywyddyn.

15 Ac un bwch geifr fydd yn bechaberth i'r Arglwydd: heblaw y gwas-

rhyngddo ef a Moses. Ymddyddanai Duw â Moses wyneb-yn-wyneb; ond â Josua trwy gyfrwng yr archeoffeiriad. Modd bynag, darfu i Dduw wedi hyn roddi yr un anrhydedd i Josua, a llefaru wrtho yntau yn ddigyfrwng: gwel Jos. iii. 7, a iv. 1, 15, a v. 13. *Yn ol barn Urim*—gwel y srlwadau ar yr *Urim* a'r *Thummim* yn niwedd Exod. xxviii. *Wrth ei air ef yr ânt allan*—sef wrth air yr Arglwydd, yn cael ei draddodi trwy enau yr archeoffeiriad. Y mae hyn yn dangos natur y llywodraeth Iuddewig, ac mai nid heb reswm y gelwid hi yn 'dduwlywiaeth', nen ddwyfol lywodraeth, gan nad oedd un anturiaeth o bwys i'w gwnenthr heb yn gyntaf ymgynghori â Duw trwy yr archeoffeiriad. Modd bynag, y mae hyn i'w ddeall yn benaf am eu mynediad allan i *ryffel*, ar ba achos yn benaf yr ymgynghorid â'r orael, yn enwedig i wybod ei diwedd hi: gwel Barn. i. 1, a xx. 18, i Sam. xiv. 37, a xxviii. 6.

Adn. 22. *A gwnaeth Moses megys y gorchymynodd yr Arglwydd*] Gwel ar adn. 19.

Adn. 23. *Ac efe a osododd ei ddwyllaw arno*] Yn brawf ei fod ef wedi ei beuodi i'r gwaith, ac i'w gymhwyso iddo: gwel ar adn. 18.

PEN. XXVIII. Adn. 1—25. *A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses,—Gorchymyn i feibion Israel, &c.*] Y mae Duw yn adrodd yma rai o'r deddfau blaenorol yn nghylch yr aberthau, (1) Am eu bod wedi cael eu rhoddi heibio yn gyffredinol, fel y meddylir, dros ddeunaw mlynedd ar hugain yn nghyd, o herwydd cyflwr ansefydlog y bobl yn yr analwch. (2) Am fod y genhedlaeth i'r rhai y rhoddesid y deddfau blaenorol yn nghylch y pethau hyn, oll wedi meirw; a bod yn addas i'r genhedlaeth newydd gael eu hyfforddi ynddynt yn gystal a'u tadau. (3) I adnewyddu tystiolaethau gras a thrugaredd Duw, er iddynt hwy yn fynych eu fioffetio hwynt trwy eu gwrthryfelgarwch. (4) Ac yn benaf, am eu bod hwy yn awr yn barod i fnyed i'r wlad hono, lle yr oeddynt i arferyd y pethau hyn. *Yn eu tymor*—y mae Moses yn rhanu yr aberthau hyn i rai [1] *DYDDIOL*—yr aberthau boreol a hwyrol, oen bob tro, adn. 3, 4. [2] *WYTNOSOL*—yr offrymau sabbothol, dau oen blwyddiaid, adn. 9, &c. [3] *MISOL*—yn nechre pob mis, sef ar y newydd-loer, dau fustach ieuanc, un hwrdd, a saith oen blwyddiaid, a

tadol boeth-offrwm, yr offrymir ef, a'i ddiod-offrwm.

16 ¶ Ac yn y mis cyntaf, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, y bydd pasc yr Arglwydd.

17 Ac ar y pymthegfed dydd o'r mis hwn y bydd yr wyl: saith niwrnod y bwyteir bara croyw.

18 Ar y dydd cyntaf y bydd cymanfa santadd: na wneud ddim caethwaith ynddo.

19 Ond offrymwch yn aberth tanllyd, ac yn boeth-offrwm i'r Arglwydd, ddau o fustych ieuaine, ac un hwrdd, a saith oen blwyddiaid: byddant genych yn berffaith-gwbl.

20 Eu bwyd offrwm hefyd fydd o beillied wedi ei gymysgu trwy olew: tair degfed ran gyda bustach, a dwy ddegfed ran gyda hwrdd, a offrymwch chwi;

21 Bob yn ddegfed ran yr offrymwch gyda phob oen, o'r saith oen:

22 Ac un bwch yn bech-aberth, i wneuthur cymod drosoch.

23 Heblaw poeth-offrwm y bore, yr hwn sydd boeth-offrwm gwastadol, yr offrymwch hyn.

24 Fel hyn yr offrymwch ar bob dydd o'r saith niwrnod, fwyd-aberth tanllyd o arogl peraidd i'r Arglwydd: heblaw y poeth-offrwm gwastadol, yr offrymir ef, a'i ddiod-offrwm.

25 Ac ar y seithfed dydd cymanfa santadd fydd i chwi: dim caethwaith nis gwnewch.

26 ¶ Ac ar ddydd eich blaen-ffrwythau, pan offrymoch fwyd-offrwm newydd i'r Arglwydd, wedi eich wythnosau, cymanfa santadd fydd i chwi: dim caethwaith nis gwnewch.

bwch yn bech-aberth, adn. 11, &c. [4] BLYNDODOL—1. Y pasc i barhau saith niwrnod: yr offrymau, dan fustach ieuane, un hwrdd, saith oen blwyddiaid, a bwch yn bech-aberth, adn. 16, &c. 2. Dydd y blaen-ffrwythau: yr ebyrth yr un fath ag ar ddechre y mis, adn. 26, &c. Gyda'r ebyrth hyn offrymid diod offrymau, a bwyd-offrymau wedi eu gwneuthur o beillied cymysgedig trwy olew. Am hanes helaeth am yr holl offrymau hyn gwel y sylwadau ar Lef. vii. ac Exod. xii.

Adn. 26. Ac ar ddydd eich blaenffrwythau] A elwid hefyd gŵyl yr wythnosau, a gŵyl y pentecost: gwel hi yn cael ei hegluro Exod. xxiii. 14, a Lef. xxiii. 15.

Adn. 27. Offrymwch ddau fustach ieuane] Yr un fath ag ar y newydd-loer, adn. 11. I gysoni yr adnod hon gyda Lef. xxiii. 18, gwel y sylw yno.

Adn. 28—30. A bydded eu bwyd-offrwm, &c.] Gwel ar adn. 1—25.

27 Ond offrymwch ddau fustach ieuaine, un hwrdd, a saith oen blwyddiaid, yn boeth-offrwm, o arogl peraidd i'r Arglwydd.

28 A bydded eu bwyd-offrwm o beillied wedi ei gymysgu trwy olew; tair degfed ran gyda phob bustach, dwy ddegfed ran gyda phob hwrdd;

29 Bob yn ddegfed ran gyda phob oen, o'r saith oen:

30 Un bwch geifr, i wneuthur cymod drosoch.

31 Heblaw y poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, yr offrymwch hyn (byddant genych yn berffaith-gwbl) yn nghyd a'u diod-offrwm.

PENNOD XXIX.

AC yn y seithfed mis, ar y dydd cyntaf o'r mis, y bydd i chwi gymansa santadd; dim caethwaith nis gwnewch: dydd i ganu udgyrn fydd efe i chwi.

2 Ac offrymwch offrwm poeth yn arogl peraidd i'r Arglwydd; un bustach ieuane, un hwrdd, saith o wyn blwyddiaid, perffaith-gwbl:

3 A'u bwyd-offrwm o beillied wedi ei gymysgu trwy olew; tair degfed ran gyda bustach, a dwy ddegfed ran gyda hwrdd;

4 Ac un ddegfed ran gyda phob oen, o'r saith oen:

5 Ac un bwch geifr yn bech-aberth, i wneuthur cymod drosoch:

6 Heblaw poeth-offrwm y mis, a'i fwyd-offrwm, a'r poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'u diod-offrwm hwynt, wrth eu defod hwynt, yn arogl peraidd, yn aberth tanllyd i'r Arglwydd.

Adn. 31. Byddant genych yn berffaith-gwbl] Y mae hyn i'w ddeall fel yn perthyn nid yn unig i'r anifeiliaid, ond hefyd i'r peillied, y gwin, a'r olew: rhaid i bob peth fod yn berffaith yn ei ryw.

PEN. XXIX. Adn. 1—6. Ac yn y seithfed mis, &c.] Dyma oedd dechread eu blwyddyn wladol, ac yr oedd yn amser o lawenydd mawr, ac fe'i dygid i mewn trwy udganiad udgyrn. Y mae yn cyfateb i ran o'n *Medi* ni. Mewn efelychiad i'r Iuddewon darfu i wahanol genhedloedd ddechreu eu blwyddyn newydd gydag ebyrth a llawenydd. Yr oedd yr hen *Aiffitiaid* yn gwneyd felly; ac y mae y *Persiaid* eto yn cadw eu *nawi rooz*, neu eu *dydd calan*, yr hwn a gnyaliant hwy ar yr alban eilir, Mawrth 20. Y mae y dydd cyntaf o'r flwyddyn yn gyffredin yn amser o lawenydd yn mhilith pob cenedl wareiddiedig. Ar y dydd hwn yr oedd yr *Israeliaid* yn off-

7 ¶ Ac ar y degfed *dydd* o'r seithfed mis hwn cymanfa santiaidd fydd i chi: yna cystuddiwb eich eneidiau: dim gwaith nis gwnewch *ynddo*.

8 Ond offrymwb boeth-offrwm i'r Arglwydd, yn arogl peraidd, un bustach ieuanc, un hwrdd, saith oen blwyddiaid: byddant berffaith-gwbl genych.

9 A'u bwyd-offrwm *fydd* o beillied wedi ei gymysgu trwy olew, tair degfed ran gyda bustach, a dwy ddegfed ran gyda hwrdd;

10 Bob yn ddegfed ran gyda phob oen, o'r saith oen:

11 Un bwch geifr yn bech-aberth; heblaw pech-aberth y cymod, a'r poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'u diod-offrymau.

12 ¶ Ac ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis, cymanfa santiaidd fydd i chi: dim caethwaith nis gwnewch; eithr cedwch wyl i'r Arglwydd, saith niwrnod.

13 Ac offrymwb offrwm poeth, aberth tanlyd, o arogl peraidd i'r Arglwydd; tri-ar-ddeg o fustych ieuanc, dau hwrdd, pedwar-ar-ddeg o wŷn blwyddiaid: byddant berffaith-gwbl.

14 A'u bwyd-offrwm *fydd* o beillied wedi ei gymysgu trwy olew; tair degfed ran gyda phob bustach, o'r tri bustach ar ddeg; dwy ddegfed ran gyda phob hwrdd, o'r ddau hwrdd;

15 A phob yn ddegfed ran gyda phob oen, o'r pedwar oen ar ddeg:

16 Ac un bwch geifr yn bech-aberth; heblaw y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddiod-offrwm.

17 ¶ Ac ar yr ail dydd *yr offrymwb* ddeuddeg bustach ieuanc, dau hwrdd, pedwar-ar-ddeg o wŷn blwyddiaid, perffaith-gwbl.

18 A'u bwyd-offrwm, a'u diod-offrwm, gyda'r bustych, gyda'r hyrdd-

od, a chyda'r wŷn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

19 Ac un bwch geifr yn bech-aberth; heblaw y poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'u diod-offrymau.

20 ¶ Ac ar y trydydd dydd, un bustach ar ddeg, dau hwrdd, pedwar-ar-ddeg o wŷn blwyddiaid, perffaith-gwbl.

21 A'u bwyd-offrwm, a'u diod-offrwm, gyda'r bustych, gyda'r hyrddod, a chyda'r wŷn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

22 Ac un bwch geifr yn bech-aberth; heblaw y poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'i ddiod-offrwm.

23 ¶ Ac ar y pedwerydd dydd, deg bustach, dau hwrdd, pedwar-ar-ddeg o wŷn blwyddiaid, perffaith-gwbl.

24 Eu bwyd-offrwm, a'u diod-offrwm, gyda'r bustych, gyda'r hyrddod, a chyda'r wŷn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

25 Ac un bwch geifr yn bech-aberth; heblaw y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddiod-offrwm.

26 ¶ Ac ar y pummed dydd, naw bustach, dau hwrdd, pedwar-ar-ddeg o wŷn blwyddiaid, perffaith-gwbl.

27 A'u bwyd-offrwm, a'u diod-offrwm, gyda'r bustych, gyda'r hyrddod, a chyda'r wŷn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

28 Ac un bwch yn bech-aberth; heblaw y poeth-offrwm gwastadol, a'i fwyd-offrwm, a'i ddiod-offrwm.

29 ¶ Ac ar y chweched dydd, wyth o fustych, dau hwrdd, pedwar-ar-ddeg o wŷn blwyddiaid, perffaith-gwbl.

30 A'u bwyd-offrwm, a'u diod-offrwm, gyda'r bustych, gyda'r hyrddod, a chyda'r wŷn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

31 Ac un bwch yn bech-aberth; heblaw y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddiod-offrwm.

32 ¶ Ac ar y seithfed dydd, saith o

rymu un bustach ieuanc, un hwrdd, saith oen, a bwch yn bech-aberth, heblaw bwyd-offrymau, a'r poeth-offrymau gwastadol.

Adn. 7—11. *Ac ar y degfed dydd, &c.* Gwel ar Lef. xvi. 29, a xxiii. 24, &c.

Adn. 12—34. *Ac ar y pymthegfed dydd, &c.* Ar y dydd hwn yr oedd cymanfa santiaid i fod, ac ebyrth i'w hoffrymu dros saith niwrnod. Ar y dydd *cyntaf*, tri-ar-ddeg o fustych ieuanc, dau hwrdd, a phedwar-ar-ddeg o wŷn. Ar bob dydd dylynol un bustach yn *llai*, fel nad oedd ar y *seithfed* dydd ond *saith* yn unig, yn gwneyd yn y cwbl 70. Y fath wasanaeth gostfawr! Pa fodd y dylem

ni fawrygu Duw am ein bod wedi ein gwaredu oddiwrthi! Eto nid dyma yr holl drethi ag oedd ganddynt i'w talu. Ar draul y cyffredin offrymid yn flynyddol i Dduw, yn annibynol ar yr offrymau dros gamwedd a'r addunedau gwirfoddol, 15 o eifr, 21 o fŷnod, 72 o hyrddod, 132 o fustych, 1,101 o wŷn! gwel CLARKE. Ond pa mor fychan yw hyn oll mewn cydmariaeth i'r wŷn a leddid bob blwyddyn ar y *pas*, yr hyn a gyrhaeddai mewn un flwyddyn i'r dirfawr rit o 255,600 yn cael eu lladd yn y deml ei hun! Dyma oedd yr atebiad a ddeibyniodd *Cestius*, y cadfridiaid Rhufeinaidd, pan y gofynodd efe i'r offeiriaid *pa nifer* o

fustych, dau hwrdd, pedwar-ar-ddeg o wyn blwyddiaid, perffaith-gwbl.

33 A'u bwyd-offrwm, a'u diod-offrwm, gyda'r bustych, gyda'r hyrddod, a chyda'r wyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth eu defod:

34 Ac un bwch yn bech-aberth; heblaw y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddiod-offrwm.

35 ¶ Ar yr wythfed dydd, uchel-wyl fydd i chwi: dim caethwaith nis gwnewch *yn*ddo.

36 Ond offrymwch offrwm poeth, aberth tanllyd, o arogl peraid i'r Arglwydd; un bustach, un hwrdd, saith o wyn blwyddiaid, perffaith-gwbl.

37 Eu bwyd-offrwm, a'u diod-offrwm, gyda'r bustach, a chyda'r hwrdd, a chyda'r wyn, *fydd* yn ol eu rhifedi, wrth y ddefod:

38 Ac un bwch yn bech-aberth;

ddyfnion a ddaethent i Jerusalem ar yr wyl flynyddol: yr offeiriad, gan gyfrif y bobl wrth yr *wyn* a laddesid, a ddywedasant, 'Pum myrddiwn ar hugain, pum mil, a chwe chant.' Am banes gwyl y pebyll gwel ar Lef. xliii. 34—39.

Adn. 35—40. *Ar yr wythfed dydd uchel-wyl fydd i chwi, &c.*] Hwn yn mblith yr Iuddewon a fernid y dydd mwyaf neu yr uwchaf o'r wyl, er fod llai o ebyrth yn cael eu hoffrymu arno nag ar y lleill, trwy fod y bobl yn gorphen yr edmygedd, fel yr ymddengys, gyda mesur mwy o ddyhewyd ysbrydol. Ar y dydd hwn o'r wyl y darfu i'n Harglwydd bendigedig alw yr Iuddewon oddi wrth y *llythyren* at *ysbryd* y gyfraith, gan ei osod ei hun fel yr unig ffinnon o'r hon y gallent dynu ffyrdiau iachawdwrïaeth, Ioan vii. 37. Ar destynau y bennod hon gwel y sylwadau ar Lef. xii., xvi., a xxiii.

ADFEDYLLADAU.—Oddiwrth y bennod hon gallwn ddsygu tair gweis bwysig: (1) Nad yw dyhuddiant pechod, a chymodiad â Duw, i'r hyn y penodwyd y lluaus yma o aberthau, yn fath bethau dibwys ag y mynai llawer eu gwneuthur hwynt, ond eu bod yn bethau o anfeidrol bwys. (2) Fod aberth Crist, yr hwn y bwriadwyd i'r ebyrth hyn ei ragddangos a'i gysgodi, o werth a phwysigrwydd anhraethadwy, ac na ddylid byth feddwl am dano heb barch a diolchgarwch. (3) Y dylem ni fod yn dra dielchgar am ddarfod, trwy ddyfodiad y Messia, ac offrymiad ei gorff bendigedig ef er dyhuddiant pechod, i'r angenheidrwydd a'r defnydd o'r ebyrth deddfol a chysgodol hyn gael eu diddymu, ac eglwys Dduw gael ei rhyddhau oddiwrth iau a baich anoddefol y fath offrymau lluosog, costfawr, a mynych.

PEN. XXX. Adn. 1. *A llefarodd Moses wrth benaethiaid llwythau meibion Israel*]

Sef wrth brif lywodraethwyr pob llwyth, y

heblaw y poeth-offrwm gwastadol, ei fwyd-offrwm, a'i ddiod-offrwm.

39 Hyn a wnewch i'r Arglwydd ar eich gwyliau; heblaw eich addunedau, a'ch offrymau gwirfodd, gyda'ch offrymau poeth, a'ch offrymau bwyd, a'ch offrymau diod, a'ch offrymau hedd.

40 A dywedodd Moses wrth feibion Israel yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

PENNOD XXX.

ALLEFARODD Moses wrth benaethiaid llwythau meibion Israel, gan ddywedyd, Dyma y peth a orchymynodd yr Arglwydd.

2 Os addunedau gŵr adduned i'r Arglwydd, neu dyngu llw, gan rwymo rhwymedigaeth ar ei enaid ei hun; na haloged ei air: gwnaed yn ol yr hyn oll a ddel allan o'i enau.

rhai oeddynt i'w hysbysu i'r lleill. *Dyma y peth a orchymynodd yr Arglwydd*—mewn perthynas i addunedau, yn nghylch pa rai ond odid y rhoddesid rhyw achos iddo ef i'w benderfynu: gwel ar adn. 16.

Adn. 2. *Os addunedau gŵr adduned*] Yn nghylch rhywbeth cyfreithlon, a'i fod yn gallu ei chyflawni. *Fr Arglwydd*—i anrbydedd a gwasanaeth Duw. *Neu dyngu llw*—cadarnhau ei adduned trwy lw. *Gan rwymo rhwymedigaeth ar ei enaid ei hun*—i ymgadw oddi wrth rywbeth a fuasai heb hyn yn gyfreithlon, megys oddiwrth ryw fath ar fwyd neu ddiod; neu ymrwymo i gyflawni rhywbeth a fuasai heb hyn yn ddiangenrhaid, megys cadw dydd neillduol o ympryd. *Na haloged ei air*—trwy ei dori, neu beidio ei gyflawni. *Gwnaed yn ol yr hyn oll a ddel allan o'i enau*—cyflawned ei adduned yn gywir a chydwybodol yn y modd ac ar yr amser yr addawodd, a hyn o barch i'r Duw mawr i'r hwn ei gwnaed. Ond os addunedau gŵr, neu os tynga efe i wneyd unrhyw beth ag sydd yn anghyfreithlon, megys y gwnaeth yr Iuddewon hyn y grybwyllir Act. xxiii. 12, ni all dim fod yn eglurach nag y rhaid i'r gyfryw adduned neu lw fod yn ddirym yn ngwir natur y peth. Cansys nid yw addewidion a phenderyniadau, yn cael eu dirgymbell gan y llwon cryfaf neu yr addunedau difrifolaf, ddim ond ail rwymedigaethau, ac am hyn nis gallant byth ein rhyddhau ni oddiwrth ein rhwymedigaeth *gyntefig* ac anghynewidiadwy i ufyddhau i ddeddfau Duw a natur; cansys hyn fyddai dywedyd y gallem ni trwy lw ein rhwymo ein hunain i wneyd yr hyn ag y rhwymasai Duw ni o'r blaen i beidio ei wneuthur. 'Y mae yr hwn sydd yn gwneuthur unrhyw weithred o anghyfiawnder ar gyfrif ei lw,' fel y sylwa *Philo*, 'yn chwaneu y naill drosedd at y llall, 1. Trwy gymeryd llw anghyfreithlon; 2. Trwy wneuthur *gweithred* anghyfreithlon.' Felly Herod, yn

3 Ac os adduneda benyw adduned i'r Arglwydd, a'i rhwymo ei hun â rhwymedigaeth yn nhŷ ei thad, yn ei hieuenctid;

4 A chlywed o'i thad ei hadduned, a'i rhwymedigaeth yr hwn a rwymodd hi ar ei henaidd, a thewi o'i thad wrthi: yna safed ei holl addunedau; a phob rhwymedigaeth a rwymodd hi ar ei henaidd, a saif.

5 Ond os ei thad a bâr iddi dori, ar y dydd y clywo efe; o'i holl addunedau, a'i rhwymedigaethau y rhai a rwymodd hi ar ei henaidd, ni saif un: a maddeu yr Arglwydd iddi, o achos mai ei thad a barodd iddi dori.

6 Ac os hi oedd yn eiddo gŵr, pan addunedodd, neu pan lefarodd o'i gwefusau beth a rwymo ei henaidd hi;

7 A chlywed o'i gŵr, a thewi wrthi y dydd y clywo: yna safed ei haddunedau; a'i rhwymedigaethau y rhai a rwymodd hi ar ei henaidd, a safant.

8 Ond os ei gŵr, ar y dydd y clywo, a bâr iddi dori; efe a ddiddyma ei hadduned yr hwn fydd arni, a thraethiad ei gwefusau yr hwn a rwymodd hi ar ei henaidd: a'r Arglwydd a faddeu iddi.

9 Ond adduned y weddw, a'r ysgaredig, yr hyn oll a rwymo hi ar ei henaidd, a saif arni.

10 Ond os yn nhŷ ei gŵr yr addunedodd, neu y rhwymodd hi rhwymedigaeth ar ei henaidd trwy lw;

11 A chlywed o'i gŵr, a thewi wrthi, heb beri iddi dori: yna safed ei holl addunedau; a phob rhwym a rwymodd hi ar ei henaidd, a saif.

12 Ond os ei gŵr gan ddiddymu a'u diddyma hwynt y dydd y clywo; ni saif dim a ddaeth allan o'i gwefusau, o'i haddunedau, ac o rwymedigaeth ei henaidd: ei gŵr a'u diddymodd hwynt; a'r Arglwydd a faddeu iddi.

13 Pob adduned a phob rhwymedigaeth llw i gystuddio yr enaid, ei gŵr a'i cadarnha, a'i gŵr a'i diddyma.

14 Ac os ei gŵr gan dewi a daw wrthi o ddydd i ddydd; yna y cadarnhaodd efe ei holl addunedau, neu ei holl rhwymedigaethau y rhai oedd arni: cadarnhaodd hwynt, pan dawodd wrthi, y dydd y clybu efe hwynt.

15 Ac os efe gan ddiddymu a'u diddyma hwynt wedi iddo glywed; yna efe a ddwg ei hanwiredd hi.

16 Dyma y deddfau a orchymynodd

lle cyflawni yr addewid fyrbwyll yr hon a seliasai efe â llw, a ddylasai gospi y ddynes ddrygionus hōno yr hon a'i hannogai ef i lofruddiaeth dan yr esgus o gyflawni ei lw, Mat. xiv. 7, &c. Dywed Grotius, er na byddo y peth a addawyd yn hollol anghyfreithlon, eto os bydd iddo attal rhyw ddaioni moesol mwy, nad yw y gyfryw addewid, hyd yn nod er yn seliodig â llw, yn rhwymedigaethol: gwel ar pen. vi. 3, Lef. vii. 16, Deut. xxiii. 21.

Adn. 3—11. *Ac os adduneda benyw—yn ei hieuenctid*] Ilyny yw, meddai y rabbiniaid, dan ddeuddeng mlwydd oed; a than *duir-arddeg* yn achos *guryw*. Yr oedd personau ieuainc o'r oedran yma yn cael en hystyried dan awdurdod eu rhieni; ac nid oedd ganddynt o gaulyniad un gallu i addunedu ym-aith eiddo un arall. Yr oedd *guraig briod* yn yr un amgylchiadan, am ei bod lithau dan awdurdod ei gŵr. Modd bynag, os byddai i'r rhieni neu y gŵr glywed am yr adduned, a'i gwrthwynebu yn y dydd y clywent am dani, adn. 5, 8, yna yr oedd yr adduned yn cael ei diddymu; ond os byddai iddynt *dewi* ar ol clywed am dani, ystyrid hwy yn gadarnhad i'r adduned.

Adn. 12. *O rwymedigaeth ei henaidd*] Canys yr oedd ei henaidd mewn perygl os na chyflawnai hi y rhwymedigaeth neu yr adduned gyfreithlon dan ba un y darfu iddi ei gosod ei hun.

Adn. 13. *I gystuddio yr enaid*] Trwy ym-pryd, gwyliadwriaeth, neu y cyffelyb. Clwanegir y geiriau hyn i d dangos fod y gallu hwn gan y gŵr nid yn unig yn yr addunedau hyn

a berthlynet iddo ef neu ei feddiannau, ond hefyd yn y rhai hyn y ymddanghosef fel yn perthyn i'w pherson ei hun; a'r rheswm yw, am nas gallai hi, trwy fod ei pherson yn eiddo i'w gŵr, wneuthur dim er niwed i'w chorff, heb ei gysdyniad ef.

Adn. 14. *Ac os ei gŵr gan dewi a daw*] Gwel ar adn. 3—11.

Adn. 15 *Ac os efe gan ddiddymu*] Yr addunedau neu y rhwymedigaethau; a'u diddyma hwynt wedi iddo glywed—hyn yw, wedi iddo eu cymeradwyo hwynt trwy ei ddystawrwydd wrthi o ddydd i ddydd, adn. 14; yna efe a ddwg ei hanwiredd hi—bydd yr euogrwydd a'r bai o beiddo eu cyflawni yn gyfrifedig iddo ef.

Adn. 16. *Dyma y deddfau a orchymynodd yr Arglwydd*] Bernir i'r gyfraith hon, fel hōno yn nghylch perchenogaeth merched, (pen. xxvii.), gyfodi oddiwrt hwyllwch rhyw achos neillidol ag ydweid y pyd hyn y newydd ddygwydd.

ADFEDDYLIADAU.—Y mae gwneuthur addunedau bron yn mhob achos yn orchwyl peryglus: anaml y maent yn gwneyd unrhyw ddaioni, ac yn fynych parant lawer o ddrwg. Yr hwn nad yw yn ei deimlo ei hun dan rwymanu i wneyd yr hyn sydd *addas, priodol*, a *chyflawn*, oddiar dystiolaeth bendant gair Duw, nid yw ef yn debyg o'i wneuthur oddiar unrhyw rhwymedigaeth ag y dichon iddo ei rhoddi ar ei gydwybod ei hun. Os yw *gair Duw* yn ddiwbys gydag ef, bydd i'w *ewylllys* ei hun brofi yn ysgafnach na gwgei. Y mae pob dyn ag sydd yn profus a crefydd Cristionogol dan y *rhwymau difrifolaf* i gysegru

yr Arglwydd wrth Moses rhwng gwŷr a'i wraig, a rhwng tad a'i ferch, yn ei hieuenctid yn nhŷ ei thad.

PENNOD XXXI.

ALLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Dial feibion Israel ar y Midaniaid: dial hyny ti a gesglir at dy bobl.

3 A llefarodd Moses wrth y bobl, gan ddywedyd, Arfogwch o honoch wŷr i'r rhyfel, ac ânt yn erbyn Midian, i roddi dial yr Arglwydd ar Midian.

4 Mil o bob llwyth, o holl lwythau Israel, a anfonwch i'r rhyfel.

ei gorff, ei enaid, a'i ysbryd i Dduw, nid yn unig hyd eithaf ei alluoedd, eithr hefyd cyhyd ag y bodola. Cael *bedydd*, a derbyn y *cymun*, fel y sylwa Clarke, sydd gadarnhad chwangel o'r adduned fawr, gyffredinol, a Christionogol hon; a dylai pob gwŷr Gristion bob amser gofio, ac yn fynych adnewyddu, ei gyfammod â Duw.

PEN. XXXI. Adn. 1, 2. *A llefarodd yr Arglwydd.—Dial feibion Israel ar y Midaniaid*] Y rhai a'u hudasant hwy i aflendid ac eilunaddoliaeth, gan beri i 24,000 gael eu lladd; a chan i Israel gael eu cospi, yr oedd yr un mor gyfiawn cospi Midian. *Wedi hyny ti a gesglir at dy bobl*—nid i'r bedd a olygir yn ddiâu; canys yn yr ystyr yma ni chasglwyd Moses at neb o honynt hwy, ac ni wybu neb erioed am ei feddrod ef. Ond yr oedd enaid Moses i fyned i gymdeithas y saint ymadawedig hyny, y rhai oeddynt yn awr yn byw mewn cyflwr o ymwybodolrwydd a gwynfyddigrwydd tubhnt i gyffiniau y bedd: gwel ar Gen. xxv. 8, a xlix. 33, Mat. xxii. 32.

Adn. 3 *I roddi dial yr Arglwydd ar Midian*] Yr hyn yn adn. 2 a elwir *dial Israel*, a elwir yma *dial yr Arglwydd*, ohlegid iddynt trwy eu heilunaddoliaeth a'u trythyllwch, a thrwy hudo pobl Dduw i wthryfelgarwch yn ei erbyn ef, gynyg sarhad mawr i JEHOFA. Cweryl *Duw*, nid yr iddynt eu *hunain*, fel y sylwa Clarke, oeddynt yn awr i'w gymeryd i fyny. Yr oedd y bobl hyn yn eilunaddolwyr; ac eilunaddoliaeth sydd drosedd yn erbyn *Duw*; ac nid oes gan yr awdurdod *gwladol*, fel y cyfryw, un hawl i ymyraeth â'r hyn sydd yn perthyn yn unig iddo ef, oddieithr fod cyfarwyddiadau neillauol i hyny wedi eu rhoddi ganddo ef. Yr *Arglwydd* sydd i gael ei ddial, a thrwyddo of *meibion Israel*, am ddarfod i'w heneidiau hwy yn gystal a'u cyrff gael agos eu dyfetha trwy eu heilunaddoliaeth.

Adn. 4, 5. *Mil o bob llwyth—sef deuddeng mil*] Ni ddanfonai Daw ddim mwy, er fod yn amlwg fod y Midaniaid yn bobl luosog a chedyrn, am y mynai ef arferyd eu hyder hwy ynddo ef, a rhoddi iddynt ernes o'u buddugoliaethau yn Nghanaan.

Adn. 6. *Uwynt a Phinees mab Eleazar*] Y

5 A rhoddasant o filoedd Israel fil o bob llwyth, *sef* deuddeng mil, o rai wedi eu harfogi i'r rhyfel.

6 Ac anfonodd Moses hwynt i'r rhyfel, mil o bob llwyth; hwynt a Phinees mab Eleazar yr offeiriad, *a anfonodd sef* i'r rhyfel, â dodrefn y cysegr, a'r udgyrn i udgann yn ei law.

7 A hwy a ryfelasant yn erbyn Midian, megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses; ac a laddasant bob gwryw.

8 Brenhinoedd Midian hefyd a laddasant hwy, gyda'u lladdedigion *ereill*; sef Efi, a Recem, a Sur, a Hur, a Reba, pum brenin Midian: Balaam hefyd mab Beor a laddasant hwy â'r cleddyf.

mae rhai yn meddwl iddo ef gael ei wneyd yn gadfridog yn y rhyfelgyrch hwn, ond nid yw hyny yn debygol; a'r farn gyffredin yw mai *Josua* oedd y cadfridog dan Dduw, am mai eiddo yr Arglwydd oedd y rhyfel. Heblaw hyn, yr oedd yn rhyfel anghyffredin, canys nid ydym yn cael ddarfod cynyg heddwch i'r Midaniaid: gwel Dent. xx. 10, &c. *A dodrefn y cysegr*—tybia Clarke, Burder, ac ereill, mai yr *arch* a'i chynwysiad a feddylir yma, ar yr hon y preswylai y *SEICNA* rhwng y cerubiaid; canys mewn amseroedd diweddarach arferid ei chario i'r maes, 1 Sam. iv. 4, 5; a bod *Phinees*, yr hwn o'r blaen a gawsai ran yn yr offeiriadaeth dragwyddol, (pen. xxv. 13,) wedi cael ei ddevis i ddylyn yr arch yn lle ei dad *Eleazar*, yr hwn ond odid oedd yn awr yn rhy hen i fyned dan y lludded. Ond tybia Benson, Sutcliffe, ac ereill, mai yr *ephod* yn unig a olygir, fel y gallai Phinees ymgynghori â'r Arglwydd trwy yr *Urim* a'r *Thummim*. A thybia Coke, Gill, ac ereill, na feddylir dim mwy wrthynt na'r *udgyrn cysegredig*, y rhai y dywedir yma eu bod yn nwyllw Phinees. Yn unol â hyn darlenna Le Clerc, 'A dodrefn y cysegr, *sef* yr udgyrn.'

Adn. 7. *Megys y gorchymynodd yr Arglwydd*] Yn adn. 1, 2. Ond tybia yr Iuddewon fod yn y geiriau hyn gyfeiriad at orchymyn neillduol wedi ei roddi i Moses i beidio llwyr amgylchynu unrhyw ddiinas, ond yn unig dair ochr iddi, fel y gallai y gwarchâedigion ffoi os mynent, trwy yr hyn y byddai i dywalltied gwaed dynol gael ei attal. *Ac a laddasant bob gwryw*—ag ydoedd yn y rhyfel, ac heb ddianc. Diamau i luoedd ddianc, canys nynt a ddarllenwn wedi hyn am y Midaniaid fel pobl rymus, ac yn blino Israel.

Adn. 8. *Pum brenin Midian*] Y rhai elwir yn *dywysogion*, Jos. xiii. 21. *Balaam hefyd mab Beor, a laddasant hwy â'r cleddyf*—y mae llawer o dybiau yn nghylch yr hyn a ddygodd Balaam i blith y Midaniaid y pryd hyn, ar ol iddo ddychwelyd adref, pen. xxiv. 25. Y mae yn debyg, ar ol i'r Midaniaid gael hysbysrwydd am fwriad yr Israeliaid i ymosod arnynt, ddarfod iddynt gyflogi Balaam i ddyfod i'w cynorthwyo hwynt; gan feddwl, os na allai efe lwyddo i weithredu yn *ymosodol* o'u

9 Meibion Israel a ddaliasant hefyd yn garcharorion wragedd Midian, a'u plant; ac a yspeiliasant eu holl anifeiliaid hwynt, a'u holl ddâ hwynt, a'u holl olud hwynt.

10 Eu holl ddinasoedd hefyd trwy eu trigfanau, a'u holl dyrau, a losgasant â thân.

11 A chymerasant yr holl yspail, a'r holl gaffaeliad, o ddynt ac o anifel.

12 Ac a ddygasant at Moses, ac at Eleazar yr offeiriad, ac at gynulleidfa meibion Israel, y carcharorion, a'r caffaeliad, a'r yspail, i'r gwersyll, yn rhosydd Moab, y rhai *ydymt* wrth yr Iorddonen, *ar gyfer* Jericho.

13 ¶ Yna Moses ac Eleazar yr offeiriad, a holl benaduriaid y gynull-

cidfa, a aethant i'w cyfarfod hwynt o'r tu allan i'r gwersyll.

14 A digiodd Moses wrth swyddogion y fyddin, cadbeniaid y miloedd, a chadbeniaid y cannoedd, y rhai a ddaethant o frwydr y rhyfel.

15 A dywedodd Moses wrthynt, A adawsoch chwi bob benyw yn fyw?

16 Wele, hwynt, trwy air Balaam, a barasant i feibion Israel wneuthur camwedd yn erbyn yr Arglwydd yn achos Peor; a bu pla yn nghynullcidfa yr Arglwydd.

17 Am hynny lleddwch yn awr bob gwryw o blentyn; a lleddwch bob benyw a fu iddi a wnaeth â gŵr, trwy orwedd gydag ef.

18 A phob plentyn o'r benywaid, y

plaid hwy trwy feiddithio byddinoedd Israel, eto y gallai efe weithredu yn *amddiffynol* trwy fendithio gwlad Midian: a dichen fod Balaam ei hun yn meddwl erbyn hyn, ar ol i'r Israeliaid ymlygru trwy eilunaddoliaeth, y gallai efe yn awr e rhegi hwynt, a derbyn ei webr. Felly efe a anturioedd fyned i'r rhyfel gyda'r Midianiaid, ac a laddwyd. Tybia Clarke fod Balaam wedi cyflawni yr hyn a eilw St. Ioan yn 'bechod i farwolaeth,' sef pechod ag y mae Duw yn ei gospi â marwolaeth dymborol, tra ar yr un pryd y mae efe yn estyn trugaredd i'r enaid: gwel y sylwadau yn niwedd pen. xxiv.

Adn. 9. *Meibion Israel a ddaliasant hefyd yn garcharorion wragedd Midian, a'u plant*] Ar ol gorchfygu y byddinoedd, hwy a ymosodasant ar y dinasoedd; ac yn ol yr hen arferiad yn y rhyfeloedd mwyaf gwaeddyd, ni laddasant ond y gwŵr yn unig, gan arbed y gwragedd a'r plant: gwel Gen. xxxiv. 25, i Bren. xi. 16.

Adn. 10. *A'u holl dyrau*] Sef temlau eu heilunod, fel y tybia rhai.

Adn. 11, 12. *Y carcharorion, a'r caffaeliad, a'r yspail*] Y mae y rhai cyntaf yn meddwl y gwragedd a'r plant a gymerasid; yr ail, yr anifeiliaid; a'r trydydd, eu barian a'u heiddo.

Adn. 13. *A holl benaduriaid y gynulleidfa*] Sef y deg henuriad a thringiau, a thywysogion y llwythau.

Adn. 14, 15. *A digiodd Moses wrth swyddogion y fyddin, &c.*] Darfu i'r Israeliaid ufyddhau i'r gorchymyu yn y cyffredin; eithr gyda gau-dosturi arbedasant fywydau y Midianesau hyny, y rhai y dylasant eu trin gyda'r llymder mwyaf. Y mae yn wir fod y benywod i'w gadael yn fyw, yn ol Deut. xx. 14; ond yr oedd eithriadau i gael eu gwneuthur yma, am i'r benywod hyn hudo yr Israeliaid; ac yr oedd yn gyflawn iddynt hwy farw. Y gyfraith yn achos puteindra ydoedd, *Lladder yn farw u godinebur a'r odineburaig*, Lef. xx. 10. Yr oedd Duw wedi rhoddi godinebwr Israel i farwolaeth trwy y pla; ac yn awr yr oedd yn addas i odinebwragedd Midian, yn enwedig gan mai hwy a faont yr hud-

olesau, gael eu rhoddi i farwolaeth trwy y cleddyf.

Adn. 16. *Wele hwynt trwy air Balaam, &c.*] Gan i'r Moabiaid a'u cyngheirwyr gael eu dysgu gan Balaam i gydnabod *JEHOFA* yn Dduw nerthol, a goruwch duwiau cenedloedd ereill, (pen. xxiii. 19, &c.) onid yw yn rhyfedd iddynt gael eu tueddu, trwy ddarbwylliad Balaam, i hudo yr Israeliaid i'w heilunaddoliaeth hwy, yn hytrach na chydâ hwy gofleidio addoliad y gwir Dduw? Ond ymdeugys fod yr eilunaddolwyr hyny yn ystyried Duw yr Hebraid, nid fel Duw Goruchaf y *bydyrsawd*, ond fel Duw *Ueol* yn unig, yr hwn yn wir a allai fod goruwch duwiau ereill, ond eto nad oedd ond duw diffynol yr Israeliaid. Yn awr, gyda golwg ar y duwiau diffynol hyny, eu tyb ydoedd, eu bod yn gofyn ffurf a dull penodol o addoliad oddiwrth eu pobl eu hunain, trwy esgeuloso pa rai y gosodent eu hunain yn agored i'w dialedd hwynt. Fel hyn, megys yr oedd y Moabiaid a'u cyngheirwyr yn meddwl y gallent ddwyn digofaint *JEHOFA* ar Israel trwy eu lithio hwynt oddiwrth ei addoliad sefydledig ef; felly gallasant eu hystyried eu hunain yr un mor agored i soriant *Cemos*, *Peor*, neu rywun arall o'u duwiau eu hunain, pe buasant yn colleiddio y ffurfiau a'r gwrthddrych Iuddewig o addoliad, ac yn gadael yr eiddynt eu hunain. Gwel erthyglau 15—17 yn niwedd pen. xxiv.

Adn. 17. *Lleddwch yn awr bob gwryw o blentyn*] Gellir rhoddi cyfrif am y weithred hon ar yr egwyddor fod gan Dduw, yr hwn yw awdwr a chynalydd bywyd, hawl i'w gymeryd ef ymaith y *pryd* a'r *modd* y gwelo yn dda; ac nis gall Barnydd yr holl ddaear wneyd dim ond yr hyn sydd *iawn*. Am y *benywod* a laddwyd ar yr achos hwn, gellir dywedyd yn ddiogel fod eu bywydau wedi eu sfforfetio trwy eu troseddadau *personol*. Yr oedd eneidiau y *babanod* yn cael eu cymeryd i'r nef; a gallwn feddwl fod pob un wir edifeiriol o'r *benywod* yn cael trugaredd i'r enaid.

Adn. 18. *A phob plentyn o'r benywaid, &c.*] Yr oedd y plant benywaidd i gael eu harbed, o herwydd fod rhyw obaith y gallent gael eu di-

rhai ni bu iddynt a wnaethant â gŵr, cedwch yn fyw i chwi.

19 Ac arhoswch chwithau o'r tu allan i'r gwersyll saith niwrnod: pob un a laddodd ddy, a phob un a gyffyrddodd wrth ladeddig, ymlanhewch y trydydd dydd, a'r seithfed dydd, chwi a'ch carcharorion.

20 Pob gwisg hefyd, a phob do-drefnyn croen, a phob gwaith o *flew* geifr, a phob llestr pren, a lanhewch chwi.

21 ¶ A dywedodd Eleazar yr offeiriad wrth y rhyfelwyr y rhai a aethant i'r rhyfel, Dyma ddeddf y gyfraith a orchymynodd yr Arglwydd wrth Moses:

22 Yn unig yr aur, a'r arian, y pres, yr haiarn, yr alcam, a'r plwm;

23 Pob dim a ddyoddefo dân, a dynwch trwy y tân, a glân fydd; ac eto efe a lanheir a'r dwir neillduaeth: a'r hyn oll ni ddyoddefo dân, tynwch trwy y dwfr yn unig.

24 A golchewch eich gwisgoedd ar y seithfed dydd, a glân fyddwch; ac wedi hyny deuwch i'r gwersyll.

wygio oddiwrth eilunaddoliaeth, a dyfod yn broselytiaid i'r wir grefydd. Hefyd gallent gael y rhai hyn fel gwasanaeth-ferched, neu gallent eu priodi hwynt.

Adn. 19. *Ac arhoswch chwithau o'r tu allan i'r gwersyll saith niwrnod*] Yn ol y gyfraith, Lef. xv. 13. *Ymlanhewch—gyda'r dwfr neillduaeth*, pen. xix. 9; *chwi a'ch carcharorion—cans* yr oeddynt hwythau, trwy eu bod at wasanaeth yr Israeliaid, ac i gael eu dwyn i fyny yn eu crefydd hwy, i gael eu puro.

Adn. 20. *Pob gwisg*] Yn perthyn i'r Midaniaid; a *phob do-drefnyn croen*—gwel ar Lef. xi. 32, 33.

Adn. 21. *Dyma ddeddf y gyfraith*] Dyma y rheol ag sydd i gael ei dilyn o hyn allan gan baw a ânt i ryfel.

Adn. 22. *Yr alcam*] Saes. *the tin*, neu yr *alcam*. Sonir am hwn bump o weithiau yn yr Hen Destament, a dywed Pliny ei fod yn cael ei gario yno o Gernyw yn yr oes fore hono.

Adn. 23. *Pob dim a ddyoddefo dân, &c.*] Yr oedd y gwisgoedd, pa un hynag ai o freth, yn ai o grwyn, i gael eu *golchi*; a'r metelloedd i gael eu tynu trwy y tân, fe allai i'w *toddi*.

Adn. 24. *Ac wedi hyny deuwch i'r gwersyll*] Dywed Livy fod y fyddin Facedonaidd, wrth ddychweyd o ryfel, yn myned rhwng dwy ran ei wedi ei dori ar ei hyd, a'u crogi un bob ochr i'r ffordd. Dylai dynion â dwylaw gwaedldy olchi eu dwylaw a'u calonau cyn myned i dŷ Dduw. Ar ol i'r hen baganiaid drochi eu dwylaw mewn gwaed, arferent eu golchi mewn dwfr, i'w glanhau oddiwrth halogrydd.

Adn. 26, 27. *Cymer nifer yr yspail—a rhana y caffaeliad yn ddwy ran*—Yr oedd yr

25 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

26 Cymer nifer yr yspail a gaed, o ddyd ac o anifel, ti ac Eleazar yr offeiriad, a phenau-cenedl y gynulleidfa:

27 A rhana y caffaeliad yn ddwy ran; rhwng y rhyfelwyr a aethant i'r filwriaeth, a'r holl gynulleidfa.

28 A chyfod deyrnged i'r Arglwydd gan y rhyfelwyr y rhai a aethant allan i'r filwriaeth; un enaid o *bob* pum cant o'r dynion, ac o'r eidionau, ac o'r asynod, ac o'r defaid.

29 Cymerwch *hyn* o'u hanner hwynt, a dyro i Eleazar yr offeiriad, yn ddyrchafael-offrwm yr Arglwydd.

30 Ac o hanner meibion Israel y cymeri un rhan o *bob* deg-a-deugain, o'r dynion, o'r eidionau, o'r asynod, ac o'r defaid, ac o bob anifel, a dod hwynt i'r Lefaid, y rhai ydynt yn cadw cadwraeth tabernacl yr Arglwydd.

31 A gwnaeth Moses ac Eleazar yr offeiriad megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses.

32 A'r caffaeliad, *sef* gweddill yr

holl gynulleidfa i gael rhyw gyfran, oblegid i'r rhyfelwyr fyned allan yn enw y cwbl; ac o herwydd iddynt oll gael eu niweidio gan y Midaniaid, yr oeddynt oll i gael rhyw ran yn yr ad-daliad iawnol: eithr yr oedd pob un o'r rhyfelwyr, y rhai nad oeddynt ond deuddeg mil, i gael rhan lawer mwy na'u brodyr, am iddynt fyned i fwy o drafferth a pherygl.

Adn. 28. *A chyfod deyrnged i'r Arglwydd—un enaid o bob pum cant o'r dynion*] Saes. 'o'r personau,' sef y *benywod* a gadwyd yn fyw, adn. 18. Yr oedd y *benywod* hyn, fel teyrnged yr Arglwydd, i fod yn gwasanaeth yr offeiriad a'u teuluoedd, pen. xviii. 19, 20; ac yr oedd yr *anifeiliaid* ond odid i'w cadw at eu gwasanaeth hwynt, neu i'w gwerthu er elw iddynt.

Adn. 29. *Yn ddyrchafael-offrwm yr Arglwydd*] Neu yn offrwm diolchgarwch i Dduw am eu cadwraeth a'u llwyddiant. Nid oedd yr offrwm dyrchafael, neu y *terumah*, byth yn cael ei *losgi* neu ei *ddifa* ar yr allor, ond yn cael ei roddi at wasanaeth yr offeiriad a'u teuluoedd, neu i ryw ddybenion cysegredig ereill: cydmharer pen. xviii. 19 ág Exod. xxix. 27. A dengys hyn afresymoldeb ac anwybodaeth *Voltaire*, yr hwn a haera fod y benywod dan sylw wedi cael eu haberthu i'r Arglwydd!

Adn. 30. *Ac o hanner meibion Israel y cymeri un rhan o bob deg-a-deugain*] Neu gymaint ddengwaith ag a gymerid o ran y rhyfelwyr. Y rheswm am y gwahaniaeth yw, (1) Am fod hon yn cael ei chymeryd o gyfran y bobl, y rhai, trwy fod eu perygl yn llai nag eiddo y lleill, yr oedd eu helw hefyd i fod yn llai. (2) Am fod hon i'w rhanu i fwy o ddwyllaw, trwy fod y Lefaid yn awr yn llawer lluosocach na'r offeiriad: gwel isod.

yspail yr hon a ddygasai pobl y filwr-iaeth, oedd chwe chan mil a phymtheg a thriugain o filoedd o ddefaid,

33 A deuddeg a thriugain mil o eidionau,

34 Ac un fil a thriugain o asynod,

35 Ac o ddynion, o fenywaid ni busai iddynt a wnaethant â gwŕ, trwy orwedd gydag ef, ddeuddeg mil ar hugain o eneidiau.

36 A'r hanner, *sef* rhan y rhai a aethant i'r rhyfel, oedd, o rifedi defaid, dri chau mil a dwy ar bymtheg ar hugain o filoedd, a phum cant;

37 A theyrnged yr Arglwydd o'r defaid oedd chwe chant a phymtheg a thriugain.

38 A'r eidionau oedd un fil ar bymtheg ar hugain; a'u teyrnged i'r Arglwydd oedd ddeuddeg a thriugain.

39 A'r asynod oedd ddeng mil ar hugain a phum cant; a'u teyrnged i'r Arglwydd oedd un a thriugain.

40 A'r dynion oedd un fil ar bymtheg; a'u teyrnged i'r Arglwydd oedd ddenddeg enaid ar hugain.

41 A Moses a roddodd deyrnged offrrwm dyrchafael yr Arglwydd i Eleazar yr offeiriad, megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

42 Ac o ran meibion Israel, yr hon a ranasai Moses oddiwrth y milwyr,

43 *Sef* rhan y gynulleidfa o'r defaid, oedd dri chan mil a dwy ar bymtheg ar hugain o filoedd, a phum cant;

44 Ac o'r eidionau, un fil ar bymtheg ar hugain;

45 Ac o'r asynod, deng mil ar hugain a phum cant;

46 Ac o'r dynion, un fil ar bymtheg.

47 Ie, cymerodd Moses o hanuer meibion Israel, un rhan o *bob* deg-a-deugain, o'r dynion, ac o'r anifeiliaid, ac a'u rhoddes hwynt i'r Lefaid oedd yn cadw cadwraeth tabernacl yr Arglwydd; megys y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

48 ¶ A'r swyddogion, y rhai oedd ar filoedd y llu, a ddaethant at Moses, *sef* cadbeniaid y miloedd, a chadbeniaid y cannoedd:

49 A dywedasant wrth Moses, Dy weision a gymerasant nifer y gwŕ o ryfel a roddaist dan ein dwylaw ni; ac nid oes wŕ yn eisiau o honom.

50 Am hyny yr ydym yn offrrymu offrrwm i'r Arglwydd, pob un yr hyn a gafodd, yn offerynnau aur, yn gadwynau, yn freichledau, yn fodrwyau, yn glustdylsau, ac yn dorchau, i wneu-

Adn. 31—49. *A gwnacth Moses ac Eleazar, &c.* Ymddengys oddiwrth y rhifad yma ddarfod i'r Israeliaid, yn y rhyfelgyrch hwn yn erbyn y Midianiaid, gymeryd 32,000 o fenywod yn garcharorion, 61,000 o asynod, 72,000 o eidionau, a 675,000 o ddefaid; heblaw y dirfawr rif o *wrywod* y rhai a syrthiasant yn y rhyfel, a'r *benywod* a'r *plant* y rhai a laddwyd wedi hyny, adn. 17. Ac nid ymddengys ddarfod i un gwŕ o Israel syrthio yn y rhyfelgyrch hwn! adn. 40; ac yr oedd hyny i'w ddysgwyl, am mai eiddo yr Arglwydd oedd y rhyfel. Megys ag y rhanwyd yr yspail neu y caffaeliad yn ddwy ran, un i'r rhyfelwyr, a'r llall i'r

gynulleidfa y rhai oeddynt yn ewyllysgar i ryfela pe cawsent, adn. 27; felly yr oedd pob un o'r ddwy blaid i roddi cyfran benodol i'r Arglwydd. Yr oedd y *rhyfelwyr* i roddi i'r Arglwydd un o bob *pum cant* o'r benywod, o'r eidionau, o'r asynod, ac o'r defaid, adn. 28; a'r *bobl*, y rhai trwy aros gartref nad oeddynt yn peryglu dim, ac na chwasant ddim trafferth, oeddynt i roddi un o bob *deg-a-deugain* o'r rhai uchod, adn. 30. Bydd i'r yspail, ei rhaniadau rhwng y rhyfelwyr a'r *bobl*, a'r gyfran a roddwyd gan bob un i'r Arglwydd ac i'r Lefaid, gael eu gweld ar un olwg trwy y daflen ganlynol o waith *Houbigant*:

Defaid.....675,000	{ I'r rhyfelwyr... 337,500	... I'r Arglwydd oddiwrth y rhyfelwyr... 675
	{ I'r bobl 337,500	... I'r Lefaid oddiwrth y bobl..... 6,750
Eidionau... 72,000	{ I'r rhyfelwyr... 36,000	... I'r Arglwydd oddiwrth y rhyfelwyr... 72
	{ I'r bobl 36,000	... I'r Lefaid oddiwrth y bobl..... 720
Asynod 61,000	{ I'r rhyfelwyr... 30,500	... I'r Arglwydd oddiwrth y rhyfelwyr... 61
	{ I'r bobl 30,500	... I'r Lefaid oddiwrth y bobl..... 610
Benywod... 32,000	{ I'r rhyfelwyr... 16,000	... I'r Arglwydd oddiwrth y rhyfelwyr... 32
	{ I'r bobl 16,000	... I'r Lefaid oddiwrth y bobl..... 320

Yn y daflen hon y mae yr yspail yn cael ei rhannu yn gyfartal rhwng y *rhyfelwyr* a'r *bobl*; ac y mae y bum-ganfod ran yn cael ei rhoddi i'r *Arglwydd* oddiwrth y *rhyfelwyr*, a'r ddegfed ran a deugain i'r *Lefaid* oddiwrth y *bobl*, neu gymaint ddengwaith.

Adn. 50—54. *Am hyny yr ydym yn offrrymu offrrwm i'r Arglwydd*] Fel cydnabyddiad i Dduw am gadw eu bywyddau. *Pob un yr hyn a gafodd, yn offerynnau aur, &c.*—felly ymddengys ddarfod iddynt gymeryd cryn la-

wer o anrhaith heblaw yr hyn a ddaeth i'r cyfrif cyffredin; ac o hon darfu i'r rhyfelwyr, o'u hewyllys en lunnain, wnenthur offrrwm tra helaeth i Dduw. Na chafodd cymaint ag un dyn ei ladd sydd amgylchiad tra anghyffredin, ac y mae yn profi yn eglur arolygiad neillduol rhaugluniaeth arbenig Duw drostynt. Y mae yn sicr ddarfod i'r Midianiaid wneyd rhyw wrthasafid; ond yr oedd hyny yn anfeithiol, am ei fod yn erbyn yr Arglwydd. *I wneuthur cymod dros ein heneidiau*—am yr esgeulusded

thur cymod dros ein heneidiau ger bron yr Arglwydd.

51 A chymerodd Moses ac Eleazar yr offeiriad yr aur ganddynt, y do-drefn gweithgar oll.

52 Ac yr ydoedd holl aur yr offrwm dyrchafael, yr hwn a offrymasant i'r Arglwydd, oddiwrth gadbeniaid y miloedd, ac oddiwrth gadbeniaid y cannoedd, yn un fil ar bymtheg saith gant a deg-a-deugain o siclau.

53 (Yspeiliasai y gwŷr o ryfel bob un iddo ei hun)

54 A chymerodd Moses ac Eleazar yr offeiriad yr aur gan gadbeniaid y miloedd a'r cannoedd, ac a'i dygasant i babel y cyfarfod, yn gofiadwriaeth dros feibion Israel gerbron yr Arglwydd.

PENNOD XXXII.

AC yr ydoedd anifeiliaid lawer i feibion Reuben, a llawer iawn i feibion Gad: a gweisant dir Jaser, a thir Gilead; ac wele y lle yn lle *da* i anifeiliaid.

2 A meibion Gad a meibion Reuben a ddaethant, ac a ddywedasant wrth Moses, ac wrth Eleazar yr offeiriad, ac wrth benaduriaid y gynulleidfa, gan ddywedyd,

3 Ataroth, a Dibon, a Jaser, a Nimrah, a Hesbon, ac Elealeh, a Sebam, a Nebo, a Beon,

4 *Sef* y tir a darawodd yr Arglwydd o flaen cynulleidfa Israel, tir i anifeiliaid *yw* efe; ac *y mae* i'th weision anifeiliaid.

5 A dywedasant, Os cawsom ffafyr yn dy olwg, rhodder y tir hwn i'th

a nodir adn. 14, 15; ac hefyd i fod yn goffiadwriaeth ddiolchgar am y cymhorth a'r waredigaeth ryfeddol a estynwyd iddynt. Yr oedd yr aur a offrymwyd ar yr achos hwn yn cyraedd i 16,750 o siclau, yr hyn sydd gyfartal mewn gwerth i £30,568. 15s. o'n harian ni. A chan i'r holl siclau hyn ddyfod oddiwrth gadbeniaid y miloedd a chadbeniaid y cannoedd, adn. 52, y rhai oeddynt oddeutu 122 ar ddeuddeg mil o filwyr, rhaid fod pob un wedi rhoddi oddeutu 130 o siclau aur, neu swm yn cyfateb i oddeutu £253 o'n harian ni.

PEN. XXXII. Adn. 1—4. *A gweisant dir Jaser a thir Gilead*] Yr oedd y lleoedd crybwylledig yma yn perthyn i Sehon brenin yr Amoriaid, ac Og brenin Basan, pa rai, ar ol eu gorchfygu gan yr Israeliaid, a gyfansoddent byth wedi hyny ran o'u tiriogaethau hwy, adn. 33.

Adn. 5. *Rhodder y tir hwn i'th weision*] Am ei fod yn dda yn *borfa*, a bod ganddynt

weision yn feddiant: na phâr i ni fyned dros yr Iorddonen.

6 ¶ A dywedodd Moses wrth feibion Gad, ac wrth feibion Reuben, A â eich brodyr i'r rhyfel, ac a eisteddych chwithau yma?

7 A phalam y digalonwch feibion Israel rhag myned trosodd i'r tir a roddodd yr Arglwydd iddynt?

8 Felly y gwnaeth eich tadau, pan anfonais hwynt o Cades-Barnea i edrych y tir.

9 Canys aethant i fyny hyd ddyffryn Escol, a gweisant y tir; a digalonasant feibion Israel rhag myned i'r tir a roddasai yr Arglwydd iddynt.

10 Ac enynnodd digloneidd yr Arglwydd y dydd hwnw; ac efe a dyngodd, gan ddywedyd,

11 Diau na chaiff yr un o'r dynion a ddaethant i fyny o'r Aifft, o fab ugain mlwydd ac uchod, weled y tir a addewais trwy lw i Abraham, i Isaac, ac i Jacob; am na chyflawnasant *wneuthur* ar fy ol i:

12 Ond Caleb mab Jephunneh y Ceneziad, a Josua mab Nun; canys cyflawnasant *wneuthur* ar ol yr Arglwydd.

13 Ac enynnodd digloneidd yr Arglwydd yn erbyn Israel; a gwnaeth iddynt grwydro yn yr anialwch ddeugain mlynedd, nes darfod yr holl oes a wnaethai ddrygioni yn ngolwg yr Arglwydd.

14 Ac wele, chwi a godasoch yn lle eich tadau, yn gynyrch dynion pechadurus, i chwanegu ar angerdd lliid yr Arglwydd wrth Israel.

15 Os dychwelwch oddiar ei ol ef;

hwythau lawer o anifeiliaid, adn. 1. *Na phâr i ni fyned dros yr Iorddonen*—i gael ein hetiffediaeth yno.

Adn. 6, 7. *Ac a eisteddych chwithau yma*] Mewn esmwythid a heddwch, tra y byddo eich brodyr yn rhwym mewn rhyfel? *A phalam y digalonwch feibion Israel?*—yr oedd eu geiriau braidd yn dywyll; a thybiai Moses mai llwfrdra noeth, a chariad at esmwythdra, a wnai iddynt chwennych aros lle yr oeddynt; pa siampl ddrwg a allasai ddigloni eu brodyr o'r llwythau creill.

Adn. 8—12. *Felly y gwnaeth eich tadau*] Y rhai a aethant i chwilio gwlad Canaan: gwel ar pen. xiii.

Adn. 13. *Grwydro yn yr anialwch ddeugain mlynedd*] Gwel ar pen. xiv. 33, 34.

Adn. 14. *Ac wele, chwi a godasoch yn lle eich tadau*] Gan efelychu yr ysbwyr anghrediniol hyny, heb ymddiried yn ngallu a geirwiredd Duw i gyflawni ei addewid o sefydlu Israel yn ngwlad Canaan.

yna efe a âd y bobl eto yn yr anialwch, a chwi a ddinystriwch yr hoil bobl hyn.

16 ¶ A hwy â ddaethant ato ef, ac a ddywedasant, Corlanau defaid a ad-eladwn ni yma i'n hanifeiliaid, a dinasoedd i'n plant.

17 A ni a ymarfogwn yn fuan o flaen meibion Israel, hyd oni ddygom hwynt i'w lle eu hun; a'n plant a arhosant yn y dinasoedd caerog, rhag trigolion y tir.

18 Ni ddychwelwn ni i'n tai, nes i feibion Israel berchenogi bob un ei etifeddiaeth.

19 Hefyd nid etifeddwn ni gyda hwynt o'r tu hwnt i'r Iorddonen, ac oddiyno allan; am ddyfod ein hetifeddiaeth i ni o'r tu yma i'r Iorddonen, tua'r dwyrain.

20 ¶ A dywedodd Moses wrthynt, Os gwnewch y peth hyn, os ymarfogwch i'r rhyfel o flaen yr Arglwydd,

21 Os â pob un o honoch dros yr Iorddonen yn arfog o flaen yr Arglwydd, nes iddo yru ymaith ei elynion o'i flaen,

22 A darostwng y wlad o flaen yr

Arglwydd; yna wedi hyn y cewch ddychwelyd, ac y byddwch deuwch gerbron yr Arglwydd, a cherbron Israel; a bydd y tir hwn yn etifeddiaeth i chwi o flaen yr Arglwydd.

23 Ond os chwi ni wna fel hyn; wele, pechu yr ydych yn erbyn yr Arglwydd: a gwybyddwch y goddiwedda eich pechod chwi.

24 Adeiledwch i chwi ddinasoedd i'ch plant, a chorlanau i'ch defaid; a gwnewch yr hyn a ddaeth allan o'ch genau.

25 A llefarodd meibion Gad a meibion Reuben wrth Moses, gan ddywed- yd, Dy weision a wnant megys y mae fy arglwydd yn gorchymyn.

26 Ein plant, ein gwragedd, ein hanifeiliaid, a'n holl ysgrubiad, fyddant yma yn ninasoedd Gilead.

27 A'th weision a ânt drosodd o flaen yr Arglwydd i'r rhyfel, pob un yn arfog i'r filwriaeth, megys y mae fy arglwydd yn llefaru.

28 A gorchymynodd Moses i Eleazar yr offeiriad, ac i Josua mab Nun, ac i benau-cenedl llwythau meibion Israel, o'u plegid hwynt:

Adn. 15. *Chwi a ddinystriwch yr holl bobl hyn*] Y rhai, trwy gael eu cynhyrfu gan eich cyngor a'ch siampl chwi, a wrthodant fyned dros yr Iorddonen i feddiannu gwlad Canaan; ac felly hwy a adewir gan Dduw i drengu yn yr anialwch.

Adn. 16. *A dinasoedd i'n plant*] Diaman nad oeddynt yn meddwl dim mwy nag *adgyweirio* dinasoedd yr Amoriaid, y rhai a gylmerasent yn ddiweddar; pa waith a allasant ei gyflawni yn dra hawdd mewn byr amser: gwel ar adn. 34, &c.

Adn. 17. *A'n plant a arhosant yn y dinasoedd caerog, rhag trigolion y tir*] Sef rhag yr Ammoniaid, y Moabiaid, yr Edomiaid, a'r gweddill o'r Midaniaid a'r Amoriaid. Ond a allai y gwragedd a'r plant gadw y dinasoedd caerog ar ol eu gosod ynddynt? Diau nas gallent; a rhaid i amrai o'r rhyfelwyr o ganlyniad aros ar ol. Yn y cyfrifiad diweddar, pen. xxvi., yr oedd llwyth Reuben yn gynwysedig o 43,730 o wŷr; llwyth Gad, 40,500; a llwyth Manasse, 52,700, hanner yr hyn yw 26,350. Chwaneger ayn at swm y ddau lwyth arall, ac y mae y cyfanswm yn 110,580. Yn awr nyhi a ddysgwn oddiwrth Jos. iv. 13, nad aeth o lwythau Reuben a Gad, a hanner llwyth Manasse, oud 40,000 o wŷr arfog dros yr Iorddonen i gynorthwyo eu brodyr yn narostyngiad y tir: o ganlyniad gadawyd y nifer o 70,580 o wŷr ar ol i amddifyn y gwragedd, y plant, a'r anifeiliaid. Yr oedd hyn yn fwy na digon i'w hamddiffyn hwynt rhag pobl ag oeddynt eisioes wedi eu taraw â dychryn trwy eu diweddar ddinystriadau a'u dadymchweliadau.

Adn. 18. *Ni ddychwelwn ni i'n tai, &c.*] Yn hyn danghosest fydd gref yn Nuw, yn gystal a chariad at eu brodyr.

Adn. 19. *Ac oddiyno allan*] Yn y wlad ag sydd yn gorwedd yn mbellach i'r gorllewin. *Am ddyfod ein hetifeddiaeth i ni o'r tu yma i'r Iorddonen*—yr oedd gwlad Gilead yn gorwedd yn ddwyreiniol i'r Iorddonen a gwlad Canaan.

Adn. 20—22. *Os ymarfogwch i'r rhyfel o flaen yr Arglwydd*] Sef o flaen yr arch, yr hon oedd yr arwydd o bresenoldeb yr Arglwydd. Yr oeddynt hwy wedi addaw ymarfogi o flaen meibion Israel, adn. 17. Nid hyn yn unig, ebai Moses, ond 'ewch yn arfog o flaen yr Arglwydd.' Fel pe dywedasai, *Achos Duw ydyw yn fwy nag achos eich brodyr*; ac arno ef y rhaid i chwi edrych, yn fwy nag arnynt hwy.

Adn. 23. *Gwybyddwch y goddiwedda eich pechod chwi*] Sef cospedigaeth eich pechod. Fel hyn bydd i bechod yn ddiaw oddiweddyd pob pechadur cyndyn yn fuan neu yn hwyr. Os na fydd i ni oddiweddyd ein pechodau fel ag i editarhau am danynt, bydd i'n pechodau ein goddiweddyd ni i'n cywilydd a'n dinystr.

Adn. 24. *Adeiledwch i chwi ddinasoedd*] Gwnewch yr hyn yr oeddych yn ei amcanu: gwel ar adn. 16, &c.

Adn. 25—27. *Dy weision a wnant megys y mae fy arglwydd yn gorchymyn*] Fel hyn y maent o'n fryd yn boddloni i delerau a rhagammodau yr etifeddiaeth, ac, fel pe byddai, yn rhoddi rhwymed am gyflawniad trwy addewid ddirifol.

Adn. 28—33. *A gorchymynodd Moses i*

29 A dywedodd Moses wrthynt, Os meibion Gad a meibion Reuben a ânt dros yr Iorddonen gyda chwi, pob un yn arfog i'r rhyfel o flaen yr Arglwydd, a darostwng y wlad o'ch blaen; yna rhoddwch iddynt wlad Gilead yn berchenogaeth:

30 Ac onid ânt drosodd gyda chwi yn arfogion, cymerant eu hetifedd-iaeth yn eich mysg chwi yn ngwlad Canaan.

31 A meibion Gad a meibion Reuben a atebasant, gan ddywedyd, Fel y llefarodd yr Arglwydd wrth dy weision, felly y gwnawn ni.

32 Nyni a awn drosodd i dir Canaan yn arfogion o flaen yr Arglwydd, fel y byddo meddiant ein hetifedd-iaeth o'r tu yma i'r Iorddonen genym ni.

33 A rhoddodd Moses iddynt, *sef* i feibion Gad, ac i feibion Reuben, ac i hanner llwyth Manasse mab Joseph, frenhiniaeth Schon brenin yr Amoriaid, a brenhiniaeth Og brenin Basan, y wlad a'i dinasoedd ar hyd y terfyn-*au, sef* dinasoedd y wlad oddiamgylch.

34 ¶ A meibion Gad a adeiladasant Dibon, ac Ataroth, ac Aroer,

35 Ac Atroth, Sophan, a Jaaser, a Jogbeah,

36 A Beth-nimrah, a Beth-haran, dinasoedd caerog; a chorlanau defaid.

37 A meibion Reuben a adeiladasant Hesbon, Elealeh, a Chiriathaim;

38 Nebo hefyd, a Baalmeon (wedi troi eu henwau) a Sibmah: ac a enwasant enwau ar y dinasoedd a adeiladasant.

39 A meibion Machir mab Manasse a aethant i Gilead, ac a'i hennillasant hi, ac a yrasant ymaith yr Amoriaid oedd ynddi.

40 A rhoddodd Moses Gilead i Machir mab Manasse; ac efe a drigodd ynddi.

41 Ac aeth Jair mab Manasse, ac a enmillodd eu pentrefydd hwynt, ac a'u galwodd hwynt Hafoth-Jair.

42 Ac aeth Nobah, ac a enmillodd Cenath a'i phentrefydd, ac a'i galwodd ar ei enw ei hun, Nobah.

PENNOD XXXIII.

DYMA deithiau meibion Israel, y rhai a ddaethant allan o dir yr Aifft, yn eu lluoedd, dan iaw Moses ac Aaron.

2 A Moses a ysgrifennodd eu mynediad hwynt allan yu ol eu teithiau,

Eleazar, &c.] Y mae Moses yn penderfynu yr achos hwn gydag Eleazar, a chyda Josua yr hwn oedd i fod ei ganlynydd ef, gan wybod fod yn rhaid iddo ef i hun *farw* cyu y byddai iddynt groesi yr Iorddonen.

Adn. 34—37. *A meibion Gad a adeiladasant*] Er fod y gair gwreiddiol yn arwyddo *adeiladu*, eto y mae llawer o anghreiffitiau yn y rhai y mae yn arwyddo *ailadeiladu*, megys yn 1 Bren. xii. 25, 2 Bren. xiv. 22; ac yn yr ystyr hwn y rhaid eidi deall yma, yn gystal ag yn adn. 37; canys yr oedd y trefi ag y sonir am danynt wedi cael eu hadeiladu o'r blaen: ond gan iddynt gael eu difrodi trwy ryfel, cawsant yn awr eu hailadeiladu a'u hamgaueru. *Aroer*—gwel ar Dent. ii. 34—36.

Adn. 38. *Nebo hefyd, a Baalmeon, wedi troi eu henwau*] Darfu i orchfygwyr y dinasoedd hyn eu galw ar eu henwau eu hunain; megys y ddinas *Cenath*, yr hon, ar ol iddi gael ei gorchfygu gan *Nobah*, a alwyd ar ei enw ef, adn. 42. Gallai yr Israeliaid farnu yn angenrheidiol newid enwan y lleoedd hyn, i'r dyben i ddiddymu holl olion eilunaddoliaeth.

Adn. 39. *I Gilead*] *Sef i ddinas o'r enw hwnw, fel y tybia Houbigant; er fod mynydd a elwid felly, banner yr hwn a gawsant hwy yn etifedd-iaeth:* gwel ar Dent. iii. 12, 13.

Adn. 40. *A rhoddodd Moses Gilead i Machir*] Hyny yw, i feibion neu hiliogaeth Machir; canys yr oedd ef ei huu wedi marw er's hir amser.

Adn. 41. *Hafoth-Jair*] *Sef pentrefi neu breswylfeydd Jair; ac fel hyn y dylesid eu*

cyfieithu. Megys mai y ddau lwyth a banner hyn, meddai Ainsworth, oeddynt y rhai *cyntaf* ag y penodwyd eu hetifedd-iaeth iddynt, felly hwynt-hwy oeddynt y rhai cyntaf o holl Israel a'r a gaethgludwyd o'u tir eu hunain o herwydd eu pechodau: gwel 1 Cron. v. 25, 26.

Adn. 42. *Nobah*] Yr hwn, er nad yw yn cael ei enwi mewn un lle arall, ydoedd yn ddiamau yn ŵr enwog o lwyth Manasse.

PEN. XXXIII. Adn. 1. *Dyma deithiau meibion Israel*] Nid yw Moses yn crybwyll ond y manau hyny lle y gwersyllasant beth amser, gan basio heibio ereill lle nad arasant ond er ychydig adfywiad.

Adn. 2. *A Moses a ysgrifennodd eu mynediad hwynt allan yu ol eu teithiau*] Gallwn ystyried holl lyfr Numeri megys *dyddlyfr*, ac yn wir y *teithlyfr* cyntaf a gyhoeddwyd erioed. Darfu i Shaw, Poccocke, ac amrai ereill geisio nodi allan ffordd yr Israeliaid trwy yr anialwch mawr, ofnadwy, a disathr hwn, a sicrhau amrai o'r gwersyllfeydd a ddysgrifir yma. Yn wir y mae profion digonol o'r daith bwysig hon yn aros eto, canys y mae y dysgrifiadau o lawer mor fanwl, fel ag y mae yn hawdd sicrhau y lleoedd wrthynt; ond nid dyma fel y mae gyda hwynt oll. Israel oedd eglwys Dduw yn yr anialwch; a gall ei chyflwr ansefydlog a chrwydrol hi dan Moses nodi allan gyflwr ansefydlog crefydd dan y gyfraith. Eu dygiad gan Josua i'r orphwysfa addawedig ar ol marwolaeth Moses, a all nodi allan sefydliad, diysgogrwydd, a sicrwydd yr

wrth orchymyn yr Arglwydd: a dyma eu teithiau hwynt yn eu mynediad allan.

3 A hwy a gychwynasant o Rameses yn y mis cyntaf, ar y pymthegfed dydd o'r mis cyntaf: tranoeth wedi y pase yr aeth meibion Israel allan â llaw uchel yn ngolwg yr Aifftiaid oll.

4 (A'r Aifftiaid oedd yn claddu pob cyntafanedig, y rhai a laddasai yr Arglwydd yn eu mysg; a gwnaethai yr Arglwydd farn yn erbyn eu duwiau hwynt hefyd)

5 A meibion Israel a gychwynasant o Rameses, ac a wersyllasant yn Succoth.

6 A chychwynasant o Succoth, a gwersyllasant yn Etham, yr hon *sydd* yn nghwr yr anialwch.

7 A chychwynasant o Etham, a throisiant drachefu i Pihahiroth, yr hon *sydd* o flaen Baal-sephon; ac a wersyllasant o flaen Migdol.

8 A chychwynasant o Pihahiroth,

iachawdwriaeth hōno a ddarparwyd gan Iesu Grist, o'r hwn yr oedd Josua yn gysgod nodedig mewn enw ac ymddygiad. Dychymyga Mr. Ainsworth fod y *ddau sefydliad a deugain* a gyfuir yma, trwy y rhai y dygwyd yr Israeliaid i ymyl gwlad yr addewid, ac y cymerwyd hwynt wedi hynp dros yr Iorddonen i'r orphwysfa a addawsai Duw, yn nodi allan y *ddwy genhedlaeth a deugain* o Abraham hyd Grist, trwy ba rai y daeth Gwaredwr y byd, tiwy waed yr hwn y gallwn ninau fyned i mewn i'r cysegr, a mwynbau etifeddiacth yn mhilith y saint yn y goleuni. Ac y mae Mr. Bromley, yn ei *Ffordd i'r Sabboth o Orphwysdra*, yn ystyried pob enw a lle fel yn ddarluniadol o'r sefyllfa ysbrydol trwy ba un y mae yr enaid yn myned yn mlaen i deyrnas Dduw. Ond mewn pethau o'r fath yma y mae gan *ddyghymyg* lawer mwy i'w wneuthur na *ffaith*.

Adn. 3. *A hwy a gychwynasant o Rameses*] I ba le yr oeddynt wedi dyfod o bob parth wrth orchymyn Moses. Ymddengys mai *Rameses* oedd prif ddinas gwlad Gosen; a meddyllir mai *Cairo* ydoedd: gwel ar Exod. xii. 37.

Adn. 4. *Farn yn erbyn'eu duwiau hwynt*] Gwel ar Exod. xii. 12.

GWERSYLLFA I. Adn. 5. *Ac a wersyllasant yn Succoth*] Dyma lle y gwersyllasant gyntaf ar ol ymadael o'r Aifft. Y mae yr enw hwn yn arwyddo *bythod* neu *bebyll*, ac yn dynodi y fan lle y lledasant eu pebyll gyntaf, heb gyfeirio at d'ef na phentref.

II. Adn. 6. *Etham*] Nid yw y lle hwn yn dra adnabyddus. Tybia Shaw ei fod un filldir o *Cairo*. Y mae Calmet yn meddwl mai dinas *Buthum* ydyw, pa un a grybwyllir gan Herodotus, yr hon a esyd efe yn Arabia, ar gyffiniau yr Aifft.

III. Adn. 7. *Pihahiroth*] Gwel ar Exod. xiv. 1. Y mae Calmet yn meddwl mai *Cly-*

ac a aethant trwy ganol y môr i'r anialwch; a cherddasant daith tri diwrnod yn anialwch Etham, a gwersyllasant yn Mara.

9 A chychwynasant o Mara, a daethant i Elim: ac yn Elim *yr ydoedd* deuddeg o flynnonau dwfr, a deg-a-thriugain o balmwydd; a gwersyllasant yno.

10 A chychwynasant o Elim, a gwersyllasant wrth y môr coch.

11 A chychwynasant oddiwrth y môr coch, a gwersyllasant yn anialwch Sin.

12 Ac o anialwch Sin y cychwynasant, ac y gwersyllasant yn Dophcah.

13 A chychwynasant o Dophcah, a gwersyllasant yn Alus.

14 A chychwynasant o Alus, a gwersyllasant yn Rephidim, lle nid oedd dwfr i'r bobli'w yfed.

15 A chychwynasant o Rephidim, a gwersyllasant yn anialwch Sinai.

16 A chychwynasant o anialwch Si-

ma y Groegiaid, a *Kolzum* yr Arabiaid, yw *Baal-sephon*.

IV. Adn. 8. *Anialwch Etham*] A elwir anialwch *Sur*, Exod. xv. 22; a *gwersyllasant yn Mara*—tybia Shaw fod y lle hwn yn *Sedur*, gyforbyn â dyffryn *Baideah*, yr ochr draw i'r môr coch.

V. Adn. 9. *Elim*] Lle yn ngodre anialwch *Sin*, chwe milldir o *Tor*, ac yn agos i 90 o *Corondel*: gwel ar Exod. xxv. 27.

VI. Adn. 10. *Wrth y môr coch*] Y mae yn anhawdd penu lle y gwersylliad hwn, meddai Clarke, trwy fod yr Israeliaid yn awr ar eu ffordd at fynydd *Sinai*, pa un a orweddai yn lled bell yn ddygreiniol i *Elim*, ac o ganlyniad yn mhellach oddiwrth y môr na'r wersyllfa flaenorol. Gwel y sylw ar y *môr coch*, Exod. x. 19.

VII. Adn. 11. *Anialwch Sin*] Lle y dechreuodd y manna ddisgyn, Exod. xvi. 1. Y mae hwn yn gorwedd rhwng *Elim* a mynydd *Sinai*; a darfu i Shaw a'i gymdeithion groesi y gwastadedd yma mewn naw awr.

VIII. Adn. 12. *Dophcah*] Nid yw y lle hwn yn cael ei grybwyll yn Exodus, trwy na ddygwyddodd dim hynod yno; ac nid yw ei sefyllfa yn adnabyddus.

IX. Adn. 13. *Alus*] Nid yw hwn chwaith yn cael ei grybwyll yn Exodus, ac y mae ei sefyllfa yr un mor anadnabyddus.

X. Adn. 14. *Rephidim*] Lle nodedig o herwydd gwrthryfel Israel yn erbyn Moses, am nad oedd dwfr yno, Exod. xvii.

XI. Adn. 15. *Anialwch Sinai*] Rhyw le yn ogleddol i fynydd *Sinai*, ar y ffordd uniawn i wlad yr addewid, tua'r hon yr oeddynt yn awr yn cyfeirio.

XII. Adn. 16. *Cibroth-Iattaqah*] Hynny yw, 'Beddau y Blys': lle yn yr anialwch agored, yr hwn a gafodd ei enw oddiwrth y pla a syrthiodd ar yr Israeliaid oblegid eu

nai, a gwersyllasant yn Cibroth-Hataafah.

17 A chychwynasant o Cibroth-Hataafah, a gwersyllasant yn Haseroth.

18 A chychwynasant o Haseroth, a gwersyllasant yn Rithmah.

19 A chychwynasant o Rithmah, a gwersyllasant yn Rimmon-Pares.

20 A chychwynasant o Rimmon-Pares, a gwersyllasant yn Libnah.

21 A chychwynasant o Libnah, a gwersyllasant yn Rissah.

22 A chychwynasant o Rissah, a gwersyllasant yn Cehelathah.

23 A chychwynasant o Cehelathah, a gwersyllasant yn mynydd Sapher.

24 A chychwynasant o fynydd Sapher, a gwersyllasant yn Haradah.

25 A chychwynasant o Haradah, a gwersyllasant yn Maceloth.

26 A chychwynasant o Maceloth, a gwersyllasant yn Tahath.

27 A chychwynasant o Tahath, a gwersyllasant yn Tarah.

28 A chychwynasant o Tarah, a gwersyllasant yn Mitheah.

29 A chychwynasant o Mitheah, a gwersyllasant yn Hasmonah.

30 A chychwynasant o Hasmonah, a gwersyllasant yn Moseroth.

31 A chychwynasant o Moseroth, a gwersyllasant yn Bene Jaacan.

32 A chychwynasant o Bene Jaacan, a gwersyllasant yn Hor-hagidgad.

33 A chychwynasant o Hor-hagidgad, a gwersyllasant yn Jotbathah.

34 A chychwynasant o Jotbathah, a gwersyllasant yn Ebronah.

35 A chychwynasant o Ebronah, a gwersyllasant yn Esion-Gaber.

36 A chychwynasant o Esion-Gaber, a gwersyllasant yn anialweh Sin; hwnw yw Cades.

37 A chychwynasant o Cades, a gwersyllasant yn mynydd Hor, yn nghwr tir Edom.

38 Ac Aaron yr offeiriad a aeth i fyny i fynydd Hor, wrth orchymyn yr Arglwydd; ac a fu farw yno, yn y ddeugeinfed flwyddyn wedi dyfod meibion Israel allan o dir yr Aiffit, yn y pummed mis, ar y dydd cyntaf o'r mis.

39 Ac Aaron oedd fab tair blwydd ar hugain a chant pan fu farw yn mynydd Hor.

tuchanrwydd yn erbyn Duw, a'u blys anweddu am gŵg, pen. xi. 34. Bernir i'r Israeliaid deithio dri diwrnod mewn trefu i gryaedd y lle hwn, pen. x. 33; a meddylia rhai fod yno wersyllfeydd ereill na osodir i lawr yma, ond odid am nad oedd y lleoedd yn rhai nodedig.

XIII. Adn. 17. *Haseroth*] Dywed Shaw fod y lle hwn o gylch 30 milldir oddiwrth fynydd Sinai. Yma y llefarodd Miriam ac Aaron yn erbyn Moses, o achos y wraig o Ethiopia, pen. xii. 1.

XIV. Adn. 18. *Rithmah*] Gorwedda i y lle hwn mewn rhyw fan yn anialweh *Paran*, pen. xii. 16. Y mae yr enw yn arwyddo *merywen*; ac y mae yn debyg i'r lle gael ei enw oddiwrth amledd y prenau hyny, y rhai a dyfent yno.

XV. Adn. 19. *Rimmon-Pares*] Anadnabyddus.

XVI. Adn. 20. *Libnah*] Y mae sefyllfa y lle hwn yn ansicr. Y mae dinas o'r enw yma yn cael ei chrybwyll Jos. x. 29.

XVII. Adn. 21. *Rissah*] Anadnabyddus.

XVIII. Adn. 22. *Cehelathah*] Tybia rhai ei fod yr un lle ag a elwir *Ceilah*, 1 Sam. xxiii. 1; ond y mae hyny yn annhebygol.

XIX. Adn. 23. *Sapher*] Anadnabyddus.

XX. Adn. 24. *Haradah*] Tybia Calmet y gall ei fod y lle a elwir *Bered*, Gen. xvi. 14, gerllaw *Cades*.

XXI. Adn. 25. *Maceloth*] Enw nas ceir mewn lle arall yn yr ysgrythyf.

XXII. Adn. 26. *Tahath*] Anadnabyddus.

XXIII. Adn. 27. *Tarah*] Anadnabyddus.

XXIV. Adn. 28. *Mitheah*] Tybia Calmet y

gall mai *Mocha* yw hon, dinas yn Arabia Petraea.

XXV. Adn. 29. *Hasmonah*] A dybir gan rai i fod yr un ag *Azmon*, pen. xxiv. 4.

XXVI. Adn. 30. *Moseroth*] Yn Deut. x. 6, dywedir i feibion Israel fyned o Beeroth i Moserah, ac i Aaron farw yno. Gan hyny meddylir fod Moserah, Moseroth, a Hor, yn wahanol enwau ar yr un lle; neu rhaid fod Moseroth, neu Moserah, yn dref neu bentref gerllaw mynydd Hor, canys yn y bu Aaron farw: gwel adn. 38.

XXVII. Adn. 31. *Bene Jaacan*] Lle neu ffynnon yn perthyn i 'feibion Jaacan,' ond yn anadnabyddus.

XXVIII. Adn. 32. *Hor-hagidgad*] 'Twill' neu 'bydew Gidgad.' Dichon ei fod yn bydew neu geudwll mawr, oddiwrth yr hwn y cafodd y lle ei enw. Anadnabyddus.

XXIX. Adn. 33. *Jotbathah*] Ei sefyllfa yn anadnabyddus. Yn Deut. x. 7, dywedir ei fod yn 'dir afonydd dyfroedd.'

XXX. Adn. 34. *Ebronah*] Anghrybwyll-edig mewn un man arall.

XXXI. Adn. 35. *Esion-Gaber*] Y mae Shaw yn gosod y porthladd hwn ar lan orllewinol y gaiuc *Elanitaid* o'r môr coch. Yr Arabiaid a'i galwant yn awr *Meenah el Dsahab*, 'y porthladd euraidd;' canys o'r lle hwn yr anfonodd Solomon ei longau am aur i Ophir, 1 Bren. ix. 26. Tybia efei fod o gylch 60 o filldroedd oddiwrth fynydd Sinai.

XXXII. Adn. 36. *Cades*] Lle nodedig oblegid marwolaeth Miriam, a dygiad dwfr o'r graig, pen. xx. 1.

XXXIII. Adn. 37—40. *Hor*] Lle enwog

40 A brenin Arad y Canaanead, yr hwn oedd yn trigo yn y deau, yn nhir Canaan, a glybu o ddyfodiad meibion Israel.

41 A chychwynasant o fynydd Hor, a gwersyllasant yn Zalmonah.

42 A chychwynasant o Zalmonah, a gwersyllasant yn Punon.

43 A chychwynasant o Punon, a gwersyllasant yn Oboth.

44 A chychwynasant o Oboth, a gwersyllasant yn Ije-Abarim, ar derfyn Moab.

45 A chychwynasant o Ije-Abarim, a gwersyllasant yn Dibon Gad.

46 A chychwynasant o Dibon Gad, a gwersyllasant yn Almon Diblathaim.

47 A chychwynasant o Almon-Diblathaim, a gwersyllasant yn mynyddoedd Abarim, o flaen Nebo.

48 A chychwynasant o fynyddoedd Abarim, a gwersyllasant yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, ar gyfer Jericho.

49 A gwersyllasant wrth yr Iorddonen, o Beth Jesimoth hyd wastadedd Sittim, yn rhosydd Moab.

50 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, yn rhosydd Moab wrth yr Iorddonen, ar gyfer Jericho, gan ddywedyd,

51 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Gaf eich bod chwi yn myned dros yr Iorddonen, i dir Canaan;

52 Gyrwch ymaith holl drigolion y tir o'ch blaen, a dinystriwch eu holl luniau hwynt; dinystriwch hefyd eu holl ddelwau tawdd, a difwynwch hefyd eu holl uchelfeydd hwynt.

53 A goresgynwch y tir, a thrigwch ynddo: canys rhoddais y tir i chwi i'w berchenogi.

54 Rhenwch hefyd y tir yn etifeddiaeth rhwng eich teuluoedd wrth goelbren; i'r aml chwanegwch ei etifeddiaeth, ac i'r anaml prinhêwch ei etifeddiaeth: bydded eiddo pob un y man lle yr êl y coelbren allan iddo; yn ol llwythau eich tadau yr etifeddwch.

55 Ac oni yrwch ymaith breswylwyr y tir o'ch blaen; yna y bydd y rhai a weddillwch o honynt yn gethri yn eich llygaid, ac yn ddrain yn eich

ohlegid marwolaeth Aaron: gwel ar pen. xx. 25, &c., a xxi. 1.

XXXIV. Adn. 41. *Zalmonah*] Lle yn debygol yn nghymydogaeith tir Edom. Gan fod *tselem* yn arwyddo *delw*, meddylir i'r lle hwn gael ei enw oddiwrth y sarff bres a godwyd gan Moses: gwel pen. xxi. 5, &c.

XXXV. Adn. 42. *Punon*] Lle yn *Idumea*, na ehrybyyllir mewn un man arall.

XXXVI. Adn. 43. *Oboth*] A grybwyllwyd o'r blaen, pen. xxi. 10.

XXXVII. Adn. 44. *Ije-Abarim*] Neu *Garneddau Abarim*, pen. xxi. 11. Ei sefyllfa yn ansier. Y mae yn debyg ei fod yn meddwl twmpathau, cyniciau, neu frynian bychain yn agos i rai o rydiau yr Iorddonen.

XXXVIII. Adn. 45. *Dibon Gad*] A dybir yr un a *Dibon*, pen. xxxii. 34, ac yn sefyll ar afon *Arnon*.

XXXIX. Adn. 46. *Almon Diblathaim*] Ei sefyllfa yn anhysbys. Yr oedd yn perthyn i'r Moabiaid yn anser y proffwyd Jeremia, pen. xlviii. 22.

XL. Adn. 47. *Mynyddoedd Abarim o flaen Nebo*] Lle y bu farw Moses. Daethant i'r lle hwn ar ol dymchweliad yr Amoriaid: gwel pen. xxi.

XLI. Adn. 48. *Rhosydd Moab*] Lle y bu Balaam a Balac yn ceisio ihegi Israel, pen. xxii—xxiv.

XLII. Adn. 49. *Beth Jesimoth hyd wastadedd Sittim*] Syrthiodd y blaenaf o'r lleoedd hyn i'r Reubenaid, Jos. xiii. 20. Yr oedd yr Israeliaid yn awr wedi dyfod at fin yr Iorddonen, gyferbyn â Jericho, lle wedi hyni y croesasant.

Adn. 50. *Ar gyfer Jericho*] Yr oedd Jeri-

cho yn sefyll dros dair milldir oddiwrth yr Iorddonen yr ochr orllewinol.

Adn. 51, 52. *Gyrwch ymaith holl drigolion y tir*] Fel na fyddai iddynt gael eu hudo gan eu ffaidd eilunaddoliaeth hwy, Exod. xxiii. 33, Deut. xx. 16—18. *A dinystriwch eu holl luniau*—y rhai yr ymddengys eu bod yn feini wedi eu ceisio yn lluniau cywraïn, a'u gosod i fyny i'w haddoli, Deut. xvi. 22. *Dinystriwch hefyd eu holl ddelwau tawdd*—y rhai a wnaed o fetteloedd, i'w haddoli yn eu tai neu eu temlau. *Difwynwch hefyd eu holl uchelfeydd hwynt*—yr allorau, y llwyni, neu eu capeli. Rhaid iddynt beidio eadw cymaint ag un o'u lluniau na'u delwau tawdd, hyd yn nod i fod yn gofarwydd benafiaethol i foddio y cywraïn, yn addurn i'w tai, neu yn degan i'w plant chwarae âg ef; eithr rhaid iddynt ddyfetha y cwbl, yn arwydd o'u ffeiddiad o, a'u hatgasrwydd at eilunaddoliaeth; ac hefyd i attal iddynt gael eu hudo i addoli yr eilunod hyny, na chynyg addoli Duw Israel trwyddynt.

Adn. 53. *A goresgynwch y tir*] Bob yn ychydig ac ychydig: gwel ar Deut. vii. 22, &c.

Adn. 54. *Wrth goelbren*] Gwel ar pen. xxvii. 53—56.

Adn. 55. *Ac oni yrwch ymaith breswylwyr y tir*] Os bydd i chwi eu goddef i aros yn y tir trwy lwfrda, esgeulusdra, neu gyfeillgarwch; yna y bydd y rhai a weddillwch o honynt yn gethri yn eich llygaid ac yn ddrain yn eich ystlysau—yn ffynnonell ddibaid o ofid, poen, a niwed i chwi. Dan y cyfelybiaethau hyn y mae y niwed parhaus a wneid iddynt mewn enaid a chorff gan yr eilunaddolwyr hyn yn cael ei osod allan yn rymus. Pa beth a all fod yn fwy poenus na symbyliad parhaus ar bob

ystlysau, a bliniant chwi yn y tir y trigwech ynddo.

ochr nes y mae yr ymgais i ochelyd y naill yn tafu y corff gyda mwy o rym ar y llall? A pha beth a all fod yn fwy truenus na phigiadau parhaus yn y llygaid, yn blino y meddwl, ar-theithio y corff, a diffodd y golwg?

Adn. 56. *Megys yr amcenais wneuthur iddynt hwy y gwnaif i chwi*] Gwnaf chwi yn gaethion iddynt hwy; neu paraf i chwi gael eich diwreiddio ganddynt hwy, megys yr amcenais iddynt hwy gael genych chwi.

SYLWADAU AINSWORTH AR DEITHIAU PLANT ISRAEL.

'1. Yr oedd TEITHIAU Israel 'trwy yr anialwech mawr, ac ofnadwy hwnw, lle yr yd-oedd seirff tanlyd ac ysgorpionau, a syched lle nid oedd dwfr,' Dent. viii. 15, yr hwn oedd yn 'dir diffaeth a phyllau, yn dir sycheder a chysgod angau, yn dir nad aeth gw'r trwyddo, ac na thrigodd dyn ynddo,' Jer. ii. 6, yn arwyddo yr amrai *drallodion* a'r *gorthrymderau* trwy y rhai y mae yn rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw, Act. xiv. 22. Y mae y *cynorthwryon*, y *cysuron*, a'r *gwaredigaethau* a roddes Duw i'w bobl yn eu cyfyngderau, yn anghreiffitiau o'i gariad a'i drugaredde ef tuag at ei ddylybwy'r; canys y mae efe yn eu dyddann hwynt yn eu holl o'rthrymderau, nes fel y mae dyoddefiadau Crist yn amhau ynddynt, felly trwy Grist fod eu dyddannwech hwythau hefyd yn amhau, 2 Cor. i. 4, 5. Y *cospedigaethau* a weinyddai Daw ar yr anfyddion, y rhai a fuont feirw yn yr anialwech oblegid eu pechodau, a 'ddygywddasant yn siamplau iddynt hwy, ac a ysgrifenydd yn rhybydd i nin-au, ar y rhai y daeth tserfnau yr oesoedd,' 1 Cor. x. 11, Heb. iii. 17—19, a iv. 1, 2. Oddiwth *enwau* eu gweryslyffeydd, a'r hanesion cysylltedig, ymddengys y modd yr oedd Israel yn dyfod weithiau i *gyfyngderau* a *ffyrdd blinderus*, megys wrth *Pihahiroth* ac yn *Salmonah*; ac weithiau i *le eang a hel-aeth*, megys yn *rhosydd Moab*: weithiau i leoedd o *newyn* a *syched*, megys yn *Rephidim*, *Cades*; ac weithiau i leoedd o *adnerthiad*, megys yn *Elim* a *Beer*, pen. xxi. 16: weithiau lle y caent *ryfeloedd*, megys *Rephidim*, *Cades*, ac *Edrei*; ac weithiau lle y caent *orphwysdra*, megys mynydd *Sinai*: weithiau aent yn eu *blaenau*, megys o *Sinai* i *Cudes-Barnea*; ac weithiau *troent yn ol*, megys o *Cudes-Barnea* at y *môr coch*: weithiau deuant i *fynddoedd*, megys *Sinai*, *Sopher*, &c.; ac weithiau i *ddyffrynnoedd*, megys *Tanath*, &c.: weithiau i leoedd o *chwerwder*, megys *Mara*; ac weithiau o *felysder*, megys *Mithcah*.

'2. Y PECHODAU a gyflawnasant hwy yn yr anialwech oeddynt aml a mawrion; megys *eilunaddoliaeth* cyhoeddus tiwy y llo yn Horeb, Exod. xxxii. a chyda *Baal-Peor*, Num. xxv. *Anngrediniaeth* yn Cades, Num. xiv; ac wedi hyny *hysdra rhyffygus* yn yr un lle. *Tuchan* yn erbyn Duw amrywiol weithiau; a *themtio Crist*, fel y dywed yr apostol, 1 Cor. x. *Cynhen* a *gwrthryfel* yn erbyn eu llywodraethwyr yn fynych. *Trachwantu cig* i dori

56 A bydd, megys yr amcenais wneuthur iddynt hwy, y gwnaif i chwi.

eu blys; a *laru ar y manna*, yr ymborth nefol. *Puteindra* gyda merched Moab, a llawer o *gyffroadau* ereill, nes yr achwynir arnynt, 'Pa sawl gwaith y digiasant ef yn yr anialwech, ac y gofidiasant ef yn y diffaethwech?' Salm lxxviii. 40. Darfu i *bob math* ar bersonau bechu yn erbyn Duw: *cynulleidfau y bobl* yn burfynych; a'r *lluaws cymysg* o ddy-eithriaid yn eu plith hwynt, Num. xi. Y *tywysogion*, megys y deg yspiwr, Dathan, Abiram, &c. Y *Lefaid*, megys Corah a'i gynulleidfau. *Miriam* y broffwydes, Num. xii, ac *Aaron* yr offeiriad gyda hi, heblaw ei bechod ef yn Horeb, Exod. xxxii, ac wrth dyfroedd Meribah, Num. xx. *A Moses* ei hun hefyd yn yr un lle, am yr hyn y cauwyd yntau o wlad Canaan.

'3. Y COSPEDIGAETHAU a osodid arnynt gan yr Arglwydd am eu hannfydd-dod oeddynt aml. Buont *feirw* trwy gleddyf y *gelym*, megys yr *Amaleiciaid*, Exod. xvii, a'r *Canaan-icaid*, Num. xiv. 45; a rhai trwy gleddyf eu *brodyr*, Exod. xxxii. Rhai a *losgwyd â than*, Num. xi. a xvi; *llyncwyd* rhai yn fyw gan y ddaear, Num. xvi; *laddwyd* rhai gan seirff, Num. xxi; bu *feirw* llawer o'r *pla*, Num. xi. a xvi; a bu *feirw* yr holl genhedlaeth yn gyffredinol a rifesid gyntaf ar ol eu dyfodiad allan o'r Aiff, Num. xxvi. 64, 65. Fel hyn Duw a 'drenliodd en dyddiau hwynt mewn oferedd, a'u blynyddoedd mewn dychryn,' Salm lxxviii. 33.

'4. Er hyn, er mwyn ei enw, efe a fawrhaodd ei *DREGAREDDAU* iddynt hwy a'u hiliog-aeth. Darfu iddo *holthi y môr*, a'u harwain hwynt trwyodd ar dir sych, gan foddii eu gelynyon, Exod. xiv. Efe a'u harweinai hwynt â *chemul* y dydd, a *cholofn dân* y nos, yn barhaus. Efe a roddai iddynt *fanna* o'r nef yn feunyddiol. Efe a *holtodd y graig*, ac a roddes iddynt ddwfr i'w dysychedu. Efe a'u porthodd hwynt â *soffier*, pan y blysiasant gig. *Pereiddiodd* iddynt y dyfroedd chwerwon. Achluddodd hwynt rhag *cleddyf* eu gelynyon. Gwaredodd hwynt rhag y *seirff tanlyd* a'r *ysgorpionau*. Eu *dillad* ni heneiddient am danynt, a'u *troed* ni *chryyddai*, ddeugain mlynedd, Deut. viii. 4. Efe a'u gwaredodd hwynt oddiwrth *feldith* fwriadol Balaam, ac a'i troodd yn *feldith* iddynt, am ei fod yn eu caru, Num. xxiii. Efe a 'ddisgynodd hefyd ar fynydd *Sinai*, ac a ymddyddanodd â hwynt o'r nefoedd, ac a roddodd iddynt farnedigaethau uniawn, a chyfreithiau gwir, deddfau a gorchymynion daionus, ac a roddodd hefyd ei Ysbryd daionus i'w dysgn hwynt,' Neh. ix. 13, 20. Yn amserau ei *ddigofaint* efe a gofai *drugaredd*; 'tostuiodd ei lygaid wrthynt i'bag eu dinystrio, ac ni wnaeth ddyben am danynt yn yr anialwech,' Eze. xx. 17, 22. Efe a roddodd iddynt frenhiniaethau a phobloedd, a hwy a feddiannast wledydd eu gelynyon; lluosogodd hefyd eu meibion hwy fel ser y nefoedd, a dygodd hwynt i'r wlad a addawsai i'w tatau, Neh. ix. 22, 23. Yn awr, 'pa bethau bynag a ysgrifenydd hwynt; fel trwy an-

PENNOD XXXIV.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

2 Gorchymyn i feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan ddeloch chiwi i dir Canaan (dyma y tir a syrth i chiwi yn etifeddiaeth, *sef* gwlad Canaan a'i therfynau)

3 A'ch tu deau fydd o anialwch Sin, gerllaw Edom; a therfyn y deau fydd i chiwi o gwr y môr heli tua'r dwyrain.

4 A'ch terfyn a amgylchyna o'r deau i riw Acerabim, ac a â trosodd i Sin; a'i fynediad allan fydd o'r deau i Cades-Barnea, ac a â allan i Hazar-Adar, a throsodd i Asmon,

5 A'r terfyn a amgylchyna o Asmon i afon yr Aiffit; a'i fynediad ef allan a fydd tua'r gorllewin.

6 A therfyn y gorllewin fydd y môr mawr i chiwi; *sef* y terfyn hwn fydd i chiwi yn derfyn gorllewin.

ymedd a dyddanwch yr ysgrythyrau y galleu gael gobaith, Rhuf. xv. 4.

PEN. XXXIV. Adn. 1, 2. *A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, &c.*] Y mae Duw yma yn cyfarwyddo Moses, a gorchymynir iddo yntau gyfarwyddo Israel, yn nghylch y llinell â'r hon yr oedd tir Canaan i'w cael ei ffinio bob ochr. Y mae y terfynau yn cael eu dysgrifio, 1. I'w hyfforddi a'u ffinio hwynt yn eu rhyfleoedd a'u buddugoliaethau, fel na fyddai iddynt geisio eangu eu hamherodraeth yn ol dull centedloedd ereill, ond ymfodloni ar eu cyfran eu hunain. 2. I'w calonogi hwynt yn eu hymosodiad ar Ganaan, a sierhau iddynt eu llwyddiant. Yr oedd etifeddiaeth lawer mwy yn addawedig iddynt os byddent ufydd, hyd yn nod at afon Euphrates; a chythaeddai llywodraeth Israel cyn belled a hyny yn amser Dafydd a Solomon, 2 Cron. ix. 26. Eithr hon, pa un yn briodol yw CANAAN, a orwedda'i mewn cylch lled fychan. Nid oedd ond o gylch 170 o filldroedd o hyd, ac oddeutu 50 o led. Ond yr oedd ei hychander yn cael ei wneyd i fyny, yn helieth gan ei ffrwythlonder, amgen nis gallasai gynul cenedl mor luosog. Gwelwn leied cyfran o'r byd a ddyry Duw yn fynych i'w bobl ei hun! Ond gall y rhai hyny ag y mae ganddynt eu rhan yn y nef, foddloni ar ddogyn bychan o'r ddaear hon.

Adn. 3. *Y môr heli*] *Sef y Môr Marw*: gwel ar Gen. xix. 25.

Adn. 4. *Acerabim*] Mynydd a elwir felly, yn ol Bochart, oddiwrth y nifer mawr o *ysgorpionau* a geid yno.

Adn. 5. *Afon yr Aiffit*] *Sef afon Besor*, rhwng *Gazor* a *Rhinocorura*, Jos. xv. 47; neu afon ag sydd yn ddeheuol i dir y Philistiaid, ac yn ymarllwys i'r forgaic gerllaw *Calieh*. Nis gall feddwl y *Nilus*, am na bu terfynau yr Hebraid, meddai Taylor, erioed yn cyraedd cyn belled.

Adn. 6. *Y môr mawr*] *Sef Môr-y-Canoldir*,

7 A hwn fydd terfyn y gogledd i chiwi: o'r môr mawr y tueddwech i fynydd Hor.

8 O fynydd Hor y tueddwech nes dyfod i Hamath; a mynediad y terfyn fydd i Sedad.

9 ¶ A'r terfyn a â allan tua Ziphron; a'i ddiwedd ef fydd yn Hazar-Enan: hwn fydd terfyn y gogledd i chiwi.

10 A therfynwch i chiwi yn derfyn y dwyrain o Hazar-Enan i Sepham.

11 Ac aed y terfyn i waered o Sepham i Riblah, ar du dwyrain Ain; a disgyned y terfyn, ac aed hyd ystlys môr Cinnereth tu a'r dwyrain.

12 A'r terfyn a â i waered tua'r Iorddonen; a'i ddiwedd fydd y môr heli. Dyma y tir fydd i chiwi a'i derfynau oddiamgylch.

13 A gorchymynodd Moses i feibion Israel, gan ddywedyd, Dyma y tir a renwch yn etifeddiaethau wrth

yr hwn a elwir felly i'w wahaniaethu oddiwrth y Môr Mawr, Môr Tiberias, &c., y rhai nad oeddynt ond math ar *lymoedd*.

Adn. 7, 8. *I fynydd Hor*] Nid yr Hor hwnw lle y bu farw Aaron, yr hwn oedd yn ddeheuol, ac yn terfynu ar Edom; ond mynydd arall, ond odid Hermon, neu ryw ran o fynydd Libanus, yr hwn a grybwyllir mewn lle arall megys y terfyn gogleddol: gwel Benson.

Adn. 9, 10. *Ziphron*] Ni chrybwyllir y lle hwn mewn un man arall o'r ysgrythyr. Tybia St. Jerome mai *Zephirium* ydyw, yn Cilicia. *Hazar-Enan*—a gyfieithir gan Chitreaus *pentref y ffynnonell*, am fod yr Iorddonen yn tarddu yno: gwel Dr. Shaw, cyf. ii. pen. i. d. 267.

Adn. 11. *Môr Cinnereth*] *Sef môr Galilea*, môr Tiberias, a môr Genesaret. Gelwir ef *môr Cinnereth*, oddiwrth yr Hebraeg *cinnor*, 'telyn,' i'r hon y tebygola o ran llun: gwel ar Mat. iv. 18.

Adn. 12. *A'r terfyn a â i waered tua'r Iorddonen*] Y mae yr afon hon yn enwog yn yr Hen Testament a'r Newydd. Y mae yn codi wrth droed mynydd Libanus, yn rhedeg trwy fôr Cinnereth, ac yn ymarllwys i'r môr marw, o'r hwn nid oes iddi ollngiad: gwel ar Gen. xix. 25. Gwnaeth Duw ynddi ac wrthi lawer o wyrthiau. Holltodd Duw ddyfr-oedd yr afon hon megys y gwnaethai yn y môr coch, i Israel fyned trwyodd ar dir sych. Darfu i Elias ac Eliseus wahanu ei dyfroedd mewn flordd wyrthiol, 2 Bren. ii. 8, 14. Naaman, y cadfridog Syriaidd, trwy ymolchi ynddi wrth orchymyn y profwyd, a iachawyd yn wyrthiol o'i wahanglywdf, 2 Bren. v. 10—14. Yn yr afon hon bedyddiodd Ioan luodd mawron o'r Iuddewon; ac yma y bedyddiwyd ein Harglwydd bendigedig ei hun, Mat. iii. 6, 16.

Adn. 13. *Dyma y tir a renwch yn etifedd-*

goelbren, yr hwn a orchymynodd yr Arglwydd ei roddi i'r naw llwyth, ac i'r hanner llwyth.

14 Canys cymerasai llwyth meibion Reuben yn ol tŷ eu tadau, a llwyth meibion Gad yn ol tŷ eu tadau, a hanner llwyth Manasse, cymerasant, *meddaf*, eu hetifeddiaeth.

15 Dau lwyth a hanner llwyth a gymerasant eu hetifeddiaeth o'r tu yma i'r Iorddonen, *yn agos* i Jericho, tua'r dwyrain a chodiad *haul*.

16 ¶ Llefarrowd yr Arglwydd *hefyd* wrth Moses, gan ddywedyd,

17 Dyma enwau y gwŷr a ranant y tir yn etifeddiaethau i chwi: Eleazar yr offeiriad, a Josua mab Nun.

18 Ac un penaeth o bob llwyth a gymerwch, i ranu y tir yn etifeddiaethau.

19 Ac fel dyma enwau y gwŷr: o lwyth Juda, Caleb mab Jephunnah.

20 Ac o lwyth meibion Simeon, Semuel mab Ammihud.

21 O lwyth Benjamin, Elidad mab Cison.

22 A Bucci mab Jogli, yn benaeth o lwyth meibion Dan.

23 O feibion Joseph, Haniel mab Ephod, yn benaeth dros lwyth meibion Manasse.

24 Cemuel hefyd mab Siptan, yn benaeth dros lwyth meibion Ephraim.

25 Ac Elisaphan mab Pharnach, yn benaeth dros lwyth meibion Zabulon.

26 Paltiel hefyd mab Asan, yn benaeth dros lwyth meibion Issacar.

27 Ac Ahihud mab Salomi, yn benaeth dros lwyth meibion Aser.

28 Ac yn benaeth dros lwyth meibion Naphtali, Pedahel mab Ammihud.

29 Dyma y rhai a orchymynodd yr Arglwydd iddynt ranu etifeddiaethau i feibion Israel, yn nhir Canaan.

PENNOD XXXV.

A LLEFARODD yr Arglwydd wrth Moses, yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, *yn agos* i Jericho, gan ddywedyd,

2 Gorchymyn i feibion Israel, roddi o honynt i'r Lefiaid, o etifeddiaeth eu meddiant, ddinasoedd i drigo ynddynt: rhoddwch *hefyd* i'r Lefiaid faes pentrefol wrth y dinasoedd o'u hamgylch.

3 A'r dinasoedd fyddant iddynt i

iaethau wrth goelbren] Yr oeddysnt i'w feddiannu wrth goelbren, fel y byddai i bob un foddloni i'w etifeddiaeth, fel yn cael ei phenodi iddo gan ragluniaeth arbenig Duw; a'i derfynau a sicrhawyd trwy ddwyfol awdurdod, i atal pob chwantaerwydd ar ol tiriogaethau rhai ereill. Ac oddiwrth y dysgrifiad blaenorol ymddengys fod pobl Israel wedi cael eu gosod mewn gwlad *hufryd* iawn, yn cael ei chysgodi rhag gwyntoedd poethion a niweidiol anialwch Arabia gan fynyddoedd mawrion o du y deau; yn cael ei hadfywio gan awelon gorllewinol o Fôr-y-canoldir; yn cael ei hamddiffyn gan fynyddoedd Libanus rhag gwyntoedd oerion y gegledd; a'r ochr ddwyreiniol iddi yr oedd dyffrynnoedd prydferth yr Iorddonen: gwel ar Deut. viii. 7—9.

Adn. 14. *Canys cymerasai llwyth meibion Reuben, &c.*] Nid oedd y ddau lwyth a hanner hyn i dderbyn etifeddiaeth wrth goelbren yn Nghanaan, am iddynt ddeuis eu hetifeddiaeth yr ochr arall i'r Iorddonen: gwel ar pen. xxxii.

Adn. 15. *Yn agos i Jericho*] Gyferbyn â Jericho, yr ochr arall i'r Iorddonen.

Adn. 16—29. *Dyma enwau y gwŷr a ranant y tir, &c.*] Er fod rhaniad y tir i gael ei wneuthur wrth goelbren, adn. 13, eto yr oedd yn iawn fod i ryw bersonau gael eu penodi i edrych ar ol y gwaith, ac i ofalu na byddai twyll na chwerylon wrth drefnu y coelbren. *Eleazar yr offeiriad*—oedd i lywyddu dros Dduw, ac i ymgynghori â Duw mewn achos o ddyrswch, ac i edrych fod y cyfan yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn modd edmygol a chrefyddol. Yr oedd *Josua* hefyd, fel pen cadfridd, i gymeryd rhan yn y gorchwyl, yn

nghydag un penaeth o bob llwyth. *O lwyth Juda*—nid yw y llwythau yn cael eu gosod i lawr yma yn yr un drefn ag ar y ddau rifaad blaenorol, pen. i a xxvi; eithr yn yr un drefn ag yr etifeddent y tir, fel pe buasai Moses yn rhagweld pa lwythau a fyddent yn gymydogion nesaf i'w gilydd yn ngwlad yr addewid. Y mae hyn yn brawf nad oedd Moses yn gwneyd dim ond yn ol cyfarwyddyd ac arweiniad Ysbryd Duw: gwel ar Jos. xviii a xix.

PEN. XXXV. Adn. 1. *Yn agos i Jericho*] Ar gyfer Jericho, yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen.

Adn. 2. *Roddi o honynt i'r Lefiaid*] Ac i'r offeiriad hefyd, meibion Aaron, gan eu bod hwythau o lwyth Levi, Jos. xxi. 4; *ddinasoedd i drigo ynddynt*—y rheswm am y penodiad hwn yw, am nad oedd gan y Lefiaid, trwy eu bod yn gorff o bobl wahanedig oddi wrth y lleill o'r genedl, un gyfran yn nosbarthiad y wlad.

Adn. 3. *A'r dinasoedd fyddant iddynt i drigo ynddynt*] Er y ddarpariaeth hon, yr oedd yn gyfreithlon iddynt rentu neu brynu tai mewn unrhyw ddinas arall, yn enwedig yn Jerusalem; ac yn yr un modd gallai pobl ereill, trwy eu caniatâd hwy, drigo gyda hwynt yn eu dinasoedd hwythau. *A'u pentrefol-fuesydd fyddant i'w hanifeiliaid ac i'w cyfoeth*—yn ystablau a phorffeydd i'w hanifeiliaid, ac yn ystorffeydd i'w dodrefn o bob math. Nid oedd y maesydd hyn yn perthyn i'r Lefiaid yn gyffredin, eithr rhanwyd hwynt iddynt yn ddogneau cyfaddas. Darparwyd iddynt yn

drigo ynddynt; a'u pentrefol-faesydd fyddant i'w banifeiliaid, ac i'w cyfoeth, ac i'w holl fwystfilod.

4 A maesydd pentrefol y dinasoedd y rhai a roddwch i'r Lefaid, a gyrrhæddant o fur y ddinas tuag allan, fil o guffyddau o amgylch.

5 A mesurwch o'r tu allan i'r ddin-

as, o du y dwyrain ddwy fil o guffyddau, a thua'r deau ddwy fil o guffyddau, a thua'r gorllewin ddwy fil o guffyddau, a thua'r gogledd ddwy fil o guffyddau; a'r ddinas fydd yn y canol: hyn fydd iddynt yn faesydd pentrefol y dinasoedd.


6 Ac o'r dinasoedd a roddwch i'r

y modd yma, fel y gallent lynu yn ddyfalach wrth fyfyrion y gyfraith, a chael niw y seibiant i addysgu y bobl. Ac wrth fyw fel hyn yn ymyl eu gilydd, gallent yn hawdd gydymddyddan am bethau dwyfol er adeiladaeth i'w gilydd; ac mewn achosion amheus gallent ymgynghori â'u gilydd, ac yn mhob achos gadarnhau dwyrlaw eu gilydd.

Adn. 4. *Fil o guffyddau*] Oddiwrth fur y ddinas ond odid hyd at y rhag-gaerau: gwel isod.

Adn. 5. *A mesurwch o'r tu allan i'r ddinas*] Sef tu allan i'w rhag-gaerau hi bob ochr; *ddwy fil o guffyddau*—yn chwanegol, yn gwneyd tair mil o guffyddau yn y cwbl. Cafodd esbonwyr eu dyrsu yn fawr gyda'r adroddiadau yn y ddwy adnod hyn, fel y sylwa Clarke. Yn adn. 4, dywedir fod y mesur yn *fil* o guffyddau oddiwrth y mur; yn adn. 5, dywedir fod y mesur yn *ddwy fil* o'r tu allan i'r ddinas. Tybia rhai fod y ddau fesur yma yn meddwl

yr un peth; o leiaf felly y deallwyd ef gan y LXX a'r Goptaeg, y rhai a ddarllenent *ddwy fil* yn y *bedwardedd* adnod yn gystal a'r *bum-med*: ond nid yw y darlleniad hwn yn cael ei gydnabod gan uurhyw un arall o'r ben gyfieithiadau, na chan un o'r ysgriflyfrau a gy-mharwyd gan *Kennicott* a *De Rossi*. Cafodd amrywiol foddau o gysondeb eu cynyg gan esbonwyr, y rhai a ymddanghosant yn y cyffredin yn gofyn llawn cymaint o eglurhad a'r testyn ei hun. *Maimonides* yw yr unig un dealladwy ar y pwnc. 'Dywedir yn y gyfraith,' meddai efe, 'fod maesydd pentrefol y dinasoedd yn *dair mil* o guffyddau bob ochr, o fur y ddinas tuag allan. Y fil gyntaf o guffyddau ydynt y rhag-gaerau; a'r ddwy fil, y rhai a fesurent o'r tu allan i'r rhag-gaerau, oeddynt yn *faesydd* a *gwinllanoedd*.' Gan hyny gellir arddangos yr holl ddinas, y rhag-gaerau, a'r maesydd a'r gwinllanoedd, trwy y cynllun canlynol:



Lefiaid, *bydded* chwech yn ddinasoedd noddfa, y rhai a roddwch, fel y gallo y llawruddiog ffoi yno : a rhoddwch ddyw ddinas a deugain atynt yn ychwaneg.

7 Yr holl ddinasoedd a roddwch i'r Lefiaid, *fyddant* wyth ddinas a deugain, hwynt a'u pentrefol-facsydd.

8 A'r dinasoedd y rhai a roddwch, *fydd* o feddiant meibion Israel : oddi ar yr aml *eu dinasoedd*, y rhoddwch yn aml; ac oddiar y prin, y rhoddwch yn brin : pob un yn ol ei etifeddiaeth a etifeddant, a rydd i'r Lefiaid o'i ddinasoedd.

9 ¶ A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd,

10 Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Pan eloch dros yr Iorddonen i dir Canaan;

11 Yna gosodwch i chwi ddinasoedd; dinasoedd noddfa fyddant i chwi: ac yno y ffly y llawruddiog a laddo ddyn mewn amryfusedd.

12 A'r dinasoedd fyddant i chwi yn noddfa rhag y dalydd; fel na ladder

y llawruddiog, hyd oni safu gerbron y gynulleidfa mewn barn.

13 Ac o'r dinasoedd y rhai a roddwch, chwech fydd i chwi yn ddinasoedd noddfa.

14 Tair dinas a roddwch o'r tu yma i'r Iorddonen, a thair dinas a roddwch yn nhir Canaan : dinasoedd noddfa fyddant hwy.

15 I feibion Israel, ac i'r dyeithr, ac i'r ymdeithydd *a fyddo* yn eu mysg, y bydd y chwe dinas hyn yn noddfa; fel y gallo pob un a laddo ddyn mewn amryfusedd, ffoi yno.

16 Ac os âg offeryn haiarn y tarawodd ef, fel y bu farw, llawruddiog *yw* efe; lladder y llawruddiog yn farw.

17 Ac os â chareg law, yr hon y byddai efe farw o'i phlegid, y tarawodd ef, a'i farw; llawruddiog *yw* efe: lladder y llawruddiog yn farw.

18 Neu os efe a'i tarawodd ef â llawffon, yr hon y byddai efe farw o'i phlegid, a'i farw; llawruddiog *yw* efe: lladder y llawruddiog yn farw.

19 Diallydd y gwaed a ladd y llaw-

Adn. 6—8. *Ac o'r dinasoedd a roddwch i'r Lefiaid, bydded chwech yn ddinasoedd noddfa*] Yr oedd y dinasoedd hyn yn cael eu penu yn mhllth y Lefiaid, (1) Am y gellid eu tybied hwy y barnwyr mwyafr priodol ac amhleiddgar rhwng llofrudd a murniwr neu fwrddrwr gwirfoddol. (2) Am y byddai i'w presenoldeb a'u dylanwad hwy firwyno yn fwy effeithiol nwydau diallydd y gwaed, yr hwn a allai ei erlyn ef hyd yno. Ac, (3) I arwyddo mai yn Nghrist yn unig, yr hwn yr oedd yr offeiriad Lefiaidd yn ei gynrychioli, y mae pechaduriaid yn cael noddfa a diogelwch rhag y dinystrydd. Yr oedd tair o'r dinasoedd noddfa hyn yn ngwlad Canaan, a thair yr ochr arall i'r Iorddonen, adn. 14, y rhai a enwir Jos. xx. 7, 8.

Adn. 9—11. *A llefarodd yr Arglwydd, — Gosodwch i chwi ddinasoedd, &c.*] Yr oedd y dinasoedd noddfa yn mhllth yr Israeliaid yn dra gwahanol i'r *noddfydd* yn mhllth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, a'r *allorau breiniol* yn mhllth y Pabyddion. Y rhai hyn yn mhllth yr Israeliaid oeddynt er diogelwch i'r cyfryw yn unig ag oeddynt wedi lladd dyn yn anfwriadol; tra yr oedd y tmlau a'r allorau yn mysg y lleill yn amddiffynfa yn fynych i'r cymeriadau mwyafr drygonus. Yr oedd y dinasoedd noddfa yn mysg yr Israeliaid yn angenrheidiol, am fod yr hen gyfraith batriarchaidd yn aros fyth mewn grym, sef fod gan y *cyfnasaf* hawl i ddial gwaed ei berthynas trwy ladd y llofrudd; canys yr oedd y ddeddf wreiddiol yn ordeinio fod i'r 'neb a dywalltai waed dyn,' gael 'trwy ddyw dywallt ei waed yntau,' Gen. ix. 6; ac nid oedd neb yn cael ei farnu mor addas i gyflawni y ddeddf hon a chyfnasaf y marw. Ond gan y gallai llawer cyflawniad byrbwyll o'r ddeddf hon gymeryd

lle, barnwyd yn angenrheidiol liniaru ei hawliau, a rhagflaenu anghyfiawnder; ac yr oedd y dinasoedd noddfa yn cael eu hystyried yn addas i'r perwyl hwn.

Adn. 12. *Hyd oni safu gerbron y gymulleidfa mewn barn*] Felly nid oedd un o'r dinasoedd hyn yn noddfa fythol, ond yn unig dros amser, nes i'r achos gael ei chwilio yn ddeg gan yr ynadon yn ngwydd y bobl, neu yr henuriaid eu cynrychiolwyr hwynt; a hyn a wneid yn y ddinas neu y fan lle y cyflawnasai efe y llofruddiaeth, Jos. xx. 4, 6. Os ceid ef yn haeddu marwolaeth, rhoddid ef yn llaw y dalydd i'w ladd, Deut. xix. 12; os amgen, anfonid ef yn ol i'r ddinas noddfa, lle yr arhosai hyd farwolaeth yr archoffeiriad, adn. 25. Cyn i'r dinasoedd noddfa gael eu penodi, ymddengys fod yr *allor* yn noddfa i'r rhai a laddent ddyn yn anfwriadol, Exod. xxi. 13, 14.

Adn. 14—16. *Tair dinas a roddwch o'r tu yma i'r Iorddonen*] Canys yr oedd y tir hwnw cyn hired a Chanaan, er nad cyn lleted; ac heblaw hyny, gallai y dinasoedd hyn fod yn gyffes i lawer o drigolion Canaan, yn gystal ag i'r ddau lwyth a hanner. *Y tarawodd ef* — yn wybodol a gwirfoddol, er nad gyda malais rhagfwiadol. *Lladder y llawruddiog yn farw*—ie, er iddo ffoi i'r ddinas noddfa.

Adn. 17, 18. *Ac os â chareg law*] Wedi ei thafu ato â'i law. Nid oedd gwahaniaeth â pha offeryn y lladdwyd ef, pa un ai gyda haiarn, pren, neu gareg: os lladdwyd ef yn wybodol, yr oedd hyny yn fwrddrad, ac yr oedd yntau fel un euog i farw o'r herwydd. Er fe allai nad oedd ganddo ef un bwriad i ladd y dyn, eto dylasai lywodraethu ei nwydan; ac ni fedrai lai na gwybod fod y fath offeryn yn alluog i wneyd archoll marwol.

Adn. 19. *Diallydd y gwaed*] Heb. *goel had-*

ruddiog: pan gyfarfyddo âg ef, efe a'i ladd ef.

20 Ac os mewn cas y gwthia efe ef, neu y teifl ato mewn bwriad, fel y byddo efe farw;

21 Neu ei daro ef â'i law, mewn galanasdra, fel y byddo farw: lladder yn farw yr hwn a'i tarawodd; llofrudd *yw* hwnw: dialydd y gwaed a ladd y llofrudd, pan gyfarfyddo âg ef.

22 Ond os yn ddisymwth, heb alanasdra, y gwthia efe ef, neu y teifl ato un offeryn yn ddfwriad;

23 Neu ei daro ef â chareg, y byddai efe farw o'i phlegid, heb ei weled ef; a pheri iddi syrthio arno, fel y byddo farw, ac efe heb fod yn elyn, ac heb geisio niwed iddo ef:

24 Yna barned y gynulleidfa rhwng y tarawydd a dialydd y gwaed, yn ol y barnedigaethau hyn.

25 Ac achubed y gynulleidfa y llofrudd o law dialydd y gwaed, a thröed y gynulleidfa ef i ddinas ei noddfa, yr hon y ffödd efe iddi: a thriged yntau

ynddi hyd farwolaeth yr archoffeiriad, yr hwn a eneiwyd â'r olew cysegr-edig.

26 Ac os y llofrudd gan fyned a â allan o derfyn dinas ei noddfa, yr hon y ffödd efe iddi;

27 A'i gael o ddialydd y gwaed allan o derfyn dinas ei noddfa, a ladd o ddialydd y gwaed y llofrudd; na *rodder hawl* gwaed yn ei erbyn:

28 Canys o fewn dinas ei noddfa y dyly drigo, hyd farwolaeth yr archoffeiriad: ac wedi marwolaeth yr archoffeiriad, dychweled y llofrudd i dir ei etifeddiaeth.

29 A hyn fydd i chwi yn ddeddf farnedig trwy eich cenedlaethau, yn eich holl drigfanau.

30 Pwy bynag a laddo ddyn, wrth a ddywedo tystion y lleddir y llofrudd: ac un tyst ni chaiff dystiolaethu yn erbyn dyn, i *beri iddo* farw.

31 Hefyd na chymerech iawn am einioes y llofrudd, yr hwn sydd euog i farw; ond lladder ef yn farw.

dam, 'prynwr y gwaed;' y cyfnasaf mewn gwaed i'r hwn a laddwyd. *A ladd y llawruddiog*—y mae Le Clerc yn ei gyfieithu, 'Bydd yn gyfreithlon i'r dialydd ei ladd ef; canys ymddengys mai goddefiad yn unig yd-oeidd, nid gorchymyn. Efe a allai, heb ddigio Duw na'i beryglu ei hun, ladd y llawruddiog â'i law ei hupan. Ond os byddai ef yn analluog, neu heb ewyllysio gwneyd hyn, yr oedd yn rhwym i'w erlyn, a'i ddwyn i'w farnu.

Adn. 20, 21. *Ac os mewn cas*] Gyda rhagfwriad yn codi oddiar gasineb; *neu ei daro ef â'i law mewn galanasdra*—Saes. 'mewn gelnyiaeth.'

Adn. 22—24. *Ond os yn ddisymwth, &c.*] Heb un rhagfwriad na dygasedd, ond yn hollol ddamweiniol. Eto yr oedd efe i ftoi i'r ddinas noddfa, a chael ei farnu gan y gynulleidfa: gwel ar adn. 12.

Adn. 25. *A thriged yntau ynndi hyd farwolaeth yr archoffeiriad*] Yr hyn a benodwyd, (1) I ddangos ercyhlidra llofruddiaeth yn nghyfrif Duw, trwy y fath gomp lem hyd yn nod ar lofruddiaeth anfwriadol. (2) Er diogelwch i'r llofrudd, rhag i'w drigian yn mhilith perthynasau yr ymadawedig achosi eddlwiad a thywalltiad gwaed. Ac, (3) I ddysgu i ereill fod yn wylhadwrs, rhag iddynt trwy esgeulusdra ddygwylld lladd neb, ac felly orfod gad-ael eu cartref, eu tenlu, a'u cyfeillion. Dywed yr Iuddeuon y byddai mam yr archoffeiriad yn anfon i'r llofrudd lawer o roddion, fel y byddai iddo fod yn gysurus a boddlon yn y ddinas noddfa, a phheidio gweddio am farwolaeth yr archoffeiriad: gwel ar adn. 28, 32.

Adn. 26. *Ac os y llofrudd gan fyned a â allan, &c.*] Os ceid y llofrudd un amser yn erwydro allan o derfynau ei ddinas noddfa, neu os âi efe adref yn lladradaidd i'w dy ei hun, efe a gollai fudd ei amddiffyniad, a

byddai yn agored i ddialydd y gwaed. 'Felly rhaid i'r rhai hyn ag *sydd* yn Nghrist, *aros* yn Nghrist; canys y maent ar eu perygl os bydd iddynt ei adael ef, a chrwydro oddiwrtho. *Tynu yn ol* sydd i gollledigaeth!'—HENRY.

Adn. 27. *Na rodder hawl gwaed yn ei erbyn*] Er y byddai dialydd y gwaed, wrth ladd y llofrudd a grwydrai allan o'r ddinas noddfa, yn rhydd oddiwrth *hawl gwaed*—hyn yw, heb fod yn agored i gomp oddiwrth ddynion, eto ni byddai ef yn rhydd oddiwrth enogrywyd gerbron Duw.

Adn. 28. *Ac wedi marwolaeth yr archoffeiriad*] Yr hwn a ystyrir fel tad ysbrydol holl Israel, *dychweled y llofrudd i dir ei etifeddiaeth*—mewn diogelwch; canys tra yr oedd pawb yn galarn am farwolaeth *tad*, nis gallai neb feddlwl am ddial llofruddiaeth anfwriadol *brawd*. Yr oedd eu tristwch ar ymadawiad bendith mor farw yn llyncu pob teimlad arall: gwel ar adn. 32.

Adn. 29. *Yn ddeddf farnedig*] Neu yn rheol i farnu rhwng llofruddiaeth fwriadol ac anfwriadol.

Adn. 30. *Un tyst ni chaiff dystiolaethu yn erbyn dyn*] Yr oedd hon yn ddarpariaeth gyfiaw'n ac angenrheidiol. Gallai un dyn fod yn *cangymeryd*, neu mor dra *rhagfarnllyd* fel ag i dwyllo hyd yn nod ei farn ei hun, neu mor *ddrygionus* fel ag i geisio cymeryd ymaith fywyd ei gymydog trwy falais: ond nid yw yn debyg y byddai *dau* neu *fwy* o'r fath yma; a phe byddent, gwnai eu chwilio ar *wahan* arwain ond odid i ddatguddiad o'r gwirionedd.

Adn. 31. *Hefyd, na chymerech iawn am einioes y llofrudd*] Ni ellid gwneyd cymod drosto ef, na derbyn pridwrth fel ag i'w war-edu rhag angau, Darfu i holl gyfreithiau y byd gwareiddiedig ddeddfydu y mwrdwrw naill ai i farwolaeth, neu i gomp gyfartal iddi;

32 Ac na chymerwch iawn gan yr hwn a ffôdd i ddinas ei noddfa, er cael dychwelyd i ddrigo yn y tir, hyd farwolaeth yr offeiriad;

33 Fel na halogoch y tir yr ydych ynddo: canys y gwaed hwn a haloga y tir: a'r tir ni lanheir oddiwrth y

gwaed a dywallter arno, ond â gwaed yr hwn a'i tywalltodd.

34 Am hyn nac aflanha y tir y trigoch ynddo, yr hwn yr ydwyf fi yn preswyllo yn ei ganol: canys myfi yr Arglywydd ydwyf yn preswyllo yn nghanol meibion Israel.

megys carchariad bythol mewn dyfngell dan y ddaear, ar lawr cerig, heb oluni, ac i gael ei borthli â dogn bychan o fara a dwfr.

Adn. 32. *Ilyd farwolaeth yr archoffeiriad*] Yr hyn ond odid a arwyddai, nas gall un pechadur gael ei waredu o'i alltudiaeth oddiwrth Dduw, nac adfeddiannu ei etifeddiaeth forffetiedig, nes i Iesu Grist, yr Archoffeiriad mawr, farw dros ei bechodau, ac adgyfodi i'w gyfiawnbau.

Adn. 33, 34. *Fel na halogoch y tir, &c.*] Yr oedd hyd yn nod y tir yn cael ei ystyried fel yn euog nes i waed y llawruddiog gael ei dywallt ynddo. Nid rhyfedd fod Duw mor fanwl yn ei gyfreithiau yn erbyn murnwyr, (1) Am mai efe yw awdwr bywyd, ac nad oes gan neb hawl i'w gymeryd ef ymaith ond ei hunan. (2) Am mai bywyd yw yr amser i ymbarotoi erbyn tragwyddoldeb, ac mai arno ef y mae iachawdriaeth yr enaid o ganlyniad yn ymddibyn; gan hynny y mae o anteidrol bwys i'r dyn, fod i'w fywyd gael ei estyn allan i'r terfynau eithaf a ganiateir gan Ddwyfol Ragluniaeth. Gan y dichen i'r hwn a gymero ymaith fywyd dyn cyn ei amser fod yn llofrudd i'w enaid yn gystal a'i gorff, dylai y cyfreithiau llymaf gael eu gosod yn erbyn hynny, i gopsi a rhagfianu y trosedd.

AWFEDDYLADAU.—(1) Ar ol i'r Arglywydd wneyd y Lefiaid yn gysurus trwy y degwn, a thrwy rwyth-a-deugain o ddinasoedd, yn nesaf efne a'u gwnaeth hwynt yn amddiffynwyr i'r dyn a allai fod mor afwyddiannus a lladd ei gymydog yn ddiŵfriad. Yr oedd tair dinas noddfa yn gorwedd yn ddwyreiniol, a thair yn orllewinol i'r Iorddonen, a bron yn gyfochrog â'i firwd hi. Gwaith y Sanhedrim, meddai Maimonides, oedd cadw y ffyrdd i'r dinasoedd hynny mewn trefn dda, ac yn ddeuddeg cufydd ar hugain o led. Ni chaniteid na twyn ar y ffordd, nac afon heb bont drosti; ac ar bob croesffordd yr oedd y gair NODDFA! NODDFA! wedi ei ysgrifenu ar fnyeugbost mewn llythyrenau mawrion. Maccoth, fel y sylwyd o'r blaen, a ddywed y byddai mam yr archoffeiriad yn porthi ac yn dilladu y llofruddion, fel na fyddai iddynt weddio am farwolaeth ei mab; ac os byddai i ddyn ladd yr archoffeiriad, nad oedd efe byth mwyach i ddychwelyd i'w le. A diau ddarford i'r ddeddf hon gael ei harswydus rymso yn erbyn yr Iuddewon am ladd Arglywydd y gogoniant! (2) Gallwn sylwi yn mhellach fod y noddfa a ddarparwyd i lofruddion yn dra dangosiadol o'r noddfa a ddarparodd Duw yn Nghrist a'i eglwys i bechaduriaid tylodion. Gwel yr enaid wedi ei ddihuno a'i gyffroi gan ddychrynfeydd y ddeddf. Y mae bywyd o ffolineb a phechod yn sefyll yn ddiorddudd o flaen ei olygon. Y mae yn ymofidio am iddo ofidio yr Arglywydd. Ond nis gall efe ddadwneyd ei bechod, mwy

nag y gallai y llofrudd adferyd ei gymydog i fywyd, er y rhoddai efe yr holl fyd am allu gwneuthur hynny. Ar y llaw arall, gwel gyfiawnder, megys dialydd y gwaed, yn ysgwyd ei gledddyf yn erbyn y troseddwr, gan fygwth ei enaid â marwolaeth. Pa beth a wna y pechadur? I ba le y dichen iddo ffio? Yn mha le y gall efe gael noddfa, pan mai y Nef sydd yn myned i daraw? Boed iddo yn awr droi ei olygon at Grist wedi ei groeshoelio dros bechaduriaid. Wrth farw dros ddyn, efe a ddiarfogodd ddychrynfeydd cyfiawnder, ac y mae yn awr yn agor noddfa ei ystlys archolledig i dderbyn yr enaid edifeiriol a chrediniol. Ynddo ef y mae i ni brydedigaeth, trugaredd, a gras. Ynddo ef cawn y cyfammod newydd yn ymestyn allan gyda mil o addevidion; cyfammod wedi ei gadarnhau trwy lw i Abraham, 'fel trwy ddau beth dianwadal,' addeuid a llw Duw, 'y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen,' Heb. vi. 18. Gwel nid yn unig yr iachawdwr, ond hefyd yr eglwys, gyda'i breichiau a'i phythyn yn agored i dderbyn y pechadur tylawd a thrallodus. Dyma noddfa, nid yn Hebron, nid yn Sichem, nid yn Cedes; eithr yn 'mynydd Seion, dinas y Brenin mawr'; a 'Duw yn ei phalasau a adwaenir yn amddiffynfa,' Salm xlvi. 2, 3. (3) Yr oedd y ffordd i'r ddinas yn eglur, a'r pellter yn fyr. Pan nad yw dyn mewn agwedd addas i gael ei fendithio, y mae trôedigaeth yn ymddangos yn anhawdd neu yn annichnadwy; ond pan y mae y meddwl dan ddwys-wasgiad, y mae yn hawdd dyfod at Dduw. Ni raid i'r pechadur ddim ond gofyn, ac efe a dderbyn; ddim ond ceisio, ac efe a gaiff. Gall ddyfod gyda'i holl drueni i dderbyn trugaredd, gyda'i holl eisiau i gael ei ddiwallu. Y mae y ffordd mor eglur fel y gallo yr hwn a redo ddarllen; a'r neb a rodio y ffordd, pe byddai ynfyd, ni chyfeirianna. (4) Ymwybodolrwydd o sier ddynesiad perygl vdoedd yn gyru y llofrudd i'r ddinas noddfa. Y mae yr achos yn gyffilyb gyda phechadur. Tra y mae dyn yn dychymygu ei fod yn ddiogel yn ei bechodau; tra y mae yn credu fod y dydd drwg yn mhell oddi wrtho, neu na ddawef byth; tra y mae iechyd a llawnder yn gwenu o'i amgylch, y mae ef yn cydreddeg â'r firwd, ac yn diystyru o'nf. Eithr bydded iddo gofio fod y Nef eisioes wedi ymarfogi yn erbyn yr euog, a bod y dymhestl weithiau yn ymruthro hanner dydd; canys yn yr awr ni thbyiom y daw Mab y dyn. (5) Ni allai un dyn ymmoddi yn y dinasoedd hynny yn ei bechodan, ni allai un llawrddiog gael amddiffyniad yno; ac hyd yn nod mewn achos o ddamwain, pan syrthiaid dyn trwy ddyrnod anffuriadol, ei achos a wrandewid yn ochelgar. Yma yr ymddengys goruwch ogoniant a rhyddid yr ofengyl ragor y gyfriaith. Gall

PENNOD XXXVI.

PENAU cenedl tylwyth meibion Gilead, mab Machir, mab Manasse, o dylwyth meibion Joseph, a ddaethant hefyd, ac a lefarasant gerbron Moses, a cherbron y penaduriaid, *sef* penau cenedl meibion Israel;

2 Ac a ddywedasant, Yr Arglwydd a orchymynodd i'm harglwydd roddi y tir yn etifeddiaeth i feibion Israel wrth goelbren: a'm harglwydd a orchymynwyd gan yr Arglwydd, i roddi etifeddiaeth Salphaad ein brawd i'w ferched.

3 Os hwy a fyddant wragedd i rai o feibion llwythau *ereill* meibion Israel; yna y tynir ymaith eu hetifeddiaeth hwynt oddiwrth etifeddiaeth ein tadau ni, ac a'i chwanager at etifeddiaeth y llwyth y byddant hwy eiddynt: a phrinheir ar randir ein hetifeddiaeth ni.

4 A phan fyddo y jubili i feibion Israel, yna chwanager eu hetifeddiaeth hwynt at etifeddiaeth llwyth y rhai y byddant hwy eiddynt: a thorir

pechaduriaid o'r dosbarth aflanaf gael bywyd a noddfa yn Nghrist, os ydynt yn casâu ac yn ymwrthod â'u pechodau; os yw eu hedifeirwch yn cael ei ddylyn â'r holl ffrwythau o ad-daliad ac iawn yn eu gallu, a chyda'r bwrriadau puraf o dduwioldeb rhagllaw. O mor ddedwydd yw pechadur wrth gael ei goffeidio yn mrechiau y Gwaredwr, a'i amddiffyn â chyfammod Duw! Boed iddo aros yn ei noddfa byth; canys y mae ei Archoffeiriad mawr, wedi iddo unwaith farw, yn byw yn dragywydd mewn gogoniant gyda'r Tad.

PEN. XXXVI. Adn. 1—3. *Penau cenedl tylwyth meibion Gilead, &c.*] Yr ydym yn darllen o'r blaen, pen. xxvii, am ddarpariaeth yn cael ei gwneuthur i etifeddesau Salphaad, cangen o lwyth Manasse; ac er i Moses sicrhau iddynt etifeddiaeth wahanedig, eto darfu i rai o bennaethiaid y tylwyth hwnw, wrth ragweled y gallai anghyfleusdra mawr ddygwydd yn mhriodas y merched hyn, wneuthur deiseb newydd at Moses, yn mhresenoldeb penau cenedl meibion Israel, am gyfraith briodol i'w ragfaenu. Dangosasant iddo, os byddai i'r etifeddesau hyn briodi i lwythau ereill, y byddai i'w hetifeddiaethau o ganlyniad gael eu trosglwyddo oddiwrth eu llwyth eu hunain, a'u corffori yn yr un ag y priodent iddo trwy hawl eu gwŷr. Tybia rhai y dylasai y bennod hon gael ei doddi yn ddi-gyfrwng ar ol pen. xxvii. 11.

Adn. 4. *A phan fyddo y jubili, &c.*] Ni fyddai i'r jubili ei hun, meddant, er iddi gael ei bwriadu i gadw perffaith wahaniad etifeddiaethau, llwythau, a theuluoedd, wella dim ar yr anghyfleusdra hwn, gan y byddai i'r etif-

eu hetifeddiaeth hwynt oddiwrth etifeddiaeth llwyth ein tadau ni.

5 A gorchymynodd Moses i feibion Israel, yn ol gair yr Arglwydd, gan ddywedyd, Mae llwyth meibion Joseph yn dywedyd yn union.

6 Dyma y gair a orchymynodd yr Arglwydd am ferched Salphaad, gan ddywedyd, Byddant wragedd i'r rhai y byddo da yn eu golwg eu hun; ond i rai o dylwyth llwyth eu tad eu hun y byddant yn wragedd.

7 Felly ni threigla etifeddiaeth meibion Israel o lwyth i lwyth: canys glynu a wna pob un o feibion Israel yn etifeddiaeth llwyth ei dadau ei hun.

8 A phob merch yn etifeddu etifeddiaeth o lwythau meibion Israel, a fydd wraig i un o dylwyth llwyth ei thad ei hun; fel yr etifeddo meibion Israel bob un etifeddiaeth ei dadau ei hun.

9 Ac na threigled etifeddiaeth o lwyth i lwyth arall; canys llwythau meibion Israel a lynant bob un yn ei etifeddiaeth ei hun.

feddiaethau hyn ddisgyn yn y jubili, trwy hawl cyffredin priodas, i etifeddion y merched hyn, os priodent i lwyth arall.

Adn. 5. *Yn dywedyd yn union*] Wrth ddywuno na byddo i etifeddiaeth y merched hyn fyned allan o'u llwyth.

Adn. 6, 7. *Byddant wragedd i'r rhai y byddo da yn eu golwg eu hun*] Nid oeddynt yn cael eu cyfyngu at unrhyw berson neillduol, ond gallent gymeryd eu dewis o'r rhai a geisient eu cydsyniad, os byddent yn disgyn o'r un tylwyth. Ond rhwystrid iddynt briodi dynion o lwyth arall, neu o dylwyth arall yn yr un llwyth; canys mynai Duw i etifeddiaeth y tylwythau, yn gystal ag eiddo y llwythau, gael ei chadw yn gyfan ac ar wahan. Ac yn ol hyny hwy a briodasant eu cefnderoedd, adn. 11.

Adn. 8. *A phob merch yn etifeddu etifeddiaeth*] Nid oedd y ddeddf hon yn effeithio ar neb ond *etifeddesau*; yr oedd pawb ereill yn rhydd i briodi i unrhyw un o'r llwythau ereill; ac yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid, y rhai na allent gael etifeddiaeth, yn rhydd oddi wrth rwymau y ddeddf hon. Cafodd Jehoiada, yr offeiriad, ferch y brenin Jehoram yn wraig, 2 Cron. xxii. 11; a chafodd offeiriad arall un o ferched Barzilai y Gileadiad yn wraig, Ezra ii. 61. Trwy y fath briodasau y gallai fod perthynas rhwng Elisabeth, mam Ioan Feddydiwr, yr hon oedd o ferched Aaron, a Mair y Forwyn, mam ein Harglwydd, pa un oedd o lin Dafydd, ac o lwyth Juda, Luc i. 5, 36, a iii. 23—31.

Adn. 9. *Ae na threigled etifeddiaeth o lwyth i lwyth*] Y prif reswm pabam y mynai Duw gadw y llwythau a'r teuluoedd yn ddi-gymysg

10 Megys y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses, felly y gwnaeth merched Salphaad.

11 Canys Malah, Tirsah, a Hoglah, a Milcab, a Noah, merched Salphaad, fyuant yn wragedd i feibion eu hewythredd.

12 *I wŷr* o dylwyth Manasse, fab

oedd, fel y gallai y llwyth a'r teulu hefyd, o'r hwn yr oedd y Messia i hanu, ac wrth yr hwn yr adnabyddid ef, fod yn amlwg a diambeuol.

Adn. 10. *Felly y gwnaeth merched Salphaad*] Ar ol myned i wlad Canaan. Felly ymddengys i'r geiriau hyn gael eu chwanegu gan Josua, neu ryw ysgrifenydd diweddarach.

Adn. 11. *Fuant yn wragedd i feibion eu hewythredd*] Saes. 'i feibion brodyr eu tad.' Nid yw priodas â chefuderoedd, megys yn yr achos hwn, yn waharddedig mewn un man.

Joseph, y buant yn wragedd; a thrigodd eu hetifeddiaeth lwynt wrth lwyth tylwyth eu tad.

13 Dyma y gorchymynion a'r barnedigaeithau a orchymynodd yr Arglwydd i feibion Israel, trwy law Moses, yn rhosydd Moab, wrth yr Iorddonen, yn agos i Jericho.

Adn. 12. *Wrth lwyth tylwyth eu tad*] Nen 'wrth dŷ tylwyth eu tad.' 'Trwy yr anghraifft hon, a deddf yr etifeddiaeth yn y tir santaidd, dysgir i bobl Dduw ddal eu hetifeddiaeth yn sicr yn ei addewidion ef, a'u hawl yn Nghrist, y rhai y maent yn eu dal trwy ffydd.'—AINSWORTH.

Adn. 13. *Dyma y gorchymynion*] Perthynol i addoliad Duw; a'r barnedigaeithau—neu y deddfau gwladol: gwel ar Lef. xxvi. 46. *Yn agos*—neu ar gyfer Jericho.

PUMMED LLYFR MOSES,

A ELWIR

DEUTERONOMIUM.

BENTHYCASOM enw y llyfr hwn, fel mewn achosion o'r blaen, oddiwrth Ladin y Vulgate, megys y gwnaeth y Vulgate oddiwrth gyfieithiad Groeg y LXX, DEUTERONOMION, yr hwn sydd air cyfansawdd yn arwyddo yn llythrenol yr AIL GYFRAITH, am y cynwysa *ailadroddiad* o'r cyfreithiau blaenorol, oddiwrth ba amgylchiad y galwyd ef gan y rabiniaid MISHNEH, *adfynegiad* neu *ddyblygiad*. Eithr yn yr Hebraeg, fel y llyfrau blaenorol, y mae yn cymeryd ei enw oddiwrth ei ddechread, ELLEH HAD-DEBARIM, *dyma y geiriau*; ac yn y Beiblau rabinaidd goraf ei enw yw SEFER DEBARIM, *llyfr y geiriau*. Y mae llyfr DEUTERONOMIUM yn cynwys hanes yr hyn a ddygwyddodd yn yr anialwch o'r dydd cyntaf o'r unfed mis ar ddeg o'r ddeugeinfed flwyddyn ar ol ymadawiad yr Israeliaid o'r Aiff, byd y seithfed dydd o'r deuddegfed mis o'r unriwy; yn gwneyd yn y cwbl hanes gorchwyliaethau *pum mythnos* yn gywir, trwy fod misoedd yr Iuddewon yn *lleuadol*.—Gan fod Israel yn awr ar fnyed i wlad yr addewid, a bod llawer o honynt heb fod yn dystion o'r gwahanol orchwyliaethau yn yr anialwch, trwy fod y genhedlaeth o'r blaen wedi eu dyfetha oll oddieithr Caleb a Josua, i wasgu ar eu calonau ddwfn deimlad o'r rhwymedigaeth i Dduw, ac i'w parotoi i'r etifeddiaeth a ddarparasai Duw iddynt, y mae Moses yma yn *ailadrodd* prif ddygwyddiadau y deugain mlynedd ag oeddynt yn awr bron a dyben; yn dangos iddynt yr anheborol angenrheidrwydd o ofni, caru, ac ufyddhau i Dduw; yn ailadrodd y *deg gorchymyn*, gan fanwl egluro pob un, a'r ordinadau perthynol iddynt, a chwanegu ereill y rhai na thraddodasai efe o'r blaen; yn cadarnhau yr holl gyfraith mewn modd tra edmygol, gydag addewidion mawr iawn a gwerthfawr i'r rhai a'i cadwant, a bygythiad o'r barnedigaeithau mwyaf arswydus yn erbyn y rhai a'i torant; yn adnewyddu y cyfammod rhwng Duw a'r bobl; yn profwydo am y pethau a ddygwyddant yn y dyddiau diweddar; yn bendithio pob un o'r llwythau, yn broffwydoliaethol, gyda'r bendithion ysbyrdol a thymorol mwyaf dewisol; ac yna, ar ol tremio ar boll eaugder y tir o ben Pisgah, yn trengu, ac yn cael ei gladdu yn ddirgeilaidd gan Dduw, gan adael Josua mab Nun yn ganlynydd iddo.—Llyfr DEUTERONOMIUM, a'r Epistol at yr HEBREAID, sydd yn cynwys yr esboniad goraf ar natur, dyben, a defnydd y gyfraith. Gellir ystyried y blaenaf megys esboniad efengylaidd ar y pedwar llyfr blaenorol, lle y mae cyfeiriad ac arwyddocâd ysbyrdol gwahanol ranau y gyfraith yn cael eu rhoddi, a hyn yn y fath fodd na allai neb ei gyflawni a'r na feddai ddatguddiad eglur o'r gogoniant a ddatguddid. Gellir haeru yn ddiogel mai ychydig iawn o ranau o ysgrhythrau yr Hen Destament a ellir eu darllen gyda mwy ofudd i'r gwir Gristion na llyfr DEUTERONOMIUM.

PENNOD I.

DYMA y geiriau a ddywedodd Moses wrth holl Israel, o'r tu yma i'r Iorddonen, yn yr anialwch, ar y

PEN. I. Adn. 1. *Dyma y geiriau a ddywedodd Moses*] Y mae y pum adnod gyntaf o'r bennod hon yn cynwys yr arweiniad i mewn i'r llyfr; a thybia Clarke nad gwaith Moses ydynt, ond ddarfod eu chwanegu gan Josua neu Ezra. *Wrth holl Israel*—sef trwy eu penaethiaid neu eu henuriaid, y rhai oedd-

rhos gyferbyn â'r môr coch, rhwng Paran, a Thophel, a Laban, a Haseroth, a Dizahab.

2 (*Taith* un diwrnod ar ddeg *sydd* o

ynt i hysbysu yr ymadroddion hyn i'r holl bobl. *O'r tu yma i'r Iorddonen*—beber, 'yn nhranwryfa neu ryd yr Iorddonen,' gyferbyn â'r fan lle y croesodd yr Israeliaid ar ol marwolaeth Moses. *Ar y rhos gyferbyn â'r môr coch*—nid y môr lle y croesodd yr Israeliaid ar dir sych, canys yr oeddynt yn awr yn

Horeb, ffordd *gr eir* i fynydd Seir, hyd Cades-Barnea)

3 A bu yn y ddeugeinfed flwyddyn, yn yr unfed mis ar ddeg, ar y *dydd* cyntaf o'r mis, i Moses lefaru wrth feibion Israel, yn ol yr hyn oll a orchymynasai yr Arglwydd iddo *ei ddywedyd* wrthynt;

4 Wedi iddo ladd Schon brenin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon, ac Og brenin Basan, yr hwn oedd yn trigo yn Astaroth, o fewn Edrei;

5 O'r tu yma i'r Iorddonen, yn ngwlad Moab, y dechreuodd Moses egluro y gyfraith hon, gan ddywedyd,

6 Yr Arglwydd ein Duw a lefarodd wrthym ni yn Horeb, gan ddywedyd,

mbhellach oddiwrth hwnw nag y buont erioed. Nid yw y gair *môr* yn y testyn; ac nid yw y gair *Suph*, yr hwn a gyfieithiwn ni *coch*, yn arwyddo y 'môr coch,' oddieithr ei fod yn gysylltedig â *yam*, 'môr.' Y mae ef yma yn ddiamau yn arwyddo *traf* neu *dalaeth* yn neu ger rhosydd Moab: gwel ar Num. xxi. 14. *Rhwng Paran*—nis gallai hwn fod y Paran ag ydoedd wrth y môr coch, ac nid yn mbell oddiwrth fynydd Horeb; oblegid y lle a grybwyllir yma a orweddi ar derynau gwlad yr adawid, bellder mawr oddiwrth y blaenaf. *Dizahab*—gan fod *zahab* yn arwyddo aur, darfu i'r LXX ei gyfieithu, 'mân gloddiau aur,' ond odid am fod yno rai o'r cyfryw.

Adn. 2. *Taith un diwrnod ar ddeg*] Crybwyllir hyn i ddangos nad pellder y lleoedd oedd y rheswm na ddaethai yr Israeliaid, mewn cynifer o flynyddoedd, ddim pellach o Horeb nag i'r rhosydd hyn, ond o herwydd eu gwrthryfelgarwch hwy. *Cades-Barnea*—yr hon oedd yn agos i yffiniau Canaan. Buont ddeunaw mlynedd ar hugain yn erwydro i fyny ac i waered yn nghymydogoeth y lle hwn, heb gael eu goddef i fyned i'r orphwysfa addawedig oblegid eu gwrthryfelgarwch a'u haanghrediniaeth.

Adn. 3. *Y ddeugeinfed flwyddyn*] Yr oedd hon yn flwyddyn odidus i'r Israeliaid ar lawer o ystyriaethau: yn y mis cyntaf o'r flwyddyn hon y bu farw Miriam, Num. xx. 1; ar y dydd cyntaf o'r pummed mis y bu farw Aaron, Num. xxxiii. 33; ac oddeutu ei diwedd hi bu farw Moses ei hun.

Adn. 4. *Wedi iddo ladd Schon—ac Og*] Gwel ar Num. xxi. 21.

Adn. 5. *Egluro y gyfraith*] Galw i gof yr hyn a anghofiasai unthwy un, neu wneyd yn amlwg yr hyn yr oedd rhywun heb ei ddeall.

Adn. 6. *Digon i chwi drigo hyd yn hyn*] Yr oeddynt wedi bod yn aros wrth fynydd Sinai, neu yn Horeb, agos i flwyddyn, yn derbyn y gyfraith, yn adeiladu y tabernacl, yn rhifo y bobl, yn eu rhestru hwynt dan eu llumanau, &c. Ac felly, ar ol eu cyfaddasu at orymdaith drefnus, gorchymynwyd iddynt ymadael oddiyno, a myned tua Chanaan.

Digon i chwi drigo *hyd yn hyn* yn y mynydd hwn:

7 Dychwelwch, a chychwynwch rhagoch, ac ewch i fynydd yr Amoriaid, ac i'w holl gyfagos *leoedd*; i'r rhos, i'r mynydd, ac i'r dyffryn, ac i'r deau, ac i borthladd y môr, i dir y Canaanaid, ac i Libanus, hyd yr afon fawr, afon Euphrates.

8 Wele, rhoddais y wlad o'ch blaen chwi: ewch i mewn, a pherchenogwch y wlad yr hon a dyngodd yr Arglwydd i'ch tadau chwi, i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, ar *ei* rhoddi iddynt, ac i'w had ar eu hol hwynt.

9 ¶ A mi a leferais wrthyeh yr amser hwnw, gan ddywedyd, Ni allaf fi fy hun eich cynal chwi:

10 Yr Arglwydd eich Duw a'ch llu-

Adn. 7. *Ewch i fynydd yr Amoriaid*] Yn ddeheuol i wlad Canaan, tua'r môr marw. *I dir y Canaanaid*—sef Phenicia, gwlad Sidon, a glanau Mor y-canoldir o wlad y Philistiaid hyd fynydd Libanus. Y mae y Canaanaid a'r Pheniciaid yn cael eu cynysgu yn fynyeh. *Afon Euphrates*—fel hyn y mae Moses yn penodi terynau y tir, at y rhai bob ochr y gallai tiriogaethau Israel gael eu heangu, os ceid fod gwlad Canaan, a elwid yn briodol felly, yn rhy fychan iddynt. Gallai eu teryn DEHEUOL gyraedd i fynydd yr Amoriaid; eu teryn GORLEWINOL at yffiniau Môr-y-canoldir; eu teryn GOGLEDDOL i Libanus; a'u teryn DWYREINIOL hyd yr afon Euphrates: a darfu i Solomon deyrnasu i'r eangder hwn, fel yn ei amser ef o leiaf y cafodd yr addewid i Abraham ei chyflawni yn llythyrenol: gwel ar 1 Bren. iv. 21. Nid yw y gorchymyn hwn yn cael ei grybwyll yn llyfr Numeri, mwy na llawer o bethau ereill, am wybodaeth o ba rai yr ydym yn ddyledus i'r llyfr *atodol* hwn DEUTERONOMIUM.

Adn. 8. *Wele, rhoddais y wlad o'ch blaen chwi*] Heb. 'o flaen eich gwynbebau:' y mae yn agored i'ch golygon ac i'ch meddiant; nid oes un rhwystr ar eich ffordd. Ac fel hyn y mae y Ganaan nefol, a theyrnas gras ag sydd yn arwain iddi, wedi ei gosod yn agored i olwg a mynyiant pob credadyn. *Yr hon a dyngodd yr Arglwydd i'ch tadau*—gwel Gen. xv. 18, a xvii. 7, a xxviii. 13. Ni ddywedir mewn un o'r lleoedd hyn ddarford i Dduw gadarnhau ei addewid â *llu*; ond efe a wnaeth yr hyn oedd gyfystyr â hyn, trwy wneuthur cryf-ammod, yr hwn a eilw efe ei *llu*, Gen. xxvi. 3.

Adn. 9. *A mi a leferais wrthyeh*] Wrth eich *tadau*, y rhai oeddynt y pryd hyn yn fyw, ond sydd yn awr wedi meirw, Num. xxvi. 64. *Yr amser hwnw*—sef o gylch yr amser hwnw, vchydig eyn eu dyfod i Horeb, Exod. xviii. Hyn oedd yn ol cyngor Jethro.

Adn. 10. *Fel ser y nfoedd o luosogrwydd*] Dyma yr addewid a wnaeth Duw i Abraham, Gen. xv. 5, 6; ac y mae Moses yn ei hystyried hi yn awr fel wedi ei helaeth gyflawni. Y mae llawer yn ystyried yr ymadrodd hwn yn

osogodd chwi; ac wele, chwi heddyw fel ser y nefoedd o luosogrwydd.

11 (Arglwydd Dduw eich tadan a'ch cynyddo yn fil luosocach nag *ydych*, ac a'ch bendithio, fel y llefarodd efe wrthych)

12 Pa wedd y dygwn fy hun eich blinder, a'ch baich, a'ch ymryson chwi?

13 Moeswch i chwi wŷr doethion, a deallus, a rhai hynod trwy eich llwythau; fel y gosodwyf hwynt yn benau arnoch chwi.

14 Ac atebasoch fi, a dywedasoch, Da *yw* gwneuthur y peth a ddywedais.

15 Cymerais gan hyny benau eich llwythau chwi, *sef* gwŷr doethion, a rhai hynod, ac a'u gwnaethym hwynt yn benau arnoch; *sef* yn gadbeniaid ar filoedd, ac yn gadbeniaid ar gannoedd, ac yn gadbeniaid ar ddegau-a-deugain, ac yn gadbeniaid ar ddegau, ac yn swyddogion yn eich llwythau chwi.

16 A'r amser hwnw y gorchymynais i'ch barnwyr chwi, gan ddywedyd, Gwrandewch *ddadlucion* rhwng eich brodyr, a bernwch yn gyfiawn rhwng gwŷr a'i frawd, ac a'r dweithr *sydd* gyd ag ef.

17 Na chydabyddwch wynebau

mewn barn: gwrandewch ar y lleiaf, yn gystal ag ar y mwyaif: nac ofnwch wyneb gwŷr; oblegid y farn *sydd* ciddo Duw: a'r peth a fydd rhy galed i chwi, a ddygwch ataf fi, a mi a'i gwrandawaf.

18 Gorchymynais i chwi hefyd yr amser hwnw yr holl bethau a *ddylech* eu gwneuthur.

19 ¶ A phan fudasom o Horeb, ni a gerddasom trwy yr holl anialwch mawr ac ofnadwy hwnw, yr hwn a welsoch ffordd yr *eir* i fynydd yr Amoriaid, fel y gorchymynasai yr Arglwydd ein Duw i ni: ac a ddaethom i Cades-Barnea.

20 A dywedais wrthych, Daethoch hyd fynydd yr Amoriaid, yr hwn y mae yr Arglwydd ein Duw yn ei roddi i ni.

21 Wele yr Arglwydd dy Dduw a roddes y wlad o'th flaen: dos i fyny a pherchenoga *hi*, fel y llefarodd Arglwydd Dduw dy dadau wrthyt; nac ofna, ac na lwfrha.

22 ¶ A chwi oll a ddaethoch ataf, ac a ddywedasoch, Anfonwn wŷr o'n blaen, a hwy a chwiliant y wlad i ni, ac a fynegant beth i ni am y ffordd yr awn i fyny ar hyd-ddi, ac am y dinasoedd y deawn i mewn iddynt.

23 A'r peth oedd dda yn fy ngolwg:

ormodiaith. Ond pa nifer yw y ser ag sydd yn ymddangos i'r llygad noeth? canys duw y rhai hyn y ydym i farnu. Parodd Duw i Abraham *olygu y nefoedd*, nid trwy dremddrych, ond a'i lygad noeth, Gen. xv. 5. Nis gellir gweld a'r llygad noeth, ar ynoson ddygellir, uwchlaw 3,010 o ser yn yr hanner-gylch gogleddol a deheuol; ac yr oedd yr Israellaid yn y rhifad diweddf, yn annibynol ar y gwraedd a'r plant, uwchlaw 600,000, Num. xxvi. Gwel ar Exod. xii. 37.

Adn. 11. (*Arglwydd Dduw eich tadan a'ch cynyddo yn fil luosocach nag ydych*, &c.) Y mae y weddi hon yn dyfod i mewn rhwng ym-sangau; ac ni wna erfyniad santaidd dori ar gysylltiad yr ymadrodd, ond yn hytrach ei gadarnhau a'i brydfertbu. Gallai Moses yn hawdd oboethio iddynt gynyddu yn fil luosocach nag yr oeddynt yn awr, pan yr oeddynt y pryd hyn yn luosocach uwchlaw *deugain mil* o weithiau nag yr oeddynt pryd yr aethant i waered i'r Aifft oddeutu 250 o fynyddau cyn hyn: gwel y sylwadau ar Exod. i. 7.

Adn. 12. *Pa wedd y dygwn fy hun eich blinder*] Hyny yw, y gwrandawn eich achwynion; *a'ch baich*—y gwellaun eich gofidiau; *a'ch ymryson*—y penderfynwn eich dadlucion?

Adn. 13. *Moeswch iwch wŷr doethion*] Gwel ar Exod. xviii. 21.

Adn. 14. *Ac atebasoch fi*] Cydsyniasoch yn hollol a'r cynygad.

Adn. 15. *Yn gadbeniaid ar filoedd*, &c.] Gwel ar Exod. xviii. 21.

Adn. 16. *Ac a'r dweithr*] Mynai Dduw i gyfiawnder gael ei weinyddu i'r dweithr yn gystal ag i'w bobl ei hun, mewn rhan er anrhydedd i grefydd, ac mewn rhan oblegid y berthynas ag sydd rhwng pob dyn a materion o hawl cyffredin.

Adn. 17. *Na chydabyddwch wynebau mewn barn*] Na fydded i wyneb hyf a beiddgar y cyfoethog a'r cadarn eich hudo chwi i roddi barn anngyfiawn; ac na foed i edrychiad distadl y tylawd eich denu i'w bleidio yntau mewn achos anngyfiawn. *Gwrandewch ar y lleiaf yn gystal ag ar y mwyaif*—dywed y doctoriaid luddewig, os denai un o'r pleidiau i mewn wedi ymddilladu yn wych, a'r llall yn wael, na wrandawer arnynt nes iddynt ill dau fod wedi ymddilladu yn gyffelyb; ac na oddefod i un eistedd a'r llall sefyll, ond fod yn rhaid i'r ddau eistedd neu sefyll; ac os eisteddant, na oddefod i'r naill fod yn uwch na'r llall, ond fod yn rhaid iddynt eistedd wrth ochrau eu gilydd. *Oblegid y farn sydd eiddo Duw*—gan eich bod yn gweinyddu yn lle Duw, ymddygwch fel y gwnai efe.

Adn. 18. *Gorchymynais i chwi*, &c.] Dysgais i chwi eich dyledswydd trwy draddodi i chwi, ac yn enwedig i'ch barnwyr, y deddfau a'r barnedigaethau a ddatguddiwyd i mi gan yr Arglwydd yn Horeb.

Adn. 19—26. *Ni a gerddasom trwy yr holl*

ac mi a gymerais ddeuddengwr o honoch, un gŵr o bob llwyth.

24 A hwy a droisant, ac a aethant i fyny i'r mynydd, ac a ddaethant hyd ddyffryn Esgol, ac a'i chwilias-ant ef.

25 Ac a gymerasant o ffrwyth y tir yn eu llaw, ac a'i dygasant i waered atom ni, ac a ddygasant air i ni dra- chefn, ac a ddywedasant, *Da yw y wlad y mae yr Arglwydd ein Duw yn ei rhoddi i ni.*

26 Er hyny ni fynech fyned i fyny, ond gwrthryfelasoch yn erbyn gair yr Arglwydd eich Duw.

27 Grwgnachasoch hefyd yn eich pebyll, a dywedasoch, Am gasâu o'r Arglwydd nynt, y dyg efe ni allan o dir yr Aifft i'n rhoddi yn llaw yr Amoriaid, i'n dyfetha.

28 I ba le yr awn i fyny? ein brodyr a'n digalonasant ni, gan ddywedyd, Pobl fwy a hwy na nynt *ydnyt*; dinasoedd mawrion a chaerog hyd y nef-oedd: meibion yr Anaciaid hefyd a welsom ni yno.

29 Yna y dywedais wrthyech, Nac

anialwch mawr ac ofnadwy, &c.] Gelwir ef yn *favor*, am ei fod yn ymestyn i bellder mawr; ac yn *ofnadwy*, am fod y rhan fwyaf o hono yn annglyfannedd, neu yn cael ei breswyllo yn unig gan fwystrfiod. Gwel yr adnodau hyn wedi eu hegluro yn y sylwadau ar Num. xiii. 17, &c.

Adn. 27. *Am gasâu o'r Arglwydd nynt*] Dengys hyn y fath feddyliau annheilwng a letyent hwy am Dduw, pan y tybient ei fod ef yn casâu ei creaduriaid ei hun. Y mae yn wir nas gallai ef lai nag edrych ar eu pechodau gyda chasineb; yn union fel y rhaid i bob tad doeth a da anghymeradwyo pob tuedd ac ymarferiad drygonus yn ei blant: ond nis gall y Duw anfeidrol dda gasâu dim a'r a wnaeth, mwy nag y gall mam dyner ymgaledu yn erbyn ei phlentyn sugno.

Adn. 28. *Pobl fwy*] Mewn rhif, nerth, a dewdr; a *hwy*—mewn hyd neu daldra. *Dinasoedd mawrion a chaerog hyd y nef-oedd*—hyny yw, gyda muriau tra uchel, y rhai nas gellid yn hawdd eu dringo. Y mae muriau uchel oddeutu tai a dinasoedd yn y parthau hyn o Arabia yn cael eu barnu eto yn ddigonol ddiffyniad rhag yr Arabiaid, y rhai nad ydynt braidd byth yn cynyg ar ddim mewn ffordd o yspeiliad ond ar *gefn meirch*.

Adn. 29. *Wrthyech*] Sef wrth eich tadau. Y mae Moses, trwy yr holl lyfr hwn, yn llefaru wrth dadau y genhedlaeth hon fel pe buasant yn awr yn fyw; yr hyn yw dull cyffredin pob ysgrifenydd, y rhai a arferant lefaru am bobl neu genedl fel yr un personau yn byw trwy amrai oesau.

Adn. 30. *Yr Arglwydd—a ymladd dros-och*] Deongliad Onkelos a'i darllena, 'GAI'R

arwydwch, ac nac ofnwch rhagddynt hwy.

30 Yr Arglwydd eich Duw, yr hwn sydd yn myned o'ch blaen, efe a ymladd drosoch, yn ol yr *hyn* oll a wnaeth *efe* eroch chwi yn yr Aifft o flaen eich llygaid;

31 Ac yn yr anialwch, lle y gwelaist fel y'th ddyg yr Arglwydd dy Dduw, fel y dwg gwr ei fab, yn yr holl ffordd a gerddasoch, nes eich dyfod i'r man yma.

32 Eto yn y peth hyn ni chredasoch chwi yn yr Arglwydd eich Duw,

33 Yr hwn oedd yn myned o'ch blaen chwi ar hyd y ffordd, i chwilio i chwi *am* le i wersyllu; y nos mewn tân, i ddangos i chwi pa ffordd yr aech, a'r dydd mewn cwmwl.

34 A chlybu yr Arglwydd lais eich geiriau; ac a ddigiodd, ac a dyngodd, gan ddywedyd,

35 Diau na chaiff yr un o'r dynion hyn, o'r genhedlaeth ddrwg hon, wel-ed y wlad dda yr hon y tyngais ar ei rhoddi i'ch tadau chwi;

36 Oddieithr Caleb mab Jephun-

yr Arglwydd a ymladd drosoch.' Mewn nifer mawr o leodd y mae y Deongliadau neu yr Alleiriadau Caldeiaidd yn arfer yr ymadrodd *Meimera Yehofah*, 'Gair yr Arglwydd,' yn gywir yn yr un ffordd ag yr arfera St. Ioan y gair *Logos* yn y bennod gyntaf o'i Efengyl. *Yn ol yr hyn oll a wnaeth efe eroch chwi yn yr Aifft*—dyma oedd un o'r rhesymau cadarnaf i genhedlu ynddynt ymorphysiad diysgog ar noddod a chymhorth Duw, gan nas gallent lai nag addef fod yr un nerth ag a'u gwaredasai hwynt o'r Aifft, yr un mor alluog i'w dwyn i Ganaan.

Adn. 31. *Lle y gwelaist fel y'th ddyg*] Hyny yw, fel y darfu i'r Arglwydd dy *gario di*, megys y caria tad ei blentyn gwan a thyner yn ei freichiau.

Adn. 32. *Eto yn y peth hyn ni chredasoch chwi*] Felly ni allent hwy fyned i mewn 'o herwydd *anngrediniaeth*.' Ni wnaeth dim eu cau hwy allan o Ganaan ond eu hannghrediaeth o'r addewid hono, yr hon oedd yn gysgog o ras yr efengyl. Y mae anngrediniaeth yn bechod yn erbyn y *feddyginiaeth*, ac felly yn *anfddyginiaethol*.

Adn. 33. *Yr hwn oedd yn myned o'ch blaen*] Gwel ar Num. x. 33, 34.

Adn. 34. *A chlybu yr Arglwydd lais eich geiriau*] Eich tuchaniadau, a'ch ymadroddion byrbwyll, anniolchgar, anhyderus, a gwrthryfelgar. *Ac a ddigiodd*—ei gyfiawnder ef a enynwyd, nes y danghosodd ei anffodlonrwydd i'ch pechodau chwi: ac nis gallasai fod yn Dduw *cyfiawn* pe na wnaethai felly.

Adn. 35, 36. *Diaw na chaiff yr un o'r dynion hyn—oddieithr Caleb*] Dan ba enw y mae *Josua* yn cael ei gynnwys, er nad yn cael ei

neh : efe a'i gwel hi, ac iddo ef y rhoddaf y wlad y sangodd efe arni, ac i'w feibion ; o achos cyflawni o hono *wneuthur* ar ol yr Arglwydd.

37 Wrthyf finau hefyd y digiodd yr Arglwydd o'ch plegid chwi, gan ddywedyd, Tithau hefyd ni chei fyned i mewn yno.

38 Josua mab Nun, yr hwn sydd yn sefyll ger dy fron di, efe a â i mewn yno : cadarnha di ef ; canys efe a'i rhan hi yn etifeddiaeth i Israel.

39 Eich plant hefyd, y rhai y dywedasoeh y byddent yn yspail, a'ch meibion chwi, y rhai ni wyddant heddyw na da na drwg, hwynt-hwy a ânt i mewn yno, ac iddynt hwy y rhoddaf hi, a hwy a'i perchenogant hi.

40 Trowch chwithau, ac ewch i'r anialwch ar hyd ffordd y môr coch.

41 Yna yr atebasoeh, ac a ddywedasoeh wrthyf, Pechasom yn erbyn yr Arglwydd : ny ni a awn i fyny ac a ymladdwn, yn ol yr hyn oll a orchymynodd yr Arglwydd ein Duw i ni. A gwisgasoeh bob un ei arfau rhyfel, ac a ymroisoeh i fyned i fyny i'r mynydd.

42 A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Dywed wrthynt, Nac ewch i fyny, ac na ryfelwch ; oblegid nid ydwyf fi

yn eich mysg chwi ; rhag eich taro o flaen eich gelynydd.

43 Felly y dywedais wrthych ; ond ni wrandawsoeh, cithr gwrthryfelasoeh yn erbyn gair yr Arglwydd ; rhyfygasoeh hefyd, ac aethoch i fyny i'r mynydd.

44 A daeth allan yr Amoriaid, *oedd* yn trigo yn y mynydd hwnw, i'ch cyfarfod chwi ; ac a'ch ymlidiasant fel y gwnai gwenyn, ac a'ch dyfethasant chwi yn Seir, hyd Hormah.

45 A dychwelasoeh, ac wylasoeh gerbron yr Arglwydd : ond ni wrandawodd yr Arglwydd ar eich llef, ac ni roddes glust i chwi.

46 Ac arosasoeh yn Cades ddyddiau lawer, megys y dyddiau yr arosasoeh o'r blaen.

PENNOD II.

YNA y troisom, ac yr aethom i'r anialwch, ar hyd ffordd y môr coch, fel y dywedasai yr Arglwydd wrthyf, ac a amgylchasom fynydd Seir ddyddiau lawer.

2 Llefaroedd yr Arglwydd hefyd wrthyf, gan ddywedyd,

3 Digon i chwi amgylchu y mynydd hwn *hyd yn hyn* : ymchwelwch rhagoeh tua'r gogledd.

grybwyll ; oblegid nid oedd efe yn awr i gael ei ystyried fel un o'r bobl, ond i'w osod drostyt fel prif lywydd : yr ydym hefyd i eithrio *Eleazar*, a rhai *Lefiaid* ereill : gwel ar Num. xiv. 24.

Adn. 37. *Wrthyf finau hefyd y digiodd yr Arglwydd o'ch plegid chwi*] Oblegid yr achlysur o'ch drygioni a'ch gwrthysigrwydd, trwy yr hyn y cythruddasoeh fi i 'gamddywedyd â'm gwefusau :' gwel ar Num. xx. 12.

Adn. 38. *Josua mab Nun, yr hwn sydd yn sefyll ger dy fron di*] Yn gweini i ti fel dy brif weinidog. *Efe a â i mewn yno*—fel arweinydd y bobl yn dy le di. *Cadarnha di ef*—hyfforddia a chefnoga ef yn y rhan hono o'i waith.

Adn. 39. *Y rhai ni wyddant heddyw*] Saes. 'y rhai ni wyddent y dydd hwnw na da na drwg,' ac o ganlyniad ni allent hwy gythruddo Duw trwy eu hanuydd-dod.

Adn. 40—43. *Trowch chwithau, ac ewch i'r anialwch, &c.*] Gwel ar Num. xiv. 25—45.

Adn. 44. *Yr Amoriaid—a'ch ymlidiasant fel y gwnai gwenyn*] Yn niferoedd mawrion. Sylwa *Bochart* fod y gydmbariaeth yn gywir iawn, am fod y gwenyn yn erlyn y rhai a aflonyddant eu cychod yn heidiau lluosog, a chyda chynddeirigrwydd rhyfeddol. Crybwylla *Park*, yn ei deithiau, ddarfordd i'w gymdeithion ef, wrth geisio yspeilio nythaid lluosog, gyffiroi y trychfilod hyn, y rhai a ymosodasant arnynt mor ffyrnig nes gorfodi y gwŷr, y meirch, a'r asynod, i ffoi bob ffordd.

Gorsu i'r *Ranciaid* hefyd gynt, pobl o Crete, ffoi o'u dinas, a'i gadael yn hollol iddynt hwy ! *Yn Seir*—neu o Seir hyd Hormah.

Adn. 45. *Onid ni wrandawodd yr Arglwydd ar eich llef*] Trwy nad oedd eich tristwch yn deilliaw oddiar feddwl edifeiriol, nac oddiar ofid fod Duw wedi ei anfoddloni genych ; ond oddiwrth hyn, nas gallech chwi eich hunain wneuthur fel yr ewyllysiech.

Adn. 46. *Ac arosasoeh yn Cades*] Yn hytrach wrth neu *gerllaw* Cades, pa un a roddai enw i'r rhan hono o'r anialwch yn ddehenol i Cades. Wrth yr ymadrodd, *megys y dyddiau yr arosasoeh o'r blaen*, y mae rhai yn meddwl, *cylyd* ag yr arosasoeh yn mynydd Sinai, sef yn agos i flwyddyn gyfan. Eithr yr eglurhad mwyaf syml yw, ddarfordd iddynt aros yma cyhyd wedi hyn, ag y gwnaethent cyn hyn, yr hyn oedd o leiaf yn ddeugain niwrnod, yr amser a dreuliyd gan yr yspiwyr yn chwilio y tir.

PEN. II. Adn. 1. *Amgylchasom fynydd Seir*] Rhan fynyddig Edom, neu Idumea ; *ddyddiau lawer*—ddeunaw mlynedd ar hugain, pa amser a dreuliasant hwy mewn teithiau bliniu yma a thraw trwy y wlad anial hono.

Adn. 2. *Llefaroedd yr Arglwydd hefyd wrthyf*] Yn niwedd y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ar hugain ar ol eu dyfod o'r Aifit.

Adn. 3. *Ymchwelwch rhagoeh tua'r gogledd*] Oddiwrth fynydd Seir, mewn trefn i fyned i Ganaan.

4 A gorchymyn i'r bobl, gan ddywedyd, *Yr ydych* i dramwyd trwy derfynau eich brodyr, meibion Esau, y rhai sydd yn trigo yn Seir: a hwythau a ofnaut rhagoch: ond ymgedwch yn ddyfal.

5 Nac ymyrwech arnynt: o herwydd ni roddaf i chwi o'u tir hwynt gymaint a lled troed; canys yn etifeddiaeth i Esau y rhoddais fynydd Seir;

6 Prynwch fwyd ganddynt am arian, fel y bwytaoch; a phrynwch hefyd ddwfr ganddynt am arian, fel yr yfoch.

7 Canys yr Arglwydd dy Dduw a'th fendithiodd di yn holl waith dy law: gwybu dy gerdded yn yr anialwch mawr hwn: y deugain mlynedd hyn *y bu* yr Arglwydd dy Dduw gyda thi, ni bu arnat eisiau dim.

8 Ac wedi ein myned heibio oddi wrth ein brodyr, meibion Esau, y rhai ydynt yn trigo yn Seir, o ffordd y rhos o Elath, ac o Easion-Gaber, ni a ddychwelasom, ac a aethom ar hyd ffordd anialwch Moab.

9 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthyf, Na orthryma Moab, ac nac

ymgynull i ryfel yn eu herbyn hwynt: oblegid ni roddaf i ti feddiant o'i dir ef; o herwydd i feibion Lot y rhoddais Ar yn etifeddiaeth.

10 (Yr Emiaid o'r blaen a gyfanddasant ynddi; pobl fawr ac aml, ac uchel fel yr Anaciaid;

11 Yn gawri y cymerwyd hwynt hefyd, fel yr Anaciaid; a'r Moabiaid a'u galwent hwy yn Emiaid.

12 Yr Horiaid hefyd a breswylasant yn Seir o'r blaen; a meibion Esau a ddaeth ar eu hol hwynt, ac a'u dyfethasant o'u blaen, a thrigasant yn eu lle hwynt, fel y gwnaeth Israel i wlad ei etifeddiaeth yntau, yr hon a roddes yr Arglwydd iddynt)

13 *Yna y dywedais*, Cyfodwch yn awr, a thramwywch rhagoch dros afon Zared. A ni a aethom dros afon Zared.

14 A'r dyddian y cerddasom o Cades-Barnea, hyd pan ddaethom dros afon Zared, oedd onid dwy flynedd deugain; nes darfod holl genhedlaeth y gwŷr o ryfel o ganol y gwersyllau, fel y tyngasai yr Arglwydd wrthynt.

15 Canys llaw yr Arglwydd ydoedd

Adn. 4. *Hwythau a ofnaut rhagoch*] Rhag y bydd i chwi, trwy fod arnoch eisiau sefydliad, ymosod ar eu gwlad hwy. *Ond ymgedwch yn ddyfal*—na foed i hyny eich calonogi chwi i ruthro arnynt.

Adn. 5. *Nac ymyrwech arnynt*] Sef ar yr Edomiaid: gwel ar Num. xx. 14—21.

Adn. 6. *Prynwch fwyd ganddynt am arian*] Canys er fod y manna eto yn gwlawio arnynt, ni waherddid iddynt brynu bwydydd ereill pan gaent gyffe; eithr yn unig gwaherddid iddynt drachwantu yn wancus am danynt pan na allent eu cael. *A phrynwch hefyd ddwfr*—canys yr oedd dwfr yn y parthau hyny yn brin, ac am hyny arferai personau unigol gloddio pydewau i'w gwasanaeth neillduol eu hunain.

Adn. 7. *Canys yr Arglwydd dy Dduw a'th fendithiodd di*] Trwy fod Duw wedi rhoddi iddynt lawer o eiddo, nid oedd arnynt un angen am yspello; a thrwy fod ganddynt aur ac arian i brynu yr hyn yr oedd arnynt ei eisiau, ni oddefai Duw iddynt gymeryd dim trwy drais.

Adn. 8. *Ni a ddychwelasom*] O'n ffordd gyfeiriol, yr hon a orwedda i trwy dir Edom.

Adn. 9. *I feibion Lot y rhoddais Ar yn etifeddiaeth*] Ar oedd prifddinas y Moabiaid, yr hon a enwir yma am yr holl wlad ag ydoedd yn dibynu arni. Y mae y Moabiaid yma yn cael eu galw yn *feibion Lot*, i arwyddo nad oedd y gadwraeth hon er eu mwyn hwy, canys yr oeddynt hwy yn bobl ddrygonus; ond er mwyn Lot, cofladwriaeth yr hwn a anrhyddada i Duw eto.

Adn. 10. *Yr Emiaid o'r blaen a gyfanddasant*

asant ynddi] Tybia Calmet i'r bobl hyn gael eu dyfetha yn y rhyfel a wnaed yn eu herbyn gan Gedorlaomer a'i gynghreirwyr, Gen. xiv. 5. Ystyrir hwynt yn gyffredin megys *cawri*: y mae yn debyg eu bod yn bobl galed, fyfnig, ac arswydus, ac yn byw, fel yr Arabiaid cwydredig, ar yspello ereill; ac yr oedd hyn yn ddigonol i ennill iddynt yr enw *cawri*.

Adn. 11. *Yn gawri y cymerwyd hwynt*] Nid *cawri* yw y wreiddiol, fel y sylwa Clarke, ond *Rephaim*, enw pobl. Ymddengys mai yr un bobl ond odid oedd yr *Emiaid*, yr *Anaciaid*, a'r *Rephaimiaid*, yn cael eu galw ar wahanol enwau yn y gwahanol wledydd lle y trigent; canys ymddengys eu bod yn wreiddiol yn fath ar ladron crwydredig yn byw ar yspail. Rhaid addef, modd bynag, fod amrai ddynion o'r hiliogaeth yma o faintioli anghyffredin, ac o ganlyniad cafodd yr holl wŷr cawraidd eu galw yn *Rephaimiaid*: gwel ar Gen. vi. 4, a xiv. 5. Ond da y gwyddom fod *ofn a chwedlau* wedi chwaneu yn fyny ch gnyddau cyfain at daldra dynion. Dan y dylanwad yma yr ymddygai yr yspiwyr, pryd y dygasant yr adroddiad digalon a grybwyllir Num. xiii. 33.

Adn. 12. *Yr hon a roddes yr Arglwydd iddynt*] Y mae yr amser gorphenol yn cael ei roddi yma am y dyfodol, *a ddyrry*, yn ol arfer y profiwyd. Neu dichon i'r adnod hon gael ei chwaneu gan Josua neu Ezra, fel rhai rhanau ereill o'r llyfr hwn.

Adn. 13. *Dros afon Zared*] Gwel Num. xxi. 12.

Adn. 14—18. *Nes darfod holl genhedlaeth y gwŷr o ryfel*] Nid yw Israel yn cael eu

yn eu herbyn hwynt, i'w tori hwynt o ganol y gwersyll, hyd oni ddarfauant.

16 ¶ A bu, wedi darfod yr holl ryfelwyr, a'u marw o blith y bobloedd.

17 Lefaru o'r Arglwydd wrthyf, gan ddywedyd,

18 Tydi heddyw wyt ar fyned trwy derfynau Moab, *sef trwy Ar.*

19 A phan ddelech di gyferbyn â meibion Ammon, na orthryma hwynt, ac nac ymyr arnynt; oblegid ni roddaf feddiant o dir meibion Ammon i ti; canys rhoddais ef yn etifeddiaeth i feibion Lot.

20 (Yn wlad cawri hefyd y cyfrifwyd hi: cawri a breswylasant ynddi o'r blaen; a'r Ammoniaid a'u galwent hwy yn Zamzummiad):

21 Pobl fawr ac aml, ac uchel fel yr Anaciaid. A'r Arglwydd a'u dyfethodd hwynt o'u blaen hwy; a hwy a ddaethant ar eu hol hwynt, ac a drigasant yn eu lle hwynt.

22 Fel y gwnaeth i feibion Esau, y rhai sydd yn trigo yn Seir, pan ddyfethodd efe yr Horiaid o'u blaen, fel y daethant ar eu hol hwynt, ac y trigasant yn eu lle hwynt, hyd y dydd hwn;

23 Felly am yr Afaid, y rhai oedd yn trigo yn Hazerim, hyd Azzab, y Caphtoriaid, y rhai a ddaethant allan

o Caphtor, a'u dyfethasant hwy, ac a drigasant yn eu lle hwynt)

24 ¶ Cyfodwch, cychwynwch, ac ewch dros afon Arnon: wele, rhoddais yn dy law di Sehon brenin Hesbon, yr Amoriaid, a'i wlad ef; dechreu ei meddiannu hi, a rhyfela yn ei erbyn ef.

25 Y dydd hwn y dechreuaf roddi dy arswyd a'th ofn di ar y bobloedd dan yr holl nefoedd: y rhai a glywiant dy enw di, a ddechrynant, ac a lesgant rhagot ti.

26 ¶ A mi a anfonais genhadau o anialwch Cedemoth, at Sehon, brenin Hesbon, â geiriau heddwch, gan ddywedyd,

27 Gâd i mi fyned trwy dy wlad di: ar hyd y brif-ffordd y cerddaf; ni chiliaf i'r tu deau nac i'r tu aswy.

28 Gwerth fwyd am arian i mi, fel y bwytawyf; a dyro ddwfr am arian i mi, fel yr yfwyf: ar fy nhraed yn unig y tramwyaf,

29 (Fel y gwnaeth meibion Esau i mi, y rhai sydd yn trigo yn Seir, a'r Moabiaid, y rhai sydd yn trigo yn Ar) hyd onid elwyf dros yr Iorddonen, i'r wlad y mae yr Arglwydd ein Duw yn ei rhoddi i ni.

30 Ond ni fynai Sehon brenin Hesbon ein gollwng heb ei law: oblegid yr Arglwydd dy Dduw a galedasai ei

galw i ymosod ar y Canaanaid, nes i'r gwŷr cymhwysaf i ryfel, y rhai yn debygol a ddysgasant y gelfyddyd hono yn yr Aifft, ac a arferasant â chaledi, oll farw o'u plith, fel nad oedd neb wedi eu gadael ond milwyr dibrosiad, wedi eu dwyn i fyny yn yr anialwch. Fel hyn eglurwyd yn llawnach fod *godidogruwydd y gallu* a ddarostyngodd y Canaanaid rhyfelgar, o *Dduw*, ac nid o ddyd.

Adn. 19. *I feibion Lot*] Y mae yr un peth yn cael ei ddywedyd yma am feibion Ammon ag a ddywedir yn adn. 9 am feibion Moab, y rhai ill dau oeddynt hiliogaeth *Lot*, Gen. xx. 36—38. Y mae yn well ar blant yn fynyeh yn y byd hwn o herwydd duwioldeb eu henafaid.

Adn. 20. *Yn wlad cawri*] Cyfrifid hono hefyd yn wlad neu diriogaeth y Rephaimiaid. *Zamzummiad*—y rhai y tybir eu bod yr un a'r Zuziaid, Gen. xiv. 5. Eithr ni wyddom ond ychydig am yr hen bobloedd hyn.

Adn. 21, 22. *Pobl fawr, ac aml, ac uchel, &c.*] Crybwyllir hyn er calonddi i Israel; canys os darfu i'r Arglwydd ddyfetha y rhai hyn o flaen eu gelynon, byddai iddo yn sicr yru allan y Canaanaid drygonion ac esgymunedig o flaen ei bobl ei hun.

Adn. 23. *Felly am yr Afaid, y rhai oedd yn trigo yn Hazerim*] Dyma anghraifft arall o waith Duw yn rhoddi gwledydd i'r bobl y byddo da yn ei olwg. Crybwyllir am yr Afaid megys cyndrigolion Palestina, Jos. xiii. 3.

Y Caphtoriaid—pobl yn perthyn i'r Philistiaid, a elwid felly ond oddiwrth eu sylfaenydd, yr hwn a ymfeydlodd yn Caphtor, gwlad yn neu gerllaw yr Aifft, Gen. x. 14.

Adn. 24. *Dechreu ei meddiannu hi, a rhyfela yn ei herbyn*] Er fod Duw wedi sicrhau iddynt y caent hwy y wlad, eto rhaid iddynt ymladd am dani. Yr hyn y mae Duw yn ei roddi, rhaid i ninau ymdrechu i'w gael.

Adn. 25. *Y dydd hwn y dechreuaf roddi dy arswyd a'th ofn*] Fel pe dywedasai, Y dydd y dechreu di dy waith di o ryfela, y dechreuaf finau fy ngwaith inau o'th gynorthwyo, trwy ddigaloni y gelyn. *Ar y bobloedd dan yr holl nefoedd*—y rhai a glywiant am y buddugoliaethau hyn; yn enwedig ar y Canaanaid, gwroldeb y rhai a ddiffana wrth y newydd am y fath lwyf fuddugoliaeth wedi ei hennill mor agos atynt, Jos. ii. 10, 11.

Adn. 26—29. *A mi a anfonais genhadau—at Sehon*] Gwel ar Num. xxi. 21, &c.

Adn. 30. *Yr Arglwydd dy Dduw a galedasai ei ysbryd ef*] A oddefodd iddo ddylyn ei fympwyon ei hun. Yr oedd bryd Sehon yn fawr ar greulondeb, oddiwrth yr hyn ni ddarfu i Dduw ei droi ef, ond gadawodd i'w feddwl ymgynnddeiriogi ac ymaffonyddu i'r fath raddau fel ag i ymddwyn yn ffol. Gellir edrych ar ei gyflwr hwn fel *cosp gyfiawn* arno am ei bechodau blaenorol. 'Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn?' Gen. xviii. 25. Gwel ar Exod. iv. 21, &c.

ysbryd ef, ac a gadarnhasai ei galon ef, er mwyn ei roddi ef yn dy law di; megys heddyw y gwelir.

31 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthyf, Wele, dechreuais roddi Sehon a'i wlad o'th flaen di: dechreu feddiannu, fel yr etifeddech ei wlad ef.

32 Yna Sehon a ddaeth allan i'n cyfarfod ni, efe a'i holl bobl, i ryfel yn Jahas.

33 Ond yr Arglwydd ein Duw a'i rhoddes ef o'n blaen; ac ni a'i taraw-som ef, a'i feibion, a'i holl bobl:

34 Ac a ennillasom ei holl ddinasoedd ef yr amser hwnw, ac a ddifrodasom bob dinas, yn wŷr, yn wragedd, yn blant; ac ni adawsom un yn ngweddill.

35 Ond ysglyfaethasom yr anifeiliaid i ni, ac yspail y dinasoedd y rhai a ennillasom.

36 O Aroer yr hon sydd ar fin afon Arnon, ac o'r ddinas sydd ar yr afon, a hyd at Gilead, ni bu ddinas a'r a ddibangodd rhagom: yr Arglwydd ein Duw a rodde y cwbl o'n blaen ni.

37 Yn unig ni ddaethost i dir meibion Ammon, sef holl lan afon Jabbo, nac i ddinasoedd y mynydd, nac i'r holl leoedd a waharddasai yr Arglwydd ein Duw i ni.

Adn. 31—35. *Wele, dechreuais roddi Sehon a'i wlad o'th flaen di*] Sehon a ddechreuodd y rhyfel, adn. 32, ond Israel a'i gorphenodd hi. (1) Lladdasant yr Amoriaid oll a'r cleddyf, yn wŷr, gwragedd, a phlant. Gwnaethant hyn fel gweinyddwyr digofaint Duw, am fod mesur anwiredd yr Amoriaid yn llawn, Gen. xv. 16; a pha hwyaf y bu yn llenwi, chweraf oll oedd y cyfrif yn y diwedd. Buont feirw nid fel gelynyion Israel, ond fel ebyrth i gyfiawnder dwyfol; ac yn offrymiad yr ebyrth hyn yr oedd Israel yn gweinyddu fel 'brenhiniaeth o offeiriad.' (2) Cymerasant feddiant o'r hyn oll oedd ganddynt, eu dinasoedd, eu heiddo, a'u tir. 'Golud y pechadur a roddwyd i gadw i'r cyfiawn,' Diar. xiii. 22. Y fath fyd newydd y daeth Israel yn awr iddo ar un-waith! Yr oedd y rhan fwyaf o'honynt wedi eu geni, ac wedi byw eu holl ddyddiau, mewn *aniulwoch gwag erchyll*, heb faesydd, dinasoedd, na thai i drigo ynddynt; ond wele hwynt yn ddisymwth yn dyfod yn berchenogion gwlad wedi ei hadeiladu mor dda, a'i thiin cystal! Gwnaeth yn iawn nidynt am eu dysgwyliad hirfaith, ac eto nid oedd ond *ernes* o lawer iawu mwy. Eithr llawer mwy gorfoleddus fydd y cyfnewidiad a brofir gan yr eneidiau santaidd pan en symudir o anialwch y byd hwn i'r 'wlad well, hyny ydyw un nefol.'

Adn. 36. *O Aroer, yr hon sydd ar fin afon Arnon*] Gwel ar Num. xxi. 13, &c.

Adn. 37. *Yn unig ni ddaethost i dir meibion Ammon, &c.*] Yr Arglwydd oedd yn trefnu

PENNOD III.

YNA y troisom, ac yr esgynasom *ar hyd* ffordd Basan; ac Og brenin Basan a ddaeth allan i'n cyfarfod ni, efe a'i holl bobl, i ryfel, i Edrei.

2 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthyf, Nac ofna ef: oblegid yn dy law di y rhodda ef, a'i holl bobl, a'i wlad; a thi a wnai iddo fel y gwnaethost i Sehon brenin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon.

3 Felly yr Arglwydd ein Duw a rodde hefyd yn ein llaw ni Og brenin Basan, a'i holl bobl; ac ni a'i taraw-som ef, hyd na adawyd iddo un yn ngweddill:

4 Ac a ennillasom ei holl ddinasoedd ef yr amser hwnw, *fel* nad oedd ddinas nas dygasom oddiarynt; triugain dinas, holl wlad Argob, brenhiniaeth Og o fewn Basan.

5 Yr holl ddinasoedd hyn oedd gedwyn o furiau uchel, pyrth, a barau, heblaw dinasoedd heb furiau lawer iawn.

6 A difrodasom hwynt, fel y gwnaethom i Sehon brenin Hesbon, gan ddifrodi o bob dinas y gwŷr, y gwragedd, a'r plant.

7 Ond yr holl anifeiliaid ac yspail y

eu taith; a'r rhai hyny yn unig oeddynt i gael eu tori ymaith, y rhai yr oedd cwpan eu hanwiredd yn llawn. Er i'r Moabiad a'r Ammoniaid gael eu harbed fel hyn, talasant ddrwg am dda; canys rhyfelasant yn erbyn yr Isrealiaid, a bwriasant hwynt allan o'u meddianau, Barn. xi. 4, 5, 2 Cron xx. 1, &c.; a buont yn euog o'r creulonderau mwyaf echrystol, Amos. i. 13. Oganlyniad gwnaeth Duw ddeddf, na chai un o'r bobl hyn ddyfod i gynulleidfa yr Arglwydd hyd eu degfed cenedlaeth, pen. xxiii. 3—6.

PEN. III. Adn. 1—3. *Og brenin Basan a ddaeth allan i'n cyfarfod ni*] Fel annogaeth bellach i'r Isrealiaid hyderu yn ngallu a ffyddlondeb Duw, y nae Moses yn myned yn mlaen i ddwyn ar gof iddynt y llwyddiant rhyfeddol a gawsent yn erbyn Og: gwel ar Num. xxi. 33—35.

Adn. 4. *Holl wlad Argob*] Heb. 'holl linyrn Argob,' y fath ag y mesurid tiroedd âg ef, fel ag y gwnawn ninau â'r *gadwyn*. Gwlad fechan oedd Argob, yn gorwedd rhwng yr Iorddonen a mynyddoedd Gilead, ychydig uwch law môr Tiberias; yr hon a alwyd wedi hyny *Trachonitis*: gwel adn. 13—15.

Adn. 5. *Yr holl ddinasoedd hyn*] Triugain mewn ihifedi, heblaw trefydd digerau.

Adn. 6, 7. *A difrodasom hwynt, fel y gwnaethom i Sehon*] Gwel ar pen. ii. 31—35.

Adn. 8. *O'r tu yma i'r Iorddonen*] Felly yr oedd pan yr ysgrifennodd Moses y llyfr hwn; ond

dinasoedd a ysglyfaethasom i ni ein hunain.

8 A ni a gymerasom yr amser hwnw o law dau frenin yr Amoriaid y wlad o'r tu yma i'r Iorddonen, o afon Arnon hyd fynydd Hermon;

9 (Y Sidoniaid a lwant Hermon yn Sirion, a'r Amoriaid a'i galwant Senir)

10 Holl ddinasoedd y gwastad, a holl Gilead, a holl Basan hyd Selchah, ac Edrei, dinasoedd brenhiniaeth Og o fewn Basan.

11 Oblegid Og brenin Basan yn unig a adawsid o weddill y cawri: wely, ei wely ef oedd wely haiarn: onid yw hwnw yn Rabbath meibion Ammon? naw cufydd oedd ei hyd, a phedwar cufydd ei led, wrth gufydd gw'r.

wedi hyny, ar ol i Israel groesi yr Iorddonen, fe'i gelwid y wlad 'tuhwt i'r Iorddonen.'

Adn. 9. *Sirion*] A elwir mewn man arall mynydd Gilead, a Libanus, ac yma Senir a Sirion; pa wahanol enwau a roddwyd i'r un mynydd hwn, mewn rhan gan wahanol bobl, ac mewn rhan gyda golwg ar wahanol benau neu bartlau o hono. *Senir*—tybia Bochart mai oddiwth y lluaws o gathod gwylltion ag oeddnt yn y mynydd hwn y cafodd efe yr enw yma, trwy fod yr Arabiaid yn galw y creadur hwnw yn *Sinaur* neu *Sinar*.

Adn. 10. *Holl Gilead*] Cymeir Gilead weithiau am holl etifeddiaethau yr Israeliaid tuhwt i'r Iorddonen, ac felly yn cynwys Basan; ond yma am y rhan hono o honi a orweddi yn a cher mynydd Gilead, ac felly yn wahanedig oddiwth Basan ac Argob.

Adn. 11. *Oblegid Og brenin Basan yn unig a adawsid o weddill y cawri*] Og oedd y brenin olaf o'r Amoriaid: ynddengys i'w deyrnas ef gymeryd ei henw oddiwth fynydd Basan; a chafodd y wlad wedi hyny ei galw *BATAN.EA.* *Ei wely ef oedd wely haiarn*—yr oedd haiarn yn cael ei ddefnyddio mewn rhan oblegid ei barhad, ac mewn rhan i attal i bryfed niweidiol lochesu ynddo. Y mae gwelyau o haiarn, pres, a mettelau ereill, yn bethau arferol fel diffyniad rhag pryed, nid yn unig mewn gwledydd poethion, ond hefyd yn ein gwlad ein hunain; a darllenwn weithiau am welyau o arian ac aur. *Onid yw hwnw yn Rabbath?*—ond pa fodd y daeth y gwely hwn o feddiant meibion Israel i'r Ammoniaid? canys dywedir, adn. 3—7, iddynt hwy daraw Og, difrodi y dinasoedd, ac ysglyfaethu yr yspail iddynt eu hunain. Y mae y dysgedig Esgob Huet yn ateb, y gallai Og, gan ofni y gwaethaf, aunoen ei wely a'i eiddo goraf i'r Ammoniaid; neu gallai Moses werthu hwn, a rhanau ereill o'r yspail, i feibion Ammon; neu, y hyn sydd yn llawn mor debyg, gallai fod Og yn un o'r cawri hyny a ddefeddiannwyd cyn hyn gan yr Ammoniaid, pen. ii. 21, palas yr hwn a yspeiliasant hwy, gan gadw y gwely hwn fel arwydd o'u buddugoliaeth; ac os felly, nid oedd y

12 A'r wlad hon a berchenogasom ni yr amser hwnw, o Aroer, yr hon sydd wrth afon Arnon, a hanner mynydd Gilead, a'i ddinasoedd ef, a roddais i'r Reubeniaid ac i'r Gadiaid.

13 A'r gweddill o Gilead, a holl Basan, *sef* brenhiniaeth Og, a roddais i hanner llwyth Manasse; *sef* holl wlad Argob, a holl Basan, yr hon a elwid, Gwlad y cawri.

14 Jair mab Manasse a gymerth holl wlad Argob, hyd fro Gesuri, a Maachathi; ac a'u galwodd hwynt ar ei enw ei hun, Basan Hafoth-Jair, hyd y dydd hwn.

15 Ac i Machir y rhoddais i Gilead.

16 Ac i'r Reubeniaid, ac i'r Gadiaid, y rhoddais o Gilead hyd afon Arnon, hanner yr afon a'r terfyn, ac hyd yr afon Jabboe, terfyn meibion Ammon:

gwely hwn yn meddiant Og pan syrthiodd y teyrn i ddwyllaw yr Israeliaid. *Naw cufydd oedd ei hyd, a phedwar cufydd ei led, wrth gufydd gw'r*—crybwyllir hyn i ddangos di-fawr faintioli Og. A chaniafa'u fod y gwely un cufydd yn hwy nag Og, yr hyn yn ddian oedd ddigon, a bod y cufydd yn nghylch *deunaw* modfedd o hyd, (cans hyny fe allai oedd cyfartalwch *cufydd gw'r.*) yna yr oedd Og yn *bedair llath* o uwchder! Trwy fod hyn yn cael ei farnu bron yn anghredadwy, darfu i lawer o esbonwyr hwyhan y gwely a byrhan y dyn, gan wneuthur y blaenaf un ran o dair yn hwy na'r dynsawd a orweddi arno, fel y gallent dynu Og i lawr i *chwe* chufydd; ond hyd yn nod felly gwnant ef o leiaf yn *dair llath* o hyd, a chymeryd y cufyddau hyn yn 18 modfedd, yn lle 21. Yr oedd uwchder Goliath yn *chwe* chufydd a *rhychwant*, 1 Sam. xvii. 4. Dywed y Talmud fod Og yn amrai *filldiroedd* o hyd; ac yn Neongliad Jonathan ben Uzziel ar Num. xxi. 35, dywedir ei fod yn ddigon cryf i dafu mynydd *chwe* milldir o hyd am ben yr Israeliaid! Crybwyllir hyn fel anghraifft o ffolineb sylwadau thai o'r rabbiniaid.

Adn. 12, 13. *A'r wlad hon a berchenogasom ni, &c.*] Ar ol dangos pa fodd y gorchfygwyd y wlad hono, yr hon yr oeddnt yn awr ynddi, dangosir hyn yr adnodau hyn pa fodd y sefydlwyd hi i'r Reubeniaid, y Gadiaid, a hanner llwyth Manasse, am yr hyn y cawsom hanes o'r blaen, Num. xxxii.

Adn. 14. *Hyd y dydd hwn*] Rhaid i ni ystyried y frawddeg hon yn un o'r rhai hyny nad ysgrifennwyd gan Moses, eithr a chwanegwyd gan y dyniau santiaid hyny y rhai a ddygasant lyfrau Moses i'r drefn bresenol, gan roddi rhai brawddegau i mewn i gyfaddasu pethau at eu hamseroedd eu hunain.

Adn. 15. *Ac i Machir*] Hyny yw, i'w blant ef, cans yr oedd ef ei hun wedi marw; y *rhoddais i Gilead*—*sef* rhan o honi, adn. 12.

Adn. 16. *Hanner yr afon*] Saes. 'hanner y *dyffryn*'; cans y mae yr un gair Hebreig yn arwyddo afon a *dyffryn*: ond addefir mai yr *afon* a feddylir yma: gwel Jos. xii. 2.

17 Hefyd y rhos, a'r Iorddonen, a'r terfyn o Cinnereth hyd fôr y rhos, *sef y môr heli, dan Asdoth Pisgah, tua'r dwyrain.*

18 ¶ Gorchymynais hefyd i chwi yr amser hwnw, gan ddywedyd, Yr Arglwydd eich Duw a roddes i chwi y wlad hon i'w meddiannu: ewch drosodd yn arfog o flaen eich brodyr meibion Israel, pob rhai pybyr o honoch.

19 Yn unig eich gwagedd, a'ch plant, a'ch anifeiliaid (gwn fod llawer o anifeiliaid i chwi) a drigant yn eich dinasoedd a roddais i chwi.

20 Hyd pan wnelo yr Arglwydd i'ch brodyr orphwyso fel chwithau, a meddiannu o honynt hwythau y wlad y mae yr Arglwydd eich Duw yn ei rhoddi iddynt dros yr Iorddonen: *yma dychwelwch bob un i'w etifeddiaeth a roddais i chwi.*

21 ¶ Gorchymynais hefyd i Josua yr amser hwnw, gan ddywedyd, Dy

lygaid di a welsant yr hyn oll a wnaeth yr Arglwydd eich Duw i'r ddau frenin hyn: felly y gwna yr Arglwydd i'r holl deyrnasoedd yr ydwytt ti yn myned drosodd atynt.

22 Nac ofnwch hwynt: oblegid yr Arglwydd eich Duw, efe a ymladd drosoch chwi.

23 Ac erfyniais ar yr Arglwydd yr amser hwnw, gan ddywedyd,

24 O Arglwydd Dduw, tydi a ddechreuast ddangos i'th was dy fawredd, a'th law gadarn: oblegid pa Dduw sydd yn y nefoedd, neu ar y ddaear, yr hwn a weithreda yn ol dy weithredoedd a'th nerthoedd di?

25 Gad i mi fyned drosodd, atolwg, a gweled y wlad dda sydd dros yr Iorddonen, a'r mynydd da hwnw, a Libanus.

26 Ond yr Arglwydd a ddigiasai wrthyf o'ch plegid chwi, ac ni wrandawodd arnaf: ond dywedyd a wnaeth

Adn. 17. *O Cinnereth hyd fôr y rhos*] Sef o fôr Galilea hyd y môr marw. *Asdoth Pisgah*—enw dinas yn y wlad hono, yn arwyddo 'ffynonau' neu 'lethrau' Pisgah.

Adn. 18—20. *Gorchymynais hefyd i chwi, &c.*] Yma y mae efe yn ailadrodd y cytundeb a wnaed â hwy wrth roddi iddynt y wlad. Yr oeddynt i'antôn byddin gref dros yr Iorddonen i flaenori yn ngorchfygiad Canaan, y rhai ni chaent ddychwelyd at eu teuluoedd, o leiaf i aros gyda hwy, hyd nes y gwelent en brodyr mewn meddiant mor gyflawn o'u hamrywiol ddsbarthiadau ag yr oeddynt hwy yn awr o'r eiddynt en hunain. Pan yr ydym ni mewn tawelwch, dylem ddymuno gweled ein brodyr mewn tawelwch hefyd, a dylem fod yn barod i wneuthur a allom tuag at hyny; canys nid i'n gwasanaethu ein hunain y ganed ni, eithr aelodau ydym i'n gilydd: gwel ar Phil. ii. 4.

Adn. 21, 22. *Gorchymynais hefyd i Josua, &c.*] Fel hyn dylai y rhai sydd yn hen, ac yn brofiadau yn ngwasanaeth Duw, wneyd yr oll a allont i gryfhau dwylaw y rhai sydd yn ieuainc, ac yn dechreu gyda chrefydd.

Adn. 23. *Ac erfyniais ar yr Arglwydd yr amser hwnw*] Y mae y testyn Samaritanaidd yn dwyn i mewn yr erfyniad hwn yn Num. xx. 13. lle yn debygol y gadawyd ef allan o'r testyn Hebreig er mwyn byrdra.

Adn. 24. *O Arglwydd Dduw, tydi a ddechreuast ddangos i'th was dy fawredd, a'th law gadarn*] Gan hyny, fel pe dywedasai, gorphen yr hyn a ddechreuast. Caniateist i mi weled dy ogoniant yn ngorchfygiad y ddau frenin hyn, a'r olwg a'm llanwodd â syndod a diolebgarwch: O gad i mi weled mwyr o waith fy Nuw, fy Mrenin! Y gwaith mawr hwn yn ddiamau a ddygir yn blaen, ac a orphenir; gad i mi gael y boddlonrwydd o'i weled. *O blegid pa Dduw sydd yn y nefoedd, neu ar y ddaear, yr hwn a weithreda yn ol dy weithredoedd a'th nerthoedd di?*—y mae Moses yn

llefaru yma gyda golwg ar dyb boblogaidd yr amserau hyny yn nghylch duwiau neillduol a diffynol; eto, ar yr un pryd, gyda llawn gyffesiad o'i grediniaeth yn hollalluogrwydd JENOFA. Meddyllir fod St. Paul yn cyfeirio at hyn, 1 Cor. viii. 5.

Adn. 25. *Gad i mi fyned drosodd, atolwg*] Yr oedd Duw wedi dywedyd na chai ef fyned drosodd; eto y mae efe yn erfyn am gael, heb wybod nad oedd y bygythiad hwnw yn amodol. Fel hyn gwediodd Hezeia am ei einioes ei hun, a Dafydd am einioes ei blentyn, ar ol bygwth pob un o'r ddau yn benodol; a llwyddodd y blaenaf, er na ddarfu i'r diweddaf. Yr oedd Moses yn cofio yr amser pan, trwy weddi, y llwyddasai efe gyda Duw i gilio oddiwrth y cyhoeddiadau a wnaethai o'i ddigofaint yn erby Israel, Exod. xxxii. 14; a phabam nad allai obeithio am lwyddo yr un modd drosto ei hun? *A gweled y wlad dda sydd dros yr Iorddonen*—nid yw yn gofyn am gael mewn drosodd i fod yn dywysog ac yn llywodraethwr; nid yw yn ceisio ei anrhydedd ei hun, eithr y mae yn foddion i roddi y llywodraeth i Josua: ond, gad i mi fyned i fod yn *edrychwyr* ar dy gymwynasgarwch i Israel, i *welod* yr hyn yr wyf yn ei greu am wlad yr addewid. *A'r mynydd da hwnw, a Libanus*—*sef Libanus*. Tybia rhai mai mynydd Moria, ar yr hwn yr oedd y deml i gael ei hadeiladu, a feddyllir wrth y mynydd da hwnw; ond nid ymdengys fod un sail i'r dyb hon. Ceir y cyffelyb ddull o ymadrodd yn adn. 17, lle y mae y rhos a'r Iorddonen yn meddwl yn unig rhos yr Iorddonen.

Adn. 26. *Digon yw hyny i ti*] Heb. *rab lach*, 'y mae digonedd i ti'; cai olwg ar y Ganaan ddaearol, a mwynhad o'r Ganaan nefol, ac y mae hyny yn ddiagon i ti. Dيامan fod gallu dwyfol yn dilyn y gair hwn, i heddychu Moses âg ewyllys Duw. Os nad yw Duw trwy ei ragluniaeth yn rhoddi i ni ein

yr Arglwydd wrthyf, Digon *yw hyny* i ti, na chwanega lefaru wrthyf mwy am y peth hyn.

27 Dos i fyny i ben Pisgah, a dyrchafa dy lygaid tua'r gorllewin, a'r gogledd, a'r deau, a'r dwyrain, ac edrych *arni* â'th lygaid: oblegid ni chaf di fyned dros yr Iorddonen hon.

28 Gorchymyn hefyd i Josua, a nertha a chadarnha ef: oblegid efe a â drosodd o flaen y bobl yma, ac efe a ran iddynt yn etifeddiaeth y wlad yr hon a weli di.

29 Felly aros a wnaethom yn y dyffryn gyferbyn â Beth-Peor.

PENNOD IV.

BELLACH gan hyny, O Israel, gwrandao ar y deudfau ac ar y

dymuniad, eto os ydych chi ei ras, y mae hyny yn ddigon. Y mae efe yn aml yn dewis amddifadu y rhai hyny o etifeddiaeth ddaeraol, i'r rhai er hyny y dyry efe etifeddiaeth nefol.

Adn. 27. *Dos i fyny i ben Pisgah*] Gwel ar Num. xxvii. 12; *ac edrych arni â'th lygaid*—y mae rhai yn meddwl i Moses gael ei alluogi yn wyrthiol i weled holl wlad yr addewid o ben y mynydd hwn.

Adn. 28. *Gorchymyn hefyd i Josua*] Dyro awdurdod iddo ef yn ngolwg y bobl, megys y rhoddais inau i ti. *Nertha a chadarnha ef*—dangos iddo fy addewidion difeth i, a chynghora ef i hyderu ynof fi yn unig, er lluosoced yr anhawsderau a gyferfydd efe yn ei waith. *Oblegid efe a â drosodd o flaen y bobl yma*—nid tydi; neu, efe a â yn *sier*: gwel yr adfeddyliaidau. Y mae yn gysur i'r rhai sydd yn caru dynolryw weled, pan y maent hwy yn marw, fod gwaith Duw yn debyg o gael ei gario yn mlaen gan ereill pan y byddant hwy yn ddystaw yn y llwch.

Adn. 29. *Beth-Peor*] Hon oedd ddinas yn nheyrnas Sehon brenin yr Amoriaid; a chan fod *beth* yn arwyddo *ty*, y mae yn debyg i'r lle gael ei enw oddiwrth *dewl* y dau Peor, yr hwn a addolir yno. Yr oedd *Peor* agos yr un yn mhllith y Moabiaid ag ydoedd *Priapus* yn mhllith y Rhufeiniaid, yn dduw aflan pobl aflan.

ADFFEDDYLIAIDAU.—Meddylir fod yr hyn ag y mae Duw yn ei lefaru yma am *Moses a Josua* yn cael ei fwiadu i gysgodi trefn ei gyf-iawnder a'i ras yn iachawdriaeth dyn. (1) Yr oedd gwlad Canaan yn gysgod o deyrnas nef. (2) Ni allai y ddeddf, yr hon sydd yn dangos santeiddrwydd Duw a thra-phemadur-usrwydd pechod, ddwyn y bobl i feddiant o'r deyrnas lloco. (3) Gellir ystyried Moses yma fel cysgod o'r ddeddf hono trwy yr hon y mae aduabod pechod, ac nid cael gwaredigaeth oddi wrtho. (4) Y mae Josua, yr hwn y mae ei enw, fel *Iesu*, yn arwyddo *Gwarddwr*, yn cael ei benodi i ddwyn y bobl i'r orphwysfa a barotoisai Duw iddynt: ac fel hyn, trwy **IESU GRIST** yn unig y mae yr enaid yn cael ei war-

barnedigaethau *yr ydwyf* yn eu dysgu i chwi i'w gwneuthur; fel y byddoch byw, ac yr eloch, ac y meddiannoch y wlad y mae Arglwydd Dduw eich tad- au yn ei rhoddi i chwi.

2 Na chwanegwch at y gair yr ydwyf yn ei orchymyn i chwi, ac na leihewch *ddim* o hono ef, gan gadw gorchymynion yr Arglwydd eich Duw, y rhai *yr wyf i* yn eu gorchymyn i chwi.

3 Eich llygaid chwi oedd yn gweled yr hyn a wnaeth yr Arglwydd am Baal-Peor; oblegid pob gwr a'r aeth ar ol Baal-Peor, yr Arglwydd dy Dduw a'i dyfethodd ef o'th blith di.

4 Ond chwi y rhai oeddych yn glynu wrth yr Arglwydd eich Duw, byw *ydych* heddyw oll.

edu oddiwrth bechod ac i'r nef: gwel Ioani. 17, Gal. ii. 16, Rhuf. x. 4. .

PEN. IV. Adn. 1. *Bellach, gan hyny, O Israel*] Ar ol adgofio iddynt orchwyliaethau rhyfeddol rhagluniaeth ddwyfol tuag atynt mewn fiordd o drugaredd a barn, y mae Moses yn awr yn galw ar yr holl gynulleidia, yn y modd mwyaf difrifol, i ystyried pan ddylanwad a ddylai y pethau hyn ei gael ar eu hymddygiad, sef eu gwneuthur yn usfydd i orchymynion Duw, ac yn wylidiadur rhag ei ddiogio ef. *Gwardaw ar y deddfau*—peithynol i addoliad a gwasanaeth Duw; *ac ar y barnedigaethau*—perthynol i'w dyledswyddau at ddyinion. Felly y mae y rhai hyn yn cynwys y ddwy lech, neu yr holl ddeddf foesol.

Adn. 2. *Na chwanegwch at y gair yr ydwyf yn ei orchymyn i chwi*] Trwy chwennych athrawiaethau neu flyrdd ereill o addoliad angen nag a ddysgais i chwi; canys hyny fyddai fy nghyhuddo i o ddiffyg doethineb, gofal, neu flyddlondeb, yn peidio rhoddi i chwi byfforddiadau digonol at wasanaeth Duw. *Ac na leihewch ddim o hono ef*—trwy wrthod neu esgeuluso dim a'r a orchymynais i chwi, pa mor ddilwys bynag y gallo ymddangos; eithr cymmerwch fy ngair fel ag y mae, megys eich unig reol a'ch arweinydd mewn pethau tymhorol a thragwyddol. Nid yw efe yn gwardd geriaur chwanegol mewn fiordd o eglurhad, megys y gwelom pen. iii. 14, a iv. 49.

Adn. 3. *Eich llygaid chwi oedd yn gweled*] Pa fodd y torodd yr Arglwydd ymaith bedair mil ar hugain yn achos Baal-Peor, trwy y pla a thrwy law cyfiawnder: gwel ar Num. xxv. 3, &c.

Adn. 4. *Ond chwi y rhai oeddych yn glynu wrth yr Arglwydd eich Duw*] Heb ymadael oddiwrth ei ddeddfau ef, *byw ydych heddyw oll*—yn gywir fel hyn y gellir dywedyd ddydd y farn am yr holl rai a fyddant wedi glynu yn nghyfammod Duw, gan barhau yn 'fyddlon hyd angau,' Dat. ii. 10. Darfu i ragluniaeth y nef wyllo drostynt i'w cadw yn y fath iechyd da, fel na ddarfu i un farw o gynifer o filoedd er y pryd hyny; ac ni chollasant gymaint ag

5 Wele, dysgais i chwi ddeddfau a barnedigaethau, fel y gorclwymnodd yr Arglwydd fy Nuw i mi; i wneuthur o honoch felly, yn y wlad yr ydych ar fynydd i mewn iddi i'w meddiannu.

6 Cedwch gan hyn, a gwnewch hwynt: oblegid hyn yw eich doethineb, a'ch deall chwi, yn ngolwg y bobloedd, y rhai a glywant yr holl ddeddfau hyn, ac a ddywedant, Yn ddiau pobl ddoeth a deallus yw y genedl fawr hon.

7 Oblegid pa genedl mor fawr, yr hon y mae Duw iddi yn nesâu ati, fel yr Arglwydd ein Duw ni, yn mhob dim a'r y galwom arno?

8 A pha genedl mor fawr, yr hon y mae iddi ddeddfau a barnedigaethau cyfiawn, megys yr holl gyfraith hon yr ydwyf fi yn ei rhoddi heddyw ger eich bron chwi?

9 Ond gochel arnat, a chadw dy enaid yn ddyfal, rhag anghofio o honot y pethau a welodd dy lygaid, a chilio o honynt allan o'th galon di holl ddyddiau dy einioes; ond hysbysa hwynt i'th feibion, ac i feibion dy feibion:

10 Sef y dydd y sefaist gerbron yr

Arglwydd dy Dduw yn Horeb, pan ddywedodd yr Arglwydd wrthyf, Cynnull i mi y bobl, fel y gwnelwyf iddynt glywed fy ngeiriau, y rhai a ddysgant i'm hofni i, yr holl ddyddiau y byddont fyw ar y ddaear, ac y dysgont hwynt i'w meibion.

11 A nesasoch, a safasoch dan y mynydd; a'r mynydd oedd yn llosgi gan dân hyd entrych awyr, yn dywyllwch, a chwmwl, a thywyllwch dedew.

12 A'r Arglwydd a lefarodd wrthyf o ganol y tân; a chwi a glywsoch lais y geiriau, ac nid oeddych yn gweled llun dim, ond llais.

13 Ac efe a fynegodd i chwi ei gyfammod a orchymynodd efe i chwi i'w wneuthur, sef y dengair; ac a'u hysgrifenodd hwynt ar ddwy lech faen.

14 ¶ A'r Arglwydd a orchymynodd i mi yr amser hwnw ddysgu i chwi ddeddfau, a barnedigaethau, i wneuthur o honoch hwynt yn y wlad yr ydych chwi yn myned iddi i'w meddiannu.

15 Gwyliwch gan hyn yn ddyfal ar eich eneidiau (oblegid ni welsoch

un dyn yn y rhyfel â'r Midianiaid! Num. xxxi. 7, &c.

Adn. 5. *I wneuthur o honoch felly*] I fod yn rheol bywyd i chwi yn Nghauaan.

Adn. 6. *Oblegid hyn yw eich doethineb a'ch deall chwi*] Nid oedd un dull o addoliad y pryd hyn y arwyneb y ddaear a'r nad oedd yn ddrwgionus, aflan, a fiol, ond yr hwn a sefydlwyd gan Dduw ei hun yn mhilith yr Israeliaid. *Yn ddiau pobl ddoeth a deallus yw y genedl fawr hon*—darfu i agos holl bobloedd y ddaear ddaigos iddynt ffurfio y dyb hon am yr Iuddewon, trwy fenthyca oddiwrthynt y rhan benaf o'u deddfau gwladol. Cymerer ymaith yr hyn a fenthycodd Asia ac Ewrop oddiw'r ddeddfau Moses, ac ychydig a adewir ar ol a ellir ei alw yn rhagorol.

Adn. 7. *Yr hon y mae Duw iddi yn nesâu ati*] Trwy wyrthiau gogoneddus, trwy wystlon o'i bresenoldeb neillduol, trwy weithrediadau ei ras, ac yn enwedig trwy ei barodrydd i wrando ein gweddïau, ac i roddi i ni y cynorthwyon hyn ag yr ydym yn galw arno ef am danynt.

Adn. 8. *Yr hon y mae iddi ddeddfau a barnedigaethau cyfiawn*] Trwy yr arwydda efe nad yw gwir fawredd cenedl yn gywnysedig mewn rhwysg a gallu, neu eangder amherodraeth, fel y tybia dynion yn gyffredin, eithr yn nghyfiawnder ei deddfau.

Adn. 9. *Onid gochel arnat*] Bydd ofalus a gwyliadwrs; a chadw dy enaid yn ddyfal—bydd ochelgar am dy les tragwyddol: beth bynag a ddelo o'r corff, cymer ofal am yr enaid. *Rhag anghofio o honot*—y mae Duw

yn gwneuthur ei weithredoedd ef fel y byddont byth mewn cofadwriaeth; ac y mae yr hwn sydd yn eu hannghofio hwynt, yn anghofio ei drugareddau ei hun. *Onid hysbysa hwynt i'th feibion*—os yw dyn yn gwybod gwerth ei enaid ei hun, efe a deimla bwysigrwydd iachawdwriaeth eneidiau ei deulu. Pe telid mwy o sylw i GREFYDD DEULUAIDD, ceid gweled yn fuan well golwg ar wlad ac eglwys. Nis gall un penteulu segluloso crefydd deulu-aidd, heb beryglu iachawdwriaeth ei enaid ei hun: gwel ar pen. vi. 7.

Adn. 10. *Sef y dydd*] Pryd y traddododd Daw y gyfraith iddynt oddiar fynydd Sinai, gyda'r fath ymddanghosiad arswydus o ddwyfol fawrhydri. *Y sefaist*—yrcedd rhai o honynt yn sefyll yno yn eu personau eu hunain, er nad oeddynt y pryd hyn ond ieuaine, a'r lleill yn lwyngan eu rhieni.

Adn. 11. *A'r mynydd oedd yn llosgi*] Gwel ar Exod. xix. 18.

Adn. 12, 13. *Nid oeddych yn gweled llun dim*] Unrhyw arddanghosiad neu ddelfo o Dduw na'i sylwedd, fel yr oedd yn arferol gyda duwiau y cenedloedd; ond llais—yr oeddych yn clywed ei lais yn llefaru y deg gorchymyn.

Adn. 14. *Ddeddfau a barnedigaethau*] Y mae hyn yn ecyfeirio at y gweddill o'r deddfau, y rhai a roddes Duw i Moses yn ebrwydd ar ôl iddo ef ei hun draddodi iddynt y deg gorchymyn, Exod. xxi. 1, &c.

Adn. 15. *Ni welsoch dim llun, &c.*] Ac o ganlyniad yr oedd Duw yn penderfynu na chaech wneuthur lluniau neu ddelfwau i'w

ddim llun yn y dydd y llefarodd yr Arglwydd wrthyth yn Horeb, o ganol y tân)

16 Rhag ymlygru o honoch, a gwneuthur i chwi ddelw gerfiedig, cyfleibrwydd un ddelw, llun gwryw neu fenyw,

17 Llun un anifel a'r *sydd* ar y ddaear, llun un aderyn asgellog a eheda yn yr awyr,

18 Llun un ymlusgiad ar y ddaear, llun un pysgodyn a'r *ysydd* yn y dyfroedd dan y ddaear;

19 Hefyd rhag dyrchafu o honot dy lygaid tua'r nefoedd, a gweled yr haul, a'r lleuad, a'r ser, *sef* holl lu y nefoedd, a'th yru di i ymgyrnu iddynt, a gwasanaethu o honot hwynt, y rhai a ranodd yr Arglwydd dy Dduw i'r holl bobloedd dan yr holl nefoedd.

20 Ond yr Arglwydd a'ch cymerodd chwi, ac a'ch dyg chwi allan o'r pair

haiarn, o'r Aiff, i fod iddo ef yn bobl, yn etifeddiaeth; fel *ygwelir* y dydd hwn.

21 A'r Arglwydd a ddiogiodd wrthyf am eich geiriau chwi, ac a dyngodd nad âwn i dros yr Iorddonen, ac na chawn fyned i mewn i'r wlad dda, yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti yn etifeddiaeth.

22 Oblegid byddaf farw yn y wlad hon, ni chaf fi fyned dros yr Iorddonen: ond chwyhwi a ewch drosodd, ac a feddiennwch y wlad dda hono.

23 Ymgedwch arnoch rhag anghofio cyfammod yr Arglwydd eich Duw, yr hwn a ammododd efe â chwi, a gwneuthur o honoch i chwi ddelw gerfiedig, llun dim oll a waharddodd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

24 Oblegid yr Arglwydd dy Dduw sydd dân ysol, a Duw eiddigus.

25 ¶ Pan genhedlych feibion, ac wryion, a hir-drigo o honoch yn y

addoli ef trwyddynt. * YSBRYD yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn ysbryd a gwirionedd,' Ioan iv. 24.

Adn. 16. *Rhag ymlygru o honoch*] Llygru eich meddyliau a syniadau isel am Dduw; eich calonau, trwy odfed i unrhyw creadur ddenu eich serchiadau oddiwrtho ef; neu eich *ffyrdd*, trwy ei addoli ef mewn modd llygredig, neu syrthio i eilunaddoliaeth. *A gwneuthur i chwi ddelw gerfiedig*—i'w haddoli, neu i fod yn arddanghosiad o Dduw. *Llun gwryw neu fenyw*—megys *Baal-Peor* y Moabiaid, *Astareth* y Sidoniaid, a *Priapus* a *Venus* y Rhufeiniaid a'r Groegiaid, ar ol y rhai y puteiniodd y rhan fwyaf o genhedloedd y ddaear yn llythyrenol.

Adn. 17, 18. *Llun un anifel, &c.*] Megys *Apis* yr Aiff, yr hwn a addolid yno dan lun *taru*. Telid dwyfol anrhydedd hefyd i'r *ibis* a'r *hebog* yn mhllith yr EREDAID; i'r *sarff* a'r *crocodil* yn mhllith yr YMLUSGIAID; heblaw i'r *epaod, cŵn, cathod, chwilennod, cenin, winwyn, &c.* Gwel ar Exod. xx. 4.

Adn. 19. *Yr haul, a'r lleuad, a'r ser*] Addoliad y cyrff nefol oedd y math hynaf o eilunaddoliaeth. Y rhai na feddent wybodaeth o'r gwir Dduw, a arweinid i ystyried yr haul, y lleuad, y planedau, a'r ser, nid yn unig fel yn hunau-fodoli, ond fel yn achos o'r holl fendithion a feddiennid gan ddynolryw. Darfu i wybodaeth berffeithiach o seryddiaeth wasanaethu i ddyfetha y goelgrefydd hon i raddau pell. Y mae athroniaeth iachus yn nesaf mewn pwysigrwydd at dduwinyddiaeth iachus; canys y mae y pethau *gweledig* hyn yn amlygu ei dragwyddol allu ef a'i Dduwod. *Y rhai a ranodd*—i fod yn oleuni a gwres i bawb ar y ddaear, ond nid i'w haddoli gan neb.

Adn. 20. *Ond yr Arglwydd a'ch cymerodd chwi*] O'i rad drugaredd ei hun, heb ei haeddu genych chi; *allan o'r pair haiarn*—neu y ffwrnes yn yr hon y toddid haiarn a metteloedd ereill, i'r hon y mae yr Aiff yn cael ei chyd-

mharu oblegid yr artaith a'r trueni a ddyodd-efai yr Israeliaid yno. Ond tybia Clarke fod yr Israeliaid yn cael eu rhoddi ar waith yn yr Aiff yn y gorchwyllion mwyaf llafurus o *settelwriaeth*; ac os felly, rhaid fod cloddio, toddi, a morthwylio haiarn, mewn hinsawdd mor boeth, yn waith caled yn wir. *I fod iddo ef yn bobl, yn etifeddiaeth*—yn feddiant neillduol iddo ei hun o genhedlaeth i genhedlaeth; ac am hyny byddai i chwi ymwrthod â Duw, ac addoli eilunod, yn ddyrygioni ac anniolchgarwch i'r gradd uwchaf.

Adn. 21. *A'r Arglwydd a ddiogiodd wrthyf*] Ac os wrthyf fi, fel ag i'm hattal rhag myned i wlad yr addewid, a allwch *chwi* feddwl dianc os yn euog o fwy cythruddiaidau?

Adn. 22. *Ond chwyhwi a ewch drosodd*] A chaw fod Duw yn caniatáu i chwi y fraint a ommeddodd efe i mi, y mae eich rhwymedig-aeth iddo yn llawer mwy.

Adn. 23. *Ymgedwch arnoch rhag anghofio cyfammod yr Arglwydd eich Duw*] Trwy esgeuluso y wybodaeth o ddeddf Duw, neu wirfoddol anufyddhau iddi mewn eilunaddoliaeth, ac felly ddwyn dinystr arnoch eich hunain.

Adn. 24. *Oblegid yr Arglwydd dy Dduw sydd dân ysol*] Yn Dduw cyfiawn ac ofnadwy, yr hwn a'ch dyfetha chwi os cythruddwch ef. Cawsant brawf o hyny yn achos Nadab ac Abihu, a Chorah a'i gynulleidfa. Tybia yr Esgob Huet mai oddiwrth y geiriau hyn y cymerodd yr hen Bersiaid achlysur i addoli *tân* ar y cnytaf megys *delw* neu *arwydd* o'r Ddwod, ac wedi hyny megys y Ddwod ei hun. Ond yr oedd y Caldeaid yn addoli *tân* ganooedd o flynyddau cyn ysgrifenu y geiriau hyn: gwel ar Gen. xi. 31. *A Duw eiddigus*—yr hwn, trwy ei fod wedi eich dyweddio iddo ei hun, a gyffroir yn ddirfawr yn eich erbyn os puteiniwch ar ol eilunod: gwel ar Exod. xx. 5.

Adn. 25. *Ac ymlygru o honoch*] Ymddengys yn amlwg fod hyn yn rhagfynegiad o'r hyn

wlad, ac ymylgru o honoch, a gwneuthur o honoch ddelw gerfedig, llun dim, a gwneuthur drygioni yn ngolwg yr Arglwydd dy Dduw i'w ddogio ef;

26 Galw yr ydwyf yn dystion yn eich erbyn chwi heddyw y nefoedd a'r ddaear, gan ddarfod y derfydd am danoch yn fuan oddiar y tir yr ydych yn myned dros yr Iorddonen iddo i'w feddiannu: nid estynwch ddyddiau ynddo, ond gan ddyfetha y'ch dyfethir.

27 A'r Arglwydd a'ch gwasgara chwi yn mhlith y bobloedd, a chwi a adewir yn ddyinion anaml yn mysg y cenhedloedd, y rhai y dwg yr Arglwydd chwi atynt:

28 Ac yno y gwasanaethwch dduwiau o waith dwylaw dyn, *sef* pren a maen, y rhai ni welant, ac ni chlywant, ac ni fwytânt, ac ni aroglant.

29 Os oddiyno y ceisi yr Arglwydd dy Dduw, ti a'i cai ef, os ceisi ef â'th holl galon, ac â'th holl enaid.

ag y rhagwelai Moses y byddai iddo gymeryd lle mewn oesau dyfodol: gwel ar adn. 30.

Adn. 26. *Galw yr ydwyf yn dystion yn eich erbyn chwi heddyw y nefoedd a'r ddaear*] Dull tra phwysig o dŷngu, mewn arferiad yn mhlith pob cenedl yn y byd. Felly Virgil, *Æn.*, llyfr xii. llin. 176, &c. Yma gelwir ar Dduw a dynion i fod yn dystion o wirionedd yr hyn a lefarir, fel os oedd unrhyw ddiffyg neu anghywirdeb, y byddai iddo gael ei ddy-noethi; ac os unrhyw fai, na fyddai iddo ddi-ancu yn ddogosp. Y mae y fath apelïadau at Dduw, ac i'r cyfryw ddybenion, yn dangos ar unwaith ddechread a defnydd *llwos*: gwel ar pen. vi. 13.

Adn. 27. *A'r Arglwydd a'ch gwasgara chwi yn mhlith y bobloedd*] Cafodd hyn ei wireddu yn helaeth yn eu gwahanol gaeth- gludiadau a'u gwasgariadau.

Adn. 28. *Ac yno y gwasanaethwch dduw- iau o waith dwylaw dyn*] Chwi a orfodir gan ddyinion, ac a roddir i fyny genyf finau, i eilunaddoliaeth; fel ag y byddi i'r peth ag ydoedd yn wrthddrych eich dewisiad fod yn gop i chwi. Yr oedd yn gyfiawn ac yn arferol i Dduw gospi y naill bechod trwy roddi ddyinion i fyny i'r llall.

Adn. 29. *Os oddiyno y ceisi yr Arglwydd dy Dduw*] Pa le bynag y byddom, gallwn oddiyno ei geisio ef, a'i gael; eanys nid oes un ran o'r ddaear â gagerod wedi ei sicrhau rhynguddi a'r nef. Y mae Duw yn llawn trugaredd, ac yn barod bob amser i dderbyn yr enaid edifeiriol, pan y mae yn dychwelyd ato ef â'i holl galon. Y mae yr addewid hon wedi ei gadael mewn cofiadwriaeth, er cefnogaeth ac iachawdwriaeth i Israel gyfrgolledig.

Adn. 30. *Pan gyfyngo arnat—yn y dydd- iau diweddaf*] Onid y rhai hyn yw y dyddian ag y cyfeirir atynt? Felly y mae gobaiht eto i had Jacob; ac y mae yr addewid a wneir

30 Pan gyfyngo arnat a dygwylldo yr holl bethau hyn i ti, yn y dyddian diweddaf, os dychweli at yr Arglwydd dy Dduw, a gwrando ar ei lais ef:

31 (O herwydd yr Arglwydd dy Dduw *sydd* Dduw trugarog) ni edy efe di, ac ni'th ddyfetha, ac nid an- nghofia gyfammod dy dadau, yr hwn a dyngodd efe wrthynt.

32 Canys ymofyn yn awr am y dyddiau gynt, a fu o'th flaen di. o'r dydd y creodd Duw ddynd ar y ddaear, ac o'r *naill* gwr i'r nefoedd hyd y cwr *arall* i'r nefoedd, a fu megys y mawr- beth hwn, neu a glybuwyd ei gyffelyb ef:

33 A glybu pobl lais Duw yn llef- aru o ganol y tân, fel y clywaist ti, a byw?

34 A brofodd un Duw ddyfod i gy- meryd iddo genedl o ganol cenedl, trwy brofedigacthau, trwy arwydd- ion, a thrwy ryfeddodau, a thrwy ry-

yma yn cael ei gwireddu i bob Iuddeu ag sydd mewn gwirionedd yn credu yn Nghrist.

Adn. 31. *Gyfammod dy dadau*] Gwel ar Rhuf. xi. 28.

Adn. 32. *Ymofyn yn awr am y dyddiau gynt*] I edrych a gafodd neb erioed y fath brof- ion o ddaioni Duw ag a gefaist ti. Y mae edrychiad yn ol ar fywyd yn addysgiadol o'ninaw. Gallwn y pryd hyn ofyn gyda phriod- oldeb manwl, pa bechodau a gyllawnasom? pa freintiau a fwyphasom? pa beth a wnaethom er gogoniant i Dduw a lles i ddyinion? a pha barotoad a wnaethom gogyfer â'g angau a thra- gwyddoldeb? *O'r naill gwr i'r nefoedd—sef* yn mliob rhan o'r ddaear dan y nefoedd: gofyn i holl drigolion y byd.

Adn. 33. *A glybu pobl lais Duw yn llefaru o ganol y tân, fel y clywaist ti, a byw?*] Yr oedd yn gred gyffredin, os ymddanghosai Duw i ddyinion, mai i'w dyfetha y byddai hyn; ac yn wir y rhan fwyaf o'r amlygiadau anghyffredin o Dduw oeddnt mewn ffordd o *farn*. Ond yma yr oedd yn wahanol: clywsant y llais, gwelsant y tân, a chwastant *fyw*; eanys efe a ddaeth atynt, nid i'w dyfetha, ond i'w haehub.

Adn. 34. *A brofodd un Duw ddyfod i gy- meryd iddo genedl o ganol cenedl*] Yr oedd yn beth tra anghyffredin fod i genedl gyfan, grynwydedig o fwy na 600,000 o wŷr grymus heblaw gwragedd a phlant, gael eu dwyn all- an, heb daraw dyrnod, o ganol cenedl dra ehad- arn yr Aifftiaid, i'r rhai yr oedd eu gwasanaeth mor anhebgorol angeni heidiol; fod iddynt gael eu dwyn allan yn y fath fodd cyhoeddus; fod i'r môr ei hun gael ei hollti yn wyrthiol er gwneyd ffordd i'r llu galluog hwn; a bod iddynt gael eu cynal am ddengau mlynedd mewn anialwch hollol anffafriol i'r bywyd dynol! Yr oedd y rhai hyn yn fath anghreifftiau o hollall- uog nerth a daioni Duw nas gellid byth eu ban- nghofio. Y mae Moses yma yn rhoi *saith* o

fel, a thrwy law gadarn, a thrwy fraich estynedig, a thrwy ofn mawr, fel yr hyn oll a wnaeth yr Arglwydd eich Duw eroch chwi yn yr Aifft yn ngwydd dy lygaid?

35 Gwnaethpwyd i ti weled *hyuy*, i wybod mai yr Arglwydd *sydd* Dduw, nad *oes* neb arall ond efe.

36 O'r nefoedd y parodd i ti glywed ei lais, i'th hylforddi di; ac ar y ddaear y parodd i ti weled ei dân mawr, a thi a glywaist o ganol y tân ei ciriau ef.

37 Ac o achos iddo garu dy dadau, am hyny y dewisodd efe eu had hwynt ar eu hol; ac a'th ddyg di o'i flaen, a'i fawr allu allan o'r Aifft:

38 I yru cenhedloedd mwy a chryfach na thi ymaith o'th faen di, i'th ddwyn di i mewn, i roddi i ti eu gwlad hwynt yn etifeddiaeth, fel heddyw.

39 Gwybydd gan hyny heddyw, ae ystyria yn dy galon, mai yr Arglwydd

sydd Dduw yn y nefoedd oddiarnodd, ac ar y ddaear odditanodd; ac nid neb arall.

40 Cadw dithau ei ddeddfau ef, a'i orchymynion, y rhai *yr ydwyff* yn eu gorchymyn i ti heddyw; fel y byddo yn dda i ti, ac i'th feibion ar dy ol di, fel yr estynech ddyddiau ar y ddaear, yr hou y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti byth.

41 ¶ Yna Moses a neillduodd dair dinas o'r tu yma i'r Iorddonen, tua chodiad haul;

42 I gael o'r llofrudd ffoi yno, yr hwn a laddai ei gymydog yn amryfus, ac efe heb ei gasâu o'r blaen; fel y gallai ffoi i un o'r dinasoedd hyuy, a byw:

43 *Sef* Bezer yn yr anialwch, yn ngwastattir y Reubeniaid; a Ramoth yn Gilead y Gadiad; a Golan o fewn Basan y Manassiaid.

44 ¶ A dyma y gyfraith a osododd Moses o flaen meibion Israel;

45 Dyma y tystiolacthan, a'r deddf-

wahanol foddion a arferwyd gan yr Hollalluog er gwaredu Israel: (1) *Trwy brofedigaethau*—y gwyrtiau y rhai a wnaeth Duw i brofi fydd ac ufydd-dod plant Israel, yn gystal a'r Aifftiaid. (2) *Arwyddion*—y cyfryw arwyddion ag a roddai Duw iddynt o'i bresenoldeb parhaus a'i ragluniaeth neillduol, megys y golofn gwynwl a'r golofn dân, gwlawiad y manna, &c. (3) *Rhyfeddodau*—holtiaid y môr coch, dygiad dwfr o'r graig, a'r cyffelyb; neu ffeithiau a dygwyddiadau darbwyllydiol, yn ol Parkhurst; neu arddangosiadau cysgodol o Grist, yn ol Clarke. (4) *Rhyfel*—megys y rhai hyny gyda'r Amaleciaid, yr Amoriaid, a'r Midianiaid, yn y rhai y gwelid llaw Duw yn hytrach na llaw dyn. (5) *Llaw gadarn*—yn crafangu ei gelynyon mor galed fel nas gallent ddianc, ac yn noddol ei chyfeillion mor rymus fel nas gallent gael eu niweidio: gwel isod. (6) *Braich estynedig*—cyfres o weithrediadau oll-nerthol, yn dylun eu gilydd mewn olyniad cyflym a rhyfeddol. Yn yr ysgrythyrâu, 1. Y mae *bys* Duw yn dynodi unrhyw amlygiad o'r *gallu dwyfol*, lle y mae effeithiau yn cael eu cynrychu tuhwnt i allu celfyddyd neu anian. 2. Y mae *llaw* Duw yn arwyddo yr un gallu, ond yn cael ei roddi allan mewn ffordd *hypnotach*. 3. Y mae *braich* Duw yn arwyddo y dwyfol hollalluogrwydd yn amlygedig yn y gwyrtiau miwyaf *aruthrol*. 4. A braich Duw yn *estynedig* a arwydda yr hollalluogrwydd hwn yn cael ei osod allan trwy *barhad* o wyrthiau aruthrol mewn ffordd o farn a thrugaredd. Ynddengys mai yn yr ystyr olaf hwn ei cymeryd yn y testyn, meddai Clarke: yr oedd y *barnedigaethau* yn cael eu tywallt allan ar yr Aifftiaid, a'r *trugareddau* yn cael eu gwneuthur o blaid yr Israeliaid. (7) *A thrwy ofn mawr*—y fath ag a gynrychid gan y deg pla, at y rhai ond odid y cyfeirir yma; neu, fel y mae gan y LXX, *gyda golyg-*

fydd mawrion neu *ddargoelus*, megys pryd yr edrychodd Duw o'r cwmwl ar yr Aifftiaid, ac y tynwyd ymaith olwynion eu cerbydanu, Exod. xiv. 24, 25.

Adn. 35. *I wybod mai yr Arglwydd sydd Dduw* I'rh argyhoeddi mai JERONA yw yr unig wr Dduw, ac mai efe yn unig sydd i gael ei addoli.

Adn. 36. *O'r nefoedd y parodd i ti glywed ei lais* Gwel ar Exod. xix. 9, 19, a xx. 18, 22.

Adn. 37. *Ac a'th ddyg di o'i flaen* Neu yn ei *olwg*, gan gadw ei lygad yn sefydlog arnat, fel y gwna tad ar ei anwyl blentyn. *A'i fawr allu*—ac nid trwy unrhyw nerth naturiol o'r eiddod dy hun, y gwaredwyd di allan o'r caethiwed hwnw yn yr hwn y bu holl filoedd Israel yn byw cyhyd yn yr Aifft.

Adn. 38. *I yru cenhedloedd mwy a chryfach na thi* Gwel ar pen vii. 1.

Adn. 39. *Gwybydd gan hyny heddyw, ae ystyria yn dy galon* Oddiwrth yr hyn oll a welaist, a glywaist, ac a brofaist; *mai yr Arglwydd sydd Dduw*—gan nas gallai neb ond Creawdwr a Llywodraethwr nef a daear gyflawni y gweithredoedd nerthol hyny.

Adn. 40. *Cadw dithau ei ddeddfau ef* Ar yr hyn yn unig yr ymddibyna dy lwyddiant a'th barhad yn Nghlanaan.

Adn. 41, 42. *Yna Moses a neillduodd dair dinas* I fod yn noddfa i lofruddion ar yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen: gwel y gyfraith berthynol iddynt yn cael ei hegluro ar Num. xxxv. 9, &c.

Adn. 43. *Sef Bezer* Megys y deallir yn gyffredin fod y dinasoedd noddfa yn gysgodau o'r iachawdwriaeth sydd yn Nghrist i bechaduriaid, felly meddylwyd fod eu *henwau* yn arwyddo ihyw briodoledd o eiddo y Gwaredwr: gwel hwynt yn cael eu hegluro, Jos. xx. 7, 8.

Adn. 44, 45. *A dyma y gyfraith* A fynegir

au, a'r barnedigaethau, a lefarodd Moses wrth feibion Israel, gwedi eu dyfod allan o'r Aifft:

46 Tu yma i'r Iorddonen, yn y dyffryn, ar gyfer Beth-peor, yn ngwlad Sehon brenin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon, yr hwn a darawsai Moses a meibion Israel, wedi eu dyfod allan o'r Aifft:

47 Ac a berchenogasant ei wlad ef, a gwlad Og brenin Basan, dau o frenhinoedd yr Amoriaid, y rhai oedd tu yma i'r Iorddonen, tua chodiad haul;

48 O Aroer, yr hon oedd ar lan afon Arnon, hyd fynydd Sion, hwn yw Hermon;

49 A'r holl ros tu hwnt i'r Iorddonen tua'r dwyrain, a hyd at fôr y rhos, dan Asdath Pisgah.

PENNOD V.

A MOSES a alwodd holl Israel, ac a ddywedodd wrthynt, Clyw, O Israel, y deddfau a'r barnedigaethau yr ydwyf yn eu llefaru lle y clywoch

yn fwy neillduol a llawn yn y bennod nesaf, i'r hon y mae y geiriau hyn yn arweiniad i mewn.

Adn. 46, 47. *Ar gyfer Beth-Peor, &c.*] Rhoddir yma ddarluniad manwl o'r fan lle yr adroddai Moses y cyfreithiau hyn iddynt. Yr oedd, (1) Ar gyfer *Beth-Peor*, eilun-deml y Moabiaid, ar yr hon ysgatfydd yr edrychai Moses weithian, pan yn eu rhybyddio rhag llwgr y lle hwnw. (2) Yr oedd yn y wlad a gymerasant o law *Sehon*, yr hon yr oeddynt yn awr mewn meddiant gwirioneddol o honi, yn gystal ag o wlad *Og*. Ac yr oedd eu buddugoliaethau hyn yn ddadl gref dros ufydd-dod, ac yn ernes o fuddugoliaethau mwy.

Adn. 48. *Hyd fynydd Sion, hwn yw Hermon*] Gwel pen. iii. 9. Tybia Coke fod mynydd Hermon yn cael ei alw yn *Sion* trwy gwtogiad o *Sirion*. Rhaid i ni ofalu i beidio ei gymysgu ef gyda'r mynydd *Seion* hwnw ag ydoedd yr ochr arall i'r Iorddonen, ac mewn amseroedd ar ol hyn yn sedd frenhinol i Dafydd. Yn y cyfieithiad Syriaidd darllenir *Sirion*; a dicheon mai gwall yn unig yw hwn o eiddo yr adysgrifenydd.

Adn. 49. *Tu hwnt i'r Iorddonen*] O Ganaan; dan *Asdath Pisgah*—gwel ar pen. iii. 17. Tybia Clarke fod y naw adnod olaf o'r beunod hon wedi cael eu chwaneagu gan Josua neu Ezra; a diamau fod y dynion santaidd hyn yn cael eu cynhyrfu i hyn gan yr Ysbyrd Glân.

PEN. V. Adn. 1. *A Moses a alwodd holl Israel*] Sef eu hênuriaid a'u cynrychiolwyr hwynt, i'r ail gyfarfod. Y mae yn debyg iddo draethu iddynt gynwysiad y pedair pennod flaenorol y dydd cyntaf. *Fel y byddo i chiwi eu dysgu*—ac wedi hyny ufyddhau iddynt yn fanwl yn mhob dim.

heddyw; fel y byddo i chiwi eu dysgu, a'u cadw, a'u gwneuthur.

2 Yr Arglwydd ein Duw a wnaeth gyfammod â ni yn Horeb.

3 Nid â'n tadau ni y gwnaeth yr Arglwydd y cyfammod hwn, ond â nynt; nynt, y rhai ydym yn fyw bob un yma heddyw.

4 Wyneb yn wyneb yr ymddyddanodd yr Arglwydd â chiwi yn y mynydd, o ganol y tân,

5 (Myfi oeddwn yr amser hwnw yn sefyll rhwng yr Arglwydd a chiwi, i fynegu i chiwi air yr Arglwydd: canys ofni a wnaethoch rhag y tân, ac nid esgynech i'r mynydd) gan ddywedyd,

6 ¶ Yr Arglwydd dy Dduw ydwyf fi, yr hwn a'th ddyg allan o dir yr Aifft, o dŷ y caethiwed.

7 Na fydded i ti dduwiau ereill ger fy mron i.

8 Na wna i ti ddelw gerfiedig, na llun dim a'r y sydd yn y nefoedd oddi uchod, nac a'r y sydd yn y ddaear oddi

Adn. 2. *Cyfammod â ni yn Horeb*] Gwel ar Exod. xix. 5.

Adn. 3. *Nid â'n tadau ni y gwnaeth yr Arglwydd y cyfammod hwn*] Hyny yw, nid â'n tadau ni yn unig; ond â nynt—hefyd. Neu, nid âg Abraham, Isaac, a Jacob; ond â nynt eu hilogaeth hwynt: felly *Houbigant*.

Adn. 4. *Wyneb yn wyneb*] Sef yn eglur, ac mewn modd cyfeillgar a hyglyw, er yn anwel-edig.

Adn. 5. *Myfi oeddwn yr amser hwnw yn sefyll rhwng yr Arglwydd a chiwi*] Megys cyfryngwr, yn ol eich dymuniad chiwi; i fynegu i chiwi air yr Arglwydd—nid y deg gorchymyn, y rhai a draethasai yr Arglwydd ei hun, eithr y deddfau a'r barnedigaeth hyny ag oeddynt yn dilyn.

Adn. 6. *Yr Arglwydd dy Dduw ydwyf fi, &c.*] Y mae y DEG GORCHYMYN, y rhai a draddodwyd Exod. xx, yn cael eu hailadrodd yma gyda rhyw ychydig o wahaniaeth geiriau, eithr y mae y synwyr yn berffaith yr un. Gan mai ychydig a ddywedwyd yn nghylch ystyr ysbrydol y DEG GORCHYMYN yn y sylwadau yno, dicheon na fyddai yn amhriodol chwaneagu ychydig holiadau yma, y rhai y gall y darllenwydd eu hateb rhwng Duw a'i enaid ei hun.

I. Adn. 7. *Na fydded i ti dduwiau ereill ger fy mron i*] A ddarfu i ti addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd? A wnaethost ti ef yn ddyben eithlaf dy holl weithredoedd? A wyt ti yn gwasanaethu Duw yn benaf, gan ei garu ef â'th holl galon, â'th holl enaid, ac â'th holl nerth? Os angen, y mae genyt dduwiau ereill ger ei frou (o'i flaen neu yn ei le) ef.

II. Adn. 8. *Na wna i't ddelw gerfiedig*] Ai ni ffurfaist ti unrhyw ddelw anweddus o Dduw yn dy feddwl? A feddyliaist ti bob amser am dano ef megys YSBRYD pur, yr hwn na welodd un dyn, ac nas dicheon iddo ei weled? Ac a

isod, nac a'r *ysyd* yn y dyfroedd oddi tan y ddaear.

9 Nac ymgyrma iddynt, ac na wasanaetha hwynt : oblegid myfi yr Arglwydd dy Dduw *ydwyf* Dduw eiddigus, yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd *genhedlaeth* o'r rhai a'm casânt ;

10 Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwiant fy ngorchymynion.

11 Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer : canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer.

12 Cadw y dydd sabboth i'w santeiddio ef, fel y gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

13 Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith :

14 Ond y seithfed dydd *yw* sabboth

addolaist ti ef â'th gorff yn gystal ag â'th ysbryd, gan eu bod ill dau yn eiddo Duw?

Adn. 9, 10. *Yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, &c.* Gwel ar Exod. xx. 5, 6.

III. Adn. 11. *Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer* Ai ni arferai't ti erioed enw Duw oddieithr mewn gweddï, neu fawl, neu gyda golwg ar ei ddyrchafu a'i ogoneddu? Ac a ddarfuo i ti y pryd hyny ei arfer ef gyda'r parch a'r ofn dwysaf?

IV. Adn. 12—14. *Cadw y dydd sabboth i'w santeiddio ef* Ai nid wyt ti yn gwneuthur gwaith ar y dydd hwn ag y gellid ei wneuthur cystal ar ddydd arall? A ydwy't ti yn ofalus ar y dydd hwn i ochelyd pob ymddyddan a'r nad yw yn tueddu at wybodaeth a chariad Duw? Ac a wyt ti yn gwlyio yn gaeth dros bawb o fewn dy byrth, ar eu bod hwythau hefyd yn ei gadw ef yn santaidd?

Adn. 15. *A chofia mai gwas a fuost ti* Y mae Moses yn hon, a'r rhan ddiweddaraf o'r adnod flaenorol, yn chwaneagu rheswm arall pa bam y dylai un dydd o *sath* gael ei santeiddio, *fel sêl y gorphwysai y gweinidogion* ; ac y mae hyn yn cael ei wasgu arnynt oddiar yr ystyriaeth mai *gweision* fuont *hwythau* yn ngwlad yr Aifft. Nyni a welwn gan hyny fod gan Dduw bedwar dyben arbenig mewn golwg wrth benodi y SABOTH : (1) I goffia y *cread*. (2) I goffia y *waredigaeth o'r Aifft*. (3) I roddi cyfran ddyledus o *orphwysdra* i ddyd ac anifel. Pan yn yr Aifft nid oeddynt hwy yn cael dim gorphwysdra ; gwnai eu meistriaid creulon iddynt weithio yn ddiseibiant : eithr yn awr rhoddasai Duw iddynt orphwysdra ; a chan iddo ef ddangos trugaredd iddynt hwy, y mae yn eu dysgu hwythau i ddangos trugaredd i'w gweinidogion. (4) I roddi manteision *ysbrydol* i'r enaid, fel ei cedwid mewn cofadwriaeth o'r *orphwysfa* sydd eto yn ol ar ddeheulaw Duw. *A'th ddwyn o'r Arglwydd dy Dduw allan oddiyno â llaw gadarn ac â braich estynedig*—irwy rifies o wrthiau aruthrol yn cael eu heffeithio gan ei hollalluog nerth : gwel ar pe. iv. 34. *Am*

yr Arglwydd dy Dduw : na wna *yn-ddo* ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn, na'th ŷch, na'th asyn, nac yr un o'th anifeiliaid, na'th ddycithrddyn yr hwn *fyddo* o fewn dy byrth ; fel y gorphwysyo dy was a'th forwyn, fel ti dy hun.

15 A chofia mai gwas a fuost ti yn ngwlad yr Aifft, a'th ddwyn o'r Arglwydd dy Dduw allan oddiyno â llaw gadarn, ac â braich estynedig : am hyny y gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti gadw dydd y sabboth.

16 ¶ Anrhydedda dy dad a'th fam, fel y gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti ; fel yr estyner dy ddyddiau, ac fel y byddo yn dda i ti ar y ddaear yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

17 Na ladd.

hyny y gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti gadw dydd y sabboth—ar ddydd *Sadwrn* yn lle ar ddydd *Sul*. Y mae yn dra thebyg fod ein sabboth Cristionogol ni, yr hwn a gedwir ar ddydd *Sul*, er cofadwriaeth am adgyfodiad ein Gwaredwr o'r bedd ar y dydd hwnw, yn cael ei gadw ar yr un diwrnod ag y cedwid ef yn wreiddiol, a thrwy holl gyfnod yr oruchwyliaeth batriarchaidd ; ac felly y mae yn goffadwriaeth nid yn unig am adgyfodiad Crist, ond hefyd am orphwysiad Duw oddiwrth waith y cread. Dan yr oruchwyliaeth Foenaidd yr oedd y sabboth Iuddewig yn goffadwriaeth nid yn unig am y cread, ond hefyd am waredigaeth Israel o'r Aifft, a thrwy y môr coch, fel yr awgrymir yn y testyn : 'am *hyny* y gorchymynodd yr Arglwydd,' &c. Trwy nad oedd yn gyfreithlon iddynt deithio gyda'u holl gelfi ar y *Sul*, y mae yn debygol iddynt gyraedd drosodd ar y *Sadwrn* ; a chadwyd y sabboth ar y *Sadwrn* o hyny allan, yn gof am eu gwaredigaeth ryfeddol. Y mae yn auhawedd meddwl pa fodd y gallasai cadwraeth y sabboth, yr hyn oedd mewn arferiad er dechre y byd, fod yn goffadwriaeth am waredigaeth Israel, oddi eithr i ni dybio ei fod ef wedi ei newid i'r *dydd hwnw* ar yr hwn eu gwaredwyd. Felly y mae y sabboth Iuddewig yn awr ar ben, (gwel ar Rhuf. xiv. 5, a Col. ii. 16,) a'r sabboth gwreiddiol wedi cael ei adfer i'w ddiwrnod ei hun, i fod yn goffadwriaeth am y gorphwysiad dwyfol oddiwrth y gwaith o gren, yn gystal ag am adgyfodiad ein Harglwydd o'r bedd. Gwel Feibl Hebreig a Saesong Dr. A. Bayley, a'r sylw ar Exod. xvi. 23.

V. Adn. 16. *Anrhydedda dy dad a'th fam* A fuost ti yn anfydd i'r nail? neu y llall? Ai ni ddirmygaist eu cyngbor hwynt? A geraist ac a anrhydeddaist ti en personau, gan ddiwallu eu hangenrheidiau a cheln eu gwendidau? Ac a daer weddiaist ti drostynt hwy?

VI. Adn. 17. *Na ladd* Ai ni hudaist ti neb i'r hyn a allai fyrhau ei einioes? A waenthest ti gymaint ag a ellit, yn mhob lle, i attal anghymedroldeb o bob math? Ai nid wyt ti

18 Ac na wna odineb.

19 Ac na ladrata.

20 Ac na ddwg gamdystiolaeth yn erbyn dy gymydog.

21 Ac na chwennych wraig dy gymydog, ac na chwennych dŷ dy gymydog, na'i faes, na'i was, na'i forwyn, na'i ŷch, na'i asyn, na dim ar y *sydd* eiddo dy gymydog.

22 ¶ Y geiriau hyn a lefarodd yr Arglwydd wrth eich holl gynulleidfa yn y mynydd, o ganol y tân, y cwmwl, a'r tywyllwch, a llais uchel; ac ni chwaneodd *ddim*; ond ysgrifennodd hwynt ar dduw lech o gerig, ac a'u rhoddes ataf fi.

23 A darfu, wedi clywed o honoch y llais o ganol y tywyllwch (a'r mynydd yn llosgi gan dân) yna nesasoch ataf, *sef* holl bennaethiaid eich llwythau, a'ch henuriaid chwi;

byth yn hwyta nac yn yfed dim am ei fod yn ddymunol i'th archwaeth, er fod genyt reswm i greu ei fod yn niweidiol i'th iechyd? Ai ni chuseaist ti dy gymydog yn dy galon? Ac a wnaethost ti yr hyn oll oedd yn dy allu i gynorthwyo dy holl gymydogion?

VII. Adn. 18. *Ac na wna odineb*] Os na fuost ti yn euog o un weithred o afneddi, ai ni ddychymygodd dy galon un meddwl aflan? Ai ni edrychaist ti ar wraig i'w chwennychu hi? Ai ni fradychaist ti dy enaid dy hun i brofedigaeth, trwy fwyta ac yfed i ormodedd, neu trwy iaith, gwisgiad, neu ymddygiad anweddaidd? A arferaiſt ti yr holl foddion ag y nae yr ysgrifthyf a rheswm yn eu crybwyll, i ragflaenu pob math a gradd o anniweirdeb? Ac a ymdrechaist ti, trwy wyladuriaeth, ympryd, a gweddi, i feddiannu dy lestr dy hun mewn santeiddrwydd a pharch?

VIII. Adn. 19. *Ac na ladrata*] A ystyriaist ti yn ddirifol am y tai, y tiroedd, a'r arian, y rhai yr arferaiſt eu galw yn eiddot dy hun, nad ydynt yn eiddot ti, ond mai eiddo yr Arglwydd ydynt? A ystyriaist ti na ddarfu i Dduw ond rhoddi eu benthyg hwy i ti; nad wyt ti ond goruchwylwr ar eiddo dy Arglwydd; a darfod iddo fynegu i ti yn bendant y dybenion i'r rhai yr ymddiriedodd efe hwynt i ti, sef yn gyntaf er dy ddiwallu dy hun a'r rhai a ymddibynant arnat, ac yna gynyfer ereill a eli, a'r pethau angenrheidiol i fywdd a dwioldeb? A ystyriaist ti nad oes genyt hawl i gymhwyso un ran o honynt i unrhyw ddyben arall? ac os wyt yn gwneuthur, dy fod ti yn gymaint yspelliwr ar Dduw ag y gall neb fod arnat tithau?

IX. Adn. 20. *Ac na ddwg gamdystiolaeth yn erbyn dy gymydog*] Ai ni fuost ti yn euog o athrod, enllib, gogan, neu awnired? Os bydd i ni weled dyn yn gwneyd ar fai, a'i adrodd wrth arall, oddieithr oddiar argyhoeddiad llawn ac eglur fod yn angenrheidiol ei grybwyll ef y pryd hyn, er gogoniant i Dduw, er diogelwch neu les i ereill, neu er budd i'r hwn a wnaeth ar fai, y nae hyn yn athrodiath.

24 Ac a ddywedasoch, Wele yr Arglwydd ein Duw a ddanghosodd i ni ei ogoniant, a'i fawredd; a'i lais ef a glywsom ni o ganol y tân: heddyw y gwelsom lefaru o Dduw wrth ddynt, a byw o hono.

25 Weithian gan hyn y pahan y byddwn feirw? oblegid y tân mawr hwn a'n difa ni: canys os nynt a chwanegwn glywed llais yr Arglwydd ein Duw mwyaech, marw a wnawn.

26 Oblegid pa gnawd oll *sydd*, yr hwn a glybu lais y Duw byw yn lefaru o ganol y tân, fel nynt, ac a fu fyw?

27 Nesâ di, a chlyw yr hyn oll a ddywed yr Arglwydd ein Duw; a llefara di wrthym ni yr hyn oll a lefaru yr Arglwydd ein Duw wrthyt ti: a nynt a wrandawn, ac a wnawn hynny.

X. Adn. 21. *Ac na chwennych—ddim a'r y sydd eiddo dy gymydog*] Ystyr am!wg y gorchymyn hwy ydyw, na thrachwanta ddim a'r nad yw eiddot ti, ddim a'r nad yw genyt. A phahan y gwnai? Y nae Duw wedi rhoddi i ti bob peth ag sydd yn tueddu i'th brif ddyben, sef santeiddrwydd calon a buchedd. A wyt ti yn foddlon i'th sefyllfa, ac yn gogoneddu Duw yn hyn o ran? *Na'i faes*—nid yw yr adrau yma yn y degfed gorchymyn, fel y nae yn sefyll yn Exod. xx. 17; ond y nae yn ddealliedig yn y rhan olaf o'r adnod hono, 'Na dim a'r sydd eiddo dy gymydog.' Gwel y gorchymynion hyn wedi eu hegluro yn fanwl ar Exod. xx.

Adn. 22. *O ganol y tân, y cwmwl, a'r tywyllwch*] Yr oedd yr arswydolrwydd hwn yn cael ei fwriadu i wneuthur efengyl gras yn fwy derbyniol, ac i fod yn gynllun o ddychrynfydd dydd y fam. *Ac ni chwaneodd ddim*—efe a beidiodd am yr amser hwn â llefaru yn ddigyfrwng wrth y bobl; canys y gorchymynion gweddill a draddodwyd i Moses, a chando yntau i'r bobl, nid yn unig am eu bod hwy yn arswydo, ond hefyd i ddaugos rhagorolrwydd y gyfraith hono ar y lleill, a'i thragwyddol rwymedigaeth.

Adn. 23. *A darfu, wedi clywed o honoch y llais, &c.*] Gwel ar Exod. xx. 18, &c.

Adn. 25. *Weithian gan hyn y pahan y byddwn feirw?*] Er i Dduw yn awr ein cadw yn fyw, eto ni allwn byth ddyoddef unrhyw draethiad pellach oddiwrth ef yn y fath fodd dychrynlyd, heb suddo dano.

Adn. 26. *Oblegid pa gnawd, &c.*] Y nae *cnawd* yn cael ei roddi yma am ddynt yn ei gyfiwr brau, llygredd, a marwol.

Adn. 27. *Nesâ di, a chlyw yr hyn oll a ddywed yr Arglwydd*] Ymddengys oddiyma eu bod yn dysgwyl chwaneog o'r chymynion oddiwrth Dduw; a barnent fod Moses nid yn unig yn alluog i ddyoddef y datguddiadau hyn o'r gogoniant dwyfol ag y byddai iddynt hwy farw danynt, ond hefyd i fyned i ganol y tywyllwch o'r hwn y deuai y filamau tân.

28 A'r Arglwydd a glybu lais eich geiriau chwi, pan lefarasoch wrthyf; a dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Clywais lais geiriau y bobl hyn, y rhai a lefarasant wrthyf: da y dywedasant yr hyn oll a ddywedasant.

29 O na byddai gyfryw galon ynddynt, i'm hofni i, ac i gadw fy holl orchymynion bob amser; fel y byddai da iddynt ac i'w plant yn dragwyddol!

30 Dos, dywed wrthynt, Dychwelwch i'ch peyll.

31 Ond saf di yma gyda myfi; a mi

Adn. 28. *Da y dywedasant*] Yr oedd eu gwaith yn addef yr angenheidrwydd am gyfyngwr i weinyddu rhyngddynt a Duw nid yn unig yn lysbys i Dduw, ond yn dda yn ei olwg. 'Nid oes air ar fy nhabod, ond wele, Arglwydd, ti a'i gwyddost oll,' Salm cxxxix. 4.

Adn. 29. *O na byddai gyfryw galon ynddynt, i'm hofni i, ac i gadw fy holl orchymynion bob amser!*] Yr oedd Duw yn foddion gyda'r tueddfryd o ofn a pharch a ddanghosit hwy tuag at ei Ddwyfol Fawrhydd; ac, yn ol dull dynion, y mae efe yn dangos y dymuniad gwresocaf i'r un tueddfryd daionus barhau ynddynt bob amser, fel y go-gwyddid hwy trwy hyn y ymlyniad diysgog wrth eu dyledswydd, ac y byddai iddynt hwy a'u hiliogaeth felly allu medd yr holl fendithion addawedig i'nydd-dod. Y mae yr ymadrodd hwn yn arwyddo fod cydymffurfiaid dynion â'u dyledswydd, a'r dedwyddwch a gânt hwy oddiwrth hyn, yn bethau tra boddhaol gan Dduw, yr hwn sydd yn gwir garu lles eu heneidiau. Y mae rhai yn cyfieithu y wreiddiol, *ni yitten vchayah lebom zeh*, 'pwy a ddyry gyfryw galon iddynt, fel yr ofnont fi,' &c. Fel pe dywedasai, Y maent yn gwrthod derbyn y gyfryw galon oddiwrthyf fi; pwy gan hyn a all ei rhoddi? Pe na bnasent hwy y fath beffaith rydd-oruchwylwr fel ag i allu defnyddio neu gamdefnyddio eu rhyddid, a allasai Duw wneyd yr achwyniad neu draethu y taer dymuniad a gawn yn yr adnod hon? Gwel ar pen. xxix. 4. Oddiwrth y testyn hwn a'r cyffelyb, y mae rhai yn barod i ofyn, *Os yw Duw mor awyddus am achubiaeth dynion, paham nad yw efe yn ei ddwyn oddiangyloch trwy ei hollalluog nerth?* I hyn gellir ateb, Er y gallai Duw oruchreoli rhyddid ewylllys dynion, a'u hattal i'w gweuthur drwg, eto ni fyddai yn gyson â'i ddoethineb i'w allu ef gael ei asferyd yn y ffordd hon, am y byddai i hyn gwbl ddyfethia holl *foes-oldeb* gweithredoedd dynion, a chynerdyd ymaith wir natur *rhinwedd a drygioni*. Pe byddai i Dduw roddi allan weithrediaid anwrthwyn-ebol ei allu ar rydd oruchwylwr, yn yr achos hwnw, pa mor reolaidd bynag y gallai eu gweithrediaid hwy fod, nis gellid eu galw yn *rhinwedd*, mwy na symudiadau peiriant neu awror. Y mae gan hyn mor bell oddi wrth fod yn anuheilwng o Dduw iddo ymattal rhag arfer ei allu anwrthwynebol ar oruchwylwr moesol, fel, yn y gwrthwyneb, y byddai

a ddywedaf wrthyf yr holl orchymynion, a'r deddfau, a'r barnedigacthau a ddyysi di iddynt, ac a wnant hwythau yn y wlad yr wyf fi ar ei rhoddi iddynt i'w pherchenogi.

32 Edrychweh gan hynny am wneuthur fel y gorchymynodd yr Arglwydd eich Duw i chwi: na chliwch i'r tu deau nac i'r tu aswy.

33 Cerddweh yn yr holl ffyrdd a orchymynodd yr Arglwydd eich Duw i chwi; fel y byddoch fyw, ac y byddo yn dda i chwi, ac yr estynoch ddyddiau yn y wlad yr hon a feddiennweh.

yn hollol anuheilwng o hono fod iddo arfer y gallu hwnw, am y byddai hynny yn ddymchweliad i'w holl ffridiad yn creu bodau rhesymol a dealgar. Rhaid i *oruchwylwr moesol* gael eu dylanwadu gan antogiaidau moesol—gan reswm a dadi, gan ddarbwylliaid ac argyhoeddiad, gan obeithion ac ofnau. Pe na byddai gan ddyng ewylllys rydd, ni ellid ei *gosp* na i'w *wobrwyo*, am y byddai i'w ystyried fel peiriant yn unig; ac felly ni byddai yn gyfrifol am ei weithredoedd mwy na'r tân am ei gyneddf *ysol*, neu y *gareg* am ei *phycsi*, ar ol i'r naill losgi tŷ y cyfiawn, a'r llall lethu y diniwed i farwolaeth. Gallwn orphen y sylw hwn yn briodol yn rgeiriau y duwfol HENRY: 'Y mae Duw y nefoedd yn dymuno lles ac iachawdwriaeth pechaduriaid tydodion yn wirioneddol a difrifol. Rhoddodd brawf cyflawn ei fod ef felly. Y mae yn rhoddi i ni amser a lle i edifarhau; y mae o'i drugaredd yn ein gwahoddi i edifeirwch, ac yn chwilio am le i drugarhau; anfonodd ei Fab i'n Gwaredu; cyhoeddodd gynnygiad cyffredinol o faddeuant a hywyd; addawodd ei Ysbryd i'r sawl a weddiant am dano; ac efe a ddywedodd, i'e a dyngodd, nad oes ganddo hyfrydwch yn marwolaeth pechaduriaid.'

Adn. 30, 31. *Dos, dywed wrthynt*] Yr hyn a ddengys fod Moses yn gyfyngwr rhwng Duw a hwy, yn gystal a rhyngddynt hwythau a Duw. *Ac a wnant hwythau*—a addawsant, nen a ddylent eu gwneuthur.

Adn. 32. *Na chliwch i'r tu deau nac i'r tu aswy*] Y mae ffordd gwirioneddol a chyfiawnder yn *llinell union*; a'r neb a ewyllsio gyraedd i'r nef, rhaid iddo gerdded yn union; canys ni ddarfu i un llwybr gŵyryg am neu gyfeiliornus erioed arwain at Dduw nac i ddedwyddwch.

Adn. 33. *Cerddweh yn yr holl ffyrdd a orchymynodd yr Arglwydd eich Duw i chwi*] Y mae y neb sydd yn dethol o'r dwyfol dystiolaethau y cyfryw orelchymynion a'r nad yw yn teimlo ond ychydig duedd i'w troseddu, gan fyw yn y troseddaiad o ereill, yn pechu yn erbyn awurdod arbenig y Deddfodwr, ac ymddygir tuag ato fel gwrthryfelwr. *Fel y byddoch fyw*—hynny yw, fel y *mwynhaoch* fywyd. *Ac yr estynoch ddyddiau yn y wlad*—heb gael eich gwasgaru oddiyno fel rhai anufydd i'm gorchymynion; nen, 'fel y cyrhaeddoch henaint tŷ.'—CLARKE.

PENNOD VI.

A DYMA y gorchymynion, y deddfau, a'r barnedigaethau a orchymynodd yr Arglwydd eich Duw eu dysgu i chwi; fel y gwnelech hwynt yn y wlad yr ydych yn myned iddi i'w meddiannu:

2 Fel yr ofnech yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw ei holl ddeddfau, a'i orchymynion ef, y rhai yr wyf fi yn eu gorchymyn i ti; ti, a'th fab, a mab dy fab, holl ddyddiau dy einioes; ac fel yr estyner dy ddyddiau.

3 ¶ Clyw gan hyny, O Israel, ac cdrych am eu gwneuthur hwynt; fel y byddo yn ddaionus i ti, ac fel y cyn-

ion] Y gyfraith foesol; y deddfau—y gyfraith seremonïol; a'r barnedigaethau—y gyfraith wladol. Fel y gwnelech hwynt—y byddoch byw yn yr ymarferiad parhaus o honyut yn Nghanaan tra y parhao yr oruchwyliaeth Foese-naidd.

Adn. 2. *Ti, a'th fab, a mab dy fab*] Trwy dy holl genedlaethau olynol. Bydd i'r hwn sydd yn ofni Duw ei hun, ymdrechu dwyn ei blant i'w ofni ef hefyd; fel y byddo i grefydd bur a dihalogedig gael ei chadw yn ei deulu trwy ei holl genedlaethau.

Adn. 3. *Clyw gan hyny, O Israel, ac edrych am eu gwneuthur hwynt*] Y mae Duw wedi rhoddi ei gyfraith i ni megys rheol bywyd; gan hyny y mae ufydd-dod iddi yn anhegorol angenrheidiol, nid er pryntu iachawdwriaeth, canys ni all un haeddiant dynol byth gyraedd hyny; ond dyma y *ffordd* ar hyd yr hon y mae cyfiawnder a thrugaredd Duw yn dewis arwain dynion i'r nef.

Adn. 4. *Clyw, O Israel; Yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd*] Heb. *shema Yisrael, Yehovah Eloheinu, Yehovah acha D.* Gellir cyfieithu y geiriau hyn yn amrywiol yn y Gymraeg; ond y mae pob amrywiad *geiriol* dichonadwy yn y cyfieithiad, fel y sylwa Clarke, yn dyfod i'r un ystyr: 'Israel, clyw! Jehofa ein Duw ni sydd un Jehofa;' neu, 'Jehofa yw ein Duw ni, Jehofa sydd un;' neu, 'Jehofa yw ein Duw ni, Jehofa yn unig;' neu, 'Jehofa yw ein Duw ni, Jehofa yr hwn sydd un;' neu, 'Jehofa, yr hwn yw ein Duw ni, yw yr un Bôd.' Y mae yr Iuddewon yn gosod pwys mawr ar yr adnod hon; y mae yn un o'r pedair cyfran ag y maent hwy yn eu hysgrifenu ar eu phylacterau; ac y maent yn ysgrifenu y llythren-olaf yn y gair cyntaf a'r diweddfaf yn dra mawr, i'r dyben i dynu sylw at y gwirionedd pwysig a gynwysa. Fe allai mai at yr arferiad yma o eiddo yr Iuddewon y cyfeiria eiu Harglwydd bendedigedig, Mat. xxii. 38, Marc xii. 29, 30, lle y dywed, *Hwn yw y cyntaf, a'r gorchymyn mawr*; a dyma bron y deongliad a ddyry Maimonides ar y lle hwn: 'Clyw, O Israel; canys yn y geiriau hyn y cynwysir cynyddf, cariad, ac athrawiaeth Duw.' Y mae llawer yn meddwl fod Moses yn y geiriau hyn yn dysgu athrawiaeth y DRINDOD mewn UN-

yddoch yn ddirfawr, fel yr addawodd Arglwydd Dduw dy dadau i ti, mewn gwlad yn llifeirio o laeth a mêl.

4 Clyw, O Israel; Yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd.

5 Câr di gan hyny yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth.

6 A hyddech y geiriau hyn, yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw, yn dy galon.

7 A hysbysa hwynt i'th blant; a chrybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fyny.

8 A rhwym hwynt yn arwydd ar

nod, fel yn yr adnod gyntaf o Genesis. Pan y mae yr adnod hon yn dygwyrdd yn y darlleniadau sabbothol yn y synagog, y mae yr holl gynulleidiaf yn ailadrodd y gair olaf, *achad*, dros amrai fynyddau yn nghyd, gyda'r dolefa uwchaf; a meddylir eu bod yn gwneyd hyny i wawdio y Cristionogion, y rhai y tybiant hwy eu bod yn dal *tri* o Dduwiau: ond nis gall eu holl fedruswydd hwy, fel y sylwa Clarke, byth brofi nad oes *luosogrydd* yn cael ei fynegu yn y gair *Eloheinu*, yr hwn a gyfieithir *ein Duw ni*; a phe byddai i'r Cristionogion, wrth ddarllen yr adnod hon, ddolefaif *Eloheinu* dros amrai fynyddau, fel y gwna yr Iuddewon gydag *achad*, efe a effeithiai yn rymusach i argyhoeddi yr Iuddewon o *luosogrydd* personau yn y Duwodon, nag y gwna y gair *achad* i'n hargyhoeddi ni, trwy fod pob Cristion yn derbyn yr athrawiaeth o *unoliaeth* Duw yn y modd mwyaf cydwybodol. O herwydd eu gwrthodiad hwy o'r athrawiaeth hon y mae digofaint Duw yn parhau i orphwys ar yr Iuddewon; canys nis gellir derbyn athrawiaeth yr *iawn*, heb i'r athrawiaeth o *Dduwdod Crist* gael ei derbyn hefyd.

Adn. 5. *Câr di gan hyny yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon*] Gwel ar Mat. xxii. 36—40.

Adn. 6. *Yn dy galon*] Yn cael eu gwerthfawrogi megys braint uchel a thra gogoneddus, nes bod yr holl enaid dan eu dylanwad.

Adn. 7. *A hysbysa hwynt i'th blant*] Gyd a'r dyfalwch mwyaf, fel yr arwydda y wreiddiol; gan wneuthur hyny drachefn a thrachefn, er peri iddynt eu deall. *A chrybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ*—bydded genyt grefydd GARTREF yn gystal ag yn y tabernacl neu yr eglwys. *A phan gerddych ar y ffordd*—bydded dy fod yn grefyddol ODDICARTREF yn gystal a chartref, ac na foed arnat gywilydd arddel Duw lle bynag y byddych. *A phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fyny*—bydded i ti *ddechreu a diweddu* y dydd gyda Duw, ac felly bydded crefydd yn brif orchwyl dy fywyd.

Adn. 8. *A rhwym hwynt yn arwydd ar dy law*] Meddylir fod yma gyfeiriad at hen arferiad cyffredin bron yn mhob parth o'r byd. Pan y mae yn y ewyllysio cofio rhywbeth o bwys,

dy law; byddant yn rhagtalau rhwng dy lygaid.

9 Ysgrifena lwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth.

10 Ac fe a dderfydd, wedi i'r Arglwydd dy Dduw dy ddwyn di i'r wlad (yr hon y tyngodd efe wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob, ar ei rhoddi i ti) i ddinasoedd mawrion a thêg, y rhai nid adeiledaist,

11 A rhai llawnion o bob daioni y rhai nis llenwaist, a phydewau cloddiedig y rhai nis cloddiaist, i winllanoedd ac olewyyddlanau y rhai nis plen-aist, wedi i ti fwyta, a'th ddigoni;

ac yn ofni ymddiried i weithbrediadau cyffredin ei gof, y mae ef yn gosod *llwyn* am ei law neu ei fys, neu yn gosod *cwlwm* ar ryw ran o'i ddillad a fyddo yn y golwg, fel y byddo i'w gof gael ei awchlymu i adgofiad. Felly y mae Duw, yr hwn a wŷr mor hwyrfydgyd o galon ydym ni i gofio, yn gorchymyn yn rasol i ni wneuthur defnydd o bob cymborth, a thrwy gyfringdod pethau gweledig ymgodi at betbau ysbrydol. *Byddant yn rhagtalau rhwng dy lygaid*—ymddengys fod *rotaphoth* yn meddu wrth yr ystyr ag sydd i *phyllaeterau* yn y Testament Newydd; ac am yr ystyr a'r dysgrifiad o'r llabedan hyn wrth wisg a chrefydd Iud-dew, gwel ar Exod. xiii. 9, a Mat. xxiii. 5.

Adn. 9. *Ysgrifena lwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth*] Yr oedd yr Iuddewon yn ysgrifenu y geiriau hyn o adn. 4 hyd ddi-wedd adn. 9, yn nghydad adran arall, pen. xi. 13—20, ar femwrn; ac ar ol ei blygu i fyny, ysgrifentent arno yr enw *Shaddai*, a dodent ef mewn darn o gorsen neu ryw bren ceulol arall, gan ei sicrhau wrth ddrysau eu tai a'u hystafelloedd. Mor aml ag yr aent i fewn ac allan, cyffyrddent â'r memwrn hwn, a chusanent ef, gan ddywedyd, 'Yr Arglwydd a ddiogelo fy mynediad allan a'm dyfodiad i mewn.' Felly, gan anghofio *ysbryd ac amcan* y gorchymyn hwn, hwy a ariferent y pethau hyn fel y gwna pobl ofergoelus *gyfareddau a swymion*; a thybient, os byddai ganddynt y rhanau hyn o'r ysgrythyr yn ysgrifenedig ar ddarnau o femwrn pur, wedi eu troi o amgylch eu talceunau, eu clymu wrth eu breichiau, neu eu hoelio wrth byst eu drysau, y byddai iddynt wedi hynny gael eu gwaredu rhag pob drwg! A pha faint gwell yw llawer o *Gristionogion*, y rhai a gadwant Feibl yn eu tai i'r cyben iddo ef gadw y diafol *allan*; ac a'i mynant yn eu hystafelloedd, neu dan eu gobenydd, i gadw draw ellyllon ac ysbrydion drwg yn y nos!

Adn. 10, 11. *Wedi i'r Arglwydd dy Dduw dy ddwyn di i'r wlad, &c.*] Y mae Moses yma yn codi eu dysgwyliadau hwy am ddaioni eu Duw, gan gwymered yn ganiataol y dygai efe hwynt i'r wlad dda a addawsai efe iddynt; lle na chaent drigo mewn pebyll fel bugeiliaid ac ymdeithwyr tylodion, ond caent ymsefydlu mewn dinasoedd mawrion a thêg; na chaent gwydro mwyach mewn anialwch diffaeth, ond caent fwynhan tai wedi eu dodrefnu yn dda, a phydewau wedi eu cloddio yn barod, a gwin-

12 *Yna cadw arnat, rhag anghofio o honot yr Arglwydd, yr hwn a'th ddyg allan o wlad yr Aifft, o dŷ y caethiwed.*

13 Yr Arglwydd dy Dduw a ofni, ac ef a wasanaethi, ac i'w enw ef y tyngi.

14 Na cherddwch ar ol duwiau dy-eithr, o dduwiau y bobloedd *sydd* o'ch amgylch chiwi:

15 (Oblegid Duw eiddigus *yw* yr Arglwydd dy Dduw yn dy fysg di) rhag i lid yr Arglwydd dy Dduw enyn yn dy erbyn, a'th ddyfetha di oddiar wyneb y ddaear.

llanoedd ac olewyyddlanau wedi eu planu, a hyn oll heb na gofal na chost o'r eiddynt yn bunain.

Adn. 12. *Yna cadw arnat rhag anghofio o honot yr Arglwydd*] Mewn llwyddiant *dae-arol* y mae dynion yn dueddol i anghofio pethau *nefol*; canys pan y mae gan y teimladau anifeleidd bob peth a'r a allant eu ddy-muno, y mae yn anbawd i'r enaid weithio ei ffordd i'r nef. Y mae Duw yn gwybod hyn yn dda; ac am hynny, mewn cariad at ddynt, y mae yn gwneuthur tyldi a mynych gystuddiau yn rhan gyffredin iddo: gwel ar Diar. xxx. 7—9.

Adn. 13. *Yr Arglwydd dy Dduw a ofni*] Hynny yw, a berchi ac a anrhydeddi, fel dy Ddeddfroddwr a'th Farnydd, ac fel dy Grewadwr, dy Geidwad, ac unig Wrthddrych dy addoliad. *Ac ef a wasanaethi*—ein Harglwydd bendigedig, yn Mat. iv. 10, a Luc iv. 8, a ddyfyna y geiriau fel hyn: 'Ac ef yn unig a wasanaethi.' Ymddengys gan hynny fod *lebad-do* gynt yn y testyn Hebreig, fel yr oedd ac y mae yn nghyfeithiad y LXX, o ba un y dyfynai ein Harglwydd. Y mae y Goptaeg, y Vulgate, a'r Anglo-Saxonaeg, yn cadw yr un darlenniad. *Ac i'w enw ef y tyngi*—nid i eilunod, nac i unrhyw greadur, ond yn unig i'w enw ef, pan fyddo genyt achos cyfiawn i dyngu: gwel gyfreithlondeb *llw* yn cael ei ystyried Mat. v. 34; a gwel yr adfeddyliadau. Ond tybia rhai mai yr ystyr yma yw, eu bod i fod yn ddiysgog yn y cydnabyddiad a'r addoliad o'r gwir Dduw, ac yn y broffes o'r grefydd hono a sefydlasai efe. Fel hyn, *tyngu i Arglwydd y lloedd*, Essay xix. 18, ydwy *profes* y wir grefydd: gwel Salm lxiii. 11.

Adn. 14. *Na cherddwch ar ol duwiau dy-eithr*] Hynny yw, na chymerwch hwynt yn *gynllun* i chiwi. Gelwir y Cristionogion yn 'ddylynwyr Duw,' Eph. v. 1; a gorchymyna Crist i'w ddysgyblion ef 'fod yn berffaith, fel y mae ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith,' Mat. v. 48.

Adn. 15. *Duw eiddigus yw yr Arglwydd dy Dduw yn dy fysg di*] Yn sylwi ar dy holl ffyrdd, a wyt ti yn fyddlon i'th gyfammod âg ef. *Rhag i lid*—darfu i JEROMA dyfod *ddy-weddio* di iddo ei hun, megys piodferch i'w gŵr. Na fydd anffyddlon, rhag i'r *cariad* hwnn, â'r hwn yr ymserchodd efe ynot, gy-

16 ¶ Na themtiwch yr Arglwydd eich Duw, fel y temtiasoch ef yn Massa.

17 Gan gadw cedwch orchymynion yr Arglwydd eich Duw a'i dystiolaethau, a'i ddeddfau, y rhai a orchymynodd efe i ti.

18 A gwna yr *hyn sydd* uniawn a daionus yn ngolwg yr Arglwydd: fel y byddo da i ti, a myned o honot i mewn, a pherchenogi y wlad dda, yr hon trwy lw a addawodd yr Arglwydd i'th dadau di;

19 Gan yru ymaith dy holl elynion o'th flaen, fel y llefarodd yr Arglwydd.

20 Pan ofyno dy fab i ti wedi hyn, gan ddywedyd, Beth *yw* y tystiolaethau, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, a orchymynodd yr Arglwydd ein Duw i chwi?

21 Yna dywed wrth dy fab, Ni a fuom gaethweision i Pharao yn yr Aifft; a'r Arglwydd a'n dyg ni allan o'r Aifft â llaw gadarn.

meryd arno ffurf *eiddgedd*, ac felly dy ysgaru a'th ddyfetha di.

Adn. 16. *Na themtiwch yr Arglwydd eich Duw*] Trwy letya amheuo'n o'i drugaredd, ei ragluniaeth, ei ddaioni, a'i wirionedd ef. *Fel y temtiasoch ef yn Massa*—trwy ddywedyd, 'A ydyw yr Arglwydd yn ein plith, ai nid yw?' Exod. xvii. 7. Ar ol y fath brofion o'i bresenoldeb a'i ddaioni, yr oedd hyn yn dra chytruddol. Y mae *amau* tiriondeb Duw lle y mae cynifer o brawfiadau o hono, yn sarhad dirfawr i'r Hollalluog Dduw.

Adn. 17, 18. *Gan gadw cedwch orchymynion, &c.*] Gwel ar adn. 1, 3.

Adn. 19. *Fel y llefarodd*] Neu y gorchymynodd yr Arglwydd i ti wneuthur: gwel ar Num. xxxiii. 52, &c.

Adn. 20. *Pan ofyno dy fab i ti*] Yma cawn *holwyddoreg* fer, yn cynwys gofyniad ac atebiad yn nghylch seiliau crefydd. *Beth yw y tystiolaethau*—hyn yw, beth yw eu hystyr neu eu harwyddocad?

Adn. 21—24. *Yna dywed wrth dy fab, &c.*] Y mae Moses yma yn enwi tri rheswm dros uffydd-dod a chrefydd plant Israel: (1) Y rhyddhad dedwydd a estynodd Duw iddynt â llaw gadarn a braich estynedig. (2) Y wlad fras a roddai efe iddynt. (3) Y sicrydd y byddai iddynt hwy gyfranogi o'i ffafwr ef, trwy gadw ei ddeddfau. Ac y mae adn. 24, yn ol Grotius, yn cynwys addewid o wynfyd tragwyddol.

Adn. 25. *A chyfiawnder a fydd i ni*] Hyn yw, y mae yn *iawn*, neu yn *beth cyfiawn*, i ni gadw y gorchymynion hyn oll. Y mae y Goptaeg yn ei ddarllen, 'A gwobr a fydd i ni;' a'r LXX a'r Vulgate, 'Trugaredd a fydd i ni.' Y mae y gair Hebreig a gyfieithir yma yn *gyfiawnder*, yn cael ei roddi yn ffynych am *drugaredd*: gwel Salm xxiv. 5, a xxxvi. 10, a

22 Rhoddes yr Arglwydd hefyd arwyddion, a rhyfeddodau mawrion a niweidiol, ar yr Aifft, ar Pharao a'i holl dy, yn ein golwg ni;

23 Ac a'n dyg ni allan oddiyno, fel y dygai efe nyui i mewn, i roddi i ni y wlad yr hon trwy lw a addawsai efe i'n tatau ni.

24 A'r Arglwydd a orchymynodd i ni wneuthur yr holl ddeddfau hyn, i ofni yr Arglwydd ein Duw, er daioni i ni yr holl ddyddiau; fel y cadwai efe nyui yn fyw, megys *y mae* y dydd hwn.

25 A chyfiawnder a fydd i ni, os ymgadwn i wneuthur y gorchymynion hyn oll, o flaen yr Arglwydd ein Duw, fel y gorchymynodd efe i ni.

PENNOD VII.

PAN y'th ddygo yr Arglwydd dy Dduw i mewn i'r wlad yr *ydwy't* ti yn myned iddi i'w meddiannu, a gyru o hono ymaith genhedloedd lawer o'th flaen di, yr Hethiaid, a'r Girgas-

li. 14, Diar. x. 2, a xi. 4, Dan. ix. 16. Modd bynag, nid yw yn meddlw y bydd i *gyfiawnder* gael ei gyraedd trwy weithredoedd y ddeddf.

ADFFEDYLIADAU.—Yn chwanebol at yr hyn a ddywedwyd eisioes ar natur *llw*, gallwn sylwi mai gwneuthur *apeliad* at y Bôd Gorchaf, gan ei alw ef yn dyst, sydd yn cyfansoddi *ysbryd* a *sylwedd* llw. Nid yw o'n gwabaniaeth yn mha *ffurf* y gwneir yr *apeliad* hwn, pa un ai trwy roddi y *llaw dan y fforddwyd*, fel yn mysg y patrieich; yn *nwfr y Ganges*, fel yn mysg yr Hindwaid; ar *benod o'r Coran*, fel yn mysg y Mabometaniaid; ar y *Pumlyfr Hebreig*, fel yn mysg yr Iuddewon; ar *lun y groes*, fel yn mysg y Pabyddion; trwy *gusanu y Testament Newydd*, fel yn mysg y Protestaniaid yn gyffredin; neu trwy *ddal y llaw i fyny*, a gwneuthur *haeriad*, fel yn mysg y bobl a elwir Crynwyr; eto y *llw* sydd yr un, canys gwneir yr *apeliad* at DDUW. Ar y tir hwn y mae *dal y llaw i fyny* mewn llys cyfiawnder yn llw mor berffaith, sylweddol, a ffurfiol, ag ydyw *gusanu y Testament Newydd*. Pabam gan hyn y mae cymaint o ddaflu yn erbyn cymeryd llw mewn llys cyfiawnder trwy unrhyw *un ffurf neillduol*, pan y mae yr un peth yn cael ei wneuthur mewn ysbryd, hanfod, a sylwedd, wrth alw Duw i dystio a sylwi, er fod y *ffurf* yn wahanol?

PEN. VII. Adn. 1. *Saith o genhedloedd lluosocach a chryfach na thydi*] 'Yr oedd yr Amoriaid eu hunain, trwy eu bod yn cael eu llywodraethu gan bum brenin, yn llawer cryfach na'r Israellaid.'—CLAPHAM. Y mae deg cenedl yn cael eu crybwyll yn Gen. xv. 19—21; ond trwy fod hyn y rai cannoedd o ffynyddau yn ol, nid yw'n rhyfedd os oedd tair o honynt wedi eu dyfetha erbyn hyn trwy ryfel-

iaid, a'r Amoriaid, a'r Canaanaid, a'r Phereziaid, a'r Heffaid, a'r Jebusiaid, saith o genhedloedd lluosocach a chryfach na thydi;

2 A rhoddi o'r Arglwydd dy Dduw hwynt o'th flaen di, a fharo o honot ti hwynt: gan ddifrodi difroda hwynt; na wna gyfammod â hwynt, ac na thrugarha wrthynt.

3 Nac ymgyfathracha chwaith â hwynt; na ddod dy ferch i'w fab ef, ac na chymer ei ferch ef i'th fab dithau.

4 Canys efe a dry dy fab di oddiar fy ol i, fel y gwasanaethont dduwiau dycieithr: felly yr enyn llid yr Arglwydd i'ch erbyn chwi, ac a'th ddyfetha di yn ebrwydd.

5 Ond fel hyn y gwneuch iddynt: Dinystriwch eu hallorau, a thorwch eu colofnau hwynt; cwmpwch hefyd eu llwynau, a llosgwch eu delwau cerfiedig hwy yn y tân.

6 Canys pobl santaidd ydwynt ti i'r Arglwydd dy Dduw: yr Arglwydd dy Dduw a'th ddewisodd di i fod yn bobl unig iddo ei hun, o'r holl bobloedd sydd ar wyneb y ddaear.

7 Nid am eich bod yn lluosocach na'r holl bobloedd, yr hoffodd yr Ar-

glwydd chwi, ac y'ch dewisodd; o herwydd yr oeddych chwi yn anamlaf o'r holl bobloedd:

8 Ond o herwydd caru o'r Arglwydd chwi, ac er mwyn cadw o hono ef y llw a dyngodd efe wrth eich tadau, y dyg yr Arglwydd chwi allan â llaw gadarn, ac a'ch gwarcodd o dŷ y caethiwed, o law Pharao brenin yr Aifft.

9 Gwybydd gan hyny mai yr Arglwydd dy Dduw sydd Dduw, sef y Duw flyddlawn, yn cadw cyfammod a thrugaredd â'r rhai a'i carant ef, ac a gadwant ei orchymynion, hyd fil o genedlaethau;

10 Ac yn talu y pwyth i'w gas, yn ei wyneb, gan ei ddyfetha ef: nid oeda efe i'w gas; yn ei wyneb y tâl efe iddo.

11 Cadw gan hyny y gorchymynion, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw, i'w gwneuthur.

12 ¶ A bydd, o achos gwrandaw o honoch ar y barnedigaethau hyn, a'u cadw, a'u gwneuthur hwynt; y ceidw yr Arglwydd dy Dduw â thi y cyfammod, a'r drugaredd, a addawodd efe trwy lw i'th dadau di:

oedd estronol neu gartrefol, neu wedi eu huno a'u llyncu yn y lleill trwy gyd-drigiad a phriodas.

Adn. 2. *Gan ddifrodi difroda hwynt*] Dinystria eu holl wladwriaethau; *na wna gyfammod â hwynt*—i adael iddynt aros yn dy fysg fel cenedl eilunadollgar. Ond os byddai iddynt hwy adael eu heilunadoliaeth, a dyfod yn broseltyiaid cywir i'r wir grefydd, yna byddent yn briodol wrthddrychau maddeuant fel rhai gwir edifeiriol; canys Duw ei hun a ddywed trwy Jeremia, pen. xviii. 7, 8: 'Pa bryd bynag y dywedwyf am ddiwreiddio, a thynu i lawr, a dyfetha cenedl neu frenhin-aeth; os y genedl hōno y dywedais yn ei herbyn a dry oddiwrth ei drygoni, myfi a edifarhaf am y drwg a amcenis ei wneuthur iddi.' Ond tybia rhai, trwy fod cwpan anwiredd y genhedloedd hyn yn llawn, nad oedd trugaredd i'w dangos iddynt fel *corff o bobl* ar unrhyw ammod, er y gellid gwneyd hyny iddynt fel *personau unigol*.

Adn. 3. *Nac ymgyfathracha chwaith â hwynt*] Oddieithr iddynt ddyfod yn broseltyiaid, megys Rahab a Rŭth.

Adn. 4. *Canys efe a dry dy fab di oddiar fy ol i*] Bydd perygl amlwg o wrthgiliad ac eilunadoliad oddiwrth y cyfryw briodasau. Talodd Solomon yn ddrud am ei ffolineb yn hyn: gwel I Bren. xi. 1, &c.

Adn. 5. *Cwmpwch hefyd eu llwynau*] Y rhai a blanai eilunadollwyr o amgylch eu hallorau. Bwriadai Duw trwy hyn gymeryd ymaith beth bynag a allai ddwyn eu heilun-

addoliaeth hwy i goffadwriaeth, neu achosi ei adfywiad.

Adn. 6. *Canys pobl santaidd ydwynt ti*] Ac am hyny ni ddylai fod un gyfeillach rhyngot a gweithredwyr anwiredd. *I fod yn bobl unig*—neu yn bobl *neillduol* iddo ei hun, fel ei eiddo priodol: gwel ar I Pedrii. 9.

Adn. 7. *Yr oeddych chwi yn anamlaf o'r holl bobloedd*] Pan hysbysodd Duw ei serch at Abraham a'i hiliogaeth, nid oedd ganddo ef blant, Gen. xii. 1—3; ac yn mhen dau gant o flynyddau wedi hyny, nid oeddynt ond deg enaid a thriugain, Gen. xlv. 27.

Adn. 8. *Ond o herwydd caru o'r Arglwydd chwi*] Nid unrhyw ddaioni ynddynt hwy a dueddodd Dduw i'w dewis: yr oedd ganddo ef reswm arall, yn tarddu oddiar ei anfeidrol ddaioni ei hun. Yr oedd ef yn bwriadu gwneuthur llawn ddatguddiad o'i ddaioni i'r byd; a chan fod yn rhaid i hyny ddechreu mewn rhyw le, ac yn mhlith rhyw bobl, efe a ddewisodd Abraham a'i had; ond nid o herwydd eu daioni hwy: gwel yr adfeddyliadau ar Gen. xi.

Adn. 9. *Hyd fil o genedlaethau*] Gwel ar Exod. xx. 5, 6.

Adn. 10. *Ac yn talu y pwyth i'w gas yn ei wyneb*] Hyny yw, yn gyhoeddus, fel ag iddo ef allu ei weled, ac heb fedru ei ochelyd. *Nid oeda efe*—tuhwnt i'r adeg briodol i'w gospital, er ei fod yn hwyrfrydig i ddiig.

Adn. 11. *Cadw gan hyny y gorchymynion, &c.*] Gwel ar pen. vi. 1, 3.

Adn. 12, 13. *A bydd o achos gwrandaw o honoch, &c.*] Felly cawn fod eu parhad hwy

13 Ac a'th gâr, ac a'th fendithia, ac a'th amlha di; ac a fendiga ffrwyth dy fru, a ffrwyth dy dir di, dy fyd, a'th win, a'th olew, a chynydd dy wartheg, a diadellau dy ddefaid, yn y tir y tyngodd efe wrth dy dadau, ar ei roddi i ti.

14 Bendigedig fyddi uwchlaw yr holl bobloedd: ni bydd yn dy blith di un gwryw nac un fenyw yn a'ffrwythlon, nac yn mhlith dy anifeiliaid di.

15 Hefyd yr Arglwydd a dyn oddi wrthyt ti bob gwendid, ac ni esyd arnat ti yr un o gleyfau drwg yr Aifft, y rhai a adwaenost: ond ar dy holl gaseion di y rhydd efe hwynt.

16 Dyfetha gan hyny yr holl bobloedd y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi i ti: nac arbeded dy lygad hwynt, ac na wasanaetha eu duwiau hwynt; oblegid magl i ti a fyddai hyu.

17 Os dywedi yn dy galon, Lluosocach yw y cenhedloedd hyn na myfi; pa ddelw y gallaf eu gyru hwynt ymaith?

18 Nac ofna rhagdynt: gan gofio cofia yr hyn a wnaeth yr Arglwydd dy Dduw i Pharao, ac i'r holl Aifft;

19 Y profedigaethau mawrion y

rhai a welodd dy lygaid, a'r arwyddion, a'r rhyfeddodau, a'r llaw gadarn, a'r braich estynedig, â'r rhai y'th ddyg yr Arglwydd dy Dduw allan: felly y gwna yr Arglwydd dy Dduw i'r holl bobloedd yr wyt ti yn eu hofni.

20 A'r Arglwydd dy Dduw hefyd a ddenfyn gacwn yn eu plith hwynt, hyd oni ddarfyddo am y rhai gweddill, a'r rhai a ymguddiant rhagot ti.

21 Nac ofna rhagdynt: oblegid yr Arglwydd dy Dduw sydd yn dy ganol di, yn Dduw mawr, ac ofnadwy.

22 A'r Arglwydd dy Dduw a yr ymaith y cenhedloedd hyny o'th flaen di, bob ychydig ac ychydig: ni elli eu dyfetha hwynt ar unwaith, rhag myned o fwystfilod y maes yn amlach na thydi.

23 Ond yr Arglwydd dy Dduw a'u rhydd hwynt o'th flaen di, ac a'u cystuddia hwynt â chystudd dirfawr, nes eu dyfetha hwynt;

24 Ac a rydd eu brenhinoedd hwynt yn dy law di, a thi a ddyfethi eu henw hwynt odditan y nefoedd: ni saif gwr yn dy wyneb di, nes dyfetha o honot ti hwynt.

25 Llosg ddelwau cerfiedig eu duwiau hwynt yn tân: na chwennych na'r arian na'r aur a fyddo arnynt, i'w cy-

mewn cyflwr o ffafr i ymddibynu ar eu *ffyddlondeb* hwy i ras Duw. Ond os byddai iddynt wrthyfela, er i Dduw eu hethol hwy trwy ei *gariad*, eto efe a'u bwriai hwynt ymaith yn ei *gyfiawnder*, fel y dygwyddodd i 24,000 o honynt, y rhai y syrthiodd eu celaneddau yn y diffaethwch: gwel ar Num. xxv. 9.

Adn. 14. *Yn a'ffrwythlon*] Gwel ar Exod. xxiii. 26, &c.

Adn. 15. *Ni esyd arnat ti yr un o gleyfau drwg yr Aifft*] Y fath ag yr heintid yr Aifftiaid â hwy yn gyffredin neu yn wyrthiol. Ymddengys ei fod yn cyfeirio nid yn unig at b'âu yr Aifft, ond at ryw gleyfau heintiol ereill, y rhai yr oeddynt hwy yn coſo eu bod yn ffynu yn mhlith yr Aifftiaid fel cerydd oddiwrth Dduwam eu pechodau gwladol. Yr oedd y gwahanglywrf ac anhwylderau crcenaid ereill yn ffynych yn yr Aifft. Y mae yr ysgriflyfrau hefyd yn son am *gornweyd yr Aifft*, fel clefyd cyffredin yn y wlad hono, pen. xxviii. 27. Clefydau ydynt weision Duw, y rhai sydd yn myned lle y mae efe yn eu hanfon, ac yn gwneuthur yr hyn y mae efe yn ei orchymyn.

Adn. 17, 18. *Lluosocach yw y cenhedloedd hyn na myfi*] Y mae dynion yn ddeddol i feddwl y rhaid i'r rhai lluosocaf fod yn fuddugoliaethus: ond i'w cadarnhau hwynt yn erbyn y profedigaeth hon, y mae ef yn adgoffa iddynt ddiynstr Pharao a holl allu yr Aifft.

Adn. 19. *Y profedigaethau mawrion, &c.*] Gwel ar pen. iv. 34.

Adn. 20. *A ddenfyn gacwn*] Gwel ar Exod. xxiii. 28.

Adn. 21. *Yn Dduw mawr ac ofnadwy*] Yn Benarglydd hollallu, yr hwn ni ddichon neb ei wrthsefyll.

Adn. 22, 23. *Bob ychydig ac ychydig*] Ni fydd i JEHOPA dy gynorthwyo di â'i hollalluogrwydd i'w dyfetha hwynt âg un dyrnod o lwyddiant a buddugoliaeth, am nad ydwynt eto yn ddigon lluosog i boblogi yr holl wlad ar unwaith. Eithr efe a'th fendithia di yn y defnyddiad o foddion cyffredin, a thydi a'u dyfethi hwynt yn raddol mewn amrai frwydrau, fel y byddo i ti ddyſgu trwy brofiad ymddiried ynddo ef. *Rhag myned o fwystfilod y maes*—gwel ar Exod. xxiii. 29, 30. Dywed *Haynes* yn ei Deithian, dal. 118, fod y wlad o amgylch Cana Galilea yn heidio yn awr o anifeiliaid gwylltion, megys dywalgwn, llewpartiaid, &c., y rhai sydd yn ddychryna i'r ymdeithydd mwrfa dewr.

Adn. 24. *Ni saif gwr yn dy wyneb di*] Yr oedd yr addewid hon yn amodol: yr oeddynt hwy i fod yn utydd, a gwneyd eu dyledswydd, ac yna cyflawnai Duw hi; ond os esgenlusent wneuthur hyny, hwy yn gyfiawn a gollent y budd o honi.

Adn. 25. *Na chwennych na'r arian na'r aur a fyddo arnynt*] Yr oedd rhai o'r hen ddelwau gynt yn cael eu gwisgo âg aur, ac yr oedd Duw yn gweled y gallai gwerth y mettel a rhagorolrwydd y gwaith fod yn hudoliaeth i'r Israelaidd eu *cadw* hwynt; a gallai hyny,

meryd i ti; rhag dy fraglu âg ef: oblegid ffeidd-dra i'r Arglwydd dy Dduw ydyw.

26 Na dddwg dithau ffeidd-dra i'th dŷ, fel y byddech esgymunbeth megys yntau: gan ddirmygu dirmyga ef, a chan ffeiddio ffeiddia ef; oblegid esgymunbeth yw efe.

PENNOD VIII.

EDRYCHWCH am wneuthur pob gorchymyn yr wyf fi yn ei orchymyn i ti heddyw; fel y byddoch fyw, ac y cynyddoch, ac yr eloch i mewn, ac y meddiannoch y wlad a addawodd yr Arglwydd wrth eich tadau trwy lw.

2 A chofia yr holl ffordd a arwein-

o leiaf yn mhen amser, arwain i eilunaddoliaeth.

Adn. 26. *Fel y byddech esgymunbeth megys yntau*] *Cherem*, wedi dy ddiorydu i lwyrdinystyr, megys yr oedd y delwau, a phob peth arall a ddefnyddiesid i ddyhenion eilunaddolgar.

PEN. VIII. Adn. 1. *Fel y byddoch fyw*] Yn gysurus a llwyddianus; canys y mae *bywyd*, yn iaith yr ysgrythyr, yn arwyddo mwy nag einioes yn unig, sef dedwyddwch a llwyddiant; (gwel Gen. xvii. 18, Lef. xxv. 36, 1 Sam. xxv. 6, 1 The. iii. 8;) fel y mae trallodion ac adfydau yn cael eu galw yn *furwolaeth*, Exod. x. 17, 2 Cor. xi. 23.

Adn. 2. *A chofia yr holl ffordd*] Sef gwahanol ymddygiadau Duw tuag atoch; y perglon a'r anbaswerau i'r rhai yr oeddych yn agored, ac oddiwrth y rhai y gwaredodd Duw chw; yn nghyda'r amrywiol wyrthiau y rhai a wnaeth efe eroch, a'i hir amynedd tuag atoch. *I wybod yr hyn oedd yn dy galon*—a llefaru yn o dull dynion. Y meddwl yw, ddarfod i Dduw wneyd fel yr arferfa dynion wneyd pan y mae arnynt eisiau profi cywirdeb unrhyw un; hyny yw, efe a osododd gyflenswerau yn eu ffordd i roddi prawf dilys o'i cywirdeb, yr hyn, er nad oedd yn angenheidiol i'r Hollwybodol, eto oedd yn dra defnyddiol iddynt hwy eu hunain, ac yn addysgiadol i ereill.

Adn. 3. *Ac efe a'th ddarostyngodd, ac a oddefodd i't newynu*] Nid yw Daw byth yn goddef i un trallodd ddygydd i'w ganlynwyr, heb friadu ei droi er mantais iddynt. Pan y mae ef yn goddef i ni newynu, hyny sydd fel y gallo ei drugaredd fod yn fwy nodadwy wrth ddaiparn i ni angenheidiau bywyd. *Fel y gwnai efe i't wybod nad trwy fara yn unig y bydd byw dyn*—dyma y geiriau a dddefnyddwyd gan ein Harglwydd wrth ymddyddan â'r temtiwr, Mat. iv. 4. *Ond trwy bob gair a'r sydd yn dyfod allan o enau yr Arglwydd*—trwy bob peth, neu unrhyw beth, ag y mae Duw yn ei benodi a'i fendithio i'r dyben hwnw, pa mor anrhebyg bynag y gall ef ymddangos er cynaliaeth a maeth y corff dynol. Gall *manna* gy-

iodd yr Arglwydd dy Dduw di ynddi y deugain mlynedd hyn, trwy yr anialwch, er mwyn dy gystuddio di, gan dy brofi, i wybod yr hyn oedd yn dy galon, a gedwit ti ei orchymynion ef, ai nas cedwit.

3 Ac efe a'th ddarostyngodd, ac a oddefodd i ti newynu, ac a'th fwydodd â manna, yr hwn nid adwaenit, ac nid adwaenai dy dadau; fel y gwnai efe i ti wybod nad trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob *gair* a'r sydd yn dyfod allan o enau yr Arglwydd y bydd byw dyn.

4 Dy ddillad ni heneiddiodd am danat, a'th droed ni chwyddodd, y deugain mlynedd hyn.

na'i bywyd dyn yn gystal a *bara*, ond i'r Arglwydd *orchymyn* hyny.

Adn. 4. *Dy ddillad ni heneiddiodd am danat, a'th droed ni chwyddodd*] 'Gwasanaethodd yr un dillad iddynt o'r Aifft i Ganaan, o leiaf y cyffredinolrwydd o honant. Er nad oedd ganddynt wisgoedd i'w newid, eto yr oedd eu gwisgoedd yn newyddion bob amser, ac heb heneiddio am danynt. Yr oedd hon yn wyrth safadwy, a llawer mwy os oeddant, fel y dywed yr Iuddewon, yn tyfu gyda hwynt, fel ag i fod yn gymesur iddynt bob amser. Ond y mae yn amlwg iddynt ddwyn beichiau o ddillad ar eu hysgwyddau o'r Aifft, (Exod. xii. 34.) y rhai y gallent eu newid gyda'u gilydd fel y byddai angenheidiwydd; a'r rhai hyny, gyda'r rhai oedd am danynt, a wnaent y tro iddynt nes y denent i wlad lle y gallent eu diwallu eu hunain â dillad newyddion.—HENRY. Yn mhllith y rhai a bleidiant y dyb hon gellir enwi *Chryostom, Theodoret, Osiander, Bonfrere, Grotius, Marck, Poole, Gill, Clapham, Scott, Sutcliffe, Ainsworth, Houbigant, Patrick, &c., &c.* Eithr ereill a wahaniaethant: 'Ymddengys i mi mai eglur feddwl y testyn hwn yw, ddarfod i Dduw ddarparu iddynt holl angenheidiau bywyd mor helaeth, fel na orfu iddynt erioed wisgo dillad carpiog, ac ni niweidiwyd eu traed o ddiwyd esgidiau neu sandalau. Os oedd ganddynt geifwyr, cifiedyddion, gofaint aur, a gemwyr yn eu plith, fel yr ymddengys yn eglur fod oddiwrth yr hanes sydd genym am y tabernacl a'i ddrodfren, a ydyw i'w ryfeddu os oedd ganddynt hefyd *deiliwriaid, cryddion, &c., &c.*, gan ein bod yn sicr fod ganddynt *wehdyddion, brwydweithwyr, a'r cyffelyb?* Ac yr oedd y faelriaeth ag y gallwn dŷ bio ei bod yn cael ei chario yn mlaen gyda'r Moabiaid, neu gyda'r mintieoedd teithiol o Arabiaid, yn eu diwallu hwy yn ddiambheuol â'r defnyddiau; er, trwy fod iddynt amledd o ddefaid a gwartheg, y rhaid fod ganddynt lawer o'r defnyddiau yn eu plith eu hunain. Tybir yn gyffredin ddarfod i Dduw, trwy wyrth, gadw eu dillad rhag treulio allan: ond os caniateir yr ystyr yma, bydd yn gofyn, nid un wyrth, ond cadwyn o'r gwyrtbiau mwyaf olynol a rhyfeddol a wnaed erioed, i roddi cyfrif am y peth; canys gan nad oedd dim llai

5 Cydnebydd dithau yn dy galon, fod yr Arglwydd dy Dduw yn dy ddysgu di, fel y dysg gŵr ei fab ei hun.

6 A chadw orchymnion yr Arglwydd dy Dduw, i rodio yn ei ffyrdd, ac i'w ofni ef.

7 ¶ Oblegid y mae yr Arglwydd dy Dduw yn dy ddwyn i mewn i wlad dda, i wlad afonydd dyfroedd, ffynnonau, a dyfnderau yn tarddu allan yn y dyffryn, ac yn y mynydd;

8 Gwlad gwenith, haidd, a gwinwydd, a ffigyswydd, a phomgranadwydd; gwlad olew olewyydden, a mêl;

9 Gwlad yr hon y bywtei fara ynddi heb brinder, ac ni bydd eisiau dim arnat ynddi; gwlad yr hon y mae ei cherig yn haiarn, ac o'i mynyddoedd y cloddi bres.

10 Pan fwyteych, a'th ddigoni; yna y bendithi yr Arglwydd dy Dduw, am y wlad dda a roddes efe i ti.

11 Cadw arnat rhag anghofio yr

Arglwydd dy Dduw, heb gadw ei orchymnion, a'i farnedigaethau, a'i ddeddfau ef, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw:

12 Rhag wedi i ti fwyta, a'th ddi-goni, ac adeiladu tai tég, a thrigo ymddynt;

13 A lluosogi o'th wartheg a'th ddefaid di, ac amlhau o arian ac aur genyt, ac amlhau o'r hyn oll y sydd genyt:

14 Yna ymddyrchafu o'th galon, ac anghofio o honot yr Arglwydd dy Dduw (yr hwn a'th ddyg allan o wlad yr Aifft, o dŷ y caethiwed);

15 Yr hwn a'th dywysodd di trwy yr anialwch mawr ac ofnadwy, lle yr ydoedd seirff tanlyd ac ysgorpionau, a syched lle nid oedd dwfr; yr hwn a ddygodd i ti ddwfr allan o'r graig gallestr;

16 Yr hwn a'th fwydodd di yn yr anialwch â manna, yr hwn nid ad-

na 600,000 o wrywod wedi eu geni yn yr anialwch, byddai iddo gynwys fod dillad y baban yn tyfu i fyny gyda chynnydd ei gorff ef i ddynoliaeth, yr hyn a ofynai i wyrth gael ei gwneuthur yn barhaus ar bob edef, ac ar bob mymryn o ddefnydd o'r hwn y gwnaed yr edef hōno. Ac nid hyn yw y cwbl; byddai iddo gynwys fod dillad y rhieni yn cael eu lleihau yn wyrthiol i gydweddu â chorff y plentyn, gyda thyfiad yr hwn yr oeddynt dra-chenf i ymeangu a thyfu, &c. Nid oedd y fath gyfryngiad gwyrthiol yn angenrheidiol.

—CLARKE. Yn mhlich pleidwyr y dyb hon y mae *Le Clerc*, yr hwn a ysgrifennodd yn gampus o'i phlaid, *Spanheim*, *Burman*, *Bynæus*, *Budæus*, *Boothroyd*, *Calnet*, ac amrai ereill.

Adn. 5. *Fod yr Arglwydd dy Dduw yn dy ddysgu di*] Saes. 'yn dy geryddu di, fel y cerydda gŵr ei fab; hyny yw, yn ANEWYLLYSGAR, trwy gael ei orfodi gan angenrheidrwydd; yn GYMHEBROL, gan mewn barn gofio trugaredd; ac er dy ddiwygio, nid dy ddi-ystio.

Adn. 6. *I rodio yn ei ffyrdd*] Gwel ar pen. v. 33.

Adn. 7. *Dyfnderau*] Tarddiadau neu lynoedd dyfnion, y rhai oeddynt luosog a mawrion. Yr oedd yr adroddiad hwn yn newydd dymunol yn nghlustiau pobl a grwydrasent agos i ddeugain mlynedd mewn anialwch cras a sych.

Adn. 8. *Gwlad gwenith, &c.*] Y mae pob ymdeithbydd yn cyduno fod gwlad Canaan yn llawn o'r ffrwythau a'r danteithion a enwir yma: gwel *Hasselquist*, *Maillet*, *Maundrell*, a *Shaw*.

Adn. 9. *Gwlad yr hon y mae ei cherig yn haiarn*] Lle y mae mwngloddiau haiarn cyn amled a chloddfeydd cerig mewn gwledydd ereill. Ac o'i mynyddoedd y cloddi bres—yn hytrach efydd, o'r hwn, trwy chwangiad o

lapis calaminarius, y gwneir *pres*; canys nid oes y fath beth mewn natur a *mŷn pres*.

Adn. 10. *Pan fwyteych a'th ddigoni, yna y bendithi yr Arglwydd*] Y molieni neu y di-olchi iddo ef am dŷ ymorth, ac am yr iechyd a'r nerth a gai trwyddo. Oddiwrtb y gyfraith hon cymerodd yr Iuddewon crefyddol yr arferiad canmoladwy o fendithio Duw nid yn unig ar eu prydiau rheolaidd, ond hefyd ar achlysuron ereill. Os yfent gwpanaid o win, dyrchafent eu dwylaw gan ddywedyd, 'Bendigedig fyddo yr hwn a greodd ffrwyth y winwydden i lawenhau y galon.' Os aroglent flodeuyn, dywedent, 'Bendigedig fyddo yr hwn a wnaeth y blodeuyn hwn yn beraidd.' Y mae y Tyrciaid a'r Chineaidd yn gyson yn eu gweddian wrth eu prydiau bywd: ond panifer o Gristionogion Cymru a fwytant heb ofyn bendith na thalu diolch i'r Duw sydd yn eu diwallu! gwel ar Mat. xxvi. 26.

Adn. 11—14. *Cadw arnat rhag anghofio, &c.*] Gwel ar pen. vi. 10—12. *Yna ymddyrchafu o'th galon*—fel pe buais wedi cyraedd y pethau hyn trwy dy ddoethineb, dy ddewder, neu dy fedrusrwyd dy hun.

Adn. 15. *Seirff tanlyd*] Gwel ar Num. xxi. 6. *Ysgorpionau*—y creadur hwn sydd drychfilyr bychan tebyg i geimwch, yn meddu pledren lawn o wenwyn. Y mae y bol yn rhanedig i saith modrwy, o'r olaf o ba rai yr ymestyna y gynffon, yr hon sydd wedi ei harfogi â g un, ac weithiau â dau golyd, o'r hwn y teifl wenwyn adwythig. Y mae yn ymaflyd yn ffyrnig â'i thurs a'i chrafangau yn y neb a ddeil, fel nas gellir ei thynu ymaith heb anhawdsr; ac oddiwrtb hyn y mae yn cael ei henw *akrah*: gwel Parkhurst ar y gair. Dywed Scheuchzer fod anialwch Arabia yn llawn o'r creaduriaid atgas hyn.

Adn. 16. *Yr hwn a'th fwydodd di yn yr anialwch â manna*] Gwel ar Exod. xvi. 15, &c. *Er dy ddarostwng*—trwy dy gadw mewn

waenai dy dadau, er dy ddarostwng, ac er dy brofi di, i wneuthur daioni i ti yn dy ddiwedd)

17 *A* dywedyd o honot yn dy galon, *Fy nerth fy hun, a chryfder fy llaw a barodd i mi y cyfoeth hwn.*

18 Ond cofia yr Arglwydd dy Dduw: oblegid efe *yer* yr hwn *sydd* yn rhoddi nerth i ti i beri cyfoeth, fel y cadarnhao efe ei gyfammod, yr hwn a dyngodd efe wrth dy dadau, fel *y mae* y dydd hwn.

19 Ac os gan anghofio yr anghofi yr Arglwydd dy Dduw, a dylun duwiau dycieithr, a'u gwasanaethu hwynt, ac ymgrymu iddynt; yr ydwyf fi yn tystiolaethu yn eich erbyn chi heddyw, gan ddyfetha y'ch dyfethir.

20 Fel y cenhedloedd y rhai y mae yr Arglwydd ar eu dyfetha o'ch blaen chwi, felly y dyfethir chwithau; am na wrandawsoch ar lais yr Arglwydd eich Duw.

PENNOD IX.

GWRANDO, Israel: *Yr wyt ti yn myned heddyw dros yr Iorddonen*

dibyniad parhaus arno ef am luniaeth pob diwrnod, a'th argyhoeddi y fath greadur analluog a digymhorth ydwyf, heb geuyt ddim i fyw arno ond elusenau dwyfol ddaioni o ddydd i ddydd. Y mae trugareddau Duw, os iawn ystyir hwynt, yn foddion mor rymus i'n darostwng ni ag ydwyf y cystuddiau trymaf, am eu bod yn cynyddu ein dyledion i Dduw, ac yn amlgu ein dybyniad ni arno ef; a thrwy wneuthur Duw yn fawr, y maent yn ein gwneuthur ni yn fychain yn ein golwg ein hunain.

Adn. 17. *Fy nerth fy hun*] Gwel ar adn. 14.

Adn. 18. *Dy Dduw—sydd yn rhoddi nerth i ti i beri cyfoeth*] Gan dy gynysgaethu â doethineb, medrusrwydd, nerth, ac iechyd corfforol, a holl fendithion ei ragluniaeth; a chan hyny rhaid i'r cyfoethog roddi cyfrif am y modd y treuliodd efe y goluoedd a roddes Duw iddo.

Adn. 19, 20. *Ac os gan anghofio yr anghofi yr Arglwydd dy Dduw*] Gan gilio oddi wrtho ef, a syrthio i eilunaddoliaeth a phechodau y Canaancaid; *gan ddyfetha y'ch dyfethir*—chwi a syrthiwech i'r un dinystr ag yr ydych yn myned yn awr i'w weinyddu ar y cenhedloedd hyny. "Ni wna Duw ddim mwy cyfrif o honoch chwi, er ei gyfammod ef â chwi, a'ch perthynas chwi âg yntau, nag y mae yn ei wneyd o honyt hwythau, os na fyddweh chwi yn uffydd ac yn fyddlon iddo ef. Y rhai sydd yn dylun ereill mewn pechod, a'u dylunant hwy yn ddiau i ddinystr. Os gwawn ni fel y gwna pechaduriaid, rhaid i ni ddysgwyl ymdaraw fel yr ymdery pechaduriaid."—HENRY.

PEN. IX. Adn. 1. *Yr wyt ti yn myned heddyw*] *Hayiom*, 'y pryd hyn,' neu o fewn

hon, i fyned i mewn i berchenogi cenhedloedd mwy a chryfach na thi, dinasoedd mawrion a chaerog hyd y nefoedd;

2 Pobl fawr ac uchel, meibion Anac, y rhai a adnabuost, ac y clywaist ti *ddywedyd am danynt*, Pwy a saif o flaen meibion Anac!

3 Gwybydd gan hyny heddyw, *fod* yr Arglwydd dy Dduw yn myned trosodd o'th flaen di yn dân ysol: efe a'u dyfetha hwynt, ac efe a'u darostwng hwynt o'th flaen di: felly y gyri hwynt ymaith, ac y dyfethi hwynt yn fuan, megys y llefarodd yr Arglwydd wrthyf.

4 Na ddywed yn dy galon, wedi gyru o'r Arglwydd dy Dduw hwynt allan o'th flaen di, gan ddywedyd, Am fy nghyfiawnder y dygodd yr Arglwydd fi i feddiannu y tir hwn: ond am annuwldeb y cenhedloedd hyn, y gyrodd yr Arglwydd hwynt allan o'th flaen di.

5 Nid am dy gyfiawnder di, nac am uniondeb dy galon, yr wyt ti yn myned i feddiannu eu tir hwynt: ond

corff mis. Yr oeddynt wedi dyfod at yml gwlad yr addeiw ddeunaw mlynedd ar hugain yn ol, ond ni oddefwyd iddynt fyned drosodd y *pryd hyny* o herwydd eu gwrthryfelgarwch; ond y *pryd hyn* cânt yn sicr fyned drosodd. Llefarwyd hyn oddeutu yr unfed mis ar ddeg o'r ddeugeinfed flwyddyn o'u taith, ac ar y mis cyntaf o'r flwyddyn ganlynol aethant drosodd.

Adn. 2. *Pwy a saif o flaen meibion Anac?*] Ymdengys fod hyn yn ddiareb gyffredin y pryd hyny.

Adn. 3. *Yn dân ysol*] O flaen yr hwn y dyfethir dy elynion cyn hawdd a soft o flaen ffiam. *Felly y gyri hwynt ymaith, ac y dyfethi hwynt yn fuan*—sef cynifer o honyt ag y bydd yn angeurheidiol eu dyfetha yn fuan mewn trefn i wneyd lle i Israel yn Nghanaan; a'r gweddill a yvid ymaith 'bob ychydig ac ychydig,' pen. vii. 22.

Adn. 4, 5. *Am annuwldeb y cenhedloedd hyn, &c.*] Felly nid trwy unrhyw weithred *benarglwyddiaethol* o eiddo Duw y gyrwyd y bobl hyn allan, ond am eu *hannuwldeb*: yr oeddynt wedi troseddu deddfau eu Creawdwr, a gwrthynrebu ei Ysbyrd ef, ac nis gellid eu goddef yn hwy. Ac yr oedd yr Israeliaid i feddiannu eu gwlad, nid am eu bod hwy yn ei haeddu; ond, yn gyntaf, am eu bod yn *llai* annuwl na'r lleill; ac, yn ail, am fod Duw yn dewis fel hyn *ddechreu* gwaith mawr ei iachawdwriaeth yn mhllth dynion. Fel hyn torwyd y *Cananaeaid* ymaith, ac impwyd yr *Israeliaid* i mewn: a'r *Israeliaid*, o herwydd eu drygioni, a gawsant wedi hyny eu *tori ymaith*, a'r *Cenhedloedd eu himpio i mewn*. Boed i'r rhai olaf beidio â bod yn *uchelfryd*, eithr *ofni*: 'cans onid arbedodd Duw y cang-

am annuwioldeb y cenhedloedd hyn, y bwrw yr Arglwydd dy Dduw hwynt allan o'th flaen di, ac er cyflawni y gair a dyngodd yr Arglwydd wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob.

6 Gwybydd dithau, nad am dy gyfiawnder dy hun, y rhoddes yr Arglwydd i ti y tir daionus hwn i'w feddiannu: canys pobl wargaled *ydych*.

7 ¶ Meddwl, ac na annghofia pa fodd y digiaist yr Arglwydd dy Dduw yn yr anialwch: o'r dydd y daethost allan o dir yr Aiff, hyd eich dyfod i'r lle hwn, gwrthryfelgar fuoch yn erbyn yr Arglwydd.

8 Yn Horeb hefyd y digiasoch yr Arglwydd; a digiodd yr Arglwydd wrthyh, i'ch dyfetha.

9 Pan aethym i fyny i'r mynydd i gymeryd y llechau meini, *sef* llechau y cyfammod, yr hwn a wnaeth yr Arglwydd â chwi; yna yr arhoais yn y mynydd ddeugain niwrnod a deugain nos: bara ni fwyteais, a dwfr nid yfais.

10 A rhoddes yr Arglwydd ataf y ddwy lech faen, wedi eu hysgrifenu â bys Duw; ac arnynt *yr oedd* yn ol yr holl eiriau a lefarodd yr Arglwydd wrthyh yn y mynydd, o ganol y tân, ar ddydd y gymanfa.

11 A bu yn mhen y deugain niwrnod a'r deugain nos, roddi o'r Arglwydd ataf y ddwy lech faen; *sef* llechau y cyfammod.

12 A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Cyfod, dos oddiyma i waered yn

fuan: canys ymlygrodd dy bobl, y rhai a ddygaist allan o'r Aiff: ciliasant yn ebrwydd o'r ffordd a orchymynais iddynt; gwnaethant iddynt eu hun ddellw dawdd.

13 A lefarodd yr Arglwydd wrthyf, gan ddywedyd, Gwelais y bobl hyn; ac wele, pobl wargaled *ydynt*.

14 Paid â mi, a mi a'u dystyriaf hwynt, ac a ddileaf eu henw hwynt odditan y nefoedd; ac a'th wnaif di yn genedl gryfach, ac amlach na hwynt-hwy.

15 A mi a ddychwelais, ac a ddaethym i waered o'r mynydd, a'r mynydd ydoedd yn llosgi gan dân; a dwy lech y cyfammod *oedd* yn fy nwyllaw.

16 Edrychais hefyd; ac wele, pechasech yn erbyn yr Arglwydd eich Duw: gwnaethech i chwi lo tawdd: ciliasoch yn fuan o'r ffordd a orchymynasai yr Arglwydd i chwi.

17 A mi a ymaflais yn y ddwy lech, ac a'u teflais hwynt o'm dwyllaw, ac a'u torais hwynt o flaen eich llygaid.

18 A syrthiais gerbron yr Arglwydd, fel y waith gyntaf, ddeugain niwrnod a deugain nos; ni fwyteais fara, ac nid yfais ddwfr: o herwydd eich holl bechodau chwi y rhai a hechasech, gan wneuthur drygion yn ngolwg yr Arglwydd i'w ddiogio ef.

19 (Canys ofnais rhag y soriant a'r dig, trwy y rhai y digiodd yr Arglwydd wrthyh i'ch dinystrio chwi) Eto gwrandawodd yr Arglwydd arnaf y waith hōno hefyd.

20 Wrth Aaron hefyd y digiodd yr

henau naturiol, gwylia rhag nad arbedo dithau chwaith, Rhuf. xi. 21. Ond cofier mai gwlad Israel oedd hon yn wreiddiol, ac nad oedd gan y meddiannwyr presenol un hawl cyfreithlon ynddi.

Adn. 6. *Canys pobl wargaled ydych*] Wrthryfelgar a gwrthnysig, ac felly yn amddifad o bob ymhomiad i gyfiawnder. Ac fel hyn rhaid i'n gwaith ninau yn cyraedd meddiant o'r Ganaan nesol gael ei briodoli i allu a gras Duw, ac nid i'n nerth na'n haeddiant ein hunain.

Adn. 7. *O'r dydd y daethost allan o dir yr Aiff*] Fel na byddai ganddynt un esgus i feddwl fod Duw yn eu dwyn i Ganaan am eu *cyfiawnder*, y mae Moses yn dangos y fath wyrth o drugaredd ydoedd na buasant er's hir amser cyn hyn wedi eu dyfetha yn yr anialwch: yr oeddynt mor bell oddiwrth haeddu ei gymwynasgaiwch ef, fel y gwnaethant eu hunain lawer gwaith vn agored i'w soriant.

Adn. 8. *Yn Horeb hefyd y digiasoch yr Arglwydd*] Pan yr oedd eich gwaredigaeth wyrthiol o'r Aiff yn newydd yn eich cof; yn uniau ar ol i Dduw draddodi i chwi ei gyfraith, a hyny yn y fath fodd aruthrol ac ofn-

adwy, a chyd a'r fath ddadleniadau gweledig o'i Ddwyfol Fawrhydi; pan yr oedd newydd eich cymeryd i gyfammod âg ef ei hun, a thra yn eich donio â thrugareddau pellach fyth! Digiasoch ef hyd yn nod yn *Horeb*!

Adn. 9—11. *Pan aethym i fyny i'r mynydd, &c.*] Gwel ar Exod. xxiv, xxxi, a xxxii.

Adn. 12, 13. *Ymlygrodd dy bobl*] Gwel ar Exod. xxxii. 7, 9.

Adn. 14. *Paid â mi*] Na rwytra si i'w dyfetha trwy dy eiriolaeth: ymatal oddiwrth bob gweddi a deisyfiad ar eu rhan.

Adn. 15. *A'r mynydd ydoedd yn llosgi gan dân*] Yn arwydd o anffodlonrwydd angherddol Duw.

Adn. 16. *Ciliasoch yn fuan o'r ffordd*] Yn mhen ychydig wythnosau ar ol i Dduw warden hadd i chwi wneuthur delwau.

Adn. 17. *Torais hwynt o flaen eich llygaid*] I arwyddo eich bod chwi wedi tori cyfammod Duw: gwel ar Exod. xxxii. 19.

Adn. 18, 19. *Ddeugain niwrnod*] Gwel ar adn. 25, ac ar Exod. xxiv. 18, a xxxiv. 28.

Adn. 20. *Wrth Aaron hefyd y digiodd yr Arglwydd yn fawr*] Er ei fod ef yn sant yr

Arglwydd yn fawr, i'w ddyfetha ef: a mi a weddiais hefyd dros Aaron y waith hōno.

21 Eich pechod chwi hefyd yr hwn a wnaethoch, *sef* y llo, a gymerais, ac a'i llosgais yn tân; curais ef hefyd, gan ei falurio yn dda, nes ei falu yn llwch: a bwriais ei lwch ef i'r afon oedd yn disgyn o'r mynydd.

22 O fewn Taberah hefyd, ac o fewn Massa, ac o fewn beddau y blys, yr oeddych yn digio yr Arglwydd.

23 A phan anfonodd yr Arglwydd chwi o Cades-Barnea, gan ddywedyd, Ewch i fyny, a meddiennwch y tir yr hwn a roddais i chwi, yr anafyddhas-och i air yr Arglwydd eich Duw: ni chredasoch hefyd iddo, ac ni wrandawsoch ar ei lais ef.

24 Gwrthryfelgar fuoch yn erbyn yr Arglwydd er y dydd yr adnabum chwi.

25 A mi a syrthiais gerbron yr Arglwydd ddeugain niwrnod a deugain nos, fel y syrthiaswn o'r blaen; am ddywedyd o'r Arglwydd y dyfethai chwi.

26 Gweddias hefyd ar yr Arglwydd,

a dywedais, Arglwydd Dduw, na ddyfetha dy bobl, a'th etifeddiaeth a war-edaist yn dy fawredd, yr hwn a ddyg- aist allan o'r Aifft â llaw gref.

27 Cofia dy weision, Abraham, Isaac, a Jacob; nac edrych ar galedrwydd y bobl hyn, nac ar eu drygioni, nac ar eu pechod:

28 Rhag dywedyd o'r wlad y dyg- aist ni allan o honi, O cisiau gallu o'r Arglwydd eu dwyn hwynt i'r tir a addawsai efe iddynt, ac o'i gas ar- nunt, y dyg efe hwynt allan, i'w lladd yn yr anialwch.

29 Eto dy bobl di a'th etifeddiaeth ydynt hwy, y rhai a ddygaist allan yn dy fawr nerth, ac â'th estynedig fraich.

PENNOD X.

YR amser hwnw y dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Nadd i ti ddwy lech faen fel y rhai cyntaf; a thyred i fyny ataf fi i'r mynydd, a gwna i ti arch bren.

2 A mi a ysgrifenas ar y llechau y geiriau oedd ar y llechau cyntaf, y rhai a doraist; a gosod tithau hwynt yn yr arch.

Arglwydd, ac wedi ei ofodi trwy fygythion i wneyd y llo, Exod. xxxii. 4. Nis gall swydd nac enw un dyn ei gysgodi ef rhag digofaint Duw, os bydd iddo gymdeithas â gweithred- oedd anfrwythlon y tywyllwch.

Adn. 21. *Eich pechod chwi*] Felly y gelwir eilunod, am eu bod yn achlysur i bechod, Esay xxxi. 7. *Ac a'i llosgais yn tân*—gwel ar Exod. xxxii. 20.

Adn. 22. *O fewn Taberah*] Gwel ar Num. xi. 3, 34.

Adn. 23. *Cades-Barnea*] Oddeutu pedair milldir ar hugain o Hebron: gwel ar Num. xiii. a xiv.

Adn. 24. *Gwrthryfelgar fuoch yn erbyn yr Arglwydd er y dydd yr adnabum chwi*] Er nad yw Moses yn colli fawr fwy na dygwydd- iadau y flwyddyn gyntaf a'r olaf o'r deugain mlynedd ag y bu Israel yn yr anialwch, fel y nodwyd ar Num. xx. 1; eto ymddengys oddi wrth y dystiolaeth hon o eiddo Moses nad oedd y blynyddoedd ereill, y rhai yr aeth efe heibio iddynt mewn dystawrwydd, fawr amgeu nag un wrthryfel baihaus yn erbyn Duw a'i lywodraeth!

Adn. 25. *A mi a syrthiais gerbron yr Arglwydd ddeugain niwrnod o deugain nos*] Mewn ffordd o ymstyngiad a deisyfiad ar eich rhan: *fel y syrthiaswn o'r blaen*—casglu rhai oddiyma ddarfod i Moses ymprydio *deirgwaith*, ddengain niwrnod bob tro; ond y mae yn debycach mai yr un tro yw hwn ag a goffawyd adn. 18, fel yr ymddengys wrth gyfmaru hon â'r hyn a adroddir yn Exodus, lle y mae yr hanes yn cael ei hadrodd yn llawnach, ac fel wedi dygwydd yr ail dro.

Adn. 26. *Gweddias hefyd ar yr Arglwydd*] Gwel ar Exod. xxxii. 11, &c. *A war-edaist yn dy fawredd*—sef mawredd ei allu a'i ddaioni.

Adn. 27. *Cofia dy weision, Abraham, Isaac, a Jacob*] Sef dy addewid, yr hon a dynaist iddynt hwy ar ran eu hiliogaeth hyn. Y mae Duw yn rhoddi llawer o fendithion i ddynion diwerth er mwyn eu henafiaid duwiol, neu ar gyfrif y bobl grefyddol â'r rhai y maent mewn cysylltiad eglwysig. Ac os darfu i Dduw drugarhau ar gyfrif enw Abraham, Isaac, a Jacob; pa faint mwy parod ydyw ef i drugarhau ar gyfrif enw ei anwyf Fab? *Nac edrych ar galedrwydd y bobl hyn*—ymddengys fod y caledrwydd hwn yn cyfeirio at duedd ddrwg eu meddwl; *nac ar eu drygioni*—sef eu tuclan- rwydd amharbus; *nac ar eu pechod*—sef eu heilunaddoliaeth.

Adn. 28. *Rhag dywedyd o'r wlad*] Sef trig- olion gwlad yr Aifft: gwel ar Exod. xxxii. 12.

Adn. 29. *Eto dy bobl di a'th etifeddiaeth ydynt hwy*] Y rhai a ddewisais i ti dy hun o blith holl ddynolryw.

PEN. X. Adn. 1. *Nadd i't ddwy lech faen*] Gwel ar Exod. xxxiv. 1.

Adn. 2. *A mi a ysgrifenas ar y llechau*] Er i'r llechau gael eu tori, am iddynt hwy dori ei orchymyn ef trwy wneuthur iddynt eu hun- ain ddelfw dawdd; cawsant yn awr eu hadne- wyddu, er prawf fod ei lid ef wedi ei droi ym- aith. Felly gwaith Duw yn ysgrifenu ei gyfraith yn ein calonau ninau ydyw y prawf sicraf o'n cyfnod âg ef, Jer. xxxi. 33.

3 Yna gwnaethym arch o goed sitim; ac a neddais ddwy lech faen, fel y rhai cyntaf; ac a aethym i fyny i'r mynydd, â'r ddwy lech yn fy llaw.

4 Ac efe a ysgrifennodd ar y llechau, fel yr ysgrifen gyntaf, y dengair, a lefarodd yr Arglwydd wrthyeh yn y mynydd, o ganol y tân, yn nydd y gwymanfa: a rhoddes yr Arglwydd hwynt ataf fi.

5 Yna y dychwelais, ac y daethym i waered o'r mynydd, ac a osodais y llechau yn yr arch, yr hon a wnaethwn, ac yno y maent; megys y gorchymynodd yr Arglwydd i mi.

6 ¶ A meibion Israel a aethant o Beeroth meibion Jacan i Mosera:

yno y bu farw Aaron, ac efe a gladdwyd yno; ac Eleazar ei fab a offiriadodd yn ei le ef.

7 Oddiyno yr aethant i Gudgodah; ac o Gudgodah i Jotbath, tir afonydd dyfroedd.

8 ¶ Yr amser hwnw y neillduodd yr Arglwydd lwyth Lefi, i ddwyn arch cyfammod yr Arglwydd, i sefyll ger bron yr Arglwydd, i'w wasanaethu ef, ac i fendigo yn ei enw ef, hyd y dydd hwn.

9 Am hyny ni bydd rhan i Lefi, nac etifeddiaeth gyda'i frodyr: yr Arglwydd yw ei etifeddiaeth ef; megys y dywedodd yr Arglwydd dy Dduw wrtho ef.

Adn. 3. *Yna gwnaethym arch*] Casglodd rhai o'r doctoriaid Iuddewig oddiwrth y testyn hwn fod dwy arch, un wedi eu gwneuthur gan Besaleel, a hon gan Moses, yr hon meddent hwy oedd yr arch a âi o flaen Israel yn eu teithian a'u rhyfeleodd. Ond meddylir fod y dyb hon yn cael ei gwrthbrofi gan ranau ereill o'r ysgrifthyrr; ac mai yr hyn oll ag y mae Moses yn ei feddlwl with ddywedyd, *Gwnaethym arch*, yw, ddarfod iddo orchymyn i'r arch gael ei gwneyd; yr un fath ag y mae yr ymadrodd, *Solomon a adeiladodd y deml*, yn meddlwl yn unig ddarfod iddo achosi iddi gael ei hadeiladu.

Adn. 4. *Ac efe a ysgrifennodd ar y llechau fel yr ysgrifen gyntaf*] Nid oes un ymddygiad o eiddo dyn a all wneuthur unrhyw gyfnawdriad yn nghyfraith Duw, nac yn yr yfudd-dod hwnw ag y mae Duw yn ei ofyn ganddo ef. Y mae y rwymedigaeth i ddyleddwydd yn ddi-anwadl; ac ni ddichon i'r gorchymynion hyny y rhai yr ydym i'w cadw, gan eu bod wedi eu seilio ar ewyddorion anngyfnawdriol cyfiawnder a sainteiddrwydd, byth oddef unrhyw gyfnawdriad.

Adn. 5. *Ac yno y maent*] Sef yn yr arch ag y gorchymynodd Moses ei gwneyd, adn. 3, ar yr hon yr oedd y drugareddfa a'r gogoniant dwyfol: gwel Exod. xxv. 10—22.

Adn. 6, 7. *A meibion Israel a aethant o Beeroth*] Hyny yw, 'o Ffynnonau meibion Jacan i Mosera.' Addefir fod peth anawdsder yn y testyn HEBREIG; canys dywedir yma ddarfod i feibion Israel fyned *oddiwrth feibion Jacan i Mosera*; tra y dywedir yn llyfr Numeri, lle y rhifir eu teithian, ddarfod iddynt fyned o Mosera at feibion Jacan. Drachefn, dywedir yma i Aaron farw yn Mosera; ac yn llyfr Numeri, ddarfod iddo farw yn *mynydd Hor*: gwel ar Num. xxxiii. 30. Ond y mae y testyn SAMARITANAIDD yn llwyr syrnud yr anngysonderau ymddangosiadol hyn. Y mae yr adran yno yn cael ei darllen fel y canlyn: Adn. 6. *Eithr meibion Israel, gan ymdaith o Mosera, a wersyllasant yn Bene-Jacan*. Adn. 7. *Aethant oddiyno, a wersyllasant yn Gidgad; ac oddiyno i Jotbatha, yr hwn sydd ddyffryn o afonydd dyfroedd: aethant oddiyno, a wersyllasant yn Ebron-*

ah; aethant oddiyno, a wersyllasant yn Esion-Guber; aethant oddiyno, a wersyllasant yn anialwch Sin, hwnw yw Cades; aethant oddiyno, a wersyllasant yn Hor; ac yno y bu farw Aaron, ac efe a gladdwyd yno, &c. Rhaid i ni sylwi hefyd, mewn amddiffyniad i'r testyn HEBREIG, y gallai yr Israeliaid yn eu crwydriadau yn yr anialwch fyned yma, yn gystal ag y gwnaethant mewn lleoedd ereill, yn ol ac yn mlaen, sef o Jacan i Mosera, ac yn ol drachefn o Mosera i Jacan: ac os felly, nid yw Moses yn y lle hwn ond yn rhoddi i mewn adran a esgeuluswyd yn llyfr Numeri. Gyda golwg ar yr wrtheb arall, sef y dywedir ddarfod i Aaron farw yn Mosera, tra y mae yn amlwg oddiwrth Num. xx. 25—28 ddarfod iddo farw yn *mynydd Hor*, gellir ateb, nad yw yn beth araferrl i'r un lle gael gwahanol enwan, yn enwedig gyda golwg ar wahanol barthau o hono. Dichon mai Mosera y gelwid pen mynydd Hor, neu ryw ran o hono, fel yr oedd Sinai yn rhan o fynydd Horeb, Exod. iii. 1: neu gall mai tref gerllaw mynydd Hor oedd Mosera, neu dalaeth yn mha un y safai y mynydd hwnw.

Adn. 8, 9. *Yr amser hwnw y neillduodd yr Arglwydd lwyth Lefi, &c.*] Y mae y pedair adnod hyn, sef adn. 6—9, yn dyfod i mewn ond odid mewn ffordd o wahansang neu rwng-frawddeg, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 10, lle y mae Moses yn ail ymafnyd yn y mater a adawsai efe yn adn. 5. Neu gellir gwelod eu *cysylltiad* fel hyn: Ar ol crybwyll am ei eiriolaeth dros yr Israeliaid pryd yr oeddynt mewn perygl o gael eu dyfetha am eu pechodau, a phryd yr oedd llechau y ddeddf wedi eu tori, (pen. ix.) y mae Moses yn chwaneu yma pa beth oedd efaith yr eiriolaeth hon, sef ddarfod i ffafr Duw trwy hyny gael ei hadnennill; o'r hyn y mae efe yn rhoddi tair anghraifft: (1) Adferiad y ddwy lech, a'u gosodiad yn llyfr yr arch, adn. 1—5. (2) Eu teithian dan y dwyfol arweinid, yr hyn ni ataliwyd, adn. 6, 7. (3) Neillduad yr offeiriad a'r Lefiaid i wasanaeth y tabernacl, a pharhad o'r archoffeiriadaeth yn Eleazar ar ol marwolaeth Aaron, adn. 6, 8, 9. Ond dylid sylwi fod amrai ferniaid yn meddlwl fod y pedair adnod hyn wedi cael eu cam-osod yn y lle hwn trwy anffawd,

10 A mi a arhoais yn y mynydd ddeugain niwrnod a deugain nos, fel y dyddiau cyntaf: a gwrandawodd yr Arglwydd arnaf y waith hon hefyd; ni ewyllysiodd yr Arglwydd dy ddyfetha di.

11 A dywedodd yr Arglwydd wrth- yf, Cyfod, dos i'th daith o flaen y bobl; fel yr elont i mewn ac y meddiannont y tir, yr hwn a dyngais wrth eu tadau ar ei roddi iddynt.

12 ¶ Ac yr awr hon, Israel, beth y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ofyn genyt, ond ofni yr Arglwydd dy Dduw, a rhodio yn ei holl ffyrdd, a'i garu ef, a gwasanaethu yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid;

13 Cadw gorchymynion yr Argl-

wydd y dygwytddai yn amf gydag ysgriflyfrau yn y cynosoedd, cyn i'r gelyfddydd o argraffu gael ei dyfeisio, megys y gwelwom yn y sylw ar Num. ix. 1: gwel *Wall, Boothroyd, Kennicott, &c.*

Adn. 10. *A mi a arhoais yn y mynydd ddeugain niwrnod*] Y mae Moses yma yn dychwylid at yr hyn y dechreuodd efe ei ddywedyd yn adn. 5, neu, yn mhellach yn ol, yn adn. 25 o'r bennod flaenorol.

Adn. 11. *A dywedodd yr Arglwydd wrth yf, Cyfod*] Y mae hyn yn cael ei adrodd fel prawf ddarod i Dduw wrandaw ar eirolaeth Moses. *Dos i'th daith o flaen y bobl*—yr oedd yniawn i'r hwn a'u gwaredasai hwynt rhag dinystr trwy ei eirolaeth, gael eu iharwain a'u llywodraethu. Ac yn hyn yr oedd efe yn gysgod o GRIST, yr hwn, gan ei fod yn byw bob amser i eirol drosom ni sydd â phob awurdod ganddo yn y nef ac ar y ddaear.

Adn. 12. *Ac yn awr, Israel, beth y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ofyn genyt*] Mewn ffordd o ddiolchgarwch am y fath drugareddau rhyfedd? Y mae yr atebiad yn cael ei roddi yn ddiatreg: *Ofni yr Arglwydd dy Dduw*—yr hwn a'ch gwnaeth, sydd yn eich cynal, ac yn eich arbed. *A rhodio yn ei holl ffyrdd*—nid yn eich ffyrdd eich hunain, nac yn ffyrdd pobl y tir, ond yn holl orchymynion yr Arglwydd. *A'i garu ef*—fel eich Creawdwr a'ch Cymwynaswr daionus. *A gwasanaethu yr Arglwydd dy Dduw*—ei addoli ef, ac ufydd- hau iddo â holl serchiadau eich calon, a holl gyneddffau eich enaid, gan arferyd holl alluoedd eich corff a'ch enaid yn ddiabaid yn ei waith santaidd.

Adn. 13. *Er daioni i ti*] Canys y mae er lles presenol a thragwyddol i ni ein hunain, fod i ni gyflawni pob peth ag y mae yr Arglwydd yn ei orchymyn i ni, ac ymattal oddi wrth bob peth ag y mae efe yn ei wahardd.

Adn. 14. *Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ydynt eiddo yr Arglwydd*] A gallasai felly ddewis y bodau neu y bobl a fynasai trwy yr holl fydsawd i fod yn wrthddrychau ei serch. Y mae y tair *nefoedd* hyn yn y rhif lluosog. Ond pa beth y maent yn ei feddwl?

wydd, a'i ddeddfau, y rhai yr wyf yn eu gorchymyn i ti y dydd hwn, er daioni i ti?

14 Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, *ydynt* eiddo yr Arglwydd dy Dduw, y ddaear *hefyd* a'r hyn oll *sydd* ynddi.

15 Yn unig ar dy dadau di y rhoddes yr Arglwydd ei serch, gan eu hoffi hwynt: ac efe a wnaeth ddewis o'u had ar eu hol hwynt, *sef* o honoch chwi, o flaen yr holl bobloedd; megys heddyw y *gwelir*.

16 Enwaedwch chwithau ddienwaediad eich calon, ac na chaledwch eich gwar mwyach.

17 Canys yr Arglwydd eich Duw chwi *yw* Duw y duwiau, ac Arglwydd yr arglywyddi, Duw mawr, cadarn, ac

Nid yw dywedyd fod y gyntaf yn meddwl y nwyfre, yr ail y ddeseb blanedawl, a'r drydedd fro y gwynfydedigion, ond dywedyd ychydig iawn mewn ffordd o eglurhad. Cafodd y geiriau eu bwriadu ond odid, fel y sylwa Clarke, i nodi allan ddirfawredd creadigaeth Duw, yn yr hon y gallwn yn haedd ganfod yn ddeseb o gyrff nefol, ac ereill tuhwnt iddynt, ac ereill fyth yn mlaen yn ddi-ddivedd trwy holl chwyldro yr eangder, trwy fod pob *seren* yn nifawr eigion aniau yn *haul*, gyda'i esgordd fydoedd priodol a lluosog! Fel hyn gall fod desebau o ddesebau, neu gyfundrefnan o gyfundrefnan, mewn esgyniad diddiwedd i fyny at orsedd Duw!

Adn. 15. *Yn unig ar dy dadau di y rhoddes yr Arglwydd ei serch, &c.*] Y mae efe yn dangos nad oedd ar Dduw ddim dyled neillduol i'w tadau hwy, mwy nag i rywrai ereill, trwy fod pawb fel en gilydd yn greaduriaid iddo ef; a darfod i'w ddeiwiaid o honyt hwy o blith ac uwchlaw pawb ereill ddeilliaw yn unig o'i ewyllys da ef.

Adn. 16. *Enwaedwch chwithau ddienwaediad eich calon*] Heb foddloni yn unig ar enwaediad eich *cnawd*. Cawn yma brawf eglur oddiwrth Dduw ei hun fod y gorchymyn hwn yn nodi allan bethan *ysbrydol*; ac mai nid *tori ymaith ran o'r cnawd* oedd dyben y gorchymyn dwyfol, ond *pureiddiad yr enaid*, heb yr hyn y mae pob ffurf ac arddetod yn ddfudd. Caru Duw â'r holl galon, enaid, meddwl, a nerth, trwy fod y *galon* wedi ei henwaedu i'w galluogi hwynt i wneyd hyny, oedd dyben, amcan, a chyflawniad yr holl gyfraith o'r dechread.

Adn. 17. *Duw y duwiau*] Sef y swyddogion gwladol, neu yr angylion, y rhai a elwir felly weithian. *Arglywydd yr arglywyddi*—y Ffynnon fawr o ba un y mae pob lód a gallu yn deilliaw, yr hwn a fedr wrthweithio neu ddystrywio holl weithredoedd pob creadur pan y myno. *Duw mawr cadarn*—hwn yw yr enw a roddir i'n Harglwydd a'n Hiachawdwr bendedig yn Esay ix. 6. *Yr hwn ni dderbyn wyneb*—Iuddewon mwy na Chenedloedd, ond sydd yn ymddwyn yn gyflawn ac uniawn at

ofnadwy, yr hwn ni dderbyn wyneb, ac ni chymer wobr.

18 Yr hwn a farna yr amddifad a'r weddw; ac y sydd yn hoffi y dyeithr, gan roddi iddo fwyd a dillad.

19 Hoffwch chwithau y dyeithr: canys dyeithriaid fuoch yn nhir yr Aifft.

20 Yr Arglwydd dy Dduw a ofni, ac ef a wâsanæathi; wrtho ef hefyd y glyni, ac i'w enw ef y tyngi.

21 Efe *yw* dy fawl, ac efe *yw* dy Dduw, yr hwn a wnaeth i ti y mawrion a'r ofnadwy *bethau* hyn, y rhai a welodd dy llygaid.

22 Dy dadau a aethant i wæred i'r Aifft yn ddeg enaid a thriugain; ac yr awr hon yr Arglwydd dy Dduw a'th wnaeth di fel ser y nesoedd o luso-grwydd.

PENNOD XI.

CAR dithau yr Arglwydd dy Dduw, a chadw ei gadwraeth ef, a'i ddeddfau, a'i farnedigaethau, a'i orchymynion, byth.

bob math ar ddyn: gan hyn y weniethweh i chwi eich hunain, fel pe byddai i Dduw gyd-oddef â'eh pechodau chwi, oblegid ei diriondeb neillduol i chwi neu i'ch tadau.

Adn. 18. *Yr hwn a farna yr amddifad a'r weddw*] Y mae efe mor bell oddiwrth ddiystyru y rhai digymborth, nes y mae yn emeryd mwy o sylw o honyt ar y cyfrif hwnw; i'e, y mae yn eu *barnu*—yn dadlu eu hachos ac yn amddiffyn eu hawliau yn erbyn eu gwrthwynebwyr galluog, gan ddysgwyl i chwithau wneuthur felly hefyd.

Adn. 19. *Hoffwch chwithau y dyeithr*] Byddwch dirion a chyfiawn tuag at y dyeithriaid Cenhedlig, megys dynion o'r un defnydd a chwi eich hunain, a hyny o barch i'ch Creawdwr cyffredin, ac mewn efelychiad o'r gofal tyner ag y mae efe yn ei arferyd tuag at holl feibion dynion. *Canys dyeithriaid fuoch yn nhir yr Aifft*—ac felly gwyddoeh yn brofiadol am eu hofnau a'u eysfyngderau.

Adn. 20. *Wrtho ef hefyd y glyni*] Gyda hyder diysgod, serch egywr, ac ufydd-dod cyson; ac *i'w enw ef y tyngi*—gwel ar pen. vi. 13.

Adn. 21. *Efe yw dy fawl*] Sef gwrthddrych a thestyn dy fawl; ac *efe yw dy Dduw*—gwrthddrych dy addoliad a'th ufydd-dod. Dyfai pob Cristion ymfrostio yn ei Dduw, ac arddel ei berthynas âg ef. Mor hynod yw fod ar y rhai sydd blant i Dduw gywilydd arddel hyn, tra y mae pechaduriaid yn eyhoeddi yn eofn eu perthynas â Satan!

Adn. 22. *Fel ser y nesoedd*] Gwel ar pen. i. 10, ac Exod. i. 7.

PEN. XI. Adn. 1. *Câr dithau yr Arglwydd dy Dduw*] Canys heb hyny ni allai fod ufydd-dod i'r dwyfol dystiolaethau, na dedwyddwch yn yr enaid: gwel ar pen. x. 12.

2 A chydabyddwch heddyw: canys nid *wyf yn ymddyddan* â'eh plant, y rhai nid adnabuant, ac ni welsant gerydd yr Arglwydd eich Duw chwi, ei fawredd, ei law gref, a'i fraich estynedig;

3 Ei arwyddion hefyd, a'i weithredoedd, y rhai a wnaeth efe yn nghanol yr Aifft, i Pharao brenin yr Aifft, ac i'w holl dir;

4 A'r hyn a wnaeth efe i lu yr Aifft, i'w feirch ef, ac i'w gerbydan; y modd y gwnaeth efe i ddyfroedd y môr coch lenwi dros eu hwynebau hwynt, pan oeddylnt yn ymlid ar eich ol, ac y dyfethodd yr Arglwydd hwynt hyd y dydd hwn;

5 A'r hyn a wnaeth efe i chwi yn yr aniaelwch, nes eich dyfod i'r lle hwn;

6 A'r hyn a wnaeth efe i Dathan, ac i Abiram, meibion Eliab, mab Reuben; y modd yr agorodd y ddaear ei safn, ac a'u llyncodd hwynt, a'u teuluoedd, a'u pebyll, a'r holl olud oedd ganddynt, yn mysg holl Israel.

7 Eithr eich llygaid chwi oedd yn

Adn. 2, 3. *A chydabyddwch*] Ystyriwch, adfyfyriwch; canys hyn yw ystyr y gair gwreiddiol yma, ac mewn amrai leoedd ereill: gwel Preg. v. 1, Essay i. 3. *Canys nid wyf yn ymddyddan â'eh plant, y rhai nid adnabuant ac ni welsant*—ac felly na wyddant ond trwy draddodiad; eithr eich llygaid chwi oedd yn gweled, adn. 7. *Gerydd yr Arglwydd*—ei farnedigaethau yn cael eu gweinyddu ar yr Aifftiad mewn gwahanol blâu; a'r amrywiol foddau o gosp a cherydd, y rhai a arferodd efe i'ch cystywo, eich diwygio, a'eh gwneyd yn nfydd i'w ddeddfau: gwel pen. iv. 36, a viii. 5, a Diar. i. 2, lle y mae yr un gair Hebreig yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr hwn. *Ei fawredd*—ei ardderchogrwydd a'i allu mawr yn ymddangos yn ei weithredoedd. Y mae efe yma yn defnyddio amrywiaeth o eiriau i'w gwneyd hwy yn deimladwy: gwel pen. i. 36, a viii. 5, a Diar. i. 2, lle y mae yr un gair Hebreig yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr hwn. *Ei fawredd*—ei ardderchogrwydd a'i allu mawr yn ymddangos yn ei weithredoedd. Y mae efe yma yn defnyddio amrywiaeth o eiriau i'w gwneyd hwy yn deimladwy: gwel pen. i. 36, a viii. 5, a Diar. i. 2, lle y mae yr un gair Hebreig yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr hwn.

Adn. 4. *Ac y dyfethodd yr Arglwydd hwynt hyd y dydd hwn*] Y dygodd efe hwynt mor isel fel nad dydnt eto wedi adennill eu nerth. Neu, y mae effaith y cyfryw ddyfethiant yn parhau hyd y dydd hwn, yn eu gwendid a'u hofn hwy, a'n diogelwch ninaw rhag eu hmosodiadau pellach yn ein herbyn.

Adn. 5. *A'r hyn a wnaeth efe i chwi yn yr aniaelwch*] Mewn fiordd o farn a thrugaredd.

Adn. 6. *A'r hyn a wnaeth efe i Dathan ac i Abiram*] Trwy nad yw *Corah* yn cael ei grybwyll yma, y mae yn brawf chwaneogol na lyncodd y ddaear ef gyda Dathan ac Abiram: gwel ar Num. xvi. 32, a xxvi. 10.

Adn. 7. *Eithr eich llygaid chwi oedd yn gweled*] Sef pob un ag ydoedd uwelhaw deugain mlwydd oed. Felly yr oedd rhai o hon-

gwelod holl fawrion weithredoedd yr Arglwydd, y rhai a wnaeth efe.

8 Cedwch chwithau bob gorchymyn yr ydwyf fi yn ei orchymyn i chwi heddyw; fel y byddoch gryffion, ac yr eloch i mewn, ac y meddianoch y tir yr ydych yn myned trosodd iddo i'w feddiannu:

9 Ac fel yr estynoch ddyddiau yn y tir yr hwn a dyngodd yr Arglwydd i'ch tadau, ar ei roddi iddynt ac i'w had; *sef* tir yn llifeirio o laeth a mêl.

10 ¶ O herwydd y tir yr wyt yn myned iddo i'w feddianna, nid fel tir yr Aifft y *mae*, yr hwn y daethoch allan o hono, lle yr heuaist dy had, ac y dyfrheiaist â' th droed, fel gardd lysiau:

11 Ond y tir yr ydych yn myned

ynt wedi gwelod yr holl bethau mawrion a wnaed erddynt yn yr Aifft, with y môr coch, ac yn yr anialwch; ac yr oeddynt oll wedi gwelod rhai o'i weithredoedd netthol ef ar eu rhan.

Adn. 8. *Cedwch chwithau bob gorchymyn*] Saes. 'am hyny cedwch chwithau,' &c.; *sef* am y gall Duw gyflawni y fath farnedigathaau dychrynnyd ar yr anufyddion; ac am y gellir dysgwyl iddo ef, mewn cyffelyb gythrudiadau, ymddwyn yn y cyffelyb fodd.

Adn. 9. *Tir yn llifeirio o laeth a mêl*] Trwy y dull hwn o ymadrodd gosodir allan fraslonrwydd a ffrwythlonder y wlad: gwel ar Exod. iii. 8.

Adn. 10. *Nid fel tir yr Aifft y mae*] Y mae ei ffrwythlondeb ef yn ymddibyn yn fwy neillduol ar ragluniaeth Duw; ac am hyny dylech fod yn ofalus i wasanaethu yr Arglwydd, a sicrhau ei safar â'i fenthith ef. *Ile yr heuaist dy had, ac y dyfrheiaist â' th droed*—nid yw gwlaw braidd byth yn disgyn yn yr Aifft, ac y mae Duw yn gwneyd i' fyny y diffyg o hono trwy orlfiad y Nilus. Mewn trefri i ddyfshau y tiroedd lle nad yw y llifeiriant yn ymgyraedd, cesglir y dwfr yn llynoedd. a chyfeirir ef mewn rhychau neu ffosydd i wahanol ranau y maesydd. Y maent weithiau â chaib fechan yn gwneyd rhychau i'r dwfr redeg ar hyd'ddynt, ac â'u troed yn codi y pridd, neu yn ei wasgu yn erbyn ochrau y rhychau hyn i rwyddhau i' hiediari y dwfr, fel ag y gellir dywedyd eu bod yn dyfshau y tir â'u troed. Hefyd, dywed Philo fod yr Aifftiaid yn arferol o ddyfshau eu gerddi trwy beiriannau i godi dwfr, wedi eu gosod ar lanau y Nilus, pa beiriannau a weithient neu a droënt â'u troed. Felly y meddwl yw, tra yr oedd yr Aifft yn cael ei dyfrhau trwy gelfyddyd ddynol, fod Canaan yn cael ei dyfshau gan wlaw o'r nef.

Adn. 11. *Sydd fynydd-dir a dyffryndir, yn yfed dwfr o wlaw y nefoedd*] Y rhai nas gellid ei ffrwythloni ond â gwlaw o'r nef. Fel hyn efe a hysbysa iddynt fod tir yr addewid o'r fath gyflwr ag a'u cadwai hwynt mewn dibyniad gwastadol ar Dduw am ei ffrwythlondeb. Hefyd yr oedd y fath dir yn fwy hyfryd ac iachus na'r Aifft, gan na gallent yn yr olaf rodio yn

trosodd iddo i'w feddiannu, *sydd* fynydd-dir, a dyffryndir, yn yfed dwfr o wlaw y nefoedd;

12 *Tir yw*, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei amgeleddu: llygaid yr Arglwydd dy Ddaw *sydd* bob amser arno, o ddechread y flwyddyn hyd ddiwedd y flwyddyn hefyd.

13 ¶ A bydd, os gan wrando y gwrandewch ar fy ngorchymynion, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i chwi heddyw, i garu yr Arglwydd eich Duw, ac i'w wasanaethu, â'ch holl galon, ac â'ch holl enaid;

14 Yna y rhoddaf wlaw i'ch tir yn ei amser, *sef* y cynar-wlaw, a'r diweddar-wlaw; fel y casglech dy ŷd, a'th win, a'th olew:

eu maesydd am hir amser ar ol gorlfiad y Nilus; ac ar ol i'r dwfrgilio ymaith, yr oeddafechyd a chlefydon mawrion yn dylyn yn fynyach.

Adn. 12. *Tir yw, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei amgeleddu*] Gan ei ddyfshau yn ddigyrfrwg fel pe byddai â'i law ei hun, a'i ffrwythloni â'i fenthith neillduol.

Llygaid yr Arglwydd dy Dduw sydd bob amser arno—i roddi iddo y gwlaw a'r bendithion ereill piudol i'r gwahanol dymhorau. Ond cafodd yr holl drugareddau hyn, a ffrwythlondeb y tir yr hwn a'u dylyuai, eu battal i fesur mawr ar eu hanufydd-dod hwy; a chan hyny nid yw mewn modd yn rhyfedd fod rhai ysgrifenwyr diweddar yn darlunio gwlad Canaan fel tir diffrwyth. Tra yr oedd Duw yn cadw y bobl hyn dan ei nawdd parhaus, yr oedd eu gwlad yn baradwys: yr oeddynt yn rhoddi benthgyl i'r holl genhedloedd, heb geisio benthgyl gan neb. Ond darfu i Dduw 'droi y tir ffrwythlawn hwn yn ddiffwrwyth, am *ddrygioni* y rhai a drigent ynddo,' Salm cviii. 34. Nid oedd un tir yn fwy ffrwythlon tra dan fenthith Duw, fel y sylwa Calmet, nac un yn fwy diffrwyth tra dan ei felddith ef. Y mae ei gyflwr presenol yn brawf o dystiolaeth Moses, pen. xviii. 23: 'Dy *nefoedd* hefyd y rhai sydd uwch dy ben a fyddant yn bres, a'r *ddae-ar* yr hon sydd odditanat yn *haiarn*.' Y mae y tir ei hun, yn ei gyflwr presenol, yn brawf helaeth o ddilysrwydd llystia Moses. Ond eithr ychydig daleithiau, y mae yr holl dir yn sych, careog, a diffrwyth, yn enwedig holl barthau deheuol Judea.

Adn. 13. *Os gan wrandaw y gwrandewch ar fy ngorchymynion, &c.*] Y mae Moses yma yn personoli Duw, neu yn hytrach y mae Duw yn llefaru trwyddo ef.

Adn. 14, 15. *Yna y rhoddaf wlaw i'ch tir yn ei amser, &c.*] Felly y mae gan dduwioldeb yma addewid o'r bywyd sydd yr awr hon. *Sef y cynar-wlaw a'r diweddar-wlaw*—wrth y *cynar-wlaw*, neu y gwlaw *cyntaf*, y meddwlir yr hwn a ddisgynai yn Judea oddentu Tachwedd, pryd yr haent eu had; ac yr oedd hwn yn gwasanaethu i fwydo a pharotoi y tir er tyfiad yr had. Yr oedd y *diweddar-wlaw* yn disgyn oddentu Ebrill, ar ol i'r ŷd

15 A rhoddaſ laswellt yn dy faes, i'th anifeiliaid; fel y bwytäech, ac y'th ddigoner.

16 Gwylwch arnoch rhag twyllo eich calon, a chilio o honoch, a gwasanaethu duwiau dyeithr, ac ymgrymu iddynt;

17 Ac enynu digllonedd yr Arglwydd i'ch erbyn, a chau o hono ef y nefoedd, fel na byddo gwlaw, ac na roddo y ddaear ei chnwd, a'ch dyfetha yn fuan o'r tir yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei roddi i chwi.

18 ¶ Am hyny gosodwch fy ngeiriau hyn yn eich calon, ac yn eich meddwl, a rhwymwch hwynt yn arwydd ar eich dwylaw, a byddant yn rhagtalau rhwng eich llygiaid:

19 A dysgwch hwynt i'ch plant; gan grybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan rodiechi ar y ffordd, pan orweddych *hefyd*, a phan godych.

20 Ac ysgrifena hwynt ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth;

21 Fel yr amlhao eich dyddiau chwi,

a dyddiau eich plant chwi, ar y ddaear yr hon a dyngodd yr Arglwydd wrth eich tadau am ei rhoddi iddynt, fel dyddiau y nefoedd ar y ddaear.

22 ¶ Canys os gan gadw y cedwch yr holl orchymynion hyn, y rhai yr ydwyf fi yn ei gorchymyn i chwi i'w gwneuthur, i garu yr Arglwydd eich Duw, i rodio yn ei holl ffyrdd ef, ac i lynu wrtho ef;

23 Yna y gŷr yr Arglwydd allan yr holl genhedloedd hyn o'ch blaen chwi, a chwi a feddiennwch genhedloedd mwy a chryfach na chwi.

24 Pob man y sathro gwadn eich troed chwi arno, fydd eiddo chwi: o'r anialwch, a Libanus, ac o'r aſon, *sef* aſon Euphrates, hyd y môr eithaf, y bydd eich terfyn chwi.

25 Ni saif gŵr yn eich wyneb; eich arswyd a'ch ofn a rydd yr Arglwydd eich Duw ar wyneb yr holl dir yr hwn y sathroch arno, megys y llefarodd wrthych.

26 ¶ Wele, rhoddi yr ydwyf fi o'ch blaen chwi heddyw fendith a mellidith:

dyfu i fyny yn dda, ac yn gwasanaethu i lenwi a pherffectio y twseuau. Anfynych yr oedd yn gwlawio yn Judea ar unrhyw dŷ na hor arall. Os byddai i'r *cynar-wlaw* gael ei attal, neu beidio â chael ei anfon yn ei iawn dymbor, ni allai fod tyfiad; ac os byddai i'r *diweddar-wlaw* gael ei luddias neu beidio â chael ei anfon yn ei iawn bryd, nis gallai fod yd llawn yn y dwysen, nac o ganlyniad un cynuaf. Yr oedd o bwys mawrgan hyny iddynt hwy gael eu gwlaw yn ei iawn bryd. Y mae Duw, with addaw hyn os byddent ufydd, a bygwth ei attal os byddent anufydd, yn dangos nad rhagluniaeth *gyffredin* sydd yn gorchymyn y pethau hyn, ond fod hyd yn nod gwlaw y nef yn syrthio trwy orchymyn *neillduol*, a'r cawodydd yn fynyeh yn cael eu rheoleiddio trwy ragluniaeth *arbenig*.

Adn. 16. *Gwylwch arnoch rhag twyllo eich calon*] Gan hōniadau eilunaddolwyr, yn eich darbwyllo eu bod hwy yn mwynhau tymborau ffrwythlon, a bendithion arbenig ereill, fel gwohr am wasanaethu duwiau dyeithr.

Adn. 17. *Ac enynu digllonedd yr Arglwydd i'ch erbyn*] Y mae Moses yma yn ei rhybyddio, os cilient hwy at dduwiau dyeithr, (1) Y byddai iddynt gyffroir *digllonedd* Duw yn eu herbyu; a phwy a edwyn nerth ei soriant! (2) Y cai eu *bendithion* eu tynu oddiwrthynt; yr attaliai y nef ei gwlaw, ac o ganlyniad na roddai y ddaear ei chnwd. (3) Y deuai *mellidith* arnynt; y dyfethid hwynt yn fuan o'r tir da hwn. Ni fyddai daioni y tir yn ddiogelwch i'w drigolion, pan fyddai eu drygioni hwy wedi eu gwneud yn addfed i ddiarynt.

Adn. 18—20. *Am hyny gosodwch fy ngeiriau hyn, &c.*] Gwel ar pen. vi. 4—8. Exod. xiii. 9.

Adn. 21. *Fel dyddiau y nefoedd ar y ddaear*] Cyhyd ag y bydd i'r nefoedd serenog

gadw ei lle, a pharhau ei dylanwadau ar y ddaear. Y mae yr ymadrodd hwn yn arwyddo *amser maith* yn unig. Felly y dywedir am Dafydd, 'Gosodaf ei had yn dragywydd, a'i orseddfainc fel *dyddiau y nefoedd*.' Salm lxxxix. 29. Gorchymynid i'r Iuddewon yn Babilon weddio dros Nebuchodonosor a'i fab, 'ar fod eu dyddllau hwynt ar y ddaear fel *dyddiau y nefoedd*,' Baruch i. 11. Y mae y fath ormodiaeth yn beth gyffredin yn mhob iaith, ac i'w chael yn yr hen ysgrifenywyr goraf: gwel Virgil, *Æn.* i. llin. 612.

Adn. 22, 23. *Os gan gadw y cedwch yr holl orchymynion hyn, &c.*] Os byddai iddynt hwy gadw gorchymynion Duw, gwnai Duw nid yn unig goroni llafur yr arddwyr gydag amler o ffirwythau y ddaear; ond hefyd lwyddo anturiaethau y rhyfelwyr, fel y byddai i fuddugoliaeth ganlyn eu harfau: pa ffordd bynag y tröent, gwnai Duw yru allan yr holl genhedloedd hyn o'u blaen, a'u rhoddi hwy mewn meddiant o'u tir.

Adn. 24. *Pob man y sathro gwadn eich troed chwi arno*] O fewn terfynau gwlad yr addewid, fel y nodir isod: a *fydd eiddoch chwi*—ar yr ammod o'ch ufydd-dod. *O'r anialwch*—o'r tu deau i Ganaan; a *Libanus*—o du y gogledd; ac *o'r aſon*—sef yr Euphrates, o du y dwyrain; *hyd y môr eithaf*—sef Môr-y-canoldir, o du y gorllewin: gwel ar Num. xxxiv. 12, 13. Yr oedd ganddynt hawl i'r holl wlad hon, ond fod eu pechodan yn eu battal: a darfu i Solomon estyn eu lywodraeth i'r terfynau hyn, 2 Cron. ix. 26.

Adn. 25. *Ni saif gŵr yn eich wyneb*] Gwel ar pen. vii. 24.

Adn. 26. *Wele, rhoddi yr ydwyf fi o'ch blaen chwi heddyw fendith a mellidith*] Yr wyf yn eu cynyg hwynt i'ch ystyriaeth a'ch

27 Bendith, os gwrandewch ar orchymynion yr Arglwydd eich Duw, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi heddyw;

28 A mellith, oni wrandewch ar orchymynion yr Arglwydd eich Duw, ond cilio o honoch allan o'r ffordd yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi heddyw, i fyned ar ol duwiau dyeithr, y rhai nid adnabuoch.

29 Bydded gan hyny, pan ddygo yr Arglwydd dy Dduw di i'r tir yr ydwyf yn myned iddo i'w feddiannu, roddi

dewisiad; fel, os *mellith* a fydd eich rhan yn lle *bendith*, ac os byddwch mewn cyflwr adfyddus a thruenus, ac nid llwyddiannus a dedwydd, y rhaid i chwi ddiolch i chwi eich hunain am hyny. Y mae efe yn egluro hyn yn hel-aethach yn pen. xxviii; ac y mae holl ranau hanesyddol yr Hen Destament yn dangos fod Duw yn peri i fendith neu felldith eu dilyn hwy yn ol fel yr oeddynt yn cadw neu yn tori ei ddeddfau ef.

Adn. 27. *Bendith os gwrandewch*] Efe a osododd y fendith a'r felldith o'u blaen; hyny yw, (1) *Eglurodd* hwynt, fel y byddai iddynt eu gwybod: danghosodd iddynt y pethau cynwysedig yn y fendith a'r felldith, fel y gwelent yn fwy amlwg mor ddymunol oedd y fendith, ac mor arswydus oedd y felldith. (2) *Cadarnhaodd* hwynt, fel y byddai iddynt eu credu: eglurodd iddynt nad addewidion gweigion oedd y fendith, ac nad bwbach i'w dychrynu oedd y felldith, ond fod y ddyw yn gyhoedd-iadau gwirioneddol o friwad Duw mewn perthynas iddynt. (3) *Gorchymynodd* iddynt *ddewis* pa un o'r ddyw hyn a fyneant. Mor *ddeg* y mae efe yn ymddin â hwynt, ac mor bell ydwyf oddiwith 'dynu llygaid y gwyr hyn,' fel y cyhuddwyd ef Num. xvi. 14! Dywedir yn eglur wrthynt lwy a niiau ar ba delerau yr ydym yn sefyll gyda'r Hollalluog: 1. Os *gwrandawen* ni ar ei orchymynion ef, y gallwn fod yn sicr o *fendith*; 2. Ond os *na* wrandawn, y gallwn fod yr un mor sicr o *feldith*.

Adn. 28. *A mellith oni wrandewch*] Pe na roddasai Duw yn ngallu y bobl hyn i *ufyddhau* neu *anufyddhau*; pe na buasant wedi cael *ewylllys rydd*, dros ba un yr oedd ganddynt lwyf awduddol i'w defnyddio yn y ffordd o *ewylllysio* neu *anewylllysio*; a allasai Duw, gydag unrhyw briodoldeb, roddi y fath orchymynion a'r rhai hyn, yn cael eu cadarnhau gyda'r fath addewidion a hygythion? Os nad oeddynt yn *rhydd-oruchwylywyr*, nis gellid eu *cospi* am *anufydd-dod*, na'u *gwobrwyo* am *ufydd-dod*. Nid yw CAREG i'w *gwobrwyo* am ei bod, mewn ufydd-dod i ddeddfau dymgyrch, yn tueddu bob amser i'r canolbwynt; ac nid ydwyf i'w *hospi* am ei bod, ar ol ei symud o'r canolbwynt hwnw, yn ei thuaddiad neu ei syrthiad tuag ato drachefn yn cymeryd ym-aith fywyd dyn: gwel ar pen. v. 29. Ddaifod i Dduw roddi i ddyw *ewylllys rydd*, *human-benderfynol*, yr hon nas gellir ei THEISIO gan un grym, a draethir yn y modd diffinfolaf trwy

o honot y fendith ar fynydd Garizim, a'r felldith ar fynydd Ebal.

30 Onid *yw* y rhai hyn o'r tu hwnt i'r Iorddonen, tua'r lle y machluda yr haul, yn nhir y Canaanaeid, yr hwn sydd yn trigo yn y rhos ar gyfer Gilgal, gerllaw gwastadedd Moreh?

31 Canys myned yr ydych dros yr Iorddonen, i fyned i feddiannu y tir y mae yr Arglwydd eich Duw yn ei roddi i chwi; a chwi a'i meddiennwch ac a breswylwch ynddo.

32 Gwylwch chwithau am wneu-

yr holl ysgrythrau santaidd. Nis gall un *rheswm* wadu hyn, tra y mae y Beibl yn cael ei ystyried fel ddywfol ddatguddiad; ni all un *twyll-ymresymiad* egluro ymaitb y prawf o hono, cyhyd ag y mae *cyfrifoldeb* dyn am ei ymddygiad yn cael ei addef. Os *ufyddhewch*, (ac y mae Duw bob amser yn barod i gynorthwyo,) BYW fyddwch; ond os bydd i chwi *anufyddhau*, a gwrthod y cynorthwy hwnw, MEIRW fyddwch. Felly y llesfara JERHOFA, ac nis gall dynion ei wrthdroi ef.

Adn. 29. *Roddi o honot y fendith ar fynydd Garizim, a'r felldith ar fynydd Ebal*] Hyny yw, fod i ti eu cyhoeddi hwy yno: gwel ar pen. xxvii. 12, &c. *Ebal* oedd fynydd enwog yn llwyth Ephraim, gerllaw Sichein, gyferbyn â mynydd *Garizim*. Y mae y ddau fynydd hyn o fewn dau neu dri chant o latheni i'w gilydd, ac yn cael eu gwahanu gan ddyffryn dwfn oddeutu tair milldir o hyd, yn yr hwn y safai dinas Sichein: gwel ar Ioan. iv. 5. Y mae y ddau fynydd yn debyg iawn i'w gilydd mewn maintioli a llun, gan fod yn hanner crwn, ac oddeutu milldir a banner o hyd; ac, ar yr ochrau nesaf at Sichein, y maent yn codi agos yn union syth. Fod *Garizim* yn awr yn dra *ffwythlon*, ac *Ebal* yn dra *ffwyth*, yw unol dystiolaeth pawb a fuont yn ymdeith yn y parthau hyny: gwel *Ludolf*, *Reland*, *Olin*, *Rabbi Benjamin*, a *Maundrell*. Y mae Moses yma yn gorchymyn i'r Isaeliaid, cyn gynted ag y croesent afon yr Iorddonen, fyned yn uniongyrchliol i Sichein, a rhanu yr holl gynulleidfa yn ddau gorff, pob un yn gynwysedig o chwe llwyth; un gynulleidfa i'w gosod ar *Ebal*, a'r llall ar *Garizim*. Yr oedd y chwe llwyth ag oeddynt ar *Garizim* i gyhoeddi bendithion ar y fnyddloniaid a gadwent gyfraith yr Arglwydd, a'r chwech ereill ag oeddynt ar fynydd *Ebal* oeddynt i gyhoeddi mellithion yn erbyn y rhai a'i troseddent hi.

Adn. 30. *Yn y rhos ar gyfer Gilgal*] Y mae Moses yn darlunio y lle yn fanwl, er na welsai efe mohono erioed; yr hyn sydd un rheswm, yn mhllith llawer, yn profi ei ddwyfol hyfforddiad ef. *Gerllaw gwastadedd Moreh*—hwn oedd un o'r lleoedd cyntaf ag y daethai Abraham iddo yn Nghanaan: felly, wrth eu hanfon hwynt yno i gilywed y fendith a'r felldith, adgofiai Duw iddynt am yr addewid a wnaethai efe i Abraham yn y lle hwnw, Gen. xii. 6, 7.

Adn. 31. *A chwi a'i meddiennwch*] Er lluosoced a chryfed yw ei thrigolion.

thur yr holl ddeddfau a'r barnedig-aethau, y rhai yr ydwyf fi yn eu rhoddi o'ch blaen chwi heddyw.

PENNOD XII.

DYMA y ddeddfau, a'r barnedig-aethau, y rhai a wylwch ar eu gwneuthur, yn y tir a rydd Arglwydd Dduw dy dadau i ti i'w feddiannu, yr holl ddyddiau y byddoch fyw ar y ddaear.

2 Gan ddinystrio dinystriwch yr holl fauau, y rhai y gwasanaethodd y cenhedloedd yr ydych chwi yn eu meddiannu eu duwiau ynddynt, ar y mynyddoedd uchel, ac ar y brynau, a than bob pren gwyrddlas.

3 Drylliwch hefyd eu hallorau hwynt, a thorwch eu colofnau hwynt, a llosgwch eu llwynau hwynt â than, a thorwch gerfedig ddelwau eu duw-

Adn. 32. *Gwylwch chwithau am wneuthur, &c.*] Y mae ein dedwyddwch ninau yn y pen draw yn gysylltedig â'n hufydd-dod yma. Er nas gallwn ni fyned i'r nef am ein hufydd-dod, eto nis gallwn fyned yno *hebdde*; a bydd bywyd o ufydd-dod santaidd i holl ddeddfau yr Arglwydd yn sicr o arwain i'r farwolaeth fwyaf tanguefeddus, ac i helaeth fynediad i'r Ganaan addawedig.

PEN. XII. Adn. 1. *Dyma y deddfau a'r barnedigaethau, y rhai a wylwch ar eu gwneuthur*] Y mae Moses, gan ei fod fyth dan ddwfn deimlad o'r mawr berygl ag y byddai Israel ynddo o syrthio i arferion eilunaddolgar ar ol ymsefydlu yn ngwlad yr addewid, yn nghymydogathaeth cynifer o goelgryddwyr, yn dechreu yma gynghor newydd iddynt, gan adgofio iddynt y deddfau a ddarparwyd rhag hyn, megys ammodau anhegorol eu mwyniad dedwydd a heddychol hwy o'r wlad ffrwythlon hōno.

Adn. 2. *A than bob pren gwyrddlas*] Gan y tybid fod ellyllon yn cyuiwair coedydd a lleoedd cysgodol, ac yno yn ymddangos i ddynion, yr oedd y paganiaid yn codi allorau iddynt yn y lleoedd hyn, yn enwedig dan dderw mawrion. Yn eu huchel-wyliau arferent anrhegu eu duwiau â choron neu dalaith wedi ei gwneud o ganghenau a dail y cyfryw brenau ag y tybid eu bod yn ymhyfydu ynddynt. Cafodd y gyfraith hon ei bwriadu i ddiwreiddio yr ofergoel yma.

Adn 3. *Drylliwch hefyd eu hallorau*] Lle y cafodd ebyrth allan eu hoffrymu; a *thorwch eu colofnau*—gan feddlw ond odid saf-ddelwau ac addangosiadau o'u duwiau wedi eu raddu o faen; a *llosgwch eu llwynau*—y cyfryw a'r rhai hyn o amgylch teml *Astaroth*, y *Venus* Ganaanaeidd; a *thorwch gerfedig ddelwau eu duwiau*—yn cynwys ond odid bob delw wedi ei cherfio o bren; a *dinystriwch eu henwau*—y rhai yn ddiamau oeddynt ar y cyntaf wedi eu cerfio ar y meini a'r prenau, ac yna eu cymhwyso at y tiriogaethau amgylchynol. Mewn

iau hwynt, a dinystriwch eu henwau hwynt o'r lle hwnw.

4 Na wnewch felly i'r Arglwydd eich Duw.

5 Ond y lle a ddewisio yr Arglwydd eich Duw o'ch holl lwythau chwi, i osod ei enw yno, ei drigfa ef a geiswch, ac yno y deuwch:

6 A dygwch yno eich poeth-offrymau, a'ch aberthau, a'ch degymau, ac offrrwm dyrchafael eich llaw, eich addunedau hefyd, a'ch offrymau gwirfodd, a chyntafanedig eich gwartheg a'ch defaid.

7 A bwytewch yno gerbron yr Arglwydd eich Duw, a llawenhwch yn mhob dim y rhoddoch eich llaw arno, chwychwi a'ch teuluoedd, yn yr hyn y'th fendithiodd yr Arglwydd dy Dduw.

8 Na wnewch yn ol yr hyn oll yr

rhai anghreiffiau cafodd enwau mynyddoedd, dyffrynoedd, a thaleithiau cyfain, eu benthyca oddiwrth y duwiau a addolid yno.

Adn. 4. *Na wnewch felly i'r Arglwydd eich Duw*] Hyn yw, na addolwch ef ar y mynyddoedd, ar y brynau, a than bob pren gwyrddlas; ond gwasanaethwch ef yn gyhoeddus mewn un lle, yr hwn a ddewisio efe. Er y gwaharddiad hwn, y mae yr hanesiaeth santaidd yn dangos i ni mor dueddol oedd Israel i ddevis mynyddoedd a llwynau yn lleoedd eu haddoliad: gwel 2 Bren. xvii. 10, 11, Eze. xx. 28, Hos. iv. 13.

Adn. 5. *Ond y lle a ddewisio yr Arglwydd eich Duw*] Gwel ar adn. 14; i osod ei enw yno—sef ei addoliad; yno y deuwch—megys i'w dŷ neu ei drigfa ef, lle y byddai yr arch, yr allor, a'r offeiriadaeth.

Adn. 6 *A dygwch yno eich poeth-offrymau*] Y rhai a neillduid yn ddoeth i'r un lle hwnw, er diogelwch i'r wir grefydd, ac er rhagflaeniad eilunaddoliaeth: gwel ar Lef. xvii. 4. *Offrrwm dyrchafael eich llaw*—eich blaenffwythau o ŷd, olew, a gwin, a ffrwythydd ereill: a gelwir y rhai hyn felly, am fod yr offrymwr yn gyntaf i'w cymeryd yn ei law, a'u dyrchafu gerbron yr Arglwydd, ac yna eu rhoddi i'r offeiriad. *A'ch offrymau gwirfodd*—o'r rhoddion ewyllysgar hyn gallent ddevis y math a fyntent i'w hoffrynu, ond nid y lle a fyntent.

Adn. 7. *A bwytewch yno*] Eich rhan chwi o'r pethau a grybwyllwyd adn. 6; a *llawenhwch*—canys y mae Duw i'w wasanaethu gyd ag hyfrydwech a llawenydd; a dylai ei addoliad ef fod yn fflononell o gysur i ni; yn mhob dim y rhoddoch eich llaw arno—yn eich holi feddiannau a'ch llafur pa bynag, y rhai amgen a fyddant esgynnu i chwi: gwel hanes yr offrymau hyn yn Lef. i—vii, Num. xviii, &c.

Adn. 8—10. *Na wnewch yn ol yr hyn oll yr ydym ni yn ei wneuthur yma heddyw*] Lle na wnai annglyfeusdra yr anialwch, ac ansefydlogrwydd eu harosiad, ganiatáu trefn reolaidd mewn aberthau, gŷyliau, a seremoniau;

ydym ni yn ei wneuthur yma heddw, pob un yr hyn *fyddo* union yn ei olwg ei-hun.

9 Canys ni ddaethoch hyd yn hyn i'r orphwysfa, ac i'r etifeddiaeth, yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

10 Ond pan eloch dros yr Iorddonen, a thrigo yn y tir yr hwn y mae yr Arglwydd eich Duw yn ei roddi yn etifeddiaeth i chwi, a *phan* roddo lonydd i chwi oddiwrth eich holl elynion o amgylch, fel y preswyloech yn ddiogel:

11 Yna y bydd lle wedi i'r Arglwydd eich Duw ei ddewis iddo, i beri i'w enw aros ynddo; yno y dygweh yr hyn oll yr ydwyf fi yn ei orchymyn i chwi; *sef* eich poeth-offrymau, a'ch aberthau, eich degymau, a dyrchafael-

offrwm eich llaw, a'ch holl ddewis addunedau, y rhai a addunedoch i'r Arglwydd.

12 A llawenhewch gerbron yr Arglwydd eich Duw; chwi, a'ch meibion, a'ch merched, a'ch gweision, a'ch morwynion, a'r Lefiad a *fyddo* yn eich pyrth chwi: canys nid *oes* iddo ran nae etifeddiaeth gyda chwi.

13 Gwylia arnat rhag poeth-offrymu o honot dy boeth-offrymau yn mhob lle a'r a welych:

14 Ond yn y lle a ddewis yr Arglwydd o fewn un *o'th* lwythau di, yno yr offrymi dy boeth-offrymau, ac y gwnai yr hyn oll yr ydwyf fi yn ei orchymyn i ti.

15 Er hyn ti a gai ladd a bwyta cig yn ol holl ddymuniant dy galon, yn ol bendith yr Arglwydd dy Dduw, yr

ac am hyny esgusodid hwynt oddiwrth gadwraeth llawer o honynt: ond ni wneid felly yn Nghanaan. *Pob un yr hyn fyddo union yn ei olwg ei hun*—nid ydym i ddeall hyn fel yn arwyddod fod rhyddid cyffredinol yn cael ei roddi i bob un addoli ac ymddwyn fel y mynai: y mae eu hanes yn yr anialwch yn gywrthbrofi hyny; oblegid cawn fod cableda a halogiad y sabboth yn cael eu cospi, yn gystal a'r ymgais i gipio yr offeiriadaeth oddiwrth deulu Aaron: gwel Lef. xxiv. 23, Num. xv. 32, a xvi. 3, &c.

Adn. 11. *I beri i'w enw aros yno*] Ei fawredd a'i ogoniant, ei addoliad a'i wasanaeth, ei bresenoldeb arbenig a grasol. *A'ch holl ddewis addunedau*—a elwir felly, am fod y pethau a offrymid yn addunedau i fod yn *berffaith*, tra y derbynid creaduriaid *diffygiol* yn offrymau gwirfodd: gwel ar Lef. xxii. 23.

Adn. 12. *A'ch merched*] Ymddengys oddi yma, er mai y gwrwyd yn unig oeddynt yn rhwym o ymddangos gerbron Duw yn en huchel-wyliau, eto fod y benywod hefyd yn cael eu goddef i ddyfod.

Adn. 13. *Dy boeth-offrymau*] Na'r pethau ereill a grybwyllwyd uchod, trwy fod yr offrwm arbenig hwn yn cael ei roddi am y lleill oll. *Yn mhob lle a'r a welych*—yr oedd y cehedloedd yn gyffredin yn dewis lleoedd i aberthu ar gyfrif eu sefyllfa brydfeth; a hofeant yn fawr lanau afonydd, a dyffrnoedd lle y caent borfeydd dymunol a ffynnonau. Ond gwaherddid i'r Israeliaid wneuthur felly, a gofynid iddynt aberthu lle y gorchymynai Duw.

Adn. 14. *Ond yn y lle a ddewis yr Arglwydd*] I ragflaenu eilunaddoliaeth, a dwyn oddiamgylch berffaith unweddiad yn y dwyfol addoliad; canys yr oedd gan bob *desod* a *seremoni* ystyr arbenig, a nodent allan y 'dationus bethan i ddyfod'; gan hyny yr oedd yn rhaid sefydlu *un man*, lle y cai y desodau a'r seremonïau hyny eu cadw yn ofalus a manwl. Pe na buasai felly, ffurfiasai pob dyn ei addoliad yn ol ei feddwl ei hun, a buasai i holl brydferthwch a phwysigrwydd yr ardderchog

gyfundrefn *gymrychiolaidd* gael eu dyfetha, ac nis gallasai y MESSIA a gogoniant ei deyrnas gael eu gweld trwy gyfringwriaeth y desodau Iuddewig. 'Yn awr hefyd,' fel y sylwa Clarke, 'pan y gellir ei gael, mor ddimunol ydych chi'r holl wir Gristionion âg un *genau*, yn gystal ag un *galon*, ogoneddu eu Harglwydd a'u Hiachwadwr cyffredin!' Gwel yr adfeddyliadau.

Adn. 15. *Er hyny ti a gai ladd a bwyta cig, &c.*] Yn ystod eu teithiau yn yr anialwch ordeinid i bob anifel a leddid gan unrhyw Israeliad er gwasanaeth ei deulu, gael yn gyntaf ei gyflwyno i Dduw wrth ddrws y babel, mewn fiordd o aberth heddw, ac yno ei ladd, Lef. xvii. 1, &c.; yr hyn nid oedd yn un anghyfleusdra iddynt hwy, gan fod y babel yn dra chyfagos. Ond caniatêir yma, ar ol iddynt ymsefydlu yn Nghanaan, i bob penteulu ladd arlwybiaeth i'w deulu gartref, ac mewn unrhyw le, heb orfod dwyn un ran o hono at yr allor; canys ar ol i'w terfynau gael eu helaethu, rhaid fod y babel yn y fath beidder mawr oddiwrth rai o honynt, fel y buasai yn faich rhy drwm eu gorfodi i ladd pob peth a fwytaent wrth y babel. Caniatêir iddynt gan hyny ladd a bwyta cig fel y mynent, *yn ol bendith yr Arglwydd*—hyny yw, mewn modd cyfaddas i'w sefyllfa, ac i'r bendithion a roddasai Duw iddynt. *Megys o'r iwrch a'r carw*—ond paham nad megys o *gŷch* neu *ocn*, canys yr oeddynt hwy o ddefnydd mwy arferedig? Y mae y rheswm yn anilwg; o herwydd i ragflaenu eilunaddoliaeth yn offrymiad y gwaed i dduwiau ereill, gorchymynid iddynt ladd pob anifel a fwytaent, wrth ddrws y babel, fel aberth heddw, a thaelnelli y gwaed ar yr allor. Ond gallai anifeiliaid *gwylltion*, y rhai oeddynt lân, gael eu bwyta, (Lef. xvii. 13,) er nad oedd eu gwaed yn cael ei offryw i Dduw; oblegid gan eu bod yn gyffredin yn cael eu lladd cyn eu dal, nis gellid thaelnelli eu gwaed hwy ar yr allor, ac am hyny yr oedd yn ddiagon yn y cyfryw achosion dywallt allan eu gwaed hwy lle bynag eu lleddid, a'i guddio â llwch. Ac am yr un rheswm, ar ol i'r gwersyll gael ei dori i fyny,

hon a rydd efe i ti, yn dy holl byrth : yr aflan a'r glân a fwyty o hono, megys o'r iwrech a'r carw.

16 Ond na fwytechw y gwaed; ar y ddaear y tywelltwch ef fel dwfr.

17 ¶ Ni elli fwyta o fewn dy byrth ddegfed 'dy ŷd, na'th win, na'th olew, na chyntafanedig dy wartheg, na'th ddefaid, na'th holl addunedau, y rhai a addunceh, na'th offrymau gwirfodd, na dyrchafael-offrwm dy law :

18 Ond o flaen yr Arglwydd dy Dduw y bwyta'i hwynt, yn y lle a ddewisio yr Arglwydd dy Dduw; ti, a'th fab, a'th ferch, a'th was, a'th forwyn, a'r Lefiad a fyddo yn dy byrth di : llawenycha gerbron yr Arglwydd dy Dduw yn yr hyn oll yr estynech dy law arno.

19 Gwylia arnat rhag gadael y Lefiad, tra fyddech byw ar y ddaear.

20 ¶ Pan helaetho yr Arglwydd dy Dduw dy derfyn di, megys y dywedodd wrthyt, os dywedi, Bwytaf gig (pan ddymuno dy galon fwyta cig) yn ol holl ddymuniad dy galon y bwyteigig.

21 Os y lle a ddewisodd yr Arglwydd dy Dduw i roddi ei enw ynddo, fydd pell oddiwrthyt; yna lladd o'th wartheg, ac o'th ddefaid, y rhai a roddodd yr Arglwydd i ti, megys y gorchymynais i ti, a hwyta o fewn dy byrth wrth holl ddymuniad dy galon.

22 Eto fel y bwyteir yr iwrech a'r

carw, felly y bwytef ef: yr aflan a'r glân a'i bwyty yn yr un ffunud.

23 Yn unig bydd sicr na fwytaech y gwaed: canys y gwaed *yw* yr einioes; ac ni chaf fwyta yr einioes yn nghyda'r cig.

24 Na fwyta ef; ar y ddaear y tywellti ef fel dwfr.

25 Na fwyta ef; fel y byddo daioni i ti, ac i'th feibion ar dy ol, pan wnelych yr uniawn yn ngolwg yr Arglwydd.

26 Eto cymer dy gysegredig *bethau* y rhai sydd genyt, a'th addunedau, a thyred i'r lle a ddewisio yr Arglwydd :

27 Ac offryma dy boeth-offrwm (y cig a'r gwaed) ar allor yr Arglwydd dy Dduw: a gwaed dy aberiau a dywelltir wrth allor yr Arglwydd dy Dduw; a'r cig a fwyta'i di.

28 Cadw a gwrando yr holl eiriau hyn yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti; fel y byddo daioni i ti, ac i'th feibion ar dy ol byth, pan wnelych yr *hyn sydd* dda ac uniawn yn ngolwg yr Arglwydd dy Dduw.

29 ¶ Pan ddinystrio yr Arglwydd dy Dduw y cenedloedd, y rhai yr wyt ti yn myned atynt i'w meddiannu, o'th flaen di, a dyfod o honot yn eu lle hwynt, a phreswyllo yn eu tir hwynt :

30 Gwylia arnat rhag ymfaglu o honot ar eu holl hwynt, wedi eu dinystrio hwynt o'th flaen di: a rhag

lle yr oedd yr holl bobl yn nghymydogoeth y babel, ac ar ol iddynt gael eu gwasgaru yn eu preswylfeydd trwy holl wlad Canaan, yr oedd y rhai ag oeddynt yn rhy bell oddiwrth y deml yn cael eu hesgusodi rhag lladd eu hanifeiliaid *dofton* yn Jerusalem, a thaenellu eu gwaed ar yr allor: nid oedd dim mw y cael ei ofyn ganddynt hwy nag a ofynid wrth ladd iwrech neu ryw anifel gwyllt arall ag ydoedd lân: gwel Coke, a'r sylwadau ar Lef. xvii. 1—3, 13.

Adn. 16. *Ar y ddaear y tywelltwch ef fel dwfr*] Mor ddiseremoni a dwfr: gwel Calmet. Ond tybia Clarke fod hyn hefyd yn cael ei olygu mewn flordd o a berthiad.

Adn. 17, 18. *O fewn dy byrth*] Hyny yw, vn eu cartrefleoedd, mewn gwrthgyferbyniad i le addoliad Duw. *Ond o flaen yr Arglwydd* —yn y cysegr neu y deml: gwel ar adn. 14.

Adn. 19. *Gwylia arnat rhag gadael y Lefiad*] Nid oedd gan y rhai hyn etifeddiaeth, ond yr oeddynt i fyw wrth y cysegr: gan hyny os byddai i'r offryniau gael eu hattal trwy y rhai y cynelid y Lefiad, byddai raid iddynt hwy o ganlyniad drengu.

Adn. 20—22. *Pan helaetho yr Arglwydd dy Dduw dy derfyn di*] Ar ol iddo dy ddwyn

i Ganaan; *pan ddymuno dy galon fwyta cig* —gwel ar adn. 15.

Adn. 23—25. *Yn unig bydd sicr na fwytaech y gwaed*] Gwel ar Lef. xvii. 10—14.

Adn. 26—28. *I'r lle a ddewisio yr Arglwydd*] Er y gallent ladd anifeiliaid at eu hymborth cyffredin yn eu cartrefleoedd eu llinain ar ol myned i Ganaan; eto yr oedd yn rhaid iddynt yn y cyffredin (gwel yr adfeddyliadau) offrymu eu poeth-offrymau ar allor yr Arglwydd, a thywallt gwaed eu hebyrth wrthi hi, pa mor bell bynag y trigent oddi wrthi, adn. 14. Yr oedd hyn yn anngyfleusdra mawr i'r addolwyr Iuddegw, ac yn dangos israddoliaeth y grefydd lôn ragor yr un Gristionogol. *Ar cig a fwyta'i di*—oddieithr yr hyn a losgir er anrhydedd i Dduw, ac a roddir i'r offeidiad yn ol ei benodiad ef; sef cig yr *ebyrth hedd*, o'r rhai yn unig y goddefid i'r bobl fwyta.

Adn. 29. *Pan ddinystrio yr Arglwydd, &c.*] Felly nid oeddynt hwy ddim ond offryniau yn llaw Duw yn eu rhyfeloedd; eiddo yr Arglwydd oedd y rhyfel, ac efe oedd yn peri y fuddugoliaeth.

Adn. 30. *Gwylia arnat rhag ymfaglu o honot ar eu holl hwynt*] Trwy ddylyn y siamplau a adawsant ar ol, wedi iddynt hwy

ymorol am eu duwiau hwynt, gan ddywedyd, Pa fodd y gwasanaethodd y cenedloedd hyn eu duwiau? myfi a wna felly hefyd.

31 Na wna di felly i'r Arglwydd dy Dduw: canys pob flicidd-dra yr hwn oedd gas gan yr Arglwydd, a wnaethant hwy i'w duwiau: canys eu meibion hefyd a'u merched a losgasant yn tân i'w duwiau.

32 Pob gair yr wyf fi yn ei orchymyn i chwi, edrychwech am wneuthur hyny: na chwanea ato, ac na thyn oddiwrtho.

eu hunain gael eu dyfetha. *A rhag ymorol am eu duwiau*—na wna gymaint a gofyn pa fath dduwiau a addolent hwy.

Adn. 31. *Eu meibion hefyd a'u merched a losgasant yn tân* Darfu i agos bob cenedl yn y byd gyduno i offrymu aberthau dynol i'w duwiau ar achlysuron anghyffredin, trwy yr hyn y mae yn amlwg nad oedd gan neb o'r cenedloedd hyny iawn dyb am y natur ddwyfol. Mor angenrheidiol gan hyny yw y gyfrol o ddatguddiad, i ddsygn i ddyunio beth yw y grefydd hōno â'r hon y gellir rhyngu bodd Duw!

Adn. 32. *Na chwanea ato ac na thyn oddi wrtho* Gallai un ryfeddu, meddai yr Esgob Patrick, ddarod i'w mor ddsygedig a Maimonides ymdrechu profi oddiwrth hyn anghyfnawidiolrwydd cyfraith Moses. 'Y mae yn syddod ei fod ef heb allu gweled yr hyn y darfu i rai o'i frodyr ei weled, sef, er na odd-efai Duw i'r Israelaïd gyfnewid y deddfau hyn, eto na ddarfu iddo ef ei hun ymrwymo i heidio eu cyfnewid. Hyn a eglurir gan ysgrifenydd luddwig arall yn bur dda: 'Y mae phisgywr yn penodi lluniaueth i'w glaf am y cyfryw aniser ag a farna efe yn addas, yr hwn nid yw yn ei hysbysu i'r claf; ond ar ol i'r auser ddyfod i'r phisgywr gyraedd ei amcan, y mae efe yn newid y lluniaueth, ac yn caniatáu i'r claf yr hyn o'r blaen a waharddai, ac yn gwahardd yr hyn gynt a ganiatâi.' Y mae hyn yn cytuno yn gywir â'r hyn a wnaeth ein Hiaclawdwr bendigedig.

ADFEDDYLIADAU.—Trwy fod yr Israel naturiol yn gysgod o Israel ysbrydol Duw, yr oedd yn ofynol i'w haddoliad hwy ddwyn tebygolrwydd i'r gogoniant nefol: o ganlyniad rhaid iddynt beidio â chael ond un allor, un archeofeiriad, ac un cysegr. Nid oedd yr ataliad hwn yn cyraedd at yr ymarferiad crefyddol o weddi a mawl, ac addysg cyhoeddus; ac i'r perwyllion yma adeiladwyd wedi hyn synagog yn mhob dinas. Ond nid yw y gorchymyn hwn i gyflwyno offrymau ac aberthau mewn *lle yn unig*, i gael ei ddeall modd bynag fel yn hollol gaethiwl ar bob achlysur. Ychydig o dueddiadau mewn crefydd sydd yn meddu gwaeth effaith na bod yn gul ac anghariadus yn ein golygiadau. Derbyniodd yr Arglwydd aberth Gedeon, Barn. vi. 21. Offrymodd y Lefiaid fuchod ar faen yn Bethsemes, 1 Sam. vi. 15. Offrymodd Samuel hefyd oen sugno yn Mispah, 1 Sam. vii. 9.

PENNOD XIII.

PAN godo yn dy fysg di broffwyd, neu freuddwydd breuddwyd (a rhoddi i ti arwydd neu ryfeddod,

2 A dyfod i ben o'r arwydd neu y rhyfeddod a lefarodd efe^e wrthy) gan ddywedyd, Awn ar ol duwiau dyeithr (y rhai nid adwaenot) a gwasanaethw hwynt;

3 Na wrando ar eiriau y proffwyd hwnw, neu ar y breuddwydd breuddwyd hwnw: canys yr Arglwydd eich Duw sydd yn eich profi chwi, i wybod a ydych yn caru yr Arglwydd

Darfu i Dafydd hefyd yn llawr-dyrnu Araf-nah, ac Elias ar fynydd Carmel, arfer yr un rhyddid, a hyny gyda chymeradwyaeth Duw, 2 Sam. xxiv. 25, 1 Bren. xviii. 38. Fel hyn mewn diwygiadau crefyddol, ac ar achlysuron anghyffredin, y mae Duw yn gweithio yn fynych eto mewn ffordd anghyffredin.

PEN. XIII. Adn. 1. *Pan godo yn dy fysg di broffwyd*] Un y cymeryd arno ei fod yn meddu dwyfol ddylanwad, neu wedi derbyn dwyfol genadwri. *Neu freuddwydd breuddwyd*—un yn hōni i ryw dduw lefaru wrtho yn y nos. *A rhoddi i ti arwydd*—a fyddo yn ymddangos i fod yn brawf gwyrthiol o'i anfoniad. *Neu ryfeddod*—rhyw ddelw neu arddanghosiad o'r hyn ag y byddo yn ewyllysio eich dwyn chwi drosodd ato: megys y fluantodd rhai ddarfol iddynt dderbyn *delw* gysegr-edig o'r nef; a hyn oedd dechread y *Palladium*, *Tarianau Numa*, ac amrai o dduwiau yr *Hindwaid*. Ond tybia Clarke fod y gair yn meddwl yma ryw *arwydd daroganol*, megys *diffyg* ar yr haul neu y loer, yr hwn y gallai y sawl a wyddai pa bryd y cymerai efe le ei ragfynegu i'r bobl na wyddent ddim am y mater, a thrwy hyny wneuthur ei hōniadau yn hygoelus.

Adn. 2. *A dyfod i ben o'r arwydd neu y rhyfeddod*] Yn ol trefn natur, fel yn achos y *diffygiadau* uchod; neu trwy ddamwain; neu, fel y sylwa Benson, 'trwy i Dduw oddef i Satan neu ei offerynau wneyd yr hyn a fyddo uwchlaw trefn gyffredin auian, er dy brofi.'

Adn. 3. *Na wrandaw ar eiriau y proffwyd hwnw*] Na dderbyn ei athrawiaeth ef; eithr, er fod y canlyniad yn profi gwired y rhagddywediad, bydded i ti edrych arno megys celwyddwr a dysgawdwr gan-athrawiaeth. *Canys yr Arglwydd eich Duw sydd yn eich profi chwi*—yn profi eich fydd, eich cariad, a'ch ufydd-dod, trwy oddef i'r fath dwyllwyr gyfodi; ac yn chwilio eich egwyddor a'ch cywirdeb, a barhewch chwi yn ei wasanaeth ef yn ngwyneb y fath demtasiynau i'w aadael. *I wybod*—i heri gwybod, neu i ddangos yn gyhoeddus i'r byd, pa un a ydych chwi yn glynu yn fyddlon wrtho ef ai peidio: gwel ar pen. viii. 2, a 1 Cor. ii. 2.

Adn. 4. *Ar ol yr Arglwydd eich Duw yr ewch*] Ac nid ar ol duwiau dyeithr, fel y mynai y gaubroffwyd uchod, adn. 2. *Ac ef a ofnuch*—gwel ar pen vi. 13, a x. 20.

eich Duw â'ch holl galon, ac â'ch holl enaid.

4 Ar ol yr Arglwydd eich Duw yr ewch, ac ef a ofawch, a'i orchymynion ef a gedwch, ac ar ei lais ef y gwrandedwch, ac ef a wasanaethwch, ac wrtho ef y glynwch.

5 A'r proffwyd hwnw, neu y breuddwydydd breuddwyd hwnw, a roddir i farwolaeth, (cansys llefarodd i'ch troi *chwi* oddiwrtw yr Arglwydd eich Duw, yr hwn a'ch dyg chwi allan o dir yr Aifft, ac a'ch gwaredodd chwi o dŷ y caethiwed, i'th wthio di allan o'r ffordd, yr hon y gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti rodio ynddi) felly y tyni ymaith y drwg o'th fysg.

6 ¶ Os dy frawd, mab dy fam, neu dy fab dy hun, neu dy ferch, neu wraig dy fynwes, neu dy gyfaill, yr hwn *sydd* fel dy enaid dy hun, a'th annog yn ddirgel, gan ddywedyd, Awn a gwasanaethwn dduwiau dycethr, y rhai nid adnabuost ti, na'th dadau;

7 *Sef rhaâ* o dduwiau y bobl *sydd*

o'ch amgylch chwi, yn agos atat, *neu* yn mhell oddiwrtwyt, o un cwr i'r tir hyd gwr *arall* y tir:

8 Na chydysnia âg ef, ac na wrando arno, ac nac arbeded dy lygad ef, ac nac eiriach *ef*, ac na chela arno:

9 Ond gan ladd lladd ef; bydded dy law di arno ef yn gyntaf, i'w roddi i farwolaeth, a llaw yr holl bobl wedi hyny.

10 A llabyddia ef â meini, fel y byddo marw: cansys ceisiodd dy wthio di oddiwrtw yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddyg di allan o dir yr Aifft, o dŷ y caethiwed.

11 A holl Israel a glywant, ac a ofnant, ac ni chwanegant wneuthur y fath beth drygionus a hyn yn dy blith.

12 ¶ Pan glywech am un o'th ddinasoedd, y rhai y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi i ti i drigo ynddynt, gan ddywedyd,

13 Aeth dynion, meibion y fall, allan o'th blith, a gyrasant drigolion eu dinas, gan ddywedyd, Awn, gwas-

Adn. 5. *A'r proffwyd hwnw—a roddir i farwolaeth*] Os proffid y weithred, yr oedd y Sanhedrim fawr, meddai yr Iuddewon, i gyhoeddi y ddeddfyd hon arno. *Cansys llefarodd i'ch troi chwi oddiwrtw yr Arglwydd*—i'ch hudo i adael Duw a'i addoliad. Dengys hyn fod gweddud siera gwir broffwyd i'w gymeryd oddiwth ei *athrawiaeth* yn hytrach na'i *wyrthiau*. Gallwna gasglu oddiyma hefyd fod ymdrechadau y Pabyddion i brofi eu hathrawiaethau neillduol trwy wyrthiau yn beth ofer; cansys dylent ddangos yn gyntaf fod eu hystranciau hwy yn gyson â rheswm a chrefydd, cyu iddynt gynyg eu profi hwynt trwy wyrthiau. Yr oedd trosedd y gaubroffwyd yn uchel fradwriaeth; cansys wrth bregethu gwrthgiliad, efe a bregethai wrthyrfel; a'r hyn sydd yn gwneyd ei drosedd yn fwy atgas fyth ydyw, ei fod, wrth bleidio eilunaddoliaeth, yn ei alw ei hun yn *genad Duw*, a than nawdd yr enw hwn yn annog yr Israeliaid i anufyddhau i'r Arglwydd! Darfu i rai Iuddewon diweddar geisio cyfiawnhau eu gwrthodiad hwy o'n Hiachawdwr bendigedig trwy y geiriau hyn o eiddo Moses. 'Ni oddef ein cyfraith ni,' meddent, 'i ni dderbyn Iesu yn wir broffwyd, beth bynag oedd ei wyrthiau, am iddo gynyg dyfetha ein crefydd ni.' Yn awr, y mae yr haeriad hwn yn ddisail; cansys yr oedd ein llarglwydd bendigedig mor bell oddiwrtw flurfio unrhyw fwriad i ddyfetha crefydd Moses, fel ag y tystiodd yn y modd ezluraf, 'na ddaeth efe i dori, ond i *gyflawni*,' Mat. v. 17. Heblaw hyn, y mae Moses yn son am broffwyd yn hudo y bobl i *eilunaddoliaeth*, a'u troi oddiwrtw yr Arglwydd eu Duw; a rhaid i'r dyn a briodola y trosedd hwn i Ddeddf-rodwr y Cristionogion, fod wedi colli pob cywilydd!

Adn. 6. *Os dy frawd, mab dy fam*] Y mae

hyn yn cael ei chwanegu i gyfyngu ystyr y gair *brawd*, yr hwn yn gyffredin a arferir am berthynas yn unig. Yr oedd dysgawdwr eilunaddoliaeth i gael ei roddi i farwolaeth; ac yr oedd y gorchymyn hwn mor gaeth, fel yr oedd yn rhaid i ddynt beidio arbed na chelu ei frawd, ei fab, ei ferch, ei wraig, na'i gyfaill, am mai dyma y trosedd uwchaf a ellid ei gyflawni yn ebyrn Duw, a'r mwyaf dinystriol i gywdeithas.

Adn. 7. *O un cwr i'r tir*] Sef tir Canaan, i'r hwn yr oeddynt yn myned i bresywlae.

Adn. 8. *Nac eiriach ef*] Hyny yw, nac arbed ef.

Adn. 9. *Ond gan ladd lladd ef*] Nid yn ddirgel, ond trwy geisio ei farwolaeth trwy ddeddfyd yr ynadon. *Bydded dy law di arno ef yn gyntaf*—fel y tyst o'i drosedd; cansys yr oedd efe i gael ei labyddio i farwolaeth, a'r cyhuddwr oedd i dastu y gareg gyntaf, pen. xvii. 7. *A llaw yr holl bobl wedi hyny*—'bydded dy law di arno ef yn gyntaf, i'w nodi allan fel un melliagedig; ac yna dwylaw yr holl bobl, i'w roddi ef ymaith fel peth diofrydedig.'—HENRY.

Adn. 10. *A llabyddia ef â meini*] Gwel y dull cyffredin o labyddio yn cael ei egluro ar Lef. xxiv. 23.

Adn. 11. *A holl Israel a glywant ac a ofnant*] Yr oedd y gyfraith hon, er yn llym, eto yn gyfiawn ac angeniheidol, ac yn addas i gadw corff y bobl oddiwrtw haint eilunaddoliaeth.

Adn. 12. *Pan glywech am un o'th ddinasoedd, &c.*] Oddiwrtw achos personau neillduol, y mae Moses yma yn myned at eiddo ddinasoedd cyfain, wrth y rhai y rhaid deall dinasoedd Israeliaid yn proflessu y wir greffydd.

Adn. 13. *Meibion y fall*] Felly y mae y rhai mwyaf anafad a diles yn cael eu galw yn fynyeh yn yr ysgrythyr. Yn y Saesonaeg

anaethwn dduwiau dyeithr (y rhai nid adnabuoch)

14 Yna ymofyn, a chwilia, a chais yn dda: ac wele, os gwirionedd yw, a bod yn sicr wneuthur y ffeidd-dra hyn yn dy fysg;

15 Gan daro drigolion y ddinas hōno â min y cleddyf; difroda hi, a'r rhai oll a fyddant ynddi, a'i hanifeiliaid hefyd, â min y cleddyf.

16 A'i holl yspail hi a gesgli i ganol ei heol hi, ac a losgi y ddinas a'i holl yspail hi yn gwbl, i'r Arglwydd dy Dduw, â thân: felly bydded yn garnedd byth; nac adeilader hi mwy.

17 Ac na lnyed wrth dy law di ddim o'r diofrydbeth: fel y dychwelo yr Arglwydd oddiwrth angerdd ei

gelwir hwynt yn feibion *Belial*, oddiwrth *bal*, dim, a *yaal*, budd; rhai nad ydynt dda i ddim, nac yn ddarostyngedig i un iau na chyfraith. Felly y mae hwn yn enw priodol ar y diafol, ac ar holl blant anfyddod.

Adn. 14. *Ymofyn, a chwilia, a chais yn dda*] Rhaid iddynt beidio myned yn mlaen ar drwyediad cyffredin, na derbyn yr hysbysiad trwy glywed son; ond rhaid iddynt chwilio y profion, a pheidio rhoddi barn yn eu herbyn oni fyddai y dystiolaeth yn eglur, a'r cyhuddiad wedi ei brofi yn amlwg. Dywedir i Dduw ei hun, cyn dyfetha Sodom, ddisgyn ac edrych pa un a oedd ei chamweiddau yn ol yr achwyniad, Gen. xviii. 21. Mewn achosion barnol y mae yn ofynol cymerdy amser, gofal, a thrafferth i gael allan y gwirionedd, a chwilio yn dŷg heb ragfarn na phleidgarwch. Dywed yr Iuddewon, er y gallai personau unigol o eilunaddolwyr gael eu barnu gan yr is-lysoedd, fod yn rhaid i wrthgiliaid dinas gael ei brofi gan y Sanhedrim fawr; ac os ymddanghosai eu bod wedi cael eu *guthio* i eilunaddoliaeth, anfonent ddan ŵr dysgedig atynt i'w rhybyddio a'u hadfer hwynt. Os edifarläent, byddai pob peth yn dda; os na wnaent, yna yr oedd yn rhaid i holl Israel fyned i fyny i ryfel yn eu herbyn, i ddangos eu diglloedd yn erbyn eilunaddoliaeth, ac i attal ymdaeniad yr haiut. Ac os profid y troseddwy'r yn annwygiadwy, yr oedd y ddinas i gael ei dyfetha yn llwyr.

Adn. 15. *Gan daro drigolion y ddinas, &c.*] Os byddai ychydig o wŷr cyfiawn ynddi, diamau yr ymsyudent hwy a'u teuluoedd allan o honi; ac yna yr oedd yn rhaid rhoddi yr holl drigolion a'u hanifeiliaid i'r cleddyf.

Adn. 16. *A'i holl yspail hi a gesgli*] Yr oedd yn rhaid dwyn yr holl eiddo masnachol, y dodrefn, a'r trysorau, i'r farchnadfa i'w llosgi. *Pr Arglwydd*—yn iawn i gyfiawnder Duw, ac er amddiffyniad i'w anrhydedd a'i awurdod ef. *Felly bydded yn garnedd byth*—yn gofeb dragwyddol o gyfiawn anffodlonrwydd Jehofa, ac yn ddychryn i'r oesoedd dyfodol. Y mae Duw yn gorchymyn y toster hwn, i ddangos y fath Dduw eiddig yw efe yn mhethau ei addoliad, a'r fath drosedd mawr ydyw gwasanaethu duwiau dyeithr! Gwyb-

ddig, ac y rhoddo i ti drugaredd, ac y tosterio wrthyt, ac y'th amlhao, megys y tyngodd wrth dy dadau;

18 Pan wrandawech ar lais yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw ei holl orchymynion ef, y rhai yr wyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw, gan wneuthur yr *hyn sydd* uniawn yn ngolwg yr Arglwydd dy Dduw.

PENNOD XIV.

PLANT *ydych* chwi i'r Arglwydd eich Duw: na thorwch mohonoch eich hunain, ac na wneuch foelni rhwng eich llygaid, dros y marw.

2 Canys pobl santiaid *wyt* ti i'r Arglwydd dy Dduw, a'r Arglwydd a'th ddewisodd di i fod yn bobl unig iddo

ydded yr holl fyd na ddyry ein Duw ni ei ogoniant i arall, na'i fawl i ddelwau corffiedig.

Adn. 17. *Ac na lnyed wrth dy law di ddim o'r diofrydbeth*] Gwaberddir i'r milwyr droi dim o'r yspail at eu gwasanaeth eu hunain, am mai peth diofrydedig ydoedd, a bod yn beryglus ymyraeth âg ef, fel y cawn yn achos Acan, Jos. vii. Gan na oddefai Duw iddynt gymeryd yspail y dinasoedd eilunaddolgar hyn iddynt eu hunain, nis gallai dim ond sel dros anrhydedd Duw eu cymhell i wneuthur rhyfel yn eu herbyn. *Fel y dychwelo yr Arglwydd oddiwrth angerdd ei ddiig*—yr hwn oedd yn barod i dori allan yn erbyn yr holl genedl am ddroryn yr un ddinas wrthllygiedig hōno. *Ac y'th amlhao*—fel na chai di un gollled yn dy nifedi wrth dori ymaith gyneifer o bobl.

Adn. 18. *Pan wrandawech ar lais yr Arglwydd*] Trwy ddiifodi y cyfryw ddinasoedd. Dywed Grotius mai eilunaddoliaeth a chabl-edd oeddynt yr unig droseddau am y rhai y gafaelid mewn eiddo. Er nad ydym yn cael i'r gyfraith hon gael ei rhoddi mewn ymarferiad yn holl hanes yr eglwys Iuddewig; eto, oblegid iddynt hwy esgeuloso ei gweinyddu hi ar is-ddinasoedd, darfu i Dduw ei hun, trwy fyddin y Caldeaid, ei gweinyddu hi ar Jerusalem, y briffddinas, yr hon a lwyr ddyfethwyd, ac a fu yn addeiliad am ddeng mlynedd a thriugain.

PEN. XIV. Adn. 1. *Plant ydych chwi i'r Arglwydd eich Duw*] Y cymeriad uwchaf ag a ellir ei roddi i unihyw fodau creadigol. *Na thorwch mohonoch eich hunain*—fel yr arferai y paganiaid wneuthur wrth addoli eu duwiau, ac mewn anghladdau, ac ar achosion o drallog cyffredin: gwel ar Gen. i. 11, a Lef. xix. 28. *Ac na wneuch foelni rhwng eich llygaid*—yn y gwallt uwchben canol y talcen. *Dros y marw*—trwy ordristwch ar ol eich cyfeillion ymadawedig, fel pe na byddai genych oibaith am eu dedwyddwch tudraw i angau, 1 The. iv. 13.

Adn. 2. *Canys pobl santiaid wyt ti*] Gan i chwi gael yr anrhydedd o gael eich neillduo i Dduw fel pobl briodol, trwy ddeddfau gwahanol i eiddo pob cenedl arall, y mae yn iawn i

ef, o'r holl bobloedd *sydd* ar wyneb y ddaear.

3 ¶ Na fwyta ddim ffaidd.

4 Dyma yr anifeiliaid a fwyteuach: eidion, llwdu dafad, a llwdu gafr,

5 Y carw, a'r iwrch, a'r llwdu hydd, a'r bwch gwyllt, a'r unicorn, a'r ŷch gwyllt, a'r afr wyllt.

6 A phob anifel yn hollti yr ewin, ac yn fforchogi hollt y ddwy ewin, ac yn cnoi cil, yn mysg yr anifeiliaid; hwnw a fwyteuach.

7 Ond hyn ni fwyteuach, o'r rhai a gnoant y cil, neu a holltant yr ewin yn fforchog: y camel, a'r ysgyfarnog, a'r cwningen: er bod y rhai hyn yn cnoi eu cil, am nad ydynt yn fforchogi yr ewin, aflan *ydynt* i chwi.

8 Yr hwch hefyd, er ei bod yn

fforchogi yr ewin, ac heb *gnoi* cil, aflan *yw* i chwi: na fwyteuach o'u cig hwynt, ac na chyffyrddwch â'u bur-gyn hwynt.

9 ¶ Hyn a fwyteuach o'r hyn oll *sydd* yn y dyfroedd: yr hyn oll *sydd* iddo esgyll a chen a fwyteuach.

10 A'r hyn oll nid *oes* iddo esgyll a chen, ni fwyteuach: aflan *yw* i chwi.

11 ¶ Pob aderyn glân a fwyteuach.

12 A dyma y rhai ni fwyteuach o honynt: yr eryr, a'r wyddwalech, a'r fôr-wenol.

13 A'r bod, a'r barcut, a'r fwltur, yn ei rhyw,

14 A phob cigfran yn ei rhyw,

15 A chyw yr estrys, a'r fran nos, a'r gog, a'r hebog yn ei ryw,

chwi ymdwyn yn gyfatebol i urddasrwydd eich breintiau, a gwylio rhag ynhalogi gydag un o'r cyfryw ddefodau neu arferion paganaidd ag sydd yn annuwiol neu yn wrthun. *I fod yn bobl unig iddo ef*—gwahanedig oddiwrth ereill trwy egwyddorion ac ordinhadau santaidd, a llwyr ymgysgriad i'w wasanaethu ef.

Adn. 3. *Na fwyta ddim ffaidd*] Aflan a gwaharddedig genyf fi, ac a ddylai o ganlyniad fod yn ffaidd genych chwithau.

Adn. 4. *Dyma yr anifeiliaid a fwyteuach*] Ar Lef. xi. 2, &c., sylwyd yn lled helaeth ar yr anifeiliaid glân ac aflan a grybwyllir yuo, i ba le y cyfeirir y darlennydd: ond gan fod rhai creaduriaid yn cael eu crybwyll yma a'r na enwir yn Lefiticus, bydd yn angenrheidiol eu hystyried yn y lle hwn. *Eidion—shor*: y mae y gair hwn yn cynwys pob anifel glân o rywogaeth y gwartheb, nid yn unig yr eidion a elwir yn briodol felly, ond hefyd y tarw, y fowch, yr anner, a'r llo. *Llwdn dafad—seh*, yn cynwys yr hwrdd, y fyharen, y dafad, a'r oeu. *Llwdn gafr—az*, yn cynwys y bwch, yr afr, a'r mŷn. Addefir yn gyffredinol mai cig yr anifeiliaid hyn yw y mwyaf iachus a maethlon: y maent yn byw ar y llysiau goraf; a thrwy fod ganddynt amrai gyllaon, y mae eu bwyd yn cael ei dreulio yn dda.

Adn. 5. *Y carw*] *Aiyal*, y danas neu yr ewig, yn ol Dr. Shaw. *Iurc—tsebi*, a dybir yn gyffredin i fod yr afr gyru-nyddol. Y mae iddi gyru troellog, a sypynau blewog ar y gliniau; y mae yn ymborthi ar flagir ieuaine, yn byw mewn gwledydd mynyddig, yn hoff o ddringo creigian, ac yn nodedig am eu llygaid dnon prydferth: y mae y cig yn dda a blasus. *Llwdn hydd—yachmur*. Tybir fod hwn yn meddwl y bual, yr hwn a ddarlunir gan naturiaethwyr ac ymdeithwyr fel anifel sarug, anynad, a gorwyllt. Yn ol I Bren. iv. 23, yr oedd hwn yn un o'r anifeiliaid a fwyteid beunydd ar fwrdd Solomon. Er nad yw cig y bual yn cael ei ystyried yn bur ddanteithiol, eto, yn y gwledydd lle y mae yn aml, fe'i bwyteir mor fynych gan bob graed o ddyinion a'r eidion yn Nghymru. *Bwch gwyllt—akko*. Nid yw yn eglur pa greadur a feddylir wrth

yr *akko*. Tybia Dr. Shaw mai math ar afr dra ofnog, yr hon a adwaenir yn y dwyrain wrth yr enw *fishall* a *seruee*, ac sydd yn dwyn tebygolrwydd i'r afr a'r hydd. *Unicorn—dishon*. Gelwir ef yn y Saesonaeg *pygarg*, oddiwrth *pygargos*, a chymhwysir yr enw hwn at fath ar euyr gyda chynffon wen. Ond y mae yn amlwg ei fod ef yma yn meddwl anifel pedwar-troediog, ond odid math ar afr gyffredin a thra adnabyddus yn Judea. *Ych gwyllt—teo*. Tybir mai *oryz* y Groegiaid yw hwn, sef math ar hydd mawr. Yn Esay li. 20, crybwyllir am greadur o'r enw *to*, yr hwn a gyfeithir yno yn darw gwyllt; a gall mai yr un creadur a feddylir yma. *A'r afr wyllt—zemer*. Meddylir fod hon yn rywogaeth o'r geifr neu y danys, ond o ba fath nis gwyddom. Y mae ein Beiblau Saesonaig yn ei galw *chamois*; eithr trwy nad yw y *chamois* yn preswyllo ond yn ardaloedd y rhew a'r eira, ac nas gall oddef gwres, fel y sylwa *Buffon*, nid yw yn debyg mai hwnw a feddylir. Y mae y *LXX* a'r *Vulgate* yn ei gyfeithu *camelopard*; eithr nid yw y creadur hwn i'w gael ond yn y poethgylch, ac y mae yn debyg na welwyd ef erioed yn Judea; ac o ganlyniad nid yw yn debyg yr enwid ef fel anifel glân i'w arfer yn ymborth cyffredin. 'Rhaid goddef i mi ddywedyd unwaith yn chwaneg,' meddai Clarke, 'fod sicrhau hanes naturiaethol y Beibl yn achos anobeithiol. O ychydig o'i hanifeiliaid a'i llysiau yr ydym mewn cydmhariaeth yn sicr, eithr am y rhan fwyaf ni wyddom braid ddim. Y mae dyfaliad a dychymyg yn ddi-ddiwedd, a chawsant eu defnyddio yn ddiagonol eisioes ar y pyncian yma. Yr hyn a allai dysgeithiaeth ddofo ac iawnfarn ei wneuthur, a wnaed eisioes gan yr anghydmharol BOCHART yn ei *Hierozoicon*.' Gwel ar Lef. xi, a'r adfeddyliadau yn nivedd y bennod hono.

Adn. 6—12. *A phob anifel yn hollti yr ewin*] Gwel ar Lef. xi. 3, &c.

Adn. 13. *A'r bod*] *Iaraah* aderyn o rywogaeth y fwltur, yn cael ei enw yn amlwg oddiwrth ei olwg cyffym. Ni chrybwyllir am hwn yn Lefiticus.

16 Aderyn y cyrff, a'r dylluan, a'r gogfran,

17 A'r pelican, a'r biogen, a'r fulfran,

18 A'r ciconia, a'r crëyr yn ei ryw, a'r gornchwigl, a'r ystum.

19 A phob ymlusgiad asgellog sydd aflan i chwi: na fwytaer hwynt.

20 Pob ehediad glân a fwytwewch.

21 ¶ Na fwytwewch ddim a fo marw ei hun: dod ef i'r dyeithr fyddo yn dy byrth, a bwytaed ef; neu gwerth ef i'r dyeithr: canys pob santaid ydwyf i'r Arglwydd dy Dduw. Na ferwa fyn yn laeth ei fam.

22 Gan ddegymu degyma holl gynrych dy had, sef ffrwyth dy faes, bob blwyddyn.

23 A bwyta gerbron yr Arglwydd dy Dduw (yn y lle a ddewisodd efe i drigo o'i enw ef ynddo) ddegwm dy ŷd, dy win, a'th olew, a chyntafanedig dy wartheg, a'th ddefaid; fel y dysgech ofni yr Arglwydd dy Dduw bob amser.

24 A phan fyddo y ffordd ry hir i ti, fel na ellych ei ddwyn ef, neu os y lle fydd yn mhell oddiwrthyt, yr hwn a

ddewisodd yr Arglwydd dy Dduw i osod ei enw ynddo, pan y'th fendithio yr Arglwydd dy Dduw:

25 Yna dod ei werth yn arian; a rhwym yr arian yn dy law, a dos i'r lle a ddewisodd yr Arglwydd dy Dduw:

26 A dod yr arian am yr hyn oll a chwennycho dy galon; am wartheg, neu am ddefaid, neu am win, neu am ddiog gref, neu am yr hyn oll a ddy-muno dy galon: a bwyta yno gerbron yr Arglwydd dy Dduw, a llawenycha di, a'th deulu.

27 A'r Lefiad yr hwn fyddo yn dy byrth, na wrthod ef: am nad oes iddo na rhan nac etifeddiaeth gyda thi.

28 ¶ Yn mhen tair blynedd y dygi allan holl ddegwm dy gnwd y flwyddyn hono: a dyro ef i gadw o fewn dy byrth.

29 A'r Lefiad (am nad oes iddo ran nac etifeddiaeth gyda thi) a'r dyeithr, a'r amddifad, a'r weddw, y rhai fydd yn dy byrth di, a ddeuant, ac a fwytaent, ac a ddigonir; fel y'th fendithio yr Arglwydd dy Dduw yn mhob gwaith a wnellych a'th law.

Adn. 14—20. *A phob cigfran, &c.*] Gwel ar Lef. xi. 15, &c.

Adn. 21. *Na ferwa fyn yn laeth ei fam*] Tybia Calmet fod y gwaharddiad hwn yn cyfeirio at oen y pasc yn unig, yr hwn nid oedd i gael ei offrymu i Dduw nes ei ddiodyfnu oddi wrth ei fam: ond gwel y sylw ar Exod. xxiii. 19.

Adn. 22. *Gan ddegymu degyma holl gynrych dy had*] Gan feddwl yr ail ddegwm, yr hwn yr oeddynt hwy eu hunain i'w fwyta, adn. 23; canys yr oedd yno ddegwm cyntaf yn cael ei roddi i'r Lefiad, o'r hwn yr oeddynt hwythau yn talu y ddegfed ran i'r offeiriad, Num. xviii. 24—28, Neh. x. 37, 38. Yna, o'r hyn ydoedd ar ol, yr oedd y perchengion yn neillduo ail ddegwm, yr hwn a fwytaent gerbron yr Arglwydd y flwyddyn gyntaf a'r ail; ac yn y drydedd flwyddyn, rhoddid ef i'r Lefiad a'r tylodion, adn. 28, 29. Yn y bedwaredd a'r bummed flwyddyn bwyteid ef drachefn gan y perchengion, ac yn y chweched flwyddyn rhoddid ef i'r tylodion. Yr oedd y seithfed flwyddyn yn sabboth i'r tir, a'r pryd hyny yr oedd pob peth yn gyffredin: gwel Ainsworth ar yr adnod hon, a'r sylwadau ar Exod. xxiii. 11.

Adn. 23. *Ddegwm dy ŷd, &c.*] 'Y mae ysgrifenydd Iuddegw yn sylwi ar y geiriau hyn, 'Os teli y degwm, yna dy ŷd di yw; os na wnai, fy ŷd i ydyw, ac nid yr eiddot ti; canys dywedir, *Am hyny y dychwelaaf, a chymeraf fy ŷd yn ei amser, a'm gwin yn ei dymhor*, Hos. ii. 9.' Oblegid yr oeddynt hwy yn fforffetio y cwbl, y rhai ni thalent y ddegfed, yr hyn oedd y rhent a gadwai Duw iddo ei hun.'—BURDER.

Adn. 24, 25. *Pan y'th fendithio yr Arglwydd*] Y rhoddo efe i ti gynydd mor fawr nes y byddo y ddegfed o hono yn fwy nag aelli ei gario i'r cysegr. *Rhwym yr arian yn dy law*—sef mewn côd, i'w chymeryd yn dy law, a'i chario gyda thi.

Adn. 26. *A dod yr arian am yr hyn oll a chwennycho dy galon*] Yr oedd hwn yn orchymyn i'r Israeliaid ddefnyddio rhan o'u cyllid mewn elusengarwch; i lawenychu yn naioni Duw pan y deuant i'w wyddfod, i gydnabod mai efe oedd awdwr eu holl fendithion; ac i loni calonau y tylawd, yr amddifad, a'r weddw, trwy eu croesawu hwynt; gan fel hyn efelychu daioni Duw iddynt eu hunain, trwy weithredoedd o diriondeb i ereill. *Am ddiog gref*—gwel ar Lef. x. 9. *A bwyta yno gerbron yr Arglwydd dy Dduw*—y mae y defnyddiad cysurus a llon o'r hyn a roddodd Duw i ni, gyda chymedroler a sobrwydd, yn ddian yn anhydeddiad o Dduw âg ef. Y mae boddlonrwydd, llawenydd santaid, a diolchgarwch, yn gwneud pob pryd o fwyd yn wledd grefyddol.

Adn. 27. *A'r Lefiad—na wrthod ef, am nad oes iddo na rhan nac etifeddiaeth*] Ac o ganlyniad yr oedd llawer o'i gynaliaeth ef yn yddibynu yn unig ar offrymau gwirfodd y bobl.

Adn. 28. *Yn mhen tair blynedd, &c.*] Gwel ar adn. 22.

Adn. 29. *A'r dyeithr, a'r amddifad, a'r weddw*] Yr oedd y rhai hyn hefyd i gael eu cynorthwyo â chyfran o'r degwm hwn; canys heb hyny buasent yn gorffod cardota, neu wasanaethu estroniaid, ac felly mewn perygl o gael eu gwyrdroi oddiwrth y wir grefyddol.

PENNOD XV.

YN mhen pob saith mlynedd gwna ollyngdod.

2 A dyma wedd y gollyngdod. Gollynged pob echwynwr i'w gymydog yn rhydd ei echwyn a echwynodd efe: na fyued *hyn* drachefn gan ei gymydog, neu ei frawd; canys cyhoeddwyd gollyngdod yr Arglwydd.

3 Ti a elli fynu drachefn gan y dy-eithr; ond gollynged dy law yn rhydd *yr hyn* sydd i ti gyda'th frawd:

4 Megys na byddo o honot ti gardotyn: canys yr Arglwydd gan fendithio a'th fendithia di, yn y tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth i'w feddianu;

5 Yn unig os gan wrando y gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw a gwneuthur yr holl orchymynion yma, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw.

6 Canys yr Arglwydd dy Dduw a'th

fendithia, megys y llefarodd wrthyf, fel y benthyciech i genhedloedd lawer, ac na fenthyciech di *ganddynt*; ti hefyd a arglwyddiaethi ar genhedloedd lawer, ac nid arglwyddiaethant hwy arnat ti.

7 ¶ Os bydd yn dy fysg di un o'th frodyr yn dylawd o fewn un o'th byrth, yn dy dir yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, na chaleda dy galon, ac na chau dy law oddiwrth dy frawd tylawd:

8 Ond gan agoryd agor dy law iddo, a chan fenthycio benthycia ddigon i'w angen ef, *yr hyn* fyddo arno ei eisiau.

9 Gwylia arnat, rhag bod yn dy galon ddrwg feddwl i ddywedyd, Agos yw y seithfed flwyddyn, blwyddyn y gollyngdod; a bod dy lygad yn ddrwg yn erbyn dy frawd tylawd, rhag rhoddi iddo, a llefain o hono ef ar yr Arglwydd rhagot, a'i fod yn bechod i ti.

10 Gan roddi dod iddo, ac na fydded ddrwg gan dy galon pan roddych

PEN. XV. Adn. 1. *Yn mhen pob saith mlynedd gwna ollyngdod*] Yr hon oedd y flwyddyn sabbothol: gwel ar Lef. xxv. 2, &c.

Adn. 2. *Gollynged pob echwynwr i'w gymydog yn rhydd ei echwyn*] Nis gellir deall hyn am arian wedi eu benthycia i brynu tiroedd, neu fasnachu, gan rai ag oeddynt yn alluog i dalu; canys nis gallai dim fod yn fwy afresymol na rhyddhau y cyfryw ddyledion, trwy y rhai yr oedd y neb a gafodd fenthg yn ymgyfoethogi. Ond rhaid ei ddeall am arian wedi eu hechwyn a i Israeliad mewn tylodi, fel yr ymddengys oddiwrth adn. 4. Yn ol y gyfraith hon, yroedd pob *Israeliad tylawd* a fenthycasai arian ac a ydoedd yn *analluog* i'w talu hyd yn hyn, i gael y flwyddyn hon ei ryddhau oddiwrthynt. Ac er ei fod ef, os gallai, yn rhwym mewn cydwybod i'w talu hwynt wedi hyn, eto nis gellid byth eu codi trwy gyfraith. Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, nad oedd efe i godi y ddyled yn mlwyddyn y gollyngdod; oblegid trwy nad oedd dim cynauaf yn cael ei gasglu i mewn y flwyddyn hono, nis gellid dysgwyl i ddyunion dalu eu dyledion yr amser hwnw; ond wedi hyn y gellid eu codi trwy gyfraith. Yn ol yr ystyr hwn nid oedd y gollyngdod yn diddymu y ddyled, eithr yn attal yr erlyniad am flwyddyn. *Gollyngdod yr Arglwydd*—er ei anrlydedd ef, ac mewn uffydd-dod i'w orchymyn, ac fel cydnabyddiad o'i hawl ef yn eich etifeddiaethau.

Adn. 3. *Ti a elli fjnu drachefn gan y dy-eithr*] Yr hwn nid yw yn Israeliad nac yn broselty. Felly yr oedd y gyfraith hon yn cael ei chyfyngu at *frawd*—luddew o genedl neu grefydd.

Adn. 4. *Megys na byddo o honot ti gardotyn*] Fel na byddo i un Israeliad gael ei dylodi a'i andwyo trwy ddirgodiad dyledion; neu fel na yrid ef i gardota i blith y cenedloedd, yr

hyn a fyddai yn brofedigaeth iddo i wrthgilio oddiwrth y wir grefydd.

Adn. 5, 6. *Yn unig os gan wrandaw*, &c.] Addewir yma, os gwnaent hwy faddeu i'w brodyr yn rhwyddgalon, y cai pa beth bynag a gollent hwy trwy eu dyledwyr tylodion, ei wneyd i fyny iddynt trwy fendith Duw ar yr hyn oll a feddent neu a wnaent, nes y byddent yn alluog i fenthycia symau mawrion i genhedloedd ereill, y rhai a dalent iddynt lóg da. *Ti hefyd a arglwyddiaethi*—gan mai 'gwas fydd yr hwn a gaffo fenthg i'r gwŷr a roddo fenthg,' Diar. xxii. 7.

Adn. 7, 8. *Na chau dy law oddiwrth dy frawd tylawd*] Oddiar yr ystyriaeth y bydd iddo ef gael ei ryddhau oddiwrth y ddyled yn mlwyddyn y gollyngdod. *Ond gan agoryd agor dy law iddo*—dyro iddo yn haelionus ac ewyllysgar, gan gredu addewid Duw, adn. 5, 6.

Adn. 9. *Gwylia arnat rhag bod yn dy galon ddrwg*] Heb. 'yn dy *Felial* galon,' neu 'galon y *fall*;' hyn yw, calon nad yw dda i ddim: gwel ar pen. xiii. 13. *Feddiel i ddywedyd*, *Agos yw y seithfed flwyddyn*—ac am hyn ni roddaf fenthg yr hyn ag y byddaf yn sier o'i gollu yr amser hwnw. *A bod dy lygad yn ddrwg yn erbyn dy frawd tylawd*—yn anbaelionus, annbrugarog, a grwgnachlyd. Y mae 'lygad drwg' yn arwyddo tueddfryd cybyddlyd: gwel Mat. vi. 23, Diar. xxiii. 6. *A llefain o hono ef ar yr Arglwydd rhagot*—y fath gysur i'r tylawd a'r gorthymedig yw, fod ganddynt gyfaill troseddiol a chywir yn Nuw, yr hwn a wrendy eu cri ac a esmwythâ eu gofidiau! *A'i fod yn bechod i ti*—yn cael ei gyfrif gan Dduw fel trosedd erchyll yn ei erbyn ef ei hun, i'w gopsi ganddo.

Adn. 10. *Na fydded ddrwg gan dy galon pan roddyeh iddo*] Na fydded i ti fod yn anewyllysgar i ymadael a'th arian ar achos mor angenrheidiol, ac na thybia eu bod yn cael eu

iddo : canys o achos y peth hyn y'th fendithia yr Arglwydd dy Dduw yn dy holl waith, ac yn yr hyn y dodych dy law arno.

11 Canys ni dderfydd y tylawd o ganol y tir : am hyny yr ydwyf fi yn gorchymyn i ti, gan ddywedyd, Gan agoryd agor dy law i'th frawd, i'th anghenus ac i'th dylawd, yn dy dir.

12 ¶ Os gwerthir dy frawd, Hebr-ead, neu Hebrêes, i ti, a'th wasanaethu chwe blynedd; y seithfed flwyddyn gollwng ef yn rhydd oddiwrthyt.

13 A phan ollyngech ef yn rhydd oddiwrthyt, na ollwng ef yn wâg:

14 Gan lwytho llwytha ef o'th braidd, ac o'th ysgubor, ac o'th winwryf: o'r hyn y'th fendithiodd yr Arglwydd dy Dduw, dod iddo.

15 A chofia mai gwas fuost yn nhir yr Aifft, a'th waredu o'r Arglwydd dy Dduw: am hyny yr ydwyf yn gorchymyn y peth hyn i ti heddyw.

coll wrth wneuthur felly. *Canys o achos y peth hyn y'th fendithia yr Arglwydd*—dywed y cybyddion fod rhoddi yn eu handwyo: nac ydyw; gwnaiff rhoddi elusen yn llawen ein cyfoethogi ni; canys 'felly y llenwir dy ysguborian â digonoldeb,' Diar. iii. 10, a'r enaid â gwir gysur, Esay lviii. 10, 11. Felly befyd y dywed Solomon, 'Rhyw un a wasgar ei ddâ, ac efe a chwaneigr iddo; a rhyw un arall a arbed fyw nag a weddai, ac a syrth i dylodi,' Diar. xi. 24.

Adn. 11. *Canys ni dderfydd y tylawd o ganol y tir*] Bydd i Dduw trwy ei ragluniaeth ei threfnu felly, mewn rhan i goshi eich anfydd-dod chwi, ac mewn rhan er prawf ac ymarferiad o'ch ufydd-dod chwi iddo ef, a'ch elusen a'ch tostnuri i'ch brawd. Ymddengys mai at yr ymadrodd hwn y cyfeiria ein Harglwydd, Mat. xxvi. 11.

Adn. 12. *Os gwerthir dy frawd*] Ganddo ef ei hun, neu gan ei rieni, neu fel troseddwr: gwel ar Exod. xxi. 2. *Chwe blynedd*—i'w cyfrif o ddechread ei wasanaeth, yr hon sydd yn mhob man yn cael ei chyfyngu i'r yspaid o chwe blynedd, os na fyddai y jubili yn dygwyyd cyn hyny. Ond tybia rhai fod y flwyddyn sabbothol yn eu rhyddhau, yr un modd a'r jubili.

Adn. 13. *Na ollwng ef yn wâg*] Oblegid yn ystod yr amser ag y bu yn dy wasanaethu, ni ennillodd ddim eiddo iddo ei hun, trwy iddo fod bob amser yn onest tuag atai; ac yn awr, wrth dy adael, nid oes ganddo ddim i ddechreu ei fyd âg ef.

Adn. 14. *Gan lwytho llwytha ef o'th braidd*] Dyro iddo anifeiliaid i fagu; ac o'th ysgubor—dyro iddo yd at hâd a bara; ac o'th winwryf—ddarpariaeth gyfaddas o win gogyfer â'i angen presenol.

Adn. 15. *A chofia mai gwas fuost yn nhir yr Aifft*] A chan i Dduw dy ddwyn di oddi yno gyda chyfoeth mawr fel cyfiawn wobr dy

16 Ond os dywed wrthyt, Nid âf allan oddiwrthyt; am ei fod yn dy hoffi di a'th dŷ; o herwydd bod yn dda arno ef gyda thi:

17 Yna cymer fynawyd, a dod trwy ei glust ef, ac yn y ddor; a bydded yn was i ti byth: felly heryd y gwnei i'th forwyn.

18 Na fydded caled genyt ei ollwng ef yn rhydd oddiwrthyt, canys gwasanaethodd di werth dau gyflog gweinidog, chwe blynedd: a'r Arglwydd dy Dduw a'th fendithia yn yr hyn oll a wnelych.

19 ¶ Pob cyntafanedig yr hwn a enir o'th wartheg, neu o'th ddefaid, yn wryw, a gysegri di i'r Arglwydd dy Dduw: na weithia â chyntafanedig dy ychain, ac na chneifia gyntafanedig dy ddefaid.

20 Gerbron yr Arglwydd dy Dduw y bwyta'i ef bob blwyddyn, yn y lle a ddewisio yr Arglwydd, ti a'th deulu.

wasanaeth, dylit tithau gan hyny ddylun ei siampl ef, a gollwng ymaith dy weinidog wedi ei gynysgaethu â phob darpariaeth angenrheidiol.

Adn. 16, 17. *Ond os dywed wrthyt, Nid âf allan—yna cymer fynawyd, &c.*] Gwel ar Exod. xxi. 5, 6.

Adn. 18. *Na fydded caled genyt ei ollwng ef yn rhydd*] Na rwngnaidd roddi iddo ychydig o'th amlra; canys gwasanaethodd di werth dau gyflog gweinidog—nid oedd dyddiau gwas cyflog ar y mwrtaf ond tair blynedd, Esay xvi. 14; ond efe a'th wasanaethodd di chwe blynedd, a hyny heb ddim cyflog.

Adn. 19. *Na weithia â chyntafanedig dy ychain*] Yr oedd y rhai gwryw cyntafanedig yn cael eu rhoddi i'r offeiriad; ac ar ol i'r rhai benyw cyntafanedig gael eu hoffrymu yn aberthbau heddi i Dduw, ac i'r offeiriad gael ei ran, yr oedd y perchenog yn gwledda ar y gweddill gyda'i gyfeillion: gwel ar adn. 20. Ond y mae Le Clerc yn cymeryd y *cyntafanedig* yma, fel mewn lleoedd ereill, mewn ystyr ffugydd, am yr anifeiliaid goraf, y rhai yn unig oeddynt yn addas i'w hoffrymu i Dduw. *Ac na chneifia gyntafanedig dy ddefaid*—hyny yw, na ddefnyddia hwynt i'th wasanaeth dy hun, ond offryma hwynt i Dduw. Dywed Calmet fod y gair a gyfieithir yma yn *gneifio*, yn arwyddo *plicio*, neu *dynu o'r gwraidd*; a dywed Varro mai dyma oedd y drefn o gneifio defaid cyn cael hyd i'r ffordd o welleifio; a dywed Pliny fod yr un arferiad yn bodoli yn ei amser ef.

Adn. 20. *Gerbron yr Arglwydd dy Dduw y bwyta'i ef*] Fel hyn gwnaeth Duw yn ei drugaredd i'w dyledswydd a'u lles hwy fyned law-yn-llaw; ac fel hyn yr ymdyga efe eto tuag at ei greaduriaid yn mhob achos. Da gan hyny y gallai Satan ofyn, 'Ai yn ddiachos y mae Job yn ofni Duw?'—neu am ddim?

21 Ond os bydd anaf arno, os cloff neu ddall fydd, *neu arno ryw ddrwg anaf arall*; na abertha ef i'r Arglwydd dy Dduw.

22 O fewn dy byrth y bwytaï ef: yr aflan a'r glân yn nghyd *a'i bwyty*, megys yr iwrch, ac megys y carw.

23 Eto na fwyta ei waed ef; tywallt hwnw ar y ddaear fel dwfr.

PENNOD XVI.

CADW y mis Abib, a chadw basc i'r Arglwydd dy Dduw: canys o fewn y mis Abib y dyg yr Arglwydd dy Dduw di allan o'r Aifft, o hyd nos.

2 Abertha dithau yn basc i'r Arglwydd dy Dduw, o ddefaid a gwartheg, yn y lle a ddewisio yr Arglwydd dy Dduw i drigo o'i enw ef yno.

3 Na fwyta fara lefeinllyd gydag ef: saith niwrnod y bwytaï gyaag ef fara

croyw, *sef bara cystudd*: (canys ar ffwrst y daethost allan o dir yr Aifft) fel y cofiech ddydd dy ddyfodiad allan o dir yr Aifft holl ddyddiau dy einioes.

4 Ac na weler genyt surdoes yn dy holl derfynau saith niwrnod; ac nac arhoed dros nos hyd y bore *ddim* o'r cig a aberthaist yn yr hwyr, ar y dydd cyntaf.

5 Ni elli aberthu y pasc o fewn yr un o'th byrth, y rhai y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi i ti:

6 Ond yn y lle a ddewisio yr Arglwydd dy Dduw i drigo o'i enw ef ynddo; yno yr aberthi y pasc yn yr hwyr, ar fachludiad haul, y pryd y daethost allan o'r Aifft.

7 Yna y rhosti, ac y bwytaï ef, yn y lle a ddewisio yr Arglwydd dy Dduw: a'r bore y dychweli, ac yr âi i'th babellau.

Nage: ac nid yw Duw yn bwriadu i neb wneuthur felly.

Adn. 21. *Ond os bydd anaf arno*] Gwel ar Lef. xxii. 20—22; *na abertha ef*—am fod Duw yn gofyn offeiriad perffaith ac aberth perffaith.

Adn. 22. *O fewn dy byrth y bwytaï ef*] Yn dy dŷ gartref; *yr aflan a'r glân yn nghyd*—tra nad allasai neb ond y glân ei fwyta pe busai wedi ei aberthu.

Adn. 23. *Eto na fwyta ei waed ef*] Gwel ar pen. xii. 15—17.

PEN. XVI. Adn. 1. *Cadw y mis Abib*] Gwel ar Exod. xii. 2; *a chadw basc*—y mae y gair *pasc* yn cael ei arfer yma mewn ystyr cyffredinol am yr holl aberthau a'r offrymau cysylltedig âg ef. *O hyd nos*—yn y nos y gorfodwyd Pharao i adael iddynt fyned, pryd y gwnaethant barotoad gogyfer â'u hymadawiad; ac yn y bore perffeithasant y gwaith.

Adn. 2. *Ddefaid a gwartheg*] Y rhai hyn oeddnt aberthau chwanelog, y rhai a offrymid yn ystod saith niwrnod yr ŵyl, Num. xxviii. 19.

Adn. 3. *Sef bara cystudd*] Gelwir ef felly am nad oedd yn ddymunol nac yn bawdd i'w dreulio; ac am ddarfod ei benodi i ddwyn ar gof iddynt eu cystudd a'u trueni yn yr Aifft, a'u dyfodiad oddi yno ar ffwrst, pryd na oddefid iddynt amser i lefeinio na pharotoi eu bara.

Adn. 4. *Nac arhoed dros nos hyd y bore ddim o'r cig*] Gwel ar adn. 11, ac ar Exod. xii. 10.

Adn. 5. *Ni elli aberthu y pasc o fewn yr un o'th byrth*] Hyny yw, gartref, neu o fewn yr un o'th ddinasoedd, fel y mae y gair yn arwyddo yn fnych, Gen. xxii. 17, a xxiv. 60.

Adn. 6. *Ond yn y lle a ddewisio yr Arglwydd*] Y mae y rheswm am hyn yn amlwg. Yr oedd y pasc ei hun yn aberth; ac am hyny dywedir i Grist ein pasc ni gael ei aberthu diosom ni, 1 Cor. v. 7; ac yr oedd llawer o

ebyrth ereill i gael eu hoffrymu yn ystod saith niwrnod yr ŵyl. Yn awr nid oedd un aberth yn gymeradwy ond oddiar yr *allor*, yr hon oedd yn ei santeiddio ef. Yr oedd yn angenrheidiol gan hyny iddynt fyned i fyny i *le* yr *allor*; canys er fod oen y pasc yn cael ei fwyta yn llwyr gan y percheuogion yn eu gwahanol gartrefleoedd, eto yr oedd yn rhaid iddo gael ei ladd yn nghyntedd y babell neu y deml, ac i'w waed gael ei daenellu, a'i ymysgaroedd eu llosgi ar yr *allor*. Heblaw hyn, with eu cyfyngu hwy i'r *lle* gosodedig, efe a'u cadwai at y *rheol* osodedig, oddiwrth yr hon y busent yn dueddol i wro, ac i ddwyn i mewn ddyfeisiadan nyfyd o'r eiddynt eu hunain, y goddefesid iddynt offrymu yr aberthau hyn o fewn eu pyrth eu hunain, allan o olwg yr offeiriad: gwel ar pen. xii. 14. *Yn yr hwyr*—gwel ar Exod. xii. 6; *y pryd y daethost allan*—yr amser ag yr oeddnt yn parotoi i ddyfod allan o'r Aifft.

Adn. 7. *A'r bore y dychweli*] Y geiriau ydynt oddefaid yn unig, nid gorchymyn pendant. Pan fyddai yr edmygedd drosodd, gallent fyned i'w gwalianol gartrefleoedd. Y mae rhai yn meddwl y gallent, os mynent, ddychwelyd y bore hwnw ar ol lladd a bwyta oen y pasc, trwy fod yr offeiriad a'r Lefaiad yn ddigon i ddwyn yu mlaen y gweddill o waith yr wythnos. Ond y mae hyn yn amlwg yn gamgymeriad; canys yr oedd y dydd cyntaf o'r saith mor bell oddiwrth fod yn ddydd o ymwsgariad, nes y mae yn cael ei ddynodi yn bendant yn *gymansa santiaid*. Ac nid eu harferiad oedd ymwsgaru y dydd hwnw, eithr ymgadw yn nghyd yr holl wythnos, 2 Cron. xxxv. 17. Y meddwl gan hyny yw, fel y mae alleiriad Jonathan yn ei ddeongli, *A'r bore*—ar ol diwedd y gŵyliau, *yr âi i'th babellau*—hyny yw, i'th diigfanau, y rhai y mae Moses yn eu galw yma yn *babellau*, mewn cyfeiriad at eu sefyllfa bresenol, ac i ddwyn ar gof iddynt wedi hyn, a: ol iddynt

8 Chwe diwrnod y bwytaï fara croyw: ac ar y seithfed dydd *y mae* uchel-wyl i'r Arglwydd dy Dduw; ni chai wneuthur gwaith *yn*ddo.

9 ¶ Cyfrif i ti saith wythnos; pan ddechreuo y cryman ar yr ŷd, y dechreu i rifo y saith wythnos.

10 A chadw wyl yr wythnosau i'r Arglwydd dy Dduw, ág offrwm gwirfodd dy law, yr hwn a roddi, megys y'th fendithio yr Arglwydd dy Dduw.

11 A llawenycha gerbron yr Arglwydd dy Dduw, ti, a'th fab, a'th ferch, a'th was, a'th forwyn, a'r Lefiad a *fyddo* o fewn dy byrth, a'r dycithr, a'r amddifad, a'r weddw, *sydd* yn dy fysg, yn y lle a ddewisio yr Arglwydd dy Dduw i drigo o'i enw ef *yn*ddo.

12 Cofia hefyd mai caethwas fuost yn yr Aifft; a chadw a gwna y deddfau hyn.

13 ¶ Cadw i ti wyl y pebyll saith niwrnod, wedi i ti gasglu dy ŷd a'th win.

14 A llawenycha yn dy wyl, ti, a'th

fab, a'th ferch, a'th was, a'th forwyn, a'r Lefiad, a'r dycithr, a'r amddifad, a'r weddw, y rhai *fyddant* o fewn dy byrth.

15 Saith niwrnod y ccdwi wyl i'r Arglwydd dy Dduw, yn y lle a ddewisio yr Arglwydd: canys yr Arglwydd dy Dduw a'th fendithia yn dy holl gwud, ac yn holl waith dy ddwylaw; am hyny bydd ditau lawen.

16 ¶ Tair gwaith yn y flwyddyn yr ymddengys pob gwryw o honot o flaen yr Arglwydd dy Dduw, yn y lle a ddewisio efe; ar wyl y bara croyw, ac ar wyl yr wythnosau, ac ar wyl y pebyll: ond nac ymddanghosed neb o flaen yr Arglwydd yn waglaw.

17 Pob un yn ol rhodd ei law, yn ol bendith yr Arglwydd dy Dduw yr hon a roddes efe i ti.

18 ¶ Gwna i ti farnwyr a blaenorion yn dy holl byrth, y rhai y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi i ti trwy dy lwythau; a barnant hwy y bobl â barn gyfiawn.

19 Na wŷra farn, ac na chydnebydd

ymsefydlu mewn gwel preswylfeidd, i amser fod pryd yr oeddnt yn trigo mewn pebyll.

Adn. 8. *Chwe diwrnod*] Heblaw y dydd cyntaf ar yr hwn y lleddid y pasc; fel ag yr oedd y bara croyw, yn y cwbl, yn cael ei fwyta saith niwrnod, Exod. xii. 15.

Adn. 9, 10. *Pan ddechreuo y cryman ar yr ŷd*] I fedi blaenfrwythau y cynauaf haidd, yn enwedig yr ysgub gyhwfan, yr hon a offrymid i'r Arglwydd ar yr unfed dydd ar bymtheg o'r mis hwnw. *A chadw wyl yr wythnosau*—a elwid felly am ei bod saith wythnos ar ol dygiad yr ysgub yn y pasc, neu ddeng niwrnod a deugain, am yr hyn y gelwid hi *pentecost*: gwel ar Lef. xxiii. 15, 16. Fe'i gelwid hefyd gŵyl y blaenfrwythau, Num. xxviii. 26. *Ag offrwm gwirfodd dy law*—yn chwamgol at yr ebyrth am y dydd, a'r bwyd-offrymau a'r aberthau a'u dyluent, Num. xxviii. 27—31, Lef. xxiii. 17—20. Y mae Duw yma yn cyfarwyddo fod iddynt wneuthur rhyw roddiad ewyllysgar dros ben.

Adn. 11. *A llawenycha gerbron yr Arglwydd dy Dduw*] Yr oedd offrymau yr Israeliad i'w bwyta mewn hoen, i'w cyfranu i'w cyfeillion gyda sirioldeb, ac i'w rhoddi i'r tylodion gyda haeledd mawr, fel y gallent gyd-yngyfranogi â hwynt yn y gwleddoedd sant-aidd hyn gyda llawenydd gerbron yr Arglwydd. I ateb y dybenion hyn yr oedd yn angeurheid-iol bwyta y cig tra yr ydoedd yn wyrf a ffres, gan y byddai i lygriad gymeryd lle yn fuan yn yr hinsawdd hwnw; gan hyny gorchymnid iddynt beidio gadael dim i aros hyd y boie, adn. 4. Y mae yr ystyriaeth hon yn ddigon i roddi cyfrif am y gorchymyn hwn, heb gyrchu at y rhesymau moesol ac efengyl-aidd hyny ag sydd yn cael eu penu gan y dysgedig a'r dybwyddus Mr. Ainsworth.

Adn. 12. *Cofia hefyd mai caethwas fuost yn yr Aifft*] Chwanegir hyn, (1) I ddangos mai adgoffa iddynt hyu oedd un prif ddyben o'r wyl hon. (2) Fel annogaeth i'w rhywyo mewn nfydd-dod llawen i holl orchymynion ereill Duw. (3) I'w tueddu i edrych ar eu gweinidogion a'r dycithriaid tylodion yn yr wyl hon.

Adn. 13—17. *Cadw i't wyl y pebyll*] Gwel ar Exod. xxiii. 14—16, lle y mae yr holl wyliau Iuddewig yn cael eu hegluro: gwel hefyd ar Lef. xxiii. 34, &c.

Adn. 18. *Gwna i't farnwyr a blaenorion*] BARNWYR, *shophetim*, yn mhllith yr Hebraid, oeddnt yn debygol yr un a'n *heddynadon* ni; ac ymddengys fod y BLAENORION, *shoterim*, yr un a'n rhingyllwyr neu ein gwsywyr ni, gwaith y rhai oedd myned i'r tai a'r masnach-dai, ac archwilio pwysau, mesurau, ac ymddygiad gwladol y bobl. Pan y caent ddim o'i le, dygent y troseddwr gerbron yr ynaad, ac efe a gopid gan y swyddog yn y fan. Ymddengys hefyd eu bod yn ymddwyn fel herodron yn y fyddin, pen. xx. 5. *Yn dy holl byrth*—neu eu *dinasoedd*, y rhai y mae efe yma yn eu galw yn *byrth*, am mai yno yr oedd seddau barn yn osodedig. Yn ganlynol i'r gyfraith hon yr oedd llys o dri-ar-hugain o farnwyr yn mhob tref a gwnysai uwchlaw chwech ugain o deuluoedd; ac mewn trefi llai yr oedd llys o dri barnwr.

Adn. 19. *Na wŷra farn*] Na chyhoedda ddeddfyd draws ac anghyfiawn; *ac na chydnebydd wynebau*—na ddryo ddeddfyd yn ol cyfoeth neu dlodi, cyfeillgarwch neu elyniaeth, unrhyw berson, eithr yn ol uniondeb yr achos, pen. i. 17. *Canys gwobr a ddallu bygiaid y doethion*—a ogwydda eu meddyliau, fel na allont wahaniaethu rhwng iawnder a cham-

wynebau; na dderbyn wobrchwaith: canys gwobr a ddalla lygaid y doethion, ac a wŷra eiriau y cyfiawn.

20 Cyfiawnder, cyfiawnder a ddylyni; fel y byddych fyw, ac yr etifeddech y tir yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti.

21 ¶ Na phlana i ti lwyn o neb rhyw goed gerllaw allor yr Arglwydd dy Dduw, yr hon a wnai i ti.

22 Ac na chyfod i ti golofn; yr hyn sydd gas gan yr Arglwydd dy Dduw.

PENNOD XVII.

NAC abertha i'r Arglwydd dy Dduw ŷch neu ddafad y byddo arno anaf, neu ddim gwrthuni: canys casbeth yr Arglwydd dy Dduw yw hyn.

2 ¶ Pan gaffer yn dy blith di, o fewn un o'th byrth y rhai y mae yr Argl-

wedd; ac a wŷra eiriau y cyfiawn—neu ddedfryd y baruwyf byny y rhai a dybid yn gyfiawn, ac a arferer wneuthur cyfiawnder.

Adn. 20. *Cyfiawnder, cyfiawnder a ddylyni*] Y mae yr ailadroddiad hwn yn gosod pwys ar y gorchymyn; fel pe dywedasai, Glŷn wrth egwyddorion cyfiawnder, gweithreda wrth reolau cyfiawnder, amddiffyn hawliau cyfiawnder, efeylcha gynlluniau cyfiawnder, a dilyn yn ddiysgog yr hyn a ymddangoso yn gyfiawnder.

Adn. 21. *Na phlana i't lwyn*] Rhaid iddynt nid yn unig beidio ymuno â'r eilunaddolwyr yn eu baddoliadau, ond rhaid iddynt beidio planu llwyn, na chymaint a choeden, yn agos i allor Duw, rhag iddynt beri iddi edrych yn debyg i allorau y duwiau gau: gwel ar pen. xii. 2, &c. Yr oedd pob rhan o'r dwyfol addoliad i gael ei gyflawni yn *gyhoeddus*, er mwyn budd cyffredinol. Ond ymddengys fod planu llwynau er anrhydedd i'r *gwir Dduw* yn rhan o'r addoliad boreaf, fel y dysgwn oddiwrth siampl Abraham, Gen. xxi. 33. Eithr gan i'r cenhedloedd gamddefnyddio yr arferiad yma, a gwneuthur coedydd a llwynau yn lleoedd i'r ofergoelion atfan a ffeiddiaf, gwelodd Duw yn angenrheidiol wahardd i'r Israeliaid blanu dim o'r cyfryw yn agos i'w allor ef, rhag iddynt gymeryd aeblysur oddiwrth hyni i gymysgu defodau arian paganiaeth gyda gwasaeth y gwir Dduw.

Adn. 22. *Ac na chyfod i't golofn*] I'w baddoli: gwel ar Lef. xxvi. 1.

PEN. XVII. Adn. 1. *Nac abertha i'r Arglwydd dy Dduw ŷch neu ddafad y byddo arno anaf*] Gwel ar Lef. xxii. 20—22. Am fod y cyfryw yn gysgod nid yn unig o'r aberth perffaith a offrymid gan Grist Iesu, ond hefyd o'r cywirdeb calon hwnw ag y mae Daw yn ei ofyn gan baw a nesant ato ef mewn ffordd o addoliad.

Adn. 2. *Wr neu wraig*] Tybia Maimonides fod gwagedd yn cael eu crybwyll yma, am yr ymddygesid yn y cyffredin yn fwy tyner a phleidiol atynt hwy nag at ddynion, pe na

wydd dy Dduw yn eu rhoddi i ti, wr neu wraig a wnaeth ddrygioni yn ngolwg yr Arglwydd dy Dduw, gan drosedd ei gyfammod ef,

3 Ac a aeth ac a wasanaethodd dduwiau dyeithr, ac a ymgyrmodd iddynt, i'r haul, neu i'r lleuad, neu i holl lu y nefoedd, yr hyn ni orchymynais;

4 Pan ddanghoser i ti, a chlywed o honot, yna cais yn dda: ac wele, os gwirionedd yw, a bod yn sicr wneuthur y fficidd-dra hyn yn Israel;

5 Yna dwg allan y gŵr hwnw, neu y wraig hòno (a wnaethant y peth drygionus hyn) i'th byrth, *sef* y gŵr neu y wraig, a llabyddia hwynt â meini, fel y byddont feirw.

6 Wrth dystiolaeth dau o dystion, neu dri o dystion, y rhoddir i farwol-

wnaethid y gyfraith mor bendant. *A wnaeth ddrygioni yn ngolwg yr Arglwydd*—trwy fod yn euog o eilunaddoliaeth: canys pa mor ddirgel bynag ei cyflawnid, yr oedd yr Arglwydd yn ei weled. *Gan drosedu ei gyfammod ef*—yn mha un yr ymrwymasant i ymwrthod âg eilunaddoliaeth, yr hwn sydd odineb ysbrydol. Yr oedd pechodau ereill yn drosedd-iadau o'r gorchymyn, ond yr oedd hwn yn drosedd o'r cyfammod.

Adn. 3. *I'r haul neu i'r lleuad*] Y creaduriaid gogoneddus hyn, y rhai sydd i'w rhyf-eddu fel gweithredoedd aruthrol Duw, ond nid i'w haddoli yn lle Duw. Fel hyn, wrth gogennio y mwyaf golygus o bob eilunaddoliaeth, y mae efe yn awgrymu beth mor withon yw addoli pen a maen, gwaith dwylaw dynion. *Yr hyn ni orchymynais*—hyn yw, yr hyn a waherdais. Y mae y fath ymadroddion nacael yn dra phwysig.

Adn. 4. *Pan ddanghoser i ti*] Mewn ffordd gyfrinachol gan unrhyw un ymddiriedol; a *chlywed o honot*—gan un arall, trwy fod y weithred yn dyfod yn fwy cyhoeddus; *yna cais yn dda*—ymofyn yn ddyfal i gael allan wirionedd yr adroddiad, trwy y chwiliad mwyaf gofalus o'r adroddwyr ac amgylchiadau yr achos. *Ac wele, os gwirionedd yw*—os yw yr adroddiad heb fod yn seiliedig ar chwedl wâg neu falais; *a bod yn sicr wneuthur y ffeidd-dra hyn yn Israel*—ei fod wedi ei wneuddu trwy y profion llawnaf; *yna dwg allan y gŵr hwnw*—i'w labyddio, adn. 5. Gan mai y cybuddiad o eilunaddoliaeth oedd y mwyaf pwysig ac arswydus a ellid ei ddwyn yn erbyn Israeliaid, trwy ei fod yn bechod marwol yn erbyn cyfammod Duw; am hyn yr oedd Duw yn gofyn i'r cybuddiad gael ei *wireddu* trwy y ffeithiau mwyaf dilys a'r tystion mwyaf cymhwys.

Adn. 5. *Llabyddia hwynt â meini*] Gwel ar Lef. xxiv. 23.

Adn. 6. *Wrth dystiolaeth dau o dystion*] Gallai un fod yn cael ei dwyllo, neu yn rhagfarnllyd neu faleisus; gan hyn yr oedd Duw yn gofyn dau dyst sylweddol o leiaf er cynal

aeth yr hwn a fyddo marw : na rodder ef i farwolaeth wrth dystiolaeth un tyst.

7 Llaw y tystion a fydd arno yn gyntaf i'w farwolaethu ef, a llaw yr holl bobl wedi hyny : a thi a dyni ymaith y drwg o'th blith.

8 ¶ Os bydd peth mewn barn yn rhy galed i ti, rhwng gwaed a gwaed, rhwng hawl a hawl, neu rhwng pla a phla, *mewn* pethau amrafaelus o fewn dy byrth ; yna cyfod, a dos i fyny i'r lle a ddewisat yr Arglwydd dy Dduw :

9 A dos at yr offeiriad y Lefiaid, ac at y barnwr a fyddo yn y dyddiau hyny, ac ymofyn ; a hwy a ddanghosant i ti reol y farnedigaeth.

10 A gwna yn ol rheol y gair a

y cyfuddiad ; ac, yn ol yr Iuddewon, yr oedd yn gofyn i'r tystion hyn fod mewn cyflawn oedran, o gymeriad da, ac heb fod erioed yn euog o ddwyn camdystiolaeth, nac yn elynion i'r cyhuddedig.

Adn. 7. *Llaw y tystion a fydd arno yn gyntaf*] Darfu i Dduw ei threfnu fel hyn er hwybydd i'r tystion, fel, os darfu iddynt hwy trwy falais neu lid ei gyluddo ef ar gam, y byddai arnynt yn awr o'n trochi eu dwylaw mewn gwaed gwirion ; ac er diogelwch a hoddlonwydd i'r bobl. *A llaw yr holl bobl wedi hyny*—os na fyddai yr erchyllwaith wedi ei orphen cyn hyny : gwel ar pen. xiii. 9, a Lef. xxiv. 23.

Adn. 8. *Os bydd peth mewn barn yn rhy galed i ti*] Y mae y geiriau hyn i'w hystyried fel yn gyfeiriedig at y baruwyr cyffredin, neu yr is-ynadon, y rhai a benodid yn uhob dinas, pen. xvi. 18. *Rhwng gwaed a gwaed*—sef mewn achosion angeuol, pa nu a gyflawnodd dyn lofruddiaeth wirfoddol ynte damweiniol. *Rhwng hawl a hawl*—mewn achosion gwladol, yn nghylch etifeddiaethau, pan mai y ddadl yw, achos neu hawfl pwy yw y goraf. *Rhwng pla a phla*—megys y gwahanglwyf, fel y mae y Vulgate a Houbigant yn ei ddeall : ond yn ol y Saesonaeg, *rhwyng ergyd ac ergyd*—pan fyddo i'r naill ddyn archolli neu daraw y llall, Exod. xxi. 20. *Mewn pethau amrafaelus*—neu amheus, trwy fod yr ynadon yn gwahaniaethu yn eu tybiau am danynt. *Dos i fyny i'r lle a ddewisat yr Arglwydd*—i osod ei babel neu ei deml yno ; canys yno yr oedd eu Sanhedrim hwy, yr hon oedd yn gyfansedd-edig o offeiriad ac ynadon gwladol ; ac yno yr oedd yr archoffeiriad, yr hwn oedd i ymgynghori â Duw trwy yr *Urim a'r Thummim* mewn achosion nas gellid eu penderfynu yn amgen.

Adn. 9. *A dos at yr offeiriad*] Sef at y cynghor mawr, yr hwn oedd yn gynwysedig yn benaf o offeiriad a Lefiaid, fel y deonglwy'r goraf o gyfeithiau Duw. *Ac at y barnwr a fyddo yn y dyddiau hyny*—ymddengys mai yr uwch-farnwyr hyny o'r genedl a feddylir yma, y rhai a gododd Duw i fyny pan oedd Israel yn cael eu gorthrymu gan eu gel-

ddanghosant i ti, o'r lle hwnw a dde-wiso yr Arglwydd ; ac edrych am wneuthur yn ol yr hyn oll a ddysgant i ti.

11 Yn ol rheol y gyfraith a ddysg-ont i ti, ac yn ol y farn a ddywedont i ti, y gwnei : na chilia oddiwrth y peth a ddanghosont i ti, i'r tu deau nac i'r tu aswy.

12 A'r gŵr a wnel mewn rhyfyg, heb wrando ar yr offeiriad (sydd yn sefyll yno i wasanaethu yr Arglwydd dy Dduw) neu ar y barnwr ; yna rhodder i farwolaeth y gŵr hwnw : a thyn ymaith y drwg o Israel.

13 A'r holl bobl a glywant, ac a ofu-ant ; ac ni ryfygant mwy.

14 ¶ Pan ddelych i'r tir y mae yr

ynion, megys Gedeon, Jephtha, Samson, Samuel, &c. Yr oedd y cyfryw farnwyr yn cael eu donio â'r awdurdod uwchaf yn wladol a milwraidd ; canys *barnu Israel* oedd gweinyddu cyfiawnder yn gystal a llywio byddin-oedd.

Adn. 10, 11. *A gwna yn ol rheol y gair*] Yn ol deongliad neu ddeddfryd y cynghor mawr. Y mae efe yn llefau, (1) Wrth yr is-ynadon, y rhai oeddnt i roddi deddfryd yn eu his-lysoedd yn ol penderfyniad y cynghor mawr, neu yr uwch-farnwr, ac i ofalu ar fod y ddeddfryd hono yn cael ei chyflawni. (2) Wrth bersonau neillduol, y rhai y gofynir iddynt ymfodloni i farn y rhai hyny ag y darfu i Dduw eu gwneuthur yn brif ddeonglwy'r ei gyfraith ei, a chydymffurfio â'r ddeddfryd a gyhoeddwyd.

Adn. 12. *A'r gŵr a wnel mewn rhyfyg*] Os byddai i is-farnwr ryfygu gwrthwynebu deddfryd y llys uwchaf, wedi ei rhoddi yn ol deddf Duw, a nacáu cyflawni ei eirchion ; neu os byddai i ddyn neillduol wrthod cydymffurfio â'u deddfryd hwy, yr oedd y cyndynrwydd hwnw i gael ei gospi â marwolaeth. *A thyn ymaith y drwg*—y gwarth hwnw, y siampl ddrwg a niweidiol hono.

Adn. 13. *A'r holl bobl a glywant ac a ofu-ant*] Bwriadwyd y gosp hon i daraw dychryn ar yr holl bobl, fel na fyddai iddynt wrthwyn-ebu yr awdurdod goruchel. I'r perwyl hwn yr oedd y troseddwr i gael ei gadw yn ngharchar hyd yr ŵyl fawr nesaf, ac yna ei farwolaethu yn ngwydd holl wrywod y genedl. Ac i wneuthur hyny yn fwy cyhoeddus, yr oedd- ynt yn anfon llythyrâu i holl lwythau a din-asoedd Israel, i roddi rhybydd fod y cyfryw ddyn i gael ei roddi i farwolaeth ar y cyfryw amser an y trosedd hwn : gwel SELDEN a RABBI AKIBA. *Ac ni ryfygant mwy*—byddai rhai mor ystyried a chasglu oddiwrth fawredd y gosp mor echrylon oedd y trosedd, ac felly ei gasâu ef ; a gwnai ereill olygu eu diogelwch eu hunain mor bell fel ag i gydymffurfio â'r ddeddfryd, yn hytrach na florietio eu bywydau eu hunain trwy sefyll yn ei herbyn. Meddylir mai oddiwrth y gyfraith hon y casglu yr apostol fawredd y gospedigaeth ag y bernir fod

Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, a'i feddiannu, a thrigo ynddo, os dywedi, Gosodaf arnaf frenin, megys yr holl genhedloedd sydd o'm hamgylech:

15 Gan osod gosod arnat yn frenin yr hwn a ddewis yr Arglwydd dy Dduw: o blith dy frodyr y gosodi arnat frenin: ni elli roddi arnat wr dy-eithr yr hwn nid yw frawd i ti.

16 Ond nac amlhäed iddo feirch, ac na ddychweled efe y bobl i'r Aifft i amlhau meirch; gan i'r Arglwydd

ddywedyd wrthych, Na chwanegwch ddychwelyd y ffordd hono mwy.

17 Ac nac amlhäed iddo wragedd, fel na wyro ei galon; ac nac amlhäed arian ac aur lawer iddo.

18 A phan eisteddo ar deyrngadair ei frenhiniaeth, ysgrifened iddo gopi o'r gyfraith hon mewn llyfr, allan o'r hwn sydd gerbron yr offeiriad y Lef-iaid.

19 A bydded gydag ef, a darlenned arno holl ddyddiau ei fywyd: fel y

mathrwy'r awdurdod Mab Duw yn ei baeddu, Heb. x. 28, 29.

Adn. 14. *Pan ddelych i'r tir, &c.*] Nid yw hyn yn arwyddo fod Duw yn gorchymyn idd-ynt wneuthur brenin pan ddeuent i Ganaan, fel y mae rhai o'r Iuddewon yn ei ddeall; ond yn unig, os mynent gael brenin, fod iddo fod yn un o'u brodyr. Nid yw efe ond yn rhagweled ac yn rhagfynegu yr hyn a wnaent hwy, heb arwyddo y byddai iddo gymeradwyo hyny. Ie, pan y gwnaethant hyn, amlygodd Duw ei lwyr anghymeradwyaeth o hono: gwel 1 Sam. viii. 6, &c.

Adn. 15. *Gosod arnat yn frenin yr hwn a ddewis yr Arglwydd*] Sef trwy weinidogaeth ei broffwydi, trwy Urim a Thummim, neu trwy goelbren. Nid oedd y brenin ag y godd-efai yr Arglwydd iddynt ei osod, i fod yn deyrn annibynol, ac nid oedd i deyrnasu yn ei hawl ei hun: dirprwy'r neu raglaw yr Arglwydd yn unig ydoedd; ac am hyny ni adewid ef i ddetholiad y bobl, eithr dewisid ef gan Dduw ei hun. *O blith dy frodyr y gosodi arnat frenin*—o'th genedl a'th greffydd dy hun; oblegid y cyfryw un oedd fwyaf tebygol i amddiffyn y wir greffydd, ac i lywodraethu ei ddeiliaid mewn cyfiawnder, addwyfnder, a thynerwch; ac fel y byddai yn gysgod addas o Grist, eu goruchaf Frenin, yr hwn oedd i fod yn un o'u brodyr. *Ni elli roddi arnat i'r dyleithr*—ar sail y gorchymyn hwn y cynygiodd yr Herodianaidd y gofyniad dichellgar hwnw i'n Harglwydd, *Ai cyfreithlawn rhoddi teyrnged i Cesar, ai nid yw?* Mat. xxii. 17; canys yr oedd yr Iuddewon y pryd hyny dan awdurdod gallu *dyleithr*. Pe dywedasai Crist, *Y mae yn gyfreithlawn*, yna buasent yn ei gondemnio ef wrth y gyfraith hon: pedywedasai, *Nid yw*, yna buasent yn ei gyhuddo ef wrth Cesar. Gwel y pwnc hwn yn cael ei drin yn helaeth ar Mat. xxii. 16, &c.

Adn. 16. *Ond nac amlhäed iddo feirch*] Er y gallai ef gael meirch i'w wasanaeth ei hun, eto nid oedd efe i'w hamhau hwynt i'w swyddogion a'i warchawdlu, llawer llai i ryfel, rhag iddo ymddiried ynddynt. *Ac na ddychweled efe y bobl i'r Aifft i amlhau meirch*—gan yr ymddengys mai yn yr Aifft yn gyffredin yr oeddid yn cael meirch, y mae Duw yn gwahardd y rhai hyn, (1) Rhag y byddai yno gymaint o gyweithias a'r Aifft ag a allai arwain i eilunaddoliaeth. (2) Rhag y byddai i'r bobl ymddibynu ar *farchawglu* fel uoddion o ddiogelwch, ac felly beidio ymddiried yn nghadernid a nawdd Duw. (3) A rhag idd-

ynt gael eu temtio i *eangu eu llywodraeth* trwy gyfrwng marchawglu, ac felly ynwsgaru yn mhliith y cenhedloedd eilunaddolgar oddiamgylch, a thrwy hyny beidio yn mhen amser â bod y bobl neillduol a gwahaniaethol hyny ag y bwriadai efe iddynt fod, heb yr hyn nis gellid gwybod ddarod i'r proffwydoliaethau perthynol i'r MESSIA gael eu llawn a'u priodol gyflawniad.

Adn. 17. *Ac nac amlhäed iddo wragedd*] Fel yr oedd yn arferiad gan frenhinoedd ereill, yn groes i amcan Duw o'r dechread; canys byddai i hyny o angenrheidrwydd arwain i *gyfathrachau estronol*, a bod yn foddion i ddwyn i mewn foesau ac arferiadau cenhedloedd ereill, a'u heilunaddoliaeth hefyd. *Fel na wyro ei galon*—oddiwrth Dduw a'i gyfraith, fel y gwnaeth Solomon, 1 Bren. xi. 4, &c. *Ac nac amlhäed arian ac aur lawer*—rhag i hyny ddyrchafu ei galon mewn hunan-hyder a baldcher, yr hyn y mae Duw yn ei ffeiddio, a chenhedlu ynddo ddirmyg ar ei bobl. Ni walerddir iddynt fod yn gyfoethog, os byddai i Dduw eu gwneyd hwy felly, megys yr oedd gyda Dafydd, Solomon, Jehosaphat, a rhai ereill; eithr gwaberddir iddynt drachwantu hyny, neu gyraedd goludodd mawrion trwy wasgu eu deiliaid, neu trwy ryw foddion anghyfreithlon ereill.

Adn. 18. *A phan eisteddo ar deyrngadair ei frenhiniaeth*] Hyny yw, pan eneinier ef yn frenin; *ysgrifened iddo gopi o'r gyfraith hon*—naill ai o lyfr y Deuteronomium hwn, pa un sydd yn grynoded o'r gyfraith; neu, fel y mae rhai yn meddwl, o holl bum llyfr Moses; a hyny *a'i law ei hun*, meddai yr Iuddewon, fel moddion i'w sefydlu yn gadarnach yn ei feddwl. Er fod copi wedi ei adael iddo gan ei dad, eto yr oedd efe i adysgrifenu un iddo ei hun. *Allan o'r hwn sydd gerbron yr offeiriad*—sef allan o'r un gwreiddiol hwnw a gedwid yn ofalus gan yr offeiriad yn y cysegr, fel y byddai yn gopi perffaith, ac fel y cai fwy o effaith arno ef, gan ei fod yn dyfod iddo megys o law a phresenoldeb Duw ei hun. Ac y mae yn debyg fod yr offeiriad yn adolygu pob copi a ysgrifened, rhag i wallau ymlusgo i'r testyn sautaid.

Adn. 19. *A bydded gydag ef*] Bydded iddo ei gario bob amser gydag ef pa le bynag yr elo; *a darlenned arno*—yn ddyfal a pharhaus: ni chai mawredd ei le, na phwys nac amledd ei orchwylion, ei esgusodi na'i attal ef. *Holl ddyddiau ei fywyd*—a'i nosweithiau hefyd, Salm i. 2. Nid yw yn ddigon cael Beiblan,

dyso ofni yr Arglwydd ei Dduw, i gadw holl eiriau y gyfraith hon, a'r deddfau hyn, i'w gwneuthur hwynt:

20 Fel na ddyrchafo ei galon uwch law ei frodyr, ac na chilio oddiwrth y gorchymyn, i'r tu deau nac i'r tu aswy: fel yr estyno ddyddiau yn ei frenhiniaeth, efe a'i feibion yn nghanol Israel.

PENNOD XVIII.

NI bydd i'r offeiriad, i'r Lefaid, i holl lwyth Lefi, ran nac etifeddiaeth yn nghydag Israel: ebyrth tanllyd yr Arglwydd, a'i etifeddiaeth ef, a fwyntant hwy.

2 Am hyn y etifeddiaeth ni bydd iddynt yn mhlith eu brodyr: yr Arglwydd yw eu hetifeddiaeth hwy, megys ag y dywedodd wrthynt.

3 ¶ A hyn fydd defod yr offeiriad oddiwrth y bobl, oddiwrth y rhai a

ond rhaid i ni eu defnyddio hwynt, ie, eu defnyddio bob dydd. Rhaid i'n heneidion gael prydiau cyson o'r manna ysbrydol hwnw, yr hwn, os iawn drenlir ef, a ddyry wir faeth a chryfder ysbrydol. Nid yw ysgolorion Crist yu dysgu yn uwch na'u Beiblau yn y byd hwn; a bydd arnynt angen gwastadol am danymt hyd nes yr elont i'r byd huuw lle y peifseithir eu gwybodaeth a'u cariad.

Adn. 20. *Fel na ddyrchafo ei galon uwch law ei frodyr*] Canys dengys y llyfr hwn iddo ei fod yntau, er yn frenin, yn *ddediad* i uwch TEYRN, i'r hwn y rhaid iddo roddi cyfrif am ei holl weithredoedd. *Fel yr estyno ddyddiau yn ei frenhiniaeth, efe a'i feibion*—gwelwn oddiyma fod y goron yn Israel wedi ei bwriadu i fod yn drestadol neu etifeddiaethol; ac y mae hir brofiad wedi sicrhau agos i holl genhedloedd y byd mai *olyndia etifeddiaethol* yn y llywodraeth frenhinol ydyw yr un digorlaf ac addasaf ar y cyfan er sicrhau yr heddwch cyffredin.

PEN. XVIII. Adn. 1. *Ni bydd i'r offeiriad—ran*] Hyn yw, meddai Rabbi Maimon, 'ni clânt un ran o'r *yspail* a gymerid oddiar e'lyn; nac yn y wlad ag ydoedd i gael ei rhanu wrth goelbren.

Adn. 2. *Yr Arglwydd yw eu hetifeddiaeth hwy*] Cânt fyw ar y bywyd-offrwm, y pech-offrwm, a'r offrwm dros gamwedd; a phia beth bynag oedd yn perthyn i'r Arglwydd o unrhyw offrwm, efe a'i rhoddai i'r offeiriad.

Adn. 3. *Oddiwrth y rhai a aberthant aberth*] Y mae y gair *zebach* yn cael ei arfer i arwyddo nid yn unig anifel yn cael ei *aberthu* i'r Arglwydd, ond hefyd yn yn cael ei ladd i wasanaeth *gyffredin*: gwel Gen. xliii. 16, Diar. xvii. 1, Eze. xxv. 6. A thybia Clarke mai yn yr ystyr olaf y dylai efe gael ei ddeall yma; ac os felly, y mae y gorchymyn yn yr adnod hon yn cyfeirio at yr hyn ag yr oedd y bobl i'w ganiatau i'r offeiriad a'r Lefaid o'r

aberrthant aberth, *pa un bynag* ai eidion ai dafad; rhoddant i'r offeiriad yr ysgwyddog, a'r ddwy ên, a'r boten.

4 Blaenffrwyth dy fyd, dy win, a'th olew, a blaenffrwyth enaif dy ddefaid, a roddi iddo ef.

5 Canys dewisodd yr Arglwydd dy Dduw ef o'th holl lwythau di, i sefyll i wasanaethu yn enw yr Arglwydd, efe a'i feibion yn dragywydd.

6 ¶ A phan ddelo Lefaid o un o'th byrth di yn holl Israel, lle y byddo efe yn ymdaith, a dyfod â holl ddymuniaid ei galon i'r lle a ddewisodd yr Arglwydd;

7 Yna gwasanaethed efe yn enw yr Arglwydd ei Dduw, megys ei holl frodyr y Lefaid, y rhai sydd yn sefyll yno gerbron yr Arglwydd.

8 Rhan am ran a fwyntant, heblaw gwerth yr hyn sydd yn dyfod oddi wrth ei dadau.

anifeiliaid a ledddi i ddefnydd cyffredin. Y rhanau a rodddi i'r offeiriad oeddnt, (1) Yr *ysgwyddog*, yn debygol wedi ei thori oddiwrth yr anifel â'r croen arni: felly y dywed Maimonides. (2) Y *ddwy ên*, yr hyn a all gynnwys yr holl ben. (3) Y *boten*, yr oll o'r ymysgaroedd hyn ag a arferir yn gyffredin yn fwy, megys y galon, yr arenau, &c.

Adn. 4. *Blaenffrwyth dy fyd, &c.*] Yr holl flaenffrwythau hyn oeddnt gyfran yr Arglwydd, a'r rhai hyn a roddai efe i'r offeiriad.

Adn. 5. *Sefyll i wasanaethu*] Ymadrodd ag sydd yn amlgyu yr ystym yn yr hwn yr oedd yr offeiriad i weini, a'u dyfalwch yn nghyflawniad eu swyddau. *Yn enw yr Arglwydd*—trwy ei benodiad ef, a than ei awdurdod.

Adn. 6. *A phan ddelo Lefaid—â holl ddymuniaid ei galon*] Gyda llawn friaid i osod ei drigfa yn y cysegr, ac i dreulio ei holl amser a'i nerth yn ngwasanaethu Daw. Ymddengys fod y gwahanol Lefaid a'r offeiriad i ddyfod o'u dinasoedd i'r deml bob yn ail: ond os byddai rhyw un o honoynt yn dymuno ymgysgru yn fwy llwyr a chyson i wasanaeth Duw yn y deml, goddefid iddo wneuthur hyn; canys yr oedd yn weithred enwog o dduwioldeb a hunanymwadiad fod iddo ymadael â'r cyfleusderau mawrion hyn a fwyntant efe yn ninas ei etifeddiaeth.

Adn. 7. *Yna gwasanaethed efe yn enw yr Arglwydd*] Bydded iddo fod yn barhaus wrth yr allor i gyflawni gwasanaeth y cysegr, fel y mae yr offeiriad ereill yn gwneud yn eu tro. Dyma fel yr oedd yn bod gyda Samuel.

Adn. 8. *Rhan am ran a fwyntant*] Bydd i'r offeiriad ereill ag sydd yn gweinyddu wrth yr allor ganiatau i'r cyfryw un yr un gyfran ag y maent hwythau yn ei chael o'r aberthau. *Heblaw gwerth yr hyn sydd yn dyfod oddi wrth ei dadau*—heblaw yr etifeddiaeth beronol a gawsai efe ei hun, neu a adewsid iddo gan ei berthynasau. Fel hyn ni a welwn, er na allai y Lefaid gael un dan o'r tir wrth

9 ¶ Pan elych di i'r tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, na ddysg wneuthur yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd hyny.

10 Na chaffer ynot a wnelo i'w fab, neu i'w ferch, fyned trwy y tân; neu a arfero ddewiniaeth, na phlanedydd, na daroganwr, na hudol,

11 Na swynwr swynion, nac a geisio *wybodaeth gan* gonsuriwr, neu frudiwr, nac a ymfynno â'r meirw:

12 O herwydd ffieidd-dra *gan* yr

goelbren, eto eu bod yn cael eu goddef i brynnu tai, eiddo, ac anifeiliaid, ie, a maesydd hefyd: gwel achos Abiathar, 1 Bren. ii. 26, a Jeremia, Jer. xxxii. 7, 8.

Adn. 9. *Pan elych di i'r tir*] Sef i Ganaan; na ddysg wneuthur yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd hyny—er y byddai i Dduw wneyd y Canaanaeid yn gaethion i'r Israeiiaid, ac er fod Jehofa wedi bendithio y rhai olaf â'r fath ordinhadau dwyfol, eto ymddengys eu bod hwy mewn perygl o wneuthur y cenhedloedd hyny yn ddysgawdwy'r iddynt mewn crefydd ac arferion, yr hyn i raddan helaeth a gymerth le wedi hyny.

Adn. 10. *Na chaffer ynot a wnelo i'w fab neu i'w ferch fyned trwy y tân*] Mewn ffirdd o gysegriad neu aberthiad i *Moloch*, neu ryw dduw arall: gwel ar Lef. xviii. 21. *Neu a arfero ddewiniaeth—koscm kesanîm*; un yn ceisio rhagfynegu pethau i ddyfod, neu gael allan bethiau cuddiedig, trwy ramantu, bwrw coelbreni, &c. *Na phlanedydd—meonen*; un yn cymeryd arno ragddywedyd pethau dyfodol trwy y plaeadau, difflygiadau, synudiad y cymylau, &c. *Na daroganwr—menachesh*, oddi wrth *nichesh*, 'edrych yn ddyfal;' un yn chwilio perffedion anifeiliaid, yn sylwi ar ehediad adar, &c., ac yn dewinio bobdiwrth hyny. Tybia rhai mai dewiniaeth trwy *seirff* a feddylir, yr hyn oedd yn beth cyffredin yn mhilith y paganiaid. *Na hudol—mechashsheph*; ond odid un ag ydoedd, trwy gyfferi, llysiaan, mwzdarthau, &c., yn cymeryd arno dynu rhyw ddylanwadau goruchnaturol i'w gynorthwyo.

Adn. 11. *Na swynwr swynion*] *Chober chaber*; un yn arferyd cyfaredau, yn cydio geiriau, yn gwneuthur cyllynnau, &c., i'r dyben i ddewinio. *Nac a geisio wybodaeth gan gonsuriwr—shoel ob*, Pythoniaid, neu fol-lefarwr; un ag ydoedd trwy gyfrwng un ysbryd yn ceisio cael atebion oraclaidd oddiwrth ysbryd arall o uwch gradd. *Neu frudiwr—qiddeoni*; gŵr cyfarwydd, neu un yn hōni y gallai ddatguddio pethau colledig, &c. *Nac a ymfynno â'r meirw—doresh el hammethim*; megys dewines Endor, yr hon a broffesai alw ar y meirw, i'r dyben i gael ganddynt ddatguddio dirgelion y byd ysbrydol. Yr oedd y rhai hyn yn ymweled â'r beddau yn y nos, ac yno yn gorwedd gan sibwr yn isel, at yr hyn y tybir fod Esay yn cyfeirio, pen. viii. 19, a xxix. 4. Yr oedd y dwyreiniwr yn dra thueddol i ddewiniaeth o bob math, ac ni chymrent arnynt un anturiaeth o bwys heb yngy-

Arglwydd *yw* pawb a wnelo hyn; ac o achos y ffieidd-dra hyn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu gyru hwynt allan o'th flaen di.

13 Bydd berffaith gyda'r Arglwydd dy Dduw.

14 Canys y cenhedloedd hyn, y rhai a feddienni di, a wrandawsant ar blanedyddion, ac ar ddewiniaid: ond am danat ti, nid felly y caniaataodd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

15 ¶ Yr Arglwydd dy Dduw a gyf-

ngkori â dewin; ac am hyny y mae Moses yn arfer yr holl amrywiol ymadroddion hyn, fel y gallai wahardd dewiniaeth yn ei *holl ffurfiau*. Gwel ar Gen. xli. 8, Exod. vii. 11, a xxii. 18, Lef. xix. 26, 31.

Adn. 12. *O herwydd ffieidd-dra gan yr Arglwydd yw pawb a wnelo hyn*] Pa un bynag fyddont ai Iuddewon ai Cenhedloedd. Yr oedd yr arferion ffiaidd hyn yn ddiuystyr i'r Canaanaeid, ac yr oedd Israel i fod nid yn unig yn dystion ond yn offerynan o hono; o ganlyniad byddai yn anfadrwydd i'r eithaf iddynt hwy eu hunain ymarfer â'r pethau hyny, o achos pa rai y defnyddid hwy i geryddu ereill mor llymdost!

Adn. 13. *Bydd berffaith*] Heb fod genyt ddiim i'w wneuthur â defodau yr eilunaddolwyr.

Adn. 14. *Nid felly y caniaataodd yr Arglwydd dy Dduw i ti*] Ni oddefodd efe i ti ganlyn yr arferion coelgrefyddol a dieffig hyny; eithr efe a'th byfforddiodd di mewn gwell gwybodaeth, ac yr wyt yn cael rhybydd tēg am y niwed o'r arferion ffiaidd hyny.

Adn. 15. *Yr Arglwydd dy Dduw a gyfydd i ti—Broffwyd*] Yn lle dewiniaid, plauedyddion, a swynwyr, addewir iddynt yma *arwein-ydd difeth*, yr hwn a ddywedai wrthynt bob peth yn perthyn i'w heddwch, en llwyddiant, a'u lles, fel na fyddai arnynt angen am gyrchu at frudwyr a chonsurwyr. Deallwyd hyn gan lawer fel rhagfynegiad y byddai i Dduw godi *olyniad o broffwyd* yn yr eglwys Iuddewig i hyfforddi ei bobl. Rhaid i'r broffwydoliaeth hon, modd bynag, gael ei deongli yn benaf am y MESSIA, (1) Am nad yw Moses yn son ond am un profwyd, ac nid *llawer*. (2) Am mai y Messia yn unig yw yr hwn y gellir dywedyd am dano gyda phriodoldeb ei fod yn broffwyd *megys Moses*, gan y dywedir yn beudant na ddarfu ac na wnai unrhyw broffwyd arall gyfodi megys efe, pen. xxxiv. 10, Num. xii. 6—8. (3) Ond yr hyn sydd yn gosod y mater hwn tuhwnt i bob amheuaeth yw, fod y broffwydoliaeth hon yn cael ei deongli gan yr Ysbryd Glân yn y Testament Newydd am GRIST, ac am Grist *yn unig*: gwel Act. iii. 22, a vii. 37; Ioan i. 45, a v. 45, 46, a vi. 14. *Megys finau*—un fydd yn Broffwyd, Deddfroddwr, Bienin, Cyfringwr, Achubwr, a Phenaeith pobf Dduw. Y Profwyd hwn gan hyny a raid fod yr ARGLEWYDD IESU, yr hwn oedd yn mynfwes y Tad, ac a ddaeth i'w hysbysu ef i ddynolryw, Ioan i. 18; ac ato ef, fel y sylwa Le Clerc, yr oedd yr

yd i ti, o'th blith dy hun, o'th frodyr dy hun, Broffwyd megys sinau; arno ef y gwrandewch.

16 Yn ol yr hyn oll a geisiaist gan yr Arglwydd dy Dduw yn Horeb, yn nydd y gymanfa, gan ddywedyd, Na chlywyf mwyach lais yr Arglwydd fy Nuw, ac na welwyf y tân mawr hwn mwyach, rhag fy marw.

17 A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Da y dywedasant yr hyn a ddywedasant.

18 Codaf Broffwyd iddynt o fysg eu brodyr, fel tithau, a rhoddaf fy ngeiriau yn ei enau ef; ac efe a lefara wrthynt yr hyn oll a orchymynwyf iddo.

hen Iuddewon yn cyfeirio y broffwydoliaeth hon. Gwel y sylwadan yn niwedd y bennod.

Adn. 16—18. *Yn ol yr hyn oll a geisiaist gan yr Arglwydd dy Dduw yn Horeb, &c.* Gwel ar pen. v. 25, ac Exod. xx. 19. Yn Horeb llefarai Duw wrthynt mewn taranau a mell, o ganol tân a thywyllwech dudew: gwnai pob gair i'w clustiau ferwino a'u calonau grynu, nes yr oedd yr holl genedl yn barod i farw gan ofn. Yn y braw hwn eifnyasiant yn daer na chwaneagai Daw lefaru wrthynt mwyach yn y dull hwn; nis gallent ei oddef, buasai yn eu hollol lethn hwy; ond fod iddo lefaru wrthynt trwy ddynion fel hwy eu hunain; trwy Moses yn awr, ac wedi hyny trwy broffwydi ereill fel efe. 'Parion,' meddai Daw, 'caiff fod felly: llefeir wrthynt trwy ddynion, arswyd y rhai nis dychryna hwynt.' Ac i goroni y gymwynas tubwnt i'r hyn a allent hwy ei ddywuno na'i feddwl, yn nghyflawnder yr auser y GAIR ei hun a wneid yn gnawd, a hwy a gaent weled ei ogoniant ef, megys yr Uniganedig oddiwrth y Tad, nid fel ar fynydd Sinai yn llawn mawrhydi a braw, eithr yn *llawn gras a gwirionedd*. Ioan. i. 14. Fel hyn, mewn atebiad i gais y rhai a darewsid â braw gan y gyfraith, addawai Duw GNAWDOLIAD EI FAB, er y gallwn dybied fod hyny yn mhell o feddyllia y rhai a wnaent y gais hono.

Adn. 19. *A phwy bynag ni wrandawo ar fy ngeiriau, y rhai a lefara efe yn fy enw*] Y mae pob gair a lefarwyd gan Crist yn orael fyw a difeth oddiwrth Dduw ei hun; a rhaid eu derbyn ac ufyddbaau iddynt fel y cyfryw, ar boen tragwyddol anfoddolrwydd yr Hollaithuog. *Mysf a'i gofynaf ganddo*—nen, fel y mae yr alleiriad Caldeaid yn ei ddarllen yma, 'Fy NGAIR i a'i gofyn ganddo,' sef y tragwyddol AIR, i'r hwn y rhoddes y Tad bob barn, a thrwy yr hwn y barna efe y byd yn y dydd diweddaf. Cafodd y bygythiad hwn ei gyflawni yn y modd mwyaf nodedig gyda golwg ar y rhai hyny o'r Iuddewon na wrandawsant ar y Proffwyd hwn: darfu i Dduw yn y modd mwyaf dychrynlyd ei *ofyn ganddynt*, ac y mae yn parhau i'w ofyn; 'cans digofaint Duw a ddaeth arnynt hyd yr eithaf,' (1 Thes. ii. 16.) trwy y byddinoedd Rhufeinig,

19 A phwy bynag ni wrandawo ar fy ngeiriau, y rhai a lefara efe yn fy enw, myfi a'i gofynaf ganddo.

20 Y proffwyd hefyd, yr hwn a ryfyga lefaru yn fy enw air ni orchymynais iddo ei lefaru, neu yr hwn a lefaro yn enw duwiau dyeithr; rhodder y proffwyd hwnw i farwolaeth.

21 Ac os dywedyn yn dy galon, Pa fodd yr adnabyddwn y gair ni lefarodd yr Arglwydd?

22 Yr hyn a lefaro y proffwyd hwnw yn enw yr Arglwydd, a'r gair heb fod, ac heb ddyfod i ben, hwnw yw y gair ni lefarodd yr Arglwydd; y proffwyd a'i llefarodd mewn rhyfyg: nac ofna ef.

yn ngwarchaead a dinystr eu dinasoedd, a llwyrr ddfrodriad eu gwladwriaeth; ac y maent wedi teimlo effeithiau dychrynlyd y digofaint hwnw bellach am yn agos i ddeunaw cant o flynyddau!

Adn. 20. *Y proffwyd hefyd*] Dylid sylwi fod hyn i'w ddeall yn hollol am broffwyd dynol, Iuddewig neu Genhedlig, yn cymeryd arno lefaru yn enw y gwir Dduw, neu dduwiau gau. *Rhodder y proffwyd hwnw i farwolaeth*—trwy ddedfryd y Sanhedriem fawr: gwel ar pen. xiii. 5, &c.

Adn. 21. *Pa fodd yr adnabyddwn y gair ni lefarodd yr Arglwydd?*] Wrth ba nodau y gallwn wybod a ydyw y proffwyd o anfoniad JEOFOA ai peidio?

Adn. 22. *A'r-gair heb fod, ac heb ddyfod i ben*] I hyny yw, fod yr hyn ag y dywedasai efe y cymerai le, heb gael ei gyflawni. *Hwnw yw y gair ni lefarodd yr Arglwydd*—y mae ei ragddywediad gan yn dangos ei fod ef yn broffwyd gau. Ond er i'w air ef ddyfod i ben, eto ni wasanaethai hyny yn unig i brofi dwyfol anfoniad y proffwyd, os byddai efe yn galw ar y bobl i droi at dduwiau dyeithr. Nid yn unig yr oedd yn rhaid i'w air ef gael ei *gyflawni*, ond yr oedd yn rhaid i'w athrawiaeth et olygu *anrhydedd Jehofa*, cyn y gallai gael ei ystyried yn broffwyd o ddwyfol anfoniad: gwel ar pen. xiii. 1—5. *Y proffwyd a'i llefarodd mewn rhyfyg*—yn ddi-gywilydd, gan briodoli ei ddychymygiion oer a chelwyddog ei hun i Dduw y gwirionedd. *Nac ofna ef*—nac ofna ei ddragoganau na'i fgygythion, fel ag i gael dy ddigalonni trwy hyny i'w gwneuthur dy ddyledswydd wrth ei ddwyn ef i gosp haeddiannol.

SYLWADAU AR Y TEBYGOLRWYDD RBWNG CRIST A MOSES.

DARFU i Eusebius egluro y pwnc hwn yn brydferth; ac wele ef yma megys ei cyfieithwyd gan Dr. Jortin. Gan draethu ar y proffwydoliaethau yn nghylch Crist, y mae efe yn mlaenaf yn dwyn hon o eiddo Moses, ac yna yn gofyn, 'Pa un o'r proffwydi ar ol Moses—Esay er anghraiffit, neu Jeremia, neu Ezeiel, neu Daniel, neu rywun arall o'r deuddeg—ydoedd ddeddfroddwr, ac a wnaeth bethau

megys Moses? Moses yn gyntaf a waredodd y genedl Iuddewig oddiwrth eilunaddoliaeth a choelgryfdd yr Aiffit, ac a ddysgodd iddynt y wir dduwinyddiaeth; Iesu Crist yr un modd oedd ddysgawdwr cyntaf gwir grefydd, sant-eiddrwydd, a rhinwedd i'r Cenhedloedd. Cadarnhaodd Moses ei grefydd trwy wyrthiau; felly hefyd y gwnaeth Crist. Gwaredodd Moses y genedl Iuddewig o gaethiwed yr Aiffit; y mae Crist yn gwaredu diwolyrw oddiwrth allu yr ellyllon drwg, a'r holl gredinwyr o gaethiwed eu nwydad drygonus ac hunain. Addawodd Moses wlad santiaid, ac ynddi hi fywyd dedwydd, i'r rhai a gadwent y gyfraith; a Christ wlad well, hyny ydyw un nefol, i bob enaid cyfiawn. Ymrydiodd Moses ddeugain niwrnod; felly hefyd y gwnaeth Crist. Diwallodd Moses y bobl â bara yn yr anialwch; a phorthlodd ein Hiachawdwr bum mil un tro, a phedair mil dro arall, âg ychydig dorthau. Aeth Moses ei hun, ac arweiniodd y bobl, trwy ganol y môr; a darfu i Grist rodio ar y môr, a galluogi Pedr i rodio yr un modd. Estynodd Moses ei law ar y môr, a pharodd yr Arglwydd i'r môr droi yn ol; a darfu i'n Hiachawdwr geryddu y gwynt a'r môr, a bu dawelwch mawr. Yr oedd gwyneb Moses yn dysgleirio pan yn disgyn o'r mynydd; ac yr oedd gwyneb ein Hiachawdwr yn dysgleirio fel yr haul ar ei weddnewidiad. Darfu i Moses, trwy ei weddiau, iachâu Miriam o'i gwahanglwyf; a darfu i Grist, trwy allu mwy, â gair, iachâu amrai wahangleision. Darfu i Moses wneuthur rhyfeddodau trwy fys Duw; a Iesu Crist, trwy fys Duw, a fwriodd allan gythreuliaid. Newidiodd Moses enw Osea i Josua; a newidiodd ein Hiachawdwr enw Simon i Bodr. Gosododd Moses ddeg-a-thriugain o benaethiaid ar y bobl; a phenododd ein Hiachawdwr ddeg-a-thriugain o ddygybiol. Danfonodd Moses ddeuddeg o wŷr i yspio y tir; a'n Hiachawdwr ddeuddeg o apostolion i ymweled â'r cenhedloedd. Rhoddodd Moses amrai orelhymynion moesol rhagorol; a chariodd ein Hiachawdwr hwynt i'r peiffithrwydd uwchaf.

Darfu i Dr. JORTIN, yn ei Sylwadau ar Hanesiaeth Eglwysig, cyf. i. d. 203, &c., ymhelaeu ar yr awgrymiadau uchod o eiddo EUSEBIUS, a gwneuthur llawer o ddiwygiadau a chwanegiadau atynt:— Cafodd Moses, yn ei fabandod, ei gadw yn rhyfeddol rhag dilyn yr holl fechgyn; felly y cafodd Crist. Ffôodd Moses o'i wlad rhag dwylaw y brenin; felly y gwnaeth Crist, pan yr aeth ei rieni âg ef i'r Aiffit. Galwyd Moses yn ol i'w wlad ar farwolaeth y rhai a geisient ei einioes, Exod. iv. 19; ac felly y galwyd Crist, Mat. ii. 20. Gwrthododd Moses gael ei alw yn fab merch Pharao; a gwrthododd Crist gael ei wneuthur yn frenia. Yr oedd Moses yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aiffitiaid; a'r Iesu a gynddodd mewn doethineb a chorffolaeth, a flafrgyda Duw a dynion. Bu Moses yn ymrson â'r swynwyr, y rhai a orfodwyd i gydnabod y gallu dwysol â'r hwn y cyrnthwyid ef; bwr-iodd Crist allan ysbrydion drwg, a derbyniodd yr un cyfaddefiadau oddiwrth ynt hwythau. Yr oedd Moses nid yn unig yn ddeddfodddwr, profwyd, a gwneuthurwr gywrthian, ond yn frenia ac offeiriad; ac felly yr oedd Crist. Dygodd Moses dwyllwch dros y wlad; a

thywyllodd yr haul ar groeshoeliad Crist; ac megys y cafodd y tywyllwch a daenwyd dros yr Aiffit ei ddylyn gan ddiynstr eu cyntafanedigion, a Pharao a'i lu; felly y tywyllwch ar farwolaeth Crist oedd ragredegydd dilynstr yr Iuddewon. Rhagddywedodd Moses am y trallodion a ddisgynt ar y genedl am eu hanufydd-dod; ac felly y gwnaeth Crist. Cafodd yr ysbryd ag ydoedd yn Moses ei roddi i ryw raddau ar y deg henuriaid a thringain, a hwy a broffwydasant; a doniodd Crist ei ddeg dysgybl a thriugain yntau â gallu gywrthiol. Yr oedd Moses yn fuddugoliaethus ar frenhinoedd grymus a cenhedloedd mawrion; felly yr oedd Crist, trwy effeithiau ei grefydd, a thrwy gywmp y rhai a erlidient ei eglwys. Darfu i Moses orchfygu Amalec trwy ddal i fyny ei ddwy law; a gorchfygodd Crist ei elynion ef a ninau pan yr oedd ei ddwy law yn hoeliedig ar y groes. Eiriolodd Moses dros droseddwy, parodd i gymod gael ei wneuthur drostynt, ac attaliodd ddigofaint Duw; felly y gwnaeth Crist. Cadarnhaodd Moses gyfammod rhwng Duw a'i bobl trwy eu taenllu â gwaed; gwnaeth Crist felly â'i waed ei hun. Yr oedd Moses yn dymuno marw dros y bobl, ac yn gweddio ar i Dduw faddau iddynt neu ei ddileu ef allan o'i lyfr; gwnaeth Crist fwy, na ef farw dros bechaduriaid. Sefydlodd Moses y pasc, pryd yr abertwyl oen, yr hwn nad oedd un o'i esgyrn i gael ei dori, a'r hwn y darfu i'w waed amddiffyn y bobl rhag dilynstr; Crist oedd yr oen pasc hwnw. Dyrechafodd Moses y sarff, fel y gallai y rhai a cdrychent arni gael eu hiachâu o'n elwyfaau marwol; Crist oedd y sarff iachael bôno. Cafodd holl serebogrwydd Moses tuag at y bobl, ei holl ofalon a'i drafferthion ar eu rhan, eu had-dal-ganddynt hwy âg anniolchgarwch, tuchanrwydd, a gwrthryfel; yr un daledigaeth a roddes yr Iuddewon i Grist am ei holl radlonrwydd yntau. Ymddygywyd yn ddrwg tu ag at Moses gan ei deulu ei hun, ei frawd a'i ehwaer a wrthryfelasant yn ei erbyn; bu amser pryd nad oedd brodyr Crist ei hun yn credu ynddo yntau. Yr oedd gan Moses genhedlaeth dra drygonus a throfaus wedi ei rhoddi i'w ofal a'i arweddiad ef; i'w alluogi i'w llywodraethu rhoddwyd gallu gywrthiol iddo; ac efe a arferodd ei ymdrech oithaf i wneuthur y bobl yn ufydd i Dduw, ac i'w gwaredu rhag dilynstr, ond yn ofer; yn yspaid deugain mlynedd hwy a syrthiasant oll yn y diffaethwch oddieithr dau; rhoddwyd Crist hefyd i genhedlaeth nid llai drygonus a throfaus; bu ei addysgiadau a'i wyrthiau yntau yn ngholl arnynt; ac yn mhen oddeutu yr un yspaid o amser wedi iddynt ei wrthod ef, hwy a ddiynstriwyd. Moses ydoedd y llarieiddiaf o'r holl ddyinion oedd ar wyneb y ddaear; felly yr oedd Crist. Ni allai y bobl fyned i wlad yr addewid nes i Moses farw; a thrwy farwolaeth Crist yr agorwyd teyrnas nef i hawb a gredant. Y mae hefyd debygolrwydd mewn rhai amgylchiadau yn marwolaeth Moses a Christ: bu Moses farw, mewn un ystyr, am auwreiddau y bobl; eu gwrthryfel hwy oedd yr achos o honi, ac a dynodd i lawr an-foddlonrwydd Duw arnynt hwy ac yntau; felly y dyoddefodd Crist dros bechodau dynion. Aeth Moses i fyny yn ngolwg y bobl i ben mynydd Nebo, ac yno y bu farw mewn

PENNOD XIX.

PAN doro yr Arglwydd dy Dduw ymaith y cenhedloedd y mae yr Arglwydd dy Dduw yn rhoddi eu tir i ti, a'i feddiannu o honot ti, a phreswyllo yn eu dinasoedd ac yn eu tai;

2 Neilldua i ti dair dinas yn nghanol dy dir, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti i'w feddiannu.

3 Parotoa ffordd i ti, a thraiana derfyn dy dir, yr hwn a rydd yr Arglwydd dy Dduw yn etifeddiaeth i ti, fel y byddo i bob llofrudd ffioi yno.

4 ¶ Dyma gyfraith y llofrudd, yr hwn a ffy yno, i fyw: yr hwn a darawo ei gymydog heb wybod, ac yntau heb ei gasâu ef o'r blaen;

5 Megys pan elo *an* gyda'i gymydog i'r coed i gymynu pren, ac a estyn ei law a'r fwyell i dori y pren, a syrthio yr haiarn o'r menybr, a chyrbaeddy ei gymydog, fel y byddo farw; efc a gaiff ffioi i un o'r dinasoedd hyn, a byw:

6 Rhag i ddialydd y gwaed ddylyn

perffaith gryfder, pan na thywyllasai ei lygad, ac na chillasai ei ireidd-dra ef; ac arweinwyd Crist yn ngwydd y bobl i fynydd Calfar-ia, lle y bu yntau farw yn mlodau ei ddyddiau. Ni bu Moses na Christ, cyn belled ag y gallwn gasglu oddiwrth yr banes santaidd, erioed yn glaf, nac yn teimlo unrhyw nychbdod nen wendid corfforol a allai eu hannghymhwysio i'r llafur ag yr aethant dano; en dyoddefianau hwy oeddynt o fath arall. Claddwyd Moses, ac ni wyddai neb yn mba le y gorweddai ei gorff; ac ni allai yr Iuddeuwon gael hyd i gorff Crist. Yn olaf, megys y darfu i Moses, ychydig cyn ei farwolaeth, addaw *proffwyd arall*; telly Crist *Ddyddanydd* arall.'

A ydyw y tebygolrwydd a'recyfatebiad yma mewn cynifer o'r bebau rhwng Moses a Christ yn effaith damwain yn unig? Boed i ni chwilio holl gofiaethau hanesiaeth gyffredin, ac edrych a allwn ni gael hyd i ddydd mor debyg i Moses ag ydoedd Crist, ac mor debyg i Crist ag ydoedd Moses. Os na allwn gael hyd i'r cyfryw un, yna cawsom yr hwn yr ysgrifennodd Moses yn y gyfraith a'r proffwydi am dano, Iesu o Nazareth, **MAB DUW**.

PEN. XIX. Adn. 1. *Pan doru, &c.*] Ar ol i Moses wasgu ar y bobl y gorchymyn mawr i garn Duw a'n holl galon, y mae efc yn awr yn myned yn mlaen i dduw yr a'w got iddynt orchymyauon ereill yn perthyn i'r ail lech, er nad mewn modd manylaidd, nac heb gymysgu i'hai pethau seremonïol. Y mae efc yn dechreu gyda'r hyn sydd yn perthyn i'r brif ran hōno o eiddo ein cymydog, sef ei fywyd ef.

Adn. 2—7. *Neilldua i ti dair dinas yn nghanol dy dir*] Yn Nghanaan. Yr oedd Moses eisioes wedi penodi tair dinas ar y ochr hōno

ar ol y llofrudd, a'i galon yn lliديو, a'i oddiweddyd, am fod y ffordd yn hir, a'i daro ef yn farw, er nad oedd ynddo ef haeddedigaeth marwolaeth, am nad oedd efc yn ei gasâu ef o'r blaen.

7 Am hyn y ydwyf yn gorchymyn i ti, gan ddywedyd, Tair dinas a neilldui i ti.

8 A phan helaetho yr Arglwydd ffly Dduw dy derfyn, fel y tyngodd wrth dy dadau, a rhoddi i ti yr holl dir a addawodd efc ei roddi wrth dy dadau;

9 Os cedwi y gorchymynion hyn oll, gan wneuthur yr hyn yr ydwyf fi yn ei orchymyn i ti heddyw, i garu yr Arglwydd dy Dduw, a rhodio yn ei ffyrdd ef bob amser; yna y chwanegi i ti dair dinas hefyd at y tair hyn:

10 Fel na ollynger gwaed gwirion o fewn dy dir, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth; ac na byddo gwaed i' th erbyn.

11 ¶ Ond os bydd gwr yn casâu ei

i'r Iorddonen lle yr oeddynt yn awr, Num. xxxv. 14, Dent. iv. 41—43; ac y mae efc yma yn penodi tair ereill yr ochr arall i'r Iorddonen, yn ngwlad yr addewid. Yr oedd yr un nifer o'r dinasoedd hyn yn y ddau lwyth a banner yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen, ag a ydoedd yn y naw llwyth a haaner yn ngwlad Canaan; canys yr oedd y tir hwnw cyn bired a Chanaan, er nad cyn lleted. Y mae yr Iuddeuwon yn penn, fel rheswm am yr anghyffartalwch hwn, y llofruddiaethau mynych ag oeddynt yn debyg o gymeryd lle ar gyfrif anian ffyrng y Gileadaid. *A thraiana*—rhana yn dair rhan, adn. 3.

Adn. 8. *A phan helaetho yr Arglwydd dy Dduw dy derfyn*] Cyn belled a'r Euphrates, &c.; gwel ar pen. i. 7.

Adn. 9. *Os cedwi y gorchymynion hyn oll*] Dengys hyn fod yr addewid o helaethu eu terfynau yn un ammodol; a chan na chyflawnwyd yr ammod, nid oedd angen am y tair dinas chwanegol a grybwyllir yma. Y mae yr ysgrifenywyr Iuddewig eu hunain yn addef hyn. 'Eto ni ddaru i'r santaidd fendigedig Dduw,' meddant, 'orchymyn hyn yn ofer; canys yn nyddian y Tywysog Messia, hwy a chwanegir.' Y maent hwy yn dysgwyl hyn yn llythyrenol: ond nynt a wyddom ei fod yn Nghrist wedi cael ei gyflawniad ysbrydol; canys y mae terfynau yr Israel efengylaidd wedi eu helaethu yn ol yr addewid; ac yn yr Arglwydd ein Cyfiawnder darparwyd noddfa i baw a ffoant ato ef trwy ffydd. *Yna y chwanegi i ti dair dinas hefyd at y tair hyn*—yn gwneyd chwech yn y cwbl yn ngwlad yr addewid, heblaw y tair ar yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen.

Adn. 10—12. *Fel na ollynger gwaed gwir-*

gymydog, ac yn cynllwyn iddo, a chodi yn ei erbyn, a'i ddieneidiod fel y byddo farw, a sfoi i un o'r dinasoedd hyn;

12 Yna anfoned henuriaid ei ddinas ef, a chymerant ef oddiyno, a rhoddant ef yn llaw dialydd y gwaed, fel y byddo farw.

13 Nac arboded dy lygad ef, ond tyn ymaith *affaith* gwaed gwirion o Israel, fel y byddo daioni i ti.

14 ¶ Na symud derfyn dy gymydog, yr hwn a derfynodd y rhai a fu o'r blaen, o fewn dy etifeddiaeth yr hon a feddienni, yn y tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti i'w feddiannu.

15 ¶ Na choded un tyst yn erbyn neb am ddim anwiredd, neu ddim pechod, o'r holl bechodau a becho

efe: wrth dystiolaeth dau o dystion, neu wrth dystiolaeth tri o dystion, y bydd safadwy y peth.

16 ¶ Os cyfyd gau-dyst yn erbyn neb, gan dystiolaethu bai yn ei erbyn ef;

17 Yna safed y ddau ddyn y mae yr amrafael rhyngddynt gerbron yr Arglwydd, o flaen yr offeiriad a'r barnwyr a fyddo yn y dyddiau hyny.

18 Ac ymfyned y barnwyr yn dda: ac os y tyst *fydd* dyst ffals, ac a dystiolaetha ar gam yn erbyn ei frawd;

19 Yna gwnewch iddo fel yr amcanodd wneuthur i'w frawd: a thyn ymaith y drwg o'th fysg.

20 A'r lleill a glywant, ac a ofnant, ac ni chwangant wneuthur mwy yn ol y peth drygionus hyn yn dy blith.

21 Ac nac arboded dy lygad: bydd-

ion, &c.] Gwel ar Num. xxxv. 9, &c., a Jos. xx. 2, &c., lle y mae y dinasoedd noddfa a'u dybenion yn cael eu hegluro yn helaeth.

Adn. 13. *Affaith*] Neu *euogrwydd* gwaed gwirion.

Adn. 14. *Na symud derfyn dy gymydog*] Sef yr *arwydd* o'i derfyn. Cyn yr arferiad o godi cloddiau, yr oedd meddiannau tirawl yn cael eu nodi allan gan *feini* neu *hyst* wedi eu gosod i fyny i ddangos terfynau etifeddiaethau teuluaidd. Yr oedd yn hawdd symud un o'r arwyddion hyn, a'i osod mewn lle gwahanol; ac felly gallai dyn anonest eangu ei etifeddiaeth ei hun trwy gwtogi eiddo ei gymydog. Yr oedd y *terfynbyst* hyn yn cael eu hystyrjed yn dra chysegredig yn mhilith y Rhufeiniaid, ac o'r diwedd yn cael eu haddoli. Gorchymynodd *Numa Pompilius* i offrymau o gawl, teisenau, a blaenfrwythau gael eu gwneuthur iddynt; a dywed *Ovid* fod yn arferiad aberthu oen iddynt, a'u taenellu â'i waed. Dywed *Tibullus* y byddid weithiau yn eu haddurno â blodau a choronbleth; ac vmdengys oddiwrth *Juvenal* fod offrymau blynyddol yn cael eu gwneuthur iddynt. Os byddai i gaethweision symud yr hen derfynau gyda bwriad drwg, rhoddid hwynt i farwol-aeth; ac yr oedd gwŷr o fonedd yn cael weithiau eu halltudio ar ol eu heuog-brofi, a phryd arall eu dedfrydu i ddirwyon arianol neu gospital corfforol.

Adn. 15. *Nac choded un tyst yn erbyn neb*] Neu na fydded un tyst yn *safadwy* yn erbyn neb, fel y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu yn niwedd yr adnod; hyny yw, na fydded iddo gael ei dderbyn neu ei xstyried fel yn ddigonol: gwel ar pen. xvii. 6, Num. xxxv. 30.

Adn. 16. *Os cyfyd gau-dyst yn erbyn neb*, &c.] Nid yw un tyst, er yn dywed y gwir, i gael ei dderbyn er condemnad dyn arall; ond os profir ef yn euog o ddwyn camdystiolaeth, y mae yn ddigon er ei gondemnio ef ei hun.

Adn. 17. *Yna safed y ddau ddyn y mae yr amrafael rhyngddynt gerbron yr Arglwydd*] Hyny yw, bydded iddynt ddyfodi i'r llys uwch-

af, yr hwn oedd gynwysedig mewn rhan o offeiriad, ac mewn rhan o wŷr mawrion ereill, y rhai yr ymddengys eu bod yn anuser Moses yn eistedd wrth ddrws y babbell; ac felly gellid dywed y briodol fod y dynion, wrth sefyll ger eu bron hwy, yn 'sefyll gerbron yr Arglwydd.'

Adn. 18. *Os y tyst fydd dyst ffals*] Os ceir allan, trwy fanwl chwiliad y barnwyr, fod y tyst hwn yn cyfodi ar gam yn erbyn ei gymydog, i'r dyben i'w ddirwyo, ei garcharu, ei alltudio, neu gymeryd ei fywyd ymaith, yn ol natur y trosedd ag y cyhuddir ef o hono.

Adn. 19. *Yna gwnewch iddo fel yr amcanodd wneuthur i'w frawd*] Cawn sianpl o hyn yn Ystori Susanna, adn. 62. Nis gall dim fod yn fwy cyfiawn na hyn, os byddai i ddyn geisio niweidio dyn arall ar gam, fod iddo, pan ei datguddid, orfod myned dan yr un drwg ag a fwriadai efe i'w gymydog diniwed. Cafodd rhai o'n cyfreithiau rhagorol ni eu gwneuthur ar y tir hwn. Yn y 37ain o Edward III., pen. 18, y mae yn ordeiniedig fod i bob un a wnelo awgrymiad, fod yn ddarostyngedig i'r un gosp ag a gawsai y llall ar ol ei enog-brofi, os ceid fod ei awgrymiad yn ddisail. Wrth uu o gyfreithiau y Deuddeg Ilech, yr oedd y gau-dyst i gael ei dafu i lawr dros graig. Yn wir y mae gau-dystion yn cael eu ffeiddio yn gyfiawn gan bob cenedl.

Adn. 20. *A'r lleill a glywant ac a ofnant*] Dyma ddyben arbenig holl ddeddfau cospawl pob cenedl: gwel ar pen. xvii. 13.

Adn. 21. *Bydded einocs am einioes*] Yr ystyr yw, fod pa gosp bynag a benodai y gyfraith i'r cyhuddedig ar ol ei euog-brofi, i gael ei gweinyddu ar y gau-dyst. Lle nad effeithir ar yr heddwch a'r diogelwch cyfredin, dylai Cristion *faddeu* niweidiau; ond pe na wnaethai y gyfraith ddarpariaeth er amddiffyn y diniwed rhag y creulon a'r anfad, cyfethesid cymdeithas wladol yn ebrwydd. *Llygad am lygad*—gwel ar Exod. xxi. 24, &c., Mat. v. 38.

PEN. XX. Adn. 1. *Pan clych i ryfel yn erbyn dy clynon*] Y mae hyn yn cyfeirio yn

ed einioes am einioes, llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed.

PENNOD XX.

PDAN elych i ryfel yn erbyn dy elynion, a gweled meirch â cherbydau, a phobl fwy na thi, nac ofna rhag-ddynt: o herwydd yr Arglwydd dy Dduw *sydd* gyda thi, yr hwn a'th ddyg di i fyny o dir yr Aifft.

2 A bydd, pan nesaoch i'r frwydr, yna ddyfod o'r offeiriad, a llefaru wrth y bobl,

3 A dywedyd wrthynt, Clyw, Israel: Yr ydych chiw yn nesáu hedd-

benaf at eu rhyfeloedd â'r Canaanaid, i'r dyben i feddiannu gwlad yr addewid. *A gweled meirch â cherbydau*—yr oedd byddinoedd yr Israeliaid yn gynywsegid yn gwbl o wŷr traed, ac ymddengys fod eu cyfraith yn eu rhwymo hwy i barhau felly, mewn trefn i'w hymddibyniad fod yn gwbl ar Dduw, pen. xvii. 16. Eithr yr oedd gan yr Aifftiaid, y Canaanaid, a chenbedloedd ereill, y fantais o feirch a cherbydau, yn y rhai yr hyderent. Felly y dywed y Salmydd, 'Ymddiried rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch; ond ny mi a gofiwn enw yr Arglwydd ein Duw,' *Salu* xx. 7. Yr oedd y cerbydau hyn yn cael eu harfogi weithiau â phladuriau, i ruthro i blith y gwŷr traed, a'u tori i lawr fel gwair, yr hyn a wnaï ddfrod arswydol. Dyma y cerbydau heyrn a grybwyllir Barn. iv. 3.

Adn. 2. *A bydd, pan nesaoch i'r frwydr, yna ddyfod o'r offeiriad*] Dywed yr Iuddewon fod ganddynt offeiriad wedi ei einioes i'r perwyl hwn, swydd pa un oedd udganu âg udgotn pan y byddent yn ymarotoi i ryfel, Num. xxxi. 6. Yr offeiriad, ar yr achlysur hwn, oedd cynrychiolydd Duw. Y mae yn nodedig fod agos yr holl hen geubedloedd yn cymeryd eu hofferiadaid gyda hwy i ryfel, gan na ddysgwyllent lwyddiant heb i wrthddirych eu haddoliad fod gyda hwy; a thybient eu bod yn sicrhau ei bresenoldeb ef trwy gael presenoldeb ei gynrychiolydd.

Adn. 3. *Na feddalhæd eich calon, &c.*] Dywed yr Iuddewon fod y pedwar gair a arferir yn yr aduod hon yn cyfeirio at bedwar ymddygiad o eiddo eu gelynyon, trwy y rhai y ceisient eu dychrynu. *Na feddalhæd eich calon*—pan fyddo eich gelynyon yn ysgwyd eu cleddyfau, ac yn eu clecian yn erbyn eu gilydd. *Nac ofnwch*—pan glywoch garlamiad eu meirch, ac arswydus drwst eu cerbydau. *Na synwch*—pan y gwaeddont, fel pe byddent yn sicr o fuddugoliaeth. *Ac na ddychrynwch*—pan glywoch eu hudgyrn yn canu larwm i ryfel.

Adn. 4. *Canys yr Arglwydd eich Duw sydd yn myned gyda chiw*] Gwel ar adn. 2. Ilesyd yr oedd yr arch, arwydd presenoldeb Duw, yn myned weithiau o'u blaen, ac weithiau yn eu canol hwynt, (Jos. iii. 10, 11, a vi. 9.) fel ag gellid dywedyd yn briodol fod

yw i'r frwydr yn erbyn eich gelynyon: na feddalhæd eich calon, nac ofnwch, na synwch, ac na ddychrynwch rhagddynt.

4 Canys yr Arglwydd eich Duw *sydd* yn myned gyda chiw, i ryfela â'ch gelynyon trosoch chiw, ac i'ch achub chiw.

5 ¶ A'r llywiau dwyr a lefarant wrth y bobl, gan ddywedyd, Pa wr *sydd* a adeiladodd dy newydd, ac nis cysegrodd ef? eled a dychweled i'w dŷ, rhag ei farw yn y frwydr, ac i wr arall ei gysegru ef.

6 A pha wr *sydd* a blannod winllan, ac nis mwynhaodd hi? eled a

Duw. yn myned gyda hwynt y pryd hyny; a phob amser arall yr oedd ef yn bresenol i'w cynorthwyo, yn enwedig yn erbyn pobl Canaan, eu rhyfeloedd â'r rhai a elwid yn *rhyfeloedd yr Arglwydd*.

Adn. 5. *Pa wr sydd a adeiladodd dy newydd*] Meddylia rhai fod yr eithriadau hyn i'w deall yn unig am ryfel yn cael ei goddef gan Dduw, ac nid am ryfel yn cael ei gorchymyn ganddo, megys eu rhyfel â'r Canaanaid, o'r hon, meddai yr ysgrifenywyr Iuddewig, nid oedd hyd yn nod y priodfod yn eithriedig. *Ac nis cysegrodd ef?*—y mae yn amlwg ei bod yn arferiad yn Israel gysegru tŷ newydd i Dduw trwy weddi, mawl, a diolchgarwch: gwel deitl *Salm* xxx, 'Salm neu Gân ar gysegriad Tŷ Dafydd.' Gwneid hyn i'r dyben o sicrhau y fendith a'r presenoldeb dwyfol; canys ni allai un dyn duwiel neu synwrol feddwl y medrai ef drigo yn ddiogel mewn tŷ na fyddai dan nawdd digyfrwng Duw. O ganlyniad y mae wedi bod yn arferiad yn mysg y bobloedd fwyaf barbaraidd i gysegru rhan o dŷ newydd i'r duw a addolent. Y mae tai trigolion *Bony*, yn Africa, fel y sylwa Clarke, yn cael eu dosbarthu yn gyffredin i dair ystafell: y mae un yn fath ar rwysg-ystafell, neu barlawr; y mae un arall yn gwasanaethu yn ystafell gyffredin, neu gegin; a'r drydedd a gysegrir i'r *Juju*, y sarff-dduw, yr hwn y maent yn ei addoli; canys y mae hyd yn nod y bobl anwar hyny yn credu y dylai eu dnuw gael ei deml yn nubob tŷ. Ar amserau y cysegriad yn mllith yr Iuddewon, heblaw gweddi a mawl, yr oedd gwledd yn cael ei gwneuthur, i'r hon y gwahoddid y perthynasau a'r cymydogion. Y mae rhywbeth o'r arferiad yma yn cael ei gadw mewn rhai parthau o Gymru, yn yr hyn a elwir *turymo y tŷ*: ond yn yr achosion hyn y gwledda yn unig a geudir i fyny, tra y mae y weddi a'r mawl yn cael eu hanngbhofo; nes y mae y cysegriad yn ymddangos i fod yn fwy i *Bacchus* nag i *Jehofa*, awdwr pob rhoddiad daionus a pherffraith!

Adn. 6. *A pha wr sydd a blannod winllan, ac nis mwynhaodd hi?* Y mae Aben Ezra yn deall y gair yn yr ystyr o *orfoleddu*: 'Pwy a blannod winllan, ac nis dawnsiodd ynddi?' Yn ol y gyfraith, Lef. xix. 23—25, nis gallent

dychweled i'w dŷ, rhag ei farw yn y frwydr, ac i w'r arall ei mwynhau hi.

7 A pha w'r sydd a ymgredodd â gwraig, ac ni chymerodd hi? cled a dychweled i'w dŷ, rhag ei farw mewn rhyfel, ac i w'r arall ei chymeryd hi.

8 Y llywiawdwy'r *hefyd* a chwangant lefaru wrth y bobl, ac a ddywedant, Pa w'r sydd ofnus a meddal galon? cled a dychweled i'w dŷ, fel na lwfrhao efe galon ei frawd megys ei galon yntau.

9 A bydded, pan ddarffo i'r llywiawdwy'r lefaru wrth y bobl, osod o honynt ddywysogion y lluoedd yn ben ar y bobl.

10 ¶ Pan nesüech at ddinas i ryfela yn ei herbyn, cyhoedda iddi heddwch.

11 A bydded, os heddwch a etyb hi i ti, ac agoryd i ti; yna bydded i'r holl bobl a gaffer ynddi, fod i ti dan deyrnged, a'ih wasanaethu.

fwyta o frwyth prenan dair blynedd; ac yn y bedwaredd flwyddyn yr oedd y frwyth yn gysegredig, ac i gael ei fwyta yn unig yn y cysegr; ar ol yr hyn yr oedd frwyth y bummed flwyddyn at wasanaeth y percheneg. Y mae yr hyn a ddywedir yma am *willan*, i gael ei ddeall hefyd am berllan, oglewanoedd, a'r cyfelyb.

Adn. 7. *A pha w'r sydd a ymgredodd â gwraig*] Yr amser a ganiateid yn yr achos hwn ydoedd flwyddyn, pen. xxiv. 5. Yr oedd hon yn ddeddf o hynawsedd mawr, fel na fyddai i gariad dyweddiol gael ei aflonyddu, eithr gael amser i ymglymu yn serch cryf a pharhaus. *Ac ni chymerodd hi?*—yr oedd yn arferiad yn mhlith yr Iuddewon, ar ol iddynt ymgredu neu gael eu dyweddio, i'r pleidian aros am gryn amser yn nhai eu gwahanol rieni; ac ar ol i'r priodfab wneuthur darpariadau cyfaddas, yna dygid y briodfêrch adref i'w dŷ ef, ac fel hyn perffieithid y briodas. *Rhag ei farw mewn rhyfel*—bernid yn galedi dirfawr i ddynt orfod myned i ryfel, lle y byddai tebygolrwydd iddo gael ei ladd, yr hwn a adawsai dŷ newydd heb ei orphen, gwinllan newydd heb ei diwyllio, neu wraig â'r hon yr oedd efe newydd ymgredu.

Adn. 8. *Pa w'r sydd ofnus a meddal galon?* Y cyfryw ydoedd y byddinoedd ag oeddynt yn cael eu llywio gan Gedeon yn ei ryfel â'r Midianiaid; canys wedi iddo ef roddi y caniatâd hwn, ni arhosodd i ymladd ond 10,000 yn unig allan o 32,000! Barn. vii. 3. Ond dlywed yr Iuddewon fod yr ofnusrwydd hwn i'w ddeall nid yn unig am y dychryndod naturiol hwnw ag sydd dueddol i rai cyfansoddiaid, ac yn gwneyd i ddynt arswydo wrth bob perygl, ond am ddychrynfeydd chwangediadol cydwybod enog.

Adn. 9. *Osod o honynt ddywysogion y lluoedd yn ben ar y bobl*] Y mae Moses yn dra chyfaddas yn gorchymyn i'r tywysogion beidio â chael eu penodi cyn i'r rhai ofnus gael caniatâd i encilio, fel y sylwa Houbigant; canys

12 Ac oni heddycha hi â thi, ond gwneuthur rhyfel â thi; yna gwarachae arni hi.

13 Pan roddo yr Arglwydd dy Dduw hi yn dy law di, taro ei holl wrywaid â min y cleddyf.

14 Yn unig y benywaid a'r plant, a'r anifeiliaid, a phob dim a'r a fyddo yn y ddinas, *sef* ei holl yspail, a yspeili i ti: a thi a fwynhai yspail dy elynion, yr hwn a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

15 Felly y gwnai i'r holl ddinasoedd pell iawn oddiwrthyt, y rhai nid *yd-ynt* o ddinasoedd y cenhedloedd hyn.

16 Ond o ddinasoedd y bobloedd hyn, y rhai y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi i ti yn etifeddiacth, na chadw'n enaid yn fyw:

17 Ond gan ddifrodi difroda hwynt; *sef* yr Hethiaid, a'r Amoriaid, y Canaanaid, a'r Pheresiaid, yr Hefiaid,

pe na buasai felly, gallasai y cyfryw dywysogion gael eu dewis ag a fuasant eu hunain yn ofnus, y rhai yn ddiau a ddylent gael eu hadnabod cyn iddynt gael eu graddio â llywiadaeth. Ond tybia ereill mai yr ystyr yw, fod i'r tywysogion gael eu gosod y pryd hyny o *flaen* y bobl dan eu gofal, am nad yw yn debygol mai pan yr oeddynt ar fin myned i ryfel yr oeddynt i gael eu gwneuthur.

Adn. 10—16. *Pan nesüech at ddinas i ryfela yn ei herbyn, cyhoedda iddi heddwch*] Y mae yr esbonwyr yn gwahaniaethu yn fawr yn nghylch gwrthddrychau y gyfraith hon. Y mae y testyn, wrth ei gymyrd mewn cysylltiad â'r cyd-destynau, adn. 15—18, yn ymddangos i nodi fod y cynygriad hwn o heddwch i ddinas i gael ei ddeall yn unig am y dinasoedd hyny ag oeddynt yn gerwedd *tu hwnt* i derfynau y saith genedl ddiöfrydedig, am y gorchymynir i'r rhai olaf hyn gael eu llwyr ddfirodi: gwel ar pen. vii. 2. Yr oedd Duw, yr hwn a w'r bob peth, yn canfod eu bod fel *enedl* yn anfeddyginiacth ym eu heilunaddoliaeth, a bod cwpan eu hanwiredd yn llawn; ac fel eu Creawdwr, eu Penarglwydd, a'u Barnwr, efe a bonderfynai eu dyfetha hwynt oddiar wyneb y ddaear, 'fel na ddysgent i'r Israeliaid wneuthur yn ol eu holl ffiged-dra hwynt,' adn. 18. Wedi y cwbl, dygwyd llawer o resymau golygus i brofi y gallai hyd yn nod y saith genedl Ganaanaidd hyn gael eu derbyn i drugaredd, os byddai iddynt, (1) Ymwrthod â'u heilunaddoliaeth; (2) Ymostwng i'r Iuddewon; ac, (3) Dalu teyrnged flynyddol: ac mai yn unig ar wrthodiad o'r telerau hyn yr oeddynt i beidio â chadw yn y ddinas un enaid yn fyw, adn. 16.

Adn. 17. *Ond gan ddifrodi difroda hwynt*] Byddai i'r ymresymiad uchod ennill cryn rym pe galleu gyfeithu *ki haacharem tacharimem*, 'gan ddarostwng darostwng hwynt'—trwy eu lladd os gwrthweybant, ac felly beidio â chadw un enaid yn fyw; neu *lwyrr yra hwynt o'r tir*, neu darostwng hwynt i gyllwr o *gachtiwed*

a'r Jebusiaid; megys y gorchymyn-odd yr Arglwydd dy Dduw i ti:

18 Fel na ddydsgont i chwi wneuthur yn ol eu holl ffeidd-dra hwynt, y rhai a wnaethant i'w duwiau, a phechu o honoch yn erbyn yr Arglwydd eich Duw.

19 ¶ Pan warchäeac ar ddinas lawer o ddyddian, gan ryfela yn ei herbyn i'w hennill hi, na ddyfetha ei choed hi, gan daro bwyell arnynt: canys o honynt y bwytaï; na thor dithau hwynt i lawr (o herwydd *bywyd* dyn *yw* pren y maes) i'w gosod yn y gwarchglawdd.

20 Yn unig y pren y gwyddost nad pren ymborth *yw*, hwnw a ddyfethi ac a dori: ac a adeilidi warchglawdd yn erbyn y ddinas fydd yn gwneuc-

thur rhyfel â thi, hyd oni orchfyger hi.

PENNOD XXI.

OS ceir *un* wedi ei ladd o fewn y tir yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti i'w etifeddu, yn gorwedd yn y maes heb wybod pwy a'i lladdodd;

2 Yna aed dy henuriaid a'th farnwyr allan, a mesurant hyd y dinas-oedd *sydd* o amgylech i'r lladdedig.

3 A bydded i'r ddinas nesaf at y lladdedig, *sef* henuriaid y ddinas hòno, gymeryd anner o'r gwartheg, yr hon ni weithiwyd â hi, *ac* ni thynodd dan iau.

4 A dyged henuriaid y ddinas hòno yr anner i ddyffryn garw, yr hwn ni lasuriwyd, ac ni hauwyd ynddo; ac

nyddo, fel na allont mwyach fodoli megys *publ*. Yr oedd hyn yn ddiaw yn eu gwneuthur hwynt yn ddiogyddedig fel *enedig*, ac yn llwyr ddiroddi eu bodäeth *wladwriaethol*. Gwel hanes y *Gibeonitaid*, Jos. ix. Fod llawer o'r Canaaneid yn parhau yn y tir, hyd yn nod yn nyddiau Solomon, a ddysgwn oddiwrth 2 Cron. viii. 7, 8, lle y dywedir, 'Yr holl bobl y rhai a adawyd o'r Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Phereziaid, a'r Hefiaid, a'r Jebusiaid—y rhai ni ddyfethasai meibion Israel, Solomon a'u gwnaeth hwynt yn drethol hyd y dydd hwn.' Fel hyn dyfethodd Solomon eu bodäeth *wladwriaethol* hwynt, er nad ystyriai efe i hun yn rhwym wrth gyfraith Dduw i'w rhoddi hwynt i farwolaeth. Ni a wyddom hefyd ddarfod i Rahab a'i thenlu, yn nghyda Ruth ac amrai ereill, gael en harbed.

Adn. 18. *Fel na ddydsgont i chwi wneuthur yn ol eu holl ffeidd-dra hwynt*] Dyma y rhestr mawr am y cyflawniad llymdost crybwylledig: yr oeddynt yn eilunaddolwyr tra ffeidd, y rhai a offryment eu plant i Moloch; yr oeddynt yn ddewiniaid, yn swynwyr, ac yn ymofynwyr â'r meirw, ac yn enog o'r holl afendid a grybwyllir Lef. xviii; fel nad oedd Dduw yn eu tybied yn addas i fyw yn hwy ar wyneb y ddaear, o leiaf oddieith iddynt edifarhan, a gadael eu heilunaddoliaeth.

Adn. 19. *O herwydd bywyd dyn yw pren y maes*] Yr oedd yn ddarpariaeth drugarog arbed fod pren yn dwyn ffwrwyth, am fod y ffwrwythau hyn yn un ran o gynaliaeth bywyd dyn; a buasai raid i'r gorchfygwyr eu bannain drengu pe toresid ymaith foddion bywyd. Attaliai Alexander Fawr ei fyddin rhag niweidio coedydd a thai. trwy ddyweddy, 'Eich eiddo chwi ydynt.' Ond dywedir fod yr holl hen gyfieithiadau, y LXX, y Deongliadan, &c., yn darllen y geiriau uchod fel hyn: *O herwydd ai dyn yw pren y maes?* neu, *Nid dyn yw pren y maes, fel y deuai i'th erbyn yu y gwarchglawdd, neu y cilai rhagot i'r amddiffynfa.* Fel pe dywedasai, Paid ä gollwng dy gynddaredd yn ddiresswm yn erbyn y prenau, y rhai nis gallant wneuthur i ti ddim niwed. Bithr addefir yn gyffredin fod ein cyfieithiad

ni yn ymddangos yn fwy cydweddol äg amcan y gyfraith.

Adn. 20. *Yn unig y pren y gwyddost nad pren ymborth yw*] Megys y dderwen, yr onen, a'r cyffelyb; *hwnw a ddyfethi ac a dori*—os byddai arnynt angen am goed at eu gwasanaeth yn eu gweithrediaidau milwraidd, gallent i'r perwyl hwnw dori i lawr y cyfryw nad oeddynt yn ffwrwyth-brenau, neu y cyfryw ffwrwyth-brenau ag a oeddynt ddi ffwrwyth.

PEN. XXI. Adn. 1. *Os ceir un wedi ei ladd—yn gorwedd yn y maes*] Neu yn y ddinas, neu ryw fan arall. Enwir y *maes* fel y fan lle y mae y cyfryw lofruddiaethau yn cael eu cyflawni fynychaf.

Adn. 2. *Yna aed dy henuriaid a'th farnwyr*] *Sef* y rhai hyn o'th henuriaid ag ydynt farnwyr; barnwyr neu lywodraethwyr yr holl ddinasoedd cymydogäethol. *A mesurant*—oddieithr fod yn amlwg pa un yw y ddinas agosaf; canys felly byddai yn afreidiol mesur.

Adn. 3. *Anner o'r gwartheg—ni thynodd dan iau*] Yr hon oedd yn arddanghosiad eglur o'r lofrudd ag y lleddid hi yn ei le, yr hwn nid oedd dan iau deddfau Duw; ac yn gysgod hefyd o Grist, yr hwn nad oedd dan un iau ond a gymerasai efe yn wirfoddol arno ei hun.

Adn. 4. *A dyged henuriaid y ddinas hòno yr anner i ddyffryn garw*] Gellid cyfieithu *nachal* *eythan* yn *ffrd gyslym*, ond oddi yn rhedeg trwy ddarn o dir anniwylliedig, lle yr oedd henuriaid y ddinas i dori ymaith ben yr anner, ac i olechi eu dwylaw nweh ei phen yn arwydd o'n diniweidrwydd. *Yr hwn ni lasuriwyd, ac ni hauwyd ynddo*—tir garw ac anniwylliedig, yn addangos yn briodol erchyllod y llofruddiaeth. Dywed yr Iuddeuon, oddieithr iddynt wedi hyn gael' hyd i'r llofrudd, nad oedd y tir hwn byth i gael ei lasurio na'i ban, yr hyn a wna'i berchenogion y tir ymdrechu en goraf i gael hyd i'r lofrudd, rhag i'w tir fod yn ddi-ddedfydd byth. Neu gall fod y cyfryw dir garw a diffaeth yn cael ei ddewis mewn rhan fel y byddai i'w erchyllrwydd ef genhedlu erchyllod at y llofrudd a'r

yno torfynyglant yr anner yn y dyffryn.

5 A nesäed yr offeiriad, meibion Lefi (o herwydd yr Arglwydd dy Dduw a'u hetholodd hwynt i weini iddo ef, ac i fendigo yn enw yr Arglwydd) ac wrth eu barn hwynt y terfynir bob ymruson a phob pla.

6 A holl henuriaid y ddinas hòno, y rhai a fyddo nesaf at y lladdedig, a olchant eu dwylaw uwchben yr anner a dorfynglwyd yn y dyffryn.

7 A hwy a atebant ac a ddywedant, Ni thywalltodd ein dwylaw ni y gwaed hwn, ac nis gwelodd ein llygaid.

8 Trugarha wrth dy bobl Israel, y

llofruddiaeth, ac mewn rhan am y buasai i waed yr aberth hwnw balogi tir diwylliedig. *Ac yno torfynyglant yr anner*—y torant ymaith ei phen, i ddangos beth a wnaethent i'r llofrudd pe cawsent hyd iddo. Ond os deuai rhywun i ddywedyd ei fod yn adnabod y llofrudd, ni thorfynglent yr anner; a'r dyn, ar ol ei ddal, a roddi o ganlyniad i farwolaeth.

Adn. 5. *Yr offeiriad—wrth eu barn hwy y terfynir pob ymruson (a phob pla)* Saes. 'a phob tarawiad;' sef pob ymruson a gyfyd yn nghylch unrhyw darawiad marwol fel yr un dan sylw, neu archoll wedi cael ei roddi gan y naill ddyn i'r llall. Yn y pethau hyn yr oedd yr offeiriad i roddi y ddeddfryd, ar ol ymgynghori â hwynt gan henuriaid neu farnwyr y dinasoedd, pen. xvii. 8—12.

Adn. 6. *A holl henuriaid y ddinas hòno—olchant eu dwylaw uwchben yr anner* Gan dystio eu diniweidrwydd, meddai Chazkuni, yn y geiriau hyn: 'Fel y mae ein dwylaw yn awr yn lân, felly yr ydym ni yn ddeuog oddi wrth y gwaed a dywalltwyd.' Gwel gyfeiriad at hyn, Salm. xxvi. 6, Mat. xxvii. 24.

Adn. 7, 8. *A hwy a atebant* I'r offeiriad a fyddont yn eu chwilio hwynt, *Ni thywalltodd ein dwylaw ni y gwaed hwn*—cans meddylir fod corff y llofruddiedig yn cael ei ddiwyn i'r fan lle y lleddid yr anner; ac nis gwelodd ein llygaid—ni welsoem ac ni ddeallasoem ni pa fodd na chan bwy y gwnaed hyn. *A madddeuir*—er nad oedd dim euogrwydd moesol yn y bobl hyn, eto yr oedd afwendid seremonïol yn y tir, yr hwn oedd i gael ei ddybuddo a'i faddeu.

Adn. 9. *Felly y tyni ymaith affaith* Neu euogrwydd, y gwaed gwirion o'th fysg—hyd nes y gwneid hyn, yr oedd yr euogrwydd i edrych arno fel yn genedlaethol; ond ar ol i hyn gael ei gyflawni yn ddirifol, bernid fod y llywodraeth wedi gwneyd ei dyledswydd, ac yr oedd y genedl yn cael ei rhyddhau oddiwrth bob euogrwydd yn yr achos hwn. Diamau mai prif ddyben penodiad yr arddedof hon oedd cenhedlu a chadw yn meddyliant dynion atgasrwydd at lofruddiaeth, a gofal i'w attal neu ei ddatguddio.

Adn. 10, 11. *Pan elych i ryfel—a gweled o honot wraig brydweiddol, &c.* Os byddai i filwr Hebraidd deimlo serch neillduol at gaethes, ac ewyllsio ei phriodi hi, ni chaf efe

rhai a waredaist, O Arglwydd, ac na ddyro waed gwirion yn erbyn dy bobl Israel. A madddeuir y gwaed iddynt hwy.

9 Felly y tyni ymaith affaith y gwaed gwirion o'th fysg, os ti a wnei yr un-iawnder yn ngolwg yr Arglwydd.

10 ¶ Pan elych i ryfel yn erbyn dy elynion, a rhoddi o'r Arglwydd dy Dduw hwynt yn dy law di, a chaethgludo o honot gaethglud o honynt;

11 A gweled o honot yn y gaethglud wraig brydweiddol, a'i bod wrth dy fodd, i'w chymeryd i ti yn wraig:

12 Yna dwg hi i fewn dy dŷ, ac eillied hi ei phen, a thored ei hewinedd;

wnenthar hyny yn ddiatreg ar ol ei dyfod yn gaethes iddo, gan ei fod o ganlyniad peryglus i Israeliad briodi gwraig Genhedlig. Yr oedd ef yn gyntaf i gadw y fenyw yn ei dŷ am fis o leiaf, lle yr oedd hi i fyw mewn cyflwr o neillduedd, a galar am y golled o'r rhieni a'i gwlad; ac i roddi iddi amser i gael ei bad-dysgu yn y wybodaeth o'r gwir Dduw a'i ewylls, ac i ymwrthod â'i heilunaddoliaeth; ac i ganiatáu iddo yntau ddigon o amser i weled a oedd ei serch ef ati yn bywyllig a dysig, ynte a fyddai iddo oeri a gwisgo ymaith. Os na fyddai i'r yspaid hwn achosi un lleihad ar ei serch ef, ond, ar ei gwaith hi yn troi yn broselytes, ei fod fyth yn ewyllsio ei gwneuthur yn wraig iddo, gallai y pryd hwy ei phriodi yn gyfreithlon. Ond os byddai iddi hi ddirmygu y wybodaeth o'r wir grefydd, a pharhau yn gyndyn mewn eilunaddoliaeth, yr oedd yn rhaid iddo beidio ei phriodi.

Adn. 12. *Eillied hi ei phen* Dyma oedd un o arwyddion allanol galar, Lef. xix. 27, a xxi. 5; ac yr oedd hefyd yn arddedof o lanhad, Lef. xiv. 8, 9, Num. vi. 9. Yr oedd hefyd ond odid, fel y sylwa Clarke, yn arwydd ei bod yn ymwrthod â'i chrefydd baganaidd, ac yn dyfod yn broselytes i grefydd yr Iuddeuon. Y mae hyn yn arferiad eto yn y dwyrain: pan y mae Cristion yn troi yn Fahometaniad, eillir ei ben, a charif ef trwy y ddinas gan waeddi, *La alah-ila Allah we Mohammed resooli Allah*, 'Nid oes un duw ond Duw, a Mahomet yw profwyd Duw.' *A thored ei hewinedd—reasethak eth tsippornechya*, 'Gwnaed ei hewinedd.' 'Yn awr, pa un ai eu tori ynte gadael iddynt dyfu y mae hyn yn ei arwyddo, a mabeuir yn sawr yn nhlith y dysgedigion. Dichon nad yw yn meddwl y naill na'r llall, eithr *lliw* yr ewinedd, gan eu hystaenio yn goch gyda'r *hennah*, yr hyn a arferir yn fynych yn yr India hyd heddyw, a'r hyn yn ddiâu oedd mewn arferiad yn nhlith yr hen Aiffiaid, fel y mae yn amlwg oddiwrth ewinedd y cyrff pêr-eneimiedig y rhai a geir wedi eu hystaenio fel hyn. Y mae yr *hennah*, yn ol Hasselquist, yn tyfu yn yr India, ac yn yr Aiffit Uwchaf a'r Isaf: y mae yn blodeuo o Mai i Awst. Y dull o'i ddefnyddio yw hwn: y mae y dail yn cael eu malu, a'u gwneyd yn lŷd gyda dwfr: y maent yn rhwymo y glŷd hwn ar ewinedd bysedd eu dwylaw a'u traed, ac yn

13 A dyosged ddillad ei chaethiwed oddiam dani, a thriged yn dy dŷ di, ac wyled *am* ei thad a'i mam fis o ddyddiau: ac wedi hyny yr âi di ati, ac y byddi wr iddi, a bithau fydd wraig i ti.

14 Ac oni bydd hi wrth dy fodd; yna gollwng hi yn ol ei bewyllys ei hun, a chan werthu na werth hi er arian; na chais elw o honi, am i ti ei darostwng hi.

15 ¶ Pan fyddo i wr ddwy wragedd, un yn gu, ac un yn gas; a phlanta o'r gu a'r gas feibion iddo ef, a bod y mab cyntafanedig o'r un gas:

gadael iddo aros yno dros y nos. Yn y bore ceir eu bod o liw melyngoch prydferth; ac y mae hwn yn parhau dair wythnos neu fis, ar ol yr hyn yr adnewyddant yr ystaeiad. Y maent yn fynych yn ystaeion cletrau eu dwylaw a gwadnau eu traed yn yr un ffordd, fel yr ymddengys oddiwrth amrai arluniau o foneddigesau dwyreiniol wedi eu gwneuthur yn yr India a Phersia, y rhai a orweddant yn awr o'm blaen. Y mae yn debyg mai ystaeiad gwadnau y traed â'r *hemmah* a feddylir yn 2 Sam. xx. 24: *Mephiboseth ni olchasai* (yn llythrenol *ni wnaethai*) *ei draed*—ni liwiesid hwynt fel hyn.—CLARKE. Dyma hefyd yw barn *Hewlett*; eithr y than fywaf o'r esbonwyr a dybiant fod ei thriniaeth o'i hewinedd, megys hefyd o'i phen a'i dillad, yn arddanghosiad o'i *galar* am ei thad a'i mam; ac os felly, y mae genym le i feddwl nad eu haddurno âg ystaeion a feddylir, am y buasai i hyny fod yn fwy arwydd o *falcherd*, megys yn yr India a'r Aifft, nag o *alar*. Hefyd, os oedd y wraig hon trwy *eilliad ei phen*, fel y gwelwom uchod, yn arwyddo eu hymwrthodiad â phaniaeth, trwy fod hyny yn groes i arferiad y Cenhedloedd; pa fodd y gallai *addurniad ei hewinedd*, yn ol dull yr eilunaddolwyr, fod yn arwydd o'i phroselytiad hi i grefydd yr Iuddewon? Ond y mae myniod rhai Beibliau, yn nghyda rhai esbonwyr, yn darllen y geiriau fel hyn: *A gadawed ei hewinedd i dyfu*; ac ymddengys hyn i mi yn fwy cydweddol â chyflwr o *alar*. Eithr arferiad gwledydd, fel y sylw *Culmet*, a raid benderfynu; oblegid dywedir fod y benywod, mewn rhai parthau o America, yn cyfrif ewinedd hirion yn brydferthwch, fel mai *tori* yr ewinedd a fyddai yn arwydd o *alar* yn eu plith hwy; a dyma fel y mae hefyd yn mblith y Chineaid. Yn wir, ebai *Coke*, yr oedd yr arferiad o adael yr ewinedd yn hirion yn beth cyffredin yn Ewrop nid uwchlaw dwy oes yn ol.

Adn. 13. *A dyosged ddillad ei chaethiwed*] Yr oedd yn arferiad yn mblith yr henafiaid i'r benywod, y rhai a ddylynt en tadau neu eu gwŷr i ryfel, ymwisgo yn eu dillad a'u haddurniadau gwyfach cyn y frwydr, i'r dyben i dynu sylw y gorchfygwr os cymerid hwynt yn garcharesau. Yn lle y dillad gwychion hyn, yr oedd i ymwisgo mewn gwsg salw, yn ol arfer galaryr. *Ac wyled am ei thad a'i mam*—naill ai am eu marwolaeth hwy, neu ynte, yr hyn mewn effaith oedd yr un peth,

16 Yna bydded, yn y dydd y rhano efe ei etifeddiaeth rhwng ei feibion y rhai fyddant iddo, na ddichon efe wneuthur yn gyntafanedig fab y gu o flaen mab y gas, *yr hwn sydd* gyntafanedig;

17 Ond mab y gas yr hwn sydd gyntafanedig a gydnebydd efe, gan roddi iddo ef y ddeuparth o'r hyn oll a gaffer yn eiddo ef: o achos hwn *yw* dechread ei nerth ef; iddo *y bydd* braint y cyntafanedig.

18 ¶ *Ond* o bydd i wr fab cyndyn ac anuffydd, heb wrando ar lais ei dad,

am ei llwyr ysgariad hi oddiwrthyt, trwy ei bod yn awr i anghofio ei holl gyn-bertlynasau.

Adn. 14. *Ac oni bydd hi wrth dy fodd*] Gall yr ystyr fod naill ai, (1) Os byddai iddo ef, ar ol iddo ei chystuddio trwy beri iddi eillio ei phen, &c., a'i chadw gyflawn fis mewn go-baith am briodas, newid ei feddwl, a gwrthod ei phriodi hi; neu, (2) Os byddai iddo ef ar ol iddo ei phriodi, ac ar ol iddi fod yn wraig iddo beth amser, deimlo anbosffider tuag ati, a phenderfynu ymadael â hi; yn y naill neu y llall o'r achosion hyn nid oedd iddo awdurdod i ymddwyn tuag ati fel carclares rhyfel, trwy ei gwerthu am arian, neu ei gwneuthur yn gaethferch, eithr yr ydoedd i roddi iddi ei rhyddid, a gadael iddi wneyd a fynai â hi ei hun.

Adn. 15. *Pan fyddo i wr ddwy wragedd, un yn gu ac un yn gas*] Hyny yw, un yn cael ei charu yn llai na'r llall: gwel ar Gen. xxix. 31. Oddiyma gwelwn fod amlwreicaeth yn bodoli dan gyfraith Moses: ond ni ddarfus i Moses ei *orchymym*, ond yn unig ei *oddef*, o herwydd caledrwydd eu calonau hwy, fel y dywed ein Harglwydd, Mat. xix. 8.

Adn. 16, 17. *Yna bydded, yn y dydd y rhano efe ei etifeddiaeth, &c.*] Y mae y gyfraith yn yr amgylchiad hwn yn rhwymedigol ar rieni hwy heddyw: rhaid iddynt roddi eu hawl i'w plant heb bleidgarwch. Yn yr achos dan sylw rhaid i'r mab hynaf, er ei fod yn fab i'r wraig a hoffid *leiaf*, gael ei enedigaeth-fraint, sef denparth o feddiannau ei dad, am mai efe oedd *dechread ei nerth ef*—hyny yw, am mai ynddo ef y dechreuodd ei deulu gael ei gryfhau, ac y dechreuodd ei gawell gael ei lenwi â *sueithau y cadarn*, Salm cxxvii. 4. Yr oedd Jacob yn wir wedi difeddiannu Reuben o'i enedigaeth-fraint, a'i rhoddi i Joseph; eithr hyny oedd oblegid i Reuben ffloftio yr enedigaeth-fraint trwy ei losgach, ac nid oblegid ei fod yn *fab i'r wraig gas*: yn awr, rhag i'r hyn a wnaethai Jacob yn gyfiawn, gael ei gymeryd yn gynllun i ereill wneyd yr un peth yn anghyfiawn, darperir yma, pan wnelo tad ei ewyllys, neu y trefno efe ei feddiannau ryw fodd arall, na chaiff fod yn waeth ar y plentyn o herwydd annedwyddwch y fam yn cael llai o serch ei gŵr, am mai nid bai y plentyn oedd hyny. Gan mai rhagluniaeth Duw sydd yn gwneyd yr etifeddon, rhaid cydsynio â threfniad rhagluniaeth yn y peth hwnw, a phaidio ei groesi.

neu ar lais ei fam ; a phan geryddant ef, ni wrendy arnyut :

19 Yna ei dad a'i fam a ymaflant ynddo, ac a'i dygant at henuriaid ei ddinas, ac i borth ei drigfan ;

20 A dywedant wrth henuriaid ei ddinas ef, Ein mab hwn sydd gyndyn ac anuffydd, heb wrando ar ein llais ; glwth a meddwyn yw efe.

21 Yna holl ddyunion ei ddinas a'i llabyddiant ef â meini, fel y byddo farw : felly y tyni ymaith y drwg o'th fysg ; a holl Israel a glywant, ac a ofnant.

22 ¶ Ac o bydd mewn gŵr bechod yn haeddu barnedigaeth angau, a'i far-

wolaethu, a chrogi o honot ef wrth bren ;

23 Na thriged ei gelan dros nos wrth y pren, ond gan gladdu ti a'i cleddi ef o fewn y dydd hwnw : o herwydd melldith Duw sydd i'r hwn a grogir : ac na haloga dy dir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth.

PENNOD XXII.

NI chai weled eidion dy frawd neu ei ddafed yn cyfeiliorni, ac ymguddio oddiwrthynt : gan ddwyn dwg hwynt drachefn i'th frawd.

2 Ac oni bydd dy frawd yn gyfagos

Adn. 18. *Onid o bydd i wŵr fab cyndyn ac anuffydd*] Ar ol darparu uchod na chai rhieni ddefeddiannu eu plant o'u hawl, yr oedd yn addas darparu yn nesaf na chai plant gadw draw yr anrhydedd a'r ufydd-dod ag sydd ddyledus oddiwrthynt hwythau i'w rhieni ; oblegid nid oes dim pleidgarweh yn y gyfraith ddwyfol. Wrth fab cyndyn y dealla yr Iuddeuon un na wna y peth a orchymynir ; wrth un anuffydd, un yn gwneyd yr hyn a waherddir. Od oes neb yn ymddwyn yn falch a thrahaus at ei rhieni, yn dirmygu eu hawdurdod, yn diystyru eu cynghorion, yn anuffyddhau i'r gorchymynion pendant a roddant iddo er ei lesad ei hun, yn casâu cymeryd ei ddiwygio trwy eu cerydd, yn gwaradwyddo eu tylwyth, yn gosiduo eu calonau, yn gwasgaru eu dâ, ac yn byrgrwth dyfetha eu meddiannau trwy fyw yn afriadlon, *mab cyndyn ac anuffydd yw hwnw.*

Adn. 19. *Yna ei dad a'i fam a ymaflant ynddo*] Y mae cydweithrediad y ddau yn ofynol, er attal camdefnyddiad o'r gyfraith hon i greulondeb ; ac nis gellir tybio yn rheymol y byddai i'r ddau gydysnio, oddieithr fod y mab yn anniwygiadwy ddrygionus. Y mae y plant hynny ag sydd yn llwyr ymroddi i wŷnian a drygioni, ac na fynant eu diwygio, yn florfetio eu hawl yn serchiauad naturiol eu perthynasau agosaf ; ac y mae offerynau eu hanfod yn dyfod yn gyfiawn yn offerynau eu dinystr. Rhaid i'r plant ag sydd yn anghofio eu dyledswydd ddiolch iddynt eu hunain, ac nid beio eu rhieni, os edrychir arnynt gyda llai o serch. A pha mor anhawdd bynag yw gan rhieni tynyr ymfoddloni yn awr i gosp gyfiawn eu plant anuffydd, bydd pob serch naturiol wedi ei lyncu i fyny mor lwyer gan gariad dwyfol yn nydd datguddiad cyfiawn farn Duw, fel ag y cydsyniant y pryd hyny hyd yn nod yn nannedigaeith y cyfryw blant, am y bydd Duw yn hyny yn cael ei ogoneddu yn dragywydd. *Ac a'i dygant at henuriaid ei ddinas*—yr hyn oedd yn ocheliad digonol i gadw plant rhag malais unrhyw rieni calon galed ; causy yr oedd yr henuriaid hyn yn gyntaf i chwilio yr achos gyda phob manylrwydd, ac yna i gyhoeddi y ddeddfryd. Eithr nid felly yr oedd yn mhllith y Persiaid a'r Gauliaid ; a dywedir fod gan y Rhufeiniaid awdurdod i roddi eu

plant i farwolaeth, megys y gwnaent â'u cathion, heb unrhyw erlyniad gerbron ynad.

Adn. 20. *Glwth a meddweyn yw efe*] Dan y ddau drosedd hyn y mae ereill o gyffelyb neu waeth natur yn cael eu cynwys. With fagu plant dylid cymeryd gofal mawr i lethu pob tuedd ynddynt at feddwod, a'u cadw o ffordd hudoliaeth iddo. Nid oes dim ag sydd yn denu dynion i bob math o ddrygioni, ac yn eu caledu ynddo, yn fwy sier a dinystriol na meddwod. Pan y mae dynion yn ymroddi i yfed, y maent yn ebargoſi y ddeddf, (Diar. xxxi. 5.) hyd yn nod y ddeddf arbenig o anrhydeddu rhieni !

Adn. 21. *Yna holl ddyunion ei ddinas a'i llabyddiant ef â meini*] Gwel y dull cyffredin o labyddio yn cael ei ddarlunio yn y sylw ar Lef. xxiv. 23 : gwel hefyd ar Deut. xiii. 9, a xvii. 7. Dichon fod y tystion yn yr achos hwn, gan eu bod yn rhieni iddo, yn cael eu harbed ; er nad oedd felly mewn pechod uwch, sef eilunaddoliaeth, pen. xiii. 6, 9. *Felly y tyni ymaith y drwg o'th fysg*—rhaid fod y gyfraith lem hon yn attaliad gymrus ar y trosedd. Pe rhoddid hi mewn grym yn awr, y fath nifer o farwolaethau plant anuffydd a drygionus a fyddai yn mhob congl o'r tir !

Adn. 22. *A chrogi o honot ef wrth bren*] Yr hyn a wneid ar ol iddo gael ei farwolaethu ryw ffordd arall ; a'r gwarth cyhoeddus hwn a chwaneid fel melldith at ei gosp flaeonorol. Crogid ef gerfydd ei ddwyawl, meddai yr Iuddeuon, ac nid gerfydd y gwddf fel gyda ni.

Adn. 23. *Na thriged ei gelan dros nos wrth y pren*] Trwy fod ei harddangosiad am yspaid un diwrnod yn ddigonol i ateb holl ddybeunion cyfiawnder cyhoeddus. *O herwydd melldith Duw sydd i'r hwn a grogir*—hyny yw, y mae efe yn felfdigeidig gan Dduw, neu y mae melldith y ddeddf doredig yn gorphwys yn amlwg a digonol eisioes ar ei gorff marw ef. *Ac na haloga dy dir*—trwy adael i gelan y troseddwr aros yn weledig yn hwy nag y myn cyfiawnder Duw iddi fod.

PEN. XXII. Adn. 1. *Ni chai weled eidion dy frawd neu ei ddafed yn cyfeiliorni*] Yr un trefniadau hynaws a da ag a welson o'r blaen, Exod. xxiii. 4, 5, y rhai oddynt yn dra chyffadas i gadw mewn cofswariaeth ail gangen arbenig cyfraith Dduw, 'Câr dy gy-

atat, neu oni adwaenost ef; yna dwg hwnw i fewn dy dŷ, a bydded gyda thi, hyd pan ymfynno dy frawd am dano; yna dyro ef yn ei ol iddo ef.

3 Ac felly y gwnai i'w asyn ef, ac felly y gwnai i'w ddillad ef, ac felly y gwnai i bob collbeth i'w frawd, yr hwn a gyll oddiwrtbo ef, a thithau yn ei gael: ni elli ymguddio.

4 ¶ Ni chai weled asyn dy frawd neu ei ŷch yn gorwedd ar y ffordd,

mydog fel ti dy hun.' *Ac ymguddio oddi wrthyn*—cymeryd arnat nad wyt yn eu gwled, neu fyned heibio iddynt fel pe na byddyt yn eu gwled.

Adn. 2. *Ac oni bydd dy frawd yn gysfagos*] Yr hyn a allai wneyd y ddyledswydd yn fwy trafferthus; *neu oni adwaenost ef*—cynwysa hyn, os oedd efe yn adnabod y perchenog, fod iddo ei ddychwelyd iddo. Yr oedd ar rai anifeiliaid nodau penodol, trwy y rhai y gellid gwybod i bwy y perthynent: ond os na fyddai, a bod y perchenog yn anadnabyddus, yr oedd rhybydd fod anifel wedi ei gael i'w gyhoeddi deirgwaith neu bedair gan y cyhoeddwr cyffredin, fel y ceisid ac yr arddelwid ef. Os na ddeuai neb i'w arddelwi, yr oedd i fod yn eiddo i'w hwn a'i cawsai. Yn y cyfryw achos yr oedd yr Iuddewon weithiau yn ei werthu, ac yn rhoddi yr arian i'r tylodion. Gwel isod.

Adn. 3. *Felly y gwnai i bob collbeth*] Dywedir mewn hen lyfr Iuddewig fod yn Jerusalem *gareg y collbethau*, at yr hon yr oedd yr hwn a gollasai neu a gawsai unrhyw beth i fyned. Yr oedd yr hwn a'i cawsai i sefyll yno i'w ddwyn gerbron; a'r hwn a gollasai, i fynegu yr arwyddion a'r nodau. Yr oedd y caffaelydd yn ei gyhoeddi deirgwaith; ac yn mlen y saith niwrnod, os na ddeuai neb cyn hynny i'w arddelwi, cyhoeddid ef unwaith yn chwanaeg.

Adn. 4. *Ni chai weled asyn dy frawd neu ei ŷch yn gorwedd*] Hebi ti ymdrechu i'w gynorthwyo i'w godi. Dywedir am Alphonsus, brenin Naples, pan yr oedd efe yn ymdaith ar y ffordd, ac yn cael ei ddylun gan osgorodd fawr o wŷr ei lys, ddarfod iddo ganfod asyn â baich trwm wedi syrthio i laid dwfn. Darfu i'r holl rai a aent o flaen y brenin basio heibio yn ddisylw; ond pan ddaeth ef i'r lle, efe a arhosodd, ac a aeth ei hunan at y gyrwr, ac a'i cynorthwyodd i godi yr asyn o'r llaid. Nis gall neb lai na sylwi mor wylidwyrus y cymhellir yn y gyfraith hon y dyledswyddau o gyfiawnder, tosturi, a thrugaredd. Mynai Duw yn hyn ein dysgu ni, (1) I fod yn barod i bob swydd gyfeillgar i'n cymydog. (2) I fod yn fanwl onest a chyfiawn, gan beidio eadw dim o'i eiddo ef a'r a ddaethai yn ddirgelaid i'n meddiant. (3) Ac os yw y fath ofal yn cael ei orchymyn tuag at ddafad golledig, pa faint mwy y dylai gael ei ddangos tuag at enaid colledig!

Adn. 5. *Na fydded dilledyn gwŷr am wraig, &c.*] Hynny yw, yn gyffredin neu afreidiol; eithr mewn rhai achosion gall hyn fod yn gyfreithlon, megys i ddianc am fywyd. Gwaherddir hyn or mewn gweddeidd-dra, fel na

ac ymguddio oddiwrtbynt; ond gan godi cyfod *hwyt* gydag ef.

5 ¶ Na fydded dilledyn gwŷr am wraig, ac na wisged gwŷr ddillad gwraig: o herwydd ffaidd gan yr Arglwydd dy Dduw bawb a'r a wnel hyn.

6 ¶ Pan ddamweinio nyth aderyn i'w olwg ar dy ffordd, mewn un pren, neu ar y ddaear, â chywion, neu âg wyau *ynddo*, a'r fam yn eistedd ar y

fyddai i ddynion gymysgu yr ystlenau hynny a wahaniaethodd Duw; ac hefyd i dori ymaith bob tbybiaeth ac achlysur o ddrwg, i'r lwn yr agorai yr arferiad yma ddrws llydan. Yn mhilith y Cenedl-ddynion, yn addoliad eu duwiau, yr oedd yn beth tra chlyffredin i'r ystlenau newid dillad. Yn addoliad *Venus* yr oedd y merched yn ymddangos o'i blaen mewn arfogaeth, a'r dynion yn ngwisgoedd merched. Gwaherddid hyn i'r Israellaid fel arferiad coelgrefyddol ynddo ei hun, ac yn enwedig fel yn tueddu i gefnogi anafdrwydd. Cafodd Clodius, yr hwn a ymwisgodd yn nillad merch, fel y gallai ymgymysgu gyda'r boneddigussau Rhufeinig yn ngwledd y *Bona Dea*, ei fliciddio yn gyffredinol. Ond y mae Onkelos ac ereill yn cyfieithu *keligeber* yn *arfogaeth*, gan ei ddeall fel gwaharddiad i wragedd wisgo dillad milwraidd, a dylun eu gwŷr i ryfel, fel yr oedd yn arferiad gan lawer.

Adn. 6. *Pan ddamweinio nyth aderyn i'w olwg ar dy ffordd*] Er mai hwn, fel y dywed yr Iuddewon, yw y lleiaf o holl orchymynion cyfraith Moses, eto rhoddir yr un addewid i gadwraeth hwn ag a roddir i gadwraeth y pummed gorchymyn, yr hwn sydd un o'r rhai mwyaf, 'fel y byddo daioni i', ac yr estynech dy ddyddiau,' adn. 7; canys fel y mae anfydd-dod mewn peth bychan yn dangos diystyr-doch mawr ar y gyfraith, felly y mae ufyrddod mewn peth bychan yn dangos parch mawr iddi. Yr oedd y neb a olyngai aderyn o'i law yn hollol mewn ufydd-dod i gyfraith Duw, yn dangos wrth hynny ei fod yn cyfrif holl orchymynion Duw yn un-iawn yn mhob peth, ac y gallai ymwadu âg ef ei hun yn hytrach na phechu yn erbyn Duw. Y mae y gyfraith hon, (1) Yn gwahardd i ni fod yn greulon wrth y creaduriaid mudion, nac ymddyfyrir yn eu dynstr hwynt. (2) Y mae yn dysgu i ni fod rhagluniaeth Duw yn ymestyn at bob creadur. (3) Y mae yn awgrymu hefyd fod yr rhaid i ni beidio â chymeryd mantais yn erbyn neb oddiar eu caredigrwydd naturiol, a thynwch eu tueddiadau, i wneuthur niwed iddynt. Buasai yn anmhosibl dal y fam oddieithr i'w gofal am ei hwyau neu ei chywion berr iddi aros ar y nyth; canys gallasai yn hawdd, oni buasai hynny, ei diogelu ei hun trwy ehedeg ymaith. Yn awr, gan y buasai yn dra gresynus iddi orfod ymdaraw yn waeth am yr hyn ag ydoedd ei rhinwedd godidocaf, y mae y gyfraith hon yn gofalu am iddi gael ei gollwng ymaith. Dylai y goffadwriaeth am hyn ein cadw'n rhaiu i'w ymddyw yn greulon tuag at y rhai hynny ag y byddo ar ein llaw wneuthur a fynou â hwynt.

cywion, neu ar yr wyau; na chymer y fam gyda'r cywion.

7 Gan ollwng ti a olyngi y fam, a'r cywion a gymeri i ti; fel y byddo daioni i ti, ac yr estynech dy ddyddiau.

8 ¶ Pan adeiladech dŷ newydd, yna y gwnai ganllawiau o *amgylch* i'th nen; fel na osodych waed ar dy dŷ, pan syrthio neb oddiarno.

9 ¶ Na heua dy winllan âg amryw had; rhag i ti halogi cynyrch yr had a hauech, a chnwd y winllan.

10 ¶ Nac ardd âg ych ac âg asyn yn nghyd.

11 ¶ Na wisg ddilledyn o amryw ddefnydd, *megys* o wlan a llin yn nghyd.

12 ¶ Plethau a weithi i ti ar bedwar cwr dy wisg yr ymwisgech â hi.

Adn. 7. *Gan ollwng ti a olyngi y fam*] I fyned i epilio drachefn; *a'r cywion a gymeri i ti*—nid i'w lladd, ond i'w cadw mewn adardy; canys nid ydynt hwy erioed wedi adnabod melysder *rhyddid* fel y fam; ac am hyny rhaid peidio ei darostwng hi i gyflwr o *gaethiwed*. Tybia Aquinas fod y ddeddf hon wedi ei rhoddi yn erbyn arferiad rhai eilunaddol-wyr, y rhai a dybient y caent ryw ddaioni mawr, neu ei fod yn argeol o lwyddiant, os gallent ddal y fam yn *eistedd* ar ei chywion. *Fel y byddo daioni i't*, ac yr estynech dy ddyddiau—yr hyn a arwydda y byddai i Dduw eu gwobrwyo hwynt am eu tirondeb byd yn nod i greaduriaid direswm.

Adn. 8. *Pan adeiladech dŷ newydd, &c.*] Y mae y tai yn y dwyrain yn cael eu hadeiladu yn gyffredin gyda nenua lleddf neu wastad, a rhodia dynion arnynt i fwynhau awyr iach, i gydymddyddan, cysgu, &c.; gan hyny yr oedd yn angenrheidiol cael math ar ganllawiau neu gletrau er attal i ddynton syrthio drosodd. Os egeulusai dyn wneuthur diffyniad digonol rhag y fath ddamweiniau, a bod marwolaeth un arall yn cael ei hachlysuero trwy hyny, ystyriid percheng y tŷ megys llofrudd.

Adn. 9. *Na heua dy winllan âg amryw had*] Gwel ar Lef. xix. 19. Y gorchymyn hwn a'r rhai canlynol, er ynddynt eu hunain yn fach a dibwys, a roddir er addysgiadau mewn pethau mawrion, ac yn enwedig i gymhell iddynt symledd yn eu holl ymddygiad taug at Dduw a dynion, ac i wahardd pob cymysgedd o eiddo eu dychymyg eu hunain gyda gosodiadau Duw mewn athrawiaeth ac addoliad.

Adn. 10. *Nac ardd âg ych ac âg asyn yn nghyd*] Gellid eu defnyddio ar wahan, ond nid yn nghyd. Fe allai mai un rheswm am y gwaharddiad hwn ydoedd, fod yn y creadur glân, a'r llall yn aifan; neu ei fod yn arferiad coelgrefyddol. A dichon fod rheswm anianyddol am hyn, am nas gall dau anifel o wahanol rywogaethau gydweddu yn gysurus, nac felly gyd-dynu yn ddymunol mewn mên

13 ¶ O chymer gŵr wraig, ac wedi myned ati, a'i chasáu;

14 A gosod yn ei herbyn anair, a rhoddi allan enw drwg iddi, a dywedyd, Y wraig hon a gymerais; a phan aethym ati, ni chefais ynddi forwyndod:

15 Yna cymered tad y llances a'i mam, a dygant *arwyddion* morwyndod y llances at henuriaid y ddinas i'r porth.

16 A dywedad tad y llances wrth yr henuriaid, Fy merch a roddais i'r gŵr hwn yn wraig, a'i chasáu y mae efe.

17 Ac wele, efe a gododd *iddi* anair, gan ddywedyd, Ni chefais yn dy ferch forwyndod; ac fel dyma *arwyddion* morwyndod fy merch. Yna lledant y dilledyn yn ngwydd henuriaid y ddinas.

neu arad. Gŵyr pob amaethwr ei fod o gryn bwys, er cysur yr anifeiliaid, roddi y rhai hyny yn nghyd ag sydd yn meddu serch at eu gilydd. Wedi y cwbl, y mae yn dra tyebyg mai yr amcan cyffredinol ydoedd attal cyfathrachau anghyfadfas mewn bywyd gwladol a chrefyddol: gwel ar 2 Cor. vi. 14—16.

Adn. 11. *Na wisg ddilledyn o amryw ddefnydd*] Gwel ar Lef. xix. 19. Sylwodd un o'r tadau, 'Nid oes dim drwg moesol yn ymddangos yn y pethau hyn, ac am hyny nid ydym yn ein hystyried ein hunain yn awr yn rhwymedig i beidio hau gwenith a rhyg yn nghyd, aredig â meirch ac ychain yn nghyd, a gwisgo dillad cymysgwe o lin a gwlan.'

Adn. 12. *Plethau a weithi i'r bedwar cwr dy wisg*] Gwel ar Num. xv. 38, &c. Ond myn GEDDES ac ereill mai yr ystyr yw, 'Cylyma llynau wrth bedair congl ewrlid dy wely; i'w rwywo wrth y pedwar post.'

Adn. 13—16. *O chymer gŵr wraig*] Ac wedi hyny ei chamyhuddo hi. Nid yw y dysgedigion yn cyduno pa beth yw ystyr y dystiolaeth honno trwy yr hon yr oedd y cybuddiad yn cael ei brofi yn gau, ac nid yw yn angenrheidiol i ni ei wybod: yr oedd y rhai ag y bwriadwyd y gyfraith hon iddynt, yn ddiamau yn ei deall.

Adn. 17. *Ac fel dyma*] Saes. 'ac eto dyma arwyddion morwyndod fy merch.' *Uteri virginialis* a roddwyd gan natur i fod yn ogoniant gwytyf, ac i'w gosod hi o gyrbaedd tafod anair a gallu malais. 'Yr oedd hyn yn achos perfflaith ddichonadwy yn mhob man lle yr oedd merched yn priodi yn ddeg, deuddeg, a phedair blwydd ar ddeg oed, yr hyn sydd fynych yn y dwyrain. Gwn am lawer o anghreifftiau o ferched yn cael dau neu dri o blant ar wahanol ogoriadau cyn eu bod yn bedair blwydd ar ddeg oed. Y cyfryw arwyddion gan hyny ag y sonia y testyn am danynt, a raid gael eu dangos yn ddifeth gan fenywod mor ieuaine ar gwblhad eu priodas.'—CLARKE. *Yna lledant y dilledyn*—yr hwn a gedwid yn meddiant rhieni y wraig ieuane, megys arwydd o'i diniweidrwydd, rhag y dygwyddai i'w gŵr godi

18 A henuriaid y ddinas hōno a gymerant y gŵr, ac a'i cospant ef.

19 A hwy a'i dirwyant ef *mewn can siel* o arian, ac a'u rhoddant hwynt i dad y llances; o achos iddo ddwyn enw drwg ar y forwyn o Israel: a bydd hi yn wraig iddo; *ac* ni ddichon ei gyru ymaith yn ei holl ddyddiau.

20 Ond os gwir fydd y peth, ac na chafwyd *arwyddion* morwyndod yn y llances:

21 Yna y dygant y llances at ddrws tŷ ei thad, a dynion ei dinas a'i llabyddiant hi â meini, oni byddo farw; am iddi wneuthur ffoliueb yn Israel, gan buteinio yn nhŷ ei thad: a thi a dyni ymaith y drwg o'th fysg.

22 ¶ O cheffir gŵr yn gorwedd gyda gwraig briodol *â* gŵr; byddant feirw ill dau, *sef* y gŵr a orweddodd gyda'r wraig, a'r wraig *hefyd*: felly y tyni ymaith ddrwg o Israel.

23 ¶ O bydd llances o forwyn wedi ei dyweddio i ŵr, a chael o ŵr hi mewn dinas, a gorwedd gyda hi;

24 Yna y dygwch hwynt ill dau i borth y ddinas hōno, ac a'u llabydd-

iwech hwynt â meini, fel y byddont feirw: y llances, oblegid na waeddodd, *a hithau* yn y ddinas; a'r gŵr, o herwydd iddo ddarostwng gwraig ei gymydog: felly ti a dyni ymaith y drygioni o'th fysg.

25 ¶ Ond os mewn maes y cafodd y gŵr y llances wedi ei dyweddio, a'i threisio o'r gŵr, a gorwedd gyda hi; yna bydded farw y gŵr a orweddodd gyda hi yn unig.

26 Ond i'r llances ni chai wneuthur dim; nid *oes* yn y llances bechod *yn haeddu* marwolaeth: o herwydd megys y cyfyd gŵr yn erbyn ei gymydog, a'i ddieneidof, yr un modd *y mac* y peth hyn.

27 Oblegid yn y maes y cafodd efe hi: gwaeddodd y llances *oedd* wedi ei dyweddio; ac nid *oedd* achubydd iddi.

28 ¶ O chaiff gŵr llances o forwyn, heb ei dyweddio, ac ymaffyd ynddi, a gorwedd gyda hi, a'u dala hwynt:

29 Yna y rhydd y gŵr a orweddodd gyda hi, i dad y llances, ddeg-deugain o arian; ac iddo y bydd yn

anair iddi. Y mae arferiad o'r fath yma yn dangos garwedd moesau nad yw yn cydweddu â choethder a boneddigedd; wydd arferion Ewropaidd. Gwnaed ymagais ofer i ddangos fod y gyfraith yn y lle hwn i'w deall yn gyffelyb-iaethol: ond y mae arferiad cyffelyb i'r un uchod yn cael ei gadw yn mhlith y Mahometaniaid hyd heddyw: gwel Selden, Gensius, Leo Africanus, &c.

Adn. 18, 19. *A henuriaid y ddinas hōno a gymerant y gŵr, ac a'i cospant ef*] Hyny yw, meddai awdwyr llyfrau y traddodiadau, a'i deddfyriant ef i dderbyn dengain gwialenod onid un: a chwaneगत, y byddai y wraig yn cael ei hanfon yn ol gyda bendith ddirifol; ac y byddai y gau-dystion, y rhai a dyngasant yn ei herbyn, yn cael eu llabyddio: gwel ar pen. xix. 18, 19. Meddylia rhai nad oedd y gosg hon yn cael ei gweinyddu ond yn unig pan y gwrthodid talu y dirwy o *gan siel* o arian, pa swm a dderbyniai y tad megys iawn am y gwarth a dafwyd ar ei deulu. Heblaw hyn, amddifedid y gŵr o'r budd ag yr oedd pob Israeliaid yn ei feddu, sef rhoddi i'w wraig lŷthyr ysgar: 'Ni ddichon ei gyru ymaith yn ei holl ddyddiau.'

Adn. 20, 21. *Onid os gwir fydd y peth*] Fod ei gŵr heb gael ynddi arwyddion morwyndod; *yna y dygant y llances at ddrws tŷ ei thad*—er gwarth i'w thieni, y rhai ni ofalasant yn well i gadw ei diweirdeb: yr oedd hi i gael ei llabyddio wrth eu drws hwy, gan iddi gyflawni y trosedd yn en ty.

Adn. 22. *Byddant feirw ill dau*] Fel hyn cawn fod godineb yn cael ei gospi â marwolaeth y ddwy blaidd gan y cyfreithiau hynaf: gwel ar Lef. xx. 10.

Adn. 23—27. *O bydd llances o forwyn wedi*

ei dyweddio i ŵr, &c.] Y mae Moses yn penodi yr un gosg am halogi merch ieuanc wedi ei dyweddio i ŵr, er nad wedi priodi yn weithredol, ag am odineb, os gwnaed y weithredol yr oedd hi *gartref*, â'i chyfeillion o'i hamgylch; yn mha achos ni wnaed hyny trwy drais, fel y tybid, ond trwy ei chydysniad hi, gan fod ganddi bob cyfle tēg i ochelwyd unrhyw orfodaeth i'r fath weithred; ac fel hyn yr oedd hi i farw am dori ei hyder a'i diweirdeb, megys yr oedd y dyn am ymosod ar ei hawl ef i'r hwn ei dyweddwyd. *Onid os mewn maes y cofodd y gŵr y llances*—ystyrid hyny yn *drais*; ac o ganlyniad, gan y cymerid yn ganiataol ddarfod iddi lefain am achubydd, nid ystyrid hi wedi trosedd yn yr achos yma, uwy na dyn ag y codai un arall yn ei erbyn i'w ddieneidio: y treiswyr yn unig a roddid i farwolaeth. Yr oedd *treisiad* yn cael ei gospi â marwolaeth gan y cyfreithiau lienafol hyn, am yr ystyrid anrhydedd merch ddyweddiedig yr un mor werthfawr a'i bywyd hi; ac am hyny rhoddid yr un gosg i'r treiswyr ac i'r llofrudd.

Adn. 28. *O chaiff gŵr llances o forwyn heb ei dyweddio*] Nid oedd y trosedd hwn o natur mor ddrwg a gorweddidd gyda gwraig briod, am nad oedd yn dwyn hillogeaeth fastarddaidd i deuluoedd gwŷr ereill dan rith plant cyfreithlon.

Adn. 29. *Yna y rhydd y gŵr—i dad y llances*] Mewn ffurdd o ddirwy am iddo ddarostwng ei ferch ef; *ddeg-a-deugain o arian*—Saes. 'o sielau arian,' neu £6. 10s., heblaw y gwaddol, fel y sylwa Philo. *Ac iddo y bydd yn wraig*—nid oedd ef yn rhydd i'w gwrthod, os cydsyniai ei thad iddo ei phriodi hi; ac amddifedid ef o'r fraint o gael byth ei hysgaru hi.

wraig, am iddo ei darostwng hi: ni ddichon efe ei gyru hi ymaith yn ei holl ddyddiau.

30 ¶ Na chymered neb wraig ei dad, ac na ddynoethed odre ei dad.

PENNOD XXIII.

NA ddeued neb wedi ysigo ei éirin, na dyspaidd, i gynulleidfa yr Arglwydd.

2 Na ddeued basterdyn i gynulleidfa yr Arglwydd; y ddegfed genhedlaeth iddo hefyd ni chaiff ddyfod i gynulleidfa yr Arglwydd.

3 Na ddeled Ammoniad na Moab- iad i gynulleidfa yr Arglwydd; y ddegfed genhedlaeth hefyd o honynt

Adn. 30. *Na chymered neb wraig ei dad*] Sef ei lysfam, Lef. xviii. 8. Gallai gŵr yn ei henaint fod wedi priodi gwraig ieuanc, ac ar ei farwolaeth ef gallai ei fab o wraig flaenorol ewyllsio ei phriodi hi, yr hyn a waherddir yma: gwel ar 1 Bren. ii. 13—25. *Ac na ddynoethed odre ei dad*—ymadrodd gŵylaidd am gyweithas anghyfreithlon.

PEN. XXIII. Adn. 1. *Na ddeued neb wedi ysigo ei éirin, na dyspaidd*] Addefir yn gyfreidin fod Moses yma yn cyfeirio at eunuch- iaid; a meddylir fod y gyfraith hon yn cael ei bwriadu i attal i'r rhieni Iuddegwig anafu eu plant, yn ol arferiad cyffredin yr oesoedd a'r gwledydd hyn; canys yr oedd y cyfryw rai, with ddal perthynas â thai y mawrion a llys- oedd tywysogion, yn fynych yn ymgodi i'r swyddau uwchaf o arhwydded ac awdurdod: gwel ar Gen. xxxvii. 36. *I gynulleidfa yr Arglwydd*—y meddwl ydyw, nid fod iddynt gael eu cau allan o addoliad cyhoeddus y gwir Dduw, fel yr arwydda yr ymadrodd weithiau; ond, na fyddai iddynt gael eu cyfrif yn Israel- iaid, na chael eu henwau yn ysgrifenedig yn y gofrestr gyffredin, na'u derbyn i swyddau yn yr eglwys na'r wladwriaeth Israelaidd, na chael eu goddef i eistedd yn nghynghor hen- uriaid neu dywysogion y bobl. Gallai y dys- paddedig neu yr eunuch addoli yn nghynull- eidfa yr Arglwydd, fel yr ymddengys oddiwrth Act. viii. 38; ac addawodd Duw i'r dyspadd- edig duwiol 'le yn ei dy, ac enw gwelw na meibion ac na merched,' Ésay lvi. 5.

Adn. 2. *Na ddeued basterdyn*] Yr oedd yr un breintiau ag a ommeddidi i'r dyspaddedig yn cael eu gommeddi i'r rhai a elwir yma yn *fastarddiad*, dan haenw y deallai yr Iudde- won nid yn unig y rhai a genhedlid mewn put- cindra, eithr hefyd epil yr holl gyfryw briod- asau llogachlyd ag a waherddir yn Lef. xviii. 6, &c. Un prif reswm am y gyfraith hon oedd cadw y bobl oddiwrth y cyfryw gysylltiadau anghyfreithlon ag a ddigient Dduw, ac a ad- awent warth anniledwyr ar eu hiliogaeth. *Y ddegfed genhedlaeth iddo hefyd ni chaiff ddy- fod i gynulleidfa yr Arglwydd*—yr hyn a arwydda na eliaent ddyfod yno byth, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr adnod nesaf.

na ddeued i gynulleidfa yr Arglwydd byth:

4 Oblegid ni chyfarfuant â chwi â bara ac â dwfr yn y ffordd, wrth eich dyfod o'r Aiff; ac o achos cyflogi o honynt i'th erbyn Balaam fab Beor o Pethor yn Mesopotamia, i'th fell- dithio di.

5 Eto yr Arglwydd dy Dduw ni fynodd wrando ar Balaam: ond trö- odd yr Arglwydd dy Dduw y felldith yn fendith i ti; canys hoffodd yr Ar- glwydd dy Dduw dydi.

6 Na chais eu heddwch hwynt, na'u daioni hwynt, dy holl ddyddiau byth.

7 ¶ Na ffieiddia Edomiad; canys dy

Adn. 3. *Na ddeled Ammoniad na Moab- iad*] Cafodd y cenhedloedd hyn eu darostwng i warth neillduol am eu hannuwioledeb a'u drygioni, ac ar y cyfrif hwn ni oddefid iddynt ddal unrhyw swydd yn mblith yr Israeliaid. Eithr nid oedd hyn yn eu hannghymbwysio i fod yn *broselytiaid*; a darfu i Rûth, yr hon oedd Foabes, ymbriodi â Boaz neu Boos, a daeth yn un o henafiaid ein Harglwydd: gwel Ruth iv. 13, a Mat. i. 5.

Adn. 4. *Oblegid ni chyfarfuant â chwi â bara ac â dwfr*] Sef â bwyd a diod, megys yr oedd yn arferiad yn yr amseroedd a'r gwled- ydd hyn y gda golwg ar ddyethriaid ac ym- deithwyr, am nad oedd yno westtai cyffredin. Eu bai hwy gan hwy oedd annhrugarogrwydd i ddyethriaid a rhai trallodus, yr hwn a fwy- hëid trwy eu perthynas hwy fel plant Lot a'r Israeliaid, a thrwy dynerwech neillduol Duw a'r Israeliaid tuag atynt wrth beidio ymladd yn eu herbyn. *Ac o achos cyflogi o honynt i'th erbyn Balaam*—fel y mae yr ymadrodd blaenorol yn cyfeirio yn neillduol at yr Am- moniaid, felly y mae hwn at y Moabiaid, Num. xxii. 5—7.

Adn. 5. *Ond tröodd yr Arglwydd dy Dduw y felldith yn fendith i'th*] Y mae ein gelynhur yn fynych yn oferynnau difwriad i wneuthur daioni i ni. Y mae y drwg ag y mynent ei ddwyn arnom ni yn troi yn eu herbyn y hun- ain, a gwneir ninau yn gyfranogion o'r ben- dithion hyn nas gallant hwy byth ymgyfran- ogi o honynt.

Adn. 6. *Na chais eu heddwch hwynt*] Na wna gyngrhair â hwynt trwy briodas, cyfam- mod, na maeriaeth; eithr yn hytrach cadw olwg eiddig arnynt yn wastadol, megys gel- ynyon yn gwylio ar bob cyfle i'th rwydo a'th aflonyddu. Nid oedd personau Israelaidd yn cael eu gwahardd trwy hyn i gyflawni unrhyw swydd o hynawsedd iddynt, ond gwaherddir i gorff y genedl bob cyweithas agos â hwy.

Adn. 7. *Na ffieiddia Edomiad, canys dy frawd ydd*] Hiliogaeth Esau, brawd Israel. *Na ffieiddia Aiffiad, o herwydd dyeithr fu- ost yn ei wlad ef*—a derbynaiast breswylfod, nawdd, a darbodaeth ganddynt hwy dros hir amser. Peth arferol gda dynion ydyw i un uiwed ddileu y golladwriaeth o ugain o gy-

frawd yw: na ffieiddia Aifftiad; o herwydd dycithr fuost yn ei wlad ef.

8 Deued o honynt i gynulleidfa yr Arglwydd y drydedd genhedlaeth o'r meibion a genhedlir iddynt.

9 ¶ Pan el y llu allan yn erbyn dy elynion, yna ymgadw rhag pob peth drwg.

10 ¶ O bydd un o honot heb fod yn lân, o herwydd damwain nos; eled allan o'r gwersyll; na ddeued o fewn y gwersyll.

11 Ac yn min yr hwyr ymolched mewn dwfr: yna wedi machludo yr haul, deued i fewn y gwersyll.

12 ¶ A bydded lle i ti o'r tuallan i'r gwersyll; ac yno yr âi di allan.

13 A bydded genyt rawffon yn mysg dy arfau: a bydded pan eis-teddych allan, gloddio o honot â hi, a

mwynasau: eithr nid yw Duw byth yn ymddwyn felly tuag atom ni, ac ni fyn efe i ninau ymddwyn felly tuag at ereill; ond y mae yn gorchymyn i ni faddeu niweidiau a chofio cymwynasau.

Adn. 8. *Y drydedd genhedlaeth*] Ar ol iddynt fod yn broselytiaid i'r wir grefydd am dair genhedlaeth, gallent gydymgorffori â'r wladuriaeth Iuddeuwig; ac yn ol yr athrawon Hebreig, yr wrymion yw drydedd genhedlaeth.

Adn. 9. *Yna ymgadw rhag pob peth drwg*] Yn (1) Rhaid i'r milwyr eu hunain ochelyd rhag pechod, am fod euogrwydd yn gwneyd dynion yn llwfr-weision; ac heblaw hyny, with gadw cydwybod ddirwystr gallent edrych yn ngwynneb angau yn ddiddychryn. (2) Rhaid i *gorff y bobl*, y rhai a arhosent gartref, ymgadw rhag pob peth drwg, rhag iddynt trwy bechod heri i Dduw dynu ei bresenoldeb oddiwrth y llu, a rhoddi buddugoliaeth i'r gelynnion er ceryddu ei bobl ei hun. Dylai amseroedd rhyfel fod yn amseroedd o ddiwygiad cyffredinol, onidê pa fodd y gallwn ddysgwyl i Dduw ateb ein gweddiau am lwyddiant?

Adn. 10, 11. *O bydd un o honot heb fod yn lân o herwydd damwain nos*] Tybir mai yr un peth a olygir with *damwain nos* yn yr adnod hon, a *disgyniad had* yn Lef. xv. 16. Yn yr achos hwn yr oedd efe i olchi ei gnawd oddiwrth ei afendud seremonïol, ac i fod yn arian hyd yr hwyr.

Adn. 12—14. *A bydded lle i ti o'r tuallan i'r gwersyll—a bydded genyt rawffon, &c.*] Dywedir fod y Tyrciaid eto yn arferyd yr un glauweithdra yn eu gwersyll. Gall y cyfarwyddiadau hyn ymddangos yn ffiloregi rai, eithr yr oeddynt yn anbeborol angenrheidiol i'r bobl hyn yn eu hamgylchiadau presenol. Y mae glauweithdra yn dwyn yn mlaen ichyd, ac yn attal llawer o glefydion. A rheswm arall ydoedd, am fod yr Arglwydd eu Duw yn rhoddi yn eu plith, i'w gwaredu, ac i roddi eu gelynnion o'u blaen hwynt; ac yr oedd yn ber-

thro a chuddia yr hyn a ddaeth oddiwrthyt.

14 O herwydd bod yr Arglwydd dy Dduw yn rhodio yn mhlith dy wersyllau, i'th waredu, ac i roddi dy elynion o'th flaen di: am hyny bydded dy wersyllau yn santaidd; fel na welo ynot ti ddim brynti, a throï oddiwrthyt.

15 ¶ Na ddyro at ei feistr was a ddiangodd atat oddiwrth ei feistr.

16 Gyda thi y trig yn dy fysg, yn y fan a ddewisio, yn un o'th byrth di, lle byddo da ganddo; ac na chystuddia ef.

17 ¶ Na fydded putan o ferched Israel, ac na fydded puteiniwr o feibion Israel.

18 Na ddwg wobr putan, na gwerth ci, i dŷ yr Arglwydd dy Dduw, mewn

yglus, os gwelai Duw ddim brynti ynddynt, iddo ef droi oddiwrthyt hwy, adn. 14.

Adn. 15, 16. *Na ddyro at ei feistr was a ddiangodd atat oddiwrth ei feistr*] Hyny yw, gwas a adawodd feistr eilunaddolgar fel y gallai ymuno â Duw a'i bobl. Y mae cyfreithiau Lloegr yn diogelu ac yn noddi ffoaduriaid a gydymagwedant â'n deddfau ninau yr un modd.

Adn. 17. *Na fydded putan o ferched Israel*] Y fath ag a oddefid ac a gefnogid yn cenedloedd, ac a arferid yn eu haddoliadau crefyddol. Er fod hyn yn waharddedig i bawb, eto yr oedd yn llawer mwy atgas yn Israel nag yn neb. *Ac na fydded puteiniwr*—Saes. *sodomiad*, neu wrygydiwr. Y mae y geiriau gwreiddiol, y rhai a gyfieithiwn ni yn *butan a sodomiad*, yn arwyddoedd dyn neu ddynes gysgredig i ryw dduw, y rhai a addolent eu duwiau trwy buteindra.

Adn. 18. *Na ddwg wobr putan, na gwerth ci, i dŷ yr Arglwydd*] Yr oedd amrai butanod cyffredin yn cysegru i'w duwiau ran o'u henlliadau aflan; ac yr oedd rhai o'r putanod hyn yn cael eu cadw yn gyhoeddus yn nheul *Venus Melytta*, henlliadau y rhai a roddid tuag at gynal ei haddoliad ffaidd hi! Ond pa ham y mae *wobr putan a gwerth ci* yn cael eu cysylltu yn yr un gyfraith? Meddyliodd rhai mai am fod y *ci* yn cael ei *addoli* gan yr Aifftiaid; a bod Duw, i gadw ei bobl rhag eilunaddoliaeth, yn bwir y dirmyg hwn ar y creadur hwnw yn ngwithodiad yr arian ag y gwerthid ef am danynt. Ond dichen fod *ci* yma yn cael ei gymeryd mewn ystyr ffiguraid am y *puteiniwr* neu y *gwrwygydiwr* crybwyllledig adn. 17; ac nid yn annulriodol y gelwir y cyfryw ddynion yn *gŵn*, ar gyfrif eu hanlladrwydd digywilydd a'u moesau anifeilaidd: gwel Mat. xv. 26, 2 Pedr ii. 22, Dat. xxii. 15. Fod y fath rai yn y wlad mewn amseroedd diweddarach a ddysgwn oddiwrth 1 Bren. xiv. 24, a xv. 12, y rhai yn debygol a logid megys putanod. Modd bynag gellir casglu oddiwrth Num. xviii. 15, nad yw

un adduned: canys *y maent* ill dau yn ffiائد gan yr Arglwydd dy Dduw.

19 ¶ Na chymer ocræth gan dy frawd; ocræth arian, ocræth bwyd, ocræth dim y cymerir ocræth am dano.

20 Gan estron y cymeri ocræth; ond na chymer ocræth gan dy frawd: fel y bendithio yr Arglwydd dy Dduw di yn mhob peth y rhoddych dy law arno, yu y tir yr ydwyt yn myned iddo i'w feddiannu.

21 ¶ Pan addunedech adduned i'r Arglwydd dy Dduw, nac oeda ei thalu: canys yr Arglwydd dy Dduw gan ofyn a'i gofyn genyt; a byddai yn bechod ynot.

22 Ond os peidi âg adduned, ni bydd pechod ynot.

23 Cadw a gwna yr hyn a ddaeth allan o'th wefusau; megys yr addunedaid i'r Arglwydd dy Dduw offrwm gwirfodd, yr hwn a draethaist â'th enau.

gwerth ei yn cael ei wrthod yma am ei fod ef yn greadur *afan* yn unig.

Adn. 19. *Na chymer ocræth gan dy frawd*] Yr oedd pob Israeliad yn dal ei etifeddiaeth yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw, yr hwn, pe mynasai, a allasai orchymyn iddynt gael pob peth yn gyffredin: eithr yn lle hyny, ac fel arwydd o'u cyd-hawl yn y wlad, ni wnaeth efe ond penodi iddynt roddi benthyg i'w gilydd yn ddilôg. Ni fyddai hyn yn eu plith hwy ond ychydig neu ddim colled i'r hwn a roddai fenthyg, am fod eu tiroedd wedi eu rhanu mor gyfartal, a bod cyn lleied o faeleraeth yn eu mysg, fel mai anfynych y byddai arnynt angen am fenthyca unrhyw swm, oddi eithr yn achlysurol i gynal teulu hyd y cynaauaf dyfodol.

Adn. 20. *Gan estron y cymeri ocræth*] Gan y tybid ei fod ef yn byw ar fasnach, ac am hyny yn ennill trwy yr hyn a gai ei fenthyg; yn mha achos yr oedd yn gyfiawn i'r neb a roddai fenthyg gael cyfranogi o'r ennill; ond gwaherddid iddynt orthrymu hyd yn nod estron.

Adn. 21—23. *Pan addunedech adduned*] Gwel ar Num. xxx. 1, &c.; *nac oeda ei thalu* —am y gallai oediad eu gwneuthur hwy yn anewyllysgar i'w thalu, os nid yn aualluog befyd.

Adn. 24. *Pan ddelych i winllan—bwyta o rawnwin dy wala*] Gymaint ag a elli, neu a ddymini; *ond na ddod yn dy lestr yr un*—na chymer un ymaith gyda thi. Goddefid hyn i ymdeithwyr er eu cynal; ac nis gallai brofi yn dra niweidiol i'r perchenog, gan fod y firwythydd yn y gwledydd hyny yn dra hel-aethlawn.

Adn. 25. *Cai dynu y twysenau â'th law*] Ar sail y gyfraith hon y darfu i'r dysgyblion dynu y twysenau yd, fel yr adroddir Mat. xii.

24 ¶ Pan ddelych i winllan dy gymydog, yna bwyta o rawnwin dy wala, wrth dy feddwl; ond na ddod yu dy lestr yr un.

25 Pan ddelych i yd dy gymydog, yna y cai dynu y twysenau â'th law; ond ni chai osod cryman yn yd dy gymydog.

PENNOD XXIV.

PAN gymero gŵr, wraig, a'i phriodi; yna oni chaiff hi ffafyr yn ei olwg ef, o achos iddo gael rhyw afleidd ynddi; ysgrifened iddi lythyr ysgar, a rhoddod yn ei llaw hi, a gollnged hi ymaith o'i dŷ.

2 Pan elo hi allan o'i dŷ ef, a myned ymaith, a bod yn eiddo gŵr arall:

3 Os ei gŵr diweddaŷ a'i casâ hi, ac a ysgrifena lythyr ysgar iddi, ac a'i rhydd yn ei llaw hi, ac a'i gollnged hi o'i dŷ; neu os bydd marw y gŵr diweddaŷ a'i cymerodd hi yn wraig iddo:

1; ac yr oedd hon yn ddeddf ddarbodus a hynaws, heb fod yn warth i unrhyw wladwriaeth.

PEN. XXIV. Adn. 1. *O achos iddo gael rhyw afleidd ynddi*] Rhyw anhwylder corfforol, neu dymher meddwl, nad amlygwyd cyn priodi. Rhaid fod yr *afleidd* hwn yn arwyddo rhywbeth llai na godineb, canys am hwnw yr oedd hi i'w rhoddi i farwolaeth; a rhywbeth llai na drwygdybiaeth o hono, oblegid yn yr amgylchiad hwnw gallasai roddi iddi ddwfr eiddgedd; ac y mae yn arwyddo naill ai ymarweddiad ysgafn, neu dymher wrthnysig, neu ryw ddolur neu afiechyd ffi-aid, neu anadl ddrewedig. Yr oedd eu calonau hwy mor gelyd fel ag y darfu i Moses *oddef* ysgariad am hyn, er fod y cyfryw odefiad yn hollol anghyfon âg amean gwreiddiol priodas: gwel ar Mat. v. 31, a xix. 3.

Adn. 2. *A bod yn eiddo gŵr arall*] Canys ar ol ei hysgaru, meddylir yn gyffredin ei bod hi yn rhydd i briodi gŵr arall, trwy fod yr ysgariad wedi dattod y rhwymiad priodasol mor llwyr ag y gallai angau ei wneuthur.

Adn. 3. *Ac a ysgrifena lythyr ysgar iddi*] Y llythyrâu hyn, er yn amrywio mewn geiriau, sydd yr un o ran sylwedd yn mhlith yr Iuddeonwyr yn mhob lle. Y ffurf ganlynol, wedi ei chymeryd o waith Maimonides ac ereill, a arferid yn gyffredin:

'Ar y — dydd o'r wythnos, neu y — dydd o fis A., yn y — flwyddyn er cread y byd, neu er y cyfrinad (Alexandriaidd) yn ol y cyfrif ag yr ydym ni yn arferol o rifo wrtho, yma, yn y lle B., myfi C., mab D., o'r lle B., (neu od oes ryw *enw* arall ag sydd genyf fi, neu ag ydoedd gan fy nhad, neu gan fy lle i neu le fy nhad), yn wirfodol, a chydag ewyllysgarwch fy enaid, yn ddiordfodaeth, a'th ollyngais, a'th adewais, ac a'th roddais di ymaith, ie tydi E., merch F., o'r ddeinas G., (neu od oes i ti ryw *enw* neu *gyfenw* arall, tydi neu dy dad, neu dy le di neu le dy dad), yr hon a fuost yn

4 Ni ddichon ei phriod cyntaf, yr hwn a'i gollyngodd hi ymaith, ei chymeryd hi drachefn i fod yn wraig iddo, wedi iddi ymhalogi: canys flicidd-dra gwlyn o flaen yr Arglwydd; ac na wna i'r wlad bechu, yr hon a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti yn etifeddiaeth.

5 ¶ Pan gymero gŵr wraig newydd, nac eled i ryfel, ac na rodder gofal dim arno: caiff fod gartref yn rhydd un flwyddyn, a llawenhau ei wraig a gymerodd.

6 ¶ Na chymered *neb* faen isaf nac uchaf i felin ar wystl: canys y mae yn cymeryd bywyd *dyn* yn ngwystl.

7 ¶ Pan gaffer gŵr yn lladrata un o'i frodyr o feibion Israel, ac yn ymelwa arno, neu yn ei werthu; yna

lladder y lleidr hwnw, a thyn di ymaith y drwg o'th fysg.

8 ¶ Gwylia yn mhla y gwahanglwyf, ar ddyfal-gadw, a gwneuthur yn ôl yr hyn oll a ddysgo yr offeiriad y Lefiaid i chwi: edrychweh am wneuthur megys y gorchymynais wrthynt hwy.

9 Cofia yr hyn a wnaeth yr Arglwydd dy Dduw i Miriam ar y ffordd, wedi eich dyfod allan o'r Aiff.

10 ¶ Pan fenthyciech i'th gymydog fenthyg dim, na ddos i'w dŷ ef i gymeryd ei wystl ef.

11 Allan y sefi; a dyged y gŵr y benthyciaist iddo y gwystl allan atat ti.

12 Ac os gŵr tylawd *fydd* efe, na chwsg â'i wystl *gyda* thi.

wraig i mi hyd yn hyn; eithr yn awr yr wyf yn dy ollwng, yn dy adael, ac yn dy roddi ymaith, fel y gallot fod yn rhydd, a maeu awdurdod dros dy einioes dy hun, i fyned ymaith i briodi âg unrhyw ddyu a fynt; ac fel na byddo i un dyn gael ei ommedd o'th law, o achos fy enw i, o'r dydd hwn ac yn dragwydd. Ac fel hyn yr wyf yn gyfreithlon i unrhyw ddyu; ac y mae hon i ti, oddiwrtwyf ũ, yn ysgrif o ysgariaeth, ac yn offeryn o ollwnglod, ac yn llythyr o roddiad ymaith, yn ol deddf Moses ac Israel.

A., mab B., tyst.
C., mab D., tyst.'

Adn. 4. *Ni ddichon ei phriod cyntaf—ei chymeryd hi drachefn*] Os byddai i'w hail ŵr farw, neu ei hysgaru hi, yna gallai eto briodi y trydydd; ond ni chaf ei gŵr cyntaf ei chymeryd hi byth drachefn, yr hyn a allasai ei wneuthur pe na phriodasai hi ŵr arall, fel y tybia Grotius ac amrai esboniwyr dysgedig ereill. Hon oedd y gosg am ei anwadlweh a'i anghyfiawnder ef yn ei rhoddi hi ymaith heb ddigonol achos, yr hyn y mae efe, trwy y cynnygiad hwn, yn awr yn ei gydnabod. *Wedi iddi ymhalogi*—nid yn weithredol, fel pe busasai ei hail briodas hi yn bechod, ond gyda golwg ar ei gŵr cyntaf, i'r hwn y mae hi megys dynes halogedig neu aflan, hyn yw *waharddedig*; canys y mae pethau gwaharddedig yn cael eu galw yn *aflan*, Barn. xiii. 7, am nas gellir cyffwrdd â hwy na'u defnyddio mwy na pheth aflan. Modd bynag, y mae ereill yn deall yr *halogiad* hwn fel yn cyfeirio at ei chysylltiad â'i hail ŵr, gan dybio nad oedd yn gyfreithlon i wraig ysgaredig ail briodi, a bod ei phriodas o ganlyniad yn ymhalogiad neu odineb.

Adn. 5. *Pan gymero gŵr wraig newydd, nac eled i ryfel*] Gwel ar pen. xx. 5; *ac na rodder gofal dim arno*—unrhyw swydd neu orchwyl choeddus, yr hyn a allai beri iddo fod oddiwrtw neu esgeuluso ei wraig. *Caiff fod gartref yn rhydd un flwyddyn*—fel y gallu ffurfio sefydliad teuluaid, a gadael etifedd i'w feddiannau os dygwyrddai iddo ef wedi hyn yrthio mewn rhyfel. Darfu i Alexander Fawr, yn ei ryfelgyrch yn erbyn Persia, gydymffurfio i ryw raddau â'r gyfraith hon; canys ar ol brwydr Granicus, a chyn iddo fyned i auafu, efe a orchymynodd i bob

un o'i fyddin ag ydoedd wedi priodi y flwyddyn hono ddychwelyd i Macedonia, a threulio y gauaf gyda'u gwragedd; a gosododd dri chadben arnynt i'w harwain hwynt adref, a'u dwyn yn ol drachefn ar yr amser penodedig.

Adn. 6. *Na chymered neb faen isof nac uchaf i felin ar wystl*] Yr oedd yr Israeliaid, fel yr hen Gymry, yn defnyddio llaw-felinau bychain i falu eu hŷd; ac y mae y rhai hyn mewn arferiad eto mewn amrai barthau o'r dwyrain. Gan fod blawd diwrnod yn cael ei falu yn gyffredin erbyn pob diwrnod, trwy nad oeddynt yn cadw ystôr, o ganlyniad gwaherddid iddynt gymeryd nn o'r meini hyn ar wystl, am y byddai raid i'r teulu yn y fath achos fod heb fara. Ar y cyfrif hwn gelwir y maen melin yn y testyn yn *fywyd* dyn; a diau fod pob peth arall angenrheidiol er bywoliaeth yn cael ei gynwys yn y gwabarddiad hwn. Gwaharddai y Rhufeiniaid gymeryd ŷch nac arad y llafuwr i dalu ei ddyledion; ac y mae yr un ddarpariaeth hynaws yn ein cyfreithiau ninau hefyd, y rhai a waharddant afaelyd yn arfau neu gelfi y gweithiwr: gwel Blackstone, llyfr iii. pen. i.

Adn. 7. *Pan gaffer gŵr yn lladrata un o'i frodyr—Uadder y lleidr hwnw*] Er nad oedd lladrata anifeiliaid neu eiddo yn cael ei farnu yn haeddu marwolaeth, eto yr oedd lladrata plentyn, neu ddyn egwan a gwirin, ac ymelwa arno, yn drosedd angeuol; ac nis gellid gwneyd iawn am dano, fel am lladradau ereill, trwy edryd, gan gymaint yw 'dyn yn well na dafad,' Mat. xii. 12. Gwel ar Exod. xxi. 16.

Adn. 8. *Y gwahanglwyf*] Am y dolur hwn gwel ar Lef. xiii. a xiv.

Adn. 9. *Cofia yr hyn a wnaeth yr Arglwydd dy Dduw i Miriam*] Gwel ar Num. xii. 10. Ymddengys i hynny gael ei fwrriadu fel rhybydd rhag iddynt hwy gablu urddas, nac anafyddhau i orchymyn yr offeiriad, yr hyn a allai ddwyn yr un peth arnynt hwythau ag a roddes Duw ar Miriam.

Adn. 10. *Na ddos i'w dŷ ef i gymeryd ei wystl ef*] I ddewis y peth a fynot fel sicriwydd am y ddyled, heb ei gydsyniad ef.

Adn. 11. *Allan y sefi*] Rhag gwleed ei angheinion ef; neu i attal trachwant, yr hwn y

13 Gan ddadroddi dyro ei wystl iddo pan fachludo yr haul, fel y gorweddó yn ei wisg, ac y'th fendithio di: a bydd *hyn* i ti yn gyfiawnder o flaen yr Arglwydd dy Dduw.

14 ¶ Na orthryma was cyflog tylawd ac anghenus o'th frodyr, neu o'th ddyeithrddyn, a *fyddo* yn dy dir o fewn dy byrth di.

15 Yn ei ddydd y rhoddi iddo ei gyflog; ac na fachluded yr haul arno: canys tylawd yw, ac â hyn y mae yn cynal ei einioes: fel na lefo ar yr Arglwydd yn dy erbyn, a bod pechod ynot.

16 Na rodder i farwolaeth dadau dros blant, ac na rodder plant i farw dros dadau: pob un a roddir i farwolaeth am ei bechod ei hun.

17 ¶ Na wýra farn y dycieithr *na'r* amddifad; ac na chymer ar wystloraeth wisg y weddw.

18 ¶ Ond meddwl mai caethwas fuost yn yr Aifft, a'th waredu o'r Arglwydd dy Dduw oddiyno: am hyny yr wyf fi yn gorchymyn i ti wneuthur y peth hyn.

gellid ei achlysurowrth weled rhywbeth ag y byddai i'r gofynwr ei ddymuno, yr hwn nas gallai y dyledwr ei hebgor.

Adn. 12. *Na chwsg á'i wystl gyda thi*] Ond dychwel ef iddo erbyn yr hwyr: gwel ar Exod. xxii. 26. Darfu i'r Iuddewon mewn rhai achosion ymddynt yn groes i'r rheol hon, am yr hyn y cerdyddir hwy yn llym gan y proffwyd Amos, pen. ii. 8.

Adn. 13. *Ac y'th fendithio*] Y dygo i lawr fendith Duw arnat titiwy ei weddiau; a *bydd hyn i ti yn gyfiawnder*—edrychir arno gan Dduw megys gweithred o gyfiawnder neu drugaredd.

Adn. 14. *Na orthryma was cyflog tylawd*] Trwy gadw ei gyflog oddiwrtho pan yn ddyledus.

Adn. 15. *Yn ei ddydd y rhoddi iddo ei gyflog*] Sef ar yr amser ag y cytunwyd arno, yn ddyddiol neu wythnosol. Cyfeirir yma at was cyflog a fyddai mor dylawd fel nas gallai gael angenheidiau iddo ei hun a'i deulu heb gael ei gyflog yn ei aniser. *Fel na lefo ar yr Arglwydd yn dy erbyn*—os bydd ei deulu yn dyoeddf trwy i ti attal ei gyflog ar ol i'r amser ddyfod i fyny.

Adn. 16. *Na rodder i farwolaeth dadau dros blant, &c.*] Os bydd y naill yn rhydd oddi wrth euogrydd pechod y llall, oddieithr yn yr achosion hyny lle y darfu i Benarglwydd bywyd a marwolaeth, getbron yr hwn nid oes neb yn ddiueog, ei orchymyn, megys pen. xiii. 15, Jos. vii. 24. Er fod Duw yn ymweled ág anwiredd y tadau ar y plant, (Exod. xx. 5,) eto ni oddefa ef i ddyonion wneuthur felly. Ymddengys fod yr Aifftiaid, y Macedoniaid, a'r Persiaid, yn arferyd y creulonedd hwn.

Adn. 17. *Na wýra farn y dycieithr*] Gwel ar Exod. xxii. 21, &c.

19 ¶ Pan fedech dy gynauaf yn dy faes, ac anghofio ysgub yn y maes, na ddychwel i'w chymeryd: bydded i'r dycieithr, i'r amddifad, ac i'r weddw; fel y bendithio yr Arglwydd dy Dduw di yn holl waith dy ddwyllaw.

20 Pan ysgydwech dy olewyydden, na loffa ar dy ol: bydded i'r dycieithr, i'r amddifad, ac i'r weddw.

21 Pan gesglych rawnwin dy winllan, na loffa ar dy ol: bydded i'r dycieithr, i'r amddifad, ac i'r weddw.

22 Meddwl hefyd mai caethwas fuost yn nhir yr Aifft: am hyny yr ydwyf fi yn gorchymyn i ti wneuthur y peth hyn.

PENNOD XXV.

PAN fyddo amrafael rhwng dynion, a dyfod i farn i'w barnu; yna cyfiawnhant y cyfiawn, a chondemnant y beius.

2 Ac o bydd y mab drygionus i'w guro, pared y barnwr iddo orwedd, a phared ei guro ef ger ei fron, yn ol ei ddryganiaeth, dau rifedi.

Adn. 18. *Meddwl mai caethwas fuost*] Y mae y rhan fwyaf o gyfoethogion y ddaear wedi codi o dylodi mewn cydmhariaeth; canys y mae y rhai a *enir* i etifeddiaethau yn eu gwastraffu ymaith yn fynych: gan hyny dylai y cyfryw gofio *pa beth* oedd eu teimladau, eu hofnau, a'u cyfyngderau, pan yr oeddynt yn dylawd a distadl. Diflyg sylwi ar y gorchymyn tra llesol hwn yw y rheswm paham mai balchder a rhodres yw gweddnodau cyffredin y rhai a godasant o dylodi i gyfoeth; ac ymddygiad rhai o'r gwýr yna roddes gyfodiad i'r ddiareb, 'Dod gardotyn ar gefn march, ac efe a ferchyg i'r d—l.'

Adn. 19—22. *Pan fedech dy gynauaf yn dy faes, ac anghofio ysgub yn y maes, na dychwel i'w chymeryd*] Y mae hyn yn chwagnegiad at y gyfraith yn Lef. xix. 9, a xxiii. 22. Yr oedd *conglau* y maes, y *loffion*, a'r *ysgub anghof*, oll yn eiddo y tylawd; ac yr oedd yr Iebraid yn estyn hyn at firwythydd eu coed yn gystal a chynyrch eu maes.

PEN. XXV. Adn. 1. *Yna cyfiawnhant y cyfiawn*] Rhyddbant ef, gan ei gyhoeddi yn ddiueog; a *chondemnant y beius*—cyhoeddant ef yn euog, a dedfrydant ef i gosp gyfatebol i'w fai.

Adn. 2. *A phared ei guro ef ger ei fron*] Fel y byddo y gosp yn gyfatebol, heb fod yn ormod nac yn rhy fach. Y mae y gorchymyn hwn yn cael ei ddylyu yn llythyrenol yn China, lle y derbynia y troseddwr, yn ngwydd yr ynad, y gosp ag y gorchymyna y gyfraith ei gweinyddu. Fel hyn cenfydd yr ynad fod llythyren y gyfraith yn cael ei biawn gyflawni, ac nad yw y swyddogion yn ei throeddu trwy *driondeb* ar y naill law, na *thoster* ar y llall.

3 Deugain gwialenod a rydd iddo, ac na chwanedged: rhag os chwanea, a'i guro ef â llawer gwialenod, uwch law hyn, a dirmygu dy frawd yn dy olwg.

4 ¶ Na chau safn ŷch tra fyddo yn dyrnu.

5 ¶ Os brodyr a drigant yn nghyd, a marw un o honynt, ac heb blentyn iddo; na phrioded gwraig y marw wr dycieithr oddiallan: aed ei chyfathrachwr ati, a chymered hi yn wraig iddo, a gwnaed iddi ran cyfathrachwr.

6 A bydded i'r cyntafanedig a ymddygo hi sefyll ar enw ef frawd *a fu farw*; fel na ddilœer ei enw ef allan o Israel.

7 Ac oni bydd boddllawn y gŵr i gymeryd ei gyfathrachwraig; yna acd

ei gyfathrachwraig i fyny i'r porth at yr henuriaid, a dyweded, Gwrthododd ŷy nghyfathrachwr godi i'w frawd enw yn Israel: ni fyn efe wneuthur rhan cyfathrachwr â mi.

8 Yna galwed henuriaid ei ddinas am dano ef, ac ymddyddanant âg ef: o saif efe, a dywedyd, Nid wyf fi foddllawn i'w chymeryd hi;

9 Yna nesâed ei gyfathrachwraig ato ef yn ngwydd yr henuriaid, a ddtoded ei esgid ef oddiam ei droed, a phoered yn ei wyneb ef, ac atebed, a dyweded, Felly y gwnair i'r gŵr mid adeilado dŷ ei frawd.

10 A gelwir ei enw ef yn Israel, Tŷ yr hwn y dattodwyd ei esgid.

11 ¶ Os ymryson dymion yn nghyd, *sef gŵr â'i frawd, a nesân gwraig y*

Adn. 3. *Deugain gwialenod a rydd iddo, ac na chwanedged*] Yr oedd y Rhufeiniaid yn fflangellu troseddwr yn fynych i farwolaeth. Ond ymddengys nad oedd yr Iuddewon yn eu ffreylliadau yn cyraedd y rhif hwn; ac yn gyson â hyn y dywed Paul, 2 Cor. xi. 24, 'Gan yr Iuddewon bumwaith y derbyniais ddeugain gwialenod ond un.' Dywed rhai mai y rheswm am hyn ydoedd, rhag iddynt trwy gamgymeriad fyned dros ben y rhif *deugain*, ac felly droseddu y gyfraith hon. Eithr ereill a rhoiant gyfrif am dano fel hyn: Arferai yr Iuddewon ffreyllu â ffreyll o dair caine, ac felly cyfrifant un tarwiad yn dri ffreylliad; ac wrth i'r troseddwr gael 13 o darwiadau, gwnai hyny 39 o ffreylliadau; ac nis gellid rhoddi iddo 14 o darwiadau, heb wneuthur y ffreylliadau yn 42, ac felly roddi mwy nag a ganiatai y gyfraith. *Rhag—dirmygu dy frawd yn dy olwg*—rhag ei wneuthur ef yn warthus yn ngolwg ei frodyr, naill ai trwy driniaeth greulon fel pe byddai yn anifel direswm; neu ynte trwy ryw afluenciddrwydd neu eiddilwch corfforol, yr hyn y gallai gormod o wialenodiau ei achosi.

Adn. 4. *Na chau safn ŷch tra fyddo yn dyrnu*] Yn Judea, yn gystal ag yn yr Aifft, gwlad Groeg, a'r Eidal, defnyddid ychain i ddyntu yr ŷd allan. Gwnaent hyn weithiau trwy ei sathru, ac weithiau trwy lusgo rhywbeth trwyddo ac ar byddo. Yn lle ychain, defnyddia trigolion Barbary yn fynych fudol a meirch, trwy rwymo gerfydd y gwddf dri neu bedwar yn nghyd, a'u ffreyllu wedi hyny o amgylch y llaw dyrnu, lle y mae yr ysgubau yn gorwedd yn daenedig oddiamgylch. Tra y mae yr ychain yn gweithio, arferai rhai gan eu safnau i rwystro iddynt fwyta yr ŷd, yr hyn y mae Moses yma yn ei wahardd; gan ddyngu i'r bobl, trwy y gorchymyn arwyddocaol hwn, fod yn dirion wrth eu gweinidogion a'u llafurwyr, ac yn enwedig wrth y rhai a weinyddent iddynt mewn pethau santaid: felly y cymhwysir yr ymadrodd gan St. Paul, 1 Cor. ix. 8, &c., 1 Tim. v. 18.

Adn. 5. *Os brodyr a drigant yn nghyd*] Yn yr un dref, neu o leiaf yn yr un wlad:

canyis os byddai y brawd nesaf wedi symud ei driga i barthau pellenig, yr oedd gwraig y marw yn rhydd i briedi y cyfathrachwr nesaf a fyddai yn byw yn yr un lle a hi. *Na phrioded gwraig y marw wr dycieithr*—un o deulu arall. Y rheswm am y gyfraith hon oedd cadw i fyny wahaniaeth *llwythau a theulu-oedd*, fel trwy hyny y gallai y MESSIA gael ei ddatguddio trwy y teulu o'r hwn y penodwyd iddo ddeilliaw; ac hefyd wahaniaeth *ctiffediaethau*, y rhai a ddosberthid yn mysg yr holl frodyr.

Adn. 6. *Fel na ddilœer ei enw ef allan o Israel*] Fel na choller y teulu. Felly yr oedd hon yn ddarpariaeth rhag i rif en teuluoedd leihau.

Adn. 7, 8. *Ac oni bydd boddllon y gŵr*] Ni onfodid ef i'w phriodi hi, os na fyddai yn ei hoffi. Yr oedd *serch* yn anheborol er cysur y cyflwr priodasol: a chan fod hwn yn beth nas gellir ei ddirgymhell, ni ddylid gorfodi priodas hebddo. Er hyny yr oedd y weddw, fel yr un ag ydoedd i ofalu yn fwyaf am enw ac amhydedd y marw, i achwyn wrth yr henuriaid am y gommeidd hwn, a gwaradwyddid yntau ar gyhoedd am beidio ei phriodi.

Adn. 9. *A ddtoded ei esgid ef oddiam ei droed*] Fel arwydd o'i waith yn rhoddi i fyny ei holl hawl yn y wraig, ac yn etifeddiaeth ei gŵr; canys fel yr oedd yr *esgid* yn arwydd o awdurdod a hawl, (gwel Salm lx. 8, a cyvil. 9.) felly yr oedd ymadael â'r esgid yn arwydd o drosglwyddiad y cyfwr hawl; ac yr oedd yn nôd o warth, ac o ddarostyngiad i gyflwr y gweision iselaf, y rhai a arferent fyned yn droednoeth, Esay xx. 2, 4. *A phoered yn ei wyneb ef*—yr oedd poeri yn y wyneb yn arwydd o'r sarhad mwyaf. Ond dywed yr Iuddewon nad oedd yn poeri yn ei wyneb, eithr o *flaen* ei wyneb ar y ddaear. A dyma y ffordd yn yr hon y mae yr Asiaid yn amlygu eu hatgasrwydd at un hyd heddyw.

Adn. 10 *A gelwir ei enw ef*] Sef ei berson, ei eiddo, a'i hiliogaeth; *Tŷ yr hwn y dattodwyd ei esgid*—felly yr oedd yn warth parhaus.

Adn. 11, 12. *Os ymryson dymion yn nghyd*] Ar ol iddynt yn gyntaf ymddyng yn noeth i ymladd. *A nesdu gwraig y naill i achub ei*

naill i aelub ei gŵr o law ei darawydd, ac estyn ei llaw ac ymaflyd yn ei ddirgeloedd ef;

12 *Tor ymaith ei llaw hi:* nac arbeded dy lygad *hi*.

13 ¶ Na fydded genyt yn dy gôd amryw bwys, mawr a bychan.

14 Na fydded genyt yn dy dŷ amryw fesur, mawr a bychan.

15 Bydded genyt gareg uniawn a chyfiawn; bydded genyt epha uniawn a chyfiawn: fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

16 Canys fflaidd gan yr Arglwydd dy Dduw bob un a wnelo hyn, *sef* pawb a'r a wnel anghyfiawnder.

17 ¶ *Cofia yr hyn a wnaeth Amalec i ti ar y ffordd,* pan ddaethoch allan o'r Aifft:

18 Yr hwn a'th gyfarfu ar y ffordd, ac a laddodd y rhai olaf o honot, yr holl weiniaid o'th ol di, a thi yn luaddedig, ac yn ddiffygiol; ac nid ofnodd efe Dduw.

19 Am hyny bydded, pan roddo yr

Arglwydd dy Dduw i ti lonyddwch oddiwrth dy holl clyniion oddiamgylch, yn y tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth i'w feddiannu, dynu o honot ymaith goffadwriaeth Amalec odditan y nefoedd: nac anghofia *hyn*.

PENNOD XXVI.

A PHAN ddelych i'r tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth, a'i feddiannu, a phreswyllo ynddo;

2 Yna cymer o bob blaenffrwyth y ddaear, yr hwn a ddygi o'th dir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, a gosod mewn cawell, a dos i'r lle a ddewisio yr Arglwydd dy Dduw drigo o'i enw ef ynddo:

3 A dos at yr offeiriad a fydd yn y dyddiau hyny, a dywed wrtho, Yr ydwyf fi yn cyfaddef heddyw i'r Arglwydd dy Dduw, fy nyfod i'r tir a dyngodd yr Arglwydd wrth ein tadau ar ei roddi i ni.

4 A chymered yr offeiriad y cawell

gŵr o law ei darawydd—rhaid fod gan y wraig ag ydoedd, wrth y gyfraith flaenorol, i achwyn ar ei chyfathrachwr am beidio ei phriodi hi, a phoei yn ei wyneb gerbron yr henuriaid, radd helaeth o eofnder; eithr rŷag i'r hyfder ag yr oedd y gyfraith hŏno yn ei gynal gynyddu i ormodedd anweddaidd, rhoddyd y gyfraith lem hon i gopsi haerilugrwydd ac anfoes, yr hyn ni allai un wraig ei wneuthur oddieithr ei bod wedi colli pob rhinwedd ac anrhydedd. *Ac estyn ei llaw ac ymaflyd yn ei ddirgeloedd ef*—nid mewn gwŷn trachwant, eithr i gynorthwyo ei gŵr ei hun i'w orchfygu ef. *Tor ymaith ei llaw hi*—er i'r weithred gael ei gwneuthur mewn gwylltineb, neu i waredo ei gŵr o law un ag ydoedd drech nag ef. *Nac arbeded dy lygad hi*—rhaid i'r barawyr beidio cymeryd arnynt fod yn fwy trugarog na Duw.

Adn. 13—16. *Amryw bwys, mawr a bychan*] Y mawr i brynu i fewn, a'r bychan i werthu allan. Yr oedd y gyfraith hon yn eu dysgu i fod mor bell oddiwrth arfer twyll, fel nad oeddynt i gadw oferynau i hyny yn eu tai: gwel ar Lef. xix. 35, 36.

Adn. 17. *Cofia yr hyn a wnaeth Amalec i ti—pan ddaethoch allan o'r Aifft*] Darfu i'r amgylchiad hwn fwyhau pechod yr Amaleciaid yn fawr, wneuthur o honynt hyn i bobl a fuaesent yn hir dan gystuddiau trymion, i'r rhai yr oedd tosturi yn ddyledus yn ol deddfau natur a dyngarwch, ac er gwaredigaeth parai y darfu i Dduw mor ogoneddus ymddangos, yr hyn nas gallent hwy fod yn anwybodus o hono.

Adn. 18. *Ac nid ofnodd efe Dduw*] Er eu bod yn ofni *Israe*l, heb feiddio edrych yn eu gwynebau, eithr eu tori ymaith o'r tu ol; eto nid ofnent *JEHOFA*, eithr ymddygent yn gi-

aidd ac annynol, mewn dirmyg ar y dwyfol awdurdod, ac ar gyfryngiadau dwyfol ragluniaeth: gwel ar Exod. xvii. 8, &c.

Adn. 19. *Dynu o honot ymaith goffadwriaeth Amalec odditan y nefoedd*] Gwel ar Exod. xvii. 14.

PEN. XXVI. Adn. 1. *A phan ddelych i'r tir, &c.*] Y mae Moses yma yn penodi iddynt y ffurfiau o gyfaddefiad a gweddi, a'r rhai yr oedd pob offrymwr i gyflwyno ei flaenffrwythau gerbron yr Arglwydd. Bwriedid hyn i'w cadw hwynt mewn coffadwriaeth barhaus o dirioudeb Duw yn eu cynal mewn cynifer o gyfyngderau, ac yn cyflawni ei addewidion iddynt.

Adn. 2. *Dos i'r lle a ddewisio yr Arglwydd*] Yr amser ag yr offrymid y blaenffrwythau hyn oedd gŵyl y pentecost, Exod. xxiii. 16; pryd, yn gystal ag ar y ddwy ŵyl fawr ereill, sef gŵyl y pasc a gŵyl y pebyll, yr oeddynt i fyned at allor Duw.

Adn. 3, 4. *A dos at yr offeiriad*] Yr oedd yn rhaid i'r offrymwr ddechreu ei gyfaddefiad cyn rhoddi ei gawell i'r offeiriad, a chyn ei dynu oddiar ei ysgwydd; ac wedi hyny yr oedd yn rhaid i'r offeiriad fyned âg ef yn mlaen, a'i ddodi gerbron yr allor megys anrheg i Dduw, eu Meistr tir mawr. *Yr ydwyf fi yn cyfaddef heddyw i'r Arglwydd dy Dduw*—fel hyn yr oedd yr offrymwr i dystio ei fod yn eu dwyn hwynt mewn cydnabyddiad diolchgar o'r rhagluniaeth a'r daioni dwyfol a'i sefydlaasai ef a'i deulu yn y wlad ffurwythlon hon, yn ganlynol i'r addewidion grasol a wnaed i'w gyndadau. Ac yr oedd y cyfaddefiad dilynol a benodwyd i'w wneuthur ar yr achlysur, wedi ei gyfaddeu yn dda i gynhyrfu yn ei feddwl ymstyngiad, diolchgarwch, ac ymuddir-

o'th law di, a gosoded ef o flaen allor yr Arglwydd dy Dduw :

5 A llefara dithau, a dywed gerbron yr Arglwydd dy Dduw, Syriad ar ddarfod am dano *oedd* fy nhad; ac efe a ddisgynodd i'r Aifft, ac a ymdeithiodd yno âg ychydig bobl, ac a aeth yno yn genedl fawr, gref, ac aml.

6 A'r Aifftiaid a'n drygodd ni, a chystuddiasant ni, a rhoddasant arnom gaethiwed caled.

7 A phan waeddason ar Arglwydd Dduw ein tadau, clybu yr Arglwydd ein llais ni, a gwelodd ein cystudd, a'n llafur, a'n gorthrymder.

8 A'r Arglwydd a'n dyg ni allan o'r Aifft â llaw gadarn, ac â braich estynedig, ac âg ofn mawr, ac âg arwyddion, ac â rhyfeddodau.

9 Ac efe a'n dyg ni i'r lle hwn, ac a roes i ni y tir hwn; *sef* tir yn llifeirio o laeth a mêl.

10 Ac yn awr, wele, mi a ddygais flaenffrwyth y tir a roddaist i mi, O Arglwydd: a gosod ef gerbron yr Arglwydd dy Dduw, ac addola gerbron yr Arglwydd dy Dduw.

11 Ymlawenycha hefyd yn mhob daioni a roddodd yr Arglwydd dy Dduw i ti, ac i'th deulu, tydi, a'r Lefiad, a'r dyeithr a *fyddo* yn dy fysg.

12 ¶ Pan ddarffo i ti ddegymu holl ddegwm dy gnwd, yn y drydedd flwyddyn, *sef* blwyddyn y degwm; yna y rhoddi i'r Lefiad, i'r dyeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw; fel y bwyaont yu dy byrth di, ac y digoner hwynt.

13 A dywed gerbron yr Arglwydd dy Dduw, Dygais *y peth* cysegredig allan o'm tŷ, ac a'i rhoddais ef i'r Lefiad, ac i'r dyeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw, yn ol dy holl orchymynion a orchymynaist i mi: ni throeddais *ddim* o'th orchymynion, ac nis anghofiais.

iediad yn Nuw; gan ei fod yn rhan bwysig o addoliad Duw, fel y sylwa Maimonides, i ddyw fod yn ystyriol o'i drallodion, ar ol i Dduw roddi iddo orplwysdra oddiwthynt.

Adn. 5. *Syriad ar ddarfod am dano oedd fy nhad*] Hyn yw, oedd *Jacob*; canys er iddo gael ei eni yn Nghanaan, yr oedd ef yn Syriad o biliogaeth, trwy fod ei fam Rebecca, a'i daid Abraham, ill dau o Galdea neu Mesopotamia, y rhai yn yr ysgrythyr a ddeallir dan yr enw *Syria*. Ei wragedd a'i blant, o ochr eu mam, yn nghyda'i berthynasau, oedd- ynt Syriaid; a bu yntau ei hun yn byw am ugain mlynedd o leiaf yn Syria gyda Laban. *Ar ddarfod am dano*—trwy angen a thylodi, neu trwy gynddaredd ei frawd Esau, a bradwriaeth ei chwegrwn Laban: gwel Gen. xxviii. 11, 20, a xxxii. 10. Neu fe allai fod hyn yn cyfeirio at gyflwr *Jacob* ychydig cyn iddo fynd i waered i'r Aifft, hyn yr oedd ef a'i deulu mewn perygl o ddarfod am dauynt trwy newyn, oni buasai iddo gael ei gynnal gan ei fab.

Adn. 6. *A'r Aifftiaid a'n drygodd ni*] Gwel ar Exod. i. 11, &c.

Adn. 7. *Clybu yr Arglwydd ein llais*] Gwel ar Exod. ii. 23, &c.

Adn. 8, 9. *A'r Arglwydd a'n dyg ni allan, &c.*] Rhaid iddo gydnabod daioni mawr Duw nid yn unig iddo ef ei hun yn neillduol, ond i Israel yn gyffredinol, (1) *Yn eu dygiad hwynt allan o'r Aifft*. Sonir am dano yna fel gweithred o POSTERI—*gwelodd ein cystudd*; a gweithred o XERTH—*dyg ni allan â llaw gadarn*. Nid oedd achos iddynt rwnnach dwyn cawellaid o flaenffrwyth i Dduw, canys iddo ef yr oeddnt yn ddyledus am nad oeddnt yn awr yn dwyn *priddfeini* i'w meistriaid creulon yn yr Aifft. (2) *Yn eu sefydliad yn Nghanaan*: 'Efe a roes i ni y tir hwn,' adn. 9. Rhaid iddo ddiolch nid yn unig am ei randir ei hun, ond am yr holl dir yn gyffredinol, yr hwn a roddwyd i Israel; nid yn unig am gynyrech y flwyddyn hon, ond am y ddaear ei hun yr hon

a'i cynyrchodd, yr hon yr oedd Duw yn rasol wedi ei rhoddi i'w henafiaid, a'i rhwymo yn anaralladwy i'w hiliogaeth ar eu hol. *A llaw gadarn*—gwel ar pen. iv. 34.

Adn. 10. *Ac addola gerbron yr Arglwydd*] Gan grymu y corff, fel y mae y gair gwreiddiol yn arwydd, tua'r cysegr; pa arwydd allanol o addoliad mewnol a ddyflynir, gan bob dyn duwiol, â diolchgarwch calon i Dduw am ei roddion, a chyda gweddi am barhad o hon- ynt.

Adn. 11. *Ymlawenycha, &c.*] Ewyllys Duw ydyw i ni fod yn llawen, nid yn unig pan yn wyddfodol yn ei ordinhadau santeidd ef, ond hefyd yn ein mwynhad o roddion ei ragluniaeth. Pa ddaioni bynag a ddyry Duw i ni, dylem wneuthur y defnydd mwyaf cysurus a allom o hono, gan olhain y ffrydiau at Ffynonell pob cysur. *Tydi, a'r Lefiad, a'r dyeithr*—yr oeddnt i ofalu am ranu haelderau Duw yn mhllith yr holl rai dibynol arnynt. Nid oes gan y *Lefiad* un etifeddiaeth, boed iddo lawenychu gyda thi; nid oes gan y *dyeithr* un cartref, boed iddo dy gael di yn gyfaill ac yn dad iddo.

Adn. 12. *Yn y drydedd flwyddyn, sef blwyddyn y degwm*] Tybir fod hon yn meddwl y drydedd flwyddyn o'r seithfed neu y flwyddyn sabbothol, yn yr hon yr oedd y degymau i'w rhoddi i'r tylodion: gwel ar pen. xiv. 22, &c.

Adn. 13. *A dywed gerbron yr Arglwydd dy Dduw, &c.*] Gan fod y degwm hwn o'r drydedd flwyddyn i gael ei dreulio gartref, rhaid i'r geiriau hyn arwyddo naill ai fod pob dyn i wneuthur y cyfaddefiad edmygol hwn gartref yn ei gyfarchiadau dirgelaid gerbron Duw, neu ynte ei fod y tro nesaf yr ai efe i fyny i'r cysegr i wneyd yr ardstiad hwn o flaen y lle santeiddiolaf, lle y tybid fod Duw yn neillduol bresenol. Pa le bynag ei gwneid, yr oedd i gael ei wneuthur megys *gerbron yr Arglwydd*—yn ddfritol, edmygol, a chrefyddol, gyda pharch dyladwy i bresenoldeb

14 Ni fwyteais o hono yn fy ngalar, ac ni ddygais ymaith o hono i aflendid, ac ni roddais o hono dros ymarw: gwrandawais ar lais yr Arglwydd fy Nuw; gwnaethym yn ol yr hyn oll a orchymynaist i mi.

15 Edrych o drigle dy santeiddrwydd, *sef* o'r nefoedd, a bendithia dy bobl Israel, a'r tir a roddais i ni, megys y tyngaist wrth ein tadau; *sef* tir yn llifeirio o laeth a mêl.

16 ¶ Y dydd hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn gorchymyn i ti wneuthur y deddfau hyn a'r barned-

igaethau: cadw dithau a gwna hwynt â'th holl galon, ac â'th holl enaid.

17 Cymeraiſt yr Arglwydd heddyw i fod yn Dduw i ti, ac i rodio yn ei ffyrdd ef, ac i gadw ei ddeddfau, a'i orchymynion, a'i farnedigaethau, ac i wrando ar ei lais ef.

18 Cymerodd yr Arglwydd dithau heddyw i fod yn bobl briodol iddo ef, megys y llefarodd wrthyf, ac i gadw o honot ei holl orchymynion:

19 Ac i'th wneuthur yn uchel goruwch yr holl genhedloedd a wnaeth efe, mewn clod, ac mewn enw, ac

Duw, mewn ufydd-dod i'w orchymyn ef, a chyda golwg ar ei ogoniant. Dywed yr Iuddewon fod yr ardstyad hwn o'u huniondeb i gael ei wneuthur gyda llais *isel*, oblegid ei fod yn ymddangos megys hunan-ganmoliaeth; ond fod y cyfaddefiad blaenorol o ddaioni Duw i gael ei wneuthur gyda llais *uchel*, er ei ogoniant ef.

Adn. 14. *Ni fwyteais o hono yn fy ngalar*] Yr oedd tri chlyfdeffiad neillduol i gael eu gwneuthur, y rhai yn debygol a olygent ryw arferion eilunaddolgar a fodolent y dyddiau hyny. Y cyntaf oedd, na wlytasant o hono mewn *galar*. Gwnai yr Aistitiaid hyn yn y cynauaf, pryd yr offyrment flaenffwythau y ddaear, ac y cadwent wyl *Isis* gyda galarnadau alaethus. Ond gan na oddeid i'r Israeliaid fwyta pethau cysegredig i Dduw pan mewn cyflwr o *alar*, (Ilos. ix. 4.) gall mai hyn yw y cwbl a feddylir yma. Neu dichon mai yr ystyr yw, Ni fwyteais ef mewn tristwch, gan ofid fy mod i roddi ymaith gymaint o'm helw i'r tylodion; eithr bwyteais a gwleddais yn siriol gyda hwy, megys y gorchymynaist i mi. *Ac ni ddygais ymaith o hono i aflendid*—fel yr arferai rhai o'r hen eilunaddolwyr wneuthur, y rhai a neillduent ran o'u blaenffwythau i ddybenion swynol, ac weithiau i ddybenion aflan. *Ac ni roddais o hono dros y marw—neu i eilun*, yr hwn yn gyffredin oedd ddyw marw wedi ei dduweiddio gan goelgrefydd ac anwybodaeth, fel pe mai efe ydoedd awdwr eu cynrych. Ond barna rhai mai yr ystyr yw, Ni roddais ddim o hono at wasanaeth *anghladdawl*; oblegid ymddengys y byddai rhai yn anfon i mewn arlwyadau i wledda gyda pherthynasau agosaf y trengedig; ac yn yr achos hwnw yr oedd y gwsteiwiwr a'r bywd yn ddeddfol halogedig, Num. xix. 11—14; ac am hyn buasai defnyddio y degymau hyn yn y fath fodd yn fai deublyg, yn halogiaid bywd cysegr-lân, ac yn ddefnyddiaid o'r arlwyadau hyn ar achlysuron o alar, y rhai, trwy orchymyn pendant Duw, oeddynt i'w bwyta mewn llawenydd.

Adn. 15. *Edrych o drigle dy santeiddrwydd*] Er fod Duw yn gweled yn dda preswyllo yn eu mysg trwy arwydd gweledig o'i bresenoldeb, eto gwyddai Moses yn dda ei fod ef yn preswyllo mewn gogoniant ardderchocach yn y nefoedd, yr hon yr oedd yr holl genhedloedd yn credu ei bod yn orsedd a thrigfa neillduol y Duw hollbrescuol. *A bendithia*

dy bobl Israel a'r tir—cans er i'r naill wneyd 'yr hyn oll a orchymynwyd,' adn. 14, a'r llall fod yn 'llifeirio o laeth a mêl,' fel y dywedir yma, eto yr oeddynt mewn angen yn barhaus am fendith Duw.

Adn. 16. *Y dydd hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn gorchymyn i'ti*] Dengys Moses yma nad cyfarwyddiadau ei ddoethineb ei hun oedd y deddfau hyn, ond eu bod wedi cael eu ffurfio gan ddoethineb anfeidrol, a'u hawndodi gan Frenin y brenhinoedd. *Cadw dithau a gwna hwynt*—gan mai Duw sydd yn gorchymyn i ti, yr wyt yn rhwym i ufyddhau iddo ef, ac y mae ar dy berygl os anuffyddhei: gan hyn cadw dithau y deddfau hyn, nid yn ddiöfal a rhagrithiol, ond 'â'th holl galon ac â'th holl enaid.'

Adn. 17. *Cymeraiſt yr Arglwydd heddyw*] Tystiai y bobl yn gyhoeddus, trwy y weithred hon, eu bod yn cymeryd *JEHOFA* i fod yn Dduw iddynt.

Adn. 18. *Cymerodd yr Arglwydd dithau heddyw*] Tystiai *JEHOFA* hefyd yn gyhoeddus, trwy y bendithion a dywalltai arnynt, a'i deddfau a'r breintiau a roddai iddynt, ei fod yntau yn eu cymeryd hwythau i fod yn bobl briodol iddo ei hun. Fel hyn yr oedd y cyfammod yn cael ei wneyd a'i gadarnhau rhwng y ddwy blaid.

Adn. 19. *Ac i'th wneuthur yn uchel goruwch yr holl genhedloedd*] Y mae yn ysgrifenedig, 'Cyfiawnder a ddyrchafu genedl; ond cywilydd pobloedd yw pechod,' *Diar. xiv. 34.* Tra yr oedd Israel yn cadw tystiolaethau Duw, hwynt-hwy oeddynt fwyaf ac anrhydeddusaf o'r holl genhedloedd; ond ar ol iddynt adael Duw a'i gyfraith, daethant y rhai mwyaf dirmygu! O Brydain, yr hon wyt yn uwch dy freintiau nag Israel gynt, dyg ddoethineb trwy yr hyn a ddyoddefasant hwy! Nid dy lynesau na'th fyddinoedd, pa mor luosog a threfnus bynag, yw yr hyn a ddichon yn y pen draw dy ddyrchafu a'th fytholi yn mhilith y genhedloedd, eithr dy *gyfiawnder* yn unig. Esgeulusau ordinhadau Duw, haloga ei sabbothau, dirmyga ei air, erlidia ei ganlynywyr ef, a thlydi a ddarostyngir: eithr ofna, cara, a gwasanaetha ef, a'th elynion a waradwyddir, a thithau a sethiri ar eu luchel-leoedd hwynt.

PEN. XXVII. Adn. 1. *Yna y gorchymynodd Moses, &c.*] Ar ol iddo aildrodd prif ran-

mewn gogoniant; ac i fod o honot yn bobl santaidd i'r Arglwydd dy Dduw, megys y llefarodd efe.

PENNOD XXVII.

YNA y gorchymynodd Moses, gyda henuriaid Israel, i'r bobl, gan ddywedyd, Cedweh yr holl orchymynion yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi heddyw.

2 A bydded, yn y dydd yr elych dros yr Iorddonen i'r tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, osod o honot i ti gerig mawrion, a chalcha hwynt â chalch.

3 Ac ysgrifena arnynt holl eiriau y gyfraith hon, pan elych drosodd, i fyned i'r tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, *sef* tir yn llif-eirio o laeth a mêl; megys ag y llefarodd Arglwydd Dduw dy dadau wrthyt.

au y deddfau, a gwneuthur amrai chwangediadau angeurheidiol atynt, galwodd Moses y cyngor yn nghyd, a gwsiodd gorff y bobl i'w cyfarfod hwynt yn y babell, lle y mae yn eu cyfarwyddo i adnewyddu eu cyfammod â Duw y cyfeusdra cyntaf a gaent ar ol myned i wlad yr addewid. Mewn trefn i hyn yr oeddynt i ysgrifenu neu geisio prif benau eu gyfraith ar geig mawrion ysgwâr, wedi eu llyfn-galchu i'r perwyl hwnw, i'w darllen yn hyglyw i'r holl gynulleidfa.

Adn. 2. *Osod o honot i ti gerig mawrion*] Tybia rhai mai *deuddeg* oeddynt, *sef* un am bob llwyth; mae nifer digonol yn unig i ysgrifenu y gyfraith anynt. *A chalcha hwynt â chalch*—tybia Houbigant nad yw y geiriau yn meddwl calch ar wyneb y cerig, ond yn unig ar eu hochrau, i'w glynw wrth eu gilydd; eithr harna Patrick. Gill, ac ereill, ci fod wedi ei daenu drostynt. Tybia ereill fod yr ysgrifeni i ymchwyddo allan fel y llythyrenau ar ein ceiniogau ni, a bod y gwagle rhyngddynt yn cael ei lenwi â chalch neu gymrwd. Y mae hyn, meddai Clarke, yn beth cwbl ddichonadwy, gan fod yr argraffion dwyreiniol yn cael eu gwneyd yn fynych yn y ffordd hon. Y mae dau faen mynor Arabaidd yn Urdyysgol Rhydychain, ar y rhai y mae yr argraff yn chwyddedig fel y nodwyd.

Adn. 3. *Ac ysgrifena arnynt holl eiriau y gyfraith hon*] Tybia rhai ei fod yn meddwl bob lyfr *Deuteronomium*: ond rhaid eu bod yn geig mawrion iawn i gynwys hwn. Y mae ereill yn meddwl mai y *deg gorchymyn* yn unig a feddylir. Ond y mae yn debycach, yn ol barn ereill, mai y bendithion a'r mell-dithion crybwyllledig yn y bennod hon a'r nesaf a olygir, y rhai a gynwysant grynoded o'r holl gyfraith yn ei haddewidion a'i bygythion.

Adn. 4. *Gosodwch y cerig hyn—yn mynydd Ebal*] Felly y mae y testyn Hebreig presenol; ond yn y Samaritanaeg mynydd *Garizim* ydyw. Darfu i Dr. Kennicott helaeth amddiffyn darlenniad y Samaritanaeg, ac am-

4 A phan eloch dros yr Iorddonen, gosodwch y cerig hyn, yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi heddyw, yn mynydd Ebal, a chalcha hwynt â chalch.

5 Ac adeilada yno allor i'r Arglwydd dy Dduw, *sef* allor gerig: na chyfod arnynt *arf* haiarn.

6 A cherig cyfain yr adeiledi allor yr Arglwydd dy Dduw; ac offryma arni boeth-offrymau i'r Arglwydd dy Dduw.

7 Offryma hefyd hedd-aberthau, a bwyta yno, a llawenycha gerbron yr Arglwydd dy Dduw.

8 Ac ysgrifena ar y cerig holl eiriau y gyfraith hon, yn eglur iawn.

9 ¶ A llefarodd Moses a'r offeiriaid y Lefiaid wrth holl Israel, gan ddywedyd, Gwrando a chlyw, O Israel: Y dydd hwn y'th wnaethpwyd yn bobl i'r Arglwydd dy Dduw.

ddiffyna Dr. Parry y darlenniad Hebreig. Y mae llawer yn meddwl fod rhesymau Dr. Kennicott yn anwrthwynebadwy, a darfod i'r Iuddeon lygru y testyn trwy eu gelyniaeth at y Samaritaniaid. Ar bob llaw addefir fod *Garizim* yn llawn o fflynnau, gerddi, a pherllanau, a'i fod yn orchuddiedig â gwyrddlesni prydfferth; tra y mae *Ebal* mor noeth a diffrwyth a chraig. Ar y cyntaf hwn yr oedd y blaenaf yn dra chydafas i'r ddefod o *feldithio*, a'r olaf i'r ddefod o *feldithio*: gwel ar pen xi. 29.

Adn. 5. *Ac adeilada yno allor*] Trwy eiriau y gyfraith, y rhai a ysgrifenywyd ar y calchiad, yr oedd Duw yn llefaru wrthynt hwy; a thrwy yr allor, a'r aberthau a offrymid arni, yr oeddynt hwythau yn llefaru wrth Dduw: rhaid i'r gair a gweddi gydfyned. Hefyd, yr oedd y gyfraith yn cael ei hysgrifenu ar y calchiad, i arwyddo fod mell-dith yn ddyledus i'r troseddwy'r honi; ac yr oedd yr aberthau i gael eu hoffrymu ar yr allor, i ddangos nad oes un ffordd o waredigaeth oddiwrth y fell-dith hon ond trwy waed Crist, yr hwn a gysgodid yn yr aberthau hyn, a thrwy i Grist gael ei wneuthur yn fell-dith drosom ni.

Adn. 6. *A cherig cyfain*] Neu arw, heb eu naddu na'u trwsio, fel ag i ochelyd pob math ar luniau. *Ac offryma arni boeth-offrymau*—i gadarnhau eu cyfammod â Duw, fel y gwnaethant yn Horeb. Er nas gallent hwy adeiladu yn allor o'u penau eu hunain heblaw yr un ag ydoedd yn y babell, eto gallent wneuthur hyny ar achlysur arbenig trwy orchymyn Duw: gwel ar 1 Bren. xviii. 31, 32.

Adn. 7. *Offryma hefyd hedd-aberthau*] Gwel erthygl 18, yn niwedd Lef. vii.

Adn. 8. *Yn eglur iawn*] Fel y gellid eu darllen yn hawdd hyd yn nod gan yr oedranus.

Adn. 9. *A llefarodd Moses a'r offeiriaid*] Y rhai a gynorthwyent Moses i wasgu ar y bobl ystyr a dyben y deddfau hyn. *Y dydd hwn y'th wnaethpwyd yn bobl i'r Arglwydd*

10 Gwrandaw gan hyny ar lais yr Arglwydd dy Dduw, a gwna ei orchymynion ef a'i ddeddfau, y rhai yr wyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw.

11 ¶ A gorchymynodd Moses i'r bobl y dydd hwnw, gan ddywedyd,

12 Y rhai hyn a safant i fendithio y bobl ar fynydd Garizim, wedi eich myned dros yr Iorddonen: Simeon, a Lefi, a Juda, ac Issacar, a Joseph, a Benjamin.

13 A'r rhai hyn a safant i fendithio ar fynydd Ebal: Reuben, Gad, ac Aser, a Zabulon, Dan, a Naphtali.

14 ¶ A'r Lefiaid a lefarant, ac a ddywedant wrth bob gŵr o Israel â llef uchel,

15 Melldigedig yw y gŵr a wnel ddelw gerfedig neu dodeddig, *sef* ffieidd-dra gan yr Arglwydd, gwaith ddywlw crefftwr, ac a'i gosodo mewn lle dirgel. A'r holl bobl a atebant, ac a ddywedant, Amen.

16 Melldigedig yw yr hwn a ddir-

mygo ei dad neu ei fam. A dywedwed yr holl bobl, Amen.

17 Melldigedig yw yr hwn a symudodd derfyn ei gymydog. A dywedwed yr holl bobl, Amen.

18 Melldigedig yw yr hwn a baro i'r dall gyfeiliorni allan o'r ffordd. A dywedwed yr holl bobl, Amen.

19 Melldigedig yw yr hwn a wro farn y dyeithr, yr amddifad, a'r weddw. A dywedwed yr holl bobl, Amen.

20 Melldigedig yw yr hwn a orweddo gyda gwraig ei dad; o herwydd datguddiodd odre ei dad. A dywedwed yr holl bobl, Amen.

21 Melldigedig yw yr hwn a orweddo gydag un anifel. A dywedwed yr holl bobl, Amen.

22 Melldigedig yw yr hwn a orweddo gyda'i chwaer, merch ei dad, neu ferch ei fam ef. A dywedwed yr holl bobl, Amen.

23 Melldigedig yw yr hwn a orweddo gyda'i chwegr. A dywedwed yr holl bobl, Amen.

—trwy ddirifol adnewyddiad o'th gyfammod âg ef.

Adn. 10, 11. *Gwrandaw gan hyny ar lais yr Arglwydd, &c.*] Canys heb hyny yr oedd y cyfammod yn ddirym, a gosodent hwythau eu hunain yn agored i holl fellidithion y ddeddf doredig.

Adn. 12. *Y rhai hyn a safant i fendithio y bobl ar fynydd Garizim*] 'Yn lle ar fynydd, &c., gallwn ei gyfieithu wrth,' ebai Clarke, 'fel y mae y geiryn *al* weithiau yn cael ei arfer; canys nid ydym yn cael ddarfod i'r llwythau sefyll ar y naill fynydd na'r llall; oblegid yn Jos. viii. 33, pryd y rhoddwyd y gorchymyn hwn mewn ymarferiad, cawn na ddarfau i'r bobl sefyll ar y mynyddoedd, ond *guserbyn* â hwynt yn y gwastadedd.' Eithr y dyb fwyaf cyffredin yw, eu bod ar y mynyddoedd; ac mai cyferriad sydd yn Jos. viii. 33 at yr offeiriad, a y gwastadedd: gwel y sylw yno.

Adn. 13. *A'r rhai hyn a safant i fellidithio ar fynydd Ebal*] Am y chwe llwyth ag oeddnt i ddywedyd *Amen* wrth y bendithion, dywedir, 'Safant i fendithio y bobl,' adn. 12; ond am y chwe llwyth ereill a grybwyllir yma, dywedir yn unig, 'Safant i fellidithio,' heb enwi y bobl; fel pe buasai Moses yn anweyllysgar i feddwl y gwna'i neb o'r bobl a gymerasai Duw yn eiddo iddo ei hun, eu gosod eu hunain dan y fellidith.

Adn. 14. *A'r Lefiaid*] Rhai o'r Lefiaid, sef yr offeiriad, y rhai oeddnt yn dwyn yr arch, fel y dywedir Jos. viii. 33; canys yr oedd corff y Lefiaid yn sefyll ar fynydd Garizim, adn. 12.

Adn. 15. *Melldigedig yw y gŵr*] Yr oedd y cyfreithiau ereill a wnaed o'r blaen wedi gwahardd yr holl bethau hyn fel pechodau i'w cospi; ond yma y mae Duw yn datgan yn

fwy cyhoedd fod y neb a'u toro hwynt yn *fellidigedig*—yn syrthio dan lid ei Wneuthurwr a'i Farnwr. *A wnel ddelw gerfedig neu dodeddig*—dan y pen hwn y mae efe yn cynwys yr holl erchyll droseddiadau o'r LLECH GYNTAF, megys y mae dan y cangheanau canlynol yn cynwys pob pechod arall yn erbyn yr ALL LECH. *A'r holl bobl a atebant, ac a ddywedant, Amen*—y mae yn hawdd deall ystyr yr *Amen* wrth y *bendithion*; ond pa beth yw ei ystyr ef wrth y *mellidithion*? Yr oedd yn gyfaddefiad o'u ffydd hwy yn ngwirionedd y mellidithion hyn, ac yn gydnabyddiad o'r uniondeb o honynt; fel, pan y dywedent *Amen*, yr oeddnt mewn effaith yn dywedyd nid yn unig, 'Y mae yn sicr y bydd felly,' ond, 'Y mae yn iawn iddi fod felly.'

Adn. 16. *Melldigedig yw yr hwn a ddirmygo ei dad neu ei fam*] Sef yr hwn a'u gwardwyddo neu a'u mellidithio yn *dirgelaid*; canys os byddai y weithr yn gyhoeddus, yr oedd i'w hospi â marwolaeth, pen. xxi. 21.

Adn. 17. *Melldigedig yw yr hwn a symudodd derfyn ei gymydog*] Gwel ar pen. xix. 14.

Adn. 18. *Melldigedig yw yr hwn a baro i'r dall gyfeiliorni*] A gamarweinio eneidiau gwirion, can roddi iddynt gyngorion dinstriol gyda golwg ar y bywyd hwn neu y nesaf; neu a'u tywyso o'r ffordd, fel ag i syrthio i'r ffos.

Adn. 19. *Melldigedig yw yr hwn a wro farn y dyeithr, &c.*] Gwel ar Exod. xxii. 21, 22, pen. x. 18, a xxiv. 17.

Adn. 20—23. *Melldigedig yw yr hwn a orweddo gyda gwraig ei dad*] Sef ei lysfam, Lef. xviii. 8, a xx. 11, Deut. xxii. 30. *Gydag un anifel*—gwel ar Lef. xx. 15, 16. *Gyda'i chwaer*—gwel ar Lef. xviii. 9, a xx. 17. *Gyd a'i chwegr*—neu ei fam-yn-nghyfraith; gwel ar Lef. xx. 14.

24 Melldigedig *yw* yr hwn a darawo ei gymydog yn ddirgel. A dywed yd yr holl bobl, Amen.

25 Melldigedig *yw* yr hwn a gymero wobr, er dieneidid gwaed gwirion. A dywed yd yr holl bobl, Amen.

26 Melldigedig *yw* yr hwn ni pharhao yn ngeiriau y gyfraith hon, gan eu gwneuthur hwynt. A dywed yd yr holl bobl, Amen.

PENNOD XXVIII.

AC os gan wrando y gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, i gadw ac i wneuthur ei holl orchymynion ef, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw; yna yr Arglwydd dy Dduw a'th esyd yn uwch na holl genhedloedd y ddaear.

2 A'r holl fendithion hyn a ddaw

Adn. 24. *Melldigedig yw yr hwn a darawo ei gymydog yn ddirgel*] Hyny yw, yn ol rhai, a'i lladdo ef; yn ol ereill, a gyhudda neu a gondemnia y ddiwed, neu a niweidia ei gymerial ef yn ei absenoldeb.

Adn. 25. *Melldigedig yw yr hwn a gymero wobr*] Gwel ar pen. xvi. 19, Exod. xxiii. 8.

Adn. 26. *Melldigedig yw yr hwn ni pharhao yn ngeiriau y gyfraith hon*] Saes. 'yn holl eiriau,' &c. Nid yw y gair *col*, HOLL, i'w gael mewn un ailun *argraffedig* o'r testyn Hebreig; ond y mae y Samaritanaidd yn ei gadw, ac felly y mae chwech o'r *ysgriflyfrau* Hebreig yn rhagsgliadau *Kemnicotta De Rossi*, heblaw amrai ailunau o'r Targum Caldeaid: y mae hefyd yn nghyfieithiad y LXX, a chan St. Paul yn ei ddyfyniad o'r adnod hon yn Gal. iii. 10. Dywed *Jerome* i'r Iuddewon dynu y gair hwn allan, fel nad ymddangosai eu bod hwy yn rhwym i gyflawni yr holl orchymynion yn nghyfraith Moses.

PEN. XXVIII. Adn. 1. *Ac os gan wrandaw y gwrandewi ar lais yr Arglwydd, &c.*] Y mae y bendithion yn cael eu gosod yn y bendod hon o flaen y melldithion, i awgrymu, (1) Fod Duw yn hwyrfyddig i lid, ond yn barod i drugariau. Efe a dyngodd fod yn llawer gwell ganddo i ni ufyddhau a byw, na phechu a marw. (2) Fod yn well i ni gael ein denu at yr hyn sydd dda trwy addewid o fendithion, na'n dychrynu ato trwy fgythliad o fellidithion. Yr ufydd-dod hwnw yw y mwyaf cymeradwy, ag sydd yn tarddu oddiar egwyddor o lyfrydych yn naioni Duw. *A'th esyd yn uwch na holl genhedloedd y ddaear*—gwel ar pen. xxvi. 19.

Adn. 2. *A'r holl fendithion hyn a ddaw arnat*] A dywelltir arnat o'r nefoedd; ac *a'th oddiweddant*—y bendithion hyny ag y mae ereill yn rhedeg yn awyddus ar eu hol, heb byth eu goddiweddyd, a redant ar dy ol di, ac a'th oddiweddant.

Adn. 3. *Bendigedig fyddi di yn y ddinas*] Yn mhob gorchwyl trefol; a *bendigedig yn y maes*—yn mhob erlynwaith amaethyddol.

arnat, ac a'th oddiweddant, os gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw.

3 *Bendigedig fyddi di yn y ddinas*, a bendigedig yn y maes.

4 *Bendigedig fydd* ffrwyth dy fru, a ffrwyth dy dir, a ffrwyth dy anifel di, cynydd dy wartheg, a diadellau dy ddefaid.

5 *Bendigedig fydd* dy gawell a'th does di.

6 *Bendigedig fyddi di yn dy ddyfodiad i mewn*, a bendigedig yn dy fynediad allan.

7 Rhydd yr Arglwydd dy elynion a ymgodant i'th erbyn yn lladdedig o'th flaen di: trwy un ffordd y deuant i'th erbyn, a thrwy saith o ffordd y ffoant o'th flaen.

8 Yr Arglwydd a orchymyn fendith arnat ti, yn dy drysordai, ac yn yr hyn

Adn. 4. *Bendigedig fydd ffrwyth dy fru*] Dy holl blant; a *ffrwyth dy dir*—holl gynrych dy faesydd a'th willanoedd; a *ffrwyth dy anifel*—bydd i'th holl anifeiliaid o bob math fod dan fendith ac amddiffyniad dwyfol ragluniaeth.

Adn. 5. *Bendigedig fydd dy gawell*] Dy gynauaf gwinarawn ac olihaidd, fel y tybia rhai; a elwir yma yn *gawell*, am mai y cawell a ddefnyddid i gasglu y ffrwyth dy hyn. *A'th does di*—Heb. *mishereth*, *dy gasn tyllino*, neu y *gweddill*; yr oll a drysorwyd i ddefnydd *dyfodol*, yn gystal a'r hyn a barotowyd at dreulid *presenol*. Tybia rhai, wrth y *cawell*, y gall eu holl eiddo oddi cartref fod yn cael ei olygu; ac wrth y *toes* (Saes. *ystôr*), yr hyn oll a feddent *gartref*; hyny yw, yr hyn oll sydd yn y *maesydd*, a'r hyn oll sydd yn y *tai*. Y mae BOOTHROYD yn darllen yr adnod hon fel hyn: 'Ti a gai helaethrwydd o *ffrwythau* i lenwi dy *gawell*, a digonedd o *flawd* i'th *gasnau tyllino*.' Y LXX fel hyn: 'Bendigedig fydd dy *ysguboriau* a'th *ystôr*.' Ond tybia Mr. HARMER fod *tene*, cawell, yn y lle hwn, yn meddwl eu hymdaith-fasgedi; a bod *mishereth*, toes neu ystôr, yn meddwl y codau lledd yn y rhai y cariai y dwyreinwyr eu nwyddau wrth deithio; ac wrth ei ddeall yn y modd yma, fod yr ymadrodd yn addaw i Israel lwyddiant yn eu masnach.

Adn. 6. *Bendigedig fyddi di yn dy ddyfodiad i mewn*] Oddiwrth dy orchwyllion: ti a gai na ddygweddodd dim drwg i'th deulu na'th drigfa yn dy absenoldeb. *A bendigedig yn dy fymediad allan*—dy ffordd a wneir yn llwyddiannus o'th flaen, a thi a gai fendith ddwyfol yn dy holl lafar.

Adn. 7. *Rhydd yr Arglwydd dy elynion, &c.*] Y mae hon yn addewid o ddiogelwch rhag rhuthrygeli estroniaid, neu o lwyrr orchfygiad ar eu gelynyon os deuant i'w gwlad. *Trwy un ffordd y deuant i'th erbyn*—yn y modd cadannaf a mwyaf unedig; a *thrwy saith o ffordd y ffoant o'th flaen*—wedi eu chwalu, eu drysu, a'u gorchfygu.

Adn. 8. *Yr Arglwydd a orchymyn fendith*

oll y dodech dy law arno; ac a'th fendithia yn y tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti.

9 Yr Arglwydd a'th gyfyd di yn bobl santaidd iddo ei hun, megys y tyngodd wrthyt, os cedwi orchymynion yr Arglwydd dy Dduw, a rhodio yn ei ffyrdd ef.

10 A holl bobloedd y ddaear a welant fod yn dy alw di ar enw yr Arglwydd, ac a ofnant rhagot.

11 A'r Arglwydd a'th lwydda di mewn daionus, yn ffrwyth dy fru, ac yn ffrwyth dy anifeiliaid, ac yn ffrwyth dy ddaear, yn y tir a dyngodd yr Arglwydd i'th dadau ar ei roddi i ti.

12 Yr Arglwydd a egyr ei drysor daionus i ti, *sef* y nefoedd, i roddi gwlaw i'th dir di yn ei amser, ac i fendigo holl waith dy law: a thi a roddi echwyn i genhedloedd lawer, ac ni cheisi echwyn.

13 A'r Arglwydd a'th wna di yn ben, ac nid yn gynffon; hcfyd ty a fyddi yn uchaf yn unig, ac nid yn isaf: os gwrandewi ar orchymynion yr Arglwydd dy Dduw, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw, i'w cadw, ac i'w gwneuthur;

14 Ac heb gilio o honot oddiwrt holl eiriau yr wyf fi yn eu gorchymyn i chwi heddyw, i'r tu deau neu i'r tu aswy, gan fyned ar ol duwiau dycyethr, i'w gwasanaethu hwynt.

15 ¶ A bydd, oni wrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw a gwneuthur ei holl orchymynion ef a'i ddeddfau, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw; y daw arnat yr holl fellidithion hyn, ac y'th oddiweddant.

16 Melldigedig fyddi di yn y ddinas, a melldigedig yn y maes.

17 Melldigedig fydd dy gawell a'th does di.

18 Melldigedig fydd ffrwyth dy fru, a ffrwyth dy dir, cynydd dy wartheg, a diadellau dy ddefaid.

19 Melldigedig fyddi di yn dy ddyfodiad i mewn, a melldigedig yn dy fynediad allan.

20 Yr Arglwydd a ddenfyn arnat ti fellidith, trallod, a cherydd, yn yr hyn oll y dodech dy law arno, ac yn yr hyn a wnelych; nes dy ddinystrio a'th ddyfetha di yn gyflym; am ddrygioni dy weithredoedd yn y rhai y'm gwrthodaist i.

21 Yr Arglwydd a wna i haint lynu

arnat ti] Ni fydd i un o'th fendithion tymhorol nac ysbrydol ddisgyn arnat yn ddamweiniol, eithr hwy a ddeuant trwy orchymyn penodol Duw.

Adn. 9. *Yr Arglwydd a'th gyfyd di yn bobl santaidd iddo ei hun*] Swm a sylwedd yr holl fendithion oedd cael eu gwneuthur yn santaidd, a'u cadw mewn santeiddrwydd. *Os cedwi orchymynion yr Arglwydd dy Dduw, a rhodio yn ei ffyrdd ef*—dyma yr ammod ddisgrifol. Os na chyflawnent hon, yna y mellidithion, ac nid y bendithion, oedd i fod yn rhan iddynt, adn. 15, &c.

Adn. 10. *Fod yn dy alw di ar enw yr Arglwydd*] Eich bod chwi mewn gwirionedd yn bobl iddo ef, a than nawdd a gofal y Duw Hollalluog. *Ac a ofnant rhagot*—rhag i ti fod yn elyn iddynt.

Adn. 11. *Yn ffrwyth dy fru, &c.*] Gwel ar adn. 4.

Adn. 12. *Yr Arglwydd a egyr ei drysor daionus i ti*] *Sef y cynnyntau*, nes y byddi ddi-gouedd o gawodydd i'fwythlon ddisgyn yn eu hamser, yn cael eu dilyn gan dywyniad yr haul, fel ag i beri i'th gnydiau fod yn dor-eithiog. *A thi a roddi echwyn*—gwel ar pen. xv. 5, 6.

Adn. 13. *A'r Arglwydd a'th wna di yn ben, ac nid yn gynffon*] Ymadrodd diarebol, yn arwyddo y byddai iddynt hwy lywodraethu ar genhedloedd ereill, ac nid cael eu llywodraethu ganddynt. Y fath oedd eu cyflwr dedwydd dan deyrnasiad Dafydd a Solomon.

Adn. 14. *Ac heb gilio o honot—i'r tu deau neu i'r tu aswy*] Y mae ffordd ufydd-dod yn

ffordd *uniawn*; ac y mae y neb sydd yn gogwyddo ar y ddeau neu yr aswy o'r ffordd bon, yn myned ar gyfeiliorn, ac yn methu y nef.

Adn. 15—19. *A bydd oni wrandewi, &c.*] Ar ol edrych ar ochr oleu y cwmwl, yr hon sydd tuag at y rhai ufydd, y mae genym yn awr i edrych ar yr ochr ddŵ, yr hon sydd tuag at y rhai anufydd. Os na chadwn ni orchymynion Duw, yr ydym nid yn unig yn dyfod yn fyr o'r fendith addawedig, ond yn ein gosod ein hunain dan y fellidith, yr hon sydd yn gnywysedig o bob trueni, fel y mae y fendith o bob dedwyddwch. Y mae y fellidith hon yn union yn y gwrthwyneb i'r fendith yn y rhan flaenaf o'r bennod. Fel hyn, pa wynfyd byuag sydd yn y nef, y mae yn uffern nid yn unig y diffyg o hono, ond y gwrthwyneb iddo: 'Wele fy ngweision a fwytant, a chwithau a newynwch,' &c., Esay lxxv. 13, 14. *Daw arnat yr holl fellidithion hyn*—fel na fyddi yn alluog i ddianc rhagddynt. Nid oes dim rhedeg rhag Duw, ond trwy redeg ato ef; na ffoi rhag ei gyfiawnder, ond trwy ffoi at ei drugaredd.

Adn. 20. *Fellidith, trallod, a cherydd*] Meddylir fod y gair cyntaf yn arwyddo y byddai i Dduw ddyrysu eu holl amcanion; fod yr ail yn cyfeirio at anfoddlonrwydd a phetrusder meddwl, yn cyfodi oddiwrt hwynt i'w ddaear.

Adn. 21. *Yr Arglwydd a wna i haint lynu wrthyt*] Nid ymweled a thi ar droion, ond glynu wrthyt y barhaus, mewn modd anfeddyginiaethol.

wrhyt, nes iddo dy ddifa oddiar y tir yr ydwyt ti yn myned iddo i'w feddiannu.

22 Yr Arglwydd a'th dery â darfod-edigaeth, ac â chryd poeth, ac â llosgfa, ac â gwres, ac â chleddyf, ac â diflaniad, ac â mallder; a hwy a'th ddylynant nes dy ddyfetha.

23 Dy nefoedd hefyd y rhai sydd uwch dy ben a fyddant yn bres, a'r ddaear yr hon sydd odditanat yn haiarn.

24 Yr Arglwydd a rydd yn lle gwlaw dy ddaear, lwch a lludw: o'r nefoedd y disgyn arnat, hyd oni'th ddinystriest.

Adn. 22. *Yr Arglwydd a'th dery â darfod-edigaeth*] Nes y byddi yn gwywo o eisiau hwyd, fel yr arwydda y wreiddiol. *Ac â chryd poeth*—neu dwymyn enynawl. *Ac â llosgfa*—tybia rhai mai cancr ysawl, neu dyfaden wyllt, a feddylir. *Ac â gwres*—Heb. *charchur*, 'llosgiad ar losgiad.' Meddylir fod hyn yn cyfeirio nid yn unig at filamegiad artheithiol ar y corff, ond hefyd at gythruddiad ac ing meddwl un a fo wedi ei lwyrr adael gan Dduw. *Ac â chleddyf*—rhyfel yn gyffredinol, trwy elynion gwaedlyd oddifas, a therfysgoedd gwladwriaethol oddifewn, fel yn amser gwarchaead diweddfad Jerusalem. *Ac â diflaniad*—naill ai y dwyreinwynt deifol ag sydd yn difa llysiau, neu ynte yr haint-wyntoedd arswydus hyny ag sydd yn mygu dyn ac anifel lle bynag y deuant: gwel ar Gen. xli. 6. *Ac â mallder*—neu chwysiad y nôdd tyfawol a wahanol ranau y paladr neu y gorsen, trwy yr hyn y mae addfedrwydd a pheiffithiad y planhigyn yn cael ei lwyrr attal. O'r *saith* bla hyn yr oedd y *pump* cyntaf i ddisgyn ar en cyrff, a'r *ddau* olaf ar eu heiddo. Beth mor ofnadwy yw syrthio yn nwyllaw y Duw byw!

Adn. 23. *Dy nefoedd—fyddant yn bres*] Sychir yr agerau dyfyllid o'r nwyfre, fel na wlawio i ti; a'r *ddaear—yn haiarn*—fel na fyddo i'w harwyneb cras dderbyn had na rhoddi ffrwyth. Y mae JEHOFA yn dangos yma mai efe yw Arglwydd natur, a bod sychder a diffrwythder y ddaear yn deilliaw nid o ddamwain, ond o'i drefniad digyfrwng ef ei hun.

Adn. 24. *Lwch a lludw*] Gan y byddai eu nefoedd yn *bres*—heb roddi dim gwlaw, yr oedd yn rhaid i wyneb y ddaear gael ei droi yn *llwch*; a hwn, trwy gael ei godi i fyny yn aml gan wyntoedd cryfion, a ddisgynai i lawr yn gawodydd yn lle gwlaw. Cafodd mintei-oedd cyfain en claddu rai gweithiau dan gawodydd o dywod; a *Thevenot*, ymdeithydd Ffrancaidd, yr hwn a fu yn dyst o'r cawodydd hyn o lwch, &c., a ddywed, 'Y maent yn blino yn fawr bawb ag y syrthiant arnynt, gan lenwi eu llygaid, eu clustiau, eu froenau,' &c. Ymddengys fod y llygadglwyf yn yr Aifft yn cael ei aehosi yn benaf gan dywod mân, temigau yr hwn sydd fel gwydr toredig, y rhai a chwythir oddiamgylch gan y gwynt; ac ar ol myned tu fwrn i'r amrantau, parant enyniant poenus a pharhaus.

25 Yr Arglwydd a wna i ti syrthio o flaen dy elynion: trwy un ffordd yr â di yn eu herbyn hwynt, a thrwy saith o ffyrdd y ffoi o'u blaen hwynt; a thi a fyddi ar wasgar dros holl deyrnasoedd y ddaear.

26 A'th gelan a fydd bwyd i holl ehedaiad y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaear; ac ni bydd a'u tarfo.

27 Yr Arglwydd a'th dery di â chornwyd yr Aifft, ac â chlwyf y marchogion, ac â chrach, ac âg ysfa; o'r rhai ni ellir dy iachâu.

28 Yr Arglwydd a'th dery di âg

Adn. 25. *A thi a fyddi ar wasgar*] Yn ngwasgariad diweddfad yr Iuddewon gan y Klhufeiniaid, cafodd y bygythiad hwn ei wir-eddu yn arswydus. Cafodd ymdeithwyr hyd i rai o'r Iuddewon agos yn mhob parth cyfanddol o'r ddaear.

Adn. 26. *A'th gelan a fydd bwyd i holl ehedaiad y nefoedd*] Nid yn unig bydd i'ch gorchfygwyr eich gyru i wledydd pellenig, eithr hwy a wnant y fath alanas ofnadwy o honoch, fel ag y bydd i gelaneddau nifer mawr gael eu dynoethi ar yr heolydd, a gorwedd fel anifeiliaid heb gladdedigaeth. Nid oedd dim yn cael ei gyfrif yn fwy trueni yn mblith yr henafiaid na bod eu cyrff yn gorwedd yn agored i gael eu difa gan ehedaiad a bywstfilod. Dyma yr hyn a eilw Jeremia yn *gladdu â chladeddigaeth asyn*, Jer. xxii. 19; ac y mae y Salmwydd yn ei alaethu fel un o'r barnedig-aethau chwerfaf a syrthiasai ar ei genedl, Salm lxxix. 2, 3.

Adn. 27. *Yr Arglwydd a'th dery di â chornwyd yr Aifft*] *Shechin*, chwydd enynawl ffyrnig. Yn Job ii, y mae un o'r cyfieithiadau yn ei gyfieithu yn *elephas*, neu yr *elephantiasis*, y dolur mwyaf echrydus a ddi-chon ddal y natur ddynol. Yn y dolur hwn y mae yr holl gorff yn cael ei orchuddio â chèn tra ffaidd: y mae yr holl gymalau yn cael eu heangu yn annaturiol, a'r croen yn chwyddo ac yn tyfu yn blygiadau fel croen *elephant*, oddiwrth yr hwn y mae y dolur yn cael ei enw. Y mae y croen, trwy ei anystwythder, yn ymdori ar draws yn yr holl gymalau, ac y mae cornwydlif tra ffaidd yn rhedeg o'r holl agenau. Gwel hanes am dano gan *Aretaus*, iaith yr hwn sydd ddigon i sferu gwaed *gorphwyllddyn*, pe gallai ef sylwi ar y darluniad a roddir gan hwnw o'r un mwyaf ffaidd ac atgas hwn o holl gynrychiadau pechod a mell-dith. Gelwir hwn yn *gormwyd yr Aifft*, am ei fod yn perthyn yn neillduol i'r wlad hōno, ac yn enwedig i gymydogeath y Nilus. *Ac â chlwyf y marchogion*—y chwyddiadau poenus hyny o'r eisteddle a elwir y lledewigwst waedlyd, neu y *piles*. *Ac â chrach*—o'r fath ffeiddiaf dros yr holl gorff. *Ac âg ysfa*—y cleffri poeth, neu yr hyn a elwir yn gyffredin yn dân iddwf. *O'r rhai ni ellir dy iachâu*—gan eu bod yn cael eu rhoddi gan gyfiawn farn Duw, nis gellid eu hiachâu trwy gelfyddyd ddynol.

Adn. 28. *Yr Arglwydd a'th dery di âg yn-*

ynfydrwydd, ac â dallineb, ac â syndod calon.

29 Byddi *hefyd* yn ymbalfalu ganol dydd fel yr ymbalfalau y dall yn y tywyllwch; ac ni lwyddi yn dy ffyrdd: a diau y byddi orthrymedig ac anrheithiedig byth, ac ni bydd a'th wardeo.

30 Ti a ymgredi â gwraig, a gŵr arall a gydorwedd â hi: ti a adeiledi dŷ, ac ni thrigi ynddo: ti a bleni winllan, ac ni chesgli ei ffurwyth.

31 Dy fêh a leddir yn dy olwg, ac ni fwyfai o hono: dy asyn a ddygir

fydrwydd] Neu orphwylldra, fel na wyddost pa beth i'w newentur; ac *â dallineb*—naturiol a meddyliol; ac *â syndod calon*—o herwydd mawredd a chwerverder dy drueni. Mor wir yw yr hen ddywediad, 'Y rhai y mae Duw yn penderfynu eu dyfetha, y mae efe yn gyntaf yn eu hyfnfyd!'

Adn. 29. *Byddi hefyd yn ymbalfalu ganol dydd*] Yn y pethau mwyaf eglur a dilys; *fel yr ymbalfalau y dall yn y tywyllwch*—ymadrodd diarebol, yn arwyddo y fath ddyryswch meddwl fel ag i gyfeiliorni yn y pethau egluraf. Fel hyn, er cymaint o oleuni sydd yn eu hamgylchynu, nid ydynt yn canfod mai eu gwrthodiad hwy o'r MESSIA yw yr achos o'u holl adfydau! *Byddi orthrymedig ac anrheithiedig byth*—neu am yspaid maith; ac y mae yn debyg na fu dim pobl dan haul yn fwy gorthrymedig ac anrheithiedig na'r Iuddewon, am yn agos i ddeunaw cant o flynddau bellach.

Adn. 30, 31. *Ti a ymgredi â gwraig, a gŵr arall a gydorwedd â hi, &c.*] Bygythir yma yr yspeid hwy o'u holl fwyntiannau: nid yn unig dygid eu tai a'u gwinllanoedd oddiarynt, ond hefyd eu gwragedd a'u plant. Cai eu cysuron anwyllaf, yn y rhai y cynerent fwyaf o hyfrydwech, ac oddiwrth y rhai yr addawent iddynt eu hunain fwyaf, fod yn ddi-furwch a gorfoledd i'w gelyniad. Megys y trigasant hwy mewn tai nad adeiladasant, ac y bywtasant o winllanoedd na phlanasant, pen. vi. 10, 11; felly y gwnai ereill â hwythau. Cai eu hychain, eu hasynod, a'u defaid, fel eiddo Job, eu cymeryd ymaith o flaen eu llygaid, ac ni byddent yn alluog i'w bennill yn ol; a chai holl gynrych eu tir a'u llafur ei ddifa a'i fwyta gan y gelyn, fel ag y byddai arnynt hwy a'r eiddynt eisiau angenrheidiau, tra y byddai eu gelyniad yn ymlodd-estu ar yr hyn ag y llafuriasent hwy am dano. A all rhyw galon ddychymygu unrhyw beth yn fwy blin na'r drydan a fgygythir yma? Bod ar fin cyraedd pob hapusrwydd teuluaid a chymdeithasol, ac yna gael eu hamddiffadu yn ddisymwth o'r cwbl, a gweled gelyn yn perchenogi ac yn mwynhau pob peth ag ydoedd anwyll iddynt hwy, a raid fod yn eu cyffroi i'r graddau uwchaf o orphwyllder a chynddaredd!

Adn. 32. *Dy feibion a'th ferched a roddir i bobl ereill*] Mewn amrai wledydd, yn enwedig yn yr *Hispania* a *Phortugal*, cafodd

trwy drais o flaen dy wyneb, ac ni ddaw adref atat: dy ddefaid a roddir i'th elynion, ac ni bydd i ti achub-ydd.

32 Dy feibion a'th ferched a roddir i bobl ereill, a'th lygaid yn gweled, ac yn pallu am danynt ar hyd y dydd; ac ni bydd gallu ar dy law.

33 Ffrwyth dy dir a'th holl lafur a fwyty pobl nid adnabuost; a byddi yn unig orthrymedig a drylliedig bob amser:

34 A byddi wallgofus, gan weledig-aeth dy lygaid yr hon a welych.

plant yr Iuddewon eu cymeryd oddiwrthny trwy orchymyn y llywodraeth, a'u haddysgu yn y ffydd Babaid; a bu rhai anghreiffitiau o blant Iuddewig yn cael eu cymeryd oddiwrth eu rhieni hyd yn nod mewn gwledydd Protestanaidd. *A'th lygaid yn gweled, ac yn pallu am danynt*—mewn rhan gan ofid a dagrau llifeiriol, ac mewn rhan gan awydd mawr a dysgwylad hir ac ofer am eu dychweliad. *Ac ni bydd gallu ar dy law*—ni bydd nerth i'w gwaredu, nac arian i'w prynu.

Adn. 33 *Ffrwyth dy dir a'th holl lafur a fwyty pobl nid adnabuost*] Cyflawnwyd hyn yn nodedig pan y daeth Salmaneser brenin Assyria, ac y difeddianodd y deg llwyth; a phan y dyg Nebuchodonosor y ddau lwyth arall ymaith, gan osod pobl ereill yn eu lle. *Byddi yn unig orthrymedig a drylliedig bob amser*—nid oeddynt hwy i gael eu llwyr ddiwareiddio a'u dyfetha fel yr Amaleciaid a'r Canaanegaid, y rhai nad oes dim o'u holl yn awr yn aros; ond yr oeddynt i gael eu gwasgaru yn mysg cenedloedd ereill, ac yno eu gorthrymu, eu dryllio, a'u caethiwo.

Adn. 34. *A byddi wallgofus gan weledig-aeth dy lygaid*] Wedi dy lwyr amddiffadu o bob cysur a gobaith, a'th feddiannu gan lwyrr anobaith. 'I ba wallgofwydd, cynddieog-rwydd, ac anobaith,' ebai yr Esgob Newton, mewn eglurhad ar y broffwydoliaeth hon, 'y gwithwydd hwynt trwy y driniaeth, yr ormes, a'r gorthrymderau creulon ag y buont danynt! Ni chrybwyllwn ond dwy anghraifft, un o hen hanesiaeth, ac un o hanesiaeth ddiweddar. Ar ol dinstyr Jerusalem gan Titus, ymmoddodd rhai o'r Iuddewon yn nghastell Masada; yn mhla le, wrth gael eu caeth warehae gan y Rhufeiniaid, y daflu iddynt, trwy annogiad Eleazar eu blaenor, yn gyntaf lofruddio eu gwragedd a'u plant; ac yna dewiswyd deg o ddynion wrth goelbren i ladd y lleill: ac ar ol i hyn gael ei wneuthur, dewiswyd un o'r deg yn yr un modd i ladd y naw ereill; yr hwn wedi hyny a osododd y lle ar dân, ac yna a'i gwânodd ei hun! Bu feirw 960 yn y dull truenus hwn; ac ni ddiangodd ond dwy wraig a plump o fechgyn trwy ymguddio yn y cwterydd dan y ddaear. Y mae genym anghraifft gyffelyb yn hanes Lloegr; canys yn nheyrnasiad Richard I, pryd yr oedd y bobl wedi ymarfogi i wneuthur lladdfa gyffiedinol o'r Iuddewon, ymosododd 1,500 o honynt ar ddinas Caerfrefrog i'w

35 Yr Arglwydd a'th dery di â chornwyd drygionus, yn y gliniau, ac yn yr esgeiriau, yr hwn ni ellir ei iacháu, o wadn dy droed hyd dy goryn.

36 Yr Arglwydd a'th ddwg di (a'th frenin a osodych arnat) at genedl nid adnabuost ti na'th dadau di; a gwasanaethi yno dduwiau dycithr, pren a maen.

37 A byddi yn syndod, yn ddiareb, ac yn watwargerdd, yn mhlith yr holl bobloedd y rhai yr arwain yr Arglwydd di atynt.

38 Had lawer a ddygi allan i'r

hamddiffyn eu hunain; eithr wedi iddynt gael eu gwarchae, cynygiasant gyfammodi, a phrynu eu bywydan âg arian. Ar ol i'r cynygiad gael ei wrthod, llefodd un o honynt mewn anobaith, fod yn well marw yn wrol dros y gyfraith, na syrthio i ddywylaw y Cristionogion. Cymrodd pob un yn ebrwydd ei gyllell, a brathodd ei wraig a'i blant. Wedi hyny aeth y gwŷr i balas y brenin, gosodasant dân ynddo, a hlogasant eu hunain gyda'r palas a'r dodrefn.

Adn. 35. *Yr Arglwydd a'th dery di â chornwyd drygionus*] A thoriad allan poenus, yr hwn a ddechreuai yn y rhanau isaf, ac felly a ymdaenai o wadnau y traed hyd goryn y pen. Y mae hwn hefyd yn cael ei grybwyll gan *Thevenot* fel un o ddolurion yr Aifft: gwel ar adn. 27.

Adn. 36. *Yr Arglwydd a'th ddwg di a'th frenin*] Bydd yr adfyd yn gyffredinol: gan na byddai hyd yn nod y brenin yn alluog i'w ochrydd, llawer llai y deiliaid, y rhai na seiddant gymaint o fantais a chyfle i ddiane. Cyflawnwyd hyn mewn rhan pan gaethgludwyd Joacin i Babilon, gyda'i fam, ei wragedd, ei ystafellyddion, a chedryn y wlad, 2 Bren. xxiv. 15; ac wedi hyny Zedecia, 2 Bren. xxv. 7, Jer. lii. 11. Cans yr oedd yr Assyriaid yn bobl, er nad yn gwbl 'anadnabyddus' i'r Iuddewon yn amser Moses, eto â'r rhai nad oedd ganddynt ond ychydig gyweithas. Eithr fe'i cyflawnwyd yn fwy enwedigol yn eu gwasgariad diweddfaf gan y Rhufeiniaid, 'cenedl nad adwaent hwy na'u tadau.' *Gwasanaethi yno dduwiau dycithr, pren a maen—*es y byddai i'r hyn a ddewisent hwy gynt, ddyfod yn awr eu pla a'u trueni. A hyn yn ddiamau oedd cyflwr llawer o'r Israellaid yn y caethiwed Assyriaidd a Babilonaidd, trwy eu bod naill ai yn cael eu gogwyddo gan siampl a chynghorion eu gorchfygwyr, aeu ynte yn cael eu gorfodi gan eu gormes, i arferyd yr eilunaddoliaeth yma. Ac y mae yr Esgob Newton yn profi trwy dystiolaethau dilyn fod yn beth cyffredin i'r Iuddewon, mewn gwledydd Pabaidd, gydymffurfio âg eilunaddoliaid Eglwys Rufain, ac ymgyrma i bren a maen, yn hytrach na sfforfetio eu heiddo!

Adn. 37. *A byddi yn syndod, yn ddiareb, ac yn watwargerdd yn mhlith yr holl bobloedd*] Onid ydym ni yn gweled y broffwydoliaeth hon yn cael ei chyflawni agos bob dydd? Onid yw erintachrwydd, oeraeth, a chalongaledwch Iuddew wedi dyfod yn ddiareb? Ac

maes, ac ychydig a gesgli: o herwydd y locust a'i hysa.

39 Gwinllanoedd a bleni, ac a gol-eddi; ond gwin nid yfi, ac ni chesgli *y grawwin*: cansys pryfed a'i hwyty.

40 Olewwydd a fydd i ti trwy dy holl derfynau, ac âg olew ni'th irir: o herwydd dy olewwydden a ddyhidla.

41 Meibion a merched a genhedli, ac ni byddant i ti: o herwydd hwy a ânt i gaethiwed.

42 Dy holl brenau a firwythau dy dir a ddifa y locust.

43 Y dycithr a fyddo yn dy fysg a

onid yw eu personau yn y cyffredin, fel y sylwa Newton, yn atgas yn mysg pob math o bobl? Mahometaniaid, Paganïaid, a Christionogion, pa fodd bynag y gallant anghytuno mewn pethau ereill, eto a gytunant yn gyffredin i ddfrio, amharchu, ac erlid Iuddew. Yn y rhan swyaf o'r manau lle y gaddwir hwynt, y maent yn gorfod byw o'r neilldu wrthynt eu hunain, (megys y gwnaent gynt yn Llundain yn yr *Old Jewry*.) a gwsgo rhyw nod o wahaniaeth; ac y mae hyd yn nod eu gwynebau yn eu gwahaniaethu yn gyffredin oddiwrt y lleill o ddynolryw. Dywedir eu bod yn Persia nid yn unig yn cael eu hamddifadu o'u holl feddiannau, eithr yn cael eu gyru o amgylch fel cŵn, gyda chlog mawr o bren wedi ei rwyngo wrth eu gyddfau!

Adn. 38—42. *Had lawer a ddygi allan i'r maes, ac ychydig a gesgli, &c.*] Darfu i'r plau â'r rhai y bygythir y genedl yn yr adnodau hyn ddisgyn arnynt yn olynol. Difrodwyd y wlad gan newyn mawr yn amser Elisens; y locustiaid a'i hanrheithiasant hi, a'r olewddydd ni roddasant firwyth, 2 Bren. viii. 1, Joel i. 10, &c. Torodd newyn allan wedi hyny yn amser Jeremia, pen. xiv. 1, &c., at yr hwn yr ymddengys fod Moses yn cyfeirio yma. Ymosodiadau y gelyn oeddynt aml, 2 Bren. xiii. 20—24, 2 Cron. xxviii. 5, Jer. xii. 12. Ac i gyflawni trueni yr Iuddewon, eu plant a gymerid oddiwrt hyn yn fynych, 2 Bren. v. 2, a xiv. 26. Ni ddarfu i'r amgylchiad hwn modd bynag erioed ddygwydd iddynt cyn fynyched ag ar ol iddynt groeshoelio Arglwydd y gogoniant. Dywed Dr. Jackson i frenhinoedd yr Hispaen anfon niferoedd mawrion o honynt i'w trefedigaethau Americanaidd, ac i waed yr Iuddewon gael ei gymysgu yno gydag eiddo yr Hispaenaid.

Adn. 43. *Y dycithr a fyddo yn dy fysg*] Y rhai gynt a'th wasanaethent di, ac a'u hys-tyrient yn ffrainth gael y briwsion a syrthient oddiar dy fwrdd; a *ddring arnat yn uchel uchel*—a gyfodant i gyfoeth a llwyddiant mawr ar dy ddinystyr di. Y mae Dr. Jackson yn cymhwysu y broffwydoliaeth hon at Vespasian, yr hwn, o enedigaelth isel, a gyfododd i'r urddasrwydd amherodrol, trwy gael ei benodi yn llywydd yn y rhyfeloedd yn erbyn yr Iuddewon; ac y mae ereill yn ei deongli am y Samariaid.

Adn. 44. *Efe a fydd yn ben, a thi a fyddi yn gynffon*] Gwel ar adn. 13.

ddring arnat yn uchel uchel; a thi a ddisgyni yn isel isel.

44 Efe a fenthycia i ti, a thi ni fenthyci iddo ef: efe a fydd yn ben, a thi a fyddi yn gynffon.

45 A'r holl felldithion hyn a ddaw arnat, ac a'th erlidiant, ac a'th oddiweddant, hyd oni'th ddinystrier; am na wrandewaist ar lais yr Arglwydd dy Ddau, i gadw ei orchymynion a'i ddeddfau ef, y rhai a orchymynodd efe i ti.

46 A byddant yn arwydd ac yn rhyfeddod arnat ti, ac ar dy had hyd byth.

47 Oblegid na wasanaethaist yr Arglwydd dy Ddau mewn llawenydd,

Adn. 45. *A'r holl felldithion hyn a ddaw arnat*] Yma darfu i rai beoniaid wahanu y profwydoliaethau hyn, a deogli y rhai blaen- orol fel yn cyfeirio at gaethiwed cyntaf yr Iuddewon, a'r adfydau a ddyoddefasant hwy dan y Caldeaid; a'r rhai dylunol fel yn cyfeirio at eu caethiwed olaf hwy, a'r adfydau a ddyoddefasant dan y Rhufeiniaid. Ond, fel y sylwa Newton, nid oes achos am un gwahaniad o'r fath; nid oes un rheswm i feddwl fod dim o'r fath yn cael ei fwriadu gan yr awdwr. Cafodd amrai broffwydoliaethau o'r naill ran, yn gystal ag o'r llall, eu cyflawni y ddau amser; ond cawsant oll eu cyflawni yn llawnach yn ystod yr amser olaf; ac nis gall fod un darlun bywiocach nag y maent yn ei arddangos o gyflwr yr Iuddewon yn bresenol. Yn wir y mae eu dinstyr hwy gan y Rhufeiniaid, yr hwn sydd yn llawer mwy arswydus na'r blaenaf, yn dangos fod eu pechod hwy o wrthod Crist yn fwy cythruddawl i Ddau nag eilunaddoliaeth ei hun.

Adn. 46. *A byddant*] Sef y melldithion a grybwyllir yma; yn arwydd' ac yn rhyfeddod arnat ti—er pan grewyd dyn gyntaf ar y ddaear, ni bu pobl erioed yn gymaint arwydd i'w holl drigolion hi ag y mae yr Iuddewon wedi bod. Ni bu erioed adfydau fel yr eidd- ynt hwy; ac ni bu pobl erioed yn cael eu gwasgaru a'u caethgludo yn y fath fodd, ac eto eu cadw mor gyfan a didoledig, a thrwy hyny yn cael eu gwneuthur yn ddrych ac yn arwydd i'r holl genhedloedd. Er i'r adnod hon gael ei hysgrifenu er's mwy na thair mil o flynyddau, eto y mae genhedloedd y ddaear yn ei gweled mewn llawn rym y dydd heddyw! Y mae had y bobl hyn yn aros eto, ac y mae eu cyflwr yn gyfryw ag sydd yn eu gwneuthur yn arwydd ac yn rhyfeddod dros wyneb y ddaear. Y fath brawf eglur yw hyn o ddywfoldeb yr ysgrythrau santaidd!

Adn. 47. *Oblegid na wasanaethaist yr Arglwydd dy Ddau mewn llawenydd, &c.*] Sylwch yma, (1) Y dysgwylir yn gyfiawn i'r rhai ag y mae Duw yn rhoddi iddynt *amldra* o bethau daionus y bywyd hwn, ei wasanaethu ef. I ba beth y mae efe yn ein cynal ni, ond fel y gwnelom ei waith ef, ac y byddom ryw fodd yn wasanaethgar er anrhydedd iddo? (2) Pa fwyaf y mae Duw yn ei roddi i ni, mwyaf *llawen* y dylem ninau ei wasanaethu

ac mewn hyfrydwch calon, am aml- dra pob dim:

48 Am hyny y gwasanaethi di dy elynion, y rhai a ddenfyn yr Arglwydd yn dy erbyn, mewn newyn, ac mewn syched, ac mewn noethni, ac mewn eisiau pob dim; ac efe a ddyry iau haiarn ar dy wddf, hyd oni ddinystrio efe dydi.

49 Yr Arglwydd a ddwg i'th erbyn genedl o bell, *sef* o eithaf y ddaear, *mor gyflym* ag yr eheda yr eryr, cenedl yr hon ni ddealli ei hiaith;

50 Cenedl wyneb-galed, yr hon ni dderbyn wyneb yr henafgar, ac ni bydd raslawn i'r llanc.

ef: dylai ein hamldra fod yn olew i olwynion ein hufydd-dod. Y mae Duw yn Feistr a fyn gael ei wasanaethu mewn llawenydd, ac y mae yn hoffi ein clywed yn canu gyda'i waith. (3) Os ydym ni yn derbyn rhoddion haelionus Duw *heb* ei wasanaethu ef mewn un modd, neu ynte gan ei wasanaethu yn *anewyllysgar*, cyfiawn yw ger ei fron ef wneyd i ni wybod caledi angen a chaethiwed. Y mae y neb sydd yn achwyn heb achos, yn haeddu cael rhoddi achos iddynt.

Adn. 48. *Efe a ddyry iau haiarn ar dy wddf*] Sef caethiwed creulon a gormes caled, Jer. xxvii. 11, 12. Y mae yn gyfiawn fod i'r rhai a wrthodant resymol wasanaeth Duw, gael eu gwneuthur yn gaethweision i'w gel- ynyon; ac, yn lle iau esmwyth Duw, gael en rhoddi dan iau haiarn: gwel 2 Cron. xii. 8.

Adn. 49. *Yr Arglwydd a ddwg i'th erbyn genedl o bell, &c.*] Gellid dywedyd fod y Cal- deaid yn dyfod o bell, mewn cydmarhaeth i'r Moabiaid, y Philistiaid, a chymydogion ereill, y rhai a arferent aflonyddu Judea. Y mae dysgrifiad lled debyg yn cael ei roddi o'r Cal- deaid gan Jeremia, pen. v. 15, yr hwn yr un modd sydd yn eu cydmarhu hwynt i *eryrod*, Galar. iv. 19. Ond nis gellir cymhwyso y dysgrifiad hwn at un genedl gyda'r fath briodoldeb ag at y Rhufeiniaid. Hwyt-hwy mewn gwirionedd 'a ddygwyd o bell, sef o eithaf y ddaear; trwy fod Vespasian ac Ad- rian, dau orchfygydd a dinstyrydd mawr yr Iuddewon, yn dyfod ill dan o lywyddau yma yn Brydain. Gallai y Rhufeiniaid hefyd gael eu cydmarhu yn dda i *eryrod* ar gyfrif *cyf- lymder* eu buddugoliaethau; neu mewn cyfeiriad at lumman y byddinoedd Rhufeinig, yr hwn oedd *eryr*; ac yr oedd eu *hiaith*, sef y Lladin, yn fwy anadnabyddus i'r Iuddewon na'r Galdeaeag.

Adn. 50. *Cenedl wyneb-galed, &c.*] Y cyf- ryw oedd y Caldeaid, y rhai a laddasant wŷr ieuainc yr Iuddewon 'yn nhŷ eu cysegr, ac nad arbedasant na gŵr ieuanc na morwyn, na hen, na'r hwn oedd yn camu gan oedran,' 2 Cron. xxxvi. 17. Y cyfryw hefyd oedd y Rhufeiniaid, y rhai, meddai Josephus, pan aethant i Gadara, na ddangosasant drugaredd i un oedran. Gwnaethant y gyfleyh alanas yn Gamala, heb gymaint ag arbed plant bychain, eithr eu tafu i lawr bendramwnwgl o'r tŵr.

51 A hi a fwyty ffrwyth dy anifeilaid, a ffrwyth dy ddaear, hyd oni'th ddinystriest: yr hon ni âd i ti yd, gwib, nac olew, cynydd dy wartheg, na diadellau dy ddefaid, hyd oni'th ddyfetho di.

52 A hi a warchae arnat ti yn dy holl byrth, hyd oni syrthio dy uchel a'th gedym gaerau, y rhai yr ydwyt yn ymddiried yuddynt trwy dy holl dir: hi a warchae hefyd arnat yn dy holl byrth, o fewn dy holl dir yr hwn a roddodd yr Arglwydd yr Dduw i ti.

53 Ffrwyth dy fru, *sef* cig dy feibion, a'th ferched, y rhai a roddodd yr Arglwydd yr Dduw i ti, a fwytaï yn y gwarchae, ac yn y cyfyngdra a ddwg dy elyn arnat.

54 Y gŵr tyner yn dy blith, a'r moethus iawn, a greulona ei lygad wrth ei frawd, ac wrth wraig ei fynwes, ac wrth weddill ei feibion y rhai a weddillodd efe:

55 Rhag rhoddi i un o honynt o gieg ei feibion, y rhai a fwyty efe; o eisiau

gado iddo ddim yn y gwarchae ac yn y cyfyngdra, â'r hwn y cyfynga dy elyn arnat o fewn dy holl byrth.

56 Y wraig dyner a'r foethus yn dy fysg, yr hon ni phrofodd osod gwadu ei throed ar y ddaear, gan fwythau a thynerwch, a greulona ei llygad wrth ŵr ei mynwes, ac wrth ei mab, ac wrth ei merch,

57 Ac wrth ei phlentyn a ddaw allan o'i chorff, a'i meibion y rhai a blanta hi: canys hi a'u bwyty hwynt yn ddirgel, pan ballo pob dim *arall* yn y gwarchae ac yn y cyfyngdra, â'r hwn y cyfynga dy elyn arnat o fewn dy byrth.

58 Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y gyfraith hon, y rhai sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn, gan ofni yr enw gogoneddus ac ofnadwy hwn, YR ARGWLWYDD DY DDUW;

59 Yna y gwna yr Arglwydd dy blâu di yn rhyfedd, a phlâu dy had; *sef* plâu mawrion a pharhaus, a chlefydau drwg a pharhaus.

60 Ac efe a ddwg arnat holl glaf-

Adn. 51. *A hi a fwyty ffrwyth dy anifeilaid, &c.*] Gwel ar adn. 15, &c.

Adn. 52. *A hi a warchae arnat ti yn dy holl byrth*] Felly y gwnaeth Salmaneser, Senacherib, a Nebuchodonosor, 2 Bren. xviii. 9, &c., a xxv. 10. Eithr y rhagfynegiad hwn a gyflawnwyd yn neillduol gan y Rhufeiniaid, o ffaen y rhai y gorfu i'r amddiffynfeydd goraf yn Judea roddi i fyny, fel y gellir gwelw yn Ilaes y Rhyfeloedd Iuddewig gan Josephus. A da y gellir dywedyd fod yr Iuddewon yn ymddiried yn eu huchel a'u cedyrn gaerau; cays anfynych yr anturient ymladd ar y maes agored.

Adn. 53. *Ffrwyth dy fru—a fwytaï*] Gwel ar adn. 56, 57, a Lef. xxvi. 29. Cyflawnwyd hyn yn llythyrenol pan warchaewyd Jerusalem gan y Rhufeiniaid: gwraig o'r enw *Mair*, o deulu anrhydeddus, wedi ei gyru i wallgofrwydd gan y newyn, a ferwodd ac a fwytaodd ei phleutyn ei hun! Gwel achos cyffelyb, 2 Bren. vi. 29.

Adn. 54, 55. *Y gŵr tyner yn dy blith, &c.*] Bydd i'w anghenion beri iddo anghoſto pob serch a thosturi at ei berthynasau agosaf ac anwylaf. Gwna y newyn iddo gipio y hwyd allan o enau ei blant ei hun, a grwgnach pob tamaid a fwytaï. Felly y dywed Josephus, fod gwragedd yn cipio y bwyd allan o enau eu gwyr, plant o enau eu rhieni, a'r hyn sydd fyth yn fwy annatuiol, manau o enau eu babanod, gan gymeryd oddiwitynt, tra yn goroedd yn nyehawl yn eu breichiau, gynaliaeth olaf bywyd!

Adn. 56, 57. *Y wraig dyner a'r foethus—a'u bwyty hwynt yn ddirgel*] Nid i'r dyben i ochelyd gwarthusrwydd y weithred, ond rhag i ereill gael rhan gyda hi. *Pan ballo pob*

dim arall—ar ol iddynt fwyta eu meirch a chreaduriaid aflan ereill. *Yn y gwarchae ac yn y cyfyngdra*—cyflawnwyd hyn o gylch 600 o flynyddau ar ol amser Moses, pan warchaewyd Samaria gan frenin Syria, ac y cytunodd dwy wraig, y naill i ferwi a lwyta ei mab y dydd hwnw, a'r llall i'w barotoi a'i fwyta y dydd nesaf, ac y bwytawyd yn o honnynt yn ol hyny, 2 Bren. vi. 29. Fe'i cyflawnwyd drachefn yn nghylch 900 o flynyddau ar ol Moses, yn ngwarchae Jerusalem cyn y caethiwd Babiloniaid, Baruc ii. 1—3, Galar. iv. 10. A thrachefn uwchlaw 1,500 o flynyddau ar ol Moses, yn ngwarchae olaf Jerusalem gan Titus. Fel hyn cafodd y broffwydoliaeth hen ei chyflawni ar wahanol amserau, er gwarth parhaus i'r genedl Iuddewig; canys ni wnaed y cyffelyb beth erioed gan Roegiad na barbariad. Gwelwn y ffrwyth o fod wedi eu gadael gan Dduw! Nid oes dim yn rhy greulon i'r cyfryw ei wneuthur.

Adn. 58, 59. *Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y broffwydoliaeth hon, &c.*] Os na roddent hwy ogoniaid i Dduw trwy ufydd-dod parhaus, efe a ymgoneddai arnynt hwy trwy blâu rhyfedd a pharhaus. Y mae eu plâu wedi parhau bellach am oddeutu deunaw cant o flynyddau. Yr oedd eu caethiwd o'r blaen yn dra byr mewn cydnulbariaeth; ac yr oedd Ezeziel a Daniel yn proffwydo yn nhir y Caldeaid: ond yn awr nid oes ganddynt yn gwir broffwyd i ragfynegu diwedd eu hadfydau; ni feddant neb ond gaugristiaid i'w twyllu, a chwanegu eu trueni. Yn eu caethiwd blaenorol yr oedd ganddynt y cysur o fod wedi eu cyfleu i'r un lle; yr oeddnynt yn trigo yn nghyd yn ngwlad Gosen ac yn Babilon: ond yn awr y maent wedi eu gwasgaru dros holl wyneb y ddaear.

ydau yr Aifft, y rhai yr ofnaist rhag-ddynt; a glynant wrthyt.

61 Ie, pob clefyd, a phob pla, yr hwn mid *yw* ysgrifenedig yn llyfr y gyfraith hon, a ddwg yr Arglwydd arnat, hyd oni'th ddinystrier.

62 Felly chwi a adewir yn ychydig bobl, lle yr oeddych fel ser y nefoedd o luosogrwydd; o herwydd na wrandawst ar lais yr Arglwydd dy Ddau.

63 A bydd, megys ag y llawenychodd yr Arglwydd ynoch i wneuthur daioni i chwi, ac i'ch amlhau; felly y

Adn. 60. *Holl glefydau yr Aifft*] Gwel ar pen. vii. 15.

Adn. 61. *Ie pob clefyd a phob pla, yr hwn nid yw ysgrifenedig yn llyfr y gyfraith hon*] Nid yn unig bydd i holl glefydau yr Aifft, megys y gwahanglwyf, y cornwydydd, y crach, &c., y rhai a nodir yma, dy oddiweddyd fel cosp dy anufydd-dod; ond hefyd ymwelir â thi a'r holl drueni a'r doluriau hyny ag y dichon i'r natur ddynol fod yn agored iddynt tu yma i'r hedd.

Adn. 62. *Felly chwi a adewir yn ychydig bobl*] Heb son yma am un arall o'r adfydau a'r galanau ag yr aethai yr Iuddewon danynt, yr oedd yn ngwarchaead diweddf Jerusalem gan Titus, meddai Josephus, luoedd dirfawr a fuont feirw o newyn; ac y mae efe yn cyfrif, yn ystod yr holl warchae, fod nifer y rhai a ddyfethwyd trwy newyn a thrwy ryfel, yn cyraeddi i un *cant ar ddeg o filoedd*, trwy fod y bobl wedi ymgynull yno yn y cyfamer o bob parth i gadw y pasc. Y mae banesydd Iuddewig arall yn adroed fod yno uwchlaw 116,000 o gyrrif meirwon gwyr cyfoethog ac anrhydeddus Jerusalem yn cael eu cario allan trwy un porth o'r ddinas yn ystod y gwarchae, heblaw y rhai a gariwyd allan trwy byrth ereill, neu a dafwyd dros y mawr. Ond pan gymerwyd y ddinas, yr oedd yr alanas yn ofnadwy! Mynai Titus osod terfyn arni, ond nid allai: ei wŷr a laddasant bawb, oddieithr y rhai mwyaf egniol, y rhai a gauwyd i fyny yn morth y gwragedd. Y rhai ieuangaf a phrydferthaf o'r rhai hyn a gadwyd i anrhydeddu buddugoliaeth Titus. Y sawl ag oeddynt uwchlaw dwy flwydd ar bymtheg oed a anfonwyd yn rhyw i'r Aifft, i lasurio mewn rhyw orchwyllion cyffredin yno; a niferoedd mawrion o rai ereill a anfonwyd i wahanol ddinasoedd Syria, a thaleithiau ereill, i'w dynoethi yn y chwareudai cyffredin, i arddangos brwydrau, neu i gael eu dyfetha gau fwystfild; fel ag y cyfrifir fod holl nifer yr Iuddewon a drengasant yn y rhyfel yma uwch law 1,400,000! Heblaw y rhai hyn, trengodd niferoedd mawrion mewn ogofeydd, coedydd, anialdroedd, ffosydd, &c., o'r rhai nis gelliid gwneuthur un cyfrifiad. Chwaneger at hyn, fod y gyflafan yn dra mawr a'r a wnaed wedi hyny o honynt yn rhyfeloedd Julius Severus, yr hwn a anfonwyd yn eu herbyn gan Adrian, pryd y dyfethwyd 50 o'u hamddiffynfeydd cadarnaf, ac y llosgwyd 985 o'u trefi ardderchocaf a mwyaf poblog; nes yr oedd 'holl Ju-

llawenycha yr Arglwydd ynoch i'ch dinystrio, ac i'ch dyfetha chwi: a diwreiddir chwi o'r tir yr wyt yn myned iddo i'w feddiannu.

64 A'r Arglwydd a'th wasgar di yn mhlith yr holl bobloedd, o'r *naill* gwŷr i'r ddaear hyd y cwr *arall* i'r ddaear: a thi a wasanaethi yno dduwiau dy-eithr, y rhai nid adnabuost ti na'th dadau; *sef* pren a maen.

65 Ac yn mhlith y cenhedloedd hyn ni orphwysi, ac ni bydd gorphwysdra i wadn dy droed: canys yr Arglwydd

dea, fel ei mynegir gan Dion, 'mewn ystyr wedi ei hanrheithio, a'i gadael fel anialwch.'

Adn. 63. *Llawenycha yr Arglwydd ynoch i'ch dinystrio*] Bydd ei gyfiawn ddipllonedd yn eich erbyn yno fawr, nes y bydd yn hyfrydweh ganddo ddial anoch. Er nad yw Duw yn ymhyfrdy yn marwolaeth pechadar ynddo ei lun, eto y mae efe yn ymhyfrdy yn ngoneddiad ei gyfiawnder ar droseddwy'r annwygiadwy, gan y rhaid i'r ymarferiad o'i holl briodoliaethau ei foddhau ef, onid ni byddai yn berffaith ddedwydd. *A diwreiddir chwi o'r tir*—ar ol i'r amherawdwr Adrian ddarostwng yr Iuddewon gwrthryfelgar, efe a gyhoeddodd ddeddf yn gwahardd iddynt, ar boen marwolaeth, osod troed yn Jerusalem, na chymaint a nesâu at y wlad oddiangylch. Dywed Tertullian a Jerome ddarfod gwahardd iddynt fyned i Judea. Er y pryd hyny y mae eu gwlad yn meddiant arglwyddi a meistri estronol, heb ond ychydig o Iuddewon yn trigo ynddi, a'r rhai hyny mewn cyflwr isel a gwasaidd yn y cyffredin.

Adn. 64. *A'r Arglwydd a'th wasgar di, &c.*] Gwel ar adn. 25, 36. Pa pobl a wasgarwyd mor eang a hwynt? a pha le y mae y genedl ag sydd ddyeithr iddynt hwy, neu ag y maent hwy yn ddyeithr iddi hi? Y maent yn heidio mewn amrai barthau o'r dwyrain, yn ymdaenu trwy y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, Africa, ac America, ac y mae amrai deuluoedd o honynt yn yr India Orllewinol.

Adn. 65. *Ac yn mhlith y cenhedloedd hyn ni orphwysi*] Yr oeddynt mor bell oddiwrth gael gorphwysdra, fel ag yr alltudd hwynt o ddinas, ac o wlad i wlad. Y mae amrai anghrefistiaid nodedig o'r fath yma yn cael eu crybwyll gan yr Esgob Newton, at yr hwn y cyfeirir y darllynydd. Yn niwedd y pymthegfed canrif alltuddwyd hwynt o'r Hispaen gan *Ferdinand* ac *Isabella*, pryd y darfu i 170,000 o deuluoedd, neu, fel y dywed rhai, 800,000 o bersonau, adaei y deyrnas. Y mae A. Brabanel, ysgrifenydd Iuddewig, yn rhoddi yr hanes ganlynol am eu hymlediad diweddf hwn o'r Hispaen. Efe a ddywed, 'Aeth 300,000 o honynt, hen ac ieuainc, gwŷr a gwragedd, (yn mhlith y rhai yr oedd efe yn un), ymaith ar eu traed yr un diwrnod, heb wybod i ba le i fnyed. Aeth rhai i Portugal, ereill i Navarre, lle y dyoddefasant lawer o drallodion; canys daeth rhai yn ysglyfaeth i newyn a haint, ac aeth ereill i'r môr, gan obeithio cael hyd i sefydliad llonydd mewn rhyw wledydd ereill.

a rydd i ti yno galon ofnus, a darfod-
edigaeth llygaid, a thristwch meddwl.

66 A'th einioes a fydd yn nghrog
gyferbyn â thi; a thi a ofni nos a
dydd, ac ni byddi sicr o'th einioes.

67 Y bore y dywedi, O na ddeuai yr
hwyr! ac yn yr hwyr y dywedi, O na
ddeuai y bore! o achos ofn dy galon
gan yr hwn yr ofni, a rhag gwledig-
aeth dy lygaid yr hon a welych.

68 A'r Arglwydd a'th ddychwel di
i'r Aifft, mewn llongau, ar hyd y
ffordd y dywedais wrthynt, na chwana-
egit ei gweled mwy: a chwi a ym-
werthwch yno i'ch gelynyon yn gaeth-

weision, ac yn gaethforwynion, ac ni
bydd a'ch pryno.

PENNOD XXIX.

DYMA eiriau y cyfammod a orchy-
mynodd yr Arglwydd wrth Moses
ei wneuthur â meibion Israel, yn nhir
Moab, heblaw y cyfammod a ammod-
odd efe â hwynt yn Horeb.

2 ¶ A Moses a alwodd ar holl Israel,
ac a ddywedodd wrthynt, Chwi a wel-
soch yr hyn oll a wnaeth yr Arglwydd
o flaen eich llygaid chwi yn nhir yr
Aifft, i Pharao, ac i'w holl weision,
ac i'w holl dir;

Eithr ar y môr cyfarfuasant âg anffodiau ne-
wyddion; caws gwerthid llawer yn gaeth-
weision pan y deuant at unrhyw wlad, bodd-
wyd llawer, a llosgwyd llawer yn y llongau,
y rhai a osodwyd ar dân. Yn fyr, dyoddefodd
pawb *gospedigaeth Duw y dialydd*. Ac wedi
hyn oll daeth y pla, yr hwn a ysgubodd ym-
aith y gweddill o'r truceiniaid gresynol, y rhai
a gasëid gan holl ddynolrwy; fel ag y bu i'r
holl ddirfawr rifiedi hyny feirw trwy ryw af-
lwydd neu gilydd, orddieithr ychydig iawn.
Bu i rai a geisiasant orphwysdra yn nheyrnas
Fez, fyw yno hir amser ar laswellt, a bwyta
hyd yn nod ei wraidd, ac yna feirw, a'u cyrff
yn gorwedd yn noethion ar y ddaear, heb fod
neb mor garedig a'u claddu hwynt! Yn ne-
chre yr nufed canrif ar bymtheg gwnaed cyf-
lafan arswydus o honynt yn *Lisbon* am dri
diwrnod yn nghyd, lle na oddefid iddynt feirw
o'u harchollion angeuol, eithr llusgid hwynt
gerfydd eu haelodau drylliedig i'r farchnadfa,
lle y cafodd cyrff y rhai byw a'r lladdedigion,
gydag ereill yn banner byw a banner marw,
eu llosgi yn nghyd yn bentryau! Trengodd
wyd fil o honynt yn y modd creulon hwn. Ni
feiddiai rhieni alaru am eu plant, na phlant
ocheneidio am eu rhieni, wrth eu gwled yn
cael eu llusgo i'r boenydfa! Yr oedd *ofn*
wedi eu digaloni hwy yn y fath fodd fel nad
oedd y rhai byw, yn yr olwg arnynt, yn gwa-
haniaethu nemawr oddiwrth y meirw, nes yr
oeddynt yn gywir yn y cyflwr a ddisgrifir
yma gan Moses, pan y dywedi, 'Yr Arglwydd
a rydd it' yno galon ofnus, a darfodedaeth
llygaid, a thristwch meddwl.'

Adn. 66. *A'th einioes a fydd yn nghrog
gyferbyn â thi*] Bydd dy einioes yn y fath
fodd wrth ewyllys dy elynion, fel ag i grogi
fel pe byddai wrth edaf frau yn dy wyddfod,
yr hon fydd mewn perygl bob moment o dori.

Adn. 67. *Y bore y dywedi, O na ddeuai yr
hwyr!*] Dengys hyn, (1) Y byddent mewn
cythruddiad a gofid gwastadol, gan achwyu
fod y dydd a'r nos yn parhau yn *rhy hir*. Pe
bae amser yn fwy gwerthfawr genym pan yr
ydyd mewn hawddfyd, yna ni byddai mor
faith yn ein golwg pan mewn adfyd. (2) Y
byddent mewn braw a dychryn gwastadol: yn
ofni yn y bore rhag y saeth a *chedo y dydd*,
ac am hyny yn ewyllsio fod y dydd wedi
myned hebio; ac yn yr hwyr rhag *dychryn*
nos, neu rhag *yr haint a rodio yn y tywyll-*

wch, Salm xci. 5, 6. Bydd i'w dychryn gyf-
odi nid yn unig oddiwrth *wledigaeth y llyg-
aid*, ond hefyd oddiwrth *ofn y galon*; nid yn
unig oddiwrth beryglon *gwirioneddol*, ond
hefyd oddiwrth rai *dychymygod*.

Adn. 68. *A'r Arglwydd a'th ddychwel di
i'r Aifft mewn llongau*] Ymddengys fod yr
ymadrodd hwn yn cael ei fwriadu i ddwyn ar
gof iddynt yr amser pryd y croesasant y môr
coch heb llongau, trwy i Dduw sychu y môr
yn wyrthiol o'u blaen. Daethant allan o'r
Aifft yn fuddugoliaethus, eithr yn awr caent
ddychwelyd yno fel caethweision; cerddasant
trwy y môr megys ar dir sych ar eu dyfodiad
allan, eithr yn awr caent eu cario yno mewn
llongau, heb gyfringogaeth ddwyfol yn gofalu
am danynt. *A chwi a ymwerthwch yno i'ch
gelynyon*—a ewyllsioch ymwerthu yn gaeth-
weision, i'r dyben i gael eich diwallu âg an-
garnheidiau bywyd; *ac ni bydd a'ch pryno*—
yr oedd y Rhufeiniaid yn ei ystyried yn warth
gael *Iuddew* yn gathwas, gan mor ddirmygus
ydoedd yn eu golwg. A phan yr anfonwyd
hwy yn gaethion i'r Aifft, fel y sylwasom ar
adn. 62, yr oedd cyn lleied o ofal yn cael ei
gymeryd o honynt, fel ag y bu i 11,000 o hon-
ynt feirw o eisiau. Yr oedd y marchnadoedd
wedi eu gorlenwi â hwynt, nes yr oeddynt yn eu
gwerthu hwy a'u gwragedd a'u plant am y
pris iselaf, trwy fod yno lawer i'w gwerthu,
heb ond ychydig o brynwyr. Dywedir i ddeg-
ar-hugain o Iuddewon gael eu gwerthu am un
darn o arian, gwerth oddeutu 2s. 6c., megys ag
y gwerthasant hwy ein Hiachawdwr bendigedig
am ddeg darn ar hugain, Mat. xxvi. 15.

PEN. XXIX. Adn. 1. *Dyma eiriau y cyf-
ammod*] Ymddengys fod yr adnod hon yn cyf-
perthyn yn briodol i'r bennod flaenorol, gan
fod pwn tra gwahanol yn cael ei gymeryd i
fyny yn adn. 2 o hon; ac y mae yn cael ei
nodi fel adn. 69 mewn rhai o'r ailunau cy-
wiraf o'r Beibl Hebreig. *Heblaw y cyf-
ammod a ammododd efe â hwynt yn Horeb*—yr
hyn a grybwyllir yma sydd chwanaegiad at y
deg gair a roddwyd yn Horeb; ac y mae y
mellidithion a gyhoeddir yma yn wahanol i'r
rhai a gyhoeddwyd yn erbyn troseddwyd y
deg gorchymyn.

Adn. 2, 3. *Chwi a welsoch yr hyn oll a
wnaeth yr Arglwydd, &c.*] Gwelsai rhai o
honynt, pan yn ieuainc, y plâu a ddygasai

3 Y profedigaethau mawrion a welodd eich llygaid, yr arwyddion a'r rhyfeddodau mawrion hyny :

4 Ond ni roddodd yr Arglwydd i chwi galon i wybod, na llygaid i weled, na chlustiau i glywed, hyd y dydd hwn.

5 Arweiniais chwi hefyd yn yr anialwch ddeugain mlynedd: ni heneiddiodd eich dillad am danoch, ac ni heneiddiodd dy esgid am dy droed.

6 Bara ni fwytasoch, a gwin neu ddiod gref nid yfасoch: fel y gwybyddech mai myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi.

7 A daethoch hyd y lle hwn: yna daeth allan Sehon brenin Hesbon, ac Og brenin Basan, i'n cyfarfod mewn rhyfel; a ni a'u lladdasom hwynt.

8 Ac a ddygasom eu tir hwynt, ac

a'i rhoisom yn etifeddiaeth i'r Reuben-iaid, ac i'r Gadiaid, ac i hanner llwyth Manasse.

9 Cdwch gan hyny eiriau y cyfammod hwn, a gwnewch hwynt; fel y llwyddoch yn mhob peth a wneloch.

10 ¶ Yr ydych chiwi oll yn sefyll heddyw gerbron yr Arglwydd eich Duw; penaethiaid eich llwythau, eich henuriaid, a'ch swyddogion, a holl wŷr Israel,

11 Eich plant, eich gwragedd, a'th ddyceithr-ddyn yr hwn sydd o fewn dy wersyll, o gymynydd dy goed hyd welhynydd dy ddwfr:

12 I fyned o honot dan gyfammod yr Arglwydd dy Dduw, a than ei gynghrair ef, yr hwn y mac yr Arglwydd dy Dduw yn ei wneuthur â thi heddyw:

Duw ar Pharao a'i bobl wrth eu gwaredu hwynt o'r Aifft; ac ereill a ddeallasant y pethau hyn oddiwrthyn hwy, yr hyn yn fynych a elwir yn *weled* yn iaith yr ysgrythyr.

Adn. 4. *Ond ni roddodd yr Arglwydd i chwi galon i wybod*] Yr hyn a wnaethai efe pe buasoch yn ei dymuno, ac yn ei gofyn yn gywir a difrifol gauddo ef: ac yr ydych chiwi yn ddiessug am nad yw genych, wrth ystyried ei drugareddau rhyfedd ef ar y naill law, a'i farnedigaethau arswydus ar y llall, o'r rhai yr ydych wedi cael y fath brawf, a'r rhai a alwent yn uchel arnoch i ymddarostwng ger ei fron ef mewn gwir edifeirwch, a cheisio ei ras i'ch galluogi i ddeall a diwgio trwy y fath oruchwyliaethau rhyfeddol. Y mae parodwydd Duw i wneuthur daioni i ni mewn pethau ereill, yn brawf eglur, os ydym heb ras, mai ein bai ni ydyw, ac nid ei fai ef: efe a fynasai ein casglu, ond ni fynef ni. Eithr y mae rhai berniaid yn darllen yr adnod hon yn ofyniadol, *Ond roddodd yr Arglwydd i chwi galon i wybod, &c.*? am y tybiant na allai Duw eu beio hwy am beidio â chyflawni dyledswydd, ac yntau heb roddi iddynt feddwl i ganfod y rhwymedigaeth o honi, na neith i'w chyflawui. Er fod hyn yn hollol wir, fel y sylwa Clarke, eto uid oes un angen am y gofyniad, gan nad yw y geiriau ond yn unig yn cynwys *na feddent hwy y gyfryw galon, &c.*; nid am na roddasai Duw iddynt holl foddion gwybodaeth, a chynorthwyon ei ras a'i Ysbryd, y rhai oeddynt angenrheidiol; eithr nid oeddynt hwy wedi gwneyd iawn ddefnydd o'u manteision, ac am hyny ni feddent y galon ddoeth, gariadus, ac uffydd hōno, yr hon angen a allasai fod ganddynt. Pe buasai ganddynt y gyfryw galon, buasai yn rhodd Duw, canys efe yw rhoddwr pob daioni; a'u bod heb y gyfryw galon ydoedd brawf eu bod wedi tristan ei Ysbryd ef, a chaudi-defnyddio y gras a roddasai efe i beri y cyfnewidiad grasol hwnw, y diffyg o ba un a alaethir yna. Am hyny arddanghosir Duw ei bun fel yn drist o herwydd eu bod hwy heb eu cyfnewid, ac yn anuffydd: 'O na byddai gyfryw galon ynddynt,

i'm hofni i, ac i gadw fy holl orchymynion bob amser; fel y byddai da iddynt, ac i'w plant yn dragwyddol!' Gwel pen. v. 29, a'r sylw yno.

Adn. 5. *Ni heneiddiodd eich dillad*] Gwel ar pen. viii. 4.

Adn. 6. *Bara ni fwytasoch*] Bara cyffredin wedi ei brynn a'ch arian, wedi ei gyraedd trwy eich llafr, neu wedi ei wneuthur â'ch dwylaw eich hunain, eithr bara nefol ac angylaidd. *A gwin neu ddiod gref nid yfасoch*—ond dwfr o'r graig, yr hwn oedd ddymunol ac adfywiol i chwi. Y meddwl yw, na chawsant eu maethu trwy foddion cyffredin, ond eu cynal yn barhaus trwy wyrth Duw. *Fel y gwybyddech mai myfi yw yr Arglwydd*—mai myfi yw *Jehoufa*, Bôd hollalluog a hollddigonol, yr hwn a allaf ddarparu cynalieth i chwi heb gymhoth neb: gwel ar Exod. vi. 3. *Eich Duw chwi*—mewn cyfammod â chwi, yn meddu gwir gariad atoch, a gofal tadol am danoch.

Adn. 7—9. *A daethoch hyd y lle hwn, &c.*] Gwel ar pen. iv. 46, 47. Yr ysyr yw: Gan i Dduw gyflawni ei gyfammod â chwi cyn belled a hyn, a rhoddi i chwi fuddugoliaeth ar eich gelynion, a'u tir yn etifeddiaeth i'ch llwythau; boed i chwi ofalu am gyflawni eich rhan chwithau, a chadw geiriau ei gyfammod ef, fel y llwyddoch.

Adn. 10, 11. *Yr ydych chiwi oll yn sefyll heddyw gerbron yr Arglwydd*] Wrth y babel, lle y traddodai efe y geiriau hyn iddynt trwy yr offeiriaid, pen. xxvii. 9, 14. Arddanghosir Duw fel yn bresenol, a hwythau a'u holl deuluoedd, yn heu ac ieuainc, yn sefyll ger ei fron. *A'th ddyceithr-ddyn*—ag ydoedd wedi cofseidio y wir grefydd.

Adn. 12. *I fyned o honot dan gyfammod*] *Leaber*, 'i fyned trwy,' neu *rhwyng* rhanau gwahanedig yr aberth cyfammodol: gwel ar Gen. xv. 18. *A than ei gynghrair ef*—*bealatho*, 'ei lw, ei felldih, neu ei reg;' cyfammod wedi ei gadarnhau trwy lw: canys yr oeddynt yn myned dan y cyfammod hwn gyda mellldithiadau arnynt eu hunain os na chyflawment eu hymrwymiadu yn slyddlon.

13 I'th sierhau heddyw yn bobl iddo ei hun, ac i fod o hono yntau yn Dduw i ti, megys y llefarodd wrthyf, ac fel y tyngodd wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob.

14 Ac nid â chwi yn unig yr ydwyf fi yn gwneuthur y cyfammod hwn, a'r cynghrair yma;

15 Ond â'r *hwn* sydd yma gyda ni yn sefyll heddyw gerbron yr Arglwydd ein Duw, ac â'r *hwn* nid yw yma gyda ni heddyw:

16 (Canys chwi a wyddoch y modd y trigasom ni yn nhir yr Aifft, a'r modd y daethom trwy ganol y cenedloedd y rhai y daethoch trwyddynt.

17 A chwi a welsoch eu ffeidd-dra hwynt a'u heilun-dduwiau, pren a maen, arian ac aur, y rhai oedd yn eu mysg hwynt)

18 Rhag bod yn eich mysg ŵr neu wraig, neu deulu, neu lwyth, yr hwn y try ei galon heddyw oddiwrth yr Ar-

glwydd ein Duw, i fyned i wasanaethu duwiau y cenedloedd hyn; rhag bod yn eich mysg wreiddyn yn dwyn gwenwyn a wermod:

19 A bod, pan glywo efe eiriau y felldith hon, ymfendithio o hono yn ei galon ei hun, gan ddywedyd, Heddwch fydd i mi, er i mi rodio yn nghyndynrwydd fy nghalon, i chwaneu meddwod at syched.

20 Ni fyn yr Arglwydd faddeu iddo; canys yna y myga digllonedd yr Arglwydd a'i eiddigedd yn erbyn y gŵr hwnw, a'r holl felldithion sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn a orwedd arno ef, a'r Arglwydd a ddilea ei enw ef odditan y nefoedd.

21 A'r Arglwydd a'i neilldua ef oddiwrth holl lwythau Israel, i *gael* drwg, yn ol holl felldithion y cyfammod a ysgrifenydd yn llyfr y gyfraith hon.

22 A dywed y genhedlaeth a ddaw

Adn. 13. *I'th sierhau heddyw yn bobl iddo ei hun*] I'w ofni, ei garu, ac ufyddhau iddo ef; ac i fod o hono yntau yn Dduw i ti—i'th wneuthur yn santaidd a dedwydd. Y mae iawn ddirnadaeth o'r berthynas ag yr ydym yn sefyll ynddi i Dduw fel ein Duw ni, a'r rwymedigaeth ag yr ydym dani iddo ef fel ei hobi, yn ddigon i'n dwyn i holl ddyledswyddau a holl gysuron y cyfammod.

Adn. 14. *Ac nid â chwi yn unig*] Y rhai ydych yma gyda ni yn sefyll heddyw gerbron yr Arglwydd ein Duw.

Adn. 15. *Ac â'r hwn nid yw yma*] Pob cenedlaeth ddyfodol o'r Iuddewon. Eithr barna rhai mai at yr Iuddewon hyn ag oedd ynt yn cael eu cadw oddiwrth y babel trwy afsechyd neu ryw achos anheborol arall y cyfeirir yn y geiriau hyn; tra y tybia Houbigant eu bod yn meddwl y Cenedloedd, y rhai oedd ynt wedi hyn i fod yn etifeddion o'r un bendithion. Yn gyson â hyn y darllenir yr adnod hon gan un o'r alleirwyr Caldeiaidd: 'Y mae yr holl genedlaethau a fuont er dyddiau cyntaf y byd, a'r holl rai a godant hyd ddiwedd y byd, yn sefyll gyda ni yma heddyw.' Fel hyn, wrth gymeryd y cyfammod hwn fel cysgod o'r cyfammod gras, y mae yn dystiolaeth adderchog i Gyfryngwr y cyfammod hwnw, yr hwn sydd ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.

Adn. 16, 17. *Canys chwi a wyddoch y modd y trigasom ni yn nhir yr Aifft, &c.*] Lle y gwelsoch eu heilunaddoliad hwy, ac y dysgasoch ormod o hono, fel y danghosodd y llo aur, ac am hyn ydych mewn angen am adnewyddu eich cyfammod â Duw; a lle hefyd yr oeddym mewn caethiwed ofnadwy, o'r hwn y darfu i Dduw ei hun ein gwaredu; i ba un gan hyn yr ydym yn dra rhywmedig, ac yn meddu pob rheswm i adnewyddu ein cyfammod ag ef. *A'r modd y daethom trwy ganol y cenedloedd*—gyda pha berygl, oni buasai i

Dduw ein diogelu rhag yr Edomiaid, y Midianiaid, yr Ammoniaid, a'r Moabiaid.

Adn. 18. *Rhag bod yn eich mysg ŵr neu wraig, &c.*] Y mae y geiriau hyn i'w deall fel yn gysylltiedig âg adn. 14, 15, ac fel yn arwyddo y dyben i'r hwn yr oedd efe yn eu rhwymo hwy i adnewyddu eu cyfammod â Duw, rhag i neb o honnynt wrthgilio oddiwrtho ef i wasanaethu duwiau ereill. *Rhag bod yn eich mysg wreiddyn yn dwyn gwenwyn a wermod*—neu 'galon ddrwg anghrediniaeth, gan ymado oddiwrth Dduw byw,' Heb. iii. 12. Gall hefyd arwyddo gau-athrawiaethau, neu eilunaddolwyr yn eu plith eu hunain; gwel ar Heb. xii. 15.

Adn. 19. *Pan glywo efe eiriau y felldith hon*] Y llw a'r rheg yma, yn mha un y tyngodd efe y byddai iddo gadw cyfammod â Duw, a hyn gyda mellidith yn cael ei chyhoeddi yn ei erbyn ei hun os na chyflawnai efe ef. *Ymfendithio o hono yn ei galon*—ymweneithio yn ei olwg ei hun gyda gobeithion ofer, fel pe na byddai Duw yn sylwi ar y cyfryw bethau, ac naill ai na allai neu na wnai efe eu cospi hwynt. *Heddwch fydd i mi*—diogelwch a llwyddiant; *er i mi rodio yn nghyndynrwydd fy nghalon*—er nad wyf yn dylun gorchymynion Duw, ond fy nychymysgion fy hun; *i chwaneu meddwod at syched*—ymadrodd diarebol, yn arwyddo yr anwesiad mwyaf yn mhob boddineb enawdol.

Adn. 20. *Myga digllonedd yr Arglwydd a'i eiddigedd yn erbyn y gŵr hwnw*] Efe a lysg ac a dyr allan fel filam a mwg o ffrwn. *A'r Arglwydd a ddilea ei enw ef*—a ddyfetha ei berson ef, a'r goffadwriaeth o hono o blith dynion, heb oddef i un o'i epil fyw ar ei ol i barhau ei enw a'i goffadwriaeth.

Adn. 21. *A'r Arglwydd a'i neilldua ef—i gael drwg*] I ddyoddef rhyw bla hynodol, gan ei wneuthur yn golofn o'i anfoddlonrwydd i'r holl dir. *Yn ol holl felldithion y cyfammod*

ar ol, *sef* eich plant chwi, y rhai a gomod ar eich ol chwi, a'r dycythr yr hwn a ddaw o wlad bell, pan welont blâau y wlad hon, a'i chlefydau, *trwy* y rhai y mae yr Arglwydd yn ei chlywyo hi;

23 *A'i thir wedi ei losgi oll gan frwmstan a halen, na heuir ef, ac na flaendardda, ac na ddaw i fyny un llysieuyn ynddo, fel dilynstr Sodom a Gomorra, Admah a Seboim, y rhai a ddinystriodd yr Arglwydd yn ei lid a'i ddigofaint:*

24 *Ie, yr holl genhedloedd a ddywedant, Paham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn i'r tir hwn? pa ddipter yw y digofaint mawr hwn?*

25 *Yna y dywedir, Am wrthod o honynt gyfammod Arglwydd Dduw eu tadau, yr hwn a ammododd efe â*

hwynt pan ddyg efe hwynt allan o dir yr Aiff.

26 *Canys aethant a gwasanaethasant dduwiau dycythr, ac ymgrymasant iddynt; sef duwiau nid adnaent hwy, ac ni roddasai efe iddynt.*

27 *Am hyny yr enynodd diglloedd yr Arglwydd yn erbyn y wlad hon, i ddwyn arni bob melldith a'r y sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn.*

28 *A'r Arglwydd a'u dinystriodd hwynt o'u tir mewn digofaint, ac mewn digter, ac mewn llid mawr, ac a'u gyrodd hwynt i wlad arall, megys y gwelir heddyw.*

29 *Y dirgeledigaethau sydd eiddo yr Arglwydd ein Duw, a'r pethau amlwg a roddwyd i ni, ac i'n plant hyd byth: fel y gwnelom holl eiriau y gyfraith hon.*

—canys yr oedd gan y cyfammod a wnaed â hwy, er ei fod yn gyfammod *gras*, felldithion yn gystal a bendithion yn perthyn iddo.

Adn. 22. *Pan welont blâau y wlad hon*] *Sef y difodiadau dychrynlyd a fygythiwyd yn y bennod flaenorol.*

Adn. 23. *A'i thir wedi ei losgi oll gan frwmstan a halen*] *Ymadrodd diarebol, yn arwyddo ei hollol ddiffrythder barnol. Na heuir ef ac na flaendardda—yr hwn na all celfyddyd na natur ei ffrwythloni.*

Adn. 24. *Ie, yr holl genhedloedd*] *A fyddant yn agos atynt, neu wedi dyfod o wledydd pellenig, adn. 22. Paham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn i'r tir hwn—yr hwn a wnaethai efe gynt mor bobogaidd a ffrwythlon? Pa ddipter yw y digofaint mawr hwn—y trallodion arswydus hyn, y rhai yn amlwg a ddeilliasant oddiwrth ddywyfoll ddaled?*

Adn. 25. *Yna y dywedir*] *Bydd y peth mor amlwg nes y dywed pawb, Am wrthod o honynt gyfammod Arglwydd Dduw eu tadau y bu hyn! Nid yw Duw yn gwrthod neb, fel y sylwa Henry, nes iddynt hwy yn gyntaf ei wrthod ef. Ond y mae y rhai ag sydd yn gwrthod Arglwydd Dduw eu tadau, yn cael eu bwrw allan yn gyflawn o etifeddiaeth eu tadau.*

Adn. 26. *Duwiau—ni roddasai efe iddynt*] *Y mae Houbigant yn cyfieithu y wreiddiol, *velo chalak lahem*, 'â'r rhai ni bu iddynt gymdeithas; a LE CLERC, 'oddiwrth y rhai ni dderbyniasant ddim budd.' Ond gan fod *chalak* yn arwyddo rhan neu etifeddiaeth, a bod Duw yn cael ei osod allan yn fynyeh yn yr ysgrthyf fel rhan neu etifeddiaeth ei bobl, tybia CLARKE y dylai y wreiddiol gael ei chyfieithu, *Ac nid oedd rhan iddynt*—ni allai y duwiau a wasanaethent ddiwallu eu hanghenion nac aclub eu beneidiau: nid oeddynt hwy yn un ran.' Ond ereill, gan ddylyn y cyfieithiad cyffredin, a sylwant, 'Ni roddasai efe iddynt—i'w haddoli, ond a ranasai i bob cenedl er defnydd a gwasanaeth iddynt;' gan ei ddeall fel yn cyfeirio at yr haul, y loer, a'r*

ser, y rhai oeddynt y prif dduwiau a addolidd gan y cenedloedd cymydogoethol.

Adn. 27. *Yn y llyfr hwn*] *Yn benaf yn y bennod flaenorol.*

Adn. 28. *Gyrodd hwynt i wlad arall*] *Gyrwyd y deg llwyth i Assyria, ac oddiyno i ddinasoedd y Mediaid; a'r ddaul lwyth ereill i wlad Caldea, ac yn awr i bob gwlad.*

Adn. 29. *Y dirgeledigaethau sydd eiddo yr Arglwydd ein Duw*] *Hyny yw, y mae cyngborau a bwriadau Duw yn ughylch personau neu genhedloedd, a'r rhesymau am ei ymddygiadau tuag atynt hwy, yn nghyda'r amser a'r dull o weinyddu barnedigathaen neu ddangos trugaredd, a thrwy gydymffurfio â hi gael ein cadw rhag y fath drallodion dychrynlyd ag a grybwyllwyd yn awr. Er fod Duw wedi cadw llawer o'i gynghor a'i fwradau yn ddirgel, eto y mae digon wedi ei amlygu i'n bachub ni: ac ni attaliodd efe ddim rhagom ond y pethau ag y mae yn dda i ni fod yn anwybodus o honynt. Fel hyn y mae Moses yn dybenu ei broffwyddiaeth am wrthodiad yr Iuddewon, yn debyg fel y mae St. Paul yn dybenu ei draethawd ar yr un testyn pan yn dechreu cael ei gyflawni, gan sefain mewn modd yr un mor gyffrous, 'Mor anchwiliadwy yw ei farnau ef! a'i ffyrdd mor anolrheiniadwy ydynt!' Rhuf. xi. 33. Ond tybia rhai mai ystyr yr adnod hon yw, 'fod Duw yn cymeryd i'w law ei hun gospedigaeth pob pechod a gweithred ddirgel o eilunaddoliaeth yn erbyn ei gyfammod ef; ond ei fod yn gofyn i'r bobl gosi pob troseiddiad o'i gyfammod a ddeuai i'r amlwg.' Y mae Houbigant yn ei chyfieithu fel hyn: 'Y pethau ag oeddynt ddirgeledig gyda'r Argl-*

PENNOD XXX.

A PHAN ddelo yr holl bethau hyn arnat, *sef* y fendith a'r felldith, y rhai a roddais o'th flaen, ac adgofio o honot *hwynt* yn mysg yr holl genhedloedd y rhai y'th yrodd yr Arglwydd dy Dduw di atynt;

2 A dychwelyd o honot at yr Arglwydd dy Dduw, a gwrando ar ei lais ef, yn ol yr hyn oll yr ydwyf yn ei orchymyn i ti heddyw, ti a'th blant, â'th holl galon, ac â'th holl enaid:

3 Yna y dychwel yr Arglwydd dy Dduw dy gaethiwed, ac y cymer drugaredd arnat, ac y try, ac a'th gasgl o fysg yr holl bobloedd lle y'th wasgareo yr Arglwydd dy Dduw di.

wydd ein Duw, a amlygwyd i ni ac i'n plant; ac yr y mae *Grotius* a *Luther* yn ei deall bron yn yr un ystyr.

PEN. XXX. Adn. 1. *A phan ddelo yr holl bethau hyn arnat*] Yr oedd Moses yn rhagweld mor eglur y camddeffnydd a wnai y holl hyn o'u rhyddid, nes y mae yn sou am eu pechod a'u cosp fel yn sicr; eto, ar yr un pryd, y mae yn dangos pa fodd y gallent droi at Dduw a byw, hyd yn nod tra yn tywallt ei lid arnynt o herwydd eu troseddau.

Adn. 2. *A dychwelyd o honot at yr Arglwydd dy Dduw*] Mewn ymostyngiad, cywilydd, a thristwch; ac eto gyda hyder ynddo fel dy Dduw di, a chyda bwriad penderfynol i uffyddhau iddo o'r galu rhagllaw, a'i wasanaethu ef yn unig. Gwnaeth yr Iuddewon hyn i ryw fesur, fel cenedl, ar ol eu caethgludo i Babilon, wedi pa amser nid ydym yn darllen dim am eu heilunaddoliaeth mwyach. Eithr hwy a ddirywiasant eilwaith i bechodau ereill, yr hyn a wnaeth iddynt wrthod y MESSIA pan ei banfonwyd atynt, am yr hyn y cospir hwynt hyd heddyw, ac y gwneir yn barhaus nes iddynt edifarbau a dychwelyd, Rhuf. xi. 23—26, Luc xxi. 24.

Adn. 3. *Yna y dychwel yr Arglwydd dy Dduw dy gaethiwed*] Cyflawnwyd hyn mewn rhan pan y dychweliasant o Eabilon, ac fe'i cyflawnir yn llwyrach pan y troant oddiwrth annwioledeb, ac y credant yn Iesu o Nazareth fel MAE DUW a'r gwir FESSIA. *Ac a'th gasgl o fysg yr holl bobloedd*—rhaid fod hyn, meddai Clarke, yn cyfeirio at gaethiwed eangach na'r un a ddyoddefent yn Babilon.

Adn. 4. *Pe y'th wthid i eithaf y nefoedd*] Neu i blith y genedl bellaf dan y nefoedd. Cafodd y rhan yma o'r broffwydoliaeth ei chyflawni, canys hwy a wthiwyd fel hyn: gwel ar pen xxviii. 64. *Oddiyno y'th gasglai yr Arglwydd*—ni fydd i wasgariad eangaf a phellaf un o'r llwythau achosi iddynt lwyrgolli; eithr bydd i Dduw, ar yr ammod o'u crediniaeth hwy yn Nghrist, eu dwyn yn ol at eu holewyydden eu hun.

Adn. 5. *A'r Arglwydd dy Dduw a'th ddwg i'r tir a feddiannodd dy dadau*] 'Gan fod yr addewid hon yn cyfeirio at dychweliad o

4 Pe y'th wthid i eithaf y nefoedd, oddiyno y'th gasglai yr Arglwydd dy Dduw, ac oddiyno y'th gymerai.

5 A'r Arglwydd dy Dduw a'th ddwg i'r tir a feddiannodd dy dadau, a thithau a'i meddienni: ac efe a fydd dda wrthyt, ac a'th wna yn amlach na'th dadau.

6 A'r Arglwydd dy Dduw a enwaeda dy galon, a chalon dy had, i garu yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac â'th holl enaid, er mwyn cael o honot fyw.

7 A'r Arglwydd dy Dduw a rydd yr holl felldithion hyn ar dy elynion, ac ar dy gaseion, y rhai a'th erlidiant di.

gaethiwed yn yr hwn y gwsgaresid hwynt yn mysg yr holl genhedloedd, o ganlyniad nid y caethiwed Babilonaidd a feddylir; a rhaid fod yr addediad o'u gwlad yn wahanol i'r un a ganlyna eu dychweliad hwy o Galdea.—CLARKE. Y mae *Gill*, *Scott*, *Hales*, *Keith*, *Benson*, a'r rhan fwyaf o'r esbonwyr, o'r un olygiadau a *Clarke* ar adferiad yr Iuddewon i Ganaan, gwlad eu tadau, ar eu gwaith yn cofeiddio y MESSIA; ond ereill a dybiant fod yr holl addewidion a gynwysir yn yr adnodau hyn wedi eu cyflawni eisies, yn eu holl ystyr llythyrenol, trwy haelioni rhyfeddol Darins, a Cyrus ei nai, Ezra i. 1—5; a chydag *Ainsworth* cyfyngant y rhan arall o'u cyflawniad i gynulliad *ysbrydol*, sef eu hadferiad hwynt i reglwyys Gristionogol, neu y Ganaan ysbrydol. Y mae yu wir fod yr Iuddewon yn hnnain yn dysgwyl cael eu hadferyd cyn hir i wlad Canaan; ond nid yw yn eglur pa ddyben *Cristionogol* a atebid trwy hyn, na pha ran o'r ysgrythyr, a'i deall yn dëg, sydd yn rhoddi sail i neb feddwl hyny.

Adn. 6. *A'r Arglwydd dy Dduw a enwaeda dy galon*] Gan na ddarfu i'r ddeddf, a llefaru yn briodol, wneyd un ddarpariaeth go-gyfer âg enwaediad y galon, yr hyn sydd yn cynwys maddenant pechodau, a phureiddiad yr enaid oddiwrth bob anghyfiawnder; a chan nad oedd enwaediad ei hun ond arwydd yn unig o ddaioni ysbrydol, o ganlyniad y mae yr addewid yma yn cyfeirio at ddyddiau y MESSIA: canys 'enwaediad y galon sydd yn yr ysbryd, nid yn y llythyren,' Rhuf. ii. 29; ac y mae gwir ganlynwyr Duw wedi eu 'henwaedu âg enwaediad nid o waith llaw—yn enwaediad Crist,' Col. ii. 11, 12. Felly ni a welwn nas gall yr addewidion hyn gael eu cyflawni i'r Iuddewon ond ar eu cofeiddiad hwy o efengyl Crist.

Adn. 7. *A'r Arglwydd dy Dduw*] Y mae Moses yma (adn. 1—10) yn rhoddi yr enw hwn i JEOHFA ddeuddeg o weithiau, i arwyddo, (1) Y gall y rhai edifeiriol gymeryd calon i dychwelyd at Dduw, oddiwrth eu perthynas âg ef: 'Wele ni yn dyfod atat ti, oblegid ti yw yr Arglwydd ein Duw,' Jer. iii. 22. (2) Y caiff y rhai a wrthgiliaasant oddiwrth Dduw, os bydd iddynt dychwelyd ato ef, a gwneyd

8 Tithau a ddychweli, ac a wrandewi ar lais yr Arglwydd, ac a wnaei holl orchymynion ef, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw.

9 A'r Arglwydd dy Dduw a wna i ti lwyddo yn holl waith dy law, yn ffrwyth dy fru, ac yn ffrwyth dy anifeiliaid, ac yn ffrwyth dy dir, er daioni: canys try yr Arglwydd i lawenyachu ynot, i *wneuthur daioni i ti*, fel y llawenychodd yn dy dadau;

10 Os gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, i gadw ei orchymynion ef a'i ddeddfau, *yr rhaisydd* ysgrifenedig yn llyfr y gyfraith hon; os dychweli at yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid.

11 ¶ O herwydd y gorchymyn yma, yr ydwyf yn ei orchymyn i ti heddyw,

eu gweithredoedd cyntaf, eu hadferyd i'w cyflwr gynt o arhwydded a dedwyddwch: 'Dygwelch allan y wisg oraf,' Luc xv. 22. Yn mygythion y bennod o'r blaen gelwir ef o hyd, *Yr Arglwydd*—Duw y gallu, a Barnwr pawb; ond yn addewidion y bennod hon, *Yr Arglwydd dy Dduw*—Duw y gras, ac mewn cyfammod â thi. *A rydd yr holl feldithion hyn ar dy elynion*—pan fyddai Duw yn eu casglu yn nghyd, cyfarfyddent â llawer o wrthwynebiad; ond deuai yr un melltithion ag a fuont yn faich arnynt hwy, yn amddiffyniad iddynt, trwy gael eu troi ar eu gwrthwynebwyr.

Adn. 8. *Tithau a ddychweli*, &c.] Y mae yr hwn sydd yn gofyn i ni ddechwylyd, yn addaw gras i'n galluogi i ddechwylyd; a'n bai ni ydyw os na fydd y gras hwnn yn effeithiol. 'Dychwelwch wrth fy ngherydd: wele mi a dywalltaf fy Ysbryd i chi,' Diar. i. 23.

Adn. 9. *Lwyddo—er daioni*] Er dy fod o'r blaen yn derbyn y trugareddau hyn er dy niwed, ti a'i cai lwynt yn awr er daioni i ti: dy galon a gyfnewidir yn y fath fodd fel na fydd i ti yn awr eu camddefnyddio, eithr eu harferyd er gogoniant i'r Rhoddwr. *Canys try yr Arglwydd i lawenyachu ynot*—i wneuthur daioni i ti, megys y llawenychai gynt i'th ddinystrio, pen. xviii. 63.

Adn. 10. *Os gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw*] Chwanegir hyn i'w rhybyddio lwynt i beidio derbyn gras Duw yn ofer, ac i ddsygu iddynt nad yw gras yn diddymu rhwymedigaeth dyn i'w ddyledswydd, nac yn ei esgusodi am yr esgeulusiad o honi.

Adn. 11. *Y gorchymyn yma—nid yw guddiedig*] Nid yw yn rhy ryfedd neu anhawdd i ti ei ddinrad neu ei gyflawni, fel y mae y gair *niphleth* yn arwyddo. *Ac nid yw bell*—bydd i air neu athrawiaeth iachawdwriaeth gael ei chyhoeddi yn eich gwlad eich hunain; canys y mae ERE i gael ei eni yn Methlehem Judea, yr hwn sydd i fugeilio a gwaredu Israel; ac y mae y PROFFWRD ag sydd i'w dysgu lwynt, i gael ei godi o blith eu brodyr.

Adn. 12. *Nid yn y nefoedd y mae*] Wedi ei

nid yw guddiedig oddiwrthyt, ac nid yw bell.

12 Nid yn y nefoedd y mae, i ddywedyd o honot, Pwy a ddring drosom i'r nefoedd, ac a'i dwg i ni, fel y clywom, ac y gwnelom ef?

13 Ac nid o'r tuhwnt i'r môr y mae, i ddywedyd o honot, Pwy a dramwya drosom ni i'r tuhwnt i'r môr, ac a'i dwg ef i ni, fel y clywom, ac y gwnelom ef?

14 Canys y gair *sydd* agos iawn atat, yn dy enau, ac yn dy galon, i'w wneuthur ef.

15 ¶ Wele, rhoddais o'th flaen heddyw einioes a daioni, ac angau a drygioni:

16 Lle yr ydwyf fi yn gorchymyn i ti heddyw garu yr Arglwydd dy Dduw,

gau i fyny yno, eithr cyhoeddwyd ef yn dy glustiau. Neu, ni chyfeir ef yn y ffordd ag yr oedd y profiwyd yn derbyn eu horaclau; eithr y GAIR 'a wneir yn gnawd, ac a drig yn eich plith chwi.'

Adn. 13. *Ac nid o'r tuhwnt i'r môr*] Ni raid i chi deithio am dano at bloeddol benenig, canys 'iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon.'

Adn. 14. *Canys y gair sydd agos iawn atat*] Y mae gair y cymod yn dy ymyl, a ffordd iachawdwriaeth yn eglur a hawdd. *Yn dy enau*—yr oedd yr addewidion o iachawdwriaeth a wnaed gan y profiwyd yn fuffio rhan o gredo pob Iuddew. *Ac yn dy galon*—fel pwnc o adfyrdod parhaus; fel nad oedd achos myned i leoedd pellenig i'w ddsygu: gwel ar llluf. x. 6—10.

Adn. 15. *Wele, rhoddais o'th flaen heddyw einioes a daioni*] Fendithion presenol a dyfodol; ac *angau a drygioni*—drueni presenol a dyfodol; y rhai a elwir, adn. 19, yn *einioes ac angau, bendith a melltith*. A phaham y rhoddwyd y rhai hyn o'u blaen? (1) Fel y gallent amgyffred eu harwyddoedd. (2) Fel y gallent deimlo eu pwysigrwydd. (3) Fel y gallent ddewis einioes, a'r llwybr o ufydd-dod ag sydd yn arwain iddi. (4) Ac fel y gallent trwy hyn fod yn anwyliaid i Dduw mewn amser ac yn nhragwyddoldeb. Pe na byddai y fath beth ag *ewyllys rydd* mewn dyn, pwy a allai gysoni y dywedadau hyn gyda chywirdeb neu synwyr cyffredin? Yr oedd Duw, wrth greu dyn, yn ewyllysio iddo fod yn *rydd oruchwyliwr*, ac efe a fuffiodd ei enaid ef yn ol hwny: ac y mae y ddeddf a'r efengyl, yr addewid a'r gorchymyn, y bygythiad o wae a'r cynnygiad o fywyd tragwyddol, oll wedi eu cyflunio ar y tir hwn; hynny yw, y maent oll o angenheidrwydd yn tybio *ryddid* yr ewyllys ddynol: ac nis gallai fod yn *ewyllys* pe na byddai yn *ryddid*, am fod yr egwyddor o *ryddid* o angenheidrwydd yn gyuwysedig yn y drychfeddwl o *ddewisiad*: gwel ar pen. v. 29, a xi. 26—28.

Adn. 16. *Ei orchymynion, a'i ddeddfau, a'i farnedigaethau*] Gwel ar pen. iv. 1, a vi. 1.

i rodio yn ei ffyrdd ef, ac i gadw ei orchymynion, a'i ddeddfau, a'i farnedig-aethau ef; fel y byddech fyw, ac y'th amlhäer, ac y'th fendithio yr Arglwydd dy Dduw yn y tir yr wyt ti yn myned iddo i'w feddiannu.

17 Ond os try dy galon ymaith, fel na wrandawech, a'th yru i ymgrymu i dduwiau dycieithr, a'u gwasanaethu hwynt;

18 Yr wyf yn mynegu i chwi heddyw, y dyfethir chwi yn ddiaw, ac nad estynwch ddyddiau yn y tir yr ydwyf yn myned dros yr Iorddonen i fyned i mewn iddo i'w berchenogi.

19 Galw yr wyf yn dyst i'th erbyn heddyw y nesoedd a'r ddaear, roddi o honof o'th flaen di einioes ac angau, fendith a mellidith: dewis dithau yr einioes, fel y byddych fyw, ti a'th had;

20 I garu o honot yr Arglwydd dy Dduw, a gwrando ar ei lais ef, a glynu wrtho (canys efe yw dy einioes di, ac estyniad dy ddyddiau) fel y trigech yn y tir a dyngodd yr Arglwydd wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Isaac, ac wrth Jacob, ar ei roddi iddynt.

Ada. 17, 18. *Ond os try dy galon ymaith,* &c.] Gwel ar pen. viii. 19, 20.

Adn. 19. *Galw yr wyf yn dyst i'th erbyn heddyw y nesoedd a'r ddaear*] Gwel ar pen. iv. 26. Fel pe dywedasai, 'Y mae Duw, a'i angylion, a dnyon, yn dystion fy mod i wedi gwneyd fy nyledswydd tuag atat.' Nis gallent hwy lai nag addef, pa beth bynag oedd y canlyniad, ei fod ef yn rhydd oddiwrth eu gwaed hwy, trwy iddo roddi o'u blaen hwy einioes ac angau, fendith a mellidith; ac fel y byddai iddynt hwy fod yn rhydd oddiwrth eu gwaed eu hunain, y mae Moses yn peri iddynt ddeuwis einioes—hyny yw, ddeuwis gwneyd eu dyledswydd, yr hyn a fyddai yn einioes iddynt.

Adn. 20. *I garu o honot yr Arglwydd dy Dduw*] Yma efe a ddengys iddynt pa beth yw eu dyledswydd, sef CARU yr Arglwydd fel eu Duw cyfaanmodol, y'i hyn yw 'cyflawnder y gyfraith,' Rhuf. xiii. 10. *A gwanawd ar ei lais ef*—neu ufyddhau iddo, yr hyn yw ffyrwyth cariad. *A glynu wrtho*—wrth Dduw, yn gyntal ag wrth y dyledswydd o'i garu ac ufyddhau iddo; oblegid 'y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadweddig,' Mat. xxiv. 13, Dat. ii. 10. *Canys efe yw dy einioes di*—Awdwr a Chyfranwr dy einioes; ac estyniad dy ddyddiau—nid yn unig efe a'i rhoddodd, ond efe sydd yn ei chynnal ac yn ei hestyn ar hyd dy holl ddyddiau: nid yn unig y mae efe yn melysu ein beinioes ni yma a'i gysuron, ond bydd iddo berffeithio y cwbl mewn bywyd tragwyddol.

PEN. XXXI. Adn. 1. *A Moses a aeth ac*

PENNOD XXXI.

A MOSES a aeth, ac a lefarodd y geiriau hyn wrth holl Israel;

2 Ac a ddywedodd wrthynt, Mab chwe ugain mlynedd ydwyf fi heddyw; ni allaf mwy fyned allan, a dyfod i mewn: yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrthyf, Ni chei fyned dros yr Iorddonen hon.

3 Yr Arglwydd dy Dduw sydd yn myned drosodd o'th flaen di; efe a ddinystria y cenhedloedd hyn o'th flaen, a thi a'u meddienni hwynt; Josua hefyd, efe a â drosodd o'th flaen, fel y lefarodd yr Arglwydd.

4 A'r Arglwydd a wna iddynt fel y gwnaeth i Sehon ac i Og, brenhinoedd yr Amoriaid, ac i'w tir hwynt, y rhai a ddinystriodd efe.

5 A rhydd yr Arglwydd hwynt o'ch blaen chwi; gwnewch chwithau iddynt hwy yn ol yr holl orchymynion a orchymynais i chwi.

6 Ymgryfhwch, ac ymnerthwch; nac ofnwch, ac na ddychrynwch rhagddynt: canys yr Arglwydd dy Dduw sydd yn myned gyda thi; ni'th edy, ac ni'th wrthyd.

a lefarodd] Hyny yw, a aeth yn mlaen neu a barhaodd i lefaru wrthynt.

Adn. 2. *Mab chwech ugain mlynedd ydwyf fi*] Rhanwyd y blynyddoedd hyn i dri chyfnod arbenig: bu fyw ddengain mlynedd yn yr Aiff, yn llys Pharao, yn cyraedd holl ddyg a doethineb yr Aiffiaid, Act. vii. 23; ymdeithiodd ddengain mlynedd yn nbir Midian, mewn cyflwr o barotoad gogyfer a'i waith mawr a phwysig, Act. vii. 30; a bu ddengain mlynedd yn arwain Israel yn yr anialwch; yr hyn a wna yn y cwbl chwech ugain mlynedd. *Ni allaf mwy fyned allan a dyfod i mewn*—i gyflawni swydd arweinydd a llywodraethydd. Nid oedd efe wedi ei analluogi i'r gwaith hwn trwy unrhyw adfeiliad corff na meddwl; canys ni *chiliasai ei ireidd-dra ef*, pen. xxiv. 7; ond yr oedd yn bryd iddo feddwl bellach am roddi i fyny ei anrhydedd, a myned i'w orphwysfa.

Adn. 3. *Josua hefyd, efe a â drosodd o'th flaen*] Gwel ar Num. xxvii. 17, &c.

Adn. 4. *Fel y gwnaeth i Sehon ac i Og*] Gwel ar Num. xxi. 21, &c.

Adn. 5. *Yn ol yr holl orchymynion a orchymynais i chwi*] Hyny yw, llwyf ddinystriwch hwy, yn nghyda'u halloran, eu delwau, a'u llwyni.

Adn. 6. *Ymgryfhwch*] Mewn ffydd yn Nuw. *Chizku*, yr un gair ag a arferir am galedu calon Pharao: gwel ar Exod. iv. 21, a ix. 15. *Na ddychrynwch rhagddynt*—wrth ganfod eu lluosogrwydd, eu maintioli, a'u nerth. *Ni'th edy ac ni'th wrthyd*—gwel ar adn. 8. Y mae yr addewid hon, yr hon a wnaed y pryd hyn yn neillduol i Israel a Jo-

7 ¶ A Moses a alwodd ar Josua, ac a ddywedodd wrtho, yn ngolwg holl Israel, Ymgadarnha, ac ymnertha: canys ti a âi gyda'r bobl yma i'r tir a dyngodd yr Arglwydd wrth eu tadau hwynt ar ei roddi iddynt; a thi a'i rheni yn etifeddiaeth iddynt.

8 A'r Arglwydd hefyd sydd yn myned o'th flaen di; efe a fydd gyda thi; ni'th edy, ac ni'th wrthyd: nac ofna, ac na lwfrha.

9 ¶ A Moses a ysgrifennodd y gyfraith hon, ac a'i rhoddas at yr offeiriad meibion Lefi, y rhai a ddygent arch cyfammod yr Arglwydd, ac at holl henuriaid Israel.

10 A Moses a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, yn ol pob saith mlyn-

edd, ar yr amser nodedig, ar flwyddyn y gollyngdod, ar wyl y pebyll.

11 Pan ddelo holl Israel i ymddangos gerbron yr Arglwydd dy Dduw, yn y lle a ddewisio efe; y darlleni y gyfraith hon o flaen holl Israel, lle y clywant.

12 Cynull y bobl yn nghyd, y gwŷr, y gwragedd, a'r plant, a'r dycethrddyn a fyddo o fewn dy byrth; fel y gwrandawont, ac fel y dysgont, ac yr ofnont yr Arglwydd eich Duw, ac yr edrychont am wneuthur holl eiriau y gyfraith hon;

13 Ac y byddo i'w plant, y rhai ni wybuant *ddim*, glywed a dysgu ofni yr Arglwydd eich Duw, yr holl ddyddiau y byddoch fyw yn y tir yr ydych

suau, yn perthyn eto i bob credadyn, Heb. xiii. 5.

Adn. 7. *Yn ngolwg holl Israel*] Rhag i neb wadu neu amau awdurdod Josua ar ol i Moses farw. *Ymgadarnha ac ymnertha*—y mae yr un cyngor ac addewid yn cael eu rhoddi i Josua yn neillduol, ag a roddwyd o'r blaen iddynt oll, am mai eef oedd i ofalu am danynt hwynt, ac i fod dan y drafferth a'r baich o'u harwain a'u llywodraethu.

Adn. 8. *A'r Arglwydd hefyd sydd yn myned o'th flaen di*] I barotoi dy ffordd a'th gyfarwyddo. *Efe a fydd gyda thi*—yn dy holl deithiau, i'th gynorthwyo yn dy holl anturiaethau. *Ni'th edy*—i'th nerth a'th ddoethineb dy hun; *ac ni'th wrthyd*—efe a wŷr nas gelli wneuthur dim bebdo ef, ac am hyny efe a erys gyda thi, ac yn y fath fodd hefyd nes yr ymddengys fod godidogrwydd y gallu o hono ef, ac nid o ddynt.

Adn. 9. *A Moses a ysgrifennodd y gyfraith hon*] 'Nid yr holl Bumillyfr, eithr naill ai y traethiadau a'r gorchymynion crybwylledig yn y pennodau blaenorol, neu lyfr *Deuteronomium*, yr hyn sydd fwyaf tebygol.'—CLARKE. Ereill a wahaniaethant: 'Y mae yn debyg fod yr holl Bumillyfr yn cael ei fwriadu yma, yr hyn yw ystyr y gair *cyfraith* mewn amrai ranau o'r ysgrifthyf.'—BENSON. Dywed rhai o'r rabbiniaid i Moses ysgrifenu *triarddeg* o ailunau o'r holl Bumillyfr, a rhoddi un i bob un o'r deuddeg llwyth, ac i'r trydydd-ar-dddeg gael ei gadw wrth yr arch; eithr prin y gallwn eu coelio. Y mae llawer yn meddwl iddo ysgrifenu *dau* ailun, un o ba rai a roddes efe i'r offeiriad a'r Lefiaid at wasanaeth gyffedin, fel y dywedir yn yr adnod hon; a'r llall i'w gadw yn ymyl yr arch, fel safon i gyfeirio ato, ac i fod yn dyst yn erbyn y bobl os byddai iddynt drosoddu, neu droi yn eilunaddolgar. Bernir mai at yr ailun hwn y cyfeirir yn adn. 26. Gan fod y gyfraith yn gyfammod neu gytundeb rhwng Duw a'r bobl, y mae yn naturiol meddwl fod yno ddau ailun o honi, fel y gallai pob un o'r pleidiau cyfammodol gael un: gan hyny gosodwyd un yn ymyl yr arch, yr hwn oedd ailun yr Arglwydd; a rhoddwyd

y llall i'r offeiriad a'r Lefiaid, yr hwn oedd ailun y bobl.

Adn. 10, 11. *Yn ol pob saith mlynedd*—y darlleni y gyfraith hon] Naill ai yr holl Bumillyfr, fel y sylwyd uchod; neu ynte lyfr Deuteronomium, yr hwn sydd yn cynwys crynodeb o'r Pumillyfr. Gan fod pob seithfed flwyddyn yn flwyddyn *gollyngdod*, pen. xv. 1, yr oedd yn amser tra chyfaddas i'r perwyl hwn, trwy fod y bobl wedi eu rhyddhau oddi wrth eu dyledion, eu blinderau, a'u gofalon bydol, ac felly yn fwy parod i wrandaw ac ymlesâu trwy eiriau Duw; ac yr oedd holl Israel yr pryd hyny yn rhwym o ymddangos gerbron yr Arglwydd, y gwŷr, y gwragedd, a'r plant, adn. 12. 'Y mae yn hynod, meddai Clarke, 'mai anfynych y cafodd y gorchymyn hwn, i ddarllen y gyfraith yn *gyhoeddus* bob saith mlynedd, utyddbau iddo. O'r amser a grybwyllir Jos. viii. 30, pryd y cymerth y darlleniad cyhoeddus hwn le gyntaf, hyd deyrnasiad *Jehosaphat*, 2 Cron. xxvii. 7, nid ymddengys fod un darlleniad saith-flynnyddol cyhoeddus wedi cymeryd lle—yspaid o 530 o flynyddau. Ni fu y darlleniad saith-flynnyddol nesaf hyd y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad *Josia*, 2 Cron. xxxiv. 30—yspaid o 282 o flynyddau. Ac ni chawn un arall yn cael ei grybwyll hyd y dychweliad o'r caethiwed Babilonaidd, Neh. viii. 2. Ac nid oes un arall mewn cofiadwriaeth o'r pryd hyny hyd ddinystr Jerusalem.' Ond gwel isod.

Adn. 12, 13. *Cynull y bobl yn nghyd, y gwŷr, y gwragedd, a'r plant*] Yr oedd yn angenrheidiol darllen y gyfraith hon yn nghlyw y gwŷr a'r gwragedd, fel y byddai i'r genhedlaeth bresenol gadw i fyny y gyd-nabyddiaeth â hi; ac yr oedd yn angenrheidiol i'r plant fod yn wyddfodol, fel y byddai i'r genhedlaeth oedd yn codi gael ei lefeinio yn brydlon gan grefydd. Yr oedd y prif lywodraethwr naill ai i ddarllen y gyfraith hon ei hun, neu ynte i ofalu am iddi gael ei darllen gan yr offeiriad, neu ereill ag yr ymddiriedid addysgiad y bobl iddynt. Fel hyn darllenedd Josua ei hun holl eiriau y gyfraith, Jos. viii. 34; a gwnaeth Josia ac Ezra yr un peth, 2 Cron. xxxiv. 30, Neh. viii. 2; eithr rhoddodd Jeho-

yn myned iddo dros yr Iorddonen i'w feddiannu.

14 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Wele, nesaodd y dyddiau i ti i farw: galw Josua, a sefchw gerbron yn mhabel y cyfarfod, fel y rhoddyf orchymynion iddo ef. Yna yr aeth Moses a Josua, ac a safasant gerbron yn mhabel y cyfarfod.

15 A'r Arglwydd a ymddanghosodd yn y babell mewn colofn gwmwl: a'r golofn gwmwl a safodd ar ddrws y babell.

16 ¶ A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Wele, ti a orweddi gyda'th dadau; a'r bobl yma a gyfyd ac a buteiniant ar ol duwiau dyeithriaid y tir y maent yn myned i mewn iddo, ac a'm gwrthyd i, ac a dyr fy nghyffammod a wnaethym ág ef.

17 A'm dig a enyn yn eu herbryn y dydd hwnw; a mi a'u gwrthodaf hwynt, ac a guddiaf fy wyneb oddi

wrthynt; a bwyteir ef, a drygau lawer a chyfyngderau a ddygwyddant iddo ef: a'r dydd hwnw y dywed efe, Onid am nad yw yr Arglwydd yn fy mysg y dygwyddodd y drwg hwn i mi?

18 Canys myfi gan guddio a guddiaf fy wyneb y dydd hwnw, am yr holl ddrygioni a wnaeth efe, pan dröodd at dduwiau dyeithr.

19 Ysgrifenwch yr awr hon gan hyny i chwi y gân hon: dysg hi hefyd i feibion Israel, a gosod hi yn eu genau hwynt; fel y byddo y gân hon yn dyst i mi yn erbyn meibion Israel.

20 Canys dygaf ef i dir yn llifeirio o laeth a mêl, yr hwn a addewais trwy lw i'w dadau ef; fel y bwytuo ac y digoner, ac yr elo yn fras: ond efe a dry at dduwiau dyeithr, ac a'u gwasanaetha hwynt, ac a'm dirmyga i, ac a ddiddyma fy nghyfammod.

21 Yna, pan ddygwyddo iddo ddryg-

sabat yr offeiriad a'r Lefiaid i wneyd hyny, 2 Cron. xvii. 9. Diamau fod yr Iuddewon duwiol, y rhai a feddent ailunau o'r gyfraith, yn ei darllen hi yn fynych yn eu tai mewn amseroedd diweddarach; ac yr oedd rhyw ranau o honi yn cael eu darllen yn y synagogau bob sabboth, Act. xv. 21.

Adn. 14. *Wele, nesaodd y dyddiau i ti farw*] Dywedir wrth Moses eto fod yn rhaid iddo ef farw ar fyrder; canys y mae ar y rhai hyny ag sydd fwyaf parod ac ewyllysgar i farw, angen am gael adgofio iddynt yn fynych am ddynesiad angau. *Galw Josua—fel y rhoddyf orchymynion iddo ef*—yn ddigyfrwng oddiwrthyf fy hun, er mawr gefnogaeth iddo ef, ac i ennill iddo fwy o awurdod gyda'r bobl.

Adn. 15. *A'r Arglwydd a ymddanghosodd yn y babell mewn colofn gwmwl*] Dyma yr unig dro, trwy yr holl lyfr hwn, ag y darllennw am ogoniant Duw yn ymddangos, er ein bod yn darllen am hyny yn fynych yn y llyfrau blaenorol; yr hyn o bosibl a all arwyddo, nad ydym ni yn y dyddiau diweddar hyn, dan y gyfraith efengylaidd, i ddysgwyl y fath ymddangosiadau a'r rhai hyn o'r gogoniant dwyfol, ond fod yn rhaid i ni ddal yn unig ar air sicrach y proffwydi.

Adn. 16. *Wele, ti a orweddi gyda'th dadau*] Y mae Jonathan ben Uzziel yn alleirio y geiriau hyn fel y canlyn: 'Ti a orweddi yn y llwch gyda'th dadau; a'th enaid (*nishmethach*) a roddir i gadw gyda'th dadau yn nhrystoriaf a bywyd i ddyfod.' *A'r bobl yma*—sef yr Israellaid, a buteiniant ar ol duwiau dyeithriaid y tir—sef y Canaanaeid, y rhai a droir allan o'u meddiannau, ac a fyddant fel dyeithriaid yn y tir. Y fath brawf eglur a gawn yma o ddywyfoldeb y dystiolaeth hon! Pa wybodaeth ddynol a allai neu a wnai gyhoeddi hyn, pryd yr oedd yr holl bobl yn cael eu cynhyrfu gan yr ewyllysgarwch mwyaf a'r

penderfyniad cryfaf i gadw gorchymynion Duw?

Adn. 17, 18. *A'm dig a enyn yn eu herbryn y dydd hwnw*] Felly y bu ar eu gwrthiliad cyntaf at eilunaddoliaeth, Barn. ii. 14; ac felly y dygwyddodd yn mhob oes, fel y darllennw yn hanes y genedl. *Ac a guddiaf fy wyneb oddiwrthynt*—cyffelybiaeth wedi ei benthycu oddiwrth frenhinoedd, y rhai ni oddefant i'r sawl a'u digiasant ddyfod i'w gwyddfod, na gweled eu gwneb. Yr ystyr yw, Mi a dynaf oddiwrthynt fy ffafr a'm cymhorth.

Adn. 19. *Ysgrifenwch yr awr hon gan hyny i chwi y gân hon*] Yr hon a geir yn y benod nesaf. Yr oedd y pethau ag oeddynt o bwys mawr, ac o ddyddordeb cyffredinol, yn cael eu dodi ar *gynghanedd* yn mhllith yr benafiaid, gan y bernid y drefn hon yr un oraf i'w cadw hwynt mewn cofadwriaeth, yn enwedig yn yr amseroedd hyny pryd nad oedd fawr o ysgrifenu: ac yr oedd hyd yn nod *rhyddiaith* yn cael ei chanu weithiau. Rhanwyd hancsiaeth Herodotus yn *naw llyfr*, a phob un wedi ei arnodi gydag enw un o'r *naw dwieis awen*, am fod y llyfrau hyn yn cael eu canu gynt. Dywedir fod Homer yn canu ei bryddestau trwy wahanol ddiadaoedd tir Groeg. Sylwa Aristotle fod y bobl gynt yn canu eu *deddfau*; a dywed Cicero ei bod yn arferiad yn mhllith yr hen Rufeiniaid ganu clodydd eu harwon ar y gŵyliau cyhoeddus. Dyma fel yr oedd hefyd yn Brydain, yr Iwerddon, a'r Alban: gwel ar Exod. xv. 1. *Dysg hi hefyd i feibion Israel*—gwna iddynt ei dysgu a'i deall, a'i chanu beunydd â'u geneuau. *Fel y byddo y gân hon yn dyst i mi*—o'm tiriondeb yn rhoddi iddynt gyfnifer o fendithion, o'm hamynedd yn cydoddef â hwynt cyhyd, ac o'm ecyfiawnder yn cospi y fath bobl anniwygiadwy.

Adn. 20. *Onid efe a dry at dduwiau dyeithr*] Gwel ar adn. 16.

Adn. 21. *Bydd i'r gân hon dystiolaethu*

au lawer a chyfyngderau, y bydd i'r gân hon dystiolaethu yn dyst yn ei wyneb ef: o herwydd mi a adwaen ei fwriad y mae efe yn ei amcannu heddyw, cyn dwyn o honof fi ef i'r tir a addewais trwy lw.

22 ¶ A Moses a ysgrifennodd y gân hon ar y dydd hwnw, ac a'i dysgodd hi i feibion Israel.

23 Efe a orchymynodd hefyd i Josua fab Nun, ac a ddywedodd, Ymgyrfa, ac ymnertha: canys ti a arweini feibion Israel i'r tir a addewais iddynt trwy lw: a mi a fyddaf gyda thi.

24 ¶ A phan ddarfu i Moses ysgrifennu geiriau y gyfraith hon ar lyfr, hyd eu diwedd hwynt;

25 Yna y gorchymynodd Moses i'r Lefiaid y rhai oedd yn dwyn arch cyfammod yr Arglwydd, gan ddywedyd,

26 Cymerwch lyfr y gyfraith hon, a gosodwch ef ar ystlys arch cyfammod yr Arglwydd eich Daw; fel y byddo yno yn dyst i'th erbyn.

yn dyst yn ei wyneb] Am fod eu gwrthgiliad yn cael ei ragfyngu ynddi, odd yn y fath fodd ag i ddangos iddynt y ffordd i'w ochel; ac os na fyddai iddynt ochel y drwg hwn, eithr fod i'r gosp fygythiedig ddyfod arnynt, yna byddai i'r gân dystiolaethu yn eu herbyn, trwy ddangos eu bod wedi cael eu rhybyddio yn ddigonol, ac y gallasent hwy fyw i Dduw, ac felly osgoi yr anfodion hyny.

Adn. 22. *A Moses a ysgrifennodd y gân hon ar y dydd hwnw*] Sef y dydd ag y dysgwyd y gân iddo trwy ddwyfod ysbrydoliaeth.

Adn. 23. *Efe a orchymynodd hefyd i Josua*] Sef *ΙΕΡΟΦΑ* ei hun, yr hwn hyd yn hyn a lefarasai wrtho trwy Moses. *Ymgyrfa ac ymnertha*—gwel ar adn. 7. Rhoddir yma i Josua y gorchymyn ag y dywedasai Dduw y gwai efe ei roddi iddo, adn. 14. Yr oedd Josua erbyn hyn wedi clywed gan Dduw gymaint am ddrygioni y bobl ag yr oedd efe i fod yn arweinydd iddynt, fel nas gallai hyny lai na bod yn ddigalonid iddo. 'Na,' meddai Dduw, 'er gwaethed ydynt, tydi a âi trwy dy orchwyl, canys mi a fyddaf gyda thi; a thi a'u rhoddi hwynt mewn meddiant o Ganaan. Ac os bydd iddynt hwy wedi hyny eu taffu eu hunain allan o honi trwy eu pechodau, ni fydd hyny yn un bai o'r eiddot ti, nac yn ddiim di-anrhydedd i ti: am hyny ymgyrfa.'

Adn. 24. *Y gyfraith hon*] Gwel ar adn. 9.

Adn. 25. *Gorchymynodd Moses i'r Lefiaid*] Sef i'r offeiriaid, y rhai oeddynt Lefiaid, adn. 9.

Adn. 26. *Cymerwch lyfr y gyfraith*] Sef y safon neu y prawf-ailun, â'r hwn yr oedd yn rhaid cydharu pob adysgrifen: gwel ar adn. 9. Meddylir mai dyma yr ailun a gafwyd yn nhŷ yr Arglwydd yn nyddiau Josia, ac a ddarllenwyd yn gyhoeddus gan y brenin ei

27 Canys mi a adwaen dy wrthnysigrwydd, a'th war-galedrwydd: wele, a myfi eto yn fyw gyda chwi heddyw, gwrthryfelgar yn erbyn yr Arglwydd fuoch; a pha faint mwy y byddwch wedi fy marw?

28 Ceshglwch ataf holl henuriaid eich llwythau, a'ch swyddogion; fel y lefarwyf y geiriau hyn lle y clywont hwy, ac y cymerwyf y nefoedd a'r ddaear yn dystion yn eu herbyn hwy.

29 Canys mi a wn, wedi fy marw, gan lygru yr ymlygrwch, ac y ciliwch o'r ffordd a orchymynais i chwi; ac y dygwyrddda i chwi ddrwg yn y dyddiau diweddfaf; am y gwnewch ddrygioni yn ngolwg yr Arglwydd, i'w ddigio ef â gweithredoedd eich dwylaw.

30 A lefarodd Moses lle y clybu holl gynulleidfa Israel eiriau y gân hon, hyd eu diwedd hwynt.

PENNOD XXXII.

GWRANDEWCH, y nefoedd, a llefaraf; a chlywed y ddaear eiriau fy ngenuau.

hwn, yn dystiolaeth yn erbyn y bobl, y rhai oeddynt y pryd hyny brou yn addfed i ddinystyr. *Gosodwch ef ar ystlys*—hyny yw, wrth ystlys yr arch, neu yn ei *hymyl* hi. Nid oedd dim i fod yn yr arch odd y ddwy lech faen, 1 Bren. viii. 9, 2 Cron. v. 10.

Adn. 27. *A pha faint mwy y byddwch wedi fy marw?*] Oddiwyth yr hyn a ddygwyrddasai yn ei fywyd, efe a gasglai beth a gymerai le ar ol ei farwolaeth.

Adn. 28—30. *Ceshglwch ataf holl henuriaid eich llwythau, &c.*] Y mae yn debyg, ar ol i Moses lefaru wrth y bobl yr hyn a orchymynwyd iddo, ddarford iddo eu gollwng ymaith nes iddo ysgrifenu y gân hon; ac ar ol i hyny gael ei wneuthur, efe a alwodd yr henuriaid, a holl gynulleidfa Israel, adn. 30, i glywed o'i enau ei hun yr hyn a ysgrifenasai.

PEN. XXXII. Adn. 1. *Gwrandewch, y nefoedd, &c.*] Boed i angylion a dynion wrandaw, a boed i'r dystiolaeth hon o eiddo Dduw gael ei chofrestru yn y nef a'r ddaear. Ar ardderchogrwydd dihafal yr awdl hon ysgrifenydd llawer gan esbonwyr, berniaid, a beirdd; ac addefir gan bawb ei bod yn cynnwys cynllun bron o bob math ar ragorlwydd mewn cyfansoddiad. Y mae mor drwyadl farddonawl nes yr addefa yr Iuddewon eu hunain nas gallant hwy ei hysgrifenu ar ffurf rhyddiaith; ac am hyny y mae yn cael ei gosod fel pryddest yn mhob Beibl Hebreig, trwy gael ei hysgrifenu yn ei hanner-linellau hwy ei hun, yr hyn yw ffurf gyffredin barddoniaeth Hebreig; a ple cyfieithid hi i'r Gymraeg yn yr un ffordd, byddai yn hawddach ei deall. Y mae y gân ei hun wedi dyoddef oddiwyth adysgrifenywyr a chyfieithwyr, trwy

2 Fy athrawiaeth a ddefnyna fel gwlaw: fy ymadrodd a ddyfera fel gwllith; fel gwllith-wlaw ar ir-wellt, ac fel cawodydd ar laswellt.

3 Canys enw yr Arglwydd a gyhoeddaf fi: rhoddwch fawredd i'n Duw ni.

4 *Efe yw y graig*; perffaith *yw* ei weithred; canys ei holl ffyrdd *ydylt* farn: Duw gwirionedd, a heb anwir-edd, cyfiawn ac uniawn *yw* efe.

5 Y genhedlaeth w'yrrog a throfaus a ymlygrodd yn ei erbyn trwy eu bai, heb *fod* yn blant iddo ef.

i'r rhai blaenaf gamgymeryd rhai llythyrenau mewn gwahanol lleoedd, a'u cysylltu yn ambrïodol mewn lleoedd ereill; ac y mae y rhau fwyaf o'r cyfieithwyr wedi dylyn eu mympwy eu hunain yn aml gyda golwg ar ei hystyr.

Adn. 2. *Fy athrawiaeth a ddefnyna fel gwlaw*] Fel nad oes dim yn fwy dymunol i'r ddaear sech na gwlaw ireiddlon, felly ni all dim fod yn fwy derbynol gan y rhai a chwennychant wybod yr ewylllys ddwyfol na'r datguddiad o honi. Ac fel y mae y gwllith a'r gwlaw yn meddalau ac yn adfywio y ddaear, gan beri gwyrdllesni a firwythlonder; felly y bydd i'm hathrawiaeth i, neu y geiriau ag yr ydwyf yn myned i'w llefaru, os derbynir hwynt i feddyliau y bobl gyda ffydd a chariad, beri iddynt gynyddu mewn gras a rhinwedd, a chynrychu firwythau cyfiawnder. Neu gellir ei gyfieithu, *Boed i'm hathrawiaeth ddefnynu*, &c. Ac yn gyson â hyn y mae y dysgedig Esgob Patrick yn deall y geiriau hyn fel gweiddi am i'w eiriau ef, y rhai a anfonwyd iddynt o'r nef, suddo i'w calonau a'u meddalau, megys y gwna gwlaw â'r ddaear, ac felly eu firwythloni hwynt mewn uffydd-dod.

Adn. 3. *Canys enw yr Arglwydd a gyhoeddaf fi*] Ei ardderchogrwydd gogoneddus, ei weithredoedd cyfiawn, a'i briodoliaethau anfeidrol, trwy y rhai y gwnaeth efe ei hun yn adnabyddus, fel yr adwaenir dyn wrth ei enw. *Rhoddwch fawredd i'n Duw ni*—fel yr wyf fi yn nghylch cyhoeddi mawredd a gogoniant Duw, felly boed i chwithau hefyd ei gydnabod ef.

Adn. 4. *Efe yw y Graig*] Sefydlog yn ei natur, anorchfygol yn ei allu, diysgog a digyfnawid yn ei gynghorau, ei addewidion, a'i ffyrdd, 'gyda'r hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod trôedigaeth,' Iago i. 17. Ond y mae y gair *tsur*, 'craig,' yn cael ei gyfieithu yn *Grawdwg* gan rai berniad enwog; a chan ereill yn *wreiddyn*, *ffynnonell*, yr *achos cyn-taf*, &c. *Perffaith yw ei weithred*—y mae ei holl weithredoedd, pa un bynag ai creadigol, rhagluniaethol, ai grasol, yn ddifeius, doeth, ac uniawn. *Ei holl ffyrdd ydynt farn*—y mae ei ymddygiadau tuag atoch chwi ei bobl, a'i weinyddiadau tuag at holl ddynolryw, yn gyfiawn a santaid yn y gradd uwchaf. *Duw gwirionedd a heb anwiredd*—bob amser yn ffyddlon a chywir i'w addewidion. Meddylir

6 Ai hyn a delwch i'r Arglwydd, bobl ynfyd ac anghall? onid efe *yw* dy dad *a'th brynwr*? onid efe *a'th* wnaeth, ac *a'th* sicrhaodd?

7 ¶ *Cofia y dyddiau gynt*; ystyr-iwch flynyddoedd cenhedlaeth a chenhedlaeth: gofyn i'th dad, ac efe a fy-nega i ti; i'th henuriaid, a hwy a ddywedant wrthynt.

8 Pan gyfranodd y Goruchaf etiffediaeth y cenhedloedd, pan neillduodd efe feibion Adda, y gosododd efe derfynau y bobloedd yn ol rhifedi meibion Israel.

fod hyn yn cael ei grybwyll mewn gwrthgyferbyniad i anffyddlondeb ac anwadalwch Israel, am yr hyn y sonir eto. *Cyfiawn ac uniawn yw* efe—yn ei natur ac yn ei holl ymddygiadau. Pa fodd y gwnai efe gam, yr hwn y mae ei holl weithredoedd yn tarddu oddiar berffaith ac anghyfnawidiol ddoethin-eb, cyfiawnder, a daioni?

Adn. 5. *Y genhedlaeth w'yrrog a throfaus*] Wrthnysig ac anhydrin, afieolus a didrefn; a *ymlygrodd yn ei erbyn trwy eu bai*—dywedir nad oes braidd ddau gyfieithiad yn darllen yr adnod hon fel eu gilydd; ond y mae Clarke ac ereill o'r farn ddarfod i Coverdale daraw ar ei gwir ystyr, yr hwn sydd yn ei chyfieithu yn lled debyg i'r hyn ydyw yn y Gymraeg. *Heb fod yn blant iddo ef*—y mae eu bai, trwy yr hwn yr ymlygrasant, yn dangos yn eglur nad ydynt yn blant i Dduw, ond i'w tad diafol, Ioan viii. 44, i Ioan iii. 10.

Adn. 6. *Ai hyn a delwch i'r Arglwydd, bobl ynfyd ac anghall?*] Ynfydion, a dwbl ynfydion! Ynfydion yn wir, yn digio yr Arglwydd, ar yr hwn yn unig yr ydych yn ymddibynu! *Onid efe yw dy dad a'th brynwr*—yr hwn a'th brynodd neu a'th waredodd o gaethiwr yr Aifft? *Onid efe a'th wnaeth*—nid yn unig mewn modd cyffredinol trwy greadigaeth, ond mewn modd neillduol trwy dy lunio yn bobl briodol iddo ei hun? *Ac a'th sicrhaodd*—hyny yw, a adnewyddodd ac a gadarnhaodd ei ffaf i ti, heb ei thynu ymaith, er i ti ei annog ef i wneuthur hyny!

Adn. 7. *Cofia y dyddiau gynt*] Neu ddy-gwyddiadau yr hen oesoedd, a thi a gai fod gan Dduw olwg arnat ti nid yn unig yn amser Abraham, ond yn hir cyn hyny.

Adn. 8. *Pan gyfranodd y Goruchaf etiffediaeth y cenhedloedd*] Pan y darfu i Dduw, trwy ei ragluniaeth, benodi gwahanol ranau y byd i wahanol bobloedd, fel y gwelwn yn Gen. x. 1, &c. *Pan neillduodd efe feibion Adda*—i'r gwledydd penodol hyny lle y bwriadai efe iddynt breswyllo: gwel ar Act. xvii. 26. *Y gosododd efe derfynau y bobloedd yn ol rhifedi meibion Israel*—ymddengys mai yr ystyr yw, pan ranodd Duw y ddaear i'w gwng dynolryw, ddarfod iddo gadw deuddeg rhan, yn ol rhifedi meibion Jacob, y rhai yr oedd efe yn awr yn nghylch eu rhoddi i'w hiliogaeth ef yn ol ei addewid. Efe a oruwelwydtraethodd bob peth yn y fath fodd fel ag i hiliogaeth Canaan, y rhai oeddynt wedi eu diofrydu i

9 Canys rhan yr Arglwydd *yw* ei hobl; Jacob *yw* rhan ei etifeddiaeth ef.

10 Efe a'i cafodd ef mewn tir anial, ac mewn diffaethwch gwâg erchyll: arweiniodd ef o amgylch, a pharodd iddo ddeall, a chadwodd ef fel canwyll ei lygad.

11 Fel y cyfyd eryr ei nyth, y castella dros ei gywion, y lleda ei esgyll, y cymer hwynt, ac a'u dwg ar ei adenydd;

12 *Felly* yr Arglwydd yn unig a'i harweiniodd yntau, ac nid oedd duw dycieithr gydag ef.

13 Gwnaeth iddo farchogaeth ar uchelder y ddaear, a bwyta cnwd y maes, a sugno mêl o'r graig, ac olew o'r graig gallestr;

14 Ymenyn gwartheg, a llaeth defaid, yn nghyda brasder wŷn, a hyrddod o rywogaeth baser, a bychod, yn nghyda brasder grawn gwenith, a phur-waed grawnwin a yfaist.

ddinystr o herwydd eu pechodau, (Gen ix. 25.) gael eu gosod yn y wlad hōno ag a fwriedid ganddo i blant Israel; fel, pan fyddai eu hanwiredd yn llawn, y byddai iddynt hwy gael eu diwreiddio o'r tir, i roddi lle i feibion Israel ddyfod i mewn.

Adn. 9. *Canys rhan yr Arglwydd yw ei bobl*] Ei drysor priodol ei hun, Exod. xix. 5. Y fath ddywediad rhyfedd yw hwn! Fel y mae *Duw* yn rhan i'r saint, *felly* y mae y *saint* yn rhan i Dduw: ac y mae efe yn ei arddangos ei hun fel yn ddedwydd yn ei ganlynwyr, megys y maent hwythau yn ddedwydd ynddo ef!

Adn. 10. *Efe a'i cafodd ef mewn tir anial*] Nid o ddamwain, ond fel pe byddai trwy chwilio am dano. Y mae yn wir i Dduw ei amlygu ei hun i Israel yn yr Aifft; eithr yn anialwch Sinai y cafodd Duw ef mewn modd arbenig, y datguddiodd ei ewyllys iddo, yr aeth i gyfammod âg ef, ac y rhoddodd ei hun, ei ras, a'i fendith iddo. Y mae y *gair cafodd* yn arwyddo hefyd eu cyflwr colledig hwy ynddynt eu hunain, a bod eu hadferiad o Dduw yn unig, yr hwn a chwiliodd am danynt, ac a gafodd hyd iddynt trwy ei ras. Dylid sylwi fod y *gair matsa*, a gyfieithir yma *cafodd*, yn arwyddo hefyd *digoni*, neu ddarparu yn ddiogol iddynt, fel yr ymddengys oddiwrth Num. xi. 22, Jos. xvii. 16, Barn. xxi. 14; ac *felly* y cyfieithir ef gan y LXX, y Galdeaeq, y Samaritanaeq, a'r Arabaeq. *Mewn diffaethwch gwâg erchyll*—lle amddifaf o holl angenheidiaua a chysuron bywyd, yr hwn hefyd oedd yn gysgodd o gyflwr anial a digysur pob dyn cyn i ras Duw gael hyd iddynt. *Arweiniodd ef o amgylch*—o le i le am ddeugain nlynedd trwy y golofn gwawwl; neu, fel y gellir cyfieithu y wreiddiol, *amgylchynodd* ef, gan ofalu am dano ar bob tu, ac yn mhob man. *A pharodd iddo ddeall*—addysgodd ef trwy ei ddeddfau, ei farnedigaethiau, a'i orchymynion. *A chadwodd ef fel canwyll ei lygad*—â'r un gofal ag yr arferu dynion gadw canwyll eu llygad, fel y rhan dyneraf a mwyaf defnyddiol. Y fath ddrychfeddwl bynod a ddyry hyn i ni o ofal Duw am Israel! A chyffelyb i hyn yw ei ofal ef am ei holl Israel ysbrydol yn barhaus.

Adn. 11. *Fel y cyfyd eryr ei nyth*] Neu yr *afllonydda* ei nyth, i orfodi ei gywion i'w adael: *felly* y gorfododd Duw yr Israeliaid, trwy blaau yr Aifft, i adael y wlad hōno. *Y castella dros ei gywion*—yr eistedda arnynt i gyfleu iddynt gyfran o'i wres bywydol ei hun: *felly* y darfu i Dduw, trwy ddylanwadau ei

Ysbryd, oleuo, cefnogi, a chryfhan eu nieddyliauhwythau. Yr un gair ydyw ag a gyfieithir yn 'ymsymud' yn Gen. i. 2. *Y lleda ei esgyll*—nid yn unig i ddyysgu iddynt pa fodd i ehedeg, ond i'w cynal hwynt pan wedi blino yn ehedeg, ac i'w diogelu rhag y saethyddion, y rhai nas gallant eu niweidio hwy ond trwy drywanu corff y fam. *Y cymer hwynt, ac a'u dwg ar ei adenydd*—yn esmwyth, tyner, a gofalus, ac nid yn ei grafangau, rhag ofn eu niweidio. Ond tybia rhai mai y *rachama* a feddylir yma, ac nid yr *eryr*: gwel ar Exod. xix. 4.

Adn. 12. *Felly*] Gyda'r un tynerwch *gofal*; yr *Arglwydd yn unig a'i harweiniodd yntau*—pan yr oeddynt wedi eu cau i fyny yn yr Aifft fel mewn nyth, o ba le ni feiddiant syflyd, efe a'u dysgodd, a'u cefnogodd, ac a'u galluogodd i ffoi o'r caethiwed hwnw; ac ymddygodd yn dyner tuag atynt, gan gydoddef â'u gwendidan, a'u cadw rhag pob niwed. *Nid oedd duw dycieithr gydag ef*—i'w gynorthwyo yn y gwaith hwnw; ac felly mwyaf oedd eu cywilydd hwy wrth aberthu i'r rhai hyny, adn. 16, 17.

Adn. 13. *Gwnaeth iddo farchogaeth ar uchelder y ddaear*] Sef gorchfygu amddiffynfeydd cryfaf y gelym yn y mynyddoedd; neu rhoddodd iddo feddiant o wlad lawn o fynyddau uchel a ffrwythlon. *A sugno mêl o'r graig*—yn agenau yr hon y ffurfiesid ef gan y gwennyn, neu o flodau yn tyfu ar graig y sugnent ef. *Ac olew o'r graig gallestr*—ar ben yr hon y tyfai prenau olewlydd, o'r rhai y tynent ddiogonedd o olew: ymadroddion diarebol, yn dynodi gwlad dra ffrwythlon.

Adn. 14. *Brasder wŷn*] Neu wŷn wedi eu pesgi yn dda. *A hyrddod o rywogaeth Baser*—gwlad enwog am borta garol. *Brasder grawn gwenith*—Saes. 'brasder arenau gwenith.' Gŵyr pawb fod yr aren wedi ei chuddio mewn haen o'r brasder puraf yn nghoiff yr anifal, am yr hyn y gellid rhoddi amrai resymau difyniaethol neu anianyddol; ac wrth fod y *grawn* yn cael eu galw yma yn *arenau* gwenith, danghosir ar unwaith ei fod yn wenith bras, tég, a maethlon. Y mae y peillied goraf yn cael ei alw fyth yn yr India yn *galon* neu *aren* gwenith. *A phur-waed grawnwin*—gwin coch fel gwaed, neu sudd pur o ba liw bynag, wedi ei wasgu o'r gwinraw, heb unrhyw lygriad neu gymysgiad â dwfr. Awgryma hyn y cai eu gwinwydd hwy fod o'r fath oraf, a'u gwin mewn helaethrwydd, ac o'r blas pereiddiaf.

15 ¶ A'r uniawn a aeth yn fras, ac a wingodd; brasaist, tewychaist, pwyntiaist: yna cfe a wrthododd Dduw, yr hwn a'i gwnaeth, ac a ddiystyrodd Graig ei iachawdwriaeth.

16 A dyeithr dduwiau y gyrasant eiddgedd arno; â ffeidd-dra y digiasant ef.

17 Aberthasant i gythreuliaid, nid i Dduw; i dduwiau nid adwaenent, i rai newydd diweddar, y rhai nid ofnodd eich tadau.

18 Y Graig a'th genhedlodd a anghofiaist ti, a'r Duw a'th luniodd a ollyngaist ti dros gof.

19 Yna y gwelodd yr Arglwydd, ac

Adn. 15. *A'r union*] Saes. *Jeshurun*, enw a roddir yn aml yn y Beibl Saesonig i *Israel*. Y mae yn deilliaw oddiwrth *jashar*, bod yn *uniawn* neu *gyfiawn*; a gelwid hwy felly naill ai am eu bod yn *proffesu* uniondeb neu gyfiawnder, ac yn cael eu llywodraethu gan ddeddfau cyfiawn; neu ynte mewn ffordd o *addysg*, i adgofio iddynt pa beth a ddylent fod; neu mewn ffordd o *gerydd*, i ddangos iddynt y fath worth oedd iddynt fod wedi dirywio mor bell oddiwrth eu henw a'u proffes. *A aeth yn fras, ac a wingodd*—neu a *giciodd*, fel march wedi ei borthi yn dda, yr hwn nid yn unig ni oddef yr barnais, ond a ymdrecha droedio ei feistr wrth geisio dianc. Felly byddai i *Israel* fyned yn ffroen-uchel a gwrthryfelgar yn erbyn Duw, ac yn erbyn ei air a'i Ysbyrd ef. *Pwyntiaist*—Saes. 'ti a orchuddiwyd â braser.' Y mae Moses yma yn llefaru mewn arddull proffwydoliaethol, yr hwn yn fynych a arddengys ddygyddiadau dyfodol fel pe baent bresenol, neu eisioes wedi cymeryd lle, i ddynodi sicrwydd y pethau a ragfyneir. Yr ystyr yw, y byddai i *Israel*, yn nyddiau eu llwyddiant, wneuthur camddefnydd truenus o'r bendithion a gyfenid iddynt; y byddai iddynt wingo yn erbyn iau cyfraith Dduw, a dyfod yn aflywodraethus fel march wedi ei orbegi. *Ac a ddiystyrodd Graig ei iachawdwriaeth*—ei Iachawdwr a'i Waredwr galluog. Fel pe dywedasai, Yr wyf yn gweled yr amser yn nesâu, pryd y dirmygant ddaioni Duw, ac yr ymddygant yn y modd mwyaf anniolchgar tuag at Awdwr eu holl drugareddau.

Adn. 16. *A dyeithr dduwiau y gyrasant eiddgedd arno*] Trwy buteinio ar eu hol hwy, a gadael addoliad Duw, â'r hwn yr oeddvat wedi ymddyweddi: gwel ar Num. xxv. 11.

Adn. 17. *Aberthasant i gythreuliaid*] Gwel ar Lef. xvii. 7. *I rai newydd diweddar*—mewn cydmhariaeth i'r gwir Dduw, yr hwn yw yr 'hen ddihenydd,' Dan. vii. 9, ac a addolodd er dechre y byd. *Y rhai nid ofnodd eich tadau*—na addolwyd ganddynt; neu ni ddychrynent rhag eu hanfodlonrwydd hwynt.

Adn. 18. *Y Graig a'th genhedlodd*] *Tsur*, yr *achos cyntaf*, *ffynnonell* dy fodaeth: gwel ar adn. 4.

Adn. 19. *O herwydd ei ddigio gan ei feibion a'i ferched*] Canys y cyfryw oeddynt trwy

a'u ffeiddiodd hwynt; o herwydd ei ddigio gan ei feibion, a'i ferched.

20 Ac efe a ddywedodd, Cuddiaf fy wyneb oddiwrthynt, edrychaf beth fydd eu diwedd hwynt: canys cenhedlaeth drofaus ydynt hwy, meibion heb ffyddlondeb ynddynt.

21 Hwya yrasant eiddgedd arnaf â'r peth nid oedd Dduw; digiasant fi â'u hoferedd: minau a yraf eiddgedd arnynt hwythau â'r rhai nid ydynt bobl; â chenedl ynyf y digiaf hwynt.

22 Canys tân a gyneuwyd yn fy nig, ac a lysg hyd uffern isod, ac a ddifa y tir a'i gynyrch, ac a wna i sylfaeni y mynyddoedd fflagu.

gread a phroffes. Y mae y *merched* yn cael eu crybwyll yma, am eu bod hwy yn dra euog o ddigio Duw trwy eilunaddoliaeth. Felly y darllenwn, 'A'r *gwragedd* yn tyolino toes i wneuthur teisenau i frenhines y nef, ac i dywallt diod-offrymau i dduwiau dyeithr, i'm digio i,' Jer. vii. 18. 'Y rhai a wyddent i'w *gwragedd* aroglarthu i ddnwiau dyeithr,' Jer. xlv. 15. 'Wele yno *wragedd* yn eistedd yn wlyo am Tammuz,' Ezeq viii. 14.

Adn. 20. *Edrychaf beth fydd eu diwedd hwynt*] Gwnaf iddynt hwy ac ereill weled beth fydd firwyth y fath weithredoedd. *Meibion heb ffyddlondeb ynddynt*—heb ddim diysgogrwydd ynddynt, y rhai nas gellir byth ddal neu ymddybynu arnynt. Y maent yn anwadal, am eu bod yn anffyddlon.

Adn. 21. *Hwya yrasant eiddgedd arnaf â'r peth nid oedd Dduw*] Trwy addoli eilunod mudion y Cenhedloedd. *Minau a yraf eiddgedd arnynt hwythau â'r rhai nid ydynt bobl*—nid ydynt bobl i Dduw; neu na haeddant yr enw *pobl*, trwy eu bod heb wybodaeth o'r gwir Dduw, ac yn amddifad o lywodraeth, deddfau, a threfni. Y mae Duw yma yn bygwth ad-dalu iddynt am eu heilunaddoliaeth yn eu bathodyn eu bunain. *A chenedl ynyf y digiaf hwynt*—felly yr oedd y Cenhedloedd yn marn yr Iuddewon, ac hefyd mewn gwirionedd, er maint eu honiadau i *ddoethineb*; canys nid oes dim yn fwy ynyf nag addoli eilunod. Cyfeirir yn eglur yma at alwad y Cenhedloedd: gwel ar Rhuf. x. 19.

Adn. 22. *Canys tân a gyneuwyd yn fy nig*] Cyfeirir yma at y trallodion arswydus a ddygâi Duw ar wlad Judea, mewn geiriau yn arwyddo ei hollol ddinystr hi. *Ac a lysg hyd uffern isod*—neu hyd grombil y ddaear, fel y mae y gair *sheol*, a gyfeithir yma *uffern*, yn arwyddo weithiau: gwel ar Num. xvi. 30—33. *Ac a ddifa y tir a'i gynyrch*—dygid oddiarnynt eu gwlad a'u meddiannau. *Ac a wna i sylfaeni y mynyddoedd fflagu*—bydd i'w hamddiffynfeydd cadarnaf gael eu dinystrio hyd y llawr; i'e Jerusalem ei hun, yr hon oedd â'i sail ar y mynyddoedd santiaidd; yr hyn a gyflawnwyd yn y modd llawnaf gan y Rhufeiniaid: gwel ar Mat. xxiv. 2, &c.

Adn. 23. *Treuliaf fy saethau arnynt*] Gwaghaaf fy nghawel, ac anfonaf arnynt fy holl blâau, y rhai fel saethau wedi eu hanfon gan

23 Casglaf ddrygau arnynt; treul-
iaf fy saethau arnynt.

24 Llosgedig fyddant gan newyn,
ac wedi eu bwyta gan wres poeth, â
chwerw ddinyst: anfonaf hefyd ar-
nynt ddannedd bwystfilod, yn nghyda
gwenwyn seirff y llwch.

25 Y cleddyf oddiallan, a dychryn
oddifewn a ddyfetha y gwr ieuanc
a'r wryf hefyd, y plentyn sugno yn
nghyda'r gwr briglywod.

26 Dywedais, gwasaraf hwynt i
gonglau, paraf i'w coffadwriaeth ddar-
fod o fysg dynion;

27 Oni bae im' ofni dig y gelyn,
rhag i'w gwrthwynebwyr ymddwyn

law fedrus a chref, a'u cyrhaeddant yn eb-
rwydd, a'u tarawant yn sier, ac a'u harcholl-
ant yn angeuol. Y mae barnau Duw yn cael
eu galw yn fynych yn *saethau Duw*: gwel
Job vi. 4, Salm xxxviii. 2, a xci. 5, Eze. v. 16.
Y mae rhai o'r *saethau* hyn yn cael eu nodi
yn yr adnodau dilynol.

Adu. 24. *Llosgedig fyddant gan newyn*
Eu tir a fydd wedi ei felddithio, a newyn a
ganlyna, yr hwn a lysg eu cylla: dyma un o'r
saethau. *Wedi eu bicyta gan wres poeth*—
heb ddim cawodydd i oeri y nwyfte; neu gan
gornwydydd, gweliâu, a heintiau. *Anfonaf
hefyd arnynt ddannedd bwystfilod*—bydd i
greaduriaid rheibus ymluosgi arnynt, a'u
rhwyo; a *gwenwyn seirff*—y rhai a'u blin-
ant yn eu holl deithiau, a'r rhai y bydd i'w
brathiadau angeuol beri yr ing mwya'f auny-
oddefol.

Adu. 25. *Y cleddyf oddiallan, a dychryn
oddifewn* Yn y maes byddant yn agored i
gleddyf eu gelynyon; a phan gartref, trengant
gan ofn, neu dyfethant eu hunain yn lle syrthio
iddwyllaw eu gelynyon: neu bydd pob gradd,
o'r plentyn sugno i'r hen wr penllwyd, yn cael
eu dyfetha gartref gan newyn a haint.

Adu. 26. *Gwasgaraf hwynt i gonglau*
Pellaf y ddaear: gwel ar Eze. xx. 13, 14, 23.

Adu. 27. *Oni bae im' ofni dig y gelyn* Eu
gwarthruddiadau ffyrnig yn erbyn fy enw, fel
pe byddwn i yn greulon tuag at fy mhobol, neu
yn caelliog i'w gwaredu hwynt. Y mae hyn
yn aael i'w lefaru yn ol dull dynion; a'r ystyr
yw, y buasai yn gyfiawn i Dduw eu llwyr
ddyfetha hwynt, a dileu eu coffadwriaeth oddi
ar y ddaear, ac y gwnaethai efe hefyd, oni bu-
asai i'r fath ddinyst llwyr a disymwth ar
bobl ag y gwnaethai Duw gymaint ar eu rhan,
beri i'w gelynyon sarbau Duw ei hun, trwy
briodoli eu dinyst i'w grym hwy eu hunain,
neu i allu eu heilunod, ac nid i'w gyfiawn
farnedigaethau ef. Cawn Moses fwy nag un-
waith yn gosod gerbron Duw y gwaredwydd-
iadau cableddus a wnai yn cenedloedd os llwyr
ddyfethid y genedl Israelaidd, fel rheswm i
droi ymaith effeithiau yr anffodlonrwydd
dwyfol: gwel Exod. xxxii. 11, 12.

Adu. 28. *Canys cenedl heb gynghor ydynt
hwy* 'Eu gelynyon ydynt anwybodus ac yn-
fyd, ac am hyny byddai iddynt yn fuan ffurfio
y fath farn gyfeiliornus a ffol am bethau.'—

yn ddeythr, a rhag dywedyd o hon-
ynt, Ein law uchel ni, ac nid yr Ar-
glwydd, a wnaeth hyn oll.

28 Canys cenedl heb gynghor ydynt
hwy, ac heb ddeall ynddynt.

29 O na baent ddoethion, na ddeall-
ent hyn, na byst ystyrient eu diwedd!

30 Pa fodd yr ymlidiai un fil, ac y
gyrai ddau ddengmil i ffoi, ond am
werthu o'u Craig hwynt, a chau o'r
Arglwydd arnynt?

31 Canys nid fel ein Craig ni y mae
eu craig hwynt; a bydded ein gelyn-
ion yn farnwyr.

32 Canys o winwydden Sodom, ac
o faesydd Gomorra, y mae eu gwin-

BENSON. Eithr ereill a dybiant mai yr *Israel-
iaid* eu hunain a olygir, yr hyn a ymddengys
yn ddigon tebyg oddiwth yr adnod ddylynol,
yn gystal ag oddiwth y rhai blaenorol.

Adu. 29. *O na baent ddoethion* O na bydd-
ai i feibion Israel ddoeth ystyried eu ffyrdd!
Na ddeallent hyn—y ceryddon a'r dinyst a
fygythir yma yn eu herbyn! *Nad ystyrient
eu diwedd*—ac felly ddedwydd ragflaenu y
drygau a ddeuant arnynt os angen yn yr oes-
oedd dyfodol! Ond tybia Clarke fod *achari-
tham*, 'o'u diwedd,' yn golgu yn briodol *eu
hamseroedd diwedda*—dyddiau gogoneddus y
MESSIA, yr hwn, yn ol y enawd, a ddeilliai o
honynt hwy; a phe byddai iddynt ystyried y
pwne hwn yn ofalus, a derbyn y Gwaredwr
addawedig, y byddai iddynt o ganlyniad ym-
ddwyn fel dynion dan ddifawr i'w ymmedigaeth
i Dduw; ac y byddai ei nerth ef yn darian
iddynt, fel ag y gallai un ymlid mil: gwel
isod.

Adu. 30. *Pa fodd yr ymlidiai un fil* Oni
bnasai eu bod wedi eu diarddel gan eu *Craig*,
eu Gwneuthurwr a'u Hamddiffynwr, ni fuasai
yn bosibl i *fil* o Israeliaid orfod ffoi o flaen un
o'u gelynyon! fel y bygythir yn erbyn y rhai
a ymddriediant i'r Aifft am gynorthwy, Esay
xxx. 17. Ond tybia rhai mai yr ystyr yw, 'Pa
fodd y byddai un Israeliad yn rhy galed i fil
o Ganaaneaid, fel y buont lawer gwaith, oni
buasai i Dduw, yr hwn sydd fwy na'r holl
dduwiau, ymladd drostynt!' *Achau o'r Ar-
glwydd arnynt*—fel pe byddai, yn y rhywyd a
osodasai eu gelynyon iddynt.

Adu. 31. *Canys nid fel ein Craig ni y mae
eu craig hwynt* Nid yw duwiau y cenedl-
oedd yn ddoeth, galluog, a graslaw, fel JE-
HOFA. *Bydded ein gelynyon yn farnwyr*—y
rhai a gyfaddefasant yn fynych fod ein Duw ni
yn llawer cryfach na hwynt-hwy a'u duwiau:
gwel Exod. xiv. 25, Num. xxiii. 8—12, 19—
21, 1 Sam. iv. 8.

Adu. 32. *Canys o winwydden Sodom—y
mae eu gwinwydden hwynt* Y mae yr Iudd-
ewon mor ddrygionus a gwithryfelgar a'r So-
domiaid. *Eu grawnwin hwynt sydd rawnwin
bustlaidd*—y mae eu gweithredoedd yn wen-
wyn a wermod, heb ddwyn dim ond drygion
a thrueni iddynt eu hunain ac ereill. *Grawn-
sypiau chwerrwon sydd iddynt*—y mae eu
hyundrechtiadau cymdeithasol, yn gystal a'u

wydden hwynt: eu grawnwin hwynt *sydd* rawnwin bustlaidd; grawnsypian chwerwon *sydd* iddynt.

33 Gwenwyn dreigiau *yw* eu gwin hwynt, a chreulawn wenwyn aspiaid.

34 Onid *yw* hyn yn nghudd gyda myfi, wedi ei selio yn mysg fy nhrysorau?

35 I mi *y perthyn* dial, a thalu *y pwyth*; mewn pryd *y llithr* eu troed hwynt: canys agos *yw* dydd eu trychineb, a phrysgo *yw* mae yr hyn a barotowyd iddynt.

36 Canys yr Arglwydd a farna ei

bobl, ac a edifarha am ei weision; pan welo ymadaw o'u nerth, ac nad oes na gwarchäedig, na gweddilledig. 37 Ac efe a ddywed, Pa le *y mae* eu duwiau hwynt, *a'r* graig yr ymddiriedasant ynddi,

38 Y rhai a fwytasant frasder eu haberthau, *ac* a yfasant win eu diod-offrwm? codant a chynorthwyant chwi, *a* byddant loches i chwi.

39 Gwelwch bellach mai myfi, myfi *yw* efe; ac nad oes duw ond myfi: myfi sydd yn ladd ac yn bywhau; myfi a archollaf, ac mi a feddygin-

gweithredoedd personol, yn bechod, a dim ond pechod yn barhaus. Mai *y bobl* a feddyllir wrth *y winwydden*, a'u *hymddygiadau* wrth *y grawnwin*, neu *y gwinrawn* yn hytrach, sydd eglur oddiwrth Esay v. 1—7. Dywed rhai ymdeithwyr fod *y gwinrawn* a gynyrchir oddeutu *Llyn Asphaltides*, neu *y Môr Marw*, lle yr oedd Sodou a Gomorra gynt yn sefyll, nid yn unig o flas poethegr annymunol, ond o natur wenwynig; a gall mai at hyn *y cyfeirir* Moses yma.

Adn. 33. *Gwenwyn dreigiau yw eu gwin hwynt*] Eu cyfundrefn o athrawiaethau a dysgeidiaeth; *a chreulon wenwyn aspiaid*—yn wenwynig a dinystriol i'r rhai oll sydd yn eu dylun. Gelwir hwn yn *greulon*, am ei fod yn cael ei gyfrif *y mwyaf* llym a threiddiol o bob gwenwyn, yn cyraedd *y rhanau* bywydol yn *y fan*.

Adn. 34. *Onid yw hyn yn nghudd gyda myfi*] Sef eu holl ddrygion *ag y soniwyd* am dano o'r blaen, neu *y dialedd* ag *y mae* efe yn myned i'w grybwyll yn yr adnodau dylunol.

Wedi ei selio yn mysg fy nhrysorau?—yr oedd gweithredoedd neu ymrwymadau, trwy *y rhai* yr oedd dynion yn rhwom ar amser nodedig i gyflawni rhywamodau, yn cael eu *selio* a'u cadw mewn lleoedd o ddiogelwch: felly yma, *y mae* cyfiawnder Duw yn rhwymedig i ddial cweryl ei gyfamnod toredig ar yr Iuddewon anfydd; ond yr oedd yr *amser* a'r *dull* yn seliedig yn ei drysorau ef, ac yn hysbys yn unig iddo ei hun. Am hynny dywedir, adn. 35, *Mewn pryd*—mewn amser cyfaddas, *y llithr eu troed hwynt*, &c. Ond tybia Calmet, Le Clerc, ac amrai ereill, fod *y bygythiad* hwn yn cael ei lefaru yn erbyn *y Canaanaeid*, gelynyon Israel.

Adn. 35. *I mi y perthyn dial, a thalu y pwyth*] Fel Penarglwydd a Barnydd *y byd*, yr hwn nas gall un grym wrthsefyll ei nerth, na dim dirgel fod yn guddiedig rhag ei wybodaeth, nac un ddyfais osgoi ei gyfiawnder. *Mewn pryd*—er nad mor fuan *ag y gall* rhai ddysgwyl, eto yn yr amser mwyaf cyfaddas, ar ol iddynt gyflawni mesur eu hanwireddau; *y llithr eu troed hwynt*—er eu bod yn eu hysgyried eu hunain wedi eu sefydlu yn ddisig yn eu hawdurdod a'u llwyddiant, eto ymwelir â hwynt yn ddiâu a barnedigaethau gwladol, a dymchwelir hwynt. *Canys agos yw dydd eu trychineb*—felly *y sonia* yr ysgrythyr yn fynych am bethau ag sydd i fod yn mben can-

noedd o flynyddau; *i arwyddo*, er *y gallant* fod yn mbell gyda golwg ar ein mesuriadau ni, eto eu bod yn nghyfrif Duw yn agos.

Adn. 35. *Canys yr Arglwydd*] Gall *y gair* a gyfieithir yma *canys*, gael yn briodol ei gyfieithu *eto*, fel yn Esay ix. 1; o herwydd ymddengys fod yma wahanran newydd yn dechreu. Ar ol son am *y trychineb* ofnadwy a ddeuai ar ei bobl, *y mae* efe yn dangos, ar ol i Dduw eu cystwyo hwy yn dost, *y byddai* iddo drugarbau wrthynt, a dychwelyd eu caethived. *A farna ei bobl*—a ddadleuau eu bachos, ac a'u gwared hwynt. *Ac a edifarha am ei weision*—a newidia ei ymddygiad tuag atynt; *pan welo ymadaw o'u nerth*—eu bod wedi eu llwyr ddarostwng gan eu gelynyon, nes i'w nerth gwladwriaethol gael ei gwbl ddinystrio; *ac nad oes na gwarchäedig na gweddilledig*—ddim neu amddiffynfa heb ei chymeryd, nac un teulu wedi ei adael, ond eu bod oll wedi eu caethgludo neu eu gwsgaru i wledydd estronol. Neu, efe a wna *gyfiawnder* â'i bobl, ac a'u dial hwynt ar eu gwrthwynebwyr.

Adn. 37. *Ac efe a ddywed*, &c.] Efe a ddechreuau ymresymu â hwynt am eu hynfydrydd o'r blaen yn ei wrthod ef am eilunod, i'w dihuono i iawn deimlad o'u hanniolchgarwch a'u gwrthryfel. Tybia rhai fod hyn yn cyfeirio at bregethiad yr efengyl iddynt yn *y dyddiau* diweddaf.

Adn. 38. *Y rhai a fwytasant*, &c.] Hynny *yw*, *y rhai* yr offrymasoch ebyrth a diod-offrymau iddynt, yn ol dull *y Cenhedloedd*. *Codant a chynorthwyant chwi*—os gallant.

Adn. 39. *Gwelwch bellach*] Ar ol agor eich llygaid, a chael eich argyhoeddi gan eich profiad athrist eich hun bethau mor ofer ac analluog *yw* eilunod; *mai myfi, myfi yw* efe—yr unig wir, hollalluog, ac anorchfygol Dduw. *Myfi sydd yn ladd ac yn bywhau*—myfi *yw* cyflafareddwr bywyd a marwolaeth, cyfranwr llwyddiant ac adfyd, ac awdwr cynfnewidiadau a chwyldroadau gwladol, pa un bynag ai newn ffordd o drugaredd ynte barn. Peth arferol yn iaith yr ysgrythyr *yw* arddangos trallodion mawrion dan *y dyb* o 'farwolaeth', a gosod allan ddedwyddwch a llwyddiant gyda'r gair 'bywyd.' *Myfi a archollaf, ac mi a feddyginiaethaf*—*y mae* fy nbrugaredd gymaint a'm cyfiawnder, canys yr wyf mor barod i achub yr edifeiriol *ag a oeddwn* i gospi *y gwrthryfelgar*.

iaethaf: ac ni bydd a achubo o'm llaw.

40 Canys codaf fy llaw i'r nefoedd, a dywedaf, Mi a fyddaf fyw byth.

41 Os hogaf fy nghleddyf dysglær, ac ymaflyd o'm llaw mewn barn; dychwelaf ddial ar fy ngelynyon, a thalaf y pwyth i'm caseion.

42 Meddwaf fy saethau â gwaed, (a'm cleddyf a fwyty gig) â gwaed y lladedig a'r caeth, o ddechre dial ar y gelyn.

43 Y cenhedloedd, llawenhewch gyda'i bobl ef: canys efe a ddial waed ei weision, ac a ddychwel ddial ar ei elynion, ac a drugarha wrth ei dir a'i bobl ei hun.

44 ¶ A daeth Moses ac a lefarodd holl eiriau y gân hon lle y clybu y bobl, efe a Josua mab Nun.

Adn. 40. *Canys codaf fy llaw i'r nefoedd*] Tyngaf yn ddirifrol y bydd i mi gyflawni yr hyn a fygythir yma. Yr oedd yn arferiad codi y llaw wrth wneuthur llw: gwel ar Gen. xiv. 22. *A dywedaf, Mi a fyddaf fyw byth*—neu, cyn sicred a fy mod yn byw byth, mi a hogaf fy nghleddyf, &c.

Adn. 41. *Os hogaf fy nghleddyf dysglær*] Os dechreuaf unwaith barotai i ryfel, ac i gyflawni fy nedfryd; ac ymaflyd o'm llaw mewn barn—mewn offerynau barn, neu arfan rhyfel; dychwelaf ddial ar fy ngelynyon—ni fydd un nerth yn alluog i attal fy erlyniadau. Yr hyn a gyfieithiwn ni uchod yn *gleddyf dysglær*, a arwydda yn yr Hebraeg *fellten fy nghleddyf*, yr hyn a esyd allan gyflymder, nerth, ac arswydolrwydd barnedigaethau Duw: gwel ar Zech. ix. 14.

Adn. 42. *Meddwaf fy saethau â gwaed*] Dialaf arnynt hyd yr eithaf. Dullymadrodd barddonol cryf, yn arwyddo yr helaethrwydd o waed a dywelltidd. *A'r caeth*—y rhai y darfu i'm cleddyf eu elwyfo yn dost, er nad eu cwbl ladd. *O ddechre dial ar y gelyn*—y mae y geiriau hyn wedi dyrysus y berniaid yn fawr, trwy nad yw y gair *paroth*, a gyfieithir yma *dial*, byth yn cael ei ddeall yn vr ystyr hwn. Y mae *Jackson, Martin, Vitringa, Venema, Schultens, Le Clerc, Benson, Clapham*, a lluoedd ereill, wedi rhoddi bob un ei feddwl neillduol ei hun iddynt. Y mae *PATRICK* ac ereill yn meddwl y gallant oddef y darlleniad hwn: 'O'r *brenin hyd gaethwas* y gelynyon.' *ВООТНОУД*: 'O *gopa walltog* y gelyn;' ac y mae *Hales, Louth, Parkhurst*, ac ereill, yn lled debyg. *CLARKE*: 'O *ben noeth* y gelyn.' Fel pe dywedasai, Ni chaiff y gelyn ddim i'w achlesu rhag fy nialedd: ni fydd hyd yn nod yr *helm* yn nn amddiffyniad iddo rhag cleddyf a saethau yr Hollalluog.

Adn. 43. *Y cenhedloedd, llawenhewch gyda'i bobl ef*] Canys bwriad ymaith yr Iuddewon a fydd yr achlysur o'ch cynulliad chwi i mewn gyda'i bobl ef, oblegid ni lwyr fwir lwynt ymaith. Gwel Rhuf. xv. 9, 10, lle yr ystyriir y geiriau hyn fel rhagfynegiad am

45 A darfu i Moses lefaru yr holl eiriau hyn wrth holl Israel:

46 A dywedodd wrthynt, Meddylwch yn eich calonau am yr holl eiriau yr ydwyf yn eu tystiolaethu wrthy ch heddyw; y rhai a orchymynwch i'ch plant, i edrych am wneuthur holl eiriau y gyfraith hon.

47 Canys nid gair ofer yw hwn i chwi: o herwydd eich einioes chwi yw efe; a thrwy y gair hwn yr estynwch ddyddiau yn y tir yr ydych yn myned iddo dros yr Iorddonen i'w feddiannu.

48 ¶ A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses yn nghorff y dydd hwnw, gau ddyweddy,

49 Esgyn i'r mynydd Abarim hwn, sef mynydd Nebo, yr hwn sydd yn nhir Moab, ar gyfer Jericho; ac ed-

ddygiad y Cenhedloedd i gydgyfranogi â'r Iuddewon o freintiau eglwys Ddau dan yr efenngyl. *Ac a drugarha wrth ei dir a'i bobl ei hun—vechipper*, efe a 'bair i gymod gael ei wneuthur dros ei dir a'i bobl;' hyny yw, bydd i Iesu Grist, yr hir-addawedig FESSA, gael ei groeshoelio dros Iuddewon a Chenhedloedd, a'r ffordd i'r cysegr a wneir yn eglur trwy ei waed ef. Y mae hwn yn *ddiwedd* tra phriodol ac annogaethol i destyn neu fater gorbwysig y gân hon. Bydd i Israel gael eu hir wasgaru a'u cospi; eithr trugarheir wrthynt yn yr amseroedd diweddaf, a bydd iddynt hwy a'r Cenhedloedd gydlawenau yn yr iachawdwriaeth gyffredinol a bwrcaswyd trwy waed Iachawdwr holl ddynolryw.

Adn. 44. 45. *A daeth Moses*] Yn debygol o'r habell, lle y rhodasai Duw iddo y gân broffwydoliaethol hon, neu o'r lle ag y bu efe yn ei hysgrifenu hi dan ddwyfrol ysbrydoliaeth; ac efe a'i badroddodd hi lle y clybu y bobl. *Efe a Josua*—tybia rhai fod Moses yn ei llefaru hi wrth gynifer ag a allent ei glywed ef; tra yr oedd Josua ar yr un pryd, mewn cynulleidfara arall, yn ei thraddodi i gynifer ag y cyrhaeddai ei lais yntau atynt.

Adn. 46. *Meddylwch yn eich calonau am yr holl eiriau, &c.*] Prawi arall nad oedd yr holl fygythion arswydus hyn o ddioglonedd dwyfol, er yn cael eu traddodi mewn ffurf *bendant*, ddim ond *datganiad* yn unig o'r hyn a wnai Duw os gwrthryfelent hwy yn ei erbyn ef.

Adn. 47. *Canys nid gair ofer yw hwn i chwi*] Ond y mae yn deilwng o'ch sylw dirifolaf trwy eich holl genedlaethau; o herwydd eich einioes chwi yw efe—yn dymhorol, ysbrydol, a thragwyddol; y ffordd i gyraedd dedwyddwch yma ac ar ol myned oddiyma. *A thrwy y gair hwn yr estymwch ddyddiau*—yn lle cael eich tori ymaith fel y bygythir yma, chwi a barhewch i feddiannu gwlad Canaan, ac a lwyddwch ynddi yn mhob dim.

Adn. 48. *A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses yn nghorff y dydd hwnw*] Ar ol i Moses yn awr orphen ei waith, pabam yr ewyllysiai

rych ar wlad Canaan, yr hon yr ydwyf fi yn ei rhoddi i feibion Israel yn etifeddiaeth.

50 A bydd farw yn y mynydd yr esgyn iddo, a casglwr di at dy bobl; megys y bu farw Aaron dy frawd yn mynydd Hor, ac y casglwyd ef at ei bobl:

51 O herwydd gwrthryfelasoeh i'm herbyn yn mysg meibion Israel, wrth ddyfroedd cynhen Cades, yn anialwch

Sin; oblegid ni'm santeiddiasoch yn mhlith meibion Israel.

52 Canys y wlad a gai di ei gweled ar dy gyfer; ond yno nid ai, i'r tir yr ydwyf fi yn ei roddi i feibion Israel.

PENNOD XXXIII.

A DYMA y fendith a'r hon y bendithiodd Moses gwr Duw feibion Israel, cyn ei farwolaeth.

2 Ac efe a ddywedodd, Yr Argl-

efe fyw ddiwrnod yn hwy? Y mae yn wir ddarfod iddo ef gynt ewyllysio a gweddio am gai croesi yr Iorddonen, pen. iii. 25; ond yn awr y mae wedi ei lwyrr foddioni, ac nid yw yn dywedyd dim mwych ar y pen hwnw.

Adn. 49. *Esgyn i'r mynydd Abarim hwn, sef mynydd Nebo*] Gwel ar Num. xxvii. 12; ac edrych ar wlad Canaan—gwel ar Deut. iii. 27. Gallai Moses oddiar y mynydd hwnw weled rhan o fynydd Libanus; a byddai i'r eira ar ei ben ef gynorthwyo yr olwgr. Oddi ar Gader Idris, yn Ngogledd Cymru, gallwn weithiau weled gwrthdychrau yn y pelder o dros gan milldir; a gellir gwelod crib *Teneriffe* rai prydiau oddiar fwrdd llong, yn y pelder o gant a hanner o filldroedd.

Adn. 50. *A bydd farw yn y mynydd—megys y bu farw Aaron*] Tybiodd rhai ddarfod i Moses gael ei drosglwyddo heb brofi marwolaeth: ond os felly, trosglwyddwyd Aaron hefyd; caons yr hyn a ddywedir am farwolaeth y naill, a ddywedir am farwolaeth y llall. *A chasglwr di at dy bobl*—gorfodir ni i ddeall hyn am enaid Moses yn myned i gymdeithasu yn mharadwys gydag eneidiau y cyfawnion, y rhai a elwir yma ei bobl ef; ac felly ei deallir gan rai o'r ysgrifenywyr Iuddewig. Canys pe byddai i'w ddeall am ei *gorff* ef yn unig neu yn benaf, braidid y gellid dywedyd ei fod yn sywyr, gan na chafodd pobl Moses eu claddu yn mynydd Abarim: gwel ar Gen. xxv. 8.

Adn. 51. *O herwydd gwrthryfelasoeh i'm herbyn*] Gwel ar Num. xx. 12. Y mae Duw yma yn dwyn ar gof i Moses y pechod a gyflawnasai efe yn hir cyn hyn, er rhybydd i bawb beidio anghredu nac anufyddhau i'w lais ef. Y mae yn dda i'r dynion santeiddiaf farw gan edifarhau hyd yn nod am eu pechodau boreol.

Adn. 52. *Canys yr wlad a gai di ei gweled ar dy gyfer*] A'i gweled fel enes o'r wlad dda hono, yr hon nas gellir ei gwelod ond â llygad ffydd. Mor ogoneddus oedd iddo ymadael a'r fuchedd hon gyda Duw yn ei galon a Chanaan yn ei olwg! A pha beth yw angau iddo ef, yr hwn y mae ganddo olwg grediniol ar, a go-baith diysgog o, fywyd tragwyddol?

ADFFEDYLIADAU.—Amcan Moses wrth ysgrifenu y gân hon oedd, (1) Gosod allan *sawredd Duw*; rhoddi i'r genhedlaeth hono, a phob un ddylynol, iawn olwgr ar berffeithiderau gogoneddus Gwrthdychrech eu haddoliad. (2) Dangos *dyledswydd a lles* ei bobl. (3) Eu rhybyddio hwynt yn erbyn *gwrthgild*; dangos y posibilrwydd o ymadael oddiwrth Dduw, a'r trueni a'u goddiweddaid hwynt os gwnaent

byny. (4) Rhoddi golwg addas a phwysig ar *ragluniaeth* Duw, trwy gyfeirio at hanes ei ymddygiadau grasol ef tuag atynt hwy a'u henafiaid. (5) Gadael mewn cofadwriaeth *dystiolaeth dragwyddol* yn eu herbyn, os byddai iddynt fwrw ymaith ei ofn ef, a halogi ei addoliad. (6) Dangos yr *annioelchgrawch* erchyll a digyffelyb yr hwn a huddod bobl ag oeddynt wedi eu breintio mor uchel, a'u noddi a'u caru mor fawr, i bechu mor ddigywilydd yn erbyn eu Duw. (7) Dangos gogoniant y *dyddiau diweddaf* yn ail etholiad y genedl Iuddewig trwy efengyl Crist. Ac y mae hyn oll wedi cael ei wneuthur gyda'r fath rym a thlysnï ymadrodd, gyda'r fath ffugyrau ac all-gau priodol, grymus, a phwysig, a chyda'r fath ffurwd nerthol o'r tân enaid-dreiddiol a phur farddonol hwnw ag sydd yn dylifo yn ddigyfrwng o fynwes Duw ei hun, nes y mae y darlennydd yn olynol yn cael ei ddyrchafu neu ei ddarostwng, ei lenwi â thristwch neu orfoledd, â gobaith neu anobaith, yn ol symudiadau cyflym yr ysgrifenydd digyffelyb at y gwahanol bynciau a ffuriant sylwedd yr awdl anghydmarhol a rhyfeddol amrywiaethol hon. Boed i'r Ysbyrd hwnw a'i rhoddodd yn ngenau Moses roddi iddi ei hargraff llawnaf, effeithiolaf, a mwyaf parhaus, ar feddwl pob darlennydd.

PEN. XXXIII. Adn. 1. *A dyma y fendith a'r hon y bendithiodd Moses, gwr Duw, feibion Israel*] Dywedir ei fod ef yn eu bendithio, o herwydd ei fod yn gweddio am fendith Duw arnynt, ac yn rhagdywedyd am y bendithion a roddid iddynt: ac y mae Moses yn ei alw ei hun yn *wr Duw*—sef gwas neu broffwyd Duw, i ddangos nad ei ddechymygiog ef ei hun oedd y proffwydoliaethau canlynol, ond effaith dywyfol ysbrydoliaeth.

Adn. 2. *Yr Arglwydd a ddaeth allan o Sinai*] Yr amlygiad o'r Dwyfol Ogoniait ar *Sinai* a grybwyllir gyntaf, nid yn unig am ei fod y blaenaf o ran amser, ond y mwyaf mawreddog mewn ardderchogrwydd. Dyben y rhagymadrodd hwn oedd dangos y *sail* ag ydoedd gan Moses i fendithio ei frodyr, sef am ddaifod i Dduw yn fynych amlygu ei ogoniait ar eu rhan. *Ac a gododd o Seir*—pan, ar symudiad y cwmwl gogoniait, yr aethant hwy o gymydogoeth Idumea neu Edom, Barn. v. 4. Y mae y gair gwreiddiol yn arwyddo fod presenoldeb gogoneddus JEHOFA yn codi arnynt fel haul o'r mynydd. *Ymlwyrchodd o fynydd Paran*—lle yr ymddanghosodd gogoniait yr Arglwydd i holl feibion Israel, Num. xiv. 10. *Ac efe a ddaeth gyda myrddiwn o saint*—neu

wydd a ddaeth allan o Sinai, ac a gododd o Seir iddynt; ymlwyrchodd o fynydd Paran, ac efe a ddaeth gyda myrddiwn o saint, a thanllyd gyfraith o'i ddeheulaw iddynt.

3 Caru y mae efe y bobl: ei holl saint *ydnyt* yn dy law: a hwy a hwymynasant wrth dy draed; *pob un* a dderbyn o'th eiriau.

4 Moses a orchymynodd gyfraith i ni, yn etifeddiaeth i gynulleidfa Jacob.

ei angylion santiaid, y rhai oeddynt gydag ef ar Sinai ar roddiad y ddeddf, Salm lxviii. 17, Act. vii. 53, Gal. iii. 19, Heb. ii. 2. *A thanllyd gyfraith*—gelwir hi felly mewn rhan am ei bod yn peri i lid tanllyd ddisgyn ar ei throeddwy'r anedifeiriol; ond yn benaf am ddarfod ei thraddodi o ganol y tân, Deut. v. 22. Ond yn lle *efe a ddaeth gyda myrddiwn o saint*, fel y darfu i'n cyfieithwyr ni gyfieithu *meribeboth kodesh*, y mae DR. KENNICOTT yn darllen *Meriba-Kadesh*, enw lle; a chawn, tua diwedd y deugain mlynedd, i Israel ddyfod i *Cades*, Num. xx. 1, lle hefyd a elwid *Meriba* o herwydd eu *cynhen* hwy, adn. 13; ac yno gogoniant yr Arglwydd a ymddanghodd iddynt, adn. 6. Yn ol y golygiad hwn crybwyllir yma am bedwar man lle y darfu i Dduw amlygu ei ogoniant iddynt mewn ymddanghosiad tanllyd, sef *Sinai, Seir, Paran, a Cades Meriba*.

Adn. 3. *Caru y mae efe y bobl*] Llwythau Israel. Yr ystyr yw, er i'r gyfraith hon gael ei thraddodi mewn tân, a mwg, a tharanau, yr hyn a ymddanghosai fel yn arwyddoedd casineb ac arswydlorwydd yn unig; eto, mewn gwirionedd, rhoddwyd hi mewn cariad mawr at Israel, fel moddion eu lles tymhorol ac ysbrydol. *Ei holl saint ydnyt yn dy law*—hynny yw, dan ofal Duw, i'w noddi, eu cyfarwyddo, a'u llywodraethu. Y geiriau hyn a lefeir wrth Dduw; canys y mae newidiad personau yn beth mynych yn yr ieithwedd Hebreig. *Hwy a ymlwynasant wrth dy draed*—fel ysgolorion yn derbyn byfforddiadau gan eu hathraw.

Adn. 4. *Moses a orchymynodd gyfraith i ni*] Meddylir fod Moses yn llefaru yma am dano ei hun yn y trydydd person, am ei fod yn bwriadu i gynwysiad y bennod hon, fel y gân blaenorol, gael ei ddysgu a'i adrodd gan yr Israeliaid mewn amseroedd dyfodol. *Yn etifeddiaeth i gynulleidfa Jacob*—gelwir y gyfraith yn 'etifeddiaeth,' am fod y rhwy medigaeth i'w chadw yn myned oddiwrth rieni i'w plant, ac am mai hi oedd y rhan oraf o'u hetifeddiaeth, y fwyaf o holl roddion Duw iddynt. Felly dywed y Salmiudd, 'Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth,' Salm cxix. 111.

Adn. 5. *Ac efe oedd frenin yn Israel*] Nid mewn teitl, eithr mewn effaith, trwy ei fod dan Dduw eu prif lywodraethwr a'u deddfroddwr. *Pan ymgasglodd*—pan grynghyfarfyddodd y tywysogion a'r bobl i ddrin achosion cyhoeddus, addefasant Moses fel eu brenin. Ond tybia Le

5 Ac efe oedd frenin yn Israel, pan ymgasglodd penau y bobl yn nghyd a llwythau Israel.

6 ¶ Bydded fyw Reuben, ac na fydded farw, ac na bydded ei ddynion *ychedig* o rifedi.

7 ¶ Bydded hyn hefyd i Juda. Ac efe a ddywedodd, Clyw, O Arglwydd, lais Juda, ac at ei bobl dwg ef: digon fyddo iddo ei ddwylaw ei hun, a bydd gymhorth rhag ei elynion.

8 ¶ Ac am Lefi y dywedodd, *Bydd-*

Clerc, Kennicott, ac ereill, mai Duw, ac nid Moses, a olygir yma; a bod Moses wedi awgrymu yn ddigon eglur o'r blaen nad oedd ef yn frenin iddynt, pen. xvii. 14.

Adn. 6. *Bydded fyw Reuben, ac na fydded farw*] Er i'w fywyd a'i fendithion gael eu fflorffio trwy ei baliogiad o wely ei dad, Gen. xlix. 3, 4, a thrwy ei wrthryfel gyda Corah, Num. xvi. 1, &c., eto na fydded iddo ddarfod fel llwyth yn Israel. Y mae pwys neilliduoel yn y dullymadrodd cadarnhaol a naeol hwn, yr hwn a ddefnyddir mor fynych yn yr ysgrythyrau. Fel pe dywedasai, 'Nid yn unig na fydded iddo farw, ond boed iddo fyw mewn heddwch a llwyddiant mawr.' Ond y mae yr hen alleirwyr yn meddwl fod yma gyfeiriad at y byd a ddaw. 'Bydded fyw Reuben mewn bywyd tragwyddol,' meddai Onkelos, 'ac na fydded farw yr ail farwolaeth.' Felly Targum Jerusalem a Jonathan: 'Bydded fyw Reuben yn y byd hwn, ac na fydded farw y farwolaeth ag y mae yr annuwl yn ei marw yn y byd a ddaw.' *Ac na bydded ei ddynion ychedig o rifedi*—trwy naid yw y gair na yn yr Hebraeg, myn rhai gyfieithu yr adran fel hyn: 'Er i'w ddynion fod yn ychedig o rifedi.' Y mae hyn yn cytuno yn dda â phroffwydoliaeth Jacob, 'Niragori di,' Gen. xlix. 4. Ond y mae yr ailun Alexandriaidd o gyfieithiad y LXX yn darllen yr adnod hon fel hyn: 'Bydded fyw Reuben, ac na fydded farw; ac na bydded dynion SIMEON ychedig o rifedi.' Y mae llawer yn meddwl fod yr adran olaf yn perthyn i Simeon, trwy nad yw ef yn cael ei enwi mewn un lle arall yn y bennod hon.

Adn. 7. *Clyw, O Arglwydd, lais Juda*] Hynny yw, meddai y Targum, derbyn ei weddi pan yr elo allan i ryfel; *ac at ei bobl dwg ef*—yn ddiogel yn ei diwedd hi. *Digon fyddo iddo ei ddwylaw ei hun*—bydded ganddo yn ei blith ei hun ddigon o ryfeilwyr bob amser i gynal y llwyth, ac i amddiffyn ei hawliau. *A bydd gymhorth rhag ei elynion*—fel y gallo y deyrnwialen barhau yn ei law hyd oni ddol y Silo.

Adn. 8. *Bydded dy Thummim a'th Urim*] Gwel eglurhad ar y rhai hyn yn yr addefdyliadau ar Exod. xxviii. *I'th wr santiaid*—boed i deulu Aaron ddal yr offeiriadaeth yn barhaus, a chael eu cynysgaethu â'r cywirdeb hwn yn y cyflawniad o'u dyledswydd, ac â'r goleuni a'r wybodaeth hono mewn pethau dwyfol, y rhai a arwyddir trwy yr Urim a'r Thummim. Er y fendith hon cafodd yr Urim a'r Thummim eu colli yn y caethiwed, ac nid

ed dy Thummim a'th Urim i'th wr santaidd, yr hwn a brofaist yn Massa, ac a gynhenaist âg ef wrth ddyfroedd Meriba;

9 Yr hwn a ddywedodd am ei dad ac am ei fam, Ni welais ef, a'i frodyr nis adnabu, ac nid adnabu ei blant ei hun: canys cadwasant dy eiriau, a chynaliasant dy gyfammod.

10 Dysgant dy farnedigacthau i Jacob, a'th gyfraith i Israel: gosodant arogldarth ger dy fron, a llosg-aberth ar dy allor.

11 Bendithia, O Arglwydd, ei olud ef, a bydd foddllawn i waith ei ddwy-law ef: archolla lwynau y rhai a god-

ant i'w erbyn, a'i gaseion, fel na chod-ont.

12 ¶ Am Benjamin y dywedodd efe, Anwylyd yr Arglwydd a drig mewn diogelwch gydag ef; yr hwn fydd yn cysgodi drosto ar hyd y dydd, ac yn aros rhwng ei ysgwyddau ef.

13 ¶ Ac am Joseph y dywedodd efe, Ei dir ef fydd wedi ei fendigo gan yr Arglwydd, â hyfrydwch y nefoedd, â gwllith, ac â dyfnder yn gorwedd isod;

14 Hefyd â hyfrydwch cynyrch yr haul, ac â hyfrydwch addfed-ffrwyth y lleuadau,

15 Ac â hyfrydwch pen mynyddoedd

adferwyd hwynt byth i'r ail deml: ond cawsant eu llawn gyflawniad yn Iesu Grist, Eneniog y Tad, a'n Harechoffieriad mawr ni, yr hwn nid oedd Aaron ond cysgod o hono. *Yr hwn a brofaist yn Massa*—gwel ar Exod. xvii. 7, Num. xx. 12.

Adn. 9. *Yr hwn a ddywedodd am ei dad ac am ei fam, Ni welais ef, &c.*] Hyuy yw, yr hwn a danghosodd fwy o barch i Dduw a'i achos nag i'w berthynasau agosaf. Yr oedd y gyfraith yn gwahardd i'r arechoffieriad alaru ar farwolaeth ei dad na'i fam, Lef. xxi. 11, 12, ei frodyr na'i blant, Lef. x. 6, 7, na myned allan o ddrws pabell y cyfarfod, rhag iddo farw. Ac yn hyn yr oedd efe yn cysgod o Grist, yr hwn, pan yr oedd ei fam a'i frodyr yn ceisio ymddyddan âg ef, a ddywedodd, 'Pwy yw fy mam i? a phwy yw fy mrodyr i? Pwy bynag a wna ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd, efe yw fy mrawd i, a'm chwera, a'm mam,' Mat. xii. 46—50. Y mae yn debyg y gall fod Moses yn cyfeirio hefyd at waith y *Lefiaid* yn lladd bob un ei frawd, ei gyfaill, a'i gymydog, ac hyd yn nod ei fab, y rhai a bechasant yn addoliad y llo aur, Exod. xxxii. 27—29; ac yn y ffordd hon y mae yr allereydd Caldeaid yn deall y geiriau.

Adn. 10. *Dysgant dy farnedigacthau i Jacob, &c.*] Un ran o swydd y *Lefiaid* oedd dysgu, trwy eu gwasanaeth a'u harddefodau cysgodol, ffordd cyfiawnder a gwirionedd i blant Israel: gwel Neh. viii. 7, 8, Mal. ii. 6, 7.

Adn. 11. *Bendithia, O Arglwydd, ei olud ef*] Yr oedd bendith Duw i lwyth Lefi yn dra angenrheidiol, am na feddent hwy un etifeddiath yn mysg eu brodyr, a'u bod yn byw yn fwy uniongyrchiol nag ereill ar ragluniaeth Duw. Eto, gan eu bod yn byw ar offrymau a degymau y bobl, yr oedd cynydd eu golud hwy yn cynwys o angenrheidrwydd gynydd golud y bobl yn gyffredinol. *A bydd foddllon i waith ei ddwy-law ef*—i'w holl weinyddiadau santaidd, y rhai a elwir yn briodol yn *waith ei ddwy-law*, am fod rhan fawr o wasanaeth y *Lefiaid* a'r offieriaid yn cael ei gwnethur â'u dwylaw; tra y mae gwasanaeth gweinidogion yr etengyl yn fwy sbrydol a nefol. *Archolla lwynau y rhai a godant i'w erbyn*—canys yr oedd efe yn rhagweled y byddai i'r rhai ag oeddynt i ddisgyblu a cheryddu ercill gael llawer o elynion.

Adn. 12. *Anwylyd yr Arglwydd*] Felly y gelwir y llwyth hwn mewn cyfeiriad at *Benjamin* eu tad, yr hwn oedd anwylyd ei dad Jacob. *A drig mewn diogelwch gydag ef*—sef gyda'r Arglwydd, teml yr hwn, pa un a ystyrir fel ei *drigfa* ef, ydoedd yn llwyth Benjamin. *Yr hwn sydd yn cysgodi drosto ar hyd y dydd*—trwy ei amddiffyniad parhaus; ac yn aros rhwng ei ysgwyddau ef—neu o fewn ei gyffiniau, sef yn Jerusalem lle yr adeiladwyd y deml. Er fod mynydd Seion yn llwyth Juda, eto yr oedd mynydd Moria, ar ba un yr adeiladwyd y deml, yn llwyth Benjamin.

Adn. 13. *Ac am Joseph y dywedodd*] Yn cynwys hefyd Ephraim a Manasse. *Ei dir ef fydd wedi ei fendigo*—y mae yr holl ymadrodd hwn yn cyfeirio at frwythlondeb neillduol rhandir y llwyth hwn, pa un, meddai yr Iuddewon, a ddygaf fwy o helaethrwydd o bob peth da nag unrhyw ran arall o wlad yr addewid. *A hyfrydwch y nefoedd*—gwlaw a gwres adfywiol, ac iachusrwydd ei nwyfre. *A gwllith*—helaethrwydd o'r hwn a ystyrir yn fendith fawr yn y gwledydd hyn. *Ac â dyfnder yn gorwedd isod*—gan cyfeirio ond odid at y digonedd o ddwfr a geid wrth gloddio pydewau.

Adn. 14. *Hefyd â hyfrydwch cynyrch yr haul*] Sef yr holl frwythau rhagorol ag sydd yn dyfod i addfedrwydd unwaith yn y flwyddyn; ac â hyfrydwch addfed-ffrwyth y lleuadau—y rhai nad ydynt yn gofyn ond oddeutu mis i'w dwyn i addfedrwydd; neu frwythau ag y gellir cael amrai gnydau o honynt mewn yspaid blwyddyn.

Adn. 15. *Ac â hyfrydwch pen mynyddoedd y dwyrain*] Y mae hyn ond odid yn cyfeirio at y gwinwydd, yr olewyydd, a'r ffigyswydd y rhai a dyfant ar benau y mynyddoedd yn y wlad hono, a'r frydiau dwfr a darddent o honynt. Dichon mai mynyddoedd Gilead a feddylir yma, gan iddynt hwy syrthio i hanner llwyth Manasse. *Ac â hyfrydwch bryniau tragwyddoldeb*—y metelloedd a'r mwneu gwerthfawr a gloddir o honynt. Gelwir y rhai hyn yn 'fryniau tragwyddoldeb,' am eu bod yn bodoli o ddechread y byd, ac yn debyg o barhau hyd ei ddiwedd ef, mewn gwrthgyferbyniad i'r bryniau a deilir i fyny gan ddydd.

y dwyrain, ac â hyfrydwch brynian tragwyddoldeb,

16 Ac â hyfrydwch y ddaear, ac â'i chyflawnder, ac âg ewyllys da Preswlydd y berth: delo *bendith* ar ben Joseph, ac ar goryn yr hwn a neillduwyd oddiwrth ei frodyr.

17 Ei brydfferthwch *sydd debyg* i gyntafanedig ei fch, a'i gyrn ef *eydd* gyrn unicorn: â hwynt y cornia efe y bobl yn nghyd *hyd* eithafoedd y ddaear: a dyma fyrddiwn Ephraim, i'e dyma filoedd Manasse.

18 ¶ Ac am Zabulon y dywedodd

Adn. 16. *Ac âg hyfrydwch y ddaear*] Unrhyw ddevisol ffirwythau ag y mae y ddaear yn ar dwyn mewn unrhyw Barth, pa un bynag ai ar y bryniau neu yn y dyffrynoedd. *Ac â'i chyflawnder*—dinasoedd tég, anfeiliaid breision, echediaid, &c. *Ac âg ewyllys da Preswlydd y berth*—ei ffiafr a'i iachawdwr-iaeth ef, yr hwn a ymddanghosodd mewn fflam dân o ganol y berth, Exod. iii. 2; ac o'i ewyllys da, ei gariad, a'i dosturi, a anfonodd war-edigaeth i'w bobl Israel. *Delo bendith ar ben Joseph*—gwel ar Gen. xli. 26; *ac ar goryn yr hwn a neillduwyd oddiwrth ei frodyr*—darfu i frodyr Joseph ei neillduo ef oddiwrth-ynt eu hunain trwy ei werthu yn gaethwas, a darfu i Dduw ei neillduo ef oddiwrth-ynt trwy ei weauthur yn dywysog.

Adn. 17. *Ei brydfferthwch sydd debyg i gyntafanedig ei fch*] Neu ei fch *penaf a rhagoraf*; canys gelwir pethiau a fyddont yn rhagori yn eu rhyw, yn 'gyntafanedig' yn yr ysgrifthyf. Y mae prydferthwch a nerth y llwyth hwn yn cael ei gymlharu i'r creadur ardderchog yma. A chan fod yr fch, fel y dywed Bochart, yn cael ei ddefnyddio gynt fel arwydd o awdurdod ac urddas brenhinol, ymddengys ei fod yn dynodi y frenhiniaeth a gai Ephraim yn Jeroboam a'i ganlynywyr. *A'i gyrn ef sydd gyrn unicorn*—y mae 'corn,' yn yr ysgrifthyf, yn arwydd cyffredin o *nerth* a *chryfder*; a pha greddur bynag a olygir yma wrth y gair *reem*, yr hwn a gyfeithwn ni yn *unicorn*, y mae yn amlwg ei fod yn llynod am gryfder ei gorn: gwel ar Num. xxiii. 22. *A hwynt y cornia efe y bobl yn nghyd*—y gorchfyga neu y bwria efe i lawr ei wrthwyn-ebwyr; *hyd eithafoedd y ddaear*—sef gwlad Canaan. *Dyma fyrddiwn Ephraim, i'e dyma filoedd Manasse*—y mae y bendithion hyn yn perthyn i ddwy gangen luosog tŷ Joseph. Efe a briodola yma i Ephraim *fyrddiwn*. ac i Manasse ddim ond *miloedd*; i arwyddo mai Ephraim yr ieuangaf fyddai y *luosocaf* o'r ddau, fel y rhagddywedasai Jacob: gwel ar Gen. xlviii. 19.

Adn. 18. *Ymlawenycha, Zabulon, yn dy fynediad allan*] Yn dy fordeithiau llwydd-iannus; canys yr oedd rhandir y llwyth hwn yn dra manteisiol i farsandiäeth, trwy fod iddo lawer o borthleoedd, Gen. xlix. 13. *A thi, Issacar, yn dy bebyll*—mewn amaethydd-iaeth, neu orchwylion cartrefol. Y mae y

eife, Ymlawenycha, Zabulon, yn dy fynediad allan; a *thi*, Issacar, yn dy bebyll.

19 Galwant bobloedd i'r mynydd; yna yr aberthant ebyrth cyfiawnder: canys cyfoeth y moroedd a signant, a chuddiedig drysorau y tywod.

20 ¶ Ac am Gad y dywedodd efe, Bendigedig yw eangydd Gad: megys llew y mae efe yn aros, fel y rhwygo efe yr ysgwyddog a'r pen.

21 Edrychodd am dano ei hun yn y dechread; canys yno, yn rhan y cyfreithiwr, y gosodwyd ef: efe a ddaeth

rhai hyn yn cael eu cysylltu yma am eu bod yn frodyr cyfain, o'r un fam a thad.

Adn. 19. *Galwant bobloedd*] Hyny yw, llwyth *Zabulon* a alwant bobloedd, canys am dano ef y llefarir yma. *I'r mynydd*—i'r deml, yr hon y gwyddai Moses y byddai iddi gael ei hadeiladu ar fynydd. *Yna yr aberthant ebyrth cyfiawnder*—y rhai y mae Duw yn gyfiawn yn eu gofyn. Hyny yw, bydd llwyth *Zabulon* yn offerynuau yn llaw Duw i droi llawer o'r Cenedloedd amgylchynol i'r wir ffydd; fel, yn lle aberthu i eilunod, yr aberthant ebyrth cyfiawnder i Dduw. *Cyfoeth y moroedd a signant*—hwy a ymgyloethogant trwy farsandiäeth â'r Cenedloedd. *A chuddiedig drysorau y tywod*—gall hyn arwyddo, (1) Mwnau aur ac arian, y rhai a geir weithiau yn gymysg â thywod neu raian. (2) Perlau, coral, ambyr, y rhai a gesglir o waelodion tywodlyd y môr. (3) Gweddillion llong-ddrylliadau. Neu, (4) Tywod o'r hwn y gwneid gwydr. Y mae amrai o'r hen ysgrifenywyr yn sierhau fod tywod gwydrawl i'w gael ar gyffiniau llwyth *Zabulon*, a bod y drefn o'i droi yn wydr yn hysbys i'r llwyth hwn: gwel *Tacitus*, *Pliny*, *Jonathan ben Uzziel*, *Le Clerc*, &c.

Adn. 20. *Bendigedig yw eangydd Gad*] Gan fod gwaredigaeth o gyfyngder yn cael ei galw yn *eangiad*, (Salm iv. 1.) gall fod yma gyfeiriad at waith Duw yn gwaredu llwyth *Gad* o'r cyfyngder a grybwyllir Gen. xlix. 19; at yr eangiad a gafwyd trwy *Jephtha*, Barn. xi. 33; ac at y buddngoliaethau a gafodd *Gad* a *Reuben* ar yr *Hagaraiad*, i Cron. v. 17—22. *Megys llew y mae efe yn aros*—yn gryf a diogel, ac yn ddychryn i'w elynion pan aflonyddont ei. *Fel y rhwygo efe yr ysgwyddog a'r pen*—eisteddle eu nerth a'u coron; hynny yw, eu milwyr a'u brenin.

Adn. 21. *Edrychodd am dano ei hun yn y dechread*] Neu gofalodd am y rhandir cyntaf iddo ei hun. *Yno, yn rhan y cyfreithiwr, y gosodwyd ef*—sef yn y rhandir a benodwyd iddo gan *Moses*, y *deddfroddwr* Iuddegw: gwel ar Num. xxxii. 33, &c. Neu gall fod y rhandir tubhwt i'r Iorddonen yn cael ei galw yn 'rhan y cyfreithiwr,' am mai dyma yr unig ran o wlad yr addewid ag y goldefwyd i *Moses* fyped iddi. *Efe a ddaeth gyda phenaeithiaid y bobl*—sef tywysogion y llwythau ereill; *gwnaeth efe gyfiawnder yr Arglwydd*—

gyd a phenaethiaid y bobl; gwnaeth efe gyfiawnder yr Arglwydd, a'i farn-edigaethau gydag Israel.

22 ¶ Am Dan hefyd y dywedodd, Dan yn genaw llew a neidia o Basan.

23 ¶ Ac am Naphtali y dywedodd, O Naphtali llawn o hawddgarwch, a chyflawn o fendith yr Arglwydd: meddianna di y gorllewin a'r deau.

24 ¶ Ac am Aser y dywedodd, Bendithier Aser â phlant: bydded gymeradwy gan ei frodyr; ac efe a wlych ei droed mewn olew.

cynorthwyodd hwynt i ddiwreiddio yr hen Ganaanaeaid, yn ol arfaeth a briaid cyfiawn yr Arglwydd: gwel ar Num. xxxiii.

Adn. 22. *Dan yn genaw llew a neidia o Basan*] Yr oedd Basan, yn ol y deonglwy'r Iudewig, yn lle ag y cyrechid iddo yn aml gan *lewod*, y rhai a aent oddiyno i bob parth i edrych am ysglyfaeth. Wrth hyn ond odid y briwaiad Moses nodi allan nerth a dewrder y llwyth hwn; y byddai iddo eangu ei diriogaethau, a byw math ar fywyd ysglyfaethus. Ymddengys oddiwrt Jos. xix. 47, nad oedd y rhan a benodwyd yn wreiddiol i'r llwyth hwn yn ddigon iddynt; o ganlyniad cawn hwynt yn myned allan i ryfel yn erbyn *Lešem*, ac yn ei chymeryd hi. gan ei chwaneu at eu tiriogaethau, a'i galw ar enw eu llwyth.

Adn. 23. *O Naphtali, llawn o hawddgarwch, &c.*] Er y gall hyn gyfeirio at ffirwythlondeb mawr y wlad a sythiodd i'r llwyth hwn, eto y mae yn sicr fod rhywbeth mwy yn cael ei ffruiadu. Prin y cafodd un o'r llwythau ei ffafrio yn fwy neillduol trwy ryfedd drugaredd a thiriondeb Duw, na hwn a llwyth Zabulon. Darfu i lewyrth efengyl gogoniant Crist dywynu yn ddysglaer yma, Mat. iv. 13, 15, 16. Yr oedd trigfa benaf Crist yn *Nghapernaum* yn y llwyth hwn, Mat. ix. 1, Marc ii. 1; ac y mae y ddinas hon, trwy drigiad cyson Crist, a'r gwyrthiau neithol a wnai efe ynddi, yn cael ei harddangos fel wedi ei 'dyrchafu hyd y nef,' Mat. xi. 23. Ac addefir yn gyffredinol fod yr apostolion yn benaf o lwyth Naphtali, y rhai oeddynt i *feddianu y gorllewin a'r deau*—i daenu yr efengyl trwy yr holl lwythau ereill. Y mae y gair *yam*, yr hwn a gyfeithir yma yn *orllewin*, yn llythyrenol yn arwyddo *môr*, ac ond odid yn cyfeirio at fôr Genesaret, yr hwn oedd yn y llwyth yma.

Adn. 24. *Bendithier Aser â phlant*] Boed iddo gael hiliogaeth luosog a chynyddol. *Bydded gymeradwy gan ei frodyr*—mewn perffiaith heddwch ac undeb gyda'r llwythau ereill. *Efe a wlych ei droed mewn olew*—a gaiff y fath helaethrwydd o olew, ac o holl gysuron bywyd, nes y byddant fel yn dylifo dan ei draed: gwel ar Gen. xlix. 20.

Adn. 25. *Haiarn a phres fydd dan dy esgid di*] Y mae rhai yn meddwl fod hyn yn cyfeirio at fswngloddiau haiarn ac efydd yn eu rhandir hwy; a thybia ereill ei fod yn cyfeirio at eu tuedd ryfelgar, am fod csgidiau a botasau haiarn, pres, ac alcan, yn cael eu def-

25 Haiarn a phres fydd dan dy esgid di; a megys dy ddyddiau y bydd dy nerth.

26 ¶ Nid oes megys Duw Israel, yr *hwn* sydd yn marchogaeth y nefoedd yn gymhorth i ti, a'r wybrenau yn ei fawredd.

27 *Dy* noddfa *yw* Duw tragwyddol, ac additanodd *y mae* y breichiau tragwyddol: efe a wthia dy elyn o'th flaen, ac a ddywed, Dyfethia ef.

28 Israel hefyd a drig ei hun yn ddiogel: ffynnon Jacob a fydd mewn

nyddio gan yr hen ryfelwyr. Yr oedd gan Goliath fotasau pres am ei draed, 1 Sam. xvii. 6. *A megys dy ddyddiau y bydd dy nerth*—beth bynag fydd dy gyfyngderau a'th brofedigaethau, bydd i mi bob amser roddi i ti ras i'th neuthu a'th ddwyn trwyddynt. Neu gall y geiriau arwyddo na chaent hwy, yn ystod eu bodolaeth fel llwyth, gyfarfod âg unthyw anfodiau hynod, ond y byddai iddynt barhau yn eu llawn nerth.

Adn. 26. *Nid oes megys Duw Israel*] Ar ol i Moses orphen yr hyn a roddodd Duw iddo i'w ragddywedyd am bob un o'r deuddeg llwyth ar wahan, a'r hyn yr arweinwyd ef yn nghyflawnder ei galon i weddio am dano iddynt hwy, y mae efe yn awr yn cyfarh yr holl lwythau yn nghyd, ac mewn awd o rym a phrydferthwch dihafal yn darlunio y bobl ryfeddol hyn, a'u breintiau rhyfeddch fyth. Er fod y rhan olaf o'r benod hon yn ymddangos ar ffurf *rhyddiaith* yn ein Beiblau ni, eto cafodd ei hysgrifieu yn *linellau mydrawl byrion* yn y wreiddiol, yr hon yw y ffurf yn mha un yr ysgrifenis pob pryddest Hebreig. *Yr hwn sydd yn marchogaeth y nefoedd yn gymhorth i'th*—yr hwn, wrth anfon cymhoith i ti, sydd yn marchogaeth y nefoedd gyda'r rhwysg a'r ardderchogrwydd mwyaf, ac yn eu gwneyd yn wasanaethgar i'w ewylllys, trwy ddefnyddio taranau, a mellu, a chenllusg, a holl eifw yr wybrenau, o'th blaid! Y rhai hyn oll a lywodraethir ac a gyfeiir ganddo ef, fel y gwna dyn â'r march y byddo yn ei farchogaeth.

Adn. 27. *Dy noddfa*] Dy breswylfa neu dy drigfa, yn mha un yr wyt yn ddiogel; *yw Duw tragwyddol*—yr hwn oedd cyn pob peth, ac a fodola pan na byddo amser mwych: gwel ar Gen. xxi. 33. *Additanodd y mae y breichiau tragwyddol*—hollalluog nerth ac anfeidrol ddaioni Duw. Gan fod *braich* yn arwyddo *nerth*, a nerth mewn cyflwr o *ymegniad*, y mae y geiriau hyn yn dangos y caiff nerth annherfynol ac anorchfygol ei arferyd yn dragwyddol mewn amddiffyniad i eglwys Dduw, ac ar ran pawb a ymddiriedant ynddo ef. *Efe a wthia dy elyn o'th flaen*—efe a yra allan y Canaanaeaid, ac a wna le i ti yn eu gwlad hwy. *Ac a ddywed, Dyfethia ef*—hyny yw, efe a ddyry i ti allu, yn gystal ag awdurdod, i'w diwreiddio hwynt. Fel hyn hefyd y gwthia efe beched o flaen y credinwyr.

Adn. 28 *Israel hefyd a drig ei hun yn ddiogel*] Naill ai, (1) Yn ddiogel, er eu bod ar en penau eu hunain, heb gynghreirwyr i'w hau-

tir yd, a gwin; ei nefoedd hefyd a ddyfera wllth.

29 Gwynfydedig wyt, O Israel; pwy sydd megys ti, O bobl gadwedig gan yr Arglwydd, tarian dy gynhorthwy, yr hwn hefyd yw cleddyf dy ardderchogrwydd! a' th eynion a ymostyngant i ti, a thi a sethri ar eu huchel-leoedd hwynt.

PENNOD XXXIV.

A MOSES a esgynodd o rosydd Moab, i fynydd Nebo, i ben Pisga, yr hwn sydd ar gyfer Jericho: a'r Arglwydd a ddanghosodd iddo holl wlad Gilead hyd Dan,

ddiffyn, acer fod pawb yn eu herbyn; neu (2) Ar wahan ac yn ddiodeledig oddiwrth holl genhedloedd ereill y ddaear: gwel ar Num. xxiii. 9. *Ffynnon Jacob*—sef ei hiliogaeth ef, a *fydd mewn tir yd a gwin*—a feddiannant wlad dra ffrwythlon; ac felly yr oedd Palestina. *Ei nefoedd hefyd a ddyfera wllth*—bydd i'r nwyfre ag sydd uwchben ei wlad ef ei dwrfhau a'i gwllthio, fel ag i'w gwneyd yn ffrwythlon mewn yd, gwin, a phob cynyrch angenrheidiol arall.

Adn. 29. *Gwynfydedig wyt, O Israel!* *Ashrey*, 'Oh wynfydedigrwydd Israel!' O ddiffyg geiriau addas i fynegu eu gwynfydedigrwydd hwy, y mae Moses yn tori allan i'w hoff-ryfeddu ef. *Pwy sydd megys ti*—wedi eu breintio mor uchel, *O bobl gadwedig gan yr Arglwydd!*—yn meddu y fath gadwedigaeth, nodded, ac amddiffyniad ag y gweddai i berffethiau amfeidrol Duw eu rhoddi. *Tarian dy gynorthwy*—gan yr hwn y' th gynorthwyr ac y' th ddiogelwr yn ddiogol rhag holl ymosodiadau dy elynion. Neu, y mae rhai yn darian hyd yn nod i'w 'cynorthwy' hwy, gan awddiffyn eu hamddiffyniad, a'u cadw mewn cyflwr o gadwedigaeth. *Yr hwn hefyd yw cleddyf dy ardderchogrwydd*—neu 'dy gleddyf ardderchog,' hyn yw, dy nerth, ac awdwr dy holl fuddugoliaethau. Ond y mae rhai yn ei ddeall am ALL Duw, yr hwn yw *ardderchogrwydd* Israel yn ei orchymynion, ei addewidion, a'i fgythlion: gwel ar Eph. vi. 17. *A' th eynion a ymostyngant i ti*—gau weled mai ofer yw ceisio dy wrthsefyll; neu, fel y mae yn y Saesonaeg, 'A' th eynion a geir yn *gelwyddog*'—y rhai a ddywedasant y gwnaent hwy dy ddyfetha di, neu o leiaf na wnaent fyth ymostwng i ti. *A thi a sethri ar eu huchel-leoedd hwynt*—a lwyrr orchfygi eu temlau, eu palasau, a'u dinasoedd caerog cryfaf. Fel hyn, gredinwyr, 'Duw y tangnefedd a sathr Satan dan eich traed chwi,' a hyn y 'ar frys,' Rhuf. xvi. 20. Dyma y geiriau olaf a ysgrifennodd Moses erioed: gwel isod.

PEN. XXXIV. Adn. 1. *A Moses a esgynodd*] Pan wybu Moses le ac amser ei farwolaeth, efe a aeth i fyny yn ewyllysgar iddo. Nid oes ar y rhai ag sydd yn dra chydnybuddus â byd arall, ofn ymadael â hwn. *O rosydd*
638

2 A holl Naphtali, a thir Ephraim a Manasse, a holl dir Juda, hyd y môr eithaf,

3 Y deau hefyd, a gwastadedd dyffryn Jericho, a dinas y palmwydd, hyd Soar.

4 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Dyma y tir a fynegais i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, gan ddywedyd, I' th had di y rhoddaf ef; perais i ti ei weled a' th lygaid, ond nid ai di drosodd yno.

5 ¶ A Moses gwas yr Arglwydd a fu farw yno, yn nhir Moab, yn ol gair yr Arglwydd.

6 ¶ Ac efe a'i claddodd ef mewn

Moab—lle yr oedd eu gwersyllfa olaf cyn iddynt groesi i Ganaan, Num. xxxiii. 49, 50. *I ben Pisga*—yr hwn oedd y copa uwchaf o'r mynyddau hyn: gwel ar Num. xxvii. 12. Ac oddiyma galluogodd Duw ef i gael golwg fanol ar wabauol ranau gwlad Canaan. *Ilyd Dan*—hyd at y ddinas hono, yr hon ar ol marwolaeth Moses a alwyd felly, Jos. xix. 47. Y mae y crybyylliad am *Dan* yn yr adnod hon, a'r hanes am farwolaeth a chladdedigaeth Moses, a rhai pethau neillduol ereill ar ol iddo ef adael y byd, adn. 5—10, ym cwpl eglur nad ysgrifenyddwyd y bennod hon gan Moses, eithr yn debygol gan Josua, Ezra, Samuel, neu ryw un arall o'r profwydai ar ei ol ef. Y mae llawer yn barnu y dylasai y bennod hon fod y *gyntaf* o lyfr *Josua*.

Adn. 2. *A holl Naphtali*] Sef holl dir Naphtali, yr hwn gyda Dan oedd yn ngogledd Canaan, megys yr oedd thir Ephraim a Manasse yn y parthau canol-dirawl, a thir Juda yn y deau, a'r môr yn y gorllewin. Felly y mae y parthau hyn, trwy eu bod yn gorwedd yn y gwahanol chwarteri, yn cael eu rhoddi am y lleill oll. Yr oedd ef yn sefyll yn y dwyrain, ac oddiyno efe a welai y gogledd, y deau, a'r gorllewin. *Y môr eithaf*—sef môr y-canoldir, yr hwn oedd terfyn eithaf gwlad yr addewid yn orllewinol.

Adn. 3. *Y deau hefyd*] Rhan ddeheuol thir Juda, pa un sydd tua'r môr heli. *Dinas y palmwydd*—Jericho, yr hon a elwir felly oddi wrth y llauws palmwydd ag oeddynt yn y parthau hyn, fel y sylwa Josephus a Strabo.

Adn. 4. *Perais i' th weled a' th lygaid*] Er fod ei olwg ef yn dda, eto nis gallasai weled Canaan oll, tua 160 o filldroedd o hyd, a 50 neu 60 o led, oni buasai i'w olwg gael ei gynorthwyo a'i eangu yn wyrthiol. Efe a'i gwelodd hi o bell. Y fath oedd golwg credinwyr yr Hen Testament ar deyrnas y Messia, a'r fath yw golwg y credinwyr yn awr ar y gogoniant a ddatguddir yn y millfwyddiant. Diamau y bydd i'r rhai a ddeuant ar ein hol ni gael myned i'r wlad addawedig hono; yr hyn sydd yn gysur i ni wrth gael ein celaneddu ein hunain yn syrthio yn yr anialwch hwn.

Adn. 5. *A Moses gwas yr Arglwydd a fu farw yno*] Sef ei 'wae fyddlon yn ei boll dy,' Num. xii. 7. Ni allai ei dduwioldeb na'i

glyn yn nhir Moab, gyferbyn â Beth-peor: ac nid edwyn neb ei fedd ef hyd y dydd hwn.

7 ¶ A Moses *ydoedd* fab ugain mlwydd a chant pan fu efe farw: ni thywyllasai ei lygad, ac ni chiliasai ei ireidd-dra ef.

8 ¶ A meibion Israel a wylasant am Moses yn rhosydd Moab ddeng niwrnod ar hugain: a chyflawnwyd dyddiau wylofain galar am Moses.

9 ¶ A Josua mab Nun *oedd* gyflawn o ysbryd doethineb; o herwydd Moses a roddasai ei ddwyllaw arno: a

ddefnyddioldeb ei esgusodi ef rhag dyrnod angau. Rhaid i weision Dduw farw, fel y gallont orphwys oddiwrth eu llafur, derbyn eu gwobr, a rhoddi lle i ereill: oad pan y maent yn myned ymaith, y maent yn myned i'w wasanaethu ef yn well, i'w wasanaethu ef ddydd a nos yn ei deml,' Dat. vii. 15. *Yn ol gair yr Arglwydd—at pi Ychovah.* 'wrth enau Jehofa.' Dywed yr Iudewon i Dduw sugno ei enaid ef allan o'i gorff â chusan; a diamau iddo farw yn nghoffeidiadau ei gariad. Ond y mae rhai yn deall hyn, 'yn ol *gorchymyn* yr Arglwydd,' neu y *ddedfryd* fod iddo farw yn yr anialwch.

Adn. 6. *Ac efe a'i claddodd ef mewn glyn yn nhir Moab*] Yn debygol trwy weinidogaeth angylion, yr hyn a wnai ei gladdedigaeth ef, er yn ddirgel iawn, eto yn ardderchog iawn. Pau fu Moses farw, *claddodd* Duw ef; ond pan fu Crist farw, *cyfododd* Duw ef! canys yr oedd deddf Moses i ddiwedd, ac efengyl Crist i barhau. *Gyferbyn â Beth-peor*—ond odid i ddysgu i ni beidio bod yn rhy bruderus yn nghylch lle ei claddedigaeth. Eithr dywed un o'r alleirwyr Caldeiaidd ddarfod ei gladdu yma, 'fel pa bryd bynag yr ymfrostitai Baal-peor fod yr Israeliaid wedi ymgysyllachu âg ef, y byddai bedd Moses gyferbyn â'i deml yn attaliad iddo.' *Ac nid edwyn neb ei fedd ef hyd y dydd hwn*—prawf arall fod y geiriau hyn wedi eu hysgrifenu yn hir ar ol ei farwolaeth ef. Gall fod dau reswm dros hyn: (1) Rhag i'r Israeliaid, y rhai oeddynt dueddol i eilunaddolaeth, dalu anrhydedd dwyfol iddo ef. (2) A rhag i'r rhai a ymfynent â'r meirw ei aflonyddu ef, fel y darfu i'r ddewines o Endor aflonyddu Samuel, 1 Sam. xxviii. 7, &c.

Adn. 7. *Ni thywyllasai ei lygad*] Hyd yn nod yn yr oedran mawr o chwech ugain mlynedd; a phau yr oedd oes dyn, fel y dywed Moses hun, wedi ei lleihau yn ddiweddar i ddeng mlynedd a thriugain, Salm xc. 10. *Ac ni chiliasai ei ireidd-dra ef*—eithr yr oedd fel *gŵr ieuanc* hyd yn nod mewn *henaint*, er maint y caledi digyffelyb ag yr aethai efe trwyddo. Yr oedd yn gallu gwledd, clywed, cerdded, siared, ac ysgrifenu, cystal ag erioed; ac yr oedd ei gof mor gryf a'i ddeall mor gyf-

meibion Israel a wrandawsant arno, ac a wnaethant fel y gorchymynasai yr Arglwydd wrth Moses.

10 ¶ Ac ni chododd proffwyd eto yn Israel megys Moses, yr hwn a adnabu yr Arglwydd wyneb yn wyneb:

11 Yn mhob *rhyw* arwyddion a rhyfeddodau, y rhai yr anfonodd yr Arglwydd ef i'w gwnenthur yn nhir yr Aifft, ar Pharao, ac ar ei holl weision, ac ar ei holl dir ef,

12 Ac yn yr holl law gadarn, ac yn yr holl ofn mawr, y rhai a wnaeth Moses yn ngolwg holl Israel.

lym ag erioed: a dywed rhai o'r Iudewon nad oedd ef wedi colli un o'i ddannedd, nad oedd ei wyneb wedi crychu, a bod dysgleirdeb ei wynebpryd yn parhau hyd y diwedd. Mewn trugaredd i'r eglwys, ac er cynaliaeth i'r achos mawr a ymddiriedwyd iddo ef, cafodd holl gyneddffau ei gorff a'i feddw eu cadw iddo hyd awr ei farwolaeth.

Adn. 8. *A meibion Israel a wylasant am Moses, yn rhosydd Moab, ddeng niwrnod ar hugain*] Gwel ar Gen. l. 10. Y mae yn ddyled ag sydd arnom i anrhydedd enwogion trengedig, fod i ni eu dylyn hwy â'n dagrau, a bod yn deimladwy o'u colled o honnynt, ac ymostwng am y pechodau a gythruddasant Dduw i'n hamddifadu ni o'u cyfeillach.

Adn. 9. *O herwydd Moses a roddasai ei ddwyllaw arno*] Trwy yr hyn, yn nghyda gweddïau Moses drosto, y derbyniodd Josua gyflawnder o ysbryd doethineb oddiwrth yr Ysbryd Glân: gwel ar Num. xxvii. 18—23.

Adn. 10. *Ac ni chododd proffwyd eto yn Israel megys Moses*] Yn mhlith yr holl broffwydi dylynol ni chaed neb mor enwog yn mhob ystyr, nac wedi ei freintio mor uchel, a Moses: llefarai Duw wrtho ef *wyneb yn wyneb*—caniatâi iddo yr adnabyddiaeth agosaf a'r cyfeillgarwch mwyaf âg ef ei hun, Num. xii. 8. Gellir meddwl oddiwrth yr adnod hon befyd fod y bennod yma wedi cael ei hysgrifenu yn hir ar ol marwolaeth Moses, ar ol i nifer mawr o broffwydi godi yn Israel, a chael eu profi islaw iddo ef. Ac fel hyn y bu gyd a'r holl broffwydi hyd ddyfodiad Iesu Crist, am yr hwn y dywedodd Moses, 'Yr Arglwydd dy Dduw a gyfyd i ti o'th blith dy hun, o'th frodyr dy hun, Broffwyd megys *sinau*, pen. xviii. 15. Am y tebygolrwydd rhwng Crist a Moses, gwel y sylwadau yn niwedd pen. xviii.

Adn. 11. *Yn mhob rhyw arwyddion a rhyfeddodau*] Sef y gwyrthiau rhyfeddol a wnaeth efe yn yr Aifft: gwel ar pen. iv. 34. Ni wnaeth un proffwyd dynol arall ddim erioed yn debyg i'r rhai hyn.

Adn. 12. *Y rhai a wnaeth Moses yn ngolwg holl Israel*] Yn gyhoeddus a didwyll, er gwardedigaeth i Israel a gogoniant i Dduw. AMEN.

ADAM EVANS, ARGRAFFYDD, MACHYNLLETH.






BS
308
1858
v.1

Bible. Welsh. 1858
Y Deonglydd berniadol

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

UTL AT DOWNSVIEW



D RANGE BAY SHLF POS ITEM C
39 12 04 15 12 012 1